NEDL TRANSFER
HN 6ZLL U

Cyc 210
KH26

Harvard College Library

BOUGHT WITH INCOME

FROM THE BEQUEST OF

HENRY LILLIE PIERCE,

OF BOSTON.

Under a vote of the President and Fellows,
October 24, 1898.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG.

Y GWAITH CENEDLAETHOL PWYSICAF

YN YR

## Iaith Gymraeg.

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY,
A SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU,

GAN Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

Digitized by Google

## LLYTHYRAU O GANMOLIAETH I'R GWAITH.

It seems to me a Work of great promise......I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.

JOHN WILLIAMS,
*Bognor, Sussex.* *Archdeacon of Cardigan*, &c.

Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.

*Llundain.* THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.

*Llanfyllin.* DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.

*Llundain.* OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.

*Llanbrynmair.* SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.

*Llandeilo.* JOHN JONES, *Gwein. Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.

*Aberdâr.* THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. PARRY estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'tywyd o feirw.'

*Amlwch.* WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw y '*Gwyddoniadur*.'.....Daeth allan fel cawr grymus.

*Liverpool.* WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o dadlu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.

*Cendl.* THOMAS REES.

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os ä yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.

*Athrofa Pont-y-pool.* T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.

*Bangor.* JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori ag ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.

*Liverpool.* HENRY REES.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.

*Thrussington.* JOHN OWEN, *Rural Dean.*

---

## CYMMERADWYAETHAU Y WASG.

*Yr Amserau.*—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Sion-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

*Y Bedyddiwr.*—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

*The Carnarvon Herald.*—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*''

*Y Cronicl.*—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

*Y Cylchgrawn Cymreig.*—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur*.'

*Y Diwygiwr.*—'Y mae yn ddiau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

*Y Drysorfa.*—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwbleiddio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. PARRY, fel golygydd, yn sicrhad i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

*Y Dysgedydd.*—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

*Yr Eurgrawn.*—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fynu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

*Y Gwron.*—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'

*Y Seren Gomer.*—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

*Y Traethodydd.*—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, pupur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

*Y Wasg.*—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur*.'

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

# MAP DAEAREGOL O'R BYD.

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

| | |
|---|---|
| Antarctic Circle | Cylch y Deheu. |
| Arctic Circle | Cylch y Gogledd. |
| Asia Minor | Asia Leiaf. |
| Atlantic Ocean | Môr y Werydd. |
| Australia | Awstralia. |
| Barrow Str. | Culfor Barrow. |
| Behring Str. | Culfor Behring. |
| Black Sea | Y Môr Du. |
| British Columbia | Columbia Brydeinig. |
| Cape Colony | Trefedigaeth y Penrhyn. |
| Caribbean Sea | Môr Caribea. |
| Central America | Canolbarth America. |
| Davis Str. | Culfor Davis. |
| England | Lloegr. |
| Equator | Y Cyhydedd. |
| France | Ffraingc. |
| Friendly Is. | Ynysoedd Cyfeillgar |
| Germany | Yr Almaen. |
| Grt. Slaves Lake | Llyn Mawr y Caethweision. |
| Great Bear | Yr Arth Mawr. |
| Iceland | Ynys yr Iâ. |
| Ireland | Yr Iwerddon. |
| Italy | Yr Ital. |
| Mediterranean Sea | Môr y Canoldir. |
| Melville Sound | Basfor Melville. |
| New Caledonia | Caledonia Newydd. |
| New Guinea | Guinea Newydd. |
| New Hebrides | Yr Hebrides Newydd. |
| New South Wales | Deheudir Cymru Newydd. |
| New Zealand | Zealand Newydd. |
| Pacific Ocean | Y Cefnfor Tawelog. |
| Rocky Mts. | Mynyddoedd Creigiog. |
| Russia | Rwssia. |
| Scotland | Ysgotland. |
| South Australia | Awstralia Ddeheuol. |
| Spain | Yspaen. |
| Tropic of Cancer | Trofan y Cranc. |
| Tropic of Capricorn | Trofan yr Afr. |
| United States | Yr Unol Dalaethau. |
| Wales | Cymru. |
| Washington Land | Tiriogaeth Washington |
| Western Australia | Awstralia Orllewinol. |

---

Y MAE map y byd yn dangos i ni pa ran o hono sydd yn dir, a pha faint sydd dan ddwfr, y blynyddoedd hyn. Y mae ei sefyllfa yn bresennol, yn ddiau, yn gwahaniaethu oddi wrth yr hyn oedd mewn cyfnodau blaenorol. Ond nid ydyw mewn un modd i'w ystyried yn barhaol ac yn sefydlog; o herwydd y mae cyfnewidiadau wedi cymmeryd lle o fewn y ganrif hon, fel yn y canrifoedd blaenorol, drwy fod y tir yn cael ei wisgo i lawr, a'r môr mewn canlyniad yn ennill arno; ac mewn amgylchiadau eraill dygir cyfnewidiadau o amgylch drwy suddiad, neu gyfodiad ac eangiad, y tir ei hun.

Y mae arwyneb y ddaear yn ddarostyngedig hefyd i gyfnewidiadau fferyllol, cyfluniol, a gallofyddol parhaus; ac felly y mae wedi bod, fel y mae yn eithaf eglur, yn yr amseroedd a aeth heibio. Yn wir, mor bell ag y mae sylw manwl ac eang ar ffeithiau yn myned, gellir meddwl nad oes un llanerch ar wyneb y ddaear, sydd yn cael ei phoblogi yn bresennol, nad ydyw, mewn rhyw gyfnod blaenorol, wedi bod dan ddyfroedd y môr. Y mae yr hen lwybrau hyn o eiddo y moroedd, ar ol derbyn gwaddodion cyfandiroedd hynach, ar amryw adegau wedi ymgodi uwch law arwyneb y dwfr i'r safleoedd y maent yn eu meddiannu yn bresennol; tra y mae cyfandiroedd ac ynysoedd blaenorol wedi diflanu o'r golwg, ac yn gorwedd yn awr dan ddyfroedd y cefnforoedd.

Y mae yr unig wybodaeth a feddwn o hanes y cyfnewidiadau hyn yn ddeilliedig oddi wrth olrheiniad a wneir ar safleoedd perthynasol a chynnwysiad ffosylaidd y creigiau a'r haenau sydd yn bresennol yn ffurfio gwyneb caled y cyfandiroedd a'r ynysoedd.

Yn ol syniadau daearegwyr y dyddiau hyn, y mae trefn a sefyllfa yr haenau sydd yn ffurfio crystyn y ddaear yn dangos fod gwaddodiadau (*deposits*) gwahanol wedi cymmeryd lle, y naill ar ol y llall, mewn oesoedd dilynol. Y mae yr haenau ieuangaf gan hyny yn gorwedd nesaf i'r wyneb, yn ol eu hoed perthynasol. Ymddengys fod y ddeddf hon yn un gyffredinol dros holl wyneb y ddaear—mor bell ag y gellir adnabod yr haen oddi wrth nodweddion pennodol y gweddillion ffosylaidd sydd yn perthyn iddi. Weithiau, y mae cynnhyrfiadau mawrion wedi cymmeryd lle, fel y mae yr haenau wedi eu symmud o'u lleoedd priodol—fel yn yr Alpau yn Ewrop, ac yn yr Alleghanies yn Ngogledd America. Nid ydyw yr holl ffurfiadau i'w cael yn mhob cymmydogaeth, na'r un trwch yn yr haenau, na'r un defnyddiau mwnawl yn fanwl chwaith yn eu cyfansoddi. Y mae ffurfiadau cyfain hefyd, weithiau, heb fod i'w cael mewn dosbarthiadau eang. Er enghraifft, nid ydyw y gronellfaen (*oolite*) i'w chael yn y rhan fwyaf o lawer o Ogledd America; ac ni cheir glo, na marm, na'r trydydd ffurfiadau dros ardaloedd eang eraill.

Gwaith anhawdd fyddai cyffredinoli (*generalize*), gydag un gradd o gywirdeb, ddosbarthiad yr amrywiol ffurfiadau sydd ar grystyn y ddaear. Y mae creigiau ithfaenol, gyda'r haen cyntefig (*primary*) o lechfaen sydd yn eu dilyn, i'w cael yn gyffredin yn y rhan fwyaf o drumiau eang o fynyddoedd a bwrdd-diroedd y byd sydd o ffurfiad hynafol. Yn yr Hen Fyd, yn gystal ag yn y Newydd, y maent i'w cael yn cwmpasu yr ardaloedd o amgylch y pegwn gogleddol, ac yn ymestyn yn ddarnau mawrion tua'r deheu, yn mhell y tu hwnt i gylch y gogledd. Y mae gorynys Scandinavia, cadwen Mynyddoedd yr Ural, Greenland (mor bell ag yr ydys yn ei hadnabod), a gogledd-orllewin America, yn gystal ag ardaloedd gogleddol a gogledd-ddwyreiniol Asia, yn cael eu gwneyd i fyny o'r ffurfiadau cyntefig hyn, ac yn ymgodi yn fynych yn fynyddau o gryn uchder. Ond y mae cyfran fawr o Asia Orllewinol, yr oll o Rwssia yn Ewrop, cyffiniau eang yr afon Danube, gorllewin Germany, Belgium, Holland, a Ffraingc, yn gynnwysedig o haenau o'r ail a'r trydydd ffurfiad (*secondary and tertiary formations*). Drachefn, y mae cadwen yr Alpau, y Pyrenees, y Balkans, a'r Taurus, a groesant eu gilydd yn rhan ddeheuol a dwyreiniol Ewrop, yn Asia Leiaf, a Phersia, a Mynyddoedd yr Himalaya, a Tibet, yn estyn y gadwen ithfaenol i China a dwyrain Asia. Ymddengys fod rhan fawr o ganolbarth a deheubarth Affrica yn ithfaenol; yn yr hanner gogleddol, y mae haenau o'r ail a'r trydydd ffurfiad yn gyffredin. Yn yr America, y mae cadwen o'r ffurfiad cyntaf o fynyddoedd yn ymestyn ar hyd ystlysau dwyreiniol a gorllewinol y cyfandir, ac yn tori y

Digitized by Google

cyfandir hwnw i'r ddau hanner mawr y mae wedi ei ddosbarthu iddynt. Yn nghanolbarth ardaloedd y Mississippi, y mae glô yn dilyn haenau Siluriaidd mwy hynafol y gogledd; ac yn y rhan deheuol, ceir marm a chreigiau calch yn helaeth. Yn Neheubarth America, y mae dyffrynoedd mawr y canolbarth yn cael eu gwneyd i fyny yn mron yn hollol o haenau marianol, a chreigiau o'r trydydd dosbarth.

Y mae yn sicr fod glô o amrywiol ansoddau wedi ei ddosbarthu dros lawer o ardaloedd y byd; ond mor bell ag y mae darganfyddiadau wedi eu gwneyd hyd yn hyn, ymddengys fod un cylch (*zone*) lle y mae y sylwedd gwir ddefnyddiol hwn wedi ei ystorio i fyny ynddo mewn mwy o gyflawnder a helaethrwydd na'r lleill. Y mae y cylch hwn o fewn yr arddrych gogleddol—yn dechreu ynghylch cyllinell 30°, ac yn ymestyn hyd i 55° neu 60°. Dyma y rhan o'r byd sydd wedi ei boblogi liosocaf, ac sydd wedi ei wareiddio fwyaf; ac ynddo hefyd y mae y gwledydd hyny lle y mae mwyaf o fywiogrwydd yn mysg eu preswylwyr, a lle y gwneir mwyaf o waith. Cynnwysa y cylch hwn hefyd y gwledydd y mae eu tymmeredd yn fwyaf amrywiol, lle y mae helaethrwydd o danwydd yn hollol angenrheidiol i gyfleusderau a chysuron bywyd. Ymddengys nad oes ond ychydig mewn cymmhariaeth o lô yn yr ardaloedd trofanol, a bod y gwelyau o hono yn llai yn yr arddrych deheuol nag yn yr un gogleddol. Y mae meusydd glô yn lliosog yn Mhrydain Fawr. Y maent yn ymestyn hefyd i Belgium, Ffrainge, a'r Almaen; ac y mae meusydd helaeth o hono yn Rwssia, Sweden, a Hungary—er nad oes cymmaint o weithio wedi bod arnynt yno. Ceir glô hefyd yn Syria, a rhanau eraill o Asia Orllewinol, ac ar raddfa helaethach yn Hindwstan; hefyd yn China, Sumatra, Borneo, a dwyreinbarth Awstralia. Nid oes ond ychydig o lanerchi neillduol, hyd yr ydys wedi cael allan hyd yn hyn, o Ddeheubarth Affrica, nac unrhyw ran arall o'r cyfandir hwnw, yn cynnwys glô. A thrwy holl America Ddeheuol, nid oes ond ychydig o welyau o hono wedi eu darganfod etto. Ond yn America Ogleddol, gellir olrhain gwythïen neu faes eangfawr o hono oddi wrth gyffiniau y cylch gogleddol, ac yn agos i enau yr afon Mackenzie ar du y gogledd-orllewin, yn mlaen ar hyd llechweddau dwyreiniol y Mynyddoedd Creigiog i lawr hyd ddyffryn y Mississippi. Ac y mae yn y rhanau canolbarthol a dwyreiniol o'r ardaloedd eang sydd ar gyffiniau yr afon hon welyau dihysbydd yn mron o hono, ac o faen-lô (*anthracite*). Y mae helaethrwydd o lô yn Brunswick Newydd, Nova Scotia, a Newfoundland. Y mae mŵn haiarn, yr hwn sydd mewn gwirionedd yn werthfawrocach i ddyn nag aur, yn mron yn ddieithriad yn ymyl y glô. Cynnwysa Prydain Fawr a'r Iwerddon arwyneb o 2,779 o filldiroedd ysgwâr o feusydd glô. Cynnwysa Unol Dalaethau Gogledd America 196,800 o filldiroedd ysgwâr o lô a maen-lô; ac America Brydeinig dros 7,000 o filldiroedd ysgwâr o hono. Y mae y swm a godir o lô yn flynyddol yn Mhrydain Fawr yn mron yn gan miliwn o dyneli; a bernir fod hyn dros hanner yr holl swm a godir o hono drwy yr holl fyd. Y mae swm yr haiarn a wnaed y blynyddoedd diweddar yn Mhrydain dros bedair miliwn ac wyth gan mil o dynelli.

Prif ardaloedd mettelog y byd ydynt y cadwyni eang o fynyddoedd sydd o'r ffurfiad cyntaf; sef, y trumiau Carpathiaidd; yr Uralau; mynyddoedd Scandinavia; yr Harz, a mynyddoedd yr Almaen Uchaf; mynyddoedd Cernyw, Cymru, a'r Pennines, yn Mhrydain; y trumiau yn Tibet, China, Altai, a Stanovoi, yn Asia; yr Andes, yn neheubarth America; y Sierra Nevada; mynyddoedd Califfornia, ynghyd â'r trumiau cyssylltiol yn Ngogleddbarth America; a'r Cordillera yn ne-ddwyreinbarth a dwyrain Awstralia. Y mae mwngloddiau aur y ddwy wlad a enwyd olaf yn rhagori yn mhell ar fwngloddiau unrhyw ardaloedd eraill sydd wedi eu harchwilio ar wyneb y ddaear. Y mae adamant, a meini gwerthfawr eraill, i'w cael yn Brazil, ac hefyd yn nghanolbarth India, a rhanau eraill o Asia Ddwyreiniol.

Y mae parthau o'r ddaear yn arddangos arwyddion o weithrediadau llosgfalus (*volcanic*) sydd yn cymmeryd lle o'i mewn yn barhaus; ac mewn parthau eraill, ceir gweddillion ac arwyddion fod y gweithrediadau hyn wedi cymmeryd lle mewn cyfnodau a aethant heibio. Y llosg-fynyddoedd a olrheiniwyd gyntaf, a'r rhai y mae y byd yn fwyaf adnabyddus o'u henwau, ydyw y rhai a geir yn agos i Fôr y Canoldir—y rhai sydd yn ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin. Y Demavend, Ararat, Vesuvius, ac Etna, ydynt y rhai amlycaf yn y gadwen hon. Cynnwysir hefyd Mynyddoedd yr Azores, ac Ynysoedd y Canary, yn yr un rhestr. Ymestyna cadwen Môr y Werydd o ogledd i ddeheu, braidd mewn llinell fain unionsyth, am bellder o 2,870 o filldiroedd; ac yn mysg y llosg-fynyddoedd yn y llinell hon, gellir enwi Jan Mayen, Hecla, a llosg-fynyddoedd lliosog Ynys yr Iâ, Penrhyn Verde, Ascension, a St. Helena. Ar oror cyfandir Affrica y mae Jebel Toor, ger y Môr Coch, a llosg-fynyddoedd Ynys Bourbon, a'r Mauritius, yn nodi allan y gadwen losgfalus yn y cyfeiriad hwnw. Y mae yn Ynysfor Malay ddwy gadwen o'r llosg-fynyddoedd hyn:—Un yn cychwyn yn Ynysoedd Sunda, ac yn cynnwys Sumatra, Java, a Sumbawa, &c.; a'r llall yn cynnwys Ynysoedd y Philippines a Molucca, gan ymestyn i'r gogledd-ddwyrain, a chymmeryd i mewn Japan, Kurile, ac Ynysoedd Aleutia. Cynnwysa ardaloedd llosgfalus Polynesia fynyddoedd Hawaii, i'r gogledd o'r cyhydedd; a mynyddoedd Marquesas, yr Ynysoedd Cymdeithasgar, ac Ynys y Pasc, ar du y deheu i'r cyhydedd. Y gadwen Americanaidd ydyw y fwyaf; yr hon sydd yn ymestyn ar hyd glenydd gorllewinol y rhan ddeheuol o'r cyfandir mawr hwnw, gan ddechreu gyda Mynydd Sant Elias, yn lledred 60° gogleddol, ac yn ymestyn drwy Mexico a Pheru, gan derfynu ar ororau deheuol pellaf Deheubarth America. Y mae yn yr holl fyd, mor bell ag y gellir cyfrif, 270 o losg-fynyddoedd; y rhai sydd wedi bod, yn ystod y canrifoedd diweddar, yn llosgi yn achlysurol, neu ynte yn llosgi yn barhaus; ac y mae y rhan fwyaf o honynt, sef o ddeutu 190, yn yr ynysoedd sydd ar ororau y Cefnfor Tawelog.

Digitized by Google

# The Encyclopædia Cambrensis.

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG:

GAN

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCHEDIG JOHN PARRY, D.D.,

BALA.

YR AIL ARGRAPHIAD,

YN CYNNWYS

ERTHYGLAU NEWYDDION, A'R MANYLION DIWEDDARAF AR Y TESTYNAU AMRYWIOL SYDD YN Y GWAITH.

DAN OLYGIAD

THOMAS GEE.

Cyf. III.

DINBYCH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCXCI.

Digitized by Google

Cup 210

HARVARD COLLEGE
OCT 4 1902
LIBRARY.

Pierce Fund

Digitized by Google

# CYNNWYSIAD Y DRYDEDD GYFROL.

YMDDENGYS Erthyglau yn y tudalenau hyn ar Bersonau a gwahanol Wledydd y Byd, &c., gyda ffigyrau a llythyrenau o'u blaen. Wrth ddefnyddio y cynllun hwn, yr ydym yn gallu cynnwys y manylion diweddaf am danynt yn y Gwaith hwn.

Yn y gyfrol ddiweddaf, bydd *Taflen lawn* o'r holl Erthyglau a gynnwysir yn y "GWYDDONIADUR," wedi eu trefnu yn ol y wyddor, fel y bydd yn hawdd cael pob Erthygl fydd ynddo, yn mha gyfrol bynag yr ymddengys.


Tudal.

**Cabot, Sebastian** ... 109
Cabul ... 109
Cadell ... 103
Cadell ... 109
Cadell ab Geraint ... 103
Cadell Deyrnllwg ... 103
Cadell Deyrnllwg ... 103
Cadfan ... A 114
Cadfrawd ab Cadfan ... 103
Cadwaladr ... 103
Cadwaladr, Dafydd ... 109
Cadwallawn ... 104
Cadwallawn ab Cadfan ... 110
Caerdroia ... Gwel Troy —
Calamy, Edmund ... 111
Camlas—esydd ... *Canals* 111
Canning, George ... 113
Canoldref, Gwilym. Gwel Myddleton, William ... —
Canute ... 113
Caracalla, Marcus Aurelius Antoninus ... A 113
Carawn, neu Caron ... 104
Cardan, Jerome ... A 113
Cardinal—iaid ... A 113
Carnhuanawc. Gwel Price, Thomas ... —
Casnodyn ... 105
Caswallawn ... B 113
Catharina II., Alexiewna ... B 113
Cavour, Count Camillo Benso Di ... B 113
Caw ... 105
Cawrdaf ... 105
Cawrdaf, Gwilym. Gwel Jones, William Ellis ... —
Caxton, William ... C 113
Cecil, Richard ... D 113
Ceiriog, Sion ... 105
Celsus ... D 113
Cent, Sion ... 105
Ceredig ... 106
Cerfluniaeth *Sculpture.* D 113
Ceridwen ... 106
Cesil ... G 113
Cesuloth ... G 113
Cezib .. G 113
Channing, William Ellery ... H 113
Charles, David ... 106
Charles, William ... 106
Chateaubriand, Francois Rene Auguste ... H 113
Chatterton, Thomas ... H 113
Chaucer, Geoffrey ... I 113
Chebar ... I 113
Cherubini, Marie Luigi Salvador ... I 113
Cheshunt, Coleg.. ... A 114
Chess ... A 114
Chillingworth, William ... I 113
Chimham ... K 113
Clarkson, Thomas ... K 113

Tudal.

Clive, Argl. Robert ... K 113
Cloron, Pytatw (*Potato*) ... L 113
Clough, Syr Richard ... M 113
Cobbett, William ... M 113
Cobham, Arglwydd ... 107
Coel Godebog, neu Goedhebawg ... 107
Cofrifiad (*Census*) ... O 113
Coke, Thomas ... 107
Columbus, Christopher ... O 113
Comed—au ... T 113
Condillac, Etienne Bonnot de ... P 113
Condorcet, Marie-Jean-Antoine-Nicolas Caritat ... Q 113
Confocasiwn ... Q 113
Confucius ... R 113
Conffirmasiwn ... S 113
Cook, Cadben James ... S 113
Cooper, Ebenezer ... 107
Copernicus, Nicholas ... U 113
Cothi, Lewis Glyn ... 108
Coverdale, Miles.. ... X 113
Cowper, William ... X 113
Cradoc, Walter ... Y 113
Cranmer, Thomas ... 14
Crichton, James.. ... Z 113
Cruden, Alexander ... Z 113
Crŵth ... *Violin* Z 113
Cudworth, Ralph ... 114
Cuhelyn ... A 114
Cuhelyn Fardd ... A 114
Cuhelyn ab Caw.. ... A 114
Cunedda Wledig.. ... A 114
Cybi ... B 114
Cyfeiliog, Owain.. ... B 114
Cylch—au—oedd ... 23
Cylla ... *The Stomach* 25
Cyllell ... 30
Cymdeithas Cornthal. *The Society of Kornthal* ... 30
Cymdeithas Genadol. *Missionary Society* ... 31
Cymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd ... B 33
Cymmal—au—iad ... B 37
Cymmanfa. *Convocation, Assembly* ... 38
Cymmanfa Eglwysig. *Convocation* ... 38
Cymmanfa Gyffredinol Eglwys yr Alban.. ... 40
Cymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd... 37
Cymmanfa y Duwinyddion. Gwel Duwinyddion, Cymmanfa y ... 41
Cymmedrolwr. Gwel Cymdeithasfa; Cymmanfa Eglwysig yr Alban ... 41
Cymmeriad ... 41
Cymmod. *Reconciliation* 42

Tudal.

Cymmod, Dydd y *The Day of Atonement* ... 44
Cymmrodorion, Cymdeithas y B 37
Cymmun—deb ... B 114
Cymmundeb Babanod. Gwel Bedydd ... —
Cymmundeb Cymmysg. *Free Communion* ... 115
Cymmwynas—au—gar—wch 47
Cymmysgbla. *Swarm of flies* ... 47
Cymraeg, Yr Iaith ... 48
Cymreig, Eglwys Gwel Prydeinig, Eglwys ... —
Cymrodoliaeth a Chydfeddiannaeth. *Socialism and Communism* ... 79
Cymru ... 88
Cymry, Y ... 95
Cymunwyr *Sacramentarians* 115
Cymyn, Llythyr. Gwel Testament ... —
Cymyn—u—wyr—ydd ... 115
Cyn—ion ... 116
Cynaddafiaid. *Preadamites* 116
Cynan Meiriadog ... 191
Cynan Nawdd Nifer ... 191
Cynan Tindaethwy ... 191
Cynan Wledig ... 191
Cynauaf ... 116
Cyndeyrn. *Kentigern* 118
Cynddaredd. *Hydrophobia* 118
Cynddeiriog. Gwel Cynddaredd ... 118
Cynddylifiaid. Gwel Noah —
Cynfar Cad-gaddug ... 191
Cynfodolaeth Iesu Grist. *Pre-existence of Jesus Christ* ... 122
Cynfodoliaid. *Pre-existiani* 124
Cynfrig ... 191
Cynffon—au ... 124
Cyngarfaer ... 191
Cynghorfa, neu Gymmanfa Apostolaidd ... 1
Cynghorfa Basle ... 1
Cynghorfa Caer Cystenyn ... 2
Cynghorfa Constance ... 7
Cynghorfa Nicaia, neu Nice.. 8
Cynhen—au—u ... 124
Cynhesrwydd. Gwel Gwres —
Cyni ... 124
Cynllwyn—ion—wyr ... 125
Cynnadledd. *Conference* 126
Cynnal—iad—aeth ... 127
Cynniwair—fa—feydd ... 128
Cynnrychiol—deb ... 129
Cynnud ... 129
Cynnulleidfa—oedd ... 129
Cynnulleidfaolion. *Congregationalists* ... 129
Cynnull—iad ... 129
Cynnydd—u ... 133


Digitized by Google

Tudal.
Cynnyrch—u ... ... 133
Cynnysgaeth—u.. ... 133
Cyntaf ... ... 134
Cyntafanedig—aeth ... 134
Cyntedd—au—oedd ... 137
Cynwrig Bencerdd ... 191
Cynyr Ceinfarfawc ... 191
Cypreswydd Gwel Berosh —
Cyprian (1) ... ... 137
Cyprian (2) ... ... 138
Cyprus ... *Kebris* 138
Cyrchu ... ... 139
Cyrhaedd ... ... 139
Cyrenaiciaid ... *Cyrenaics* 139
Cyrene ... ... 139
Cyrenius ... ... 140
Cyridwen, Ceridwen ... 142
Cyril, o Alexandria ... 146
Cyril, o Jerusalem ... 146
Cyrill a Methodius ... 147
Cyrriog, Goronwy ... 191
Cyrus I. ... ... 147
Cyrus II. ... ... 149
Cysgod ... ... 149
Cysgodau *Shadows, Types* 149
Cysgu ...Gwel Cwsg —
Cyssegr ... *Sanctuary* 160
Cyssegr—wyl .*The Feast of Dedication* ... ... 161
Cyssegr—ysbail ... *Sacrilege* 162
Cyssegriad Eglwysydd ... 160
Cyssegru ... ... 161
Cyssodi ... ... 114
Cysswllt ... ... 162
Cystenyn Fawr *Constantine the Great* ... ... 162
Cystenyn (Goronawg) ... 183
Cystenyn (Gorneu) ... 183
Cystudd—iedig ... ... 183
Cystuddiwr—wyr ... 184
Cysur—wr—wyr ... 184
Cyttal ... ... 184
Cythlwng ... ... 184
Cythraul ... ... 184
Cythreuliaeth *Demonology* 185
Cythreulig—ion...*Demoniacs* 185
Cythrudd—o ... ... 189
Cythrwfl ... ... 189
Cywain ... ... 189
Cyweirio—iwr ... ... 189
Cyweithas ... ... 189
Cywilydd—io ... ... 189
Cywir ... ... 190
Cywrain ... ... 190
Cywreinrwydd ... ... 190
Cywyddiaeth ... *Casuistry* 190

Chalcedon Gwel Calcedon —
Chalcol ... ... 192
Chemos ... ... 192
Chephirah (1) ... ... 192
Chephirah (2) ... ... 192
Cheran ... ... 192
Chileab ... ... 192
Chilion ... ... 192
Chios ... ... 192
Chisleu, Chislev... ... 192
Chub ... ... 192
Chwaer, Chwiorydd . F 192
Chwanen, Chwain ... 193
Chwannog ... ... 193
Chwant—au ... ... 193
Chwarelau ... ... 192
Chwareuon Crefyddol. *Religious Dramas* ... 196
Chwech ... ... 199
Chwedl—au ... ... 199
Chwedloniaeth, } *Mythology* 199
Chwedloneg, }
Chwegr—au ... ... 208
Chwegrwn ... ... 208
Chwerthin—iad... ... 208
Chwerw—der ... ... 209
Chwibanogl. Gwel Offer Cerdd ... ... —
Chwiban—u ... ... 209
Chwilio—iwch ... ... 209
Chwilys ..*Inquisition* 210
Chwith—ig ... ... 214
Chwydu ... ... 214
Chwyddo ... ... 214
Chwyddwydr, Mwyadur *Microscope* ... . A 192
Chwyldroad Ffrengig, Y . B 192
Chwyldroadau ... . F 192
Chwys fel defnynau gwaed... 214
Chwythu Gwel Gwynt —

Dabbaseth ... ... 216
Daberath ... ... 216
Dadebru ... ... 216
Dadgan ... ... 216
Dadguddiad Ioan ... 281
Dadl ... ... 216
Dadleu ... ... 216
Dadleudy ... ... 216
Dadleuwr ... ... 217
Dadsain Gwel Adsain —
Dadymchwel—yd ... 218
Dafad ... ... 218
Dafydd ... ... 221
Dafydd ab Edmwnt ... 256
Dafydd ab Gruffydd ... 257
Dafydd ab Llywelyn ... 258
Dafydd ab Owain ... 259
Dafydd Benfras.. ... 269
Dafydd Benwyn.. . G 280
Dafydd Ddu Eryri. Gwel Thomas, David ... —
Dafydd Ddu o Hiraddug ... 260
Dafydd Edward.. . G 280
Dafydd Gam ... ... 260
Dafydd Ifan ab Einion ... 260
Dafydd Ionawr.... Gwel Richards, Dafydd ... —
Dafydd Nanmor.. ... 269
Dafydd Owen, neu Dafydd y Gareg Wen ... 261
Dafydd y Daron.. . G 280
Dafyddiaid ... *Davidists* 229
Dagon ... ... 229
Dagr, Dager ... ... 230
Dagrau, Daigr, Deigron ... 230
Daiar, Daiaryddiaeth. *Geography* ... ... 230
Daiareg ... *Geology* 291
Daiarfoch ... *Badgers* 308
Daiargryn ..*Earthquake* 310
Daiarol ... ... 313
Dail ... ... ... 313
Daioni ... ... 314
Dal ... ... ... 314
Daleaid ... *Dalcites* 315
D'Alembert, Jean le Rond... 261
Dalen ... ... 314
Dalfa.. ... ... 315
Dalilah ... ... 315
Dalhousie, Iarll... . G 280
Dalmanatha ... ... 315
Dalmatia ... ... 315
Dallineb ... ... 315
Damaris ... ... 317
Damascus ... ... 317
Damascenus, Joannes ... 262
Damcaniaeth (*Theory*) ... 262
Damianiaid ..*Damianists* 321
Dammeg—ion ... ... 321
Dammegion Iesu Grist ... 326
Damwain—einiau ... 333
Dan (1) ... ... 333
Dan (2) ... ... 334
Danadl ... ... 334
Daniel ... ... 335
Daniel, Llyfr ... ... 335
Danneddog ... ... 342
Dant, Dannedd ... ... 343
Dante, Alighieri.. ... 263
Danteithiol—ion.. ... 345
Danton, George-Jacques ... 278
Daphne ... ... 263
Darbod ... ... 345
Darda ... ... 263
Darfod ... ... 346
Darfodedigaeth ... *Phthisis* 346
Darius, neu Dariauesh ... 347
Darius, y Mediad. ... 347
Darius, mab Hystaspis ... 347
Darius Codomanus ... 348
Darlith ... ... 348
Darlith Fisol. ... *Monthly Lecture* ... 349
Darlith Fisol Warburtonaidd. *Warburtonian Lecture* ... 349
Darlith Gynnulleidfaol. *Congregational Lecture* ... 349
Darlith y Masnachwyr. *Merchants' Lecture* ... 349
Darlithiau Bampton. *Bampton Lectures* ... ... 349
Darlithiau Boyle. *Boyle's Lectures* ... ... 349
Darlithiau Hulseaidd. *Hulsean Lectures* ... ... 349
Darlithiau Moyer. *Moyer's Lectures* ... ... 349
Darlithwyr ... *Lecturers* 349
Darlleniadau amrywiol ... 349
Darllenyddiaeth .. 350
Darnguddio ... ... 356
Darnio ... ... 356
Darogan Gwel Dewiniaeth —
Darostyngedig ... ... 356
Darostyngiad ... ... 356
Darostyngiad Crist. Gwel Crist; Iesu Grist, &c. ... —
Darwin, Erasmus ... 263
Dathan ... ... 362
Dauddyblyg ... ... 363
Davies, Benjamin ... 264
Davies, Dan Isaac . G 280
Davies, David Daniel ... 262
Davies, David, Llandinam ... 264
Davies, David, Llygadenwyn 266
Davies, David, Abertawe ... 270
Davies, David, Castell Hywel 271
Davies, David, Abermaw . H 280
Davies, Edward ... ... 265
Davies, Edward (y Celtic Ddafis) .. ... 373
Davies, Evan ... ... 266
Davies, Francis ... ... 369
Davies, Griffith ... ... 272
Davies, Henry ... ... 266
Davies, Howel ... ... 363
Davies, Jenkin ... ... 266
Davies, John, Pen-y-graig ... 267
Davies, John, o Fallwyd[a] ... 369

[a] Ar ol i ni argraphu ein herthygl ar y Dr. Davies, o Fallwyd, bu Gwilym Lleyn, awdwr *Llyfryddiaeth y Cymry*, mor garedig ag anfon i'n hysbysu fod pedwar argraphiad o *Lyfr y Resolution*, o gyfieithiad y Dr. Davies, wedi eu cyhoeddi: ac mai y pedwerydd argraphiad ydyw yr un a nodasom ni fel trydydd. Ond cydnebydd ein gohebydd mai y *Rhan* gyntaf yn unig o *Lyfr y Resolution* a gynnwys y trydydd argraphiad. Gan hyny, tri argraphiad cyflawn o *Lyfr y Resolution* sydd etto wedi eu cyhoeddi.—Gol.

Digitized by Google

Tudal.

Davies, John, Castellgeifr ... 267
Davies, John, Caerdydd ... 273
Davies, John, Nantglyn ... 366
Davies, John Lloyd ... 267
Davies, John Philip ... 273
Davies, Morris ... ... 274
Davies, Owen, gweinidog y Wesleyaid ... ... 374
Davies, Rhys ... ... 267
Davies, Richard, esgob Ty Ddewi ... ... 374
Davies, Robert ... ... 274
Davies, Samuel ... ... 275
Davies, Thomas, Llandrillo.. 267
Davies, Thomas, Llandeilo... 276
Davies, Thomas Rhys ... 268
Davies, Thomas, esgob Llanelwy ... ... 374
Davies, Timothy.. ... 269
Davies, Walter (*Gwallter Mechain*) ... ... 276
Davies, William, Llanfynydd 269
Davies, William, cenhadwr.. 269
Davies, William, Ffrwd-fâl.. 269
Davies, William, Bangor ... 277
Davies, William, o Gastellnedd ... ... 365
Davy, Syr Humphry ... 278
Dawon ... ... 367
Dawn y Tafodau. ... 367
Dawns ... ... 375
Deadell—au—oedd ... 376
Deall—us—dwriaeth ... 377
Debir ... ... 381
Deborah (1) ... ... 381
Deborah (2) ... ... 382
Decapolis ... ... 382
Dechreu—ad ... ... 382
Dedan ... ... 382
Dedwyddwch ... ... 383
Deddf ... ... 385
Deddf Foesol ... ... 387
Deddfoldeb ... ... 390
Deddfroddwr ... ... 392
Defni.. ... ... 392
Defnydd—iau ... ... 392
Defnyn—au ... ... 393
Defosiynol ... ... 393
Deg—au ... ... 393
Deg Gorchymyn.. Gwel Deddf, Gorchymyn ... —
Degtant Gwel Offer Cerdd —
Degwm—ymau ... ... 393
Deheu ... ... 396
Deheubarth ... ... 397
Deheuwynt. Gwel Gwyntoedd ... ... —
Deial.. ... ... 403
Deial Ahaz ... ... 408
Deiniol Wyn, neu Daniel . E 280
Deio ab Ieuan Ddu . E 280
Deistiaeth ... *Deism* 410
Delw.. ... ... 413
Delwaddoliaeth... Gwel Eilunaddoliaeth ... —
Delwdorwyr *Iconoclasts* 414
Demas ... ... 415
Demetrius ... ... 415
Demetrius Nicator ... 415
Demetrius Soter ... 415
Demetrius, y Cristion ... 416
Demetrius, y Gof Arian ... 415
Demosthenes ... ... 642
Denmarc ... . A 376
Denu.. ... ... 416
Deongliadaeth Ysgrythyrol *Hermeneutics*... ... 417
Deon... ... ... 416
Deon yr Archau Gwel Archau, Llys yr ... —

Tudal.

Deor... ... ... 429
De Quincey, Thomas ... 279
Derbe ... ... 280
Derfel Gadarn ... . E 280
Derfishiaid ... *Dervishes* 429
Derham, William ... 280
Derw, Derwen ... ... 432
Derwydd, Derwyddiaeth ... 437
Derwydd, Derwyddiaeth. Y syniadau diweddar ... 442
Desatir ... ... 459
Descartes Rene ... ... 459
Dethol ..Gwel Ethol —
Deuddeg ... ... 460
Deugain ... ... 460
Deulwyn, Ieuan.. . E 280
Deuteronomium.. ... 460
Dewi Sant ... ... 462
Dewi Wyn o Eifion Gwel Owen, David ... ... —
Dewin—iaid ... ... 466
Dewines ... ... 467
Dewiniaeth ... ... 469
Diacon—iaid ... ... 471
Diacones—au ... ... 475
Diaconiaid, a Diaconesau, Tai.. ... ... 476
Diafol ... ... 476
Dialydd y gwaed ... 483
Diangfa ... ... 484
Diana ... ... ... 483
Dianrhydedd—u ... 484
Dianwadalwch ... ... 484
Diareb—ion ... .. 485
Diarebion, Llyfr y ... 507
Diblathaim. Gwel Almon-Diblathaim ... ... —
Dibon, neu Dimon ... 509
Diclah ... ... 509
Dichellion ... ... 509
Didymus. Gwel Thomas —
Diegwan ... ... 510
Dienyddwr ... ... 510
Dieneidio ... ... 510
Dienwaededig ... ... 510
Dieppiledd ... ... 510
Diesgus ... ... 510
Dieuog—i ... ... 511
Difa ... ... ... 511
Difai—eius ... ... 511
Difenwi ... ... 511
Difodiaid. Gwel Dinystriaid 513
Difrychau—eulyd ... 513
Diffaethwch ... ... 513
Diffydd ... ... 514
Diffyg ar yr haul. Gw. Haul —
Digaregu—odd ... ... 515
Digelwyddog ... ... 515
Digofaint ... ... 515
Digofaint Duw ... ... 518
Digred ... ... 519
Dihalog—edig ... ... 519
Dihenydd ... ... 520
Dil—iau. Gwel Gwenyn —
Dilean ... ... 521
Dilefeinllyd Gwel Lefain —
Dileu.. ... ... 521
Diluw. .. Gwel Noah —
Dillad. . Gwel Gwisg —
Dimnah ... ... 522
Dimon Gwel Dibon 522
Dimonah ... ... 522
Dinah ... ... 522
Dinaiaid ... ... 522
Dinas—oedd ... ... 522
Dinas Noddfa ... ... 525
Dinasfraint, Dinasyddiaeth. *Citizenship* ... ... 526
Dincod ... ... 527
Dinesydd. Gw. Dinasfraint 527

Tudal.

Diniwed—eidrwydd ... 527
Dinystr—io ... ... 528
Dinystriaid ... ... 529
Diocletian, Caius Valerius ... 647
Dïod—ydd ... ... 531
Dïod gadarn ... ... 532
Dïod offrwm ... ... 533
Dïofryd ... ... 533
Dïofrydbeth ... ... 533
Diolch—gar—wch ... 534
Dionysia ... ... 535
Dionysius ... ... 535
Diotrephes ... ... 536
Diraddiad Eglwysig ... 536
Diragrith ... ... 536
Dirdynu ... ... 536
Dirgel—wch ... ... 536
Dirmyg—u—wyr—edig ... 540
Dirwest ... ... 543
Disgyniad Crist i uffern ... 541
Disraeli, Benjamin . E 280
Distryw—io ... ... 543
Diwair, Diweirdeb ... 545
Diwedd ... ... 544
Diwrnod—au ... ... 547
Diwygiad Crefyddol ... 548
,, Protestanaidd ... 553
,, yn yr Almaen ... 555
,, yn Switzerland ... 567
,, yn Sweden, Norway, a Denmarc ... 573
,, yn yr Iseldiroedd.. 577
,, yn Ffraingc ... 579
,, yn Poland ... 590
,, yn Lloegr ... 592
,, yn yr Iwerddon ... 600
,, yn Scotland ... 601
,, yn Nghymru ... 606
Docetiaid .. *Docetæ* 608
Doctor—iaid ... ... 608
Dodai, neu Dodo ... 609
Dodanim ... ... 609
Dodd, William ... ... 650
Doddridge, Philip ... 650
Doeg... ... ... 609
Doeth—ineb ... ... 609
Doethineb Duw... ... 610
Doethineb Solomon ... 611
Doethion ... *Magi* 612
Doethor Gwel Doctor 615
Doethor Angelaidd ... 615
Dofydd ... ... 615
Dogn.. ... ... 615
Dolben, David ... . H 280
Dolben, John .... . H 280
Dolben, Syr William . H 280
Dolefain ... ... 615
Dolur—iau ... *Wounds* 615
Dolydd, Doldir ... ... 619
Dominiciaid *Dominicans* 620
Donatiaid ... *Donatists* 621
Doniau gwyrthiol ac ysbrydol 622
Donne, John ... .. 280
Dor ... ... ... 631
Dor—au ... ... 631
Dorcas ... ... 633
Dorcas, Cymdeithas ... 634
Dort, Cymmanfa ... 634
Dosbarthiad Llyfrau y Beibl Gwel Beibl, &c. ... —
Dositheaid ...*Dositheans* 635
Dothan ... ... 636
Dracmonau ... ... 636
Drachma ... ... 636
Draenog ... ... 636
Draig, Dreigiau... ... 637
Drain ac Ysgall... ... 638
Drake, Syr Francis ... 280
Dromedariaid. ...Gw. Camel —
Dropsi, Dyfrglwyf ... 653


Digitized by Google

| | | Tudal |
|---|---|---|
| Drudaniaeth ... | | ... 653 |
| Drusiaid ... | *Druses* | 653 |
| Drusila ... | | ... 658 |
| Drws, Drysau ... | | ... 658 |
| Drych ... | *Mirror* | 659 |
| Drychiolaeth—au. *Apparition, Spectre, Phantom* | | ... 667 |
| Drychwydrau ... | *Spectacles* | 660 |
| Dryden, John ... | | . A 280 |
| Drygair ... | | ... 665 |
| Dryganiaeth ... | | ... 665 |
| Drygchwant ... | | ... 665 |
| Drygfyd ... | | ... 665 |
| Drysor—es ... | *Porter* | 665 |
| Du ... ... | | ... 665 |
| Duc—iaid ... | | ... 666 |
| Duchobortsiaid, neu Duhobortsiaid ... | | ... 683 |
| Dulciniaid ... | | ... 684 |
| Dulsimer ... | | ... 684 |
| Dull—iau ... | | ... 685 |
| Dumah ... | | ... 701 |
| Dunawd Ffur ... | | . H 280 |
| Dunceriaid ... | *Dunkers* | 702 |
| Dunstan ... | | . A 280 |
| Dur ... ... | | ... 703 |
| Dura... ... | | ... 704 |
| Dursiaid, neu Deruziaid | | ... 704 |
| Duw... ... | | ... 704 |
| Duwiau Gau ... | | . B 280 |
| Duwinyddiaeth ... | | ... 720 |
| Dyer, John ... | | . B 280 |
| Dyfrhau Tir | *Irrigation.* | C 280 |
| Dywalgi ... | *Tiger.* | D 280 |

DIWEDD CYNNWYSIAD Y DRYDEDD GYFROL.

Digitized by Google

# Y GWYDDONIADUR.



CYNGHORFA, neu GYMMANFA APOSTOLAIDD, y gelwir y cyfarfod y dywedir fel y canlyn am dano yn y bymthegfed bennod o Lyfr yr Actau. Wedi i Pedr dderbyn y canwriad Cornelius, ac ereill, Rhufeiniaid a phroselytiaid, ond heb enwaedu arnynt, i gymundeb yr Eglwys Gristionogol, ac i Antiochia yn Syria—lle yn benaf y llafuriai Barnabas a Paul—gael ei gwneuthur yn ganolbwynt dosbarth o eglwysi lle na cheisid gosod ar y dychweledigion o fysg y Cenedloedd ddim o'r defodau caethiwus y mynai y dysgyblion Iuddewig eu cyssylltu â Christionogaeth, fe ddaeth i waered i'r ddinas hono Gristionogion o Iudea, y rhai a wadent y posiblrwydd o gadwedigaeth y Cristionogion Cenedlig, onid enwaedid arnynt yn ol deddf Moses. Mor daubaid ydoedd yr ymryson, fel y penderfynodd y gynnulleidfa anfon Paul, Barnabas, ac amryw ereill, at yr apostolion a'r henuriaid yn Ierusalem, er gosod y pwnc mewn dadl ger eu bron hwy. Yn ddioed wedi iddynt gyrhaedd Ierusalem, cyfododd rhai o sect y Phariseaid, gan ddwyn yn eu herbyn yr unrhyw haeriad gwrthwynebus. Ond pan yr ymgyfarfyddodd yr apostolion a'r henuriaid yn Ierusalem i gydystyried y mater, cyfododd Pedr i fyny, ac oddi ar y profiad a gawsai mewn cyssylltiad â Cornelius, dywedodd mai ei farn ef oedd, na ddylid rhoddi y fath iau ar warau y dysgyblion Cenedlig. Llefarai Iago hefyd o blaid yr unrhyw ddull o benderfynu y ddadl, pan y cynnygiodd fod i'r rhai a ddygent sel dros Moses ymfoddloni os byddai i'r personau a fuont unwaith yn baganiaid o hyny allan ymgadw oddi wrth *halogrwydd delwau, godineb* (*h.y.*, yn ol Lightfoot, Gieseler, a Bauer, priodas rhwng ceraint yn y graddau a waherddir gan gyfraith Moses; ond yn ol Grotius, Kuinoel, Meyer, a llawer ereill, y penrhyddid yr oedd ymarfer âg eilunod y paganiaid mor dueddol o arwain iddo), oddi wrth y peth a dagwyd (sef cig anifeiliaid heb eu priodol ladd), ac oddi wrth waed (yr hwn hefyd a waherddid yn nghyfraith Moses). Mabwysiadwyd cynnygiad Iago, a gwelodd yr apostolion, yr henuriaid, a'r holl eglwys yn dda anfon gwŷr etholedig gyda Paul a Barnabas i Antiochia, yn dwyn llythyr a roddai ar ddeall i Gristionogion Syria a Cilicia beth oedd eu penderfyniad.

Yn ol y mwyafrif o dduwinyddion ac esbonwyr (yn mysg pa rai y mae Irenæus, Grotius, Hug, Neander, Olshausen, a Barnes), y mae Paul, yn yr ail bennod o'r Galatiaid, yn llefaru am yr un daith i Ierusalem; ond yn unig ei fod, yn yr epistol, yn crybwyll cydymddyddan a fu rhyngddo a Pedr, Iago, ac Ioan, yn gystal a'r gweithrediadau cyhoeddus. Yn ol ei ymadroddion ef ei hun, aeth gyda Barnabas a Titus i fyny i Ierusalem, yn ol dadguddiad yr oedd wedi ei dderbyn; ac o'r neilldu, mynegodd iddynt yr efengyl a bregethai. Er gwaethaf brodyr gau, a wrthwynebent ryddid y Cristionogion, ni chymhellwyd i enwaedu ar Titus, cydymaith Paul: hefyd, nid oedd gan yr apostolion ddim i'w roddi yn erbyn athrawiaethau Paul; ond, i'r gwrthwyneb, rhoddasant iddo ddeheu-ddwylaw cymdeithas, gan gytuno fod iddo ef a Barnabas fyned at y Cenedloedd, a hwythau at yr Iuddewon, yn unig ar yr ammod o fod i'r blaenaf gofio y tlodion yn Ierusalem.

Y prif reswm a ddygir yn erbyn y deongliad hwn, ac o blaid y llall (a amddiffynir gan Eusebius, Calvin, Kuinoel, &c.), sef, mai llefaru y mae yr apostol am y daith a gofnodir yn *Act.* xi. 29, &c. ydyw, nad yw yn crybwyll am y gynghorfa a'i phenderfyniadau. Yn erbyn y deongliad yma, drachefn, y mae dau reswm tra phenderfynol:—1. Y mae amser y daith y sonir am dani yn *Act.* xi. 30 yn rhy gynnar i fod yr unrhyw ag a grybwyllir yn *Gal.* ii. 1, &c., yr hon a gymmerodd le yn mhen pedair blynedd ar ddeg neu fwy ar ol tröedigaeth Paul. 2. Os ydoedd y cytundeb a nodir yn *Gal.* ii. 1, &c., fel wedi ei wneyd rhwng Paul a Barnabas ar y naill llaw, a Pedr, Iago, ac Ioan, ar y llaw arall, yn rhagflaenu y gynghorfa yn Ierusalem, buasai penderfyniadau *Act.* xv. felly yn anfuddiol ac afreidiol. Gwel Apostolaidd, Oes; Galatiaid, Epistol at y.

CYNGHORFA BASLE.—Yn unol âg addewid a wnaeth ar adeg ei etholiad, cadarnhaodd Eugenius vi. wŷs ei ragflaenor [gwel Cynghorfa Constance], yn galw cynghorfa eglwysig gyffredinol. O radd i radd, daeth y gymmanfa hon yn nghyd i Basle, a chyhoeddodd ar led mai dyfod i heddwch â'r Hussiaid, a symmud pob llygredigaethau a chamarferiadau o'r eglwys, a olygai y wŷs oedd wedi ei hanfon allan er eu cynnull at eu gilydd, pan y cyfeirid ynddi at ddiddymu hereticiaeth, a phuro gwinllan yr Arglwydd. O'r braidd y gwnaed y mynegiad hwn yn hysbys, cyn i'r pab weled amcanion y gynghorfa, a dechreu arswydo rhag dylanwad ei hysbryd annibynol. Gan hyny, prysurodd i roddi gorchymynion iddi gael ei gohirio, er cyfarfod yn ei ddinas ef ei hun, Bologna. Yn hyn, pa fodd bynag, fe'i gwrthwynebid ef yn egnïol gan ei arnegesydd ei hun, y cardinal Julian. Ail gadarnhawyd, mewn modd difrifol, yn y gynghorfa hon, y penderfyniadau a basiwyd o'r blaen yn Constance o barth i awdurdod ac annibyniaeth cynghorfa gyffredinol o'r eglwys, pan yn ymwneyd â phynciau o ffydd, ymraniadau, neu fesurau diwygiadol. Galwyd y pab ei hun ger

bron i roddi cyfrif am ei ymddygiad. Yn flin arno o blegid terfysgoedd yn mhlith y Rhufeiniaid, ceisiai Eugenius ddyfod i gymmod â'r gymmanfa; ac wedi cydnabod o hono ei hannibyniaeth, caniatawyd i'w genadon ef lywyddu arni, Ebrill 26ain, 1434. Wedi amlhau o'r gwyddfodolion trwy ddyfodiad dirprwywyr lawer oddi wrth gorau eglwysig a phersonau yn perthyn i'r graddau isaf o'r offeiriadaeth, dechreuodd y gymmanfa fyned yn rheolaidd at ei gwaith. Er parotoi ei phenderfyniadau a'i deddfau, ymffurfiodd yn bedair dirprwyaeth, a'r rhai hyny oll yn cael eu gwneyd i fyny o bersonau perthynol i bob un o'r taleithiau eglwysig. Dygwyd ger bron bob peth y gellid beio arno fel niwed neu gamwri yn yr eglwys. Amddifadwyd y llys Pabaidd, mewn llawer ystyr, o'i awdurdod; cwtogwyd ar y cyllidau a dderbyniai y pab o'r gwledydd tu hwnt i'r Alpau, a chyfyngwyd llawer iawn ar ei hawl i gyflwyno bywoliaethau eglwysig yn y gwledydd hyny i'r neb y mynai efe; gwaharddwyd trosglwyddo treialon eglwysig i Rufain; a rhoddwyd rhybudd difrifol i'r pab na byddai iddo ddiystyru y gosodiadau a'r deddfau hyn. Pan ddeallodd Eugenius hyn, gohiriodd y gynghorfa, wedi ei chweched eisteddiad ar ugain, i Ferrara (Medi 18fed, 1437), ac oddi yno drachefn i Florence. Yn y gynghorfa a gynnullodd yn y lle diweddaf, esgymunodd gymmanfa wrthryfelgar Basle. Ond dygodd y corff hwnw gwynion ac erlyniadau cyfreithiol yn ei erbyn yntau—diwedd pa rai ydoedd i Eugenius gael ei ddiswyddo Mehefin 25ain, 1439, o blegid heresi, Simoniaeth, ac aflonyddu ar heddwch y cyhoedd. Ond erbyn hyn, yr oedd y rhan fwyaf o'r offeiriadaeth naill ai wedi ymneillduo oddi wrth y gymmanfa yn Basle, neu fyned drosodd at y gynghorfa yn Florence. Yr unig gardinal oedd yn aros bellach ydoedd Allemane, archesgob Arles—gŵr â gair da iddo am ei dduwioldeb, ac un ymgyflwynedig i egwyddorion rhyddid. Cymmerodd ef yn ei law lywyddiaeth y gymmanfa, a llenwid lleoedd yr esgobion gan ddoctoriaid, a gweinidogion, neu fugeiliaid eglwysi. Fel y byddai ganddynt amddiffynydd galluog yn ymyl, penododd y gynghorfa bwyllgor i ethol pab; a hwythau, Hydref 30ain, 1439, a ddewisasant Amadeus, duc Savoy, yr hwn, wedi teyrnasiad maith ac anrhydeddus, a drosglwyddodd ei diriogaethau i'w fab; a'r pryd hwnw yr oedd yn byw bywyd tawel fel meudwy duwiol ger llaw llyn Geneva. Cymmerodd arno ei hun yr enw Felix v; eithr ni chydnabyddid ei awdurdod ond yn unig gan ei hen ddeiliaid, a breninoedd Aragon a Hungary, ychydig o dywysogion Germany, y llywodraeth Swissaidd, a'r nifer mwyaf o'r prifysgolion. Cyn hyn, llais y bobl a fuasai cynnaliaeth benaf y gynghorfa; ond yn awr, condemnient hwythau fyrbwylldra y weithred yma a fygythiai yr eglwys âg ymraniad newydd. Yr ydoedd y gynghorfa yn awr mewn sefyllfa oedd yn ei gorfodi i weithredu mewn anghyssondeb â'i hegwyddorion, er mwyn cadarnhau neu luosogi ei phleidwyr. Gofalai y taleithiau ymherodrol am sefyll ar y tir canol heb ymyryd â'r pab na'r gynghorfa; ond mewn llwyrwys a ddaeth yn nghyd i Mentz, Mawrth 26ain, 1439, darfu iddynt dderbyn y penderfyniadau diwygiadol a basiwyd yn Basle. Eto, pan ddyrchafwyd Frederic III. o Awstria—gŵr da ar lawer cyfrif, ond amddifad er hyny o'r gallu a'r ewyllys i hyrwyddo egwyddorion rhyddid—i'r orsedd ymherodrol, ac y gwelodd Aeneas Sylvius o Piccolomini, ysgrifenydd cyfrwysgall a phenboeth y gynghorfa, mai elw iddo ef oedd ymwthio yn gyntaf i wasanaeth yr ymherawdwr, ac wedi hyny i ffafr y pab, cymhellwyd Eugenius, fel ammod ar ba un y cydnabyddid ef yn bab, i alw yn ol y ddedfryd trwy yr hon y diswyddasid etholwyr Treves a Cologne, a chaniatau i benderfyniadau Basle gael eu rhoddi mewn grym yn Germany. Ond darfu i'r un Aeneas Sylvius, yr hwn a lwyddodd i beri i'r pab ganiatau a goddef hyn oll, wedi hyny gyffroi Nicholas v. i gymmeryd oddi ar Eglwys Germany bob un o'r breintiau hyn a sicrhasid yn y modd yma. Daeth y cytundeb hwn o'r diwedd i feddu awdurdod ymherodrol, a hyny trwy ammodau penodol â thywysogion ac esgobion ar eu penau eu hunain, dan yr enw Cynghrair Aschaffenburg. Ar y llaw arall, yr oedd Ffrainc, ar y cyfan, wedi ymlynu yn ffyddlawn wrth Eugenius; ond pan gyfyngwyd ar awdurdod y pab (trwy y *pragmatic sanction*) yn Bourges, yn y flwyddyn 1438, yr oedd wedi derbyn penderfyniadau Basle, mor bell ag yr oeddynt yn iswasanaethgar i annibyniaeth yr Eglwys Gallicaidd. Wedi i'r eglwys, ei phab ei hunan, ac o'r diwedd ei haelodau hefyd, yn raddol ymwrthod a chilio oddi wrth y gymmanfa hon yn Basle, terfynodd ei heisteddiadau ar ol 1443, heb un gohiriad ffurfiol a rheolaidd. Yn y flwyddyn 1449, rhoddodd Felix i fyny y swydd urddasol y gallasai unrhyw fynyd ei cholli, trwy gytundeb anrhydeddus â Nicholas.—(*Hase's Hist. of the Christ. Church,* &c.)

CYNGHORFA CAER CYSTENYN. Pedair cynghorfa gyffredinol a gynnaliwyd yn y ddinas hon:—I. Cafodd yr ymherawdwr Theodosius I. ei addysgu yn ol Credo Nicaia; ac yn ystod teyrnasiad hirfaith a galluog, efe a ymdrechodd lawer o blaid egwyddorion y credo hwnw, ac yn wrthwyneb i Ariaeth a'i phleidwyr. Yn gyntaf, anfonodd allan gyhoeddiad, yn gorchymyn na elwid neb a dderbynient Gredo Nicaia yn Gristionogion uniongred neu gatholig; a llefarai am bawb a'i gwrthwynebai fel hereticiaid distadl a thwyllodrus—personau nad oedd y digofaint ymherodrol yr oeddynt ar fyrder i deimlo oddi wrtho ond rhagflaenydd llid Duw, y byddent yn y diwedd yn sicr o fyned dano. Parodd hefyd i'r Ariaid gael eu hymlid allan o holl eglwysydd yr ymherodraeth. Ond yn y flwyddyn 380, ar fynediad yr ymherawdwr hwn i Caer Cystenyn, cafodd y blaid hono, oedd o'r unrhyw ffydd ag ef ei hun, yn nghyd â Gregory o Nazianzen, ei hesgob, heb fod ganddynt gymmaint ag eglwys i addoli ynddi yn eu meddiant eu hunain, ond yn cydymgynnull mewn annedd-dy neillduedig yn un o faesdrefydd y ddinas, tra yr oedd yr esgob Ariaidd Demophilus yn perchenogi yr holl eglwysydd. Caniataodd yr ymherawdwr i Demophilus ei ddewisiad—naill ai llawnodi Credo Nicaia, neu roddi i fyny yr eglwysydd. Mwy dymunol gan yr esgob hwn oedd ei gredo na'r adeiladau; ni fynai lawnodi: ac o'r amser hwnw hyd y chweched ganrif, nis goddefwyd i'r Ariaid gydymgynnull o fewn muriau Caer Cystenyn. Dygodd yr ymherawdwr Gregory o Nazianzen i'r brif ddinas, ac i mewn i'r eglwys gadeiriol, yn cael ei amgylchu â nawddosgordd o'r milwyr ymherodrol, yr hyn oedd yn dra angenrheidiol er amddiffyniad i'r esgob rhag ymosodiadau oddi wrth y torfeydd, gan fod y lluaws er pob peth yn dra ffafriol i Ariaeth. Pan y gorymdeithient fel hyn tuag Eglwys yr Apostolion, duai y nef

Digitized by Google

oedd gan gymylau tywyll, a deonglid hyn gan grefydd penboethiaid culfeddwl fel arwydd o'r digofaint dwyfol. Ond fel y gwasgarai y cymylau, ac y tywynai pelydr o haulwen yn awr ac yn y man rhyngddynt, gwelid ffoledd y camsyniad hwn, a chynnyrchid argraff fwy ffafriol ar feddyliau y bobl. Yn awr, penderfynodd yr ymherawdwr alw yn nghyd ail gynghorfa gyffredinol yn mhrif ddinas y dwyrain, gwaith yr hon a fyddai penderfynu y cwestiynau yr oedd cymmaint o ddadleu yn eu cylch wedi bod yn y blynyddoedd gynt—yn enwedig o barth Ariaeth —selio buddugoliaeth athrawiaeth Nicaia, ac, ar yr un pryd, ddifrifol urddfreinio Gregory o Nazianzen yn batriarch newydd Caer Cystenyn. Yn y dechreuad, pan nad oedd yn wyddfodol ond ychydig heb law esgobion o Asia, llywydd y gynghorfa oedd Meletius, esgob Antiochia—gŵr parchedig ar gyfrif ei oedran mawr a'i wrthwynebiad i'r athrawiaethau Ariaidd; a chanddo ef, urddwyd Gregory yn esgob Caer Cystenyn. Bu Meletius farw yn fuan drachefn, a daeth Gregory i gwbl feddiant o'r gallu a'r awdurdod a ddisgynai i'w ddwylaw fel patriarch y ddinas oedd, onid un, y fwyaf ei mawredd yn y byd.

Pan y daeth i'r gynghorfa esgobion o'r Aipht ac o'r gorllewin—personau nad oeddynt ar delerau cyfeillgar â Meletius, pan yr oedd y gŵr hwnw yn fyw—ni buont yn ol o amlygu eu hanfoddlonrwydd yn ngwyneb urddiad Gregory i'r batriarchaeth gan hen esgob hybarch Antiochia. Ond ni theimlai Gregory awydd cweryla yn nghylch swyddogaeth eglwysig. Dymunodd ar i'r ymherawdwr a'r esgobion oddef iddo roddi ei swydd i fyny; yr hwn ddeisyfiad—yn groes, hwyrach, i'w ddysgwyliadau—a ganiatawyd iddo gan bawb yn gyffredinol. Fe ymddengys mai Gregory o Nyssa, yn rhinwedd ei ddeall cryf a'i feddwl goleuedig, a ennillodd iddo ei hun wedi hyny y dylanwad mwyaf ar y gynghorfa yn ei thrafodaeth âg athrawiaethau crefydd.

Adolygodd yr ail gynghorfa gyffredinol hon Gredo Nicaia—gwisgodd a gosododd ef allan yn y cyfryw ymadroddion ag oeddynt wedi dyfod i arferiad sefydlog yn ystod dadleuon y blynyddoedd o'r blaen, a dodwyd cadarnhâd y gynghorfa wrtho yn y ffurf newydd hono arno. Condemniwyd fel hereticiaid hefyd yr Eunomiaid, y Macedoniaid, a'r Apollinariaid. [Gwel dan eu gwahanol enwau.]

Ni wahaniaethai Credo Nicaia, fel y cymmeradwywyd ef o'r newydd yn Nghaer Cystenyn, lawer oddi wrth yr hyn ydoedd yn wreiddiol cyn hyny. Y cyfnewidiad pwysicaf a wnaed ydoedd, chwanegiad ato mewn perthynas i'r athrawiaeth am yr Ysbryd Glân. Yno y cymhwyswyd at y *trydydd* person yn yr Undod dwyfol y drychfeddwl a gynnrychiolid gan yr ὁμοούσιον (*homoousion* =un, neu gyd-hanfodiad), ac y gosodwyd i lawr yn bendant fod yr Ysbryd i'w ystyried yn ogyfuwch a'r Tad a'r Mab.

Yn Nghredo Nicaiaidd Caer Cystenyn, dysgrifir yr Ysbryd Glân fel "yr Ysbryd deilliedig o'r Tad; yr Ysbryd sydd yn llywodraethu ac yn bywhau, yr hwn sydd i'w addoli a'i anrhydeddu yr un amser a'r Tad a'r Mab." [Gwel TRINDOD; YSBRYD GLAN.] Mabwysiadwyd Credo Nicaia gan ran fawr o eglwys y dwyrain wedi hyn, a hyny o'u gwirfodd; er y cyndyn wrthwynebent hyny o'r blaen, pan y ceisid ei wthio arnynt trwy eu cymhell, a'u *gorfodi* i'w dderbyn. Nifer yr esgobion a gyfansoddent y gynghorfa hon, yn 381, oedd cant a hanner—wedi eu dewis medd Hase, wrth orchymyn a than gyfarwyddyd tra-awdurdodol yr ymherawdwr. Yr oeddynt yn lluosocach ddyddiau y cynnadleddau cyntaf cyn i'r Macedoniaid gilio oddi wrthynt.

II. Y bummed o gynghorfäau cyffredinol y dwyrain oedd yr ail yn Caer Cystenyn. Yr ymherawdwr ar y pryd oedd Justinian. Yn ystod ei deyrnasiad maith, trwy nerth arfau ei gadfridogion, adferodd y penadur hwn lywyddiaeth Rhufain yn Affrica ac Italy i'r bri a'r ardderchogrwydd y buasai ynddo gynt. Gan fod yn gymmedrol hyd fanylrwydd y mynach yn ei arferion personol, yn gybyddlyd ac eto yn afradlawn, yn weithiwr difefl gydag amrywiol orchwylion a threfniadau ei lys, ac yn ddyfal mewn diwydrwydd, er nad oedd ei alluoedd ef ond cyffredin, ymawyddai am fod yn feistr ar bob math o wybodaeth a deall oedd o fewn cyrhaedd dyn. Er yn cael ei feichio gan ofalon lluosog ei ymherodraeth unbenaethol, dygodd allan o drysorau rheithofyddiaeth y Rhufeiniaid gasgliad o ddeddfau gwladol sydd wedi bod yn ffynnonell gwybodaeth gyfreithiol pob cenedl wareiddiedig yn yr oesoedd dilynol. Fel duwinydd hefyd, gosododd ei fryd ar ddiddymu pob heresi, terfynu pob ymryson, heddychu y gwahanol bleidiau—yn enwedig dwyn y Monophysiaid [gwel MONOPHYSIAID] i mewn i'r eglwys—a sefydlu y ffydd uniongred ar sylfaen a sicrhäai ei chadernid trwy yr oesoedd. Yn yr eglwys, fel yn y wladwriaeth, y moddion i gynnyrchu undeb ac unffurfiaeth, yn ei dyb ef, oedd deddfau a gorchymynion awdurdodol o'r orsedd; ond effaith y cymhwysiad o'r moddion hyn ydoedd, gwneuthur y rhwyg yn waeth. Er yn tybied yn ddiau fod ei holl weithrediadau yn deilliaw o'i graffder a'i ddoethineb ei hunan, yr oedd Justinian i raddau pell dan ddylanwad duwinyddion ei lys, ac yn enwedig ei gydwedd gyfrwys, Theodora, yr hon a goleddai ddirgel hoffder at y Monophysiaid. Wedi iddi dreulio ei dyddiau boreuaf yn nghanol rhysedd ac oferedd Caer Cystenyn, dyrchafwyd y fenyw hon, trwy ffafr Justinian, i fod yn gyfranog o'i awdurdod yn yr ymherodraeth, a daeth i feddu y rheolaeth benaf arno yntau ei hun. Ar yr orsedd, llywodraethai Theodora fel gormesdeyrn; yr oedd o duedd uchelfrydig, ond fod ei moesau y pryd hwnw yn gyfryw nas gellid beio arnynt.

Yn gyntaf oll, gorchymynodd yr ymherawdwr fod i esgobion yr eglwys uniongred a'r Monophysiaid gydymgynghori â'u gilydd, mewn gobaith y deuent felly i gydweled. Ond gan i'r cynllun hwnw aflwyddo, ymdrechodd i ennill y diweddaf trwy roddi caniatâd iddynt ddefnyddio yn ddiwarafun a digosp hoff ymadrodd o'r eiddynt eu hunain gyda golwg ar un o bersonau y Drindod sanctaidd, trwy ddywedyd fod "Duw wedi ei groeshoelio." Nid oedd hyn yn boddloni y Monophysiaid, ond yr oedd yn ddigon i chwerwi teimladau y blaid uniongred. Yn y flwyddyn 535, trwy ddyfais gyfrwys o eiddo Theodora, dyrchafwyd Monophysiad o'r enw Anthimus i batriarchaeth Caer Cystenyn: ond diswyddwyd ef yn y flwyddyn ganlynol; a chondemniwyd Monophysiaeth gan gynghorfa dan lywyddiaeth Mennas—y patriarch newydd a osodwyd yn ei le.

Adnewyddwyd y ddadl drachefn, er y condemniad hwn, yn Palestina, trwy fod yno fynachod o ysgol Origen, y rhai hefyd a gofleidiasant Fonophysiaeth, ac a wnaent eu goreu i ledaenu eu golygiadau, a hyny dan nawdd dysgybl i Origen, yr hwn oedd gyfaill i'r ymherawdwr—

Digitized by Google

Theodorus Ascidas, esgob Cesarea yn Cappadocia—a hyny er mawr flinder i'r rhai uniongred a'r rhai a fynent amddiffyn yr athrawiaethau y cytunasid arnynt yn nghynghorfa Chalcedon. [Gwel CHALCEDON.] Llwyddodd y rhai diweddaf, trwy Mennas, patriarch Caer Cystenyn, i gael gan yr ymherawdwr gyhoeddi condemniad ar yr Origeniaid [gwel ORIGENIAID]—condemniad a gadarnhawyd yn fuan drachefn gan gynghorfa yn Caer Cystenyn. Y canlyniad fu i'r Theodorus Ascidas uchod feddwl am gynllunio moddion i ddial y weithred hon ar y mwyaf eu sel yn mhlith gwrthwynebwyr yr Origeniaid a'r Monophysiaid. Gwyddai mor fawr oedd awydd yr ymherawdwr am ddwyn y Monophysiaid i fynwes yr Eglwys Gatholig; ac am hyny, perswadiodd ei fawrhydi y dygid yr amcan hwnw oddi amgylch ond i'r eglwys yn unig roddi barn o gondemniad ar rai o'r duwinyddion hyny a ystyrid gan y Monophysiaid fel yn blaenori yn mysg pleidwyr Nestoriaeth. [Gwel NESTORIAETH.] Y rhai y penodwyd arnynt i fod yn wrthddrychau anghymmeradwyaeth yr ymherawdwr oedd, Theodore o Mopsuestia, athraw Nestoriaeth, Theodoret o Cyrus, ac Ibas o Edessa. Casglwyd yr hyn oedd gyfeiliornus o ysgrifeniadau yr athrawon hyn yn nghyd mewn tair pennod (wrth yr enw "tair pennod"—*τρία κεφάλαια*, *tria capitula*—yr adnabyddid hwy), ac anfonodd Justinian allan gyhoeddiad yn eu condemnio hwy. Yr oedd cynghorfa Chalcedon wedi dodi ei llais o blaid iawngrededd Theodoret ac Ibas; ac yr oedd y rheitharch hon, tra yn cyhoeddi anathema uwch eu pen hwy a phawb a amddiffynent eu golygiadau, eto yn condemnio pwy bynag a dybient fod gweithred yr ymherawdwr er hyny yn tynu dim oddi wrth awdurdod y gynghorfa uchod. Ar ol hyn, cymmerodd "dadl y tair pennod" le—dadleuaeth na ddygodd oddi amgylch nemawr o ffrwythau da, ond a barodd lawer o annhrefn ac anghysur. Safai eglwys y dwyrain o du yr ymherawdwr; ond yr eglwys orllewinol a'i gwrthwynebai yn fwy cyndyn o blegid hyny. Yr oedd wedi cael ei ddyrchafu i esgobaeth Rhufain, trwy ddylanwad Theodora, ddyn digymmeriad o'r enw Vigilius; yr hwn, ar y cyntaf, fel ammod am ei roddi yn y swydd, a addawsai gefnogi y Monophysiaid, ond wedi hyny, a dorodd ei gytundeb. Dymunai yr ymherawdwr gael llais a dylanwad hwn o'i blaid; a gwysiwyd Vigilius i Caer Cystenyn. Ar y cyntaf, ymgyndynai; ond yn y diwedd, ildiodd i ddylanwad y llys, ac ysgrifenodd gondemniad ar y "tair pennod;" a cheisiodd hefyd ennill esgobion y gorllewin o blaid ei gondemniad, ond methodd—dadganodd un o honynt yn bendant ei fod yn gwrthwynebu condemnio y tair pennod. Wrth weled hyny, dechreuodd anobeithio am lwyddiant. Am ei fod yn rhy wangalon i dynu yn ol ei hunan a cher gwydd pawb, ceisiodd gan yr ymherawdwr alw yn nghyd gynghorfa gyffredinol. Cydsyniodd yr ymherawdwr â hyn; ond gan y gwelai trwy gyfrwysder Vigilius, anfonodd allan yn gyntaf ail reitharch yn erbyn y tair pennod, a gorchymynodd i Vigilius a'r esgobion ereill ei llawnodi. Yn hytrach nag ufuddhau, ceisiodd esgob Rhufain ddyrysu cynlluniau yr ymherawdwr; a phan welodd na lwyddai yn hyny, anturiodd esgymuno pawb a amddiffynent y wys ymherodrol. Am hyny, bu raid iddo ffoi i Chalcedon, ac mewn eglwys yno y cymmerodd noddfa. Gan i'r ymherawdwr addaw y diogelid ei berson rhag pob niwed, daeth yn ol i Gaer Cystenyn; ac o'r diwedd, wedi saith neu wyth mlynedd o ddadleu ofer, cytunwyd y byddai i gynghorfa gyffredinol ymgynnull yn y ddinas hono yn y flwyddyn 553, fel y penderfynid yr ymrafael dibwys. Daeth yn nghyd gant a phump a thrigain o esgobion. Pan y ceisiwyd gan Vigilius gymmeryd rhan yn ngweithrediadau y gymmanfa hon, nis mynai gydsynio; ond addawodd y cyflwynai ei farn mewn ysgrifen ar yr holl achos yn mhen ugain niwrnod; ac, os na chwblhäai ei addewid o fewn yr amser hwnw, y byddai iddo ymfoddloni i holl benderfyniadau y gynghorfa. Gan hyny, aeth y gwŷr eglwysig a ddaethent at eu gilydd yn nghylch eu gorchwylion heb aros am farn esgob Rhufain. Cyflawnodd Vigilius ei addewid; a chyhoeddodd ei feddwl ar y mater. Yn yr ysgrif hono, dadganai fod y gosodiadau a gymmerwyd o ysgrifeniadau Theodore o Mopsuestia yn hereticaidd; ond nad goddefol oedd condemnio wedi ei gladdu athraw a fuasai farw yn nghymundeb yr eglwys. Gyda golwg ar ysgrifeniadau Theodoret ac Ibas, pa fodd bynag, nis gellid eu bwrw hwy ymaith heb ddiraddio cynghorfa Chalcedon, pa un oedd wedi eu cymmeradwyo. Hefyd, beth bynag a ddywedid neu a ysgrifenid yn erbyn hyn, oddi wrth bwy bynag y deuai, honai Vigilius na byddai ynddo ddim grym. Ar hyny, yr ymherawdwr—gan ystyrid mai efe oedd deddfroddwr goruchaf yr eglwys—a anfonodd lythyr at y gynghorfa, yn mha un yr haerai fod Vigilius, trwy ei amddiffyniad o athrawiaethau cyfeiliornus Nestorius a Theodore, a'u pleidwyr, wedi tori ei hun o gymundeb yr eglwys, ac y dylasai ei enw gael ei ddileu o lyfrau ei choffadwriaeth. Felly y gwnaed: tynwyd enw Vigilius ymaith megys heretic, a dodwyd ei berson mewn carchar. Cymmerodd y gynghorfa orchymynion yr ymherawdwr yn rheol eu gweithrediadau, a ffurfiodd ei phenderfyniadau yn unol â'i reitharch ef. Cyhoeddwyd anathema ar berson ac athrawiaethau Theodore, yn gystal ag ar y rhai a'u hamddiffynent; ond gyda golwg ar Theodoret ac Ibas, ni chollfarnwyd ond rhai ysgrifeniadau neillduol iddynt, o herwydd darfu i bob un o'r ddau cyn marw alw yn ol eu hathrawiaethau cyfeiliornus; ac ar y cyfrif hwnw, fe'u cydnabyddwyd fel yn uniongred gan y gynghorfa gyffredinol yn Chalcedon. Pwy bynag nad ymostyngai i'r farn hon, os swyddog yn yr eglwys fyddai, fe gollai ei le; ac os gŵr lleyg, fe'i hesgymunid. O ganlyniad, llawer o esgobion teilwng yn Illyria a gogledd Affrica a drowyd o'u lleoedd, ac a alltudiwyd, am na chydnabyddent yr awdurdod a honid gan yr esgymunwyr.

O herwydd ei fawr awydd am ryddhâd, siglodd meddwl Vigilius drachefn. Ei ddiwedd a fu llawnodi dadganiad newydd, yn yr hwn y galwai yn ol pa beth bynag a ysgrifenasai mewn amddiffyniad i'r tair erthygl, gan gadarnhau penderfyniadau cynghorfa Caer Cystenyn. Ar hyn, derbyniodd ganiatâd i ddychwelyd i Rufain; ond bu farw ar y ffordd, yn Syracuse, yn y flwyddyn 555.

Er mor fawr oedd dymuniad yr ymherawdwr am heddychu y Monophysiaid â'r Eglwys Gatholig, ni lwyddodd yn ei amcanion; o herwydd ymlynai y mwyafrif o'r eglwys gyffredin wrth awdurdod cynghorfa Chalcedon, ac yr oedd hwnw rhwng y ddwy blaid yn fur o wahaniaeth nas gellid ei symmud. Cododd ymraniad newydd drachefn yn yr eglwys orllewinol, fel effaith condemniad a gyhoeddwyd gan gynghorfa Caer Cystenyn, yr hwn hefyd a fabwysiadwyd gan

Digitized by Google

Eglwys Rhufain. Mewn canlyniad i hyn yma, darfu i eglwysi Istria, a'r rhai hyny oll oedd yn ddarostyngedig i brifesgob Aquileja, ymadael o gymundeb yr Eglwys Rufeinig.

III. Cynnaliwyd y chweched o gynghorfäau cyffredinol y dwyrain, a'r drydedd yn Nghaer Cystenyn, yn y flwyddyn 680. Cynnwysai o ddeutu dau cant o breladiaid. Pan wnaed ymgais unwaith drachefn i ddwyn y Monophysiaid yn ol i'r eglwys uniongred, unig effaith hyny fu cynnyrchu ymryson ac ymbleidio adnewyddol.

Yn ystod ei ymgyrch milwraidd er adsefydlu awdurdod yr ymherodraeth yn Armenia a Syria (tua'r flwyddyn 622), tybiodd yr ymherawdwr Heraclius ei fod yn canfod mai yr hyn y tramgwyddai y Monophysiaid mor neillduol wrtho oedd, y casgliad a dynent hwy oddi wrth yr athrawiaeth uniongred a ddysgai fod *amlygiad deublyg o ewyllys* yn mherson Crist. Wedi ymgynghori â Sergius, patriarch Caer Cystenyn, ar y pwnc, daeth yr ymherawdwr ac amryw esgobion i'r penderfyniad, er fod dwy natur yn yr Arglwydd Iesu, nad oedd ond *un* amlygiad o ewyllys (*ἐνέργεια θεανδρική*). Appwyntiasai yr ymherawdwr un o'r enw Cyrus yn batriarch Alexandria; a thrwy erthyglau o gytundeb wedi eu ffurfio ar sail yr athrawiaeth Fonophysiaidd o un ewyllysiad, llwyddodd hwn i ennill y Severiaid (plaid o'r Monophysiaid) yn ei esgobaeth i'r eglwys gyffredinol. Y cyntaf i wrthwynebu yr athrawiaeth hon oedd un Sophronius, mynach o Palestina, yr hwn oedd yn Alexandria ar y pryd y derbyniai Cyrus y Severiaid i'r eglwys; a pharhaodd i'w gwrthwynebu yn selog ar ol hyny pan gafodd ei ddyrchafu i batriarchaeth Ierusalem yn 634. Annogai Sergius yn awr na ddywedid dim ar y pwnc mewn dadl. Cytunai Honorius, esgob Rhufain, âg ef, nid yn unig o ran y cynghor hwn, ond yn ei syniadau athrawiaethol ar y mater hefyd. Er i Sophronius ddystewi, disgynodd y wreichionen ar ysbrydoedd ereill parod i danio; ac nid hawdd oedd diffodd y fflam yno. Yn ofer y cyfansoddodd Sergius, ac yr anfonodd yr ymherawdwr allan, gyhoeddiad (*Ἔκθεσις*—*Ecthesis*) ar ddull credo, gyda'r amcan o roddi terfyn ar y ddadl. Ymgodai y gorllewin hefyd yn erbyn yr athrawiaeth newydd. Cyffrodd y mynach Macsen, hen gyfaill i Sophronius, Affrica hefyd yn ei herbyn. Gwrthododd y pab Ioan IV. dderbyn a chydnabod yr *Ecthesis;* ac yn y flwyddyn 646, esgymunwyd Paul, patriarch Caer Cystenyn, gan y pab Theodore. Ceisiodd Constans II, yn y flwyddyn 648, trwy ddeddf a elwid *τύπος*, adferu tangnefedd i'r eglwys ac i'r ymherodraeth hefyd. Ni wnai y rheitharch gyhoeddedig hon ond yn unig gymhell dystawrwydd ar y pwnc, heb amlygu pleidgarwch at y naill na'r llall o'r golygiadau: ac er mor ddymunol fuasai heddwch mewnol i wladwrieth yr oedd iddi gymmaint o flinderau oddi allan, bu hyn drachefn yn aflwyddiannus. Darfu i'r pab Martin I. hyd yn oed gyhoeddi anathema ar athrawiaeth yr un ewyllys, a'r ddwy reitharch ymherodrol a berthynent iddi. O herwydd gwneuthur o hone hyn, cafodd ei ddiswyddo a'i ddwyn gyda Macsen i Caer Cystenyn, lle y condemniwyd y ddau, wedi dyoddef o honynt y driniaeth lymaf, i ddybenu eu hoes mewn alltudiaeth. Effeithiodd hyn i ddwyn oddi amgylch gymundeb rhwng Eglwys Rhufain a Chaer Cystenyn am dymmor, ond ni bu ond o fyr barhâd; canys, yn y flwyddyn 677, gwelid arwyddion amlwg fod rhwyg newydd ar gymmeryd lle; a buan y dybenodd pob cyfathrach rhwng y ddau batriarch. Yn Rhufain y pryd hwn, nid ystyrid fod y rhai o Gaer Cystenyn mwyach yn perthyn i'r Eglwys Gatholig; ni dderbynid llythyrau oddi wrthynt; ac yn Nghaer Cystenyn, o'r tu arall, dilëwyd enwau esgobion Rhufain allan o goflyfrau (*diptycha*) yr eglwys. Blinid yr ymherawdwr a deyrnasai ar y pryd—Cystenyn Pagonatus—yn fawr gan yr ymraniad hwn yn yr eglwysi. Fel gwr lleyg, ni chyhoeddai un farn ar y ddadleuaeth ei hunan, ond fe ymdrechai ddyfod i benderfyniad boddhaol a safadwy trwy appelio at yr esgobion, rhwng pa rai y dygid yn mlaen yr holl ymrysonau. Am hyny, yn y flwyddyn 678, anfonodd lythyr at Dominus, esgob Rhufain, yn dymuno arno anfon cenadon i Gaer Cystenyn, i'r dyben o ymgynghori â'r patriarchiaid gyda golwg ar y moddion goreu i gymmodi y pleidiau mewn ymrafael. Mae y gwahaniaeth rhwng ymadroddion yr ymherawdwr uchod yn y llythyr hwn, a chyfansoddiadau ereill unbenaethiaid Caer Cystenyn pan yn traethu ar faterion cyffelyb, yn nodedig o ran y parch a amlyga tuag at ysbryd o ymchwiliad rhydd a diragfarn yn nglŷn â phynciau athrawiaethol. Sicrhäai yn ddifrifol, a hyny gydag appeliad at Dduw, y byddai iddo ganiatäu yr un rhyddid i bob plaid, a rhoddi yr un anrhydedd i'w cynnrychiolwyr. Chwanegai mai dymunol iawn ganddo fyddai, pe cydsyniai y ddwyblaid i adsefydlu heddwch, ond os na lwyddid i beri undeb, anfonid y cynnrychiolwyr yn ol i Rufain gyda phob anrhydedd. Bu farw Dominus yn fuan wedi cychwyniad cenadwri yr ymherawdwr; ond Agatho, ei olynydd, a ufuddhaodd i'r gwahoddiad: ac yn fuan, cynnullwyd y chweched gynghorfa gyffredinol yn Caer Cystenyn, i'r dyben o ymchwilio i'r materion na chytunid yn eu cylch. Oddi wrth yr ystafell fwaog lle y cynnelid eu cyfarfodydd, derbyniodd yr enw cynghorfa Trullo; a hon oedd y gyntaf o'r enw. Rhoddai yr ymherawdwr ei hun ei bresennoldeb yn yr ymgynghoriadau. Ni osodwyd ger bron y gymmanfa adroddiad manwl ac uniongyrchol o'r pynciau mewn dadl, dygid y gweithrediadau yn mlaen mewn dull mwy gweddus, a chafwyd llai o flinder oddi wrth faterion anmherthynasol nag mewn rhai o'r cynghorfäau blaenorol. Yn unol â hen reol mewn achosion o'r natur yma, dodwyd penderfyniad y ddadl i ddibynu ar y dulliau o ymadroddi a ddefnyddiasid gan y cyndadau—yn ol fel yr ymddangosai eu bod hwy yn cytuno neu yn anghytuno â'r naill olygiad neu y llall. Ond yr oedd y tadau wedi ysgrifenu cyn bod y mater y methid a chydweled gyda golwg arno yn awr âg un ddadl yn yr eglwys o barth iddo. O ganlyniad, yr oedd eu hiaith pan yn cyffwrdd âg ef mewn rhyw gyssylltiad yn anmhenodol ac anmhenderfynol, a'u geiriau yn gyfryw ag a ddeonglid yn wahanol yn fynych gan ddarllenwyr gwahanol. Am hyny, cyhuddai y naill blaid y llall o ŵyrdroi syniadau y tadau, gan eu cymmeryd o'u cyssylltiad priodol. Fel hyn, nis gellid penderfynu dim trwy appeliad at eu hawdurdod hwy, a rhaid oedd cymhwyso at y mater drachefn reolau dadleuaeth resymegol. Dangosid hyn yn eglur trwy y dull yn mha un y dadleuwyd y cwestiwn yn yr wythfed eisteddiad, gyda Macarius, patriarch Antiochia.

Daeth y cynnrychiolwyr Rhufeinig i mewn, gyda llythyr oddi wrth y pab Agatho. Cynnwysai yr epistol hwn eglurhâd maith ar, ac amddiffyniad o, Ddyotheliaeth (=athrawiaeth dwy ewyllys; oddi wrth y Groeg am ddwy ewyllys.

Digitized by Google

Gwel MONOTHELIAID; CRIST.) Detholasid rhesymau ffafriol iddi allan o'r hen dadau, a chyfeirid yn neillduol at ysgrif a gyfansoddasid gan Agatho, yn enw synod luosog a gynnaliesid yn Rhufain. Yn y pedwerydd eisteddiad, darllenwyd pob un o'r ysgrifeniadau hyn ger bron yr holl gymmanfa. Ar y 13eg o Chwefror, pan y cynnelid y seithfed eisteddiad, dygwyd yn mlaen gasgliad chwanegol o ymadroddion y tadau, y rhai yr honid eu bod yn ffafriol i'r golygiadau a goleddid gan y Rhufeiniaid. Gofynwyd i Georgius o Gaer Cystenyn, a Macarius o Antiochia, pa un a gydnabyddent hwy wirionedd yr athrawiaethau a goleddid ac a amddiffynid gan y pab. Eu dymuniad hwythau oedd, cael caniatâd i oedi eu hatebiad hyd yr eisteddiad nesaf. Yn y cyfamser, byddai iddynt ystyried yr ymadroddion a gymmerasid allan o'r tadau yn y cyssylltiad y safent ynddo â'r testyn. Yn ganlynol, yn yr eisteddiad nesaf, yr hwn a gymmerodd le yr ail ar bymtheg o Fawrth, mynegai y patriarch Georgius mai yr effaith a gafodd yr ymchwiliad a wnaethai arno ef oedd, ei argyhoeddi o wirionedd cyfundrefn y ddwy ewyllys, ac y derbyniai efe y gyfundrefn hono fel ei gosodid allan yn ysgrifeniadau Agatho. Anhawdd, o bosibl, ydyw rhoddi cyfrif am yr ymddygiad hwn o eiddo Georgius, heb fod hyny yn cymylu diffuantrwydd ei ymlyniad wrth ei egwyddorion blaenorol; o herwydd nid oedd yn y papyrau a ddygasai y cynnrychiolwyr o Rufain gyda hwy ddim ymadroddion o eiddo y tadau na buont dan sylw yn ystod y ddadleuaeth cyn hyny. Pa fodd bynag, glynodd Macarius o Antiochia wrth egwyddorion Monotheliaeth: gosododd ger bron y gymmanfa adroddiad cyflawn o'i ffydd, yn cael ei gadarnhau â lluaws o ddyfyniadau o'r tadau. Er na chydnabyddai ond un ewyllys a dull neu fodd o weithredu yn Nghrist, ymddengys yn eglur mai ei olygiad ef mewn gwirionedd oedd, fod penderfyniadau ewyllys Iesu Grist, a'i allu i weithredu, yn deilliaw o'r natur ddwyfol a hanfodai ynddo, sef, yr hyn a benderfynai ei weithredoedd. Diau y gwahaniaethai y ddwyblaid oddi wrth eu gilydd yn fwy mewn dameaniaeth a geiriau nag yn eu hymsyniad mewnol am yr hyn oedd wirionedd o barth i'r athrawiaeth.

Trwy y gynghorfa hon, ennillodd yr athrawiaeth o ddwy ewyllys a dau ddull o weithredu yn Nghrist y fuddugoliaeth yn holl eglwysi y dwyrain. Gwnaed hi yn awr yn rhan o gyffes newydd, a gofalwyd am roddi iddi bob amddiffyn yn ngwyneb y casgliadau a dynai y Monotheliaid oddi wrth ei hegwyddorion. Sail y gyffes ydoedd—"Dwy ewyllys, a dau ddull neu fodd naturiol o weithredu, wedi eu cyduno, heb ddim gwrthwynebiad, cymmysgedd afreolaidd, na chyfnewidiad, fel na cheir fod un gwrthymdrech yn hanfodi rhyngddynt, ond cwbl ymddarostyngiad o eiddo yr ewyllys ddynol i'r ddwyfol." Cyhoeddwyd anathema ar flaenoriaid y Monotheliaid, ar batriarchiaid Caer Cystenyn, ac ar Honorius, yr hyn a adferodd undeb eglwysig am dymmor i'r ymherodraeth Rufeinig. Ond yn gymmaint a bod i Fonotheliaeth luaws o gyfeillion ac amddiffynwyr yn mhlith yr offeiriaid a'r mynachod, yr oedd yn annichonadwy i gyhoeddiad o anathema ddarostwng y blaid ar unwaith. Yn hytrach na'i diwreiddio, ei thrawsblanu a gafodd o le i le; ac, fel y gwnaethai o'r blaen byth er amser Justinian, parodd lawer o boen i'r llywodraeth trwy yr amlygiadau a roddodd o'i hanfoddlonrwydd a'i gwrthwynebiad. Er mwyn gwrthweithio yr ysbryd hwn (er na lwyddodd i'w roddi i lawr), ymgynnullodd ail gynghorfa Trullo yn Nghaer Cystenyn yn y flwyddyn 691 neu yn 692; a chyhoeddodd o'r newydd benderfyniadau y chweched gynghorfa gyffredinol mewn perthynas i'r athrawiaeth mewn dadl. Bwriadwyd i weithrediadau hon gwblhau pa beth bynag a adawsid yn anorphenol yn y bummed a'r chweched o'r cynghorfäau cyffredinol a fuont o'i blaen, ac ystyrir hi ei hun hefyd weithiau fel yn perthyn i'r dosbarth hwnw o gymmanfaoedd. Cymmerwyd holl amser y ddwy gynghorfa uchod (y bummed a'r chweched) gyda phynciau athrawiaethol; ni phasiwyd ganddynt ddim canonau neu reolau o berthynas i ddysgyblaeth eglwysig neu foesau; a'r diffyg hwn ynddynt y bwriedid i hon ei wneyd i fyny. O ganlyniad, ffurfiwyd 102 o ganonau gyda golwg ar y materion uchod. Y mae llawer o'r rhai hyny yn bwysig; yn gymmaint a darfod iddynt achosi llawer o'r pellder a'r ysgariad a aeth wedi hyny yn fwy rhwng eglwysi y dwyrain a'r gorllewin. Yn y dwyrain yn unig y cydnabyddid awdurdod y gynghorfa hon; a dyma y cam cyhoeddus cyntaf yn yr ymneillduad a derfynodd mewn llwyr ymadawiad eglwysi Groeg a Rhufain oddi wrth eu gilydd.

IV. Yn y flwyddyn 879 y cynnaliwyd pedwaredd gynghorfa gyffredinol Caer Cystenyn, a'r wythfed o'r cyfryw yn y dwyrain. Cynnaliwyd cymmanfa, yr hon a broffesai gynnrychioli yr holl eglwysi, ac a ystyrir eto mewn rhai gweithiau fel wythfed gynghorfa gyffredinol y dwyrain, yn y ddinas uchod, ddeng mlynedd yn gynt (869), yn mha un y gwrthwynebid y rhai a honent fod yn natur dyn ddau enaid, ac y diswyddwyd un Photius, a ddringasai yn afreolaidd ac anghyfreithlawn i batriarchaeth Caer Cystenyn, gan adferu yn ei le Ignatius, y gwir batriarch. Ond daeth i'r amlwg wedi hyny fod yn nglŷn â hono dwyll a hoced wedi ei arfer, oedd yn dinystrio ei chyffredinolrwydd priodol. Daeth iddi rai yn proffesu bod yn genadon oddi wrth batriarchiaid absennol, â llawn awdurdod ganddynt i gynnrychioli y swyddogion hyny, pan, mewn gwirionedd, nad oeddynt erioed wedi eu hanfon ar y fath neges. Dyrchafiad y Photius uchod drachefn i batriarchaeth prif ddinas y dwyrain oedd un o'r prif faterion yr ymgynghorai y gymmanfa yn 879 yn eu cylch. Buasai Ignatius farw yn y cyfamser; ac am mai ewyllys yr ymherawdwr oedd i Photius ei ddilyn, ac nad oedd pab Rhufain, a gynnrychiolid trwy negeswyr, yn anfoddlawn, penderfynwyd ar hyny. Heb law nacau cyfreithloni honiadau y pab o'i hawl ef i fod yn ben ar dalaeth Bulgaria, a gommedd cydsynio â'i gais i ymattal rhag dewis un gŵr lleyg i batriarchaeth Caer Cystenyn wedi marwolaeth Photius, ail gyhoeddodd y gynghorfa hon Gredo Nicaia fel cyffes a thystiolaeth gyffredinol o'r ffydd, a chondemniwyd pob rhyw gyfnewidiad, trwy ba un y chwanegid gronyn ato, neu y cymmerid dim oddi wrtho.

Un arall o gynghorfäau Caer Cystenyn, a eilw Neander yn gyffredinol, ydyw yr hon a gynnaliwyd yno yn y flwyddyn 754, lle yr oedd wedi ymgynnull yn nghyd dri chant a deunaw ar ugain o esgobion, ac y condemniwyd delwaddoliaeth a phawb a'i cefnogai mewn unrhyw fodd. Gwel ail GYNGHORFA NICAIA yn 787.—(*Neander's Gen. Hist. of the Christ. Rel. and*

*Church; Gieseler's Eccles. Hist.; Hase's Hist. of the Christ. Church; Guericke's Manual of Church Hist.*)

CYNGHORFA CONSTANCE.—Agorwyd y gymmanfa eglwysig hynod hon yn mis Tachwedd 1414. Yr oedd yn bresennol ynddi, ymherawdwr Germany, y pab, ugain o dywysogion, cant a deugain o ieirll, mwy nag ugain o gardinaliaid, saith o batriarchiaid, ugain o archesgobion, un ar ddeg a phedwar ugain o esgobion, chwe chant o urddasolion eglwysig ereill, ac o ddeutu pedair mil o offeiriaid. Yr hyn a barodd eu hymgynnulliad oedd yr ymrysonau a'r ymraniadau oedd yn cymmeryd lle mewn perthynas i amgylchiadau yr eglwys. Er y flwyddyn 1305, nid oedd y pabau wedi arfer preswylio yn Rhufain, ond arosent yn Avignon—dinas fawr a phrydferth yn y parth de-ddwyreiniol o Ffrainc. Clement v. oedd y cyntaf a ymsefydlodd yno. Ond gan y gwelent fod y ddinas dragwyddol, o herwydd absennoldeb pen eu heglwys, yn myned braidd yn anghyfannedd, daeth y Rhufeiniaid, yn enwedig y rhai yr oedd y Babaeth yn anwyl ganddynt, yn awyddus am ei ddychweliad; a chan hyny, yn groes i ddymuniadau ei gardinaliaid a brenin Ffrainc, daeth Urban v. yn ol i Rufain o'r diwedd yn y flwyddyn 1367. Ond gorfu iddo yn fuan ddychwelyd i Avignon, o herwydd ansawdd derfysglyd a chyffrous Italy ar y pryd. O blegid taerni ei ddeiliaid Italaidd, cydsyniodd Gregory XI. wedi hyny i ddyfod i'r ddinas sanctaidd i fyw, a chludwyd ef yno mewn gorfoledd a rhwysg gan y preswylwyr, yn 1377. Y flwyddyn ganlynol, wedi marw Gregory, nis gallai y cardinaliaid yn Italy a Ffrainc gytuno â'u gilydd gyda golwg ar olynydd iddo. Am hyny, dewisodd y naill blaid a'r llall ei phab ei hunan—y blaid Italaidd, archesgob Bari, dan yr enw Urban VII; a'r blaid Ffrengig, Cardinal Robert o Geneva, wrth yr enw Clement VII. Ymsefydlodd y diweddaf yn Avignon; a thrwy ddylanwad Ffrainc, daeth ei awdurdod yn raddol i gael ei gydnabod yn yr Alban, yn Yspaen, Portugal, Savoy, a Lorraine, ac ystyrid ef fel olynydd priodol y pabau Ffrengig. Achosodd etholiad y ddau hyn rwyg ac ymraniad a barhaodd am ddeugain mlynedd. Yr oedd y naill bab yn gorwedd dan esgymundod y llall, a'r bobl o angenrheidrwydd oedd yr unig gyflafareddwyr yn yr ymrysonfa. Prifysgol Paris a gymmerodd y cam gweithredol cyntaf tuag at ddwyn heddwch i mewn. Yr oedd yn ymddangos mai yr unig lwybr ymarferol trwy ba un y gellid rhoddi terfyn ar yr ymrafael ydoedd, bwrw ymaith y ddau gyda'u gilydd. Benedict XIII. oedd y pryd hwnw yn ben yn Avignon, a Gregory XII. yn Rhufain. Ar adeg eu hetholiad, addawsai pob un o'r ddau wneyd unrhyw aberth y byddai llwydd a lles yr eglwys yn gofyn am dano; ond wedi hyny, trwy amryw esgusodion, nacaodd y naill a'r llall sefyll at eu hymrwymiadau.

Methid a chanfod un ffordd a roddai derfyn cyfreithlawn a boddhaol ar y cweryl hwn rhwng y ddau ymhonwr gwrthwynebus am urddas y Babaeth, ond trwy ymofyn barn yr holl eglwys mewn cymmanfa o rai yn ei chynnrychioli. Yn unol â dymuniad y prifysgolion, dododd y cardinaliaid yn awr heibio eu hymrafaelion, a galwasant yn nghyd gynghorfa gyffredinol Pisa. Yno, cynnrychiolid yr offeiriadaeth gan bedwar ar ugain o gardinaliaid, a dau cant o esgobion; yr urddau mynachaidd, gan dri chant o abadau; y cymdeithasau gwyddonol a chelfyddydol, gan ddirprwywyr o'r prifysgolion, chwech ugain o athrawon duwinyddol, a thri chant o wŷr yn meddu graddau yn y gyfraith eglwysig a gwladol; a'r cynnrychiolwyr gwladwriaethol, mewn modd arbenig, oeddynt y llysgenadon o Ffrainc a Lloegr. Yn y gynghorfa hon, haerai Gerson, canghellydd Paris, fod Crist wedi ymddiried i'w eglwys allu ac awdurdod oedd yn annibynol ar y pab; ac amddiffynai y gymmanfa yr egwyddor hon, gan ei chadarnhau er gwaethaf gwrthdystiadau y ddau bab, y rhai a gefnogid hefyd gan Rupert, ymherawdwr Germany, a Ladislaus, brenin Naples. Yna, gwysiwyd Benedict a Gregory ger bron; ac wedi prawf ffurfiol, diswyddwyd y ddau o herwydd eu hystyfnigrwydd a'u hanffyddlondeb i'w hymrwymiadau. Ni fynai lluaws o'r rhai oedd bresennol ymwasgaru heb yn gyntaf benderfynu ar luaws o fesurau diwygiadol, fel y symmudid ymaith yr annhrefn a ffynai yn nglŷn â phethau crefydd. Dewiswyd yn bab hen ŵr tawel o'r enw Peter o Candia, a galwyd ef yn Alexander. Fel y caffai amser i wneyd y parotoadau yr haerai efe eu bod yn angenrheidiol tuag at hyny, gohiriodd y gwaith o ddiwygio hyd amser cynghorfa yr addawai ei gwysio yn mhen tair blynedd o'r pryd hwnw. Parhaodd Benedict drachefn i ddadleu dros ei hawliau ei hunan yn yr Yspaen ac yn yr Alban, a chydnabyddid Gregory hefyd gan Rupert a Ladislaus, ac edrychai gwledydd cred mewn syndod ar dri o babau o fewn eu cyffiniau, a'r eglwys yn sathrfa i'r camarferion a'r llygredigaethau mwyaf gwrthun.

Dyn o alluoedd a thalentau anghyffredin er trafod helyntion byd, ond hollol amddifad o ysbryd crefydd, oedd Cossa, arnegesydd cardinalaidd y pab. Dygodd hwn Alexander v. i Bologna, yn y flwyddyn 1410, fel y byddai farw yn y ddinas hono. Trwy drais, mynodd Cossa bob awdurdod yn y ddinas i'w law ei hun, llywodraethodd yno fel gormeswr, a gorfododd y cardinaliaid i'w ddewis ef yn olynydd Alexander yn nghadair Pedr. Ymgymmerodd â'r enw John XXIII; a chyn hir, cafodd ei ymlid o'r taleithiau eglwysig mewn rhyfel â Ladislaus. Gwrthodai yr ymherawdwr Sigismund roddi un cynnorthwy iddo, ond ar yr ammod ei fod yn penodi ar ryw fan tu hwnt i'r Alpau, lle y gellid galw yn nghyd gynghorfa er adgyweirio y rhwyg a'r ymraniad yn yr eglwys, a dwyn oddi amgylch y diwygiadau yr oedd y bobl yn llefain am danynt. Y lle y cytunwyd arno gan y pab a'r ymherawdwr oedd Constance, a gwysiwyd y gynghorfa i ymgynnull ar y cyntaf o Dachwedd, 1414. Yn llawn pryder a dyryswch, aeth John XXIII. i Constance ar y 29ain o Hydref, lle y cyfarfyddodd â'r llu mawr a enwyd yn flaenorol, oll yno yn gryno ger ei fron, megys byddin fawr gyfansoddedig o holl fawredd a gogoniant Ewrop; ac yn ben ar yr awdurdodau gwladol yr oedd yr ymherawdwr, yr hwn a lwyr fwriadai ddwyn oddi amgylch ddiwygiad yn yr eglwys. O herwydd gorluosogrwydd y preladiaid Italaidd, trefnwyd na byddai gan neb bleidlais fel person unigol, ond y derbynid llais gwlad a chenedl yn y cyfanswm o honi; chwanegodd hyn yn fawr at ddylanwad y blaid ddiwygiadol. Ychydig oeddynt yr eisteddiadau cyhoeddus yn y gynghorfa pan y byddai y Germaniaid, yr Italiaid, y Ffrancod, y Seison, a'r Yspaeniaid, oll wedi ymuno yn un corff ynddynt; ond, gan mwyaf

Digitized by Google

cyflawnent eu gorchwylion yn ddosbarthiadau gwahanedig ar eu penau eu hunain. Gwnai y cardinaliaid i fyny goleg wrthynt eu hunain, heb feddu unrhyw ragorfreintiau penodol. O fewn i'r dosbarth neillduol a gynnrychiolai y wlad y perthynent hwy iddi, honai y preladiaid mai eu llais hwy oedd i fod yn benderfynol ar bob pwnc; ond yn gyffredin, byddai llais a dylanwad y tywysogion a'r doctoriaid yn eu trechu. O'r diwedd, cyhoeddodd y mwyafrif fod y rhwyg yn anfeddyginiaethol heb, o'r hyn lleiaf, ddiswyddo y tri phab gyda'u gilydd, a deuai llais y lluaws yn fwyfwy penderfynol i alw am ddwyn John XXIII. i gyfrif o herwydd ei fuchedd afreolus a drwg. Y pryd hwnw, ymddangosai John fel pe yn ewyllysgar i ymwrthod â'r dalaith; ond yn fuan drachefn (Mawrth 20fed, 1415), ffoddi Schaffhausen, a symmudodd wedi hyny yn mhellach i lawr yr afon Rhine, gan alw yn ol ei holl addewidion, dan y rhith esgus mai ei orfodi a gawsai i'w gwneuthur. Wedi oediad byr drachefn, cyhoeddodd y gynghorfa ei hannibyniaeth a'i thra rhagoriaeth ar bob un o'r pabau. Profwyd John XXIII. yn rheolaidd, a chafwyd ef yn euog o restr hirfaith o droseddau; diswyddwyd ef dros amser, wedi cael cydsyniad Awstria i hyny; traddodwyd ef i garchar; ac o'r diwedd, y 29ain o Fai, llwyr amddifadwyd ef o'i gadair. Rhoddodd Gregory hefyd ei swydd i fyny, yn 1417, ond ar delerau anrhydeddus er hyny. Wedi hir ac ofer ddadleu am amser maith, trodd ei gyfeillion yn gyffredinol eu cefnau ar Benedict; a Gorphenaf 26ain, 1417, fe'i diswyddwyd ef gan y gynghorfa fel heretic yn gwrthwynebu yr erthygl a sicrhäai nad oes ond un eglwys gatholig. Gyda'r brys mwyaf ag oedd yn bosibl, aed yn nghylch y gwaith o ethol pab drachefn. Yn ofer y dadleuai y rhai oeddynt o Germany y dylasid yn gyntaf gwblhau y gwaith o ddiwygio yr eglwys; goruchreolwyd y personau hyn gan y neb a ofnent y byddai i'r blaid ryddfrydig fynu eu ffordd, a llwyddo i gyrhaedd eu hamcanion, os parhäai yr eglwys heb un pen. At y tri ar ugain o gardinaliaid a gyfansoddent y gysbwyllfa (*conclave*) oedd i ddewis y pab, chwanegwyd chwech o ddirprwywyr o bob cenedl; a Thachwedd 11eg, etholwyd Otho Colonna yn bab, dan yr enw Martin V. Cyn hyn, edrychasid arno fel dyn moesgar, medrus, a chymmedrol; ond efe a wyddai yn dda yn awr pa fodd i attal yr ymdrechiadau am ddiwygiad, trwy roddi i ryw wledydd neillduol hawl ac awdurdod ar rai swyddau eglwysig, a rhoddi i fyny ychydig o hawliau y llys Pabaidd. Yr ydoedd amynedd y gynghorfa wedi pallu yn llwyr. Mai 11eg, 1418, ymadawodd y pab gyda rhwysg mawr, a gorfodwyd y rhai a hiraethent am ddiwygiad i osod gobaith a siomwyd y waith hon ar gynghorfa arall, oedd yn cael ei haddaw yn mhen pum mlynedd o'r amser hwnw. Pan y galwodd Martin gymmanfaoedd i Pavia a Siena, yr oedd y nifer fechan o breladiaid a ddaethant yno yn ddigon o reswm yn ei olwg ef i ohirio y diwygiad hyd amser pellach drachefn. Ond yr oedd teimlad y cyhoedd o'r angenrheidrwydd am ryw gynnorthwy yn erbyn dilynwyr Huss—y rhai a elwid yn hereticiaid—wedi dyfod mor fawr, fel y gorfodwyd ef i wysio y gynghorfa addawedig yn ninas ymherodrol Basle, yn mis Mawrth, 1431.

**CYNGHORFA NICAIA,** neu **NICE.** Er iawn ddeall y prif bethau oedd dan sylw yn y gynghorfa hon, ymofyner â'r erthyglau ARIAID; ATHANASIUS. Dinas o fewn talaeth Bithynia, yn Asia Leiaf, oedd Nicaia, â'i safle ar lan dwyreiniol llyn Ascania (Isnick yn awr). Yr enw olaf hwn, sef Isnick, a roddir arni hithau hefyd yn bresennol; ac ni chynnwys nemawr, os dim, mwy na thri chant o dai annedd. Yn amser breninoedd Bithynia, pa fodd bynag, preswyliai y penau coronog yn fynych o'i mewn; a bu ymryson hir rhyngddi a thref Nicomedia pa un a gaffai ei hystyried yn brif ddinas y dalaeth. Ond mewn hanesiaeth eglwysig, perthyna iddi ddyddordeb arbenig fel man cyfarfod cynghorfa gyffredinol gyntaf yr Eglwys Gristionogol. Wedi i'r ymherawdwr Cystenyn, yn y flwyddyn 324, ddyfod ei hunan yn ben arglwydd ar holl ymherodraeth Rhufain, un amcan neillduol y gosodasai ei fryd ar ei gyrhaeddyd oedd, cael ei holl ddeiliaid i synio yn gytûn ar faterion crefyddol. Gan hyny, blin yn ei olwg oedd gweled ymraniad mor bwysig ag Ariaeth yn cyfodi yn yr eglwys ei hun; ac ystyriai mai dyledswydd a orphwysai yn benodol arno ef ei hun ydoedd, gwneyd pob ymdrech yn ddioed i symmud y drwg i ffordd. Un yr oedd iddo ffafr fawr yn ngolwg yr ymherawdwr ydoedd Hosius, esgob Cordova, yn yr Yspaen; ac anfonwyd hwnw gan ei fawrhydi gyda llythyr at Alexander, yr esgob yn Alexandria, ac Arius, henadur yn yr un ddinas, prif arweinyddion y pleidiau gwrthwynebol yn y ddadleuaeth, yn yr hwn lythyr y dadganai Cystenyn ei ofid o herwydd ansawdd pethau, a galwai arnynt i gydnabod a chydoddef eu gilydd fel brodyr Cristionogol, heb gyndyn geisio gan y naill goledd a chymmeradwyo syniadau neillduol y llall. Cyfeiriai ei fawrhydi eu sylw at esampl athronwyr, y rhai, tra yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd mewn perthynas i amrywiol bynciau athrawiaethol, eto, na phetrusent ystyried eu hunain fel yn perthyn i'r un ysgol neu sect. Ysgrifenai yr ymherawdwr, neu rywun yn ei enw, ymadroddion o'r fath yma, nid yn gymmaint o herwydd fod ganddo ofal am undeb yr eglwys; ond y cymhelliad i'w waith ydoedd, awydd cryf am gwblhâd ei amcanion ei hunan, a hyny yn gyssylltiedig â difaterwch mewn cymhariaeth am burdeb dilwgr yr athrawiaeth. Y canlyniad a fu, na lwyddodd y llythyr uchod i ddwyn y pleidiau gwrthwynebus yn nes at eu gilydd.

Wedi i Cystenyn fethu yn ei ymgais hwn i adferu tangnefedd i'r eglwys, a bod ymrysonau yr Ariaid a'r Meletiaid [gwel MELETIAID] wedi cydgyfodi tua'r un amser yn yr Aipht, ac achosi cynhwrf nid bychan hyd yn oed yn mhlith y gwyr llëyg, gan fygwth peri canlyniadau difrifol yn y wladwriaeth hefyd, gwelodd yr ymherawdwr mai rhaid oedd iddo edrych o'i amgylch am ryw foddion mwy effeithiol er dwyn heddwch i mewn. Tybiai Cystenyn mai yr esgobion oedd cynnrychiolwyr Duw a Christ, a gwahoddodd i'r un lle gymmanfa o holl esgobion ei ymherodraeth: a hyn a arweiniodd i wysiad cynghorfa gyffredinol Nicaia, yn y flwyddyn 325.

Y mae amrywiol dybiau o barth i nifer yr esgobion oeddynt yn wyddfodol yno. Awdwr *Drych y Prif Oesoedd* a fabwysiadai y dybiaeth a'u gesyd i lawr fel yn dri chant ac ugain mewn rhifedi. Yn ol Eusebius, dau cant a hanner o esgobion oedd yno, yn nghyd â henuriaid, diaconiaid, ac ereill. Gelasius, pa fodd bynag, a rydd y nifer yn dri chant; ond y mae Socrates, Theodoret, ac Epiphanius, a haneswyr mwy diweddar yn gyffredin wedi priodoli i'r gynghorfa

Digitized by Google

dri chant a deunaw o esgobion. Cymmerodd yr ymherawdwr ei hunan ran neillduol yn y gweithrediadau, a thybir y llywyddid y cynnadleddau gan Hosius, esgob Cordova.

Yn Nicaia, cynghorai Cystenyn—yr hyn a ddengys cyn lleied a wyddai am yr efengyl fel gallu Duw—yr esgobion ymgynnulledig i beidio cenfigenu wrth eu gilydd ar gyfrif dim canmoliaeth a roddid i bregethau y naill neu y llall, neu o blegid enwogrwydd areithyddol rhyw rai yn neillduol; ar fod iddynt hefyd ymgadw rhag gosod i lawr sail i ymraniadau trwy eu cydeiddigedd, fel na roddid achlysur i'r paganiaid gablu y grefydd Gristionogol. Y ffordd hawddaf, meddai, i arwain y paganiaid at ffynnonau iachawdwriaeth fyddai gwneyd sefyllfa a chyflwr y Cristionogion yn mhob ystyr yn gyfryw fel y byddai ereill yn debyg o genfigenu wrthynt, a dymuno bod yn gyffelyb. Dyledswydd yr esgobion oedd ystyried a chofio na allai pawb dderbyn lles a buddioldeb oddi wrth *bregethu.* "Gallai rhai," meddai yr ymherawdwr, "gael eu dwyn i'r ffydd trwy eu cyflenwi yn ol eu hangen â moddion cynnaliaeth; arferai ereill gyrchu i ba le bynag y caent nawdd ac amddiffyniad, ac y cyfryngir ar eu rhan (gan gyfeirio at gyfryngdod yr esgobion); ennillid ereill trwy groesaw mwyn, a charedigrwydd moesgar; ac ereill, trwy eu hanrhydeddu âg anrhegion. Ychydig oedd a garent yn onest eglurhâd teg ar, a chyhoeddiad eglur o, athrawiaethau crefydd; nid oedd chwaith ond ychydig yn garedigion y gwirionedd. Am y rheswm hwn, eu dyled oedd, cyfaddasu eu hunain at gymmeriad pawb, ac, fel physygwyr medrus, rhoi i bob dyn yr hyn a dueddai er iechyd iddo ef yn bersonol, fel, yn mhob rhyw fodd, y cai yr athrawiaeth achubol ei gogoneddu yn mhawb." Yr oedd yn naturiol i ymddygiad a reoleiddid gan y cyfryw egwyddorion a hyn wneyd drws agored i bob math o ragrith. Un tra hoff o foli Cystenyn oedd Eusebius; ac, wedi ei ddallu i raddau, y mae lle i feddwl, gan y gorwychder â pha un yr addurnid yr eglwys oddi allan gan yr ymherawdwr, nid o'i fodd y dywedai ddim ond da am ei arwr; eto, fel yn mysg y penaf o ddrygau y cyfnod hwn, gorfodir ef i nodi *rhagrith anahraethadwy* y rhai hyny a broffesent eu hunain yn Gristionogion yn unig er mwyn elw a manteision tymmorol, a thrwy ffugio sel a ffyddlondeb, a lwyddent i ennill ymddiried yr ymherawdwr, yr hwn, drachefn, a oddefai iddynt gamddefnyddio yr ymddiried hwnw. Ond dychwelwn at rai o weithrediadau neillduol y gynghorfa.

Yn gymmaint ag nas daeth i lawr hyd atom ni un hanes cryno o'r pethau a wnaed yn y gynghorfa hon, yr unig foddion sydd wedi eu gadael trwy ba rai y gallwn ddyfod i feddu syniad am drefn eu gweithrediadau yw, cymmeryd yr hyn ddywed cynnrychiolwyr y gwahanol bleidiau yn mhrif ddadl y gynghorfa, y rhai oeddynt yn bresennol, a ffurfio ein penderfyniad drwy wneyd cymhariaeth o'u hadroddiadau hwy. Rhaid deall sefyllfa y pleidiau yn eu perthynas â'u gilydd:—sef, y rhai a gytunent yn hollol âg athrawiaeth Arius, nad oeddynt ond ychydig mewn rhif; gyda hwy, yr oedd amddiffynwyr yr *homoousion*—yr *Un*hanfodiaid [gwel Ariaid]; ac yn yr eglwys ddwyreiniol yn enwedig, nid oeddynt hwythau, mewn cymhariaeth, yn lluosog; ac yn olaf, y rhai a safent ar y tir canol, rhwng y ddwyblaid, ac a goleddent syniadau cyffelyb i'r eiddo Eusebius o Cesarea, yr hwn, drachefn, oedd yn debyg ei farn a'i gyfundrefn i Origen. O'r rhai diweddaf hyn y deilliodd wedi hyny y blaid a elwid Hanner-Ariaid = *Semi-Arians* [gwel erthygl]. Dymunai y rhai hyn na byddai i'r athrawiaeth am Dduwdod Crist gael ei phenderfynu ond yn unig yn y cyfryw ymadroddion cyffredinol ag oedd hyd yma wedi cyfarfod âg angenion y Cristionogion; a chyda golwg ar y pwnc mewn dadl rhwng y ddwyblaid a gydymrysonent, na roddid darnodiad manwl o ddim, ond y gadewid pawb i ddeongli yr iaith yn unol â'i feddwl ef ei hun. Y mae tu hwnt i ddadl y rhaid fod lluaws o ymadroddion penderfynol Arius, gyda golwg ar natur Mab Duw, yn ymddangos ar y pryd yn wrthwynebol hyd yn oed i'r blaid ganol, yr hon ydoedd y gryfaf a'r deca. yn y gynghorfa; a hawdd y gallesid cymmeryd gafael yn yr ymadroddion hyn, a thrwyddynt ddangos i'r dwyreinwyr fod Arius yn wrthwynebwr i hen athrawiaeth yr eglwys mewn perthynas i'r Drindod. Ac oni bai ddarfod i bleidwyr yr *homoousion* godi gwrthddadleuon yn erbyn yr athrawiaeth a ffynai yn eglwys y dwyrain, ac i rai personau neillduol ddyfod yn mlaen i gyfryngu rhwng y pleidiau anghytunol, diau mai hawdd fuasai cario trwy y gynghorfa gondemniad ar y gosodiadau Ariaidd hyny. Yn mysg yr esgobion a berthynent i'r blaid a elwid wedi hyny yn Hanner-Ariaid, yr oedd lluaws a ymdrechent yn egnïol i sefydlu heddwch, a dystewi y mwyaf eu sel yn erbyn athrawiaeth Arius. Gwnaethant ymdrech i ddangos nad oedd ei ymadroddion mor gyfeiliornus ag yr ymddangosent ar yr olwg gyntaf; a chynnygiwyd ganddynt amryw ffurfgyffesion cyffredinol o gydgytundeb, er mwyn ceisio boddloni y ddwyblaid. Cydsyniodd y blaenoriaid yn mysg dilynwyr Arius â'r ffurfiau cytundebol hyn, gan amlygu eu parodrwydd i alw yn ol yr ymadroddion tramgwyddus, a mabwysiadu geirddull athrawiaethol yr eglwys ddwyreiniol. Yn blaenori yn mysg y rhai a ymdrechent am heddwch, yr oedd Eusebius, esgob dysgedig Cesarea. Gosododd ger bron y gynghorfa gyffes ffydd, yn cynnwys, meddai efe, yr athrawiaeth a gawsai ei dal gan yr esgobion yn ei eglwys ef er y dechreuad—cyffes o'r egwyddorion y dysgasid ef ynddynt yn more ei oes, ac ar adeg ei fedydd, a'r rhai hefyd a bregethasai efe bob amser fel henadur ac fel esgob. Yn y credo hwn, gosodid i lawr yn eglur a phenodol yr athrawiaeth am Dduwdod Crist; ond er fod yr ymadroddion, o ran cyflawn feddwl ac ystyr y syniadau a drosglwyddid trwyddynt, yn groes a gwrthwynebol i'r daliadau Ariaidd priodol, eto yr oeddynt yn gyfryw ag y gallesid eu cyssylltu â'r golygiadau hyn gan Arius, heb ei fod ef a'i ddilynwyr dan orfod i lwyr ymwrthod â'u dull eu hunain o feddwl ar y pwnc.

Yr oedd y gyffes hon yn meddu ar y fantais neillduol o fod yn gyfansoddedig, gan mwyaf, o frawddegau ysgrythyrol; ac ystyriai Eusebius a'i bleidwyr hyn yn rhinwedd mawr. Beient gredo Arius, yn gystal a ffurf athrawiaeth yr *homoousion*, am y defnyddid ynddynt hwy ymadroddion heb fod mewn cydffurfiad â geiriau y Beibl—er, o bosibl, nad oedd hyn yn ganmoladwy ynddynt, nac yn gorphwys ar sail dda. O herwydd, gan fod i'r dull o ymadroddi a geir yn yr Ysgrythyrau ddyben hollol wahanol i roddi darnodiad manwl o syniadau am athrawiaethau crefydd, a bod ffurfiau newydd ar gyfeiliornad yn gofyn cael eu cyfarfod â dulliau newydd o eiriad ar yr athrawiaeth; felly, nid bob amser y mae yn bosibl i frawddegau ysgrythyrol fod yn hollol y rhai

Digitized by Google

mwyaf cyfaddas er gosod allan gyflawn ystyr y wir athrawiaeth yn ngwyneb cyfeiliornad cyferbyniol; ac nis gellir ystyried y ffaith *nad* ydyw yr ymadroddion i'w cael yn yr Ysgrythyr fel gwrthddadl hollol safadwy yn erbyn eu defnyddio. Atebiad priodol o du amddiffynwyr yr *homoousion* i hyn a fuasai, mai yr *unig* beth *pwysig* i'w benderfynu ydoedd, nid a geid y geiriau yn y Beibl, ond a oedd y syniadau a drosglwyddid trwyddynt o ran eu sylwedd wedi deilliaw o'r gyfrol hono.

Ond er fod y credo hwn yn ymddangos fel yn boddhau y mwyafrif yn yr eglwys ddwyreiniol, o ran sylwedd yr athrawiaethau a gynnwysid ynddo, eto yr oedd gan y rhai a wrthwynebent y gyfundrefn Ariaidd beth yn ei erbyn mewn modd arbenig; sef hyn, ei fod eto yn rhoddi mantais i holl athrawiaethau Arius, mewn dull o lefaru, i roddi eu troed i lawr.

Tystiai Eusebius, mewn llythyr bugeiliol o'i eiddo, nas gallai neb ddwyn yn mlaen un gwrthwynebiad i'r gyffes hon o ffydd; ond dywed Eustathius o Antiochia y derbynid hi gydag anghymmeradwyaeth cyffredinol. Er ei fod yn annhosibl sicrhau pa adroddiad sydd gywir, o'r braidd y gellir yn ddibetrus gredu y diweddaf; yn gymmaint a bod Eustathius ei hun yn wrthwynebwr gwresog i Eusebius, ac hefyd o herwydd darfod i Gredo Nicaia ei hunan drachefn darddu o'r ffurf-gyffes hon, gyda rhai chwanegiadau ati; ac y mae hefyd yr hyn a wyddys am y syniadau athrawiaethol a ffynent yn fwyaf cyffredinol yn eglwysi y dwyrain y dyddiau hyny yn peri i ni feddwl eu bod yn cytuno ar y cyfan â'r hyn a osodasid i lawr gan Eusebius yn yr ysgrif yma.

Ond er mai gwir yw fod plaid yr esgob Alexander yn foddlawn i'r erthyglau ffydd hyn, ar yr un pryd, hwy a fynegasant, yn gymmaint a bod ymadroddion y credo yn gyfryw ag y gallai yr Ariaid eto eu hesbonio yn unol â'u syniadau eu hunain, mai llwyr angenrheidiol ydoedd chwanegu atynt y gosodiadau ereill a fyddent yn sicr o gau allan athrawiaethau cableddus Arius: ac o blaid y rhai a geisient hyn yma yr oedd llais dylanwadol yr ymherawdwr Cystenyn ei hunan. Gyda golwg ar y peth diweddaf hwn hefyd—dylanwad Cystenyn—yr ydym yn cael gwahanol adroddiadau. Nid yw Athanasius [gwel ATHANASIUS] yn crybwyll fod a fyno yr ymherawdwr ddim â'r mater, ond arddengys y peth hwn fel yn deilliaw oddi wrth yr esgobion eu hunain yn unig; o'r tu arall, Eusebius a ddywed mai Cystenyn, ac efe yn benaf, a bleidiodd y cynnygiad. Pa fodd bynag, diau ddarfod i farn Cystenyn gael ei ffurfio i raddau helaeth trwy ddylanwad yr esgobion hyny a ddygwyddent fod, cyn y gynghorfa, â chanddynt fwyaf o ddylanwad arno, sef Hosius a'i gymdeithion; a phenderfynodd felly mai buddiol fyddai atddodi yr *homoousion.* Yn meddu fel hyny ddylanwad yr ymherawdwr o'u plaid—at yr *homoousion,* mynai yr esgob Alexander a'i gyfeillion chwanegu erthyglau ereill, i'r dyben o roddi barn o gondemniad ar Arius a'i athrawiaethau; ac yn y modd yma, o'u gwaith yn uno adranau gwrthosodol (*antithetic*) â'r erthyglau ffydd a gynnygiwyd gan Eusebius—o hyn y deilliodd Credo Nicaia. Nid ymfoddlonid ar gondemnio athrawiaethau; ond yn ol hen arferiad, rhoddwyd hefyd farn o gondemniad ar y personau a'u coleddent am eu dwyn i mewn i'r eglwys.

Er mai gwir yn ddiau yw fod y mwyafrif o'r gynghorfa yn cytuno â'r erthyglau a gyfansoddwyd yn erbyn y rhan hono o'r credo Ariaidd a amcanai at osod Mab Duw fel pe na buasai amgen na chreadur, eto yr ydoedd y darnodiad o'r *homoousion* yn groes i'r ffurf o athrawiaeth a ffynai yn y dwyrain. Am hyny, cododd gwrthwynebiad mawr i'r darnodiadau hyn. Y dydd cyntaf wedi cael o honynt eu dwyn ger bron, gwrthododd Eusebius o Cesarea yn bendant eu derbyn na'u cymmeradwyo. Ond, megys y dywed ei hunan, yn ei lythyr bugeiliol at ei eglwys a anfonwyd ganddo o Nicaia, wedi cryn eglurhau arnynt, a thraethu yn eu cylch, efe a gydsyniodd i'w derbyn, er mwyn heddwch; a hyny gan ddeongli yr erthyglau newydd yn unol âg ystyr ei gyfundrefn athrawiaethol ef ei hun—er yn gorfod gwneyd hyny ar draul arddangos gradd o dwyll-ymresymiad cyfrwys. Trwy gymmeryd mantais ar yr ystyr anmhenderfynol oedd yn y dyddiau hyny i dermau athroniaeth a duwinyddiaeth, hawdd y gallasai Eusebius ddeongli, yn unol â'i olygiadau ef ei hun, yr erthygl benaf mewn perthynas i'r *homoousion.* Yn ol ei eglurhâd ef, y cwbl a ddynodid gan y gosodiad hwn ydoedd, dyrchafiad Mab Duw fel ag i fod tu hwnt i gael ei gymharu mewn dim â bodau creedig, a hefyd ei debygolrwydd perffaith i'r Tad. Fel y dywed yn ei lythyr bugeiliol, efallai mai y gwirionedd ydoedd, na ddarfu i Eusebius ond traethu ger bron cynghorfa Nicaia yn mha ystyr y deallai efe ei hun yr *homoousion.* Yr oedd yr ymherawdwr Cystenyn wedi ei berswadio fod pwysigrwydd yn perthynu i'r *homoousion;* a'r pwnc mawr gydag ef oedd, fod pawb yn derbyn y gosodiad mewn perthynas iddo, er o'r braidd y mae yn debyg y gallasai efe wahaniaethu rhwng yr hyn oedd yr ystyr uniongred a'r hyn ydoedd gamsyniol yn y deongliad o'r erthygl. Gyda phob gonestrwydd y gallasai Eusebius gondemnio y ffurf-gyffesion Ariaidd, yn enwedig gan y cynnwysent ddosbarthiadau gwahaniaethol o bethau na cheid yn yr Ysgrythyrau eu cyffelyb; ac hefyd o herwydd ddarfod i bob ymryson a blinder yn yr eglwys gyfodi oddi ar yr arferiad o'r cyfryw ddosbarthiadau gwahaniaethol, y rhai, am y rheswm hwn, yr oedd efe bob amser wedi bod yn dra gofalus i'w gochelyd.

Yr oedd yn bresennol lawer ereill a edrychent ar Gredo Nicaia yn yr un ystyr ag Eusebius, gan ei ddeongli yn unol â'u cyfundrefn athrawiaethol eu hunain; fel, iddynt hwy, nad oedd yr ὁμοούσιον yn ddim mwy na dynodiad o'r ὁμοιότης κατ' οὐσίαν (=tebygolrwydd neu gyffelybrwydd o ran hanfod). Ar y cyntaf, gwrthodai dau ar bymtheg o esgobion gydsynio â'r mwyafrif. Y mae yn debyg y perthynai y rhai hyn i'r blaid fanylaf o'r Ariaid. Ond gan y cyhoeddid y credo gydag awdurdod ymherodrol, ac y bygythid diswyddo pawb nas derbynient ef, a'u condemnio fel deiliaid anufudd, ofnodd y rhan fwyaf, a chan ofni, hwy a ymostyngasant; fel, yn y diwedd, nid oedd yn aros ond dau esgob, heb law Arius—sef, Theonas, o Marmarica yn Libya, a Secundus o Ptolemais—y rhai yn ddigel a lefarent yn erbyn Credo Nicaia. Llawnodwyd y credo gan ddau gyfaill personol Arius—Eusebius o Nicomedia, a Theognis o Nicaia, gydag Eusebius o Cesarea. Dywedent eu bod yn gwneyd hyn er mwyn tangnefedd, wedi iddynt osod ger bron eu syniadau o barth i'r ffordd yn mha un y dylesid ei ddeall, fel y byddent yn rhydd oddi wrth bob gwrthwynebiad. Gommeddasant ddilyn esampl y gweddill, trwy lawnodi yr erthyglau a gondemu-

Digitized by Google

lent athrawiaethau Arius—nid, fel y tystient, am na chydwelent â'r lleill mewn perthynas i sylwedd hanfodol yr athrawiaethau, ond o blegid nas gallent gredu, oddi wrth y modd y deallent hwy ymadroddion ac ysgrifeniadau Arius, ddarfod iddo erioed ddysgu yr athrawiaethau y cyhuddid ef o'u coleddu. Ni wnaed sylw o hyn ar y pryd; ond esgymunwyd Arius a'i ddau gyfaill o'r eglwys, bwriwyd hwynt allan o'u swyddogaeth ysbrydol, a chondemniwyd hwynt i alltudiaeth gan yr ymherawdwr Cystenyn. Yr oedd y diweddaf yr amser hwnw yn orlawn o ddygasedd creulawn at athrawiaethau Arius; ystyriai nad oeddynt yn amgen na chabledd trwyadl, ac mai eu tuedd oedd dadymchwel Cristionogaeth; a chan y teimlad hwn, cynhyrfid ef i osod ar waith bob peth y gallai llywodraeth unbenaethol Byzantium ei ddychymygu er difodi yr athrawiaethau hyn. Mewn teyrnarch a gyhoeddwyd y pryd hwn, rhestra Arius gyda Porphyry, gelyn Cristionogaeth; a gorchymyna fod i holl ysgrifeniadau Arius, fel yr eiddo Porphyry, gael eu llosgi; a bygythid ie farn angeu ar bwy bynag a geid yn euog o geisio dirgel gadw a diogelu yn lladradaidd yr ysgrifeniadau hyn. Tra yr oedd Cystenyn yn yr ansawdd meddwl a'i cymhellai i weithredoedd o'r fath yma, nis gallesid dysgwyl i Eusebius a Theognis lwyddo yn hir i ochel ei anfoddlonrwydd, a hwy eisoes wedi eu drwgdybio ganddo, o herwydd darfod iddynt wrthod llawnodi yr erthygl gondemniol ar yr heretic a'i athrawiaethau. Megys eu rhagrybuddiwyd gan Theonas a Secundus, mai eu rhan fyddai yr un dynged a hwythau, felly y trodd allan. Tri mis wedi dydd olaf y gynghorfa, cawsant eu diswyddo a'u hanfon i alltudiaeth.

Pa fodd bynag, y gwirionedd yw, nis gallai y dull yn mha un y penderfynwyd y dadleuon gan gynghorfa Nicaia lai na chynnwys ynddo hadau ymrafaelion pellach ac adnewyddol; o herwydd nid oedd yma undeb pur a diffuant, yn tarddu yn rhydd ac yn naturiol oddi ar argyhoeddiad mewnol, ond undeb—os gellir galw y cyfryw beth yn undeb oll—yn cael ei orfodi trwy drais rhwng dynion yn gwahaniaethu yn fawr er y cyfan yn eu dull o feddwl ar gredo y gorfodwyd hwynt i broffesu ei gydnabod, ond a esbonid ganddynt oll yn y ffordd fwyaf cydunol â syniadau eu plaid hwy eu hunain. O ganlyniad, tra nad oedd un blaid ar y pryd yn anturio dyfod allan mewn gwrthwynebiad penderfynol i'r *homoousion*, eto derbyniai rhai ef gan ei esbonio fel yn golygu *homoiousion* (=cyffelyb hanfodiad); a chyhuddent y lleill a'i deonglent ac a'i dalient yn ei arwyddocâd priodol a gwreiddiol o Sabeliaeth; tra y cyhuddid hwythau drachefn o Dridduwiaeth.

Crybwyllwyd o'r blaen, fod yr ymraniad Meletaidd yn ffynu yn yr Aipht yr un amser ag y blinid yr eglwysi gan heresi Arius; ac felly yr ydoedd, er fod sism Meletius a heresi Arius yn tarddu o ffynnonellau tra gwahanol. Pa fodd bynag, yr oedd o fewn cylch amcanwaith cynghorfa Nicaia geisio ymwared oddi wrth y blinder cyntaf yn gystal a'r olaf. Dan enw priodol y blaid [MELETIAID], ceir amlinelliad o'i nodweddion. Er i'r cynnadleddwyr yn Nicaia—yn eu hymgais i wellhau a chau i fyny y rhwyg a achlysurwyd trwy Meletius, esgob Lycopolis, yn yr Aipht Uchaf—gymmedroli a nawseiddio eu penderfyniad ar y cwestiwn gyda thynerwch, methu a wnaethant yn eu hamcan, ac ymledu a pharhau a wnaeth y sism drachefn hyd y bummed ganrif.

Er mai y dadleuon a'r gwahanol olygiadau uchod, gyda golwg ar yr athrawiaeth am dduwdod Crist, a sism esgob Lycopolis, yn benaf a barasant i'r ymherawdwr wysio yn nghyd y gymmanfa hon; eto, yn marn Cystenyn, yr oedd pethau ereill yn galw am y cyfryw gynnadledd. Yn yr ail ganrif, codasai dadl rhwng eglwysi y dwyrain a'r gorllewin, mewn perthynas i amser cadwraeth gŵyl y Pasc; ac nid oedd wedi peidio y pryd hwn, er, y mae yn wir, fod dynion yn meddu digon o ddoethineb i beri na byddai i'r cyfryw anghytundeb dibwys beri un rhwygiad yn rhwymyn undeb y gymdeithas Gristionogol. Yr oedd cynghorfa Arles, yn 314, eisoes wedi cyhoeddi fod i ŵyl y Pasc gael ei chynnal ar yr un diwrnod trwy y byd oll; ond ni ofalai preswylwyr y dwyrain nemawr beth a benderfynid gan y gymmanfa eglwysig hono, ac nid oedd ei dylanwad mor fawr a chyffredinol ag i fod yn alluog i symmud ymaith hen arfer sefydlog Asia. Yn awr, yn ngolwg yr ymherawdwr, yr oedd yn wrthun a gwaradwyddus na byddai pawb yn cofio y weithred oedd yn cyfansoddi sylfaen yr efengyl ar yr un diwrnod—tra yr oedd rhai yn ymprydio, fod ereill yn gwledda; ac am hyny, wedi iddo yn yr achos yma, fel gyda'r ddadl rhwng Arius ac Alexander, anfon Hosius, esgob Cordova, at yr eglwysi i geisio eu dwyn i unffurfiaeth, ac i'w negeswriaeth aflwyddo yn ei hamcan, gwelodd ei fawrhydi yn hyn hefyd angen am gynghorfa gyffredinol. Yr oedd arfer eglwysi y dwyrain gyda golwg ar gadwraeth yr ŵyl hon, yn y dechreu, wedi deilliaw oddi ar awydd i beidio ymadael yn llwyr âg Iuddewaeth; ac ymlyniad wrth rai o drefniadau yr hen grefydd oedd wedi bod yr atteg gadarnaf i'r arfer mewn amseroedd dilynol: ond yn awr, ffynai ysbryd croes i hyny, a naturiol oedd i'r cyfryw ysbryd arwain i ddodiad heibio o'r hen drefn. Cytunwyd yn Nicaia i lwyrymwrthod â'r hen arferiad fel yr oedd yn hanfodi yn mhlith yr Iuddewon, ac o hyny allan i gadw coffadwriaeth am ddyoddefaint Crist bob amser ar ddydd Gwener, a choffadwriaeth am ei adgyfodiad ar ddydd Sul. Ond, fel y mae yn fynych yn dygwydd, yr oedd yn y dwyrain luaws o bersonau a chyfundebau a wrthodent ymadael â'r hen drefn a gyssegrasid gan draddodiad, a hyny yn unig ar gyfrif ei henafiaeth, heb fod un rheswm pellach dros eu gwaith yn gommedd cydffurfio. Yn lle ceisio eu hennill mewn ysbryd cariad, diarddelodd yr eglwys hwy, gan eu bwrw allan o'i chyfundeb. Anwylent hwythau yr hen ddefod yn fwy yn ngwyneb eu herlidigaeth; a chyhuddent gynghorfa Nicaia o gyfnewid yr amser o weniaith i Cystenyn.

Yr ydym yn cael fod yn bresennol yn Nicaia ddynion â'u meddyliau yn gogwydd at y syniad mai dyledswydd y gwŷr llên ydoedd ymattal oddi wrth briodas, gan fyw yn ddibriod; ac i'r personau oedd â'r meddwl hwnw ganddynt geisio gosod yr opiniwn yn ddeddf gyffredinol yn yr eglwys. Yr esgob a'r cyffeswr, Paphnutius, a wrthwynebodd y cynnyg at hyny; yr hwn—er ei fod ei hunan o'i febyd wedi arwain bywyd o asceticiaeth manwl a llym—a honai, gyda Paul, fod priodas yn sefyllfa bur a chyssegredig, a bod yn bosibl i'r offeiriaid a safent yn y berthynas hono fyw bywyd sanctaidd.

Yn y gynghorfa dan sylw y gwnaed yr ymgais cyntaf i benderfynu ar reol benodol gyda golwg ar y cwestiwn—A oedd yn perthyn i esgobion prif ddinasoedd ryw urddas a blaenoriaeth

nad oedd eu brodyr oedd yn bugeilio eglwysi llai mewn manau mwy dinôd, yn feddiannol arno. Aethai Cristionogion er ys peth amser i feddwl ac ystyried eu bod felly; ac yr oedd y syniad yn treiglo gydag amser ac arfer o'r naill gyfnod i gyfnod arall. Yn chweched canon y gynghorfa—pa un, ar gyfrif ei eiriad amwys ac aunhenodol, a barodd lawer o ddadleu—fel hyn y dywedir, gan olygu yn benaf, y mae yn eglur, yr Eglwys Alexandriaidd:—"Cynnalier ac amddiffyner eto yr hen arfer sydd wedi ffynu yn yr Aipht, Libya, a Pentapolis, fod i esgob Alexandria feddu awdurdod ar yr holl leoedd hyn, yn gymmaint ag mai hyn hefyd ydyw yr arfer gydag esgob Rhufain. Yr un modd yn Antiochia, ac mewn taleithiau ereill, fe geidw yr eglwysi eu rhagorfreintiau cyntefig."

Yn gymmaint a bod yr eglwys wedi dyoddef o herwydd ordeiniad byrbwyll personau i'r swyddau sanctaidd, gorchymyna ail ganon cynghorfa Nicaia na ddodid dwylaw yn ebrwydd ar neb; ond fod i bwyll gymmeryd lle brys gormodol, fel y ceid prawf ar y bedyddiedig, ac y dysgid y newyddian mewn iawn farn am egwyddorion ac athrawiaethau crefydd, cyn y gwnelid ef yn esgob nac yn henuriad chwaith.

Yr unig ysgrifau adnabyddus yn awr a ddygant gyssylltiad â, ac a elwir ar enw, cynghorfa Nicaia, ydynt ei chredo, llythyr cymmanfaol, ac ugain o ganonau.

AIL GYNGHORFA NICAIA.

Cynnaliwyd hon yn y flwyddyn 787. Hon oedd y seithfed o gynghorfäau cyffredinol y dwyrain. Dyma y cyfnod pan yr oedd Irene, gwraig a chydwedd yr ymherawdwr Leo, yn arfer pob yni a chyfrwysdra i adferyd delwaddoliaeth i'r eglwysydd. Cyn hyn, buasai Leo, taid gŵr Irene, yn ymdrechu hyd eithaf ei allu, a chyda llwyddiant cymhariaethol hefyd, i ddeol addoliad delwau o'r holl eglwysydd a ddeuent o fewn cylch arglwyddiaeth a dylanwad Caer Cystenyn. Cyhoeddodd ordinhâd ymherodrol, yn 726, yn gwahardd talu parchedigaeth addoliadol i ddelwau, er ei fod yn hyn yn cyfarfod â llawer o wrthwynebiad yn nheimlad y lluaws. Bu mewn dadl hefyd â Germanus, patriarch Caer Cystenyn, yr hwn oedd yn ffafriol i'r delwau; ond yn ddiystyr o'r hynafgwr hwnw, oedd yn tynu ar y pryd at y ganfed flwydd o'i oedran, yn 730, cyhoeddodd drachefn orchymyn yn erchi cau allan o wasanaeth crefydd bob math o ddelwau; yr hwn orchymyn a dderbyniodd wrthwynebiad brwdfrydig lluaws o esgobion, ac a barodd i Gregory II. gyfansoddi llythyr mewn ffurf o ateb i reitharch yr ymherawdwr. Ac er deuddeng mlynedd o lafur dibaid, ni bu Leo yn alluog i ddiwreiddio y teimlad o blaid delwau oedd wedi cael cymmaint o amser i wreiddio yn meddyliau y bobl.

Dilynwyd ef gan fab o gyffelyb feddwl iddo ei hun — Cystenyn Copronymus—yr hwn yr oedd ei sel yn erbyn delwaddoliaeth yr un mor danbaid a'r eiddo ei dad. Ymdrechodd hefyd i weithredu yn gyfatebol i'r sel hono. Gwysiodd yn nghyd gynghorfa i Gaer Cystenyn, pan y daeth yn nghyd dri chant a deunaw ar ugain o esgobion; ac yn blaenori yn eu mysg yr oedd Theodosius, esgob Ephesus. Yno, penderfynwyd bwrw ymaith o'r eglwysydd bob delw, o ba ddefnydd bynag, a barotoisid trwy ddwylaw y paentiwr; a gosodwyd hefyd orchymyn na byddai i neb rhag llaw ymarfer y gelfyddyd o arlunio.

Mab ac olynydd i'r ymherawdwr diweddaf oedd Leo, yr hwn a goleddai yr un syniadau a'i ragflaenoriaid o barth delwau; ond yn llarieiddiach ei dymmer, a mwy hynaws ei natur, a chyda hyny yn amddifad o sefydlogrwydd awdurdodol ei dad. Ei briod, Irene, ydoedd dywysoges o Athen, yn disgyn o deulu oedd yn hynod am eu hymlyniad wrth ddelwaddoliaeth; ac er i dad ei gŵr, ddydd ei phriodas, ei rhoddi ar ei llw yr ymwrthodai yn drwyadl â phob peth tebyg i barch ac addoliad i ddelwau a lluniau, bychan yn ei golwg fu anudoniaeth mewn achos y credai hi fod a fyno ef âg anrhydedd Duw. Gweithiodd yn ddirgel, â'i gŵr eto yn fyw, er dyrchafu i swyddau eglwysig uchel fynachod pleidiol i'r delwau, fel yr agorid y ffordd i'w dygiad i mewn i wasanaeth crefydd; ond wedi marwolaeth ei phriod, yn y flwyddyn 780, pan nad oedd ei fab a'i olynydd ond ieuanc, disgynodd y llywodraeth i ddwylaw Irene, fel yr oedd iddi bellach lwybr rhydd i ymhelaethu yn ei chynlluniau.

Aeth patriarchaeth Caer Cystenyn yn wag, trwy i Paulus, a lanwai y swydd hono ar y pryd, encilio i fynachdy. Dewiswyd i lanw ei le brif ysgrifenydd yr ymherodraeth—gŵr â'i enw Tarasius; ac mewn anerchiad i'r bobl, tra yn addef iddo dderbyn galwad dwyfol i'r swydd trwy gyfrwng y rhaglyw, eto, dywedai nas gallai feddwl cael ei osod yn ben ar eglwys oedd yn gorwedd dan faich o anathemau ei chwaer eglwysi, fel un hereticaidd ar gyfrif ei hymwrthodiad â delwau; a hysbysodd Tarasius, mai yr unig ammod ar ba un y gallai efe ymgymmeryd â'r swyddogaeth, fyddai, fod i bawb ymuno âg ef mewn erfyniad ar i'r rhaglyw alw yn nghyd gymmanfa gyffredinol, fel y penderfynid ymrafaelion, ac y sefydlid undeb mewn perthynas i'r pwnc.

Penderfynwyd galw yn nghyd gynghorfa gyffredinol i Gaer Cystenyn. Ceisiwyd gan y pab Hadrian I. gymmeryd ei gynnrychioli ynddi; a chydsyniodd yntau, trwy anfon dau genadwr i'r perwyl hwnw. Gwnaed pob ymdrech er ei gwneuthur yn gymmanfa a fyddai o ran ei chyffredinolrwydd yn rhagori ar y synod flaenorol a gynnaliwyd yn y brif ddinas.

Cyn priodol drefnu cynllun o'r gweithrediadau, agorwyd y gynghorfa yn Nghaer Cystenyn, yn y flwyddyn 786. Yr oedd yr esgobion, gan mwyaf, wedi derbyn eu hurddas swyddogol dan Cystenyn neu ei olynydd Leo, ac o ganlyniad yn wrthwynebol i addoliad delwau. Hefyd, o barch i goffadwriaeth Leo, yr oedd y fyddin, ac yn enwedig y corfflosgordd (*body guard*) ymherodrol yn teimlo yn gyffelyb i'r esgobion erybwylledig, ac yn ymlynu yn ffyddlawn wrth egwyddorion eu diweddar benadur. Gan deimlo eu hunain a'u hachos yn cael eu cyfnerthu gan yr attegion milwrol hyn, er fod y llys a'i ddylanwad yn wrthwynebol iddynt, dechreuai rhai o'r gwŷr llên, yn nghyd âg amryw bersonau dylanwadol o blith y lleygion, gadw cynnulliadau dirgel cyn agoriad rheolaidd y gymmanfa, gyda'r amcan o attal ei heisteddiad o gwbl, a dyrysu cynlluniau y patriarch Tarasius. Wedi deall hyn, rhoddodd y diweddaf ar ddeall iddynt mai efe oedd esgob y brif ddinas, a'u bod, trwy gadw cynnadleddau heb dderbyn ei ganiatâd, yn euog o droseddu deddfau dysgyblaeth yr eglwys. Yn canlyn y mynegiad hwn yr oedd rhybudd, y byddent, trwy barhau yn gwneuthur hyn, yn cerdded ffordd a arweiniai i'w diswyddiad; ond er derbyn y rhybudd uchod, ni pheidiodd yr esgobion

a gweithredu yn ddirgel, er iddynt ymattal rhag dirgel gyfarfod.

Yn y cyfamser, daeth yr ymherodres i'r ddinas mewn gorymdaith gyhoeddus, yn cael ei hamgylchynu gan y corfflosgordd, er fod y diweddaf yn llawer mwy ffafriol i blaid yr esgobion nag i opiniynau y llys. Nos yr 31ain o Gorphenaf—y diwrnod cyn agoriad y gynghorfa—ymgynnullodd mintai o'r milwyr hyn, gan waeddi a thyrfu, i fedyddfan yr eglwys, lle yr oedd y gymmanfa i ymgynnull; ac o ganol y terfysg a'r bloeddio, clywid un llais yn dyweyd yn eglur na oddefid i un gynghorfa gael ei chynnal. Ond nid oedd Irene yn barod i gymmeryd ei rhwystro yn ei chynlluniau gan y terfysg hwn. Agorwyd y gynghorfa ar y cyntaf o Awst. Y fynyd y dechreuwyd darllen y ddeddf eglwysig a waharddai gynnal cynghorfa gyffredinol heb gydsyniad y patriarchiaid ereill—yr hon y bwriedid ei defnyddio er dirymu awdurdod y gynghorfa o'r blaen—ymgasglodd corff o filwyr o ddeutu drysau yr eglwys, gan waeddi a bloeddio yn ffrochwyllt. Ar yr achlysur hwn, barnodd yr ymherodres mai mwy buddiol fyddai ymroddi yn ngwyneb y dymmestl, a cheisio buddugoliaethu trwy ystryw. O ganlyniad, anfonodd un o'i hystafellyddion i'r gynghorfa, gan orchymyn iddo ddyweyd y gallent ohirio eu gweithrediadau, ac ymostwng am dymmor i gynddaredd y dorf, gan aros am gyflawniad o ewyllys yr Arglwydd, yr hyn a fyddai yn sicr o gymmeryd lle mewn amser.

Wedi hyn, archodd yr ymherodres gyfrwys fod i'r nawddfilwyr gael eu cymmeryd ymaith, dan rith haeru fod angen am danynt i fyned ar ymgyrch milwraidd. Felly, cawsant eu harwain o'r ddinas a'u diarfogi, a gosodwyd yn eu lle gatrawd y gallai Irene roddi mwy o ymddiried yn eu teyrngarwch.

Wedi cwblhau pob parotoadau, ymgynnullodd y gynghorfa y flwyddyn ganlynol (787); nid, pa fodd bynag, yn Nghaer Cystenyn, lle yr oedd cymmaint i'w ofni oddi wrth y blaid wrthwynebol, ond yn Nicaia, mewn dysgwyliad a gobaith y derbyniai y cydgynnulliad urddas chwanegol oddi wrth yr adgof am y gymmanfa gyntaf a gynnaliwyd yn y ddinas hono. Yr oedd aelodau y gynghorfa hon yn dri chant a hanner mewn rhifedi. Yn ei hanerchiad rhagarweiniol, mynegai Irene y dysgwylid i bawb draethu ei olygiadau yn ddigel; ond cyn llefaru yn y modd yna, derbyniodd sicrwydd na byddai i'r esgobion hyny a wrthwynebasant o'r blaen adferiad delwau mwyach groesi ei hewyllys hi. Oni bai fod hyn wedi ei ragdrefnu, nis gallesid cwblhau holl orchwylion y gynghorfa yn y chwe eisteddiad rhwng y 24ain o Fedi a'r 6ed o Hydref—fel, erbyn yr eisteddiad diweddaf, hyny yw y seithfed, yr oedd y penderfyniadau yn barod i gyhoeddiad difrifol o honynt, ac i gael eu llawnodi gan y rhai oll y perthynai hyny iddynt. Dengys yr hyn a gymmerodd le yn ystod y chwe eisteddiad, pa fodd bynag, nad oedd yn rhaid wrth nemawr o ddadleu ar y pwnc o ddelwaddoliaeth; ond mai heb lawer o boen y daethpwyd i gydsynio yn ei gylch. Dygwyd i sylw y gynghorfa luaws o ymadroddion allan o ysgrifeniadau y tadau—rai o honynt yn ffugddodiadau o ysgrifenwyr boreuach, ac ereill wedi eu cymmeryd o awdwyr diweddarach. Deilliai y rhan fwyaf o honynt o hanesion rhyfedd am wyrthiau hynod wedi eu gwneuthur gan ddelwau; ac yr oedd yn bresennol rai personau a anturient haeru ddarfod iddynt hwy eu hunain fod yn llygad-dystion o'r cyfryw bethau. Un henuriad a adroddai ei fod yn dychwelyd adref o gynghorfa Caer Cystenyn y flwyddyn o'r blaen, pan y tarawyd ef yn glaf, ac y cafodd ei iachau gan ddelw Iesu Grist. Denai rhai o'r esgobion yn bersonol, ac weithiau luaws gyda'u gilydd, yn mlaen, gan amlygu eu dymuniad i ymwadu ar camsyniad y buont euog o hono trwy eu gwaith yn gwrthwynebu addoliad delwau. Cymmerai rhai o'r preladiaid arnynt eu bod wedi eu hargyhoeddi o'u cyfeiliornad trwy hir a dyfal ymchwiliad; tra na phetrusai ereill fod mor ddibris a diystyr o'u hunan-barch, fel y taflasant yr holl fai oedd yn nglŷn â'u hymddygiad blaenorol yn myned yn erbyn delwaddoliaeth wrth ddrws eu hanwybodaeth gwirfoddol a'u hystyfnigrwydd noeth. Clywid lluoedd cyfain o honynt yn dywedyd—"Pechasom oll! aethom bawb ar gyfeiliorn! yr ydym yn erfyn am faddeuant!" Pan y traethai un o'r personau hyn—oeddynt yn awr mor awyddus am ddadgan eu hedifeirwch—ei fod, bellach, trwy chwilio i osodiadau yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac ymofyn âg ysgrifeniadau y tadau, wedi ei argyhoeddi fod arfer delwau yn unol â'r traddodiad apostolaidd, gofynodd Tarasius iddo, pa fodd y dygwyddasai, ac efe yn esgob er ys wyth neu ddeng mlynedd, nad oedd eto ond newydd ddyfod i wybodaeth o'r gwirionedd. Ni phetrusai yr esgob ateb yr holiad uchod fel hyn: "Fod y drwg y cyfeirid ato wedi hanfodi er ys cymmaint o amser, ac wedi cyrhaedd y fath ddylanwad, fel y gellid ei ystyried megys cosp am bechod, oddi wrth ba un, er hyny, yr oedd lle i obeithio y gwaredai Duw hwynt." Ymesgusodai ereill trwy ddyweyd eu bod wedi eu dwyn i fyny o'u mebyd yn y golygiadau y dymunent yn awr ymwrthod â hwy; a hawdd credu mai nid gorchwyl caled oedd cael gan y rhai a gymmerasant eu harwain bob amser gan syniadau y mwyafrif dderbyn fel gwirionedd ymresymiadau y llys. Un o'r esgobion—Gregory, o Neocesarea—a ddywedai, "Dymunwn wybod beth sydd dda a chanmoladwy yn ngolwg y patriarch a'r gynghorfa sanctaidd;" ac yna, chwanegai: "Yn gymmaint a bod yr holl gymmanfa yn meddwl ac yn llefaru yn y cyffelyb fodd; am hyny, yr wyf yn cydnabod yr athrawiaeth gynnygiedig fel y gwirionedd." Ychydig o anhawsder, y mae yn hawdd canfod, a deimlai dynion fel yr esgob yma, a gydnabyddent lef y lluaws fel llais gwirionedd, i newid eu golygiadau yn ol fel y cyfnewidiai amgylchiadau.

Ond yr oedd yno luaws a betrusent gofleidio yr opiniynau newyddion oddi ar ofal am y llw a gymmerasant dan Cystenyn Copronymus. Dichon fod ereill a ddefnyddient hyn yn ddim ond fel esgus rhag newid eu llwybr. Pa fodd bynag, er cael ymwared o'r anhawsder hwn, barnwyd nad oedd yn anudoniaeth tori llw wedi ei gymmeryd yn groes i gyfraith Duw. Yn mhlith yr esgobion a amlygent y galar dwysaf ar yr achlysur, yr oedd rhai a fuasent y flwyddyn cyn hyny yn blaenori mewn cynllunio yn erbyn cynghorfa Caer Cystenyn. Hwythau hefyd a grochlefent y pryd hwn—"Pechasom ger bron Duw a cher bron ei eglwys! Syrthiasom trwy ein hanwybodaeth!" Gregory o Neocesarea—gwendid gwaradwyddus yr hwn a grybwyllir uchod—yr oedd yntau yn un o arweinwyr y blaid wrthwynebol yn y gynghorfa o'r blaen; ac yn awr, cyfeirid ato fel testyn gorfoledd, fod y cyfryw ddynion wedi eu harbed er dwyn tystiolaeth i'w cywilydd, a chondemnio eu hathraw-

Digitized by Google

iaeth eu hunain. Y rhai a brofent eu hiawngrededd presennol trwy ymwadu â'u hathrawiaethau o'r blaen, nid yn unig fe'u derbynid i gymundeb yr eglwys, ond goddefid iddynt gadw eu hurddas esgobol; ac ymgymmerai y llys â'r dull hwn o weithredu tuag atynt, fel y gwanychai y blaid oedd wrthwynebol i ddelwau, trwy gymmeryd oddi arnynt y personau mwyaf dylanwadol a flaenorent yn eu mysg. Gyda golwg ar y ffurf o ddadgyffesiad, a'r anathema a gyhoeddwyd uwch ben y rhai a ddibrisient athrawiaeth y tadau, yn ol traddodiad yr eglwys, llefarid fel hyn:—"Os nad ydym yn cael ein haddysgu yn sicr a phendant gan yr Hen Destament a'r Newydd, nid ydym chwaith yn dilyn athrawiaeth y tadau, y cynghorfaau cyffredinol, na thraddodiad yr eglwys gatholig." Oddi wrth hyn, gallem dybied fod llawer o'r rhai a wrthwynebent addoliad delwau, pan eu cyhuddid o ddiystyru traddodiadau yr eglwys, efallai wedi ateb, nad oedd y traddodiadau hyny eu hunain yn teilyngu dim parchedigaeth, ar wahân oddi wrth dystiolaeth yr Ysgrythyrau. Yn yr amgylchiad hwn, deuai i'r golwg yr ysbryd Protestanaidd hwnw a ymddadblygodd yn fwy yn y blaid hon mewn amseroedd mwy diweddar. Mewn canlyniad i awgrym oddi wrth un o genadon y pab, dygwyd delw i mewn i'r gymmanfa. Rhoddodd pawb gusan iddi. Yn seithfed eisteddiad y gynghorfa, penderfynwyd gosod i fyny yn yr eglwysydd ddelwau o Grist, Mair, yr angelion, a dynion sanctaidd, yn nghyd âg arwydd y groes; ac nid yn unig yn yr eglwysydd, ond ar lestri yr eglwys, ar furiau a llechi, mewn anneddau, ac yn yr heolydd; a rhaid oedd eu paentio, a'u ffurfio o ddefnydd amryliw (*Mosaic work*), neu o rywbeth arall a ystyrid yn fwy priodol. Eto, er attal neu ragflaenu y cyhuddiad eu bod yn bleidiol i ddelwaddoliad neu eilunaddoliaeth, darparodd y gynghorfa y dadganiad pendant a ganlyn:—"Pan y mae un yn ymgrymu ger bron delw, rhaid i'r arwydd yma o barch a chariad beidio cael ei gymmysgu â'r addoliad hwnw a berthyn i Dduw, ac iddo ef yn unig. A'r un modd hefyd gyda golwg ar arwydd y groes ar lyfrau yr efengyl, a phethau cyssegredig ereill." Dywedid nad ydoedd yr anrhydedd a delid i'r ddelw yn perthyn iddi hi, ond i'r person a arddangosid ganddi a thrwyddi.

Wedi i'r gymmanfa orphen ei gwaith, yn y seithfed eisteddiad, derbyniodd y patriarch orchymyn i gymmeryd yr holl gynghorfa gydag ef, a myned i Gaer Cystenyn. O ganlyniad, y 23ain o Hydref, cynnaliwyd yr wythfed eisteddiad yn mhalas ymherodrol y Magnaura—preswylfod Irene a'i mab Cystenyn. Agorwyd y cyfarfod yn mhresennoldeb llu mawr o bobl, y rhai y bwriedid peri iddynt deimlo yn ddwys oddi wrth yr hyn oedd i gymmeryd lle. Wedi gorchymyn darllen penderfyniadau y gynghorfa, gofynodd Irene i'r esgobion oedd yn bresennol, a ellid ystyried y penderfyniadau hyny fel amlygiad cywir o'u barnau hwynt yn gyffredinol. Gan i bawb ateb yn gadarnhaol, archodd ddwyn ger bron yr ysgrif a gynnwysai y penderfyniadau, yr hon ysgrif a lawnodwyd ganddi hi a'i mab. Yn y fan, anrhydeddwyd yr ymherodres uniongred â banllefau uchel o gymmeradwyaeth; ac yn y dull hwn, wedi ymdrechfa dost a hirfaith, cyhoeddwyd y fuddugoliaeth yn Eglwys Groeg o blaid delwaddoliaeth.—(*Neander's Gen. Hist. of the Christ. Rel. and Church; Gieseler's Eccles. History.*) Gwel CYNGHORFEYDD yn cyf. x.

CRANMER, THOMAS: archesgob Caergaint, ac un o'r enwau mwyaf cyhoeddus yn nglŷn â'r hyn a elwir y "Diwygiad" yn Lloegr. Ganwyd ef yn Aslacton, sir Nottingham, yr ail dydd o fis Gorphenaf, 1489. Ei rieni oeddynt Thomas Cranmer, ac Agnes, merch Lawrence Hatfield. Yr oedd o hen deulu parchus, a ddaeth i Loegr yn amser William I, ac a ymsefydlodd yn y sir uchod er ys llawer cenedlaeth. Mewn ysgol wledig yn y pentref—dan athraw heb feddu llawer o gymhwysder i'w waith, ond medrus, yn ol arfer ei oes, mewn marchogaeth, saethu, hela, a champau—y derbyniodd Cranmer elfenau cyntaf addysg.

Wedi marw ei dad, anfonwyd ef gan ei fam, yn y flwyddyn 1503, i Gaergrawnt; ac ar ol ymroddi o hono i'r efrydiau a ddilynid yn gyffredin yn y lle hwnw, daeth yn gymrawd o Goleg Iesu yn 1510—11. Yn y brifysgol, ymgymmerodd gyda diwydrwydd âg astudiaeth o'r ieithoedd Groeg a Hebraeg; ac at dduwinyddiaeth yn benaf yr oedd tuedd ei feddwl a'i fyfyrdodau. Darllenai gyda dyfalwch ysgrifeniadau Faber, Stapulensis, Erasmus, yn gystal ag amryw ereill o'r goreuon yn mysg yr awduron Lladinaidd; ond pan ymddangosodd Luther, tynwyd ei sylw at yr Ysgrythyrau; a bu am rai blynyddoedd yn ymchwilio iddynt. Cyn bod yn llawn tair blwydd ar ugain oed, priododd ferch isel ei sefyllfa yn y byd, ond o gymmeriad parchus; a thrwy y troseddiad hwn o'i eiddo ar y ddeddf Babaidd, sydd yn gorchymyn gweddwdod gwŷr eglwysig, collodd ei gymmrodoriaeth, a bu raid iddo ymadael o'r coleg; ond dewiswyd ef er hyny yn ddarlithydd a dysgawdwr i Goleg Buckingham, yn awr Coleg Magdalen. Byr fu ei arosiad yn y swydd hono; o herwydd, yn mhen o ddeutu deuddeng mis wedi ei briodas, collodd ei wraig trwy angeu, ac adferwyd yntau i'w gymrodoriaeth yn Ngholeg Iesu; lle, yn y flwyddyn 1503, y derbyniodd y gradd o A.D (=D.D.) Yr oedd cenadon y Cardinal Wolsey y pryd hwn yn chwilio y deyrnas am wŷr cymhwys i lenwi y cadeiriau gweigion yn y coleg newydd a sefydlodd efe yn Rhydychain; ac enwyd Cranmer ganddynt i un swyddogaeth ennillfawr ac anrhydeddus. Wedi petruso am beth amser, gwrthododd y cynnygiad, er ei deced, ac etholwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth, yn bregethwr yn y brifysgol, ac yn arholydd ymgeiswyr am raddau mewn duwinyddiaeth. Yn gyffredin, seiliai ei arholiadau ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd; a nacaodd i lawer o fynachod basio, o herwydd eu diffyg mewn gwybodaeth ysgrythyrol. Dengys hyn, yn nghyd â'r llysenw "ysgrythyrwr" a roddid arno o blegid tuedd a rhediad ei bregethau, mai efe y pryd hwnw a gynnrychiolai y gogwyddiad efengylaidd oedd mewn rhan yn gweithio eisoes yn ysbryd y brifysgol. Yn ystod ei arosiad yn y brifysgol, heb law ei ddyledswyddau ereill, ymgymmerodd â'r gofal o ddysgu dau fab i un Mr. Cressy, yr hwn oedd yn perthyn iddo trwy briodas; a phan dorodd yr haintchwys allan yn Nghaergrawnt, ymneillduodd i dŷ y boneddwr uchod yn Waltham Abbey, yn Essex, lle yr aeth yn mlaen gyda'r gwaith o hyfforddi y ddau ddyn ieuanc, ac y parhaodd i ddilyn ei efrydiau. Y cyfnewidiad hwn yn lle ei breswylfod a ddylanwadodd yn fawr ar y rhan arall o'i oes. Hwn oedd y cam cyntaf yn ei yrfa gyhoeddus. Tua'r amser yma, ymgais y brenin Harri VIII. i gael ysgariad â'i wraig gyntaf, Catherine o Aragon, oedd pwnc mawr y dydd. Yn

Digitized by Google

mhen ugain mlynedd ar ol ei briodas â gweddw ei frawd, dechreuodd y brenin ammheu yn gryf a oedd eu hundeb yn safadwy ai peidio. Yr oedd Catherine o gymmeriad difrycheulyd; ond o blegid nychdod ac afiechyd, nid oedd ei pherson mor gymmeradwy yn ngolwg ei chydwedd brenhinol. Wedi astudio y gyfraith Foesenaidd, a'r hen awdurdodau, drosto ei hun, gyda golwg ar briodoldeb ei undeb priodasol, ymgynghorodd â'i gyffeswr, yr hwn hefyd a ddyrysid gan yr un ammheuon ac anhawsderau a'r penadur. Awdurdod penaf Harri oedd Thomas Aquinas; ysgrifeniadau yr hwn a sicrhaent fod gwaharddiadau y gyfraith Lefiticaidd, yn mhlith pa rai y mae priodas â gweddw brawd, yn foesol, yn dragwyddol, â sel Duw wrthynt; ac er y gall y pab dynu oddi wrth a rhoddi at, cyfnewid a dodi heibio, reolau yr eglwys, nas gellir gosod o'r neilldu gyfreithiau Duw gan un awdurdod is na'r hwn ei hunan a'u hordeiniodd. Cyflwynwyd y cwestiwn o ysgariad wedi hyny i sylw yr archesgob, a'i frodyr y preladiaid—y rhai oll a ddywedasant fod y briodas yn anghyfreithlawn. Yr un oedd syniad y Cardinal Wolsey hefyd ar y pwnc; ac felly, dwyshäai a chynnyddai ammheuon ei feistr, y brenin.

Nid oedd Harri yn ddyledus am ei anesmwythder i unrhyw dynerwch cydwybod. Dylanwadid arno gan wyniau a syniadau o darddiad llawer is a mwy gwaradwyddus a llygredig. I Syr Thomas Boleyn—boneddwr o waedoliaeth uchel, a thrwy briodas yn perthyn i bendefigion penaf y deyrnas—yr oedd merch na ragorid arni o ran prydferthwch ei pherson, lledneisrwydd dillyn ei moesau, a dysgleirdeb ei chynneddfau meddyliol, yr hon oedd wedi dwyn calon y brenin. Wedi priodi a byw gyda Catherine er ys ugain mlynedd, nid oedd a foddlonai Harri yn awr ond ysgariad. Appeliodd at y pab ar hyn. Dymunai y "tad sanctaidd" hwnw foddio Harri, ar gyfrif rhyw hen gymmwynasau; ond yr oedd arno ofn digio Charles, ymherawdwr Germany, yr hwn na fynai ar un cyfrif gydsynio â'r ysgariad; o herwydd yr oedd Catherine yn berthynas iddo. Am hir amser, yr oll a dderbyniai Harri o Rufain oedd addewidion teg, a geiriau amwys ac anmhenderfynol. Parai hyn iddo anesmwytho a phryderu, nes colli pob amynedd, o eisieu rhyw ateb deallus a safadwy. Wedi hir oedi, ordeiniodd y pab ddirprwyaeth i chwilio i gyfreithlondeb a dilysrwydd y briodas; ond ar ganol y prawf — a Harri yn fawr ei ddysgwyliad am ddedfryd yn ei ffafr—wele orchymyn oddi wrth y pab yn galw ar fod yr achos yn cael ei symmud i Rufain. Cynghorid y brenin i appelio at gynghorfa gyffredinol, awdurdod yr hon a fyddai yn ogyfuwch â'r pab ei hunan: ond nis gellid galw y cyfryw gynghorfa heb ganiatâd yr ymherawdwr; ac yr oedd hwnw yn ddiysgog yn ei wrthwynebiad i'r ysgariaeth. Tra yr oedd y brenin yn ngafael â'r trallod a'r dyryswch hwn, arweiniodd amgylchiadau Cranmer i'r ymdrafodaeth. Teithiai Harri drwy y wlad, â Gardiner a Fox, wedi hyny esgobion Winchester a Hereford, yn ei ganlyn: o fwriad, neu yn ddamweiniol, ymwelodd y ddau ŵr uchod â Cranmer, yn mhreswyl Mr. Cressy, yn Waltham, a gosodasant ger ei fron y cwestiwn o ysgariad, gan ofyn barn gŵr oedd bellach mor fawr ei glod trwy y deyrnas fel duwinydd a beirniad mewn achosion o gydwybod ar y pwnc. Atebodd Cranmer na chafodd y mater nemawr o'i ystyriaeth ef; ond ar yr un pryd, tybiai mai y ffordd ddoethaf, er tawelu cydwybod Harri, a mynu cydsyniad y pab, fyddai ymgynghori â holl brifysgolion Ewrop ar y pwnc mewn cwestiwn. Os cytunent hwy i gymmeradwyo priodas y brenin â Catherine, ni byddai gan ei fawrhydi mwyach achos i ddyoddef poen cydwybod o'r herwydd; ac os ei chondemnio a wnaent, byddai yn anhawdd i'r pab allu gommedd cais teyrn mor alluog, yn cael ei gefnogi gan farn holl ddysgedigion gwledydd Cred. Boddheid y brenin yn fawr gan y cynllun hwn. Anfonodd am dano; ymddyddanodd âg ef, ac appwyntiodd ef yn gaplan iddo ei hun, a rhoddodd iddo archddeoniaeth Taunton. Nid hir y bu Cranmer heb ysgrifenu ei farn ar y mater y gofynid iddo. Haerai fod priodas Harri â gweddw ei frawd yn cael ei chondemnio gan yr Ysgrythyrau, y cynghorfäau, a'r tadau; ac nad oedd gan y pab hawl i drwydded a chaniatäu yr hyn oedd groes i air Duw. Galwyd arno yn fuan i amddiffyn ei olygiadau yn Nghaergrawnt, a llwyddodd yno i ennill lluaws i'r un meddwl ag ef ei hunan. Gwelodd Harri yn awr mai Cranmer oedd y dyn i gario ei achos ef trwy lŷs Rhufain; ac yn 1530, anfonodd ef i'r ddinas hono, gyda Boleyn ac ereill. Gosodwyd barn Cranmer mewn ysgrifen ger bron y pab, ac amddiffynwyd hi yn rymus a galluog gan ei hawdwr.

Gan eu bod yn gweled na thyciai dim rhesymau er dwyn y pab yn ffafriol i'r ysgariad, dychwelodd cenadon ereill Harri yn fuan i Loegr; ond arosodd Cranmer ei hun yn Italy. O'r diwedd, pallodd hyd yn oed ei amynedd yntau. Drachefn, anfonwyd ef gan y brenin y flwyddyn ganlynol i lŷs Germany, â'r un achos mewn ymddiried ganddo. Llwyddodd i ennill amryw i farnu fel yntau yn y lle hwnw, yn mhlith pa rai yr oedd cynghorwr yr ymherawdwr, Agrippa, ac A. Osiander, bugail a gweinidog Nuremberg. Ymddiriedwyd i Cranmer hefyd yn ystod y daith hon rai negeseuon gwladwriaethol. Er iddo aflwyddo gyda hwynt, ni siglwyd ymddiried y brenin ynddo. Yn hytrach, meddyliodd am ei ddyrchafu i sefyllfa a roddai iddo ragorach manteision i weithio allan gynlluniau ei fawrhydi. Trwy farwolaeth Warham, ar y 23ain o Awst, 1532, aeth archesgobaeth Caergaint yn wag. Diau fod Harri cyn hyny wedi galw Cranmer adref, gan ei wneyd yn hysbys o'i fwriadau gyda golwg ar y swydd. Pa fodd bynag, oedodd Cranmer ei ddychweliad am rai misoedd; ond yr oedd yn Llundain ar y 14eg o Dachwedd, y flwyddyn 1532, pan y darfu i Harri yn ddirgelaidd briodi Anne Boleyn. Am hir amser, gwrthodai Cranmer dderbyn y swydd o archesgob, gan y gwelai fod yn nglŷn â hi ar y pryd anhawsderau a pheryglon lawer. Petrusai mewn rhan o blegid ei dymmer ofnus yn naturiol; ac hefyd o herwydd yr anhawsder iddo allu cyssoni uchafiaeth y brenin âg awdurdod y pab. Gwelodd cynghorwyr y brenin ffordd i osgoi yr anhawsderau hyn, trwy ganiatäu iddo, ar ei gyssegriad, gymmeryd ffurf neillduol o lw ac ardystiad. Cyssegrwyd ef yn archesgob gyda chymmeradwyaeth y pab, yn Westminster Abbey Mawrth 30ain, 1533. Yno, pan yn tyngu llw o ymostyngiad i'r pab, dadganodd Cranmer mewn modd difrifol nad oedd mewn un modd yn ymrwymo i gyflawnu dim a fyddai yn wrthwyneb i ewyllys Duw, iawnderau y goron, a deddfau ei wlad. Tystiai na oddefai i ddim ei luddias i weithredu gyda phob rhyddid mewn materion perthynol i'r Diwygiad, neu lywodraeth Lloegr,

Digitized by Google

a daioni y wladwriaeth. Gyda'r rhagammodau hyn, cymmerodd y llw, a chyssegrwyd ef yn archesgob.

Gorfu i Cranmer yn fuan ymdeimlo âg enbydrwydd ei sefyllfa. Yn ddiarwybod iddo, Ebrill 12fed, gwnaeth y brenin ei briodas âg Anne Boleyn yn hysbys ar gyhoedd, a rhaid oedd i Cranmer naill ai colli ffafr y brenin, neu ddadgan anghyfreithlondeb ei briodas â Catherine. Dewisodd yntau y diweddaf. Yn gyntaf, gorchymynwyd i Cranmer agor ei lys er profi grym a dilysrwydd y briodas. Cymmerodd hyn le yn Ampthill, ger llaw Dunstable, lle y preswyliai Catherine. Bu yno ffurf o brawf, a dyna y cyfan: ar y 23ain o Fai, yr archesgob a gyhoeddodd fod y briodas yn ddirym; ac yn fuan wedi hyny, cadarnhaodd undeb y brenin âg Anne Boleyn; yr hon hefyd a goronwyd ganddo y laf o Fehefin, gyda'r rhwysg a'r urddas cydfynedol â'r cyfryw seremoni.

Gwyddai Cranmer yr arweiniai hyn i anghydfod a rhwyg gyda Rhufain; am hyny, anfonodd at Bonner, y llysgenadwr yn Marseilles, fod appeliad yn cael ei wneyd oddi wrth y pab at y gynghorfa gyffredinol nesaf. Atebodd y pab trwy selwarant o esgymundod; ond y brenin yn ddioed, trwy benderfyniad o eiddo y gymmanfa eglwysig, a ddiddymodd awdurdod y pab yn Lloegr, trwy reitharch, Mehefin 9fed; a thrwy ddeddf yr uchafiaeth, Tachwedd 3ydd, 1534, seliwyd annibyniaeth Eglwys Loegr ar Rufain. Yn lle bod yn genadwr y pab, dechreuodd Cranmer arfer y teitl o archesgob Lloegr oll. Yr oedd yn awr yn brif swyddog o fewn yr eglwys a gyhoeddasai ei hannibyniaeth ar Rufain, â chanddo o'i flaen waith yr oedd ei eangder a'i bwysigrwydd, os cyflawnid ef yn briodol, lawer tu hwnt i'w amgyffred. Hyd yma, yr unig ymdrafodaeth a fu dan sylw oedd, yr ymwahaniad oddi wrth Rhufain, ysgariad y brenin, a'r cwestiwn o barth i etifedd cyfreithlawn y goron. Gallai yr awdurdodau gwladol benderfynu hyn oll. Ond yr oedd yn aros drachefn, ddiwygio yr holl genedl, ben ac aelodau, a cheisio dwyn i raddau dan ddylanwad yr efengyl frenin creulawn a gormesol, oedd wedi ei osod yn ben yr eglwys, yn nghyd âg offeiriadaeth selog dros Babyddiaeth. Yr oedd yn wir fod gan y frenines beth dylanwad ar y brenin, a'i bod yn ei arfer, i raddau, er daioni; ac yr oedd Cromwell [gwel CROMWELL, THOMAS], ficer cyffredinol ei fawrhydi, hefyd yn bleidiol i'r Diwygiad; ond yn flaenoriaid ar y blaid Babaidd a gwrthwynebus, yr oedd y duc o Norfolk, Gardiner, Stokesley, a Bonner. Yr oedd y rhai y buasai yn dda i'r Diwygiad wrthynt wedi ffoi o'r wlad er ys llawer iawn o amser. Yr hwn a fedrasai ddwyn oddi amgylch ddiwygiad trwyadl yn ngwyneb amgylchiadau fel hyn, rhaid fuasai iddo fod wedi ei drwytho yn ysbryd yr efengyl; gofynai y gwaith wroldeb o'r math mwyaf pybyr, a phenderfyniad na fynai syflyd o'i lwybr; yn fyr, angenrhaid oedd cael y cyfryw nodweddau nas gwelir hwy ond yn anfynych, os byth, yn cydgyfarfod yn yr un person. Yr oedd Cranmer yn ddiffygiol o'r penaf o'r rhai hyn. Nid oedd wedi llwyr ymryddhau oddi wrth Babyddiaeth; er i raddau yn ochelgar a gwyliadwrus, yr oedd yn ofnus a hawdd ganddo roddi i fyny ei amcanion; ac er ei holl ddysg, yr oedd yn ansefydlog ei feddwl, a chyfeiliornus am rai o'r athrawiaethau pwysicaf.

Nid oedd un o erthyglau ffydd Cranmer o gymmaint pwys yn ei olwg ag uchafiaeth y brenin, a deddf newydd yr olyniaeth; ac ymdrechai ei oreu i'w sicrhau a mynu gan bawb eu cydnabod. Ceisiai hefyd ddifodi afreoleidd-derau a chamarferion gwrthun yn yr eglwys, a rhoddi y Beibl i'r bobl. Ymddygai yn llym tuag at y cyndyn a'i gwrthwynebai; ond gwnaeth ei oreu mewn rhai amgylchiadau i arbed personau o wahanol olygiadau iddo, a ymlynent yn gwbl wrth hen drefniadau, megys yn achos Syr Thomas More, i ddwylaw difai a galluog yr hwn y disgynasai y sel fawr ar ddiswyddiad y dyn hynod hwnw Cardinal Wolsey; a John Fisher, esgob Rochester—pob un o ba rai, er gwaradwydd bythol i enw Harri, a ddienyddiwyd o herwydd gommedd o honynt gymmeryd y llw o uchafiaeth. Yn mis Awst, ysgrifenodd Cranmer lythyr celfydd at y brenin mewn perthynas i'r cyhoeddiad o'i uchafiaeth gan yr offeiriaid, a chymhellai ef i ddiddymu y mynachlogydd; y rhai, yn ei farn ef, oedd ar ffordd gwir ddiwygiad. Cyssegrodd Latimer a Shaxton i esgobaethau Worcester a Salisbury. Ychydig o gymhorth a allasai efe roddi yn y gorchwyl o gyfieithu y Beibl. Dygodd y mater ger bron yn y gymmanfa eglwysig, Rhagfyr, 1534; ond gwrthwynebwyd y cynnygiad o hyny gan yr offeiriaid, y rhai a haerent nad oedd y cyfieithiadau tramor o'r Testament Newydd yn gywir; fod y bobl yn anghymhwys i ddeall a deongli yr Ysgrythyrau, o herwydd dyfnder eu cynnwys, amrywiaeth eu harddull, a'r anhawsderau mawrion oedd yn nglŷn â hwy; ond Cranmer a Latimer—y rhai y tybid eu bod yn adleisio meddwl y brenin—a orfuant. Rhanodd y cyntaf gyfieithiad Tyndal o'r Testament Newydd yn ddeg cyfran, ac anfonodd hwy at ddeg o esgobion i'w hadolygu; y rhai, oddi gerth Stokesley, a gytunasant i wneyd hyny; ac yn mhen tair blynedd, argraffwyd y gyfrol sanctaidd yn Paris. Hyd yr oedd yn ei allu, cyflenwai Cranmer swyddi gweigion yr eglwys â gwŷr efengylaidd eu syniadau.

Yn y flwyddyn 1536, bu farw y frenines ysgaredig, Catherine. Yr oedd Harri yn barod wedi blino ar ei ail wraig; ac yn ei awydd am ryw ffugesgus er cael ymwared o honi, daliai gydag awch ar chwedlau a daenid am ei hanffyddlondeb iddo. Yn ystod ei arosiad yn nhŷ ei thad, ffurfiasai Cranmer gydnabyddiaeth agos gydag Anne Boleyn; edrychai arni hefyd fel un o gyfeillion a chefnogwyr y Diwygiad; ac nid oedd ganddo un petrusder yn nghylch ei diniweidrwydd. Nid oedd i'r cyhuddiad a ddygid yn ei herbyn gysgod o brawf. Cauwyd Cranmer allan o'r prawf cyntaf ar ei hachos. Eto, anturiodd gyfarch y brenin mewn llythyr o amddiffyniad iddi. Ond yr oedd gwresogrwydd ei eiriolaeth wedi ei gymmysgu âg ofn ei feistr tostlym. Addefai mai diammheu oedd fod y brenin yn gweithredu oddi ar sail dda, ac amlygai ei gydymdeimlad âg ef. Yn y rhagolwg ar ddyoddefaint a chosp, cafwyd gan y frenines gyfaddef rhywbeth oedd yn rhwystr cyfreithlawn i'w phriodas; a phedwar diwrnod ar ddeg ar ol ysgrifenu o hono y llythyr amddiffynol uchod, wedi ffurf arall o brawf yn Lambeth, Cranmer fwhwmanllyd ac anwrol, mewn ufudd-dod i orchymyn y brenin, a gyhoeddodd y briodas yn ddirym, a'r plant yn fastardiaid. Mai 19eg, 1536, dienyddiwyd Anne Boleyn; a'r dydd canlynol, priododd Harri Jane Seymour, un o'i llawforwynion mygedol.

Yn ffodus yr oedd y frenines newydd hon yn

Digitized by Google

ffafriol i'r Diwygiad; ac yn ystod y ddau fis ar bymtheg a ddilynodd, hyd farwolaeth Jane Seymour, bu cryn lwyddiant ar y gwaith. Y 16eg o Fehefin, 1536, agorwyd y gymmanfa ddiwygiedig gyntaf, dan lywyddiaeth Cromwell, fel ficer cyffredinol. Yno, ymdrinwyd â'r deg erthygl—a barotoisid, y mae yn debyg, gan Cranmer ac ereill—ar ba rai, drachefn, fel sylfaen, y goruchadeiladwyd cyfundrefn athrawiaethol Eglwys Loegr. Ynddynt, cydnabyddid y Beibl fel rheol ffydd; addefid fod tair sacrament—bedydd, y cymun sanctaidd, a phenyd; dalient eu gafael yn athrawiaeth trawssylweddiad; a'r hyn a ddysgid am gyfiawnhâd oedd, ei fod yn dyfod trwy edifeirwch a ffydd, yn nghyd â chariad—a thrwy ras Duw a haeddiant Iesu Grist yn unig. Delid gafael braidd yn yr holl seremoniau Pabaidd, megys gweddïau ar y seintiau ac ar y meirw, ond yn unig fod y bobl yn cael eu rhybuddio na hyderent ar y pethau hyn am faddeuant a chymmeradwyaeth gyda Duw. Ni fynai Cranmer gydnabod penyd fel sacrament; ond yn y cyffredin, y mae y pynciau uchod yn fynegai o'i olygiadau. Fodd bynag, nid oedd yr erthyglau hyn yn boddloni y naill blaid na'r llall; o ganlyniad, mynodd Cranmer eu hadolygu, a chymmerodd y gwaith gan mwyaf i'w ddwylaw ei hun. Ffrwyth y llafur hwn oedd, *The Institution of a Christian Man*:—cyfansoddiad a amlygai gynnydd chwanegol mewn daliadau efengylaidd. Dichon yr aethai Cranmer yn mhellach na hyn oni bai gwrthwynebiad y cyfryw ddynion a Gardiner a Stokesley. Ymddangosodd y llyfr hwn yn mis Rhagfyr, 1537. Gan iddo gael ei gyhoeddi heb gadarnhâd y brenin, ymgymmerodd Harri â'r gwaith o'i adolygu ei hunan; ac anfonodd ef i Cranmer, wedi diwygio yr hyn, yn marn ei fawrhydi, oedd feiv ynddo. Bu yr archesgob yn ddigon gwrol i anghytuno â diwygiadau y penadur, ac i amlygu hyny mewn beirniadaeth annibynol a llym arnynt. Pa mor anhawdd bynag fuasai gan dymmer nwydwyllt Harri gyd-ddwyn â'r gwrthwynebiad hwn gan arall, ymddengys iddo ei oddef yn amyneddus yn yr hwn a fuasai gyfaill mor ddefnyddiol iddo; o herwydd, yn Hydref y flwyddyn hon, wedi geni y tywysog Edward, cawn mai yr archesgob oedd un o'i dadau bedydd. Yn nghyhoeddiad y brenin, a ragflaenai yr erthyglau hyn, gorchymynid amrywiol bethau pwysig, megys diddymu dyddiau sanctaidd, addysgu plant ac ieuenctyd yn y ffydd, eu hyfforddi yn Ngweddi yr Arglwydd a'r deg gorchymyn, a chyflead y Beibl yn mhob eglwys. Ymdrechodd Cranmer am gyfieithiad newydd o'r gyfrol sanctaidd trwy bwyllgor, ond yn aflwyddiannus. Yn y cyfamser, cyflawnwyd y gwaith gan ffoedigion Protestanaidd mewn gwledydd tramor. Mor fawr oedd llawenydd Cranmer am hyn, fel y dywedodd fod yn well ganddo am y ffaith na mil o bunnau. Gwnaeth ei oreu er cael caniatâd gan y brenin i'w werthu; yn yr hyn y llwyddodd, wedi iddo yn gyntaf sicrhau i Harri fod y cyfieithiad yn gywir. Wedi i ffynnon y gwirionedd fel hyn gael ei hagor i'r bobl, darllenid y Beibl yn awyddus gan y bobl; a llawer a ddywedid am dano, ac a ddadleuid yn ei gylch. Ond nid oedd Cranmer ei hun yn ddigon clir ei adnabyddiaeth o'i egwyddorion, nac wedi ei feddyddio yn ddigonol âg ysbryd yr efengyl, fel ag i oddef i ereill dynu oddi wrth lyfr Duw gasgliadau croes i'w olygiadau ei hun. Pan y traddodwyd Lambert, ysgolfeistr o'r brifddinas, i'r fflamiau, o herwydd cydwybodol ymwrthod â rhai o byncGiau y credo a osodid ar y deiliaid trwy drääreglwyddiaeth Harri, a phan y llosgwyd i farwolaeth rai o'r Ail-fedyddwyr yn Smithfield, yr oedd Cranmer yn cydsynio âg uniondeb y ddedfryd.

Deuddydd wedi genedigaeth Edward — sef Hydref 14eg, 1537—bu Jane Seymour farw; ac ennill mawr i'r Diwygiad oedd i Cranmer lwyddo cyn hyny i roddi Beibl i'r genedl; o herwydd, wedi y dygwyddiad hwnw, trodd amgylchiadau pethau yn dra anffafriol. Daeth y brenin yn sarig ac anfoddog tuag at y symmudiad. Ymaflodd y Pabyddion yn y cyfleusdra er ceisio ennill ymddiried y brenin a disodli y blaid efengylaidd. Yn ofer yr ymdrechodd Cranmer i ddifodi cyfraith gweddwdod. Gwaharddodd y brenin i offeiriaid briodi; a chafodd Cranmer mai buddiol ac angenrheidiol iddo ydoedd anfon ei wraig yn ol i Germany. Tra yr oedd y gwaith o ddinystrio y mynachlogydd mwyaf yn myned yn mlaen, gobeithiasai Cranmer y ceid yr arian a ddeilliai oddi wrthynt at achos addysg a chrefydd; ond Harri a'u gwastraffodd ar ei gyfeillion annheilwng; a'r cyfan y llwyddwyd i'w hachub rhag ei afradlonedd oedd trysorfa at sefydlu ychydig o esgobaethau newyddion. Er gwrth dystiadau Cromwell a'r archesgob yn erbyn ysbeilio yr eglwys, ni thyciai hyny ond i chwerwi ysbryd y brenin yn fwy. Tua Hydref y flwyddyn 1538, daeth yr archesgob i Lundain, er cyfarfod â chenadaeth o dduwinyddion Protestanaidd Germany, a gwnaeth ei ran er dyfod â gwŷr eglwysig Lloegr i gynnadledd â hwy. Er mawr siomedigaeth i'r cenadon a'r diwygwyr, cyfarfyddodd yr amcan â gwrthwynebiad o du y brenin. Parodd i Tonstal, esgob gelyniaethus i'r "ddysgeidiaeth newydd"—fel y gelwid y Diwygiad—gyfansoddi atebiad i draethawd eglurhaol ac amddiffynol y duwinyddion Germanaidd. Pan y dygodd y duc o Norfolk y chwech erthygl [gwel ERTHYGL, Y CHWECH] ger bron Tŷ yr Arglwyddi, yn Ngorphenaf 1539, safodd Cranmer yn ddiysgog i'w gwrthwynebu am dri diwrnod. Ni bu Cranmer erioed mor benderfynol a'r waith hon, er na lwyddodd i daflu allan fesur y duc o Norfolk, na lliniaru dim ar y cospau trymion a gynnwysai. Rhoddodd Cromwell i fyny; enciliodd Latimer a Shaxton o'u swyddau esgobol—esampl na welodd Cranmer yn dda ei dilyn; ond ni fynai blygu hyd yn oed wrth orchymyn y brenin i roddi y fwyell ar wreiddyn y pren a blanasai ac a amddiffynasai yn ngwyneb cymmaint o anhawsderau, hyd yma. Dylanwadodd ei ymddygiad ar feddwl Harri; ac yn fuan wedi terfynu yr eisteddiad seneddol, yn mha un y pasiwyd deddf y chwech erthygl, daeth ato genad yn mynegu ewyllys da y brenin. Atebodd Cranmer ei fod yn gobeithio mai ei olygiadau ef a fuddugoliaethent yn y diwedd, er gogoniant Duw a lles y wladwriaeth; ond, yn y cyfamser yr ymostyngai efe i benderfyniad y senedd.

Wedi marwolaeth Jane Seymour, bu Harri dros ddwy flynedd yn weddw—yn fwy o orfod nag o ddewisiad. Wedi aflwyddo mewn amryw gynnygion, denwyd ei sylw at y dywysoges Anne, chwaer y duc o Cleves, yr hwn oedd fawr ei ddylanwad yn mysg y Lutheriaid. Am y rheswm hwn, yn nghyd â'i dygiad i fyny, a'r ffaith o fod chwaer iddi yn briod âg etholwr Saxony, blaenor Protestanaidd yn Germany, yr oedd Anne yn dra gwrthwynebus i'r Babaeth; a chan obeithio y byddai hyn yn foddion i ddwyn yr ysgogiad diwygiadol drachefn i fri, annogai Cromwell y brenin i fyned rhagddo yn ei amcan

o ymuno âg Anne o Cleves. O'r braidd yr oedd y ddefod briodasol wedi dybenu, cyn bod y brenin yn dechreu meddwl am ysgariad drachefn, ac yn ymofyn rhithesgusion dros gael hyny; ac yn y gymmanfa a gyhoeddodd y ddedfryd gywilyddus ac anghyfiawn a seliai y weithred ar ei ran, Cranmer oedd y llywydd. Yn fuan ar ol y seremoni warthus uchod, dienyddiwyd Cromwell; ac er i'w gyfeillion ymdrechu yn wanaidd am ei arbediad, hwy a arwyddasant eu cydsyniad â'i dynged. Anhawdd yw amddiffyn Cranmer yn ngwyneb ei ymostyngiad anwrol i ewyllys y brenin; ond y mae i'w ddyweyd o'i blaid, er mai clauar ei ymdrech oedd dros ei gyfeillion, y diystyrai i raddau ei ddiogelwch personol, ac wynebai bob perygl er mwyn y Diwygiad; a thystir, pan y cymhellid y brenin gan y blaid Babaidd i benodi dirprwyaeth er adffurfio yr Erthyglau, fel y byddent ffafriol i'w golygiadau hwy, na fynai Cranmer ildio er bygythion nac ymbiliau. Dywedai llawer y collai ei ben. Ond llwyddodd i ennill y brenin o'i ochr, a chyda'i gymmeradwyaeth ef, gosododd ger bron y ddirprwyaeth ddau ar bymtheg o gwestiynau, a'u hatebion a anfonodd i'r penadur gyda sylwadau arnynt. Y mae y rhai hyn yn bwysig, mor belled ag y gellir gweled ynddynt fath oedd y golygiadau a goleddai Cranmer ar y pryd:—"Nid oes ond bedydd a'r cymun sanctaidd yn unig yn sacramentau mewn ystyr manwl. I dywysogion y perthyn gofalu am amgylchiadau gwladol a chrefydd eu pobl a'u deiliaid; ac o ganlyniad, eu gwaith hwy yw ordeinio canghellwyr, trysorwyr, esgobion, ac offeiriaid. Pan yr ordeinir personau i swyddau ysbrydol, y mae yn angenrheidiol eu cyssegru, er mwyn iawn drefn a difrifoldeb dyledus; ond ni chyfrenir gras trwy hyn mwy na thrwy osodiad mewn swyddogaeth wladol. Pan nad oedd tywysogion Cristionogol, dewisid swyddogion gan yr apostolion neu y cynnulleidfaoedd. Ond yn ol yr Ysgrythyrau, gall tywysog urddo neu wneuthur yn offeiriad cystal ag esgob; o ganlyniad, nid yw cyssegriad yn hanfodol angenrheidiol. Y mae cyffesiad gorfodol, a'r eneiniad diweddaf, yn anysgrythyrol."

Ni chymmeradwyid y syniadau uchod gan yr esgobion ereill; ac ymddengys i bob ymdrafod â'r pynciau hyn gael ei roddi heibio. Llwyddwyd, pa fodd bynag, i ddyrysu amcanion y blaid Babaidd; ac yr oedd hyny yn fwy dymunol ac angenrheidiol o herwydd amgylchiadau pethau ar y pryd. Yn fuan wedi ei ysgariad oddi wrth Anne o Cleves, priododd y brenin Catherine Howard, nith y duc o Norfolk—Pabydd; yr hwn, gyda Gardiner, oedd yn awr yn blaenori yn nghynghorau y brenin. Edrychid ar y briodas hon fel yn addaw daioni i wrthwynebwyr y Diwygiad; ond byr iawn fu parhâd undeb Catherine â Harri:—dim ond ychydig fisoedd. Daeth yn ddyledswydd ar Cranmer fynegu i'r brenin mor benrydd ac anfoesol y buasai ei bywyd gynt, a'r waith hon gallai yn eithaf hawdd gyhoeddi y briodas â Catherine yn ddirym. Dienyddiwyd hi Chwefror 14eg, 1541. Yr oedd ei chwymp yn ddyrnod dwys i'r blaid a hyderai arni am gefnogaeth. Defnyddiodd Cranmer y cyfleusdra i ddwyn y Beibl i bob eglwys, trwy ganiatâd y brenin. Diwygiodd yr ysgolion hefyd, gan dalu sylw penodol i'r tlodion. Cythruddodd hyn ei wrthwynebwyr, y rhai a gyffroisant ac a gymhellasant y brenin i gyfyngu ar y rhyddid i ddarllen yr Ysgrythyrau; a llwyddasant i'r fath raddau fel yr oedd y cyfyngiad mewn effaith braidd yn gyfystyr â gwaharddiad hollol Ac nid oedd hyny yn ddigon i'w boddloni. Gan fod y Protestaniaid wedi cael amddiffynydd a chyfaill newydd drachefn yn Catherine Parr, gweddw arglwydd Latimer, yr hon a briodasid â Harri yn mhen ychydig gyda dwy flynedd wedi dienyddiad Catherine Howard, gosododd y Pabyddion eu holl fryd ar ddwyn oddi amgylch ei chwymp hi a Cranmer. Annogodd Gardiner y clerigwyr yn esgobaeth Cranmer i ddwyn yn mlaen gwynion yn ei erbyn, ei fod yn camddefnyddio awdurdod a hawliau ei swydd. Wedi i brebenduriaid Caergaint ddwyn y cwynion ger bron y cynghor, ac i'r cynghor eu dwyn ger bron y brenin, gorchymynodd Harri fod iddynt gael eu profi, a'u chwilio allan gan ddirprwyaeth; yr hon a'u cyhoeddodd yn ddisail, fel y terfynodd yr achos yn ngwaradwydd ei elynion a'i gyhuddwyr, yn mysg pa rai yr oedd y duc o Norfolk; ac amlygodd Cranmer hynawsedd ei dymmer yntau trwy beidio annog i, na chymhell eu gospedigaeth, o herwydd eu bradwriaeth.

Yn 1544, gwnaeth Cranmer bob ymdrech i ddwyn trwy y senedd fesur er lliniaru ychydig ar lymder deddf y Chwech Erthygl. Bu iddo hefyd ran yn nghyfansoddiad Litani Seisoneg; yr hwn oedd, o ran ei sylwedd, yr un ag a arferir yn awr. Ond cyfarfyddai âg anhawsderau lawer. Bu rhai o'i gyfeillion a'i noddwyr ffyddlonaf yn y llys farw, megys y duc o Suffolk; ciliai ereill o'u swyddi, a llenwid eu lle gan elynion Protestaniaeth, fel y tybiwyd yn wir fod y brenin eto ar fedr tywallt blinder ar ben y Diwygwyr. Cyhuddwyd Cranmer gan y duc o Norfolk, ac ereill, o ledaenu heresiau; ac erfynient ar fod i'r brenin, er mwyn diogelwch ei diriogaethau, fwrw yr archesgob i'r Twr. Y noson gyntaf wedi dygiad y cyhuddiad ger ei fron, anfonodd Harri Syr Anthony Denny gyda chenadwri at Cranmer; ac yntau a gyfododd o'i wely, fel y deuai ac y gwybyddai beth oedd ewyllys y brenin yn Whitehall. Y bore canlynol, ymgynnullodd y cynghor, a gwysiwyd yr archesgob ger bron; yr hwn, o sarhâd arno, a gadwesid am amser maith i aros yn un o ystafelloedd isaf gweision y tŷ. O'r diwedd, condemniwyd ef i garchar: ond er syndod a dyryswch i'w farnwyr, dangosodd iddynt sel-fodrwy y brenin, a dderbyniasai o law ei fawrhydi y noson o'r blaen, fel arwydd o'i ffafr. Ofnodd y cynghor fyned yn mlaen ddim pellach gyda'i achos. Llwyddodd ei elynion, pa fodd bynag, i ddyrysu lluaws o'i gynlluniau; a thra y diwygiai efe rai camarferion, cyfyngid yn fwy ar y rhyddid i ddarllen y Beibl. Nid oes ammheuaeth na ddarfu i Cranmer, o fewn y flwyddyn olaf o deyrnasiad Harri, amcanu difodi gwasanaeth yr offeren. Ionawr 28ain, 1547, bu farw y brenin, Harri VIII., yn yr unfed flwyddyn ar bymtheg a deugain o'i oedran, wedi teyrnasu dwy flynedd ar bymtheg ar ugain a naw mis; a gwnaed Cranmer yn un o weinyddion ei ewyllys, ac hefyd yn un o raglawiaid y deyrnas.

Hyd yn hyn, nid oedd yn ymddangos lawer o ol llafur Cranmer. Aml reol dda a threfniad doeth o'i eiddo a laddwyd yn eu blagur, tra na chariwyd lluaws ereill allan ond mewn rhan yn unig. Ac nid oedd hyny yn rhyfedd, o herwydd, heb law yr anhawsderau mawrion a'i hamgylchynodd rhwng traarglwyddiaeth hunanol y brenin a dygasedd y Pabyddion, yr oedd efe ei hun yn amddifad o nôd ac amcan sefydlog. Ond wedi marwolaeth Harri, cymmerodd cyfnewidiad ffafriol i'r Diwygiad le yn amgylchiadau pethau o

Digitized by Google

fewn y deyrnas. Ymddiriedasid addysg Edward —y brenin ieuanc—i ofal Cranmer; ac nid oedd ei ymlyniad wrth egwyddorion Protestaniaeth na gwanaidd na ffugiol. Yr oedd yr arglwydd Amddiffynydd, a Cecil hefyd, yn gyfeillion i'r Diwygiad. Wedi ei amgylchynu â gwŷr o syniadau efengylaidd, ymddengys i Cranmer ymsefydlu yn ei feddwl ac ymwroli yn ei waith o hyrwyddo y Diwygiad; a rhaid dywedyd mai efe, oddi ar ba ddybenion bynag, oedd ei enaid a'i fywyd yn ystod teyrnasiad Edward.

Nid oedd y tywysog lawn deng mlwydd oed pan fu farw ei dad; ac ar ei esgyniad i'r orsedd, fel trwy hyny y cadarnhëid ei uchafiaeth yn well, derbyniodd yr esgobion, ac yn eu mysg Cranmer —yr oedd y weithred yn dra chydweddol â'i syniadau ef am uchafiaeth y brenin—eu swyddau yn adnewyddol o'i law. Gweithred gyhoeddus gyntaf yr archesgob a fu coroniad Edward VI., Chwefror 2fed, 1547; ac yn lle y bregeth arferol ar y cyfryw achlysuron, traddododd gyfarchiad byr a phwrpasol. Cyfeiriai sylw y brenin ieuanc a goronasid at Iosiah, fel cynllun o benadur Cristionogol, gan ei gymhell i'w efelychu trwy ddiwygio yr eglwys; ond, chwanegai, hyd yn oed pe yr esgeulusai y ddyledswydd hono, na byddai trwy hyny yn fforffedu ei goron. Wedi hyn, penododd ddirprwywyr yn mhob esgobaeth i ymweled âg, a chwilio i ansawdd yr eglwysydd. Amcanai nid yn unig fynu gan bawb yn gyffredinol gydnabod uchafiaeth y brenin, ond hefyd dymunai roddi manteision addysg yn nghyrhaedd y bobl. Yn cael ei gynnorthwyo gan Ridley, Latimer, ac ereill, yn Nghorphenaf, 1547, casglodd a chrynhôdd *Lyfr yr Homiliau*, a mynodd gyfieithu alleiriadau Erasmus i'r Seisoneg. Yn mis Tachwedd, 1547, llwyddodd yn y senedd i gael diddymiad o'r Chwech Erthygl, a chynnygiodd fod i'r ffurf-wasanaeth cyffredin fyned o dan adolygiad. Anfonwyd hefyd orchymyn i'r gymmanfa eglwysig fod i'r ordinhâd o Swper yr Arglwydd gael ei gweinyddu, yn y ddwy elfen, i'r lleygion yn gystal ag i'r gwŷr llên. I ddylanwad Ridley y mae priodoli y cyfnewidiad yn naliadau Cranmer o barth i'r sacrament hon. Drachefn, mynodd yr archesgob gyfieithu *Catecism Wurtemberg* i'r iaith Seisonig. Gorphenwyd brasgynllun o ffurf-wasanaeth newydd yn Nhachwedd, 1548; a'r Ionawr canlynol, cymmeradwywyd ef gan y senedd. Ni ddygid hyn oddi amgylch heb wrthwynebiad, a gwrthwynebiad cyndyn o du y Pabyddion. Yn ngorllewinbarth Lloegr, ymgododd y trigolion mewn gwrthryfel, trwy gael eu cyffroi i hyny gan eu hathrawon crefyddol. Gan faint eu hawydd am ddarostwng y cyffro, annogodd y ddeddfwriaeth Cranmer i gyfansoddi atebiad i bymtheg o erthyglau a gyhoeddasid gan y terfysgwyr, yn y ffurf o wrthdystiolaeth achwynol yn erbyn y symmudiadau diwygiadol. Ysgrifenwyd atebiad campus; ond cyn ei lwyr orphen, yr oedd arweinwyr y terfysg wedi eu dal a'u dienyddio, a'r gwrthryfelwyr wedi eu gwasgaru. Condemniwyd rhai personau i'r fflamiau, trwy gyfarwyddyd Cranmer; a phan y dienyddiwyd arglwydd Seymour, brawd yr Amddiffynydd, tystir i'r warant angeuol yn yr achos hwnw hefyd gael ei llawnodi ganddo ef. Er ei wendid beius hwn yn amgylchiad Seymour, dywedir iddo er hyny bob amser barhau yn gyfaill diysgog yn ei ffyddlondeb i Somerset, yr Amddiffynydd ei hun, er cyfarfod o'r gŵr hwnw yn ol llaw â blinderau lawer a dwys, a derfynasant wedi hyny mewn marwolaeth gospawl. O herwydd ei wrthwynebiad i'r Diwygiad, taflwyd Gardiner i'r carchar; ac yntau, yn ei gaethiwed, a dreuliai ei amser i gyfansoddi gwrthatebion i ysgrifeniadau yr archesgob. Diswyddwyd Bonner, esgob Llundain hefyd, gan ddirprwyaeth, o ba un yr oedd Cranmer yn aelod. Ond pan yr amddifadwyd Tonstal o'i feitr a'i esgobaeth, o herwydd rhyw gyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn, ni fynai Cranmer gytuno â hyny; ac efe, yn nghyd âg arglwydd Stourton, yr hwn oedd Babydd, a wrthdystiodd yn erbyn y ddedfryd gondemniol. Parhaodd y prifysgolion yn noddaeth ac amddiffynfa gref i'r Babaeth; ac ymdrechodd Cranmer ddwyn y rhai hyn i ysbryd ac o blaid y symmudiadau newyddion. Yn hyn bu amryw o ddysgedigion y Cyfandir, a groesawid ganddo yn ei balas, o gynnorthwy mawr iddo; ac appwyntiwyd rhai o honynt yn broffeswyr a darlithwyr i Rydychain a Chaergrawnt.

Ymygmmerodd Cranmer â gorchwyl pwysig arall. Nid oedd y deg erthyglau ffydd bellach yn ateb eu dyben. Coleddai Cranmer y gobaith o allu uno yn nghyd yr holl Brotestaniaid mewn un gyffes newydd. Cyflwynodd y mater i sylw Melancthon, Calvin, a Bullinger; ac enwodd ddinas Llundain fel y man mwyaf cyfaddas i ymgynghori ar y pwnc. Chwennychai Calvin a Melancthon y cyfryw undeb yn fawr; ond gwelent rwystrau anorfod ar y ffordd. O ganlyniad, gorfu i Cranmer ymfoddloni ar gyffes o'i gyfansoddiad ef ei hun, yn cael ei gynnorthwyo gan dduwinyddion Seisonig ereill; yr hon, y mae yn debyg, ydoedd wedi ei seilio ar y tair erthygl ar ddeg a gafwyd yn mysg ei bapyrau—ffrwyth ei ymgynghoriadau â duwinyddion Germany, ac yn dwyn perthynas agos â'r ddwy erthygl ar bymtheg cyntaf o Gyffes Ffydd Augsburg. Yn mis Mai, 1552, gosodwyd ger bron y gymmanfa eglwysig ddwy a deugain o erthyglau; y rhai, wedi hyny, a gymmeradwywyd gan y brenin, ond nid gan y senedd. Adolygodd Cranmer ac ereill y ffurfwasanaeth, gan adael allan o hono gyffes ddirgel, yr eneiniad diweddaf, a gweddïau dros y meirw. Crynai y Diwygwyr yn ngwyneb yr arwyddion o adfeiliad iechyd y brenin, ond ni lesgäai eu dwylaw, er cyfarfod âg amgylchiadau gwrthwynebus. Ymdrechai Gardiner â'i holl egni yn erbyn Cranmer, trwy ei ysgrifeniadau o'r carchar; collodd yr archesgob hefyd gyfaill a noddwr yn nienyddiad Somerset: a'r hyn a dderbyniodd oddi ar law y duc o Northumberland, olynydd Somerset yn yr amddiffyniaeth, oedd ymdrech i'w amddifadu o ffafr a chyfeillgarwch y brenin, am na chydolygent ar y cyntaf o barth y priodol olynydd i'r orsedd a'r goron. Gorphenaf 6ed, 1553, bu farw Edward, a chydag ef fe suddodd gobaith y Diwygwyr. Yr oedd dyddiau blin yn nghadw i Cranmer.

Yn ddioed wedi marwolaeth Edward, cyhoeddwyd yr arglwyddes Jane Grey fel ei olynydd ar y deyrngadair; ac anfonwyd llythyr at y dywysoges Mari, yn ei hysbysu hithau mai Jane oedd i wisgo y goron. Llawnodwyd y llythyr hwn gan lu mawr o'r prif bersonau yn y wladwriaeth, a Chranmer yn eu plith. Ar y 9fed o fis Gorphenaf, 1553, tyngodd prif swyddogion y llywodraeth lw o ffyddlondeb i Jane: erbyn yr 20fed, cawn fod llawer o'r rhai a fuont fwyaf selog yn ei hachos hi, "yn awyddus am anfon arwydd o'u hymostyngiad i Mari." Yr un diwrnod, anfonodd Mari ysgrif at Northumberland, y penaf o gefnogwyr Jane, yn gorchymyn ei ymostyngiad iddi hi; ac yr ydoedd yr ysgrif hono wedi ei

Digitized by Google

nodi gan Cranmer. Hawdd oedd gweled erbyn hyn fod holl obaith y Protestaniaid wedi pallu. Gwyddai pawb mor fawr oedd ymlyniad Mari wrth y grefydd Babaidd. Dygwyd Gardiner allan o'r carchar y taflesid ef iddo gan sel y Protestaniaid; gwnaed ef yn ganghellydd; a rhoddwyd iddo yr hawl o appwyntio pregethwyr yn lle yr archesgob.

Wrth weled yr ystorm yn ymgasglu o'i ddeutu, ceisiai cyfeillion Cranmer ganddo ddianc: ond nis gwnai hyny. Y mae pob lle i feddwl y coleddai Mari y dygasedd mwyaf tuag ato. Heb law yr edrychid arno fel pen campwr y Diwygiad, a'i bod hithau yn fawr ei sel dros y Babaeth, nis gallai y frenines yn ddiau ollwng dros gof i Cranmer fod yn mysg y prif offerynau yn ysgariad ei mam, Catherine o Aragon; ac iddo hefyd roddi ei ddylanwad o blaid dyrchafiad yr arglwyddes Jane i'r orsedd. Yn nechreu Awst, gwysiwyd ef ger bron y cynghor, a gorchymynwyd iddo ymgadw o fewn muriau ei balas. Ar y 27ain, dygwyd ef ger bron yr un frawdle freninol; ac wedi ei holi hefyd o flaen y Serystafell, traddodwyd ef i'r Tŵr. Cyhuddid ef o droseddau y cawsai ei hud-ddenu i'w cyflawnu gan Gardiner, ac er mai o'i anfodd y cydsyniasai âg urddiad yr arglwyddes Jane yn frenines, yr oedd yn awr i gael ei orfodi i roddi iawn am y trosedd, tra y goddefid i ereill llawer mwy euog ddianc yn ddigosp. Amlygai y gwroldeb mwyaf unwaith. Tra yr ymwrthodai rhai â'u golygiadau, dadganai ef ei barodrwydd i amddiffyn ysgrythyroldeb y Diwygiad. Ond gommeddid y cyfleusdra iddo. Yn Tachwedd, cyhuddwyd ef o deyrnfradwriaeth. Amlygai ei barodrwydd i gymmeryd ei draddodi i angeu fel merthyr dros yr efengyl, ond nis gallai oddef cymmeryd ei warthruddo fel bradwr. Ysgrifenodd at y frenines, a rhyddhawyd ef oddi wrth y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth; ond dygwyd yn ei erbyn gwynion fel heretic. Mor lawn oedd y Tŵr, fel y traddodwyd Ridley, Latimer, ac yntau, i'r un gell! Ymgysurai yn yr Ysgrythyrau ac mewn gweddi. Galwyd ef yn fuan ger bron y gynghorfa eglwysig, a chafodd wrandawiad. Appeliodd at air Duw; a chyfeiriodd ei wrthwynebwyr at y cleddyf fel eu harf hwythau. Nid oedd dygiad yr achos yn mlaen wrth fodd rhai o'i wrthwynebwyr; ac am hyny, yn Mai, 1554, fe'i trosglwyddwyd i Rydychain, er ymchwiliad pellach. Agorwyd y prawf ar gyhoedd yn eglwys St. Mair. Gyda'i fugeilffon yn ei law, safai Cranmer mewn ystum mawreddog ger bron ei farnwyr. Ceisiwyd ganddo lawnodi tair o erthyglau pendant Pabyddiaeth; ond gommeddodd, a dymunodd amser i'w hateb mewn ysgrifen. Y diwrnod nesaf, sef y Sabbath, anfonodd i mewn ei atebiad; a dydd Llun, daeth yn mlaen i'w amddiffyn. Er gwaethaf gwawd a phob rhwystr o du ei elynion, amddiffynodd ei hun yn y Lladin a'r Seisoneg gyda'r hunanfeddiant mwyaf digyffro am chwech o oriau, nes y rhyfeddodd ei wrthwynebwyr wrth ei ddysgeidiaeth. Dydd Iau, galwyd ef ger bron wedi hyny, ac hyd yn oed y llywydd a ganmolai ei wylder a'i larieidd-dra. Dydd Gwener, ceisiwyd ganddo, a Ridley, a Latimer, drachefn lawnodi y tair erthygl. Gwrthodasant yn unfrydol, a chondemniwyd hwy fel hereticiaid. Pan y cyhoeddwyd y penderfyniad, gwaeddodd Cranmer allan—"Oddi wrth eich mainc a'ch dedfryd chwi, appelio yr wyf at frawdle gyfiawn yr Hollalluog, mewn gobaith diysgog a chadarn y câf yn y nefoedd fwynhau presennoldeb yr hwn y condemnir fi genych chwi am wadu ei bresennoldeb yn y sacrament." Mewn llythyr at y frenines—yr hwn, y mae yn debyg, na dderbyniodd hi byth—cwyna o herwydd yr anghyfiawnder a dderbyniai. Cedwid Latimer, Ridley, ac yntau, wedi hyn mewn carchar caeth ddeunaw mis; ac yn ystod yr amser hwn, ysgrifenodd Cranmer drachefn yn erbyn Gardiner. Mor uchel oedd eu cymmeradwyaeth gyda'r bobl, fel y tybid mai annoeth fuasai eu dienyddio heb orchymyn i'r perwyl hwnw oddi wrth y pab. Penododd y pab a'r goron drachefn ddirprwyaeth i chwilio i mewn i'r achos, yr hwn ymchwiliad a ddechreuodd yn Medi, 1555. Latimer a Ridley a wrandawyd yn gyntaf, yna Cranmer. Gwrthdystiai Cranmer yn erbyn y ddirprwyaeth, am ei fod yn rhwym trwy lw i ymwrthod âg awdurdod y pab; ac yn erbyn y tystion hefyd, y rhai a fuont anffyddlawn i'r llw o uchafiaeth. Ond holwyd y tystion, cauwyd y llys, ac anfonwyd ffrwyth y prawf i Rufain. Ysgrifenodd Cranmer at y frenines drachefn, yn mynegu ei fod ef yn ymwrthod âg awdurdod y pab, megys peth croes i gyfraith y tir; ac o herwydd fod y pab yn ei wneuthur ei hun yn Dduw, ac yn gwahardd y sacrament yn y ddwy elfen, ei fod yn gwrthdystio, nid oddi ar amcanion personol, ond er mwyn annibyniaeth ei wlad, a gogoniant Duw. Yn ystod teyrnasiad Harri, gwnaeth Cranmer nid ychydig o gymmwynasau i Mari; bu yn llwyddiannus trwy ei ddylanwad gyda'r brenin i liniaru llawer ar y gwrthwynebiad a'r adgasedd a goleddai y penadur tuag at ei ferch. Dywedodd Harri wrtho y byddai i'w eiriolaeth ar ei rhan yn y diwedd brofi yn ddinystr iddo. Yn awr, gorchymynodd y frenines i cardinal Pole ateb y llythyr uchod. Yn ofer yr eiriolai ei gyfeillion ar ran Cranmer. Am na ddaethai i ymddangos ger ei fron ef yn Rhufain—er y gwyddid ei fod dan y gadwraeth fwyaf gwyliadwrus a chaeth yn ngharchar Rhydychain ar y pryd—cyhoeddodd y pab farn o gondemniad arno, fel dyn ystyfnig ac anufudd, ac esgymunwyd ef. Anfonwyd Bonner, esgob Llundain, a Thirlby, esgob Ely—hen gyfaill i Cranmer—ato i'w ddiswyddo. Tra yn cyhoedd dynu oddi am dano ei urddwisgoedd, a'i ddiosg o arwyddion ei swyddogaeth, yr oedd y diweddaf yn wylo; ond y cyntaf, mewn eithaf cyssondeb â'i natur mileinig, a gyflawnai y gorchwyl pruddaidd gyda llawenydd ymffrostgar a gorfoledd. Safai Cranmer yn dawel, a pharhaodd felly; ac wedi gorphen o honynt, cyflwynodd i Thirlby appeliad at y gynghorfa gyffredinol nesaf—ei ymgais olaf, ond ofer—am y cyfiawnder hwnw, mewn gwlad dramor, a ommeddid iddo gartref.

Ond yn anfoddlawn ar ei gwymp o'i safle fel blaenor ac arweinydd y Diwygiad, mynai gelynion Cranmer ddwyn arno waradwydd mwy, trwy ei orfodi i ddadgyffesu; a bradgynllunient ffyrdd i ddwyn hyny oddi amgylch. Wedi ei esgymundod, dangosid tuag ato bob gofal, a thelid iddo bob parch. Cyflwynwyd i'w sylw addewidion teg a deisyfiadau taerion; arddangosid iddo fawredd ac urddas ei swydd, a'r dymunoldeb o hir fwynhau y bri a'r awdurdod cyssylltiedig â hyny, ond iddo deilyngu y cyfryw beth trwy ddadgyffesiad. Cariad at fywyd, ac ofn yr arteithiau oedd yn ei aros, a fuont drech na'i sefydlogrwydd; anghofiodd ei egwyddorion; a chydsyniodd i lawnodi yr erthyglau o uchafiaeth y pab, a'r gwir bresennoldeb. Argraffwyd a lledaenwyd y dadgyffesiad hwn. Ond pa addewidion bynag a roddasai ei elynion iddo, ni bu ei ddadgyffesiad o un dyben

Digitized by Google

tuag at achubiaeth ei fywyd; o herwydd anfonwyd allan yn ddioed orchymyn i'w ddienyddio. Mawrth 20fed, y nos cyn ei ddienyddiad, ymwelodd y Dr. Cole, cynfaer coleg Eton—yr hwn a benodasid gan y frenines i weini arno—â Cranmer; ac yn ystod yr ymddyddan, dywedir iddo fynegu ei fod yn parhau yn ddiysgog yn y ffydd *Gatholig*, megys ei proffesasid ganddo yn ddiweddar—atebiad a ystyrir gan rai fel un amwys. Wedi i Cole ymadael, aeth Garcina i'r carchar, a cheisiodd gan Cranmer ysgrifenu ail dadgyffesiad i'w draddodi ganddo wrth yr ystanc; â'r hyn y cydsyniodd y carcharor. Mawrth 21ain, arweiniwyd ef i eglwys St. Mair. Penliniai yr hen ŵr ar esgynlawr dyrchafedig, yn ngwydd pawb, gyda'i ben moel a'i farf wen yn chwyflo yn yr awel. Wylai yn chwerw, nes effeithio yn ddwys ar bawb oedd yn bresennol. Ar ol y bregeth—yr hon a ddadleuai, er ei ddadgyffesiad, y dylesid llosgi y fath heretic, fel esampl i ereill—gofynwyd i Cranmer ail adrodd ei ddadgyffesiad. "Gwnaf hyny â'm holl galon," ebe yntau. Ac wedi gweddi effeithiol am faddeuant o'i bechodau ei hun, trodd i anerch y bobl oedd yn bresennol; ac, er syndod i bawb, dywedai mai cyfeiliornad oedd ei ddadgyffesiad blaenorol, wedi ei wneyd oddi ar gariad pechadurus at fywyd; ac ardystiai yn ddifrifol ei ymlyniad wrth wirionedd yr efengyl:—"Yn awr," meddai, "yr ydwyf yn dyfod at y peth mawr sydd yn cythryblu fy nghydwybod yn fwy na dim a ddywedais nag a wnaethum yn ystod fy holl fywyd; a hyny yw, lledaenu ysgrifeniadau croes i'r gwirionedd: y rhai yr wyf, gan hyny, yn awr yn eu gwadu ac yn eu gwrthod fel pethau croes i'r gwirionedd a gredwn yn fy nghalon, wedi eu hysgrifenu genyf â'm llaw rhag ofn angeu, yn y gobaith, pe bai bosibl, o allu rywfodd achub fy einioes. Y cyfryw ydynt yr holl bapyrau a ysgrifenais neu a lawnodais, er pan y'm diswyddwyd, yn mhlith pa rai y mae lluaws o bethau camsyniol ac anwireddus. Ac yn gymmaint ag i'm llaw droseddu trwy ysgrifenu yn groes i'm calon, pan y deuaf i'r tân, fy llaw a losgir gyntaf." Synai y dyrfa at hyn; a chymmerwyd ef gyda brys at yr ystanc, yn nghanol gwawd a difriaeth y Pabyddion. Casglodd yn nghyd holl rym a nerth ei feddwl; a chyda gwroldeb nodedig, tra y dyrchafai y tân, daliai allan ei ddeheulaw i angerdd cyntaf y fflam, ac heb amlygu yr arwydd lleiaf o wendid, nac o deimlad yn wir, ond gan lefain, "Y llaw hon a droseddodd!—y llaw annheilwng hon!" efe a'i daliodd yn y gwres nes ei llwyr ddifa. Ni chwynai ac ni alarai; ond gyda sefydlogrwydd digyffro, edrychai yn dawel tuag i fyny gan ddywedyd—"Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Cyn hir, difawyd ei gorff gan y tân, oddigerth ei galon—yr hon, meddir, a gafwyd yn gyfan yn nghanol y lludw. Am ei farwolaeth, dywedai un o'i elynion:—"Ei amynedd yn y poenau, a'i wroldeb yn marw—pe buasai dros ogoniant Duw, lles ei wlad, neu dystiolaeth y gwirionedd, yn lle fel yr oedd dros gyfeiliornad peryglus a niweidiol—buaswn yn ei ganmawl fel esampl gwir deilwng o glod y goreu o dadau y cynoesoedd. Gofidiai pawb o herwydd ei farwolaeth—ei gyfeillion, o gariad; ei elynion, o dosturi; a dyeithriaid, dan nerth y teimlad o ddynoliaeth gyffredinol, sydd yn ein rhwymo oll y naill wrth y llall."

Anhawdd yn ddiau yw boddloni y meddwl â barn deg am gymmeriad Cranmer. Yr oedd yn cydgyfarfod ynddo ragoriaethau uchel ac arddercbog, a gwendidau a ffaeleddau mawrion. Wrth naturiaeth, yr oedd yn ofnus, anmhender fynol, a hawdd ganddo blygu ac ymostwng; er iddo ar rai amserau amlygu sefydlogrwydd a gwroldeb diysgog. Yr oedd ei dynerwch a'i hynawsedd tuag at ei elynion yn ddiarebol; ond yr oedd hefyd yn ol o amddiffyn ei gyfeillion. Ceir arwyddion ei fod yn gydwybodol; ond yr oedd yn hyblyg ei feddwl, a hawdd effeithio arno. Rhoddir yn gyffredin iddo le uchel yn mhlith "ardderchog lu y merthyri," ac y mae wedi ei alw yn arwr y blaid Brotestanaidd yn amser y Diwygiad yn Lloegr; ac eto, yr oedd yn dra diffygiol mewn syniad cywir am lawer o wirioneddau yr efengyl, ac yn arbenig yr egwyddor fywiol o gyfiawnhâd trwy ffydd. Yn ei gyfan soddiadau llenyddol, fel mewn pethau ereill, nid arddengys Cranmer nemawr o wreiddioldeb. Er fod ei ysgrifeniadau yn amlygu ol llawer o ddarllen, ac yn dangos medr yn nhrefniad a chyflead y defnyddiau, nid oes ynddynt ddim newydd wedi dyfod i'r goleu trwy ymchwiliad meddwl annibynol.

Dywed yn hanesydd Seisoneg, Mr. Hallam, am dano:—"Os pwyswn gymmeriad y prelad hwn mewn clorian gywir, fe'i symmudir yn mhell y mae yn wir oddi wrth yr anfadrwydd y mae ei elynion yn ei briodoli iddo; eto, ni cheir ei fod yn teilyngu dim parchedigaeth neillduol."

Pan yn adolygu Hallam, ddeng mlynedd ar ugain yn ol, dyma fel yr ysgrifenai Arglwydd Macaulay am Cranmer:—"Yn mhlith y gwladweinyddion a'r preladiaid hyny, oddi wrth ba rai yn benaf y derbyniodd y cyfnewidiadau crefyddol eu nodwedd a'u hysbryd, y mae un, dim ond un, nas gall pleidgarwch ei hun briodoli un ymddygiad iddo ond amcanion hunanlesol yn unig. Gan hyny, nid rhyfedd i'w gymmeriad fod yn destyn dadleu tanbaid iawn. Ni raid i ni ddywedyd mai am Cranmer yr ydym yn son:

"Er y beio llym fu ar Mr. Hallam o herwydd yr hyn a ddywed ef am yr archesgob, ni a anturiwn fyned yn mhellach, ac ymhelaethu ar ei ymadroddion fel y canlyn:—Os fel gwladweinydd yn unig yr edrychwn ar Cranmer, nid ymddengys yn ddyn llawer gwaeth na Wolsey, Gardiner, Cromwell, neu Somerset. Ond pan y gwneir ymgais i'w osod i fyny fel sant, o'r braidd y mae yn bosibl i ddyn o synwyr, yn gwybod hanes yr amseroedd, ymgadw yn sobr a difrifol. .........Ond gan y myn ei edmygwyr hòni iddo le yn mysg ardderchog lu y merthyron, y mae ei hawliau yn haeddu sylw na buasai ei goffadwriaeth yn ei deilyngu oni buasai hyny.

"Ymddengys hanes dechreuad ei fawredd fel peth cwbl allan o'i le ei hun yn mucheddau y saint, er y cyfarfyddir â'r cyffelyb yn ddigon mynych yn mrutiau gwarthus llysoedd breninol. Dyrchafwyd Cranmer i fri a chymmeradwyaeth trwy wasanaethu Harri yn ei ysgariad gwaradwyddus y tro cyntaf. Cefnogodd briodas y brenin âg Anne Boleyn. Heb ond ffug o esgus dros ei waith, cyhoeddodd y briodas hono yn ddirym. Gyda choegesgus, pe bai bosibl, mwy ffugiol drachefn, dattododd y rhwymau a unent y gormesdeyrn digywilydd âg Anne o Cleves. Ymlynodd wrth Cromwell, tra yr oedd Cromwell mewn parch a chymmeradwyaeth;—ond pleidleisiodd dros dori ei ben pan y trodd ffafr y brenin i gyfeiriad gwahanol. Cydymffurfiai â'r naill beth neu y llall, yn ol fel y cyfnewidiai meddwl y brenin. Tra y bu Harri byw, cynnorthwyodd i draddodi i'r fflamiau y rhai a wadent athrawiaeth trawssylweddiad. Mor fuan ag y bu Harri

Digitized by Google

farw, cafodd allan mai gau-athrawiaeth ydoedd. Nid oedd, er hyny, un diffyg o bobl i'w llosgi. Arferodd ddylanwad ei sefyllfa a'i benllwydni er lladd y casineb oedd gan blentyn deallgar a rhinweddol tuag at erlidigaeth. Yr un mor anffyddlawn i'w ddyledswyddau gwladol ag i'w ymrwymiadau crefyddol, ymroddodd yr archesgob i fod yn offeryn yn gyntaf yn llaw Somerset, ac wedi hyny yn llaw Northumberland, i gyflawnu ei amcanion yntau. Pan y dymunai yr Amddiffynydd draddodi ei frawd ei hun i farwolaeth, heb gymmaint a rhith o brawf, cafodd un parod at ei wasanaeth yn Cranmer. Yn ddiystyr o gyfraith yr Eglwys—a waharddai i ŵr eglwysig gymmeyd un rhan mewn materion bywyd—llawnododd yr archesgob y warant er rhoddi y ddedfryd anfad mewn gweithrediad. Wedi i Somerset yn ei dro gael ei ddistrywio, derbyniodd ei ddinystrydd gymhorth Cranmer mewn ymgais drygionus i newid cwrs a threfn yr olyniaeth freninol.

"Nid yw yr esgusawd a roddir drosto gan ei gyfeillion ond yn peri fod ei ymddygiad yn fwy dirmygus. Dywedir iddo gydsynio, yn groes i'w deimladau daionus ei hun, am nas gallai wrthsefyll erfyniau Edward. Buasai dyn yn meddwl y gallai archesgob trigain mlwydd oed gael rhyw beth gwell i'w wneyd wrth wely plentyn yn marw, na chyflawnu troseddau ar gais y dysgybl ieuanc. Pe yr amlygasai Cranmer hanner cymmaint o ddiysgogrwydd pan y mynai Edward iddo gyflawnu bradwriaeth, ag a ddangosai o'r blaen pan y ceisiai Edward ganddo beidio cyflawnu llofruddiaeth, gallasai achub y wlad oddi wrth un o'r anffodion mwyaf a ddygwyddodd iddi erioed. Beth bynag oedd ei amcan trwy hyny, daeth yn gyfranog â'r diffaeth Dudley. Rhaid oedd trechu a bwrw ymaith betrusder rhinweddol meddwl ieuanc a hawddgar arall. Megys y gorfodwyd Edward i fod yn erlidiwr, felly yr oedd Jane Grey i'w denu a'i llithio i fradwriaeth. Nid oes yn ein holl hanes weithred fwy anhawdd ei chyflawnhau na hon. Os oedd teitl yn disgyn wrth etifeddiaeth yn beth yn haeddu gwneuthur cyfrif o hono, perthynai hwnw i Mari. Os teitl seneddol oedd i'w ddewis yn hytrach, Mari oedd biau hwnw hefyd. Os ydoedd gofal am les a llwyddiant y grefydd Brotestanaidd yn gofyn gwyro oddi wrth drefn reolaidd a chyffredin yr olyniaeth, trwy ddewis Elizabeth y gwasanaethid yr amcan hwnw oreu. Os ystyrid cyssylltiadau tramor y deyrnas, gellid cael rhesymau cryfach drachefn dros ddewis Elizabeth yn hytrach na Jane. Yr oedd ammheuaeth mawr pa un ai gan Jane ai gan frenines yr Alban yr oedd yr hawl oreu; ac yn ol pob tebygolrwydd, buasai yr ammheuaeth hwnw yn peri rhyfel â'r Alban, ac â Ffrainc hefyd, oni buasai i amcan Northumberland gael ei ddeiflo a'i ddiddymu yn ei flagur. I'r rhan a gymmerodd Cranmer—ac, yn anffodus, rai dynion gwell na Cranmer—yn yr achos hwn, y rhaid gyda thegwch briodoli llawer o'r llymder gyda pha un yr ymddygwyd tuag at y Protestaniaid ar ol hyn.

"Methodd y cydfwriad, buddugoliaethodd y Pabyddion, a dadgyffesodd Cranmer. Y rhan fwyaf a edrychant ar ei ddadgyffesiad fel un brycheuyn ar fywyd anrhydeddus—fel gwendid mynyd o anwyliadwriaeth. Ond, mewn gwirionedd, yr oedd ei ddadgyffesiad mewn perffaith gydgordiad â'r dull a'r modd yn ol pa un yr oedd efe bob amser wedi ymddwyn. Rhan o fywyd cysson a rheolaidd ydoedd. Nid hwnw oedd ei ddadgyffesiad cyntaf; ac yn ol pob tebyg, pe buasai yn ateb y dyben oedd mewn golwg trwyddo, nad y dadgyffesiad olaf a fuasai chwaith. Nid ydym yn ei feio am beidio dymuno cael ei losgi yn fyw. Nid yw bod yn amddifad o wroldeb arwr yn gywilydd mawr i neb pwy bynag. Ond yn sicr, dylasai dyn oedd yn caru cyn lleied ar y tân ei hunan feddu rhyw gymmaint o gydymdeimlad âg ereill. Y mae yr erlidiwr na weinydda un gosp nad yw yn barod i'w dyoddef ei hun, yn teilyngu rhyw faint o barch. Ond pan y ceir dyn a gâr ei athrawiaethau yn fwy na bywydau ei gymmydogion, eto yn caru ei fys bach ei hun yn well na'i athrawiaethau, ni raid i ni wrth reswm cryfach er ein galluogi i farnu maint ewyllys da hwnw.

"Ond haerir i'w ferthyrdod roddi iawn am bob peth. Y mae yn rhyfedd fod y fath anwybodaeth yn ffynu ar y mater yma. Y ffaith yw, os dyn yn dewis marw, yn hytrach na gwadu ei opiniynau, ydyw merthyr, nid oedd Cranmer fwy o ferthyr na Dr. Dodd. Bu farw yn gwbl a hollol am nas gallai beidio. Ni alwodd yn ol ei ddadgyffesiad nes gwybod i sicrwydd mai yn ofer y gwnaethai hyny. Yr oedd y frenines yn llwyr benderfynol, boed Babydd neu Brotestant, mai y tân fyddai ei ran. Yna llefarodd yn eglur a chroew, fel y mae dynion yn gyffredin yn llefaru pan ar fin marw, ac heb ddim i'w obeithio na'i ofni ar y ddaiar. Pe goddefasai Mari iddo fyw, tybiwn y gwelsid ef yn ngwasanaeth yr offeren, ac yn derbyn gollyngdod a maddeuant, hyd amser esgyniad Elizabeth; ond, wedi hyny, trwy wrthgiliad arall, buasai yn mynu yr awdurdod i losgi dynion gwell a gwrolach nag ef ei hun.

"Er hyny, nid ydym yn meddwl ei osod allan fel anghenfil mewn drygioni. Nid oedd dros feddwl calon o greulawn a bradwrus. Llyswr (*courtier*) ofnus, gwenieithgar, hyblyg, a hunanlesol yn unig oedd, mewn amseroedd llawn o gyfnewidiadau a therfysgoedd. Y mae yr hyn sydd bob amser wedi ei ddwyn yn mlaen fel rhinwedd arbenig Cranmer—y rhwyddineb gyda pha un y maddeuai i'w elynion—bob amser yn perthyn i'r dosbarth hwn o gymmeriadau. Nid yw caethion o'i fath ef byth yn ddialgar, na chwaith yn ddiolchgar. Ysgubir o'r teimlad bob meddwl am hen gymmwynasau, yn gystal a hen niweidiau, gan ofal am y lles presennol. Eu hunig amcan hwy yw hunan-ddiogelwch; ac er mwyn hyn, heddychant â'r rhai a wnant gam â hwy, yn gymhwys fel y bwriant ymaith ac y gadawant y neb a'u gwasanaethant. Cyn mawrygu dyn o herwydd ei dymmer faddeugar, dylem ymofyn pa un ai uwch law ai is law ymddial y mae."

Fel y canlyn y sylwai y goleuedig, y doniol, a'r hynaws Syr James Mackintosh ar sefyllfa a chymmeriad yr archesgob anffodus:—"Mae ymadroddion Cranmer yn dangos ei gywirdeb, ac yn profi fod cariad at wirionedd eto yn bod yn nirgeloedd ei galon. Yn yr olwg ar angeu, ffrydiodd y cariad hwnw allan, yn gyflawn o ddylanwadau daionus a phur, gan gynnyrchu edifeirwch oedd yn anrhydedd i'r merthyr, ac adferu ei feddwl i'w hunan-barch a'i gymmeradwyaeth, ar ol gwyro unwaith o'r llwybr rhinweddol sydd yn arwain i berffeithrwydd. Parhaodd gwroldeb yn hwy na chyfaddefiad cyhoeddus o waradwydd a chywilydd—y prawf llymaf y dichon i rinwedd gael ei osod ynddo; ac os bu diffyg mawr iawn unwaith yn ei wroldeb, gwnaeth iawn am y cyfan yn ei fynydau diweddaf, trwy fawrfrydigrwydd cyfartal i'w drosedd. Condemnier yr archesgob

Digitized by Google

nawddgar a beius gan y rhai a ofynant rinwedd anhyblyg a diysgog yn yr amseroedd mwyaf terfysglyd: ond gan ereill, nad ydynt mor sicr o'u sefydlogrwydd eu hunain, fe ystyrir ei dynged fel yr esampl mwyaf nodedig mewn hanesiaeth o feddwl, er wedi ei iselu a'i ddarostwng, eto heb ei ddiraddio na'i warthruddo trwy un gwendid beius, ac yn amlygu gwroldeb arwr ar ol colli anrhydedd—y symbylydd naturiol i hyny, ac, yn gyffredin, ei gydymaith anwahanol hefyd. I'r neb sydd yn meddu syniadau clir am dano, godd-efgarwch diysgog merthyron cydwybodol yn eu poenau yw yr olygfa fwyaf cysurus a dyddanol yn mywyd cymylog dyn: y mae yn llawer mwy goruchel ac ardderchog na buddugoliaethau allanol rhinwedd, y rhai y mae yn rhaid eu hennill mewn rhan âg arfau heb fod yn eiddo iddi hi ei hun, ac ydynt yn fynych hefyd yn dyfod i ran y gwaethaf o'i gelynion. Gwir nad yw gwrolfrydedd mewn dyoddef er mwyn cydwybod yn nôd difeth o uniondeb a chyfiawnder; ond o bob tynged arall, dyma yr un a ddyrchafa fwyaf ar y sect neu y blaid y mae yn dyfod i'w rhan, a rhydd i'w hanes awdurdod a dylanwad anfarwol ar galonau eu cyd-ddynion." — (*Penny Cyc.*; *Herzog's Real Encyc.*; *Ferguson's Hist. of England*; *Macaulay's Essays*; *Froude's Hist. of England.*)

**CYLCH—AU—OEDD**, [Gr., *κυκλος*; Ll., *cyclus*; Gwydd., *ciogal*; Seis., *circle*, *cycle*]. Defnyddir y gair *cylch* i arwyddo lluaws o bethau tra gwahanol, er y dichon, ac y mae yn dra thebyg hefyd, fod y cyfan yn dwyn perthynas fwy neu lai â syniad neu ystyr gwreiddiol y gair. Mewn ystyr cyffredin neu "boblogaidd," ys dywedai y Seison, ac efallai mai dyma yr ystyr cyntefig, arwydda cylch y llinell a amgylchyna ffurf neu lun, y clawr neu yr arwynebedd, a holl gorff neu sylwedd durfing defnydd crwn; cant, modrwy, rhod, sidell; pel, pellen, cronen; y ddaiar. "Efe sydd yn eistedd ar amgylchoedd (Seis., *circle*= cylch) y ddaiar;" *Esa.* xl. 22.

Mewn meidrofyddiaeth (*geometry*), arwydda *cylch* ffurf gwastad a gwmpaser gan grymlinell sengl, a elwir ei amgylchedd—pob rhan o'r hon sydd mewn pellder cyfartal oddi wrth bwynt a elwir y craidd neu y canolbwnc. Y mae pob llinell a dynir o'r craidd i'r amgylchedd, bid sicr, yn gyfartal i'w gilydd.

Arwydda *cylch* hefyd ryw barth o wlad; ac yma y mae yn gyfystyr â *chwmpas*; am hyny, clywir ymadrodd fel hyn, neu gyffelyb, yn fynych:—"Efe ydyw y mwyaf dysgedig yn yr holl *gwmpasoedd* hyn;" hyny yw, yn y parthau yma o'r wlad. Yn yr ystyr yma y dywedir "cylchynad" (*judge of a circuit*): a dyma a olygid wrth "gylch clera" beirdd y canoloesoedd; sef, rhyw barth o wlad y goddefid i'r beirdd fyned at y boneddigion ynddi i gardota.

Y mae y gair *cylch*, heb law hyny, yn arwyddo y gymdeithas a amgylchyna ryw berson neillduol. Yna, rhyw gwmpeini neu gymdeithas; am hyny, dywedir "cylch o gyfeillion." Oddi wrth hyn, daeth y gair i arwyddo nifer anmhenodol o bersonau o nodweddiad neillduol, pa un bynag a gymdeithasant â'u gilydd ai peidio; yna sonir am "gylch gwleidiadol neu boliticaidd;" a "chylch adnabyddiaeth un," gan gyfeirio at yr ystyr cyntefig o gymdeithas o amgylch person neillduol.

Mewn rhesymeg, arwydda *cylch* ddull anmhenderfynol o ymresymu, pan y profir yr un ymadroddion, ar gylch, yn yr un ymadroddion, neu rai cyfystyr, ac y profir rhanau cyfreswm bob yn ail gan eu gilydd, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol; neu pan y profir y gosodiad blaenorol gan yr un dilynol, ac y cesglir yr un dilynol oddi wrth y blaenorol; megys, "fod sylweddau trymion yn disgyn trwy attyniad, ac mai attyniad yw yr hyn a bair i sylweddau trymion ddisgyn." Rhydd Whateley anghraifft nodedig o'r twyll yma yn yr ymadrodd canlynol:—"Rhaid fod caniatâu rhyddid ymadrodd diderfyn i bob dyn, bob amser, yn fanteisiol, ar y cyfan, i'r llywodraeth; canys peth tra defnyddiol at wneuthur lles i gymdeithas ydyw, fod pob dyn yn mwynhau rhyddid perffaith annherfynol i adrodd ei syniadau." Derbynir y dull ffol yma o ymleferydd weithiau yn lle ymresymiad sylweddol.

Yr oedd *cylchau y beirdd* o ddau fath; sef, eu *maen gylchoedd*, neu gorseddau, a ffurfid o geryg o wahanol faint:—gweddillion y rhai a ganfyddir yn ngwahanol barthau y deyrnas gyfunol, ac yn enwedig yn Mryn Gwyddon neu Gaer Gawr, yn swydd Wilts; a'r math arall yw eu *cylchoedd moesol*.

Am y maen-gylchoedd, dywed Iolo Morganwg:—"Defod yw gwneuthur cylch cynghrair, ar ben tir amlwg; a hwnn a wneir â meini, a'u gosod yn gylch y maint a fo achos o donn; a lle gwr, o leiaf, rhwng maen a maen; ac yn wyneb haul y dwyrain, lle trigwr, o leiaf, fal y bo hawdd myned yn y cylch. A hwnn a elwir y cyntedd neu y porth; ac yn ei gyfair, ymhellder hyd trigwr, neu dri thrigwryd, gosod maen a elwir gorsaf, a hwnw ymhrif bwngc y dwyrain; ac or tu gogledd i hwnw maen arall yn llygad pwngc haul dydd hwyaf yr haf, a'r tu deau i'r maen gorsaf, maen arall yn llygad pwngc codiad haul dydd byrraf y gauaf. A'r tri maen hynny a elwir meini gorsaf; ac ynghanol y cylch, maen arall, o faint mwy na'r lleill, ar gyferyd cywir y tri maen gorsaf, a llygad haul y bore. Meini'r cylch a elwir meini gwynion, a meini crair; a'r maen canol a elwir y maen gorsedd, a'r crair gorsedd, a'r maen llog, a'r maen armerth. A'r cylch hynny, a wnelir fal y dywedwyd, a elwir hefyd cylch ambawr, a chylch gorsedd, a chylch gwyngil; y cylch hwnn hefyd a elwid y trwn mewn rhai wledydd. Ac ym mewn y cylch y cyrchynt y beirdd yng ngorsedd; ac nid defod na syberwyd i neb namyn y beirdd fyned o fewn y cylch, onis ceisier gan fardd."

Dywed Iolo, yn ei *Ganiadau Telynol a Bugeiliol*, y gwneir y cylch dan sylw yn y dyddiau hyn â cheryg pur fychain, y rhai y gall dyn eu cario yn ei logell; "ond nid ystyriasid y cyfryw rai yn ddigon," eb efe, "gan y rhai a wnaethant Gylch Gorsedd Gwaith Emrys" (*Stonehenge*). Ond ymddengys nad yw y cylch ceryg yma, ac na bu erioed chwaith, yn "beth defodawl wrth bwyll ac ansawdd;" hyny yw, yn beth anhebgorol angenrheidiol, "am y gellir pob gwir a gwybod, a phob cof a chadw, a phob celfyddyd ac addysg hebddo."

Am *gylchoedd cyfriniol* neu *ddwwinyddol* y Cymry, ystyriai y beirdd fod *tri* o honynt, a alwent hwy *cylchoedd hanfod*; sef, "Cylch y Ceugant, lle nid oes namyn Duw, na byw na marw; ag nid oes namyn Duw a eill ei dreiglo: Cylch yr Abred, lle pob ansawdd-hanfod o'r marw; a dyn a'i treiglwys: Cylch y Gwynfyd, lle pob ansawdd-hanfod o'r byw; a dyn a'i treigla yn y nef."

Ymdrinwyd eisoes â Chylch yr Abred, d. g. ABRED.

Digitized by Google

Y nesaf yw Cylch y Ceugant. Nid oes odid ddim eglurhâd i'w gael ar y cylch yma na Chylch y Gwynfyd chwaith, yn wir, yn yr ystyr barddol o hono, ond a geir yn *Nhrioedd Barddas*, a rhyw fân nodau yma ac acw, o waith Iolo Morganwg, mewn cyfeiriad at yr hyn a ddywedir yn y *Trioedd* hyny. Arwydda *Ceugant*, meddai Iolo, yn ei ystyr geirdarddol, *Gylch y Gwagle*. Yn ei ystyr dansoddol, yn y *Triad* a ddyfynwyd, arwydda y gwagle diderfyn sydd tu hwnt i derfynau y greadigaeth sylweddol, i'r hwn nis gall ond y Duwdod yn unig dreiddio. Y Celtic Ddafis a gyfieithia y rhan yma o'r *Triad*, fel hyn:—"Cylch yr Eangder (*the circle of space*), yr hwn nid oes neb ond Duw yn unig a all ei dreiglo," neu fyned drwyddo=ei dreiddio (=*to pervade*). Iolo a'i cyfieithia mewn un man yn "Gylch yr Anfeidroldeb (*circle of infinity*), lle nad oes dim ond Duw, na byw na marw, ac nas gall neb ond Duw ei dreiglo" (=*to traverse it*).

Mewn *Triad* arall, dywedir:—"Ag angen newid cyflwr olynol yn Nghylch y Gwynfyd ar ddyn, o anoddef y Ceugant:" hyny ydyw, yn ol cyfieithiad Iolo Morganwg,—"Mae yn angenrheidiol i ddyn gael ei newid yn olynol yn Nghylch y Gwynfyd, sef y Nefoedd, am nas gall oddef tragwyddoldeb."

Y cylch arall ydyw *Cylch y Gwynfyd;* sef y nef, fel y dengys y *Trioedd:* megys, "Tri angen pob hanfod wrth fywyd; dechre yn Annwn; treigl yn Abred; a chyflawnder yn y Nef, sef Cylch y Gwynfyd; ac heb hyn o dripheth nis gellir unpeth namyn Duw." Ystyr y gair Cymraeg *nefoedd*, meddai Iolo Morganwg, ydyw *newyddiadau* neu *adnewyddiadau;* am fod y cyflwr uwch law dyndod, a elwir "cyflwr cariad, sef gwynfyd yn y nef," yn myned trwy gyfnewidiadau yn dragwyddol, mewn olyniad diddiwedd, heb yr hyn nis gallai un *bod meidrol* fyth oddef pwys neu ddygnedd tragwyddoldeb (*the tedium of eternity*). Y mae yr hysbysiadau am y cylch yma, a chyflwr dedwydd ei breswylwyr, yn llawer helaethach nag am Gylch y Ceugant: dyma grynodeb o honynt, fel ag eu ceir yma ac acw yn ngwaith Iolo Morganwg.

Yn mhob cyflwr uwch law dyndod y mae daioni yn gorbwyso; ac yno y mae pob hanfod o angenrheidrwydd yn ddaionus; ac nis gallant byth gwympo oddi yno, ond dyrchafant fyth yn uwch uwch yn ngradd dedwyddwch a pherffeithrwydd, nes y cyrhaeddant eu sefyllfa amcanedig, lle y bydd pob hanfod yn gyflawn ddedwydd i bob tragwyddoldeb, heb fod yn ddichonadwy iddo syrthio byth mwyach i ddrygioni; ac, yn gwybod nas gall fod mor ddedwydd mewn un cyflwr arall, nis dymuna byth adael y lle y byddo. Y mae cyflwr eithaf dedwyddwch yn myned trwy yr adnewyddiadau mwyaf hyfryd yn barhaus, heb yr hyn nis gallai un hanfod meidrol byth, yn unol â'i ddedwyddwch, oddef dygnedd tragwyddoldeb. Ni bydd i'r adnewyddiadau hyn, fel marwolaethau yn nghyflyrau isaf hanfod, achosi anghof a dideimladrwydd, ac anwybyddiaeth o hono ei hun. Pan gyrhaedda dyn i gyflwr uwch law dyndod, adferir iddo gof perffaith am ei holl ddulliau blaenorol o hanfod, ac efe a'u cofia i dragwyddoldeb. Hyn, a hyn yn unig, a bair i ddyn fod yn ymwybodol ddarfod iddo fod, a'i fod fyth, er pan y crewyd ef gyntaf, trwy bob cyflwr o hanfod bywydol, yr un a'r unrhyw berson: yn amgen, nis gallai ddywedyd wrtho ei hun, Myfi oedd y cyfryw anifail, y cyfryw ddyn, neu y cyfryw hanfod arall pa bynag oedd yn byw, yn gweithredu, yn teimlo, ac yn profi yn y cyfryw fodd. Heb y parhâd yma o gof ymwybodol, byddai marwolaeth yn gwbl ddifodiad, ac nid newidiad yn y modd o hanfod: heb hyn, byddai hanfod mewn unrhyw gyflwr goruchel yn *greadur* newydd, ac nid parhâd o wahanol ffurfiau hanfod. Pan unwaith y cyrhaedder rhyddid, nis collir hi byth mwyach:—y mae yn cynnwys perffaith wybodaeth o achosion drwg yn mhob dull o hanfod, ac o holl egwyddorion gweithredol natur. Nis gall perffaith ryddid parhaus byth gymmeryd lle yn gyffredinol, nes y llwyr ddiosger pob bod a phob dull o hanfod o'i holl ddrygioni. Bydd i holl ddulliau hanfod—y rhai, o angenrheidrwydd, sydd mor luosog ag y gwelodd doethineb ddwyfol eu ffurfio—barhau byth i fod heb gyfnewid dim ond a fyddo angenrheidiol er eu llwyr ddiosg oddi wrth eu drwg; a pharhânt yn dragwyddol fel addurniadau pryd ferth yn y greadigaeth—yr hon, heb yr amrywiadau allanol hyn, ni byddai berffaith brydferth. Bydd i holl amrywiol ddulliau hanfod, y rhai yn allanol a fyddant yr un am byth, gael eu cymmeryd yn olynol, pan eu diosger yn fewnol oddi wrth bob drwg, gan y bodau nefol, neu breswylwyr Cylch y Gwynfyd; bydd i'r rhai hyn, yn mysg newidiadau ereill, hyfryd liniaru yr hyn heb hyny a fyddai annyoddefol yn nhragwyddoldeb i fodau meidrol. Bydd yr holl fodau neu ddulliau hyn o hanfod, pan y purir hwynt oddi wrth eu drwg, yn gyfartal berffaith, yn gyfartal ddedwydd, yn gyfartal o ran anrhydedd cyffredinol, ac yn gyfartal gymmeradwy fel ei waith ei hun gan y Creawdwr. Lleinw tangnefedd, a chariad, ac annhraethol diriondeb yr holl greadigaeth. Bydd i bob serchiadau a thueddiadau meddyliol a chorfforol o ansawdd dirion barhau am byth, a chyfansoddi rhan o ddedwyddwch y bodau nefol.

Y *Trioedd* a eglurant ychydig ar Gylch y Gwynfyd a'i berthynasau, yw y rhai canlynol:—

"Tri chyflwr hanfod bywedigion: Cyflwr Abred yn Annwn; Cyflwr Rhyddid yn Nyndod; a Chyflwr Cariad, sef Gwynfyd yn y nef.

"Tri phen angen y sydd cyn cyflwyr wybodaeth: treiglo'r Abred; treiglo'r Gwynfyd; a Chof o'r cyfan hyd yn Annwn.

"Tri angenorfod dyn: Dioddef, Newid, a Dewis; a chan allu dewis, ni wyper am y ddau arall cyn digwydd.

"Tri gwahaniaeth angenorfod rhwng Dyn, a phob byw arall, a Duw: Ing ar Ddyn ag nis gellir ar Dduw; dechre ar Ddyn ag nis gellir ar Dduw; ag angen newid cyflwr olynol yn Nghylch y Gwynfyd ar Ddyn, o anoddef y Ceugant, ag nis gellir ar Dduw, gan allu pob dioddef, a hyny gan Wynfyd:" sef, yn ol y cyfieithiad Seisoneg—Mewn tri pheth y mae dyn yn gwahaniaethu yn anocheladwy oddi wrth Dduw: y mae dyn yn feidrol, ond Duw yn anfeidrol; y mae dechreu i ddyn, yr hyn nis gall fod i Dduw; rhaid i ddyn wrth newid dull ei hanfod olynol yn Nghylch y Gwynfyd, am nas gall oddef tragwyddoldeb, ond nid rhaid i Dduw wrth y fath beth, gan y gall ef oddef pob peth, a hyny yn gysson â'i wynfyd a'i ddedwyddwch.

"Tri chyntefigaeth Gwynfyd: Annrwg; Aneisiau; ag Anorfod.

"Tri chyntefigaeth Gwynfyd: Awen gysefin; a gared gysefin [=adferiad o'r hyn oll a gerid yn gyssefin]; a Chof y cysefin, am nas gellir gwynfyd hebddynt.

"O ddeall tripheth y bydd difant a gortrech

ar bob drwg a marw: Ansawdd; Achos; a Pheiriant; a hynn a geir yng Nghylch y Gwynfyd.

"Tri chadernyd gwybodaeth: darfod treiglo pob cyflwr bywyd; cofio treiglo pob cyflwr a'i ddamwain; a gallu treiglo pob cyflwr fal y mynner, er prawf a barn; a hynn a geir yng Nghylch y Gwynfyd.

"Tri bannogion pob byw yn Nghylch y Gwynfyd: Swydd, Braint, ag Awen; ag nis gellir dau 'n bod yn Ungyfun ymhob peth, gan y bydd cyflawn pob un yn y bo bannog arno [gan y bydd pob un yn meddu cyflawnder o'r hyn a'i gwahaniaetha yn hanfodol oddi wrth ereill]; ac nid oes cyflawn ar ddim heb y maint oll a ddichon fod o hano.

"Tripheth nis gellir darfod byth arnynt gan angen eu galledigaeth: dull hanfod; ansawdd hanfod; a lles hanfod; gan hynn byddant hyd fyth yn eu hannrwg, ai byw ai marw ydynt, yn amrafael hardd a daionus Cylch y Gwynfyd.

"Tri rhagor newid cyflwr yn y Gwynfyd: Addysg; Harddwch; a Gorphwys rhag anallu dioddef y Ceugant a'r tragywyddol.

"Tri chyflawnder Gwynfyd: Cyfran ym mhob Ansawdd, ag Un cyflawn yn pennu; Cyfymddwyn â phob Awen, ag yn Un rhagori; Cariad at bob Byw a Bod, a thuag at Un, sef Duw, yn bennaf; ac yn y tri Un yma y saif Cyflawnder Nef a Gwynfyd.

"Tri Angen Duw: Anfeidrol ger ei hun; Meidrol ger meidrol; a chyfun â phob cyflwr Bywydolion yng Nghylch y Gwynfyd."—(*Iolo MSS.*; *Iolo's Poems*; *Dav. Researches*).

**CYLLA**, [*cwll:* llu, cyllaon]: ystumog. Un o'r prif arwyddion trwy ba rai y mae yr anifail i'w adnabod yw, ei fod yn meddu ar geule oddi mewn iddo, i'r hwn y derbynir ei ymborth, ac yn yr hwn y mae yn myned trwy gyfnewidiad fferyllol penodol cyn y bydd yn gymhwys i gryfhau a maethu y gwahanol ranau o'r corff. Mewn rhai anifeiliaid, effeithir y cyfnewidiad hwn yn mhob rhan o'r ceule hwn; ond mewn milod ereill, fe ddygir yr un gwaith yn mlaen mewn un gyfran o hono yn unig; a'r gyfran benodol yma o'r ceule treuliadol a elwir *y cylla*, neu yr ystumog.

Coden bilenaidd, yn gorwedd braidd yn hollol ar draws y rhan uchaf ac aswy o geudod yr îsfol (*abdomen*), ydyw cylla dyn; ac y mae ei ffurf i'w weled ar y darlun canlynol. Cyfeiria un




Dar. 217. Peiriannau treuliadol a choluddion, &c., dyn.

pen iddo tua'r aswy; a'r llall tua'r deheu. Yn y cyfeiriad aswy, daw i gyffyrddiad â'r ddueg (*spleen*); tua'r deheu, y mae yn cyffwrdd â'r afu (*liver*): oddi arno, fe'i gorchuddir gan y barwyden (*diaphragm*), yr hon sydd yn gwahanu y lle y gorwedd yr ysgyfaint a'r galon ynddo oddi wrth yr isfol. Trwy agoriad neu dwll a elwir *cardia*, yr hwn sydd o ddeutu y drydedd ran o'r pellder o ben aswy y cylla i'w ben eithaf yn yr ochr ddeheuol, daw y sefnig neu gorn y gwddf ac yntau i gyssylltiad â'u gilydd: ac ymegyr y cylla i'r coluddion yn y pen deheu iddo trwy dwll neu agoriad arall a elwir y gyllisgeg (*pylorus*). Y mae y gair hwn, *pylorus*, yn tarddu o'r gair Groeg πυλουρὸς, ceidwad porth (πυλε, porth, ac οὐρὸς, ceidwad). Gorwedd yr agorfa ddiweddaf, sef un y gyllisgeg, braidd yn is na'r gyntaf; a gwahanir y naill oddi wrth y llall gan yr ymyl uchaf a byraf, neu fwa bach y cylla. Y mae corn y gwddf (*œsophagus*) yn ymledu ar yr ochr aswy yn fwy o lawer, ac yn cyfarfod yr ochr ddeheu yn y gyllisgeg; a thrwy hyn, fel y gwelir, ffurfir y cylla.

Digitized by Google

Cyfansoddir y cylla o dair pilen wahanol, a gyssylltir â'u gilydd gan sylwedd cryf yn llawn cellau bychain, yr hwn sydd o ansawdd estynedig iawn. Y mae y gaenen nesaf allan, neu y fraslenol (*peritoneal*), wedi ei chyfleu yn ddwys a chryno. Y mae hon yn bilen deneu, wedi ei gorchuddio â chroenen (*cuticle*); yr hon a rydd iddi arwynebedd llyfn, fel y gwna hefyd i'r holl beiriannau ereill sydd o'r tu fewn i geule yr is-fol. Amgylchynir pob parth o'r cylla gan y fraslen neu y llengig (*peritoneum*), oddigerth yr ymylon neu y terfynau uchaf ac isaf. Nid yw yn gorchuddio y rhanau hyn; ond y mae yno wagleoedd neu gyfryngau trwy ba rai y rhed pibelli y gwaedlestri; ac oddi wrth pob un o ba rai, mewn haen ddyblyg, yr ymestyna y fraslen er ffurfio y folweren (*omenta*) fwyaf a'r leiaf. Ymddengys mai unig ddyben hon yw, galluogi y cylla i ymsymmud gydag esmwythder ar y peiriannau nesaf ato.

Rhwng y bilen allanol uchod, a elwir y fraslen, a philen y llysnafedd (*mucous membrane*), neu yr un nesaf i mewn, y mae sylwedd, yr hwn sydd yn llawn o fân gelloedd, yn yr hwn y cyssylltir mân-edafedd (*fibres*) y gaenen ganol, neu y gyhyrog (*muscular coat*). Gwneir y gaenen yma i fyny o dri tho gwahanol o fân-edafedd, y rhai, yn eu ffurfiad, ydynt yn debyg i'r rhan fwyaf o fân-edafedd y cyhyrau; sef y rhai hyny sydd yn symmud ac yn gweithio yn annibynol ar weithrediadau ewyllys dyn. Yn yr haen gyntaf, sef y fwyaf arwynebol, y mae y mân-edafedd yn rhedeg ar ei hyd. Y maent mewn cyssylltiad â, ac yn ymestyn yn ddidor oddi wrth fân-edafedd caenen allanol y sefnig; y rhai, ger llaw y *cardia*, ydynt yn ymestyn allan, gan fyned rhagddynt o aswy i ddeheu, ac o fewn ychydig bellder i'w gilydd, ar hyd arwyneb blaenaf ac olaf, neu uchaf ac isaf y cylla. Mae eu ffurf yn lled debyg i swp neu ffasgell yn tyfu oddi ar yr un cyff. Cyfansoddir yr ail haen o fân-edafedd cylchol (*circular fibres*), pob un o ba rai a gwmpasant ran fawr o amgylchedd y cylla. Y drydedd haen, a'r nesaf i mewn, a gyfansoddir o ddau brif swp neu ffasgell o fân-edafedd cyhyrol, y rhai a ddeilliant o'r *cardia*, gan ymledu dros y cylch mwyaf a'r gyfran ganol o'r peiriant.

Yn y gaenen fewnol, neu caenen lysnafeddog (*mucous coat*) y cylla, y mae y ddarpariaeth hanfodol er cynnyrchu y defnydd treuliadol yn gorwedd. Pilen feddal, ysbyngaidd, o ddeutu y degfed ran o fodfedd ei thrwch, ydyw, fel yr ymddengys i'r llygad noeth, âg arwynebedd llithrig a llyfn iddi. Wedi marwolaeth y corff, y mae yn amrywio cryn lawer yn ei lliw; ond tra y mae bywyd yn y cyfansoddiad, gwawr o liw pinc sydd iddi; ac yn ol fel y lledir neu y culheir y cylla, y mae hithau naill ai yn berffaith lyfn, neu yr cael ei thaflu i ffurf grebachlyd, âg arni rychau afreolaidd, ond yn rhedeg ar ei hyd yn benaf. Y mae yr agorfa i bibell y coluddion (*pylorus*), yr hwn sydd yn mhen deheuol y cylla, yn cael ei ffurfio drwy fod y gaenen hon yn ymffurfio yn gron; a'r hon sydd yn agor ac yn cau fel y bydd gweithrediadau treuliadol y cylla yn gofyn:—gelwir yr agorfa hon y *pyloric valve*. Wrth yr agorfa o'r sefnig i'r cylla, y mae llinell fylchog, anwastad, yn nodi allan y terfyn rhwng llysbilen y gyntaf ag eiddo y diweddaf. Yn ymyl y llinell hon, terfyna croenen dew a thywyll y sefnig, ac yno y mae caenen deneuach a thecach y cylla yn dechreu.

Gyda chymhorth y mwyadur yn unig y gellir gyda manylrwydd ganfod gwneuthuriad hynod pilen y llysnafedd (*mucous membrane*). Os cymmerir gwydryn, â gallu ganddo i fwyhau ei wrthddrych ddeugain o weithiau, ac edrych ar arwyneb mewnol y bilen hon, ymddengys ei bod wedi ei gorchuddio gan fân ffosydd amlochrog, pa rai y gellir gosod o gant i dri chant a hanner o honynt wrth ochrau eu gilydd mewn modfedd. Y maent wedi eu hamgylchu âg ymylon cul a miniog; ac weithiau, bydd plygion o ffurf deiliog yn ymlynu wrthynt. Yn ngwaelod yr holl ffosydd bychain hyn, y mae o chwech i ddeg o fân dyllau, yn agor i bibelli sydd yn nghorff y bilen. Dengys toriad ysgafn, wedi ei wneyd yn unionsyth i mewn i arwyneb mewnol y bilen, fod yn mron ei holl sylwedd yn gyfansoddedig o'r pibelli hyn, y rhai ydynt yn ymagor ar y wyneb mewnol yn unig i'r ffosydd a ddysgrifiwyd uchod, ond yn gauedig oddi allan, ac wedi eu gosod yn drefnus yn sypiau bychain, ochr yn ochr. Yn eu hyd, amrywiant o'r bedwaredd ran o linell (y 12fed ran o fodfedd) i linell gyflawn—yr hwyaf yn gorwedd yn agos i'r gyllisgeg. Yn agos i'w gwaelod, y mae eu tryfesur o ddeutu y trichanfed ran o fodfedd, ac o ddeutu y pum canfed ran o fodfedd ger llaw yr agoriadau iddynt. Y mae eu heithaflon isaf cauedig, weithiau, yn ymddangos (ond ymddangosiad yn unig ydyw) i raddau fel wedi eu britho neu eu haddurno â gemau. Ceir hwynt yn mhob rhan o'r bilen; ond y maent yn fwy eu maintioli, ac yn gorwedd yn agosach at eu gilydd, mor agos fel y maent yn cyffwrdd â'u gilydd, ger llaw y gyllisgeg. Y mae rhai o honynt yn gangenog—dwy neu chwaneg na hyny o fân bibelli bychain yn ymagor trwy un geneu neu agorfa. Pasia y gwaed lestri bychain yn unionsyth drwy y bilen hon, o'r sylwedd sydd o'r tu cefn, rhwng y sypiau o fân bibelli, i arwyneb y cylla, ar ba un y ffurfiant rwydwaith onglog, gan nodi allan derfynau y ffosydd beision.

Yn agos i arwyneb y cylla, cyfansoddir parwydenau y sypiau hyn o bibellau bychain o bilen anghyfluniadol deneu; ac yn rhan isaf y cylla, cyfansoddir hwy o gelloedd aneglur yn eu ffurf, a bychain iawn, y rhai a ymlynant wrth eu hymylon. Ymddengys mai eu gwaith ydyw cynnyrchu y celloedd sydd yn cynnwys y llifnodd angenrheidiol at dreuliad yr ymborth. Mewn gwahanol ranau o'r cylla, ac ar wahanol amserau, amrywiant o ran natur y sylwedd a gynnwysir ynddynt; ac ymddengys fod hyn yn dibynu ar pa un a ydyw y pibelli ar waith yn cynnyrchu y llifnodd yn meddu gallu treuliadol, ai nad ydynt? Y rhai sydd felly, y maent yn llawn celloedd, mewn gwahanol raddau o faint a dadblygiad; ac y mae y rhai sydd yn ddiwaith yn weigion, â'u hochrau o'r tu mewn wedi eu leinio â chroen teneu, cyffelyb i'r hwn a orchuddia ranau mewnol y cylla. Yn nghynnyrchiad y celloedd sydd yn cynnwys y llifnodd treuliadol, cenedlir yn gyntaf ronynau bychain yn y rhanau dyfnaf o'r holl bibellau hyn. Y maent yn ymddangos ar lun wy, o ddeutu y ddwy-filfed ran o fodfedd yn eu hyd. Mor gynted ag y cynnyrchir hwynt, fe'u gwthir tua geneuau y pibelli; a thra y mae treuliad yr ymborth yn myned rhagddo, arllwysir hwy oddi yno yn niferi digonol—gyda swm bychan o lifnodd a deflir ar yr un pryd —i ffurfio yr haen dew o lysnafedd sydd yn leinio holl ranau mewnol y cylla, ac yn amdoi yr ymborth a ddichon fod ynddo ar y pryd. Yn yr ysbeidiau hyny a ddygwyddant rhwng y naill

Digitized by Google

weithred o fwyt-treuliad a'r llall, ymddengys fod genenau y mân-bibelli wedi eu cau gan ddarnau bychain o groen teneu, cyffelyb i'r hwn sydd yn eu leinio hwy: ond fe ymegyr y darnau hyn, er mwyn arllwysiad y celloedd pan ddechreuir treulio yr ymborth drachefn.

O gwmpas agoriad y *cardia*, neu agoriad y gyllisgeg, ac ar hyd bwa lleiaf y cylla, yn ystod treuliad yr ymborth, canfyddir yn fynych nifer o fân-godenau, wedi eu llanw â llifnodd gwŷn, yr hwn a arllwysir i ranau mewnol y cylla—ond y mae yn anhysbys beth ydyw eu gorchwyl arbenig a phenodol—y rhai, yn gyffredin, a elwir yn godau cyllëig (*gastric follicles*). Y mae yn sicr nad ydynt yn bresennol bob amser; ond y mae yn debyg eu bod yn cael eu cynnyrchu mewn byr amser, tra y mae bwyt-treuliad yn myned yn mlaen—ac, ar ol arllwys eu cynnwysiad, maent yn colli o'r golwg drachefn.

TREULIAD YR YMBORTH YN Y CYLLA.

Yr ydym yn arfer galw y cyfnewidiad yr el yr ymborth trwyddo yn y cylla, cyn bod yn gyfaddas i faethu a magu y corff, yn *dreuliad* (*digestion*). Os edrychir ar y gweithrediad hwn yn ei holl eangder o'r dechreu i'r diwedd, y mae yn cynnwys yr holl gyfnewidiadau y darostyngir ein lluniaeth iddynt o'r amser pan y mae yn ei ansawdd crai cyntefig, nes ei droi yn waed yn y rhedwelïau. Lluosog iawn ydynt y peiriannau a effeithiant y cyfnewidiad hwn. Dygir ef yn mlaen yn gyntaf yn y geneu; yn ail, yn y cylla; ac yn drydydd, yn y coluddion.

Y cyfnewidiadau cyntaf yn yr ymborth a gymmerant le yn y geneu, lle y cymmysgir ef â llysnafedd (*mucus*) a phoer. Gwyddom yn dda ei fod, i ddechreu, yn cael ei ddarnio yn fân gan y dannedd; wedi hyny y mae yn cael ei gymmysgu â'r poer cynhes sydd yn rhedeg yn barhaus i'r safn. Y mae yr haliw neu y poer yn gynnwysedig yn benaf o ddwfr, a'i wasanaeth cyntaf ydyw teneuo y bwyd; ond y mae y dwfr hwn yn cynnwys oddeutu y ganfed ran o hono ei hun o sylwedd halenaidd, ac felly y mae yn tymmeru yr ymborth. Effaith hyn yw, nid yn unig gwneuthur yr ymborth yn fwy blasus, ond hefyd ei barotoi ar gyfer y cyfnewidiadau pellach sydd yn ei aros yn y cylla. Cynnwysa yr haliw sylwedd arall, yr hwn a elwir *ptyalin*—oddi wrth y gair Groeg am *boeri*—am nad yw i'w gael ond yn y poeryn. Gwasanaeth y sylwedd hwn ydyw, troi y syth (*starch*) sydd yn yr ymborth yn sugr, trwy gyfnewidiad fferyllaidd. A chan nad oes ond un o bob pum cant o'r sylwedd hwn yn y poer, y mae bwyta yn araf yn llesol, fel y gall yr holl ymborth fyned trwy y cyfnewidiad a gynnyrchir ganddo. Ffaith arall mewn cyssylltiad â'r poeryn ydyw, ei fod yn dechreu llifo yn helaethach mor fuan ag y llyncir yr ymborth, a hyny yn wir pe llyncid ef heb ei gnoi. Rhed hefyd i lawr y gwddf i gynnorthwyo treuliad pellach; ie, y mae ar ei wyliadwriaeth i fod yn ddefnyddiol: ac fel prawf chwanegol, ni raid ond cofio mor barod yw y geneu i "ddyfrio" pan na chlywir ond enw rhyw ymborth blasus. Wedi ei barotoi fel hyn, y mae y tafod yn symmud yr ymborth i gwd pilenaidd yn rhan ol y gwddf, a elwir yr argeg, neu y llwnc (*pharynx*). Mor gynted ag y derbyn yr argeg y bwyd iddo ei hun, y mae yn ymffurfio fel ag i afael yn dyn ynddo; a thrwy weithrediadau priodol ei gyhyrau, fe'i traddoda i'r sefnig, sef y bibell hir a ymestyn o'r argeg neu y llwnc hyd i'r cylla. Nid o herwydd y pwysau sydd ynddo ef ei hun y disgyna y clamp ymborth i lawr y sefnig; o herwydd gall dyn lyncu tra yn sefyll ar ei ben: ac y mae yn ddigon eglur, fod llawer o anifeiliaid yn cludo eu lluniaeth drwy'r sefnig â'u penau i lawr. Wedi i'r ymborth fyned i mewn i'r sefnig, y mae crebachiad priodol a naturiol o eiddo y ffesgyll cryfion o fân-edafedd a gyfansoddant y bibell hono, yn ei dynu, ac yn ei drosglwyddo ar hyd-ddi.

Wedi cael o'r bwyd ei friwo yn fân ddarnau, fel y nodwyd uchod, trwy weithrediad y dannedd, ei ddwyn i ansawdd ystwyth a meddal trwy gael ei gymmysgu â'r llysnafedd, ac â'r haliw neu y poer, ac hefyd trwy gynhesrwydd y genau ei godi yn agos i dymmeredd y gwaed, fe'i derbynir i'r cylla, lle y gofelir ei fod bob amser yn y tymmeredd o 100° Fahrenheit. Yno, fe'i cedwir i symmud yn arafaidd ac esmwyth, ond eto yn barhäus. Gwneir hyn drwy ysgogiad neillduol o eiddo y cylla, yr hwn, o herwydd y tebygolrwydd neillduol sydd ynddo i ysgogiad llyngyren y ddaiar, neu y pryf genwair, a elwir yn symmudiad gwringellog (*peristaltic*). Y rhai a ganlyn ydynt y gweithrediadau anhebgorol i gymmeryd lle er treuliad yr ymborth wedi ei drosglwyddiad i'r cylla:—

Ar ei ddyfodiad i mewn yno, nid ei ollwng yn ddiwahaniaeth ar hyd pob parth o'r gell a wneir; ond fe'i cedwir ar yr ochr aswy yn y pen mwyaf, mewn o ddeutu dwy ran o dair o'r cylla, trwy weithrediad y cylla ei hnu. Cymmer cyfnewidiad nodedig le yn arwyneb mewnol neu lysnafeddog y cylla y fynyd y daw ymborth i gyffyrddiad âg ef. Gwelwyd y cyfnewidiad hwn yn cymmeryd lle yn nghylla anifeiliaid, wedi eu hagor yn yspeidiau y bwyt-treuliad, fel y ceid cyfleusdra i edrych a sylwi ar y gweithrediadau; ac fe'i gwelwyd hefyd hyd yn oed yn nghylla dyn, yr hwn, mewn mwy nag un amgylchiad—o herwydd i'r person yn ddamweiniol gael ei glwyfo—a osodwyd yn gwbl a hollol agored i'r llygaid. Pan y mae y cylla yn wag, pinc gwanaidd, fel y dywedwyd, yw lliw y gaenen lysnafeddog; ond mor fuan ag y cynhyrfir ef trwy gyffyrddiad âg ymborth, ei liw fydd coch cànaid. Ar hyd yr arwynebedd coch hwn, yn enwedig pan ei chwilir trwy chwyddwydr, y mae yn ganfyddadwy nifer afrifed o fân bigau dysglaer, o ba rai y mae hylif pur a gloew yn dyferu. Fel y tywelltir yr hylif hwn, y mae yn cael ei lyncu i fyny gan yr ymborth fydd yn ei ymyl ac yn cyffwrdd âg arwynebedd y cylla; neu ynte, ymgasgla yn fân ddefnynau, gan dreiglo i lawr ochrau y cylla hyd nes y cyrhaedda yr ymborth. Gelwir yr hylif hwn yn sudd y cylla (*gastric juice*=cyllnodd); ac efe yw gwir dreuliedydd yr ymborth. Trwy gyfres o'r prawfladau mwyaf dilys, a wnaed amser maith yn ol gan Spallanzani ac ereill, dygwyd i'r amlwg ei allu treuliadol, a chafwyd allan hyd sicrwydd mai efe yw y gweithredydd effeithiol mewn bwyt-treuliad. Llyncodd yr anianydd enwog uchod bibell fettelaidd, wedi ei thrydyllu drosti, a'i llenwi â chig. Gadawodd y bibell hon yn ei gylla am lawn bedair awr; ac wedi hyny, trwy beri cyfogiad, llwyddodd i'w thaflu i fyny drachefn. Cafwyd fod sudd y cylla wedi treiddio trwy y cig yn y bibell, a'i fwydo yn drwyadl: yr oedd ei arwyneb mewn cyflwr o ddadgyssoddiad, yn feddal a gludiog. Heb law hyny, er i'r anianydd lyncu 53 o ronynau o gig, treuliasant ymaith, fel nad oedd yn aros ond 38 o ronynau. Yn ddiweddarach, cafodd y Dr. Stevens gan ddyn a arferai lyncu ceryg mân, lyncu hefyd bilen gron fechan

Digitized by Google

arian, yn cynnwys cig neu lysiau ag oeddynt heb neu wedi eu coginio, â thyllau ynddi, llai na'r wythfed ran o fodfedd eu trwch. Yn mhen pedair awr ar ugain, bwriwyd allan y geubelen yn gwbl wag. Drachefn, sylwodd Mr. Hunter, fod pen mawr y cylla, wedi i ddyn farw, i'w gael oddi mewn weithiau mewn ansawdd meddal, masw, ac hyd yn oed i raddau yn ymddangos fel wedi ei dreulio gan sudd y cylla ei hunan. Ymddangosai ymylon yr agorfa hefyd yn fwydionaidd, tyner, a charpiog; ac yr oedd hyd yn oed y rhanau cyfagos i'r cylla, sef y ddueg, y barwyden, a'r ysgyfaint, wedi eu meddalhau yn gyffelyb.

Yn fwy diweddar, darfu i physygwr Americaidd, y Dr. Beaumont, wneuthur cyfres o brawfiadau ar ddyn pa mor fuan y gallai dreulio amrywiol fathau o ymborth. Yr oedd y dyn hwn, Martin St. Ange, wedi ei flino gan *fistula*, ac yr oedd yr aflechyd hwnw wedi gadael twll yn arwain trwy ei fol i'w gylla. Y mae y prawfiadau hyny yn ddyddorol, ac y mae eu ffrwyth i'w weled yn y daflen ganlynol. Ymddengys ddarfod i'r gwahanol fathau o ymborth gael eu troi yn gaul (*chyle*); *h. y.*, cawsant eu treulio, o fewn yr amser a nodir isod:—

| | AWR. | MYN. |
|---|---|---|
| Reis, wedi eu berwi yn feddal ... | 1 | 0 |
| Afalau per ac addfed ... | 1 | 30 |
| Sago, wedi ei ferwi ... ... | 1 | 45 |
| Hen fara ... ... | 2 | 0 |
| Llaeth, wedi ei ferwi ... ... | 2 | 0 |
| Bresych (*cabbage*) ... ... | 2 | 0 |
| Cwstard, wedi ei grasu ... ... | 2 | 45 |
| Moron gwynion (*parsnips*) wedi eu berwi | 2 | 30 |
| Cloron (*potatoes*), wedi eu rhostio ... | 2 | 30 |
| Cloron, wedi eu berwi ... | 3 | 30 |
| Maip, wedi eu berwi ... ... | 3 | 30 |
| Moron cochion, wedi eu berwi... | 3 | 15 |
| Ymenyn a chaws ... ... | 3 | 30 |
| Hyddgig (*venison*)... ... | 1 | 35 |
| Wystrys (*oysters*) anmrwd ... | 2 | 3 |
| Wystrys, wedi eu goferwi (*stewed*) | 3 | 30 |
| Wyau anmrwd ... ... | 2 | 3 |
| Wyau, wedi eu berwi yn feddal | 3 | 0 |
| Wyau, wedi eu berwi yn galed ... | 3 | 30 |
| Cig eidion rhost, neu wedi ei ferwi | 3 | 0 |
| Cig eidion wedi ei halltu ... | 5 | 30 |
| Cig mollt rhost, neu wedi ei ferwi | 3 | 0 |
| Cig moch (*pork*), wedi ei ferwi ... | 3 | 30 |
| Cig moch, wedi ei halltu a'i ferwi | 4 | 38 |
| Cig moch, wedi ei rostio ... | 5 | 30 |
| Cig llo, wedi ei rostio ... | 5 | 30 |
| Twrci a gŵydd ... ... | 2 | 30 |
| Adar dofion ... ... ... | 4 | 0 |
| Adar gwylltion ... ... | 4 | 30 |

Y mae y cyfnewidiad y mae yr ymborth yn myned yn ddarostyngedig iddo yn ystod y gweithrediad hwn o dreuliad, yn gwbl wahanol i'r cyfnewidiad y mae gwres a lleithder yn dueddol i'w gynnyrchu ynddo. Gosod ymborth yn agored i wres a lleithder a'i dadgyfansodda trwy ei bydru; ond y mae sudd y cylla (*gastric juice*) yn wrthbydrol (*antiseptic*), ac yn gallu attal y pydriad hyd yn oed pan y mae wedi cerdded yn mhell. Gweithrediad fferyllol yw treuliad yr ymborth gan sudd y cylla; a gweithredydd fferyllol, natur yr hwn sydd eto heb ei gael allan i eglurdeb boddhaol, ydyw sudd y cylla ei hunan. Y mae yn cynnwys rhyw gymmaint o ddefnydd halltaidd, sef sur halig (*muriatic acid*), ychydig hefyd o surion rhydd (*free acid*), yr hyn sydd yn gwneuthur y sudd yn sur, ac hefyd sylwedd o gyfansoddiad neillduol a elwir *pepsin*. Nid oes ond ychydig o'r sylwedd hwn; ac eto, fel y *ptyalin* sydd yn yr halin, y mae ei effaith yn fawr ac yn bwysig ar yr ymborth. Tra y mae y *ptyalin* yn cyfnewid y syth yn gyntaf i sugr, ac yna mewn rhan i surig llaethog (*cactic acid*), y mae y *pepsin* yn troi y llinedain (*fibrin*) sydd yn y cig a fwyteir i ffurf hylifaidd. Y mae caws llaeth a gwyn wy yn cael eu toddi yn fuan gan sudd y cylla. Yn gyffelyb yr effeithia ar sylweddau gludiog (*gelatinous*) a chludain gwenith, er mai ychydig yn fwy araf. Tybir fod o 60 i 80 wns o sudd y cylla yn ymdywallt i gylla dyn iach cryf bob pedair awr ar ugain.

Fel hyn, trwy weithrediad fferyllaidd yr halin a sudd y cylla, yn nghyd â chynhesrwydd y cylla, dygir holl frasder, syth, a chludain yr ymborth i sefyllfa lled hylifaidd, tebyg i grual, o liw llwyd, o flas lled felus, gydag ychydig o surni. Yr enw a roddir arno yn y ffurf yma ydyw maethsudd (*chyme*).[1] Y mae y maethsudd hwn yn dechreu llifo yn awr trwy yr agoriad bychan a elwir y *pylorus* o'r cylla i'r mân goluddion—y darn cyntaf o ba rai, o herwydd ei fod yn ddeuddeng modfedd o hyd, a elwir y *duodenum*. Ond nid yw yr holl ymborth sydd yn myned i mewn i'r cylla yn disgyn trwy yr agorfa hon. Mor fuan ag y dechreua y cylla dreulio yr ymborth, sugnir rhan o hono trwy fân dyllau sydd yn ochrau y cylla ei hun. Y mae y mân wythïenau gwaed sydd yn ymdaenu dros yr holl gylla yn yfed i mewn ymborth hylifawl trwy y tyllau bychain hyn, ac yn ei gludo i'w gymmysgu â'r gwaed. Felly y mae cynnaliaeth y corff yn dechreu bron gydag i'r ymborth gyrhaedd y cylla.

Pa beth sydd yn cymmeryd lle wedi iddo adael y cylla? Y mae pibell yn rhedeg oddi wrth chwysigen y bustl (*gall-bladder*) i'r *duodenum*, ychydig is law yr agorfa o'r cylla, sef y *pylorus*. Ar hyd y bibell hon y rhed y bustl i'r coluddyn. Rhed pibell arall oddi wrth y cyndedyn (*pancreas*) a throsglwydda hwn hylif lled debyg i'r poer, yr hwn a elwir sudd y cyndedyn (*pancreatic juice*). Drachefn, ymweithia math o sudd llysnafeddog (*succus entericus*) trwy y coluddyn ei hun. Ymgymmysga y maethsudd, fel y pasia ymaith o'r

[1] Nid yw ansawdd yr ymborth yn y maethsudd wedi ei gael allan hyd foddlonrwydd. Fel y canlyn y dywed Dr. Carpenter am dano:—

"The protein compounds, whether derived from animal or vegetable food, are all reduced to the condition of albumen; a part of which is dissolved, whilst another portion is suspended in a very finely-divided state. Gelatine will be dissolved or not, according to its previous condition. If it exist in a tissue from which it cannot readily be extracted, it will pass forth almost unchanged; but when ingested in a state of solution it remains so, and if it have been previously prepared for solution by boiling, its solution is completed in the stomach. The gummy matters of vegetables are dissolved when they exist in a soluble form, as in the case of pure gum, pectine, and dextrine, or starch-gum. The degree in which starch, when its vesicles have not been ruptured by heat, is affected by the gastric fluid, seems to differ in different animals; the Ruminants and Granivorous Birds, apparently possessing the power of crushing or dissolving the envelopes of the starch globules, whilst they pass through the alimentary canal of other *Herbivora* unchanged, and may be detected entire in their excrements. Sugar is unquestionably taken up in solution, as such, in a healthy condition of the system, but it may undergo a previous change in the stomach in disordered states of the digestive process. Oily matters, whether of animal or vegetable origin, are reduced to the condition of an emulsion, being very finely divided, and their particles diffused through the chyme. Most other substances, as resins, woody fibre, horny matter, yellow fibrous tissue, &c., pass unchanged from the stomach, and undergo no subsequent alteration in the intestinal canal; so that they are discharged among the fæces as completely useless.".

Digitized by Google

cylla, â'r tri hylif hyn; a thrwy hyny, fe gyll ei nodwedd surol, ac erbyn hyn a ymddengys yn debyg i laeth. Ei enw ydyw caul (*chyle.*)

Gwelir gan hyny nad ysgarthion yn unig ydyw yr hylifoedd hyn; ond y mae iddynt ddylanwad ar y talp o faethsudd â pha un y maent wedi eu cymmysgu. Y mae yn dra thebyg fod cyfran o'r bustl yn cael ei gymmeryd i fyny drachefn i'r corff; ac yn ol prawfiadau Barnard, gellid meddwl mai swyddogaeth sudd y cyndedyn a'r bustl yw peri fod defnyddiau olewaidd a bras yr ymborth, y rhai a wrthsafant i raddau nerth sudd y cylla, yn gyfryw ag a gymmysgant bellach gyda sylweddau ereill, fel y byddant gymhwys i'w cymmeryd i mewn i hylifau cylchredol y corff. Pan y mae yr ymborth dan effeithiau y bustl a sudd y cyndedyn, y mae nwyau gwahanol yn cael eu gollwng o hono—yn benaf nwyau sur ulyfig (*carbonic acid gas*) ac ulai (*hydrogen*), ac weithiau nwy blorig (*nitrogen*).

Wedi y cymmysgiad â'r bustl a sudd y cyndedyn, y mae y maethsudd o hono ei hun yn ymgyfnewid. Ymrana ac ymwahana oddi wrth ei gilydd, i hylif gwydn, o wawr gwyn, ac i sylwedd mwydionllyd llwydaidd: yr hylif cyntaf a elwir caul (*chyle*), ac efe yw y rhan maethlawn o'r ymborth; a'r sylwedd olaf yw y gyfran a ysgarthir. Os bydd brasder neu olew, pa un bynag ai o ddefnydd llysieuol neu anifeilaidd, yn ffurfio rhan o'r lluniaeth, y mae y caul o liw gwyn, ond nid yn loew: os na bydd y cyfryw yn rhan o hono, llwydaidd ei liw ydyw. O ran eu hansawdd fferyllol, gwahaniaetha y maethsudd a'r caul oddi wrth eu gilydd; o herwydd sur ydyw y cyntaf, ond halenaidd ydyw yr olaf.

Yn ddiweddaf, y mae rhanau mwyaf hylifol yr ymborth, sydd wedi cyrhaedd y perfeddyn bychan, yn cael eu sugno i fyny gan y llaeth-lestri (*lacteals*)—y rhai a elwir felly o herwydd fod y caul a gymmerant i fyny, ac a ddarparant i fod o wasanaeth pellach i'r corff, yn debyg i laeth. Dangosir eu cyssylltiad yn y darlun canlynol â'r perfeddyn, ac â'r wythïen fawr, *thoracic canal*, yr hon sydd yn rhedeg i fyny asgwrn y cefn, ac yn




Dar. 218. Y llestri sydd yn casglu ac yn cludo y caul.

ei arllwys i'r wythïen fawr dan yr ysgwydd aswy, a elwir y *subclavian.* Y mae y llaeth-lestri yn myned yn fwy anaml fel yr eir i lawr y perfeddyn bychan, nes y maent yn darfod yn llwyr. Pan y bydd yr anifail yn hir heb fwyd, y mae y llestri hyn bron yn wag; ond pan y mae treuliad yn myned rhagddo yn brysur, y maent yn llenwi yn fuan. Am y sylwedd a adewir gan weddill y maethsudd, y bustl, a phethau ereill, y mae yn ymgaledu yn y rhanau isaf o'r perfeddyn bychan, yn tywyllu yn ei liw, yn pasio i'r perfeddyn mawr, ac yn cael ei fwrw allan. Y mae y perfeddyn mawr yn barhâd o'r perfeddyn bychan, ac yn cael ei ranu i'r *cæcum*, y *colon*, a'r *rectum.* Wedi i weddill yr ymborth basio o'r *cæcum* a'r *colon* i'r *rectum*, y mae yn aros yno am ennyd. Y mae erbyn hyn wedi caledu yn fwy, ac yn barod i'w fwrw allan, ac arogl neillduol arno. Y mae y nwyau a deflir o hono yma yn wahanol i'r hyn a deflid yn y perfeddyn bychan; sef, *carbonated hydrogen*, ac ychydig o *sulphurated hydrogen.*

Effaith yr holl gyfnewidiadau hyn y mae yr ymborth yn myned danynt, fel y gwelir, ydyw cyfnewid y lluniaeth crai annhreuliedig i fod yn waed. Cymmerir peth o hono i fyny, fel yr eglurwyd, gan y llestri gwaed sydd yn y cylla ei hun; ond am y gyfran fwyaf bras a llinynog (*fibrin*) o'r ymborth, y rhai a ffurfiant y caul, cymmerir hwynt i fyny gan lestri ereill—y rhai llaethog; a chludir hwynt i'r gwythïenau trwy lwybr mwy cwmpasog, sef trwy y *thoracic canal.*

Y mae y perfeddion yn gwahaniaethu yn eu hyd mewn gwahanol greaduriaid. Mewn dyn y mae y perfedd o ddeutu saith gwaith cyhyd a'i gorff. Ond mewn bwystfilod ac anifeiliaid, mae eu hyd yn amrywio yn ol natur eu hymborth. Yn y creaduriaid ysglyfaethus, y maent yn fyrach mewn cymhariaeth na'r eiddo dyn; ond yn y creaduriaid sydd yn byw ar lysiau, y maent yn hwy. Er anghraifft, yn y llew, nid ydynt ond tair gwaith cyhyd a'i gorff; ond yn yr hwrdd y maent o ddeutu saith ar ugain o weithiau cyhyd a'i gorff. Priodolir hyn i'r hawsder gyda pha un y gellir treulio cig, a'r amser sydd yn ofynol i dreulio llysiau. Rhyfedd ydyw gweithredoedd yr Arglwydd! Gwel Dyn; Gwaed; Ymborth.

Digitized by Google

**CYLLELL**, [*cwll*=yr hyn sydd yn gwahanu, neu yn dydoli]. *Twca* hefyd sydd air am fath o gyllell. Y mae yr offeryn miniog a elwir wrth yr enw hwn yn eithaf adnabyddus, ac yn arferedig i amrywiol ddybenion yn y teulu ac allan o hono. Yn y flwyddyn 1563 y gwnaed cyllyll gyntaf yn Lloegr, gan un Mathews, Fleet bridge, Llundain, ac yr oeddynt yn cael eu defnyddio o flaen pob offerynau teuluaidd ereill o'r un dosbarth neu gangen a hwy. Ond y mae yr ymadroddion ysgrythyrol a grybwyllant am gyllyll, yn nghyd â lluaws o arferion yr hynafiaid, yn profi fod rhyw offerynau o'r fath yn adnabyddus hefyd yn y cynoesoedd. Yr ydym yn cael fod cyllell yn llaw Abraham ar fryn Moriah (*Gen.* xxii. 6, 10); ac â "chyllell" y darniodd y Lefiad ei ordderch: *Barn.* xix. 29. Nid oeddynt mewn arferiad gan yr Iuddewon wrth fwyta, o herwydd fod y cig yn cael ei osod ar y bwrdd wedi ei dori yn fân; a gellid tori y bara yn hawdd â'r llaw, gan ei fod yn deneu fel teisen. Yr un ydyw yr arferiad yn y dwyrain yn mhlith pob dosbarth yn bresennol. Y penteulu yn unig a ddefnyddiai y gyllell i ladd yr anifail, neu i dori y cig wedi ei rostio. Yr oedd gan yr hynafiaid gyllyll wedi eu gwneyd o geryg. Yn *Exod.* iv. 25, darllenwn mai "cyllell lem" oedd gan Sephorah, pan y torai ddienwaediad ei mab yn y lletty, ar y ffordd o dŷ lethro i'r Aipht. Dengys y gair ar ymyl y ddalen yn y Beibl Cymraeg, a'r ymadrodd fel y saif yn y testyn Seisoneg, fod y gwreiddiol yn gyfryw ag y gellir ei gyfieithu *careg lem:* yr hyn yn ddiau a awgryma ryw beth o barth i natur defnydd yr erfyn a ddefnyddid i'r cyfryw ddybenion yn y tymmor bore hwnw ar y byd. Hefyd, "cyllyll llymion," neu, megys y darllenir ar ymyl dail y Beiblau Cymreig, "cyllyll o gallestr" a wnaeth Ioshua iddo ei hun, pan, yn ol gorchymyn yr Arglwydd, yr oedd i enwaedu ar feibion Israel yr ail waith: *Ios.* v. 2. Rhai a gyfieithant yr ymadrodd uchod, "ceryg llymion," neu "gellystr;" a diau mai y cyfryw feini oedd eu defnydd. Pa fodd bynag, y mae yn sicr fod yr Aiphtiaid—gwlad pa rai nad oedd plant yr Israel ond megys newydd ei gadael, mewn cymhariaeth — yn arfer cyllyll o geryg. Wrth grybwyll am ddulliau y genedl hono o berarogli cyrff eu meirw, tystia hen haneswyr mai un ffordd a gymmerent oedd, llenwi rhanau mewnol y marw â pheroroglau, neu gyfferi persawrus, wedi yn gyntaf waghau yr ymysgaroedd a'r coluddion, trwy dori twll yn yr ochr â *chareg* lem fel ellyn, a geid yn ngwlad Ethiopia. Torai offeiriaid Baal eu hunain â chyllyll ac âg ellynod: 1 *Bren.* xviii. 28.

Yn mysg llestri tŷ yr Arglwydd, a gymmerwyd gan Nebuchodonosor o Ierusalem, gan eu rhoddi yn nhŷ ei dduwiau ei hun, yr oedd naw ar ugain o gyllyll. Pan y rhoddir hanes am waith Cyrus, brenin Persia, yn dwyn y llestri hyn, ac yn eu rhifo, at Sebassar, penaeth Iudah, pryd yr elai y bobl i fyny i Ierusalem i adeiladu drachefn deml eu Duw, crybwyllir y "cyllyll" yn mysg y llestri drudfawr—y cawgiau aur a'r cawgiau arian—wrth yr hyn y cesglir eu bod nwythau hefyd o wneuthuriad costus, gyda llafnau o gallestr efallai. Gwaith y rhai hyn yn y deml oedd enwaedu ac aberthu: *Ezra* i. 9.

"Gosod gyllell ar dy geg, os byddi ddyn blysig;" *Diar.* xxiii. 2. "Pan wrth fwrdd gorwych, bwyta yn gymmedrol."—*Clarke.* "Meddwl yr ymadrodd dwyreiniol eofn a tharawiadol hwn yw, caethiwa a gosod attalfa ar dy flys."—*Durell.* Meddwl y gwreiddiol yw, gosod gyfyngydd (*stinter*) dros dy wddf."—*Myneg. Heb. Taylor.* Yn ol Moses Stuart, "Ti a osodi gyllell ar dy wddf;" hyny yw, byddi ddarostyngedig i berygl mawr, os byddi ddyn blysig. Y mae dyn blysig yn annhebyg i lywodraethu ei flys, ac felly tyn warth arno ei hun yn ngwydd y tywysog."

**CYMDEITHAS CORNTHAL**, [*Society of Kornthal*]: cyfundeb crefyddol a ffurfiwyd yn nheyrnas Wurtemberg, dan yr amgylchiadau canlynol:—Tua dechreu y ganrif bresennol, ymadawai lluaws mawr o drigolion y deyrnas hono i Rwssia ac America, o herwydd anghysuron a gyfodent gartref, mewn canlyniad i'r gwahaniaeth a ffynai yn y wlad gyda golwg ar athrawiaethau crefydd a llywodraeth eglwysig. Wrth ganfod hyn, yn y flwyddyn 1818, meddyliodd Theophilus William Hoffmann, maer a nodiedydd cyhoedd Leonberg, y gellid yn effeithiol attal yr ymneillduwyr oedd eto yn aros rhag dilyn esampl y rhai hyny a ymadawsent eisoes, pe goddefid iddynt ddwyn yn mlaen eu haddoliad crefyddol fel y gwelent hwy yn dda, heb fod dan awdurdod cymmanfa yr esgobion Lutheraidd. Yr 22ain o Awst, 1819, anfonwyd allan gyhoeddiad breninol, yn cadarnhau ac yn cyfreithloni eu hymneillduaeth oddi wrth yr Eglwys Lutheraidd, ac yn cymmeradwyo rheolau a threfniadau a wnaed ganddynt hwy eu hunain, gyda golwg ar eu hymgorffoliad fel plaid Gristionogol, a chyda golwg ar eu cyssylltiad â'r wladwriaeth. Y pryd hwnw, nid oedd o honynt ond o ddeutu deugain o deuluoedd; ond cynnyddodd eu rhifedi yn fuan iawn. Prynasant faenor Kornthal, cwmmwd o Leonberg, o ddeutu wyth milltir o Stuttgart, yn cynnwys mil o erwau o dir llafur a choettir, yn nghyd âg ychydig o dai annedd, am fil neu bymtheg can fflorin. Un o'r pethau cyntaf y mynasant ei gael wedi dyfod yno ydoedd, man cyfleus i addoli, cymhwys i ddal dwy fil o bersonau. Gosodwyd careg sylfaen yr adeilad hwn i lawr yn nghanol y difrifwch mwyaf; ac yn ystod y gwasanaeth, wedi aralleirio gweledigaeth ysgol Iacob, cymhwysai y brawd Hoffman at y tŷ addoliad newydd yr ymadrodd, "Mor ofnadwy yw y lle hwn! nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd."

Dygant yn mlaen eu haddoliad mewn dull cyffelyb i'r eglwysi Protestanaidd y maent wedi ymneillduo oddi wrthynt, yr hwn ymneillduad sydd wedi ei gadarnhau yn gyfreithiol. Maent yn proffesu cymmeradwyo golygiadau a daliadau Luther, a dysgant ei holwyddoreg ef; ac y mae ganddynt ffurfwasanaeth cyffelyb, nid i'r un a ddygwyd i mewn i rai eglwysi Lutheraidd yn yr ail ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, ond tebyg i ffurfwasanaeth 1582. Yn eu dysgyblaeth, y maent hwy a'r Brodyr Unedig, neu y Morafiaid, yn gyffelyb iawn i'w gilydd.

Ni fynant gael eu galw a'u hadnabod fel plaid neu sect, am yr hônant mai eglwys apostolaidd ydynt hwy, wedi ei sylfaenu ar yr egwyddorion a osodir i lawr yn Actau yr Apostolion, fel y maent wedi eu heglurhau gan Schmidt, yn ei *Abridged History of the Christian Religion.* Y mae eu gwasanaeth yn cael ei gynnwys mewn olyniad o hymnau, gweddïau, a darllen yr Ysgrythyrau. Gweinyddir Swper yr Arglwydd bob amser ar y bedwaredd wythnos; ac wyth niwrnod o flaen dydd y gweinyddiad, y mae yn cael eu cynnal gyfarfodydd neillduedig o wŷr priod a gwŷr gweddwon, gwragedd priod a

Digitized by Google

fod y temlau a adeiladodd yn nhywyllwch y canrifoedd cyntaf yn anrhydedd i adeiladwyr yr oesoedd tywyll: ond pa beth oedd temlau addurnedig, ond beddau wedi eu gwyngalchu, yn llawn o esgyrn y meirw?

Yr olwg gyntaf a gawn ar ysbryd cenhadol yr eglwys, wedi hafddydd ei llwyddiant, oedd tua'r flwyddyn 1096, pan y llanwyd y gwledydd Cristionogol âg awydd i feddiannu y Tir Sanctaidd trwy nerth y cleddyf, a chymmeryd y bedd sanctaidd o feddiant yr anffyddwyr. Anfonwyd o Ewrop wyth o groesgadau (*crusades*) yn ystod dwy ganrif, ac aberthwyd dros ddwy filiwn o fywydau yn Rhyfeloedd y Groes. Yr oedd yr ysbryd cenhadol, y mae yn wir, yn fyw yn y cyfnod hwnw. Ond y cleddyf, y saeth, a'r waewffon, oedd y rhesymau a arferid i droi y byd y dyddiau hyny. Arfau milwriaeth cnawdol a ddefnyddiwyd at gestyll paganiaeth; ac ni lwyddodd paganiaid bedyddiedig Ewrop i gymmeryd y Tir Sanctaidd o feddiant paganiaid anfedyddiedig Asia.

Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r ail ar bymtheg, y canfyddir yr elfen genhadol yn ymddangos yn yr eglwys. Cyfodwyd athrawiaeth cyfiawnhâd drwy ffydd i sylw y byd. Ysgydwyd teyrnasoedd o dan ddylanwad gweinidogaeth y diwygwyr, a daeth eglwys Crist yn nes at nodweddiad yr oes apostolaidd nag a fuasai er dydd ei gogoniant cyntefig. Ond tra yr oedd y Protestaniaid yn llafurio, nid oedd yr Eglwys Babaidd yn cysgu. Anfonodd genhadon allan i Asia, Affrica, ac America; sefydlodd hefyd orsafoedd yn China, Japan, Chili, a Peru; a threiddiodd i anialdiroedd America gyda sêl deilwng o achos gwell. Ond er ei bod yn rhifo ei dysgyblion wrth y cannoedd o filoedd, nid oes ond ychydig o ôl ei llafur ar y gwledydd hyny: a'r achos oedd, am mai ennill cenhedloedd i blygu i awdurdod Rhufain, ac nid ennill calonau at Grist, ydoedd ei nôd—sicrhau unbenaeth cyffredinol y pab, ac nid pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn enw Crist. Tua'r un amser yr ydym yn gweled y fflam genhadol yn tori allan yma a thraw yn mysg canlynwyr Crist. Yn y flwyddyn 1621, bu symmudiad yn mysg yr Isellmyn (*Dutch*) i sefydlu cenhadaeth dramor; a dywedir fod ôl eu llafur i'w weled y dydd hwn yn Sumatra, Ceylon, Amboyna, a gwledydd eraill. Yn fuan ar ol hyny, dechreuodd Elliott—apostol yr Indiaid—lafurio yn nghoedwigoedd America; ac yn y flwyddyn 1646, ffurfiwyd cymdeithas yn y wlad hono i gario y gwaith da hwnw yn mlaen. Sefydlwyd yn y wlad hon, ac yn America, amryw fân gymdeithasau cyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Ond i'r ganrif ddilynol y rhoddwyd yr anrhydedd o roddi cychwyniad i brif gymdeithasau y byd.

Yn y flwyddyn 1701 y rhoddwyd breinlen frenhinol i'r Gymdeithas i Ledaenu yr Efengyl mewn Gwledydd Tramor. Anfonid, hyd yn ddiweddar, lythyr brenhinol i bob eglwys yn y deyrnas, i orchymyn gwneyd casgliad at y gymdeithas hono. Y mae ei llafur, yn benaf, yn ein trefedigaethau; ac ystyrir hi yn awr yn offeryn yn llaw y blaid Buseyaidd, neu Wrthefengylaidd, neu Ddefodol, yn yr Eglwys Wladol. Yn ol adroddiad y flwyddyn ddiweddaf (1890), yr oedd ei holl gyllid yn 125,038*p.* 19*s.* 7*c.*; a nifer ei chenhadon ordeiniedig yn 646—o ba rai y mae 121 yn frodorion.

Yn 1732 y ffurfiwyd Cymdeithas Genhadol y Moraviaid. Y mae y "Y Brodyr Unedig" wedi bod yn enwog er's oesoedd am eu llafur hunanymwadol, ac y maent wedi bod yn dra llwyddiannus yn Jamaica, India Orllewinol, Affrica, Greenland, &c., &c. Nifer ei chenhadon yn awr, yn 1890, yw 289; aelodau, 30,591. Derbyniadau y gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf, 20,023*p.*

Yn 1792 y dechreuodd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Hon oedd y gyntaf a ffurfiwyd gyda'r amcan proffesedig o droi yr holl fyd paganaidd. Yr oedd ei sylfaenydd apostolaidd, Dr. Carey, wedi codi oddi ar fainge y crydd, i fod yn un o brif ieithyddion ei oes. Cafodd ef, a'i gydlafurwyr hunanymwadol, Dr. Marshman a Mr. Ward, bob gwrthwynebiad oddi wrth Gwmpeini yr India Ddwyreiniol. Ond o dan nawdd llywodraeth arall, cariasant yn mlaen y gwaith pwysig o gyfieithu yr Ysgrythyrau i amryw o ieithoedd yr India Ddwyreiniol. Derbyniwyd o danysgrifiadau gan y gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf (1890), y swm o 83,167*p.* Nifer ei chenhadon oedd 210; ac efengylwyr, 605.

Yn 1795 y sefydlwyd Cymdeithas Genhadol Llundain. Nid ydyw y gymdeithas hon yn perthyn i un sect na phlaid neillduol. Yr oedd Cristionogion o'r Eglwys Wladol, a gwahanol enwadau efengylaidd, yn cyduno yn ei ffurfiad. Ei hegwyddor sylfaenol ydyw—"Nid i anfon Presbyteriaeth, Annibyniaeth, Esgobyddiaeth, nac unrhyw ffurf arall o drefn eglwys (am yr hyn y gall fod gwahaniaeth barn yn mysg pobl dda); ond anfon efengyl ogoneddus y bendigedig Dduw i'r paganiaid; gan adael, fel y dylid ei adael, i feddyliau y sawl a alwo Duw i gymdeithas ei Fab i gael dewis y ffurflywodraeth eglwysig a ymddangoso iddynt hwy yn fwyaf cydunol â Gair Duw." Dywed y Parch. J. Williams, apostol Môr y Deheu, "Ar ol ugain mlynedd o gyssylltiad â'r sefydliad hwn, ni wn am un amgylchiad yn mha un y troseddwyd yr egwyddor sylfaenol." Y mae an ryw bleidiau Cristionogol wedi ymneillduo, o bryd i bryd, oddi wrth y gymdeithas hon, gan farnu y gallant wneuthur mwy o ddaioni wrth ffurfio cymdeithasau perthynol i'w pleidiau eu hunain; ac y mae yn ddiammheu eu bod wedi cael eu llywodraethu yn hyn gan y dybenion goreu. Mae yn amlwg fod mwy yn cael ei wneyd yn awr at ddychwelyd y byd gan y pleidiau hyn ar wahân. Y mae y gymdeithas hon wedi cael ei gadael yn awr yn benaf yn nwylaw y Cynnulleidfaolwyr. Nid oes un o'r cymdeithasau cenhadol wedi ei anrhydeddu â mwy o lwyddiant yn y gwledydd tramor na'r gymdeithas hon. Y mae enwau llawer o'i chenhadon yn enwau teuluaidd yn y byd Cristionogol. Ei chyllid am y flwyddyn ddiweddaf (1890) oedd 121,455*p.* 5*s.* 8*c.* Nifer ei chenhadon:—o Brydain, 156; merched, 36; brodorion ordeiniedig, 1,194:—y cyfan, 1,386.

Yn y flwyddyn 1800 y sefydlwyd Cymdeithas Genhadol yr Eglwys. Mae y gymdeithas hon yn ffrwyth ysbryd cenhadol y blaid Efengylaidd o'r Eglwys Wladol. Cyfarfu â llawer o wrthwynebiad ar ei chychwyniad; ond gweithiodd ei ffordd yn mlaen, ac ennillodd gyfeillion yn mysg urddasolion yr Eglwys. Y mae hi, yn awr, yn meddu 644 o genhadon ordeiniedig, a'i chyllid yn fwy nag un o'r cymdeithasau cenhadol eraill; sef, 252,016*p.* y flwyddyn hon (1890).

Sefydlwyd Cymdeithas Genhadol y Wesleyiaid yn 1816. Yr oedd y corph hwn wedi enwogi ei hun drwy lafur cenhadol yn mhell cyn hyny. Cenhadwr, yn ystyr goreu y gair, oedd J. Wesley; ac yr oedd Dr. Coke yn un o'r dynion mwyaf

Digitized by Google

apostolaidd yn ei oes. Ond ni ffurfiwyd cymdeithas genhadol gan y corph Wesleyaidd hyd y flwyddyn uchod. Nid yw y gymdeithas hon yn cyfyngu ei gweithrediadau i'r byd paganaidd; ond y mae yn cynnal llafurwyr yn y Trefedigaethau Prydeinig, a rhanau o'r Deyrnas Gyfunol. Cyrhaeddodd ei chyllid y flwyddyn ddiweddaf (1890) i 150,364*p.* 1*s.* 9*c.* Nifer ei chenhadon, a chynnorthwywyr, mewn cyssylltiad â *Conference* Prydain, a'r rhai sydd yn cydweithredu, ydynt 1,467. Cynnorthwywyr eraill, 3,713.

Sefydlwyd Cymdeithas Genhadol Dramor y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn nechreu y flwyddyn 1840, a danfonwyd allan ei chenhadwr cyntaf yn Tachwedd, yr un flwyddyn, i Fryniau Cassia, yn Bengal, India'r Dwyrain, lle y cyrhaeddodd yn y mis Mehefin canlynol. Dilynwyd ef, o bryd i bryd, gan genhadon eraill; ac er i rai amgylchiadau gofidus ddigwydd yn y blynyddoedd cyntaf o hanfodiad y gymdeithas, i brofi ffydd ac amynedd ei chynnorthwywyr, yr oedd y cenhadon a adewid ar y maes yn cael eu lloni yn fynych drwy weled effeithiau daionus eu llafur yn nghynnydd cyflym yr ieuengctyd oedd yn arfer myned i'r ysgolion cenhadol, mewn gwybodaeth gyffredinol ac ysgrythyrol, eu hymwrthodiad ewyllysgar âg ofergoelion a defodau ffiaidd eu cenedl, a'r prawf a roddai amryw o honynt fod y gwaith da yn cael ei ddwyn yn mlaen yn eu calonau gan Ysbryd yr Arglwydd. Cymmerodd y bedyddiad cyntaf le Mawrth 8fed, 1846, pryd y gwnaeth dau ŵr ieuangc gyffes gyhoeddus o'u ffydd yn Nghrist ger bron lliaws o'u cydgenedl synedig; ac o hyny yn mlaen, gwnaed chwanegiadau mynych at yr eglwys—fel yr oedd nifer y rhai bedyddiedig, erbyn dechreu y flwyddyn 1858, wedi cyrhaedd 104. Mae'r adroddiadau a dderbyniwyd am rai o'r dychweledigion yn dra dyddorol, ac yn amlygu cyrhaeddiadau gwir hynod mewn gwybodaeth a phrofiad efengylaidd; ac, y mae yn debyg iawn fod y llwyddiant sydd wedi bod ar y genhadaeth hon yn deilwng o'i gystadlu â'r hyn a brofodd unrhyw genhadaeth y gwyddom am dani. Nifer y rhai a ddeuent yn gysson i'r ysgolion dyddiol ar yr orsaf genhadol, ac mewn pentrefi eraill, yr amser a enwyd uchod (1858) oedd—bechgyn, 204; genethod, 36; y cynnulleidfaoedd ar y Sabbath, 295; ac aelodau yr Ysgolion Sabbathol, 194. Nifer yr aelodau eglwysig oedd 96. Dysgwyd llawer i ddarllen hefyd yn eu bythynod eu hunain gan y dychweledigion ieuaingc.

Yn y flwyddyn 1861, talodd un o'r cenhadon o Cassia, sef y Parch. William Lewis, ymweliad â Chymru; a daeth un o'r brodorion gydag ef; sef, gŵr ieuangc o'r enw U. Larsing, yr hwn oedd wedi ei ennill yn Gristion, ac yn un o'r pregethwyr brodorol. Bu Mr. Lewis ac U. Larsing yn cynnal cyfarfodydd cenhadol yn Ngogledd a Deheudir ein gwlad, ac yn nhrefi Lloegr; ac yr oedd anerchiadau y cenhadwr, ac ymddangosiad y Cassi, fel ysgub y blaenffrwyth, a'i glywed yn canu ac yn anerch y cynnulleidfaoedd yn ei iaith ei hun, ac yn Saesneg:—yr oedd hyny yn tanio y tyrfaoedd â brwdfrydedd; a rhoddodd hyny symbyliad chwanegol i'r teimlad cenhadol oedd yn Nghymru. Bu yr ymweliad hwn yn foddion i'r cyfundeb gymmeryd mwy o ddyddordeb yn y gwaith cenhadol, ac i gynnyddu y casgliadau. Bu U. Larsing farw yn Nghaergwrle, Awst 24ain, 1863; a hebryngwyd ei weddillion i gladdfa gyhoeddus Caerlleon.

Er fod angeu yn gwneuthur bylchau galarus yn awr ac yn y man yn rhengoedd y cenhadon, etto yr oedd cyfarwyddwyr y gymdeithas, a'r Gymmanfa, ar hyd y blynyddoedd, yn gwneuthur pob ymdrech i anfon cenhadon a chenadesau newyddion allan; a chymmerwyd gafael yn mhob mantais oedd yn dyfod yn eu ffordd i wneuthur argraph dda ar y Cassiaid, a lledaenu Cristionogaeth yn y rhan bellenig hono o'r byd. Heb law dwyn yr iaith i drefn, cyfieithwyd yr Ysgrythyrau, ynghyd â llyfrau buddiol, i iaith y trigolion: pwrcaswyd argraphwasg, ac argraphwyd llyfr hymnau yn iaith y Cassiaid, a *Taith y Pererin*, a'r *Hyfforddwr*, a llawer o lyfrau gwerthfawr eraill. Amlygodd y Cymry eu teimladau da tuag at y Cassiaid hefyd drwy eu cynnorthwyo yn fynych pan oeddynt mewn rhyw gyfyngderau neillduol; a bu hyny yn gryfhâd i'r genhadaeth ar y Bryniau. Wedi i un o benaethiaid Cherra, sef U. Borsing—efe, a'i briod, a'i deulu—ymwrthod âg eilunaddoliaeth, a chofleidio Cristionogaeth, gommeddwyd iddo lywodraethu ar y trigolion, yn unig o blegid ei fod yn Gristion, er mai efe oedd y penaeth cyfreithlawn; a chymmerwyd ei etifeddiaeth oddi arno. Appeliodd U. Borsing i lysoedd uchaf India am ei iawnderau; a chynnorthwywyd ef gan danysgrifiadau o Gymru er dwyn y cynghaws yn mlaen. Ond colli y gyfraith a ddarfu:—a dewisodd y penaeth golli pob peth yn hytrach na gwadu Cristionogaeth. Er hyny, bu i'r cydymdeimlad sylweddol a amlygwyd gan y cyfundeb tuag at U. Borsing, a'i deulu, ddylanwadu yn dda ar y genhadaeth. Anfonwyd cymmhorth i'r Cassiaid hefyd pan y byddai newyn yn eu bygwth; a bu y cenhadon yn hynod o dringar o honynt mewn dyddiau enbyd, pan y byddai heintiau marwol, yn neillduol y *cholera*, yn medi y trigolion wrth y cannoedd. Anfonwyd anrhegion iddynt drachefn a thrachefn gan garedigion yr efengyl; megys, llyfrau, nwyddau, a phethau at wasanaeth y cyssegr, a llestri cymmundeb, &c.; ac yr oedd yr holl garedigrwydd yma a dderbyniasant yn effeithio yn dda ar y trigolion, ac yn parotoi i'r Arglwydd bobl barod. Cynnydd graddol oedd i'w weled ynglŷn â'r ymdrechion cenhadol yn Cassia. Yr oedd hyn yn elfen ddymunol yn adroddiadau y cenhadon o flwyddyn i flwyddyn. Tua'r flwyddyn 1880, darfu i'r cenhadon benderfynu helaethu eu terfynau, ac estyn eu gweithrediadau i randiroedd newyddion. Cyn hyny, yr oedd y cenhadon yn rhoddi nerth eu llafur i bedwar dosbarth o'r wlad; sef, Cherra, Shillong, Shella, a Jaintia; ond yn y blynyddoedd dilynol, y mae rhandiroedd chwanegol o'r wlad yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau blynyddol; sef, Mawphlang, Khadsawphrah, Jiwai, Shangpoong, a Sylhet; ac y mae yn mhob un o'r dosbarthiadau hyn lawer o eglwysi, a lleoedd pregethu, yn amrywio o 4 hyd yn 36. Yn y flwyddyn 1887, anfonwyd wyth o genhadon a chenadesau allan gan y Methodistiaid Calfinaidd i Casisa ac i Sylhet—mwy nag a aeth allan erioed o fewn yr un flwyddyn. Y mae ganddynt yn awr yn yr India 12 o genhadon, a thua 26 o bregethwyr brodorol—rhai o honynt yn gallu pregethu gyda nerth; fel, oddi wrth yr holl weision hyn, fe ellir disgwyl ffrwyth toreithiog yn y dyfodol. Bu Mr. Thomas Lewis, A.S., Bangor, yn ymweled â'r maes cenhadol yn yr India rai blynyddoedd yn ol; a bu y Mri. Herbert Lewis, Mostyn Quay; Herbert Roberts, Bryngwenallt,

Digitized by Google

Abergele; ac H. R. Davies, Treborth, yno yn ddiweddarach; ac yr oeddynt oll yn dwyn y dystiolaeth uchaf i lwyddiant ac effeithiolrwydd y genhadaeth. Ceir, trwy y ffigyrau canlynol, gipdrem ar y llwyddiant sydd wedi bod ar y gwaith yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf:—

| Blwyddyn. | Eglwysi | Cymmunwyr. | Gwrandawyr. |
|---|---|---|---|
| 1861 | 6 | 158 | 500 |
| 1871 | 16 | 514 | 900 |
| 1881 | 36 | 2,600 | 3,326 |
| 1889 | 78 | 6,054 | 8,424 |

Yr oedd casgliadau 1889 yn 7,753*p.*; sef, mwy o 727*p.* na'r flwyddyn 1888, ac yn 700*p.* mwy na'r draul, er fod hono yn drymach nag arferol.

Y mae trefniadau yn cael eu gwneuthur tuag at ordeinio rhai o'r pregethwyr brodorol. Y mae rhai o honynt wedi eu dewis gan yr eglwysi i hyny; ac y maent wedi bod o dan yr arholiad gofynedig, ac wedi rhoddi pob boddlonrwydd.

Gan fod y flwyddyn hon (1890) yn hanner canfed flwyddyn er pan ddechreuodd y Methodistiaid Calfinaidd ar eu Cenhadaeth Dramor, y mae ysgogiad grymus ar droed er dathlu yr amgylchiad. Bwriedir casglu 20,000*p.* ar flwyddyn iwbili y gymdeithas—yr arian i'w defnyddio tuag at ëangu y genhadaeth yn Sylhet, cryfhau y genhadaeth feddygol, a chodi sefydliad athrofaol yn y wlad hono er rhoddi addysg briodol i bregethwyr brodorol.

Yn nechreu 1850, ymwelodd un o'r cenhadon â Sylhet, prif dref y dyffryn o'r enw ar y gwastattir, lle y mae gorsaf filwraidd a marchnadfa fawr, i'r dyben o farnu drosto ei hun ynghylch y dymunoldeb o sefydlu gorsaf genhadol yno—yr hyn y tueddid y cenhadon wedi hyny i'w wneyd. Cafodd argyhoeddiad mor lwyr o hyny ar ei ymweliad fel y penderfynodd symmud yno yn ddioedi. Y mae y boblogaeth yn gynnwysedig o Hindŵaid a Mahometiaid; ac yr oedd rhagfarn y naill a'r llall yn erbyn y cenhadwr a'i lafur yn gryf iawn ar y cyntaf. Erbyn hyn, pa fodd bynag, y mae cannoedd o blant dan addysg feunyddiol, a galwad uchel am ëangu y brifysgol; ac y mae y cynnydd a wneir gan liaws o honynt yn mhob cangen o wybodaeth yn dra chanmoladwy. Y mae gwirioneddau yr efengyl yn cael eu gosod ger bron y trigolion yn yr ieithoedd Bengalaeg a Hindŵstanaeg, o'r pulpud, a thrwy draethodau a llyfrau; ac amryw eisoes wedi cael eu bedyddio ar eu proffes gyhoeddus o'u hymwrthodiad â chrefydd eu hynafiaid, a'u cariad at yr Arglwydd Iesu Grist.

Gan fod miliynau poblogaeth Sylhet ac Assam mor dra amddifad o genhadon hedd, y mae y Methodistiaid yn bwriadu rhoddi mwy o sylw, a gwneuthur mwy o ymdrech yn y dyfodol, gyda'r amcan o wasgar goleuni yr efengyl yn y wlad dywyll hono. Dïau y cyfarfyddir â mwy o anhawsderau gyda'r myrddiynau yn ngwastadedd Bengal nag a gafwyd gyda'r Cassiaid ar y Bryniau.

Yn y flwyddyn 1843, danfonodd y Gymdeithas genhadwr i Lydaw, yr hwn sydd wedi parhau i lafurio yn mysg trigolion ofergoelus, rhagfarnllyd, ac anwybodus, y wlad Babaidd hono, yn ngwyneb pob gwrthwynebiad y gallai yr offeiriaid a'r awdurdodau gwladol, dan eu dylanwad hwy, ei roddi iddo. Cynnorthwyir ef, er's rhai blynyddoedd bellach, gan ddyn ieuangc talentog ac ymroddgar; yr hwn sydd enedigol o Switzerland, ond a ddygwyd i fyny yn nhref Quimper, lle y preswyliai y cenhadwr—trwy offerynoliaeth yr hwn y dygwyd ef i wybodaeth o'r gwirionedd; a derbyniodd ei addysg dduwinyddol yn Geneva. Prif orsafoedd y genhadaeth hon ydynt y dref a enwyd—Quimper; yr hon sydd ddinas esgobol; a Lorient, porthladd tua deugain milldir oddi yno. Yn y lle blaenaf, a'r ardaloedd, defnyddir yr ieithoedd Ffrancaeg a Llydawaeg: yn yr olaf, y Ffrancaeg yn unig. Er yr holl rwystrau y mae y cenhadon wedi ei gael, y mae yma amryw wedi ymwrthod â Phabyddiaeth; ac er hau mewn dagrau am flynyddoedd lawer, y mae arwyddion y ceir cyn hir fedi mewn gorfoledd. Y mae y ddau genhadwr sydd yno yn rhoddi ffeithiau calonogol iawn yn eu hadroddiad diweddaf. Y mae y Beibl-gludydd hefyd yn offeryn i wneuthur llawer o les, a'r had sanctaidd drwyddo yn egino ac yn ffrwytho—y modd nas gŵyr efe.

Yn 1846, sefydlwyd y Genhadaeth Inddewig mewn cyssylltiad â'r gymdeithas; a danfonwyd cenhadwr i Lundain, i lafurio yn mysg had Abraham yno, ac i dderbyn yr addysg angenrheidiol i'w gymmhwyso i fyned ar led, os gwelid mai doeth fyddai ei anfon i ryw barth o'r Cyfandir. Cafodd y cenhadwr, modd bynag, faes mor ëang yn y brif ddinas fel y barnwyd yn oreu i beidio ei symmud. Er na chafodd y fraint etto o fedyddio ond un Iuddew dychweledig, y mae wedi ennill cymmeradwyaeth uchel yn ngolwg y genedl yn gyffredinol, a mwynhau manteision i ddwyn y gwirionedd am Grist o flaen llaweroedd o honynt.

Y mae derbyniadau y gymdeithas wedi bod, er's rhai blynyddoedd, tua 4,000*p.* Y mae ei chyfarwyddwyr, rai gweithiau, wedi gwneuthur anrheg i Gymdeithas Efengylaidd Ffrainge; yr hon sydd wedi bod yn nawdd a help tra gwerthfawr ar adegau i'w chenhadon yn Llydaw.

Gallem chwanegu at y rhestr hon lawer o gymdeithasau tramor yn America, Ysgotland, Prwssia, &c., ynghyd â llawer o gymdeithasau eraill sydd yn gweithredu gartref ac yn y trefedigaethau; megys Cymdeithasau Cenhadol yr Eglwys Rydd, yr Eglwys Wyddelig, y Gartrefol, y Wyddelig, y Genhadaeth Dyrcaidd, Addysg Fenywaidd yn India, a'r Morwyr, &c., &c.—pa rai sydd wedi llwyddo, dan fendith y nefoedd, i wneyd daioni mawr yno.

Cyfrifa y Parch. Scott Robertson (Eglwyswr) fod y symiau canlynol wedi cael eu cyfranu yn y Deyrnas Gyfunol at Genadaethau Tramor yn y flwyddyn 1888:—

| | P. |
|---|---|
| 24 o Gymdeithasau yr Eglwys Sefydledig ... ... ... | 541,773 |
| 12 o Gymdeithasau Ansectaidd (y Beibl, Traethodau, &c.) ... ... | 208,472 |
| 16 o Gymdeithasau Anghydffurfwyr, yn Lloegr ... ... ... | 392,272 |
| 23 o Gymdeithasau Presbyteraidd, yn Ysgotland a'r Iwerddon ... ... | 183,249 |
| 2 o Gymdeithasau y Pabyddion ... | 8,755 |
| | *P.*1,334,491 |

Yn 1886, 1,195,714*p.*; ac yn 1887, 1,228,759*p.* Nid ydyw y ffigyrau uchod yn cynnwys y gweddillion oedd yn cael eu cario drosodd yn y blynyddoedd o'r blaen, na'r symiau a dderbyniwyd am lyfrau, nac o wledydd tramor; na llog arian chwaith. Ni chynnwysa ond yn unig yr arian a gasglwyd o fewn y flwyddyn gyllidol yn y Deyrnas Gyfunol.

Y mae adfyfyrdodau ar y symmudiadau mawr

Digitized by Google

a misol i'w harolygu ganddo, a'u cyfnewid, os gwelir hyny yn angenrheidiol." Yr un llyfr a ddywed mai "tua'r flwyddyn 1743 y cynnaliwyd y gymdeithasfa gyntaf yn mhlith y Methodistiaid Calvinaidd yn Nghymru, yn nhŷ un Jeffrey Dafydd, o'r Rhiwiau, yn mhlwyf Llanddeusant, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn, Mr. Howell Harris, y Parch. Daniel Rowlands, y Parch. W. Williams (Pant-y-celyn), a dau neu dri o gynghorwyr. Er nad oedd ond bychan o ran nifer, eto yr oedd wedi ei anrhydeddu yn fawr â phresennoldeb yr Arglwydd." Ymddengys fod y cofnodiad hwn wedi ei gymmeryd allan o gofiant y Parch. W. Williams, gan y Parch. T. Charles, yn yr ail lyfr o'i *Drysorfa*. Ond oddi wrth lyfr (ysgrifenedig) Cofnodau Trefecca, yr hwn a ddyfynir yn helaeth gan awdwr teilwng a llafurus *Methodistiaeth Cymru*, fe welir mai cyfarfod neu gymdeithasfa *fisol* oedd yr un a gynnaliwyd yn nhŷ Jeffrey Dafydd, yn Llanddeusant; ac mai yn mis Chwefror, 1742, ei cynnaliwyd yno. Ar yr un mis, yn yr un flwyddyn, cynnaliwyd cymdeithasfa fisol mewn lle a elwir y Tyddyn, yn agos i Lanidloes; a dyna y cyfarfod misol cyntaf a gynnaliwyd yn holl Wynedd gan y Methodistiaid. Y cynnulliad a elwir yn briodol *y gymdeithasfa*, a gynnaliwyd gyntaf oll yn Watford, sir Forganwg, Ionawr y 5ed a'r 6ed, 1742; tua mis o flaen y cyfarfod misol yn y Rhiwiau. Yr oedd yn bresennol yn nghymdeithasfa Watford, George Whitfield, Howell Harris, Daniel Rowlands, a William Williams, gydag o ddeutu pymtheg ar ugain o frodyr ereill, yn bregethwyr a chynghorwyr. Dewiswyd Mr. Whitfield yn gadeirydd neu gymmedrolwr y gymdeithasfa. Mae per ganiedydd Pant y celyn, yn ei farwnad i Daniel Rowlands, yn cyfeirio yn darawgar at y pryd hwn:—

"Dyma'r pryd daeth Whitfield enwog,
Ar adenydd dwyfol ras,
'Lawr i Gymru i gael profi
Y newydd win o ddwyfol flas:
Dyma'r pryd yr hyfryd asiwyd,
O fewn ffwrnes fawr y nef,
Sais a Chymro mewn athrawiaeth
Loew, ddysglaer, gadarn, gref.

Dyma'r pryd, boed cof am dano,
Ganwyd 'r *Assosasiwn* fawr,
Ag sy er hanner cant o flwyddau
Yn cadw fyny hyd yn awr;
Yn gwneyd undeb athrawiaethau,
Ac yn clymu cwlwm crwn,
Nas gall rhagfarn na drwgdybiau
Fyth i ddattod dim o hwn."

Ar y cyntaf, cedwid y gymdeithasfa yn flynyddol, ac nid yn chwarterol. Cynnaliwyd yr ail gymdeithasfa yn Watford, Ebrill 6ed a'r 7fed, 1743; a'r drydedd yn Abergafenni, yn niwedd Mawrth, 1744. Yr oedd Mr. Whitfield yn mhob un o'r cymdeithasfaoedd hyn, gyda thri neu bedwar o bregethwyr Seisonig ereill. Yn nghymdeithasfa 1743, rhanwyd Cymru yn bump o ddosbarthiadau, pob un o'r rhai oedd yn cynnwys cymdeithasfa fisol: sef—1. Maesyfed a Threfaldwyn. 2. Ceredigion a Chaerfyrddin. 3. Brycheiniog. 4. Penfro. 5. Morganwg a Mynwy. Yr oedd yr holl ddosbarthiadau hyn i fod yn ddarostyngedig i lywodraethiad y gymdeithasfa flyneddol. Pa bryd y dechreuwyd cynnal y gymdeithasfa yn drimisol, nis gallwn benderfynu yn sicr; ond gallem feddwl y gwnaed hyny mor fore a'r flwyddyn 1744; canys y mae hanes am "gymdeithasfa chwarterol" yn cael ei chynnal mewn lle a elwir Pont neu Borth y Rhyd, sir Gaerfyrddin, Hydref 3ydd, 1744. Nid ydym yn deall fod ar gael un hysbysrwydd pa le na pha bryd y cynnaliwyd y gymdeithasfa gyntaf yn Ngogledd Cymru. Yr hybarch Robert Jones, Rhos lan, yn ei *Ddrych yr Amseroedd*, a ddywed mai yn y Mynydd mwyn, ger llaw Llanerchymedd, y cynnaliwyd y gymdeithasfa gyntaf yn Môn, ac mai yn mhentref Clynnog y bu y gymdeithasfa gyntaf yn sir Gaernarfon; ac y mae yn adrodd hefyd iddo fod yn nghymdeithasfa y Bala, yn y flwyddyn 1767, pryd nad oedd yno yn yr oedfaon cyhoeddus ond prin ddau cant o wrandawyr.

Am lawer o flyneddoedd, ni chynnelid ond un cyfarfod neillduol yn mhob cymdeithasfa yn Ngwynedd, sef cynnulliad yn unig i'r pregethwyr, dros awr neu ddwy. Wedi hyny, cynnelid dau gyfarfod neillduol, yn mha rai y byddai pregethwyr a diaconiaid; un cyfarfod i ymdrin â phethau allanol neu amgylchiadol crefydd yn y cyfundeb, a'r llall i ymdrin â'r pethau a berthynent i fywyd crefydd ysbrydol. Ar ol hyny, mewn cymdeithasfa a gynnaliwyd yn y Bala, Mehefin 9fed, 1790, tua phum mlynedd wedi ymuniad y Parch. T. Charles â'r Methodistiaid, "sefydlwyd y rheolau canlynol, tuag at iawn drefn a gweddeidd-dra yn y cymdeithasfaoedd neu gyfarfodydd chwarterol:—1. Na byddo i'r gymdeithas grefyddol yn Ngwynedd, a elwir yn gyffredin yr *Association*, ddim cynnwys neb fel aelodau ond yn unig y rhai sydd yn gweinyddu yn yr eglwys mewn pethau ysbrydol; sef, yn llafurio yn yr athrawiaeth, neu, yn ymddyddan yn neillduol am bethau Duw a chyflyrau dynion. 2. Bod i'r aelodau, cynnifer ag a ellir, gyfarfod unwaith bob chwarter blwyddyn, yn y lle a'r amser a benodir ganddynt eu hunain. 3. Bod i'r pregethwyr, a neb ond hwy, ddyfod at eu gilydd ddeg o'r gloch y boregwaith cyntaf, i'r dyben o annog, hyfforddi, a rhybuddio eu gilydd mewn cariad, fel y meithriner undeb a brawdgarwch, ac fel y byddont, trwy gynnorthwy y naill i'r llall, yn oleuni y byd, ac yn halen heb ddiflasu. 4. Bod i'r holl gorff (yn ol y rheol gyntaf) ddyfod at eu gilydd ddau o'r gloch prydnawn yr un diwrnod, ac am wyth o'r gloch y bore dranoeth. Bydded i'r drws gael ei gau yn ddilai am hanner awr wedi dau, a hanner awr wedi wyth; ac os dygwydd i ryw frawd gael ei attal rhag dyfod yn yr amser penodol, gofyned y drysor genad i'r corff i agor iddo; ac os bydd ei achos yn ymddangos iddynt hwy yn gyfreithlawn, caniataer ei ddymuniad. 5. Bod i'r gymdeithas, cyn ymdrin â materion, ddewis a phenodi rhyw frawd a farnont yn gymhwysaf i edrych am fod pob peth yn cael ei wneuthur yn weddaidd ac yn drefnus, yn y modd mwyaf buddiol er adeiladaeth yn y cyfryw gyfarfodydd. 6. Bod i bob un ryddid i lefaru am yr achos mewn llaw, neu y materion a drinir, nes eu penderfynu, gan beidio areithio yn hir, os na bydd hyny trwy ddeisyfiad y corff, ar ryw fater o bwys arbenig, y byddo angen ymhelaethu arno er budd a lles y corff. 7. Bod i un cyfarfod gael ei neillduo at yr ystyriaeth o bethau ysbrydol yn unig. Wrth bethau ysbrydol yr ydys yn meddwl, athrawiaethau yr efengyl, yn nghyd â'r profiad ysbrydol o honynt, ymarferiadau crefyddol, dysgyblaeth eglwysig, &c. A bod i bethau amgylchiadol y corff gael eu hystyried yn y cyfarfod arall, yn ol trefniad y corff. 8. Pan na byddo unrhyw fater neillduol yn cael ei gynnyg i ystyriaeth y gymdeithasfa, bydded i'r corff ymddyddan â rhyw un a benodir ganddynt, mewn perthynas i'w wybodaeth o athrawiaethau yr efengyl, ei brofiad o honynt, a'i gymdeithas â

Duw. Pethau ydyw y rhai hyn nas gellir eu hesgeuluso yn fynych yn y cyfryw gyfarfodydd heb golledu y corff, ac nad esgeulusir chwaith tra parhao bywyd crefydd a grym duwioldeb yn eu plith. Yn niffyg hyn, darllener cyfran o'r Beibl yn bwyllog ac yn ddeallus, a phenoder rhyw ran o'r gair, neu bwnc o grefydd, i'w ystyried a'i chwilio. 9. Fod pob mater dadleuol i gael ei benderfynu yn bwyllog gan y rhif lluosocaf o'r corff; a bydded i'r lleill, a fyddo o wahanol feddwl, ymddwyn yn heddychol ao yn garedig tuag at eu brodyr. 10. Rhaid i gyfarfod misol pob sir roddi i'w aelodau, sydd yn perthyn i'r *Association*, bapyryn argraffedig, â'i enw arno, ac enw y gymdeithas i ba un y mae yn perthynu. Dangosiad o hwnw i'r drysor yn unig a rydd hawl iddo ddyfod i mewn i gymdeithas neillduol yr *Association*. 11. Dymuniad ewyllysgar a chariadus y corff yn Ngwynedd yw, fod i bwy bynag o frodyr y Deheudir a ddygwyddo fod yn bresennol, gael yr un rhyddid a ninnau yn mha beth bynag a fyddo yn cael eu trin a'u hystyried; am y dymunem gadw undeb y corff drwy Gymru oll: hefyd, gan gydnabod yn ddiolchgar ein rhwymedigaethau iddynt am ganiatâd i ninnau o'r cyfryw ryddid yn eu plith hwythau."

Gellir gweled, oddi wrth rediad y ddiweddaf o'r rheolau hyn, fod cymdeithasfa y Deheudir a chymdeithasfa y Gogledd, o'r dechreuad, yn gweithredu yn annibynol y naill ar y llall. Y maent, yn wir, wedi cydgerdded yn wastad yn holl ysgogiadau mawrion Methodistiaeth Gymreig. Cydbenderfynasant ar y neillduad i weinyddu y sacramentau yn 1810—11; ac yr oeddynt yn cydweithredu yn ffurfiad y *Cyffes Ffydd*, &c., yn 1823, ac felly yn dangos eu bod yn dal yn gwbl yr un athrawiaeth a'r un ffurflywodraeth eglwysig; a chydymunasant hefyd yn y Weithred Gyfansoddiadol Gyfreithiol yn 1826, ac mewn amrywiol fesurau ar ol hyny. Yn y golygiad hwn, ac mewn ystyriaethau penodol ereill, y mae y Methodistiaid Calvinaidd trwy Dde a Gogledd Cymru yn cyfansoddi un cyfundeb. Eto, fel y crybwyllwyd, y mae y ddwy gymdeithasfa yn annibynol ar eu gilydd; ond fod, yn gyffredin, gynnrychiolwyr o'r naill dalaeth yn bresennol yn nghymdeithasfaoedd chwarterol y dalaeth arall, i'r rhai y caniateir y "rhyddid" y sonir am dano yn y rheol grybwylledig. Bu cryn siarad, a pheth ysgrifenu, o bryd i bryd, ar y dymunoldeb o brif gymdeithasfa flyneddol, yn cydberthynu i Dde a Gogledd, yn debyg i'r "gymmanfa gyffredinol" yn Ysgotland; ac yr oedd y gymmanfa gorfforedig, fel ei gelwid, a gynnaliwyd yn Llanidloes yn 1840, ac yn Aberystwyth yn 1841—pryd yr oedd tebygolrwydd yr ymunasid mewn un athrofa i'r ddwy dalaeth—yn ymddangos fel cychwyniad ar y cyfryw *General Assembly*. Eithr ni wnaed dim yn mhellach ar y pryd.

Y mae y rhai oll sydd yn aelodau o'r cymdeithasau misol yn eu sir gartrefol, yn meddu hawl i fod yn bresennol yn nghyfarfodydd neillduol cymdeithasfa chwarterol y dalaeth, ac i bleidleisio ynddynt. Yn mhob cymdeithasfa, gellir dysgwyl y bydd pregethwyr a diaconiaid y sir y dygwyddo y gymdeithasfa fod ynddi yn cyfansoddi y mwyafrif o'r rhai presennol ar y pryd; a rhag y gallai hyny ar ryw achlysuron weithredu yn anfanteisiol i'r siroedd ereill, dywedir yn un o osodiadau y gymdeithasfa chwarterol yn llyfr y *Cyffes Ffydd*:—"Yn ol natur a ffurf y gymdeithas chwarterol, y mae yn weddus i bob un a fyddo yn bresennol yn y cyfryw gymdeithas ei olygu ei hun yn perthyn i'r holl achos i'r un gradd yn mhob man, gan ddiosg ei deimladau lleol, fel na byddo i'r cyfryw deimladau effeithio ar benderfyniadau y corff, i beri tuedd at achos lle neilliduol, i bwyso i lawr y lles cyffredinol, a rhwystro llwydd achos Crist yn ei lwybr helaethaf." Gellir nodi, hefyd, y gofelir yn gyffredin am beidio trin achos o ddadl yn y rhandir y byddo teimlad lleol yn gryf o berthynas iddo; megys pan ymdrinid am y priodoldeb o symmud cymdeithasfa Mehefin o'r Bala, lle ei cedwid yn gysson yn y blyneddoedd gynt, nid yn y Bala, nac yn sir Feirionydd, y dygid yn mlaen y cyfryw ymdriniaeth. Ar amryw faterion o bwys cyffredinol, pa fodd bynag, gwelwyd yn addas ddyfod i benderfyniad, nid trwy bleidleisiau y swyddogion a fyddent yn wyddfodol mewn cymdeithasfa, ond trwy fwyafrif pleidleisiau cyfarfodydd misol y siroedd, y rhai a gyflwynid i'r gymdeithasfa gan eu cynnrychiolwyr. Bydd pob cyfarfod misol yn anfon dau neu dri o ddiaconiaid, heb law gweinidogion penodol, i gynnrychioli eu sir neillduol yn nghyfeisteddfodau rhagbarotoawl y gymdeithasfa, pa rai a gynnelir yn gyffredin y prydnawn o flaen deuddydd y gymmanfa. Yma y dygir i mewn y cenadwriaethau o'r amrywiol siroedd, ac y rhagolygir yr achosion a gânt eu dwyn o flaen y gymdeithasfa. Pan fydd y pregethwyr, fore y dydd canlynol, wedi ymgynnull mewn cyfarfod wrthynt eu hunain, lle yr ymdrinir â materion buddiol mewn cyssylltiad â gwaith y weinidogaeth, cynnelir cyfarfod ar yr un pryd gan ddiaconiaid anfonedig y siroedd, y rhai a fwriant olwg ar achosion perthynol i'w swyddogaeth hwy; a chyfiawn yw dywedyd fod y cyfundeb yn gyffredinol yn ddyledus i'r cyfarfod hwn am lawer o amgrymau a chynnygiadau gwerthfawr.

Hyd yn dra diweddar, un o orchwylion y gymdeithasfa ydoedd, ymddyddan â phregethwyr ieuainc, a gyflwynid o gyfarfod misol y sir lle y cynnelid y gymdeithasfa ar y pryd, am eu profiadau ysbrydol, eu gwybodaeth athrawiaethol, a'u cymhelliadau i bregethu; ac wedi yr ymddyddan, rhoddid iddynt yr hyn a elwid yn "dderbyniad i'r gymdeithasfa," heb yr hyn "nis gallent estyn eu llwybr gweinidogaethol dros derfyn y sir y byddent yn perthyn iddi." Ystyrid hwy bellach yn bregethwyr i'r holl gorff, ac yn freintiedig i bregethu, yn ol y rheolau, yn holl gapelydd y cyfundeb. Peth arall, gwahanol a chwanegol ydoedd, dewis pregethwyr i'w hordeinio yn weinidogion, a'u hawdurdodi i weinyddu y sacramentau; ac yr oedd y rhan fwyaf a dderbynid fel pregethwyr i undeb y gymdeithasfa yn cael eu gadael dros eu holl fywyd heb y cyfryw ordeiniad. Ond yr oedd y teimlad yn cryfhau er ys blyneddoedd fod y drefn hon yn ymddangos yn rhywbeth yn anghysson, gan, "os bernid fod brawd yn meddu pob cymhwysder i gael ei dderbyn yn y gymdeithasfa fel pregethwr i'r holl gorff, y gellid barnu ei fod yr un mor gymhwys i gael ar unwaith ei ordeinio yn weinidog yr efengyl." Golygid mai "yr amgylchiad neillduol o sylfaeniad y corff o Fethodistiaid yn Nhymru gan glerigwyr o Eglwys Loegr, a gweinyddiad y sacramentau ar y dechreu gan y cyfryw rai yn unig, a barodd nad oedd y pregethwyr ar eu derbyniad i'r gymdeithasfa i wasanaethu y cyfundeb yn gyffredinol yn cael eu hordeinio i holl waith y weinidogaeth; a chan fod yr amgylchiadau yn hyn wedi cyfnewid, fod hyny yn

galw am newidiad trefniadau" Felly, yn nghymdeithasfaoedd Gogledd a Deheudir Cymru, yn 1855 a 1856, penderfynwyd fod derbyniad pregethwyr i'r Gymdeithasfa, a'u hordeiniad i gyflawn waith y weinidogaeth, i fod yn gydfynedol o hyny allan. Yn ol y drefn newydd, rhaid i un fod yn bregethwr am bum mlynedd o fewn cylch Cyfarfod Misol ei sir cyn y bydd rhyddid i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa i'w ordeinio; ac y mae arholwyr cymmhwys wedi eu pennodi i holi yn fanwl y neb a gynnygier i'w hordeinio, am eu cyrhaeddiadau mewn gwybodaeth ysgrythyrol, ynghyd âg mewn canghenau o wybodaeth fuddiol yn gyffredinol.

Yn y Gymdeithasfa y bydd ordeiniadau y gweinidogion yn cymmeryd lle; ac y mae gwasanaeth yr ordeinio wedi bod, o'r dechreuad, yn weinyddiad tra difrifol. Er's ychydig flynyddoedd, caniateir i aelodau y cyfundeb, yn feibion a merched, fod yn bresennol ar y cyfryw achlysuron, hyd y byddo lle yn caniatau.

Yn nghyfarfod neillduol dydd diweddaf y Gymdeithasfa, trinir "pethau athrawiaethol, profiadol, a dysgyblaethol:"—o ba rai y ceir cofnodau yn y *Drysorfa*, cylchgrawn misol y cyfundeb. Pe cyhoeddid pigion o gofnodau yr amrywiol gymdeithasfaoedd a aethant heibio yn un llyfr, byddai yn gyfrol wir werthfawr, yn enwedig i eglwysi a theuluoedd y Methodistiaid.

Dygir gorchwylion y cynnadleddau yn mlaen yn rheolaidd a threfnus drwy wasanaeth cymmedrolwr ac ysgrifenydd. Bu raid i'r Parch. T. Charles, o'r Bala, am lawer o flynyddoedd, gyflawni y ddwy swydd yn mhob Cymdeithasfa Ogleddol y byddai ynddi, gan mor gymmhwys y cyfrifid ef at y naill waith a'r llall. Iddo ef y mae y frawdoliaeth Fethodistaidd yn ddyledus am y cofnodau rhagorol o'r "Cofnodau Cymdeithasfaol" a geir yn y llyfr cyntaf a'r ail o'r *Drysorfa Ysbrydol*. Dilynid ef fel ysgrifenydd y Gymdeithasfa gan y Parch. Cadwaladr Williams, Môn; yr hwn a gynnorthwyid am rai blynyddoedd gan y diweddar Barch. Humphrey Gwalchmai. Wedi hyny, bu y diweddar Barch. John Foulkes, Liverpool, yn ysgrifenydd, am tua deng mlynedd o amser; a bu y Parch. David Charles, y pryd hyny o'r Bala, ac ar ol hyny o Goleg Trefecca, am ychydig amser yn gyd-ysgrifenydd âg ef. Wedi iddynt hwy roddi y swydd i fyny, mewn Cymmanfa a gynnaliwyd yn Llanrwst, yn mis Rhagfyr, 1839, pennodwyd y Parch. Roger Edwards, Wyddgrug, iddi; ac er fod gwaith y swydd yn cynnyddu yn feunyddiol, etto fe'i cyflawnodd gyda deheurwydd neillduol am 35 o flynyddoedd. Wedi hyny llanwyd y swydd yn olynol gan y Parchn. G. Parry, o Fanchester; Thomas Owen, Porthmadog; William Williams, Corwen; ac R. H. Morgan, o Abermaw; ac yn nechreu y flwyddyn hon (1890), dechreuodd y Parch. T. Gwynedd Roberts, Rhostryfan, ar waith y swydd—yr hon swydd nid oes neb i fod ynddi, o hyn allan, yn ol penderfyniad y Gymdeithasfa, ond am dair blynedd yn unig. Ni chlywsom fod neb rhyw un yn bennodol yn ysgrifenydd y Gymdeithasfa yn Neheudir Cymru, hyd nes y gosodwyd y diweddar Barch. Ebenezer Richards yn y swydd yn 1813, yn ol cynghor y Parch. T. Charles, o'r Bala. Y Parch. W. Morris, Tŷ Ddewi, mewn pregeth angladdol i Mr. Richards, a ddywedai: "Fel ysgrifenydd y cymdeithasiad, yr ydoedd heb ei fath. Yr oedd gan Dafydd frenin Iehosaphat yn gofiadur, a Seraiah yn ysgrifenydd; ond mi feddyliwn nad oeddynt ill dau ynghyd ddim cymmaint a'n Ebenezer ni. Y pethau a drinid yn sathredig, efe a osodai bob aelod yn ei le, ac a ddarllenai y sylwadau yn y Gymdeithasfa nesaf, nes y byddai pawb wedi cael cyflawn daliad am eu trafferth i deithio i'r lle." Wedi marwolaeth Mr. Richards, yn 1837, pennodwyd y Parch. John Walters, Ystradgynlais, yn ysgrifenydd Cymdeithasfa y Deheudir; a pharhaodd yn y swydd hyd ddydd ei farwolaeth—yr hyn a gymmerodd le yn nechreu y flwyddyn 1869. Am rai blynyddoedd, bu y Parch. David Charles Davies, yn ysgrifenydd gyda Mr. Walters. Yn y cyfwng hwn llanwyd y swydd am flwyddyn gan y Parch. Thomas Phillips, gynt o Henffordd; ac yn y flwyddyn 1870, dechreuodd y Parch. Griffith Davies, Aberystwyth, ar waith y swydd; ac fe gyflawnodd yntau y gwaith yn ffyddlawn hyd y flwyddyn 1884. Ac o hyny hyd yn bresennol, y Parch. William James, Aberdâr, ydyw yr ysgrifenydd. Am rai blynyddoedd, bu y Parch. D. Charles Davies, yn ysgrifenydd gydag ef. Yn y Gogledd, ar ol marwolaeth Mr. Charles, y Parch. John Elias a ddewisid fynychaf yn gymmedrolwr y Gymdeithasfa. Y diweddar Barchedigion John Roberts, Llangwm; a'i fab—Michael Roberts, Pwllheli; Richard Lloyd, Beaumaris; Richard Jones, Wern; John Hughes, Pontrobert; John Jones, Tremadog; John Parry, Caerlleon; John Davies, Nantglyn; gyda rhai o'r brodyr sydd etto yn fyw, a welwyd hefyd yn llywio y Gymdeithasfa yn amser Mr. Elias, er nad mor fynych ag efe. Yr oedd ei barodrwydd ef i draethu ei feddwl yn gryno a grymus ar bob pwngc a ddygid ger bron, a'i flaenafiaeth ar ei holl frodyr fel pregethwr, yn rhoddi iddo ddylanwad mawr yn y Gymdeithasfa.

Yr oedd y dewisiad o lywydd yn cael ei wneuthur yn nechreu pob Cymdeithasfa:—yr hwn nid oedd, o angenrheidrwydd, i lywyddu ond yn y Gymdeithasfa hono yn unig. Ond teimlid anfantais, weithiau, oddi wrth y dull yma; o blegid yr oedd cwestiynau pwysig yn codi rhwng dwy Gymdeithasfa, nad oedd neb yn meddu awdurdod swyddol i weithredu tuag atynt. Mewn Cymdeithasfa yn Nghaerlleon, yn y flwyddyn 1855, penderfynwyd dewis llywydd am flwyddyn; ac yn Nghymdeithasfa y Bala, yn mis Mehefin, yn yr un flwyddyn, dewiswyd yn unfrydol y Parchedig Henry Rees i'r swydd. Yn y flwyddyn ganlynol, dewiswyd ei gydweinidog i'r swydd hon—sef, y Parch. John Hughes, Liverpool. Yna, bu y Parchn. David Jones, o Dreborth; Hugh Hughes, Abergele; Robert Hughes, Gaerwen; Lewis Edwards, o Bala; Owen Thomas, Liverpool; John Phillips, o Fangor, yn olynol yn llenwi y swydd o lywydd Cymdeithasfa Gwynedd; a dilynwyd hwythau gan frodyr eraill teilwng, y rhai a roddasant fri ar y gadair lywyddol, ac urddas ar weithrediadau y Gymdeithasfa. Y llywydd am y flwyddyn 1890 ydyw y Parch. W. Dickens Lewis, o'r Amwythig. Yn y Deheudir, ar ol y cedyrn cyntaf—sef, Harris, Rowlands, y ddau Williams, Jones o Langan; a David Morris, ac eraill—y rhai blaenaf yn y Gymdeithasfa oeddynt, Ebenezer Morris, Charles o Gaerfyrddin, John Evans o New Inn, ac Ebenezer a Thomas Richards. Yr oedd y rhai hyn, bob un o honynt, yn meddu ar ddoniau arbenig, priodol iddynt eu hunain, yn gystal ag ymddangosiad tywysogaidd. Yr oedd nerth Morris, craffder Charles,

Digitized by Google

melusder Evans, serchogrwydd y naill Richards a thanbeidrwydd y llall, mewn cydweithrediad hyfryd, yn arwain cynnadleddau y cymdeithasfaoedd, ac yn coroni eu hoedfaon cyhoeddus.

Dilynwyd hwythau hefyd gan y Parchedigion William Morris, Cilgerran; Morgan Howells, Casnewydd; David Howells, Abertawe, ynghyd â llawer eraill; y rhai a fuont yn arweinwyr diogel ac effeithiol yn Nghymdeithasfa y Deheubarth am lawer o flynyddoedd. Yn y flwyddyn 1865, dilynodd Cymdeithasfa y De esampl Cymdeithasfa y Gogledd, trwy ethol llywydd am flwyddyn; a'r gweinidog a ddewiswyd gyntaf i'r swydd oedd y Parch. David Howells, Abertawe; ac ar ol hyny, y Parchn. Thomas Phillips, Henffordd; William Evans, Ton-yr-efail; John Jones, Blaenanerch; a llanwyd y swydd gan weinidogion o safle uchel yn y cyfundeb o dymmor i dymmor hyd y flwyddyn hon. Y llywydd am 1890 ydyw y Parch. Evan Phillips, Castell Newydd yn Emlyn. Testynau trafodaeth yn y cymdeithasfaoedd yn benaf, fel y dywedwyd eisoes, ydynt y cenadwriaethau a gyflwynir o'r cyfarfodydd misol a'r henaduriaethau; ac adroddiadau a chynnygion o bwyllgorau pennodedig; ac nid ystyrir unrhyw achos yn cael ei ddwyn yn mlaen yn rheolaidd os na chyflwynir hyny o lys is:—oddi eithr fod yr achos mor bwysig nas gellir ei oedi; neu ynte fod yr achos, o ran ei natur, yn gyfryw nad ydyw yn dyfod o fewn goruchwyliaeth unrhyw gyfarfod misol na henaduriaeth. Heb law y cenadwriaethau neillduol a gyflwynir o'r cyfarfodydd misol a'r henaduriaethau, perthyna i waith y Gymdeithasfa ymddiddan â'r pregethwyr a ddewiswyd gan y cyfarfodydd misol i'w hordeinio, a threfnu ar gyfer eu neillduad i holl waith eu swydd gyssegredig—arolygu gweithrediadau y Cymdeithasau Cenhadol Cartrefol, Trysorfa y Gweinidogion, y Drysorfa Gynnorthwyol, yr Achosion Saesnig, yr Athrofeydd, y Gronfa Fenthyciol, yr Ysgol Sabbothol, materion o'r Gymmanfa Gyffredinol, bwrw golwg dros feddiannau y cyfundeb yn y Deheubarth ac yn y Gogledd, ac yn nhrefydd Lloegr; ac edrych i mewn i achosion o appel, &c. Yn gymmaint a bod gwaith y cymdeithasfaoedd, yn eu pethau allanol, wedi cynnyddu gymmaint yn ystod yr hanner canrif diweddaf, teimlid fod hyny yn cyfyngu yn ormodol ar bethau mwyaf ysbrydol teyrnas y Gwaredwr; a dadganai y tadau drachefn a thrachefn fod yn rhaid cael mwy o amser i ymdrin â phethau mwyaf hanfodol ac ysbrydol yr achos, pe byddai yn rhaid cyfyngu ar y pethau amgylchiadol. Er mwyn cael mwy o hamdden i ymwneyd â phethau pwysicaf yr achos, ac er mwyn perffeithio y gweinidogion a'r diaconiaid yn y cyflawniad o ddyledswyddau eu swydd, gwnaed ychydig o gyfnewidiad yn ddiweddar yn nhrefniad cyfeisteddfodau a chynnadleddau eraill y Gymdeithasfa. Er fod yr ychydig gyfnewidiad a wnaed yn cydredeg yn hollol â'r trefniad a wnaeth y tadau yn nechreuad bodolaeth y Gymdeithasfa, y mae y cyfnewidiad wedi arbed llawer o amser y Cymdeithasfaoedd, ac yn rhoddi mwy o le a mantais i bethau trymaf y deyrnas.

Er pan sefydlwyd y Gymdeithasfa, cadwyd yn wastad gyfarfodydd pregethu mewn undeb â hi. Yn y lle y cynnelir y Gymdeithasfa, bydd dau frawd yn pregethu y nos o'r blaen, fel ei gelwir; pregethir hefyd y prydnawn canlynol, a dydd olaf y Gymmanfa—am 6 o'r gloch yn y boreu, ac yna am 10, am 2, ac am 6 yn yr hwyr. Gwneir yn gyffelyb yn hyn, fel y mae'n hysbys, gan yr enwadau Ymneillduol eraill yn Nghymru. Mae y pregethu mewn cyssylltiad â'r cymdeithasfaoedd wedi bod yn foddion i ddwyn Methodistiaeth i sylw pob dosbarth yn mysg y genedl. Cynnhyrfid yr ardaloedd i ddyfod allan i wrandaw gair y bywyd; a mynych y caed tywalltiadau helaeth o'r gwlaw graslawn ar y "llwythau a ddaethant ynghyd." Yn y blynyddoedd a aethant heibio, dichon mai cymdeithasfaoedd Llangeitho a'r Bala oeddynt y rhai lliosocaf eu gwrandawyr; ond yn awr, y cymdeithasfaoedd a gynnelir yn sir Gaernarfon, a geir yn fwyaf poblogaidd. Cyfrifir y bydd y dyrfa ar y maes yn Mangor, Caernarfon, a Phwllheli, yn mhell dros ugain mil o bobl; a sicrheir fod ar y maes yn Nghymdeithasfa Bangor, yn mis Medi, 1859, sef blwyddyn y diwygiad, dros 30,000 o wrandawyr astud—a'r weinidogaeth yn effeithio yn ddwys arnynt. Dadleuir gan amryw nad oes yn yr amseroedd hyn ddim angen am gyfarfod mawr o bregethu, i gasglu pobl oddi yma ac oddi draw i wrandaw yr efengyl, gan fod yn awr gyflawnder o bregethu Sabbathol yn y capelydd drwy y wlad; yr hyn nad oedd pan y ffurfiwyd y cymdeithasfaoedd—fod llawer o annhrefn ac afreolaeth yn cydfyned yn rhy fynych â chynnulliadau mawrion i gymmanfaoedd—a chan fod achosion amgylchiadol yn cynnyddu mewn pwysigrwydd ac mewn amldra, y dylid cael mwy o amser yn y cymdeithasfaoedd i gynnal cynnadleddau neillduol. Ond dadleua eraill fod y niferi lliosog o bobl a gesglir ynghyd i'r prif gymdeithasfaoedd yn warogaeth i'r efengyl yn Nghymru, ac yn ogoniant arnom fel cenedl—fod rhywbeth, yn ddiau, mewn wyth neu ddeg o bregethau, gan weinidogion o ddoniau cymmhwys, fydd yn atteb i gyflwr ac amgylchiadau pob dosbarth o wrandawyr, tra y bydd gweled tyrfa fawr o'i flaen yn bywiogi ysbryd ac yn tynu allan holl ymadferthoedd y pregethwr—fod deddf yn natur plant dynion sydd yn eu gwneyd yn hoff o ddyfod ar achlysuron pennodol yn finteioedd at eu gilydd; ac y dylai crefydd ddefnyddio y fantais oddi wrth y duedd hon i godi ei baner i'r bobloedd—ac od oes afreolaeth i'w ganfod yn achlysurol mewn cyssylltiad â chynnulliadau i'r cymdeithasfaoedd mawr, mai nid y pregethu cyhoeddus yw yr achos o hyny; ac nad ydyw y camddefnydd o unrhyw beth, gan ychydig bobl mewn cymmhariaeth, yn milwrio yn erbyn y defnydd cyffredinol o hono. Boneddwr dyeithr, heb fedru gair o Gymraeg, wedi digwydd bod yn un o gymdeithasfaoedd Arfon, a dystiai ei fod yn synu wrth weled y miloedd pobl yn gwrandaw ar y maes—oll yn lanwaith ac yn daclus yr olwg arnynt, ac yn ymddwyn yn syml a gweddus. "Byddai yn ammhossibl," eb efe, "cael golwg fel hyn yn yr Iwerddon, ac yn dra anhawdd yn y rhan fwyaf o barthau Lloegr hefyd." Gwel yr erthygl nesaf.

CYMMANFA GYFFREDINOL Y METHODISTIAID CALFINAIDD. Llys uchel yn perthyn i'r cyfundeb hwn, a sefydlwyd yn lled ddiweddar, ydyw y cydgynnulliad yma. Fel y dywedwyd mewn erthygl flaenorol, y Cymdeithasfaoedd Chwarterol ydynt y llysoedd uchaf perthynol i'r cyfundeb yn y ddau ben i'r dalaeth lle y mae terfynau eu hawdurdod yn ymestyn. Ond gan fod dwy Gymdeithasfa yn cael eu cynnal bob chwarter—y naill yn y Deheubarth a'r

Digitized by Google

llall yn y Gogledd—yr oedd y Cymdeithasfaoedd hyn, trwy ymddieithriad graddol, yn dwyn eu trafodaethau yn mlaen heb fod nemawr o gyd-ddealltwriaeth rhyngddynt a'u gilydd. Y mae yn wir fod rhywbeth tebyg i undeb a chydweithrediad yn bodoli o hyd rhwng Methodistiaid y ddau ben i'r dalaeth; ac yr oeddid yn cadw at rai o'r hen drefniadau a sefydlwyd gyda'r amcan o gadw a chryfhau yr undeb hwnw. Yr oedd pedwar o weinidogion—dau o ddwy sir—i fyned o'r Gogledd i Gymdeithasfa y De; a'r un modd pedwar o siroedd y Deheubarth i fyned i Gymdeithasfa y Gogledd; ac yr oedd rhyw ffurf o undeb yn cael ei gydnabod trwy fod nifer dda o gyfeillion y Deheubarth yn cyfarfod yn Liverpool bob blwyddyn yn Nghymmanfa y Sulgwyn. Ond rhaid dyweyd mai undeb perthynas a chyfeillgarwch ydoedd, yn fwy nag undeb amcan, gweithgarwch, a nerth. Yr oedd arweinwyr llygadog y cyfundeb yn gweled angen am ryw drefniant i grynhoi eu galluoedd at eu gilydd, ac i unoli eu hamcanion gwasgaredig, a'u dwyn ynghyd, a'u ffurfio yn ychydig o amcanion mawr cyffredinol, er llesiant i'r holl gyfundeb, y genedl, a'r byd. Credai y tadau y buasai yn ddymunol cael llys cyffredinol, yn cynnwys cynnrychioliad teg o'r holl gyfarfodydd misol a'r henaduriaethau yn y De a'r Gogledd, i ymdrin âg achosion cyffredinol perthynol i'r holl gyfundeb. Gwnaed cais at hyn amryw weithiau trwy y Cymmanfaoedd Corphoredig a gynnaliwyd yn y flwyddyn 1840, ac yn y flwyddyn 1841, yn Llanidloes ac yn Aberystwyth. Ond gan nad oedd rhyw lawer o addfedrwydd at hyn yn y naill randir mwy na'r llall, y pryd hwnw, methiant, i raddau, a fu y symmudiad; ac ni wnaed unrhyw ysgogiad ar ol hyny tuag at ddim a fuasai, yn sylweddol, yn rhwymyn mwy o undeb a gweithgarwch am tuag ugain mlynedd. Pa fodd bynag, yr oedd rhai cwestiynau cyffredinol yn prysur wthio eu hunain i sylw; sef, y Genhadaeth Dramor, yr Athrofeydd, llenyddiaeth ac ystadegaeth y cyfundeb, mesurau seneddol, &c., fel yr oedd yn hawdd canfod y buasai yn rhaid i arweinwyr y cyfundeb yn y rhandiroedd Deheuol a Gogleddol gydgyfarfod cyn hir mewn llys eglwysig mwy cyffredinol; sef, y cyfryw un ag yr oedd amgylchiadau yr amseroedd yn galw am ei sefydlu ynglŷn â'r cyfundeb. Cafodd y symmudiad am fwy o undeb ei gychwyn eilwaith yn Nghymdeithasfa Castell-newydd-ynemlyn, yn mis Awst, 1861. Anfonwyd hyn yn genadwri i Gymdeithasfa y Gogledd, sef i Wrecsam, yn mis Rhagfyr yn yr un flwyddyn; a chafodd y cwestiwn ei drafod yn bwyllog am flwyddyn neu ddwy mewn amryw o gymdeithasfaoedd yn y ddau randir ar wahân. Pennodwyd saith o frodyr mwyaf dylanwadol y Gogledd i gyfarfod â'r un nifer o'r brodyr mwyaf dylanwadol yn y De; a chanlyniad yr holl drafodaeth a'r ymgynghoriad ydoedd, penderfynu sefydlu y llys a elwir 'Cymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd;' yr hwn benderfyniad a gadarnhawyd yn wresog gan y ddwy Gymdeithasfa.

Cynnaliwyd y Gymmanfa Gyffredinol gyntaf yn Abertawe, Mai 3ydd, 4ydd, a'r 5ed, 1864. Llywydd—y Parch. Henry Rees, Liverpool; ysgrifenydd—y Parch. William Williams, Abertawe. Cynnaliwyd yr ail Gymmanfa yn Liverpool, Mai 1af, 2il, 3ydd, a'r 4ydd, 1865. Y llywydd oedd y Parch. T. Phillips, o Henffordd; a'r ysgrifenydd—y Parch. John Hughes, o Liverpool. Cynnaliwyd y drydedd yn Aberystwyth, Mai 28ain, 29ain, 30ain, a'r 31ain, 1866. Llywydd—y Parch. Lewis Edwards, o'r Bala; a'r ysgrifenydd—y Parch. Griffith Davies, o Aberystwyth. Cynnaliwyd y bedwaredd yn Llanidloes, Gorph. 22—26ain, 1867. Y llywydd oedd y Parch. David Howells, Abertawe; a'r ysgrifenydd, y Parch. Daniel Rowlands, o Lanidloes. Y mae y Gymmanfa yn cael ei chynnal yn flynyddol—yn y De, a'r Gogledd, a Liverpool yn ei thro:—y lle i'w benderfynu yn y Gymmanfa flaenorol. Pan y bydd y gynnrychiolaeth yn gyflawn: a phan y bydd y rhai sydd wrth eu swyddi, ac yn ol eu safle yn aelodau o'r Gymmanfa, oll yn bresennol, bydd dros gant a hanner o weinidogion a diaconiaid ynghyd. Dewisir llywydd am flwyddyn, bob yn ail gan y De a'r Gogledd; ac etholir dau ysgrifenydd, un o'r De ac un o'r Gogledd, y rhai sydd i barhau yn eu swydd am ddwy flynedd:—y swyddogion hyn i'w dewis trwy bleidlais ddirgel. Yn raddol y perffeithiwyd trefniadau y Gymmanfa; ond erbyn hyn, ystyrir fod y trefniadau gogyfer â gwaith y Gymmanfa, a dygiad y gwaith hwnw yn mlaen, yn lled orphenedig. Y mae y Gymmanfa Gyffredinol, o flwyddyn i flwyddyn, fel y maen tynu (*magnet*), yn tueddu i lusgo llawer o waith i'w gafaelion; ac nid oes derfyn, bron, ar ei gorchwylion, fel y dengys y llyfryn a gyhoeddir bob blwyddyn, yn cynnwys amlinelliad o'i gweithrediadau. Yn mysg pethau eraill, y mae yn perthyn i alwedigaeth y Gymmanfa adolygu gweithrediadau y Genhadaeth Dramor, bwrw golwg dros gylch-gyhoeddiadau y cyfundeb, a lledaeniad y llyfrau a berthynant iddi, gwneuthur ymchwiliad i ystadegau y cyfundeb, yr Ysgolion Sabbathol, yr achos dirwestol, yr achosion Saesnig, yr arholiad ar ymgeiswyr am ordeiniad i gyflawn waith y weinidogaeth, a meddiannau y cyfundeb, a'r gymdeithas yswiriol a berthyn i'r cyfundeb, &c. Y mae y pwyllgorau sydd yn dal perthynas â'r achosion hyn, ac achosion eraill sydd yn fynych yn dyfod i sylw, yn lleng o ran rhifedi.

Yr oedd gradd o wrthwynebiad yn y dechreu i'r gallu newydd hwn, sef y Gymmanfa Gyffredinol, oedd yn cael ei ddwyn i mewn ynglŷn â'r cyfundeb. Credid gan rai nad oedd angen am y llys chwanegol hwn; a thybiai eraill fod y peth yn anghyfansoddiadol. Ac ofnai eraill y byddai i eiddigedd a gwrthdarawiad godi rhwng y Gymmanfa a'r Gymdeithasfa, megys rhwng addolwyr y deml yn Jerusalem gynt ac addolwyr Mynydd Garizim. Ond gwelwyd yn fuan fod yr ofnau oll yn ddisail; a barn unfrydol y cyfundeb, erbyn hyn, ydyw fod y Gymmanfa Gyffredinol yn sefydliad ag yr oedd mawr angen am dani. Ac y mae y ddau lys, sef y Gymdeithasfa a'r Gymmanfa, mewn cydgordiad hapus, ac yn cydweithio yn drefnus, ac yn effeithiol: a diau y gwelir yn eglurach etto mai symmudiad oedd hwn yn yr iawn gyfeiriad, ac nas gallesid ei oedi yn hwy. Y mae'n debyg hefyd, y gwelir yn angenrheidiol, cyn hir, gwneuthur y Gymmanfa Gyffredinol yn llys uchaf y cyfundeb—megys ag y mae y cyffelyb sefydliad sydd yn perthyn i gyfundebau eraill.

Dyma swm casgliadau blynyddol y cyfundeb, a nifer y cymmunwyr a'r gwrandawyr:—

| Blwyddyn. | | Cymmunwyr. | | Gwrandawyr. | | Cyfan. y Casgliadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1870 | ... | anhysbys | ... | anhysbys | ... | 108,564 | 6 | 10 |
| 1880 | ... | 118,979 | ... | 276,189 | ... | 157,348 | 10 | 3 |
| 1885 | ... | 129,401 | ... | 278,039 | ... | 172,012 | 0 | 8 |
| 1889 | ... | 134,239 | ... | 283,629 | ... | 182,066 | 17 | 3 |

Digitized by Google

CYMMRODORION, CYMDEITHAS Y. Sefydlwyd Cymdeithas y Cymmrodorion yn mis Medi, 1751, gan "Wŷr o Gymru trigiannol yn Llundain, o wir gariad at eu gwlad, er parchedigaeth i enw'r Brutaniaid, ac er mwyn ymgeledda a diwyllio'r Frutaniaeth, a chwilio allan Hynafiaeth;" gan, ar yr un pryd, "gynnal o honynt gyttundeb a theuluedd di-dor yn eu plith eu hunain, a chariad perffaith ac ewyllys da tuag at holl ddynolryw." Yn ben-llywydd ar y Gymdeithas, enwyd William Fychan, o Gors-y-Gedol—yr aelod seneddol y pryd hwnw dros sir Feirionydd; ac yn îs-lywydd, Richard Morris, o swyddfa'r llynges—un o Forrisiaid Mon. Bardd y gymdeithas hon oedd Goronwy Owain; ac efe a ganodd ei Chaniad cyntaf. Casglodd y gymdeithas lawer o ysgrifau ac o lyfrau Cymreig. Cefnogodd lenyddiaeth yn helaeth, a chyfarfyddodd a'i diwedd wrth geisio gwneuthur mwy na'i gallu ynglŷn â chyhoeddiad un o weithiau trymion Thomas Pennant.

Wedi ysbaid o yn agos i hanner canrif, yn mis Mehefin, 1820, ail sefydlwyd y gymdeithas—yn benaf trwy offerynoliaeth y Dr. William Owen Pughe a John Humphreys Parry, golygydd y *Cambro-Briton*. Etholwyd Syr Watkin W. Wynn, Bar., A.S., o Wynnstay, yn llywydd. Prif amcan y gymdeithas hon ydoedd noddi a chadw gweddillion hynafol cenedl y Cymry; a chefnogi, yn mhob rhyw fodd, ddiwylliant llenyddiaeth Gymreig. Bu yn llwyddiannus i fesur mawr. Sefydlwyd cyffelyb gymdeithasau yn Ngwynedd a Phowys; a thrwy eu hofferynoliaeth hwy, a chynnorthwy y fam-gymdeithas, fe gafwyd adfywiad eisteddfodol yn Nghymru. Ond yn mhen rhyw dair neu bedair blynedd ar ddeg, fe ballodd yni a bywiogrwydd y gymdeithas hon drachefn; a'r diwedd fu, ei dirwyn i fyny, a throsglwyddo ei heiddo (etifeddol, gan mwyaf, ac wedi ei gadw yn yr Ysgol Gymreig yn Gray's Inn Lane) i ofal ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig.

Daeth yr ysbrydiaeth, y drydedd waith, drachefn; ac yn Nhachwedd y flwyddyn 1873, fe osodwyd y gymdeithas ar ei thraed unwaith yn rhagor. O hyny hyd yn awr (1890), y mae hi yn parhau yn fywiog a gweithgar i gyrhaedd amcan ei bodolaeth; sef, gwella addysg, a hyrwyddo diwylliant meddyliol mewn llenyddiaeth, celf, a gwyddor yn Nghymru. Yn ei chyssylltiad â'r Eisteddfod Genedlaethol, y mae wedi bod yn foddion i sefydlu amryw gymdeithasau gweithgar a chenedlgarol eraill:—yn eu plith, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas y Cerddorion Cymreig, a Chymdeithas yr Eisteddfod. Tra yn gweithio fel hyn, â'i golwg ar y dyfodol, nid ydyw wedi bod yn anffyddlawn i'w hen arwyddair—"Cared doeth yr encilion."

CYMMAL—AU—IAD. Y gair a ddynoda undeb y gwahanol esgyrn yn y corph yw cymmaliad (rheddiad, pencnawiad=*articulation*). Pa mor dŷn neu lac bynag y dichon fod y cyssylltiad rhyngddynt, ac yn mha ddull bynag y gall yr undeb fod yn cael ei effeithio, gelwir y cyfuniad wrth yr enw hwn. Yn gyffredin, fel cyfryngau trwy ba rai y sicrheir ac y diogelir y cyssylltiad, y mae dau sylwedd yn cael eu defnyddio; sef, yn gyntaf, cymmhlethwe pilenaidd cryf, cadarn, a elwir y gewyn-cysswllt (*ligament*); a gellir ystyried hwn fel y rhwymyn sydd yn cylymu yr esgyrn ynghyd. Y fath ydyw cryfder y llinynau hydwyth hyn, fel y torir esgyrn yn fynych iddynt gael eu dryllio, na'u niweidio. Hefyd, y mae penau yr esgyrn hyny sydd yn terfynu mewn cymmalau wedi eu gorchuddio â sylwedd llyfn, claerwyn, a chaled iawn, a elwir madrudd neu mwythan (*cartilage*), gorchuddiedig â philionen dyner, deneu, a elwir yn bilionen rheddolewig (*synovial membrane*). Heb law fod y mwythau yn gwasanaethu fel rhwymynau undeb rhwng yr esgyrn, y mae y bilionen uchod hefyd yn cyflwyno hylif olewaidd i'r cymmalau; ac felly, dros ystod yr oes, cedwir yr aelodau rhag pob niwed a all ddeilliaw oddi wrth eu hymrwbiad yn eu gilydd yn eu hysgogiadau a'u symmudiadau y naill ar y llall.

O holl ranau y cyfansoddiad anifeilaidd, nid oes un a rydd arddangosiad eglurach o gelfyddwaith prydferth na chyssylltiad yr esgyrn â'u gilydd—yn enwedig yn ffurfiad y cymmalau.

1. Un amcan i'w gyrhaedd trwy gyfuniad esgyrn ydyw cael lle diogel i gyfleu rhanau mwyaf tyner y cyfansoddiad. Yn unol â'r amcan hwn, trefnir esgyrn yn fynych fel ag i amgylchu ceuleoedd (*cavities*); oddi mewn i ba rai y gosodir y peiriannau y mae yn rhaid iddynt wrth amddiffyniad. Er esampl, cymmerer ceule y pen. Y mae hwn yn cau o amgylch sylwedd tyner yr ymenydd. Felly hefyd am geule asgwrn y cefn, yr hwn a amgylcha ac a amddiffyna sylwedd arall, yr un mor dyner; sef, madruddyn y cefn (*spinal marrow*). Yr un modd am geuleoedd y ddwyfron, a'r is-fol. Y mae wedi eu cau o'u mewn hwythau, hefyd, beiriannau tyner iawn, a meddal; ar ddiogelwch pa rai y mae y bywyd yn dibynu. Yn gyffredin, cyfunir yr esgyrn a ffurfiant geuleoedd o'r dosbarth hwn mor gadarn fel na chaniatânt un ysgogiad o gwbl—neu, o'r hyn lleiaf, ond ychydig iawn—gan y gwneir yr uniad, weithiau, trwy ddodiad arwynebedd esgyrn cryfion a gwastadlyfn ar eu gilydd. Brydiau eraill, y mae yn cael ei wneyd trwy ffurfiad llawer o gnyciau a phantiau; a'r rhai hyny y naill yn derbyn y llall iddo ei hun. Ceir esamplau o'r ddau fath yma o undeb yn nghymmaliadau esgyrn y pen, a'r wyneb. Weithiau, mwyheir cryfder a chadernid y cyfuniad trwy fod bylchau a chnapiau, megys dannedd llif, wedi eu ffurfio bob yn ail ar wynebau esgyrn, ac arwynebedd y naill asgwrn wedi ei fanwl a'i gymmhwys gyfaddasu i arwynebedd y llall. Trwy y celfyddwaith hwn, gyrir yr esgyrn yn dŷn i'w gilydd. Mewn amgylchiadau eraill, ffurfir trum mewn un asgwrn, yr hwn a dderbynir i agen wedi ei gafnu mewn un arall. Enghraifft o'r math yma o undeb a geir yn y medfur sydd yn gwahanu y ffroenau. Ond sicrheir y dannedd yn eu tyllau hwy yn debyg iawn fel y diogelir hoel mewn bwrdd; hyny yw, y mae eu ffurfiad conigol (*conical*) yn cael ei dŷn-wasgu yn ddiogel mewn ceule.

2. Y cymmaliadau *symmudol*, neu ysgogiadol, ydyw y rhai y mae yr esgyrn yn cydgyfarfod ac yn cydgyffwrdd ynddynt, ond heb fod yn un â'u gilydd chwaith. Y cyfryw, er enghraifft, ydyw undeb y fraich â'r ysgwydd, yr iselin â'r fraich, yr arddwrn â'r llaw, yr ên isaf â'r pen, y pen â'r corph, ac felly yn mlaen. Yn yr amgylchiadau hyn, y mae arwyneb y cymmaliadau wedi eu cyfaddasu bob un i'w gilydd—un yn argrwn (*convex*), a'r llall yn wrthgrwn neu gafnog (*concave*), yn gyffredin: a delir yr esgyrn yn eu lleoedd gan y llinynau cryfion a ddisgrifiwyd uchod wrth yr enw 'cysswllt-ewynau.' Dibyna nerth cymmal, ac ëangder cylch ei ysgogiad hefyd, yn

Digitized by Google

benaf ar faint arwynebedd yr esgyrn ynddo, ac ar drefniad y sylwedd cydrwymol, trwy yr hwn y mae yr esgyrn yn cael eu dal yn eu lle. Y mae graddau y cydgyssylltiad cyfarfyddol, a nerth, trefn, a chyfaddasiad y rhwymyn sydd yn cyfuno, yn gwahaniaethu yn mhob cymmal gwahanol, a'r amrywiaeth yn cael ei reoleiddio gan natur a graddau yr ysgogiad y bwriedir i'r cymmal ei gyflawnu. Y mae y coesau a'r breichiau wedi eu cyssylltu wrth y corff gan gymmal pel a chafn (*ball and socket-joint*)—math o gyfuniad yn caniatau yr ysgogiad rhwyddaf sydd yn bosibl. Ar y llaw arall, colgymmal (*hinge-joint*) sydd i ben y glin, y penelin, a'r ffêr, yr hwn ni oddef ond ysgogiad ol a blaen mewn un cyfeiriad gwastad yn unig; ond er fod symmudiadau y cymmalau yma fel hyn i ryw raddau yn gyfyngedig, a than gaethiwed mewn ystyr, y mae er hyny fwy o fanylrwydd prydferth yn cael ei sicrhau. Yn ei symmudiadau o le i le, ymgynnal y corff dynol ar un neu ddwy goes, ac o ran rheolau ac egwyddorion ei ymsymmudiad, gwahaniaetha oddi wrth y rhan fwyaf o greaduriaid ereill. Gellir sylwi, pan y cymmer ymsymmudiad le, y rhaid i graidd dysgyrchiad y corff gael ei ddwyn yn is nag y mae pan y saif dyn yn unionsyth; ac er mwyn hyn, y mae i'r coesau dri chymmal. —Y cyntaf o'r rhai hyn sydd yn eu cyssylltu â'r corff; yr ail yw colgymmal pen y glin; a'r trydydd ydyw cymmal y ffêr; ac y mae hwn yn ei ffurfiad mewn rhan yn cyfranogi o ysgogiad colynaidd pen y glin, ond i ryw raddau y mae yn gallu ysgogi yn gyfochrol hefyd. Gyda golwg ar y tri chymmal hyn a berthynant i'r goes, nid yw y cyntaf, neu gymmal pen uchaf y clun, yn caniatau iddi ond yn unig symmud yn mlaen; yr ail, neu gymmal pen y glin, nid yw yn goddef iddi ond symmud yn ol; ond y trydydd, neu y ffer, yn ol neu yn mlaen.

3. Y mae hefyd gymmaliad a elwir yn "*gymmysg*," am fod graddau o'r hyn sydd briodol i bob un o'r ddau gyntaf yn perthynu iddo. Yn gymmaint ag y cyssylltir yr esgyrn ynddo gan sylwedd cyfryngol (madrudd=*cartilage*), y mae yn dwyn tebygolrwydd i'r ansymmudol; ond yn debyg hefyd, o'r tu arall, i'r symmudol trwy ei fod yn caniatau rhyw radd o ysgogiad rhwng yr wynebau. Anghreifftiau o'r math yma o undeb a geir yn y cymmaliadau rhwng yr amrywiol esgyrn a gydgyssylltir yn ffurfiad asgwrn y cefn. Y mae hwn wedi ei wneyd i fyny o gyfres hir o esgyrn, ac yn gweithredu megys gwif neu drosol hyblyg, er attegu a chynnal y pen, y gwddf, a'r corff, gan ffurfio y ddolen gyssylltiol rhwng amrywiol ranau y corff. Er ateb y dyben hwn, y mae symmudiadau amrywiol esgyrn y cefn y naill ar y llall yn cael eu cyfyngu a'u cadw o fewn terfynau; ond am asgwrn cefn dyn yn yr oll o hono, y mae yn feddiannol ar gryn lawer o ryddid i ysgogi; ac am hyn, mae yn ddyledus i'r nifer lluosog o gymmalau sydd iddo—y rhai, o'r pen hyd ran isaf y llwynau, ydynt yn bedwar ar ugain mewn rhifedi. Y mae pob asgwrn yn y cefn wedi ei gylymu mor sad a sefydlog â chysswllt-ewynau wrth yr un uwch ei ben ac oddi tano, a'i ffurf hefyd wedi ei lunio i ymgloi yn yr esgyrn nesaf ato, fel mai nid nerth a grym cyffredin a'u daduna; yn wir, y mae esgyrn y cefn wedi eu cydrwymo a'u cydgloi mor gedyrn fel nad oes dim ond gallu a grym digonol i doryllio corff yr asgwrn ei hun a all effeithio i'w gwahanu oddi wrth eu gilydd. Gan hyny, y mae derbyn archoll neu niwed o'r fath yma yn un o'r anffodion mwyaf a ddichon gyfarfod â dyn, ac nis dichon iddo lai na phrofi yn angeuol i'r neb a'i caffo.

CYMMANFA, [cymman—ma; *convocation*, *assembly*]: cynnulliad o bobl, tyrfa. Wrth y gair *cymmanfa* yn gyffredin, yn y Beibl, y meddylir cynnulleidfa wedi dyfod yn nghyd er addoli neu gyflawnu gwasanaeth crefyddol. *Exod.* xii. 16; "Ar y dydd cyntaf hefyd y bydd i chwi gymmanfa sanctaidd:" Heb., מקרא; gair o gyffelyb ystyr i'r Groeg *ἐκκλησῖα*, a gyfieithir yn gyffredin *eglwys*, sef cynnulleidfa wedi ei galw neu ei chasglu yn nghyd. Yn *Lef.* xxiii, defnyddir y gair "cymmanfa," a "chymmanfeydd," am y cynnulliadau ar wyliau yr Arglwydd, y rhai a gyhoeddid yn eu tymmor. Pan y mynai Iehu mewn cyfrwys dra gasglu yn nghyd holl addolwyr Baal i dŷ y duw hwnw, fel y dyfethai efe hwynt, ei orchymyn oedd, "Cyhoeddwch gymmanfa sanctaidd i Baal;" 2 *Bren.* x. 20. "Yn nghymmanfa y rhai uniawn" (בסוד = yn y gymmanfa gyfrinachol)—y cyfarfodydd crefyddol neillduol: *Salm* cxi. 1. "Cymmanfa anffyddloniaid" (*Ier.* ix. 2)—pobl yn y cyfanswm o honynt wedi anghofio yr Arglwydd, a bod yn anffyddlawn i'w Duw, gan fyw mewn ffieidd-dra ac anfoes: gwell oedd aros yn yr anialwch mewn ogof neu fwthyn y gallasai rhyw deithiwr ar ei ffordd fod wedi ei godi neu ei drefnu yn lletty dros noswaith, na thrigo yn mhlith y cyfryw rai. "Cymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig;" *Heb.* xii. 23. Gwel *Barnes* ar *Heb.* xii. 22, 23.

CYMMANFA EGLWYSIG, [*Convocation*]: cydgynnulliad o glerigwyr yr Eglwys Sefydledig, yn Lloegr a Chymru, dan awdurdod gwyslythyr (*writ*) y brenin, yr hwn a ymgyferfydd ar ddechreuad pob senedd-dymmor newydd. Allan o swyddfa y goron yr anfonir y gwyslythyrau yn gorchymyn ymgynnull mewn cymmanfa, a chyfeirir hwy at archesgobion Caerefrog a Chaergaint.

Gan fod cryn debygolrwydd mewn rhai ystyriaethau rhwng cymmanfa clerigwyr Eglwys Loegr a'r cynghorfaau taleithiol a'r cyfarfodydd o offeiriaid a ddeuent at eu gilydd er trafod materion perthynol i'w llwydd a'u lles hwy eu hunain a'r eglwys, y rhai oeddynt dra chyffredinol er yn fore mewn gwledydd Cristionogol, gellid tybied fod y gyntaf wedi derbyn ei hanfodiad oddi wrth y diweddaf. Ond y mae ysgrifenwyr ar y mater yma yn olrhain y gymmanfa eglwysig i beth arall mwy penodol, yn dwyn perthynas mwy neillduol â gwlad y gymmanfa ei hun. Tybir i'r clerigwyr gael eu cynnull at eu gilydd fel hyn yn y dechreu trwy awdurdod y brenin, er mwyn iddynt hwy eu hunain benodi rhyw symiau penodol o drethi i'w talu ganddynt, ar amser pan yr oeddynt yn dadleu dros fod yn rhydd oddi wrth y trethiad cyffredinol a osodid ar y wlad trwy awdurdod y senedd. Fel llawer ereill o faterion perthynol i hanes cyfansoddiad y deyrnas sydd yn ymestyn tu hwnt i amser Edward I., y mae ansicrwydd a dirgelwch lawer yn amgylchynu y pwnc yma, a dichon mai tybiaeth wedi ei chasglu oddi wrth debygolrwydd yw y farn uchod, yn hytrach na thystiolaeth sicr o ran y prawf a'r dilysrwydd o honi. Dywed rhai y gellir olrhain y gymmanfa eglwysig hyd amser y brenin John; ond y golygiad mwyaf cyffredin ydyw, mai y gyntaf oedd yr un a wysiwyd yn y flwyddyn 1295, yn ystod teyrnasiad

Digitized by Google

Edward I., i'r dyben, meddir, o fynu cyflenwad o arian gan y clerigwyr trwy eu cynnrychiolwyr. Yr oedd Edward wedi trethu yr offeiriadaeth yn drwm iawn yn 1294; ac, yn hytrach na mynychu yr un weithred, tybiodd mai gwell fyddai tynu o honynt ryw gymmaint o arian, os gellid, heb eu croesi drwy hyny.

Yr oedd y clerigwyr yn anfoddlawn i ufuddhau i wyslythyr y brenin, a orchymynai iddynt ddyfod yn nghyd mewn cymmanfa; am hyny, y brenin a anfonodd ei wyslythyr at archesgobion Caergaint a Chaerefrog, a hwythau a anfonasant lythyrau at glerigwyr eu gwahanol daleithiau, yn eu gwysio yn nghyd, fel y talent arian porth (*subsidy*) i'r brenin. Fel hyn, yr oedd dwy gymmanfa eglwysig—un i dalaeth Caergaint, a'r llall i dalaeth Caerefrog. Cynnwysai cymmanfa eglwysig Caergaint ddau dŷ—y tŷ nchaf o esgobion ac archesgobion, a'r tŷ isaf o ddeoniaid, archddeoniaid, a phrwyaduron (*proctors*) y clerigwyr. Yn nghymmanfa eglwysig Caerefrog, ni chyfansoddai (neu ni chyfansodda) yr holl aelodau ond un tŷ yn unig.

O'r amser hwnw hyd y flwyddyn 1663, trethid gwŷr llên, ar gyfer eu tiroedd a'u bywiolaethau, mewn cymmanfa eglwysig; ac nid oedd rhoddion yr offeiriaid o arian porth yn gofyn un cadarnhâd amgen na chydsyniad y brenin, at wasanaeth yr hwn yr oeddynt yn myned. Ar ol amser Harri VIII. cadarnheid y rhoddion yn wastad trwy weithred seneddol. Fel hyn, ymddengys fod tarddiad y gymmanfa eglwysig yn debyg i ddechreuad Tŷ y Cyffredin:—amcan cyntaf y gymmanfa oedd caniatau a rhoddi arian. Trwy yr 8fed Harri VI. pen. i., caniateir i'r holl glerigwyr hyny a elwir i'r gymmanfa eglwysig trwy wyslythyr y brenin, pan yn dyfod, yn aros, ac yn dychwelyd—hwy, eu ceraint, eu cyfeillion, a'u gweision—fwynhau yr un rhyddid a'r cyffredinwyr a elwir i'r senedd. Yr oedd cymmanfaoedd eglwysig Caergaint a Chaerefrog yn gwbl annibynol y naill ar y llall, ac ni byddent bob amser yn caniatau yr un neu gyfartal swm o arian. Yn yr ail flwyddyn ar ugain i Harri VIII., caniataodd cymmanfa Caergaint gan mil o bunnau i'r brenin; ac, fel cydnabyddiaeth am y rhodd hon, pasiwyd deddf seneddol, yn caniatau i'r clerigwyr faddeuant rhad am bob troseddau ysbrydol, ond yn cynnwys ammod na byddai i'r maddeuant hwnw gyrhaedd hyd dalaeth Caerefrog, os nad amlygai y clerigwyr yr un haelioni.

Pan y gelwid yn nghyd y cyfryw gymmanfa, dan awdurdod uniongyrchol y goron, yr oedd yn naturiol i faterion eglwysig gael eu dwyn yn mlaen, eu trafod, ac, mewn rhai amgylchiadau, eu penderfynu ganddi. Yr hen athrawiaeth oedd, na byddai gan y gymmanfa eglwysig awdurdod ond mewn materion ysbrydol yn unig, ac nad oedd iddi feddu un hawl i osod rhwymau ar neb ond gwŷr eglwysig.

Pa fodd bynag, yr oedd yn nwylaw y goron bob amser y gallu i oruchreoli y gymmanfa hon, trwy fod ganddi hawl i'w gohirio a'i dadgorffori. Ond yn amser y Diwygiad, pasiwyd deddf [25 Harri VIII. pen. 19] oedd mewn modd arbenig yn cymmeryd oddi ar y gymmanfa eglwysig y gallu i gyflawnu un weithred o fath yn y byd heb drwydded y brenin. Dywed y ddeddf hono nad yw y "clerigwyr, na neb o honynt, o hyn allan byth i feiddio na cheisio hòni, hawlio, na rhoddi mewn arfer, ddim sefydliadau neu ordeiniadau taleithiol neu gymmanfaol, neu unrhyw ganonau ereill; ac na byddo iddynt chwaith ddeddfu, lledaenu, nac ymarfer dim o'r fath ganonau, sefydliadau, neu ordeiniadau taleithiol, pa enw neu enwau bynag y dichon iddynt gael eu galw wrthynt, rhag llaw yn eu cymmanfaoedd, y rhai, bob amser, a gesglir yn nghyd trwy awdurdod gwyslythyr ei fawrhydi, oddi eithr i'r cyfryw glerigwyr dderbyn trwydded arddercheocaf y brenin."

Trwy ddeddf a basiwyd yn 1665 [16 a 17 Siarl II. pen. i], rhwymwyd y clerigwyr i dalu treth yn yr un modd yn hollol a'r gwŷr lleyg; ond cawsant eu rhyddhau oddi wrth y taliad o arian porth a ganiateid gynt mewn cymmanfa eglwysig. Er fod y ddeddf hon yn gadael yn nwylaw y clerigwyr yr hawl o'u trethu eu hunain mewn cymmanfa eglwysig, os tybiant hyny yn addas, ni cheisiwyd gwneyd hyny erioed; ac yn awr, y mae y gwŷr llên a'r gwŷr lleyg yn gymhwys ar yr un tir gyda golwg ar drethiad. Yn lle cael eu cynnrychioli yn nhy isaf y gymmanfa eglwysig, cynnrychiolir y clerigwyr yn awr yn nhy cyffredin y senedd—nid, pa fodd bynag, fel corff eglwysig, ond fel dinasyddion a gwladwyr: gallant bleidleisio yn newisiad aelod, o herwydd eu meddiannau eglwysig, neu yn rhinwedd unrhyw gymhwysder arall sydd ganddynt, yr un modd a'r gwŷr lleyg.

Bu gan benderfyniadau cymmanfa talaeth Caergaint bob amser ddylanwad mawr yn nghymmanfa Caerefrog; ac y mae y ddwy ar brydiau wedi bod yn gweithredu fel un, naill ai trwy gydsynio â'u gilydd ar y pethau yr oedd angen am eu trafod, neu, trwy anfoniad dirprwywyr o dalaeth Caerefrog i gymmanfa eglwysig Caergaint. Y mae yn ymddangos nad oedd yn y gymmanfa hono, lle y sefydlwyd y Gosodiadau a'r Canonau Eglwysig, yn y flwyddyn 1603—un o'r rhai pwysicaf o'r cymmanfaoedd—ond dirprwywyr o dalaeth Caergaint yn unig; eithr y mae cadarnhâd a chymmeradwyaeth y brenin o'r canonau a wnaed ar y pryd wedi peri eu bod mewn grym yn nhalaeth Caerefrog hefyd. Ni chyflawnwyd dim gwaith amgen na myned trwy ffurfiau mewn cymmanfa eglwysig er y flwyddyn 1741.

Bu diddymiad ymarferol y gymmanfa eglwysig yn achos o gryn gyfnewidiad. Gellir edrych arno fel yn perffeithio buddugoliaeth yr awdurdodau gwladol ar yr awdurdodau eglwysig yn Lloegr. Yn awr, nis gall y clerigwyr wneuthur dim canonau a fyddant yn rhwymedig hyd yn oed ar eu hurdd eu hunain, heb ganiatâd y goron; hyny yw, gweinidogion y goron; ac y mae yn sicr, am ba ganonau bynag y dichon iddynt eu gwneuthur, hyd yn oed gyda thrwydded y goron, na byddant yn rhwymedig ar y gwŷr lleyg. Mewn gwirionedd, fel y dengys deddf dysgyblaeth yr Eglwys, senedd Prydain sydd yn awr yn gwneyd deddfau a chanonau i'r clerigwyr. Y mae Eglwys Loegr heddyw yn gwbl dan awdurdod y senedd, heb fod ganddi un llais yno, ond yn unig mainc yr esgobion yn Nhŷ yr Arglwyddi, y rhai y gellir mewn rhyw ystyr eu hystyried fel yn cynnrychioli yr eglwys hono.

Ond er nad yw y gymmanfa eglwysig bellach ond peth diddym, y mae bob amser wedi bod yn arferiad, a pharhâ felly hyd y dydd hwn, pa bryd bynag yr ymgynnull senedd o'r newydd, i wysio yn nghyd y clerigwyr i gyfarfod mewn cymmanfa. Cyflawnir y ffurf o etholiad yn yr esgobaethau; ac yn gyffredin, cynnelir cyfarfod talaeth Caergaint yn eglwys St. Paul, pryd yr eir hefyd trwy y ffurf o ethol proliad, neu lefarydd. Fel

Digitized by Google

y dywedwyd o'r blaen, anfonir gwyslythyr y brenin at yr archesgobion, yn gorchymyn iddynt wysio yr esgobion a'r offeiriaid israddol. Mewn ufudd-dod i'r llythyr uchod, enfyn yr archesgobion wys at yr esgobion, yn gorchymyn iddynt hwythau wysio archddeoniaid a deoniaid eu hesgobaethau, ac erchi ar fod i'r glwysgorau ethol un proctor bob un, a chorff mawr clerigwyr pob esgobaeth i ddewis dau broctor, i'w cynnrychioli yn y gymmanfa eglwysig. Pan yr ymgynnullant yn nghyd, ymffurfia talaeth Caergaint yn ddau dŷ, a thalaeth Caerefrog, fel y nodwyd uchod, yn ddim ond un tŷ. Yn nhŷ uchaf cymmanfa Caergaint, eistedd yr esgobion; yn yr isaf, y clerigwyr ereill—oll yn 143 o nifer; sef, dau ar ugain o ddeoniaid, tri ar ddeg a deugain o archddeoniaid, pedwar ar ugain o ganoniaid, a phedwar a deugain o broctoriaid o blith y clerigwyr israddol. Yr arfer gyffredin yw i'r brenin ohirio y cyfarfod pan y mae ar ddechreu myned yn mlaen gyda rhyw orchwylion. Nid oes i'r Iwerddon un gymmanfa eglwysig.

Mor bell ag y mae yn myned, dichon fod yr amlinell a roddir yma o hanes y gymmanfa eglwysig yn ddigon cywir, ac ni phroffesa fod yn ddim mwy. Hyd yma, methodd pob ymgais i adnewyddu y gymmanfa eglwysig, a rhoddi iddi hawl ac awdurdod i ymdrafod â, a phenderfynu achosion yr Eglwys; o herwydd, ar un llaw, yr anhawsderau sydd ar ffordd dygiad oddi amgylch y cyfnewidiadau angenrheidiol yn ei chyfansoddiad (yn enwedig gyda golwg ar dderbyn i mewn iddi aelodau o blith y gwŷr llëyg, a dirprwywyr oddi wrth eglwysi y trefedigaethau), ac, ar y llaw arall, o blegid pryder ac ofn rhag yr adnewyddir yr hen ymrafaelion, a thrwy hyny osod yr Eglwys ei hunan mewn enbydrwydd. Mewn erthygl yn y *Quarterly Review*, rhif 150, gwneir yn hysbys y ffaith nodedig fod gwyslythyr seneddol yn myned allan o'r godswyddfa (*Petty-Bag Office*) yn y canghell-lys, yn gydamserol âg anfoniad gwyslythyrau y gymmanfa eglwysig allan o swyddfa y goron.

Anfonir y gwyslythyrau seneddol at archesgobion ac esgobion Lloegr a Chymru, y rhai y gorchymynir iddynt fod yn bresennol yn y senedd sydd i'w chynnal yn Westminster. Yr un gwyslythyr hefyd a orchymyn bresennoldeb deon eglwys esgob Caergaint, Exeter, ac felly yn mlaen, ac hefyd yr archddiaconiaid, i ymddangos yn eu lleoedd priodol yn Westminster; a phob glwysgor trwy un, a chlerigwyr pob esgobaeth trwy ddau broctor, neu ddirprwywr cymhwys. Anfonir rhybudd cyffelyb at archesgobion ac esgobion yr Iwerddon. Gwysir y gwŷr eglwysig hyn i Westminster ar y dydd appwyntiedig, fel y cydsyniont â'r hyn a ddygir yn mlaen gan gynghor cyffredinol y Deyrnas Gyfunol. Yn ol y wys, dylai y clerigwyr ymddangos yn Westminster, fel rhan gyfansoddol o'r senedd ymherodrol; ac y mae y clerigwyr Seisonig i ymgynnull mewn cymmanfa ar yr un amser yn St. Paul's, Llundain, dros dalaeth Caergaint; ac yn eglwys St. Pedr, Caerefrog, dros y dalaeth a elwir ar enw y ddinas hono. Diau mai y gwyslythyr seneddol oedd yr un gwreiddiol a chyntefig; ac awgryma yr ysgrifenydd yn y *Quarterly Review* mai y tebygolrwydd yw, ddarfod i'r gwyslythyr cymmanfaol a anfonir allan yn gydamserol gael ei ddwyn i arferiad, er mwyn galluogi y clerigwyr i gadw eu hawlfreintiau ar draul eu harian. Er pan y mae y gwyslythyrau cymmanfaol yn cael eu hanfon allan, arfer y clerigwyr a fu ufuddhau i wyslythyr y gymmanfa. —(*The Standard Library Cyc. of Political Knowledge.*)

CYMMANFA GYFFREDINOL EGLWYS YR ALBAN. Gwasanaetha hon fel senedd eglwysig i'r Alban: y mae yn gorff cynnrychiol (*representative*), deddfroddol, a barnol; ac o ran ei chyfansoddiad, yn hanfodol wahanol i gymmanfa Eglwys Loegr, yn gymmaint a'i bod yn cael ei gwneyd i fyny o gynnrychiolwyr y gwŷr llëyg yn gystal a'r clerigwyr; ac, am hyny, gellir ystyried y gymmanfa fel dirprwyaeth anfonedig oddi wrth yr hyn a gynnrychiolir ganddi; sef, yr eglwys. Fel y canlyn y mae cyfansoddiad y gymmanfa eglwysig gyffredinol yma:—

Anfonir i'r cynnadleddau ddau cant a deunaw o weinidogion, a phedwar ar ddeg a phedwar ugain o henuriaid, oddi wrth bedwar ugain o henaduriaethau, pob un o ba rai a gynnwysant nifer penodol o blwyfydd, yn amrywio o chwech i un ar bymtheg ar ugain. Enfyn dinas Edinburgh ddau henuriad, ac y mae pump a thrigain o fwrdeisdrefydd breiniol ereill, pob un yn anfon henadur i'r gymmanfa; y mae gan y pedair prif ysgol gynnrychiolydd bob un, ac anfonir un arall gyda hyny o goleg Marischall, Aberdeen: gall y pump hyn fod naill ai yn weinidogion neu henuriaid. Cynnrychiolir yr eglwysi sydd yn India a chysylltiad rhyngddynt âg Eglwys yr Alban, gan un gweinidog ac un henadur. Y mae yn perthyn i Eglwys yr Alban 1,023 o blwyfydd, gyda 1,050 o weinidogion.

Cyfarfydd y gymmanfa gyffredinol bob blwyddyn, yn mis Mai, yn ninas Edinburgh. Nid yw yr eisteddiad yn parhau ond am ddeng niwrnod yn unig; eithr pan y bydd gwaith penodol heb benderfynu arno o fewn cylch y deng niwrnod, fe ellir ei adael ar ddirprwyaeth—pa un, mewn gwirionedd, nid yw ond y gymmanfa dan enw arall; a gall y ddirprwyaeth hon gynnal cyfarfodydd trimisol. Cymmedrolwr y gelwir llywydd neu lefarydd y gymmanfa; fe'i dewisir yn flyneddol; ac, yn yr amseroedd diweddar hyn, clerigwr a ddewisir bob amser i'r swydd, yn gymmaint a'i bod yn rheol i'r cymmedrolwr draddodi pregeth ar agoriad y gymmanfa; ond bu gwŷr llëyg ar rai achlysuron yn llenwi y gadair.

Y mae gan bob plwyf yn yr Alban ei eisteddfod eglwysig, neu lys iselaf yr eglwys, yr hon a arolyga y gorchwylion plwyfol. Cyfansoddir hon o'r gweinidog, a henuriaid llëygol y plwyf. Oddi wrth benderfyniadau y llys hwn, gellir appelio at yr henaduriaeth, oddi mewn i ba un y gorwedd y plwyf. Gwneir pob henaduriaeth i fyny o weinidogion a henuriaid nifer penodol o blwyfydd; ond amrywia yr henaduriaethau yn fawr o ran nifer y plwyfydd y ffurfir hwy o honynt. Y mae llys uwch, o'r enw synod, yn gyfansoddedig o ddwy neu chwaneg o henaduriaethau: oddi wrth benderfyniad *synod*, y mae rhyddid i appelio at y gymmanfa gyffredinol, barn yr hon sydd derfynol a safadwy. O ran ei swyddogaeth a'i gweithrediadau, y mae y gymmanfa gyffredinol yn dwyn cyfatebiad i gydgysylltiad o waith a swyddogaeth dau dŷ y senedd. Llefara a phleidleisia ei haelodau; rhydd farn ar bob pwnc perthynol i lywodraeth yr eglwys; a gall ddwyn yn mlaen brawf ar achos unrhyw un o aelodau llên neu lëyg yr eglwys yn ngwyneb cyhuddiad o afreoleidd-dra neu anghyssondeb mewn buchedd neu athrawiaeth.

Fel amlygiad o gyssylltiad Eglwys yr Alban â'r wladwriaeth, y mae swyddog yn bresennol

Digitized by Google

yn y gymmanfa eglwysig, yr hwn, dan y teitl o uchel arglwydd ddirprwywr, sydd yn cynnrychioli y brenin. Er hyny, nid yw Eglwys yr Alban yn cydnabod y brenin fel pen yr eglwys, ond fel pen y wladwriaeth, â'r hon y mae yr eglwys mewn undeb, er mwyn nawdd ac awdurdod gwladol. Nid oes gan yr uchel arglwydd ddirprwywr un llais yn y gymmanfa; nid yw ei absennoldeb yn gosod attalfa anorfod ar ffordd y gymmanfa i fyned yn mlaen gyda'i gwaith; ac nid yw ei bresennoldeb yn ddim amgen nag arwydd o amddiffyniad a chymmeradwyaeth yr awdurdodau gwladol. Ar derfyn eisteddiad y gymmanfa gyffredinol, y mae y cymmedrolwr, ar ol enwi dydd adgynnulliad y gymmanfa o fewn corff y flwyddyn nesaf, yn gollwng y cyfarfod ymaith yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, pen yr eglwys (weithiau arferir y geiriau "unig ben"); a thrachefn, y mae yr uchel arglwydd ddirprwywr yn chwanegu cadarnhâd y llywodraeth wladol, trwy ei fod, yn enw y brenin, yn penodi fod i'r gymmanfa gydymgynnull ar y diwrnod a nodwyd gan y cymmedrolwr. Gwel CHALMERS; EGLWYS RYDD.—(*Standard Lib. Cyc. of Political Knowledge.*)

CYMMANFA Y DUWINYDDION. Gwel DUWINYDDION, CYMMANFA Y.

CYMMEDROLWR. Gwel CYMDEITHASFA; CYMMANFA EGLWYSIG YR ALBAN.

CYMMERIAD: nodweddiad, carictor, enw da. Golyga cymmeriad neu garictor yr hyn ydyw dyn mewn ystyr foesol; y sefyllfa y mae ei ansoddau a'i deithi naturiol a chynhenid wedi eu gweithio iddi; neu y dull a'r modd trwy ba un y mae yr hyn nad yw ond naturiol mewn dyn yn cael ei ddadblygu nes dyfod yn nodwedd moesol a berthyn iddo ef ei hun yn bersonol. Y mae dwy elfen gan hyny mewn cymmeriad—yr hyn sydd yn naturiol, a'r hyn sydd yn foesol. Y mae gan bob dyn ei gyfansoddiad neillduol ei hun, ac y mae y cyfansoddiad hwnw yn effeithio yn fawr ar ansawdd a nodwedd dyfodol dyn. Canfyddir gwahaniaethau corfforol a meddyliol mawr iawn rhwng gwahanol ddynion a'u gilydd. Gellir olrhain lluaws o'r rhai hyn i wahaniaethau cenedlaethol, ereill i wahaniaethau teuluaidd; ac am y gweddill, y maent yn gwahaniaethu y naill ddyn oddi wrth y llall hyd yn oed yn yr un teulu. Gwahaniaethau naturiol rhwng y naill gymmeriad a'r llall ydyw y rhai hyn, ac nid ydyw eu meddu neu beidio yn ymddibynu ar ewyllys dyn. Y mae un yn llwrf naturiol, y llall yn benderfynol; y naill yn ofnus, a'r llall yn wrol; y mae un yn bwyllog ac amyneddgar, a'r llall yn sydyn a chyfnewidiol. Nid oes dim sydd yn fwy amlwg na'r gwahaniaethau hyn yn yr un gymdeithas, ac yn mhlith dynion, a all fod cystal a'u gilydd mewn ystyr moesol. Yr amlygiad cyntaf a rydd dyn o'i gymmeriad ydyw yr un naturiol, yr hyn nis gellir ei wahaniaethu oddi wrth dymmer neu gyfansoddiad naturiol. Ond y mae dyn wedi ei gynnysgaethu â gallu i wahaniaethu rhwng y drwg a'r da, ac i deimlo mai ei ddyledswydd ydyw darostwng ei holl gynneddfau a'i deimladau naturiol i ddysgyblaeth foesol; ac yn y modd yma i ddwyn oddi amgylch ac i ffurfio nodweddiad a fydd o hyd yn dyfod yn fwy hawdd ei ganfod a'i adnabod, nid fel un a dderbyniodd yn annibynol ar ei ewyllys, ond fel un a ffurfiwyd ganddo ef ei hun. Heb yr ymdrech personol hwn, y mae dyn yn gaeth i'w wyniau naturiol; ond i'r graddau y gwnelo efe hyny, y dyrchafa ei hun mewn diwylliad a theilyngdod moesol; ac i'r graddau yr esgeulusa hyny, y gwaethyga ei gymmeriad; enniila ei nwydau naturiol fwyfwy o nerth, nes y daw o'r diwedd yn ysgeler ac yn anobeithiol mewn drygioni. Y mae dedd arferiad (*habit*), yr hon sydd naturiol i ddyn, yn fantais iddo ddringo ar hyd ysgol rhinwedd nes cyrhaedd y fath lywodraeth arno ei hun fel nad yw temtasiynau cyffredin i adael llwybr uniondeb yn demtasiynau iddo ef. O'r ochr arall, y mae yr un ddeddf yn selio caethiwed yr hwn sydd yn ymwerthu i'w chwant. Y mae ymdrech yn angenrheidiol i unrhyw gwrs newydd o feddwl a gweithredu; ond y mae pob cam yn y blaen yn gwneuthur y camrau dilynol yn hawddach, fel, yn mhen ychydig, y mae y dyn yn myned rhagddo heb unrhyw ymdrech teimladwy. Y mae y naill weithred yn glymedig yn y llall, a'r naill ddydd yn gydiol wrth y llall, fel y mae bywyd yn un gadwen unedig.

> The child is father of the man:
> And I could wish my days to be
> Bound each to each by natural piety.
> *Wordsworth.*

Y mae *cymmeriad* yn ymddibynu ar nerth a nifer yr arferion llywodraethol, a'u hystyried yn eu ffurf a'u hansawdd meddyliol yn gystal ag allanol. Os yw arferiad yn brif lywodraethydd bywyd [*The principal magistrate of man's life.—Bacon*] dyn, y mae ei weithredoedd arferol a chlymedig yn amlygu ei ogwydd moesol, ac yn cyfansoddi ei unoliaeth moesol. Y mae dyn yn cael ei ffurfio fel hyn megys o hono ei hun.

Nid yw Cristionogaeth yn amcanu aflonyddu ar, na newid y cynneddfau a'r teithi naturiol y mae Duw wedi eu rhoddi i ddyn, ond eu puro, eu cryfhau, a'u gwneyd yn un cyfanwaith sanctaidd. Gan hyny, er y dichon i ddyn o'r dechreuad fod yn wrthddrych dylanwad yr Ysbryd Glân, ac iddo yn barhäus fyned rhagddo gan gynnyddu ac ymddadblygu i fwy o nerth dan y dylanwad hwn, eto, rhaid i gyfnod ddygwydd ar ei oes pan, trwy ymdrechiadau mewnol celyd a llymion, y bydd iddo fabwysiadu y dylanwad hwnw fel egwyddor fawr a chyffredinol, yn cymhell i, ac yn rhoddi bywyd yn, ei holl ysgogiadau, gan effeithio ar yr oll o hono; ac, yn y modd yma, ddyfod yn feddiannol ar gymmeriad Cristionogol cyflawn a gwirioneddol. Bydd yn fwy hawdd gweled yr angenrheidrwydd am y cyfryw ymdrech mewn amgylchiadau llai ffafriol. A chan mai dechreuad bywyd newydd, a chyfeiriad newydd i fywyd, beth bynag fyddo yr amrywiaeth yn yr amgylchiadau, ydyw adenedigaeth, gyda'r cyfnewidiad hwnw y mae cymmeriad Cristionogol pawb yn cymmeryd ei gychwyniad cyntaf. Heb law hyny, gan mai gwaith Duw ydyw adenedigaeth, ei waith Ef hefyd ydyw rhoddi cymmeriad, fel nad ymffrostiai neb *Eph.* ii. 8—10, &c. Y mae y cymmeriad hwn yn cynnwys ynddo rinwedd Cristionogol, yr hwn a'i hamlyga ei hun yn mhob gweithred dda, a ffrwythau yr Ysbryd, y rhai hefyd sydd bob amser yn adlewyrchu dylanwad sancteiddiol drachefn ar y cymmeriad, gan ei wneyd ef a'r dyn ysbrydol oddi mewn yn fwy-fwy unrhywiol a chydnaws â'u gilydd: *Eph.* iii. 16; iv. 23. Y cymmeriad yma sydd yn penderfynu gwerth dyn mewn ystyr moesol, yn nghyd â'i safle yn, a'i gymhwysder i, deyrnas Dduw (*Mat.* xii. 33); yr hon, mewn modd arbenig, sydd yn gofyn dynion o

Digitized by Google

yn mhellach na'r personau hyny sydd yn "derbyn y cymmod." Ond y mae y dyeithrwch oedd yn bod rhwng y ddwy blaid yn gosod angenrheidrwydd am i'r cymmod fod yn perthyn i'r ddwy blaid fel eu gilydd. Ac y mae yr Ysgrythyrau yn dysgrifio y sefyllfa rhwng Duw a dyn, yn flaenorol i'r cymmod a wneir trwy iawn Crist, yn sefyllfa o elyniaeth. Yr oedd dyn yn elyn i Dduw (*Rhuf.* v. 10; *Col.* i. 21), ac yn arddangos yr elyniaeth "trwy weithredoedd drwg," a gwrthryfel yn erbyn ei ddeddf a'i lywodraeth. Yr oedd Duw, ar y llaw arall, mewn gelyniaeth at ddyn, mor bell ag y dywedir ein bod "yn blant digofaint" (*Eph.* ii. 3); a bod ei "ddigofaint yn aros arnom," hyd oni chredom yn ei Fab: *Ioan* iii. 36. Felly, i wneuthur cymmod rhwng Duw a dyn, yr oedd yn angenrheidiol dyhuddo digofaint Duw, ac adferu dyn i'w ffafr, a "lladd yr elyniaeth" yn nghalon pechadur, a'i adferu i lwybrau ufudddod. Y mae y naill a'r llall yr un mor hanfodol i gymmod perffaith. Ac y mae effeithiau y ddau beth yn cael eu priodoli yn yr Ysgrythyrau i Iesu Grist, fel canlyniadau ei ufudd-dod a'i farwolaeth. Dyhuddodd ddigofaint Duw drosom:—"Pan oeddym yn elynion, y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef;" *Rhuf.* v. 10. Ac mai y rhan hono o'r cymmod sydd yn gynnwysedig yn nyhuddiant digofaint Duw a olygir yma sydd eglur, gan mai yn hyn y mae Duw yn canmawl ei gariad tuag atom, fel yr arddangosiad mwyaf o'i gariad; a chan fod y rhan hwn o'r cymmod yn cael ei gyferbynu âg "achub rhag digofaint" yn niwedd yr adnod, yr hyn a ddynoda gwblhâd ein dychweliad at, a'n heddychiad â Duw. Dywedir hefyd fod y credinwyr (*adn.* 11) yn "derbyn y cymmod;" yr hyn nis gall olygu ein cymmodiad ni â Duw, neu ein dychweliad ato, ond yn hytrach, ei heddychiad ef â ni, o'r hyn y derbyniwn deimlad a phrawf trwy ffydd. Heb law ei fod ef yn ymheddychu â phechadur, y mae yn heddychu pechadur âg yntau, a hyny hefyd trwy yr un drefn—"trwy waed ei groes ef:" *Col.* i. 20. Yn 2 *Cor.* v. 18—20, yr ydym yn cael y naill ran a'r llall yn cael eu trin. Y mae Duw yn ymheddychu â dyn yn Nghrist, yr hyn sydd yn gynnwysedig mewn peidio "cyfrif iddo ei bechodau," ac a ddysgrifir fel sylwedd a thestyn y weinidogaeth (*adn.* 18, 19); a chyda hyny, y mae yn cymmodi dynion âg ef ei hun, yr hyn ydyw amcan y weinidogaeth: *adn.* 20. Fel mai mater "gweinidogaeth y cymmod" ydyw "bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau;" felly hefyd, cenadwri y weinidogaeth at y byd ydyw, "Cymmoder chwi â Duw." "Y mae yr adran hon," medd Olshausen am 2 *Cor.* v. 18—20, "yn fwy nag un rhan arall o'r Ysgrythyr, yn cadarnhau y golygiad mai am fod y cymmod wedi dechreu gyda Duw yr heddychir dynion âg ef. Y mae y golygiad hwn yn gofyn am y drychfeddwl o aberth, yr hwn sydd yn dyfod i'r golwg yn *adn.* 21 ('yr hwn nid adnabu fechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni'). Yn y wedd yma yn unig y gallwn ddeall pa fodd y dichon y cymmod fod yn weithred i'w chyhoeddi gan y weinidogaeth. Pe o du y dyn yn unig y cymmerasai y cymmod le, yr unig beth a allesid bregethu fuasai, fod y fath gariad o eiddo Duw wedi ei amlygu fel ag i wneyd cymmodiad dyn yn beth *posibl;* ond y mae yr eglwys trwy yr oesoedd yn dysgu fod y cymmod wedi ei effeithio *yn wirioneddol* ar Galfaria; ac yn y wedd yma yn unig y gall cyhoeddi y cymmod fod yn ddigon effeithiol i ddyddanu, ac ar unwaith i weithio y cyfnewidiad angenrheidiol yn y dyn, sef lladd yr elyniaeth yn ei galon." Gall pob darllenydd craffus ar y rhanau y cyfeiriwyd atynt yn yr epistolau at y Rhufeiniaid a'r Corinthiaid, weled, *Yn gyntaf,* fod "cymmodi" a "heddychu" yn cynnwys yr un drychfeddwl a "chyfiawnhau;" sef, fod Duw yn maddeu holl bechodau y pechadur. Y mae y gair καταλλαγη, fel y sylwyd, yn rhagdybied fod gelyniaeth yn hanfodi rhwng dwy blaid. Y mae fod y gair hwn wedi ei ddewis i osod allan y meddwl yn meddu cryn bwys; gan ei fod, yn yr ystyr cyntaf, yn golygu *cyfnewidiad,* ac mai ail ystyr iddo ydyw "cymmodi." Felly, yn nghymmod yr efengyl, y mae cyfnewidiad yn cymmeryd lle, mewn trefn i adferu undeb rhwng y pleidiau anghytûn. Y mae Crist yn cymmeryd arno ei hun ein trueni, ac yn rhoddi i ninnau ei gyfiawnder a'i ogoniant. *Yn ail,* Fod y drychfeddwl o aberth yn gyssylltiedig yn yr Hen Destament a'r Newydd â'n cymmod; ac nis gallwn feddwl am aberth ar wahân oddi wrth y syniad am gyfnewidiad yn mherthynas Duw â dyn. Y mae pob aberth yn cael ei fwriadu i ddyhuddo digofaint cyfiawn Duw am bechod dyn. *Yn drydydd,* Pe na buasai y cymmod yn ddim mwy na chyfnewidiad yn ansawdd calon dyn ei hun, ni fuasai a wnelem â "gweinidogaeth y cymmod;" o blegid felly, nid cyhoeddi gweithred o eiddo Duw a fyddai y weinidogaeth, ond gweithred *dynion,* ac eiddo nifer fechan o ddynion.

"Trwyddo ef gymmodi pob peth âg ef ei hun;" *Col.* i. 20. Gwna Alford y sylwadau canlynol ar yr adnod hon:—"Y mae yn gwestiwn mewn dadl, Yn mhwy ystyr y mae y cymmodiad hwn yn cael son am dano mewn cyssylltiad â'r holl fydyssawd. Nis gallwn dderbyn un golygiad llai eang na hwn: nis gallwn, gydag Erasmus ac ereill, farnu mai heddychiad rhwng amrywiol ranau y greadigaeth a'u gilydd ydyw; na chwaith gyda Schleiermacher, mai yr elfenau i gael eu cymmodi ydyw yr Iuddewon a'r Cenedloedd, y rhai oeddynt yn anghytûn a'u gilydd gyda golwg ar bethau nefol a daiarol. Meddwl yr apostol, y mae yn amlwg, yw, fod y bydysawd yn y cyfanswm o hono wedi ei ddwyn i sefyllfa o gymmod â Duw; yn cynnwys yr angelion yn gystal a dynolryw; creaduriaid direswm a difywyd, yn gystal a bodau bywydol a rhesymol. Gellir deall hyn yn y dulliau canlynol:—1. Gellir edrych ar y greadigaeth yn ei chyfanrwydd, ac ar bechod dyn fel wedi dyeithro yr oll oddi wrth Dduw, trwy ddwyn i mewn anmhuredd moesol i un rhan o honi, ac felly, y mae "yr holl bethau" yn dwyn rhyw berthynas â chwymp dynolryw. Y mae y ffaith fod yr holl ddaiar—byd dynolryw—yn teimlo oddi wrth ganlyniadau y cwymp, yn ymddangos fel yn pleidio y golygiad hwn *Rhuf.* viii. 19. Ond, ar y llaw arall, nid ydym yn cael fod yr angelion yn dwyn un berthynas â'r canlyniadau hyny; ond yn hytrach, a ddysgir ni i edrych arnynt hwy fel ein cynlluniau mewn sancteiddio enw Duw, ac ufuddhau i'w ewyllys: *Mat.* vi. 9, 10. 2. Gellid dyweyd fod y greadigaeth angelaidd wedi ymddyeithro oddi wrth Dduw, am fod rhan o honi wedi syrthio oddi wrth eu purdeb cyntefig; ac er nad oes un syniad fod y cymmodiad yn cyrhaedd at y rhan hono, eto, gall y cyfan, fel y cyfan, sefyll mewn angen am eu cymmodi fel hyn: trwy sicrhau y rhai syrthiedig dan gospedigaeth, ac felly sicrhau y rhai ffyddlawn mewn undeb perffaith â



Digitized by Google

**Duw.** Ond i hyn yr wyf yn ateb, nas gallai y cyfryw gymmodiad, er y dichon iddo fod yn ffrwyth dyfodiad Crist, gael ei effeithio mewn un modd 'trwy waed ei groes Ef;' hefyd, nad oes genym un sail i feddwl fod cwymp rhai o'r angelion wedi dwyn y canlyniadau ar ereill, neu fod gan y bodau angelaidd neb fel cyff cyffredin iddynt, megys y mae Adda i ni; yn hytrach, mae y gwrthwyneb i'r ddau syniad yma wedi ei ddadguddio. Y mae yn rhaid i ni, gan hyny, ymofyn am ryw feddwl i'r geiriau y bydd yn gyfaddas ei gymhwyso at yr angelion yn eu natur hanfodol, ac nid gyda golwg ar bechod dosbarth o honynt. Ac wrth ei gymhwyso fel hyn, y mae yn rhaid i ni beidio meddwl am un cymmodiad yn dwyn cyffelybrwydd i'r *eiddom ni;* o blegid ni chymmerodd Crist naturiaeth angelion, ac ni thalodd un pridwerth yn ngwreiddyn eu natur, fel yn ei gynnwys ynddo ei hun. Ond yn gymmaint a'i fod yn Ben arnynt hwy yn gystal ag arnom ni, a'u bod hwy, fel ninnau, yn byw, yn symmud, a bod ynddo ef, y mae yn sier fod ei ogoneddiad trwy ddyoddefiadau wedi eu dwyn hwythau hefyd yn agosach at Dduw. Ac ymddengys fod yr apostol yn cyfeirio—o leiaf yn awgrymu—at y cyfryw chwanegiad at eu hapusrwydd, yn *Eph.* iii. 10. Y gellid gosod y cyfryw chwanegiad allan fel 'cymmod,' sydd amlwg: yr ydym yn gwybod, oddi wrth *Iob* iv. 18, 'nad yw y nefoedd yn lân yn ei olwg ef, a'i fod yn gosod ynfydrwydd yn erbyn ei angelion.' Mewn gair, gellid, heb droseddu ar eiriau, ddynodi unrhyw ddynesâd agosach ato Ef fel cymmodiad, mewn cymhariaeth i'r pellder blaenorol, yr hwn sydd yn ymddangos yn awr fel dyeithrwch. Felly, ni a allwn symio ein heglurhâd yn y geiriau hyn:—Y mae yr holl greadigaeth yn cydsefyll yn Nghrist; felly, y mae yr holl greadigaeth yn teimlo rhywbeth oddi wrth ei iawn a'i aberth; y mae y dosbarth pechadurus yn cael ei *gymmodi* yn yr ystyr manylaf o fod mewn anyhytundeb; y mae y rhan ddibechod o'r greadigaeth, bob amser yn bell oddi wrth ei burdeb 'nas gellir dyfod ato,' yn cael ei dwyn i gymundeb agosach a gogoniant uwch gydag Ef, ac felly yn cael ei chymmodi, er nad yn yr ystyr manylaf, eto mewn ystyr cwbl ddealladwy a goddefol." Heb law y golygiadau y cyfeiria Alford atynt, gellid nodi y rhai canlynol:—Wrth y pethau yn y nefoedd y meddylia Beza, Wolf, &c., eneidiau dedwydd y saint ymadawedig. Barna Melancthon, Cameron, ac ereill, fod y gair *cymmodi*, yn y lle dan sylw, yn gyfystyr â "chrynhoi yn nghyd" yn *Eph.* i. 10; ond sylwa Meyer, nad yw y cydgrynoad hwn yn ddim amgen na ffrwyth neu ganlyniad y cymmodiad a ddysgrifir yma. Y mae De Wette, ar bwys *Iob* iv. 18, a xv. 15, yn barnu fod yr angelion mewn angen am ryw fath o gymmodiad, neu yn hytrach, perffeithiad. Nid yw syniad De Wette yn annhebyg i'r eiddo Calvin, sef eu bod mewn angen am gael eu cadarnhau mewn sancteiddrwydd a dedwyddwch:—"Rhwng Duw a'r angelion," medd Calvin, "y mae sefyllfa pethau yn dra gwahanol i'w berthynas â ni, o blegid nid oedd yno ddim gwrthryfel, ac felly ddim ysgariaeth. Yr oedd, fodd bynag, yn angenrheidiol gwneyd rhyw fath o gymmodiad rhwng yr angelion hefyd a Duw; o blegid, gan mai creaduriaid oeddynt, nid oeddynt allan o berygl o syrthio, oni buasai iddynt gael eu cadarnhau gan ras Crist. Nid yw hyn o ychydig bwys gyda golwg ar barhâd mewn sefyllfa o heddwch â Duw—bod wedi ymgadarnhau mewn cyfiawnder, fel ag i fod yn rhydd oddi wrth ofni cwympo neu wrthryfela. Yn mhellach, yn yr ufudd-dod a roddant i Dduw, nid oes y fath berffeithrwydd hollol fel ag i roddi boddlonrwydd i Dduw yn mhob ystyriaeth, fel nad oes arnynt eisieu maddeuant (?). A hyn yn ddiammheu a feddylir yn *Iob* iv. 18; 'Yn erbyn ei angelion y gosododd ynfydrwydd.' Mynega yr Ysbryd yn y gair hwn fod y purdeb mwyaf yn aflendid, wrth ei gymharu â chyfiawnder Duw. Y mae yn rhaid i ni, felly, gasglu nad oes gan yr angelion ddigon o gyfiawnder i'w llawn uno â Duw. Y maent, gan hyny, yn sefyll mewn angen am heddychwr, trwy ras yr hwn y gallant lynu yn berffaith wrtho."

CYMMOD, DYDD Y:—yn Hebraeg, "dydd dyhuddiadau" (*day of atonements*), gan arwyddo fod cymmod neu ddyhuddiant yn cael ei wneuthur dros y *cyfan*, y bobl a'r offeiriaid, ac hefyd fod y cyssegr yn cael ei lanhau: *Lef.* xvi. 1—34; xxiii. 26—32; *Num.* xxix. 7—11. Yr ydoedd yn ddydd ympryd, yn ddydd i gystuddio yr enaid, a dydd i wneyd cymmod dros yr holl genedl, a gelwid ef gan yr Iuddewon mewn modd arbenig "dydd yr ympryd mawr." 1. Cedwid ef ar y 10fed dydd o'r seithfed mis, sef mis Tisri (yn cyfateb i'n mis Medi ni), pum niwrnod o flaen gŵyl y pebyll, yr hon a gedwid gyda llawenydd mawr; ac felly yn dangos mai rhagbarotoad a chymhwysder i lawenydd ydyw bod mewn heddwch â Duw. Yr oedd bod yr ŵyl hon yn cael ei chynnal ar y seithfed mis, ac yn cael ei galw Sabbath y Sabbathau, yn dangos fod arbenigrwydd mawr yn perthyn iddi; ac ar y cyfrif hwn, dechreuai y ddwy ŵyl fawr, sef Sabbath y seithfed flwyddyn, a'r Iwbili, ar ddydd y cymmod. Fel Sabbath, yr ydoedd i'w sancteiddio, trwy ymgadw oddi wrth bob math o waith: *Lef.* xvi. 31; xxiii. 32. 2. Yn unol â'r ystyr fel gŵyl y cymmod, ac fel dydd o ymostyngiad ac edifeirwch o herwydd pechod, yr ydoedd i'w gadw fel ympryd—yr unig ympryd gorchymynedig yn y gyfraith—a hyny dan boen toriad ymaith o blith y bobl: *Lef.* xxiii. 29. Gelwir ef yn ympryd yn *Act.* xxvii. 9; ac hefyd gan Philo a Josephus. 3. Ond prif neillduolrwydd y dydd hwn oedd, mai arno yr oedd yr archoffeiriad yn gwneuthur cymmod dros yr holl genedl, ac yn cael mynedfa i'r sanctaidd sancteiddiolaf, yr hyn ni chaniateid o gwbl i neb ond i'r archoffeiriad, a'r hyn ni chaniateid iddo ef ond ar y dydd penodol hwn. Yr archoffeiriad oedd i gyflawnu gwasanaeth y dydd hwn; a dywed yr ysgrifenwyr Iuddewig mai efe fyddai yn gwneuthur gwasanaeth cyffredin yr offeiriaid, megys goleuo y lampau, &c., ar ddydd y cymmod. Ar yr ŵyl fawr hon, yr oedd rhinwedd ac arwyddocâd yr holl offeiriadaeth wedi ymgrynhoi megys i berson yr archoffeiriad, ac efe oedd yn sefyll yn y canol rhwng y Duw sanctaidd a'r genedl ansanctaidd. Ac ni chrybwyllir am yr offeiriaid, ond mor bell ag yr oeddynt hwy, fel yr holl genedl, yn sefyll mewn angen am i iawn gael ei wneuthur drostynt: *adn.* 33. Ar ol i'r archoffeiriad olchi ei gorff â dwfr, gwisgai y gwisgoedd sanctaidd, sef pais llian, llodrau lliain, a gwregys lliain, a meitr lliain—oll yn wynion; yr hyn a arwyddai nad oedd i nesau at Dduw wrth wneuthur iawn yn y gwisgoedd addurnedig, a'i gwahaniaethai ar adegau ereill; ac hefyd mai purdeb oedd cymhwysder mawr offeiriad. Yna, yr ydoedd yr archoffeiriad i gymmeryd bustach ieuanc (yr hyn ydoedd, yn gyffredin, yn aberth

Digitized by Google

wneuthur cymmod dros yr holl bobl, trwy ymddangos ger bron Duw drostynt â gwaed un aberth. Y mae cyfeiriad hyn oll yn amlwg at yr Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr trwy ei waed ei hun, gan gael i ni dragwyddol ryddhâd: *Heb.* ii. 17, 18; v. 7—10; vii. 26; ix. 12, 26; x. 14.

Yn gyntaf oll, yr oedd y gwaed i'w daenellu ar y *drugareddfa.* Tuag yno, fel lle preswylfa gogoniant Duw, yr oedd pob taenelliad o waed i gael ei gyfeirio. Yr oedd allor yr arogldarth yn y lle sanctaidd, ac allor y poethoffrwm yn y cyntedd allan, i'w hystyried yn eu perthynas â gorseddfainc Duw yn y sancteiddiolaf, ac fel yn cyfeirio yno. Os pechai neb o bobl y wlad, neu os pechai penaeth, yr oedd yr offeiriad i roddi gwaed pechaberth ar gyrn allor y poethoffrwm: *Lef.* iv. 25, 30. Os pechai offeiriad, neu holl gynnulleidfa meibion Israel, yr oedd y gwaed i'w daenellu saith waith o flaen gwahanlen y cyssegr, a pheth o hono i'w osod ar gyrn allor yr arogldarth: *Lef.* xvi. 6, 17. Y ris uchaf yn yr agoshâd at Dduw oedd cymmeryd y gwaed y tu fewn i'r wahanlen ar ddydd y cymmod, a'i daenellu ar y drugareddfa. Yr oedd hyn yn esboniad ar y taenelliadau ereill, ac yn eglurhâd ar holl ddirgelwch y cymmod. Ar y drugareddfa, rhwng y cerubiaid, y preswyliai y Iehofah yn ei ras yn mysg ei bobl. Dan y drugareddfa yr oedd yr arch, yn yr hon yr oedd y gyfraith yn dystiolaeth o sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw: *Salm* lxxxix. 14. Nid yw y ddeddf, yr hon sydd yn gwahardd ac yn condemnio pechod, yn caniatau i Dduw breswylio yn mysg pobl ansanctaidd: yn hytrach, cyhoedda wrthwynebiad anghymmodlawn y Duw byw yn erbyn pechod, ac nas dichon iddo ddianc cosp marwolaeth. Rhaid i farwolaeth, gan hyny, gymmeryd lle cyn y gall yr Arglwydd, heb ddianrhydedd i'w gyfiawnder, breswylio yn rasol yn mysg ei bobl. Byddai rhoddi y troseddwr i farwolaeth yn cau allan drugaredd. Yn lle cosp ar y pechadur, y mae iawn yn cael ei wneuthur, trwy fod creadur difai yn cael ei aberthu yn lle dyn euog, a'i waed yn cael ei ddwyn i bresennoldeb Duw, a'i daenellu ar y drugareddfa, yr hon sydd ar yr arch. Gan fod y gwaed yn cael ei daenellu ar y drugareddfa, yr hon sydd rhwng yr amlygiad o bresennoldeb Duw a llechau y gyfraith, y mae yn uno cyfiawnder a gras, ac yn ei gwneuthur yn bosibl i Dduw breswylio yn nghanol pobl bechadurus, gan faddeu i droseddwyr, heb leihau dim ar awdurdod y gyfraith—bod yn gyfiawn, ac eto cyfiawnhau yr anghyfiawn: *Rhuf.* iii. 26. Ni raid i ni ond cofio fel yr oedd y gwaed yn cael ei daenellu ar y drugareddfa o flwyddyn i flwyddyn, heb fod byth yn cael ei lanhau ymaith, i ddeall y grym gyda pha un y dywed Paul, "yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef;" *Rhuf.* iii. 25. Y mae yr apostol, trwy y gair "iawn" (*ilasterion, epithema = trugareddfa*), yn cyssylltu canolbwynt yr Hen Destament â'r efengyl. Am y trydydd peth a enwyd, gwel Bwch.

Gwna Calvin y sylwadau canlynol (ar *Lef.* xvii.) ar y defodau crybwylledig yr elai yr archoffeiriad trwyddynt:—"Gwisgid yr archoffeiriad mewn dillad gwahanol i'r eiddo ereill, am y dylai yr hwn a fyddo yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion fod yn rhydd oddi wrth bob anmhuredd; a chan nad oedd un dyn yn meddu ar y dimweidrwydd hwn, rhoddwyd cysgod, yn lle y gwir berson, oddi wrth yr hwn y gallai credinwyr ddysgu fod Cyfryngwr arall i'w ddysgwyl; o blegid, pa bryd bynag yr ymddiosgai yr archoffeiriad o'i wisgoedd ei hun, ac yr arferai rai wedi eu neillduo oddi wrth ddefnydd-iad cyffredin, yr oedd hyny yn fath o hysbysiad ei fod yn cynnrychioli person arall. Ond os nad oedd yr arwyddlun hwn yn ddigonol, yr oedd yr ymlanhâd mewn dwfr yn arddangos mai nid neb o hiliogaeth Aaron oedd y gwir Archoffeiriad; o blegid pa fodd y gallasai yr hwn a safai mewn angen am lanhâd ei hun, ac a wnai gyffesiad cyhoeddus o'i aflendid, buro a glanhau ereill? Chwanegwyd hefyd arwyddlun arall; o blegid nis gallasai yr hwn a offrymai drosto ei hun a'i deulu haeddu ffafr Duw i ereill."

Yr oedd yr addoliad Mosenaidd yn gynnwysedig yn benaf mewn cyflwyno aberthau; yr oedd euogrwydd pechod yn galw yn barhaus am ebyrth a phuredigaethau adnewyddol: ond ar ddydd y cymmod, ymgrynoai y drychfeddwl am iawn trwy aberth, ac arddangosai ei hun mewn un ddefod fawr; ac yn gyfatebol i'r amcan hwn, yr oedd y teimlad o euogrwydd pechod i gael ei ddwyshau, yr un modd, i'r graddau eithaf, ar feddyliau yr Israeliaid. Dydd o edifeirwch ac ymostyngiad duwiol oedd dydd y cymmod i fod. Er fod y mynediad i'r sancteiddiolaf, ar ryw gyfrif, yn achlysur llawer o lawenydd; eto, gan fod Duw yn "ogoneddus mewn sancteiddrwydd," rhaid fod diwrnod y dynesâd agosaf ato Ef ar ran yr archoffeiriad yn ddiwrnod i adgofio pechodau, a theimlo eu heuogrwydd, ac felly i "gystuddio yr enaid" ar ran y bobl. Ond er fod yr adgofion am bechodau yn gwisgo y dydd â phrudd-der, eto yr oedd amcan y dydd yn peri fod gorphwysfa a chysur yn sicr o'i ganlyn. Yr oedd gwasanaeth y dydd hwn yn awgrymu fod anmherffeithrwydd yn nglŷn â'n hebyrth dyddiol, gan na chaent hyd yn oed yn eu pen, eu cynnrychiolydd, fyned o'r tu fewn i'r wahanlen; fel, pan sefydlwyd gwasanaeth i'r dyben o roddi arddangosiad o lawn dderbyniad gan Dduw, yr oedd yn rhaid dwyn eu holl bechodau eilwaith dan ystyriaeth, fel y dilëid hwynt ymaith gan aberth perffeithiach. Ac nid yn unig hyny, ond gan fod y tabernacl a'i ddodrefn yn cael eu halogi gan yr addolwr, yr oedd yn ofynol puro a glanhau y rhai hyn gan aberth perffeithiach y diwrnod hwnw. Ac fel nad arosai dim gweddillion euogrwydd ar ol y diwrnod hwnw, yr oedd yr aberth neu y cymmod yn dwyn perthynas â phechod yn ei holl gyssylltiadau, yr archoffeiriad a'i dŷ, y tabernacl a'i ddodrefn a'i lestri cyssegredig, a'r holl Israeliaid yn eu holl deuluoedd. Gwel Bwch.

Y mae yn amlwg mai defodau dydd y cymmod oeddynt y cysgodau mwyaf arbenig o offeiriadaeth Iesu Grist; ac atynt hwy y cyfeirir yn fwyaf mynych yn yr Epistol at yr Hebreaid. Ni a gawn wrthgysgod y wahanlen yn nghnawdoliaeth Mab Duw, trwy yr hon "len" y mae i ni ryddid i fyned i mewn i'r cyssegr; yn lle gwahanu rhyngom a'r presennoldeb dwyfol, y mae Crist yn ffordd i bechadur at y Tad. Gallwn fyned at Dduw, nid yn unig yn ddiangol, ond mewn "hyder ffydd," am fod Crist wedi myned i'r nefoedd trwy ei waed ei hun, ac ymddangos yno fel y gwir Archoffeiriad. Y mae ei aberth ef yn aberth gwirioneddol a digonol, ac felly yn rhydd oddi wrth yr anmherffeithiau a berthynent i'r ebyrth Lefiaidd. Y mae rhai esbonwyr yn ddiammheuol wedi ceisio canfod rhyw ystyr efengylaidd yn holl *fanylion* defodau dydd y cymmod. Yn ngwaith yr archoffeiriad yn gwisgo

y dillad lliain diaddurn, ac wedi hyny yn eu diosg ar ol gorphen ei waith yn y cyssegr sancteiddiolaf, gwelent Iesu Grist yn cymmeryd arno "gyffelybiaeth cnawd pechadurus;" ac ar ol myned trwy waith ei ddarostyngiad, yn rhoddi yr "agwedd gwas" heibio:—yn y ddau fwch, gwelent ddwy natur y Cyfryngwr; yn y ffaith fod y bychod wedi eu cymmeryd o fysg cynnulleidfa meibion Israel, gwelent y deg ar ugain arian yn cael eu rhoddi o'r drysorfa gyhoeddus am dano; yn y bwch a aberthwyd, gwelent Grist yn marw; yn y bwch diangol, Crist wedi adgyfodi; neu, yn y cyntaf, Iesu Grist; yn yr olaf, Barabbas: neu, fel y mae ereill yn synied, y mae y bwch diangol yn arddangos y genedl Iuddewig wedi ei hanfon i anialwch y byd gyda melldith arnynt. Tra y mae rhai o'r cydweddiadau hyn—y cyntaf o honynt, er esampl—yn addysgiadau digon goddefol, y mae y lleill yn gyfryw nad oes un meddwl sobr a chwaeth dda a all eu derbyn.

Yn mysg yr Iuddewon uniongred yn yr oes hon, arferir ceiliog yn lle y bwch diangol; yr hwn a alwant "pardwn," neu "ddyhuddiant." Ar brydnawn y 9fed o Tishri, y maent yn myned i'r synagog, a fflangella y naill gymmydog y llall ddeugain gwaith namyn un â darn o ledr. Ystyrir y gosp hon fel iawn am y troseddau a gospid gan gyfraith Moses trwy fflangellu. Y mae y nifer mwyaf o'r Iuddewon yn gwisgo gwn gwyn ar ddydd y cymmod, yr hwn fydd amdo pob un wedi iddo farw; ac y mae pawb yn rhwym o fod yn droednoeth trwy gydol y dydd. —(*Maimonides; Kitto's Cycl.; Calvin on Lef.; Fairbairn's Typology; Owen on the Hebrews.*)

CYMMWYNAS—AU—GAR—WCH, [*cyd—mwyn*]: lles, trugaredd, budd, gweithred garuadus; parodrwydd i wneuthur caredigrwydd âg un. Y mae y gair Hebraeg חן, a gyfieithir *cymmwynasgarwch*, yn dynodi rhad rodd, dawn, ffafr, ffrwyth caredigrwydd a haelfrydedd calon. Y gair Groeg ydyw χρηστότης. Ystyr yr ansoddair cydrywiol (χρηστος) ydyw, defnyddiol, buddiol, da, neu gyfaddas i ateb rhyw amcan neillduol; a phan gyssylltir yr ansoddair â phersonau, arwydda fuddioldeb tuag at ereill yn yr ystyr o fod yn dirion, tyner, a haelfrydig tuag atynt: *Luc* vi. 35; *Eph*. iv. 32; 1 *Pedr* ii. 3. Y mae χρηστότης, weithiau, yn arwyddo daioni yn yr ystyr o uniondeb a chyfiawnder:—"Nid oes un yn gwneuthur daioni;" *Rhuf*. iii. 12. Yn fynychaf, y mae y gair yn gyfystyr â thiriondeb. Yn *Rhuf*. ii. 4; xi. 22, y mae yn cael ei ddarllen "daioni:" yn yr ail anghraifft, y mae yn sefyll yn gyferbyniol i "doster:" yn 2 *Cor*. vi. 6, cyfieithir ef "tiriondeb:" yn *Titus* iii. 4, "daioni," ac, yn gyssylltiedig â φιλανθρωπια=*dyngarwch*: yn *Gal*. v. 22, *Eph*. ii. 7, *Col*. iii. 12, "cymmwynasgarwch." Y gair am "gymmwynas," yn *Act*. xxiv. 27, ydyw χαρις. "A'i gymmwynasau ef y byddent hwy yn eu mynegu ger fy mron i" (*Neh*. vi. 19); sef cymmwynasau Tobiah yr Ammoniad. Arwydda y geiriau fod math o ymgynghreiriad rhwng rhai o'r Iuddewon a Thobiah; ymgyfeillachent âg ef, ac ysgrifenent gyfrinachau y genedl mewn llythyrau ato; a cheisient ddwyn Nehemiah drosodd i'w hymgyfathrach âg ef; ac i'r dyben hwnw, canmolent ei gymmwynasau a wnaethai iddynt; dysgrifient ef fel dyn haelfrydig a thirion, teilwng o'i gyfeillach a'i ffafr. "Gorchymynir i ni," medd Henry, "i beidio arfer drygair am neb; ond ni orchymynir i ni siarad canmoliaeth am ddynion drygionus." "Y rhai a ymadawant â'r gyfraith a ganmolant yr annuwiol;" *Diar*. xxviii. 4. "Gwneler cymmwynas i'r annuwiol, eto ni ddysg efe gyfiawnder;" *Esa*. xxvi. 10. Y mae y prophwyd yn cyferbynu y mynegiad hwn â'r un blaenorol. Y mae y duwiol yn ymddiried yn Nuw, pan dan ei geryddon; y mae y saint yn dysgu cyfiawnder, pan fyddo ei farnedigaethau yn tramwyo ar y ddaiar; ond y mae yr annuwiol yn parhau yn ystyfnig, ac yn gwrthod dysgu cyfiawnder, nid yn unig yn ngwyneb barnedigaethau Duw, ond hefyd yn ngwyneb ei gymmwynasau; y mae y moddion llai effeithiol yn llwyddo gyda'r saint, tra y mae y moddion mwy effeithiol, sef cymmwynasgarwch Duw, yn aflwyddiannus gyda'r annuwiol. "Ei fawr gariad....... trwy ei gymmwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu;" *Eph*. ii. 4, 7. "Y mae 'cymmwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu,' i'w gymmeryd fel darnodiad manylach o'r gair mwy annhenodol '*gras*.'"—*Olshausen*. Y mae Eadie yn dadgan ei ammheuaeth o briodoldeb y gwahaniaethiad yma gan Olshausen, ac yn sylwi, "fod 'cymmwynasgarwch Duw yn Nghrist Iesu,' yn ymadrodd sydd yn dynodi y dull neu y *modd* ag y mae gras yn gweithredu. Y mae ei ras *yn* ei gymmwynasgarwch. Gellid dangos gras yn mysg dynion mewn ffordd pur anfoddog ac anraslawn; ond y mae gras Duw yn ymwisgo mewn cymmwynasgarwch, yn gystal yn amser ag yn null ei weinyddiad. Y fath gymmwynasgarwch oedd mewn cyfranu gras mor fore i'r Ephesiaid, ac yn nhröedigaeth y cyfryw bersonau ag a ffurfient yr eglwys yn eu plith yr adeg yma! Y mae mor gymmwynasgar, fel y mae nid yn unig yn maddeu ein pechodau, ond yn eu hanghofio; mor gymmwynasgar, fel y mae nid yn unig yn ein bywhau, ond, yn ol 'cyfoeth ei ras,' yn ein cydgyfodi â Christ, ac yn ol 'rhagorol olud ei ras yn ein gosod i gydeistedd gyda Christ yn y nefolion leoedd.'" Yn *Gal*. v. 22, y mae "cymmwynasgarwch" a "daioni" (ἀγαθωσύνη) yn gyssylltiedig, fel rhai o "ffrwythau yr Ysbryd." Y mae y ddau air yn mron yn gyfystyr, medd Ellicot: dynoda y cyntaf yr haelfrydedd a'r mwyneidd-dra tueddfryd sydd yn dangos eu hunain yn ein hymdrafod âg ereill; a dynoda y diweddaf y duedd hono yn y meddwl sydd yn arwain dyn i ewyllysio ac i wneuthur yr hyn sydd dda: y mae yn cynnwys mwy na "gogwyddiad y meddwl at yr hyn sydd oreu" (=*animi ad optima quæque propensio*). Y mae y drychfeddwl o "helaethrwydd," (*Neh*. ix. 25) yn gynnwysedig yn y gair.

CYMMYSGBLA, ydyw enw y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrythyrau ar y pedwerydd o bläau yr Aipht: *Exod*. viii. 21, 22, 24, 29, 31; *Salm* lxxviii. 45; cv. 31. Yn y cyfieithiad Seisoneg, *swarms of flies* yw yr ymadrodd a arferir i'w ddynodi; yn gyffelyb i ymyl y ddalen yn *Exod*. viii. 21, mewn rhai o'n Beiblau ninnau—"heidiau ednog." Y gair gwreiddiol yw הערב (*harob*); oddi wrth ערב (*arob*)=*cymmysgodd*, medd rhai esbonwyr. Y mae yn anhawdd penderfynu yn sicr mewn perthynas i'r ffrewyll hon ar Pharaoh a'i bobl, pa un ai cydgymmysgedd o amrywiol fathau o drychfilod neu wybed wedi dyfod am ben y wlad a'i thrigolion, ai ynte heidiau lawer o'r un rhywogaeth o ednogion oeddynt. Y mae Jerome wedi cyfieithu yr adnodau lle y cyfarfyddir â'r gair yn Exodus yn unol â'r golygiad cyntaf; a'i ymadroddion ef ydynt y rhai a ganlyn:—"*omne genus muscarum, muscæ diversi generis, muscæ*

geiriau ar yr un egwyddor. Os bydd iaith yn anghyttuno âg ieithoedd unrhyw dylwyth yn y pethau hyn, rhaid ei chau allan o'r tylwyth hwnw, a chwilio am le iddi mewn un arall; rhaid cael cyttundeb gwreidd-eiriau a grammadeg i brofi perthynas. A chylch y berthynas ydyw 'r tylwyth; ac ofer ydyw ceisio profi perthynas rhwng aelod o un tylwyth âg aelod o dylwyth arall. Saif pob tylwyth ar ei ben ei hun—ei fam-iaith wedi ei llunio o ddefnyddiau gwahanol, ac ar gynllun gwahanol i fam-iaith yr un tylwyth arall. Y mae pob tylwyth yn cynnrychioli ymdrech feddyliol wahanol ar y cychwyn, a dull gwahanol o edrych ar y byd. O'r tylwythau hyn fe dybia 'r Proffeswr Freidrich Müller fod tua chant ym mhlith ieithoedd llafar y byd. Ceir rhestr o 76 o honynt yn yr "*Introduction to the Science of Language*," gan y Proffeswr Sayce. Perthyna 'r iaith Gymraeg i'r teulu Celtaidd, a'r teulu Celtaidd i'r tylwyth mawr Indo-Ewropaidd, neu Ariaidd.

Rhenir y tylwythau ieithoedd yn wahanol ddosbarthiadau, yn ol natur cynllun sylfaenol eu hieithoedd; megys, y dosbarth treigliadol (*inflectional*), gludiol (*agglutinative*), didolair (*isolating*), crynhoadol (*polysynthetic*), ac eraill; ond y tri cyntaf yw'r dosbarthiadau pwysicaf. Yn y dosbarth treigliadol, dangosir swydd gair, a'i berthynas â geiriau eraill yn y frawddeg, trwy dreigliadau, neu gyfnewidiadau yn y gair; megys, *caraf, ceri, câr; pen, penau; trwm, trom, trymion*. Yn y dosbarth gludiol, dangosir swydd y gair, a'i berthynas, nid trwy ei gyfnewid, neu chwanegu ato derfyniad sydd ynddo ei hun yn ddi-ystyr, ond drwy ludio wrtho *air* âg ystyr llawn iddo. Er enghraifft. y mae *godlike* yn esampl o ludiad; o blegid fod *like* yn air âg ystyr iddo. Y mae *praying* yn esampl o dreigliad; o blegid nid oes ystyr, yn Saesneg, i *ing* ar ei ben ei hun. Yn y dosbarth didolair, ni chyfnewidir dim ar yr un gair i ddangos na rhyw na rhif, na pherson nac amser. Saif pob gair yn ddidoledig yn y frawddeg; a dangosir ei berthynas â geiriau eraill y frawddeg drwy ei safle ynddi, neu drwy gyfrwng geiriau didol eraill. I'r dosbarth hwn y perthyn iaith Catai. Yn yr ieithoedd crynhöadol, fe grynhöir yr holl eiriau mewn brawddeg megys i un gair cyfansawdd mawr. I'r dosbarth hwn y perthyn llawer o ieithoedd brodorol yr America. Nid ydyw yn hawdd tynu llinell derfyn bob amser rhwng y gwahanol ddosbarthiadau; o blegid y mae enghreifftiau o ludio i'w cael mewn ieithoedd treigliadol, ac o dreiglo mewn ieithoedd gludiol; a cheir rhywbeth tebyg i ludio, os nad treiglo, yn iaith ddidolair Catai; er hyny, y mae 'r cynllun sylfaenol yn gyffredin yn ddigon hawdd i'w benderfynu.

Fe dybiodd ieithegwyr yn hir fod yr ieithoedd treigliadol wedi dadblygu o ieithoedd gludiol, a'r rhai hyny drachefn o ieithoedd didolair; ac mai yr ieithoedd treigliadol a adlewyrchai uchafbwynt gwareiddiad, a'r ieithoedd didolair ddyfnder anwariaeth. Daliodd yr Almaenwyr yn lled dýn at y ddamcaniaeth hon—i raddau, fe allai, o herwydd fod yr Almaeneg yn un o'r rhai mwyaf treigliadol o ieithoedd diweddar Ewrop. Yr oedd hi yn ddamcaniaeth ddigon naturiol:—yn yr ieithoedd didolair, y mae pob gair ar ei ben ei hun. Y cam cyntaf oedd gludio wrth ferfau ac enwau y geiriau oedd yn dangos eu perthynas â'u gilydd; ac yna, fe gafwyd ieithoedd gludiol. Yr ail gam oedd i'r geiriau bychain gludiedig golli eu grym fel geiriau, a myned yn derfyniadau yn unig, heb ddim ystyr iddynt ond fel terfyniadau. Ond er mor resymol yr edrych y ddamcaniaeth ar yr olwg gyntaf, nis gallodd sefyll y profion a roddwyd arni. Yn y lle cyntaf, nid ydyw yn hanesyddol wir; o blegid yr oedd pobl Catai yn wareiddiedig, ac yn llefaru iaith ddidolair, pan oedd ein hynafiaid ni yn anwar, ac yn siarad iaith dreigliadol—*mwy* treigliadol nag ydyw yr un o'i disgynyddion hi heddyw. Heb law hyny, y mae 'r ieithoedd didolair wedi tyfu a dadblygu, yn gystal a'r ieithoedd treigliadol; ond y maent wedi dadblygu o fewn cylch y cynllun didolair. Y mae iaith Catai wedi dadblygu a chyfnewid, a cholli sillau trwy adfeiliad seiniol, nes y mae pob gair ynddi yn awr yn unsill; etto cadwodd at y cynllun gwreiddiol, a gweithiodd allan bob defnydd a ellid o hono.* Ac yn wir, y mae 'r cynllun treigliadol yn adlewyrchu gwanach gallu rhesymegol na'r cynllun gludiol; o blegid i weithio 'r cynllun treigliadol yn iawn, fe ddylid cael treigliad i ddangos pob eiliw o feddwl; ac y mae hyny yn ammhossibl. Yn Gymraeg, gellir gosod allan *I will love* â ffurf dreigliadol "caraf." Ond nis gellir hyny âg *I must love*. Rhaid dyweyd "rhaid i mi garu"—arfer geiriau annibynol i ddangos yr hyn y dylid ei ddangos, yn ol yr egwyddor dreigliadol, â threigliad. Yn wir, yn yr ieithoedd mwyaf treigliadol, rhaid yn aml ddangos perthynas gair â geiriau eraill drwy help geiriau annibynol felly, yn union fel y gwneir yn y Gateieg, yn ol ei hegwyddor sylfaenol hi. Ac y mae gwareiddiad Ewrop wedi teimlo methiant y cynllun treigliadol; a thrwy help adfeiliad seiniol, wedi taflu ymaith y rhan fwyaf o hen dreigliadau'r ieithoedd, a mabwysiadu cynllun newydd dadansoddol (*analytic*), i raddau helaeth, yn eu lle; neu yn hytrach, fe allai, ddadblygu yr egwyddor ddadansoddol oedd ynddynt eisoes, o blegid yr oedd culni 'r gallu treigliadol yn peri ei fod.

Nid ydyw 'r tylwythau treigliadol yn lliosog, ond y mae dau o honynt yn bwys cach na'r un arall; sef, y tylwyth Semitig (yn cynnwys Hebraeg, Aramaeg, Arabeg, &c.), a'n tylwyth Ariaidd ni. Pe byddai modd profi fod y tylwyth Ariaidd yn perthyn i unrhyw dylwyth arall, y tylwyth Semitig fyddai hwnw; ond y mae pob ymgais i brofi 'r gyfryw berthynas wedi methu. Y mae egwyddor dreigliadol y ddau dylwyth yn wahanol. Yn y tylwyth Semitig, tair cydsain, megys *k-dh-l* ydyw y gwreidd-air; a dangosir y gwahanol dreigliadau trwy roddi gwahanol lafariaid rhyngddynt. Er enghraifft, *kadhala* ydyw "lladdodd," *kudhila* ydyw "lladdwyd," *kadhl* ydyw "lleiddiad," *kidhl* ydyw "gelyn," *kudhl* ydyw "lladdiad," *kôdhêl* ydyw "lladd." Er hyny, fe dreiglir weithiau trwy arfer terfyniadau; ond terfyniadau ydyw *hanfod* y treigliad Ariaidd. Ac er y gwelir, weithiau, gyfnewid llafariad yn yr ieithoedd Ariaidd, megys *trwm, trom*, nid ydyw hyny ond effaith yr hen derfyniadau sydd yn awr wedi colli, fel y ceisiwn ddangos maes o law. Gwrthbrofwyd hefyd bob ymgais a wnaed i gyssylltu geiriau Ariaidd â geiriau Semitig, megys y geiriau Sanscrit *shash* a *saptan* ("chwech" a "saith") â'r geiriau Hebraeg *shêsh* a *shebà*. Y mae 'r tylwyth Ariaidd yn dylwyth mawr o ieithoedd, heb yr un berthynas rhyngddo a'r

* "*Introduction to the Science of Language*," tudal. 376.



Digitized by Google

un tylwyth arall er pan barablwyd y fam-iaith Ariaidd gyntaf.

A ganlyn ydyw 'r tabl o'r ieithoedd Ariaidd, fel y rhoddir ef yn y rhestr a grybwyllwyd uchod. Yr ydym yn rhanu 'r ieithoedd Celtaidd yn ol dosbarthiad diweddaraf y Proffeswr Rhys, fel y rhoddir ef gan y Proffeswr Sayce yn y rhagymadrodd i'r ail argraphiad o'i lyfr. Dengys y marc hwn † wrth enw iaith fod hono wedi marw:—

(*α*) Y Teulu Indiaidd:—† Sanscrit; † Prakrit; † Pali, Singalese, neu Elu; tafodieithoedd diweddar (Bengalese, Assamese, Oriya, Nepaulese, Kashmirian, Scindhi, Punjâbi, Brahni, Gujarati, Marâthi, Hindi, Hindustani); Siyâh-pôsh-Kafir; Dard; a Romany (Gipsy) a'i 13 o gangen-ieithoedd Ewropaidd.

(*β*) Y Teulu Iranaidd: — † Hên Bersian (Achaemenian); † Pahlavi; Parsi; Neo-Persian; Kurdish: Beluchi; † Zend (Hên Factrian); Pukhtu (Afghan); Ossetian. Cynnwysir Armenian yn gyffredin yn y teulu hwn.

(*γ*) Y Teulu Keltaidd:—Kymric (Cymraeg, † Cernyweg, Llydaweg, † Gaulish); Gaelic (Gwyddeleg, Manx, Gaeleg yr Alban).

(*δ*) Y Teulu Italaidd:—† Umbrian; † Oscan; † Lladin; Neo-Latin, neu Romanic (Eidaleg, Sardinian, Gallo-italic, Ffrangeg, Provençal, Catalan, Hispaeneg, Portuguese, Rumansh, Friulian, Rumanian); † Messapian (Japygian).

(*ε*) Y Teulu Thrako-Illyriaidd:—† Thrakian; Albanian.

(*ζ*) Y Teulu Hellenaidd: — † Phrygian; † Groeg; Groeg Diweddar.

(*η*) Y Teulu Letto-Slavonaidd:—(1.) Slavic; † Hên Slavonic (Church Slavonic); Bulgarian; Rwsiaeg; Serviaeg; Slovene; Slovak; Polish; Polabic (Cassubian); † Wend. (2.) Lettic; † Hen Brwsiaeg; Lithuanian; Lett.

(*θ*) Y Teulu Teutonaidd: — (1.) † Gothic; Low German (Old, Middle, and New); † Anglo-Saxon; Saesneg; Frisian; Dutch; (2.) High German (Old, Middle, and New); (3.) † Hên Norse; Icelandic; Swedish; Danish; Norwegian.

Y mae Brugmann, yn ei "*Grundriss der vergleichenden Grammatik der indo-germanischen Sprachen*" (*Elements of the Comparative Grammar of the Indo-Germanic Languages*), yn cyfrif y teulu Indiaidd a'r teulu Iranaidd yn un teulu; yr hwn a eilw efe y teulu Ariaidd, gan arfer yr enw Indo-Germanaidd am y tylwyth cyfan—ein tylwyth Ariaidd ni. Dyry efe hefyd yr iaith Armenian yn deulu ar ei phen ei hun.

Fe roddwyd ar y tylwyth hwn amryw enwau. Y mae ysgolheigion yr Almaen yn hoff o'r enw "Indo-Germanaidd;" a hyny heb un rheswm arall na'i fod, fel y dywed y Proffeswr Whitney, "yn cynnwys yr enw tramor a roddwyd ar eu cangen hwy gan eu congcwerwyr, y Rhufeiniaid." Gelwir ef yn aml iawn "y tylwyth Indo-Ewropaidd." Y bai mwyaf ar yr enw hwn ydyw ei fod yn rhy hir. Galwyd ef "y tylwyth Caucasaidd;" ond nid ydyw 'r llwythau Caucasaidd yn Ariaid, oddigerth yr un llwyth bychan a elwir Iron. Nid ydyw Iron ond ffurf arall ar "Aryan:"—yr enw a roddwyd ar y tylwyth Indo-Ewropaidd gan y Proffeswr Max Müller, a'r enw sydd wedi ei dderbyn, erbyn hyn, gan y rhan fwyaf o ieithegwyr Lloegr. Dywed Max Müller fod *ârya* yn digwydd yn aml yn y "*Rig Veda*" (sef, casgliad o hymnau Sanscrit, yr ysgrifeniadau hynaf sydd ar gael mewn iaith Ariaidd), fel enw cenedlaethol ac enw anrhydeddus. Tardda o'r gair *arya*, *sef* "aradrwr," neu "amaeth," o'r un gwreiddyn ag *âr* yn Gymraeg. Gellir Cymreigio *Aryan* yn *Ariaidd;* ac arferir ef yma o herwydd ei fod yn gyfleus ac yn fyr, ac yn fwy arferedig, fe allai, na'r un arall ym mhlith ein cymmydogion y Saeson.

Y mae dau o'r teuluoedd Ariaidd â'u cartref yn Asia; sef, y teulu Indiaidd a'r teulu Iranaidd; y chwech arall yn Ewrop. Nid oes berthynas agos iawn rhwng y teuluoedd Asiaidd â'r un o'r teuluoedd Ewropaidd; ond tybir fod teuluoedd eraill wedi marw rhyngddynt, ac yn ddolenau coll. Am y teuluoedd Ewropaidd, perthynasau agosaf pob teulu yw y teuluoedd a orweddai yn agosaf ato, ar bob llaw iddo, gynt. Lleferid yr iaith Geltaidd yn Ffrainge a Phrydain; a'i pherthynasau agosaf ydyw y Deutonig ar un llaw, a leferid yn yr Almaen a Scandinavia, a'r Italig ar y llaw arall. Y mae 'r teulu Celtaidd yn perthyn yn agosach i'r teulu Teutonaidd nag i'r teulu Letto-Slavonaidd, ac i'r teulu Italaidd nag i'r teulu Hellenaidd; a'i berthynas agosaf un ydyw 'r teulu Italaidd—ac y mae rhwng y ddau deulu hyn berthynas agos iawn.




Dangosir perthynas tybiedig y teuluoedd byw a meirw â'u gilydd gan Dr. Isaac Taylor, yn ei "*Origin of the Aryans*" (tudal. 269), yn y darlun uchod. Fe welir ei fod ef yn cyfrif y teulu Letto-Slavonaidd yn ddau deulu.

Digitized by Google

Wrth hen safleoedd daearegol y teuluoedd hyn, a'u perthynas â'u gilydd, fe gesglir mai yn Ewrop, ac nid yn Asia, fel y tybid gynt, y trigai'r Ariaid cyntefig; sef, y genedl a lefarai 'r fam-iaith Ariaidd. Ond ni pherthyn i ni yma ddadleu y cwestiwn hwnw, o blegid â chenedl y Cymry, yn hytrach nag â'u hiaith, y mae a wnelo hyny fwyaf. Gan hyny, ni a gyfeiriwn y darllenydd at ein herthygl ar y Cymry am drafodaeth ar y pwngc. Am yr *iaith* Ariaidd gyntefig, fe'i holrheinir trwy gymmharu ieithoedd y gwahanol deuluoedd Ariaidd â'u gilydd. Er enghraifft, lle y ceir *c* yn Gymraeg (megys cant), fe geir *h* yn Saesneg (*h*undred), *sz* yn Lithuanian (*sz*imta), *c* yn Lladin (centum), *s'* yn Sanscrit (*s'*ata); a'r unig sain a all fod yn fam i'r rhai hyn oll ydyw *k*. Etto, lle y ceir *p* yn Gymraeg (*p*um*p*), fe geir *f* neu *wh* yn Saesneg (*f*ive, Almaeneg *f*ün*f*), *p* neu *k* yn Lithuanian (*p*en*k*i), *qu* yn Lladin (*quinque*), *k*, *ch*, neu *p*, yn Sanscrit (*p*an*ch*an); a'r unig sain a all fod yn fam i'r rhai hyn oll ydyw *kw*. Yn y dull yna fe olrheinir holl seiniau yr hen iaith gyntefig. Nid trwy gymmharu un gair, neu ddau, y penderfynir pa seiniau sydd yn cyfatteb i'w gilydd yn yr ieithoedd diweddar. Galleaid dyfynu enghreifftiau lawer o'r cyfattebiaethau uchod, megys *c*i—lliosog, *c*ŵn; Saesneg, *h*ound; Lladin, *c*anis: *c*raidd—Saesneg, *h*eart; Lladin, *c*ord-: *p*edwar—Saesneg, *f*our; Lladin, *qu*attuor; Lithuanian, *k*eturi: *p*a—Saesneg, *wh*o; Lladin, *qu*od; Sanscrit, *k*as, ac felly ymlaen. Ac nid trwy fympwy y penderfynir y fam-sain a gynrychiolant; ond trwy archwilio natur seiniau, a chanfod pa sain wreiddiol a allasai gyfnewid i'r holl seiniau diweddar, yn ol gweithrediad naturiol y peiriannau llafar. Y cyntaf i osod i lawr ddeddf cyfattebiaeth seiniau yn yr ieithoedd Ariaidd oedd yr ieithegydd Almaeneg enwog Grimm; a gelwir hi ar ol ei enw ef yn "Ddeddf Grimm." Yn canlyn wele dabl o'r cydseiniaid cyfattebol o Ddarlithiau Cymreig (*Welsh Lectures*) y Proffeswr Rhys, fel eu dyfynir gan y Proffeswr Sayce:—

| Ariaidd. | Sanskrit. | Zend. | Groeg. | Lladin. | Oscan ac Umbrian. | Gothic. | Saesneg. | Uchel Almaeneg Diweddar. | Lithuanian | Church Slavonic | Gaulish. | Hen Wyddeleg. | Hen Gymraeg. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| k | 's (ç) | ç | κ | c | k | h, g | h, g | h, g | sz | s | c | c, ch | c |
| kw | k, ch, p | k, ch, p | κ, π, τ, | qu, c, v | p | hv, f (p), h | wh, f | w, f | k, p | k, p | p | c, ch | p |
| g | j, sh | z, sh | γ | g | g | k | k, ch | k, ch | ż | z | g | g | g |
| gw | g, j, k | g, j, zh, k | β, γ[1] | [g] v, b | b | kv | qu, c | qu, k | g | g | b? | b, m? | b, m? |
| gh | h | z | χ | h, g | h | g | g, y | g | z | z | g | g | g |
| ghw | [g] h | g, j, zh | χ, φ | v, gv, g | ? | g, v? | g, w? | g, w? | g | g | b? | b | b |
| t | t | t | τ | t | t | th, d | d, th | d, t | t | t | t | t, th | t |
| d | d | d | δ | d, l | d | t | t | z, ss, sz | d | d | d | d | d |
| dh | [d] h | d | θ | f, d, b[2] | f | d | d | t, th | d | d | d | d | d |
| p | p | p | π | p | p | f, b | f, b | f, b | p | p | ... | ... | ...[3] |
| b | b | b? | β | b | b | p? | p? | pf?, f? | b | b | b | b, m | b, m |
| bh | [b] h | b | φ | f, b | f | b | b | b | b | b | b | b, m | b, m |
| ng | ṅ | n̄ | γ | ng | ng | ng | ng | ng | ng | ·n | ng | ng | ng |
| n | n | n | ν | n | n | n | n | n | n | n, ·n | n | n | n |
| m | m | m | μ | m | m | m | m | m | m | m, ·n | m | m, b | m, b |
| r | r, l | r | ρ, λ | r, l | r, l | r, l | r, l | r, l | r, l | r, l | r, l | r, l | r, l |
| y | y | y | η, ζ, δ | j | j | j | y | j | j | j | j | ... | i, ddi, dd |
| v | v | v | F, υ, ' | v | v | v | w | w | v | v | v | f, b | gu, u |
| s | s | h, s | σ, ' | s, r | s, r, z | s, z | s, r | s, r | s | s, ch | s | s | h |

Y mae 'r Proffeswr Sayce yn chwanegu atynt restr o lafariaid; ond y mae 'r rhestr yn anghyflawn: ac er pan gyhoeddwyd yr ail argraphiad o'r "*Introduction to the Science of Language*" yn

[1] O flaen *v*.

[2] Yn nghanol gair; *e.e.*, ruber (ἐρυθρός).

[3] Nid oedd *p* yn bod yn yr ieithoedd Celtaidd boreuol; felly, rhaid ystyried enwau priodol fel *Menapia* yn an-Ariaidd, neu, o leiaf, yn ang-Ngheltaidd.

Digitized by Google

1883, y mae Brugmann, Hübschmann, ac eraill, wedi cyhoeddi ffrwyth llawer o ymchwiliad i berthynasau 'r llafariaid. Dywed Brugmann fod yn y fam-iaith Ariaidd y llafariaid hyn—*i*, *î*, *u*, *û*, *e*, *ê*, *o*, *ô*, *a*, *â*, *ə*. Seinid *u* fel yr *w* Gymreig. Seinid *e* ac *o*, y mae yn debyg, yn agored. Nis gellir penderfynu yn hollol beth oedd sain ə—rhywbeth rhwng *a* ac *e*, fe allai. Dyma dabl Brugmann o'r llafariaid cyfattebol:—

| Ariaidd. | Indo-Iranian. | Armenian. | Groeg. | Lladin (mewn sillau acenog). | Hen Wyddeleg (mewn sillau acenog) | Teutonic. | Baltic-Slavonic. Lithuanian. | Baltic-Slavonic. Church Slavonic. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| i | i | i | ι | i, e | i, e | i, e | i | î |
| î | î | i (?) | ῑ | î | î | *Goth.*ª ei, *h.y.*, î *O.H.G.*ᵇ î | y *h.y.* î | i |
| u | u | u | υ (*Boeotian* u) | u | u, o | u, o | u | ŭ |
| û | û | u (?) | ῡ (*Boeotian* û) | û | û | û | û | y |
| e | a | e, i | ε | e | e | e, i | e | e |
| ê | â | i | η | ê | î | *Got.* ê, *O.H.G.* â | ė | ê |
| o | a, â | o (u) | ο | o | o | a | a | o |
| ô | â | u | ω | ô | â | *Got.* ô, *O.H.G.* uo | ů | a |
| a | a | a | α | a | a | a | a | o |
| â | â | a | ᾱ | â | â | *Got.* ô, *O.H.G.* uo | ô | a |
| ə | i | a | α | a | a | a | a | o |

ª Gothic. ᵇ Old High German.

Y mae llawer o'r cyfnewidiadau uchod yn cyrhaedd yn ol, fe allai, i gangen-ieithoedd y fam-iaith gyntefig; ac y mae llawer o'r seiniau sydd yn y tablau wedi newid yn y gwahanol ieithoedd i seiniau newyddion, yn ol y deddfau sydd wedi gweithredu ar bob iaith ar wahân: er enghraifft, aeth *mf* y gair Teutonig *fimf* (Cymr. *pump*, Llad. *quinque*) yn *f* yn Saesneg, ac wedi hyny aeth yr *f* yn *v*; o blegid *fif* yw y gair mewn hen Saesneg, *five* ydyw yn awr; ond ni cheir *v* yn y tabl gyferbyn a'r *p* Gymreig, o blegid cyfnewidiad cymmharol ddiweddar yn Saesneg oedd newid yr *f* yn *v*. Fe welir weithiau hefyd yn y tablau ddwy sain neu dair yn yr un iaith yn cyfatteb i un sain wreiddiol. Y pryd hyny, yr acen, a safle 'r sain wreiddiol yn y gair, sydd i benderfynu rhwng y gwahanol seiniau diweddar. Fe ddylid crybwyll fod yn y fam-iaith wreiddiol, heb law y seiniau a geir yn y tablau uchod, y seiniau *m*, *n*, *ng*, *l*, *r*, fel *llafariaid* (megys y seinir yr *l* yn y gair cath*l*, neu yr *n* yn *n*dw, sef *ydwyf* llafar gwlad). Y mae seiniau diweddar y llafariaid hyn braidd yn ddyrys. Ond fel enghraifft o'r ffurfiau a gymmerant yn y gwahanol deuluoedd, cymmerwch y gwreidd-air Ariaidd *k̥rd*, lle y mae yr *r̥* yn llafariad — yn Gymraeg try yn *craidd*, yn Lladin *cord-*, Groeg κραδ-, καρδ-, Saesneg *heart*. Gwelir fod llafariad newydd yn tyfu yn y gair; weithiau o flaen yr *r*, weithiau ar ei hol. Wedi cymmhwyso at y tablau hyn, a'r seiniau eraill na chynnwysir ynddynt, y deddfau sydd yn gweithredu ar y seiniau yn y gwahanol ieithoedd, rhaid profi fod *pob llythyren yn cyfatteb i'w llythyren* cyn y gellir dywedyd fod dau air o wahanol ieithoedd yn perthyn i'w gilydd. Y mae ieitheg, fel y gwelir, wedi tyfu allan o'r cyfnod cymmysglyd, pryd y gellid, trwy debygrwydd arwynebol yn y sain, brofi pob peth heb fod dim yn safadwy; pryd y delid fod perthynas rhwng Cymro a Gomer, ac y cymmerid enwau Assyriaidd â geiriau Cymraeg. Y mae tebygrwydd arwynebol rhwng y gair Saesneg *call* a'r gair Groeg καλεω; ond cipolwg ar dabl y cydseiniaid a ddengys nas gall fod dim perthynas rhyngddynt. O'r ochr arall, nid oes fawr o debygrwydd rhwng *benyw* a *queen;* ac etto, edrychwch dan yr *gw* Ariaidd, a chwi welwch *qu* yn Saesneg, *b* yn Gymraeg; ac o'r un gwreiddyn Ariaidd *gwnn* (lle y mae yr *n* yn llafariad) y tardd γυνη y Groeg, '*zena* y Church Slafonic —dau air etto am "wraig," yr enw Lladin *Venus* hefyd, a'r gair Groeg μναομαι "ceisio'n wraig," yr hwn a dardd drwy ffurf hynach βναομαι. Y mae ieithoedd, fel pob peth arall mewn natur, yn tyfu ac yn cyfnewid yn ol deddfau; a thrwy gael hyd i'r deddfau hyny y profwyd perthynas yr ieithoedd hyn, ac yr olrheiniwyd yr hen fam-iaith Ariaidd.

Wedi ei holrhain yn y dull hwn, fe geir mai iaith drwyadl dreigliadol oedd y fam-iaith Ariaidd; a pho bellaf yn ol yr olrheinir pob un o ieithoedd y tylwyth, mwyaf treigliadol yr â. Yr oedd yn yr hen Geltig saith neu wyth o wahanol gyflyrau i enw unigol, a therfyniad gwahanol i bob un. Y mae mewn Lladin clasurol chwech o'r cyflyrau hyny. I ddangos natur y treigliadau hyn, cymmerer y gair Lladin am "frenin," sef *rex*. Dyma'r cyflyrau:—

GWEITHREDOL — *rex*, brenin.
CYFARCHEDIG — *rex* (O) frenin.
GWRTHDDRYCHOL — *regem*, brenin.
MEDDIANNOL — *regis* (perthyn) i frenin.
DERBYNIOL — *regi* (rhoddi) i frenin.
ABLATIVUS — *rege* (o, gyda, &c.) brenin.

Wrth gyfarch brenin, dywedir wrtho *Rex!*

Digitized by Google

Pe byddai yn ofynol dyweyd "Gwelais *frenin*," *reg*EM fuasai y brenin; wrth sôn am "goron *brenin*," rhaid dyweyd *corona reg*IS; "rhoi *i frenin*" yw *dare reg*I; y terfyniad sydd yn dangos perthynas y gair â'r geiriau eraill yn y frawddeg. Ond fel y crybwyllwyd, nis gellir dangos *pob* perthynas â dim ond chwech o derfyniadau; er mwyn dyweyd eich bod yn myned *gyda brenin*, rhaid cael arddodiad—*cum rege*. Dyna'r egwyddor dreigliadol yn tori i lawr, ac arddodiad yn cael ei arfer i ddangos y berthynas, a'r terfyniad yn ddiwerth. Ac y mae y rhan fwyaf o'r ieithoedd Ariaidd diweddar wedi rhoi llai-lai o bwys o hyd ar y terfyniadau, nes eu colli bron yn llwyr, ac wedi arfer arddodiaid fwy fwy yn eu lle. Ni ddywed yr Eidalwr heddyw *regi*, fel y gwnai ei hynafiaid, am *i frenin;* ond *a un re*, "*to a king*." Bychan oedd defnyddioldeb y terfyniadau, a mawr oedd defnyddioldeb yr arddodiaid; am hyny, taflwyd y terfyniadau o un i un ymaith, ac arferwyd arddodiaid yn eu lle. Dyna hanes y treigliadau yn yr ieithoedd diweddar. Fe allai mai y ddwy iaith Ariaidd fwyaf di-dreigliad yn awr ydyw y Saesneg, a'r iaith Bersiaeg.

Y mae rhai ieithegwyr yn dal etto mai hen ludiadau ydyw 'r treigliadau hyn; ond cydnabyddant oll nas gellir olrhain y fam-iaith Ariaidd i gyfnod gludiol. Gellir olrhain y terfyniadau i'r fam-iaith; ond nis gellir rhoddi *ystyr eiriol* iddynt ynddi, na phrofi eu bod erioed wedi bod yn eiriau eu hunain. Delir hyny gan y rhai sydd yn tybied mai mewn gwreidd-eiriau unsill y llefarai ein hynafiaid; ond y mae y dyb hono yn groes i bob ffaith. Yn nhreigl amser y mae geiriau yn myned yn unsill:—y mae *gweled* yn hŷn na *gwel'd; rota* ydoedd *rhod* gynt, a *semetipsissimum* oedd y gair Ffrengig unsill *même;* ac yn herwydd ei dirfawr henaint, y mae iaith Catai yn iaith unsill, fel y profodd Dr. Edkins, ac ysgolheigion Chinëaidd eraill. Wedi cael cyflawn reolaeth ar y peiriannau llafar y gellir llefaru gair unsill. Yr oedd y dyn anwar yn rhuthro bendramwnwgl dros yr unsill i sill arall, fel y gwna'r plentyn bach. Sylwch ar eiriau babanod, y maent bron oll yn ddeusill —*tada*, *mami*, *mw-mw;* nis gall rhai plant ddyweyd yr un gair unsill heb *y* yn ei ysgil, megys *dad-y*, *mam-y*. Gelwir plant hefyd yn ol eu dull hwy o lefaru yn *Tomi*, *Wili*, *Johni;* wedi iddynt dyfu yn llangciau y gelwir hwynt yn *Tom*, *Wil*, *John*. Fel plant, hefyd, yr oedd gan yr Ariaid cyntefig amryw derfyniadau di-ystyr i'w geiriau; ac o dipyn i beth fe ganfyddwyd y gallesid gwneyd defnydd o honynt i ddangos swydd y gair yn y frawddeg; ac fe'u neillduwyd yn wahanol ddosbarthiadau i ddangos y gwahanol gyflyrau, a'r rhif, a'r amser, a'r person, a'r rhyw. Ond fel y gellid disgwyl, ni bu dosbarthiad anymwybodol felly nac yn llwyr nac yn drefnus. Ceir yr un terfyniad mewn gwahanol swyddi; yr un terfyniad, yn aml, mewn enw ac mewn berf; a llawer o derfyniadau yn dangos yr un swydd. Gallesid disgwyl mwy o drefn pe buasai 'r terfyniadau hyn yn eiriau gludiedig, ac ystyr pendant i bob un o honynt. Y mae yn wir fod gludiadau wedi myned yn dreigliadau yn yr ieithoedd Ariaidd diweddar. Er enghraifft, y mae *-ly* yn *godly* yn tarddu o'r hen *lic* (*like*); ond y mae yn awr yn derfyniad treigliadol heb ystyr iddo ar ei ben ei hun. Felly hefyd yn Gymraeg, y mae y *-lon*, yn *ffyddlon*, yn tarddu o ludiad y gair *llawn* wrth y gair *ffydd;* ond nis gellir esbonio y *-dod* yn *trindod* felly. Nis gellir esbonio 'r terfyniadau hynaf fel gludiadau; y gwir ydyw, mai yr egwyddor dreigliadol oedd egwyddor gynhenid yr ieithoedd Ariaidd, ac mai hyny sydd yn peri fod ynddynt duedd i wneyd terfyniadau treigliadol o ludiadau, ac o bob defnydd dichonadwy arall. Dyna fraslun o olygiadau rhai o'r awdurdodau uchaf ar y rhan hon o ieitheg. Gweler Sayce, *Preface to 2nd edition*, "*Introduction to Science of Language*."

Rhaid gwahaniaethu yn ofalus rhwng y gwreidd-air a therfyniad. Yn y gair *canaf* y gwreidd-air ydyw *can-*, y terfyniad ydyw *af*. Ond na thybier mai 'r GAIR *cân* yw y gwreidd-air, o blegid yr oedd gan y gair hwn derfyniad ei hun yn y Gymraeg hynaf. Yn y fam iaith Ariaidd yr oedd gan bob enw derfyniad treigliadol; ac ystyr priodol gwreiddyn neu wreidd-air ydyw y *rhan anghyfnewidiol* o'r gair. Fel hyn, yn y treigliadau uchod o'r gair Lladin *rex*, saif *rex* am *reg-s;* ac yna fe geir *reg-s*, *reg-em*, *reg-is*, *reg-i*, *reg-e*, a'r gwreidd-air ydyw *reg-*. Ceir ef hefyd yn *reg-o*, *reg-ere*, "rheoli;" ond na thybier fod *reg* erioed wedi bod yn air ar ei ben ei hun. Nid *gair* felly ydyw gwreiddyn neu wreidd-air, ond y rhan hono o air y darganfyddwyd gan *ramadegwyr* ei bod yn rhan hefyd o eiriau eraill yn perthyn i'r gair hwnw. Yn fyr, nid oedd yn yr iaith gyntefig yr un gwreidd-air heb derfyniad iddo. Gellir dadansoddi gair Ariaidd ynte yn flaen-ddod, gwreidd-air, a therfyniad. Gall pob un o'r rhai hyn fod yn gyfansawdd; megys yn y gair *ym-ddi-ddan*, lle y ceir dau flaen-ddod; *pen-wyn-u*, lle y ceir dau wreidd-air; *hyn af-iaid*, lle y ceir terfyniad cyfansawdd. Ond yn gyffredin, y mae pob elfen yn ddigon hawdd ei hadnabod.

Olrheiniwyd mam-iaith y teulu Celtaidd yn gyffelyb i'r fel yr olrheiniwyd mam-iaith y tylwyth Ariaidd; ond y mae llawer iawn etto o waith i'w wneyd i ddadrys holl ddirgelion yr hen Geltig. Ond fe geir ei bod yn iaith dreigliadol â thair rhyw—gwrywaidd, benywaidd, a neodr; tri rhif—unigol, deuol, a lliosog; a saith neu wyth o gyflyrau, i enw; a'i bod yn perthyn yn agos i'r Lladin. Y mae Dr. Whitley Stokes wedi olrhain treigliadau 'r enw, yn benaf, drwy gymmhorth treigliadau 'r hen Wyddeleg. Yr ydym yn dyfynu o'i lyfr, "*Celtic Declension*," enghraifft neu ddwy o'r treigliadau hyn:—

| | Hen Wyddeleg. | | | Y Fam-iaith Geltaidd. | | | Lladin. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwr. | Unigol. | Deuol. | Lliosog. | Unigol. | Deuol. | Lliosog. | Cyflwr. | Unigol. | Lliosog. |
| Gweithredol ... | *rí* | *dá ríg* | *ríg* | *ríx* | *ríge* | *ríges* | Gweith. ... | *rex* | *reges* |
| Cyfarchedig ... | *a rî* | ... | *a ríga* | *rîx* | ... | *rígês* | Cyf. .. | *rex* | *reges* |
| Gwrthddrychol ... | *ríg-n* | *dâ rîg* | *ríga* | *rîgem* | *ríge* | *rígêss* | Gwrth. ... | *regem* | *reges* |
| Meddiannol ... | *rîg* | *dâ rîg* | *rîg-n* | *rígos* | *rîgô* | *rîgôm* | Medd. ... | *regis* | *regum* |
| Derbyniol ... | *rîg* | *dib rígaib* | *rígaib* | *rîgi* | *rigebim* | *rígebos* | Derb. ... | *regi* | *regibus* |
| Offerynol .. | ... | ... | ... | ... | ... | *rígebis* | Ablativus ... | *rege* | *regibus* |

Fe ddangosir uchod dreigliadau 'r gair *ríx*—Gwyddeleg, *rí;* Cymraeg, *rhi;* sef, gair o'r un gwreiddyn Ariaidd a'r gair Lladin *rex*, "brenin." Rhoddir yn gyntaf dreigliadau 'r gair yn Hen Wyddeleg y canol-oesoedd boreu, yna ei dreigliadau yn y fam-iaith Geltaidd, yna treigliadau

Digitized by Google

y gair Lladin *rex*. Rhoddir treigliadau 'r Hen Wyddeleg er dangos pa faint o ôl yr hen dreigliadau Celtaidd sydd ynddi, a pha fodd yr olrheinir hwynt o honi. Rhoddir treigliadau 'r gair Lladin er dangos y berthynas agos sydd rhwng y Lladin a'r hen Geltig.

Yr oedd yn yr hen Geltig, fel yn y Lladin a'r Groeg, amryw ddulliau o dreiglo enw. Rhoddwn yma un neu ddwy enghraifft etto o lyfr Dr. Stokes, yr hwn y cyfeiriwyd ato yn y tudalen diweddaf; a chymmhared a fyno hwynt â'r treigliadau Lladin. Y cyntaf ydyw *crediom*—"calon;" Gwyddeleg, *cride;* Cymraeg, *craidd:*—enw o'r rhyw neodr. Yr ail ydyw *rêda*—"cerbyd;" enw benywaidd. Y trydydd ydyw *bitus*—"byd;" enw gwrywaidd:—

| Cytlwr. | Unicol. | Deuol. | Lliosog. | Unigol. | Deuol. | Lliosog. | Unigol. | Deuol. | Lliosog. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwei.... | *crediom* | *crediô* | *credia* | *rêda* | *rêdê* (*redi?*) | *rêdâs* | *bitus* | *bitû* | *bitaves, bitûs* |
| Cyf. ... | *crediom* | *crediô* | *credia* | *rêda* | ... | *rêdâs* | *bitavo* | ... | *bitûs* |
| Gwr. ... | *crediom* | *crediô* | *credia* | *rêdim* | *rêdê* (*rêdi?*) | *rêdâss* | *bitum* | *bitû* | *bitûss* |
| Medd... | *crediî* | *crediô* | *crediôm* | *rêdês* | *rêdô* | *rêdôm* | *bitavos, bitûs* | *bitavô* | *bitavôm* |
| Derb.... | *crediû* | *crediobim* | *crediobos* | *rêdê* | *rêdâbim* | *rêdâbos* | *bitû* | *bitubim* | *bitubos* |
| Offer.... | ... | ... | *crediobis* | *rêdâ* | ... | *rêdâbis* | ... | ... | *bitubis* |
| Lleol ... | ... | ... | ... | *rêdê* | ... | ... | ... | ... | ... |
| Abla.... | ... | ... | ... | *rêdâd* | ... | ... | ... | ... | ... |

Y mae 'r hen dreigliadau hyn, ac hyd yn oed ffurfiau 'r geiriau eu hunain, megys *bitus*, "byd," yn annhebyg iawn i ddim sydd yn yr iaith Gymraeg a adwaenom ni. Gadawer i ni ystyried pa fodd y newidiodd yr iaith o'r hen ffurf yna i'w ffurf ddiweddar. Y mae yn amlwg fod iaith Galia, ac iaith Prydain, yn amser y Rhufeiniaid yn ieithoedd treigliadol; ac y mae yn lled debyg nad oedd yr un o'r ddwy, nac iaith yr Iwerddon, wedi newid rhyw lawer er pan oeddynt un iaith. Nid oes neb yn fwy ceidwadol na chenhedloedd hanner gwâr; ac yn y canrifoedd diweddaraf y cymmerodd cyfnewidiadau mawr le mewn ieithoedd, fel pob peth arall yn Ewrop. Gan hyny, ni a gymmerwn ychydig o eiriau Lladin, ac enwau priodol y gwyddom beth oedd eu ffurf y pryd hwnw, ac a edrychwn pa gyfnewidiadau a gymmerth le ynddynt yn Gymraeg. Sylwer yn gyntaf wrth eiriau fel *rhod* o *rota*, *canwyll* o *candēla*, *ysgol* o *scola*, fod y sill ddiacen olaf yn colli bob amser: am hyny, fe welir fod gair fel *ciwed* yn tarddu o'r cyflwr gweithredol *civit-as* yn Lladin, tra y mae *ciwdod* yn tarddu o'r cyflwr gwrthddrychol *civitat-em*, neu un o'r cyflyrau hirion eraill. Gan golio fod yn rhaid cael sill dros ben yn y gair Lladin, neu yr hen enw, ni a edrychwn yn gyntaf ar gyfnewidiadau 'r cydseiniaid mewn geiriau.

1. Y cydseiniaid *t*, *p*, *c*, *d*, *b*, *g*, *m*, rhwng llafariaid. Gyferbyn âg Ll. ceir gair Lladin. Gyferbyn â H. E. ceir hen enw Cymraeg o amser y Rhufeiniaid. Gyferbyn â C. C. ceir y gair fel yr oedd yng Nghymraeg y Canoloesoedd, sef Cymraeg Llyfr Coch Hergest, &c. Gyferbyn â C. D., ceir y gair mewn Cymraeg diweddar:—

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll., | trinitât-em | Ll., | habên-a | H. E., | Caratâc-os | Ll., | cupid-us | Ll., | plum-a | Ll., | regul-a |
| C. C., | trindawt | C. C., | afwyn | C. C., | Caradawc | C. C., | cybydd | C. C., | pluf | C. C., | rheol |
| C. D., | trindod | C. D., | afwyn | C. D., | Caradog | C. D., | cybydd | C. D., | pluf, plu | C. D., | rheol |

Oddi wrth y geiriau hyn, fe welir fod y cydseiniaid uchod, pan oeddynt rhwng llafariaid, wedi newid fel y canlyn:—

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn y cyfnod Rhufeinig ... | t, | p, | c, | d, | b, | g, | m |
| Cymraeg diweddar ... | d, | b, | g, | dd, | f, | —, | f |

Yn araf, fel pob cyfnewidiad arall, y cymmerth y cyfnewidiadau hyn le. Y mae yn debyg fod y cydseiniaid wedi dechreu meddalu cyn i'r terfyniad golli; ond at bob diben ymarferol, caled oeddynt pan gollwyd ef. Ar ol ei golli, fe feddalhaodd y cydseiniaid oedd wedi hyn rhwng llafariaid yn gyflymach na'r lleill. Pan oedd *t*, *p*, *c*, yn niwedd gair ar ol colli 'r terfyniad, yr oedd llawer o'u caledrwydd yn aros yn y canol-oesoedd: ac ysgrifenid hwynt yn galed; megys *map* am *mab*, *Caradawc* am *Caradog*, &c. Ond erbyn hyn, y maent oll yn feddal, ac y mae 'r tabl diweddaf yn safadwy. Fe welir wrth y rhestr geiriau fod *n* ac *r* rhwng llafariaid yn ddigyfnewid; gwelir, hefyd, wrth gymmharu *eglwys* âg *eclesia* fod yr *s* hefyd yn aros yr un. Nis gall ychydig o eiriau fel yr uchod *brofi* 'r ddeddf. Gellid dyfynu digon o enghreifftiau i'w phrofi tu hwnt i ddadl; ond gall y darllenydd gymmharu 'r cydseiniaid hyn yn yr enghreifftiau a ddyfynir rhag llaw, ac ym mhob geiriau y gwêl efe eu bod yn tarddu o'r iaith Ladin.

2. Y cydseiniaid *t*, *p*, *c*, *d*, *b*, *g*, *m*, rhwng llafariad ac *l*, *r*, neu *n*. Fe welir, oddi wrth yr enghreifftiau canlynol, fod yr un cyfnewidiad wedi cymmeryd lle ag a nodwyd uchod. Nid ydym yn dyfynu ffurf y canol-oesoedd yma: yr unig air oedd yn wahanol yn y canol-oesoedd yw *Dyfric*:—

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll., | April-is | Ll., | latron-es | Ll., | column-a | H. E., | Dubric-ius | H. E., | Maglo-cun-os |
| C. D., | Ebrill | C. D., | lladron | C. D., | colofn | C. D., | Dyfrig | C. D., | Maelgwn |

Fel y canlyn y cyfnewidia 'r cydseiniaid uchod mewn cyssylltiadau eraill. Rhoddir yn y ddwy res uchaf a welir isod y cyfuniad o gydseiniaid fel yr oedd yn y cyfnod Rhufeinig; ac yn yr isaf, ffurf y cyfuniad hwnw mewn Cymraeg diweddar:—

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyf. Rhuf.... | rt | rp | rc | rd | rb | rg | rm | lt | lp | lc | ld | lb | lg | lm | nt | np | nc | nd | nb | ng | nm |
| Cym. Diw.... | rth | rff | rch | rdd | rf | r (ri) | rf | llt (ll) | ? | lch | llt (ll) | lf | l (li) | lf | nt, nh, nn | mp, mh, m | nc, ngh, ng | nn | m | ng | nf |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Rhufeinig ... ... ... | mt | mp | mc | md | mb | mg | mm | cc | pp | tt | ct | pt |
| Cymraeg Diweddar ... ... ... | md | mp, mh, m | mg | mdd | m | m? | m | ch | pp | th | 'th | |

Lle y rhoddir tair sain ddiweddar i gyfatteb i un wreiddiol, y sain gyntaf ydyw yr un a geir yn niwedd gair, megys *dant:* yr ail ydyw y sain a geir o flaen yr acen, megys *danheddog:* y

Digitized by Google

drydedd sain ddiweddar i gyfatteb i un wreiddiol yw y sain a geir ar ol yr acen, *dannedd*. Fel enghreifftiau i ddangos y cyfnewidiadau uchod, cymmerer

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll. | virt-us | corp-us | arc-us | argent-um | arm-a | cultellus | H. E., Elmet | Ll. | Ambrosius |
| C. D., | gwyrth | corff | arch | arian | arf | cyllell | C. D., Elfed | C. D., | Emrys |

Ystyr y "sillgoll" o flaen yr *th* yn y cyfuniadau diweddaf yw, fod y llafariad o flaen *ct* neu *pt* yn myned yn ddeusain o flaen *th*. Fel hyn:—o *act* ceir *aeth*, o *oct* ceir *oeth*, o *uct* ceir *wyth*, o *ect* ceir *eith*, neu *aith*. Wele enghreifftiau o'r dosbarth diweddaf o gyfuniadau:—

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll., ... | peccât-um | cipp-us | battât-um | doct-us | capt-us | fruct-us | effect-us | rect-us |
| C. D., ... | pechod | cyff | bathod | doeth | caeth | ffrwyth | effaith | rhaith |

3. Lle y safai *l* rhwng cydseiniaid, hi a erys yn *l*; ond pan y saif o flaen *i*, ac ar ol *n* neu *r*, try yn *ll*. Try *l-l* hefyd yn *ll*—fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ll. stell-a | Ll. papil-io | Hen Gymraeg, per-lan | Scandinavian, iarl | Hen Gymraeg, gwinlan |
| C. D., ystwyll | C. D., pebyll | Cym. Diw., perllan | C. D., iarll | C. D., gwinllan |

Y mae *l* ac *r* yn nechreu geiriau wedi troi yn *ll* ac *rh*. Priodolir hyn gan y Proffeswr Rhys i'r duedd sydd yn Gymraeg i arfer *h* o flaen acen, megys yn *brenin*, *brenhinoedd*; ac y mae *th* yn troi yn naturiol yn *ll*.

Gellid gofyn paham y cyfnewidiodd y seiniau hyn? Paham yr aeth *t* rhwng llafariaid yn *d*, a *d* rhwng llafariaid yn *dd*; ac yr aeth *rt* yn *rth*?

Y rheswm dros y cyfnewidiadau hyn yn syml ydyw, fod dynion, yn anymwybodol, wrth siarad, yn tueddu i arbed llafur iddynt eu hunain, trwy ymdebygu seiniau cyfagos i'w gilydd. Er dangos hyn yn amlycach, ni a ddyfynwn y tabl canlynol o seiniau 'r Gymraeg, yr hwn a gymmerwyd o "*Welsh Philology*" y Proffeswr Rhys:—

| Geneuol. | | | | Trwynol. | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Mud.* | | *Anadledig.* | | *Anadledig.* | |
| Di-sain. | Seiniol. | Di-sain | Seiniol. | Di sain. | Seiniol. |
| t | d | th | dd | nh | n |
| p | b | ph *neu* ff | f | mh | m |
| c | g | ch | ... | ngh | ng |
| | | ll | l | | |
| | | rh | r | | |
| | | s | ... | | |
| | | hi | i } cydseiniol | | |
| | | hw | w } | | |
| | | h | a, e, i, o, u, w, y | | |

Cydsain fud ydyw cydsain sydd yn tori ar yr anadl, ac yn ei attal yn llwyr am ennyd, megys *t*. Cydsain anadledig ydyw un a gynnyrchir gan ffrwd ddi-dòr o anadl, un y gellir ei pharhau yn ddiderfyn, megys *th*. Cydsain seiniol ydyw un nas gellir ei swnio heb *sain* hyglyw. Seinier *dd* ac *th* ar eu penau eu hunain, fe welir y gwahaniaeth. Yr ydych yn gwneyd sŵn uchel wrth seinio *dd*: nid ydych wrth seinio *th*. Y mae 'r cydseiniaid di-sain yr un fath wrth sisial ag wrth siarad yn uchel; yn y llafariaid a'r cydseiniaid seiniol y mae 'r gwahaniaeth. Cymmerwch, ynte, *t* rhwng llafariaid; dyna gydsain *ddi-anadl* neu fud, a *di-sain*, rhwng llafariaid, y rhai sydd yn *anadledig* ac yn *seiniol*. Er mwyn ymdebygu i'r llafariaid, rhaid i'r *t* ennill un ai *anadl*, a throi yn *th*; neu *sain*, a throi yn *d*. Yn *th* y trodd hi yn y Wyddeleg, ac yn *d* yn Gymraeg; felly, y mae *th* Wyddeleg yn cyfatteb i *d* Gymraeg. Rhwng *r* a llafariad, fe welir, mai yn *th* y trodd y *t* yn Gymraeg hefyd. Cymmerer etto *d* rhwng llafariaid. Y mae 'r *d* yn *seiniol*, ond yn *ddi-anadl*. Er mwyn iddi ymdebygu i'r llafariaid oedd o bobtu iddi, rhaid oedd iddi ennill *anadl*, a throi yn *dd*. Am esboniad helaeth ar yr holl gyfnewidiadau hyn, yn gystal a'r cyfnewidiadau yn y llafariaid, y rhai yr ymdrinir yn fyr arnynt yn y paragraph nesaf, cyfeirir y darllenydd at "*Welsh Lectures*" y Proffeswr Rhys.

I droi at y llafariaid, cymmerer yn gyntaf y llafariaid hirion. Dengys y tabl canlynol y cyfnewidiadau a fu ynddynt. Sylwer mai *w* y seinid *u* yn Lladin, ac yng Nghymraeg y cyfnod Rhufeinig:—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y cyfnod Rhufeinig... | â | ê | î | ô | û |
| Cymraeg Diweddar ... | aw, o | wy | i | u(y) | u(y) |

Y mae enghreifftiau yn dra lliosog: cymmerer yr ychydig a ganlyn:—

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll., | peccât-um | Ll., | fât-um | rêm-us | eclês-ia* | vîn-um | peccatôr-em | Lûn-a |
| C. C., | pechawd | C. D., | ffawd | rhwyf | eglwys | gwin | pechadur | Llun |

Y mae *aw* y canol-oesoedd yn troi yn *o* yn sill olaf gair, megys *pechod*; ac yn aml yn y sill acenog, megys *llidiocach*. Yn y sefyllfa ddiweddaf yr oedd hi wedi troi yn *o* mewn llawer o eiriau yn y canol-oesoedd. Nid ysgrifenid *pechawdeu*, namyn *pechodeu*. Fe welir fod *u*, yr hwn sydd yn tarddu o *ô* neu *û*, yn troi weithiau yn *y*. Gwelir hyny yn *ysgrythyrau* (*ysgrythur* o *scriptûr-a*); *testynau* (*testun* o *testfun*, o *testimôn-ium*). Y mae 'r cyfnewidiad hwn braidd yn afreolaidd; neu yn hytrach, eithriadau ydyw yr enghreifftiau o hono. Fe ddylid crybwyll hefyd fod yna *û* arall yn Gymraeg yn y cyfnod Rhufeinig, â sain tebyg i'r *û* diweddar iddo. Tarddai hwnw o *û* (hyny yw, *ü*), yr hen Geltig; a chyfnewidiodd i *i* mewn Cymraeg diweddar. Sylwer ar y gair Galiaidd *dun-um* (Saes. *town*); yn ei ffurf Gymreig ddiweddar, *din* (din as) ydyw. Eithr wrth sôn am *u* yn y cyfnod Rhufeinig, y sain *w* a feddylir os na chrybwyllir yn

* Ymddengys yr ysgrifenid *eclesia* âg un *c*; y ffurf hono, yn hytrach, nag *ecclesia* a gyfettyb i'r gair Cymraeg; o blegid try *cc* yn *ch*, fel y gwelir oddi wrth y tabl ar waelod tudal. 54.

Digitized by Google

i'w cyntefigion cywir; ac y mae cymmaint o dywyllwch etto yn gordoi 'r terfyniadau berfol fel nad ydym yn teimlo mai doeth fyddai ceisio eu holrhain yma.

Un cyfnewidiad pwysig arall mewn geiriau ydyw colli llafariad ddiacen. Yn yr ail sill o air o fwy na thri sill y collir yn gyffredin; a'r llafariad a gollir amlaf ydyw *i*, er y collir hefyd weithiau *e*, *o*, ac *u*. Fel enghreifftiau o hyn, cymmerer

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll., | trin*i*tât-em | Ll. | civ*i*tât-em | Ll. | test*i*môn-ium | Ll. | mon*u*ment-um |
| C. D., | trindod | C. D., | ciwdod | C. D., | test(f)un | C. D., | mynwent (*am* mynfent) |

Y mae 'r egwyddor hon wedi ei dilyn yn lled gysson mewn Cymraeg diweddar, er fod ysgrifenwyr yn mynu ei diystyru. Collir *a*, *e*, *o*, weithiau; ond y llafariad sydd yn colli yn rheolaidd, bob amser lle gellir seinio y cyfuniad cydseiniaid a geir ar ol ei cholli, ydyw *y*, cynnrychiolydd yr hen *i*; megys *dychymmyg*, *dychmygion*, *tragywydd*, *tragwyddol*, *cymmydog*, *cymdogaeth*. Sylwer hefyd ar *cydym*(*d*)*aith*, *cy*(*d*)*mdeithion*.

Ynglŷn â hyn y mae pwngc y geiriau cyfansawdd. Fel pob un o'r ieithoedd Ariaidd, yr oedd y fam-iaith Geltaidd yn dra hoff o'r geiriau hyn; a chyfansoddid hwynt ynddi hithau yn hollol ar yr un egwyddor ag yn y lleill; sef, yn lle bod y rhan gyntaf yn llawn, ni roddid ond ei gyff; hyny yw, ei wreidd-air, a llafariad ei dreigl. Y mae 'r dull hwn yn hollol adnabyddus mewn cyfansoddeiriau Lladin, a rhai Saesneg a wneir ar yr un model, sef *Anglo-American*, a *Franco-Prussian*. Mai hwn oedd y dull Celtaidd hefyd, a brofir yn ddi-os gan yr enwau priodol cyfansawdd o'r cyfnod Rhufeinig sydd ar gael heddyw. Nodwn ychydig o honynt—*Cata-manos*, *Argento-coxos*, *Cuno-tamos*, *Cuno-maglos*, *Maglo-cunos*, *Cato-tegerni*, *Mori-dunum*. Y mae llafariad y cyff yn colli o'r elfen gyntaf o'r gair, fel ag y cyll y terfyniad o'r ail elfen; felly dyry *Cata-manos* mewn Cymraeg diweddar *Cadfan*. Ond er fod y llafariad yn colli, gedy ei hôl; o blegid y mae yr *m* yn y gair uchod yn treiglo yn naturiol i *f*, fel pob *m* arall oedd rhwng llafariaid. Felly, y mae yn rheol mewn Cymraeg diweddar fod cydsain ddechreuol yr ail elfen o air cyfansawdd yn feddal; a'r rheswm ydyw fod y gydsain hono rhwng llafariaid yn yr hen Geltig. Er dangos hyn yn eglurach etto, ni a ail ddyfynwn yr enwau uchod, gan roddi danynt eu ffurfiau mewn Cymraeg diweddar:—

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C. R., Cata-manos | Argento-coxos | Cuno-tamos | Cuno-maglos | Maglo-cunos | Mori-dunum | Cato-tegerni |
| C. D., Cad-fan | Arian-goes | Cyn-daf | Cyn-fael | Mael-gwn | Myr-ddin | Cad-deyrn |

Ond i'r darllenydd sylwi ar y gair olaf, cenfydd ein bod wedi ysgrifenu 'r cydseiniaid fel y cyfattebont i'r cydseiniaid gwreiddiol; eithr ffurf y gair mewn Cymraeg diweddar ydyw *Cateyrn*. Ac ym mhob man lle mae dwy *d*, neu *d* ac *h*, wedi cydgyfarfod o herwydd colli llafariad, y mae y *d-d*, neu y *d-h*, wedi cyfnewid i *t;* a dyna darddiad pob *t* rhwng llafariaid mewn Cymraeg diweddar. Ac felly hefyd am *p* ac *c*. Fel hyn, o *ad-heb* ceir *ateb*, o *eb-hil* ceir *epil*. Felly hefyd tra ceir *teg* o'r hen Geltig *tec-os*, o'r hen Geltig *tego-sam-os*, fe gaed yn gyntaf *teg-haf*, ac yna *tecaf*.

Dwy elfen bwysig a effeithiodd ar weddnewiad yr iaith Gymraeg ydyw yr acen, a thwyll-gydweddiad *(false analogy)*. Sylwn yn gyntaf ar yr acen. Dywed Brugmann fod yr acen ar y sill gyntaf yn yr hen Geltig; yno yr oedd hi mewn hen Wyddeleg, ac y mae hi yn yr iaith Wyddeleg ddiweddar. Ond yn Gymraeg ar y sill olaf ond un, fel rheol, y disgyn yr acen; eithr ei bod mewn Cymraeg diweddar ar y sill olaf, pan y mae y ddwy sill olaf wedi myned yn un, megys *Cymraeg'* o *Cymra'-eg*, *paratoi'* o *parato'-i*. Y mae 'r dull hwn o roi 'r acen ar y sill olaf ond un yn bur hen; y mae yn lled debyg ei fod gyn hyned a'r cyfnod Rhufeinig. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg mai felly yr acenwyd y geiriau Lladin gan yr hen Frythoniaid a'u benthyciodd. Nid ydyw ysgolheigion Celtaidd etto wedi darganfod i sicrwydd holl weithrediadau 'r acen yn Gymraeg; dïau, pan wybyddir hwynt, yr esbonir llawer o eithriadau i'r deddfau cyfnewid uchod nas gellir eu hesbonio heddyw. Ond sylwer ar un peth neu ddau:—Ni thrinwyd llafariaid hirion ond megys rhai byrion lle nad oedd acen arnynt; hyny yw, ni thrôdd *â* ac *ô* y cyfnod Rhufeinig yn *aw* ac *u*, ond lle yr oedd acen arnynt yn y cyfnod hwnw. Er enghraifft, o *peccât'-um* fe gaed *pechawt*, ac yna *pechod;* ond yn y gair *peccatôr'-em*, nid oedd yr acen mwyach ar yr *â*, ac felly caed *pechadur*. Felly hefyd o *parât'-um* caed *parod;* ond o *paratoâd'-jat*[*] caed *paratoawdd* ac yna *paratôdd*. Sylwer hefyd nas gall *i*, na'r un llafariad arall, golli ond pan y byddo yn ddi-acen. Nis gallai fod acen ar yr *i* yn *episcop-os;* yn hytrach, acenid y gair yn y dull Cymreig, ar y sill olaf ond un (epi-scop'-os), ac fe gollwyd yr *i* ddiacen a chaed *epscop*, ac yna *esgob*. Ond yn Saesneg, fe daflwyd yr acen ymlaen ar y gair, yn ol arferiad y Saeson, a seiniwyd ef yn *e-pis'-cop-os;* collwyd yr *e* ddiacen, a'r terfyniad, a chaed *bis-cop*, ac yna *bishop*. Y mae *e* ddi-acen yn y blaenddodiaid *de-* a *des-* yn troi yn *i*, megys *dibynn-* o *depend-*, *disberod* o *desperât-io;* ac fe allai mai acen gref ar yr *e* a bair ei bod weithiau yn gwrthod cyfnewid i *y* o flaen *i*, megys yn *mEddyg*, o *med'ic-us*. Y mae 'r acen etto ar y sill gyntaf yn y gair Eidaleg *med'ico*, er fod yr acen yn yr iaith hono, fel rheol gyffredin, yn syrthio ar y sill olaf ond un, fel yn Gymraeg. Y mae acen gref yn cynnyrchu *h* o'i blaen yn gyffredin, megys yn y gair *brenhinoedd;* a thry yr *h* hono *d*, *b*, *g* yn *t*, *p*, *c*, ac yn aml try *f* ac *dd* yn *ff* ac *th*. Os cywir ein tyb mai *h* acenol ydyw yr un a geir yn y terfyniadau *-hau* a *-had*, gwelir enghreifftiau o'r cyfnewidiadau olaf hyn yn y geiriau *caniatau*, *nacau*, *coffau*. Gydag ychydig awgrymiadau fel yna, gadawn bwngc dyrys yr acen.

Wrth gydweddiad, neu *analogy*, y golygir creu ffurf newydd ar yr un egwyddor ag yr ymddengys fod hen ffurfiau wedi eu creu. Er enghraifft, pan luniwyd y gair *clafdy*, fe feddalwyd *t* y gair *ty*, o blegid fod y gydsain gyntaf yn yr ail elfen o eiriau cyfansawdd *eraill* yn meddalu. Mewn gair fel *Cyndaf*, meddala 'r *t*, o blegid ei bod rhwng dwy lafariad yn hen ffurf y gair, *Cuno-tamos*, fel y dangosasom; ond nid ydym i dybied fod y fath air a *clamo-tigos* yn

[*] Yr hen derfyniad *âjat*, Sanscrit, *ayat*. Fe sylwyd fod yn debyg fod y *d* wedi dyfod i mewn o flaen *j* cyn y cyfnod Rhufeinig.

Digitized by Google

bod yn yr hen Frythoneg. Nid am fod y *t* wedi bod erioed rhwng llafariaid yn y gair clafdy yr aeth hi yn *d* ynddo; ond ei *gwneyd* yn *d* a gafodd pan wnaed y gair, er mwyn i'r gair cyfansawdd hwn gyfatteb yn ei ffurf i eiriau cyfansawdd eraill. Felly hefyd yn yr iaith ddiweddar, fe roddwyd i amryw eiriau derfyniadau nad oedd-ynt yn perthyn iddynt yn yr hen Frythoneg. Er enghraifft, y *mae* hen air *grammatic*-A yn cynnrychioli 'r gair *grammad*EG; ond nid oedd eiriau yn y Frythoneg oedd yn cynnrychioli y gair *moes*EG neu *ieith*EG. Etto, o herwydd fod yr *h* yn hen derfyniad y radd eithafol *-haf* (o *-sam-os* Lladin *-sim-us*) yn caledu cydsain olaf yr ansoddair, megys *tecaf* o *teg-haf;* am hyny, trwy gau-gydweddiad, fe galedwyd y gydsain yn y radd gymmharol hefyd, er nad oedd *h* yn nherfyniad y radd hono. Yn ddi-weddar y cymmerodd y cyfnewidiad hwn le, o blegid yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ysgrifenid *tegach, tec kaf.* O herwydd fod *pebyll*, "a tent" (gair sydd yn tarddu yn rheolaidd o *papil-io*), yn ymddangos yn debyg i air lliosog, fe'i trinwyd fel gair lliosog; a thrwy gau-gydweddiad â geiriau fel *maneg, menyg,* fe ddyfeisiwyd unigol newydd iddo, *pabell.* Yn y canol-oesoedd, *pebyll* oedd y gair unigol; lliosog, *pebylleu.* O herwydd fod y rhan fwyaf o eiriau unsill â'r llafariad *y* yn wrywaidd, fe ddywedir yn awr *y llys hwn*, yn lle *y llys hon*, fel y dywedid yn y canol-oesoedd. Ond fe allai mai mewn creu gwahaniaethau newydd, lle mae colli 'r terfyniad wedi dileu yr hen rai, y bu gau-gydweddiad brysuraf. Er enghraifft, o *medic-us* cafwyd *meddyg:* ond ni cheid dim amgen o'r lliosog *medic-i;* felly, fe chwanegwyd y terfyniad *-on* at y gair i wneyd y lliosog *meddygon*, fel pe tarddasai o *medicon-es:* ond y mae yn berffaith hysbys mai *-i*, ac nid *-ones*, oedd hen derfyniad lliosog y gair. Yn wir, y mae *-au* ac *-on* wedi eu harfer yng nghyfnodau diweddar yr iaith i liosogi llaweroedd o eiriau nad oes ganddynt yr un berthynas wreiddiol â hwy. Ofer fyddai i ni geisio dilyn effaith cydweddiad a gau-gydwedd-iad i bob man; effeithiant ar acen geiriau a hyd llafariaid, ac ar ystyron geiriau a grammadeg. Gau-gydweddiad sydd yn cynnyrchu rheoleidd-dra trwy adlunio ar y cynllun rheolaidd ffurfiau sydd yn ymddangos yn afreolaidd. Trwy gau-gydweddiad y cafwyd rheol mor gysson i acenu geiriau Cymraeg ar y sill olaf ond un. Y mae cydweddiad cywir a gau wedi effeithio ar bob iaith. Lliosogir *book* yn Saesneg yn *books*, yn ol y rheol gyffredin, er fod ganddo, fel y sylwa 'r Proffeswr Whitney, "gymmaint o hawl etifeddol i liosog *beek* ag sydd gan *foot* i *feet*, yn lle *foots.* Yn Anglo-Saxon lliosog *bôc* ydyw *bêc*, megys ag mai lliosog *fôt* ydyw *fêt.*" Fel enghraifft arall o'r iaith Saesneg, cymmerer a ganlyn gan y Proffeswr Sayce:—"Yn y geiriau *contemplate* a *blasphemous*, lle ceidw Tennyson a Milton yr acen ar y sill olaf ond un, gosodir hi bron bob amser yn awr ar y sill gyntaf; ac y mae *revenue* wedi hen ddilyn eu hesampl. Yn hwyr neu yn hwyrach, y mae cydweddiad yn lled sicr o or-fodi pob ffurfiau afreolaidd i gydgordio â'r hyn sydd wedi dyfod i ffynu yn rheol gyffredin." Dywed ef fod effaith cydweddiad yn fwy ac yn eangach nag effaith adfeiliad seiniol;—"y mae adfeiliad seiniol yn difrodi ac yn dinystrio, cydweddiad yn adgyweirio ac yn ail-adeiladu;" a "chydweddiad gau, yn hytrach na chydwedd-iad cywir, ydyw yr egwyddor arweiniol." Ni wiw i neb wrthwynebu gwaith cydweddiad. Rhaid cydnabod awdurdod cydweddiad, boed ef gywir, boed gau. Mursendod fuasai ysgrifenu "y pebyll hwn," neu "y llys hon," yn awr, pan y mae hyd yn oed gau-gydweddiad, trwy gydsyniad y genedl, wedi eu cyfnewid i "y babell hon" a'r "llys hwn."

Yr ydym wedi tynu braslun o'r cyfnewidiadau a gymmerodd le yn yr iaith Gymraeg o amser y Rhufeiniaid hyd heddyw, a dyfynasom lawer o eiriau Lladin a fenthyciwyd gan y Cymry yr adeg hono i brofi 'r pwngc. Ond nid bob amser, addefwn, y gellir profi yn ddiddadl fod gair Cymraeg yn tarddu o'r Lladin, o herwydd tebygrwydd y Lladin a'r fam-iaith Geltaidd i'w gilydd; eithr dyfynasom eiriau nas gall bod dim dadl yn eu cylch. Y mae llawer o eiriau eglwysig, fel *eglwys* ac *efengyl*, a geiriau sydd yn adlewyrchu gwareiddiad Rhufeinig, na wâd neb diragfarn nad o'r Lladin y deilliant; a lle y mae cydseiniaid gair yn cyfatteb i golofn Lladin y cydseiniaid yn nhabl deddf Grimm, rhaid cydnabod mai o'r Lladin y tardd y rhai hyny hefyd. Er enghraifft, y mae 'r *p* Lladin yn cynnrychioli 'r *p* Ariaidd, ac y mae hono yn diflanu yn Gymraeg. Felly, lle ceir *p* yn Gymraeg yn cyfatteb i *p* yn Lladin, megys *pont*, Lladin *pont em*, rhaid mai o'r Lladin y benthyciwyd y gair hwnw. Sylwer ar yr enw Gwyddelig *Patraig*, sydd yn tarddu o'r Lladin *Patricius*—y gair Gwyddelig pur sydd yn cyfatteb i'r Lladin *pater* ydyw *athir.* O'r ochr arall etto, nis gall y gair Cymraeg *credu* darddu o'r Lladin *crēdo; wy* a geir o *ē*, ac *dd* o *d* rhwng llafariaid; felly *cwydd-u* a roddasai 'r gair Lladin *crēd-o.* Tardd *credu* o hen wreiddair Celtig *cret-*, sydd i'w weled yn y gair Gwyddelig *cretem*, "ffydd." Fe welir, gan hyny, y gellir yn lled gyffredin, er nad bob amser, adnabod gair, pa un ai o'r Lladin y deillia, ai o'r hen fam-iaith Geltig. Ond nid ar eiriau benthyg o'r Lladin yn unig y rhaid i brofion o'r deddfau a nodasom orphwys. Y mae genym lawer o enwau a geiriau Celtaidd wedi eu cadw i ni yn ysgrifeniadau awdwyr Rhufeinig, ac ar hen feini a gerfiwyd yn y canrifoedd hyny. Dyfynir tystiolaeth y meini gan Dr. Stokes yn ei "*Celtic Declension*," ac yn helaeth gan y Proffeswr Rhys yn ei "*Welsh Philology.*"

Wedi ceisio olrhain geiriau 'r iaith Gymraeg o'r cyfnod Rhufeinig i'w ffurf ddiweddar, a thaflu cipolwg arnynt yn y canol-oesoedd wrth basio, buddiol fydd sylwi ychydig ar hanes boreu 'r iaith cyn y cyfnod Rhufeinig, a rhoddi darlun cyflawnach o honi yn y canol-oesoedd. Dywed-asom fod yn debyg nad oedd y Gymraeg wedi newid rhyw lawer o gyfnod y fam-iaith Geltig i'r cyfnod Rhufeinig. Dywed y grammadegydd Gwyddelig dysgedig, Dr. John O'Donovan, fod "*Grammatica Celtica*" Zeuss wedi profi "fod yr iaith Gymraeg a'r iaith Wyddeleg yn un o ran eu tarddiad; ac yn hytrach na bod y gwahan-iaeth sydd rhyngddynt yn gynhenid, na dde-chreuodd ond ychydig ganrifoedd cyn y cyfnod Rhufeinig; fod y gwahaniaeth hwnw yn bur fychan pan laniodd Cesar ym Mhrydain—mor fychan ag fod yn debyg y deallid hen Wyddel yno etto." Ysgrifenwyd y geiriau hyn yn 1859. Fe allai eu bod ychydig yn rhy gryf—ond nid llawer. Yr oedd y ddwy iaith y pryd hwnw yn cadw hen dreigliadau 'r fam-iaith Geltaidd, ac y mae cystrawen y frawddeg hyd y dydd heddyw yr un yn y ddwy. Eithr gellir profi fod peth

Digitized by Google

gwahaniaeth rhwng geiriau 'r ddwy yn y cyfnod Rhufeinig.

Yn y tabl a ganlyn, rhoddwn restr o'r cydseiniaid Ariaidd, ynghyd â'r ffurfiau a gymmerasant yn y fam-iaith Geltaidd:—

**A...k kw g gw gh ghw t d dh p b bh ng n m r, l j v s**

**C...k kw g b g b t d d — b b ng n m r, l j v s**

Erbyn y cyfnod Rhufeinig, yr oedd y *kw* Geltaidd wedi myned yn *p* yn Gymraeg; eithr yng Ngwyddeleg ni newidiodd, os nad oedd hi wedi dechreu troi yn *k* syml, yr hyn yw hi yng Ngwyddeleg heddyw. Awgrymwyd o'r blaen fod y *j* Geltaidd wedi troi yn *dj* yn Gymraeg erbyn y cyfnod Rhufeinig: arosodd yn *j* yng Ngwyddeleg. Arosodd *s* hefyd yn *s* gan mwyaf yng Ngwyddeleg; ond troes yn Gymraeg yn *h* yn nechreu gair, a rhwng llafariaid. Yr oedd yr holl gydseiniaid Celtaidd eraill yn aros yr un yn y ddwy iaith. Y mae yn hawdd profi fod y cyfnewidiadau uchod wedi digwydd yn Gymraeg erbyn y cyfnod Rhufeinig; o blegid tra y mae *kw* Geltaidd yn *p* yn Gymraeg, nid yw *kw* Lladin; felly troes y *kw* Geltaidd yn *p* cyn y cyfnod Rhufeinig. Felly hefyd, tra y mae *s* Geltaidd yn *h* yn Gymraeg, megys *hên* (Gwydd. *sean*), erys yr *s* Ladin, megys *sul* o *sôl-is;* am hyny, rhaid fod yr *s* Geltaidd wedi dechreu[a] newid cyn y cyfnod Rhufeinig. Y mae llafariaid yr hen fam-iaith Geltaidd yn cyfatteb i lafariaid acenog yr hen Wyddeleg, fel y ceir hwynt yn nhabl Brugmann; ac nid ymddengys eu bod, oddi gerth *ū*, wedi cyfnewid nemawr erbyn y cyfnod Rhufeinig.

Wedi ymwahanu o'r Gymraeg a'r Wyddeleg, rhenir hanes y Gymraeg gan y Proffeswr Rhys yn chwe chyfnod, fel y canlyn:—

1. *Cymraeg Cyn-hanesyddol:*—o'r pryd nas gellid mwyach alw hynafiaid y Cymry a'r Gwyddyl yn un genedl, hyd pan orchfygwyd y Brython gan Julius Agricola; neu, dyweder, hyd ddiwedd y ganrif gyntaf.
2. *Cymraeg Boreuol y Cyfnod Rhufeinig:*—o ddiwedd y ganrif gyntaf hyd ymadawiad y Rhufeiniaid yn nechreu 'r bummed ganrif.
3. *Cymraeg Boreuol y Cyfnod a elwir y Cyfnod Brython-Gymreig:*—sef, o'r adeg hono hyd ddiwedd y seithfed ganrif, neu ddechreu 'r wythfed.
4. *Hen Gymraeg:*—o'r adeg hono hyd ddyfodiad y Normaniaid i Gymru yn niwedd yr unfed ganrif ar ddeg.
5. *Cymraeg y Canol-oesoedd:*—o'r adeg hono hyd y Diwygiad Protestanaidd.
6. *Cymraeg Diweddar:*—o'r adeg hono hyd heddyw.

Dengys y Proffeswr Rhys fel y gellir yn yr hen gerfysgrifau olrhain y cyfnewidiadau seiniol o radd i radd ar hyd y cyfnodau 2, 3, a 4. Yn ystod y cyfnodau hyn y collwyd yr holl dreigliadau colledig, ac y meddalhawyd y cydseiniaid rhwng llafariaid. Ni chaniatâ ein gofod i ni ddilyn y Proffeswr Rhys yn yr ymchwiliadau hyn; eithr rhoddwn yma ddisgrifiad byr o Gymraeg y cyfnod agosaf atom, sef Cymraeg y Canol-oesoedd. Buasai cyfnod cynnarach yn fwy addysgiadol: ond y mae llenyddiaeth y canol-oesoedd yn ëang, ac felly y mae 'r ffurfiau yn fwy sicr; heb law y bydd gwybod nodweddion y cyfnod hwnw yn fwy o werth ymarferol i'r darllenydd.

[a] Dywedwn "dechreu," o blegid *s* y cymmerodd y Rhufeiniaid lythyren gyntaf y gair Celtaidd *Sabrin-a*, Hafren; ac yn wir, y mae ambell i *s* Ladin wedi troi yn *h*, megys yn *hestawr*, o *sext-ār-ius*. Gwelir felly fod yr *s* Geltaidd mewn *transition stage* yr adeg hono.

Y mae *a* (-*j*-) ac *e* (-*j*-) y cyfnod Rhufeinig yn *ei* bob amser yn y canol-oesoedd, yn lle ei bod weithiau yn *ei*, ac weithiau yn *ai:* fel hyn, tra ceir mewn Cymraeg diweddar *gair*, *geiriau*, yn y canol-oesoedd *geir*, *geireu* oeddynt. Felly hefyd gyda golwg ar *ov* neu *av* y cyfnod Rhufeinig, *eu* ydyw yn wastad yn y canol-oesoedd, megys *eur*, C. D. *aur*. Y mae *ā* y cyfnod Rhufeinig yn *aw* ym mhob man, ond sill acenog gair lliosill, yn y canol-oesoedd. Y mae hi yn *o* mewn sill ddiacen mewn C. D.; er enghraifft, C. C. *pechawt*, C. D. *pechod*. Ysgrifenid llythyren fud yn niwedd gair yn galed, fel rheol, yn y canol-oesoedd: fe allai mai rhywbeth rhwng caled a meddal oedd hi. Yn awr, y mae hi yn feddal bob amser yn niwedd gair.

Dyna yr oll bron o'r gwahaniaeth seiniol sydd rhwng Cymraeg y Canol-oesoedd a Chymraeg Diweddar; ond y mae orgraph briodol y canol-oesoedd yn gwneyd iddo ymddangos yn fwy. Yn "*Llyfr Coch Hergest*" (tua 1385), ysgrifenir *d* am *dd*, *g* am *ng*, *r* am *rh*, *u* a *v* am *f*, *v* am *u*, a *y* am *i;* a rhoir *y* weithiau i ddangos cydsain lafarol, megys *pobyl* am *pob-l* (nid *pobul*): ysgrifenid *f* hefyd yn aml am *ff*, ac yr oedd ganddynt ddau garitor i ddangos *w*. Mewn llawysgrifau cynnarach y mae'r orgraph yn ddyeithrach fyth. Yn "*Llyfr Du Caerfyrddin*" (tua 1185), ysgrifenir *t* am *dd*, ac *u* a *v* am *w*, *e* am *i*, *w* hefyd am *f*, ac *e* ac *i* am *y*. Yn yr holl hen law-ysgrifau, esgeulusid yn aml gyfnewid y gydsain flaen, er y cyfnewidid hi wrth lefaru, megys y gwneir heddyw; a rhedid deuair neu dri yn un gair. Bellach, dyfynwn enghreifftiau o Gymraeg y Canol-oesoedd mewn dwy golofn:—(1.) fel yr ysgrifenid ef y pryd hwnw; (2.) mewn llythyrenau diweddar, yn ol fel y darllenid ef y pryd hwnw. Yn yr ail golofn hon, rhoddwn *d* italaidd i sefyll dros y sain y tybiwn oedd rywbeth rhwng *d* a *t;* ac felly hefyd am *b* ac *g* italaidd. Dyfynwn o chwedl Iarlles y Ffynnawn, o "*Lyfr Coch Hergest*," ym *Mabinogion* Rhys ac Evans (tudal. 164):—

| | |
|---|---|
| "A dyuot gyt ami aoruc parth ar gaer. Ac nyt oed gyuanhed yny gaer namyn aoed yn vn neuad. Ac yno ydoed pedeir morwyn ar hugeint yn gwniaw pali wrth ffenestyr. A hynn a dywedaf ytti gei vot yntebic genyf bot yn tegach yr hacraf onadunt hwy nor vorwyn deckaf awelcist ti eiryoet yn ynys prydein. Yr an hardaf onadunt hardach oed no gwenhwyuar gwreic arthur pan un hardaf eiryoet duw nadolic. neuduw pasc wrth offeren. Achyuodi aorugant ragof." | "A dyfo*d* gy*d* a mi a oru*g*[a] parth a'r gaer. Ac ni*d* oedd gyfanhedd yn yn y gaer namyn a oedd yn un neuadd. Ac yno ydd oedd pedeir morwyn ar hugeint yn gwniaw pali[b] wrth ffenestr. A hynn a ddywedaf itti, Gei, fo*d* yn debi*g* gennyf bo*d* yn degach yr hacraf onaddunt hwy no'r forwyn deccaf a weleist ti eirioe*d* yn Ynys Prydein. Yr an-harddaf o naddunt[c] harddach oedd no Gwenhwyfar gwrei*g* Arthur, pan fu harddaf eirioe*d* dduw Nadolig neu dduw Pas*g* wrth offeren. A chyfodi a orugant rhagof." |

Yn canlyn wele enghraifft o Gymraeg "*Llyfr Du Caerfyrddin.*" Yn anffodus, nid oes yn y llyfr hwnw ond barddoniaeth, ac y mae pob hen

[a] a wnaeth. [b] *satin.* [c] o honynt.

Digitized by Google

farddoniaeth yn dra anhawdd. Dyma ddau o'r darnau symlaf. Yr ydym yn dyfynu o *fac-simile* Mr. Gwenogvryn Evans (tudal. **19b a 16b**):—

"Arduyreaue. vn. isy Deu ac un.
issi tri ar nun. issy Duu y hun.
Aunaeth maurth a llun. a mascul a bun.
Ac nat kyuorun bas ac anotun.
Aun(a)eth tuim ac oer a. heul a lloer.
A llythir. ig. cuir a ffam im pabuir."

"Ac agheu dydau wrth gluydet.
Ew inluth dychinull. dychiuet.
Dynessa heneint a lled arnad.
Dy clust. di trem. di teint neud adwet.
Dy chricha croen diuisset."

"Arddwyreaf [a] (f)i un, y sy Ddeu ac un,
Ys sy tri arn un, ys sy Dduw i hun;
A wnaeth mawrth a llun, a mascwl a bun;
Ac na*d* kyforun bas ac anoddun; [b]
A wnaeth dwym ac oer, a heul a lloer,
A llythyr[c] yng nghwyr, a ffam ym mhabwyr."

"Ac angheu dyddaw wrth glwydedd; [d]
Ef yn lwth, dychynull, dychywedd. [e]
Dynessa heneint a lled arna*d*
Dy glust, dy drem, dy ddeint neu*d* adwedd,
Dychrycha croen dy fyssedd."

Canfyddwn nad ydyw 'r cyfnewidiadau mewn sain a chynhaniad a gymmerth le er y ddeuddegfed ganrif ond bychain a dibwys wrth y cyfnewidiadau o'r cyfnod Rhufeinig i'r ganrif hono. Nid mor hawdd y gellir olrhain cyfnewidiadau grammadegol; o herwydd tra y mae genym lawer o *eiriau* yn y ffurf gyntefig arnynt i olrhain cyfnewidiad sain, nid oes genym nemawr i *frawddeg* o'r hen gyfnod i olrhain cyfnewidiad grammadeg. Cyfeiriwn, gan hyny, at olion cyfnewidiadau grammadeg wrth draethu ar rammadeg yr iaith ddiweddar.

Un o nodweddion mwyaf tarawiadol yr iaith Gymraeg ddiweddar yw cyfnewidiad cydseiniaid blaen geiriau, yn ol swydd y geiriau, neu eu safle yn y frawddeg. Yr ydym wedi olrhain uchod y deddfau a drawsnewidiodd y cydseiniaid yng nghanol geiriau rhwng y cyfnod Rhufeinig a'n hamser ni. Yr un deddfau yn hollol a achosodd gyfnewidiadau 'r cydseiniaid blaen. Hyn ydyw 'r gwahaniaeth:—yn nghanol gair yr oedd y gydsain bob amser yn yr un sefyllfa; yn nechreu gair yr oedd hi weithiau rhwng llafariaid, weithiau heb fod felly, yn ol natur terfyniad y gair blaenorol. Am hyny, yn nechreu gair y mae hi yn awr yn galed, neu yn feddal, yn ol natur hen derfyniad y gair a'i rhagflaena. Cymmerwn enghraifft fel hyn. Ar ol y gair Lladin *portus*, rhoddwch yr ansoddair Celtaidd *tecos;* cawn *portus tecos*. Teflwch ymaith y terfyniadau, a chymmhwyswch y deddfau cyfnewid, fe geir mewn Cymraeg diweddar *porth teg*. Cymmerer drachefn y gair benywaidd *porta*, a'r ansoddair benywaidd *teca;* ceir *porta teca*. Yn awr y mae *t* y gair *teca* rhwng llafariaid, felly rhaid iddo feddalu. Ceir, gan hyny, yn ol yr un deddfau *porth deg*. Cymmerer yn ganiataol mai *iros* oedd y fannod wrywaidd, ac mai *ira* oedd yr un fenywaidd; a llunier ymadroddion Celtaidd o'r geiriau uchod, fe gawn

Yn y cyfnod Rhuf... iros portus tecos, ira porta teca
Mewn Cymr. diw.... y(r) porth teg, y(r) borth deg

Yr oedd y fannod wrywaidd yn terfynu mewn cydsain, y fannod fenywaidd yn terfynu mewn llafariad; am hyny, *y mae gair benywaidd ar ol bannod yn dechreu yn galed, gair benywaidd yn dechreu yn feddal.*

Yr oedd y rhan *fwyaf* o enwau gwrywaidd yn terfynu mewn cydsain, a'r rhan *fwyaf* o'r rhai benywaidd yn terfynu mewn llafariad; am hyny, *y mae cydsain flaen ansoddair yn aros yn galed ar ol enw gwrywaidd, eithr yn meddalu ar ol enw benywaidd.* Dylid dyweyd mai gau-gydweddiad a wnaeth hon yn rheol gysson; o blegid nid oedd *pob* enw gwrywaidd yn terfynu mewn cydsain, na *phob* enw benywaidd mewn llafariad. Fe wêl y darllenydd, gan hyny, mai ol yr hen derfyniadau ydyw 'r cyfnewidiadau hyn, a bod iddynt yr un swydd rammadegol.

Achosir y cyfnewidiad trwynol gan *n* derfynol. Er enghraifft, o *yn pen* ceir yn gyntaf *ym pen*, ac yna *ym mhen*—fe welir wrth y tablau uchod fod *nt*, *np*, y cyfnod Rhufeinig yn troi yn *nh*, *mh*, o flaen accen. Ni cheir y cyfnewidiad trwynol ond ar ol *yn* a *fy* (yr hwn gynt a derfynai yn *n*, sef *fyn*), a rhai o'r rhifau, megys *saith*, *deg* (y rhai gynt a derfynai yn *n*, megys *septen*, *decen*).

Fe welir wrth y tablau fod cydsain anadledig ddisain (*th*, *ff*, *ch*), yn tarddu o gydgyfarfyddiad dwy gydsain fud ddisain (*t*, *p*, *c*). Gan hyny, o'r ffurf *ac catt-a*, fe geir yn berffaith reolaidd mewn Cymraeg diweddar *a chath;* felly hefyd o *ac tigos* ceir *a thy*. Yr oedd yr hen ffurf am *ei* (her) yn terfynu mewn *s*, ac o flaen cydsain fud fe ymdebygodd yr *s* hon yn gynnar i'r gydsain fud; am hyny, dywedwn *ei thŷ*, "her house." Ni cheir y cyfnewidiad anadledig ond ar ol *ac* (*ag*), *ei* (fenywaidd), a'r rhifau a derfynai gynt yn *s*, megys *tri*, *chwech*.

Y cyfnewidiad meddal, gan hyny, sydd o fwyaf o bwys grammadegol. Yr ydym uchod wedi gosod i lawr ddwy o'i reolau, a'u holrhain i'w tarddiad yn yr hen derfyniadau. Fe wneir hyny ym mhellach â'r rheolau eraill yn y braslun sydd yn canlyn o rammadeg Cymraeg. Teimlwn fod yn ddyledus arnom roddi yma ryw fraslun o'r fath hono, o blegid ni chyhoeddwyd etto yr un grammadeg Cymraeg gwyddonol, yn trin yr iaith yn hanesyddol, yn ol ei theithi hi ei hun. Nid ydyw 'r grammadegau sydd genym ond cymmhwysiad at yr iaith Gymraeg o'r grammadeg Lladin, a'r grammadeg Saesneg. Gellir dyweyd am rai o honynt (megys yr eiddo Tegai), eu bod yn dangos mwy o fusgrellni ac anneallтwriaeth nag odid i ddim arall yn ein holl lenyddiaeth. Nis gallwn yn yr erthygl hon ond nodi ychydig o'r prif reolau, a'r camgymmeriadau a wneir gan rammadegwyr wrth geisio Seisnigeiddio'r iaith. Cyn dechreu gyda'r fannod, rhoddwn yma dabl o gyfnewidiadau 'r cydseiniaid blaen, er mwyn hwylusdod i gyfeirio atynt:—

| Gwreiddiol. | Meddal. | Trwynol. | Anadledig. |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | — | ng | |
| m | f | | |
| ll | l | | |
| rh | r | | |

[a] Molaf. [b] (A wnaeth) na ddygyfor bâs a dwfn. [c] Llythyrenau. [d] "*Comes at the gates.*" [e] Argywedd.

Y Fannod.—Ffurf y fannod yw *yr*, yr hon a dòlir er mwyn persain yn *y*, neu *'r*, yn ol y rheolau a ganlyn:—

1. Arferir *yr* yn llawn rhwng cydsain a llafariad, megys *gwaed yr oen;* ac yn ddechreuol o flaen llafariad, *yr oen.*
2. Arferir *y* rhwng dwy gydsain, neu yn ddechreuol o flaen cydsain, megys *gwaed y groes, y groes.*
3. Arferir *'r* ar ol llafariad, pa un bynag ai cydsain ai llafariad a'i dilyno, megys *codi'r groes, mawl i'r oen.* Arferir ef hefyd yn wastad ar ol *a*, megys *Duw a'r Oen* (nid *ac yr Oen*).

Y mae tuedd wedi bod yn ddiweddar i edrych ar y llythyren *y* yn rhan hanfodol o'r fannod, ac i gynnyrchu dybryd sain trwy dori rheol 3, ac ysgrifenu *codi y groes*, a'r cyffelyb. Paham y rhoddir y rhagorfraint hon i'r *y*, mwy nag i'r *r*, nis gwyddom. Y mae'r argraphiadau goreu o'r Beibl yn cadw rheol 3; a chedwir hi yn gysson ac yn berffaith ar lafar gwlad.

Cyttuna'r fannod â'i henw mewn rhif a rhyw.

Ar ol bannod wrywaidd ceir cydsain wreiddiol, megys *y Pen*, y *Gwaed.*

Ar ol bannod fenywaidd ceir cydsain feddal, megys *y Bont, y wyrth.* Ond ni feddalheir *ll* ac *rh* ar ol bannod fenywaidd, ysgrifenir *y llaw, y rhaw.* Yr *r* a gollwyd o'r fannod a barodd hyn; edrycher dan y pen 3 ar *dudal.* 55, fe welir fod *rl* yn troi yn *rll;* felly, o *yr law* caed *yr llaw*, ac yna o golli 'r *r*, *y llaw;* yr un modd hefyd try *rr* yn *rh* o flaen acen, megys yn *cyrraedd, cyrhaeddodd;* felly o *yr raw* caed *yr rhaw.*

Ar ol bannod liosog, ceir cydsain wreiddiol, megys *y penau, y pontydd, y gwyrthiau.*

Pan ddilynir enw gan enw yn y cyflwr meddiannol, nis gellir arfer bannod o flaen y cyntaf, ond gellir o flaen yr ail. *Pen y dyn*, "the head of the man;" *pen dyn*, "the head of a man." Y mae'r rheol hon hefyd yn dal yng Ngwyddeleg, megys *mac an duine*, "mab y dyn."

Gellir arfer bannod o flaen enw a ddilynir gan ragenw ansoddeiriol, megys *y dyn hwn*, "this man." Felly hefyd am enw ansoddeiriol, sef enw a arferir fel ansoddair, megys *y dwfr diluw*, "the flood water." Ceir y rheolau hyn hefyd yng ngrammadeg yr iaith Wyddeleg.

Y mae'r ffaith fod y Gymraeg a'r Wyddeleg yn cyttuno gyda golwg ar reolau cystrawen y fannod, yn dangos fod bannod yn y fam-iaith Geltaidd. Fe wyddys nad oedd yn Lladin yr un, a bu raid i'r ieithoedd Romanaidd a darddodd o honi lunio bannod o'r rhagenw *ille.* Ymddengys fod i'r fannod Geltaidd ddwy ffurf, *sind-os* ac *ir-os*, ac y treiglid hwynt yn lled reolaidd — Gwr. *sindos*, Ben. *sinda*, Neodr *sindon*, &c.—yn ol y dull sydd yn adnabyddus i ni yn ansoddeiriau 'r iaith Ladin. O'r ddwy ffurf *sind-os* ac *ir-os*, ni chedwir ond y gyntaf yng Ngwyddeleg; *in* neu *ind* ydyw hi mewn hen Wyddeleg, *an* mewn Gwyddeleg ddiweddar. Cadwyd y ddwy ffurf yn Gymraeg, o leiaf hyd yr amser yr aeth y Llydawiaid oddi yma i Ffraingc; o blegid ceir y ddwy yn y Llydaweg etto, *an* ac *ar.* Eithr mewn Cymraeg diweddarach, fe gollwyd y gyntaf *yn*, ac nid oes genym yn awr ond yr ail, *yr.* Er hyny, y mae genym etto olion o'r gyntaf mewn rhai ymadroddion, megys *yn aill*, "the one (of two)," yr hwn a ysgrifenir yn gyffredin *y naill*; eithr *aill* ydyw'r gair, o'r un gwreiddyn Ariaidd a'r Lladin *alius*, ac *yn* ydyw 'r hen fannod goll.

Enw.—Y mae i enw yn Gymraeg ddau rif, a dwy ryw. Liosogir enwau trwy chwanegu atynt y terfyniadau, *-aint, -au, -ed, -edd, -i, -iaid, -iau, -ion, -od, -oedd, -on, -ydd, -yr;* mewn hen Gymraeg y mae *-awr* hefyd yn derfyniad lliosog. Y mae i *-aint, -i, ydd, -yr*, effaith *i* ar y llafariaid a'u rhagflaena; *h. y.*, trònt *a* yn *e*, &c., megys *gardd, gerddi.* Weithiau, lliosogir gair heb chwanegu sill; y pryd hyny, bydd effaith yr hen derfyniad unsill colledig ar lafariad y gair, megys *bardd, beirdd.* Lle nas gallasai 'r hen derfyniad unsill effeithio ar y llafariad, chwanegir yn gyffredin un o'r terfyniadau uchod, megys *meddyg, meddygon;* neu ynte fe adewir y ffurf syml yn lliosog, a gwneir ffurf unigol trwy chwanegu *-yn*, neu *-en*, megys, *sêr, seren.*

Gellir ffurfio enw benywaidd o enw gwrywaidd yn gyffredin trwy chwanegu *-es*, megys *brenin, brenhines;* neu ynte trwy roddi effaith yr hen derfyniad benywaidd *-a* ar y llafariaid, hyny yw, trwy droi *y* yn *e*, a *w* yn *o;* megys *merlyn, merlen, twrch, torch, cwd, cod.* Fe ddywedir ym mhob grammadeg braidd fod chwanegu 'r gair *gwryw* neu *banyw* at enw yn newid ei ryw; ond nid yw hyn ond camgymmeryd rhyw naturiol am ryw rammadegol, rhyw peth am ryw ei enw, neu, ag arfer y termau Seisnig, camgymmeryd *sex* am *gender*, yr hyn sydd yn anfaddeuol, debygwn ni, yng ngrammadegwyr iaith a chanddi *gender* i gymmaint o bethau difywyd nad oes modd bod *sex* iddynt. Erys y gair *cath* yn rammadegol fenywaidd, pa ansoddair bynag a arferir gydag ef. Dywedir *y gath wryw;* eithr pe buasai 'r gair *cath* yn rammadegol wrywaidd yn yr ymadrodd hwn, *y cath gwryw* a ddylasai fod. Yn wir, gellir arfer yr ansoddeiriau hyn heb iddynt newid *sex* y gwrthddrych, heb sôn am *gender* y gair. Onid yw *dynes wryw* yn ymadrodd cyffredin? Y cyfnewidiadau blaen a ddengys ryw gair oreu; ac wrthynt hwy gwelwn fod yr un rhyw rammadegol bob amser i'r geiriau *cath, eryr*, &c.; er fod rhai geiriau â dwy ryw rammadegol hefyd iddynt, megys *llo bach* (gwr.), *llo fanyw* (ben.). Y mae amryw eiriau hefyd o'r hen ryw neodr yn ansicr eu rhyw mewn Cymraeg diweddar, megys *braich* (Llad. *brachium*), benywaidd yn gyffredin, *y fraich;* eithr weithiau ceir ef yn wrywaidd, "*y braich dyrchafedig*" (*Job* xxxviii. 15).

Lle dilyno ansoddair enw, dechreua 'r ansoddair â chydsain wreiddiol pan fyddo 'r enw yn wrywaidd neu liosog, ac â chydsain feddal pan fyddo 'r enw yn fenywaidd. Er enghraifft, *dyn mawr, dynes fawr.* Y mae 'r rheol hon yn dal pan fyddo 'r ansoddair yn enw yn cael ei arfer fel ansoddair, megys *troed pren, coes bren, llian bwrdd, llwy fwrdd.* Galwasom y geiriau hyn yn enwau ansoddeiriol gynnau, ansoddeiriau enwol sydd fwyaf priodol: o blegid yn y frawddeg swydd ansoddair sydd iddynt. Pan arferir enw priod dyn ar ol enw cyffredin ei swydd neu sefyllfa, ansoddair enwol ydyw 'r enw priod, a chyfnewidir ei gydsain flaen yn unol â'r rheol hon. Enghreifftiau, *y brenin Dafydd, y forwyn Fair.*

Pan ddelo ansoddair neu ansoddair enwol o flaen ei enw, cynnrychiola'r ddau gyda'u gilydd enw cyfansawdd yn yr hen Geltaidd, er fod acen deuair iddynt yn awr. Am hyny, meddalheir cydsain flaen yr enw, bydded ef o ba ryw neu rif y byddo. Enghreifftiau, *hen ddyn, hen ddynion, gau brophwyd, gœd grefydd.* Ansodd-

Digitized by Google

eiriau enwol fel hyn ydyw enwau priod lle delont o flaen enwau cyffredin fyddo yn cyttuno â hwy. Er enghraifft, *Dafydd frenin, Mair forwyn.* Pan ragflaeno bannod un o'r ymadroddion cyfansawdd hyn, dilynir hi gan gydsain feddal, neu galed, yn ol rhyw neu rif yr enw fydd yn yr ymadrodd, megys *y trwm ofid, y drom loes.*

Pan fyddo enw yn y cyflwr meddiannol, saif *ar ol* yr enw y dibyno arno, megys *pen dyn*, "a man's head;" ond yn yr hen Geltig, lle 'r oedd *terfyniad* i ddangos cyflwr meddiannol, gallai 'r gair meddiannol ddyfod yn gyntaf; a chawn yn ein hen farddoniaeth ymadroddion fel *cen dl nodded*, lle y dywedasem ni *nodded cenedl.* Dechreua 'r enw meddiannol bob amser â chydsain wreiddiol, os na bydd bannod o'i flaen. Buasem yn disgwyl i'r gydsain feddalu ar ol enw benywaidd, megys mewn ansoddair. Fe allai mai 'r rheswm na wna hyny ydyw fod sefyllfa 'r gair yn ansicr gynt. Y mae yn amlwg, pa fodd bynag, fod y sain feddal a'r sain wreiddiol wedi cystadlu am y swydd o ddangos y cyflwr meddiannol, a bod cydweddiad wedi dyfarnu o blaid y galed. Eithr y mae genym ddigon o olion y feddal, megys *Llan Fair, Gŵyl Fihangel, Eglwys Loegr;* a chawn fod gau gydweddiad wedi ei gosod mewn rhai manau nad oes iddi hawl arnynt, megys ar ol geiriau gwrywaidd, a geiriau a derfynai gynt mewn cydsain, megys *Tŷ Dduw.* Yn wir, yng Ngwyddeleg, y feddal a orfu; er hyny, y galed ydyw rheol Cymraeg diweddar.

*Enwau* ydyw 'r geiriau a elwir yn gyffredin yn *ferfau annherfynol*, megys *canu, gweled*, &c. Wrth gwrs, berfau ydyw 'r ffurfiau treigliadol *canaf, gwelais.* Gellir arfer yr enwau berfol hyn yn mhob ffordd fel enw arall. 1. Gyda bannod neu ansoddair, *Y* TARO *a'r* DIODDEF, CANU *da*, WYLO *dwys.* 2. Yn wrthddrych neu weithredydd berf, *Gwelais* WERTHU *fy nhŷ; torodd y* GWERTHU *hwnw fy nghalon.* 3. Yn ansoddeiriau, *Y llawr* DYRNU, *yr aden* BOBI. 4. Gan mai enwau ydynt nis gellir cael y cyflwr gwrthddrychol na gweithredol gyda hwy, eithr gosodir gwrthddrych y weithred yn y cyflwr meddiannol *prynu tŷ*, "the buying of a house," *fy mhrynu i*, "the buying of me;" a rhoddir gweithredydd y weithred gydag *i* o flaen yr enw berfol, neu gydag *o* ar ei ol, *wedi i mi brynu, wedi prynu o honof.* 5. Gellir arfer unrhyw arddodiad o'u blaenau. *Yr wyf* YN *prynu*, WEDI *prynu*, AM *brynu*, HEB *brynu.*

ANSODDAIR.—Y mae i ansoddair, fel enw, ddau rif, a dwy ryw. Cyttuna 'r ansoddair â'i enw mewn rhyw, eithr gellir arfer ansoddair unigol gydag enw lliosog. Nid oes reol bendant ar hyn o bwngc. Yr ydym yn awr yn y cyfnod ansicr rhwng yr hen gyfnod a arferai 'r ansoddair lliosog yn wastad, a'r cyfnod newydd a deifl ymaith yr ansoddair lliosog.

Llunir ansoddair benywaidd trwy roi effaith *-a* ar lafariad yr ansoddair benywaidd, megys *trwm, trom; gwyn, gwen.* Llunir ansoddair lliosog trwy roi effaith *j* ar y llafariad, a chwanegu *-on, -ion*, neu heb derfyniad, megys *glas, gleision; marw, meirw, meirwon; hardd, heirdd; bychan, bychain.* Try y lliosog rheolaidd *cedeirn* yn *cedyrn* mewn Cymraeg diweddar. Cymmer yr ansoddair *gwan* y terfyniad *iaid, gweiniaid.*

Y mae i ansoddeiriau bedair gradd cymmhariaeth:—y radd gyssefin, y radd hafal, y radd gymmharol, a'r radd eithafol. Llunir y tair olaf trwy galedu cydsain olaf y radd gyssefin, a chwanegu *-ed, -ach, af*, megys *teg, teced, tecach, tecaf.* Eithr llunir graddau amryw ansoddeiriau yn afreolaidd.

Lle delo ansoddair o'r radd hafal, neu 'r radd gymmharol, neu eithafol, o flaen enw, ni feddalheir cydsain flaen yr enw, fel y gwneir o flaen ansoddair cyssefin. Enghreifftiau—*gwell dyn, gwell dynes, teced gwraig,* "*Y pura' gŵr Parri o Gaer;*" eithr ar ol ansoddair eithafol, *gall* yr enw ddechreu yn feddal, megys *y goreu ddyn, y lanaf eneth.*

Gellir arfer enwau yn ansoddeiriau. Y rheswm am hyn ydyw fod yn y Geltig derfyniadau ansoddeiriol unsill sydd yn awr wedi colli, yn gystal a rhai deusill, megys *-âl-is*, C. D. *-ol; -âc-us*, C. D. *-og*, &c. Am hyny gall *bwrdd* gynnrychioli ansoddair Celtaidd yn gystal a *byrddol;* a chan hyny, y mae *yr ysgol fwrdd* mor gywir ag ydyw *yr ysgol fyrddol*, ac yn well o ran arddull, gan ei fod yn fyrach a mwy naturiol. Gellir arfer hefyd yn ansoddeiriau y rhagenwau *hwn, hwnw*, a phob rhagferf. Er enghraifft, *y gŵr hwn, y wraig acw, y bachgen yna, y pen draw.* Gellir arfer ansoddeiriau hefyd yn enwau, megys *y mawr hwn.*

*Ansoddeiriau rhifol.*—Dilynir *un* gan gydsain wreiddiol neu feddal, yn ol rhyw 'r enw; megys *un dyn, un ddynes.* Dilynir *dau* a *dwy* gan gydsain feddal; *tri* a *chwech* gan gydsain anadledig; *tair, pedair, pum, wyth, naw*, gan gydsain wreiddiol; *pum*, ac *wyth*, weithiau, a *saith, deng, ugain, can*, yn gyffredin, gan gydsain drwynol. Enghreifftiau, *tair dynes, pum dyn, pum niwrnod, saith niwrnod, can mlynedd.* Sylwer mai unigol ydyw enw ar ol ansoddair rhifol. Sylwer hefyd mai enwau ac nid ansoddeiriau ydyw *mil, myrdd*, a *myrddiwn;* ni ddywedir *mil dyn*, ond *mil o ddynion.* Gellir arfer y rhifau eraill hefyd yn enwau, megys *tri o wŷr, y tri hyn.*

Arferir *cyntaf* ar ol ei enw fel ansoddair arall —*y dyn cyntaf, y wraig gyntaf.* Arferir *ail* o flaen ei enw, gan feddalu pob cydsain ar ei ol ond *ll*—*yr ail ddyn, yr ail ddynes, yr ail llaw.* Arferir y rhifau trefn eraill o flaen eu henwau, ac enw gwrywaidd yn dechreu 'n galed, enw benywaidd yn feddal; *y pummed dyn, y bummed wraig.*

ARDDODIAID.—Treiglir arddodiaid fel berfau yn Gymraeg. Y mae iddynt dri threigliad, yn ol terfyniad y person cyntaf unigol; set, I., *-yf;* II., *-of;* III., *-af.* Wele enghreifftiau o'r tri dull o dreiglo:—

| | Unigol. | | Lliosog. |
|---|---|---|---|
| I. Person | 1. wrthyf | ...... | 1. wrthym |
| ,, | 2. wrthyt | ...... | 2. wrthych |
| ,, | 3.g. wrtho | ...... | 3. wrthynt |
| ,, | 3.b. wrthi | ...... | |
| II. Person | 1. erof | ...... | 1. erom |
| ,, | 2. erot | ...... | 2. eroch |
| ,, | 3.g. erddo | ...... | 3. erddynt |
| ,, | 3.b. erddi | ...... | |
| III. Person | 1. arnaf | ...... | 1. arnom |
| ,, | 2. arnat | ...... | 2. arnoch |
| ,, | 3.g. arno | ...... | 3. arnynt |
| ,, | 3.b. arni | ...... | |

Dyma restr o'r arddodiaid a dreiglir yn y tri dull:—I., *Genyf, wrthyf;* II., *erof hebof, hydof, rhagof, rhyngof, trosof, trwof, ynof;* III., *arnaf, ataf, danaf.* Yn y trydydd person daw *dd* o

Digitized by Google

flaen y terfyniad yn *genyf*, a throi'r yr *e* yn *a*, *ganddo, ganddi, ganddynt; trost-*, a *trwydd-*, ydyw cyff *trosof* a *trwof* yn y trydydd person, ac *yndd-* ydyw cyff *ynof*, megys *trosti, trwyddo, ynddynt*.

Treiglir *am* trwy chwanegu *danaf* ato; ac *o* drwy chwanegu *honof*. Ni threiglir *i* yn y person cyntaf a'r ail. Dywedir *i mi, i ti; i ni, i chwi;* eithr *iddo, iddi, iddynt*, yn y trydydd person. Ni threiglir *a, ag*, na'u cyfansoddeiriau, *tua, gyda*.

Y mae Cymraeg y canol-oesoedd a llafar y Gogledd yn gwneyd y trydydd treigliad yn fwy rheolaidd trwy roddi *a* yn y person cyntaf a'r ail yn y lliosog hefyd, megys *arnam* (*arnan*), *arnach*. Yn wir, y mae Cymraeg llafar y Gogledd yn tueddu i roddi *a* ym mhob arddodiad yn y personau hyny yn unigol a lliosog, *wrthaf, wrthach, o honaf*, ac i roddi cyff y trydydd person yn gyff y cyntaf a'r ail, megys *trostaf*.

Ni arferir y ffurfiau treigliadol ond pan fo'r rhagenw a gynnrychiolir yn y terfyniad yn wrthddrych i'r arddodiad. Pan fydd y gwrthddrych yn enw, y ffurf ammhersonol a arferir, megys *wrth ddyn*, nid *wrtho ddyn*. Eithr gellir arfer rhagenwau ar ol y ffurfiau treigliadol, megys *wrtho ef, wrthyt ti*.

Gellir llunio arddodiad cyfansawdd o *hyd*, neu *tua*, neu *o* ac arddodiad arall; eithr troir *o* yn *oddi*, megys *oddi am, oddi wrth*, &c. Yng Nghymraeg y canol-oesoedd arferid *i am, i wrth*, yn yr ystyr hwn. Yn wir, yn y cyfnod hwnw, ni wneid nemawr ddim gwahaniaeth rhwng *o* ac *i*; arferid y ddau fel eu gilydd am "to" a "from." Hen ffurfiau 'r arddodiaid hyn oedd *do* a *di*, a chyfettyb *do* o ran ei wreiddyn i *to* yr iaith Saesneg, a *di* i'r *de* Lladin. Mewn Cymraeg diweddar y mae 'r ddau wedi newid eu hystyr; ond fel blaenddodiaid y mae cymmysgedd y canol-oesoedd yn ffynu etto, er gwaethaf ymdrechion mympwyol i'w gwastatu. Ceir *di-* yn gadarnhaol, yn gystal a negyddol; ceir *dy-* hefyd yn negyddol. *Diben* ydyw pen eithaf, neu amcan; a pheth *dybryd* ydyw peth *heb* bryd na thegwch iddo.

Gelwir ymadroddion fel *ger bron, ger llaw, yng nghanol*, yn arddodiaid cyfansawdd. Nid oes angen am hyny, o blegid gellir grammadegu pob rhan o honynt ar ei ben ei hun; fel hyn, yn *ger bron dyn*, galwer *ger* yn arddodiad; *bron* yn enw, gwrthddrych *ger; dyn* yn enw yn y cyflwr meddiannol ar ol *bron*. Yna y mae ymadroddion fel *ger fy mron* yn syml a dealladwy. Mwy priodol galw yn arddodiaid cyfansawdd yr ymadroddion hyny lle colled arddodiad o'u dechreu, megys *tu yma i*, hyny yw "(on) this side of." Fe wyddys mai enw ydyw *tu;* ond nid hawdd ydyw ei rammadegu, o blegid collwyd yr arddodiad a ddeuai o'i flaen. Yng Nghymraeg y canol-oesoedd yr oedd llawer o'r arddodiaid colledig hyn yn aros. Ysgrifenid *i mewn tŷ, i gyd a mi*. Gan hyny, er mai enwau ydyw *cyd* a *mewn*, er hyny, symlach, fe allai, na'u galw yn enwau ar ol *i* golledig mewn ymadroddion fel *mewn tŷ* neu *gyda mi*, ydyw galw *mewn* a *gyda* yn arddodiaid, mewn Cymraeg diweddar.

Arferir *uwch* ac *is* yn arddodiaid, a threiglir hwynt yn yr ail berson unigol i *uchod* ac *isod;* canys "above thee" a "below thee" ydyw ystyr lythyrenol y geiriau hyn.

Dilynir yr arddodiaid a ganlyn gan gydsain feddal:—*am, ar, at, gan, heb, hyd i, tros, dros, trwy, drwy, wrth, o, tan, dan;* ond ar ol *i* ceidw 'r rhagenwau personol *mi, ti*, y gydsain galed mewn ysgrifen ac ar lafar y Gogledd. Dilynir a ganlyn gan y sain wreiddiol:—*cyn, er, erbyn, ger, gerfydd, gwedi, wedi, heibio, mewn, mŷn, rhag, serch, rhwng, uwch, is*. Dilynir *efo*, ac *a* a'i gyfansoddeiriau *gyda*, &c., gan yr anadled g. Ceir y drwynol mewn enw ar le neu amser ar ol *yn;* y galed mewn enw berfol ar ol *yn;* y feddal ar ol *yn* mewn enwau neu ansoddeiriau yn golygu cyflwr neu ddull; megys, *mae hwn yn Goch, gwnaed ef yn Frenin, daethost yn Fuan*.

Berf.—Y mae i ferf ddwy ystâd—y weithredol a'r oddefol; tri modd—y mynegol, y dibynol, a'r gorchymynol; a phedwar amser—y presennol, yr ammherffaith, y gorphenol, y gorberffaith. Treiglir berf weithredol ym mhob un o'r amserau a'r moddau hyn yn dri pherson a dau rif. Cymmerwn y ferf reolaidd *canaf* yn enghraifft i ddangos y treigliadau:—

Yr ystad Weithredol.—Modd Mynegol.

*Amser presennol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Unigol | 1. canaf | ... ... | Llios. | 1. canwn |
| ,, | 2. ceni | ... ... | ,, | 2. cenwch |
| ,, | 3. càn, cana (caniff, canith) | | ,, | 3. canant |

*Amser ammherffaith.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Un. | 1. canwn | ... | Llios. | 1. canem, cenym |
| ,, | 2. cenit | ... | ,, | 2. canech, cenych |
| ,, | 3. canai | ... | ,, | 3. canent, cenynt |

*Amser gorphenol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Un. | 1. cenais | ... ... | Llios. | 1. canasom |
| ,, | 2. cenaist | ... ... | ,, | 2. canasoch |
| ,, | 3. canodd, canwys, (cant) | | ,, | 3. canasant |

Neu heb yr *a* yn y terfyniad lliosog, megys cansom, cansoch, cansant.[a]

*Amser gor-berffaith.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Un. | 1. canaswn | ... | Llios. | 1. canasem, canesym |
| ,, | 2. canasit | ... | ,, | 2. canasech, canesych |
| ,, | 3. canasai | ... | ,, | 3. canasent, canesynt |

Neu heb yr *a* (neu 'r *e*) yn yr un o'r terfyniadau, megys canswn, cansit, &c.[a]

Modd Dibynol.

*Amser presennol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Un. | 1. canwyf (of) | ... | Llios. | 1. canom |
| ,, | 2. canot (-ych) | ... | ,, | 2. canoch |
| ,, | 3. cano ... | ... | ,, | 3. canont |

Y mae 'r amserau eraill yr un fath ag amserau 'r modd mynegol.

Modd Gorchymynol.

*Amser presennol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Un. | 1. canwyf ... | ... | Llios. | 1. canwn |
| ,, | 2. càn, cana.. | ... | ,, | 2. cenwch |
| ,, | 3. caned ... | ... | ,, | 3. canant |

Ni threiglir y ferf oddefol yn y gwahanol bersonau; mewn gwirionedd, mwy cywir fuasai galw 'r ferf oddefol yn 'ferf ammhersonol,' a'r rhagenw ar ei hol yn wrthddrych iddi; fel hyn, *lleddir fi* "(some one) kills me." Un ffurf, gan hyny, sydd iddi am bob amser, a dyma'r ffurfiau:—*Modd mynegol—pres.*, cenir; *ammher.*, cenid; *gorph.*, caned, neu canwyd; *gor-berff.*, canasid. *Modd dibynol—pres.*, caner. *Modd gorch.—pres.*, caner.

Arferir ffurf yr amser presennol i ddynodi 'r amser dyfodol hefyd; megys *gwelaf*, "I see," neu "I shall see."

[a] Cymmer rhai berfau y treigliad hwn yn wastad. Er enghraifft, *gwelsom, gwelswn*, &c.

Digitized by Google

Dyna holl ffurfiau berf reolaidd yn Gymraeg; ac yn sicr, y maent yn syml ddigon wrth fel eu rhoddir weithiau. Ond gellir llunio ymadroddion berfol i osod allan bob eiliw o amser a modd trwy arfer berf, fel *wyf*, *dichon*, *gwnaf*, *gallaf*, &c., gyda'r enw berfol, neu gydag arddodiad a'r enw berfol, megys *yr wyf yn canu*, *yr wyf am ganu*, *yr oeddwn wedi canu*, *gallaf ganu*. Y mae 'r cynllun dadansoddol wedi ei weithio allan bron i berffeithrwydd yn Gymraeg; ac ni chafwyd erioed, drwy dreigliadau yn unig, gymmaint o ffurfiau i ddangos pob ystyr. Y mae rhai grammadegwyr wedi ceisio trefnu 'r ffurfiau hyn yn *foddau* ac *amserau;* ond nid ydyw hyn etto ond camgymmeryd *ystyr* am *rammadeg*. Y mae gan y ferf, mewn rhai ieithoedd treigliadol, "fodd galluogol;" yna rhaid cael "modd galluogol" yn Gymraeg—*medraf ganu*. Ond byddai yr un mor resymol galw *ceisiaf ganu* yn "fodd ceisiadol;" neu *dechreuaf ganu* yn "fodd dechreuol." Nid oes mewn *grammadeg* Cymraeg ond yr amserau a'r moddau a nodwyd uchod. *Brawddegau* ydyw *gallaf ganu*, *yr wyf am ganu;* a dylid grammadegu pob gair ynddynt ar wahân, a rhoddi ei hamser a'i modd ei hun i'r ferf ynddynt.

Y mae amryw ferfau yn afreolaidd; eithr nis gallwn sylwi ond ar y bwysicaf o honynt—y ferf *wyf*. Y mae i hon ddau bresennol, a dau ammherffaith, yn y modd mynegol. Y presennol cyntaf ydyw *wyf* yn golygu bod, a *byddaf* yn golygu arfer bod. Arferir yr ail ffurf yn ddyfodol hefyd, "*I shall be.*" Y ddau ammherffaith ydyw *oeddwn*, a *byddwn*—yr ail yn golygu arfer bod. Y mae 'r amserau uchod yn treiglo yn rheolaidd oll, ond *wyf*. Dyma dreigliadau *wyf:*—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Unigol 1. | wyf, ydwyf ... | 1. | ym, ydym |
| „ 2. | wyt (ydwyt) ... | 2. | ych, ydych |
| „ 3. | yw, ydyw ... | 3. | ynt, ydynt |
| | y mae, sydd, oes... | | y maent |

Treigliadau 'r amser gorphenol ydyw *bum*, *buost*, *bu;* *buom*, *buoch*, *buont*. Treigla 'r amser gor-berffaith *buaswn* yn rheolaidd. Y mae *byddwyf* hefyd yn rheolaidd yn y modd dibynol a'r modd gorchymynol. Y mae i amryw o'r ffurfiau uchod ffurfiau byr, megys *bawn*, *baet*, *bae*, *baem*, *baech*, *baent*, yn yr ammherffaith; *bwyf*, *bot*, *bo*, *bom*, *boch*, *bont*, yn y modd dibynol; *boed* am *bydded*, &c.; a thry *ped fawn* yn *petawn*, neu *petwn*, a *ped fae* yn *petae*, neu *petai*.

Y mae amryw ferfau yn gyfansoddeiriau o'r ferf *wyf;* er enghraifft, *derwyf*, *derwyt*, *deryw;* *henwyf*, *henyw;* *euthwyf*, *euthyw*. Hen rangymmeriaid o'r amser gorphenol ydyw'r rhanau cyntaf; am hyny, ystyr orphenol sydd i'r geiriau, fel i *amatus sum* yn Lladin. Pan anghofiwyd eu tarddiad, ymddangosai hyn yn annaturiol, ac arferwyd *darfu* yn lle *deryw*, *hanfu* yn lle *henyw;* *euthfum* (euthum) yn lle *euthwyf;* ac *aeth* yn lle *euthyw*. Tybiodd Dr. Pughe mai presennol oedd *deryw*, ac mai dyma 'r dull i dreiglo pob berf; am hyny, rhydd yn ei rammadeg yn amser presennol y ferf, *canwyf*, *canwyt*, *canyw;* a gwelir ambell un etto ar ei ol yn ysgrifenu *credwyf* yn lle *credaf*, "I believe."

Y mae i rai berfau wahanol wreidd-eiriau i'w gwahanol ffurfiau, megys *af*, *elwyf*. Ceir tablau o'r ychydig ferfau hyn yn y grammadegau goreu; ac ni raid i'r efrydydd ond gochel ffurfiau gwneyd, lle rhoddir terfyniad i wreidd-air nad ydyw yn perthyn iddo, megys *elaf*, neu *awyf*, sydd i'w cael yn rhai o honynt.

Fe sylwyd eisoes ar yr enw berfol. Enw pur ydyw hwnw—felly hefyd ansoddair pur ydyw 'r rhan-gymmeriad. Nid oes ond un rhan-gymmeriad yn Gymraeg—y goddefol gorphenol, *canedig*.

Cystrawen y ferf ydyw cystrawen y frawddeg—gan hyny, ymdriniwn âg ef isod o dan y pen "Cystrawen." Er hyny, dyma'r lle i sylwi fod enw 'n dechreu 'n galed pan yn weithredydd i ferf, ac yn ei dilyn yn uniongyrchol, megys *gwelodd* DYNION *hyn;* ac yn feddal pan yn wrthddrych iddi, ac yn ei dilyn yn ddigyfrwng, megys *gwelais* DDY*nion*. Sylwyd mai yn y cyflwr meddiannol y bydd enw ar ol enw berfol; felly y gydsain galed, arwydd y cyflwr meddiannol, a geir ar ol enw berfol; megys, *gweled dynion*.

RHAGENW. — *Rhagenwau personol:* — Y mae ffurfiau 'r rhagenwau hyn yn aml a dyrus. Yn weithredydd berf, neu wrthddrych arddodiad treigliedig, y ffurf ydyw—(A.), Unigol: **1**, *i;* 2, *di;*[a] 3, g., *e*, *ef*, *o;*[b] b., *hi*. Lliosog: **1**, *ni;* 2, *chwi;* 3, *hwy* (*nhw*). Enghreifftiau, *gelwais i*, *galwaf i*,[c] *wrthyf i*, *canwn i*, *cenaist ti*, *ceni di*, *dywedodd ef*, *iddo ef*. Gellir galw 'r rhai hyn yn ffurfiau cynnorthwyol, o blegid yn gynnorthwy i'r terfyniad, neu i ragenw arall, yr arferir hwynt.

Yn wrthddrych berf ceir (B.), Unigol: 1, *fi;* 2, *di;* 3, *e*, *ef*, *o*, *hi*. Lliosog: 1, *ni;* 2, *chwi*, *hwynt* (*nhw*). Enghreifftiau, *lleddir fi*, *gwelaist fi*, *gwelir hwynt*.

Lle daw rhagenw fel *fe*, *mi*, *a*, neu gyssylltiad fel *o* neu *y*, o flaen berf, rhoddir y rhagenw a fyddo'n wrthddrych i'r ferf rhyngddo a'r ferf, a ffurf y gwrthddrych fydd—(C.), Unigol: **1**, *'m;* 2, *'th;* 3, *'i*. Lliosog: 1, *'n;* 2, *'ch;* 3, *'u*. Dilynir *'th* gan y sain feddal, a'r lleill gan y wreiddiol. Enghreifftiau, *o'm lleddir*, *y gŵr a'th darawodd*, *fe'i tarawais*. Os bydd angen rhagenw cynnorthwyol, wrth gwrs, y rhestr A. a arferir, megys *fe'm lleddir* I (nid *fi*).

Ffurfiau 'r rhagenwau meddiannol ydyw a ganlyn:—(D.), 1, *fy*, *'m;* 2, *dy*, *'th;* 3, g., *ei*, *'i;* b., *ei*, *'i*. Lliosog: 1, *ein*, *'n;* 2, *eich*, *'ch;* 3, *eu*, *'u*. Dilynir *fy* gan y sain drwynol; *'m*, a'r holl ffurfiau lliosog, gan gydsain wreiddiol; *dy*, *'th*, a'r *ei* (*'i*) wrywaidd gan y feddal; a'r *ei* (*'i*) fenywaidd gan yr anadledig. Cynnorthwyir y rhai hyn hefyd gan y rhestr A. Enghreifftiau, *fy nhŷ*, *fy nhŷ i*. Dylid gwahaniaethu rhwng y rhestr C a'r rhestr D: gwrthddrychol ydyw 'r gyntaf, meddiannol ydyw 'r ail. A chan mai enw pur ydyw 'r enw berfol, ceir y rhagenw meddiannol gydag ef—nid y gwrthddrychol; felly, tra y dywedir *fe'i* P*rynodd ef hi*, gan arfer y rhagenw o'r rhestr C, dywedir *ei* PH*rynu hi*, gan arfer y rhagenw o'r rhestr D, megys y dywedir, *ei* PH*en*.

Y rhagenwau annibynol ydyw:—Unigol: **1**, *myfi;* 2, *tydi;* 3, *efe*, *efo*, *hyhi*. Lliosog: **1**, *nyni;* 2, *chwychwi;* 3, *hwynthwy*. Ar lafar gwlad dywedir am danynt, *y fi*, *y'ch di*, neu *y'th di;* *y fe*, *y fo*, *y hi;* *y ni*, *y chi*, *y nhw*. Gall fod y ffurfiau hyn yr un mor gywir a'r lleill. Am y dull o'u harfer ymdriniwn dan y pen "Cystrawen."

Y rhagenwau cyssylltiol ydyw:—Unigol: 1, *minnau;* 2, *tithau;* 3, *yntau*, *hithau*. Lliosog: 1, *ninnau;* 2, *chwithau;* 3, *hwythau*. Gellir eu

[a] *Ti* ar ol y gydsain *t*.

[b] Arferir *fo* a *fe* ar ol llafariad ar lafar gwlad, megys *iddo fo*.

[c] Arferir *fi* yn aml ar ol f, ond i sydd gywir.

ail, y gwrthddrych yn drydydd, ac yna 'r rhagferf. Er enghraifft, *Darllenodd fy mrawd y bennod echdoe.* Dyma hefyd drefn y geiriau mewn brawddeg Wyddeleg; yr hyn a brawf fod y drefn hon gan Geltiaid Prydain cyn ymwahanu o honynt yn Wyddyl a Brython. Dyfynwn yma ddwy neu dair o frawddegau Gwyddeleg o "Fywyd Patrig," gyda chyfieithiad Cymraeg, air am air, fel y gwelo 'r darllenydd mor fanwl y cyttuna 'r ddwy iaith yn hyn o beth:—

Pritcais patraic dó. Teit erlund na-bachla
*Pregethodd Patrig iddo. Aeth blaen y-fugeilffon*
tria-na-chois. Asbert patraic cid romba centrwy-ei-goes. *Dywedodd Patrig paham na-buet yn-*
timditen. Andarlium aroengus rope
*dy-amddiffyn. "Meddyliais," medd-Oengus, "eifod*
cóir na-cretmi. Atbert patraic nitelc-
*yn-ddefod y-grefydd." Dywedodd Patrig "Ni-thy-*
fider fuil i-sin-inud-sa ondiu cobráth.
*welltir gwaed yn-y-lle-hwn o-heddyw hyd-farn."*

Pan fo gweithredydd y ferf yn enw neu ragenw dangosol, arferir ffurf y trydydd person unigol i'r ferf. Er enghraifft, *Daeth y gwŷr hyn yma.* Ond pan fyddo'r gweithredydd yn rhagenw personol, yna arferir y ffurfiau treigliadol. *Cenais fy nghân, gwyrant farn:* a gellir arfer y rhagenwau cynnorthwyol gyda'r ferf, megys *cenais i fy nghân; gwyrant hwythau farn.*

Brawddeg gymmysg ydyw brawddeg âg enw neu ragenw, neu ansoddair, yn gyntaf ynddi; megys *Paul a attebodd, atteb a wnaeth, myfi yw.* Mewn brawddeg gymmysg, deallir y ferf *wyf* bob amser gyda'r gair cyntaf, fel mai ystyr *Paul a attebodd* ydyw, "(it is) Paul who answered." Ceir brawddeg fel *Paul a attebodd* yn aml yn y Beibl, ac mewn llyfrau eraill, yn lle 'r frawddeg syml, *attebodd Paul.* Effaith cyfieithu o'r Lladin ydyw hyny, ac y mae yn anghywir ac yn ang-Nghymreig. Ar lafar pob ardal yng Nghymru, ni arferir brawddeg fel *Paul attebodd* ond pan fyddo pwyslais neillduol ar y gair cyntaf; megys PAUL *attebodd, nid Pedr*—"(it is) Paul who answered, not Peter;" a dyma gywir ystyr y gyfryw frawddeg yn yr ieithoedd Celtig,—deallir "it is" gyda'r gair cyntaf. Weithiau, fe geir yr "it is" ei hun yn y frawddeg, ac *ys* a arferir am dano, megys, *ys truan o ddyn ydwyf fi.* Felly hefyd yng Ngwyddelaeg, ceir brawddeg gymmysg weithiau âg *is* o flaen y gair cyntaf, ac weithiau hebddo. Wrth ofyn cwestiwn hefyd ceir yr "is it"—dywedir, *Ai Paul a attebodd?* "Is it Paul who answered?" Yr *i* a geir yn y gair *ai* ydyw'r "is;" canys *a* ydyw 'r rhagferf syml, *a ddaeth Paul?* Ceir yr *i* hefyd yn yr attebiad i'r cwestiwn cyntaf, *ie;* hyny ydyw, *i- ef*, "it is he." Attebiad y frawddeg syml ydyw *do*, "he did."

Brawddeg anuniongyrchol ydyw brawddeg yn dibynu ar air fel *dywedyd, meddwl,* &c.; megys, Dywedais *yr attebai Paul.* Pan fydd brawddeg gymmysg yn anuniongyrchol, ceir *mai* o'r blaen; ac nid ydyw hwn etto yn ddim mwy na dim llai na'r "it is" a ddeallir o flaen brawddeg gymmysg uniongyrchol — yn wir, *y mae* yr ysgrifenid ef yn y canol-oesoedd. Dywedais *mai Paul a attebodd.*

Y mae yr hyn a elwir yn weithredydd y frawddeg gymmysg yn air annibynol; ac nid ydyw yn weithredydd i'r ferf a'i dilyno. Gweithredydd y ferf hono ydyw 'r rhagenw cyfeiriol *a* a ddaw o'i blaen. Sylwer yn awr, pan fyddo 'r rhagenw *a* yn weithredydd berf y bydd y ferf yn y trydydd person unigol bob amser; megys *Dyma 'r dynion a ddaeth.* Y mae *a ddaethant*, er mor gyffredin mewn ysgrifen (o herwydd ei fod yn unol â rheol y Lladin a'r Saesneg), yn hollol anghywir yn Gymraeg; ac ni chlywir mohono mewn Cymraeg llafar, o Gaergybi i Gaerdydd. *Dyma 'r dynion ddaeth* ddywedir, a hyny sydd iawn. Cofier fod rhoddi terfyniad i ferf yn rhoddi gweithredydd iddi—*daethant* ydyw "they-came;" ac ystyr *dyma 'r dynion a ddaethant*, pe buasai ystyr iddo, fuasai, "these are the men whom they-came." Felly, lle ceir berf dreigliedig ar ol *a*, gwrthddrych y ferf ydyw *a*, a'i gweithredydd ydyw person y terfyniad; megys, *y dynion a welais*—"the men whom I saw;" *y bobl a welsant*—"the people whom they saw." Gresyn fod rheol mor syml ac mor glir wedi ei diystyru o barch i rammadeg estron. Ceir y tryblith mwyaf yn y Beibl; ac er fod y cyfieithwyr yn fwy hoff o'r dull estronol nag o'r dull Cymreig, ceir y ddau yn aml yn ymyl eu gilydd:—"Eu llywodraethwyr a wna iddynt udo:" "Brenhinoedd a *gauant* eu genau;" *Esa.* lii. 5, 15.

Yn nechreu brawddegau cymmysg yr arferir y rhagenwau annibynol *myfi, tydi,* &c; megys *myfi a ddaw,* "(it is) I who shall come." Gellir arfer *minnau* a *myfinnau* hefyd yn yr un modd.

Mewn brawddeg syml, arferir *yr* o flaen *wyf, oedd,* &c.; megys, *yr wyf yn dyfod.* O flaen berfau eraill, arferir *mi* yn y Gogledd, a *fe* yn y Deheudir. Ceir hwynt mewn ysgrifen hefyd weithiau, ac estynir hwynt i *mi a, fe a;* ac arferir *ti a, hi a, ni a, chwi a, hwy a* yn yr un modd. Nid yn aml y ceir y rhagddodiaid hyn yn y Gymraeg hynaf; a phan geir hwynt, ni cheir yr *a.* Yn y "*Llyfr Du,*" darllenwn "Mi ddisgoganaf i." Diau mai diffyg deall ystyr yr *a* a barodd roddi lle iddi ar ol y rhagddodiaid hyn.

Y mae gwahanol ffurfiau presennol y ferf *wyf* yn ddyrys i estroniaid; ac er fod pob Cymro deallus yn arfer y ffurf iawn, megys trwy reddf, wrth lefaru; etto, ni cheir rheolau dealladwy yn eu cylch yn yr un grammadeg. Rhoddwn yma gipolwg ar y modd i'w harfer, a dechreuwn gyda ffurfiau'r trydydd person *y mae, yw, oes, sydd.* Mewn brawddeg SYML, ar y ffaith *fod* y mae'r arbenigrwydd; ac arferir *y mae*, yna'r gweithredydd, yna (A) *yn* gyssylltiol gydag enw neu ansoddair, neu ynte (B) arddodiad gydag enw berfol, neu (C) arddodiad gydag enw lle neu amser; megys

(*a.*) Y mae hwn yn ddyn; yn dda.
(*b.*) Y mae hwn yn myned; am fyned.
(*c.*) Y mae hwn yn Ninbych.

Ar ol y geiriau *a* ?, *os, nid, onid,* "yw" a arferir, megys *os yw hwn yn ddyn,* &c.: ond yn yr ystyr o "there is," sef pan fo'r gweithredydd yn air fel *neb, unrhyw, llawer,* yn dangos cyfran yn unig o rai o'r un rhyw ag ef, arferir *oes* ar ol y geiriau uchod, megys *os oes neb yn dda; nid oes ond un Duw.*

Mewn brawddeg GYMMYSG, ar *beth* neu *berson* y mae'r arbenigrwydd, nid ar ffaith. Pan fo'r peth, neu'r person, yn weithredydd brawddeg syml fel un o'r uchod, rhoddir ef yn weithredydd annibynol y frawddeg gymmysg, ac yna *sydd*, ac yna *yn*, neu arddodiad fel yn y brawddegau syml uchod; megys, *hwn sydd yn ddyn; yn dda; yn myned,* &c. Pan fo'r peth arbenig yn ffurfio elfen ddiweddaf brawddeg syml, arferir *yw* yn y frawddeg gymmysg os

Digitized by Google

bydd y syml fel yr (*a*) uchod, *y mae* os bydd y syml fel y (*b*) a'r (*c*) uchod, a gadewir "yn" allan o (*a*) a (*b*); megys

(*a.*) Dyn yw hwn; da yw hwn.
(*b.*) Myned y mae hwn; am fyned y mae hwn.
(*c.*) Yn Ninbych y mae hwn.

Y gair a ddaw *ar ol* y ferf *wyf* yw ei gweithredydd; a phan fo hwnw'n rhagenw personol, arferir y ffurfiau treigliadol i'r ferf yn lle *yw* neu *y mae*; megys *yr wyf yn ddyn*, *myned yr wyf*. Ond nis gall yr un o'r ffurfiau treigliadol gymmeryd lle'r gair *sydd*, o blegid y rhagenw adgyfeiriol a gynnwysir ynddo ydyw ei weithredydd ef bob amser, megys "*diau mai chwychwi sydd bobl.*" Trwyadl anghywir fuasai *ydych*. Ystyr *ydych* ydyw "that-you-are;" ystyr *sydd* ydyw "who-am," "who-is," "who-are," &c.; felly, cyfieithiad llythyrenol *mai chwychwi sydd bobl* ydyw "it-is you who-are people:" cyfieithiad *mai chwychwi ydych* ydyw "it-is you that-you-are"—(y chi ydech-chi); ac nid oes synwyr mewn chwanegu gair fel *bobl* at frawddeg fel yna, ond fel cyfarchiad. Gwyddom fod ugeiniau yn ysgrifenu "chwychwi ydych bobl;" "y rhai hyn ydynt oreu:" ond pa un o'r ysgrifenwyr hyny a fentrai arfer y fath gystrawen wrth siarad â'i gymmydog? Fe chwerthid am ei ben.

Yr ydym wedi helaethu mwy ar gystrawen y frawddeg Gymraeg nag a fuasai raid oni bae fod y grammadegau yn haeru fod rheolau grammadegau ieithoedd eraill yn rheolau i'r iaith Gymraeg, a bod ysgrifenwyr yn eu credu. "Cyttuna'r ferf â'i gweithredydd," meddant. Fe allai fod rhyw ystyr rhesymegol i hyn yna; ond ystyr grammadegol nid oes iddo yn Gymraeg. Nis gwyr yr iaith Gymraeg ddim am y fath reol. Gellwch, os mynwch, lunio iaith newydd, â chystrawen yr iaith Saesneg a geiriau'r iaith Gymraeg. Fe wnaeth Dr. Pughe ryw fastardiaith felly, a chyfieithodd "*Baradwys Goll*" Milton iddi: ond na alwer Cymraeg yn enw arni. Galwer hi yn 'Buwaeg,' os mynwch.

Paham y dywedwn mai 'r uchod ydyw rheolau 'r Gymraeg? Am mai hwy ydyw rheolau 'r iaith lafar trwy Gymru benbaladr. Hwy hefyd ydyw rheolau 'r iaith Wyddeleg; a chan hyny, nis gall bod dadl nad hwy oedd rheolau Celtig Prydain. Y mae'n debyg mai effaith iaith yr Iberiaid cyn-Geltaidd ydynt. Hamitiaid oedd yr Iberiaid, a ddaethai o Affrica; ac yn wir, tybiwn y gellir dyfod o hyd i achos y rheolau hyn yn yr ieithoedd Hamitaidd. Ond os nad ydynt ond camgymmeriadau'r werin ddi-ddysg, fel y dywed y grammadegwyr, pa fodd y gwnaeth gwerin Môn, a gwerin Morganwg, a gwerin Connemara a Donegal, yr un camgymmeriadau; a'r rhai hyny yn gamgymmeriadau mor rheolaidd, mor gywrain—rhy gywrain i'r grammadegwyr weled rheol ynddynt? Y gwir ydyw, y mae cystrawen yn dra anghyfnewidiol. Y mae geiriau 'n hiaith wedi newid cymmaint na buasech yn adnabod y geiriau Cymraeg a glywodd Cesar; ac mor wahanol heddyw ydyw geiriau Môn a geiriau Morganwg: ac am eiriau'r Gwyddel o Gonnemara, ni ddeallech yr un o honynt: etto parhaodd y gystrawen yr un. Er fod y Cymry 'n genedl dra darllengar, ac wedi eu trwytho â'r Beibl; ac er fod effaith y grammadeg Lladin yn ddwfn ar eu llenyddiaeth hynaf, ac effaith y grammadeg Saesneg ar eu llenyddiaeth ddiweddarach; er fod y Beibl yn llawn o frawddegau cymmysg yn lle rhai syml, ac o ferfau treigliedig yn lle rhai ammhersonol, er hyn oll sieryd Cymro dirodres y Gymraeg â'r gystrawen Geltaidd a ddysgodd gan ei fam.

Ond pan gymmer hwnw bin yn ei law, ysgrifena chwyddiaith annaturiol y buasai arno gywilydd ei siarad. Paham? meddwch. O blegid sieryd wrth reddf—ysgrifena wrth ei reswm; ac y mae greddf y gŵr yn hyn, fel llawer peth arall, yn fwy cywir arweinydd na'i reswm. Gorfoda'i reddf iddo fod i ryw raddau yn naturiol wrth siarad—a natur sy'n iawn; ond rheolau grammadegwyr a'i llywodraetha wrth ysgrifenu. Ac fel y sylwyd, y mae cystrawen y Gymraeg yn rhy gain, yn rhy *ddelicate* i'r grammadegwyr fod wedi ei deall; ond diau y daw hon hefyd yn eglur i bawb. A hyderwn, cyn pen yr ugain mlynedd etto, y cyfrifir y Cymro a ysgrifena *ydynt* yn lle *yw* neu *sydd* ar yr un tir a'r gŵr o Sais a ysgrifenai "them is."

Cymmerwn yn awr gipdrem ar ffurfiau 'r geiriau yng ngwahanol dafod-ieithoedd Cymru. Gellir bras-ranu 'r wlad yn bedair rhan, o ran iaith; sef, Gwynedd a Phywys yn y Gogledd, a Dyfed a Gwent yn y Deheudir.

Yng Ngwynedd a Gwent y mae 'r terfyniad *-au*, *-eu*, yn *-a*, megys *petha;* ym Mhywys a Dyfed *-e* ydyw, megys *pethe*. Try *e* yn y sill ddiaccen ddiweddaf yn *a* hefyd yng Ngwynedd a Gwent, megys *halan*. Erys *ai* yn y sill hono yn *ai* yn Ngwynedd—*enaid;* ond try yn *e* yn Mhywys a Dyfed—*ened*, ac yn *a* yng Ngwent—*enad*. Eithr yn y terfyniad *-ais* try yn *i* yng Ngwynedd—*gwelis;* ac mewn terfyniadau lliosog try yn *i* yn Mhywys—*llygid*, *bychin*. Y mae tuedd mewn *ae* yn y sill olaf i droi yn *a* yng Ngwynedd; try yn *e* yn Mhywys a Dyfed —*marwoleth;* ac yn *a* yng Ngwent.

Seinir llafariad o flaen *llt*, *st*, *sg*, *sb*, yn hir yn y Gogledd, yn fêr yn Neheudir; megys, Gogledd—*gwâllt*, *Crîst*, *côsp;* Deheu—*gwallt*, *Crist*, *cosp*. O flaen *ll* ceir llafariad fêr yn y Gogledd, oddigerth yn y geiriau *holl*, *oll;* llafariad hir yn Neheubarth; megys, Gogledd—*côll*, *câll;* Deheu—*côll*, *câll*.

Gwneir y deuseiniaid *ae*, *oe*, yn *â*, *ô*, mewn geiriau unsill yn Neheubarth; a throir *au* yn *oi;* megys, *trâd*, *trôd*, *hoil*. Seinir *u* yn debyg i *i* yn y Deheu, a rhanau o Bywys; ac yn y sill accenog tueddir i'w gwneyd yn *y*, megys *ynig*.

Seinir yr *y* yn *yw*, *ydyw*, *heddyw*, yn *i* drwy holl Gymru; ac y mae 'n debyg fod hyny 'n gywirach nag fel yr ysgrifenir hwynt, o blegid *ydiw*, *heddiw*, a ysgrifenid yn wastad yn y canoloesoedd. Try *u* hefyd, neu *y* â sain *u* iddo, yn *i* o flaen neu ar ol *g*, ac mewn sill y bo *i* yn un o'r ddau sill cyfagos; megys *inig*, *cerig*.

Arferir *e*, *fe* yn y Deheudir, *o*, *fo* yn y Gogledd, oddigerth yn yr ymadroddion *mai e*, *ai e*, *te*, *yn't e?* Y mae amryw fân ymadroddion rhagferfol hefyd yn wahanol yng Ngogledd a Deheubarth—G. *allan*, D. (*i*) *mâs;* G. *i fyny*, D. (*i*) *lan;* G. *i lawr*, D. (*i*) *bant*.

Y mae *f* derfynol wedi colli o'r holl dafodieithoedd bron; a chollwyd *t* derfynol y trydydd person lliosog o honynt oll yn ddiwahaniaeth. Arferir ffurfiau gwahanol o bresennol y ferf *wyf* yng Ngogledd a Deheubarth; fel y canlyn:—Gogledd *ydw*, *wyt* (*ŵt*), *ydi*, (Pyw.) *yden*, *ydech*, *yden*, (Gwyn.) *ydan*, *ydach*, *ydyn;* Deheu, *ŵ*, *odw*, *ŵt*, *iw*, *odi*, *ŷn*, *odin*, *ŷch*, *odich*, *ŷn*, *odin*. Ni arferir y ffurfiau *odw*, &c., yn y Deheudir ond wrth ofyn cwestiwn neu ei atteb; megys *A odi e'n mind? Odi*. Ni arferir *ydwyt* yn unman.

Digitized by Google

Try'r *m* yn nhreigliad ail berson lliosog yn *n* trwy Gymru; ac yng Ngwynedd arferir *a* yn nherfyniadau 'r holl arddodiaid yn y person cyntaf a'r ail, megys *arna, arnat, wrtha, wrthat, arnan, arnach, hebddat, trostach.*

Arferir y rhagenwau cynnorthwyol bron yn hollol yr un faith ym mhob tafodiaith, ac yn amlach o beth nag mewn ysgrifen. Rhy faith fyddai rhoddi 'r holl reolau a berthyn iddynt ar lafar gwlad. Nodwn yn unig eu lle gyda'r arddodiaid. Arferir y rhagenw cynnorthwyol mewn tair ffordd. 1. Collir ef—megys *Fe rödd Owen y wisg am dano.* Arwydda hyn mai gweithredydd y frawddeg yw gwrthddrych yr arddodiad; ei rhoi am dano 'i hun. 2. Arferir ef yn ddiaceen; megys *Fe rödd Owen y wisg am dano-fe:*—am rywun arall yma. 3. Arferir ef âg accen arno—*Fe rödd Owen y wisg am dano* FE: —am ryw ail berson, o'i gyferbynu â thrydydd. Collir y gwahaniaethau ysgeifn cywrain hyn mewn ysgrifen; o blegid ystyrir fod mynychu rhagenwau yn gwanychu 'r iaith. Ond pe cyttunid i gyssylltu 'r rhagenw diaccen â'r gair y perthyn iddo, fel y gwneir uchod, gallasem gadw gallu 'r iaith lafar i gyfleu ysgeifn wahaniaethau ystyr, heb golli dim o rym yr iaith lenyddol.

Yn wir, y mae cryn deimlad yn codi fod ein hiaith lenyddol yn rhy gelfyddydol o ran sain hefyd, yn gystal ag o ran grammadeg. Y mae iaith lenyddol yn wastad yn fwy ceidwadol nag iaith lafar, o blegid y mae i ysgrifen fwy o barhânt na llais; am hyny, y mae Cymraeg ysgrifen yn cadw hen ffurfiau sydd wedi meddalu yn yr holl dafod-ieithoedd. Er enghraifft, cedwir y *t* yn nherfyniad y trydydd person lliosog; ac y mae hwn wedi diflanu o'r iaith naturiol er's mwy na saith gan mlynedd, canys ceir berfau o'r trydydd person lliosog hebddo yn "*Llyfr Du Caerfyrddin.*" Y mae 'n ddiau y bydd yn rhaid i'r iaith lenyddol daflu ymaith yr hen aelodau meirw hyn, cyn y lleferir hi yn lle 'r un o'r tafod-ieithoedd. Ac fel yr ymdaena gwybodaeth ieithyddol yng Nghymru, ac y gwelir yn amlycach mai twf araf sydd i iaith, fel i bren, ac nid sefydlogrwydd difywyd maen, ni theimlir cymmaint o rwymau mwy i arfer ffurfiau meirw sy 'n awr yn annaturiol, ac fe gyfnewidia'n hiaith lenyddol yn araf i gyfarfod ein hiaith lafar; ac yna bydd ar Gymro o addysg gymmaint o gywilydd siarad tafodiaith ag a fuasai arno siarad iaith lenyddol heddyw. Dyna 'n gobaith—ac yn wir, dyna 'n gobaith am fywyd yr iaith; o blegid os yw 'r hen Gymraeg i fyw, rhaid iddi fod yn un iaith—yn un ar lafar ac mewn ysgrifen.

Ni byddai erthygl ar yr iaith Gymraeg yn gyflawn heb air am ei hysgrifenwyr a'i dysgawdwyr. Sylwasom mai ar hen gerfysgrifau o'r canrifoedd boreu y mae 'r Cymraeg hynaf sydd ar gael. Ysgrifenwyd y rhai hyn yn y prifllythyrenau Rhufeinig dirywiedig oedd yn gyffredin yn yr oesoedd hyny, ac yn yr hen lythyrenau Prydeinig a elwir "Ogam." Ni cheir y llythyrenau olaf hyn ond ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon; felly, dilys yw mai yno y'u dyfeisiwyd. Ac fel y sylwa 'r Proffeswr Rhys, ni buasai angen am danynt pe na buasent wedi eu dyfeisio cyn dyfodiad y Rhufeiniaid; a dengys ef yn amlwg fod y rhai a'u lluniodd yn gydnabyddus â rhyw ffurf ar y llythyrenau Phœniciaidd. Cerfid yr ogam yn gyffredin ar gongl careg neu goedyn; ac yn y tabl a ganlyn o honynt, fel yr arferid hwynt yng Nghymru, dengys y llinell hir grib congl y gareg. Yr ydym yn dyfynu 'r tabl o'r "*Lectures on Welsh Philology,*" tudal. 267:—




Nid oes yn yr hen gerfysgrifau hyn nemawr mwy nag enwau priodol. O'r nawfed ganrif ymlaen, y mae genym amryw eiriau a gweddillion mewn llawysgrifau Lladin. Pan nas deallai 'r hen fynach Cymreig air yn y llawysgrif Lladin, holai ei ystyr, ac yna ysgrifenai ef yn Gymraeg uwch ben y gair Lladin, neu gyferbyn ag ef ar ymyl y ddalen; ac heb law 'r geiriau hyn, y mae genym ddernyn neu ddau wedi eu hysgrifenu ar ddarn o dudalen gwag o lawysgrif Lladin. O ddiwedd y ddeuddegfed ganrif ym mlaen, y mae genym liaws o lawysgrifau Cymreig. Ysgrifenid y rhai hyn yn y canol-oesoedd mewn llythyren debyg i'r un a arferid yn gyffredin yn Ewrop ar y pryd, ac a gedwir heb nemawr gyfnewidiad arni yn argraph yr Almaenwyr heddyw. Tarddodd y llythyren hon o'r llythyren Rufeinig ddirywiedig a arferid yn y canrifoedd cynt, a tharddodd ein llythyrenau ysgrifenedig ac argraphedig ni o honi hithau.

Fe welir ynte mai mewn ysgrifau o'r ddeuddegfed ganrif yn mlaen y cadwyd i ni ddim o bwys o'n hen lenyddiaeth. A thra y cludai traddodiad farddoniaeth y cynfeirdd, a phob tro yr ysgrifenid hi, a diau y gwnaed cyn y ddeuddegfed ganrif, yr oedd ei hiaith yn newid bob cam fel y newidiai 'r Gymraeg ei hun. Felly, yn ffurf geiriau 'r canol-oesoedd y mae gweithiau 'r cynfeirdd yn awr: a phwy a wyr pa faint o gyfnewid fu arnynt? Nis gellir dadleu dim oddi wrth iaith y cynfeirdd am eu hoed. Dywedir fod rhai o honynt gyn hyned a'r chweched ganrif—Taliesin Ben Beirdd, a'i gymmysg rhyfedd o Gristionogaeth a chwedloniaeth baganaidd;* Aneurin Gwawdrydd, a'i 'Ododin' am y

Gwyr a aeth Gattraeth gan wawr,

ac a gwympodd yno, a Llywarch Hen a gant alarnad Ystafell Cynddylan—

Ystafell Cynddylan ys tywyll heno
Heb dân heb gerddeu,
Dygystudd deurudd dagreu.

Yn y canrifoedd wedi hyny, ceir Cuhelyn, a Thysilio, a Golyddan — yna daeth yn dywyll nos. Ond ar ol nos faith, fe dorodd gwawr; daeth i Gymru ddeffroad llenyddol; ac yn nechreu 'r ddeuddegfed ganrif, ceid Meilir yn canu Marwnad Gruffydd ap Cynan, a Gwalchmai yn canu i Owain Gwynedd awdl a gyfieithwyd i'r Saesneg ganrifoedd wed'yn gan y bardd Gray; ac at ddiwedd y ganrif, ceid Owain Cyfeiliog, tywysog Powys, yn canu i'w gorn hirlas, gan enwi campau 'r pendefigion a yfai o hono; a Hywel ab Owain Gwynedd yn canu ei ganeuon serch—

Dewis gennyf di;
Beth yw gennyt fi?
Beth, a dewi di? Deg i gosteg—

* Nid oes ond ychydig iawn o'r darnau a briodolir i Daliesin a Myrddin yn wir hen.

Digitized by Google

Ac wedi hyny, Einion ap Gwalchmai yn canu cŵyn coll Nest—ferch Hywel—

Llen argel issel y sy'm poeni
Lludd Gwen lliw arien ar Eryri.

Tua dechreu 'r drydedd ganrif ar ddeg y canodd Cynddelw Brydydd Mawr ei awdlau dyrys; ac y canodd Llywarch ap Llywelyn, Brydydd y Moch, i Lywelyn Fawr ab Iôrwerth. O dan nawdd Llywelyn Fawr hefyd y canodd Einion ab Gwgan a Dafydd Benfras, ac Elidir Sais; ac yn yr oes hono y canodd Gwynfardd Brycheiniog, ac amryw feirdd o fri. Yna ceir Einion ap Madawg yn canu mawl i Ruffydd fab Llywelyn Fawr; ac yna daeth Llygad Gŵr, a Bleddyn Fardd, a Gruffydd ab yr Ynad Coch i ganu i fab Gruffydd, "Llywelyn ein llyw olaf."

Llywelyn, Lloegrwys feistrioli,
Llyw breiniawl, brenhinedd teithi
Llary deyrn cedyrn yn cadw gwesti—cyrdd
Cerddorion cyflochi.

ebr Llygad Gŵr; ond cafodd Bleddyn Fardd a Gruffydd ab yr Ynad Coch fyw i alaru ar ei ol.

Gŵr a las drosom, gŵr oedd drosaf,
Gŵr oedd dros Gymru, hyf yr henwaf
Gwrawl Lywelyn gwraf—o Gymro
Gŵr ni charai ffo i'r ffordd nessaf—

medd Bleddyn; ac medd Gruffydd,

Gwae fi am arglwydd, gwalch di-waradwydd,
Gwae fi o'r aflwydd ei dramgwyddaw,
Gwae fi o'r golled, gwae fi o'r dynged,
Gwae fi o'r clywed fod clwyf arnaw.
* * *
Llawer deigr hylithr yn hwylaw—ar rudd;
Llawer ystlys rudd a rhwyg arnaw,
Llawer gwaed am draed wedi ymdreiddiaw,
Llawer gweddw a gwaedd i am danaw.
* * *
Gwir freiniawl frenin Aberffraw,
Gwenwlad nef, boed addef iddaw.

Wedi lladd Llywelyn yn 1282, ac i'r Saeson orymdeithio drwy Lundain â'i ben ar waewffon, fel y galarodd Gruffudd yn yr awdl hon,

Pen Llywelyn deg, dygn o fraw—i'r byd
Bod pawl haiarn danaw,

daeth yn nos wed'yn ar lenyddiaeth Gymraeg, er na pharodd hono 'n hir. Ac yn y cyfwng yma, ni drown yn ol i sylwi ar y rhyddiaith a ysgrifenwyd yn y cyfnod hwn.

Gyda deffroad y 12fed ganrif, daeth awydd am gasglu, a threfnu, ac ysgrifenu 'r hen draddodiadau a chwedlau oedd ar lafar gwlad, a'r cyfryw gofnodion ag a ddigwyddai fod mewn ysgrifen; ac yr oedd rhai o'r hen chwedlau yn tarddu o chwedloniaeth baganaidd yr hen Geltiaid. Felly y daeth y Mabinogion, a'r chwedlau am Arthur a hen arwyr Prydeinig i fod yn y llun sydd arnynt; a chymmysg o chwedloniaeth am y duw Arthur a thraddodiad am Arthur Frenin yw Arthur y chwedlau ac Arthur Brut y Brenhinoedd; a chymmysg o chwedlau Celtig paganaidd a dewiniaeth Gristionogol yw hanes y Seint Greal. Yn y flwyddyn 1145 yr ysgrifenodd Gruffydd ab Arthur, a elwir hefyd Sieffre o Fynwy, ei Frut Brenhinoedd yn Lladin; "a chyn pen yr ugain mlynedd (fel y dywed Mr. Alfred Nutt[a]) yr oedd yr arwyr Prydeinig yn enwau 'r aelwyd drwy Ewrop benbaladr; ac erbyn diwedd y ganrif yr oedd braidd bob llenyddiaeth oedd yn bod wedi benthyca ac adgynyrchu chwedl Arthur a'i Farchogion." Anghofiwyd chwedlau 'r cenhedloedd. "Pa beth oedd effaith trysorau 'r hen Saesneg ar lenyddiaeth Saesneg wedi 'r Gongcwest?" gofyna 'r Proffeswr Rhys yn ei lyfr yr "*Arthurian Legend;*" ac ettyb, "Dim, neu 'r nesaf peth i ddim." Er cyfoethoced llenyddiaeth Saesneg ddiweddar, teg yw cofio fod ei sylfaen yn yr hen lenyddiaeth Geltaidd a roddwyd i'r byd gan y deffroad Cymreig yn y ddeuddegfed ganrif. Tua 'r adeg hon hefyd yr ysgrifenodd Gwilim Malmeson a Henri Hwntedwn Frut y Tywysogion yn Lladin, a chyfieithwyd hwn a Brut Gruffydd ab Arthur i'r Gymraeg. Ac heb law 'r Brutiau, a'r Mabinogion, a'r chwedlau am y brenhinoedd a'r marchogion,

Am ddewr fab, am ddi-wair ferch,

ysgrifenwyd traethodau ar dduwinyddiaeth, a daearyddiaeth, a gwybodau eraill; ac ar ddymuniad ein Llyw Olaf, ysgrifenodd Edeyrn Dafod Aur ei rammadeg Cymraeg.

Cyfieithwyd llawer darn o lenyddiaeth dramor, a rhai rhanau o'r Beibl, yn enwedig y rhanau oedd i'w darllen yn yr eglwysi. Dyfynwn yma adnod neu ddwy o'r "groclith, duw Sul y blode*u*" (*Mat.* xxvi. 36—41), o hen femrwm a ysgrifenwyd tua diwedd y cyfnod hwn, *Hengwrt MS.* 3.[a]

"Ac oδyna y-doethant hy*d* y-lle a-elwir Gessemani—Iessu a*i* δisgyblon. Edrychwch i,[b] ebef, yt tra elwyf i ryweδiaw. A-chymry*d* Ped'r a de*u* vab Iebede*us* *i*-gy*d* a(g e)f; a-dechre*u* cymry*d* tristwch yndaw, a-dyweda*d* wrth*u*nt, trist yw vy enei*d* i hy*d* anghe*u*; kynhel*i*wch i yma, a-gwyl*i*wch *i*-gy*d* a-mi. A cherδe*d* ychydi*g* a-oru*g*, a-digwyδaw ar *i*-wyne*b* *i* weδiaw, hy*d* y-llawr. Ac yna y-dwo*d*, vy *nhad* i, os gallu a-wna, kerδe*d* yr anghe*u* honn hebof i; ac eissioes,[c] ny*d* val y-mynnwyf i, namyn val y-mynych di, bi*d*. Ac oδyna dyvo*d* a-oru*g* ar y-disgyblon, ac e*u* caffel yn kys*gu*; a-dywed*u*d a-oru*g* wrth Bed'r, n*i* elleist di wyl*i*aw *u*n awr or dyδ *i*-gy*d* a-myvi. Gwyl*i*wch a-gweδiwch *rhag* ych myne*d* ym *mh*rovedigaeth. Paraw*d* yw yr ysbry*d*, ac eissioes[c] gwann yw y-knaw*d*."

Y mae hwn yn rhyddach cyfieithiad na 'n cyfieithiad ni; ond er ei fod yn hŷn o fwy na dwywaith, a bod ynddo, am hyny, ymadroddion go ddieithr; er hyny, y mae hwn yn agosach atom, yn fwy naturiol. Y mae 'n rhydd oddi wrth yr "ac efe a" diddiwedd sydd yn gwneyd ein cyfieithiad ni yn rhy ddi-afael. Nid oes ar y cyfieithydd hwn ofn arfer rhagenw cynnorthwyol pan awgrymir un iddo gan ei deimlad neu ei athrylith—"trist yw fy enaid *i;*" "fy Nhad *i.*" Y mae cystrawen hwn yn Geltaidd, cystrawen y llall yn Lladinaidd: hwn yn gynnyrch natur ac athrylith, y llall yn gynnyrch celfyddyd, "yn cadw riwliad grammadeg," yn ol mawl Sion Tudur[d] iddo.

Yn mhen tua deng mlynedd ar hugain wedi cwymp Llywelyn, cododd Rhys Goch ap Rhiccert yn nhir Iarll yn seren gwawr y dydd newydd. Nid oedd wiw, yn awr, ganu am arwyr,

[a] "*Studies on the legend of the Holy Grail;*" tudal. 229.

[a] Er mwyn rhwyddineb i'r darllenydd anghyfarwydd â'r hen orgraph, arferasom gyssylltnodau i dori r darn yn eiriau, a newidiasom rai llythyrenau yn ol yr egwyddor a osodasom i lawr ar dudal. 59. Y llythyrenau italaidd a newidiwyd, a gellir adfer yr hen orgraph yn berffaith drwy roddi t am *nh* a *d*, p am *mh* a *b*, c am *g*, v am *u*, y am ' neu *i*, d am δ, ac r am *rh*.

[b] *H.y.*, edrychwch chi. [c] *H.y.*, eithr.

[d] Cywydd i'r Doctor Morgan.

Digitized by Google

a rhyfel, a gwladgarwch; ond yr oedd serch yn destyn wed'yn mor hoff gan y Cymro a'r un, ac nid oes yn yr iaith Gymraeg ddim tlysach na chaneuon serch Rhys Goch ap Rhiccert o dir Iarll. Y mae i'w anwylyd "dalcen gwastad-loyw," a llygaid yn "ddwy seren serch," a grudd "cyfliw rhos gwylltion;"

"A min fel mêl, i'm dyn dawel,
Gwefus mirain liw cain cwrel;
Gên bychan crwn, a hwn mor hynod
Ag yn nydd, mynydd mewn gŵn manod...
Bun deg dawel-ddawn ysgawn wisgi
Ni phlyg mân feillion ar donn dani;
Alarch, wylan, glân ei glwysbryd,
Meindwf, iawndwf, hoewdwf hyfryd."

Fe geir casgliad helaeth o ganeuon Rhys Goch yn yr *Iolo MSS.*, eithr amserir hwynt yno tua dau gan mlynedd yn rhy gynnar. Cyn gadael Rhys Goch dylid dyweyd mai efe, ac nid Dafydd ap Gwilym, a ddechreuodd yru adar a chreaduriaid yn llatteion at ei gariad. Rhaid boddloni ar ddwy linell i'w ddangos—

"Tithau'r hedydd, bardd boreuddydd,
Dangos i hon fy nhorr calon."

Yn fuan fuan wedi hyn y daeth Dafydd ap Gwilym, a llu beirdd ei oes ef, ac y cynnaliwyd "tair Eisteddfod dadeni llên"—y gyntaf yn Maes-haleg, yn llys Ifor Hael, ewythr Dafydd a'i noddwr. Yr ail yn y Ddol Goch yn Emlyn, yn llys Llywelyn ap Gwilym, ewythr arall i Ddafydd, a'i "athro barddoniaidd;" a'r drydedd ym Maelor, yn llys y Brodyr Marchwiail. Yn yr adeg hon y daeth cynghanedd yn anhebgor barddoniaeth Gymraeg; a thra yr oedd y gynghanedd, cynt, yn darfod yn aml cyn diwedd y llinell, nes i chwi deimlo fod y llinell yn rhy hir, fe 'u gwnaed yn awr yn gyhyd. Yna hefyd y perffeithiwyd mesur cywydd, ac yn yr eisteddfod ddadeni gyntaf "doded braint cadair ar fesur cywydd, a Dafydd ap Gwilym a ennillws o nerth awen a chanu a Chymraeg cynhwynol....Ac o hynny hyd yn awr serchoccaf a goreu o'r holl fesurau y bernir cywydd." Ac yn yr ail eisteddfod y bu "oreu ar wengerdd Sion Cent, a goreu ar foliangerdd Rhys Goch o Eryri," a Dafydd ap Gwilym yn oreu ar rïeingerdd. Yn y drydedd y cafas Madog Benfras, trydydd brawd Marchwiail, gadair a chae bedw am rïeingeirdd; "a Dafydd ap Gwilym a ganodd yn garedig a Fadoc am ei gerdd."* Beirdd penigamp oeddynt oll, a Dafydd ap Gwilym oedd y goreufardd—bardd yr haf a'r blodeu,

"A mwyn adar a'm carai,
A merch a welais ym Mai."

Ni chawn ond prin sôn am ei rïeingerddi. Canodd saith gywydd i Ddyddgu, a

"Saith gywydd i Forfydd fain,
Seth hoewgorff, a saith ugain."

Saith mlynedd y canodd, a "saith mlynedd oferedd fu;" eithr o'r diwedd "cafodd dâl o'i ofalon," a Madog Benfras, medd efe, a'i priodes yn y llwyn, â'i "wawr dlosferch ry dlysfain." Eithr bu raid iddi briodi 'r "Bŵa Bach," yn ol defod gwlad ac eglwys; ond ni ildiodd Dafydd ei hawl. Nid oedd ganddo barch i na chyfraith Lloegr, na "chrefydd myneich Rhufain." Ni thalai eu "cynghor hwy am forwyn." Yr oedd eu lleuadau newydd a'u gwyliau gosodedig yn faich arno, blinodd yn eu dwyn; nid oedd eu Grawys iddo ef ond "tymmor i ymwrthod â Morfydd:"—

"Dydd â'i bwys fal diwedd byd
Ar awenydd yw'r Ynyd."

Gan hyny, ymliwiai â Morfydd ar iddi ymadael â'r Bŵa Bach:

"Beth a dâl anwadalu
Wedi 'r hen fargen a fu?"

Y ddau 'n diangc am lys Ifor Hael: eu dal, a dirwyo Dafydd; a gwŷr Morganwg yn hel i dalu 'r ddirwy; a thebyg fu ei hanes yn hir:

"Gwae fi gan boeni beunydd,
Weled erioed liw dy rudd."

Fe ddeuai 'n aml, er hyny, haul ar fryn, o blegid

"Cydwyneb cydawenu,
Cydchwerthin fintin a fu."

A haf a gauaf ar ei awen oedd y tymmhorau hyn—

"Un ydwyf, pan bwyf heb Wen,
Afrywiog heb fawr awen...
Gyda Gwen 'r wy'n ddibenyd,
Gwna hon fi 'n galon i gyd,
A'm cân yn rhedeg i'm cof
Yn winaidd awen ynof."

Bu fyw Dafydd i weled claddu ei Forfydd, a galarodd am dani yn ei henaint—

"Dan wŷdd mae Morfydd, fy myd,
Y mae 'n gorwedd mewn gweryd."

Merch i Fadawg Lawgam, o dref Rhosyr, ym Môn, y dywed efe ei bod; ond enw ffug oedd hwn. Er hyny, tebyg ydyw fod rhyw wir Forfydd yn ei hanes, er na wyddai hyd yn oed bobl yr oes hono pwy oedd hi—

"Pybyr fu pawb ar fy ol,
A'u 'Pwy oedd?' ym mhob heol."

Tywyna heulwen haf yn ei gywyddau; gwena'r meillion, a "llafar yw mân adar Mai." Mai oedd ei hoff fis—

"Mynnwn, pei nef a'i mynnai,
Pei deuddeng mis fae mis Mai."

A daw adgof am Fai iddo wrth duchanu i'r eira —hwnw'n lluwchio "lle bu'r Mai uwch llwybrau mân." Felly hefyd yng ngauaf einioes, daw adgof prudd iddo am Fai ei oes. "Mae côf ynof o'm hynni," meddai; ond

"Darfu 'r ieuenctid dirfawr;
O dewr fu 'nydd, darfu'n awr."

Bu farw yn 1368. Gresyn genym na chawn sôn rhagor am dano; o blegid am dlysni a chyfoeth ei Gymraeg ni bu erioed fardd na llenor i'w gystadlu âg ef. Ond fel y crybwyllasom, yr oedd "eraill feirdd awdurol" yn yr oes hono. Gruffydd Grug, y "prydydd o Benmynydd Môn," a edliwiodd i Ddafydd ffolineb ei serch, nes tyfu ymgytgan maith rhyngddynt; ac yn ei farwnad i Ddafydd fe ddywed Gruffydd Grug, "Disgybl wyf, ef a'm dysgawdd;" ac wedi ei golli,

"Tristach weithian bob cantref,
Bellach naw llawenach nef."

Fe ganodd Madog Benfras, o Farchwiail, yntau, ei "hiraeth am bennaeth beirdd;" a'r un modd Iolo Goch, bardd arall a ddaethai i'r drydedd Eisteddfod ddadeni. Medd Iolo—

"Euthyw pensaer yr ieithoedd,
Eithr pe byw athro pawb oedd."

Bu Iolo fyw i ganu i Owain Glyndwr, "Llew bryd, a nerth llaw a braich." Sion Cent a Rhys

* *Iolo MSS.*, tudal. 96, 97.

Digitized by Google

Goch Eryri oedd y ddeufardd arall oedd yn y tair eisteddfod. Bardd a mynach oedd Sion Cent, a ganodd lawer gwengerdd, ac a rybuddiodd ei gyd-fyneich i ba le y'u harweiniai eu byd da helaethwych hwy. Gŵr bonheddig oedd Rhys Goch Eryri, a chanodd awdl i'r llwynog, a "Sion Tudur a'i galwodd hi ystordyn meddwdod, o herwydd fod arni rinwedd, ni fedr un dyn meddw ddywedyd mo'ni."* Canodd hefyd gywyddau—un i erchi i lwynog ladd y paun oedd gennad Dafydd Nanmor at Wen o'r Ddol. Felly, yn yr oes hono y bydiai Dafydd Nanmor; a dyma etto fardd nad ydyw'n ail i neb, os nad i Ddafydd ab Gwilym. Dyfynwn linell neu ddwy o'i gywydd hiraeth am ei gariad a fuasai farw—

"Och Dduw Tad, o chuddiwyd hi,
Nad oeddwn aindo iddi...
Os marw o hon is Conwy,
Ni ddylai Mai ddeilio mwy;
Gwywon yw'r bedw a'r gwiail,
Ac weithian ni ddygan ddail."

Yn yr oes hono hefyd y cant Hywel ap Einion ei awdl anfarwol i Fyfanwy Fychan—

"Lliw eiry cynnar pen Aran,
Lloer bryd, lwys fryd o Lys Frân;"

ac y canodd Llewelyn Goch ei gywydd prudd uwch bedd Lleucu Llwyd—

"Yn bwhwman gan annwyd,
Cylch drws dy dŷ Lleucu Llwyd."

Y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd oes aur barddoniaeth Cymru. Mewn iaith rydd ni bu mor gyfoethog. Enwn weithiau Dafydd Ddu o Hiraddug, ei gyfieithiadau a'i ddosbarth ar gerdd, a chwedlau Gruffydd ab Adda ab Dafydd. Ysgrifenwyd hefyd amryw lyfrau ar hanes a gwybodau eraill; a cheir llawer o honynt, megys "Llyfr Daeareg" a "Brut y Saeson," yn "*Llyfr Coch Hergest*," a llawysgrifau o ddiwedd y ganrif hon.

Y mae enwau beirdd yn awr yn lliosogi; ond ni cheir yr un enw pwysig etto nes dyfod bron i ganol y ganrif nesaf. Yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1451, y trefnodd Dafydd ap Edmwnd y pedwar mesur ar hugain cerdd dafod; ac yn wir, y mae Dafydd ap Edmwnd yn fwy awenyddol bardd nag y buasid yn tybied oddi wrth y weithred hon a wnaeth. Darluniau prydferth ydyw ei oreuon bethau:

"Dy wyneb fal ôd unnos,
Dy rudd fal cafod o ros."

Llawdden hefyd oedd yn fyw yr adeg hono, ac efe alwodd am y diwygiadau a wnaeth Dafydd yn y mesurau cerdd. Tudur Penllyn hefyd, ac Ieuan Brydydd Hir hynaf, y gŵr a gant y "Cywydd i'r byd ac i henaint:"—

"Crynedig i'm croen ydwyf,
Crynfa deilen aethnen wyf."

Guto'r Glyn hefyd, a Gwilym Tew, a Meredydd ap Rhys. Un hoff oedd Meredydd o bysgota a morio, a chanodd gywydd yn cyffelybu ei hun i Fadog ab Owain Gwynedd—

"Madog wych, mwyedig wedd,
Iawn geneu Owain Gwynedd,
Ni fynnai dir (f' enaid oedd),
Na da mawr ond y moroedd;
Madog wyf i'm hoed, a'i gais
Ar foroedd, hyn arferais."

Sef yw ystyr hyny, mai efe oedd Madog ei oes, yn ceisio cais Madog ar foroedd, yn bysgotwr fel efe; ac yna dywed am Bedr apostol mai "pysgotwr oreugwr oedd." Pan ddyfeisiwyd, wedi i Golumbus ddarganfod yr Amerig, y chwedl fod Madog ab Owain Gwynedd wedi ei darganfod o'i flaen, dyfynwyd y llinellau hyn i brofi 'r chwedl; yna newidiodd rhyw greadur y drydedd linell i "ni fynnwn dir, fy awydd oedd," gan ddinystrio 'r gynghanedd a'r synwyr, er mwyn cael dyweyd fod y pedair llinell gyntaf ar fedd Madog yn America; ac adroddir y celwydd hwnw gyda blâs gan awdwr *Drych y Prif Oesoedd.* Y mae Stephens, Merthyr, wedi lladd yr ofergoel, er gwaethaf Ab Ithel a phwyllgor Eisteddfod Llangollen; felly, ysgatfydd mai afraid i ni grybwyll yma mai ym mhen mwy na hanner canrif wedi colli Madog, sef yn eisteddfodau dadeni llên, y daeth mesur a chynghanedd y llinellau i fod, hyd yn oed yn "yr hen wlad." Gwel MADOG AP OWAIN GWYNEDD, cyf. vii.

Yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif y canodd Rhys Nanmor, o Faenor Mynyw, yn sir Benfro; a thybir mai mab oedd i Ddafydd Nanmor o Wynedd; ac mai mab i Rys oedd y Dafydd Nanmor* oedd yn byw yn amser Dafydd ap Edmwnd, ac a ganodd i Harri 'r seithfed; ond ni wyddys pa un ai Rhys ai Dafydd a ganodd i Harri yn 1457, pan oedd ei dad wedi marw, ac yntau 'n faban yn ei gryd yng Nghastell Penfro—

"Os wyneb Iarll sy'n y bedd,
Iarll aned er y llynedd."

Hyd yma y mae hanes y Nanmoriaid yn bur dywyll. Tua 1454 y dechreuodd Lewis Glyn Cothi ganu; a chanodd am ddeugain mlynedd, a mwy, i achwyn ar y Saeson, ond yn benaf i foli gwŷr boneddigion Cymru; ac na feied neb arno am hyny, o blegid boneddigion a Chymry trwyadl oeddynt, ac heb eu llygru etto gan philistiaeth Seisnig i dybied am eu cydgenedl mai "meibion yr ynfyd a meibion rhai anenwog oeddynt," na bod dylni, nac anwybodaeth, hyd yn oed o iaith eu tadau hwy, yn ddim i ymffrostio ynddo. Ond fe barhaodd y ffasiwn yn rhy hir; a gresyni ganwaith wedi hyny fu gweled bardd o Gymro'n treisio'i awen i ganu ffalsder celwyddog i grach foneddwr na ddeallai air o'i hiaith. Yn y blynyddoedd hyny y canodd Gutyn Owain—'gŵr bonheddig a phrydydd o Groes Oswallt,' a disgybl i Ddafydd ap Edmwnd—ei 'awdl orchestol' i ferch, a'i gywyddau mawl i foneddigion ac abadau; ac yr oedd Gutyn yn hanesydd enwog yn ei ddydd. Lewis Morganwg hefyd sydd fardd a hanesydd na ddylid ei anghofio; a'r un testynau sydd i'w ganuau yntau. Ac yr oedd ym Morganwg fardd arall, Ieuan Deulwyn, bardd awenber a fedrai ddywedyd "wrth fodd calon y llangces:"—

"Melus ydyw dy gusan,
Os melus yw'r mefus mân."

Tua 1480, dechreuodd Tudur Aled ganu; ac un o'r beirdd enwocaf oedd. Y mae rhai o'i odlau ffraeth ar dafod gwlad etto—

"Ysbys y dengys y dyn
O ba radd y bo 'i wreiddyn:"

ac o bawb a ganodd gŵyn coll, ni bu nemawr a ragorodd ar Dudur Aled. Am Robert ap Sion o Degeingl y dywed—

"Y gŵr marw, e gâr morwyn
Ddaear dy fedd er dy fwyn;"

* "*Gorchestion Beirdd Cymru.*" Arg., 1773, td. 92.

* "Y mae fal hynn mewn un llyfr a welais yn Hafod Uchtryd—Dafydd Nanmor ap Rhys Nanmor ap Dafydd Nanmor, o Wynedd, y Bardd.—I. M." *Iolo MSS.*, tudal. 315.

Digitized by Google

ond ni chawn ddyfynu etto ond o'i farwnad i'w ewythr Dafydd ap Edmwnd:—

> "Llaw Dduw a fu'n lladd awen
> Lladd enaid holl ddwned hen;"

o blegid yr oedd Bardd Nanmor a Deulwyn hefyd newydd farw—tri o feirdd godidog; ac nid oedd ei athro a'i ewythr ef i'w gymmharu ond â Dafydd ab Gwilym:—

> "Ni bu fyw neb fwy 'i awen
> Ond da fardd Glan Teifi wen;
> Mab Gwilym heb gywely,
> Heb iddo frawd, ni bydd fry."

Cyfarfod â'i frawd tu draw i'r afon; eithr yma—

> "Gweddw yw'r gerdd, y gwŷdd, a'r gôg,
> Gwedi awdur godidog."

Urddwyd Tudur Aled yn 'athro cadeiriawg' yn Eisteddfod Freiniol Caerwys yn 1524.

Dyma ni yn awr yn yr 16eg ganrif—oes yr ieithyddu a'r grammadegu. Dywedir i Dudur Aled ysgrifenu grammadeg; ac ym Morganwg yr oedd Lewis Morganwg, a Meuryg Dafydd, a Dafydd Benwyn, a Dafydd Llwyd Mathew, a Llewelyn Sion, yn hel ac yn helaethu mân draddodiadau cymmylog am iaith a llythyraeth a derwyddiaeth; ac at ddiwedd y ganrif casglodd Llewelyn Sion y cyfan ynghyd. Yn ddiweddar yn yr ail ganrif ar bymtheg, helaethwyd y cyfan wedi hyny gan Edward Dafydd o Fargam. Yn y ganrif ddiweddaf ail ysgrifenodd Iolo Morganwg hwynt; ac yn 1862, cyhoeddodd y *Welsh MSS. Soc.* gopïau Iolo dan y teitl *Barddas*, gyda chyfieithiadau Saesnig gan Ab Ithel. Yn ol dysgeidiaeth Barddas, o'r arwydd /|\, yr A-wen, enw cyfrin Duw, ac arwydd ei Drindod, a ddadguddiwyd i Fenw ap y Teirgwaedd, y lluniwyd pob iaith, trwy lunio yn gyntaf lythyrenau o'r tair colofn; a'r llythyrenau hyny yw Coelbren y Beirdd. Ceir ym *Marddas* amryw ddulliau gwahanol ar goelbren y beirdd; ac ni raid ond craffu na welir nad ydynt ond dirywiadau o'r llythyrenau Rhufeinig wedi eu gwneyd yn llinellau union i'w tori ar bren. Er enghraifft, **A** ydyw ∧, **C** ydyw <, **I** ydyw |, **O** ydyw ◇, **D** ydyw ▷, **L** ydyw ᛕ, **h** ydyw ᒪ/, **T** ydyw ↑, **V** ydyw V, **r** ydyw ᛗ; ac nid yw'r rhai mwyaf annhebyg i'r prif lythyrenau Rhufeinig ond dulliau ar y ffurfiau dirywiedig y tyfodd ein mân lythyrenau ni o honynt. Er enghraifft, nid ydyw ᛁ/ (s) ond yr hen ffurf ɼ a gadwyd yn Ngwyddeleg, y ffurf y tyfodd yr ſ dal o honi. Yn y dulliau diweddaraf ar y Goelbren ymdrechir ei gwneyd i gydymffurfio â chyfnewidiadau 'r cydseiniaid blaen; ond hyd yn oed wedi hyny, y mae ei tharddiad yn y wyddor Rufeinig yn ddigon amlwg. Fe allai mai o ryw wan, wan, adgof am lythyrenau 'r Ogam y tarddodd y chwedlau am Goelbren y Beirdd. Sonid am hen lythyrenau Prydeinig, a dywedid chwedlau gwylltion am danynt; ac onid naturiol, yn y bymthegfed ganrif, oedd tybied mai 'r llythyrenau a dorid ar goed y pryd hyny oeddynt, ac a elwid, Coelbren y Beirdd? Pa fodd bynag, nid oes a'r o sôn am y Goelbren yn llawysgrifau 'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Dechreua Grammadeg Edeyrn Dafod Aur yn ddigon syml yn "*Llyfr Coch Hergest*" fel y canlyn:—"Pedeir llythyren ar hugeint kymraec yssyd, nyt amgen, *a, b, c, d, e, f, g, h, i, k, l, ll, m, n, o, p, q, r, s, t, u, w, x, y.*" Nid ydym yn tybied i'r hen feirdd hyn *ddyfeisio* athrawiaethau *Barddas*. Traddodiadau oeddynt; ac nid dyma 'r lle i ddangos pa fodd y tyf traddodiadau, na gwerth nac oed y rhai hyn; ond y mae 'n amlwg i bawb fod rhai o honynt yn hŷn na'u gilydd; a'r rhai a berthyn i iaith a llythyrenau ydyw 'r ieuengaf o honynt. Am werth eu dysgeidiaeth, y mae hi yn rhy bell ar y dydd i drafod o ddifrif syniadau a dardd iaith o lythyrenau, a llythyrenau o arwydd y Drindod.

Tra 'r oedd hen feirdd disyml Morganwg yn cofnodi 'r traddodiadau hyn, gwaith diniwed ddigon, ïe, a da; o blegid annheg fuasai eu cyhuddo o dwyll na dyfais. Y pryd hyny yr oedd ysgolheigdod yr oes yn difwyno 'r hen iaith, yn dyfeisio Cymraeg newydd na welwyd mo'i debyg na chynt na chwedyn. Gwelodd William Salesbury fod aml i air Cymraeg yn tebygu i'w gyfystyr Lladin, a thybiodd yn union mai o'r Lladin y tarddai pob un o honynt, ond eu bod wedi eu llygru gan y Cymry diddysg. Ni welai fath yn y byd o ddeddf yn y cyfnewidiad a gymmerth le ynddynt. Iddo ef, llygriadau noeth oeddynt oll; a cheisiodd eu newid i'w purdeb cyntefig. Am hyny, ysgrifenai *Deo* yn lle *Duw*, *Cambераec* yn lle *Cymraeg*, *dep-ndu* yn lle *dibynu*, *evangel* yn lle *efengyl;* ac am mai *eius* ydyw *his* neu *her* yn Lladin, ysgrifenodd yntau *ei* am danynt yn Gymraeg, yn lle 'r *i* syml a ysgrifenid gynt, ac a leferir etto—*i ben ef*, "his head." Yn 1547, cyhoeddodd William Salesbury ei "Eirlyfr Camberaec." Yn 1567 y cyhoeddodd y Testament Newydd, a gyfieithodd gyda chynnorthwy 'r Dr. Richard Davies a'r Parch. Thomas Huet. Bydd Cymru 'n ddiolchgar byth i William Salesbury am ei Thestament cyntaf. Buasai 'n fwy diolchgar iddo ped ysgrifenid ef mewn Cymraeg pur yn lle Camberaec Lladinaidd; o blegid, fel y dywedodd Morris Kyffin am dano yn 1595—"Yr oedd cyfled llediaith a chymmaint anghyfiaith yn yr ymadrodd breintiedig, na alle clust gwir Gymro ddioddef clywed mo'naw 'n iawn."

Yn 1565, ysgrifenodd Simwnt Fychan Rammadeg Cymraeg; a chyhoeddwyd Grammadeg Gruffydd Roberts yn 1567, yn "ddarn o waith dyscedig ynghelfyddyd gramadec, mor buraidd, mor lathraidd, ag mor odidawg ei ymadroddiad, na ellir damuno dim perffeithiach yn hynny o beth," medd Morris Kyffin. Yn 1588 y cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg cyntaf—cyfieithiad yr Esgob Morgan, ac ysgolhaig neu ddau yn ei helpu. Y mae sillafiad hwn yn llithrig, a gwedd ei eiriau 'n Gymreig. Taflwyd ieithleg Lladin Salesbury dros y bwrdd; ond er hyny, fe gadwyd rhai geiriau, megys *ei*, "his," ac *apostolion* yn lle 'r hen air *ebystyl;* a throwyd hen ffurfiau Cymreig fel *Selyf* a *Moesen* yn *Salomon* a *Moses*. Ond y mae effaith grammadegu 'r oes yn fwy cyrhaeddbell; ac hyd yn oed lle 'r oedd yr Hebraeg yn cyttuno â'r Gymraeg yn nhrefn ei geiriau, fe newidiwyd y drefn yn y cyfieithiad Cymraeg. Yn lle "ac aeth y dyn yn enaid byw," yn ei drefn wreiddiol, a'r drefn Gymreig, dywedwyd, "a'r dyn a aeth yn enaid byw;" a barned y neb a fyno pa un sydd oreu. Ond ni fynwn ymdroi gyda beiau; y mae 'r cyfieithiad, o ran cyfoeth ei iaith a grym ei eiriau, yn ddigyffelyb; a chydag enwau priod pwysig bu chwaeth y cyfieithydd yn drech na'i ddysgeidiaeth. Cadwyd i ni enw Iesu yn Gymraeg, fel yr anwylir ef gan y Cymro nes i Forgan Rhys ganu ei fod yn "caru hardd lyth'renau 'r enw."

Digitized by Google

Morus a ddaeth â'r mesur cerdd i fri, ac nid oes yn ei gerddi ef ddiffyg cynghanedd; yn hytrach, fe allai ormod weithiau; o blegid anhawdd yw cael cynghanedd *ac* aceniad heb eiriau llanw. Y mae Edeyrn Dafod Aur yn iachach ar y pwnge na beirdd Caerfyrddin:—"Tripheth a-gadarnhaa *gerð*, dyf'nder ystyr, ac aml'der kymraeg, ac odidawg ðechymig. Tripheth a-wanhaa *gerð*, sathredig ðechymig, a-basder synnwyr, ac eisseu kymraeg;"[a] nid eisieu cynghanedd. Canodd Huw Morus gywyddau ac awdlau hefyd, a cherddi duwiol a chynghorion:

"Pan fyddo drwg siample i'th droi dros y llwybre,
O meddwl am eirie Huw Morus."

Dïau iddo, fel y dywedodd Lewis Morris, Môn, am dano, ragori ar bawb eraill mewn dyriau; y mae ei gerddi oll yn brydferth, ac nid eu prydferthwch lleiaf yw iaith Bowysaidd y bardd. Bu i Wallter Mechain, a'i goeg-ddysgeidiaeth annioddefol, ddyfetha hwn i gyd yn ei argraphiad[b] (yr unig un) o waith Huw Morus; ni wnaeth "ddilyn ysgrifenyddiaeth y bardd lle byddai yn feius; canys rhaid dilyn iawn gystrawiaeth—deued a ddel o'r gynghanedd." Gorhoffder Gwallter o wyntogrwydd yw arfer y gair 'cystrawiaeth' am sillebiaeth; ac y mae ei ddull o drin gwaith y bardd yn union fel ped argrephid caneuon Burns yn Saesneg yr ysgolion, ac *awa'* a *fa'* wedi eu gwneyd yn *away* a *fall* hyd yn oed pan fo 'r ddau yn odli. Gresyn na chawsai "*Eos Ceiriog*" Ieuan Brydydd Hir i'w olygu; y gŵr a ysgrifenodd 55 o flynyddoedd cyn 1823 fod prydferthwch Theocritus yn fwy yn herwydd ei "dafodiaith Ddorig, sydd fel rhai caneuon Ysgotaidd, yn hyfryd iawn i'r glust, ac yn ddymunol i ffansi rhai â chanddynt wir chwaeth at natur yn ei symlrwydd."[c] Bu farw Huw Morus yn 1709, yn 88ain oed.

Yn 1703 y cyhoeddwyd y "*Bardd Cwsg*." Y mae ei ddarluniau nerthol ac echrys o'r byd, ac o lys angeu, mor adnabyddus na raid i ni ymdroi dim i sôn am danynt; ac er fod y bardd yn llawn o ragfarnau ei oes, y mae ganddo rai syniadau cymdeithasol teilwng o'r oes hon—"Beth yw teiliwr a ddwg ddarn o frethyn wrth ŵr mawr a ddwg allan o'r mynydd ddarn o blwyf?" Ac er fod amryw eiriau o darddiad Saesnig yn y llyfr, y mae ei Gymraeg, o ran cystrawen a phriod-ddull, yn fwy Cymreig nag odid i ddim a ysgrifenwyd yn yr iaith erioed.

Yn 1707 y cyhoeddodd Edward Llwyd, o Goleg yr Iesu, ei "*Archæologia Britannica*." Bu Edward Llwyd am bum mlynedd yn teithio yn yr Alban, a'r Iwerddon, a Chernyw, ac yn Llydaw, yn dysgu 'r ieithoedd Celtaidd, nes medru eu hysgrifenu oll; a chyhoeddodd yn yr "*Archæologia*" eiriaduron a grammadegau o honynt, a thraethodau ar ieitheg, yn cymmharu â'u gilydd eiriau, ac hyd yn oed lythyrenau geiriau 'r gwahanol ieithoedd, yn ol dull ieithegwyr gwyddonol yr oes hon. Yr oedd wedi deall natur iaith—mai tŵf a dadblygiad oedd iddi, ac y gallesid olrhain mamiaith hen trwy gymmharu â'u gilydd ei hieithoedd tardd. Dyfynodd dystiolaeth iaith, yn y dull y'i dyfynir heddyw, i adrodd hanes hynafol y cenhedloedd; a dywedodd fod y Cymry a'r Gwyddelod yn un genedl, ond fod gwaed ang-Ngheltaidd yn y Gwyddelod; a hònodd mai o Ffraingc y daeth y Celtiaid i'r ynysoedd hyn; "chwedlc na chrybwyllodd neb am danynt o'r blaen," medd efe ei hun. Dywed yr ysgolhaig Ariaidd enwog, Dr. O. Schrader, am y llyfr, ei fod yn "*extremely remarkable work for its time*:"[a]—geiriau crytion i Almaenwr eu harfer. Yn wir, anffawd Edward Llwyd oedd ei fod yn byw fwy na chan mlynedd o flaen ei oes. Ni ddeallodd neb gymmaint ag ystyr ei waith; ar greigleoedd ac ymhlith drain y syrthiodd yr had a heuasai. Pe amgen, gallasai fod yn sylfaenydd ieitheg gymmharol. Dyma un o feibion mwyaf athrylithgar Cymru, ac un nas gŵyr hi, ysywaeth, fawr am dano. Bu farw yn 1709, cyn cyhoeddi ei ail gyfrol, ac yn newydd ei godi i gadair duwinyddiaeth yn Rhydychen; a chladdwyd ef yno ym mynwent Michael Sant, ger Coleg yr Iesu, lle nad oes maen nac enw i ddangos man fechan ei fedd.

Y mae enw Theophilus Evans yn fwy adnabyddus. Cyhoeddwyd "*Drych y Prif Oesoedd*" gyntaf yn 1716:—llyfr mor blentynaidd a diniwed ag yw llyfr Edward Llwyd o wyddonol a dysgedig. Er hyny, y mae 'r "*Drych*" yn ddifyr i'w ddarllen. Y mae ynddo ormod o frawddegau cymmysg; ond y mae ei briod-ddull yn aml yn hynod o Gymreig, ac yn dlws yn llwyrdeb ei symlrwydd.

Erbyn hyn, yr oedd beirdd Môn yn dechreu canu—y Bardd Coch a Lewis Morris. Canodd y Bardd Coch lawer yn ei ddydd: canodd ddau gywydd i Oronwy Owen. Y maent yn gywyddau da, ac y mae attebion Goronwy yn anfarwol. Ganwyd Lewis Morris yn 1702. Gŵr o alluoedd mawrion ac amryfal oedd efe; yn fesuronydd a chlandrwr, yn gywrain mewn cynlluniau a pheirianwaith, yn hyddysg mewn llysieuaeth ac athroniaeth natur, ac mewn "physigwriaeth a llaw-feddyginiaeth, nes dwyn tlodion i gyrchu ato." Dywedid y gallai wneyd llong a'i hwylio, gwneyd telyn a'i chanu, gwneyd cywydd a'i ddatgan:—"tri champ Lewis Morris, Môn." Bu 'n mesur arfordiroedd Cymru, ac yn arolygu mŵn-weithiau 'r brenin; ac yn ei oriau hamddenol, casglodd ddefnyddiau ei "*Celtic Remains*," yn ymdrin â phob agwedd ar hynafiaeth Prydain; a chanodd hefyd gywyddau a cherddi. Chwareu oedd canu iddo, ac ysgeifn a thlws yw ei ganau. Pwy nas gŵyr am 'Ganiad y Gôg i Feirionydd':—

"Pwy fu 'n ymyl dwyn fy ngho?
Morwynion bro Meirionydd."

Ac y mae llawer o'i ganu yn ysgafnach etto (heb i ni arfer gair rhy lym); 'a'r byd,' medd efe,

"A'r byd a'i fawr wybodaeth
I'm cyfri yn ffri ac yn ffraeth;
Mab doeth oeddwn, gwyddwn gerdd,
Ac aml lwysgainc melusgerdd;
A phob clymiad ffidliad ffol
Yn taro 'n dra naturiol."

Yr oedd i Lewis ddau frawd, sef William a Richard. Yr oedd y ddau, fel Lewis, yn wŷr tra chywrain, ac yn ysgrifenwyr Cymraeg campus; a buont, fel yntau, yn garedig wrth Oronwy dlawd. Golygodd Richard Morris ddau argraphiad o'r Beibl, gyda'r "*Llyfr Gweddi Cyff-*

[a] Dyfynir o "*Llyfr Coch Hergest*." Gweler nodiad [a] ar waelod ail golofn tudal. 69.

[b] "*Eos Ceiriog: sef, Casgliad o Bêr Ganiadau Huw Morus*." Gwrecsam, 1823.

[c] "*Gweithiau*," tudal. 242. Saesneg yw 'r llythyr yno.

[a] "*Prehistoric Antiquities of the Aryan Peoples*," Cyf. Saesneg, Llundain, 1890, tudal. 61.

Digitized by Google

*redin*, a mynegai o'i waith ei hun, a mapiau o waith "Wm. Iones, Esqr., F.R.S.," tad Syr Wm. Jones. Yn 1746 a 1752 y cyhoeddwyd hwynt, a hyny gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, ar daer ddeisyfiad Griffith Jones, o Landdowror. Y mae Beibl Richard Morris yn gyssonach ei orgraph na'r rhai aeth o'i flaen; ond dygwyd i mewn iddo rai ffurfiau a ddyfeisiwyd gan goeg-ieitheg yr oes hono, ac sy 'n glynu wrth ein Cymraeg llenyddol hyd heddyw. Dwy flynedd iau na Lewis Morris oedd William Wynn, parson Llangynhafal—y gŵr a ganodd gerddi ysgeifn fel Lewis Morris, a chywydd y "Farn Fawr," a gymmherir a chywydd Goronwy:

> "Yna traflynca annwfn
> Y dorf i'r agendor dwfn;
> On'd tost eu cyflwr hwynthwy?
> O! fynediad ofnadwy!"

Yna y canodd Rhys Jones, o'r Blaenau, ac y dechreuodd gasglu "*Gorchestion Beirdd Cymru*;" ac y canodd Edward Richard, Ystrad Meurig, ei fugeilgeirdd brydferth ar y mesur 'tri th'rawiad.' Dau ddisgybl barddonïaidd i Lewis Morris oedd Goronwy Owen ac Ieuan Brydydd Hir. Wedi gorphen ei addysg yn Rhydychen, cafodd Goronwy guradiaeth Llanfair-mathafarn-eithaf, Môn, ei enedigol blwyf; ond gyrwyd ef ymaith gan yr esgob, i wneyd lle i ryw '*young gentleman of means*,' o Gaernarfon. Ac yn alltud o'i wlad, heb dderbyn trugaredd gan esgobion Saesnig Cymru, y bu Goronwy ar hyd ei oes;—

> "Dyn didol dinod ydwyf,
> Ac i dir Môn estron wyf;
> Dieithr i'n hiaith, hydriaith hen,
> Dieithr i berwawd awen."

Pwy na chredai, wrth ddarllen ei gywyddau i "Fôn, dirion dir, hyfrydwch pob rhyw frodir," nad oedd efe 'n ei charu?—

> "Cerais fy ngwlad geinwlad gu,
> Cerais, ond ofer caru."

Bu 'n gurad ac yn ysgolfeistr yn Lloegr, ac ni chafodd erioed brin ddigon o ymged i gynnal ei wraig a'i blant; a hwyliodd am yr Amerig, mewn gobaith gwell byd. Yno, yn 1767, yn Virginia, "lle na chlybu, ac na lefarodd haeach ddeng air o Gymraeg er ys gwell na deng mlynedd," y canodd ei awdl odidog er côf am Lewis Morris—

> "Soniais, sugenais gwynion—do, ganwaith,
> Am deg Wynedd wendon;
> Doethach im' dewi weithion,
> Heb Lewis mwy, ba les Môn?"

"Os teimla 'r oesoedd a ddêl y fawr golled a gafodd yr iaith Gymraeg a'i barddoniaeth ar ymadawiad y Gronwy, pan orfu arno, er mwyn ynnill bara a lluniaeth i'w wraig a'i blant, fyned i berfedd gwlad yr America i gael yr hyn oedd fwy teilwng iddo, a mwy cymmeradwy a boddlon gantho, pe ei cawsai yn ei wlad ganedig, beiant ar yr esgyb Pabaidd, di-ddaioni eu crefydd, a esceulusasant ac a ommeddasant yr hyn oedd deilwng iddo. Felly yr ysgrifenodd, felly y teimlodd YWAIN MYFYR."[a] Cofir am gam Goronwy,

> "Pan fo Môn a'i thirionwch
> O wres fflam yn eirias fflwch;
> A'i thorrog wythi arian,
> A'i phlwm a'i dur yn fflam dân."

[a] "*Works of Goronwy Owen*." Llundain, 1876. Cyf. ii., tudal. 270.

Os oedd cân Dafydd ab Gwilym yn felus, yr oedd cân Goronwy yn llawnach; os oedd awen Dafydd yn heinyf, ehedodd awen Goronwy yn uwch. Ond na cheisier cymmharu 'r ddau brif fardd: dau ddi-gymmhar ynt. Yn gyflelyb i Oronwy y triniwyd ei gyd-ddisgybl, y bardd a'r ysgolor trylen, Ieuan Brydydd Hir. Wedi d'od o Rydychen, bu yn gurad yng Nghymru, yn prydyddu ac yn ysgrifenu traethawd Lladin ar yr hen feirdd; ac wedi bod am ddeuddeng mlynedd heb dderbyn dim gwell ar law yr 'Esgyb Eingl' na churadiaeth a dwy bunt ar hugain yn y flwyddyn, aeth i Loegr i dderbyn rhyw ddeugain punt. Yn 1780, ceir ef yng Nghymru 'n ol, yn Maeshaleg; a'r fan lle safai llys Ifor, "drain ac ysgall mall a'i medd," a hen rodfeydd Dafydd ab Gwilym—

> "Y llwybrau gynt lle bu 'r gân
> Yw lleoedd y ddylluan."

Ac nid oedd yno i Ieuan un Ifor Hael—

> "Yno nid oes awenydd—na beirddion,
> Na byrddau llawenydd,
> Nag aur yn ei magwyrydd,
> Na mael, na gŵr hael a'i rhydd."

"Yr wyf yn meddwl," meddai Iolo Morganwg, "mai yr un tlotaf o'i alwedigaeth yn yr Ynys yw." Bu farw yn ei gartref, yn 1789, a chladdwyd ef yn mynwent Lledrod, ei blwyf genedigol, lle nad oes ond y glaswellt ar ei fedd. Dioddefodd yn ei fywyd dros ei wlad a'i iaith. Anghofiwyd ef yn ei angeu gan ei genedl. Pa hyd?

Yr oedd llywodraeth Prydain y pryd hwnw wedi rhoi ei bryd ar lwyr ddifa 'r iaith Gymraeg; ac onid oedd yr Eglwys ganddi yn arf parod i'w llaw? Planwyd esgobion Saesnig yng Nghymru—a gweision ufudd fuont, ac eiddgar; ac nid oedd tywyllwch ysbrydol y genedl yn ormod pris ganddynt i'w dalu am lwyddo yn y peth yr anfonwyd hwynt o'i blegid. Onid yw 'r hanes yn ysgrifenedig yn llythyrau Ieuan Brydydd Hir? "Gwancewn diffaith tan eilun bugeiliaid ysbrydol, yn ceisio ein difuddio o ganhwyllbren Gair Duw yn ein hiaith ein hunain."[a] Rhoddid i Saeson uniaith, a neiaint yr esgyb, y bywoliaethau brasaf, ac ni chaffai 'r "curadiaid danynt ddarllen mo 'r Gymraeg;"[b] a cheisid newynu pob gŵr Eglwysig o athrylith a garai iaith ei fam. Pa ryfedd, ynte, i'r 'Ymwahanyddion'—sef yr Ymneillduwyr—"daenu yn frith ac yn aml dros holl wyneb Cymru?"[b] Nid oedd Ieuan yn gyfaill i'r 'Ymwahanyddion;' ac ofnai yr ocrai eu 'gwres angerddol,' ac yr elai 'corph crefydd yn gelain oer o'r diwedd, er yr holl grïo, a'r gwaeddi, a'r crochlefain.' Pa fodd yr anghofiodd yr Ieuan fod yno rywbeth heb law swn? Yn wir, fe gafodd gipolwg ar y gwirionedd. Wrth sôn, bum mis wed'yn, yn Nhachwedd, 1766, am fwriad Mr. Ross, argraphydd Caerfyrddin, i "brintio 'r Beibl Cyssegrlân â nodau arno," fe ddywed—"Un o'r Methodyddion yw 'r gŵr sydd wedi cymmeryd y gorchwyl gorchestol hwn yn llaw; ei enw Peter Williams. On'd yw hyn yn gywilydd wyneb i'n gwŷr llen ni o Eglwys Loegr! Y mae Rhagluniaeth Duw ym mhob oes yn cyfodi rhai dynion da. Ni waeth pa enw yn y byd a fo arnynt. Oddi wrth ei ffrwyth yr adnabyddir y pren. Y mae yn dra hynod fod yr ychydig lyfrau Cymraeg ag sydd

[a] "*Gweithiau*," dan olygiad D. Silvan Evans. Caernarfon, 1876, tudal. 201. [b] Yr un, tudal 202.

Digitized by Google

argraphedig wedi cael eu trefnu a'u lluniaethu, gan mwyaf, gan Ymwahanyddion, ac nid oes ond ychydig nifer wedi eu cyfansoddi gan ein hyfleiriaid ni es mwy na chan mlynedd; a'r rheiny, ysywaeth, yn waethaf o'r cwbl o ran iaith a defnydd. Y mae St. Paul yn dywedyd mai 'yr hyn a hauo dyn, hynny hefyd a fed efe.'"[a] Gwir, O Ieuan! Ac yr oedd Griffith Jones, Llanddowror, wedi dechreu sefydlu ei ysgolion yn 1730; ac fel y canai 'r Pér-ganiedydd, yn 1761:—

"Tair o filoedd o ysgolion
Gawd yng Nghymru faith, a mwy;
Chwech ugain mil o ysgolheigion
Fu, a rhagor, ynddynt hwy...
Braidd ca'dd plwyf nac ardal ddianc
Heb gael iddo gynnyg rhad
O fanteision ddysgai 'n union
Iddynt ddarllen iaith eu gwlad!"—

dysgu iddynt ddarllen yr iaith a ddeallent, a rhoi 'r Beibl ac esboniad, a phregethau a llyfrau yn eu llaw; bwyd i gynnal gwres y grefydd, O Ieuan! ac i gynnal iaith y grefydd—yr iaith a garet ti. Daliodd yr esgyb, a'u creaduriaid, yn eu cwrs; ac ysgrifenodd Thomas Charles, yn 1784:—"Wedi cael fy nhroi allan o dair o eglwysi yn y wlad, ac heb obaith o gael un arall, pa beth a wnaf?"[b] Trôdd ei wyneb at y 'Methodyddion,' a bu am bedair blynedd ar ddeg yn sefydlu ysgolion dyddiol a Sabbothol yng Nghymru, ac yn ysgrifenu llyfrau ar eu cyfer. Yn 1802, "rhyw glebar hanner Seisnig, swn llymrig sy 'n y llan," meddai Bardd y Nant, ac "offeiriaid ym mhob rhyw helynt halog a chanddynt selog swn;" ac o mynai neb fyw 'n dduwiol, "hwy godant i'w ergydio, a'i wawdio 'n llawn o wŷn;"[c] tra yr oedd Thomas Charles yn y flwyddyn hono yn Llundain, yn ymdrechu cael Beiblau Cymraeg i dlodion Cymru, nes y sefydlwyd y Feibl Gymdeithas, yn 1804. Dyma ddirgelwch bywyd y Gymraeg. Yr oedd y bobl yn or-hoff o honi, dysgwyd iddynt ei darllen, crewyd ynddynt awydd darllen, a thrwy fawr egni fe barotowyd iddynt ddarmerth, a chryfhaodd yr awydd wrth ei foddhau; ac erbyn hyn, y mae llenyddiaeth Gymraeg yn rhyfeddod ei heanged:—tyst o'r "GWYDDONIADUR" hwn. Ymgais yr esgyb oedd lladd yr iaith—a methasant. Ymgais yr 'Ymwahanyddion' oedd dysgu i'r bobl grefydd Crist—ac y mae Cymru 'n wlad grefyddol ac Ymneillduol, a'r iaith yn fwy byw nag erioed. Ac felly y gwiriwyd y gair—"Yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef; a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg."

Yn nechreu 'r ddeunawfed ganrif, nid oedd nemawr i lenor yng Nghymru, heb law rhigymwyr a baledwyr, âg adsain fynglyd o odlau Huw Morus. Yna, trwy Lewis Morris, daeth iddi ddeffroad llenyddol, ac awydd i chwilio i'w hanes, a'i hen lenyddiaeth, ac i brydu ar yr hen fesurau; a thrwy Griffith Jones, ddiwygiad crefyddol, ac awydd 'i chwilio i wirioneddau 'r Gair.' Dechreuodd Daniel Rowlands a Howel Harries bregethu, a dechreuodd yr emynwyr ganu, gan daflu heibio lyffetheiriau 'r gynghanedd, a chleciadau 'r baledwyr. Canodd Dafydd Wiliam, o Landeilo Fach, "Yn y dyfroedd mawr a'r tonau," a chanodd Morgan Rhys "Wele cawsom y Messiah." Yna daeth y Pérganiedydd, a Robert Jones, Rhoslan, a David Charles, ac Anne Griffiths wed'yn, a llu o emynwyr; a chafwyd emynyddiaeth nad oes gan yr un wlad ei chyfoethoced. At ddiwedd y ganrif, ymbriododd y deffroad â'r diwygiad, a chanodd Dafydd Ionawr 'Gywydd y Drindod,' ac Edward Jones, Maes-y-plwm, ei emynau cynghaneddol; canodd Dafydd Ddu Eryri awdlau, ac emynau, a charolau; a'r un modd Robert ap Gwilym Ddu, yr hwn a ganodd yr englynion goreu yn yr iaith. Wedi hyny y daeth Bardd Nantglyn, a'r Prif-fardd Dewi Wyn; ac yna Caledfryn, ac Eben Fardd, ac Ieuan Glan Geirionydd, ac Emrys, a Nicander, ac Islwyn, a Cheiriog, a llu mawr o feirdd na bae ond ofer i ni geisio 'u henwi. O'r briodas hono hefyd y tarddodd y rhan fwyaf o'n llenyddiaeth ryddieithol oreu er canol y ganrif ddiweddaf; gweithiau Thomas Charles, a dau frawd Llanbrynmair, a Gwilym Hiraethog, a Dr. Edwards.

'E fu, er hyny, feirdd a gwladgarwyr ar ol Goronwy a'r Ieuan, a etifeddodd draddodiadau 'r deffroad llenyddol yn syml. Robin Ddu o Fôn a ganodd i'w gariad, ac i'w wlad—

"Arglwyddes lân neu fanon
Ymysg y gwledydd yw Môn,"

ac a sefydlodd, gydag Owain Myfyr a Sion Ceiriog, Gymdeithas y Gwyneddigion. At ddiwedd y ganrif yr oedd Owain Myfyr, ac Iolo Morganwg, a William Owen (wedi hyny y Dr. W. O. Pughe), yn casglu ac yn adysgrifio hen lawysgrifau; a chyhoeddwyd eu casgliadau yn mlynyddoedd cyntaf y ganrif hon yn y *Myvyrian Archaiology*, a argraphwyd gan Owain Myfyr yn dair cyfrol, yr hyn a gostiodd iddo 2,000*p*. Yn 1870, ail argraphwyd y gwaith yn un gyfrol drwchus yn y swyddfa hon. Cynnwysa 'Ododin' Aneurin,[a] a gwaith Taliesin a Llywarch Hen, a gweithiau 'r go-gynfeirdd o Feilir hyd Lewelyn Goch; ond nad oes ynddo ddim o waith D. ab Gwilym, yr hwn a gyhoeddesid cynt gan yr un gwŷr.[b] Cynhwysa hefyd drioedd hanes, a cherdd, a chyfraith, a'r Brutiau, a darnau hanesyddol eraill, a 'Doethineb y Cymry,' a Chyfreithiau Howel Dda, a 'Pherthynasau Cerddoriaeth,' gyda llawer o geinciau wedi eu hysgrifenu yn yr hen nodiant Gymreig. Gwaith godidog i'r oes hono, a chofadail bythol i haelioni a gwladgarwch Owain Myfyr. Diffygion y gwaith ydyw, nad yw 'r casglyddion yn enwi 'r llawysgrifau, ac mai llawysgrifau diweddar, i raddau helaeth, a arferwyd. Y mae 'r orgraph wedi ei newid hefyd mewn llawer man, ac y mae Cyfreithiau Howel (yn yr orgraph a ddyfeisiwyd gan William Owen, heb ond nodau bychain i wahaniaethu rhwng *c*, *ch*, *g*, ac *ng*, &c.), bron yn annarllenadwy. Er hyn, bydd y "*Myfyrian*" yrhawg yn anhebgor i'r efrydydd Cymraeg. Crybwyllwyd am waith Iolo Morganwg o'r blaen: efe a wnaeth fwyaf i adgyfodi 'r baganiaeth ddiangenrhaid sydd ynglŷn â'r Eisteddfod; ond nis gellir dyweyd am dano ei fod yn cyfnewid popeth fel y cwynai efe y gwnae William Owen. Yr oedd Iolo yn dra hygoel, eithr coeliai yr hyn a *welodd* yn yr hen ysgrifau; tra yr oedd gan William Owen ddamcaniaethau yn ei ben, ac y ceisiai wneyd popeth i gyttuno â'r rhai hyny. Rhaid i ni droi yn ol

[a] "*Gweithiau:*" tudal. 205.
[b] "*Canmlwyddiant Ysgol Sabbothol Cymru:*" tudal. 59.
[c] "Cerdd Person Paris," a gyhoeddwyd yn 1802. Gweler "*Gwaith Twm o'r Nant.*" Liverpool, 1889, tudal. 419.

[a] Gyda darlleniadau amrywiol yn yr ail argraphiad.
[b] Ail arg., Liverpool, 1873.

Digitized by Google

etto i sôn am waith ieithyddol y Dr. Pughe. Cyfoed â'r gwŷr hyn oedd Gwallter Mechain. Y mae barddoniaeth Gwallter yn naturiol, ac yn aml yn dlws a chryf, ond y mae ei iaith rydd yn dra chwyddedig. Yna daeth yr haneswyr Carnhuanawc, a Thegid; ac yn 1838, y cyhoeddodd *Lady* Charlotte Guest ei hargraphiad ardderchog o'r *Mabinogion* o'r *Llyfr Coch*, y testyn yn dilyn y llawysgrif yn bertfeithiach na dim aeth o'i flaen, a'r cyfieithiad Saesneg yn un tra rhagorol, yn cyfleu llawer o symlrwydd a thlysni 'r gwreiddiol. Yna y ffurfiwyd y *Welsh MSS. Society*, ac y golygodd y Parch. W. J. Rees y '*Liber Landavensis*' a *Buchedd au 'r Saint* iddi; ac y golygodd Taliesin ab Iolo yr *Iolo MSS.*, y bwriadai ei dad iddynt fod yn barhâd o'r *Myvyrian;* ac yna y cyhoeddwyd amryw lyfrau o dderwyddiaeth Iolo, dan olygiaeth Ab Ithel, fel y crybwyllwyd eisoes. Yn y fl. 1857 y cyhoeddwyd '*The Literature of the Kymry*,' o waith Thomas Stephens: traethawd beirniadol ar lenyddiaeth Gymraeg o'r flwyddyn 1080 hyd 1350. Ac yn 1884, cyhoeddodd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* (1300 hyd 1650), o waith Gweirydd ap Rhys. Afraid i ni ddyweyd ein bod wedi cael llawer o gymmhorth yn y llyfrau hyn wrth ysgrifenu am lenyddiaeth y cyfnodau hyny. Dau lyfr llafurfawr ydynt, a'r ddau awdwr yn arfer eu barn (nid yn chedeg ar ol pob chwedl, fel y rhan fwyaf o'n haneswyr); ac er fod llawer o waith Stephens, erbyn hyn, yn gofyn ei gywiro, y mae 'r llyfr yn fwy athrylithgar ac ysgolheigaidd na'r llall. Bai mwyaf Gweirydd ydyw edrych ar bopeth o safle ei oes ei hun. Rhaid i ni gofio yma, hefyd, weithiau Meudwy Môn:—*Cymru*, a *Cheinion Llenyddiaeth Gymreig*, ac eraill. Yr oedd ei wybodaeth hynafiaethol yn ëang, ond yr oedd gormod o ôl yr hen hygoeledd arno. Yn 1887 yr ymddangosodd y gyfrol gyntaf o'r '*Welsh Texts*,' dan olygiaeth y Proff. Rhys a Mr. Gwenogvryn Evans, yn cynnwys testyn y *Mabinogion*, o'r *Llyfr Coch*. Y mae hwn mor bertffaith ag y gwnaed dim o'i fath etto. Dilynir y llawysgrif yn drwyadl fanwl, a dangosir pob marc, pob amrywiol lythyren, pob cyfnewidiad, pob gwall, pob aneglurder, fel y gallo 'r efrydydd weled yn gywir bopeth sydd i'w weled yn y llawysgrif; ac er cymmharu llawer o dudalenau o'r gyfrol â'r llawysgrif, ni welsom yn y gyfrol un coll. O'r gyfres hon y mae dwy gyfrol arall wedi ymddangos, sef *Facsimile* o *Lyfr Du Caerfyrddin*, a'r ail gyfrol o *Lyfr Coch Hergest*, yn cynnwys y *Brutiau;* a gwelsom Mr. Evans, er mwyn sicrhau pertffeithrwydd yn y gwaith, yn cyssodi â'i law ei hun, ym mharlwr Coleg yr Iesu, farddoniaeth y *Llyfr Coch* heb gyfrwng adysgrif.

Wedi sôn fel yna am haneswyr a golygwyr ein hen lenyddiaeth, rhaid i ni sylwi, cyn terfynu, ar hanes ieitheg Gymraeg ddiweddar. Dywed y grammadegydd Gwyddelig, H. H. Wright,* am ieitheg Geltig cyn amser Zeuss, "Nas gellir mewn un cangen o wybodaeth ddangos mwy o wallau gwyddonol. Nid oedd ysgolheigion y Cyfandir wedi meistroli 'r ieithoedd Celtaidd. Yr oedd yr ysgolheigion brodorol, bron yn ddieithriad, heb synwyr cyffredin, ac yn aml heb onestrwydd cyffredin. Nid oedd yr un ysgolhaig Gwyddelig yn ddigon cydwybodol i ddysgu Cymraeg, na'r un ysgolhaig Cymreig i ddysgu Gwyddeleg. Rhaid i ni, o gyfiawnder, grybwyll un eithriad nodedig—yr ysgolhaig Cymreig mawr, Edward Llwyd, y gŵr y gellir dyweyd am dano ei fod yn byw 150 o flynyddoedd cyn ei amser: ond nis gallodd yr ysgol frodorol ei ddilyn; a soddasant i freuddwydion ieithyddol chaotaidd a phlentynaidd." Haws oedd ganddynt ddilyn M. Pezron, y gŵr a brofodd fod holl ieithoedd Ewrop yn tarddu o'r ieithoedd Celtaidd, trwy gymmeryd yn ganiataol fod ffurfiau unsill diweddar, fel *rhod*, yn hŷn na ffurfiau cynnar deusill fel *rota.* Gwrthbrofwyd y ddamcaniaeth hon gan Edward Llwyd: er hyny, dilynwyr i M. Pezron (ac i'w mympwyon eu hunain), fel pe na buasai Edward Llwyd wedi yngan gair erioed, oedd ieithegwyr y ganrif ddiweddaf; ac fe allai mai Lewis a Richard Morris oedd y rhai mwyaf rhesymol. Er enghraifft, fe ddywed Lewis Morris* am *lloer* a *lleuad*, "yr ymddengys y ddau fel pe 'n tarddu o'r un gwraidd: a gallai mai *lleu* oedd hwnw yn yr hen Geltig; sef, yr un a'r Lladin *lux*." Dengys y sylw yna ryw ragolwg niwliog o'r gwirionedd, fod y Lladin a'r hen Geltig yn ddwy chwaer. O'r ochr arall, collir yn llwyr bob golwg o hyny lle y dywedir, "yr ymddengys fod y gair *Duw* yn yr hen Geltig yn tarddu o *da yw;* hyny ydyw, *he is good.*" Ond y dull mwyaf cyffredin o ieithegu yr adeg hono oedd dyweyd mai o *du—w* (hyny yw, *not black*), y tarddai 'r gair *Duw;* ac mai o hono yntau y tarddodd y gair Lladin *Deus.* Perffeithiodd Dr. Pughe ieitheg y *du-w* yn un gyfundrefn fawr; a cheisiodd wneyd pob gair Cymraeg yn gyfansoddair o elfenau unsill. Hyn oedd ei syniad ef am y Gymraeg:—Lluniwyd hi gan y Derwyddon, a hyny yn y wedd hon:—cymmerasant y llafariaid a'r cydseiniaid; ac o bob cyfuniad o honynt, megys *ab*, *ac*, *ba*, *ca*, &c., lluniasant wreiddeiriau, a thrwy osod y gwreiddeiriau hyn at eu gilydd yr adeiladasant eiriau ac iaith; îe, ac aethant i'r drafferth (ddiangenrhaid, debygem ni) o ddyfeisio cyfnewidiadau blaen y cydseiniaid:—adeiladu iaith fel adeiladu peiriant! Ac megys ag y mynai Wm. Salesbury wneyd pob gair Cymraeg yn Lladin, felly y mynai Pughe wneyd pob gair Cymraeg yn Geltig:—er enghraifft, tardda *esgob* o *es* a *cob; cob* drachefn o *co* ac *ob;* ac ystyr *esgob* ydyw *gŵr coboq.* Fe wyddai, gystal a chwithau, mai o *episcopos* y cafodd y Cymry y gair; ond tybiai mai llunio *esgob* a wnaethant o'r gwreiddeiriau, yn ddynwarediad o *episcopos*, ac yn air am yr un peth. Diffyg "synwyr cyffredin," yn hytrach na "gonestrwydd cyffredin," fe allai, oedd hyn. Yr oedd ganddo ei ddamcaniaeth, ac yr oedd yn rhaid ei chymmhwyso ym mhobman. Yr ieitheg hon a ddygodd y tryblith presennol i orgraph y Gymraeg; o blegid yr oedd yn rhaid, bellach, sillebu pob gair yn ol ei darddiad o'r gwreiddeiriau; a chan na bu 'r gwreiddeiriau unsill erioed ond ym mhen y Dr., a'i ddilynwyr, nid rhyfedd ydyw na chyttunir pa beth ydynt, na pha fodd i'w trin. Ac er fod gwŷr fel Thomas Charles a Dr. Edwards yn ddilynwyr cymmedrol iddo, ymwrthodasant hwy â'i eithafion bethau. Gwelsant fod cyssylltiad rhwng y gair *presennol*, er enghraifft, â'r cyff Lladin *present-;* ac ysgrifenasant ef â dwy *n*, un i gynnrychioli 'r *t*.

* "*A Grammar of the Modern Irish Language.*" Llundain, 1860.

* Nodiadau i *Gywydd y Farn* Goronwy Owen.

Ond ni welsant fod cyssylltiad rhwng *càn* (yr hwn a ysgrifenid yn *cann* yn y canoloesoedd) â'r gwreiddair Lladin *cand-* (*e.e.*, yn *cand-eo*, sef "to be white"). Tarddasant *càn*, fel Pughe, o *cy- an*, ac ysgrifenasant *cànu* âg un *n*. Fel hyn, ceid *annoeth* (o *an-doeth*, *an-noeth*), â dwy *n; cànu* (o *cand-u*, *cann-u*), âg un. Nid oedd y fath anghyssondeb a hyn yn amser Lewis Morris a Goronwy. Dilynodd Dr. Edwards ef hefyd lle yr arferai *dy-* yn lle *di-* gadarnhaol, ac ysgrifenai *dyben*, *dystaw*, *dysgwyl*, am eiriau a ysgrifenid yn *diben*, *distaw*, *disgwyl*, yn *ddi-eithriad* am bum can mlynedd cyn dyfodiad Dr. Pughe. Rhoddwn un enghraifft etto:—Ysgrifenir *disgybl* yn aml yn y dull Puwaidd, yn *dysgybl*, fel pe cyfansoddid ef o'r gair *dysg;* eithr ni wâd neb diragfarn nad o'r Lladin *discipulus* y tardda; o blegid nid ydyw *-ybl* yn derfyniad Cymraeg. Ni ddywedir *cerddybl* am gerddwr, na *chofybl* am gofiwr. Y mae 'n rhaid i ni wrth "onestrwydd cyffredin" yn gystal a "synwyr cyffredin."

Am syniadau grammadegol y Dr. Pughe, nid oeddynt namyn chaos. Yr oedd ganddo allu anghyffredin i wrthsefyll tystiolaeth pob ffaith: ysgrifenai yn ol ei ddamcaniaethau ei hun, ac yn hollol wahanol i neb erioed o'i flaen. Arferai'r amser ammherffaith yn wastad yn lle'r perffaith. Fel hyn yr awgrymodd wella 'r adnod gyntaf yn y Beibl, "Yn y dechreuad creai Duw y nefoedd ac y ddaiar." Yr oedd ganddo allu hefyd i ddewis pob peth hyllach na'i gilydd o bob man. Ysgrifenai *amcanid* yn lle *amcenid; derbyniaw*, *dangosi*, am dderbyn a dangos. Ond nid oedd ganddo allu i feddwl yn glir, nac i ysgrifenu brawddeg gywir, ond ar ddamwain; ac ar gynllun cystrawen yr iaith Saesneg yr amcanai ysgrifenu. Dyfynwn linell neu ddwy o Ragfynegiad *Coll Gwynfa:*—"Y ganiad Saesonig o *Goll Gwynfa*, gan Iohn Milton, o hon y mae y cyfieithiad canlynawl, á gyfrifir un o ben gorchestion beirdd y byd; ac am hyny, yn wiw o ei chyflwynaw i gyfnabod y Cymry, os galluadwy yw yr ymgais heb beri iddi warth ac anfri, o amcanu ei gwisgaw yn ein hiaith ni mor deledíw ag y byddo iddi gael ei derbyniaw mewn hoffder dyledus iddei theilyngdawd ansoddawl." Dywed "o hon" am na ddywedid "*of* THE *which*" yn Saesneg; "á gyfrifir un" am na ddywedid *is considered* IN *one* yn Saesneg. Am yr ail ran o'r frawddeg, llefared drosti ei hun. Y mae enghreifftiau o frawddegau Seisnigaidd a chwyddedig yn afrifed yn ei waith; megys, "nid wyf gwybodus am," yn lle 'nis gwn am;' "nad yw dealladwy y ganiad iddynt," yn lle 'nas deallant y ganiad;' "er y dangosid," yn lle 'i ddangos.' Rhoddwn un enghraifft etto o'i anallu i lunio brawddeg gywir:—"Y llynedd, ar ddydd Mawrth, y 26 o fis Mai, gan alw arnaf o gyfaill, ac o blith eraill ymadroddion, annogai imi gyfieithu *Coll Gwynfa* i Gymraeg." Yr oedd ei Saesneg cynddrwg: dywedai am y Derwyddon a'r awen, "They formed its brightest attire, the harmonic concatenation of the Welsh Language;" *formed* am lluniasant, priod-ddull Cymraeg yn Saesneg. Mewn un gair, yr oedd iaith yn beth na fedrai efe ddim oddi wrthi; ac fel paentiwr cibddall, llafuriodd am flynyddoedd, gan dybied ei fod yn harddu, lle y difwynai; a phe cawsai efe ei holl ffordd, ni buasai dim o degwch yr hen iaith yn aros.

Er fod Thomas Charles a Gwallter Mechain wedi derbyn egwyddorion ieithegol Dr. Pughe, ni dderbyniasant ddim o'i athrawiaethau grammadegol, na chaos ei gystrawen. Mae brawddegau 'r ddau bob amser yn orphenedig; ac y mae Cymraeg Thomas Charles yn rhywiog, ac yn naturiol. Y Beibl oedd ei gynllun, a'i Gymraeg ef a ddilynwyd gan yr ysgrifenwyr goreu ar ei ol. Dr. Johnson oedd cynllun Gwallter, ac yr oedd yn dra hoff o frawddegau seinfawr. Ysgrifenai frawddeg gymmysg yn lle un syml ym mhob man y medrai; arferai *ydynt*, er enghraifft, nid yn unig yn lle *sydd*, ond hefyd yn lle *y mae;* megys, "Canys ei Ddyriau ef ydynt gan mwyaf yn hynod o'r rheolaidd," yn lle 'canys y mae ei ddyriau ef.' Yr oedd dylanwad Dr. Pughe ar wŷr o lai dysg yn fwy o lawer; a gorthrwm i Gymro o chwaeth ydyw ceisio darllen rhifynau boreuaf *Seren Gomer*. Ac am y grammadegau a ymddangosodd yn y ganrif hon, nid ydynt—ac eithrio rhai Rowland, Emrys ap Iwan, a Dewi Môn—ond cyfaddasiad o'r grammadeg Saesneg at yr iaith Gymraeg, a'r oll wedi ei lefeinio âg ieitheg Dr. Pughe. Cyhoeddwyd geiriadur Dr. Pughe yn Llundain yn 1803; a'r ail argraphiad yn y swyddfa hon, yn 1846. Yma hefyd, yn 1866, y cyhoeddwyd trydydd argraphiad diwygiedig o hono, dan olygiad Gweirydd ap Rhys; ac yn hwn fe'i glân burwyd o'r rhan fwyaf o'i Buwiaeth noeth mewn orgraph a geiryddiaeth. Ond gellir dyweyd fod rhywfaint o ol gwaith Dr. Pughe ar yr holl eiriaduron a ymddangosodd ar ol 1803. Hyd yn oed yng Ngeiriadur ardderchog y Parch. Silvan Evans, a gyhoeddir yn awr, gresynwn fod y geiriau mewn orgraph a luniodd yr awdwr yn ol egwyddor Dr. Pughe. Mor hawdd y gallasai fod yn orgraph y Beibl, orgraph hanesyddol y Gymraeg, a berffeithiwyd yn gyntaf gan yr Esgob Morgan a Dr. Davies, ac wedi hyny gan Richard Morris, a llenorion y ganrif ddiweddaf.

Tra yr oedd Dr. Pughe yn dechreu "dattod a chamosod main"* yr iaith Gymraeg, yr oedd Cymro arall, Syr William Jones wrth ei enw, yn cymmharu 'r iaith Sanscrit â'r ieithoedd clasurol, ac yn clirio 'r tir er sylfaenu ieitheg gymmharol. Dywedodd yn 1786, "nas gallai yr un ieithegydd chwilio 'r Sanscrit, y Groeg, a'r Lladin, heb gredu iddynt darddu o ryw ffynnonell gyffredin, nad yw, fe allai, yn bod mwyach. Y mae rheswm cyffelyb, er nad yw llawn gyn gryfed, dros dybied fod i'r Gothic a'r Geltig yr un gwreiddyn a'r Sanscrit. Gellir chwanegu 'r hen Bersiaeg at yr un teulu." Cipolwg ar y gwir oedd i ddwyn cymmaint o ffrwyth. Ceisiodd yr Albanwr, Dugald Stewart, brofi nad oedd y fath iaith a'r Sanscrit, mai ffugiaith o ddyfais y Brahminiaid oedd hi; ond yr oedd ei gydwladwr, Arglwydd Monboddo, yn fwy rhesymol; ac nid oedd efe, yn 1795, ymhell oddi wrth ddarganfod y tylwyth Ariaidd o ieithoedd. Yr Almaenwr Friedrich Schlegel a'i darganfyddodd yn ddiammwys gyntaf; a'i gydwladwr Bopp a weithiodd allan y drychfeddwl yn ei lyfr "*Das Conjugationssystem*," a gyhoeddwyd yn 1816; ac efe a gyfrifir yn wir sylfaenydd ieitheg gymmharol. Ar ei ol ef, bu Almaenwyr eraill, Humboldt a Pott, a Jacob Grimm, yn helaethu 'r wybodaeth newydd mewn gwahanol gyfeiriadau; a cheisiodd Pritchard ei chymmhwyso at yr ieithoedd Celtaidd; ond Almaenwr, o'r enw Zeuss, a lwyddodd yn hyny gyntaf. Aberthodd Zeuss

*Dewi Wyn—"*Awdl yr Adebau.*"

Digitized by Google

ei oes i'r gwaith; profodd yn ei "*Grammatica Celtica,*" a gyhoeddwyd yn 1853, fod yr ieithoedd Celtaidd hefyd yn perthyn i'r un tylwyth mawr Ariaidd; a sylfaenodd ieitheg Geltaidd. Dilynwyd ef gan Whitley Stokes a'r Proff. Rhys. Y mae Dr. Stokes wedi olrhain ffurfiau 'r treigliadau yn yr hen Geltig, ac wedi ysgrifenu llawer o draethodau ieithegol, a golygu amryw lyfrau. Y mae 'r Proff. Rhys wedi olrhain hen hanes Prydain, a hen chwedloniaith baganaidd y Celtiaid; ac wedi gwneyd ieitheg Gymraeg bron yn wyddoniaeth fanwl. Y mae 'r darllenydd eisoes wedi canfod ein dyled iddo ef yn y rhan gyntaf o'n herthygl. Y mae hi 'n fwy nag yr ymddengys wrth y cyfeiriadau a geir yno. Dymunwn hefyd gydnabod yma mai 'r Proff. Rhys a ddarganfyddodd y rhan fwyaf o'r pethau newydd a geir yn y rhan rammadegol; megys trefn geiriau yn y frawddeg—y gwahaniaeth rhwng brawddeg syml ac un gymmysg—coll y ferf *wyf* mewn brawddeg gymmysg—y rhagenw perthynol *yr, a*—ac mai enw ydyw 'r hyn a elwir yn ferf annherfynol. Er i Edward Llwyd wneyd rhyfeddodau yn ei ddydd, ac er i Zeuss osod careg sylfaen ieitheg Geltig, nid oes neb a wnaeth, yn uniongyrchol, gymmaint a'r Proff. Rhys at ddatrys dirgelion y Gymraeg.

Y mae dadblygiad, drychfeddwl mawr y ganrif hon, wedi cymmeryd lle peiriannaeth y ganrif ddiweddaf, mewn ieitheg fel mewn pob gwybodaeth arall. I Dr. Pughe peiriant o adeiladwaith y Derwyddon oedd y Gymraeg, ac yr oedd yn rhydd iddo ef ddyfeisio gwelliantau arni, os medrai; felly, cyfnewidiai hi ym mha le bynag y mynai, heb falio dim am yr hyn a fu. Dywed Dr. Edwards,* "Ni ddigwyddodd i ni erioed gyfarfod â neb a fedrai hysbysu pa le y cafodd yr athraw hybarch ei Gymraeg." Gallesid atteb trwy ofyn pa le y cafodd Stephenson yr agerbeiriant. I'r ysgol ddiweddar, tyfiant yw iaith:—nid gwaith ymwybodol dyfais dyn, ond ffrwyth anymwybodol y natur ddynol. Felly, iddynt hwy, y cwestiwn ydyw, pa beth yw yr iaith—nid pa beth a *ddylai* hi fod. Olrheiniant hefyd ei hanes, a'i thŵf; ac at wneyd hyny, ceisiant hwy bob *ffaith* am dani. Mynant gael ysgrifau a llyfrau hen yn union fel y maent, gan ystyried hyd yn oed eu gwallau yn addysgiadol; tra yr oedd yr hen ysgol wedi penderfynu beth *ddylai* 'r iaith fod; ac wrth olygu 'r hen awduron, yn cyfnewid eu hiaith yn unol â hyny. Hyd yn ddiweddar iawn, ni chafwyd nemawr ddim argraphiad o hen waith (ac eithrio *Mabinogion* yr Arglwyddes Guest) a amcanai ei gyflwyno 'n gywir fel yr oedd. Gofidus ydyw gweled fod ysgolhaig o safle 'r Parch. Silvan Evans yn cyfnewid orgraph y *Bardd Cwsg*, a Theophilus Evans, ac Ieuan Brydydd Hir, ac hyd yn oed Gwallter Mechain (ei brif awdurdod), wrth olygu eu gweithiau. Gobeithiwn weled hen lenyddiaeth Cymru yn cael ei hail argraphu o'i chwr yn onest a chywir, yn ol esampl odidog y Proff. Rhys a Mr. Gwenogvryn Evans. Tybiai y rhan fwyaf o'r hen ieithegwyr Cymreig mai llygriadau oedd holl ieithoedd y byd o'r iaith a roes Duw i ddyn yn ddigyfrwng ym mharadwys. Yr oedd Dr. Pughe, yn gysson â'i syniad peiriannol, yn tybied mai y derwyddon a wnaeth y Gymraeg; a ffrwyth naturiol anffyddiaeth y ganrif ddiweddaf ydyw ei ieitheg ef. I ieithegwyr cymmharol, yr hwn a wnaeth y natur ddynol a wnaeth hefyd yr iaith a dyfodd ynddi; eithr nid ar unwaith, ond yn ol ei drefn ef—yn araf, fel y gwna efe goeden; gan roddi i ddyn arglwyddiaeth arni hithau hefyd, fel ar ei holl greadigaeth; a gall yntau 'r dyn, adael iddi dyfu 'n wyllt ar lafar gwlad, neu ei hanharddu trwy ei hystumio yn ol gauwyddoniaeth beiriannol, neu ei meithrin a'i harddu yn ol ei deddfau hi ei hun. Am ddechreuad iaith, y mae ieitheg gymmharol etto 'n ddistaw; megys y mae gwyddoniaeth natur yn ddistaw am ddechreuad bywyd. Yn wir, gwrthoda Cymdeithas Ieithegol Paris bob traethawd a gynnygir iddynt ynghylch tarddiad iaith: nis gall ieithegwyr brofi 'r un berthynas wreiddiol rhwng y gwahanol dylwythau a'u gilydd. Fe allai, er hyny, yr olrheinir hwynt rywbryd i un gyniaith syml—iaith y ddynoliaeth yn ei mabandod; iaith ddi-ffurf, ddi-aelod—i'w chyffelybu i'r bywyd symlaf, isaf, yn y byd materol.

Fel yna y ceisiasom adrodd beth ydyw yr iaith Gymraeg, a mynegi ei hanes yn ei gwahanol gyssylltiadau, a hanes yr efrydiaeth o honi. Hyfryd yn awr, wrth derfynu, ydyw taflu cipdrem ar ei chyflwr heddyw. Y mae mwy yn ei siarad nag a fu erioed; ac ar gyfer ei siaradwyr y mae mwy o ddarllen arni, fe allai, nag ar unrhyw iaith. Cyhoeddir ynddi gylchgrawn chwarterol, a dau ddeufisol; tua phymtheg o gylchgronau misol; a deunaw neu ugain o bapyrau wythnosol. Bellach, hefyd, cydnebydd y llywodraeth Brydeinig hi; a chyfieithir iddi ddeddfau senedd a chrynodebau, a phapyrau seneddol eraill. Telir hefyd gan y llywodraeth am ei dysgu fel pwngc neillduol yn yr ysgolion elfenol. Dysgir hi ym Mhrifysgol Rhydychen, ac yng Ngholegau Athrofaol Cymru; ac arholir ynddi am y radd o M. A. gan Brifysgol Llundain. Gan mlynedd yn ol, prophwydid am dani na buasai cyn pen can mlynedd. Nid oes neb heddyw a anturiai adrodd cyffelyb brophwydoliaeth. Hir oes iddi! *

CYMRODOLIAETH A CHYDFEDDIANNAETH [*Socialism & Communism*]. Un, mewn gwirionedd, yw y ddwy gyfundrefn a elwir wrth yr enwau uchod. Maent yn un yn eu gwreiddyn; ac yn anwahanol gyssylltiedig o ran yr egwyddorion y derbyniant eu bywyd a'u bod oddi wrthynt. Amcan cydfeddiannaeth ydyw arwain dynolryw i ddedwyddwch perffaith, trwy ddifodi pob gwahaniaeth rhwng aelodau cymdeithas a'u gilydd—gosod pawb ar yr un tir—pawb o bob gradd a rhyw, beth bynag a fyddo eu hawliau neu eu meddiannau presennol. Gwrthwynebа yn arbenig eiddo personol, fel y mae yn brif achos o'r graddau uchod, ac fel y golygir ei fod y rhwystr penaf ar ffordd gwir ddedwyddwch. Gan hyny, llafurid i ddileu y drefn uchod ar bethau, a dwyn yn ei lle gydfeddiannaeth cyffredin o ba beth bynag sydd yn gwneyd i fyny gyfoeth a da. O hyn y tardd ei henw, fel yn cyfatteb i'w nodweddiad, sef Cydfeddiannaeth= *Communism*. [Gwel CYFFREDIN, POB PETH YN.] Ond os cerid allan yr egwyddor hon gyda chyssondeb, y canlyniad naturiol fyddai, iddi arwain i ddiddymiad teuluoedd fel y cyfryw, a gwneyd gwragedd a phlant yn gydfeddiant cyffredin i bawb fel eu gilydd. Nid yw byth yn ymddangos ar ei phen ei hun, ond bob amser ynglŷn neu yn gyssylltiol â dull neu drefn fwy cynnwys-

* "*Traethodau Llenyddol:*" tud. 54.

* D.S.—Dymunodd awdwr yr erthygl hon gael arfer ei orgraph ei hun mewn rhan.—GOL.

Digitized by Google

fawr o feddwl, gyda'r dyben o effeithio diwygiad cymdeithasol. Nid ydyw yn gyfundrefn y gellir ei rhestru yn mhlith cyfundrefnau a phleidiau politicaidd, o blegid y mae pleidwyr cydfeddiannaeth yn ymwrthod â, neu yn myned heibio i'r drychfeddwl am wladwriaeth, yr hwn yn wastad sydd yn cynnwys ac wedi ei seilio ar y syniad o fod ynddi amrywiol ddosbarthiadau o ddeiliaid, â gwahaniaeth ac anghyfartaledd cymdeithasol rhyngddynt a'u gilydd mewn mwy uag un ystyr; megys, y llywodraethwr a'r rhai iarostyngedig iddo, y cyfoethog a'r tlawd, y meistr a'r gweinidog, o'r ddau ryw, y dysgedig a'r anllythyrenog, y brodor a'r estron. Nid ymestyn at, ac amcanu yn syml i leihau a liniaru y drygau anocheladwy sydd yn nglŷn â chymdeithas yn ei chyflwr presennol y mae cydfeddiannaeth; ond, pe gallai, mynai hi ddymchwelyd y trefniant gwladwriaethol ei hunan, a dinystrio yr hyn ydyw sylfaen hanfodol cymdeithas. O ganlyniad, nid yw yn briodol ei galw yn boliticaidd neu wladwriaethol. Byddai hwn yn enw rhy gyfyng; y mae ei hegwyddorion a'i thueddiadau yn peri y dylid ei hystyried yn gymdeithasol (*social*); ac o hyn y tardd *Socialism.* Eto, o bob cyfundrefn boliticaidd, y debycaf i gydfeddiannaeth yw gweriniaeth, neu yn hytrach *democratiaeth* ddiweddar, yn ol fel y deallir yr enw hwn ar gyfandir Ewrop; a hyny o herwydd ei thuedd gyffredinol i wastatau, mor bell ag y mae yn bosibl, bob anghydraddoldeb yn y gymdeithas wladol; eto, er hyny, heb eu gwadu mewn egwyddor.

Mewn perthynas i *hanes* cydfeddiannaeth a chymmrodoliaeth, y mae yn ein cyfarfod mewn dwy ffurf, naill ai fel amcandyb ddisylwedd annefnyddiol, neu freuddwyd gwyllt, gwag, o eiddo y dychymyg, o'r hyn y mae Plato, Campanella, a Morus, yn esamplau; neu ynte, ni a'i cawn yn llawer amlach fel ymgais gwirioneddol o eiddo plaid neu ddosbarth o ddynion penboeth i ddadymchwelyd trefn bresennol pethau, gyda'r dysgwyliad o sefydlu nefoedd ar y ddaiar. Yn y naill achos a'r llall, rhagdybir fod yn nghyfansoddiad cymdeithas ryw fallder ac anhwyldeb dwfn, a bod teimlad dwys yn bod o herwydd hyny. Tri achos, yn benaf dim, sydd yn peri cyffroadau a symmudiadau pleidwyr neu amddiffynwyr cydfeddiannaeth:— 1. Cyfyngder ac angenoctyd rhyw ddosbarth o'r bobl, yr hwn a achosir gan yr anghyfartaledd yn ol fel y mae cyfoeth yn bod yn mysg dynion, a'r hwn hefyd a chwanegir ac a drymheir trwy wrthdarawiad rhwng gwahanol elfenau cymdeithas, ffyniant y drwg o hunangarwch gormodol, yn nghyd â'r gorthrwm parhaus y mae y dosbarthiadau gweiniaid yn ei ddyoddef oddi ar law eu trech a'u galluocach. 2. Drygau moesol, o'r fath ag yw diogi, cenfigen, eiddigedd, drwgdybiaeth, dygasedd, bydolrwydd, gwastraff, gwangalondid, ac anobaith. 3. Y mae y trydydd achos, a'r penaf oll, i'w gael mewn hen syniad crefyddol trwyadl gyfeiliornus, yr hwn sydd yn ennyn ac yn esgor ar ryw frwdfrydedd penboeth, gyda goiwg ar y ffordd o arfer y byd a'i bethau: o blegid o asceticiaeth—gerwinder meudwyol, neu ymneillduaeth oddi wrth y byd, yr hon a hònai ei bod yn gosod Duw yn ganolbwynt ac amcan pob peth—y tarddodd yr hen ffurfiau o gydfeddiannaeth; ac yn ei hagweddau diweddaf drachefn, a broffesai ddyrchafu dyn goruwch pob peth, a gosod ei ddedwyddwch yn ddyben pob peth. Tra y mae y blaenaf yn myned yn ol i baganiaeth, rhaid priodoli yr olaf, i raddau helaeth, i ddylanwad Rousseau yn y ganrif ddiweddaf.

1. Y mae *paganiaeth*, yn ei holl ffurfiau, yn hanfodol ddeuolig (*dualistic*=yn coledd y syniad o ddwy egwyddor wahanol ac annibynol mewn dyn), ac yn gwbl analluog i gymmodi y dwyfol a'r dynol, yr ysbrydol a'r materawl, â'u gilydd. Ystyria fod dyn fel yn wrthwynebus iddo ei hunan; â dwy elfen gwbl anghymmodlawn bob amser yn bresennol gydag ef, fel rhanau o'i natur a'i gyfansoddiad—ei enaid fel yn hanfodol dda, ond ei gorff fel yn hanfodol ac angenrheidiol ddrwg. O ganlyniad, y mae y rhinwedd uchaf yn gynnwysedig mewn marweiddiad asceticaidd ar yr holl flysiau a'r tueddiadau naturiol. Y mae yr egwyddor hon yn rhedeg trwy gymmrodoliaeth yr hen amseroedd, yn mhob ffurf arni. Gellid yma grybwyll am yr amryw ddosbarthiadau o hen athronwyr India, y rhai a elwid Noethofyddion (*Gymnosophists*), megys eu dysgrifir gan Strabo [xv. 1], a Chlement o Alexandria [*Strom.* i. 15], yn nghyd âg urdd y Pythagoriaid, y rhai y dywedir fod eu trefniant cymdeithasol wedi ei seilio ar hawl gyffredin pawb yn meddiannau y frawdoliaeth. Rhoddid lle cyffelyb i gydfeddiannaeth yn y cynllun perffaith o werinlywodraeth a grewyd gan ddychymyg Plato. Y mae efe yn edrych ar feddu cyfoeth ac eiddo personol fel ffynnonell pob drwg yn y wladwriaeth; megys trachwant, ymddyrchafiad y naill ddyn uwch law ei gyd-ddinasyddion, gormod, hunangarwch a chrintachrwydd. Gan hyny, nid yw am roddi dim eiddo i neb, ond i'r isaf o'r tri dosbarth o ddinasyddion, pa rai nad oes iddynt ran na chyfran yn y gwaith o ddwyn yn mlaen ac arolygu amgylchiadau y llywodraeth. Myn ef orfodi y ddau ddosbarth llywyddol, sef yr archoniaid a'r rhyfelwyr, i ymostwng i ddeddfau cydfeddiannaeth; am fod perchenogi eiddo personol, neu hyd yn oed deulu neillduol, i ddyn ar ei ben ei hunan, yn beth na chydsaif â pherffeithrwydd a gwir wladgarwch, yn ol syniad ei ddychymyg athronyddol ef am y cyfryw bethau. Am hyny, y mae Plato, nid yn unig yn cynghori bod i feddiannau y ddau ddosbarth hyn fod yn eiddo cyffredin, ond fod i'w gwragedd, dan ryw ammodau, ac yn unol â rhyw ddeddfau penodol, fod yn gydfeddiant i bawb hefyd. Y plant a enir fel hyn, y maent hwy i fod yn eiddo y wladwriaeth; yr hon a gymmer y galluocaf o'u plith i'w haddysgu at ei gwasanaeth ei hunan; ac am y gweddill, y mae ganddi hawl i'w bwrw ymaith i drugaredd damwain [*Politia*, v. td. 460.]

2. Ychydig ganrifoedd cyn Crist, darfu i egwyddorion asceticaidd deuoliaeth (*dualism*) y paganiaid ymlusgo i mewn i'r grefydd Iuddewig; mewn canlyniad i hyn, cyfododd i fyny amryw sectau a phleidiau, megys yr Addolianwyr (*Therapeutai* = sect o Iuddewon yn y ganrif gyntaf a ymneillduai i leoedd unig), y rhai a breswylient yn yr Aipht; a'r Esseniaid, ar lanau gorllewinol y Môr Marw. Yn eu duwnabyddiaeth (*theosophy*) asceticaidd hwy, cydgyfarfyddai paganiaeth y dwyrain ac Iuddewiaeth. Trigent mewn neillduaeth mynachaidd, â phob peth ganddynt yn gyffredin. Dywed Josephus am yr Esseniaid [*Bell. Iud.* ii. 8. adran 3]: dirmygwyr cyfoeth ydynt, ac y mae yn hynod o hawdd ganddynt gyfranu. Nid oes yn eu plith, medd efe yn mhellach, neb â chanddo fwy nag arall; o herwydd y mae yn ddeddf yn eu mysg, fod i bwy bynag a ddel atynt gyflwyno pob peth sydd

Digitized by Google

ganddo yn feddiant cyffredin i'r holl urdd; fel nad oes i'w ganfod yn eu plith un arwydd o dlodi, nac ymddangosiad o ormod cyfoeth; ond meddiannau y naill wedi eu cydgymmysgu âg eiddo y llall, ac felly y mae megys un dreftadaeth y brodyr oll. Cymharer hefyd *Hynaf. Joseph.*, xviii. pen. i. adran 5.

3. *Y gynnulleidfa Gristionogol gyntaf yn Ierusalem* a ddaw yn nesaf o ran trefn hanesyddol. Trwy ragfarn sydd wedi byw a pharhau am fwy na mil o flyneddoedd, y mae hon wedi ei chamgyfleu yn rhestr y sefydliadau cydfeddiannol; ac urddau mynachaidd a ddaethant ar ei hol, yn nghyd â lluaws o sectau y canoloesoedd, wedi cyfeirio ati yn yr ystyr hwnw fel cynllun perffaith o sancteiddrwydd Cristionogol, a dull gwir apostolaidd o fyw. Coleddwyd y camgymmeriad hwn, am y tybid fod iddo sail yn yr ymadrodd tra adnabyddus hwnw (*Act.* ii. 44) a sonia fod pob peth yn gyffredin gan y dysgyblion, yn nghyd âg *Act.* v., a geiriau Iesu Grist yn *Mat.* xix. 24, a *Luc* xviii. 22. Ond ymwrthodir â'r golygiad hwn yn lled gyffredin yn mhlith dysgedigion, er pan brofodd Mosheim yn ei draethawd [*De verba natura communienis bonarum in ecclesia Hierosolymitana*], nad oedd iddo ddim sail. Cynnwysa llyfr yr Actau luaws o ymadroddion sydd yn cydnabod hawl dyn i feddu eiddo personol (*pen.* v. 4), ac yn rhoddi ar ddeall fod yn mhlith y Cristionogion cyntefig aelodau â chanddynt feddiannau o'r nodwedd hwnw (*pen.* xii. 12). Hefyd, nid am na chyflwynasai holl ardrethion ei diroedd a'i dda tuag at wasanaeth yr eglwys y cospwyd Ananias, ond am ei ragrith a'i ryfyg yn ceisio twyllo yr apostolion, a dywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân [Cymharer *Neander's Planting and Training*, td. 29]. A hyn hefyd y cytuna yr hynaf o holl draddodiadau Cristionogaeth. Nid ydynt hwy yn priodoli i gynnulleidfa Gristionogol gyntaf Ierusalem gydfeddiannaeth cwbl a hollol, mewn ystyr llythyrenol; ond y mae yn amlwg fod y tadau yn golygu mai cyfeirio at ryw sefydliad neu drefniad o eiddo y cyn-Gristionogion, wedi ei osod i fyny ar gynllun eang a rheolaidd, er cydgynnorthwyo bawb eu gilydd, y mae yr adnod a ddywed fod pob peth yn gyffredin ganddynt. Y mae Lactantius [*Instit. Divin.*, adran iii. td. 1169, argr. Walsh] yn cyfrif yr egwyddor o gydfeddiannaeth yn mhlith y penaf o gyfeiliornadau Plato yn nghylch cyfansoddiad gwladwriaeth. Dangoswyd gan Mosheim mai gyda Chrysostom y dechreuwyd priodoli yr ystyr o gydfeddiannaeth asceticaidd i'r ymadroddion yn *Act.* ii. 44, yr hwn esboniad y pryd hwnw a flynai yn dra chyffredinol [*Hom.* xi. *in Acta App.*]

Nid oedd neb a wyddai yn well nag Iesu Grist am y peryglon moesol sydd yn nglŷn â chyfoeth, eto, nid yw mewn un man yn gofyn tlodi hollol fel ammod sancteiddrwydd: i'r gwrthwyneb, pan y dywed (*Mat.* v. 17) na ddaeth i dori y gyfraith a'r prophwydi, ond i gyflawnu, yr oedd trwy hyny yn selio ac yn cadarnhau deddfau a gosodiadau yr Hen Destament o barth i hawl gyflawn pawb yn bersonol i'w feddiannau ef ei hun, yn nghyd â chyssegredigrwydd hollol y sefyllfa briodasol, a chadernid annattodadwy y rhwymyn teuluaidd rhwng rhieni a'u plant. Yn unol â hyn, yr ydym yn cael yn y Testament Newydd annogaethau mynych i haelfrydedd, elusengarwch, a chymmwynasgarwch tuag at bob dyn: fe'n cymhellir i wneyd da i bawb, yn enwedig i'r rhai sydd o deulu y ffydd: *Gal.* v. 22; vi. 10. Darfu i Paul, yr hwn ei hunan yn wir a brofasai beth oedd bod yn llawn a bod yn newynog, beth oedd bod mewn helaethrwydd a bod mewn prinder—darfu iddo ef, mewn cydffurfiad âg egwyddorion y Testament Newydd, yn ngwyneb y cyfryw amgylchiadau, fwy nag unwaith dderbyn cyfraniadau gan y dychweledigion cyfoethog oddi wrth baganiaeth yn Antiochia, Macedonia, a Chorinth, er cynnorthwyo y brodyr tlodion a phrofedigaethus yn Iudea; eto, yn mhob amgylchiad, appelio at eu gwirfoddolrwydd a wnaeth: 1 *Cor.* xvi; 2 *Cor.* viii, a ix.

Yn y cyssylltiad hwn, buddiol fyddai sylwi ar yr hyn y gellir ei gasglu oddi wrth y Testament Newydd pa fodd y mae Cristionogaeth yn edrych ar gymdeithas ddynol, a beth a ddysg hi gyda golwg ar ei diwygio a'i phuro. Amlygir tueddfryd y grefydd Gristionogol tuag at ddiwygiad cymdeithasol, a hwnw yn ddiwygiad eang, yn ngwaith yr apostol yn gofalu am wahaniaethu rhwng yr αἰὼν οὗτος (=y byd presennol, y byd sydd yr awr hon) a'r αἰὼν ο μελλων (=y byd sydd eto i ddyfod). Y mae hyn yn ein cyfarfod yn fuan iawn yn ysgrifeniadau boreuaf y Testament Newydd; megys yn yr epistolau at y Thessaloniaid, ac araeth Paul yn Athen, lle y dywed fod gan Iesu Grist allu ac awdurdod fel Barnwr yr holl fyd (οἰκουμένη): *Act.* xvii. 30, 31. Dywedir i athrawiaeth Paul o barth i'r παρουσία (=ei ddyfodiad Ef) achosi cyffroadau chwyldroadol (*Act.* xvii. 7), ac i'r dychweledigion yn Thessalonica, trwy roddi esboniad cnawdol ar y ddysgeidiaeth, gymmeryd eu camarwain ganddi i fyw bywyd segur a diofal. Adnewyddwyd yr un camsyniad drachefn mewn ffurf mwy cnawdol yn ngolygiadau milflwyddol Papias, Justin, Irenæus, ac ereill. Ond y mae y cerydd a weinyddwyd gan Paul ar y Thessaloniaid, yn gystal a'i holl syniad ef ac Ioan am farn y byd hwn, fel peth wedi dechreu eisoes yn yr αἰὼν ουτος, mewn canlyniad i, a thrwy bregethiad yr efengyl (1 *Cor.* iii. 12—15; 2 *Cor.* ii. 16; *Ioan* iii. 17—19; ix. 39, 40)—y mae hyn yn rhoddi i ni fantais i weled pa fodd y mae Cristionogaeth yn edrych ar ddiwygiad cymdeithasol, a pha fodd hefyd y mae yn ei ddwyn oddi amgylch. Y mae y farn a'r dydoliad rhwng dynion a'u gilydd yn dechreu yn awr, yn nhrefn bresennol pethau; ac y mae gwir safle pob un mewn cymdeithas i'w benderfynu wrth yr hyn ydyw ei berthynas neillduol ef ei hun â Phrynwr y byd. Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, nid yw yn cael ei farnu; ond yr hwn sydd heb gredu, y mae y farn arno ef eisoes wedi ei rhoddi, trwy y weithred noeth o anffyddlondeb ac anghrediniaeth; ac mewn effaith y mae wedi ei gau ei hun allan o bob hawl a rhan yn y trefniant newydd y mae ffydd yn ei ddwyn i mewn ac yn ei sefydlu ar y ddaiar.

Mewn cyssylltiad â'r farn hon ar y byd anghrediniol, mae ymddangosiad Crist yn cynnwys ynddo eisoes holl elfenau adnewyddiad cwbl a chyflawn ar gymdeithas. Cyhoedda yr efengyl yn bendant ddarfod creu dyn i ddechreu ar ddelw Duw, ac mai dyma yw gwir urddas ac ardderchogrwydd ei natur ef: dysga hefyd mai yr un yw yr holl hil ddynol, a thrwy hyny milwria yn erbyn a dadymchwela y gau syniad a fyn briodoli uchafiaeth i ryw ddosbarthiadau penodol, yn unig ar gyfrif gwaedoliaeth neu fonedd, teulu neu urdd:—dywed i bawb trwy y cwymp gael eu dwyn i'r un sefyllfa, fod pawb ar yr un tir gyda golwg ar eu prynedigaeth, a'u dygiad drachefn o'r sefyllfa hono; am hyny, fod



Digitized by Google

yr un gostyngeiddrwydd yn gystal a'r un gobaith yn gweddu i bawb fel eu gilydd; ac hefyd, y mae sefydliad teyrnas Dduw yn y byd, ac Iesu Grist yn Arglwydd a Phen arni, mewn ystyr ysbrydol, yn tynu i lawr bob mur o wahaniaeth rhwng teyrnasoedd, cenedloedd, tylwythau, a phersonau, pa fath bynag yw y gwahaniaeth rhyngddynt o ran ymddangosiad allanol: *Gal.* iii. 28; *Eph.* ii. 14, &c. Tra y mae Cristionogaeth yn y modd yma yn ymddyrchafu uwch law pob cyfundrefn grefyddol o amldduwiaeth, gan edrych ar bawb o'r hil ddynol fel un, y mae yr un mor sicr, o'r tu arall, nad ydyw byth yn troseddu deddfau sylfaenol a naturiol y gymdeithas ddynol, trwy ddiddymu dosbarthiadau a gwahaniaethau allanol sydd yn anhebgorol angenrheidiol; ond amcanu y mae hi at gydraddoldeb perffaith mewn ystyr uwch na hyn, yn gorwedd yn Nghrist fel pen cyffredin pawb oll. Y mae yr anghydraddoldeb a ffyna rhwng dynion a'u gilydd yn hanfodi yn rhinwedd trefn o ddwyfol osodiad; heb y graddau gwahaniaethol hyn rhwng y gwahanol aelodau a'u gilydd, byddai yn anmhosibl i'r corff yn y cyfan o hono lwyddo a myned rhagddo. Gwir mai canlyniadau pechod i raddau helaeth yw yr anghyfartalion dan sylw, yn y ffurf bresennol sydd arnynt, a'u bod trwy yr un achos yn cael eu mwyhau, nes bod hyny weithiau yn esgor ar, ac yn arwain i, ymraniadau, ymrysonau, a dideimladrwydd diystyr, a chasineb y naill aelod at ei gyd-ddyn. Ond y mae Cristionogaeth yn tynu ymaith golyn llym pechod o'r gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol, yn symmud i ffordd y drygau hyny y mae eu gwreiddyn a'u ffynnonell mewn hunanoldeb balchder, cybydd-dod, angharedigrwydd, a diogi, tra, ar yr un pryd, y lleinw y galon âg ysbryd cariad, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, llawenydd, a thangnefedd; a thrwy hyny, sancteiddia wahanol berthynasau a sefyllfaoedd bywyd, nes iddynt ddyfod yn gynnifer o foddion manteisiol i wasanaethu Duw, yn ol esampl yr hwn, ac efe yn Arglwydd pawb oll, a ddaeth i wasanaethu ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer; a'r hwn hefyd, er ei fod yn "ogyfuwch â Duw, a'i dibrisiodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe angeu y groes;" *Mat.* xx. 28: *Phil.* ii. 6, &c. Os darfu i Fab y Dyn, neu y Duwddyn, yn mherson gogoneddus yr hwn y cydgyfarfyddai holl ragoriaethau y ddynoliaeth yn eu perffeithrwydd uchaf—os darfu iddo ef wrthod cymmeryd ei wasanaethu, nid oes gan neb is law iddo hawl i'w wasanaethu ei hun yn unig, ond geilw Duw ar bob un i gydwasanaethu â phawb, ac i wasanaethu dros bawb. Trwy gyflawnu teyrnas Dduw yn y byd y mae Cristionogaeth yn bwriadu diwygio cymdeithas. Ond nid ydyw yn gwneyd hyn trwy rym a nerth allanol; eithr gweithio o'r tu mewn y mae—tyfu fel yr hedyn mwstard, ymledu yn ddystaw fel y surdoes, gan dreiddio trwy bob peth o'i chylch, a chyfnewid y cyfan i'w hansawdd ei hunan. Y mae mewn gwirionedd yn deyrnas rhyddid; ond nid rhyddid y cnawd yn ngwasanaeth pechod, ond rhyddid yr ysbryd â'r hwn y rhyddhaodd Crist ni; sef rhyddid plant Duw. Y mae plant Duw yn byw ar fara, fel dynion ereill; ond nid ar fara yn unig, eithr trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw. Addysgir a pherffeithir hwy trwy ddyoddefiadau; ond rhaid i bob peth gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw, ac iddynt hwy y mae cystuddiau y bywyd hwn yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant.

Yn unol â'r golygiad yma, y mae yn hawdd i ni ddeall y rheswm dros ymddygiad Paul; yr hwn, er ei fod yn ddiammheu yn gweled yn eithaf eglur mor anghymmodlawn âg egwyddorion yr efengyl oedd caethwasiaeth; eto, nid yw mewn un man yn cymmeradwyo, llawer llai yn cymhell, diddymiad uniongyrchol y gyfundrefn, ond ymfoddlona ar ddwyn i sylw yr eglwysi yr annogaethau a'r cynghorion tra adnabyddus hyny o'i eiddo i feistriaid a gweision, gan gyfeirio sylw y naill a'r llall at yr un Arglwydd oedd yn gyffredin i bawb o honynt yn y nefoedd, a'r hwn nid oes derbyn wyneb gydag ef: *Eph.* vi. 5—9; *Col.* iii. 22; iv. 1. O ganlyniad, llawer llai y buasid yn dysgwyl i'r apostolion ymosod ar hawl pawb o feddu eiddo personol, pan y mae yr hawl uniawn hono yn cael ei chydnabod a'i hamddiffyn gan ddeddfau Duw a dynion. Nid ydyw yr efengyl yn ymyryd âg anghyfartalion presennol bywyd; ond cymhell ufudd-dod i'r awdurdodau y sydd y mae, er mwyn cydwybod: *Rhuf.* xiii. 1. Eithr geilw ar bob dyn, uchel ac isel, cyfoethog a thlawd, llywodraethwyr a deiliaid, i edifarhau a chredu; a thrwy bregethu edifeirwch a ffydd, sefydla gymundeb cyffredin a chydwastad o blant Duw, y rhai a wnant i fyny ei deyrnas ef yn nghanol y gymdeithas wladol; ac yn yr eglwys, y mae y deyrnas hono wedi ei chorffori mewn ffurf weledig, er yn wir, yr awr hon, mai ffurf anmherffaith i ddarparu ei deiliaid ar gyfer sefyllfa uwch ydyw. Fel ei Harglwydd bendigedig, nid ydyw yr eglwys yn derbyn wyneb neb. Y mae pawb yn gymmaint pechaduriaid a'u gilydd wrth natur, a phawb yr un fath wedi eu galw i fod yn saint. Nid oes gan neb yno hawl i ymddyrchafu goruwch ei frawd. Oddi wrth hyn y gallwn weled mor annhraethol bwysig i fywyd cymdeithasol plant dynion yw yr Eglwys Gristionogol. Yr eglwys yw y fan lle y mae pob un yn dyfod i ymdeimlo ac i fwynhau yr undeb a'r cydraddoldeb gwreiddiol a chyntefig, yn cydfwynhau cariad Duw tuag at bawb; ac y mae caru y brodyr yn ddeddf a gymhellir ar bawb yn wastadol yno. Yn yr eglwys, y mae pob gwahaniaeth yn y gymdeithas wladol, ac hyd yn oed bob gwahaniaeth rhwng tylwythau a chenedloedd, yn cael eu llyncu i fyny mewn undeb ffydd, cariad a chymmwynasgarwch. Nis gall yr eglwys gyflawnu ei neges fawr i gymdeithas ond yn unig i'r graddau y mae yn defnyddio holl allu yr iachawdwriaeth trwy Grist i wrthsefyll pob tueddiadau ac egwyddorion hunan-lesol a chwbl bersonol sydd wrth natur yn perthyn i'w haelodau.

4. Cymrodoliaeth yn y *canoloesoedd.* Nid hir y parhaodd yr Eglwys Gristionogol yn ffyddlawn i egwyddorion pur y Testament Newydd, pa rai yn unig a allasent gyfnewid cymdeithas er gwell. Dychwelodd yn ol, mewn llawer ystyr, at egwyddorion llesg a thlodion y byd, a chyfundrefnau o grefydd yr oedd eu dydd a'u tymmor wedi myned heibio. Nid yn unig fe ddarfu i Ebioniaeth, Gnosticiaeth, a Manicheaeth, adgyfodi Iuddewaeth a phaganiaeth, a rhoddi arnynt enwau Cristionogol, ond ymlygrodd y wir eglwys ei hun trwy yr asceticiaeth gau hwnw oedd wedi ei seilio ar gyfeiliornadau deuolig (*dualistic*) y paganiaid mewn perthynas i natur dyn. Wrth weled yr Ysgrythyrau yn cyferbynu cnawd ac ysbryd, teyrnas Dduw a'r byd hwn, aethant yn fore iawn i gymmysgu hyn âg, a'i gymmeryd am, yr hen syniad paganaidd a deuolig gyda golwg ar wrthwynebiad ysbryd a defnydd, neu fater,

Digitized by Google

gwahaniaethu o ran tueddiadau, oedran, a rhyw, wedi ymnno yn un tylwyth, mewn un adeilad (a elwir *phalanstère*), yn gorchuddio o ddeutu tair milltir ysgwar, ac yn cynnwys o ddeuddeg i ddeunaw cant o deuluoedd, a phob un o honynt yn dilyn y gorchwyl neu yr alwedigaeth fwyaf cydweddol â'i chwaeth ef ei hun, pa un bynag a fyddo ai amaethyddiaeth, masnach, addysg, gwyddor, neu gelfyddyd. Trwy y cyfryw drefniad a hwn, rhaid a fyddai i bob nwydau drwg a throseddau ddiflanu o'r byd; byddai i'r tueddiadau naturiol, yn nghyd â chariad brawdol, gymmeryd lle teimladau hunanol, fel cymhelliadau i weithredoedd; a thrwy i bawb gydymdrech yn unfryd â'u gilydd, fe ddygid llafur i gyflwr mor berffaith fel y darfyddai gofid a thrueni oddi ar y ddaiar. Teimlai Fourier yn gwbl argyhoeddiadol, pe rhoddid prawf ar ei ddamcaniaeth ef, y dangosid ei chyfaddasrwydd i ateb y dybenion mewn golwg tu hwnt i ammheuaeth; ac am hyny, efe a anfonodd allan erfyniad cyhoeddus, yn deisyf miliwn o bunnau i'r pwrpas hwnw. Am ddeuddeng mlynedd, cerddai bob dydd i ryw le penodol, gan obeithio derbyn y swm hwnw gan ryw ddyngarwr, ond yn ofer. Ceisiwyd wedi hyny adeiladu a sefydlu *phalanstère*, ond methwyd o herwydd prinder arian.

Mewn cymdeithasau dirgelaidd, gan mwyaf, yr ymgymmerodd y syniadau cydfeddiannol, a elwir yn briodol felly, â ffurf ymarferol. Pan y darfu i un, Buonarotti, gyhoeddi hanes bradfwriad Baboeuf, yr hwn a grybwyllwyd uchod, y rhoddwyd y symbyliad a'r cymhelliad cyntaf i sefydlu cymdeithasau cydfeddiannol, yn unol âg egwyddorion y Baboeuf hwnw. O dan amrywiol enwau, megys "Cyfeillion y Bobl," "Cymdeithas i ofalu am Iawnderau Dynion," "Y Tymmorau," &c.—mewn areithiau, ac ar ddalenau cyfnodolion, pregethent ac amddiffynent gydfeddiannaeth arw ei gwedd ac annymunol ei nodweddau. Cyhoeddent mai defnyddiaeth (*materialism*) yw deddf uchaf natur; mynent ddifodi eiddo a meddiannau personol, fel y cyfryw, a diddymu y teulu a'r cyfammod priodasol fel pethau oedd yn cyfansoddi y rhwystrau mwyaf ar ffordd cydraddoldeb diammodol pawb fel brodyr; bygythient ddwyn dinystr am ben sefydliadau gwareiddiedig, a'r dinasoedd a'u cynnalient i fyny, ac addawent berffeithio dedwyddwch cymdeithas, trwy wneyd pawb oll o'r un graddau, yn gyfranog o bob llafur, ac o bob mwynhâd. Er dwyn hyn oddi amgylch, annogai blaenoriaid y cymdeithasau hyn y cyflawniad o'r gweithredoedd mwyaf drygionus a gwaedlyd. Ond fe ddarfu i wrthuni anfad y cyfryw athrawiaethau a hyn beri i'r aelodau mwyaf cymmedrol ymddyeithro a chilio draw, yr hyn a ddybenodd mewn ymraniad i ddwy blaid; sef y Diwygwyr a dilynwyr Baboeuf.

O fysg y blaid ganol, gymmedrol, neu y Diwygwyr, y cododd Cabet, sylfaenydd y gydfeddiannaeth Icariaidd, egwyddorion pa un a eglurhawyd ac a amddiffynwyd ganddo mewn cyfansoddiad y darllenwyd llawer arno, a'r hwn a ddygai yr enw o *Daith i Icaria* [*Utopia*]. Amcanai yntau hefyd at ddwyn oddi amgylch a sefydlu cydraddoldeb gwladwriaethol perffaith, yn nghyd â chydfeddiannaeth eiddo; ond ni fwriai ymaith briodas, a mynai gadw i fyny y sefydliad teuluaidd; cydnabyddai hanfodiad un Bod Goruchel, ac ymwrthodai â phob moddion gorthrechol er dwyn oddi amgylch ei ddiwygiadau cymdeithasol. Cafodd luaws o edmygwyr, a chyda hyny lawer o wrthwynebwyr yn mysg y Cydfeddiannwyr. Ymosodwyd ar ei Ddeistiaeth dlodaidd ef gan Atheist o'r enw Dezamy.

Gwedd arall ar gydfeddiannaeth yw cyfundrefn beryglus y dyn cyfrwysgall hwnw, Proudhon, yr hwn a gymmerodd ran mor arbenig yn chwyldroad Ffrainc, yn y flwyddyn 1848. Ymosodai ef ar feddiannau a chyfoeth fel pethau yn rhoddi mantais anghyfiawn i'r cryf ar y gwan; ond yr oedd Proudhon yr un mor wrthwynebus i gydfeddiannaeth cyffredinol a diammodol hefyd, am yr ystyriai y byddai hyny drachefn yn rhoddi i'r gwan fantais anghyfiawn ar y cryf. Yr hyn a ddymunai ef oedd, fod i swm meddiannau pawb fod yn cyfateb i swm ei lafur a maint ei deilyngdod.

Ceisiai pleidwyr amryw o'r cyfundrefnau hyn ddangos fod Cristionogaeth yn ffafriol i'w hegwyddorion, trwy haeru yn gamsyniol mai yr un oedd hi ag Esseniaeth; ac er mwyn profi hyny, appelient at *Act.* ii. 42; *Luc* xviii. 22. Dygai Proudhon hefyd ddammeg y gŵr o berchen tŷ (*Mat.* xx. 1—16), yr hwn a roddodd i bob llafurwr geiniog, heb ystyried pa faint o amser y bu y cyfryw un yn gweithio yn y winllan. Fe ddarfu i un Lamennais hyd yn oed fyned mor bell a cheisio rhoddi esboniad unol âg egwyddorion democratiaeth gymrodorol ar bob rhan o'r Testament Newydd. Ond y mae anghyssondeb pob un o'r cyfundrefnau hyn yn eglur ar unwaith oddi wrth y ffaith eu bod yn gwneyd hapusrwydd anianol ar y ddaiar yn amcan eithaf bywyd dyn, ac yn cwbl ddibrisio yr egwyddor bwysig a ddysgodd ein Gwaredwr (*Mat.* iv. 4), pan y dywedodd nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw. Cyfyd eu cymhelliadau hwy oddi ar genfigen, eiddigedd, a thrachwant. Gwadant lygredd a gwendid y natur ddynol. Cyrchant at y fath ryddid a chydraddoldeb ag a fyddai mewn gwirionedd yn rhwym o arwain i ddiddymiad hollol ar ryddid dyn, ac i'r caethiwed truenusaf ac anhawddaf ei ddwyn.

Ennillodd Cymrodoliaeth a Chydfeddiannaeth Ffrainc broselytiaid mewn gwledydd ereill, er nad i'r un graddau o lawer ag yn Ffrainc ei hun. Bu poblogaeth luosog y llaw-weithfeydd yn Belgium lawer gwaith yn bygwth ymgodi mewn gwrthryfel, a pheri chwyldroad cymdeithasol; ond ni ddarfu iddynt erioed eto, hyd yn oed yn eu gwrthwynebiad mwyaf i'r offeiriaid Pabaidd, fyned mor bell ag Atheistiaeth hollol, fel lluaws o'r cydfeddiannwyr Ffrengig.

Llawer a ddywedwyd, ac nid yn hollol anmhriodol, am yr anghyfartaledd mawr sydd rhwng cyfoeth a thlodi yn Lloegr. Dadleua lluaws o ddynion da iawn—ac y mae eu rhesymau yn gyfryw ag nas gellir eu gwrthbrofi—fod yr hawliau, y breintiau, y dylanwad, a'r awdurdod, a'r manteision o bob natur, sydd yn nwylaw y bendefigaeth a pherchenogion tiroedd, mor fawr, mewn cymhariaeth i'r hyn a fwynheir gan y dosbarthiadau ereill, fel y mae cyfiawnder a thegwch gwladwriaethol yn gofyn ar fod iddynt gael i raddau eu cydraddoli a'u gwastattau. Y mae teimlad o'r peth hwn a'i gyffelyb rai gweithiau wedi arwain dynion anmhwyllog i ymderfysgu, a chodi cyffro yn mhlith ereill i symmud y tramgwydd trwy orthrech a thrais. Hyn oedd achos yr ymweithiad a'r ymdoriad yn mhlith y dosbarthiadau isaf, dan arweiniad y penboethiaid John Nichols a William Courtenay, yn y flwyddyn 1838; hefyd yn 1843, yn Nghymru, yn mhlith

Digitized by Google

y rhai a elwid teulu Rebecca. Yr oedd y terfysgwyr a adnabyddir wrth yr enw hwn yn amcanu at rywbeth pellach na difodiad telerau a ystyrid ganddynt yn ormesol; ac yn enwedig amrywiol gynhyrfiadau y Breintleniaid (*Chartists*). Er fod llawer ag y mae y Breintleniaid yn ei hawlio yn cyfateb i ofynion y Cymrodoliaid, eto ychydig ac anaml a fu nifer amddiffynwyr Cymrodoliaeth yn y wlad hon.

Yr enwocaf o honynt oedd Robert Owen, y llaw-weithyddwr cyfoethog a fu farw yn ddiweddar mewn henaint teg yn y Drefnewydd. Darfu iddo yn gyntaf wellhau sefyllfa a chyflwr ei weithwyr ei hunan, a hyny trwy draul fawr ac amlygiad mwy na chyffredin o ddyngarwch. Wedi hyny, gwnaeth ymdrech i symmud ymaith drueni y dosbarthiadau gweithiol yn gyffredinol, trwy ddiwygio a chyfnewid wyneb cyflwr cymdeithas yn eu plith. Tra y llafuriodd er cyrhaedd hyn, trwy ddyrchafu y dosbarthiadau isaf, a sefydlu ysgolion i dlodion, plant amddifad, a chrwydriaid, derbyniodd gymmeradwyaeth a chydymdeimlad pobl Lloegr. Ond mor fuan ag y dechreuodd ymosod ar y grefydd Gristionogol, ar y cyfammod priodasol, ac ar y teulu, gan haeru mai geudeb oedd y nefoedd, ac mai dyben eithaf bywyd dyn oedd y byd presennol, parai synwyr cyffredin y lluaws o drigolion y deyrnas hon iddynt gilio mewn braw oddi wrtho, ac fe gollodd ei ddamcaniaeth bob awdurdod a dylanwad, hyd yn oed cyn i'r ymgais a wnaeth i sefydlu trefedigaeth gydfeddiannol yn nhalaeth Indiana droi allan yn fethiant hollol. Nid yw yn rhyfedd na chafodd gaudybiau cydfeddiannol a chymrodorol y Cyfandir erioed nemawr dderbyniad gyda, nac ond ychydig effaith arnom, ni yn Mhrydain; o herwydd y mae Lloegr yn y cyffredin wedi ei bendithio â lluaws mawr o ddyngarwyr ac o wladweinyddion annibynol a rhydd, â chanddynt gyflawnder o yni a doethineb ymarferol, parch dwfn i Gristionogaeth, yn caru y gyfraith ac yn caru trefn, ac yn gwybod pa fodd i gydredeg â chynnydd yr oes, trwy ddiwygiad seneddol, a gwelliant graddol yn y peiriant gwladwriaethol, a hyny heb groesi deddfau y cyfansoddiad, yr hyn sydd bob amser yn peri mai y gwallgofrwydd mwyaf diesgus fyddai arfer moddion gorthrechol er sicrhau unrhyw ddiwygiadau rhesymol yn y wlad hon. Er y cedwir y genedl yn fynych am hir o amser i ddysgwyl am danynt, eto, eu rhoddi a wneir yn y diwedd—yn ddigon buan, pa fodd bynag, er attal pob rhyw gynhwrf a therfysg a allai arwain i ganlyniadau dinystriol. Yr ydym yn cydnabod, ar yr un pryd, fod pob arwyddion y dyddiau hyn fod mawrion y wlad yn deffro i ystyried cyflwr y werin. Yn Lloegr, pa fodd bynag, y mae llawer o honynt fel yn dechreu ymdeimlo â'u dyledswyddau, ac yn ymddwyn yn debyg i ddynion a fyddai wedi eu hargyhoeddi o bwysigrwydd eu sefyllfa, a bod i gyfoeth ac uchafiaeth eu cyfrifoldeb, yn gystal a'u rhagorfreintiau. Yn mhlith y profion o hyn, gellir nodi sefydliad diweddar Cymdeithas Gwyddoniaeth Gymdeithasol (=*Social Science*).

Yr oedd anffyddiaeth, rhesymoliaeth, a chelllywodraeth (*bureaucracy*) ormesol yr Almaen wedi parotoi y tir i'r fath raddau, fel y cafodd y syniadau cydfeddiannol lawer gwell derbyniad yno nag mewn lluaws o fanau ereill. Ond nid yw cydfeddiannaeth yr Almaen yn ddim amgen na gwedd arall ar y cyfundrefnau a ffynent yn Ffrainc; ac nid aeth ei phleidwyr yn y gyntaf o'r ddwy wlad uchod yn ddim pellach na'r ddamcaniaeth noeth; ni bu yno ymgais ymarferol i roddi yr egwyddor mewn gweithrediad. Nodweddau amlycaf a mwyaf arbenig cydfeddiannaeth yr Almaen yw, ei gelyniaeth chwerw at y grefydd Gristionogol a'i holl sefydliadau, yn nghyd â choleddiad yr athrawiaeth warthus o "adsefydliad y cnawd;" *h. y.*, y cnawdolrwydd mwyaf anfad, yn nghyd âg amddifadrwydd o bob cydymdeimlad didwyll ac ymarferol â'r dosbarthiadau amddifaid ac angenus. Dyma y wedd a geir arni yn marddoniaeth Heine, Gutzkow, Mundt, &c., ac yn athroniaeth Strauss, Feuerbach, Bruno Bauer, &c. Yr un pryd, ymledodd y cydfeddiannaeth anffyddol a gwrth-Gristionogol yma i blith lluaws mawr o grefftwyr a gweithwyr yr Almaen, y rhai a'i dygasant o Ffrainc a Switzerland. Ffurfiwyd cymdeithasau; a'r hyn a ganlyn a gymmerwyd o'u cynllun neu eu rhaghysbysiad (*prospectus*):—"Yn yr Almaen Newydd, fe ymddygir at grefydd fel peth yn perthyn i hanesiaeth yr amser a aeth heibio yn unig, fel na bydd yno nac offeiriaid, nac eglwysydd, nac addoliad." "Yn gymmaint a bod yr Almaen Newydd yn dymuno na boed dim personau annedwydd yn mysg ei haelodau, gall y rhai hyny sydd wedi priodi, ond nad yw eu tymmerau yn cyfateb ac yn cydgordio â'u gilydd, ddattod eu cyssylltiad y pryd y mynant."

Yn Ffrainc, ar ol chwyldroad Chwefror, 1848, y cymmerodd y symmudiad cymrodorol diweddaf le. Gwaith y werin bobl neu y dosbarthiadau gweithiol oedd hwn yn benaf; ac am hyny, yr oedd y werinlywodraeth yn rhwym o'u cefnogi a gwellhau eu cyflwr a'u sefyllfa. Rhoddwyd awdurdod i Louis Blanc i drefnu llafurwaith i'r bobl yn unol â'r ddamcaniaeth gymrodorol. Adeiladwyd gweithdai gwladol i'r holl genedl, a gwariwyd dwy filiwn o *ffrancs* bob dydd tuag at gynnal a chadw y llafurwyr tlodion. Chwanegid fel hyn at y ddyled wladol, a lluosogai cardotwyr yn ddirfawr. Hawdd ydoedd gweled y byddai i'r trefniant yma ddinystrio y llywodraeth, a gwneuthur yn ddifudd bob elfen ddaionus a ddygasai gwareiddiad i mewn. O ganlyniad, pan yr ymgynnullodd y Gymmanfa Genedlaethol, yn mis Mai, 1848, gorchymynwyd cau y gweithdai cenedlaethol, ac attaliwyd yr arian a neillduid er eu cynnal. Yn mis Mehefin, torodd y gwrthryfel gwerinaidd (*proletarian*) allan, yn cael ei ddirgel gefnogi gan y Bonapartiaid a'r Bourboniaid, ac am ychydig ddyddiau llanwyd Paris â'r golygfeydd mwyaf erchyll a gwaedlyd. Llofruddiwyd y cadfridog Bréa; saethwyd yr archesgob Affre, tra yn dwyn cenadwri o hedd; ac nid heb i afonydd o waed gael eu tywallt y llwyddodd y Cadfridog Cavaignac i adferu heddwch i Ffrainc.

Ar ol hyny, ni anturiodd cymrodoliaeth a chydfeddiannaeth i'r maes yn gyhoeddus, yn Ffrainc nac mewn un wlad arall. Ond y mae marwor tanllyd dygasedd y dosbarthiadau isaf tuag at yr uchaf eto yn cynneu dan y lludw Nid yw llywodraethau cyfandir Ewrop, ysywaeth, yn gweled yn gywir beth yw yr achos o'r drwg, nac yn canfod gymmaint o'r euogrwydd sydd yn gorphwys arnynt hwy eu hunain; ac nid oes eto chwaith yn yr eglwys ddigon o ffydd, gweithgarwch, a chariad, yr hyn bethau yn unig sydd â gallu ganddynt i wella sefyllfa cymdeithas, ac achub, nid yn unig y corff, ond yr enaid anfarwol hefyd.—(*Herzog's Real Encyclopædia.*)

Digitized by Google

CYMRU. Un o'r penrhynoedd sy'n taflu allan i'r môr o ochr orllewinol Pryden ydyw Cymru—y penrhyn agosaf i'r de, ond un. Pentwr o fynyddoedd ydyw, gyda môr neu wastadedd o'u hamgylch. Ar y gogledd a'r gorllewin, y mae Môr yr Iwerddon, ar y de y mae Sianel Bristol, ac ar y dwyrain y mae gwastadedd Lloegr. Hawdd gweled oddi wrth ei safle a'i ffurf fod i Gymru ei hanes priodol ei hun.

Trwy holl gyfnodau ei hanes, y mae mynyddoedd Cymru wedi aros yr un; a chyda darlun o honynt hwy o flaen y meddwl y medrir deall yr hanes hwnnw 'n iawn. Gellir rhannu 'r mynyddoedd yn bedwar teulu—teulu 'r Wyddfa, teulu'r Aran, teulu Plunlumon, a theulu Bannau Brycheiniog. Yn y Gogledd, yn uchaf un, ymgyfyd y Wyddfa, ynghanol mynyddoedd Eryri—cadwen o fynyddoedd o lechau a gwenithfaen redant o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, o ddyffryn Conwy hyd lan y môr i benrhyn Lleyn. Wrth eu traed, ar y gogledd, gorwedd ynys Môn. Yn nes i'r de ymgyfyd yr Aran, yng nghanol mynyddoedd Berwyn:—cadwen o fynyddoedd red yn gyfochrog â mynyddoedd Eryri, o Fau Ceredigion ar y gorllewin, hyd Fôr yr Iwerddon ar y gogledd. O'r Aran rhed y gadwen i'r de-orllewin i ddyffryn y Dyfi; weithiau 'n gostwng, megys ym Mwlch Oerddrws; weithiau'n codi, megys yng Nghader Idris. I'r gogledd-ddwyrain, rhed yn wahanol gadwyni i Fôr y Gogledd. Nid ydyw'r holl gadwen hon o'r un defnydd. Yn y de-orllewin, llech yw'r mynyddoedd, fel mynyddoedd Arfon; ond y tu hwnt i Ddyffryn Clwyd, carreg galch ydyw eu defnydd. Yn nes i'r de etto, ymgyfyd Plumlumon, o ganol cadwen arall o fynyddoedd redant yn gyfochrog âg Eryri a'r Berwyn, o Benfro hyd gyffiniau Lloegr. Nid yw y rhai'n mor uchel a dwy gadwen y gogledd. Carreg galch, nid llech, yw eu defnydd; a thrumau hirion yn ymledu'n rhosdiroedd ydynt:—nid pentyrau o greigiau. Y tu ol i deulu Plunlumon, saif un teulu arall i'r de-ddwyrain—y Mynydd Du, cadwen o fynyddoedd carreg galch redant o ddyffryn yr Wysg hyd ddyffryn y Tywi. Nid yw gorweddiad y rhai'n yr un a gorweddiad y tair cadwen eraill. Ymestyn cadwen y Mynydd Du o ddwyrain i orllewin, y mae eu disgyniad tua'r môr yn fwy graddol, ac y mae broydd gwastad Gwent a Morgannwg rhyngddynt a Sianel Bristol.

O'r mynyddoedd rhed afonydd i'r môr sy'n amgylchu Cymru ar y gogledd, y gorllewin, a'r de; ac i'r gwastadedd sy'n gorwedd i'r dwyrain. I'r gogledd rhed y Ddyfrdwy, y Glwyd, a'r Conwy; i'r gorllewin rhed y Ddyfi, yr Ystwyth, a'r Deifi; i'r de rhed y Dowi, y Dawe, y Nedd, yr Wysg, a'r Wy; i'r dwyrain rhed yr aml fân aberoedd i'r Hafren—yr afon sy'n rhedeg tua'r de hyd finion gwastadedd Lloegr, gyda godreu'r mynyddoedd.

Tua'r flwyddyn 613, yr oedd ymron yr oll o wastadedd Pryden, hyd at fynyddoedd y gorllewin, wedi ei feddiannu gan dylwythau Teutonaidd o'r Cyfandir, a Chymru wedi ei gwahanu oddi wrth y rhannau mynyddig eraill a feddiennid gan Frutaniaid. Cyn hyn, nid oedd Cymru ond rhan o Bryden, heb hanes ar wahân. Fel y rhannau eraill o Bryden, yr oedd ei llwythau, Brythonig a Gwyddelig, wedi eu darostwng gan y Rhufeiniaid. Dywed Tacitus, yr hanesydd Lladinaidd, fel y gorchfygwyd Caradog a'r Silures rhyfelgar, pengrych, pryd tywyll, breswylient Went a Morgannwg, gan Orosius, tua'r flwyddyn 50; ac edrydd yr un hanesydd fel y gorchfygodd ei dad yng nghyfraith Agricola—gŵr feddai fawredd, gallu, a thosturi — dylwythau 'r Aran ac Eryri, yr Ordovices aflonydd yn bennaf, hyn yn ynys Môn. O ddyfodiad Agricola, yn 78, hyd ymadawiad y Rhufeiniaid yn 410, bu Pryden dan lywodraeth Rhufen, a than ddylanwad ei gwareiddiad. Gwnawd ffyrdd—a gellir gweled eu holion eto hyd fynyddoedd Cymru—i'r llengoedd gerdded ar hyddynt. Cododd trefi yma ac acw oddi amgylch y gwersylloedd Rhufeinig; megys Caer Lleon, yn nyffryn y Ddyfrdwy, a Chaer Lleon arddderchog dyffryn yr Wysg. Adeiladwyd tai cysurus ar lethr heulog llawer bryn; darganfyddwyd mŵnau'r wlad—copr Môn, aur Meirionnydd, haiarn a glô dyffryn yr Wy. Daeth Pryden yn enwog, hefyd, am ei chynnyrch amaethyddol—ŷd, gwartheg, a defaid. A rhyw dro yn ystod y cyfnod Rhufeinig hwn, daeth Pryden yn wlad Gristionogol, yn ogystal ag yn wlad Rufeinig; ond ni wyddys i sicrwydd pa fodd y pregethwyd efengyl Crist iddi. Ymhell cyn 410, yr oedd y Rhufeiniaid yn gorfod amddiffyn eu hymerodraeth ëang—yn lle gorchfygu gwledydd newyddion, fel cynt, yn erbyn y tylwythau anwaraidd oedd yn ymsymud tua'r de a'r gorllewin o wastadeddau coediog gogledd a dwyreinbarth Ewrob. Ymosodid ar Bryden, hefyd, gan Bictiaid y gogledd, a chan y tylwythau Teutonaidd—Saeson, Eingl, Jutiaid—groesent y môr o'r Cyfandir. Er amddiffyniad rhag y rhai hyn, yr oedd Pryden, erbyn 410, yn ddwy dalaeth:—y rhan ddwyreiniol, wastad, dan y *Comes Litoris Saxonici*, yr hwn amddiffynai draethell ddwyreiniol yr ynys rhag y Saeson a'r Eingl ddeuent o'r Cyfandir; a'r rhan orllewinol, fynyddig, dan y *Dux Britanniarum*, yr hwn a amddiffynnai draethell y gorllewin a therfynau'r gogledd rhag y Pictiaid a'r Ysgotiaid a ddeuent o'r Alban a'r Iwerddon.

Yn 410, ymadawodd y Rhufeiniaid; a gadawyd y ddwy dalaeth i amddiffyn eu hunain goreu gallent, dan lywyddiaeth eu Gwledig. Rhwng 450 a 600, ymdaenodd y Saeson a'r Eingl dros y dalaeth ddwyreiniol i gyd, a daeth yr holl wastadedd yn eiddo iddynt. Yna, dechreuasant ymosod ar y dalaeth orllewinol. Yn 577, daeth Ceawlin, brenin y West Saxons, i ddyffryn yr Hafren, enillodd frwydr Deorham, ac estynnodd derfynau'r Saeson hyd at lan y môr y rhed yr Hafren iddo. Felly, gwahanwyd Cernyw a Chymru oddi wrth eu gilydd. Ceisiodd Ceawlin feddiannu holl ddyffryn yr Hafren; ond ym mrwydr Fethanlea, yn 584, gorchfygwyd ef, a chiliodd yn ol. Ond daeth gelyn o gyfeiriad arall—o'r gogledd—cyn hir. Yn 613, daeth Aethelfrith, brenin Saeson y gogledd; gorchfygodd y Cymry ym mrwydr Caer, ac estynnodd derfynau'r Saeson hyd at lan y môr y rhed y Ddyfrdwy iddo. Felly, gwahanwyd Cymru ac Ystrad Clwyd oddi wrth eu gilydd.

Felly, cawn dair gwlad Geltaidd ar gyfer tair gwlad Deutonaidd—Ystrad Clwyd, ar gyfer Northumbria; Cymru, ar gyfer Mercia; a Chernyw ar gyfer Wessex. Ac amgylchynnid Cymru, erbyn hyn, gan y môr i dri chyfeiriad, a chan wastadedd llawn o Saeson i'r cyfeiriad arall.

D. S.—Yn ol dymuniad awdwr yr erthygl hon, y mae hi yn ymddangos yn ei orgraph ef, fel yr ymddengys yr erthyglau 'Cymraeg' a 'Chymry' yn orgraph eu hysgrifenydd hwythau.—GOL.

Digitized by Google

Gellir rhannu hanes Cymru'n bedwar cyfnod; a medd pob cyfnod ei fuddugoliaethau a'i drallodion, ei arwyr a'i lenorion, ei ddirywiad neu ei ddadblygiad. Fel y cadwyni mynyddoedd, y mae'r cyfnodau'n toddi i'w gilydd. Y mae'n anodd dweyd i'r flwyddyn ym mha le diwedda'r naill gyfnod, ac ym mha le dechreua'r llall; eto y mae y cyfnodau mor wahanol i'w gilydd ag ydyw'r Wyddfa, yr Aran, Plunlumon, a'r Mynydd Du.

I. Cyfnod y Tywysogion .. 613—1284.
II. Cyfnod y Gorthrwm ... 1284—1536.
III. Cyfnod y Dadfeiliad ... 1536—1730.
IV. Cyfnod y Deffro ..o 1730 ymlaen.

I. Cyfnod y Tywysogion. 613—1284.

Os ydyw daearyddiaeth yn dangos y byddai Cymru ar wahân i Loegr, dengys hefyd mai gwaith anodd fyddai ei huno'n un wlad. Rhennir hi gan ei mynyddoedd. Ymestyn *Gwynedd* dros fynyddoedd Eryri a llethrau gorllewinol y Berwyn. *Powys* y gelwid llethrau dwyreiniol y Berwyn a Phlunlumon. Gorffwys *Ceredigion* yng nghesail mynyddoedd Plunlumon, ar du'r môr. Ymestyn *Dyfed* i'r môr:—ar un ochr yn unig y mae'n un â Chymru. Gorwedd *Morgannwg* ar draethell y de, gyda'r Mynydd Du rhyngddi â'r gweddill o Gymru. Rhennir y taleithau hyn drachefn gan fynyddoedd ac afonydd yn rhannau llai—yn gantrefi, ac yn gymydau. Hawdd ydyw rhannu Cymru. Y mae rhyw dywysog yn ei rhannu o hyd. Ond anodd oedd ei huno. Er hynny, yr oedd dymuniad am ymuno ymysg y Cymry: gadawodd y Rhufeiniaid awydd am undeb ar eu holau, ac nid ymadawodd yr awydd hwn byth o Gymru. Y mae Cadwaladr yn ceisio cadw undeb y deyrnas. Clodforir dau fab Gruffydd ap Cynan yn y ddeuddegfed ganrif o herwydd eu bod 'yn kyt gynhal yn un holl deyrnas y brytanyeit.' Yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg, cedwid coron Arthur yng Nghaernarfon. Yn y bymthegfed ganrif, y mae Owen Glyn Dwr yn codi'r ddraig goch. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, y mae'r Tuduriaid yn olrhain eu hachau i dywysogion holl Gymru. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae gan Gymru ei llenyddiaeth genhedlaethol, a'i sefydliadau cenhedlaethol.

O 613 i 1282, yr oedd anibyniaeth gynhennid y mynyddwyr yn rhwystr ar ffordd cadernid ac undeb eu gwlad. O'r ochr arall, tueddai traddodiadau Rhufeinig, ac ymosodiadau'r Saeson, hwy i ymuno dan ryw dywysog fyddai'n ddigon cryf i amddiffyn ac i lywodraethu'r lleill. Gellir rhannu'r cyfnod yn dair rhan:—

1. Ymdrech yn erbyn brenhinoedd y Saeson ... ... 613—1063
2. Ymdrech yn erbyn yr arglwyddi Normanaidd ... 1063—1154
3. Ymdrech yn erbyn brenhinoedd Lloegr ... ... 1154—1284

1. *Yr ymdrech yn erbyn brenhinoedd y Saeson*:—613—1063. Erbyn 613, yr oedd Lloegr wedi ei rhannu rhwng brenhinoedd Northumbria, Mercia, a Wessex; ac yn ebrwydd, dechreuasant gydymgais am unbennaeth yr ynys. Rhwng Northumbria a Mercia y bu'r ymdrech gyntaf; ac ymunodd Cadwallon â Phenda, brenin Mercia, yn erbyn Eadwine, brenin Northumbria. Yr oedd Northumbria'n wan, o herwydd fod ei brenin yn Gristion, a'i bobl heb gwbl dderbyn yr efengyl newydd gan y cenhadon Gwyddelig a'i pregethent iddynt; tra'r oedd Penda a'i bobl yn credu yn hen baganiaeth eu cyndadau. Ym mrwydr Heathfield, yn 633, gorchfygodd Caswallon Eadwine, gan adennill unbennaeth yr ynys; ond dwy flynedd wed'yn, gorchfygwyd yntau gan Oswald, olynydd Eadwine. Wedi marw Caswallon, ymunodd ei ŵyr, Cadwaladr, brenin Cristionogol Gwynedd, â Phenda, hen frenin paganaidd Mers, yn erbyn Northumbria; ond gorchfygwyd Penda ym mrwydr Wingfield, yn 655; a diflannodd gobaith y Cymry am adennill unbennaeth Pryden. "Ac o hyny allan y colles y brytanyeit goron y teyrnas, ac ydd ennillawdd y Saeson hi."

O farw Cadwaladr (tua'r fl. 660) hyd amser Rhodri Mawr (843—877), nid oedd ond mân dywysogion yng Nghymru—pob un yn ymladd ei frwydrau ei hun yn erbyn ei gymydogion, ac yn erbyn y Saeson. Gyda dechreu'r wythfed ganrif, gwanhaodd Northumbria; a thrwy'r ganrif, bu Mercia'n brif frenhiniaeth Lloegr. O'r tri brenin fu arni, Offa (716—757) oedd yr enwocaf. Enillodd y wlad rhwng Hafren a Gwy oddi ar y Cymry; a dywedir mai efe a wnaeth y clawdd sy'n rhedeg hyd ororau Cymru o enau'r Ddyfrdwy hyd Gaer Dydd. Gyda dechreu'r nawfed ganrif, gwanhaodd Mercia, a chymerodd Wessex ei lle fel prif frenhiniaeth Lloegr. Yr oedd Egbert, brenin Wessex, wedi penderfynu dynwared Siarl Fawr, trwy ddwyn Pryden oll dan ei frenhiniaeth ei hun. Wedi meddiannu Lloegr a Chernyw, goresgynnodd Gymru, yn 828, gan arwain ei fyddinoedd hyd Dyddewi yn y de, a hyd fynyddoedd Eryri ac ynys Môn yn y gogledd. Cyn iddo fedru gorffen ei waith trwy oresgyn Ystrad Clwyd, daeth y Daniaid i ymosod ar Bryden, a gorfod i Egbert a'i fab, Ethelwulf a'i wyrion, Ethelbold, Ethelbert, Ethelred, ac Alfred, dreulio'r gweddill o'r nawfed ganrif mewn ymladdfeydd cyson â'r gelynion newydd hyn—'y paganyeit,' 'y kenedloedd duon,' fel y geilw'r croniclwyr hwynt. Tra'r oedd Wessex ar ei heithaf yn gwrthsefyll ymosodiadau afrifed y Daniaid, medrodd Rhodri Mawr uno Cymru yn erbyn y Daniaid a'r Saeson; ond ymrannodd y wlad wedi ei farw ef mewn brwydr yn erbyn y Saeson yn 877. O hyn hyd 1015, ceir cyfnod arall o anrhefn:—tywysogion yn ymladd â'u gilydd; y cenhedloedd duon yn glanio beunydd yn rhyw le, ac yn diffeithio, er gwaethaf ympryd a gweddi, a brwydr a theyrnged; a'r Saeson hwythau'n ceisio goresgyn y wlad pan adawai'r Daniaid ychydig o lonydd iddynt. Yng Nghymru, 'n ogystal ag yn Lloegr, bu llawer o ddeddfu a chasglu deddfau yn ystod y tymor adfydus hwn. Casglodd Hywel Dda (907—948), brenin Dyfed, lawer o'r cyfreithiau elwir ar ei enw.

Yn 1015, dechreuodd Llywelyn ab Seisyllt deyrnasu:—gŵr hoff o heddwch, a chadarn mewn rhyfel. Medrodd ei fab, Gruffydd ab Llywelyn, uno holl Gymru. Yn ei amser ef, yr oedd Harold yn ceisio uno Lloegr, a'i dwyn dan awdurdod ei deulu: ymgyfamododd Gruffydd gydag Aelfgar, iarll Mercia, ac enillodd frwydrau pwysig yn erbyn y Saeson. Ond yn 1063, medrodd Harold arwain byddin i Gymru, a lladdwyd Gruffydd ab Llywelyn, 'penn, a tharyan, ac amddiffynwr y brytanyeit,' drwy dwyll ei ŵyr ei hun. Rhoddodd Harold frenhiniaeth Gwynedd a Phowys i Fleddyn a Rhiwallon, a brenhiniaeth y deheubarth i Feredydd ap Owen, er mwyn gwanychu'r wlad drwy ei rhannu: a

Digitized by Google

gwnaeth y wlad rhwng yr Wy a'r Wysg yn rhan o Loegr. Yn 1066, collodd Harold yntau ei goron, wedi ei orchfygu gan Wilym, duc Normandi. Ac wedi hyn, yn lle ymladd yn erbyn brenhinoedd Seisnig a fynnent oresgyn eu gwlad, y mae'r Cymry'n ymladd yn erbyn arglwyddi Normanaidd a fynnent feddiannu'r wlad.

2. *Yr ymdrech yn erbyn yr arglwyddi Normanaidd:*—1063—1157. Amcan Gwilym Orchfygwr oedd darostwng pob gallu ym Mhryden a Normandi i'w allu ei hun. Gwelodd mai gwaith anodd fyddai cadw llywodraeth ar y barwniaid digyfraith a'i dilynasent i Loegr; a gwelodd mai peth anodd hefyd fyddai cadw llywodraeth ar Gymru. Felly, gosododd y barwniaid mwyaf cwerylgar a diflaith yn rhes hyd ororau Cymru —o Ddyffryn Clwyd hyd Ddyfed—fel y byddent hwy a'r Cymry'n atalfa ar eu gilydd. Oddi ar fur Caer, gallai'r Iarll Huw weled bryniau Fflint, fel y gallasai weled bryniau Llydaw o Avranches, ei gartref yn Normandi. O Ruddlan, gormesai Rhobert—gŵr creulon, nwydwyllt—Ddyffryn Clwyd. Yn yr Amwythig, cartrefodd Rhobert arall, o deulu melldigedig Belesme; a goresgynnodd rannau gogleddol Powys, tra cymerodd ei frawd, Arnulf, feddiant o Geredigion a Dyfed. Daeth Brycheiniog yn eiddo i Fernard Neufmarchè. Goresgynnodd Fitz Hamon wastadedd Morgannwg. Daeth Gwyr, Cydweli, Ystrad Tywi, a lleoedd eraill, yn eiddo i'r Normaniaid heidient i Gymru. Nid i'r brenin y gorchfygai arglwyddi'r Goror y wlad—ond iddynt eu hunain. Yr oedd pob un o honynt dan warogaeth i'r brenin; ond yn ei arglwyddiaeth yr oedd pob un yn frenin bach ei hun—yn meddu ei lys cyfraith, ei fyddin, ei gyllid, a'i is-arglwyddi. Tra'r oedd cestyll Normanaidd yn codi hyd y gororau—Rhuddlan, Maldwyn, Maesyfed, Brycheiniog, Caer Dydd, Penfro—yr oedd y tywysogion Cymreig yn ymladd â'u gilydd, gan adael eu gwlad at drugaredd y goresgynwyr. Ond ym mrwydr Carno, yn 1081, gorchfygwyd eu cydymgeiswyr gan Rys ap Tewdwr, tywysog y Deheubarth, a Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd. O 1081 hyd 1137, teyrnasodd Gruffydd ab Cynan yng Ngwynedd, a Rhys ab Tewdwr a'i fab, Gruffydd ab Rhys, yn Neheubarth. Er i Ruffydd ab Cynan orfod myn'd ar ffo i'r Iwerddon un tro, ac er bod yng ngharchar Castell Caer dro arall, ac er lladd Rhys ab Tewdwr gan Normaniaid Brycheiniog yn 1093, rhoddwyd atalfa ar y goresgyniad Normanaidd. Torrwyd y cestyll, a gorfod i'r Brenin Coch dd'od fwy nag unwaith yn gynorthwy i'w farwniaid. Erbyn 1100, yr oedd cestyll Normanaidd yn britho Powys, a Gwent, a Morgannwg, a Dyfed; ond yr oedd arglwyddi'r Goror mewn llawer perygl. Yr oedd eu deiliaid Cymreig yn hawlio cael eu trin yn ol cyfreithiau Hywel Dda: yr oedd gallu Gruffydd ab Cynan a Gruffydd ab Rhys yn cynyddu: yr oedd y tywysogion Cymreig yn adeiladu cestyll hefyd: ac yr oedd brenin Lloegr yn dechreu ofni fod gormod o awdurdod yn nwylaw arglwyddi'r Goror. Yr oedd Harri'r Cyntaf yn ceisio darostwng ei arglwyddi hanner anibynol; ac un o'r rhai cyntaf i wrthryfela yn ei erbyn oedd Rhobert Belesme, arglwydd Goror y Mwythig a Maldwyn. Dan warogaeth i Robert, yr oedd tri brawd—Iorwerth, Cadwgan, a Meredydd—yn llywodraethu ar Geredigion a gorllewinbarth Powys. Medrodd y brenin droi y rhai hyn yn erbyn Rhobert; a gorfod iddo adael y Goror, er mawr lawenydd i'r brenin, ac i'r wlad oll. Ni fynnai'r brenin ŵr cyn gadarned yn ei le; eithr rhannodd ei arglwyddiaeth, a gwnaeth i lywodraethwr pob rhan dalu gwarogaeth iddo ef ei hun. Rhoddwyd Ceredigion a rhan o Bowys i Gadwgan, yr hwn fuasai ŵr wrth fodd y brenin oni bae am fywyd direol Owen, ei fab, yr hwn welodd brydferthwch Nest, merch Rhys ab Tewdwr, mewn gwledd a wnaethasai ei dad; yr hwn dorrodd gastell Penfro, ac a ddygodd Nest oddi ar ei gŵr; yr hwn ysbeiliodd Normaniaid, a Saeson, a Fflandrwys y brenin; yr hwn a wnaeth gyfamod â Gruffydd ab Cynan i gadw'r iaith Gymraeg yn fyw; yr hwn fu farw yn y diwedd wrth ymladd dros y brenin yn erbyn Gruffydd ab Rhys. Wedi gyrru Belesme o'r wlad, ymosododd y brenin, yn 1114, ar Ruffydd ab Cynan, gan arwain byddin i gymoedd Eryri. Ni enillodd y brenin fawr; ac ymadawodd, gan fod argoelion rhyfel ar derfynau Normandi a Ffrainc. Gadawyd llonydd i'r tri thywysog Cymreig—i Ruffydd ab Cynan eangu terfynau Gwynedd, a chadw heddwch o'i mewn; ac i Rys ab Gruffydd gymeryd mantais ar y casineb at y Normaniaid, a'r awydd am undeb cenhedlaethol, i ddinystrio neu feddiannu cestyll Normanaidd godreuon y Mynydd Du; ac i Feredydd ab Bleddyn ddiogelu holl Bowys. Yn 1134, yr oedd Harri frenin ar gychwyn yn erbyn y tywysogion Cymreig, pan ddaeth angeu ato. Erbyn hyn, yr oedd Meredydd ab Bleddyn wedi marw; ac yn 1137, bu farw Gruffydd ab Rhys, "lleufer a chedernit ac addvwynder y deheuwyr," a Gruffydd ab Cynan, "brenhin a phennadur a thywyssawc ac amddiffynnwr a heddychwr holl Gymry." Ni fu'r tri hyn farw heb wneyd eu gwaith. Attaliasant y llanw Normanaidd, adgyfodasant obaith ac uchelgais y Cymry; a daeth y tywysogion Cymreig yn ddigon cryfion, nid yn unig i roddi terfyn ar ymeangiad terfynau arglwyddi'r Goror, ond i herio gallu brenin Lloegr ei hun. Wedi marw Harri'r Cyntaf, bu anrhefn yn Lloegr yn ystod teyrnasiad Stephen; a phan adferwyd trefn gan Harri'r Ail, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn 1154, gwelodd fod meibion y tri thywysog yn anibynol yng Nghymru—Owen Gwynedd yng Ngwynedd, Madog ab Meredydd ym Mhowys, a Rhys ab Gruffydd yn y Deheubarth.

3. *Yr ymdrech yn erbyn brenhinoedd Lloegr:*—1157—1284. (*a.*) Yr ymdrech yn erbyn Harri'r Ail, 1157—1189. Amcan Harri'r Ail—ac amcan ei holl dylwyth—oedd uno Pryden dan awdurdod un brenin, a than awdurdod un gyfraith. Gwaith ei fywyd oedd darostwng ei farwniaid, a thorri eu cestyll. Nid oedd tywysog i fod ond brenin Lloegr, na chastell ond ei gestyll ef. Yr oedd Cymru i'w darostwng—arglwyddi'r Goror a'r tywysogion; ac yr oedd yr Iwerddon—man ffo y tywysogion Cymreig, o'r lle y doi eu cymhorth—i'w meddiannu gan frenin Lloegr hefyd. Yn 1157, cymerodd Harri'r Ail fantais ar gweryl rhwng Owen Gwynedd a'i frawd Cadwaladr, a rhwng Madog ab Meredydd a'r tywysogion eraill, ac arweiniodd fyddin trwy Gaer Lleon yn erbyn Gwynedd. Er colli brwydr, ac er dinystrio y llynges anfonasai i Fôn, gwnaeth Harri i Owen Gwynedd roddi ei etifeddiaeth i Gadwaladr ei frawd; a chan dybied y byddai Owen, a Chadwaladr, a Madog ab Meredydd yn ddigon o atalfa ar eu gilydd, trôdd tua'r de, gan feddwl darostwng Rhys ab

Digitized by Google

Gruffydd. Daeth o Loegr i Bencader, ac ymheddychodd a Rhys, gan feddwl y byddai ef a'r Normaniaid yn ddigon o atalfa ar eu gilydd. Ond yr oedd gormes Normaniaid y gororau, a bwriad y brenin tuag at y tywysogion, wedi cryfhau teimlad gwladgarol y Cymry; ac yn 1164, yr oedd Gwynedd, Powys, a'r Deheubarth yn unol wrthwynebu'r brenin a'r Normaniaid. Arweiniodd y brenin lu mawr trwy Groesoswallt yn erbyn Powys, oedd erbyn hyn dan lywodraeth Owen Cyfeiliog; ac yn erbyn Gwynedd, lle'r oedd Owen a Chadwaladr wedi ymheddychu. Ymbabellodd y brenin yn nyffryn Ceiriog. Am y mynydd âg ef, gwersyllai byddinoedd Owen Gwynedd ac Owen Cyfeiliog, a Rhys ab Gruffydd yng Nghorwen. Daeth "dirfawr dymhestyl awyr, a thra llifeireint glawogydd" i ddyffryn Ceiriog, pallodd ymborth y brenin, a gorfod iddo gilio n ol heb ennill dim. Yn 1170, bu farw Owen Gwynedd, "gŵr dirvawr y volyant, wedy anneiryf vuddugolyaetheu." Yn 1189, bu farw Harri'r Ail, un o frenhinoedd galluocaf Lloegr, yn Ffrainc, gan feddwl am y brwydrau gollodd, a'r cynlluniau droisent yn fethiant, a than ocheneidio, "Nid oes gennyf ddim yn ychwaneg i ofalu am dano. Eled popeth fel y mynno;" Yn 1197, bu farw Gruffydd ab Rhys:—"y gŵr a oedd benn a tharyan a chedernit y deheu a holl gymry; a gobeith ac amddiffynn holl genedloedd y brytanyeit."

(*b.*) Yr ymdrech yn erbyn John a Harri'r Trydydd, 1210—1240. Wedi marw Owen Gwynedd, a Rhys ab Gruffydd, bu ymrysonfeydd mawr rhwng mân dywysogion; a dechreuodd arglwyddi'r Goror ail ennill tir; a gwelid cestyll Normanaidd newyddion yn codi. Tua 1210, yr oedd Llywelyn ap Iorwerth, ŵyr Owen Gwynedd, yn ddigon cryf i herio'r brenin John —hanner chwaer yr hwn a briodasai. Yn 1212, ymunodd Gwenwynwyn, tywysog Powys, Maelgwn ab Rhys o'r Deheubarth, Madog ab Gruffydd Maelor, a Meredydd o Gedewin, yn erbyn y brenin John; a rhyddhaodd y pab Lywelyn, a Gwenwynwyn, a Maelgwn o'r llŵ a'r ffyddlondeb a roddasent i frenin Lloegr. Yn 1214, ymgynghreiriodd Llywelyn â'r barwniaid Seisnig oedd yn gofyn i'r brenin "a roddai yr hen gyfreithiau da i'r deyrnas." Cymerodd feddiant o'r Mwythig; ac ymysg adrannau'r *Magna Carta* enillodd y barwniaid a Llywelyn, ymrwyma'r brenin i ddadwneyd unrhyw anghyfiawnder a wnaethai tuag at Gymry —yng Nghymru, yn y Goror, neu yn Lloegr. Cymeryd meddiant o'r cestyll Normanaidd hyd odreu Powys a'r Deheubarth oedd gwaith nesaf Llywelyn; a phan fedrodd John ddenu Gwenwynwyn oddi wrtho, gyrrodd Llywelyn y tywysog hwnnw ar ffo, a chymerodd feddiant o Bowys ei hun. Rhwng 1220 a 1240, meddiannodd ymron yr oll o'r cestyll yng Nghymru, gan ddarostwng yr ardaloedd Seisnig hyd lan y Deheubarth; a chyn ei farw, yr oedd yr holl dywysogion Cymreig wedi d'od yn wŷr ffydd iddo. Mewn popeth, ond enw, yr oedd yn frenin Cymru. Claddwyd ef yn Aber Conwy. Yn Nhyddewi y claddwyd Rhys ab Gruffydd. Wedi marw Llywelyn, rhoddodd ei fab, Dafydd, Bowys i fab Gwenwynwyn, a Meirionnydd, i feibion Meredydd ap Cynan. A phan fu farw, yn y flwyddyn 1246, rhannwyd Gwynedd rhwng dau fab Gruffydd ap Llywelyn—yr hwn fuasai farw wrth geisio dianc o garchar y Saeson—Owen, a Llywelyn. Erbyn 1256, yr oedd Llywelyn ab Gruffydd yn dywysog ar holl Wynedd.

(*c.*) Yr ymdrech yn erbyn Edward y Cyntaf, 1255—1282. Amcan Edward oedd sylweddoli breuddwydion ei deulu am uno'r holl deyrnas dan awdurdod uniongyrchol y brenin—y barwniaid yn Lloegr, a thywysogion Cymru. Cyn marw Harri'r Trydydd y cymerodd yr ymdrech rhwng Edward a barwniaid Lloegr le. Ymgynghreiriodd Llywelyn â'r barwniaid, a dyweddïwyd Eleanor — merch eu harweinydd, Simon de Montfort—iddo.

Yn 1255, daeth y tywysog Edward i Wynedd, fel Iarll Caerlleon, a ffodd pob un anfoddlon at Lywelyn ab Gruffydd. O 1255 hyd 1263, cadarnhaodd Llywelyn ei deyrnas; a phan orchfygwyd y brenin gan y barwniaid ym mrwydr Lewes, yn 1263, yr oedd Cymru mewn heddwch, a Llywelyn yn dywysog arni oll. Buan y cwerylodd y barwniaid a'u gilydd. Ymunodd Iarll Caerloyw â phlaid y brenin; ac ym mrwydr Evesham, yn 1265, gorchfygwyd Simon de Montfort gan Edward, a lladdwyd ef. Talodd Llywelyn deyrnged i'r brenin, yn 1268; ac yr oedd yntau i gael bod yn dywysog yng Nghymru, ac i dderbyn gwarogaeth holl farwniaid y wlad honno.

Yn 1272, dechreuodd Edward deyrnasu; ac anaml y bu brenin yn esgyn gorsedd gyda syniad cliriach am y gwaith oedd i'w wneyd; sef, dwyn pob rhan o'r ynys dan lywodraeth uniongyrchol y brenin ei hun. Y brenin a'r bobl, heb dywysog na barwn rhyngddynt, oedd i gyfansoddi'r deyrnas y breuddwydiai Edward y Cyntaf am dani. Ond yng Nghymru, yr oedd tywysog heriasai allu'r brenin; ac yr oedd yn rhaid, cyn y medrai Edward y Cyntaf sylweddoli ei freuddwydion ei hun, a breuddwydion ei gyndadau, rhoddi terfyn ar allu Llywelyn, ac ar anibyniaeth Cymru.

Yn 1274, gwysiodd Edward Lywelyn i dyngu gwarogaeth iddo, a gwrthododd Llywelyn fyn'd. Trwy'r pab yr oedd heddwch 1268 wedi ei wneyd; a rhoddodd Llywelyn ei achos o flaen y ddau archesgob a'r esgobion. Yn ol yr heddwch, ebai ef, yr oedd barwniaid Cymru i fod yn wŷr ffydd i dywysog Cymru, ac nid oedd brenin Lloegr i lochesu bradwyr ffoedig: ond yr oedd Edward wedi ymyryd â barwniaid Llywelyn, wedi gwysio Llywelyn i le na fyddai ei fywyd yn ddiogel ynddo, ac wedi noddi bradwyr ffoedig—Dafydd, brawd Llywelyn, a Gruffydd ab Gwenwynwyn. Ymosododd Edward ar Gymru, gan anfon un fyddin yn erbyn y De, a chan arwain un arall i'r gogledd—i Ruddlan. Caledion iawn oedd amodau'r heddwch wnawd. Yr oedd pedair cantref Rhos, Rhufoniog, Tegeingl, a Dyffryn Clwyd i fod yn eiddo brenin Lloegr. Yr oedd Ynys Môn i fod yn eiddo'r brenin wedi marw Llywelyn, ac i dalu teyrnged hyd yn hynny. Yr oedd arglwyddi'r Goror i gadw'r tir orchfygasent. Nid oedd ond pum barwn Eryri i dyngu gwarogaeth i Lywelyn; ac ar ei farwolaeth ef, deuent oll yn farwniaid y brenin. Yr oedd Dafydd, brawd Llywelyn, i gael byw mewn heddwch fel arglwydd castell Dinbych. Hawdd credu nad oedd Llywelyn yn debyg o aros yn hir heb wrthryfela yn erbyn yr amodau celyd hyn. Yr oedd Dafydd hefyd yn amcanu bod yn rhywbeth uwch na barwn—yn gorfod myn'd a d'od wrth arch brenin Lloegr. Yr oedd cyfreithiau Edward yn drymion hefyd, a cheidwaid ei gestyll newyddion yn ormesol.

Digitized by Google

Cyn hir, ymosododd Dafydd ar gastell Rhuddlan, a Rhys ab Maelgwn ar gastell Aber Ystwyth; a heriodd Llywelyn allu Lloegr drachefn, heb fedru dioddef cyfraith y brenin, ac anghyfraith arglwyddi'r Goror. Cyn ei ymosodiad olaf ar Lywelyn, cynygiodd Edward ryw sir Seisnig, a blwydd-dal iddo, os rhoddai Eryri i fyny; ac anogodd Ddafydd i adael y Cymry i arglwyddi'r Goror, a myn'd i Ganan i ryfela Rhyfeloedd y Groes. Nid oedd Dafydd yn foddlawn i fyn'd i Ganan, ac ni fynnai Llywelyn adael ei bobl. A daeth byddinoedd Seisnig i Gymru drachefn. Gorchfygwyd y fyddin Seisnig groesasai o Fôn, wedi goresgyn yr ynys honno, ym Moel y Don; ac aeth Llywelyn i'r Deheudir i wynebu byddin Iarll Caerloyw. Ym Muallt, mewn cwm elwir eto'n Gwm Llywelyn, lladdwyd Llywelyn mewn ysgarmes, yn 1282. Wedi ei farwolaeth ef, daeth ei dywysogaeth yn eiddo'r brenin. Gadawyd arglwyddiaethau 'r Goror yn union fel yr oeddynt; ond ail drefnwyd y rhannau oedd dan lywodraeth Llywelyn a'i farwniaid. O Ruddlan, yn 1284, cyhoeddodd Edward ei *Statutum Walliae*—i rannu Cymru Llywelyn yn siroedd—Môn, Caernarfon, Meirionnydd, Fflint, Ceredigion, a Chaerfyrddin—pob un dan ei sirydd, fel y siroedd Seisnig; ac i ddwyn Cymru dan ynadon a roddent wysion brenin Lloegr mewn grym, ac a farnent y bobl yn ol deddfau Lloegr. Gyda'r ddeddf hon, daw cyfnod anibyniaeth Cymru i ben; ac ar ei ol, daw cyfnod o orthrwm, ac o wrthryfeloedd.

Yr oedd gan gyfnod y tywysogion ei lenyddiaeth nodweddiadol ei hun — y *Mabinogion*. Ystorïau ydyw y rhai hyn, llawn o ddychymyg rhyfedd, mewn iaith seml a thlos, am Arthur, a thywysogion Cymru. Trwythwyd llenyddiaeth Lloegr, hefyd, â'u hysbryd; ac erbyn 1284, yr oedd Edward, brenin Lloegr, nid yn unig yn cymeryd lle Llywelyn fel llywodraethwr Cymru, ond hefyd yn agor bedd Arthur, yn cynnal Bord Gron, ac yn gwisgo ar ei ben goron Arthur, a gawsai yng Nghaernarfon.

Tra dinystrid anibyniaeth Cymru, dinystrid hefyd anibyniaeth h n eglwys y Cymry. Rhwng 768 a 777, gadawodd yr Eglwys Gymreig i'r Saeson newid amser ei Phasg i'w hamser hwy. Tua diwedd y nawfed ganrif, dechreuodd archesgob Caer Gaint gysegru esgobion Deheudir Cymru. Cyn diwedd y ddeuddegfed ganrif, hawliai Landaff a Thyddewi fel rhan o'i archesgobaeth ef. Yn 1135, hawliai esgob Tyddewi gael ei gydnabod fel archesgob. O hynny hyd 1284, bu ymdrech rhwng Tyddewi a Chaer Gaint am awdurdod eglwysig dros Gymru. Pan gollodd Cymru ei hanibyniaeth wladol, collodd hefyd ei hanibyniaeth eglwysig. Tra'r oedd Edward frenin yn cyhoeddi'r *Statutum Walliae*, ac yn ei rhoddi mewn grym, yr oedd yr archesgob Peckham yn tramwyo o esgobaeth i esgobaeth fel archesgob pob un.

### II. Cyfnod y Gorthrwm. 1284—1536.

Erbyn diwedd 1284, yr oedd Cymru oll dan lywodraeth uniongyrchol, naill ai arglwyddi'r Goror neu frenin Lloegr. Wedi marw Llywelyn a Dafydd, ni unodd Cymru yn erbyn ei gorthrymwyr am dros gan mlynedd. Er hynny, yr oedd y gorthrwm yn drwm. Amcanai'r brenin at ddinistrio gallu pob tywysog Cymreig, ac at osod pob ardal yng Nghymru dan gyfraith Seisnig. Pe buasai'r Cymry wedi ymfoddloni ac ymostwng, buasai 'r gorthrwm yn llai; a buasai Cymru, yn lle bod yn wlad orchfygedig, wedi cael anfon cynnrychiolwyr i'r senedd Seisnig oedd yn prysur ymffurfio yn y dyddiau hynny. Ond yr oedd ysbryd anibyniaeth yn gryf yn y bryniau: yr oedd dychymyg y Cymry wedi gwneyd rhyw ryfelwr lleol yn ymherawdwr, a rhyw genhadwr dinôd yn sant cenhedlaethol—wedi rhoddi i Arthur ymherodraeth, ac i Ddewi Sant archesgobaeth, na wyddai hanes ddim am danynt.

Cyfnod o gyfreithiau celyd, cyfnod o orthrwm barbaraidd, cyfnod o wrthryfeloedd aflwyddiannus, ydyw hanes Cymru rhwng teyrnasiad Edward y Cyntaf a theyrnasiad Harri 'r Wythfed.

Pan oedd Cymru wedi ei gorchfygu, ac archesgob Caer Gaint yn dilyn y gorchfygwr, gwnaeth Eglwys Cymru un ymdrech i sierhau ei hanibyniaeth. Pan ddaeth Peckham i Dŷddewi, protestiodd yr esgob Beck yn erbyn ei ymweliad, gan nad oedd Tŷddewi dan lywodraeth unlle yn Lloegr; ond rhoddwyd taw ar ei brotestio trwy fygwth ei esgymuno. O hynny allan daeth yr eglwys yn fwy estronol, yn llawforwyn i'r gorchfygwyr; a dyna un rheswm am y gelyniaeth chwerw rhyngddi a'r beirdd trwy'r cyfnod hwn.

Y rhai nesaf i wrthryfela oedd mân dywysogion Cymru. Gwelodd y rhai wrthodasant ymladd dan faner Llywelyn, pan oedd yn rhy ddiweddar, fod bryd y brenin ar eu difodi. Yr oedd marwolaeth greulawn Dafydd o flaen eu llygaid, a gorfod iddynt brofi chwerwder y peth a brofasai ef—dewis rhwng ymladd hyd farw, neu fod yn ddim, ac yn llai na dim, yn eu gwlad. Yr oedd Rhys ab Meredydd, arglwydd Ceredigion, wedi ochri Edward yn erbyn Llywelyn, rhag ofn i Lywelyn, pe medrasai gael holl Gymru'n dywysogaeth iddo, gyfyngu ar ei allu. Wedi marw Llywelyn, gwelodd Rhys gylch o arglwyddi Seisnig trahaus o amgylch ei Geredigion, yn achwyn arno wrth y brenin, ac yn hawlio rhannau o'i wlad. Heb allu dioddef eu gorthrwm yn hwy, gwrthryfelodd yn 1287; ond yn fuan wedi hynny dygwyd ef mewn cadwyni i bresenoldeb y brenin. Wedi hyn, teimlwyd fod y gorthrwm yn trymhau, ac yr oedd y bobl yn barotach i wrando ar unrhyw dywysog gynygiai eu harwain. Yn 1294, yr oedd anfoddlonrwydd mawr yng Nghymru yn erbyn y dreth a osodasai Edward ar y wlad er mwyn cael byddin i ymladd yn erbyn Ffrainc. Gwrthryfelodd pobl Penfro, a Maelgwn Fychan yn eu harwain; cododd gwŷr Morgannwg, dan arweiniad Morgan; a daeth Madog, o âch Llywelyn, i arwain gwŷr y gogledd. Wedi brwydro alaethus, ac wedi i esgob Llanelwy esgymuno Madog, rhoddwyd terfyn, cyn diwedd 1295, ar y gwrthryfel ffyrnig hwn.

Yn ystod teyrnasiad Edward yr Ail ac Edward y Trydydd, yr oedd yr Alban wedi gallu sierhau ei hanibyniaeth; a chynhyrfwyd y Cymry, wrth weled llwyddiant yr Albanwyr, i wneyd un ymdrech arall yn erbyn arglwyddi gorthrymus y Goror, a'r brenin oedd wrth eu cefn. Yn 1315, gwrthryfelodd Llywelyn Bren yn y Deheudir, a llwyddodd i gymeryd castell Caerffili; yn 1322, gwrthryfelodd Syr Gruffydd Llwyd, o Dregarnedd, ym Môn. Ar y cyntaf, llwyddodd y gwrthryfelwyr hyn yn rhyfedd; ond nis gallent ddal eu tir, a gorchfygwyd hwy yn y diwedd.

O 1322 hyd 1400, nid oes gan y croniclwyr

Digitized by Google

ddim i'w gofnodi am Gymru; ac nid oes ddeddf ar gyfer ei henw, ond deddf Edward y Trydydd, yn 1354, i gyhoeddi mai ar frenhiniaeth Lloegr, nid ar dywysogaeth Cymru, yr oedd arglwyddi'r Goror yn ddibynnol. Er y distawrwydd hwn, gwyddom mai hanes y wlad oedd—gorthrwm yr arglwyddi; estroni pobl ac eglwys; ymchwerwi ac ymgreuloni ar ran pob dosbarth; amlhau milwyr a lladron; cashau 'r castell a'r fonachlog —cartref gorthrwm a glythineb.

Yn 1400, gwnawd anghyfiawnder dybryd âg yswain Cymreig gan arglwydd Rhuthyn, Lord Grey. Nid oedd wiw i Owen Glyn Dŵr apelio at y gyfraith yn erbyn ei ormeswr; a phan losgodd Ruthyn, ym Medi, 1400, ar ddiwrnod ffair, gwelodd fod holl Gymru 'n barod i wrthryfela yn erbyn yr arglwyddi Seisnig. Yr oedd Harri 'r Pedwerydd, o linach Lancaster, ar yr orsedd, wedi diorseddu Rhisiard yr Ail. Nid oedd ei hawl yn gwbl gywir: yr arglwyddi oedd wedi ei roddi ar yr orsedd, ac ni feiddiai wneyd dim yn erbyn eu hewyllys. Rhaid oedd i'r Cymry, os mynnent gyfiawnder yn erbyn arglwyddi 'r Goror, ei sicrhau trwy wrthryfela yn erbyn y brenin. Cyn diwedd 1400, yr oedd Harri 'r Pedwerydd yn yr Amwythig, yn crogi Goronwy ab Tudur, ac yn parotoi at gryfhau cestyll Gogledd Cymru. Ciliodd Owen Glyn Dŵr o'i flaen i gymoedd Eryri; ac wedi cryfhau gwarchodlu Caernarfon, trodd y brenin yn ol; a chyn diwedd y flwyddyn, cyhoeddwyd maddeuant i bawb ymostyngai. Ond erbyn hyn, yr oedd gwrthryfel Glyn Dŵr wedi codi gobeithion y Cymry. Codai 'r tenantiaid yn erbyn beiliaid eu harglwyddi, cyrchai myfyrwyr Cymreig Rhydychen tuag adre; a dengys y cyfreithiau wnawd yn 1401 a 1402 fod eisieu ymdrech egnïol i dawelu Cymru. Yn nechre 1401, yr oedd Harri Percy, mab iarll Northumberland, yn ynad Gogledd Cymru, ac yn geidwad cestyll Caer, Fflint, Conwy, Dinbych, a Chaernarfon. Ei waith oedd cadw 'r cestyll hyn, adennill castell Conwy oddi ar ddau fab Tudur, darostwng y gwrthryfelwyr yn Arfon a Meirion, a chadw ei lygad ar Owen Glyn Dŵr; yr hwn oedd yng Nghaerfyrddin "yn tyngu," meddid, "y difodai 'r iaith Saesneg oddi ar wyneb y ddaear." Ym Mai, rhoddodd Harri Percy, fyrbwyll, ei le i fyny, ar yr esgus nad oedd y brenin yn rhoddi digon o arian iddo wneyd ei waith; ac wedi iddo droi ei gefn i amddiffyn ei wlad ei hun rhag yr Albanwyr, ymunodd holl Wynedd, a Phowys, a Cheredigion—oddi eithr y cestyll a'r trefi ymnythent danynt—âg Owen Glyn Dŵr. Cyn diwedd y flwyddyn, tramwyodd y brenin a'i fyddin o Fangor i Aberteifi, gan ladd a llosgi yr holl ffordd; ac wrth adael Cymru cyn y gauaf dywed fod ei holl gynlluniau wedi llwyddo. Ond yr oedd cynlluniau Owen Glyn Dŵr yn llwyddo hefyd—yr oedd mewn gohebiaeth â gelynion lliosog Harri—brenin Ffrainc, brenin yr Alban, a Harri Percy; yr hwn, erbyn hyn, oedd yn dechre cynllunio yn erbyn y brenin, gan dybied fod hwnnw'n meddwl cyfyngu ar anibyniaeth ei iarllaeth yntau. Er iddo fethu cymeryd castell Caernarfon, ac er i gastell Harlech gael ei adgyfnerthu gan y brenin, yr oedd Owen, erbyn diwedd 1401, yn chwyfio baner wen â draig aur arni, ac yn cael ei ystyried gan y Cymry yn dywysog eu gwlad. 1402 oedd blwyddyn gogoniant Glyn Dŵr. Yn Ionawr, gorchfygodd ei hen elyn, Iarll Grey, ar lan y Fyrnwy. Ym Mehefin, gorchfygwyd Syr Edmund Mortimer ym mrwydr Bryn Glas; a syrthiodd Grey a Mortimer i ddwylaw Owen. Priododd Grey ferch Owen; ymunodd Mortimer âg ef, a gwnaed cyfamod rhwng y Percies a'u gogleddwyr a'r Cymry yn erbyn brenin Lloegr. Coronwyd Owen yn Dywysog Cymru, ac ysgrifenna at frenin Ffrainc fel tywysog anibynnol. Ond nid ymunodd byddin y Percies â byddin Owen mewn pryd. Cyn i Owen orffen darostwng cestyll y De, a chyn i'r Percies ond prin gyrraedd gororau Cymry, cyflymodd y brenin yn erbyn y gogleddwyr, a llwyr orchfygodd hwy ym mrwydr yr Amwythig, gan ladd Harri Percy, yn 1403. Ond parhaodd Glyn Dŵr i hèrio 'r brenin hyd ei farwolaeth yn 1415, wedi blynyddoedd o frwydro, a chymeryd cestyll, a chynnal seneddau Cymreig.

Oddi wrth lythyr ysgrifennodd Owen Glyn Dŵr at Siarl VI., brenin Ffrainc, o Bennal, yn 1406, gwelir beth oedd nôd y tywysog galluog a goleuedig hwn:—Cymru anibynnol, dan ei thywysogion ei hun, dan archesgobaeth Tyddewi, a chyda dwy brifysgol—un yn y Gogledd, a'r llall yn y De.

Canlyniad y gwrthryfel pwysig hwn oedd trymhau iau arglwyddi'r Goror ar warrau'r Cymry; pasiwyd deddfau celyd gan y brenhinoedd Lancastriaidd. Deddfodd Harri'r Pedwerydd nad oedd un Cymro i brynnu tir yn Lloegr; y gallai Sais ymddial ar Gymro am ei ysbeilio; na chymerid llŵ Cymro yn erbyn Sais; nad oedd beirdd i grwydro drwy Gymru; nad oedd Cymro i ddwyn arfau, ac nad oedd arfau i'w cludo i Gymru; nad oedd Cymro i fod yn swyddog, nac yn geidwad castell; ïe, nad oedd Sais a briodasai Gymraes i gael swydd yn y byd. Pasiodd Harri 'r Pumed a Harri 'r Chweched ddeddfau i'r un perwyl—deddfwyd fod lladrata eiddo Saeson, a'i gario i Gymru, yn deyrnfradwriaeth; gorchymynnwyd i siryddion y gororau wneyd yr oll a allent i gynnorthwyo'r arglwyddi; ac yn 1447, ail ddeddfwyd pob deddf yn erbyn y Cymry.

Pan wrthryfelodd duc York, fel gwir aer y goron, yn erbyn y Lancastriaid hyn, nid rhyfedd fod y Cymry wedi cymeryd ei ran, ac wedi bod yn noddfa iddo yn 1459—60, pan oedd yn ffoi o flaen y brenin. O Gymru y daeth Edward yn 1461, cyn ei goroni'n Edward y Pedwerydd. Ond cyn i Edward o York gwbl lwyddo, yr oedd Iasper, Iarll Penfro, wedi ennill deheudir Cymru i'r Lancastriaid, a chastell Harlech oedd yr olaf i ymostwng i Edward y Pedwerydd. Yn 1478, sefydlodd Edward 'Gynghor Cymru,' i fod yn Llwydlo, dan lywydd o ddewisiad y brenin; a llywodraethwyd Cymru fel o'r blaen—mewn gormes. Yn 1485, gorchfygwyd Rhisiart y Trydydd, sef yr olaf o linach York, ar faes Bosworth, gan y Lancastriad, Harri Tudur, ŵyr Owen Tudur o Fôn; yr hwn Owen a briodasai weddw Harri'r Pumed, gorchfygwr Owen Glyn Dŵr. Trwy rym un o Gymry'r deheudir—Syr Rhys ap Tomos—yr enillodd Harri'r frwydr, a thrwy rym yr un gŵr y medrodd eistedd yn ddiogel ar ei orsedd. Priododd Harri'r Seithfed aeres teulu York; felly, cyfunai ei fab, Harri'r Wythfed, y ddau deulu gelynol. Yn ystod ei deyrnasiad ef hefyd, ceisiwyd uno Cymru â Lloegr, yn lle ei llywodraethu fel gwlad orchfygedig. Cyn teyrnasiad Harri 'r Wythfed, yr oedd rhimin hir o arglwyddiaethau rhwng siroedd Cymru

Digitized by Google

a siroedd Lloegr. Cyn 1536, difodwyd yr arglwyddiaethau hyn fel y cyfryw: unwyd llawer o honynt â siroedd Lloegr; ac unwyd eraill â siroedd Cymru; ac o'r gweddill, gwnawd siroedd Cymreig newydd—Brycheiniog, Maesyfed, Maldwyn, a Dinbych. Penderfynwyd mai i Loegr yr oedd sir Fynwy i berthyn. Yr oedd un gyfraith, cyfraith Lloegr, i redeg drwy'r holl siroedd hyn. Yr oedd siroedd Cymru, fel siroedd Lloegr, i anfon cynrychiolwyr i'r senedd; ac yr oedd siroedd Cymru i gael yr un faint o lywodraeth leol a siroedd Lloegr. Amcan Harri 'r Wythfed oedd difodi pob gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr, er mwyn gwneyd cyfiawnder; a dyna'r rheswm paham y gwaharddodd efe i un swyddog siarad Cymraeg. Erbyn 1536, y mae siroedd Cymru ar yr un tir a siroedd Lloegr, mor bell ag y gallai cyfraith eu gwneyd; oddi gerth fod yng Nghymru uwchlysoedd cyfraith perthynol iddi hi ei hun.

Yn ystod teyrnasiad y Tuduriaid, mawrygid y Cymry. Gorthrymid hwy yn y cyfnod cynt, a dirmygid hwy yn y cyfnod ar ol hyny. Yn Shakespeare, y mae'r Cymro'n foneddwr ym mhob peth.

Yn adeg gorthrwm y bydd llenyddiaeth yn aml ar ei goreu, ac felly y bu yng Nghymru. Rhwng 1284 a 1536 y blodeuodd beirdd goreu Cymru—Dafydd ab Gwilym, a Dafydd ab Edmwnt ar ei ddechre, y ddau Nanmor wed'yn, a Thudur Aled ar eu holau hwythau.

III. Cyfnod y Dadfeiliad, 1536—1730.

Nid hawdd gwybod beth yw enw mwyaf priodol y cyfnod hwn: cyfnod o ddiwygiadau oddi allan—cyfnod o ddiwygiad ymddangosiadol—cyfnod o ddadfeiliad gwirioneddol.

1. *Yr ymdrech i wneyd i'r Cymry dderbyn y Diwygiad Protestanaidd yn ei agwedd boliticaidd*, 1536—1588. Oddi wrth y brenin, trwy Domas Cromwell, y daeth y Diwygiad i Loegr gyntaf; yn erbyn gwrthwynebiad cryf o'r gogledd a'r gorllewin. Nid oedd ar Gromwell ofn un man yn fwy na Chymru. Sibrydid y doi byddin o Gymry a Gwyddelod i ryddhau'r dywysoges Babyddol, a adwaenid wedi hynny fel 'Mari Waedlyd.' Teyrngarwch i'w brenin Cymreig, ac nid cariad at Brotestaniaeth, wnaeth i'r Cymry adael i Gromwell a'i ddilynwyr ddinistrio eu creiriau.

2. *Yr ymdrech i wneyd i'r Cymry dderbyn y Diwygiad Protestanaidd yn ei agwedd grefyddol*, 1588—1642. Wedi hir oedi, yr oedd y Testament Newydd, o gyfieithiad Richard Davies a William Salisbury, yn argraffedig yn 1567. Yn 1588, cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg cyntaf—Beibl Dr. Morgan. Yr oedd gan y dysgedigion obaith diderfyn. Gwnaethant ramadegau a geirlyfrau, a chyfieithasant lyfrau duwinyddol goreu'r Saeson. "Er tyneredd fu'r moddion i ddwyn Gair Duw at ein cenedl ni, eto arafaidd ac oerllyd y croesawyd ef. Y rhai a fyddo'n hir mewn daeardy tywyll, a lesmeiriant pan ddeuant i'r awyr heulog."

3. *Yr ymdrech i wneyd i'r Cymry dderbyn Piwritaniaeth*, 1642—1660. Nid oedd y Diwygiad Protestanaidd wedi bod mor drylwyr yn Lloegr ag ar y Cyfandir; ac o ymgais y Piwritaniaid i berffeithio'r Diwygiad, yn ogystal ag o ymgais y brenin i ddadwneyd y Diwygiad i raddau, y daeth y Rhyfel Mawr Cartrefol a dorrodd allan rhwng y Brenhinwyr a'r Seneddwyr, yn 1642. Yr oedd y Cymry, oddigerth gwŷr Penfro Seisnig, yn Frenhinwyr aiddgar. Yr oedd lluoedd o honynt ym mrwydr gyntaf y rhyfel—brwydr Edgehill, o'r hon y rhedasant. Yn niwedd yr un flwyddyn—1642—gorchfygwyd llu mawr o honynt ar wastadedd Tewkesbury, pan ar eu ffordd at y brenin. Yn 1643, yr oeddynt yn helpu'r brenin warchae ar Gaerloyw, pan oedd tynged Lloegr yn dibynnu ar yr hyd y medrai Massey gadw'r ddinas. Ond cyn diwedd y flwyddyn, yr oedd Brereton a Myddelton wedi ennill yr oll o Ogledd Cymru i'r Seneddwyr, hyd nes y glaniodd Gwyddelod i'w gyrru i Loegr yn ol. Yn 1644, trodd y rhyfel yn ffafr y senedd. Cymerodd yr Ysgotiaid feddiant o siroedd gogleddol Lloegr pan oeddynt hwy a Chromwell wedi gorchfygu'r brenin ar faes Marston Moor. Adfeddiannodd Brereton a Myddelton Ogledd Cymru, ac yr oedd gan Laugharne a Phoyer fyddin seneddol gref ym Mhenfro. Yn 1645, yr oedd yn rhaid i'r brenin ddibynnu ar Gymru a Chernyw. Arweiniodd Cromwell ei fyddin anorchfygadwy i Gernyw; a chymerwyd cestyll Rhuthyn, Caernarfon, ac Aber Ystwyth, yng Nghymru. Erbyn y fl. 1646, nid oedd ym meddiant y brenin ond ambell gastell, yma ac acw; ac yn olaf un, cymerwyd oddi arno gastell Harlech, ym Mawrth, 1647.

Wedi gorchfygu, ymrannodd y senedd yn ddwy blaid—y Presbyteriaid, y rhai na fynnent roddi rhyddid cydwybod; a'r Anibynwyr, i'r rhai yr oedd achos rhyddid cydwybod yn fwy gwerthfawr na dim. Gyda'r Anibynwyr yr oedd Cromwell a'i fyddin; a phan welid mai yn eu llaw hwy y byddai'r gallu, ymunodd Presbyteriaid Lloegr a'r Alban, a sir Benfro, â'r Brenhinwyr, ac ail ddechreuodd y rhyfel. Ym Mai, 1648, gorchfygwyd y Cymry ym mrwydr St. Fagans; a chauodd Cromwell arnynt yng nghastell Penfro, gan warchae arnynt. Yr oedd pob peth yn dibynnu ar yr hyd y medrai Poyer herio Cromwell; o herwydd, cyhyd ag y cedwid Cromwell yng Nghymru, nid oedd dim i rwystro 'r Albanwyr gyrchu tua Llunden, ac ymuno â'r Presbyteriaid yno. Yng Ngorffennaf, 1648, gorfod i Boyer roddi 'r castell i fyny. Yr oedd yr Albanwyr wedi bod yn rhy araf. Cyflymodd Cromwell i'w cyfarfod o Benfro, a gorchfygodd hwy 'n llwyr.

Wedi dïenyddio 'r brenin — y mae enwau Cymry ar y ddedfryd—llywodraethwyd Cymru hyd 1660 gan Biwritaniaid Lloegr. Cyn y rhyfel, yr oedd Laud, pan yn esgob Tŷddewi, wedi ceisio d'od â'i Arminiaeth seremonïol unffurf i Gymru, ond heb lwyddo dim. Ac wedi'r rhyfel, daeth tro 'r Piwritaniaid i geisio gwthio eu crefydd hwythau ar Gymru. Yn 1649, pasiwyd deddf er lledaenu'r efengyl yng Nghymru. Dewiswyd Profwyr i farnu pwy oedd yn gymwys weinidogion; ac o'r Profwyr hyn, y prif Brofwr oedd Vavasor Powel fyrbwyll danllyd. Er i Vavasor Powel farw yn ei garchar yn 1770, wedi dychweliad y brenin, arhosodd ei waith ar ei ol. Blodeuodd y grefydd bregethasai ef, a'r grefydd bregethasai Hugh Owen, o Fron y Clydwr—ond i wywo yn y ddeunawfed ganrif oer a difrwdfrydedd.

4. *Cyfnod yr esgeuluso*, 1660—1730. Wedi methiant y ddwy ymdrech hon—ymdrech y dysgedigion yn ystod teyrnasiad Elizabeth, ac ymdrech Saeson y Gororau yn ystod y Weriniaeth — esgeuluswyd Cymru'n hollol am dri chwarter canrif. Rhwng marwolaeth Vavasor Powel a'r amser y dechreuodd Griffith Jones

Digitized by Google

lafurio, bu Cymru heb gymwynaswr iddi. Saeson oedd ei hesgobion—rhai na wyddent ddim am dani, ond am arian ei hesgobaethau tylawd. Yr oedd ei meddwl wedi gwanychu, pob brwdfrydedd wedi darfod, ei phobl yn wasaidd, ac anwybodus, ac ofergoelus.

Dechreuodd y cyfnod hwn gyda Beibl Dr. Morgan. Diweddodd gyda chyfieithiad o lyfr Saesneg "i gyfarwyddo Cristion pa fodd i fyw yn llonydd yn y byd trafferthus hwn." Pan gyfieithiwyd y Beibl, yr oedd meddwl Cymru wedi dechreu dirywio. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng Tudur Aled a Dafydd ab Gwilym, neu Ddafydd ap Edmwnd; ond yr oedd tegwch pryd ei llenyddiaeth heb ddechreu gwywo. Cyfieithiwyd y Beibl pan oedd Cymraeg lenyddol ar ei thlysaf. Ond dengys Cymraeg llwgr *Canwyll y Cymry* mor anodd oedd i'r bobl ddeall na mwynhau Cymraeg godidog y Beibl. Erbyn amser Huw Morus, y mae'r tegwch ffurf eto'n aros, ond heb ddim prydferthwch na chryfder meddwl. Ac yna, ni cheir ond cyfieithiadau o bregethau Seisnig, a llyfrau defosiwn.

IV. Cyfnod y Deffro.—1730 yn mlaen.

Yn 1730, dechreuodd Gruffydd Jones, o Landdowror, gadw ei ysgolion cylchynol. Yr oedd ei ymdrech ef yn anhebyg i bob ymdrech aeth o'i flaen. Dysgodd y Cymry ddysgu eu hunain, ac o'r rhannau Cymreig o Gymru y daeth ei Ddiwygiad ef. Anaml y bu'r un Diwygiad mor lwyddiannus, ac mewn mor ychydig o amser. Rhwng 1670 a 1730, anodd cael gwlad â llenyddiaeth mor dlawd a llenyddiaeth Cymru. Rhwng 1730 ac 1870, anodd cael gwlad â llenyddiaeth mor gyfoethog. Pregethwyr nerthol i ddeffro'r bobl; emynnau di-ail i osod teimladau'r cynhyrfiad mewn ffurf a bery byth; trefnwyr doeth; meddylwyr; beirdd yn cyfuno tlysni'r hen gyfnod â nerth meddwl y cyfnod newydd:—daethant oll ar ol eu gilydd, hyd nes y mae'r Cymry, erbyn hyn, wedi eu dwyn i sylweddoli swyn meddwl ac iaith y Beibl gyfieithiwyd pan oedd ein hiaith ar ei goreu.

Yr un pryd, daeth cyfnod o ddeffroad yn hanes Masnach a Gweithfâu. Ym mhell yn ol, yn amser y Lancastriaid, gwnawd deddfau i rwystro'r Cymry dwyllo wrth werthu eu brethynau. Tua 1567, yr oedd Syr Thomas Middleton yn gweithio gweithydd mŵn Ceredigion. Yn 1618, amddiffynnid gweithydd glo'r Deheudir. Ar lethrau gogleddol trumau eithaf y Berwyn, ac ar lethrau deheuol y Mynydd Du, y mae cyflawnder o lô—y glô sydd wedi gwneyd Pryden yn weithdy'r byd. Y cyfoeth hwn ddygodd i Forgannwg a Mynwy eu prysurdeb, a'u cyfoeth; ac a wnaeth eu porthladdoedd yn enwog trwy'r byd.

O'r flwyddyn 1830, pan ddifodwyd Sesiwnau cyfreithiol Cymru, hyd y fl. 1881, pan basiwyd deddf ar gyfer Cymru'n unig, nid oedd gwahaniaeth cyfraith rhwng Cymru a Lloegr. Erbyn eleni (1891), y mae dwy ddeddf wedi eu pasio ar gyfer Cymru—Deddf Cau'r Tafarnau ar y Sabbath yn 1881, a Deddf Addysg Ganolraddol yn 1889. Nid ydyw sir Fynwy dan weithrediad y ddeddf gyntaf, ond y mae hi dan weithrediad yr ail.

Y mae Cymru'n awr yng nghanol cyfnod o ddeffro ac ymgyfoethogi—yn wlad addoldai, ac ysgolion, a cholegau—ac yn cymeryd rhan fwyfwy pwysig yn hanes yr Ymherodraeth Brydeinig. Y mae gobaith dysgedigion cyfnod cyfieithu'r Beibl wedi ei sylweddoli—"y byddai Cymru i'w chystadlu âg un wlad yn Lloegr, os y rheolwyr a'r dysgawdwyr fyddent dda."

CYMRY, Y. Ysgrifennodd Gruffydd ab Arthur hanes Prydain yn Lladin yn y flwyddyn 1146. Sonia am 'lyfyr Brwtwn' oedd ganddo yn codi'r hanes o hono; ac amlwg yw, fod Gruffydd wedi crynhoi i'r hanes chwedlonol hwn gymmaint o'r traddodiadau am hynafiaeth Prydain ag a wyddai efe am danynt, a cheisio'u nyddu oll yn un hanes cyson. Gelwir yr hanes hwnnw *Brut y Brenhinoedd;* a dechreua'r cyfieithiad Cymraeg o hono, ar ol y prolog, fel y canlyn. Yr ydym yn ei godi o *Lyfr Coch Hergest*,* gan ddiweddareiddio 'r orgraff:—"Eneas ysgwydwyn, gwedi darfod ymladdeu Troea a chael y gaer, a ffoes, ac Yscanius i fab i gyd ag ef, ac a ddeuthant mywn llongeu hyd yng ngwlad yr Eidal, yr hon a elwir gwlad Rufein. Ac yn yr amser hwnnw ydd oedd Latinus yn frenhin yn yr Eidal, y gwr a arfolles Eneas yn anrhydeddus. Ac yna gwedi gweled o Turn, frenhin Rutyl, llitiaw a orug, ac ymladd a wnaeth ag ef. A gorfod a wnaeth Eneas, a lladd Turn frenhin Rutyl, a chaffael yr Eidal, a Lavinia, merch Latinus, yn wreig iddaw. Ac yna gwedi ymlenwi dieuoedd buchedd Eneas, Ascanius, i fab ynteu, a wnaethpwyd yn frenhin. A gwedi dyrchafel Ascanius ar frenhinawl gyfoeth, ef a adeilwys ddinas ar afon Tiberis, a mab a aned iddaw; ac y rhodded arnaw enw, Silvius. A'r gwas hwnnw...gordderchu a orug nith i Lavinia a'i beichogi. A gwedi gwybot o Ascanius, i dad ef, hynny, erchi a wnaeth o'i ddewinion ddywedud iddaw pwy a feichogassei y forwyn. A gwedi dewinaw o naddunt, a chaffel diheurwydd o'r peth hwnnw, wynt a ddywedassant fod y forwyn yn feichawg ar fab a laddei i fam a'i dad; a gwedi darffei iddaw dreiglaw llawer o wladoedd y ddayar, o'r diwedd y deuei ar flaenwedd goruchelder anrhydedd. Ac ni thywyllwys eu dewindabaeth wynt, kanys doeth eu dewindabaeth." O blegid bu ei fam farw pan anwyd ef; a lladdodd yntau ei dad trwy ddamwain wrth anelu saeth at garw. Y mab hwnnw oedd Brutus; "a gwedi marw i dad o'r ergid hwnnw, y deholes gwŷr yr Eidal Frutus; kan (n)yt oedd deilwng gymryd yn frenhin arnynt gŵr a laddei gyda fan kymeint a lladd i fam a'i dad." Aeth Brutus yna i dir Groeg, ac wedi ei "ddyrchafel yn dywyssawg gweddillion cenedl Droea," bu'n ymladd â Phandrassus brenin Groeg, ac yn "treiglaw llawer o wladoedd," nes arwain y gweddillion hynny i Ynys Prydain, a dyfod "ar flaenwedd goruchelder anrhydedd." Ac yna "y mynwys Brutus galw yr Ynys o'i enw ef Bryttaen, a'r genedl yn Frytanieid; ac o hynny allan, y ieith a elwid gynt Ieith Dro, neu Gamroeg, a elwid wedi hynny Brytaen." Bu i Frutus dri meib, a'u henwau Locrinus, Kamber, Albanactus; a rhannwyd y deyrnas rhyngddynt; ac enwyd y traianau ar eu holau, sef, Lloegr, Cymru, a'r Alban.

Dyma un o'r traddodiadau hynaf ar gael am wladeiddiad Ynys Prydain; ac y mae'n un o'r esamplau goreu a ellid ei gael i ddangos pa fodd y tŷf chwedloniaeth a thraddodiadau. Tybia rhai, fod chwedlau fel hyn yn wir; tybia eraill, mai celwyddau noeth ydynt, o ddyfais gwŷr

* Rhys ac Evans, *The Text of the Bruts.*

segur neu anonest. Nid cywir yr un o'r ddau olygiad. Yn hytrach, ffrwyth damcaniaethau ieithegol anaddfed yn bennaf yw 'r chwedlau hyn. Un o arferion mwyaf cyffredin yr hen ieitheg honno oedd ceisio tarddu enw lle o enw dyn; felly, fe dybiodd rhywun mai o'r enw *Brutus* y ceid yr enw Brydain, neu Bryttaen; yna fe dybiwyd mai Brutus oedd arweiniwr cyntaf y "Brytanieid" i'r ynys hon. Coffid chwedl y Rhufeiniaid am eu tarddiad hwy; a thyfodd y chwedl yn naturiol, heb yn wybod i neb. Anghofiwyd mai damcaniaeth ieithegol oedd gyntaf wrth ei gwraidd; a derbyniwyd hi fel gwir traddodiadol. Hawdd yw gweled, fel y dengys y Proffeswr Rhys yn y Rhagarweiniad i'r Brut hwn a geir yn y gyfrol y dyfynnwyd o honi, nad yw Locrinus, Kamber, ac Albanactus, ychwaith ond enwau chwedlonol a ddyfeisiwyd yn y dull hwn oddi wrth enwau 'r lleoedd. Engraifft arall bur darawiadol yn y dyfyniad uchod o ddull yr hen ieitheg yw camlunio'r gair *Cymraeg* yn *Camroeg*, er mwyn dangos mai *Groeg cam*, hynny yw, *Groeg Tro* ('the Greek of Troy') ydyw'r *Gymraeg*. Ofer fuasai gofyn i'r hen chwedlonwyr hyn, pa fodd, os tardd *Cymru* o'r enw 'Camber,' y tardd *Cymraeg* o 'Gam Roeg.' Yr un ffunud, o'r dyb mai'r gair Cymraeg *tro* yw gwreiddyn yr enw *Troja* y tarddodd y traddodiad Cymreig fod o gylch Caer Droea saith mur yn drofeydd fel y canlyn; y ddinas yn A, a'r porth yn B:—




Y mae'n ddiameu mai un o'r traddodiadau hynaf yw a ganlyn, a geir yn "Enweu Ynys Prydein a'i rhag ynyssedd" yn y *Llyfr Coch*:— "Kyntaf enw a fu ar yr ynys honn, kynn no'i chael na'i chyfanheddu, Clas Myrddin; a gwedi i chael a'i chyfanheddu y Fel Ynys; a gwedi i goresgynn o Brydein fab Aedd Mawr, y doded arnei Ynys Prydein."[a] Y mae 'r enw *Clas Myrddin* yn cyrraedd yn ol i chwedloniaeth baganaidd y Cymry;[b] ond y mae *y Fel Ynys* yn debyg i lygriad o *Inis Fál*,[c] enw Gwyddelig chwedlonaidd ar yr Iwerddon; a dilys nad yw *Prydain*, y dyn, ond ffrwyth ymgais i gyfrif am yr enw hwn ar ein hynys. Y mae llai o waith ieitheg ar chwedl Prydain nag ar un Brutus, a llai o ol ysgolheigdod clasurol; ac fe allai ei bod yn hŷn.

Ond diweddarach na'r un o'r ddwy, ac megys helaethiad o'r olaf, ydyw a ganlyn o'r *Trioedd*, y drydedd gyfres yn y *Myvyrian*:[d]—"Triphost Cenedl Ynys Prydain:—Cyntaf, Hu Gadarn a ddaeth a Chenedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain, ac o Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, y daethant; sef y lle mae Constinoblys: a thrwy For Tawch y daethant hyd yn ynys Prydain a Llydaw, lle ydd arhosasant. Ail, Prydain ab Aedd Mawr, a wnaeth Wladoliaeth a Theyrnedd gyntaf ar Ynys Prydain, a chynn no hynny nid oedd o Iawn namyn a wnelid o Addwynder, na Deddf namyn y trecha treisied. Trydydd, Dyfnwal Moelmud, ac efe a wnaeth Ddosparth gyntaf ar Gyfreithiau, a Deddfau, a Defodau, a Breiniau Gwlad a Chenedl: ac achaws y pethau hynny eu gelwid hwynt yn Dri phost Cenedl y Cymry." Yma y mae Hu Gadarn wedi cymeryd lle Brutus, a Phrydain ab Aedd Mawr wedi ei osod yn ail i Hu. Ni cheir enw Hu Gadarn yn ein llenyddiaeth hynaf. Ni welir mo hono yn y *Brutiau* na'r *Mabinogion;* nac yng ngweithiau'r beirdd cyn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ymddengys mai o ryw chwedl Ffrengig y daeth Hu Gadarn gyntaf i'n llenyddiaeth—chwedl a ysgrifennwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac a gyfieithwyd i'r Lladin, ac yna i Gymraeg. Gwel Hu Gadarn.

Yn y bymthegfed ganrif, a'r unfed-ar-bymtheg, fel y deuai'r Cymry i wybod mwy am y Beibl, naturiol oedd ymholi, o ba un o feibion Noah, tad dynolryw, y tarddodd eu cenedl hwy; ac onid oedd yr ateb wrth law? "Canys," fel y dywed awdwr *Drych y Prif Oesoedd*, "nid oes ond y dim lleiaf rhwng Cymro a Gomero, fel y gall un dyn, ïe, â hanner llygad, ganfod ar yr olwg gyntaf." Dyma ddamcaniaeth ieithegol eto a dyfodd yn draddodiad, nes peri i'r awdwr hwn adrodd, ar ol Pezron, fod "croniclau yr hen oesoedd" yn tystio'r peth; ac y mae hynny mor chwedlonol a'r chwedl ei hun. Y peth tebycaf i dystiolaeth o hono mewn hen awdwr, ydyw'r sylw a wna Josephus fod y Galatiaid yn tarddu o Gomer, ac y gelwid hwynt ar ol y diluw yn Omeriaid. Ymddengys hyn mor ddisail a'r hyn a ddywed yr un awdwr am feibion Gomer—mai'r Rheginiaid, y Paphlagoniaid, a'r Phrygiaid, oedd meibion Aschanax, Riphah, a Thrugramma; ac y gelwid hwynt gynt yn Aschanaxiaid, Ripheaid, a Thrugrammeaid. Pa fodd bynnag, y mae hyn yn sicr, na chlybuwyd erioed sôn yng Nghymru am Gomer yn dad y genedl cyn y bymthegfed ganrif, y fan bellaf; ac mai o'r tebygrwydd sydd rhwng yr enwau y tarddodd y chwedl. Ac y mae deddfau ieitheg yn profi'n ddilys, ddiddadl, nad oes un dichon fod dim perthynas rhwng y gair *Cymro* a'r enw *Gomer*, mwy na rhwng Brutus a Phrydain, neu rhwng Ammon ac Ynys Môn.

Aeth y ddamcaniaeth mai Gomer oedd tad y Cymry yn chwedl; aeth y chwedl yn draddodiad; ac yna fe'i nyddwyd i'r hen draddodiadau. Ceisiwyd gwneyd Hu Gadarn yn ŵyr i Gomer; a rhag colli'r chwedl Droeanaidd, dywedwyd mai ail ymfudiad i Brydain oedd un Brutus, ac mai'r un teulu oedd gwŷr Caer Droea a Chymry Hu Gadarn. Felly, fe gadwyd Gomer, a Hu, a Brutus; ond nid oedd angen mwyach am Camber, o blegid nid oddi wrth fab Brutus, ond oddi wrth daid Hu, y cafodd y Cymry eu henw. Ceisiodd y Celtig Ddafis nyddu rhagor o enwau chwedlonol Rhufeinig a Groegaidd i'r cymmysg Cymreig-Ffrengig-Lladin-Hebreig; a pharhawyd y dull hwn o geisio creu hanes o draddodiadau hyd yn bur ddiweddar, a danghosir ei ffrwyth olaf yn y tabl a ganlyn:—

[a] Rhys ac Evans, *The Text of the Mabinogion*, td. 309.
[b] Gweler Rhys, *Hibbert Lectures*, td. 168.
[c] *H.y.*, Ynys Gwawl.
[d] Argraffiad Dinbych: td. 400.

Digitized by Google




Bu 'r chwedl Omeraidd fyw yn hir ar ol marw'r lleill; ac y mae rhai yn barod i'w hamddiffyn eto, er cydnabod, gyda ninnau, nad oes dim perthynas rhwng y geiriau *Cymro* a *Gomer*. "Cydnabyddwn," meddant, "mai tebygrwydd damweiniol yr enwau hyn i'w gilydd a awgrymodd y ddamcaniaeth; ond ar wahân i'r tebygrwydd hwnnw, onis gall fod iddi wirionedd yn sail?" Yn y lle cyntaf (dyfynnwn eiriau Dr. Marcus Dods[a] ar y ddegfed bennod o Genesis): "Y mae 'n amlwg, fel y dywed Awstin, mai 'cenhedloedd, ac nid dynion,' a olygir wrth yr enwau yn y rhestr hon. Gosodir hyn allan yn rhagorol gan y Canon Rawlinson mewn llyfr a ysgrifennodd er mwyn profi ysbrydoliaeth eiriol yr Ysgrythyr: 'Y mae'r amser wedi pasio' (meddai) pryd na welid dim mwy yn y rhestr enwau sydd yn y bennod hon na chasgliad o deitlau personol, enwau priod personau unigol. Nis gall neb ddarllen y dernyn canlynol yn sylwgar, hyd yn oed yn ei wisg Seisnig, heb ganfod fod bryd yr ysgrifennydd ar ystyried cysylltiad cenhedloedd, yn hytrach na chyfathrach personau:—'Canaan hefyd a genhedlodd Sidon ei gyntafanedig, a Heth, a'r *Jebusiad*, a'r *Amoriad*......ac wedi hynny yr ymwasgarodd *teuluoedd y Canaaneaid;*' *adn*. 15—18. Fe wêl yr ysgolhaig Hebraeg yr un peth ymhell cyn cyrraedd y dernyn hwn; oblegid fe sylwa fod ffurfiau'r enwau, mewn llawer man, yn lliosog (Madai, Kittim, Dodanim, Ludim, Anamim, etc.): ac yn arbennig, mewn un man, fe genfydd ffurf ddeuol, a adnebydd efe ar unwaith fel enw gwlad neu bobl. Mizraim (*adn*. 6) ydyw'r enw a gyfieithir ym mhobman arall drwy'r Ysgrythyr yn *Aipht*. Ei ystyr, yn wir, ydyw y *ddwy Aipht*—yr uchaf a'r isaf.' Pan ddarllenwn, gan hynny," ychwanega Dr. Dods, "mai 'meibion Japheth oedd Gomer, a Magog, a Madai,' &c., yr ydym i ddeall wrth hyn fod y cenhedloedd a adnabyddir wrth yr enwau hynny yn perthyn yn agosach i'w gilydd nag i genhedloedd eraill. Yn union fel pe dywedasem fod Awstralia a Chanada yn feibion Lloegr. Y mae *adn*. 5, 20, a 32, yn dangos cywirdeb yr esboniad hwn." Yn y lle nesaf hefyd, ni enwir yma ond cenhedloedd adnabyddus i'r Israeliaid. Pa fodd y gall fod gan neb enw ar y peth nas gŵyr? Ac heb law hynny, cydnebydd pawb nad yw ysbrydoliaeth sanctaidd yn ychwanegu dim at wybodaeth *fydol* dyn. Nid oes un awgrym yn y Beibl mai cron yw'r ddaear. Ysgrifenna pob awdwr o fewn terfynau ei wybodaeth fydol ei hun, ac ofer yw apelio at y Beibl am brofion o wirioneddau gwyddonol. Y mae iddo amcan uwch na dysgu gwyddoniaeth, ac amcan gwahanol iawn. Y mae'r bennod hon yn gofrestr dra gwerthfawr o genhedloedd yr hen fyd; ond y mae esbonwyr er ys talm yn cydnabod yr hyn a ddadleuwn ni yma, na chynhwysir ynddi enwau cenhedloedd oedd y pryd hynny megys allan o'r byd.[a]

Ac nis gwyddom yn iawn eto pa genedl a olygir wrth bob enw yn y rhestr; ac hyd yn oed pe gwybyddem hynny'n llwyr, ni buasem fawr nes i wybod pwy yw eu hiliogaeth yn ein dyddiau ni, heb dystiolaeth ddiamwys hanes neu ddyneg. Nid yw tebygrwydd enwau yn profi'r nesaf peth i ddim. Wrth 'ddyneg' y golygwn yr hyn a eilw'r Saeson yn *anthropology;* sef, y wyddoniaeth honno a ymdrinia â gwahaniaethau pryd a gwedd dyn, a'i faintioli, dull ei aelodau, ac yn enwedig lun ei ben. Y mae dyneg hen wledydd y Dwyrain yn dechreu cael ei dadlennu i ni yn hen demlau'r Aifft. Yno, ceir darluniau o wŷr yr hen genhedloedd wedi eu cerfio a'u paentio filoedd o flynyddoedd yn ol gan grefftwyr medrus, a hynny'n uniongyrchol *from life*. Y mae eisoes yn yr Amgueddfa Brydeinig fodelau o gant a hanner o'r rhai hyn

[a] '*Handbooks for Bible Classes:—Genesis*.'

[a] Gweler, er engraifft, '*Critical Commentary*,' 1871.

o deml Karnak; a gwyddom oddi wrthynt fod yr Hethiaid yn genedl Fongolaidd, felyngroen, ac yn gwisgo llosgwrn mochyn, fel gwŷr Catai; fod yr Amoriaid yn genedl bryd goleu, lygadlas, hirben, fel y Teutoniaid, ac yn torri eu gwallt yn fyr. Ond nid yw'r goleuni hwn ar hen genhedloedd y dwyrain ond yn dechreu tywynnu eto.

Tybir yn gyffredin mai'r Cimmeriaid a olygir wrth yr enw Gomer. Os gwir hynny, pwy a brawf fod a wnelo'r Cymry ddim â'r Cimmeriaid? Prawf deddfau ieitheg Geltaidd yn ddiymwad nad oes a wnelo'r ddau *enw* ddim â'u gilydd. Tybia Dillman mai'r Cappadociaid yw Gomer; ond fel y sylwasom, dywed Josephus mai'r Galatiaid ydynt. Nid oes yr un awdurdod yn awr a gytuna â damcaniaeth Josephus. Yn wir, yn y flwyddyn 280 C. C. y daeth y Galatiaid i Asia Leiaf gyntaf, gan ddwyn rhuthr ar rai talaethau yno; ac yr oedd hynny'n rhy ddiweddar i'w henwau fod yn Genesis. Pa reswm oedd gan Josephus dros ddweyd y gelwid hwynt gynt yn Omeriaid (os oedd ganddo reswm) nid yw 'n hysbys. Fe allai mai Cimbri oedd y Galatiaid; oblegid *gall* mai Celtiaid oedd y Cimbri; er nad oes, fel y dywed y Proff. Rhys,[a] "ddim cysylltiad rhwng yr enwau Cimbri a Chymry, er gwaethaf yr hyn y parhâ coegddysgedigion i'w ddweyd i'r gwrthwyneb." Mewn un gair, nid oes dim i brofi perthynas rhwng y Cymry â Gomer, ac ni wyddys pwy oedd Gomer. Dywed y Proff. Sayce,[b] wrth sôn am ryw ddamcaniaeth fwy di-sail na'i gilydd, ei bod "yn adgoffa i ni ddamcaniaethau cenedlegol yr oes o'r blaen, a wnae'r Cymry a'r Cimbri yn un, ac a darddai'r ddau o Gomer."

Y mae ieitheg, erbyn hyn, bron yn wyddoniaeth fanwl. Nid tebygrwydd arwynebol yn y sain a brawf berthynas rhwng geiriau. Cyfnewidia geiriau yn y gwahanol ieithoedd yn ol deddfau yr ieithoedd, a rhaid i bob llythyren gyfateb i'w llythyren cyn y gellir profi perthynas dau air. Ac yn aml, y mae deddfau'r gwahanol ieithoedd mor wahanol, nes peri bod dau air hollol annhebyg i'w gilydd mewn dwy iaith wahanol, yn tarddu o'r un gwraidd. Ni thybiasai neb fod y gair *pump* a'r gair *five* yn perthyn i'w gilydd; ac eto, tarddant yn rheolaidd, yn ol deddfau gwahanol y Gymraeg a'r Saesneg, o'r un gwreiddyn (gweler td. 52). Ac er mwyn i enw a arferid yn amser y Rhufeiniaid fod yr un ag enw a arferir yn Gymraeg heddyw, rhaid i'r gwahaniaeth rhyngddynt fod yn union y gwahaniaeth a gynhyrchid gan y deddfau a gyfnewidiodd eiriau'r Gymraeg o'r hyn oeddynt yn yr adeg honno i'r hyn ydynt heddyw. A'r deddfau hyn a wyddom. Yn awr, os cyfeiria'r darllennydd at ein disgrifiad o'r deddfau hyn yn ein herthygl ar yr IAITH GYMRAEG, fe wel y buasai *Combrogai* yn amser y Rhufeiniaid yn cyfateb, lythyren am lythyren, i'r gair *Cymry* mewn Cymraeg diweddar. Ac y mae 'r gair *Allobrogai*,[c] neu *Allobroges*, yn adnabyddus i ddarllenwyr Cesar fel enw ar dylwyth Celtaidd. Dyfynna'r Proffeswr Rhys esboniad ar y gair hwn o scholiast hynafol ar *Juvenal*, viii. 233: — "Yr Allobrogai, Galiaid ydynt. Gelwid hwynt *Allobrogai* oblegid *brogai* y geilw'r Galiaid 'wlad;' *alla* hefyd y galwant 'arall;' a gelwid hwynt *Allobroges* o herwydd eu cludo o le arall."[a] Mewn Cymraeg diweddar, *Allfro*, *Allfry*, a fuasai *Allobrox*, *Allobrogai*; a *bro* ydyw'r hen air *broga*. Fel y dengys y Proff. Rhys, y mae yng Ngwyddeleg ddwy ffurf, *mruig* a *bruig*, ar y gair *broga*; a phrawf hynny, mai *m* oedd y gydsain wreiddiol, ac fod y gair o'r un gwreiddyn a'r gair Saesneg *march*, ac â'r gair Almaeneg *mark*, 'ffin' neu 'fro.' Fe allai, hefyd, fod y Lladin *margo*, 'ymyl' neu 'ffin,' yn tarddu o'r un ffynhonnell; a thybia'r Proffeswr Rhys mai *mrg* oedd y gwreiddair cyntefig, o blegid y mae'r llafariad yn wahanol yn y gwahanol ieithoedd. Yn wir, yn ein hiaith ni, y mae dwy lafariad, *o* ac *a* (fel yn *troed*, *traed*); oblegid, tra mai *Combrox*, *Combrogai*, y rhaid bod hen ffurfiau *Cymro* a *Cymry*, rhaid mai *CombrAgista*, *CombrAgica* oedd hen ffurfiau *Cymraes* a *Cymraeg*. Ystyr y gair *Cymro*, gan hynny, yw 'cydwladwr,' megys ag mai ystyr *Allfro* yw 'alltud' Ac yn lle bod yr enw *Cymro* yn ymestyn i eithaf hynafiaeth, yn ol y syniad Gomeraidd, y mae hanes yn profi'n eglur mai enw hytrach ddiweddar yw. Nid oedd sôn am dano pan laniodd y Rhufeiniaid yn yr ynys. 'Brittones' oeddym y pryd hynny; ac ym mhen rhai canrifoedd wed'yn, pan aeth Cymry Llydaw oddi yma i Ffrainge, 'Brittones' oeddynt; a 'Bretons' ydynt hyd heddyw. Ac yn lle bod y Cymry yn hannu o un llin, cenedl gymmysg ydynt, fel y dangoswn eto; a gofidus yw hanes eu hannyundeb. A thebyg yw, mai wedi i'r Saeson eu gyrru, drwy help hwnnw, i gonglau'r ynys, yr ymunasant yn benderfynol i'w gwrthsefyll — yn *gydwladwyr* mwyach, yn Gymry. Ni ddiffoddodd y teimlad gwladgarol yn llwyr wed'yn, ac ni chollwyd yr enw; a chan ba genedl y mae enw ardderchocach—'CYDWLADWYR,' 'CYMRY?'

Y mae llawer i'w ddysgu am hynafiaeth cenhedloedd oddi wrth enwau, ond cymmhwyso atynt brofion ieitheg; ond y mae mwy i'w ddysgu oddi wrth ieitheg yn gyffredinol, perthynas y gwahanol ieithoedd â'u gilydd a'u hanes, ac oddi wrth ddyneg hynafiaethol a chenhedleg. Ond cyn gadael yr enwau, gall un sylw neu ddau fod o les yma. Dylid crybwyll mai yr un gair yn union yw *Cymru*, enw'r wlad, a *Chymry* enw'r bobl. Ysgrifennid y ddau yn y canoloesoedd yn *Cymry*. Y mae *Cymru* yn ddull cyfleus i wahaniaethu enw'r wlad; ond na thybier fod gwahaniaeth gwreiddiol rhwng y ddeuair. Os edrychir ein herthygl ar yr IAITH GYMRAEG fe welir fod *Brittones* y cyfnod Rhufeinig yn troi yn berffaith reolaidd yn *Brython* mewn Cymraeg diweddar; felly hefyd *Brydain* mewn Cymraeg diweddar a gyfettyb i *Britannia* y cyfnod Rhufeinig. Ond pa fodd yr aeth y *B* yma yn *P?* Tybiwn mai a ganlyn ydyw'r rheswm:—Arferir y gair ar ol y gair 'ynys' bob amser bron, mewn hen Gymraeg: a phan ddilynid gair benywaidd gan air arall mewn cysylltiad agos âg ef, dechreuai'r ail yn gyffredin â'r gydsain feddal, megys *Llan Fair*. Ond terfynai'r gair *ynys* yn y cyfnod Rhufeinig â chydsain, fel na feddalodd y *B* ar ei ol, a dywedid Ynys Brydain; ac yna tybiwyd mai'r feddal oedd y *B*, ac mai *Prydain* oedd yr enw cynhenid. Fe allai mai eglurach fydd y peth o

[a] '*Celtic Britain:*' td. 279.

[b] '*Hibbert Lectures.*' 1887. td. 436.

[c] Ysgrifenir yr *ai* Geltaidd a Groegaidd yn *ae* yn Lladin.

[a] '*Cel. Brit.*,' td. 278: — "Allobrogae Galli sunt. Ideo autem dicti Allobrogae quoniam *brogae* Galli agrum dicunt, *alla* autem aliud; dicti autem Allobroges quia ex alio loco fuerant translati."

Digitized by Google

ddyfynnu engraifft gyffelyb oddi ar lafar gwlad:—o herwydd mai *dynes grand* a ddywedir, tybir mai *dyn crand* sydd iawn. Y mae'r engreifftiau hyn o gaiedu cydsain flaen mor gyffredin nes mai prin, feallai, y rhaid tybied, fel y gwna'r Proff. Rhys, mai gair gwahanol yw *Prydain*, i'w gysylltu â'r gair *Prydyn*—hen enw'r Alban. Ond diameu, fel y dengys efe, mai camsillebiad a chamgynhaniad y Rhufeiniaid oedd *Britannia* âg un *t;* er ei fod wedi cymeryd lle'r enw cywir, hyd yn oed yn Gymraeg; oblegid try *tt* y cyfnod Rhufeinig yn *th* mewn Cymraeg diweddar, a thry *t* yn *d*. Ond y mae enw cywir y bobl yn aros—*Brittones, Brython*. Tybir yn gyffredin mai o'r un gwraidd a'r gair *brith, braith*, y tardd yr enw hwn; ac mai o herwydd lliwio'u cyrff y galwai'r Brython eu hunain felly. Ond cyfettyb *brith* i'r gair Gwyddeleg *brecht;* yr hyn a ddengys mai *bret-* oedd y gwreiddyn, ac nid *brtt-*. "Gyn belled ag y gwyddom," medd y Proff. Rhys, "yr unig eiriau Celtaidd a all fod o'r un tarddiad a'r gair *Brython* ydyw'r gair *brethyn* a'i berthynasau," *bratt* yng Ngwyddeleg. Ac o'r un gwreiddyn Ariaidd y tarddodd y gair Saesneg, *cloth*.[a] Y casgliad naturiol, gan hynny, yw, mai enw ydyw *Brython* a roddodd y Celtiaid arnynt eu hunain fel gwŷr yn gwisgo dillad gweëdig, o'u cyferbynnu â'r trigolion cyn-Geltaidd y daethant ar eu gwarthaf; oblegid prin y gwisgai'r cyn-frodorion hynny ddim, os nad crwyn bwystfilod.

Ond nid drwy gymorth ychydig o enwau priod yn unig, ond drwy holl eiriau'r ieithoedd, yr edrydd ieitheg gymharol i ni hanes anysgrifenedig yr oesoedd boreu. Ym mlynyddoedd olaf y ganrif o'r blaen, yr oedd Syr William Jones yn cymharu'r Sanscrit âg ieithoedd Ewrop, ac arweiniodd hyn i ddarganfyddiad y tylwyth Ariaidd o ieithoedd. Fe welwyd fod yr oll, bron, o ieithoedd Ewrop, ac ieithoedd Persia a'r India, yn perthyn i'w gilydd, ac yn tarddu o un famiaith gyntefig; a thybiwyd fod yr holl bobloedd a siaradai'r ieithoedd hyn yn perthyn yn yr un modd i'w gilydd, ac yn tarddu o un llwyth cyntefig a elwid yn Ariaid. A thrwy gymharu geiryddiaeth yr ieithoedd Ariaidd â'u gilydd, fe welid pa eiriau oedd gan yr Ariaid cyntefig cyn ymwahanu, a pha beth, gan hynny, oedd eu gwareiddiad. Er engraifft:[b]—"Oddiwrth y gair Cymraeg *ych*, lliosog, *ychen;* Llydaweg, *oc'hen;* Saesneg, *ox, oxen;* Sanscrit, *ukshan*—'tarw,' fe welir fod gan yr Ariaid cyntefig air *uksan* am ych neu darw; ac oddiwrth y gair Cymraeg *bu, buw, buwch;* Gwyddeleg, *bó;* Lladin, *bôs;* Groeg, *βοῦς*; Saesneg, *cow;* Sanscrit, *go;* fod ganddynt air *grau* am fuwch neu ych; am hynny, y mae'n amlwg eu bod yn gynefin â da corniog. Yn yr un modd gellid dangos fod ganddynt geffylau, defaid, geifr, moch, a chŵn. Trigent, nid mewn pebyll, ond mewn math o dai â drysau iddynt [Cymraeg, *dor, drws;* Gwyddeleg, *dorus* (lle mae *-us*, *-us*, feallai, yn cynrychioli gair coll o'r un gwreiddyn a'r Lladin *ostium*); Groeg, *θύρα*; Saesneg, *door;* Sanscrit, *dvâra*]; a gwyddent pa fodd i gynneu [Cymraeg, *ennyn;* Sanscrit, *indh*, = 'ennyn,' *indhana* = 'tanwydd'] tanau yn ddynt. A'r tanau hyn y berwent eu crochanau [Cymraeg, *pair;* Gwyddeleg, *coire;* Sanscrit, *caru*]: ac yn y crochanau y coginient ac y trôent fath o gawl neu uwd:—Cymraeg, *uwd;* Llydaweg, *iot;* Hen Wyddeleg, *ith;* Lladin, *jûs* = 'cawl;' Groeg, *ζωμός* = 'cawl;' Lettaeg, *jaut* = 'troi blawd mewn dwfr;' Hen Fulgaraeg, *jucha* = 'cawl;' Sanscrit, *yûs, yûsha* = 'potes, cawl.'"

Rhennir ieithoedd y tylwyth Ariaidd yn deuluoedd; ac yn ol y rhaniad manaf y mae o honynt naw teulu yn fyw; sef, yr Indiaidd, yr Iranaidd (neu Bersiaidd), yr Armeniaidd, yr Hellenaidd (neu Roegaidd), yr Italaidd, y Celtaidd, y Teutonaidd, y Lettaidd, a'r Slavonaidd. Heblaw y rhai hyn, y mae amryw deuluoedd wedi meirw, megys y Phrygiaidd, y Daciaidd, yr Illyriaidd. Gyn belled yn ol ag y cluda hanes ni, cawn fod llefarwyr yr ieithoedd hyn yn trigo fel y canlyn:[a]—y Celtiaid yng ngogledd a dwyrain Ffraine, ac o gylch y Rhein, ac yn Switzerland; y Teutoniaid yng ngogledd yr Almaen, o gylch yr Oder a'r Elbe; y Lettiaid tua'r dwyrain iddynt, o gylch y Vistula; a'r Slavoniaid o gylch y Dnieper uchaf, gyn belled tua'r dwyrain a'r Don; yr Italiaid yng ngogledd yr Eidal, a'r Helleniaid yn nhir Groeg; yr Armeniaid yn Asia Leiaf, yr Iraniaid ym Mhersia, yr Indiaid yn yr India. Dengys y darlun ar *dudal*. 50 hen safleoedd y cenhedloedd hyn yn eu perthynas â'u gilydd. Tybiwyd yn hir mai canolbarth Asia oedd cartref cyntefig yr Ariaid, ac i ddau dylwyth o honynt fudo tua'r deheu i India a Phersia, a'r tylwythau eraill tua'r gorllewin i Ewrop; oblegid yr oedd hen draddodiadau yn sôn am Asia fel cartref y ddynolryw, ac yr oedd syniad yn bod fod gwareiddiad (am ryw reswm nad esbonid) yn cerdded yn yr un cyfeiriad a'r haul. Heb law hynny, fe welid fod y Sanscrit, mamiaith y teulu Indiaidd, a'r Zend, mamiaith y teulu Persiaidd, yn debycach i famiaith yr holl dylwyth Ariaidd, nag oedd yr un o ieithoedd Ewrop; gan hynny, cesglid fod yr Indiaid a'r Persiaid yn burach Ariaid na chenhedloedd Ewrop, ac yn trigiannu yn agosach i'w cartref cyntefig. Yn 1851, meiddiodd Dr. Latham wadu hyn. Dywedodd fod y Lettaeg yn perthyn yn agos i'r Sanscrit, a'i bod mor hynafol a hithau; ac am y rhesymau eraill, sef fod cryd y ddynoliaeth yn y dwyrain, a bod gwareiddiad yn dilyn yr haul, nid rhesymau oeddynt, ond gosodiadau ammhrofedig: a phe gwrthodem hwynt, pa un sydd debycaf, gan fod corff mawr yr Ariaid yn Ewrop, a dyrnaid yn Asia, ai i'r cyfangorff hwn adael y dyrnaid, ai i'r dyrnaid adael y cyfangorff? Nid atebwyd mo'i ddadl; er hynny, glynwyd wrth yr hen syniad. Y cyntaf i'w ameu wedi hynny oedd y Proff. Whitney, yn 1867; ac yn y flwyddyn ganlynol, dadleuodd Benfey o blaid Ewrop, gan ddangos fod yr Ariaid cyntefig yn gynefin âg anifeiliaid a phlanhigion Ewropaidd, tra nas gwyddent am y teigr, na'r llew, na'r palmwydd. Yn 1871, ymddanghosodd llyfrau Geiger a Cuno o blaid y syniad newydd; ac yna y daeth y pwnc yn gwestiwn dadl: a dadleuwyd yn frwd am ddeuddeng mlynedd, hyd nes yr ymddanghosodd dau lyfr pwysig wed'yn yn 1883, yr eiddo Karl Penka, yn ymdrin â'r mater o'r ochr ddynegol, a gwaith mawr Dr. Schrader yn ymdrin âg ef o'r ochr ieithegol; ac erbyn hyn, ychydig yw'r ysgolheigion sydd yn dal at yr hen syniad. Achosion pennaf y cyfnewidiad hwn, fe allai, fu darganfyddiadau'r gwyddoregau

[a] Cyfettyb *b* Gymraeg i *c* Saesneg. Gweler td. 51.
[b] '*Lectures on Welsh Philology*,' y Proff. Rhys, td. 7.

[a] Gweler fapiau Asia ac Ewrop yn y gyfrol I. a'r IV.

newydd—daeareg, dyneg, a hynafiaeth gyn-hanesyddol. Medd y Canon Isaac Taylor, "Y dyb nad oedd dyn ond trigiannydd cymharol ddiweddar ar y ddaear, y gred draddodiadol mai Asia oedd cryd yr hil ddynol, a'r syniad mai yr un oedd yr Ariaid a meibion Japheth—yr oedd yn rhaid ail ystyried y pethau hyn pan ganfuwyd fod dyn wedi trigo yng Ngorllewin Ewrop mewn oesau tu hwnt i'r traddodiadau hynaf; ïe, fe allai, cyn diwedd cyfnod diweddaf y rhew mawr." Yr oedd yma, beth bynnag, yn fuan ar ol ciliо'r rhew; ac yr oedd hynny, yn ol syniadau Dr. Croll a'r Proffeswr Geikie, tua phedwar ugain mil o flynyddoedd yn ol. Os oedd dyn yn Ewrop mor foreu a hynny, pa ham y rhaid myned i Asia i chwilio am ein hynafiaid ni?

Er mai'r gwyddoregau hyn a wnaeth fwyaf at benderfynu 'r pwnc, y mae ieitheg wedi gwneyd ei rhan—ac ieithegydd a awgrymodd y peth gyntaf. Dengys ieithegwyr yn awr fod ieithoedd Ewrop yn cadw'r seiniau cyntefig yn well na'r Sanscrit. Yr unig reswm paham y tybiwyd mai yn y Sanscrit yr oeddynt buraf oedd, fod gennym ysgrifeniadau hŷn yn y Sanscrit nag yn yr un o ieithoedd Ewrop; a beth pe ceid ysgrifau Celtaidd, neu Roegaidd, o oed y *Rig Veda?* Erbyn olrain ieithoedd Ewrop yn ol, fe welir mai hwy sydd buraf. Sylwer ar y tablau ar *dudal.* 51 a 52:—y mae'r iaith Ladin yn agosach at y famiaith Ariaidd, yn ei seiniau, na'r un o'r lleill. Ieitheg hefyd a ddengys i ni ddull yr Ariaid cyntefig o fyw. Gwyddom mai bugeiliaid hanner crwydredig oeddynt; gwyddom hefyd amcan pa beth oedd o'u hamgylch; a hynny, yn bennaf, a brawf ym mha le y trigent. Er engraifft, y mae enw'r 'ffawydden' gan y Teutoniaid (Hen Uchel Almaeneg, *buohha;* Anglo-Saxon, *bóce;* Saesneg, *beech*); yr Italiaid (Lladin, *fâgus*), a'r Groegiaid (Groeg, φηγός—'derwen'); eithr gair dieithr sydd gan y Lettiaid arni; a gair (*buky*) wedi ei fenthyca oddi ar y Teutoniaid sydd gan y Slavoniaid; ac ni cheir y gair gan y Persiaid na'r Indiaid. Ni thyf y ffawydden y tu dwyreiniol i linell a dynnid o Königsberg i'r Crimea; am hynny, rhaid fod cartref y Lettiaid a'r Slavoniaid, a'r Persiaid, a'r Indiaid, y tu draw i'r llinell honno, a chartref y lleill y tu yma iddi; ac i'r Groegiaid roi enw'r ffawydden ar y dderwen pan symudasant y tu draw i ffin ddeheuol y ffawydden; canys ni thyf hi yn nhir Groeg. Y mae lle, medd Dr. Schrader, a allai gynnal y bywyd bugeiliol crwydredig, ac a gyflawna bob un o'r amodau gofynnol. "I'r gogledd o'r Pontus a'r Mor Caspian ymleda arwyneb cymaint ddwywaith a Ffrainc, bro *steppes* deheudir Rwsia, ac o'r dwyrain iddi *steppes* a diffeithdir anfesurol yn cyrraedd mynyddoedd canolbarth Asia, o'r gogledd wlad fynyddig goediog canolbarth Rwsia, ac o'r gorllewin fynyddoedd coediog y Carpathiaid." Oddiyno hefyd, medd efe, y gellir esbonio oreu symudiadau'r gwahanol lwythau Ariaidd. "Yn y goedwig hynafol ac anhydraidd bron a guddiai, yn yr adeg honno, nid yn unig gefn, ond aelodau'r cyfandir, rhaid mai gwelyau'r afonydd a glannau'r moroedd oedd unig a derbyniol arweinyddion y lluoedd yn eu blaen. Ac o ba ran o Ewrop yr arweinia mwy o'r ffyrdd hyn, ac i fwy o gyfeiriadau, nag o'r lle a hawliasom yn fan cysylltiad cynhanesyddol pobloedd Ewrop? Gallasai'r Slavoniaid a'r Lettiaid ddilyn y Dnieper, a chyrraedd eu cartref ar ganol cwrs yr afon, neu yn hytrach, o'r gogledd i'r Pripet. Gallasai'r Teutoniaid ddilyn cwrs y Dniester, gadael y môr tua'r deheu, a chroesi i ardaloedd yr Oder a'r Vistula. Aethai Illyriaid a Thraciaid hyd lannau'r Pontus, a phoblogent ogleddbarth gorynys y Balkan, ac oddi yno gyrrent lwythau cyfathrachol (Phrygiaid ac Armeniaid) i Asia Leiaf. Trwy eu rhengoedd torrodd pobl ryfelgar y Groegiaid i'w cartrefi wrth droed Olympus, lle yr arhosodd y Macedoniaid yn ddiweddarach. Tylawn i'r Italiaid a'r Celtiaid ddilyn cwrs y Danube, a pharhau gyda'u gilydd am amser maith. A gellir tybied iddynt basio trwy gyfnod Eidal-Geltaidd, gan ei bod yn dyfod bob dydd yn fwy tebyg bod eu hieithoedd yn perthyn yn agos i'w gilydd. Gallasai 'r afon Slav ddangos y ffordd i'r Italiaid i'r Eidal; ond aeth y Celtiaid yn uwch i fyny'r Danube, a chroesasant i welyau'r Maine a'r Rhein ganol, lle y cawn hwynt yn eu cartrefi hanesyddol hynaf. Yma daeth cysylltiadau newydd i'w rhwymo wrth y Teutoniaid, oedd erbyn hyn yn gymydogion iddynt."* Gallasai'r Indiaid a'r Iraniaid hefyd gychwyn o'r un fro gyntefig ar hyd y *steppes* am ddyffryn yr Oxus a'r Jaxartes, lle'r oedd eu cartref cynhanesyddol hwy. Seilir y ddamcaniaeth hon, fel y dywed y Dr., ar hanes gwareiddiad ac iaith; "a cheir gweled eto pa fodd yr etleithir arni gan ddyneg......a chan ddarganfyddiadau o olion cynhanesyddol yn naear deheubarth Rwsia, wedi eu cael a'u harchwilio'n drwyadl."

Megys ag y cywirodd y gwyddoregau newydd gasgliad brysiog yr ieithegwyr ynghylch cartref boreu yr Ariaid; felly hefyd y cywirodd dyneg un camgymeriad mawr arall a wnaed ganddynt; sef, tybied fod yr holl bobloedd oedd yn siarad yr ieithoedd Ariaidd o un gwaed ac o un genedl. Ni wâd dyneg nas gall dynolryw darddu o un gwreiddyn; eithr dywed nad yw'r Cymro prydgoleu yn perthyn agos i'r Hindŵ pygddu; nad ydynt o'r un gwaed yn ystyr ymarferol y gair. Gall dyn newid ei iaith, ond nid ei deulu. Saeson, o ran iaith, yw gwŷr Cernyw—Cymry o waed. Ac ymysg y bobloedd a sieryd yr ieithoedd Ariaidd y mae amryw genhedloedd; a rhaid fod rhyw un genedl Ariaidd wreiddiol wedi eu gorchfygu oll, a dodi ei hiaith arnynt; ac fe wyddys am orchfygwyr wedi gosod eu hiaith ar genedl orchfygedig, heb adael dim arall o'u hol arni. Er engraifft, "Sieryd y Belgiaid," medd Broca, "iaith Ladinaidd; ond o'r holl genhedloedd a gymysgodd waed â'r Belgiaid, ni adawodd yr un lai o'i hol na phobl Rhufain." Gan hynny, gall fod cenhedloedd heddyw yn siarad ieithoedd Ariaidd heb fod ynddynt nemawr, os dim, o waed yr hen Ariaid cyntefig. A'r cwestiwn i ddyneg ei ateb yw, pa un o'r bobloedd sy'n siarad ieithoedd Ariaidd yw disgynyddion puraf yr Ariaid cyntefig—a phwy yw'r lleill. Ceir yr ateb cliriaf a diweddaraf yn llyfr y dynegydd enwog Dr. Isaac Taylor, '*The Origin of the Aryans*' (1890).

Rhanna hynafiaethwyr flynyddoedd dynolryw ar y ddaear yn gyfnodau, yn ol cyflwr eu gwareiddiad. Pan nad oedd gan ddyn ond cerrig hollt yn arfau, gelwir yr oes honno yn 'oes y meini geirwon' *(palaeolithic age)*. Wedi iddo ddysgu naddu a chaboli'r meini yn arfau, gelwir yr oes yn 'oes y cabolfeini' *(polished stone age)*.

* Cyf. Saesneg—'*Prehistoric Antiquities of the Aryan People.*' Llundain, 1890. Td. 431.

Yna daw 'oes y bronz,' ac 'oes yr haearn.' Sefydlwyd hefyd adegau'r oesoedd hyn yn y gwahanol wledydd. Nid oes a wnelom a'r oes gyntaf. Nis gall y meini geirwon broti dim am nac iaith na chenedl, ac nis gwyddom a oedd gwŷr yr oes bell honno yn Ewrop yn hynafiaid y cenhedloedd sydd yma'n awr; ond yn oes y cabolfeini, yr oedd yn Ewrop bedair o'r cenhedloedd a geir yma heddyw; a thybia rhai i'r oes honno ddechreu rhywle oddeutu deng mil o flynyddoedd yn ol. Un o'r cenhedloedd hyn a raid fod yr Ariaid cyntefig.

Penderfynir cenedl dyn (yn yr ystyr hon) wrth ei faint, a'i liw, a'i lun, ac yn enwedig wrth ffurf ei ben. Y mae gan ddynegwyr amryw ddulliau o fesur pen; ac un o'r pwysicaf yw y gymhariaeth rhwng ei led a'i hyd o dalcen i goryn. Os bydd y lled yn llai na thri chwarter yr hyd, gelwir hwnnw'n hirben; os bydd oddeutu .78 neu .80 yr hyd, yn bengrwn; os yn .83 yr hyd, neu fwy, yn llydanben. O'r pedair cenedl uchod ynte, fe geir fod dwy ym Mhrydain ddechreu oes y bronz—un wedi dyfod yno at ddiwedd oes y cabolfeini, a'r llall yno yn gynnarach o lawer. Yr oedd y genedl gyntaf yn eiddil, a ber, a hirben, a'u pryd yn dywyll. Claddent eu meirw mewn ogofeydd, neu mewn tomennydd hirion, ac ystefyll â mynedfau ynddynt; ac y mae rhai o'r tomennydd hyn yn 400 troedfedd o hyd, a 50 troedfedd o led—dynwarediadau, megys, o'r ogofau. Yr oedd trigfannau'r meirw yn yr hen oesoedd yn cynrychioli trigfannau'r byw; a rhaid fod y genedl hon wedi bod yn ogofwyr. Yn y tomennydd hirion hyn y mae'r penglogau oll o un ffurf; a chytuna dynegwyr er ys talm mai un genedl oedd ym Mhrydain yr adeg honno. Y genedl hon yw Siluriaid deheudir Cymru, a Chymry pryd tywyll byrion sir Ddinbych. Ceir hwynt hefyd yma a thraw drwy Brydain. Gelwir hwynt yn gyffredin Iberiaid. Hwy oedd trigolion cyntaf Ffrainc a'r Hispaen, a deheudir yr Eidal, ac, fe dybir, dir Groeg. O Affrica y daethant gyntaf, a'u perthynasau yno ydyw'r Berbers; ac y mae yr hen Eifftiaid o'r un genedl.

Tua diwedd oes y cabolfeini, daeth i Brydain genedl arall, wahanol ym mhob ystyr i'r Iberiaid—cenedl dal, gyhyrog, lydanben, bryd goleu. Yr oedd eu gwareiddiad yn uwch hefyd; claddent eu meirw mewn tomennydd crynion, a dengys hynny eu bod yn byw mewn cytiau, neu mewn trigfannau pydewaidd; ac y mae darnau o lestri pridd yn dra chyffredin yn eu claddfeydd: ond nid ymddengys fod ganddynt arfau bronz ar y cyntaf, er fod rhai i'w cael yn eu claddfeydd diweddaraf. Gelwir hwynt yn Geltiaid, a daethant i'r ynys hon o ogleddbarth Ffrainc a Belgium. Hwy oedd trigolion Belgium yn oes y cabolfeini, ac ymledent oddi yno tua'r dwyrain i Ddenmark: a dywed Dr. Beddoe fod y Daniaid heddyw o'r un genedl a Cheltiaid y tomennydd crynion. Yn nechreu 'r cyfnod hanesyddol, trigai llwythau Celtaidd yn nyffrynnoedd y Main a'r Danube Uchaf; ac yno, medd Dr. Taylor, y mae enwau Celtaidd yn dra lliosog. Credir mai Celtiaid a weithiai gloddfeydd halen Halle; ac y mae trigolion y fro honno, hyd heddyw, yn llydanben, ac yn wahanol i Deutoniaid gogledd yr Almaen; ond nid ymddengys i'r Celtiaid yn yr Almaen gyrraedd ymhellach i'r gogledd na Halle. Ond Celtaidd yw deheudir yr Almaen hyd heddyw, er ei bod yn Deutonaidd o ran iaith; a gwyddom mai yn y canrifoedd boreu o oed Crist y newidiwyd ei hiaith, a hynny gan oresgynwyr Germanaidd o'r gogledd. Celtiaid hefyd, o ran cenedl, ydyw trigolion Switzerland; a'u hynafiaid hwy oedd y gwŷr a drigai yno yn 'nhai'r llynnoedd' yn oes y cabolfeini; a pherthynasau agos i'r rhai hynny oedd hen breswylwyr tai cyffelyb yng ngogleddbarth yr Eidal, sef yr Umbriaid. Cytuna hyn yn berffaith â'r berthynas a genfydd ieithegwyr rhwng yr ieithoedd Celtaidd a'r ieithoedd Italaidd; a thra y mae gogledd yr Eidal eto yn llydanben, y mae'r deheu eto yn Iberiaidd hirben. Ymledai cenedl y tomennydd crynion i lawr y Danube, ac ar draws gwastatir mawr Rwssia; ac y mae 'r holl bobloedd a sieryd ieithoedd Slavonaidd yn llydanben, a'u gwallt a'u llygaid, gan mwyaf, yn oleu. Ceir yr un nodweddion, hefyd, tu draw i ffin yr ieithoedd Ariaidd, yn y cenhedloedd Finno-Ugraidd. Y mae y rhai hynny hefyd yn llydanben a phrydgoleu, a thybir mai 'r un genedl a'r Celtiaid ydynt.

Heblaw'r ddwy genedl hyn, fe geir ym Mrydain, ym meddau'r hen Anglo-Saxoniaid, enghreifftiau o'r genedl Deutonaidd bur. Y mae pennau'r Teutoniaid hyn yn hirion, fel pennau'r Iberiaid, ond yn dra gwahanol iddynt, er hynny. Y mae talcenni'r Teutoniaid yn colli mwy, a nen y penglogau yn is, a'r lle ynddynt yn llai. Goleu hefyd oedd y Teutoniaid, a thalach na'r Celtiaid. Ceir hyd i benglogau'r Teutoniaid yn yr holl wledydd a oresgynnwyd gan y Gothiaid, y Frankiaid, y Burgundiaid, a'r Saxoniaid; a phennau Teutonaidd sydd gan y Swediaid eto. Ond nid yw'r ffurf Deutonaidd bur ond prin mewn gwledydd eraill a sieryd ieithoedd Teutonaidd: y mae Teutoniaid gogledd yr Almaen wedi myned yn grynben o gymysgu â'r Celtiaid. Yn oes y cabolfeini, ymestynnai'r genedl Deutonaidd hirben hon o'r Rhine i'r Neva, a chyn belled i'r deheu a Galicia; a dywedir mai hi fu yn Sweden o oes y cabolfeini, a thrwy oesau'r bronz a'r haearn, hyd yr oes hon. Oddiwrth yr olion a geir o honi yn y wlad honno—hen domennydd cregyn anferth, yn cyrraedd yn ol i ddechreu oes y cabolfeini, os nad ymhellach, fe geir mai pysgotwr a heliwr crwydredig oedd y Teuton cyntefig hwn, heb gartref parhaus, nac hyd yn oed feddi i gladdu ei farw. Credir mai 'r Teuton hwn oedd trigiannydd cyntaf Ewrop. Cafwyd hyd i'w benglogau o dan rai'r Iberiaid a'r Liguriaid yn Grenelle; ac y mae lle i gredu ei fod yn cyfoesi â'r anifeiliaid hynafol sydd wedi diflannu oddiar wyneb y ddaear.

Y bedwaredd genedl yw'r Liguriaid. Y mae hon yn dywyll ei phryd, ac yn fyrrach na'r Iberiaid, ac yn fwy llydanben na'r Celtiaid. Fe geir oddiwrth yr hen gladdfeydd fod y Liguriaid wedi dyfod i Ffrainc ar ol yr Iberiaid, ond o gyfeiriad y gogledd; a gyrru'r Iberiaid o'u blaen i ddeheudir Ffrainc a'r Pyrenees. Rhoddasant eu hiaith ar yr Iberiaid; a honno ydyw y Basque a leferir heddyw yn y Pyrenees, gan genedl gymmysg o Liguriaid ac Iberiaid. Yna daeth y Celtiaid ar eu gwarthaf hwythau yn y gogledd, gan osod eu hiaith arnynt; a diau mai iaith Geltaidd a siaradai'r Liguriaid yn amser Cesar, ac mai hwy oedd y bobl a alwai efe "Celtae;" ac fe allai fod yr enw yn fwy priodol arnynt nag ar y genedl dal, bryd goleu, a alwn ni yn Geltiaid. Yr un modd ag yn Ffrainc, daeth y Liguriaid i gyfarfod yr Iberiaid yn yr Eidal a thir Groeg, ac yna daeth y Celtiaid

Digitized by Google

ar eu gwarthaf hwythau. Disgynyddion puraf y Liguriaid heddyw yw trigolion canolbarth Ffrainc; a chytunant o ran taldra, a phryd, a ffurf y pen, â'r Lappiaid. Cred y Proff. Sayce, hefyd, fod eu hen iaith, y Basque, yn perthyn i'r un tylwyth o ieithoedd ag iaith y Lappiaid, sef y tylwyth Ugro-Altaic. I'r tylwyth hwnnw hefyd y perthyn iaith trigolion cyntaf Babilonia hynafol:—iaith a fu farw tua 2000 cyn Crist. "Er gwaethaf y cyfwng mawr mewn amser," medd efe, "ac mewn lle a pherthynasau cymdeithasol, gallwn eto ganfod amryw eiriau sy'n gyffredin i'r Accadian [iaith gyn-Semitaidd Babilon] a'r Basque."[a]

Gan hynny, nis gall mai'r Liguriaid oedd llefarwyr yr iaith Ariaidd gyntefig. Gwelsom hefyd mai o Affrica y daeth yr Iberiaid; a diameu yw, mai Hamitaidd oedd eu hiaith; ac ni thyb neb mai hwy ychwaith oedd yr Ariaid. Saif y ddadl felly rhwng y Teutoniaid a'r Celtiaid, ac nid yw wedi ei phenderfynu eto. Dadleua'r Almaenwyr mai Teutoniaid oeddynt, a'r Ffrancwyr mai'r Celtiaid; ac aethant i ymgecru ynghylch y peth, er nad oes, yn wir, ond ychydig o waed Teutonaidd yn yr Almaen, nac ond ychydig o waed Celtaidd yn Ffrainc. Dywed y Germaniaid mai'r Swediaid hirben yw'r genedl buraf yn Ewrop, a bod yn anhawdd credu iddynt ddysgu iaith newydd heb ryw gymysg gwaed. Dywedant hefyd fod pendefigion a thirfeddianwyr Ewrop yn hirben Deutonaidd, tra y mae'r werin a'r dosbarthiadau canol yn gyffredin yn llydanben. Ond o'r ochor arall, y mae popeth yn dangos fod y Teutoniaid mewn ystad is o lawer o wareiddiad na'r Celtiaid yn oes y cabolfeini; ac nid iaith concwerwyr, yn gyffredin, ond iaith y bobl liosocaf a mwyaf gwareiddiedig a orfydd. Dysgodd y Normaniaid, y Gothiaid, a'r Burgundiaid, ieithoedd y cenhedloedd mwy gwareiddiedig a orchfygwyd ganddynt. Heb law hynny, bugeiliaid oedd yr Ariaid cyntefig, ac ni wyddent bysgota; tra mai pysgotwyr a helwyr oedd y Teutoniaid cyntefig, heb ganddynt nac ych, nac un anifail dôf, ond ci. Ar ochr iaith, wed'yn, perthynas agosaf yr hen Deutoneg oedd yr hen Lettaeg—iaith a leferid gan genedl Geltaidd; ac y mae'r hen Lettaeg yn cadw ffurfiau gwreiddiol y famiaith Ariaidd yn hynod bur, tra yr oedd yr hen Deutoneg wedi cyfnewid llawer arnynt; ac amhosibl yw tybied i'r Teutoniaid roi eu hiaith ar y Lettiaid, tra nad yw yn afresymol tybied fod llwyth o genedl y Lettiaid wedi rhoi eu hiaith ar y Teutoniaid. A thra yr oedd Teutoniaid barbaraidd yng ngorllewinbarth Ewrop hyd yn oed o flaen yr Iberiaid, y mae popeth a ddywed yr hynafiaethwyr wrthym am y Celtiaid yn cytuno â'r casgliadau y daw Dr. Schrader iddynt, ar dir ieitheg yn unig, am wareiddiad a chartref cyntefig yr Ariaid.

Yr oedd llefarwyr yr ieithoedd Celtaidd, Italaidd, Groegaidd, Thraciaidd, Lettaidd, Slavonaidd, yn perthyn i'r genedl Geltaidd lydanben. Pa un debycaf, ai i farbariaid hirben glannau'r Baltic Arieiddio'r rhai hyn oll, ai iddynt hwy ddysgu iaith Ariaidd eu hunain gan eu cymydogion, y Lettiaid? Haws yw credu'r ail; ac yn wir, prawf hynafiaeth gyn-hanesyddol yn eglur mai'r genedl Geltaidd a wareiddiodd Ewrop, er i'r Teutoniaid, yng ngrym eu dewrder a'u maintioli (y Swediaid, heddyw, yw'r genedl dalaf yn y byd), oresgyn llawer arni wedi hynny. "A chanlyniad concwest Deutonaidd," medd Canon Taylor, "yw, fod boneddigion tiriog Ewrop yn hannu yn helaeth o'r genedl honno—Gothiaid, Lombardiaid, Normaniaid, Frankiaid, Saxoniaid, Angliaid—a chadwant yn dra ffyddlon at nodweddion corfforol eu hynafiaid pell, ac at eu dull o fyw. Fel y dywed ysgrifennydd craff, 'canlyniad rhyfedd cyfoeth a deall y byd diweddar yw rhoi i'r dosbarthiadau uchaf orchwylion y barbariad, heb yr angenrhaid sy'n esgus drostynt. Barbariaid ydynt, wedi eu harfogi â pheiriannau dyrys gwareiddiad; a'u gogoniant mwyaf yw lladd llawer o fwystfilod gwylltion mawr.' 'Y mae chwareuon y maes yn dda at gynnal ynni pendefigaethau hanner barbaraidd.'[a] Y mae 'barbariaid ieuaingc' Matthew Arnold—chwareuwyr cricket, helwyr ceirw neu lwynogod, ond heb chwaeth feddyliol—yn engreifftiau godidog o'r genedl Deutonaidd: ond nid 'plant y goleuni' ydynt. Yn herwydd eu cryfder, eu dewrder, eu taldra, y mae'r Teutoniaid wedi bod yn genedl fawr o orchfygwyr; ond nid oedd gan y Gothiaid, a'u ceraint, athrylith i reoli'r breniniaethau a enillasant. Ni ddadblygodd y Saxoniaid, yr Angliaid, y Gothiaid, wareiddiad uchel eu hunain. Ychydig o ddiwylliad meddyliol sydd gan y Scandinaviaid a'r Frisiaid. Y mae athrylith yr Almaen yn tarddu o'r genedl Geltaidd; ac i honno y perthynai Luther a Goethe. Yr oedd 'Philippus Zaehdarm, Zaehdarmi Comes, qui quinquies mille perdices plumbo confecit,'[b] yn gynrychiolydd o un genedl, Teufelsdrock a'i fywgraffydd[c] o'r llall."[d]

Sylwasom uchod ar y tebygrwydd corfforol sydd rhwng y genedl Geltaidd a'r llwythau Finno-Ugraidd: canfyddir llawer iawn o debygrwydd hefyd rhwng gwareiddiad a hen ddefodau llefarwyr y famiaith Ariaidd, a gwareiddiad a defodau cyntefig llefarwyr y famiaith Ugro-Altaic, neu Duranaidd; a dywed Schrader fod y lle a ddyry efe yn gartref yr Ariaid yn cynnyg yr esboniad symlaf o'r tebygrwydd hwnnw; a dadleua'r Canon Taylor ym mhellach mai'r un genedl oedd yr Ariaid llydanben a'r Turaniaid cyntefig. Ceisia brofi fod y famiaith Ariaidd wedi dadblygu o ryw ffurf o iaith debyg i'r famiaith Duranaidd; ond dywed Schrader fod "y dynegydd enwog yn ystyried cymharu dau dylwyth o ieithoedd yn haws peth a symlach nag ydyw," er y chwanega nad yw efe am "wadu nas gall y peth, wedi ymchwiliad dyfnach, yn enwedig ym maes y Finnic, brofi'n wir." Gan hynny, nid ydym yn gweled mai afresymol yw tybied, hyd nes y profir y gwrthwyneb, y gallasai'r ddwy famiaith dyfu ar wahân o'r un defnyddiau cyntefig; a chadarnhâ hyn y dyb fod yr Ariaid llydanben yn perthyn i'r Turaniaid llydanben. Ond y mae llawer o'r Turaniaid yn fyrion a thywyll, megys y Liguriaid a'r Lappiaid; er hynny, tybia Taylor, ac amryw ddynegwyr ereill,[e] y gall y ddwy genedl lydanben fod yn perthyn o bell, oblegid fod ffurf y pen yn fwy anghyfnewidiol na phryd neu faintioli. Os gwir hyn, y mae cychwynwyr gwareidd-

[a] '*Principles of Comparative Philology*,' td. 108.

[a] Hamerton. *French and English*, td. 61, 265.

[b] 'Philip Zachdarm, Arglwydd Zachdarm, yr hwn a laddodd â phlwm bum mil o betris.' Gweler y '*Sartor Resartus*,' td. 91. [c] Thomas Carlyle.

[d] '*Origion of the Aryans*,' td. 244, 245.

[e] Megys y Proff. Boyd Dawkins, a Dr. Thurnam, y rhai a fynnant berthynas agosach rhyngddynt nag a ganiatâ Dr. Taylor.

Digitized by Google

iad diweddaraf a mwyaf y byd yn perthyn i'r bobl a gychwynnodd wareiddiad boreu Babilon.

Yr ydym ni, 'r Cymry, fel y mae'r darllennydd eisoes wedi casglu, yn hannu yn bennaf o'r Iberiaid a'r Celtiaid. Yr Iberiaid oedd ym Mhrydain gyntaf, a daeth dwy don o Geltiaid yma ar eu holau, fel y dengys y Proffeswr Rhys.[a] Y don gyntaf oedd y llwyth Gwyddelig. Gorchfygodd y Gwyddyl yr Iberiaid: ymunasant â hwy, a rhoddasant eu hiaith arnynt, a llefarwyd y Wyddeleg hynafol ym Mhrydain. Yna y daeth y Brython drosodd—yn oes y bronz, fe allai. Gorchfygasant y Gwyddyl-Iberiaid, ymunasant â hwy yn y rhan isaf o'r ynys, a gyrrasant y rhelyw i'r Alban a'r Iwerddon, a llefarwyd y Frythoneg yng Nghymru a Lloegr.[b] Wedi hynny daeth y Rhufeiniaid yma: ond nid yw'n debyg eu bod wedi dwyn i mewn nemawr o elfennau newydd, os na ddaethant âg ychydig o waed Liguriaidd yma. Dyma elfennau cenedl y Cymry; a chymysg o'r Cymry hyn, a'r Teutoniaid Anglo-Saxonaidd, ydyw 'r Saeson. Ni raid i ni gywilydd o'n hachau, er gorfod gildio Gomer. Yr ydym yn perthyn ar yr ochr Iberiaidd i'r genedl a gyrhaeddodd wareiddiad boreuaf y byd—y genedl oedd wedi dyfeisio'r ysgrifen hieroglyphig, ac yn codi pyramidau Gizeh, pan oedd y byd, yn ol amseriad yr archesgob Usher, yn cael ei greu. Ac o'r ochr Geltaidd, yr ydym yn tarddu o'r genedl a gynhyrchodd wareiddiad Ewrop—y genedl hefyd sy'n debycaf o fod yn hannu o'r hen Ariaid cyntefig a roddodd eu hieithoedd ar Ewrop, ac ar Bersia, a'r India.

Y mae'r syniad yn rhy gyffredin mai methiant fu'r Celt yn y byd, ac nad oes o hono mwyach, drwy drugaredd, ond gweddillion mewn conglau yma a thraw. Ni bu erioed syniad mwy cyfeiliornus. Y mae llawer mwy o waed Celtaidd yn Ewrop heddyw nag sydd o waed Teutonaidd; ac er ei fod yn wir mai gan y genedl Deutonaidd y cafodd Ewrop ei hynni a'i grym, y mae yr un mor wir mai gan y genedl Geltaidd y cafodd hi ei hathrylith. Ac ni ddaeth erioed fawr o ddaioni o'r cenhedloedd digymysg—y Scandinaviaid Teutonaidd, na'r Lettiaid Celtaidd. Y cenhedloedd cymysg pengrwn sydd wedi gwneyd mwyaf o'u hol ar y byd. Y mae Lloegr Deuton-Geltaidd, lle mae'r elfen Deutonaidd yn gref, wedi dysgu iddo wersi llwyddiant materol; ac nid oes dan haul wlad mor oludog a hi. Y mae'r Almaen Gelt-Deutonaidd, lle mae'r elfen Geltaidd yn gref, wedi dysgu iddo ddifinyddiaeth ac athroniaeth y meddwl. Ac y mae'r elfen Geltaidd yn gref yng Nghymru Gelt-Iberiaidd; a gwelsom fod gan yr Iberiad cyntefig well pen na'r Teuton cyntefig, er eu bod yn debyg o ran hyd; ac yr oedd gwyneb yr Iberiad, medd Dr. Taylor, yn dyner ac addfwyn. Ai ni rydd Cymru ddim i'r byd, lle ceir mwynder yr Iberiad a goleuni'r Celt, '*sweetness and light?*' Gwyddai ei hen athrawon, yn ol Lucan, am fyd a ddaw a bywyd tragwyddol cyn clywed efengyl; ac heddyw, wrth gymharu gwerin Cymry a'i phleserau, ei chymanfaoedd a'i heisteddfodau, ei barddoniaeth a'i cherddoriaeth, â gwerin Lloegr a'i phleserau, y rhedegfeydd ceffylau a'r bêl droed, pwy a wâd nas gallai fod gan Gymru eto, pan estynnir gwell manteision iddi, a phan waredir hi oddi tan iau philistiaeth Deutonaidd, wersi ysbrydol i'w dysgu i'r byd, fydd mor werthfawr iddo, fe allai, a golud. Yn unig na wahaner ni, ac na wanycher mo honom gan fan wahaniaethau; ac nac anghofiwn mai cydwladwyr ydym—CYMRY.

[a] *Celtic Britain*, td. 3.

[b] Gweler map 'Yr Ynysoedd Prydeinig dan y Rhufeiniaid;' cyfrol x. Dengys y coch randir y Frythoneg, a'r melyn randir y Wyddeleg.

CADELL: tad Hywel Dda, yr hwn a'i dilynodd fel tywysog ar Ddeheubarth Cymru. Un o dri mab Rhodri Mawr oedd efe; ac ar farwolaeth ei dad, rhanwyd Cymru rhwng y tri. Cafodd Anarawd, Gwynedd; Merfyn, Powys; a Chadell, y Deheubarth. O herwydd fod Cadell yn anfoddlawn ar ei ran, efe a ymosododd ar diriogaeth Merfyn, ac a gymmerodd Powys oddi arno. Bu farw, yn ol *Brut y Tywysogion*, yn y flwyddyn 900; ond yn ol eraill, yn 907.

CADELL AB GERAINT. Efe a ddilynodd ei dad ar orsedd Prydain tua thri chan mlynedd cyn Crist. Ei ddilynydd, yn ol y *Myfyrian Archaiology*, oedd Coel Frenin.

CADELL DEYRNLLWG': tywysog ar ran o Bowys, yn yr hwn yr oedd Teyrnllwg, yn cyrhaedd o Gaer i'r Amwythig; ac yn cynnwys y lle a elwir yn awr yn Vale Royal. Blodeuai yn y bummed ganrif. Bu ei ddisgynyddion am lawer o genedlaethau yn dywysogion ar Powys —rhan o'r hwn oedd Teyrnllwg. Dilynwyd ef gan ei fab Cyngen, tad Brochwel Ysgythrog.

CADELL DEYRNLLWG. Disgynodd yn achyddol o'r diweddaf; ac yr oedd yn dywysog ar Powys a Dyffryn Breiniog, neu Teyrnllwg, tua diwedd yr wythfed ganrif. Mab neu ŵyr ydoedd ef i Elisau ab Cynllaw, ar ol yr hwn y daeth i'r Dywysogaeth, yn y fl. 773. Yn ol Robert Vaughan, yr oedd efe yn fab i'r ail Brochwel, yr hwn oedd fab i Eliseg; a dilynodd ei daid yn y Dywysogaeth. Bu farw yn 804.

CADFRAWD AB CADFAN. Yr oedd efe yn or-ŵyr i'r enwog Caradog ab Brân Fendigaid; a blodeuodd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif. Yn y fl. 314, pan y gwysiodd Cystenyn gynghor i gyfarfod yn Arles, Gâl, er attal cyfeiliornad y Donatiaid, un o'r tri esgob oedd yn bresennol o Brydain oedd *Adelfius*, esgob Caerlleon. Tybir mai Cadfrawd oedd efe, am fod yr enw yn gyfieithiad teg i'r Lladin o'r gair *Cadfrawd*.

CADWALADR: ail fab Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd. Yn y flwyddyn 1135, dangosodd ei hun yn ymladdwr llwyddiannus yn erbyn gelynion ei wlad. Ar ol codi byddin fawr, efe a gyrchodd, gyda'i frawd Owain, yr hwn a adnabyddid wedi hyny fel Owain Gwynedd, i Geredigion, lle yr anrheithiasant y wlad a ddelid gan y Normaniaid a'r Ffleinysiaid, gan gymmeryd oddi arnynt eu dau gastell cadarnaf; sef castell Gwallter de Bec, a chastell Aberystwyth, y rhai a losgasant yn ulw. Ymunwyd â hwynt yn fuan gan Hywel ab Meredydd, a Rhys ab Madog ab Idnerth; ac aethant rhagddynt wedi hyny, a llosgasant castell Rhicert Dylamar, a chastell Dinerth, a chastell Caerwedros; a dychwelasant i Wynedd, gydag anrhaith fawr iawn. O herwydd eu llwyddiant y tro hwn, aethant eilwaith i Geredigion tua diwedd yr un flwyddyn, gyda'r amcan o ryddhau eu gwlad oddi wrth ormes annioddefol y gelynion estronol; ac yn ol *Brut y Tywysogion*"—

Digitized by Google

"Yr oedd gyda hwynt amlder llu o ddetholedigion ymladdwyr, fal amgylch chwe' mil o beddyd aedwyn, a dwy fil o iarchogion llurigawg; ac yn borth iddynt y daeth Gruffydd fab Rhys, a Hywel fab Meredydd, o Frycheiniawg, a Madawg fab Idnerth, a dau fab Hywel fab Meredydd. A'r rhai hyn oll yn gyfun a gyweiriasant eu byddinoedd i Aberdyfi [neu Aberteifi, yn ol rhai ysgrifau]. Ac yn eu herbyn y daeth Ystefn, gwnstabl y dref, a Rhobert fab Martin, a meibion Gerallt Ystiwert, a Gwilym ab Orc, a'r holl Fflemysiaid, a'r holl farchogion, a'r holl Ffreinc o Aber Nedd hyd yn Aberdyfi [Aberteifi]. Ac wedi cyrchu y frwydr, ac ymladd yn greulawn o bob tu, y cymmerth y Fflemysiaid a'r Normaniaid eu ffo, herwydd eu harferedig ddefawd. A gwedi lladd rhai o naddynt, a llosgi eraill, a thrychu traed meirch eraill, a dwyn eraill yn nghaethiwed, a boddi y rhan fwyaf megys ynfydion yn yr afon, a gwedi colli tair mil o'u gwyr, yn drist afflawen ydd ymchwelasant i'w gwlad. A gwedi hyny ydd ymchwelawdd Owain a Chadwaladr i'w gwlad yn hyfryd lawen, gwedi caffael y fuddugoliaeth yn anrhydeddus, a chael dirfawr amlder o gaith, ac anrheithiau, a gwisgoedd mawrwerthawg, ac arfau."

Darostyngasant yr holl wlad mor bell ag Aberteifi, a gyrwyd yr estroniaid gelynol allan o honi, ac yna daeth y brodorion i feddiant o'u heiddo. Ond nid hir y buont, yn ol eu harfer, cyn iddynt syrthio allan â'u gilydd; o blegid yn y flwyddyn 1142, ceir fod Cadwaladr yn ymryson a'i frawd Owain; ac mewn canlyniad, efe a anrheithiodd ei diriogaeth, ac a losgodd ei gastell yn Aberystwyth. Yna, ffodd Cadwaladr i'r Iwerddon, a daeth gyda llu mawr o Wyddelod ac Ysgotiaid drosodd, dan flaenor o'r enw Octer, neu Otter, a thiriasant yn yr afon Menai, yn Arfon. Prysurodd Owain i'w gyfarfod; ond "yn nghyfrwng hyny y cyttunodd Owain a Chadwaladr, megys y gweddai i frodyr; a thrwy gynghor eu gwŷr da y cymmodasant," er mawr siomedigaeth i'r milwyr cyflogedig, y rhai a dderbyniasant driniaeth chwerw. Lladdwyd rhai, a chaethiwyd eraill, a diangodd y gweddill yn waradwyddus i Ddulyn.

Yn 1146, torodd anghydfod allan rhwng Cadwaladr a'i ddau nai, Hywel a Chynan, meibion Owain. Y canlyniad fu, iddynt anrheithio ei wlad, a goresgyn ei gestyll; ac yn y fl. 1149, cymmerwyd Cadwaladr yn garcharor ganddynt. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, diangodd o'i garchar, a llwyddodd i oresgyn y rhan fwyaf o Ynys Môn. Ond pan ddaeth ei frawd Owain â llu i'w erbyn, yr hwn nis gallai ei wrthsefyll, bu raid iddo gilio i Loegr, i geisio cymmhorth gan berthynasau ei wraig, yr hon oedd yn ferch i Gilbert, Iarll Clâr. Yn 1156, daeth Harri II. i Gymru, ar annogaeth Cadwaladr; ac mewn canlyniad, cymmodwyd ef â'i frawd, ac adferwyd ei diriogaethau iddo. Bu farw yn Mawrth, 1172.

CADWALLAWN. Yr oedd efe yn un o feibion Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd; a bu am dymmor yn gadlywydd ar fyddinoedd ei dad. Yn y fl. 1125, efe a laddodd ei dri ewythr; sef, Gronw, Rhirid, a Meilir, meibion Owain ab Edwyn; a chafodd yntau ei ladd tua'r fl. 1130, yn Nanheudwy. Gŵr creulawn, yn ol yr hanesion, oedd efe; a chynnhyrfodd ddigofaint ei gydwladwyr yn ei erbyn. Ac i ochel llid ei frawd, efe a ffodd i lys brenin Lloegr am ei nawdd. Cafodd fenthyg nifer o filwyr i'w warchodi tua chartref; ond yn lle ei ddiogelu, lladdasant ef yn Nanheudwy, yn 1179.

CADWGAN. Un o feibion Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys; a dilynodd ei dad ar orsedd y rhan hono o Gymru yn 1073. Gorchfygodd y Normaniaid yn y Deheubarth yn 1094; ac ar ol hyny, mewn brwydr, trechodd fyddin fawr o honynt yn Ngogledd Cymru. Ar ol sicrhau ei feddiant yn Ngheredigion, gwnaeth wledd ardderchog yn Nadolig y fl. 1107, yn nghastell Aberteifi; ac efe a wahoddodd iddi dywysogion, penaethiaid, a goreugwyr o bob parth o Gymru, ynghyd âg enwogion o feirdd, a cherddorion tafod a thant, yn ol rheolau a defodau llys Arthur; y rhai, ar eu hymadawiad, a wobrwyodd efe yn anrhydeddus. Ond dygodd y wledd ganlyniadau annymunol i Cadwgan. Yn mysg y gwahoddedigion yr oedd Owain ab Cadwgan, yr hwn a gyrchwyd yno o Powys; a Nest, merch Rhys ab Tewdwr; sef, gwraig Gerallt Windsor, ceidwad castell Penfro. Swynwyd Owain gan lendid Nest, ac efe a'i canlynodd i gastell Penfro—yr hwn a gyrchwyd, a oresgynwyd, ac a losgwyd ganddo. Bu raid i Gerallt ffoi am ei fywyd yn nhrymder y nos; a dygodd Cadwgan Nest i Bowys, i ddinas anorfod Ilion. Condemniwyd ef o herwydd y weithred ysgeler hon; a bu raid iddo ef, a'i dad, ffoi i'r Iwerddon o flaen byddin o dan ofal ei ddau nai, Ithel a Madog, meibion Rhiryd ab Bleddyn, y rhai a oresgynasant ei diriogaethau ar annogaeth Harri, brenin Lloegr. Dychwelodd Cadwgan y flwyddyn ganlynol; ac wedi profi ei ddiniweidrwydd, caniataodd Harri iddo adfeddiannu y rhan fwyaf o'i diriogaethau yn Mhowys, ar yr ammod iddo dalu cant o bunnau o iawn, ac addaw na chaniatâai i'w fab Owain ddychwelyd. Daliodd Cadwgan ei dir yn erbyn holl ymosodiadau ei neiaint, hyd y fl. 1110, pan y rhuthrwyd yn ddisymmwth arno gan Madog yn y Trallwm, ac y lladdwyd ef cyn iddo allu tynu ei gleddyf i'w amddiffyn ei hun.

CANOLDREF, GWILYM. Gwel MYDDELTON, WILLIAM.

CARAWN, neu CARON, yw ffurf Cymraeg yr enw a ysgrifenir *Carausius* yn ngwaith yr awduron Rhufeinig. Nid oes hanes pa bryd y ganwyd ef, yn mhellach nag i hyny ddigwydd rywbryd o fewn y drydedd ganrif. Yn ol y *Brutiau*, efe a hanai o genedl y Prydeiniaid; ac oddi wrth ei arian bâth, ymddengys iddo gael ei eni yn Mynyw (Menapia), a alwyd wedi hyny Tŷddewi, yn Dyfed. Yn ol y *Brutiau* hefyd, ymddengys iddo gyrhaedd enwogrwydd fel rhyfelwr yn foreu. Aeth i Rufain, a cheisiodd gan y senedd ganiatau iddo gymmhorth i amddiffyn arfordiroedd Prydain rhag ymgyrchoedd môrladron, gan ddangos iddynt y manteision mawr a ddeillient o hyny. Wedi llwyddo yn ei amcan, dychwelodd i Brydain; ac wedi cynnull llu mawr iawn, cychwynodd i'r môr, a rhuthrodd ar wahanol barthau o'r wlad, gan wneuthur anrhaith erchyll ar y môrladron. Wrth weled ei nerth a'i fedrusrwydd, daeth llawer ato o bob parth, am nad allent wneuthur yn amgen; ac yn fuan, daeth i'w fryd yntau i wrthryfela yn erbyn y Rhufeiniaid. Cynnygiodd i'r Prydeiniaid, os etholent ef yn frenin, yr adferai efe iddynt eu rhyddid, ac y gyrai y Rhufeiniaid o'r wlad. Derbyniwyd y cynnyg yn rhwydd gan y brodorion; yna, yntau, gyda'i luoedd, a ymosododd ar Bassianus, yr hwn a ddaeth yn ei erbyn gyda byddin gref o Rufein-

Digitized by Google

wyr a Brithwyr. Yn y frwydr, daeth y Brithwyr drosodd at y Brythoniaid, a gorchfygwyd y Rhufeiniaid, a lladdwyd eu blaenor. Rhoddwyd tiroedd yn yr Alban yn wobr i'r Brithwyr am eu gwaith. Pan glybu senedd Rhufain am y trychineb hwn, anfonasant Alectus, gyda thair lleng o filwyr, i Brydain i ostegu y cythrwfl. Gorchfygwyd Carawn a'i lu, a lladdwyd yntau (*Myv. Arch.*, ii. 20). Cadarnheir y prif ffeithiau uchod gan awdurdodau eraill; ac yn enwedig gan y darnau arian a fathwyd gan Carawn yn ystod ei lywodraeth ar Brydain. Ymddengys iddo ei hynodi ei hun yn fawr o dan Probus, a Carus, a Carinus, ar dir ac ar fôr, ar lawer amgylchiad. Pan osodwyd ef yn benaeth ar lynges Rhufain yn moroedd Prydain, i amddiffyn Gâl a Phrydain rhag difrod y Sacsoniaid, parodd ei lwyddiant i rai eiddigeddu wrtho; a chyhuddwyd ef o gymmeryd iddo ei hun yr ysbail a'r anrhaith a ddygid oddi ar y gelyn. Er mwyn dianc rhag amcanion llofruddiog Maximilian yn erbyn ei fywyd, dychwelodd i Brydain; a chydag ef amryw o'r llengau oedd o dan ei reolaeth yn Gâl. Cymmerodd feddiant llwyr o'r holl dalaeth, a mabwysiadodd iddo ei hun yr enwau 'Augustus' ac 'ymherawdwr,' yn ol arferiad ymherawdwyr Rhufain. Oddi wrth rai o'i fathiarnau ef, ymddengys i'r Prydeiniaid ei wahodd drosodd i gymmeryd y benaduriaeth. Trwy ddewrder ei lynges, efe a heriodd yn llwyddiannus holl ymgais Diocletian a Maximilian i adfeddiannu y dalaeth a gollasant; a bu raid iddynt, er yn ddigon anfoddlawn, ddyfod i delerau heddwch âg ef; a chadarnhawyd ef mewn meddiant tawel o Ynys Prydain am agos i saith mlynedd. Ar ol teyrnasiad nodedig am ei lwyddiant yn erbyn ei elynion, am fawr syberwyd mewn gweithiau cyhoeddus godidog, ac am ddiwyllio celfyddydau tangnefedd, syrthiodd Carawn dan law llofrudd; yr hwn a annogwyd i gyflawni y weithred anfad gan Constantius, ymherawdwr Rhufain, yn y flwyddyn 302.

Yn ol eraill, nid oedd perthynas rhyngddo â thrigolion Prydain; ond perthynai i'r Menapiaid—pobl a breswylient yr Iseldiroedd, nid neppell o'r afon Mosa, am y rhai y sonia Caisar yn hanes ei ryfeloedd yn Gâl.

**CARNHUANAWC.** Gwel Price, Thomas.

**CASNODYN.** Bardd enwog, a flagurodd o 1290 i 1340. Tybia rhai mai yr un oedd efe a Trahaiarn Brydydd Mawr, yr hwn a lywyddai yn Ngorsedd Morganwg yn 1300; ond os felly, gosodir cyhuddiadau pwysig yn ei erbyn gan Davies yn ei '*Mythol. of the Druids*.' Yr oedd Casnodyn yn fardd awenyddol. Y mae pump o'i gyfansoddiadau yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology*; sef, 1. "Clod i Wenlliant, ferch Cynan," gwraig Syr Gruffydd Llwyd. 2. "Awdl i Ieuan, abad Aberconwy." 3. "Awdl i Ieuan ab Gruffydd." 4. "Awdl Marwnad Madawg." 5. "Awdl i'r Drindod."

**CAW**, ab Geraint ab Erbin. Yr oedd efe yn arglwydd neu yn benaeth Cwm Cawlwyd, ar gyffiniau teyrnas Ystrad Clwyd, yn Ngogledd Prydain, yn nechreu y chweched ganrif. Bu raid iddo adael y diriogaeth hono, a chilio tua'r deheu, o blegid ymosodiadau parhaus y Gwyddyl Ffichti, y rhai yr oedd efe yn analluog i'w gwrthsefyll. Symmudodd gyda'i deulu i sir Fôn, lle yr ymsefydlodd yn Nghwmmwd Twr celyn, ar diroedd a roddwyd iddo gan Maelgwyn Gwynedd. Yr oedd ganddo amryw blant. Hynododd rhai o honynt eu hunain fel rhyfelwyr—eraill fel dynion crefyddol. Gelwir ei deulu ef, gyda theulu Brychan Brycheiniog a Chunedda Wledig, yn y *Trioedd*, yn "Dair Gwelygordd Santaidd Ynys Prydain." Y mae Rhos Beirio, Llanallgof, Llaneugrad, Llangaffo, a Llanfaelog, yn Ynys Môn, yn dwyn enw pump o'i feibion; sef, Peirio, Gallgof, Eugrad, Caffo, a Maelawg. Ac y mae Llangennydd yn Ngŵyr; ac yn ol tyb rhai, Langhennydd—un o raniadau Morganwg—yn dwyn enw Cennydd, mab arall iddo.

**CAWRDAF.** Mab i Caradawg Freichfras. Efe a ddilynodd ei dad fel tywysog Brycheiniog, ac a flodeuodd yn y chweched ganrif.

**CAWRDAF, GWILYM.** Gwel Jones, William Ellis.

**CEIRIOG, SION**: neu John Edwards. Efe a anwyd yn Nglynceiriog, mewn lle o'r enw Crogen Wladys, yn agos i Gastell y Waen, yn 1747. Symmudodd i Lundain pan yn ieuangc; ac efe, ynghyd âg Owain Myfyr, a Robin Ddu o Fôn, oedd y tri a sefydlasant Gymdeithas y Gwyneddigion, yn 1770. Dywedir mai Myfyr a grybwyllodd am y peth gyntaf wrth Sion Ceiriog, ac mai Sion a ymddiddanodd yn mhellach am y bwriad â Robin Ddu. Parotodd Sion awdl i'r gymdeithas erbyn Gŵyl Dewi, 1778. Bu yn ysgrifenydd iddi yn 1779–80; a bu yn llywydd arni yn 1783. Pan y bu farw Richard Morus, llywydd y Cymmrodorion, yn 1779, rhoddwyd ei golladwriaeth yn destyn marwnad; a chyfansoddwyd awdlau gan D. Ionawr, Jonathan Hughes, a Richard Jones o Fôn. Ond cyfansoddodd Sion Ceiriog Awdl Bindaraidd (*a Pindaric Ode*), dan yr enw "Gutyn Gwrecsam." Barnodd y ddau feirniad (sef O. Myfyr ac R. Ddu o Fôn), mai awdl R. Jones oedd yr oreu; ond mynai y gymdeithas mai awdl benrydd Sion Ceiriog oedd yr oreu—a bu anghydttundeb mawr yn eu plith. Yr oedd efe yn fardd cywrain, yn Gymro dysgedig, ac yn un o aelodau mwyaf ffyddlawn y gymdeithas; o blegid anfynych y byddai efe yn absennol o'i chyfarfodydd. Bu farw ar ol cystudd byr, yn 45ain oed, yn Medi, 1792.

**CENT, SION**, D.D. Y mae llawer o chwedlau disail ac ynfyd am dano, y rhai nid ydynt yn werth eu cyhoeddi. Ond dywed un awdwr am dano, yn y *Cambrian Register*, cyf. ii., fel y canlyn:—

"John a Kent, doctor enwog mewn duwinyddiaeth, fel yr ymddengys oddi wrth ei waith dwyfyddol, yr hwn nid anghofir hyd ddiwedd y byd. Yr oedd efe yn fardd dysgedig. Yn hyny yr oedd ganddo ddawn anianol; ac am hyny, gadawodd yn yr iaith Gymraeg lawer o gyfansoddiadau nodedig ar ei ol. Ganwyd ef yn arglwyddiaeth Cilgerran, yn Mhenfro, fel yr ymddengys oddi wrth ei ysgrifeniadau."

Nid ydyw yn hawdd penderfynu ei amser yn fanwl; ond dywedir ei fod mewn eisteddfod yn amser Edward III., yn yr hon yr oedd Dafydd ab Gwilym yn bresennol, yr hwn a fu farw yn 1368, adroddiad am yr hon a welir isod:—

"Bu Eisteddfod o dan nawdd Llywelyn ab Gwilym yn y Ddolgoch, yn Emlyn; ac i hono y

Digitized by Google

daeth Sion Cent a Rhys Goch Eryri; a thyfodd ymryson rhwng Sion Cent a Rhys Goch. Goreu ar Wengerdd, Sion Cent; a goreu ar Foliangerdd, Rhys Goch. Rhoddwyd y blaen a'r gadair i Wengerdd; ond ni fynai Sion Cent ei wisgo âg addurn Cadair Ceredigion a Dyfed, eithr i Dduw y rhoddai efe y blaen; am hyny y gwedai rhai mai Duw ei hunan a enillws y gadair hon."

Y mae yn debyg fod yr eisteddfod hon wedi ei chynnal tua 1350; o blegid lladdwyd Llywelyn gan wylliaid o Saeson Penfro, a ddaethant am ben y Ddolgoch, pan oedd Dafydd ab Gwilym yn nghanol ei ddyddiau. Bu farw tua'r fl. 1420. Cyfrifir fod Sion Cent yn un o ddysgyblion Wicliff; neu yn un o'r Lolardiaid, fel y gelwid hwy: ac o herwydd ei ddysg, ei wybodaeth, a'i dduwioldeb, pentyrwyd pob math o chwedlau ofer am dano gan anwybodaeth a drygioni, er ceisio lladd ei ddylanwad, ac attal ei ddefnyddioldeb. Dywed awdwr hen ysgrif yn y *Brython* mai "doctor duwinyddiaeth, a gweinidog plwy' Cent, yn sir Henffordd, oedd efe," lle y canodd amryw gywyddau da. Yn ei amser ef, Cymraeg oedd iaith sir Henffordd. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael; ac ysgrifenodd amryw draethodau Lladin ar destynau duwinyddol. Dywedir eu bod yn rhifo 39ain o gwbl, heb gyfrif ei gywyddau.

Ymddengys fod Sion Cent arall, yr hwn a elwir John Gwent, mynach o urdd St. Francis, yr hwn a fu farw yn 1348.

CEREDIG. Un o frenhinoedd lled ammhoblogaidd y Prydeiniaid, yr hwn a ddilynodd Maelgwyn tua'r flwyddyn 590; ac am dano y mae rhai chwedlau hynod, sydd yn ymddangos yn ddisail.

CERIDWEN. Ni wyddys ond ychydig am dani; ond ymddengys ei bod yn un o'r enwau mwyaf hysbys yn chwedloniaeth Dderwyddol ein hynafiaid; ac am dani y mae syniadau tra amrywiol. Gosodir hi allan yn y *Mabinogion* fel gwraig i Tegid Foel, etifeddiaeth yr hwn a safai yn nghanol Llyn Tegid. Dywed Davies, yn ei '*Mythology of the Druids*' ei bod yn cynnrychioli Ceres y Groegiaid yn chwedloniaeth yr hynafiaid; a'i bod yn cael ei haddoli mewn cyssylltiad â'r lleuad yn y ddeuddegfed ganrif—yr hyn a wrthbrofir gan Stephens yn ei '*Literature of the Cymry.*' Barnai Dr. W. O. Pughe ei bod yn meddu mwy o ansoddau Venus.

CHARLES, DAVID, D. D. Ganwyd ef yn y Bala, yn Gorphenaf, 1812; a chymmerodd y digwyddiad dyddorol le o ddeutu dwy flynedd cyn marwolaeth ei daid enwog—y Parchedig Thomas Charles. Bu farw, yn dra annisgwyliadwy, foreu dydd Gwener, Rhagfyr 13eg, 1878, yn ei breswylfod yn Aberdyfi. Yr oedd, hyd y dydd Iau blaenorol, yn gystal o ran ei iechyd ag arferol; ond cŵynai nad oedd yn gwbl iach. Modd bynag, bwytaodd ei foreubryd dranoeth yn ol ei arfer; ond ar ol hyny, eisteddodd, a bu farw bron yn union. O herwydd ei berthynas deuluaidd â'r Parch. Thomas Charles, a'r enwogrwydd a ennillodd efe ei hun hefyd fel ysgolhaig a phregethwr, yr oedd ei enw yn adnabyddus drwy bob rhan o'r Dywysogaeth; a phan dorwyd ef i lawr, eneiniwyd ei goffadwriaeth gan ddagrau ei deulu, a llawer o'i gydwladwyr.

Bwriadodd ymgymmeryd â gweinidogaeth yr Eglwys Sefydledig, a derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, lle yr ennillodd y gradd o wyryf yn y celfyddydau (B. A.). Ac yn ddilynol, anrhydeddwyd ef gan Brifysgol Princeton, yn America, â'r gradd o ddoethawr mewn duwinyddiaeth (D. D.).

Pennodwyd ef gyntaf i guradiaeth yn sir Gaerefrog; ond o herwydd ei gydwybodolrwydd, ymadawodd â chorlan yr Eglwys, am nas gallai gymmeradwyo y Deugain Erthygl namyn Un. Yna ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd, a dechreuodd bregethu gyda hwynt. Ordeiniwyd ef yn y flwyddyn 1841; a bu ei yrfa o hyny hyd y diwedd yn oes o lafur a defnyddioldeb mawr. Llafuriodd lawer yn mhlaid dirwest a sobrwydd, a gweithiodd yn egnïol yn y cyssylltiad hwn yn holl siroedd y Gogledd. Yn y fl. 1837, daeth i gyssylltiad agosach, a mwy cyhoeddus, â'r Methodistiaid, trwy sefydlu ysgol yn y Bala gyda'r diweddar Dr. Lewis Edwards, i addysgu a pharotoi efrydwyr ieuaingc at waith y weinidogaeth. Bu yn gyd-athraw gyda Dr. Edwards am amryw flynyddoedd; a chawsant yn lled fuan y boddhâd o weled yr ysgol yn cael ei chymmeryd o dan aden amddiffynol y cyfundeb, ac yn cael ei sefydlu yn goleg. Wedi cyflawni gwaith ei swydd yn y Bala gydag anrhydedd a gallu, yn y flwyddyn 1842, cafodd ei bennodi yn brifathraw Athrofa Trefecca—yn sefydliad yr hon y cymmerodd efe ran flaenllaw. Gwnaeth wasanaeth mawr i'r cyfundeb ynglŷn â'r athrofa hono; a bu yn brifathraw y sefydliad am agos i bum mlynedd ar hugain.

Wedi i'w gyssylltiad âg Athrofa Trefecca derfynu, ymgymmerodd â bugeiliaeth yr eglwys Gymreig yn Abercarn, a gweithredai fel caplan i'r Arglwyddes Llanofer. Oddi yno, symmudodd i Aberystwyth, yn mha le y llafuriodd yn galed, gydag eraill, i sefydlu y brifysgol. Yna efe a ddychwelodd i'r Gogledd, a bu yn preswylio yn Aberdyfi hyd ddydd ei farwolaeth.

Yr oedd Dr. Charles yn ddyn o dymmer siriol a charedig, yn foneddwr trwyadl, yn ysgolhaig rhagorol, ac yn bregethwr effeithiol; a bu ei fywyd o gryn ddylanwad yn Nghymru. Mawr berchid ef gan bawb a'i hadwaenai; ac nid oedd ammheuaeth yn meddwl neb o'i gydnabod nad oedd efe yn 'ŵr Duw.'

Priododd Miss Jones, un o ferched a chydetifeddion y diweddar Mr. Hugh Jones, o Lanidloes, a bu iddynt un ferch.

CHARLES, PARCH. WILLIAM. Ganwyd ef yn y Tŷ newydd, Gwalchmai, Môn, Hydref 1af, 1817. Mab ydoedd i'r Parch. John Charles, gweinidog perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd. Yr oedd ei dueddfryd at bregethu yn gryf yn moreu ei ddyddiau; a mynych y gwelid ef mewn lleoedd neillduedig yn arfer ei ddawn. Yr oedd teulu y Tŷ newydd yn bregethwyr, yn mron wrth natur. Yr oedd pump o honynt yn weinidogion; sef y tad, John Charles, a phedwar o'r meibion—un o ba rai oedd William Charles. Pan tua phedair-ar-ddeg oed, anfonwyd ef i'r ysgol at y Parch. W. Roberts, Bodedeyrn—wedi hyny o Gaergybi; ar annogaeth yr hwn y dechreuodd bregethu yn gyhoeddus. A phan yn 20ain oed, anfonwyd ef i Athrofa y Bala, lle y bu am dair blynedd. Yn fuan ar ol ei ddychweliad i Fôn, priododd gyda Miss E. Edwards, Bodwrog. Gwan oedd ei iechyd, o herwydd iddo gael y dwymyn yn drom pan yn bedair-ar-ddeg oed, effeithiau yr hon a lynasant

Digitized by Google

Abermaw; a ganwyd iddynt bedair o ferched, ac un mab; o ba rai nid oes yn aros ond priod y Parch. David Charles Davies, prifathraw Coleg Trefecca. Pan yn gymmharol ieuangc, dewiswyd ef, gydag unfrydedd, yn flaenor yn eglwys y Methodistiaid; yr hon swydd a lanwodd efe gyda ffyddlondeb a medrusrwydd mawr.

Y mae yn debyg na chyrhaeddodd ond ychydig o ddynion safle mor uchel a dylanwadol yn eu gwlad a'u hardal enedigol ag a gyrhaeddodd Mr. Cooper; ac yr oedd ynddo gymmhwysderau neillduol i lenwi pob cylchoedd y tröai ynddynt. Meddai ymddangosiad parchus, a dynoliaeth anrhydeddus. O gorpholaeth tal, trwchus, lluniaidd, o bryd ysgafn a siriol, o wybodaeth ëang, synwyr cryf, a barn addfed—yr oedd wedi ei lunio a'i fwriadu i lywodraethu. Yr oedd megys brenin yn ei ardal; ac efe oedd gwir ynad heddwch y gymmydogaeth. Yn nghyfarfodydd yr eglwys yr oedd yn swyddog ynddi, byddai ei bresennoldeb yn dra derbyniol gan bawb, a thaflai fywyd i'r holl wasanaeth. Agorai bwngc o athrawiaeth fel duwinydd galluog; a holai yr Ysgol Sabbothol, pob rhan o honi, gyda medrusrwydd a dyddordeb. Am y blynyddoedd y bu yn arolygwr yr Ysgol Sabbothol, nid oedd neb yn meddwl anufuddhau iddo, pa wasanaeth bynag y galwai arnynt i'w gyflawni. Y mae ar gôf fod gweinidog parchus oedd yn perthyn i'r eglwys yn ymddiddan mewn cyfarfod eglwysig â phedwar o fechgyn ieuaingc, gyda'r amcan o'u derbyn yn gyflawn aelodau; ond methai a chael dim attebion ganddynt. Cododd Mr. Cooper ar ei draed; a chyn pen llawer o eiliadau, yr oedd wedi myned yn holi ac yn atteb rhydd a chyfeillgar rhyngddynt, fel rhwng tad a'i blant ar yr aelwyd gartref. Bu ei dŷ a'i deulu yn achles i grefydd am flynyddoedd meithion; a bu ei ddrws yn borth i'r anghenog yn hyderus droi ato. Yn nghyfarfod misol sir Fflint, ac yn nghymmanfaoedd ei enwad, yr oedd iddo le mawr ac anrhydeddus. Yr oedd ei waith yn codi yn sierhau gwrandawiad iddo; a rhoddid pwys neillduol ar ei farn ar y mater fyddai yn destyn trafodaeth ar y pryd. Cafodd Coleg y Bala, a Choleg Normalaidd Bangor, bleidiwr selog a chyfranwr haelionus, ynddo.

Gyda phyngciau gwladol a lleol, yr oedd efe bob amser ar y blaen. Er nad ydoedd efe yn eithafol, nac yn or-selog, etto, cafodd Ymneillduaeth a rhyddid arweinydd o'r fath oreu a diogelaf ynddo; a bu ei ymadawiad yn golled i ardal Llangollen nad ydyw yr adwy fawr wedi ei llawn wneyd i fyny etto. Efe a roddodd gychwyniad i addysg anenwadol yn y dref, a thalodd lawer o'i logell ei hun am addysgiant plant tlodion. Trwy ei lafur a'i ymdrech ef, yn benaf, y sicrhawyd mynwent rydd i'r gymmydogaeth. Er pob rhwystrau a gwrthwynebiadau, byddai pob symmudiad yn sicr o lwyddo, ond ei gael ef i ymaflyd ynddo. Pan ddaeth mesur addysg Syr James Graham gyntaf o flaen y senedd, yr oedd yr hybarch Ddr. J. Pritchard, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y dref, yn awyddus i gael barn y gymmydogaeth o'i blaid; ond yr oedd yn petruso galw cyfarfod cyhoeddus i'w egluro hyd nes y gallodd sicrhau Mr. Cooper fel cadeirydd. Yr oedd pobpeth yn ddiogel ar ol hyny. Yn ystod helyntion boreuol y dreth eglwys, yr oedd Mr. Cooper yn awyddus i'r holl Ymneillduwyr fod yn ffyddlawn i ddyfod i'r festri oedd wedi ei chyhoeddi i ystyried y cwestiwn. Pan welodd cadeirydd y festri, yr hwn oedd yn barson, ac yn fab i ficer y plwyf, gyfansoddiad ac ysbryd y cyfarfod, yr oedd am ymneillduo. Ond troes Mr. Cooper yn bwyllog ac yn foneddigaidd ato, gan ddyweyd, "Eich lle chwi ydyw y gadair; ond os ydych yn penderfynu myned allan, rhaid i'r cyfarfod fyned yn mlaen, ac fe etholir cadeirydd yn eich lle." Felly y bu: gydag unfrydedd a brwdfrydedd gosodwyd Mr. Cooper yn y gadair, a daeth y cyfarfod i derfyniad boddhaol. Yn ystod y cyfarfod, gwaeddodd rhyw Eglwyswr gorselog, "Os attelir y dreth eglwys, fe attelir dirwyn cloc yr eglwys." Edrychodd y cadeirydd yn hamddenol arno, a gofynodd iddo, "Pwy biau cloc yr eglwys? Yr wyf yn eich gosod ar eich gocheliad na chyffyrddwch âg un o'i fysedd." A dywedir iddo argraphu papyrau ar ei gôst ei hun, gan eu dosbarthu ar hyd a lled yr ardal, os bygythid unrhyw un âg attafaeliad am y dreth, am iddynt, yn ddioedi, roddi gwybodaeth iddo ef. Bu hyny yn derfyn ar y dreth eglwys yn y plwyf. Gellid chwanegu llawer o enghreifftiau cyffelyb er dangos y lle a'r dylanwad rhyfedd oedd ganddo, a'r llwyddiant oedd yn dilyn pob ymdrech o'i eiddo gyda phob symmudiad yr ymaflai ynddo. Ond am y pedair blynedd diweddaf o'i oes, yr oedd, o blegid ammhariad ei iechyd, ac yn enwedig ei olygon, wedi ymneillduo o bron bob swydd a chylch cyhoeddus; a bu farw Hydref 24ain, 1863, yn llawn ffydd a gobaith yr efengyl; ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig hyd y dydd hwn.

COTHI, LEWIS GLYN. Adnabyddid ef wrth yr enw Lewis y Glyn, neu Llywelyn Glyn Cothi. Yr oedd yn fardd enwog, a blodeuodd o 1450 hyd 1486. Preswyliai yn Mhwlltynbyd, yn Nghwm Cothi, yn sir Gaerfyrddin; a chyfrifir mai efe oedd arwyddfardd mawr ei oes. Nid oes sicrwydd am ei sefyllfa yn y byd, er y tybir ei fod yn ŵr cyfoethog; ac ymddengys ei fod yn gydnabyddus iawn â llawer o foneddigion Cymru. Bu yn swyddog milwraidd o dan Jasper, iarll Penfro.

Cyhoeddwyd ei waith gan Gymmrodorion Llundain, yn y fl. 1837, o dan olygiad Gwallter Mechain ac Ioan Tegid. Y mae yr olaf o'r cywyddau yn dyfod i lawr hyd y fl. 1486. Yr unig golled a deimlwn wrth ddarllen y gwaith ydyw hon—na ddywedodd y golygwyr galluog air am fywyd personol y bardd, er cymmaint o hyfforddiadau pwysig sydd ganddynt braidd ar bob peth arall.

Y mae yn ngwaith L. G. Cothi "Awdl Ddychan gwŷr Caerlleon ar Ddyfrdwy," am iddynt ei ysbeilio o'i feddiannau, a gorchymyn iddo adael eu dinas, o herwydd iddo briodi gwraig weddw o Gaerlleon heb ganiatâd y dinasyddion. Ymddengys nad oedd y bardd yn fab tangnefedd, fel y gofynid i feirdd fod, yn ol egwyddorion tybiedig Barddas; canys y mae ganddo "Gywydd i ofyn cleddyf i Dafydd ab Gutyn, o Groesoswallt, i ladd gwŷr Caerlleon Gawr." Yr oedd y bardd yn addaw, ond cael y cleddyf, y lladdai efe "ugain mil o gŵn moelion;" ac ymddengys iddo ladd un, beth bynag; a thrwy hyny, fe allai, y tynodd efe y Saeson yn ei ben. Penawd yr awdl, fel yr ymddengys mewn un ysgrifllyfr, sydd fel hyn:—"Awdl yn canmawl Rheinallt ab Gruffydd ab Bleddyn, am ladd gwŷr Caerlleon yn y Wyddgrug, am iddynt godi da y prydydd am laddiad gŵr."

Digitized by Google

Y mae yn yr awdl dri phennill nad ydynt yn y gwaith argraphedig:—

"Cledd Reinallt aurwallt ar werin—y dre'
A rydd drawiad cyflin;
A llafn clodfawr llyfn caledfin
I Sais blwng y rhydd sias blin.

Blin adael i bla annedwydd
Ddrwg eu pryd ddrygu prydydd,
Am ladd Sais wrth ymliw sydd
Mawr i'w gael, am ryw gelwydd.

Ceisiason' Saeson yn siwr—fy nala,
Fy nilyd drwy gynhwr,
I'm rhoddi 'n llog i'r crogwr,
Ymliw gwan am ladd gŵr."

Nid ydyw cywreindeb arferol Lewis G. Cothi yn ymddangos yn y llinellau uchod; ond cymmerwyd hwynt o lyfr hen iawn. Dylid myfyrio gwaith L. G. Cothi, am ei fod y mwyaf hanesyddol o feirdd y bymthegfed ganrif, ac yn cynnwys mwy o arwydd-farddoniaeth na gwaith neb o'i gydoeswyr.

CABOT, SEBASTIAN: morwr a darganfyddwr clodfawr. Mab oedd efe i John Cabot, morwr Venetiaidd enwog, yr hwn a breswyliai yn achlysurol yn Lloegr. Ganwyd Sebastian yn Bristol, o ddeutu y flwyddyn 1477; ac addysgwyd ef mewn daearyddiaeth, morwriaeth, a mesuroniaeth. Aeth gyda'i dad a'i ddau frawd ar fordaith ddarganfyddiadol i Fôr y Werydd yn 1497. Ar y 24ain o Fehefin, 1497, gwelsant ororau Labrador yn Ngogledd America; ac ystyrir mai y Cabotiaid oedd y rhai cyntaf i ddarganfod y cyfandir mawr hwnw. Dychwelasant yn ol yn y flwyddyn hono; ac yn ystod y ddwy flynedd ganlynol, ymgymmerasant â dwy anturiaeth arall gyffelyb—yr olaf o honynt i Forgaingc Mexico. Ynghylch y pryd hwnw, dybygid, y bu farw ei dad; ac nid oes dim o hanes Sebastian i'w gael wedi hyny, hyd y fl. 1512—pan yr aeth i wasanaeth Ferdinand, brenin Yspaen. Yn 1515, bu yn arolygu ac yn diwygio mapiau a môrleni, ac yn cynllunio anturiaeth i chwilio am fynedfa ogledd-orllewinol i Asia; ond rhoddwyd yr anturiaeth hon i fyny, mewn canlyniad i farwolaeth Ferdinand, yn y fl. 1516. Dychwelodd Cabot i Brydain yn 1517, a phennodwyd ef gan Harri VIII. i fyned gydag ymgyrch i Labrador. Ond troi yn fethiant a wnaeth hwnw, o blegid llwfrdra neu falais yr hwn oedd yn uchaf mewn awdurdod, y mae'n debyg; sef, Syr Thomas Perte. Aeth Cabot i wasanaeth Yspaen drachefn, a gwnaed ef yn brif longlywydd teyrnas Siarl V.; ac arweiniodd ymgyrch i archwilio gororau Brazil a La Plata, lle yr ymdrechodd i ffurfio trefedigaeth. Dychwelodd yn ol i Yspaen yn 1531, a chymmerodd ei hen le. Ond yn y fl. 1548, daeth i Loegr, a chafodd dderbyniad croesawus gan Iorwerth VI. Gwnaed ef yn arolygwr y llynges, a chaniatawyd iddo flwydd-dâl o 166*p.* 13*s.* 4*s.* yn y flwyddyn 1549. Efe oedd un o'r rhai cyntaf i sylwi ar y gwahaniaeth sydd yn symmudiadau nydwydd y morwr mewn gwahanol leoedd. Cabot hefyd oedd prif gyfarwyddwr y masnachwyr Prydeinig anturiaethus a agorasant fasnach helaeth â Rwssia. Nid yw hysbys pa bryd y bu farw; ond tybir i hyny ddigwydd tua 1557. Yr oedd yn forwr medrus, ac yr oedd ei gymmeriad yn onest a dilychwin yn y sefyllfa yr oedd ynddi.

CABUL: lle a enwir fel un o derfynau Aser: *Ios.* xix. 27. Oddi wrth ei fod yn cael ei grybwyll fel yn agos i Iphtach el—wedi hyny Iotapata, ac yn awr Jefat. Y mae yn debygol mai yr un lle ydyw ag y sonia Josephus am dano fel yn nosbarth Ptolemais, a deugain ystâd o Iotapata. Tybir mai yr un ydyw a'r *Kabûl* bresennol; yr hon a gafwyd gan Dr. Smith a chan Robinson, wyth neu naw o filldiroedd o'r dwyrain i *Akka*, ac o ddeutu yr un pellder o *Jefat*. Gan ei bod fel hyn ar derfynau Galilea, y mae yn debygol fod cyssylltiad rhwng y lle hwn a'r dosbarth a gynnwysai ugain dinas, a roddwyd gan Solomon i Hiram, brenin Tyrus: 1 *Bren.* ix. 11.

CADELL. Mab Arthfael ab Hywel, brenin Morganwg. Cyrhaeddodd fawr enwogrwydd wrth ymladd yn erbyn y Saeson, yn ol *Brut y Tywysogion.* Bu farw tua B.A. 980.

CADWALADR, DAFYDD, o'r Bala. Mab oedd y pregethwr hwn i Cadwaladr a Catherine Dafydd, o Erw Ddinmael, yn mhlwyf Llangwm. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1752, pryd yr oedd dysgeidiaeth a chrefydd mewn cyflwr tra isel yn Nghymru. Ni chafodd Dafydd Cadwaladr ddiwrnod o ysgol erioed, na neb i'w ddysgu i ddarllen iaith ei fam. Daeth yn gydnabyddus â'r rhan fwyaf o'r wyddor Gymraeg trwy graffu ar y llythyrenau pôg y nodid y defaid â hwynt, gan ymofyn ynghylch eu sain. Ar ol taraw o hono wrth y *Llyfr Gweddi Cyffredin*, daeth yn gyfarwydd â'r holl lythyrenau; ac ni bu yn hir ar ol hyny heb ddyfod i fedru darllen.

Ymddengys ddarfod iddo brofi "nerthoedd y byd a ddaw" pan nad oedd ond pur ieuangc. Fel hyn yr adroddodd yr hanes unwaith wrth ei ferch:—"Digwyddodd unwaith dymmhestl arswydus o fellt a tharanau, pryd y daeth fy mam i'r ystafell y cysgwn ynddi, ac y syrthiodd ar ei gliniau, gan wylo yn hidl, ac adrodd yn brysur y Pader, y Credo, ac wedi hyny y geiriau o'r Litani, 'Duw Dad o'r nef, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid.' A chan na welswn y fath beth o'r blaen, gofynais iddi pa beth oedd arni. 'O! fy machgen i (ebai hithau wrthyf), gâd i mi lonydd i weddïo Duw; canys y mae arnaf ofn fod dydd y farn wedi dyfod.' Hyn a'm dychrynodd innau yn ddirfawr, a dechreuais innau weddïo i'w chanlyn; a dyna'r pryd y bu i mi ddysgu y Pader a'r Credo. Peidiai fy mam a gweddïo pan beidiai y mellt a'r taranau; ond myfi a barhawn am rai wythnosau, nes o'r diwedd y gorfu i mi dewi trwy i fy nhad a fy mam fy chwipio. Wedi hyny, awn ar fy mhen fy hun, a llefwn, 'Duw Dad o'r nef, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid,' nes yr oedd y cymmydogion yn meddwl fy mod wedi colli fy synwyrau. Pa fodd bynag, yr wyf yn meddwl hyd heddyw ddarfod i'r Arglwydd y pryd hwnw wrandaw arnaf, greadur tlawd—a thrugarhau wrthyf." Dengys yr hanes uchod na chafodd Dafydd Cadwaladr fawr o fantais na chefnogaeth yn ei gartref i fyw yn grefyddol.

Pan oedd yn un-ar-ddeg oed, gorfu arno fyned allan i wasanaethu; ac arweiniwyd ef gan lygredigaeth ei galon ei hun, a chan esampl cyfeillion llygredig, i rodio yn bur benrydd; ond er hyny, dwysbigid ef yn ddwfn y pryd hwnw ar amserau. O ddamwain, daeth yn feddiannol ar *Y Bardd Cwsg*, a *Thaith y Pererin;* a dysgodd y rhan fwyaf o gynnwys y ddau lyfr ar gôf; a byddai yr adgof am y gweledigaethau rhyfedd a fynegir yn y llyfrau hyny yn cyffroi ei feddwl

Digitized by Google

yn fawr, ac yn fynych. Nid oedd hyn, pa fodd bynag, yn ei luddias ef i'w hadrodd hwynt ar hirnos gauaf i gwmniau o amgylch y tân; a chan fod y rhai hyny yn fwy dyeithr na'r ystoriau a adroddid yn gyffredin, rhoddai pob un heibio ei gerdd a'i chwedl er mwyn gwrando ar Dafydd.

Ymddengys ei fod, tra yn gwasanaethu mewn ffermydd o amgylch Llangwm, yn arfer myned i'r eglwys yn bur gysson; ac y mae yn hawdd credu fod yr hyn a ddarllenid yno wedi bod yn foddion i'w gadw rhag rhedeg i ormod rhysedd, ac yn foddion hefyd i helaethu ei wybodaeth. Er darfod i sêl y Methodistiaid, ynghyd â'r gwrthwynebiad mawr a gawsant, eu gwneuthur yn bur adnabyddus yn y wlad, etto, ychydig a wyddid am eu daliadau a'u trefniadau. Ni chlywsai Dafydd Cadwaladr y sôn lleiaf am gyfarfod eglwysig y Methodistiaid hyd nes yr oedd yn bymtheg oed—ac ar ddamwain fel y canlyn y clywodd gyntaf. Pan yr oedd efe yn gwasanaethu yn Ngarthmeilio, daeth lliaws o bobl, un prydnawn Sabbath, at y plâs i chwareu pêl; ac wrth chwareu, torodd un o honynt gwarel mewn ffenestr. Yn foreu dranoeth, anfonwyd Dafydd i'r Bala i gyrchu gwydrwr i gyfanu y ffenestr; ac ar y ffordd yno, tarawodd wrth eneth ieuangc; yr hon, er mwyn dal i fyny yr ymddiddan, a ddywedodd wrtho yn y man, "Yr oedd aew seiat yn ein tŷ ni, neithiwr." "Seiat," ebai yntau, "pa beth ydyw hyny?" "Wel," ebai hithau, "pobl yn ymgyfarfod i ddarllen, gweddïo, ac i ymddiddan am bethau crefyddol." Glynodd hyn yn meddwl Dafydd, a chododd hiraeth ynddo am fwynhau cyfarfod o'r fath.

Wedi i Dafydd Cadwaladr symmud o Garthmeilio i Nant-y-cyrtiau, cafodd gyfleusdra i ymgydnabod â'r Methodistiaid. Er mwyn arbed ei ymborth, caniatâai ei feistr iddo fyned lle y mynai ar y Sabbothau; ac äi yntau i'r moddion crefyddol a gynnelid yn y Bala. Er mwyn chwanegu ei fanteision, aeth i wasanaeth William Evans, o'r Fedw-arian; yr hwn oedd y llëygwr cyntaf a glywodd efe yn pregethu; ac ni bu yno yn hir cyn ymuno â chymdeithas y Methodistiaid yn y Bala. Pan oedd tuag wyth-arhugain oed, annogwyd ef gan yr hybarch John Evans i ddechreu pregethu; ond bu ei gynnyg cyntaf mor aflwyddiannus fel y digalonodd, ac y rhoddodd heibio y gorchwyl am ddwy flynedd. Ar ben hyny o amser, perswadiwyd ef gan Mr. T. Foulkes, o'r Bala, i ail ymaflyd yn y gwaith. Yn mhen tua dau fis ar ol hyn, aeth i ryw Gymdeithasfa yn y Deheudir, lle yr enwyd ef i bregethu. Gan nad oedd efe ond ieuangc a dibrofiad, parodd y trefniad annisgwyliadwy hwn iddo bryderu a chyffroi yn ddirfawr. Ciliodd ymaith hyd nes oedd yn amser myned i orphwys, a bu ar fedr diangc o'r lle; ond meddyliodd y buasai yn pechu wrth wneyd hyny. Aeth i'w wely, sut bynag, heb brofi tamaid o fwyd; ac yn lle cysgu, gweddïo y bu efe drwy y nos. Pregethodd dranoeth gyda nerth ac awdurdod anghyffredin, fel na allodd y gwrandawyr ymattal rhag llefain â llef uchel," "Pa beth a wnawn ni?"

Tybir mai ar ol myned adref o'r gymdeithasfa hon yr ymgyfammododd efe â Duw yn y geiriau hyn:—"Myfi, Dafydd Cadwaladr, wyf, y dydd hwn, yn rhoddi fy hun i fod yn eiddo i'r Arglwydd dros byth. Yr wyf yn rhoddi fy enaid iddo i'w gadw a'i lywodraethu, fy nghorph yn aberth iddo, fy nghalon i'w garu, fy nhafod i'w glodfori, fy amser i'w wasanaethu, fy aelodau yn arfau cyfiawnder iddo. Yn ei berson mi gredaf, yn ei waed mi ymolchaf, yn ei ras mi ymnerthaf, yn ei air mi fyfyriaf, ar ei ogoniant mi edrychaf, ar ei fynwes mi bwysaf, yn ei orchymynion mi rodiaf, yn erbyn pechod mi ryfelaf, dan y groes mi ddioddefaf, a thros bob dyn mi weddïaf. Fel hyn yr wyf yn bwriadu byw i Dduw, ac ymddiried yn ei ddaioni ef yn unig am nerth a gras i gadw fy adduned. A rhag i mi byth alw fy ngeiriau yn ol, Duw Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, angylion y nef, a chythreuliaid uffern, a'm cydwybod fy hun, a gânt fod yn dystion ar fy nghyfammod: *Esa.* xliv. 5; 1 *Tim.* vi. 12; *Salm* cxix. 106. Cadw fi, O Dduw! rhag pob math o ryfyg a chyfeiliornad bob amser yn agos atat. Bendith arnaf."

Taranllyd iawn ydoedd pregethau Dafydd Cadwaladr yn mlynyddoedd cyntaf ei oes weinidogaethol; ond yn y blynyddoedd olaf, yr oedd ganddo lawer mwy o "eiriau comfforddus" yn ei bregethau.

Fel pob pregethwr grymus, yr oedd hefyd yn weddïwr mawr. Mynegir ddarfod iddo unwaith wrth derfynu cyfarfod eglwysig yn y Bala ymgolli mor llwyr yn y gwaith fel y parhaodd i weddïo nes oedd hi yn tynu at hanner nos; ac er hyny, nid aeth neb allan cyn y diwedd. Cyfrifid ef y cadarnaf yn yr Ysgrythyrau o bawb yn fyw. Yr oedd ei gôf gafaelgar yn gymmhorth mawr iddo i fod felly. Daroganai llawer y pryd hwnw yr elai awenau y llywodraeth eilwaith i ddwylaw y Pabyddion, ac y cymmerid y Beibl oddi ar y bobl. Rhag ofn i hyny ddigwydd, penderfynodd Dafydd Cadwaladr guddio cymmaint ag a allai o'r Gair yn ei gôf. A daeth yn mhen amser yn alluog i adrodd y Testament Newydd i gyd, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r Hen Destament.

Yr oedd Dafydd Cadwaladr yn rhagori ar lawer fel bardd hefyd. Cyfansoddodd farwnadau ar ol Thomas Charles, John Evans, a Dafydd Edward o'r Bala, ac amryw eraill.

Dyn tàl, gewynog, esgyrnog, oedd Dafydd Cadwaladr. Gallai weithio a theithio llawer iawn heb flino nemawr. "Clywais amryw yn dyweyd," meddai un, "y byddai, pan yn nghyflog yn y Fedw-arian, yn olaf yn cadw ei bladur nos Sadwrn yn amser y cynhauaf gwair, ac yn gyntaf yn ymaflyd ynddi boreu Llun, wedi bod yn y Penrhyn-deudraeth, a'r amgylchoedd, yn pregethu y Sabbath—pellder, rhwng myned a dychwelyd, o ddeg milldir a deugain: a hyn i gyd ar ei draed!" Cwynai unwaith wrth ryw wraig yn yr Abermaw ei fod, wrth ddyfod i fyny i riw Aberamphrech, yn teimlo rhyw wendid na theimlodd mo hono erioed o'r blaen, "Wel, pa faint yw eich oedran?" meddai hithau wrtho. "Deg a thrigain," meddai yntau. "A pha sawl milldir a gerddasoch chwi heddyw?" "Dim ond wyth ar hugain," meddai yntau. Nid rhyfedd, ar ryw olwg, oedd i Dafydd Cadwaladr ddangos peth chwithdod wrth deimlo ei hun yn diffygio mor gynted; canys buasai lawer Sabbath cyn hyny yn alluog i gerdded pymtheng milldir ar hugain, ac i bregethu hefyd bedair gwaith heb law hyny!

Bu farw ar y 9fed o fis Gorphenaf, 1834, yn 82ain oed, ar ol bod yn pregethu am yr ysbaid maith o 52ain o flynyddoedd. Yn mynwent Llanycil y mae ei fedd.

CADWALLAWN AB CADFAN: brenin Cymru yn y seithfed ganrif. Mab ydoedd i Cadfan frenin, a daeth i'r orsedd fel brenin

Digitized by Google

Gwynedd, tua'r flwyddyn 630; a chydnabyddwyd ef yr un pryd yn benllywydd holl Gymru. Ymddengys ei fod yn ddyn o wroldeb anghyffredin, ac yn fawr ei ymdrech dros lesiant ei genedl; ond cyhuddir ef mewn ysgrifau Sacsonaidd o greulondeb, pan y digwyddai ei elynion syrthio i'w ddwylaw. Dylid cofio, pa fodd bynag, fod y Cymry wedi bod am faith flynyddoedd yn dioddef oddi wrth ormes y Saeson; a dichon fod hyn wedi cynnhyrfu llidiawgrwydd Cadwallawn, ac iddo weinyddu cosp lem arnynt, pan y cafodd gyfleusdra i wneuthur hyny. Yr oedd ymraniadau yn mysg y Saeson ar y pryd hwn, ac Ethelfrith wedi llwyddo i gadw meddiant o daleithiau Deifr a Bryneich, ac i alltudio Edwin—cyfiawn lywodraethwr y flaenaf.

O'r diwedd, modd bynag, yn y fl. 617, gorchfygwyd Ethelfrith gan Edwin, a daeth yntau yn frenin Northumbria. Wedi hyny, dechreuodd ryfela yn erbyn Cadwallawn; a bu mor llwyddiannus nes y bu raid i'r olaf fyned i alltudiaeth i'r Iwerddon:—ac yno y bu am saith mlynedd. Tra yn yr Iwerddon efe a aeth drosodd at Solomon, brenin Llydaw; ac yn ol pob argoelion, cafodd gynnorthwy oddi yno i adennill ei deyrnas. Modd bynag, medrodd wneuthur hyny, a dial yn llymdost ar y goresgynydd. Ymunodd Cadwallawn â Penda, brenin Mercia, ac aethant yn erbyn Edwin; a gorchfygwyd a lladdwyd ef ganddynt mewn brwydr yn Hatfield, swydd Gaerefrog, yn B.A. 632, ac anrheithiasant wlad Northumbria. Parhaodd Cadwallawn i gario yn mlaen y rhyfel yn erbyn y Saeson, a chymmerodd ddinas Caerefrog; a phan ymosodwyd arno gan Osric, llwyddodd y tywysog Cymraeg, trwy ruthro yn ddisymmwth o'r dref, i wasgar ei fyddin a'i ladd yntau. Cyhuddir ef gan y croniclwyr Seisnig o ladd Eanfrid, a deuddeg o'i ganlynwyr, pan ddaethant ato i geisio ammodau heddwch; ond y dybiaeth gyffredin ydyw, nad oes sail wirioneddol i'r cyhuddiad hwn. Casglodd Oswald, brawd a chanlyniedydd Eanfrid i orsedd Northumbria, fyddin gref, ac ymladdodd frwydr â'r Cymry ger llaw Denisbourne, yn Northumberland, o gylch y fl. 634, yn yr hon y cwympodd y dewrfrydig Cadwallawn, ynghyd â lliaws mawr o'i ddilynwyr. Ystyrir fod Cadwallawn yn un o'r tywysogion Cymreig dewraf a mwyaf medrus fu yn brwydro â'r Saeson yn y canrifoedd cyntaf wedi eu hymsefydliad yn Mhrydain.

CAERDROIA. Gwel TROIA (*Troy*).

CALAMY, EDMUND, B. D. Duwinydd Presbyteraidd. Ganwyd ef yn Llundain, yn Chwefror, 1600; a phan oedd yn bymtheg oed, aeth i brif athrofa Caergrawnt, lle yr hynododd ei hun yn fawr. Ond o herwydd ei wrthwynebiad i'r blaid Arminaidd, ni chafodd ei wneuthur yn gymmrodor. Bu am beth amser yn gweinidogaethu yn Swaffham Prior, yn sir Caergrawnt; ond pan y peunodwyd ef yn un o ddarlithwyr Bury St. Edmunds, rhoddodd ei fywoliaeth i fyny. Yn ystod y deng mlynedd y bu yn gweinyddu yn y swydd hon, cydymffurfiwr cymmedrol ydoedd efe; ond pan y cyhoeddwyd erthyglau yr esgob Wren, ac y gorchymynwyd darllen "*Llyfr y Chwareuon*" yn yr eglwysydd, efe a ymunodd â'r Anghydffurfwyr. Yn 1639, dewiswyd ef yn weinidog i Eglwys St. Mary, Aldermanbury. O hyny allan, cymmerodd ran fawr yn nadleuon y dydd, a hynododd ei hun fel amddiffynydd y Presbyteriaid. Efe oedd un o'r rhai a ysgrifenasant y traethawd hwnw yn erbyn esgobyddiaeth a elwir "*Smectymnus*"—gair a wnaed i fyny o lythyrenau blaenaf ei bum awdwr; sef, Stephen Marshall, Edmund Calamy, Thomas Young, Mathew Newcomen, a William Spurstow. Attebwyd hwynt gan yr esgob Hall yn ei "*Defence of the Remonstrance;*" ac attebwyd yntau gan Milton yn ei "*Animadversions on the Remonstrant's Defence.*" Yr oedd Calamy yn un o'r duwinyddion a bennodwyd gan Dŷ yr Arglwyddi, yn 1641, i ddyfeisio cynllun i symmud ymaith achos yr anghydfod oedd yn blino ac yn rhanu yr eglwys yn herwydd dysgyblaeth eglwysig.

Fel y rhan fwyaf o'r gweinidogion Presbyteraidd, yr oedd Calamy yn erbyn dienyddiad Siarl, a thraisfeddiant Cromwell; ac yr oedd efe, gan hyny, yn un o'r rhai blaenaf i ddwyn adref y brenin Siarl II. Gorchfygwyd ef gan ormes ac annyoddefgarwch y blaid Uchel-eglwysig i roddi ei le i fyny; a thraddodwyd ef i garchar Newgate am wneuthur rhyw gyfeiriadau wrth bregethu a ystyrid yn derfysgol. Effeithiodd tân mawr Llundain mor niweidiol ar ei ewynau fel y bu farw yn fuan iawn ar ol i'r amgylchiad ddigwydd. Cyfrifir Dr. Calamy yn dduwinydd galluog; ond ni chyhoeddodd ddim amgen na'i bregethau, ynghyd âg amddiffyniad o hono ei hun yn erbyn Mr. Burton, o'r enw "*The Godly Man's Ark.*" Bu farw yn 1666, yn 66ain oed.

CAMLAS—ESYDD (*Canals*): ffrydle gelfyddydol wedi ei llenwi â dwfr, ac mewn amserau diweddar yn cael ei defnyddio yn benaf i gludo nwyddau o'r naill le i'r llall. Y mae camlesydd yn cael eu gwneyd weithiau gyda'r amcan o sychu tir, a phryd arall i'w ddyfrhau, ac i drosglwyddo dwfr i drefydd mawrion. Math o gamlas ydyw yr Afon Newydd, yr hon a wnaed gan Syr Richard Myddleton, yr hon sydd yn cyflenwi Llundain mewn rhan fawr â dwfr o swydd Hertford. Yr oedd camlesydd yr Aipht yn yr hen oesoedd yn cael eu defnyddio i ddyfrhau y tir, yn gystal ag i'w mordwyo. Gwyddys fod camlesydd yn China cyn y cyfnod Cristionogol; ond er pan y mae y wlad hono yn adnabyddus i Ewropiaid, nid oes dim gwelliantau wedi cymmeryd lle ynddynt. Y camlas cyntaf a wnaed yn Ewrop, hyd y gwyddys, ydoedd yr un a dorwyd gan Xerxes ar draws gyddf-dir Athos. Gwnaed camlesydd gan y Rhufeiniaid yn Italy, a'r iseldiroedd tua geneuau y Rhine; ac y mae lle i gredu iddynt wneyd rhai yn Mhrydain hefyd. Ond preswylwyr Holland a gogledd Italy oedd y rhai cyntaf yn Ewrop mewn amseroedd diweddar a wnaethant ddefnydd o gamlesydd. Gwnaed gweithiau o'r fath yma yn Lombardy yn yr unfed ganrif ar ddeg, ac yn y drydedd ar ddeg, y rhai a ganmolir yn fawr gan beirianwyr. Eu hamcan penaf oedd i ddyfrhau y tir. Ond gwnaed y camlas o Milan i Tesino yn fordwyol yn 1271. Dechreuwyd gwneyd camlesydd yn yr Iseldiroedd yn y ddeuddegfed ganrif; ac y mae Holland erbyn hyn wedi ei britho â chamlesydd.

Mewn gwlad wastad fel Holland y mae tori camlas yn waith hawdd mewn cymmhariaeth; gan y gellir myned â'r gwaith yn mlaen yn llinell uniongyth, heb fyned i'r draul o dori yn ddwfn, na gwneyd tynelau ac argaeon. Ond gall anhawsderau fod mewn gwlad wastad, yn codi o natur y tir drwy yr hwn y torir y camlas, a

Digitized by Google

phrinder dwfr. Lle y mae y tir yn gyfansoddedig o dywod, graian, mân geryg, a sylweddau tebyg—defnyddiau sydd yn llyngcu dwfr—mae yn angenrheidiol gorchuddio gwaelod ac ochrau y camlas â rhyw ddefnyddiau o ansawdd gwahanol; yr hyn sydd yn chwanegu llawer at y llafur a'r draul. Y mae yr ochrau, pan fyddont yn uwch nag wyneb y wlad oddi amgylch, yn cael eu gwneyd o'r pridd a deflir i fyny o wely y camlas; ac os bydd hwnw o natur ysgafn a thyllog, y mae yn angenrheidiol ei gymmysgu â rhyw ddefnyddiau eraill, er ei gadw rhag sugno dwfr, a pheri iddo barhau. Ac un moddion tra effeithiol i hyn ydyw ei orchuddio â thywyrch. Peth pwysig arall mewn cyssylltiad â chamlesydd ydyw sicrhau cyflenwad digonol o ddwfr yn mhob tymmor, mewn trefn i wneyd i fyny am yr hyn a ddifrodir neu a gollir trwy fygdarthiad. Gellir deall, mewn rhan, yr anhawsder i gael cyflenwad digonol o ddwfr iddynt, ond ystyried fod yn rhaid diogelu y cyflenwad yn effeithiol yn y lleoedd uchaf ar y camlas, yn gystal ag yn rhanau eraill ei gwrs. Wrth gynllunio y llinell, gan hyny, y mae yn angenrheidiol cael allan sefyllfa y ffynnonau a'r afonydd o fewn pellder priodol, yn gystal a gwneyd cyttundeb â'u meddiannwyr am ganiatâd i ddefnyddio eu dwfr at wasanaeth y camlas, a llenwi y cronfeydd. Rhaid gwneyd y cyfryw gronfeydd yn fynych yn uwch na lefel yr afonydd neu y ffynnonau y cyflenwir hwynt o honynt; gan hyny defnyddir agerbeiriannau yn fynych i godi y dwfr i lefel uchaf y camlas. Bydd raid cael cronfeydd cyffelyb hefyd mewn gwahanol fanau islaw y lefel hwnw, mewn trefn i adgyflenwi y dwfr sydd yn colli yn anocheladwy yn yr argaeon. Rhaid i faintioli cronfa o angenrheidrwydd gael ei reoli gan swm y dyfroedd y gellir eu disgwyl iddi. Mewn achosion a ddigwyddant yn ddigon cyffredin, pan fyddo camlesydd yn cael eu cario dros afonydd neu ddyffrynoedd dyfnion, rhaid gwneyd pontydd i'w cario drostynt. Y diweddar beiriannydd enwog, Telford, oedd y cyntaf a wnaeth wyffos (*acqueduct*) o haiarn bwrw, ar gamlas yr Amwythig, lle y croesa ddyffryn y Tern yn Long Mill. Y mae hwn yn 186 o droedfeddi o hyd. Gyda'r eithriad o'r gweiniau a'r sidrychau (*nuts and screws*) i gadw y llafnau ynghyd, y mae wedi ei gwneyd i gyd o haiarn bwrw; ac y mae rhagoriaeth haiarn ar geryg yn gyfryw fel y defnyddiwyd ef yn fynych o hyny allan. Cyfodwyd pont fawr o'r fath yma gan Telford dros yr afon Dyfrdwy, yr hon sydd yn cario camlas Ellesmere a Chaerlleon dros yr afon hono. Gelwir hi Pont Cyssyllte, ac y mae ger y Cefn mawr, ar ddyffryn Llangollen. A gwnaeth un arall hefyd dros yr afon Ceiriog, yn y Waen. Gwel TELFORD, THOMAS.

Yn hytrach nag amgylchu llawer torir tynelau i gamlesydd yn fynych, ac y mae rhai o honynt o gryn hyd. Y mae tynel yn Blisworth, ar gamlas y *Grand Junction*, yn 3,080 o latheni o hyd. Dywedir fod y tynelau a wnaed yn holl gamlesydd y Duc o Bridgewater, oll yn ddeunaw milldir o hyd, ac wedi costio 170,000*p*. Y mae tynel Marsden ar gamlas Huddersfield yn 5,451 o latheni o hyd; ac un Sapperton, ar gamlas y Tafwys a'r Hafren, yn agos i ddwy filldir a hanner o hyd, ac yn 250 o droedfeddi islaw brig uchaf y bryn drwy yr hwn y torwyd ef. Ac y mae amryw o rai cyffelyb o ran hyd, ac eraill llai, mewn gwahanol barthau o'r deyrnas.

Dywedir mai dyfais ddiweddar ydyw argaeon (*locks*), fel moddion i gario camlesydd drwy wledydd anwastad; ond, er hyny, y mae dadl yn mherthynas i'r lle y mabwysiadwyd y ddyfais hon gyntaf. Dywed Belidon mai yr Isellmyn a'i dyfeisiodd. Tybia eraill mai y Venetiaid a'i harferasant gyntaf; a dywedir fod Leonardo da Vinci, yr arlunydd, wedi gwneuthur argaeon ar gamlesydd Milan yn y flwyddyn 1497. Wrth argae camlas y deallir math o lyn yn ngwely y gamlas wedi ei furio o gwmpas, lle y bydd gwahaniaeth yn y lefel. Y mae y gronfa neu y llyn hwn wedi ei drefnu yn y fath fodd fel ag i fod o ran lefel y dwfr fydd ynddo yn gyfartal i lefel uchaf neu isaf y camlas. Gwneir ef trwy osod dau borth, un yn mhob pen i'r llyn. Trwy hyn, pan agorir y porth yn y pen isaf i'r gronfa, ac y cauir yr un yn y pen uchaf, disgyna y dwfr i lefel isaf y camlas; ac i'r gwrthwyneb, pan y cauir y porth isaf, ac yr agorir yr uchaf, y mae lefel y dwfr yn y llyn yn codi i lefel y dwfr fydd yn rhan uchaf y camlas. Trwy ddefnyddio y llwybr cyntaf, gellir nofio cwch i'r llyn o ran isaf y camlas; ac os cauir y porth isaf y pryd hwnw, ac os agorir y porth uchaf, er gollwng y dwfr i lawr i'r llyn o'r lefel uchaf, fe gyfyd wyneb y llyn yn un linell wastad â'r dyfroedd uwch law. Felly codir y cwch i fyny, ac wedi agor y porth uchaf gellir nofio y cwch rhag ei flaen i'r camlas uchaf. Trwy wneyd yn wrthgyferbyniol i hyn, gall cychod fyned yn rhwydd o'r lefel uchaf i'r un isaf; ond wrth gario y gweithrediadau hyn allan bydd swm o ddwfr cyfartal i holl gynnwysiad y llyn yn cael ei golli o'r lefel uchaf. Y mae o gryn bwysigrwydd i gynnilo cymmaint ag sydd bossibl o ddwfr y llynau; ac i'r dyben hwn ni ddylai maintioli y llyn fod yn fwy nag sydd yn wir angenrheidiol i gynnwys y cychod fydd ar y gamlas.

Wrth wneuthur camlas trwy wlad anwastad, bydd raid tori yn ddwfn mewn rhai manau, a ffurfio amgloddiau mewn manau eraill. Mewn achosion felly, wrth gwrs, y mae yr hyn a gloddir o un man yn cael ei ddefnyddio hyd y gellir yn y man arall. Gwneir llwybr lled lydan ar un ochr i'r camlas, i'r ceffylau fydd yn tynu y cychod gerdded, a theithwyr eraill hefyd.

Y mae ffyrdd haiarn wedi effeithio yn fawr ar fasnach y camlesydd; ac y mae rhai o honynt wedi eu rhoddi heibio o gwbl. Y mae llawer, pa fodd bynag, yn parhau yn flodeuog. Dywedir fod yn Mhrydain Fawr yn y flwyddyn 1857, tua 2,172 o filldiroedd o gamlesydd, a'u bod wedi costio o ddeutu 28,400,000*p*.; a 1,315 o filldiroedd o afonydd wedi eu gwellhau a'u gwneyd yn fordwyol ar draul o 6,270,000*p*. Yn Ffraingc yn yr un flwyddyn, yr oedd 1,974 o filldiroedd o gamlesydd, a'r draul o'u gwneuthur ynghylch 12,250,000*p*.; ac yn yr Unol Daleithiau 2,000 o filldiroedd, yn costio 9,200,000*p*. Rheolir masnach, a hawliau cyffredinol, dyledswyddau, ac ymrwymiadau cwmnïau camlesydd yn Mhrydain gan ddwy ddeddf seneddol a elwir "Deddfau Masnach Ffyrdd Haiarn a Chamlesydd."

Dywedir fod y camlas ymherodrol yn China wedi ei ddechreu yn y drydedd ganrif ar ddeg, a'i fod yn myned dros 2,000 o filldiroedd, a thrwy un a deugain o ddinasoedd.

Y mae y daflen ganlynol yn cyfeirio at brif gamlesydd y byd. Gweler y manylion diweddaf am danynt d.g. CAMLESYDD yn cyf. x.:—

CAMLESYDD TRAMOR.

| | B.A. |
|---|---|
| Camlas Languedoc, sydd yn uno Môr y Canoldir â Môr y Werydd, a gwblhawyd yn.... | 1681 |

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Dechreu Camlas Orleans, o'r Loire i'r Seine | 1675 |
| Camlas Burgundy ... ... | 1775 |
| Agor Camlas y Kiel, rhwng y Baltic â Môr y Gogledd ... ... ... | 1785 |
| Dechreu Camlas Bourbon, rhwng y Seine a'r Oise ... ... ... ... | 1790 |
| Dechreuad a gorpheniad y camlas o'r Cattegat i'r Baltic ... ... | 1794—1800 |
| Dechreu Camlas fawr yr Erie, yn America, yr hon sydd yn mesur 363 o filldiroedd ... | 1817 |
| Y camlas o Amsterdam i'r môr ... | 1819—1825 |
| Agor Camlas y Ganges, 525 o filldiroedd o hyd | 1854 |
| Camlas Suez, yr hwn sydd 99ain milldir o hyd, rhwng Môr y Canoldir a'r Môr Coch, ac a ystyrir yn un o brif weithiau peiriannyddol yr oes, a ddechreuwyd yn 1856, ac a agorwyd yn ... ... ... | 1869 |
| CAMLESYDD PRYDEINIG. | |
| Harri I. a wnaeth y cyntaf, pan yr unwyd y Trent a'r Witham ... ... ... | 1134 |
| Dwyn yr Afon Newydd i Lundain ... | 1613 |
| Gwneyd y Tafwys yn fordwyol hyd Rydychain | 1624 |
| Camlas sir Gaerfyrddin ... ... | 1756 |
| Camlas Droitwich a'r Hafren ... ... | — |
| Dechreu Camlas Bridgewater ... ... | 1759 |
| Dechreu Camlas y Grand Trunk (y Trent a'r Mersey) gan Brindley ... ... | 1766 |
| Dechreu Camlas y Forth a'r Clyde ... | 1768 |
| Camlas Birmingham a Bilston ... ... | — |
| Un Rhydychain a Coventry ... ... | 1769 |
| Gwneyd yr afon Lea yn fordwyol o Hertford i Ware, 1739, ac i Lundain ... ... | 1770 |
| Camlas Leeds a Liverpool ... ... | — |
| Un Ellesmere a Chaerlleon ... ... | 1772 |
| Un Liverpool a Wigan ... ... | 1774 |
| Y camlas o Stroud i'r Hafren ... ... | 1775 |
| Dechreu Camlas swydd Stafford ... | 1776 |
| Dechreu un Runcorn a Manchester ... | — |
| Agor Camlas y Mersey ... ... | 1777 |
| Camlas Belfast a Lough Neagh ... ... | 1783 |
| Cwblhau un y Tafwys a'r Hafren ... | 1789 |
| Gorphen Camlas Bradford ... ... | — |
| Dechreu y Grand Junction ... ... | — |
| Camlas Worcester a Birmingham ... | 1791 |
| Un Manchester, Bolton, a Bury... ... | — |
| Camlas Hereford a Gloucester ... ... | 1796 |
| Dechreu un Paddington ... ... | 1798 |
| Camlas Brycheiniog .. ... .. | 1802 |
| Agor Gwyffos Pont Cyssyllte, ger Llangollen | 1805 |
| Cwblhau Camlas Aberdeen ... ... | 1807 |
| Agor un Glasgow ac Ardrossan ... ... | 1811 |
| Agor Camlas Liverpool a Leeds... ... | 1816 |
| Camlas y Gwy a'r Avon ... ... | — |
| Dechreu un Birmingham a Liverpool ... | 1826 |

**CANNING, GEORGE**: gwladweinydd ac areithydd enwog. Ganwyd ef yn Llundain, Ebrill 11eg, 1770. Bu farw ei dad pan nad oedd efe ond deuddeng mis oed. Priododd ei fam ddwy waith, a bu fyw i weled ei mab wedi dringo i sefyllfa anrhydeddus. Cymmerwyd gofal ei addysg ef gan ewythr iddo; a bu mewn ysgol yn Hyde Abbey. Wedi hyny symmudwyd ef i Eton; a phan yn ddwy ar bymtheg, aeth i Goleg Eglwys Crist, yn Rhydychain, lle yr enwogodd ei hun—yn enwedig mewn dysgeidiaeth glasurol. Aeth o Rydychain i Lincoln's Inn; ond ar awgrymiad Burke, meddir, rhoddodd i fyny yr alwedigaeth gyfreithiol, gan ymroddi i fywyd seneddol. Etholwyd ef yn aelod o Dŷ y Cyffredin dros Newport, yn Ynys Gwyth, yn 1793, a rhoddodd ei gefnogaeth i Mr. Pitt. Pennodwyd ef yn is-ysgrifenydd y wladwriaeth yn 1796. Yn 1798, pa fodd bynag, y gwnaeth Canning gymmeriad iddo ei hun fel areithiwr a gwladweinydd, drwy ei areithiau ar ddiddymiad y gaethfasnach, ac yn erbyn cynnygiad Mr. Tierney yn mherthynas i wneuthur heddwch â'r Llywgor Ffrengig. Bernir fod ei araeth ar y testyn diweddaf yn neillduol yn gampwaith o hyawdledd. Gwnaeth wasanaeth mawr i'w blaid y pryd hwn drwy ei areithiau galluog yn y tŷ. Yn 1800, priododd Canning Miss Joanna Scott, merch y Cadfridog Scott, gan yr hon yr oedd gwaddol o 100,000*p*. Cyfansoddodd farddoniaeth, ac ysgrifenodd ddarnau politicaidd rhyddieithol effeithiol yn erbyn plaid y Whigiaid. Ar ol marwolaeth Pitt, ac i weinyddiaeth unedig Fox a Grenville gwympo, pennodwyd Canning yn ysgrifenydd tramor yn ngweinyddiaeth Percival, yn 1807. Ymladdodd ornest (*duel*) âg Arglwydd Castlereagh; yn yr hwn y clwyfwyd ef, Medi 21ain, 1809, a rhoddodd ei swydd i fyny. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Liverpool yn 1812; ac yn 1816, pennodwyd ef yn llywydd y bwrdd llywodraethol (*board of control*), a chefnogodd fesurau ammhoblogaidd gweinyddiaeth Arglwydd Liverpool. Yn 1820, gwrthwynebodd brawf y frenhines Caroline; ac ymddiswyddodd, yn hytrach na phleidleisio yn ei herbyn. Pennodwyd ef yn llywodraethwr cyffredinol India, Mawrth 22ain, 1822; ond cyn iddo gychwyn allan, gwnaed ef yn ysgrifenydd tramor. Daeth âg ysbryd mwy rhyddfrydig i'r weinyddiaeth y tro hwn, a gwnaeth wasanaeth defnyddiol i'w wlad, gartref ac oddi cartref. Yr oedd ei wladlywiaeth newydd mor boblogaidd ag oedd ei hen wladlywiaeth o ammhoblogaidd. Yn mis Chwefror, 1827, mewn canlyniad i ergyd o'r parlys, ymneillduodd Arglwydd Liverpool, a chyrhaeddodd Canning wrthddrych mawr ei uchelgais—sef, cael ei bennodi yn brif weinidog—Ebrill 12fed. Ond er ei fod yn boblogaidd gyda'r wlad ar y pryd, yr oedd y blaid y bu efe yn cydweithredu â hi, i fesur mawr yn troi yn elynol iddo, ac yn gwneyd ei sefyllfa yn un annedwydd. Gwelwyd yn fuan fod gofalon y swydd bwysig yn effeithio ar ei iechyd; a bu farw ar yr 8fed o Awst, yr un flwyddyn, yn 57ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynachlog Westminster, yn agos i'r llanerch lle y claddwyd Pitt.

Fel areithiwr seneddol, y mae i Canning le amlwg yn nghofnodion Prydain. Yr oedd craffder ei feddwl, ei allu i'w amlygu, a'i ffraethineb, yn nodedig; ond ar y cyfan, nid oedd yn gyfartal â Pitt, Burke, a Fox. Nid oedd yn feddiannol ar nodweddion hudoliaethus y blaenaf, nac ar frwdfrydedd gorthrechol yr ail, na medrusrwydd deniadol y trydydd. Er y cwbl, ychydig o areithwyr Tŷ y Cyffredin a ragorasant arno, o ran cyfansoddiad gorphenedig a chwaeth glasurol ei areithiau. Ei fod yn awyddus am allu a swydd, nid oes neb yn gwadu; ond fel gwladweinydd, ei uchelgais mawr oedd cadw anrhydedd ei wlad, a dilyn, hyd y gallai, wladlywiaeth ryddfrydig gartref ac oddi cartref. Ond yr oedd efe yn wrthwynebol hollol i gyffwrdd â'r sefydliadau hyny yr oedd doethineb a phrofiad yr oesoedd blaenorol wedi eu cymmeradwyo.

**CANUTE**: brenin Lloegr, yr hwn a anwyd tua 995, ac a ddilynodd ei dad, Sweyn, fel llywydd a blaenor ar y Daniaid yn Lloegr, ac a gyhoeddwyd ganddynt yn frenin yn 1014. Ar farwolaeth Ethelred, rhanwyd y deyrnas rhyngddo ag Edmund Ironside yn 1016; yr hwn a deyrnasai ar ddeheubarth Lloegr, tra y llywodraethai Canute ar y gogleddbarth. Ar farwolaeth ddisymmwth, neu fradlofruddiaeth, Edmund, gwnaed Caunte yn frenin ar holl Loegr,



Digitized by Google

Tachwedd 20fed, 1017, a pharhaodd i deyrnasu hyd ddydd ei farwolaeth, yr hwn a ddigwyddodd Tach. 12fed, 1035, neu 1036. Ymddwyn yn greulawn y byddai efe yn nechreuad ei deyrnasiad; ond wedi cael ymwared o'r rhai oedd yn debyg o ymyraeth â'i awdurdod, dangosodd lawer o dynerwch a chyfiawnder, yn gystal a thalent a barn. Nid oedd yr Anglo-Sacsoniaid a ddarostyngwyd ganddo yn teimlo eu cadwynau; o herwydd nid oeddynt wedi cael cystal llywodraeth ag a gawsant dano ef er dyddiau Alfred ac Athelstan. Ennillodd lawer o serch y bobl, o herwydd ei hoffder o hen ganeuon, a'i gefnogaeth haelfrydig i delynwyr a chantorion. Yn ei flynyddoedd olaf, yr oedd yn dra chrefyddol: ac aeth ar bererindod i Rufain yn 1027, ac adeiladodd sefydliadau mynachaidd. Nid brenin Lloegr yn unig ydoedd efe; ond yr oedd ganddo ymherodraeth fawr yn y rhan ogleddol o Brydain o dan ei reolaeth. Yr oedd efe hefyd yn arglwydd ar Gymru. Ac yn 1028, chwanegodd Norway atynt. Yr oedd yn un o lywodraethwyr penaf a pharchusaf gwledydd cred yn ei oes, ac yn ddyn o yni anarferol a gallu mawr iawn.

CARACALLA, MARCUS AURELIUS ANTONINUS: ymherawdwr Rhufain, a mab i'r ymherawdwr Septimius Severus. Ganwyd ef yn Lyons, yn Ebrill, B.A. 188. Ar ol marw ei dad, B.A. 211, efe a esgynodd i'r orsedd, fel cydlywodraethwr â'i frawd, Publius Geta, yr hwn wedi hyny a lofruddiwyd yn ol ei gyfarwyddyd ef. Wedi llwgrwobrwyo y Pretoriaid, fel y byddai iddynt edrych heibio i'r weithred ysgeler hon, ac i'w wneuthur ef yn unig ymherawdwr, ymddygodd yn greulawn tuag at holl gyfeillion a phleidwyr Geta; a rhoddwyd ugain mil o honynt i farwolaeth, rhwng meibion a merched; ac yn eu plith y rheithofyddwr enwog, Papianus. Arferodd ormes mawr trwy drethu ei ddeiliaid i dalu i'w filwyr. Yn ei ryfelgyrchoedd, yr oedd efe weithiau yn efelychu Alexander, a phryd arall Sylla; a'i brif amcan oedd gormesu a gorlwytho y taleithiau a arbedasid i fesur helaeth gan ymherawdwyr blaenorol. Llofruddiwyd ef yn 217, gan Macrinus, llywiawdwr y gwarchodwyr Pretoraidd, ger llaw Edessa; yr hwn, yn ddioed, a esgynodd i'r orsedd ymherodrol. Y mae haneswyr yn gyffredin yn paentio cymmeriad Caracalla yn y lliwiau duaf.

CARDAN, JEROME: mesuronydd, naturiaethwr, ac athronydd Italaidd. Yr oedd efe hefyd yn fardd o gryn allu; a ganwyd ef yn Pavia, Medi 24ain, 1501. Derbyniodd ei addysg foreuol gartref, a chwblhaodd ei efrydiau yno, ac yn Padua. Bu yn athraw mewn mesuroniaeth yn Milan; a dechreuodd ei glod ymledu yn mhell ac yn agos. Wedi hyny, troes i ddarlithio ar physygwriaeth, ac i ymarfer fel physygwr. Gwahoddwyd ef gan frenin Denmarc i fod yn athraw yn un o golegau Copenhagen yn 1546; ac aeth i Ysgotland ar wahoddiad yr archesgob Hamilton yn 1552; ac ar ol hyny, dychwelodd yn ol i Milan. Yn 1559, symmudodd i Pavia yn broffeswr physygwriaeth; a thrachefn i Bologna, lle yr arosodd hyd 1570—pan y taflwyd ef i garchar am ddyled. Modd bynag, aeth i Rufain yn y fl. 1571, er gochelyd ei ofynwyr, lle y derbyniwyd ef yn aelod o goleg y llawfeddygon, ac y cafodd blwydd-dâl gan y pab Gregory XII. Bu farw yn y ddinas hono, Medi 21ain, 1576, yn fuan ar ol iddo orphen ei hunan-gofiant, yn mron yn 75ain mlwydd oed.

Ysgrifenodd tua 122 o draethodau ar anianeg, mesuroniaeth, seryddiaeth, rheitheg, hanesyddiaeth, moesddysg, rhesymeg, hanesiaeth naturiol, cerddoriaeth, a meddyginiaeth. Yr oedd yn gredinwr mawr mewn ser-ddewiniaeth. Nid oedd yn ddarganfyddwr mawr ei hun, nac mewn meddygiaeth, nac mewn mesuroniaeth; ond gosododd sylfaen dda i ddarganfyddiadau pwysig dyfodol yn y naill a'r llall. O'i holl weithiau, ei hunan-fywgraphiad ydyw y mwyaf dyddorol. Golygir ef fel yr un mwyaf di-gêl ac agored o'r holl hunan-fywgraphiadau.

CARDINAL—IAID. Y cardinaliaid ydyw urddasolion uchaf Eglwys Rhufain, neu tywysogion yr eglwys hono, yn nesaf i'r pab ei hun. Hwy sydd yn ethol y pabau, ac yn gweithredu fel cynghorwyr iddynt. Ar y cyntaf, yr oedd i'r teitl hwn ystyr mwy cyffredinol nag sydd ganddo yn bresennol. Gan fod y pab yn llywodraethu dros yr holl Eglwys Babaidd, a chanddo, o herwydd hyny, lawer o ddyledswyddau i'w cyflawni ar wahân oddi wrth ddyledswyddau yr esgobaeth neillduol hono, yr oedd ganddo er yn lled foreu esgobion, offeiriaid, a diaconiaid—a bennodid ganddo yn ficeriaid a chydweithwyr ynddi. Ymarferai yr esgobion y swydd esgobol yn lle y pab; gweinyddai yr offeiriaid yn eglwysydd plwyfol Rhufain; a chymmerai y diaconiaid ofal crefyddol rhai eglwysydd a chapeli, yn chwanegol at eu gwaith yn gweini ar y pab ar achlysuron cyhoeddus. Gelwid y tri dosbarth hyn o swyddogion y *cardinali*, neu *cardinales*, tua 853, er dynodi eu bod yn uwch mewn awdurdod na'u brodyr, a bod holl achosion esgobaeth Rhufain o dan eu rheolaeth hwy. Mewn amser, cymmerodd offeiriaid a diaconiaid dinasoedd pwysig eraill y teitl o *cardinales;* ond penderfynodd y pabau nad oedd neb i'w arfer ond y rhai a anrhydeddid â'r teitl hwn. Tua dechreu y ddeunawfed ganrif, wedi i'r pabau ffurfio llys rheolaidd, rhoddasant y teitl o *gardinal*, *offeiriad*, neu *diacon*, i unrhyw berson mewn urddau eglwysig; a hyd yn oed i leygwyr pan y gwelent yn dda, pa un bynag ai Rhufeiniaid ai tramorwyr fyddent. A rhoddent dan ofal pob un ryw eglwys neillduol yn Rhufain; ond nid oedd yn gyssylltiedig â hyn unrhyw ddyledswydd yn orphwysedig arnynt. Yn y modd hwn y daeth y cardinaliaid yn gorph o ddynion gwahanol, wedi eu dewis am eu hoes, ac yr ysbeiliwyd y clerigwyr gweinyddol yn Rhufain o'r teitl.

Yn 1059, darfu i Nicholas II. gyfyngu yr hawl i ethol pab newydd i'r cardinaliaid a bennodid yn y modd hwn, gan adael yr hawl o gymmeradwyo y dewisiad i'r gweddill o'r clerigwyr, a phobl Rhufain; ac yr oedd gan yr ymherawdwr yr hawl o'i gadarnhau. Er fod y gallu hwn wedi ei roddi iddynt, yr oedd yr esgobion, pa fodd bynag, yn cymmeryd y flaenoriaeth arnynt yn nghynghorau mawr yr eglwys. A Louis XIII. o Ffraingc, yn 1614, pan eisteddai y senedd yn Paris, a drefnodd y flaenoriaeth i'r cardinaliaid ar y pendefigion eglwysig—esgobion ac aelodau. Yn 1567, darfu i'r pab Pius V. wahardd i unrhyw glerigwr nad oedd wedi ei bennodi gan y pab i arfer y teitl o gardinal; a phenderfynodd y pab Sixtus V., yn 1590—ac fel cadarnhâd o'r pabarchiad (*bull*) a ddarparwyd yn Rhagfyr 3ydd, 1585—fod i'w nifer gael ei gyfyngu i ddeg a thrigain: ac yn y modd hwn y maent wedi parhau

Digitized by Google

hyd yma. Nid ydyw eu nifer ond yn anfynych yn llawn; o herwydd gadewir ychydig wagleoedd ar gyfer amgylchiadau neillduol. Y mae y nifer wedi bod yn fynych o dan ddeg a thrigain. Pan ddewiswyd Nicholas III. yn bab, nid oedd ond wyth o gardinaliaid yn fyw; ac ychydig cyn marwolaeth Alexander IV., nid oedd eu nifer ond pedwar. Weithiau, cyn amser Sixtus V., yr oedd y nifer yn fwy; o herwydd yn amser Pius IV., yr oedd pedwar ar ddeg a thrigain o gardinaliaid.

Gelwir corph y cardinaliaid 'y Coleg Cyssegredig.' Preswylia y nifer fwyaf o honynt yn Rhufain, ac y maent naill ai yn mwynhau bywoliaethau eglwysig, neu yn cyflawni swyddi yn y llys Pabaidd. Gan y pab yn unig y mae hawl i bennodi cardinaliaid. A'r ffordd i wneyd hyn sydd fel y canlyn:—Os bydd yr hwn a wneir yn Rhufain, aiff i dalu ymweliad â'r pab, ac efe a rydd y cap coch am ei ben—fel arwydd y dylai golli ei waed dros grefydd, os bydd raid. Os bydd y person yn absennol o Rufain, anfonir cap gyda chenad arbenig iddo oddi wrth y pab. Mewn cydymgynnulliad cyhoeddus y rhoddir yr het goch o law y pab ei hun; ac y mae llawer o gardinaliaid nad ydynt yn ymweled â Rhufain yn marw heb ei derbyn. Y pab Paul II. a roddodd y wisg o ysgarlad yn 1464 i'r cardinaliaid; a rhoddodd y pab Urban VIII., yn 1630, iddynt y teitl o "uchelder" (*eminence*). Defnyddiodd y pabau y cardinaliaid yn fynych fel llysgenhadon, &c. 'Glwysgynghorau' y gelwir cynghorau y cardinaliaid, y rhai fydd yn ymgynnull o dan lywyddiaeth y pab ei hun i ymdrin âg achosion perthynol i'r Babaeth. Yn 1860, eu nifer oedd 69; yn 1864, 59; yn Tachwedd, 1867, 52; ac yn 1873, 5 o urdd esgobion, 34 o flaenoriaid, a 6 o ddiaconiaid—45 i gyd. Gwnaed naw o gardinaliaid, ac un o honynt o deulu Bonaparte, Mawrth 18fed, 1868. Y cardinaliaid Saesnig a wnaed oedd y rhai canlynol:—Henry Stuart, yn 1747; Charles Erskine, yn 1801; Thomas Weld, yn 1830; Charles Acton, yn 1839; Nicholas Wiseman, Medi 30ain, 1850; a Monsignor Howard, Paul Cullen, Henry Edward Manning, a J. Mc'Closkey (archesgob Pabaidd Efrog Newydd ar ol hyny), gan y diweddar bab Pius IX.

CASWALLAWN: cadfridog dewrwych y Brytaniaid, pan y gwnaeth Julius Cæsar ei ymosodiad cyntaf ar Brydain, yn y flwyddyn C.C. 55. Gelwid ef *Cassivellaunus* gan y Rhufeiniaid. Mab ydoedd i Beli Mawr. Teyrnasai ar y parth hwnw o Brydain lle yn awr y mae swyddi Hertford a Bedford, Caerloew, a Rhydychain; a'i brifddinas ydoedd Gwernllan (*St. Alban's*). Ymladdodd Cæsar un frwydr yn C.C. 55, ar gyffiniau y môr, ger llaw Deal, yn Nghaint, lle y glaniodd, yn yr hon y gorchfygodd y Cymry. Yna efe a giliodd yn ol i'r Cyfandir. Ond gwnaeth ei ail ymosodiad yn y flwyddyn ddilynol; a'r pryd hwnw, gwnaed dewisiad o Caswallawn yn brif gadlywydd yr holl luoedd Brytanaidd. Ac y mae yr hanes a roddir gan Cæsar ei hun yn dangos yn eglur fod Caswallawn yn flaenor medrus a gwrol, ac yn haeddiannol o'r ymddiried a roddodd ei gydwladwyr ynddo; gan iddo fod yn alluog i wneyd sefyllfa y Rhufeiniaid yn un digon anghysurus yn yr ynys. Pe buasai y Cymry mor unol â'u gilydd ag oeddynt o ddewr yn yr ymdrechfa hon, nid ydyw mewn un modd yn annhebyg na chawsent oruchafiaeth ar fyddinoedd Rhufain. Y mae yr hanes a ysgrifenodd Cæsar ei hun am ryfelgyrchoedd y Rhufeiniaid yn Mhrydain mewn amryw bethau yn wahanol i'r hyn a geir yn y "*Brut.*" Ond y mae y naill a'r llall yn dangos fod Caswallawn wedi gwneyd ei ran ef fel amddiffynwr ei wlad yn anrhydeddus, er iddo fod yn aflwyddiannus yn ei ymdrechion i attal y Rhufeiniaid yn eu rhwysg milwraidd: ac yn wir rhestrir ef yn y *Trioedd* yn un o "Dri Phrif Gatteyrn Ynys Prydain." Ar ol teyrnasu am dair blynedd ar hugain, bu farw Caswallawn yn Nghaerefrog—ac yno hefyd y claddwyd ef.

CATHARINA II., ALEXIEWNA, Ymherodres Rwssia. Ei henw bedydd oedd Sophia Augusta. Merch ydoedd i Dywysog Anhalt Zerbst, llywodraethwr Stettin, yn Pomerania. Ganwyd hi yn 1729; ac yn 1745, priododd ei chefnder, Carl Frederick, y Duc o Holstein Gottorp, yr hwn a ddewisasai yr ymherodres Elizabeth, o Rwssia, yn olynydd iddi. Pan ymunodd Carl âg Eglwys Groeg, newidiodd ei enw yn 'Pedr.' Ymroddodd yr ymherawdwr hwn i bob rhysedd; ac nid oedd Catharina ei hun, hyd yn oed yn ei hieuengctid, yn nodedig am ei diweirdeb. O'r diwedd, ynfydodd Pedr gymmaint ar un o'i gymmonesau, sef yr arglwyddes Woronzoff, fel y penderfynodd ysgaru a charcharu Catharina, a gwneuthur Woronzoff yn ymherodres yn ei lle: ond Catharina, wedi gwybod am ei fwriad, a achubodd y blaen arno, trwy roddi gorchymyn i'w ddal, a'i garcharu yn Ropscha, lle y rhoddwyd ef i farwolaeth yn mhen yr wythnos wedi hyny gan y Tywysog Alexis Orloff. Yn mis Gorphenaf, 1762, y bu hyn; ac yn y mis canlynol, coronwyd Catharina yn ymherodres holl Rwssia. Er cynddrwg ydoedd buchedd Catharina, dangosodd ei hunan yn frenhines alluog a doeth. Dan ei llywodraeth hi, aeth Rwssia yn allu mawr a dylanwadol iawn. Cerddodd yn ddiysgog yn ffyrdd Pedr Fawr, gan amcanu cyfoethogi a gwareiddio ei theyrnas. Diwygiodd y gyfraith, a rhoddodd gyflogau da i'r barnwyr, fel na themtid hwy i ŵyro barn. Gwellhaodd gyflwr y caethweision amaethyddol. Cefnogodd addysg, gan sefydlu ysgolion, ar gynllun rhai yr Almaen, yn ei holl daleithiau; ynghyd âg ysgolion uwchraddol ac arbenig i ddysgu milwriaeth, meddygaeth, ac ieithoedd, &c. Cefnogodd lenyddion a llenyddiaeth, a chyflogodd ddynion dysgedig i chwilio i adnoddau rhanau dyeithraf ei thiriogaethau. Sylfaenodd drefydd, ac adeiladau, a gweithfaoedd cyhoeddus; a diddymodd hefyd yr arteithiau creulawn y condemnid drwgweithredwyr Rwssiaidd i'w dioddef. Yn ei theyrnasiad hi, rhanwyd Poland deirgwaith: a bydd ei hymddygiad gormesol at y wlad hono yn anghlod iddi byth. Bu farw Tachwedd 17eg, 1796, yn y bymthegfed flwyddyn ar hugain o'i theyrnasiad.

CAVOUR, COUNT CAMILLO BENSO DI: gwladweinydd o fri ac enwogrwydd. Ganwyd ef yn Turin, Awst 1af, 1810. Mab ieuangaf ydoedd i deulu pendefigaidd oedd wedi ymsefydlu er's amser maith yn nhref Chiavi. Brodor o Geneva oedd ei fam. Gan ei fod o deulu cyfoethog, yn troi yn y cylchoedd uchaf yn Italy, cyn y gallasai wneyd dim tuag at ddwyn oddi amgylch ddiwygiad ynddi yr oedd raid iddo ymaberthu. Ond er fod y bendefigaeth yn edrych yn wgus

Digitized by Google

arno, efe a ymroddodd â'i holl egni i leshau ei gydwladwyr. Drwgdybid ef gan yr awdurdodau, a chaethiwyd ef am dymmor yn nghaerfa Bard. Mewn canlyniad, rhoddodd Cavour ei swydd i fyny yn y fyddin, a theithiodd drwy wledydd tramor—ond yn benaf trwy Ffraingc a Phrydain. Ymgyfarwyddodd yn dda â chyfansoddiad gwladol Prydain, a phroffesai barch gwastadol i'w hegwyddorion sylfaenol. Tra yn Lloegr, cyhoeddodd bamphledyn gwleidyddol, yn cynnwys ei syniadau ar y pwngc o ddiddymiad yr undeb rhwng Prydain a'r Iwerddon; yr hwn a ystyrid y peth goreu a ysgrifenwyd o gwbl gan dramorwr ar y testyn. Dychwelodd i Turin yn 1842, a sefydlodd yno newyddiadur dyddiol, a elwid "*Il Risorgimento;*" yr hwn a gefnogid gan y dosbarth canol o gymdeithas. Etholwyd ef yn aelod seneddol yn 1849, a thalfodd ei holl ddylanwad gyda'r blaid gyfansoddiadol. Dewiswyd ef yn aelod o weinyddiaeth Azeglio yn 1850, a pharhaodd ynddi hyd 1852, ac o 1852 hyd 1861. Yr oedd yn rhinweddol o hyny allan yn brif weinidog ei wlad.

O ran ei chyfreithiau a'i threfniadau y pryd hwnw, Piedmont yn ddiammheu oedd fwyaf yn ol o daleithiau Italy; ond gydag ymroddiad a llafur dirfawr, cafodd Cavour lywodraethiad y wlad i drefn, a thynodd allan ei hadnoddau gwladol a milwrol. Yr oedd efe yn weithiwr diflino. Codai bump o'r gloch y boreu, a derbyniai ddyeithriaid o chwech hyd wyth; ar ol boreufwyd, ceid ef yn ei swyddfa, yn gweithio yn galed hyd yr hwyr, pan na byddai y senedd yn eistedd. Ar ol ciniaw, dychwelai i'w swyddfa, ac arosai yno yn fynych hyd hanner nos. Talodd ymweliad drachefn â Phrydain yn 1852, ac amlygodd ei olygiadau i wladweinyddion y wlad hon. Ar ei ddychweliad yn ol, pennodwyd ef yn brif weinidog. Un o amcanion mawr Cavour oedd gwneyd Piedmont yn allu y teimlid oddi wrtho yn Ewrop; a phan y digwyddodd rhyfel y Crimea, ffurfiodd Sardinia gynghrair â Phrydain a Ffraingc yn erbyn Rwssia. Ar ol terfyniad y rhyfel, daeth Cavour gyda'r brenin Victor Emmanuel i Paris a Llundain, lle y cydnabyddwyd yn ddibrin ei athrylith a'i allu. Edrychai Awstria ar y penderfyniad y daethpwyd iddo yn Sardinia, yn 1859, i wario 800,000 o ffranciau er cadarnhau Alessandria fel bygythiad, a mynai luddias i hyny gymmeryd lle; ond gwrthodai Cavour wrandaw ar ei gwrthdystiadau. Y canlyniad o hyn a fu rhyfelgyrch a barhaodd am ddeng niwrnod a thrigain, pryd yr ymladdwyd brwydrau Magenta a Solferino, rhwng yr Awstriaid a byddinoedd unedig Ffraingc a Sardinia. Nid oedd heddwch Villafranca yn boddhau Cavour. Yr oedd ei waith, er hyny, yn cael ei gario yn mlaen gan Garibaldi mewn cŵr arall o'r wlad. Canlyniad glaniad y gwron yn Sicily a fu gwaredigaeth yr ynys oddi wrth orthrwm y Bourboniaid, ac alltudiaeth y deyrnach hono o Naples. Aeth y fyddin Sardiniaidd yn mlaen i'r deheu; a gorchfygodd fyddin y pab. Darostyngwyd Gaeta, a chyhoeddwyd Victor Emmanuel yn frenin Italy. Er fod llawer o bethau heb eu gwneyd, yr oedd gwaith mawr Cavour yn ymarferol wedi ei gyflawni; a phan yn anterth ei anrhydedd a'i nerth, efe a fu farw yn Turin, Mehefin 6ed, 1861, heb fod dros 50ain mlwydd oed.

Er fod Cavour yn ddiffygiol o rai pethau a ystyrir yn angenrheidiol i hyawdledd, etto fe allai na ragorwyd arno bron gan neb yn ngrymusder ei iaith syml, a nerth anorchfygol ei resymeg; yr hyn a'i galluogai i ddylanwadu ar senedd oedd yn enwog am dalent areithyddol. Y mae cyhoeddiad papurau y dyn talentog, a'r gwladweinydd galluog hwn wedi amddiffyn ei gymmeriad yn wyneb rhyw gyhuddiadau annhêg a ddygid i'w erbyn, ac yn dangos ei ymroddiad diflino i wasanaethu ei wlad. Am y gwasanaeth a wnaeth Garibaldi a Cavour i Italy, nid oes neb a all ei fynegu. Rhyddhaodd Garibaldi ei wlad oddi wrth ei gelynion, ac ar ol hyny cyflawnodd Cavour ei ran yntau.

CAXTON, WILLIAM: yr argraphydd Saesneg cyntaf. Brodor ydoedd, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, o ddiffeithdir Caint, a thybir ei fod wedi ei eni tua'r flwyddyn 1412; ond dengys ei fywgraphydd diweddaf, Mr. Blades, nad allai fod yn ddiweddarach na 1423. Gesyd 1422—3, fel yr adeg debycaf; yr hyn sydd yn ymddangos mor agos i fod yn gywir a dim y gellir ei gael. Ymddengys 1412 yn rhy gynnar; canys wrth gofysgrifau y *Mercers' Company*, gwelir fod William Caxton wedi ei brentisio gyda Robert Large yn 1438; ac y mae yn fwy tebyg fod hyny wedi digwydd pan oedd yn 16eg nag yn 26ain oed. Yr oedd Robert Large yn sidanydd neu farsiandwr o gryn enwogrwydd, a bu yn sirydd ac yn arglwydd faer Llundain; a bu Caxton yn ngwasanaeth y gŵr hwn nes y bu efe farw, yn y flwyddyn 1441. Wedi hyny, ymddengys i Caxton fyned i'r Iseldiroedd—naill ai fel masnachydd drosto ei hun, neu ynte fel goruchwyliwr masnachol. Rhaid ei fod yn meddu cryn wybodaeth mewn achosion masnachol; o herwydd yn y flwyddyn 1464, defnyddiwyd ef, ynghyd âg un Robert Whitehill, i gadarnhau y cyttundeb masnachol a wnaethid rhwng Iorwerth IV. a Phylip, y Duc o Burgundy; neu i wneuthur un newydd, os gwelent fod angen am hyny. Ni wyddys nemawr am deithiau Caxton ar y Cyfandir, ond yn unig ei fod wedi cyfyngu ei hun yn benaf i Brabant, Flanders, Holland, a Zeeland, ac iddo yn y diwedd fyned i wasanaeth y Dduces o Burgundy, yr hon a'i hannogodd ef i gwblhau ei gyfieithiad o Le Fevre's "*History of Troy.*" Yr oedd Caxton erbyn hyn wedi cyrhaedd i gryn oedran, a rhyw fodd neu gilydd wedi dysgu y gelfyddyd o argraphu; ac y mae y llythyrenau a ddefnyddid ganddo yn arwyddo mai yn yr Iseldiroedd y dysgodd efe hi. Y gwaith cyntaf a argraphodd oedd Le Fevre's "*Histoires de Troye;*" yr ail a ddaeth allan o'i wasg oedd "*Oration of John Russell on the Duke of Burgundy;*" a'r trydydd oedd cyfieithiad Caxton ei hun o waith Le Fevre. Argraphwyd y diweddaf, dybygid, yn 1471; ond y mae dyddiad y lleill yn ansicr. Y mae yr un ansicrwydd gyda golwg ar yr amser pan y dychwelodd efe yn ol i'w wlad ei hun.

Tybir yn gyffredin iddo ddwyn y gelfyddyd o argraphu drosodd i Loegr yn 1474. Y mae digon o sicrwydd ei fod wedi gadael yr Iseldiroedd yn 1477, ac ymsefydlu yn agos i Fynachlog Westminster. Y llyfr cyntaf a ddaeth allan o'i argraphwasg yma oedd "*Game and Plays of the Chesse,*" â'r flwyddyn 1474 arno; ond dichon nad cywir y traddodiad iddo gael ei argraphu yn Lloegr. Y mae yr holl weithiau a argraphodd Caxton wedi eu hargraphu â'r hyn a elwir 'y llythyren ddu.' Ymddengys ei fod yn meddu gwybodaeth o'r Almaenaeg, y Ffrangcaeg, a'r Isellmynaeg; a chyfieithodd ei hun amryw o'r

Digitized by Google

llyfrau a argraphwyd ganddo. Bu farw naill ai yn y flwyddyn 1491 neu 1492. Tybir ei fod wedi argraphu o ddeutu un ar bymtheg ar hugain o lyfrau o bob math—fychain a mawrion.

CECIL, RICHARD: duwinydd rhagorol, a anwyd yn Llundain, Tachwedd 8fed, 1748. Bu yn efrydydd yn Ngholeg y Frenhines, Rhydychain, lle y cymmerodd ei radd o M.A. Urddiniwyd ef yn ddiacon yn 1776, ac yn offeiriad yn 1777. Gwasanaethodd am dymmor yn Thornton, Bagworth, a Markfield, yn swydd Leicester. Yr oedd ei weinidogaeth yn hynod ddefnyddiol yn y lleoedd hyn. Cafodd ddwy fywoliaeth fechan yn Lewes; ond nid oedd yn derbyn oddi wrth y ddwy ond 80p. y flwyddyn. Bu raid iddo, o herwydd gwaeledd ei iechyd, symmud o Lewes i Lundain. Yn ystod ei arosiad yno, pregethai mewn amryw o'r eglwysydd a'r capelydd gyda chymmeradwyaeth mawr, ac yr oedd yn dra llwyddiannus. Bu am amryw flynyddoedd yn pregethu am chwech o'r gloch ar brydnawniau Sabbothau yn Lothbury, a byddai cynnulleidfa ragorol yn cyrchu i wrandaw arno. Mewn undeb â'r Parch. Henry Foster, bu yn pregethu yn nghapel Long Acre am beth amser i gynnulleidfaoedd mawrion; ond bu raid iddo ymddiswyddo o herwydd afiechyd yn 1801. Yr oedd ei lafur yn St. Ioan hefyd yn fawr. Fe lwyddwyd i gael ganddo dderbyn bywoliaethau Cobham a Bisley, ac yn ystod yr haf i gyflawni y dyledswyddau cyssylltiedig â hwynt. Cafodd ergyd o'r parlys yn 1808; ond er pob ymdrech a wnaed ni wellhaodd efe. Bu farw Awst 15fed, 1810, yn 62ain mlwydd oed.

Fel pregethwr, yr oedd llafur Mr. Cecil yn ddirfawr, ac yr oedd yn ddyn o dalent a hyawdledd anghyffredin: fel Cristion, yr oedd ei dduwioldeb yn amlwg i bawb. Er nad yw ei weithiau llenyddol yn lliosog, y maent oll yn werthfawr ac efengylaidd; ac y mae "*Cecil's Remains*" yn arbenig yn llyfr nodedig o ddefnyddiol, ac ni ddylai un efrydydd Cristionogol fod hebddo. Ychydig o ddynion a berchid ac a gerid yn fwy gan ei gyfeillion nag efe.

CELSUS: athronydd Epicureaidd yn yr ail ganrif, yr hwn a ysgrifenodd draethawd o dan y teitl "*Alethes Logos*" (y Gwir Air), wedi ei fwriadu yn uniongyrchol i fod yn wrthdystiad yn erbyn Cristionogaeth. Y mae y llyfr ei hun ar goll; ond y mae darnau helaeth o hono ar gael, wedi eu dyfynu yn ngwaith Origen, yr hwn a fwriadwyd gan yr awdwr i fod yn atteb iddo. Dengys y darnau hyn beth oedd syniad yr athronwyr paganaidd am y grefydd Gristionogol. Y mae Celsus gyda ffraethineb a chraffder, er nad gyda difrifwch na dyfnder meddwl, yn dwyn yn erbyn y grefydd newydd y cyhuddiad o fod yn anathronyddol, ac yn haeru fod ei phroffeswyr yn ddallbleidiol a hygoelus; ac ymdrecha yn arbenig i argyhoeddi Cristionogion fod gwrthddywediadau yn eu hathrawiaethau. Gwawdiai y syniad am ddwyfoldeb person Crist, gan gyferbynu hyny â'i dlodi, ei ddioddefiadau, a'i farwolaeth; yr hyn sydd yn profi, nid yn unig fod Cristionogion yr oes foreu hono yn credu yr athrawiaeth am ei ddwyfoldeb, ond hefyd fod Celsus ei hun, er yn anghredadyn, yn ei chael yn yr ysgrifeniadau hyny trwy ba rai y cafodd gydnabyddiaeth â'r gyfundrefn Gristionogol. Cyhudda y Cristionogion hefyd o ymraniadau ac ymbleidiau, ac o amrywio a newid eu golygiadau yn barhaus. O berthynas i'w athrawiaethau pendant ef ei hun—sonia am ddrwg fel peth angenrheidiol a thragwyddol, ac fel elfen hanfodol yn y byd materol. Dywed fod pechod yn rhywbeth nas gellir byth ei symmud ymaith yn hollol—o leiaf, trwy aberth dirprwyol. Fe ellir gweled, oddi wrth y dyfyniadau sydd ar gael o waith Celsus, ei fod yn ddadleuwr craff a medrus, hyd yn oed pan yn gwrthwynebu gwirionedd ac yn pleidio cyfeiliornad. Yn ol y golygiad mwyaf tebygol, yr oedd Celsus yn byw rhwng B. A. 150 a 200.

CERFLUNIAETH (*Sculpture*). Mewn ystyr manwl dyna ydyw cerfluniaeth—y gelfyddyd o gerfio neu dori a naddu unrhyw ddefnydd i ryw ffurf neillduol. Mewn ystyr mwy cyffredinol, y mae yn golygu y gelfyddyd o osod allan wrthddrychau, drychfeddyliau, a hanesiaeth, drwy ffurfiau. Yn yr ystyr yma y mae y gweithiau nad ydynt, a siarad yn fanwl, yn gyfyngedig i sylweddau celyd yn unig, yn gynnwysedig yn y gair. Cynnwysir mewn cerfluniaeth y gwaith o foldio sylweddau meddal hefyd. Y mae clai, ac hyd yn oed cŵyr, yn cael eu defnyddio yn y gelfyddyd hon weithiau, er gwneyd cynlluniau i'w gweithio allan drachefn, mewn marmor neu fettel; a phryd arall, fel amlinelliad o'r gwaith y bwriedir ei wneyd o'r un defnyddiau.

Y mae y gelfyddyd yn un o'r rhai hynaf. Crybwyllir mewn hen hanesion am gofadeiliau wedi eu codi i nodi manau lle y cymmerodd rhyw ddigwyddiadau neillduol le. Gwir nad oedd y rhai hyny ar y cyntaf yn gynnwysedig ond o ddarnau o feini geirwon, neu garneddau o geryg: ond i ryw ddechreuad fel yna yn ddiau y gellir, i fesur mawr, briodoli cychwyniad y gelfyddyd gerfluniol. Gosododd Iacob golofn geryg i nodi allan y llanerch lle y cafodd efe ei freuddwyd neu ei weledigaeth ryfedd: *Gen.* xxviii. 18. Cyfodwyd colofn geryg goffadwriaethol gyffelyb er cof am y cyfammod a wnaethpwyd rhwng Iacob a Laban (*Gen.* xxxi. 44); ac un arall drachefn er nodi allan fedd Rahel: *Gen.* xxxv. 20. Gosododd Iosuah hefyd faen mawr o dan dderwen i fod "yn dystiolaeth:" *Ios.* xxiv. 27. Mor ddiweddar ag amser Pausanias, ynghylch B.A. 170, addolid rhai o dduwiau y Groegiaid o dan y ffurf o feini mawrion, neu golofnau ceryg. Dywed rhai fod hanes cerfluniaeth yn mron yr un peth a hanes eilunaddoliaeth. Diammheu fod i deimlad crefyddol ei ran yn nghynnydd y celfyddydau. Ond ar yr un pryd y mae yn dra thebygol fod y cerfluniau cyntaf a wnaed yn cynnrychioli dynion, yn hytrach na duwiau. Pan y gadawodd Rahel dŷ ei thad gyda Iacob a Leah, cymmerodd gyda hi "y delwau;" ac aeth Laban ar eu hol i'w hadfeddiannu, gan y gosodai werth mawr arnynt. Dyma y cyfeiriad ysgrythyrol cyntaf at bethau o'r fath. Nid oes unrhyw weddillion o gerfluniaeth Hebreaidd yn awr yn hysbys; ond mor foreu a dyddiau Moses yr oeddynt yn meddu cryn fedrusrwydd yn y gelfyddyd hon. Yr oedd eu gwaith yn gosod i fyny y llo aur a'r sarph bres yn profi hyn. Bezaleel mab Uri, o lwyth Iudah, ac Aholiah, mab Ahisamach, o lwyth Dan, ydyw y cerflunwyr cyntaf y rhoddir eu henwau yn y Beibl. Crefftwyr oeddynt hwy a bennodwyd i barotoi addurniadau y tabernacl.

Y mae sefyllfa y gelfyddyd yn hysbys mewn gwahanol gyfnodau yn mysg y Persiaid, yr Aiphtiaid, yr Etruriaid neu yr Etruscaniaid, y

Digitized by Google

Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, fel y dengys gweddillion sydd yn awr ar gael. Yr oedd gan bob un o'r cenhedloedd hyn ei harddull briodol ei hun.

CERFLUNIAETH Y PERSIAID. — Ychydig a fu llwyddiant cymmharol y gelfyddyd hon yn Persia. Yr oedd amryw bethau yn attalfa i hyny. Nid oedd y Persiaid yn cymmeradwyo cerfluniau i ddybenion crefyddol; ac nid oeddynt yn credu, fel y gwnai y Groegiaid, fod y duwiau yn gwisgo ffurf ddynol. Dwfr a thân oedd yr unig arwyddluniau a gydnabyddent hwy o'r gallu dwyfol. Dywedir fod Xerxes wedi dinystrio temlau Groeg, a'u cynnwysiad, ar gymmhelliad y Magïaid. Y mae yn anhawdd penderfynu dyddiad y cerfwaith a ymddengys ar adeiladau Persia. Y mae y rhai sydd yn addurno adeiladau Persepolis yn cynnrychioli gorymdeithiau crefyddol yn benaf; ac nid ydynt yn hynod am eu teleidrwydd, oddi gerth un dosbarth—sef, y rhai sydd yn darlunio cenhedloedd gorchfygedig fel yn dyfod â rhoddion fel teyrnged. Y mae amryw o'r darluniau anifeiliaidd perthynol i'r rhai hyn yn meddu rhagoriaeth uchel. Ni bu y Persiaid erioed yn enwog am gyrhaeddiadau deallawl o radd uchel, nac am chwaeth goeth mewn celfyddyd.

CERFLUNIAETH YR AIPHTIAID.—Yn yr Aipht, er fod ansawdd ei chelfyddyd yn wahanol i'r eiddo Groeg, yr arferwyd â cherfluniaeth gyntaf ar raddeg sydd yn hawlio sylw. Oddi wrth yr oll a ddarllenir yn ngweithiau yr hen awduron, a'r hyn a ddygir i oleuni drwy ymchwiliadau diweddar, yr oedd yr Aiphtiaid, fel cenedl, yn ddysgedig, yn ddeallus, yn ddiwyd, ac yn gyfoethog. Yr oedd iddi enw mawr gan genhedloedd eraill. Tybia Winkelman, Millin, a Fea, fod yn bossibl dosbarthu cerfluniau yr Aipht i wahanol gyfnodau; er nad ydynt yn cyttuno ynghylch y dosbarthiad. Ond gellir ystyried fod y cyfnod cyntaf, a'r ail, yn cynnwys yr oesoedd hyny yn mha rai yr oedd y wlad yn rhydd oddi wrth oresgynwyr tramor, ac yn ymestyn hyd y dyddiau y cyrhaeddodd Groegiaid Macedonia i'r Aipht, sef tua 350 c.c. Y mae y trydydd yn cynnwys adeg llywodraethiad yr Aipht gan y Groegiaid, pan yr oedd chwaeth y genedl hono yn dylanwadu ar gelfyddyd yr Aipht. A'r pedwerydd cyfnod oedd yr un efelychiadol; ac y mae hwn yn dyddio o c.c. 30. Y mae yn rhaid addef fod yr Aiphtiaid i'w rhestru lawer islaw y Groegiaid yn eu medrusrwydd yn y gelfyddyd hon. Y mae un o'r esamplau goreu o gerfluniaeth yr Aipht yn awr yn y wlad hon. Adwaenir ef yn gyffredin wrth yr enw 'Pen Memnon ieuangc,' er nad oes ganddo un hawl gwirioneddol i'r enw; ond rhoddwyd ef arno mewn camgymmeriad gan Norden, y teithiwr, yr hwn a ymwelodd â'r Aipht yn 1737. Y mae y cerflun hwn wedi ei wneuthur o un darn o ithfaen llyfn ei raen, ac yn profi fod yr Aiphtiaid yn medru llunio ffurfiau prydferth. Y mae o'r bron yr holl feddrodau a'r temlau sydd wedi eu harchwilio yn y wlad hono wedi eu haddurno â llawer o gerfluniau. Am holl weithiau mawr yr Aipht, y maent wedi eu gwneuthur o golofgraig (*basalt*), meini myldardd (*porphyry*), ithfaen, neu gareg nadd; er y dywedir gan Herodotus, fod cerfluniau mawrion yn Saïs a Thebes wedi eu gwneyd o goed. Nodweddion cyffredinol cerfluniaeth yr Aipht ydynt symledd amcan, eangder yn y dull o ymdrin â'r testyn fel ag i gau allan y manylion dibwys, a maintioli sylweddau y ffurf. Y mae gorphwysedd tawel hefyd yn cyfranu mawredd i'r cerfiadau Aiphtaidd.

CERFLUNIAETH YR ETRUSCANIAID. — Dichon fod yr ysgol Etruscanaidd o gerfluniaeth yn teilyngu sylw hefyd. Y mae dirgelwch ynglŷn â hanes boreuol y bobl hyn, ac nid yw eu hanes diweddaraf i'w gael ond ynglŷn â hanes cenhedloedd eraill. Y mae yr holl weddillion celfyddydol Etruscanaidd sydd wedi dyfod i lawr i'r amser presennol yn arwyddo fod cyfathrach rhyngddynt hwy a'r Groegiaid.

Dywed y Count Cicognara am darddiad y gelfyddyd yn eu mysg:—"Y mae y dybiaeth fod yr Etruscaniaid wedi cael eu haddysg gan yr Aiphtiaid yn ddisail, fel y mae Lanzi yn awgrymu." Ceir yn Oriel yr Hynafiaethau yn Florence rai esamplau hynod gywrain o gerfluniaeth y bobl hyn—yn enwedig rhai mewn pres o faintioli mawr. Gwnaed darganfyddiadau helaeth mewn llawer o leoedd yn Tuscany yn y blynyddoedd a aethant heibio, sydd wedi chwanegu llawer at ein gwybodaeth ynghylch y gelfyddyd, ac arferion yr Etruscaniaid, a chyfoethogi amgueddfeydd Rhufain, Naples, Florence, a Lloegr hefyd; ac y mae llawer o honynt yn deilwng o sylw, er nas gallwn yn awr roddi disgrifiad o honynt. Mewn copr a maen yr oedd eu gweithiau gan mwyaf; ac y mae ar rai o'u beddrodau hynaf addurniadau wedi eu gweithio yn rhagorol mewn aur, yn gystal a darnau mwy o arfogaeth o'r un defnydd drudfawr. Y mae y cerfweithiau Etruscanaidd yn ddiffygiol mewn prydferthwch a symledd.

CERFLUNIAETH Y GROEGIAID. — Yn ngwlad Groeg, fel gwledydd eraill, yr oedd y ceisiadau cyntaf a wnaed yn y gelfyddyd hon yn hynod anghelfydd. Gellir rhanu hanes cerfluniaeth y Groegiaid yn gyffredinol i bedwar o gyfnodau. Cymmer y cyfnod cyntaf i mewn yr oesoedd boreuaf, na wyddys ond ychydig am danynt, ond yr hyn y gellir ei gasglu oddi wrth y traddodiadau a gofnodwyd gan hen ysgrifenwyr. Ymestynai hyd ddechreuad y cyfnewidiad mawr yn arddull y gelfyddyd, yr hwn a gyrhaeddodd y perffeithrwydd mwyaf gan yr ysgol yr oedd Phidias yn ben arni. Cynnwysa yr ail y cyfnod yr oedd y gelfyddyd wedi cyrhaedd ei gogoniant penaf yno, pan yr oedd dysgyblion Phidias yn gwneyd eu gwaith yn ol yr egwyddorion a'r esamplau a roddwyd ganddo ef. Yn y trydydd cyfnod, mabwysiadwyd arddull mwy addurniadol; a thelid mwy o sylw i'r prydferth nag i'r arddunol. Praxiteles oedd y cerflunydd cyntaf i fabwysiadu yr arddull hwn. Y pedwerydd, a'r olaf, ydyw y cyfnod pan yr oedd y gelfyddyd yn adfeilio. Y mae gweddillion cerfluniaeth Groegaidd y cyfnod cyntaf yn ddyddorol i'r hynafiaethydd, er nad ydynt yn tynu nemawr o sylw y neb sydd yn hoffi prydferthwch. Y cerflunwyr cyntaf y crybwyllir am eu henwau oeddynt Dædalus, Smilis, ac Endœus. Dywedir mai Phidon o Argos oedd y cyntaf i fathu arian yn ngwlad Groeg, c. c. 869. Ni chymmerodd ond ychydig o gyfnewidiad le, o ran arddull, mewn cerfluniaeth o'r amseroedd boreuaf hyd c.c. 550, er fod gwellhâd mawr yn y gwaith oedd yn cael ei wneyd. O'r flwyddyn c. c. 500, y mae y rhestr olynol o gerflunwyr mawr Groeg, a'r cyfnewidiadau a wnaeth y naill feistr ar ol y llall, yn hawdd eu holrhain yn lled gywir. Ar ol Callo, y rhai a gyrhaeddasant yr enwogrwydd mwyaf oedd Glaucias ac Onatas; ac ymddengys fod y diweddaf yn arlunydd, yn ogystal ag yn

Digitized by Google

gerflunydd. Erbyn hyn yr oedd y gelfyddyd yn tynu yn gyflym at y perffeithrwydd cymmharol a gyrhaeddodd yn amser Polycletus a Phidias. Y prif gerflunwyr yn yr oes hon oeddynt Hegias, Pythagoras, Ageladas, Myron, Polycletus, Phidias, Alcamenes, ac eraill. Brodor o Eleutheræ, yn ol Pliny, oedd Myron; ond yn ol Pausanias, Atheniad oedd efe. Nid oes un celfyddydwr hynafol yn cael ei grybwyll yn amlach, ac y telir anrhydedd uwch iddo na Myron; ac y mae y clod cyffredinol a roddid iddo yn arwyddo fod ei weithiau o deilyngdod uchel. Ond yn anffodus, y mae gweithiau y celfyddydwr hwn wedi eu llwyr golli. Polycletus o Sicyon hefyd oedd un a wnaeth lawer i ddyrchafu a pherffeithio yr hyn a elwir yr arddull arddunol. Mewn rhai pethau, dywedir ei fod yn rhagori hyd yn oed ar Phidias ei hun. Ond ar y cyfan gwaith Phidias oedd cynnyrchion mwyaf ysblenydd y gelfyddyd. Gelwid Phidias yn gerflunydd y duwiau. Yr oedd llawer o'i weithiau goreu ef ar gael pan ysgrifenai awduron cymmharol ddiweddar. Yr oedd cerflun yr Iau Olympaidd ar gael hyd y flwyddyn 475 o'r cyfnod Cristionogol. Dinystriwyd y cerflun hwn gan dân yn Nghaer Cystenyn, i'r hwn le yr oedd wedi cael ei symmud o Athen y flwyddyn hono. Yn anffodus, nid oes un o brif weithiau Phidias wedi dyfod i lawr i'n dyddiau ni; ond y mae digon o brofion o'i ragoriaeth yn ymddangos yn y cerfluniau hynod a elwir Mynorion Elgin (*Elgin Marbles*), sydd yn awr yn ffurfio rhan o'n casgliad cenedlaethol ni o hynafiaethau. Y mae cerfluniau Ilissus a Theseus, er wedi eu tori, yn amlygu ardderchawgrwydd a symledd. [Gwel PHIDIAS, a MYNORION ELGIN, yn yr *Attodiad*.] Yn mhlith dysgyblion Phidias gellir enwi Agoracritus o Paros, Alcamenes o Athen, Colotes, a Pæonius, ac eraill. Parhaodd dylanwad Phidias ar ei gelfyddyd am amser maith.

Rhoddodd arddull odidog, arddunol, a syml Phidias a'i ddysgyblion le i arddull addurniadol Praxiteles, a'i ddysgyblion yntau. Gweithiai efe mewn marmor a phres; ond yr ydoedd ei weithiau prydferthaf, a'r rhai a edmygir fwyaf, dybygid, mewn marmor, yn yr hwn ddefnydd y dywedir ei fod yn "*felicior et clarior;*" *h. y.*, yn fwy hapus ac enwog na neb arall. Tybir mai efe oedd y cerflunydd cyntaf a feiddiodd wneyd delw o Gwener yn gwbl noeth. Yn ol Millingen, yr oedd yr holl luniau a wnelid o'r duwiesau gynt wedi eu gwisgo; ac ystyrid fod eu gwneyd yn noeth yn anweddus; ond esgusodid Praxiteles o herwydd prydferthwch a rhagoriaeth ei waith. Y nesaf mewn pwysigrwydd o gerflunwyr yr ysgol hon oedd Lysippus o Sicyon. Nid ydyw cymmeriad y cerflunydd hwn yn ol i nemawr un o'i ragflaenoriaid. Gweithiodd y cwbl yn mron mewn pres (*bronze*), a dywed Pliny ei fod wedi gwneyd cymmaint a chwech ugain a deg o weithiau cerfluniol. Talodd sylw neillduol i'r gwallt, ac arferai wneyd penau ei luniau yn llai na'i ragflaenoriaid. Barna llawer mai yn amser Praxiteles a Lysippus y cyrhaeddodd cerfluniaeth, fel celfyddyd, ei pherffeithrwydd uchaf. Yr oeddynt hwy yn gydoeswyr—a'r naill a'r llall, yn ei ffordd ei hun, yn gwneyd yr hyn oedd yn angenrheidiol er coethi y gelfyddyd.

Pan fu farw Alexander Fawr (C. C. 324) darniwyd ei ymherodraeth eang; a dioddefodd celfyddyd i raddau oddi wrth hyny. Ond yr hyn a roddodd y ddyrnod drymaf i'r celfyddydau yn Groeg ydoedd llwyddiant arfau y Rhufeiniaid. Cymmerasant Corinth, a dinystriwyd hi gan y gorchfygwyr; a dygodd y Rhufeiniaid weithiau ysblenydd celfyddyd, mewn arluniaeth a cherfluniaeth, o'r hen ddinas enwog hon, ac o ddinasoedd eraill Groeg, a chymmerasant hwy yn yspail, i brydferthu Rhufain. Cymmerodd hyn le C. C. 146. Athen oedd prif eisteddle celfyddyd yn Groeg; ond o'r diwedd cyfranogodd hithau yn llawn o'r anffodion a ddisgynasant ar y dinasoedd eraill. Yn y flwyddyn C. C. 86, yr oedd yr uchelfrydig Sylla yn llywodraethwr arni; a gellir dywedyd fod tymmor cerfluniaeth hynafol Groeg wedi dyfod i ben y pryd hwnw. Ar ol sefydlu yr ymherodraeth Rufeinaidd, nid oedd llawer o fanteision i'w cael i'r celfyddydwyr Groegaidd i ddwyn yn mlaen eu gweithiau yn eu gwlad eu hunain; ac ymddengys iddynt droi i chwilio am waith a nodded yn mhlith eu gorchfygwyr.

CERFLUNIAETH RHUFEINIG.—Ni wyddys pa amser y talodd y Rhufeiniaid sylw gyntaf i'r celfyddydau o arluniaeth a cherfluniaeth. Ysbail rhyfel oedd eu cofadeiliau cyntaf. Yr oedd paladr pren, wedi tori ei ganghenau, ac yn gerfiedig arno arfau y rhai gorchfygedig, yn cyhoeddi llwyddiant y gorchfygwr, yn ddigon i gynnhyrfu yr hen Rufeiniwr i ymdrechu dros ei wlad. Nid oes ddadl nad oedd y cerfluniau cyntaf y sonir am danynt yn Rhufain mewn oes foreuol o darddiad tramorol, ac yn gynnyrchion eu cymmydogion—yr Etruscaniaid. Mynegir fod marchogluniau o Camilas a Mænius wedi eu gosod i fyny yn Rhufain er anrhydeddu buddugoliaethau a ennillasant ar y Lladiniaid. Yr oedd hyn tua 350 C. C. Yn y drydedd ganrif cyn Crist, ymroddodd un o'r Fabii i astudio ac ymarfer y celfyddydau; ac o herwydd ei lwyddiant, rhoddwyd arno y cyfenw Pictor. Dywed Pliny ei fod wedi addurno temlau duwies iechyd yn Rhufain â'i ddarluniau, a bod y darluniau hyny ar gael yn ei amser ef. Yn y ganrif cyn Crist, yr oedd amryw gerflunwyr enwog yn preswylio yn Rhufain, yn gystal ag mewn rhanau eraill o Italy; ac yn eu mysg gellir crybwyll Pasiteles, Arcesilas, Strongylion, Olympiosthenes, ac Evander. Yn mhlith gweithiau rhagorol eraill y tybir eu bod wedi eu cynnyrchu yn rhanau boreuaf y cyfnod hwn, gellir enwi yn arbenig y cerflun a adwaenir wrth yr enw Germanicus, yn y Louvre. Ymhyfrydai Julius Cæsar mewn gwneyd casgliad o gerfluniau, gemau, a phethau cyffelyb. Rhoddodd Augustus hefyd gefnogaeth wresog i gerfluniaeth. Nid yn unig addurnodd Rhufain â gweithiau celfyddyd, ond amryw o ddinasoedd Gaul, Yspaen, Groeg, ac Asia Leiaf hefyd. Drwy hyn gwnaed lles dirfawr i gerfluniaeth; o herwydd efelychwyd ei esampl gan lawer a fuont yn noddwyr i'r gelfyddyd. Dygodd Caligula lawer o weithiau celfyddyd o wlad Groeg i Rufain, a meddyliodd am ddwyn Iau Olympus o waith Phidias yno; ond rhoddodd heibio y bwriad hwn, am fod gwŷr cymmhwys i farnu yn rhoddi ar ddeall nad oedd yn ddiogel ei symmud. Bu yr ymherawdwyr dilynol hefyd —megys Claudius, Nero, Vespasian, Titus, a Domitian—yn noddwyr i gerfluniaeth. Blodeuodd hefyd yn amser Trajan. Rhoddodd yr ymherawdwr hwnw fywyd newydd yn y celfyddydau yn ngwlad Groeg ac Italy. Y mae colofn Trajan yn gofadail gelfyddydol a gyfodwyd yn niwedd y ganrif Gristionogol gyntaf, a dechreu yr ail. Gellir yn briodol ystyried teyrnasiadau Trajan, Hadrian, ac Antonines yn oes aur cerf-

Digitized by Google

luniaeth yn Rhufain; er nad oedd llawer o'r Rhufeiniaid brodorol, dybygid, yn ymarfer â'r gelfyddyd hon. Cafodd y celfyddydau noddwr haelionus iawn yn Hadrian. Y mae y nifer liosog o esamplau o gerfluniau sydd ar gael mewn casgliadau diweddar o'r cyfnod hwn yn dwyn profion o sefyllfa uchel y gelfyddyd. Ond dadfeilio a wnaeth ar ol ei deyrnasiad ef. Darfu i ŵr o gyfoeth anferth, o'r enw Heroder Affrica, wario symiau mawr o arian er addurno Athen, a dinasoedd eraill yn Groeg, â cherfluniau; ond ni ddarfu i'w esampl gael ei ddilyn gan eraill. Pan sefydlwyd eisteddle yr ymherodraeth yn Nghaer Cystenyn, cafodd mawredd ac ardderchawgrwydd Rhufain ddyrnod drom. Yr oedd cerfluniaeth mewn sefyllfa isel; ond gwnaeth Cystenyn ymdrech i adferu chwaeth at y celfyddydau, trwy addurno ei balas ei hun, a'r brif ddinas. Ysbeiliwyd dinasoedd Asia Leiaf o'u trysorau er mwyn cyfoethogi Caer Cystenyn; ond er i Constantius, Theodosius, a Honorius gefnogi y gelfyddyd, yr oedd cywreinrwydd yr hen gelfyddydwyr wedi ei lwyr golli. Am sefyllfa Italy yn y bummed a'r chweched ganrif, yr oedd yn gyfryw nad oedd obaith cael adfywiad ar y celfau teg; yn gymmaint a bod y wlad yn cael ei gorlenwi gan oresgynwyr barbaraidd, dan arweiniad Alaric, Odoacer, Genseric, ac eraill. Dinystriwyd prif weithiau y meistriaid penaf yn y gelfyddyd. Yr oedd trysorfa fawr o weithiau celfyddydol yn Nghaer Cystenyn; ond syrthiodd rhifedi mawr o honynt yn aberth i'r fflamau yn B.A. 479. Machludodd gogoniant yr ymherodraeth orllewinol; ac y mae adfywiad gwyddor a chelf yn perthyn i gyfnod arall.

ADNEWYDDIAD CERFLUNIAETH.—Ar ol darostyngiad Groeg, a rhaniad yr ymherodraeth Rufeinig, dadfeiliodd y celfau teg yn raddol. Yr oedd cryn ymdrech yn cael ei wneyd yn achlysurol i'w hadnewyddu; ond yn gymmaint ag na theimlid dyddordeb cyffredinol yn y mater, ychydig oedd y llwyddiant. Yn Italy y cychwynodd yr adfywiad ar gerfluniaeth, a hyny mor gynnar a'r ddegfed ganrif; a Niccolo Pisano a ystyrir deilyngaf o gael ei alw yn dad cerfluniaeth ddiweddar. Yr oedd celfyddydwyr yr amseroedd hyny yn uno cerfluniaeth, arluniaeth, ac adeilyddiaeth. Un o weithiau mwyaf meistrolgar Niccolo oedd y disgyniad oddi ar y groes. Yn mysg efelychwyr mwyaf llwyddiannus Niccolo, gellir enwi ei fab, Giovanni, Andrea Pisano, D'Arezzo, Da Como, a Buono. Y mae gweithiau Lucca della Robbia i'w cael yn lliosog yn Italy, ac yn meddu teilyngdod uchel. Enwau eraill oedd yn hynod fel celfyddydwyr yn y cyfnod hwn oedd Ghiberti a Donatello. Yr oedd i'r diweddaf gymmeriad uchel iawn; ac nid oes ond ychydig o ddinasoedd Italy heb fod ynddynt enghreifftiau o'i dalent. Y mae ei gerf-ddelw o'r efengylwr Marc yn dra rhagorol. Cafodd Michael Angelo ei daro gymmaint wrth edrych arno fel y torodd allan i'w gyfarch:—"Marc, pa ham nad wyt yn siarad â mi." Y mae gweithiau y ddau Pollojoli, Verrochio, Fernicci, a Da Fiesole, yn mhlith prif orchestion y bymthegfed ganrif. Yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, daeth i'r golwg athrylith a gallu y celfyddydwr digyffelyb Michael Angelo; yr hwn a restrir yn mysg cerflunwyr, yn gystal ac arlunwyr, penaf yr oesoedd. Dilynwyd ef gan lu o rai eraill, a gyrhaeddasant i enwogrwydd mwy neu lai; megys, Cellini, Torregiano, Della Porta, Giovanni di Bologna, ac eraill. Enwau Italiaid yw y rhai hyn. Gellir chwanegu atynt Jean Goujon, a Pilon yn Ffrainge.

Pan ddychwelodd y Croesgadwyr o'r dwyrain, ymdrechodd rhai o honynt i greu chwaeth yn Mhrydain at y pethau addurniadol a welsant mewn gwledydd tramor. Fe allai fod y lluniau cyntaf o rai mewn rhyfelwisg a geir yn y wlad hon wedi eu cynnyrchu yn nheyrnasiad Richard I. Ond yn ol barn Westmacott, y mae dylanwad y gwledydd dwyreiniol ar gerfluniaeth yn yr adeg hon yn dra annhebyg.

Adeiladwyd eglwys gadeiriol Wells gan yr esgob Joceline, yr hwn a fu farw yn y fl. 1242. Y mae y drws gorllewinol iddi wedi ei addurno â cherfluniau; a thybia Flaxman i'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei wneuthur gan gelfyddydwyr Saesnig. Tybir fod cerfluniau y teyrnasiad dilynol yn weithiau Italaidd. Yn amser Iorwerth III. yr oedd amryw yn Lloegr yn ymarfer â'r gelfyddyd. Hwyrach fod Capel Harri VII. yn Mynachlog Westminster, yn un o'r esamplau prydferthaf o adeilyddiaeth addurniadol sydd ar gael mewn unrhyw wlad. Dywedir fod y cerfluniau oddi mewn ac oddi allan iddo yn wreiddiol yn rhifo tair mil; a thybir i'r rhan fwyaf o honynt gael eu gwneyd gan gelfyddydwyr brodorol. O dan Harri VIII. a hyd Siarl I., esgeuluswyd y gelfyddyd i raddau mawr. Ac yn wir, yn yr adeg pan yr ymgodai teimladau crefyddol gwrthwynebus yn uchel, dinystriwyd cryn lawer o gerfluniau. Ar ol amser Siarl II., tramorwyr, megys Cibber, Steevens, De Vere, Bertocini, Scheemacker, a Roubiliac, oedd prif gerflunwyr Prydain. Yn 1766, darfu i gerflunydd o Sais, o'r enw Nathaniel Read, wneuthur cofadail i'r llyngesydd Tyrrell; yr hwn sydd i'w weled etto yn Mynachlog Westminster; ac y mae, i raddau pell, yn ddisgrifiad o arddull y gelfyddyd yn yr adeg hono. Yn gynnar yn y ganrif hon, mabwysiadwyd moddion i ddwyn ynghyd gasgliad cenhedlaethol o weithiau celfyddydol. Prynwyd mynorion Townley, yn ol penderfyniad y senedd, a rhoddwyd hwynt i gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig yn 1808. Ac er y pryd hwnw y mae hono wedi ei chyfoethogi drwy chwanegu atynt Fynorion Elgin, Mynorion Phigalia, a llawer o esamplau o gerfluniaeth hen a diweddar o wahanol wledydd ac amserau. Perthyna yr anrhydedd o roddi cyfeiriad newydd i chwaeth, neu yn hytrach ei arwain yn ol at egwyddorion cywir y gelfyddyd, yn arbenigol i Flaxman a Canova—y blaenaf yn Sais, a'r olaf yn Italiad. Ar ol eu dyddiau hwy, gellir enwi Westmacott, Thorwaldsen, John Gibson, ac eraill, fel y prif gelfyddydwyr diweddar.

CESIL: tref yn y cwr mwyaf deheuol o Palestina, a enwir gyda Hormah a Siclag: *Ios.* xv. 30. Nid yw yr enw yn digwydd drachefn ond yn rhestr y trefydd a roddwyd allan o Iudah i Simeon. Y mae yr enw Bethel yn digwydd yn ei le (*pen.* xix. 4), fel pe buasai y naill yr un a, neu yn llygriad o'r llall. Cadarnheir y syniad hwn gan 1 *Cron.* iv. 30.

CESULOTH: un o drefydd Issachar, yn arwyddo yn Hebraeg 'llwynau;' ac am hyny, cafodd ei henw oddi wrth ei sefyllfa ar lechwedd rhyw fynydd: *Ios.* xix. 18. Oddi wrth ei sefyllfa yn y rhestrau, ymddengys ei bod rhwng Iezreel a Sunem.

CEZIB: enw nad ydyw yn digwydd ond yn

Digitized by Google

unig yn *Gen.* xxxviii. 5. Yr oedd Iudah yn Cezib pan esgorodd ei wraig, yr hon oedd yn ferch i Suah, gŵr o Ganaan, ar ei drydydd mab, Selah. Y mae y lleoedd eraill a enwir yn yr adroddiad hynod hwn oll yn iseldir Iudah; ac am hyny, yn absennoldeb hysbysrwydd pendant yn mherthynas i sefyllfa Cezib, gallwn fabwysiadu opiniwn yr esbonwyr hen a diweddar, mai yr un ydyw hi ag Achzib: *Ios.* xv. 44.

CHANNING, WILLIAM ELLERY, D.D.; pregethwr ac awdwr Undodol enwog; yr hwn a anwyd ar y 7fed o Ebrill, 1780, yn Newport, Rhode Island, yn Unol Daleithiau yr America. Pan oedd yn 14eg oed, aeth i brifysgol Harvard, a graddiodd yn 1798. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn Boston yn 1803. Yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, nid llawer o amlygrwydd a roddid ganddo yn ei bregethau i syniadau duwinyddol neillduol; ac o ganlyniad, yr oedd ar delerau cyfeillgar gyda'i frodyr yn yr eglwysi mwyaf uniongred. Yn 1819, pa fodd bynag, traddododd Channing bregeth, ar yr achlysur o neillduad y Parch. Jared Sparks i'r weinidogaeth, yn yr hon y dadleuai yn alluog a selog dros syniadau yr Undodiaid; a chafodd ei alw mewn canlyniad yn "apostol Undodiaeth." Arweiniodd hyn ef i ddadleuon: ond nid oedd efe yn teimlo unrhyw hoffder atynt yn naturiol; ac ymgadwai yn wastad mewn ysbryd a thymmer rhagorol. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1841, efe a ysgrifenodd fel y canlyn:—"Nid wyf ond Undodwr bychan. Ychydig yw fy nghydymdeimlad â chyfundraeth Priestley a Belsham; ac yr wyf yn sefyll draw oddi wrth bawb, ond y rhai sydd yn ymdrechu ac yn gweddïo am oleuni cliriach." Yn 1821, derbyniodd y teitl o D.D., oddi wrth brifysgol Harvard, ar gyfrif y dalent fawr a amlygwyd yn ei draethawd ar y profion dros ddwyfoldeb Cristionogaeth, ei anerchiad ar ryfel, a'i bregethau. Talodd ymweliad âg Ewrop yn 1822, a daeth i gydnabyddiaeth âg amryw awduron Saesnig o enwogrwydd, megys Wordsworth, Coleridge, ac eraill, y rhai a goleddent syniadau tra uchel am dano. Yn 1823, daeth allan ei "*Essay on National Literature;*" yn 1826, ei "*Remarks on the Character and Writings of John Milton;*" yn 1829, ei "*Character and Writings of Fenelon;*" yn 1835, ei "*Essay on Negro Slavery;*" ac yn 1838, ei "*Essay on Self-culture.*" Ysgrifenodd amryw draethodau eraill—a'r oll wedi eu nodweddu gan fywiogrwydd, hyawdledd, chwaeth bur, a thôn o ddifrifwch moesol. Bu farw Hydref 2il, 1842, yn Bennington, Vermont, yn 62ain mlwydd oed.

CHATTERTON, THOMAS: bardd Saesnig—ieuengctid, athrylith, a marwolaeth drychinebus yr hwn a'i gwnaeth yn hynod ac enwog yn mysg llenorion Lloegr. Ganwyd ef yn Bristol, Tach. 20fed, 1752. Yr oedd ei dad yn un o gantorion yr eglwys gadeiriol, ac yn athraw Ysgol Rydd *Pyle Street*; a bu farw bedwar mis cyn geni ei fab. Anfonwyd ef i ysgol y plwyf; ond dysgwr gwael yr ystyrid ef; ac ymddengys mai ei fam, wedi y cwbl, a ddysgodd y llythyrenau iddo. Ond wedi iddo ddechreu dysgu, cynnyddodd yn gyflym. Pan yn wyth mlwydd oed, ar Awst 3ydd, 1760, derbyniwyd ef i ysgol Colston, Bristol. Arosodd yno am saith mlynedd; ac yn y cyfamser efe a ysgrifenodd amryw o fân ddarnau barddonol, y rhai oeddynt o natur duchanol yn benaf. Gorph. 1af, 1767, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda Mr. John Lambert, cyfreithiwr. Tra yr oedd gyda Mr. Lambert, efe a anfonodd erthygl i un o bapyrau Bristol, yr hon a dynodd sylw ar unwaith. Pan y gorphenwyd y bont newydd yn Bristol, yn Medi, 1768, ymddangosodd erthygl ar y pryd yn "*Farley's Journal,*" yn proffesu bod yn adysgrifiad o hen lawysgrif, yn rhoddi hanes hen bont amryw o ganrifoedd o'r blaen. Olrheiniwyd yr erthygl hon, oedd mor hynod gywrain, ac yn amlygu y fath alluoedd dyfeisiol, i Chatterton; yr hwn a holwyd yn galed ynghylch y modd y daeth i'w feddiant. Ar ol gwneyd amryw adroddiadau gwrthddywediadol, dywedai iddo ei chael ar ol ei dad; yr hwn a'i cawsai mewn cist yn eglwys Redcliffe. Daeth Chatterton i gydnabyddiaeth â Mr. Barrett, F.S.A., meddyg, yr hwn oedd ar y pryd yn ysgrifenu hanes Bristol. Aeth Chatterton âg amryw ysgrifau iddo; y rhai, fel y proffesai, a gafwyd yn y gist yn eglwys Redcliffe; a chyhoeddodd Barrett hwynt yn ei waith, gan lwyr gredu eu bod yr hyn yr haerai Chatterton eu bod. Rhoddodd hefyd ysgrifeniadau eraill, rhyddieithol a barddonol, i Mr. Catcott; ac o'r diwedd anfonodd lythyr at Horace Walpole, yn cynnyg danfon iddo hanes amryw arlunwyr oedd wedi blodeuo yn Lloegr rai canrifoedd yn flaenorol, na wyddai y blaenaf ddim am danynt; a chyda'r cynnygiad hwn, danfonodd amryw o ganeuon, yn proffesu bod wedi eu hysgrifenu yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, gan un Thomas Rowley. Boddhawyd Walpole yn fawr; ond pan ddangosodd efe y caneuon i'w gyfeillion Mason a Gray, dywedasant hwy mai ffugiaeth oeddynt; ac felly dychwelwyd hwynt yn ol i Chatterton. Wedi ei ryddhau oddi wrth ei feistr, efe a aeth i fyny i Lundain yn 1769, gan gwbl hyderu y buasai yn ymgodi trwy ei dalent. Yr oedd ei ysgrifeniadau yn ystod ei arosiad yn y brif ddinas yn lliosog; ond nis gallai fyw yno uwch law angen, a syrthiodd o ran ei feddwl o binacl uchaf gobaith i ddyfnderoedd anobaith; ac ar y 24ain o Awst, 1770, pan braidd ar newynu yn llythyrenol, rhoddodd y dyn ieuangc anffodus derfyn ar ei einioes trwy gymmeryd gwenwyn. Claddwyd ef y dydd canlynol yn nghladdfa gweithdy Shoe-lane.

Nid oedd Chatterton ond dwy flwydd ar bymtheg a naw mis oed pan y bu farw. Bu dadl fawr ar y pryd ynghylch y pryddestau Rowleyaidd; ond tybir yn gyffredinol yn awr mai cynnyrchion Chatterton ei hun oeddynt. Yr oedd ei berson, fel ei athrylith, yn rhagaddfed (*precocious*). Dywed un o'i gymdeithion ei fod yn edrych fel "ysbryd." Yr oedd ei lygaid yn nodedig dreiddiol, ac un o honynt yn fwy felly na'r llall; ac yr oedd ei serch at ei berthynasau yn ddiderfyn. Yn yr hen bryddestau Rowleyaidd, fel y gelwir hwynt, yr ymddengys ei athrylith gref yn fwyaf amlwg.

CHATEAUBRIAND, FRANCOIS RENE AUGUSTE: llenor Ffrengig o enwogrwydd, a anwyd yn St. Malo, Medi 4ydd, 1768. Wedi bod yn efrydydd yn Dol a Rennes, ymunodd â chatrawd Navarre. Aeth i America yn 1790, a threuliodd yno ddwy flynedd—gan mwyaf yn crwydro yr anialdiroedd. Yna dychwelodd yn ol, er cymmeryd rhan yn yr ymdrechfa fawr a ddygid yn mlaen yn ei wlad ei hun. Clwyfwyd ef yn ngwarchau Thionville, yn 1792, a dygwyd ef oddi yno i Jersey; a chyn gorphen gwellhau, hwyliodd am Loegr. Dioddefodd cryn galedi yn

Digitized by Google

y wlad hon; a chyhoeddodd ei waith cyntaf, sef "*Essai Historique,*" &c., yn 1797. Dychwelodd i Ffraingc yn fuan ar ol hyn, ac ymddangosodd ei "*Atala*" yn 1801. Yn y flwyddyn ddilynol, daeth allan brif waith Chateaubriand; sef, ei "*Genius of Christianity.*" Yn fuan ar ol hyny, pennododd Napoleon ef yn ysgrifenydd y llysgenhadaeth yn Rhufain. Yn Mawrth, pennodwyd ef yn llysgenhadwr i Switzerland; ond rhoddodd y swydd hono i fyny pan y clywodd am dynged y Duc d'Enghien. Yr oedd yn ei fryd er's amser maith gyfansoddi gwaith barddonol ar ddigwyddiadau mawr Cristionogaeth; ac i'r dyben o gymmhwyso ei hun at y gwaith, aeth ar ymweliad â Phalestina a Syria yn 1806. Yn 1814, cyhoeddodd ei "*Bounaparte et les Bourbons,*" am yr hwn y dywedodd Louis XVIII. ei fod yn fwy gwerthfawr na byddin o 100,000 o wŷr i ddarparu y ffordd i'w deyrnach ef i'r orsedd. Gwnaed ef yn un o bendefigion Ffraingc yn 1815; a phennodwyd ef yn llysgenhadwr i Berlin yn 1820, ac i Brydain yn 1822; a'r un flwyddyn, galwyd ef i'r swydd o ysgrifenydd tramor. Bu yn llysgenhadwr yn Rhufain yn 1828—29. Prysurodd i Paris pan y torodd y chwyldroad allan yn 1830, a derbyniwyd ef yn llawen gan y bobl; ac wedi traddodi un araeth fawr ffafriol i'r Duc o Bordeaux, yn nhŷ y pendefigion, efe a ymneillduodd—ac nid ymddangosodd yn eu mysg drachefn. O hyny allan, canodd Chateaubriand yn iach i fywyd cyhoeddus, a bu farw Gorphenaf 4ydd, 1848, yn 79ain ml. oed. Yr oedd Chateaubriand yn fwy o reithydd nag o fardd—ac yn fwy o lenor nag o ddyn. Fel llenor Ffrengig, y mae yn ffurfio y trawsfynediad o'r hen ysgol glasurol i'r ysgol newydd ramantus. Perthynai i'r gyntaf o ran neillduolrwydd ei athrylith, i'r ail o ran manylder a llymder ei chwaeth. Y mae yn ffrwythlawn mewn drychfeddyliau, yn angerddol mewn ymadrodd, ac yn gyfoethog iawn mewn disgrifiad. Ei brif ragoriaeth ydyw ei allu i ddadguddio rhyw wedd newydd mewn gwrthddrych cyffredin. Yr argraphiad goreu o'i weithiau ydyw yr eiddo St. Beuris, Paris, 1859—60.

**CHAUCER, GEOFFREY**: tad barddoniaeth Seisnig. Yr oedd Chaucer yn byw yn ystod teyrnasiad Edward III. a Rhisiart II., brenhinoedd Lloegr; canys ganwyd ef (yn Llundain) yn ol yr ymchwiliadau diweddaraf, yn y fl. 1328, a bu farw yn 1400. Cafodd addysg ragorol yn nwy brif athrofa Lloegr, a bu am ennyd ar ol hyny yn helaethu ei wybodaeth ar y Cyfandir. Pan ddychwelodd, gwnaed ef yn wastrawd i'r brenin; ac yn 1370, yn darianwr iddo. Yn 1372, anfonwyd ef i Genoa, i logi llongau at wasanaeth y brenin; a phan ddaeth adref, gorchymynodd y brenin i'w drulliad roddi iddo ystenaid o win bob dydd. Yr oedd eisoes yn derbyn cyfarwys (*pension*) da gan y brenin. Dywed rhai ddarfod iddo, yn ystod teyrnasiad Rhisiart, dderbyn athrawiaeth Wickliff; ac y bu gorfod arno o'r herwydd ffoi i'r Cyfandir, rhag ofn yr offeiriaid. Wedi iddo yn ddirgelaidd ddyfod yn ol i Loegr, traddodwyd ef i garchar; ac ni ryddhawyd ef hyd nes yr ymostyngodd i hysbysu enwau y rhai oedd wedi derbyn yr athrawiaeth newydd. Bu yn edifar iawn ganddo wneuthur hyny, fel y mae yn amlwg oddi wrth ei "*Testament of Love.*"

Ymgadwodd Chaucer, am y deng mlynedd diweddaf o'i oes, yn ei dŷ yn Woodstock, ac yn nghastell Donnington, lle y cyfansoddodd y "*Canterbury Tales,*" ac y cywirodd ei weithiau eraill. Barbaraidd iawn oedd yr iaith Saesnig, ac isel oedd chwaeth y genedl Saesnig, pan ymddangosodd Chaucer; er hyny llwyddodd, trwy ei athrylith, i orchfygu pob anfanteision, ac i gyfansoddi darnau sydd yn nodedig am arddunedd ac amrywiaeth eu testynau, ac am dlysni eu plethiadau.

Priododd Chaucer foneddiges oedd yn berthynas i wraig John o Gaunt, y Duc o Lancaster; yr hwn oedd ei noddwr penaf tra y bu mewn awdurdod. Yr oedd ei ferch, Alice, yn briod â William de la Pole, y Duc o Suffolk. Yr argraphiad goreu o'i weithiau ydyw yr un chwethestunol a gyhoeddwyd gan y *Chaucer Society.*

**CHEBAR**: afon yn "nhir y Caldeaid" (*Ezec.* i. 3), ar lenydd yr hon y trigai rhai o'r Iuddewon yn amser y caethiwed, a lle y gwelodd Ezeciel ei weledigaethau boreuaf: *Ezec.* i. 1; iii. 15, 23, &c.

**CHERUBINI, MARIE LUIGI SALVADOR**: cyfansoddwr cerddorol o enwogrwydd mawr. Ganwyd ef yn Florence, Medi 14eg, 1760. Dangosodd, pan yn ieuangc iawn, ei fod yn meddu talent gerddorol anghyffredin; a phan nad oedd ond tair ar ddeg oed, canwyd cyfansoddiad ar wasanaeth yr offeren o'i waith ef: ac yr oedd wedi cyfansoddi amryw ddarnau eraill hefyd. Rhagredegwyr oedd y gweithiau hyn i eraill a dderbyniwyd gan y cyhoedd gyda mawr gymmeradwyaeth: a chaniatawyd iddo flwydd-dâl gan Leopold II., uchel dduc Tuscany. Cwblhaodd ei addysg gerddorol o dan Sarti, yr hwn a gynnorthwyodd efe i berffeithio ei gyfansoddiadau. Dygodd allan ei chwareugân (*opera*) a elwir *Quinto Fabio* yn 1782. Daeth i Lundain yn 1784, lle y cyfansoddodd ac y dygodd allan ddwy eraill o'i chwareuganau. Ar ol y flwyddyn 1786, preswyliodd gan mwyaf yn Paris, a phennodwyd ef yn brif gyfansoddwr ystordy cerddorol y ddinas hono; ac yno y cyfansoddodd ei brif weithiau. Y mae y chwareuganau, *Iphigenia, Lodoiska,* ac *Ali Baba,* yn profi helaethrwydd ac amrywiaeth galluoedd Cherubini; ond y mae ei enwogrwydd penaf yn gorphwys ar ei gyfansoddiadau cerddorol cyssegredig; a theilynga ei *Requiem* sylw neillduol. Edmygid yn fawr ei gyfansoddiadau ar gerddoriaeth offerynol. Anrhydeddwyd ef âg urdd y Lleng Anrhydedd. Bu farw yn gyflawn o ddyddiau ar y 10fed o Fawrth, 1842, yn yr 82ain flwydd o'i oedran.

**CHILLINGWORTH, WILLIAM.** Ganwyd ef yn Rhydychain yn y fl. 1602; ac addysgwyd ef yn Ngholeg y Drindod, lle y gwnaed ef yn athraw y celfyddydau, ac yn gymmrawd. Yr oedd dadleu brwd y pryd hyny rhwng Eglwys Loegr ac Eglwys Rhufain; a dechreuodd Chillingworth ddangos ei dueddiadau dadleugar yn foreu. Dywed Arglwydd Clarendon ei fod wedi ymarfer cymmaint â phetruso ac ammheu, fel o'r diwedd nad oedd yn sicr o ddim. Pan yn y cyflwr meddwl hwn, llwyddodd yr Iesuitiad, John Fisher, i'w droi yn Babydd; ac aeth yntau i athrofa yr Iesuitiaid yn Douay. Ond ni bu yno ond am ychydig fisoedd; o blegid llwyddodd ei dad-bedydd, y Dr. Laud, i'w ddwyn yn ei ol i Eglwys Loegr. Tua'r pryd hwnw, yr oedd dadl rhwng yr Iesuitiad, Edward Knott, a Dr. Potter

Digitized by Google

o Goleg y Frenhines; ac yn 1634, penderfynodd Chillingworth atteb Knott trwy gyhoeddi traethawd o'r enw, "*The Religion of Protestants a safe way to Salvation;*" yr hwn a dynodd sylw mawr. Yr egwyddor y mae efe yn dadleu drosti yn y gwaith hwn ydyw, mai yr Ysgrythyrau ydyw unig reol ffydd ac ymarweddiad. Daliai hawl pob dyn i farnu drosto ei hun mor eofn a diffoesgni fel y tynodd arno ei hun ŵg y Puroniaid yn gystal a'r Pabyddion. Bu am gryn amser yn gommedd cymmeryd ei ddyrchafu, am nad oedd yn cydsynio â rhai o erthyglau yr Eglwys; ond o'r diwedd, fe'i perswadiwyd ef i'w harwyddo hwynt; ac yn ddioed, fe'i gwnaed yn ganghellor Salisbury. Pan ddechreuodd y rhyfel cartrefol, cofleidiodd Chillingworth achos y brenin; ac ysgrifenodd lyfr i brofi mai anghyfreithlawn yw gwrthsefyll tywysog cyfreithlawn, er iddo fod yn un annuwiol, gormesol, ac eilunaddolgar. Pan oedd Siarl yn gwarchau yn erbyn Gloucester, yn haf 1643, gwasanaethai Chillingworth yn ei fyddin ef fel peiriannydd. Cymmerwyd ef yn garcharor gan y seneddolion yn nghastell Arundel; ac o herwydd clafychu o hono, fe'i cludwyd ef, ar ei gais ei hun, i balas yr esgob yn Chichester—lle y bu farw, ac y claddwyd ef yn mis Ionawr, 1644. Cyfrifir Chillingworth yn rhesymwr cadarn a nerthol iawn. "Os mynwch i'ch mab ymresymu yn dda," medd Locke, "darllened Chillingworth." Heb law y gwaith uchod, cyfansoddodd weithiau eraill llai pwysig, o natur ddadleuol; ac y mae rhai o'i bregethau hefyd ar gael.

CHIMHAM: un o ganlynwyr, ac hwyrach mab Barzilai y Gileadiad, yr hwn a ddychwelodd o'r tu hwnt i'r Iorddonen gyda Dafydd: 2 *Sam.* xix. 37, 38, 40. Ymddengys fod Dafydd wedi rhoi etifeddiaeth iddo yn Bethlehem, ar yr hon, mewn amserau diweddarach, yr oedd lletty neu *Khan* yn sefyll, tra adnabyddus fel cychwynfan i deithwyr o Ierusalem i'r Aipht: *Jer.* xli. 17.

CLARKSON, THOMAS: yr hwn a anwyd yn Wisbeach, yn sir Caergrawnt, yn 1760. Efe ydoedd un o bleidwyr cyntaf diddymiad caethwasanaeth. Arweiniwyd ei feddwl at bwngc y gaethfasnach fel y canlyn:—Pan yr oedd efe yn ngh™oleg St. Ioan, Caergrawnt, cynnygiwyd gwobr am y traethawd Lladin goreu ar y cwestiwn yma—"A ydyw yn iawn gwneyd caethion o eraill yn erbyn eu hewyllys?" ac efe a gafodd y wobr. Cyhoeddodd gyfieithiad Saesneg o'r traethawd hwn, a bu darllen mawr arno; yr hyn a wnaeth iddo benderfynu cyssegru ei fywyd i wrthwynebu y gaethfasnach. Ar ol dyfod o hono yn gydnabyddus â Mr. Wilberforce—yr hwn yr oedd ei gyssylltiadau a'i ddylanwad yn bwysig—cyttunwyd fod i Wilberforce ddwyn achos y gaethfasnach i sylw y senedd. Yn 1787 y gwnaed hyn gyntaf; ac yn 1807, pasiwyd cyfraith i ddiddymu y fasnach. Rywbryd ar ol hyn, cyhoeddodd Clarkson hanes yr ymdrech mawr a wnaed ganddo ef a'i gyfeillion er cael hyn i ben. Aelod o Eglwys Loegr oedd Mr. Clarkson ar y cyntaf, ond ymunodd wedi hyny â Chymdeithas y Cyfeillion. Bu farw yn Suffolk yn y flwyddyn 1846.

CLIVE, ROBERT, ARGLWYDD: rhyfelwr dewr, a sylfaenydd yr ymherodraeth Brydeinig yn India, cyn ei fod yn ddeugain mlwydd oed. Ganwyd ef y 29ain o fis Medi, 1725, yn Styche, ger llaw Market Drayton, yn swydd Amwythig. Hanai o deulu boneddigaidd, oedd mewn amgylchiadau lled isel. Cynnrychiolir ef yn awr gan deulu Powys. Cafodd ei fab ei wneuthur yn iarll Powys. Yr oedd y Clives yn un o'r teuluoedd hynaf yn sir Amwythig—wedi dal y palasdy o'r enw yn amser Harri II. Yr oedd un o honynt yn ganghellydd y trysorlys yn yr Iwerddon dan Harri VIII., ac un arall yn aelod o'r Senedd Hir; a bu tad Robert yn aelod seneddol dros swydd Drefaldwyn am flynyddoedd lawer. Bu mewn amryw o ysgolion, ond ni ragorodd fel ysgolhaig; ond hynododd ei hun am ei gampau bachgenaidd, a'i anturiaethau direidus. Yr oedd hen bobl yn nghymmydogaeth Market Drayton, yn nechreu y ganrif hon, yn cofio clywed eu rhieni yn dywedyd y modd y darfu i Bob Clive ddringo i fyny i ben clochdy Market Drayton, a'r dychryn a feddiannai y preswylwyr wrth ei weled yn eistedd yn ddigyffro ar enau pistyll careg a ddeuai allan o'r mûr yn agos i'r pen uchaf. Yn 1743, cafodd le fel ysgrifenydd yn ngwasanaeth Cwmni yr India Ddwyreiniol; a'r flwyddyn ddilynol, anfonwyd ef allan i Madras. Gadawodd y gwasanaeth masnachol am yr un milwraidd yn mhen tair blynedd; ac yr oedd hyn yn orchwyl llawer mwy cymmhwys iddo. Gwnaeth enw iddo ei hun yn ngwarchauad Pondicherry. Yr oedd cymmeriad Arcot, a'r frwydr benderfynol a ennillodd y Prydeiniaid yno, i'w priodoli yn benaf i fedrusrwydd y swyddog ieuangc a chymmharol ammhrofiadol hwn. Priododd Miss Margaret Maskelyne, chwaer i gyfaill iddo—yr hwn a fu ar ol hyny yn adnabyddus fel seryddwr brenhinol. Yr oedd ei ohebiaethau i gyd yn profi ei fod yn ŵr a thad da ar adeg pan yr oedd cymdeithas yn mhell iawn o fod yn bur mewn cylchoedd uchel. Ar ei ymweliad â Phrydain er cryfhâd ei iechyd yn y flwyddyn 1753, talwyd gwarogaeth uchel iddo gan gyfarwyddwyr Cwmni yr India Ddwyreiniol. Aeth Clive yn ol i India yn 1756, yn llywodraethwr Caerfa St. David; ac yn fuan wedi hyny, bu yn cynnorthwyo i ddarostwng y môr-leidr Angria, ac i gymmeryd ei brif ddinas a'i holl drysorau. Yn y cyfamser, yr oedd Sujah Dowlah wedi ymosod ar y Prydeiniaid: dinystriodd eu llaw-weithfeydd, a thaflodd nifer fawr o garcharorion i gell dywell (*black hole*) yn Calcutta. Aeth Clive yn mlaen yn ei erbyn, a bu yn llwyddiannus drachefn; ond gwelai nas gellid sicrhau heddwch parhaol heb ddiorseddu y *nabob;* a chymmerodd y mesurau angenrheidiol i hyny. Ac yn mrwydr enwog Plassey, llwyr orchfygwyd y *nabob*, a sefydlwyd y gallu Prydeinig yn gadarnach nag erioed yn India'r Dwyrain. Fel llywodraethwr Calcutta, gwnaeth Clive wasanaeth mawr, yn wladol a milwraidd; a phan ddychwelodd i Brydain, yn 1760, yn 35ain mlwydd oed, cafodd gynnysgaeth o 300,000*p*. ei hun, a rhydd-ardreth o 27,000*p*. i'w rieni a'i chwiorydd; a rhoddwyd i Major Lawrence 500*p*. yn y flwyddyn. Yr oedd yr arian wedi eu hennill yn anrhydeddus a chyhoeddus gyda chymmeradwyaeth Cwmpeini India'r Dwyrain; a chafodd ei ddyrchafu i'r bendefigaeth, o dan y teitlau canlynol—Arglwydd Clive, a barwn Plassey. Ymwelodd âg India unwaith yn rhagor, ond ni alwyd arno i fabwysiadu mesurau milwraidd o gwbl y tro hwnw; ond dangosodd ddoethineb neillduol yn newisiad ei fesurau gwladol. Dychwelodd yn

ol i Brydain yn 1767—wedi gwneyd mwy i helaethu terfynau awdurdod llywodraeth y wlad hon yn India nag unrhyw gadfridog arall: ac mewn gwirionedd, gellir edrych arno fel sylfaenydd yr ymherodraeth Brydeinig yn India. Ond parodd y cyfoeth mawr a gasglwyd ganddo tra y bu yno i'w elynion ddwyn cyhuddiad yn ei erbyn yn Nhŷ y Cyffredin, o wneuthur camddefnydd o'i awdurdod tra yr oedd yn India. Troi yn fethiant a wnaeth yr ymosodiad; ond effeithiodd hyny gymmaint ar feddwl Clive fel y cyflawnodd hunanladdiad yn y fl. 1774, pan nad oedd efe ond 49ain mlwydd oed. Gwel INDIA BRYDEINIG, cyf. VI.

CLORON, PYTATW (*Potato*): un o'r planhigion diwylliedig mwyaf defnyddiol a phwysig a amaethir yn gyffredinol yn hinsoddau cymmedrol y ddaear. Fel y canlyn, dybygid, y daeth y planhigyn rhagorol hwn gyntaf i Brydain:—Yn 1584, caniataodd y frenhines Elizabeth freintysgrif, "am ddarganfod gwledydd newyddion, nad ydynt yn cael eu meddiannu gan Gristionogion;" ac o dan y caniatâd hwn, hwyliodd amryw longau, wedi eu parotoi yn benaf gan Syr Walter Raleigh, ac o dan ei arweiniad ef, allan o Loegr tua'r America. Danfonodd Thomas Harriott, yr hwn a aethai allan gyda'r ysgwadron anturiaethus, yn ol i Loegr ddisgrifiad o blanhigyn, a elwid yn *openawk* gan frodorion y rhan hono o Ogledd America, a alwyd gan Raleigh yn Virginia. Y mae Harriott yn disgrifio yr *openawk* fel yn meddu gwreiddiau yn taflu i bob cyfeiriad; a'u bod yn "hongian wrth eu gilydd fel pe byddent wedi eu rhwymo â llinynau—ac yn ymborth rhagorol, naill ai wedi eu berwi neu eu rhostio." Ychydig flynyddau yn ddiweddarach, y mae Gerard yn ei "*Herbal*," yn rhoi disgrifiad manylach o honynt. Y mae yr anrhydedd o ddiwylliο y planhigyn hwn gyntaf yn yr Iwerddon, lle y bu am amser maith yn gwneyd i fyny brif ymborth y werin wledig, yn cael ei briodoli i daid Syr Robert Southwell, yr hwn oedd yn llywydd y Gymdeithas Frenhinol, tua diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yn ol adroddiad Syr Robert, yr oedd ei hynafiad wedi cael planhigion gan Syr Walter Raleigh ei hun. Tebygol ydyw fod y chwedl adnabyddus am Raleigh, ei fod wedi planu cloron gyntaf yn ei ardd yn Youghal, yn wir; ac am siomedigaeth y garddwr yn yr Hydref pan y profodd yr afalau oedd yn tyfu arnynt. Gwelodd y gwreiddiau, ond ni phrofodd y rhai hyny; a gorchymynodd ei feistr iddo eu taflu ymaith "fel chwyn diddefnydd." Yr oedd cloron yn adnabyddus yn Yspaen a Phortugal yn foreuach.

Amaethid hwynt yn yr Iwerddon yn mhell cyn eu dwyn i swydd Lancaster. Mynegir mai yn ddamweiniol y dygwyd hwy i'r lle diweddaf mewn canlyniad i longddrylliad a ddigwyddodd yn North Meols, yn agos i enau y Ribble; ac oddi yno ymwasgarodd y planhigyn yn raddol nes ei fod yn cael ei amaethu yn helaeth dros bob rhan o Brydain Fawr. Aeth cryn amser heibio, fodd bynag, cyn i'r planhigyn ddyfod yn ddymunol i'r archwaeth, yn gynnyrchiol a bloddiog, ac i gael ei amaethu yn y meusydd. Cyfyngid cloron i'r gerddi am o leiaf ganrif a hanner ar ol iddynt gael eu planu gyntaf yn Youghal; ac ni ddiwylliwyd hwynt yn Ysgotland fel cynnyrchion y meusydd hyd y fl. 1732. Dygid gwrthwynebiad rhyfedd yn mlaen gan rai yn erbyn cloron:—gwadent y cyfreithlondeb o'u bwyta, am y rheswm na wneir un crybwylliad am danynt yn y Beibl. Ond pa un bynag a edrychir ar y planhigyn fel y mae yn gyfaddas i bob math o dir, ac i agos bob hinsawdd, neu ynte fel defnydd ymborth, y mae yn rhaid ei restru yn mysg bendithion mawr Rhagluniaeth.

Y mae cloron yn bwysig, yn gymmaint a'u bod yn ymborth iachusol i ddyn ac anifail; ac yn nesaf at y prif ydrawn, dyma y planhigyn gwerthfawrocaf fel ymborth i ddyn. Defnyddir hwynt hefyd i amryw ddybenion mewn cyssylltiad â'r celfyddydau. Y mae y planhigyn hwn wedi bod yn fendithiol i boblogaeth y gwledydd yn gyffredinol, yn foddion cynnydd cyfoeth gwladol, ac yn attalfa, fel yr oedd meddylwyr craff yn disgwyl iddo fod, i ymweliadau newyn. Digwyddodd newyn tost yn yr Iwerddon yn y blynyddoedd 1846 a 1847, mewn canlyniad i fethiant cnwd y cloron; yr hyn oedd i'w briodoli yn benaf i'r ffaith fod y planhigyn yn cael ei amaethu yno yn helaeth iawn, a'r trigolion yn dibynu arno yn benaf am eu cynnaliaeth. Cadarnhawyd dwy ddeddf fawr gan y canlyniadau; sef, fod planhigion fydd yn cael eu diwyllio yn helaeth ac yn mron yn gwbl mewn unrhyw ddosbarth, pa mor lwyddiannus bynag y diwyllir hwynt am dymmor, yn sicr o fethu o'r diwedd; a bod dibynu yn mron yn hollol ar un ffynnonell neu foddion cynnaliaeth, yn debyg o droi yn anffafriol i'r wlad yn gyffredinol. Cyfrifir gan Humboldt y bydd i'r un faint o dir ag a gynnyrcha ddeg pwys ar hugain o rawn gwenith, gynnyrchu mil o bwysi o gloron. Ond nid yw cloron agos mor faethlawn a gwenith; ac nid yw eu defnyddio yn wastadol fel prif foddion ymborth yn ffafriol i ddadblygiad nerth corphorol; ac o ganlyniad, yn y pen draw, y mae yn anffafriol i egni meddyliol hefyd. Cyfrifir fod 100 o ranau o flawd gwenith da yn cynnwys cymmaint o faeth gwirioneddol a 613 o ranau o gloron. Y mae hyn i'w briodoli i raddau mawr i'r swm cymmharol fychan o sylweddau bloreiol (*nitrogenous*) sydd ynddynt. Ond y maent yn fanteisiol i'w harfer gyda phethau eraill sydd yn cynnwys mwy o'r sylweddau hyny. Yn Mhrydain, yn gyffredin, arferir hwy gyda chig —ac mewn rhai parthau o Ewrop, gyda chaws. Defnyddir cloron, yn oer yn gystal ag wedi eu berwi, i borthi anifeiliaid. Fel ymborth dynol, parotöir hwynt drwy eu berwi, neu eu rhostio; ond yn benaf drwy eu berwi. Nid ydyw y dwfr y berwir hwynt ynddo yn iachusol; a dylid ei dywallt yn llwyr oddi arnynt cyn eu bwyta.

Y mae amrywiaeth mawr o gloron yn cael eu diwyllio, fel y mae eu henwi yn ammhossibl. Ymddengys rhai newyddion yn feunyddiol; ac y mae hen rai yn darfod. Ceir fod rhai a ddiwyllir i'r fantais oreu mewn tiroedd a hinsoddau neillduol, yn gwaelu pan symmudir hwynt i ychydig o bellder. Codir rhywogaethau newyddion yn fynych drwy yr afalau. Ond yr arfer cyffredin ydyw planu y bytaten, neu ddarn o honi, a hwnw yn cynnwys llygad neu eginyn. Y mae llawer wedi ei ysgrifenu gan arddwyr ac amaethwyr ar y manteision cymmhariaethol o blanu pytatws yn gyfain, neu wedi eu tori: ond y cyntaf ydyw y goreu. Y maent yn agored i amryw fathau o heintiau; ond y mwyaf pwysig ydyw yr un a elwir "haint y pytatws" (*murrain*). Nid oes o'r bron un dim mewn cyssylltiad âg amaethyddiaeth neu lysieuaeth y bu mwy o ysgrifenu arno yn nghwrs y blynyddau a aethant heibio na'r haint hwn. Darfu i'r

newyn ofnadwy a fu yn yr Iwerddon yn 1846 a 1847 alw sylw yr holl fyd gwareiddiedig at hyn; ac etto y mae llawer o dywyllwch yn aros arno. Sylwyd ar haint y cloron gyntaf yn yr Almaen, ac hefyd ei fod o natur tra niweidiol, yn 1842. Torodd allan yn 1844 yn Canada, a phrofodd yn hynod ddinystriol. Yn 1845 y sylwyd arno gyntaf yn Mhrydain, a hyny yn Ynys Gwyth. Yn ystod y flwyddyn hono gwnaeth gryn ddinystr yn yr ynysoedd Prydeinig; ond gwnaeth lawer mwy yn 1846—a'r canlyniad fu y newyn ofnadwy yn yr Iwerddon; ac yn yr un flwyddyn ymdaenodd yn gyffredinol trwy bob rhan o Ewrop. Yr oedd yr haf yn anarferol o gymmylog a llaith—amgylchiad, dybygid, a effeithiodd yn niweidiol i raddau. Ffynai yr haint yn 1847, ond nid i'r un graddau; ac er y pryd hwnw y mae wedi lleihau yn raddol, er ei fod yn tori allan yn achlysurol yn dost mewn cymmydogaethau neillduol. Yn y cyfamser, y mae yn deilwng o sylw fod bron yr holl rywogaethau o gloron oedd yn cael eu diwyllio yn lled helaeth cyn y flwyddyn 1846 wedi diflanu, ac eraill wedi cymmeryd eu lle. Nid oes un eglurhâd llawn a boddhaol wedi ei roddi gan neb am achos neu ddechreuad yr haint hwn. Y mae llawer o sylwedyddion yn ei briodoli i drychfilod, a rhai i filionos; ond gan nad ydyw y creaduriaid hyn i'w cael yn wastad mewn cloron afiach, tybia rhai mai effaith yr haint, ac nid ei achos, ydyw eu presennoldeb hwy. Ond dyma y tywyllwch sydd ynglŷn âg ef er yr ymchwiliadau mwyaf manwl. Pan yr ymeifl yr haint yn y planhigyn gyntaf, ymddengys ysmotiau llwydion tywyll ar ymylau y dail: yna ymleda yr afiechyd yn bur fuan, a phydra y dail a'r gwlydd: ac mor sicr a bod yr ysmotiau yn ymddangos ar y dail, bydd nifer mwy neu lai o'r gwreiddiau yn ddrwg.

CLOUGH, SYR RICHARD: un o farsiandwyr mawr ei oes. Ganwyd ef yn nhref Dinbych, yn y fl. 1520. Efe ydoedd pummed mab Richard Clough. Glwfer o'r dref hon oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, a bu yn briod ddwywaith:—y tro cyntaf gyda merch ieuangc o'r enw Holland, a'r ail waith gydag un arall o Gaerlleon, o'r enw Whittingham. Yr olaf oedd mam gwrthddrych yr erthygl hon. Pan ar ymweliad â dinas Caerlleon, deallwyd fod gan y bachgen Richard lais da; a dewiswyd ef yn un o gantorion yr eglwys gadeiriol. Ryw fodd neu gilydd, aeth i fyny i Lundain pan yn ieuangc, a chymmerwyd ef i wasanaeth Syr Thomas Gresham—un o farsiandwyr enwocaf y ddinas. Mewn amser, fel y dywed rhai, daeth i bartneriaeth â'r gŵr hwnw yn ei fasnach; ond eraill a ddywedant mai goruchwyliwr masnachol drosto ydoedd. Modd bynag, casglodd gyfoeth mawr, a daeth yn ddiareb yn y wlad, pan y llwyddai un i ennill llawer o gyfoeth—"Efe a aeth yn Glough." Mynegir iddo fyned ar bererindod i Ierusalem, ac iddo gael ei wneyd yn Farchog y Bedd Sanctaidd, er nad oedd yn ewyllysio i'r ffaith ddiweddaf fod yn hysbys, yn gymmaint a bod y frenhines Elizabeth yn edrych yn anfoddhaol ar urddau tramor. Mewn canlyniad i hyn y mae Pennant, ac ysgrifenwyr eraill, yn ei alw yn Syr Richard Clough. Yr oedd Clough yn gyfaill neillduol i'w gyd-drefwr Humphrey Llwyd, yr hynafiaethydd; a bu yn foddion i ddwyn y diweddaf, a'r daearyddwr clodfawr Ortelius, i gydnabyddiaeth â'u gilydd. Ymddengys ei fod hefyd yn hoff iawn o astudio seryddiaeth ac adeilyddiaeth. Efe a adeiladodd balasdy pur hardd, o'r enw Bachegraig, ar lan y Clwyd, ger Dinbych. Yr oedd y palasdy hwn yn adeilad hynod—wedi ei gynllunio yn yr arddull Ffiemingaidd, ac yn chwech uchder llofft. Torwyd llythyrenau cyntaf ei enw ar wyneb oreu y tŷ, ynghyd â'r dyddiad 1567; ac ar y porth yr oedd '1569' yn gerfiedig. Adeiladodd Richard hefyd balas arall, o'r enw Plas Clough, yr hwn sydd o fewn llai na milldir i Ddinbych, ynghyd âg amryw dai mawr yn y dref; a'i frawd, Hugh Clough, a adeiladodd y Grove House, Dinbych. Dywedir fod y priddfeini i adeiladu y tai hyn wedi cael eu dwyn drosodd o Holland. Wrth ystyried fod y gŵr hwn wedi treulio yn mron ei holl oes yn Lloegr, a Holland, ymddengys yn rhyfedd ei fod wedi ymgymmeryd âg adeiladu cymmaint yn ei dref enedigol a'r gymmydogaeth; ond yr esboniad ar hyn ydyw, ei fod yn teimlo hoffder mawr at ei wlad, ac wedi meddwl cael mwynhau ffrwyth ei lafur mewn tawelwch yn niwedd ei oes yn y gymmydogaeth lle y ganwyd ef. Yn 1567, efe a briododd yr enwog Catrin o Berain, o'r hon y bu iddo ddwy ferch; sef, Anne a Mary. Dywed Pennant, fod y grediniaeth yn ffynu mai "ychydig o'i gyfoeth a feddiannodd ei etifeddion, gan ei fod wedi myned yn eiddo i Syr Thomas Gresham yn ol cyttundeb oedd rhyngddynt; sef, fod yr hwn a fyddai farw gyntaf i adael ei gyfoeth i'r hwn a adewid." Dywed eraill mai gadael ei eiddo symmudol a wnaeth efe i Syr Thomas Gresham, ond na hawliodd y diweddaf mo hono. Efe a adawodd gan punt tuag at sylfaenu ysgol rydd yn Ninbych; ond, fel llawer o waddoliadau cyffelyb, y maent wedi eu colli er's llawer dydd. Dywedir ei fod yn arfaethu gwneyd yr afon Glwyd yn fordwyol o Ruddlan, heibio i Lanelwy a Dinbych, mor belled a Rhuthyn. Pallodd ei iechyd, pa fodd bynag, pan oedd yn Hamburgh, a bu farw yn nghanol ei ddyddiau, yn ngwanwyn y fl. 1570, yn 50ain mlwydd oed. Claddwyd ei gorph yn Hamburgh; ond yn ol ei ddymuniad neillduol ef ei hun, dygwyd ei galon, a'i law ddeheu hefyd, medd rhai, i'r wlad hon mewn cist arian, a chladdwyd hwynt yn yr Eglwys wen, ger Dinbych. Pan agorwyd y beddgell, amryw flynyddoedd yn ol, cafwyd darnau o'r gist blwm a ffurfiai y gorchudd allanol i galon Syr Richard; ond yr oedd ei chauad yn gyfan. Tybir fod y gist arian wedi ei chymmeryd ymaith gan ryw ysbeiliwr er's llawer o amser.

COBBETT, WILLIAM: awdwr gwleidyddol o enwogrwydd. Mab ydoedd efe i amaethwr a thafarnwr. Ganwyd ef yn Farnham, yn Surrey, Mawrth 9fed, 1766; a bu yn gweithio ar fferm ei dad nes bod yn ugain mlwydd oed. Talodd ymweliad â chymmydogaeth Portsmouth, yn 1782; a dyna'r pryd y gwelodd efe y môr am y tro cyntaf—a phenderfynodd fyned yn forwr. Dranoeth, aeth ar fwrdd llong ryfel i ymofyn gwaith; ond ni lwyddodd i'w gael. Dychwelodd adref, lle yr arosodd hyd y gwanwyn dilynol; ac yna aeth i Lundain, a thrwy ddylanwad cyfaill cafodd waith i fod yn ysgrifenydd yn Gray's Inn. Wedi cyflawni y swydd hon am naw mis, aeth i Chatham, ac ymrestrodd i wasanaethu mewn catrawd o wŷr traed, yr hon a aeth allan yn mhen blwyddyn i Nova Scotia, ac oddi yno i New Brunswick. Yn ystod y flwyddyn y bu yn Chatham (sef 1784), llafuriodd

Digitized by Google

yn galed i'w addysgu ei hun yn ngwahanol gangenau dysgeidiaeth. Gwnaed ef yn ddengwriad (*corporal*) cyn i'r gatrawd gychwyn o Loegr; ac yn fuan ar ol cyrhaedd i America, dyrchafwyd ef, heibio i ddeg ar hugain o ringylliaid, yn brif ringyll. Dychwelodd Cobbett gyda'i gatrawd yn ol i Brydain yn niwedd y flwyddyn 1791; ac ar ei daer ddymuniad ei hun, cafodd ei ryddhâd, a chymmeradwyaeth prif swyddog y gatrawd i'w ymddygiadau da a'i ffyddlondeb i'r gwasanaeth milwrol yn ystod yr wyth mlynedd y bu yn filwr. Aeth drosodd i Ffrainge, ac arosodd yn y wlad hono am chwe mis; ac yna hwyliodd am Efrog Newydd, lle y glaniodd yn mis Hydref, 1792. Yn mhen dwy flynedd, gwnaeth ei ymddangosiad cyntaf fel ysgrifenydd cyhoeddus, mewn ymosodiad ar Dr. Priestley, yr hwn oedd newydd gyrhaedd i Loegr o'r Unol Daleithiau. Dan yr enw "Peter Porcupine," yr ysgrifenai. Tynodd y pamphledyn hwn gryn sylw, a dilynwyd ef gan lawer o draethodau gwleidyddol eraill a fwriadwyd i attal lledaeniad egwyddorion democrataidd. Casglwyd y cwbl ynghyd, a chyhoeddwyd hwynt yn Mhrydain yn 1801, mewn deuddeg cyfrol. Ar ei ddychweliad i'r wlad hon, cyhoeddodd bapur dyddiol dan yr enw "*Porcupine*," ac wedi hyny daeth allan y "*Weekly Register*," yn y rhai ar y cyntaf y cefnogai efe y llywodraeth. Am naw mis y parhaodd y blaenaf i ddyfod allan; ond ni pheidiodd yr olaf ymddangos hyd ddydd marwolaeth y meddiannydd; ac mewn amser newidiodd tôn y papur yn hollol, ac edrychid arno o hyny allan fel arweinydd y diwygwyr radicalaidd. Yn 1809, cyhoeddodd Cobbett gabldraeth yn mherthynas i fflangelliad rhyw bersonau yn y cartreflu yn Ely: cafwyd ef yn euog, a chafodd ei ddedfrydu i ddwy flynedd o garchariad, i dalu dirwy o 1,000*p.*, a rhoddi gwystlon am ymddygiad da am saith mlynedd. Nid anghofiodd y ddedfryd lem hon ar hyd ei oes. Aeth i America drachefn yn 1817, ac ymsefydlodd yn Long Island; ond yr oedd yn parhau i gyhoeddi y "*Register*" yn Llundain: anfonai y llawysgrif yn rheolaidd dros y Werydd. Yn y Long Island, yr oedd efe pan yr ysgrifenodd ei "*Rammadeg Saesneg*," gwerthiant yr hwn a gyrhaeddodd i ddeng mil o gopïau mewn mis. Dychwelodd yn ol i Loegr yn 1819. Yn 1820, efe a safodd yn ymgeisydd am aelodaeth seneddol dros Coventry, ond bu yn aflwyddiannus; ac yn 1826, aflwyddodd hefyd yn Preston. Tynodd sylw neillduol yn 1829 a 1830, drwy ei waith yn traddodi darlithiau gwleidyddol yn mhrif ddinasoedd Lloegr ac Ysgotland. Yn 1831, dygwyd cynghaws yn ei erbyn, wedi ei seilio ar erthygl a ymddangosodd yn y "*Register*," gyda'r amcan, meddai ei erlynwyr, o gyffroi y llafurwyr amaethyddol i gyflawni gweithredoedd o drais, ac i ddinystrio meddiannau. Amddiffynodd Cobbett ei hun yn y prawf hwn mewn araeth a barhaodd am chwe awr. Nis gallai y rheithwyr gyttuno ar y rheithfarn, ac felly terfynodd y gweithrediadau yn ei ryddhâd. Dychwelwyd ef yn aelod o'r senedd newydd gyntaf a etholwyd ar ol pasio y mesur diwygiadol yn 1832, yn un o'r aelodau dros Oldham. Traddododd amryw areithiau effeithiol yn y senedd; ond ar y cyfan nid oedd ei lwyddiant yn y maes hwn yn gyfartal i'r disgwyliadau yr oedd y wlad wedi eu ffurfio am dano. Bu farw yn lled annisgwyliadwy, ar ol cystudd byr, Mehefin 16eg, 1835, yn 73ain mlwydd oed.

**COBDEN, RICHARD**: llywodydd (*politician*) enwog iawn, yr hwn a gyfenwir yn briodol yn "Apostol Masnach Rydd." Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Dunford, ger llaw Midhurst, yn swydd Sussex, Mehefin 3ydd, 1804. Nid oedd ei dad ond ffermwr bychan; a bu farw pan oedd Richard yn bur ieuangc, gan adael ei deulu mewn cyflwr lled dlawd. O herwydd hyn, rhoddwyd Richard dan ofal ewythr a gadwai fasnachdy cyfanwerth yn Llundain, a chyn bo hir cymmerodd ei ewythr ef i'w wasanaeth. Gwasanaethodd ei feistr yn fedrus ac yn ffyddlawn, fel y dyrchafwyd ef o radd i radd, ac y pennodwyd ef o'r diwedd yn deithiwr masnachol iddo dros ogledd Lloegr. Yn 1830, efe a ymunodd â rhai o'i gydweithwyr i ddwyn yn mlaen fasnachdy cottymwe (*calico*) yn Salden, ger llaw Clitheroe, yn sir Lancaster. Er mwyn bod ar dir i allu barnu yn well am byngciau gwladol y dydd, efe a aeth ar daith, yn 1834, i ymweled â'r Aipht, Groeg, Twrci, a Thaleithiau Unedig America. Pan ddychwelodd o'i daith, cyhoeddodd ddau bamphled—y naill ar "Loegr, yr Iwerddon, a'r America," a'r llall ar "Rwssia." Ysgrifenodd y pamphled olaf a enwyd i wrthwynebu y teimladau cyffrous a diachos oedd yn y wlad hon yn erbyn Rwssia. Yr adeg hon bu yn dra ymdrechgar o blaid llenyddiaeth ac addysg, a chynnhyrfodd tref Fanchester, yn nghyd â'r trefydd cylchynol, i sefydlu Ysgolion Brytanaidd. Y pryd hwnw hefyd y cyfarfu â Mr. Bright gyntaf—yr hwn a ddaeth yn gyfaill ac yn gynnorthwywr iddo. Yn 1837, ceisiodd fyned i mewn i'r senedd fel cynnrychiolydd bwrdeisdref Stockport; ond gan fod ei syniadau rhydd ar drafnidiaeth etto yn ddyeithr, ac yn anghymmeradwy, bu yn aflwyddiannus. Ar ol hyn, bu yn teithio yn Ffrainge, Belgium, Tir y Swiss, a'r Almaen; a phan ddychwelodd adref, dechreuodd ddadleu dros ddiddymu Deddfau yr Yd; a chan ei fod yn siaradwr argyhoeddiadol, cafodd lawer i'w gefnogi. Anfonodd Ystafell Fasnachol Manchester ddeiseb i'r senedd yn mhlaid cais Mr. Cobden—a dilynwyd ei hesampl drwy yr holl wlad, fel yr oedd y deisebau a anfonwyd i'r senedd yn y flwyddyn ganlynol yn cynnwys dwy filiwn o enwau. Gan ddarfod i Dŷ y Cyffredin wrthod cynnygiad Mr. Villiers i ddiddymu y deddfau hyny, penderfynodd Mr. Cobden, yn 1838—9, gyda Mr. John Bright, ac eraill, i ffurfio y "Cynghrair Cenedlaethol er Diddymu Deddfau yr Yd"—y gymdeithas wleidyddol fwyaf galluog a fu erioed yn y deyrnas. Tanysgrifiodd y wlad uwch law chwarter miliwn o bunnau tuag at gefnogi y cynghrair hwn.

Yn 1841, sef yn mhen dwy flynedd ar ol ffurfiad yr *Anti-Corn-Law League*, etholwyd Mr. Cobden yn aelod dros y dref a'i gwrthodasai bedair blynedd cyn hyny; sef, Stockport. Ar gyfrif ei wybodaeth lawn a manwl, ei synwyr cryf, a'i ddiffuantrwydd diammheuol, daeth ar unwaith yn ddyn pwysig yn Nhŷ y Cyffredin. Yn mis Mehefin, 1846, cafodd weled diddymu Deddfau yr Yd, a bu Syr Robert Peel yn ddigon gonest i ddywedyd mai i ymdrech Mr. Cobden yr oeddid i briodoli eu diddymiad. Ar ol gorphen y gwaith mawr hwn, efe a ymwelodd eilwaith â'r Cyfandir, lle y derbyniodd groesaw ac anrhydedd mawr. Tra yr oedd efe i ffordd, casglodd ei gydwladwyr diolchgar tua 80,000*p.* i'w rhoddi yn dysteb genedlaethol iddo. Etholwyd ef hefyd, yn ei absennoldeb, yn aelod dros y West Riding yn swydd York, yn gystal a thros

Digitized by Google

Stockport. Dewisodd yntau y West Riding, a pharhaodd i'w chynnrychioli hyd 1857. Yn y flwyddyn hono, cariodd ei benderfyniadau ar ryfel China yn erbyn llywodraeth Arglwydd Palmerston trwy fwyafrif o un-ar-bymtheg o bleidleisiau. O herwydd hyn, appeliodd y prif weinidog at y wlad; ac er syndod i bawb, ni etholwyd na Cobden, na Bright, na'r Milwriad Gibson. Prawf oedd hyny, ysywaeth, nad oedd ei wrthwynebiad i'r rhyfel â China, ac i ryfel y Crimea, ddim yn cyttuno â theimlad y wlad.

Yn 1859, ymwelodd Cobden â'r America; a thra yr oedd efe yno, etholwyd ef yn aelod dros Rochdale. Arglwydd Palmerston, gan wybod yn dda am y gwasanaeth gwerthfawr a wnaeth Cobden i'w wlad, a gynnygiodd iddo swydd yn y weinyddiaeth; ond gan nad oedd efe yn cymmeradwyo gwladlywiaeth dramor ei arglwyddiaeth, teimlodd mai ei ddyledswydd ydoedd ei gwrthod hi. Y gwasanaeth olaf a wnaeth efe i'w wlad oedd dwyn i ben gyttundeb trafnidiol rhwng y wlad hon a Ffraingc. Trwy hyn lleihawyd llawer ar y doll a ddodid ar nwyddau Prydeinig yn Ffraingc, ac ar nwyddau Ffrengig yn Lloegr. Yn fuan wedi hyn, cynnygiodd Arglwydd Palmerston farwnigaeth iddo, ynghyd â lle yn y cyfringynghor; ond gwrthododd dderbyn y naill a'r llall.

Gwael fu iechyd Cobden o hyny hyd ddiwedd ei oes; a bu farw yn Llundain, ar yr eilfed dydd o Ebrill, 1865. Claddwyd ef yn eglwys West Lavington. Bu galar mawr am dano, nid yn unig yn y wlad hon, ond hefyd ar y Cyfandir. Y mae yn y *National Portrait Gallery* gorffyll (*bust*) o hono gan Woolner, a darlun gan Fagnani. Yn y fl. 1866, sefydlwyd y "*Cobden Club*" i gadw ei orchestion mewn cof.

COFRIFIAD (*Census*). Y mae cofrifiad yn y wlad hon yn golygu cofrifiad cyfnodol o'r boblogaeth. Yr oedd cofrifiad yn mysg y Rhufeiniaid gyntaf yn cynnwys, nid yn unig rhifiad y bobl, ond prisiad eu heiddo hefyd. Gorfodid pob dinesydd Rhufeinig i fyned ar ei lẁ, i roddi hysbysrwydd cywir o'i enw a'i oedran ei hun, ac enw ac oedran ei wraig, ei blant, ei gaethweision, a'i wasanaethyddion eraill, o dan boen cospedigaeth drom. Yr oedd y trethiad yn dibynu ar ganlyniad y cofrifiad. Yn ol prisiad eu heiddo yn y cofrifiad, rhenid y dinasyddion yn chwech o ddosbarthiadau. Pan gofrestrid enw person ar lyfrau y cyfrifwyr swyddol, cymmerid hyny fel prawf ei fod yn ddinesydd, hyd yn oed pe buasai yn gaethwas—a golygu ei fod wedi ei gofrestru gyda chydsyniad ei feistr; ond gwnaed amryw gyfreithiau i reoli a chymmedroli yr egwyddor gyfreithiol hon. Gan fod y cofrifiad yn cymmeryd lle yn ninas Rhufain, byddai raid i ddinasyddion oedd yn y taleithiau, os ewyllysient gael eu cofrestru, fyned i'r brif ddinas ar yr achlysur hwnw. Rhoddwyd i fyny yr arfer o brisio eiddo yn amser Vespasian; ond parhaodd yr arfer o rifo y bobl hyd gyfnod diweddar yn hanes yr ymherodraeth.

Gwnaed yr ymgais cyntaf tuag at gael allan rifedi poblogaeth Prydain, ac i benderfynu y cynnydd neu y lleihad, trwy gyfrif y genedigaethau a'r marwolaethau, yn 1801; ond nid oedd y cofrifiad yn cynnwys yr Iwerddon. Yr oedd llwyddiant yr ymgais hwn, gyda'r ddau ddilynol yn ddyledus yn benaf i sêl a medr Mr. Rickman, ysgrifenydd cynnorthwyol Tŷ y Cyffredin. Ond wrth gwrs, nis gallesid gwneuthur y gwaith hwn yn foddhaol, ond trwy gyfrifiad manwl. Pan y ffurfiwyd cyfansoddiad gwladol yr Unol Daleithiau, gwnaed penderfyniad ar fod i gofrifiad gael ei wneyd yn y wlad hono "yn mhen tair blynedd ar ol cyfarfyddiad y Gydgynghorfa, a phob deng mlynedd o hyny allan." Cymmerwyd y cyntaf yn 1790—a'r unfed-ar-ddeg, a'r olaf hyd yn hyn, yn 1890. Yn 1790, pennodwyd pwyllgor gan Gymmanfa Gyfansoddiadol Ffraingc, i'r dyben o gael allan nifer y boblogaeth yn y wlad hono. Cyfrifir y boblogaeth yno bob pum mlynedd, yn Belgium bob tair, ac yn Awstria yr un modd. Y cofrifiad rheolaidd cyntaf a wnaed yn Mhrydain oedd yn 1801; ar ol hyny yn 1811, 1821, 1831, 1841, 1851, 1861, 1871, 1881, ac 1891. Gwnaed cofrifiad cyntaf yr Iwerddon yn 1811; ac wedi hyny gwneir ef yno yr un pryd ag yn Mhrydain. Y mae y gyfundrefn o gofrestriad, dan gofrestrydd cyffredinol, yr hon a sefydlwyd yn y wlad hon yn 1836, yn gynnorthwy neillduol i gario hyn allan, trwy barotoi nifer o swyddogion i gymmeryd y cyfrif. Mewn trefn i fod yn gywir, y mae yn rhaid i'r cofrifiad gael ei wneuthur yn mhob rhan o'r wlad ar yr un amser. Yr arferiad ydyw i'r swyddog fydd yn gofalu am y cyfryw ddosbarth i adael taflen o bapyr yn mhob tŷ, am yr hon y geilw drachefn pan y byddo wedi ei llenwi; ac os bydd angenrheidrwydd, y mae efe i roddi ei gynnorthwy i lenwi y daflen. Y mae y daflen i gynnwys colofnau ar gyfer rhoddi y manylion am enw, rhyw, oedran, galwedigaeth neu grefft, sefyllfa, perthynas â phen y teulu, a lle genedigaeth pob person fyddo yn y tŷ y noson flaenorol i'r diwrnod y cymmerir y cofrifiad. Am ffrwyth y cofrifiad cyffredinol diweddaf a wnaed yn y wlad hon, yn y flwyddyn 1891, gwel d. g. PRYDAIN, cyf. vii.

COLUMBUS, CHRISTOPHER: darganfyddwr enwog yr America, enw gwirioneddol yr hwn oedd Colombo. Mab ydoedd efe i gribwr gwlân. Ganwyd ef yn Genoa, ac o gylch y flwyddyn 1435, fel y tybir yn fwyaf cyffredin. Anfonwyd ef i brifysgol Pavia, ac yno amlygodd hoffder neillduol at wybodaeth ddaearyddol, a thueddiad anorchfygol at fywyd morwrol. Parodd hyn iddo astudio meintoniaeth, seryddiaeth, a bydarluniaeth (*cosmography*). Aeth i'r môr yn 1460, a threuliodd tua deng mlynedd ar hugain o'i oes i ymweled âg amryw barthau o'r byd adnabyddus y pryd hwnw. Ymestynai ei fôrdeithiau yn mhellach i'r gogledd nag Ynys yr Iâ, ac yn ddeheuol mor bell a Guinea. Taniwyd ei ddychymyg mewn modd anghyffredin gan ddarganfyddiadau y Portugeaid. Darllenodd lawer ar weithiau Ptolemy, ac ar hanes teithiau Marco Polo. Myfyriai lawer uwch ben cronen (*globe*) Martin Behaim, a môr-ddarluniau (*charts*) Andrea Bianco; a chredai yn sicr y gallai gyrhaedd ardaloedd hanner dychymygol Cipangu a Cathay, drwy hwylio yn orllewinol o Ewrop. Yr oedd gwasanaeth y serebyr (*astrolabe*), yr hwn a gymmeradwyid gan Behaim, yn fanteisiol iawn i anturiaethau o'r fath ag y bwriadai Columbus eu cario allan. Ar ol treulio llawer o flynyddoedd mewn bywyd morwrol, a'i feddwl yn barhaus yn myfyrio ar y llwybr goreu i wneuthur darganfyddiadau daearyddol a morwrol, efe a aeth i Lisbon, lle yr oedd ei frawd hynaf wedi ymsefydlu; a phriododd ferch amddifad Palestrello, morwr Italaidd; ac yno efe a astudiodd yr holl fapiau a'r môrleni y gallai gael

Digitized by Google

gafael arnynt; a threuliodd flynyddau i wneyd gwelliadau damcaniaethol ac ymarferol ynddynt. Fel ffrwyth ei fyfyrdodau ei hun, ac mewn canlyniad i ffeithiau a adroddid iddo gan amryw o forwyr profiadol, daeth i benderfyniad yn ei feddwl fod tiroedd anadnabyddus yn cael eu hysgaru oddi wrth Ewrop gan Fôr mawr y Werydd. Ar ol gwneuthur amryw geisiadau ofer at lywodraethau Genoa, Portugal, a Lloegr am gynnorthwy, cyflwynwyd ef o'r diwedd i Ferdinand, brenin Yspaen, ac wedi hyny i'r frenhines Isabella; ond nid heb gyfarfod âg amryw siomedigaethau y llwyddodd yn y diwedd i ddarbwyllo y brenin i roddi o dan ei lywyddiaeth dair o longau, i droi allan i fordaith ymchwiliadol. Cyn cychwyn, gwnaed cyttundeb ar fod i Columbus gael y ddegfed ran o'r ennillion, a chael ei bennodi yn rhaglaw ar y wlad y disgwyliai efe ei darganfod.

Hwyliodd allan o Palos, ar yr ail ddydd o Awst, 1492. Tair o longau oedd ganddo, sef y *Santa Maria*, yn yr hon yr oedd efe ei hun, a'r *Pinta*, a'r *Nina*:—y cyfan yn cynnwys tua 120 o bersonau. Efe a arosodd am ychydig yn Ynysoedd y Canary, o ba rai yr ymadawodd y 6ed o Fedi; a pharhaodd i fyned yn mlaen ar ei gwrs am bymtheng niwrnod ar hugain, ond heb weled dim o'i amgylch ond dyfroedd y môr ac awyrgylch y ffurfafen. Yr oedd y cwmpawdau yn amrywio mewn modd nad oeddid wedi sylwi arno o'r blaen; ac yr oedd y morwyr oedd gydag ef yn ddychrynedig yn nghanol moroedd dyeithr, ac ar fin codi mewn gwrthryfel, a throi y llongau yn ol tua'r Yspaen. Yn yr amgylchiadau hyn addawodd Columbus, os na byddai tir yn y golwg mewn tri diwrnod, y troai efe y llongau yn ol. Erbyn hyn, yr oedd yr arwyddion yn amlhau nas gallent fod yn mhell oddi wrth dir: ac ar ol y weddi hwyrol ar yr 11eg o Hydref, gorchymynodd Columbus ar fod i wyliadwriaeth ddyfal gael ei chadw, gan ei fod yn meddu ffydd gref fod tir ger llaw. Arosodd ei hunan ar ben blaen y llong hyd ddau o'r gloch yn y boreu, pan y taniwyd magnel yn y llong flaenaf fod tir wedi ei ddarganfod! Nid oedd neb wedi cysgu y noson hono, ond disgwylient yn bryderus am wawr y dydd, Hydref 12fed, 1492, yn yr hwn yr oedd dirgelwch mawr y cefnfor i gael ei ddadguddio. Gyda dagrau o lawenydd y cusanodd Columbus y ddaear ar yr hon y glaniodd, ac y plygodd ar ei liniau i addoli a diolch. Yr ynys y glaniodd efe arni oedd y Guanahain, neu San Salvador—un o Ynysoedd y Bahamas. Ar y 24ain o'r un mis, hwyliodd Columbus allan i chwilio am diroedd eraill; a darganfu Cuba, St. Domingo, neu Hispanolia, a rhai eraill o ynysoedd yr India Orllewinol. Wedi llwyddo mor belled a hyn, efe a adeiladodd gaerfa yn Hispaniola: gadawodd rai o'i wŷr yno i'w chadw, a dychwelodd yn ol i Yspaen, lle y derbyniwyd ef gyda'r amlygiadau uchaf o anrhydedd a llawenydd.

Darfu i'r aur, a'r pethau gwerthfawr eraill, a gyflwynodd i'r brenin a'r frenhines, fel arwyddion o lwyddiant ei anturiaeth, gynnhyrfu yn y penaduriaid a'r deiliaid ysbryd anturiaethus. Ac ni chafodd Columbus unrhyw drafferth i gael digon o gwmni ar yr ail fordaith. Ar y 25ain o Fedi, 1493, y gadawodd efe Cadiz, ar yr ail ymgyrch, gyda dwy ar bymtheg o longau, a 1,500 o ganlynwyr. Darganfyddodd Ynysoedd y Caribbee, Puerto Rico, a Jamaica; ac ar ol i amryw derfysgoedd ddigwydd yn mysg y trefedigaethwyr, ac wedi dioddef llawer o galedi, cyrhaeddodd yn ol i Cadiz, Mehefin 11eg, 1496. Ar ol gwrthbrofi amryw gyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn, hwyliodd Columbus y drydedd waith, Mai 30ain, 1498, o San Lucar, gyda chwech o lestri; a dyma'r pryd y darganfu efe gyfandir America, yr hwn a gyrhaeddwyd gan Sebastian Cabot o'i flaen ef, a chan Amerigo Ves-Pucci hefyd yn 1499 [gwel CABOT, SEBASTIAN]. Ac er fod cryn ddadl yn bod gyda golwg ar hyn—sef i bwy y dylid rhoi y flaenoriaeth—y diweddaf a enwir a gafodd yr anrhydedd o roddi ei enw ar y byd newydd, er na pherthyn yr anrhydedd yn wirioneddol iddo. Wedi i Columbus gymmeryd y llywyddiaeth yn Hispaniola, dygwyd amryw gyhuddiadau yn ei erbyn gan ei elynion; ac nid yn unig diswyddwyd ef, ond darfu i Bobadilla, y llywodraethwr newydd a anfonasid allan gan Yspaen, ei ddanfon yn ol i'r wlad hono mewn cadwynau. Dioddefodd Columbus y darostyngiad hwn gydag amynedd ac ymroddiad. Yr oedd Vallejo, y swyddog a ofalai am dano, a Martin, llywydd y llong, yn barod i'w ryddhau o'i gadwynau. Ond "na," ebai Columbus, "myfi a'u gwisgaf hyd nes y dyry y brenin orchymyn i'w cymmeryd ymaith, a myfi a'u cadwaf yn goffadwriaethol o'i ddiolchgarwch!" Gosododd hwynt i hongian yn ei ystafell, a'i ddymuniad oedd ar iddynt gael eu claddu gydag ef yn ei fedd. Pan y glaniodd yn Cadiz, yn rhwym yn y cadwynau hyn, ymgododd gwaedd o ddigllonrwydd o'r naill ben i'r llall o'r wlad, a gorfodwyd Ferdinand i dystiolaethu nas gwyddai efe am hyny. Ond ni bu y brenin yn ddigon teg a haelfrydig i wneuthur cyfiawnder âg ef; ac er y driniaeth gywilyddus a gafodd, efe a aeth ymaith ar fordaith arall, yn yr hon y dioddefodd lawer oddi wrth galedi, ystormydd, a llongddrylliad; ond glaniodd, ar ei ddyfodiad yn ol, yn San Lucar, Tachwedd 7fed, 1504. Bu am tua blwyddyn a hanner ar ol dychwelyd yn dihoeni mewn afiechyd, a'i feddwl yn suddo o dan bwys anghyfiawnder, gorthrwm, a thlodi. Bu farw yn Valladolid, yn y flwyddyn 1506, yn 61ain mlwydd oed. Claddwyd ef yno; ond symmudwyd ei weddillion i fynachlog Las Cueras, yn Seville; yna i Hispaniola; ac oddi yno, ar roddiad yr ynys i'r Ffrangcod, i Havanna, lle y gorweddant yn awr.

Fel hyn y terfynodd gyrfa bywyd gogoneddus y dyn hynod hwn. Y mae ei hanes yn arddangosiad o anniolchgarwch cywilyddus brenhinoedd a phenaethiaid! Ond er gwneyd rhyw fath o iawn am y gofidiau a'r cam gwarthus a gafodd oddi ar eu dwylaw, rhoddwyd i'w weddillion gladdedigaeth rhwysgfawr. O ran ei berson, yr oedd yn dal a lluniaidd, ei wyneb yn hir, ei lygaid yn wyn, ei wallt yn felynaidd, ei drwyn yn eryraidd, a'i liw yn deg a phrydferth. Yr oedd ei wallt yn wyn pan yr oedd yn 30ain oed. Yr oedd yn gymmedrol yn ei arferion, ac yn grefyddol iawn ei dueddfryd. Yr oedd hefyd yn Gristion; ac er yn Babydd, ymddengys ei fod yn meddu syniadau crefyddol dyrchafedig. Ni byddai ei ffydd yn Nuw byth yn diffygio, er ei fod, ar un neu ddau o achlysuron, wedi mabwysiadu moddion nas gellir eu cymmeradwyo i sicrhau cynnorthwy yr Indiaid. Achosion eithafol, pa fodd bynag, oedd y rhai hyn. Ei eiriau diweddaf oeddynt: "O Arglwydd! i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd!"

**CONDILLAC, ETIENNE BONNOT DE**

Digitized by Google

Ganwyd yr athronydd hwn yn Grenoble, yn 1715; ac yr oedd yn nodedig o'i febyd am ei chwaeth at byngciau athronyddol. Yn mhlith ei gyfeillion yr oedd Rousseau, Diderot, ac enwogion eraill, ac aeth ei glod mor bell fel y penodwyd ef yn ddysgawdwr i dywysog Parma. Ar ol gorphen addysgu ei ddysgybl, efe a ymneillduodd i fyfyrio athroniaeth. Yn y fl. 1768, dewiswyd ef yn aelod o'r *Academie*, yn lle yr Abbé l'Olivet. Bu farw yn y fl. 1780.

Cyfundrefn o synwyroliaeth eithafol ydyw athroniaeth Condillac, a'i chymmeryd yn ei chrynswth. Y mae yn olrhain holl wybodaeth dyn i ymsyniadau (*sensations*). Campwaith Condillac ydyw ei "*Traité des Sensations.*" Yn y gwaith hwn, y mae yr awdwr, er mwyn gwneyd ei bwngc yn eglur a dorus, yn peri i ni feddwl am gerflun, yr hwn y mae efe yn abl i'w ddonio âg un synwyr ar y tro. Rhydd iddo, yn gyntaf oll, y gallu i arogli; ac yna olrheinia y pleserau, y poenau, y syniadau, a'r dymuniadau a ddichon fod gan greadur na byddo ganddo ond un synwyr: yna chwanega y synwyrau eraill, y naill ar ol y llall, nes dwyn y darlun allan yn raddol yn fod dynol cyflawn. Cyfansoddodd Condillac lawer o weithiau. Cyhoeddwyd hwynt ynghyd yn 1803 yn ddeuddeg ar hugain o gyfrolau.

CONDORCET, MARIE-JEAN-ANTOINE-NICOLAS CARITAT, MARQUIS DE: meidronydd ac athronydd Ffrengig. Ganwyd y gŵr hwn yn Ribemont, yn Picardie, yn y fl. 1743, ac addysgwyd ef yn ngholeg Navarre. Hynododd ei hun fel meidronydd, pan nad oedd ond dwy ar hugain oed, trwy gyhoeddi gwaith o'r enw "*Du Calcul Intégral;*" a chyn cyrhaedd ei bum mlwydd ar hugain, cyhoeddodd ddau waith arall o'r un natur. Dewiswyd ef yn 1769 yn aelod o'r *Academie;* ac yn 1791, yn aelod o'r Gymmanfa Genhedlaethol (*National*). Pan y dinoddedwyd (*proscribed*) ef am ei fod yn *Girondin* gan Robespierre, dewisodd yn hytrach adael tŷ ei gyfeilles Madam Vernet, na'i gosod hi mewn enbydrwydd. Am beth amser ar ol hyn, bu yn ymguddio yn y cloddfeydd sydd o amgylch Paris; ond gyrwyd ef gan newyn i westty bychan yn mhentref Clumart, lle yr adnabyddwyd ef, ac y cymmerwyd ef yn garcharor. Ond ar foreu y trydydd dydd, cafwyd ef yn farw yn ei gell—wedi rhoddi terfyn ar ei fywyd trwy gymmeryd gwenwyn; yr hwn a ddygai gydag ef bob amser er mwyn gochel gwaradwydd yr ysgaffold. Yn mis Mawrth, 1794, y bu hyn.

Yr oedd Condorcet, o ran ei ymddygiad cyhoedd ac anghyhoedd, yn bybyr, yn ddihunangar, ac yn ddidwyll; a chan ei fod yn argyhoeddedig mai cydraddoldeb oedd yr unig drefn gydweddol â dedwyddwch a lles dynion, ni wnaeth gyfrif o'i urdd-enw, o'i sefyllfa, nac o'i feddiannau; ond yr oedd efe yn foddlawn i'w haberthu oll er hyrwyddo gwrthddrych ei obeithion a'i ddymuniadau. Yr oedd, fel y rhan fwyaf o athronwyr Ffraingc yr oes hono, yn gyfeiliornus iawn ei syniadau am foesoldeb a chrefydd. Daliai ef y byddai y corph a'r meddwl dynol, gyda chynnorthwy amser ac addysg, yn sicr o gyrhaedd perffeithrwydd. Dyma'r ddysgeidiaeth y cynnygiai efe ei gosod i fyny yn lle crefydd y Testament Newydd!

CONFOCASIWN: cymmanfa o glerigwyr Eglwys Loegr, yn cyfarfod, trwy eu cynnrychiolwyr, i'r dyben o ymgynghori ar faterion eglwysig. Gelwir hi ynghyd gan wŷs y penadur, a anfonir at archesgob pob talaeth, yn gofyn iddo alw ynghyd yr esgobion, a'r archddiaconiaid, &c. Rhenir y confocasiwn i ddau dŷ:—yr uchaf, yn gynnwysedig o archesgobion ac esgobion: a'r isaf o ddeoniaid, prebendariaid, archddiaconiaid, ac aelodau wedi eu hethol o blith y clerigwyr israddol—oll yn gwneyd 144 o aelodau. Y mae pob tŷ yn dewis ei lefarydd; a chyflwynir llefarydd y tŷ isaf i archesgobion ac esgobion y tŷ uchaf. Ei ddyledswydd ydyw gofalu am fod yr aelodau yn rhoddi eu presenoldeb, casglu eu hareithiau a'u pleidleisiau, a'u cario hwynt i'r tŷ uchaf. Gynt, gelwid tŷ isaf y confocasiwn ynghyd trwy ddwy wŷs wahanol. Y gyntaf oedd gwŷs y senedd neu y brenin, a anfonid at yr esgobion, yn eu galw hwynt yn nghyd; yr hon wŷs a gynnwysai adran yn gofyn fod i bob glwysgor anfon un o'u plith, a chlerigwyr pob esgobaeth ddau broctor, i'w cynnrychioli hwynt yn y tŷ. Oddi wrth hyn y mae rhai ysgrifenwyr wedi tybied fod y clerigwyr a'r lleygwyr yn cydeistedd yn y senedd hyd deyrnasiad Harri VIII., pan y syrthiodd y blaenaf dan gospedigaeth am ymostwng i allu llysgenhadol Cardinal Wolsey, ac y fforffetiasant eu heisteddleoedd. Y mae yn amlwg fod aelodau tŷ isaf y confocasiwn yn ystyried fod ganddynt hawl i eisteddleoedd yn y tŷ uchaf; ac am hyny anfonasant ddeiseb at y tŷ uchaf yn erfyn arno gyfryngu gyda'r brenin Iorwerth VI. am adferiad o'r hawl hono. Gwnaed cais cyffelyb hefyd tua diwedd teyrnasiad y frenhines Elizabeth, a thrachefn yn nheyrnasiad Iago—ond aflwyddwyd bob tro. Gelwid yr ail wŷs, drwy yr hon y cesglid y clerigwyr ynghyd, yn *wŷs dalaethol.* Yn ol y wŷs gyntaf, nid oeddynt ond cymmanfa wladol (dyledswydd yr hon oedd ymgynghori yn mherthynas i'w hiawnderau gwladol, a rhoddi rhan o'u heiddo tuag at gynnaliaeth y llywodraeth)—ac nid synod eglwysig. Modd bynag, gan nad oedd y clerigwyr yn ystyried eu hunain dan rwymau i ufuddhau i'r wŷs leygol hon, llwyddodd Archesgob Winchelsea gydag Iorwerth II. i'w rhyddhau oddi wrthynt; ac o'r amser hwnw, pan anfonodd y brenin ei wŷs at yr esgobion, efe a anfonodd un arall hefyd at yr archesgobion, i wysio eu holl esgobion taleithol i'r confocasiwn. Bwriadwyd yr ail wŷs i sicrhau eu hufudd-dod i'r gyntaf, ac i wneyd y gymmanfa yn fwy canonaidd, fel un yn ymgyfarfod yn rhinwedd gwŷs oddi wrth yr archesgobion.

Y mae y ddau dŷ yn gyfansoddedig o gonfocasiwn o bob talaeth—ar wahân, ac yn annibynol ar eu gilydd. Ystyrir yr holl ddeoniaid a'r archddiaconiaid yn aelodau o gonfocasiwn eu talaeth eu hunain. Y mae rhag-geiniad (*precentor*) Eglwys Tŷ Ddewi, glwysgor yr hon sydd heb ddeon, yn llenwi lle y swyddog hwnw. Y mae pob glwysgor yn anfon un proctor neu gynnrychiolydd, a'r clerigwyr plwyfol yn mhob esgobaeth yn Nghaergaint, ddau broctor; ond o blegid bychandra nifer yr esgobaethau yn nhalaeth Caerefrog, y mae pob archddiaconiaeth yn ethol dau broctor. Yn Nghaerefrog y mae y confocasiwn yn gynnwysedig o un tŷ yn unig: ond yn Nghaergaint y mae dau dŷ—o'r rhai yr esgobion sydd yn ffurfio y tŷ uchaf. Yn ol yr wythfed ddeddf yn nheyrnasiad Harri VI., *p.* 1, y mae y clerigwyr, pan yn rhoddi eu presennoldeb yn y confocasiwn, yn meddu yr un fraint o fod yn



Digitized by Google

ammhersonol "Nefoedd." Y mae ei ysgrifeniadau yn dra diffygiol o deimlad a chynnhesrwydd crefyddol. Nid oedd ei addysg nemawr uwch nag un hollol fydol, heb geisio cyfeirio nac appelio at fyd arall. Math o foesoldeb bydol ac anghrefyddol ydoedd. Y mae rhai o'i ddywediadau yn werth sylw. Dyfynwn ychydig o honynt:—"Yr hyn y mae dyn mawr yn chwilio am dano ynddo ei hun, y mae y dyn bychan yn ei geisio mewn eraill." "Dysg heb feddwl—llafur ofer ydyw: y mae meddwl heb ddysg yn beryglus." "Mewn arddull, y cwbl a ofynir ydyw cludo yr ystyr." "Gall dyn eangu ei egwyddorion; nid ydyw egwyddorion yn eangu y dyn." "Nid yn fynych y mae y gwyliadwrus yn cyfeiliorni." "Yr hyn nid ydych yn ei hoffi pan y bydd yn cael ei wneyd i chwi, na wnewch i eraill." Fel llenor, golygodd ac ymhelaethodd ar amryw o brif gynnyrchion y genedl, megys y "*Shu King*," Hanes y genedl; "*Shi King*," Barddoniaeth y genedl; "*Li*," Defodau y genedl; "*Yih King*," Athroniaeth. Cyhoeddodd waith o'i eiddo ei hun hefyd, sef "*Ch'un T'sin*."

CONFFIRMASIWN. Yn ol fel y dysgir gan Eglwys Loegr, conffirmasiwn ydyw y ddefod o "arddodiad dwylaw ar y sawl a fedyddiwyd, ac a ddaethant i oedran pwyll." Nid ystyria hi neb yn gymmhwys i'w gonffirmio ond y sawl a fedro ddywedyd y Credo, Gweddi yr Arglwydd, y Deng Air Deddf, a Chatecism yr Eglwys, "er gallu o'r plant wedi eu dyfod weithian i oedran synwyr, ac wedi dysgu y pethau a addawsai eu tadau-bedydd a'u mamau-bedydd drostynt wrth eu bedyddio, eu hun, â'u genau eu hunain, ac o'u cydsyniad eu hunain, ar osteg o flaen yr Eglwys, gadarnhau a chonffirmio yr unrhyw; a hefyd addaw, trwy ras Duw, yr ymegniant yn wastad i gadw yn ffyddlawn y cyfryw bethau ag a fo iddynt hwy a'u cyffes eu hun gydsynio arnynt." Maentumir yn y drigeinfed o ganonau yr eglwys hon, fod conffirmasiwn yn ddefod hynafol, ddifrifol, a chanmoladwy yn eglwys Dduw, ac wedi parhau ynddi er oes yr apostolion.

Yr oedd conffirmasiwn ar un adeg, fel yr haerir—a hono yn un lled foreu—yn cael ei gweinyddu yn uniongyrchol ar ol bedydd; ac nid oedd eithriad yn bod i'r rheol hon, hyd yn oed pan y gweinyddid hi ar faban. Yn Eglwys Groeg yn Ewrop, ac mewn rhanau o Asia, y mae conffirmasiwn yn dilyn bedydd yn ddioed. Parodd gwrthwynebiad y Protestaniaid, yn amser y Diwygiad, i'r ddefod hon gael ei gosod o'r neilldu yn ei pherthynas â babanod, ac ni weinyddid hi ond ar rai mewn oedran yn unig. Wedi hyny cyfnewidiodd Cynghor Trent adeg y gweinyddiad i'r seithfed flwyddyn.

Bernir mai y crybwylliad cyntaf a wneir gan dadau yr eglwys, at y defnydd a wneid o'r *chrism*, neu yr enaint cyssegredig, fel ei gelwid, yn y conffirmasiwn, ydyw yr un a wneir gan Tertullian, yr hwn sydd fel y canlyn:—"Pan yn dyfod o'r dwfr, yr ydym yn cael ein heneinio a'r *chrism* sanctaidd, yna yr ydym yn cael arddodiad dwylaw sydd yn dwyn i lawr yr Ysbryd Glân."—"*De Baptismo*," td. 7, 8. Ond y mae Eglwys Rhufain yn appelio at *Iago* v. 14, er cadarnhau y ddefod. Eneinio y talcen â'r olew sanctaidd hwn, yr hwn oedd yn cael ei wneyd i fyny o olew a balsam, oedd y weithred gyntaf yn y seremoni o gonffirmasiwn. Gwneuthur arwydd y groes oedd yr ail: a'r drydedd oedd arddodiad dwylaw yr esgob, a deisyfiad am yr Ysbryd Glân. Yna yr oedd y person a gonffirmiwyd yn gymmhwys i gyfranogi o'r cymmun sanctaidd. Yn Eglwys Groeg gelwir conffirmasiwn yn *eneiniad* (χρίσμα), ac yn *sêl* (σφραγίς). Y mae Eglwys Rhufain yn ystyried y ddefod hon yn un o'r saith sacrament; ond yn Erthyglau Eglwys Loegr, dywedir nad ydyw conffirmasiwn yn un o'r sacramentau.

Ond er y cyfan a ddywedir o blaid conffirmasiwn gan eglwysi Lloegr, Rhufain, a Groeg, nid ydyw yr Ymneillduwyr Protestanaidd, na llawer o Brotestaniaid sydd o fewn yr Eglwys Sefydledig chwaith, yn ystyried fod unrhyw sail ysgrythyrol iddi; ac nid ydynt yn ystyried fod y ddefod, fel y gweinyddir hi yn awr yn Eglwys Loegr, ond fel gweddillion seremoni wâg a diwerth, o darddiad Pabaidd; a chredant nad oes dim mwy o awdurdod dros yr hyn sydd yn aros o honi yn Eglwys Loegr yn awr nag sydd dros yr hyn a wrthodwyd. Y rhanau o'r Ysgrythyr a ddyfynir bob amser fel yn gefnogawl i arddodiad dwylaw esgobol ydynt y rhai canlynol; sef, *Act.* viii. 14—14, a xix. 6, ac yn enwedig *Heb.* vi. 2, lle yr ymddengys fod "arddodiad dwylaw" yn cael ei grybwyll fel gosodiad Cristionogol pwysig. Ond nid yw yr Ymneillduwyr yn cydnabod y dull hwn yn foddhaol i brofi priodoldeb y seremoni o arddodiad dwylaw esgobol. Y maent hwy yn credu nad ydyw y weithred hon o eiddo esgobion diweddar o un berthynas gyfreithlawn â gweithred wyrthiol yr apostolion ysbrydoledig. Gofynant, pa awdurdod sydd gan esgob i ddadgan fod Duw wedi rhoi i gynnulleidfa o amryw gannoedd o bersonau "faddeuant o'u holl bechodau," am eu bod yn gallu adrodd Catecism yr Eglwys? Sylwodd Dr. Whitby, os nad oedd yr apostolion yn arddodi eu dwylaw ar bawb a fedyddiwyd nad oedd hyny yn un rheswm dros gonffirmasiwn; ac os oeddynt yn gwneyd hyny, yna yr oedd Simon Magus wedi derbyn yr Ysbryd Glân.

Hen ddefod anysgrythyrol, o darddiad Pabaidd ydyw conffirmasiwn, fodd bynag; yr hon ni lwyddodd yr Eglwys Sefydledig i'w thaflu o'r neilldu; ac y mae hi yn aros etto, gyda gweddillion Pabaidd eraill, yn mysg ei defodau a'i ffurf-wasanaeth.

COOK, Cadben James: morwr a darganfyddwr enwog. Mab ydoedd efe i lafurwr amaethyddol, yn Marton, yn swydd York; a ganwyd ef Hydref 28ain, 1728. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda masnachydd mewn mân nwyddau oedd yn preswylio yn nhref Staiths, yn agos i Whitby, pan yr oedd efe yn lled ieuangc. Yma y daeth i'r golwg duedd iad naturiol ei athrylith. Rhyddhaodd ei feistr ef o'i rwymedigaeth iddo, a rhwymodd yntau ei hun am dair blynedd gyda llong-feddiannydd yn Whitby. Yn 1755, aeth yn wirfoddolwr ar fwrdd y llong ryfel *Eagle*; ac yn 1759, pennodwyd ef yn feistr y *Mercury*; ac yr oedd yn bresennol pan y cymmerwyd Quebec gan Wolfe. Rhoddodd brawf eglur o'i fedrusrwydd a'i benderfyniad yn mesur dyfnder yr afon yn nghymmydogaeth yr amddiffynfa Ffrengig. Yn mis Hydref yr un flwyddyn, dyrchafwyd ef yn feistr y *Northumberland*, llong ryfel—yn yr hon y gwasanaethodd hyd y flwyddyn 1762, pan ddychwelodd y llong i Loegr. Yr oedd wedi cymmeryd mantais ar bob cyfleusdra i astudio

Digitized by Google

mesuroniaeth er ei gymmhwyso ei hun i gyflawni dyledswyddau swyddi uchaf ei alwedigaeth. Yn 1763, aeth allan i wneyd mesuriad ar Ynysoedd Newfoundland; ac yn 1764, pennodwyd ef yn fesurwr morwrol Newfoundland a Labrador. Yn 1767, dewiswyd ef i arolygu ymgyrch i'r Môr Tawelog Deheuol. Dybenion scryddol a daearyddol oedd mewn golwg gan y rhai a aethant allan yn yr *Endeavour*, dan lywyddiaeth Cook, ar y fordaith hon. Ni chaniatâ gofod i ni roddi manylion y fordaith ddyddorol; ond gellir dyweyd fod ynys Otaheite yn lle manteisiol i ganfod trawsfynediad Gwener (*transit of Venus*). Wedi hyny, bu Cook yn archwilio yr ynysoedd cyfagos. Yna efe a aeth tua Zealand Newydd, ac o gwmpas yr ynys, a chafodd nad cyfandir ydoedd hi. Oddi yno aeth tua Holland Newydd—neu, fel ei gelwir hi yn awr, Deheudir Cymru Newydd—ac angorodd yn Botany Bay, Ebrill 28ain, 1770. Yr oedd hyn yn ddigwyddiad pwysig i'r rhan hwnw o'r byd. Oddi yno efe a hwyliodd i Guinea Brydeinig; ac yn nesaf i Batavia—lle yr adgyweiriwyd y llong—a dychwelodd i Ewrop. Cyrhaeddodd i'r Downs, Mehefin 12fed, 1771.

Am ei wasanaeth ar yr achlysur hwn, cafodd Cook ei ddyrchafu yn llong-lywydd, a chyhoeddwyd yn fuan ar ol hyny hanes ei fordaith gan Dr. Hawkesworth. Parodd y dyddordeb a gynnhyrfwyd drwy hyn i'r llywodraeth bennodi y cadben i fyned allan ar fordaith ddarganfyddiadol arall i'r arddrych deheuol. Hwyliodd yntau gyda dwy o longau, sef y *Resolution*, yr hon a lywyddid ganddo ef ei hun, a'r *Adventure* gan Cadben Furneaux, ar y 9fed o Ebrill, 1772. Ar ol myned mor bell a 71° 10′ hydred deheuol, yn nghanol mynyddoedd o rew, a darganfod rhyw ynysoedd newyddion, dychwelodd y mordeithwyr yn ol i Loegr yn Gorphenaf, 1775. Ni chollodd y *Resolution* ond un dyn yn y fordaith hon. Etholwyd Cadben Cook yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol, a chyflwynwyd iddo fathodyn aur y gymdeithas. Rhoddwyd iddo swydd uchel mewn cysylltiad â Nawdd-dy Greenwich. Gan nad oedd yr hanes a roddwyd o'r fordaith flaenorol wedi rhoddi boddhâd, cafwyd hanes yr ail yn mron yn gwbl o ddyddlyfrau y cadben ei hun. Ond nid oedd ei lafur i derfynu yn y fan hon. Hwyliodd allan drachefn yn 1776, er ceisio penderfynu y cwestiwn a gawsai lawer o sylw; sef, a oedd llwybr gorllewinol i'r Môr Tawelog, ai nid oedd? Yr oedd ganddo ddwy lestr yn yr anturiaeth hon, sef y *Resolution* a'r *Discovery;* ond ar ol hwylio mor bell a 74° 44′ gogleddol, ystyrid fod yr amcan yn un anymarferol; ac yn mis Tachwedd, 1778, cyrhaeddodd y llongau i Ynysoedd Sandwich. Ar y cyntaf, cafodd y dwylaw dderbyniad croesawgar yno; ond o'r diwedd, fe ddarfu i bobl Owhyhee ladratta bâd un o'r llongau; ac mewn trefn i'w gael yn ol, aeth Cadben Cook i'r lan, gyda'r amcan o gael gafael yn mherson y brenin. Ond ymgasglodd tyrfa o'r brodorion ynghyd, a tharawyd y llywydd dewr i lawr â phastwn. Wedi hyny, trywanwyd ef â dagr, a chariwyd ei gorph o gwmpas mewn buddugoliaeth. Ni chafwyd ond ei esgyrn, gan fod ei gnawd, dybygid, wedi ei fwyta. Digwyddodd yr amgylchiad galarus ar Chwefror 14eg, 1779, pan yr oedd yn 60ain mlwydd oed.

Ystyrid fod Cadben Cook yn forwr o'r radd flaenaf. Yr oedd efe yn hollol gydnabyddus â rhanau ymarferol a gwyddonol ei alwedigaeth, ac yn meddu ar y cymmhwysderau hyny sydd yn cymmhwyso dynion i weinyddu swyddau pwysig—meddwl dyfeisgar, llawn o adnoddau, synwyr, hunan-feddiant, a phenderfyniad; ac yr oedd ei ddiwydrwydd a'i ddyfal-barhâd yn ddiderfyn. Yr oedd yn ddysgyblwr manwl, ond yr oedd efe, er hyny, yn hynod o ofalus am iechyd a chysuron y rhai fyddent dano.

COMED—AU (Gr. *komêtês*, o *komê*, gwallt.) Corph wybrenol o ymddangosiad goleu a niwlog, sydd yn cyrchu at yr haul, ac yn cilio oddi wrtho, ar ddull planed, mewn un chwyldro. Ymddengys y comedau, weithiau, fel talpiau cryno, dwysedig, ac weithiau fel tarth goleu a disylwedd. Prif ranau comed yw, *y pen*—crynswth mawr o oleuni disglaer sydd yn tywyllu tua'i odreu: y *craidd*, sef canol y pen—rhan y mae ei oleuni yn fwy disglaer, a'i derfyn yn fwy amlwg: a'r *gynffon*, sef, goleuni mwy neu lai gwasgaredig sydd yn myned o'r pen mewn cyfeiriad cyferbyniol i'r haul, a'r hwn sydd hefyd yn ymranu, weithiau, yn wahanol rwymynau (*bands*). Y mae y gynffon hon weithiau yn aruthrol ei maint: dywedir fod cynffon ambell i gomed dros gan miliwn o filldiroedd o hyd, ac yn filiynau o filldiroedd ei thrwch. Weithiau, y mae chwaneg nag un gynffon, ac weithiau ymddengys y gynffon fel pe wedi ei gwahanu yn rhanau. Weithiau, y mae y gomed yn nesau at yr haul mewn llinell grom, igam-ogam; a phryd arall, mewn llinell go uniawn. Y mae hi yn gyffredin yn croesi y rhan hono o'r ffurfafen ag y mae yr haul ynddo, a hyny mor agos fel y bydd hi yn diflanu yn ei belydrau ef; ond gwelir hi drachefn yn dyfod i'r golwg yr ochr draw, ac yn fwy ei maint a'i disgleirdeb nag o'r blaen. Y mae yn amlwg, felly, ei bod yn lleihau wrth nesau at yr haul, ac yn mwyhau wrth gilio oddi wrtho.

Y mae symmudiadau afreolaidd comedau yn peri mai gwaith anhawdd yw nodi eu chwylfa (*orbit*), canys ânt weithiau o ddwyrain i orllewin, ac weithiau o orllewin i ddwyrain, â rhai o honynt o'r gogledd i'r deheu, ac eraill o'r deheu i'r gogledd. Weithiau, arosant yn sefydlog am ddiwrnod, a thranoeth ânt rhagddynt ddeugain neu hanner cant o raddau; ac yna, troant yn ol yn ddisymmwth.

Nid oes neb hyd yn hyn wedi gallu profi o ba ddefnydd y mae y comedau yn gynnwysedig. Y dybiaeth fwyaf cyffredin ydyw, mai nwy yw eu defnydd, a'u bod yn derbyn eu goleuni o'r haul. Gan nad beth am hyny, y mae'r tair ffaith canlynol yn profi ei fod yn rhyw ddefnydd teneu odiaeth. 1. Gellir gweled y sêr yn eglur trwy gynffon comed, er cymmaint fydd ei lled. 2. Er fod ei chynffon yn ymdaenu dros ran fawr o'r ffurfafen, etto ni sylwodd neb ddarfod iddi beri dim annhrefn yn mhlith y goleuadau. 3. Tystiolaethir fod rhai wedi gweled sêr bychain hyd yn oed trwy graidd comed.

Tybid er's talm mai goruchion (*meteors*) oedd y comedau, a gynnyrchid yn yr wybren. Canfu Tycho Brahe, wrth syllu ar gomed 1585, mai cyfeiliornad oedd hyn, ac adfywiodd hen syniad i Seneca, yr hwn a gyfrifai y comedau yn mhlith planedau ein cyfundrefn heulog ni. Ymgymmerodd Kepler âg olrhain chwylfa comed; ond ni fedrodd ond darganfod nad oedd ei chwylfa hi ddim ar lun cylch. Dörfel, brodor o Saxony Uchaf, oedd y cyntaf a gafodd allan fod comedau yn symmud mewn llinell ar ddull damgyrfen (*parabola*). Cadarnhawyd y ddamcaniaeth hon

Digitized by Google

gan Newton trwy ei waith yn profi fod y comedau yn cael eu hattynu gan yr haul trwy rym yr un deddfau a'r planedau.

Y mae rhai comedau ag y mae eu rhodfeydd yn hysbys, ac adegau eu hymddangosiad wedi eu sefydlu; megys,

1. *Comed Halley;* sef, y goleuad mawr cynffonog a barodd gymmaint o ddychryn yn Ewrop yn 1456. Olrheiniodd Halley chwylfa'r gomed hon yn 1682: ymddangosodd eilwaith yn 1835. Rhwng 75ain a 76ain o flynyddoedd yw yr amser a gymmer hi i wneuthur un chwyldro.

2. *Comed Encke.* Y mae hon yn cwblhau ei chwyldro yn yr ysbaid byr o 1204 o ddyddiau. Gwelwyd hi gan eraill o flaen Encke; sef, gan Mechain a Messier yn 1786, gan Miss Herschell yn 1795, a chan M. Pons o Marseilles yn 1805. Ond Encke, goruchwyliwr arsyllfa Berlin, a gafodd allan ei bod yn gomed gyfnodol. Mynegodd hefyd yn mlaen llaw yn mha ran o'r ffurfafen yr ymddangosai drachefn yn 1822.

3. *Comed Biela;* yr hon a welwyd yn 1763, 1772, 1795, 1805, 1826 ac 1832. Cwblhâ hon ei gyrfa mewn chwe blynedd a naw mis. M. Biela, serofydd o Johannisberg, a ddarganfu ei bod yn gomed gyfnodol. Yn ystod ymddangosiad hon, yn 1846, gwelwyd hi yn ymranu yn ddwy gomed wahanol, y rhai a barhasant i symmud ochr yn ochr hyd nes yr aethont o'r golwg. Pan ymddangosodd y rhai hyn yn nghyhnauaf 1852, yr oedd y pellder rhwng y ddau graidd wedi mwyhau yn ddirfawr. Gan hyny edrychir arnynt erbyn hyn fel dwy gomed annibynol. Ni welwyd hi o hyny hyd yn awr (1878).

4. *Comed Faye;* a elwir felly am mai M. Faye, serofydd o Paris, a'i darganfu yn 1843. Efe hefyd a olrheiniodd ei chwylfa. Ystod ei chwyldro yw saith mlynedd a hanner. Y mae y gomed hon, pan y bydd agosaf atom, mor bell a Mawrth; a phan y bydd bellaf, y mae hi agos mor bell ag Iau.

5. *Comed Vico;* a elwir felly am ddarfod ei gweled yn 1844 gan Vico, goruchwyliwr arsyllfa Rhufain. Yr amser a gymmer hi i wneuthur ei chylchdro yw pum mlynedd a hanner.

O'r comedau a ymddangosasant yn nghorph y canrif hwn, y rhai mwyaf nodedig am eu disgleirdeb oedd comedau 1811, ac 1843, ac 1858 (*Comed Donati*).

Er's talm, edrychid ar ymddangosiad comed fel arwydd o ryw ddirfawr ddrwg i ddyfod. Yn 1456, sef yn fuan wedi i'r Tyrciaid gymmeryd Caer Cystenyn, ymddangosodd comed Halley; a gyrodd ddychryn mawr ar y Cristionogion, am y coelient fod ei hymddangosiad yn darogan goresgyniad gwledydd cred. Felly, chwanegasant at y weddi a gyflwynid i'r Forwyn Fair yr ymadrodd canlynol, "Arglwydd, cadw ni rhag y d—l, y Twrc, a'r comed." Y dyb gyffredin yn awr ydyw, fod ymddangosiad comedau yn effeithio yn dda ar gnydau y ddaear; ac ymddengys nad yw y dyb hon yn gwbl ddisail. Yr oedd cynhauaf grawnwin 1811 ac 1858 yn doreithiog iawn; a gelwir cynnyrchion y blynyddoedd hyny yn 'winoedd y comed.'

**COPERNICUS, NICHOLAS**: y mesuronydd enwog a sylfaenodd y gyfundrefn astronomyddol bresennol. Ganwyd ef, yn ol Junctinus, ar Ionawr 19eg, 1492; ond yn ol Mœstlinus, ar Chwefror 19eg, 1493. Ei le genedigol oedd Thorn—tref ar y Vistula, yn Prwssia, ar gyffiniau Poland. Addysgwyd ef ar y cyntaf gartref; ac wedi hyny yn mhrifysgol Cracow, lle y cafodd y gradd o ddoctor mewn physigwriaeth. Talodd sylw neillduol i fesuroniaeth. Wedi gorphen ei efrydiau yn Cracow, aeth i Italy: ac yr oedd yn Bologna yn 1497. Aeth oddi yno i Padua, lle yr astudiodd physigwriaeth; ac yn 1499, cymmerodd radd meddyg. Ymsefydlodd yn Rhufain yn y fl. 1500. Bu yn cyfranu addysg gyhoeddus yn y ddinas hono. Dychwelodd i'w wlad enedigol yn mhen ychydig flynyddau, ac yno cafodd ganoniaeth yn eglwys Frauenburg; canys yr oedd wedi cymmeryd urddau yn yr eglwys Babaidd, dybygid, pan oedd yn Rhufain. O hyny allan, treuliodd ei amser i gyflawni ei ddyledswyddau eglwysig, i ymarfer fel meddyg yn rhad yn mysg y tlodion, ac i ddilyn ei ymchwiliadau serydd ol. Ffurfiodd gyfeillgarwch â dynion o ddifrifwch a dysg; a gellir enwi yn bennodol Gysius, esgob Culm, a'i ddysgybl, yr enwog Rheticus. Astudiodd holl gyfundrefnau yr hen seryddwyr, cymmharodd hwy â'u gilydd, ac amlygai syndod ac anfoddlonrwydd wrth ystyried y pethau dyrus ac annhebyg o fod yn gywir oedd ynddynt; ac yna dechreuodd ar y gwaith o adeiladu cyfundrefn newydd, mwy syml a threfnus. Nis gallai gredu fod y ddaear yn sefyll yn yr un man yn nghanol y greadigaeth, a'r planedau a'r sêr sefydlog yn troi o'i chwmpas. Chwiliodd a myfyriodd lawer ar y pethau hyn drwy y blynyddoedd; ac o'r diwedd, cafwyd ffrwyth ei ymchwiliadau yn ei draethawd Lladin, "*De Revolutionibus Orbium Cælestium,*" neu, "Chwyldroadau y Bydoedd Nefol;" yn yr hwn yr haerai mai yr haul ydyw y canolbwynt o gwmpas yr hwn y mae y ddaear yn troi. Yr oedd y gwaith hwn wedi ei ddechreu yn y flwyddyn 1507, a chwblhawyd ef ganddo yn 1530; ac o'r pryd hwnw ni wnaeth yr awdwr ond chwanegu ychydig ato, a chyfnewid ychydig arno. Yr oedd drwy ei resymau wedi argyhoeddi Reinhold, Rheticus, Gysius, ac eraill, o gywirdeb ei ddamcaniaeth; a dadganodd y Cardinal Schönberg ei ddymuniad am weled y gwaith yn cael ei argraphu; ac ysgrifenodd yn 1536, o Rufain, at Copernicus i amlygu hyny. Ond er cael ei gefnogi gan gardinal ac esgob, a dau neu dri o seryddwyr dysgedig eraill yr oes, gwyddai Copernicus y buasai y gyfundrefn yn cael gwrthwynebiad mawr; gan hyny, ni chydsyniodd i'w gyhoeddi hyd y fl. 1541. Ymddiriedwyd ef i Andrew Osiander i'w ddwyn allan yn Nuremberg; yr hwn a arolygodd yr argraphwaith, a'r hwn, dybygid, a ysgrifenodd ragymadrodd hynod iddo, a briodolir yn mron yn wastad i Copernicus ei hun; canys dywed Gassendi yn bendant mai Osiander a'i hysgrifenodd. Cyflwynodd ef i'r pab Paul III., i'r dyben o ddangos, meddai ef, nad oedd yn ceisio gochel barn dynion goleuedig: ac hefyd, fel y byddai i awdurdod y pab, os byddai yn ei gymmeradwyo, ei noddi a'i amddiffyn. Dygwyd allan yr ail argraphiad o'r gwaith yn Basle, o dan olygiaeth Rheticus, yn 1566; a'r trydydd, yn Amsterdam, yn 1611.

Tra y disgwyliai Copernicus bob dydd am gopi cyflawn o'r argraphiad cyntaf o'i waith oddi wrth Rheticus, daliwyd ef gan afiechyd; a chafodd ergyd o'r parlys. Daeth y llyfr iddo ar y 23ain o fis Mai, 1543; ac, fel yr ysgrifenodd Gysius at Rheticus, gwelodd Copernicus ef, a gosododd ei law arno; ond nis gallai efe wneyd mwy, canys yr oedd yn rhy agos i angeu. Efe a fu farw yn mhen ychydig oriau ar ol hyny, a

Digitized by Google

chladdwyd ef yn yr eglwys gadeiriol y buasai yn gwasanaethu ynddi.

Y mae yn rhyfedd i'r syniad mai y ddaear sydd yn troi o gwmpas yr haul fod cyhyd yn guddiedig. Trwy ei holl draethawd enwog, yr oedd yr athrawiaeth newydd yn cael ei gosod i lawr a'i dadleu gyda'r gochelgarwch mwyaf gan yr awdwr, fel pe buasai rhagdybiaeth yn ei feddiannu o'r gwrthwynebiad a'r anghyfiawnder y byddai y gwaith yn agored iddynt. Ar y cyntaf, pa fodd bynag, ni thynodd ei gyfundrefn ond ychydig o sylw; a gwrthodwyd hi gan y rhan fwyaf, hyd yn oed o seryddwyr yr oes. Bu ei gyfundrefn yn gweithio yn ddirgelaidd, ynghyd â darganfyddiadau newyddion eraill, am hanner can mlynedd; hyd nes, o'r diwedd, trwy ymdrechiadau Galileo, y cynneuodd y fflam mor ddisglaer fel ag i ysu athroniaeth Aristotle ar y mater, i ddychrynu awdurdodau Eglwys Rhufain, ac i beryglu bodolaeth opiniynau nad oeddynt yn sylfaenedig ar sylwadaeth a phrofiad.

COVERDALE, MILES: esgob Exeter, a diwygiwr a chyfieithydd y Beibl Saesneg, a anwyd yn sir Gaerefrog, yn 1488. Efe a astudiodd yn Nghaergrawnt, ymunodd â'r urdd Awstinaidd, ac ordeiniwyd ef yn offeiriad yn 1514. Wedi hyny, efe a wresog goffeidiodd y ffydd ddiwygiedig; ymunodd â dynion enwog eraill i gynnal cynnadledd ar gwestiwn yr Ysgrythyrau, cynnorthwyodd Tyndale i gyfieithu y Beibl, a thrwy ganiatâd Harri VIII., cyhoeddodd ei gyfieithiad ei hun yn 1535. Ei gyfieithiad ef oedd y Beibl Saesneg cyflawn cyntaf a argraphwyd. Yn mhen tair blynedd ar ol hyny, pan oedd yn Paris, yn cynnorthwyo i gyhoeddi argraphiad arall, gwysiwyd ef i ymddangos o flaen y Chwilys, a chondemniwyd y copiau a argraphwyd i gael eu llosgi. Yna dychwelodd i Loegr, a gwnaed ef yn elusenwr i'r frenhines Catherine Parr, ac yn y fl. 1551 yn esgob Exeter. Amddifadwyd ef o'r esgobaeth, a charcharwyd ef, gan y frenhines Mair. Aeth i wledydd tramor, ac ar ol llawer o grwydriadau, cyrhaeddodd i Geneva, gan ymgysegru i'w hoff waith, a chynnorthwyo i gyfieithu 'Beibl Geneva.' Ar ol marwolaeth Mair, efe a ddychwelodd, a bu am ychydig amser yn dal rectoriaeth yn Llundain. Yn 1563, gwrthododd esgobaeth Llandaf. Efe a fu farw yn 1568. Cadwyd dydd gwyl coffadwriaethol am gyhoeddiad ei Feibl yn Lloegr yn Hydref, 1835 —ei drydedd can mlwydd.

COWPER, WILLIAM: bardd Saesneg. Ganwyd ef yn Berkhampstead, yn swydd Hertford, ar y 26ain o Tachwedd, 1731. Yr oedd efe yn fab i gaplan i Sior II., ac yn nai i'r arglwydd ganghellydd Cowper. Ar ol gorphen ei ysgol, rhwymwyd ef yn gyfreithiwr; ond ni ddarfu iddo erioed ddilyn ei alwedigaeth. Pan oedd o ddeutu deuddeg ar hugain oed, pennodwyd ef yn ysgrifenydd y cyfeisteddfodau yn Nhŷ yr Arglwyddi; ond yr oedd yn rhaid iddo, cyn myned i'w swydd, ymddangos o flaen bâr y tŷ i gael ei holi; ac yr oedd hyny mor atgas ac ofnadwy yn ei olwg fel yr amcanodd, amryw weithiau, i'w ladd ei hun. Rhoddodd i fyny ei swydd ar y dydd a bennodasid i'w holi; ac yn fuan wedi hyny, aeth yn wallgof, a cheisiodd roddi terfyn ar ei einioes ei hun. Dodwyd ef ar unwaith dan ofal y Dr. Cotton, o St. Albans, gyda'r hwn yr arosodd hyd nes yr adferwyd ef; yr hyn a fu yn mhen rhyw ddeunaw mis wedi ei fyned yno. Crefyddol oedd y wedd a gymmerth gwallgofrwydd Cowper. Yr oedd yn credu na chai byth ras yn y byd hwn, na nefoedd yn y byd arall. Bu am gryn amser yn y cyflwr pruddglwyfus hwn deirgwaith ar ol hyn —yn enwedig yn ei flynyddoedd olaf.

Pan y gwellhaodd yn 1765, aeth o St. Albans i Huntingdon, lle y daeth efe yn gydnabyddus â pheriglor o'r enw Mr. Unwin; a chan nad oedd ganddo fodd nac ewyllys i fyw ar ei ben ei hun, aeth i fyw at deulu Mr. Unwin. Pan fu farw Mr. Unwin, yn 1767, aeth Cowper a Mrs. Unwin i fyw i Olney, yn swydd Buckingham, er mwyn cael cymdeithas y Parch. John Newton; yr hwn oedd yn ddyn diargyhoedd, ac yn bregethwr efengylaidd. Yr oedd yn mryd Mr. Newton er's talm gyhoeddi cyfrol o hymnau, a chafodd gan Cowper ei gynnorthwyo i gyfansoddi rhai; ond yn mhell cyn gorphen y llyfr hwn, daeth chwiw o wallgofrwydd eilwaith ar Cowper, yr hwn a barhaodd am yn agos i ddwy flynedd. Pan y daeth ato ei hun, ymroddodd i arddu, i fagu ysgyfarnogod, ac i gyfansoddi barddoniaeth. Yn 1782, pan oedd bellach uwch law deg a deugain oed, cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth; yr hon a gynnwysai y *Table Talk, The Progress of Error, Conversation, Expostulation, Hope, Charity*, &c. Araf fu gwerthiant y gyfrol hon; ond, er hyny, canmolwyd hi yn fawr gan Johnson a Franklin. Ar annogaeth yr Arglwyddes Austen, efe a gyfansoddodd y *Task* a *John Gilpin*, y rhai a gyhoeddwyd ynghyd mewn un gyfrol, yn 1785. Geilw Burns y *Task* yn "gân ogoneddus—ar unwaith yn ddisgrifiadol, yn foesol, ac yn dychanus" (*satirical*); ac yn ol Southey, "y mae yn un o'r cerddi addysgiadol goreu yn yr iaith Saesnig." Ennillodd y gyfrol hon gymmeradwyaeth ar unwaith. Yn 1784, dechreuodd gyfieithu Homer i'r iaith Saesnig; yr hyn a gymmerodd iddo chwe blynedd i'w wneuthur. Cyhoeddwyd y gwaith yn y flwyddyn 1791. Y mae y cyfieithiad hwn yn bur anghyfartal o ran ei werth; ond bernir ei fod yn un o'r cyfieithiadau goreu sydd gan y Saeson o Homer. Dechreuodd gwallgofrwydd ei flino drachefn yn 1794; ac mewn pruddglwyf dwfn y parhaodd, oddi eithr ar amserau, o hyny hyd ddiwedd ei oes. Yn y flwyddyn olaf o'i fywyd, cyfansoddodd y *Cast-away*—un o'r caneuon mwyaf effeithiol sydd mewn bod. Bu farw ar Ebrill 25ain, 1800, yn 69ain mlwydd oed.

Y mae hanes personol Cowper yn hynod—ac yn wir yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn bur anghysson. Yr oedd yn llawn o arabedd ac o affaeth; ac er hyny treuliodd ran fawr o'i oes mewn tristyd. Er ei fod yn Gristion ffyddlog a diargyhoedd, etto "rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth" a fu yn meddiannu ei enaid dros lawer o flynyddoedd. Ysgrifenodd ddarnau a weiniasant gysur i filoedd; ond ychydig o gysur a weiniasant iddo ef ei hun. Er fod ei dynerwch a'i ofnusrwydd yn ei wneuthur yn dra benywaidd fel dyn, etto nid oes neb yn fwy gŵraidd nag ef fel bardd.

Nid mewn un gair, neu mewn un ymadrodd, y gellir nodi cymmeriad Cowper fel bardd. Gellir yn hawdd enwi bardd sydd yn rhagori arno yn y peth hwn, a'r peth arall; ond yn y cyfuniad o wahanol rinweddau (*qualities*), nid oes odid neb yn rhagori arno. Fe allai, pa fodd bynag, mai ei nodweddion amlycaf yw naturioldeb, amrywiaeth, duwiolfrydedd, synwyr cryf, a

Digitized by Google

Ymddengys mai yn y Dywysogaeth, yn benaf, yr oedd Cradoc yn preswylio o hyny allan hyd ei farwolaeth—oddi eithr ei fod yn ymweled yn achlysurol â'r brifddinas, pan y byddai ei ddyledswyddau swyddol yn galw yn neillduol am ei bresennoldeb yno. Edrychid arno ef yn ddiammheu o hyny hyd ddydd ei farwolaeth fel y blaenaf a'r penaf o efengylwyr Cymru. Yr oedd efe yn Nghymru yn 1659, ac yr oedd yn ei fryd fyned i fyny i Lundain—a chychwynodd i'r daith hono; ond ar y ffordd efe a glywodd fod Siarl II. yn debyg o gael ei ddyrchafu i'r orsedd. Yr oedd yn meddu dirnadaeth led gywir pa beth fuasai y canlyniad o hyn; ac o blegid hyny, trodd ei wyneb yn ol tua'i hen gartref yn Nghymru, a dychwelodd i'w dŷ ei hun yn Llanfaches. Yn ystod misoedd olaf ei oes, arferai weddïo llawer, a thywallt llawer o ddagrau, dros ei wlad; canys yr oedd yn teimlo yn angherddol dros ei sefyllfa ysbrydol isel. Galwodd ei Arglwydd ef adref, fodd bynag, cyn i'r tywydd mawr ymdori ar yr Anghydffurfwyr, ac i nos dywyll a thymmestlog yr erledigaeth a dorodd allan arnynt trwy holl gyrau y wlad yn gyffredinol, o dan Siarl II., ymdaenu. Daeth ei yrfa ddefnyddiol a sanctaidd i ben ar y 24ain o Ragfyr, 1659, a chladdwyd ef yn nghanghell eglwys Llangwm uchaf. Tybid gan lawer fod ei ofnau, y byddai yn rhaid i'r eglwysi yn y Dywysogaeth ddioddef llawer mewn canlyniad i adferiad teulu Stuart i'r orsedd, wedi prysuro ei farwolaeth.

Bu Walter Cradoc yn briod ddwy waith, a bu iddo ddwy ferch; a elwid, Löis ac Eunice. O ran ei berson, ymddengys ei fod yn ddyn tal a chryf, âg ol y frech wen arno—galluog i fyned trwy lawer o waith a llafur. Yn wir, yr oedd raid iddo wrth gyfansoddiad cadarn i deithio a llafurio fel y gwnaeth yn mynydd-dir ac ucheldir Cymru, i bregethu y Ceidwad a garai mor fawr. Yr oedd yn serchog iawn o ran ei dymmer, ond braidd yn fyrbwyll a chynnes ar rai achlysuron. Yr oedd efe yn gymmedrol o ran ei farn, ac yn rhydd iawn tuag at rai a wahaniaethent oddi wrtho ar byngciau a ystyriai efe yn ddibwys, ac yn dra hyddysg yn mhyngciau dadleuol yr amseroedd yr oedd yn byw ynddynt. Yn nghyfrif ei gydoeswyr, yr oedd yn ddyn o'r cymmeriad uchaf; ac yn ddiammheuol yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus o Anghydffurfwyr Cymreig enwog yr oes hono.

CRICHTON, JAMES. Ganwyd ef yn Ysgotland yn 1560, a gelwid ef 'Crichton enwog.' Yr oedd ei dad yn bendefig—a thrwy ei fam yr oedd o haniad brenhinol. Addysgwyd ef yn mhrifysgol St. Andrews, a graddiodd yn A. C. yn 1575. Yr oedd efe yn un o'r dynion ieuaingc a ddewiswyd i fod yn gydastudwyr â'r brenin ieuangc, Iago VI., dan gyfarwyddyd George Buchanan. Yna efe a aeth i Ffraingc, lle y parhaodd i astudio: ac hefyd, gan ei fod yn glynu wrth Eglwys Rhufain, efe a gymmerodd ran yn y rhyfel a gerid yn mlaen gan Harri III. yn erbyn yr Huguenotiaid. Yr oedd prydferthwch ei berson, y nerth a'r ystwythder a ddangosid ganddo, a'i ddull serchog a hyawdl o lefaru, yn ei wneuthur yn hoff gan bawb. O ddeutu 1580, efe a aeth i Italy, gan ymweled â Genoa a Rhufain, ac yna â Venice, lle y cafodd dderbyniad gwresog gan yr argraphydd enwog, Aldus. Cyflwynwyd ef i'r senedd: cynnyrchodd syndod yn Venice a Padua trwy ei ddarlithiau galluog a hyawdl ar athroniaeth, a duwinyddiaeth, a phyngciau uchel, a'i her i ddadleu mewn unrhyw un o'r gwahanol ieithoedd, ac ar y naill ochr neu y llall i unrhyw ddadl. Yn nesaf, efe a aeth i Mantua, a phennodwyd ef yn athraw i fab y duc. Un noson, ymosodwyd arno yn yr heolydd gan fintai o wŷr arfog dan fygydau. Gorchfygodd hwynt trwy ei fedrusrwydd anghyffredin, ac adnabyddodd ei ysgolhaig, i'r hwn y darfu iddo ar unwaith gyflwyno ei gleddyf. Yn ddioed lladdodd y tywysog ieuangc ef gyda'r ef ar y 3ydd o Orphenaf, 1582. Ni adawodd efe un gwaith llenyddol o bwys ar ei ol.

CRUDEN, ALEXANDER: a anwyd yn Aberdeen, yn 1701, ac addysgwyd ef gyda'r amcan o ddyfod yn weinidog yn Eglwys Ysgotland. Ond dangosodd y fath ansefydlogrwydd meddwl, fel nad ystyrid ef yn gymmhwys i'r weinidogaeth; ac efe a aeth i Lundain, ac a gynnaliodd ei hun yno am beth amser trwy roddi gwersi preifat yn y clasuron. Yn 1732, efe a ddechreuodd fasnach fel llyfrwerthwr. Tra yn dilyn y fasnach hon, efe a ddefnyddiodd ei amser hamddenol i gasglu ei "*Fynegair o'r Hen Destament a'r Newydd*," yr hwn a gyflwynodd efe i'r frenhines Caroline. Yn fuan ar ol hyny, aeth yn lloerig, mewn canlyniad i siomedigaeth mewn carwriaeth, a gosodwyd ef mewn gwallgofdy. Llwyddodd i ddiangc oddi yno, a dygodd gynghaws am gamgarchariad; ond taflwyd hi allan. Wedi hyny, efe a ymgymmerodd â'i hen orchwyl o ddiwygio y wasg; ond ymddangosodd drachefn arwyddion o wallgofrwydd. Fel llenor, yr oedd efe yn hynod o ddiwyd; ac y mae ei "*Fynegair*" yn cael ei werthfawrogi yn fawr gan astudwyr y Beibl. Cyfansoddodd hefyd grynodeb byr o'r Beibl; Mynegai manwl i argraphiad Newton o waith Milton; a Hunanfywgraphiad cywrain a dyeithrol. Efe a fu farw yn 1770, yn 69ain mlwydd oed.

CRWTH (*violin*): offeryn cerddorol llinynol, yr hwn a chwareuir â bwa. Y mae yr offeryn hwn mor adnabyddus fel na raid rhoddi desgrifiad o hono. Ceir seiniau allan o hono trwy dynu y bwa ar draws y llinynau. Y mae i'r crwth diweddar bedwar o linynau wedi eu gwneyd o dant, neu ymysgaroedd anifeiliaid, a'r isaf o honynt wedi ei orchuddio â gwifr deneu; ac weithiau, yn yr offerynau goreu, â gwifr arian, neu hyd yn oed aur. Y llinyn uchaf a elwir y blaenaf. Delir y bwa yn y llaw ddeheu, a cheir allan seiniau gwahanol o bob llinyn drwy wasgu bys yn erbyn y bys-fwrdd (*finger-board*) mewn gwahanol fanau ar y llinyn hwnw y bydd y bwa yn cael ei dynu ar hyd-ddo ar y pryd. Gellir dywedyd mai offeryn i chwareu prif-lais ydyw y crwth yn benaf: y mae hefyd yn un y gellir seinio amryw nodau ar yr un pryd arno; gellir chwareu tri neu bedwar o nodau hefyd, fel y chwareuir telyn (*in arpeggio*). Ychydig o offerynau sydd, y gellir eu cymmharu â'r crwth o ran ei fynegiant. Y mae i'w seiniau amrywiaeth ac eangder mawr; ac y mae yn bossibl eu gwneyd yn dyner, neu yn gryf, fel yr ewyllysia y chwareuwr. Mewn cerddoriaeth berorfaol (*orchestral*), y mae yn wastad ddwy ran i'r prif-lais a'r *alto*, y rhai a chwareuir gan y crwth cyntaf a'r ail.

Y mae ysgrifenwyr diweddar yn olrhain ei ddechreuad i *ravanastron* yr Indiaid—offeryn a chwareuir hyd heddyw gan y mynachod Bud-

Digitized by Google

distaidd tlodion sydd yn arfer cardota o ddrws i ddrws; yr hwn, yn ol traddodiad, a ddyfeisiwyd gan Ravana, brenin Ceylon, bum mil o flynyddoedd cyn Crist. O'r offeryn hwnw y deilliodd *gondok* Rwssia. Dywedir fod y crwth Cymraeg mewn arferiad er y chweched ganrif; ond y mae y *gondok* a'r crwth Cymraeg yn gwahaniaethu oddi wrth yr offeryn diweddar a elwir crwth, gan fod yn rhaid seinio y pedwar llinyn ar unwaith arnynt hwy. Y crythau cyntaf, yn eu ffurf bresennol y gwyddys am danynt, ydyw yr eiddo Gasparo di Salo, yn Lombardy, 1560—1610. Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, llwyddodd teulu yr Amati yn Cremona, gyda'i frawd Andrew, a'i feibion Jerome ac Antonio, a Niolo, mab i Jerome, i wneuthur crythau sydd yn parhau yn destynau syndod hyd y dyddiau hyn—ansawdd a thôn pa rai y mae gwneuthurwyr diweddar yn methu dyfod i fyny â hwynt. Ond darfu i Antonio Stradivari o Cremona, dysgybl i Nicolo, os yn bossibl, ragori ar deulu Amati; ac am lawer o amser, cadwyd i fyny gymmeriad Cremona gan deuluoedd y Guarneri a Ruggieri. Yn nesaf i'r crythwyr Cremonaidd, y mae beirniaid yn ystyried mai y gwneuthurwyr goreu oedd Jakob Stainer, a Matthias Klots, a'i feibion, o'r Tyrol. Y mae protiad yn dangos fod y manylder mwyaf gyda ffurf a llunieidd-dra, a maintioli cyfartal y gwahanol ranau o'r offeryn, yn bethau pwysig iawn er sicrhau ei ragoroldeb. Ymddengys fod y prif wneuthurwyr, trwy brawfiadau a sylwadau manylgraff, wedi medru dwyn galluoedd seiniol yr offeryn i raddau uchel o berffeithrwydd; yr hyn y galluogwyd hwynt i'w ddwyn oddi amgylch drwy eu gwaith gofalus a'u cywreinrwydd nodedig.

**CUDWORTH, RALPH**: athronydd a duwinydd; ac un o'r rhai enwocaf o'r duwinyddion rhydd-feddyliol. Ganwyd ef yn Aller, yn sir Somerset, yn 1617. Derbyniodd addysg athrofaol yn Nghaergrawnt; a daeth yn gymmrawd o Goleg Immanuel, ac yn broffeswr Hebraeg. Yn 1642, cyhoeddodd bregeth ar y gwir syniad am "Swper yr Arglwydd," a thraethawd galluog ar "Yr Undeb rhwng Crist a'r eglwys." Yn 1654, pennodwyd ef yn brif athraw Coleg Crist. Yn 1657, cafodd ei ddewis yn un o'r cyfeisteddfod a bennodwyd gan y senedd i adolygu y cyfieithiad Saesneg o'r Beibl; ac yn 1678, yn brebendari Caerloyw. Yr oedd yn ddyn dysgedig iawn, yn meddu galluoedd meddyliol cryfion, ac yn coleddu athroniaeth Plato. Ei brif waith ydyw "*Gwir Gyfundrefn Ddeallawl y Greadigaeth*;" yr hwn sydd yn ddiffyniad medrus o grefydd ddadguddiedig yn erbyn anffyddwyr. Cyfieithwyd ef i'r Lladin gan Mosheim, ac ail gyhoeddwyd ef amryw weithiau. Yr oedd Cudworth hefyd yn awdwr "Traethawd ar Foesoldeb Tragwyddol ac Anghyfnewidiol," yr hwn sydd yn barhâd o'r "Gyfundrefn Ddeallawl;" ac amryw o weithiau duwinyddol. Efe a fu farw yn 1688. Ymddangosodd ei "Gyfundrefn Ddeallawl" yn 1678, a'i waith ar "Foesoldeb" yn 1731, yr hwn a gyhoeddwyd gan yr esgob Chandler. Ystyrir y gwaith olaf hwn yn un o'r llyfrau rhagoraf a ysgrifenwyd ganddo, ac y mae yn llawn o wreiddioldeb ac athrylith. Ei brif nodweddion ydynt dysgeidiaeth eang iawn, a gallu damcaniaethol cryf. Ond y mae ei arddull gwasgarog, a'r arddangosiad helaeth o ddysg a gynnwysir yn ei weithiau, yn cuddio i fesur mawr ei ragoriaeth athronyddol.



CYSSODI: gosod ynghyd—rhan bwysig yn y gelfyddyd o argraphu, yr hon a gyflawnir fel y canlyn:—saif y cyssodydd ar ei draed o flaen ffrâm ar yr hon y mae dau gloer (*case*), a elwir y cloer isaf a'r cloer uchaf, y rhai sydd wedi eu gwneuthur yn fân adranau, yn y rhai y mae y llythyrenau wedi eu rhoi—yr *a* mewn un adran, a'r *b* mewn adran arall, &c.—pob llythyren yn meddiannu ei lle priodol ei hun. Gan fod llawer iawn mwy o rai llythyrenau na'u gilydd yn digwydd yn mhob iaith, y mae rhai o'r adranau yn y cloer isaf wedi eu gwneyd yn fwy na'r lleill, i gynnwys y llythyrenau a ddefnyddir amlaf. Yn y cloer isaf y mae y llythyrenau mân, ac yn yr uchaf y prif lythyrenau, y prif lythyrenau mân, a'r llafarnodau, &c.

Y peth cyntaf sydd yn angenrheidiol tuag at alluogi un i gyssodi ydyw, bod yn gydnabyddus â lle pob llythyren yn y cloer, fel y gall efe eu codi yn rhwydd a diymdroi. Ond nid yw hyn ond gwaith hawdd. Pan y bydd y cyssodydd yn myned i gyflawni ei waith, rhydd yr ysgrif fydd ganddo i'w chyssodi i orwedd o'i flaen ar y cloer uchaf, a chymmer y cyssodyr (*stick*) yn ei law aswy, gan ddodi ei fawd oddi mewn iddo ar lafn o bres teneu. Yna dechreua godi y llythyrenau gyda bys a bawd ei law ddeheu—y naill ar ol y llall, gan eu dodi o dan fawd ei law chwith ar y llafn pres fydd yn y cyssodyr. Wedi cyssodi llinell, efe a'i darllena hi, i edrych a fydd hi yn gywir yn ol yr ysgrif; ac ar ol ei chywiro, os bydd eisieu, cyfyd y llafn pres, a rhydd ef yr ochr arall iddi, i ddechreu llinell arall—ac felly yn mlaen hyd nes y lleinw y cyssodyr. Bob tro y lleinw ef, cyfyd yr hyn fydd ynddo â'i ddwy law, a'r llafn pres yn ei ddal wrth ei gilydd, gan ei roddi ar gyssod-lwyf (*galley*). Araf iawn y dysgir y rhan hon o'r gelfyddyd ar y dechreu; ond trwy gynnefino, disgyna bys a bawd y cyssodydd ar bob llythyren y bydd arno eisieu ei chodi gyda rhwyddineb. Pwngc o bwys mawr ydyw yr hyn a elwir gan argraphwyr yn "gyssodi glân"—hyny yw, yn gywir. Ceir un yn gyssodydd cyflym, ond yn fudr; a'r llall yn fwy araf, ond yn lân. Yn fynych ennilla yr olaf, trwy gywirdeb, fwy nag a ennilla y blaenaf trwy ei gyflymdra, am na bydd ganddo agos gymmaint o waith i ddiwygio yr hyn a gyssodwyd. Rhaid cael cyflymdra a chywirdeb i wneyd cyssodydd da.

Y gorchwyl nesaf, os llyfr a gyssodir, fydd trefnu yr hyn a gyssodwyd yn dudalenau, fel hon. Yna cyssylltir wyth, deuddeg, neu un ar bymtheg o honynt, &c., gyda'u gilydd. Ar ol hyny tyn y cyssodydd yr hyn a elwir yn brawflen o honynt; ac wedi iddi gael ei darllen a'i chywiro yn ol y copi gan ddarllenydd y prawfleni, efe a ddiwygia y gwallau fydd wedi eu nodi ar y prawflen. Mewn argraphdai gofalus, darllenir a chymmherir y prawfleni ddwywaith neu dair, er mwyn sicrhau cywirdeb. Gwelir oddi wrth hyn mai gwaith y cyssodydd ydyw parotoi y llythyrenau i'r wasg. Wedi eu hargraphu, golchir y llythyrenau yn lân gyda thrwyth priodol, yna rhoddir pob llythyren yn ol yn ei lle priodol ei hun yn y ddau gloer, fel y gellir eu defnyddio drachefn.

Gan fod argraphdai mor gyffredinol yn awr, a rhyddid i fyned iddynt, yn y cyffredin, yn cael ei ganiatau gan y perchenogion—bydd hyn o ddisgrifiad o waith y cyssodydd yn ddiammheuol yn ddigon, fel na raid i ni roddi yma unrhyw fanylion pellach.

Digitized by Google

CADFAN: mab Iago ab Beli, a olynodd ei dad fel tywysog ar Wynedd, yn y flwyddyn 603. Wedi ymuno o hono a Brochwael Ysgythrog, a thywysogion eraill Cymru a Chernyw, efe a lwyr orchfygodd Ethelfrith; yr hwn, yn greulawn, a barasai lofruddio myneich Bangor-is-y-coed. Y frwydr hon a ymladdwyd ar lanau y Ddyfrdwy. Ynddi, lladdwyd deng mil o Sacsoniaid, a chlwyfwyd Ethelfrith ei hunan; yr hwn a ddïangodd, trwy anhawsder mawr, gyda gweddill ei lyddin. Cymmerodd hyn le tua B.A. 607. Yn fuan wedi hyny, er fod eraill yn rhoddi yr amseriad yn B.A. 613, etholwyd Cadfan, gan gyssenedd o dywysogion Cymreig a ymgynnullasent yn Nghaerlleon ar Ddyfrdwy, i fod yn benteyrn Prydain. Parhaodd yn gyfeillgar âg Ethelfrith. Bu farw'yn B.A. 630, a chladdwyd ef yn Llangadwaladr, yn Môn.

CHESHUNT, COLEG. Mewn pentref mawr, o'r enw Cheshunt, yn swydd Herts, yr adeiladwyd y coleg hwn, gan Selina, Iarlles Huntingdon, er addysgu dynion ieuainge gyda golwg ar y weinidogaeth yn y cyfundeb y perthynai iddo. Agorwyd y coleg ar y cyntaf yn Nhrefecca, yn agos i Aberhonddu, gan yr iarlles ei hun, a George Whitfield, yn 1768. Symmudwyd ef i Cheshunt yn 1792; a helaethwyd ef yn 1868.

CHESS. Chwareu, yn yr hwn y bydd dau berson, neu dwy blaid, yn cymmeryd rhan. Y mae wedi cyrhaedd cryn enwogrwydd trwy holl wledydd y byd. Ymddengys yn hawdd; ond gofynir cryn allu i'w gario allan yn llwyddiannus. Trwy symmud y darnau a welir yn y darlun isod y cerir ef yn mlaen. Amcan y chwareu ydyw cymmeryd brenin y blaid arall. Pan y gall y gwrthwynebydd gymmeryd y brenin, yr arferiad yw iddo ddyweyd y gair '*check*' —gwarchae. A phan y bydd y brenin mewn sefyllfa nas gellir ei symmud i unman heb gael ei gymmeryd, bydd y fuddugoliaeth wedi ei hennill gan ei wrthwynebydd. Ni a roddwn ddisgrifiad o hono, gan ddechreu gyda'r bwrdd.



Y BWRDD.—Ar hwn y mae 64 o bertryalau (*squares*); ac arnynt gosodir y dynion fel y gwelir ar y darlun; ac eistedda pob chwareuwr tu cefn i'w ddynion. Dylai y chwareuwyr eistedd wrtho fel y bydd y petryalau gwynion yn y cornelau agosaf atynt ar y dde iddynt.

Y DYNION.—Y mae 32 o honynt, fel y gwelir uchod—16 o un lliw, a 16 o liw arall. Gan bob chwareuwr y mae 1 brenin, 1 frenhines, 2 gastell, 2 esgob, 2 farchog, ac 8 o werinwyr; y rhai a osodir, ar ddechreu y chwareu, fel y gwelir hwynt yn y darlun uchod.

Y BRENIN.—Gall symmud bob ffordd —ond i'r petryalau agosaf ato yn unig.

Y FRENHINES.—Gall hi symmud mewn unrhyw gyfeiriad, ac yn onglog, ond myned ar linell uniongyth.

Y CESTYLL.—Gallant symmud ar hyd neu ar draws y bwrdd; ond nid mewn cyfeiriadau onglog.

YR ESGOBION—ar draws yr onglau yn unig y gallant hwy symmud.

Nis gall y pedwar uchod ond symmud dros y petryalau gweigion fydd o'u blaen. Cymmerant eu gwrthwynebwyr yn nghyfeiriad y llinell y byddant yn ymsymmud, a safant yn eu lle.

Y MARCHOGION.—Symmudant ar ŵyr, i'r petryalau agosaf atynt, ond un; a'r rhai hyny o liwiau gwahanol i'r rhai y byddant arnynt. Dyma yr unig ddarn all symmud dros ben un o'r darnau eraill.

Y GWERINWYR.—Symmudant hwy yn mlaen i'r petryalau agosaf yn unig; ond cymmerant eu gwrthwynebwyr ar draws onglau y petryal y safant arnynt. Yn nechreu chwareu, gellir symmud un gwerinwr i'r ail betryal o'i flaen, ond nid ar ol hyny. Os bydd un o'r rhai hyn yn llwyddo i fyned ar draws y bwrdd, gall ei berchenog hawlio fod unrhyw un o'r darnau eraill yn cael ei roddi ar y bwrdd yn ei le.

Nid oes un sicrwydd yn mha le y dychymygwyd y chwareu hwn; ac y mae llawer o ddadleu ac ysgrifenu wedi bod yn mherthynas i hyny. China, India, Persia, neu'r Aipht, sydd yn cael hyny o anrhydedd a berthyn iddo; ond y mae profion ar gael ei fod yn adnabyddus i genhedloedd eraill yn mhell yn ol. Er hyny, gwahaniaethent i raddau yn eu dull o'u chwareu.

CUHELYN. Yn ol y *Brutiau*, dilynodd ei dad, Gwrgant Farfdrwch, fel brenin Prydain. Ei wraig oedd y ddysgedig Marsia. *Myf. Arch.*

CUHELYN FARDD, ab Gwynfardd Dyfed. Blodeuodd tua diwedd yr wythfed ganrif.

CUHELYN AB CAW. Bardd o'r chweched ganrif. Y mae cân ar fesur hypynt o'i waith yn y *Myfyrian Archaiology* ar "Frâd y Cyllyll Hirion." Priodolir hi gan rai i Cuhelyn Fardd.

CUNEDDA WLEDIG. Brenin Brythoniaid Ystrad Clwyd, yn Ngogledd Prydain, lle y dechreuodd deyrnasu yn y fl. 328. Ei dad ydoedd Edeyrn ab Padarn; a'i fam, Gwawl, ferch Coel Godebog; a thrwyddi hi yr oedd ganddo etifeddiaethau helaeth yn Nghymru. Trawsfeddiannwyd yr eiddo hwn gan y Gwyddelod; ac anfonodd Cunedda amryw o'i feibion yma i'w hymlid o'r wlad. Wedi llwyddo, hwy a wladychasant yn Nghymru, ac a ranasant y wlad rhyngddynt, gan alw y manau y gwnaent hyny ar eu henwau. Tybiawn, y mab hynaf, a fu farw yn Ynys Manaw. Rhoddodd Meirion, ei fab, ei enw ar Feirion; Arwystl a gymmerodd Arwystli; Einion, Caereinion, yn sir Drefaldwyn. Cafodd Ceredig Geredigion; a Dunod a gafodd gantref Dunodig, yn Arfon. Cafodd

Digitized by Google

ydym i edrych ar *εστιν* (=*ydyw*) yn gyfystyr âg *arwyddo*, neu *arddangos*, y mae yr ymresymiad yn myned felly yn ddirym.

Y mae yn bosibl cael cyfundrefn sacramentaidd i ddattroi efengyl Crist mor effeithiol ag ydyw eiddo y Pabyddion, heb fabwysiadu eu traws-sylweddiad hwy. Un ffordd i addfedu dynion i ymfoddloni ar lai na chymdeithas ysbrydol â Christ trwy ffydd fyddai, eu dysgu i ddysgwyl mwy. Gwel SWPER YR ARGLWYDD; SACRAMENT.

CYMUNDEB BABANOD. Gwel BEDYDD.

CYMUNDEB CYMMYSG: enwad yw a ddefnyddir mewn cyssylltiad â Swper yr Arglwydd, drwy yr hwn y deallir y gall pob un a fyddo wedi ei fedyddio, pa un bynag ai pan yn blentyn ai pan mewn oed, ar broffes o'i ffydd, eistedd wrth fwrdd yr Arglwydd gydag ereill o enwadau gwahanol. Gelwir y cymundeb yn *agored*, pan y derbynir pawb yn ddiwahaniaeth a geisia hyny, megys yn Eglwys Loegr; yn *gaeth*, pan y cyfyngir ef i aelodau o'r un enwad; ac yn *gymmysg*, pan y derbynir personau o wahanol enwadau, ar broffes o'u ffydd ac arwyddion o'u duwioldeb. Y farn gyffredin yn mhob oes oedd, fod yn angenrheidiol cael rhywbeth chwaneg na thröedigaeth, neu gymmeriad Cristionogol, er mwyn bod yn ddeiliaid addas o'r ordinhad hon; sef bedydd, iachusrwydd yn mhynciau ffydd, a bywyd o ufudd-dod sanctaidd. Ond yn ddiweddar, y mae lluaws wedi dilyn camrau yr enwog Robert Hall; yr hwn a ddaliai mai yr unig beth anhebgorol i fwrdd yr Arglwydd ydoedd cymmeriad Cristionogol. Y mae yr opiniwn nad yw bedydd yn angenrheidiol cyn cyfranogi o'r cymun yn rhedeg drwy ei holl ymresymiadau yn ffafr cymundeb rhydd neu gymmysg; ac ar y sail hon y maent yn gorphwys. Ei osodiadau ydyw y rhai canlynol:—1. Yr oedd bedydd Ioan yn sefydliad gwahanol i'r hwn a ordeiniwyd gan Grist ar ol ei adgyfodiad; gan hyny, y mae yn canlyn, fod Swper yr Arglwydd yn bodoli cyn y bedydd Cristionogol, a bod y cymunwyr gwreiddiol oll yn gynnwysedig o bersonau nad oeddynt wedi derbyn yr ordinhad hono. 2. Nid oes y fath berthynas, nac yn natur pethau, na thrwy yr ordeiniad dwyfol, rhwng bedydd a'r cymun, ag i'w wneyd, dan bob amgylchiadau, yn hanfodol angenrheidiol i'r naill flaenori y llall. 3. Pe caniateid mai hon ydyw y drefn orchymynedig, a'i bod yn cael ei chadarnhau gan yr apostolion yn eu dull unffurf hwy o'i dilyn, y mae achos Bedyddwyr babanod yn achos newydd, yn galw am ryw driniaeth neillduol, yn mha un y dylem dalu mwy o sylw i *ysbryd* nag i *lythyren* yr esampl apostolaidd. 4. Y mae ymraniad yn yr eglwys, corff dirgeledig Crist, yn cael ei osod allan yn y Testament Newydd fel y drwg penaf. 5. Mae y Testament Newydd yn gorchymyn yn benodol derbyn i gymundeb eglwysig bawb ag y bydd Duw wedi eu derbyn, er y dichon eu bod yn gwahaniaethu yn eu barnau a'u harferion gyda golwg ar bethau na byddant yn anhebgorol er iachawdwriaeth: *Rhuf.* xiv. 1—5; xv. 1, 5—7. 6. Y mae attal Swper yr Arglwydd oddi wrth y rhai y byddwn yn ymuno â hwy mewn cyflawniadau ereill o addoliad Cristionogol yn anghyssondeb o'r mwyaf. 7. Y mae yn ymddygiad annoeth ac anfoesgar, gan y cynnyrcha ragfarn gref yn ein brodyr, Bedyddwyr babanod, tuag atom; a phâr iddynt fyned tu hwnt i argyhoeddiad; a gall greu teimladau culion, hollol groes i ysbryd rhyddfrydig yr oes bresennol, yn mysg y Bedyddwyr eu hunain.—Gwel *Complete Works of Robert Hall*, cyf. ii. 207—230; hefyd, cyf. i. 283—504.

Y rhesymau o'r tu arall, y rhai a ddygir yn mlaen gan Mr. J. G. Fuller, ydyw y rhai hyn:— 1. Nid ydyw yr holl resymau a ddefnyddir i ddystrywio unoliaeth bedydd, fel y gweinyddid ef gan Ioan a'r apostolion cyn marwolaeth Crist, a'r hwn a arferid ar ol hyny, yn profi dim ond gwahaniaeth *amgylchiadau*, ac nid gwahaniaeth *hanfodol*; gan hyny, nid oes ynddo un awdurdod dros gasgliadau Mr. Hall. 2. Y mae gorchymyn yr Arglwydd Iesu i'w apostolion (*Mat.* xxviii. 19, 20) yn cynnwys yr un prawf fod bedydd yn angenrheidrwydd mor anhebgorol i aelodaeth eglwysig allanol ag ydyw ffydd i fedydd. 3. Mae esamplau unffurf yr apostolion yn eglurhad ysbrydoledig ar y gorchymyn yn ol pa un y gweithredant, ac yn gynllun yn cael ei fwriadu er cyfarwyddyd i'r eglwys yn yr oesoedd dilynol. 4. Nid yw cydsyniad manwl â gorchymyn Crist, wedi ei egluro fel hyn, yn ymraniad, ond yn hytrach yr unig foddion posibl i adferu a chadarnhau undeb Cristionogol. 5. Mae y cydoddefgarwch yr annogir Cristionogion yn y Testament Newydd i'w ddangos tuag at eu gilydd yn dwyn perthynas â phynciau dibwys gwirioneddol, ac nid yn cynnwys rhoddi o'r neilldu un o sefydliadau penodol Crist; gan hyny, nid ydyw yn briodol i'r achos hwn. 6. Nid ydyw ymuno â Bedyddwyr plant yn mhob gweithred o addoliad a haelioni, na byddont yn cynnwys ymadawiad oddi wrth y gorchymyn, yn anghyssondeb, ond yn arddangosiad o gariad Cristionogol. 7. I ba waradwydd bynag y gall eglwysi y Bedyddwyr fyned wrth ymlynu yn gaeth wrth orchymyn yr Arglwydd Iesu, y mae yn well ei ddyoddef na phechu; ac nid ydyw ysgoad er parch i gyfeiliornad diweddar, pa mor gydwybodol bynag y credir ef, yn haelfrydedd nac yn ddoethineb Cristionogol. Fe all Cristionogion ymuno yn galonog i efengyleiddio y byd; ond nid ydynt, ac nis gallant, heb gyfnewidiad yn eu teimladau, ymuno yn nghyfansoddiad eu heglwysi.—*Conversations on Strict and Mixed Communion, by J. G. Fuller.*

Y prif ysgrifenwyr o blaid cymundeb cymmysg oeddynt Mr. Jesse, Bunyan, Robert Robinson, Robert Hall, Austin, Worcester, Mason, Brooks, a Griffin:—yn bleidiol i gymundeb caeth, Mr. Booth, Andrew Fuller, Kinghorn, Newman, Ivimey, J. G. Fuller, Baldwin, Merrill, Merriam, Cone, Foster, a Ripley.—(*Williams' Dict. all Rel.; Buck's Theol. Dict.; Rel. Encycl.*)

CYMUNWYR: enw a roddid yn gyffredinol i'r rhai a ddalient opiniynau cyfeiliornus gyda golwg ar Swper yr Arglwydd. Yn amser y Diwygiad, yr oedd yr enw mewn arferiad yn fwyaf cyffredin; a chyfeirid ef, mewn modd o ddiystyrwch, gan y Pabyddion, at y Lutheriaid, y Calviniaid, a Phrotestaniaid ereill, a wadent bresennoldeb corfforol Crist yn elfenau y sacrament.

CYMYN, LLYTHYR. Gwel TESTAMENT.

CYMYN—U—WYR—YDD: tori neu hollti coed â bwyell; naddu, ysglodioni; torwr neu naddwr coed: *Deut.* xix. 5; 1 *Bren.* v. 6; *Luc* iii. 9. Cyfrifid tori coed, a gwehynu, neu dynu



Digitized by Google

dwfr, yn swyddau isel a lled ddirmygedig gynt: *Deut.* xxix. 11. Pan y twyllwyd Iosuah gan y Gibeoniaid, yn hytrach na'u lladd, gan ei fod wedi gwneyd cyfammod â hwynt i'w cadw yn fyw, efe a'u gwnaeth yn gymynwyr coed ac yn wehynwyr dwfr i'r gynnulleidfa, ac i allor yr Arglwydd: *Ios.* ix. 27

CYN—ION. 1. Offeryn miniog i gerfio neu i naddu âg ef: "Ac efe a'u cymmerodd o'u dwylaw, ac a'i lluniodd â chŷn, ac a'i gwnaeth yn llo tawdd;" *Exod.* xxxii. 4. Hyny yw, cymmerodd Aaron y clustdlysau aur, a thoddodd y mettel mewn mold, a lluniodd ef megys llo â chŷn. Tybir mai efelychiad ydoedd hwn o'r Apis Aiphtaidd, neu Osiris. 2. Llafn o unrhyw fettel: "Gwnaf ddyn yn werthfawrocach nag aur coeth; ïe, dyn na chŷn o aur Ophir;" *Esa.* xiii. 12. Hyny yw, byddai dinystr Babilon mor fawr, fel y byddai *un* dyn yn anmhrisiadwy. 3. Cŷn, mewn gallofyddiaeth, ydyw darn o bren neu fettel, yn dew yn ei ben uchaf, ac yn deneu yn ei waelod. Defnyddir ef i wahanu dau wrthddrych oddi wrth eu gilydd, neu ynte i hollti unrhyw gorff yn rhanau. Dodir blaen y cŷn rhwng dau wrthddrych, neu ranau o unrhyw gorff; yna, gyrir ef yn mlaen trwy bwyo ei ben uchaf â gordd, neu trwy ryw nerth arall; a'r canlyniad fydd gwahanu y rhanau neu y gwrthddrychau oddi wrth eu gilydd.

CYNADDAFIAID: plaid yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, prif bwnc pa rai oedd, *fod yn rhaid fod dynion yn y byd cyn Adda.* Ymddengys mai Isaac de la Pereyra, Protestant o Ffrainc, oedd sylfaenydd y blaid hon. Yn y flwyddyn 1655, cyhoeddodd lyfr yn amddiffyn y golygiad hwn, trwy ba un yr ennillodd lawer i fabwysiadu ei opiniynau. Rhoddwyd attalfa ar ei lwyddiant gan atebiad Demarets, proffeswr duwinyddiaeth yn Groningen, yr hwn a gyhoeddwyd y flwyddyn ganlynol, er i Pereyra gyhoeddi amddiffyniad.

Ei gyfundrefn ydoedd hon:—Galwai efe yr Iuddewon yn Addafiaid, a thybiai eu bod wedi deilliaw o Adda; a rhydd yr enw *Cynaddafiaid* i'r Cenedloedd, y rhai yr haerai oeddynt yn bod er ys llawer o amser cyn Adda. Ond gan fod hyn yn hollol groes i'r hanes ysgrythyrol yn Genesis, dygai Pereyra yn mlaen, er egluro ei olygiadau, draddodiadau dychymygol yr Aiphtiaid a'r Caldeaid, a'r rabbiniaid ofergoelus, y rhai a ddychymygent fod byd arall wedi bod o flaen yr un a ddarlunir gan Moses. Cymmerwyd ef i fyny gan swyddogion y Chwilys yn Flanders, a thrinwyd ef yn lled lym, er ei fod yn ngwasanaeth mab y brenin. Ond efe a appeliodd yn erbyn dedfryd y llys at Rufain, ac aeth yno yn amser Alexander VII; a chyn hir, cyhoeddodd lyfr yn galw ei olygiadau blaenorol yn ol.

Yn erbyn y synradau hyn o eiddo y Cynaddafiaid, gellir dangos fod Moses yn dyweyd yn bendant mai Adda ac Efa oedd y personau cyntaf a grewyd ar y ddaiar; *Gen.* i. 26, 27; ii. 7. Sicrhawyd hyn gan Grist, pan y dywedodd, "O ddechreuad y greadigaeth, yn wryw a banyw y gwnaeth Duw hwynt;" *Marc* x. 6. Y mae yn anwadadwy ei fod yn llefaru hyn am Adda ac Efa, canys defnyddia yn yr adnod nesaf yr un geiriau ag sydd yn *Gen.* ii. 24; "Am hyn y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig." Y mae yn eglur hefyd nad oedd neb yn bodoli cyn Adda, oddi wrth *Gen.* iii. 20, lle y dywedir, "A'r dyn a alwodd enw ei wraig Efa; o blegid hi oedd *mam pob dyn byw;*" hyny yw, hi oedd y ffynnonell a'r gwraidd o ba un y deilliodd pob dyn a dynes o fewn y byd: yr hyn a awgryma yn eglur nad oedd un wraig arall yn fam yn yr un ystyr a hi. Ac yn ddiweddaf, gelwir Adda ddwywaith gan yr apostol Paul "y dyn cyntaf;" 1 *Cor.* xv. 45, 47.—(*Buck's Theol. Dict.; Williams' Dict. of all Religions.*)

CYNAUAF, [*cyn—gauaf*]. Yn Mhalestina y mae y cynauaf yn y gwanwyn, yn mis Abib—mis y dwysen. Ar wastadedd poeth, fel gwastadedd Iericho, dechreuai tua diwedd Mawrth ar diroedd uwch, tua diwedd Ebrill; a thrwy y wlad yn gyffredin, rhwng y ddau derfyn hyn. Parhäai llafurwaith y meusydd yn mhlith yr Hebreaid am fwy o amser nag ydyw gyda ni, o herwydd eu bod yn dyrnu ac yn nithio yn yr awyr agored. Er y cedwid dechreuad y cynauaf ar yr ail ddydd o'r Pasg (*Lef.* xxiii. 10—14), yn mhen saith wythnos, sef ar ŵyl y Pentecost, y dybenid ef, gyda gorfoledd crefyddol: *Exod.* xxiii. 16; *Deut.* xvi. 10; *Esa.* ix. 3. Cynauaf yr haidd oedd y cyntaf (2 *Sam.* xxi. 9); ac ar ol hyny, cynauaf y gwenith tua diwedd Ebrill, yn agos i Iericho—yn ddiweddarach mewn manau ereill: *Gen.* xxx. 14; *Barn.* xv. 1. Yn nesaf addfedai y rhyg (*Exod.* ix. 32; *Esa.* xxviii. 25), a grawn arall (*Ezec.* iv. 9).

Yn Mhalestina a Syria, bydd y medelwyr yn defnyddio y cryman i fedi cynnyrch y ddaiar;



Dar. 220.

ac megys y mae yr arferiad yn y wlad hon yn awr, "llanwant eu llaw" â'r ŷd, a lleinw y rhai hyny a rwymant yr ysgubau "eu mynwes;" *Salm* cxxix. 7; *Ruth* ii. 5. Pan y bydd y cynnyrch yn deneu a gwael, yr hyn a ddygwydd yn gyffredin mewn tir ysgafn, ni fedant ef â'r cryman, ond tynant ef o'r gwraidd â'u dwylaw. Trwy y dull hwn, gwneir i'r meusydd ymddangos fel pe na byddai dim wedi bod yn tyfu ynddynt erioed; a chan na thyfir gwair yn y dwyrain, gwneir hyn rhag iddynt golli dim o'r gwellt, yr hwn sydd yn angenrheidiol er cynnaliaeth eu hanifeiliaid. Fe allai y cyfeirir at yr arferiad hon yn *Salm* cxxix. 7. Mae penau y tai yn Iudea yn wastad; a chan eu bod wedi eu gorchuddio â phridd, er eu gwneyd yn addas i gerdded ar hyd-ddynt, bydd yno laswellt yn fynych yn tyfu. Gan ei fod yn fychan ac eiddil, ac yn agored i danbeidrwydd yr haul, fe wywa yn fuan. Nis gellir yn hawdd cael darluniad prydferthach a mwy tarawiadol i osod allan sefyllfa lesg a darfodedig yr annuwiol.

Byddai y medelwyr yn myned allan i'r maes yn fore iawn, ac yn dychwelyd yn gynnar yn y prydnawn. Byddent yn cario eu lluniaeth gyda hwy, a dwfr mewn costrelau lledr. Dilynid hwy gan eu plant, neu gan ereill, y rhai a loffent ar eu holau; canys chwalent gryn lawer o'r ŷd trwy ei fedi, a thrwy eu dull o'i gludo. Canfyddir y

Digitized by Google

rhan fwyaf o'r neillduolion hyn yn nefodau yr Israeliaid gynt. Ni buasai i Ruth ofyn caniatad Naomi, ei mam yn nghyfraith, i fyned i'r maes i loffa ar ol y medelwyr, ac ni buasai i wasanaethwr Boaz, at yr hwn yr appeliodd am ryddid i wneyd hyny, ganiatau ei chais iddi mor rwydd, oni buasai fod yr arferiad yn gyffredin yn y wlad hono. Pan y gofynodd Boaz pwy ydoedd, dywedai ei oruchwyliwr, wedi rhoddi yr hysbysiad iddo, ei bod wedi dyfod i'r maes yn y bore; ac y mae yn amlwg, fel y sylwa Dr. Russell, fod y medelwyr wedi gadael y maes yn gynnar yn y prydnawn oddi wrth y ffaith hon—fod Ruth wedi cael amser i ddyrnu yr hyn a loffasai cyn y nos. Carient ddwfr a lluniaeth gyda hwynt; canys dywedodd Boaz wrthi am fyned at y dwfr a dynasai y llanciau, ac yfed o hono, pan y sychedai; ac yn amser bwyd, archodd iddi fwyta o'i fara, a gwlychu ei thamaid yn y finegr. Ac mor fawr oedd symlrwydd y defodau yn y rhan hono o'r byd, ac yn yr amseroedd hyny, fel yr eisteddodd Boaz, er ei fod yn dywysog anrhydeddus yn Iudea, yn mysg ei fedelwyr yn y maes i giniawa, ac yr estynodd luniaeth i Ruth â'i law ei hun. Ni ddylem chwaith edrych dros gyfarchiad Boaz i'w fedelwyr, pan y daeth i'r maes, a'u hatebiad hwythau yn ol, gan ei fod yn arddangos ansawdd y teimlad crefyddol yn Israel ar y pryd: "Ac wele, Boaz a ddaeth o Bethlehem, ac a ddywedodd wrth y medelwyr, Yr Arglwydd a fyddo gyda chwi. Hwythau a ddywedasant wrtho ef, Yr Arglwydd a'th fendithio;" *Ruth* ii. 4.

Ymddengys, oddi wrth yr hanes am Ruth, fod y benywod yn Mhalestina yn cynnorthwyo gyd â medi a chasglu yn nghyd y cynauaf; canys gorchymyna Boaz iddi aros gyda'i llancesau ef. Byddai y gwragedd yn Syria hefyd yn cymmeryd rhan yn ngwaith y cynauaf; canys dywed Dr. Russell wrthym, y byddent yn arfer canu y *tiraleet*, neu gân o ddiolchgarwch, pan y derbyniai gŵr dyeithr a ddygwyddai basio heibio ddyrnaid o ŷd o'u llaw, ac y gwnai ad-daliad cyfaddas. Yr oedd yn arferiad hefyd yn mhlith yr Iuddewon i roddi gwas uwch ben y medelwyr, i ofalu eu bod yn cyflawnu eu gwaith yn briodol, a'u bod yn cael lluniaeth addas, ac i dalu iddynt eu cyflogau. Geilw y Caldeaid y fath swyddwr yn *rab*—y meistr, y rheolwr, neu lywodraethwr y medelwyr. Dyna y fath un a gyfarwyddai lafur y medelwyr yn maes Boaz. Diogelid hawl y tlawd yn Israel i loffa ar ol y medelwyr trwy ddeddf benodol: "A phan gynauafoch gynauaf eich tir, na feda yn llwyr gonglau dy faes, ac na chynnull loffion dy gynauaf. Na loffa hefyd dy winllan, ac na chynnull rawn gweddill dy winllan: gâd hwynt i'r tlawd ac i'r dyeithr: yr Arglwydd eich Duw chwi ydwyf fi;" *Lef.* xix. 9, 10. Barna rhai ysgrifenwyr, er y caniatëid i'r tlodion y rhyddid o loffa, nad oedd meddianwyr y tir yn rhwym o'u gollwng i'r maes mor fuan ag y byddai y medelwyr wedi tori yr ŷd, ac wedi ei rwymo yn ysgubau, ond pan y byddai y cynnyrch wedi ei gludo ymaith: gallent ddewis hefyd yn mhlith y tlodion y rhai a farnent yn fwyaf teilwng o gael lloffa. Derbynia yr opiniynau hyn radd o gadarnhad oddi wrth waith Ruth yn gofyn am ganiatad i loffa "yn mysg yr ysgubau" i was Boaz; ac oddi wrth orchymyn Boaz i'w lanciau—"Lloffed hefyd yn mysg yr ysgubau, ac na feiwch arni;" *Ruth* ii. 15.

Defnyddir y gair hwn—*cynauaf*—yn fynych iawn yn y Beibl yn gyffelybiaethol, i osod allan amrywiol bethau. Cyffelybir gwaith Duw yn ymweled â'r ddaiar yn ei farnedigaethau, gan dori llaweroedd i lawr, i gynauaf: *Ier.* li. 33 *Hos.* vi. 11. Cyffelybir annuwiolion hefyd, wedi addfedu trwy bechod i ddinystr, i gynauaf, neu gnwd parod i gryman digofaint Duw: *Esa.* xviii. 5; *Ioel* iii. 13; *Dad.* xiv. 15. Cyffelybir amser cyfaddas gweinidogion yr efengyl i lafurio yn maes yr efengyl, a bod yn llwyddiannus yn eu galwedigaeth i gasglu dynion at Grist, yn gynauaf hefyd; a chyffelybir dynion yn cael eu tueddu trwy eu gweinidogaeth i dderbyn yr efengyl yn gnwd addfed: *Ioan* iv. 35, 36. Cyffelybir dydd y farn ddiweddaf hefyd i gynauaf, pan y cesglir y rhai drygionus fel efrau i'w llwyr losgi, ac y cesglir y rhai cyfiawn fel gwenith i'r ysgubor: *Mat.* xiii. 30, 39, 42.

Yn yr hinsoddau deheuol hyny, lle nad yw y gwres a'r sychder yn ormodol i dyfiant ŷd, unig ofal yr amaethwr ydyw cael digon o fedelwyr i dori ei gynnyrch. Y mae gwres yr haul a'r gwynt yn sychu y gwellt yn fuan, ac yn caledu y grawn. Gwneir lle gwastad yn y maes, a dyrnir yr ŷd allan yn uniongyrchol, un ai trwy yru ychain i'w fathru, neu ynte drwy ffust amryw ddyrnwyr. Nithir yr ŷd, a chludir ef i ysguboriau; a chedwir y gwellt hyd y gauaf, pryd y defnyddir ef fel y prif luniaeth i geffylau a gwartheg. Yn y gwledydd hyny, y mae y tywydd yn hyfryd ar hyd y cynauaf. Ond mewn hinsoddau gogleddol, lle y mae y cynauaf yn ddiweddarach, ac y bydd gwlawogydd oerion ac ystormydd yn fynych yn yr Hydref, rhaid i'r amaethwyr fod yn ofalus iawn rhag i'w cnydau gael eu dinystrio yn hollol wedi iddynt gael eu tori i lawr; adeiledir ysguboriau mawrion i'w diogelu yn eu gwellt, nes y gellir eu dyrnu; a thorir ar draws llawenydd y cynauaf yn fynych gan bryder yn nghylch tywydd cyfnewidiol.

Yr oedd yn arferiad er ys llawer o amser drwy holl ogledd Ewrop i gadw holl gynnyrch y ffarm mewn ysguboriau, yn neillduol yr ŷd; a meddylid fod pob perygl drosodd mor fuan ag y cerid yr ysgubau dan dô. Rhoddodd y llwyddiant a ddilynai gyfundrefn newydd o amaethyddiaeth yn nghynnyrchiad cnydau gychwyniad i'r arferiad o wneyd ŷd yn deisi yn yr awyr agored, a'u diogelu â thô gwellt. Canfyddwyd yn fuan fod yr ŷd yn cadw yn well yn ei wellt nag wedi ei ddyrnu yn yr ysgubor. Yr oedd hyn yn welliant pwysig; ac yn awr, yn y ffermydd trefnusaf, yr unig ysgubor sydd yn angenrheidiol ydyw un i ddyrnu yr ŷd ynddi; ac nid ydyw hyd yn oed hyn mor angenrheidiol yn awr, gan fod agerbeiriannau dyrnu mor gyffredin yn y wlad.

Ar dymmorau gwlybion, bydd raid i'r ysgubau aros yn hir yn fynych ar y maes cyn y byddant yn ddigon sychion i'w cadw a'u gwneyd yn dâs. Os na ddiogelir y twysenau rhag y gwlybaniaeth, mwydant, ac egina y grawn. Y mae hyn yn golled ddirfawr; canys nis gellir gwerthu yr ŷd wedi egino heb ostwng llawer yn ei bris. Ychydig ragofal yn fynych a attalia effaith ddrwg y gwlawogydd. Mewn rhai manau, dodir chwech neu wyth o ysgubau ar eu traed yn gylch, gyda'u bonau yn taflu allan, fel ag i adael i'r gwynt fyned rhyngddynt; yna, agorir ysgub drwy wasgaru y twysenau, a dodir hi â'i phen yn isaf ar dop y rhai a orweddant ar eu gilydd. Drwy hyn, yr unig le y gall y gwlaw aros ynddo fydd bon yr ysgub uchaf; ac fe sychir hwn yn fuan gan dywyniad cyntaf yr haul: rhed y gwlaw i lawr ar hyd ochrau yr ysgub uchaf; a chan y

Digitized by Google

bydd y twysenau yn cyfeirio tua'r llawr, ni ddaliant y gwlybaniaeth yn hir.

Pan yn adeiladu y dâs, dodir bonau yr ysgubau tuag allan, gan ofalu fod yr ysgubau llawn yn ddigon uchel a durol i beri fod bonau yr ysgubau amgylchynol yn tueddu i lawr, ac yn gogwyddo ychydig, fel ag i achosi i'r gwlybaniaeth, a ddichon gael ei daflu ar y dâs gan gorwyntoedd, dreiglo ymaith, yn lle cael ei sugno i mewn. Yna, töir hi yn ofalus â gwellt, a thorir ei hochrau yn daclus â chryman neu bladur.—(*Penny Cycl.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Rel. Encycl.*)

CYNDEYRN: Cyndeyrn Garthwys, neu Cyndeyrn Sant, yn ol *Bonedd y Saint*, ydoedd fab i Owain ab Urien Rheged, a Dwynwen ferch Llewddyn Lwyddog, o ddinas Eiddyn (*Edinburgh*). Am ei achau yn mhellach, gwel d. g. URIEN. Rhoddwyd Cyndeyrn dan ddysgyblaeth Serfan, sant Gwyddelig; a dywedir iddo ennill parch ei athraw i'r fath raddau fel y galwyd ef ganddo yn Gyndeyrn Mwyn-gu, yr hyn a dröed gan ysgrifenwyr diweddarach yn *St. Mungo*;—enw wrth yr hwn yr adnabyddir ef yn fynych, yn enwedig yn mysg estroniaid. Pan yn dyfod i fyny, efe a sefydlodd esgobaeth Penrhyn Rhionydd (Caer Rianedd=*Glasgow*), yn y gogledd (Alban). Yn y Trioedd [*Myv. Arch.*, ii. 3, cyf. ii. 7], gelwir ef yn "ben escub" (=archesgob); ac yn yr ail gyfres o'r Trioedd [Tri. 62], dywedir mai "archescobawt" oedd Caer Rianedd. Yn mhen ysbaid o amser, gyrwyd ef o'r gogledd gan derfysgoedd y wlad, ac ymgiliodd yntau i Gymru, lle y derbyniwyd ef yn groesawgar gan Dewi Sant, esgob Mynyw. Tra yn aros yn Nghymru, efe a sefydlodd esgobaeth (yn hytrach Bangor) yn Llanelwy, o gylch B. A. 550, a alwyd ar enw ei brif ddysgybl Asaf. Yn mhen ysbaid ar ol hyn, sef o gylch B. A. 560, galwodd Rhydderch Hael, brenin y gogledd, ef yn ol. Gadawodd yntau ei esgobaeth yn Llanelwy i'w ddysgybl Asaf, ac adgymmerodd esgobaeth Penrhyn Rhionydd, lle y bu farw yn yr oedran mawr, medd traddodiad, o 185 mlwydd. Y mae amryw o eglwysydd yn Cumberland wedi eu cyssegru i Cyndeyrn Sant; ac ysgrifenwyd hanes ei fywyd gan Ioan o Teignmouth; a hanes arall llawnach a llawer gwerthfawrocach gan Iocelin, mynach o Furness, yn y 12fed ganrif, yr hwn a gyhoeddwyd gan Pinkerton, yn ei *Vitæ Sanctorum Scotæ*. —(*Myv. Arch.; Rees' Lives of Welsh Saints; Williams' Emin. Welshmen.*)

CYNDDAREDD: gorphwylledd, gwallgofrwydd, gwŷn, gwylltineb, ynfydrwydd, creulonder, digofaint: 2 *Cron.* xxviii. 9; *Salm* xxxvii. 8; lxxvi. 10, a lxxviii. 4, 9.

Y syniadau uchod a gyfleir i ni drwy y gair *cynddaredd* yn yr Ysgrythyrau. Dynoda hefyd anhwyldeb moesol, yn hytrach nag anhwyldeb naturiol; un yn perthyn i'r meddwl, ac nid i'r corff. Pan briodolir cynddaredd i Dduw, gwneir hyny yn ffugrol, i arwyddo angerddoldeb ei ddig; ond pan briodolir ef i ddyn, y mae y Beibl yn siarad am dano bob amser fel pechod, ac nid fel afiechyd—fel peth i'w orchfygu a'i adael, ac nid fel peth i dosturio wrth ddyn o'i herwydd.

Yn awr, pa fodd bynag, y mae *cynddaredd* yn gelfair meddygol am fath o afiechyd tra pheryglus a dychrynllyd; ac yn yr ystyr hwn weithiau y deallir ac yr arferir ef gan y cyffredin bobl yn ein gwlad, oddi eithr pan fenthycir ef i osod allan un dan lywodraeth rhyw nwyd gwallgofus. Arwydda yr afiechyd hwnw a drosglwyddir yn y glafoer, trwy frathiad gan gi, neu ryw greadur cynddeiriog arall; a nodweddir ef gan ddirdyniadau ysbeidiol yn y cyhyrau anadlu, yn nghyd â math o gyffroad annedwydd yn y corff, ac aflonyddwch yn y meddwl. Gelwir ef gan Linnæus yn *rabies canina;* a chan Dr. Cullen yn *hydrophobia* (Gr. ὕδωρ=*dwfr;* a φόβος =*ofn*), am mai un o neillduolion yr afiechyd ar ddyn yw peri iddo ofni pob math o hylifau. Y mae rhai yn anfoddlawn i'r enw, gan nad yw yr hynodrwydd hwn yn perthyn i un creadur ond dyn, nac iddo yntau ond yn agos i ddiwedd yr afiechyd; ond hwn, er hyny, yw yr enw a arferir yn gyffredinol.

Ystyrir yr afiechyd gan yr heintofyddwyr oll fel effaith gwenwyn a drosglwyddwyd i'r cyfansoddiad trwy frathiad gan ryw greadur cynddeiriog. Y mae gwedd-linellau cyffredinol yr anhwyldeb yn cyd-daraw yn esmwyth â'r fath syniad; ond dylid cofio fod tebygrwydd cryf rhwng y gynddaredd a'r dirdynwst (*tetanus*), ac y gellir ystyried y blaenaf fel math o'r olaf, wedi ei effeithio gan friwiau o gymmeriad neillduol. Eto, y mae un gwahaniaeth pwysig yn bodoli rhyngddynt. Y mae y dirdynwst naturiol yn cyfodi o hono ei hun, er yn afiechyd cyffredin a marwol; ond ni wybuwyd am gynddaredd felly erioed yn y cyfansoddiad dynol; o leiaf ni wybuwyd am dano dan y fath amgylchiadau ag oeddynt yn symmud ymaith bob ammheuaeth o ryw niwed blaenorol.

Y mae y gynddaredd yn adnabyddus bellach er's hir amser. Ceir cyfeiriadau ato yn ysgrifeniadau Aristotle; ond hen awdwr o'r enw Cælius Aurialanus a roddodd y dysgrifiad cyntaf o arwyddion a hynt yr afiechyd. Er y pryd hwnw, y mae sylw dyfal wedi ei dalu i bob ymddangosiad a berthyn iddo, ac yn sicr nid diffyg chwilio ydyw yr achos na byddai ein gwybodaeth yn fwy perffaith yn ei gylch. Ond hyd yn hyn, pa fodd bynag, y mae yr afiechyd hwn, fel y dirdynwst, wedi herio ymchwiliadau yr heintofyddwyr, yn gystal a honiadau rhyfygus y crachfeddygon. Yr oll a fwriedir, gan hyny, yn y sylwadau hyn, fydd egluro neillduolion yr afiechyd, a chynnysgaethu y darllenydd â'r hyn a wyddir am dano, heb un olwg y gall hyny fod o fudd ymarferol iddo.

DECHREUAD YR AFIECHYD.

Cymmerwyd llawer o drafferth i geisio adnabod yr anifeiliaid sydd yn alluog i ddechreu, derbyn a lledaenu y gynddaredd, ac i wybod pa beth ydyw gwir ddull ei drosglwyddiad o'r anifeiliaid i'r dyn. Tra y mae llawer o chwedlau ofer a disail wedi eu hadrodd gan wahanol awdwyr ar y pwnc, gellir ystyried yr hyn a ganlyn fel crynodeb o'u hymchwiliadau goreu. Y mae yr afiechyd bron bob amser yn dechreu gydag anifeiliaid o rywogaeth y ci. Y mae yn ammheus a ydyw yn dechreu yn y gath; ond y mae yr amrywiaethau o'r rhywogaeth hwn yn meddu gallu, fel y ci, i'w ledaenu, ac hyd yn oed i'w drosglwyddo i ddyn. Haera rhai nad yw creaduriaid llysborthol yn alluog i'w drosglwyddo, a bod hyn yn gwbl sicr am ddyn. "Gwnaed llawer cynnyg," medd Hooper, "i ledaenu yr afiechyd trwy wenwyno gwahanol greaduriaid â glafoer personau a ddyoddefent oddi wrth y gynddaredd, a hyny bob amser yn aflwyddiannus." Ond nid yw yr haeriad hwn, pa fodd bynag, yn gwbl gredadwy. Dywed Druitt yn fwy rhesymol, y gellir ei drosglwyddo i lawer o greaduriaid bron

faethol, ac nad oes un ammheuaeth nad yw pob creadur sydd yn alluog i dderbyn yr afiechyd yn alluog hefyd i'w ledaenu. Y mae hyn yr un mor wir am ddyn ag am greaduriaid ereill. Darfu M. M. Magendie a Breschet wenwyno dau gi iach ar y 9fed o Fehefin, 1813, â glafoer dyn a ddyoddefai dan y gynddaredd, ac a fu farw yr un dydd yn yr Hotel Dieu. Yn fuan diangodd un o'r cŵn, a bu farw y llall o'r afiechyd ar y 27ain o'r mis canlynol. Bu farw hefyd gŵn ereill a ddygwyd i'w brathu ganddo. Adroddir esamplau clir yn y rhai y trosglwyddwyd yr afiechyd i ddyn gan foch a meirch; a byddai hyny yn llawer amlach, pe buasai tuedd y llysbortholion i ddangos eu cynddaredd trwy frathu. Gwnaeth Breschet brofion lluosog ar y pwnc, a gwenwynodd gŵn lawer â glafoer meirch ac asynod cynddeiriog. Cafwyd allan un ffaith ryfedd trwy y profion hyn,—fod cwningod, neu gnofilod ereill, ac adar, pan wenwynir hwynt â'r glafoer hwn, yn marw yn fuan, heb yr arwyddion cyffredin o gynddaredd.

ACHOSION.

Am achosion yr afiechyd hwn mewn cŵn, ni wyddir dim yn sicr. Y dyb gyffredin yn awr ydyw, ei fod yn cyfodi ynddynt o hono ei hun; a'r achosion mwyaf tebyg ydynt hir gaethiwed, diffyg ymgeledd, ymborth aflach, &c. Y mae yn afiechyd naturiol hefyd i'r blaidd, gwas y llew, ac efallai i'r gath; ond lledaenir ef yn benaf trwy wenwyniad. Gyda golwg ar drosglwyddiad yr afiechyd oddi wrth yr is-anifeiliaid i ddyn, nid yw byth yn dygwydd ond trwy frathiad neu wenwyniad, neu rhyw ddull effeithiol arall. Dywed Hooper, nas gall y gwenwyn effeithio ar groen iach: ond haera ereill y gwna. Cyfeirir at hanes a adroddir gan Dr. Watson, lle yr oedd dant ci yn unig wedi gadael ei ol ar groen cefn y llaw, heb wneuthur un briw. Ond gan yr addefir y gall y briw fod o'r bron yn anweledig, nid ellir bod yn sicr nad oedd y croen yn yr achos hwn wedi ei niweidio i'r fath raddau ag i gymmeryd y gwenwyn i mewn. Nid ydys yn gwbl sicr ai yn y glafoer ei hun y mae y gwenwyn, neu a oes ryw sylwedd gwenwynig yn cael ei ridio gan y genau, neu y llyncfa, neu yr ysgyfaint, ac yn cael ei gymmysgu âg ef. Nid ydyw hyn, pa fodd bynag, o gymmaint pwys; ond y mae yn ammheus eto ai nid yw holl sylweddau a hylifau y corff yn wenwynig hefyd. Yn wir, y mae rheswm dros gredu y gall yr afiechyd gael ei drosglwyddo yn llaeth y fron. Adrodda Steele [*Med. Gaz.*, Hyd. 25, 1839] am ddwy ddafad a frathwyd gan gi cynddeiriog. Yr oedd i un ddau oen, ac i'r llall un. Bu farw y tri o'r afiechyd yn mhen yr wythnos ar ol hyny, er na frathwyd hwy gan y ci, nac, fel y tybid, gan eu mamau. Ond teimlir mwy o ansicrwydd fyth, gyda golwg ar yr holiad, Ai nid all brathiad anifail iach, ond ei fod mewn nwyd, effeithio yr afiechyd? Gellir bod yn ddigon sicr y gall brathiad anifail brofi yn farwol yn mhell cyn i unrhyw arwyddion o gynddaredd ymddangos.

Y mae cryn anhawsder eto i benderfynu pa beth ydyw yr achos nad oes ond cyfartaledd bychan, mewn cymhariaeth, o bersonau a frethir gan gŵn, neu greaduriaid cynddeiriog ereill, yn derbyn un niwed oddi wrth hyny. Nis gellir ei briodoli i arferiad o unrhyw foddion rhagflaenol, ac nid bob amser y gellir ymddiried i'r gwahaniaeth yn nghyfansoddiad y naill rhagor y llall. Tybir, pa fodd bynag, fod graddau y gwenwyn yn fwy yn nghlafoer gwahanol greaduriaid. Ymddengys fod brathiad blaidd cynddeiriog yn cyffredin yn fwy marwol nag eiddo y ci. Mewn achos adnabyddus i John Hunter, yr oedd un ar ugain o bersonau wedi eu brathu gan yr un ci, ac un o honynt yn unig a niweidiwyd; mewn achos arall, brathwyd dau ar bymtheg o bersonau yn Brive gan flaidd, a bu farw deg o honynt dan y gynddaredd; yn y trydydd, brathwyd pymtheg o bersonau gan gi, ac yr oedd y cnawd wedi ei ddryllio mewn deg o'r pymtheg, ond ni bu ond tri o honynt feirw. Nid oedd unrhyw foddion wedi eu defnyddio i ragflaenu yr afiechyd mewn un o'r achosion hyn; ac y mae y Dr. Hamilton [*Remarks on Hydrophobia*, cyf. i.], ar ol profion manwl, yn dadgan ei gred, pa un a arferir moddion ai peidio, mai un o bob pump ar ugain ydyw y cyfartaledd o bersonau wedi eu brathu gan gŵn cynddeiriog, a fyddant feirw o'r gynddaredd. Heb law y dybiaeth uchod, yr achos mwyaf tebygol nesaf ydyw, nad yw y gwenwyn yn cael ei gymhwyso mor effeithiol yn y naill ag yn y llall. Prawf cryf o hyn ydyw, fod y brathiad bob amser yn fwy peryglus ar y gwyneb neu y llaw, na lle y byddo y dant yn gyntaf wedi myned trwy rai o'r dillad. Y mae y gwenwyn yn cael ei sugno felly gan y dillad cyn yr elo y dant i mewn i'r cnawd. Gellid crybwyll hefyd fod creaduriaid ereill yn fwy agored i dderbyn yr afiechyd na dyn. Mewn achos lle y brathwyd pedwar o bersonau, a deuddeg o gŵn, gan un ci, bu farw yr holl gŵn, ond ni bu farw un o'r dynion.

YMDDEORIAD Y GWENWYN.

Y mae y cyfwng o amser y brathiad hyd ymddangosiad yr arwyddion cyntaf o gynddaredd, yn ddarostyngedig i lawer iawn o wahaniaeth. O'r deg a nodwyd eisoes—y rhai a frathwyd gan y blaidd—cymmerwyd un yn glaf yn mhen un niwrnod ar bymtheg, ac un arall yn mhen wyth niwrnod a thrigain ar ol y dygwyddiad. Y tri, o'r pymtheg a frathwyd gan yr un ci, a fuant feirw rhwng y degfed ar ugain a'r trydydd dydd a thrigain. Deugain niwrnod a ystyrir fel yr amser cyffredin; er fod rhai achosion yn adnabyddus lle y bu yr afiechyd yn guddiedig am ddeunaw mis: a dywed Dr. Bardsley nad ellir ystyried un a frathwyd, oddi eithr ei fod wedi arfer moddion mewn pryd, yn gwbl allan o berygl, o leiaf am ddwy flynedd. Un ffaith hynod a berthyn i'r ysbaid hwn ydyw, nad oes unrhyw ennyniad lleol yn ymddangos yn y lle a frathwyd, nac unrhyw anhwyldeb yn cael ei deimlo yn yr iechyd cyffredin, drwy yr holl amser, oddi eithr fod y person yn wastadol dan ddylanwad ofn.

ARWYDDION.

Y mae arwyddion yr afiechyd mewn cŵn a chreaduriaid ereill ychydig yn wahanol i'r hyn ydynt mewn dyn; a chan mai achub blaen yr afiechyd yw y feddyginiaeth oreu, byddai yn fuddiol nodi yma yr arwyddion cyntaf yn y ci. Gall adnabyddiaeth o'r rhai hyn fod o wasanaeth mawr.

Am arwyddion y gynddaredd mewn cŵn, dywed Mr. Youatt [gwel, *The Dog*, gan W. Youatt; Llundain, 1845] mai sarigrwydd, aflonyddwch, a symmudiad parhaus o fan i fan, ydynt y rhai cyntaf. Ymneilldua y ci i'w orweddle; erys yno am oriau, â'i ben rhwng ei draed; yna y mae yn myned yn aflonydd, ac yn symmud oddi amgylch, ac yn newid ei le; ymddengys yn ddig ac yn ammheus; ac o'r diwedd, edrycha yn syn ar bob peth o'i amgylch. Arwydd cynnar arall

Digitized by Google

ydyw math o syfrdandod; neidia i fyny a chyfartha yn ddigofus at ryw wrthddrych cwbl ddychymygol. Dywed Mr. Youatt iddo yn fynych weled ci cynddeiriog, ar ol mynyd o esmwythdra, yn cyfodi â chreulonedd digymmysg yn ei wedd, ac yn rhuthro ar hyd ei gadwen, gyda'r udiad mwyaf cyffrous. Ond os dygwydd i'w berchen fod ger llaw i siarad âg ef, y mae yr achos o'i ddychryn yn y fan wedi diflanu, ac ymlusga tuag ato gyda'r arwyddion cyffredin o serchlonedd. Unwaith eto daw iddo fynyd o lonyddwch; "y mae y llygaid yn araf gau, ymlaesa y pen, ac ymddengys ei draed blaen fel yn rhy wan i'w gynnal—syrthia; ond neidia i fyny drachefn; y mae pob math o ddychryn unwaith eto yn ei amgylchu; y mae yn edrych yn wyllt o'i amgylch, yn brathu, yn cyfarth, ac yn rhuthro eilwaith yn hyd ei gadwen i gyfarfod â'i elyn dychymygol." Dengys rhai cŵn yn y cyflwr hwn lawer mwy o greulondeb na'u gilydd. Y mae rhai, os gollyngir hwy yn rhydd, a ruthrant yn ddiarbed i ddyn ac anifail, gan frathu pawb a phob peth yn eu ffordd. Ereill a ddangosant fwy o hoffder nag arferol, ac nis gellir mewn un modd beri iddynt frathu; ond ceisiant lyfu llaw neu wyneb eu cydnabod yn barhaus. Gwenwynwyd llawer un fel hyn, trwy fod rhyw doriad yn dygwydd bod ar y croen; ac o blegid hyn, pan welir fod ci yn gynddeiriog, dylid chwilio rhag bod ar un o'r teulu unrhyw grafiad damweiniol y gallai y ci fod wedi ei lyfu; ac os bydd, dylid ei serio ar unwaith.

Arwydd cynnar a sicr arall o gynddaredd ydyw, *newidiad y llais*. Dywed Mr. Youatt fod pob swn a wneir gan g cynddeiriog, i ryw raddau yn gyfnewidiol. Ond y mae dau swn neillduol sydd yn deilwng o sylw: un a ddysgrifir fel "math o gyfarthiad mewnol garw, gyda chyfodiad ysgafn yn y sain;" y llall "sydd fath o gyfuniad hynod a nodweddiadol o gyfarthiad perffaith, yn diweddu yn swta mewn udiad rhyfedd, yn y pummed, chweched, neu yr wythfed oddi ar y cywair dechreuol." Canfyddir arwyddion ereill yn nechreuad yr afiechyd, megys coll archwaeth, tuedd i lyfu pethau oerion, megys ceryg, neu haiarn, ac i safneidio gwellt neu ysbwrial cyffelyb; ac awch neillduol i arogli a llyfu lleoedd drewedig, ac hyd yn oed conglau ystafelloedd glân. Ystyrir hwn yn arwydd tra neillduol a phwysig. Camsyniad ydyw meddwl fod y ci yn ofni dwfr; ond i'r gwrthwyneb, y mae ei syched anniwall yn peri iddo ei leipian tra byddo ganddo ddigon o lywodraeth ar gâr yr ên i wneyd hyny. Y mae y geg yn sych, a'r glafoer yn dra gwydn; ac yn fuan y mae yn myned yn fwyfwy felly, nes y mae o'r diwedd mor ludiog fel y mae yn chwanegu yn ddirfawr at boenau y creadur, yr hwn a welir â'i draed yn llafurus yn ceisio ei rwbio ymaith. Fel hyn, pan y mae yr afiechyd wedi ei gwbl ffurfio, y mae syfrdandod mwy neu lai creulawn, newidiad llais, syched angerddol, glafoer gwydn, a gellir chwanegu dideimladrwydd hollol, yn arwyddion anffaeledig yn ei ganlyn. Yn agos i'w ddiwedd, y mae y llygaid yn pylu; y mae y traed ol, ac wedi hyny cyhyrau yr ên, yn diffrwytho; ac yna y mae y creadur wedi ei dreulio allan, ac yn marw o hono ei hun. Y mae achosion yn y rhai y mae cyhyrau yr ên yn diffrwytho yn nechreuad yr afiechyd, gan beri fod y geg yn agored, a'r tafod yn estynedig allan. Gelwir ef yn y ffurf yma yn gyffredin yn *gynddaredd mud*. Yn nechreu yr afiechyd, y mae y march yn ymddangos yn ddychrynedig iawn, ac wedi ei orchuddio â chwys; y mae yn fuan yn myned yn aflywodraethus, yn gwehyru, yn cicio, ac yn "cloddio â'i draed yn y ddaiar." Yn y defaid y mae yr arwyddion yn gyffelyb. Adroddir yn y *Lancet* am wyth o ddefaid wedi eu brathu, a'u myned oll yn gynddeiriog; yr oeddynt yn dra ffyrnig, ond ni frathent. Yfent yn helaeth iawn.

Sylwir bellach ar arwyddion yr afiechyd mewn dyn. Yn mhen rhyw ysbaid—hyd yr hwn, fel y sylwyd eisoes, sydd yn gwahaniaethu mewn gwahanol bersonau—ar ol y brathiad neu weuwyniad â glafoer creadur cynddeiriog; mewn rhyw ddull arall, megys trwy lyfiad ar friw blaenorol—teimla y dyoddefydd boen dyeithr yn yr hen ddolur, yn cael ei ddilyn â gwres, cochni, ac ychydig chwydd. Y mae y boen yn rhedeg yn ffordd y gewynau, ac yn meddu tebygrwydd yn gyffredin i glefyd y gïau. Ond bryd arall, yn lle poen, y mae anystwythder a merwinder, cyffelyb mewn rhan i barlys. Mewn rhai achosion, nid oes na chochni na chwydd; mewn ereill, y mae y briw wedi cwbl ennyn, ac ail dori allan, er ei fod o'r blaen wedi hen iachau. Y mae rhai amgylchiadau wedi dygwydd heb i un o'r arwyddion rhagflaenol hyn wneyd eu hymddangosiad; neu os gwaethant, yr oeddynt yn rhy ysgeifn i beri un sylw nac anesmwythder: ac mewn ychydig iawn o anghreifftiau, ni welwyd un o honynt mewn un modd, nes i wir arwyddion y gynddaredd dori allan. Yn y cyffredin, pa fodd bynag, y mae yr arwyddion uchod wedi cael y blaen ar arwyddion penodol y gynddaredd, yn rhywle o ddau i bum niwrnod. O'r arwyddion nesaf, y cyntaf ydyw, rhyw deimlad rhyfedd o anesmwythder a phryder. Teimla y dyoddefydd ei fod yn wael; y mae ei feddwl yn gyffrous, a'i edrychiad yn bruddglwyfus; y mae olyniad rheolaidd o iasau a gwridiadau yn myned drosto, a chur diflanol yn ei ben; palla yr archwaeth, a dilynir hyn yn fynych gan gyfog, ac arwyddion amlwg o glefyd. Yna cwyna gan anystwythder yn y war, a dolur yn y gwddf, yn nghyd â phoen dirdynol yn yr argylla; y mae yr anadliad yn ddyryslyd, ac yn cael ei attal yn fynych gan ocheneidiad. Ond priodolir yr arwyddion hyn yn gyffredin i oerfel, ac am ddiwrnod neu ddau ni feddylir ond ychydig o honynt, nes y mae y dyoddefydd, yn hollol ar unwaith ac yn ddisymmwth, wrth geisio yfed, yn cael ei ddal gan bangfa o ddirdyniad mygol, ac yn amlygu y dychryn mwyaf wrth weled pob math o hylifau.

Yr arwyddion mwyaf amlwg a ddilynant ydynt y rhai canlynol:—(1.) *Anhawsder i anadlu a llyncu.* Achosir hyn gan ddirdynfa yn nghyhyrau y freuant a'r arsefnig. Weithiau, nis gall y dyoddefydd lyncu na sych na gwlyb, ond yr hylifau yn gyffredin sydd yn ei lwyr orchfygu, a hyny o blegid y rhoddant fwy o waith i'r cyhyrau uchod; a thrwy hyny y maent yn fwy tueddol i effeithio y dirdyniad. Yr amgylchiad hwn sydd yn achosi y fath wrthwynebiad yn y dyoddefydd i bob math o hylifau, a'r dychryn wrth eu gweled; yr hyn sydd mor gyffredin yn nodweddu yr afiechyd. Effeithir y dirdyniad ar y cyntaf pan yr ymdrechir llyncu rhyw hylif yn unig; ond yn fuan y mae yr olwg arnynt, neu y meddwl am danynt, yn ei ddwyn oddi amgylch. Fel y mae yr afiechyd yn cynnyddu, y mae y pangfeydd yn dyfod yn amlach, weithiau o honynt eu hunain, a phryd arall yn cael eu cynhyrfu gan y twrf neu y cyffyrddiad lleiaf. Yn y pangfeydd hyn,

Digitized by Google

wedi iddynt ddyfod i'w llawn nerth, y mae y dyoddefydd yn ymegnio am ei anadl yn y modd mwyaf dychrynllyd. Y mae yr holl gyhyrau mewn dirdyniad, y gwyneb yn ddu ac yn chwyddedig, a'r llygaid yn neidio allan o'u tyllau. Yn yr afiechyd hwn, fel y dirdynwst, gall marwolaeth gymmeryd lle yn ddisymmwth trwy fygiad mewn un o'r pangfeydd; er fod hyn yn dygwydd yn fwy cyffredin trwy wendid ar ol i'r bangfa fyned drosodd. (2.) Yn nesaf at y dirdyniadau hyn, *mae cyffroad trwm yn holl arwynebedd y corff* yn un o arwyddion mwyaf amlwg y gynddaredd. Yr argraffiadau lleiaf ar y synwyrau a effeithiant ar y dyoddefydd yn y modd dwysaf. Edrychiad neu swn, agoriad neu gauad drws yr ystafell, unrhyw symmudiad, adlewyrchiad goleuni oddi ar ddrych; y cyffyrddiad lleiaf â'r croen, pe na byddai ond pluen; neu symmudiad yr awel fwyaf tyner—maent yn ddigon effeithiol i ddwyn oddi amgylch y pangfeydd yn eu holl rym a'u harswyd; ac o herwydd hyny y mae y dyoddefydd yn eu hofni yn y modd mwyaf difrifol. (3.) Yn y rhan fwyaf o esamplau, y mae *agwedd y meddwl* yn un o arwyddion mwyaf nodweddiadol y gynddaredd. Ymddengys y dyoddefydd wedi ei feddiannu âg anobaith dwfn; y mae geiriau cysurol yn gwbl ddieffaith arno; y mae ei wedd yn hagr, ei symmudiadau yn aflonydd, a swn brysiog pruddglwyfus yn ei lais. Yn y cyffredin y mae yn dra siaradus ac amleiriog, fel pe yr ymdrechai i esmwythau neu i guddio ei boenau trwy ymddyddan diorphwys. Ond mewn rhai achosion, y mae wedi ei feddiannu â chreulondeb gwallgofus a dilywodraeth, fel y bydd raid i'w gyfeillion ei rwymo yn dŷn, rhag iddo wneyd niwed iddo ei hun ac i ereill; mewn ereill drachefn, y mae yn dygwydd—os bydd y dyoddefydd yn ddyn o feddwl cryf, penderfynol, yn wreiddiol—ei fod yn alluog i'w feddiannu ei hun trwy ystod ei afiechyd, a'i fod yn meddu ar ddigon o wroldeb hyd y diwedd i geisio yfed, er gwaethaf pob ofn a dychryn.

CYNNYDD A THERFYNIAD.

Pan y bydd yr afiechyd wedi ei gwbl sefydlu, chwanegir at boenau y dyoddefydd gan syched angerddol; ond yn benaf gan fath o udiad gwydn o'r llyncfa, llediad yr hwn sydd yn effeithio pang dirdynol, ac yn achosi *hochiad* parhaus a phoeriad—y rhai ydynt ei arwyddion cysson. Yn fynych, bydd mater gwyrdd yn cael ei gyfogi, a hwnw wedi ei gymmysgu â gwaed. Fel y mae yr afiechyd yn myned rhagddo, y mae y pangfeydd yn dyfod yn amlach ac yn fwy creulawn; mae y claf mewn anhunedd a dychryn parhaus; y mae y gwefusau a'r gruddiau yn myned yn ddugoch a chrynedig: o'r diwedd, y mae un bangfa yn dyfod ac yn parhau mor hir nes amddifadu y dyoddefydd o weddill ei nerth, gan osod terfyn ar ei boenau. Y mae y dyoddefydd weithiau, trwy ymarferiad â moddion efallai, yn cael llonyddwch hollol: ymddengys yn gwbl esmwyth, ac hwyrach yn cysgu am oriau: ond ar ol ysbaid o amser, dychwela yr arwyddion drachefn gyda nerth a ffyrnigrwydd adnewyddol. Eto, mewn rhai amgylchiadau, y mae tawelwch perffaith yn blaenori marwolaeth. Y mae y dyoddefydd yn gwbl dawel, a'r rhan fwyaf o'i ofidiau wedi diflanu; gall fwyta, ie, yfed neu siarad gyda rhwyddineb; a'r gwrthddrychau a barent y fath boenau annirnadwy iddo o'r blaen, nid ydynt mwyach yn cyffroi ei feddwl. O'r tawelwch hwn mae yn ymollwng i gwsg, o'r hwn yn ddisymmwth y mae yn deffro, ac yn marw."

DIFYNIAETH GLEFYDOL.

Yr ymddangosiadau afiachus mwyaf cyffredin ydynt cydgroniad yn mhilionenau a sylwedd yr ymenydd a madruddyn y cefn, ac arllwysiad dwfr gwaedlyd. Weithiau, mae gwaed wedi llifo o'i lestri priodol, ac ymgasglu o amgylch y rhan a berthyn i'r gwddf o'r madruddyn. Y mae glasgroen y geg, y sefnig, y freuant, a'r pibau gwynt, yn dra gorlawn; y didenau wrth wraidd y tafod yn fawr, a'r ysgyfaint yn gronedig. Cynnwysa y cylla fath o hylif du; a gwelir ynddi, yn gystal ag yn y perfeddion, ysmotiau llawnion o liw porphor tywyll. Ond er fod un neu chwaneg o'r ymddangosiadau afiachus hyn i'w gweled yn y rhan fwyaf o achosion sydd yn dyfod dan law difynwyr, nid oes un o honynt sydd yn sicr o fod bob amser yn bresennol. Gwelwyd yr ymenydd, madruddyn y cefn, a'r genau weithiau yn welw, a'r cylla heb un arwydd annaturiol. Canfyddwyd mewn rhai amgylchiadau sur glasulig (*hydrocyanic*) yn y gwaed ar ol marwolaeth; ond nis gellir edrych ar hyn yn perthyn yn unig i'r gynddaredd.

HEINTOFYDDIAETH.

Y mae yn amlwg, gan hyny, nad oes un newidiad yn y cyfluniad wedi ei ganfod eto a ellir ei ystyried yn hanfodol i fodolaeth y gynddaredd. Gwnaeth Syr Astley Cooper broflon manwl ar lawer o gŵn a fuont feirw o'r gynddaredd; ond ni chanfyddodd un ymddangosiad afiachus yn yr ymenydd; ac er chwilio madruddyn y cefn yn ofalus, ni welodd un niwed o bwys yno. Nid yw y ffeithiau hyn, pa fodd bynag, yn benderfynol yn erbyn y ddysgeidiaeth sydd yn priodoli y gynddaredd i anhwyldeb yn yr ymenydd a madruddyn y cefn; o blegid fod yr afiechyd yn gwneyd ei waith mor gyflym, nad yw yn rhoddi amser digonol i'r newidiad hwnw yn y cyfluniad sydd i'w weled yn fynych mewn ermigau wedi eu anhwylio. Y mae yn wir y gellir mewn rhan briodoli yr anhawsder i anadlu a llyncu i ennyniad dirfawr y genau; ac y mae mawr gyffroedd yr holl gorff yn dra arwyddol o ryw ddrwg yn y madruddyn; ond nid all unrhyw ymddangosiad lleol egluro yr holl arwyddion sydd yn rhwym o ddibynu ar ryw gyfnewidiad hynod yn y gwaed, neu y gïau, neu bob un o honynt.

ARGOELEG.

Y prif argoelyddion ydynt y dyboeriad, ac yn neillduol y dylanwad sydd gan darawiad tyner o wynt i ddwyn oddi amgylch y pangfeydd dirdynol. Adroddir gan Mr. Druett, iddo, yn Ngorphenaf 1854, fyned gyda Dr. Challice o Bermondsey i weled achos o gynddaredd. Gwraig tua chanol oed oedd y person, a brathwyd hi yn ei throed gan gath yn y mis Ebrill blaenorol. Gorweddai yn ei gwely, ac ymddangosai yn rhesymol a thawel; ac ni allasai neb feddwl ar y cyntaf wrth edrych arni fod dim yn ei blino. Ymaflodd Mr. Druett yn ei llaw i deimlo curiad y gwaed; a thra yn gwneyd hyny, anadlodd arni mor ysgafn ag y gallasai. Ar darawiad, neidiodd y wraig i fyny yn ei gwely, bron wedi ei hollol orchfygu gan bang dirdynol yn ei gwddf. Yr oedd hyn yn ddigon o argoel.

MODDION RHAGFLAENOL.

Mor fuan ag y gellir, ar ol brathiad gan gi ammheus, dylai yr holl friw gael ei sugno; ac mor fuan ag y gellir wedi hyny, dylid ei dori ymaith neu ei serio, neu bob un o'r ddau. Y mae Mr. Youatt yn cymmeradwyo ei serio â *nitrate of silver*; ac y mae ganddo yn sicr hawl i siarad o'i blaid, gan ei fod ef ei hun wedi ei

Digitized by Google

frathu amryw weithiau, ac wedi dianc yn ddianaf, er nad arferodd un moddion i ragflaenu y perygl ond hyn. Y mae hefyd yn nodi anghreifftiau o amryw anifeiliaid wedi eu brathu gan yr un ci; ac yn dywedyd fod y rhai a seriwyd â'r *nitrate of silver* wedi cael eu hachub, tra y bu y lleill feirw o'r gynddaredd, er fod y briw wedi cael ei dori ymaith a'u bod wedi eu serio yn y drefn arferol â haiarn poeth. Y mae y ffeithiau hyn, fel y cydnabyddir gan awdurdodau uchel, yn dyweyd llawer o blaid arfer y *nitrate of silver;* ond haerir fod esamplau ereill, yn y rhai y cafodd ei arfer yn fuan ac yn helaeth, a'i fod wedi ei brofi yn y rhai hyny yn gwbl aneffeithiol. Y rheol, pa fodd bynag, a gymmeradwyir ac a ddilynir gan y llawfeddygon goreu, ydyw tori ymaith y rhan frathedig â'r gyllell. Wedi hyny, arferer y cibwaedryn i dynu cymmaint ag a ellir o waed o'r briw; neu, golcher ef yn hir ac yn ofalus â dwfr cynhes. Ac yna, os bydd rhyw bryder na bydd y toriad yn ddigon, arferer *nitrate, nitric acid,* neu *caustic potass* i serio holl wyneb y briw. Nid yw hyn er y cwbl yn cael ei ystyried yn anffaeledig. Pan ystyrir fod sylweddau a gyflwynir yn iawn i'r gwaed yn cael eu trosglwyddo dros yr holl gorff mewn can lleied a *naw eiliad* o amser, y mae yn amlwg nas gellir bod yn hollol sicr yr ateba y toriad na'r seriad y dyben, er iddynt gael eu harfer gyda phob brys galluadwy. Eto, *ni ddylent byth gael eu hesgeuluso, pa faint bynag o amser fyddo wedi myned heibio er y brathiad.* Adroddir un achos yn y *Lancet,* Medi 23ain, 1837, lle yr achubwyd y dyoddefydd, er na chafodd y brathiad ei dori hyd ben un niwrnod ar ddeg ar ugain ar ol iddo gael ei wneyd, a phryd yr oedd arwyddion yr afiechyd yn barod wedi gwneyd eu hymddangosiad. Y mae y chwedl hon, pa fodd bynag, yn dra ammheus.

Gyda golwg ar bob moddion ereill, nid oes dim yn fwy pwysig na chadw y gofal mwyaf am yr iechyd cyffredin, a dal y meddwl mor siriol a llawen ag y gellir. Goreu i'r dyoddefydd po leiaf a wnelo â'r gwag gynghorion a ddichon eu cael gan ddynion anwybodus neu ofergoelus. Nid oes un o honynt yn werth mynyd o sylw.

MEDDYGINIAETH.

Os oes y fath beth a meddyginiaeth i'r afiechyd dychrynllyd hwn, nid yw yn perthyn i'r gwaith hwn, nac yn rhan o'n bwriad yn yr ysgrif hon, i draethu dim ar hyny. Er cymmaint o duedd sydd mewn llawer o'n cydwladwyr i gymmeryd eu hudo gan ymhonwyr twyllodrus mewn llawer achos, ai tybed, os dygwydd i un o honynt fod mor anffodus a chael ei frathu gan gi cynddeiriog, nad yw yn meddu ar ddigon o synwyr i fyned yn ddioed a rhoddi ei achos yn llaw y meddyg mwyaf profedig y gŵyr efe am dano. Y mae hwn yn well na mil o gynghorion tuag at wella y clwyf. Ond, ac edrych ar y feddyginiaeth fel pwnc o hanes, y tebygrwydd ydyw na wellhawyd neb erioed o wir glefyd y gynddaredd. Dywed Mr. Youatt ei fod ef wedi ei ragflaenu yn effeithiol mewn cŵn, ac iddo weled rhai yn gwellhau o honynt eu hunain; ond y mae yn addef nad yw yn meddwl iddo ef feddyginiaethu un erioed. Dywed Dr. Elliotson ei fod ef yn credu y gall yr afiechyd derfynu yn y cyfansoddiad heb fyned yn mhellach na'r arwyddion cyntaf. Adroddir am amryw achosion o gynddaredd bendant, lle y tybid fod y naill foddion neu y llall wedi profi yn afferiadol. Ond pan ystyrir fod y moddion a dybiwyd yn llwyddiannus yn yr achosion hyny wedi profi yn aneffeithiol lawer gwaith mewn ereill, rhaid credu nad oedd yr achosion eu hunain yn rhai gwirioneddol, neu mai damweiniol a naturiol oedd yr adferiad o honynt.

Gellid llenwi tudalenau lawer â hanes y gwahanol foddion a ddefnyddiwyd, a'r prawf a wnaed o honynt. Y mae nifer mawr o'r cyfryw yn awr ger ein bron, a gallesid boddio cywreingarwch llawer wrth eu hadrodd; ond hyn yw y diwedd wedi y cwbl, nad ydyw celfyddyd eto yn meddu un sicrwydd am wir natur yr afiechyd, nac wedi cael allan un ffordd anffaeledig i'w wellhau. Yn nghyflwr presennol gwybodaeth feddygol, yr oll sydd gan y goreu i'w wneyd ydyw esmwythau ychydig ar ofidiau y dyoddefydd. Y mae marwolaeth bob amser yn cymmeryd lle cyn pen chwe diwrnod o ddechreuad amlwg yr afiechyd. Mewn rhai achosion, y mae y boen drosodd mewn pedair awr ar ugain, ac yn y rhan fwyaf mewn llai na deugain awr.

Heblaw yr awduron y cyfeiriwyd atynt eisioes, ceir llawer o hysbysrwydd ar yr afiechyd hwn yn *Trans. Soc. for the Improv. of Med. and Chir Knowl.,* cyf. i. erth. 17; *Thoms. Med. Chir. Trans.,* cyf. xiii; *Med. Gaz.,* 1839, 1841; *Heysham's Diss. inaug. de Rab. Canin; Parr. Diss. inaug. de Rab. contag. sive Canin; Andry. Recherches sur la rage: Cases of Hydrophobia, Dr. Vaughan.*

CYNDDEIRIOG. Gwel CYNDDAREDD.

CYNDDYLIFIAID. Gwel DYLIF.

CYNFODOLAETH IESU GRIST, neu ei fodolaeth cyn ei ymgnawdoliad.

Tybia rhai, oddi wrth yr adnodau canlynol, ei fod mewn bodolaeth cyn yr amser hwnw:—*Ioan* iii. 13; vi. 50, &c.; xvii. 5; viii. 58; 2 *Cor.* viii. 9; *Phil.* ii. 5—11; *Ioan* i. 3: ond y mae amrywiol farnau yn nghylch natur y fodolaeth hon. Addefa y rhai hyn fod gan Iesu natur ddwyfol, enaid rhesymol, a chorff dynol; ond tybiant fod ei gorff wedi ei ffurfio yn mru y forwyn Fair; mai ei enaid dynol oedd y cyntaf a'r ardderchocaf o holl waith Duw; ei fod wedi ei ddwyn i fodolaeth cyn creadigaeth y byd, a'i fod yn trigo mewn undeb dedwydd yn y nefoedd â'r ail berson yn y Drindod, hyd ei ymgnawdoliad. Y mae y dawinyddion hyn yn gwahaniaethu oddi wrth y rhai a elwir yn Ariaid; canys ni phriodola y diweddaf i Grist ond Duwdod creedig yn unig [gwel ARIAID], tra y cred y rhai blaenaf yn ei ddwyfoldeb gwirioneddol a phriodol: gwahaniaethant hefyd oddi wrth y Sociniaid, y rhai ni chredant yn modolaeth Crist cyn ei ymgnawdoliad: gwahaniaethant oddi wrth y Sabelliaid hefyd, y rhai ni addefant ond Trindod o enwau yn unig: a gwahaniaethant oddi wrth yr opiniwn a dderbynir yn gyffredin, sef, fod yr enaid dynol wedi dechreu bodoli yn mru ei fam, mewn cydymffurfiad hollol â'r cyffelybrwydd hwnw i'w frodyr ag y mae Paul yn llefaru am dano yn *Heb.* ii. 17. Y mae yr ysgrifenwyr sydd yn pleidio cynfodolaeth enaid dynol Iesu Grist yn seilio eu golygiadau ar y gosodiadau canlynol:—

1. Arddangosir Crist fel cenad neu angel ei Dad, ar wahân oddi wrth ei Dad, yn cael ei anfon ganddo, lawer o amser cyn ei ymgnawdoliad, i gyflawnu gweithredoedd a ymddangosent fel yn rhy isel i urddas y Duwdod. Y mae ymddangosiadau Crist i'r patriarchiaid yn cael eu gosod allan fel ymddangosiadau angel, neu ddyn, yn wirioneddol wahanol oddi wrth Dduw; eto, y fath un yn yr hwn y trigai Duw, neu Iehofah,

mewn modd neillduol, neu un ag yr oedd undeb personol rhyngddo a'r natur ddwyfol.

2. Dywedir fod Crist, pan y daeth i'r byd, mewn amryw adnodau yn yr Ysgrythyr, wedi ymddiosg oddi wrth ryw ogoniant a fwynhäai cyn ei ymgnawdoliad. Yn awr, os nad oedd dim yn bodoli cyn hyn ond ei natur ddwyfol, nis gallai y natur ddwyfol hon yn briodol roddi dim o'i gogoniant o'r neilldu. "Mi a'th ogoneddais di ar y ddaiar; mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur. Ac yr awr hon, O Dad! gogonedda di fyfi gyda thi dy hun â'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd;" *Ioan* xvii. 4, 5. "Canys chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi drwy ei dlodi ef;" 2 *Cor.* viii. 9. Nis gellir dyweyd am Dduw ei fod wedi myned yn dlawd: y mae efe yn anfeidrol hunan-ddigonol; y mae o angenrheidrwydd ac er tragwyddoldeb yn gyfoethog mewn perffeithderau a gogoniant. Ac nis gellir dyweyd chwaith am Grist fel dyn, iddo fod yn gyfoethog, os na bu erioed o'r blaen mewn sefyllfa gyfoethocach na'r un yr oedd ynddi tra ar y ddaiar.

3. Ymddengys fod angenrheidrwydd am i enaid Crist gynfodoli, fel y cawsai fantais i gydsynio yn flaenorol i ymgymmeryd â gwaith pwysig y prynedigaeth. Enaid dynol yr Arglwydd Iesu a ddyoddefodd wendid a phoenau ei fabandod, a holl lafur a blinderau ei fywyd, gwatwaredd dynion, a phangfeydd marwolaeth. Y mae y natur ddwyfol yn analluog i ddyoddef, o blegid nis gellir ei phoeni. Gan hyny, gosodir allan fod cyfammod y prynedigaeth wedi ei wneuthur rhwng y Tad a'r Mab er cyn seiliad y byd. Y mae anghyssondeb mewn tybio fod y Duwdod ei hunan, neu y natur ddwyfol, yr hon sydd yn ogyfuwch yn y tri Pherson, wedi gwneuthur cyfammod âg ef ei hun.

4. Crist ydyw yr angel â'r hwn yr oedd Duw wedi ymuno mewn modd neillduol, a'r hwn, mewn cyssylltiad â'r undeb yma, a wnaeth yr holl ymddangosiadau dwyfol y sonir am danynt yn yr Hen Destament. Arddangosir Duw yn yr Ysgrythyrau fel yn ymddangos mewn ffurf weledig, ac ar agwedd dyn. Gwel *Gen.* iii. 8; xvii. 1; xxviii. 12; xxxii. 24; *Exod.* ii. 2; a llawer o adnodau ereill.

5. Pan y deuai yr Arglwydd Iehofah i'r ddaiar i ymweled â dynion, byddai rhyw arwydd o'i ddwyfol fawrhydi yn ei ddilyn; amgylchynid ef â dysgleirdeb gogoneddus. Ymddangosai y fath oleuni yn fynych wrth ddrws y tabernacl, gan ymsefydlu ar yr arch, rhwng y cerubiaid; a gelwid ef gan yr Iuddewon y Shecinah; hyny yw, trigle Duw. Gan hyny, darlunir ef fel yn trigo yn y goleuni, ac wedi ei wisgo â goleuni fel dilledyn. Yn nghanol y dysgleirdeb hwn, ymddengys y byddai, ar rai prydiau, ffurf dyn i'w weled. Y mae yn debygol mai o'r goleuni nefol hwn yr ymddiosgodd Crist, pan y gwnaethpwyd ef yn gnawd. Ac â hwn yr ydoedd wedi ei orchuddio pan y gweddnewidiwyd ef yn y mynydd, pan yr oedd ei wisg yn "wen ddysglaer;" a phan yr esgynodd i'r nefoedd, pryd y derbyniwyd neu y gwisgwyd ef â chwmwl dysglaer; a phan yr ymddangosodd i Ioan (*Dad.* i. 13); ac â hwn y gweddïai am i'w Dad ei ogoneddu wedi iddo fyned trwy ei ddyoddefiadau.

6. Ymddangosai y Duw mawr a bendigedig, rai prydiau, ar ffurf dyn neu angel. Y mae yn eglur fod y gwir Dduw yn trigo yn y dyn neu yr angel hwn; o blegid ar gyfrif yr undeb hwn â'r Duwdod y mae yr angel yn galw ei hun yn Dduw, yn Arglwydd Dduw. Y mae yn gwisgo enwau a chymmeriadau mwyaf dyrchafedig y Duwdod. Ac y mae yn eglur fod yr edrychwyr, yn nghyd â'r haneswyr ysbrydoledig, yn ei ystyried fel yn wir Dduw: talent iddo yr addoliad a'r ufudd-dod penaf. Gelwir ef yn briodol, "angel ei gynddrychioldeb;" *Esa.* lxiii. 9. "Angel (neu genad) y cyfammod;" *Mal.* iii. 1.

7. Yr angel hwn hefyd oedd Duw a brenin cenedl Israel. Efe oedd yr hwn a wnaeth gyfammod â'r patriarch, a ymddangosodd i Moses yn y berth yn llosgi, a waredodd y genedl o'r Aipht, a'u harweiniodd drwy yr anialwch, a roddodd y ddeddf ar Sinai, ac a lywodraethodd achosion yr eglwys foreuol.

8. Nid ydyw yr angelion a ymddangosasant ar ol ymgnawdoliad ein Gwaredwr erioed wedi cymmeryd arnynt yr enwau, y teitlau, y cymmeriadau, neu yr addoliad, a berthynant i Dduw. Gan hyny, gallwn gasglu mai yr angel hwnw a gymmerai arno ei hun deitlau dwyfol, ac a dderbyniai addoliad crefyddol, dan yr Hen Destament, oedd angel cynddrychiolydd Duw—yn yr hwn y trigai Duw, neu yr hwn oedd wedi ei uno â'r Duwdod mewn modd arbenigol.

9. Gesyd Crist ei hun allan fel un gyda'r Tad: "Myfi a'r Tad un ydym;" *Ioan* x. 30; xiv. 10, 11. Gellir casglu oddi wrth hyn fod y fath undeb neillduol rhwnw Duw a'r dyn Crist Iesu, yn ei sefyllfa gynfodol yn gystal ag yn ei sefyllfa o ymgnawdoliad, fel y gellir yn briodol ei alw yn Dduw-ddyn mewn un person.

Yn mysg yr ymadroddion hyny yn yr Ysgrythyr a dybir eu bod yn dadguddio cynfodolaeth Crist, y mae amryw yn cael eu nodi fel yn dangos profion cedyrn o'i ddwyfoldeb; megys y lleoedd hyny yn yr Hen Destament lle y gelwir yr angel a ymddangosai i'r hynafiaid yn Dduw, Duw Hollalluog, Iehofah, Arglwydd y lluoedd, Ydwyf yr hwn ydwyf, &c.

Tybiai Dr. Watts fod athrawiaeth cynfodolaeth enaid Crist yn taflu goleuni ar Ysgrythyrau tywyll ac anhawdd eu deall, ac yn dadguddio llawer o brydferthion yn ngair Duw, a fuasent yn guddiedig oni buasai hi. Er anghraifft, yn *Col.* i. 15, &c., dysgrifir Crist fel "delw y Duw anweledig, cyntafanedig pob creadur." Nis gall y gair hwn, meddai, fod yn cyfeirio yn unig at ei natur ddwyfol; canys y mae hono mor anweledig yn y Mab ag ydyw yn y Tad: gan hyny, tybiai ei fod yn cyfeirio at ei enaid cynfodol mewn undeb â'r Duwdod. Eto, pan y dywedir fod dyn wedi ei greu ar ddelw Duw (*Gen.* i. 27), gall fod yn cyfeirio at y Duw-ddyn, at Grist yn ei sefyllfa gynfodol. Dywed Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain." Mynychir y gair, efallai, er awgrymu fod Adda wedi ei greu ar ddelw enaid dynol Crist, yn gystal a'i fod yn meddu hefyd gyffelybrwydd y natur ddwyfol i ryw raddau.

Dyna syniadau y sawl sydd yn dal yr opiniynau hyn, yn nghyd â'r prif resymau a ddygir yn mlaen drostynt.

Ar y llaw arall, dywedir fod yr athrawiaeth hon o gynfodolaeth enaid dynol Crist yn gwanhau ac yn dymchwelyd yr athrawiaeth o bersonoliaeth Crist. Dywed y rhai hyn,—1. Y mae ysbryd deallawl pur—y cyntaf, yr hynaf, a'r arddérchocaf o greaduriaid, ac wedi ei greu er cyn seiliad y byd—yn dwyn cyffelybrwydd mor agos i ail berson y Trindod Ariaidd, fel y mae yn

Digitized by Google

anmhosibl dangos y gwahaniaeth lleiaf, oddi eithr yn yr enw. 2. Y mae y bod deallawl cynfodol a dybir yn yr athrawiaeth hon yn cael ei gymmysgu i'r fath raddau â'r bodau deallawl ereill a elwir yn angelion, fel y mae perygl mawr camgymmeryd yr enaid dynol hwn am angel, a thrwy hyny wneyd i berson Crist gynnwys tair natur. 3. Os nad oedd gan Grist ddim yn gyffelyb i ddynolryw ond corff yn unig, pa fodd y gallai fod yn ddyn gwirioneddol? 4. Y mae yr adnodau hyny a ddyfynir fel proflon o gynfodolaeth enaid dynol Iesu Grist o'r un dosbarth a'r rhai a ddygir yn mlaen gan ereill i brofi cynfodolaeth eneidiau dynion yn gyffredinol. 5. Y mae yr opiniwn hwn, trwy briodoli urddasolrwydd gwaith y prynedigaeth i'w enaid dynol goruchel, yn iselu dwyfoldeb Crist, drwy wneuthur y diweddaf yn oddefol, a'r cyntaf yn weithredol. 6. Y mae y dybiaeth hon yn groes i'r Ysgrythyr. Dywed Paul "y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr;" a'i fod wedi cyfranogi o'u holl wendidau, oddi eithr pechod: *Heb.* ii. 17; iv. 15. Dywed Luc hefyd, "cynnyddodd mewn doethineb a chorffolaeth;" *Luc* ii. 52. Gwel CRIST; ANGEL YR ARGLWYDD.—(*Robinson's Claude*, cyf. i. 214, 311; *Gweithiau Watts*, cyf. v. td. 274, 385; *Corff Duw*, *Gill*, cyf. ii. td. 51; *Robinson's Plea*, td. 140; *Fleming's Christology; Simpson's Apology for the Trin.*, td. 190; *Hawker's Serm. on the Div. of Christ*, td. 44, 45; *Buck's Theol. Dict.; Williams' Dict. of all Rel.; Rel. Encycl.*)

CYNFODOLIAID, [*Pre-existiani*]: enw ar y rhai a gredant yn nghynfodolaeth eneidiau, neu yr athrawiaeth fod Duw, yn nghreadigaeth y byd, wedi creu eneidiau yr holl hil ddynol; y rhai, pa fodd bynag, ni unir â'r corff hyd nes y cenedlir neu y genir y personau y byddant wedi eu bwriadu ar eu cyfer. Dyma ydoedd barn Pythagoras, Plato, a'i ganlynwyr, a'r Cabbalistiaid yn mysg yr Iuddewon. Dysgid yr athrawiaeth gan Justin Ferthyr, Origen, ac ereill o'r tadau; ac y mae wedi bod yn gred gyffredin gan Gyfrinwyr (*Mystics*) hen a diweddar. Gelwir y rhai a ddaliant fod yr enaid yn cael ei greu yn uniongyrchol pan y cynnyrchir y corff, yn Greadigiaid (*Creatiani*); a'r rhai a gredant ei fod yn cael ei genedlu gan y rhieni, yn Epiliaid (*Traduciani*).—(*Buck's Theological Dict.*; *Encyc. Rel. Know.*)

CYNFFON—AU: cloren, conell, rhonell, llosgwrn. "A Samson a aeth ac a ddaliodd dri chant o lwynogod; ac a gymmerth ffaglau, ac a drodd gynffon at gynffon, ac a osododd un ffagl rhwng dwy gynffon yn y canol;" *Barn.* xv. 4. Am eglurhâd ar hyn, gwel d.g. LLWYNOG. "A'r Arglwydd a'th wnaeth di yn ben, ac nid yn gynffon;" *Deut.* xxviii. 13: hyny yw, byddai i'r Arglwydd wneyd cenedl Israel, os byddai iddynt hwy gadw ei orchymynion a rhodio yn ei ffyrdd ef, y genedl benaf mewn gallu, neu o'r hyn lleiaf mewn urddas a rhagorfreintiau; ac nid yn gynffon, sef dan warogaeth—yn gaethweision. "Am hyny y tyr yr Arglwydd oddi wrth Israel ben a chynffon, cangen a brwynen, yn yr un dydd. Yr henwr a'r anrhydeddus yw y pen: a'r prophwyd sydd yn dysgu celwydd, efe yw y gynffon;" *Esa.* ix. 14, 15. Hyny ydyw, yr oedd y dinystr ag oedd i ddisgyn ar y genedl am ei balchder, ei rhagrith, a'i hanedifeirwch, i fod yn ddinystr llwyr. "A'r prophwyd sydd yn dysgu celwydd, efe yw y gynffon;" hyny yw, efe yw y mwyaf dirmygedig ac iselwael yn yr holl dir.

CYNHEN—AU—U, [*cy-ten*]: ymrafael, ymryson, cweryl, ymddadleu. "Corn y gynhen"=blaenor y gynhen; "asgwrn y gynhen"=yr hyn yr ymgynhenir o'i herwydd. Un o weithredoedd "dyn i'r fall" ydyw peri cynhenau (*Diar.* vi. 14); ac y mae y neb a gyfodo gynhen rhwng brodyr yn un o'r saith cymmeriadau sydd yn mysg dynion yn ffiaidd gan yr Arglwydd: *Diar.* vi. 19. Achos cynhenau ydyw casineb a chenfigen (*Diar.* x. 12); a thrwy falchedd yn unig y cyffry cynhen: *Diar.* xiii. 10. "O ba le y mae rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith?" A dyma yr achos o honynt, "Cenfigenu yr ydych ac eiddigeddu." Dyma y gwreiddyn chwerwder oddi ar ba un y maent yn tyfu. "Pa law bynag sydd gan chwantau ereill mewn cynnyrchu cynhenau, cenfigen, nwyd aflywodraethus, a chybydd-dod, ydynt y prif rai. Balchder sydd yn hau ymrysonau a chynhenau mewn gwledydd ac eglwysi. Y mae balchder yn gwneuthur dynion yn ddiamynedd yn ngwyneb gwrthwynebiadau: os gwrthsefir tybiau neu ddymuniadau y galon falch, y mae yn ebrwydd yn llunio cynhenau. Nis gall oddef gwrthymgeisiad mewn ereill; ni rydd i fyny yr hawliau mwyaf dibwys; felly, y mae yn hawdd gweled mai balchder ac uchelfrydedd y galon yn gweithredu ar y nwydau aflywodraethus ydyw gwreiddyn pob cynhen, a meithrinydd pob ymryson. "Pen y gynhen sydd megys ped agorid argae: am hyny, gad ymaith ymryson cyn ymyryd â hi;" *Diar.* xvii. 14. Gwelir yma y perygl sydd yn mhen neu ddechreuad y gynhen. Un gair poethlyd, un ymadrodd chwerw, un cais digofus, un gwrthwynebiad yn cael ei wneyd mewn diystyrwch, a ddichon gynnyrchu ail, a hwnw drydydd, ac felly yn mlaen; fel nad yw yn y diwedd yn debyg i ddim ond i argae wedi ei hagor. Ar ol i'r dwfr gael ... fechan i ddechreu, y mae yn ngrym ei orlifiad yn lledu yn agorfa, ac yn dwyn pob peth o flaen ei arllwysiad, fel mai ofer ydyw ceisio rhoddi attalfa ar ei ffordd; felly, nid oes dim yn fwy priodol na'r cynghor, "Gad ymaith ymryson cyn ymyryd â hi." Y mae cynhen yn gyssylltiedig â chenfigen, llofruddiaeth, twyll, drwganwydau (*Rhuf.* i. 29); â chenfigen (*Rhuf.* xiii. 13; 2 *Cor.* xii. 20); â chasineb, gwynfydau, a llid (*Gal.* v. 20); ac â chwestiynau ffol (*Tit.* iii. 9). Y gair Groeg am dano ydyw ερις; ac am fod dyrchafu y llais mewn nwyd gynhyrfus yn perthyn i gynhen, y mae y ferf εριζω yn arwyddo *gwaeddi*. Dyma y ferf yn yr adnod a ddyfynir o'r prophwyd, "Ni *waedda*, ni ddyrchafa, ac ni phair glywed ei lais yn yr heol;" *Mat.* xii. 19.

CYNHESRWYDD. Gwel GWRES.

CYNI, [*cy—gni*]: trallod, tristwch, blinder, cyfyngder, gwasgfa, caledi. "Lleihëir hwynt hefyd, a gostyngir hwynt, gan gyfyngder, drygfyd, a chyni;" *Salm* cvii. 39. Y mae Calvin yn darllen yr ail yn y sefyllfa feddiannol: "Trwy gyfyngder drygfyd, a thrwy gyni." Y mae drygfyd, fe allesid meddwl, yn arwyddo trallod, yn cyfodi oddi ar gyfnewidiadau disymmwth a gofidus mewn amgylchiadau allanol, a chyni, gofid, a thristwch meddwl. Y mae y Salmydd yn yr adran hon o'r Salm yn mynegu gogoniant Duw yn ngwyneb cyfnewidiadau ei ragluniaeth, a'r chwyldroadau annysgwyliadwy a gymmerant

Digitized by Google

yn y mwyniant byrbarhaol a berthyn iddi, gan wneyd y meddwl yn ddall i'w hysgelerder a'i chanlyniadau anfad. Y mae priodoldeb yn y gair "cynllwynion" i osod allan ymosodiadau y diafol, ar gyfrif yr elfen sydyn a disymmwth a berthyna iddynt. Y mae y diafol, medd un awdwr, yn awgrymu syniadau i'r meddwl yn debyg ag y syrthiodd o'r nefoedd—fel mellten. Ac nid ychydig o gyfrwysdra y mae yn arddangos trwy hyny; o blegid y mae sydynrwydd yn lluddias rhagbarotoad, ac felly yn gwanhau gwrthwynebiad dyn i'w ymgyrch. Dywedir am Julius Cæsar, ei fod yn gallu cyrhaedd pob lle y gwnai ymosodiad arno cyn bod neb yn y lle hwnw wedi clywed gair am ei fwriad. Ac yr oedd y gallu Rhufeinig yn ddyledus am eu buddugoliaethau yn gymmaint i'w cyflymder ag i'w nerth. Ac o herwydd yr un peth y mae cynllwynion diafol mor lwyddiannus. Y mae yn gallu saethu temtasiwn i'r meddwl mewn amrantiad, a throsglwyddo gwenwyn ei awgrymau yn gynt na chynhyrfiad y meddwl neu weithrediad y dychymyg. Yr ysgogiad sydyn mewn ymdrechfa sydd yn rhoddi yr oruchafiaeth i'r naill ar y llall. Y mae y medrusrwydd perffaith sydd gan Satan mewn cynllwyn i dwyllo yn dangos pa mor angenrheidiol i ddyn ydyw fod yr "holl arfogaeth" am dano, a bod gwyliadwriaeth barhaus, hunanfeddiant perffaith, a pharodrwydd gwastadol, yn gymhwysderau nas gellir eu hebgor yn y filwriaeth grefyddol.

CYNNADLEDD: llys eglwysig uchaf y Trefnyddion Wesleyaidd ydyw, yr hwn a sefydlwyd drwy weithred seneddol, yr 28ain o Chwefror, 1784, dan yr enw "Cynnadledd flyneddol y bobl a elwir Trefnyddion." Y mae yn gynnwysedig o "bregethwyr ac esbonwyr gair sanctaidd Duw, y rhai a elwir yn gyffredin Pregethwyr Trefnyddol." Ymddengys fod y llys eglwysig hwn wedi ei alw i fodolaeth yn y dull hwn:—Pan yr elai pregethwyr allan ar y cyntaf, i bregethu a chynghori, aent yn ol cyfarwyddyd a thrwy ganiatâd sylfaenydd y cyfundeb, sef y Parch. J. Wesley; rhai o'r parth hwn i'r deyrnas, ac ereill o'r parth arall: ac er eu bod yn aml yn ddyeithriaid hollol i'w gilydd, ac i'r bobl yr anfonid hwy atynt, darperid ar eu cyfer, ac ymddygid tuag atynt fel cyfeillion, ar ei gymmeradwyaeth ef yn unig, pa le bynag y dygwyddai iddynt fyned. Gan na feddent ond ychydig o gydnabyddiaeth â'u gilydd, ac yn amddifad o drefn a chynllun yn eu plith, yr oeddynt dan angenrheidrwydd i ymofyn â Mr. Wesley am gyfarwyddiadau pa fodd ac yn mha le y byddent i lafurio. Mewn trefn i symmud yr anghyfleusdra hwn, tybiodd mai doeth a fuasai eu galw yn nghyd i gymmanfa neu gynnadledd flyneddol; a thrwy hyny, eu dwyn i undeb agosach â'u gilydd, ac i deimlo y buddioldeb a ddeilliai o weithredu dan ddylanwad y cyfryw undeb. Canfyddodd hefyd fod yn angenrheidiol dwyn y pregethu teithiol dan reolau penodol, er mwyn attal dyryswch, ac er hyrwyddo ei waith ei hun: gan hyny, unodd bymtheg neu ugain o eglwysi, mwy neu lai, a safent o amgylch ryw brif eglwys yn y parthau hyny, a galwodd hwynt yn gylchdeithiau. Yn y gynnadledd flyneddol, penodai ddau, tri, neu bedwar o bregethwyr i ofalu am bob un o'r cylchdeithiau hyny, yn ol eu maintioli. Yn y lleoedd hyny, ac yno yn unig, yr oeddynt i lafurio am flwyddyn; hyny yw, hyd y gynnadledd nesaf. Gelwid un o'r pregethwyr yn mhob cylchdaith yn gynnorthwywr, o blegid ei fod yn cynnorthwyo Mr. Wesley i ofalu am ac edrych ar ol yr eglwysi, a phregethwyr ereill. Gofalai ef am yr eglwysi a fyddent o fewn ei derfynau; rhoddai y rheolau mewn gweithrediad yn mhob lle, a chyfarwyddai lafur y pregethwyr a fyddent yn yr un gylchdaith ag ef. Wedi iddo dderbyn rhestr o'r eglwysi a ffurfient ei gylchdaith, parotoai gynllun i'r pregethwyr ereill, ar yr hwn y nodai y diwrnod i bob un o honynt fod yn mhob lle penodol, nes yr elent oll yn rheolaidd drwy yr holl gylchdaith. Drwy y cynllun hwn, trefnid gwaith dyddiol pob pregethwr yn mlaen llaw; gwyddai pob un, bob dydd, lle y byddai y lleill; a phob eglwys pa bryd i ddysgwyl y pregethwr, a pha faint o amser yr arosai gyda hwynt. Gellir sylwi, pa fodd bynag, nad unig ddyben Mr. Wesley, wrth alw yn nghyd yr holl bregethwyr yn flyneddol, ydoedd rheoleiddio y cylchdeithiau, ond hefyd adolygu eu hathrawiaethau a'u dysgyblaeth, a chwilio i mewn i'w hymddygiadau moesol.

Nifer aelodau y gynnadledd, yn ol y weithred seneddol, ydyw cant, ac appwyntiwyd hwynt oll ar y cyntaf gan Mr. Wesley. Er ei amser ef, y maent wedi bod yn cael eu hethol, fel y byddai amgylchiadau yn gofyn, gan yr aelodau drwy y tugel. Cyhoeddir eu henwau o flwyddyn i flwyddyn yn nghyhoeddiad y gynnadledd. Y mae y weithred seneddol yn cyfyngu yn arbenigol etholiad aelodau i'r gynnadledd gyfreithiol at y dosbarth hwnw o bregethwyr a fyddant wedi bod am ddeuddeng mis mewn llawn urddau gweinidogaethol mewn cyssylltiad â'r gynnadledd ddywededig. Y mae y gynnadledd hefyd i ddewis llywydd ac ysgrifenydd o'u mysg eu hunain: ac er na oddefir i neb bleidleisio yn yr etholiad ond y cant; eto, caniateir i bregethwyr ereill nad ydynt yn aelodau o'r gynnadledd gyfreithiol gael llais mewn enwi yr ymgeiswyr am y swyddau. Fe erys y llywydd a'r ysgrifenydd yn eu swyddau hyd y gynnadledd nesaf, neu yr un drachefn. Gall yr un person gael ei ddewis yn ysgrifenydd am gynnifer o flyneddoedd ag y bernir yn addas; ond nis gall y llywydd, yn ol penderfyniad a wnaed yn 1792, gael ei ail ethol am wyth mlynedd ar ol ei etholiad cyntaf. Pan y bydd y gynnadledd wedi ymgasglu yn nghyd, y mae yn angenrheidiol, cyn y bydd ei gweithredoedd yn safadwy, fod deugain o'i haelodau cyfreithiol yn bresennol. Gyda golwg ar dderbyniad pregethwyr i gyssylltiad cyflawn â'r gynnadledd, ystod penodedig ac arferedig eu prawf ydyw pedair blynedd o lafur mewn cylchdeithiau, oddi eithr yn achos myfyrwyr yn yr Athrofa Dduwinyddol, amser prawf pa rai a ddechreua ar gychwyniad eu hail flwyddyn yn y sefydliad hwnw; ac y mae yn angenrheidiol i bob ymgeisydd ymattal rhag priodi. Pan y byddo pregethwyr wedi gorphen tymmor eu prawf, bydd yn angenrheidiol iddynt ymddangos yn bersonol ger bron y gynnadledd y flwyddyn hono, er mwyn myned dan arholiad; pryd y gofynir iddynt, yn mhlith gofyniadau ereill gyda golwg ar athrawiaeth, dysgyblaeth, a'r alwedigaeth o bregethu yr efengyl, gwestiynau cyffelyb i'r rhai hyn:—"A oes genych chwi ffydd gref yn Nghrist? A ydych chwi yn mwynhau amlygiadau eglur o gariad Duw tuag at eich enaid? A oes genych chwi lywodraeth wastadol ar bob pechod? A ydych chwi yn dysgwyl cael eich perffeithio mewn cariad yn y bywyd hwn? A ydych chwi yn dymuno ac yn ceisio hyny mewn

Digitized by Google

gwirionedd? A ydych chwi yn benderfynol o gyflwyno eich hunan yn hollol i Dduw, ac at ei waith? A ydych chwi yn benderfynol i dreulio eich holl amser yn ngwasanaeth Duw? A wnewch chwi bregethu bob bore a phrydnawn y caffoch gyfleusdra? A wnewch chwi addysgu y plant yn ddiwyd lle y galloch? A wnewch chwi ymweled o dŷ i dŷ, lle y gellir gwneyd hyny? A wnewch chwi annog ympryd a gweddi drwy gynghor ac esampl?"

Wedi rhoddi atebion boddhaol i'r cwestiynau uchod, cyflwyna y llywydd yr ymgeiswyr i'r gynnadledd, pryd yr arholir hwynt yn fanwl yn ngŵydd yr holl weinidogion. Wedi hyny, dygir hwynt ger bron yr holl gynnulleidfa fydd wedi ymgasglu drwy rybudd cyhoeddus, pryd yr adrodd y llywydd yn fyr y prawf blaenorol a fu ar yr ymgeiswyr; ac os bydd amser, gelwir ar rai o honynt i adrodd eu profiadau i'r gynnulleidfa. Wedi hyny, mewn cyfarfod arall, ordeinir hwynt i'r swydd gyssegredig drwy arddodiad dwylaw y llywydd, y cynlywydd, ysgrifenydd y gynnadledd ar y pryd, a dau o'r hen weinidogion, y rhai a nodir gan y llywydd. Y mae gwasanaeth yr ordeiniad i'w weled yn nhalfyriad Mr. Wesley o *Lyfr Gweddi Gyffredin* Eglwys Loegr.

Wedi myned drwy ran o'r gwasanaeth, arholir yr ymgeiswyr drachefn gan y llywydd, gyda golwg ar athrawiaethau crefydd a gwaith y weinidogaeth. Ac os ceir atebion boddhaol, darllenir yr urdd weddi gan y llywydd, ac arddodir dwylaw arnynt; a rhoddir Beibl i bob un o honynt. Ac ar ol hyny, mewn cyfarfod arall, traddodir anerchiad gweinidogaethol priodol iddynt, yn ngŵydd eu perthynasau a'r gynnulleidfa, gan lywydd y gynnadledd.

Y mae y weithred seneddol yn rhoddi i'r gynnadledd hawl hollol i ddiarddel unrhyw bregethwr o gyssylltiad â hi, am ba achos bynag y barna mwyafrif yr aelodau fod hyny yn angenrheidiol. Ond nid yw y gallu hwn erioed wedi ei arfer, ond o blegid yr achosion canlynol:—bywyd anfoesol; athrawiaeth afiachus; diffyg mawr mewn talentau; a throseddau cyhoeddus yn erbyn dysgyblaeth y cyfundeb.

Y gynnadledd sydd i drefnu gweinidogion i'r holl gylchdeithiau, ac i'r holl swyddau perthynol i'r cyfundeb, ac i lywodraethu yr enwad yn gyffredinol. Ond y mae holl amgylchiadau arianol y corff wedi eu rhoddi dan olygiad pwyllgorau, yn gynnwysedig o lëygwyr a gweinidogion. Mewn gwirionedd, y mae holl faterion tymmorol y cyfundeb yn cael eu trefnu gan y pwyllgorau cymmysg hyn.

Mor fore a'r flwyddyn 1752, fe gynnaliodd y Parch. J. Wesley gynnadledd yn Limerick, yn yr Iwerddon; ac o'r flwyddyn hono hyd y flwyddyn cyn ei farwolaeth, cynnaliai gynnadledd yn gyffredin bob yn ail blwyddyn yn y wlad hono. Gwnaeth ddarpariaeth yn y weithred seneddol i gynnal cynnadledd yn y chwaer ynys mor aml ag y barnai y gynnadledd Brydeinig y byddai hyny yn fuddiol; a chynnelir un yno yn bresennol yn flyneddol.

Gyda golwg ar barhad y gynnadledd flyneddol, nis gall fod am lai o amser na phum niwrnod, na thros dair wythnos; a therfynir hi yn unol âg appwyntiad yr aelodau, os dan un niwrnod ar ugain; ond os el dros yr amser hwnw, hi a derfyna o honi ei hun yn mhen tair wythnos; a'r holl weithredoedd a wneir yn ystod yr amser hwnw a gânt eu hystyried yn weithredoedd y gynnadledd, a dim ereill ond hwy. Ceir golwg ar natur y gorchwylion oddi wrth y gofyniadau canlynol:—"Pwy ydyw y pregethwyr a dderbynir y flwyddyn hon i undeb cyflawn â'r gynnadledd? Pwy ydyw y pregethwyr sydd yn aros ar brawf? Pwy ydyw y pregethwyr a dderbynir yn awr ar brawf? Pwy ydyw y pregethwyr sydd wedi meirw er y gynnadledd ddiweddaf? A oes rhyw gŵyn yn erbyn rhai o'r pregethwyr? Pwy ydyw y pregethwyr sydd yn rhoddi i fyny deithio? Pa fodd y mae ein pregethwyr wedi eu trefnu am y flwyddyn ddyfodol? Pa beth ydyw nifer yr aelodau yn ein cyfundeb? Pwy sydd wedi ei benodi yn llywydd y gynnadledd nesaf yn yr Iwerddon? Pwy sydd wedi ei benodi i fyned i gyfarfod blyneddol yr ail gylchdaith Gymreig? Pwy ydyw y pwyllgor i ofalu am ein rhagorfreintiau am y flwyddyn ddyfodol? Pa beth ydyw penderfyniadau y gynnadledd gyda golwg ar amgylchiadau ein cenadaeth?" Mae lluaws ereill o ofyniadau yn dwyn perthynas âg ysgolion y cyfundeb, addysg plant gweinidogion, llyfrau yr enwad, trysorfa adeiladu capelydd, trysorfa y plant, trysorydd cyffredinol ac ysgrifenyddion y drysorfa ddamweiniol, y personau addas i dderbyn cynnorthwy o drysorfa gynnorthwyol y pregethwyr, ac yn mha le y bydd i'r gynnadledd nesaf gael ei chynnal. Bydd pregethu mewn cyssylltiad â phob cynnadledd. Gwel TREFNYDDION WESLEYAIDD. —(*Grindrod's Compendium; Ward's Miniature of Methodism; Buck's Theol. Dict.; Rel. Encycl.*)

CYNNAL—IAD—IAETH [*cyd—dal*]: cynnorthwyo, porthi, sefyll dan, goddef; cynnorthwy, maeth. "Cynnal cyfeddach;" "cynnal gŵyl;" "cynnal pen yr iau;" "cynnal braint llys." Y mae y gair yn arwyddo, weithiau, amddiffyn gwaredol Duw i ddyn yn mhob amgylchiad. "Cynnal fi yn ol dy air; cynnal fi, a diangol fyddaf;" *Salm* cxix. 116, 117. Arwydda hefyd bob gofal sy'n cael ei ddangos gan y naill ddyn am y llall, mewn ffordd o gyfranu iddo angenrheidiau bywyd: "Myfi a'ch cynnaliaf chwi a'ch rhai bach;" *Gen.* l. 21. Y mae Duw yn cynnal ei bobl mewn cystuddiau a phrofedigaethau, trwy gyfaddasu y baich at raddau nerth y Cristion i'w ddwyn; "Ni äd eich temtio uwchlaw yr hyn a alloch:" nid yw un o'r temtasiynau yn fwy na themtasiwn ddynol, y cyfryw ag a oddefwyd gan ereill o'n blaen, ac y gall y natur ddynol gael ei nerthu i'w dwyn: 1 *Cor.* x. 13. Y mae yn eu cynnal hefyd trwy roddi ei Ysbryd iddynt—"Ac â'th hael Ysbryd cynnal fi," medd y Salmydd. Un o swyddau yr Ysbryd Glân ydyw dyddanu y saint a chynnorthwyo eu gwendid; nid yw yn symmud y baich ymaith, ond yn cynnorthwyo dynion yn eu gwendid, trwy gymmeryd rhan o'r baich megys gyda hwy; ac y mae yn eu cynnal trwy nerthu eu ffydd i edrych o ganol y blinderau at adeg eu gwaredigaeth o honynt; a thrwy eu dwyn i ddygymmod â hwynt ar gyfrif eu tuedd lesol; ac felly yn eu galluogi i orfoleddu yn y gorthrymderau, i edrych arnynt yn destynau gorfoledd o herwydd y canlyniadau dymunol a ddeillia oddi wrthynt:—"Fe all Duw ei gynnal ef" (*Rhuf.* xiv. 4) ydyw un o'r rhesymau a ddwg yr apostol yn mlaen dros annog y brodyr gweiniaid a phetrusgar yn Rhufain i gyd-ddwyn â'r cryfion, ac i ymattal rhag eu condemnio. Barna Whitby mai y meddwl ydyw, y byddai i'r Iuddew Cristionogol petrusgar gael ei sefydlu mewn syniadau cywir o barth i fwydydd a

Digitized by Google

diwrnodau, pan welai y deml wedi ei dinystrio a defodau cyfraith Moses wedi eu bwrw ymaith. Ond y mae yr eglurhad hwn yn amlwg gyfeiliornus, gan mai am y cryfion y mae yr apostol yn llefaru. Golyga Macknight, gan mai am gyfrifoldeb Cristionogion i Grist fel eu Harglwydd y mae yr apostol yn llefaru, mai rhyddhad a chymmeradwyad y sawl a weithredant yn gydwybodol gan y Barnwr yn y dydd diweddaf ydyw meddwl yr apostol; ac mai "sefyll yn y farn" ydyw y "cynnal" yn yr adnod hon. Ond y mae golygiad Alford ac ereill yn fwy naturiol; "Fe all Duw ei gynnal ef yn ddiysgog yn ffydd ac ymarferiadau yr efengyl, fel y mae wedi cael ei gynnal hyd yma; er dy fod di, ei frawd petrusgar, yn ei ystyried yn annheilwng o gymdeithas â thi yn yr eglwys."

"Yn cynnal gair y bywyd:" *Phil.* ii. 16.—Seis. *holding forth*=dal allan. Y gair Groeg ydyw **επεχω**, yr hwn air a arwydda yn Homer [*Od.* xvii. 410] dal ar; ac yn Pindar [*Ol.* ii. 160] dal unrhyw beth allan rhyngddo a pherson neu wrthddrych arall. Yn y Testament Newydd, arwydda weithiau rhoddi astudrwydd i, neu ddal sylw ar beth. Barna rhai mai yr ystyr yn y lle hwn ydyw cadw, dal gafael yn y gair y bywyd, mewn cyferbyniad i'w adael i golli; "dyfalbarhau yn y grediniaeth a'r ymarferiad o bethau yr efengyl" [*Rob. Lex*]; "dal gafael sicr."—*Bengel, Luther, De Wett.* Tybia Beza fod yn y gair gyfeiriad at y tyrau a adeiledid ar y mynedfeydd i borthladdoedd, yn y rhai y cedwid tanau i losgi yn wastadol, er diogelu y llongau rhag y creigiau. Ac y mae y cyfeiriad hwn yn dra phrydferth a phriodol. Y mae gan athrawiaeth iachus yr eglwys, ac ymarweddiad sanctaidd y credinwyr, ddylanwad mawr ar ddynion. Y mae gweled gweithredoedd da y saint yn foddion o drefniad Duw i adferu y byd. "Y mae pawb sydd wedi eu goleuo gan athrawiaeth yr efengyl," medd Calvin, "yn cario gyda hwynt oleuni a eglura eu drygau hwynt eu hunain, os na rodiant mewn purdeb; ond y mae y goleuni hwn wedi ei gynneu, nid yn unig er mwyn eu tywys hwy yn y ffordd uniawn, ond hefyd er mwyn iddynt ei roddi i ereill."

"Cymmal cynnaliaeth;" *Eph.* iv. 16. Groeg, **αφης επιχορηγιας**. Y mae y fraich hon o'r adnod wedi achosi cryn wahaniaeth barn. Y mae, fodd bynag, yn eithaf amlwg mai y "cymmalau cynnaliaeth" ydynt y moddion trwy ba rai y mae cydgyssylltiad y corff yn cael ei sicrhau. Y mae y tadau, a rhai esbonwyr diweddar, yn ystyried fod *αφη* (a gyfieithir "cymmal") yn gyfystyr âg *αισθησις*=cyffyrddiad, teimlad. Aralleiria Chrysostom yr ymadrodd fel hyn:—"Y mae yr Ysbryd hwnw, yr hwn a gyfrenir i'r aelodau o'r Pen, yn cyffwrdd â, neu yn cyfranu ei hun i bob un o'r aelodau, ac felly yn eu dwyn i weithrediad." Darllena Meyer hefyd, "Trwy ein teimlad o gynnorthwy dwyfol." Eu drychfeddwl hwy ydyw—trwy rwymyn eu hundeb, yr hwn ydyw cynnaliaeth neu gynnorthwy yr Ysbryd Glân. Ond y mae y mwyafrif o'r esbonwyr yn gwrthod yr eglurhad hwn, ac yn troi at yr ymadrodd cyfredol, yn *Col.* ii. 19, am esboniad ar y gair dan sylw; ac y mae cyfieithiadau y Vulgate (*junctura*), y Seisoneg (*joint*), a'r Cymraeg (*cymmal*), yn dynodi y gwir ystyr. Y mae Alford oddi ar amryw ystyriaethau yn cyssylltu yr adran "trwy bob cymmal cynnaliaeth" â'r gair dilynol, "yn gwneuthur cynnydd y corff." Ystyria ef fod yr apostol yn edrych ar y cymmalau cynnaliaeth fel moddion cynnydd y corff; ond y mae Eadie ac ereill yn edrych ar y cymmalau cynnaliaeth fel yr offerynoliaeth trwy ba un y sicrheir cydgyssylltiad y corff; ac felly ma â'r ddau rangymmeriad blaenorol y mae yr ymadrodd yn gyssylltiedig. Dyma olygiad Grotius, Stier, ac ereill; a hwn a ffafrir gan y darlleniad Seisoneg, yn gyfystyr â phe y dywedir, "wedi ei gydgyssylltu gan bob cymmal cynnaliaeth." Y mae Eadie yn rhoddi darlleniad fel hyn o'r rhan mewn dadl o'r adnod:—"*From whom the entire body, mutually adapted in all its parts, and closely compacted, by means of every joint, whose junction it is to afford such aid.*" Y "cynnaliaeth" felly ydyw, nid y cynnorthwy angenrheidiol i ddwyn yn mlaen gynnydd y corff, ond y cynnorthwy a ddyry y cymmalau tuag at gyflunio a chyfangyssylltu y corff.

CYNNIWAIR—FA—YDD, [*cyn—diwair*]: cyrchu, cyrchu yn fynych, tramwy, rhodio, gwibio o le i le; cyrchfan, y lle y byddo tramwy; tramwy-ydd, un yn mynych deithio o fan i fan: *Exod.* xxxii. 27; 1 *Bren.* ix. 8; 2 *Bren.* iv. 9; xii. 4; *Ezec.* xiv. 17. "Cynniweiriwch, cynniweiriwch trwy y pyrth;" *Esa.* lxvii. 10. Y mae yr adran hon, yn ol barn y nifer mwyaf, yn cyfeirio at waredigaeth Israel o Babilon, a thrwy y waredigaeth hono at y waredigaeth fwy a gwerthfawrocach trwy Grist. "Symmudir ymaith bob anhawsderau; agorir pyrth Babilon fel y gallo y genedl fyned yn rhydd trwyddynt. Parotoir y ffordd o wlad eu caethiwed hyd dir Israel."—*Henry.* Tra y mae Henry yn meddwl mai pyrth Babilon a feddylir wrth y pyrth, y mae Calvin ac ereill yn golygu pyrth Ierusalem; ac y mae y cyd-destyn yn dangos mai hon ydyw y farn gywiraf; o blegid am Sïon ac Ierusalem mewn cyflwr llwyddiannus a thangnefeddus y llefara y prophwyd. Fe fydd ffordd rydd trwy byrth y ddinas, y rhai oeddynt gynt yn gauedig, ac yn gorwedd mewn sefyllfa adfeiliedig; yr oeddynt yn gauedig pan warchëid ar y ddinas gan y gelynion; ac yn adfeilion pan oedd y ddinas wedi ei dymchwel. "Prophwyda Esaiah y byddai y fath adferiad ar y ddinas fel y byddai ei thrigolion yn lluosog, ac aml gyrchu trwy ei phyrth. Tybia rhai fod y geiriau hyn yn cael eu dywedyd wrth weinidogion crefydd—fod iddynt fyned o flaen ereill fel eu harweinwyr. Ond y mae yn hytrach yn ymadrodd cyffredinol a ffugrol, yn cymharu yr eglwys i ddinas boblogaidd a llwyddiannus, ar ol tymmor o adfeiliad ac anghyfanedd-dra."

"Llawer a gynniweiriant, a gwybodaeth a amlheir;" *Dan.* xii. 4. Y mae yr angel yn hysbysu i Daniel y byddai i'r brophwydoliaeth aros yn dywyll fel llyfr seliedig, o'r hwn ni ddeallid ond ychydig, hyd "amser y diwedd;" sef hyd oni ddeuai y pethau a ragfynegwyd yn agos i'w llwyr gwblhad a'u terfyniad. Ac y mae ffeithiau yn cadarnhau y rhagfynegiad hwn. Addefwyd yn mhob oes fod anhawsderau mawrion yn nglyn âg amryw o brophwydoliaethau Daniel, ac y maent wedi bod fel dan sél i Gristionogion yn gyffredinol. "Ond yn amser y diwedd, llawer a gynniweiriant, a gwybodaeth a amlheir." "Llawer a ymchwiliant," medd Calvin. Yn yr oesoedd diweddaf, y mae ymchwiliad dyfal ac eang wedi cael ei wneuthur i hanesiaeth, er mwyn eglurhau y rhanau hyny o brophwydoliaeth Daniel sydd wedi eu cyflawnu eisoes; a chymherir hwynt â rhanau ereill o'r Ysgrythyr, er

Digitized by Google

mwyn cael goleuni ar y rhanau sydd heb eu cyflawnu. Y mae yn debygol fod y gair "cynniweirio" yn cyfeirio at ledaeniad yr efengyl yn yr oesoedd hyn. "Y pryd hwnw yr agorir y trysor cuddiedig: chwilia llawer iddo, a chloddiant am y wybodaeth sydd ynddo, fel am arian. 'Cynniweiriant' i ymofyn copïau, cymharant hwy â'u gilydd, darllenant hwy drosodd a throsodd, myfyriant arnynt, ac ymddyddanant am danynt, os gallant trwy unrhyw foddion gael allan y meddwl; ac fel hyn, 'gwybodaeth a amlheir.' Wrth chwilio y brophwydoliaeth hon, arweinir hwynt i ymofyn âg ysgrythyrau ereill, yr hyn a wasanaetha lawer tuag at eu cynnydd mewn gwybodaeth. Y mae yn rhaid i'r rhai a ewyllysiant gael chwanegiad gwybodaeth gymmeryd poen a llafur arnynt; ni thâl iddynt eistedd mewn diofalwch, ac ymfoddloni yn unig ar ddymuniadau diffrwyth; ond rhaid iddynt 'gynniweirio'—gwneuthur defnydd o bob moddion priodol, i gywiro eu camsyniadau, i benderfynu eu hammheuon, ac i chwanegu eu cydnabyddiaeth â phethau Duw."—*Henry.* "Ewch ac edrychwch am ei gynniweirfa ef:"—yn Hebraeg, *ei droedfan ef*, sef llwybr ei droed: 1 *Sam.* xxiii. 22. Rhan o'r farn a fygythia yr Arglwydd ar Edom ydyw ei gwneyd heb "gynniweirydd trwyddi byth bythoedd;" *Esa.* xxxiv. 10. Darlunir cyflwr isel ac anrheithiedig yr eglwys fel cyflwr dinas heb "gynniweirydd trwyddi;" *Esa.* lx. 15. Y mae Ieremiah yn galaru am fod Ierusalem yn garneddau, ac wedi ei llosgi "fel anialwch heb gynniweirydd;" *Ier.* ix. 12. Dysgrifir anffyddlondeb Israel i gyfammod Duw fel puteindra gyda phob cynniweirydd: *Ezec.* xvi. 15.

CYNNRYCHIOL—DEB, [*cyn—drych*]: cynllun, cynddelw; gwyddfodol, presennol; presennoldeb. "Y gawod gynnrychiol;" *Act.* xxviii. 2:—Seis., *present rain:* Gr. *εφεστωτα.* Nid "y gawod a ddaeth yn ddisymmwth," fel y dywed rhai, ond "y gawod yr oeddynt dani ar y pryd." "Angel ei gynnrychioldeb a'u hachubodd hwynt;" *Esa.* lxiii. 9:—"angel ei wyneb," neu angel ei bresennoldeb; yr hwn a elwir felly "am ei fod yn dyst o bresennoldeb Duw, ac yn genad oddi ger ei fron i gyflawnu ei orchymyn."—*Calvin.* Y mae rhai yn meddwl mai angel crëedig a feddylir. "Nid yw yr angel uchaf yn y nef, hyd yn oed angel ei bresennoldeb, yr hwn sydd yn sefyll agosaf at orsedd ei ogoniant, yn rhy uchel i gael ei anfon i achub pobl Dduw. Ond y mae yn fwy tebyg mai Iesu Grist, yr angel y llefarodd Duw wrth Moses am dano (*Exod.* xxiii. 20), ac a elwir yn Iehofah (*Exod.* xiii. 21), a olygir yma. Efe ydyw angel y cyfammod (*Mal.* iii. 1). Ac efe ydyw angel wyneb Duw, o blegid efe yw gwir lun ei berson ef; ac yn ngwyneb Iesu Grist y mae gogoniant Duw yn llewyrchu. Ac yr oedd yr hwn a fwriadwyd i weithio allan iachawdwriaeth dragwyddol dynion, fel ernes o hyny, yn effeithio gwaredigaeth pobl Dduw dan yr hen oruchwyliaeth, yr hon oedd yn gysgod o waredigaeth fawr dyddiau yr efengyl.

CYNNUD, [*cynne*]: tanwydd, defnydd tân: *Ios.* ix. 21; 2 *Sam.* xxiv. 22. Tori cynnud oedd rhan o'r gwaith a roddodd Iosuah i'r Gibeoniaid.

CYNNULL—IAD, [*cyd—dull*]: casglu, hel pethau yn nghyd; casgliad. Gwaherddid i'r Israeliaid lwyr fedi conglau eu meusydd, ac i gynnull lloffion eu cynauaf: *Lef.* xix. 9. (*Exod.* iii. 16; *Gen.* xlix. 10; *Salm* cvi. 47; *Esa.* xlix; *Micah* ii. 12; *Mat.* xiii. 40; *Act.* xiv. 27.) "Ato ef y bydd cynnulliad pobloedd;" *Gen.* xlix. 10. Dangosir yn y brophwydoliaeth hon y byddai y Siloh, pan ddeuai, yn frenin, nid ar un genedl yn unig, ond ar luaws o genedloedd; y byddai pobloedd lawer yn unedig â'u gilydd yn ddarostyngedig i'w lywodraeth ef. Y mae rhai yn darllen, "Ac wrtho ef yr ymlyna pobloedd."

CYNNULLEIDFA — OEDD, [*cyd — dull*]: tyrfa, cymmanfa. Gelwir Israel yn gynnulleidfa yr Arglwydd: *Num.* xxvii. 17. "Tori un o'r gynnulleidfa" oedd ei roddi i farwolaeth, neu ei esgymuno: *Num.* xix. 20. "Mynegaf dy enw i'm brodyr, yn nghanol y gynnulleidfa y'th folaf;" *Salm* xxii. 22. Cynnwysa y gynnulleidfa holl hâd Israel. Yr oedd pob cynnulleidfa yn y deml yn cael ei hystyried yn gynnulleidfa yn cynnrychioli yr holl bobl. Cymh. 2 *Cron.* xx. 3—15. Dywedir yma fod holl Israel wedi ymgynnull i weddïo ar yr Arglwydd; ond nid ydym i ddeall wrth hyn ddim amgen na bod y gynnulleidfa yn cael ei golygu fel yn cynnrychioli yr holl genedl. Y mae Dafydd, mewn canlyniad i'w waredigaeth gan Dduw o law ei elynion, yn dadgan ei benderfyniad i'w foli yn y gynnulleidfa: *Salm* xxii. 22. Mae y Salm yn ddiau yn ddysgrifiad bywiog o beryglon Dafydd ei hun; ond fel yr oedd Dafydd yn gysgod arbenig o'r Messïah, y mae yn rhaid i ni edrych ato ef am gyflawniad uchaf y mynegiad hwn. Yr oedd dyoddefiadau Dafydd, a'i waredigaeth o honynt, yn gysgodau o ddyoddefiadau Crist. "Yr oedd ymrysonfeydd Crist â'i elynion," medd Ebrard, "yn dwyn tebygolrwydd mawr i ymryson Dafydd â Saul." Y mae y ffaith fod Iesu Grist wedi cymmeryd geiriau cyntaf y Salm hon yn ei enau ar y groes, a bod yr apostol (*Heb.* ii. 12) yn cymhwyso y geiriau hyn at y Messïah, yn brawf fod y Salm yn brophwydoliaeth am Grist, a bod Dafydd, wrth ei llefaru, ac yn yr amgylchiadau a nodir ganddo ynddi, yn gysgod arbenig o hono. "Yr oedd cynnulleidfa a phobl Israel yn y deml yn gysgod o holl eglwys etholedig Duw dan y Testament Newydd. Y mae yr Arglwydd Iesu yn ei berson ei hun, trwy ei Ysbryd yn yr apostolion, trwy ei air a'i genadon, yn mynegu enw a mawl Duw yn yr eglwys. Yr oedd canu emynau o fawl yn rhan arbenig o addoliad yn yr Hen Destament, ac felly y mae hefyd dan y Newydd. Y mae y geiriau hefyd yn dangos parodrwydd a llawenydd y Messïah gyda'i waith. Canu Salmau ydyw agwedd y meddwl llawen; yr agwedd sydd yn gweddu i feddwl siriol a chyflwr hapus a llawen: ac felly yr oedd y Cyfryngwr yn ei holl waith."—*Dr. Owen.*

Y gair Groeg am "gynnulleidfa," yn *Heb* xii. 23, ydyw *εκκλησια;* yr hwn nid yw yn gyfyngedig yn unig at gynnulleidfa o saint, fel y mae y cyfieithiad "eglwys;" ond mae yn arwyddo unrhyw gydgasgliad o bobl, gwladol neu grefyddol.

CYNNULLEIDFAOLION. Plaid o Brotestaniaid, yn fwyaf neillduol yn Lloegr Newydd, yn America, y rhai a ddaliant fod gan bob cynnulliad neu eglwys o Gristionogion awdurdod oddi wrth Grist i weinyddu ei llywodraeth ei hun, i ddewis ei bugail a'i swyddogion, ac i weinyddu ei dysgyblaeth, heb fod yn gyfrifol i neb ond i Ben yr eglwys. Daliant hefyd gydraddoldeb gweinidogion ac eglwysi, ac edrychant



Digitized by Google

ar undeb eglwysi â'u gilydd fel yn egwyddor fawr bwysig, os byddant yn eglwysi gwirioneddol i Grist, gan ystyried fod yr un berthynas rhyngddynt â'u gilydd ag sydd rhwng aelodau eglwys unigol â'u gilydd. Yr eglwysi ydynt ffynnonell pob awdurdod; ac nid oes gan gynnadleddau, na chyfarfodydd ereill o un math, ond awdurdod ddirprwyol yn unig, trwy ba un y byddant yn gweithredu dros ac yn enw yr eglwysi; ac nid oes un grym yn eu penderfyniadau ond y grym a rydd doethineb a duwioldeb iddynt. Fel hyn, dywedir fod y Cynnulleidfaolion, gyda golwg ar ddysgyblaeth eglwysig, yn sefyll ar dir canol rhwng yr Esgobaethwyr a'r Presbyteriaid ar un llaw, a'r Anymddibynwyr ar y llaw arall. Y mae y ddau enwad blaenaf yn ystyried fod yr awdurdod lywodraethol yn perthyn i esgobion, neu gymmanfaoedd, yn gynnwysedig o weinidogion a diaconiaid. Y mae yr Anymddibynwyr drachefn yn hollol yn y gwrthwyneb. Ond pleidia y Cynnulleidfaolion undeb rhwng gwahanol eglwysi, er mwyn cynghori a chyfarwyddo eu gilydd, ond heb ganiatau iddynt un math o lywodraeth ar eu gilydd.

Egwyddor fawr y Cynnulleidfaolion ydyw—yn gymmaint a bod Iesu Grist wedi prynu ei bobl â'i waed, efe ydyw Pen mawr yr eglwys, yr hon a arddangosir yn yr Ysgrythyr fel teml sanctaidd, conglfaen pa un ydyw efe. Yn y gweithrediad o'r awdurdod hon, y mae efe ei hun, yn nghyd â'i genadon, wedi cyfarwyddo dynion i gasglu at eu gilydd i addoli Duw, ac wedi hysbysu fod yr ordinhadau o fedydd a Swper yr Arglwydd, yn nghyd â sancteiddrwydd calon a buchedd, yn ddyledswyddau gorphwysedig ar ei ddilynwyr. Hefyd, mae i eglwys Crist ddeddfau, cyfammodau, egwyddorion, a dyledswyddau, yn nghyd â swyddogion ac aelodau, wedi eu rhoddi iddi gan ei Phen mawr, ar gadwraeth pa rai y mae neillduolrwydd ei nodweddiad a'i pharhad yn ymddibynu.

Y mae yn rhaid i bob gwir eglwys dderbyn athrawiaethau gair Duw, a chynnal i fyny ddysgyblaeth ac addysg grefyddol. A dywed y Cynnulleidfaolion mai y Beibl ydyw prif ac unig safon llywodraeth eglwysig, ac nad oes gan un eglwys hawl i orfodi eglwys arall i dderbyn ei deongliadau hi ar yr Ysgrythyr, nac i arfer dim ond moddion moesol i ledaenu ei golygiadau ac i ddysgyblu ei haelodau. Egwyddor fawr arall sydd gan y Cynnulleidfaolion ydyw, fod gan ddynion yn naturiol hawl, drwy fwyafrif pleidleisiau y gymdeithas o ba un y byddant yn aelodau, i lywodraethu eu hunain dan Dduw mewn materion gwladol a chrefyddol, a'u bod yn meddu hawl gyfartal i ereill i roddi eu barn ar y pynciau hyn ac i'w penderfynu.

Yn y flwyddyn 1602, ffurfiwyd eglwys Ymneillduol yn ngogledd Lloegr, un o weinidogion yr hon ydoedd y Parch. John Robinson. Gorfodwyd yr eglwys hon, drwy erlidigaeth, i symmud i Holland yn y flwyddyn 1608; a dilynodd Mr. Robinson hwynt cyn hir. Ystyrir mai efe ydoedd tad Cynnulleidfaoliaeth; a'r egwyddorion a sefydlwyd ganddo ef yn ei eglwys yn Leyden ydyw yr un egwyddorion, o ran sylwedd, ag sydd yn ffynu yn bresennol yn Lloegr Newydd. Delid rhai o'r egwyddorion hyn gan y Puritaniaid boreuol, a gweithredid yn eu hol gan yr Anymddibynwyr yn Lloegr mor fore a'r flwyddyn 1580. Ond gan fod yno egwyddorion gwahaniaethol ereill rhyngddynt, nid edrychir arnynt fel Cynnulleidfaolion.

Y mae Cynnulleidfaolion ac Anymddibynwyr wedi bod yn cael eu harfer fel dau enw ar yr un blaid. Mae yn debygol fod y camgymmeriad wedi ei wneyd, mewn rhan, oddi wrth yr ymadrodd hwn o eiddo Mr. Robinson, yn ei *Apology*:—"Y mae pob cymdeithas unigol yn eglwys gyfan; ac mor bell ag y mae a fyno eglwysi ereill â hi, yn ddarostyngedig yn uniongyrchol a hollol i Grist yn unig." Nid ydyw yn golygu ond yn unig nad oes gan un eglwys, neu gorff o eglwysi, un hawl i orfodi eglwys arall, trwy ddirwyon neu gospedigaethau, i dderbyn opiniynau neillduol. Nid ydyw yn gwadu yr hawl i ddefnyddio y fath ddylanwad ag a ddichon gyfodi oddi ar wybodaeth a duwioldeb; ac nid ydyw chwaith yn gwrthwynebu yr egwyddor o undeb rhwng eglwysi, oddi wrth ba un y deillia dyledswyddau gorphwysedig ar y naill eglwys at y llall, mor bwysig a dyledswyddau y naill aelod at y llall yn yr un gymdeithas. Nis gellir cyflawnu y dyledswyddau hyn lle na addefir yr egwyddor ar ba un y gorphwysant. Dyfynir y talfyriad canlynol o honynt o "Gynllun Cambridge," yr hwn a fabwysiadwyd yn 1648, ac oddi wrth weithrediadau y gymmanfa eglwysig yn Boston yn 1662. 1. Gwylio a gweddïo y naill dros y llall. 2. Cynnorthwyo eu gilydd mewn angenion tymmorol neu ysbrydol. 3. Rhoddi cyfrif y naill i'r llall am eu gweithredoedd cyhoeddus, pan y gofynir hyny yn rheolaidd; a chefnogi eu gilydd mewn gweinyddu dysgyblaeth, a gweithredoedd ereill o lywodraeth eglwysig. 4. Cynnorthwyo y naill y llall mewn achosion o ymraniadau, cynhenau, cwestiynau anhawdd, cyfeiliornadau, ac enllibiau; ac hefyd mewn ordeiniadau, symmudiadau, a diswyddiad gweinidogion. 5. Rhoddi cynnorthwy i eglwys arall mewn achosion o gyfeiliornad, enllib, &c., hyd yn oed pe na byddai iddi geisio hyny. 6. Ceryddu y naill y llall pan y bydd angen am hyny: ac wedi arfer pob moddion, ond yn aneffeithiol, er cael diwygiad, diarddel y cyfryw eglwys neu blaid o'r undeb. Y mae y rheolau hyn yn cael eu cario i weithrediad drwy gynghorau achlysurol neu barhaol yr eglwysi.

Yr athrawiaethau a fabwysiedir yn gyffredin gan y Cynnulleidfaolion—ond gadael allan yr Undodiaid—ydyw y rhai Calvinaidd, wedi eu cymmedroli i ryw raddau gan olygiadau Hopkins, Emmons, ac ysgrifenwyr ereill. Er hyny, y maent yn derbyn i'w cyfundeb yr holl eglwysi hyny ag sydd yn gofyn am arwyddion o nodweddiad Cristionogol fel peth hanfodol i aelodaeth eglwysig. Nid ydyw yr eglwysi yn rhwym i unrhyw gred neillduol; ond bydd pob eglwys yn gwneuthur ei chred ei hunan, ac yn ei newid pan y teimla yn angenrheidiol. Gall eglwysi ereill gynghori a cheryddu, ac, os gwelant yn addas, dori pob undeb rhyngddynt âg eglwys benodol a all fod wedi ymadael oddi wrth rai o egwyddorion sylfaenol Cristionogaeth. Nid ydyw cymmanfaoedd a chynghorau eglwysig erioed wedi gwneuthur dim ond hysbysu y grediniaeth a ffynai yn yr eglwysi ar y pryd.

Dywed y Cynnulleidfaolion hefyd, lle bynag y sonir yn y Testament Newydd am gorff credinwyr unrhyw dalaeth neu wlad, mai nid fel *eglwys* y lleferir am danynt, ond fel *eglwysi*; ac y crybwyllir yn fynych am eglwys yn cyfarfod, nid yn unig i addoli, ond hefyd i ddewis swyddogion a threfnu gorchwylion ereill. Ac yn unol â hyn, rhoddir y cyfieithiad llythyrenol canlynol o Act. xiv. 23; "Penodasant henuriaid, neu weinidogion, yn mhob eglwys, trwy godiad dwylaw."

Digitized by Google

Cymmanfaoedd eglwysig (*synods*) yn Lloegr Newydd ydyw, cynnulliadau mawrion o gynnrychiolwyr oddi wrth y gwahanol eglwysi, y rhai a ymgasglasant yn nghyd i drefnu cynlluniau, a materion ereill o ddyddordeb cyffredinol. Cynghorau ydynt gynnulliadau llai, ac yn gweithredu ar faterion mwy dibwys. Cymdeithasfaoedd (*consociations*) ydyw cynghorau sefydlog, y rhai a wneir i fyny o weinidogion a chynnrychiolwyr llëygol yr eglwysi. Mewn achosion pwysig, bydd dwy neu dair o gymdeithasfaoedd cymmydogaethol yn ymuno â'u gilydd. Ffurfir y cymmanfaoedd (*associations*) o weinidogion yn unig, y rhai a ymgyfarfyddant er eu buddioldeb eu hunain, ac i ymgynghori yn nghylch amgylchiadau yr eglwysi. Holant a thrwyddedant ymgeiswyr am y weinidogaeth; ond nid oes ganddynt unrhyw hawl i wneuthur deddfau i'r eglwysi. Mae rhai yn dal nad ydyw gweinidog yn gyfrifol ar y cyntaf ond yn unig i'r gymmanfa y bydd yn aelod o honi, ac nas gall yr eglwys ddywedyd dim wrtho hyd nes y bydd wedi ei brofi yn gyntaf gan ei gydweinidogion. Y mae ereill yn dywedyd y gall eglwys ddysgyblu ei gweinidog megys un o'i haelodau. Yn ol yr egwyddor sydd wedi ei gosod i lawr yn y cynlluniau (*platforms*), y mae yn angenrheidiol, wrth ddysgyblu gweinidogion, dwyn y mater ger bron cymdeithasfa eglwysig; ond pan nas gellir cael hyn, gall yr eglwys weithredu ei hunan. Y mae gwahanol fathau o'r sefydliadau hyn yn ngwahanol daleithiau America, ond y maent oll wedi eu seilio ar yr un egwyddorion.

Nid edrychant ar swyddogion fel yn hanfodol i fodolaeth eglwys, ond fel yn angenrheidiol i'w pherffeithiad a'i llwyddiant. Yn ol ysgrifenwyr boreuol Lloegr Newydd, ac yn ol cynlluniau Cambridge, swyddogion yr eglwysi oeddynt fugeiliaid ac athrawon, dyledswyddau pa rai oedd yn wahanol; a henuriaid llywodraethol, megys eiddo y Presbyteriaid; a diaconiaid, y rhai a ofalent am fanteision tymmorol yr eglwys, ac a ddarparent gogyfer â'r tlodion. Dyledswydd y bugail oedd cynghori ac annog; a dyledswydd yr athraw oedd athrawiaethu a lledaenu gwybodaeth. Gallai y naill fel y llall weinyddu yr ordinhadau, a chyhoeddi ceryddon yr eglwys. Y mae y ddwy swydd yn awr wedi eu huno yn yr un person, a'r swydd o henuriad llywodraethol wedi ei dodi o'r neilldu yn hollol o'r braidd. Trwyddedogion, ydyw rhai wedi derbyn caniatad i bregethu, ond heb eu cwbl urddo trwy arddodiad dwylaw. Efengylwyr, ydyw rhai wedi eu hurddo, ac am hyny yn meddu hawl i weinyddu yr ordinhadau, ond heb un eglwys neillduol ganddynt dan eu gofal.

Eglwysi, yn ol y gyfraith, ydynt gorfforiaethau o bobl; ac wrth roddi galwad i weinidog i ddyfod yn fugail arnynt, byddant yn gweithredu ar wahân, ac yn gyffredin cyn hysbysu y gymdeithas, neu y plwyf, a gynnwys yr eglwys, yn nghyd â'r rhai a gydaddolant â hwy. Nid ydyw galwad y gweinidog, pa fodd bynag, yn safadwy, os na bydd y plwyf yn cydsynio â hyny. Y mae y cytundeb yn cael ei wneyd yn hollol rhwng y plwyf a'r gweinidog. Wrth ymadael â gweinidog, dysgwylir i'r eglwys alw cynghor i'r pwrpas hwnw; a phan y derfydd ei gyssylltiad â'r eglwys, fe dderfydd hefyd ei gyssylltiad â'r plwyf. Os gwrthyd yr eglwys alw cynghor, ac os bydd y plwyf yn anfoddlawn, gallant bleidleisio i beidio talu cyflog y gweinidog, pryd y gall yntau ddwyn ei gwynion ger bron llys gwladol, yr hwn a benderfyna pa un a fydd ei drosedd neu ei esgeulusdra yn doriad o'r cytundeb ai peidio.

Yr oedd gan y Cynnulleidfaolion yn Lloegr Newydd, yn y flwyddyn 1854, wyth o athrofäau, dau goleg duwinyddol, a nifer lluosog o ysgolion uchel. Heb law hyny, cyfranasant yn helaeth at sylfaenu sefydliadau cyffelyb mewn parthau ereill o'r Unol Daleithiau. Yr oedd yn Lloegr Newydd, yn y flwyddyn y cyfeiriasom ati, naw cant a thri a deugain o weinidogion Trindodaidd Cynnulleidfaol, a mil a phedair ar bymtheg a deugain o eglwysi, a gadael o'r neilldu tua dau cant o eglwysi Undodaidd; a nifer y cymunwyr oedd tua chant ac ugain o filoedd. Yr oedd eglwysi Cynnulleidfaol hefyd mewn rhanau ereill o'r Unol Daleithiau, ac mewn cyssylltiad â sefydliadau cenadol mewn amrywiol barthau o'r ddaiar.

Ond y mae yr enw hwn, Cynnulleidfaolion, yn cael ei fabwysiadu yn lled gyffredinol yn y dyddiau hyn, yn y wlad hon, gan yr Anymddibynwyr [gwel dan y gair], gan y dywedir fod yr enw uchod yn gosod allan yn well eu trefn eglwysig. Y mae ganddynt eu Hundeb Cynnulleidfaol, yr hwn a gynnelir yn ei gylch yn mhrif drefydd y deyrnas; ac y mae ganddynt hefyd eu cymmanfaoedd, eu cynnadleddau, a'u hundebau sirol, taleithiol, a lleol. Mewn cyfarfod o'r Undeb Cynnulleidfaol, a gynnaliwyd yn Llundain yn mis Mai, 1832, penderfynwyd a threfnwyd y gyfres ganlynol o egwyddorion, y rhai a gredid yn gyffredinol ar y pryd gan yr enwad:—

EGWYDDORION CREFYDD.

1. Credant fod Ysgrythyrau yr Hen Destament, fel y derbyniwyd hwynt gan yr Iuddewon, a llyfrau y Testament Newydd, fel y derbyniwyd hwynt gan y Cristionogion cyntefig oddi wrth yr efengylwyr a'r apostolion, o ysbrydoliaeth ddwyfol ac o awdurdod oruchel. Yn mhob pwnc o ddadl, dylid ymgynghori â'r ysgrifeniadau hyn, trwy gynnorthwy rhai o'r prif feirniaid, yn yr ieithoedd yn mha rai y cyfansoddwyd hwy yn wreiddiol, fel yr appeliad diweddaf a therfynol; ond ystyriant fod y cyfieithiad cyffredin o honynt i'r iaith Seisonig, yr hwn a gyhoeddir dan nawdd y llywodraeth, yn ddigonol at ddybenion cyffredin addysg ac adeiladaeth Gristionogol.

2. Credant mewn un Duw; yr hwn sydd yn hanfodol sanctaidd, cyflawn, a da; yn anfeidrol, tragwyddol, ac anghyfnewidiol, yn mhob perffeithderau naturiol a moesol; Creawdwr, Cynnaliwr, a Llywodraethwr pawb a phob peth.

3. Credant fod Duw wedi dadguddio ei hun yn yr Ysgrythyrau i ddyn yn y tair ffurf wahaniaethol o Dad, Mab, ac Ysbryd Glân; a phriodolant i'r Tri Pherson Dwyfol yr un priodoliaethau, perffeithderau, ac awdurdod anfeidrol ac anghyfnewidiol. Ni phroffesant eu bod yn deall pa fodd y mae y Bod Dwyfol yn bodoli yn Drindod mewn Undod: y maent yn credu y ffaith yn benderfynol; ac yn foddlawn, yn y bywyd hwn, i barchu ac anrhydeddu dirgelwch y Duwdod.

4. Credant fod yr Arglwydd wedi creu dyn ar ei ddelw ei hun, yn bur oddi wrth dueddiadau llygredig, yn ddibechod, ac yn berffaith yn ei ryw.

5. Credant fod y dyn cyntaf wedi anufuddhau i'r gorchymyn dwyfol, wedi syrthio o'i sefyllfa o ddiniweidrwydd, ac wedi tynu ei hunan a'i hiliogaeth i sefyllfa o euogrwydd a llygredigaeth.

6. Credant fod holl ddynolryw yn cael eu geni mewn pechod, a bod tuedd at ddrygioni moesol,

Digitized by Google

yr hwn sydd yn hollol anniwygiadwy drwy foddion meidrol, yn wreiddiol yn mhob bod dynol.

7. Credant fod Duw wedi bwriadu, er cyn seiliad y byd, gwaredu dyn syrthiedig, a'i fod wedi gwneyd dadguddiedigaethau boreu iawn o'i drugaredd at yr hil bechadurus hon—y rhai oeddynt seiliau ffydd a gobaith i luaws o drigolion y byd cyn y dylif.

8. Credant fod Duw wedi dadguddio y cyfammod gras yn llawnach i Abraham; a'i fod, ar ol addaw iddo mai o'i genedl ef y cyfodai Gwaredwr ac Iachawdwr dynolryw, wedi ei neillduo ef a'i hiliogaeth fel cenedl arbenigol iddo ei hun, a chyflwynedig at ei wasanaeth; a thrwy hyny, fod eglwys wedi ei ffurfio a'i chadw yn ofalus yn y byd, dan nawdd a llywodraeth y nefoedd, hyd genedigaeth y Messïah addawedig.

9. Credant fod Mab Duw, yn nghyflawnder yr amser, wedi ymddangos yn y cnawd, drwy gael ei eni o Mair y Forwyn, ond wedi ei ymddwyn trwy allu yr Ysbryd Glân; a bod ein Harglwydd Iesu Grist yn Fab y dyn yn wirioneddol, gan gyfranogi yn llawn o natur ddynol ddibechod, yn gystal ag yn Fab Duw, gan fod yn ogyfuwch â'r Tad yn mhob ystyr, ac "yn wir lun ei berson ef."

10. Credant fod Iesu Grist, Mab Duw, wedi dadguddio, naill ai yn bersonol yn ei weinidogaeth ei hun, neu trwy yr Ysbryd Glân yn ngweinidogaeth ei apostolion, holl feddwl Duw er ein iachawdwriaeth; a'i fod ef, trwy ei ufudddod i'r ddeddf ddwyfol tra yn ei fywyd, a thrwy ei farwolaeth, wedi "cael i ni dragwyddol ryddhad;" gan iddo drwy hyny foddloni cyfiawnder dwyfol, mawrhau y gyfraith, a dwyn cyfiawnder tragwyddol i mewn.

11. Credant ei fod, ar ol ei farwolaeth a'i adgyfodiad, wedi esgyn i fyny i'r nefoedd fel Cyfryngwr rhyngom a Duw, a'i fod "yn byw bob amser i eiriol" dros y rhai a nesânt at Dduw trwyddo ef.

12. Credant fod yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi mewn canlyniad i eiriolaeth Crist, i fywhau ac adnewyddu calonau dynion; a bod ei ddylanwad ar yr enaid dynol yn anhebgorol angenrheidiol er dwyn pechadur i wir edifeirwch, i afael ffydd gadwedigol, i gyfnewid y galon, ac i berffeithio ein sancteiddhad.

13. Credant mai trwy ffydd yn Nghrist y cyfiawnheir ni; ac nid o honom ein hunain—"rhodd Duw ydyw."

14. Credant, am y rhai oll a fydd yn gadwedig yn y diwedd, mai gwrthddrychau dewisiad cariadlawn tragwyddol Duw fyddant, a'u bod wedi eu rhoddi drwy weithred ddwyfol benarglwyddiaethol i Fab Duw; ond nad ydyw y weithred benarglwyddiaethol hon yn ymyryd mewn un modd â chyfundrefn moddion, nac â chyfrifoldeb dynion, gan ei bod yn hollol guddiedig gyda golwg ar ei gwrthddrychau; ac am hyny, y mae yn anaddas i fod yn rheol dyledswydd.

15. Credant fod yr Ysgrythyrau yn dysgu y cedwir yn y pen draw yr holl wir gredinwyr i sefyllfa o wynfydedigrwydd tragwyddol; er nad yn annibynol ar ffydd sefydlog yn Nghrist, ac ufudd-dod cysson i'w orchymynion.

16. Credant mai bywyd rhinweddol ydyw canlyniad anhebgorol ffydd wirioneddol, ac mai gweithredoedd da ydynt ffrwythau naturiol undeb bywiol â Christ.

17. Credant fod sancteiddhad Cristionogion, neu eu cynnydd yn ngrasusau yr Ysbryd, a'u parotoad i'r nefoedd, yn cael ei ddwyn yn mlaen yn raddol drwy ystod yr holl amser y gwel Duw yn dda eu gadael ar y ddaiar; ac y bydd eu heneidiau, yn angeu, wedi eu rhyddhau yn hollol oddi wrth bob olion llygredd, ac y derbynir hwy yn uniongyrchol i bresennoldeb Crist.

18. Credant yn mharhad y dyledswyddau o fedydd a Swper yr Arglwydd:—y cyntaf i gael ei weinyddu i ddychweledigion at Gristionogaeth, a'u plant, trwy gymhwysiad o ddwfr at y bedyddiedig; a'r diweddaf i gael ei weinyddu yn gyhoeddus gan Gristionogion, fel arwydd o ffydd yn y Gwaredwr, a chariad at eu gilydd.

19. Credant y daw Crist, yn niwedd y byd, i farnu yr holl hil ddynol; y bydd i gyrff pawb gael eu hadgyfodi; ac y bydd iddo, fel y Barnwr goruchel, ddosbarthu y cyfiawn a'r anghyfiawn, gan dderbyn y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol, a gyru y rhai drwg i gospedigaeth dragwyddol.

20. Credant fod Iesu Grist wedi bwriadu ac wedi cyfarwyddo i'w ddilynwyr fyw yn nghyd mewn cymdeithas Gristionogol, a chynnal i fyny gymundeb y saint; a'u bod, i'r dyben hwn, i barchu a chadw yr holl ordinhadau dwyfol, a chynnal i fyny y drefn a'r ddysgyblaeth eglwysig hono; sef, a orchymynir yn benodol gan gyfarwyddyd ysbrydoledig, neu a awdurdodir gan esamplau diammheuol yr apostolion a'r eglwysi apostolaidd.

EGWYDDORION TREFN A DYSGYBLAETH EGLWYSIG.

1. Credant mai ewyllys Crist ydyw ar fod i wir gredinwyr ymgasglu yn nghyd yn wirfoddol i gynnal ordinhadau crefyddol, i hyrwyddo eu hadeiladaeth a'u sancteiddrwydd eu hunain, i ledaenu yr efengyl yn y byd, ac i chwanegu gogoniant ac addoliad Duw, trwy Iesu Grist; a bod pob cymdeithas, os yn meddu y pethau hyn mewn golwg yn ei sefydliad, yn eglwys Gristionogol briodol.

2. Credant fod y Testament Newydd yn cynnwys—naill ai mewn ffurf o orchymyn pendant, neu esamplau yr apostolion a'r eglwysi apostolaidd—yr holl erthyglau o ffydd ag y mae yn angenrheidiol i Gristion eu credu, a'r holl drefniadau a'r ddysgyblaeth sydd yn eisieu er cyfansoddi a llywodraethu cymdeithasau Cristionogol; ac nad oes gan draddodiadau dynol, tadau, na chynghorau, un awdurdod ar ffydd ac ymarferiadau Cristionogion.

3. Y maent yn cydnabod Crist fel unig Ben yr eglwys; a bod swyddogion pob eglwys, yn ddarostyngedig iddo ef, wedi eu hordeinio i weinyddu ei gyfreithiau yn ddiduedd tuag at bawb; a'u hunig appeliad, yn mhob cwestiwn a fyddo yn dwyn perthynas â'u ffydd neu eu hymarweddiad, ydyw yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

4. Credant fod y Testament Newydd yn awdurdodi pob eglwys Gristionogol i ddewis ei swyddogion ei hunan, i lywodraethu ei hamgylchiadau ei hun, ac i fod yn annibynol ar, ac yn anghyfrifol i, unrhyw awdurdod, oddi eithr awdurdod Pen mawr yr eglwys, yr Arglwydd Iesu Grist.

5. Credant mai yr unig swyddogion a osodwyd gan yr apostolion ar eglwysi unigol ydyw, esgobion neu fugeiliaid, a diaconiaid; bod rhifedi y rhai hyn yn dibynu ar rifedi yr eglwys; ac i'r rhai hyn, fel swyddogion yr eglwys, yr ymddiriedir gweinyddiad ei haddoliad gymdeithasol, ei dysgyblaeth, a'i hamgylchiadau tymmorol; ond yn ddarostyngedig, pa fodd bynag, i gydsyniad yr eglwys.

6. Credant na ddylid derbyn unrhyw berson fel aelod o eglwys Gristionogol ond y neb a wna broffes gredadwy o Gristionogaeth, gan fyw yn

Digitized by Google

ol ei chyfarwyddiadau, a bod yn foddlawn i ymostwng i'w dysgyblaeth; ac na ddylid diarddel neb o aelodaeth eglwysig ond y rhai a wadant grefydd Crist, a dorant ei ddeddfau, neu a wrthodant ymostwng i ddysgyblaeth gair Duw.

7. Credant fod yr hawl i dderbyn i mewn i unrhyw eglwys Gristionogol, ac i ddiarddel o honi, yn meddiant yr eglwys ei hunan, ac i gael ei weinyddu trwy gyfrwng ei swyddogion yn unig.

8. Credant y dylai eglwysi Cristionogol gyfarfod ar adegau penodol i gynnal addoliad cyhoeddus, i gyfranogi o Swper yr Arglwydd, ac i sancteiddio y dydd cyntaf o'r wythnos.

9. Credant mai gallu moesol yn unig ydyw gallu eglwys Gristionogol, ac na ddylai mewn unrhyw fordd gael ei llygru drwy undeb â gallu tymmorol neu wladol.

10. Credant ei bod yn ddyledswydd ar eglwysi Cristionogol i ddal cymundeb â'u gilydd, i goleddu cariad cryf y naill at y llall, megys aelodau o'r un corff, ac i gydweithredu er llwyddo achos crefydd; ond nad oes gan un eglwys, nac undeb o eglwysi, un hawl i ymyryd â chrediniaeth neu ddysgyblaeth unrhyw eglwys arall, yn mhellach na diarddel ac ymneillduo oddi wrth y cyfryw un ag a ymedy, mewn cred neu ddysgyblaeth, oddi wrth efengyl Crist.

11. Credant mai braint a dyledswydd yr eglwys ydyw galw yn mlaen o'i haelodau, i ymgymmeryd â gwaith y weinidogaeth, y cyfryw rai ag sydd yn ymddangos fel yn meddu y cymhwysderau angenrheidiol, ac fel wedi eu nodi gan yr Ysbryd Glân; ac y dylai yr holl eglwysi fel eu gilydd edrych ar gadwraeth y weinidogaeth Gristionogol mewn gradd gyfaddas o ddysgeidiaeth fel un o'u prif ofalon, fel y byddo i achos yr efengyl gael ei gynnal yn anrhydeddus, a'i ledaenu yn llwyddiannus.

12. Credant y dylai swyddogion yr eglwys, pa un bynag ai esgobion ai diaconiaid, gael eu dewis trwy lais yr eglwys; ond y dylai eu neillduad at ddyledswyddau eu swydd gymmeryd lle trwy weddi neillduol, a thrwy ordeiniad difrifol, yn y weithred o arddodiad dwylaw gan y rhai a fyddant eisoes mewn swyddau.

13. Credant y dylai cymundeb pob eglwys Gristionogol fod mor ryddfrydig fel y derbyn at Swper yr Arglwydd bawb ag y bydd eu ffydd a'u duwioldeb, ar y cyfan, yn ddiammheuol, er y gallant fod yn gwahaniaethu yn gydwybodol yn eu barnau ar bynciau llai eu pwys; ac y dylai yr arwydd allanol hwn o frawdoliaeth yn Nghrist fod mor eang a'r frawdoliaeth ei hunan, ond heb gynnwys un cydsyniad yr edrychid arno yn bechod gan y gydwybod. Gwel ANYMDDIBYNWYR.—(*Rel. Encycl.*; *Buck's Theol. Dict.*; *Williams' Dict. of all Rel.*)

CYNNYDD—U, [*cyn—dydd*]: tyfiad, codiad, mwyhad, chwanegiad; myned rhagddo, mwyhau.

"Golwg y perchen yw cynnydd y da." *Diar. Cym.*

"Cynnyddwch mewn gras;" 2 *Pedr* iii. 18. Y mae yr apostol yn annog y saint i gynnyddu ac i fyned rhagddynt, am mai gwneuthur cynnydd parhaus ydyw yr unig ffordd i barhau, ac i beidio a cholli tir; "fel pe dywedasai," medd Calvin, "mai y rhai sydd yn gwneuthur cynnydd beunyddiol sydd yn ddiogel." Wrth "ras" yr ydys i ddeall y doniau ysbrydol a dderbyniwn trwy Grist; a chan ein bod yn dyfod yn feddiannol ar y doniau hyny yn ol mesur ein ffydd, annogir ni i gynnyddu hefyd "yn ngwybodaeth Iesu Grist." Y mae cynnydd gras yn gyfatebol i gynnydd gwybodaeth ysbrydol. Gras ydyw y prif amcan, neu y nod; a gwybodaeth ydyw y moddion i'w gyrhaedd. Yn yr Ysgrythyrau, y mae y prif beth yn cael ei nodi gyntaf, ac yna yr hyn sydd yn arwain ato, neu yn achos o hono.

Y mae y gair "cynnydd," a "chynnyddu," yn gyfieithiad o dri gair Groeg. 1. Αυξανω=tyfu, tyfu i fyny, myned yn fwy; yn yr ystyr gweithredol, rhoddi cynnydd. "Duw a roddes y cynnydd;" 1 *Cor.* iii. 6. "Gwneuthur cynnydd y corff;" *Eph.* iv. 16. "Rhaid iddo ef gynnyddu;" *Ioan* iii. 30. "Cynnyddu yn deml sanctaidd;" *Eph.* ii. 21. 2. Προκοπτω=myned yn mlaen; hyrwyddo, yn yr ystyr gweithredol. Tra y mae y gair cyntaf yn dynodi tyfiant, cynnydd llonydd, y mae hwn yn arwyddo mynediad yn mlaen: dyma y gair a gyfieithir "a gerddodd yn mhell," yn *Rhuf.* xiii. 12. Tra mai y gair gwrthgyferbyniol i'r cynnydd a ddynodir yn y gair cyntaf ydyw *lleihau*, y gair gwrthgyferbyniol i'r diweddaf fyddai "myned yn ol," neu "colli tir." Προκοπτω ydyw y gair yn y manau canlynol:—"a gynnyddodd mewn doethineb;" *Luc* ii. 52: "i mi gynnyddu yn y grefydd Iuddewig;" *Gal.* i. 14: "er cynnydd i chwi;" *Phil.* i. 25 (cyfieithir yr un gair yn *adn.* 12, "llwyddiant"): "fel y byddo dy gynnydd yn eglur;" 1 *Tim.* iv. 15. 3. Περίσσευω=lluosogi yn fawr, amlhau: "ac a gynnyddasant mewn rhifedi;" *Act.* xvi. 5. Y gwrthgyferbyniol i hyn fyddai prinhau, myned yn llai lluosog. Y drychfeddwl o dyfiant sydd yn y gair cyntaf; o symmudiad yn yr ail; ac o nifer yn y trydydd.

CYNNYRCH—U, [*cyn—dyrch*]: cynnydd; yr hyn a dyf oddi ar beth arall, megys ffrwyth y ddaiar; cnwd, toraeth; dwyn allan. Addawodd yr Arglwydd wrth Israel, os rhodient yn ei ddeddfau, ac os cadwent ei orchymynion, y "rhoddai y ddaiar ei chynnyrch, a choed y maes eu ffrwyth" (*Lef.* xxvi. 4); gan fygwth y gwrthwyneb, sef anffrwythlondeb barnol, am anufudddod. "Cynnyrch," neu hiliogaeth "dynion pechadurus," y geilw Moses y Reubeniaid a'r Gadiaid, y rhai a ofynent ganiatad i aros yn llonydd, ac i fwynhau eu hetifeddiaeth y tu hwnt i'r Iorddonen. Y mae y gair "cynnyrch" yn arwyddo eu bod o'r un natur, a thueddfryd llwfr, a'u tadau; canys yr oeddynt hwy yn ceisio digaloni meibion Israel, fel y gwnaeth eu tadau o'u blaen (*Num.* xxxii. 14). "Chwi a godasoch yn lle eich tadau, i ddirmygu y wlad dda, ac i'w gwrthod hi, fel y gwnaethant hwy, pan yr oeddem yn gobeithio eich bod wedi codi i'w meddiannu yn eu lle. Yr oedd yn gefnogaeth i Moses eu gweled yn gyfryw gynnyrch o ddynion, ond yn ofid eu bod yn gynnyrch mor bechadurus."—*Henry.* Lleferir am "gynnyrch yr haul" (*Deut.* xxxiii. 14); "cynnyrch Gwlad Canaan" (*Jos.* v. 12); "cynnyrch tŷ" (1 *Sam.* ii. 33). Dywedir fod "cynnyrch doethineb yn well nag aur coeth a detholedig" (*Diar.* iii. 14). "Ffrwyth tyfadwy a chynnyrchiol" (*Marc* iv. 8; Gr. αυξανοντα:—yr un gair ag a gyfieithir "cynnydd").

CYNNYSGAETH—U, [*cynnysg*]: rhodd briodasol, gwaddol; arferir enw ar y ferf weithiau am roddi unrhyw fath o rodd; "Cynnysgaethodd Duw fyfi â chynnysgaeth dda," ebe Leah, pan ymddygodd ar y chweched mab, Zabulon (*Gen.* xxx. 20). Yn fwyaf cyffredin, y mae y gair yn arwyddo rhodd briodasol. Un o'r pethau a

Digitized by Google

wahaniaethant briodasau y gwledydd dwyreiniol oddi wrth briodasau y gwledydd Ewropaidd fwyaf, oedd natur y drafodaeth rhwng tad y ferch a'r gŵr ieuanc a ymofynai am ei llaw. Yn ein mysg ni, y mae y tad, os bydd mewn moddion, yn arfer rhoddi rhan o'i eiddo gyda'i ferch i'r priodfab; ond yn y dwyrain, y mae y priodfab yn cynnyg i dad y ddyweddi swm o arian, neu eiddo cydwerth âg arian, i'w foddloni, cyn y gall ddysgwyl caniatad i'w gwneuthur yn wraig iddo. Y mae genym esamplau o hyn yn yr oesoedd boreuaf. Pan nas gallai Iacob bwrcasu yr hon a hoffai âg arian neu feddiannau, efe a'i sicrhaodd trwy wasanaethu Laban ei thad am nifer o flynyddoedd: *Gen.* xxix. 18. Yr un modd yr ydym yn darllen am Sichem, ei fod yn foddlawn i dalu unrhyw swm—"dirfawr gynnysgaeth a rhodd"—fel gwaddol i'w thad a'i pherthynasau am Dinah: *Gen.* xxxiv. 12. Tybia rhai fod y gair "cynnysgaeth" (Seis., *dowry*) yn arwyddo gwaddol yn cael ei sefydlu ar y ferch, a'r gair "rhodd" (Seis., *gift*), yr hyn a roddid ar adeg dyweddïad, fel gwystl o ffyddlondeb ar ran y priodfab. Bernir fod y tlysau aur ac arian, a'r gwisgoedd a roddes gwas Abraham i Rebeccah, yn golygu y cyntaf, a'r pethau gwerthfawr a roddes i'w brawd a'i mam, yr olaf, sef y gwystl dyweddïawl. Ond y mae golygiad Calmet ac ereill yn ymddangos i ni yn fwy cysson âg arfer y dwyreinwyr. Rhoddid y "gynnysgaeth," nid i'r ferch, ond i'r teulu, fel arwydd o anrhydedd, ac i'r dyben o'u gwneyd hwy yn ffafriol i'r briodas amcanedig. Yr oedd y "rhodd" yn perthyn iddi hi, sef y ferch, yr hon a gynnwysai dlysau, ac addurniadau ereill. Yr ydym yn darllen am Saul (1 *Sam.* xviii. 25), yn lle gofyn am waddol gan Dafydd, yr hyn nis gallasai ef ei roddi, yn rhoddi telerau ereill o'i flaen, sef cant o flaengrwyn y Philistiaid; ac felly yn cynnyg ei ferch fel gwobr gwroldeb anghyffredinol, yn lle fel gwobr cyfoeth. Yr un modd y cynnygiai Caleb Achsah ei ferch i bwy bynag a elai ac a orchfygai Ciriath-Sepher. Yr oedd y gynnysgaeth yn cael edrych arni mor angenrheidiol, fel y mae Moses yn rhoddi gorchymyn am ei thalu, mewn amgylchiad y gallesid tybied y buasai yn haws ei hebgor: "Os huda un forwyn, yr hon ni ddyweddïwyd, a gorwedd gyda hi; gan gynnysgaethu cynnysgaethed hi yn wraig iddo ei hun;" *Exod.* xxii. 16. Yr oedd yn rhwym o wneyd y gynnysgaeth arferol; ac yr oedd maint y swm i'w benderfynu yn ol ei sefyllfa ef, ac yn ol sefyllfa flaenorol y ferch. Nid oedd y ffaith ei fod ef wedi ei hudo a'i darostwng i effeithio dim ar swm y gynnysgaeth. Ond "os ei thad a lwyrwrthodai ei rhoddi hi iddo," yr oedd yn rhwym "i dalu arian yn ol gwaddol morwynion;" sef y swm y gallasai un o sefyllfa ei thad ddysgwyl oddi wrth y neb a ofynai ei ferch mewn priodas. A hyn, fel y gwelsom, oedd yr ad-daliad a gynnygiodd Sichem i Iacob a'i feibion. Y mae y cyffelyb arferion yn bod hyd heddyw yn mysg y dwyreinwyr; er fod rhai llwythau yn dra gwahanol i'w gilydd o barth i'r gynnysgaeth. Yn ngolwg rhai llwythau, y mae cynnyg cynnysgaeth yn sarhad mawr. Llwythau ereill a dderbyniant y gynnysgaeth, nid fel anrhydedd a chwanegiad cyfoeth i'r tad ei hun, ond fel gwaddol i'r ferch a roddir mewn priodas. Ond y mae llwythau ereill yn edrych ar y gynnysgaeth fel pris pryniad y ferch, fel pe y prynid anifail. Telir y gynnysgaeth yn gyffredin mewn anifeiliaid; efallai mewn pump neu chwech o gamelod, gyda'r chwanegiad weithiau o hanner cant o ddefaid. Dwg Niebühr dystiolaeth i'r arferiad yma yn mysg y Curdiaid a'r Turcomaniaid—llwythau yn dilyn bywyd bugeiliol. Dywed fod y penteulu yn y llwyth cyntaf, os bydd yn perthyn i hen deulu urddasol, yn gofyn swm o arian, cyfartal â 30,000*p*. am ei ferch, tra nad yw yn rhoddi gyda hi i'r priodfab ond gwaddol fechan. Felly, y mae meddu ar lawer o ferched yn etifeddiaeth fawr i foneddwr o'r llwyth hwn. Y mae yn amlwg oddi wrth Homer [*Il.* ii. 243], fod y gynnysgaeth briodasol yn adnabyddus yn mysg yr hen Roegiaid. Y gair Hebraeg am "gynnysgaeth" a "gwaddol" ydyw מהר, yr hwn, pan yn cael ei arfer fel berf, a arwydda *prysuro* (*Exod.* xxxii. 8; *Num.* xvi. 46, &c.); ac y mae yr enw hwn yn briodol, naill ai am ei fod yn *myned o flaen* y briodas, neu am ei fod yn prysuro ac yn rhwyddhau y briodas. Y gair Groeg sydd yn cyfateb iddo ydyw *προιξ*; o *προ*=*o flaen*; ac *ικω*=*myned*; felly, y mae yn debygol mai yr ystyr blaenaf a roddid i'r gair Hebraeg.

CYNTAF, [*cynt*]: arwydda—1. Yr hyn sydd o flaen gwrthddrychau ereill o ran amser neu drefn; a golyga ail a thrydydd: "Y cyntaf, Simon, yr hwn a elwir Pedr" (*Mat.* x. 2); yr hwn a nodir yn gyntaf, am mai efe a alwyd yn gyntaf i fod yn apostol. "Y dyn cyntaf o'r ddaiar yn ddaiarol; yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef;" 1 *Cor.* xv. 47. 2. Y blaenaf neu yr uchaf mewn rhagoriaeth: "Yn gyntaf, o herwydd darfod ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw;" *Rhuf.* iii. 2. Y mae y gwreiddiol, *πρωτος*, yn cael ei ddefnyddio yn fwy mynych i ddynodi rhagoriaeth na'r Cymraeg "cyntaf:" *Luc* xv. 22; *Act.* xxviii. 2; *Rhuf.* i. 8. "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw" (*Mat.* vi. 33), a arwydda ei cheisio o flaen pob peth, yn uwch na phob peth. Y mae y syniad o ragoriaeth yn fwy arbenig yma na'r drychfeddwl o amser. "Fel y dangosai Iesu Grist ynof fi yn gyntaf bob hir oddef" (1 *Tim.* i. 15); hyny yw, yn fwyaf neu benaf:—y mae ei hiroddefgarwch yn ymddangos yn fwy neillduol a rhagorol ynof nag yn neb.

CYNTAFANEDIG—AETH (*πρωτοτοκος*, *πρωτοτοκια*). Nid yw y gair *cyntafanedig* i'w ddeall bob amser yn llythyrenol; ond y mae weithiau yn dynodi y rhagoraf a'r anrhydeddusaf o'r math. "Cynblant y tlodion" (*Esa.* xiv. 30), a arwydda y dosbarth isaf o'r tlodion. Y mae y gair *πρωτοτοκος* yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyrau am blentyn cyntafanedig tad neu fam (*Math.* i. 25); am gyntafanedig anifeiliaid (*Exod.* xii. 12, 29). Mewn ystyr trawsenwol, dynoda y penaf, y rhagoraf, yr uchaf o ran awdurdod ac urddas. Yn yr ystyr hwn, fel y cawn sylwi wrth fyned rhagom, y cymhwysir yr enw at Grist, ac at y saint.

I. *Neillduad y cyntafanedig.* Ar ol i'r angel dinystriol ladd cyntafanedigion yr Aiphtiaid, ordeiniodd Duw fod i gyntafanedigion Israel, yn ddyn ac anifail, gael eu neillduo iddo ef. Y mae cyfraith y cyflwyniad hwn i'w chael yn *Exod.* xiii. 12, 13. Dosberthir y gyfraith hon yn dair o ranau:—1. Y plant cyntafanedig, y rhai oedd i gael eu prynu â phum sicl. 2. Anifeiliaid glân, y cyfryw a dalent i'w haberthu. Yr oeddynt hwy i gael eu hoffrymu yn ebyrth i Dduw; nis gallesid eu prynu, na rhoddi dim cydwerth yn eu lle. 3. Creaduriaid aflan, o'r rhai y rhoddir anghraifft yn yr asyn. Yr oeddynt hwy i gael

Digitized by Google

eu prynu âg arian, trwy gytundeb â'r offeiriaid, neu i gael eu torfynyglu yn ol fel y dewisai eu perchenog. Amcan y sefydliad hwn oedd cadw yn fywiog yn nghof ac ystyriaeth plant Israel ddaioni yr Arglwydd yn arbed yr eiddynt hwy, pan oedd yr angel dinystriol yn tramwy trwy wlad yr Aipht, gan ddinystrio cyntafanedigion yr Aiphtiaid, o ddyn ac anifail. Diau fod perthynas agos rhwng dinystr y cyntafanedig yn y naill, a neillduad y cyntafanedig yn y llall. Ac yr oedd y berthynas hon yn ddyblyg. Os gofynir, Pa ham y neillduwyd cyntafanedig Israel? Un atebiad yw, i fod yn goffadwriaeth am eu harbediad yn ninystr y cyntafanedigion yn yr Aipht. Os gofynir, Pa ham y disgynodd y ddiweddaf a'r drymaf o farnau Duw ar yr Aipht ar y cyntafanedigion? Yr atebiad, mae yn debyg, yw, fod rhyw gyfeiriad yn y weithred hon at y berthynas oedd rhwng Israel a Duw: "Israel," medd yr Arglwydd, "yw fy mab i, sef fy nghyntafanedig; os gwrthodi di ei ollwng, wele mi a laddaf dy fab di, sef dy gyntafanedig;" *Exod.* iv. 21—23. Y mae Israel yn cael ei ddynodi fel y cyntafanedig, nid yn unig am ei fod yn gu gan Dduw, am fod yr Arglwydd yn edrych arno fel dyn ar ei gynfab, ond hefyd gyda chyfeiriad at darddiad dwyfol Israel fel "had yr addewid." Y cyfryw, medd Fairbairn [*Typ. of Script.*], oedd Isaac, cyntafanedig y teulu, a'r cysgod o'r hyn oll oedd i ganlyn; a'r cyfryw oedd yr holl deulu yn yr amser yma, pan wedi cynnyddu i fod yn genedl, fel yr oeddynt yn wahanol oddi wrth genedloedd ereill y byd. Nid hwy oedd y cwbl a fwriadwyd i sefyll yn y berthynas oruchel hon; nid oeddynt hwy ond dechreuad yr had sanctaidd, cyntafanedig Iehofah, blaenffrwyth byd wedi ei brynu; yr hwn, yn ei gyflawnder, oedd i gynnwys pob llwyth, iaith, pobl, a chenedl." Ac felly, fe addawyd i Abraham y byddai efe yn dad, nid i un, ond i lawer o genedloedd. Ond y mae y blaenffrwyth yn cynnrychioli y cwbl; a chan nad oedd eto ond hwy yn unig yn y byd, gellir dywedyd eu bod yn cynnwys y cwbl. Os dinystrid hwy, nis gallasai y gweddill ddyfod i fod; o blegid Israel, wedi eu gwaredu o'r caethiwed, oedd had yr holl waredigion yn yr oesoedd a ddeuent; ond os gwaredid hwy, byddai eu gwaredigaeth yn wystl a chysgod o waredigaeth yr holl had. Gan hyny, er mwyn dangos yn eglur fod Duw yn hyn yn gweithredu ar yr egwyddor sydd yn cyssylltu y blaenffrwyth â'r clamp toes—yn gweithredu nid er mwyn yr un teulu, a'r amser hwnw yn unig, ond er mwyn ei bobl o bob cenedl yn mhob oes, y mae yn cymmeryd yr egwyddor hono yn sylfaen ei farnedigaeth ar y gelyn, a'r iachawdwriaeth a ddeilliai o hyny i'w bobl. "Fel y mae y cyntafanedig yn nheulu Duw i gael ei arbed a'i waredu, felly y mae y cyntafanedig yn nhŷ y gelyn, dechreuad ei gynnydd ac etifedd ei dda, i gael ei ddinystrio—y naill yn brawf fod yr holl deulu wedi ei ordeinio i fywyd a bendith; a'r llall yn brawf fod pawb ag sydd yn estroniaid i gyfammod Duw yn haeddu, ac yn sicr mewn amser o etifeddu, colledigaeth."

Y mae defodau pryniad y cyntafanedig yn mhlith yr Iuddewon fel y canlyn, medd Calmet. Os plentyn gwryw a fydd, pan fyddo yn ddeng niwrnod ar ugain oed, anfonir am un o hiliogaeth Aaron; ac wedi ymgasglu o'r cwmni, y mae y tad yn dwyn aur neu arian mewn cwpan. Yna, dodir y plentyn yn mreichiau yr archoffeiriad, yr hwn a ofyna yn uchel i'r fam, "Ai chwi ydyw mam y plentyn?" Etyb hithau, "Ie." Chwanega yr offeiriad, "A fu genych blentyn o'r blaen, gwryw neu fenyw?" Dywed y fam, "Naddo." "Os felly," dywed yr offeiriad, "y mae y plentyn hwn, gan mai y cyntafanedig ydyw, yn perthyn i mi." Yna, try at y tad, a dywed, "Os ydych yn chwennych ei gael, y mae yn rhaid i chwi ei brynu." "Yr arian a'r aur yma," chwanega y tad, "yr wyf yn roddi i chwi yn unig i'r dyben hwnw." Yna y mae yr offeiriad yn troi at y cwmni, ac yn dyweyd, "Y mae y plentyn hwn, fel y cyntafanedig, yn perthyn i mi yn ol y gyfraith; ond yn ol yr un gyfraith yr ydwyf yn boddloni ar yr arian yma fel pris y pryniad." Os bydd y tad neu y fam o hiliogaeth offeiriaid, nid ydynt yn prynu eu cyntafanedig.

II. *Braint y cyntafanedig, neu yr enedigaeth-fraint.* Barna rhai fod hawl yr offeiriadaeth yn perthyn i'r mab hynaf. "Yr oedd y cyntafanedig," medd Dr. Davidson [*Kitto's Cycl.*, d.g. BIRTHRIGHT], "yn dyfod i'r offeiriadaeth yn rhinwedd ei flaenafiaeth oedran, os na byddai rhyw ddiffyg neu anaf yn perthyn iddo. Reuben oedd cynfab Iacob, a brawd hynaf y patriarch; ac am hyny, i'w lwyth ef y perthynai anrhydedd yr offeiriadaeth (*Num.* iii. 12, 13). Yr oedd cyntafanedigion y llwythau ereill yn cael eu prynu oddi wrth y rhwymedigaeth o wasanaethu Duw fel offeiriaid. Y mae yn deilwng o sylw mai y cyntafanedigion hyny ag oedd yn *gymhwys i'r offeiriadaeth*, sef y cyfryw nad oedd arnynt nac anaf na diffyg, a gyflwynid i'r offeiriad." Teg ydyw crybwyll fod rhai o'r prif awdurdodau Iuddewig yn mysg yr hen Rabbiniaid, yn nghyd â lluaws o esbonwyr a dysgedigion Cristionogol yn yr oesoedd diweddaf, o'r golygiad hwn. Seiliant y dybiaeth ar amryw bethau; megys y crybwylliad, yn *Exod.* xxiv. 5, am "lanciau meibion Israel, y rhai a offrymasant boethoffrymau i'r Arglwydd" ar yr achlysur o ymgyfammodiad Israel â Duw; tybiant hefyd, mai o herwydd cyssylltiad yr offeiriadaeth â braint y cyntafanedig yr oedd gwaith Esau yn diystyru yr esampl o halogrwydd eithafol; yn gymmaint a'i fod, wrth ei diystyru hi, yn diystyru yr offeiriadaeth. Dadleuant hefyd mai ar y dybiaeth hon y canfyddir y prif reswm dros neillduad y cyntafanedig i'r Arglwydd. Y mae y beirniaid diweddar, fodd bynag luaws o honynt, yn ammheu cywirdeb y dybiaeth hon. Y mae Dr. Owen yn ei gwrthod: dywed (ar *Heb.* xii. 16) "nad oedd yr Iuddewon yn golygu dim pellach yn y geiriau, 'offeiriadaeth y cyntafanedigion,' na'u neillduad i Dduw yn ol y gyfraith (*Exod.* xiii. 2). Nid ymddengys fod unrhyw drefniant neu urdd offeiriadol yn bod cyn sefydliad yr eiddo Aaron, oddi eithr yn unig fod un person wedi ei alw mewn modd anghyffredin i'r swydd, sef Melchisedec, ac i'r un amcan ag y sefydlwyd offeiriadaeth Aaron, sef fod yn gysgod o offeiriadaeth Crist." Mae yn rhaid addef fod yr Arglwydd wedi neillduo llwyth Lefi i'r offeiriadaeth "yn lle pob cyntafanedig, sef pob cyntaf a agoro y groth o feibion Israel;" a bod rhyw gyssylltiad â'r hawl a honai Duw yn y cyntafanedig o ddyn ac anifail â'i arbediad o honynt, pan ddinystrodd gyntafanedigion yr Aiphtiaid (*Num.* iii. 12, 13); ond nid yw hyn yn profi oll fod yr offeiriadaeth yn rhan o freintiau y cyntafanedigion yn yr oruchwyliaeth batriarchaidd. Yn y lleoedd y sonia yr Ysgrythyr am y breintiau hyn, nid ydym yn cael un crybwylliad am yr offeiriadaeth. Ymddengys hefyd, fel y sylwa Dr. Fairbairn, oddi wrth y

Digitized by Google

crybwyllion a geir am yr oruchwyliaeth batriarchaidd, nad ydoedd un trefniant wedi ei sefydlu i luddias unrhyw berson pa bynag i offrymu ac aberthu i'r Arglwydd. Yr ydym yn cael Abel yn moreu y byd yn aberthu, er mai nad efe oedd y cyntafanedig. Ymddengys mai ar y pen teulu, yn yr oruchwyliaeth hon, y gorweddai y cyfrifoldeb o weinyddu gwaith yr offeiriad; ac efe oedd y cymhwysaf i hyn, yn gymmaint mai iddo ef y perthynai anrhydedd uchaf a chyfrifoldeb trymaf y teulu, ac mai efe ydoedd ei gynnrychiolydd. Ond nid oes genym un sail i gredu fod yr offeiriadaeth yn cael ei chyfyngu i'r cyntafanedig. Pe buasai yn cael ei chyfyngu o gwbl i un person, y mae mwy o reswm dros gredu mai y tad—y pen teulu—oedd y person hwnw.

Yr oedd deuparth o'r etifeddiaeth yn cael ei sefydlu yn y gyfraith ar y cyntafanedig (*Deut.* xxi. 17). Ac yr oedd y dosbarthiad hwn, i ryw fesur, yn naturiol, o blegid y mae rheswm naturiol yn cael ei roddi drosto: "Hwn yw dechreuad ei nerth ef: iddo ef y bydd braint y cyntafanedig." Mae yn anhawdd penderfynu i sicrwydd pa beth a feddylir wrth y deuparth. Tybia rhai fod y brawd hynaf i gael hanner yr etifeddiaeth, a bod y rhan arall yn cael ei rhanu yn gyfartal rhwng y brodyr ereill. Ond nid ydyw hyn yn debygol. Dywed y Rabbiniaid, fod y brawd hynaf yn derbyn ddwywaith gymmaint a neb o'r brodyr ereill: ac nid oes dim yn erbyn credu hyn. Pan y byddai y cyntafanedig farw cyn i'r etifeddiaeth gael ei rhanu, a gadael plant ar ei ol, yr oedd hawl y tad yn disgyn i'r plant, ac nid i'r brawd nesaf ato mewn oedran.

Yr ydoedd y gyntafanedigaeth hefyd yn cynnwys y llywodraeth deuluaidd. Disgynai awdurdod ei dad i ran y cynfab. Yn y teulu oedd breninol, efe a ddilynai ei dad i'r orsedd (2 *Cron.* xxi. 3); ond yr oedd yn bosibl i ryw ddygwyddiad neu drefniant anarferol luddias i hyn gymmeryd lle. Yn yr oes batriarchaidd, yr oedd yn ngallu y tad i drosglwyddo hawliau y cyntafanedig i un o'i blant ieuangach: fel hyn, rhoddes Iacob y deuparth i Ioseph a'i feibion, yn lle i Reuben, ei gynfab; a rhoddwyd y llywodraeth i Iudah (1 *Cron.* v. 2). Trosglwyddodd Isaac yr enedigaeth-fraint a'i fendith i Iacob: "Wele, mi a'i gwnaethym ef yn Arglwydd i ti, rhoddais ei holl frodyr yn weision iddo;" *Gen.* xxvii. 37. "Gwneyd un yn gynfab," yn yr Ysgrythyr, ydyw ei wisgo â mawredd ac awdurdod, ei ddyrchafu "goruwch breninoedd y ddaiar;" *Salm* lxxxix. 27. Ar ol rhoddiad y ddeddf trwy Moses, fodd bynag, yr oedd hawliau y cyntafanedig yn anmhosibl i'w trosglwyddo yn ol ewyllys y tad i frawd ieuangach.

Y mae iawn ddealltwriaeth am hawliau y cyntafanedig yn Israel, ac am ddull ysgrifenwyr sanctaidd yr Hen Destament o arfer y gair (gwel *Salm* lxxxix. 27), yn angenrheidiol i ddeall ystyr y gair, pan ddefnyddir ef i osod allan urddas y Cyfryngwr yn ysgrifeniadau y Testament Newydd. Gelwir ef y "cyntafanedig," "cyntafanedig pob creadur," "cyntafanedig oddi wrth y meirw," "cyntafanedig yn mhlith brodyr lawer;" *Col.* i. 15, 18; *Rhuf.* viii. 29; *Heb.* i. 6; *Dad.* i. 5. "Cyntafanedig pob creadur;" *Col.* i. 15; neu fel y darllena Alford, "*The first-born of all creation.*" Y mae lluaws o'r tadau, a rhai o'r esbonwyr diweddar, yn deall y gair fel yn arwyddo cenedliad tragwyddol y Mab. Yr ystyr a gyssylltant hwy â'r ymadrodd ydyw, fod Crist, fel cenedledig y Tad, wedi dyfod yn Fab iddo, yn flaenorol i waith y greadigaeth. "Y mae Crist yn cael ei alw yn 'gyntafanedig' mewn cyssylltiad â'i fam; ond nid yw yn cael ei alw felly mewn cyssylltiad â'i Dad yn un man ag y mae cyfeiriad ynddo at athrawiaeth y dwyfol Faboliaeth." — *Eadie.* Eglurhad yr Ariaid a'r Sociniaid ydyw, fod Crist, "delw y Duw anweledig," yn cael ei restru yma gyda'r greadigaeth, fel rhan o honi. Y ddadl gyffredin o blaid yr esboniad hwn ydyw, fod yr enw *cyntafanedig,* yn mha le bynag y cymhwysir ef at y Cyfryngwr, yn cael ei arfer yn y fath fodd ag i wneyd Crist yn un âg ereill, ac nid yn unig i'w gymharu â hwynt. Yn yr ymadrodd, "cyntafanedig yn mhlith brodyr lawer," edrychir ar y cyntafanedig yn un o'r teulu, er fod ei sefyllfa yn rhagori ar bawb o'r teulu: ac yn y dysgrifiad, "cyntafanedig oddi wrth y meirw," edrychir ar yr Iesu fel un a fuasai unwaith yn un o'r meirw, er ei fod yn awr wedi ei ddyrchafu uwch law iddynt. A'r casgliad a wnant ydyw, gan ei fod yn cael ei alw yn "gyntafanedig pob creadur," fod y gymhariaeth yn ei osod allan fel un o'r "pob creadur." Ond dylasai y ffaith, fod yr apostol yn arfer y gair *πρωτοτοκος = cyntafanedig* (nid *πρωτοκτιστος = cyntafgrëedig*) fod yn ddigon, fel y sylwa Chrysostom, i'w cadw rhag y cyfeiliornad hwn. Pleidiodd Ennomius yr eglurhad uchod; ond atebwyd ef gan Basil yn y geiriau hyn—"Os ydyw yn cael ei alw yn gyntafanedig oddi wrth y meirw, am mai efe ydyw achos eu hadgyfodiad, yna y mae yn gyntafanedig yr holl greadigaeth, am mai efe ydyw achos ei bodolaeth."

Y golygiad mwyaf cyffredin ydyw, fod "cyntafanedig" yn arwyddo "Arglwydd." Mae yn wir mai drychfeddwl cyntaf y gair ydyw blaenafiaeth o ran amser: ond os sefir at yr ystyr hwn i'r gair yn yr adnod hon, y mae yn rhaid ei gymhwyso at enedigaeth Crist o'r forwyn; ac fel y sylwa Alford, nis gallai gyfeirio ond at y brodyr a'r chwiorydd a anwyd iddi ar ei ol. Ond nis gall neb goledd y dyb mai hyn yw gwir eglurhad yr adnod dan sylw. Felly, y mae yn rhaid mai yr awdurdod a'r urddas a berthynai i'r cyntafanedig ydyw y drychfeddwl yma, fel mewn manau ereill, ïe hyd yn oed mewn ysgrifeniadau Groegaidd clasurol. "Y mae 'cyntafanedig pob creadur' yn golygu fod Crist, nid yn unig yn gyntafanedig y forwyn yn y byd, ond yn gyntafanedig ei Dad cyn bod y byd; a'i fod, mewn cymhariaeth i bob peth crëedig, yn cynnal urddas cyntafanedig mewn mawredd ac anrhydedd."—*Alford.* Y mae y sylwadau canlynol o eiddo Eadie (ar y lle) yn eglurhad rhagorol o'r gair, fel y mae yn cael ei gymhwyso at y Cyfryngwr:—"Yn *Salm* lxxxix, yr hon sydd yn un o Salmau y Messïah, yr ydym yn cael y gair, 'Minnau a'i gwnaf yntau yn gynfab;' *h. y.,* a'i gwisgaf ef â mawredd breninol, ac â rhwysg tra rhagorol. Israel, wedi ei ddyrchafu goruwch y cenedloedd ereill, a'i ddwyn i berthynas gyfammodol, ac yn adlewyrchu cymmaint o'r gogoniant dwyfol, ydyw cyntafanedig Iehofah: *Exod.* iv. 22; *Ier.* xxxi. 9. Eglwys Crist, yn fendigedig ac anwyl gan Grist, ac wedi ei gosod yn nes i'r orsedd na'r angelion, ydyw 'cynnulleidfa y rhai cyntafanedig;' *Heb.* xii. 23. A phan yr edrychir ar y credinwyr fel meibion, fel brawdoliaeth fawr a dedwydd, y mae yr hwn a'u carodd, ac a fu farw drostynt—yr hwn a ennillodd iddo ei hun enw goruchel yn eu mabwysiad, ac a argraffodd ei ddelw ar ei holl blant—yn sefyll allan fel y penaf yn y teulu, ac 'yn gyntaf-

Digitized by Google

anedig yn mhlith brodyr lawer;' *Rhuf.* viii. 29. Yn *Heb.* i. 6 hefyd, mae yr Iesu yn derbyn yr un enw; ac y mae ysbrydion y byd nefol yn cael eu galw i roddi addoliad iddo fel cynnrychiolydd ei Dad. Yn mhellach, pan y mae yn cael ei alw, fel yn *Col.* i. 18, yn 'gyntafanedig oddi wrth y meirw,' y mae y cyfeiriad, nid at flaenafiaeth, ond at hawl; o blegid nid yn unig efe ydyw y cyntaf a gyfododd, nid i ddychwelyd mwy i lygredigaeth, ond y mae ei gyntafanedigaeth anfarwol yn sicrhau adgyfodiad ei bobl, ac ar unwaith, yn wystl a chynllun o hono....... Y cyntafanedig oedd cynnrychiolydd ei dad, ac yr oedd yn gweithredu yn enw ei dad. Saif Crist allan fel y cyntafanedig; âg ef y mae pob trafodaeth; ac y mae ymdrafod âg ef yr un peth ag ymdrafod â'i Dad."

CYNTEDD—AU—OEDD, [*cyn—tedd*]: neuadd, mynedfa i dŷ neu balas. Yr oedd tri o gynteddau yn perthyn i'r deml yn Ierusalem:—1. Cyntedd y Cenedloedd; o blegid na oddefid iddynt hwy fyned yn mhellach. 2. Cyntedd Israel; o blegid caniatëid i holl Israel fyned i mewn iddo, os byddent yn lân yn ol y gyfraith. 3. Cyntedd yr offeiriaid; lle y safai allor y poethoffrwm, a lle y gweinyddai yr offeiriaid a'r Lefiaid eu gwasanaeth. Gallai yr Israeliaid a offryment aberthau ddwyn eu hanifeiliaid i ran fewnol y cyntedd hwn, ond ni oddefid iddynt fyned heibio y terfyn penodol a'i gwahanai: ymgilient ymaith mor gynted ag y byddent wedi cyflwyno eu hoffrymau a'u haberthau i'r offeiriad, neu ynte ar ol cyffesu eu pechodau, â'u dwylaw ar ben yr anifail, os pech-aberth a fyddai.

Cyn adeiladu y deml, yr oedd cyntedd o gwmpas y tabernacl neu y babell, wedi ei ffurfio trwy grogi llen ar golofnau. [Gwell PABELL.] Yr oedd y cynteddau hyn yn debyg i gynteddau y temlau Aiphtaidd. Yr oedd cynteddau mawrion hefyd yn perthyn i balasau breninoedd a gwŷr mawr, fel yr ymddengys oddi wrth eiddo Solomon a'r brenin Ahasferus. [Gwel TY.] Y mae Luc (xi. 21) yn sôn am "un cryf arfog yn cadw ei neuadd;" hyny yw, y gwyliedydd arfog, megys yn yr amseroedd gwarogaethol (*feudal*), yn nghynteddau neu wrth byrth y cestyll barwnol.

Arferir y gair *cyntedd* am ddinas yn *Ezec.* xlvii. 17; a xlviii. 1;—Hasar-enan; hyny yw, dinas Enan. Y mae hyn yn dygwydd yn fynych yn yr Hebraeg; yn cynnwys yr holl drefydd hyny âg enwau pa rai y mae y gair *hasar* wedi ei gyssylltu; megys, Hasar-Susa=cyntedd Susa; Hasar-Sual, Hasara, Hasar-Gada, Haser-im, Haseroth. Y mae yr enwau hyn yn arwyddo cynteddau.

Yn y Beibl, gelwir addoliad Duw, lleoedd o addoliad, ordinhadau Duw, a chymdeithas â Duw ynddynt, yn gynteddau Duw: *Salm* lxv. 4; a lxxxiv. 2, 10. Arferir y gair *cyntedd*, mewn iaith gyffelybiaethol, i osod allan eglwys Crist, yn *Zech.* iii. 7. Arwydda hefyd, mewn lle arall, eglwys Anghrist: *Dad.* xi. 2.—(*Calmet's Dict.; Rel. Encycl.*)

CYPRESWYDD. Gwel BEROSH.

1. CYPRIAN: un o'r tadau Lladinaidd hyawdlaf, ac archesgob yn Nghaerdroia tua chanol y drydedd ganrif. Nid yw haneswyr yn cytuno yn hollol gyda golwg ar ei hanes boreuol. Y mae yn debygol ei fod wedi ei eni tua'r flwyddyn 200 B. A., yn Nghaerdroia, lle, cyn ei dröedigaeth at Gristionogaeth, yr ennillodd enwogrwydd a chyfoeth fel athraw areithyddiaeth; yr hyn beth oedd y pryd hyn mor anhebgorol i lwyddiant gyda phob materion cyhoeddus: ac ymddengys fod Cyprian, os gallwn farnu oddi wrth ei arddull, wedi gwneuthur defnydd mawr o hono yn ei swydd esgobol. Nid ymddengys fod ei yrfa fel Cristion wedi parhau yn hwy nag o ddeg i ddeuddeng mlynedd; canys yr oedd tua hanner cant oed pan yr ennillwyd ef at yr eglwys yn Nghaerdroia, drwy offerynoliaeth Cæcilius, henuriad—enw yr hwn a fabwysiadwyd ganddo rhag llaw. Ar ei dröedigaeth, gwerthodd ei balas a'i etifeddiaeth, a rhanodd y cynnyrch rhwng y tlodion, gan fyw ei hunan yn y dull mwyaf hunanymwadol. Dywedir, pa fodd bynag, ei fod, drwy ryw amgylchiad anhysbys yn bresennol, wedi dyfod i feddiant drachefn o'i etifeddiaeth. Wedi bod yn y swydd o henuriad am ddwy flynedd, i'r hon y dewiswyd ef pan yr ymunodd â'r eglwys, erfyniwyd arno gan y bobl i ymgymmeryd â'r swydd esgobol, gan wrthwynebu lluaws o henuriaid ereill a ymgeisient am yr anrhydedd; a dywedir ei fod wedi ei gau i fyny yn ei dŷ gan y bobl, rhag iddo ddianc, yr hyn a geisiodd drwy un o'r ffenestri uchaf, ond yn aflwyddiannus. Yn ganlynol, gwnaethpwyd ef yn archesgob Caerdroia; ond yn fuan ar ol hyn, dechreuodd yr erlidigaeth dan yr ymherawdwr Decius, a dianggodd Cyprian, a bu yn guddiedig am ddwy flynedd. Achosodd ei waith yn gadael ei eglwys am gymmaint o amser gryn farnu a beio; ac ysgrifenodd clerigwyr Rhufain at yr eglwys ar y pwnc: ond atebwyd y llythyr gan Cyprian ei hun, a'i amddiffynwr Pontius. Pan yr aeth yr erlidigaeth heibio, gan na ddyoddefodd Cyprian ond yn unig oddi wrth anfanteision ei ymneillduaeth ac attafaeliad ei feddiannau, dychwelodd i Gaerdroia; ac wedi ymaflyd yn ei swydd eilwaith, cynnaliodd amryw gynghorau, yn un o ba rai yr oedd cymmaint a 85 o esgobion wedi ymgasglu yn nghyd, i wneuthur rheolau gyda golwg ar ail fedyddio hereticiaid a gwrthgilwyr, y rhai a chwennychent gael eu derbyn drachefn i'r eglwys, wedi iddynt waredu eu hunain rhag creulondeb Decius trwy wadu eu proffes o grefydd. Ar adnewyddiad yr erlidigaeth, yn mhen tua chwe blynedd drachefn, gan yr ymherawdwr Valerian, dygwyd Cyprian, yn nghyd â naw o esgobion o Numidia, o flaen y rhaglaw Paternus; a chondemniwyd hwynt fel cynhyrfwyr annuwiol. Anfonwyd yr esgobion i weithio yn y mwngloddiau; ac alltudiwyd Cyprian i Curubis, tua deugain milltir o Gaerdroia, lle yr arosodd am un mis ar ddeg. Adferwyd ef yn ol i'w urddas cyntaf gan Galerius, dilynydd Paternus; ond gan iddo wrthod aberthu i'r duwiau paganaidd, yn ol gorchymyn yr ymherawdwr, cymmerwyd ef yn garcharor gan gwmni o filwyr, a dedfrydwyd ef i gael tori ei ben, fel gelyn i'r duwiau a thwyllwr peryglus. Arweiniwyd ef o balas rhaglawiol Sextus i faes cyfagos, lle yr oedd miloedd o bobl wedi ymgasglu yn nghyd i weled y dienyddiad, yn nghanol pa rai yr ymostyngodd gyda gwroldeb mawr i'r ddedfryd. Yr oedd yn rhaid fod cyfnewidiad mawr wedi cymmeryd lle yn nheimladau y bobl tuag ato, rhagor yr amser y gorfodasant ef i gymmeryd ei swydd, pan y gallent gydsynio fel hyn â'i farwolaeth; ac, yn wir, yr oeddynt wedi bod cyn hyn yn gwaeddi yn y chwareudai am ei daflu i'r llewod. Y mae yn debygol fod hyn wedi ei gynnyrchu gan ddull llym a didderbyn-wyneb Cyprian o lefaru yn erbyn eu pechodau.

Digitized by Google

Y mae ei ysgrifeniadau yn lluosog a gwerthfawr, gan eu bod yn cynnwys llawer o wybodaeth gywrain a phwysig yn nghylch athrawiaethau a dysgyblaeth yr eglwys foreuol: maent yn gynnwysedig o ddau fath — epistolau, a thraethodau neu bregethau. O'r rhai blaenaf y mae 83, ac ymddengys fod amryw o honynt wedi eu hysgrifenu ganddo yn ystod ei ddwy flynedd o ymneillduaeth. Fe ddengys y sylwadau canlynol y dosbarth o bynciau â pha rai yr ymwna yr epistolau hyn. Yn yr epistol at Donatus, y mae yn adrodd mewn iaith farddonol amgylchiadau ei dröedigaeth, ac yn dangos manteision hunanymwadiad a bywyd o ymneillduaeth mynachol. Yn yr un at ei offeiriaid a'i ddiaconiaid, y mae yn rhoddi cyfarwyddyd gyda golwg ar ddianc oddi ar ffordd erlidigaeth. Y mae yr un at Cornelius yn cynnwys ymadroddion pwysig i amddiffynwyr Eglwys Rhufain. Y mae yr epistol at Fides yn cynnwys barn Cyprian, a chynghor o esgobion, yn ffafr bedydd plant. Y mae un arall at Magnus ar yr un pwnc, yn haeru nad ydyw taenellu yn llai rhinweddol na throchi. Y mae yr un at Pomponius yn condemnio llygriad mynachaeth, a'r arferiad a ffynai i fenywod fyw gyda'r clerigwyr, mewn enw er mwyn derbyn addysg grefyddol ond mewn gwirionedd i ddybenion pechadurus. Mewn rhai hen lawysgrifau, rhoddir tri o epistolau heb law y nifer a nodir uchod, un o ba rai, oddi wrth y pab Cornelius at Cyprian, sydd yn llawn o enllib a thrahausder. Y rhai canlynol ydynt brif draethodau Cyprian:—*De Lapsis*, sef un yn dwyn perthynas â'r rhai hyny, mewn canlyniad i erlidigaeth, a aethant yn ol at eilunaddoliaeth. *Ar Undoliaeth yr Eglwys:* y mae sylw neillduol wedi ei dalu i'r traethawd hwn gan y lwysbenaeth Rufeinig a Seisonig. Y mae yn llefaru yn gadarn yn erbyn pob math o ymraniadau eglwysig, ac yn dadgan nad oes un goron, hyd yn oed am ferthyrdod, tu allan i derfynau y wir eglwys. Ysgrifenwyd y traethawd ar *Farwoldeb* yn ystod pla dychrynllyd a fu yn difa am luaws o flyneddoedd yn yr ymherodraeth Rufeinig. Y mae yn dangos yn eglur mor ychydig o werth a roddai y crefyddwyr boreuol ar fywyd. Gesyd allan nad oes yn y ddaiar hon ddim ond trueni a dyoddefaint dibaid; mai yn y nefoedd yn unig y mae dedwyddwch; dylai Cristion, gan hyny, medd Cyprian, fod yn ddiolchgar am ryw fath o farwolaeth. Y mae yr *Annogaeth i Ferthyrdod* yn gynnwysedig o ddeuddeg o ddosbarthiadau o adnodau, er cysuro ac annog y ffyddloniaid i ymostwng i ddirdyniadau a marwolaeth. Nid yw y *Traethawd yn erbyn yr Iuddewon* chwaith ond rhestr o adnodau wedi eu dyfynu yn llythyrenol, yn ol arferiad yr oes hono, heb dalu un sylw i'w hystyr. Yn y traethawd *Ar Wisg Gwyryfon*, crybwyllir amryw ffeithiau a arddangosant sefyllfa gymdeithasol y dyddiau hyny. Y mae arddull Cyprian yn tebygoli yn fawr i eiddo ei feistr a'i hoff awdwr, Tertullian. Y mae yn trin yr un pynciau yn yr un dull; ac er fod ei iaith yn fwy celfyddydol, y mae yn gyffelyb mewn gerwindeb a barbariaeth achlysurol. Edmygir ei hyawdledd, pa fodd bynag, gan Jerome a Lactantius. Nid ymddengys fod ond ychydig yn gyfartal iddo mewn hygoeledd, os oedd yn credu yr holl chwedlau a adroddir ganddo. Cyhoeddwyd yr argraffiad goreu o'i weithiau gan Fell, Rhydychain, 1682, at ba un y chwanegwyd *Annales Cyprianici*, Pearson; yn nghyd â'r un a ddechreuwyd gan Baluze, ac a orphenwyd gan fynach o frawdoliaeth St. Maur, Paris, 1726.—(*Albert's Life of the Saints*, cyf. ix. td. 172; *Clarke's Succession of Sacred Lit.*, cyf. i. td. 177; *Cave's Hist Lit.; Smith's Class. Dict.; Penny Cycl.; Herzog's Real Encycl.*)

2. CYPRIAN (yr hwn a elwir, er mwyn ei wahaniaethu, *y swynwr*): merthyr yn y bedwaredd ganrif, a brodor o Antiochia. Derbyniodd addysg dda, ac aeth i deithio i Groeg, yr Aipht, India, a Chaldea, er mwyn chwanegu at ei wybodaeth. Yn Babilon, aeth i fyfyrio serddewiniaeth a swynyddiaeth, a defnyddiodd ei holl fedrusrwydd a'i ddichellion yn erbyn Cristionogaeth a diweirdeb benywaidd. Rhoddwyd ef ar waith gan gyfaill iddo i geisio dinystrio purdeb boneddiges brydweddol, ond yn Gristion penderfynol, o Antiochia, o'r enw Justina; ond bu yn hollol aflwyddiannus; yr hyn a'i harweiniodd i chwilio i mewn i wirioneddau Cristionogaeth, ac mewn canlyniad i hyny cafodd dröedigaeth. Yr oedd ei edifeirwch yn wirioneddol a dwfn; a chafwyd gwaith mawr i'w attal rhag myned i anobaith yn nghylch ei bechodau. Gadawodd yn awr ei holl ddrwg arferion; llosgodd ei lyfrau ar serddewiniaeth, derbyniodd fedydd, ac adnewyddwyd ef gan ysbryd gras. Dyoddefodd ferthyrdod dan Diocletian trwy gael ei ddarnio yn gyntaf â gefeiliau, ac yna trwy dori ei ben ymaith.—(*Rel. Encycl.*)

CYPRUS [Κύπρος]: y *Kebris* bresennol. Un o'r ynysoedd mwyaf yn Môr y Canoldir, ac yn ail i Sicily mewn pwysigrwydd, yr hon a saif rhwng Cilicia a Syria. Dywed Strabo ei bod yn 3420 o stadiau (85½ o filltiroedd daiaryddol) o amgylchedd. Rhydd teithwyr diweddar ei maintioli yn wahanol, sef o 240 hyd 400 o filltiroedd ysgwâr. O blegid ei hagosrwydd i Asia Leiaf, Phœnicia, a'r Aipht, a'i phorthladdoedd lluosog, byddai llawer iawn o farsiandwyr yn arfer ymgasglu iddi. Yr oedd ŷd, gwin, ac olew, y rhai y crybwyllir am danynt yn yr Hen Destament mor fynych fel prif gynnyrchion Palestina, i'w cael yn yr ynys hon yn eu perffeithrwydd penaf. Yr oedd yn ei choedwigoedd hefyd gyflawnder o goed at adeiladu llongau, yr hyn a wnaeth orchfygiad yr ynys yn bwnc penodol yn ngolwg yr Aiphtiaid. Byddai y Cypriaid yn arfer ymffrostio y gallent hwy orphen eu llongau heb un cynnorthwy o wledydd tramor. Yn mhlith mwnau yr ynys, yr oedd adamant, smaragdus, a meini gwerthfawr ereill; alm ac urael (*asbestos*); heb law haiarn, plwm, sinc, gydag ychydig arian; ac, uwch law y cwbl, copr—yr enwog *æs Cyprium*. Yr oedd y prif fwngloddiau yn nghymmydogaeth Tamassus. Sicrhäai yr holl bethau hyn i'r ynys fanteision masnachol helaeth. Yr oedd ei thrigolion yn dra chyfoethog, ac yn dra glwth a moethus gyda hyny. Daeth yn brif eisteddle addoliad Gwener, neu Venus. Nid oes yn awr ddim olion o'i chyfoeth; o blegid y mae y wlad, dan reolaeth Twrci, wedi myned yn anialwch; a'i thrigolion wedi myned yn dlodion. Yn mhlith ei hen ddinasoedd poblog, yr oedd Citium, Salamis, Paphos, Amathus, Arsinœ, a Solœ, yn enwog. Ei phrif ddinas bresennol ydyw Nicotia. Poblogwyd Cyprus, yn benaf, ar y cyntaf, gan Phœniciaid, y rhai a adeiladasant amryw o'i dinasoedd; ond ymsefydlodd trefedigaethau Groegaidd ar ei glanau. Y Tyriaid a lywodraethent yr ynys hyd nes y goresgynwyd hi gan Amasis I, brenin yr Aipht, ac y sefydlodd drefedigaeth Ethiopaidd yno. Yn amser Herodotus, yr oedd

Digitized by Google

y boblogaeth yn gynnwysedig o Atheniaid, Arcadiaid, Phœniciaid, ac Ethiopiaid. Dan y Persiaid a'r Macedoniaid, yr oedd yr holl ynys wedi ei dosbarthu yn naw o deyrnasoedd bychain. Wedi marwolaeth Alexander Fawr, syrthiodd i ran Ptolemy, mab Lagus. Dygwyd hi dan lywodraeth Rhufain gan Cato. Dan yr ymherawdwr Augustus, yr oedd ar y cyntaf yn dywysogaeth ymherodrol; ac wedi hyny, yn nghyd â Gallia Narbonensis, trosglwyddwyd hi drosodd i'r senedd. Pan y dosbarthwyd yr ymherodraeth Rufeinig, syrthiodd Cyprus i feddiant yr ymherawdwr Groegaidd, yr hwn a'i gosododd dan lywodraethwyr. Yn amser croesgad Richard I. o Loegr, yr oedd Cyprus dan lywodraeth un a alwai ei hun yr Ymherawdwr Isaac, yr hwn a drawsfeddiannodd yr ynys, gan ei gwneyd yn freniniaeth annibynol; ond gyrwyd ef ymaith gan Richard, yr hwn a osododd ddau lywodraethwr yn ei le. Ar ol hyn, gwnaethpwyd hi yn deyrnas wahanol, a rhoddwyd hi dan lywodraeth Guy Lusignan, dros y goron Seisonig, a pharhaodd y llywodraeth yn yr un teulu am yn agos i dair canrif. Y mae darganfyddiad dyddorol gyda golwg ar hyn wedi cael ei wneyd yn ddiweddar, ag sydd yn profi cywirdeb yr hanes. Yn nechreu Rhagfyr, 1858, rhoddwyd gorchymyn gan yr ymherodraeth Dyrcaidd i Ali Pasha, cadfridog yn y fyddin, i ymweled â'r amrywiol leoedd amgaeredig yn ynysoedd Rhodes, Cyprus, a Cos; a thra yn gwneuthur ymchwiliadau yn Nicotia, canfyddodd, yn mhlith carneddau ryw hen amddiffynfeydd, ogof, mewn sefyllfa dda o gadwraeth, yr hon a ddefnyddiasid fel lle o gladdedigaeth, yn ngwaelod pa un y cafwyd careg, âg arni gerf-argraff yn yr iaith Lladin. Er fod y llythyrenau wedi treulio ymaith i raddau helaeth, deallwyd mai dyma ydoedd eu hystyr:—"Yma y gorwedd corff John Peterborsini, cadfridog byddin brenin Cyprus, yr hwn a fu farw Mawrth 5ed, 1358. Efe, drwy orchymyn y brenin, a adeiladodd amddiffynfeydd Nicotia." O dan yr argraff hon, y mae cynllun o'r amddiffynfeydd y cyfeirir atynt. Y tywysog y cyfeirir ato, yn ol pob tebyg, ydyw Hugo IV, yr wythfed dilynydd i Guy Lusignan. Yn 1473, cymmerwyd meddiant o honi gan weriniaeth Venice; ond yn 1571, cymmerwyd hi gan Selim II; a byth er hyny y mae wedi bod dan lywodraeth y Tyrciaid. Y mae y rhan luosocaf o'r trigolion yn perthyn i Eglwys Groeg; ac y mae yr archesgob yn trigo yn Leikosia. Enwir y Cypriaid yn *Act.* iv. 36; xxi. 16. Gwŷr o Cyprus a Cyrene hefyd a bregethasant yr efengyl gyntaf i'r Groegiaid (*Act.* xi. 20); ac yn yr ynys hono y pregethwyd hi gyntaf allan o Palestina. Ymwelwyd â hi gan Barnabas a Phaul ar eu taith genadol gyntaf (*Act.* xiii. 4), ac yn ganlynol gan Barnabas a Marc (*Act.* xv. 39). Hwyliodd Paul, ar ei fordaith i Rufain, ar du deheuol yr ynys (*Act.* xxvii. 4). Nodir hefyd yn y Testament Newydd ddwy o ddinasoedd Cyprus; sef Salamis (*Act.* xiii. 5), a Paphus (*Act.* xiii. 6, 13).—Gwel CITTIM; PAPHUS; SALAMIS.—(*Herzog's Real Encycl.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Penny Cycl.*)

**CYRCHU**, [*cwr*]: cludo, dwyn; dyfod at; gogwyddo at; erlyn. Arferir y gair yn yr ystyr gweithredol yn gyfystyr â dwyn, neu gludo; megys "cyrchu yr arch" o un lle i le arall: 1 *Sam.* vi. 21; *Esa.* lvi. 12. Weithiau, fel berf ganolig, yn gyfystyr â nesau, dyfod at (*Luc* viii. 4); neu gyfeirio at nod (*Phil.* iii. 14). Yn *Ioan* x. 16, y gair a gyfleithir "cyrchu" ydyw αγω=arwain; yn *Phil.* iii. 14, διωκω, yr hwn a gyfieithir ymlid, erlid, rhuthro ar; yn *Luc* viii. 4, επιπορευόμαι, dyfod at.

**CYRHAEDD**; dyfod hyd at, cyffwrdd â, cael gafael yn: *Gen.* xxviii. 12; *Iob* xx. 6; *Ier.* li. 9; 2 *Cor.* x. 14; *Phil.* iii. 11, 12.

**CYRENAICIAID**: plaid o athronwyr a sefydlwyd gan Aristippus o Cyrene, ac a dderbyniasant eu henw oddi wrth y wlad yn mha un y ganwyd eu sylfaenydd. Dysgybl i Socrates oedd Aristippus; ond ymddengys fod ei ddaliadau yn gyffelyb i ddaliadau Epicurus. Ystyriai mai pleser, yn yr ystyr mwyaf cnawdol, oedd y daioni penaf; canys y mae Cicero yn siarad am blaid Aristippus fel yn hynod am eu cyfeddach, eu haflendid, a'u trythyllwch.—(*Enfield's Philos.; William's Dict. of all Rel.*)

**CYRENE**: dinas yn Libya Uchaf, a sefydlwyd tua'r flwyddyn 632 C. C., gan drefedigaeth o Roegiaid, o Thera (Santorini), ynys fechan yn yr Ynysfor Groegaidd. Tybir yn gyffredin fod ei henw yn deilliaw oddi wrth ffynnon [ond yn ol Justin, *Hist.* xiii, oddi wrth fynydd], a elwid Cyre, yr hon oedd ger llaw. Yr oedd wedi ei hadeiladu ar wastadedd uchel, 1,800 o droedfeddi uwch law arwyneb y môr, mewn cymmydogaeth hynod am ei ffrwythlondeb a'i phrydferthwch. Cyrene ydoedd prif ddinas talaeth a elwid oddi wrthi hi, Cyrenaica, yr hon a ymestynai oddi wrth Forgainc Platea (Bomba) at y Syrtis Mawr (Morgainc Sidra). Gyda'i phorthladd, Apollonia, tua deng milltir o bellder, a'r dinasoedd Barca, Teuchira, a Hesperis, y rhai a enwyd mewn adeg ddiweddarach yn Ptolemais, Arsinœ, a Berenice, ffurfiai y Pentapolis (pum dinas) Cyreniaidd. Unbenaeth ydoedd y ffurflywodraeth yn y dalaeth am dros 180 o flyneddoedd; yna, daeth yn werinlywodraeth; ac o'r diwedd, unwyd y wlad â theyrnas yr Aipht, dan Ptolemy Soter. Rhoddwyd hi i'r Rhufeiniaid gan Appion, mab Ptolemy Physcon, tua'r flwyddyn 97 C. C.; ac yna, ffurfiwyd hi â Creta yn un dalaeth. Dywed Strabo fod yn Cyrene bedwar dosbarth o bobl, sef dinaswyr, llafurwyr, tramorwyr, ac Iuddewon; a bod y rhai diweddaf yn cael mwynhau eu deddfau a'u defodau eu hunain. Yn nechreu y cyfnod Cristionogol, yr oedd Iuddewon Cyrene mor luosog yn Ierusalem fel yr oeddynt yn meddu synagog at eu gwasanaeth eu hunain (*Act.* ii. 10; vi. 9). Brodorion o Cyrene oedd rhai o athrawon cyntaf Cristionogaeth (*Act.* xi. 20; xiii. 1). Un o Cyrene oedd Simon, yr hwn a orfodwyd i gario croes ein Gwaredwr (*Mat.* xxvii. 32; *Marc* xv. 21; *Luc* xxiii. 26).

Y mae carneddau Cyrene a'r wlad oddi amgylch wedi bod yn cael eu chwilio yn fanwl yn y blyneddoedd diweddaf; yn 1817, gan Dr. Della Cella; yn 1821—22, gan y Cadben Beechey; ac yn 1826, gan M. Pacho, teithiwr o Ffrainc. Oddi wrth eu hymchwiliadau, ceir y dysgrifiad canlynol o sefyllfa bresennol y ddinas:—Y mae y ffordd o Ptolemeta i Cyrene yn arwain i fyny trwy ddyffryn prydferth, ochrau yr hon sydd wedi eu gorchuddio â ffynnidwydd, olewydd, ac amryw fathau o lawryf, wedi eu cymmysgu â thwmpathau ffrwythlawn o winwydd, myrtwydd, coed mefus, coed meryw (*junipers*), ac amryw fathau o rosynau gwylltion; ac yna yn agor i

Digitized by Google

wastattir Merdje—llain o dir ffrwythlawn, tua phum milltir o led, ar ben y rhes gyntaf o fynyddoedd, wedi ei fritho â llynau o ddwfr o'r rhes uchaf. Bydd yr Arabiaid yn pabellu yn y lle hwn, ac yn hau ŷd mewn peth o'r tir, ac yn defnyddio y gweddill fel porfa. O wastattir Merdje, v mae y llwybr yn dilyn yr hen ffordd, mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, gan arwain drwy res o fryniau a dyffrynoedd teg i Ghrenna—yr enw Arabaidd am Cyrene. Wrth i ni agosau at Ghrenna, y mae y coed yn teneuo, y dyffrynoedd yn cynnyrchu cnydau toreithiog o haidd, a phorfa ragorol i anifeiliaid yn y bryniau. Y mae sefyllfa Cyrene yn un o'r rhai prydferthaf y gellir ei dychymygu, gan ei bod yn sefyll ar ymyl y rhes uchaf o fynyddoedd, tuag 800 troedfedd uwch law y rhes isaf. Y tu isaf i'r dref, y mae y mynydd yn llechweddu tua'r gogledd, gan ffurfio amryw rodfeydd (*terraces*) naturiol, y naill dan y llall, ac yn diweddu mewn gwastattir eang, yr hwn sydd yn ffurfio copa y rhes isaf o fynyddoedd, a'r hwn sydd wedi ei orchuddio â choed, gydag ambell i lecyn o dir llafur a phorfa fras yma a thraw. Y mae ceunentydd, ochrau pa rai sydd wedi eu gorchuddio â choed, yn trawsdori y wlad mewn amrywiol gyfeiriadau, ac yn ffurfio gwelyau yr afonydd a redant o'r mynyddoedd. Y mae y gwastattir hwn yn ymestyn i'r dwyrain a'r gorllewin mor bell ag y gall y llygad ganfod; ac i'r gogledd, ar ol ymestyn tua phum milltir, yn terfynu yn ddisymmwth yn y môr. Y mae llechwedd y rhes isaf o fynyddoedd, yr hon a ymestyn ar hyd arfordir Cyrenaica, yn dra choediog yn y lle hwn. Y mae o ddeutu 1,000 o droedfeddi o uchder; gan hyny, y mae Cyrene, fel y crybwyllasom eisoes, tua 1,800 o droedfeddi uwch law gwastadedd y môr, ar yr hwn y ceir golygfa ardderchog o'r ddinas. Gwasanaethai y rhodfeydd ar ochrau y rhes uchaf o fynyddoedd fel ffyrdd yn yr hen amseroedd, ac y mae olion olwynion y cerbydau i'w canfod eto yn y creigiau. Y mae carneddau Cyrene yn gorchuddio llawer iawn o dir; ond y maent wedi derbyn camdriniaeth fawr oddi ar law dyn. Y mae beddau yn aneirif—un ai wedi eu hadeiladu o geryg, neu ynte wedi eu naddu yn y graig—yn amgylchynu y ddinas, ac wedi eu trefnu ar bob ochr i'r ffordd a arweiniant iddi. Mewn rhai o'r beddau yn y graig, cafwyd paent-weithiau mewn sefyllfa dda o gadwraeth, yn arddangos campau angladdol, cwmnïau hela, amryw ddarluniau o fywyd cyffredin, a phynciau arallegawl. Y mae y gwisgoedd wedi eu paentio yn hardd, a'r lliwiau yn dra dysglaer. Oddi mewn i derfynau yr hen dref, y mae olion baddondŷ (*bath*), wedi ei adeiladu o briddfeini, tyrau neu amddiffynfeydd, tŷ tanddaiarol eang a hardd, amryw demlau mawrion o'r arddull Dorig, dwy deml fechan wedi eu naddu yn y graig o'r cyfnod Rhufeinaidd, gydag arwyddluniau Cristionogol; dau chwareudŷ, un amchwareufa (*amphitheatre*), a dyfrffos; ond y mae y cyfan mewn sefyllfa dra maluriedig. Y mae nifer o golofnau, cerfluniau, penau colofnau (*capitals*), a cherfiadau, yn wasgaredig ar wyneb y tir; ond y mae y cerfluniau wedi eu niweidio yn fawr, ac amryw o honynt wedi eu hamddifadu o'u penau, y rhai a dorwyd ymaith gan yr Arabiaid. Y mae yno ddwy o ffynnonau da; o un o ba rai, yr hon a dybir oedd ffynnon Apollo, y mae y dwfr yn rhedeg i ddyfrffos danddaiarol, gan ddyfod allan ar ochr arall y mynydd.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*; *Herzog's Real Encycl.*; *Calmet's Dict.*; *Penny Cycl.*)

CYRENIUS: rhaglaw yn Syria (*Luc* ii. 1, 2). Gan fod anhawsderau mawrion wedi cyfodi gyda golwg ar hanes y trethiad dan Cyrenius, a chan yr ymddengys oddi wrth hanesiaeth na wnaethpwyd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria hyd yn mhen naw neu ddeng mlynedd wedi genedigaeth y Gwaredwr, lodwn ger bron y darllenydd y sylwadau canlynol. Dywed Luc, "Y trethiad yma a wnaethpwyd gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria." Cytunir yn awr y dylid dodi y gair "cofrestriad" yn lle y gair "trethiad," gan ei fod yn eglur oddi wrth Josephus na chymmerodd un trethiad le am amryw o flyneddoedd ar ol hyn. Gellir darllen yr holl adnod, yn briodol, fel hyn—"Y cofrestriad hwn oedd y cyntaf a wnaethpwyd tra yr oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria." Ymddengys hyn yn ddigon eglur, ac ni chynnwysai un anhawsder, oni buasai y wybodaeth a dderbynir o leoedd ereill; sef—1. Nad oes un hysbysiaeth hanesiol am unrhyw gofrestriad ar adeg genedigaeth Crist, nac yn agos i hyny. 2. Na chymmerodd y cofrestriad a wnaethpwyd yn weithredol dan Cyrenius le am ddeng mlynedd ar ol hyny.

Y mae yr anhawsder yn dechreu cyn yr adnod a ddyfynwyd; canys dywedir, "yn y dyddiau hyny fyned gorchymyn allan oddi wrth Augustus Cæsar i drethu (cofrestru) yr holl fyd." Ond gan nad oes un hanesydd yn crybwyll am y fath gofrestriad cyffredinol trwy yr holl ymherodraeth, a chan y buasai—pe buasai wedi cymmeryd lle—yn debyg o gael ei grybwyll mewn cysylltiad â rhaglaw Syria, addefir yn lled gyffredinol yn bresennol mai Iudea yn unig a olygir wrth yr ymadrodd "yr holl fyd" (ond yn fwy priodol, "yr holl wlad"); fel yn *Luc* xxi. 26; ac *Act.* xi. 28. Trwy hyn, fe gyfyngir yr holl ddyryswch gwirioneddol i ddau bwnc. Gyda golwg ar y cofrestriad, gellir dyweyd nad oedd, efallai, yn werth gan yr haneswyr Rhufeinig wneyd un sylw o hono, gan ei fod yn gyfyngedig i dalaeth bellenig a lled ddibwys. Ac nid ydoedd chwaith, hwyrach, o'r fath natur ag a fuasai yn arwain hyd yn oed Josephus i wneyd un sylw o hono, pe tybid, fel y gwneir yn gyffredin, nad oes un cyfeiriad yn ei ysgrifeniadau ato.

Y mae amryw esboniadau wedi eu cynnyg er egluro y dyryswch sydd yn aros. Y rhai canlynol, pa fodd bynag, ydyw y rhai a dderbynir yn fwyaf cyffredinol:—1. A chymmeryd yn ganiataol, ar awdurdod Luc, fod cofrestriad wedi cymmeryd lle ar adeg genedigaeth yr Iesu, y mae y ddamcaniaeth yn myned yn mlaen i egluro y tebygolrwydd y gall fod Cyrenius yn gydraglaw â Saturninus ar Syria. Y mae yn wybyddus fod Volumnius, ychydig flyneddoedd cyn hyn, wedi ei uno â Saturninus fel dirprwywr y dalaeth hono; a siaredir am y ddau gyda'u gilydd yn fynych gan Josephus, yr hwn a'u geilw yn raglawiaid Syria [*Hen.* xvi. 9, 1; xvi. 10, 8]. Nid ydyw Josephus yn crybwyll am alwad Volumnius yn ol; ond y mae yn ddiau y gallasai fod hyn wedi cymmeryd lle cyn genedigaeth Crist, a bod Cyrenius, yr hwn oedd eisoes wedi ei enwogi ei hun, wedi cael ei anfon yn ei le. Byddai, gan hyny, dan Saturninus, yn "rhaglaw" ar Syria, megys ag yr oedd Volumnius o'i flaen, ac fel yr oedd Pilat ar ol hyny ar Iudea. Yr oedd yn eithaf naturiol i Luc son am dano fel y cyfryw yn y lle hwn, yn hytrach nag am Saturninus, o blegid y ffaith ei fod wedi dychwelyd yn mhen deng mlynedd drachefn fel y prif raglaw, ac iddo y pryd hwnw wneuthur

Digitized by Google

ail gofrestriad pwysicach, i'r dyben o drethu y wlad, pan y diswyddwyd Archelaus, ac yr unwyd Iudea â thalaeth Rufeinig Syria. Yr unig wrthwynebiad gwirioneddol i'r deongliad hwn ydyw dystawrwydd pob hanesiaeth ar y pwnc. Ond er nad ydyw hanesiaeth gyffredin yn cadarnhau y ffaith fod Cyrenius wedi bod ar y cyntaf yn ddirprwywr ar Syria, nid ydyw yn gwadu hyny; gan hyny, gallwn orphwys ar awdurdod yr ysgrifenydd ysbrydoledig am wirionedd y ffaith hon, fel ag yr ydym yn gwneyd gyda golwg ar y ffaith o wneuthuriad y cofrestriad cyntaf.

2. Darllenai esboniad arall yr adnod yn y dull hwn:—"Y trethiad yma a wnaethpwyd *cyn* i Cyrenius fyned yn rhaglaw ar Syria." Y mae pleidwyr y golygiad hwn yn tybio fod Luc wedi dodi yr adnod hon i mewn fel rhwng cromfachau, er attal ei ddarllenwyr rhag camgymmeryd y cofrestriad hwn am y cofrifiad a wnaethpwyd gan Cyrenius ar ol hyn; ond y mae yr esboniad hwn yn lled anmherthynasol i symlrwydd cyffredin yr efengylwr.

3. Y mae dull arall o esbonio y dyryswch; yr hwn a fabwysiadwyd gan Calvin, Valesius, Wetstein, Hales, ac ereill. Drwy newid αὕτη yn αὐτή, cânt yr ystyr hwn:—"Bu hefyd yn y dyddiau hyny, fyned gorchymyn allan oddi wrth Augustus, ar fod i'r holl wlad gael ei chofrestru; ond gwnaethpwyd y *cofrestriad* yn gyntaf pan yr oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria." Y dybiaeth yma ydyw, fod y cofrifiad wedi ei ddechreu dan Saturninus, ond na orphenwyd ef am ddwy flynedd drachefn, sef dan Quirinus. Y mae Hales wedi egluro yr esboniad hwn yn ofalus yn ei *Amseryddiaeth.* Y mae yn dwyn ar gof fod Herod, ychydig amser cyn genedigaeth Crist, wedi arwain byddin i Arabia i ddial rhyw gamwri a dderbyniasai; a chafodd hyn ei hysbysu i'r ymherawdwr Augustus mor anffafriol i Herod, fel yr ysgrifenodd lythyr llym a chwerw ato, sylwedd yr hwn oedd, "ei fod wedi ymddwyn tuag ato hyd yn hyn fel cyfaill, ond y byddai iddo rhag llaw ymddwyn tuag ato fel deiliad." A phan yr anfonodd Herod genadon i'w amddiffyn ei hun, gwrthododd yr ymherawdwr laweroedd o weithiau wrandaw arnynt, ac felly fe orfodwyd Herod i ymostwng i'r holl *niweidiau* a wnaethpwyd iddo—*Hen. Jos.* xvi. 9. Yn awr, gellir casglu mai y prif *niwed* oedd y cyflawniad o'r bygythiad yr ymddygid tuag ato fel deiliad, drwy wneuthur ei deyrnas yn dalaeth Rufeinig. O blegid yn fuan drachefn, y mae Josephus yn crybwyll yn ddamweiniol "fod holl genedl yr Iuddewon wedi cymmeryd llw o ffyddlondeb i Cæsar a'r brenin gyda'u gilydd, oddi eithr 6,000 o Phariseaid, y rhai, trwy eu gelyniaeth at y llywodraeth freninol, a wrthodasant ei gymmeryd." Y mae dyddiad y weithred hon yn cael ei benderfynu trwy ei bod wedi cymmeryd lle yn fuan ar ol marwolaeth Pheroras, ac yn cyfateb i'r amser y rhoddwyd y gorchymyn am y cofrestriad hwn, ac âg amser genedigaeth Crist. Byddai y llw y crybwylla Josephus am dano yn cael ei weinyddu ar yr un pryd; yn unol â'r arferiad wrth wneuthur y cofrifiad Rhufeinaidd, yn yr hwn y byddai yn angenrheidiol rhoddi cyfrif personau, oedran, a meddiannau, ar lw, dan boen colli y meddiannau, yn ol fel y deallwn oddi wrth Ulpian. Dysgwn fod Cyrenius, seneddwr a dirprwywr Rhufeinig, wedi ei osod ar waith i wneuthur y cofrestriad hwn, nid yn unig oddi wrth Luc, ond oddi wrth dystiolaethau Justin Ferthyr, Julian y Gwrthgiliwr, ac Eusebius; a gwnaethpwyd ef tra yr oedd Saturninus yn llywydd yn Syria (i'r hwn y priodolwyd ef gan Tertullian), yn y drydedd flwyddyn ar ddeg ar ugain o deyrnasiad Herod, ac yn cyfateb i ddyddiad genedigaeth Crist. Ac yr oedd Cyrenius, yr hwn a ddarlunir gan Tacitus fel "milwr gweithgar a dirprwywr llym," yn addas iawn at orchwyl mor adgas i Herod a'i ddeiliaid: ac y mae yn debygol ei fod wedi cymmeryd gallu milwrol gydag ef i gyflawnu y gwaith. Cofrestrid y trigolion "bob un yn ei ddinas ei hun," yn unol â gwladychiaeth ochelgar y Rhufeiniaid, er attal gwrthryfel, a rhwyddhau y gwaith.

Ymddengys, pa fodd bynag, na wnaed y pryd hyn ond yn unig cofrestru pawb yn y coflyfrau Rhufeinig. O blegid fe anfonodd Herod ei wein idog, Nicholas o Damascus, i Rufain; yr hwn a lwyddodd, drwy ei gallineb a'i anrhegion, i heddychu yr ymherawdwr, fel nad aeth yn mlaen yn mhellach gyda'i amcan. Gan hyny, gohiriwyd y cofrifiad; ond cwblhawyd ef drachefn ar ddiswyddiad ac alltudiad Archelaus, a gwneuthuriad Iudea yn dalaeth Rufeinig. Ar yr achlysur hwn, anfonwyd Cyrenius drachefn, fel rhaglaw Syria, gyda llu o wŷr arfog, i gymmeryd meddiant o feddiannau Archelaus, ac i gwblhau y cofrestriad, i'r dyben o godi treth ar y wlad. Swm y dreth hon oedd dau *drachmæ* y pen ar wrywiaid o bedair ar ddeg, a benywod o ddeuddeg, hyd bump a thrigain mlwydd oed; yr hyn sydd yn gyfartal i tua phymtheg ceiniog o'n harian ni. Dyma ydoedd "arian y deyrnged" a grybwyllir yn *Mat.* xvii. 24—27. Aeth yr Iuddewon i deimlo yn wrthwynebus iawn i dalu y dreth hon; a hyn a achosodd y gwrthryfel a dorodd allan dan Iudas y Galilead, yr hyn a ddygwyddodd, yn ol fel y dywed Luc ei hun, "yn nyddiau y dreth;" *Act.* v. 37. Y mae yn debygol mai yr esboniad diweddaf hwn ydyw y goreu sydd wedi ei gynnyg eto er egluro y dyryswch.

1af. Dylem, ar y pwnc hwn, ystyried—(1.) Bod y ffaith fod swyddog wedi ei anfon o Rufain, i'r dyben o gofrestru a threthu deiliaid brenin, yn awgrymu yn y modd mwyaf eglur fod y cyfryw frenin yn ddibynol ar yr ymherawdwr Rhufeinaidd; ac yn arddangos yn y modd mwyaf diammheuol fod y deyrnwialen wedi ymadael o Iudah. (2.) Buasai yr amgylchiad hwn, yn nghyd â dychryn Herod pan y clybu fod y doethion o'r dwyrain yn holi yn mha le y ganwyd y Messïah, yn debyg iawn o gynddeiriogi Herod, nid yn unig i ladd holl blant Bethlehem, ond hefyd i gyflawnu pob math o greulonderau. (3.) Wedi y fath ddygwyddiad, yr oedd yn naturiol i holl Ierusalem fod mewn cyffro gyda Herod (*Mat.* ii. 3), ac yr oedd yn naturiol i'r offeiriaid fod yn wyliadwrus yn eu hatebion iddo. (4.) Buasai hyn yn adfywio gwyliadwriaeth pawb ag oedd yn dysgwyl am waredigaeth dymmorol yn Israel, gan nas gallai sefyllfa pethau lai na bod yn berffaith groes i deimladau cenedlgarol pob Iuddew.

2il. Gwelwn hefyd—(1.) Oruchlywodraeth Duw; yr hwn a drefnodd ar fod i gofrestriad manwl, cyhoeddus, a chyffredinol, o achau, teitlau, &c., gael ei wneyd ar adeg genedigaeth Crist, yr hwn a benderfynai tu hwnt i ammheuaeth, trwy yr holl genedl Iuddewig, fod Crist yn deilliaw o dŷ a thylwyth Dafydd; ac hefyd ar fod i hyny gael ei addef a'i benderfynu yn *gyfreithiol* ar y fath adeg fanwl a chyhoeddus. (2.) Dygodd yr

amgylchiad hwn oddi amgylch enedigaeth y Messïah yn y lle a appwyntiesid gan brophwydoliaeth er ys llawer o amser cyn hyny; er mai Nazareth oedd cartref cyffredin Ioseph a Mair, yr hon a elwir "*eu dinas eu hun*" (*Luc* ii. 39); hyny yw, lle yr oedd meddiannau Ioseph, a'r lle yr oedd wedi ffurfio ei gyssylltiadau.—(*Kitto's Bib. Cyc.; Calmet's Dic.; Encycl. of Rel. Knowl.*)

CYRIDWEN, CERIDWEN, [*cyrid — gwen*]. Ystyr y gair, medd Dr. Pugh, ydyw yr *eppilyddes deg*, neu y *fam brydweddol*; ac, yn ol Barddas, eb efe, *enw y wraig gyntaf*. Ystyr yr enw, yn ol y Celtig Ddafis, ydyw *mam pob peth crëedig*. Y mae efe yn meddwl, wrth gwrs, fod yr holl ganiadau chwedlonol a briodolir yn gyffredin i'w gwahanol awdwyr, megys i Taliesin ac ereill o'r cynfeirdd, yn gyfansoddiadau y cyfryw rai mewn gwirionedd; ac y mae yn dychymygu ei fod yn gweled yr hen Dderwyddiaeth gynoesol, a'i hamryw ofergoelion, bron yn mhob pennill o honynt. Yn y rhai hyn dysgrifir hi, medd efe, fel ellylles, llysieuwraig, y wraig gyntaf, cawres, duwies yr ŷd, lluniedyddes ieuenctid, y lleuad, duwies cyfrin, llywyddes barddoniaeth, a llong hwyliau; a thrawsffurflai ei hun, wrth ei hewyllys, yn aderyn. Dygodd efe resymau yn mlaen hefyd i geisio profi iddi gael ei haddoli mor ddiweddar a'r ddeuddegfed ganrif, mewn cyssylltiad â'r lleuad. Dywed O. Williams, yr ystyrid Cyridwen "fel anian o'r arch;" a bod yr holl grefydd Dderwyddol yn myned dan yr enw Pair Cyridwen. "Yr oedd teml iddi," medd efe, "yn agos i Riw y Gyfylchi, yn swydd Gaerynarfon, lle y perchid yr hudoles yn fawr mor ddiweddar a'r ddeuddegfed ganrif."

Fel y caffo y darllenydd olwg gryno ar Cyridwen yn ei dull mwyaf duwyddol ac ofergoelus, dyma ddarluniad O. Williams o honi yn ei eiriau ei hunan:—"Gan mai y dduwies Ceridwen oedd yn ffurfio ieuenctyd i'r swyddau Derwyddol, ac yn llywio barddoniaeth, yr oedd yn ofynol, cyn gwneuthur un yn aelod priodol o'r grefydd hon, i'r cyfryw fod mewn rhyw sefyllfa o brawf, trwy yr hyn y cyflawnid defodau oedd boenus, ac weithiau yn angeu. Caethiwid y prawfddyn dros naw noswaith, yn ol y *Trioedd*—ond yn ol *Taliesin*, naw mis—yn nghroth neu lys Ceridwen, neu mewn cell gyssegredig i'r dduwies hono. Gwedi bod am amser penodol mewn eisieu a pherygl yno, rhoddid ef mewn cwrwgl cauedig, gan ei ollwng yn benrydd i'r môr rhwng Aberdyfi ac Aberystwyth; ac os tiriai yn ddiangol ar Sarn Badrig, ystyrid ef yn un o hiliogaeth deilwng y patriarch dedwydd a ddiogelwyd yn yr arch; ac yn union ar ol hyn, egwyddorid ef yn nirgeledigaethau y grefydd Dderwyddol. Taliesin a ddarlunia ei hunan wedi myned drwy y defodau hyn fel wedi ei eni deirgwaith;—unwaith o'i fam, unwaith o Geridwen, ac unwaith o'r cwrwgl cysgodol. Hònai Taliesin hefyd, oddi ar ei ddygiad uchod i fyny, fod holl wybodaeth y byd yn drysoredig ynddo; ac y gwyddai oll a fu o'r dechreuad, ac a ddygwyddai hyd ddiwedd amser. Darlunid Ceridwen, fel ereill o'r duwiau paganaidd, dan wahanol enwau; megys drychiolaeth o'r arch, cawres, ac weithiau ar ddull miliast; cyssylltir hi hefyd â bwrdd crwn Arthur. Felly y newidir enwau amryw o'r cromlechau; megys, Maen Arch, Gwâl y Filiast, Llech yr Ast, Coetan Arthur (sef ei fwrdd crwn), a Llech y Gawres. Dengys llawer o'r cromlechau hyn nas gallent fod nac alloriau na beddfeini, a'u bod hefyd yn dwyn enw Ceridwen, yna croth neu lys Ceridwen oeddynt, a lle y rhoddid y prawf-ddyn am naw noswaith, neu naw mis, er ei gymhwyso i'r swyddau Derwyddaidd."

Dywed O. Williams, y bernid fod Llywy neu Creirwy yn ferch Cyridwen, a brenines y wlad obry; ac yr addolid hon yn nheml y Gyfylchi, megys ag yr addolid Cyridwen yno. Dywed hefyd, fod teml fechan yn cylchynu Llech yr Ast, yn mhlwyf Llangoetmor, yn swydd Aberteifi, ac "ymddengys yn dra chyfrifol am fod pum cromlech ger llaw iddi. Cyssegrwyd hon," eb efe, "i Ceridwen a Llywy. Y Meini Hirion, yn yr un swydd," medd efe yn mhellach, "oedd deml gylchaidd gyssegredig i Ceridwen. Y Meini Hirion yn mhlwyf Llan Ddwy Gyfylchi, o fewn swydd Gaerynarfon, oedd deml gylchaidd o ddeuddeg careg, yn cyfateb i'r deuddeg arwydd, ac o ddeutu 230 troedfedd o gylchiad; ac ychydig oddi wrthi yr oedd tair careg unionsyth, y rhai a gynnrychiola Hu Gadarn, Ceridwen, a Llywy, y rhai a addolid yno."

Dyma yr olygfa chwedlonol, goelgrefyddol, o Gyridwen; a gellir hysbysu ar dir cwbl ddiogel fod yr holl chwedlau hyn am Cyridwen, cystal a lluaws o rai cyffelyb ar bynciau hynafiaethol Cymreig ereill, wedi eu seilio ar gamddealltwriaeth o awdwyr, ac amseriad, ac ystyr, ac iaith y caniadau chwedlonol a briodolir gan mwyaf i Taliesin. Tybir mai Mr. T. Stephens, awdwr craffus *Llenoriaeth y Cymry* (*The Literature of the Kymry*), ydyw y cyntaf a ddug sylw cyffredinol at y camsyniad o briodoli y ffug ganiadau, neu y caniadau chwedlonol hyn, i Taliesin, ac ereill o'r cynfeirdd. Yr oedd gonestrwydd hanesyddol, cystal a dysg a phwyll Carnhuanawc, wedi ei arwain ef i ammheu awdurdodaeth a chynnwynoldeb amryw o'r caniadau yma, ac i wadu diffuantrwydd rhai o honynt yn bendant; megys yr "Awdl Fraith," &c.; ond Mr. Stephens a fu yn ddigon anturiaethus i wneyd ymosodiad cyffredinol ar yr hen gelfi prydyddol hyn, a eilw efe "hen ddodrefn traddodiad anrhydeddus."

Ymddengys mai syniad lled ddiweddar, mewn cymhariaeth, ydyw y dyb fod y caniadau chwedlonol sydd yn dwyn enw Taliesin yn wir waith y bardd hynafol hwnw. Yr oedd cyfansoddwyr Ysgriflyfrau Iolo (*Iolo Mss.*), o gylch dechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, yn gwybod yn amgen; canys dywedir yno—"Or gyfarwyddyd (hanes) hyn y cymmeres Tomas ap Einion Offeiriad, o wehelyth Gruff. Gwyr, ei rwmawnt (*romance*) am Daliesin ap Cariadwen, ac Elffin ab Goddneu, a Rhun ab Maelgwn Gwynedd, a Gwaith Pair Ceridwen."

Tybir mai y Celtig Ddafis oedd yr awdwr galluog a gwir ddysgedig cyntaf a gymmerodd yn ganiataol fod yr holl ganiadau ffugiol a chwedlonol sydd wedi eu tadogi ar Taliesin, Merddin, Aneurin, &c. yn wir waith y prydyddion hyny; a bod braidd bob peth tywyll ac anhawdd ei ddeall sydd yn ngwaith y cyfryw, a hyd yn oed yn ngwaith y gogynfeirdd, yn cynnwys rhyw athrawiaethau cyfriniol perthynol i Dderwyddiaeth y cynoesoedd. "Y mae dau wall," medd Stephens, "yn treiddio trwy waith tra chywrain Mr. Dafis. Y cyntaf o'r rhai hyn ydyw cymmeryd yn ganiataol fod Derwyddiaeth yn hanfodi fel ffurf o addoliad yn y ddeuddegfed ganrif; a'r ail, cymmeryd yn ganiataol fod y caniadau chwedlonol yn waith Taliesin." Y mae Dafis yn barnu fod amryw o ganiadau Hywel ab Owain, mor ddiweddar ag o gylch y

Digitized by Google

flwyddyn B. A. 1172, yn profi y pwnc cyntaf tu hwnt i ammheuaeth.

Cafodd Mr. Dafis luaws o ddysgyblion, o bob math, yn ebrwydd ar ol ymddangosiad ei lyfrau dysgedig—*Yr Ymchwiliadau Celtig*, a *Chwedloniaeth y Derwyddion Prydeinaidd*—ac yn eu plith yr oedd y ddau Gymro enwog hyny, Iolo Morganwg a'r Dr. Pughe, heb law amryw estroniaid dysgedig, megys Sharon Turner, Mr. Herbert, a Dr. Meyer. Perthyn i'r un ysgol hefyd yr oedd y diweddar ddysgedig Archddiacon Williams, awdwr *Gomer;* ac y mae i Dafis amryw ddysgyblion eto yn fyw. Yn mhob ymadrodd tywyll o'r hen feirdd, y rhai y mae y gwŷr hyn yn analluog i'w deongli, maent yn gweled Derwyddiaeth a'r holl bethau y dychymygwyd yn ddiweddar eu bod yn perthyn iddi; megys Hu Gadarn, Arthur, Cyridwen, yr Afangc, y Fuwch Laethwen Lefrith, a lluaws o'r cyfryw bethau, nad oes, dybygem, un sail mewn hanesiaeth wir i feddwl y gwyddai yr hen Dderwyddon ddim am danynt; heb son fod Derwyddiaeth wedi llwyr ddiflanu, a Christionogaeth wedi cymmeryd ei lle er ys mwy na deuddeg can mlynedd cyn i'r rhan fwyaf o'r caniadau chwedlonol gael eu cyfansoddi, mae'n debyg. Rhoddodd Polion ac Agricola ddyrnod marwol i Dderwyddiaeth, yn y ganrif gyntaf, trwy oresgyn Ynys Môn, a llwyr ddirymu yr offeiriadaeth Dderwyddol. Llosgwyd yr offeiriaid Derwyddol hyny yn y tân a barotoasid ganddynt i'w gelynion caethiwedig; torwyd eu llwyni cyssegredig i lawr, distrywiwyd dylanwad eu crefydd, a distrywiwyd hi, fel y tybid, am byth. Cymmerodd syniadau Rhufeinaidd eu lle ar y cyntaf, ac athrawiaethau Cristionogol wedi hyny; ac ni roddodd yr olaf byth ei lle i fyny. Dyma y golygiad a gymmerid ar yr amgylchiad er yn fore; a chadarnheir y golygiad, yr ydym yn tybied, gan ffeithiau diammheuol. Nid oedd dim traddodiad neu goffadwriaeth boblogaidd am y Derwyddon, neu y chwedloniaeth Dderwyddol, yn Nghymru, hyd y gwyddys, pan y cyfansoddwyd y caneuon Taliesinaidd. Nid yw y gair "Derwydd" ddim i'w gael unwaith hyd yn oed yn y chwedlau sydd o wir darddiad Cymreig, er eu bod yn llawn dewiniaeth a swyngyfaredd. Pwy bynag oedd awdwyr yr ysgrifeniadau Prydeinig y tynodd Gruffydd ab Arthur (*Geoffrey of Monmouth*) ei *Frut* o honynt, nid oeddynt hwy yn gwybod dim, o leiaf nid ydynt wedi traethu dim, am Dderwyddon nac am addoliad Derwyddol yn Mhrydain. Yr unig rai y gwyddai Gruffydd ab Arthur ddim am danynt fel offeiriaid yr eilunaddolwyr, yn amser Lleufer Mawr (*Lucius*), y cyntaf o'r Cymry a gofleidiodd Gristionogaeth, hyd y gwyddys, oedd y Fflaminiaid a'r Archfflaminiaid; ac nid oedd ganddo ef na chan gasglydd *Brut Tyssilio* (os nad yr un y ddau) ddim i'w dywedyd yn nghylch y Derwyddon—breintiau y rhai oedd wedi eu trosglwyddo i'r Eglwys Gristionogol. Eto, yn wyneb yr holl brofion anwrthwynebol hyn o lwyr ddiddymiad bore Derwyddiaeth, a phob peth perthynol iddi, y mae llu o hynafiaethwyr Cymreig, a rhai o honynt yn ddynion gwir ddysgedig a galluog, wedi cymmeryd mewn llaw i brofi fod yr hen Dderwyddiaeth gynnwynol, y sonia Cæsar am dani, mewn grym yn Mhrydain mor ddiweddar a'r chweched, ïe, a hyd yn oed yn y ddeuddegfed ganrif! Pa ham y sonir am y *ddeuddegfed ganrif?* Fe hòna Iolo Morganwg na bu "crefydd Batriarchaidd Prydain Hynafol, a elwir Derwyddiaeth (ond gan y Cymry yn fwyaf cyffredin Barddas, er eu bod yn ei galw hefyd yn Dderwyddiaeth, yr hon nid yw yn fwy gwrthwynebol i Gristionogaeth nag ydoedd crefydd Noah, Iob, neu Abraham")—fe hona efe na bu hon, yr hen Dderwyddiaeth y sonia Cæsar am dani, "erioed yn gwbl ddiddymedig o Brydain; fod y Beirdd Cymreig drwy yr holl oesoedd wedi ei chadw yn fyw;" a hòna ei fod ef ei hun yn aelod o'r sefydliad hynafol cyntefig hwnw; ïe, ac y mae rhai yn fyw y dydd heddyw a hònant yr un peth! Nid yw yn rhyfedd, gan hyny, fod y cyfryw yn gweled cyfrinion Derwyddol, a phethau yn nglŷn â'r dylif ac arch Noah, yn y Llong Foel, Hu Gadarn, Arthur, Dwyfan, a Dwyfach, a *Chyridwen;* ac yn gweled "treigl yn Abred," neu drawssymmudiad yr enaid, yn y gair "Henfon" a "Henfonfa;" gan egluro y blaenaf fel "gair am fuwch yn y dduwinyddiaeth farddonol," a'r olaf—*Henfonfa*—yn "gôr neu feudy buwch y trawssymmudiad" (*the stall of the cow of transmigration*). Y mae gwr o'r enw D. W. Nash, awdwr llyfr a ymddangosodd yn ddiweddar yn y Seisoneg, dan yr enw *Taliesin*, yn proffesu profi nad yw *henfon* yn arwyddo dim mwy na *hen fuwch;* megys y dywed y ddiareb—"Pieufo yr *henfon* aed yn ei chynffon"=*whoso owns the old cow let him go at her tail.* Ac yna, nis gall *henfonfa* arwyddo na mwy na llai na chôr *hen fuwch*, neu yn hytrach *beudy;* ac o ganlyniad, am y llinell hon,

> "Heb henfonfa, heb ofur byd,"

sydd yn "Ymarwar Lludd Mawr" (*The Appeasing of the Great Lludd*), a gyfieithwyd gan y Celtig Ddafis fel hyn,

> "Without the stall of the cow,
> Without the mundane rampart;"

trwy yr hon linell y gwelodd efe, ac ereill o'r un gogwydd meddwl, gymmaint o gyfrinion Derwyddiaeth—dealla Mr. Nash hi yn ei hystyr naturiol; ac am hyny, y cwbl a wel efe ynddi ydyw yr hyn a ganlyn:—

> "Without the cow-stall, there would be no dung-heap."=Heb feudy, ni byddai tomen dail.

Pe yr iawn ddeallid hen ganiadau, yr ydym yn tybied na welid dim olion o hen Dderwyddiaeth gyntefig Ynys Prydain mewn un o honynt, mwy nag yn ngwaith Gildas, a'r *Brutiau*, a'r *Mabinogion*, a Chyfreithiau Hywel Dda. Mae yn wir fod beirdd y canoloesoedd, dan arweiniad Cynddelw ac ereill, wedi dyfeisio gradd farddonol a alwent hwy yn Dderwyddiaeth, ac wedi gwisgo hono â lluaws o gyfrinion; ond y mae yn gwbl brofadwy nad oedd mwy o debygrwydd yn ffug Dderwyddiaeth y ddeuddegfed ganrif i Dderwyddiaeth wirioneddol gyntaf Ynys Prydain, nag sydd yn y teitl o wyryf neu athraw yn y celfyddydau, i gyfundrefn athronyddol Bacon. Ac un o gelfi y Dderwyddiaeth ffugiol hon, a ddyfeisiwyd yn y ddeuddegfed ganrif, ydyw *Cyridwen.* Ceir cyfleusdra eto, dan y gair DERWYDDIAETH, i egluro natur y sefydliad hwnw, a'r gwahaniaeth hanfodol oedd rhwng y wir Dderwyddiaeth gyntefig, hanesyddol, a'r ffug Dderwyddiaeth ddiweddar, a ddyfeisiodd beirdd y canoloesoedd. Hyderir fod yr hyn a ddywedwyd yn ddigon i barotoi meddwl y darllenydd i dderbyn eglurhâd naturiol a rhesymol ar Gyridwen, heb ddim o'r cyfrinion anegluradwy o'i chwmpas y myn rhai beirdd eu dirwyn am bob peth.

Ond cyn gwneuthur hyn, mae'n angenrheidiol hysbysu yn eglur, nad oes dim prawf boddhaol fod mwy na deuddeg o'r ddwy gân ar bymtheg a

Digitized by Google

thrigain a briodolir i Taliesin, yn wir waith y bardd hwnw; sef, Gwaith Gwenystrad, Gwaith goed Llwyfain, Gwaith Dyffryn Gwarant, i Urien, i Urien eto, Canu i Urien, Yspail Taliesin, Canu i Urien Rheged, Dadolwch Urien Rheged, i Wallawg, Dadolwch i Urien, a Marwnad Owain ap Urien.

Y mae wyth gân fechan ereill a ddichon fod yn waith Taliesin; ond nid ydynt yn ddiammheuol; sef, Cerdd i Wallawg ap Lleenawg, Marwnad Cunedda, Gwarchan Tutvwlch, Gwarchan Adebon, Gwarchan Kynvelyn, Gwarchan Maelderw, Kerdd Daronwy, a Thrawsganu Cynan Garwyn.

Am y ddwy gân ar bymtheg a deugain ereill; sef, Canu Kyntaf Taliesin, Dihuddiant Elphin, Hanes Taliesin, &c., yn cynnwys yr holl ganau chwedlonol, y mae proflon allanol a mewnol, cwbl gedyrn, nad oes un o honynt yn hynach na'r ddeuddegfed ganrif. Yr ydym yn casglu oddi wrth feirniadaeth Mr. Stephens, cystal ag oddi wrth gynnwysiad, syniadau, llythyraeth, ac amgylchiadau ereill perthynol i'r caniadau hyn, mai eu hawdwyr, gan mwyaf, ydoedd Ionas Mynyw (Ionas Athraw), Madog ab Iddon, Llywarch ap Llywelyn (Prydydd y Moch), Dafydd Benfras, Gruffydd ap yr Ynad Coch; a dichon fod rhai o honynt cyn hyned a Gwalchmai a Chynddelw (o B.A. 1150 i 1200). Yn awr, os chwilir holl waith diammheuol y cynfeirdd, o Aneurin Gwawdrydd (B.A. 510) hyd Llefoed (B.A. 940), ni chanfyddir gymmaint ag *enw Cyridwen* yn ngwaith un o honynt. Yr ydym yn casglu gan hyny mai yn y ddeuddegfed ganrif y dyfeisiwyd Cyridwen; a'i bod yn gyfoed â Hu Gadarn ac â Derwyddiaeth ffugiol beirdd y canoloesoedd, ac mai gan sylfaenwyr y Dderwyddiaeth ddychymygol hon y dyfeisiwyd y naill a'r llall. Nis gall fod yn hynach na'r unfed ganrif ar ddeg.

Yn unol â'r syniadau hyn, y rhai a ymddangosant i ni yn gryfion iawn, yr ydym yn casglu gyda Stephens, na bu *Cyridwen* erioed na mwy na llai nag *enw*, o ddyfeisiad beirdd y canoloesoedd, ar yr Awen; na *phair Cyridwen* ond cyfystyr â'r ymadrodd Seisoneg "*fount of inspiration*"=ffynnonell ysbrydolrwydd: yr un peth, fel yr ymddengys, a'r syniad Groegaidd am "ddyfroedd Helicon." Ymddengys hyn, fel y sylwa Stephens, oddi wrth ymadroddion afrifed yn ngwaith beirdd y canoloesoedd. Y mae Llywarch ap Llywelyn yn dymuno

"Duw Dofydd dyn rydd reitun Awen—ber
Val o bair Ceridwen."

Mewn cân arall, y mae yr un bardd yn galw Cyridwen yn "Rhwyv Barddoni;" sef,

"Cyvarchav i'm Rhen
Cyvarchvawr Awen
Cyvreu Cyrridwen
Rwyv Barddoni."

Hyny yw,

Cyfarchaf fy Arglwydd
A'r awen gyfarchfawr,
A chynnysgaeth Cyridwen
Rheolydd Barddoniaeth.

I'r un ffynnonell y mae Elidr Sais yn priodoli cynghanedd ei linellau—

"Llethraid vy marddair wedi Merddin
Llethrid a berid o bair Awen."

"Yma," medd Stephens, "cawn fod 'pair Awen' yn arwyddo yr un peth, ac yn sefyll yn lle 'pair Ceridwen.' Mewn ymadrodd arall, gwneir cyfeiriad gan Cynddelw at 'cyrdd Kyridwen'= cerddi Cyridwen. Yn yr ystyr yma hefyd y mae i ni ddeall y cyfeiriadau at Cyridwen gan feirdd ereill; ac nid oes gysgod o reswm dros gredu fod Cyridwen erioed wedi bod yn wrthddrych addoliad."

Yr oedd y Celtig Ddafis—ac o ganlyniad, O. Williams a'i ddysgyblion ereill—yn gweled teml ogoneddus i'r dduwies Cyridwen a'i merch Llywy, yn y llinellau canlynol, o waith Hywel ab Owain, mor ddiweddar a'r rhan olaf o'r ddeuddegfed ganrif:—

"Carafi gaer valchwaeth o'r Gyvylchi
Yny bylcha balchlun vy hyn yndi
Enwawc draffferthawc a dreit iddi
Anwar don laver levawr wrthi
Dewisle lywy loyw gydteithi
Glaer gloew y dwyre o du gweilgi
Ar wreic a lewyrch ar eleni
Vlwyddyn yn ynyal Arvon yn Eryri."

Hyny yw,

Yr wyf fi yn hoffi caer harddwaith (balchwaith) y Gyfylchi,
Lle yr wyf fi fy hun yn falch o gael myned;
Y mae yr uchel ei fri yn awyddus ddymuno derbyniad i mewn,
Ac yn agos ati y llefara'r don drystfawr wyllt;
Lle dewisedig goleuad (llywy) ysblenydd a hardd ydyw.
Y mae ei chodiad yn ogoneddus ar fin y môr,
A dysgleiria'r fûn hardd ar y flwyddyn hon,
Yn anialoedd Arfon, yn mysg bryniau Eryri.

"Nid oes dim cyfriniol yn hyn, yn sicr ddiau," meddai Stephens; "ac yn lle bod unrhyw briodoldeb mewn tybied ddarfod i'r 'gaer falchwaith o'r Gyfylchi' fod erioed yn gyssegrfa Dderwyddol, yr ydym yn canfod amddiffynfa (*fortification*) eang yn y llanerch y cyfeiria y gân ati, 'yn ynayl (*anial*) Arvon yn Eryri,' ac ar lan y môr, o'r hon amddiffynfa y gallasai arwr fel Hywel ymdeimlo yn falch; a'r hon a fu o wasanaeth mawr i'w gydwladwyr ar ol ei farwolaeth ef."

"Enw plwyf ydyw Dwygyfylchi," meddai Evans, yn ei *Tour in North Wales*, td. **244**, "yn y parth uchaf o sir Gaernarfon. Hefyd, y mae yn enw lle, ger llaw yr hwn—ar fryn a elwir Braich y Dinas, yn taflu allan o'r Penmaen Mawr—y mae gweddillion castell, amddiffynfa yr hwn a gynnwysai 20,000 o ddynion. Y mae gweddillion o'r muriau yn sefyll eto, a ffynnon, a roddai ddigon o ddwfr gwastadol i'r gwarchodlu, a ddiwellid gan darth ymgasgledig y mynydd.—[*Gibson's Camden*, cyf. ii. td. 804]. Ystyrid hon yr orsaf gadarnaf a feddai y Cymry yn ardal Eryri; yr oedd yn bur eang, ac mor gref o blegid ei sefyllfa naturiol, fel y gallai tri chant o ddynion amddiffyn eu hunain yn erbyn byddin. Yn yr oes hono, ystyrid ei bod yn anorchfygadwy; a dyma y lle y gwersyllai gweddillion y fyddin Gymreig, tra y parhäai y cylafaredd rhwng Iorwerth a Llywelyn." Y fath ydoedd teml ddychymygol y Celtig Ddafis, a'i ddysgyblion, i'r dduwies Cyridwen a'i merch Llywy!

Y camsyniad mawr gyda golwg ar *Llywy* yw ystyried y gair yn enw priod, pan nad ydyw ond enw cyffredin neu ansoddair; megys,

"Caru bûn weddaidd luniaidd *lywy*."
*Ll. P. Moch.*

"Mal eiry unlliw lliw *llywy*
Wyneb bûn; mi a wn pwy."
*D. ab Gwilym.*

"Ac er bodd *llywy* lliw eiry ar goed."
*Gwalchmai.*

Xenophon. Er hyny, nid oes un lle i ammheu nad oedd Cyrus yn perthyn i deulu breninol Persia o du ei dad.

Yr ydoedd yn arferiad gyffredin gan y brenmoedd Persiaidd, ac y mae yn debygol gan y Mediaid cyn hyny, i ddewis y rhaglawiaid talaethiol o deuluoedd breninol y cenedloedd gorchfygedig; a thrwy hyny, ganiatau iddynt gryn lawer o ryddid a rhagorfreintiau. Fe ddengys hyn pa fodd yr ymddyrchafodd Cyrus ar y cyntaf i enwogrwydd. Ond gan fod y byddinoedd Persiaidd ar y pryd yn gyfansoddedig o ddynion dewrach a chadarnach na'r byddinoedd Mediaidd, y mae yr hyn a ddywed Xenophon yn gredadwy, sef fod Cyrus, yn mrwydrau cyffredinol yr ymherodraeth, wedi ennill serch yr holl fyddin trwy ei wroldeb; tra, fel y dywed Herodotus, y gallai fod creulonderau ofnadwy Astyages wedi creu teimladau digofus yn monedd Media tuag ato.

Ni ddarostyngwyd y Mediaid ar y cyntaf yn hollol i Persia. Y mae yn dra thebygol, fel yr arddengys Herodotus a Xenophon, fod amryw o wŷr enwocaf y Mediaid yn bleidiol i Cyrus; ac yn ystod ei deyrnasiad, Mediaid oeddynt gadfridogion penaf ei fyddinoedd. Er hyny, o'r braidd y mae hyn yn egluro yr hyn a ddywedir yn Llyfr Daniel; sef, fod Darius y Mediad yn llywodraethu yn Babilon ar ol i'r ddinas hono gael ei chymmeryd gan y Mediaid a'r Persiaid, am ddwy flynedd. Yn wir, gellid egluro yr hyn a ddywedir am deyrnas Darius fel gormodiaith dwyreiniol, a thrwy dybio nad oedd Darius ond rhaglaw yn unig ar Babilon, oni buasai fod Cyrus yn cael ei osod allan fel *dilynydd* i Darius y Mediad. Mae llawer ymgais wedi ei wneyd i gyssoni hyn â'r hanes Groegaidd; ond nid oes ond un yn meddu y tebygolrwydd lleiaf; sef y deongliad a ddywed, yn ol Xenophon, fod gan Astyages fab eto yn fyw (yr hwn a eilw Xenophon yn Cyaxares), ac mai Darius y Mediad hwn oedd y mab hwnw; a bod Cyrus, o herwydd y berthynas oedd rhyngddo âg ef, wedi rhoddi iddo deyrnas Babilon mewn enw. Ond y mae peth anghyssondeb hefyd yn yr esboniad hwn. Gwel DARIUS Y MEDIAD; a LLYFR DANIEL.

Y mae y dysgrifiadau a roddir i ni gan Ctesias, gyda golwg ar y dull Persiaidd o ymladd, yn berffaith Homeraidd o ran eu nodweddiad. Nid ymddengys fod dim medrusrwydd yn ofynol i'r cadfridog; ni feddylir am un math o gadofyddiaeth (*tactics*): y swyddog a gyflawna ei ddyledswydd oreu yw yr un a ymddyga oreu fel milwr cyffredin, gwrol, a dewr, gan fod yn arwr yn mysg ei wŷr. Nis gallwn dybied fod un gwelliant wedi cymmeryd lle gyda golwg ar y gelfyddyd o ryfela erbyn dyddiau Cyrus. Addefir gan bawb ei fod wedi gorchfygu y Lydiaid, Groegiaid Asia Leiaf, a'r Babiloniaid: y mae yn debygol y gallwn chwanegu Susiana, yr hon a gorfforwyd a'r ymherodraeth cyn ei ymosodiad ar Babilon; lle hefyd y sefydlodd ei brifddinas fflwraidd, gan ei bod yn fwy cyfleus na Pasargadæ. Eto, parhaodd y ddinas ddiweddaf i fod yn gartref i'r llŷs Persiaidd, yn lle coroniad yr ymherawdwyr, ac yn lle eu claddedigaeth. Ymddengys fod holl Syria a Phœnicia wedi dyfod yn heddychlon dan deyrnasiad Cyrus. Y rhyfel ddiweddaf y bu Cyrus ynddi oedd gyda phobl a drigent ar lan yr afon Iaxartes, yr hon a elwir yn bresennol Syr-deria. Geilw Herodotus y gelynion yn Massagetaniaid, y rhai a grwydrent ar hyd glan ogleddol yr afon. Yn ol Ctesias, y Derbiciaid oedd y gelynion; y rhai a drigent, fel yr ymddengys, ar y tu deheuol. Gall fod y naill a'r llall wedi ymuno yn y frwydr. Yn mhob golygiad arall, y mae hanes Ctesias yn llawer tebycach i fod yn wirionedd, ac yn fwy cysson â ffeithiau ereill adnabyddus, oddi eithr ei waith yn dywedyd fod Indiaid, *gydag elephantod*, yn cynnorthwyo y gelynion. Ymladdwyd y ddwy frwydr yn y ddau ddydd nesaf i'w gilydd; yn y flaenaf o ba rai y derbyniodd Cyrus glwyf marwol, ond cludwyd ef ymaith gan ei bobl. Yn yr ail, gorchfygwyd a gwasgarwyd y gelynion. Bu Cyrus farw yn mhen tri diwrnod ar ol ei glwyfo: cludwyd ei gorff i Pasargadæ, lle y claddwyd ef yn y feddadail ardderchog a agorwyd gan y Macedoniaid yn mhen dau gant o flyneddoedd wedi hyny [*Strabo*, xv. 3; *Arrian*, vi. 29]. Y beddargraff, yn ol fel y dywed Aristobulus, yr hwn oedd yn llygad-dyst, oedd yr hyn a ganlyn:—"O ddyn! myfi ydyw Cyrus, yr hwn a ennillodd yr ymherodraeth i'r Persiaid, ac a fum yn frenin ar Asia. Na warafun i mi, gan hyny, y feddadail hon."

Nid oes yn yr Ysgrythyrau ond ychydig o hanes am Cyrus. Y mae yr hanesion a geir am dano o bob ffynnonell arall yn ansicr, ac nid ellir ymddiried ynddynt Y mae Daniel, yn y weledigaeth hynod (*Dan*. viii. 3, 20) yn mha un y dangosodd Duw iddo ddinystr amryw o ymherodraethau cedyrn, yn flaenorol i enedigaeth y Messïah, yn arddangos Cyrus megys hwrdd a dau gorn ganddo—y ddau yn uchel, ond un yn uwch na'r llall, a'r uchaf yn cyfodi yn ddiweddaf. Y mae yr hwrdd hwn "yn cornio tua'r gorllewin, tua'r gogledd, a thua'r deheu, fel na safai un bwystfil o'i flaen ef, ac nid oedd a achubai o'i law ef; ond efe a wnaeth yn ol ei ewyllys ei hun, ac a aeth yn fawr." Arwyddocâ y ddau gorn y ddwy ymherodraeth a unwyd gan Cyrus yn ei berson ei hun; sef eiddo y Mediaid a'r Persiaid. Mewn lle arall, y mae Daniel yn cymharu Cyrus i arth, â "thair asen yn ei safn ef rhwng ei ddannedd; wrth yr hwn y dywedwyd, "Cyfod, bwyta gig lawer." Rhaghysbyswyd dyfodiad Cyrus gan y prophwydi: mynegodd Esaiah ei enw (*Esa*. xliv. 28) uwch law can mlynedd cyn ei enedigaeth. Dywed Josephus [*Hyn*., llyfr ii. pen. 2] fod Iuddewon Babilon wedi dangos yr adnod hon i Cyrus; a'i fod, yn y cyhoeddiad a roddasai allan am eu hadferiad, wedi cydnabod ei fod wedi derbyn ymherodraeth y byd oddi wrth Dduw Israel, a bod y Duw hwnw wedi ei ddysgrifio wrth ei enw yn ysgrifeniadau y prophwydi, ac wedi rhaghysbysu y byddai iddo ef adeiladu teml iddo yn Ierusalem. Prophwydir yn eglur hefyd am gymmeriad Babilon gan Cyrus: *Esa*. xiii, xiv, xxi, xlv, xlvi, a xlvii; *Ier*. xxv. 12; l, a li; *Dan*. vii, a viii.

Dyn prydferth oedd Cyrus o ran ei berson, ac yn deilwng o barch o blegid teithi ei feddwl. Yr oedd o dymmer addfwyn, yn llawn o gymmwynasgarwch a dyngarwch, yn meddu awydd cryf am wybodaeth, a brwdfrydedd anrhydeddus am enwogrwydd. Nid oedd arno arswyd perygl un amser, ac ni ddigalonid ef gan unrhyw galedi ac anhawsder. Dygwyd ef i fyny yn ol deddfau ac arferion y Persiaid, y rhai a dalent sylw mawr i ddysgeidiaeth. Gellir ei ystyried fel y buddugoliaethwr doethaf, a'r tywysog mwyaf coethedig ar lechres hanesiaeth anysbrydoledig. Yr oedd yn feddiannol ar yr holl gynneddfau sydd yn angenrheidiol i wneuthur dyn mawr—doethineb, cymmedroldeb, dewrder, mawrfrydigrwydd, syniadau

Digitized by Google

oddi wrth yr hwn y mae y Seisoneg, *type*. Cyfieithir ef genym ni yn *ffurf*—"yr hwn yw ffurf yr un oedd ar ddyfod;" *Rhuf.* v. 14: "y ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i chwi;" *pen.* vi. 17: *esampl; Phil.* iii. 17; ac mewn manau ereill. Cymmerir *tupos* (*tuptô*=tarawyf), oddi wrth y ddelw neu y ffurf a darewir ar fathodyn, darlun o ryw wrthddrych gwreiddiol, ac fel cynllun neu gynddelw i'w efelychu drachefn. Mae yr un meddwl cyffredinol yn cael ei osod allan yn y geiriau hyn ag sydd trwy y gair "cysgod" yn y cysylltiad dan sylw; sef, rhyw debygolrwydd mewn un peth i beth arall. Ond y mae y Seisoneg, *type*, yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr eangach na "chysgod" genym ni. Y mae i'r gair *type* ystyr duwinyddol; ac yn yr ystyr hwn y mae yn gyfystyr â *chysgod*, ac yn arwyddo ffurf neu ddelw rhagddangosiadol o beth mwy i ddyfod: y mae iddo hefyd ystyr athronyddol, yn arwyddo ffurfiau neu ddelwau penodol, i gyd yn ol un ffurf neu gynllun gwreiddiol. Tebygolrwydd ydyw y cyntaf, sydd yn edrych yn mlaen at y gwrthgysgod (*antitype*); ond tebygolrwydd ydyw yr olaf, sydd yn edrych yn ol at y cynddelw (*archetype*). Er y canfyddir y gwahaniaeth hwn rhwng *cysgod* mewn ystyr duwinyddol, a *type* yn ei ystyr athronyddol, eto y mae *cysgod* yn edrych yn ol at gynlluniau tragywyddol Duw am ei Fab, yn gystal ag yn mlaen at y cyflawniad o honynt; ac y mae ffurfiau anmherffaith mewn athroniaeth yn edrych yn mlaen at eu perffeithiad mewn gweithred a gwirionedd, yn gystal ag yn ol at y cynllun gwreiddiol. Felly, mewn gwirionedd, nid oes un gwahaniaeth rhyngddynt. Y mae y ddau yn edrych yn ol at gynllun perffaith, ac yn gopïau mwy neu lai cyflawn o'r cynllun hwnw; ac y mae y ddau yn edrych yn mlaen at eu sylweddoliad mewn ffurf perffaith. Y mae deall y gair *cysgodau* yn yr ystyr eang hwn yn gysson â dadguddiad Duw yn y Beibl, ac hefyd yn gysson â'r dadguddiad a gynnwysir yn ei weithredoedd naturiol. Y mae y ddwy gyfrol hyn yn gwasanaethu i daflu goleu ar eu gilydd yn y mater hwn fel mewn pethau ereill. Mae yn foddhaol i feddwl yr hwn sydd wedi ymgynnefino â chysgodau yn y Beibl ganfod fod y Creawdwr yn defnyddio cysgodau fel cyfrwng addysg mewn natur; ac o'r tu arall, y mae bod cysgodau yn y Beibl yn anghraifft newydd o'r cydgordiad sydd rhwng dadguddiad naturiol a goruchnaturiol—y mae hyn i efrydydd natur yn un rheswm pellach oddi wrth y blaenaf dros yr olaf. Buasid yn dysgwyl ffurfiau cysgodol yn ngoruchwyliaeth oruchnaturiol Duw, gan fod y cyfryw ffurfiau cysgodol i'w cael yn ei oruchwyliaeth naturiol. Y mae athroniaeth naturiol wedi cyrhaedd safle uwch, ac o ganlyniad wedi eangu terfynau ei gwelediad, trwy yr athrawiaeth o ffurfiau cysgodol, yn mhell tu hwnt i ddim a gyrhaeddodd o'r blaen. Ond y mae yn rhaid egluro pa beth a feddylir wrth ffurfiau cysgodol mewn natur. Gellir gwneyd hyn yn eglurach trwy gymmeryd un anghraifft; ond caiff hon fod y bwysicaf a allwn gael. Y mae naturiaethwyr yn awr yn cytuno, a hyny ar sail casgliad digonol o ffeithiau, fod y corff dynol yn gynllun cyrff anifeilaidd yn gyffredinol. Y mae cyrff anifeilaidd yn meddu cyffelybrwydd i gorff dyn, a hyny o'r cyfryw natur ag sydd yn dangos bwriad blaenorol i ddwyn y creaduriaid isaf i gydgordiad â'r cynllun dynol, mor bell ag y caniatäai amgylchiadau.[1]

Er yr holl amrywiaeth sydd yn perthyn i anifeiliaid, yn eu hymddangosiadau allanol, yn eu harferion, ac yn y cwbl sydd yn eu cyfaddasu i wahanol amgylchiadau a gwahanol ddybenion, eto y mae *unoliaeth* amlwg a hanfodol yn mhlith yr holl amrywiaeth. Y mae lle i wahaniaethau diderfyn o fewn cylch yr un cynllun cyffredinol. Y cynllun ydyw yr un dynol; ac y mae dyn yn ei sylweddoli yn berffaith. Ond canfyddir ei amlinellau mwyaf cyffredinol yn y creaduriaid is law dyn. Yn ngeiriau y proffeswr Owen—yr awdurdod uchaf sydd yn fyw ar y cyfryw gwestiynau—"y mae peirianwaith corff dyn, yn ei holl ranau, yn ymddangos mewn math o fraslun anmherffaith yn gyntaf oll yn y creaduriaid sydd is law iddo. Ac y mae hyn yn dangos fod gwybodaeth am y fath greadur a dyn yn hanfodi cyn i ddyn ymddangos. O herwydd yr oedd y Meddwl Dwyfol, yr hwn a dynodd y cynllun, yn rhagweled yr holl gyfnewidiadau ynddo." Wrth gario y syniad hwn yn ol, a'i gymhwyso at weddillion yr anifeiliaid a hanfodent cyn i ddyn ymddangos o gwbl ar y ddaiar, yr ydym yn canfod un cynllun mawr yn cael ei ddwyn yn mlaen o ymddangosiad boreuaf anifeiliaid byw—pa mor anferth bynag eu maint, ac amrosgo eu llun—a bod y cynllun hwn yn cyrhaedd ei berffeithiad yn nghyfansoddiad dyn. Dan arweiniad yr un egwyddor, ni a allwn ofyn yn mhellach, Onid yw y ffurf uchaf hwn ar y ddaiar yn cyfeirio at ffurf uwch eto? Ar dir cyfatebiaeth naturiol, mae yn debygol nad yw corff dyn ar y ddaiar ond cysgod o'r hyn a fydd yn y nefoedd. Fel y mae y cyfansoddiadau symlaf yn mhlith y creaduriaid direswm yn cyfeirio i fyny at ddyn fel cysgodau o hono, felly y mae corff daiarol dyn yn cyfeirio at ei gorff nefol, a hwn drachefn at gorff gogoneddedig Crist. Y mae gan y proffeswr Owen syniad arall, sydd yn agor golygfa fawreddus o'n blaen; sef, gan fod goleuni ac attyniad mewn bydoedd ereill yn ddarostyngedig i'r un deddfau ag ar y ddaiar, nid yw yn annhebygol nad oes yno gyfansoddiad corfforol,[2] cyffelyb i'r hyn a geir ar y ddaiar. Os oes gwirionedd yn y syniad hwn—ac y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen gan y naturiaethwr enwog a enwyd fel yn meddu

[1] Er esampl; y mae bron bob asgwrn sydd yn llaw a braich dyn i'w cael yn aden morfil (*fin of a whale*), er nad ydyw llawer o honynt yn angenrheidiol er cynnaliaeth nac ysgogiad yr offeryn: ac nis gellir rhoddi un rheswm dros hyny, ond y penderfyniad i'w ddwyn mor agos i'r cynllun ag sydd ddichonadwy. Fel y canlyn y dywed Hugh Miller am ffurfiad yr ymenydd:—"Y mae natur, wrth wneuthur yr offeryn rhyfedd hwn mewn dyn, yn gosod i lawr reffyn rhychog yn gyntaf, fel y gesyd y saer y cilbren i lawr wrth ddechreu gwneuthur llong. Ac ar y sail cul hwn, y mae yr ymenydd yn cael ei adeiladu, gan ddyfod yn nes, o fis i fis, i'w ffurf perffaith, fel llong ar y cilbren. Yn gyntaf, y mae yn dyfod yn gyffelyb i ymenydd pysgodyn; ychydig o chwanegiadau sydd yn ei ddwyn yn debyg i ymenydd ymlusgiad; ychwanegiadau pellach sydd yn ei wneuthur yn hollol gyffelyb ei lun i'r eiddo aderyn; wedi hyny, y mae yn cynnyddu i ymenydd tebyg i'r eiddo creadur pedwar troediog; ac o'r diwedd, gan ymgodi ac ymledu, y mae yn dyfod i'w ffurf priodol ei hun, sef ymenydd dynol. Y mae dyn fel yn grynodeb o holl ffurfiau anifeiliaidd y byd, ac yn meddu perthynas â phob creadur byw."—*Footprints*, td. 291.

[2] And the inference as to the possibility of the vertebrate type being the basis of the organization of some of the inhabitants of other planets will not appear so hazardous when it is remembered that the orbits or protective cavities of the eyes of the vertebrate of this planet are constructed of modified vertebrate. Our thoughts are free to soar as far as any legitimate analogy may seem to guide them rightly in the boundless ocean of unknown truth. But if censure be merited for here indulging, even for a moment, in pure speculation, it may perhaps be disarmed by the reflection that the discovery of the vertebrate archetype could not fail to suggest, to the anatomist, many possible modifications of it beyond those that we know to have been realized in this little orb of ours."

Digitized by Google

tebygrwydd o'i blaid—ni a gawn gipolwg ar y modd y dichon i'r holl greadigaeth ddefnyddiol gyfeirio at ymgnawdoliad Mab Duw, a derbyn ei pherffeithiad ynddo.

Wrth edrych yn y modd yma ar yr holl greadigaeth afresymol fel yn rhag-gysgodi dyn, y fath debygolrwydd tarawiadol sydd rhwng gweithredoedd Duw mewn natur a'i weithrediadau yn hanes y prynedigaeth, fel y dadguddir hwynt yn yr Ysgrythyrau. Dyn ydyw y cynllun at ba un y mae yr holl greadigaeth anifeilaidd fel yn ymestyn; a Duw, yn natur dyn, ydyw y cynllun perffaith y mae goruchwyliaethau rhagluniaeth, o ddechreu hyd gyflawnder yr amser, yn rhagbarotoi ar gyfer ei ddyfodiad. Fel yr oedd cysgodau creadigol o'r naill yn amlygiadau anmherffaith o hono, ac yn dystaw ragfynegu ei ddyfodiad, felly yr oedd goruchwyliaeth gysgodol o'r llall wedi ei gosod i fyny i greu dysgwyliad am yr olaf, ac i ragfynegu pa fath un a fyddai. Am chwaneg o barth i ffurfiau cysgodol mewn natur, gwel Dyn.

Y mae y sylwadau uchod yn dangos yn amlwg bwysigrwydd cysgodau yn nhrefniadau creadigol a rhagluniaethol Duw; a dylent ogwyddo ein meddyliau i roddi ystyriaeth ddyladwy i destyn priodol yr erthygl hon, sef cysgodau ysgrythyrol.

Un o'r cwestiynau pwysicaf yn ei gyssylltiad â'r Hen Destament ydyw, A oes ryw egwyddorion sefydlog, yn ngoleuni pa rai y gallwn gael ein harwain i'r penderfyniad pa bethau yn yr Hen Destament sydd yn gysgod o sylweddau y Newydd, a pha mor bell yr ydym i briodoli ystyr cysgodol iddynt, heb roddi y ffrwyn i ddychymyg ar un llaw, na bod yn ddarostyngedig i'r cyhuddiad o fod heb weled yr hyn a lefarodd Moses a'r prophwydi am Grist, ar y llall. Os cymmerwn olwg ar y gwahaniaeth golygiadau sydd wedi ffynu ar hyn, ni a welwn fod anhawsdra yr ymchwiliad yn gyfatebol i'w bwysigrwydd. Y mae dau eithafedd i'w canfod yn amlwg yn mhlith ysgrifenwyr ar y cysgodau:—y cyntaf ydyw, priodoli ystyr cysgodol i'r holl amgylchiadau mwyaf dibwys, a'r cyffelybrwydd mwyaf arwynebol a ddichon dychymyg ei ganfod rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Yr eithafedd cyferbyniol, a'r hwn sydd yn annhraethol fwy niweidiol na'r llall, ydyw peidio gweled dim tebygolrwydd rhyngddynt o gwbl, pa mor amlwg a hanfodol bynag. Y mae y naill eithafedd hefyd yn fynych yn agor ar y llall.

Yr oedd tadau yr eglwys—ac yn eu plith Origen, y mwyaf ei ddysgeidiaeth o honynt—yn edrych i lawr ar ystyr llythyrenol yr Hen Destament fel peth islaw sylw, ond yn unig fel cyfrwng eu dychvmygion hwy eu hunain.[1] Fel anghreifftiau o'r duedd a hanfodai y pryd hyny i weled cysgodau yn mhob peth, heb unrhyw reol na therfyn, gellir enwi y rhai canlynol:—Yr oedd pren y bywyd yn Eden, gwialen Moses, a Moses ei hun tra yn dyrchafu ei ddwylaw pan yn ymladd âg Amalec, yn gysgodau o'r groes y bu Crist farw arni. Yr oedd bod Adda yn cysgu tra y ffurfiwyd Efa o'r asen a gymmerwyd o'i ochr yn gysgod o Grist yn disgyn i gwsg angeu. Y mae Saul yn gysgod o angeu; o herwydd nid o'i fodd y gosododd yr Arglwydd ef yn frenin ar Israel, ac nid o'i fodd y darostyngodd efe ei bobl i awdurdod angeu. Y mae gwaredigaeth Dafydd o law Saul yn gysgod o'n gwaredigaeth ni o law angeu. Wrth roddi y fath drwydded a hyn i ddychymyg, nid oes dim, pa mor afresymol neu blentynaidd bynag, nad ellir gwneyd i'r Ysgrythyr ei ddysgu. Dygodd y Diwygwyr, yn enwedig Luther a Calvin, eu tystiolaeth nerthol yn erbyn y dull hwn o gellwair â gair Duw. Dywed yr olaf "mai gwir ystyr yr Ysgrythyr ydyw yr ystyr naturiol ac amlwg; ac wrth hwn y dylem ymlynu:" a geilw y dull allegawl o esbonio, yn ol esampl Origen, yn "ystryw y diafol i ddadsylfaenu awdurdod yr Ysgrythyrau, ac i amddifadu dynion o bob budd oddi wrthynt." Ond yr oedd gwyliadwriaeth Calvin mor fawr rhag peb peth a ymddangosai fel yn meddu yr elfen gyfriniol, ac heb fod yn hollol ddealladwy iddo ei hun, fel y mae ei esboniadau ar y prophwydoliaethau a'r cysgodau yn fynych yn dangos nad ydoedd wedi treiddio i mewn i'r cyflawnder o ystyr a gynnwysant. Nid oes berygl i neb fyned yn blentynaidd wrth ddilyn Calvin yn ei esboniadau, yn enwedig ar y cysgodau a'r prophwydoliaethau; ond fe ddichon iddo gael ei demtio i foddloni ar sylwadau rhy gyffredinol ac amddifad o frasder yr efengyl. Yn mhen tua chanrif yn ddiweddarach, pan y daeth duwinyddiaeth i gael ei hastudio yn fwy manwl, ysgrifenwyd mwy ar y cysgodau nag a wnaed erioed o'r blaen. Y rhai a gymmerasant y blaen mewn galw sylw neillduol at y mater hwn oedd Cocceius, Witsius, Vitringa, yn nghyd âg amryw ysgrifenwyr Seisonig o syniadau cyffelyb. Er fod y dosbarth hwn o ysgrifenwyr, o herwydd eu cydsyniad â Cocceius yn ei syniadau am y cyfammodau a'r cysgodau [gwel Cyfammodau], yn cael eu galw yn fynych ar ei enw ef yn "ysgol Cocceius" eto, Witsius ydyw y mwyaf adnabyddus yn y deyrnas hon, yn benaf trwy gyfrwng ei waith ar y cyfammodau. Sylwedd ei olygiadau ef, yn nghyd â'r golygiadau sydd wedi ffynu yn gyffredin yn mhlith Cristionogion a duwinyddion, o'r pryd hwnw hyd yn awr, ydyw—fod yn perthyn i'r Ysgrythyrau ystyr *llythyrenol* a *chyfriniol:* a bod yr ystyr cyfriniol yn cyfeirio at Grist yn ei berson, ei sefyllfa o ddarostyngiad a dyrchafiad, ei swyddau, ei waith, yn nghyd â'i gorff ysbrydol, sef yr eglwys; bod credinwyr yr Hen Destament yn amlygu diwydrwydd mawr dan arweiniad prophwydi ac offeiriaid ysbrydoledig, i chwilio i mewn i'r dirgelwch oedd yn gynnwysedig yn ngwasanaeth y tabernacl a'r deml; nad yw y Testament Newydd yn cyfeirio at ac yn egluro yr holl gysgodau, mwy na'r holl brophwydi: ac felly, ei bod yn ddyledswydd arnom chwilio iddynt

[1] Er nad ydyw Origen yn gwadu priodas Abraham â Ceturah fel ffaith hanesyddol; eto, yr ystyr a droegiwydda iddi oedd, cynnydd parhaus mewn gwybodaeth. Wrth farwolaeth Sarah y meddylia, perffeithiad rhinwedd: ond eto, y mae yn rhaid i'r hwn sydd wedi cyrhaedd perffeithrwydd mewn rhinwedd fyned rhagddo mewn rhyw wybodaeth—yr hyn a osodir allan yn yr hanes, trwy fod Abraham yn priodi gwraig arall. Y mae pob dysgeidiaeth a rhinwedd unigol, medd efe, yn cael eu dynodi yn yr Ysgrythyrau wrth yr enw gwraig. Ac yn yr ystyr hwn y dywedir fod gan y patriarchiaid amryw o honynt, a'u bod gan Solomon wrth y cannoedd. Yr ystyr a genfydd Clement o Alexandria, dysgawdwr Origen, yn hanes priodas Abraham â Sarah a Hagar yn olynol, ydyw, y dylai Cristion feithrin athroniaeth cyn ymroddi yn hollol i fyfyrdod ar ddoethineb ddwyfol. Y mae Abraham yn gysgod perffaith o Gristion; Sarah yn gysgod o ddoethineb ddwyfol; a Hagar yn gysgod neu ddelw o athroniaeth neu ddoethineb ddynol. Gan fod Abraham wedi byw yn ddiblant gyda Sarah am dymmor maith, y casgliad ydyw, na ddwg y Cristion ddim ffrwyth tra yn ymroddi i ddoethineb nefol a chrefyddol yn unig. Y mae Abraham gan hyny, gyda chymmeradwyaeth Sarah, yn cymmeryd Hagar; yr hyn sydd yn profi i Clement y dylai y Cristion gofleidio athroniaeth, ac na wrthyd crefydd ei chydsyniad. Felly yn mlaen trwy yr hanes.

at bersonau yn y Newydd yn cyfansoddi y cyfryw yn gysgodau, "gan na ddefnyddir hwynt ond mewn ffordd o eglurhadaeth yn unig, ac nid er mwyn adeiladu dim arnynt."[1].

Er mwyn canfod fod tebygolrwydd cryf yn erbyn gwirionedd y golygiad hwn o barth y rheol gywir yn unol â pha un yr ydym i wybod pa beth sydd yn gysgod, mae yn angenrheidiol edrych i mewn ychydig yn fanylach i'r berthynas sydd rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Bod yr hen oruchwyliaeth yn rhagbarotoad i'r newydd, ac mewn trefn i hyny yn cynnwys prophwydoliaethau a chysgodau o honi, sydd yn amlwg ac yn addefedig. Ond wrth ymofyn pa mor bell yr oedd y gyntaf yn gysgodol o'r ail, yr ydym yn cyfarfod âg anhawsderau. A chan nad yw y cysgodau ond prophwydoliaethau arwyddocaol, y mae yr un anhawsderau yn ein cyfarfod mewn rhan wrth ymofyn am derfynau, a phenderfynu ar reolau i ddeongli cysgodau a phrophwydoliaethau. Y mae genym awdurdod ddiammheuol y Testament Newydd dros fod Moses a'r prophwydi yn dwyn tystiolaeth am Grist. Ond pa mor bell y mae eu tystiolaeth yn cyrhaedd? A ydym i gyfyngu eu tystiolaeth at yr ymadroddion pendant a lefarant am y Messïah?

Os dywedir fod y rhai hyn yn cynnwys yr oll o dystiolaeth Moses a'r prophwydi, nis gellir dyweyd mewn un modd fod eu tystiolaeth yn brin nac yn aneglur. Y mae lluaws o brophwydoliaethau a chysgodau sydd mor eglur fel y maent ar unwaith yn ein cymhell i'r penderfyniad nas gallant gyfeirio ond at Grist yr Arglwydd.

Heb law y tabernacl, gyda'r dodrefn a'r gwasanaeth, y rhai a ddangosir yn yr epistolau at y Colossiaid a'r Hebreaid oeddynt yn gysgodau pethau daionus i ddyfod, y rhai canlynol ydynt yr oll, neu yn agos felly, o'r cysgodau y mae crybwylliadau pendant am danynt yn y Testament Newydd. 1. Personau:—Adda (*Rhuf.* v. 11, 12; 1 *Cor.* xv. 22), Melchizedec (*Heb.* vii.), Sarah a Hagar, Ismael ac Isaac, ac felly, mewn ffordd o gasgliad, Abraham (*Gal.* iv. 22—35), Moses (*Gal.* iii. 19; *Act.* 3. 22—26), Ionah (*Mat.* xii. 40), Dafydd (*Ezec.* xxxvii. 24; *Luc* i. 32, &c), Solomon (2 *Sam.* vii), Zorobabel ac Iosuah (*Zech.* iii, iv; *Hag.* ii. 23). 2. Dygwyddiadau:—cadwraeth Noah a'i deulu yn yr arch (1 *Pedr* iii. 20), gwaredigaeth o'r Aipht, a'r Pasc fel coffadwriaeth am hyny (*Luc* xxii. 15, 16; 1 *Cor.* 5. 7), y mynediad o'r Aipht (*Mat.* ii. 15), y mynediad trwy y Môr Coch, gwlawio manna o'r nefoedd, rhoddi y gorchudd ar wyneb Moses tra y darllenid y gyfraith, y dwfr yn pistyllio o'r graig, dyrchafu y sarff yn yr anialwch (1 *Cor.* x; *Ioan* iii. 14; v. 33; *Dad.* ii. 17). Gellid gwneuthur rhestr gyffelyb o'r prophwydoliaethau.

Wrth ymofyn pa faint o'r Hen Destament sydd yn cyfeirio at Grist, ymddangosai ar yr olwg gyntaf mai y rheol hawddaf ac egluraf fyddai cymhwyso y prophwydoliaethau hyny yn unig ato ef sydd yn amlwg lefaru am dano, a'r cysgodau hyny sydd yn amlwg gyfeirio ato ef fel eu sylwedd. Ond ymddengys, ar ychydig ystyriaeth, fod yn anmhosibl ar unrhyw egwyddorion boddhaol a chysson i gyfyngu y gyfran o'r Hen Destament sydd yn llefaru am Grist at y rhai hyn. Y mae y rhesymau canlynol, yn mhlith ereill, yn benderfynol yn erbyn gosod i fyny y cyfryw reol:—

[1] Rhoddir amddiffyniad maith i'r golygiad hwn mewn cyhoeddiad Americaidd; sef, yr *Ecclesiastical and Literary Journal*, rhan xv.

1. Y dull sydyn ac annysgwyliadwy y dygir i mewn y prophwydoliaethau a'r cysgodau pendant hyn. Y mae Iacob, wrth farw, yn dysgrifio i'w feibion y gyfran a ddisgynai i'w hiliogaeth yn Ngwlad Canaan; ac ar unwaith, heb un awgrymiad am natur y cyssylltiad, llefara am y Shiloh oedd i ddyfod; ac yna, y mae yn dychwelyd eilwaith at raniad y wlad. Wrth roddi arwydd i Ahaz na byddai i ddau frenin oedd yn ymladd yn ei erbyn gyflawnu eu bwriad gelynol, y mae Esaiah yn prophwydo am yr Immanuel, yn y prophwydoliaethau a geir yn rhan olaf y llyfr. Y mae yn anmhosibl gwneyd dosbarthiad cywir rhwng yr adnodau sydd yn cyfeirio at Grist, a'r rhai sydd yn golygu y gaethglud yn Babilon. Wrth roddi addewid i Dafydd am fab, yr hwn a eisteddai ar ei orsedd, ac a adeiladai dŷ i'r Arglwydd, y mae yr addewid yn rhedeg allan i brophwydoliaeth am yr Hwn sydd yn Fab ac yn Arglwydd Dafydd. Ymddengys y *Salmau* yn fynych fel yn dysgrifio teyrnas Dafydd neu Solomon; ond yn ddirybudd, priodolir cyffredinolrwydd a pharhad iddynt, na pherthynant, ac nas dichon iddynt berthynu, ond i deyrnas y Messïah. Yn awr, onid annaturiol ydyw cyfeirio y prophwydoliaethau amlwg hyn at Grist, ac ar yr un pryd wadu fod y cyd-destynau, sydd mewn cyssylltiad mor agos â hwynt, yn meddu unrhyw berthynas âg ef neu gyfeiriad ato? A ydyw yn bosibl gwneyd trais mwy â'r Ysgrythyr na llusgo adnodau o'u cyssylltiadau priodol eu hunain, a'u cymhwyso yn hollol ddirybudd at wrthddrych nad oes y cyssylltiad lleiaf âg ef yn yr ymadroddion cylchynol? Os nad oes un egwyddor neu reol i'n cyfarwyddo, ond priodoli pob peth i Grist, y mae yn bosibl mewn unrhyw fodd gwneyd felly er i'r geiriau fyddont yn amgylchynu ac yn achlysuro y prophwydoliaethau tybiedig hyn fod ar faterion hollol anmherthynasol—onid yw hyn yn gosod dychymyg pob darllenydd yn faen prawf y gwirionedd?

Cymhwyser yr un ystyriaeth at gysgodau. Yn hanesiaeth a sefydliadau yr Hen Destament, y mae cysgodau mor eglur nad oes neb a addef ddwyfoldeb y Beibl a wâd eu cyfeiriad at Grist; ond os dywedir mai y rhai hyn ydyw y cyfan sydd yn meddu y cyfryw gyfeiriad, y maent yn ymddangos yn unig ac yn anmherthynasol iawn. A gellir gofyn pa awdurdod sydd genym i ddewis allan y person hwn, y dygwyddiad arall, a'r gosodiad draw, a'u gosod at eu gilydd yn ol ein mympwy ein hunain, a dywedyd eu bod yn cynnwys y cwbl a geir yn yr Hen Destament am y Messïah addawedig. Os oes meddwl pendant ac ystyr priodol iddo ei hun yn perthyn i'r Beibl, yn annibynol ar yr hyn y dichon unrhyw ddeonglydd briodoli iddo wrth ei ewyllys, ac os cynnyrch meddwl rhesymol, heb ddyweyd doethineb ddwyfol, ydyw, nid trwy ei lurgunio yn y modd hwn y ceir y meddwl hwnw. Rhaid i'n hymchwiliad i gysgodau yr Hen Destament gael ei lywodraethu gan egwyddorion a ystyrid yn deg yn eu cymhwysiad at unrhyw lyfr heb law y Beibl.

2. Y dull y cymhwysir ac y defnyddir yr Hen Destament yn y Newydd. Addefir mai yr un Ysbryd ag a lefarodd trwy yr efengylwyr a'r apostolion a lefarodd hefyd trwy Moses a'r prophwydi, a'i fod ef yn deall ei feddwl ei hun, ac yn gysson âg ef ei hun yn ei holl dystiolaethau. Yn awr, yr ydym yn cael yn fynych fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn defnyddio yr Hen, ac yn ei gymhwyso—weithiau mewn geiriau pendant, a

Digitized by Google

phryd arall mewn ffordd o gyfeiriad—at Grist, gan ddywedyd iddo gael ei gyflawnu ynddo ef; ac yna, yn ei ddefnyddio yn sail casgliadau am ei berson a'i waith:—ac nid yn unig y prophwydoliaethau a'r cysgodau amlwg a ddefnyddir felly, ond y cyfryw ag nad oes un ymddangosiad ar eu gwyneb eu bod yn cyfeirio at Grist o gwbl. Y mae hyn yn ein harwain i edrych am undeb mwy ysbrydol a dwfn rhwng yr Hen Destament a'r Newydd na'r un sydd yn gynnwysedig mewn tebygolrwydd arwynebol.

3. Wrth edrych i mewn i'r dygwyddiadau a'r personau cysgodol y cyfeirir atynt yn y Testament Newydd, y mae yn anhawdd i neb ei berswadio ei hun eu bod yn cynnwys y cwbl a farnai yr ysgrifenwyr, neu yn hytrach Ysbryd Duw, fel yn gysgodol yn yr Hen Destament. Gwneir cyfeiriadau atynt, neu dyfynir hwynt yn ffurfiol, o herwydd eu priodoldeb i'r dyben mewn golwg yn y dyfyniad o honynt. Nid ellir gan hyny eu hystyried yn rhestr gyflawn o'r cysgodau, ond *anghreifftiau* yn unig—y cyfryw ag sydd ar y pryd yn gwasanaethu amcan yr ysgrifenydd. Nis gellir ychwaith ganfod am lawer o'r cysgodau y crybwyllir am danynt yn y Testament Newydd eu bod yn meddu mwy o briodoldeb ynddynt eu hunain, nag ereill na chrybwyllir mo honynt o gwbl fel cysgodau. Onid ydyw y fynedfa drwy yr Iorddonen a choncwest Canaan yn cael eu teimlo yn gysgodau mor wirioneddol a chymhwys ag ydyw y mynediad trwy y Môr Coch, a'r daith trwy yr anialwch, er na chrybwyllir y blaenaf yn y Testament Newydd fel y cyfryw. Pe cynnwysai y Testament Newydd restr gyflawn o bersonau cysgodol, onid yw yn debygol y cawsai personau mor hynod ag Ioseph, Iosuah, a Samson, le ynddi, yn gystal a Melchisedec ac Iouah, y rhai y dywedir cyn lleied am danynt yn yr hanes?

Wrth chwilio gan hyny am reol sefydlog i'n galluogi i ddeongli yr Hen Destament, fel ag i beidio gwadu ar un llaw yr hyn a gynnwysa, ac ar y llaw arall i beidio priodoli iddo ein dychymygion ein hunain, nis gallwn fabwysiadu yr hon a ymddangosai ar yr olwg gyntaf y rheol symlaf; sef, gwrthod derbyn dim yn gysgod o Grist ond yr hyn a ddywed y Testament Newydd mewn geiriau eglur ei fod felly. Fel y dangoswyd eisoes, y mae amryw o ffyrdd wedi eu cynnyg i gyfarfod yr anhawsder hwn. Tybiai y tadau, fod ystyr allegawl yn yr Ysgrythyrau, heb law yr ystyr amlwg a llythyrenol, a bod y cyntaf yn gorwedd dan yr olaf, fel y cnewyllyn yn y plisgyn. Ereill, er mwyn gweled cysgod yn mhob dim, a ffurfiant restrau o'r cymhariaethau mwyaf mympwyol. Haera ereill nad oes dim yn rheol ond llythyren bendant y Testament Newydd am gymhwysiad unigol o'r cysgodau. Ac y mae ereill drachefn yn barod i addef cysgodau yn mhob man lle y mae yn naturiol i feddwl eu bod, wrth ddilyn yr un egwyddorion ag a ddilynai yr ysgrifenwyr ysbrydoledig, mor bell ag y gellir eu casglu. Y camsyniad sydd yn gorwedd wrth wraidd yr esboniadau allegawl a chysgodol, fel eu deallir yn gyffredin, ydyw, cymmeryd yn ganiataol fod ystyr deublyg yn rhedeg trwy yr oll o'r Hen Destament, neu trwy ran fawr o hono—un yn amlwg, a'r llall yn guddiedig—un yn cael ei ddeall a'i fwriadu gan yr ysgrifenydd, a'r llall yn cael ei fwriadu gan yr Ysbryd Glân, ac yn cyfeirio at wrthddrych nad oedd gan yr ysgrifenydd ef yn ei olwg, ac na ddeallai y darllenydd fod y cyfryw gyfeiriad dirgelaidd ato—yr ysgrifenydd yn meddwl am Dafydd neu Solomon, ond yr Ysbryd Glân yn bwriadu i'r darluniad osod allan Grist neu ei eglwys.

Un wrthddadl yn erbyn y dybiaeth hon yw, nas gall fod genym un safon boddhaol i benderfynu pa bryd y mae yr Ysbryd yn bwriadu ystyr dyfnach na'r ystyr amlwg, nac ychwaith pa beth ydyw hwnw. Pwy sydd yn meddu cymhwysder ac awdurdod i benderfynu hyn? Ond yn gyferbyniol i hyn, dywedir fod dirgeledigaethau yr addoliad seremoniol yn amlygu eu hunain i'r Iuddew crediniol yn ngoleuni yr Ysbryd Glân, a'i fod ef, trwy hyny, yn alluog i gyrhaedd deall mor gyflawn o'r efengyl ag ydym ni yn awr, wedi unwaith gael agoriad gwybodaeth. Bod seintiau yr Hen Destament yn cyrhaedd profiadau mor uchel weithiau a chredinwyr dan yr efengyl, sydd amlwg oddi wrth y Salmau; ond eu bod yn cyrhaedd gwybodaeth mor gyflawn o'r efengyl, sydd yn ymddangos yn anghysson â'r hyn a ddywed Crist ei hun am Ioan Fedyddiwr; "yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nag ef;" ac hefyd â'r berthynas a ddengys Paul a hanfodai rhwng y ddau Destament. Gwrthddadl arall yn erbyn yr ystyr deublyg ydyw, ei fod yn camgymmeryd natur yr Hen Destament i'r rhai oedd yn byw dano. Ni buasai ystyr cuddiedig o ddefnydd i saint yr hen oruchwyliaeth, am nad allasent ei gael allan: ac i'r rhai sydd dan yr efengyl y mae yn afreidiol, o herwydd y mae ganddynt ddadguddiad eglurach o hono.[1]

Yr unig syniad cywir am yr Hen Destament ydyw edrych arno yn un cyfansoddiad cyfluniaidd—yr oll yn rhoddi ei nodweddiad ei hun ar bob rhan, a phob rhan yn gwasanaethu yr oll. Yr oedd y cyfansoddiad hwn yn meddu ar fywyd, â'i wreiddiau yn ymledaenu trwy holl sefydliadau ac ysgrifeniadau yr hen oruchwyliaeth. Trwy yr oll o honi ni a gawn, nid cymmeriadau, a dygwyddiadau, a sefydliadau, yn dyfod at eu gilydd trwy fath o chwanegiadau oddi allan—yn gyffelyb fel y codir adeilad trwy osod haen ar haen—ond ymddadblygiad bywiol o'r un gwirioneddau hanfodol, a'r cyfryw ag y mae pechadur yn sefyll mewn mwyaf o angen eu gwybod, yn enwedig am berson a gwaith yr Hwn oedd ar ddyfod. Y mae yr ymddadblygiad hwn yn raddol, a phob gradd yn rhagbarotoad i radd uwch. Fel y mae yr hedyn yn cynnwys y llysieuyn dyfodol ynddo ei hun, neu yr eginyn yn cynnwys y blodeuyn, a'r blodeuyn y ffrwyth—ac nid yw hwn drachefn ond hedyn, o ba un y gellir dysgwyl tyfiant newydd—yn gyffelyb am y dadguddiad o ras a gwirionedd cyn dyfodiad y Ceidwad; yr oedd pob amlygiad yn rhagbarotoad ar gyfer amlygiad uwch, a phob gris yn foddion esgyniad i ris uwch. Y mae pob dadguddiad yn codi o'r un blaenorol, ac yn rhagarwyddo yr un dilynol. Ymgnawdoliad a marwolaeth Mab Duw, a phrynedigaeth pechadur trwyddo, oedd y nod gogoneddus at ba un y cyfeiriai holl oruchwyliaethau Duw yn flaenorol i'w ddyfodiad. Nid peth annysgwyliadwy ydoedd ei ddyfodiad; ond fel yr

[1] Nid yr un peth a feddylir wrth yr ystyr deublyg hwn a'r cyflawniad deublyg, neu lawer plyg, a briodolir weithiau i brophwydoliaeth. Dygwydda yn fynych fod prophwydoliaeth, ar ôl cael ei chyflawnu unwaith mewn amgylchiadau is, yn cael ei chyflawnu eilwaith mewn person neu amgylchiadau uwch; ie, dichon fod amryw o'r fath gyflawniadau yn ymeangu mewn maintioli a phwysigrwydd, nes cyrhaedd cyflawniad sydd yn meddu cydgordiad perffaith â'r brophwydoliaeth. Ond y mae hyn yn wahanol oddi wrth ddywedyd fod yn y Beibl ystyr cyfriniol neu guddiedig, na ddichon dyn ei ddeongli.

Digitized by Google

ydoedd yn gyflawnder yr amser pan yr ymddangosodd, felly yr oedd efe ei hun yn gyflawniad—yn ddiwedd yr hyn oll a gynnwysai amser. Yn yr ystyr hwn, "yr oedd yr oll o'r Hen Destament"—yn ngeiriau De Wette—"yn un brophwydoliaeth fawr, yn un cysgod gogoneddus o'r hwn oedd i ddyfod, a'r hwn sydd wedi dyfod. Nid yw y gymhariaeth gysgodol o'r Hen Destament a'r Newydd yn ffrwyth dychymyg, nac yn ganlyniad damwain; ond gorweddai y Newydd yn yr Hen, fel y mae y dail a'r ffrwyth yn gorwedd yn yr hedyn, er yn sicr mai yn y fath fodd fel nad allasai ond Haul y Cyfiawnder eu dwyn i amlygrwydd." Mae cynllun dwyfol i'w ganfod yn yr oll o'r hanes sanctaidd, yn anorphenedig mae yn wir, ond yn ddigon amlwg i weled ei gyfeiriad, ac i fod yn gynnorthwy i ffurfio barn mwy neu lai cywir am y cyfan. Ond tra y mae yr holl hanes yn cyfeirio at yr un nod, ac yn brophwydoliaeth o hono, nid yw pob rhan yn gymmaint felly. Tra y mae y cwbl yn gysgodol, y mae cysgodau unigol ac arbenig. Yr oedd amgylchiadau neillduol yn esgor ar gysgodau neillduol. Camsyniad cyffredin ydyw edrych ar y cysgodau fel yn cyfeirio at y dyfodol yn unig. Yr oeddynt felly; ond yr oeddynt hefyd yn meddu cymhwysder, ac yn foddion arbenig addysg a dylanwad yn yr amgylchiadau y rhoddwyd hwynt. Ar brydiau, yr oedd y cysgodau a'r prophwydoliaethau yn wan ac aneglur; ond ar adegau pwysig, cyfodai Duw ddynion, megys Abraham, Moses, Dafydd, Solomon, oedd yn amlwg gysgodi Crist. Yn wir, yr oedd cyfnod eu mynediad o'r Aipht, yr hwn y gellir ei olygu yn dymp genedigaeth Israel fel cenedl, yn orlawn o gysgodau.

Fel y mae iachawdwriaeth pechadur yn hollol o Dduw, felly yr oedd y cynllun i barotoi ar gyfer dyfodiad y Ceidwad yn ffrwyth ei ddoethineb ef. Ond eto, yn mhlith dynion, a thrwy eu hofferynoliaeth hwy mewn rhan, y mae y cynllun yn ymddadblygu. Er nad oedd hyn yn effeithio dim i lesteirio ei gyflawniad yn yr amser priodol, eto yr oedd ar adegau yn peri iddo ymddangos fel yn sefyll, ïe, ac yn myned yn ei wrthol, fel na byddai dim yn ffrwd yr hanesiaeth ar y pryd yn cyfeirio at y nod amcanedig. Yr oedd y sefydliadau cysgodol yn parhau yr un, yn unol â threfn Duw, mor bell ag yr oeddynt yn annibynol ar ewyllys dyn. Ond gan fod rhan yn nghyflawniad y cynllun wedi ei ymddiried i ddyn, gallasai dyn fradychu yr ymddiried, ac felly diflanai y cysgod mewn tywyllwch. Y rhai hyny yn unig a gyflawnai yr hyn a ymddiriedid iddynt, ac i ryw raddau a gyfatebai i'r cynllun a osodwyd i fyny iddynt, a ellir eu hystyried yn gysgodau. Yr oedd breninoedd Israel, fel y cyfryw, yn gysgodau o'r Messiah; ond yn mhlith y rhai hyn, yr oedd breninoedd duwiol, megys Dafydd a Hezeciah, yn gysgodau neillduol o Grist; tra nad yw y cysgod i'w ganfod o gwbl mewn breninoedd annuwiol, megys Ahaz. Yr oedd eu swydd felly; ond am y cyfryw yn y cyflawniad o'u swydd, nid oeddynt felly. Y mae Solomon, tra yn teyrnasu mewn cyfiawnder, yn gysgod o Grist; ond nid yw Solomon, tra yn adeiladu uchelfeydd i eilunod y Cenedloedd, felly.

Wrth gadw mewn golwg fod yr oll o'r Hen Destament—yr hanes, y cysgodau, a'r prophwydoliaethau—yn rhanau hanfodol a bywiol o'r un cynllun dwyfol, a'r naill yn tyfu megys o'r llall, y mae genym ateb boddhaol i wrthddadleuon yr anffyddiwr, pan y mae yn gofyn, Pa ham na roddasid rhagfynegiadau mor eglur am y Messiah o'r dechreu, fel nad allasai fod lle i ammheuaeth?

I hyn, yr ateb ydyw, mai nid amcan prophwydoliaeth ydyw tynu yn ol y llen sydd ar y dyfodol, ond mor bell ag y mae hyny yn gwasanaethu i nodi allan ddyledswyddau y presennol, ac i weinyddu yr annogaethau, y cysuron, y gocheliadau, a'r cyfarwyddyd angenrheidiol i'r rhai sydd yn byw ynddo. Nid rhoddi prawf o hollwybodaeth Duw, nac ychwaith barotoi rhesymau i Iesu o Nazareth brofi ei Fessïaeth i'r byd pan y deuai, ydoedd eu hamcan; ond yn gyntaf, ac yn benaf, gwasanaethu eu hoes oedd amcan y cysgodau a'r prophwydi, a hyny trwy ddwyn cymmaint ag oedd yn angenrheidiol o holl drefn Duw—y rhan oedd wedi ei chyflawnu, yn gystal a'r rhan oedd eto heb ei chyflawnu—a'i gymhwyso at y presennol. Pob peth yn ei le, ei amser, a'i gyfartaledd priodol, ydyw rheol gyffredinol gweithrediadau Duw; yn gyntaf yr eginyn, ar ol hyny y dwysen, wedi hyny yr ŷd yn llawn yn y dwysen. Dadguddiwyd i genedl Israel yn barhaus gymmaint ag oedd yn angenrheidiol o'r dyfodol i'w hamgylchiadau ar y pryd. Gyda theimlad newydd o angen, cyfodai cysgod neu brophwydoliaeth newydd, gyfaddas i'r amgylchiad, megys y manna o'r nefoedd, y dwfr o'r graig, a'r sarff bres; ond eto, cynnwysent ryw awgrymiad newydd am gyflawnder yr hwn nad oeddynt ond cysgodau o hono. Cyfodai gwaredigaeth briodol iddynt yn mhob cyfyngder; ond gofalai ysbryd prophwydoliaeth i'r waredigaeth dymmorol gael ei dysgrifio yn ei chyssylltiad â gwaredigaeth uwch, fel rhagbarotoad iddi, ac fel cysgod o honi. Yr oedd y presennol yn wasanaethgar iddynt i ddeall y dyfodol, a'r dyfodol, yn nghyfoeth ei fendithion, yn eu galluogi i gyflawnu dyledswyddau ac i ymgynnal yn ngwyneb enbydrwydd y presennol. Heb waredigaeth o orthrwm yr Aipht, a'r dychweliad o gaethiwed Babilon, ni buasai gwaredigaeth oddi wrth bechod mor ddealladwy iddynt; ac yn gyffelyb, heb yr addewidion am y cyfammod newydd a gwell, ni buasai ganddynt sail gobaith yn ngwyneb eu trallodion tymmorol. Yr oedd llaw Duw yn fwy neu yn llai amlwg yn arweiniad y genedl trwy holl gyfnewidiadau eu hanes, yn ol natur yr amgylchiadau. Weithiau, yr oedd angen am gyfryngiad goruchnaturiol a gwyrthiol; bryd arall, byddai y gallu uniongyrchol hwn yn ymguddio, a'r dybenion dwyfol yn cael eu cyflawnu mewn ffordd naturiol. Y mae yr hanes yn wyrthiol trwyddo oll; hyny yw, y mae y genedl dan arweiniad goruchnaturiol, er nad yw gwyrthiau i'w cael ar bob tudalen o'u hanes. Yn gyffelyb, yr oedd yr hanes i gyd yn gysgodol; er mai yn achlysurol, yn ol amgylchiadau, yr ymddangosai cysgodau neillduol.

Crist, gan hyny, ydyw diwedd yr oll o'r Hen Destament, ac nid gwrthddrych ychydig o brophwydoliaethau gwasgaredig, neu gysgodau neillduol. Mor bell gan hyny ag y mae un cynllun cysson yn rhedeg trwyddo oll, ac yn uno pob rhan mewn un cyfangorff cyfluniaidd, efe ydyw perffeithiad y cwbl.

Yn ngoleu yr ystyriaeth hon y gwelir pa fodd yr oedd ysgrifenwyr y Testament Newydd yn dyfynu ac yn cymhwyso at Grist eiriau nad ydynt yn ymddangos fel yn cyfeirio ato ef, os cymmerir hwynt o'u cyssylltiadau priodol. Dealiai llawer o esbonwyr y cyfryw fel heb feddu un cyfeiriad at Grist, yn eu hystyr cyntaf; ac mai mewn ffordd o gyfaddasiad yn unig y defn-

Digitized by Google

yddir hwynt gan ysgrifenwyr y Testament Newydd. [Gwel CYFADDASIAD.] Ond i'r gwrthwyneb, y mae yr ysgrifenwyr hyn yn casglu eu holl ymresymiadau o'r Hen Destament oddi wrth *ysbryd* y geiriau yn eu cydgordiad â'r holl amgylchiadau, a'r rhai hyn drachefn fel rhan o'r gyfundrefn ragbarotoawl a chysgodol. Eu gwaith hwy ydoedd edrych i mewn i'r ystyr ysbrydol, ymaflyd mewn egwyddorion mawr a chyssonedd hanfodol, a chanfod elfenau y cydgordiad rhagosodedig sydd yn rhedeg trwy holl oruchwyliaethau Duw. A'u gallu i wneyd hyn—i weled y cydgordiad sydd yn gorwedd gymmaint is law y wyneb, pan nad oedd dynion ereill yn canfod ond tebygolrwydd arwynebol ac amgylchiadol—sydd yn un prawf amlwg eu bod yn ysgrifenu dan ysbrydoliaeth doethineb oruchnaturiol.

Er mwyn dangos pa fodd y mae y sylwadau blaenorol am natur cysgodau yr Hen Destament yn taflu goleu ar ddyfyniadau yn y Newydd, rhoddir yma ychydig o anghreifftiau. Mae yr ymadroddion canlynol yn cael eu nodi allan yn y Testament Newydd fel prophwydoliaethau a gyflawnwyd yn Nghrist, tra yn yr Hen yr ydym yn eu cyfarfod fel tystiolaethau hanesyddol am Dafydd ac Israel, yn hytrach nag fel prophwydoliaethau:—"Canys zel dy dŷ a'm hysodd;" *Salm* lxix. 9; *Ioan* ii. 17: "Yr hwn a fwytaodd fy mara, a ddyrchafodd ei sawdl yn fy erbyn;" *Salm* xli. 9; *Ioan* xiii. 18: "Hwy a'm casasant yn ddiachos;" *Salm* lxix. 4; *Ioan* xv. 25: "Y maen a wrthododd yr adeiladwyr a aeth yn ben i'r gongl;" *Salm* cxviii. 22; *Mat.* xxi. 42; 1 *Pedr* ii. 6, 7. Yn awr, gan fod Dafydd yn gysgod o Grist, y mae yr hyn sydd yn dystiolaeth am dano ef yn brophwydoliaeth am Grist; o herwydd rhaid i'r hyn a wiriwyd yn y cysgod gael ei wirio eilwaith yn y gwrthgysgod. Anghraifft arall ydyw geiriau Hosea (xi. 1); "Ac a elwais fy Mab o'r Aipht." Bwriadai y prophwyd gyfeirio yn y geiriau hyn at ddaioni yr Arglwydd yn gwaredu Israel o gaethiwed yr Aipht. Ond dywed Matthew (ii. 15) eu bod wedi eu cyflawnu yn nychweliad Iesu Grist o'r Aipht. Yr oedd Israel yn gysgod o Grist; a chan fod y dychweliad o'r Aipht yn amgylchiad cysgodol, yr ydoedd drwy hyny yn brophwydoliaethol. Felly, nid yw yr efengylwr yn gwneuthur un trais â'r geiriau wrth eu defnyddio fel prophwydoliaeth. Y mae hyny yn codi o natur gysgodol y berthynas sydd rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Drachefn, cymhwysir yn Ioan (xix. 36), "Ni thorir asgwrn o hono"—geiriau a gymmerir o'r dysgrifiad am y driniaeth yr oedd oen y Pasc i'w derbyn—at Grist fel prophwydoliaeth. Yr un esboniad eto sydd am hyn, sef fod oen y Pasc yn gysgod o Grist; ac felly, bod amgylchiadau y driniaeth yr oedd i'w derbyn yn gysgodol hefyd; ac o ganlyniad, yn eu cymhwysiad at y gwrthgysgod, y maent yn brophwydoliaethol. Gwelir fod yr egwyddor hon o bwys mawr yn esboniadaeth y Testament Newydd, ac yn ein galluogi, mewn ffordd naturiol, i egluro anhawsderau sydd wedi dyrysu llawer ar esbonwyr, ac wedi gyru rhai i haeru nad ydyw dyfyniadau fel y rhai uchod ond cymhwysiad o ryw eiriau a wasanaethai yr ysgrifenydd i ddadgan ei feddwl, heb fod ynddynt unrhyw elfen brophwydoliaethol o gwbl.

Y mae yn bryd bellach i ni droi ein golwg at osodiadau y ddeddf seremonïol fel cyfundrefn gysgodol. Fel y crybwyllwyd eisoes, cymmerwyd achlysur, o bryd i bryd, gan rai i wadu eu bod felly o gwbl, a hyny yn ngwyneb tystiolaethau pendant yr Ysgrythyrau, oddi wrth arferiad ereill o redeg i eithafion yn eu hesboniadau. Y mae awydd lled gryf yn mhlith esbonwyr yn bresennol i ymgadw oddi wrth y cymhariaethau plentynaidd sydd yn gwneyd i fyny ran fawr o gynnwysiad llawer o'r hen lyfrau ar y mater. Yn wir, er fod ambell lyfr yn ymddangos eto, megys *Bonar ar Lefiticus*, yn yr hwn y mae y teimlad crefyddol yn amlycach nag unrhyw allu esboniadol neillduol, yn y blyneddoedd diweddar mae y cysgodau wedi derbyn rhy ychydig o sylw, a hyny oddi ar deimlad o wrthwynebiad i ddim a all ymddangos yn ammheus mewn chwaeth. Y mae hyn wedi arwain ysgrifenwyr i esbonio yr egwyddor gysgodol yn ei chymhwysiad at y gyfraith seremonïol yn y fath fodd ag i ochelyd yr eithafoedd hyn, tra ar yr un pryd yn dal gafael tyn yn yr egwyddor ei hun. Ni a geisiwn egluro hyn.

Y syniad mwyaf cyffredin am y cysgodau ydyw, nad oeddynt ond cysgodau yn unig—nad oedd ynddynt un cyfeiriad ond at y dyfodol. Ond fel y sylwyd am y personau a'r dygwyddiadau cysgodol, felly hefyd am y gosodiadau cysgodol—yr oeddynt yn meddu ystyr, arwyddocad, a dylanwad presennol. Yr oedd ynddynt addysg am, a chyfeiriad at, y dyfodol; ond yn gyntaf oll, yr oeddynt yn gosod allan wirioneddau oedd ar y pryd yn meddu hanfodiad a grym. Yr oeddynt yn arwyddocaol (*symbolical*) o'r presennol, ac yn gysgodol o'r dyfodol. Gosodent allan trwy arwyddion gweledig wirioneddau ysbrydol; ac ar yr un pryd, rhagddangosent sylweddau oedd i ddyfod. Felly, y mae y gosodiadau hyn, fel yr elfenau yn y sacramentau, yn gyfrwng addysg i'r rhai a'u harferent am yr hyn oedd mewn bod, ac hefyd yn gysgodau o'r hyn oedd i ddyfod i fod.

Yma dylem wneuthur y geiriau a ddefnyddiwn mor ddealladwy ag y gallwn. Defnyddir arwyddion gweledig penodol i osod allan sylweddau anweledig, o herwydd yr ystyrir fod cymhwysder ynddynt i hyny. Gall fod cymhwysder *naturiol* yn yr arwydd i osod allan y sylwedd; a phan y byddo felly, y mae yr arwydd yn cyfleu y meddwl yn uniongyrchol, heb unrhyw esboniad. Ond gall fod arwyddion gweledig nad oes ynddynt y cymhwysder naturiol hwn. Yn y cyfryw amgylchiad, y mae yr arwydd yn seiliedig ar *arfer genedlaethol*, neu ynte ar *ewyllys* yn meddu awdurdod i orchymyn hyny. Gall yr un arwyddlun fod yn un naturiol, ac ar yr un pryd yn unol âg arferiad, neu yn seiliedig ar awdurdod. Heb law y gwahaniaeth hwn, y mae gwahaniaeth arall rhwng y naill arwyddlun a'r llall. Os gwirionedd cyffredinol a osodir allan trwy yr arwydd, gellir ei alw yn arwydd neu arwyddlun *athrawiaethol*. Os dygwyddiad wedi cymmeryd lle eisoes ydyw yr hyn a arwyddoceir, yna y mae yr arwyddlun yn *hanesyddol*, yn gofarwydd. Ond os bydd yr hyn a arwyddoceir yn ddyfodol, yna y mae yr arwyddlun a ddefnyddir i'w ragddangos yn *brophwydoliaethol*, ac y mae y cyfryw yn *gysgod* yn ystyr mwyaf priodol y gair. Ar ol yr eglurhâd rhagarweiniol hwn, gallwn ddyweyd fod cyfraith Moses wedi ei bwriadu i fod yn gyfundrefn o *arwyddluniau athrawiaethol*—y cyfryw ag oedd yn meddu cymhwysder i osod allan wirioneddau priodol i amgylchiadau y genedl ar y pryd presennol, ac i'w pharotoi i dderbyn goleuni eglurach yr efengyl. Ac hefyd, bwriadwyd hi i fod yn gyfundrefn o *arwyddluniau prophwydoliaethol*, neu gysgodau yn meddu cymhwysder i

Digitized by Google

ragddangos pethau dyfodol. Felly, wrth ystyried defodau a gosodiadau cyfraith Moses, y mae dau ymofyniad i'w wneuthur; sef yn gyntaf, Pa wirionedd a osodir allan trwyddynt? Ac yn ail, At ba beth y cyfeiriant; neu o ba beth y maent yn gysgodau? Yn y drefn hon y dylem wneuthur yr ymofyniadau hyn, os ydym am dreiddio i mewn i ystyr y gosodiadau hyny mewn modd deallus; ac hefyd am osgoi llawer o'r dychymygion sydd wedi eu traethu ar y mater hwn. Yr oedd y cysgodau yn meddu cymhwysder i osod allan bethau dyfodol trwy eu cyfaddasrwydd i arddangos gwirioneddau presennol. Yn fynych hefyd, pan nas gallwn benderfynu pa beth ydyw cyfeiriad cysgodol unrhyw osodiad, neu, yn wir, pan na byddo y cyfryw gyfeiriad o gwbl, ni bydd yn anhawdd, fe ddichon, dyweyd pa wirionedd y bwriadwyd ef i'w osod allan. Caiff y darllenydd anghraifft o hyn, yn enwedig mewn cyfeiriad at y ddau fwch ar wyl y cymmod, cyn diwedd yr erthygl hon. Arferiad rhy gyffredin yr hen esbonwyr oedd edrych ar seremoniau y gyfraith yn ormodol yn eu cymhwysiad cysgodol, heb ymofyn yn gyntaf am eu hystyr athrawiaethol, trwy yr hyn yn unig y gallesid deall eu hystyr cysgodol mewn unrhyw gyssonedd. Gallwn gymhwyso y sylwadau hyn at y gyfraith seremoniol dan y pedwar pen canlynol:—lleoedd cyssegredig, personau cyssegredig, defodau cyssegredig, ac amseroedd cyssegredig.

I. Y tabernacl a'r deml oedd y manau cyssegredig, sef y cyssegr yn ei ffurf symmudol ac arosol. Mewn trefn i ymofyn i ystyr cysgodol y tabernacl, dylid, yn gyntaf oll, ymofyn i'w ystyr arwyddocaol; neu, mewn geiriau ereill, pa beth ydoedd y tabernacl a'r gwasanaeth a berthynai iddo, ynddo ei hun, ac ar wahân oddi wrth y daionus bethau a fyddent? Yn y modd hwn y gwelir y cyfaddasrwydd sydd rhwng y cysgod a'r sylwedd. Pa beth ydyw y gwirionedd a osodir allan yn gyntaf oll trwy y tabernacl? Y mae lluaws o atebion dychymygol wedi eu rhoi i'r ymofyniad hwn; ond yr ateb y mae ysgrifenwyr uniawngred yn cytuno arno—ac am gywirdeb yr hwn y mae cyflawnder o brawf yn yr Ysgrythyrau—ydyw, fod y tabernacl yn arwydd o breswyliad Duw gyda dynion, yn nghyd âg egwyddorion a dull y cymundeb y mae y Iehofah mawr yn ymostwng i'w ddal gyda hwynt. Mae gwahanol raniadau y tabernacl, yn nghyd â dodrefn priodol pob rhan, yn dangos amrywiaeth yn y gwirionedd hwn. Trwy y sancteiddiolaf—yn enwedig trwy gyfrwng y ddeddf sanctaidd oedd yn nghadw yn arch y cyfammod, er ei bod yn orchuddiedig gan y drugareddfa—y gosodwyd allan berthynas Duw, fel bod o anfeidrol sancteiddrwydd, â'r bobl fel cenedl euog—perthynas nad allent hwy ei chynnal; ac o ganlyniad, yr angenrheidrwydd am waed i'w daenellu ar gauad yr arch i'w wneuthur yn drugareddfa. Yr oedd y rhan hon o'r tabernacl, trwy arddangos y gwirioneddau hyn, yn meddu cymhwysder arbenig i ragddangos gwaith cyfryngol Crist—yr hyn sydd yn gynnwysedig mewn dyfod â dyn at Dduw. Yn y cyssegr sanctaidd, arddangoswyd mewn modd arwyddocaol gymmeradwyaeth Duw o wasanaeth ei bobl tra mewn ystad anmherffaith, ac hyd nes y deuent yn gymhwys i ymddangos yn ei bresennoldeb Ac nid oedd hyn yn ddichonadwy ond trwy fod gwaed aberth yn cael ei daenellu o bryd i bryd yn y sancteiddiolaf. Nid oedd, gan hyny, ddodrefn a gwasanaeth yr ystafell gyntaf hon, sef y cyssegr, yn cyfeirio yn uniongyrchol at Grist fel Cyfryngwr ac fel iawn, ond at ei bobl fel wedi eu cymmeradwyo ynddo. Yr oedd y bwrdd gyda'r bara gosod yn arddangos eu ffrwythau sanctaidd hwy; y canwyllbren, gyda'r lampau, eu goleuni a'u gwasanaethgarwch i wneuthur yn hysbys y gwirionedd; a'r allor aur a'r arogldarth, gweddïau y saint.

Yn olaf, y cyntedd allanol oedd lle y genedl euog, lle yr oedd yr aberthau yn cael eu lladd a'u llosgi er gwneuthur iawn, a lle y rhoddid cyfleusdra i'r bobl i ddwyn eu gwahanol offrymau, heb law y rhai er gwneyd iawn, er mwyn dadgan eu gwahanol deimladau.

Y mae yn amlwg y buasai y gwirionedd o breswyliad Duw gyda dynion mewn modd arbenig yn cael ei ddwyn yn naturiol i feddwl y bobl trwy yr olwg ar babell wedi ei gwneuthur yn bwrpasol iddo ef, a hyny yn nghanol gwersyll ei bobl. Hon oedd unig eisteddle gweledig ei deyrnas; ac nid eisteddle yn unig, ond hefyd arwydd gweledig o'i deyrnas. Yno yr oedd y bobl yn cael arddangosiad o'i nodweddiad ac o egwyddorion ei lywodraeth, yn nghyd â'i berthynas â'i bobl. Yn fynych, y mae y Salmydd yn dangos mai rhagorfraint pobl Dduw ydyw cael preswylio yn ei dŷ: *Salm* xv, xxiv, xxvii, &c.

O ba beth yr oedd y tabernacl, arwydd allanol y gwirioneddau hyn, yn gysgod? Mae yn amlwg mai o Grist fel Duw wedi ymddangos yn y cnawd, ac wedi ymddangos i gymmodi dyn â Duw. Nid oes un llwybr arall i gyflawnu yr hyn yr amcanai y tabernacl, fel cysgod amserol, ei gyflawnu. Yn Nghrist yn bersonol y cyflawnid hyn yn gyntaf: "Y gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd (a dabernaclodd—ἐσκήνωσεν) yn ein mysg ni." Ond trwy Grist y mae Duw yn dyfod i undeb a chymundeb â phechaduriaid. Felly, y mae y gwirionedd a osodwyd allan yn arwyddocaol yn y tabernacl yn cael ei sylweddoli yn Nghrist fel canolbwynt undeb ei holl bobl. Yn y sancteiddiolaf, lle yr oedd pob peth wedi eu trefnu i fod yn arwyddlun cysgodol o'r iawn a'r cymmod trwyddo, yr oedd Crist yn cael ei ragarwyddo yn fwyaf arbenig ac uniongyrchol: ond efe yn unig a gyflawnodd yr hyn a arddangoswyd yn y lle sanctaidd; o herwydd ynddo ef yn unig y mae y bywyd hwnw a all ddwyn ffrwyth sancteiddrwydd, y gwirionedd perffaith sydd yn oleuni dynion, a'r eiriolaeth hollddigonol hono sydd yn llwyddo gyda'r nefoedd. Yn y cyssegr, gan hyny, y mae i'w ganfod fel gwreiddyn bywyd ei bobl, ac fel eu hesampl, yn hytrach nag fel eu Prynwr. Ac yn y cyntedd allanol, lle y tywelltid gwaed yr aberthau bob dydd, cyfeirid meddwl yr addolwr at yr hyn yn unig oedd yn sail cymmeradwyaeth i'w aberthau ysbrydol; sef, at waith a dyoddefiadau Mab Duw.

II. Personau cyssegredig yn unig oedd yn gymhwys i le cyssegredig.

Heb fyned i mewn i'r manylion sydd yn perthyn i erthyglau ereill, gallwn ofyn yma, pa beth oedd egwyddor fawr yr offeiriadaeth Lefiaidd? A gallwn ateb mewn gair, *cynnrychiolaeth*. Hyd nes y deuai Crist yn y cnawd, yr oedd yr holl rai a gedwid trwy holl oesoedd y byd yn cael eu cynnrychioli gan genedl wedi ei dewis i hyny; ac o ganlyniad, gan genedl a elwir yn freniniaeth o offeiriaid: *Exod.* xix. 6. Ond er mwyn cadw y gwirionedd hwn o flaen y genedl ei hun, dewiswyd un llwyth o blith y llwythau ereill i gynnrychioli yr oll, ac i gyfryngu rhwng Duw a'r bobl. Yn unol â'r un egwyddor, yr oedd un teulu o'r llwyth dewisedig i'w chynnrychioli hi; tra yr

Digitized by Google

oedd yn y teulu hwn drachefn un person, sef ei ben naturiol, yn cynnrychioli ei deulu; a thrwy y teulu hwnw, y llwyth; a thrwy y llwyth hwnw, y genedl; a thrwy y genedl hono, holl etholedigion Duw. Yn yr archoffeiriad gan hyny yr oedd yr holl gynnrychiolaeth yn cael ei chrynhoi a'i pherffeithio. Am fod yr archoffeiriad yn gynnrychiolydd arwyddocaol yr holl genedl, yr oedd yn gymhwys i gysgodi Iesu Grist—pen a chynnrychiolydd ei eglwys. Y mae yr egwyddor hon yn gwahaniaethu yr offeiriaid Lefiaidd oddi wrth bob sefydliad offeiriadol arall ar wyneb y ddaiar. Yr oedd y gyfundrefn offeiriadol hon yn wahanol hollol oddi wrth offeiriadaeth yr Aipht—yr hon oedd yn annibynol ar y bobl, ac yn sefyll hefyd fel dosbarth neillduedig yn gyferbyniol iddynt. Perthynai i'r offeiriaid yn Israel ddysgu y bobl; yr hyn oedd yn nod gwahaniaethol rhyngddynt a phob offeiriadaeth baganaidd. Yr oedd hanfod yr offeiriadaeth Lefiaidd yn gynnwysedig yn yr hyn ydoedd yr offeiriaid yn eu cyssylltiad â'r bobl, sef eu cynnrychiolwyr a'u dysgawdwyr cyhoeddus; ond yr oedd pob offeiriadaeth baganaidd yn tori pob cyssylltiad rhwng yr offeiriaid a'r bobl.

III. Ond yr oedd y lle a'r personau sanctaidd er mwyn y defodau cyssegredig. Fel yr oedd y ddeddf seremonïol yn ganolbwynt yr oruchwyliaeth hono, felly y defodau oedd canolbwynt y ddeddf seremonïol. Gellir dosbarthu yr holl ddefodau hyn i ddau ddosbarth mawr; sef, yr offrymau a'r golchiadau. O'r ddau hyn, y blaenaf ydyw y mwyaf pwysig; gan fod yr olaf yn dibynu ar y cyntaf, ac yn chwanegol ato. Dosberthir yr offrymau drachefn i ddau fath; sef, i anifeiliaid, a llysiau. I'r blaenaf o'r rhai hyn eto yr oedd pwysigrwydd neillduol yn perthyn; gan nad oedd offrymau o lysiau ond math o chwanegiadau at yr aberthau anifeilaidd. Yr oedd elfenau neu ddefnyddiau yr offrymau yr un yn barhaus. Am y gwahanol fathau o aberthau, edrycher y gair ABERTH; ond gellir sylwi yma fod y gwahaniaeth ynddynt yn codi oddi ar y gwahanol achlysuron ar ba rai y cyflwynwyd hwynt, y gwahanol olygiadau a gymmerid ynddynt am natur pechod, ac nid oddi ar wahaniaeth yn nefnyddiau yr offrymau. Yr anifeiliaid a gyflwynwyd oedd y rhai mwyaf gwasanaethgar ac angenrheidiol i ddyn. Y defnyddiau llysieuol oedd y tri chynnyrch a gyfansoddai yn benaf eu cynnaliaeth; sef, ŷd, gwin, ac olew. Yn chwanegol at y rhai hyn, yr oedd llysiau peraidd i roddi arogldarth, a halen; tra yr oedd mel a lefain yn waharddedig. Fel yr oedd yr aberthau yn fwy pwysig nag un math arall o offrwm, felly y gwaed oedd y rhan bwysicaf o'r aberth. Rhan hanfodol yr aberth oedd y gwaed. Meddai y gwaed y pwysigrwydd hwn o herwydd ei fod yn gwneuthur iawn. Yr ydoedd yn gwneuthur iawn o herwydd ei fod yn einioes am einioes.

Ond beth oedd ystyr arwyddocaol yr aberthau, ar wahân oddi wrth eu hystyr cysgodol? Eu bod yn cysgodi marwolaeth Crist fel aberth, sydd yn ddigon amlwg oddi wrth y Testament Newydd. Eto, yr oedd iddynt ystyr yn eu cyssylltiad â'r oruchwyliaeth hono trwy ba un yr oeddynt yn meddu cymhwysder i gysgodi Crist a'i aberth. Yr oedd yr ystyr cyntaf hwn yn nes at y bobl: gallasent ei ddeall, a thrwy ei ddeall gyflwyno gwasanaeth cymmeradwy i Dduw—pa un a oeddynt ai peidio yn deall cyfeiriad pellach y gwasanaeth at Grist croeshoeliedig. Yr ydoedd y weithred o aberthu yn weithred arwyddocaol, ac yn gosod allan y tri gwirionedd canlynol:— Yn gyntaf, Bod yr aberthwr wedi colli hawl i'w fywyd trwy bechod. Yn nesaf, Bod yn rhaid rhoddi y bywyd hwnw i ddwylaw cyfiawnder. Ac yn olaf, Bod y troseddwr yn cael ei fywyd yn ol trwy aberthu bywyd arall yn ei le, yn ol gosodiad y deddfroddwr. Yr oedd yr addolwr wrth gyflwyno ei aberth dan deimlad o'r gwirioneddau hyn yn cyflwyno gwasanaeth cymmeradwy gan Dduw, hyd yn oed pe buasai heb ddeall pa fodd yr oedd cyfiawnder yn cael ei foddloni trwy yr hwn "a osododd Duw yn iawn." Yr oedd yr aberthau yn cadw o flaen meddyliau y bobl yr angenrheidrwydd am iawn, a'r modd yr oedd yr iawn hwn i'w gael; sef, trwy aberthu bywyd am fywyd. Ond nid oeddynt o angenrheidrwydd yn arwain pawb oedd yn eu gweled i adnabyddiaeth o'r gwir aberth a gysgodwyd trwyddynt. Nid oedd hyn yn rhan o'r gwasanaeth Lefiaidd fel y cyfryw. Ac er fod prophwydoliaethau yr Hen Destament yn cynnwys awgrymiadau lled eglur ar hyn, eto y Testament Newydd a'i dygodd i oleuni. Yr oedd yr aberthau seremonïol gan hyny, yn gyntaf oll, yn dysgu gwirioneddau ysbrydol. Ac wrth edrych arnynt yn mhellach fel cysgodau, yr oeddynt yn dysgu yr un gwirioneddau, ond yn cyfeirio gyda hyny at Un, yn yr hwn y cyrhaeddent eu cyflawn berffeithiad. Yr oedd y gyfraith yn dysgu ac yn arddangos y gwirioneddau hyn mewn modd gweledig; ond yn Nghrist, y maent wedi eu sylweddoli. Ynddo ef yn unig y mae gwir drosglwyddiad o bechod ar un oedd yn ewyllysgar a galluog i'w ddwyn. Yn ei angeu ef ni a gawn fywyd digon urddasol yn lle yr euog; a thrwy ffydd yn yr angeu hwnw, y mae i'r euog ryddhad.

Nid oedd y puredigaethau seremonïol heb eu harwyddocad ysbrydol a moesol. Mae yn wir fod yr aberthau a'r puredigaethau hyny yn meddu rhinwedd gwirioneddol ac uniongyrchol, mewn cyssylltiad â'r cyssegr bydol hwnw, i adferu troseddwyr a rhai wedi eu halogi i fwynhad o ragorfreintiau y cyfammod cyntaf. Ond y mae eu gwasanaeth, fel arwyddion o wirioneddau ysbrydol, yn hollol wahanol; er, mae yn wir, fod eu dylanwad yn gosod allan rinwedd yr efengyl. Yr achlysuron ar ba rai y defnyddid y defodau a drefnid i symmud ymaith halogedigaeth seremonïol oedd, y cyfryw ag a godai oddi ar ystâd y corff, megys y gwahanglwyf; ac mewn rhan oddi ar gyffyrddiad â chorff marw, neu gymmeryd rhan mewn claddu y marw. Yr oedd aberthu, bob amser, yn rhan o'r gwasanaeth puredigol. Ac yn chwanegol at hyn, taenellid dwfr, naill ai yn bur, neu yn gymmysgedig â gwaed yr aberth neu â'i ludw, neu â choed cedr, isop, neu ysgarlad; ac ar achlysuron neillduol, gollyngid adar byw yn rhydd. Am rai o'r puredigaethau hyn, nid ellid eu cyflawnu ond y tu allan i'r gwersyll; ac am ereill, yr oeddid i'w dechreu y tu allan, ond gorphenid hwynt o fewn y gwersyll. Yr oedd hyn yn codi oddi ar y ffaith nodedig fod y defodau glanhaol eu hunain yn aflanhau. Y mae ystyr arwyddocaol y defodau puredigol, ar y cyfan, yn amlwg. Y mae dwfr yn arwydd cyffredin, ac yn foddion glanhad. Cyssylltir yr un drychfeddwl â'r defnyddiad o ludw; ac heblaw hyny, yr oedd y lludw yn cyssylltu y glanhad âg aberth. Defnyddid isop i lanhau gan yr hynafiaid; ac ystyrid coed cedr yn anllygredig. Yr oedd y rhai hyn oll yn arwyddion naturiol puredigaeth. Amcan y defodau hyn oedd cadw o flaen y meddwl yn wastad fod pechod yn aflendid, a'r

Digitized by Google

angenrheidrwydd am sancteiddiad, fel yr oedd yr aberthau yn rhoddi arbenigrwydd ar bechod fel euogrwydd, a'r angenrheidrwydd am iawn. Felly, y mae y ddwy athrawiaeth fawr am yr iawn a sancteiddhad yn cael eu dysgu trwy y gyfres ddeublyg o ddefodau am aberthau a phuredigaethau. Mewn atebiad i'r cwestiwn, pa ham y dewiswyd cysylltu aflanhad seremonïol â'r amgylchiadau a enwir, yn hytrach nag âg ereill, y mae yn wir nad oedd yr holl amgylchiadau yn mha rai y byddai dynion yn ymhalogi ynddynt yn gysylltiedig uniongyrchol â phechod gweithredol; er esampl, gallasai dyn gwahanglwyfus fod yn ddyn da: ond yr oedd hyn yn gwasanaethu i ddangos fod yr holl gyfundrefn yn arwyddocaol. Ni allasai fod puredigaethau seremonïol heb fod hefyd bechodau seremonïol. Mewn trefn i roddi amlygiad o weithrediad egwyddorion llywodraeth Duw o fewn cylch y gweledig, yr oedd yn ofynol i dynu gwahaniaeth rhwng pethau nad oedd gwahaniaeth moesol rhyngddynt; ac i'r dyben hyny, yr oedd yn rhaid tynu y gwahaniaeth yn rhywle. Ac hefyd, y mae yr holl amgylchiadau gwaharddedig yn gyfryw ag i'n dysgu i gysylltu cyflwr syrthiedig dyn â genedigaeth, afiechyd, a marwolaeth, gan y gellir eu dwyn, fwy neu lai, dan y penau hyn. Y gwirioneddau, gan hyny, a ddysgid trwy yr holl seremoniau perthynol i ymhalogiad a phuredigaeth oedd ffieidd-dra pechod, llygredigaeth gwreiddiol dynolryw, trosglwyddiad pechod trwy genedliad naturiol, ei gysylltiad â dyoddefiadau bywyd, a'i fod yn gynnyrch marwolaeth yn naturiol ac ysbrydol. Trwy berthynas y defodau glanhaol âg aberthau y dysgid y gwirionedd sylfaenol, nad yw cyfnewidiad moesol yn bosibl heb iawn. Yr oedd y rhai hyn oll yn arwyddion athrawiaethol, ar wahân oddi wrth arwyddion prophwydoliaethol, ac fel y cyfryw yn gyfaddas i barotoi y ffordd i'r efengyl.

IV. Y dosbarthiad olaf o'r gyfraith seremonïol yw, yr amseroedd cysegredig. Yr oedd y rhai hyn oll yn cael eu penderfynu gan y nifer *saith.* Y Sabbath wythnosol, sef y seithfed dydd, oedd sylfaen yr holl gyfundrefn. Yna, perthynai hynodrwydd i'r seithfed mis, y seithfed flwyddyn, a'r flwyddyn ar ol saith o seithiau o flyneddoedd. Yn y seithfed mis yr oedd Gŵyl y Cymmod a Gŵyl y Pebyll. Yr oedd y Pasc a Gŵyl y Pebyll yn parhau saith niwrnod: dechreuai Gŵyl y Pentecost ar ol cyfrif saith o ddyddiau saith waith drosodd o ddiwrnod cyntaf y Pasc. Nid heb reswm digonol y mae y fath arbenigrwydd wedi ei roddi ar y nifer saith trwy holl gymmanfaoedd a gwyliau cysegredig y genedl: a'r rheswm yw, mae yn amlwg, am fod y nifer saith yn mhlith yr Iuddewon a'r Aiphtiaid yn arwydd o berffeithrwydd ac o sancteiddrwydd. Yr ystyr ysbrydol a arwyddoceir trwy y Sabbath ydyw *gorphwysfa*—gorphwysfa oddi wrth lafur, gorphwysfa oddi wrth boen, gorphwysfa oddi wrth bechod. Fel cofarwydd, cyfeiriai yn ol at orphwysfa Duw oddi wrth waith y greadigaeth, ac at orphwysfa Israel oddi wrth gaethiwed yr Aipht. Fel arwydd prophwydoliaethol, cysgodai orphwysfa yn Ngwlad yr Addewid, gorphwysfa yr enaid yn Nghrist a Duw; gorphwysfa yr eglwys yn yr oruchwyliaeth newydd, a gorphwysfa y credadyn a'r eglwys yn y nefoedd. Ond heb law hyn, yr oedd y flwyddyn Sabbathol yn arwyddocau fod y tir yn cael gorphwys, a bod y dyledwr yn cael gorphwys oddi wrth ofynion ei echwynwr. Yr oedd Sabbath yr Iwbili yn cynnwys y meddwl o orphwys ac adferiad—adferiad y tir i'w berchenog blaenorol, ac adferiad y caeth i ryddid.

Yr oedd perthynas rhwng y gwyliau blyneddol a dygwyddiadau pwysig yn hanes y genedl, ac â threigliad y tymmorau. Nodai y Pasc ddechreuad y cynhauaf, a galwai i gof yr athrawiaeth o ddibyniad ar Dduw am ffrwyth y ddaiar; tra ar yr un pryd, fel arwydd coffadwriaethol, cadwai y waredigaeth o'r Aipht yn fynych yn fyw yn nheimlad y bobl; ac fel cysgod, cyfeiriai yn mlaen at Grist. Nodai y Pentecost ddiwedd y cynhauaf; ac yn ol traddodiad yr Iuddewon, cadwai mewn cof roddiad y gyfraith ar Sinai: ac fel cysgod, cyfeiriai at dywalltiad yr Ysbryd, a ffurfiad yr Eglwys Gristionogol. Disgynai Gŵyl y Pebyll ar yr amser y casglid y grawnwin a'r ffrwythau; ond ei dyben coffadwriaethol oedd cyfeirio at daith yr Israeliaid yn yr anialwch, a'u dyfodiad buddugoliaethus i Wlad yr Addewid. Oddi wrth yr ystyron naturiol a hanesyddol hyn, yn gystal ag oddi wrth y ffaith mai yr ŵyl olaf yn y flwyddyn ydoedd, cedwid hon gyda mwy o amlygiadau o lawenydd nag un arall; ac fel y cyfryw, yr ydoedd yn meddu cymhwysder neillduol fel cysgod i osod allan berffaith waredigaeth eglwys Crist oddi wrth bechod a'i holl ganlyniadau, a'i phreswyliad tragwyddol yn y nefoedd.

Yr unig ddydd i ymostwng ac i gystuddio yr enaid yn y flwyddyn Iuddewig oedd Gŵyl y Cymmod, yr hon a gedwid ychydig ddyddiau cyn Gŵyl y Pebyll. Felly, er bod y flwyddyn yn terfynu gyda llawenydd, yr oedd y llawenydd hwnw yn cael ei ragflaenu gan ddydd mawr y cymmod, yr hwn a fwriedid i fod yn grynoad a chrynodeb o holl ddefodau dyhuddawl y flwyddyn. Bod yr arbenigrwydd hwn, mewn cyferbyniad â maddeuant pechodau y genedl, yn perthyn i ddydd y cymmod, sydd amlwg oddi wrth absennoldeb pob ystyr naturiol a choffadwriaethol, fel y perthynai i'r gwyliau ereill, ac hefyd oddi wrth bwysigrwydd neillduol gwasanaeth y dydd. Am ystyr cysgodol gwasanaeth y dydd hwn, edryched y darllenydd am y gwahanol eiriau Bwch, a Dydd y Cymmod, ac yna fe wel y gwahaniaeth barn sydd am y bwch diangol. Cyfyd yr anhawsder i roddi ei ystyr priodol i'r rhan hon o wasanaeth y dydd oddi wrth y ffaith fod y bwch diangol yn cael edrych arno fel cysgod uniongyrchol o Grist; ac o ganlyniad, ein bod dan angenrheidrwydd i chwilio am ryw wrthgyferbyniad yn hanes neu berson y Cyfryngwr i gyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y bwch a laddwyd a'r bwch a arweiniwyd i'r anialwch. Tybia rhai, fod y naill yn gosod allan ddwyfoldeb y Gwaredwr, a'r llall ei ddynoliaeth; yr hyn sydd yn arwain i'r penderfyniad fod y natur ddwyfol naill ai wedi marw, neu wedi ei llwytho âg euogrwydd dyn. Tybia ereill, fod cyferbyniad rhwng darostyngiad a dyrchafiad Crist, heb allu penderfynu pa un. Dywed ereill, mai un bwch yn unig sydd yn gysgod o Grist, a bod y llall yn arwyddo y genedl Iuddewig. Ond mor fuan ag y canfyddir fod yn bosibl i lawer o seremoniau y gyfraith ateb dyben rhagbarotoawl yr hen oruchwyliaeth, trwy ddysgu gwirioneddau pwysig ag oedd i dderbyn eu harddangosiad cyflawnaf yn Nghrist, ni a gawn esboniad boddhaol ar y defodau dan sylw. Fel y sylwyd eisoes, dyben dydd y cymmod ydoedd rhoddi arddangosiad cyflawn, ond cryno, o'r drefn i wneuthur cymmod yn ol y gyfraith. Y mae yn naturiol meddwl

Digitized by Google

gan hyny, fod y ddau fwch wedi eu bwriadu i osod allan yr un athrawiaeth fawr; sef athrawiaeth y cymmod, fel yn gynnwysedig o ddwy ran—sef fod un yn marw yn ein lle; ac yn nesaf, ei fod trwy hyny yn tynu ymaith ein pechodau. Yr oedd holl wasanaeth dydd y cymmod yn dysgu gwirioneddau pwysig, angenrheidiol eu gwybod, yn y lle cyntaf; ac yn hyny yr oedd ei gymhwysder i gysgodi yr Hwn a osododd Duw yn iawn.

Am gymhwysiad pellach o'r egwyddorion hyn at wahanol ranau o'r defodau a'r sefydliadau Moesenaidd, cyfeirir y darllenydd at yr erthyglau priodol yn y gwaith hwn.—(*Fairbairn's Typology of Scripture; Bähr. Symbolik des Mos.; Cultus.* Mae crynodeb o egwyddorion y llyfr hwn i'w gael yn y *Congregational Lecture*, gan Alexander. *Kurtz. Geschichte, des Alten Bundes; Beitrage zur Symbolik des alttest; Cultus*, gan yr un awdwr; amryw erthyglau yn y *British and Foreign Evangelical Review*; heb law y llyfrau ereill y cyfeirir atynt yn yr erthygl hon.)

CYSGU. Gwel Cwsg.

CYSSEGR, (*Salm* xx. 2): wrth yr enw hwn y gelwid y rhan fwyaf cyssegredig a neillduedig o deml Ierusalem, yn mha un yr oedd arch y dystiolaeth, ac i ba le ni feiddiai neb fyned ond yr archoffeiriad yn unig, a hyny ond unwaith yn y flwyddyn, sef ar ddydd mawr y cymmod. Yr un enw hefyd a roddid i'r lle mwyaf cyssegredig o'r babell, a osodwyd i fyny yn yr anialwch, yr hon a arosodd am beth amser wedi adeiladu y deml. Gwel Tabernacl; Teml. Arferir y gair *cyssegr* weithiau yn gyffredinol am y deml a'i holl ddodrefn—y lle sanctaidd, y man appwyntiedig i addoli Duw yn gyhoeddus. Ymddengys hefyd fod Moses yn ei arfer am Wlad Canaan: *Exod.* xv. 17; "Ti a'u dygi hwynt i mewn, ac a'u pleni hwynt yn mynydd dy etifeddiaeth, y lle a wnaethost, O Arglwydd, yn anneddle i ti; y cyssegr, Arglwydd, a gadarnhaodd dy ddwylaw." Ac yn *Lef.* xx. 3, dywed, am y rhai a aberthant eu plant i Moloch, y maent yn "aflanhau fy nghyssegr" ac yn "halogi fy enw sanctaidd." Yn *Lef.* xxi. 12, y mae Moses yn gwahardd i'r archoffeiriad fyned allan o'r deml i alaru am ei berthynasau: "Ac nac aed allan o'r cyssegr, ac na haloged gyssegr ei Dduw." Dynodir y deml, yn y lle hwn, drwy ei rhan bwysicaf. Y mae y nefoedd hefyd yn myned dan yr enw hwn yn *Salm* cii. 19; "Canys efe a edrychodd o uchelder ei gyssegr: yr Arglwydd a edrychodd o'r nefoedd ar y ddaiar." Gelwir ef yn "gyssegr yr amddiffynfa" (*Dan.* xi. 31), am ei fod yn lle cadarn, a hawdd ei amddiffyn; ac am ei fod yn perthyn i Dduw, cadernid Israel; ac yn "gyssegr bydol" (*Heb.* ix. 1), am fod ei wasanaeth o natur cnawdol neu gysgodol. Cymhwysir y gair at unrhyw le wedi ei appwyntio i addoli Duw yn gyhoeddus (*Salm* lxxiii. 17); a chyda chyfeiriad at y cyssegr Iuddewig, allor bres pa un a wasanaethai fel amddiffynfa i fan droseddwyr, gelwir lle o noddfa yn gyssegr: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, er gyru o honof hwynt yn mhell yn mysg y Cenedloedd, ac er gwasgaru o honof hwynt trwy y gwledydd, eto byddaf yn gyssegr bychan iddynt yn y gwledydd lle y deuant;" *Esec.* xi. 16; *Esa.* viii. 14.

CYSSEGRIAD EGLWYSYDD. Y pethau canlynol ydyw prif ranau y ddefod o gyssegru eglwys, yn ol dull Eglwys Rhufain:—Yn flaenorol i'r seremoni, paentir tair croes ar bob un o furiau yr eglwys, a dodir uwch ben pob croes ganwyll oleuedig. Agosâ yr esgob, yn ei wisgoedd swyddogol, at ddrws yr eglwys, yn cael ei ddilyn gan amryw o'i glerigwyr yn adrodd y saith Salm edifeiriol; ac ar ol gorymdeithio yn ddifrifol o gwmpas muriau allanol yr eglwys, y rhai a daenellir yn helaeth, yn enw y Drindod, â dwfr cyssegredig, fe gura yr esgob wrth y drws â'i ffon fugeiliol, gan adrodd o'r bedwaredd Salm ar ugain, "*Attollite portas, et introibit Rex Gloriæ;*" i'r hyn yr etyb diacon o'r tu mewn, "*Quis est iste Rex Gloriæ?*" Yna, dywed yr esgob, "*Dominus fortis et potens, Dominus potens in prælio,*" &c.; yna dywed, gan arwyddnodi y drws â darlun o'r groes, "*Ecce crucis signum! fugiant phantasmata cuncta:*"="Wele arwydd y groes! ffowch ymaith bob dychymygion." Ar dderbyniad yr esgob a'r clerigwyr i mewn, cenir y "*Veni Creator,*" a heuir lludw ar y llawr yn ffurf y groes, yn mha un yr ysgrifena yr esgob, â'i ffon, ryw lythyrenau o'r wyddor. Ar ol adrodd amryw weddiau, cyssegrir yr allor drwy ei thaenellu â chymmysgedd o ddwfr, gwin, halen, a lludw, yn enw Iesu Grist. Terfynir y ddefod trwy ddodi ar yr allor lestr yn cynnwys creiriau, a sylwedd i wneuthur arogldarth, yn nghyd â memrwn, ac yn ysgrifenedig arno enw yr esgob a dyddiad y cyssegriad. Bydd yr eglwys, ar yr achlysur, wedi ei haddurno yn orwych, a lluaws o ganwyllau cwyr mawrion yn oleuedig ar yr allor.—*Broughton's Hist. Dict.*, cyf. i. td. 311. Y mae defodau penodol hefyd yn cael eu harfer wrth gyssegru eglwysydd sefydledig Lloegr, ffurf pa rai a adewir at ddewisiad yr esgob fydd yn gweinyddu ar y pryd. Achosodd y dull a fabwysiadwyd gan yr Archesgob Laud i gyssegru eglwys St. Catherine Cree yn Llundain gynhwrf a thramgwydd mawr; ac yr oedd rheswm dros hyny. Yr oedd yn ddigon, fel y sylwa un, i beri hyd yn oed i gardinal Pabaidd wrido; ac nis gall un Protestant ddarllen yr hanes heb deimlo yn ddigofus. "Daeth yr esgob, yn cael ei ddilyn gan amryw o'r ddirprwyaeth uchel, a lluaws o gyfreithwyr. Ar ei agosâd at ddrws gorllewinol yr eglwys, yr hwn oedd yn gauedig, ac yn cael ei wylio gan ffon-fwyellwyr, gwaeddodd rhywrai ag oeddynt wedi eu happwyntio i'r pwrpas hwnw, 'Agorwch! agorwch! chwi ddrysau tragwyddol, fel y delo Brenin y gogoniant i mewn!' Agorwyd y drysau, daeth yr esgob, yn cael ei ddilyn gan amryw ddoctoriaid a gwŷr mawrion, i'r eglwys. Mor gynted ag yr aethant i mewn, penliniodd ei arglwyddiaeth, a chan ddyrchafu ei lygaid ac estyn ei freichiau dywedodd, 'Y mae y lle hwn yn sanctaidd; y mae y tir yn gyssegredig: yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, yr wyf yn ei gyhoeddi yn sanctaidd.' Yna, gan gerdded ar hyd y rhodfe ganol tua'r ganghell, cododd beth o'r llwch, a thaflodd ef i fyny amryw weithiau. Pan yr agosaodd at fwrdd y cymun, ymgrymodd o'i flaen bump neu chwech o weithiau; a chan ddychwelyd, efe a aeth o gwmpas yr eglwys, a'i ddilynwyr yn orymdaith o'i ol, gan adrodd yn gyntaf y ganfed Salm, ac yna y bedwaredd ar bymtheg, fel y cyfarwyddir yn llyfr defodau Eglwys Rhufain. Wedi hyny, darllenodd amryw golectau, yn un o ba rai y gweddïai ar i Dduw dderbyn yr adeilad brydferth hono, a diweddai fel hyn:—'Yr ydym yn cyssegru yr eglwys hon, ac yn ei neillduo i ti fel tir sanctaidd, yr hwn ni halogir byth mwyach

Digitized by Google

at wasanaeth cyffredin. Mewn un arall, gweddïai ar fod i bawb a gleddid rhag llaw, o fewn terfynau y lle sanctaidd a chyssegredig hwnw, orphwys mewn tangnefedd yn eu beddau hyd nes y deuai Crist i farnu y byd, ac adgyfodi y pryd hyny i fywyd a dedwyddwch tragwyddol. Yna, gan eistedd yn rhodle y ganghell, yn agos i fwrdd y cymun, cymmerodd yr esgob lyfr ysgrifenedig yn ei law, a chyhoeddodd felldithion uwch ben y rhai a halogent y lle sanctaidd hwnw rhag llaw, trwy gasglu milwyr yn nghyd yno, neu trwy gynnal brawdlysoedd cyfreithiol cyffredin yn y lle, neu trwy gludo beichiau drwyddo:—ac ar ddiwedd pob melldith, ymgrymai tua'r dwyrain, a dywedai, 'A dyweded yr holl bobl, Amen.' Pan yr aeth drwy y melldithion, y rhai oeddynt tuag ugain mewn rhifedi, cyhoeddodd yr un nifer o fendithion hefyd ar bawb yr oedd ganddynt law mewn cynllunio ac adeiladu yr eglwys brydferth a chyssegredig hono; ac ar y rhai oeddynt wedi rhoddi, neu a roddent rhag llaw, unrhyw gwpanau cymun, llestri arian, addurniadau, neu ryw bethau ereill at wasanaeth yr eglwys:—ac ar ddiwedd pob bendith, ymgrymai tua'r dwyrain, a dywedai, fel yn amgylchiad y melldithion, 'A dyweded yr holl bobl, Amen.' Drachefn, traddodwyd pregeth, ac aethpwyd i weinyddu y cymun, yr hwn a gyssegrwyd gan yr esgob, ac a gyfranwyd yn y dull canlynol:—Wrth nesau at yr allor, ymgrymodd bump neu chwech o weithiau yn isel; a chan fyned at ochr y bwrdd, lle yr oedd y bara a'r gwin yn orchuddiedig, ymgrymodd saith waith drachefn. Yna, ar ol darllen amryw weddïau, daeth at y bara; a chan godi ychydig yn araf ar gongl y llian, edrychodd arno; a chan ollwng y llian i lawr drachefn yn uniongyrchol, ciliodd yn ol yn frysiog gam neu ddau, ac ymgrymodd yn isel dair gwaith: yna, aeth ei arglwyddiaeth yn mlaen eilwaith, ac wedi dadorchuddio y bara, ymgrymodd dair gwaith megys o'r blaen. Dododd ei law wedi hyny ar y gwpan, yr hon oedd yn llawn o win, gyda gorchudd drosti; ac ar ol ei gosod yn ol ar y bwrdd, ciliodd yn ŵysg ei gefn, ac ymgrymodd dair gwaith tuag ati; yna, aeth ati drachefn, a chan godi y gorchudd, edrychodd i'r gwpan, a phan welodd y gwin, gollyngodd y gorchudd i lawr eilwaith, a chiliodd yn ol, gan ymgrymu fel o'r blaen. Erbyn hyn yr oedd yr elfenau wedi eu cyssegru; ac wedi i'r esgob gyfranogi o honynt ei hunan yn gyntaf, rhanodd hwynt i'r prif ddynion, y rhai oeddynt yn eu gwisgoedd swyddogol; ac ar ol adrodd amryw weddïau, dybenodd gwasanaeth difrifol y cyssegriad."—(*Penny Cycl.; Buck's Theol. Dict.*)

CYSSEGRU: y weithred o gyflwyno, neillduo, diofrydu, neu sancteiddio unrhyw beth, mewn modd difrifol, at wasanaeth ac addoliad Duw. Yr oedd holl had Abraham wedi eu cyssegru at wasanaeth y Duw byw mewn modd neillduol: *Gen.* xvii. Er cadw coffadwriaeth am ddinystr cyntafanedigion yr Aipht, trefnodd yr Arglwydd ar fod i holl gyntafanedigion Israel, yn ddyn ac anifail, gael eu cyssegru yn eiddo iddo ef: *Exod.* xiii. Ar ol hyn, cyssegrwyd holl lwyth Lefi yn lle y cyntafanedigion, yr hyn a wnaethid drwy olchiad, offrymu aberth, a thaenellu olew a gwaed: *Num.* iii. 12, 45; viii. 16, 18. A chyssegrwyd Aaron a'i feibion, y rhai oeddynt hefyd o lwyth y Lefiaid, mewn modd mwy neillduol at y swydd offeiriadol: *Exod.* xl. 13. Y mae genym hefyd, yn *Num.* vii, hanes cyssegriad a chyflwyniad y tabernacl a'r allor. A rhoddir dysgrifiad o gyssegriad y deml gyntaf, neu deml Solomon, yn 1 *Bren.* viii. 5; ac o gyssegriad yr ail yn *Ezra* vi. 16. Cyssegrid hefyd yr holl ddodrefn sanctaidd at wasanaeth Duw. Yr oedd yn arferiad hefyd yn mysg yr Iuddewon, nid yn unig i gyssegru dynion ac anifeiliaid at wasanaeth yr Arglwydd, ond eu tai, ac hyd yn oed muriau eu dinasoedd: *Deut.* xx. 5; *Neh.* xii. 27. Ymddibynai cyssegriad ar ewyllys da dynion, y rhai a neillduent eu hunain, eu meddiannau, neu y personau a fyddent yn ymddibynu arnynt, at wasanaeth Duw, pa un bynag ai am dymmor yn unig, ai yn barhaus. Diofrydodd neu neillduodd Iosuah y Gibeoniaid at wasanaeth y tabernacl: *Jos.* ix. 27. Neillduodd Dafydd a Solomon y Nethiniaid hefyd at wasanaeth y Lefiaid: *Ezra* viii. 20. Cyssegrodd Hannah ei mab Samuel i'r Arglwydd, i wasanaethu holl ddyddiau ei einioes yn y tabernacl. Byddai yr Hebreaid weithiau yn neillduo meusydd neu anifeiliaid i'r Arglwydd; a thrwy hyny yn eu trosglwyddo o'u meddiant eu hunain. Ac oni wnaeth Iacob yr un modd? *Gen.* xxviii. 22. Byddai Dafydd, a breninoedd ereill, yn fynych yn cyssegru i'r Arglwydd arfau ac ysbail eu gelynion, neu eu dinasoedd, neu eu gwledydd. Yr ydym yn cyfarfod â'r gair hefyd yn y Testament Newydd; y mae Crist wedi ei gyssegru a'i neillduo yn dragywydd; y mae wedi ei gymhwyso a'i osod gan yr Ysbryd Glân i fod yn Brophwyd, Offeiriad, a Brenin tragwyddol i'w eglwys; ac y mae, trwy golli ei waed, wedi rhoddi ei hun a'i bobl at wasanaeth ei Dad: *Heb.* vii. 28; 1 *Pedr* ii. 9. Efe a gyssegrodd i ni ffordd newydd a bywiol at Dduw: *Heb.* x. 20. Y mae y saint, a chymmaint ag a feddant, yn gyssegredig i'r Arglwydd trwy eu neillduad a'u hymroddiad gwirfoddol, a'u derbyniad ganddo ef yn y Cyfryngwr: *Esa.* xxiii. 18; *Ezec.* xliii. 20; *Mica* iv. 13; 1 *Pedr* iii. 9.

CYSSEGR-WYL: un o'r gwyliau Iuddewig. Sefydlwyd yr ŵyl hon gan Judas Maccabæus, er coffadwriaeth am buredigaeth y deml, ac ailadeiladiad yr allor, wedi iddynt gael eu halogi gan Antiochus Epiphanes. Amlygodd y brenin hwn ei gasineb tuag at yr Iuddewon mewn amrywiol ffyrdd cyn hyn: gwaharddodd i'w plant gael eu henwaedu, caethiwodd hwynt yn eu cyflawniadau crefyddol, lladdodd amryw am anufuddhau i'w orchymynion, llosgodd lyfrau y gyfraith, gosododd i fyny eilunaddoliaeth, dygodd ymaith allor yr arogldarth, bwrdd y bara gosod, a'r canwyllbren aur, yn nghyd â llestri a thrysorau ereill y deml; ac efe a aeth i'r fath eithafion fel ag i aberthu hwch ar allor y poethoffrwm, adeiladu allor i eilunaddoliaeth ar yr allor gyssegredig hono, a thaenellu y deml a'r cynteddau â chawl cig moch: 1 *Mac.* i; 2 *Mac.* v. Cymmerodd yr ail gyssegriad hwn le ar y pummed dydd ar ugain o'r nawfed mis, yr hwn a elwid Chisleu, ac yn cyfateb i ddiwedd Tachwedd a dechreu Rhagfyr yn ein mysg ni, yn y flwyddyn 170 c. c. Dewiswyd y diwrnod hwnw, o blegid mai dyna yr amser, dair blynedd cyn hyny, y llygrodd Antiochus yr allor trwy yr aberthau eilunaddolgar. Yr oedd llawenydd yr Israeliaid ar yr achlysur yn fawr iawn; a chedwid yr ŵyl am wyth niwrnod. Gelwid hi hefyd "gŵyl y llusernau," o blegid y byddai yn arferiad goleuo llusernau yn gyffredinol ar yr adeg. Y mae y rheswm dros y ddefod yn y traddodiad canlynol: —"Wedi i'r deml gael ei phuro a'i chyssegru,



Digitized by Google

Saxonaidd, yr hwn a ofalai am yr arfordir o'r Humber i Bentir Lloegr; y trydydd oedd y *Comes Britanniæ* (Iarll Prydain), dan awdurdod yr hwn yr oedd holl gestyll, amddiffynfeydd, a threfydd amgaeredig canolbarth yr ynys. Fel hyn, yr oedd yr arfordir Saxonaidd wedi ei ddosbarthu er ys dwy ganrif yn y man lleiaf cyn dyfodiad y llyngesoedd dan Hengist a Horsa, y rhai y tybir yn gyffredin oeddynt y Saxoniaid cyntaf a ymsefydlasant yn Mhrydain. Yr oedd y Prydeiniaid a'r Saxoniaid, fel y dangosir yn hanes Carawn, yn gynghreiriaid ac yn gydddeiliaid er ys amser maith cyn iddynt ymwahanu a myned yn elynion i'w gilydd. Nid oedd Gwrtheyrn wrth gynnyg ei wasanaeth, a Hengist wrth ei dderbyn, ond yn dilyn esamplau y llywodraeth ymherodrol, cyffiniau yr hon a amddiffynid yn mhob man gan sefydliadau Gothaidd, Ffrengig, a barbaraidd ereill. Yr oedd Hengist a Horsa wedi bod yn gwasanaethu yn flaenorol yn myddinoedd Valentinian, ac yr oeddynt yn hysbys yn y gyfryw sefyllfa i Gwrtheyrn. Yn B. A. 288, gan i Carawn ddigio o blegid dyrchafiad Cystaint Chlorus i Cæsariaeth y gorllewin, cyhoeddodd Brydain yn ymherodraeth annibynol, ac yntau ei hun yn ymherawdwr arni, dan yr enw Augustus. Ymunodd y llengoedd a llynges y Môr Udd âg ef yn uniongyrchol. Ymrestrodd y Cimbriaid a Saxoniaid Denmark dan y faner Brydeinig, a rhoddodd Carawn iddynt hwythau, fel ad-daliad, y gyfundrefn drefnus hono drwy ba un y galluogwyd hwynt ar ol hyny i ffurfio cynghrair morawl mawr yr Almaen Ogleddol. Fel hyn, nid yn unig cawsant eu dysgyblu a'u trefnu mewn cadofyddiaeth Rufeinaidd, gan ddyn o athrylith forwrol hynod, ac o alluoedd cyfunol a llywodraethol cryfion, ond dygwyd eu tueddiadau grymus at y môr dan sylw parhaus Ewrop ymherodrol. O'r diwedd, ymwahanodd y cynghrair Saxonaidd yn ddwy ran—y gyntaf o ba rai, yr hon a gynnwysai yr elfenau diweddaf ac anforawl, a weithiodd ei ffordd i ganolbarth yr Almaen gyda'r fath lwyddiant, fel y disgrifir ei thiriogaethau, pan yr aeth i gyfarfyddiad â Carlo Mawr (*Charlemagne*), B. A. 800, gan ysgrifenydd y brenin hwnw Eginhart, "fel yn cynnwys rhan helaeth o'r holl Almaen." Llwyr ddistrywiodd Carlo Mawr o'r braidd, dan yr esgus o efengyleiddio, drwy gyfres o frwydrau gwaedlyd, yr hanner hon o'r deyrnas Saxonaidd. Yr hanner arall oedd y rhai a fwriasant eu hunain, trwy restr o ymgyrchiadau, ar lanau Prydain, yr hon a elwid yn gyffredin y pryd hyny, "*Insula Romana*" = yr ynys Rufeinig. Yr ydoedd y chwaeth a'r medrusrwydd hwn at y môr yn gyfyngedig i'r rhai hyn—y Saxoniaid Prydeinig. Nid rhai o'r Cyfandir oedd hiliogaeth forwrol gyssefin Cimbria; ond cydgasgliad o genedloedd tirol a ymunasant mewn cyfnod diweddarach â'r cynghrair. Teimla y Saxoniad a'r Almaenwr diweddar yr un adgasrwydd ac anghyfaddasder at fywyd morawl a Muscoviad o Sarmatia, neu Bersiad o Asia. Y mae yn beth hynod mai llyngesydd Prydeinig oedd sefydlydd y gadofyddiaeth hono a gyfeiriwyd wedi hyny gyda'r fath gyndynrwydd hirfaith yn erbyn ei gydwladwyr. Hynodwyd teyrnasiad Carawn trwy rymusder ei weinyddiadau, a'r gefnogaeth a roddodd i'r celfyddydau breiniol. Y mae nifer yr arian bathol a fwriwyd yn ei fathdy ef yn Llundain, ag sydd wedi cyrhaedd i lawr hyd atom ni, yn anarferol. Llywodraethid Môr y Werydd, mor beil a Chulfor Gibraltar, gan ei llyngesoedd ef. Diogelid ei lanau ef ei hun rhag ymosodiadau gan dair mintai o longau—safai un yn y Mers, y llall yn y Clyde, a'r drydedd yn Richborough. Yr oedd yr heddwch hirfaith a ffynasai yn Mhrydain, ac absennoldeb hollol pob math o erledigaeth ac anoddefgarwch crefyddol, wedi ei dyrchafu i sefyllfa o lwyddiant anadnabyddus i bob talaeth ar y Cyfandir. Edrychid ar ei gwahaniad fel rhwygiad yn yr ymherodraeth. Y mae awdwr y gan o foliant i Cystaint Chlorus yn darlunio mewn iaith ogoneddus y llawenydd a deimlid ar ei hadferiad, a'r gwerth a osodid ar ei hadnoddau cyfoethog a sier. Cyfarwyddwyd Maximian Herculianus, cydymaith Diocletian, i ymdrechu hyd y gallai i'w hail gorffori. Yr oedd yn arweinydd galluog; ond buan y gorchfygwyd ei lynges gan yr ymherawdwr Prydeinaidd. Gwnaethpwyd cynghrair mewn canlyniad i hyn, yn mha un y sierhawyd llywodraeth Prydain i Carawn; ond ni pharhaodd yr heddwch ond ychydig. Ail ddechreuwyd rhyfela. Dilynwyd Maximian gan Cystaint Chlorus; ac ar ol amddiffyniad dewr a medrus, ymddifadodd Carawn o'i arfdy cyfandirol yn Boulogne. Yna, neillduwyd tair blynedd i wneyd parotoadau gogyfer âg ymosodiad; ond cyn i hyny gymmeryd lle, cyflawnwyd yr hyn, y mae yn debygol, nas gallasai un gallu ei gyflawnu, drwy fradwriaeth. Llofruddiwyd yr ymherawdwr rhyddgarol ac uchelfrydig—yr hwn a unodd y Prydeiniaid a'r Saxoniaid dan ei faner, a'r hwn a ganfu ac a weithiodd allan yn gyntaf gelfyddyd forwrol wirioneddol ein hynys—gan ei weinidog cyfrinachol, Allectus, yn Nghaerefrog. Achosodd y weithred ysgeler hon ddigofaint cyffredinol. Gwahoddwyd Cystaint i lanio, a derbyniwyd Brân ap Llyr, duc Cernyw, ei lysgenadwr, a chefnder yr ymherodres Helen, gyda chymmeradwyaeth. Yr oedd gan Allectus ddigon o ysbryd i gasglu yn nghyd ei ychydig bleidwyr, ac i anturio mewn rhyfel yn erbyn Brân ap Llyr yn agos i Lundain. Canfu Cystaint, pan y glaniodd, fod yr ynys yn barod i'w gydnabod fel ei brenin. Ni ymadawodd o honi mwyach; ond trigodd am y gweddill o'i oes yn ei ddwy hoff dref; sef Segontium, neu yr hen Gaernarfon, a Chaerefrog. Bu farw yn y lle diweddaf, ond cludwyd ei gorff, yn ol ei orchymyn ef ei hun, i Gaernarfon, a chladdwyd ef yno. Dysgrifia Nyniaf (Nennius) y feddadail a'i cherfiadaeth fel mewn sefyllfa dda o gadwraeth yn ei amser ef. Symmudwyd hi, trwy orchymyn Edward I., i'r eglwys.

Ymddengys mai dyma y lle priodol i ystyried pwngc genedigaeth ac achyddiaeth ei fab, Cystenyn Fawr. Y mae dwy dyb ar y mater hwn. Y gyntaf, yr un draddodiadol, yr hon a ddywed ei fod wedi ei eni yn Caercoelin, o Helen, gwraig Cystaint Chlorus, a merch Coel Godebawc, y brenin Prydeinig. Yr ail, yr hon a ddywed mai yn Naissus, yn Thracia, y ganwyd ef, o Helen arall; ac nad oedd un cyssylltiad rhyngddi a Phrydain. Addefir gan bleidwyr y golygiad hwn fod y profion yn ei ffafr yn dra egwan; os, yn wir, y teilyngant gael eu galw yn brofion o gwbl. Addefa Gibbon, fod yr holl awdurdod sydd yn ffafriol i Naissus yn ymddibynu ar, ac yn cael ei dynu oddi wrth, waith ryw ysgrifenydd anadnabyddus sydd wedi ei chwanegu at Ammianus Marcellinus. Y mae y ddau wrthwynebwr mwyaf tanllyd i'r honiadau Prydeinig, Justus Lipsius a Gale, yn cyfaddef os nad Caercoelin oedd lle genedigol Cystenyn, nas gellir

enwi un lle arall hyd yn oed wedi hòni yr anrhydedd erioed. "Nid ydyw Eusebius, na'r haneswyr eglwysig ereill, nac un ysgrifenydd arall yn agos i amser yr ymherawdwr hwnw, yn rhoddi i ni enw y dref yn mha un y daeth Cystenyn i'r byd." [*Gale's Examination of the Question*, td. 15.] Ar y llaw arall, fel cadarnhad i'r traddodiad mai Prydeinwr o enedigaeth a gwaed oedd Cystenyn, ni a ddyfynwn y tystiolaethau canlynol:—

1. Dywed Cystenyn Porphyrogenitus, yn ei *Hanes Byzantiaidd*, wrth roddi rheswm pa ham mai y gwaed Ffrengig oedd yr unig un y caniatëid i deulu breninol Caer Cystenyn gymmysgu âg ef drwy briodas, "Yr oedd mam ein hiliogaeth ni, a mam Cystenyn Fawr, yn un o'r genedl Ffrengig." Ffrancod oedd yr enw cyffredin yn nyddiau Porphyrogenitus am Gristionogion holl Ewrop orllewinol. Ond nid oes un wlad yn y gorllewin, oddi eithr Prydain, erioed wedi hòni Helen na Chystenyn fel ei brodorion. A chymmeryd yn ganiataol fod yr ymherawdwr Porphyrogenitus yn berffaith hysbys yn achyddiaeth ei deulu ei hun, y mae yn amlwg y rhaid i ni fyned i rywle i'r gorllewin i edrych am ei darddiad. Fel hyn, y mae Naissus yn cael ei chondemnio; canys yr oedd sefyllfa y ddinas hono yn nghanol yr ymherodraeth ddwyreiniol.

2. Y mae y darfoliannydd, yn ei araeth ar goffadwriaeth Cystaint Chlorus, yr hon a draddodwyd o flaen ei fab, Cystenyn Fawr, yn Treves, yn dyweyd yn arbenigol—"Efe (y tad) a ryddhaodd Brydain oddi wrth orthrwm Carawn; ac yr wyt tithau (y mab) yn ei hanrhydeddu trwy dy fod yn deilliaw o'i gwaed."

3. Y mae hanes genedigaeth Cystenyn, yr hwn sydd yn nghoflyfrau y dref hono, Caercoelin, i ba un y mae y dygwyddiad wedi ei briodoli bob amser, yn eglur, yn syml, ac yn gysson yn mhob peth â dyddiadau hanesiaeth. Y mae wedi ei flaenddodi yn nghoflyfr hynafiaethol y dref; a chopïwyd ef, yn ol opiniwn Morant, y tro diweddaf, yn y flwyddyn 1330 B. A.

B. A.

238 Dechreuodd Coel, duc, deyrnasu dros Essex a Hertford.

242 Genedigaeth Helen, merch Coel, yn Nghaercoelin.[1]

260 Cystaint, cadfridog y byddinoedd Rhufeinig yn Yspaen, gan fordwyo i Brydain, yn gwarchae Caercooelin am dair blynedd.

264 Y gwarchae yn cael ei derfynu trwy briodas Helen, merch Coel, â Chystaint.

265 Genedigaeth ei mab, Cystenyn, i Helen, yn Nghaercoelin.

288 Cystaint, gyda Galerius, yn cael ei gyhoeddi yn ymherawdwr y Gâliaid.

290 Coel, duc Caercoelin, ar farwolaeth Brân ap Llyr, yn teyrnasu dros holl Brydain, yr hon oedd y pryd hyny dan deyrnged i Rufain.

297 Coel, brenin ardderchog y Prydeiniaid, yn marw yn Nghaercoelin, yn yr ail tis.

298 Cystaint, gan ddychwelyd o Gâl i Gaercoelin, yn trefnu y deyrnas.

299 Yr ymherawdwr Cystaint yn marw yn Nghaerefrawg, yn yr unfed flwyddyn ar bymtheg o'i deyrnasiad.

303 Helen, ar ol marwolaeth Cystaint, yn addunedu gweddwdod parhäus.[2]

Y mae y profion hyn yn derbyn cadarnhad pellach oddi wrth draddodiad sydd eto ar gael yn eithafoedd arall yr ynys, nid yn mhell oddi wrth hoff drigle Cystenyn, ar yr afon Menai. Y tu uchaf i un o lynau y Wyddfa, y mae llynclyn mynyddig, yr hwn a nodir allan fel lle yn yr hwn y dygwyddodd trychineb ofnadwy yn nheulu Helen. Rhwng dau o'r tri mab a ddygodd Helen i Cystenyn, yr oedd gelyniaeth marwol, yr hwn y methodd eu rhieni, er pob ymdrech, ei symmud. Pan y derbyniodd yr ieuangaf hysbysiad fod yr hynaf ar ei ffordd o Gaernarfon i ymweled â'i fam, yr hon a arosai ar y pryd yn nglan y môr, yn nyffryn Ffestiniog, efe a aeth ac a ymguddiodd y tu uchaf i'r llyn; a phan y gwelodd ei frawd yn pasio, efe a'i saethodd hyd ei galon. Cyfarfyddodd y cenadon a gludent y newydd gofidus â'r frenines yn agos i Dan y Bwlch. Wrth ei dderbyn, gwaeddodd, yn nghyfyngder ei henaid, "Croes awr i mi!" ac y mae y fan y llesmeiriodd yn dwyn adgof hyd heddyw o'i dolef chwerw, "Croes awr." Nis gellir egluro y berthynas sydd rhwng Helen, yr iaith Brydeinig, a'r ddau frawd hyn, a Chystenyn Fawr, yr hon berthynas sydd wedi ei chadw yn mysg gwerin hollol amddifad o wybodaeth glasurol ac ymchwiliadau dysgedig, ond yn unig trwy addef y ffaith o enedigaeth Brydeinig Helen a'i meibion. Ond wrth chwilio hanesion eglwysig Aquitania, ni a ddeuwn ar draws cadarnhad annibynol a hynod o draddodiad y Wyddfa. Dywed Bouchet yn ei waith, *De Rebus Aquitanicis*, "fod Helen wedi dwyn i Cystaint ddau o feibion ereill heb law Cystenyn. Llofruddiwyd yr hynaf gan yr ieuangaf, Lleirwg, yr hwn a alltudiwyd o herwydd hyny gan Cystaint, a chondemniwyd ef i'r Corol. Croesodd i Poiton, ac adeiladodd yno fynachlog a thref Lucernum—yn awr Lussons." Y mae yn y cyfatebiad hwn hefyd nerth mewnol, gan ei fod yn nodi enw a berthynai i deulu Helen, sef Lleirwg, fel enw ei mab alltudiedig.

Pan y penderfynodd Cystenyn symmud ei lys o Rufain, sefydlodd ar weddillion Caerdroia fel y lle ag oedd i fod yn eisteddle dyfodol ei ymherodraeth. Pa un bynag, fel y dywed Suetonius am Augustus Cæsar, yr hwn a goleddasai yr un bwriad, a attaliwyd ef rhag cyflawnu ei gynlluniau gan ofnau dwyfol a rhybuddion goruchnaturiol, neu fel yr awgryma Gibbon trwy gytundeb o eiddo ei weinidogion galluog i ddylanwadu ar ei ofnau trwy ddichellion crefyddol, y mae y ffaith ei hunan yn llawn o arwyddocâd. Pa un bynag ai ar dir cadarn ai peidio, nid oes dim yn fwy sicr, yn unol âg opiniwn lluaws, na bod teulu llywodraethol Prydain, yn yr hen amseroedd, wedi deilliaw yn wreiddiol o Gaerdroia. Hysbysir ni gan Cæsar a Tacitus, fod y breninoedd Arverniaidd ac Aduaidd yn gwneyd yr un hòniadau o gydwaedoliaeth, drwy yr un hanedigaeth gyffredin a Juliaid a Sylviaid Rhufain. Ond nid oedd un cyssylltiad rhwng y teuluoedd hyn a theulu Cystenyn. Y mae yn rhaid, gan hyny, priodoli ei benderfyniad i ail sefydlu Caerdroia

[1] Dywed yr haneswyr eglwysig fod Helen wedi marw yn 328 B. A., tua phedwar ugain mlwydd oed, yr hyn a gytuna yn agos iawn â choflyfrau Caercoelin.

[2] B. A. 238. *Coel, Dux, cepit regnare*, &c., &c.—*Coflyfr Caercoelin.* Y mae Gruffydd ab Arthur (*Geoffrey of Monmouth*) yn cymmysgu y dyddiadau yn ei hanes ef am y gwarchae. Y mae yn ei osod ar ol etholiad Cystenyn i'r Cæsariaeth, ac yn y flwyddyn 298, sef 84 mlynedd wedi i'r peth dygwydd. Nid oedd Cystaint ar y pryd ond *Dux Exercitus* (Duc Byddinol) yn unig: aeth 260 o flyneddoedd heibio cyn iddo gael ei wneyd yn Cæsar. Y mae amseryddiaeth Caercoelin yn gwneyd Cystenyn Fawr yn 35 mlwydd oed ar ei esgyniad i'r orsedd; ac y mae Gibbon yn dyweyd mai 41 mlwydd oed ydoedd. Y mae yn ymddangos fod camgymmeriad o saith mlynedd yn nyddiad marwolaeth Cystaint yn nghoflyfr Caercoelin; gan ei fod wedi cymmeryd lle yn B. A. 306.

Digitized by Google

yn brif ddinas y dwyrain i'w deimlad Prydeinig. Y mae y byd dysgedig, mewn gwirionedd, gyda golwg ar y pwnc hwn, yn gystal ag amryw bynciau pwysig ereill mewn hanesiaeth, yn ymddangos fel yn agosau at yr hen olygiadau Prydeinig ar ffeithiau Prydeinig. "Ychydig o ystyriaeth," medd Latham, yn ei *Chronology of the British Islands*, "a ddengys nad oes i dri enw yr achres bwysig hon—Constans, Constantius (Cystaint), a Constantine (Cystenyn)—un berthynas eirdarddol â'r enw Lladin *Constantia*. Ni oddefir hyny gan ffurf a chyfansoddiad yr iaith. Yr oedd y teulu o haniad tramor; ac yr wyf yn credu eu bod yn fwy Prydeinig nag y myn y farn gyffredin eu bod." Yn awr, Dardaniad o Dalmatia oedd Cystaint Chlorus,[1]—cenedl Droianaidd, yn ddiddadl; ac y mae yn debygol mai yr amgylchiad hwn a arweiniodd i'w briodas ef â Helen.

Ond efallai mai yn yr enw Helen y canfyddir y cadarnhad mwyaf tarawiadol o'i tharddiad Prydeinig hi ei hunan—pwnc na sylwyd arno o gwbl gan haneswyr hyd yn hyn. Y mae yn wybyddus fod yr enwau cynhanesol chwedlonol ac arwraidd boreuaf yn arwyddocaol yn yr iaith Brydeinig: am amryw ganrifoedd wedi iddynt beidio a bod yn enwau priodol ar bersonau, cadwasant eu tebygolrwydd teuluaidd yn yr ynys. Dywed Gerallt o Gymru fod y rhan fwyaf o enwau yr amseroedd arwraidd, a goffeir gan Homer, mewn arferiad fyth, yn ei amser ef, yn mysg Cymry y gorllewin. Y mae yn anhawdd peidio sylwi ar unrhywiaeth y fath enwau a Rhesus, Meriones, ac ereill, â geiriau y Gymraeg; ond fe ddyfnheir yr argraff trwy ddarganfod fod pob un o'r fath enwau yn ffurfio geiriau perffaith, yn meddu eu hystyr, eu tarddiad, a'u cyssylltiad eu hunain, yn yr hen iaith Brydeinig hon, pryd nas gellir eu holrhain na'u gweled yn y Groeg hanesol. Felly y mae yn bod gyda'r enw Helen. Yn y Gymraeg, y mae yn arwyddo "ewig"[2]—ystyr a drosglwyddir yn naturiol iawn i osod allan benyw brydferth a golygus. Ond y mae yr enw gorenwog hwn yn y gwledydd clasurol, gydag un eithriad, yr hon a ddygwydd yn fuan ar ol y cyfnod Troianaidd, yn diflanu yn hollol o'r prifnodau hanesyddol, ac nid ydyw yn ymddangos drachefn hyd yr eilfed ganrif, a'r pryd hyny yn ngwraig y Dardaniad, Cystaint Chlorus. Wrth gofio tystiolaeth Porphyrogenitus, mai un o'r gorllewin oedd Helen, ac wrth ganfod ei fod yn enw cyffredin ar fenywod yn Mhrydain yn ystod yr amser yr oedd wedi diflanu ar y Cyfandir, nis gallwn yn rhwydd osgoi y casgliad fod yr enw ei hun yn brawf digonol o haniad Prydeinig Cystenyn. Ar ol hyn, ymdaenodd yr enw dros holl wledydd cred, a chafodd ei boblogrwydd oddi wrth nodweddiad Cristionogol yr Helen Brydeinig: cyn hyny, un o enwau yr ynys hon yn unig oedd. Arosodd byth mwyach yn nheulu Cystenyn; ac y mae wedi ei adnewyddu yn ddiweddar, gyda chwaeth dda a phriodoldeb mawr, yn enw un o blant brenines Lloegr.

Gelwid hi Helen Stabularia, neu y Westtywraig, o blegid y sel a'r haelioni a ddangoswyd ganddi yn adeiladiad yr eglwys uwch ben y Stabulum neu y preseb yn y gwestty lle y ganwyd ein Hiachawdwr. Ei bod wedi ei galw felly am mai merch tafarnwr ydoedd, sydd gam-ddealltwriaeth diweddar iawn, mewn cymhariaeth, o'r anfri a fwriadai yr Iuddewon trwy y dywediad.

Wedi dangos fel hyn fod yr holl dystiolaethau ar y pen hwn o blaid haniad Prydeinig Helen a Chystenyn, ac felly yn sicrhau Cristionogrwydd teulu breninol Prydain, bydd i ni, cyn terfynu hanes canrif a gofiwyd am amser maith yn yr ynys hon o blegid ei llwyddiant gwladyddol a'i thangnefedd crefyddol, gymharu y sefyllfa hon â sefyllfa y Cyfandir. Darbwyllir ni trwy hyny fod erlidigaeth yn achos cydwybod wedi bod yn wastadol yn beth ffiaidd gan yr Eglwys a'r genedl Brydeinig, y rhai a adewid i ddilyn eu teimladau a'u hegwyddorion eu hunain. Peth tramor hollol ar dir Prydain ydyw anoddefgarwch crefyddol: y mae wedi dyfod bob amser trwy ddylanwad ac ymyriad y Cyfandir. Y mae ysgrifenwyr o'r dosbarth ammheus a phaganaidd wedi beiddio, yn ngwyneb holl hanesiaeth, darlunio paganiaeth fel crefydd ddierlidgar. Ni bu erioed y fath gamgymmeriad gwrthun. A gadael allan erlidigaethau y Chineaid, y Japaniaid, ac amryw erlidigaethau Hindwaidd, yn mha rai y dinystriwyd cymmaint o Gristionogion, fel ag i ddiboblogi amryw gymmydogaethau eang yn hollol, gwnaeth ymherodraeth baganaidd Rhufain, o'r amser y dechreuodd yr efengyl hyd esgyniad Cystenyn i'r orsedd, erlidigaeth yn egwyddor benodol yn y wladwriaeth. Dilynai ei hymherawdwyr galluocaf, megys Trajan a'r Antoniaid, yn yr ystyr hwn, yr un linell o wladlywiaeth a'r rhai mwyaf egwan ac anfoesol—y Neroiaid a'r Domitianiaid. Yr oedd y grefydd baganaidd yn anhysbys o, ac yn analluog i adnabod unrhyw egwyddor i weithredu wrthi a debygai i ffydd ddwyfol yn ewyllys dadguddiedig y Duwdod:—nis gallai, gan hyny, fod ganddi ferthyron. O'r diwedd, llewyrchodd ar ddealltwriaeth clir y Rhufeinwr, fod yn y grefydd newydd a bregethid gan ddilynwyr Crist ryw egwyddor a ddiorseddai yr hyn y llywodraethai ef drwyddo; sef grym a nerth naturiol rhagorach. Ni byddai y gwrthymdrech rhwng y pagan—i'r hwn yr oedd gorchymyn yr ymherawdwr yn brif ddeddf, ac i'r hwn nid oedd y fath fodau a Jupiter a'i isdduwiau ond dychymygion gweigion a disail—a'r Cristion, yr hwn a edrychai ar air ei Waredwr uwch law eiddo yr ymherawdwr, ac at farn ddyfodol, nefoedd, ac uffern, fel yr unig bethau oedd yn wirioneddol bwysig, yn ol natur pethau yn hir cyn cymmeryd lle. Gwaharddodd Crist i ddynolryw achlesu yr hyn a alwem ni yn dybiau cysurus ar y pwnc hwn. Hysbysai Cristionogaeth, mewn geiriau eglur, fod yn rhaid i bob dyn gredu yr efengyl cyn y byddai gadwedig; nad oedd iachawdwriaeth i'r pagan na'r Iuddew a arosent yn y cyfryw sefyllfaoedd ar ol croeshoeliad ac esgyniad yr aberth mawr; ond eto, nas gallai un dyn ddyfod yn Gristion, a chyrhaedd coron anfarwoldeb, oddi eithr trwy ryw raddau o'r un dyoddefiadau ag a nodasant â defnynau gwaed fywyd a gweinidogaeth ei Flaenor mawr. Yr oedd yn y darbwylliadau hyn filoedd o hadau y frwydr oedd yn agosau, oedd wedi ei hordeinio i "droi y byd â'i wyneb yn isaf." Yr

[1] Y mae hygoeledd y dosbarth o ddynion ag sydd yn wrthwynebol i Gristionogaeth, mewn unrhyw ddamcaniaeth a fyddo yn eu tyb hwy yn milwrio yn ei herbyn, yn cael ei arddangos yn eglur yn achos Cystaint Chlorus. Ni theimla Gibbon un petrusder, yn ngwyneb holl dystiolaethau hanesiaeth, i'w briodi ef, yr hwn ydoedd yn nai i ymherawdwr, nid â'r Helen Brydeinig, merch i frenin, ond â llawforwyn mewn tafarn yn Illyricum.

[2] Y gwraidd priodol ydyw *hel*, *fel*, *mel*=melyn; yna, oddi wrth elfen Gymreig, y gair Lladin *mel*=mêl, oddi wrth ei liw. Y mae yn hynod fod cyssylltiad rhwng yr ystyr a rydd gwerin y Dywysogaeth i'r gair Helen a Helen o Gaerdroia. Arwydda "ei Elen o," gariadferch brydweddol dyn, ac nid ei wraig.

Digitized by Google

oedd sefydlogrwydd y ddwy blaid yn lled gyfartal; canys yr oedd yr anghredadyn a'r credadyn o ddifrif: nid oedd y naill na'r llall yn gwybod am unrhyw lwybr canol ar hyd yr hwn y gallent deithio ochr yn ochr. Yr oedd y dull yn mha un y cyflawnai y Rhufeinwr ei fuddugoliaethau tymmorol—gan mai ei reol oedd darostwng cenedl yn y fath fodd fel na byddai angen gwneuthur hyny eilwaith—yn neillduoli hefyd ei erlidigaethau crefyddol. Yr oeddynt ar raddeg fawr a llofruddiog i'r eithaf. Nid oes a fynom ni yma â chymharu neu wahaniaethu rhwng croesgadau Rhufain baganaidd a Rhufain Babaidd yn erbyn rhyddid cydwybod, nac âg ymofyn a oedd nifer yr aberthau dynol a offrymwyd gan Simon Montford, Charles v, Philip o Yspaen, a Louis xiv, yn lluosocach nag aberthau Nero, Domitian, Antoninus, a Diocletian. Yr oedd y cyfanswm, yn y naill achos fel y llall, yn ddigon i ddiboblogi gwledydd cyfain. Y mae yn ddiau na ffynai y pwyllogrwydd difrifol y rhyfyga Gibbon ei nodi fel neillduolrwydd ei gyfnod truenus ef yn amser Diocletian, nac eto yn nghyfnod rhyfeloedd crefyddol yr Iseldiroedd. Nis gellir ei briodoli i'r naill na'r llall, fel y profir trwy gofnodau ofnadwy y cyfoeswyr: ac os na arwyddnodid y llywodraeth Babaidd â chymmedroldeb mewn erlidigaeth, llawer llai yr arwyddnodid yr un baganaidd â hyny. Yn y Netherlands, talaeth fechan mewn cymhariaeth i'r ymherodraeth Rufeinig, sicrha Grotius fod dros gan mil o ddeiliaid Charles v. wedi dyoddef o dan ddwylaw y dienyddwr. Y mae y rhan fwyaf o awdwyr yn cydsynio fod nifer y rhai a ddyoddefasant yn erlidigaeth Diocletian yn unig yn 160,000. Y mae dinystr erfawr bywydau dynol, gan hyny, yn nodwedd arbenigol yn yr erlidigaethau paganaidd a Phabaidd. Ond cofier yn wastadol, nad ydyw Rhufain Babaidd ar holl gwestiwn erlidigaeth, drwy boenau corfforol a dirwyon, ond Rhufain baganaidd wedi ei hadfywio. Dechreuodd y baganaidd, a chymmerodd yr un Babaidd oddi wrthi y wladlywiaeth annynol o geisio dinystrio rhyddid meddwl a chydwybod drwy y cleddyf. Yr oedd yn Eglwys foreuol Rhufain, megys yn yr Eglwys Brydeinig, ferthyron gogoneddus, ond nid oedd yno rai yn tywallt gwaed am ddilyn argyhoeddiad cydwybod.

Yn B. A. 249, ar esgyniad Decius, amddiffynwr creulawn a dallbleidiol hen chwedloniaeth Rhufain, dechreuodd erlidigaeth a ymdaenodd dros yr holl ymherodraeth, tonau yr hon a gyrhaeddodd hyd at greigiau Prydain. Derbyniodd holl ragiawiaid taleithiol cyfandiroedd Asia, Affrica, ac Ewrop, gyhoeddiad ymherodrol, yn gorchymyn iddynt gospi pawb na chydymffurfient â chrefydd y llywodraeth hyd eithaf llymder y gyfraith. Yr oedd y werin yn flaenorol wedi eu parotoi trwy gymhelliadau o'r natur mwyaf iselwael a hunangar i amddiffyn archiadau y llywodraeth. Dangosid tai a meddiannau y Cristionogion iddynt fel y gwobrau am hysbysiadau a bradychiadau. Gwahanwyd yr ymherodraeth yn dri dosbarth—dyoddefwyr, ysbïwyr, a dienyddwyr. Dinystriwyd rhwymau teuluaidd am ysbaid. Byddai y geiriau *Christianus est*=Cristion ydyw, yn dattod rhwymau cyfeillgarwch blaenorol, ac yn suddo i ebargofiant yr adgof am bob rhagoroldeb. Y mae yn anhawdd, hyd yn oed darllen, heb deimlo yn ofidus, yn mhen cymmaint o oesoedd, am y dyoddefiadau dychrynllyd i ba rai y darostyngid bechgyn ieuainc, merched, a mamau, o'r rhinweddau godidocaf, er eu gorfodi, dan ddirdyniadau corfforol, i arogldarthu ger bron delw o fynor, ac i sibrwd yn wanaidd "*Adoro*" =Yr wyf yn addoli. Edrychid ar y cleddyf a'r fwyell fel offerynau dewisol, a dyoddefid hwy fel trugareddau. Gorweddfeinciau o haiarn, bariau y rhai a dwymnid yn wyniasboeth; olwynion at ddadgymmalu, y rhai, os arosent cyn lladd y truan yn hollol, trwy greulondeb mwy ofnadwy fyth a'i gwnaent yn analluog ac yn gloff dros ystod ei fywyd; bachau dur, y rhai a rwygent y cnawd oddi wrth yr esgyrn; gefeiliau, â pha rai y tynid yr ewinedd y naill ar ol y llall; cell yr anifail gwyllt, yn mha le y gwelai y fam ei mab neu ei merch yn nirdyniadau diweddaf angeu; y groes, a'r truan hoeliedig arni, yn ngwres tanbaid yr haul, yn dyoddef syched angerddol, ac yn ngafael marwolaeth araf; y ffagodau pyglyd wedi eu trefnu yn gylchau, a bod dynol yn ganolbwynt i bob cylch, y rhai a wasanaethent fel goleuadau nosawl i'r fallgyrch a oernadent o'u cwmpas—gallesid gweled pob ffurf o arteithiau y gallasai hir arferiad eu hawgrymu, neu ddychymyg eu dyfeisio, bob dydd, trwy yr holl diriogaethau Rhufeinaidd, oddi eithr Prydain yn unig. Elai dinasoedd yn anghyfannedd, a phoblogid diffeithleoedd. Aeth lluaws yn wallgofiaid, ac arosasant yn y sefyllfa hono dros ystod eu bywyd, wrth weled eu perthynasau a'u cyfeillion yn cael eu poenydio Profwyd y natur ddynol i'r graddau eithaf. Gwrthgiliodd (pa beth lai y gallesid ei ddysgwyl?) cannoedd o filoedd. Gorfodwyd rhai o honynt i erlyn eu cydgrefyddwyr blaenorol; gosodwyd ereill yn y llysoedd barn, i nodi allan unrhyw ddinesydd y gallai eu bod wedi ei weled rywbryd mewn cydgasgliad o Gristionogion. Trowyd y carcharau, o blegid y lluaws mawr a gaethiwid ynddynt, yn ysbyttai—yn nythoedd clefydau a heintiau; ond yn mlaen yr elai y difrod a'r galanasdra ddydd ar ol dydd, nes o'r diwedd yr ymddangosai gorsedd barn pob dirprwywr fel wedi ei hamgylchu â gwaed Cristionogion. Yr oedd Decius wedi penderfynu diwreiddio Cristionogaeth yn hollol trwy yr erlidigaeth hon, a pharhaodd am flwyddyn a hanner i gyflawnu ei amcan gyda'r dideimladrwydd mwyaf cyndyn a didrugaredd. Diangodd Cyprian, Dionysius o Alexandria, Gregory Thaumaturgus, ac amryw o ddoctoriaid enwog ereill yn yr eglwys, am eu bywydau. Bu esgobaeth Rhufain yn wag, gan mor sicr ydoedd i arwain i angeu, am dros flwyddyn. Un o effeithiau mwyaf gofidus y gyfundrefn hon o ymosodiadau gwladol yn erbyn dosbarth mawr o ddinaswyr, ydoedd y gallu a'r awdurdod i ba rai y dyrchefid cymmeriadau mwyaf anifeilaidd a llygredig y boblogaeth—yr yspïwr, y bradychwr, y gwrthgiliwr dideimlad a phroffesedig, y gelyn cuddiedig, y dyn digrefydd, y dyn o bob crefydd, a'r cymmeriadau oeddynt yn barod bob amser i fod yn offerynau i unrhyw ormesiaeth ac yn wastad yn ewyllysgar, er cyrhaedd eu hamcanion eu hunain, i drochi eu dwylaw mewn gwaed. Yr oedd pob peth ag oedd yn ganmoladwy ac yn rhinweddol mewn cymdeithas wrth drugaredd gwehilion mwyaf llygredig y werin. Cyhoeddai y milwr cyflogedig—yr hwn oedd wedi ei suddo hyd ei wefusau mewn llygredigaethau, aflendid, cnawdolrwydd, a gwaed—oddi ar orsedd barn ddedfrydau, gydag ysgafnder arswydus, ac yn fynych mewn gwawd, ar hen bobl; bywydau pa rai oeddynt wedi bod yn esamplau o hynawsedd a charedigrwydd, ac ar fenywod, yn nhai pa rai yr edrychasid, a hyny yn gyfiawn, ar ei bre-

Digitized by Google

ogion Siluriaidd, a phrif orsaf y galluoedd Rhufeinig yn ne-orllewin Prydain. Rhyngddi hi a'r sianel, ar y Bryn Aur, yr hwn a elwid felly oddi wrth dyrau goreuredig yr amgaerau, yr oedd amddiffynfa fawr, yr hon a wersyllid gan filwyr neillduedig y Lleng Augustaidd. Yma hefyd y trigai y *Comes Britannicæ* (iarll Prydain). Am y ddinas ei hun, mae yr olion lluosog a fodolent mor ddiweddar a'r ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg, yn dwyn tystiolaeth i'w godidogrwydd cyntefig. "Y mae eto yn weledig," medd Gerallt o Gymru, yn ei *Ymdaith yn Nghymru*, "olion palasau mawrion, a adeiladwyd gan y rhaglawiaid Rhufeinig, wedi eu haddurno âg ystafelloedd gorwychion, ac wedi eu toi ar y pryd, mewn efelychiad o'r ddinas ymherodrol, â thoau gweithiedig, a nendyrau goreuredig. Oddi mewn i'r pyrth, y mae twr o faintioli aruthrol, olion amryw demlau, baddonau gwychion, a chwareudai ac amchwareudai. Oddi mewn ac oddi allan i'r muriau, gellir gweled adeiladau tanddaiarol, dyfrffosydd, llinellau o geuffosydd, a'r hyn yr wyf yn ystyried sydd yn galw am sylw neillduol, cyfundrefn berffaith o ffynelau (*flues*), wedi eu gosod yn gelfyddgar, i gludo ffrydiau o awyr gynhes trwy bibellau tylledig. Yma hefyd, mewn oesoedd dilynol, y derbyniai y brenin mawr Prydeinaidd, Arthur, y llysgenadon Rhufeinig."—*Girald. Camb., Itenar. Cambria.* Y mae y cyferbyniad rhwng y sefyllfa uchel hon o goethder yn Mhrydain Rufeinig, a lloriau brwyndaenedig y breniuoedd Saxonaidd a Normanaidd yn eu llysoedd anghelfydd, yn arddangos graddau y disgyniad o wareiddiad i farbareidd-dra a achoswyd gan ddylifiad y paganiaid gogleddol. Y mae yr ychydig esamplau sydd wedi aros hyd ein dyddiau ni o hen ddinasoedd Prydain, megys Caerlleon Gawr, yn ein galluogi i ffurfio rhyw ddrychfeddwl am y lluniodraeth berffaith a ffynai, a'r sefyllfa uchel yr oedd y celfyddydau a chymdeithas ynddi, pan yr oedd yr holl ynys wedi ei britho â'r cyfryw. Disgynodd y naill ar ol y llall yn ystod brwydrau cyndyn y bummed, y chweched, a'r seithfed ganrif, y rhai a ymleddid rhwng y Prydeiniaid a'r Saxoniaid. Hynodid Caerlleon gan ei hathrofa, prif athraw yr hon ydoedd Amphibalus. Yn mysg y rhai y bu efe yn offerynol i'w troi at y ffydd yr oedd Alban, dinesydd urddasol yn mwrdeisdref Rufeinig Verulam, yr hwn a ddienyddiwyd yn y man a adnabyddid ar ol hyny wrth yr enw Holm-hurst, lle y saif olion mynachlog St. Albans yn bresennol. Y mae y priddfeini Prydeinig a gyfansoddant adeilad yr eglwys yn profi ei henafiaeth mawr:—adeiladwyd hi tra yr oedd Verulam eto yn amgylchynedig âg amddiffynfeydd.

Y mae dylanwad y merthyrdod hwn wedi ei drosglwyddo i lawr i ni mewn araeth o eiddo un o'r edrychwyr paganaidd, yr hyn a arddengys wirionedd y ddiareb, "Gwaed y merthyron ydyw hâd yr eglwys:"—"Nid nodweddiad cyffredin oedd nodweddiad y dyn a roddasom i farwolaeth. Yr oedd ei amynedd a'i ddiysgogrwydd, ei dymmer a'i dduwiolfrydedd, yn wyrthiol. Ni ddangosodd un anesmwythder dan yr holl sarhad a dderbyniodd. Nid ymddangosai ei fod yn coledd dim ond teimladau duwiolfrydig tuag at ei ddienyddwyr. Pan y gorchymynwyd iddo barotoi tuag at gael tori ei ben, amlygwyd cymmaint o bleser yn ei wynebpryd a phe gwahoddasid ef i wledd freninol. Yr oedd yn rhaid ei fod yn cael ei gynnal gan allu goruwch ddynol. Nis gellir edrych ar y mawrfrydigrwydd a'r diysgogrwydd yr ydym wedi ei weled yn ddim llai nag fel profion o gyfryngiad dwyfol. Nid ydym chwaith yn gweled y cyfryw bethau yn neb ond y Cristionogion hyn. Yr wyf yn argyhoeddedig mai y gwasanaeth goreu y gallwn ei wneyd i ni ein hunain ac i'n gwlad ydyw mabwysiadu egwyddorion y dyn hwn."

Cofnodir merthyrdod Alban yn y *Merthyrdraith Rhufeinig*, ar yr 22ain o Mehefin.

Merthyrwyd Amphibalus hefyd. Dienyddiwyd ef yn Redburn, yn agos i St. Albans, ar yr 16eg o Medi. Yr oedd ei gyd-Gristionogion, Aaron a Julius, ar y laf o Orphenaf, wedi arwydd-nodi eu ffydd â'u gwaed yn Nghaerlleon. Adeiladodd Cystenyn, ar ol hyny, lle y merthyrwyd hwynt, eglwysydd ardderchog St. Aaron a St. Julius. Dyoddefodd tri chant, yn feibion a merched, ar yr un pryd a hwynt. "Gwnaethpwyd yr holl eglwysydd trwy y deyrnas," medd Gildas, "yn gydwastad â'r llawr; llosgwyd yr holl gopïau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd y gallwyd eu cael yn y petryalau cyhoeddus; a nodwyd y clerigwyr, yn nghyd â mwy neu lai o'u praidd, i'w poenydio a'u rhoddi i farwolaeth. Yn wir, mabwysiadwyd pob moddion i ddinystrio holl olion Cristionogaeth o'r tir."

Yn Nghaerefrog, dygwyd Socrates, yr archesgob, o flaen y *Vicarius Britannicæ* (y rhaglaw Prydeinig); a chondemniwyd a dienyddiwyd ef heb ei boenydio:—peth anarferol iawn. Yr un diwrnod, sef yr un dilynol i ferthyrdod Amphibalus (Medi 17eg), derbyniodd Stephen, archesgob Llundain, goron merthyr. Fel hyn, fe ddyoddefodd tri archesgob y deyrnas eu rhoddi i farwolaeth o fewn wyth awr a deugain i'w gilydd; gan arddangos y fath ffyddlondeb hyd angeu na welwyd ei fath hyd amser Cranmer, Ridley, a Latimer, y rhai a ferthyrwyd yn mhen deuddeg canrif ar ol hyny yn Rhydychain. Y mae ffeithiau merthyrdod Socrates a Stephen, fel y sylwa Usher, yn gorphwys ar awdurdodau eang ac annibynol iawn. Y mae y *Merthyrdraith Rhufeinig*, Ado, Petrus Equilinus, Bede, Ricemarch, Usuard, Rabanus, ysgrifiyfrau Evesham a Winton, Notker, ac ereill, yn cytuno oll yn nghylch dydd eu marwolaeth.

Llanwyd esgobaeth Llundain yn uniongyrchol gan Augulius; nid, pa fodd bynag, heb ystyried ac heb barotoi at dalu pris yr enwogrwydd peryglus. Cymmerwyd ef yn garcharor ar y cyhuddiad o weinyddu y sacramentau i gynnulliadau Cristionogol dirgeledig ei esgobaeth; ac ar ei waith yn dyweyd y parhäai i wneuthur hyny tra y byddai byw, torwyd ei ben yn Llundain, Chwefror 7fed, yn B. A. 304. Yn y gogledd, bwriwyd Nicholas, esgob Penrhyn Rhionydd, yn Nghaledonia (Glasgow), at anifeiliaid gwylltion, a rhwygwyd ef yn ddarnau ganddynt (Mawrth laf), yn Pebles, ger llaw Melros. Darganfyddwyd ei feddadail, yr hon a gynnwysai ei esgyrn maluriedig, y rhai a gasglwyd ac a gladdwyd gan y ffyddloniaid, yn nheyrnasiad Alexander III. o Scotland, ac yn gerfiedig arni, "*Locus sancti Nicholai Episcopi.*" Dyoddefodd Melior, ei gydymaith, y dydd canlynol.

Attaliwyd yr erlidigaeth ag oedd wedi parhau erbyn hyn am yn agos i flwyddyn—a'r hon oedd wedi distrywio yn yr amser byr, ond gwaedlyd, hwnw yn agos i dair mil o bersonau trwy ddienyddiadau cyhoeddus yn unig—yn y mis canlynol, Ebrill, trwy gyfryngiad penderfynol Cystaint. Dygodd y mesur yma, yr hwn a gymmerwyd gan Cystaint yn groes i feddyliau ei dri

Digitized by Google

chydswyddog, a chynghor yr ymherodraeth, ac yn wyneb y perygl o gynnyrchu rhyfel cartrefol, gynllun newydd o wladlywiaeth i mewn. Trwy y weithred hon, gwnaeth y teulu Cystenynaidd fath o gynnygiad i boblogaeth Gristionogol yr holl daleithiau am feddianniad anghyfranogol o'r ymherodraeth. Ni wnaethpwyd un symmudiad erioed mewn gwell amser; fe ddaeth yn yr awr gyfyngaf, gan osod dyled o ddiolchgarwch ar un ran o dair o'r boblogaeth, yr hwn nis gellid byth ei anghofio na'i ddileu. O'r pryd hwn yr ymffurfiodd gyrfa wleidyddol Cystenyn, y mab a'r etifedd: daeth yn anmhosibl i gydswyddog paganaidd gydetifeddu gorsedd y Cæsariaid â chynnrychiolwr y byd Cristionogol. Gellir edrych ar eu dymchweliadau olynol fel canlyniadau sicr, yn deilliaw oddi wrth adnoddau rhagorach, a galluoedd mwy medrus a chelfyddgar. Y mae y clod o gynllunio y chwyldroad mawr hwn yn ddyledus i'r tad, Cystaint; ac o'i ddwyn oddi amgylch, i'w fab. Ni phroffesodd Cystaint ei hun yn Gristion erioed; ond perchid ei goffadwriaeth o'r braidd yn gymmaint a phe buasai wedi gwneuthur hyny yn mysg y credinwyr. Parhaodd yr erlidigaeth i anrheithio y Cyfandir gorllewinol am ddeunaw mis yn rhagor. Ni therfynodd yn y dwyrain hyd farwolaeth Galerius, B. A. 311. Terfynodd yn Mhrydain megys trwy wyrth. Diswyddwyd y dirprywyr a'r rhaglawiaid a nodasid gan Diocletian a Galerius, a phenodwyd Cristionogion yn ddilynwyr iddynt. Ymddiriedwyd llywodraeth y byddinoedd Prydeinig i Meurig Llywelyn a Thrahaiarn, brodyr Helen. Ymostyngodd Erocus, arweinydd yr Alemaniaid, a anfonwyd drosodd i Brydain gan Diocletian, yn ddiammodol i Cystaint, a phrofodd ei hun yn y rhyfeloedd Cystenynaidd yn ymlynwr diysgog a galluog. Adgyweiriwyd caerau Llundain, Caerefrog, a phrif ddinasoedd ereill; galwyd y bathdai (*mints*) i weithrediad; ail adeiladwyd yr eglwysydd; adferwyd a chadarnhawyd y breintiau a'r rhyddid cenedlaethol; gwahoddwyd cynnulliadau newyddion o wŷr i ymrestru;—mewn gair, cymmerwyd pob rhagddarpariaeth ddoeth a rhyddfrydig i sicrhau ymlyniad yr holl ynys yn yr ymdrech agosaol wrth eu penaduriaeth dreftadol. Dynion o darddiad isel, ac o foesau cyferbyniol, oedd y rhan fwyaf o'r ymherawdwyr diweddar. Mab i gaethwas oedd Diocletian ei hun. Cymhellai Cystenyn ei hun, yn chwanegol at gymhwysderau ereill uwch, i bendefigion yr ymherodraeth, o herwydd ei darddiad breninol—i'r eglwys, yn fwy neillduol, trwy mai efe oedd etifedd diammheuol yr unig deulu breninol yn Ewrop neu Asia oedd wedi cysylltu ei hun â Christionogaeth er dyddiau yr apostolion. Yr oedd ar esgyn i'r orsedd yn mlodau ei ddyddiau; ac os oedd yr anhawsderau i sefydlu Cristionogaeth yn y dwyrain a'r gorllewin, megys yr oedd er ys amser maith wedi ei sefydlu yn ei wlad enedigol, yn fawrion, yr oedd ei fryd wedi ei osod ar wneuthur hyny. Gadawodd yr ymherawdwr Cystaint, o'i ail wraig, Theodora, merch Herculianus, ar ei ol dri mab a thair merch. Ar ei wely angeu, ni wnaeth ond eu cyflwyno yn syml i ofal a charedigrwydd Cystenyn. Ni buasai un dyn o darddiad paganaidd, pa mor ymherodrol bynag, yn gallu ennill yr ymlyniad diysgog hwnw o eiddo y byd Cristionogol oedd yn anhebgorol angenrheidiol i lwyddiant y wladlywiaeth newydd. Dyn yn meddu enw a tharddiad ag yr oedd calonau credinwyr, trwy brofedigaethau chwerwon tair canrif, wedi ymglymu am dano, yn unig allai gasglu o'i gwmpas y gallu naturiol a moesol angenrheidiol i sefydlu y chwyldroad amcanedig ar seiliau cedyrn. Nid oedd ond un person yn yr hwn yr ymgyfarfyddai y cymhwysderau hyn;[1] a phan y dyrchafodd y llengoedd Prydeinig ar eu tarianau fab yr Helen Brydeinig, nid fel ymgeisydd am, ond fel etifedd cyfreithlawn gorsedd y byd Rhufeinaidd, fe deimlodd y byd hwnw fod y drefn newydd ar bethau, y dysgwylid ac y rhaghysbyswyd gymmaint am dani, wedi dyfod yn ffaith wirioneddol. Dywed un ysgrifenydd enwog, fod Prydain wedi goleuo y ffaglen hono yn nghoelcerth angladdol Cystaint ag oedd i lewyrchu cyn hir dros yr holl ymherodraeth.

Yr ydym drwy hyn yn cyrhaedd hyd at gyfnod mawr hynod arall yn hanes Ewrop, pan yr aeth Rhufain baganaidd yn Rhufain Gristionogol, dan Cystenyn.

Y mae y nodweddiad a adawodd Cystaint ar ei ol i hanesiaeth yn cael ei ddysgrifio yn dda gan ysgrifell fanwl, ond gwenwynig yn aml, Gibbon:—"Yr oedd llywodraeth eang taleithiau Gâl, Yspaen, a Phrydain, wedi bod yn ddigon i roddi ymarferiad i dalentau, ac i foddloni uchelgais, tad Cystenyn. Hynodid ei weithredoedd gan hynawsedd, caredigrwydd, a chymmedroldeb; a chafodd ei ddeiliaid ffodus gyfleusderau aml i gymharu rhinweddau eu brenin â nwydau Maximinian, a dichellion Diocletian. Yn lle efelychu eu balchder a'u gorwychder dwyreiniol, dangosodd Cystaint ledneisrwydd tywysog Rhufeinig. Dadganodd gyda'r gonestrwydd mwyaf diffuant fod y trysor gwerthfawrocaf yn ei olwg ef yn nghalonau ei bobl; a pha bryd bynag y byddai urddas yr orsedd, neu y llywodraeth ei hunan, mewn angen am gynnorthwy mwy nag arferol, y gallai ddibynu ar eu parodrwydd a'u rhyddfrydigrwydd." Gwerthfawrogid a chydnabyddid ei rinweddau gan bob plaid yn gyffredinol. "O blegid hyn," meddai y Donatiaid, "O! ymherawdwr Cystenyn, yr ydym yn dy ddeisebu, o herwydd dy fod wedi dy eni o hiliogaeth gyfiawn; ac ni ddarfu dy dad erioed erlid, fel y gwnaeth ymherawdwyr ereill." [*Optatus de Schis. Donat.*, llyfr i.] "Pan yr oedd yr eglwysi yn mhob parth arall o'r byd yn cael eu llurhio gan dymmestloedd profedigaethau a gorthrymderau," medd Eusebius, "Cystaint oedd yr unig un a roddai berffaith ryddid i'r Cristionogion i arfer holl freintiau eu crefydd. Dano ef yn unig yr oeddynt yn ddiogel rhag niwed ac anmharch, ac y gwylid eu heglwysydd rhag cael eu dinystrio." [*Hist.*, llyfr i.] Yn y flwyddyn ddiweddaf o'i deyrnasiad, cyflawnodd holl ddyledswyddau "amddiffynwr y ffydd." Y mae y *Trioedd* yn ei ystyried fel sylfaenydd archesgobaeth Caerefrog, o blegid mai efe a'i hadferodd. [*Y Trioedd hanesol.*] Dywed y *Regine Chronicle* [llyfr i] "fod tangnefedd wedi ei estyn i'r eglwys, a bod yr esgobion wedi eu hailsefydlu yn eu hesgobaethau priodol yn ystod teyrnasiad Cystaint." Yr oedd Cystenyn, gan hyny, yn meddu, yn y parch cyffredinol a delid i goffadwriaeth ei dad, ddylanwad digon nerthol i ysgogi yr holl ymherodraeth. Ac y mae yn eglur oddi wrth ei lythyrau ef ei hun, mai y wladlywiaeth yn mha un y dysgwyd

[1] Y mae Polydore Vergil, Italiad, a gelyn penderfynol i'r enw Prydeinaidd, er hyny yn addef hyn am Cystenyn:—"Hanodd o fam Brydeinig; ganwyd ef yn Mhrydain, gwnaethpwyd ef yn ymherawdwr gan Brydain; y mae yn adlewyrchu ei fawredd ei hun ar yr ynys hono."—*Polyd. Hist. Angl.*, llyfr ii.

Digitized by Google

ef gan ei dad, ydoedd chwyldroad crefyddol mawr, a'i fod yntau wedi penderfynu dwyn hyny oddi amgylch, deued a ddeuai. "Gan ymddiried," meddai, yn ei epistol at Sepor, "ar ras Duw, dechreuais yn eithafion y môr (Prydain), ac yn raddol llwyddais i gael yr holl fyd o fewn terfynau gobaith iachawdwriaeth [*Eusebius*, llyfr iv]. Pan y chwiliodd Duw allan, ac y barnodd ddybenion fy ngwasanaeth tuag at gyflawnu ei ewyllys, cymmeradwyodd ef yn raslawn, a defnyddiodd y cyfryw wasanaeth o Brydain drwy yr holl ymherodraeth, er lledaenu ei ffydd a'i ddysgyblaeth sanctaidd yn mhlith holl ddynolryw." —*Eusebius*, llyfr ii. pen. 28.

Y mae y flwyddyn 306 B. A. gan hyny yn nodi dechreuad cyfnod gwahanol yn hanesiaeth wleidyddol ac eglwysig yr hen fyd. Y mae Cæsar y gorllewin yn esgyn i'r orsedd yn Nghaerefrog, gyda chynllun o chwyldroad wedi ei drefnu yn barod yn ei feddwl. Safle ei weithrediadau yn erbyn llywodraethiad y Cyfandir ydyw Prydain. Dyma lle y codir ac y dysgyblir y rhan fwyaf o'i filwyr:—gall ymddibynu ar y rhan hon o'r ymherodraeth Rufeinig bob amser. Os metha yn ei amcan gyda golwg ar yr hen fyd, efe a wel oddi wrth yrfa Carawn fod Prydain yn berffaith alluog i amddiffyn ei safle fel llywodraeth forwrol annibynol. Addysgwyd ef gan ei graffder i ddeall fod meddu llywodraeth ar y môr yn gyfartal i feddu awdurdod ar yr holl Gyfandir. Nid oedd chwyldroad cyffelyb i'r un a fwriadai gyda golwg ar ranau ereill yr ymherodraeth, dros ba un yr oedd efe wedi ei alw i lywodraethu, yn angenrheidiol yn yr ynys—yr oedd ei hamgylchiadau yn ei diogelu rhag anrhaith rhyfel cartrefol. Oddi ar yr un rheswm hefyd yr ymddibynai ar ei hundeb mewn ymgyrch milwraidd. Yr oedd yr ymherawdwr ieuanc eisoes yn bersonol, ar amryw achlysuron, wedi tynu sylw cyffredinol, ac wedi cynhyrfu drwgdybiaeth y Cæsariaid paganaidd. Yr oedd tymmor ei ieuenctid wedi ei hynodi gan ddygwyddiadau cyffrous. Yr oedd wedi arddangos athrylith ddiammheuol at ryfel. Yr oedd ei alluoedd llywodraethol wedi eu dadblygu a'u perffeithio gan ddysgeidiaeth fanwl y mwyaf poblogaidd o'r Augustiaid. Yr oedd o ymddangosiad awdurdodol, o gyfansoddiad cadarn, yn berffaith mewn medrusrwydd milwrol, yn areithiwr destlus ac eglurlawn, yn foesgar yn ei arferion, ac yn hynaws wrth bob dosbarth. Nid oedd neb i'w gymharu âg ef mewn prydferthwch a thaldra personol, medd Eusebius; a rhagorai gymmaint ar ei gymdeithion mewn nerth corfforol fel y byddai efe yn ddychryn iddynt. Cydgyfarfyddai yn Cystenyn yr anhebgorolion allanol a mewnol angenrheidiol at lwyddiant yn yr ymdrech mawr agosaol. Nis gallai gyfrif y byddai ei barhad yn llai nag ugain mlynedd; a chyda rhagolwg gyfartal i'w wroldeb, aeth yn mlaen yn ddiflino i wneyd parotoadau gogyfer â'r fath ymdrech hirfaith.

Dinystriwyd y cytundeb teuluaidd a ffurfiwyd rhwng Galerius, Maximian, Diocletian, a Cystaint, drwy farwolaeth y diweddaf. Yr oedd plant Theodora, llysferch Maximian, drwy etholiad y llengoedd Prydeinig, wedi eu cau allan o'r orsedd, a chyfododd cydymgeisydd cryf a phenderfynol am lenwi eu lle. Yr oedd y ffaith fod mam y cydymgeisydd hwn, er mwyn dybenion gwleidyddol, wedi ei hysgaru, mewn trefn i gwblhau y cytundeb teuluaidd, yn llawn o argoelion am y dyfodol; a derbyniai yr amgylchiad hwnw arwyddocad chwanegol oddi wrth y parch a ddangosai y Cæsar newydd, yn gyfrinachol ac yn gyhoeddus, tuag at ei fam. Gan hyny, disgynodd y newydd am esgyniad Cystenyn megys taranfollt ar Galerius. Trwy hyn, dinystriwyd a dymchwelwyd ar unwaith yr amcan yr oedd wedi llafurio i'w ddwyn oddi amgylch, sef canolbwyntio yr holl ymherodraeth yn ei deulu ei hun, a'i throsglwyddo, megys ag y gwnaethai Julius I, i deyrnlinach yn ei hawlio ef fel ei sylfaenydd. Daeth allan o'i enau yr ymadroddion mwyaf nwydwyllt, a bygythiai Cystenyn, a'r llysgenadwyr a anfonasai, âg effeithiau marwol ei ddigofaint. Dilynwyd hyn gan ragrith a gweniaith. Nid oedd byddinoedd Italy a'r dwyrain mewn sefyllfa ddiogel i wynebu llengoedd dewrion y gorllewin. Rhoddwyd y teitl israddol o Cæsar i Cystenyn, a chymmerodd y ddwy blaid ychydig hamdden i estyn eu cyssylltiadau ac i sicrhau eu sefyllfaoedd.

Y mae maesgyrchoedd Cystenyn yn ei restru yn mysg y dosbarth blaenaf o gadfridogion. Yr oedd rhaniad yr ymherodraeth, cyn i'r chwyldroad dori allan, fel y canlyn:—Yn B. A. 307, priododd Cystenyn, Fausta, merch yr ymherawdwr ymneillduedig Maximian. Derbyniodd ar yr un pryd y teitl Augustus. Yr oedd Maxentius, sef mab Maximian, Maximian ei hun, Galerius, Maximin, a Licinius, yn llywodraethu megys Augustiaid ar Italy, Affrica, Illyricum, Asia Leiaf, a'r dwyrain. Yr oedd, fel hyn, chwech o Augustiaid. Os dysgir un wers bwysicach nag arall oddi wrth hanes yr ymherodraeth Rufeinig, dyma hi—y bydd unrhyw ymgais i uno Ewrop yn un llywodraeth yn sier o droi yn fethiant hollol, a bydd yn orlawn o'r effeithiau mwyaf alaethus i'r gwahanol genedloedd. Ymadrodd arall am ryfel cartrefol, ar raddeg gyfandirol, yw "ymherodraeth arbenig"—y fath y bwriadai Louis XIV. a Napoleon ei sefydlu. Y mae neillduolion daiaryddol a naturiol gwahanol wledydd yn arddangos eu bod wedi eu trefnu gan natur i ffurfio taleithiau rhyddion, mewn cynghrair gwareiddiedig, a phob un yn cael ei llywodraethu gan ei brenin a'i deddfau ei hun, yn hytrach nag yn aelodau amrosgo a dideimlad mewn unbenaeth gyffredinol. Cwympodd y pump cydymgeiswyr a enwyd, y naill ar ol y llall, o flaen arfau Cystenyn. Cyhoeddodd Maximian, ei dad yn nghyfraith—yr hwn a aeth trwy y ddefod o ymneillduo yr ail waith, ac a brofodd ddiflasrwydd bywyd anghyhoedd yn annyoddefol yr ail waith—ryfel yn erbyn trysorau Cystenyn, yn hytrach nag yn erbyn ei berson. Dychwelodd y diweddaf o'r Almaen, lle yr oedd wedi bod yn darostwng y Ffrancod, ac ymosododd ar Maximian yn Marseilles. Rhoddwyd yr hen ymherawdwr i fyny i Cystenyn gan y dinasaswyr, yr hwn a derfynodd ei fywyd yn fuan ar ol hyny drwy hunanladdiad, Chwefror 10fed, B. A. 310.

Ar y 4ydd o Fai, B.A. 311, bu farw Galerius, mewn canlyniad i anhwylderau a ddygodd arno ei hun drwy fyw yn rhy foethus, yn ei balas yn Nicomedia. Heb feiddio sicrhau pa ddygwyddiadau ydynt neu nad ydynt yn ymweliadau uniongyrchol rhagluniaeth, mae yn annhosibl er hyny, gwrthbrofi tystiolaethau hanesiaeth—fod y rhan fwyaf o erlidwyr creulonaf Cristionogaeth wedi meirw o farwolaethau poenus a gwrthnaws. Pa beth bynag ydyw ein casghad, y mae y ffaith ei hun yn aros yn ei heglurdeb diammheuol.

Yr oedd yn awr bedwar o ymherawdwyr. Rhanodd Maximin a Licinius rhyngddynt a'u

gilydd diriogaethau Galerius. Cymmerodd y cyntaf Asia, a'r diweddaf Ewrop; a'r terfyngylch rhwng y ddau oedd yr Hellespont. Cynnaliai Cystenyn, y pryd yma, ei orsedd yn Treves. Y mae yn rhaid cofio na ddarfyddodd gwrthryfel Diocletian yn nwyreinbarth Ewrop hyd farwolaeth Galerius. Y mae Eusebius yn rhoddi dysgrifiad bywiog o effeithiau y goddefiad—"Yn ddisymmwth, megys fflachiad mellten o gymylau duon yn goleuo y ddaiar, gellid gweled yn mhob dinas gynnulleidfaoedd yn dyfod allan o'u cuddfanau, tyrfaoedd yn ymgasglu unwaith yn rhagor, a chymmanfaoedd yn cael eu cynnal yn yr hen leoedd arferedig. Cyn hir, daeth yr ymdrechwyr gwrolfrydig hyny dros y ffydd, ag oeddynt wedi eu condemnio i'r mwngloddiau, allan i oleuni dydd, a dychwelasant megys oddi wrth y meirw i'w gwlad eu hunain. Yr oedd pob dinas wedi ei llenwi â theimladau o hapusrwydd ac ymddiried nas galiai iaith eu gosod allan yn llawn. Gellid cyfarfod â thyrfaoedd lluosog ar y ffyrdd cyhoeddus yn teithio tua'u cartrefi, gan glodfori Duw mewn caniadau a salmau. Yr oedd y rhai ag oeddynt wedi bod yn cael eu gyru mewn cyffion dan y gospedigaeth fwyaf didrugaredd i'w gweled yn awr yn dychwelyd at eu teuluoedd, â'u hwynebau yn dysgleirio gan lawenydd; fel yr oedd hyd yn oed y rhai a lefarent yn wastadol yn ein herbyn yn teimlo tu hwnt i ddysgwyliad, ac yn ein llongyfarch ar ein gwaredigaeth."—*Eusebius*, llyfr ix.

Ymddangosai fod ymddygiad Maxentius, yn y cyfamser, yn ei lywodraeth Italaidd, fel wedi ei fwriadu i hyrddio yn mlaen ail radd y brwydrau hyn am yr ymherodraeth. Anfonodd gyhoeddiadau allan, yn gorchymyn dinystrio y cofadeiliau a gyfodwyd i Cystenyn yn Italy ac Affrica, gan osod allan ar yr un pryd ei honiadau i fod yn unig ymherawdwr y gorllewin. Yr oedd Maxentius yn un o'r Augustiaid Rhufeinig mwyaf halogedig a drygionus. Y mae hyd yn oed Julian—difriad yr hwn o fywyd a gweithredoedd ei ewythr, Cystenyn, sydd yn warthnod ar ei goffadwriaeth—yn ei fwrw allan o wledd ddychymygol y Cæsariaid. Y mae pawb yn cyttuno, o Eusebius i lawr at Niebühr, i'w ddysgrifio fel gorthrymwr na feddai un rhinwedd i leihau dim ar ei ddrygau ysgeler. Yr oedd Rhufain ac Affrica yn ocheneidio dan ei wancusrwydd a'i anfadrwydd annherfynol. Yr oedd yn dda i'w ddeiliaid gorthrymedig fod ei symmudiadau bygythiol wedi gorfodi Cystenyn i ymarfogi mewn hunan-amddiffyniad. Hynodid gwladlywiaeth yr ymherawdwr Prydeinig gan ochelgarwch mewn cynllunio a chyflymder mewn dwyn i weithrediad. Yr oedd milwyr Maxentius yn gynnwysedig o gant ac ugain o filoedd o wŷr traed, a deunaw mil o wŷr ceffylau—llawer o ba rai oeddynt hen filwyr wedi bod yn mrwydrau Maximian a Galerius. Mordwyodd llyngesoedd Cystenyn, y rhai oeddynt wedi eu cyflenwi â morwyr o'r gogledd, drwy gyfyngfor Gibraltar, a chymmerasant feddiant yn gyntaf o ynysoedd Corsica, Sicily, a Sardinia. Yna, aethant yn mlaen i warchae ar y porthladdoedd Italaidd. Aeth Cystenyn, gan adael hanner can mil o wŷr i wylio cyffiniau y Rhine, ar draws yr Alpau, gyda deugain mil o filwyr Prydeinig detholedig. Gan gymmeryd mynedfa Mynydd Cenis, ymosododd ar Susa, a gorchfygodd gadweinwyr Maxentius yn Turin cyn i'r ymherawdwr hwnw dderbyn hysbysrwydd ei fod wedi cychwyn oddi wrth y Rhine. O Milan, yr hon a ymostyngodd ar ei ddynesiad ati, cyfeiriodd y gorchfygwr ei gamrau yn erbyn Verona, yr hon a warchauasid gan gadfridog galluocaf ei gydymgeisydd, Ruricus Pomprianus. Profodd yr ymosodiad yn un ofnadwy, ac ni therfynwyd ef yn fuddugoliaethus hyd nes y cwympodd Pomprianus ei hun, yn nghyd â dwy fil ar bymtheg o wŷr o'r llengoedd Italaidd, mewn brwydr ar faes yn nghymmydogaeth llinellau Cystenyn. Yr oedd dwy fyddin erbyn hyn wedi eu dinystrio ar y maes; ond yr oedd adnoddau Maxentius yn mhell o gael eu dyhysbyddu. Casglwyd gallu lluosocach na'r ddau flaenorol, yr hwn a gyfrifai y Gwarchodlu Prætoraidd enwog fel ei gnewyllyn a'i nerth penaf, yn Saxa Rubra, naw milltir o Rufain, i wrthwynebu dyfodiad Cystenyn. Yn y frwydr a ddilynodd, a'r hon a ddysgrifir gan bob haneswyr fel un enbyd ac ofnadwy iawn, lladdwyd y Gwarchodlu Prætoraidd i gyd oll, a gorchuddiai corff pob un o honynt y man lle yr oedd wedi ei osod i ymladd arno—marwolaeth yn gweddu yn dda i fyddin a fu yn offerynol lawer gwaith i benderfynu tynged teyrnwialen y byd. Trengodd y ffoedigion wrth y miloedd, naill ai trwy gleddyfau y gelynion, neu yn nyfroedd y Tiber. Maxentius, gan gael ei gludo gan y dyrfa i'r afon, a suddodd dan bwys ei arfogaeth: cafwyd ei gorff dranoeth, a thorwyd ei ben ymaith, ac arddangoswyd ef yn y sefyllfa hono i'w ddeiliaid, y rhai a'i ffieiddient ef. Ennillwyd buddugoliaeth Saxa Rubra Hydref 28ain, B.A. 312.

Y gwasanaeth cyntaf a wnaeth Cystenyn o'i fuddugoliaeth ar Rufain oedd cyhoeddi maddeuant i bawb a ymladdasant yn ei erbyn, oddi eithr teulu Maxentius. Ni adferwyd byth mwyach y Gwarchodlu Prætoraidd. Arosodd yr ymherawdwr Prydeinig am dri mis yn y brif ddinas: ac ymwelodd drachefn â hi ddwy waith. Yn Mawrth, B.A. 313, cyn iddo ymadael drachefn o Italy i Treves, rhoddodd ei chwaer, Constantia, yn nghanol defodau mawreddog, mewn priodas i Licinius Augustus.

Dywedir fod gweledigaeth y groes—dygwyddiad ag sydd wedi dylanwadu mwy ar feddyliau y cyffredin nag un arall yn mywyd Cystenyn—wedi cymmeryd lle yn ystod ymdaith y rhyfelgyrch hon o Verona i Rufain, ar y dydd o flaen brwydr Saxa Rubra. Ni a roddwn yr hanes yn ol adroddiad gwreiddiol Eusebius:—

"Tra yr oedd Cystenyn yn gweddïo yn daer am i Dduw estyn allan ei fraich, a'i waredu o'i gyfyngderau, ymddangosodd arwydd gwyrthiol iddo o'r nefoedd, yr hanes am ba un, pa fodd bynag, er mor anhygoel yr ymddengys, a adroddwyd gan yr ymherawdwr buddugoliaethus ei hun i ysgrifenydd yr hanesiaeth hon, gan sicrhau ei wirionedd trwy lw. Dywedodd ei fod, tua hanner dydd, tra yr oedd yr haul yn dechreu osgoi o'i nenbwnc, wedi gweled â'i lygaid ei hun arwydd buddugoliaeth, ar ffurf croes o oleuni, yn y nefoedd, uwch ben yr haul, ac ar ei thraws y geiriau hyn—'Trwy hon, ti a fuddugoliaethi!' Nid yn unig tarawyd ef ei hun âg arswyd gan y weledigaeth, ond dylanwadodd yr un modd hefyd ar yr holl fyddin; yr hon, yn gystal ag yntau, a welodd y wyrth. Dywedodd hefyd, gan nad oedd yn cael boddlonrwydd i'w feddwl yn nghylch ystyr yr ymddangosiad, tra y parhäai i ystyried ei harwyddocad, ei bod wedi myned yn nos; a phan yr aeth i mewn i'w babell i gysgu, fod Crist Duw wedi ymddangos iddo gyda'r un arwydd ag a welsai yn y nefoedd, gan orchymyn iddo geisio baner wedi ei gwneuthur o'r un ffurf

Digitized by Google

a'r weledigaeth, a'i defnyddio fel ei luman yn erbyn ei holl elynion. Ar doriad y dydd, cyfododd, ac adroddodd y dadguddiad i'w gyfeillion. Yna, gan orchymyn i'r gemwyr ddyfod i'w bresennoldeb, eisteddodd yn y canol, a dysgrifiodd iddynt ffurf yr arwydd a welsai, a gorchymynodd iddynt wneuthur delw o hono mewn aur a meini gwerthfawr. Ac yr ydwyf wedi gweled y ddelw hon fy hun amryw weithiau. Yr oedd wedi ei gwneuthur yn y dull canlynol:—Llafn hir wedi ei orchuddio âg aur, gyda darn wedi ei osod ar draws, a ffurfiai ddarlun y groes. Ar y pen uchaf o'r groes yr oedd coron, wedi ei gwneuthur o aur a meini gwerthfawr. Yn ei chanol, safai dwy lythyren arwyddocaol enw y Gwaredwr, y rhai oeddynt yn debyg i P ac X yn groes i'w gilydd; a gwisgai yr ymherawdwr, byth ar ol hyny, y ddwy lythyren yma ar du blaen ei helm. Wrth y darn croes, yr oedd yn grogedig faner bortffor, wedi ei brodio â helaethrwydd o'r gemau dysgleiriaf, bob yn ail â llafnau o aur. Tarewid pob edrychydd â syndod gan brydferthwch y faner. Darn ysgwâr oedd y luman. Wrth y paladr[1] unionsyth, yr hwn ydoedd o faintioli mawr, yn union uwch ben y faner, a than arwydd y groes, yr oedd yn grogedig ddarlun hanner maintioli o'r ymherawdwr a'i blant. Arferodd yr ymherawdwr yr arwydd hwn o iachawdwriaeth rhag llaw fel ei amddiffyniad yn erbyn pob galluoedd gelynol; a gorchymynodd ar fod i fanerau ereill, wedi eu gwneuthur yn ol cynllun hon, gael eu cludo o flaen ei holl fyddinoedd."—*Eusebius*, llyfr i. pen. 28, 31.

Dilynwyd ymneillduad Cystenyn i'w diriogaethau gorllewinol gan doriad rhyfel cartrefol rhwng yr unig ddau Augustus oedd yn aros, heb law Cystenyn ei hunan, sef Maximian a Licinius. Ymosododd Maximian, gan deithio o Syria gyda deg a thrigain o filoedd o wŷr, ar Byzantium a Heraclea, a gorchfygodd hwynt. Yn agos i'r dref ddiweddaf, ymosododd Licinius arno gyda gallu llai mewn rhifedi, a gwasgarodd ei fyddinoedd yn hollol. Bu farw drwy ei ddwylaw ei hun, neu ynte trwy wenwyn wedi ei weinyddu iddo gan ei lyswyr, yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei orchfygiad, yn Awst, B. A. 313. Rhoddwyd ei ddau blentyn i farwolaeth gan y gorchfygwr; yr hwn yn fuan a chwanegodd at restr ei laddedigion Severianus, mab Severus; Candidianus, mab anghyfreithlawn Galerius; a Prisca a Valeria, gwraig a merch Diocletian. Fel hyn y distrywiwyd mewn môr o waed obeithion llinell hirfaith o Cæsariaid yn eu disgynyddion, yr hon a adeiladwyd gan Diocletian a Galerius ar eu cynghrair teuluaidd. Megys y bu o'r blaen, dair canrif yn ol, rhwng Cæsar a Pompey, Octavius ac Anthony, yr oedd yr ymgystadleuaeth am yr ymherodraeth wedi ei gadael yn awr rhwng Cystenyn yn y gorllewin, a Licinius yn y dwyrain. Y mae yn glod mawr i Cystenyn mai nid efe oedd yr ymosodwr yn y rhyfeloedd cartrefol hyn. Ei blaid ef oedd yr un yr ymosodid arni yn ddieithriad. Y mae Gibbon, yr hwn nid ydyw yn ffafriol ar un cyfrif i'r ymherawdwr Cristionogol cyntaf, a'r hwn sydd wedi dyrchafu Julian y Gwrthgiliwr, ei enllibiwr, i fod yn arwr ei hanesiaeth, yn cyfaddef fod euogrwydd y rhyfel cartrefol yn yr amgylchiad hwn hefyd yn gorphwys ar ben Licinius. "Fe all athrylith, llwyddiant, a thymmer uchelgeisiol Cystenyn beri iddo ymddangos fel yr ymosodwr; ond y mae cymmeriad bradwrus Licinius yn cyfiawnhau y drwg dybiau mwyaf anffafriol; ac oddi wrth yr ychydig oleuni a deifl hanesiaeth ar yr amgylchiad, gallwn ganfod fod bradwriaeth wedi ei chynnyrchu trwy ei ddichellion yn erbyn awdurdod ei gydswyddog." [*Gibbon's Reign of Constantine.*] Yr oedd bradwriaeth Licinius yn cael ei ddwyn yn mlaen dan gochl cyfeillgarwch: atebid gwrthachwyniadau drwy appeliad at ei anrhydedd, ac at y cyfammodau difrifol a wnaethpwyd rhyngddynt. Yn y cyfamser, dygwyd mesurau i mewn yn ei diriogaethau ef ei hun i adnewyddu erlidigaeth, ar gynllun o eiddo Diocletian. Gwnaethpwyd deddf yn gwahardd i esgobion yr eglwys gario yn mlaen un gyfathrach, dan unrhyw amgylchiadau, â'u gilydd; gwarafunwyd cynnal cymmanfaoedd eglwysig; tröwyd pob Cristion allan o'i swydd, ac allan o'r palas. Condemniwyd dynion o urddas uchel i gyflawnu gwasanaeth gweision. Gwaharddai ail deyrnarch i feibion a merched gyfarfod â'u gilydd mewn lleoedd o addoliad; a thrwy y trydydd, cauwyd yr eglwysydd eu hunain. Diswyddwyd yr holl Gristionogion ag oeddynt yn meddu swyddau yn y fyddin, ac appwyntiwyd swyddogion paganaidd i lanw eu lleoedd. Trwy hyn, fe aeth dwy fyddin wrthwynebol yr ymherodraeth mor wahanol i'w gilydd a goleuni a thywyllwch—y fyddin Liciniaidd, yn casglu o gwmpas ei baner holl gryfder yr hen ofergoeliaeth; a byddin Cystenyn, yn derbyn i'w rhengoedd, nid yn unig filwyr Cristionogol y gorllewin, ond holl Gristionogion diswyddedig byddin y dwyrain. Y mae yn debygol fod Licinius wedi ei orfodi i gyflawnu y fath weithred annoeth mewn ymddangosiad gan yr ymwybodolrwydd nas gellid ymddibynu ar yr elfen Gristionogol yn ei fyddin mewn brwydr yn erbyn pencampwr eu hachos. Ni anghofiodd, yn y cyfamser, ei drysorfa, ar yr hon, i raddau helaeth, yr ymddibynai am orbwyso rhagoriaeth milwraidd ei wrthwynebydd. Llanwyd hi â symiau anhygoel o aur ac arian oddi wrth feddiannau attafaeledig y Cristionogion; eto, medd Eusebius, byddai y gorthrymwr yn arfer cwyno yn wastadol yn gyhoeddus o blegid ei dlodi, gan ddywedyd fod ei drysorfa mor wag fel o'r braidd yr oedd yn gallu cario yn mlaen wahanol swyddogaethau y llywodraeth. O'r diwedd, pan yr oedd wedi cyflawnu ei holl ddarpariadau, taflodd ymaith ei holl ragrith a'i ffugesgusion. Gorchymynwyd dinystrio yr holl eglwysydd, a thynu i lawr gofadeiladau eu hamddiffynwr Cystenyn, trwy yr holl diriogaethau Italaidd a dwyreiniol.

Y mae yn eglur, oddi wrth yrfa Licinius, oni buasai am Cystenyn, y gallasai yr eglwys fod yn agored, am o ddeutu dwy ganrif efallai yn chwanegol, i restr o erlidigaethau mor greulawn

[1] "Y mae tarddiad y gair 'Labarum,' wrth yr hwn yr adnabyddid baner y groes," medd Gibbon, "yn aros mewn tywyllwch, er gwaethaf holl ymdrechion y beirniaid sydd wedi bod yn manwl chwilio y Lladin, y Groeg, yr Yspaenaeg, y Geltaeg, y Deutonaeg, yr Illyriaeg, a'r Armeniaeg, &c., am ei enddarddiad." Gan ddychymygu, yn gymmaint ag mai Prydeiniwr oedd Cystenyn, fod yn debycach y ceid ystyr yr enw a roddodd ar ei faner yn ei iaith enedigol nag yn un iaith arall, troisom i eiriadur Cymraeg yr enwog Dr. Owen Pughe, a chanfyddasom ei darddiad gwirioneddol a naturiol. "Lla=*the principle of expansion; anything that expands or opens.* Llab=*a flag or banner.*" Ceir yn hyn dystiolaeth hynod gyda golwg ar waed Prydeinaidd yr ymherawdwr, trwy yr enw a roddwyd ganddo ef ei hun ar y faner ymherodrol: a'r hwn, os ydyw tystiolaeth Gibbon yn gywir, nad oes iddo unrhyw ystyr mewn un iaith oddi eithr y Brydeinig: ond a arwydda yn yr iaith hono, y peth hwnw a enwir felly.

Digitized by Google

ag eiddo yr ymherawdwyr blaenorol. Nis gall rhwymedigaeth Cristionogaeth i Cystenyn, yn yr ystyr hwn, gael ei orbrisio. Pa bethau bynag oeddynt ei ffaeleddau personol, y mae yn rhaid ei barchu yn wastadol yn ei gymmeriad cyhoeddus fel gwaredwr mawr, dan Dduw, y grefydd Gristionogol oddi wrth gaethiwed paganaidd. Efe yn unig o'r Cæsariaid a safai i fyny i dalu ei darian rhwng y ffyddloniaid a phoenydiau y chwilyswyr ymherodrol. Gan ymryddhau oddi wrth wladlywiaeth draddodiadol tair canrif, dyrchafodd faner goddefiad a rhyddid, yr hon sydd yn adlewyrchu mwy o anrhydedd ar ei galon nag a adlewyrcha ei faesgyrchoedd rhyfeddol ar ei athrylith. Pe na buasai ei enw a'i yrfa yn bodoli mewn hanesiaeth, y mae yn anmhosibl darlunio yn rhy ofnadwy erchylldra y sefyllfa i ba un y buasai dallbleidiaeth a gallu creulawn a didrugaredd y fath gymmeriadau a'i gydymgeiswyr yn darostwng Ewrop, Asia, ac Affrica. Y pwynt ar yr hwn y crogai tynged ddyfodol dynolryw, a hyny o'r braidd yn gydbwys rhwng paganiaeth a Christionogaeth, ydoedd Labarum yr ymherawdwr Prydeinig. Nid ymddengys, pa fodd bynag, ei fod wedi petruso erioed am fynyd gyda golwg ar ei benderfyniad, o'r amser y dechreuodd deyrnasu yn Nghaerefrog, hyd derfyn ei oes. Gosodwyd ef gan ei wrthwynebwyr, ar yr un pryd, trwy eu hymosodiadau anghyfiawn arno, bob amser ar yr ochr amddiffynol.

Gellir ystyried araeth Licinius, tra yn cael ei amgylchynu gan ddewiniaid Aiphtaidd, wrth ei fyddin, fel adlewyrchiad ffyddlawn o'r ammheuon a gynhyrfent ei gydwybod yn nghanol ei greulondeb tuag at y ffyddloniaid:—"Gyfeillion a chydfilwyr,—Y delwau hyn ydyw delwau duwiau ein gwlad, ac yr ydym yn eu hanrhydeddu ag addoliad sydd wedi disgyn i ni oddi wrth ein hynafiaid boreuaf. Ond y mae yr hwn sydd yn llywyddu y fyddin sydd yn wrthwynebol i ni yn bresennol wedi bradychu crefydd ei gyndadau, ac wedi mabwysiadu egwyddorion, y rhai sydd yn gwadu bodolaeth y cyfryw dduwiau. Ac eto, y mae mor ynfyd ag anrhydeddu rhyw Dduw dyeithr, â baner ddirmygedig yr hwn y mae yn awr yn gwarthruddo ei fyddin; a chan ymddiried yn ei gynnorthwy, y mae wedi ymarfogi, ac yn awr yn agosau atom—nid yn gymmaint yn ein herbyn ni, ond yn erbyn y duwiau hyn, y rhai y mae efe yn eu dirmygu. Bydd i'r amgylchiad presennol arddangos pa un o honom sydd yn gywir yn ei farn, a phenderfynu rhwng ein duwiau ni a'r rhai y proffesa ein gwrthwynebwyr eu hanrhydeddu. Canys un ai fe roddir y fuddugoliaeth i ni, a thrwy hyny brofi yn gyfiawn mai ein duwiau ni ydyw y gwir waredwyr a'r cynnorthwywyr; neu ynte, os y Duw hwn o eiddo Cystenyn, yr hwn ni wyddom o ba le y mae yn dyfod, a gaiff y fuddugoliaeth ar ein duwiau lluosog ni (canys y mae y fantais o rifedi, o'r hyn lleiaf, gan yr eiddom ni), na fydded i neb mwyach ammheu pa dduw y dylai ei addoli, ond cysylltu ei hun ar unwaith wrth y gallu trechaf, a phriodoli iddo anrhydedd y fuddugoliaeth. Tybier, gan hyny, mai y Duw dyeithr hwn, ar ba un yr edrychwn yn awr gyda diystyrwch, a brawf mewn gwirionedd yn fuddugoliaethus, yna bydd raid i ni ei gydnabod, a rhoddi iddo anrhydedd, ac felly gauu yn iach am byth i'r rhai yr ydym yn goleuo yn ofer y tamprau (*tapers*) hyn iddynt. Ond nis gall fod un ammheuaeth wirioneddol nad ein duwiau ni a ennill yr oruchafiaeth; ac os felly, mor gynted ag y byddwn wedi sierhau y fuddugoliaeth bresennol, gadewch i ni gario yn mlaen y rhyfel i'r graddau eithaf yn erbyn y dirmygwyr hyn o'n duwiau."—*Eusebius' Life of Constantine*, llyfr iii.

Yr oedd yr holl frwydrau a ymladdwyd rhwng pencampwr diweddaf paganiaeth a phencampwr cyntaf Cristionogaeth, fel y gallesid dysgwyl rhwng byddinoedd mor wrthwynebol yn eu golygiadau, yn cael eu nodweddu gan gyndynrwydd anarferol. Cymmerodd y gyntaf le yn Cibalæ (Hydref 8fed, B. A. 315), ar yr afon Save, yn Pannonia, tua hanner can milltir o Sirmium, lle yr oedd Licinius wedi gadael ei deulu a'i drysorau. Parhaodd o doriad y wawr hyd nes yr oedd cysgodion yr hwyr yn amgau yr ymladdwyr, pan y penderfynwyd y fuddugoliaeth trwy ymgyrch yn cael ei blaenori gan Cystenyn yn bersonol. Collodd ei wrthwynebydd 20.000 o wŷr. Yn ei ffoedigaeth, achubodd Licinius ei deulu a'i drysorau; a thrwy ei drysorau, casglodd yn nghyd fyddin gref arall yn ei daleithiau Daciaidd. Yr arwyddair a gymmerwyd gan Cystenyn yn y frwydr hon oedd, "Duw, y Gwaredwr goruchel!"

Ar yr achlysur hwn, dygwyd i mewn gan yr ymherawdwr Rhufeinaidd gyfnod newydd mewn ystyr arall, heb law mewn ystyr gwladol. Yn yr ymladdfeydd rhwng y cydymgeiswyr am y wisg borphor, neu rhwng y byddinoedd Rhufeinaidd a barbaraidd, eithriad mawr oedd arbediad bywyd; ac ymddygid tuag at y rhai a gymmerid yn garcharorion â'r fath lymdostedd ag a wnai fywyd yn annyoddefol. Dinystriodd Cystenyn y dull paganaidd o gario rhyfel yn mlaen, a sefydlodd yr hyn y gellir ei alw yn ddull Cristionogol. "Teimlai yr ymherawdwr," medd Eusebius, "adgasrwydd mawr at bob dinystr diangenrhaid o fywyd dynol, yr hyn a barai iddo fod yn bryderus yn nghylch diogelwch, nid yn unig ei ddeiliaid ei hun, ond hyd yn oed ei elynion hefyd. Gan hyny, cyfarwyddodd ei filwyr buddugoliaethus i arbed bywydau eu carcharorion, gan eu hannog, fel bodau dynol, i beidio anghofio eu dyledswydd tuag at eu cyd-ddynion. Pa bryd bynag y canfyddai nwydau ei filwyr wedi myned tu hwnt i derfynau hunan-lywodraethiad, byddai yn rhoddi attalfa ar eu cynddaredd drwy anrhegion, gan roddi i bob dyn a achubai fywyd gelyn swm penodol o aur. Achubwyd trwy y dull hwn luaws mawr hyd yn oed o farbariaid, y rhai oeddynt yn ddyledus am eu bywyd i aur yr ymherawdwr." — *Eusebius' Life of Constantine*, llyfr iii.

Teimlodd gelynion Cristionogaeth ar unwaith drwy hyn bod ei dylanwad dyngarol yn fanteisiol iddynt. Buasai cymharu y dull yr ymddygai Cæsar a Chystenyn tuag at eu carcharorion yn ddigon ei hunan i brofi bod rhyw egwyddorion anhysbys i'r cyntaf wedi eu dwyn i mewn gan y diweddaf i'r gelfyddyd o ryfela. Yr oedd ei hanghysuron a'i thrueni o hyn allan i'w lliniaru a'u lleihau, hyd y gellid, drwy athrawiaethau trugarog ac arwriaeth urddasol y ffydd Gristionogol.

Casglodd Licinius ei filwyr yn nghyd, ar ol gwneuthur Valens, ei gadfridog Illyriaidd, yn Cæsar, i ymosod unwaith drachefn ar Cystenyn, ar wastattiroedd Mardia, yn Thracia. Arddangosodd y ddwy fyddin yr un ddysgyblaeth a'r un gwroldeb ag o'r blaen; ond nid oedd galluoedd Licinius, er eu bod o radd uchel, yn gyfartal ag eiddo ei wrthwynebydd. Enciliodd yn ystod y

Digitized by Google

nos, ar ol y frwydr, rhyngddo a mynyddoedd Macedonia, gan adael maes y rhyfel wedi ei orchuddio â chyrff ei filwyr dewraf. Wedi ei ddarostwng i anobaith, anfonodd ei weinidog, Mistrianus, i erfyn am ammodau heddwch. Derbyniwyd y genadwri gan Cystenyn gyda hynawsedd mawr. Caniataodd i Licinius gadw yn ei feddiant Thracia, Asia Leiaf, Syria, a'r Aipht; a chyssylltodd Pannonia, Dalmatia, Dacia, Macedonia, a Groeg, â'i ymherodraeth ei hun. Diddymodd hefyd appwyntiad Valens i'r Cæsariaeth, gan sylwi nad oedd efe wedi ymdaith trwy gwrs didor o fuddugoliaethau o lanau y môr gorllewinol i dderbyn caethwas diddaioni yn gydswyddog. Penodwyd mab Licinius gan Cystenyn yn ei le: yr oedd ei feibion ef, Crispus a Cystenyn, wedi derbyn urddas cyffelyb yn y gorllewin eisoes.

Trodd Cystenyn yn uniongyrchol ei fyddinoedd yn erbyn y Ffrancod a'r Alemanniaid; ac wedi eu darostwng, yn benaf trwy gynnorthwy ei fab Crispus, cariodd y rhyfel dros y Danube, i leoedd cadarnaf Dacia, yr hon ydoedd eisteddle y Gothiaid y pryd hyny. Gorfodwyd y genedl ryfelgar hon, ar ol cyfres o ddymchweliadau, i osod ei hunan dan deyrnged i'r ymherodraeth, gan ymrwymo, pan y gelwid arni, i gyflenwi 40,000 o filwyr er ei hamddiffyn. Oddi eithr yr eiddo Napoleon, y mae ymgyrchoedd milwrol cadfridogion diweddar yn myned yn bethau bychain wrth eu cymharu â'r cynllun eang ar ba un y cerid yn mlaen amrywiol ymgyrchoedd yr ymherawdwr Prydeinig, y rhai a ysgubent o Gâl dros yr Almaen, Scythia, a'r dwyrain. Arddangosant yn y modd mwyaf penderfynol fawredd ei allu at lywodraethu, a'r yni diflino â pha un y cyflawnodd ddyledswyddau mawrion a phwysig penaeth y byd Rhufeinaidd.

Mor fuan ag y sicrhawyd y cyfliniau, dechreuodd yr ail ryfel cartrefol rhwng Cystenyn a'i frawd yn nghyfraith. Yr oedd galluoedd Licinius yn rhifo cant a hanner o filoedd o wŷr traed, pymtheng mil o wŷr ceffylau, a thri chant a hanner o rwyflongau yn yr Hellespont. Rhifai eiddo Cystenyn gant ac ugain o filoedd o wŷr traed a gwŷr ceffylau, yn Thessalonica. Ymddengys fod y Labarum wedi cynnyrchu dylanwad dyeithrol ar feddwl dilywodraeth ac anmhwyllog yr ymherawdwr paganaidd; canys gorchymynodd i'w filwyr i beidio cyfeirio eu hymosodiadau yn ei herbyn, nac hyd yn oed oddef i'w llygaid edrych arni; gan sicrhau iddynt ei bod yn meddu gallu ofnadwy, a'i bod yn elyniaethol iddo ef mewn modd neilltuol. Dangosodd Cystenyn, mewn araeth hyawdl yn nghlyw ei fyddin, yn mha un y cyfarchai hwynt fel hen gydfilwyr—canys yr ymgyrch agosaol oedd yr eilfed ar bymtheg yn mha rai yr oeddynt wedi bod yn cydwasanaethu—y sicrwydd oedd y coronid eu hymdrechion â llwyddiant, a nododd allan yr anrhegion y byddai ganddynt hawl gyfiawn i'w gofyn oddi ar ei law pan y sefydlid heddwch. Ychydig o angen oedd am annog y milwyr Prydeinig a Gâlaidd. Yr oeddynt hwy eisoes wedi bod mewn brwydrau â phob cenedl, o'r braidd, ag oedd yn ymffrostio mewn enwogrwydd milwraidd, ac wedi bod yn fuddugoliaethus yn dieithriad; gan hyny, yr oedd ganddynt hwy ymddiried mawr ynddynt eu hunain ac yn eu llywydd. Profodd yr amgylchiad fod yr ymddiriedaeth ar sail dda. Wrth ymdaith o Thessalonica, canfyddai Cystenyn fyddin Licinius wedi ei threfnu ar ochr rhes o fryniau, a'r afon lydan a chwern Hebrus o'i blaen, a gwrthgloddiau cedyrn ar bob ochr iddi. Yr oedd y sefyllfa yn un dra chadarn, ac mewn lle manteisiol; a bu Cystenyn yn aflwyddiannus yn ei ymosodiadau dros amryw ddyddiau. O'r diwedd, anfonwyd pum mil o fwäwyr ar draws yr afon, yn uchel i fyny, gyda chyfarwyddyd i drefnu eu hunain tu ol i fyddin Licinius, a phan y caent rybudd, i ymuno yn yr ymosodiad cyffredinol. Arweiniodd Cystenyn, gan ruthro drwy yr afon gyda deuddeg o'i warchodlu, ei gatrodau yn bersonol i'r ymosodiad. Ar ol ymladdfa enbyd, llwyddasant i allu rhoddi eu traed i lawr yn ngwersyll Licinius; a dechreuodd y fyddin baganaidd, gan gael ei dirwasgu o'r tu ol gan y bwäwyr, ddisgyn i lawr yn araf o'i sefyllfa fanteisiol, nes yr ymffurfiodd ar y gwastattir. Marchogodd Cystenyn, er ei fod wedi ei glwyfo yn ei glun, drwy ei lengoedd, gan ddadgan na byddai ef yn foddlawn ar fuddugoliaeth yn unig, ond ei fod yn gobeithio swpera y noswaith hono yn ngwersyll amgaeredig y gelyn. O herwydd gwroldeb Licinius, a'r milwyr profiadol yr oedd efe wedi eu casglu yn nghyd, parhaodd y frwydr am amryw oriau; ac ni roddodd i fyny hyd nes yr oedd wedi colli pedwar ar ddeg ar ugain o filoedd o'i wŷr goreu, pryd nad oedd ganddo ddim i'w wneyd ond dianc. Ennillodd y llengoedd buddugoliaethus y gwersyll drwy ruthrgyrch yr un prydnawn—Gorphenaf 3ydd, B. A. 323. Ymddygodd Cystenyn at y ffoedigion a roddasant eu hunain i fyny yn ol ei ddyngarwch arferol.

Aeth Licinius i Byzantium, a ffurfiwyd gwarchae y ddinas hono yn uniongyrchol. Cyn hir, yr oedd argloddiau Cystenyn wedi eu codi yn gydwastad â muriau y dref. Dinystriodd ei lynges, yr hon a ddodasid dan lywyddiaeth Crispus, mewn brwydr a barhaodd ddau ddiwrnod, o'r braidd yn hollol allu morwrol ei wrthwynebydd; suddwyd cant a deg ar ugain o longau, a gwnaethpwyd y gweddill yn anaddas i wasanaeth pellach. Gadawodd Licinius y ddinas, a bu yn llwyddiannus i ddianc, gan gymmeryd gydag ef ei drysorau anysgaradwy i Chalcedon, yn Asia. Tra y bu yn y lle hwn, trwy ffyddlondeb a gwroldeb teilwng o achos gwell, ymgasglodd gweddillion y byddinoedd yr oedd efe wedi eu colli, y naill dro ar ol y llall, o gwmpas cynnrychiolwr eu ffydd a'u plaid, i wneyd un ymdrech chwanegol. Yr oedd eu rhifedi yn drigain mil o wŷr, a'r rhai hyny yn arswydlawn o blegid eu profiad yn gystal a'u hanobaith. Cymmerodd y frwydr ddiweddaf le, Rhagfyr 9fed, B. A. 324, ar ucheldrau Scutari—y pryd hyny Chrysopolis. Cwympodd pump ar ugain o filoedd allan o'r trigain mil a ffurfient obaith diweddaf y llywodraeth baganaidd ar y maes; a thrwy eu marwolaeth, gadawsant deyrnwialen yr ymherodraeth Rufeinig yn hollol yn nwylaw y buddugoliaethwr Cristionogol. Yr oedd y byd gwareiddiedig—ar ol bod yn rhanedig er teyrnasiad Diocletian am ddwy flynedd ar bymtheg ar ugain dan wahanol lywodraethwyr, ac yn wastadol mewn rhyfeloedd cartrefol—unwaith eto wedi ei uno dan lywodraeth un penadur. Gyda phenderfyniad dibetrus, a chraffder diwyrni, yr oedd mab Cystaint a Helen wedi myned yn mlaen, gam ar ol cam, nes cyrhaedd y sefyllfa anrhydeddus bresennol. Yr oedd y rhwystr diweddaf oedd ar ei ffordd i berffeithio ei wladlywiaeth wedi ei symmud ymaith. Galluogwyd ef, trwy farwolaeth Licinius, yr hyn a ddygwyddodd yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei ddymchweliad,

Digitized by Google

i gyflawnu yr amcan o sefydlu Cristionogaeth, yr hyn ydoedd prif uchelgais ei feddwl er pan yn blentyn. Ymddengys mai ei hyfforddiadau trwy ystod ei holl yrfa oeddynt esamplau ac addysgiadau ei dad. "Nid ydwyf wedi arfer edrych ar yr ymherawdwyr blaenorol gydag un math o dynerwch, o blegid creulondeb didrugaredd eu nodweddiadau. Fy nhad, yn wir, oedd yr unig un a gyflawnai ddyledswyddau dyngarwch yn wastadol, a thrwy dduwioldeb edmygol, gofynodd am fendith Duw Dad ar ei holl weithredoedd. Y mae y gweddill, y rhai sydd wedi gosod gwarthnod tragwyddol ar yr enw Rhufeinaidd, trwy fwrw y Cristionogion tu hwnt i derfynau yr ymherodraeth, wedi trengu ar faes brwydrau gwladol, heb adael nac enw na hiliogaeth ar eu hol."[1] Yr oedd yr amser wedi dyfod pryd y gallai Cystenyn, wedi deilliaw o hynafiaid Prydeinig, ac wedi ei feithrin mewn egwyddorion Prydeinig, ddadgan gyda nerth anwrthwynebol wrth fyd ag yr oedd wedi ei oresgyn, "Cyflwynaf fy hun o hyn allan at adferiad yr eglwys, preswylfa Duw, yr hon sydd wedi ei niweidio a'i hanafu trwy greulondeb dinystriol erlidwyr annuwiol a llygredig. Erfyniaf ar bawb i ddyfod yn Gristionogion—ond ni orfodaf neb. Fy nymuniad ydyw daioni cyffredinol dynolryw, fel y byddo i fy holl ddeiliaid fwynhau bywyd o heddwch a thangnefedd didor. Y mae i'r paganiaid, y rhai sydd yn aros eto yn eu cyfeiliornad, groesaw o'r un graddau o dawelwch a hapusrwydd a'r ffyddloniaid. Gobeithir y bydd i'r adferiad hwn o ragorfreintiau cyfartal gynnyrchu yr effaith ddaionus o'u harwain hwynt i lwybr y gwirionedd. Na fydded i un dyn, yn y pwnc o gredineiaeth grefyddol, ormesu ar arall; ond gadawer pawb yn rhyddion i ddilyn argyhoeddiadau eu meddyliau eu hunain. Ond yn unig dealler hyn gan bob dyn ag sydd wedi derbyn dealltwriaeth gan Dduw, mai y rhai hyny a dueddir ganddo ef i gydsynio â'i ddeddfau sanctaidd ydyw y rhai a allant fyw bywyd o burdeb a sancteiddrwydd. Gyda golwg ar y rhai a barhant i sefyll draw oddi wrthym, y mae iddynt ryddid i fyned i'w temlau eilunaddolgar pan yr ewyllysiant. Y mae teml ogoneddus gwirionedd Duw wedi ei rhoddi i ni i fod yn gartref priodol a naturiol. Yr ydym yn gweddïo ar fod iddynt hwythau hefyd yn fuan dderbyn yr un fendith fawr, fel y byddo i ni, drwy hyny, brofi y llawenydd calonog a gynnyrchir trwy undeb syniadau."[2]

Nid oedd ugain mlynedd o lafur a phryder dibaid yn ormod o bris am y fath gyhoeddiad breninol, yn yr hwn yr arddangosir egwyddorion iachusaf Cristionogaeth. Er nad ellir cymmeradwyo ei sefydliad o grefydd, eto y mae yn llewyrchu, ar ol y blyneddoedd meithion o erlidigaethau gwaedlyd y bu yr eglwys yn dyoddef danynt, fel pelydrau dysglaer yr haul, gan beri i ffieidd-dra ac ysgelerderau y nos gilio ymaith. Dechreuwyd sefydlu Cristionogaeth yn awr ar y seiliau cadarnaf—goddefiad perffaith i bob crefyddau, heb ormes na gwahaniaeth.

Gellir rhestru yr holl ddeddfau a gyfreithlonasant Gristionogaeth trwy y dwyrain a'r gorllewin yn y drefn ganlynol:—

1. Diddymwyd yr holl gyfreithiau a'r dedfrydau a basiwyd gan erlidwyr yr eglwys.

2. Adferwyd yr holl Gristionogion ag oeddynt wedi eu halltudio, neu wedi eu condemnio i'r mwngloddiau, y gweithydd cyhoeddus, gweithfaoedd y llywodraeth, neu i wasanaeth orfodol, yn uniongyrchol i ryddid.

3. Adsefydlwyd yr holl Gristionogion a amddifadwyd o'u swyddau milwrol, neu gadawyd hwynt i aros yn anghyhoedd, os byddai hyny yn fwy dymunol ganddynt. Adferwyd eu meddiannau iddynt yn y naill amgylchiad fel y llall.

4. Yn amgylchiad y Cristionogon ag oeddynt wedi eu lladd, a'u meddiannau wedi eu hattafaelu, trosglwyddwyd eu hetifeddiaethau i'w perthynasau agosaf; neu os na byddai etifedd, i eglwys y gymmydogaeth yn mha un y byddai yr etifeddiaeth. Os byddai y meddiannau wedi myned i ddwylaw ereill, pa un bynag ai i berson unigol neu y llywodraeth, yr oeddynt i gael eu hadferu.

5. Mewn amgylchiadau pryd y byddai y meddiannau, neu yr elw a ddeilliai oddi wrthynt, wedi myned i drysorfa y deyrnas, gwnaethpwyd darpariadau at eu dychwelyd yn ol.

6. Diddymwyd y gornestau cleddyfyddol, y rhai a gondemnir gan ysbryd Cristionogaeth.

7. Adgyweiriwyd hen eglwysydd, ac adeiladwyd rhai newyddion, ar gost y drysorfa ymherodrol. Ond derbyniwyd a chefnogwyd rhoddion gwirfoddol y ffyddloniaid.

8. Neillduwyd rhan o gyllid teyrngedol y taleithiau at gynnaliaeth yr esgobion a'r clerigwyr.

9. Diddymwyd y gospedigaeth o groeshoelio drwy yr holl ymherodraeth.

10. Rhoddwyd manteision i holl ddeiliaid yr eglwys er ennill rhagorfreintiau Rhufeinig, ac er rhyddhau caethion.

11. Pob ymgyfreithwyr a ddewisent appelio at y llysoedd esgobol, yn hytrach nag at y llysoedd gwladol, yr oedd iddynt berffaith ryddid i wneuthur hyny. Ond y gallu gwladol oedd i ddwyn y ddedfryd i weithrediad yn y naill achos fel y llall.

12. Rheoleiddiwyd y graddau o berthynas, o fewn cylch pa rai y cyhoeddid fod priodas yn anghyfreithlawn.

13. Gorchymynwyd cadwraeth Dydd yr Arglwydd; ni chaniateid i un gorchwyl cyfreithiol na chyhoeddus gael ei gyflawnu arno.

14. Mabwysiadwyd y groes fel arwyddnod ymherodrol y llywodraeth Rufeinig.

Ond nid oedd gofal ac ysbryd rhyddfrydig yr ymherawdwr yn gyfyngedig i'w diriogaethau ei hun, er mor eang oeddynt. Gwnaeth ymdrechion ar ran y Cristionogion yn Persia, gwlad a lywodraethid y pryd hyny gan orchfygwr ei ragflaenor Valerian; a chan fod ei lythyr at y brenin hwn yn gosod ger ein bron ddangosiad eglur o ddirnadaeth Cystenyn am Gristionogaeth, rhoddwn ef yma yn llawn. Y mae yn deilwng o gael ei osod yn ein brutiau Prydeinig yn ochr gwrthdystiad enwog Cromwell yn erbyn yr Albigensiaid, a dylai hefyd fod mor adnabyddus a hwnw:—

"CYSTENYN MAXIMUS AUGUSTUS, AT SAPOR, BRENIN Y PERSIAID.

Bydded yn hysbys i chwi fy mod i, drwy ufuddhau i'r ffydd ddwyfol, wedi fy ngwneyd yn gyfranogwr o oleuni y gwirionedd: a chan gael fy arwain gan y goleuni hwnw, yr wyf yn cynnyddu eto yn fwyfwy yn ngwybodaeth y ffydd. Gan hyny, fel y mae fy ngweithredoedd yn tystiolaethu, yr ydwyf yn proffesu crefydd sancteiddiaf Crist, yr hon a'm dysg mewn adnabyddiaeth ddyfnach a dyfnach o'r Duw sanctaidd. Trwy gael fy nghynnorthwyo gan ei allu ef, gan ddechreu yn y môr gorllewinol, yr wyf wedi dyrchafu yr holl genedloedd i obaith iachawdwriaeth; a'r rhai hyny hefyd, y rhai, gan ocheneidio

[1,2] Teyrnarch Cystenyn at y taleithiau dwyreiniol ar Amldduwiaeth.

yn ngwasanaeth caled y gorthrymwyr mwyaf creulawn, ac ymroi dan bwysau dyoddefiadau beunyddiol, oeddynt o'r braidd wedi eu llwyr ddinystrio, a adferwyd trwy fy offerynoliaeth i sefyllfa lawer hapusach. Yr wyf yn anrhydeddu ac yn cadw y Duw hwn yn fy nghof yn wastadol, gan weddïo arno â gliniau plygedig, ac yn ymgilio yn ol mewn arswyd oddi wrth yr ofergoelion annuwiol a llygredig sydd wedi bwrw i lawr a throsglwyddo i ddinystr gymmaint o genedloedd y byd cenedlig. Canys nis gall efe, yr hwn sydd yn Arglwydd pawb, oddef i'r bendithion hyny, y rhai y mae efe, yn ei fawr gariad a'i gymmwynasgarwch at angenion dynion, wedi eu cyfranu at wasanaeth pawb, gael eu gŵyrdroi i borthi meluschwant neb. Yr oll y mae yn ei ofyn oddi wrth ddyn ydyw purdeb meddwl, ac ysbryd dihalog; ac yn ol y safon hon y mae yn pwyso gweithredoedd duwioldeb a rhinwedd. Y mae ei hyfrydwch mewn cymmedroldeb a hynawsedd. Y mae yn hoffi yr addfwyn, ac yn anghymmeradwyo yr ysbryd balch. Y mae yn ymhyfrydu mewn ffydd, ac yn ceryddu anghrediniaeth. Tŷr i lawr y trahaus, a dymchwela yn hollol y ffroenuchel; ond efe a gyfrana wobr i'r tyner-galon a'r maddeugar ei ysbryd. Fel hyn y mae yn anrhydeddu ac yn cadarnhau â'i gymhorth neillduol deyrnas yn cael ei llywodraethu yn gyfiawn, ac yn amddiffyn brenin tyner mewn tawelwch tangnefeddus. Nis gallaf, gan hyny, fy mrawd, gredu fy mod yn cyfeiliorni wrth gydnabod y Duw hwn, Awdwr a Thad pawb a phob peth, yr hwn y darfu i luaws o'm rhagflaenoriaid, drwy gael eu llithio ar ddisberod gan orphwylldra cyfeiliornad, anturio ei wadu, ond â'r rhai yr ymwelwyd trwy ad-daledigaeth mor ofnadwy a dinystriol fel y mae cenedloedd dilynol yn nodi allan eu haflwydd fel y rhybudd mwyaf effeithiol i bawb a deimlant awydd dilyn eu llwybrau. Yr ydwyf yn credu mai un o'r rhai hyn, y rhai a yrwyd ymaith ac a alltudiwyd i'ch tiriogaethau chwi gan fflachiad melltenog y dialedd dwyfol, oedd efe—gwarth yr hwn a ffurfiodd enwogrwydd eich buddugoliaeth ymffrostgar. Ac y mae yn amgylchiad hapus fod cospedigaeth y fath bersonau wedi ei amlygu yn gyhoeddus yn ein dyddiau ni. Canys yr wyf fi fy hunan wedi bod yn dyst o ddiwedd y rhai a boenydient yn ddiweddar addolwyr Duw drwy eu teyrnarchiadau creulawn. Ac am hyn, y mae diolchgarwch helaeth yn ddyledus iddo ef, trwy ragluniaeth ragorol yr hwn y llawenychir pawb a barchant ei ddeddfau â mwynhad adnewyddol o dangnefedd. Gan hyny, yr ydwyf wedi fy narbwyllo fod pob peth yn awr wedi ei sefydlu ar y sail oreu a chadarnaf, a bod yn wiw gan Dduw, trwy gyfrwng crefydd bur ac undeb ffydd, gasglu dynolryw ato ei hun. Dychymygwch, gan hyny, â pha lawenydd y derbyniais newyddion mor gydsyniol â fy nymuniad; sef bod taleithiau tecaf Persia, i raddau helaeth, yn cael eu hanrhydeddu â phresennoldeb y dosbarth hwnw o ddynion, ar ran pa rai yn unig yr ydwyf yn llefaru yn bresennol, sef y Cristionogion. Yr wyf yn gweddïo, gan hyny, ar fod i chwi a hwythau fwynhau llwyddiant helaeth, ac ar fod i'ch bendithion chwi a hwythau fod yn gyfartal; canys chwi a brofwch drwy hyny drugaredd a ffafr y Duw hwnw sydd yn Arglwydd a Thad pawb. Ac yn awr, gan fod eich gallu yn fawr, yr wyf yn cyflwyno y personau hyn i'ch nawdd a'ch amddiffyn—o blegid fod eich duwioldeb yn adnabyddus, yr ydwyf yn eu trosglwyddo i'ch gofal. Mynweswch hwynt yn ol eich dyngarwch a'ch hynawsedd arferol; canys trwy y prawf hwn o ffydd, chwi a sicrhewch fanteision anfesurol i chwi eich hunan yn gystal ag i ninnau."—*Eusebius, Vita Constan.*, llyfr iv. pen. 11.

Gellir ystyried y llythyr hwn fel cynllun o gyfryngwriaeth gallu cynghreiriol cyfeillgar, yn proffesu yn gyhoeddus ei argyhoeddiadau crefyddol, â theyrnas gymmydogaethol o grefydd wahanol, yn cyflwyno ei gyd-Gristionogion yn y deyrnas hono i ofal tyner ei gynghreiriad. Y mae yn rhydd hefyd oddi wrth dwyll ac ymyrgarwch; a buasai yn anhawdd i'r brenin mwyaf teimladwy ganfod ynddo un achos tramgwydd cyfiawn yn ei eiriad nac yn ei appeliad.

Y mae Gibbon, a rhai awdwyr ereill, naill ai wedi derbyn, neu wedi cymmeryd arnynt eu bod, y syniad mai yn raddol yr aeth Cystenyn i ymlynu wrth Gristionogaeth. Y mae y dybiaeth yn cael ei gwrthbrofi gan dystiolaethau cyffredinol yr awdurdodau goreu ar y pwnc, wrth ymorphwys ar ba rai yr ydym wedi ei arddangos fel dyn yn cael ei lywodraethu gan un amcan mawr, ac wedi ei annog yn mlaen gan benderfyniad diysgog i sefydlu y ffydd Gristionogol, yn yr hon yr oedd wedi ei addysgu er yn blentyn, yn grefydd yr ymherodraeth Rufeinig. Y mae dadganiad Cystenyn ei hun ar y pwnc, i bob meddwl diragfarn, yn benderfynol:—"Yr ydym yn galw Duw yn dyst," meddai, yn un o'r llythyrau a anfonwyd at Alexander ac Arius, yn yr hwn, gyda'i ddifrifoldeb arferol, y mae yn erfyn arnynt i gymmedroli chwerwder yr ymryson eglwysig a achoswyd gan y diweddaf—"Yr ydym yn galw Duw yn dyst, Iachawdwr dynolryw, a'r hwn sydd wedi bod yn gymhorth i ni bob amser yn yr ymdrechiadau hyn, mai dau reswm a'n dylanwadodd i gymmeryd arnom weinyddiaeth achosion yr ymherodraeth. Y cyntaf oedd, ein hamcan i uno holl opiniynau crefyddol y gwahanol genedloedd dan ein llywodraeth mewn un ffydd a chyfansoddiad. Ac yn ail, ein hawydd cryf am adferu heddwch i fyd ag oedd wedi ei ddryllio yn ddarnau gan wallgofrwydd ofnadwy erlidigaeth. Gan broffesu mai cyrhaedd y ddau ddyben hyn oedd ein hamcan, gwyddem nas gellid cyflawnu y cyntaf ond trwy allu moesol, ac nas gellid llwyddo yn y diweddaf ond drwy ragoriaeth milwrol." [*Eusebius*, llyfr ii. pen. 64.] "Yr oedd damcaniaeth ardderchog yr efengyl," medd hanesydd y *Decline and Fall*, "wedi gwneuthur argraff llawer gwanach ar galon nag ar ddealltwriaeth Cystenyn." Y mae y dadganiad hwn yn cael ei wrthddywedyd yn fynych mewn lleoedd ereill gan yr hanesydd ei hun—athrylith ac eglurdeb yr hwn ni ddylai byth beri i ni golli o'n golwg yr anonestrwydd a ddengys pan yn ymdrin â phob dygwyddiad ac ystyriaeth a fyddo yn dwyn cyssylltiad â Christionogaeth a'i phencampwyr. Er i ni addef gyda galar fod un trosedd mawr,[1] ond dirgeledig, yn ystaen ar goffadwriaeth yr ymherawdwr hwn, eto, fe ddichon fod gwerth ei wasanaeth i ddynolryw yn gyffredinol yn ein cyfiawnhau i fwrw ei drosedd yn drugarog i dir anghof. Ac os gellir ffurfio barn gywir am ddilysrwydd ei egwyddorion Cristionogol, ac am yr effaith a gynnyrchasant ar ei galon, oddi wrth dystiolaeth cyfres hirfaith o weithrediadau—yr unig faen prawf diogel—gall Cystenyn gyfeirio at y cyfryw gyda mwy o hyder na nemawr frenin a fu yn ysgwyd teyrnwialen Gristionogol byth ar ol hyny. Nid oes braidd neb, ar ol ei amser ef, wedi dal y clorianau yn fwy cywir a difai, lle yr oedd hawliau Cristionogaeth a hawliau pob crefyddau ereill yn bwnc o ystyriaeth:—er yn sefyll yn gadarn, fel y gwelwyd, dros hawliau y cyntaf, yr oedd yn goddef rhyddid i'r olaf. Nid oes neb wedi gweled yn fwy eglur ragoroldeb moesol Cristionogaeth, nac wedi ymddibynu yn fwy hollol arni yn eu hymosodiadau yn erbyn cyfeiliornadau, na neb wedi ymattal

[1] Marwolaeth ei fab Crispus trwy Minervina. Y mae Niebuhr yn cyfiawnhau, yn hytrach nag yn condemnio, ymddygiad Cystenyn yn yr achos.

Digitized by Google

yn fwy llwyr rhag gosod attegion allanol i wasanaethu yn lle ei chadernid mewnol gwirioneddol. Ac nid oes un dyn yn bersonol, naill ai mewn sefyllfa freninol neu sefyllfa anghyhoedd, wedi arddangos y fath sefydlogrwydd penderfynol, wedi ei uno â chymmedroldeb, dan yr amgylchiadau mwyaf cyfyng, ag a ddangosodd ef yn ei broffes o argyhoeddiadau ei gydwybod. "Amryw flyneddoedd cyn ei fedydd a'i farwolaeth," addefa Gibbon, "yr oedd Cystenyn wedi dadgan i'r byd, na cheid ei weled ef nac eilun o hono byth mwyach tu mewn i furiau teml eilunaddolgar, tra y dosbarthodd drwy y taleithiau amryw fathau o dlysau a darluniau, y rhai a arddangosent yr ymherawdwr yn yr agwedd ostyngedig ac ymbilgar o dduwiolfrydedd Cristionogol." Yn chwanegol at y tystiolaethau hyn o weithrediad crefydd ddiffuant ar ei fywyd ef ei hun, amlygodd tuag at filwyr paganaidd ei fyddin ysbryd o haelfrydedd cyffredinol a duwioldeb synwyrgall, yr hwn nis gellir ei iawn brisio ond trwy ei gyferbynu âg ymddygiad breninoedd Cristionogol oesoedd dilynol, mewn amgylchiadau cyffelyb, tuag at y Protestaniaid, y Puritaniaid, yr Huguenotiaid, neu ryw elfenau ereill gwrthnaws yn mysg eu deiliaid. Dywed Eusebius, fod yr ymherawdwr ei hun wedi cyfansoddi ffurf o weddi i'w defnyddio gan ei holl filwyr, yn y geiriau canlynol, yn Lladin:—"Yr ydym yn dy gydnabod di, yr unig Dduw. Yr ydym yn dy arddel fel ein Brenin, ac yn erfyn am dy gymhorth. Trwy dy ffafr di yr ydym wedi ennill ein buddugoliaethau: trwot ti yr ydym ni yn alluocach na'n gelynion. Diolchwn i ti am dy roddion a aethant heibio, ac ymddiriedwn ynot am fendithion dyfodol. Cydweddīwn ac erfyniwn arnat am i ti adael i ni am hir amser, yn ddiogel a buddugoliaethus, ein ymherawdwr Cystenyn, a'i feibion duwiolfrydig."—[*Eusebius, Vita Constan.*, llyfr iv. pen. 20.] Yn y gydnabyddiaeth hon, trwy weddi, o Fod Goruchel, ac o'i ragluniaeth lywodraethol, nid oes un ymadrodd yn dygwydd wedi ei fwriadu i dramgwyddo y pagan tyneraf ei gydwybod. Ni chrybwyllir enw Crist o gwbl; ac nid oes ynddi un ymgais anuniongyrchol ac annheg i rwydo, megys, yr anghredadyn i gyfaddef y Duw a wrthodir ganddo. Yr ydoedd y wladlywiaeth anymosodol hon, ar yr un pryd, yn hollol gysson â'r cyhoeddiad breninol a annogai ei ddeiliaid Cristionogol yn mhob man i sancteiddio Dydd yr Arglwydd, fel diwrnod o ymattaliad hollol oddi wrth waith a masnach fydol, ac o ymroddiad at ddyledswyddau cyssegredig, gan wneuthur y ddarpariaeth neillduol hon i'r milwyr Cristionogol—bod iddynt gael, ar y diwrnod hwnw, hamdden i fyned i wasanaeth yr eglwys. Y mae y manylion ereill a nodir yn ei gymmeriad yn profi ei fod, mewn pethau bychain yn gystal ag mewn pethau mawrion, yn berffaith gysson. Dywedai Horace am y fath nodweddiad, "*teres totus atque rotundus.*" "Ar un achlysur," medd Eusebius, "gofynais am ganiatad i draddodi araeth ar y pwnc o fedd ein Hiachawdwr yn ei glywedigaeth. Cydsyniodd yn rhwydd â'r cais hwn; a safodd yn nghanol tyrfa luosog o wrandawyr yn y palas i wrandaw megys hwythau. Erfyniais arno i eistedd ar yr orsedd ymherodrol a safai ger llaw, ond yn ofer. Yn mhen ysbaid o amser drachefn, gan fod yr araeth yn lled faith, yr oeddwn yn awyddus fy hunan am derfynu; ond ni chaniatäai ef hyny, ac annogodd fi i fyned yn mlaen hyd ei diwedd. Ar fy ngwaith yn erfyn arno i eistedd drachefn, dymunodd arnaf ymattal, gan ddyweyd nad oedd yn beth iawn gwrandaw mewn agwedd ddiofal ar unrhyw ymdriniaeth â phethau yn dwyn perthynas â Duw, ac nad oedd sefyll ond arddangosiad o barch dyledus tra yn gwrandaw gwirioneddau cyssegredig."—[*Eusebius Vita Constan.*, llyfr iv. pen. 32.] "Esgobion ydych chwi," meddai, ar achlysur arall, pan y cynnaliodd gynnadledd yn y palas: "felly finnau hefyd. Oddi mewn i'r eglwys y mae eich swyddogaeth chwi:—yr wyf finnau wedi fy ordeinio i edrych dros yr hyn a effeithia ar yr eglwys oddi allan."—[*Eusebius*, pen. 24.] Rhydd Eusebius ar ddeall i ni fod ei hynawsedd, a'i adgasrwydd at ddienyddiad fel cosp yn cael eu cario allan i eithafion beius. "Gan y byddai yr ymherawdwr ei hunan yn wastadol yn dueddol i faddeu, ni byddai neb o'r llywodraethwyr taleithiol yn dymuno ymweled â throseddwyr â chospedigaethau haeddiannol. Achosodd hyn lawer iawn o feio ar weinyddiaeth gospedigaethol yr ymherodraeth—pa un bynag ai yn gyfiawn ai peidio, barned pob un drosto ei hun. Nid wyf fi ond yn cofnodi y ffaith."—[*Euseb.*, pen. 31.] Yr oedd ei ddiystyrwch at drachwant a chasglu cyfoeth yn un o'r teimladau na chymmerai un drafferth i'w celu. "Pa mor bell, fy nghyfaill," meddai, wrth un o wŷr ei lys, yn y gobaith o ddangos iddo y ffolineb o gasglu cyfoeth heb ei ddefnyddio, "yr ydym i gario ein chwantau aflywodraethus?" Yna, gan dynu amlinelliad o faintioli y corff dynol ar y ddaiar, gyda gwaewffon a ddygwyddai fod yn ei law, aeth rhagddo—"Pe gellit ennill holl gyfoeth y byd, ie y byd ei hunan, ni bydd yn perthyn i ti yn y diwedd ddim chwaneg o hono nag sydd oddi mewn i'r llinellau hyn; os, yn wir, yr etifeddi gymmaint a hyn; canys nid ydyw yn sicr eto pa un ai dy gladdu yn y ddaiar, dy losgi yn y tân, dy ysglyfio gan ryw anifail gwyllt, ynte boddi yn y môr, fydd dy ddiwedd."—[*Eusebius*, pen. 30.] Ar yr amgylchiad pan y bedyddiwyd ef, y mae yr un gwastadrwydd meddwl i'w ganfod ynddo. Gan orchymyn i'r esgobion ei gyfarfod yn Nicomedia, cyfarchodd hwynt fel hyn: —"Y mae yr amser yr hir ddysgwyliais am dano, gyda dymuniad a gweddi ddifrifol ar fod i mi etifeddu iachawdwriaeth yr Arglwydd, wedi dyfod. Y mae yr awr wedi dyfod yn mha un y gallaf finnau hefyd dderbyn bendith yr arwydd hwn sydd yn cyfranu anfarwoldeb—yr awr yn mha un y gallaf gyfranogi o argraff yr arwydd cadwedigol. Yr oeddwn wedi bwriadu gwneuthur hyn yn nyfroedd afon yr Iorddonen, yn yr hon y cofnodir fod ein Hiachawdwr wedi ei fedyddio er esampl i ni: ond y mae Duw, yr hwn a ŵyr pa beth sydd oreu er ein lles, wedi gweled yn dda i mi dderbyn y fendith hon yn y lle hwn. Bydded felly, gan hyny, yn ddioed; canys os ei ewyllys ef, yr hwn sydd yn Arglwydd bywyd a marwolaeth, ydyw estyn fy einioes, ac os trefnir i mi rhag llaw gael cydweithredu â phobl Dduw, a chyduno â hwynt mewn gweddi fel aelod o'i eglwys, bydd i mi barotoi fy hun, o hyn allan, i fyw math o fywyd cyfaddas i'w wasanaeth." Ar ddiweddiad y ddefod gan yr esgobion, yn ol arferiad y dysgyblion ieuainc yn yr oes hono, gwisgodd yr ymherawdwr ei hun mewn gwisgoedd ymherodrol mor wynion a dysglaer a'r goleuni, a gorweddodd ar esmwythfainc o'r gwyn puraf. O'r amser hwnw allan, gwrthododd wisgo ei hun yn y porphor ymherodrol.—[*Eusebius*, llyfr iv. pen. 62.]

Helen, mam yr ymherawdwr, oedd elusenwraig

(*almoner*) Cystenyn Fawr tuag at y byd Cristionogol. Fe ddylid sylwi fod ei haelioni wedi ei gyfeirio yn benaf at faethle Cristionogaeth; sef, Iudea—o ba le yr oedd ei hynafiaid wedi derbyn y ffydd ar y cyntaf—ac nid tua Rhufain. Tybia rhai, po fwyaf yr ymchwiliwn i weithredoedd Cystenyn a'i fam, mwyaf lluosog yr ymddengys y tystiolaethau uniongyrchol neu anuniongyrchol fod y ddau dan ddylanwad traddodiadau eu cyndadau Prydeinig, mewn eglwys a gwladwriaeth: hefyd, bod amryw o'r gwirebion sydd wedi eu gwasgaru trwy deyrnarchiadau yr ymherawdwr yn darllen megys cyfysgrifau llythyrenol o *Drioedd* cyfreithiol Prydain: ac nad oedd arwydd y groes, ar fathodau yr ymherodraeth, ond parhad, ar raddeg eangach, o'i fabwysiadiad gan y Brenin Lleirwg i'r un dyben.[1] Y mae trosglwyddiad eisteddle yr ymherodraeth i Gaerdroia, ac yna i Byzantium, yn arddangos tueddgarwch teulu yn cyssylltu eu hunain trwy waedoliaeth â'r dwyrain gynhanesol, yn hytrach nag âg Italy hanesol. Y mae y flaenoriaeth bendant a roddir i'r defodau dwyreiniol ar y defodau a'r cyflawniadau Lladinaidd, yn cael ei egluro gan y ffaith fod yr Eglwys Brydeinig, yn mhob un o'r golygiadau hyn, yn ddwyreiniol, ac nid yn Lladinaidd—gan ddilyn yr hyn a elwid *Defodlyfr St. Ioan.* Ar Efengyl Ioan[2] yn unig hefyd y gweinyddid y llw cyfreithiol yn llysoedd gwladol Prydain. Yr oedd y pethau hyn, ac amgylchiadau ereill, yn rhagarwyddo mai Palestina, ac nid Rhufain, a fyddai gwrthddrych penaf y gofal ymherodrol. Ac fel hyn y daeth i ben. Ymddengys mai effaith naturiol ei nodweddiad diargyhoedd a diragrith oedd y dylanwad a feddai Helen ar feddwl cryf ei mab. Gelwid hi yn wastadol yn "Augusta," "yr ymherodres." Gosodwyd eilun o honi ar fathodau aur. Yr oedd ganddi awdurdod oddi wrth yr ymherawdwr ar y trysorfeydd ymherodrol, i'w defnyddio yn ol ei hewyllys a'i doethineb. Yn mhlith y teithi a belydrant ddysgleirdeb ar goffadwriaeth ei mab, y mae y serch mabaidd tra rhagorol hwn yn nodedig, yr hwn a gynnyddai fel yr heneiddiai ei fam. Mewn canlyniad i'w hannogaeth hi, efe a benderfynodd, yn gyntaf, sicrhau sefyllfa y prif leoedd a gyssegrwyd yn Ngwlad Canaan trwy ddygwyddiadau bywyd y Gwaredwr, ac yna eu hanrhydeddu trwy adeiladu eglwysydd coffadwriaethol arnynt. Mewn gwlad mor hynod a Phalestina, ac yn mysg pobl ag oeddynt yn berffaith gydnabyddus â'r lleoedd cyssegredig, yr oedd y gwaith cyntaf yn ddigon rhwydd. Y mae gwrthddadleuon dadleuwyr diweddar gyda golwg ar y pwnc yn gyfyngedig i latheni a modfeddi; a thybir nas gall fod ammheuaeth resymol nad y lleoedd a ddarganfyddwyd drwy Helen yw y "lleoedd sanctaidd." Yr oeddynt wedi eu nodi allan yn rhy fynych gan ymherawdwyr a rhaglawiaid paganaidd fel lleoedd i'w halogi, i'w camgymmeryd gan un ymofynydd, pa un bynag ai credadyn ai anghredadyn a fyddai. Yr oedd teml i Gwener wedi ei hadeiladu ar fan y croeshoeliad; gyda'r dyben, os byddai yn bosibl, trwy y defodau llygredig a gyflawnid o'i mewn, i wneuthur y lle yn adgas a ffiaidd gan y Cristionogion. Yr oedd y deml wedi ei hadeiladu ar domen fawr o bridd, ar wyneb y tir creigiog, a gariwyd yno trwy lafur o bellder dirfawr. Y pryd hwn, trwy orchymyn Cystenyn, dinystriwyd y deml a'r domen, a bwriwyd y defnyddiau i ddyffryn Hinnom. Wrth arloesi y lle, er parotoi at osod i lawr seiliau eglwys Gristionogol yno, gwnaeth Helen, yr hon oedd yn y fan yn bersonol, y darganfyddiad nodedig a adnabyddir mewn hanesiaeth eglwysig wrth yr enw "Caffaeliad y groes." Dywedir iddi gael y groes ar ba un y croeshoeliwyd y Gwaredwr—ac ar yr hon yr oedd eto yn aros, wedi ei thori yn ddwfn, yr argraff driphlyg wreiddiol—mewn ceudwll yn y graig, dan seiliau y deml baganaidd. Y mae y deyrnarch a gyhoeddwyd gan Cystenyn ar yr amgylchiad yn profi ei fod ef, o'r hyn lleiaf, yn foddlawn ar y dystiolaeth a benderfynai mai hono oedd y groes; ac os addefa ef fod y darganfyddiad mor hynod fel yr oedd yn cyfranogi o natur gwyrth, y mae yn rhaid ystyried fod y dybiaeth y rhoddai ei gefnogaeth i dwyll gwybyddus iddo, a hyny yn ngwyneb y byd paganaidd craffus a gwyliadwrus, yn anamddiffynadwy:[1]—

"Cystenyn Maximus Augustus, at Macarius, Esgob Ierusalem.

Y fath ydyw gras y Gwaredwr, fel nad ydyw nerth iaith yn ddigonol i ddysgrifio yr amgylchiad rhyfedd yr wyf yn myned i gyfeirio ato. Canys y mae y ffaith fod cofarwydd ei ddyoddefaint sanctaidd, yr hon a gladdwyd yn y ddaiar er ys cymmaint o amser, wedi aros yn anwybyddus am gynnifer o flynyddoedd meithion, hyd nes yr ail ddarganfyddwyd hi gan ei weision, y rhai sydd wedi eu rhyddhau trwy ei symmudiad ef (Licinius, B.A. 326) yr hwn oedd yn elyn iddynt, yn wirioneddol tu hwnt i bob edmygedd. Pe byddai i bawb a gyfrifir yn ddoeth yn y byd hwn gydymuno yn eu hymdrechion i ddyweyd rhywbeth yn deilwng o'r amgylchiad, byddent yn analluog i gyrhaedd yr amcan yn y radd leiaf. Y mae natur y wyrth hon mewn gwirionedd mor bell tu hwnt i alluoedd rheswm dynol ag ydyw pethau nefol tu hwnt i bethau daiarol. O blegid hyn, fy amcan penaf, ac yn wir fy unig amcan, ydyw, yn gymmaint a bod awdurdod y gwirionedd yn amlygu ei hun yn feunyddiol trwy ryfeddodau newyddion, ar fod i'n heneidiau gynnyddu mewn aiddgarwch, gyda phob gweddeidd-dra ac unfrydedd, dros anrhydedd y ddeddf ddwyfol. Yr ydwyf yn dymuno, gan hyny, yn arbenigol, ar fod i chwi gael eich darbwyllo o'r hyn sydd yn amlwg i bawb ereill, yr wyf yn tybio; sef, nad oes genyf ofal mwy na pha fodd y gallaf yn oreu addurno âg adeilad ardderchog y man cyssegredig, yr hwn, dan arweiniad dwyfol, yr wyf wedi ei ryddhau megys oddi wrth faich gwrthun addoliad eilunod—man sydd wedi bod yn cael ei ystyried yn sanctaidd o'r dechreuad yn nghyfrif Duw,' ond

* [1] Dywed Usher, ei fod wedi gweled un o fathodau Lleirwg (*Lucius*) yn y casgliad Cottonaidd, âg arno eilun o frenin gyda chroes, a'r llythyrenau L U C.—*Uter De Primordiis*, pen iii. td. 39.

[2] "Tri chrair (gwrthddrychau yn rhwymo y gydwybod) er cyn cof y sydd: enw Duw, ffon grair yr hwn a aberth weddi at Dduw, a llaw yn llaw."

"Tri chrair cof y sydd: y groes fendigaid, y Deg Gorchymyn, ac Efengyl Ieuan Sant." — *Trioedd Cyfreithiol Ynys Prydain.*

Oddi wrth yr all grair er cyn cof, "y ffon grair," fe adgofia yr ysgolhaig clasurol yn uniongyrchol am lw Agamemnon yn yr *Iliad* (Ου μα τον σκηπτρον, &c.), yr hwn a osododd i lawr seiliau yr holl gynhenau a'r helbulon dilynol.

[1] Os cariwyd allan, fel y mae yn debygol y gwnaethpwyd, y dynwarediad o freninoldeb a arddangosir yn y goron ddrain, y wisg borphor, y gorsen yn lle teyrnwialen, a'r argraff "Brenin yr Iuddewon," mewn golygiadau ereill, fe wnaethpwyd y groes o goed cedrwydd, yr hwn goed oedd yn dra chyffredin yn Palestina, a'r hwn y gwyddid a gadwai yn ddilwgr, mewn lle sych, am ganrifoedd.

[2] Edrychid ar fynydd Moriah, rhan o ba un oedd mynydd Calfaria, ar ba un yr oedd yr aberth iawnol i gael ei offrymu, er ys canrifoedd cyn sefydliad yr oruchwyliaeth Iuddewig, fel tir sanctaidd. Adnabyddid ef fel "Mynydd yr Arglwydd," yn nyddiau Abraham; *Gen.* xxii. 14.

Digitized by Google

yr hwn sydd yn awr yn ymddangos yn sancteiddiach fyth, gan ei fod wedi dwyn i'r goleuni brawf eglur o ddyoddefaint ein Gwaredwr.

Byddai yn dda i chwi, gan hyny, wneyd y fath drefniadau a darpariadau at bob peth angenrheidiol at y gwaith, nid yn unig fel y byddo i'r eglwys fel cyfangorff ragori ar bob un arall mewn prydferthwch, ond fel y byddo i fanylion yr adeilad fod y fath fel y rhagorant ar adeiladau prydferthaf unrhyw ddinas yn yr ymherodraeth. A chyda golwg ar adeiladiad ac addurniad y muriau, yr wyf yn eich hysbysu fod ein cyfaill Dracilianus, dirprwywr y rhaglawiaid Prætoraidd, a llywodraethwr y dalaeth, wedi derbyn gorchymyn oddi wrthym. Y mae ein cyfarwyddiadau duwiolfrydig iddynt hwy i'r perwyl fod iddynt ofalu rhag llaw am eich cyflenwi â chelfyddydwyr, llafurwyr, a pha bethau bynag a ddeallant drwoch chwi a fyddant yn angenrheidiol at ddwyn y gwaith yn mlaen. Gyda golwg ar y colofnau a'r marmor, pa beth bynag a farnoch fydd yn arbenig werthfawr a gwasanaethgar, ar ol bod yn ystyried y cynllun, byddwch ofalus am anfon gwybodaeth i ni mewn ysgrifen, mewn trefn i ni allu ceisio pa ddefnyddiau bynag, a pha swm bynag o honynt, a farnom yn angenrheidiol oddi wrth eich llythyr, o unrhyw le, fel y byddo eu heisieu. Gyda golwg ar nen yr eglwys, dymunwn gael gwybod pa un a fyddai oreu, yn ol eich barn chwi, ai ei nenfydu, neu ei addurno âg unrhyw fath o grefftwriaeth. Os y nenfwd a fabwysiedir, gellir hefyd ei addurno âg aur. Gyda golwg ar bethau eraill, bydded i'ch sancteiddrwydd roddi gwybodaeth mor gynnar ag y byddo yn bosibl i'r ynadon crybwylledig pa nifer o lafurwyr a chelfyddydwyr, a pha gostau arianol sydd yn angenrheidiol. Byddwch yn ofalus hefyd i anfon adroddiad i ni yn ddioed, nid yn unig gyda golwg ar y marmor a'r colofnau, ond y nenfwd hefyd, os bernwch mai y dull hwn a fydd y dull prydferthaf. Duw a'ch diogela, anwyl frawd."—[*Eusebius*, llyfr iv., pen. 26.]

Dygwyd cyfarwyddiadau yr ymherawdwr i weithrediad yn uniongyrchol, ac adeiladwyd eglwys uwch ben man y croeshoeliad, na bu ei chyffelyb erioed mewn gorwychder; a'r hon y mae yr ysgrifenwyr a'i gwelsant yn nghyflawnder ei gogoniant, cyn iddi gael ei hanrheithio a'i darostwng i'w sefyllfa bresennol gan y barbariaid Saracenaidd a Mahometaidd, yn hoffi ei chymharu âg Ierusalem newydd gweledigaeth Ioan. Cloddiwyd ogof y groes, amgylchwyd hi â cholofnau godidog, a chyfoethogwyd hi âg addurniadau gwerthfawr o bob math. Adeiladwyd yr eglwys ei hunan ar yr ochr ddwyreiniol, yr hon a ymddyrchafa i uchder mawr, a'r hon ydoedd o faintioli dirfawr mewn hyd a lled. Yr oedd y tu mewn iddi wedi ei lorio â llafnau o farmor o wahanol liwiau. Yr oedd arwynebau y muriau wedi eu gwneuthur o feini caboledig. Yr oedd y tu allan i'r tô wedi ei orchuddio â phlwm; ond yr oedd y tu mewn—yr hwn oedd wedi ei orphen â rhwyllwaith cerfiedig, ac yn ymestyn mewn cyfres o ddosbarthiadau cyssylltiedig, megys tonau y môr, dros yr holl eglwys—wedi ei orchuddio yn gwbl â'r aur puraf, yr hyn a barai i'r holl adeilad ddysgleirio megys un adlewyrchydd o oleuni mawr. Ar bob ochr i'r eglwys, tu fewn a thu allan, yr oedd dau gyntedd o ddwy res o bilerau:—yr allanol yn cael ei gynnal gan golofnau o faintioli dirfawr; a'r mewnol yn gorphwys ar bentyrau o geryg wedi eu haddurno yn brydferth ar yr ochr allanol. Yr oedd y mynediad i'r eglwys trwy dri phorth, gyferbyn â pha rai yr oedd y gromen, top pa un a gyfansoddai uchder eithaf yr eglwys. Yr oedd y gromen wedi ei hamgylchu â deuddeg o golofnau—nifer yr apostolion—penau pa rai oeddynt wedi eu haddurno â phelenau mawrion o arian. Amgylchynid y cyntedd nesaf i mewn, yr hwn a amgylchynai yr eglwys, â mûr isel; tu hwnt i'r hwn yr oedd y cyntedd allanol, sef darn helaeth o dir, yn agored i awyr bur y nefoedd, wedi ei addurno â phalmant o farmor, ac yn ymestyn ar dair ochr, gyda phyrth colofnog mewn pellder penodol o gwmpas y cyntedd mewnol. Yn y bedwaredd ochr, gyferbyn âg wyneb yr eglwys, yr oedd y pyrth pres mawrion, o wneuthuriad tra chelfyddgar, trwy ba rai, gan eu bod wedi eu gweithio yn agored, y gallai y neb a elai heibio gael golwg ar yr adeilad orwych. Yr oedd y gofadail eglur hon o ddyoddefaint y Gwaredwr, yr hon a gynhyrfai edmygedd y teithiwr am lawer o ffordd cyn cyrhaedd muriau Ierusalem, wedi ei chyfoethogi yn mhellach âg offrymau dirifedi, o brydferthwch annhraethadwy, mewn aur, arian, a gemau wedi eu gweithio yn fedrus. Gorphenwyd yr holl adeilad, gyda'r addurniadau a'r cynteddoedd, dan arolygiaeth yr ymherodres, mewn llai na dwy flynedd. Gorphenwyd yr eglwysydd a adeiladwyd ar fan yr esgyniad yn Mynydd yr Olewydd, ac uwch ben y preseb yn Bethlehem tua'r un amser. "Anfarwolodd Cystenyn hefyd," medd Eusebius, "trwy ddwyn tystiolaeth anrhydeddus fel hyn o'i barch i'r lleoedd yma, goffadwriaeth ei fam, yr hon oedd yr offeryn drwy ba un y derbyniodd dynolryw y rhoddion gwerthfawr hyn."—[*Eusebius, Vita Constant.*, llyfr iii., pen. i.]

Y mae gwarchodaeth y "lleoedd sanctaidd" hyn ac eraill yn Mhalestina, y rhai a drosglwyddwyd yn awr am y tro cyntaf dan nawdd ymherodrol drwy Helen, wedi bod byth er hyny yn achos neu esgus—o'r cyfnod Saracenaidd, trwy y croesgadau, hyd y rhyfel diweddar â'r ymherodraeth Rwssiaidd, yr hon sydd yn hòni ei hawl trwy ei ddeilliad mamol o Cystenyn, i etifeddu hefyd amddiffyniaeth yr ymherawdwr hwnw i'r ffydd uniongred—o'r chwyldroadau mwyaf yn nhynged dynolryw. Y mae y syniadau gwladol a chrefyddol mewn cyssylltiad â hwy, dair gwaith o'r hyn lleiaf, wedi arwain i ryfeloedd a gyfnewidiasant holl agwedd cymdeithas yn Ewrop ac Asia. Ar y tir hwn yn unig, y mae yr amlygiad ymherodrol cyntaf o honynt yn mhersonau a gweithredoedd Helen a Chystenyn yn teilyngu sylw neillduol.

Nid yw y dybenion ofergoelus i ba rai y gŵyrdrowyd coed y groes wirioneddol, mewn oesoedd dilynol, yn dwyn un math o gyssylltiad â'r ffaith, neu y ffaith dybiedig, o'i ddarganfyddiad. Y mae yn debygol na ddygwyd twyll yn mlaen erioed ar raddeg eangach a mwy ennillgar na thrwy wneuthur croesau ffugiol yn y canoloesoedd—yr hyn ydoedd yn ffynnonell cyfoeth i fynachod diog y dwyrain a chrwydriaid anesmwyth Ewrop. Rhoddwyd attalfa arno o'r diwedd trwy fawredd gwrthuni y peth ei hunan; a darostyngwyd y creiriau y credid yn gyffredinol eu bod yn ddarnau o groes Helen i ychydig iawn o nifer; yn wir, ni addefid fod un o honynt yn gyfryw os nad ellid olrhain eu hanes a'u caffaeliad yn foddlonol hyd ei hamser hi. Yn mysg y rhai hyn yr oedd croes Enych, yr hon a anfonwyd gan Helen i'w brawd Trahaiarn i Brydain, ar ba un y byddai breninoedd Prydain, a thywysogion Cymru ar ol hyny, yn arfer cael eu tyngu ar adeg eu coroniad. Trosglwyddwyd hi gyda pharchedigaeth arbenig am amryw oesoedd trwy deulu breninol Cymru; ac o'r diwedd, ar gwymp y tywysog diweddaf, Llywelyn, cymmerwyd hi oddi ar berson

Digitized by Google

berson ei frawd, y tywysog Dafydd, a rhoddwyd hi, yn nghyd â theyrndlysau Cymreig ereill, i Edward I. yn Rhuddlan. Cymmerodd Edward fantais oddi wrth fod y groes yn ei feddiant i wysio y prif farwniaid a'r clerigwyr i ddyfod i'w gyfarfod, er chwanegu y dyrfa a'i dilynai yn ei fynediad buddugoliaethus i Lundain. Gan gerdded o flaen yr orymdaith, cariai yn uchel yn ei ddwylaw y groes Enych; ac wedi myned i fynachlog Westminster, cyflwynodd hi yno yn mhresennoldeb ei lys ar allor Pedr. Gan fod y tywysogion Cymreig wedi cadw draw oddi wrth y croesgadau, a chan y dywed rhai y gellir olrhain y crair hwn yn ol i amseroedd lawer cyn yr adeg yr oedd Pabyddiaeth yn arglwyddiaethu yn Mhrydain, a'i fod wedi cael ei ystyried yn wastadol fel rhodd Helen i'w theulu, felly y mae ei hanes yn ein cyflenwi â dolen arall yn y gadwen ag sydd yn cyssylltu Cystenyn a'i fam â Phrydain, ei gorsedd, a'i heglwys yn y gorllewin.

Gadewch i ni yn bresennol ddychwelyd at sefyllfa yr Eglwys Brydeinig ei hunan. Yr ydym wedi gweled fod y *Trioedd Hanesol* yn ystyried Cystenyn fel adferwr, os nad fel sefydlydd, archesgobaeth Caerefrog. Yr oedd y Donatiaid—plaid luosog a dylanwadol—wedi gwneyd appeliad at Cystenyn yn erbyn y ddedfryd o gondemniad a draddodasid ar eu daliadau gan y gynnadledd o dduwinyddion Affricanaidd. Cydsyniodd Cystenyn â'u cais, a gwysiodd gynghor o appeliad, i fod yn gynnwysedig o esgob a henuriad o bob talaeth o'r Eglwys Orllewinol, i gael ei gynnal yn Arles. Yr oedd Eglwysi Gâl a Phrydain y pryd hyn mewn undeb â'u gilydd, ac yn annibynol ar unrhyw berthynas rhyngddynt ac esgob Rhufain, oddi eithr yr un berthynas ag oedd rhyngddynt a phob eglwys arall yn y byd Cristionogol. Cynnrychiolid tair talaeth eglwysig Prydain gan Eboricus, archesgob Caerefrog; Restitutus, archesgob Llundain; ac Adelphius, archesgob Caerlleon; a phob un â'i henuriad gydag ef. Llywyddai Cystenyn yn bersonol ar yr achlysur. Anfonwyd penderfyniadau y gynnadledd i Rufain, gyda gorchymyn am i'r esgob eu cyhoeddi yn y brif ddinas. Y mae y sefyllfa o drefn a rhyddid yr oedd yr holl eglwysi gorllewinol ynddo am ddeng mlynedd (B. A. 316) cyn i farwolaeth Licinius ryddhau y dwyrain oddi wrth ei gaethiwed, yn dangos pa mor llwyr yr oedd gwladlywiaeth Gristionogol Cystenyn wedi ennill tir, ac wedi ymsefydlu yn ei diriogaethau ef ei hun, tra yr oedd paganiaeth eto yn llywodraethu dros hanner yr ymherodraeth. Gwelwn fel hyn ryddfreiniad yr eglwys yn croesi y sianel o Brydain i Ffrainc yn gyntaf, gan ymestyn i Italy, ac i'r gwledydd ar yr ochr ddwyreiniol o'r Môr Adriataidd. Yr ymherawdwr oedd y llywydd yn nghynghor cyntaf yr eglwys ar ol ei rhyddfreinio. Ar y llaw arall, nid ydym yn canfod fod esgob Rhufain wedi cymmeryd unrhyw ran yn y symmudiad mawr hwn tuag at ryddid crefyddol. Yr oedd mor bell oddi wrth hyny, fel yr oedd ei olynwyr am ganrifoedd yn seilio eu hawl i annibyniaeth taleithiau yr eglwys ar eu gwaddoliad honedig gan yr ymherawdwr Prydeinaidd iddynt hwy. Trwy hyn, yn ol eu tystiolaeth hwynt, deilliai mantais fydol fawr iddynt oddi wrth y chwyldroad moesol na chymmerasant un rhan ynddo. Nid ydyw yn angenrheidiol dwyn yn mlaen ar y pwnc hwn ond awdurdodau y Pabyddion eu hunain. Os ydyw gwaddoliad Cystenyn, fel y mae amryw o'u hysgrifenwyr yn haeru hyd yn bresennol, yn ffaith hanesyddol, y mae yn eglur fod Eglwys Rhufain, yn y bedwaredd ganrif, yn ddyledus am ei thiriogaethau —fel yr oedd hefyd yn ystod y canrifoedd dilynol i raddau mawr am ei chynnaliaeth—i deulu breninol Prydain. Os ffugiol oedd y gwaddoliad, eto fe gyrhaeddodd ei amcan trwy ymdrechion galluog Adrian I, a Leo III; canys fe gadarnhawyd y ffugiant ar y grediniaeth ei fod yn ddilys gan yr ymherawdwr Carlo Mawr, yn y nawfed ganrif; ac er y pryd hyny, y mae y pabau wedi bod mewn meddiant sicr o'r tiriogaethau hyn. Y mae y rhwymedigaethau tymmorol gan hyny rhwng Prydain a Rhufain, yn y tair canrif cyntaf, yn hollol ar ochr y ddiweddaf. Yn wir, y mae y dadganiad fod Eglwys Rhufain yn ddyledus i deulu breninol Prydain a Christionogaeth am ei lle cyntaf o addoliad yn ei dinas ei hun, sef St. Pudens neu Pastor, yn gystal ag am ei thir, yn cael ei brofi gan y tystiolaethau a ddygir yn mlaen ganddi hi ei hun, ac ar ba rai y mae wedi sefyll amryw weithiau yn hawyddiannus ger bron y byd gwladol ac eglwysig. Yr oedd y raddeg ar ba un y cymmerodd chwyldroad Cystenyn le mor eang, ac fe saif y moddion trwy ba rai y dygwyd ef oddi amgylch mor eglur o flaen ein llygaid, fel y maent oll yn eiddo ymherodraeth yn cael ei llywodraethu trwy athrylith berffaith. Nis gallwn ganfod un radd o gynnorthwy, er ei hyrwyddo na'i attal, yn deilliaw o Rufain nac Italy: er y bu raid i'r ymherawdwr Prydeinig ymladd tair o frwydrau gwaedlyd ar ran pob un o honynt cyn y gallesid eu gwaredu oddi wrth y gorthrwm anobeithiol a ddyoddefent dan Maxentius. Deilliodd rhyddid Cristionogaeth, yn gystal a'i sefydliad yn Italy, a gwledydd ereill y byd Cristionogol, o Brydain. ar adeg pan yr oedd Rhufain ei hun, yn nghyd â'i hesgob, yn griddfan yn ddigymhorth dan orthrwm y llywodraeth baganaidd. Nid oes un ffaith mewn hanesiaeth wedi ei phrofi mor benderfynol. A barnu oddi wrth dair canrif cyntaf y cyfnod Cristionogol, nis gall fod dim yn fwy Ysgrythyrol neu resymol na'r cydgyfathrach a fodolai rhwng Eglwys Prydain ac Eglwys Rhufain. Y mae arwiredd Eleutherus, yn ei lythyr at Lleirwg—"mai brenin Prydain, ac nid neb arall, ydyw rhaglaw Duw yn ei diriogaethau ei hun"—yn gysson âg egwyddorion ein cyfansoddiad Protestanaidd, ac yn hollol wrthwynebol i holl honiadau Rhufain ar ol iddi fyned yn Babaidd. Nis gallwn, yn wir, hyd yn mhell ar ol marwolaeth Cystenyn, ganfod dyfodiad cyntaf y cysgodau a ragarwyddent gyfnewidiad y Rhufain gyntefig i'r Rhufain Babaidd. Cyn ei esgyniad ef, y mae yn dyfod yn wastadol ger ein bron fel eglwys ferthyredig, ac, mewn cyferbyniad i'r Eglwys Brydeinig, yn eglwys ostyngedig a thlawd—yn gyfoethog yn rhinweddau gwerthfawrocaf y bywyd efengylaidd, ond mewn golygiad bydol yn y sefyllfa ei dysgrifir gan Pius, ei hesgob, sef "*Pauper sanctus Christo.*" Yn ol y syniadau blaenorol, pa rai sydd yn cael eu hystyried yn gywir gan ddosbarth mawr o haneswyr ein cenedl, y mae perthynas agos yn bod rhwng Prydain, cyn iddi fyned yn Babaidd, a Rhufain cyn iddi fyned felly hefyd; ac y mae tebygolrwydd yn bod rhwng yr egwyddorion ar ba rai y darfu i eglwys genedlaethol y deyrnas hon, yn y Diwygiad, hòni ac amddiffyn ei rhyddid, a'r egwyddorion y dadleuai Cystenyn drostynt, mor bell ag y gallant farnu oddi wrth dystiolaethau yr haneswyr mwyaf teilwng o ymddiried.

Digitized by Google

Yn ol tystiolaeth prif awdurdod hanesyddol Eglwys Rhufain, Baronius, yr hwn a gadarnheir yn y golygiad hwn gan lawer o ysgrifenwyr ereill o'r un grefydd ag ef ei hun, yn mysg yr anrhegion a roddodd y buddugoliaethwr Prydeinaidd i eglwys foreuol Rhufain, yr oedd palas y Lateran:—"Ar ei ymweliad cyntaf â Rhufain, B. A. 312, ar ol cwymp Maxentius ar bont Milvian, rhoddodd Cystenyn balas y Lateran, yr hwn a adnabyddid yn flaenorol wrth yr enw Fausta Ædes, i Melchias, y Prydeiniwr, i gynnal ynddo ei gynghorau parthesgobol dros y dalaeth faesdrefol, i ba un yr oedd ei awdurdod esgobol yn gyfyngedig y pryd hyny. Parhaodd o hyny allan yn breswylfod i'r esgob. Trosglwyddodd hefyd i'r esgob a'i olynwyr dros byth, yn chwanegol at balas y Lateran, y cyllid oedd mewn cyssylltiad â'r swydd baganaidd oedd wedi ei diddymu; sef y *Pontifex Maximus*."[1]

Yr oedd y fath waddoliad yn gysson âg arferiad duwiolfrydig ei hynafiaid, âg anrhegion Pudentiana, ac â'i haelfrydigrwydd tuag at esgobaethau ereill yn ei diriogaethau.

Oddi eithr y ddadl dduwinyddol a gyfododd ynddi yn achos heresi Arius, yr hon y gwnaeth yr ymherawdwr ei oreu er ei darostwng, parhaodd yr eglwys yn yr un sefyllfa, yn fewnol ac yn allanol, ag y gosodwyd hi ynddi gan ei deyrnarchiadau, dros ystod gweddill ei deyrnasiad.

Gwnaethpwyd y flwyddyn 328 B. A. yn hynod gan farwolaeth Helen. Profir fod y dysgrifiad a roddir gan Eusebius o'r wraig ragorol hon yn rhydd oddi wrth weniaith gan gyfres hirfaith o'i gweithredoedd rhinweddol. Yr oedd wedi mwynhau am lawer o flyneddoedd fywyd hyfryd a thawel; yr hyn ydoedd yn dra gwahanol i sefyllfaoedd y mamau ymherodrol a'r ymherodresau a'i blaenorent. Parhaodd ei galluoedd meddyliol a chorfforol yn gryfion hyd y diwedd. Cyn ei marwolaeth, aeth i ymweled, am y tro diweddaf, mewn gorwychder cyfatebol i'w sefyllfa, âg eglwysi Palestina, gan roddi profion lluosog o'i haelfrydedd i ddinasoedd a phersonau unigol, yn neillduol i hen filwyr a berthynent i fyddinoedd ei mab. Yr oedd ei hanrhegion i'r tlawd, yr amddifad, y carcharor, y caethwas, a'r alltud, yn ddiderfyn. Nid esgeulusid tai addoliad y pentrefydd lleiaf; gwelid Helen, mewn gwisg syml a gweddaidd, yn ymgymmysgu ynddynt â'r dyrfa o addolwyr gwladaidd. Gan deimlo, pan yn bedwar ugain mlwydd oed, arwyddion o'i hymddattodiad, gwnaeth ei hewyllys yn ffafr ei mab a'i hwyrion; ac yn fuan ar ol hyny, bu farw yn dawel yn mreichiau yr ymherawdwr, yr hwn a weinyddai arni ar y pryd, ac a ymaflai yn ei dwylaw. Anaml y bydd penau coronog yn cyfarfod â'r fath farwolaeth hapus. Yna, cludwyd ei chorff i'r ddinas gan osgordd luosog o filwyr, a dodwyd ef mewn bedd breninol; a Chystenyn ei hun, yn nghyd â deg a thrigain o esgobion, yn cyflawnu y defodau angladdol.

Bu Cystenyn fyw ar ei hol am ddeng mlynedd. Parhaodd ei nerth corfforol hyd ei bedwaredd flwyddyn a thrigain—y flwyddyn y bu farw—heb ei niweidio gan ddim. "Yn yr oedran hwn," medd Eusebius, "yr oedd yn meddu eto gorff iachus a chryf, rhydd oddi wrth bob anaf, ac o fywiogrwydd bachgenaidd; o osgedd urddasol, a nerth cyfartal i unrhyw ymegniad. Parhaodd i gyfansoddi traethodau ar amrywiol bynciau, i draddodi areithiau mynych yn gyhoeddus, ac i addysgu ei wrandawyr yn athrawiaethau sanctaidd crefydd. Gan fod y Persiaid yn bygwth ymosod ar gyffiniau yr Euphrates, hysbysodd yr ymherawdwr fod dymchweliad y gelyn hwn eto wedi ei adael iddo ef, a gorchymynodd ar fod i babell gael ei gwneuthur ar ffurf eglwys, i'w ddilyn megys capel symmudol yn ei ymgyrch. Clywodd y brenin Persiaidd am y darpariadau oedd yn myned yn mlaen; ac mewn canlyniad, anfonodd ddirprwyaeth i erfyn am ammodau heddwch, yr hyn a ganiatawyd yn uniongyrchol. Yn ystod gŵyl y Sulgwyn y teimlodd Cystenyn arwyddion cyntaf anhwyldeb; a dychwelodd i faddonau cynhes Nicomedia, gan obeithio am adferiad iechyd. Tra yn y lle hwn, ymaflodd afiechyd trwm yn ei gyfansoddiad; ac ar ol cystudd byr, bu farw Mai 22ain, B. A. 337. Gan gael ei barchu yn gyfartal ar ol ei farwolaeth ag yn ei fywyd, yr oedd yr arddangosiadau o alar a ddilynodd yn fwy na dim o'r fath a gofnodwyd er amser Augustus. Rhwygodd y ffynwewyr a'r corffosgordd ymgasgledig eu dillad, gan daflu eu hunain ar y ddaiar, a chydnabod yr ymadawedig fel eu tad, eu gwaredwr, a'u noddwr. Yr oedd y gweddill o'r milwyr wedi eu suddo mewn galar dwfn. Rhedai y dinasyddion yn wylltion ar hyd yr heolydd cyhoeddus, gan arddangos eu colled mewn ymadroddion gofidus a thorcalonus. Cludwyd y corff, yn ol cyfarwyddyd yr ewyllys, i Gaer Cystenyn. Yma, dodwyd ef mewn sefyllfa uchel yn mhrif neuadd y palas ymherodrol, wedi ei amgylchu â chanwyllau goleuedig mewn canwyllbrenau aur. Dodwyd arno yr arwyddion o freniniaeth ddaiarol yr oedd wedi peidio â'u gwisgo cyn ei farwolaeth:—y goron, y deyrnwialen, a'r wisg borphor. Cedwid gwyliadwriaeth fanwl drosto ddydd a nos. Parhäai y swyddogion milwrol o'r radd uchaf, yr ieirll, a'r holl ynadon, y rhai oeddynt wedi bod yn arfer a phlygu eu gliniau i'r ymherawdwr cyn ei farwolaeth, i gyflawnu y gwasanaeth hwn yn ddiwahaniaeth; äent i mewn i'r ystafell yn yr amser penodedig, ac ymgryment i gorff eu hymherawdwr megys pe buasai yn fyw. Ar eu hol hwy, ymddangosodd y seneddwyr, a phawb ag oeddynt wedi derbyn unrhyw swyddau anrhydeddus, a thalasant yr un ymostyngiad. Dilynwyd y rhai hyn gan dyrfaoedd o bob gradd, y rhai a ddeuent â'u gwragedd a'u plant i weled yr olygfa. Parhawyd i roddi yr anrhydedd hwn am gryn amser, gan fod y milwyr wedi penderfynu gwylio y corff hyd nes y deuai meibion yr ymherawdwr i gymmeryd arnynt drefniadau y claddedigaeth. Yn y cyfamser, dewisodd y tribuniaid, o blith y milwyr ag oedd dan eu llywyddiaeth, y swyddogion hyny, ffyddlondeb a sel pa rai oedd yn wybyddus er ys hir amser i'r ymherawdwr, ac anfonwyd hwynt gyda hysbysiaeth am y dygwyddiad galarus at y Cæsariaid. Cyflawnasant gan hyny y gwasanaeth hwn. Mor fuan ag y clywodd y byddinoedd trwy yr holl daleithiau y newydd, ymrwymasant yn unfryd i beidio cydnabod neb ond meibion yr ymherawdwr diweddar yn Augustiaid ar y byd Rhufeinig. Pasiwyd yr un penderfyniad yn senedd Rhufain ac yn nghynghor Caer Cystenyn. Pan y cyrhaeddodd y Cæsariaid, cyflawnwyd y defodau angladdol yn fanwl a gweddus. Yn eglwys yr apostolion,

[1] *Baronius Annales Ecclesiast.*, *in an.* 312. Yn chwanegol at y gwaddoliadau hyn, adeiladodd Cystenyn eglwys i Pedr, un i Paul, un i'r ddau apostol, un yn ngerddi Æquitius, un yn chwareudy Sessonia, un i'r Groes Sanctaidd, un i St. Agnes, un i St. Lamentius yn Heol Tiburtina, un i St. Marcellinus yn Heol Lavicana, un yn Ostia i'r ddau apostol, ac ereill yn Alba, Capua, a Naples.

Digitized by Google

yr hon a adeiladesid i'r dyben penodol hwn gan Cystenyn, y claddwyd ei gorff, yn ngwyddfod tyrfa fawr. Yr oedd y gynnulleidfa yn ymuno â'r esgobion yn nghyflawniad y defodau arferol. Yn ystod y rhyngdeyrnasiad o dri mis a ddilynodd, parhëid i anfon yr holl gyhoeddiadau ymherodrol yn ei enw ef. "Fel hyn," chwanega Eusebius, o'r hwn y dyfynasom y manylion blaenorol, a'r hwn oedd yn bresennol ei hunan, "y parhäai Cystenyn i lywodraethu hyd yn oed yn ei fedd. Efe ydyw yr unig frenin y goddefwyd iddo deyrnasu ar ol ei farwolaeth, ac a dderbyniodd yr un ymostyngiad gwirfoddol oddi wrth ei ddeiliaid yn ei arch ag ar ei orsedd; yr hyn oedd yn arddangosiad, gallem dybio yn ostyngedig, o'r ymherodraeth anfarwol y bwriedid i'w enaid ei mwynhau."

Dyna y fath oedd diwedd gyrfa anghymharol orwych a chysson y tywysog Prydeinig, i'r hwn y mae Cristionogaeth, gwareiddiad, a dyngarwch, yn fwy dyledus nag i'r holl gyfres o ymherawdwyr a'i rhagflaenorent yn llywodraeth yr hen fyd, o Julius hyd Maximian.

Ni a roddwn yma daflen a ystyrir yn gywir gan nifer mawr o haneswyr ein cenedl, yr hon nid yw ond yn rhoddi amlinelliad bras o'r gwahanol gyssylltiadau teuluol, yn enwedig yn y rhanau diweddaf o honi.

TAFLEN O FRENINOL DEULU CRISTIONOGOL PRYDAIN, AT YR HON Y CYFEIRIR MEWN RHAI ERTHYGLAU YN Y GWAITH HWN.

Beli Mawr (c. c. 100).
- Caswallawn.
- Lludd (c. c. 50).
  - Llyr (B. A. 10).
    - Caradog, neu Caractacus (B. A. 50).
      - Pudens=Claudia.
        - Timotheus, Novatus, Praxedes.
      - Linus, neu Cyllin Sant (B.A. 80), esgob cyntaf Rhufain.
        - Coel (B.A. 120.)
          - Lleirwg (B.A. 124—200)=Gwladys, neu Claudia (merch).
      - Eigen=Sarllog, Arglwydd Caersarllog neu Sarum.
  - Cynfelyn (B.A. 10—40).
    - Gwydyr a Meurig (B. A. 40—90).
      - Meurig (B. A. 90—120).
        - Eigen (merch).
          - Gwladys, neu Claudia (merch).

Lleirwg=Gwladys
- Cadfan=Gwladys II. (Tywysog Gwynedd)
  - Llywelyn.
    - Teyrnach Llywelyn yn Nghymru (B.A. 360—1280).
      - Teyrnach Tudur (B.A. 1485—1600).
        - Ein brenines Victoria.
  - Meurig.
  - Trahaiarn.
    - Cystenyn, ymherawdwr y gorllewin (B.A. 460).
      - Emrys (B.A. 460).
        - Uthr Bendragon (B.A. 490).
          - Arthur (B.A. 490—550).
  - Stader Brydferth=Coel, brenin Caercoelin (B.A. 232).
    - Helen=Cystaint, yr ymherawdwr (B. A. 248—328).
      - Fausta=Cystenyn Fawr (B.A. 265—336).
        - Cystenyn II.
        - Cystaint II.
          - Teyrnach Byzantiaidd yr ymherodraeth ddwyreiniol.
          - Helen, neu Olga (B.A. 950).
            - Teyrnach ymherodrol bresennol Rwssia, yr hon sydd yn hòni ei hawl drwy y cyfryw ddeilliad i lywodraeth dreftadol yr Eglwys Ddwyreiniol, ac i Cæsariaeth neu Czariaeth y dwyrain.
        - Constans.
        - Helen = Julian y Gwrthgiliwr, ei chefnder.

Y mae mwy o gyfiawnder wedi ei wneyd âg enwogrwydd Cystenyn gan lais cyhoeddus y byd Cristionogol na chan ysgrifellau haneswyr. Y mae yn anmhosibl o'r braidd arfer gormodiaith am fawredd ei nodweddiad a'i orchestion. Yr oedd yn gyfartal âg Alexander mewn nerth corfforol, yn rhagori arno mewn ymddangosiad personol; arddangosai ei fuddugoliaethau yr un eangder, yr un cyflymder beiddgar yn eu dygiad yn mlaen; ond ennillwyd hwynt ar elynion galluocach, dewrach, ac wedi eu dysgyblu yn amgenach. Yr oedd ei faesgyrchoedd yn erbyn y Gothiaid a'r Ffrancod, yn nghyflawnder eu llwyddiant, yn tra rhagori ar eiddo Trojan yn erbyn y Dariaid, tra na nodwyd ei symmudiadau yn erbyn ei gydymgeiswyr Rhufeinig erioed, megys y gwnaed âg eiddo Cæsar yn Dyrrhacium, â dymchweliad. Mewn golygiad milwrol, fe saif yn oruchaf yn mysg y cadfridogion enwocaf—sef Hannibal, Scipio, Cæsar, Alexander, Marlbo-

Digitized by Google

rough, Napoleon, a Wellington—gyrfaoedd pa rai sydd wedi eu cyssylltu â chwyldroadau y byd. Ond y mae y teithi hyn wedi colli, o'r braidd yn hollol, yn y teithi moesol rhagorach trwy ba rai y galluogwyd ef i fod yn rhyddhawr y byd Cristionogol. Y mae hyn wedi dygwydd i'r fath raddau fel yr ymddengys fod rhyw ddosbarth o haneswyr, wrth farnu ei weithredoedd eglwysig, wedi anghofio mai beirniadu gwladlywiaeth bwyllog y meddwl galluocaf yn nghyfres hirfaith yr ymherawdwyr Rhufeinig yr oeddynt. Y maent yn ysgrifenu fel pe byddent yn adrodd rhinweddau meudwy crefyddol, ac nid gyrfa y buddugoliaethwr a'r gwladweinydd mwyaf ymarferol. Fe betrusa y Cristion sydd yn wrthwynebol i bob ffurf o Gristionogaeth sefydledig, rhag edrych ar nodweddiad ac egwyddorion Cystenyn yn hollol yn yr un goleuni ag y dangosir hwynt weithiau. Efe a gyfeiria at ddadleuon cynghorau ac ymyriad gwladweinwyr fel brychau greddfol yn yr eglwys o'r amser hwnw hyd yn bresennol. Nis gellir gwadu nac ysgafnhau dim ar y drygau mawrion hyn; ond dylem fod uwchlaw rhagfarn yn erbyn pob daioni a wnaeth Cystenyn, yn unig o herwydd iddo fethu yn sefydliad Cristionogaeth trwy gyfraith. Y pwnc a ystyriai Cystenyn ag oedd i'w benderfynu ganddo ydoedd, nid rhwng un blaid o Gristionogion a phlaid arall, ond rhwng Cristionogaeth ei hunan, ar ei seiliau eangaf, a phaganiaeth greulawn ac erlidgar. Yr oedd yn rhaid i anfanteision bychain dirifedi gilio oddi ar ffordd gorchest ardderchog o'r dysgrifiad hwn, yr hon a ddylanwadai—yn mhell tu hwnt i'r dylanwad a weithredid er drygioni gan wladweinwyr ac esgobion hunangeisiol—yn mhob bwthyn, ac ar bob person unigol ag oedd yn ddeiliad o'r cyfreithiau Ewropaidd. Y mae y cynllun yn mha un y dygodd Cystenyn Gristionogaeth sefydledig i'r byd, yn aros, yn ei brif nodweddau, o'r braidd yn debyg fel yr oedd. Mae ei ddiddymiad o arferion a defodau gwaedlyd, ei ddeddfau er cadwraeth Dydd yr Arglwydd, er adrodd gweddïau ac erfyniadau ar ran llywodraethau, er cynnaliaeth i glerigwyr, ac er cadw yr adeiladau eglwysig mewn cyflwr da—ond eu bod wedi eu hamrywio gan ffurflywodraethau gwahanol wledydd—wedi bod yn cael eu cadw yn wastadol o hyny hyd yn bresennol drwy yr holl deyrnasoedd a ffurfient daleithiau ei ymherodraeth. Nid oes deddfau mwy sefydlog, mwy cyffredinol, mwy gwasanaethgar i fanteision penaf dynolryw, ac uniondeb llywodraethau, wedi eu gwneuthur gan un deddfroddwr nag a wnaed gan Cystenyn. Y mae y safon y rhaid fod nodweddiad o'r fath yma ynddi yn bresennol, yn yr hwn y cyfarfyddai y fath deithi godidog, a gwrthwynebol i ymddangosiad, yn sicr o barhau yn un o'r uchder eithaf. Y mae y gerfddelw ar ba un yr ydym yn edrych yn un o brydferthwch arwrol a maintioli aruthrol; yr hon a gynnyrcha yn yr edrychydd syniadau o ddychryn ac arswyd, yn hytrach nag awydd i efelychu ei gwrthddrych.

2. CYSTENYN (GORONAWG). Yn ol y *Brutiau*, mab oedd i Cador, yr hwn a ddilynodd Arthur ar orsedd Prydain, yn y flwyddyn 542 B.A. yn ol dymuniad yr olaf; canys mab oedd Cador i Gorlais, iarll Cernyw, o Eigr, mam Arthur, merch Amlawdd Fawr. Ymladdodd Cystenyn amryw frwydrau â'r Saxoniaid, y rhai a gynnorthwyent feibion Modred yn eu hymosodiadau arno; ond yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, lladdwyd ef gan Cynan Wledig, a chladdwyd ef yn Nghôr y Cawri, yn Salisbury, yn agos i Uthr Bendragon.

3. CYSTENYN (GORNEU). Mab ydoedd i Cynfar, ap Tudwal Mwynfawr, ap Cadfan, ap Cynan Meiriadog, ap Eudaf, ap Caradawc, ab Brân, ab Llyr Llediaith. Yr oedd yn daid i'r brenin enwog Arthur; a gelwir ef yn fynych Cystenyn Fendigaid; ac weithiau Cystenyn Llydaw, o blegid mai o Lydaw y daeth i'r wlad hon, lle yr oedd ei deulu wedi bod yn trigo er amser Cynan Meiriadog. Pan y canfyddodd y Prydeiniaid eu bod yn analluog i wrthsefyll ymosodiadau y Ffichtiaid, anfonasant ddirprwyaeth i erfyn cynnorthwy y Llydawiaid; ac anfonwyd Cystenyn mewn canlyniad i hyny gan ei frawd Aldor, yr hwn oedd erbyn hyny wedi cyrhaedd i'r orsedd, gyda byddin o ddwy fil o wŷr, i'r wlad hon; ac ar ol gorchfygu y gelynion mewn amryw frwydrau, dewiswyd ef yn frenin ar Brydain tua'r flwyddyn 433 B.A. Dywedir fod Cystenyn wedi priodi merch i benaeth Rhufeinaidd, ac ymddengys, yn ol *Llyfr Llandaf*, fod ganddo ferch, yr hon a ymbriododd â Phebiau, mab Erb, brenin Gwent ac Ergyng, a'r hwn oedd yn gefnder i Tewdrig ap Teithfallt, brenin Morganwg, a thaid i Dyfrig, archesgob Llandaf. Y mae yn debygol mai Cystenyn a sefydlodd eglwys Llangystenyn, yn Ergyng; yr hon a roddwyd wedi hyny gan ei tab yn nghyfraith Pebiau i eglwys Llandaf. Gellir gweled copi o'r rhodd yn y *Liber Landavensis*, td. 314—315. Yr oedd gan Cystenyn amryw feibion; yr hynaf o ba rai, Cystaint, ar farwolaeth ei dad, yr hwn a lofruddiwyd gan y Ffichtiaid tua'r flwyddyn 442 B.A., a'i dilynodd i'r freniniaeth; ond llofruddiwyd yntau drachefn, yn mhen pum mlynedd, gan Gwrtheyrn Gwrtheneu, yr hwn a drawsfeddiannodd y llywodraeth, a'r hwn, fel yr ymddengys, oedd yn meddu tiriogaethau ar y cyntaf yn sir Faesyfed, y rhai a elwid Gwrtheyrnion, a'r rhai a ymunent âg Ergyng; yr hyn a brawf i ryw raddau fod Cystaint a Gwrtheyrn yn freninoedd cymmydogaethol, yn gystal ag yn freninoedd cydymgeisiol. Heb law Cystaint, a gwraig Pebiau, yr oedd gan Cystenyn amryw blant ereill, enwau pa rai sydd yn mysg y rhai mwyaf nodedig yn hanesiaeth yr amseroedd hyny: y rhai hyny oeddynt Emrys Wledig, neu Ambrosius; Uthr Bendragon; Erbyn, brenin Cernyw; a Lligain: y diweddaf o ba rai a fu byw bywyd "sanctaidd," ac efe a sefydlodd Langernyw, sef eglwys a fodolai unwaith yn Ergyng. Rhestrir Cystenyn Fendigaid yn y *Trioedd* fel un o dri "estron deyrn" Ynys Prydain: y ddau ereill oedd Gwrddyled Gawr, a Morien Farfawg [*Myf. Arch.*, ii. 64]. Tybir fod Llangystenyn, eglwys yn sir Gaernarfon, yn agos i Aberconwy, wedi ei chyflwyno iddo.—(*Williams' Biog. Dict. of Emin. Welshmen.*)

CYSTUDD—IEDIG: trallod, gofid, helbul, ing, cyni, cyfyngder, adfyd o unrhyw fath: *Gen.* xvi. 11. Pan y cystuddier pechaduriaid anedifeiriol, y mae yn gospedigaeth haeddiannol, ac yn deilliaw oddi wrth ddigofaint cyfiawn Duw, yr hwn yn y diwedd a fydd yn ddinystr tragwyddol iddynt: *Nah.* i. 9; *Rhuf.* ii. 8; 2 *Thes.* i. 6. Y mae cystuddiau y saint yn cael eu gosod allan yn yr Ysgrythyrau fel wedi eu *happwyntio;* 1 *Thes.* iii. 3; *Iob* v. 6, 7:—fel yn *lluosog; Salm* xxxiv. 19:—fel yn *ysgeifn* ac o *fyr barhad;* 2 *Cor.* iv. 17; *Heb.* x. 37:—a phan wedi eu sancteiddio,

Digitized by Google

fel yn *fuddiol* a *llesol*; 1 *Pedr* i. 6; *Salm* cxix. 67, 71. Y maent yn diddyfnu oddi wrth y byd, yn gweithio ymostyngiad, yn cynnyrchu gostyngeiddrwydd, yn annog at ddyfalbarhad, yn cymhell gweddi, ac yn cynnyddu hefyd y ddelw ddwyfol. Er mwyn eu goddef gydag amynedd, dylem ystyried ein hannheilyngdod, amcan Duw yn eu rhoddi, yr addewidion am gynnaliaeth o danynt, a'r daioni a gynnyrchant. Ni ddisgynodd cystuddiau dyn da erioed, medd un ysgrifenydd, heb reswm dros hyny, ac ni anfonir hwynt ond ar neges briodol. Ni chaniateir i'r ystormydd hyn gyfodi ond mewn trefn i ysgubo ymaith niwloedd niweidiol, ac adferu iachusrwydd i'r awyrgylch foesol. Pwy a fuasai yn dychymygu, ond gweled y ddaiar am y tro cyntaf erioed yn nghanol y gauaf, wedi ei chloi i fyny gan rew, neu ynte wedi ei mwydo gan lifogydd, neu wedi ei gorchuddio gan eira, fod natur, yn y sefyllfa farwaidd a llom hon, yn gweithio yn mlaen at ei hadnewyddiad ei hun yn y gwanwyn. Eto, nyni a wyddom trwy brofiad fod cyfnewidiadau y gauaf yn angenrheidiol er ffrwythloni y ddaiar; a bod, yn gorwedd yn guddiedig dan y gwlawogydd a'r eira, hadau y rhosynau a flodeuant yn y gwanwyn, y ffrwythau a addfedant yn yr haf, a'r ŷd a'r gwin a wnant i galon dyn lawenychu yn y cynauaf. Byddai tywydd hyfryd yn wastadol, efallai, yn fwy unol â'n dymuniadau, ond ni wnai hyny y tro: fe syrthiai y ddaiar drwy hyny i ddiffrwythder. Ein dyledswydd ni, gan hyny, yw ymostwng yn dawel i ragluniaeth, gan ystyried nad ydyw y bywyd presennol ond gauaf ein bodolaeth; a dyoddef ei holl gystuddiau yn amyneddgar. "Yn eu holl *gystudd* hwynt, efe a gystuddiwyd;" *Esa.* lxiii. 9. Cyfleitha y Dr. Morgan yr adnod, "Yn eu holl *gystudd* hwynt, nid oedd *cystudd.*" Y mae y naill yn cyfieithu yn ol y gair (לו) sydd ar ymyl y ddalen, a'r llall yn ol y gair (לא) sydd yn y testyn. Y mae y cyfieithiadau o'r geiriau yn amrywio llawer. Y mae yn y cyfieithiad Cymraeg a Seisoneg arferedig ystyr addas a gogoneddus. Arddangosir yr Arglwydd megys yn cyd ddyoddef â'i bobl yn eu holl gystuddiau a'u blinderau; nad oedd un amser yn eu cystuddio o'i fodd; ac nad oedd byth yn eu cystuddio ond o angenrhaid, ac yntau megys wedi ei ddwyn i gyfyngder. "A'i enaid ef a *dosturiodd* o herwydd adfyd Israel;" *Barn.* x. 16.

CYSTUDDIWR—WYR: trallodwr, aflonyddwr, y neb a fyddo yn gofidio neu yn cystuddio ereill: *Barn.* ii. 18; *Salm* cxliii. 12; *Esa.* li. 23; lx. 14.

CYSUR—WR—WYR [*cws*]: dyddanwch, hyfrydwch, llawenydd; dyddanydd, un yn cysuro: *Gen.* xxxvii. 35; *Iob* vi. 10; *Salm* cxix. 50, 76; *Esa.* lvii. 18; *Ier.* xvi. 7; *Zech.* i. 17; x. 2; *Mat.* ix. 2; xiv. 27; *Marc* vi. 50; *Luc* viii. 48; *Act.* xxiii. 11; 1 *Cor.* xiv. 3; *Phil.* ii. 1; *Col.* iv. 11; 1 *Thes.* iii. 7; *Heb.* vi. 18; 2 *Sam.* x. 3; 1 *Cron.* xix. 3; *Iob* xvi. 2; *Salm* lxix. 20. Gwel DYDDANYDD.

CYTTAL (*cyd—dal*): cyd-drigo, cydfeddiannu, byw yn nghyd megys gwŷr a gwragedd. "Ni a bechasom yn erbyn ein Duw, ac a *gyttaliasom* â gwragedd dyeithr;" *Ezra* x. 2, 10. Arwydda y gair Hebraeg a arferir yn y lle hwn eu bod yn preswylio ac yn gwneuthur eu cartref gyda'r gwragedd dyeithr hyn. Yr oedd cymmeryd gwragedd dyeithr yn anghyfreithlawn i'r Israeliaid yn ol deddf Duw: *Deut.* vii. 3, 4.

CYTHLWNG (*cyth—llwng*): bod heb fwyta am ryw gymmaint o amser; ymattaliad oddi wrth ymborth; ymprydiad: *Mat.* xv. 32; *Marc* viii. 3; *Act.* xxvii. 33. Gwel YMPRYD.

CYTHRAUL (*cy—traul*): yn ol yr hen feirdd Cymreig, golyga *elfen dinystr.* Y mae y geiriau *δαίμων* a *δαιμόνιον*, y rhai a gyfieithir *cythraul*, yn cael eu harfer yn gyfystyr gan ysgrifenwyr ysbrydoledig ac anysbrydoledig. Y mae y gwreiddiau a briodolir i'r geiriau hyn yn cyfeirio at ryw nodweddau y tybir eu bod yn perthyn i'r bodau deallawl a osodir allan drwyddynt. Er esampl, dywed Plato fod y geiriau yn tarddu oddi wrth *δαήμων*, yn arwyddo *gwybod*, gyda chyfeiriad at y ddealltwriaeth uchel a briodolir i gythreuliaid; dywed Eusebius mai oddi wrth *δειμαίνω, bod yn ddychrynedig;* dywed ereill, megys Proclus, eu bod yn ddeilliaw oddi wrth *δαίω, dosbarthu*, o blegid y tybid mai y cythreuliaid oedd yn penderfynu tynged dynolryw. Y mae y geiriau dan sylw yn cael eu harfer gan ysgrifenwyr paganaidd mewn ystyr eang iawn, gan y cymhwysant hwy—1. At bob graddau o fodau uwch law dynion, gan gynnwys hyd yn oed y Goruchaf ei hunan. Y mae Aristotle yn cymhwyso y gair *δαιμόνιον* at y Duwdod, ac at Ragluniaeth [*Rhet.* 2. 23]. 2. Cymhwysir ef at unrhyw dduw arbenigol. Gan Homer at y dduwies Gwener [*Iliad* iii.]; ac yn *Il.* xvii. 98, 99, a'u cymharu â 104, y mae y geiriau *δαίμων* a *θεός* yn cael eu harfer yn gyfystyr â'u gilydd. 3. At yr is dduwiau, megys yn yr ymadrodd *θεοί καί δαίμονες*. 4. At ddosbarth o fodau rhwng duwiau a dynion. O'r rhai hyn, yr oedd rhai yn gymmwynasgar a hynaws, ac ereill yn faleisus a drygionus. Y mae y gair cythraul, neu *demon*, wrtho ei hun, yn dygwydd yn fynych gan ysgrifenwyr paganaidd mewn ystyr da; dynodir y rhai drwg fel *δαίμονες κακοι* neu *πονηροί.* I'r dosbarth cyntaf y perthyn duwiau dinasoedd, ac ysbrydion gwarcheidiol personau unigol, megys cythraul neu gyfrinfod Socrates. 5. Trwy drawsenwad naturiol, arferir ef i ddynodi ffawd, dygwyddiad, tynged. Y mae y gair yn y Deg a Thrigain, er na ddygwydd ond lled anfynych, yn cael ei arfer mewn ffurfiau tra gwahaniaethol ac anmhenderfynol: שד, *δαιμόνιον* (*Deut.* xxxii. 17); קטב, *δαιμόνιον*, (*Salm* xci. 6); lle yr ymddengys y golygir gwynt heintus (cymharer *Esa.* xxviii. 2, Hebraeg); אלילים, *δαιμόνιον* (*Salm* xcv. 5), yr hwn a gyfieithir gan Symmachus *ἀνύπαρκτοι*, a chan Aquila, *ἐπίπλαστοι;* שעיר, *δαιμόνιον* (*Esa.* xiii. 21), Aquila. *τριχιῶντας;* ציים, *δαιμόνιον* (*Esa.* xxxiv. 14), גד, *δαιμόνιον*, (*Esa.* lxv. 11) yr hwn a ymddengys fel yn cael ei egluro trwy y gair *τύχη* yn niwedd yr adnod; Vulgate, *fortuna.* Cyfarfyddwn yn *Tobit* iii. 8, â'r ymadrodd *πονηρον δαιμόνιον.* Gan nas gellir cael syniadau eglur am athrawiaeth yr Iuddewon yn nghylch cythreuliaid o'r Deg a Thrigain, y mae yn rhaid i ni droi at y paganiaid; a cheir oddi wrth eu hysgrifeniadau hwy wybodaeth helaeth ar y pwnc, yn gymmaint a bod y grediniaeth mewn cythreuliaid yn ffynu yn gyffredinol yn eu mysg. Y mae yr hyn a ganlyn yn dalfyriad o'u dadladau.

1. Cythreuliaid neu ellyllon, yn nuwinyddiaeth y Cenedloedd, ydyw y bodau canol rhwng duw-

Digitized by Google

iau a dynion. Dyma ydyw barn Plato, yr hon y gellir ei chymmeryd yn benderfynol ar eu syniad: — "Y mae *pob* cythraul yn fod canol rhwng Duw a dyn." Fel hyn yr eglura y peth y mae yn ei olygu wrth fod canol:—"Nis gall dyn agosau yn uniongyrchol at Dduw; ond y mae yr holl gyfathrach rhwng Duw â dynion yn cael ei gyflawnu trwy gyfryngoliaeth cythreuliaid." Dywed yn mhellach:—"Negeseuwyr a chenadon ydyw y cythreuliaid oddi wrth ddynion at y duwiau, ac oddi wrth y duwiau at ddynion; gan gludo erfyniadau a gweddïau y naill, a gorchymynion a gwobrau y lleill.—[*Plato, Sympos.*, td. 202, 203, cyf. iii., argraff. Serran.] "A hyn ydoedd," medd y Mediad dysgedig, "yr athroniaeth gyffredinol yn nyddiau yr apostolion; ac yr oedd wedi bod felly lawer o amser cyn eu dyddiau hwy."

2. Yr oedd y cythreuliaid o ddau fath. Un math oedd eneidiau dynion da; y rhai, ar eu hymadawiad o'r corff, a elwid yn wroniaid ac a ddyrchefid wedi hyny i urddas cythreuliaid; ac yn ddiweddaf, dyrchefid hwynt yn dduwiau.—[*Plutarch's De Defect. Orac.*] Fe ddywed Plato [*Cratylus*, td. 398, cyf. i., argraff. Serran.], "Y mae y beirdd hyny a gadarnhânt fod eneidiau dynion da, ar ol marwolaeth, yn cyrhaedd anrhydedd ac urddas mawr, ac yn myned yn gythreuliaid, yn siarad yn rhagorol." Addefir hefyd fod Jamblichus, Hierocles, a Simplicius, yn arfer y geiriau *angelion* a *chythreuliaid* yn gyfystyr. Dywed Philo [*De Gigantibus*] nad ydyw y geiriau *eneidiau*, *cythreuliaid*, ac *angelion*, ond enwau gwahanol yn golygu yr un peth; a haera ef [*De Somn.*] fod Moses yn galw yn *angelion* fodau a elwir gan athronyddion yn *gythreuliaid.* Tybid hefyd fod eneidiau dynion annuwiol yn myned yn gythreuliaid drygionus [*Chalcid. in Platon. Tim.*, pen. 135, td. 330]. Yn ganlynol, dygwydd y gair δαιμόνιος yn fynych iawn gan yr hen awdwyr fel ymadrodd ceryddol. Yr oedd y math arall o gythreuliaid o darddiad uwch nag un dynol, ac heb fod erioed yn trigo mewn cyrff daiarol.—[*Plato's Tim.*, td. 41, 42, 69, 71, 75.]

3. Y cythreuliaid hyny ag oeddynt unwaith wedi bod yn eneidiau dynion oedd *gwrthddrychau uniongyrchol addoliad* yn mysg y paganiaid (*Deut.* xxvi. 14; *Salm* cvi. 28; *Esa.* viii. 19); ac yn wrthgyferbyniol i'r rhai hyn y gelwir yr Iehofah yn aml yn "Dduw *byw*:" *Deut.* v. 26, &c.

4. Credai y paganiaid fod rhai o'r cythreuliaid yn ddrwg a maleisus wrth natur; ac nid yn unig pan y cyffröid hwynt, ac y troseddid yn eu herbyn. Dywed Plutarch, "Y mae yn dyb hynafol iawn fod rhyw ddosbarth o gythreuliaid drwg a maleisus; y rhai a deimlant eiddigedd at bobl dda, gan ymdrechu eu hattal rhag dilyn llwybrau rhinweddol, rhag iddynt gyfranogi o fwy o hapusrwydd nag a fwynhânt hwy eu hunain."—[*Plut. Dion.*, td. 958, cyf. i., argraff. Paris, 1624.] Sylwa yr esgob Newton ar yr ymadrodd hwn, "Dyna ydoedd barn yr holl athronyddion diweddar; a sicrha Plutarch mai yr un ydoedd barn yr hen athronyddion." Tybiai Pythagoras fod rhai cythreuliaid yn anfon clefydau ar ddynion ac anifeiliaid.—[*Diog. Laert. Vit. Pythag.*, td. 514, argraff. Amstel.] Tybia Zaleucus, yn ei ragymadrodd i'w Ddeddfau (*apud Stobæum*, preg. xlii.), y gall cythraul drygionus fod yn bresennol gyda thyst, er dylanwadu arno i wneuthur anghyflawnder.

Mewn amseroedd diweddarach, y mae Josephus yn arfer y gair *cythraul* yn wastadol mewn ystyr drwg, fel y gwna ysgrifenwyr y Testament Newydd hefyd, pan yn ei arfer i gludo eu meddyliau *eu hunain*, neu yn ol eu *syniad hwy* am ei ystyr.—[*De Bell. Jud.*, vii. 6, adran 3.] "Nid yw y cythreuliaid ond ysbrydion y drygionus, y rhai a änt i mewn i ddynion, ac a'u lladdant, os nad allant gael gwaredigaeth rhagddynt." Am brawf o gywirdeb neu anghywirdeb yr haeriad diweddaf, y mae yn rhaid i ni gyfeirio y darllenydd at yr hyn a gynnwysir yn y Testamen Newydd.

Tybir yn gyffredin mai angelion syrthiedig ydyw cythreuliaid y Testament Newydd. Yn y gwrthwyneb, haera Farmer [*Essay on the Demoniacs*], nad ydyw y gair un amser yn cael ei gymhwyso at y diafol a'i angelion, ac nad oes resymau digonol dros gyfyngu y gair at ysbrydion o radd uwch na dynion. Y mae y rhai a ddaliant y dyb gyntaf yn dwyn yn mlaen i'w phrofi atebiad Crist, pan y cyhuddwyd ef o fwrw allan gythreuliaid trwy Beelzebub, penaeth y cythreuliaid: "Pa fodd y gall Satan fwrw allan Satan?" *Marc* iii. 23, &c. Nid oes un ammheuaeth nad yr un yw ὁ Σατανᾶς ac ὁ διάβολος; gan hyny, y mae yn eglur mai yr un bod ydyw Beelzebub ag ὁ διάβολος. Ystyriai Doddridge fod hyn yn esboniad ar y pwnc; o ganlyniad, y mae yn barnu yr ystyrid mai Satan oedd penaeth y cythreuliaid a fwrid allan gan Grist, a'r rhai a osodir allan mewn man arall fel ei angelion.—[*Family Expositor*,] Atebir i hyn, os ydyw yr ymresymiad hwn yn profi rhywbeth, profi y mae fod y gair Satan yn gyfystyr â δαιμόνιον, a bod Satan yn cael ei ddwyn i mewn yma fel *eglurhad* yn unig, megys y gwneir yn fynych âg anghydfod teyrnasoedd neu deuluoedd.—[*Campbell's Prelim. Dissert.*, td. 190.] Haerir yn mhellach gan yr ammheuwyr nad ydyw ond teg a naturiol tybio fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn arfer y gair *cythreuliaid* yn yr ystyr y deallid ef gan eu cydoeswyr; yr hyn oedd, fel yr ymddengys iddynt hwy oddi wrth Josephus ac ereill, mai ysbrydion y drygionus oeddynt; ac y buasai yr ysgrifenwyr hyn, pe y golygent rywbeth yn wahanol, yn rhoddi rhybudd am y fath ymadawiad oddi wrth yr arfer cyffredin o'r gair. Y mae ysgrifeniadau y tadau yn dangos eu bod fynychaf yn deall mai angelion syrthiedig oedd y cythreuliaid, a phrydiau ereill arferant y gair yn yr un ystyr a'r hen athronyddion. Dywed Justin Ferthyr [*Apol.* i. 2, td. 65], fod pawb yn cydsynio mai y personau hyny yr ymeflir ynddynt, ac y teflir hwynt i lawr gan ysbrydion y meirwon, ydyw y rhai cythreulig neu wallgof. Ond y syniad cyffredin, a chywir hefyd, y mae yn dra thebygol, oddi wrth dystiolaethau y gwirionedd ydyw, mai yr angelion syrthiedig, "y rhai ni chadwasant eu dechreuad," a olygir wrth y gair *cythreuliaid.* Gwel DIAFOL; SATAN. — (*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Calmet's Dict.; Buck's Theol. Dict.; Rel. Encycl.*)

CYTHREULIAETH: traethawd ar gythreuliaid, neu ysbrydion aflan. Dyma yr enw a roddwyd gan y brenin Iago ar y llyfr a gyhoeddwyd ganddo ar ddewinesau.

CYTHREULIG—ION. Yn mhlith y gwyrthiau a gyflawnwyd gan Iesu Grist, nid oes un wyrth wedi derbyn mwy o sylw, nac wedi peri mwy o anhawsder, nag iachâd *y rhai a feddiannid gan ysbrydion aflan.* Y mae yn beth sydd yn ein taro â theimlad o syndod mawr fod dyn yn meddiant ysbryd aflan, fel y dysgrifia y Testament

Digitized by Google

Newydd ef. A'r hyn sydd yn chwanegu at yr anhawsder ydyw, nad ydym yn clywed am y fath beth yn yr Hen Destament, na chwaith ar ol amser Crist a'i apostolion.

Athrawiaeth sydd yn rhedeg trwy y Beibl ydyw, fod Duw yn gweithredu trwy ei Ysbryd ar eneidiau dynion, ac yn cyffroi ynddynt feddyliau, a theimladau, ac ewyllysiau—y cyfryw ag sydd yn unol â deddfau yr enaid, eto uwch law yr enaid o ran eu tarddiad. Y mae y gweithrediad hwn yn fynych yn cael ei ddysgrifio fel preswyliad Ysbryd Duw yn y dyn. Yn unol â'r Ysgrythyr hefyd, y mae teyrnas y tywyllwch yn meddu dylanwad ar ddynion; ac y mae y dylanwad hwnw yn myned mor gryf, ac yn ymgodi i'r fath raddau, nes y mae dynion "yn meddiant" y tywyllwch. Effaith cyffredin a mwyaf adnabyddus y dylanwad hwn ydyw, fod y diafol, fel duw y byd hwn, yn dallu meddyliau y rhai digred, fel na thywyna iddynt lewyrch efengyl gogoniant Duw (2 *Cor.* iv. 4), a'i fod yn eu hudo yn mlaen o bechod i bechod (*Ioan* viii. 44; *Eph.* ii. 3) fel y delir creadur direswm mewn magl (2 *Tim.* ii. 26). Yn unol â hyn, dysgrifia y Testament Newydd weithrediad y diafol ar ddynion fel meddiant o honynt; a dywedir i Satan *fyned i mewn i* Iudas (*Ioan* xiii. 27). Y diafol hefyd a roddodd yn nghalon Iudas i fradychu yr Iesu (*adn.* 30). Gofynodd Pedr i Ananias, "Pa ham y llanwodd Satan dy galon di i ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân;" *Act.* v. 3. Fel hyn, y mae y Beibl yn olrhain pechod dyn i fyny i'r diafol; ond nid yn y fath fodd ag i wadu mai pechod dyn *ei hunan* yw. Ei bechod ef ydyw; o herwydd trwy weithred o eiddo ewyllys dyn y mae y gelyn yn cael caniatâd i ddyfod i mewn. Ond eto y mae drygioni-dyn mewn cyssylltiad â theyrnas o dywyllwch y tu allan iddo, ac i'r deyrnas hono y mae pen a gweinidogion gwasanaethgar—"y diafol a'i angelion." Nid yw ein byd ni yn sefyll, gan hyny, yn annibynol ac ar wahân; ond y mae mewn perthynas fywiol â dau fyd—yr un uchod, o'r hwn y deillia pob da; a'r un isod, o'r hwn y mae pob drwg wedi tarddu.

Heb law y dylanwad a'r gweithrediad *moesol* hwn o eiddo y diafol ar ddynion yn mhob oes a gwlad, cawn yn yr Efengylau fod dynion wedi eu meddiannu gan ysbrydion cythreulig mewn modd naturiol—y cyfryw nad oes genym hanes eu cyffelyb yn un man arall. Yr ymadroddion a ddefnyddir yn y Testament Newydd i osod hyn allan ydynt y rhai canlynol:—"y rhai cythreulig;" *Mat.*i v. 24; *Marc* i. 32: "y rhai a flinid gan ysbrydion aflan;" *Luc* vi. 18: gelwid yr ysbrydion hyn "cythreuliaid;" *Mat.* x. 8; *Marc* i. 34; iii. 15; vi. 13; *Luc* ix. 1; x. 17: ac weithiau "ysbrydion;" *Mat.* viii. 16; *Luc* x. 20: "ysbrydion aflan;" *Mat.* x. 1; *Marc* iii. 11; vi. 7. Wrth ddysgrifio iachâd y cyfryw, dywedir fod yr "ysbrydion aflan" yn cael eu "bwrw allan;" *Mat.* viii. 16; x. 1, 8; *Marc* i. 34, 39; iii. 15; vi. 13. Yr ymadrodd a ddefnyddir am y rhai a iachëid ydyw, "a iachawyd;" *Luc* vi. 18; vii. 21; *Act.* v. 16. Dywedir am y dysgyblion, fod "hyd yn oed y cythreuliaid yn ddarostyngedig iddynt;" *Luc* x. 17, 20.

Y mae yn amlwg nad dysgrifio un math o afiechyd naturiol y mae yr ysgrifenwyr, oddi wrth yr ymadroddion a ddefnyddir:—"cythreuliaid," "ysbrydion," "bwrw allan." Wrth y "cythreuliaid" (*daimonia*), y meddylir yr ysbrydion drwg sydd yn ngwasanaeth y diafol, yn cydymdrechu âg ef i gynnal i fyny ei deyrnas, ac ar ba rai y mae efe yn ben. Yn *Mat.* xii. 24—29, gwelir fod "bwrw allan gythreuliaid," a "bwrw allan Satan," yr un peth; o herwydd trwyddynt hwy y mae Satan yn dwyn yn mlaen ei deyrnas. Y mae yr ysgrifenwyr hefyd bob amser yn gwahaniaethu y rhai cythreulig oddi wrth y rhai drwg eu hwyl, y lloerig, a'r rhai a flinid â gwahanol glefydau, fel dosbarth gwahanol; yr hyn ni wnaethent pe math o anhwylder naturiol yn unig fuasai: *Mat.* iv. 24; viii. 16; *Marc* i. 33. Y mae iaith yr Iachawdwr bob amser yn anghysson â'r dybiaeth mai un math o anhwylder naturiol ydoedd. Llefara am y rhai cythreulig fel caethion i ryw allu ysbrydol a gelynol; a chyfeiria ei ymadroddion at yr ysbryd aflan, ar wahân oddi wrth yr hwn a flinid ganddo. "A'r Iesu a'i ceryddodd ef, gan ddywedyd, Taw, dos a allan o hono;" *Marc* i. 25. Dengys y rhestr ganlynol y prif ffeithiau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn eu cyssylltiad â'r rhai a feddiennid gan ysbrydion aflan, yr hyn a ddengys mor anghysson ydyw y cwbl âg unrhyw dybiaeth heb law yr hyn a ddywedir mewn geiriau diamwys am danynt; sef eu bod wedi eu meddiannu gan ysbrydion aflan.

1. Yr oedd y rhai cythreulig yn llefaru mewn ffordd wahanol i'r un a arferir gan bersonau pruddglwyfus, gwallgof, neu fasglwyfus (*Mat.* viii. 29; *Marc* i. 24): yr oeddynt yn meddu nerth a chryfder goruchnaturiol (*Marc* v. 4): erfynient am i'r Iesu beidio eu poeni: atebent y cwestiynau a ofynid iddynt yn synwyrol: dywedir yn eglur eu bod "wedi myned allan" o ddynion, a'u bod wedi myned i "genfaint foch;" ac mewn canlyniad, fod yr holl genfaint, tua dwy fil mewn rhifedi, wedi rhuthro dros ddibyn i'r môr (*Mat.* viii. 32; *Marc* v. 13). Y mae y dybiaeth sydd wedi cael ei hamddiffyn gan Lardner ac ereill, sef fod y moch wedi cael eu *gyru* i'r môr gan y *rhai cythreulig*, yn anghysson âg iaith yr hanes, ac hefyd yn annhebygol i'r graddau eithaf ynddi ei hun: gan mai anaml iawn y bydd gwallgofiaid yn cydweithredu â'u gilydd.

2. Ni fynegir fod un math o glefydau meddyliol yn poeni y mudion (*Mat.* ix. 32), na'r deillion a'r mudion (*Mat.* xii. 22). A fydd y fath glefydau yn cynnyrchu dallineb?

3. Addefir fod arwyddion afiechyd y bachgen ieuanc y sonir am dano (yn *Mat.* xvii. 15; *Marc* ix. 17; a *Luc* ix. 39) yn cyfateb yn hollol i arwyddion masglwyf; ond priodolir hwynt hyd yn oed yn yr hanes hwnw ei hunan i'r cythraul a feddiannasai y bachgen.

4. Dywedir am y llances yn Philippi, ei bod yn meddu ysbryd *dewiniaeth*, trwy yr hwn y cynnyrchai elw mawr i'w meistriaid, a thrwy yr hwn y deallodd genadwri ddwyfol Paul a'i gymdeithion (*Act.* xvi. 16). Ai i ddyryswch meddwl yn unig y mae hyn i'w briodoli?

5. Yr oedd y rhai cythreulig yn cyfaddef eu hunain eu bod wedi eu meddiannu gan gythreuliaid (*Marc* v. 9): y mae yr un peth yn cael ei haeru am danynt gan eu perthynasau (*Mat.* xv. 22). Y mae yr apostolion a'r efengylwyr yn haeru fod personau ag oedd wedi eu meddiannu gan gythreuliaid wedi eu dwyn at Iesu (*Mat.* iv. 24; *Marc* i. 32), neu ynte wedi dyfod i'w gyfarfod (*Luc* viii. 27). Mae yr Iesu yn gorchymyn iddynt beidio ei hysbysu fel y Messïah (*Marc* i. 34): ceryddodd hwynt hefyd (*Mat.* xvii. 18). Hysbysa yr efengylwyr fod y cythreuliaid yn myned allan o'r dynion yn ol gorchymyn Crist (*Mat.* xvii. 18; *Marc* ix. 25, 26; *Luc* iv. 35; xi. 14); a dywed yr Iesu hyny ei hun (*Luc* xiii. 32).

Digitized by Google

6. Y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng y cleifion a'r rhai cythreulig (*Marc* i. 32; *Luc* vi. 17, 18); ac y mae yr Iesu ei hun yn gwneuthur felly (*Mat.* x. 8, &c.)

7. Gwyddai y rhai cythreulig fod yr Iesu yn Fab Duw (*Mat.* viii. 29; *Marc* i. 24; v. 7), ac mai efe oedd y Crist (*Luc* iv. 41).

8. Cyfarchai yr Iesu y cythreuliaid (*Mat.* viii. 32; *Marc* v. 18; ix. 25; *Luc* iv. 35): felly hefyd y gwnai Paul (*Act.* xvi. 18). Gorchymynai yr Iesu iddynt dewi (*Marc* i. 25), ac ymadael, a pheidio myned eilwaith byth mwyach i'r person (*Marc* ix. 25).

9. Yn *Luc* x. 17, y mae genym hanes y deg dysgybl a thrigain yn dychwelyd at Iesu, gan ddyweyd, "Arglwydd, hyd yn oed y cythreuliaid a ddarostyngir i ni yn dy enw di;" ac y mae Iesu Grist, yn yr adnod ganlynol, yn ateb, "Mi a welais Satan megys mellten yn syrthio o'r nef."

10. Pan y cyhuddwyd yr Iesu gan y Phariseaid o fwrw allan gythreuliaid trwy Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, fe ymresymodd Crist nad allai anghytundeb fod rhwng y cythreuliaid (*Mat.* xii. 25, &c.).

11. Y mae yr Iesu yn gwneuthur rhai sylwadau gyda golwg ar gythreuliaid (gwel *Mat.* xii. 43, 44); y rhai a ymddangosant fel ffeithiau yn eu hanes naturiol. Gyda golwg ar y cythraul a fwriwyd allan o'r bachgen, yr hwn y methasai y dysgyblion ei fwrw allan, efe a ddywed, "Nid ä y *rhywogaeth* (hyny yw, o gythreuliaid) hyn allan, ond trwy weddi ac ympryd." A ellir deall y geiriau hyn drwy ryw ffordd heb law trwy synio eu bod yn egluro ffaith neillduol a gwirioneddol gyda golwg ar natur cythreuliaid (*Mat.* xvii. 21)?

12. Dywed yr Iesu ei hunan am y wraig yr oedd ysbryd gwendid ynddi, a'r hon oedd wedi cydgrymu fel nad allai mewn modd yn y byd ymuniawnu, ei bod wedi ei rhwymo gan Satan ddeunaw mlynedd (*Luc* xiii. 11, 16). A'r un modd y mae Pedr yn llefaru am y personau a iachasid gan Iesu: dywed eu bod yn cael "eu gorthrymu gan ddiafol:" *Act.* x. 38.

Yn ngwyneb y ffeithiau a gynnwysir yn y rhestr hon, barn a theimlad cyffredin esbonwyr a beirniaid hen a diweddar yw yr hyn a ddywed Alford ar y mater—"Y mae yr efengylwyr yn rhoddi yr hanesion hyn fel dygwyddiadau hollol wir. Y maent hwy yn wir, neu nid ydyw yr Efengylau felly. O herwydd nid yw yr hanes am y rhai cythreulig y cyfryw a'r mân wahaniaethau dibwys sydd rhwng yr efengylwyr a'u gilydd; ond rhoddir hwynt fel ffeithiau, yn mha rai y maent oll yn cytuno. Nis gellir dyweyd mai defnyddio dull cyffredin *yr oes hono* i lefaru am anhwylderau cyffredin a naturiol y maent. Buasai hyn yn anhawdd i'w ateb, oni buasai? heb iaw eu bod yn defnyddio y geiriau "ysbrydion aflan," "y rhai a flinid gan ysbrydion aflan," eu bod hefyd yn priodoli geiriau i Iesu Grist, y rhai sydd yn cynnwys ac yn dadgan personoliaeth a phresennoldeb yr ysbrydion aflan (*daimonia*): *Luc* iv. 35, 36. Nis gallwn ymddiried yn nghywirdeb a ffyddlondeb yr Athraw mawr, ar y dybiaeth ei fod yn defnyddio ymadroddion fel y rhai hyn drachefn a thrachefn gyda'i ddysgyblion, ac o flaen yr Iuddewon, os oedd efe yn llefaru am anhwylderau naturiol. Mae ei eiriau yn arwain ei wrandawyr yn anocheladwy i gredu mai am feddianniad gwirioneddol a phersonol y mae yn llefaru. Y mae yr ystyriaethau hyn yn hollol benderfynu gwirionedd yr hanesion yn yr ystyr llythyrenol o honynt.

Yr ymofyniad nesaf ydyw, *Pa beth ydoedd y dylanwad hwn? Yn mha ystyr yr oedd cythreuliaid yn cymmeryd meddiant o honynt?* Y mae yn amlwg ar unwaith mai nid yn yr un ystyr ag y dywedir fod Satan wedi myned i mewn i Iudas. Nid yn yr ystyr o'u bod yn bechaduriaid wedi eu rhoddi i fyny i galon galedwch. Meddiant *moesol* o ddyn ydyw hwn—y fath ag a goffeidir ac yr ymdawelir ynddo gan y dyn ei hun. Ei brif eisteddle ydyw y galon, sef ewyllys ac ysbryd dyn. Ond yn y rhai cythreulig a ddygid at y Gwaredwr, meddiant *anianyddol* ydoedd; ei brif eisteddle ydoedd y corff a'r bywyd naturiol, a'r enaid trwy rinwedd ei undeb â'r corff. Teimlent ryw allu dyeithrol a dinystriol, yr hwn a daflai holl gynneddfau y corff a'r enaid i ddyryswch, pan wedi eu meddiannu. Nid y gwaethaf o ddynion—y cyfryw ag oedd wedi ymwerthu i gyflawnu pob aflendid yn un chwant—oeddynt; ac ni leferir am brif offerynau y diafol mewn drygioni, megys gau brophwydi ac anghristiau, wrth yr enwau a roddir ar y rhai hyn: ond yn hytrach, y maent i'w golygu fel y truenusaf o ddynion, ac yr oeddynt yn deimladwy o'u trueni. Teimlent eu bod yn ngallu un arall—yr hwn oedd yn eu rhwymo, yn eu rhwygo, ac yn gormesu arnynt yn y modd creulonaf. Yr oeddynt yn ymwybodol oll o, ac yn ngafael ing corff a meddwl; gwaeddent allan am waredigaeth mor fuan ag y canfyddent wawr o obaith, neu y teimlent fod Gwaredwr yn agos atynt; a'u teimlad o drueni, a'u syched am waredigaeth, oedd yn eu gwneuthur yn wrthddrychau gallu iachaol Crist. Y mae rhinwedd y Gwaredwr bob amser yn cyfarfod teimlad o angen, a dymuniad am waredigaeth. Ond yn y rhai sydd wedi cyrhaedd y graddau pellaf mewn caledwch a dideimladrwydd, y mae absennoldeb y teimlad hwn yn gwneyd eu cyflwr bron, os nad yn hollol, mor anobeithiol a'r cythreuliaid eu hunain. Felly, nid rhai wedi cynnyddu yn raddol mewn drygioni a thwyll oedd y rhai a feddiennid gan gythreuliaid yn amser y Gwaredwr. Yn y cyfryw amgylchiadau, y mae yr ewyllys yn cael ei darostwng o'i bodd, ac ewyllys y diafol yn cael ei derbyn yn raddol i fod yn ewyllys y dyn. Y mae y ddwy fel yn ymdoddi yn un. Ond yn y rhai "cythreulig," canfyddir, yn awr ac yn y man, amlygiadau o deimlad eu bod yn rhwym; a phe medrent, y taflent ymaith iau y gorthrymwr.

Y mae rhai, megys Olshausen, Trench, ac Alford, yn meddwl fod y meddianniad hwn yn effaith, mewn rhai amgylchiadau o leiaf, o fywyd pechadurus ac aflan blaenorol. "Gallasai ymroddiad i bechod—ac yn enwedig i fwynhad o chwantau cnawdol a thrythyllwch — fod yn foddion i wanhau giau y corff, y rhai, mewn modd neillduol, ydynt rwymyn y corff a'r enaid â'u gilydd; ac felly, fod yn rhagbarotoi y corff i alluoedd y tywyllwch gymmeryd meddiant arno."—[*Trench on Miracles.*] Yn y dyfyniad hwn, y mae Trench yn dilyn Olshausen, yr hwn sydd yn traethu yn feithach ar y mater, ond i'r un perwyl.—[*Esbon.*, *Mat.* vii. 28.] Gwrthwynebа Ebrard [*Herzog, Dämonische*] y syniad hwn, gan gyfeirio at y llanc a ddygwyd at yr Iesu, yr hwn oedd wedi cael ei flino gan ysbryd aflan er yn fachgen (*Marc* ix. 21), fel prawf penderfynol nad oedd unrhyw gyssylltiad angenrheidiol rhwng ei sefyllfa flaenorol a'r sefyllfa druenus

Digitized by Google

yr ydoedd ynddi. Y mae i'w olygu yn hytrach fel un o effeithiau cyffredinol pechod. Heb law hyny, nid gwendid yn y giau, nac mewn unrhyw ran arall o'r corff, oedd yr achos fod ysbryd drwg yn cymmeryd meddiant o ddyn; ond yn hytrach dyna yr effaith o'r cyfryw feddianniad. A'r prawf o hyn yw, mai nid iachau y corff mewn trefn i fwrw allan yr yspryd y byddai Crist: ond bwrw allan yr yspryd aflan yn gyntaf oll; ac yna, yr oedd pob arwydd o afiechyd yn cilio.

Y neb a ddadleuodd gyntaf dros olygu y rhai cythreulig fel yn dyoddef oddi wrth wahanol anhwylderau corfforol, a hyny yn unig, oedd Hobbes, yn ei *Leviathan*. Ond nid ydyw yn beth i synu ato ei fod ef wedi mabwysiadu y fath dyb; o herwydd amcan ei fywyd ydoedd gwneyd ei oreu i ddadsylfaenu crefydd, a moesoldeb, a rhyddid. Yr hyn a ddywedir yn ffafr yr esboniad hwn ydyw, mai gwahanol ffurfiau o glefydau yn unig oedd yn dyfod i'r amlwg. Yn y cyfryw amgylchiadau, mae'n wir eu bod yn glefydau. A oedd yn bosibl i ymenydd dyn fod dan ddylanwad ysbryd cythreulig, heb iddo ddangos arwyddion o wallgofrwydd, fel pe buasai y dwymyn neu ryw afiechyd arall arno? Ond y cwestiwn ydyw, pa un ai achos naturiol ydoedd i'r cyfryw wallgofrwydd, ai ynte a ydoedd i'w briodoli i ddylanwad cythreuliaid? Nis gall yr anffyddiwr ddyfod ag *un* rheswm yn mlaen i brofi mai nid i'r cyfryw ddylanwad y maent i'w priodoli, ond trwy *wadu* hanfodiad ysbrydion syrthiedig o gwbl—trwy wadu fod ganddynt deyrnas, a hono yn deyrnas y tywyllwch, ac nad oes dim dylanwad gan fyd yr ysbrydoedd ar ddynion. Ac y mae gwadu hyn yr un peth a gwadu y Beibl o gwbl. Dywedir weithiau, gan y rhai a fynent gyfyngu dylanwad byd yr ysbrydoedd ar y byd hwn i mor lleied o le ag sydd bosibl, fod y paganiaid yn credu fod y cythreuliaid yn dylanwadu ar, ac yn symbylu dynion i, fath o orphwylledd; eto, mai ofergoeledd ydoedd i gyd. Bod y fath ofergoeledd wedi bod yn ffynu ar rai adegau yn mhlith paganiaid dan wahanol enwau, sydd wir. Ond nid oes un prawf na hanes fod neb o honynt yn priodoli y fath ddylanwad i gythreuliaid ag a briodolir iddynt ar gyrff ac eneidiau dynion yn y Testament Newydd. Yr oedd gwahaniaeth hollol rhwng y rhai hyn a'r dewiniaid a'r oraclau paganaidd [gwel DEWINIAETH; ORACL]. Ac os ofergoeledd oedd eu crediniaeth hwy, nid yw hyn yn profi mai ffrwyth ofergoeledd yr apostolion a'r Iuddewon, yn yr oes apostolaidd, ydyw hanesion yr efengylwyr am y rhai cythreulig. Mae yr hanesion yn eglur seiliedig ar ffeithiau, a'r ffeithiau yn ddigon o esboniad ar yr hanesion. A pha fodd arall y gallasent ddyfod i fod? Pa fodd y gallasai y fath hanesion ddyfod i fod yn yr oes apostolaidd ond trwy eu gwirionedd, gan nad oedd y fath beth yn y byd o'r blaen?

Naturiol ydyw gofyn hefyd, Pa fodd y mae y fath amlygiad o ddylanwad cythreulig ar ddynion wedi peidio ar ol amser Crist a'i apostolion? I hyn, nid yw yr ateb yn anhawdd. Yn y lle cyntaf, nid yw yn hollol sicr nad yw cythreuliaid yn darostwng dynion dan eu hawdurdod yn awr yn yr un dull a'r pryd hwnw. Ond os ydynt, pwy a all wahaniaethu rhwng y rhai hyn a'r rhai sydd yn dyoddef yn y cyffelyb fodd, ond trwy achosion naturiol? Yr oedd y Meddyg mawr y pryd hyny, yn nghyd â dynion ysbrydoledig, i ddyweyd yn gywir pa beth oedd achos yr afiechyd; ond nid oes y cyfryw yn awr, ac felly, nid oes neb a all ddyweyd nad yw y cyfryw i'w cael yn mhlith yr amrywiol ffurfiau o glefydau a gwallgofrwydd y cyfarfyddir â hwynt.[1] Y mwyaf a allwn ddywedyd gyda sicrwydd ydyw, fod y cyfryw ddyoddefwyr yn anamlach yn awr nag yn nyddiau Crist. Yn *ail*, nis gallwn ammheu nad ydyw teyrnas y tywyllwch wedi colli llawer o'i grym trwy ddyfodiad Mab Duw yn y cnawd, a gallu uffern wedi ei gwtogi: "Mi a welais Satan, megys mellten yn syrthio o'r nef:" *Luc* x. 18; *Dad.* xx. 2. Y mae ysbryd yr efengyl wedi effeithio yn ddaionus ar ddynolryw yn yr ystyr hwn; ac felly, y mae nerth y diafol wedi ei wanhau, yn enwedig yn yr amlygiadau erchyllaf o'i ddylanwad. Tystia Rhenius, cenadwr Lutheraidd yn India, ei fod ef wedi cyfarfod âg anghreifftiau o feddianniad cythreulig; ond bod cynnydd yr efengyl yn eu plith yn lleihau nifer y cyfryw, hyd yn oed yn mhlith y rhai nad ydynt dan ddylanwad achubol yr efengyl. Yn *drydydd*, nid ydyw yn rhyfedd fod y diafol yn cael teyrnasu gyda mwy o rwysg yn amser ymddangosiad y Gwaredwr ar y ddaiar; o herwydd os oedd dim yn hynodi yr adeg hono ar y byd yn anad un arall, y tywyllwch moesol a'r annhrefn cyffredinol ydoedd hyny. Yr oedd y tymmor hwnw yn "awr a gallu y tywyllwch;" a dyna'r pryd yr oedd y tywyllwch, fel o flaen toriad y wawr, dewychaf. Yr oedd y byd eilwaith yn dryblith heb drefn, a'r geiriau 'Bydded goleuni,' er ar gael, eto heb gael, eu llefaru—cyfnod arbenig i'r fath anhwylderau yn mha rai y mae elfenau y corff a'r ysbryd fel yn cael eu cymmysgu. Ac nid rhyfedd i'r anhwylderau amlhau yn yr oes hono; o herwydd peth diammheuol ydyw fod anhwylderau ysbrydol, o natur benodol, yn ffynu ar adegau neillduol a chyfaddas iddynt, ac yn diflanu ar adegau ereill."—*Trench*. Yr oedd perthynas neillduol rhwng y gallu hwn oedd gan Satan ar ddynion, a'r prynedigaeth trwy Grist. Athrawiaeth y prynedigaeth ac athrawiaeth y cwymp ydyw y ddau brif bwnc yn nghrefydd Crist. Y rhan a gymmerodd y diafol yn y cwymp oedd hudo ein rhieni cyntaf, yn ol yr hanes yn *Genesis*; ac am hyn, yr oedd yr ail Adda, had y wraig, i ysigo ei ben. Gan fod yr Hen Destament yn rhoddi hanes ei drosedd yn nhemtiad y dyn cyntaf, onid naturiol oedd i ni gael hanes ei gosp yn y Newydd? Pe na buasai genym ond hanes buddugoliaethau Crist ar *afiechyd* yn unig —ar ddrwg *naturiol* yn unig—ni buasai genym brawf mor eglur o'i awdurdod ar y ddau fyd. Yr ydoedd i amlygu ei allu ar ddrwg *moesol* hefyd. Ac yr oedd hyn i'w ganfod yn amlycaf yn ei fuddugoliaethau gweledig ar Satan, trwy hudoliaethau yr hwn y dygwyd pechod i'r byd, a thrwy dwyll a malais yr hwn y mae yn cael ei gynnal yn y byd. Ac felly y dangosodd yr Arglwydd ei hun yn un a all ddattod gweithredoedd y diafol yn y modd mwyaf effeithiol, trwy ei orchfygu ef ei hun. Nid yn unig yr oedd yn iachau clefydau naturiol dynion, ac yn symmud ymaith eu hafiechyd ysbrydol, sef eu gwaredu oddi wrth bechod; ond dangosodd ei hun fel yn meddu awdurdod ar y terfyn tywyll sydd rhwng y ddau, a lle y mae y ddau yn rhedeg i'w gilydd ac yn cynnyrchu yr annhrefn mwyaf.—(*Olshausen on Matthew; Trench on Miracles; Warburton's Divine Leg. and Serm.; Herzog's Real Enc.; Kitto's Cycl.*)

[1] Y mae Olshausen yn cyfeirio at amryw feddygon o enwogrwydd sydd o'r farn fod dynion wedi eu meddiannu gan ysbrydion drwg i'w cael yn awr. A dywed, pe yr ymwelai yr apostolion â'r gwallgofdai, ei bod yn ammheus pa beth a ddywedent ydyw natur afiechyd llawer o'r dyoddefwyr.

Digitized by Google

yn eu goleuni priodol; ond nid oes arnynt gywilydd o'r hyn y teimlant ei fod yn iawn, ac o'r peth y gwyddant a weinydda i'w llesâd hwy a'u cyddynion. Dyma y fath ydoedd golygiadau Paul am yr efengyl; ac un o'i hoff athrawiaethau ef ydyw, na chywilyddir y rhai a gredant yn Nghrist: *Rhuf.* x. 11; v. 5; 2 *Cor.* vii. 14; 2 *Tim.* i. 12; *Rhuf.* ix. 33; 2 *Tim.* i. 8. Yn gymmaint a bod Crist wedi cymmeryd arno ei hun ddirmyg a gwaradwydd dynion wrth eu prynu, nid ydyw yn weddus fod ar neb gywilydd ei arddel ef a'i achos: ac os felly y gwneir, bydd yn gywilydd gan Fab y dyn arddel y cyfryw pan y del yn ngogoniant ei dad, gyda'i angelion sanctaidd: *Marc* viii. 38.—(*Calmet's Dict.; Buck's Theol. Dict.*)

CYWIR, [*cy-gwir*]: uniawn, difai, cyflawn, didwyll, ffyddlawn, diffuant, pur: *Gen.* xlii. 11; *Diar.* xvi. 11; *Jer.* xlii. 5; *Zech.* vii. 9; *Ioan* vii. 28; viii. 16; *Eph.* iv. 15; *Ioan.* v. 20; *Dad.* iii. 7; vi. 10; xv. 3; xvi. 7; xix. 11; xxi. 5. Gwel CYFIAWN, UNIAWN.

> Nid cywir ond meddylgar,
> Nid meddylgar ond serchawg. *Diareb.*

CYWRAIN, [*cy—gwrain*]: celfyddgar, manwl, Yr oedd y cerubiaid ag oedd ar arch y dystiolaeth, ephod aur yr offeiriaid a'i holl ddefnyddiau, yn nghyd a'r ddwyfroneg, oll wedi eu gwneuthur, o waith cywrain: *Exod.* xxvi. 31; xxviii. 6, 8, 15.

CYWREINRWYDD: medrusrwydd mewn celfyddyd: *Exod.* xxxi. 4; xxxv. 32, 35; *Gen.* iv. 22; *Exod.* xxvi. 1; xxxv. 35.

CYWYDDIADAETH, [*Casuistry*]: cydwybodiant; esboniad achosion neu ammheuon cydwybod. Yr enw a rydd Kant ar y wyddor hon ydyw *arbwylleg y gydwybod.* Yr athrawiaeth hono ydyw, sydd yn ymwneyd â'r gydwybod a'i hachosion, ac yn cynnwys rheolau ac egwyddorion i benderfynu y cyfryw; y rhai sydd wedi eu casglu mewn rhan oddi wrth reswm naturiol ac uniondeb, ac mewn rhan oddi wrth awdurdod yr Ysgrythyr, y ddeddf ganonaidd, cynghorfeydd, y tadau, &c. I gywyddiadaeth y perthyn penderfynu pob anhawsderau a gyfodant yn nghylch pa beth sydd yn gyfreithlawn neu yn anghyfreithlawn i ddyn i'w gyflawnu; pa beth sydd yn bechod, a pha beth sydd heb fod yn bechod; pa bethau y mae yn angenrheidiol i ddyn eu gwneyd mewn trefn i gyflawnu ei ddyledswydd, a pha bethau y gall eu gadael o'r neilldu heb droseddu.

Yr oedd dysgedigion yr ysgolion yn ymhyfrydu yn y math hwn o lafur meddyliol. Dynodent yn frwdfrydig y gwahaniaeth dychymygol lleiaf a ganfyddent rhwng athrawiaethau crefydd a'i gorchymynion; difynent y gwahanol rinweddau; manwl chwilient yr holl amgylchiadau yn unol â pha rai y dylesid barnu eu gwerth; a thrwy hyn, gwnaethant astudiaeth moesoldeb o'r braidd yn anmhosibl, cymmysgasant y syniadau naturiol am dda a drwg; ac yr oeddynt hwy ac ereill wedi ymarfer cymmaint â phwyso a barnu eu gweithredoedd, fel y gallent yn hawdd gael rhyw esgusawd dros y trosedd mwyaf, tra y parhaent dan yr argraff nad oeddynt yn gwyro oddi wrth yr hyn oedd yn orphwysedig arnynt fel bodau moesol. Gwnaethpwyd cywyddiadaeth yn dra phoblogaidd yn yr oesoedd tywyll gan y llygredigaethau a ddygwyd i'r eglwys; ac mewn canlyniad, poenai lluaws o'r rhai a ystyrient eu hunain yn ysgrifenwyr mwyaf goleuedig yr oes, ac efallai eu bod felly mewn gwirionedd, eu dealltwriaeth a'u dychymyg mewn deongli achosion cydwybod; a llygrent eu meddyliau eu hunain, a meddyliau ereill hefyd, yn fynych, drwy eu gosod i weithredu ar droseddau posibl, ar ba rai, pa mor annhebyg bynag oeddynt i gymmeryd lle mewn bywyd, yr oeddynt yn awyddus i roi eu barn. Tueddodd y cyfnewidiad dedwydd a gynnyrchwyd gan y Diwygiad yn ngolygiadau dynion am yr Ysgrythyrau i gyfodi y safon bur o ddyledswydd ag oedd wedi bod yn gorwedd yn y llwch er ys oesoedd. Er hyny, bu y duwinyddion Protestanaidd am gryn amser yn ymdrin â phynciau dyrys cywyddiadaeth; a thrwy hyny, i ryw raddau, yn rhoddi attalfa ar ffordd y goleuni yr oeddynt yn ffodus wedi ei dywallt ar y byd. Teithiai y duwinyddion Lutheraidd lwybr lled debyg i'r un a agorasid gan ddysgedigion yr ysgolion o'u blaen, ond fod eu penderfyniadau yn llawer cyssonach â Christionogaeth; ac nid ydoedd yn beth anghyffredin mewn rhai gwledydd i gynnadleddau eglwysig neillduo rhan o'u hamser i benderfynu cwestiynau y gallesid yn ddiogel eu gadael yn ddisylw, y rhai yr edrychir arnynt yn awr yn gyffredinol o'r braidd yn ddibwys, ac yn nghylch pa rai y byddai yn gywilydd gan y mwyaf anwybodus, o'r braidd, ymholi gair. Wedi i lawer o'r twyllresymau a'r gŵyrdroadau moesol ag oedd yn nglŷn â chywyddiadaeth gael eu bwrw o'r neilldu, fe gadwyd ffurf y wyddor yn ddiogel, a chafwyd amryw egwyddorion moesol gwerthfawr oddi wrthi. Cyhoeddodd yr esgob Hall lyfr galluog ar y pwnc, yr hwn a elwid ganddo, *Achosion Cydwybod yn cael eu penderfynu yn ymarferol;* ac y mae yn ei gyflwyno i'r darllenydd trwy y sylwadau canlynol:—"O bob duwinyddiaeth, y rhan hono ag sydd yn penderfynu achosion cydwybod yw y rhan fwyaf defnyddiol; ac o bob achosion cydwybod, rhai ymarferol yw y rhai mwyaf angenrheidiol, yn gymmaint a bod gweithredgarwch yn fwy pwysig na damcaniaeth; ac o bob achosion ymarferol, y rhai sydd mewn arferiad cyffredin ydyw y rhai mwyaf buddiol ac angenrheidiol i'w penderfynu, gan fod beiau y cyfryw yn fwy cyffredinol, a chan hyny yn fwy niweidiol i'r gymdeithas ddynol. Yr wyf wedi dethol y rhai hyn o fysg lluaws; ac ar ol chwilio gweithiau amryw gywyddiadwyr, dewisais y penderfyniadau hyny yr ydwyf yn ystyried eu bod yn fwyaf cysson â chrefydd a rheswm goleuedig; yr ydwyf yn eu dilyn weithiau, a phryd arall yn eu gadael am arweinydd gwell." Y mae yn dosbarthu ei waith yn bedair rhan:—Achosion o elw a masnach; achosion o fywyd a rhyddid; achosion o dduwioldeb a chrefydd; ac achosion priodasol.

Y mae cywyddiadaeth, fel cyfundrefn ŵyrdroawl o foesoldeb Cristionogol, yn dra anadnabyddus yn y byd Protestanaidd yn y dyddiau hyn; er fod eto yn aros gryn lawer o dyneru a lliniaru ar reolau manwl dyledswydd, at yr hyn beth yr arweinir dynolryw, naill ai gan hunandwyll, neu gan y duedd naturiol i gymmodi â'r gobaith am iachawdwriaeth gryn ŵyrdroad oddi wrth y llwybr o uniondeb a rhinwedd sydd yn gymmeradwy gan Dduw. Ond canfyddir anghraifft nodedig iawn o'r eithafion i ba rai y cariwyd cywyddiadaeth, ac o'r canlyniadau peryglus a ddeilliasant oddi wrth hyny, yn hanes gwirebau a syniadau y Iesuaid (*Jesuits*); y rhai

Digitized by Google

oeddynt yn meddu, heb law dysgeidiaeth ddofn a sel danbaid dros Babyddiaeth, uchelgais a wyrdröai eu dealltwriaeth, neu ynte a'u tueddent i ddefnyddio eu galluoedd rhesymol i wenwyno ffynnonellau moesoldeb, ac i osod enw ac ymddangosiad o rinwedd ar y gweithredoedd mwyaf halogedig; y rhai a fuasent yn tywallt ar y byd y trueni mwyaf, oni buasai iddynt gael eu hattal gan egwyddorion cywirach a mwy unol â moesoldeb. Gwel IESUAID.

Y mae rhai yn tybied fod yr holl lyfrau ar gywyddiadaeth yn hollol ddiangenrhaid, yn gystal ag yn boenus i'w darllen. Gyda golwg ar un pryderus ynghylch cyflawni ei ddyledswydd, dywedir y rhaid ei fod yn lled ynfyd os tybia fod arno lawer o angen am danynt; a chyda golwg ar yr hwn a esgeuslusa ei ddyledswydd, y mae dullwedd yr ysgrifeniadau hyny yn lled annhebyg o'i gynnhyrfu at ei chyflawni. Y mae y manyldeb diowys yr ymgeisia cywyddiadwyr ei ddwyn i mewn i byngciau na oddefant hyny, yn eu harwain, o'r braidd, yn anocheladwy i gyfeiliornadau peryglus, ac ar yr un pryd yn gwneuthur eu hysgrifeniadau yn sychion ac anhyfryd, ac yn analluog i gynnyrchu yn y galon ddim o'r teimladau hyny ag ydynt brif effeithiau llyfrau ar foesoldeb.

Ar y llaw arall, gallwn sylwi, er y gellir cymmhwyso y sylwadau hyn at rai, nis gellir eu cymmhwyso at yr holl lyfrau ar gywyddiadaeth. Y mae yn rhaid addef nas gall gwahaniaethau bychain, ymresymiadau uchanianol, a thermau annealladwy fod o fawr wasanaeth i'r cyffredin, o blegid ychydig iawn ydyw nifer y rhai a all eu deall; etto, pan feddyliom gymmaint o oleuni a dellir ar bwngc trwy nerth ymresymiadau cryfion, trwy edrych ar achos yn ei wahanol agweddau, trwy ystyried yn briodol yr holl wrthwynebiadau y gellir eu dwyn yn ei erbyn, a thrwy ei brofi yn mhob golygiad, y mae yn rhaid i ni benderfynu fod llyfrau o'r fath hyn, pan y byddant wedi eu cyfansoddi yn briodol, yn dra manteisiol. Y maent yn fanteisiol hefyd os ystyriwn pa mor ychydig y mae rhai pobl yn ei roddi o waith i'w meddyliau, ond yn meddu, ar yr un pryd, gydwybodau tyner rhag cyflawni dim a fyddo yn bechod.

Er fod moesoldeb yr efengyl yn cael ei ddynodi gan burdeb, y mae o angenrheidrwydd yn cael ei arddangos mewn ffurf cyffredinol: y mae y prif egwyddorion yn cael eu gosod i lawr, ond y mae cymmhwysiad y rhai hyn at yr amgylchiadau dirifedi a ddigwyddant mewn bywyd yn cael ei adael i ddealltwriaeth a chydwybodau dynion. Pe buasai yn wahanol, buasai y gyfrol ysbrydoledig yn chwyddo i faintioli a'i gwnelsai, i raddau helaeth, yn anfuddiol. Buasai yn anhawdd neu yn ammhossibl cofio ei holl gyfarwyddiadau; ac er mor fanwl y gallasai y rhai hyn fod, ni buasent yn gyflawn, o blegid fod cyssylltiadau ac amgylchiadau newyddion yn cyfodi yn barhaus. Pan y dadblygir egwyddorion dyledswydd yn briodol, a phan y dodir hwynt ar sail ddiogel, ni theimla dyn o feddwl iawn un anhawsder i'w cymmhwyso at ei amgylchiadau personol ei hun. Gall dynion fod yn ymwybodol, ac fe allai eu bod, nad ydyw eu pechodau i'w priodoli i'w diffyg o wybod pa bethau a ddylasent eu gwneuthur; ond i'w gwaith yn troseddu yn bwyllog neu yn fyrbwyll yn erbyn argyhoeddiadau eu cydwybodau. Os dewisir gweled rhagor ar y pwngc, ni a gyfeiriwn y darllenydd at y llyfrau canlynol:—*Ames' Power and Cases of Conscience; Bishop Taylor's Ductor Dubitantium; Dr. Saunderson's De Obligatione Conscientiae; Pike and Hayward's Cases; Saurin's Christian Casuistry.*

CYNAN MEIRIADOG. Yn ol y *Brutiau*, yr oedd efe yn fab i Eudaf, Iarll Ergyng ac Euas, ac Arglwydd Meiriadog (yn awr Arglwyddiaeth Dinbych), yn y bedwaredd ganrif. Dywedir mai ei chwaer ef, Elen Luyddawg, oedd gwraig *Clemens Maximum* (Macsen Wledig)—Hispaeniad o genedl, y mae yn debyg, yr hwn oedd yn gwasanaethu gyda'r fyddin Rufeinig yn Mhrydain, ond a gafodd ei gyhoeddi gan ei fyddin yn ymherawdwr, ac a ddyhysbyddodd Prydain o'i milwyr, ac o flodau ei hieuengctyd, i fy[illegible]d gydag ef i'r cyfandir, i geisio trawsfeddia[illegible]u gorsedd Rhufain; ond a laddwyd gan Theodosius, yn 388.

CYNAN NAWDD NIFE[illegible] Yn ol y *Brutiau*, yr oedd efe yn un o r[illegible]wyr dewraf y Cymry yn y nawfed ganrif.

CYNAN TINDAETHWY: oedd fab hynaf Rhodri Molwynog, a thywysog ar Ynys Môn, a rhan o Arfon. Daeth i'r benaduriaeth ar farwolaeth ei dad, yn 715. Yn 810, cododd ei frawd Hywel mewn gwrthryfel yn ei erbyn, gan hawlio Môn fel ei dreftadaeth; a thrwy frwydr waedlyd, ennillodd yr ynys. Yn 814, ymladdasant drachefn, a throdd y fantol etto o blaid Hywel. Parodd hyn i Cynan gasglu ei holl adgyfnerthion ynghyd; a thrwy ymdrech gadarn, gorfodwyd Hywel i encilio o Fôn i Ynys Manaw. Bu Cynan farw yn fuan wedi hyn, gan adael ei holl feddiannau i Essyllt, ei ferch, yr hon a briodasai Merfyn Frych, pendefig o Fanaw, fab Nest, ferch Cadell Deyrnllwg, fab Brochwel Ysgythrog.

CYNAN WLEDIG, medd y *Brutiau*, a ddaeth i freniniaeth Prydain, trwy ladd Cystenyn Goronog, yn 544. Bu farw yn mhen dwy flynedd, a dilynwyd ef gan Gwrthefyr.

CYNFAR CAD-GADDUG: penaeth yn y bummed ganrif, ydoedd fab Cynyr Cynwydion, a chyda Gwendoleu ac Urien, yn ffurfio y 'Tri tharw Câd.'

CYNFRIG, neu CYNWRIG ab Dafydd Goch: bardd oedd yn ei flodeu tua'r flwyddyn 1420. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn hen ysgriflyfrau.

CYNGARFAER: ydoedd fab Cyndrwyn, a thywysog ar ran o Bowys, yn y chweched ganrif.

CYNWRIG BENCERDD, o Dreffynnon, oedd prif gerddor eisteddfod fawr Caerfyrddin, yn 1451. Barnwyd Dafydd ab Edmund yno yn ben bardd, Cynwrig Bencerdd yn brif gerddor, a Rhys Bwtting, o Brestatyn, yn ben datganydd:—y tri o sir Fflint.

CYNYR CEINFARFAWC. Mab Gwron ab Cunedda, a phenaeth, yn y bummed ganrif.

CYRRIOG, GORONWY. Bardd o Fôn, yn ei flodau o 1310 hyd 1360. Y mae dau gyfansoddiad o'i waith yn y *Myf. Arch.*; sef, Englynion i Wenhwyfar, ferch Madawg, gwraig Hywel ab Tudur; a Chân i Madawg, esgob Bangor.



Digitized by Google

# CII.



CHALCOL [כלכל=*difäwr y cwbl*]: pedwerydd mab Mahol—Lefiad: cantor nodedig am ei ddoethineb: 1 *Cron.* ii. 6; 1 *Bren.* iv. 31.

CHALCEDON. Gwel CALCEDON.

CHEMOS, [כמוש; Deg a Thrigain, Χαμώς]: eilun-dduw y Moabiaid (1 *Bren.* xi. 7; 2 *Bren.* xxiii. 13; *Jer.* xlviii. 7; y rhai a elwir, o blegid hyny, yn *Num.* xxi. 29, "pobl Cemos"), a'r Amoriaid (*Barn.* xi. 24)—addoliad yr hwn a ddygwyd i blith yr Israeliaid gan Solomon (1 *Bren.* xi. 7). Nid oes un geirdarddiad i'r enw wedi ei gynnyg, nac un ymgais wedi ei wneyd i brofi unrhywiaeth y duw hwn âg eraill y mae eu priodoliaethau yn fwy adnabyddus, sydd yn debyg o fod yn deilwng o sylw neillduol. Nid oes i dybiaeth Jerome, sef mai yr un ydyw Chemos a Baal Peor, un sail hanesyddol; a'r unig ddamcaniaeth sydd yn gorphwys ar debygolrwydd ydyw yr un a ddywed fod cyffelybrwydd rhwng Chemos a'r eilunaddoliaeth Arabaidd. Dywed traddodiad Iuddewig, ei fod yn cael ei addoli dan yr arwyddlun o seren ddu; a chrybwylla Maimonides y byddai ei addolwyr yn ben-noeth, ac yn ymattal rhag defnyddio gwisgoedd wedi eu gwnïo â nydwydd. Y mae y seren ddu, y cyssylltiad rhyngddo â'r eilunaddoliaeth Arabaidd, a'r ffaith fod Chemos yn cael ei gyplu â Moloch, yn ffafriol i'r ddamcaniaeth fod rhyw gyfattebiaeth rhyngddo a'r blaned Sadwrn.—(*Kitto's Cyclo.*)

1\. CHEPHIRAH: dinas a berthynai ar y cyntaf i'r Gibeoniaid; ond daeth ar ol hyny i ddwylaw llwyth Benjamin, a phreswyliai y llwyth hwn ynddi wedi eu dychweliad o gaethiwed: *Ios.* ix. 17; xviii. 26; *Neh.* vii. 29.

2\. CHEPHIRAH: un o feibion Ciriath-arim: *Ezra* ii. 25.

CHERAN: un o feibion Dison: *Gen.* xxxvi. 26.

CHILEAB: mab Dafydd, o Abigail, gwraig Nabal y Carmeliad: 2 *Sam.* iii. 3.

CHILION: un o ddau fab Elimelech, o'i wraig Naomi; yr hwn, ynghyd â'i dad a'i frawd, a fuant feirw yn ngwlad Moab, gan adael Naomi yn amddifad: *Ruth.* i. 2—5.

CHIOS, [Χίος]: un o brif ynysoedd yr ynysfor Ioniaidd, yr hon y crybwyllir am dani yn *Act.* xx. 15. Perthynai i Ionia. Gorweddai rhwng ynysoedd Lesbos a Samos, ac y mae tuag wyth milldir rhyngddi a phentir agosaf Asia Leiaf. Y mae'n ddeng milldir ar hugain o hyd, o'r gogledd i'r deheu, a'i lled eithaf ydyw deng milldir. Y mae hi yn dra thoreithiog o gotwm, sidan, a ffrwythydd; ac yr oedd yn nodedig yn yr oesoedd gynt am ei gwin. Gelwid y brif dref hefyd Chios, ac yr oedd yn meddu porthladd rhagorol [*Strabo*, xiv. td. 645]. Gelwir yr ynys yn awr gan y Groegiaid, *Chio;* a chan yr Italiaid, *Scio.* Cymmerodd y digwyddiad mwyaf ofnadwy mewn cyssylltiad â'r rhyfel Groegaidd le yn yr ynys hon yn y flwyddyn 1822; sef, llofruddiad a charchariad cyffredinol yr holl drigolion gan y Tyrciaid.

CHISLEU, CHISLEV, [כסלו; Gr. Χασελεῦ; a elwir *Casleu* yn 1 *Mac.* i. 54]. Enw trydydd mis blwyddyn wladol yr Iuddewon, a nawfed mis y flwyddyn eglwysig; yr hwn a ddechreuai ar adeg newydd loer ein mis Rhagfyr ni. Y mae yn cyfatteb, yn ol Josephus, i'r mis Macedoniaidd Ἀπελλαῖος. Gan yr addefir yn awr mai un o'r enwau Persiaidd ar fisoedd, a fabwysiadwyd gan yr Iuddewon ar ol eu caethiwed, ydyw Chisleu, nid ydyw o un dyben chwilio am darddiad Syriaidd-Arabaidd i'r gair. Y dyddiau nodedig yn y mis hwn oeddynt:—Y gyssegrŵyl, yr hon a ddechreuai ar y pummed dydd ar hugain o'r mis [gwel d.g.]; ac ympryd er coffadwriaeth am waith Ieholacim yn llosgi y rhol a gynnwysai brophwydoliaeth Ieremiah (*Ier.* xxxvi. 22, 23). Y mae peth dadl ynghylch y diwrnod ar ba un y cedwid yr ympryd—pa un ai ar y chweched, ynte ar yr wythfed ar hugain o'r mis. Pe y diweddaf, buasai yn disgyn felly yn nghanol dyddiau y gyssegr-ŵyl. Gan hyny, y mae yn debygol mai y blaenaf oedd.

CHUB: oddi wrth gyssylltiad y gair hwn, tybir mai llwyth neu dalaeth Ethiopiaidd oedd: *Ezec.* xxx. 5.

CHWAREL—AU (*Quarry*). Chwarel, neu gloddfa, ydyw yr enw a roddir ar unrhyw graig ddefnyddiol a weithir yn agored, i lawr o wyneb y ddaear. Nid ydyw gweithio chwarel yn gwahaniaethu ond ychydig oddi wrth weithio mwnglawdd, oddi eithr fod y diweddaf o angenrheidrwydd yn waith tan y ddaear.

Y mae yn yr Aipht gyflawnder o greigiau ceryg calch, ceryg nâdd, ac ithfaen; ac y mae yr holl ddefnyddiau hyn wedi cael eu defnyddio i gyfodi yr adeiladau hyny ag y mae eu holion hyd heddyw yn aros i ddwyn tystiolaeth i enwogrwydd hen breswylwyr y wlad hono. Yr oedd muriau y rhan fwyaf o'r temlau wedi eu hadeiladu o geryg nâdd, wedi eu codi yn benaf o'r chwarelau hyny oedd ar lenydd y Nilus, yn mynyddoedd Silsileh; ond yr oedd y cofadeiliau a'r cerfluniau a addurnent y temlau hyny wedi

Digitized by Google

eu ffurfio o geryg Syene, neu yr ithfaen dwyreiniol, a hwnw wedi ei gael o chwarelau ynysoedd Philæ ac Elephantine, ac yn enwedig o'r cloddfeydd mawrion a geir yn y mynydd yn nghymmydogaeth Syene. Yr oedd prif gampweithiau cerfluniaeth y Groegiaid yn cael eu gwneyd o farmor gwyn prydferth Attica ac ynysoedd yr Ynysfor. O chwarelau mynydd Pentelicus, ger llaw Athen, y cafwyd defnyddiau i adeiladu y Parthenon a theml Theseus yn y ddinas hono, yn gystal ag at demlau Ceres a Proserpine yn Eleusis; ac yr oedd digon o geryg o liw gwyndd-wyn yn cael eu cloddio o'r ddaear i atteb dybenion adeiladu. Ceid marmor Pentelicus, a orwedd ger llaw arwyneb y mynydd creigiog, trwy dori ochr y bryn yn glogwyni sythion. Yr oedd chwarelau Ephesus yn eang; ac ymddengys fod y chwarel fawr yn Epipolæ, o ba un y cafwyd ceryg i adeiladu Syracusa, yn anferth ei maintioli, gan ei bod yn ddigon eang i gynnwys saith mil o filwyr Groegaidd, y rhai a gymmerwyd yn garcharorion pan yr eneiliodd byddin Nicias o'r ddinas hono. Gweithiwyd chwarelau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid gan gaethweision; ac am fod y gwaith yn galed, darllenir yn fynych am gaethweision afreolus yn cael eu danfon i'r chwarelau fel cospedigaeth.

Y mae yn yr Ynysoedd Prydeinig gyflawnder o bob math o feini yn mron a ddefnyddir i ddybenion adeiladu. Defnyddir ceryg chwarelau ithfaen swydd Aberdeen yn helaeth yn Llundain, i godi pontydd, muriau yr afon, a gweithydd eraill o nerth a pharhad. Gellir caboli ithfaen Peterhead yn rhagorol, a defnyddir ef i wneyd beddfeini, colofnau, a mentyll simneiau (*chimney pieces*), a phethau addurniadol eraill. Y mae yn y bryniau Grampiaidd yn Ysgotland, yn chwarelau swydd Dublin, ac yn rhai Newry a swydd Down yn yr Iwerddon hefyd, amryw fathau o'r un maen. Ceir digon o ithfaen yn Lloegr; ond yn chwarelau Cernyw y ceir fwyaf. Defnyddiwyd ithfaen o Aberdeen, o Gernyw, ac o swydd Devon, i adeiladu amglawdd y Tafwys, y tu uchaf i bont Westminster, yn y brifddinas. Y mae tywodfaen gwyn a choch, ceryg nadd, a cheryg calch hefyd, i'w cael mewn cyflawnder mewn llawer o fanau yn y Deyrnas Gyfunol.

Y mae yn Ngogledd Cymru yn neillduol chwarelau mawrion o lechi, o ba rai yr anfonir llechi i orchuddio tai i wahanol wledydd y byd. Y mae y rhai hyn i'w cael yn benaf yn siroedd Caernarfon a Meirion; ac eraill, llai, yn mynyddoedd Berwyn, rhwng Corwen a Llangollen. Ceir hefyd chwarelau o'r fath yn Denyhall, yn Nghernyw; yn Horsham, yn Sussex; ac yn siroedd Donegal a Kerry, ynghyd âg mewn lleoedd eraill yn y wlad hon, yn gystal ag yn yr Unol Dalaethau. Ond yn Arfon a Meirion y mae y chwarelau eangaf a chyfoethocaf o lechi da a rhagorol sydd yn yr holl fyd adnabyddus.

Y mae cryn wahaniaeth yn y dull y gweithir chwarelau llechi Cymru; yr hyn sydd i'w briodoli i ansawdd y llechfeini, ynghyd â sefyllfa y chwarelau eu hunain. Er enghraifft, y mae cloddfeydd cyfoethog Dinorwic a Penrhyn yn cael eu gweithio yn gyffelyb—am y rheswm fod natur y meini yr un, ac hefyd am fod eu sefyllfa yn debyg i'w gilydd. Y mae y ddwy ar lethr mynydd; a chan fod y lechfaen yn agos i wyneb y tir, y mae pob ysbwrial yn cael ei glirio, a'r graig yn cael ei dwyn i'r golwg. Tynir y graig yn dalpiau, drwy ei saethu; ac yna, wedi i'r talpiau gael eu 'bras-hollti,' anfonir hwynt i'r chwarelwyr ar y lan yn 'flociau' i'w llifio; ac yna, holltir hwynt yn deneu, a gwneir hwynt yn llechi o wahanol faintioli. Yr un maintioli ydyw y llechi yn mhob chwarel o'r bron. Fel rheol, y maent yn amrywio o 10 mod. wrth 6 mod., hyd 24 mod. wrth 14 mod.—yn codi fesur y dwy fodfedd yn yr hyd, a modfedd yn y lled. Os bydd y llechi o natur galed, nis gellir eu hollti mor deneuon a'r lleill; ac felly, gwneir hwynt yn fwy o fesur na 24 wrth 14.

Y gwahaniaeth penaf rhwng chwarelau Ffestiniog a'r ddwy a nodwyd uchod ydyw, fod y lechfaen yno yn gorwedd yn is i lawr yn y ddaear, ac felly fod mwy o ysbwrial rhyngddi a'r wyneb. Ystyrir y draul o symmud yr ysbwrial hwn ymaith yn rhy gostus gan gwmniau Ffestiniog; ac felly, torir twnelau i fewn i'r mynydd, a dilynir y lechfaen yn lled debyg fel y gwneir yn y gweithydd glô. Gan hyny, y mae y creigwyr yn gweithio yno wrth ganwyllau yn nghrombil y mynydd. Gwahaniaeth arall yw, fod y graig yn Dinorwic a'r Penrhyn â'i graen, o'r bron, yn uniongyrchol, tra y mae ar ogwydd yn Ffestiniog. Yma, hefyd, y mae y cyfan o'r 'blociau' yn cael eu llifio, am eu bod yn hirion, ac nas gall y chwarelwyr gael lle arnynt i ddodi eu 'cynion' i'w hollti yn fân. Wrth eu llifio, cedwir digonedd o ddwfr arnynt, rhag i'r llif galedu eu penau. Os bydd y llech yn rhywiog, sef yn feddal, 'naddir' hi â pheiriant; ond os bydd o natur galed, rhaid ei naddu â chyllell yn y llaw, gan y byddai i'r peiriant ei dinystrio o herwydd ei chaledrwydd.

Y ffordd a ddefnyddir fynychaf i gael ceryg allan o'r creigiau ydyw drwy eu saethu. Ond y mae y tywodfaen yn hawdd ei godi trwy foddion eraill; sef, â throsolion, &c. Offerynau llaw yn unig a ddefnyddir, o herwydd fod saethu yn hollti gormod, ac yn dryllio y graig yn rhy fân. Gwna y chwarelwr nifer o dyllau bychain â chŷn ar hyd darn o graig, ac yna gŷr iddynt gynion dûr bychain. Ar ol taraw yn galed â morthwylion trymion, y mae y cynion dûr yn tori trwy y graig. Fel hyn y ceir y darnau mwyaf pwrpasol tuag at golofnau, bedd adeiliau, &c. Mewn rhai chwarelau, yn gystal ag mewn mwngloddiau, eir i gryn draul er codi y dwfr o'r gwaith. Mewn chwarelau o'r fath, y mae yn angenrheidiol cael agerbeiriant a sugnedyddion. Weithiau, y mae y draul yn fawr i glirio y tywod, y graian, neu yr ysbwrial rhydd fydd ar wyneb gwely uchaf y graig.

Yn ol y gyfraith, y mae chwarel yn perthyn i'r hwn fydd yn etifeddu y tir yn yr hwn y gorwedda; o herwydd y dded̈f ydyw, y golygir mai yr hwn fydd yn perchen y wyneb fydd yn meddiannu y tir i lawr hyd i ganol y ddaear. Nis gall neb, gan hyny, weithio chwarel, neu gario ymaith y defnyddiau fyddo ynddi, os na bydd wedi derbyn hawl oddi wrth y meddiannydd, naill ai trwy brydles, neu ryw deitl cyfreithiol arall; o blegid ystyrir y ceryg yn rhan o'r tir, ac yn eiddo priodol i'r perchenog.

**CHWYDDWYDR, MWYADUR** (*microscope*): enw ar offeryn tremyddol tra adnabyddus, yr hwn a ddefnyddir i archwilio a mwyhau gwrthddrychau bychain, neu ranau bychain o wrthddrychau mawr. Y mae y gair Saesneg, *microscope*, yn tarddu o ddau air Groeg—*mikros*, bychan, a *skopea*, gweled neu archwilio. Defnyddir yr offeryn yn benaf i'n galluogi i archwilio

Digitized by Google

gwrthddrychau sydd mor fychain fel y maent yn mron neu yn gwbl rhy fychain i fod yn ganfyddadwy â'r llygad noeth. Y mae hanes boreuol y chŵyddwydr yn amgauedig mewn tywyllwch; ond ymddengys yn eglur fod y briodoledd o fwyhau sydd yn y llugr-wydr (*lens*) wedi ei chael allan mor fuan ag y dyfeisiwyd y llugr-wydr, ac hwyrach na chanigymmerid drwy gymmeryd yn ganiataol ei fod, yn ei ffurf symlaf, mewn bod cyn y cyfnod Cristionogol. Y pryd hwn, ac am lawer o ganrifoedd wedi hyny, yr oedd yn gynnwysedig o un llugr-wydr, a hwnw o'r nodwedd mwyaf anghelfydd; ac ymddengys mai y defnydd mwyaf a wneid o hono oedd crynhoi gwres pelydrau yr haul. Yr oedd chŵyddwydrau sengl, ar ffurf cronellau (*globes*) gwydr llawn o ddwfr, yn cael eu defnyddio gan yr hynafiaid. Cafodd Mr. Layard lugr-wydr mwyhaol o greigrisial yn mysg nifer o gawgiau gwydr yn mhalas gogledd-orllewinol Nimroud. Dyfeisiwyd y chŵydd-wydr dwbl gan Zacharias Zansz, neu gan ei dad, Hans Zansz, gwneuthurwyr gwydrddrychau yn Middleburg, yn Holland, o ddeutu y fl. 1590—yn cynnwys dau lugr-wydr wedi eu gosod mewn pellder priodol oddi wrth eu gilydd, fel ag i beri fod yr agosaf i'r llygad yn mwyhau llun unrhyw wrthddrych a osodir o flaen y llall. Yr oedd un o'u mwyaduron hwy, sef yr un a gyflwynwyd ganddynt i'r tywysog Maurice, yn meddiant Cornelius Drebell o Alkmaar, mesuronydd a breswyliai yn Llundain yn 1617. Y mae y chŵydd-wydr yn offeryn sydd yn mron yn newydd mewn amseroedd diweddar, ac y mae darganfyddiadau pwysig wedi eu gwneyd ac yn parhau i gael eu gwneyd trwy ei ddefnyddio i archwilio pethau bychain—yn gyffelyb i fel y mae y pellwelyr wedi bod yn foddion i eangu ein gwybodaeth yn fawr am wrthddrychau pell.

Yr oll sydd angenrheidiol er mwyhau gwrthddrych ydyw ei ddwyn yn nes i'r llygad na phan yr edrychid arno o'r blaen; ond am fod pellder ffôcol (*focus*) y llygad yn amrywio o chwech i bedair ar ddeg o fodfeddi—deng modfedd yn bellder ffôcol canolog—y mae yn canlyn fod terfynau y gallu mwyhaol yn cael ei gyrhaedd pan y dygir y gwrthddrych sydd i'w archwilio i'r agosrwydd yna i'r llygad. Os torir twll mewn cerdyn du â nodwydd fain, ac os edrychir drwyddo ar ryw wrthddrych bychan, megys asgell trychfilyn, wedi ei osod tua modfedd oddi wrth y cerdyn, fe'i gwelir yn eglur, a hyny wedi ei fwyhau i ddeg gwaith ei faintioli. Yr achos o hyn ydyw, fod twll y nydwydd yn cyfyngu ymwasgariad pelydrau y goleuni, modd y gallo y llygad eu cydgrynhoi ar y rhwydlen (*retina*) fel ag i gynnyrchu arni argraph eglur. Nid yw yr argraph a wneir ond egwan; ac oni buasai fod y cerdyn du yn cau ymaith bob goleu arall, collid ef. Os symmudir y cerdyn du, heb symmud y llygad na'r gwrthddrych a archwilir, ceir fod yr asgell o'r bron yn anweledig, gan fod y llygad noeth yn analluog i ganfod gwrthddrych yn glir yn yr agosrwydd o fodfedd. Dengys hyn fod y cerdyn du, â thwll nydwydd ynddo, yn offeryn mwyhaol, fel offeryn sydd yn meddu llugr-wydrau, trwy ei fod yn galluogi y llygad i fyned o fewn modfedd at y gwrthddrych. Nid yw y disgrifiad hwn o allu mwyhaol yn gymmhwysiadol ond at y chŵydd-wydr sengl, drwy yr hwn yr edrychir ar y gwrthddrych ei hun yn uniongyrchol; ac nid at yr un dwbl—drwy yr hwn yr edrychir ar ddelw a ffurfir ar un llugr-wydr, a'r ddelw hono yn cael ei mwyhau gan lugr-wydr arall, fel pe byddai y gwrthddrych ei hun. Wrth faintioli ymddangosiadol gwrthddrych, y golygir yr ongl a ffurfir gan ddwy linell wedi eu tynu o ganol y llygad i gyrau pellaf y gwrthddrych; yr hon sydd yn fwy pan y byddo y gwrthddrych, yn agos i'r llygad na phan wedi ei symmud yn mhell. Gelwir yr ongl hon yn ongl gweledial; ac y mae yn gwbl ar wahân oddi wrth ongl pwynt y goleuni, drwy yr hon y gwelir y gwrthddrychau. Y mae nerth ffôcol llugr-wydr yn penderfynu ei allu mwyhaol. Gosodir y gwrthddrych sydd i'w archwilio yn ei ffôc (*focus*), fel y byddo i'r goleuni sydd yn ymwasgaru o bob cwr, ar ol cael ei wrthdori gan y llugr-wydrau, fyned i'r llygad yn llinellau mor agos i gyfochrol ag sydd angenrheidiol er cael golwg clir.

Y mae y chŵyddwydr yn awr yn offeryn gwerthfawr yn nghyfraniad addysg, ac y mae traethodau lawer wedi eu hysgrifenu ar ei ddefnyddioldeb, ac ar y dull o'i ddefnyddio wrth ymwneyd â gwahanol ganghenau gwyddoniaeth; a pherthyna i lawer o'r canghenau hyny offerynau neillduol. Y mae gan fferyllwyr, difynwyr, milofyddwyr, ac eraill, offerynau a werthfawrogir yn fawr ganddynt, wedi eu cyfaddasu yn neillduol ar gyfer y gwaith a wneir ganddynt yn y gwahanol gyfeiriadau hyn. Nid y cwestiwn yn awr ydyw, i ba wyddor y mae y mwyadur yn wasanaethgar? ond yn hytrach, pa un o honynt a all fyned yn mlaen hebddo? Y gwyddorau y mae wedi bod yn fwyaf gwasanaethgar iddynt ydynt—difyniaeth, llysieuaeth, milofyddiaeth, physygwriaeth, mwnyddiaeth, a daeareg. Gwyr physygwyr yn dda pa mor ddefnyddiol ydyw yn eu hymdriniaethau priodol â chlefydau. Ac er cael allan droseddau a throseddwyr, ac amddiffyn diniweidrwydd, nid yw yn llai defnyddiol; gan y gellir, trwy ei ddefnyddio, benderfynu hyd sicrwydd pa un a ydyw ysmotyn a ddrwgdybir ar ddillad un, a gyhuddir o lofruddiaeth, yn waed anifeilaidd neu ddynol. Yr un modd hefyd, gellir penderfynu pa un, o dan amgylchiadau cyffelyb, a berthyna gwallt i fod dynol, ai peidio. Y mae diniweidrwydd neu euogrwydd person wedi ei benderfynu fel hyn yn fynych. Un o'r chwanegiadau mwyaf dyddorol a wneir at ein gwybodaeth gan yr offeryn hwn ydyw, ei waith yn dadguddio ac yn dadblygu yr 'anelwig ddefnydd' (*embryo*) mewn llysiau ac anifeiliaid; a'r cyssylltiad sydd rhwng rhagarwyddion afiechyd âg anhwylder yn y cyfansoddiad.

Y mae mwyaduron yn amrywio llawer o ran eu pris—o 5*s.* i 100*p.*, a mwy. Gellir cael offeryn sengl lled wasanaethgar am o 5*s.* i 10*s.* Y mae y rhai dwbl yn fwy costus; ond i rai yn dechreu eu defnyddio, gellir cael offeryn hynod o dda am o ddeutu punt—yn mwyhau o ddeg a thrigain i ddau gant o weithiau. Os dymunir cael offeryn rhagorach—un cymmhwys i wneyd sylwadau ac archwiliadau manwl—bydd yn rhaid rhoddi mwy o arian am dano. Ond y mae prisiau y gwahanol wneuthurwyr yn amrywio cymmaint fel nas gellir rhoddi manylion mwy cywir am danynt.

**CHWYLDROAD FFRENGIG, Y.** Wrth 'chwyldroad,' y meddylir cyfnewidiad llwyr a chyflym yn nghyfansoddiad gwlad, pa un bynag a fydd wedi ei ddwyn i ben trwy foddion cyfreithlawn, ynte anghyfreithlawn. Er canfod achosion y chwyldroad Ffrengig, y mae yn

Digitized by Google

angenrheidiol bwrw o honom ein golwg yn ol ar gyflwr Ffraingc yn nheyrnasiad dau raglaenor y brenin Louis XVI.; canys yr oedd y cymmylau a dorasant ar Ffraingc yn 1789 wedi bod yn ymgasglu er's talm. Holl ffrwyth y gogoniant gau a ennillodd y deyrnas hono trwy arfau rhyfelwyr enwog yn ystod y rhan flaenaf o deyrnasiad Louis XIV. oedd cyni a gorthrwm. Erbyn diwedd ei deyrnasiad, yr oedd y trethi trymion, afradlondeb y llys, oferedd yr offeiriaid, a gormes y brenin, yn dechreu cloddio dan sylfeini llwyddiant a rhyddid; a phan fu farw yr oedd y llywodraeth wedi ei llyffetheirio gan ddyled o dair miliwn a hanner o bunnau. Nid oes yn nheyrnasiad maith ei olynydd ddim yn haeddu sylw heb law lledaeniad y syniadau anffyddol a phenrydd hyny a dueddasant y bobl, bob yn ychydig, i ddymchwelyd holl hen sefydliadau y wlad. Yr oedd annhrefnusrwydd gwarthus y llywodraeth yn gwneuthur yn ofer bob ymgais i ennill buddugoliaeth ar fôr a thir. Gadawyd y trefedigaethau yn ysglyfaeth i ymosodiadau galluoedd eraill, tra yr oedd y wladlywiaeth fympwyol ac ansefydlog a wthid gan Madame Pompadour, cymmones y brenin, yn gwarthruddo y wlad yn ei golwg ei hun ac yn ngolwg gwledydd eraill. Ar ol rhyfel treulfawr ac aflwyddiannus, bu gorfod i Ffraingc, yn nghyttundeb heddwch 1763, roddi i fyny y rhan fwyaf o'i meddiannau trefedigol i Loegr. Yr oedd y gyfrinas Iesuitaidd yn peri cymmaint o flinder tua diwedd teyrnasiad Louis XV., fel y bu gorfod eu halltudio yn 1764. Nis gallai Louis lai na gweled fod anfoddlonrwydd mawr yn ffynu yn mysg y bobl, a bod adeg o gyffro enbyd yn ymyl; canys un o'i ddywediadau olaf ydoedd, "*Après moi le déluge*"—'Ar fy ol i y dylif.' Yn 1774, esgynodd Louis XVI. i'r orsedd. Nid oedd yn ei weinidogion cyntaf ddigon o yni i fynu cael y diwygiadau y teimlent fod angen am danynt: a phan wnaed Necker yn weinidog y cyllid, yr oedd y llywodraeth wedi suddo i gymmaint o dlodi fel nas gallai yntau, er mor fedrus oedd, ei chodi i fyny; ac yr oedd ymdrechion y gweinidogion a'i dilynasant yn fwy aneffeithiol fyth. Yr oedd rhyfel America wedi hau syniadau gweriniaethol yn mysg y dosbarthiadau isaf, ac yr oedd hyd yn oed y pendefigion wedi gwneyd yn hysbys i bob dosbarth analluogrwydd y llywodraeth, ac afradlondeb y llys. Yr oedd y pendefigion, yn gystal a'r cyffrediniaid, yn awyddus am gael cyfarfod o'r gwahanol ddosbarthiadau (*états*)—y pendefigion er mwyn gosod trethi newyddion ar y genedl, a'r gwŷr cyffredin er mwyn cael diwygiad trwyadl yn mhob peth. Ar ol llawer o wrthwynebiad oddi wrth y brenin a'r llys, darfu i'r *états généraux*, y rhai nad oeddynt wedi ymgyfarfod er y flwyddyn 1614, ddyfod ynghyd o'r diwedd i Versailles.

Y GYMMANFA GYFANSODDIADOL (*Assemblée Constituante*) o'r 5ed o Fai, 1789, hyd Medi 30ain, 1791. Ymgyfarfu aelodau y gymmanfa hon yn Versailles ar y 5ed o fis Mai, 1789. Yr oedd yr aelodau hyn yn gynnwysedig o brwyaduron o blith y tair gradd, neu y tri dosbarth o etholwyr; sef, yr offeiriaid (*clergé*), y pendefigion (*noblesse*), a'r cyffrediniaid (*tiers état*). Yr oedd rhifedi prwyaduron y cyffrediniaid i fod yn gyfartal â rhifedi y ddau ddosbarth arall ynghyd. Anfonwyd 308 o aelodau i'r gymmanfa gan yr offeiriaid, 285 gan y pendefigion, a 621 gan y bobl gyffredin.

Er fod argoelion tra sicr o'r cyfnewidiadau pwysig oedd ar gymmeryd lle wedi ymddangos eisoes yn Mharis, ac yn y taleithiau, etto, pan agorodd y gymmanfa y dechreuodd y chwyldroad, ac y cymmerodd wedd bendant. Mewn anghyttundeb rhwng prwyaduron y tri dosbarth y dechreuodd yr helynt. Gan fod y cyffrediniaid yn hawlio gwneuthur, mewn undeb â'r ddau ddosbarth arall, ryw bethau ag y mynent hwy eu gwneuthur ar wahân, sorodd yr offeiriaid a'r pendefigion, a gwrthodasant gydweithredu â'r cyffrediniaid. Yna y cyffrediniaid, heb wneyd unrhyw gyfrif o'r aelodau absennol, a aethant yn mlaen gyda'u gwaith; a chan ystyried mai hwynthwy oedd gwir gynnrychiolwyr y wlad, penderfynasant, Mehefin 17eg, i alw eu hunain yn Gymmanfa Genhedlig (*Assemblée Nationale*). Ofnodd gwŷr y llys fod yr awdurdod yn myned oddi arnynt; am hyny ceisiasant ddadgorphori y gymmanfa. Dan yr esgus fod eisieu y neuadd i gadw rhyw gyfarfod brenhinol, hwy a'i cauasant hi fel nas gallai y cyffrediniaid ymgynnull ynghyd. Ciliodd yr aelodau cyffredin, gan hyny, i le arall; ac yno tyngasant nad ymwahanent hyd nes y ceid diwygiad llwyr yn y cyfansoddiad. A thranoeth, ail ymunodd y rhan fwyaf o aelodau y glerigaeth a'r bendefigaeth â hwynt. Ar y 23ain o fis Mehefin, darfu i'r brenin, yn lle dangos parodrwydd i gyfarfod â dymuniadau mwyafrif y gymmanfa, eu beio am eu gwaith:—a therfynodd ei araeth trwy beri i aelodau y gymmanfa ymwasgaru. Ufuddhaodd yr offeiriaid a'r pendefigion, ond arosodd y cyffrediniaid yn eu lle. Pan ddygodd meistr y seremoniau ar gôf iddynt orchymyn y brenin, cododd Mirabeau, a dywedodd wrtho, "Ewch i ddywedyd wrth eich meistr ein bod yma trwy rym y bobl, ac nad awn oddi yma ond trwy rym bidogau." Trydanwyd y gymmanfa gan y geiriau crylion hyn; ac heb symmud o'i lle, hi a gadarnhaodd ei phenderfyniadau blaenorol, ac a gyhoeddodd ei haelodau yn anghospadwy (*inviolable*). Chwanegodd y brenin ddigio y bobl trwy orchymyn i Necker, gweinidog y cyllid—yr hwn oedd yn gymmeradwy iawn yn Ffraingc—i ymadael o'r wlad o fewn pedair awr ar hugain. Gorchuddiodd y dinasyddion ddelw Necker â galarwisg, a dygasant hi ar hyd heolydd Paris, gan waeddi bloeddiadau o dristwch ac o ddigofaint. Wrth fyned rhagddi, cyfarfu y dyrfa â mintai o filwyr Almaenig, dan lywyddiaeth y tywysog Lambesc—yr hwn a ddechreuodd wanu pawb a syrthiai i'w ddwylaw, yn wŷr, yn wragedd, ac yn blant. Darfu i'r creulondeb annynol hwn gyffroi y bobl yn ddirfawr. Rhedasant i bob man y tybient y ceid arfau ynddynt. Dygasant fil o ynau, ac ugain o fagnelau, o'r Invalides:—ac mewn ychydig oriau yr oedd heolydd Paris yn llawn o wŷr arfog yn crochlefain yn erbyn y llys. Yn ystod y cyffro hwn y darfu i'r cyffrediniaid greu y cartreflu Parisiaidd. Cynnygiodd 48,000 o ddinasyddion eu hunain yn y fan; a gwisgasant liwiau y ddinas, sef hetrosyn coch a glâs. Yn ddiweddarach y chwanegwyd y lliw gwyn, gan Lafayette. Parhau yr oedd y cyffro. Ar foreu y pedwerydd dydd ar ddeg, llanwyd yr heolydd â lluoedd aneirif o bobl—ac yr oedd miloedd o honynt yn arfog. Canai y gloch alarwm yn mhob cwr, cauid y siopau a'r masnachdai, a rhuthrai y tyrfaoedd tua'r Bastille i geisio arfau. Yr oedd y llywodraethwr Launay eisoes wedi ymbarotoi i'w amddiffyn ei hun, er nad oedd gwarchodlu y Bastille ond ychydig. Gofynodd rhai dynion o

Digitized by Google

blith y dorf am gael ymddiddan â'r llywodraethwr, ac yntau a ganiataodd iddynt. Ond o'r braidd yr aethant i mewn na chlywyd eu bod yn cael eu saethu gan y gwarchodlu. Gyrodd y tro bradwrus hwn y bobl yn gynddeiriog. Dygasant drolieidiau o wellt at y Bastille, a dodasant dân ynddo, gan feddwl llosgi yr adeilad. Ar hyny dygodd tair mintai o'r gard Ffrengig, ag oeddynt yn bleidiol i'r bobl, amryw fagnelau at y lle. Ac ar ol pedair awr o ymladd brwd, rhoddodd Launay, a'i wŷr, eu hunain i fyny. Gwnaed ymdrech teg i arbed y llywodraethwr, ond torwyd ei ben ar y ffordd o'r Bastille i'r Hotel-de-Ville; a lled debyg fu tynged eraill o'r carcharorion. Pan glywodd y brenin am yr hyn a ddigwyddodd penderfynodd fyned i'r gymmanfa. Darfu i'w wyleidd-dra a'i fwyneidd-dra, ynghyd â'r ymddiried a dystiolaethai oedd ganddo yn nghynnrychiolwyr y genedl, ennill eu serch rhag blaen. Hebryngasant ef yn ol yn orfoleddus i'w balas. Meddiannodd y teimlad hwn holl drigolion Paris hefyd; a phan ymwelodd y brenin â'r ddinas yn mhen deuddydd ar ol hyny, cafodd dderbyniad brwdfrydig gan y trigolion. Pa fodd bynag, mynasant ganddo alw Necker yn ei ol. Yr oedd dychweliad y gŵr hwn i Paris yn gyffelyb i ddychweliad buddugoliaethwr enwog.

Ar y 5ed o Hydref, bu cyffro arall yn mysg y bobl. Y tro hwn aeth llu mawr o wŷr a gwragedd i Versailles. Gan i ysgarmes gymmeryd lle rhwng y bobl a gard y brenin, bu einioes y teulu brenhinol mewn enbydrwydd nid bychan; ond cadwodd y cadlywydd Lafayette hwynt rhag derbyn dim niwed.

Ar y 4ydd o fis Medi, 1790, gadawodd Necker weinidogaeth y cyllid am byth. Ond y tro hwn ni pharodd ei ymadawiad ddim gofid yn mhlith y bobl. Enghraifft drist oedd hon o gymmeradwyaeth ddarfodedig!

Ar yr 2il o Ebrill, 1791, bu farw Mirabeau. Gan ei fod er's peth amser cyn hyn yn dangos ei hun yn fwy pleidiol i'r brenin nag ydoedd gynt, meddyliai rhai iddo farw o wenwyn a roddwyd iddo gan ryw wrthwynebwr i'r frenhiniaeth; ond y peth tebycaf ydyw, mai gwragedd, gwirodydd, a chaledwaith a'i lladdasant ef. Ni oedd odid arall oedd yn cyfuno cymmaint o anfoesoldeb â chymmaint o athrylith. O'r holl chwyldroadwyr, efe oedd yr areithiwr mwyaf galluog a dylanwadol. Dengys tystiolaethau ei fod, cyn diwedd ei oes, yn cydweithio â'r brenin i ddymchwelyd y cyfansoddiad, ac i adferu yr hen drefn, a'i fod hefyd yn derbyn cryn symiau o arian gan y llys; ond nid oedd hyn ond peth a ammheuid gan ychydig pan y bu farw; ac am hyny cafodd gladdedigaeth tywysog. Pan y daethpwyd, ar ol hyny, i weled llythyrau Mirabeau at y brenin, ac y cafwyd allan y gwirionedd, cyffrowyd y bobl gymmaint fel y tynasant ei ddelw ef i lawr, gan ei dryllio yn chwilfriw.

Ar yr 20fed o Fai, gwnaeth pleidwyr y brenin gais—yr ail gais, bellach—i'w ddwyn ef ymaith. Ganol nos, aeth gyda'i deulu ymaith o'r palas yn lladradaidd; ond cyn myned o honynt dros gyffiniau Ffrainge, fe'u daliwyd. Dygwyd y brenin yn ol i Paris, a chadwyd ef yn gaeth o fewn y Tuileries. Ar ol gorphen gwneuthur y cyfansoddiad a elwir yn Gyfansoddiad 1791, ymwasgarodd y Gymmanfa Genhedlig ar y dydd olaf o Fedi. Ac er gwaethaf ei beiau, pasiodd y gymmanfa hon lawer o fesurau daionus. Dileodd yr annhegwch a'r creulondeb oedd ynglŷn â gweinyddiad y gyfraith; cydnabu, mewn egwyddor, ryddid crefyddol; diddymodd y degwm, breintiau gwriogaethol, a'r llwon mynachaidd, a llawer camwri arall.

Y Gymmanfa Ddeddfwriaethol (*Assemblée Législative*)—o'r 1af o Hydref, 1791, hyd yr 21ain o Fedi, 1792. Ffurfiwyd y gymmanfa hon yn unol â'r cyfansoddiad a wnaed gan y gymmanfa flaenorol. Yr oedd hi yn gynnwysedig o 745 o aelodau, ac yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn ddemocratiaid. Yr oeddynt yn rhanedig i dair plaid—y ddeheu, yr aswy, a'r ganol. Pleidwyr y cyfansoddiad oedd y blaid ddeheu. Gwneid i fyny yr aswy gan y Girondiaid; y rhai a amddiffynent y chwyldroad yn egnïol, ond a wrthwynebent bob cais i ddymchwelyd y frenhiniaeth. Gelwid y blaid hon yn *Girondiaid*, am mai cynnrychiolwyr Gironde oedd ei harweinwyr hi. Yr oedd y blaid ganol hefyd yn pleidio y chwyldroad, ond araf oeddynt i weithredu. Yr oedd y pendefigion a'r offeiriaid yn elynion calon i'r cyfansoddiad. Gwrthodai yr offeiriaid dyngu ffyddlondeb iddo, ac ymfudai y pendefigion yn lluoedd i wledydd eraill, gan dybied y buasai eu hymadawiad yn cael ei deimlo yn golled gan y gweithwyr a ddibynent arnynt. Yn ngwyneb hyny, bygythiodd y gymmanfa attafaelu meddiannau pawb a ymfudent, ac amddifadu pob offeiriad cyndyn o'i dâl.

Yr oedd Awstria, ac Etholwyr Treves a Mayence, gan faint eu hanghymmeradwyaeth hwy o'r chwyldroad, yn brysur yn ymbarotoi i'w lethu. Gwyddid fod yr ymfudwyr Ffrengig yn eu hannog i wneuthur hyn, a dygid yr un cyhuddiad hefyd yn erbyn y brenin a'i lys. Hyn a barodd i Isnard ddywedyd yn y gymmanfa, "Os ydyw cyfringynghorau yn annog y brenhinoedd i ryfela yn erbyn y bobl, ninnau a annogwn y bobl i ryfela yn erbyn y brenhinoedd." Ar yr 20fed o Ebrill, cyhoeddodd Ffrainge ryfel yn erbyn Awstria. Anffafriol i'r Ffrangcod fu y rhyfel ar y dechreu; felly, yn Ngorphenaf, cyhoeddodd y gymmanfa fod y wlad mewn enbydrwydd. Cafodd hyn effaith aruthrol ar y ddinas, ac ar y taleithiau. Daeth allan finteioedd gwirfoddol, megys o'r ddaear, yn mhob cwr o'r wlad. Fe wasanaethodd dadganiad annoeth y Duc o Brunswick, pen llywydd byddinoedd Prwssia ac Awstria, i ennyn brwdfrydedd a digofaint y Ffrangcod yn fwy fyth. Cyhoeddodd, yn enw penau coronog Prwssia ac Awstria, os gwneid y niwed lleiaf i Louis XIV., neu i un o'i deulu, y dialai efe ar ddinas Paris yn ddidosturi. O hyny allan penderfynodd y gymmanfa ddiorseddu y brenin. Mynai y Girondiaid wneuthur hyny trwy ordinhâd (*decree*) y gymmanfa, ond mynai y blaid a arweinid gan Danton, Robespierre, a Marat, ddwyn hyny i ben trwy gynnhyrfu y ddinas i wrthryfel; a chan fod y ddinas bob amser yn barod i wrthryfela, y blaid olaf a orfu. Hanner nos canwyd y gloch alarwm yn arwydd i'r gwrthryfelwyr ymgasglu; a thranoeth, ymosodasant ar balas y Tuileries, yr hwn a warchodid gan naw cant o Swissiaid. Gorthrechwyd y rhai hyn, a lladdwyd hwynt bob un, a rhoddwyd y palas yn ysbail i'r bobl. Cyn i'r rhuthr hwn gymmeryd lle yr oedd y brenin wedi myned ymaith o'r palas i'r gymmanfa. Wedi y pethau hyn daeth arweinwyr y gwrthryfel i'r gymmanfa a gofynasant am i'r brenin gael ei ddiorseddu, ac am gael Cynnullfa Genhedlaethol (*Convention Nationale*). Yn unol â hyn, carcharwyd y

Digitized by Google

Achubodd y gwrthryfelwyr Robespierre o law pleidwyr y Gynnullfa, a dygasant ef yn fuddugoliaethus i'r Hôtel de Ville. Ond yn fethiant yr aeth y gwrthryfel, hyd yn oed pan yr oedd ar fin llwyddo; canys pan oedd y magnelwyr eisoes wedi cyfeirio y magnelau at y Gynnullfa, hwy a wrthodasant danio. Calonogodd hyn y Gynnullfa a'i phleidwyr. Yn lle amddiffyn eu hunain, troisant bellach i ymosod ar eu gwrthwynebwyr. Llusgasant fagnelau at yr Hôtel de Ville, gan feddwl gwarchau ar y lle. Er mwyn gochel y gosp oedd yn eu haros, ceisiodd y cydfradwyr roddi terfyn ar eu heinioes. Alltudiwyd rhai, diangodd eraill; a thranoeth, sef yr 28ain, cymmerwyd Robespierre, a Henriot, a Couthon, a Saint-Just, a dau-ar-hugain o'u pleidwyr, i'r dienyddle; ac erbyn pump o'r gloch, yr oedd eu penau oll wedi cwympo.

Ar ol eu cwymp hwy, ymddangosodd teimlad yn ffafr brenhiniaeth; ac yn Hydref, llwyddodd ei phleidwyr i godi gwrthryfel yn Paris, yn erbyn y weriniaeth. Gosodwyd y fyddin dan lywodraeth cadlywydd o'r enw Barras; a dewisodd yntau swyddog ieuangc, o'r enw Buonaparte, yn llywydd dano.

Y Llywgor Gweinyddol (*Directoire exécutif*):—o Hydref 27ain, 1795, hyd Tachwedd 30ain, 1799. Aelodau cyntaf y Llywgor oeddynt Barras, La Réveillère-Lépaux, Carnot, Letourneur, a Rewbel. Pan ddaeth y rhai hyn i awdurdod, yr oedd amgylchiadau y weriniaeth yn isel ac annhrefnus iawn—y pleidiau yn gynnhyrfus, y drysorfa yn wâg, a'r byddinoedd yn ddiymgeledd. Ond ni ddigalonasant; eithr ymroisant i weithio gydag egni cyfartal âg anhawsder yr anturiaeth.

Yn mis Mehefin, 1798, newidiwyd aelodau y llywgor. Yr aelod galluocaf o'r llywgor newydd oedd Siéyès; ac aeth i gynghrair â Buonoparte. Dylanwadodd y symmudiad hwn yn ddirfawr ar amgylchiadau y wlad. Gwel d.g. Napoleon Buonaparte, cyf. vii.

Chwyldroad 1830.—Trwy hwn dïorseddwyd Siarl x. ar y 30ain o Orphenaf, ac yr alltudiwyd ef o'r wlad. Ar ol hyny, coronwyd y Duc o Orleans, dan y teitl Louis Philippe i. Ymadawodd Siarl i Loegr Awst 17eg.

Chwyldroad 1848.—Yr hyn a barodd i'r teimlad yn erbyn brenhiniaeth dori allan yn Ffraingc y pryd hwn oedd, fod y brenin wedi gwahardd i wledd fawr o blaid Diwygiad gael ei chynnal ar Chwefror 21ain. Cododd y wlad yn erbyn y brenin Louis Philippe, a rhoddodd yntau y swydd i fyny Chwefror 24ain, 1848, yn ffafr ei ŵyr, y Count de Paris—yr hwn ni dderbyniwyd gan y bobl. Dïangodd y brenin a'i deulu yn ddirgelaidd; a dywedir ei fod wedi diangc yn ngwisgoedd ei fwtler. Cyhoeddwyd y weriniaeth yn ffurfiol ar risiau yr Hôtel de Ville, Chwefror 26ain. Sefydlwyd ffurf-lywodraeth ddarbodol yno ar yr 22ain o'r un mis—dau ddiwrnod cyn dïorseddiad y brenin. Ymdaenodd yr ysbryd chwyldroadol hefyd ar y pryd dros y rhan fwyaf o gyfandir Ewrop.

Ar y 19eg o Ragfyr, 1848, etholwyd Louis Napoleon yn llywydd y weriniaeth am ddeng mlynedd. Ar yr 22ain o Dachwedd, 1852, dyrchafwyd ef i'r orsedd fel Ymherawdwr y Ffrangcod, dan y teitl o Napoleon iii. Yn 1870, torodd y rhyfel allan rhwng Ffraingc a Phrwssia; ac ar yr 2il o Fedi, rhoddodd yr ymherawdwr ei hun i fyny yn ddiammodol fel carcharor i frenin Prwssia yn Sedan, yr hyn a barodd syndod trwy'r gwledydd. Hysbyswyd y ffaith ddifrifol i'r gymmanfa ar y 4ydd o'r mis.

Penderfynodd y gymmanfa yn yr un eisteddfod ei fod i gael ei ddiswyddo, ac etholwyd Pwyllgor Amddiffyniad Cyhoeddus (*Committee of Public Defence*). Gadawodd yr ymherodres Eugénie Paris yn ddiogel, a diangodd i Belgium.

Ar yr 21ain o Awst, etholwyd M. L. A. Thiers yn llywydd y weriniaeth.

Mai 24ain, 1873, dewiswyd y Cadlywydd Mc Mahon yn llywydd am saith mlynedd. Ond ni pharhaodd yn y swydd ond hyd 1879; pan y rhoddodd hi i fyny, am nad allai gyttuno â syniadau y gymmanfa ar gwestiwn milwraidd.

Ionawr 30ain, 1879, pennodwyd M. F. P. Jules Grevy i'r swydd, a pharhaodd ynddi hyd Rhagfyr, 1886.

Rhagfyr 3ydd, 1887, pennodwyd M. F. S. Carnot yn llywydd; ac efe sydd yn y swydd yn awr—1891.

CHWYLDROADAU. Ni a roddwn yma restr o rai o brif chwyldroadau y byd:—

| | |
|---|---|
| Dinystr ymherodraeth Assyria, a'r Mediaid a'r Persiaid, a sylfaenwyd gan Cyrus Fawr c. | 536 |
| Sefydliad ymherodraeth Macedonia ar ddinystr ymherodraeth Persia, trwy orchfygiad Darius Codomanus gan Alexander Fawr .. | 331 |
| Yr ymherodraeth Rufeinig yn cael ei sefydlu ar adfeilion y weriniaeth gan Julius Cæsar .. | 47 |
| Ymherodraeth Ffrangcod y Gorllewin yn dechreu dan Charlemagne .. .. | R. A. 800 |
| Chwyldroad yn Portugal yn .. .. | 1640 |
| „ Lloegr .. .. .. | 1649 a 1688 |
| „ Rwssia .. .. .. | 1730 a 1762 |
| „ Ngogledd America .. .. | 1775 |
| „ Venice .. .. .. .. | 1797 |
| „ Sweden .. .. .. | 1772 ac 1809 |
| „ Holland yn 1795—gwrth-chwyldroad .. | 1813 |
| „ Poland .. .. | 1794, 1795, ac 1830 |
| „ yr Iseldiroedd .. .. .. | 1830 |
| „ Brunswick .. .. .. | 1830 |
| „ Brazil .. .. .. .. | 1831 |
| „ Hungary .. .. .. | 1848 |
| „ Rhufain .. .. .. | 1798 ac 1848 |
| „ Ffraingc .. | 1789, 1830, 1848, 1852, 1870, ac 1871 |
| „ Italy .. .. | 1859 ac 1860 |
| „ yr Unol Dalaethau .. | 1861–5 |
| „ Nhywysogaeth y Danube .. .. | 1866 |
| „ Talaethau Pabaidd, yr hwn a lethwyd | 1867 |
| „ Yspaen .. . .. | 1868 ac 1874 |
| „ Brazil .. .. .. .. | 1889 |

Yn mysg canlyniadau eraill chwyldroad 1688 yn Mhrydain Fawr, y mae Deddf y Goddefiad, sefydliad Eglwys Bresbyteraidd Ysgotland, yr hawl i ganiatau cyflenwadau i'r llywodraeth yn cael ei gyfyngu i Dŷ y Cyffredin, diwygiad yn ngweinyddiad cyfiawnder, a'r hawl i argraphu heb drwydded gan y llywodraeth.

CHWAER, CHWIORYDD, [oddi wrth *chwiawr*=chwai]. Y mae y gair *chwaer*, yn ol arddull yr Hebreaid, mor eang o ran ei gynnwysiad a'r gair *brawd*. Y mae yn cael ei arfer, nid yn unig am chwaer mewn ystyr o berthynas naturiol, yn meddu yr un tad a'r un fam, ond hefyd am chwaer o un tad yn unig, neu yr un fam, neu am berthynas agos: *Mat.* xii. 50; *Marc* vi. 3. Gelwir Sarah yn chwaer i Abraham (*Gen.* xii. 13; xx. 12), er nad ydoedd ond nith iddo, yn ol rhai; ond yn ol eraill, chwaer o du ei dad. Gwaherddir, yn Lefiticus (*pen.* xviii. 18), priodi chwaer gwraig; hyny yw, priodi dwy chwaer: neu, yn ol rhai esbonwyr, priodi ail wraig, a'r gyntaf yn fyw. Y mae yr adnod yn llythyrenol fel hyn:—"Na chymmer wraig ynghyd a'i chwaer, i'w chystuddio hi;" megys i wahardd amlwreiciaeth. Weithiau, y mae y gair *chwaer* yn arddangos cyffelybrwydd o sefyllfaoedd a

Digitized by Google

thueddiadau. Yn yr ystyr yma mae y prophwydi yn galw Ierusalem yn chwaer i Sodom a Samaria; o blegid fod y ddinas hono yn ymhyfrydu mewn efelychu y dinasoedd hyny yn eu heilunaddoliaeth a'u llygredigaeth: *Ier.* iii. 8, 10; *Ezec.* xvi. 45. Felly hefyd, y mae Crist yn dysgrifio y rhai a gadwant ei orchymynion fel ei frodyr a'i chwioryydd: *Mat.* xii. 50. Gelwir y Cenedloedd hefyd yn chwaer: "Y mae i ni chwaer fechan;" *Can.* viii. 8. Gelwir eglwys Crist wrth yr enw hefyd, er mwyn gosod allan ei gariad ef tuag ati: "Dygaist fy nghalon, fy chwaer, a'm dyweddi;" *Can.* iv. 9.

CHWANEN, CHWAIN: ni ddygwydd y gair hwn ond dwywaith yn y Beibl, sef yn 1 *Sam.* xxiv. 14, a xxvi. 20, lle y ceir fod Dafydd yn cyfarch ei erlidiwr Saul, yn yr ogof yn Engedi, yn y geiriau hyn:—"Ar ol pwy y daeth brenin Israel allan? ar ol pwy yr ydwyt ti yn erlid?—ar ol chwanen;" "Canys brenin Israel a ddaeth allan i geisio chwanen." Yn ein cyfieithiad ni o'r ddwy adnod, y mae grym y gair אחד, yr hwn a ganfyddir yn yr Hebraeg yn y ddau le, wedi ei adael allan; lle y darllenir fel hyn, "erlid ar ol, neu chwilio am, *un* chwanen." Y mae y Deg a Thrigain yn cadw y gair yn yr adnod gyntaf; ac yn gadael allan y cyfeiriad at y chwanen yn y ddiweddaf, gan ddarllen, "megys yr hela y ddylluan yn y mynyddoedd." Ond y mae cyfieithiad Groeg arall yn yr *Hexapla* yn darllen *ψύλλον ἕνα=un chwanen.* Y mae y gair "un" yn y ddwy adnod yn y Vulgate. Y mae cyfeiriad Dafydd yn y lle hwn at chwanen yn arddangos medrusrwydd a deheurwydd mawr. Appeliad ydoedd wedi ei seilio ar y gwahaniaeth dirfawr oedd rhyngddo ef, greadur tlawd a dirmygedig, a Saul, brenin Israel. Y mae hela chwanen yn ymadrodd cymhariaethol, mewn ysgrifeniadau hynafol ereill, am lawer o lafur yn cael ei gymmeryd i sicrhau amcanion diwerth.

Er y byddys yn arfer siarad yn ddiystyrllyd am y trychfilyn hwn, y mae yn dra theilwng o sylw y naturiaethwr, a'i ystyried wrtho ei hun. Y mae rhywbeth yn brydferth yn ymddangosiad chwanen hyd yn oed i'r llygad noeth. Ond i'r mwyadur yr ydym yn ddyledus am y wybodaeth sydd genym am y gadwisg ystwyth, ddysglaer, a glân, yn mha un y mae wedi ei hamgau; am ei gwddf bwaog, ei llygaid mawrion prydferth, ei chyrn (*antennæ*), ei chocsau gewynog a chymmalog, ei thrywanydd a'i sugnydd—gan ffurfio un offeryn cydweuedig cywrain, a'i dwy grafanc hirion a bachog. Y mae sioncrwydd y chwanen yn rhagori ar eiddo yr holl drychfilod neidiol, pan yr ystyrir ei nerth mewn cymhariaeth i'w maintioli; gan ei bod yn alluog i neidio, heb gynnorthwy adenydd, ei hyd ei hun ddau gant o weithiau drosodd. Camgymmeriad mawr o eiddo Aristophanes oedd ceisio gwawdio Socrates am fesur "pa sawl gwaith ei hyd ei hun y gallai chwanen ei bicio ar un naid." Y fath ydyw y cyfnewidiad dedwydd sydd wedi cymmeryd lle yn ansawdd gwyddor erbyn y dyddiau hyn, fel y mae philosophyddion wedi meiddio gwneuthur hyny yn fanwl. Y maent hefyd wedi olrhain cwrs dyddorol y trychfilyn hwn, o'r ŵy crwn a ddodwyir ar y creaduriaid hyny a allant roddi ymborth i'r macai (*larva*), yr hwn a ddisgyn drwy y blew hyd at y croen; y macai bywiog, dysglaer, a gwyn, yn ymborthi ar gen y croen, gan ymrolio i fyny yn belen os aflonyddir ef; y llindyswe (*cocoon*) sidanaidd a wca am dano ei hun; a'i ail ymddangosiad yn drychfilyn perffaith. Mae yn fwy na thebygol fod y chwanen, heb law ei bod yn derbyn ei chyfran o hapusrwydd holl natur fywydol, ac yn cyflenwi dolen yn nghadwen gyffredinol bodolaeth, yn gystal ag yn gwasanaethu fel cerydd am aflendid yn achlysurol, yn gwasanaethu hefyd, fel llawer o dylwythau ereill o drychfilod, i garthu ymaith ryw ffynnonell o afiechyd. [Gwel *Cuvier's Animal Kingdom*, erth. *Pulex*; Llundain, 1834.] Y mae Linnæus wedi priodoli gwasanaeth bersonol i ddynolryw i ryw drychfilod *ereill* ag ydynt yn adgasach hyd yn oed na chwain, ond y rhai a fyddant yn sicr o ymddangos pan y bydd arferion dynion yn gwneuthur hyny yn angenrheidiol. O herwydd arferion y dosbarthiadau isaf, y mae y chwain mor luosog yn Syria, yn neillduol yn ystod y gwanwyn, yn yr heolydd ac yn y masnachdai llychlyd, fel y mae yn arferiad gan y trigolion newid eu dillad llaesion wedi dychwelyd gartref. Y mae yn Mhalestina ddywediad cyffredin fod "brenin y chwain yn cadw ei lys yn Tiberias;" ond y mae llawer o leoedd yn y parth hwnw a allant hòni yr un anrhydedd a'r dref hono.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

CHWANNOG, [*chwant*]: yn meddu dymuniad neu dueddiad cryf; serchog; awyddus, uchelgeisiol, trachwantus, yn gogwyddo at unrhyw beth: *Diar.* i. 19; xv. 27; *Ioan* vi. 21; 1 *Tim.* vi. 10.

CHWANT—AU, [*chwan*]: dymuniad, blys, gwŷn, chwennychiad, gorawydd. Y gair Groeg a arferir yn ddieithriad am *chwant* a *thrachwant* ydyw, *ἐπιθυμία.* Y mae y gair hwn yn cael ei ddefnyddio i arwyddo awyddfryd rheolaidd am wrthddrychau cyfreithlawn (1 *Thes.* ii. 17; *Dad.* xviii. 14), a dymuniad angerddol calon sanctaidd am ogoniant y nef (*Phil.* i. 23):—ond yn fynychaf mewn ystyr drwg, i ddynodi awyddfryd afreolaidd a phechadurus (*Marc* iv. 19; *Rhuf.* vi. 12; vii. 7, 8; xiii. 14; 1 *Tim.* vi. 9; 2 *Tim.* iii. 6; iv. 3; *Tit.* iii. 3; *Iago* i. 14, 15; 1 *Pedr* i. 14; iv. 2, 3; 2 *Pedr* i. 4; iii. 3; *Iudas* 16, 18). Pan y mae *ἐπιθυμια* i'w ddeall fel yn dynodi rhyw chwennychiad naturiol, cyfreithlawn, a rheolaidd, gwell fuasai pe cyfieithesid ef trwy eiriau tebyg i *awydd*, neu *chwant;* a phan yn dynodi gorawydd anghymmedrol a phechadurus, y mae *trachwant* yn trosglwyddo y meddwl yn fwy eglur a grymus. Tuag at iawn ddeall y geiriau *chwant* a *thrachwant*, ni a edrychwn arnynt yn eu cyssylltiadau Ysgrythyrol. Un dynodiad ar y chwantau ydyw, "chwantau y cnawd" (*Eph.* ii. 3), "trachwant y cnawd" (*Gal.* v. 16, 24), "chwantau cnawdol" (1 *Pedr* ii. 11), "chwant y cnawd" (1 *Ioan* ii. 16). Y gair *cnawd* (*σαρξ*) [gwel d.g.] a arwydda natur dyn fel y mae yn llygredig. Y mae yn amlwg fod meddwl yr ymadrodd, "chwantau y cnawd," i gael ei benderfynu yn ol yr ystyr a gyssylltir â'r gair *cnawd.* Dichon fod yr egwyddor bechadurus wedi cael yr enw hwn, am fod y natur, dan ei llywodraeth, wedi ei darostwng gan yr hyn sydd anianol neu anifeilaidd, ac am mai mewn ffurfiau cnawdol y mae yn arddangos ei hun, ac yn ymweithio i'r golwg yn y sefyllfa bresennol. Wrth ddyweyd hyn, nid ydys yn golygu mai yn y cnawd y mae ffynnonell pechod. Y mae "cnawd," yn iaith yr Ysgrythyrau, yn dynodi, nid yn unig y rhan anifeilaidd o'r dyn, ond ei ewyllys a'i reswm—ei ran anfarwol. Nid yw y cnawd yn cael ei gyferbynu â'r ysbryd, gan feddwl wrth hyny y rhan



Digitized by Google

resymol o'r dyn; ond pan ddygir y cnawd a'r ysbryd i gymhariaeth â'u gilydd, wrth yr olaf y deallir yr Ysbryd Glân. Pan leferir am y rhan anifeilaidd, mewn cyferbyniad i'r rhan ysbrydol ac anfarwol, yr enw a roddir ar y cyntaf ydyw *corff*—nid cnawd. Dichon, yr un pryd, fod rhai eithriadau, megys 1 *Cor.* v. 5; *Col.* ii. 5. Wrth "chwantau y cnawd," gan hyny, y golygir blysiau a gwyniau natur lygredig; blysiau â'u sail a'u defnydd yn y natur yn gynhenid, ond wedi eu gwneyd yn afreolaidd, a'u dyrchafu, o fod yn ddarostyngedig i'r galluoedd godidocaf i fod yn oruchaf arnynt, gan yr egwyddor bechadurus. Wrth "chwantau y cnawd," medd Calvin (2 *Pedr* ii. 11), y meddylia yr apostol, nid yn unig y blysiau isel sydd genym yr un fath a'r anifeiliaid, ond hefyd holl dueddiadau a theimladau pechadurus yr enaid, i'r rhai yr arweinir ni gan natur lygredig; o blegid y mae yn sicr fod pob syniad o eiddo y cnawd, sef natur heb ei hadnewyddu, yn elyniaeth yn erbyn Duw." Yr un pryd, y mae mwy o gymhwysder yn y gair *cnawd* i osod allan y rhan anifeilaidd o'r dyn na'r rhan ysbrydol; a hyny yw y rheswm pa ham y mae rai prydiau yn dynodi y cyntaf fel ar wahan oddi wrth yr olaf, tra nad yw mewn cymmaint ag un anghraifft yn gosod allan yr olaf ar wahan oddi wrth y cyntaf. "Er fod yn ddigon hysbys," ebe Olshausen, ar *Eph.* ii. 3, "nad ydyw *cnawd*, yn iaith arferol Paul, yn golygu trachwant cnawdol, anianol, yn unig, ond yr holl duedd sydd mewn dyn yn wrthwynebus i Dduw, a'r duedd hono yn yr enaid (ψυχη), eto nid yw yr apostol un amser yn priodoli 'meddyliau' (διανοιαι) i'r cnawd. Fe ddywedir, 'ewyllysiau y cnawd;' ond ni ddywedir 'meddyliau y cnawd.' Y mae y 'meddyliau' yn golygu meddyliau pechadurus, heb weithredu oddi ar chwantau anianol." Y mae "ewyllysiau y cnawd," felly, yn arwyddocau y cyflawniad o drachwantau anianol: "yn chwantau y cnawd" yr oedd yr Ephesiaid yn byw ac yn rhodio: hyn ydoedd elfen eu hanfodiad; ac yn y sefyllfa hono, cyflawnent actau neillduol cydweddol â'u natur, y rhai a elwir gan yr apostol yn "ewyllysiau y cnawd." Ewyllysiau neu dueddiadau y meddyliau, ar y llaw arall, oedd y gwyniau mwyaf ysbrydol. Mae y naill, medd Estius, yn cynnwys glythineb, anghymmedroldeb, ac aflendid; a'r llall, uchelgais, ymddial, cybydd-dod, a pha flys bynag arall sydd yn cyfodi oddi ar gymmeryd golwg anianol a daiarol ar bethau. Ac er fod *cnawd* yn cymmeryd i mewn yr holl flysiau hyn, y gwyniau ysbrydol yn gystal a'r chwantau anianol, eto nid ydym yn ammheu fod y gair yn golygu y dosbarth olaf yn fwy arbenig. Y mae hyn yn amlwg oddi wrth 1 *Ioan* ii. 16, lle y mae "chwant y cnawd" yn ffurfio dosbarth o flysiau gwahaniaethol oddi wrth chwantau y llygaid a balchder y bywyd. Yn yr ystyr arferol a rydd Paul i'r gair *cnawd*, y mae yn cymmeryd i mewn y tri dosbarth crybwylledig. Y mae yr holl chwantau ysbrydol ac anianol yn cael eu rhestru gan yr apostol dan yr un dysgrifiad—"gweithredoedd y cnawd;" ond y mae Ioan, wrth wneuthur dosbarthiad manylach, yn cau allan amryw o'r chwantau a restrir gan Paul yn mysg gweithredoedd y cnawd, ac yn eu gosod dan y ddau ddosbarth arall. Ac y mae yr esbonwyr yn unfrydol yn barnu fod y cyntaf, sef chwant y cnawd, yn dynodi y blysiau anifeilaidd. "Y mae y chwant hwn, fel y mae i'w wahaniaethu oddi wrth chwant y llygad a balchder y bywyd, yn dynodi y blysiau cnawdol hyny a borthir trwy yr arferiad anghymmedrol o wragedd, gwin, a bwydydd."—*Macknight.* "Chwant y llygad," yn ol barn Lightfoot, ydyw cybydd-dod, a elwir yn *Mat.* vi. 23, yn "llygad drwg." Ond y mae ereill yn barnu fod yr apostol yn golygu gorawydd am rwysg a gwychder penodol, mewn tai, dodrefn, gwisgoedd, a'r cyffelyb; yr hwn, am ei fod yn cael ei foddhau gan olwg y llygad, y gellir yn briodol ei alw yn chwant y llygad: ac wrth falchder y bywyd y golygir yr oll a berthyn i'r bywyd hwn sydd yn wrthddrychau ymffrost ac uchelgais dynion y byd, ac yn ymborth i'w balchder; y cyfryw a theitlau, uchelswyddau, meddiannau, tras pendefigaidd, cyssylltiadau anrhydeddus, a'r cyffelyb, y rhai y mae y gallu sydd ynddynt i beri i ddynion ymchwyddo gan falchder heb fod o Dduw. "Y mae y byd," meddai Bengel, "yn cynnwys y tri chwant hyn, ac nid oes ynddo ddim arall. Y mae 'chwant y cnawd' yn golygu y pethau hyny ag y mae y synwyrau o fwyniant, megys y cyffyrddiad a'r archwaeth, yn ymborthi arnynt. 'Chwant y llygad' a ddynoda y pethau hyny ag y mae a wnelont â synwyrau ymchwiliad—y golwg, y clyw, a'r arogliad. 'Balchder y bywyd' ydyw rhwysg uchelgeisiol, pan y mae un yn hòni gormod iddo ei hun mewn geiriau neu weithredoedd."

Y mae y chwantau yn cael eu dysgrifio fel "chwantau twyllodrus,"=επιθυμιαι της απατης (*Eph.* iv. 22). Y cyfieithiad llythyrenol a fuasai "chwantau twyll." Y mae ἡ απατη=*twyll* yn cael ei bersonoli, ac edrychir ar y chwantau fel ei weision a'i offerynau. Y mae y chwantau oll yn dwyn cyssylltiad agos â'r twyll hwnw sydd yn perthyn i bechod—y twyll a ddygodd pechod i natur dyn. Y mae y twyll yma yn gormesu ar ac yn hud-ddenu yr hen ddyn, fel y mae y gwirionedd yn llywodraethu ar ac yn arwain y dyn newydd (*adn.* 24). Y mae twyll yn rhywbeth dyfnach nag athrawiaeth gyfeiliornus a hudddenol yr offeiriaid a'r athronwyr paganaidd; yr hyn yw y golygiad a fyntumir gan rai. Y mae yn briodol galw y chwantau yn "chwantau twyll," am eu bod yn denu ac yn maglu oddi ar honiadau gau. Y mae yr hen ddyn yn gaeth ganddynt, a pha faint bynag ydyw eu hysgelerder, pa un bynag ai mwy ynte llai caeth ydynt, y maent yn amlygiadau o lygredigaeth moesol. Y mae pob nwyd gref sydd yn llanw y meddwl ar draul cau allan Duw a gwrthddrychau dwyfol yn drachwant pechadurus. Bod unrhyw flys sydd yn gynhenid yn y natur yn dallu y dyn i'r ysbrydol a'r dwyfol, yn gweithredu gydag angerddoldeb mawr, gan wneyd holl droell naturiaeth yn fflam, ac ymlid ymaith dawelwch o'r meddwl, ac ennill goruchafiaeth ar y rheswm a'r gydwybod:—dyma rai o arwyddion trachwant pechadurus. Pan y mae y blysiau yn cael eu cadw o fewn y terfynau a osododd Creawdwr ein natur iddynt, y mae rheoleidd-dra a thawelwch yn eu gweithrediad, ac y maent yn ymostwng i lywodraeth y galluoedd sydd o ran rhagoriaeth eu natur yn meddu hawl i lywodraethu arnynt.

Yn *Iago* i. 14, 15, y mae yr apostol yn egluro y cyssylltiad sydd rhwng chwant, a'r temtasiynau i bechod, a'r cyflawniad o hono. Dengys mai gwir a phriodol achos pechod ydyw, nid arfaethiad a rhagluniaeth Duw, ond chwant y dyn ei hun. Yn y dyn ei hun y triga yr achos sydd yn rhoddi bod i actau o bechod. Y mae yn dyweyd "ei chwant ei hun," am fod gan bob dyn,

Digitized by Google

er meddu natur lygredig fel eu gilydd, ryw dueddiadau dwfn-reddfol yn ei natur at ryw bechod neillduol; neu, i'r dyben o dadogi yr actau pechadurus ar y tueddiadau tufewnol, a chau allan bob ymosodiad oddi allan o fod yn achos o honynt. "Dylem, gan hyny, chwilio am yr achos o'n pechod ynom ein hunain, ac nid o'r tu allan i ni. Nid ydyw hyd yn oed temtasiynau y diafol yn achlysuro dim perygl cyn iddynt gael eu gwneyd yn eiddo i ni ein hunain."—*Bengel.*

I osod allan ddylanwad chwant ar ddyn, y mae yr apostol yn defnyddio dau air, "tynu," a "llithio, ἐξελκόμενος και δελεαζομενος. Y mae rhai yn edrych ar y ddau air fel yn dynodi gwahanol raddau yn nghydsyniad y meddwl â'r demtasiwn. Y mae dyn yn gyntaf yn cael ei "dynu" ymaith oddi wrth Dduw, yna yn cael ei "lithio i bechod." Edrycha ereill arnynt fel yn cynnwys meddwl cyffelyb—ymadawiad â'r hyn sydd dda, ac ymlyniad wrth yr hyn sydd ddrwg. "Mae y gair cyntaf," ebe Bengel, "yn cyfeirio at ddechreuad y demtasiwn, yr hwn sydd yn tynu y dyn ymaith oddi wrth wirionedd a rhinwedd; a'r olaf, at ei chynnydd dilynol, pan y mae y dyn yn ei roddi ei hun i fyny i afael hudoliaethau drygioni." Mae ereill yn golygu fod y ddau air crybwylledig yn hytrach yn ddysgrifiad o'r dull y mae chwant yn ymosod ar ddyn—mewn rhan trwy drais, ac mewn rhan trwy ddeniadau. Cyfeiria ἐξελκόμενος at nerth angerddol y chwantau, a δελεαζομενος at dwyll y chwantau; tynir ef gan angerddoldeb diattal ei drachwant, a llithir ef gan ei swynion. Un ffordd i adnabod afreoleidd-dra a phechadurusrwydd y chwantau ydyw, os byddant naill ai yn ymgynhyrfu gydag angerddoldeb mawr, neu yn peri boddineb mawr i'n natur. Ac y maent wedi yr godi i'r uchder hwn, os byddant yn bwrw ymaith bob ystyriaeth ac ymgynghoriad, ac yn peri i'r dyn weithredu mor hollol oddi ar ddylanwad cynhyrfiadau a'r anifeiliaid a ddyfethir: "Oeddynt fel meirch porthiannus y bore; gweryrent bob un ar wraig ei gymmydog;" *Ier.* v. 8: "Pob un sydd yn troi i'w yrfa, megys march yn rhuthro i'r frwydr." Pan yn y sefyllfa hon o gynhyrfiad, y maent yn cynnyddu mewn angerddoldeb yn ngwyneb gwrthwynebiadau iddynt, ac attaliadau ar eu ffordd. Cynhyrfiad diattal y nwydau a eilw yr apostol (1 *Thes.* iv. 5) yn "wŷn trachwant"= παθος ἐπιθυμίας; pan y mae y trachwant wedi gwneyd y dyn yn oddefol—yn rhy ddiymadferth i beri un attalfa arno. Y mae gwŷn angerddol trachwant, fel pob cynhyrfiad arall, yn dwyn i'w ganlyn fath o wrthweithiad. Dysgrifir dynion sydd yn gaethion i chwantau fel y rhai a feddant serchiadau sanctaidd tanllyd, mewn math o awyddfryd clafaidd am fwynhad o'u gwrthddrychau (2 *Sam.* xiii. 2; 1 *Bren.* xxi. 4; *Esther* v).

Y mae chwant yn ennill goruchafiaeth ar ddyn o radd i radd: "chwant wedi ymddwyn a esgor ar bechod." Y mae y gyrfaoedd y mae chwant yn myned ar hyd-ddynt yn cael eu dysgrifio gan Manton (ar y lle) fel y canlyn:—"Yn gyntaf, y mae y gwrthddrych yn dwyn sylw y meddwl; yna y mae cynhyrfiad y blys anifeilaidd yn canlyn; y mae y dychymyg yn portreiadu y gwrthddrych o flaen y blys, ac y mae y meddwl yn cael ei dueddu ato, yn ol fel yr ymddengys yn fwy neu yn llai dymunol i'r blys. Yna y mae y deall yn ymwneyd â'r gwrthddrych, ac y mae yr ewyllys yn gogwyddo ato, mor bell ag i beri i'r meddwl dalu mwy o sylw iddo, ac ystyried y moddion tebycaf i'w gyrhaedd. Y mae y pechod yn gyntaf yn cael ei bortreiadu o flaen y blys gan y dychymyg: y mae y dychymyg yn dallu y meddwl: y mae yr enaid yn rhoddi ei fryd ar gael gafael ar y gwrthddrych: ac yna, y mae act o ewyllysiad yn canlyn. Yn ol dysgrifiad yr apostol, ni a ganfyddwn ar y cyntaf y duedd lygredig yn ymgynhyrfu mewn chwant; yna, y mae y meddwl yn gogwyddo at y pechod y temtir iddo; y mae y pechod yn ganlynol yn ennill ymhyfrydiad y galon; dilynir hyn gan gydsyniad cyflawn yr ewyllys, yr hyn a rydd fodolaeth i weithred bechadurus.

Yn *Rhuf.* vii. 7, 8. y mae Paul yn mynegu y berthynas sydd rhwng trachwant a phechod, a rhwng y naill a'r llall a'r ddeddf: "Nid adnabum i bechod, ond wrth y ddeddf: canys nid adnabuaswn i drachwant, oni bai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta." Wrth "bechod" y meddylir, nid pechod mewn gweithred. Yr oedd yr apostol cyn ei argyhoeddiad, fel pob Pharisead arall, yn deall fod rhyw weithredoedd allanol yn bechadurus; ond nid oedd yn adnabod pechod yn ei egwyddor: yr oedd yn ddyeithr i'r syniad fod Duw yn sylwi ar y galon a'i gweithrediadau dirgelaf, a llawer llai yr ystyriai fod a wnelai y ddeddf â'i thuedd a'i gogwydd gwastadol. Felly yr oedd yn rhwym o fod yn alarus o anwybodus am eangder ac ysgelerder dirfawr pechod. Y mae drygedd actau neillduol o bechod heb ei ddadguddio i'r meddwl cyhyd ag y byddo heb edrych arnynt yn eu hegwyddor, ac yn eu cyssylltiad â chwennychiad y galon. Mae meddwl ac amcan y rhan olaf o'r frawddeg yn dibynu ar le y gair "canys"—pa un a ydyw yr adran i'w deall yn gadarnhaol o'r rhan flaenorol ynte yn eglurhad pellach arni. Os y cyntaf, y meddwl ydyw, "Nid adnabum i bechod, ond wrth y ddeddf; o blegid ni wybuaswn fod y chwant mewnol, ar wahan oddi wrth y cyflawniad allanol, yn bechadurus, oni buasai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta." Yn ol yr eglurhad hwn, yr hwn a dderbynir yn fwyaf cyffredin, y mae "trachwant" yn golygu, nid fel y dywed Hodge, y tueddiad llygredig, fel gwreiddyn a ffynnonell pechod, ond cynhyrfiadau y duedd hono mewn chwantau tufewnol. Os yw "canys" i'w ystyried yn unig fel eglurhad, yn yr ystyr o ddwyn anghraifft yn mlaen, y meddwl ydyw;—"Nid adnabum i bechod, ond wrth y ddeddf; er anghraifft, nid adnabuaswn i drachwant." Yn ol y golygiad hwn, nid ydyw trachwant yn gwahaniaethu dim oddi wrth bechod, oddi eithr yn unig fod y diweddaf yn enw mwy cyffredinol. Y mae yn deilwng o sylw fod yma berthynas wahanol rhwng chwant a phechod yn cael ei hegluro gan Paul, oddi wrth y berthynas a eglurir yn *Iago* i. 15. Yn *Iago*, dysgrifir pechod fel eppil chwant; ac edrychir ar drachwant yn yr adnod dan sylw hefyd fel ffynnonell pechod, neu o leiaf fel ei egwyddor, yr hyn sydd yn achlysur i ddwyn y dyn i adnabod pechadurusrwydd anfad gweithredoedd neillduol. Ond y mae hyn o wahaniaeth rhwng "pechod" yn *Iago* i. 15, a "phechod" yn yr adnodau hyn. Yno y mae yn weithred benodol, yn cael esgor arni mewn adeg benodol gan chwant: yma y mae yn dynodi y duedd, y gogwyddiad pechadurus yn gyffredinol; ac felly, yn lle bod "chwant yn esgor ar bechod," y mae pechod—y duedd lygredig yn y galon—yn rhoddi bodolaeth i'r trachwantau: "pechod wedi cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn, a weithiodd ynof fi bob trachwant." Yr egwyddor bechadurus sydd yn

i actio y gwahanol gymmeriadau yn fwy effeithiol. Yr oedd Æschylus yn enwog iawn fel rhyfelwr, fel athronydd, ac fel bardd. Cyfansoddodd lawer iawn o chwareuon ei hun; ond nid oes dim ond saith o honynt yn awr ar gael. Edrychir ar hwn fel tad yr holl chwareuon o bob math, y rhai a gyfansoddwyd, a daenwyd, ac a actiwyd trwy holl Ewrop yn yspaid y tri chant ar ugain o flyneddoedd a aethant heibio; pa un bynag ai crefyddol, hanesyddol, moesol, gwladyddol, teuluaidd, neu o ba natur bynag y maent. Sylwer ei fod yn cael ei ystyried, nid yn unig yn dad y dullwedd yma o gyfansoddi, ond hefyd yn dad yr actio yn mhlith y Groegiaid yn Athen, a lleoedd ereill. Oddi yno y daeth chwareuon ac actio i Rufain, ac i blith holl genedloedd a theyrnasoedd y Cyfandir, yn gystal a Phrydain Fawr. Ganwyd y dyn enwog hwn tua'r flwyddyn 525 cyn Crist, a bu farw tua'r flwyddyn 456 c.c. Daeth y geiriau Groegaidd gyda'r chwareu a'r actio o Athen i holl ranau Ewrop; a hwy sydd mewn arferiad yn y gwahanol wledydd y dydd hwn mewn cyssylltiad â'r chwareuon; megys, *drama*, *tragedy*, *comedy*, *mystery*, *theatre*, *amphitheatre*, &c. Chwanegwyd at y termau Groegaidd yma rai Lladinaidd gan y Rhufeiniaid; megys, *moralities*, *ludus*, neu *ludi*, *farce*, &c. Bernir mai un o ddybenion Æschylus yn sefydlu y chwareuon, heb law difyru ac addysgu y bobl, oedd argraffu y grefydd baganaidd yn ddyfnach ar feddwl y werin, fel y buasent yn talu mwy o sylw i'r duwiau, y rhai oeddynt, fel y tybid ac yr addysgid yn y grefydd baganaidd, yn llywyddu ac yn trefnu tynghedfen y bobl; a hyny i fesur mawr yn ol natur eu hymddygiadau a'u gweithrediadau hwy eu hunain. Yr oedd llawer o'r athronwyr, y beirdd, a'r offeiriaid, yn y cyfnod hwnw, fel y cyfnodau ar ol hyny, yn edrych ar y duwiau yn ddim mwy nag enwau arwyddol (*symbolical*); ond yr oedd y lluaws yn edrych arnynt fel bodau sylweddol, yn meddu gallu i effeithio arnynt er cysur neu ofid, da neu ddrwg, bendith neu felldith, presennol neu ddyfodol. Fel y cyfryw, yr oeddynt yn wrthddrychau eu hofnau, eu serch, eu gobeithion, &c. Yr oedd mantais fawr yn ymgodi i benaethiaid llywyddol gwledydd oddi wrth y rhagfarn baganaidd hon; canys yr oedd meddyliau y werin, wrth fod wedi eu darostwng gan y syniadau hyny am eu duwiau dychymygol, yn hawddach i'w llywodraethu. Gofidus yw meddwl mai egwyddor gyffelyb i hon sydd wedi achosi cyssylltiad eglwys Crist â'r wladwriaeth mewn amryw wledydd, yn mhob oes, o amser Cystenyn Fawr hyd yn bresennol; sef, gwneyd crefydd yn wasanaethgar i amcanion y llywodraeth. Dyma un o'r amryw elfenau paganaidd sydd wedi dyfod i mewn yn gyssylltiedig â Christionogaeth. Ymdrechwyd cyn hyn lawer gwaith i gyflawnhau y cyssylltiad hwn trwy ddadleu ei fod yn gyflawniad o'r brophwydoliaeth, y byddai "breninoedd a breninesau yn dadmaethod ac yn fammaethod" yn Sïon. Hawdd y gallai un o'r Cristionogion gwanaf ateb, na byddai eisieu iddynt ddyfod â'u cyfreithiau a'u hawdurdod wladol i reoleiddio ffydd ac ufudd-dod efengylaidd, nac i weinyddu dysgyblaeth yn y ffurfiau o ddirwyon, o esgymundodau, o garchărau, ac o gospedigaethau trymion ereill; ond y dylai breninoedd a breninesau fod yn y llwch mewn edifeirwch ger bron Duw fel rhyw bechaduriaid ereill.

Dylem sylwi yma fod elfen o grefyddolder yn nglyn â'r chwareuon ar eu sefydliad cyntaf; ac y mae hyny wedi parhau yn un o nodweddau y *stage* chwareÿddol hyd y dydd hwn mewn amryw wledydd; ond yn ein gwlad ni, gwaharddwyd hyny trwy rym cyfraith y wlad yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Mae yn anhawdd i ni wybod yn awr pa bryd y cyssylltwyd y chwareuon hyn â Christionogaeth gyntaf, trwy gyfansoddi chwareuon ar faterion Beiblaidd, a'u hactio o flaen tyrfaoedd, er difyrwch neu adeiladaeth iddynt; ond y mae yn lled sicr fod hyny wedi dechreu yn fuan ar ol sefydliad y gwyliau Cristionogol i lanw lleoedd y gwyliau paganaidd. Ymddengys i hyn gymmeryd lle yn y drydedd ganrif, ac nid yn hir ar ol hyny yn ddiau y dechreuodd y gosgorddau (*processions*), y *pageants*, y *mummeries*, y *moralities*, y *mysteries*, a'r holl ffurfiau chwareuol (Beiblaidd) ereill a ddaethant i ymarferiad. [Gwel yn helaethach ar hyn yn *Hanes Mari Lwyd*, td. 3, 6, 120, a 136, lle y dyfynir gweithiau Syr Isaac Newton, Robert Robinson, Sharon Turner, &c.:—hefyd *Delaune's Plea*; *Poynder's Popery and Heathenism*; *James Owen's Works on Temples, Heathenism, and Image Worship*, &c.]

Mae Thomas Wright, yr hwn sydd dra adnabyddus yn y cylch hynafiaethol, o blegid ei fod wedi bod â rhyw law yn nghyhoeddiad cynnifer o lyfrau ar bynciau hynafol, wedi ein anrhegu â chyfrol werthfawr yn 1838, yn cynnwys anghreifftiau o'r gwahanol fathau o farddoniaeth Lladin adnabyddus yn y canoloesoedd. Y mae yno amryw o'r chwareuon a elwid Dirgelion Boreuol (*Early Mysteries*), oedd yn cael eu hactio o chwech i wyth gan mlynedd yn ol, yn nghyd â nodiadau gwerthfawr arnynt, a hanes llawer o'r dirgelion ereill sydd yn mhlith ysgrifau ein hen lyfrgelloedd. Ymddengys fod yr holl gyfansoddiadau chwareÿddol oedd yn cael eu hactio y pryd hyny yn yr iaith Ladin. Ond ryw bryd, tua'r ddeuddegfed neu y drydedd ganrif ar ddeg, ni a gawn gyfansoddiadau Seisonig yn cael eu hactio yn yr un modd. Mae William Hone wedi cyhoeddi rhai o'r dirgelion Seisonig, yn nghyd â nodiadau hanesyddol ar yr holl ddullweddau chwareuol a chrefyddol hyny. Cynnwysa llyfr Wright bedair o'r chwareuon neu y dirgelion ar wyrthiau Sant Nicholas. Nid yw y pwnc yma yn Feiblaidd; ond dygir llawer o ddarnau Beiblaidd i mewn i'r deunaw tu dalen y maent yn ei gymmeryd o'r llyfr. Cawn wedi hyny Ddirgelwch Herod, yn ymofyn y mab bychan i'w addoli; yna adgyfodiad Crist; yna, ei ymddangosiad i'r dysgyblion; yna, tröedigaeth Saul o Tarsus; wedi hyny, adgyfodiad gwyrthiol Lazarus o'r bedd; yn ddiweddaf, yr eiddo Mair y Forwyn. Mae yn y llyfr amryw ddarnau ereill heb fod yn dal perthynas â chrefydd. Yn y rhagymadrodd, cyfeiria Mr. Wright at "*Mystery* Mair Magdalen," a rhydd ddarnau helaeth o'r chwareu, fel ei cyhoeddwyd gan Dr. Heinrich Hoffman yn 1837. Hefyd, noda am yr eiddo y deng morwyn, pump yn gall a phump yn ffol." Drachefn, cyfeiria at "Chwareuaeth y Pasc" (*Ludus Paschalis*); at "Werthiad Ioseph i'r Aipht, a'i ddyrchafiad;" ac at amryw ereill. Yr oedd y dull o actio y chwareuon crefyddol uchod yn ateb i dywyllwch ac anwybodaeth yr oesoedd tywyll ac anwaraidd hyny. Ni oddef ein terfynau, mewn ysgrif fel hon, i egluro am y gwisgoedd, yr actio, a'r ystumiau annuwiol ac anllad a gyflawnid gan y mynachod, yr offeiriaid, yn nghyd â'r benywod oeddynt yn llenwi y cymmeriadau yn y chwareuon uchod, a hefyd yn y

Digitized by Google

chwareuon Seisonig ar ol hyny; sef y rhai a adnabyddir yn yr hen lyfrgelloedd dan y teitlau, *Mysteries of Chester*, *Mysteries of Coventry* (gelwir y rhai hyn weithiau *Ludus Coventriæ*), a *Mysteries of Towneley*.

Cynnwysa llyfr Hone wyth o'r hen Ddirgelion (*ancient mysteries*); sef, genedigaeth Mair, ei dygiad i fyny, ei dyweddiad i Ioseph, cynghor y Duwdod am ymgnawdoliad Crist, awydd Ioseph i roddi Mair heibio, ymweliad Mair âg Elizabeth, prawf Mair a Ioseph, ynghyd â genedigaeth wyrthiol Iesu Grist.

Dylid sylwi yma fod y Dirgelion Seisoniguchod wedi eu sylfaenu yn benaf ar gynnwysiad *Apocrypha* y Testament Newydd; yr hwn hefyd a gyhoeddwyd gan W. Hone. Cynnwysa y llyfr uchod dri ar hugain o lyfrau; yn mha rai y mae 195 o bennodau, y rhai ydynt wedi eu rhanu yn adnodau. Mae yr wyth chwareu uchod yn ymddibynu, o ran eu cynnwysiad, ar y ddau lyfr cyntaf; sef "Efengyl genedigaeth Mair," ac "Efengyl genedigaeth Crist."

Nodwyd yn barod fod yn anhawdd gwybod yn hollol amser dechreuad y chwareuon crefyddol mewn cyssylltiad â Christionogaeth; ond bernir fod Gregory Nazianzen, yr hwn y mae ei hanes a'i enwogrwydd yn dra adnabyddus i haneswyr, yn awdwr rhai o'r chwareuon Beiblaidd cyntaf; a hyny pan oedd yn archesgob Caer Cystenyn. Dyben Gregory yn eu gwneyd yn ddiau ydoedd er gwrthweithio y chwareuon Groegaidd. Gwnaeth Gregory amryw o chwareuon; ac y mae un o honynt ar gael yn awr, sef yr un ar "Deimladau Crist."

Y dull y byddai y Mynachod Llwydion (*Grey Friars*) yn eu hactio oedd, parotoi chwareudai mawrion, yn cynnwys ystafelloedd uwch law eu gilydd, ar olwynion, fel y gellid eu symmud yn ol ac yn mlaen ar yr heolydd, er mantais i'r edrychwyr. Yr oedd ymgynnulliadau mawrion ac urddasol i Coventry, a lleoedd eraill, ar yr amserau y byddai y rhai hyn yn cael eu hactio. Cawn hanes fod Richard III. yn un o'r edrychwyr yn Coventry, yn ngwledd *Corpus Christi*. yn 1483, a Harry VII. a'i frenhines yno yn mhlith yr edrychwyr yn 1492. Yr oedd Dirgelion Caerlleon Gawr hefyd yn boblogaidd iawn, a buont yn cael eu hactio hyd 1574.[1]

Nodwyd eisoes fod y dull anweddaidd o actio y chwareuon Beiblaidd hyn yn dueddol i gyffroi y nwydau anifeilaidd, ac i gynnyrchu yr ymddygiadau mwyaf anwaraidd. Heb fanylu ar y mater hwn etto, digon yw dyweyd fod ymddygiadau y chwareuwyr yn hollol anweddaidd, a bod eu personau, ar rai prydiau, yn noeth ar yr esgynlawr. Mae darllen y Dirgelion eu hunain, er fod llawer o ddarnau o honynt yn dda, yn ddigon i daflu goleu ar y diffyg chwaeth a'r diffyg moesau oedd yn bodoli mewn cyssylltiad â'r chwareuon hyn.

Yr oedd corfforaethau (*corporations*) y trefydd uchod, a llawer o drefydd ereill, yn talu y costau, sef cyflogau y chwareuwyr, a gwella y gwisgoedd a'r defnyddiau angenrheidiol iddynt at eu gwaith. Codwyd darnau digrifol ar hyn i hanes *Mari Lwyd*, o *Sharp's Antiquities of Coventry*, y rhai a fyddant yn eithaf anghraifft yn y lle hwn:—

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Talwyd i Ysbryd Duw | 1 | 4 |
| — i'r ddau angel | 0 | 8 |
| — i'r cythraul (*demon*) | 1 | 4 |
| Talwyd i'r eneidiau duon | 2 | 0 |
| — i'r eneidiau gwynion | 0 | 8 |
| — i ddau ysbryd | 1 | 4 |
| — i ddau bryf cydwybod | 1 | 4 |
| — i Fawston am grogi Iudas | 0 | 4 |
| — i Fawston am ganu fel ceiliog | 0 | 4 |
| — am fach i grogi Iudas | 0 | 6 |
| — am wella pais (*cote*) y diafol | | |
| — am wneyd peisiau (*cottys*) yr eneidiau | | |
| — am wneyd pais (*cote*) i Ysbryd Duw | 0 | 2 |
| — am het i Pilat | | |
| — am wella pen y diafol | | |
| — am wella dillad y cythraul. | | |
| — am wella'r gwynt | 0 | 2 |
| — am raff newydd at y gwynt | 0 | 8 |
| — am bedwar pâr o edyn i'r angelion | 2 | 8 |
| — am wella geneu uffern | 0 | 2 |
| — am gadw tân yn uffern, &c. | 0 | 4" |

[1] *Ormerod's History of Cheshire.*

Gellid chwanegu y nifer a fynir braidd o anghreifftiau fel y rhai uchod, y rhai sydd yn taflu goleu ar ddull ein hynafiaid yn cyflawnu rhai o'u dyledswyddau crefyddol. Yr oedd rhai o'r symiau uchod yn cael eu talu mor ddiweddar a 1578. Yr oedd y chwareuon crefyddol yn cael eu hactio mor ddiweddar ag 1817 a 1822. Darfu i ni awgrymu yn barod fod gwaharddiad wedi ei roddi yn ein gwlad ni yn amser y Diwygiad Protestanaidd yn erbyn actio y chwareuon crefyddol hyn. Gwnaed deddfau i'r pwrpas hwn yn amser Harri VIII., Edward, ac Elizabeth. Ond ni pheidiwyd a'u hactio, fel y nodasom yn barod, a hyny dan nawdd corfforaethau mawrion, hyd tua diwedd yr 16eg ganrif. Gallem sylwi hefyd fod y frenhines Elizabeth ei hun yn ffafriol iawn i'r chwareuon hyn, a phob math o chwareuon ereill a arferid gefnogi yn amser y grefydd Babaidd. Cawn brofion o hyn yn y chwareuon a gynnelid o dan ei nawdd, ac yn benaf er ei difyru hi, yn Kennilworth Castle yn 1575. Yr oedd y *pageants* yno, ac amryw fathau o chwareuwyr ereill, yn actio eu chwareuon, nid yn unig ar ddydd gwaith, ond hefyd ar Ddydd yr Arglwydd, er croesawu y frenines; a mawr y blas a'r hwyl oedd hithau yn gael yno gyda hwy. [Gwel *Laneham's Kenniltworth Castle.*] Gallem nodi amryw anghreifftiau ereill. Ond yn amser Iago I. yr oedd rhai yn y deyrnas yn gwasgu am gael attal y chwareuon. Gorfuwyd y pryd hyny attal y chwareuon crefyddol, a chyfyngu y chwareuwyr at chwareuon anghyssylltiedig â'r Beibl, yn y deyrnas hon. Olion o'r *moralities*, y *mysteries*, a'r *pageantries* uchod yw yr arferiad a elwir yn awr Mari Lwyd yn Ngwent a Morganwg. Mae yr arferiad o chwareu Mari Lwyd braidd wedi darfod mewn cymhariaeth i'r peth ydoedd amser yn ol. Ystyr gwreiddiol yr enw *Mari Lwyd*, mae yn dra thebyg, yw Chwareu (*Ludi*) Mari. Mae awdwr Cymraeg galluog iawn, wrth adolygu hanes *Mari Lwyd* yn yr *Adolygydd*, rhif. iv. td. 128, wedi dwyn rhesymau i brofi fod llwyd a gwyn agos yr un ystyr, ac mai *Mair wen* a olygir. Yr oedd y brenin Iago yn ochri yn gryf at Babyddiaeth; ac yn awyddus i adferu llawer o'r chwareuon oedd yn arferedig yn y cyfnod Pabaidd. Gyda golwg ar wneyd cynnyg at yr arferiad hwn y cyhoeddodd y *Book of Sports* yn 1618, er mwyn cael rhai o'r chwareuon i arferiad ar Ddydd yr Arglwydd. Diammheu, pe buasai hwn yn cael cefnogaeth gyffredinol, y cawsid ail lyfr ganddo, yn cynnwys gorchymyn i'r esgobion, a'r clerigwyr, ac oddi

Digitized by Google

ydd *fod yn rhaid ail arfer y chwareuon crefyddol.* Ond cododd gwrthwynebiad mawr i'r llyfr hwn a'i gynnwysiad yn mysg seneddwyr a mawrion ein gwlad; a gofidus yw chwanegu mai gwyr lleyg (*laymen*), hyd ag y gwyddom ni, oedd yr unig wrthwynebwyr iddo. Parhaodd y teulu-oedd breninol o ochr y chwareuon. Siarl I. a ddaeth âg argraffiad newydd o lyfr ei dad yn 1633, â rhyw ychydig o helaethiad arno; megys chwanegu nifer y chwareuon i'w harfer ar Ddydd yr Arglwydd, a rhoi gorchymynion caethach i'r swyddogion gwladol i gadw at lythyren y llyfr, a phethau cyffelyb. Ond ni feiddiodd ddwyn i mewn y chwareuon crefyddol. Costiodd ei waith yn cymmeryd y llwybr hwn yn ddrud iddo; canys aeth o radd i radd mewn drwg a thwyll, fel y condemniwyd ef i farw yn 1648. Cynnyg-iodd ei fab, Siarl II., yn 1660, ar ol marw Oliver Cromwell, godi y chwareuon drachefn, a chy-hoeddodd y trydydd argraffiad o'r *Book of Sports.* Dyma y teyrnasiad mwyaf annuwiol, efallai, a fu erioed; ond ni adferwyd y chwareuon crefydd-ol y pryd hyny. Buom yn synu lawer gwaith am hyn, canys yr oedd pob melldith arall braidd a allesid ddychymygu yn cael cefnogaeth; ac yr oedd y chwareuon y pryd hyny ar y Cyfandir yn dra phoblogaidd. Rhoddodd y cyfnewidiad yn 1688 derfyn ar bethau o'r fath i gryn fesur: ond yn nghanol y ganrif ddiweddaf y llwyddodd crefydd, ar ol symmud ymaith yr erlidigaethau; ac o hyny hyd yn awr, y mae moesau y bobl yn cynnyddu mewn purdeb yn barhaus.

Ar rai prydiau yn ddiweddar, gwelwyd yn yr Ysgol Sabbathol yr hyn a alwent yn adrodd pwnc, ar ddull actio darnau Ysgrythyrol; yr hyn nid yw nac yn addas i'r lle, na'r dydd, na'r hyn a adroddir. Y mae gormod o elfenau y Dirgelion ynddynt. Dylid gwylio rhag i'n meddyliau lithro yn ol i arferion yr oesoedd tywyll. Nis gallwn gefnogi na chymmeradwyo un math o actio; a thybygir fod y ffaith fod yr enwog Macready yn cadw ei blant rhag myned i'r chwareudy yn brawf cryf o niwed moesol yr olygfa. Ond o bob math o chwareu, yr un crefyddol a Beiblaidd yw y mwyaf niweidiol.—*Ribadeneira's Lives*, cyf. i. td. 333; *Leclerc's Lives*, cyf. viii. td. 289; *Warton's Hist. of English Poetry*, cyf. i. td. 244; *Cromek Remains*, td. 70; *Hone's Mysteries*, &c., &c.

CHWECH: y mae *tri*, *chwech*, a *saith*, yn rhif-edi perffaith a chyflawn, yn ol fel y maent yn cael eu defnyddio yn yr Ysgrythyrau; "Mewn *chwech* o gyfyngderau efe a'th wared di" (*Iob* v. 19); hyny yw, mewn llawer, yn ddiderfyn, yn ei holl gyfyngderau: *Deut.* xvii. 6; *Preg.* iv. 12; 1 *Sam.* ii. 5; *Jer.* xv. 9; *Diar.* xxiv. 16. Gwel SAITH; TRI.

CHWEDL—AU, (*chwed*): ystori: ymadrodd gwag, disail, amddifad o wirionedd. Yr oedd gan y Cenedloedd gynt lawer iawn o *chwedlau* yn nghylch tarddiad a gorchest-gampau eu duw-iau lluosog, &c. Yr oedd yr Iuddewon hefyd, yn amser yr apostolion, yn nodedig am eu dychym-ygion disail, a'u traddodiadau, &c.: 1 *Tim.* i. 4; 2 *Pedr* i. 16. Y mae Paul yn annog Timotheus a Titus i ymgilio oddi wrth chwedlau gwrach-iaidd ac Iuddewaidd (1 *Tim.* iv. 7; *Tit.* i. 14), fel pethau yn meddu tuedd i ddenu dynion oddi wrth y gwirionedd. Wrth y chwedlau hyn, y mae rhai yn deall deongliadau cyfriniol y Gnos-ticiaid o'r Hen Destament. Ond y mae y tadau, yn gyffredinol, a'r rhan fwyaf o'r esbonwyr diw-eddar, yn dyweyd mai traddodiadau ynfyd yr Iuddewon oeddynt, yn neillduol yn nghylch bwydydd, a phethau ereill y dylesid ymattal oddi wrthynt fel pethau aflan, y rhai a elwir gan ein Harglwydd yn "orchymynion dynion;" *Mat.* xv. 9. Y mae yr ystyr hwn i'r adnod yn cael ei gadarnhau gan y cyd-destynau. "Ac mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur; y gwnant farsiandïaeth o honoch;" 2 *Pedr* ii. 3. "A thrwy cybyddtra ac wrth *airieu* gwneuthyr y marsiendïant am danoch," medd W. Salesbury "A thrwy gribddeiliaeth wrth *eiriau* dychym-ygus y marchnattânt chwi," medd Dr. Morgan. Y mae Macknight yn darllen y geiriau, "Trwy gybydd-dra y gwnant farsiandïaeth o honoch trwy *chwedlau ffugiol*: a Parkhurst, "Trwy *areithiau cywrain.*" Cyfeirio yr oedd yr apostol at yr areithiau cywrain a golygus a wneid gan y gau athrawon, er boddhau eu gwrandawyr ac er eu llithio a'u denu oddi wrth y gwirionedd; a thrwy hyny yn casglu budr elw iddynt eu hun-ain oddi wrthynt.

CHWEDLONIAETH, CHWEDLONEG, [*Mythology*]. Yn fwyaf cyffredin, defnyddir y gair am gasgliad neu gyfundrefn o ffugchwedlau a ffugathrawiaethau am y duwiau; y rhai y tybiai y paganiaid a lywodraethent y byd a'i holl achos-ion. Cyfeiria y chwedlau hyn at eu tarddiad, eu priodoliaethau, a'u hanturiaethau. Cyn-nwysir hefyd dan y dynodiad hwn, y traddod-iadau a dderbynid ac a gredid gan unrhyw gen-edl am eu symmudiadau boreuol, eu gorchestion, a'u gwroniaid, ond y cyfryw nas gellir profi eu gwirionedd ar egwyddorion diledryw beirniad-aeth. Ond gan fod hanesiaeth foreuol cenedl yn ymgasglu o ddeutu eu gwroniaid, a hwythau drachefn yn cael eu dyrchafu i'r anrhydedd o dduwiau, y mae y ffughanesion a drosglwyddir am y duwiau a'r gwroniaid yn rhedeg i'w gilydd. Mewn gwledydd paganaidd, credid y naill mor ddibetrus a'r llall gan y werin, ac addurnid y naill fel y llall yn nghyfansoddiadau y beirdd. Yn mhlith cenedl Gristionogol, ond hygoelus o barth i draddodiadau hynafol eu cenedl, gwneir didoliad rhwng y ffughanesion a adroddir am y duwiau—y cyfryw nas dichon i'r hwn sydd yn credu mewn un Duw eu derbyn,—a'r traddod-iadau a adlewyrchent ogoniant ar eu hanes bor-euol eu hunain. Nis gall fod ammheuaeth nad oes ryw edafedd main o wirionedd hanesyddol yn rhedeg trwy y chwedlau a adroddir gyda'r fath gyflawnder a dibetrusder am arwyr cenedl; ond y mae eu holrhain trwy yr holl chwanegiadau dychymygol, yr anghyssonderau troellog, y cyf-newidiadau ffurf, yr ymwisgant ynddynt mewn gwahanol oesoedd a gwledydd, yn orchwyl anor-fod i'r llafur mwyaf dan gyfarwyddyd y medrus-rwydd cywreiniaf. Nid oedd y Groegiaid yn canfod un gwahaniaeth rhwng y chwedlau a ad-roddid am eu duwiau ac am eu gwroniaid: iddynt hwy yr oedd y ddau yn gorphwys ar yr un fath dystiolaeth, ac yr oedd y ddau yn rhan o'u credo crefyddol. Cymhelliadau a dylanwadau goruch-naturiol ydoedd prif ysgogydd gorchestion y gwroniaid, fel y duwiau: yn wir, rhoddir yr un arbenigrwydd ar ymddangosiad y ddau, ac y mae y gwroniaid yn dduwiau gwirioneddol, er yn llai. Y mae haneswyr diweddar wedi dychym-ygu nad rhaid iddynt hwy ond gadael y cyfryng-iadau goruchnaturiol—hyny yw, yr elfen bagan-aidd, allan o'r holl ddysgrifiadau am wroniaid;

Digitized by Google

Groegiaid, er anghraifft, a geir yn Homer—na bydd y gweddill i gyd yn ffeithiau anwadadwy. Rhoddir yr un coel i'r bardd gan lawer yn holl fanylion ei adroddiad, wedi y symmudir o hono bob peth sydd yn wrthdarawiadol i wirionedd Cristionogaeth, ac yn amlwg afresymol ac annhebygol, ag a roddir i dyst mewn llys barn.

Anhawsder mawr yr hanesydd ydyw gwahaniaethu ffaith oddi wrth chwedl. Nid oes un linell amlwg yn rhedeg rhwng hanesiaeth a chwedloniaeth i'n hysbysu pa le y mae tiriogaeth y naill yn dybenu a'r llall yn dechreu. Wrth ddyweyd hyn, nid ar chwedlau y duwiau, wrth gwrs, y mae ein golwg, ond ar yr hanesion tywyll ac ansicr hyny y mae yn fwy dewisol gan genedl eu credu, er heb allu eu profi, na bod yn hollol amddifad o bob tystiolaeth i'w hanfodiad—eu gwrolder, a'u hysblander boreuol. Nid ydyw cenedl yn hawdd i'w darbwyllo i edrych yn feirniadol ar y chwedlau hyny sydd yn gwenieithio i'w mawredd ei hun. Nid rhaid i ni edrych yn mhellach na ni ein hunain, y Cymry, fel prawf o hyn. Llawer o wawd a dywalltwyd arnom o bryd i bryd o herwydd ein hymlyniad plentynaidd a difarn, fel y tybir, wrth yr holl daflenau achyddol a'r chwedlau ffugiol sydd yn ein harwain yn ol o oes i oes i fyny i'r dylif, gyda'r fath fanylwch a'r fath absennoldeb o bob teimlad o ammheuaeth o barth i'w gwirionedd a phe byddem yn darllen hanes perthynasau i ni yn yr America sydd newydd farw, neu helyntion y frwydr ddiweddaf. Ond ni chymmerwn ein cywilyddio gan wawd, na'n darbwyllo gan na beirniadaeth orfanwl nac ymresymiad athronyddol, i ymwrthod â threftadaeth oedd yn hen cyn i'r cenedloedd sydd yn ymhòni i fawredd yn bresennol yn Ewrop ddyfod i fod. Y mae y gwahaniaeth rhwng ffaith a chwedl yn un nad ydym yn orawyddus i'w gydnabod pan y meddylier am ein hanes presennol ein hunain. Ni chododd un Niebühr yn ein mysg eto, i daflu ein hen draddodiadau i dawddlestr beirniadaeth deg, er mwyn penderfynu pa beth ydyw y cyfartaledd rhwng y mŵn pur a'r sorod sydd ynddynt. Y mae Mr. Grote wedi gwneyd hyn gyda chwedlau hynafol y Groegiaid, a Syr G. C. Lewis, ein cydwladwr, wedi gwneuthur yr un gwasanaeth i hanes boreuol Rhufain. Ni a gyfeiriwn sylw at waith Mr. Grote yn gyntaf, er mwyn dangos pa egwyddorion a chanonau a osodir i lawr gan yr hanesydd athronyddol hwn, mewn trefn i'n harwain i benderfynu pa mor bell y mae traddodiadau yn gredadwy neu yn anghredadwy; neu, mewn geiriau ereill, pa beth yw terfynau tiriogaeth chwedloniaeth yn ystyr eangaf y gair.

Y mae Grote yn ymwrthod yn hollol â'r hanesion sydd wedi eu ffurfio o ddysgrifiadau y beirdd, trwy adael allan gyfryngwriaeth y duwiau paganaidd o honynt. Nid yw efe yn gwneuthur un gwahaniaeth rhwng y chwedlau am y duwiau ac am y gwroniaid. Ac yn wir, nid ydyw yn gwneuthur un ymgais i wahaniaethu rhwng yr hanesiol a'r ffugiol yn y traddodiadau hyn. Er nad yw yn ammheu nad ydyw rhai o'r chwedlau traddodiadol yn seiliedig ar ddygwyddiadau gwirioneddol, eto, ei feddwl ef ydyw, ei bod yn hollol ofer i ni geisio penderfynu pa rai sydd felly; ac nad oes genym ddim seiliau hanesyddol i wneuthur gwahaniaeth rhwng brwydr Caerdroia a'r ystoriau ffugiol a rydd Hesiod am enedigaethau a charwriaethau y duwiau. Hyn ydyw hanfod athrawiaeth Niebühr, er nad ydyw yr Ellmyn dysgedig, nac ychwaith ei gyfieithydd Dr. Thirlwall yn ei dysgu mewn dull mor bendant, nac ychwaith yn gwneuthur cymhwysiad mor ddiarbed o honi. I ymresymwr cyffredin, a fyddo yn hollol rydd oddi wrth ddylanwad unrhyw gyfundrefn flaenorol, gellid meddwl mai gwrthddadl o bwys yn erbyn yr egwyddor a amddiffynir gan Grote ydyw:—fod gwahaniaeth hanfodol rhwng yr anmhosibl a'r posibl, rhwng y chwedlau am y duwiau nas dichon iddynt fod yn wir, a'r chwedlau am y gwroniaid wedi iddynt gael eu dwyn o fewn terfynau tebygolrwydd trwy gymhwysiad gwellaif beirniad diarbed. Y mae Grote yn cyfarfod hyn trwy ddyweyd—er y dylem ymwrthod â'r hyn sydd yn annhebygol ac yn anghysson â gwirioneddau addefedig, eto nid yw fod yr hyn a adroddir yn debygol yn ddigon o sail i'w gredu. "Anghofir yn rhy fynych y dylai fod genym rhyw gymmaint o dystiolaeth bendant fel sail ein crediniaeth, cyn y gelwir arnom i ystyried y tebygolrwydd neu yr annhebygolrwydd o'r hyn a hònir fel ffaith."

Cymmerir yn ganiataol yn fynych fod crediniaeth unrhyw genedl, megys y Groegiaid, neu dywedwn y Cymry, yn eu traddodiadau, heb unrhyw dystiolaeth gyfoesol o'u gwirionedd, yn ddigon o brawf o'u dilysrwydd, o leiaf yn y prif bersonau, y dygwyddiadau, a'r lleoedd a enwir—nad allasent ddyfod i fod ond trwy dyfu allan o ffeithiau, ac nas gallwn ninnau roddi cyfrif am danynt ond trwy eu holrhain yn ol i ffeithiau. Addefwch brif amlinellau y chwedl fel adlewyrchiad o'r hyn a gymmerodd le mewn gwirionedd, ac yna chwi gewch reswm dros ei throsglwyddiad a'i derbyniad o oes i oes; ond gwadwch fod ei sail ar ffaith, ac yna y mae genych effaith heb achos. Pe addefem rym yr ymresymiad hwn, diflanai prif anhawsder yr hanesydd yn y fan. Ni byddai raid iddo ond defnyddio ei gyllell—tocio ychydig—ac fe ymnewidiai y chwedl yn ffaith o flaen ei lygaid. Ond nid oes gan Mr. Grote gymmaint o ffydd yn y gwellaif beirniadol. Ac yn erbyn yr ymresymeg uchod, rhoddir arbenigrwydd ar y ddwy ystyriaeth ganlynol: yn gyntaf, y lle mawr y mae ffugion pur yn ei lenwi mewn credoau dynol, ac yn enwedig wrth fyned yn ol i amseroedd pell a hygoelus; ac yn ail, y duedd sydd mewn unrhyw deimlad cryf a chyffredinol i'w gorfforli ei hun mewn chwedlau ffugiol, y cyfryw ag a basia o enau i enau, ac a dyfant yn raddol i fod yn draddodiadau cenedlaethol.

"Tybir yn rhy gyffredinol, ac heb ystyriaeth briodol, yn yr oes oleuedig hon, fod gwirionedd hanesyddol wrth wraidd pob ffugchwedl a dderbynir fel gwirionedd. Y mae dylanwad dychymyg a theimlad i'w ganfod, nid yn unig mewn trawsffurfio, mwyhau, ac addurno chwedlau ag sydd yn sylfaenedig ar ffeithiau, ond hefyd fe rydd fod i hanesion o'u heiddo eu hun, heb un ffaith flaenorol. Pan y treiddia unrhyw deimlad crefyddol neu wladwriaethol—cariad, edmygedd, adgasedd—trwy gorff o ddynion yn byw mewn cymdeithas, credir yn rhwydd bob adroddiadau o duedd i roddi dadganiad cryf i'r cyfryw deimlad. Mae y dymuniad iddynt fod yn wir yn rhy gryf i neb deimlo awydd i'w hammheu, ac felly y maent yn cael derbyniad cyffredinol. Ac os na bydd dygwyddiadau gwirioneddol wrth law, llenwir y diffyg â ffugchwedlau effeithiol; ac y mae cydgordiad y cyfryw chwedlau â'r teimlad sydd yn gwasanaethu yn lle tystiolaeth o'u gwir-

Digitized by Google

ionedd yn sicrhau y derbynir hwynt, nid yn unig gyda chrediniaeth, ond gyda hyfrydwch. Byddai gofyn prawf o'u gwirionedd, ac yn enwedig eu hammheu, yn ddigon i dynu cawod o ddifriaeth ar ben y neb a ryfygai wneuthur hyny. Y mae y ffug hanesion crefyddol aneirif sydd wedi ennill derbyniad mewn gwahanol wledydd yn ddigon o brawf o'r duedd hon yn meddwl dyn—hanesion nad oedd un sail iddynt mewn ffaith, ond a ddygwyd i fod trwy ddychymyg gref ychydig o feddyliau yn mlaen llaw, a gyfranogent o'r teimlad crefyddol oedd yn ymweithio yn y wlad.

"Y mae teimladau heb law teimladau crefyddol, ond iddynt fod yn ddigon cyffredinol ac yn ddigon nerthol, yn ymwisgo mewn ffurf hanesyddol, ac yn derbyn crediniaeth gyffredinol. Os bydd unrhyw ddyn cyhoeddus o nodweddiad anghyffredin, mor fynych y gosodir y cyfryw yn ganolbwynt cylch o fân ystoriau ag sydd yn egluro ei nodweddiadau neillduol ef. Gan fod y fath ddylanwadau a hyn ar waith yn awr, pan y mae defnyddiau hanesiaeth wirioneddol mor gyflawn, ac yn ddarostyngedig i feirniadaeth fanwl, llawer mwy ynte yr ydoedd felly mewn oesoedd amddifad o'r teimlad o werth tystiolaeth hanesyddol, ac o'r moddion i gofrestru yr hyn a ddygwyddai iddynt, ac yn ddiysgog eu meddwl mewn cyfryngiaeth ac ysbrydoliaeth ddwyfol." [*History of Greece*, vi. 572, &c.]

Y teimladau cryfaf yn mhlith y Groegiaid yn moreuddydd eu hanesiaeth oedd eu teimladau crefyddol, a theimladau o ymffrost yn eu hynafiaid. Yn eu plith hwy hefyd ymblethai y ddau deimlad hyn yn un, o herwydd y credent mai disgynyddion uniongyrchol y duwiau oedd hynafiaid pob teulu a phob llwyth yn eu mysg, ac mai yr unig wahaniaeth rhyngddynt hwy a'r duwiau oedd eu bod hwy unwaith wedi bod yn ddynion; a thra ar y ddaiar, iddynt gyflawnu gorchestion yr ymogoneddai eu holafiaid ynddynt. Ni ddeuai i feddwl neb i ammheu gwirionedd unrhyw adroddiad a gydgordiai â'r syniad cyffredin. Ië, nis gallasai dyfeiswyr y cyfryw chwedlau ammheu eu gwirionedd mewn oes ag y credid fod holl awgrymiadau y dychymyg a chynhyrfiadau y teimlad i'w holrhain yn ol i gyfryngaeth un o'u duwiau. Nid troell ymadrodd ydoedd ysbrydoliaeth yr awen y pryd hyny, ond crediniaeth ddidwyll y bobl. Yr oedd y bardd yn brophwyd. Ymddangosai o flaen eu llygaid, trwy ffafr y duwiau, holl ddirgelion yr amser a fu, y presennol, a'r dyfodol. Ië, ymgodent ar adenydd ysbrydoliaeth i gyfrinach y duwiau. Dywed Herodotus yn bendant mai Hesiod a Homer a roddodd deitlau i'r duwiau, a wahaniaethodd eu priodoliaethau a'u swyddau, ac a ddysgrifiodd eu ffurfiau; a bod y Groegiaid, cyn iddynt gael eu dysgu ganddynt hwy, yn anwybodus am ddeilliad y duwiau, eu parhad, a'u ffurfiau. [*Herod.*, ii. 53.] Yr un modd y golygai Plato hwynt hefyd. Yr oedd pryddestau y beirdd hyn yn llyfrau cyssegredig yn eu golwg.

Dygir yr ystyriaeth hon yn mlaen er mwyn dangos fod teimladau a chrediniaeth gyffredinol yr oesoedd boreuol yn ddigon o esboniad ar luosogrwydd eu chwedlau traddodiadol, fel nad ydym dan yr angenrheidrwydd i gymmeryd yn ganiataol fod rhyw gymmaint o wirionedd hanesyddol wrth eu gwraidd, mewn trefn i ddangos pa fodd y daethant i fod.

Yr oedd yn arferiad gyffredinol yn mhlith y Groegiaid i ddeall pob enw a roddid ar unrhyw gasgliad neu gymdeithas o ddynion, fel yn dynodi fod un tad neu hynafiad wedi bod iddynt. Cymhwysent yr egwyddor hon, nid yn unig at enwau gwahanol lwythau, megys y Doriaid, a'r Ioniaid, ond hefyd at wahanol ymraniadau gwladyddol a chrefyddol. Hwy a gredent hefyd fod enwau dinasoedd a lleoedd yn ddeilliedig o enwau y sylfaenwyr a phatriarchiaid y llwyth. Yn nghyfansoddiad gwreiddiol Athen, yr oedd enwau y pedwar llwyth a berthynent iddo, sef Geleontes, Hopletes, Argades, ac Aigicoreis, er yn amlwg yn dynodi eu gwahanol alwedigaethau, eto yn cael eu holrhain i fyny i enwau pedwar mab Ion, patriarch cyffredinol y llwyth. Yr oedd yr arferiad hon yn lluosogi nifer eu gwroniaid yn ddirfawr, ac ni byddai y rhai a hònent eu perthynas â hwynt yn fyr o briodoli iddynt y cyflawniad o weithredoedd cydnaws â'u tueddiadau eu hunain.

Rhoddodd yr hygoeledd cyffredinol a ffynai trwy holl Ewrop yn y canoloesoedd fantais fawr i dyfiant cnwd toreithiog o'r cyfryw ffugchwedlau ag a ddeilliai o'r goelgrefydd a hanfodai ar y pryd. Yr oedd y rhai hyn o ddau fath; sef, ffughanesion y saint, y rhai sydd yn ddigon lluosog i gyfansoddi llenyddiaeth eu hunain; a hefyd rhamantau marchwrol (*romances of chivalry*), sef efelychiadau o'r chwedlau am Hercules, Theseus, a chrwydriadau Ulysses. Rhoddid coel gyffredinol i'r rhamantau hyn i lawr hyd at y ddeunawfed ganrif. Cyfeiria mwyafrif y chwedlau hyn, yn ol pob tebygolrwydd, at ddynsodion hollol ffugiol. Ond fe syna llawer at eiriau Arglwydd Macaulay, pan y dywed—"Personau ffugiol ydyw Hengist a Horsa, Gwrtheyrn a Rhonwen, Arthur a Mordred; a gellir rhestru eu hanturiaethau gydag anturiaethau Hercules a Romulus." Gwelir fod yr hanesydd enwog hwn yn gwneyd byr waith ar enwau a dybiai y cyffredin nad oedd dim mwy o ammheuaeth yn eu cylch nag sydd am Harri yr Wythfed neu Oliver Cromwell. Nid i deimlad cenedlaethol y mae priodoli ei anghrediniaeth; o herwydd nid oes ganddo fwy o ffydd yn y gwroniaid Saxonaidd nag sydd ganddo yn yr arwyr Cymreig. Nid yn fynych y mae ysgrifenydd mor drwyadl yn ei ammheuaeth. Y mae gan y Seison yn gyffredin fwy o goel yn hanfodiad Hengist a Horsa nag sydd ganddynt yn Arthur a'i farchogion. Dengys Mr. Charles Knight ei hun mor rydd oddi wrth ddylanwad cenedlaethol ag ydyw yr hanesydd pendefigaidd, ac ar yr un pryd yn fwy teimladwy o werth profion hanesyddol yn eu graddau isaf. "Nid yw yr hyn a gyflwynir i'n sylw trwy niwl traddodiad o angenrheidrwydd yn amddifad o bob sail mewn ffaith, mwy nag y mae y cwbl a ddywedir mewn oes o lenyddiaeth yn hollol wir. Dichon i ffaith hanesyddol a pherson gwirioneddol gael eu trosglwyddo yn nghaniadau y beirdd o oes bell; ond nid ydym i gasglu o herwydd hyny mai ar ffug y maent yn sylfaenedig. Y mae yn nodedig i sylwi arno, wrth ymlwybro rhwng dygwyddiadau a phersonau sydd wedi eu ffurfio i hanesiaeth, mor dueddol ydym i gerdded yn ol traed rhai brutiau hanner ffugiol, ac i droi oddi wrth ereill ag sydd wedi eu hargraffu mor ddwfn ar dywod symmudol hanfodiad cenedlaethol. Yr ydym yn cael Hengist a Horsa yn yr awdurdodau Saxonaidd; a mabwysiedir hwy yn gyffredinol gan hanesiaeth ddiweddar. Y mae i Arthur a Mordred darddiad Celtaidd, a gwrthodir hwynt yn gyffredin fel personau ffugiol. Ymddengys i ni fod ymwrthod â'r naill fel y llall

Digitized by Google

yr un mor ehud, o herwydd eu bod wedi eu hamgylchu âg awyrgylch chwedlonol. Amgylchir Hengist a Horsa â thraddodiadau Gothaidd a berthynent i genedloedd ereill. Cyflwyna Arthur ei hun o'n blaen â phriodoliaethau dewin Merddin, a Marchogion y Bwrdd Crwn. Ond a ydym, o herwydd hyny, i ymwrthod yn hollol â'u hanfodiad hanesyddol? Wrth ddilyn ellyll-dân traddodiad, collodd ysgrifenwyr hygoelus yr oes fynachaidd eu hunain yn y mawnogydd twyllodrus yr arweiniwyd hwynt iddynt. Cenfydd ymchwiliad amyneddgar a beirniadol, yn y goleuni ammheus hwnw, pa beth i'w ochelyd, a thrwy hyny arweinydd i lwybrau mwy diogel." [*The Popular History of England*, cyf. i. 60.] Gall ambell ddarllenydd ofyn pa ham nad ellir derbyn yr adroddiadau hyn fel y ceir hwynt heb unrhyw betrusder? Yr ateb ydyw, yn benaf, am mai nid cyfoeswyr â'r gwroniaid hyn a ysgrifenasant eu hanes; ac hefyd, am fod rhyw gymmaint, mwy neu lai, o elfenau chwedlonol yn amlwg ynddynt, megys deilliad Hengist a Horsa o'r duw Woden, a'r gweithredoedd goruchnaturiol a briodolir i Arthur. [Gwel ARTHUR.] Yr oedd y teimlad oedd yn ymweithio yn y genedl ar y pryd yn gyfryw na buasai dyfeisiad y fath gymmeriadau yn anmhosibl: ac wedi eu cyflwyno i sylw, pa un bynag ai trwy fywiogrwydd dychymyg ai ynte mewn gwirionedd, yr oedd y teimlad cyffredinol y fath ag a sicrhâai dderbyniad croesawus iddynt. Am y ffeithiau mawr cenedlaethol a gymmerasant le ar y pryd, nid oes dim ammheuaeth, hyd yn oed yn meddyliau y rhai mwyaf anffyddol. Pa un a oedd dau dywysog o'r enw Hengist a Horsa yn arwain y Saxoniaid i Brydain, ac iddynt groesi y môr mewn tri chwch, ar wahoddiad Gwrtheyrn, brenin y Prydeiniaid, a erys byth yn destyn dadl. Ond yn mhlith llawer o adroddiadau personol a all fod yn ffugiol neu yn wirioneddol, ymgyfyd i sylw y ffaith ddiammheuol fod y llwythau Almaenaidd wedi dyfod trosodd i Brydain, ac wedi ennill yn raddol diriogaethau ffrwythlonaf yr ynys. Yr oedd hyn tua chanol y bummed ganrif. Am y ganrif a hanner canlynol, nid oes ond tywyllwch yn gorchuddio hanes ein gwlad. Nid oes dim yn cael ei adrodd gydag eglurder gan yr ysgrifenwyr Saxonaidd, ond cofnodiadau byrion am fuddugoliaethau a galanasdra. Nid yw Bede, yr hwn a ysgrifenodd yn mhen tua dau cant o flyneddoedd ar ol dechreuad y goresgyniad Saxonaidd, yn crybwyll dim manylion, ond yn rhoddi y gwirionedd cyffredinol yn y geiriau canlynol:—"Gorchuddiasant (sef y Saxoniaid) yr ynys, o'r môr gorllewinol i'r môr dwyreiniol, âg un oddaith gyffredinol, ac ymdaenasant dros ei holl wyneb o'r bron. Dymchwelasant adeiladau o bob natur—cyhoeddus, yn gystal ag adeiladau personol—rhoddwyd yr offeiriaid i farwolaeth o flaen yr allorau; llosgwyd a lladdwyd â'r cleddyf esgobion a phobl yn ddiwahaniaeth." Wrth droi at y dysgrifiad a rydd Nennius, ychydig yn ddiweddarach na Bede, hyny yw, oddeutu dau gant o flyneddoedd ar ol dyfodiad y Saxoniaid i'r wlad hon, y mae rhyw gyflawnder ammheus yn yr adroddiad, yn enwedig wrth gofio mai efe oedd y cyntaf y mae genym un sicrwydd ddarfod iddo roddi brwydrau a buddugoliaethau Arthur mewn adroddiad hanesyddol. [Gwel ARTHUR.] Y mae nifer ei frwydrau—deuddeg—yn cyfateb i nifer gorchestion Hercules; ac enwau y manau yr ymladdwyd hwynt, yn rheolaidd yn eu trefn; a hyny mewn amseroedd pan nad oedd ein "gohebydd ein hunain" yn dilyn y fyddin i gofrestru y profion o'i ddewrder; heb law fod yr wrolgamp o roddi i farwolaeth â'i law ei hun, yn yr un gad, 950 o wŷr, yn argoeli fod gan ddychymyg law yn ngwneuthuriad y darlun. Ni allesid rhoddi mewn cyn lleied lle grynodeb mwy cyflawn am frwydrau Napoleon a Wellington, er iddynt gael eu cofrestru yn fanwl ar y pryd, a chael eu cadw yn barhaus o flaen ein llygaid mewn llyfrau a newyddiaduron.

Ein dyben yn aros ar y manylion hyn ydyw dangos mai nid gwaith hawdd yw tynu llinell o wahaniaeth rhwng chwedloniaeth a hanesiaeth ddiledryw a dilys, hyd yn oed o fewn terfynau na ddychymyga y darllenydd cyffredin fod un ammheuaeth yn bosibl; sef yn hanes ein gwlad ein hunain, ac o fewn ychydig oesoedd i'r adeg pan y mae tystiolaeth gyfoesol yn rhoddi goleuni diamwys. Ond er addef fod adroddiad Nennius—ni feddylia neb am restru Sieffre o Fynwy ond yn mhlith ysgrifenwyr godidocaf chwedloniaeth y canoloesoedd—wedi ei arliwio i gyfarfod chwaeth yr oes a'r genedl, y mae casgliad Carnhuanawc, fod ei adroddiad Lladinaidd ef yn debyg i gyfieithiad o hanes boreuach yn Gymraeg, yn colli cymmaint o'i rym o blaid dilysrwydd holl fanylion yr adroddiad, trwy gryfhau y demtasiwn i'w lluosogi, ag y mae yn ei ennill trwy ddwyn y dystiolaeth yn nes at y ffaith. Eto, gwthio anghrediniaeth hanesyddol i'r eithaf ydyw gwadu hanfodiad y brenin Arthur. Am wirionedd y ffaith fawr genedlaethol, sydd yn gorwedd dan yr holl ffugchwedlau personol, sef ymdrech gwrol a chyndyn y Cymry yn erbyn y Saxoniaid, y mae unfrydedd barn. Ond nis gellir cyrhaedd un sicrwydd am y modd y dygwyd y gwrthwynebiad hwn yn mlaen; pa un ai dan luaws o fân gadlywyddion, gorchestion pa rai a briodolwyd i'r enwocaf o honynt, ynte dan lywyddiad gwirioneddol y brenin Arthur yn bersonol, i'r hwn y perthynai y fath arbenigrwydd yn mysg dynion ei oes ag a roddir iddo yn yr hanesion am dano.

Pe cymhwysem yr un egwyddorion beirniadol at fanylion hanes ein hynys a'n cenedl, fel yr adroddir hwynt yn ein herthygl CYMRY, pa faint honynt a weddillid i ni? Gan ein bod wedi rhoddi yr hanes yn gyflawn yno fel y trosglwyddir ef i ni yn ein hawdurdodau cenedlaethol, sef y *Trioedd Hanesyddol*, &c, ni a roddwn, yn ngeiriau Mr. Grote, pa faint fydd eu swm ar ol eu nithio trwy y gogr, trwy yr hwn y rhydd efe a Syr G. C. Lewis draddodiadau Groeg a Rhufain:—

"Os cymmerwn hanes ein gwlad fel yr ysgrifenwyd ef o'r ddeuddegfed hyd yr eilfed ganrif ar bymtheg, cawn ei fod yn dechreu yn ol y dybiaeth gyffredin gyda Brutus o Gaerdroia; ac oddi yno, iddo redeg am oesoedd lawer trwy olyniad maith o freninoedd, hyd amser Julius Cæsar. Coleddid tyb gyffelyb gan genedloedd ereill Ewrop am haniad Troianaidd. Arweiniwyd hwynt i hyn gan eu hefelychiad edmygawl o Rufain a'i deiliaid Troianaidd. Gyda golwg ar Brydain, prif awdwr y traddodiad oedd Sieffre o Fynwy; ac ymffurfiodd yn rhan o'r gred gyffredinol heb ond ychydig o ddadl na gwrthwynebiad. Rhestrwyd y breninoedd, o Brutus i lawr, mewn trefn reolaidd—pob un yn ol ei amseriad priodol ei hun. Mewn dadl a gymmerodd le yn amser Edward I., (B. A. 1301) rhwng y Seison a'r Ysgotiaid, gwnaethpwyd prawf-ysgrif, yr hon a gynnwysai ddisgyniad breninoedd Lloegr o Brutus, er mwyn amddiffyn iawnderau

Digitized by Google

coron Lloegr. Nid llai rhyfedd ydoedd y cyndynrwydd gyda pha un yr amddiffynwyd y gyfres foreuol hon o freninoedd gan haneswyr, nag oedd y rhwyddineb gyda pha un y rhoddid coel iddi yn y dechreu. Yn nechreuad yr eilfed ganrif ar bymtheg, gwrthdystid yn wresog yn erbyn yr ammheugarwch ymyrgar a fynai ddifodi cynnifer o freninoedd urddasol, a distrywio cynnifer o orchestion arwraidd. Appeliai croniclwyr at deimladau gwladgarol eu darllenwyr, gan ddysgrifio yr anfadrwydd o osod i fyny feirniadaeth ryfygus yn erbyn crediniaeth yr oesoedd. Eto, yn erbyn cymmaint o awdurdod, dechreua haneswyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg hanes Prydain gyda Julius Cæsar."

Nid yw Syr G. C. Lewis i'w foddloni o barth i wirionedd ffeithiau hanesyddol ar lai o brawf na Mr. Grote. "Yr hyn sydd yn gwneuthur hanesiaeth foreuol Rhufain, fel pob hanesiaeth arall, yn gredadwy, ydyw, y gellir ei holrhain i fyny i dystiolaeth tystion ag oedd yn fyw ar y pryd." [*Credibility of Early Roman History*, cyf. i. td. 19.] Wrth gymmeryd y rheol hon i'n harwain yn ein hymchwiliad i ffeithiau hanesyddol, y gorchwyl mawr ydyw penderfynu oed y dystiolaeth a ddygir ger bron. Y profion llenyddol yr appelir atynt o blaid hanes boreuol y Cymry ydyw tystiolaeth y *Trioedd Hanesyddol*. Y mae amser cyfansoddiad y cofysgrifau hyn, gan hyny, o bwys mawr mewn cyssylltiad â hanesiaeth foreuol ein cenedl. Gwel yr erthygl.

Er ein bod yn rhoddi canonau caethaf beirniadaeth i lawr yn y lle hwn, fel y ceir hwynt gan yr awduron enwocaf a diweddaraf, eto y mae yn sicr ddiammheu fod i draddodiad ei swydd yn nhrosglwyddiad ffeithiau o oes i oes. Er fod dau gant o flyneddoedd er pan safai trigolion Prydain wyneb yn wyneb mewn brwydrau marwol, dan faneran Charles I. a Cromwell, pwy a all ammheu pe nad ysgrifenasid gair yn eu cylch o hyny hyd yn awr y buasai y cof am danynt wedi diflanu. Am ffeithiau mawr yr amseroedd terfysglyd hyny ni buasai dim ammheuaeth, er fod yn sicr y buasai dychymyg wedi cyssylltu y ffeithiau hyny yn nghyd â hanesion hollol ffugiol yn eu manylion, ond mor hollol wirioneddol yn eu hysbryd, o herwydd y cyfranogent o ysbryd yr oes y perthynai y traddodiadau iddi. Mewn oes pan na chyssylltir ffeithiau â'u gilydd fel achosion ac effeithiau, hyny yw yn athronyddol, yr unig gydiad, neu undeb rhwymyn rhyngddynt, a all fod ydyw ffughanesion. Nid yw hyn chwaith yn amddifadu y ffeithiau o'u hawl i gael eu hystyried yn gredadwy. Yn wir, gwisg sydd yn eu nodweddu ydyw. A hyn oedd meddwl Aristotle, pan y dywedai fod barddoniaeth yn fwy *gwir* na hanesiaeth. Ped edrychem ar unrhyw ysgogiad neu ffaith fawr o natur genedlaethol, wladol, neu eglwysig, sydd yn cymmeryd lle o flaen ein llygaid, y mae tri pheth y gallwn gyfeirio ein sylw yn neillduol atynt—y ffaith ei hun, yr achosion o honi, a'r canlyniadau iddi. Y mae y ffaith yn eglur—nid oes ammheuaeth am dani; ond nid felly, fe ddichon, ac y mae yn lled debygol hefyd, am yr achosion a'r effeithiau. Y mae gwahanol ddynion yn esbonio y rhai hyn yn wahanol, yn ol eu tymmerau, eu gobeithion, a'u hofnau eu hunain. Gweithio yn ddirgeledig ac yn ddystaw y mae yr achosion, ac ymestyn i'r dyfodol a'r tywyllwch y mae y canlyniadau; ond y mae y ffaith ei hun yn bresennol ac yn amlwg. Cymhwyser yr ystyriaeth hon at destyn ein herthygl, ac fe rydd i ni y rheol fer ganlynol i wahaniaethu rhwng chwedl a ffaith:—gan fod yr achosion a'r canlyniadau yn fwy tywyll ynddynt eu hunain, rhoddant fantais i ddychymyg i'w gwisgo hwynt mewn chwedlau ffugiol, tra yr ymddengys y ffaith ei hun fel y bydd, gydag ychydig o addurniadau dychymygol. Pan y bydd y ffaith yn ddiammheuol, dichon i'r hyn a arweiniodd ati, a'r hyn a ganlyn oddi wrthi, ymgolli mewn niwl chwedloniaeth. Fel prawf chwanegol o hyn, gellir sylwi fod hanesiaeth foreuol cenedl yn ymgyflwyno i'n sylw fel rhyw gymmysgedd o'r tebygol a'r annhebygol, y cyffredin a'r anghyffredin. Ceir dygwyddiadau barddonol ac anhygoel yn gymmysgedig âg ystadegau sychion, ac adroddiadau sydd yn ymddangos yn hollol fel gwirionedd.

Ni ddywedwn chwaneg ar chwedloniaeth arwraidd; ac am chwedloniaeth dduwinyddol, yn mhlith y Cymry, nid yw ar gof a chadw yn awr, os bu erioed ganddynt. [Gwel DERWYDDON.] Am y Pryddestau Chwedlonol Cymreig, gwel CYRIDWEN. Am genedloedd ereill, megys China, Persia, Arabia, Caldea, yr Aipht, Phœnicia, Groeg, Rhufain, gwledydd gogleddol Ewrop, &c., y mae ganddynt oll eu chwedloniaeth, yr hon a eglurir naill ai dan enwau y gwledydd neu eu prif dduwiau. Mexico a Peru ydyw yr unig wledydd yn America sydd yn meddu chwedloniaeth. Mewn gwledydd paganaidd, y mae eilunaddoliaeth, duwinyddiaeth, a chwedloniaeth, yn rhedeg i'w gilydd. Yn oesoedd boreuaf ac anghoethedig cymdeithas, nis gallwn dybied fod chwedlau duwinyddol i'w cael yn mysg dynion. Nid yn unig yr oedd anwybodaeth o'r gwir Dduw yn angenrheidiol i'w tyfiant, ond hefyd treigliad amser. Yr oedd y Chineaid a'r Aiphtiaid—y ddwy genedl hynaf y mae eu cofnodau hanesyddol wedi dyfod i lawr atom ni—am oesoedd boreuaf eu hanes heb y chwedlau hyn. A dadleuir gan ddynion dysgedig eu bod hwy am rai canrifoedd ar ol y dylif, fel yr hònir am y Cymry yn y cyfnod Derwyddol, yn meddu ac yn ymarfer â'r grefydd bur yr ymarferai Noah â hi; ac o ganlyniad, nad oedd dim lle i ddychymyg na chwedl: ond wedi iddynt golli y wybodaeth am y gwir Dduw, fel Creawdwr a Llywodraethwr pob peth, cymmerwyd ei lle gan chwedlau dychymygol. Nid yw amldduwiaeth [gwel erthygl] ond dyfais neu gyfundrefn i esbonio natur, wedi i ddynolryw golli gwir agoriad y dirgelwch. Priodola anwariaid ewyllys a phersonoliaeth i bob peth sydd yn amlygu gallu uwch law eu dirnadaeth a'u llywodraethiad hwy, a dechreuant eu dyhuddo â gweddi ac âg aberth. Addolent bob gwrthddrych naturiol a amlygai nerth mawr a gwahanfod amlwg; megys y ddaiar, yr haul, y lloer, afonydd, &c. Nid duwiau yn y gwrthddrychau hyn, ond y gwrthddrychau gweledig eu hunain a addolid gyntaf oll gan yr hen Roegiaid. Dyfais ddiweddarach oedd edrych ar Apollo yr un a'r haul, a Diana yr un a'r lleuad. Ond lle nad oes un gwrthddrych gwahaniaethol amlwg yn effeithio ar hapusrwydd a thynged dyn, ond dosbarth o wahanol bethau yn meddu ar ansoddau cyffelyb, y duedd ydoedd, fel y mae yn amlwg, nid i addoli y gwrthddrychau hyny eu hunain, ond i osod duw uwch law iddynt i lywodraethu dosbarth o honynt. Bacchus oedd duw y gwin, a Ceres yn dduwies yr ŷd. Felly yr oedd cynnydd dynion mewn gwybodaeth o natur, a'u dosbarthiad o'i gwrthddrychau, yn gwneuthur gwahaniaeth cyfatebol yn eu dosbarthiad o'u duwiau. Am fod tân yn elfen mwy ofnadwy yn

Digitized by Google

ei gweithrediad, cyflwynid addoliad uniongyrchol iddo, gan mwyaf; eto, yn *Homer*, cyflwynir addoliad i Vulcan—duw y tân. Edrychid ar daranau fel priodoledd y galluocaf o'r duwiau—llywydd y duwiau a dynion. Fel y cynnyddai gallu meddyliol dynion, nid lleihau nifer eu duwiau a wnaent, ac felly ennill eu ffordd yn nes at y gwirionedd, ond chwanegu at y rhestr. Edrychent ar bob dosbarthiad amlwg o natur a allent wneuthur, megys Nos, Bore, Cwsg, Marwolaeth; ac hefyd o ansoddion meddyliol, megys Prydferthwch, Cariad, Doethineb, Cyfiawnder, yn waith ac yn amlygiadau o dduwiau neillduol. Personolid y priodoliaethau hyn, a thelid addoliad iddynt, nid fel ansoddau, ond fel personau. Yn y modd yma y daeth y grediniaeth mewn lluosogrwydd o dduwiau i fod, nid fel dyfais dyn, ond fel cynnyrch naturiol ei feddwl yn absennoldeb gwybodaeth am y gwir Dduw. Ffrwyth diweddarach dychymyg beirdd ac offeiriaid ydyw y chwedlau am y duwiau, y rhai a ddyfeisiwyd gyda mwy neu lai o gyssondeb â'r priodoliaethau a dybid eu bod yn eu meddu. Y duwiau mwyaf poblogaidd ydoedd y rhai yr adroddid y chwedlau goreu am danynt. Ond nid y chwedlau a gyfansoddai y grefydd baganaidd. Ei sail ydoedd personoliad a dwyfoliad elfenau ac achosion dirgelaidd natur. Yr oedd gweithrediad cynneddfau naturiol dyn yn y cyfryw amgylchiadau yn arwain i hyn; a gwisg a deflid dros y cyfan oedd y ffugchwedlau a gyfansoddai chwedloniaeth.

Y mae llawer wedi ei ysgrifenu i'r dyben o daflu goleu ar ffurfiad cyntaf, cynnydd graddol, a gwahanol esboniadau y chwedlau hyn.

Bod iaith farddonol, yn ei harliwiau cryfion a'i theimladau bywiog, yn cyffwrdd â therfynau tiriogaeth chwedloniaeth, sydd amlwg. Yn nghyflawnder ei deimlad, geilw y bardd ar y gwyntoedd, yr haul, y môr, a'r ffurfafen, fel pe y gwrandawent arno. Ac os na rydd iddynt ffurf ddynol, priodolir iddynt fywyd a theimlad dynol. Ac er fod yr athronydd yn alluog yn y dyddiau hyn i egluro y gwlaw a'r gwlith, yr ystorm a'r taranau; eto, i'r lluaws, y mae yr holl bethau hyn, os ydynt ychwaneg na geiriau, yr hyn oeddynt i Homer, ond efallai yn llai prydferth, yn llai dysglaer gan farddoniaeth. Trown i dudalenau y beirdd, a gwelwn fel y mae gwaed a bywyd yn eu cynhesu ac yn troi yr hyn a fyddai yn llaw yr athronydd yn ddysgrifiad o wrthddrych marw, yn gymdeithas a phersonoliaeth yn meddu teimlad fel efe ei hun:—

Ceir anghreifftiau o hyn yn meirdd pob cenedl. Fe ddichon nad yw barddoniaeth un genedl mor syml, diaddurn, a diffugrau, ag ydyw barddoniaeth cenedl y Cymry. Y rheswm a rydd golygwyr y *Myfyrian Archaiology* dros hyn ydyw fod defodau Barddas hynafol yn gwahardd i'r beirdd roddi dim yn eu caniadau ond gwirionedd noeth a syml. O blegid hyn, meddant hwy, ceir fod holl ddammegion, chwedlau, a rhamantau y Cymry gynt mewn rhyddiaith, pan nas goddefid iddynt roddi dim yn eu prydyddiaeth ond ffeithiau neu wirioneddau diymwad. Dyma y rheswm a roddant hwy hefyd dros y gwahaniaeth mawr sydd rhwng prydyddiaeth y Cymry a phrydyddiaeth pob cenedl arall adnabyddus. Pa un a ydyw hyn yn wir am ein prydyddion cynoesol ai peidio, nis gwyddom; ond am y rhai y cyrhaeddodd eu gwaith hyd atom ni, arferent hwy addurno eu cerddi â ffugrau a phersonoliaethau, fel prydyddion cenedloedd ereill, hyd y gallent. Dichon nad oes un o'n prydyddion yn hynotach yn hyn na'r awengar Ddafydd ab Gwilym. Personola efe y creaduriaid direswm, a hyd yn oed yr elfenau; a gwna iddynt weini yn llateion neu genadon iddo at ei anwylyd.

Dyma fel y sieryd wrth y gwynt:—

"Gwr eres wyd, garw ei sain,
Drud byd, heb droed, heb adain
Uthr yw, mor aruthr i'th roed,
O bantri wybr heb untroed;
A buaned y rhedy,
Yr awr hon, dros y fron fry.
Dywaid im', diwyd emyn,
Dy hynt, ryw ogleddwynt glyn.
Och wr! dos o Uwch Aeron
Yn glaer deg, yn eglur dôn;
Nag aro di, nag eiriach,
Nag ofna, er Bwa Bach.
* * *

"Rhiain a'm gwnaeth yn gaethwlad,
Rhed fry rhôd a thŷ ei thad;
Cur y ddor, par agori,
Cyn y dydd i'm cenad i;
A chais ffordd ati o chaid,
A chân lais fy uchenaid.
Deui o'r sugnau diwael,
Dywaid hyn i'm diwyd hael;
Er hyd yn y byd y bwyf,
Corodyn cywir ydwyf.
Ys gwae fy wyneb hebddi,
Os gwir nad anghywir hi:
Dos fry, ti a weły wen,
Dos obry, dewis wybren;
Dos at Forfydd felenllwyd,
Debre'n iach, da wybren wyd."

Rhydd genadwri gyffelyb i'r "Ceiliog Du," a sieryd âg ef fel pe buasai gyfaill iddo:—

* * *

"Y Ceiliog dewr â'r clôg du;
* * *

Dy lifrai o'r mwtlai main,
Dwy lawes dew o liain:
Dwbled yt o blu y dôn,
Dwyael dy fentyll duon;
Crefyddwisg yt a wisgwyd,
Crefydd serch crefyddus wyd.
* * *

Gwyddost gyfran ar lanerch,
Holl gampau mesurau serch;
Beiddiwr aer, bydd yr awron
Latai ym' at ciliw ton.
Cyfeiria acw y foru,
Y dwyrain dan doryn du,
Oni ddelych i ddolydd,
A dyffryn, gwaisg addwyn gwŷdd
A phrif afon, ffyrf fwyfwy,
A ran y ddol wair yn ddwy;
A dail yn lled deilio 'n llawn,
Ag adar go gyfoediawn:
Disgyn edn, dos genadwr,
Ar lwyn dail, ar lan y dwr
Gwŷl o'r coed, gwylia ŵr cain,
Hael dewr, am haul y dwyrain.
Degle 'n nes, dwg i liw Nyf,
Ddeg anerch oddi genyf."

Llefara am y daran fel tarw, ac fel gwiddon a gwrach yn crechwen:—

"Dan lwyn, a dien lanerch,
——— pan oeddym ein dau,
Taro a wnaeth, terwyn oedd,
Trwst taran tros y tiroedd!
A ffrydiaw croewlaw creulawn,
A phoeri mellt yn ffrom iawn!
* * *

Twrf a glyw pob tyrfa glau,
Tarw cryg yn tori creigiau:
Taran a ddug trinoedd yn',

Trwst arfau tros y terfyn:
Tân amlwg, dŵr tew 'n ymladd,
Tân o lid, dŵr tew 'n ei ladd.
Clywais fry, ciliais o fraw,
Corlais udgorn y curwlaw;
Mil fawr yn ymleferydd
O gertweiniau 'r sugnau sydd.
Braw a ddisgynodd i'm bron,
Bwrw deri o'r wybr dirion!
Gwyllt yr awn â'm gwallt ar ŵyr,
Gan ruad gŵn yr awyr!
Gwiddon goch yn gweiddi 'n gau,
Gwrach hagr, dan guro'i chawgiau.
Rhegain garm, rhyw gŵn gormes,
Rhugl groen, yn rhoi gwlaw a gwres.
Tori cerwyni crinion,
A barai gri o'r wybr gron:
Canu trwmp yr wybr gwmpas,
Curo gwlaw ar bob craig las.
Croglam yn dryllio creiglawr,
Crechwen o'r ffurfafen fawr!
Trwy ei hun, a t'rawai hwrdd,
Tebyg i ganu tabwrdd.
Nid gwaeth wrth fyned i'w gwâl,
Er bremain o'r wybr wamal;
Oni bâi faint; mewn braint, braw,
Ofn deuddyn a fâi 'n dyddiaw.
* * *

Brefered yr wybr ferydd
A wnaeth i ni dori dydd.
Fy nyn wen, ofni a wnai,
Awyr arw pan weryrai!"

Mae yn anerch yr haf, ac yn ei berswadio i ddychwelyd fel cyfaill adnabyddus iddo:—

"Yr haf hynaws rhwyf hinon,
O'm serch am danad mae'm son:
Dychwel yn ol i'r dolydd,
Yn drum draw er gwisgaw gwŷdd;
Rho ddail a gwiail ar goed,
A'th degwch i berth dewgoed
A doldir yn llawn deildai,
A thrydar mân adar Mai;
A'th glod achlan a ganaf—
Cân hawddfyd hyfryd i'r haf."

Mewn cywydd arall, enfyn yr haf yn genad drosto i gario ei anerchion i Forganwg:—

"Clyw fi, haf! o chaf i'm chwant,
Yn genad ti 'n d' ogoniant;
Hed drosof o dir Essyllt,
O berfedd gwlad Wynedd wyllt—
Gyr onis bôch i'm goror,
Anwyla man yn ael môr.
F' anerchion yn dirion dwg
Ugeinwaith i Forganwg;
Fy mendith a llith y lles
Dau ganwaith, i'r wlad gynhes!
Dymgais a'm gwlad o'i hamgylch,
Damred a cherdded ei chylch.
* * *

O'th gaf yr haf i'th awr hardd,
A'th geindwf a'th egindardd;
Dy hinon yn dirion dwg,
Aur-genad i Forganwg;
Tesog fore, gwna 'r lle 'n llon,
Ac anerch y tai gwynion:
Rho dwf, rho gynnhwf gwanwyn,
A chynnull dy wull i dwyn;
Tywyna'n falch ar galch gaer,
Yn luglawn, yn oleuglaer;
Dod yno 'n dy fro dy frisg
Yn wyrain bawr, yn irwisg;
Ysgwyd lwyth o bêr ffrwythydd,
Yn rhad gwrs ar hyd ei gwŷdd;
Rho'th gnwd fal ffrwd ar bob ffrith,
A'r gweunydd a'r tir gwenith;
Gwisg berllan, gwinllan, a gardd,
A'th lawnder, â'th ffrwythlondardd;
Gwasgar hyd ei daiar deg,
Gu nodau dy gain adeg!"

Y mae'n cyfarch yr ehedydd, y fwyalchen, a'r gog, yr un fath yn union a phe buasent bersonau dynol:—

——— ——— "Yr hedydd,
Dysgawdr mawl rhwng gwawl a gwyll,
Disgyn nawdd Duw ar d'esgyll:
Cathl lân a diddan yw 'r da
Gethlydd awenydd winau."

"Y fwyalchen awenawl,
Ymlyni gerdd yn mlaen gwawl;
Ceiliog wyd yn y celydd,
Yn ngoror dôl yn ngwawr dydd;
Toriadur pen twyn ydwyd,
Tan y gaer wen tongar wyd.

"Dydd da fo i'r gog serchoglef,
Aderyn wyd o dir nef;
Yn dwyn newyddion yn deg,
A nodau haf iawn adeg;
A haf yn hudaw hoywfun
I goed, a bardd gyda bun:
A llenwi dail i'm llanerch,
A thwg ar ias amlwg serch.
Hoff genyf dy gân landeg,
Dy gân i serch fel gwin seg:
A thraserch i'th iaith rwysog
A minio gwawd fy mwyn gog!
Dywed i'th gân heb dewi,
A mwyn wyd, p'le mae 'mun i?"

Y mae Goronwy Owain yn darlunio Môn, y lili, yr awen, y ser, a gwrthddrychau ereill, yn gwbl fel pe baent bersonau dynol.

Wrth Fôn, dywed:—

'Poed yt' hedd pan orweddwyf
Yn mron llawr estron, lle'r wyf.
Gwae fi! na chawn enwi nod,
Ardd wen i orwedd ynod;
Pan ganer trwmp Ion gwiwnef,
Pan gasgler holl nifer nef;
Pan fo Môn a'i thirionwch
O wres fflam yn eirias fflwch,
A'i thorog wythi arian,
A'i phlwm a'i dur yn fflam dân!"

Wrth y lili, dywed:—

"Hardded wyt ti 'r lili lân
Lliw 'r eira uwch law 'r arian;
Cofia it' guro cyfoeth
Selyf, y sidanbryf doeth."

Am yr awen, dywed:—

"Bu gan Homer gerddber gynt
Awenyddau—naw oeddynt;
A gwiw res o dduwiesau,
Tebyg i'w tad, iawn had Iau;
Eu hachau, o ganau gynt,
Breuddwydion y beirdd ydynt!"

Am y farn, dywed:—

"Mal cawr aruthr yn rhuthraw—
Mal lladron dison y daw."

William Wyn hefyd a ddarlunia y ser fel dynion, yn clywed sain yr udgorn diweddaf:

"Udgorn nef yn dolefain,—
Y ser a glywant y sain."

Darlunia Dafydd Ionawr y dyfroedd, y moroedd a'i lu, yn nghyd â'r gwynt, yn derbyn gorchymynion, ac yn ufuddhau iddynt yn amser y dylif:—

"Y Byw-Ner, uwch pob anian,
O'i orsedd oleuwedd lân,
Draethodd farn gadarn deg iawn;—
Chwi ddyfroedd moroedd mawriawn,
Duw Awdwr sydd yn d'wedyd,
Dylifwch, boddwch y byd.

Dyfnfawr ydoedd dystawrwydd
Llu y nef oll yn ei ŵydd;

Digitized by Google

Crynodd rhag ei air croywnerth
Y nef fawr geinwawr yn gerth.

Afrywiogwyllt fôr eigion
A rwydd wrandawodd yr Ion:
Lluoedd mŷr y gorllewin
Glywsant, grochfloeddiant yn flin,
Gan ddeffro'r deheufor hyll
O'i dawel annedd dywyll.
Mewn cyffro hwy'n swnio sydd,
A galwant ar eu gilydd:
I fyny hwy anfonant
Ddyfroedd o'u hamgylchoedd, gant
O lyfnion heirdd golofnau
Yn ewybr i'r gylchwybr gau:
Rhyfedd! o'r dyfnder hefyd
Colofnau'n amlhau o hyd;
Yn chwyrn gedyrn ymgodant,
Aml restr i'r cymylau'r ânt:
O'r agwrdd ddyfnfawr eigiawn,
Mae'r awyr yn llwyr yn llawn.
Hedodd, ymgasglodd pob gwynt,
Dywibiodd i'r deheubwynt,
I gydweithredu yn llu llon
A'r gygus ferwawg eigion."

Hefyd, darlunia y rheieidr a'r awyr fel llewod yn rhuo:

"Rheieidr fyrddiwn yn rhuaw
Yn ffrydiawg o lidiawg wlaw!
* * * *

A'r awyr yn adruaw,
A mawr drwst yn y môr draw."

Darlunia Dewi Wyn Elusengarwch fel duwies, yn siarad, yn edrych am wrthddrychau i dosturio wrthynt, ac yn eu hamgeleddu:

"Geiriau Elusengarwch;
Pob paladr yn ffladr a ffwch,
Mae plyfyn i'm palf yn awr,
Côf-adail fawr cyfodwch.

Gwel dylodion, a gwael adeiladau;
Gwragedd, plant, a thrichant o wrth'rychau;
Amddifaid, gweddwon, wareiddion ruddiau;
Un a dyn bychan yn dwyn ei beichiau:
Dyn feichiog, lwydion fochau,——mewn angen
Gweled Elusen dan gelyd loesau.

Lluoedd ar luoedd ar welyau,
Rhwng cilddaint echrys-haint a chroesau;
Holl awch dannedd y lluchedenau;
Chwerw ffrewyll, fflengyll, a phla angau;
Gan anghenion, ewynion yn cynnau;
Elusen deimla 'u heisiau,——a'i chynhes,
Garuaidd fynwes, eu griddfanau.

Pechodau, a chwymp chwai Eden,—— a'u dug
I dagwm yr angeu:
Yn rhodd anfonodd nef wen,
O law Iesu Elusen.

Disgynodd Duwies gwiwnef,
I'n daear ni, do, o'r nef:
Llysoedd brenhinoedd heini
Is law ei holl sylwi hi:
Chwyddai serch y Dduwies hon
At aelwydydd tylodion:
Agor o'i thrysor wrth raid,
A'i rannu i drueiniaid.
Ni lysir, gan Elusen,
Un cnawd, yn ieuanc na hen:
Edwyn eisiau dyn isel;
Yn hen a gwan, hon a'u gwel:
A gnawd i hon gwneyd, o hyd,
Hen elyn ei hanwylyd!
Dau anwylyn dynoliaeth,
Brawdyn a gelyn, nid gwaeth.
* * * *

Hwy wyneblwydant yn eu blodau:
Gnawd i'r auwydog wneyd oernadau;
Gwel Elusen, ac a glyw leisiau,
Eu hoch'neidion a'u tuchaniadau:
Er achub ei gwrth'rychau,——go ebrwydd
Y gyr ei dedwydd, anwyl gardodau.
Arddengys ei bys bob eisiau;——estyn
Ei llaw, i'r adyn ei holl wir reidiau.

Ei threfniadau, wrth reolau;
Yn ei cheisiau, iawn achosion;
Cyfraniadau, wrth fesurau,
O'i deliadau, i dylodion.

Saif hyd wledydd ei hen sefydliadau;
Manteision di brinion, hyd wybrenau:
Ac nid yw pob gwiwras Gymdeithasau,
O'r Fam a'r Fanon hon ond canghenau:
Golygir y prif Golegau——mal hen
Erddi Elusen o iraidd lysiau."

E. Hughes, Bodfari, a ddarlunia un o Fadogion yr America, yn ymddyddan â'r haul, fel person dynol:

—— "Haul y bydoedd,—
Dywed, O di dad y dydd,
Gwyliawdyr uwch y gwledydd;
Dywed im', da yw dy wedd,
Dy genad deg o Wynedd.
Pwy'n ei iechyd? pwy'n ochain,
I fyny drwy Gymru gain?
Ai llwyddiant—diwall addysg
A sain mawl y sy'n eu mysg?
Neu ofid, llid a llediaith,
Fal gynt, a rhyfelawg waith?
Ar dy gerbyd tanllyd di,
Pe gallwn, O heb golli!
Ffylliwn, iach meiddiwn uwch môr
I gyrhaedd y deg Oror;
Lle'r ai di, i roi lliw'r dydd,
Aur melyn, ar ei moelydd!"

Ieuan Glan Geirionydd a ddarlunia'r wawr agor "dôr y dwyrain" â'i bysedd.

"Y wawr weddus, â'i bysedd rhuddain,
Sy draw yn agor dôr y dwyrain."

Sieryd am Babilon fel duwies:—

"Neud yw, o seithdlws daear,—y flaenaf
O luniant digymhar;
A hardd y sai'r dduwies wâr,
Orsynawl yn mro Sinar."

Gwilym Hiraethog a'i darlunia fel arglwyddes, wedi ymddyrchafu i'r fath raddau yn ei meddwl nes myned i siarad â hi ei hun am ei godidogrwydd:—

"Bu unwaith yn eiste'n arglwyddes teyrnasoedd,
A gwaraidd ymgrymai y byd ger ei bron;
Hi fynai warogaeth a pharch y cenedloedd,
Eu gosod dan ardreth a theyrnged wnai hon.

Pan godai o'i gorsedd, y byd a arswydai,
Y ddaiar a grynai pan deimlai ei thraed;
A nodai bob amser y llwybr a gerddai,
Drwy 'i liwio âg afon lifeiriol o waed.

'Roedd ganddi freninoedd yn rhwym mewn caethiwed,
A rhai wedi tynu eu llygaid i ffwrdd;
Hi wawdiai 'u trueni, a chwarddai eu gweled
Yn dysgwyl am friwsion fel cwn dan ei bwrdd.

Yn uchder ei llwydd, hi a dd'wedai, 'Mi fyddaf
Yn ddinas goronog y ddaiar i gyd;
Sefydlaf fy ngorsedd rhwng ser y Goruchaf,
Yn ol fy ewyllys y llywiaf y byd.'"

Tuedd iaith ydyw colli llawer o'i theimlad a'i grym. Mewn oesoedd chwedlonaidd, yr oedd iaith yn llawnach o'r elfen farddonol. Yn lle machlud haul, dywedent hwy fod yr haul yn heneiddio ac yn marw. Y nos yn rhoddi genedigaeth i blentyn dysglaer oedd cyfodiad haul. Yn y gwanwyn, gwelent hwy yr haul yn cofleidio y ddaiar, ac yn tywallt trysorau i'w mynwes. Geilw Hesiod y nos yn fam cwsg, breuddwydion, dinystr, a marwolaeth. Geilw hi hefyd yn fam bai, gwae,

Digitized by Google

a'r ser prydnawnol, y rhai a amddiffynent yr afalau euraidd yr ochr arall i'r môr clodfawr. Hi hefyd a ymddug ar Ddial (*Nemesis*), a thwyll, a chwant. Y mae yn hawdd cyfieithu yr ymadroddion hyn i iaith gyffredin:—yn y nos yr ydym yn cysgu, yn breuddwydio, yn marw, &c.; ac eto, y maent yn rhan o'r chwedloniaeth a ddysgir yn y *Theogeny*. Y mae y bardd yn gofyn i'r awenesau, yn rhagymadrodd ei brydd-est, pa fodd y ganwyd y duwiau, y ddaiar, yr afonydd, a'r môr diderfyn, y ser dysglaer, a'r nefoedd lydan uwch ben. Y mae yr holl brydd-est yn ateb i'r ymofyniad hwn. Ond nid ydym i gasglu fod yr holl ffugchwedlau paganaidd mor hawdd i'w deongli a'r rhai hyn; o'r braidd, yn wir, y mae y rhai hyn yn codi uwch law barddoniaeth sydd yn adnabyddus yn mhob gwlad. Rhoddwn anghraifft o ffaith hanesyddol wedi ei throi i ffurf chwedlonol:—Yr oedd Cyrene, yn Lybia, yr hon y crybwyllir am dani yn y Testament Newydd, yn dref Roegaidd, a sylfaenwyd ac a boblogwyd gan drigolion o Thessaly, yn ol cyfarwyddyd oracl Apollo; ond y chwedl sylfaenedig ar hyn ydyw—Syrthiodd Apollo mewn cariad â'r wyryf Cyrene, yr hon oedd yn byw yn Thessaly, ac a'i dygodd ymaith i Libya. Ffurfiwyd lluaws o chwedlau yn y modd hwn. Y mae y chwedl brydferth am Endymion a Selene yn dangos pa fodd y trosglwyddwyd ymadroddion barddonol am ymddangosiadau a gweithrediadau natur at ddynion. Yr ydoedd Endymion yn fugail, mab Iau a Calace. Gwelodd Selene ef yn cysgu mewn ogof ar fynydd Latmus: syrthiodd mewn cariad âg ef, a chyrchai yno bob nos i gael ei gymdeithas. Pe buasai ystyr gwreiddiol enwau priodol y chwedl hon wedi myned ar goll, fel llawer o enwau ereill, buasai yr agoriad i'w deongliad wedi colli hefyd. Selene ydyw y gair Groeg am y lloer, Endymion am yr haul pan yn machludo; ac yn iaith farddonol a diarebol y cyfnod hwnw, dywedid "fod y lloer yn caru ac yn gwylio Endymion," yn lle "y mae hi yn myned yn hwyr":—"y mae y lloer yn cofleidio Endymion," yn lle "y mae yr haul yn machlud a'r lloer yn codi":—"y mae y lloer yn cusanu Endymion i gysgu," yn lle "y mae hi yn nos." Parhaodd yr ymadroddion hyn ar ol i'w hystyr fyned ar goll; ac felly, ymffurfiodd y chwedl yn naturiol heb ymdrech personol o eiddo neb, a chymmerwyd Endymion yn enw ar ŵr ieuanc ag oedd yn wrthddrych serch i ferch ieuanc o'r enw Selene. Y cyfryw ydyw ychydig o anghreifftiau o'r modd y tyfodd y fath gnwd toreithiog o'r chwedlau hyn yn llenyddiaeth foreuol cynnifer o wahanol genedloedd y ddaiar. Y mae gwahanol esboniadau ereill wedi cael eu rhoddi o barth i ddechreuad ac ystyr y gwahanol chwedlau hyn.

Y prif rai ydynt y rhai canlynol:—1. Yr esboniad hanesyddol. Yn unol â hwn, edrychir ar y gwahanol fodau y crybwyllir am danynt mewn chwedloniaeth yn ddynion a fu unwaith yn byw ar y ddaiar, ac nad yw y gweithredoedd gorchestol ac anhygoel a briodolir iddynt ond chwanegiadau ac addurniadau dyddiau diweddarach. Y mae awdwr *Doethineb Solomon* yn rhoddi ar ddeall mai dynion oedd y duwiau paganaidd yn eu dechreuad, ac iddynt ddyfod yn wrthddrychau addoliad yn y modd canlynol: "Y tad, yn gystuddiol trwy alar anamserol am ei fab, yr hwn a ddygwyd ymaith yn gynnar, gwedi gwneuthur iddo ef ddelw, yn awr a'i haddolodd megys yn dduw, yr hwn oedd y pryd hwnw yn ddyn marw, ac a roddes i'r rhai oedd dano seremoniau ac aberthau. Y rhai ni allai dynion eu hanrhydeddu yn eu gwydd, am eu bod yn trigo yn mhell, hwy a gymmerasant lun eu gwedd hwynt o bell, ac a wnaethant hynod ddelw brenin, yr hon a anrhydeddent, er mwyn trwy eu dyfalwch hwn, gwenieithio iddo ef oedd absennol fel pe bai bresennol;" xiv. 15, 17. Mabwysiadwyd y golygiad hwn gan amryw o'r Groegiaid, a chan ysgrifenwyr cyntaf Cristionogaeth yn eu hymresymiadau yn erbyn y paganiaid, a chan ambell ysgrifenwr diweddar, megys Banier yn ei *Chwedloniaeth yn cael ei hegluro trwy Hanesiaeth.*

2. Esboniad arall ar darddiad y chwedlau hyn ydyw, nad ydynt yn amgen na hanesion Ysgrythyrol wedi eu cyfnewid, eu llurgynio, a'u llygru. Yn yr erthyglau CREADIGAETH, DYLIF, ceir anghreifftiau o'r chwedlau traddodiadol a hanfodent yn mhlith amrywiol genedloedd o barth i ddechreuad pob peth, a'r dinystr cyffredinol a ddilynodd hyny; a gall y darllenydd farnu am eu tebygolrwydd i'r hanesion sanctaidd. Hòna amddiffynwyr y dybfarn hon fod prif ddynsodion chwedloniaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid i'w cael yn yr Ysgrythyrau; nad yw Deucalion ond enw arall am Noah, a Hercules am Samson, &c. Olrheinir y golygiad hwn gan Bryant [*Analysis of Ancient Mythology*], ond nid heb sylfaenu ei gasgliadau ar y tybiau mwyaf disail. Cymhwysa Syr W. Jones yr un egwyddor at chwedloniaeth Hindwaidd [*Gods of Greece, Italy, and India*], ond heb redeg i'r fath eithafoedd ffol. Barna llawer o'r tadau Cristionogol mai cythreuliaid oedd y duwiau paganaidd, ac mai hwynthwy eu hunain a ddysgasant i ddynion eu hanes a'u haddoliad.

3. Y mae ereill yn dewis edrych ar y chwedlau hyn fel gwisg alegoraidd gwirioneddau pwysig o natur foesol, grefyddol, neu athronyddol. Gosodwyd i fyny yr esboniad hwn gan Resymolwyr dyddiau Socrates a Plato yn Groeg, y rhai nad oedd ganddynt wroldeb i wadu yn benderfynol yr hyn a hònid oedd yn wyrthiol ac yn oruchnaturiol yn y chwedlau hyn; ac eto nis gallent eu credu. Ymddengys oddi wrth y geiriau canlynol, allan o'r rhagymadrodd i un o ymddyddanion [y *Phædrus*] Plato, nad oedd Socrates ei hun, yr hwn a gyhoeddwyd y doethaf o ddynion gan yr oracl paganaidd, yn edrych ar y chwedlau hyn yn amgen nag yr edrychid arnynt gan y lluaws:—"Am danaf fy hun, Phædrus, yr wyf yn edrych ar yr esboniadau hyn yn dra hyfryd; ond y maent yn gofyn dyn o feddwl cryf, ac un parod i ymgymmeryd â gwaith caled; ac un wedi y cwbl na chenfigenwn wrtho, o herwydd wedi iddo gael allan ystyr alegoraidd i un chwedl, ymruthra arno lu o'r creaduriaid mwyaf anghenfilaidd, a dysgwylir iddo fynu allan ddirgelwch pob un. A phe gwrthodai un gredu fod y fath greaduriaid yn bod, a phe chwiliai trwy fath o philosophi, barod wrth law, am esboniad tebygol iddynt, byddai raid iddo wrth lawer o amser. Nid oes genyf fi amser i'r fath orchwyl; ac o ganlyniad, yr wyf yn ei adael yn llonydd, gan gredu, fel ereill, yn eu cylch. Y rheswm, fy nghyfaill, ydyw, nad wyf eto yn adnabod fy hun, a byddai yn ynfydrwydd i ddyn sydd eto heb gyrhaedd hyn i dreulio ei amser gyda phethau na pherthyna iddo." Ymddengys oddi wrth hyn, yn gystal ag oddi wrth ddyfyniadau cyffelyb y gellid eu gwneuthur, mai nid am y credai Socrates nad ellid rhoddi ystyr allegawl i'r creaduriaid anairif

Digitized by Google

a lanwai chwedloniaeth Groeg â'u gorchestion, eu castiau, eu trawsffurfiadau, a'u traws-symmudiadau, yr ymattaliai efe oddi wrth chwilio i mewn am y gwirioneddau y tybid eu bod yn eu cynnwys, ond o herwydd yr ymddangosai iddo ef yn orchwyl anorfod i ddarllen ystyrion cyfriniol yr holl chwedlau hyn. Ond fel y treiglai amser, teimlai dynion nad allent barhau i roddi derbyniad i ddysgrifiadau eu beirdd am orchestion eu harwyr yn eu hystyr lythyrenol a hanesyddol; ac o ganlyniad, nad oedd dim i'w wneyd ond ymwrthod â hwynt o gwbl, neu ynte geisio eu hesbonio yn gysson â rheswm a moesoldeb, trwy eu deongli yn allegawl. "Y gwaith," medd yr esgob Marsh, "yn yr hwn y defnyddiwyd y dull allegawl hwn gyntaf ydoedd *Iliad Homer;* ac y mae casgliad o esboniadau allegawl yn awr ar gael, dan yr enw *Heraclidis Allegoriæ Homericæ.* Y mae yn wir nas gellir golygu y gweithredoodd a briodolir i wroniaid yr *Iliad* yn hanesiaeth wirioneddol; nis gellir eu golygu fel dygwyddiadau a gymmerasant le o flaen muriau Troia. Eto, er nad dysgrifiadau ydynt o ddygwyddiadau a gymmerasant le mewn gwirionedd, eto golygai yr awdwr y gallasent gymmeryd lle, ac o ganlyniad fod iddynt *nodwedd* gwirionedd. Heb hyn, ni ddaethai byth yn bryddest genedlaethol. Ni phriodolir dim chwaith i dduwiau yr *Iliad,* ond oedd yn gydweddol â choelgrefydd yr oes a'r wlad; ac i'r darllenwyr *cyntaf,* yr oedd y cyfan yn gredadwy. Ond fel y cynnyddodd gwareiddiad yn mhlith y Groegiaid, daethant i ffieiddio arferion anwaraidd y gwroniaid hynafol; ac er mwyn cymmodi meddyliau y dysgyblion a addysgwyd yn ysgolion Aristotle a Plato â hwy, deonglid hwy mewn modd allegawl. Gan eu bod yn analluog i amddiffyn Homer trwy esboniad *llythyrenol,* ac eto yn anewyllysgar i ymwrthod âg awdwr a safai uchaf yn mharch y genedl, tynai ei esbonwyr athronyddol len o alegori dros weithredoedd yr *Iliad,* a derbynient hwy fel gwisg ddammegol o wirioneddau goruchel a dirgeledig." [*Lectures on the Criticism and Interpretation of the Bible*]. Yn y modd hwn yr edrychir ar y chwedlau hyn gan Bacon; ac ysgrifenodd y dysgawdwr enwog hwn draethawd, dan yr enw *Doethineb yr Hynafiaid* (*De Sapientia Veterum*), er mwyn egluro y ddoethineb sydd yn guddiedig dan lawer o honynt. Yn mhlith ei resymau dros gredu eu bod yn cynnwys rhyw gnewyllyn o wirionedd pwysig, fe ddywed fod rhai o honynt yn cyfleu meddwl dirgeledig yn naturiol iawn; hefyd, y mae amryw o honynt mor afresymol, os deallir hwy mewn ystyr llythyrenol, fel y mae hyn yn ein gorfodi i chwilio am ystyr arall iddynt; ac uwchlaw y cwbl, yr hyn sydd yn gogwyddo ei feddwl i'r farn hon ydyw, mai nid Homer a Hesiod, a'r beirdd ereill, a ddyfeisiodd y chwedlau hyn gyntaf, ac a'u cyflwynasant i sylw y byd, ond mai ffrwyth oesoedd boreuol a gwell oeddynt.

Heb law y gweithiau y cyfeiriwyd atynt, gwel *Introduction to a Scientific Mythology, by K. O. Müller; Keightley's Mythology of Ancient Greece and Italy; Kavanagh's Myths traced; Comparative Mythology, Oxford Essays,* 1856.

CHWEGR—AU, [Gr., ἑκυρή]: mam gwraig neu ŵr; mam yn nghyfraith: *Ruth* i. 14; *Mat.* viii. 14; *Luc* iv 38.

CHWEGRWN, [Gr. ἑκυρος]: tad gwraig, neu dad yn nghyfraith: *Gen.* xxxviii. 13, 25; *Exod.* iii. 1; xviii. 7, 14; *Num.* x. 29; *Barn.* i. 16; xix. 4; 1 *Sam.* iv. 19, 21; *Ioan* xviii. 13.

CHWERTHIN—IAD: ystum ar y corff yn arddangos llawenydd, dirmyg, gwatwaredd, ymddiried, edmygedd. Chwerthin, a'i ystyried yn athronyddol, sydd fath o gynhyrfiad arbenigol yn ermigau y corff, yr hwn a gyfyd yn ddisymmwth ac anorchfygol, gan effeithio ar y wyneb, y gwddf, y ddwyfron, a'r ceudod. Er y bydd y weithred hon yn cael ei gwneuthur yn gyffredinol mewn gwahanol ffyrdd a graddau, bydd ar brydiau o'r braidd yn anweladwy, ac ni chanfyddir hi o gwbl ond trwy ysgogiad gewynol ysgafn yn y wyneb a'r genau. Tra y mae yr agweddiad corfforol, pa fodd bynag, mor syml, y mae natur sefyllfa y meddwl, a natur yr hyn a'i cynnyrcha, yn fwy dyrus. Y mae llawer iawn o wahanol farnau wedi bod yn ffynu ar y pwnc hwn. Y mae mwy o unfrydedd rhwng yr hynafiaid gyda golwg arno, nag sydd rhwng yr athronyddion diweddar. Yn ol Aristotle, rhyw gyfeiliornad oddi wrth wirionedd a phriodoldeb ydyw yr hyn a gynnyrcha chwerthin, ond ar yr un pryd heb fod yn boenus nac yn niweidiol. [*De Poet.*, 6, adr. 1.] Rhywbeth yn debyg i'w olygiad yntau ydyw golygiad Cicero; yr hwn, tra y dywed fod yn anmhosibl rhoddi darnodiad manwl o hono, a addef mai prif, os nad unig, wrthddrych chwerthiniad ydyw y peth hwnw a noda allan ac a ddadguddia anmhriodoldeb mewn dull gweddus. [*De Oratore*, 2, n 235.] Y mae Quintilian yn ystyried fod yn anmhosibl rhoddi darnodiad manwl o hono [*llyfr* vi., *pen* 3]. Ar yr un pryd, trwy ddwyn yn mlaen opiniwn Cicero, mai yr anmhriodol a'r gwrthun a gyfansoddant wrthddrychau chwerthiniad, a thrwy haeru fod perthynas agos rhwng chwerthiniad a gwatwaredd, y mae yn agosau at opiniwn Hobbes, yn mysg ysgrifenwyr diweddar, yr hwn a ddywed mai ffynnonell chwerthiniad ydyw "gorfoledd disymmwth yn cyfodi oddi wrth ymsyniad o ryw ragoroldeb ynom ein hunain, mewn cymhariaeth i waeledd ereill, neu yr eiddom ein hunain yn flaenorol." Y mae opiniwn Heloctius yn gyffelyb i'r eiddo Hobbes, yr hwn a ddywed mai ymffrost ydyw ffynnonell chwerthiniad. Cydsynia Beattie a Priestley fod yr hyn a gynnyrcha chwerthiniad yn cyfodi oddi wrth gam adroddiad neu undeb anghydweddog gwrthddrychau; tra yr ystyria Arglwydd Kames mai gwrthgyferbyniad ydyw ei hanfod. Mabwysiedir y golygiad diweddaf gan Mendelsohn a J. Paul Richter. Dywed y blaenaf, ei fod yn seiliedig ar wrthgyferbyniad rhwng perffeithrwydd ac anmherffeithrwydd, mewn pethau dibwys ac annyddorol, pa fodd bynag, i ni; gan hyny, yn ddim amgen nag anghyssondeb. Y mae y diweddaf drachefn yn ei seilio ar yr hyn a fyddo yn wrthgyferbyniol i'r arddunol. Cyffelyb i'r golygiad hwn ydyw golygiad Campbell [*Philosophy of Rhetoric*, llyfr i., pen. ii.], yr hwn a sylwa "fod i chwerthineb (*ridicule*), mewn materion dibwys, effaith gyffelyb i'r hyn a gynnyrchir gan angerddoldeb mewn materion difrifol a phwysig." Yn ddiweddaf, dywed Kant, fod yr hyn a gynnyrcha chwerthiniad yn cyfodi oddi ar fod hen obeithion hyderus yn troi yn ddisymwth yn siomedigaeth lwyr.

Yn ol Shaftesbury [*Characteristics; Essay on Wit and Humour*], chwerthineb ydyw maen prawf gwirionedd; ac efe a ddug yn mlaen, er cadarnhau ei olygiad, eiriau Gorgias o Leontini

Digitized by Google

yr hwn a ddywed, "Dymchwelwch chwerthineb trwy ddifrifoldeb, a difrifoldeb trwy chwerthineb."—*Arist. Rhet.*, llyfr iii. pen. xviii. Er mwyn cyfaddasu y frawddeg at ei olygiad ef ei hun, y mae Shaftesbury yn mabwysiadu y cyfieithiad Lladin o honi. Y mae yn eglur, pa fodd bynag, oddi wrth y cyssylltiad yn mha un y dygwydd yr ymadrodd, mai annog areithydd yr oedd Georgias i symmud ymaith yr argraff y gallai fod ei wrthwynebydd wedi ei osod ar y gwrandawyr, drwy ddefnyddio arddull hollol wahanol. Ond ni oddef arwiredd Shaftesbury ond cymhwysiad nacaol yn unig; canys ni wna chwerthineb, ar y goreu, ond dymchwelyd cyfeiliornad. Mewn gwirionedd, pa fodd bynag, nid ydyw yn briodol nac yn gymhwys ei gyfeirio at y gau, ond at y gwrthun, mewn credoau ac opiniynau. Nid teithi penodol a sefydlog mewn gwrthddrychau ydyw yr hyn a gynnyrcha chwerthiniad, ond y mae yn hollol berthynasol a dibynol ar ansawdd a sefyllfa meddwl y dyn ei hunan. Bydd yr anwybodus a'r syml yn chwerthin yn galonog am ben yr hyn na chynnyrcha o'r braidd wên ar wynebpryd y dyn coeth a dysgedig; ac ar y llaw arall, fe chwardda y diweddaf am ben llawer o bethau na chynnyrchant un ysgogiad yn ngewynau gwynebpryd y cyntaf. Y fath hefyd ydyw effaith tymmerau llawen a phruddglwyfus, fel y chwardda un am ben yr hyn yr wyla arall o'i herwydd.

Y mae amryw gyfeiriadau at chwerthin yn yr Ysgrythyrau. Yn ei llawenydd, galwodd Sarah ei mab yn *Isaac;* hyny yw *chwerthin: Gen.* xxi. 6. "Mewn dinystr a newyn y chwerddi" (*Iob* v. 22); hyny yw, Ni bydd i ti deimlo un arswyd o'i herwydd; byddi yn berffaith ddiogel rhag y drygau hyny. Mae yr Arglwydd yn chwerthin am ben y rhai drygionus, ac yn eu gwatwar: *Salm* ii. 4. Chwarddodd Ismael am ben Isaac, a gwatwarodd ef: *Gen.* xxi. 9. Cymharer *Gal.* iv. 29. Y mae chwerthin, mewn ystyr cyffredinol, yn golygu llawenydd. "Amser i wylo ac amser i chwerthin;" hyny yw, amser i lawenhau, ac amser i fod yn gystuddiol: *Preg.* iii. 4. "Gwyn eich byd y rhai ydych yn wylo yr awr hon: canys chwi a chwerddwch;" *Luc* vi. 21, 25. "Mi a ddywedais am chwerthin," am lawenydd, am bleser, "ynfyd yw;" *Preg.* ii. 2. "Tröer eich chwerthin chwi yn alar; hyny yw, fe ddybena eich llawenydd mewn tristwch, edifeirwch, a chyfyngder meddwl: *Iago* iv. 9. Y mae chwerthiniad yr ynfyd yn wag, peryglus, a darfodedig, "fel clindarddach drain dan grochan;" *Preg.* vii. 14; *Luc* vi. 25. Arwydd o lawenydd a diolchgarwch oedd chwerthiniad Abraham, pan yr addawodd Duw fab iddo, ac nid o anmheuaeth: nid ydyw yr Ysgrythyr sydd yn cofnodi hyny yn ei anghymmeradwyo, fel y gwna âg eiddo Sarah: *Gen.* xvii. 17. Y mae yr Arglwydd yn llenwi genau ei waredigion â chwerthin, pan y byddo y newyddion da o lawenydd mawr yn eu llenwi â gorfoledd yr iachawdwriaeth: *Salm* cxxvi. 2.—(*Penny Cycl.; Calmet's Dict.*)

CHWERW—DER, [*chwar*]: sur, gofidus, gerwin, anhynaws, bustlaidd, blindost. Y mae y gair *chwerw* yn cael ei arfer yn arwyddocaol (*Exod.* i. 14; *Ruth.* i. 20) am flinder, trueni, a chaethiwed. O blegid y rheswm hwn y byddai yr Israeliaid yn bwyta dail surion gydag oen y Pasg, er coffadwriaeth am eu caethiwed yn yr Aipht. "Canys wele fi yn codi y Caldeaid, cenedl chwerw a phrysur, yr hon a rodia ar hyd a lled y tir;" *Hab.* i. 6. "Na ad glywed dy lef yn ein mysg ni; rhag i wŷr digllawn (Heb. "chwerw eu henaid") ruthro arnat ti;" *Barn.* xviii. 25. Dilynid Dafydd yn ei ffoedigaeth (2 *Sam.* xvii. 8) gan wŷr creulawn eu meddwl (yn ol yr Hebraeg, "chwerw eu henaid"), megys arthes wedi colli ei chenawon yn y maes. Y mae yni a nerth y gair yn y cyssylltiadau uchod yn dra eglur: y mae yn arddangos digllonrwydd a chynddeiriogrwydd mawr. Rai prydiau, nid yw chwerwder enaid yn arddangos dim ond trallod meddwl: 1 *Sam.* i. 10; 2 *Bren.* iv. 27. Gelwid y dwfr y byddai raid i wraig a ddrwgdybid o odineb ei yfed yn *ddwfr chwerw: Num.* v. 18, 19. "Cenfigen chwerw" (*Iago* iii. 14), a ddynoda adgasrwydd marwol a pharhaol. "Bustl chwerwder" (*Act.* viii. 23) a esyd allan sefyllfa o bechadurusrwydd mawr, tra adgas yn ngolwg Duw, a thra niweidiol i ereill. Y mae yr ymadrodd "gwreiddyn chwerwedd" (*Heb.* xii. 15) yn golygu person drygionus a gwaradwyddus, neu ryw bechod peryglus yn arwain i wrthgiliad. Dywed y brenin Hezeciah yn ei gân (*Esa.* xxxviii. 17), "Wele yn lle heddwch i mi chwerwder chwerw;" hyny yw, Ymosododd afiechyd peryglus arnaf.

CHWIBANOGL. Gwel OFFER CERDD.

CHWIBAN—U, [*chwib*]: mewn un ystyr, arddangosir dirmyg a sarhad drwy chwibanu. "A'r tŷ uchel hwn (y deml), pawb a gynniweiria heibio iddo, a syna wrtho, ac a chwibana; dywedant hefyd, Pa ham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn i'r wlad hon, ac i'r tŷ yma?" 1 *Bren.* ix. 8. "A mi a wnaf y ddinas hon yn anghyfannedd, ac yn ffiaidd; pob un a elo heibio iddi a syna ac a chwibana, o herwydd ei holl ddialeddau hi;" *Ier.* xix. 8; xlix. 17; l. 13; *Galar.* ii. 15, 16; *Ezec.* xxvii. 36; *Seph.* ii. 15. Y mae galw ar unrhyw un drwy chwibanu arno hefyd yn arwydd o allu ac awdurdod. Dywed yr Arglwydd y bydd iddo chwibanu yn ei ddigofaint, a galw y gelynion i ymosod ar Ierusalem: efe "a chwibana arnynt hwy o eithaf y ddaiar;" *Esa.* v. 26. Efe a'u dug hwynt drwy chwibanu arnynt o'r gwledydd mwyaf pellenig. "A bydd yn y dydd hwnw i'r Arglwydd chwibanu am y gwybedyn fydd yn eithaf afonydd yr Aipht, ac am y wenynen fydd yn nhir Assyria;" *Esa.* vii. 18. Dywed Theodoret a Cyril o Alexandria, wrth ysgrifenu ar brophwydoliaeth Esaiah, y byddai y bobl a gadwent wenyn yn Syria a Phalestina yn eu tynu allan o'u cychod, yn eu harwain i'r meusydd, ac yn eu dwyn yn ol drachefn drwy sain chwibanogl, a thrwy chwibanu â'r genau. Dywed Zechariah (x. 8), pan yn llefaru am y dychweliad o Babilon, y byddai i'r Arglwydd gasglu yn nghyd dŷ Iudah megys â chwibaniad, a'u dwyn yn ol i'w gwlad eu hunain; yr hyn a ddengys mor hawdd y cyflawnai Duw y gwaith mawr, er mor wasgaredig oeddynt—â chwibaniad.

CHWILIO—IWCH, [*chwil*]: olrhain, ceisio, ymofyn, chwilena, dyfal-geisio (*Gen.* xxxi. 34; *Num.* x. 33; xiv. 34; *Deut.* i. 22; xiii. 14; *Iob* viii. 8). Dywed yr Arglwydd am eilunaddoliaeth yr Iuddewon, "Nid wrth chwilio (Heb. *cloddio*) y cefais hyn, eithr ar y rhai hyn oll" (*Ier.* ii. 34), hyny yw, ni chefais hyn mewn pwll cloddiedig, ond wedi ei ddynoethi ar bob derwen. Yr oedd pob man wedi ei halogi â gwaed dynol wedi ei aberthu i eilunod. Bernir fod yn yr adnod gyfeiriad at y gorchymyn a roddir yn *Lef.* xvii. 13.



Digitized by Google

Y mae *chwilio y calonau* yn un o briodoliaethau arbenigol Duw, ac yn un nas gall creadur fod yn gyfranog o honi: *Ier.* xi. 20; xvii. 10; *Rhuf.* viii. 27; *Dad.* ii. 23. "Chwiliwch yr Ysgrythyrau;" *Ioan* v. 39. Cymhwysir y gair a gyfieithir "chwiliwch" yn y lle hwn at waith mŵngloddwyr yn chwilio am fŵnau gwerthfawr; y rhai a edrychant yn bryderus am wythïen y mŵn, gyda phryder cyfartal i'w hystyriaeth hwy o werth y metel. Cymhwysir ef gan Homer at lewes wedi colli ei chenawon, ac yn chwilio y gwastadedd am ol traed y dyn a'i hysbeiliodd o honynt. Cymhwysir ef ganddo hefyd at gŵn yn dilyn eu helwriaeth, trwy chwilio am dano wrth arogl. Y mae yn arwyddo ymchwil manwl, ffyddlawn, a phryderus. Gellir cymmeryd y gwreiddiol yn y lle hwn naill ai yn y modd mynegol, neu yn y modd gorchymynol. Yn ein cyfieithiad ni, y mae yn y modd gorchymynol fel pe buasai yr Iesu yn gorchymyn iddynt chwilio yr Ysgrythyrau, gan ddysgwyl cael bywyd tragwyddol ynddynt. Y mae digon o brawf fod yr Iuddewon yn chwilio llyfrau yr Hen Destament. —*Barnes.*

CHWILYS. Y mae yr enw arno yn arwyddo natur y llys hynod hwn, a sefydlwyd gan awdurdodau yr Eglwys Babaidd i ddiwreiddio cyfeiliornadau o'r byd trwy lofruddio y cyfeiliornwyr. Yr hyn a ddysgwylir mewn llyfr o nodweddiad hwn yw, cael adroddiad syml o ffeithiau, a mynegiad teg o wahanol egwyddorion. Ni ddysgwylir cael ynddo y dadleuydd brwd o blaid nac yn erbyn unrhyw syniadau—ond y barnydd diduedd, yn casglu ac yn trefnu tystiolaethau, gan adael iddynt gario eu dylanwad cyfreithlawn ar feddyliau y darllenydd. Ond addefir yn onest nas gellir peidio dymuno am i hanes ysgelerderau y llys gwaedlyd hwn greu adgasrwydd dwfn yn nheimlad pawb a'i darlleno at yr archdwyll Pabyddol, yr hwn sydd yn darostwng teimladau goreu dynoliaeth, ac yn gwneyd dynion yn ellyllon. Ni cheir yn mysg holl greulonderau y paganiaid ddim i'w gystadlu âg ysgelerwaith y chwilys; yr hyn a wneir mewn gwaed oer, a'r cwbl yn enw yr Iachawdwr bendigedig! Os gorchestgamp Satan yw Pabyddiaeth, gallwn chwanegu mai gorchestgamp Pabyddiaeth yw y llys ofnadwy hwn.

Wedi cyssylltu Cristionogaeth âg awdurdod wladol yn amser Cystenyn, daeth dylif dychrynllyd o lygredigaeth dros y gwledydd; ysgubwyd crefydd ymaith o'i flaen bron yn llwyr, ac ni adawyd ond seremoniau a gormes offeiriadol. Ffurf oedd crefydd, ac erlidigaeth oedd y weinidogaeth. Darostyngwyd y swyddog gwladol o dan awdurdod yr arglwyddi ysbrydol, cymmerwyd cyfraith y tir i weinyddu dysgyblaeth yr eglwys. Ymrestrai pendefigion yn mysg y mynachod, a chafwyd merched breninoedd a phendefigesau goludog yn mysg preswylyddion y lleiandai. Ennillodd yr offeiriadaeth y fath ddylanwad ar wledydd Ewrop fel y daeth ymherawdwyr a breninoedd i blygu ger bron troedfainc y pab.

Yn yr oesoedd tywyll hyny, arferai lluaws mawr o rithgrefyddwyr y gwledydd fyned ar bererindod i Palestina. Trwy dalu ychydig o dreth i'r Saraceniaid, rhoddwyd llawn ryddid i'r pererinion i ymweled â holl leoedd cyssegredig y Tir Sanctaidd: ond wedi i'r Tyrciaid feddiannu yr hen wlad, gwaharddwyd penboethiaid Ewrop i'w sangu. Arweiniodd hyny i ffurfiad y croesgadau (*crusades*), er mwyn ennill y Tir Sanctaidd o feddiant yr anffyddwyr. Rhoddwyd maddeuebau diammodol i bwy bynag a ymrestrai i ryfeloedd y groes, a phenderfynwyd lladd yn ddiarbed bob heretic dwyreiniol. Ond wedi aberthu dwy filiwn o fywydau, troes yr anturiaeth ysblenydd yn siomedigaeth. Ni chymmerai y Twrc ei orchfygu, ac ni dderbyniai Gristionogaeth oddi ar fin cleddyf Ewrop.

Wrth weled parodrwydd y bobl i ymfyddino o dan faner y groes i ddistrywio hereticiaid Asia, daeth i feddwl yr awdurdodau Pabaidd y gallesid defnyddio yr un offerynoldeb i ddadwreiddio hereticiaeth Ewrop, gyda golwg neillduol ar y Waldensiaid a'r Albigensiaid. I'r dyben hwnw y sefydlwyd y chwilys, i chwilio allan yr anufuddion, ac i'w dedfrydu i ddinystr. Tybia rhai iddo gael ei sefydlu yn nghymmanfa Verona, yn y flwyddyn 1184; ond y mae yn sicr ei fod wedi ei osod mewn llawn weithrediad yn y flwyddyn 1204, gan y pab Innocent III.—un o'r dynion mwyaf medrus a chyfrwysddrwg a wisgodd y meitr Rhufeinaidd erioed. Yn y flwyddyn 1216, gosodwyd Dominic, sylfaenydd sect y Dominiciaid, yn brif farnydd y chwilys: gŵr wrth fodd calon y "tad sanctaidd" oedd hwnw, yr hwn a ymroddodd â'i holl galon i weithio yr offeryn dinystriol. Cyhoeddwyd llawn faddeuant am bechodau cyflawnedig ac anghyflawnedig, i bwy bynag a ymrestrai yn y gwasanaeth sanctaidd, yn nghyd â rhyddhâd oddi wrth rwymedigaeth i dalu llog eu dyledion. Gosodid hwy uwch law cyfrifoldeb i lysoedd barn; addawyd y drydedd ran o holl eiddo yr hereticiaid i bwy bynag a ddangosai eu cuddfâau; tynghedwyd breninoedd a llywodraethwyr i'w halltudio o'u terfynau; cyhoeddwyd esgymundod a diorseddiad yn erbyn pob penadur a felddiai anufuddhau; a dedfrydwyd pob dyn i farwolaeth os nad ymchwelai i fynwes Eglwys Rhufain. "Clywyd cyfarthiad cŵn y chwilys yn nyffrynoedd yr Alps, cyn i'w enw fod yn adnabyddus yn Lloegr." Lladdwyd dros 200 mil o'r Cristionogion syml hyn mewn ychydig o fisoedd; ni orphwysodd cenadon y llys melldigedig nes dileu y rhai a esgymunwyd fel cyfeiliornwyr, fel mai prin y gadawyd iddynt wreiddyn na changen. Ond nid yw rhifedi y lladdedigion yn ddangoseg cyflawn o greulondeb y bwystfilod dynol a fwydasant y ddaiar â gwaed y saint. Yr oedd medrusrwydd dieflig yn eu creulonderau; a hyn oll yn enw ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae adroddiad manwl o'r driniaeth a dderbyniodd babanod a gwragedd gan y creuloniaid hyn yn rhy erchyll i'w gyfleu ar ddalenau y *Geiriadur.* Ni oddef ein terfynau i ni draethu hanes cyflafanau y Waldensiaid; lladdfa y Mooriaid a'r Iuddewon yn yr Yspaen; dydd tywyll Bartholomeus, yn Ffrainc; yn nghyd â holl erchyllwaith y croesgadau gwaedlyd yn ngwahanol barthau Ewrop. Y mae haneswyr yn amrywio yn eu hamcangyfrifon o aberthau y chwilys yn y llofruddiaethau mawrion hyn. Ond pe cyfrifem fod y gwirionedd yn gorwedd rhwng y ddau eithafnod, nis gall rhif y lladdedigion fod is law pedair miliwn.

Sefydlwyd y llysoedd hyn yn mhob parth o'r Cyfandir yn y drydedd ganrif ar ddeg. Nid oedd nemawr i ddinas boblog heb ei chwilys; ond rhoddir y flaenoriaeth i'r Yspaen am eangder ei llysoedd, a chreulondeb eu gweinyddiadau.

Yr oedd holl weithrediadau mewnol y chwilys yn cael eu dwyn yn mlaen o dan arolygiaeth

Digitized by Google

prif farnydd, i'r hwn y rhoddid y teitl "gwir barchedig," a chyfrifid ef yn gydradd â'r esgobion; o dano yr oedd lluaws mawr o is-swyddogion—llen a lleyg. Rhwymwyd breninoedd ar eu coroniad i roddi ufudd-dod llwyr i'r holfainc sanctaidd. Yr oedd yr adeiladau yn mha rai y cynnelid y sefydliadau hyn yn gryfion ac yn eang. Yr oedd cadernid yr amddiffynfa, ac ardderchogrwydd y palas, wedi cyfarfod ynddynt. Yr oedd y rhanau uwchddaiarol o honynt yn llawn o bob gwychder a moethau. Ni buasai ymwelydd yn dychymygu, oddi wrth eu hymddangosiad, fod trigfanau trawsder ac arogl gwaed mor agos ato; ond yn yr ystafelloedd tanddaiarol yr oedd y frawdle ofnadwy a'r offerynau poenedigaeth. Yr oedd pob peth a ystyrir yn gyfiawnder mewn llys barn wedi ei alltudio yn llwyr o'r lle; nid oedd tystiolaeth na rhaith, i gondemnio nac amddiffyn y cyhuddedig. Dygid pobl yno os ammheuid eu bod yn coleddu rhyw syniadau gwladol neu grefyddol croes i'r awdurdodau. Yr oedd y dybiaeth fod unrhyw lyfr gwaharddedig yn meddiant dyn yn ddigon o sail i'w erlyn. Pe buasai gelyniaeth personol mewn dyn at ei gymmydog, gallasai ei gyhuddo o dueddiadau diwygiadol, a buasai y cyhuddiad disail hwnw yn ddigon i ddinystrio y cyhuddedig. Wedi nodi allan y gwrthddrych, anfonid cerbyd y llys yn y nos i'w gyrchu; ac ni chaniatëid i neb agor eu ffenestri i wrandaw ei symmudiad, na barnu ei gyfeiriad. Wedi sefyll o flaen tŷ yr hwn a ammheuid, curid y drws, a gorchymynid i'r hwn a geisient ddyfod allan yn ddioed—fod y "llys sanctaidd" yn ei alw. Ni chaniatëid iddo amser i ganu yn iach i'w dylwyth, ac ni oddefid iddo ef na neb arall ddywedyd gair o amddiffyniad nac eiriolaeth. Pe meiddiasai tad ddadleu dros ei blentyn, neu wraig dros ei gŵr, buasai yr un dynged yn eu haros hwythau. Nid oedd ryddid i'r teulu son am y peth wrth eu cymmydogion: ac os gofynid am yr aelod absennol o'r teulu, byddai raid iddynt ddyfeisio anwiredd, megys ei fod wedi myned oddi cartref, a'u bod yn ofni ei fod wedi ei lofruddio. Pe dygwyddasai iddynt, yn eu galar, yngan gair o anghymmeradwyaeth o weinyddiadau y llys, buasai y gyffesgell yn debyg o'i wasgu allan, ac yna cyrchasid hwythau gan y "cerbyd sanctaidd" i grafangau diarbed yr anghenfil. Wedi i'r ammheuedig gyrhaedd y llys, gosodid ef mewn daiargell, o dan gadwynau trymion, nes y byddai yn gyfleus i'w alw i brawf. Yr oedd neuadd y farn heb un ffenestr iddi, ac wedi ei gorchuddio â lleni duon. Yn un ochr yr oedd allor, ac uwch ei phen ddelw y Gwaredwr ar y groes, ger bron yr hon y cedwid chwech o ganwyllau yn oleu yn wastadol. Pan ddeuai awr y prawf, cyhoeddai un o weision y llys "Dystawrwydd! y mae y tadau sanctaidd yn dyfod." Deuent i mewn yn eu gwisgoedd offeiriadol, plygent ger bron y ddelw, a chyflawnent res o seremoniau crefyddol! Gelwid y carcharor i ymddangos ger eu bron. Wedi iddo ddyfod, ni ddygid un cyhuddiad yn ei erbyn, ond gorchymynid iddo gyffesu ei drosedd, a mynegu y peth y dygid ef yno o'i blegid. Os gwrthodai wneuthur hyny, naill ai am ei fod yn ddieuog, neu yn anfoddlawn i gyfaddef, anfonid ef yn ol i'r gell arswydus, lle y rhoddid iddo ddigon o ymborth i gadw bywyd ynddo, a dim yn chwaneg. Gelwid ef yn mlaen drachefn, ac os parhäai i wrthod condemnio ei hun, gyrid ef i'w gell eilwaith. Os gwrthodai gyffesu y trydydd tro, trosglwyddid ef i'r poenydwyr, er mwyn gwasgu cyfaddefiad o hono. Gweinyddid yr holl arteithiau yn mhresennoldeb y "tadau sanctaidd," y rhai a ddefnyddient bob cyfrwysdra i geisio gan y dyoddefydd addef ei euogrwydd.

Y mae yn anhawdd, heb arluniau, i gyfleu drychfeddwl eglur i'r darllenydd am y dulliau gwahanol a ddefnyddid i boeni y trueiniaid a ddeuent o fewn cylch dysgyblaeth waedlyd y chwilys.

Ceisiwn ddarlunio y tri dull mwyaf arferedig.



Dar. 220.

1. Rhwymo dwylaw y dyoddefydd o'r tu ol iddo; ac yna ei ddirwyn wrth ei arddyrnau i ben yr ystafell, â chanpwys yn crogi wrth ei draed. Wedi iddo aros yn y sefyllfa boenus hon am beth amser, gollyngid ef i lawr yn sydyn, ond nid yn ddigon isel i gyffwrdd â'r llawr. Yn yr

Digitized by Google

agwedd hono, derbyniai ddeuddeg gwialenod ar ei gefn noeth. Barned y darllenydd pa faint y poenau a achosai y driniaeth hon, a chofied mai yn enw crefydd Crist y gwneid y cwbl!

2. Gosod y dyoddefydd yn noeth ar ei gefn mewn math o *frame*, wrth yr hon yr oedd ei ben, ei draed, a'i ddwylaw wedi eu rhwymo yn dỳn. Yna, drwy nerth sidrwy (*screw*), gwesgid gwahanol ranau y corff i'r fath raddau, nes y clywid yn aml yr esgyrn yn clecian, ac y gwelid gwaed yn tori allan yn ffrydiau. Ar yr un pryd, gorfodid y dyoddefydd i yfed saith beint o ddwfr, yr hwn a ddefnynid yn araf i'w wddf, gan ei gadw yn nheimlad un ar foddi drwy yr amser y byddai ei gorff yn y dirwasgiad! A hyn oll yn enw Crist, delw yr hwn a welai ger ei fron.

3. Trwy dân. Gosodid traed y truan mewn cyffion; ac wedi eu hiro, dygid padellaid o dân i'w osod ar eu cyfer, hyd nes eu rhostio; byddai y dyoddefydd yn aml yn myned yn wallgof o dan yr arteithiau hyn.

Yn ystod gweinyddiad y creulonderau hyn, ceisid gan y truan gyffesu. Y mae yn ffaith fod miloedd o bobl ddiniweid wedi cyfaddef pethau yn eu herbyn eu hunain er mwyn cael ymwared ar y mynyd hwnw o'u poenau dirfawr, er eu bod drwy hyny yn gwneyd eu hunain yn agored i ddyoddefiadau mwy. Ceisid ganddynt gyhuddo ereill a ystyrient yn euog o'r un camwedd a hwy; a darfu i lawer, mewn hanner gwallgofrwydd, o bryd i bryd, enwi rhestr o bobl ddiniweid, y rhai a ddygid drachefn i ddyoddef yr un gospedigaeth a hwythau. Y mae hanes boneddiges ieuanc, yr hon a drigai gyda'i brawd yn Lisbon, yn dangos fel y byddai dyoddefiadau yn peri i rai dieuog eu condemnio eu hunain. Gosodwyd hi ar yr arteithglwyd, a pharodd ei phoenau iddi gyfaddef; gollyngwyd hi yn rhydd a gosodwyd hi yn ei daiargell drachefn, lle yr arosodd nes i'w haelodau wellhau. Dygwyd hi eilwaith ger bron y llys, a cheisiwyd ganddi arwyddo a sicrhau y gyffes a wnaethai o'r blaen. Gwrthododd wneuthur hyny, gan ddywedyd mai ei phoenau a ddirwasgodd y gyffes o honi. Dodwyd hi yn nwylaw y poenydwyr eilwaith, pryd y cyfaddefodd drachefn ei chamwedd; gollyngwyd hi yn rhydd, a throsglwyddwyd hi i'w charchargell yn ol. Wedi iddi wellhau, dygwyd hi ger bron y llys y drydedd waith, a cheisiwyd ganddi arwyddo ei chyffesiadau blaenorol; atebodd, "Yr wyf ddwy waith wedi rhoddi ffordd i wendid y cnawd; ac efallai, os poenir fi eto, y gwnaf yr un peth; ond gwybyddwch, os arteithiwch fi ganwaith, pan ollyngir fi o'm poen, mi a wadaf bob peth a wasgwyd o honof trwy ddyoddefaint." Rhoddwyd hi yn llaw y poenwyr y drydedd waith, a daliodd ei phrawf yn benderfynol, gan wrthod ateb unrhyw ofyniad a roddwyd iddi.

Wedi arteithio y carcharorion mor bell ag y barnai meddyg y llys yn ddiogel, clöid hwy i fyny yn y tyllau tanddaiarol, lle y gadewid rhai o honynt i dreulio gweddill byr eu bywyd heb weled goleuni dydd. Ond dygid ereill allan, i gael eu llosgi yn gyhoeddus fel hereticiaid. Ar ddydd mawr y llosgiadau cyhoeddus, dygid y rhai condemniedig o'r carchar, ac aed drwy y ffurf o'u rhoddi i fyny i ddwylaw y swyddogion gwladol. Ar yr adegau hyn, dygid lluaws o edrychwyr yn nghyd; ac yn fynych, deuai breninoedd a breninesau i weled a mwynhau yr olygfa. Os ammheuid fod rhai o'r rhai condemniedig yn bwriadu cyfarch yr edrychwyr, ceuid eu genau, i sicrhau dystawrwydd. Wedi ceisio ganddynt, drwy addewidion a bygythion, i wadu eu ffydd, ond yn ofer, cadwynid hwy wrth y pawliau, a goleuid y tân yn nghanol bloeddiadau cymmeradwyol y dorf.

Yr oedd y llofruddiaethau cyhoeddus hyn yn cymmeryd lle yn fynych. Llosgwyd dros fil o bersonau yn Seville, yn yr Yspaen, y flwyddyn gyntaf ar ol sefydliad y chwilys yno, a chospwyd dwy fil ar bymtheg mewn amryw ffyrdd yn ystod yr un amser. Yn archesgobaeth Seville yn unig, llosgwyd pump a deugain o filoedd rhwng 1480 a 1520. Yn yr Yspaen, mewn tair ar ddeg ar ugain o flyneddoedd, condemniwyd dros gant ac un ar ddeg a phedwar ugain o filoedd i ddyoddef cospedigaeth y llys sanctaidd. Nid rhyfedd, gan hyny, oedd i un o'r dyoddefwyr ddywedyd, "O, fy Nuw! onid oes Scythiaid i'w cael yn y byd, neu fwytawyr dynion creulonach na'r Scythiaid, yn nwylaw pa rai y gellid fy rhoddi, fel y gallwyf ddianc o grafangau y dyhirod hyn?"

Ond yn nghanol holl rith sancteiddrwydd y tadau crefyddol, yr oeddynt yn ymdroi yn y llygredigaethau mwyaf ffiaidd. Ganwyd miloedd o fabanod rhwng muriau y chwilys, a chladdwyd hwynt oll yn mhen ychydig oriau ar ol eu genedigaeth. Llusgid boneddigesau ieuainc i'r lle, ac ni chlywid gair am danynt byth mwy. Ni feiddiai perthynasau holi dim yn eu cylch: tra y tybient eu bod yn cael eu dysgyblu ar yr arteithglwyd, o herwydd rhyw ammheuaeth, neu gyhuddiad eu cyffeswr, yr oeddynt mewn gwirionedd yn orddcrchadon i'r swyddogion. Parhaent felly am rai blyneddoedd, ac yna rhoddid hwynt ymaith yn ddirgel drwy eu gwenwyno; neu, o dan rith prawf, traddodid hwy i ddiweddu eu bywydau mewn daiargelloedd ffiaidd. Pan ddinystriwyd un o'r carcharau hyn yn Yspaen, diangodd boneddiges ieuanc, yr hon a gedwid yno yn hir yn ngwasanaeth un o'r tadau. Dywed ei bod wedi gweled yno, ar yr un pryd, dair ar ddeg a thrigain o rai yn yr un sefyllfa a hi ei hunan! Collid rhai yn barhaus, tra y gwelid rhai ereill yn cael eu dwyn i mewn i lenwi eu lle. Y mae yr hanes a rydd o foethau a llygredigaethau y sefydliad yn ddychrynllyd, ac yn ddigon i greu syndod yn mhob meddwl a'i darlleno fod yr amynedd dwyfol wedi goddef y fath anfadrwydd.

Rhoddwn yn awr hanes dyddorol am ddinystr un o'r sefydliadau gwaedlyd hyn gan adran o fyddin Bonaparte:—

"Yn y flwyddyn 1809, yr oeddwn gyda'r fyddin o dan Soult, yn Madrid. Un noson, yr oeddwn yn cerdded fy hunan ar hyd un o'r heolydd, pan y rhuthrodd dau ddyn arfog ataf yn ddisymmwth. Tynais fy ngleddyf, ac amddiffynais fy hun cystal ag y medrwn. Tra yr oeddwn yn ymladd â hwy, gwelais y gwyliedyddion Ffrengig yn nesau; gelwais arnynt, a diangodd fy ymosodwyr ymaith; ond nid cyn i mi ddeall wrth eu gwisg mai gweision y chwilys oeddynt. Yr oeddwn wedi bod yn llefaru yn lled groew yn mhlith y bobl fy marn am yr offeiriaid, y Jesuitiaid, a'r chwilys, a gwelais mai eu hamcan oedd fy llofruddio yn ddirgel: yr oedd Napoleon wedi rhoddi gorchymyn i ddistrywio pob sefydliad o'r fath; ond yr oedd misoedd wedi llithro heibio, a'r gwaith heb ei wneyd.

"Aethym y noson hono at y maeslywydd Soult; mynegais yr hyn a ddygwyddodd, a dygais i'w gof orchymyn Napoleon. Dywedodd y

Digitized by Google

gallwn fyned bore dranoeth i ddinystrio y chwil-lys; ond fy mod i ofalu am yr arluniau, y llyfrau, a phob peth gwerthfawr. Atebais fod fy nghatrawd yn annigonol at y fath orchwyl; ond os rhoddai i mi ddwy gatrawd ereill a enwais, y cymmerwn y gwaith mewn llaw. Caniataodd hyny. Trefnwyd yr ymosodiad y noson hono; ac ar doriad y dydd dranoeth, yr oeddym ar gyfer y chwil-lys, yr hwn oedd bum milltir o'r ddinas.

"Gelwais ar un o'r gwyliedyddion, a gorchymynais iddo ddyweyd wrth yr awdurdodau am agor y pyrth i fyddin Ffrainc. Yn lle gwneyd hyny, annelodd ei ddryll, a saethodd un o'm dynion. Aethym yn ol at gorff y milwyr, y rhai a adawsid mewn ymguddfa, a dechreuodd yr ymosodiad. Gwelais yn union fod y lle yn llawer cadarnach nag y meddyliwyd; yr oeddym heb fagnelau, ac yr oedd ein hysgolion yn rhy fyr. Yn ofer y ceisiem ddinystrio y pyrth, ac yr oedd eu magnelfeydd manteisiol yn ein blino. Gorchymynais i'n milwyr dori i lawr goed pwrpasol, a gwnaethpwyd hyrddyrau o honynt. Yn y man, dechreuodd y muriau grynu, agorwyd bwlch, a rhuthrodd y fyddin ymherodrol i mewn i'r lle.

"Yma y gwelsom olygfa deilwng o ddichell Jesuitaidd. Y prif farnydd, a'r holl offeiriaid yn eu hurddwisgoedd, yn dyfod i'n cyfarfod â'u breichiau wedi eu croesi ar eu mynwesau, fel pe buasent heb wybod dim am yr hyn a ddygwyddasai hyd yr eiliad hwnw. Dywedasant wrth eu milwyr, mewn dull ceryddol, 'Pa ham yr ydych yn ymladd â'n cyfeillion, y Ffrancod?' Eu hamcan oedd peri i ni dybio eu bod hwy yn gyfeillgar, fel y gallent ddianc. Gwelais drwyddynt, gorchymynais bob un yn y lle i gadwraeth y milwyr.

"Yna aethom i weled yr adeilad. Yr oedd yno bob gwychder dymunol; arluniau, dodrefn, ac addurniadau gwerthfawr o bob math. Ond pa le yr oedd y celloedd tanddaiarol—yr arteithglwydi y dysgwyliem eu gweled? Yn ofer y chwiliasem am danynt. Ymddangosai y tadau sanctaidd yn syn am ein bod yn dysgwyl gweled y fath bethau yno, a sicrhaent mai anwireddau oedd yr holl chwedlau a daenid am y fath bethau.

"Er fy mod yn gwybod am ofal y Pabyddion i guddio holl greulonderau eu heglwys o ŵydd y byd, eto yr oeddwn yn dechreu meddwl y gallasai y sefydliad hwn fod yn wahanol i ereill. Cyngborwyd fi gan fy nghyfaill De Lile i wneyd un ymchwiliad drachefn:—credai nad oeddym wedi gweled y cwbl. Wrth chwilio, gwelem fod y rhanau tanddaiarol o dan bob parth o'r adeilad, ond y capel a'r ystafelloedd cylchynol. Yr oedd llawr y capel yn farmor gwyn, ac nis gallem weled dim yn arwyddo fod yno un fynedfa o hono drwy y lloriau. Pan oeddym ar fin rhoddi yr ymchwiliad i fyny, daeth i feddwl y milwriad De Lile i dywallt dwfr dros y llawr, a sylwi a oedd yn rhedeg drwy ryw ran o hono. Yn fuan, gwaeddodd un o'r milwyr ei fod wedi dyfod o hyd i'r lle. Yn y man, yr oedd pawb ar waith; y swyddogion â'u cleddyfau, a'r milwyr â'u bidogau, yn ceisio codi y fynorlech, ereill a bonau eu drylliau yn ceisio ei thori. Cwynai yr offeiriaid yn ddirfawr at eu hymddygiad yn halogi y lle sanctaidd. Fel yr oedd pawb yn ymegnio, tarawodd un o'r milwyr ddarn o'r llawr, o dan ba un yr oedd *spring*, a chyfodwyd y llech i fyny. Troes wynebau y 'tadau sanctaidd' mor welw a gwyneb Belsassar pan welsant hyny. Gwelem fynedfa i lawr o'r agoriad: cymmerais un o'r canwyllau oddi ar yr allor; gwnaeth ereill yr un modd. Daethom i ystafell eang, ar un ochr i'r hon yr oedd esgynlawr, ac arni gadeiriau, a gorsedd y prif farnydd uwch law y cwbl. Yn nghanol y neuadd yr oedd blocyn, a chadwen wrtho, lle y rhwymid y cyhuddedig. Wedi chwilio neuadd y farn, aethom ar hyd mynedfa faith, i'r hon yr oedd llawer o ddrysau yn agor. Yno yr oedd y celloedd, o'r rhai ni ddygid y carcharorion ond i'w poenydio. Clywem swn mewn rhai o honynt. Wedi agor y drysau, gwelais olygfeydd na ddymunwn byth eto weled eu bath, manylion pa rai sydd yn rhy erchyll i'w hadrodd. Mewn rhai o'r tyllau hyn, yr oedd cyrff newydd farw, ereill mewn amrywiol raddau o lygredigaeth, rhai heb ddim ond yr esgyrn wedi eu gadael, a'r cadwynau arnynt. Rhag i'r arogl roddi un anghysur i'r 'tadau sanctaidd,' yr oedd simneiau yn cario y drygsawr i'r awyr agored ar frig uchaf yr adeilad. Yn mysg y carcharorion byw, cawsom hen wŷr a hen wragedd deg a thrigain oed, bechgyn a genethod pedair ar ddeg a phymtheg oed, a phobl ganol oed. Yr oedd rhai wedi bod yno gynnifer o flyneddoedd nes yr oeddynt wedi anghofio eu rhif. Aeth y milwyr at y gwaith o'u rhyddhau; tynasant eu huchwisg o'u napsachau i guddio noethni y trueiniaid. Yr oeddynt yn awyddus i gael gweled goleu dydd; ond gan i mi glywed fod perygl yn hyny, gorchymynais roddi ymborth iddynt, a'u dwyn yn raddol i'r goleuni.

"Yna aethom i chwilio ystafell arall, yn yr hon y cawsom yr offerynau ofnadwy. Un o honynt oedd math o gryd pren, ar yr hwn y dodid y dyoddefydd; ysigid ei holl gymmalau, gan ddechreu yn y bysedd. Bu farw lluoedd dan y driniaeth hon. Peiriant arall oedd cist, yn mha un y troellwesgid y pen a'r gwddf yn ansymmudol. Uwch ben y peiriant yr oedd llestr o ddwfr, o ba un y gollyngid dafn bob eiliad ar ben y dyoddefydd. Y dafnau rheolaidd hyn, yn disgyn ar yr un man, a achosent yr arteithiau mwyaf dychrynllyd; a diweddai y driniaeth mewn gwallgofrwydd. Peiriant uffernol arall oedd un, yn yr hwn y gosodid y cyhuddedig rhwng dau bren, yn mha rai yr oedd ugeiniau o gyllyll wedi eu gosod; ac wrth droi cranc perthynol i'r peiriant, symmudai y cyllyll, a thorid y cnawd yn fân ddarnau oddi ar y corff. Yr oedd y pedwerydd offeryn tu hwnt i'r lleill oll mewn cywreinrwydd cythreulig. Y tu allan iddo yr oedd llun benyw brydferth, wedi ei gwisgo yn wych, a'i breichiau yn estynedig: o'i blaen yr oedd llinell hanner cylch wedi ei thynu. Pwy bynag a sangai dros y llinell hono a gyffyrddai â *spring*, yr hyn a barai i'r peiriant uffernol agor, a thrywenid ef â mil o gyllyll yn y fan.

"Creai yr olwg ar yr offerynau hyn ddigllonrwydd mawr yn y milwyr, y rhai a gollasant gynnifer o'u cyfeillion yn yr ymosodiad ar y lle. Mynent roddi swyddogion y lle o dan yr arteithgelfi. Nis gallaswn eu hattal. Dechreuasant gyda'r 'tadau sanctaidd.' Gosodasant rai o honynt yn y gwahanol beiriannau, a gorchymynasant i'r prif farnwr gusanu y fenyw brydferth. Gwthiasant ef yn mlaen i'r hanner cylch; derbyniodd hithau ef yn groesawus i'w breichiau, a thorwyd ef yn ddarnau yn y fan. Clafychodd fy nghalon, ac ni welais chwaneg."

Y mae yn debyg fod y darllenydd yn barod i ofyn, a ydyw awdurdod y chwilys yn parhau? Onid yw goleuni gwybodaeth wedi peri i Babyddion ffieiddio y fath sefydliad ysgeler? Onid

Digitized by Google

bai yr amseroedd yn hytrach na bai y grefydd Babaidd oedd? Y mae y chwilys yn parhau hyd y dydd hwn; ac nid oes ammheuaeth nad oes lluoedd y mynydd hwn yn griddfan yn eu cuddgelloedd, er fod llosgiadau cyhoeddus wedi eu gwahardd. Mae rhywbeth yn attal rhwysg y sefydliad yn awr, ond yr un yw ei natur. Na chredwn unrhyw Babydd a ddywed nad yw ei grefydd yn caniatau y fath bethau yn y dyddiau hyn, a'i bod wedi newid yn fawr. Un o destynau ymffrost yr Eglwys Babaidd yw, nad yw byth yn newid mewn dim. Nid yw byth yn chwareu yr oen ond lle y mae yn methu chwareu y blaidd. Bydded i ni werthfawrogi ein rhyddid, a glynu wrth ein Beiblau. Safed Cymru yn ddewr ac yn ddiysgog yn erbyn Pabyddiaeth yn mhob rhith. Edryched ar Buseyaeth fel rhagredegydd yr Anghrist mawr; o blegid nid yw mewn gwirionedd ond math o Ioan Fedyddiwr, yn parotoi y ffordd o flaen mam ffieidd-dra. Hyderwn na oddef i addewidion na bygythion beri i Brotestaniaid Cymru gellwair â hudoliaethau cnawdol yr Anghrist. Nis gall Pabyddiaeth fod o Dduw, pan y defnyddia greulonderau fel y rhai a ddarluniwyd i fod yn rhan o'i dysgyblaeth. Yr eglwys apostolaidd! Meddyliwn am Paul, neu Pedr, neu Ioan, yn chwilyswyr, yn ceisio troi y byd trwy losgi pechaduriaid, ac ar yr un pryd yn cadw puteindŷ llawn o foethau, o dan yr enw "llys sanctaidd." Yn wir, ni ddylai y fath sefydliad halogi enw yr hwn a ddywedodd, "addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon."

CHWITH—IG, [*chw—ith*]: anhylaw, anhyffordd, yn perthyn i'r llaw aswy. "Bydd yn chwith iddynt;" hyny yw, hwy a edifarhant o'i blegid. "A'r Arglwydd a gyfododd achubwr iddynt; sef Ehwd, mab Gerar, fab Iemini, gŵr *llawchwith*" (Heb. *anafus o'i law ddeheu*); *Barn.* iii. 15. Y gair a arferir yn y Deg a Thrigain ydyw *αμφοτεροδεξιος*=*dwylawiog;* hyny yw, y gallai daflu ceryg â'i ddwy law fel eu gilydd. Yr un gair sydd yn y Deg a Thrigain yn *Barn.* xx. 16, lle y dywedir am y Beniaminiaid, "O'r holl bobl hyn yr oedd saith gant o wŷr etholedig yn *chwithig;* pob un o honynt a ergydiai â chareg at y blewyn, heb fethu." Yr oedd rhai o gedyrn Dafydd hefyd yn medru ymladd â phob llaw: "Yn arfogion â bwäau, yn medru o ddeheu ac o aswy daflu â cheryg, a saethu mewn bwäau;" 1 *Cron.* xii. 2.

CHWYDU, [*chwyd*]: cyfogi, gloesi, ymgyfogi, bwrw i fyny. Dywed yr Arglwydd, am eglwys y Laodiceaid, "Am dy fod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frwd, mi a'th chwydaf di allan o'm genau;" *Dad.* iii. 16. Hyny yw, byddai iddo eu bwrw ymaith gyda'r adgasrwydd a'r digllonedd eithaf: cyfeirir at effaith adnabyddus dwfr claiar ar y cylla, yr hwn yn gyffredin a gynnyrcha gyfogiad. Dywedir yn Llyfr Iob y bydd dynion yn *chwydu cyfoeth,* pan y byddant yn gorfod eu gadael i ereill: *Iob* xx. 15. "Pan gaffech fêl, bwyta a'th wasanaetho: rhag wedi dy lenwi o hono, i ti ei chwydu ef;" *Diar.* xxv. 16. Hyny yw, arfer dy foethau a dy ymborth yn gymmedrol, rhag i dy gylla alaru arnynt, a'u taflu allan. Y mae dynion yn yfed, yn meddwi, yn chwydu, yn syrthio, ac yn methu cyfodi, pan y mae Duw yn ymweled â hwynt yn ei farnedigaethau, gan eu syfrdanu â gwaradwydd a thrueni: *Ier.* xxv. 27; *Hab.* ii. 16. "Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun;" 2 *Pedr* ii. 22. Yr ystyr ydyw, fod y personau y cyfeirir atynt yn y bennod wedi dychwelyd yn ol at eu hen arferion llygredig gynt. Er pob arwydd o ddiwygiad, nid oedd un cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn eu natur—yr un oedd hono yn gymhwys ag yn flaenorol. Ymddengys fod yr adnod yn gosod allan nad oedd un cyfnewidiad gwirioneddol erioed wedi cymmeryd lle yn eu calonau. Nid oeddynt ond wedi gadael eu pechodau dros dro, a hyny mewn canlyniad i ryw ofid y gallai eu bod wedi ei dderbyn oddi wrthynt; ac nid o herwydd casineb tuag atynt. Pan y bydd trigolion gwlad yn cael eu bwrw allan o honi drwy gleddyf a chaethiwed dywedir fod y tir yn eu chwydu: *Lef.* xviii. 28; *Ier.* ix. 19.

CHWYDD—O, [*chwy*]: ymchwydd, dymchwydd, afiechyd mewn cnawd; balchder: *Lef* xiii. 2, 10, 19, 28; xiv. 56; *Num.* v. 21, 22, 27; *Deut.* viii. 4; *Esa.* xxx. 13; *Ezec.* xvi. 7; *Act.* xxviii. 6. Dywed Paul, wrth ysgrifenu at y Corinthiaid, "Y mae rhai wedi ymchwyddo, fel pe bawn i heb fod ar fedr peidio dyfod atoch chwi;" 1 *Cor.* iv. 18. Yr oeddynt wedi ymchwyddo gan hunan-hyder, a gwag-ymffrostient na feiddiai Paul fyned atynt; y byddai arno ofn ymddangos yn eu plith i weinyddu dysgyblaeth, neu i fwrw eu hawdurdod hwy o'r neilldu. Ac yn yr adnod nesaf, y mae yn dadgan wrthynt, "Eithr mi a ddeuaf atoch ar fyrder, os yr Arglwydd a'i myn; ac a fynaf wybod, nid ymadrodd y rhai sydd wedi chwyddo, ond eu gallu;" hyny yw, nid eu hymffrost gwag a disylwedd—nid eu haeriadau haerllug, a'u golygiadau uchel a chwyddedig am danynt eu hunain—ond eu gwir allu. "Gwybodaeth sydd yn chwyddo;" 1 *Cor.* viii. 1. Y mae gwybodaeth neu ddysgeidiaeth yn unig, pryd na bydd y galon mewn agwedd briodol, yn llenwi ei meddiannydd â balchder; yn chwyddo dyn i fyny â hunan-hyder gwag, ac ymddibyniad ar ei alluoedd ei hun; ac yn fynych iawn yn ei arwain ar gyfeiliorn. Fe ellir ymddiried i wybodaeth mewn cyssylltiad â theimladau priodol, egwyddorion pur, a chalon wedi ei llenwi â chariad at Dduw a dynion; ond nis gellir ymddiried i gyrhaeddiadau dealltwriaethol yn unig. Oddi eithr fod y galon wedi ei gwrteithio, yn gystal a'r deall, effaith gwybodaeth ydyw gwneyd dyn yn goegyn chwyddedig ac ymffrostgar.—[*Barnes.*] "Chwyddo y mae heb wybod dim;" 1 *Tim.* vi. 4. Y meddwl yw, na feddai wybodaeth gywir am natur yr efengyl; ond er hyny ei fod yn ymffrostio ac yn ymfalchïo mewn gwybodaeth amgenach o'i hegwyddorion. "Yn chwyddedig;" 2 *Tim.* iii. 4: wedi eu llenwi â balchder a hunanoldeb: 1 *Tim.* iii. 6; 2 *Pedr* ii. 18; *Iudas* xvi.

CHWYLDROAD YN FFRAINC. Gwel FFRAINC.

CHWYS FEL DEFNYNAU GWAED. Luc yw yr unig ysgrifenydd ysbrydoledig sydd yn dywedyd i'r Arglwydd Iesu, yn ei ymdrech meddwl a'i daer weddi yn Ngethsemane, chwysu megys defnynau o waed. Ond nid oes achos digonol i ammheu dilysrwydd y geiriau yn *Luc* xxii. 44; na chywirdeb yr ysgrifenydd, yr hwn, fel "physygwr" dysgedig, oedd yn meddu cymhwysder neillduol i farnu ar y pwnc.

Y mae ysgrifenwyr enwog yn gwahaniaethu yn eu golygiadau ar y geiriau. Y gofyniad yw, ai chwys naturiol ydoedd hwn, yn dyferu yn gyffelyb mewn maint a thewder i ddefnynau o

Digitized by Google

waed; ai ynte chwys gwaedlyd, hyny yw, chwys cymmysgedig â gwaed, ydoedd? Nid y blaenaf, am nad oes reswm i'w gosod allan "fel defnynau gwaed" amgen defnynau o ddwfr neu olew, oddi eithr fod eu hymddangosiad a'u lliw yn eu tebygoli i waed. Ac os oeddynt o liw gwaedlyd, rhaid mai gwaed oeddynt; neu, o leiaf, fod gwaed ynddynt. Dyma yr esboniad mwyaf naturiol i ddarllenwyr cyffredin; ac os nad yw chwysu gwaed yn beth *anmhosibl*, rhesymol yw cymmeryd chwys yr ymdrech annhraethol yn Gethsemane fel chwys gwaedlyd. Ond nid ydyw yn beth anmhosibl, ond yn beth sydd wedi dygwydd i lawer dan amrywiol amgylchiadau.

Y mae dylanwad y nwydau a'r cyffroadau meddyliol ar y corff yn amlwg i bawb. Y mae ofn a llawenydd mawr a disymmwth wedi taflu miloedd i lewygon ac i angeu; ac y mae effeithiau cynhyrfiadau llai niweidiol yn weladwy i'r cyffredin. Gwyddom fod dychryn a llid yn gwneyd i'r gwynebpryd welwi, trwy yru y gwaed tua'r galon; a bod serch, cywilydd, anfoddlonrwydd, &c., yn cochliwio y corff, trwy yru y gwaed i'r mân wythïenau allanol. Y mae tristwch, pryder, a helbul mawr, yn aml yn poethi natur ac yn achosi chwys toreithiog dros yr holl gorff. Hyn, efallai, yw y peth nesaf at y chwys gwaedlyd, pan y cura y galon yn ffyrnig, ac y gyra y gwaed mor gyflym a nerthol, nes tori allan trwy holl chwysdyllau y croen.

Sonir gan feddygon am glefyd, a enwir ganddynt *diapedesis*, sef chwys gwaedlyd; ac y mae digon o brawf o'i fodolaeth. Ond ymddengys yr un mor sicr fod y cyffelyb chwys, er yn dra anghyffredin, yn deilliaw weithiau oddi ar gynhyrfiadau dirfawr y meddwl dan wasgfeuon marwol. Cymmerwn y ffeithiau canlynol fel anghreifftiau hanesyddol:—Milwr Italaidd, yn y flwyddyn 1552, yn y rhyfel rhwng Harry II. a'r ymherawdwr Siarl V., a ddychrynwyd i'r fath raddau â bygythion o farwolaeth warthus, fel y chwysodd waed o bob rhan o'i gorff. Collfarnwyd gŵr ieuanc o Florence yn anghyfiawn iawn gan y pab Sixtus V; a phan yr arweiniwyd ef allan i'w ddienyddio, canfyddwyd fod dagrau gwaedlyd yn llifo o'i lygaid, a gwaed, yn lle chwys, yn gorchuddio ei holl gorff. Y mae hefyd hanes i'r un peth ddygwydd i fachgenyn, a orchfygwyd trwy ofn marwolaeth, pan y dodwyd ef dan y crogbren, ar yr hwn y dienyddiwyd ei ddau frawd:—i ddyn cryf ac iachus yn Mharis, pan y condemniwyd ef i farwolaeth:—i fynaches, yr ymosodwyd arni gan filwyr arfog a ffyrnig; a'r hon, yn ei dychryn, a fu farw ger eu bronau, yn orchuddiedig â chwys gwaedlyd:—ac yn olaf, i forwr, yr hwn, mewn tymmestl ofnadwy, a syrthiodd i lawr mewn llewyg, ac a barhaodd cyhyd a'r ystorm i chwysu gwaed, yr hwn oedd yn ymddangos eilwaith fel y sychid ef oddi ar ei wyneb.

Y mae y ffeithiau hyn a'r cyffelyb yn ddigon i ddangos fod chwys gwaedlyd Iesu Grist yn Gethsemane yn beth hollol gredadwy. Nid y clefyd *diapedesis* (gwaed-chwys) oedd ar yr Iesu; canys yr oedd, er dim a wyddom ni, yn hollol iach yn ymosod ar ei waith olaf ar y ddaiar; ond effaith "ymdrech meddwl" a thristwch angeuol ei enaid ydoedd.

Nis gellir amgyffred na thraethu *am natur* ac *achosion* yr ymdrech rhyfeddol hwn. Nis gallwn lai na chwennych edrych ar yr olygfa ddwysfawr hon; ac os nad rhyfyg yw ceisio egluro ei ddirgelwch, gallem ddychymygu y pethau canlynol yn yr ymdrech a gynnyrchodd y "chwys fel defnynau gwaed." Teimlad annyoddefol o anfeidrol ddrygedd pechod y byd, a'r digofaint dwyfol yn ei erbyn, fel yr oedd y Gwaredwr mor agos i dân uffern, a chymmaint dan wasgfeuon yr ail farwolaeth ag oedd bosibl i enaid sanctaidd a diniwed fod. Rhagolygfeydd dychrynllyd ar y gwaith anfeidrol ag oedd raid iddo, o fewn ychydig oriau, ei gyflawnu, ac ar amrywiaeth ac eithafoedd y dyoddefiadau, y poenau, y gwarth, a'r melldithion yr oeddynt eisoes yn eu pentyru arno. Ymosodiadau Satan, a holl allu y tywyllwch—y gelyn ffyrnig a orchfygodd yn yr anialwch, ac a "ymadawodd âg ef dros amser," ond a ddychwelodd yn awr yn ei holl nerthoedd uffernol i ddinystrio bywyd a rhwystro gwaith Had y wraig. Ac yn benaf, amddifadiad o lewyrch gwyneb y Tad, megys dan dywyllwch dudew y croeshoeliad, pan y llefodd "Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist?" Gallasai ddyweyd fel y Salmydd, "Gofidion angeu a'm cylchynasant, ac afonydd y fall a'm dychrynasant. Gofidion uffern a'm cylchynasant, maglau angeu a achubasant fy mlaen." "Y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid: soddais mewn tom ddwfn, lle nid oes sefyllfa: daethym i ddyfnder dyfroedd, a'r ffrwd a lifodd drosof;" *Salm* xviii. 4, 5; lxix. 1, 2.

Dyma y cyfyngder ofnadwy, am yr hyn y dywed yr apostol yn *Heb.* v. 7, 8, "Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, gwedi iddo trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddïau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth, a chael ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd," &c. Yr oedd y natur ddynol yn rhy egwan i ddal dan y fath lwyth o dristwch a gofid digyffelyb, ac o gynhyrfiadau brawychus a goruchnaturiol. Dyma y cwpan erchyll y taer weddïodd am ei symmudiad ymaith oddi wrtho. Yr oedd y natur ddynol ar drengu, a'r gwaith iawnol eto heb ei orphen—y gwaith rhagddywededig gan y prophwydi er dechreuad y byd, ac angenrheidiol er gogoniant Duw ac achubiaeth dyn. Buasai marwolaeth ddisymmwth ac anmhrydlawn Iesu yn yr ardd yn fuddugoliaeth i ddiafol, ac yn siomedigaeth i nef a daiar. Dyma yr "hyn a ofnodd." Rhag hyn y gweddïodd â llefain cryf a dagrau: yn hyn y gwrandawyd ef; aeth y cwpan heibio. "Yr hwn oedd yn abl i'w achub," a'i gwaredodd oddi wrth farwolaeth. Danfonodd angel o'r nef, yr "hwn a ymddangosodd iddo i'w nerthu ef;" ac felly yr adfywiodd, i fyned trwy y gwaith a'r dyoddefaint ag oeddynt o'i flaen.

CHWYTHU. Gwel GWYNT.

Digitized by Google

# D.



**DABBASETH**, [דבשת=*lliteirio o fel*]: tref yn Zabulon, a therfyn etifeddiaeth y llwyth hwnw: *Ios.* xix. 11.

**DABERATH**, [דברת=*peth;* Deg a Thrigain, Δαβιρώθ a Δεββά]: tref ar derfynau Issachar a Zabulon. Nis gellir dyweyd, oddi wrth ddysgrifiad yr hanesydd ysbrydoledig, i ba lwyth y perthynai y ddinas hon, ac efallai bod tref o'r enw hwn gan y ddau lwyth. Yn ol y darlunleni diweddar mwyaf awdurdodol, felly yr ydoedd mewn gwirionedd. Safai ar wastadedd Iezreel, wrth droed mynydd Tabor, ac y mae yn debygol lle y mae teithwyr diweddar wedi darganfod pentref Dabira, neu Debora, neu Dabury. Y mae traddodiad yn nodi allan yn y lle hwn "ffynnon y naw apostol;" a dywedir eu bod wedi aros yn y fan hon pan y gweddnewidiwyd Crist ar y mynydd.

**DADEBRU**, [*ebru*]: adfywhau, adferiad bywyd, bywiogi, deffroi: 1 *Bren.* xvii. 22. "A phan oeddynt hwy yn claddu gŵr, wele hwy a ganfuant dorf, ac a fwriasant y gŵr i feddrod Eliseus. A phan aeth y gŵr i lawr, a chyffwrdd âg esgyrn Eliseus, efe a *ddadebrodd*, ac a gyfododd ar ei draed;" 2 *Bren.* xiii. 21. Trwy yr adferiad gwyrthiol hwn o fywyd i'r gŵr marw, fe seiliwyd athrawiaeth y prophwyd; gwrthbrofwyd eilunaddoliaeth, a chryfhawyd ffydd Ioas a'i bobl yn eu gwaith yn ymosod ar y Syriaid. "Hwy a roddasant eu hoff bethau am fwyd, i *ddadebru* yr enaid;" *Galar.* i. 11:—yn ol yr Hebraeg, "i beri i'r enaid ddychwelyd:"—"i'w adferu yn ol pan y mae yn llesmeirio."—*Gill.* Yr oeddynt yn ewyllysgar i ymadael âg unrhyw beth er tori eu heisieu: *adn.* 16, 19.

**DADGAN**, [*can*]: adrodd, ail adrodd, canu yr hyn fyddo wedi ei gyfansoddi yn flaenorol, cyhoeddi neu ddadguddio unrhyw beth. "Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegu gwaith ei ddwylaw ef;" *Salm* xix. 1. Y nefoedd serenog, y mae yn debygol. Gosodir allan y cyrff nefol yn yr adnod megys athrawon a dysgawdwyr dynolryw, yn amlygu ac yn cyhoeddi, mewn iaith ag y mae pawb yn ei deall, fawr allu a gogoniant Duw: *Salm* lxvi. 2; lxxix. 13; xcvi. 3; cxix. 172; cxlv. 7; *Amos* vi. 5; *Rhuf.* ix. 17.

**DADL**, [*dad—yl*]: cymhwysir y gair hwn yn yr Ysgrythyr at wahanol bethau; megys at gŵyn, achos, neu gynghaws (*Iob* xiii. 6; *Salm* lxxiv. 22; *Diar.* xxii. 23; *Ier.* l. 34; li. 36); ac at fater y byddo gwahanol bleidiau yn barnu yn groes i'w gilydd yn ei gylch (1 *Sam.* xxiv. 15; *Ier.* li. 36). "Heb na digder na dadl" (1 *Tim.* ii. 8); hyny yw, nid oeddynt i nesau at Dduw yn nghanol dadleuon trystfawr, neu ymrysonau digofus. Nid oeddynt i fyned at Dduw tra byddai y meddwl wedi poethi gan ddadl, a'i gynhyrfu gan ymrysonfa am fuddugoliaeth. Yr oedd gweddi i gael ei offrymu tra byddai y meddwl mewn ansawdd dawel a difrifddwys. Nid ydyw y rhai sydd yn nghanol ymrysonau dadleuol yn meddu nemawr o gymhwysder i ymuno yn y weithred ddifrifol o gyfarch Duw.

**DADLEU**, [*dadl*]: ymddadlu, ymresymu yn nghylch unrhyw fater, ymryson, ymrafaelio: *Barn.* vi. 31; 1 *Sam.* xxv. 39; *Iob* ix. 19; xxxiii. 6; *Diar.* xxxi. 6; *Esa.* i. 17. "Dadleuwch â'ch mam" (*Hos.* ii. 2); hyny yw, yn ol rhai, cyhuddwch eich mam Ierusalem—Samaria medd ereill Ewch, megys i ddadl gyfreithiol â'ch mam, tŷ Israel, ymwadwch â'i harferion, a lleferwch yn eu herbyn.—[*Newcome.*] Dywedir fod Duw yn dadleu â dynion pan y bydd yn eu hargyhoeddi o'u pechodau, trwy ei ragluniaeth, ei air, a'i Ysbryd; a phan yn eu ceryddu am danynt; neu pan y byddo yn gweinyddu ei farnedigaethau arnynt: *Esa.* iii. 13; *Ier.* ii. 9, 35; *Ezec.* xxxviii. 22. Dywedir hefyd fod yr Arglwydd yn dadleu dros ei bobl â'u gwrthwynebwyr, drwy ddangos fod eu hachos yn un cyfiawn, a thrwy gosbi eu gelynion: *Salm* xxxv. 1; xliii. 1; *Esa.* li. 22; *Ioel* iii, 2; *Mica* vii. 9. Y mae dynion hefyd yn dadleu yn erbyn Duw: "Yn hytrach, O ddyn! pwy wyt ti, yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw?" *Rhuf.* ix. 29. Cynnwysir yn y gair yn y lle hwn y drychfeddwl o ateb drachefn; neu ymresymu er diarrhydeddu Duw. Dyledswydd dyn ydyw bod yn dawel pan fynego Duw ei ewyllys. Y mae gan Dduw ei gynlluniau anfeidrol ddoeth ei hun, ac nid ein lle ni yw dadleu yn ei erbyn, neu ei gyhuddo o anghyfiawnder, pryd nas gallwn ganfod y rheswm o'i weithrediadau. "Cyndyn ddadleu dynion llygredig eu meddwl heb fod y gwirionedd ganddynt......cilia oddi wrth y cyfryw;" 1 *Tim.* vi. 5. Cyfeiria yr apostol at ymchwiliadau a dadleuon nad oeddynt o un gwerth ymarferol—nad oeddynt ond yn treulio amser yn ofer; gan hyny, gorchymynir i Timotheus "gilio oddi wrth y cyfryw."

**DADLEUDY**: fe ddygwydd y gair πραιτώριον yn *Mat.* xxvii. 27; *Marc* xv. 16; *Ioan* xviii. 28, 33; xix. 8; *Act.* xxiii. 35; *Phil.* i. 13; ac yn yr holl leoedd hyn, y gair cyferbyniol yn y Vulgate ydyw *prætorium.* Nid ydyw y cyfieithiad Cymraeg, pa fodd bynag, yn defnyddio y gair *prætorium* ond unwaith yn unig, a'r pryd hyny yn anocheladwy, sef yn *Marc* xv. 16, "y llys a elwir Prætorium." Yn yr holl leoedd ereill, rhoddir eglurhâd yn hytrach na chyfieithiad o'r gair,

Digitized by Google

megys, yn *Mat.* xxvii. 27, "i'r dadleudŷ;" ymyl y ddalen, "i dŷ y rhaglaw:"—*Ioan* xviii. 28, 33, i'r dadleudy;" ymyl y ddalen, "i dŷ Pilat:"—*Phil.* i. 13, "yr holl lys;" ymyl y ddalen, "llys Cæsar." Y mae yn debygol mai amcan y cyfieithwyr ydoedd gwneyd eu cyfieithiad yn ddealladwy i'r Cymry, a hyny drwy amlygu ystyr y gair, yn ol eu barn hwy, yn ei wahanol gyssylltiadau. Y mae yn eglur mai un o'r lluaws o eiriau Lladinaidd a ganfyddir yn y Testament Newydd ydyw, gan mai y gair *prætorium* ydyw mewn gwisg Roegaidd, a hwnw yn deilliaw o *prætor;* a *prætor* drachefn yn deilliaw o *præeo*="myned o flaen," yr hwn a gymhwysid yn wreiddiol gan y Rhufeiniaid at swyddog milwraidd—y cadfridog. Ond o blegid ddarfod i'r Rhufeiniaid oresgyn amryw wledydd, a'u darostwng yn daleithiau o'r ymherodraeth, gan eu llywodraethu drachefn ar y cyntaf drwy y cadfridogion a fuont yn offerynol i'w darostwng neu drwy ryw swyddogion milwraidd ereill, daeth y gair *prætor* o'r diwedd i gael ei arfer am unrhyw lywodraethwr gwladol ar dalaeth, pa un bynag a fyddai yn filwr ai peidio; a'r hwn a weithredai megys prif farnwr. Ond yr oedd ganddo gynghor i'w gynnorthwyo yn ngweinyddiad y cyfreithiau (*Act.* xxv. 1, 2). Yn ganlynol, daeth y gair *prætorium*, yr hwn ar y cyntaf a olygai babell y cadfridog mewn gwersyll, gael ei gymhwyso at drigle y llywodraethwr gwladol mewn talaeth neu ddinas [*Cic. Verr.*, ii. v. 12]. A chan ei fod yn briodol yn ansoddair, megys hefyd ag y mae y gair cyfatebol iddo yn y Groeg, defnyddid ef i osod allan unrhyw beth a berthynai i'r *prætor* neu y llywodraethwr; er anghraifft, ei balas, un ai y cyfan o hono, neu ryw ran benodol, megys ei dŷ trigiannol, neu y lle yn mha un y byddai yn gweinyddu cyfiawnder, neu hyd yn oed y cyntedd amgauedig o flaen y palas.

Fe wasanaetha y sylwadau hyn i daflu cryn oleuni ar ddefnyddiad amrywiol a gwahaniaethol y gair yn y Testament Newydd; yr hyn sydd wedi cynnyrchu llawer o ymchwiliad yn mhlith dysgedigion. Wrth gymharu yr amgylchiadau yn mha rai y crybwylla yr efengylwyr am y *prætorium*, fe welir, yn gyntaf, mai tŷ Pilat ydoedd; canys y mae yn ddiddadl mai at yr un amgylchiad y cyfeiria Ioan (*pen.* xviii. 28), "Yna y dygasant yr Iesu oddi wrth Caiaphas i'r dadleudŷ," &c., ag y cyfeira Luc ato, (*pen.* xxiii. 1), "A'r holl luaws o honynt a gyfodasant, ac a'i dygasant ef at Pilat," &c. Fe welir hyn yn eglur ond cymharu yr adnodau dilynol yn y naill amgylchiad a'r llall. Dywed Nonnus eu bod, gan adael tŷ Caiaphas, wedi cymmeryd yr Iesu "i dŷ y llywodraethwr." Ymddengys mai y palas ardderchog a adeiladwyd gan Herod oedd y tŷ hwn o eiddo Pilat, yr hwn a safai yn mharth gogleddol y ddinas uchaf, ar ochr orllewinol y deml [*Hynaf. Ios.*, xv. 9, 3], ac uwch law iddo [xx. 8, 11]. Y rhesymau dros y farn hon ydyw, y byddai y dirprwywyr Rhufeinig, trigle arferol pa rai ydoedd Cesarea (*Act.* xxiii. 23, &c.; xxv. 1, &c.), pan y deuent i Ierusalem, yn gwneyd eu cartref yn y palas hwn, ac y byddent yn cynnal eu llysoedd barn yn y cyntedd o flaen y tŷ. Fel hyn y dywed Josephus, fod Florus wedi gwneyd ei gartref yn y palas, a'i fod y dydd canlynol wedi gorchymyn i'w orsedd barn gael ei chyfodi o'i flaen, a'i fod yntau wedi eistedd arni [*De Bell. Jud.*, ii. 14, 8]. Dywed Philo yn benodol fod y palas ag oedd gynt yn eiddo Herod, yn cael ei alw yn bresennol, "tŷ y prætoriaid."—[*Legat. ad Caium*, td. 1033, argraff. Franc.] Yn ail, y mae y gair yn cael ei gymhwyso yn y Testament Newydd, drwy gyforddwyn, at ran neillduol o'r palas prætoraidd. Felly y gwneir yn *Mat.* xxvii. 27; a *Marc* xv. 16; "A'r milwyr a'i dygasant ef i fewn y llys a elwir Prætorium: a hwy a alwasant yn nghyd yr holl fyddin; ac a'i gwisgasant ef â phorphor," &c.; lle y cyfeiria y gair yn hytrach at y cyntedd o flaen y palas, neu ryw gyntedd arall lle yr oedd gwylwyr y dirprwywr wedi eu sefydlu. Ymddengys fod y gair yn *Ioan* xix. 9, ond cymmeryd yr holl amgylchiadau i ystyriaeth, yn cael ei gymhwyso at ystafell arholiad ddirgelaidd Pilat. Yr un modd, pan y gorchymynodd Ffelix am gadw Paul yn nadleudy Herod (*Act.* xxiii. 35), yr oedd y geiriau yn cyfeirio nid yn unig at yr holl balas a adeiladesid gan Herod yn Cesarea, ac yn yr hwn y preswyliai y rhaglaw y pryd hyny yn ol pob tebyg, ond hefyd at y *ddaiargell*, sef y carchar yn yr hwn y dodid troseddwyr—cyffelyb i'r lleoedd a berthynent i hen balasau breninol, a hen gestyll y wlad hon. Yn drydydd, defnyddir y gair yn yr anghraifft ddiweddaf o hono, sef yn *Phil.* i. 13, "A bod fy rhwymau i yn Nghrist yn eglur yn yr holl lys," yn ol barn yr esbonwyr goreu, trwy droellymadrodd, i osod allan y gwersyll prætoraidd yn Rhufain, sef corff o filwyr detholedig a sefydlasid gan Augustus i wylio ei berson ef ei hun, ac i ofalu am y ddinas; gan hyny, ystyr geiriau yr apostol ydyw, "A bod fy rhwymau i yn Nghrist yn eglur i'r holl brætoriaid, a thrwyddynt hwy i'r holl bobl yn gyffredinol."—[*Bloomfield's Recensio Synopt.*] Llywydd y gwersyll hwn oedd y στρατοπεδάρχης (=pen cadben y llu), i ddwylaw yr hwn y trosglwyddwyd Paul (*Act.* xxviii. 16), megys ag y carcharwyd Agrippa yr ieuangaf gan yr un swyddog, yn ol gorchymyn penodol yr ymherawdwr Tiberius. —(*Hyn. Ios.*, xviii. 6, 6; *Kitto's Cyc. Bib. Literature.*)

DADLEUWR: amddiffynwr, eiriolwr, un yn dadleu dros arall. Mewn ystyr cyfreithiol, nid oedd gan yr Iuddewon ddadleuwyr neu eiriolwyr nes y daethant dan lywodraeth y Rhufeiniaid, pryd yr oedd yn rhaid iddynt ddwyn eu hachosion cyfreithiol yn mlaen yn ol y dull Rhufeinaidd. Gan eu bod yn dra anghyfarwydd y pryd hyny yn y deddfau Rhufeinig, yr oedd yn angenrheidiol iddynt, wrth ddwyn achos ger bron yr ynadon Rhufeinig, ofalu am gael cymhorth cyfreithiwr neu ddadleuwr Rhufeinaidd, hyddysg yn yr ieithoedd Groeg a Lladin. Yr oedd y fath ddynion i'w cael yn yr holl daleithiau Rhufeinig, y rhai a dreulient eu holl amser mewn dadleu achosion, a chyflawnu gorchwylion cyfreithiol ereill yn y llysoedd taleithiol. Ymddengys hefyd y byddai lluaws o gyfreithwyr ieuainc Rhufeinig yn arfer myned i'r taleithiau gyda'r rhaglawiaid a'r dirprwywyr, mewn trefn i barotoi eu hunain, trwy ddadleu achosion yn y llysoedd, gogyfer a swyddau pwysicach yn Rhufain. Dyma y fath ddadleuwr oedd Tertullus, yr hwn a roddwyd ar waith gan yr Iuddewon i gyhuddo Paul ger bron Ffelix (*Act.* xxiv. 1); canys, er mai ystyr cyntaf 'ρητώρ, sef y gair a gymhwysir ato, ydyw *areithiwr* neu *siaradwr*, y mae hefyd yn dynodi *dadleuwr* neu *amddiffynwr* [*Kuinoel's Comment.; Bloomfield's Recensio Synopt.*, *Act.* xxiv. 2]. Gwel Eiriolwr; Dyddanydd.

DADSAIN. Gwel Adsain.

Digitized by Google

DADWINO, [*edwin*]: gwywo, diflann, treulio, pallu, heneiddio. Y mae dau air Hebraeg yn cael eu cyfieithu *dadwino*. Y cyntaf ydyw עשש, yr hwn a ddygwydd yn *Salm* xxxi. 9; "*Dadwinodd* fy llygaid gan ofid;" hyny yw, yr oeddynt wedi treulio, pylu, gwywo, neu suddo yn ei ben. Yn yr adnod ganlynol, cyfieithir yr un gair *pydru*: "A'm hesgyrn a *bydrasant*." Cyfieithir ef *treulio* yn *Salm* vi. 7. Y gair arall a gyfieithir *dadwino* ydyw נבל, a chanfyddir ef yn *Esa*. xxiv. 4; "Galarodd a diflanodd y ddaiar, llesgaodd a *dadwinodd* y byd." Arwydda y gair hwn, *gwywo, diflanu, syrthio*, megys dail crinion oddi ar goed. Cyfieithir yr un gair yn *syrthio* yn y lleoedd canlynol: *Esa*. i. 30; xxxiv. 4; xl. 7, 8; *Ier*. viii. 13.

DADYMCHWEL—YD, (*ymchwel*): gŵyrdroi, troi peth â'i waelod i fyny, dyrysu, dinystrio, gorchfygu: *Iob* vii. 15; *Salm* cxlvi. 9; *Esa*. xxiv. 1. "Yr hyn nid yw fuddiol i ddim, ond i *ddadymchwelyd* y gwrandawyr" (2 *Tim*. ii. 14); hyny yw, ond i'w gŵyrdroi oddi wrth symlrwydd yr efengyl. Anaml yn wir y bydd dadl grefyddol, ac yn enwedig dadl yn nghylch materion dibwys, at yr hyn y cyfeiria yr apostol yn yr adnod, yn peidio cynnyrchu yr effaith yma: *adn*. 18.

DAFAD: enw Hebraeg yr anifail hwn ydyw שה (*seh*), am ystyr yr hwn nis gellir cael un wybodaeth sicr, gan na ddygwydd mewn un amgylchiad fel berf yn yr ysgrythyr. Fe berthyn y ddafad, yn ol Cuvier, i ddosbarth y *tethogion* (*mammalia*), gan y megir y rhai ieuainc â llaeth o dethau eu mam; i radd yr *anifeiliaid sydd yn cnoi eu cil*, ac yn meddu pedair ystumog; i'r llwyth *gafrol*, ac yn meddu cyrn parhaus ac anwywol, yn cyfodi o wraidd esgyrnol; ac i ryw y *defaid*, gyda neu heb gyrn, ond pan y bydd y rhai hyn yn bresennol, byddant, i raddau mwy neu lai, o ffurf droellog. Y mae talcen y ddafad yn fwäog, ac yn taflu allan o flaen gwraidd y cyrn; nid oes ganddi bibellau dagrau; y mae ei ffroenau yn hirion a gŵyrgam; nid oes iddi farf yn briodol, ac y mae ei chlustiau yn fychain, a'i choesau yn feinion. Y mae ganddi ddau fath o flew—un yn galed ac agos at eu gilydd, a'r llall yn wlanog—y gwlân yn fwy neu lai, yn ol fel y meithrinir yr anifail.



Dar. 221.

Gellir olrhain hanes yr anifeiliaid hyn i'r oesoedd boreuaf; canys gosodwyd defaid dan ofal ail fab y dyn cyntaf: "Ac Abel oedd fugail defaid;" *Gen*. iv. 2. Ni wyddys pa anifeiliaid ereill a gedwid gan ddyn y pryd hyny; ond fe nodir un o'r dybenion ag oedd mewn golwg wrth gadw yr anifail hwn yn y gyfrol ysbrydoledig: "Ac Abel yntau a ddug o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt. A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm;" *adn*. 4. Ni sonir un gair fod cig yr anifail hwn yn cael ei ddefnyddio fel ymborth gan ddynion hyd wedi y dylif. Ymborthai dyn ar lysiau y maes—"trwy chwys dy wyneb y bwytäi fara:" ond wrth Noah y dywedwyd yn gyntaf, "Pob ymsymmudydd yr hwn sydd fyw, fydd i chwi yn fwyd;" *Gen*. ix. 3. Ond y tebygolrwydd ydyw, pa fodd bynag, fod cig defaid, ac anifeiliaid ereill, yn gwneuthur i fyny ran o ymborth dyn hyd yn oed yn y cyfnod boreuaf; a chofnodir am Cabal, mab Lamech, mai efe "ydoedd dad pob preswylydd pabell, a pherchen anifail;" *Gen*. iv. 20. Ffurfid y pabellau o grwyn yr anifeiliaid a feithrinid ganddynt; a phrin y gellir credu fod eu cig yn cael ei ddibrisio, pan y gwneid y fath ddefnydd o'u crwyn.

Y mae y defaid Syriaidd o ddwy rywogaeth. Gelwir un math y ddafad Bedouinaidd, yr hon sydd yn gyffelyb i ddafad fawr Prydain, oddi eithr fod ei chynffon ychydig yn hirach a thewach. Y math arall ydyw y rhai y crybwyllir am danynt yn fynych gan deithwyr, o blegid hynodrwydd neillduol eu cynffonau; a'r math hyn ydyw y rhai lluosocaf. Y mae cynffonau yr anifeiliaid hyn yn llydain a mawrion. Y mae yn gyfansoddedig o ddefnydd rhwng brasder a mer; ac ni fwyteir ef ar wahân, ond cymmysgir ef â'r cig coch, a defnyddir ef yn fynych yn lle ymenyn. Bydd dafad gyffredin o'r rhywogaeth hon, heb y pen, y traed, y croen, na'r coluddion, yn pwyso o drigain i bedwar ugain pwys, a'r gynffon yn pwyso o hyny yn gyffredin bymtheg pwys neu chwaneg; ond pwysa dafad o'r rhywogaeth fwyaf, ar ol ei phesgi, weithiau uwch law cant a hanner o bwysau, a'r gynffon yn unig hanner cant. Er mwyn cadw y gynffon rhag cael ei niweidio gan ddrain, &c., rhwymir ystyllen deneu dan ei bôn; ac fe ddodir olwynion bychain dan yr ystyllen weithiau, er galluogi y ddafad i'w thynu ar ei hol gyda mwy o rwyddineb; yr hyn a fu yn achlysur i'r chwedl fod gan y rhywogaeth hon o ddefaid droliau i gario eu cynffonau.—[*Russell's Aleppo*, td. 51.]

Y ddafad, neu yr oen, oedd yr aberth cyffredin dan yr hen oruchwyliaeth; ac y mae yn deilwng o sylw na byddai yr Arglwydd un amser, pan yn llefaru am yr aberth hwn, yn anghofio gorchymyn am i'r gloren neu y gynffon gael ei dodi yn gyfan ar dân yr allor. Y mae y rheswm dros hyn i'w ganfod yn y dyfyniad blaenorol o waith Dr. Russell; oddi wrth yr hyn yr ymddengys mai dyna ydoedd y darn tyneraf a goreu o'r anifail; gan hyny, y rhan gymhwysaf i'w hoffrymu fel aberth i'r Iehofah. Ystyria Mr. Street, yr hwn a ddyfynir gan Dr. Harris, fod cyfeiriad yn y gorchymyn at iechyd yr Israeliaid; gan sylwi fod "anhwylderau geriol yn dra chyffredin mewn gwledydd poethion, a bod bwyta cig bras yn dueddol iawn i'w cynnyrchu; ac er yr ystyrir brasder y gynffon yn awr yn ymborth moethus, y mae yn afiachus mewn gwirionedd."

Anifail gwan a diamddiffyn ydyw y ddafad yn ei chyflwr gwareiddiedig; ac y mae, gan hyny, yn ddibynol hollol ar ei bugail am ei hamddiffyniad a'i chadwraeth. Y mae amryw gyfeiriadau tarawiadol at y nodwedd hwn ynddynt yn y Beibl. Darlunia Michea sefyllfa yr Iuddewon fel praidd "ar wasgar ar hyd y mynyddoedd, fel defaid ni byddai iddynt fugail" (1 *Bren*. xxii. 17; gwel hefyd *Mat*. ix. 36); a phrophwydodd Zechariah y gwasgerid y praidd, pan y tarewid y bugail da: *Zech*. xiii. 7. Gwneir amryw gyfeiriadau hefyd gan ysgrifenwyr ysbrydoledig at

Digitized by Google

duedd yr anifeiliaid hyn i fyned ar ddisberod o'u corlanau, a thrwy hyny yn rhoddi eu hunain yn ngafael perygl a dinystr. Y mae Dafydd yn cyfaddef ei fod wedi efelychu eu hymddygiad ffol. "Cyfeiliornais fel dafad wedi colli;" a chan wybod ei fod, fel hithau, yn dueddol i grwydro yn mhellach drachefn o'r gorlan, efe a chwanega, "cais dy was;" *Salm* cxix. 176. Nid oedd y duedd hon i ymadael oddi wrth Dduw yn gyfyngedig i Dafydd yn unig, canys y mae y prophwyd yn arfer ymadrodd cyffelyb i osod allan sefyllfa beryglus a thruenus yr holl hil: "Nyni oll a grwydrasom fel defaid; troisom bawb i'w ffordd ei hun;" *Esa.* liii. 6. I geisio y "defaid cyfrgolledig" hyn, ac heb fugail arnynt, y daeth y Gwaredwr i'r byd. Efe "ydyw y bugail da, yr hwn a roddes ei einioes dros y defaid" (*Ioan* x. 11); ac y mae ei bobl, y rhai oeddynt gynt "megys defaid yn myned ar gyfeiliorn," yn awr wedi "dychwelyd at Fugail ac Esgob eu heneidiau;" 1 *Pedr* ii. 25. Y mae gofal Crist am ei ddefaid, a'u diogelwch dan ei amddiffyniad, yn cael ei ddysgrifio mewn modd prydferth a tharawiadol gan Ioan (*pen.* x. 3—16); "Y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan. Ac wedi iddo yru allan ei ddefaid ei hun, y mae efe yn myned o'u blaen hwy: a'r defaid sydd yn ei ganlyn ef, o blegid y maent yn adnabod ei lais ef......Myfi yw y bugail da. Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid," &c.

Y mae tuedd chwareus a bywiog ŵyn defaid yn dra nodedig, ac wedi myned yn ddiareb. Y mae cyfeiriad at eu pranciau ar y porfeydd yn *Salm* cxiv: "Y mynyddoedd a neidiasant fel hyrddod, a'r bryniau fel ŵyn defaid. Pa ham, fynyddoedd, y neidiwch fel hyrddod? a'r bryniau fel ŵyn defaid?" Mae diniweidrwydd ac addfwynder yr anifail hwn wedi bod yn achlysur iddo gael ei ddewis gan yr Ysbryd Glân fel cysgod addas o Fab Duw a Gwaredwr y byd. Yr oedd oen y Pasc, yr hwn a rostid yn gyfangwbl, ac y gwleddid arno gan bob teulu gwaredol yn Israel, a gwaed yr hwn, o'i daenellu ar gapan y drws ac ar y ddau ystlysbost, a'u diogelai rhag cleddyf yr angel dinystriol, yn gysgod bywiog a tharawiadol o hono ef, "yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau, yn ol ewyllys Duw ein Tad ni" (*Gal.* i. 4); gwaed yr hwn a dywalltwyd er maddeuant pechodau, ac ar yr hwn y mae pob gwir Gristion yn ymborthi ac yn byw trwy ffydd: *Ioan* vi. 51—55. Efe ydyw "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd" (*Ioan* i. 29); sef yr iawn a arddangosid yn feunyddiol gan aberthau y ddeddf seremonïol.

Pan y byddai y bugail yn arwain ei braidd, byddai yr hwrdd, ar ei alwad, yn dyfod allan o'u mysg, gan fyned o'u blaen fel eu blaenor. At hyn y cyfeirir yn *Ier.* l. 8, lle y dywedir "a byddwch fel bychod o flaen y praidd:" *Ier.* xxv. 34, 35.

Dygid oen, ar rai prydiau, i'r babell, a megid ef fel ci. Dysgrifir yr arferiad hon yn hynod o effeithiol yn nammeg Nathan. "A chan y tlawd nid oedd dim ond un oenig fechan, yr hon a brynasai efe, ac a fagasai; a hi a gynnyddasai gydag ef, a chyda'i blant: o'i damaid ef y bwytäai hi, ac o'i gwpan ef yr yfai hi, ac yn ei fynwes ef y gorweddai hi, ac yr oedd hi iddo megys merch;" 2 *Sam.* xii. 3. Y mae yn arferiad gyffredin yn Armenia i'r bugeiliaid gymmeryd i'w mynwesau ŵyn y praidd y byddant yn eu gwylio. Byddant yn rhy weiniaid i ddilyn eu mamogiaid yn eu crwydriadau; gan hyny, gofelir am danynt yn dyner gan eu gwylwyr yn eu habsennoldeb. Mor wir ydyw hyn am y Messïah! "Fel bugail y portha efe ei braidd; â'i fraich y casgl ei ŵyn, ac a'u dwg yn ei fynwes, ac a goleddа y mamogiaid;" *Esa.* xl. 11. Dywed Mri. Smith a Dwight, cenadwyr Americaidd, eu bod hwy wedi gweled, tra yn teithio yn Armenia, amryw fugeiliaid yn cario yn eu mynwesau ŵyn y praidd y byddent yn eu gwylio.

Yr oedd adeg cneifio oetaid yn dymmor wledd a llawenydd mawr—yn ad-daliad am lafur a pheryglon y flwyddyn flaenorol (1 *Sam.* xxv. 8, 11; 2 *Sam.* xiii. 23). Cesglid y praidd yn nghyd i le amgauedig a elwid *corlan* (*Num.* xxxii. 16; 2 *Sam.* vii. 8; *Ier.* xxiii. 3; *Seph.* ii. 6; *Ioan* x. 16). Tra yn y lle hwn, rhwymid eu coesau yn nghyd; a golyga y *tŷ cneifio* (2 *Bren.* x. 12, 14) yn llythyrenol *tŷ rhwymo.* Byddai y defaid yn yr awyr agored drwy y flwyddyn.

Adeiledid tŵr yn fynych yn nghymmydogaeth y deadelloedd, i'w gwylio rhag pob perygl. Gelwir y tŵr hwn, "tŵr y praidd;" *Micah* iv. 8. Y mae yn debygol y gwneid gwlân y defaid yn frethyn (*Lef.* xiii. 47; *Deut.* xxii. 11); a hyny gan fenywod (*Diar.* xxxi. 13). A ffurflai ran o'r deyrnged a dalwyd gan y Moabiaid i'r Israeliaid (2 *Bren.* iii. 4), ac yr ydoedd yn nwydd cyffredin mewn marsiandïaeth (*Ezec.* xxvii. 18).

Yn *Gen.* xlvi. 34, darllenwn, "Canys ffieiddra yr Aiphtiaid yw pob bugail defaid." Cyfeiriad sydd yn yr ymadrodd, fel y tybir, at yr Hyksos, neu y breninoedd bugeiliol a ymosodasant ar yr Aipht, ar yr hon y buont yn traarglwyddiaethu am rai canrifoedd. Yr oedd y gorthrymwyr tramor hyn mor adgas yn ngolwg yr Aiphtiaid, fel yr oedd yr enw "bugail" yn ffiaidd yn eu golwg. Galwyd yr Hyksos yn Philistiaid, ar ol iddynt ymsefydlu yn Palestina.

Hwyrach na ddylid myned heibio i'r hyn a gofnodir mewn perthynas i gyflog Iacob, yn *Gen.* xxx. 31, &c., yn ddisylw; er, efallai, nas gellir rhoddi cyflawn foddlonrwydd ar y dyryswch. Y mae yn dra anhawdd penderfynu, oddi wrth *adn.* 32 a 35, yn mha beth yr oedd y cytundeb rhwng Iacob a'i dad-yn-nghyfraith yn gynnwysedig yn briodol. Ymddengys, oddi wrth *adn.* 32, fod Iacob i dderbyn fel ei gyflog yr holl lydnod mânfrith, mawrfrith, a chochddu, yn mhlith y defaid a'r geifr; ac wrth gwrs, ystyrid mai eiddo Laban oedd yr holl anifeiliaid unlliw. Ond ymddengys oddi wrth *adn.* 35, fod Laban wedi neillduo yr holl braidd brithion, gan eu rhoddi dan ofal ei feibion ei hun; fel pe buasai wedi cymmeryd y rhai hyn iddo ei hun, gan adael y gweddill i Iacob. Y mae rhai wedi tybio fod Laban, ar ol neillduo y praidd brithion, y rhai a berthynent yn ol y cytundeb i Iacob (*adn.* 32), er mwyn chwaneg o ddiogelwch, wedi eu gosod dan ofal ei feibion, tra y porthai Iacob ddeadell Laban (*adn.* 36), gan fod taith tri diwrnod rhwng y ddwy ddeadell. Gan hyny, os dygai rhai o'r praidd ag oedd dan ofal meibion Laban lydnod unlliw, dodid y rhai hyny at ddeadell Laban, dan ofal Iacob: ac os dygai rhai o'r praidd ag oedd dan ofal Iacob lydnod brithion, dodid hwythau gyda deadell Iacob, yr hon oedd dan ofal meibion Laban. Nid ydyw y dybiaeth uchod yn hollol foddlonol, ac ymddengys mai y gwir ystyr ydyw hyn:—Yr oedd Iacob wedi cytuno i gymmeryd yr holl braidd brithion fel cyflog. Gan nad oedd yn awr ond yn dechreu gweithredu ar

Digitized by Google

y cytundeb, ni pherthynai dim o'r anifeiliaid iddo o gwbl eto; gan hyny, neillduodd Laban oddi wrth y praidd yr holl anifeiliaid y gallai Iacob hòni hawl iddynt ar ol y cytundeb: drwy hyn, fe ddechreuodd Iacob ei wasanaeth gyda Laban gyda deadell na chynnwysai gymmaint ag un anifail o'r dysgrifiad y gallai ef hòni hawl iddo; ac anfonwyd y gweddill daith tri diwrnod oddi wrth y rhai oedd o dan ofal Iacob. Ymddengys fod y cytundeb, gan hyny, yn hollol yn ffafr Laban; ac er mwyn ei droi i'w fantais ei hun, gwnaeth Iacob ddefnydd o'r ddyfais a grybwyllir yn ddilynol. Ond ymddengys oddi wrth *Gen.* xxxi. 12, &c., ei fod wedi mabwysiadu y ddyfais hon dan gyfarwyddyd Duw; a rhoddir yno hefyd reswm dros hyny. Dyma y dull a ddefnyddiwyd ganddo:—"A Iacob a gymmerth iddo wiail gleision o boplys, a chyll, a ffawydd, ac a ddirisglodd ynddynt ddirisgliadau gwynion, gan ddadguddio y gwyn yr hwn ydoedd yn y gwiail. Ac efe a osododd y gwiail, y rhai a ddirisgliasai efe, yn y cwterydd, o fewn y cafnau dyfroedd, lle y deuai y praidd i yfed, ar gyfer y praidd, fel y cyfebrent pan ddelent hwy i yfed." Y canlyniad o hyn oedd, "A'r praidd a gyfebrasant wrth y gwiail, a'r praidd a ddug rai cylchfrithion, a mânfrithion, a mawrfrithion;" *Gen.* xxx. 37—39. Nid ymddengys fod dim yn wyrthiol yn hyn, neu allan o gwrs cyffredin natur. Y mae yn ffaith sydd wedi ei phrofi gan athronyddion hen a diweddar.

Arferir y gair *defaid* yn fynych yn yr Ysgrythyrau am ddynion: *Salm* lxxix. 13; "A ninnau dy bobl, a defaid dy borfa:" hefyd, "O Fugail Israel! yr hwn wyt yn arwain Ioseph fel praidd;" *Salm* lxxx. 1: ac hefyd, "Tywysaist dy bobl fel defaid;" *Salm* lxxvii. 20. Dywed ein Gwaredwr, "Ni'm danfonwyd i ond at ddefaid colledig tŷ Israel;" *Mat.* xv. 24. Cymherir y rhai cyfiawn yn fynych i ddefaid, yn agored i greulondeb y rhai drygionus, i gynddaredd bleiddiaid, ac i'r lladdfa: *Salm* xliv. 22. Yn y dydd diweddaf, bydd y rhai cyfiawn (y rhai a osodir allan fel defaid) ar ddeheulaw y Barnwr goruchel, a hwy a etifeddant y nefoedd. Y mae Crist yn dysgrifio gau brophwydi fel bleiddiaid rheibus yn ngwisgoedd defaid: *Mat.* vii. 15.

Y mae llawer iawn o ddadleu wedi bod yn mysg dysgedigion yn nghylch ystyr y gair Hebraeg קשיטה (*cesitah*), yr hwn ni ddygwydd ond yn *Gen.* xxx. 19, a *Iob* xlii. 11. Y mae Bochart yn cyfeirio at y cyfieithiadau Groeg, Onkelos, Syriaidd, Arabaidd, a'r Vulgate, lle y canfyddir y gair *defaid* neu *ŵyn*, a chadarnheir yr awdurdodau hyn gan y cyfieithiad Syriaidd. Ar y llaw arall, y mae yr esbonwyr Rabbinaidd yn cyfieithu y gair yn *arian*; tra yr ymddengys, oddi wrth ei draethawd ar y pwnc, nad ydyw y naill esboniad mwy na'r llall yn foddlonol i Costard; yr hwn, yn gymmaint ag nas gall efe, mwy na Bochart, ac ereill, ganfod yn yr Hebraeg un gwreiddair i gyfreithloni y cyfieithiad *defaid* neu *ŵyn*, a ddewisai yn hytrach y gair *arian*, oni buasai y ffaith, yn ol ei farn ef, na chafodd arian erioed eu bathu hyd amser Cyrus, ac na bu rhai erioed â delw oen arnynt, &c. Nid oes genym yma ond haeriadau yn unig, heb gymmaint ag un prawf; nid oes un rheswm pa ham nas gallai defaid fod yn ddaoedd masnachol yn y dwyrain, yr hon wlad oedd mor nodedig o amaethyddol, a pha ham nas gallai yr un gair, mewn amser, gael ei arfer am ddarn o fettel, yn gyffelyb i *pecus* yn Italy, yr hwn a ddynodai ddafad neu ych ar y cyntaf, ac wedi hyny fathodyn. Y mae pob rheswm dros gredu fod metelau, er yn fore iawn, ar ffurf modrwyau neu lafnau o bwysau penodol, yn cael eu defnyddio i gynnrychioli gwerth dafad mewn dull mwy cyfleus. Y mae y sicl Iuddewig, ystyr yr hon ydyw "pwyso," yn arddangos y ffurf foreuol hon o arian; ac fe welir anghraifft o'i defnyddiad yn eglur yn *Gen.* xxiii. 16, lle y ceir Abraham, wedi iddo brynu maes ac ogof, yn pwyso pedwar can sicl o arian—math o arian cymmeradwy, a ddefnyddid i gario masnach yn mlaen; ond ni phrawf hyn eu bod yn fathodau, o blegid fe olyga hyny fod argraff ar y metel. Yn *Gen.* xxxiii. 19, fe allai mai darn o arian Canaaneaidd, neu yn fwy priodol Scytho-Caldeaidd, oedd y *cesitah*, cyfwerth â dafad, yn amser Iacob, wedi ei fwrw, y mae yn debygol, ar ffurf yr anifail hwnw, ac o bwysau penodol, megys y bwriai yr Aiphtiaid eu metel ar ffurf anifeiliaid, &c.; ac fe ddarganfyddodd Clarke yn ei deithiau fod gan y Phœniciaid, mewn amseroedd diweddarach, fathodyn arian âg argraff dafad arno. Ond yn *Iob* xlii. 11, lle y cyfieithir y gair *cesitah* yn "arian," yn y cyfieithiad awdurdodedig, meddylir y gall ei fod yn golygu *defaid*; o blegid fod modrwyau aur, y rhai a gyfieithir "tlysau aur," yn dilyn yn uniongyrchol; a gwyddys i sicrwydd fod aur, yn yr oesoedd boreuaf, yn cael ei wneuthur yn fodrwyau yn yr Aipht, y rhai a ddefnyddid mewn trafnidiaeth. Y mae yn fwy tebygol y buasai modrwyau neu dlysau aur yn cael eu rhoddi i Iob fel arian, nag fel addurniadau iddo i'w gwisgo ar ei berson. Heb law hyn, y mae y Deg a Thrigain yn ffafriol i'r golygiad hwn; canys ei ddarlleniad ef ydyw "un oenig."

Wedi ymdrin fel hyn â'r ddafad yn ei chysylltiad â'r Ysgrythyr, gwnawn ychydig sylwadau arni eto, cyn terfynu, yn ei chyssylltiad â milofyddiaeth. Y mae tylwyth y ddafad gyffredin yn cynnwys lluaws mawr o rywogaethau. Y mae Dr. Gray, yn y *British Museum Catalogue*, yn cofnodi tri ar ddeg ar ugain o wahanol fathau, sef y rhai canlynol:—

1. Y defaid Yspaenaidd, y rhai a elwir hefyd y defaid meinwlan, a'r defaid canolwlan Prydeinig.
2. Y defaid cyffredin; y defaid moel. Y mae amryw ffurfiau o'r math hwn, megys y defaid *muggs*, defaid Shetland, defaid Southdown, hen ddefaid Lincoln, defaid morfa Romney, defaid Cobwold, defaid newydd Leicester, defaid Cheviot, hen ddefaid Teeswater, defaid diwygiedig Teeswater, defaid Dunky, defaid Zetland ac Orkney, defaid Cymreig y mynydd, defaid rhywiogwlan Cymru, defaid mynydd Wicklow defaid Kerry, defaid Exmoor, y defaid gwynebddu, defaid gwynebddu y grug, a'r Rass neu Roosh.
3. Defaid Barwall: preswyliant yn Nepaul.
4. Defaid Huniah, neu ddefaid gwynebddu Tibet: brodorion ydynt hwythau o Nepaul.
5. Y Cago, neu ddefaid dofion cymmydogaeth Cabul; defaid Cago Gray. Brodorion Nepaul.
6. Defaid Seling. Brodorion o Nepaul.
7. Defaid Curumbar Mysore.
8. Y defaid a elwir Garar yn India.
9. Defaid Dukhun.
10. Defaid India y Gorllewin.
11. Y defaid Braziliaidd.
12. Defaid Demerara.
13. Defaid America Ddeheuol.
14. Y defaid rhywiogflew.
15. Y defaid Affricanaidd.
16. Defaid Guinea.

Digitized by Google

17. Y Morvant de la Chine.—Buffon.
18. Defaid Shaymbliar Mysore.
19. Defaid Zeyla, Buckingham.
20. Defaid Fezzan Bennett, o Tripoli.
21. Defaid St. Helena.
22. Defaid Morocco.
23. Defaid Congo.
24. Defaid Angola.
25. Defaid Zenu neu Goitred.
26. Yr Ixalus.
27. Y defaid Cretaidd.
28. Defaid hirgynffonog Rwssia.
29. Y defaid llostlydan. Brodorion o Barbary. Y mae amryw fathau o'r rhywogaeth hon; y rhai canlynol ydyw y rhai mwyaf nodedig:—y defaid tindew, y defaid Persiaidd, y defaid cynffondew, y defaid Abyssiniaidd, y defaid Bucharaidd, y defaid Tibetaidd, defaid y Penrhyn, a defaid Belkah.
30. Y defaid amlgorniog. Gelwir hwynt hefyd yn hyrddod pedwarcorn, a defaid Dumba. Brodorion o Nepaul.
31. Defaid Puchia, neu ddefaid Dumba Hindwstan.
32. Y defaid cynffonfer. Brodorion o Rwssia Ogleddol.
33. Defaid Tartary. Dywedir y byddant yn bwyta esgyrn fel cwn.

Y mae y rhywogaeth *afrol* yn cynnwys y mathau canlynol:—

Y *sha* neu *koch;* sef, dafad mynydd gogledd India; a chanfyddir hi yn Tibet.

Y ddafad Armeniaidd. Brodor o Armenia.

Y *mofflon*. Y mae i'r anifail hwn amryw enwau. Efe ydyw *capra ammon* Linnæus, ac *ovis musimon* ac *ovis musmon* awdwyr ereill. Dyma hefyd ydyw gafr wyllt a gafr Siberiaidd Pennant. Canfyddir yr anifail yn Cyprus, Candia, a Corsica.

*Aoudad* Mooriaid Barbary, a *kebsch* yr Arabiaid. Brodor o ogledd Affrica.

Y *taye*, neu y fawrgorn. Dywed Dr. Gray fod yn debygol mai yr un ydyw hon ag *ammon* Siberia ogleddol. — (*Calmet's Dict.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Eadie's Bib. Cycl.; Engl. Cycl.*)

**DAFYDD:** ystyr yr enw, y mae yn debygol, ydyw *anwylyd*. Y mae hanes y dyn enwog hwn yn dechreu yn Llyfr Cyntaf Samuel, *pen.* xvi., ac yn cael ei ddilyn drwy holl Ail Lyfr Samuel, gan ddiweddu yn yr ail bennod o Lyfr Cyntaf y Brenhinoedd. Ceir hefyd dalfyriad o'i hanes yn y Cronicl Cyntaf, o'r unfed bennod ar ddeg hyd y diwedd. Gosodir ger ein bron yn y pennodau hyn, yn null byr cyffredin yr Ysgrythyr, achau a hiliogaeth Dafydd, dechreuad ei fywyd cyhoeddus, ei alltudiaeth, ei ddyrchafiad i'r orsedd, ei deyrnasiad, a'i farwolaeth.

EI ACHAU.

Fe'n hysbysir yn 1 *Sam.* xvi. mai mab Iesse oedd Dafydd, ac mai efe oedd yr ieuangaf o wyth o feibion; gan hyny, yr oedd yn deilliaw o lwyth Iudah. Yn Bethlehem Ephratah, yr hon a safai ychydig i'r deheu o Ierusalem, y preswyliai y teulu. Yn y lle hwn y ganwyd Dafydd, tua 1085 o flyneddoedd cyn genedigaeth Crist; o blegid hyny y gelwir y lle yn "ddinas Dafydd," er mai hi oedd y leiaf yn mhlith "holl filoedd Iudah." Treuliodd y brenin ei flyneddoedd boreuaf fel bugail; ac ymddengys fod ei ysbryd ieuanc yn ymbleseru yn mhlith ei braidd. Er mai fel bugail defaid y crybwyllir am dano yn yr hanes ysbrydoledig, gwneir hyny ar adeg pan y mae Duw yn ymddangos, trwy law y prophwyd Samuel, yn eneinio y llanc gwledig âg olew sanctaidd o blith ei saith brodyr; yr hyn a awgrymai ei fod yn bwriadu, mewn amser dyfodol, ei gymmeryd oddi wrth ddilyn "defaid cyfebron" Iesse, yn ei wlad enedigol, i fugeilio "Iacob ei bobl, ac Israel ei etifeddiaeth." Y mae yr holl amgylchiadau (1 *Sam.* xvi. 1—13) yn arddangos, mewn modd neillduol, annibyniaeth a neillduolrwydd y dewisiad dwyfol; ac y mae darpariaeth yn cael ei gwneyd i'w barotoi gogyfer â'i ddyledswyddau dyfodol — "A daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Dafydd o'r dydd hwnw allan."

DECHREUAD EI FYWYD CYHOEDDUS.

Pan y neillduwyd Dafydd at y swydd freninol, yr oedd Saul, brenin cyntaf Israel, eto yn fyw; ond yr ydym yn canfod fod Ysbryd yr Arglwydd wedi ymadael oddi wrtho yn fuan wedi hyny, o blegid, y mae yn ddiammheu, cryfder hynod ei dueddiadau drygionus; a bod ysbryd drwg yn blino ei enaid. Barnodd meddygon y brenin, gan hyny, y buasai yn ddoeth rhoddi prawf ar ddylanwad cerddoriaeth er llonyddu ei ysbryd terfysglyd. Crybwyllwyd wrth Saul am fedr mab Iesse gyda'r delyn; ac anfonwyd i'w gyrchu yn uniongyrchol, a dygwyd ef i'r palas, lle y bu yn llwyddiannus i esmwythau a thawelu ysbryd y brenin drwg drwy seiniau peraidd tannau ei offeryn. Ffurfiai hyn bwynt hynod yn mywyd cyhoeddus Dafydd; a gellir ystyried mai dyma ydoedd y cam cyntaf tuag at y sefyllfa uchel i ba un y cyrhaeddodd ar ol hyny. Yn ystod ei arosiad yn y llys, gwnaeth y Philistiaid ryfel yn erbyn yr Israeliaid, a gosodasant eu gwersyll rhwng Shochah ac Azecah, lle tuag ugain milltir i'r de-orllewin o Ierusalem, ac ychydig dros bymtheng milltir o Bethlehem. Safai y Philistiaid ar fynydd ar un ochr i ddyffryn Elah; ac yr oedd Saul, a gwŷr Israel, wedi ymgasglu ar fynydd gyferbyn. Y mae yn debygol fod yr amgylchiad hwn wedi adfer meddwl y brenin i'w ansawdd cynnefin; gan hyny, nid oedd angen mwyach am wasanaeth y cerddor ieuanc. "Dafydd a ddychwelodd oddi wrth Saul, i fugeilio defaid ei dad yn Bethlehem." Cadwai y ddwy fyddin eu gwersyllfaoedd; ac am ddeugain niwrnod, fore a phrydnawn, deuai Goliath o Gath, pen rhyfelwr y Philistiaid, i'r gwastadedd rhwng y ddwy fyddin, gan herio unrhyw ŵr o blith yr Israeliaid i ymladd âg ef. Ofnodd byddin Israel yn ddirfawr, ac ni feiddiai neb o honynt fyned allan i gyfarfod â'u gelyn anferth. Dygwyddodd i Dafydd glywed hyn yn ddamweiniol. Yr oedd ei dri brawd hynaf wedi dilyn Saul i'r maes: a chan iddo gael ei anfon gan ei dad i gludo ymborth i'w frodyr, ac i edrych a oeddynt yn iach, efe a glywodd ymffrost y cawr, a gwelodd arswyd ei gydwladwyr dychrynedig. Gyda holl ddyddordeb un yn teimlo ei fod wedi ei neillduo i gyflawnu rhan bwysig yn hanesiaeth y genedl, gofynodd pa wobr a roddid i'r dyn a dynai "ymaith y gwaradwydd hwn oddi ar Israel;" ac wedi clywed pa beth ydoedd, cynnygiodd fyned allan yn achos ei wlad i wynebu arwr y Philistiaid. Ceryddwyd ef gan ei frawd hynaf, Eliab, am ei ryfyg a'i falchder; a phetrusai Saul dderbyn ei wasanaeth o blegid ei ieuenctid; ond yn ngallu yr Hollalluog yr ymddiriedai Dafydd. Ennillodd gydsyniad ac ymddiriedaeth Saul trwy adrodd iddo fel yr oedd wedi lladd llew ac arth, a thrwy sicrhau iddo y byddai i'r Duw a'i gwaredodd o afael y rhai

Digitized by Google

hyny, ei gynnorthwy hefyd yn ei ymosodiad ar y Philistiaid o Gath. Gan nad oedd wedi ymarfer âg arfau rhyfel, a chan ei fod yn ewyllysio arddangos mewn modd eglur ei ymddibyniad ar gymhorth dwyfol, ni chymmerodd gydag ef ond ei ffon, pump o geryg llyfnion o'r afon, a'i ffon dafl. Pan y canfu y cawr Dafydd, efe a'i diystyrodd ac a'i rhegodd, a bygythiai ddinystrio y bachgen gwridgoch, ac y rhoddai ei "gnawd i chediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y maes." Atebodd Dafydd y disgynai y drygau hyny ar ei ben ef ei hun, trwy gymhorth Duw, fel y gwybyddai yr holl ddaiar fod yr Arglwydd yn amddiffyn i'w bobl Israel. Fel y rhagddywedodd Dafydd, felly y bu. Cwympodd Goliath; a ffodd y Philistiaid, ac erlidiwyd hwynt hyd byrth Ecron—un o'r prif ddinasoedd; a dychwelodd y llanc Dafydd yn fuddugoliaethus, gan gludo pen ac arfau y Philistiad. "A Dafydd a gymmerodd ben y Philistiad, ac a'i dug i Ierusalem." Y mae peth anghysondeb ymddangosiadol yn hyn; gan fod Ierusalem ar y pryd yn meddiant yr Iebusiaid (2 *Sam.* v. 6; 1 *Cron.* xi. 4). Y mae yn debygol na wnaeth Dafydd ond cyffaethio y pen yr amser hwn, ac mai ar ol ennill Ierusalem oddi ar yr Iebusiaid y dygodd efe ef i'r ddinas hono.

O blegid yr agwedd wahanol oedd ar Dafydd, nid adnabuwyd ef gan Saul ac Abner, tywysog y filwriaeth, ar yr olwg gyntaf; ond mor gynted ag y gwybu y brenin pwy ydoedd, cymmerodd ef dan ei ofal ei hun, ac ni chaniataodd iddo ddychwelyd gartref mwyach. Ennillodd y bugail ieuanc, drwy ei ymddygiad a'i dymmer hynaws a charedig, serch pawb a gyfarfu â hwynt, o Ionathan y tywysog, yr hwn a'i carai "megys ei enaid ei hun," hyd at y rhai distadlaf o'weision Saul, yn ngolwg pa rai yr oedd yn gymmeradwy. Ymdaenodd ei enwogrwydd yn mysg y bobl; a thra y dychwelai y fyddin o'r frwydr, deuai cydganau o fenywod i'w cyfarfod o'r dinasoedd, gan ganu a dawnsio, er anrhydeddu y fuddugoliaeth, ac yn neillduol er anrhydeddu Dafydd. Canai arweinwyr y gân, "Lladdodd Saul ei filoedd;" ac atebai y cydgan, "A Dafydd ei fyrddiwn!" Hauwyd hadau helbulon dyfodol hyd yn oed drwy yr anrhydedd a dderbyniodd. "Digiodd Saul yn ddirfawr;" ac o hyny allan, aeth y dyn ieuanc yn wrthddrych o eiddigedd a chasineb yn ngolwg y brenin. Achosodd y teimladau hyn i ysbryd Saul fyned yn gythryblus drachefn; fel yr oedd yn angenrheidiol cael telyn mab Iesse i'w lonyddu eilwaith. Tra yn cyflawnu y gwasanaeth hwn, ceisiodd Saul ei drywanu â'i waewffon ddwy waith, ond yn aflwyddiannus. Yr oedd yr Arglwydd gyda Dafydd, yn amddiffynfa iddo. Fe deimlodd mab Cis oddi wrth hyn, ac aeth gwrthddrych ei eiddigedd a'i gasineb yn wrthddrych ei arswyd; ac er mwyn ei symmud o'i olwg, a'i ddodi ar yr un pryd mewn sefyllfa o berygl gosododd ef yn dywysog ar fil o wŷr. Gwnaethpwyd hyn mewn gobaith y buasai Dafydd yn cael ei ladd wrth arwain ei wŷr mewn brwydr; ond yn lle hyny, bu yn foddion, megys llawer o gynlluniau dynol ereill, i ddwyn oddi amgylch amcan tra gwahanol. "Cynghor yr Arglwydd, hwnw a saif."

Dechreuodd Dafydd yn awr (c. c. 1063) ei yrfa fel gŵr o ryfel. Dan gyfarwyddyd dwyfol, ennillodd serch a chymmeradwyaeth yr holl bobl yn ei sefyllfa newydd. Cynnyddodd ofnau Saul. Annogodd y tywysog i gyflawnu gweithredoedd o wrolde b; a chynnygiodd ei ferch Merab yn wraig iddo, fel gwobr. Yr oedd gan Dafydd hawl iddi eisoes, drwy ei fod wedi lladd Goliath. Er hyn oll, rhoddodd y brenin ei ferch yn fradwrus i ddyn arall; ond gan iddo glywed fod un arall o'i ferched wedi amlygu hoffder at yr arwr ieuanc, llawenhaodd yn fawr, gan obeithio y gallai drwy hyny ei ddinystrio. Rhoddodd ei weision ar waith i'w chymhell i Dafydd; a chan iddo ddeall fod Dafydd o ysbryd rhy annibynol i gymmeryd ei uno â'r teulu breninol fel ffafr, cynnygiodd y brenin ar fod iddo ei hennill drwy ladd nifer penodol o'r Philistiaid. Aeth Dafydd i'r maes, dychwelodd yn fuddugoliaethus, a phriododd Michael. Bu y fuddugoliaeth hon yn achlysur i gynnyddu parch a chariad y bobl tuag ato; ac ofn a chasineb Saul. Gorchymynodd i'w fab Ionathan, a rhai o'i ddilynwyr, i ladd gwrthddrych ei adgasrwydd. Gwrthododd y tywysog ufuddhau, ac eiriolodd gyda'i dad ar ran Dafydd, a bu yn llwyddiannus. "A Saul a dyngodd, fel mai byw yr Arglwydd, ni leddir ef."

Yn fuan ar ol hyn, aeth y Philistiaid i ryfel âg Israel, er dial y niweidiau diweddar a dderbyniasant oddi ar eu llaw; ond gorchfygwyd hwynt â lladdfa fawr gan filwyr Dafydd, a gwnaethpwyd iddynt ffoi o flaen y buddugoliaethwr Mor fuan ag y dychwelodd, ac yr aeth at ei orchwyl cyffredin o lonyddu ysbryd cythryblus y brenin, rhoddwyd ei fywyd drachefn mewn enbydrwydd. Diangodd rhag cael ei niweidio gan waewffon Saul; ond erlidiwyd ef i'w dŷ ei hun gan genadau breninol, y rhai oedd wedi derbyn gorchymyn i'w lofruddio. Diangodd Dafydd drwy gymhorth Michael ei wraig, ac efe a aeth at Samuel, yr hwn oedd ar y pryd yn athraw ar ysgol y prophwydi a gedwid yn Naioth, yn Ramah, tua chwe milltir i'r gogledd o Ierusalem. Gwybu Saul ei fod wedi myned yno, ac efe a anfonodd genadau i'w gymmeryd yn garcharor. Trwy gyfryngiad neillduol o eiddo Duw, methodd y rhai hyn, yn nghyd âg ail gwmni, ac hyd yn oed Saul ei hunan, yn eu hamcan: 1 *Sam.* xix. 20—24. Dychwelodd Dafydd yn fuan drachefn, ac efe a aeth at ei anwyl Ionathan. Ni wyddai pa ham yr erlidid ef; ofnai am ei fywyd, a chwennychai i'w gyfaill ymholi a oedd digofaint ei dad yn hollol anghymmodadwy. I Dafydd, yr oedd Ionathan yn "gariadus ac anwyl" yn ei fywyd mewn gwirionedd, ac efe a gydsyniodd yn uniongyrchol i fynu gwybod bwriad ei dad. Yr oedd y canlyniad yn anffafriol, ac wedi iddynt adnewyddu eu cyfammod o gyfeillgarwch, ymadawodd Dafydd: 1 *Sam.* xx.

ALLTUDIAETH DAFYDD.

Ar ol hyn, aeth Dafydd yn alltud oddi wrth y teulu breninol. Am beth amser, bu yn crwydro yn nhiriogaethau Saul. Ymwelodd â Nob, dinas fechan yn nghymmydogaeth Ierusalem, yn yr hon y trigai yr offeiriaid, lle yr ymddygwyd tuag ato yn garedig gan Ahimelech, a'r hwn a roddodd iddo gleddyf Goliath, yr hwn a gedwid yno. Yna, efe a aeth i wlad y Philistiaid, at Achis, brenin Gath. Pan y deallodd eu bod wedi ei adnabod, cymmerodd arno ynfydu, fel y gollyngid ef yn rhydd (1 *Sam.* xxi. 10—15). Dychwelodd i Adulam, ar gyffiniau Iudah, ac aeth i ymguddio i ogof. Tra yno, ymwelwyd âg ef gan ei berthynasau a'i gyfeillion. Ymgynnullodd hefyd ato holl wŷr helbulus ac anfoddlawn y wlad, hyd nes y rhifai ei ganlynwyr bedwar cant. Gadawodd ei rieni dan ofal Mispah, brenin Moab. Wedi ei rybuddio gan y prophwyd Gad, gadawodd yr alltud ei ymguddfa, a daeth i goed Hareth, yn nhir Iudah. Clywodd Saul, gan ei fod yn

preswylio ar y pryd yn ei balas yn Gibeah, am y wybodaeth a gawsid yn nghylch Dafydd; ond gan nas gallai ei ddal, dangosodd ei ddigllonedd drwy lofruddio offeiriaid Nob, am iddynt ymddwyn yn garedig tuag at ei elyn. Abiathar, mab Ahimelech, oedd yr unig un a ddiangodd, yr hwn a ymunodd â Dafydd, ac a fu yn offeiriad i'w fyddin.

Ymosodwyd y pryd hyn ar Ceilah, dinas yn perthyn i lwyth Iudah, gan y Philistiaid. Teimlodd Dafydd awydd gyru yr ymosodwyr yn ol; ac ar ol gofyn cyfarwyddyd Duw, efe a aeth allan yn eu herbyn, ac efe a'u gwasgarodd hwynt â lladdfa fawr. Ni wnaeth Saul, yr hwn oedd yn wastadol yn gwylio am gyfle i ddial, ond bwriadu talu drwg i Dafydd am y gymmwynas hon. Parotodd at ymosod ar ddinas o gyfeillion, y rhai oeddynt wedi gyru ymaith eu holl elynion. Ymgynghorodd Dafydd â'r Arglwydd, a deallodd nad oedd yn ddiogel iddo aros yn mysg gwŷr Ceilah; gan hyny, efe a aeth ymaith. Yna, ymgiliodd ar draws mynyddoedd Iudah i anialwch Ziph. Hysbysodd y Ziphiaid i Saul am ddyfodiad Dafydd, ac addawsant ei drosglwyddo i'w ddwylaw. Cychwynodd y brenin allan, gan benderfynu ei gymmeryd. Ffodd yr alltud i anialwch Maon. Erlidiwyd ef i'r lle hwn; a buasent, yn ol pob tebygolrwydd, yn ei ddal y tro hwn, oni buasai i'r brenin gael ei alw yn ol yn ddisymmwth i wrthwynebu y Philistiaid, y rhai a "ymdaenasent ar hyd y wlad." Ar ol hyny, cafodd Dafydd noddfa yn amddiffynfeydd Engedi, yn nghymmydogaeth y Môr Marw.

Mor gynted ag y dychwelodd Saul o'r frwydr, hysbyswyd ef am encilfa Dafydd; ac efe a aeth allan, gyda thair mil o wŷr dewisedig, i chwilio am y ffoaduriaid yn eu hymguddfaoedd creigiog. Tra wrth y gwaith, efe a aeth i mewn i'r ogof yn mha un yr oedd Dafydd a'i wŷr yn ymguddio heb eu canfod. Torodd Dafydd gŵr mantell Saul, a gadawodd iddo fyned ymaith. Ond dilynodd ef yn uniongyrchol, pa fodd bynag, a dangosodd i'r brenin y darn a dorasai o'i fantell. Appeliodd at y weithred fel prawf nad oedd dim digofaint o'i du ef tuag ato; ceryddodd ei ymddygiad gyda gwawdiaith lem, a dadganodd ei ymddiried yn marn ac amddiffyniad yr Hollalluog. Torodd y brenin balch allan i wylo, cyfaddefodd ei drosedd, ac erfyniodd am gyfeillgarwch y brenin dyfodol iddo ei hun ac i'w dŷ dros byth. Caniatawyd y dymuniad, a chadarnhawyd ef drwy lw. Wedi hyn, dychwelodd Dafydd a'i wŷr i'r amddiffynfa.

Wedi gadael Engedi, ymddengys fod y ffoaduriaid wedi bod am gryn amser o ddeutu Carmel ddeheuol, yn anialwch Maon; ac yn fwy neillduol yn Paran, ar gyffiniau de-ddwyreiniol Iudea. Tra yno, ennillodd Dafydd ymlyniad y bugeiliaid a borthent eu praidd yn y tiroedd cyffredin hyn, trwy estyn iddynt ei amddiffyniad. Gwnaeth appeliad annoeth am deyrnged at Nabal, bugail cyfoethog yn y parth hwnw, yr hwn a wrthododd gydsynio â'r cais yn sarhaus. Buasai hyn yn arwain i ddinystr uniongyrchol Nabal a'i holl feddiannau, oni buasai cyfryngiad amserol ei wraig Abigail. Trwy hyny y dygwyd sylw Dafydd at y foneddiges hon gyntaf; ac yn fuan drachefn, gan i'w gŵr farw, efe a'i cymmerodd yn wraig iddo ei hun. Ond yr oedd Dafydd, pa fodd bynag, cyn hyn, wedi priodi Ahinoam, o dref Iezreel, yn llwyth Issachar, yn lle Michael, yr hon a roddasid ymaith gan Saul i Phalti, mab Lais, brodor o Alim, yn nhiriogaeth Benjamin. Anfonodd y Ziphiaid, i gymmydogaeth y rhai yr oedd Dafydd wedi dyfod drachefn, hysbysiad eilwaith i Saul fod ei elyn yn llechu yn mryn Hachilah, yr hwn sydd ar gyfer Iesimon. Gwnaeth yr erlidiwr poethlyd ymgais chwanegol i ddal Dafydd; cymmerodd gydag ef dair mil o wŷr etholedig, a gwersyllasant yn y bryn yn mha un yr ymlochesai y ffoaduriaid. Dygwyd Saul i deimlo caredigrwydd calon yr alltud unwaith yn rhagor. Ymwelodd Dafydd ac Abisai, mab ei chwaer Zeruiah, â gwersyll y brenin liw nos, tra y cysgai y gelynion, a chymmerodd Dafydd y waewffon a'r llestr dwfr oddi wrth obenydd Saul, a dychwelasant yn ddiogel. Effeithiodd y weithred adnewyddol hon o garedigrwydd yn ddwfn ar feddwl y brenin. Teimlodd a chyfaddefodd ei ynfydrwydd a'i ddrygioni, a gwahoddodd Dafydd yn y modd taeraf i ddychwelyd i'r palas. Anfonodd yntau y waewffon yn ol, ac appeliodd at Farnwr yr holl ddaiar, a chyflwynodd ei fywyd i ddwylaw Iehofah; ond gwrthododd nawdd y brenin. Ymadawodd Saul oddi wrtho gan ei fendithio: "Bendigedig fych di, fy mab Dafydd: hefyd ti a wnai fawredd, ac a orchfygi rhag llaw;" 1 *Sam.* xxvi.

Fe welwyd yn fuan fod caredigrwydd Saul yn gyffelyb i "gwmwl y bore, ac fel gwlith boreuol," ac nad oedd yn bwriadu cadw ei addewidion difrifol. Y pryd hyn, er yr holl waredigaethau a gafodd, fe ballodd ffydd Dafydd; a chan edrych yn mlaen, hwyrach, at ryw gynllun newydd a gymmerasid er ei ddinystrio, yr hwn nis gallai wybod pa fodd i'w osgoi, efe a ddywedodd yn ei gyfyngder, "Yn awr dyfethir fi ryw ddydd trwy law Saul." Arweiniwyd Dafydd drwy hyn i'r penderfyniad anhapus o adael gwlad ei enedigaeth, a myned yn alltud i blith y Philistiaid. Ffodd i Gath, dinas yn ncheubarth gwlad y Philistiaid; ac arosodd ef a'i chwe chan ŵr gydag Achis, y brenin. Pan y clywodd Saul am hyn, nid erlidiodd Dafydd mwyach. Preswyliodd Dafydd a'i ganlynwyr yn Gath am beth amser; ond gan iddo weled hyny yn anghyfleus, gofynodd i Achis am dref Siclag yn breswylfa ac yn feddiant iddo ei hun, a chydsyniodd y brenin â'i gais. Yn nhiriogaeth Simeon yr oedd y ddinas hon, nid yn mhell oddi wrth derfyn deheuol Iudah, a'r hon a feddiannasid gan frenin Gath; ond parhaodd yn meddiant breninoedd Iudah byth ar ol hyn. Gwnaeth Dafydd a'i wŷr ruthrgyrch Siclag yn erbyn y Gesariaid, y Gezriaid, a'r Amaleciaid; sef hen breswylwyr Canaan, nad oeddynt eto wedi eu dinystrio, yn ol gorchymyn Duw. Dyma ydoedd y warant i'w dyfetha, a chyflawnwyd hyny o'r braidd yn llwyr y tro hwn. Ar ei ddychweliad, celodd Dafydd y gwirionedd gyda golwg ar ei ymgyrch oddi wrth Achis; a thrwy y dull anmhriodol hwnw, efe a ennillodd ei ymddiried, drwy ei arwain i dybio ei fod wedi ymosod ar ei genedl ei hun. Yn fuan ar ol hyny, penderfynodd y Philistiaid wneyd ymgais chwanegol er goresgyn Israel; ac annogwyd Dafydd gan frenin Gath i barotoi ei fyddin er ymuno â'r gadgyrch oedd i ymosod ar wlad ei dadau. Yn ffodus i wladgarwch Dafydd ar un llaw, ac i'w gyfeillgarwch tuag at Achis ar y llaw arall, gwrthododd tywysogion y Philistiaid i'r tywysog Hebreaidd a'i wŷr ymuno â'u byddinoedd hwynt, a gwnaethant i'r brenin eu troi yn ol; gan hyny, dychwelasant i Siclag. Pan y cyrhaeddasant yno, canfyddasant fod yr Amaleciaid wedi gwneyd ymosodiad

Digitized by Google

ar y wlad, llosgi Siclag, a chludo ymaith eu gwragedd a'u meddiannau. A chydag ephod Abiathar, ymofynodd Dafydd â'r Arglwydd, "A erlidiaf fi ar ol y dorf hon? a oddiweddaf fi hi?" a chafodd annogaeth i wneuthur hyny. Pan y dychwelodd yn fuddugoliaethus, adferodd i bob dyn yr hyn a gymmerasid oddi arno, yn nghyd â rhan o'r ysbail. Rhanodd Dafydd ei ran ef ei hun o'r ysbail rhwng y dinasoedd yn neheubarth Iudah. Yn mhen dau ddiwrnod ar ol i Dafydd a'i wŷr ddychwelyd i Siclag, dygwyd iddynt y newydd gofidus fod Israel wedi eu gorchfygu gan y Philistiaid yn mynydd Gilboa; ac fod Saul a'i dri mab, a'r rhan luosocaf o'u milwyr, wedi cwympo yn y frwydr. Yr Amaleciad a ddygodd y newydd, a ddygodd hefyd goron a breichled Saul fel anrheg i Dafydd; a meddyliodd y gallai ddyrchafu ei hun yn uwch fyth yn ei olwg trwy adrodd yn mhellach ei fod wedi lladd y brenin â'i ddwylaw ei hun. Ond nid oedd Dafydd am ddiystyru "eneiniog yr Arglwydd;" gan hyny, efe a orchymynodd i un o'i weision ladd y llofrudd hunangondemniedig. Er mor oleu a dysglaer oedd rhagolygon yr alltud yn bresennol, toddodd ei galon o'i fewn wrth adgofio am Saul a'i drallodion, ac yn enwedig wrth adgofio am Ionathan a'i farwolaeth annamserol. Rhwygodd Dafydd a'i wŷr eu ddillad, "galarasant hefyd, ac wylasant, ac ymprydiasant hyd yr hwyr, am Saul ac am Ionathan ei fab, ac am bobl yr Arglwydd, ac am dŷ Israel; o herwydd iddynt syrthio trwy y cleddyf."

DYRCHAFIAD DAFYDD I'R ORSEDD.

Nid oedd Dafydd wedi anghofio yr eneiniad a gafodd gan Samuel yn nhŷ ei dad yn Bethlehem; ac wedi ymofyn a derbyn cyfarwyddyd oddi uchod, ymadawodd o wlad y Philistiaid, ar ol bod yn preswylio yno am flwyddyn a phedwar mis (1 *Sam.* xxvii. 7), yn nghyd â'i wragedd a'i ganlynwyr, ac aethant i drigo i Hebron. A thra yno, dewiswyd ef gan lwyth Iudah yn frenin arnynt. Yr oedd Dafydd yn awr yn ddeng mlwydd ar ugain oed. Yr oedd wedi bod yn cael ei erlid gan Saul er pan yn dair ar ugain oed; ac erbyn hyn, gellid tybio fod ei brofiad amrywiol, dan ddylanwad yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd wedi bod yn aros gydag ef er pan arweiniwyd ef i'r swydd freninol, wedi ei gymhwyso i ymgymmeryd â dyledswyddau pwysig y llywodraeth. Yna, daeth Hebron yn ddinas freninol, ac yn brif eisteddle y llywodraeth newydd. Yr oedd y dref yn dra chyfaddas at hyn, gan ei bod yn sefyll yn agos i ganolbwynt tiriogaeth llwyth Iudah, tua dwy filltir ar ugain i'r deheu o Ierusalem; ac o blegid hefyd ei bod yn gyssegredig drwy ei chyssylltiad â hanes Abraham. Cynnyddodd Dafydd ei ddylanwad yn nghyrau pellaf y llywodraeth yn awr drwy ei briodas â Maachah, merch Talmai, brenin Gesur —gwlad ar gyffiniau gogledd-ddeheuol Palestina. Y mae yn rhaid fod y manteision a dderbyniodd drwy hyn, y cyfoeth a gafodd yn ol pob tebyg gydag Abigail, gweddw Nabal y Carmeliad, a'i ddyrchafiad i'r orsedd, wedi peri cyfnewidiad dirfawr yn amgylchiadau Dafydd, ac wedi cynnyddu ei gysuron tymmorol. Tra yn Hebron, ganwyd iddo chwech o feibion, o chwech o wragedd gwahanol.

Ar yr adeg pan y derbyniodd Dafydd lywodraeth llwyth Iudah, penododd Abner, mab Ner, Isboseth, mab y diweddar frenin, i lywodraethu ar y llwythau ereill. Y mae y rhwyddineb gyda pha un y gwnaethpwyd y cyfnewidiadau hyn yn arddangos yn eglur fod y Philistiaid wedi cilio o'r maes. Y mae yn anhawdd dyfalu pa fantais a gymmerasant oddi wrth eu buddugoliaeth. Yn fynych, nid oedd rhyfeloedd y dyddiau boreuol hyn yn ddim amgen nag ymgyrchoedd ysbeilgar; gan hyny, y mae yn debygol eu bod wedi ymgilio i'w gwlad eu hunain i fwynhau eu hysbail, heb ymboeni yn nghylch pwy a gaffai y llywodraeth rhag llaw. Y mae yn debyg hefyd fod enwogrwydd blaenorol Dafydd, a'i gyfeillgarwch diweddar âg Achis, yn attalfa i ymyriad pellach. Fel y gallesid dysgwyl, ni bu y ddau frenin byw mewn heddwch â'u gilydd yn hir. Rhwng llwyth Iudah a llwyth Beniamin yr oedd yr elyniaeth fwyaf; o blegid i'r ddau lwyth hyn y perthynai Isboseth a Dafydd. Aeth Ioab ac Abner, y cadfridogion gwrthwynebol, allan i gyfarfod â'u gilydd i Gibeon, tua phum milltir i'r gogledd o Ierusalem, i roddi prawf ar eu nerth a'u medrusrwydd, fel yr ymddengys. Ond arweiniodd hyn yn y diwedd i frwydr rhyngddynt, yn yr hon y gyrchfygwyd Abner. Bu hyn yn ddechreuad i ryfel cartrefol maith rhwng y ddau benadur, yn ystod pa un, fel y dywed yr hanesydd ysbrydoledig, "yr oedd Dafydd yn myned gryfach gryfach, a thŷ Saul yn myned yn wanach wanach." Y mae yn debygol fod Abner yn canfod y canlyniad anocheladwy; a chan dramgwyddo wrth Isboseth o blegid cerydd haeddiannol a dderbyniodd ganddo (2 *Sam.* iii. 7—10), penderfynodd fabwysiadu achos Dafydd, a gosod i fyny ei awdurdod dros Israel ac Iudah, o Dan i Beersheba. Fel prawf o ddidwylledd Abner, ac hefyd o'i ddylanwad, dywedodd brenin Iudah y byddai raid iddo adferu iddo ef ei wraig gyntaf, Michael, merch Saul, oddi ar Phalti, mab Lais, cyn y deuai i unrhyw ammodau âg ef. Dygodd Abner Michael i'w gŵr cyntaf; ac yna, dechreuodd ddylanwadu ar henuriaid Israel yn ffafr mab Iesse. Pan y daeth meddyliau pawb yn ffafriol, hysbysodd Abner hyny i Dafydd, a chynnygiodd gasglu yn nghyd yr un llwyth ar ddeg i gydnabod eu gwarogaeth iddo, ac i osod eu hunain yn ffurfiol dan ei lywodraeth. Cydsyniodd y brenin â'r cynnygiad. Yn y cyfamser, dychwelodd Ioab, âg anrhaith fawr ganddo, o erlid rhyw elynion cymmydogaethol, a chlywodd am brwyadaeth Abner. Cynhyrfwyd drwgdybiaeth Ioab, ac anfonodd genadon ar ol Abner, yn anwybyddus i'r brenin, ond yn ei enw y mae yn dra thebygol, i Sirah, tua dwy filltir a hanner o Hebron, y rhai a'i dygasant yn ol i'r ddinas; gan ofni, y mae yn ddiammheu, os llwyddai yn ei amcanion, yr ennillai drwy hyny sefyllfa uwch yn y deyrnas nag ef ei hun. Cyfarfu y prif dywysog â'i gydymgeisydd yn y porth, cymmerodd ef o'r neilldu, a lladdodd ef yn y fan, gan gymmeryd arno mai dial gwaed ei frawd Asahel yr oedd (2 *Sam.* ii. 27). Hwyrach mai y weithred hon oedd y gofid cyntaf a brofodd Dafydd yn ei swydd freninol. Ni feiddiai gospi ei nai creulawn yn gyhoeddus, ond amlygodd ei gasineb a'i ddigofaint o blegid y weithred drwy gyhoeddi melldith drom ar Ioab a'i hiliogaeth, a thrwy ddilyn corff Abner gan wylo i'r bedd. Gwrthododd hefyd fwyta bara nes machludo yr haul; ac ennillodd galonau holl Israel trwy ei alar didwyll. Pan y clybu Isboseth am farwolaeth Abner, llaesodd ei ddwylaw, a chyfarfyddodd yntau â'r un dynged yn fuan drachefn. Dialodd Dafydd waed Isboseth ar ei lofruddion, yn ol arfer breninoedd y dyddiau hyny, a chladdodd ef yn meddrod Abner yn Hebron.

Digitized by Google

TEYRNASIAD DAFYDD.

Agorodd marwolaeth Isboseth y ffordd i Dafydd ddyfod i feddiant o'r holl freniniaeth. Ymgasglodd henuriaid o holl lwythau Israel, gyda chorff lluosog o wŷr arfog, i Hebron, a gwahoddasant Dafydd i ymgymmeryd âg awenau y llywodraeth. Cydsyniodd Dafydd â'u cais, ac eneiniwyd ef yn frenin ar yr holl wlad. Dygwyddodd hyn yn mhen ychydig dros ddwy flynedd ar ol ei esgyniad i orsedd Iudah (2 *Sam.* ii. 10). Arosodd y brenin bum mlynedd drachefn yn Hebron, gan gyflawnu yn ddiwyd y dyledswyddau pwysig mewn cyssylltiad â sefydliad a threfniad ei deyrnas eang. Ar ol bod yn preswylio tua saith mlynedd o gwbl yn Hebron, penderfynodd Dafydd symmud eisteddle ei lywodraeth i le mwy cyfleus, neu o'r hyn lleiaf i le cadarnach. Ar gyffiniau Iudah a Beniamin, safai hen ddinas Iebus, yr hon a amgylchynid gan fynyddoedd o bob tu. Hyd yr amser hwn, yr oedd dinas ddyfodol "y brenin mawr" wedi bod yn nwylaw yr Iebusiaid; sef, ei meddiannwyr Canaaneaidd o'r blaen. Er holl nerth mawr amddiffynfa Sïon, ennillwyd hi, a dinystriwyd neu darostyngwyd yr holl Iebusiaid. Ar ol hyny, mabwysiadwyd y ddinas gan Dafydd fel ei ddinas freninol, a chryfhaodd a helaethodd ei hamddiffynfeydd, a rhoddodd neu adferodd iddi yr enw *Ierusalem.* O'r braidd yr oedd wedi gorphen darostwng y Iebusiaid, a dechreu troi ei sylw at ei amgylchiadau ei hun, yn gyhoeddus a theuluaidd, pan yr ymosododd ei hen elynion, y Philistiaid, ar ei diriogaethau. Daethant yn mlaen ddwywaith i ddyffryn Rephaim, yn agos i Ierusalem, a gyrwyd hwynt yn ol â lladdfa fawr; ac yn y diwedd, erlidiwyd hwynt i'w gwlad eu hunain gan yr Israeliaid buddugoliaethus. Yr oedd hon yn un o frwydrau cyntaf Dafydd ar ol ei goroniad; ac "y mae yn deilwng o sylw," medd cyfieithydd dysgedig Josephus, "mai anfynych y byddai Saul, ond y byddai Dafydd yn fynych iawn, yn ymgynghori â Duw drwy yr Urim; ac y byddai Dafydd hefyd yn ymgais yn wastadol am ddibynu, nid ar ei ddoethineb neu ei allu ei hun, ond ar gyfarwyddyd dwyfol." Trwy hyny, byddai Dafydd yn fuddugoliaethus yn ei ryfeloedd, ac ymledaenodd ei enwogrwydd ar bob llaw; "Ac enw Dafydd a aeth drwy yr holl wledydd; a'r Arglwydd a roddes ei arswyd ef ar yr holl genedloedd;" 1 *Cron.* xiv. 17.

Yr oedd Ierusalem wedi ei rhagordeinio hefyd i gael ei henwogi yn fwy fyth, drwy gael ei gwneyd yn lle i gynnal cyflawniadau arbenigol y grefydd Iuddewig; a thrwy hyny, daeth yn ganolbwynt i'r genedl mewn ystyr gwladol a chrefyddol. Dyrchafwyd yr offeiriaid a'r Lefiaid o'r sefyllfa isel i ba un y darostyngwyd hwynt gan Saul. Yr oedd arch y dystiolaeth wedi bod yn gorwedd yn Ciriath-iearim er ys amryw flyneddoedd; ac yr oedd yr Israeliaid wedi anghofio ei gwerth a'i gwasanaeth. Ond gwahoddodd Dafydd ei holl ddeiliaid, ac yn neillduol yr offeiriaid a'r Lefiaid, i ymgasglu yn nghyd i'w chludo i'r ddinas freninol. Dygwyd hi i mewn yn nghanol llawenydd, bloddest, a sain udgorn holl Israel; a Dafydd ei hun "a ddawnsiodd â'i holl egni ger bron yr Arglwydd." Meddyliodd Michal fod ymddygiad ei gŵr yn anaddas i urddas brenin, a cheisiodd ei watwar o blegid hyny; ond ni dderbyniodd ond cerydd llym. Yn y cyfamser, dodwyd yr arch yn ddiogel yn y babell a barotoisid iddi gan Dafydd (2 *Sam.* vi. 17); wedi hyny, aeth y brenin yn mlaen i drefnu y gwahanol raddau o offeiriaid a chantorion, a swyddogion ereill, yn ol gwasanaeth y cyssegr; yr hwn waith a ddygwyd i raddau mawr o berffeithrwydd ganddo cyn hir: 1 *Cron.* xxiv, xxv, a xxvi.

Gan fod Dafydd yn ei ganfod ei hun yn awr mewn heddwch â'i gymmydogion, a'i fod yn mwynhau llwyddiant teuluaidd a gwladol, dechreuodd feddwl am ei ddyledswyddau tuag at Dduw, oddi wrth yr hwn yr oedd ei holl lwyddiant wedi deilliaw. Trwy gymharu gorwychder ei balas o goed cedrwydd â'r babell wael yn yr hon yr oedd arch yr Arglwydd, meddyliodd am y bwriad ardderchog o gyfodi adeilad brydferth a pharhaol i'w dodi ynddo. Cymmeradwyodd Nathan y prophwyd yr amcan ar y cyntaf; ond y noswaith hono, cyfarwyddwyd ef gan Dduw i ddyweyd wrth Dafydd fod bwriadau ei galon yn gymmeradwy; eto, nas gellid defnyddio ei wasanaeth personol ef yn nghyfodiad yr adeilad gyssegredig, o blegid fod gwaed ar ei ddwylaw. Aeth cenadwri gwr Duw yn mlaen i ddadgan i Dafydd a'i dŷ addewidion gwerthfawr—addewidion tra chymhwys, nid yn unig i ennill ei gydsyniad â'r trefniant dwyfol, ond hefyd i gynnyrchu ynddo y teimladau o fawl a arddangosir ganddo: 2 *Sam.* vii; 1 *Cron.* xvii. Aeth Dafydd, gan hyny, yn llawen at y gwaith o ddarparu arian a phob peth angenrheidiol yn y cyfamser, at y gorchwyl gogoneddus oedd yn aros ei fab.

Yn fuan ar ol hyn, aeth y brenin i'r maes; a bu yn rhyfela, y naill ar ol y llall, â'r Philistiaid, y Moabiaid, y Sobahiaid, a'r Edomiaid. Yr oedd y fuddugoliaeth a gafodd ar y Philistiaid yn derfynol. Cymmerwyd amryw drefi, a gosodwyd hwynt dan deyrnged i Israel. Ymosodwyd yn nesaf ar y Moabiaid, a gorchfygwyd hwynt yn hollol. Rhoddwyd dwy ran o dair o honynt i farwolaeth (2 *Sam.* viii. 2), a daeth y gweddill yn ddeiliaid i Dafydd. Yna, cyfeiriwyd byddin fuddugoliaethus Israel yn erbyn y Sobahiaid; sef llwyth, yn ol pob tebygolrwydd, o'r Syriaid gogleddol, a breswylient yn agos i'r Euphrates. Yr oedd Hadadezer, eu brenin, yn ceisio adennill ei gyffiniau wrth yr afon hon, pan yr ymosododd Dafydd arno. Daeth Syriaid Damascus i gynnorthwyo eu cymmydogion; ond gorchfygodd Israel y ddwy fyddin, cymmerwyd llawer yn garcharorion, gosodwyd milwyr yn Damascus trethwyd ei thrigolion, a dygwyd ymaith anrhaith mawr, yn gynnwysedig o bres, arian, ac aur, yr hwn a gyssegrwyd i Dduw, ac a ddefnyddiwyd gan Solomon wedi hyny wrth adeiladu y deml: 1 *Cron.* xviii. 8. Ni nodir yn yr hanes ysgrythyrol ond canlyniadau y rhyfel âg Edom, a hyny yn null byr a chynnwysfawr cyffredin y Beibl. Gosodwyd penaethiaid ar yr holl wlad, "a bu holl Edom yn weision i Dafydd." Ymddengys fod y drigeinfed Salm wedi ei hysgrifenu yn union cyn y frwydr ddiweddaf hon, a chyflawnwyd ei hymadroddion olaf yn hollol. Trwy Dduw y gwnaeth gwyr Israel wroldeb; canys efe oedd yr hwn a sathrodd eu gelynion. Yn ystod yr ychydig amser a ddilynodd hyny, neillduodd Dafydd ei hun yn ddiwyd at ddyledswyddau ei swydd. Nis gallai lai na bod hyn yn angenrheidiol, ar ol cymmaint o ryfelgyrchoedd, a'r fath absennoldeb hirfaith. Nodir allan yn ddigon amlwg alluoedd Dafydd at lywodraethu, a'r medrusrwydd a ddangoswyd ganddo ar yr amgylchiad hwn, gan yr hanesydd ysbrydoledig. "Ac yr oedd Dafydd yn gwneuthur barn a chyflawnder i'w holl bobl." Yn ystod yr amser

hwn y cafodd y brenin bamdden i goflo am ei anwyl Ionathan, ac i ddangos caredigrwydd at Mephiboseth, yr unig un o feibion Ionathan ag oedd yn fyw, er mwyn ei dad. Syrthiodd y penadur ar ei wyneb ger bron ŵyr Saul, ymgrymodd o'i flaen, adferodd iddo holl feddiannau ei daid, a gwnaeth iddo fwyta yn wastadol wrth y bwrdd breninol. Tua yr amser hwn, bu farw brenin Ammon, a dilynwyd ef i'r orsedd gan ei fab, Hanun. Gan chwennych i'r un cyfeillgarwch barnau rhyngddo a Hanun ag oedd rhyngddo a'i dad o'i flaen, anfonodd Dafydd genadau i'w gysuro yn ei drallod o blegid marwolaeth ei dad. Dan ddylanwad annogaeth ei dywysogion, anfonodd y brenin ieuanc wŷr Israel yn ol wedi eu trin yn gywilyddus. Digiodd Dafydd o blegid y sarhad. Anfonwyd Ioab, a holl wŷr etholedig y fyddin, i ddial y dirmyg a'r anfri. Ceisiodd yr Ammoniaid gymhorth Syriaid Beth-rehob, Zobah, Maachah, ac Istob—byddin unedig pa rai a rifai amryw filoedd. Pan y gwelodd Ioab y gallu mawr ag oedd wedi ymgasglu i'w gwrthwynebu, dewisodd ei wŷr etholedig i fyned gydag ef i ymosod ar y cynghreiriaid, a gyrodd ei frawd gyda'r gweddill o'i fyddin i wynebu yr Ammoniaid. Ffodd y Syriaid o flaen y cadfridog Hebreaidd, a dilynodd yr Ammoniaid eu hesampl. Ar ol dianc rhag dinystr y tro hwn, ni bu y Syriaid yn hir cyn ffurfio cynllun i wneyd ymosodiad drachefn, a daethant allan gydag adgyfnerthion mawrion o'r tu hwnt i'r Euphrates, gyda Sobach, tywysog llu Hadarezer, yn flaenor iddynt. Gosododd Dafydd ei hun o flaen ei fyddinoedd, a chyfarfu â'r gelynion yn Helam, tu hwnt i'r Iorddonen, a gorchfygodd hwynt â lladdfa fawr. Rhoddodd hyn derfyniad ar elyniaeth y Syriaid, a therfyniad ar y rhyfelgyrch am y tymmor.

Yn niwedd y gauaf, anfonodd Dafydd Ioab â'i fyddin yn erbyn yr Ammoniaid. Distrywiodd y tywysog Hebreaidd lawer o honynt, a gwarchaeodd Rabbah, eu prif ddinas. Arosodd y brenin yn Ierusalem; a thra yr oedd ei filwyr yn rhyfela, temtiwyd ef i gyflawnu y trosedd ysgeler yn erbyn Bathseba a'i gŵr, Urias yr Hethiad, yr hwn a erys yn ystaen ar ei gymmeriad yn dragywydd. Ymddangosai pob peth fel yn myned yn mlaen yn dda ar y cyntaf: llwyddai ffordd drygioni. Yr oedd pob amgylchiad mewn cysylltiad â'r anfadwaith wedi ei drefnu yn foddhaol. Ond yr oedd ad-daliad ger llaw. "A'r Arglwydd a anfonodd Nathan at Dafydd;" a hyny gyda chenadwri yn dwyn argraff ysbrydoliaeth arni. Arweiniodd y prophwyd y brenin euog, ar y cyntaf yn ddiarwybod, ond wedi hyny gyda difrifoldeb mawr, i'w gondemnio ei hun, ac i edifarhau "mewn llwch a lludw." Y mae *Salm* li, yr hon a ysgrifenwyd ar y pryd, yn gosod allan mewn iaith gref sefyllfa ei ysbryd edifeiriol, a'r llwybr drwy ba un y cafodd faddeuant, glanhâd, a thangnefedd i'w enaid euog, llygredig, a therfysglyd. Yn y cyfamser, yr oedd Ioab yn myned yn mlaen i warchae Rabbah; a chan ei fod agos ag ennill yr holl ddinas, gwahoddodd y brenin i ddyfod gydag adgyfnerthion i orphen y fuddugoliaeth. Aeth Dafydd, cymmerodd Rabbah, anrheithiodd y ddinas, a darostyngodd ei thrigolion i gaethiwed: 2 *Sam.* xii. 29—31. Ymddengys fod y fuddugoliaeth hon, a'i chanlyniadau i'r Ammoniaid, wedi effeithio er attal y cenedloedd cymmydogaethol rhag gwneyd ymosodiadau pellach ar Israel. Bu y genedl ddewisedig yn rhydd oddi wrth ruthrgyrchoedd tramor am ddeuddeg neu bedair ar ddeg o flynyddoedd ar ol hyn.

Torwyd ar heddwch Dafydd a'i bobl cyn hir drachefn. Yn y palas y bu y cythrwfl cyntaf. Nid ydyw hyn yn beth i'w ryfeddu yn fawr, pan ystyriom mor amrywiol oedd y teulu a ymgasglai at y bwrdd breninol. Yr oedd dau ar bymtheg, o'r hyn lleiaf, o feibion, heb law merched (2 *Sam.* iii. 2—5; v. 3—16: 1 *Cron.* iii. 1—9), yn bresennol—y cwbl o ba rai oeddynt blant cyfreithlawn i Dafydd ei hun; ond y mae lle cryf i feddwl mai plant i wahanol famau oedd y meibion i gyd, oddi eithr pedwar mab Bathseba. Yn y fath amgylchiadau, yr oedd eiddigedd ac ymrafaelion yn anocheladwy. Yr oedd y canlyniadau yn yr achos presennol yn dra gofidus. Twyllodd a darostyngodd Amnon, mab hynaf y brenin, o Ahinoam, Tamar, chwaer gyflawn Absalom, mab Maachah. Cynhyrfodd hyn ddigofaint brawd Tamar; ac wedi aros yn amyneddgar ddwy flynedd am gyfleusdra, dialodd gamwri ei chwaer trwy ladd Amnon. A diangodd y brawdleiddiad yn uniongyrchol at ei daid, Talmai, brenin Gesur, am amddiffyniad. Dyna y fath ydoedd rhai o ffrwythau anhapus ynfydrwydd y brenin. Gwnaethpwyd ei ferch brydweddol yn druenus; gyrwyd ei fab hynaf i fedd gwaradwyddus; ac aeth ei anwyl fab Absalom yn llofrudd, ac yn alltud o dŷ ei dad. Galarodd ac wylodd Dafydd.

Ond nid oedd hyn ond dechreuad gofidiau. Yn mhen tair blynedd, trwy ddichell o eiddo Ioab, dygwyd Absalom yn ol i Ierusalem (2 *Sam.* xiv); ac yn mhen dwy flynedd drachefn, derbyniwyd ef i bresennoldeb Dafydd, ac adferwyd ef i serch y brenin. Ond dechreuodd amcanion ereill cyn hir danio uchelgais y tywysog ieuanc. Yr oedd ei dad erbyn hyn wedi cyrhaedd ei drigeinfed flwyddyn, ac y mae yn debyg fod ei feibion hynaf oll yn awyddus am ei ddilyn i'r orsedd. Arferodd Absalom bob moddion o fewn ei gyrhaedd am yr ysbaid o bedair blynedd[1] i ennill calonau y bobl, ac i ennill dylanwad yn y wlad. Pan y tybiodd fod pob peth yn barod, gofynodd am ganiatad gan ei dad i fyned i Hebron, dan yr esgus o dalu ei adduned i'r Arglwydd. Aeth dau gant o wŷr allan o Ierusalem gyda'r tywysog; ond yr oeddynt yn anwybodus yn nghylch yr hyn oedd ganddo mewn golwg. Yn Hebron, cyfodwyd i fyny faner gwrthryfel. Anfonodd Absalom am Ahitophel, un o gynghorwyr Dafydd, o Gilo, ei ddinas enedigol, i arwain y symmudiad. Casglai y cydfradwriaeth nerth y naill ddydd ar ol y llall; a chyrhaeddodd y newydd cyffrous cyn hir glustiau y brenin, fod "calon gwŷr Israel ar ol Absalom." Dychrynodd y brenin oedranus, a ffôdd o'r ddinas, yn cael ei ddilyn gan y Cerethiaid a'r Pelethiaid, ei gorfflosgordd, yn nghyd â'r chwe chan ŵr a ddaethant ar ei ol ef o Gath. Chwennychai y Lefiaid hefyd fyned gyda'r arch; ond gwarafunodd y brenin iddynt trwy ymadroddion a arddangosent ei fod yn ymostwng i ewyllys Duw: 2 *Sam.* xv. 25, 26. Anfonwyd Husai, yr Arciad, cyfaill ffyddlawn a phrofedig i Dafydd, yn ol i Ierusalem, lle y caffai gynnorthwy Zadoc ac Abiathar yr offeiriaid, i wneyd ei oreu ar ran y

[1] Dywedir yn 2 *Sam.* xv. 7, "deugain mlynedd." Y mae yn amlwg mai camgymmeriad ydyw hyn o eiddo rhyw adysgrifenydd. Ysgrifena Josephus "pedair blynedd." Dyna ydoedd darlleniad yr hen Ddeg a Thrigain hefyd, oddi wrth yr hwn y gwnaethpwyd y cyfieithiad Armeniaidd, yn y bummed ganrif. Ac y mae y nifer "pedwar" yn cyfateb yn well i drefn y dygwyddiadau yn yr hanes.

Digitized by Google

brenin; ac os byddai yn bosibl, i ddyrysu amcanion y cydfradwyr. Yna aeth y brenin a'i gyfeillion yn mlaen ar eu taith ar draws afon Cedron, dros fynydd yr Olewydd, gan wylo, a chyrhaeddasant Bahurim, tref yn llwyth Beniamin, dair neu bedair milltir i'r gogledd o Ierusalem. Tra yn y lle hwn, melldithiwyd y brenin trallodedig gan Simei, perthynas i Saul; ond yr oedd meddwl Dafydd yn rhy derfysglyd o achos ymddygiad annaturiol ei fab, ac yn rhy bryderus am wybod canlyniadau y cythrwfl, i feddwl am gospi trosedd un Beniaminiad sarhaus. Y mae y Salmau (iii. hyd vii; xli. hyd xliv; a'r lv), y rhai a gyfansoddwyd yn ystod yr adeg brofedigaethus hon, yn cynnwys arddangosiad bywiog o deimladau drylliog Dafydd dan ei helbulon; ond ar yr un pryd, y maent yn cynnwys esampl addysgiadol o ymostyngiad duwiolfrydig, o weddïau didwyll a dibaid, ac o ymddiried sefydlog yn ngharied a ffyddlondeb yr Arglwydd.

Yn y cyfamser, yr oedd y gwrthryfelwyr wedi symmud o Hebron, ac wedi cymmeryd meddiant o Ierusalem. Ymunodd Husai hefyd â phleidwyr Absalom, gan fod yn ewyllysgar, yn ol fel y dywedai, i wasanaethu y brenin a ddewisid gan yr Arglwydd, a holl wŷr Israel. Daeth yn gydymgeisydd âg Ahitophel mewn cynghori a chyfarwyddo y tywysog gwrthryfelgar. Buasai y diweddaf yn erlid ar ol y brenin yn uniongyrchol; ac y mae yn dra thebygol y buasai y fath frwydr yn llwyddiannus. Ond cynghorai Husai, gydag ymddangosiad o ochelgarwch, ar fod i holl Israel ymgasglu yn nghyd dan Absalom fel eu harweinydd, rhag y byddai i wŷr dewrion a phrofiadol Dafydd brofi yn rhy drech i fyddin o filwyr newyddion a dibrofiad. Ac yn ol cynghor Husai y gwnaethpwyd. Dyna gymmaint ag oedd yn angenrheidiol. Cafodd Dafydd, drwy hyny, amser i ffoi, i chwilio am gymhorth, ac i ddarparu gogyfer â'r gwaethaf. Prysurodd i Mahanaim, ar ochr ddwyreiniol yr Iorddonen, lle y derbyniodd ei ganlynwyr gyflawnder o ymborth gan Sobi, tywysog yn mysg yr Ammoniaid, a chan Machir a Barzilai, tywysogion cyfoethog yn Gilead. Croesodd Absalom hefyd yr Iorddonen, a daeth rhyngddo a Mahanaim, â'i holl alluoedd dan Amasa, nai i Dafydd, fel eu harweinydd, a gwersyllasant yn ngwlad Gilead. Gan fod miloedd o'i wŷr yn awr yn amgylchynu Dafydd, a chan fod ganddo y fath arweinwyr profiadol, ni phetrusodd gyfarfod â'r gwrthryfelwyr ar y maes. Dosbarthodd ei fyddin i'r tri cadfridog Ioab, Abisai, ac Ittai y Gethiad. Ar ddymuniad y bobl, arosodd Dafydd ei hunan yn y ddinas. Y mae yr unig ran o gyfarwyddiadau y brenin i'w gadbeniaid ag sydd ar gael yn dra tharawiadol, ac arddengys deimladau tyner y tad oedranus tuag at ei fab annheilwng. "Byddwch esmwyth, er fy mwyn i, wrth y llanc Absalom." Cyfarfu y ddwy fyddin â'u gilydd yn nghoed Ephraim; ennillwyd buddugoliaeth lwyr gan blaid y brenin; ac er i'w dad orchymyn yn wahanol, fe laddwyd Absalom trwy law Ioab. Gordöwyd y tad oedranus â thristwch o blegid marwolaeth ei fab, a galarodd am dano mewn arddull mor dyner a theimladwy nas gellir rhagori arni. Digalonwyd y bobl yn ddirfawr gan yr ymddygiad hwn, o blegid yr hyn y meiddiodd Ioab roddi cerydd llym i'w benadur. Ar hyn, attaliodd y brenin ei alar. Ar wahoddiad y bobl, dychwelodd Dafydd yn ol i'w orsedd. Cyfarfu gwŷr Iudah âg ef yn Gilgal, i'w arwain dros yr Iorddonen, ac i'w ddilyn i'r ddinas mewn llawenydd. Gyda'r rhai hyn yr oedd Simei, yr hwn yn flaenorol a'i melldithiasai, gyda mil o Beniaminiaid, yn barod i roddi croesawiad iddo ac i'w anrhydeddu. Erfyniodd am, a derbyniodd, faddeuant y brenin. Dangosodd Dafydd ei hun yn dra diolchgar i'r rhai oll a fuont garedig wrtho yn ei drallod. Pan y canfyddodd y llwythau ereill fod llwyth Iudah wedi eu blaenori yn eu harddangosiad o'u llawenydd a'u teyrngarwch ar yr achlysur o ddychweliad y brenin, digiasant a dygasant gŵyn yn erbyn eu brodyr. Ar ol ymrafael dibwys, fel y dygwydd yn gyffredin (2 *Sam.* xix. 41—43), cymmerodd dyn o gymmeriad isel o'r enw Seba, mab Bichri, o lwyth Beniamin, arno ei hun wahodd gwŷr Israel i wrthryfel drachefn. Dan ddylanwad yr ymrafael a grybwyllwyd, "holl wŷr Israel a aethant i fyny oddi ar ol Dafydd, ar ol Seba, mab Bichri." Gorchymynwyd i Amasa, yr hwn a benodasid yn lle Ioab yn brif dywysog, i gasglu yn nghyd wŷr Iudah yn mhen tri diwrnod. Gan na ddaeth yn yr amser penodedig, anfonwyd Abisai gyda gwarchodlu y brenin i erlid ar ol mab Bichri. Yn Gibeon, cafodd Ioab eiddigeddus gyfleusdra i ladd Amasa, ei gefnder; ac yna, erlidiodd ar ol Seba, a gwarchauodd ef yn Abel-Bethmaachah, cyn iddo gael amser i gasglu yn nghyd ei bleidwyr. Darbwyllwyd trigolion Abel, gan eu bod yn ofni anrhaith rhyfel, drwy gynghor gwraig ddoeth, i dori pen Seba, a'i daflu dros y mur (2 *Sam.* xx. 14—18), ac felly y terfynodd y gwrthryfel newydd hwn.

Yn mhen ychydig amser ar ol hyn, ymwelwyd â thir Israel â thair blynedd olynol o newyn. Wedi i Dafydd ymofyn â'r Arglwydd yn nghylch, achosion y newyn, ac erfyn am ei symmudiad deallodd nad oedd cospedigaeth Saul a'i dŷ am eu hysgelerderau eto wedi ei gyflawnu. Rhoddwyd saith o hiliogaeth y brenin diweddaf i'r Gibeoniaid, y rhai y bu agos i Saul eu dinystrio yn hollol, yn groes i'r cytundeb a wnaeth Iosuah, a chrogwyd y saith yn Gibeah gan weddill y bobl hyny. Casglodd Dafydd hefyd esgyrn Saul a Ionathan, yn nghyd âg esgyrn y rhai a drengasant, ac anfonwyd hwynt i feddrod Cis, yn Sela, yn agos i gyffiniau deheuol Beniamin. Ar ol y pethau hyn, "bu Duw foddlawn i'r wlad," a symmudwyd y newyn. Ond er hyny, ni therfynodd gofidiau Dafydd. Yr oedd pedwar o feibion i'r cawr o Gath wedi tyfu i fyny erbyn hyn, ac yr oeddynt wedi penderfynu dial gwaed eu tad; a chan eu bod yn tybio fod sefyllfa derfysglyd bresennol Israel yn ffafriol i'w hamcan, ymosodasant ar y tiriogaethau Iuddewig. Cofnodir pedair o frwydrau dilynol (2 *Sam.* xxi. 15—22); yn y gyntaf o ba rai, bu agos i Dafydd gael ei ladd. Cadwyd ef gan ei swyddogion ffyddlawn rhag pob perygl o hyny allan, drwy ei attal i fyned allan gyda hwynt i ryfel, a darostyngwyd y Philistiaid unwaith yn rhagor, a hyny yn derfynol y tro hwn. Wedi i Dafydd gael ei waredu fel hyn yn hollol o ddwylaw ei holl elynion, tywalltodd allan deimladau diolchgar ei galon gynhes yn iaith wresog y ddeunawfed Salm. Ond y mae amser o heddwch a llwyddiant yn aml yn amser o berygl ac adfyd. Fe chwennychodd yr penadur rhyfelgar, yn ffolineb ei galon, gael gwybod rhifedi ei filwyr. Goddefodd yr Arglwydd, ac annogwyd ef i'w rhifo gan Satan. Gwnaethpwyd y cyfrifiad; ond canfyddodd Dafydd ei ffolineb cyn pen nemawr o amser. Ennynodd hyn ddigllonedd yr Iehofah, a dangosodd, trwy dori i lawr ddeng mil a thri-

Digitized by Google

gain o bersonau yn yr ysbaid byr o naw awr, na ddylasai y brenin un amser ymddibynu ar nifer ei filwyr. Edifarhaodd Dafydd, ac erfyniodd am faddeuant drwy weddi ac aberth; ac attaliwyd llaw yr angel dinystriol.

MARWOLAETH DAFYDD.

Yr oedd Dafydd erbyn hyn o'r braidd wedi cyrhaedd yr oedran o ddeng mlynedd a thrigain; ac yr oedd yn dechreu teimlo, trwy fod ei gyfansoddiad yn llesgau, mai y nifer hwn a fuasai rhifedi "dyddiau ei flyneddoedd." Yr oedd yr adeg hon yn adeg ffafriol i unrhyw ymgeisydd hòni ei hawl i'r llywodraeth. Anturiodd Adonïah, pedwerydd mab Dafydd, wthio ei hun yn mlaen, a chefnogwyd ef yn ei amcan gan Ioab, y prif gadben, ac Abiathar yr offeiriad. Safodd gwŷr cedyrn ereill Dafydd o'r neilldu. Cyfarwyddodd Nathan Bathseba i hysbysu y peth i'r brenin, ac i'w adgoffa o'i addewid yn ffafr ei mab hi. Ni chollodd Dafydd ddim amser, ond cymmerodd y cam penderfynol o eneinio Solomon yn ddilynydd iddo, a chyhoeddwyd ef yn frenin ar holl Israel. Cafodd hyn yr effaith a ddymunid. Cydnabyddodd y bobl eu brenin newydd. Mewn canlyniad i hyn, gwasgarodd plaid Adonïah, a llanwyd calon yr hen benadur â llawenydd. Ond yr oedd amser Dafydd yn werthfawr y pryd hyn, canys yr oedd adeg ei ymddattodiad ger llaw. Aeth yn uniongyrchol at y gwaith o drosglwyddo ei holl ofalon cyhoeddus a swyddol i ddwylaw Solomon. Ac yn gyntaf, ac yn benaf oll, ymddiriedodd iddo y gwaith o adeiladu teml Iehofah. Yr oedd hyn wedi bod yn bwnc o bryder mawr ganddo er ys blyneddoedd; yr oedd wedi gwneuthur darpariadau mawrion ar ei gyfer; ac yn awr, trosglwyddodd i'w fab gynllun dwyfol o'r adeilad ardderchog (1 *Cron.* xxviii. 11), yn nghyd â thua 46,000 o dynelli o aur ac arian, heb law swm helaeth o bres, a phethau ereill angenrheidiol ato. Drachefn, casglwyd yn nghyd y llywodraethwyr a'r bobl; cyhoeddwyd a chydnabyddwyd Solomon fel eu brenin dyfodol; ac annogwyd y brenin, yn nghyd â'i ddeiliaid, i fod yn ffyddlawn i'w Deddfroddwr mawr, a hyny gan un a lefarai oddi ar brofiad; yr hwn a sicrhäai iddynt na chollent eu gwobr: ac yn neillduol, erfyniwyd ar i'r tywysogion a'r llwythau gynnorthwyo y brenin ieuanc yn y gwaith mawr yr oedd ar fin ei gymmeryd mewn llaw; ac er profi didwylledd eu haddewidion, ac er rhoddi i Dafydd dystiolaeth eglur o'u parodrwydd a'u cymhwysder i ddechreu a gorphen yr adeilad cyssegredig, rhoddwyd cyfleusdra i bob un i gyfranu yr hyn a welai yn dda at yr anturiaeth fawreddog. Atebwyd yr appeliad breninol mewn modd gwirioneddol haelionus: 1 *Cron.* xxix. 6—9. Llanwyd calonau y bobl a'r tywysogion â llawenydd mawr, pan welsant swm anferth eu hoffrwm gwirfoddol; "a Dafydd y brenin hefyd a lawenychodd â llawenydd mawr." Rheoleiddiwyd gorlawenydd "peraidd ganiedydd Israel" gan ei dduwioldeb, ac amlygodd ei ddiolchgarwch mewn hyawdledd mor danbaid a dim sydd i'w gael yn y gyfrol ysbrydoledig. Ymunodd yr holl gynnulleidfa mewn bendithio a moliannu Duw, ac offrymasant boethoffrymau ac ebyrth "yn lluosog dros holl Israel."

Gellir dyweyd am Dafydd, ei fod wedi gorwedd i lawr i farw mewn tawelwch ar ol yr olygfa aruchel a gogoneddus hon. O blegid oddi eithr rhyw ychydig o gyfarwyddiadau i Solomon (1 *Bren.* ii. 1—9), ni chofnodir un weithred gyhoeddus o'i eiddo yn yr hanes cyssegredig ar ol hyny. Nid ydyw yn annhebygol na threuliodd yr ychydig oedd yn weddill o'i einioes i chwanegu at nifer y caniadau ysbrydoledig sydd wedi bod yn gweinyddu cysur ac addysg i Israel Duw yn mhob oes. Yn y salmau hyn [gwel LLYFR Y SALMAU], y mae y peraidd ganiedydd yn ymddangos, nid yn unig fel dysgawdwr yr eglwys trwy ei brofiad amrywiog a'i gyrhaeddiadau uchel mewn gwir grefydd, ond hefyd fel prophwyd ysbrydoledig i'r Arglwydd, yn "rhagdystiolaethu dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny." Ond o'r diwedd, ymgauodd cysgodion yr hwyr am y gŵr oedd wrth fodd calon Duw ei hun. Bu farw, ar ol bod yn teyrnasu am ddeugain mlynedd, yn ddeg a thrigain mlwydd oed, "yn gyflawn o gyfoeth ac anrhydedd."

Y mae yn ddiau fod cynneddfau meddyliol Dafydd o radd uchel. Yr oedd ei gyrhaeddiadau mewn llenyddiaeth, cerddoriaeth, a barddoniaeth, yn dra rhagorol; ac y maent yn dra chyfaddas i'w gyfodi yn uchel i radd enwogion yn y canghenau hyny o ddysgeidiaeth. Fel gŵr o ryfel, yr oedd yn nodedig o wrol a llwyddiannus. Yr oedd ei ymddygiad cyffredinol yn cael ei hynodi gan haelfrydedd, uniondeb, mawrfrydigrwydd, gweithgarwch, a diwydrwydd. Ac yr oedd ei nodweddiad crefyddol, er nad yn ddifrycheulyd, yn cael ei addurno yn ei flyneddoedd diweddaf gan dduwiolfrydedd didwyll, brwdfrydig, a dyrchafedig.

Y mae yr enw Dafydd yn cael ei roddi weithiau yn yr Ysgrythyrau ar y Messïah: *Ezec.* xxxiv. 23, 24; *Hos.* iii. 5.

Pan y lleferir am Dafydd fel "gŵr wrth fodd calon Duw" (1 *Sam.* xiii. 14; *Act.* xiii. 22), y mae yn eglur mai at ei nodwedd cyffredinol y cyfeirir, ac nid at bob ymddygiad o'i eiddo, yn gystal ag at ei ddewisiad gan yr Arglwydd i esgyn i orsedd Israel. Fel brenin, yr oedd yn amcanu yn barhaus at gyflawnu amcanion y Iehofah. Ymostyngai i egwyddorion y llywodraeth ddwyfol; bu yn ffyddlawn i'w gyfammod breninol, ac ni ddefnyddiodd ei ddyrchafiad i foddhau uchelgais personol, neu i gyrhaedd amcanion hunangeisiol. Cymhellid ei wroldeb eofn gan y gwladgarwch mwyaf didwyll; yr oedd dedwyddwch ei bobl yn gorwedd yn agos at ei galon, ac yr oedd ei fraich yn wastadol yn barod i gospi y gorthrymwr. Ni phetrusai un amser, pan y byddai sefyllfa y wlad yn gofyn hyny, gyfnewid ei goron am helm, a'i deyrnwialen am gleddyf, ac arwain ei fyddinoedd yn bersonol i ryfel a buddugoliaeth. Yr oedd yn teimlo nad ydoedd ef ond megys dirprwywr i Dduw, a'i fod yn ddiogel rhag aflwyddiant tra y gwasanaethai y Brenin Mawr. Ond eto, fel dyn, yr oedd llawer o ffaeleddau ysgeler yn ei gymmeriad. Amgylchynid ef gan demtasiynau, a byddai yn ymollwng iddynt yn achlysurol. Nid ydyw y Beibl yn cuddio ei lithriadau, nac yn ceisio eu cyfiawnhau na'u hysgafnhau. Fel dyn, yr oedd yn anmherffaith; a phan y pechai, byddai Duw yn ei geryddu, a hyny yn dra llym. Y mae yn rhaid y byddai ymrafaelion ei deulu, a'r diffyg cariad mawr a ddangosai y naill tuag at y llall, a thuag ato yntau ei hun, yn poeni ei feddwl yn ei hen ddyddiau yn ddirfawr. Ei elynion penaf oedd tylwyth ei dŷ ei hun. Nid oedd y gorchymynion a roddwyd ganddo ar ei wely angeu i Solomon, gyda golwg ar ladd Simei a Ioab, &c., yn cyfodi oddi ar chwant am ddial personol; ond gwnai hyny oddi ar yr ystyriaeth mai bradwyr oeddynt, ac y gallent beryglu heddwch y genedl

Digitized by Google

dan frenin ieuanc ac anmhrofiadol. Yr oedd dwysder ei edifeirwch yn cyfateb i ysgelerder ei bechodau. Y mae cwynfanau ei galon, yr hon oedd bron a thori dan bwys ei gyfeiliornadau, i'w clywed mewn amryw o'i Salmau. Gyda'r fath ysbryd drylliog y mae yn gwaeddi o'r dyfnder, yn *Salm* li. 3, 4, 17:—"Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau: a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron. Yn dy erbyn di, tydi dy hunan, y pechais, ac y gwnaethym y drwg hwn yn dy olwg: fel y'th gyfiawnhäer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech......Aberthau Duw ydynt ysbryd drylliedig: calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi." Gorweddai yn isel yn y llwch o flaen y Duw yr oedd wedi pechu yn ei erbyn; ac efallai mai y dyn mwyaf gostyngedig yn yr holl genedl oedd yr hwn a eisteddai ar ei gorsedd. Rhoddai yr elfenau hyn o brofiad crefyddol aiddgarwch iddo yn ngwasanaeth Duw, a chadwent ef rhag yr agoshad lleiaf at eilunaddoliaeth. Derbyniodd ef yr anrhydedd o gael bod yn offerynol i gyflawnu y cyfammod a wnaethpwyd â thad y ffyddloniaid; canys efe a sefydlodd lywodraeth Israel, gan estyn ei chyffiniau i derfynau eithaf yr addewid a roddwyd i Abraham; a gadawodd ar ei ol ymherodraeth unedig, yn cyrhaedd o'r Aipht i Lebanon, ac o'r Euphrates i Fôr y Canoldir.

Yr oedd ei deimladau crefyddol yn angerddol. Pan y gorfodwyd ef i ffoi oddi ar ffordd mab annaturiol a gwrthryfelgar, cwynfanai megys sant, ac nid fel brenin wedi ei ddiorseddu; hiraethai, nid am gael ei adferu i'w orsedd, ond am gael mwynhau rhagorfreintiau crefyddol: *Salm* xlii. 1, 2. Pan y gorphenwyd adeiladu ei balas, cysegrwyd ef i'r Arglwydd drwy wasanaeth crefyddol: *Salm* xxx. Yr oedd ei fuddugoliaethau ar elynion Duw a'i bobl yn rhoddi achlysur iddo i gyfansoddi cân o fawl i Arglwydd y lluoedd:—"Duw sydd yn fy ngwregysu â nerth, ac yn gwneuthur fy ffordd yn berffaith. Gosod y mae efe fy nhraed fel traed ewigod; ac ar fy uchelfanau y'm sefydla. Efe sydd yn dysgu fy nwylaw i ryfel; fel y dryllier bwa dur yn fy mreichiau. Rhoddaist hefyd i mi darian dy iachawdwriaeth; a'th ddeheulaw a'm cynnaliodd, a'th fwynder a'm lluosogodd;" *Salm* xviii. 32—35. Gwnai y bardd breninol gyfeiriadau dedwydd yn fynych at ei alwedigaeth foreuol:—"Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisieu arnaf. Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog, efe a'm tywys ger llaw y dyfroedd tawel." Y mae ei Salmau yn ei osod yn mysg y rhai enwocaf o'r prophwydi, a'r rhai sancteiddiaf o ddynion. Am nodweddiad Dafydd fel bardd, gwel LLYFR Y SALMAU.—(*Calmet's Dict.*; *Kitto's Cycl. Bib. Lit.*; *Eadie's Bib. Cycl.*; *Herzog's Real Encycl.*; *Encycl. Rel. Knowl.*)

DAFYDDIAID [*Davidists*]: dilynwyr David George, brodor o Delft, tref yn Holland ddeheuol, yr hwn, yn y flwyddyn 1525, a ddechreuodd bregethu athrawiaeth newydd, gan gyhoeddi mai efe oedd y gwir Fessïah; a'i fod wedi ei anfon gan Dduw i lenwi y nefoedd, yr hon oedd yn hollol wag, o ddiffyg pobl deilwng i'w phreswylio. Dywedir hefyd ei fod yn gwadu bodolaeth angelion da a drwg, ac yn anghredu yr athrawiaeth o gospedigaeth ddyfodol. Ymwrthodai â phriodas, megys yr Addafiaid; daliai, gyda Manes, nad oedd yr enaid yn cael ei lygru gan bechod; a gwawdiai yr hunanymwadiad a gymmeradwyid mor fawr gan Iesu Grist. Dyna y fath ydoedd ei brif gyfeiliornadau. Diangodd o Delft, ac ymgiliodd yn gyntaf i Friesland, ac yna i Basil, lle y newidiodd ei enw, gan ei alw ei hun yn John Bruck. Bu farw yn y lle diweddaf, yn y flwyddyn 1556. Gadawodd ychydig ddysgyblion ar ei ol, wrth y rhai yr addawodd adgyfodi yn mhen tair blynedd. Ac yn wir, cyflawnwyd y rhaghysbysiad mewn rhyw ystyr; canys pan ddeallodd ynadon y ddinas hono, yn mhen tair blynedd, pa athrawiaeth yr oedd ef wedi bod yn ei dysgu, gorchymynasant ar fod i'w gorff gael ei gyfodi o'r bedd, a'i losgi, yn nghyd â'i holl ysgrifeniadau, gan y dienyddwr cyhoeddus.—(*Buck's Theol. Dict.*)

DAGON [דגון; Deg a Thrigain, *Δαγών*]: eilun-dduw y Philistiaid. Dywed y *Magnum Etymologicum* mai yr un oedd Dagon a Sadwrn; dywed ereill mai Iau ydoedd; a dywed ereill drachefn mai Gwener ydoedd, yr hon a addolid gan yr Aiphtiaid dan y ffurf o bysgodyn; o blegid ddarfod i Gwener, yn ystod y rhyfel rhwng Tryphon a'r duwiau, ymguddio dan y ffurf hon [*Ovid, Met.*, llyfr v., dam. 5]. Dywed Diodorus Siculus (llyfr ii.) yr addolid y dduwies Derceto, neu Artegatis, yn Ascelon, dan y ffurf o fenyw, â'i rhanau isaf ar lun pysgodyn; a dywed Lucian y byddai y dduwies hono, neu Gwener, yn cael ei haddoli dan y ffurf hon. Y mae hen ddammeg yn adrodd fod 'Ωαννης (Oannês), yr hwn ydoedd hanner o ddyn a hanner o bysgodyn, wedi dyfod i Babilon, "a'i fod wedi dysgu amryw gelfyddydau i'r Babiloniaid; ac ar ol hyny, ei fod wedi dychwelyd i'r môr." Yr oedd lluaws mawr o'r Oanniaid hyn. Enw un ydoedd *Odacon*; hyny yw, ὁ *Dagon* (Y *Dagon*). Dywed Berosus, wrth siarad am Oannes, "yr oedd iddo gorff a phen pysgodyn; ac yr oedd ganddo, y tu uchaf i'r pen pysgodyn, ben dynol; a thu isaf i gynffon y pysgodyn, draed dynol. Dyma ydoedd gwir ffurf Dagon." Dywed Helladius yr un peth am *Oes* ag a adroddir gan Berosus am *Oannes* (oddi wrth yr hyn y tybiai Scaliger mai llygriad o'r gair *Oannes* oedd *Oes*); anghenfil ydoedd, medd efe, a ddaeth allan o'r Môr Coch. Yr oedd ganddo ben, dwylaw, a thraed dyn; ond o ran y gweddill o'i gorff, pysgodyn ydoedd: "efe yn gyntaf a ddysgodd lythyrenau a seryddiaeth i ddynolryw." Y mae yn debygol, gan hyny, mai yr un bod a olygir wrth *Oes* ac *Oannes*; ac mai yr un oedd *Oannes* a *Dagon*.

Gyda golwg ar yr enw *Dagon*, tybia Mr. Taylor ei fod wedi ei gyfansoddi o'r geiriau *dag* ac *aun*; a'i fod yn cyfeirio at y patriarch Noah neu Nau—y tair llythyren ddiweddaf wedi eu trawsgyfleu, yr hyn oedd yn beth cyffredin yn yr hen amseroedd. Byddai *Dag-Nau* yn gyfystyr â *Dag Noah*; hyny yw, *pysgodyn Noah*.

Dinystriodd Samson deml i Dagon yn Gaza, tra yr oedd yn llawn o Philistiaid, drwy ymaflyd yn ei cholofnau: *Barn.* xvi. 23, &c. Cymmerodd y Philistiaid arch Duw, a dodasant hi mewn teml arall i Dagon, yn Asdod: 1 *Sam.* v. 1—3. Yr oedd dinas yn Iudah o'r enw Beth-Dagon; hyny yw, tŷ (neu deml) Dagon: *Ios.* xv. 41; ac un arall ar gyffiniau Asser: *Ios.* xix. 27. Sonia Eusebius am dref a elwid Caphar Dagon (maes Dagon) rhwng Iamnia a Diospolis. Dywed Philo-Biblius, yn ei gyfieithiad o *Sanchoniathon*, mai ystyr Dagon ydyw *Siton*=duw gwenith. Y mae yn wir fod Dagon, yn yr Hebraeg, yn arwyddo gwenith ond, pwy ydyw y duw gwenith

Digitized by Google

hwn? Y mae yn debygol mai Ceres, duwies amaethyddiaeth a llawnder; nid oes gan yr Hebreaid enwau benywaidd i osod allan dduwiesau: a dywed Elian wrthym fod Siton yn un o'r enwau a roddid i Ceres. Arddangosir Ceres hefyd ar fathodau, megys bathodau Syracuse, wedi ei hamgylchu gan bysgod. Yn ol Philo-Biblius, y mae Dagon yn frawd i Sadwrn; ac yn ol yr awdwyr Groegaidd, y mae Ceres yn chwaer i Sadwrn. Yn ol y Groegiaid, ymgyssylltodd Ceres â'i brawd; ac y mae Atergatis yn chwaer i Sadwrn yn ol Philo-Biblius. Yn ddiweddaf, dysgrifir Ceres weithiau fel yn meddu yr un priodoleddau ag Isis, duwies ffrwythlondeb yn mysg yr Aiphtiaid. Y mae bathodyn Aiphtaidd yn arddangos y dduwies hon fel yn meddu nanner corff benyw, yn dal corn llawnder yn ei dwylaw, a chynffon pysgodyn iddi, a thraed crocodil neu fôr lo. Mae Salmasius o'r farn mai yr un ydyw Dagon a Ceto, pysgodyn mawr. Tybia Seldon, mai yr un oedd Atergatis a Dagon, ac fod y gair wedi deilliaw o'r ddau air Hebraeg *Adir-Dagan*, "pysgodyn ardderchog;" a dywedir fod Diana, neu Gwener, wedi ymgyfnewid yn bysgodyn trwy daflu ei hun i ddyfroedd Babilon. Yr oedd llyn dwfn yn agos i Ascelon yn llawn o bysgod, wedi ei gyssegru i Derceto, oddi wrth ddyfroedd yr hwn yr ymattaliai trigolion y dref, o blegid eu bod yn credu fod Gwener, trwy daflu ei hun iddo, wedi ymgyfnewid yn bysgodyn ynddo. Dinystriwyd teml Dagon yn Asdod gan Ionathan, brawd Iudas Maccabæus, tua'r flwyddyn c. c. 148: 1 *Mac.* x. 84.—*(Herzog's Real Encycl.; Rel. Encycl.; Calmet's Dict.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.)*

DAGR, DAGER: math o gleddyf byr, a wneid yn gyffredin yn ddau finiog, ac a wisgid yn grogedig wrth y gwregys: *Barn.* iii. 16, 21, 22. Gwel Arfau.

DAGRAU, DAIGR, DEIGRON, [Gr. δακρυ, δακρυον]: yr hylif dysglaer a thryloew sydd yn nghadw yn y gilchwyrnen ddeigrol, yr hwn a wna ei ymddangosiad yn y llygaid, neu a red o honynt yn ddefnynau. Cynnyrchir dagrau gan y tymmerau, ac yn neillduol gan alar. Gwna unrhyw niweid i'r llygad hefyd i'r hylif hwn redeg. Y mae yn gwasanaethu er cadw y llygaid yn llaith ac yn ddysglaer, ac er symmud ymaith bob brychau neu lwch a allant fyned i mewn iddo. Y mae yr hylif hwn ychydig yn drymach na dwfr, ac yn hallt o ran ei flas. Y mae amryw gyfeiriadau yn y Beibl at ddagrau. *Salm* cxxvi. 5; "Y rhai sydd yn hau mewn dagrau, a fedant mewn gorfoledd." Mae y ffugr yn yr adnod hon wedi ei gymmeryd oddi wrth arferion amaethyddol. Yn Palestina, bydd yr amaethwr, ar rai prydiau, yn hau, a dyn arfog yn ei ddilyn, rhag i ysbeilwyr ymosod arno, a lladrata ei had.—[*Harris*]. Hyny yw, bydd yn hau ei had mewn enbydrwydd a pherygl. Os dyfrheir yr had yn dda, fe gynnyrcha gynauaf toreithiog. Yr oedd yr Iuddewon, yn eu caethiwed, wedi bod yn hau had da, ac yr oeddynt wedi ei ddyfrhau â'u dagrau; ac yn awr hwy a gasglent eu hysgubau mewn gorfoledd.—[*Robinson*]. Y mae y saint, yn y byd hwn, yn gwasanaethu Duw yn nghanol gwrthwynebiadau, a thrallodion, a gorthrymderau o bob math; ond hwy a gânt fedi mewn gorfoledd yn y byd tragwyddol: "Duw a sych ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt;" *Dad.* vii. 17. Y mae yn angenrheidiol, er iawn ddeall deisyfiad Dafydd (*Salm* lvi. 8), "Dod fy nagrau yn dy gostrel," bod yn gydnabyddus â hen ddefod a gedwid yn yr oesoedd gynt mewn claddedigaethau. "Ymddengys fod yr adnod hon," medd Burder, "yn awgrymu fod y ddefod o roddi dagrau yn y deigrlestri, yr hon oedd mor adnabyddus yn mhlith y Rhufeiniaid, mewn arferiad lawer o amser cyn hyny yn mhlith y cenedloedd dwyreiniol, ac yn neillduol yn mhlith yr Hebreaid. Gwneid y costrelau hyn o wahanol ddefnyddiau, rhai o wydr, ac ereill o glai; megys y gellir gweled yn ngwaith Montfaucon, lle hefyd y gellir gweled eu gwahanol ffurfiau. Dodid y costrelau hyn ar feddau y meirw, fel arddangosiad o drallod a serch eu perthynasau a'u cyfeillion. Y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am yr ymadrodd hwn o eiddo y Salmydd, ond ar y dybiaeth hon. Os caniateir hyn, yna yr ystyr ydyw—'Bydded fy nhrallod, a'r dagrau yr ydwyf yn eu tywallt o'i achos, yn wastadol ger dy fron, i beri i ti gofio yn drugarog am danaf, ac i eiriol gyda thi am y cymhorth yr wyf mewn angen o hono.'"

DAIAR, DAIARYDDIAETH: am eglurhad ar y gair cyntaf, cyfeiriwn y darllenydd at y gair Byd. Daiaryddiaeth [*geography* — yn gyfansoddedig o ddau air Groeg, γεα, *y ddaiar*, a γραφω, *ysgrifenwyf*], a arwydda ddysgrifiad o'r ddaiar. Gall y dysgrifiad hwn fod yn fwy neu yn llai cyflawn; naill ai yn cynnwys y gwirioneddau hyny sydd yn perthyn i'r ddaiar fel un corff cyfan, neu ynte y manylion a wahaniaethant y naill wlad oddi wrth y llall ar ei gwyneb. Ac yn y ddau olygiad hyn, y mae meusydd eang yn ymagor o'n blaen. Mewn trefn i roddi dysgrifiad manwl a chywir o'r ddaiar, bydd yn angenrheidiol ei hystyried yn ei hysgogiadau, ei ffurf a'i maintioli, ei pherthynas â chyrff ereill yn yr eangder—ac yn fwy neillduol ei pherthynas â'r gyfundrefn heulog, i'r hon y perthyna. Hefyd, rhaid ystyried ei harwyneb fel wedi ei amrywio â dwfr a thir, mynyddoedd a dyffrynoedd, a llynau ac afonydd—y defnyddiau sydd yn gwneyd i fyny arwyneb y ddaiar, mor bell ag y mae hi yn adnabyddus i ni, yn nghyd â'i chyfansoddiad mewnol; a chyfansoddiad yr awyr sydd yn ei hamgylchu, yn nghyd âg effeithiau ei dirwasgiad, ei thymmeredd, a'i gwlybaniaeth. Er mwyn cael dysgrifiad cyflawn o'r ddaiar, ni ellir aros ar hyn ychwaith, ond y mae yn rhaid ei hystyried yn ei chyssylltiad â bywyd anifeilaidd a llysieuol, ac olrhain y rhai hyn i'w gwahanol ddosbarthiadau. Nis gellir chwaith ystyried y dysgrifiad yn gyflawn heb edrych ar y ddaiar yn ei chyssylltiad â dyn, ac fel yn dwyn amlygiadau ei weithrediad ef arni, mewn rhaniadau gwladwriaethol, megys teyrnasoedd, ac wedi ei haddurno â dinasoedd, yn nghyd â holl amlygiadau gwareiddiad.

Y mae y gair *daiaryddiaeth*, neu ddysgrifiad o'r ddaiar, yn cynnwys hyn oll. Ac mewn trefn i'w eglurhau yn gyflawn, y mae yn amlwg y byddai raid cymmeryd i mewn holl gylch y gwyddorau. Ond ni a gyfyngwn ein hunain yn yr erthygl hon at brif hynodion y ddaiar, fel y sylwasom eisoes, gan gyfeirio ein darllenwyr wrth fyned yn mlaen at erthyglau ereill a geir yn nghorff y gwaith.

Dosberthir daiaryddiaeth i dair cangen, yn ol y gwahanol olygiadau a gymmerir ar y ddaiar:

I. *Daiaryddiaeth fesuronol:* yr hon sydd yn egluro ffurf, maintioli, ac ysgogiadau y ddaiar ar

Digitized by Google



Dar. 1



YN NGHYD A CHYFRAN D







Digitized by Google

Digitized by Google

egwyddorion seryddiaeth; yn dysgu pa fodd i benderfynu sefyllfa neu gyflead unrhyw le ar ei hwyneb; ac yn dangos pa fodd y mae gwneuthur mapiau a globau, ac yn rhoddi cyfarwyddiadau pa fodd y mae eu defnyddio mewn trefn i atteb cwestiynau gyda hwynt.

II. *Daiaryddiaeth anianyddol;* yr hon sydd yn cynnwys dysgrifiad o arwyneb naturiol y ddaiar, yr awyrgylch sydd yn ei hamgylchu, a'r achosion sydd wedi cynnyrchu y cyfnewidiadau sydd wedi ac yn cymmeryd lle arni.

III. *Daiaryddiaeth wladwriaethol,* neu *hanesyddol.* Y mae hon yn cynnwys dysgrifiad o'r ddaiar fel wedi ei meddiannu gan wahanol genedloedd, wedi ei dosbarthu i wahanol wledydd a theyrnasoedd, yn nghyd â dysgrifiad o amgylchiadau a nodweddiadau gwahanol genedloedd a llwythau, gan egluro eu sefydliadau cymdeithasol a graddau eu gwareiddiad.

Oddi wrth yr adraniad hwn, canfyddir fod daiaryddiaeth fel gwyddor yn ymddibynu ar ei chyssylltiad â changenau ereill o wybodaeth: ac yr ydym yn cyfeirio ein darllenwyr at erthyglau ereill yn y gwaith hwn, megys Awyr, Daiareg, Mwnyddiaeth, Mynyddoedd, Gwyntoedd, &c., &c.

Ond yn gyntaf, ni a edrychwn ar destyn ein herthygl yn ei chyssylltiad â'r Ysgrythyrau.

Yr Hebreaid ydyw y bobl sydd wedi rhoddi i ni y wybodaeth ddaiaryddol ysgrifenedig foreuaf. Yn yr hanes am greadigaeth y byd, crybwyllir am ardd a elwid Eden; allan o'r hon, ar ol dyfrhau yr ardd, y rhedai afon, "ac oddi yno hi a ranwyd, ac a aeth yn bedair cainc," neu afon, y rhai a elwid Pison, Gishon, Hidecel, ac Euphrates. O'r rhai hyn, y ddiweddaf ydyw yr unig un a adnabyddir yn bresennol. Dywed Josephus ar y pwnc hwn [*Hyn.*, i. 2], "Dyfrheid yr ardd gan un afon, yr hon a redai o amgylch yr holl ddaiar, ac a ymwahanai yn bedair rhan." Dywed mai y Ganges ydyw y Pison, mai y Nilus ydyw y Gihon, ac mai y Tigris ydyw yr Hidecel. Y meddylddrych a gyfleir yn y lle hwn am y ddaiar ydyw, mai cylch eang gwastad ydoedd, gyda dwfr, afon, neu y môr (ὠκεανός yn Homer, *Il.*, xxi. 196) yn ei hamgylchynu, o'r hwn gorff o ddwfr amgylchol y rhedai y pedair afon a grybwyllwyd. Dyna ydoedd y syniad boreuaf a fabwysiadwyd am ffurf y ddaiar, pa un bynag a gymmerwyd ef oddi wrth yr Ysgrythyrau Hebreig ai peidio. Ymddengys oddi wrth y geiriau a ganfyddir yn *Salm* xxiv. 2, fod rhyw feddylddrych cyffelyb yn mysg yr Hebreaid hyd yn oed mewn cyfnod diweddarach: "Canys efe a'i seiliodd ar y moroedd, ac a'i sicrhaodd ar yr afonydd." Gweler hefyd *Diar.* viii. 27. Ond ymddengys oddi wrth *Iob* xxvii. 7—"Y mae efe yn taenu y gogledd ar y gwagle: y mae efe yn crogi y ddaiar ar ddiddym" (cymharer *Iob* xxxviii. 4, 6)—fod gan ysgrifenydd y llyfr hwnw syniadau cywirach ar y pwnc. Y mae yn debyg, pa fodd bynag, oddi wrth y geirweddiad cyffredin a ddefnyddir yn y llyfrau cyssegredig, mai y meddylddrych cyffredin am y ddaiar ydoedd, mai cylch eang gwastad oedd, uwch ben pa un yr oedd y nefoedd sylweddol a sefydlog, preswylfa Duw, tra y gwasanaethai y ddaiar oddi tanodd megys troedfainc iddo: *Esa.* xl. 21, &c.; *Iob* xxxvii. 18; *Salm* cii. 25. Ystyrid mai Ierusalem oedd canolbwynt y cylch eang hwn:—"Ierusalem yw hon; gosodais hi yn mysg y cenedloedd a'r tiroedd o'i hamgylch;" *Ezec.* v. 5, &c. Ymddengys mai ucheldiroedd Armenia a ddaethant yn adnabyddus gyntaf i'r teulu dynol. Gan ddisgyn o'r lleoedd hyn, aeth rhai tua'r dwyrain, ac eraill tua'r gorllewin. Am y rhai diweddaf yn unig y sonir yn yr Ysgrythyr. Gan fyned o'r deheu a'r gorllewin, daeth cyndadau y byd yn gydnabyddus yn gyntaf â'r gwledydd a orweddant rhwng yr Euphrates a'r Tigris, y rhai a elwid Mesopotamia; o ba le yr aethant yn mhellach fyth i'r deheu a'r gorllewin, nes cyrhaedd Aram neu Syria, Arabia, Canaan, a'r Aipht. Dyma y prif wledydd, fel yr ymddengys â pha rai yr oedd yr Hebreaid gynt yn adnabyddus: eto, os ydyw y daflen achyddol genedlaethol a ganfyddir yn *Gen.* x. i'w chyfeirio i'r cyfnod boreuol a roddir iddi gan ei sefyllfa yn y Beibl, ymddengys fod gwybodaeth ddaiaryddol yr Hebreaid, hyd yn oed cyn y dylif, yn llawer eangach, gan gymmeryd i mewn hyd yn oed "ynysoedd y Cenedloedd." Y mae Winer [*Handwörterb.*, nodyn at erth. Erde], pa fodd bynag, ynghyd â rhai eraill, yn gwadu ei chywirdeb. Y mae yn ddiau nad oes dim rhanau eraill yn yr Ysgrythyr yn rhoddi hawl i ni i briodoli i'r Hebreaid, cyn y caethgludiad i Babilon, gylch eangach o wybodaeth ddaiaryddol nag a nodwyd uchod. Bu y trallod gwladol hwn yn effeithiol i eangu eu gwybodaeth am y ddaiar, neu o'r hyn lleiaf i berffeithio eu gwybodaeth am Assyria, Media, a Babilon. I'w cymmydogion, y Phœniciaid, yr oedd yr Israeliaid yn ddyledus am y rhan fwyaf o'u gwybodaeth ddaiaryddol. Yr oedd yn rhaid fod y bobl fasnachol hyn wedi casglu gwybodaeth arwynebol yn fore am leoedd pellenig, tra ar eu teithiau morawl a masnachol. Ymledai y wybodaeth a ddygent yn ol i Palestina tu hwnt i'w cyffiniau hwy eu hunain at yr Hebreaid, er nad oeddynt hwy, hwyrach, yn dueddol i fyfyrio ar bynciau o'r fath; ac nid ydyw yn ddiogel chwaith ceisio penderfynu pa mor fore y gall fod rhyw fath o syniadau am ynysoedd y Cenedloedd wedi dechreu ymledu yn y dwyrain drwy offerynoldeb y morwyr Phœniciaidd. Yn ol Clemens Alexandrinus [*Storm.*, vi. 4, 36], yr oedd gan yr Aiphtiaid ysgrifeniadau ar ddaiaryddiaeth mewn cylchrediad. Gall fod gan eu brenin Sesostris fapiau [*Schol. ad Apoll. Rhod.*, iv. 292; *Goguet's Orig. des. Loix,* ii. 227], er, y mae yn debygol, fod yr ymgais cyntaf at ffurfio map (hyny yw, rhestr ysgrifenedig o enwau lleoedd, â rhyw fath o syniad am eu sefyllfaoedd perthynasol, a'u pellder oddi wrth eu gilydd) i'w briodoli i'r gwŷr a anfonwyd gan Iosuah (*Ios.* xviii.) i rodio y wlad, ac i'w dosbarthu:—a'r gwŷr a aethant "ac a gerddasant drwy y wlad, ac a'i dosbarthasant hi bob yn ddinas yn saith ran, mewn llyfr."

Mewn cyfnod diweddarach, y mae yn ddiammheuol fod yr Hebreaid yn meddu gwybodaeth o'r gogledd-orllewin, a gwybodaeth eangach am y dwyrain, ac hyd yn oed am ogledd Asia (*Ezec.* xxvii.; *Esa.* li. 27). Tuag amser y Maccabeaid, aeth yr Iuddewon i gyssylltiadau masnachol a gwleidyddol, yr hyn a fu yn foddion i eangu eu gwybodaeth am y ddaiar, ac i helaethu eu cydnabyddiaeth âg Asia Leiaf, Groeg, ac Italy. Yn yr amser a gymmerir i mewn gan hanesiaeth y Testament Newydd, y mae yn rhaid eu bod yn dra chydnabyddus â'r holl fyd adnabyddus y pryd hyny, gan fod trefedigaethau a phersonau unigol o'u cenedl wedi ymladd ac ymsefydlu dros yr holl fyd gwareiddiedig ar y pryd, sef yr ymherodraeth Rufeinig. Yr oedd yn rhaid fod dychweliad achlysurol, os nad cyfnodol, yr Iudd-

Digitized by Google

ewon gwasgaredig hyn, neu o'r hyn lleiaf y berthynas a ddalient â'u mam-wlad, yn foddion effeithiol i gyweirio a helaethu y wybodaeth ag oedd yn Palestina am ranau ereill o'r byd. Yn unol â hyn, darllenwn yn *Act.* ii. 5, fod yn trigo yn Ierusalem, pan y tywalltwyd yr Ysbryd Glân, "Iuddewon o bob cenedl dan y nef." Gwel restr o'r gwledydd o ba le y daethant yn yr adnodau dilynol.

Yn mysg *ffynnonellau gwreiddiol* ein gwybodaeth am ddaiaryddiaeth gyssegredig, fe saif y Beibl yn gyntaf ac yn benaf. Y mae gwerth y Beibl yn yr ystyr hwn yn anmhrisiadwy, ac yn dra nodedig, nid yn unig am ei fod yn cynnwys yr hanes awdurdodedig boreuaf yn y byd, ond o blegid fod ei adroddiadau yn fwy manwl ac yn fwy cywir na dim adroddiadau y gellir eu cael mewn awdurdodau hynafol ereill. Y mae tystiolaethau teithwyr dwyreiniol ar y pwnc hwn, pa un bynag ai yn uniongyrchol ai yn anuniongyrchol, yn llawnion a chysson. Po mwyaf y deuir i'w wybod, drwy ymchwiliadau, am y gwledydd a'r lleoedd y sonia y Beibl am danynt, mwyaf yn y byd fydd y rheswm dros roddi ymddiried yn yr hyn a ddywed ef am y cyfryw leoedd; ac hyd yn oed yn y dyddiau presennol, y Beibl ydyw y teithlyfr goreu trwy Wlad Canaan, pan yr esbonir ac y cymhwysir ef trwy gynnorthwy y trigolion Armeniaidd. [*Robinson's Palestina*, yn y rhagarweiniad.] Os rhoddir y flaenoriaeth i ryw ranau penodol o'r gyfrol sanctaidd, y mae Pum Llyfr Moses, Iosuah, yr Efengylau, a'r Actau, yn deilwng o sylw neillduol. Byd newydd, i ryw raddau, a agorir o flaen y y myfyriwr daiaryddol yn y Testament Newydd. Fel y gallesid dysgwyl, crybwyllir am amryw leoedd yn yr Hen Destament na chanfyddir mo honynt yn y Newydd; tra, ar y llaw arall, y nodir amryw fynyddoedd, afonydd, dinasoedd, a gwledydd, yn y Testament Newydd, na sonir gair am danynt yn yr Hen.

Pan gyhoeddwyd *Robinson's Biblical Researches in Palestine* [Llundain, 1841], fe ellir dywedyd, ar ryw ystyr, fod cyfnod newydd wedi dechreu ar ddaiaryddiaeth Feiblaidd. Nid ydym yn cyfeirio at yr ansawdd meddwl yn mha un y gwnaeth yr awdwr ei ymchwiliadau personol a'i sylwadau yn Ngwlad Canaan, nac at y cywirdeb gyda pha un y dygodd yn mlaen ac y cofnododd ei olrheiniadau, yn gymmaint ag at yr egwyddor yn unol â pha un yr arweiniwyd ef i weithredu yn ei ymchwiliadau, ac ar yr addefiad o ba un y mae ei waith gwerthfawr wedi ei sylfaenu, sef y flaenoriaeth a roddwyd ganddo i draddodiadau pobl y gwledydd hyny gyda golwg ar leoedd a ffeithiau, ar y chwedleuon mynachaidd a ffynent cyn ei ymweliad. Y mae yn ei gosod i lawr fel egwyddor gyffredinol [i. 374], "bod yr holl draddodiadau eglwysig gyda golwg ar leoedd hynafol yn ac o amgylch Ierusalem yn gwbl ddiwerth, oddi eithr mor bell ag y cadarnheir hwynt gan amgylchiadau gwybyddus i ni trwy yr Ysgrythyrau, neu trwy hanesiaeth gyfoesol arall." Yr effaith a gynnyrchwyd gan hygoeledd ydoedd creu a throsglwyddo lluaws mawr o chwedleuon ffugiol ac anwireddus, y rhai a gredid gan deithwyr dilynol. "Hyd yn oed yn y ddwy ganrif ddiweddaf, mor bell ag y mae a fyno y mynachdai a'r teithwyr yn Palestina â'r pwnc, y mae arnaf ofn mai o'r braidd y gellir dyweyd fod achos daiaryddiaeth Feiblaidd wedi gwneyd cynnydd mawr."—[*Robinson, rhag.*, td. ix.] "Ond y mae yn Palestina fath arall o draddodiadau, gyda pha rai ni bu y mynachdai yn ymyryd dim, ac yn nghylch pa rai y mae yn ymddangos na wyddent ond ychydig neu ddim yn mhob oes:—yr hyn a olygaf ydyw cadwraeth enwau hynafol lleoedd yn mysg y bobl gyffredin. Y mae y rhai hyn yn draddodiadau naturiol a chenedlaethol gwirioneddol—nid wedi deilliaw mewn un gradd oddi wrth ddylanwad mynachdai na meistriaid tramor, ond wedi eu sugno i mewn gan y gwerinwr gyda llaeth ei fam, ac wedi gwreiddio yn ddwfn yn ansawdd yr iaith Semitaidd."—[*Robin., Palest.*, i. 376]. Ar ol sylwi fod Seetzen a Burckhardt wedi nodi allan lwybr gwell, sef trwy chwilio am wybodaeth yn mysg yr Arabiaid, dywed Robinson ei fod wedi mabwysiadu dwy egwyddor yn ei ymchwiliadau yn Ngwlad Canaan:—1. Ymattal rhag myned i gyflyrddiad â'r mynachdai, ac ymchwilio â'r Ysgrythyrau yn ei ddwylaw, a chyfeirio am hysbysiaeth at y boblogaeth Arabaidd yn unig. 2. Gadael y llwybr cyffredin, a chyfeirio ei sylw at y rhanau o'r wlad yr ymwelid â hwynt yn fwyaf anfynych [i. 377]. Dywed fod tri chyfnod o draddodiadau tramor wedi dylanwadu er llygru ein gwybodaeth am ddaiaryddiaeth Palestina. Dygwyddodd y cyntaf tua B.A. 333, pan y cynnyrchwyd llawer o anghywirdeb gyda golwg ar sefyllfaoedd lleoedd trwy ddylanwad Cystenyn, Helen, a'u cyffelyb. Y mae *Onomasticon* Eusebius, a'r *Jerusalem Itinerary*, yn anghreifftiau o'r cyfnod hwn. Yr ail ydoedd oes y Croesgadau, yn y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg; traddodiadau pa un sydd wedi eu cofnodi yn gywiraf yn nhraethawd Brocardus, tua B.A. 1283. Dygwyddodd y trydydd cyfnod yn nechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, pryd y cyfansoddwyd cyfrolau Quaresmius, y rhai a arddangosant sefyllfa y traddodiadau a ffynent y pryd hyny yn y mynachdai; a'r rhai hyn ydyw y brif ffynnonell o ba un y mae y rhan fwyaf o deithwyr Ewrop wedi derbyn eu gwybodaeth. Yn ystod y tri chyfnod hwn, tywyllodd goleuni gwirionedd daiaryddol yn raddol, nes o'r diwedd y collwyd llawer o hono yn hollol.

Wedi taflu bras olwg fel hyn ar ddaiaryddiaeth yn ei chyssylltiad â'r Beibl ac â Gwlad Canaan, dychwelwn yn awr i edrych ar ddaiaryddiaeth yn unol â'n dosbarthiad dechreuol.

I. DAIARYDDIAETH FESURONOL.

Daiaryddiaeth fesuronol ydyw dysgrifiad o ffurf, maintioli, a symmudiadau y ddaiar, yn nghyd â'i rhaniadau mesuronol, a'r dulliau a ddefnyddir i arddangos ei harwyneb.

*Crynder y ddaiar.*—Yr oedd amrywiol farnau yn yr hen amseroedd, fel y sylwyd eisoes, am ffurf y ddaiar; ond y farn fwyaf gyffredinol gyda golwg ar hyny, yr hon a seilid ar ymddangosiadau, oedd, mai gwastadedd annhrefnus, yn ymestyn i eangder annherfynol, ydoedd. Ond fe ddangosir trwy luaws o brofion eglur a hawdd i'w dirnad, mai corff crwn ydyw. 1. Pan y saif dyn ar wastadedd eang, neu ar fwrdd llestr yn nghanol y môr, â'r awyrgylch yn glir ar bob ochr iddo, ni bydd y gwrthddrychau pellaf yn diflanu o'i olwg o blegid eu haneglurder, ond ymddengys terfyn ei welediad yn llinell amlwg—y terfyngylch, yr hwn a ffurfia gylch meidrofyddol perffaith, canolbwynt pa un fydd efe ei hun. Canfyddir yr un peth, dan y cyffelyb amgylchiadau, yn mhob rhan o arwyneb y ddaiar y gall dyn fyned iddo; yr hyn sydd yn arddangosiad sicr o'i ffurf gron neu gylchol. 2. Pan y teithia dyn oddi wrth unrhyw wrthddrych ar draws gwastadedd, neu y môr, ni ddiflana y gwrthddrych o'i olwg ar

Digitized by Google

unwaith (oddi eithr iddo gael ei guddio gan rywbeth arall); ond yn raddol y gwna ef hyny, gan ddechreu yn y gwaelod, yna y canol, ac yn ddiweddaf ei ran uchaf: o'r ochr arall, pan yr agosheir at wrthddrych cyffelyb o bellder, ni ddaw i'r golwg ar unwaith fel cyfangorff; ond fe welir ei ran uchaf yn gyntaf, yna ei ganol, ac yn ddiweddaf oll ei waelod. Wrth edrych ar long, ar ddiwrnod clir, yn dyfod tua phorthladd o unrhyw gyfeiriad, byddwn yn gweled yr hwyliau a'r hwylbrenau yn gyntaf; yna, ni a welwn gorff y llestr; megys yn y darlun isod:—



Dar. 221.
Dynoda B yr edrychydd, ac *e* ac A linell ei weledlad.

Fe gaiff y bobl ar ei bwrdd hefyd weled y tyrau uchaf yn y porthladd y deuant tuag ato gyntaf, yna yr adeiladau, ac wedi hyny yn olaf y gwelir y tir gwastad. Y mae hyn, yn ddiau, yn cael ei achosi gan grynder yr arwyneb rhwng y llygaid a'r gwrthddrych; a chan mai fel hyn y mae yn bod yn mhob man, y mae yn canlyn fod y ddaiar yn gron ar bob ochr. 3. Yn ystod diffygion y lleuad, bydd cysgod y ddaiar ar wyneb y lloer bob amser yn hanner cylch, yn mha sefyllfa bynag y teflir y cysgod. Y mae hyn yn brawf diammheuol o grynder y ddaiar; canys nis gall ond corff crwn daflu cysgod crwn yn mhob sefyllfa. 4. Bydd diffygion y lleuad yn cael eu canfod yn gynt gan y rhai fyddant yn trigo tua'r dwyrain na chan y rhai fyddant yn trigo tua'r gorllewin; a bydd yr haul yn cyfodi yn gynt i'r rhai a breswyliant tua'r dwyrain, ac yn ddiweddarach yn raddol wrth fel yr agosheir tua'r gorllewin. Y mae hyn yn profi crynder y ddaiar o'r dwyrain i'r gorllewin; o blegid pe gwastadedd a fuasai, gwelsid y diffygion a goleuni yr haul ar yr un amrantiad yn mhob man. 5. Y mae morwyr amryw weithiau wedi amgylchu y ddaiar, a thrwy hyny wedi profi ei chrynder yn weithredol; eto, gan mai o'r dwyrian a'r gorllewin y byddent bob amser yn mordwyo, gallasai mai corff hirgrwn (*cylinder*) oedd y ddaiar wedi y cwbl. Ond nis gall ei bod o'r ffurf hon, canys pe buasai felly, buasai llinellau y cyhydedd yn gyfartal i'w gilydd yn mhob man, yr hyn nid ydyw yn bod. Dangosir ei bod yn gron yn y gogledd a'r deheu, yn gystal ag yn y dwyrain a'r gorllewin, trwy fod pellder ser y pegwn gogleddol yn cynnyddu yn raddol wrth fel y byddom yn agosau atynt, a ser newyddion yn dyfod i'r golwg yn barhaus uwch law y terfyngylch, y rhai oeddynt o'r blaen yn anweledig. Ond bydd yn hollol wahanol wrth fyned mewn cyfeiriad deheuol. Bydd y ser sefydlog gogleddol yn disgyn yn raddol tua'r terfyngylch, ac yn machludo, tra y bydd y ser deheuol yn cynnyddu yn eu huchder, ac y bydd ser ereill yn yr arddrych hwnw ag oeddynt cyn hyny yn anweledig, yn dyfod i'r golwg uwch law y terfyngylch deheuol.

Y mae y ffeithiau blaenorol yn profi crynder y ddaiar yn ddiammheuol. Ond y mae anwastadrwydd mawr ei harwyneb — mynyddoedd uchel, a dyffrynoedd dyfnion—yn ymddangos i feddyliau y cyffredin fel yn milwrio yn erbyn y syniad mai crwn ydyw ei ffurf. Fe ddiflana y gwrthwynebiad hwn yn y fan, ond cymharu yr anwastadrwydd â maintioli y ddaiar. Y mae y mynydd uchaf, Kunchinginga, un o'r Himalayau, yn ymddyrchafu i'r uchder o 28,178 o droedfeddi uwch law gwastadedd y môr, neu ychydig dros bum milltir a chwarter. Ond nid ydyw yr uchder hwn ond tuag un ran o un cant ar bymtheg o dryfesur y ddaiar, ac un ran o bum mil o'i hamgylchedd cyhydeddol. Cynnrychiolid ei yn briodol, gan hyny, ar ddaiargronen o'r maint cyffredin, gan y gronyn gweledig lleiaf o dywod; a chynnrychiolid y dyffrynoedd dyfnaf gan y crafiad ysgafnaf â phin. Gan hyny, gwelir nad ydyw anwastadrwydd gwyneb y ddaiar yn effeithio dim ar ei ffurf yn gyffredinol, mwy nag y mae aflyfnder croen yr eurafal yn effeithio ar ei ffurf yntau. Mewn gwirionedd, bydd cysgod y ddaiar ar wyneb y lleuad, yn ystod diffygion, yn cael ei derfynu gan linell berffaith lefn; yr hyn a ddengys nad ydyw anwastadrwydd ei gwyneb ond megys dim mewn cymhariaeth i'w maintioli.

*Ei gwir ffurf a'i maintioli.*—Er mai corff crwn ydyw y ddaiar, nid ydyw yn berffaith felly; hyny yw, nid yw yr amgylchedd yr un bellder yn mhob man oddi wrth y canolbwynt; ond yn fwy crwm tu mewn i'r trofanau, ac yn wastatach tua'r pegynau, yr hwn ffurf a elwir gan feidrofyddion yn llethgronell (*oblate spheroid*). Ffurf cyffelyb i eurafal neu *orange* ydyw hwn—rhaid cael llinyn hwy i'w amgylchu un ffordd na ffordd arall. Arweiniwyd mesuronwyr i'r penderfyniad mai ffurf fel hwn raid fod ffurf y ddaiar, trwy ymresymu, a chyn ei mesur yn weithredol. Gwybyddid yn flaenorol fod y ddaiar yn troi ar ei phegynau, ac yna, gan gychwyn gyda'r ffaith adnabyddus hon, gofynwyd, Pa beth raid fod ei ffurf? Ac ar ystyriaeth priodol o'r ymofyniad, nid oedd ond un ateb i'w roddi—sef i'r graddau yr oedd y ddaiar o natûr hylifol, ac yn troi ar ei phegynau, rhaid bod y defnyddiau a'i cyfansoddai yn ymgasglu yn uwch o gwmpas y cyhydedd—hyny yw, hanner y ffordd rhwng y pegynau—nag y gwnaent o gwmpas y pegynau eu hunain. Er mwyn gweled hyn, ni raid ond edrych ar faen llifo, yn cael ei droi yn chwyrn o gwmpas ei echel, ac fe ganfyddir y dwfr yn neidio ymaith oddi wrth ei wyneb. Tybier yn awr fod y maen o ddefnydd hanner hylifol, ac yn berffaith grwn bob ffordd, os mynwch, i ddechreu. Wrth ei droi yn chwyrn, fe ymgyfyd y defnyddiau tua'r canol, fel pe baent am ffoi ymaith; a ffoi ymaith a wnaent pe byddai yr ysgogiad troellog yn ddigon chwyrn. Mae yn amlwg oddi wrth hyn, pe buasai y ddaiar wedi ei chreu yn berffaith grwn, ac o ddefnyddiau a ildient wrth gael eu troi, na allasai barhau felly wrth gael ei throi ar ei hechel. Gelwid y duedd sydd yn y cyfryw ddefnyddiau i ffoi ymaith oddi wrth ganolbwynt yr ysgogiad, neu yr echel, yn duedd neu nerth creiddffoawl (*centrifugal*), am ei fod am ehedeg oddi wrth y craidd neu y canolbwynt.

Y mae cywirdeb y penderfyniad hwn y daethpwyd iddo trwy ymresymu, wedi ei brofi trwy fesuriad gweithredol. Pe buasai y ddaiar yn gorff crwn perffaith, y mae yn eglur y buasai graddau y lledred ar linell canol dydd yr un hyd yn mhob man, o'r cyhydedd i'r pegynau; ond yn lle hyn, yr ydys wedi canfod drwy amryw fesuriadau manwl, nad ydyw hyd gradd o ledred o'r un maintioli yn ngwahanol bwyntiau yr un llinell canol dydd, ond eu bod yn cynnyddu fel

Digitized by Google

yr elom oddi wrth y cyhydedd tua'r pegynau. Fel hyn, yn y cylch gogleddol, y mae gradd o ledred yn naw rhan o un ar bymtheg o filltir yn hwy na gradd yn y cyhydedd. Gan hyny, y mae yn rhaid mai llethgronell ydyw y ddaiar—yn wastatach tua'r pegynau nag yn ei chanol; canys po hwyaf a fyddo gradd, mwyaf yn y byd y rhaid i'r cylch fod yr hwn y ffurfia efe ran o hono; a pho fwyaf fyddo y cylch, lleiaf yn y byd fydd ei grymedd.

Trwy gyfrif oddi wrth fesuriadau a wnaethpwyd ar gyfres o gylchau cyhydeddol, y mae y canlyniadau isod wedi eu casglu gyda golwg ar faintioli y ddaiar:—

| | Troedfeddi. | | Milltiroedd. |
|---|---|---|---|
| Y tryfesur cyhydeddol... | 41,843,330 | = | 7,924,873 |
| Y tryfesur pegynol ...... | 41,704,788 | = | 7,898·634 |
| Y gwahaniaeth rhwng y ddau dryfesur ......... | 138,542 | = | 26·239 |

Amgylchedd y ddaiar wrth y cyhydedd, ydyw 24,897 o filltiroedd.

*Sefyllfa y ddaiar yn yr eangder.*—Y mae y ddaiar wedi ei hamgylchu ar bob ochr gan luaws mawr o ser sefydlog, y rhai a elwir felly—er fod i bob un o honynt, y mae yn debygol, eu symmudiadau priodol—am fod eu hysgogiadau mor araf, o blegid eu pellder dirfawr oddi wrthym, fel yr ymddangosant i ni yn sefydlog. Er na welir ond ychydig o honynt mewn cymhariaeth, â'r llygad noeth, canfyddir nifer annirnadwy â'r pellwelyr. Y mae ychydig o'r rhai mwyaf amlwg yn dra gwasanaethgar mewn ystyr daiaryddol, drwy fod eu pellder oddi wrth y lleuad wedi ei fesur yn flaenorol, gan y galluogant y morwr i wybod ei ledred pan ar y môr. Heb law y ser hyn, y mae ychydig o gyrff ereill a adnabyddir drwy eu goleuni sefydlog, y rhai a symmudant o ran eu sefyllfa yn barhaus, eto a ddychwelant i'r un sefyllfaoedd yn ol ar adegau penodol; yr hyn a ddengys eu bod yn teithio mewn llwybrau rheolaidd. Gelwir y rhai hyn yn blanedau; a phan yr edrychir arnynt drwy y pellwelyr, gellir canfod mai cyrff cyffelyb i'r ddaiar ydynt o ran ffurf. Ar ol ymchwilio yn fanylach, fe welir mai aelod o'r dosbarth hwn ydyw ein pelen ddaiarol ninnau:—planed yn meddu ysgogiad yn yr eangder, ac yn cylchdroi o gwmpas yr haul. Y mae i'r holl blanedau gylchdroadau cyffelyb, mewn gwahanol bellderau, yr hyn a ffurfia y gyfundrefn heulawg. Saif y cyrff hyn, yn eu perthynas â'r canolbwynt, sef yr haul, yn y drefn ganlynol:—1. Mercher; 2. Gwener; 3. y Ddaiar; 4. Mawrth; 5. Iau; 6. Sadwrn; 7. Uranus; 8. Neifion.



Dar. 222. Y Gyfundrefn Heulawg.

C, yn y canol, yw yr haul. Y nesaf iddo yw ☿ Mercher, yn troi yn y chwylgylch *a*. Y nesaf ydyw y blaned brydferth ♀ Gwener, yn troi yn y chwylgylch *b*. Yn nesaf, daw y ddaiar, gyda'i lleuad, yn y cylch *t*. Yn ganlynol, cawn ♂ Mawrth, yn y cylch *e*. Wedi hyny, gwelir ♃ Iau, gyda'i phedair lleuad, yn y cylch *f*. Yna ♄ Sadwrn, gyda'i hwyth lleuad, yn troi yn y chwylgylch *g*. Ac yn ddiweddaf, ♅ Herschell neu Uranus, yn treiglo yn y cylch *h*; ond o ddiffyg lle, ni ddangosir ei hwyth lleuad. Y mae chwylgylch Neifion tu allan i'r cwbl. Oddi allan i gylch Uranus y gwelir deuddeg arwydd y sidydd neu yr heulrod, y rhai a ddeuant o dan ein sylw yn mhellach yn mlaen yn yr erthygl hon. I'r ser uchod y mae dwy ar ugain, fel y gwelir, o leuadau neu osgorddion; sef un i'r ddaiar; pedair i Iau; wyth i Sadwrn; wyth i Uranus neu Herschell; ac un i Neifion. Ni chanfyddwyd eto fod lleuadau yn perthyn i Mercher, Gwener, na Mawrth. Heb law y rhai hyn, y mae pedwar ar ddeg o gyrff ereill yn adnabyddus yn awr yn y dosbarth heulawg, y gellir eu galw y *goser;* sef Flora, Gwesta, Iris, Metis, Hebe, Astræa, Hygeia, Juno, Ceres, Pallas, Parthenope, Victoria, Egeria, ac Irene. Y mae ser cynffonog, neu ser gwib, yn ymddangos weithiau o fewn cyfundrefn yr haul hefyd. Yma, nis gellir ond sylwi yn fyr arnynt. Cyfeiriwn ein darllenwyr at yr erthygl Haul, &c., am eglurhad a gwybodaeth bellach.

Gelwir y ser agosaf at yr haul yn isblanedau, o blegid fod eu cylchdroadau oddi mewn i gylchdro y ddaiar. Gelwir y rhai pellaf oddi wrth yr haul yn uwchblanedau, gan fod eu llwybrau hwy yn yr eangder yn amgylchu llwybr y ddaiar. O'i hystyried megys planed, y mae sefyllfa y ddaiar yn y gyfundrefn yn dra dedwydd. Gwelodd y Creawdwr doeth yn dda osod "sylfeini y ddaiar" yn y rhan hono o'r eangder lle y derbynir cyflenwad cymmedrol o oleuni a gwres oddi wrth yr haul, a lle y mae y lleuad yn goleuo y nos, ac yn peri llanw a thrai y moroedd.

Digitized by Google

*Symmudiadau y ddaiar.*—Y mae dau brif symmudiad yn perthyn i'r ddaiar, y rhai a berthynant hefyd i'r holl blanedau ereill. Un ydyw ysgogiad o gwmpas yr haul; yr hwn a elwir y cylchdro blyneddol, o blegid ei fod yn penderfynu ysbaid y flwyddyn, sef 365 o ddyddiau, 5 awr, 48 o fynydau, a 49 o eiliadau, yn yr hwn amser y cyflawnir ef. Y llall ydyw ei chylchdro ar ei hechel, yr hwn a elwir ei hysgogiad dyddiol; o blegid ei fod yn nodi ysbaid y diwrnod, sef 24 o oriau, yn yr hwn amser y cyflawnir yntau. Ysgogiad blyneddol y ddaiar yn ei chylchdro sydd yn achosi cylchdro blyneddol ymddangosiadol yr haul yn mhlith y ser; a'i chylchdro dyddiol a gynnyrcha ysgogiad dyddiol ymddangosiadol yr holl gyrff nefol. Echel y ddaiar ydyw llinell ddychymygol drwy ei chanol, ar ba un y tybir ei bod yn troi. Ymddengys y llinell hon ar yr arwyneb mewn dau bwynt gwrthgyferbyniol, y rhai a elwir y pegynau: yr un yn yr arddrych gogleddol ydyw y pegwn gogleddol N, a'r un gwrthgyferbyniol ydyw y pegwn deheuol S. Nid yw echel y ddaiar yn llinell unionsyth, ond y mae yn gogwyddo 23½°—tri ar ugain a hanner o raddau—fel y gwelir yn y darlun canlynol.




Dar. 223. Echel y Ddaiar.

Y mae y cyfeiriad ochrog hwn yn cael ei gadw yn gysson trwy ystod ei holl daith flyneddol; ac ar hwn yr ymddibyna hyd anghyfartal dydd a nos, yn nghyd â'r gwahanol dymmorau. Y mae y trefniadau hyn yn amlygu doethineb mawr yn nghynlluniad y ddaiar. Os edrychir ar ffurf gron ein planed ar wahan oddi wrth y peirianwaith sydd wedi ei gyssylltu â hi, y mae anghyfleusderau amlwg yn ymddangos. Y mae pelydrau uniongyrchol goleuni yr haul yn disgyn ar y rhan hono o'r arddrych ag sydd yn union o danynt; ac fe ddisgyn y pelydrau ochrog, y rhai nid ydynt mor boethion, ar ranau ereill; tra y mae un arddrych hebddynt o gwbl. Tybier, gan hyny, fod y ddaiar yn ddiysgogiad—byddai un hanner o honi mewn tywyllwch ac oerni; byddai rhan benodol yn yr hanner arall mewn gwres mawr; a byddai rhanau ereill yn derbyn mwy neu lai o wres a goleuni yn ol eu sefyllfaoedd. Ond yn lle hyny, y mae i'r ddaiar gylchdro dyddiol, drwy yr hwn y derbyn pob rhan o'i gwyneb wenau yr haul yn ei dro. A thybied, pa fodd bynag, er i'r ddaiar droi ar ei hechel, na byddai yn cylchdroi o gwmpas yr haul, y canlyniad fyddai y derbyniai yr un gwregys ar ei harwyneb bob amser belydrau uniongyrchol yr haul, a derbyniai yr holl ranau ereill belydrau ochrog yn ddigyfnewid; gan hyny, ni byddai y fath bethau a gwahanol dymmorau yn bod. Neu tybier fod y ddaiar yn teithio yn yr eangder, ac yn cylchdroi yn ddyddiol ar ei hechel, ond ei bod yn gwneyd hyny yn unionsyth, yr un effaith a ddilynai—ni byddai un cyfnewidiad yn y tymmorau, ond teyrnasai gwres angerddol yn wastadol yn y cyhydedd, tra y byddai yn oerni parhaus tua'r pegynau. Ond y mae hyn oll yn cael ei ochelyd, a chynnyrchir cyfnewidiadau y tymmorau, mewn perthynas i'r ddaiar a'r planedau, drwy symmudiad y cyrff yn yr eangder, a thrwy eu bod yn cylchdroi ar echelydd ochrog.

*Dydd a nos.*—Tra y mae dydd a nos yn deilliaw drwy gylchdro y ddaiar, y mae y gwahaniaeth yn eu hyd mewn gwahanol fanau yn cael ei gynnyrchu gan ogwyddiad ei hechel. Yn y cyhydedd, y mae y dydd a'r nos bob amser yn gyfartal, deuddeng awr bob un—yr haul yn cyfodi ac yn machlud am chwech o'r gloch drwy y flwyddyn. Yn mhob rhan o'r byd hefyd, yn ystod y cyhydnosau (*equinoxes*), ar yr 21ain o Fawrth a'r 23ain o Fedi, y mae y dydd a'r nos yr un hyd. Ar yr adeg hono, bydd echel y ddaiar yn berffaith unionsyth yn ei pherthynas â'r haul, a bydd y pegynau yn yr un pellder yn hollol oddi wrtho. Ar adegau ereill, yn mhob man, oddi eithr y cyhydedd, ni bydd y dyddiau a'r nosweithiau un amser yn gyfartal, a byddant yn gwahaniaethu yn eu hyd yn ol graddau y lledred a'r tymmor ar y flwyddyn; ond fe fwynha pob lle fydd yn gorwedd yn yr un lledred cyfochrog, ar yr un adeg, yr un ysbaid o ddydd a nos. O Fawrth i Fedi, gan y bydd pegwn gogleddol y ddaiar yn gogwyddo tua'r haul, bydd mwy na hanner yr arddrych gogleddol tu mewn i gylch pelydriad yr haul, a llai na'r hanner gan hyny mewn tywyllwch, fel y bydd y dyddiau mewn canlyniad yn fwy hir na'r nosweithiau; ond dygwydd yn wrthgyferbyniol i hyn ar yr un pryd yn yr arddrych deheuol. O Fedi i Fawrth, gan y bydd y pegwn gogleddol yn gogwyddo oddi wrth yr haul, bydd llai na hanner yr arddrych gogleddol yn cael ei oleuo; gan hyny, bydd y dyddiau yn fyrach na'r nosweithiau; ond bydd yn wrthgyferbyniol yn yr arddrych deheuol. O'r cyhydedd i'r cylchau pegynol, y mae hyd y dydd hwyaf yn cynnyddu yn ol graddau y lledred, o ddeuddeg awr i bedair awr ar ugain—yr haul yn ymddangos am bedair awr ar ugain heb fachludo yn yr holl leoedd o fewn y cylchau pegynol, yn ystod canol yr haf, yr hyn a ddygwydd mewn cyfnodau gwrthgyferbyniol o'r flwyddyn yn y ddau arddrych. Oddi wrth y cylchau pegynol hyd at y pegynau, bydd y dydd hwyaf yn hwyhau yn ol graddau y lledred i wythnosau a misoedd; ac yn y pegynau, un diwrnod ac un noswaith a wna i fyny yr holl flwyddyn. Fe ddengys y daflen ganlynol hyd y diwrnod hwyaf mewn gwahanol ledredau daiaryddol:—

| Lledred. | Hyd y dydd hwyaf. |
|---|---|
| 0 | 12 awr |
| 16° 44′ | 13 „ |
| 30 48 | 14 „ |
| 41 24 | 15 „ |
| 49 22 | 16 „ |
| 54 30 | 17 „ |
| 58 27 | 18 „ |
| 61 18 | 19 „ |
| 63 22 | 20 „ |
| 66 32 | 24 „ |
| 67 18 | 1 mis |
| 73 5 | 3 „ |
| 90 0 | 6 „ |

*Y Tymmorau.*—Y mae gwahanol dymmorau y flwyddyn yr ydym yn eu mwynhau ar wyneb yr holl ddaiar—llymnigrwydd y gauaf, tynerwch y

Digitized by Google

gwanwyn, cynhesrwydd yr haf, a gwres cymmedrol y cynauaf—yn ymddibynu ar y gwahaniaeth yn hyd y dydd a'r nos, a'r cyfnewidiadau cyfnodol yn uchder yr haul. Pan y bydd y dyddiau yn hirion, derbynir mwy o wres oddi wrth ddylanwad pelydrau yr haul, nag a gollir yn ystod y nosweithiau byrion; yr hwn, drwy gydymgasglu, a gynnyrcha dymmeredd yr haf, yn nghyd â'r holl bethau a'i dilyna. Yr ochr arall, pan y bydd y dyddiau yn fyrion, derbynir llai o wres; a chan y bydd y nosweithiau yn hirion, fe gyll y ddaiar fwy o wres nag a dderbynia yn ystod y dydd; yr hyn a gynnyrcha dymmeredd y gauaf. Ond y mae uchder cyfnewidiol yr haul oddi wrth y ddaiar hefyd yn achos arall o'r gwahanol dymmorau. Yn Paris, er anghraifft, ganol yr haf, y mae ar ganol dydd yn 64° 38′ uwch law y terfyngylch, ac yn 17° 42′ yn nghanol y gauaf. Yn lledred Llundain, y mae uchder canolddydd yr haul yn amrywio o 62° yn yr haf, i 15° yn y gauaf. Yn awr, uchder yr haul uwch law y terfyngylch ydyw un o'r elfenau pwysicaf yn ei weithrediad gwresogol; canys y mae dylanwad y pelydrau yn lleihau yn ol graddau ysgoad eu cyfeiriad.



Dar. 224. Y Ddaiar, yr Haul, a'r Tymmorau.

Yn y darlun uchod, y mae yr haul yn y canol, a'r ddaiar mewn pedwar man gwahanol yn ei chwylgylch blyneddol, fel y mae hi yn sefyll gyda golwg ar yr haul; sef ar Mawrth 29ain, wrth ♎, arwydd y fantol; ar Mehefin 21ain, wrth ♑, arwydd yr afr; ar Medi 22ain, wrth ♈, arwydd yr hwrdd; ac ar Rhagfyr 21ain, wrth ♋, arwydd y cranc. Gwelir y ddaiar â'i hechel yn gogwyddo 23½ o raddau, a pha fodd y mae pelydr yr haul yn disgyn arni yn y gwahanol ranau o'i chwyldaith. Yr achosion hyn gyda'u gilydd, sef osgoad echel y ddaiar a'i thaith o gylch yr haul, sydd yn peri y gwahanol dymmorau, fel y cawn sylwi yn mhellach dan y geiriau Haul a Thymmor. Y mae cyfrifiad wedi ei wneuthur, na bydd ond dwy ran o dair o'r pelydrau a gyrhaeddant yr awyrgylch yn dyfod i lawr i'r ddaiar, pan y bydd yr haul yn yr uchder o 40° 30′; dim ond eu hanner pan y bydd yn yr uchder o 21° 30′; a bod y gweddill yn cael eu sugno gan yr awyrgylch, neu ynte eu hadlewyrchu yn ol i'r eangder. Er eglurhau hyn yn mhellach, tybir mai y seren, yn y darlun canlynol, ydyw yr haul; a dynoded A B



Dar. 225.

gyfran o arwynebedd y ddaiar ar ba un y syrthia yr haul yn uniongyrth; a dynoded B C gyfran o'r un faint ar ba un y syrthiant ar ŵyr neu ar osgo. Er fod A B a B C yr un hyd a'u gilydd, y mae yn eglur na dderbyn y llinell B C, gan ei bod ar osgo, ond hanner y nifer o belydrau o oleuni a gwres ag a dderbyn A B. Fe ŵyr pawb pa fodd i ddal unrhyw beth allan mewn cawod o wlaw i ddal y nifer mwyaf o ddiferynau arno. Cymhwyser yr un reol at y ddaiar yn ei chyssylltiad â'r haul, fel y sylwyd uchod, a cheir gweled mai po uchaf y byddo yr haul mwyaf o wres a goleuni a dderbyn y ddaiar. Felly, y mae y ddau achos yma yn nghyd, sef gwahanol hyd y dydd a'r nos, a gwahanol uchder yr haul oddi wrth y ddaiar, yn cydweithredu er cynnyrchu y gwahanol dymmorau; ond yr hyn sydd yn peri y ddau ydyw osgoad echel y ddaiar, a'i thaith o gylch yr haul. Yn y cyhydedd, gan y bydd y dydd a'r nos yn gyfartal yn wastadol, ac na bydd yr haul yn gwahaniaethu llawer yn ei uchder canolddydd, y mae y gwres yn lled gyfartal drwy y flwyddyn. Ond wrth fel y pellhaom oddi wrth y cyhydedd rhyngom a'r cylchau pegynol, mae y cyfnewidiad yn y tymmorau yn dyfod yn amlwg, o blegid fod hyd y dydd a'r nos ac uchder yr haul yn y parthau hyny yn amrywio i raddau mwy.

RHANIADAU MESURONOL Y DDAIAR

Mewn trefn i allu dysgrifio y belen ddaiarol yn rhwydd a dealladwy, gan nodi allan sefyllfaoedd lleoedd ar ei harwyneb, a dylanwad ei symmudiadau, y mae llinellau neu gylchau dychymygol yn cael eu tynu o'i chwmpas. Y mae cylchau mawrion yn dosbarthu y glôb i ddwy ran gyfartal, neu arddrychau, megys llinell y cyhydedd, &c. Y mae cylchau bychain yn dosbarthu y glôb i ddwy ran anghyfartal, megys y trofanau, &c. Y mae pob cylch yn cael ei ddosbarthu i 360 o ranau cyfartal, y rhai a elwir yn raddau; pob gradd i drigain o ranau cyfartal, y rhai a elwir mynydau; a phob mynyd i drigain o ranau cyfartal, y rhai a elwir eiliadau. Nodi graddau fel hyn, °; mynydau fel hyn, ′; ac eiliadau fel hyn, ″. Gan hyny, darllenir 10° 6′ 8″, 10 gradd, 6 mynyd, ac 8 eiliad. Yn nghylchau mwyaf y ddaiar, y mae gradd yn cynnwys 60 o filltiroedd daiaryddol, neu tua 69 o filltiroedd Seisonig; ond y mae yn llai yn y cylchoedd bychain, yn ol y sefyllfa.

Digitized by Google

*Y cylchau mawrion.*—Y cylchau mawrion ydyw llinell y cyhydedd, y terfyngylch, y nawnlinellau, yr heulrod, a'r ddwy golrod (*colures*).

Y mae llinell y cyhydedd yn dosbarthu y glôb yn ddwy ran gyfartal, sef yr arddrych gogleddol a'r deheuol. Y mae lledred lleoedd yn cael ei fesur oddi wrthi i'r gogledd a'r deheu. Llinell y cyhydedd ydyw y llinell o A i B ar *dar.* 223. Llinell yr hydred yw y llinell sydd yn rhedeg o N i S ar yr un darlun. Y terfyngylch sydd yn dosparthu yr hanner gweledig o'r nefoedd oddi wrth yr hanner anweledig. Y mae dau fath o derfyngylch, sef y celfyddydol a'r gweledig. Y terfyngylch celfyddydol, neu y gwir derfyngylch, wrth yr hwn y penderfynir cyfodiad a machludiad y cyrff nefol, sydd gylch dychymygol yn amgylchu canolbarth y ddaiar yn gyfredol â llygaid yr edrychydd. Y terfyngylch gweledig ydyw y cylch sydd yn terfynu ein gwelediad, lle yr ymddengys y ddaiar a'r awyrgylch fel yn cyfarfod a'u gilydd. I olwg dyn yn sefyll ar wastadedd, neu mewn bad ar y môr, nid ydyw y cylch hwn ond ychydig o filltiroedd o dryfesur. Prif bwyntiau y terfyngylch ydyw y dwyrain, y gorllewin, y gogledd a'r deheu; y nenbwnc ydyw pegwn uchaf ein terfyngylch, sef y pwynt yn y nefoedd ag sydd yn union uwch ein penau; yr isbwynt ydyw y pegwn isaf, yr hwn sydd yn wrthgyferbyniol hollol i'r nenbwnc.

Y nawnlinellau, neu llinellau yr hydred, ydynt gylchau yn myned drwy y pegynau, ac yn croesi llinell y cyhydedd, gan wahanu y ddaiar yn ddau arddrych, sef y deheuol a'r gorllewinol. Y mae pedair ar ugain o nawnlinellau yn gyffredin ar gronenau neu globynau (*globes*), a phob un yn 15° gradd oddi wrth eu gilydd; yr hyn a gyfetyb i awr o wahaniaeth yn yr amser. Ond y mae nawnlin yn wirioneddol i bob lle; a phan y cyrhaedda yr haul i nawnlin unrhyw fan heb fod oddi mewn i'r cylchau pegynol, y mae y pryd hyny yn nawn neu yn ganol dydd yn y lle hwnw. Y mae yr haul ar y pryd yn ei fan uchaf uwch law y terfyngylch am y diwrnod; gan hyny, dywedir ei fod yn ei uchder nawnol.

Y mae yr heulrod neu y diffyglin, sef y llinell o C i D, a welir yn y darlun 223, a'r hon a welir o D i C pe dangosid yr ochr arall, yn arddangos llwybr blyneddol ymddangosiadol yr haul yn mysg y ser sefydlog, yr hyn a achosir gan y llwybr a deithir yn wirioneddol gan y ddaiar yn ei throgylch blyneddol. Y mae yn croesi llinell y cyhydedd mewn dau bwynt gwrthgyferbyniol, y rhai a elwir yr albanau, neu y pwyntiau cyhydeddol, ac yn pasio tua'r gogledd 23½°, a'r un pellder tua'r deheu, yr hyn ydyw gradd y gŵyrgamedd. Gelwir y llinell hon yn ddiffyglin, o blegid nas gall diffygion ddygwydd ond yn unig pan y bydd y lleuad yn ymddangos yn neu yn bur agos i'r cylch hwn. Y mae yn cael ei ddosbarthu i ddeuddeg o ranau cyfartal, o 30° yr un, a elwir yn arwyddion y sidydd, a'r rhai a enwir oddi wrth y cyfseriadau yr ymddengys yr haul fel yn myned drwyddynt yn ddilynol. A ganlyn ydyw eu henwau, yn nghyd â'r amser o'r flwyddyn y mae yr haul yn eu cyrhaedd:—

| | | |
|---|---|---|
| Y GWANWYN | ♈ | Yr Hwrdd, Mawrth 21. |
| | ♉ | Y Tarw, Ebrill 19. |
| | ♊ | Y Gefeilliaid, Mai 20. |
| YR HAF ... | ♋ | Y Cranc, Mehefin 21. |
| | ♌ | Y Llew, Gorphenaf 22. |
| | ♍ | Y Forwyn, Awst 22. |
| Y CYNAUAF | ♎ | Y Fantol, Medi 23. |
| | ♏ | Y Sarff, Hydref 23. |
| | ♐ | Y Saethydd, Tachwedd 22. |
| Y GAUAF .. | ♑ | Yr Afr, Rhagfyr 21. |
| | ♒ | Y Dyfrwr, Ionawr 20. |
| | ♓ | Y Pysg, Chwefror 19eg. |

Gelwir arwyddion y gwanwyn a'r haf yn arwyddion gogleddol, oblegid eu bod yn gorwedd ar yr ochr ogleddol i linell y cyhydedd; ac y mae arwyddion y cynauaf a'r gauaf ar yr ochr ddeheuol i'r llinell.

Y colrodau (*colures*) ydynt ddwy o nawnlinellau yn pasio drwy y pegynau, ac yn dosbarthu yr heulrod yn bedair o ranau cyfartal, yr hyn a wna bedwar tymmor y flwyddyn. Croesa un o honynt y pwyntiau cyhydeddol, yr Hwrdd a'r Fantol; am hyny, gelwir hi yn golrod gyhydeddol: a chroesa y llall y pwyntiau albanol, y Cranc a'r Afr; a gelwir hi y golrod albanol. Yr albanau ydyw pwyntiau ysgoad mwyaf yr haul i'r gogledd neu y deheu; a phan y bydd yr haul yn y sefyllfaoedd hyny y dygwydd y dydd hwyaf a'r dydd byraf.

*Y cylchau bychain.*—Y cylchau bychain ydyw y trofanau, y cylchau pegynol, a chyflinellau y lledred. Y trofanau ydynt ddau o gylchau cyfochrog â llinell y cyhydedd, yn y pellder o 23½° oddi wrthi i'r gogledd a'r deheu, yr hyn sydd yn gyfartal i ŵyrgamedd yr heulrod. Gelwir y gogleddol yn Drofan y Cranc, a'r deheuol yn Drofan yr Afr, o blegid eu bod yn cydredeg â'r heulrod yn nechreuad yr arwyddion hyny. Gelwir hwynt yn drofanau o blegid fod yr haul, wedi y cyrhaeddo hyd atynt yn ei rod flyneddol, yn ymddangos fel yn troi yn ol eilwaith i'r deheu neu i'r gogledd tua'r cyhydedd, yn ol tymmor y flwyddyn.

Y mae y cylchau pegynol yn amgylchu y pegynau, mewn pellder oddi wrthynt cyfartal hollol i bellder y trofanau oddi wrth y cyhydedd, neu 23½°. Gelwir yr un sydd yn amgylchu y pegwn gogleddol yn gylch y gogledd; a gelwir yr un sydd yn amgylchu y pegwn deheuol yn gylch y deheu. Pan y bydd yr haul yn y trofan gogleddol, megys yn Mehefin, bydd ei belydrau yn cyrhaedd 23½° tu hwnt i'r pegwn gogleddol, ac yn fyr o gyrhaedd y pegwn deheuol o'r un pellder. Gan hyny, nid â un rhan o'r cylch gogleddol allan o belydrau yr haul yn nhrogylch dyddiol y ddaiar, tra na chludir un rhan o'r cylch deheuol dan ei oleuni o gwbl. Dygwydd yn hollol wrthgyferbyniol i hyn pan y bydd yr haul yn y trofan deheuol yn Rhagfyr: y pryd hyny, bydd yr holl gylch deheuol yn cael ei oleuo, tra y bydd y cylch cyferbyniol mewn tywyllwch.

Cyflinellau y lledred ydynt gylchau bychain yn gyfochrog â'r cyhydedd, i'r gogledd a'r deheu, y rhai a dynir ar gronenau trwy bob 10° o ledred; ond ystyrir fod cyflinell lledred yn rhedeg trwy bob man ar wyneb y ddaiar.

*Y gwregysau.*—Y mae y trofanau a'r cylchau pegynol yn dosbarthu arwyneb y ddaiar yn bump o wregysau mawrion — un yn wregys poeth, dau o wregysau tymmerus, a dau o wregysau oerion. Yn y gwregys poeth, yr hwn a gynnwysir tu mewn i'r trofanau—eangder o 47° o led—bydd yr haul yn union uwch ben pob lle oddi mewn iddo ar ganol dydd ddwywaith bob blwyddyn; a chan na bydd pelydrau yr haul ar un adeg yn mhell o fod yn unionsyth, y mae y parth hwnw yn dra phoeth; oddi wrth yr hwn

Digitized by Google

amgylchiad y mae wedi derbyn ei enw. Y mae y ddau wregys tymmerus, un yn y gogledd a'r llall yn y deheu, a phob un o honynt yn 43° o led, yn gynnwysedig rhwng y trofanau a'r cylchau pegynol. Ni bydd yr haul un amser yn unionsyth uwch eu penau hwy; gan hyny, y maent yn fwy tymmerus na'r gwregys cyntaf. Ond yr un pryd, y mae y gwahaniaeth yn hyd y dydd a'r nos, ac yn uchder nawnol yr haul, yn achosi cyfnewidiadau mawrion yn yr ardymmeredd oddi mewn i'r terfynau hyn. Y mae y ddau wregys diweddaf, pob un yn mesur 23½° hyd at y canolbwynt, ac yn gynnwysedig tu mewn i'r cylchau pegynol, gan eu bod yn amddifad o ddylanwad pelydrau yr haul dros gyfnodau mor feithion, ac heb fod un amser yn derbyn ei oleuni ond yn dra osgoedig, yn cael eu galw yn briodol yn wregysau oerion.

*Hinsoddau.*—Er mwyn gallu rhoddi dysgrifiad mwy manwl o sefyllfaoedd rhanau o arwyneb y ddaiar yn eu perthynas â'r haul, y mae daiaryddwyr wedi ei dosbarthu i nifer o fân wregysau cyfochrog â'r cyhydedd, y rhai a ddynodir oddi wrth eu gilydd gan wahaniaethau hinsoddawl penodol, mor bell ag y mae hinsawdd yn ymddibynu ar sefyllfa seryddol. Y mae y gwregysau neu yr hinsoddau hyn yn cael eu nodweddu gan ymestyniad penodol yn hyd y dydd hwyaf. Rhwng y cyhydedd a'r cylchau pegynol, gwahaniaethir hwynt gan hanner awr yn hyd y dyddiau hwyaf; a rhwng y cylchau pegynol a'r pegynau, lle y mae cyfnewidiadau mawrion yn dilyn eu gilydd yn gyflym, yr ysbaid o fis yn hyd y dydd a fabwysiedir fel y nod gwahaniaethol rhyngddynt. Y mae pedwar ar ugain o hinsoddau yn cael eu dynodi fel hyn rhwng y cyhydedd a'r ddau gylch pegynol; a chwech o hyny hyd at y pegynau; neu ddeg ar ugain yn mhob arddrych.

*Y Lledred.*—Lledred unrhyw le ar wyneb y ddaiar ydyw ei bellder uniongyrchol oddi wrth y cyhydedd, i'r gogledd neu i'r deheu, yn ol yr arddrych yn mha un y saif. Cyfrifir ef yn raddau, mynydau, ac eiliadau, ar gylch nawnol, ac nis gall fyned dros 90°—y pellder pegynol. Er esampl, fe saif Arsyllfa Greenwich yn y lledred gogleddol o 51° 28′ 40″; ac Arsyllfa Paramatta yn y lledred deheuol o 33° 48′ 49″. Buasai hyd graddau y lledred oll yn gyfartal, oni buasai yr ychydig wastadrwydd sydd wrth y pegynau, at yr hwn y cyfeiriwyd eisioes wrth ddarlunio gwir ffurf y ddaiar. Gan fod lledred pob lle yn gyfartal i uchder y pegwn, canfyddir ef yn rhwydd yn yr arddrych gogleddol trwy fesur uchder y seren begynol â'r onglyr *(quadrant)*, a gwneuthur goddefiad am ei gwyrad o 1° 32′ oddi wrth y pwynt gogleddol cywir.

*Yr Hydred.*—Hydred unrhyw le ydyw ei bellder o'r dwyrain i'r gorllewin oddi wrth ryw nawnlin benodedig. Gan y tybiai yr hynafiaid fod y ddaiar yn hwy o'r dwyrain i'r gorllewin, cyfeirient hwy y gair hydred at fesuriadau yn y cyfeiriad hwnw. Gan nad ydyw natur wedi penodi un man neillduol i fesur hydred oddi wrtho, y mae gwahanol genedloedd wedi amrywio yn eu dewisiad o'r cyfryw le. Sefydlodd Ptolemy ei nawnlin gyntaf yn Ynysoedd Canary; yr Isellmyn yn Peak Teneriffe; a dewisodd Mercator ynys Corvo, un o'r Azores. Y mae y Ffrancod yn mesur yn bresennol o nawnlin yr Arsyllfa yn Paris; yr Yspaeniaid o nawnlin Cadiz; a'r Seison o Arsyllfa Greenwich. Gan mai nawnlin Greenwich ydyw y lle o ba un yr ydym ni yn cychwyn, y mae pellder lleoedd i'r dwyrain neu i'r gorllewin yn cael ei gyfrif oddi wrthi yn raddau, mynydau, eiliadau, ar linell y cyhydedd, neu ar gyflinell lledred. Er anghraifft, hydred Paris ydyw 2° 20′ 22″ i'r dwyrain o Greenwich, a hydred Washington ydyw 77° 2 i'r gorllewin. Gan fod yr hydred yn cael ei fesur yn ol ac yn mlaen, y mae yn canlyn, gan mai amgylchedd y ddaiar ydyw 360°, nas gall fod i un lle fwy na hanner y pellder hwnw o hydred, sef 180°.

Y mae maintioli graddau yr hydred yn gwahaniaethu yn ol y lledred, gan eu bod yn lleihau yn ol fel y pellhaom oddi wrth y cyhydedd. Fe welir hyn yn eglur ar darlun 223, drwy fod y nawnlinellau yn agoshau yn raddol at eu gilydd wedi gadael y llinell A B, ac yn cydgyfarfod yn y diwedd yn y pegynau, lle na bydd mwyach wahaniaeth hydred. Er anghraifft, maintioli y radd gyntaf o hydred, lle y mae y ddau ledred yn cydgyfarfod ar linell y cyhydedd, ydyw 60 o filltiroedd daiaryddol; yn lledred 1°, maintioli gradd yr hydred ydyw 59·99 o filltiroedd; yn lledred 15°, 57·95; yn lledred 30°, 51·96; yn lledred 40°, 45·96; yn lledred 60°, 30; yn lledred 70°, 20·52; yn lledred 80°, 10·42; yn lledred 89°, 1·05; ac erbyn y cyrhaeddir lledred 90°, sef y pegynau, bydd y nawnlinellau oll wedi cydgyfarfod.

Gan fod y ddaiar yn cylchdroi ar ei phegynau mewn pedair awr ar ugain, ymddengys yr haul fel yn cyflawnu taith o'i hamgylch yn yr ysbaid hwnw o amser, gan ymsymmud dros un radd o hydred bob pedwar mynyd. Gan hyny, y gwahaniaeth yn yr amser mewn dau le yn y pellder oddi wrth eu gilydd o 1°, 15°, 30°, &c., o hydred, ydyw pedwar mynyd, awr, dwy awr, &c.,—yr amser gymmaint a hyny yn foreuach tua'r dwyrain, ac yn hwyrach tua'r gorllewin. Pan y deuwn i wybod hydred a lledred unrhyw le, gallwn wybod ei sefyllfa yn gywir ar wyneb y ddaiar. Fe ddengys y lledred y llinell gyfredol ar ba un y saif, ac fe rydd yr hydred y pwynt cywir ar y llinell hono. Trwy gymhorth yr haul, ac amseriadur *(chronometer)*, gall morwr ddeall ei hydred a'i ledred lle bynag y byddo, a dyweyd o'r braidd yn gywir yn mha ran o'r byd eang y bydd ar y pryd. Os bydd rhyw ddyryswch ar ei amseriadur, gall gyflenwi ei le drwy gymhorth y lloer a'r ser a'r *Amseroni Moryddol.*

Y mae nawnlin Greenwich yn llinell bwysig i'r morwr Prydeinig. Gan ddilyn ei llwybr o'r pegwn gogleddol, canfyddwn hi yn pasio ychydig i'r gorllewin oddi wrth ynys fawr Spitzbergen. Y mae yn myned i'r Môr Gogleddol ychydig i'r dwyrain o ynysoedd Shetland; a chan ddilyn yn mlaen i'r deheu, pasia ychydig i'r dwyrain o Flamborough Head, a chyrhaedda sir Gaerefrog tuag ugain milltir i'r dwyrain o Hull. Croesa enau yr Humber, pasia trwy drefydd Louth a Boston yn sir Lincoln, ychydig filltiroedd i'r gorllewin o Gaergrawnt; yna, trwy Greenwich tua phedair milltir i'r dwyrain o Lundain, a ger llaw tref Lewes yn Sussex, a gadawa Loegr ger llaw tref Newhaven, yn y sir hono. Y mae yn myned i Ffrainc yn agos i Havre, wrth enau yr afon Seine; croesa Ffrainc a'r Pyrenees, ac ä i Yspaen, a gadawa y wlad hono ychydig i'r gogledd-ddwyrain o Alicant. Gan fyned i Affrica yn Algeria, ä drwy odrau dwyreiniol Mynyddoedd yr Atlas, a chroesa ddiffaethwch mawr Soudan, ac ä i mewn i Forgainc Guinea, ychydig i'r dwyrain o Benrhyn Coast. Gan basio 400 o filltiroedd i'r dwyrain o St. Helena, fe barha yn

Digitized by Google

ei thaith drwy yr Atlantic a'r Môr Deheuol i'r pegwn deheuol. Y mae y nawnlin wrthgyferbyniol i nawnlin Greenwich, yn yr hanner arall o'r cylch nawnlinellol, yn pasio drwy Asia, yn agos i'w eithafedd gogledd-ddwyreiniol, tua deg gradd i'r gorllewin o Gulfor Behring; drwy Forgainc Anadir, Môr Kamtschatka, a'r Ynysfor Aleutianaidd, ac i'r deheu drwy y Môr Tawel gogleddol, tuag ugain gradd i'r gorllewin o Ynysoedd Sandwich; drwy y Môr Tawel deheuol rhwng yr Ynysoedd Cyfeillgar mwyaf gorllewinol, ychydig i'r dwyrain o Zealand Newydd, yn union heibio i ynys fechan a elwir Ynys y Gwrthdroedwyr, oddi wrth ei sefyllfa yn ei pherthynas â'r wlad hon; ac heibio i Fynydd Erebus, yn y tir sydd wedi ei ddarganfod yn ddiweddar yn agos i'r pegwn deheuol.

Er mwyn i'r darllenydd gael dirnadaeth eglurach am raniadau mesuronol y ddaiar, nag a ellir ei gyfleu trwy eiriau, cyfeiriwn ef at glôb o'r ddaiar (*terrestrial globe*), ar ba un y cenfydd y cylchau y cyfeiriasom atynt, y rhai a arddangosant berthynas y naill le â'r llall, ac â'r cyrff nefol, llinellau yr hydred a'r lledred, y cylchau pegynol, y trofanau, y cyhydedd, a'r heulrod.

RHANIADAU AMSER.

Y mae y calaniadur, neu daflen dosbarthiad amser, wedi derbyn ei enw oddi wrth y gair a ddefnyddiai y Rhufeiniaid am y dydd cyntaf yn mhob mis, sef *calendæ*; ystyr yr hwn ydyw *galw*, o blegid y byddai y bobl yn cael eu gwysio gan yr archoffeiriaid i ymgasglu yn nghyd, pryd y cyhoeddid yn ffurfiol y dyddiau o'r mis ar ba rai y disgynai y gwyliau. Rhaniadau yr amser yn y calaniadur ydyw blyneddoedd, misoedd, wythnosau, a dyddiau.

*Blyneddoedd.*—Y flwyddyn naturiol, drofanol, neu heulog, ydyw yr amser a gymmer y ddaiar i deithio ei chylchdro, neu i'r haul deithio yr heulrod yn ymddangosiadol, yr hyn sydd yn gyfartal i 365 o ddyddiau, 5 awr, 48 o fynydau, a 49 o eiliadau. Y mae y flwyddyn wladol, er mwyn cyfleusdra, wedi ei gwneuthur i gynnwys nifer cyfartal o ddyddiau; a'i chyfrif yn ol 365 o ddyddiau, y mae yn canlyn na bydd y ddaiar wedi cyflawnu ei chylchdro blyneddol o yn agos i ddiwrnod cyfan. Gan hyny, er mwyn i'r amser gwladol gyfateb i'r amser naturiol, trefnodd Julius Cæsar ar fod i dair blynedd olynol gynnwys 365 o ddyddiau, ac i'r bedwaredd flwyddyn gynnwys 366, yr hon a elwir, o blegid hyny, yn "flwyddyn naid." Y mae yn eglur fod peth anghywirdeb yn y gwellhad hwn, gan ei fod yn cymmeryd yn ganiataol mai hyd y flwyddyn naturiol oedd 365¼ o ddyddiau; ond y mae mewn gwirionedd yn fyr o gyrhaedd hyny o un mynyd ar ddeg. Drwy i'r mynydau hyn ymgasglu yn nghyd, cynnyrchasant cyn hir anghywirdeb o oriau a dyddiau. Ac yn mhen 400 o flyneddoedd, yr oedd yr anghywirdeb tua thri diwrnod, yn saith niwrnod yn mhen 900, ac yn ddeng niwrnod yn mhen 1,400; fel yr oedd yn eglur, tua'r flwyddyn 1414, nad oedd yr albanau yn cyfateb i'r 21ain o Fawrth, a'r 23ain o Fedi; ond ymddangosent fel yn dygwydd yn rhy gynnar. Dygwyddodd Alban Eilir, yr hwn a ddisgynodd ar yr 21ain o Fawrth, yn y flwyddyn 325, ar y 10fed o'r mis hwnw yn 1582. Er gwneuthur i'r calaniadur gyfateb i'r amser naturiol, ac er gochel anghyssondeb dyfodol, dygwyd i mewn y diwygiad Gregoraidd, yr hwn a elwid felly am mai yn amser y pab Gregory XIII. y dygwyd ef i weithrediad gyntaf, sef ar y 24ain o Chwefror, 1582.

Cynnwysai y cynllun Gregoraidd dri o ddarpariadau pwysig: — 1. Gan fod y flwyddyn wladol ar y pryd yn ddeng niwrnod o flaen y flwyddyn naturiol, gorchymynwyd pasio y nifer hwnw o ddyddiau heb eu cyfrif ar ol y 4ydd o Hydref, 1582, trwy alw y diwrnod nesaf yn 15fed yn lle yn 5ed. Ond gan na fabwysiadwyd y cyfnewidiad yn Lloegr hyd y flwyddyn 1752, pryd yr oedd yr anghywirdeb yn y cyfrifiad wedi cyrhaedd i un niwrnod ar ddeg, gwnaethpwyd deddf seneddol, yn gorchymyn gadael allan o'r flwyddyn hono y nifer hwnw o ddyddiau ar ol yr 2il o Fedi, trwy alw y diwrnod nesaf yn 14eg, yn lle yn 3ydd. 2. Gan fod y dull Iwlaidd o gyfrif amser yn cynnwys anghywirdeb o dri diwrnod gormod mewn tua 400 mlynedd, penderfynwyd gadael allan dri diwrnod rhagllaw o bob pedair canrif. Y mae hyny yn cael ei wneyd drwy y ffordd ganlynol:—y mae pob blwyddyn y gellir rhanu ei nifer â 4, heb weddill, yn flwyddyn naid, oddi eithr blyneddoedd diweddaf canrifoedd, y rhai na byddant yn flyneddoedd naid ond pan y gellir rhanu eu nifer â 400 heb weddill. Yn ol hyn, trwy ddilyn y calaniadur Iwlaidd, yr oedd y blyneddoedd 1600, 1700, 1800, 1900, a 2000, i fod yn flyneddoedd naid; ond trwy fabwysiadu y rheol uchod, deuai y blyneddoedd 1700, 1800, 1900—tair mewn pedair canrif—yn flyneddoedd cyffredin o 365 o ddyddiau, tra yr arosai y blyneddoedd 1600 a 2000 yn flyneddoedd naid megys o'r blaen. Gan hyny, y mae mewn 400 o flyneddoedd Gregoraidd, 303 o flyneddoedd cyffredin o 365 o ddyddiau, a 97 o flyneddoedd naid o 366 o ddyddiau, y rhai a gynnwysant 146,097 o ddyddiau; neu fe gynnwysa pob blwyddyn ar gyfartaledd 365 o ddyddiau, 5 awr, 49 o fynydau, a 12 o eiliadau. Nid ydyw hyn yn myned tu hwnt i'r flwyddyn naturiol ond 23 o eiliadau, yr hyn ni chwydda i fyny yn ddiwrnod o wahaniaeth mewn llai o ysbaid na 3,700 o flyneddoedd. 3. Yr oedd y trydydd cyfnewidiad pwysig yn rheoleiddio dechreuad y flwyddyn. Yr oedd gwahanol genedloedd Ewrop yn cyfrif eu blyneddoedd fel yn dechreu ar adegau amrywiol; rhai yn y Nadolig, rhai yn y Pasc, ereill ar y 25ain o Fawrth, ac ereill ar y 1af o Ionawr, Ond penodwyd ar yr adeg ddiweddaf gan y dull newydd o gyfrif; yr hyn a fabwysiadwyd o'r braidd yn uniongyrchol yn yr holl wledydd Pabaidd o'r bron, ond nid mor gyflym yn y gwledydd Protestanaidd. Ond y mae y calaniadur diwygiadol yn cael ei wrthod hyd yn bresennol yn Rwssia, a Groeg, ac yn gyffredinol trwy y dwyrain, a chyfrifir yr amser yn y gwledydd hyny yn ol yr hen ddull.

*Misoedd.*—Y mae dosbarthiad y flwyddyn yn fisoedd yn deilliaw oddi wrth gylchdroad y lleuad o amgylch y ddaiar. Gan fod yr ysbaid rhwng dwy leuad newydd, yr hyn a elwir yn fis lleuadol, yn cynnwys tua 29½ o ddyddiau, y mae mwy na deuddeg, a llai na thri ar ddeg, o fisoedd lleuadol yn y flwyddyn. Gan hyny, wrth eu dosbarthu yn ddeuddeng mis, fe renir rhwng y misoedd y nifer o ddyddiau sydd yn fyr o gyrhaedd blwyddyn mewn deuddeng mis lleuadol, trwy beri i rai gynnwys deg ar ugain, ac ereill un ar ddeg ar ugain o ddyddiau, fel y canlyn:—

| | |
|---|---|
| Ionawr............... | 31 o ddyddiau. |
| Chwefror........... | 28, 29 ar flwyddyn naid. |
| Mawrth................ | 31 o ddyddiau. |
| Ebrill.................. | 30 „ |
| Mai...................... | 31 „ |
| Mehefin............... | 30 „ |

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Gorphenaf................ | 31 o ddyddiau. |
| Awst........................ | 31 „ |
| Medi ........................ | 30 „ |
| Hydref...................... | 31 „ |
| Tachwedd................. | 30 „ |
| Rhagfyr.................... | 31 „ |

Er na chynnwysa un flwyddyn unigol nifer gyflawn o fisoedd lleuadol, eto y mae 19 o flynyddoedd heulog, a 235 o gylchdroadau lleuadol, yn agos yn gyfartal; canys y mae 19 o flynyddoedd yn cynnwys 6,939 o ddyddiau, 14 o oriau, 27 o fynydau, a 12 o eiliadau; ac y mae 235 o fisoedd lleuadol yn cynnwys 6,939 o ddyddiau, 16 o oriau, 31 o fynydau, a 45 o eiliadau. Nid ydyw y gwahaniaeth ond 2 awr, 4 mynyd, a 33 o eiliadau: felly, yn niwedd 19 o flyneddoedd, bydd holl agweddau y lleuad yn debyg yr un fath ag oeddynt ar yr un dyddiau yn yr un misoedd 19 o flyneddoedd yn ol. Gelwir y cyfnod hwn yn Gylch Lleuadol. Yr oedd ei ddarganfyddiad mor bwysig yn ngolwg y Groegiaid, fel, pan y cyhoeddwyd ef yn y Campau Olympaidd, y derbyniwyd ef gyda llawenydd mawr, ac yr arddangoswyd ei gyfrifiad mewn llythyrenau o aur yn y lleoedd cyhoeddus, er gwasanaeth y dinaswyr. Dyma ydyw gwreiddyn yr ymadrodd, "y rhif euraidd," yr hwn a ddynoda rifedi y flwyddyn yn y cylch lleuadol. Er ei ddarganfod, y mae yn angenrheidiol cyfrif y flwyddyn cyn dechreuad y cyfnod Cristionogol fel y flwyddyn gyntaf o'r cylch: gan hyny, chwaneger 1 at nifer unrhyw flwyddyn, a dosbarther y swm â 19; a'r cynniferydd (*quotient*) fydd rhifedi y cylchau lleuadol a aethant heibio er genedigaeth ein Harglwydd, a'r gweddill fydd y rhif euraidd. Os na bydd gweddill, yna 19 fydd y rhif euraidd. Er anghraifft, y flwyddyn 1859; chwaneger 1 ati, a bydd yn 1860; os dosberthir 1860 â 19, 97 fydd y cynniferydd, a 17 yn weddill. Gan hyny, y mae 97 o gylchau lleuadol wedi myned heibio er genedigaeth Crist: a chan mai rhif euraidd y flwyddyn 1859 ydyw 17, fe ganfyddir fod holl gyfnewidiadau y lleuad yn dygwydd yn hollol ar yr un dyddiau ag yn mhob eilfed flwyddyn ar bymtheg o bob cylch lleuadol.

*Wythnosau.*—Nid ydyw dosraniad wythnosol amser yn cael ei nodi allan gan symmudiadau naturiol y cyrff nefol. Eto, yn mhob rhan o'r byd o'r bron, o Ewrop i India, ac yn mysg yr hen Gothiaid, y Rhufeiniaid, a'r Groegiaid, yn gystal ag yn mysg yr Iuddewon, ni a ganfyddwn wythnos yn cael ei mabwysiadu fel un o fesuriadau amser. Y mae yn ddiammheuol y rhaid cyfeirio hyn at neillduad gwreiddiol y seithfed dydd yn Sabbath gan Dduw, er coffadwriaeth am berffeithiad gwaith mawr y greadigaeth. Y mae dyddiau yr wythnos yn mhlith y Cymry, fel yr oeddynt yn mysg y Rhufeiniaid, wedi eu henwi yn ol enwau y planedau, oddi eithr y dydd cyntaf, yr hwn a elwir yn awr yn mhlith Cristionogion yn Ddydd Sabbath, yn hytrach nag yn Ddydd Sul, fel yn mysg ein hynafiaid. Gan fod y flwyddyn yn cynnwys deuddeng wythnos a deugain ac un diwrnod, y mae pob blwyddyn yn dechreu yn ddiweddarach o un diwrnod yn yr wythnos na'r flwyddyn flaenorol, a'r flwyddyn a ddilyna flwyddyn naid ddau ddiwrnod yn ddiweddarach.

*Dyddiau.*—Y mae y dosraniad o amser i ddyddiau, cylch o bedair awr ar ugain, yn cael ei benderfynu gan gylchdro y ddaiar ar ei hechel; ond y mae yn cael ei gyfrif yn wahanol gan wahanol genedloedd. Gyda ni yn Mhrydain, ac yn Ffrainc, ac yn y rhan fwyaf o deyrnasoedd Ewrop, y mae y diwrnod yn cael ei gyfrif fel yn dechreu ar hanner nos; a dosberthir ef yn ddeuddeg awr hyd hanner dydd, ac yn ddeuddeg arall hyd yr hanner nos dilynol. Ond mewn rhai gwledydd, y mae y cyfrifiad yn cael ei wneuthur o gyfodiad haul hyd gyfodiad haul, neu o fachludiad haul hyd fachludiad haul. Y mae y diwrnod seryddol yn dechreu yn mhob man ganol dydd, ac y mae yr oriau yn cael eu cyfrif yn rheolaidd hyd bedair ar ugain.

Ceir gweled oddi wrth y daflen ganlynol yr amser gwahanol o ba un y bu, neu y mae, gwahanol genedloedd yn ystyried fod y diwrnod gwladol yn dechreu:—

CYFODIAD HAUL.
Yr hen Fabiloniaid.
Yr hen Bersiaid.
Yr hen Syriaid.
Yr hen Iuddewon.
Yr holl genedloedd dwyreiniol o'r braidd.
Trigolion Majorca, Ivica, a Minorca.
Y Groegiaid, a thrigolion yr Ynysfor.
Yr Atheniaid, a thrigolion Attica.
Y Marcomaniaid.
Yr Awstriaid.
Y Tyrciaid.
Y Bohemiaid.
Y Silesiaid.
Yr Italiaid.

CANOL DYDD.
Yr hen Umbriaid.
Yr Arab. hen a diweddar.
Seryddwyr pob cenedl.

HANNER NOS.
Y Cymry.
Yr hen Aiphtiaid.
Y Seison.
Y Ffrancod.
Yr Almaenwyr.
Yr Isellmyn.
Y Rwssiaid.
Yr Yspaenwyr.
Y Swissiaid.
Y Portugiaid.
Y Daniaid.
Y Swedisid, y Laplandiaid, a'r Americiaid.
Y Chineaid diweddar.

### II. Daiaryddiaeth Anianyddol.

Y mae daiaryddiaeth anianyddol yn traethu ar agweddau naturiol y ddaiar—ei thir a'i dwfr, ei huchelfanau a'i hiselderoedd, ei hanifeiliaid a'i llysiau, ei hawyrgylch a'i hinsoddau. Hefyd, olrheinia y deddfau a lywodraethant ffurfiad arwynebedd y ddaiar; a thraetha ar y cyfnewidiadau olynol yr aeth drwyddynt hyd oni chymmerodd ei hymddangosiad presennol, cystal ag effeithiau amrywiol ddylanwadau yr hinsawdd a'r ardymmeredd y mae yn agored iddynt. Yn hytrach na bod yn wybodaeth wahanredol, gan hyny, y mae hon yn gyfundod o wybodau a'u cynnorthwya i olrhain y berthynas sydd rhwng amryw arddangosion neu weithrediadau natur anianyddol â'u gilydd. Pa fodd bynag, y mae y ddaiar, yr hon ni ffurfia ond rhan o gyfundrefn eang y greadigaeth, yn fyd cyflawn ynddi ei hun, lle y dygir lluaws mawr o weithrediadau yn mlaen yn barhaus—oll yn ymddibynu ar eu gilydd, ac yn ddarostyngedig i'w gilydd, ac yn myned yn mlaen yn y drefn fwyaf ardderchog o rau cydgordiad a manyldeb.

Ymdrinir a manylion amryw gangenau o'r wybodaeth hon, mewn erthyglau ereill ar wahân yn y *Gwyddoniadur*, i'r rhai y cyfeirir wrth fyned yn mlaen.

Am gyfansoddiad y ddaiar, ei defnyddiau, y cyfnewidiadau y mae wedi myned trwyddynt, a'r achosion o'r cyfnewidiadau hyny, gwel Daiareg.

*Arwyneb y ddaiar.*—Os edrychir ar ein map neu ein darlunlen o'r byd, canfyddir fod ei harwyneb yn cael ei wneyd i fyny o dir a dwfr.

Cyfrifir fod holl arwyneb y ddaiar o gylch 197 miliwn o filltiroedd Seisonig ysgwâr, ac nad oes ond ychydig dros un rhan o bedair o hyny yn sychdir, sef o gylch 51 miliwn o filltiroedd ysgwâr; tra y mae y gweddill oll yn orchuddiedig gan ddwfr, sef o gylch 146 miliwn o filltiroedd ysgwâr. Gellir cael allan y cyfartaledd yn fwy

Digitized by Google

o'r cyhydedd; a chyssylltir hi â chyfandiroedd Asia ac Ewrop gan ydddir Suez.

Gorwedd yr ynysfor (neu, fel y geilw rhai ef, yr ynysfyd=*island world*) eang, o'r hwn y mae Cyfandir Awstralia yn ganolbwnc, y tu hwnt i eithafoedd de-ddwyrain Asia; ac ymestyna i'r ddau arddrych. Gelwir yr holl dir sydd yn yr ynysfor yma weithiau yn Gefnfordir (*Oceania* neu *Oceanica*), am ei fod yn gwbl yn y cefnfor. Mae yr holl Gefnfordir yma o gylch 4,000,000 o filltiroedd ysgwâr.

Y canlyniad o'r trefniant yma i'r cyfandiroedd dan sylw ydyw, fod holl gyfandiroedd Ewrop ac Asia yn ymestyn trwy wregysau hinsoddol cyffelyb; ac felly hefyd y mae Cyfandir Awstralia, trwy ganol yr hwn, ar ei hyd, o'r gorllewin i'r dwyrain, y rhed llinell Trofan yr Afr; tra y mae Cyfandir America yn myned bron trwy holl wregysau hinsoddawl y ddaiar.

Terfynau eithaf yr Hen Gyfandir ydyw Penrhyn Taimura, neu y Penrhyn Gogledd ddwyreiniol yn Siberia, lledred 78° 16′ g.; Penrhyn Lagullus, o'r tu dwyrain i Benrhyn y Gobaith Da, lledr. 36° 50′ d.; Penrhyn Verde—y trwyn mwyaf gorllewinol o Affrica, hydr. 70° 33′ gor.; a'r Penrhyn Dwyreiniol neu Tschuktschi-noss—y pwynt mwyaf dwyreiniol o Asia, hydr. 190° d. Yr olaf hon ydyw y llinell union hwyaf a'r a ellir ei rhoddi ar yr Hen Gyfandir, ac y mae o gylch 11,000 o filltiroedd o hyd. Cyfrifir fod arwyneb y cyfandir hwn yn nghylch 33,000,000 o filltiroedd ysgwar.

Cyfliniau eithaf y Cyfandir Newydd ydyw Pwynt Barrow, yn y Cefnfor Gogleddol, lledr. 72° g.; Culfor Magellan, hydr. 54° d.; Penrhyn St. Roque, sef y trwyn mwyaf dwyreiniol o America Ddeheuol, yn Brazil, hydr. 35° gor.; a Phenrhyn Tywysog Cymru, y pwynt mwyaf gorllewinol o Ogledd America, hydr. 168° gor. Y mae hyd mwyaf y cyfandir hwn o gylch 9,500 o filltiroedd; a chyfrifir ei arwyneb o gylch 14,000,000 o filltiroedd ysgwâr.

Hyd hwyaf Cyfandir Awstralia, o'r dwyrain i'r gorllewin, yw 2,400 o filltiroedd; a'i led mwyaf, o'r gogledd i'r de, yw 1,070 o filltiroedd; ac y mae ei arwyneb o gylch tair miliwn o filltiroedd ysgwâr.

Os cymherir maintioli perthynasol y cyfandiroedd mawrion, a chyfrif Awstralia fel 1 yn safon mesuriad, ceir y cynnyrch canlynol:—Awstralia 1, yr Hen Gyfandir (Ewrop, Affrica, ac Asia), 11¼; y Cyfandir Newydd (America) 4¾. Neu, os cyfrifir yr Hen Fyd yn dri chyfandir—Ewrop, Asia, ac Affrica—fel y gwneir yn fynych, saif y cyfartaledd fel hyn:—Awstralia 1; Affrica 4; Asia 5½; Ewrop 1¼; America 4¾.

*Ffurf gyffredinol y cyfandiroedd, eu gorynysoedd a'u harfordiroedd.*—Y mae yr ymddangosiadau a geir yn nghyfansoddiad a threfn y defnyddiau a wnant i fyny y tir, yn dangos ddarfod iddo fyned, y naill dro ar ol y llall, trwy gyfnewidiadau mawrion. Dygwyd y cyfnewidiadau hyn oddi amgylch trwy offerynoliaeth gwres a dwfr, yn gweithredu ar wahân oddi wrth eu gilydd, neu trwy y grym anwrthwynebol a ddeillia o'u cydgyfarfyddiad. Y mae yr elfenau hyn yn achosi cyfnewidiadau parhaus yn arwyneb ac arforlin y tir—y naill trwy egni tanddaiarol, megys y dangosir yn y dadymsudoiadau a'r gweithrediadau toriadol a bair daiargryn; a'r llall trwy offerynoliaeth rhediad llifeiriant ar y tir, a symmudiadau dwfr y cefnfor, megys y gwelir yn y ffurfiadau parhaus a wneir yn ngenau afonydd mawrion, yn ngweithrediad treuliadol tonau y môr, ac yn symmudiadau morlifol a gorllifiadau y môr. Y mae gweithrediad yr elfenau hyn, at ba rai y rhaid chwanegu gweithrediad yr awyrgylch a'r trydan a gynnwysant, wedi bod yn myned yn mlaen mor raddol, fel nad ydynt, hyd yn oed yn ystod miloedd o flynyddoedd, wedi newid ond ychydig ar wyneb cyffredinol cyfandiroedd y ddaiar. Nid annhebyg, gan hyny, ydyw mai yr un ffurf sydd i'r tir hwn yn gwbl yn awr ag ydoedd iddo pan dreiodd dyfroedd y dylif oddi ar ei wyneb.

Wrth chwilio yr hyn a elwir lledwyneb llorweddol (*horizontal profile*) y tir, canfyddir, er bod dwfr y cefnfor wedi gwisgo arforlin y tir yn amryw lynclynoedd a morgilfachau, eto, y mae yn nodedig fod y cyfandiroedd, o ran eu hagwedd gyffredinol, yn cadw ffurf driongl benodol. Y mae hyn yn dra hynod yn agwedd Gogledd a Deheubarth America, yn Affrica, ac yn ymylau Asia ac Ewrop. Amgylchiad nodedig hefyd ydyw, fod ymestyniad mwyaf y cyfandiroedd tua'r gogledd a'r deheu dan yr un nawnlin. Bydd hyn yn amlwg os cymherir y Penrhyn Gobaith Da â Phenrhyn Gogleddol Ewrop, gorynys Malacca â Phenrhyn Taimura yn Siberia, a Phenrhyn Horn a'r rhan ogledd-orllewinol o Fachwy Baffin a'r Pegyndir (*Polar-land*) mawr.

Mae arfordiroedd gogleddol y cyfandiroedd—oddi gerth Affrica—yn wastadeddau llydain o iseldir; tra y mae yr arfordiroedd deheuol yn greigiog, pinaclog, ac uchel. Mae y rhan olaf o'r sylw yma yn wir gyda golwg ar yr holl diroedd mawrion, megys Ewrop, Asia, ac Awstralia —pob un o'r rhai sydd yn terfynu yn dri phwynt tua'r deheu; tra yr ymgrynhoa America ac Affrica tua'r un cyfeiriad yn bentiroedd unigol. Ymddengys arfordiroedd y tir sydd yn yr arddrych gogleddol yn y modd mwyaf bylchedig; ac y mae gorlifiadau y Môr Tawel wedi gwisgo gororau dwyreiniol Asia yn amryw forgeinciau a gorynysoedd. Arforlin dra thoredig ac afreolaidd hefyd sydd i ororau gogledd-ddwyrain yr America, o blegid dylanwad yr Atlantic Gogleddol, morlifoedd nerthol yr hwn sydd wedi rhuthro i'r tir heb gael attalfa ond yn Ynysoedd India y Gorllewin yn unig; megys ag y mae y Môr Tawel yn ei gael yn Ynysfor India y Dwyrain. Y mae arforlin Ewrop hefyd wedi ei bylchu a'i thori yn ddwfn, fel y mae ei gororau yn dra annhebyg i ororau Affrica, Deheubarth America, ac Awstralia, pa rai sydd yn ymestyn i'r arddrych deheuol. Mae yr amgylchiad yma, nid yn unig yn effeithio ar ei hinsawdd a'i chynnyrchion, ond yn tueddu yn arbenig hefyd i gynnyddu ei gwareiddiad a'i masnach.

Peth arall sydd yn deilwng o sylw ydyw, fod yr holl bentiroedd mawrion agos yn ymestyn tua'r deheu. Yn yr Hen Fyd, ceir anghreifftiau o'r dygwyddiad yma yn ngorynysoedd Scandinavia, Italy, Groeg, Affrica, Arabia, Hindwstan, Malacca, Corea, a Kamtschatka; ac yn y Byd Newydd yn Greenland, Nova Scotia, Florida, California, a Deheubarth America. Yr eithriadau i'r ddeddf yma ydyw gorynys Yucatan, yn nghanolbarth America, a Jutland, yn ngogleddorllewin Ewrop, y rhai sydd yn cyfeirio tua'r gogledd, a gorynys Aliaska yn America Rwsiaidd, a Cotentin yn Ffrainc, y rhai sydd yn cyfeirio tua'r gorllewin.

Y mae gorynys Florida ac Ynysfor India y Gorllewin yn hynod debyg i orynys Malaya ac Ynysfor India y Dwyrain. Hefyd, y mae

Digitized by Google

ymylau Asia, er ar raddeg fwy mawreddog, yn lled debyg i rai Ewrop. Fel hyn y mae yr orynys Arabiaidd yn cyfateb i'r Iberiaidd; yr orynys Indiaidd a Ceylon, i Italy a Sicily; eithafedd India a'i Ynysfor i Groeg a'i Hynysfor. Y mae gororau dwyrain Asia, y rhai sydd wedi eu tori gan rym gorllif y cefnfor, yn ein cynnysgaethu âg amrywiaeth cyfoethog o amrywiadau, gorynysoedd, ac ynysoedd cyffiniol, yn newid o'r cyhydedd hyd lledr. 60° gogleddol. Mae y morgainc eang sydd yn ymestyn o Tonquin hyd ororau gogleddol America, yn cario dylanwad cyfaddasol ar yr hinsawdd; ac, o ganlyniad, ar gynnyrchion dwyrain Asia. Cyflwyna cydluniad Affrica a Deheubarth America rywbeth hynod i'r dychymyg, gan fod tyddfliad (*projection*) y naill yn ateb i fylchiad y llall; er anghraifft, ymddengys fod y rhan ogledd-orllewinol o Affrica yn ffitio i Forgainc Mexico, a pharth gogledd-ddwyrain America yn peusythu (*dovetail*) megys i Forgainc Guinea.

Gwelir weithiau fod gwahaniaeth dirfawr rhwng arfordiroedd y cyfandiroedd, nid yn unig o ran hyd, ond o ran agweddiad hefyd. Y mae rhai o honynt wedi eu bylchu yn ddwfn, a'u cynnysgaethu â gorynysoedd, llynclynoedd, a thir-foroedd (*inland seas*), y rhai a roddant hyd mawr i'w harfordiroedd; tra y mae ereill yn fwy cryno ac anrhanedig, a'u cyrff megys yn amddifad o aelodau. Y mae llinell eu harfordiroedd yn fwy syml a didoriadau; ac am hyny, y maent, mewn cymhariaeth, yn llawer byrach.

Wrth eu cymmeryd yn yr ystyriaeth yma, y mae cyfandiroedd yr Hen Fyd yn ffurfio gwrthdarawiad nodedig. Affrica ydyw y symlaf o ran ei ffurf. Y mae corff ei thir, sydd agos yn gynghrwn, yn canolbwyntio mwy ynddo ei hun. Nid ydyw yn taflu un orynys o bwys allan i'r cefnfor, nac yn goddef mewn un man i ddyfroedd y cefnfor dreiddio i mewn iddo yntau. Ymddengys megys yn ymgau rhag pob dylanwad allanol. O blegid hyn, nid yw llinell ei harfordiroedd ddim ond 14,000 o filltiroedd daiaryddol, 60 yn y gradd, ar gyfer arwynebedd o 8,720,000 o filltiroedd ysgwâr: felly, nid oes i Affrica ond milltir yn unig o arfordir am bob 623 o filltiroedd o arwynebedd.

Er nas golchir ond tair ochr yn unig o Asia gan y cefnfor, eto mae iddi, yn enwedig ar ei gororau dwyreiniol a deheuol, orynysoedd eang, megys Arabia a'r ddwy India, Corea a Kamtschatka. Gwthir gwledydd cyfain allan i'r cefnfor, megys Mandchouria a China; ond, y mae y cyfandir yma y fath, fel, er dyfned yw ei fylchau, y mae yn aros yn ei ganol eangder mawr cyfan, yr hwn a lywodraetha yr arfordiroedd, megys ag y llywodraetha y corff yr aelodau. Y mae Asia yn ddyledus am y ffurf yma i linell o arfordir sydd yn 30,800 milltir o hyd; y mae yn gymmaint arall a llinell Affrica, tir yr hon nid ydyw lai ond o un ran o dair. Y mae Asia, gan hyny, yn perchen milltir o arfordir am bob 459 milltir ysgwâr o arwyneb. Ond o'r holl gyfandiroedd, Ewrop sydd yn meddu mwyaf o amrywiaeth yn ffurf ei hamlinell. Y mae ei phrif eangdir (*mass of land*) wedi ei dori yn ddwfn yn mhob parth gan y cefnfor a thir-foroedd, fel yr ymddengys megys ar fin myned yn orynysoedd. Y mae dwy o'i gorynysoedd mawrion, sef Groeg a Scandinavia, yn arddangosiad nodedig o dyddfiad a bylchiad arfordir—yr hyn sydd berthynol i'r holl gyfandir. Y mae llinell arfordiroedd yr holl gyfandir yn cyrhaedd i o ddeutu 17,200 o filltiroedd—cyfran ddirfawr mewn cymhariaeth i'w maint; canys y mae yn 3,200 milltir hwy nag arfordir Affrica, yr hon er hyny sydd gymmaint dair gwaith. Y mae Ewrop yn mwynhau un filltir o arfordir am bob 156 milltir ysgwâr o arwyneb. Hwn, gan hyny, ydyw y cyfandir mwyaf agored i'r môr ac i gyfathrach estronol; tra y mae ar yr un pryd y cyfoethocaf o ran ardaloedd lleol ac annibynol.

Y mae graddfa nodedig gan hyny, yn y golygiad yma, rhwng tri phrif gyfandir yr Hen Fyd a'u gilydd. Affrica ydyw y symlaf: y mae megys corff heb aelodau, pren heb gangenau. Y mae Asia megys corff galluog, yn meddu lluaws o aelodau; y rhai, er hyny, nid ydynt fwy nag un ran o bump o'i gorff. Yn Ewrop y mae yr aelodau yn goruwchreoli y prif gorff, y cangenau yn enhuddo yr holl gyff: y mae y gorynysoedd yn ffurfio agos y drydedd ran o'i holl arwyneb. Mae Affrica yn gauad rhag y môr —Asia yn agored iddo yn unig yn ei minion— tra y treiddia yn ddwfn i Ewrop, ac felly gwneir hi yn fwy cyrhaeddadwy na'r holl gyfandiroedd.

Ceir cyfatebion cyffelyb yn America, er nad i raddau mor nodedig. Y mae Gogledd America fel Ewrop, yn fwy bylchog na Deheubarth America; cydffurfiad yr hwn, yn ei du allanol o leiaf, sydd yn ein hadgofio am ffurfiau Affrica, ac unffurfiad ei harforlin. Y mae dau gyfandir y Byd Newydd yn debycach i'w gilydd; ond y mae llinell arfordirol y Gogledd yn llawer hwy na llinell Deheubarth America. I'r blaenaf, y mae 24,000 o filltiroedd, neu 1 filltir o arfordir am bob 228 milltir ysgwâr o arwyneb; tra nad oes i'r olaf ond 13,600 milltir, neu 1 filltir o arfordir am bob 376 milltir ysgwâr o arwyneb.

Y mae y daflen ganlynol yn gosod allan yr amryw gydffurfiadau a nodwyd sydd yn perthyn i'r cyfandiroedd trwy gyfartaledd ffugrol. Y filltir a ddefnyddir yma ydyw yr un ddaiaryddol, o 60 milltir yn y radd.

| Cyfandiroedd. | Arwynebedd yn filltiroedd ysgwâr. | Hyd llinell yr arfordiroedd. | Milltiroedd ysgwâr am bob milltir o arfordir. |
|---|---|---|---|
| Ewrop ... ... ... ... ... | 3,794,447 | 17,200 | 156 |
| Asia ... ... ... | 17,299,755 | 30,800 | 459 |
| Affrica ... ... ... ... ... | 10,906,934 | 15,000 | 623 |
| Awstralia ... ... ... ... | 3,114,479 | 7,600 | 290 |
| Gogledd America . ... ... | 8,751,067 | 24,000 | 228 |
| Deheubarth America ... | 7,203,085 | 13,600 | 376 |

Dengys lledwyneb syth y tir olygweddau tra amrywiol; ond gellir sylwi fod yr holl gyfandiroedd yn cyfodi yn raddol o lan y môr tua'r canol, hyd nes cyrhaedd uchder mwyaf y tir; ac y mae y tebygrwydd sydd rhwng agwedd Ewrop ac Asia mor hynod a'r annhebygrwydd mawr sydd rhwng arwyneb cyfandiroedd Affrica ac America. Y mae y gadwen fawr o fynydd-

Digitized by Google

mewn manau ereill, ymddengys gwelyau o raian, y rhai a ffosir ac a wisgir gan dymmestloedd y gauaf sy'n disgyn o'r uwchdiroedd. Cyfansoddir y rhanau mwyaf gwastad yn gyffredin o wastadeddau cleilyd, a wisgir yn deneu â glaswellt byr a garw. Cynnwysa y rhai hyn yn gyffredin lynoedd a morfeydd heilltion eang, y rhai a roddant halen mor helaeth fel y gwneir masnach o hono.

Yr anialdiroedd eangaf yn yr Hen Gyfandir a'r Newydd, yw y rhai canlynol.

Y Sahara, neu yr Anialwch Mawr, ydyw yr enw a roddir i'r rhan orllewinol o'r eangder tywodlyd sydd yn ymestyn am 800 milltir i'r de o gadwen yr Atlas, a 1,000 o filltiroedd rhwng yr Atlantic a'r Môr Coch. Hwn a ystyrir, a hyny yn gywir, y diffaethwch mwyaf diffrwyth, cras, ac ofnadwy sydd ar wyneb y ddaiar. Torir arwyneb yr eangder crin yma weithiau gan ychydig o fryniau creigiog, neu gan drumau a bryniau o dywod symmudol. Ni cheir dwfr mewn rhai parthau o hono ond bob 100 neu 200 milltir; a bydd hwnw yn fynych o ansawdd hallt a chwerw. Mae llynoedd beision, yn llawn halen o wahanol fathau, yn wasgaredig ar hyd wyneb y Sahara; ac y mae gwelyau eang o greighalen o'r fath buraf yn ei barthau gorllewinol.

Y mae'r gwynt, wrth fyned dros yr eangder tywodlyd yma, yn cyrhaedd i raddau anghyffredin o boethder a sychder. Y mae gwres y poethwynt ofnadwy a elwir Simoom neu Samiel mor fawr, fel y mae weithiau yn sychu'r dwfr a gerir yn y crwyn gan y camelod at wasanaeth y fintai. Yn y fath amgylchiad, os na cheir dwfr yn y ffynnonau, derfydd am y dynion a'r camelod gan syched.

Yn ystod y tymmor gwlawog, a bery o Orphenaf hyd Hydref, bydd rhai pantiau yn casglu ychydig o ddwfr, lle y tyf ychydig o frysglwyni, rhedyn, a glaswellt: hyn, yn nghyd â llysieuyn peraroglus tebyg i'r gruwlys, mieri, danadl, a'r cyffelyb, ydyw yr holl lysiau a geir yn yr anialwch yma. Anfynych y gwelir llwyn o balmaeron na choed palm ereill, oddi gerth yn y tir-ynysoedd (*oases*). Y mae ychydig o epaod a chrychgyrn (*antelopes*) yn ymfoddloni ar hyny o ymborth a allant gasglu yma. Y mae lluaws o estrysiaid hefyd yn cyfanneddu yr anialwch hwn, y rhai a ymborthant ar fadfallod a malwod, ac ychydig laswellt garw. Mwyheir llawer ar ddychrynfeydd yr anialwch yma gan y seirff mawrion a'r llewod a'r pantherau aruthrol y dywedir eu bod yn crwydro o amgylch godreon y diffeithleoedd ofnadwy hyny. Pa fodd bynag, dywed M. Carette, nad yw fod llewod yn yr anialwch ond ffugchwedl wedi ei gwneyd yn boblogaidd gan freuddwydion celfyddydwyr a phryddion, heb un sail ond yn eu dychymyg hwy —mai "breuddwydion y beirdd ydynt." Nid ydyw y llew yn gadael y mynyddoedd lle y caiff loches, bwyd, a diod. Pan y gofyn teithiwr i'r brodorion yn nghylch y bwystfilod gwylltion hyn, y rhai y tybia Ewropiaid eu bod yn gymdeithion iddynt yn yr anialwch, hwy a atebant yn ffraeth a diofal, trwy ofyn, "A oes genych chwi lewod yn eich gwlad a fedrant yfed gwynt a bwyta dail? Y mae llewod gyda ni yn gofyn dwfr rhedegog, a chig byw; am hyny, nid ymddangosant hwy ond lle y mae bryniau coediog a dwfr. Yr unig bethau a ofnwn ni yn yr anialwch ydyw y wiber (*lefa*); ac mewn lleoedd llaith, blinir ni gan y moscitoaid (*mosquitoes*) a fydd yn heidio yno yn afrifed."

Lleiheir y Sahara rhwng hydred 12° a 16° dwyreiniol, gan iseldir llydan, yn cynnwys teyrnas Fezzan; yr hon, er nas dyfrheir hi gan unrhyw ffrydiau parhaus, sy'n cael ei gwahaniaethu yn ddigonol oddi wrth yr anialwch amgylchynedig fel y gellir ei hystyried yn dir-ynys.

Y mae *tir-ynysoedd* yr anialwch o agwedd rhy nodedig i'w pasio yn ddisylw. Llanerchau didoledig ydyw y rhai hyn yn nghanol eangder o dywod, lle y cyfrana ffynnon o ddwfr ffrwythlondeb i randir amgylchynedig, ac a'i gwna yn fynych yn drigfa poblogaeth luosog. Y mae y tir-ynysoedd sydd yn yr anialdiroedd Affricaidd ychydig yn is na gwyneb y gwastadeddau tywodlyd lle y dygwyddant. Ymddengys fod y dwfr sydd ynddynt yn tarddu o ardaloedd mwy dyrchafedig, sydd yn mhellach i'r de, ac yn cael ei drosglwyddo ar ishaen o glai is law arwyneb caled o graig galch, a chyfrifir ei godiad yn y manau hyny i symmudiad yr ishaen, yr hyn a'i galluoga i gyrhaedd y gwyneb. Dichon fod y prydferthwch a'r ffrwythlonrwydd y cytuna teithwyr i'w priodoli i dir-ynysoedd yr anialwch yn ddyledus mewn rhan i'w hagweddau, mewn cymhariaeth i'r diffrwythder amgylchedig; ond mae yn ddiammheuol eu bod yn deilwng, ar lawer ystyriaeth, o'r clod a roddir iddynt. Yn y parthau cynhesaf o'r hen fyd, y mae y balmwydden delaid, gyda'i boncyff bonbraff, ei dail hirfeinion, a'i thoraeth mawr o aeron, sy'n cynnysgaethu trigolion y dwyrain âg angenrheidiau a danteithion, yn mhob man lle y mae cyflenwad blyneddol o ddwfr: a pha le bynag y gwel yr Arabiad o hirbell swp o balmwydd, y mae yn sier o gael gorphwysle yno oddi wrth ei flinder, ac adlenwad gogyfer â'i angen.

Am Anialwch mawr Libya a Nubia, y mae y cyntaf, yr hwn sydd yn cyrhaedd hyd lanau y Nilus—yn gwahaniaethu ychydig o ran ei ansawdd oddi wrth y Sahara—yn gynnwysedig o wastadedd dyrchafedig, a'r rhan fwyaf o hono yn wastadedd gwastad, ac wedi ei orchuddio â thywod; ond mewn rhai manau y mae ynddo fynyddoedd o gyfansoddiad calchfaen. Y mae y parth dwyreinol o'r ardal yma wedi ei fritho drosto â llynau brawr (*natron lakes*), ac amryw o dir-ynysoedd. Y mwyaf hynod o'r rhai hyn yw y dir-ynys fwyaf a lleiaf yn yr Aipht Orllewinol, pob un o ba rai sydd mewn sefyllfa uchel o ddiwylliad. Tua'r de o'r dir-ynys fawr hyd Darfour, y mae rhandir o 700 milltir o eangder (yn cynnwys anialwch Bahiouda), yr hwn y gellir myned trwyddo heb gyfarfod â chymmaint ag un annedd, oddi gerth yn nhir-ynys brydferth Selimah.

Ymgyssyllta yr anialwch Libyaidd tua'r deheu âg ardal ddiffrwyth gogledd Nubia. Mae yr afon Nilus yn gwahanu hwn oddi wrth anialwch Nubia, yr hwn sydd yn cymmeryd i fyny yr holl eangder sydd rhwng yr afon hono a'r Môr Coch Uwch wastadedd ydyw y rhandir yma, yn cae' ei groesi o'r gogledd i'r deheu gan resi o fynyddoedd (a gyrhaeddant mewn un man i'r uchder o 6,000 o droedfeddi) a dorir yma ac acw gan welyau cefnlifoedd. Heb law yr ardaloedd diffaeth hyn, y mae yn dra thebyg fod rhandiroedd cyffelyb, o eangder dirfawr, yn nghanol hanner deheuol Affrica.

I'r dwyrain, o'r tu hwnt i'r Môr Coch, yr ymestyn anialdiroedd Arabia. Mae y rhan ogleddorllewin, a elwir Arabia Garegog, yn gynnwysedig o uchel-wastadeddau graianog caled neu greigiog, a orchuddir mewn rhai manau gan

Digitized by Google

dywod, callestr, a cheryg rhyddion, yn nghyd â chreigiau tywyll a mynyddoedd diffrwyth o uchder lled fawr, y rhai a ffosir gan welyau rhyferthwyon y gauaf. Y mae ymddangosiad y mynyddoedd noethion yma yn anghyfannedd i'r eithaf: terfynant tua'r deheu yn nhrumau gwyllt a chymmysg mynyddoedd Sinai. Mae y rhai hyn yn amgau ychydig ddyffrynoedd ffrwythlawn a ddygant rawnwin, perenau, caprwydd, ac ychydig blanigion ereill; ond y mae y wlad yn gyffredin yn ddychrynllyd o ddiffaeth, heb ddim i'w weled ond ychydig wrysg o ddraenen yr Aipht, sydd yn dwyn y nwydd masnachol a elwir gwm Arabic. Y mae minteioedd mawrion o'r geifrewig (*gazelles*) yn crwydro dros yr ardal gethin hon. Tua'r deheu, mae y rhan fwyaf o lawer o ganolbarth yr orynys yn gynnwysedig o wastadeddau mawrion o dywod rhydd symmudol, nad ydynt yn cynnyrchu ond ychydig blanigion halïaidd. Weithiau, gellir gweled ychydig dirynysoedd bryniog, yn addurnedig âg ychydig o balmaeron.

Y mae y parth deheuol o'r anialdiroedd hyn, sydd yn ymestyn o Mecca i Oman, yn cael ei alw gan y Bedouiniaid brodorol yn Roba El-Khaly=*y drigfan wag neu anghyfannedd*:—enw nodedig i ddangos ansawdd eu natur.

Tua'r gogledd o Arabia Garegog yr ymestyn Anialwch Syria, ar hyd gororau deheuol a dwyreiniol Palestina hyd yr Euphrates, ac y mae yn gynnwysedig o raian a thywod mân rhydd. Yn nghanolbarth yr anialwch yma y mae adfeilion mawrion ac anghyfannedd Palmyra, a fuant unwaith yn breswylfod ardderchog Zenobia.

Anialwch Mesopotamia a orwedd rhwng yr afon Euphrates a'r Tigris, yn cynnwys Al-jezireh tua'r gogledd, ac Irak-Arabi, neu Babilonia, tua'r deheu. Y mae yr hanner gogleddol o'r anialwch yma yn fwy ofnadwy nag hyd yn oed anialdiroedd Affrica ac Arabia, gan ei fod yn gyffredin yn gwbl ddiffaeth, ac heb ddwyn dim ond braswellt garw, prysgwydd dreiniog, a swm mawr o'r chwerwlys sydd yn difa pob planigion ereill. Y mae ei barthau deheuol yn ymdebygu Delta y Nilus, yn orchuddiedig gan fariandir bras, heb eisieu dim ond llaw y diwyd er ei adferu i'w ffrwythlondeb gynt, ac i'w wneyd unwaith eto yn ardd Asia.

Yr anialdiroedd nesaf a ddeuant dan sylw yw Anialdiroedd Persia, Affghanistan, a Beloochistan. Y mae o gylch tair rhan o ddeg o arwyneb Persia yn gynnwysedig o anialdiroedd. Y mwyaf o'r rhai hyn yw yr Anialwch Hallt Mawr; daiar yr hwn sydd gynnwysedig o glai gwydn, yn cael ei orchuddio gan flottarddiad helïaidd, ac yn dwyn math o blanigion helïaidd, yn gymmysgedig âg ychydig o dir pori.

Anialwch Affghanistan sydd bantle tywodlyd eang, yn cynnwys swm mawr o halen.

Cyffelyb o ran ansawdd ydyw Anialwch Beloochistan; ond nid yw hwn yn perthyn i fwrdd-dir Persia, ond i bantle y môr. Palmwydd yr India a phrysgwydd aroglber ydyw ei unig lysdyfiant mewn rhai manau. Gorchuddir rhandiroedd mawrion o'r diffaethwch hwn gan dywod, yr hwn a chwythir gan y gwynt nes ei wneyd yn rhesi fel tonau y môr. Y mae anialwch cyffelyb o dywod symmudol, a elwir Anialwch Sinde, yn ymestyn dros bellder mawr ar hyd glanau yr Indus; ac i'r dwyrain o'r afon hono y mae Anialwch Thurr, yn ymestyn dros amryw filltiroedd tua ffrydiau y Ganges.

Anialwch mawr y Gobi neu y Shamo a gymmer ran fawr o ganoldir Asia: mae arwyneb yr ardal hon, cyn belled ag y mae yn adnabyddus, yn orchuddiedig gan fraswellt byr a theneu; ac y mae yn cynnwys lluaws o lynoedd a ffynnonau, y rhai y mae eu dwfr, o blegid ansawdd halenaidd y tir, mor helïaidd, fel mai prin y gellir ei yfed. Y mae y parthau iselaf wedi eu gorchuddio gan dywod, ac yn llawn halen; ac y mae yr eangder ugain milltir o hyd, yn union tu hwnt i fur y Chineaid, yn gynnwysedig o dywod suddol a rhydd, yr hwn a godir yn donau gan weithrediad y gwynt.

Y mae anialdiroedd Gogledd America yn dra thebyg i rai Asia ac Affrica. Tua'r deheu o bantle afon Columbia, rhwng Sierra Nevada California, a'r Mynyddoedd Creigiog, y mae yr Anialwch Mawr Americaidd; yr hwn sydd wastadeddau eang o dywod a graian, lle y ceir ychydig fraswellt teneu, ond heb ddim coed. Y mae anialwch eang yn yr ucheldir, yn ymestyn ar hyd ochr y Mynyddoedd Creigiog, a'i led, at ei gilydd, o gylch 400 milltir. Ei dir yn y parthau dwyreiniol sydd gynnwysedig o dywod mân; ond yn mhellach i'r gorllewin, graian ydyw; a'i arwyneb yn gyffredin yn wastad, er bod trumau creigiog o uchder mawr yn wasgaredig ar hyd-ddo. Y mae y rhan fwyaf o'r afonydd sydd yn ei groesi yn sych yn yr haf; a'i unig lysdyfiant ydyw ychydig o blanigion afrywiog. Hefyd, ceir gwelyau o graig halen a ffynnonau heilltion mewn rhai manau o hono.

Am Anialdiroedd Deheubarth America, y mae un tywodlyd o'r enw Campos Parexis yn amgylchynu blaenau yr afon Paraguay; ac i'r deheu, cryn bellder oddi wrth lanau gorllewinol yr afon hono, y mae anialwch tywodlyd arall o'r enw El Gran Chaco. I'r gorllewin o hwn y mae anialwch hallt y Las Salinas. Yn y 40fed gyflinell o ledred deheuol y dechreua Anialwch Graianog Mawr Patagonia, yr hwn sydd yn ymestyn am 800 milltir ar hyd lan y cefnfor, yn eithafoedd deheuol y cyfandir.

Anialwch Atacama sydd randir perthynol i ddosbarth y Potosi yn Bolivia, yn Neheubarth America, ac yn cynnwys holl wlad y weriniaeth hono, yr hon a orwedd tua gorllewin yr Andes, ar hyd y Môr Tawel. Dosberthir ef dan yr enwau *uchaf* ac *isaf*. Ni cheir dim ar hyd holl arwyneb y wlad isaf ond anialwch heb ei gyfanneddu, ac nas gellir ei gyfanneddu: mae yn cael ei wneyd i fyny o wastadeddau eang wedi eu gorchuddio â thywod tywyll, ac mewn rhai manau y mae yn gwbl ddu, ac ambell i res wen yma ac acw ar hyd-ddo. Y mae rhai trumau uchel a bryncynau crynion anferth o faint yma ac acw ar y gwastadeddau hyn, ond nis gellir canfod un math o lysdyfiant mewn un parth o honynt. Y mae y dysgrifiad yma yn dra phriodol gyda golwg ar y parth deheuol sydd yn ymestyn tua therfyn Chili, lle y bu lluaws o Yspaeniaid farw o eisieu dwfr yn amser y gorchfygiad cyntaf; a'r hwn a adnabyddir wrth yr enw Anialwch Atacama.

Y mae yr anialdiroedd sych a thywodlyd a nodwyd, yn nghyd â'r parthau tywodlyd sydd yn Ewrop, heb son am ororau canolbarth Awstralia, yn cymmeryd i fyny, efallai, ddim llai nag o bump i chwe mil o filltiroedd ysgwâr o arwynebedd, eangder hanner cymmaint arall a holl Ewrop, a mwy o ddeugain o weithiau nag arwynebedd Prydain Fawr. Ymddengys fod y parth yma o arwyneb y ddaiar wedi ei gondemnio i anffrwythlondeb parhaus. Gwel ANIALWCH.

Digitized by Google

Am y dosbarthiadau ereill o'r cyfandiroedd, megys ynysoedd, mynyddoedd, penrhynoedd, gwastadeddau, dyffrynoedd, &c., na sylwir arnynt yn yr erthygl hon, gwelir hwynt dan eu henwau priodol.

DYFROEDD Y DDAIAR.

Y gelfyddyd sydd yn traethu ar ddwfr y ddaiar—ei chefnforoedd, ei moroedd, ei hafonydd, &c.—a elwir *dyfrddarluniad* (*hydrography*); ac fel rhan bwysig o ddaiaryddiaeth anianyddol, rhenir hi yn ddau ddosbarth—1. Y cefnfor, neu y corff o ddwfr, megys moroedd, machwyon, morgeinciau, a chulforoedd, sydd yn amgylchynu y sychdir, ac yn treiddio i'w ororau. 2. Y dwfr a ddosberthir ar hyd wyneb y tir, megys afonydd, llynoedd, tir-foroedd, a ffynnonau.

Bydd yn gyfleus i'r darllenydd gael eglurhad byr yn y fan yma ar yr enwau a roddir yn gyffredin i wahanol ranau y dyfroedd:—

*Cefnfor* (*ocean*), y gelwir rhyw ddosbarth eang o ddwfr hallt.

*Môr* ydyw rhan o gefnfor yn meddu enw neillduol; megys Môr y Werydd (*Irish Sea*), Môr y Canoldir (*Mediterranean Sea*).

*Machwy* (*bay*), sydd yn meddu agoriad llydan, ac heb redeg ond ychydig o ffordd i'r tir; megys Machwy Llandudno.

*Morgainc* (*gulf*), ydyw corff o ddwfr a red yn lled bell i'r tir; megys Morgainc Persia.

*Culfor* (*strait*), ydyw mynedfa lled gul o ddwfr rhwng dau dir, ac yn cydio dau fôr yn nghyd; megys Culfor y Menai, neu Gulfor Gibraltar—a elwid gynt Colofnau Ercwlff, oddi wrth y ddwy graig uchel, mae yn debyg, a ffurfiant ei eneu.

*Afon* ydyw corff rhedegog o ddwfr yn nghanol tir, a ffurfir o fewn cylch penodol o wyneb y ddaiar gan gydgyfarfyddiad goferoedd, ffrydiau, neu lifeiriaint o'r mynyddoedd, ac a ymarllwys i'r cefnfor, i lyn, i forfa, neu i afon arall; megys yr afon Gonwy.

*Llyn* ydyw corff o ddwfr yn cael ei amgylchynu gan dir; megys Llyn Tegid, ger y Bala.

*Tir-fôr* (*inland sea*) ydyw corff o ddwfr hallt, yr hwn a gyssylltir gan gulfor main â'r cefnfor, megys y Baltic, Môr y Canoldir, y Môr Du, a'r Môr Coch; neu rai yn nghanol y tir heb ddim cyssylltiad rhyngddynt â'r moroedd, megys y Caspiaidd a'r Aral.

*Ffynnon* (*spring* neu *fountain*), ydyw tarddiad o ddwfr o'r ddaiar, neu gronfa o ddwfr yn y lle y tarddo, neu darddell afon; megys ffynnon Gwenfrewi, yn Nhreffynnon, neu darddell yr afon Dyfrdwy.

*Cefnfor.*—Y mae *cefnfor*, yn ystyr helaethaf y gair, yn arwyddo yr holl ddwfr a nodwyd dan y penawd cyntaf, sydd yn amgylchynu y sychdir; ond er mwyn rhwyddineb i gyfeirio, y mae wedi ei drefnu yn bum dosbarth mawr, a wahaniaethir mewn rhan gan ranau o'r tir, ac mewn rhan gan y cylchau pegynol a'r cyhydeddau (*meridians*). Dyma y dosbarthiadau dan sylw. 1. Y Cefnfor Gogleddol—i'r gogledd o'r cylch gogleddol. 2. Y Cefnfor Deheuol—i'r deheu o'r cylch deheuol. 3. Cefnfor yr Atlantic—yn cael ei derfynu tua'r gogledd gan y cylch gogleddol, a thua'r deheu gan y cylch deheuol, tua'r gorllewin gan arfordiroedd America, a thua'r dwyrain gan ororau Ewrop ac Affrica. 4. Y Cefnfor Tawelog, a elwir hefyd y Môr Tawel—rhwng y cylch gogleddol tua'r gogledd, y cylch deheuol tua'r deheu, arfordiroedd Asia, Java, a Sumatra, tua'r gorllewin, ac arfordiroedd gorllewinol yr America tua'r dwyrain. 5. Y Cefnfor Indiaidd —yn cael ei derfynu gan Persia ac India tua'r gogledd, gan y cylch deheuol tua'r deheu, gan y Cefnfor Tawelog tua'r dwyrain, a chan ororau Affrica ac Arabia tua'r gorllewin.

Y cefnforoedd ydyw prif gyfryngau cymundeb rhwng gwahanol genedloedd, llwythau, a theuluoedd o ddynion. Y maent yn gorchuddio yn agos i dair rhan o bedair o wyneb y ddaiar, fel y dangoswyd eisoes.

Prif nodweddau y cefnfor ydyw ei liw, ei halltrwydd, ei dymmeredd, ei ddyfnder, ei wastadrwydd, ei dònau, ei drai a'i lanw, a'i redlifiadau.

*Lliw* cyffredin y môr ydyw glaswyrdd tywyll, yr hwn sydd yn fwy claer a goleu tua'r glenydd. Ond y mae yn agored i amrywiaeth nodedig o ran ymddangosiad a lliw, o'r glas tywyll i'r gwyrdd, a hyd yn oed i'r llwydlas, a achosir gan symmudiad pelydr yr haul neu gysgod y cymylau. Y mae y lliw yn ymddibynu mewn rhai parthau ar achosion lleol: fel hyn, dywedir fod lledliw porphoraidd yn treiddio trwy y dwfr yn mharth dwyreiniol Môr y Canoldir. Y mae y môr yn wyn yn Morgainc Guinea; ond o amgylch Maldives y mae yn ddu. Melyn ydyw rhwng China a Japan; ac i'r gorllewin o'r Canariaid a'r Azoriaid, neu yr Ynysoedd Gorllewinol, y mae yn wyrdd. Allan o Galifornia, y Môr Vermilion—a alwyd felly oddi wrth y lliw gloewgoch a gymmer yn fynych. Rhuddgoch ydyw y môr yn ngenau y La Plata; a chyffelyb ydyw lliw y Môr Coch, oddi wrth yr hyn y cafodd ei enw. Sierha M. Ehrenberg fod lliw y môr diweddaf i'w briodoli i fath o wegogion (*oscillaria*); sef milionos—creaduriaid rhwng anifeiliaid a llysiau. Trwy fynych hidlo dwfr y môr, llwyddodd y sylwedydd craff yma i gael allan hylif yn llawn o filionos goleuliw; nid annhebyg, gan hyny, ydyw y gallai nifer afrifed o'r cyfryw filionos roddi lledliw coch neu wyn i fôr y caffer hwynt ynddo. Achosir newidiad lliw weithiau gan natur y ddaiar, neu gan gymhlethiad o ryw sylweddau daiarol a fyddont yn y dwfr. Achosir gwyrdd neu felyn yn aml gan forlysiau a fyddont ar wyneb y dwfr neu yn agos i'r wyneb.

Yr olygfa fwyaf prydferth a mawreddog a geir ar y môr, yw y goleuni dysglaer pelydrog a elwir y goleuni ffoddeiniog (*phosphoric light*), yr hwn a welir yn y nos yn llwybr y llong, fel yr ymlithra trwy ei dònau; neu ar bob codiad o'r rhwyf, pan y disgyn dafnau o ddwfr y môr fel cynnifer o berlau tryloew i'r eigion.

Y mae y cefnfor yn ffoddeiniog yn holl gylchedau y daiar. Y mae yr ymddangosiad yn y moroedd trofanol ar noswaith dywyll y tu hwnt i ddarluniad o ysblenydd, pan y gwelir heigiau o ddolffiniaid yn chwareu o amgylch, ac yn tori y don ewynol yn llinellau hir a bwaog, nes ymddangos fel goleuni dysglaer a thanbeidiol.

*Halltrwydd* y môr hefyd sydd un o'i ansoddau mwyaf arbenig. Heb law halen cyffredin, y mae yn cynnwys amryw sylweddau ereill; megys sur haliaidd (*muriatic*) ac ufelg (*sulphuric*), llysnur (*soda*), magnesia, a mynorglai (*sulphate of lime*), yn amrywio o ran swm mewn gwahanol fanau. Mae y sylweddau hyn yn gwneyd dwfr y môr mor hallt a chwerw i'r archwaeth fel nad ydyw yn ddymunol na chymhwys i'w yfed gan ddyn, nac odid unrhyw anifail. Mewn rhai manau, canfyddir nad ydyw mor hallt ar y wyneb ag ydyw yn y dwfn; ac, o blegid toddiad llawer o rew, dywedir nad ydyw cyn hallted yn agos i'r pegynau ag ydyw mewn manau ereill o'r cefnfor. Y mae swm y sylweddau haliaidd

Digitized by Google

awyrgylch yr hwn fydd mewn cyffyrddiad âg ef. 5. Bod y dwfr ar draethelli yn oerach na phan mewn mwy o ddyfnder.

Am *ddyfnder* y cefnforoedd, y mae daiaryddwyr, trwy gyfattebiaeth a mesuriadau, wedi penderfynu fod eu gwaelod yn debyg i wyneb y tir; eu bod yn meddu dyffrynoedd, gwastattiroedd, a mynyddoedd, copäau pa rai sydd yn ffurfio ynysoedd, fel y dangosir gan yr amrywiol ddyfnderau ar y gwahanol forleni (*charts*). Y mae eu dyfnder yn gwahaniaethu o ychydig droedfeddi i amryw filldiroedd. Er esampl, dywedir nas gellid cael gwaelod, mewn lle 1,200 o filldiroedd i'r de-orllewin o Cape Horn, gyda llinell o 12,420 o droedfeddi, neu dros ddwy filldir. Yn nghanol y Môr Pegynol, yn lledred 76° gog., ni chafwyd gwaelod gyda llinell o 7,200 o droedfeddi. Ond yn Nghefnfor yr Atlantic Deheuol y mae y dyfnder mwyaf sydd wedi ei fesur hyd yn hyn; sef, yn lledr. 15° 3' de. hyd 23° 14' gorll., rhwng St. Helena ac arfordir Brazil, lle ni allai Syr James Ross gael gwaelod gyda llinell yn mesur 27,600 o droedfeddi, neu yn agos i bum milldir a chwarter—dyfnder yn cyfatteb i uchder y mynydd uchaf sydd yn adnabyddus ar y ddaiar, sef Kunchinginga, yn yr Himalaya. Y mae y Môr Tawch (*German Ocean*) yn gwahaniaethu mewn dyfnder o 66 i 500 o droedfeddi. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng dyfnder gwahanol foroedd Ewrop. Y mae y Canoldir, rhwng Ceuta a Gibraltar, yn 5,700 o droedfeddi; ac yn 3,230 o droedfeddi yn Nice. Y mae y Môr Adraidd yn hynod fâs. Rhwng arfordiroedd Dalmatia a geneuau y Po, nid ydyw ond 145 tr. Fe gyfrifir, pe byddai i'r holl ddyfroedd gael eu taenu yn gyfartal dros arwyneb y ddaiar, y ffurfiai gylch drosti o 3,280 o dr. o ddyfnder.

Gyda golwg ar *wastadrwydd* (*level*) y cefnfor, tybir fod ei arwyneb yn mhob man yn unffurf. Ond y mae eithriadau i'r rheol mewn rhai o'i ganghenau, gan y codir ei ddyfroedd weithiau gan y gwyntoedd a'r rhedlifiadau. Yn unol â hyn, sicrheir fod arwyneb y Zuyder Zee yn llawer uwch nag arwyneb y Môr Tawch; ac y mae y Môr Coch yn fwy dyrchafedig ar rai tymmhorau na'r Canoldir. Y mae arwyneb y Baltic a'r Môr Du yn newid gyda'r tymmhorau. Byddant yn uwch yn y gwanwyn, pan y bydd yr afonydd yn arllwys y symiau mwyaf o ddyfroedd iddynt. Y mae yn ymddangos fod rhyw ychydig o wahaniaeth hyd yn oed rhwng arwyneb Cefnfor yr Atlantig a'r Cefnfor Tawelog ar y naill ochr i Yddfdir Panama. Priodolir uchder arwyneb y parth gogleddol o'r Môr Coch i symmudiad cyffredinol y cefnfor o'r dwyrain i'r gorllewin, gan achosi cydgynnulliad o ddwfr mewn gwely cyfyngedig. Y mae sefyllfaoedd tir-foroedd a llynau yn anghyfartal mewn cymmhariaeth i'r cefnfor: fel hyn—y mae y Môr Caspiaidd yn 83 tr., a'r Môr Marw 1,312 tr., yn îs na'i arwyneb cyffredinol. Ond y mae llyn Titicaca 12,846 tr. yn uwch na'i arwyneb.

Y mae cefnforoedd yn gorchuddio agos i dair rhan o bedair o holl arwynebedd y ddaear; ac y mae gwyneb y cefnforoedd, pan yn llonydd, yn ffurfio gwastadedd naturiol a chywir; gan fod pob rhan o hono yn agos i'r un pellder oddi wrth ganolbwynt y ddaiar. Gellir dywedyd yr un peth am y llynau mawr. A chymmeryd golwg gyffredinol arnynt oll, gellir dyweyd fod eu harwyneb yn bwynt oddi wrth yr hwn y mae pob codiad yn y cyfandiroedd, a dyfnder yn y cefnforoedd hefyd yn cael eu mesur. Yn wahanol i'r cyfandiroedd, y rhai sydd yn cael eu rhanu oddi wrth eu gilydd, gellir dyweyd fod holl ddyfroedd mawr y ddaear yn un â'u gilydd; ac felly, er fod tri o gyfandiroedd mawr, nid oes, mewn gwirionedd, ond un cefnfor. Ac y mae y tri chyfandir mawr wedi eu trefnu fel y maent, i raddau pell, yn ffurfio corph mawr y dyfroedd yn dri chefnfor. Pe y cychwynid allan o Ewrop, er esampl, gan fyned tua'r gorllewin, ceid fod Môr yr Atlantig yn gwahanu yr Hen Fyd oddi wrth y Newydd — y Môr Tawel yn gwahanu y Byd Newydd oddi wrth Asia ac Awstralia; a Chefnfor India yn gwahanu Awstralia oddi wrth Affrica. Am y gweddill o'r corph mawr o ddyfroedd sydd yn amgylchu y ddau begwn, gelwir hwynt wrth yr enwau Cefnfor y Gogledd a Chefnfor y Deheu.

*Yr Atlantig, neu Fôr y Werydd.*—Cyfrifir ei fod yn 9,000 o filldiroedd o hyd—yn ei fan lletaf yn 4,100 milldir; a mesura o ddeutu 35,000,000 o fill. pet., neu yn agos i hanner yr holl dir sydd ar y ddaear. Gwahaniaetha yn fawr yn ei ddyfnder mewn manau. Yn agos i'r glanau, mesura tua 2,000 tr.; ond tua phedwar ugain milldir i'r deheu o'r Bermudas, mesura 23,000 tr., neu agos i bedair milldir a hanner.

*Y Môr Tawel.*—Dyma y cefnfor sydd yn meddu y corph mwyaf o ddyfroedd ar y ddaear. Mesura tua 72,000,000 o fill. pet.; yr hyn sydd yn llawer mwy na'r holl dir sydd ar y ddaear. Y mae ei hyd mwyaf yn 12,000 o filldiroedd, o'r dwyrain i'r gorllewin, ar hyd llinell y cyhydedd; a'i led mwyaf yn 9,000 o fill., rhwng Culfor Behring a Chylch y De.

*Y Cefnfor Indiaidd* a ymestyna o Affrica i Awstralia, ac o India i Gylch y De. Ei hyd a'i led mwyaf ydynt tua 6,000 o filldiroedd bob un; a'i arwynebedd tua 25,000,000 mill. pet.

*Cefnfor y Gogledd.*—Y mae hwn agos yn gylch o ran ei ffurf:—terfyn yr hwn ydyw arfordiroedd Ewrop, Asia, America, a Greenland. Ei led, ar gyfartaledd, yw tua 2,500 mill.; a chyfrifir fod ei arwynebedd tua 5,000,000 mill. pet.

*Cefnfor y Deheu.*—Y mae gwybodaeth daearyddwyr am y cefnfor hwn lawer yn llai nag am y cefnforoedd eraill, gan fod ei oerni yn fwy annioddefol, a'i wyntoedd a'i ddyfroedd yn fwy cyffrous, fel rheol; a'r rhew yn ymestyn o leiaf ddeg gradd yn nes i'r cyhydedd nag yn Nghefnfor y Gogledd.

Syr James Ross, yn y flwyddyn 1841, oedd y gŵr a aeth agosaf, yn y cefnfor hwn, i begwn y deheu. Cyrhaeddodd gyda'i fintai mor bell a lledred 78.4, neu o fewn 840 milldir i'r pegwn. Y Cadben Nares a aeth agosaf i begwn y gogledd. Cychwynodd gyda'i fintai yn y flwyddyn 1876, a chyrhaeddodd lledred 83.20; yr hwn sydd o fewn tua 490 milldir i begwn y gogledd.

Am *y môr*, *y trai a'r llanw*, a'r *rhedlifiadau*, gweler yr erthyglau yn eu lleoedd priodol.

*Dyfroedd y Tir.*—Yr ail ran o ddyfr-ddarluniad a draetha ar y dyfroedd a ddosberthir dros wyneb y tir—yn afonydd, llynoedd, tir-foroedd, a ffynnonau. Gan mai dwfr ydyw un o brif elfenau bywyd llysiau ac anifeiliaid, y mae ei ddosbarthiad, o angenrheidrwydd, yn penderfynu, i raddau mawr, ymddangosiad gwyneb y ddaiar, a phwysigrwydd perthynasol ei gwahanol ardaloedd. Yr hyn sydd yn penderfynu rhediad afonydd a ffurfiad llynau ydyw anwastadrwydd mawr arwyneb y ddaiar.

Rhoddir yma restr o'r prif lynau sydd yn adnabyddus, yr hon a ddengys arwynebedd y

Digitized by Google

yr afonydd. Y mae y ffurf yma o ddynodi yr afonydd yn angenrheidiol hefyd er mwyn cynorychioli y gwastadeddau canolbarthol mawrion sydd yn ffurfio pantleoedd y ffrydiau canoldirol.

Er bod yr hen fyd yn llawer mwy na'r newydd, sef yr America; eto, yn yr olaf y mae yr afonydd mwyaf sydd ar y ddaiar.

Dengys y daflen ganlynol enwau, sefyllfa, terfyniad, a hyd prif afonydd yr America.

| Enwau yr afonydd. | Enwau y gwledydd yn mha rai y maent. | Eu terfyniad. | Eu hyd yn filltiroedd. |
|---|---|---|---|
| Yr Amazon, neu y Maranon ... ... | Brazil ... ... ... | Yr Atlantic ... ... | 3,270 |
| Y Mississippi ... ... ... | Yr Unol Daleithiau... | Morgainc Mexico ... | 3,160 |
| O darddiad y Missouri ... ... | ... ... ... ... | ... ... ... ... | 4,265 |
| Y La Plata a'r Parana ... ... | Brazil a La Plata ... | Yr Atlantic .. ... | 2,130 |
| Y St. Lawrence (a'r llynau) ... ... | Canada ... .. .. | Morgainc St. Lawrence ... | 1,930 |
| Yr Arkansas ... ... ... | Yr Unol Daleithiau.. | Y Mississippi ... ... | 2,000 |
| Y Mackenzie ... ... ... ... | Yr America Brydeinig | Y Cefnfor Gogleddol ... | 1,600 |
| Yr Afon Goch (*the Red River*) ... | Yr Unol Daleithiau ... | Y Mississippi ... ... | 1,500 |
| Yr Orinoco ... ... ... ... | Venezuela ... ... | Yr Atlantic ... ... | 1,150 |
| Y Rio del Norte ... ... ... | Mexico ... ... | Morgainc Mexico ... | 1,400 |
| Y Paraguay ... ... ... ... | Brazil, &c. ... ... | Parana ... ... ... | 1,200 |
| Yr Ohio ... ... ... ... | Yr Unol Daleithiau | Y Mississippi ... ... | 1,033 |
| Y Rio Negro ... ... ... ... | Brazil ... ... ... | Yr Amazon ... ... | 1,000 |
| Y Columbia, neu yr Oregon ... | Yr Unol Daleithiau | Y Cefnfor Tawelog ... | 1,090 |
| Y Rio Colorado ... ... ... | Mexico ... ... ... | Morgainc California ... | 700 |
| Yr Hudson ... ... ... ... | Yr Unol Daleithiau | Yr Atlantic ... ... | 280 |
| Y Delaware ... ... ... ... | Yr Unol Daleithiau ... | Yr Atlantic ... ... | 300 |

Y mae ffrydiau cefnforol Ewrop ac Asia yn cyfranu eu dyfroedd i bedwar o wahanol foroedd. Afonydd Ewrop a ymarllwysant yn benaf i'r Cefnfor Atlantic a'i gangenau; rhai deheubarth Asia a redant yn gwbl i'r Cefnfor Indiaidd; rhai dwyrain Asia i'r Cefnfor Tawelog; a rhai gogledd Asia i Fôr y Gogledd, i'r hwn hefyd y llifa afonydd gogledd Ewrop.

Y mae prif afonydd Ewrop yn rhedeg yn gyffredinol mewn cyfeiriad gogledd-orllewin a deddwyrain; yr hyn sydd yn dangos fod dau ogwyddiad mawr y chwarter hwn o'r byd yn cael eu hachosi gan ffurf ei ardaloedd mynyddig. Y mae gogwyddiad mawr gogleddol Asia yn ymestyn tua'r gogledd o bantle y ffrydiau cyfandirol i'r Cefnfor Gogleddol, ac yn cyfeirio o'r dwyrain i'r gorllewin, rhwng y mynyddoedd Ural a'r Cefnfor Tawelog. Y gogwyddiad gogleddol a gluda yr holl ddyfroedd o'r gogledd i'r Himalaya a'r Caucasus i'r Cefnfor Indiaidd ac i Gulfor Persia. Y gogwyddiad dwyreiniol a ddynodir gan yr afonydd sydd yn llifo i'r Cefnfor Tawelog a Môr China: a'r un gorllewinol gan y rhai a lifant i'r gorllewin o fynyddoedd Bolor.

Am bantle y ffrydiau cyfandirol, fel y gelwir ef, sydd yn dechreu yn agos i Gulfor Finland a'r Môr Du, ac yn ymestyn tua'r gorllewin trwy holl ganolbarth Asia, hyd yn agos i'r Môr Melyn, y mae yn cynnwys eangder o fwy na thair miliwn o filltiroedd breiniol ysgwâr. Heb law lluaws o afonigion y gwastattiroedd diffaeth, a llawer o lynoedd eang, y mae y dosbarth neu y pantle yma yn cynnwys y Volga, sef prif afon Ewrop, a'r Môr Caspiaidd, sef y llyn mwyaf yn y byd. Y mae yma amlygiad o'r gwahaniaeth nodedig sydd rhwng y ffrydiau cefnforol a'r rhai cyfandirol. Nid yw afonydd canol Asia a rhan fawr o ddwyrain Ewrop yn cyrhaedd y môr yn uniongyrchol. Y mae llawer o'r ffrydiau eang a gyfyngir yn hollol i'r cyfandir yn ymarllwys weithiau i'r llynau; ac ereill, er yn fwy anfynych, yn colli yn nhywod eu rhedleoedd eu hunain.

Gellir gwneyd llawer o gymhariaethau addysgiadol oddi wrth y daflen td. 251. Er anghraifft, hyd uniongsyth y Vistula, o'i tharddiad i'w geneu, ydyw 280 milltir; ac y mae dadenhuddiad (*development*) y ffrwd yn gofyn rhediad o 520 milltir. Felly y mae ei doleniadau yn cymmeryd 240 milltir, neu yn agos i naw rhan o ddeg o'i phellder unionsyth, yr hyn a ddengys y fath swm mawr o ddyfrhâd a weinydda yr afon hon i'w dosbarth neu ei phantle. Eto, hyd unionsyth y Rhine, o'i tharddiad i'w geneu, megys y gwelir yn y daflen, yw 360 milltir, neu 80 milltir hwy na'r Vistula. Dadenhuddiad ei rhediad yw 600, mwy hefyd o 80 milltir na'r Vistula; ond nid ydyw cyfartaledd ei doleniadau yn fwy na dwy ran o dair o'i rhediad unionsyth: y mae y doleniadau, gan hyny, yn llai na doleniadau y Vistula, er bod dosbarth neu bannyledd y flaenaf yn llawer mwy na'r olaf. Gellir cymhwyso hyn at gyfundrefn yr holl afonydd ereill.

Pe ystyrid fod holl ddwfr rhedegog Ewrop yn 100, fe welid fod cyfartaledd yr afonydd sydd yn ymarllwys i'r gwahanol foroedd fel y canlyn:—

| | |
|---|---|
| I'r Môr Du ... ... ... ... | 0·27 rhan. |
| I'r Môr Caspiaidd ... ... | 0·16 „ |
| I'r Canoldir ... ... ... ... | 0·14 „ |
| I'r Atlantic, o gylch ... | 0·13 „ |
| I'r Baltic ... ... ... ... | 0·13 „ |
| I'r Môr Tawch (*Germ. Oce.*) | 0·11 „ |
| I Fôr y Gogledd .... ... .. | 0·06 „ |

Dengys hyn fod y rhan fwyaf o'r dwfr yn cael ei gludo i'r Môr Du, gan ei fod yn traflyncu yn agos i'r drydedd ran o holl ddwfr rhedegog Ewrop. Drachefn, y mae yn agos i hanner holl ddwfr rhedegog Ewrop yn rhedeg i'r Môr Du a'r Caspiaidd; yr hyn sydd yn dra nodedig, gan mai tir-fôr yw yr olaf, yn nghanol y Cyfandir, a chan fod y llall hefyd yn cael ei lwyr amgylchynu gan dir, heb ddim ond y culfor main a elwir Bosphorus yn ei gyssylltu â Môr Marmora.

Os cymherir cyfundrefnau afonol Ewrop â'u gilydd, canfyddir cyfartaledd y chwe mwyaf fel y canlyn. Cymmerer yn ganiataol fod holl afonydd Ewrop yn 100; yna arllwysa,

| | |
|---|---|
| Y Volga ... ... ... ... | 0·14 rhan |
| Y Danube ... ... ... ... | 0·12 „ |
| Y Dnieper ... ... ... ... | 00·6 „ |
| Y Don ... ... ... ... | 00·5 „ |
| Y Rhine ... ... ... ... | 00·3 „ |
| Y Dwina ... ... ... ... | 00·2 „ |

Ymddengys oddi wrth hyn fod y Volga yn

Digitized by Google

unig yn cludo ymaith gymmaint o ddwfr ag a dderbyn Môr y Canoldir o Ewrop; a bod dyfroedd y Danube yn agos gymmaint a dyfroedd yr holl afonydd sydd yn ymarllwys i'r Baltic, &c.

TAFLEN O BRIF AFONYDD EWROP AC ASIA.

| Enwau yr afonydd a'r cyfundrefnau y maent yn perthyn iddynt. | Eangder pantleoedd[1] afonydd yn filltiroedd ysgwâr daiaryddol. | Hyd union afonydd heb y troadau, o'u tarddiad i'w genau, yn fill.daiar.[2] | Hyd yr afonydd a'u troadau yn filltiroedd daiaryddol.[2] | Hyd troadau yr afonydd yn filltiroedd daiaryddol.[2] | Cyfartaledd y troadau i bellder uniongyrchol yr afonydd. |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFUNDREFN YR ATLANTIC. | | | | | |
| Y Neva ... | 67,200? | 315? | 440? | 125 | 0·4 |
| Y Rhine (Rhein) ... | 89,000 | 360 | 600 | 240 | 0·7 |
| Y Vistula ... | 75,000 | 280 | 520 | 240 | 0·8 |
| Yr Elbe ... | 59,000 | 344 | 684 | 340 | 1·0 |
| Yr Oder ... | 39,040 | 280 | 480 | 200 | 0·7 |
| Y Loire ... | 45,000 | 320 | 520 | 200 | 0·6 |
| Y Duna, neu Dvina ... | 124,900 | 280 | 560 | 280 | 1·0 |
| Y Nimen ... | 32,180 | 240 | 460 | 220 | 0·9 |
| Y Duero, neu Douro ... | 29,250 | 260 | 440 | 180 | 0·7 |
| Y Garonne ... | 24,450 | 200 | 320 | 120 | 0·6 |
| Y Seine ... | 26,000 | 220 | 340 | 120 | 0·5 |
| Y Tagus ... | 21,760 | 360 | 480 | 120 | 0·3 |
| Y Guadiana ... | 19,360 | 240 | 420 | 180 | 0·7 |
| Y Guadalquivir ... | 15,040 | 180 | 260 | 80 | 0·4 |
| Y Weser ... | 13,120 | 200 | 280 | 80 | 0·4 |
| Y Minho ... | 11,840 | 108 | 192 | 84 | 0·7 |
| Y Pregel ... | 5,920 | 60 | 100 | 40 | 0·7 |
| CYFUNDREFN Y CANOLDIR. | | | | | |
| Y Nilus (*Nile*) ... | 708,000 | 1,320? | 2,240? | 920 | 0·7 |
| Y Po ... | 29,950 | 232 | 352 | 120 | 0·5 |
| Y Rhone ... | 43,000 | 248 | 560 | 312 | 1·3 |
| Yr Ebro ... | 25,100 | 268 | 420 | 152 | 0·5 |
| CYFUNDREFN Y MOR DU. | | | | | |
| Y Danube neu Donau ... | 312,000 | 880 | 1,496 | 616 | 0·7 |
| Y Dnieper ... | 170,000 | 548 | 1,080 | 532 | 1·0 |
| Y Don ... | 200,000 | 408 | 960 | 552 | 1·3 |
| Y Dniester ... | 23,040 | 360 | 440 | 80 | 0·2 |
| CYFUNDREFN Y GOGLEDD. | | | | | |
| Yr Obi ... | 1 370,000 | 1,276 | 2,320 | 1,044 | 0·8 |
| Yr Yenesei ... | 784,550 | 1,228 | 2,800 | 1,572 | 1·2 |
| Y Lena ... | 594,400 | 1,280 | 2,400 | 1,120 | 0·9 |
| Y Kolyma ... | 107,200 | 440 | 800 | 360 | 0·8 |
| Y Dwina ... | 106,400 | 380 | 864 | 484 | 1·3 |
| Yr Indigirka ... | 86,400? | 560? | 908? | 348 | 0·6 |
| Yr Olenek ... | 76,800 | 600 | 1,000 | 400 | 0·7 |
| Yr Anadir ... | 63,360? | . | ... | ... | ... |
| Y Petchora ... | 48 800 | 360 | 600 | 240 | 0·7 |
| Y Mesen ... | 30,580? | ... | .. | ... | ... |
| CYFUNDREFN Y CYFANDIR. | | | | | |
| Y Volga, } Y Môr Caspiaidd ... | 653,000 | 900 | 2,400 | 1,500 | 1·6 |
| Yr Oural, } Y Môr Caspiaidd ... | 83,200 | 550? | ... | ... | ... |
| Y Kour, } Y Môr Caspiaidd ... | 64,640 | 300 | 640 | 340 | 1·1 |
| Y Sir, neu Sihon } Y Môr Aral ... | 237,920? | 600 | 1,208? | 648? | 1·1 |
| Yr Amoo, neu Gihon } Y Môr Aral ... | 193,600 | 816 | 1,400 | 584 | 0·7 |
| Dosbarth y Llyn Lob ... | 177,120 | 622 | 1,080 | 458 | 0·7 |
| CYFUNDREFN Y TAWELOG. | | | | | |
| Yr Amour ... | 582,880 | 1,200 | 2,380 | 1,180 | 1·0 |
| Yr Yang-tse-Kiang ... | 742,800 | 1,550 | 2 880 | 1,330 | 0·9 |
| Y Hoang-Ho ... | 537,400 | 1,150 | 2,280 | 1,130 | 1·0 |
| Y Tche-Kiang ... | 99,200 | 480 | 960 | 480 | 1·0 |
| CYFUNDREFN Y CEFNFOR INDIAIDD. | | | | | |
| Y Ganges (yn cynnwys pantle y Bramahpootra) ... | 443,000 | 824 | 1,680 | 856 | 1·0 |
| Yr Indus ... | 312,000? | 900? | 1,960? | 1,060 | 1·1 |
| Y Menam ... | 216,000? | 620? | 940? | 320 | 0·5 |
| Yr Euphrates ... | 243,000 | 600 | 1,492 | 892 | 1·5 |
| Y Godavery ... | 92,800 | 540 | 748 | 228 | 0·4 |
| Y Kistna ... | 81,600 | 440 | 688 | 248 | 0·5 |
| Yr Irawady ... | 331,200? | 1,100 | 2,200 | 1,100 | 1·0 |

Am y gweddill o'r tir-ddyfroedd, y llynau, y tir-foroedd, a'r ffynonnau, fe welir eglurhad pellach arnynt yn eu lleoedd priodol, a than eu gwahanol enwau.

[1] Pantle neu bannyledd (*basin*) afon ydyw y parth hwnw o'r wlad a sychir ac a ddyfrheir ganddi hi a'i changenau. Pannyledd yr Afon Glwyd ydyw holl Ddyffryn Clwyd.
[2] Y mae y cyfrif yma mewn milltiroedd daiaryddol, o drigain mewn gradd.

Am ymddangosiadau nwyfreol (*meteorological phenomena*) y ddaiar—megys ei hawyrgylch; ei hamrywiol wyntoedd, yn nghyd â'u cyflymder; ei tharthiad; ei gwlith; ei rhew, ei niwloedd; ei chymylau; ei gwlaw; ei heira a'i chenllusg—cyfeiriwn y darllenydd at yr erthyglau ar y geiriau hyny yn nghorff y gwaith.

Eglurir hinsoddau y ddaiar hefyd yn eu lleoedd priodol.

DOSBARTHIAD LLYSIAU.

Y mae llysiau y ddaiar wedi eu cyfaddasu at bob math o hinsawdd, tir, a sefyllfa; gan hyny, canfyddir hwynt yn mhob parth o'r ddaiar, o'r cyhydedd i ardaloedd y pegynau.

Bydd rhai llysiau yn tyfu yn well mewn gwres mawr, ereill mewn gwres cymmedrol, ac ereill mewn lle oer. Y mae rhai yn gyfyngedig i fynyddoedd, ereill i ddyffrynoedd, ac ereill i wastattiroedd agored. Y mae rhai drachefn yn gofyn awyrgylch laith a thir gwlyb, tra na thyf ereill ond mewn ardaloedd sychion a chras; ac y mae rhai mathau o lysiau yn tyfu hyd yn oed ar greigiau noeth. Fel hyn, y mae yr holl ddaiar, o'r braidd, wedi ei gorchuddio â llysiau, chanfyddir planigion hyd yn oed yn nghelloedd tywyll ogofäau a mwngloddiau, ac yn ngwelyau afonydd, llynoedd, a moroedd. Mewn gair, y mae i wres ac oerni, haul a chysgod, tiroedd llaith a thiroedd sychion, ardaloedd ffrwythlawn ac anialwch disathr, pob sefyllfa a phob hinsawdd, eu llysiau neillduol eu hunain. Ac yn y parthau hyny lle na thyf llysiau, canfyddir mwsogl, yr hwn a gynnal fywyd anifeiliaid, ac hyd yn oed fywydau bodau dynol, yn nghanol eira oesol. Ond yn y gwregys poeth y canfyddir y llysiau cryfaf a phrydferthaf, ac yno y mae yr amrywiaeth mwyaf. Yno, dan belydrau haul trofanol, bydd planigion llysieuol y gwregys tymmerus a'r gwregys oer yn tyfu yn fanwydd (*shrubs*), a manwydd y gwregysau crybwylledig yn goed: ac y mae nifer a maintioli coed y parth hwnw tu hwnt i'n dirnadaeth ni.

Y mae prenau y coedwigoedd mawreddog yno yn gyffredin uwch law can troedfedd o uchder; ac y mae amryw, yn enwedig rai rhywogaethau o'r palmwydd, yn cyrhaedd i'r uchder o 150, ac hyd yn oed i 200 o droedfeddi. Canfyddir y pren anferthol a elwir *baobab*, ar lanau y Senegal, ac ynysoedd Penrhyn Verd, gyda boncyff yn mesur 50, 60, ac hyd yn oed 70 o droedfeddi o amgylchedd; ac y mae llawer o'i gangenau yn fwy na'n coed mwyaf ni. Y mae un o ddail y wyntyllbalmwydden (*fan-palm*) yn ddigon o faintioli i orchuddio wyth neu ddeg o bobl, ac y mae dwy neu dair o honynt yn ddigon i orchuddio bwthyn neu dŷ.

Y mae y gwregys poeth hefyd yn neillduol am foethusrwydd, yn gystal ag am ordyfiant, ei gynnyrchion llysieuol. Mae y perlysiau tyneraf, megys cinamon, y pergnau (*nutmegs*) clows (*cloves*), a phupyr, yn gyfyngedig i'r cylch hwnw; ac yndào ef y mae y ffrwythau melusaf, y llysiau mwyaf peraroglus, a'r blodau gorwychaf a phrydferthaf.

Am nifer rhywogaethau (*species*) y planhigion adnabyddus nis gallant fod yn llai na 120,000.

Tybiai Pliny, hen naturiaethwr Rhufeinig adnabyddus, yr hwn oedd yn byw yn y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, nad oeddynt dros 1,000. Yr oedd llysieuwyr y canol-oesoedd yn rhoddi cyfrif am 1,400. Cynnyddodd Linnæus, y llysieuydd Swedaidd enwog, eu rhifedi, yn 1762, i 8,800. Yn 1807, yr oedd Wildenow, y naturiaethwr Germanaidd, yn rhoddi cyfrif am 20,000. Cyfrifodd Robert Brown, o Ysgotland, yr hwn a elwid gyda phriodoldeb yn "dywysog y llysieuwyr," yn nechreu y ganrif hon, gynnifer a 37,000 o blanhigion yn blodeuo. Chwyddwyd eu nifer gan Humboldt, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, i 44,000—gan gyfrif y rhai nad oeddynt yn blodeuo. Yn 1844, tybiodd Stendal fod eu nifer yn 95,000. Ond erbyn hyn, fel y dywedwyd, y mae nifer y dosbarthiadau o lysiau adnabyddus dros 120,000. A thybir hefyd gan y llysieuwyr galluocaf fod cynnifer a 200,000 o honynt ar wyneb y ddaear.

Y mae defnyddioldeb llysiau i ddyn yn eithaf amlwg. Y mae rhai o honynt yn ein cyflenwi âg *ymborth*, megys y gwahanol fathau o rawn, ffrwythau, a gwreiddiau; y mae ereill yn ein cyflenwi â *gwisgoedd*, megys cotwm, llin, a chywarch. Y mae rhai yn werthfawr fel *cyfferiau meddygol*, ac y mae ereill yn ein cyflenwi â *choed* at wahanol ddybenion. Heb hyn oll, nis gallai trafnidiaeth na gwareiddiad fodoli.

Ymddengys fod rhai planigion gwerthfawr wedi eu cyfyngu i'w gwledydd brodorol, megys y clows a'r pergnau i Ynysoedd y Perlysiau (*Spice Islands*); y cinamon diledryw i Ceylon; a'r tê goreu i China. Ond y mae hadau y planigion gwerthfawrocaf wedi cael eu cludo i wahanol barthau y ddaiar mewn amrywiol ffyrdd, ac y maent yn cael eu meithrin mewn tiroedd a hinsoddau cyfaddas i'w natur. Y mae hadau planigion a cheryg ffrwythau yn cael eu cludo gan wyntoedd, afonydd, ac adar, i leoedd pellenig yn aml; ac y mae trafnidiaeth wedi dwyn y gorsen sugr a'r pren coffi, brodorion o Asia, i'r India Orllewinol. Brodorion yr America ydyw y pytatws a gwenith India. Am wybodaeth fanylach ar hyn, gwel LLYSIEUAETH.

DOSBARTHIAD ANIFEILIAID.

Ymddengys fod y ddaiar, yr awyrgylch, a'r dyfroedd—mewn gair, holl natur—yn llawn o fodau bywydol. Ond nis gallwn, pa fodd bynag, yn bresennol, ond taflu brasolwg ar y maes eang hwn, a chyfeirio ein darllenwyr am wybodaeth fanylach at ein herthygl ar FILOFYDDIAETH.

Fel llysiau, y mae anifeiliaid wedi eu cyfaddasu at wahanol hinsoddau, tiroedd, a sefyllfaoedd; gan hyny, canfyddir hwynt yn mhob rhan o'r byd a breswylir gan ddynion. Yr anifeiliaid mwyaf gwasanaethgar hefyd, megys y llysiau mwyaf gwasanaethgar, ydyw y rhai mwyaf cyffredinol. Canfyddir yr ych, y ceffyl, a'r mochyn, yn mhob gwlad, o linell y cyhydedd hyd at y cylchau pegynol; ond y mae y ddafad, yr afr, a'r ci, wedi ymledaenu dros yr holl fyd trigiannol. Y mae yn wir fod y ceffylau a'r ychain yn dirywio ac yn darfod wrth fel yr agoseir at y gwregys oer, ond y mae eu lleoedd yn cael eu llenwi gan anifeiliaid ereill, wedi eu cyfaddasu yn neillduol at fyw yn y parthau noethion hyny. Y mae defnyddioldeb yr algeirw (*reindeers*) i'r Laplandiaid yn eithaf adnabyddus; ac y mae lluaws mawr o anifeiliaid o'r un rhywogaeth yn mharthau gogleddol Asia ac America. Y mae y ci hefyd, cydymaith serchog a ffyddlawn dyn yn mhob gwlad ac yn mhob hinsawdd, yn dra gwasanaethgar iddo yn y parthau anial hyny, lle nas gall gael cymhorth anifeiliaid ereill. Lle y diflana y ceffyl a'r algarw, fe lenwir eu lle gan rywogaeth o gwn, wedi eu cyfaddasu at fyw yn y parthau pegynol.

Y mae y gyfatebiaeth sydd rhwng gwisg anifeiliaid a'r hinsawdd yn mha un y byddant yn

Digitized by Google

yn y Nilus; yr afanc (*alligator*) yn yr America; ac y mae afanc y Ganges (*gavial*) yn gyfyngedig i'r Ganges, ac afonydd Indiaidd eraill. Y mae yr ail ddosbarth, y rhai a elwir yn ddwy-elfeniaid, yn fwy galluog i ddioddef gwahanol hinsoddau na'r ymlusgiaid gwirioneddol; gan hyny, y mae eu cylch yn eangach; ac er eu bod yn fwy ac yn lliosocach yn mharthau cynnes y ddaiar, y maent i'w cael yn ei pharthau oerion.

*Adar.*—Y mae y gwregys poeth yn meddu amrywiaeth o'r adar prydferthaf, yn cynnwys aderyn mwngialog (*humming-bird*) yr America, y cocatŵ, aderyn paradwys, y *lories*, ac amryw eraill o rywogaethau y parod. Y mae aderyn paradwys yn gyfyngedig i Guinea Newydd, a'r ynysoedd cymmydogaethol. O'r adar nas gallant ehedeg, y mae yr estrys yn preswylio yn Affrica ac Arabia; y *cassowary* yn Java a Holland Newydd; ac yn Neheudir America y mae estrys Brazil. Y mae yr *albatross* i'w ganfod yn ehedeg ar wyneb y cefnfor wrth fel yr agosheir at y 40fed gyflinell o ledred; ac y mae gwennoliaid y môr, ac adar trofanol eraill, yn cadw oddi mewn i'r gwregys poeth. Ni bydd y *condor*, yr hwn a ehêd yn aml i'r uchder o bedair milldir, un amser yn gadael cadwen Cordilleras Peru a Mexico; ac ni bydd yr eryr mawr yn gadael trumau yr Alpau. Y mae y gwregysau rhewllyd yn meddu eu rhywogaethau eu hunain o adar; yn mhlith pa rai y mae dylluanod (Lapland), hwyaid, ac adar dyfrol eraill. Y mae hebogiaid (*jer-falcons*) Norway ac Iceland, y rhai ydynt gynlluniau perffaith o gyfunedd a chryfder, yn hollol anadnabyddus yn y trofanau, oddi eithr ar benau mynyddoedd uchel; ac nid ydynt hyd yn oed yno mor gryfion a bywiog a hebogiaid y gogledd.

*Y Tethogion*, neu yr anifeiliaid bronfaethol. Y rhai hyn ydyw y rhai uchaf yn y greadigaeth anifeilaidd. Ni chanfyddir yr elephant ond yn India, a'r talaethau Chino-Indiaidd, ac Affrica; y llew yn Asia ac Affrica; y cangarŵ yn Awstralia; yr elgarw tua'r cylch gogleddol: a chanfyddir rhywogaeth y mwnci ychydig tu hwnt i'r gwregys poeth. Y mae yr anifeiliaid mwyaf gwasanaethgar, fel y sylwasom eisoes, megys y ceffyl, yr ych, y ci, y ddafad, yr afr, a'r mochyn, yn daenedig dros gylch tra ëang o'r ddaear.

Am yr anifeiliaid, nis gellir dyweyd yn mhellach na bod yn rhywle tua 260,000 o rywogaethau o honynt yn adnabyddus. Cynnwysir dan y gair 'anifeiliaid' yma yr holl rywogaethau o anifeiliaid—bwystfilod, adar, pysg, seirph, trychfilod (*insects*), &c. Cyfrifodd Agassiz, y naturiaethwr Swissaidd enwog, rai blynyddoedd yn ol, fod rhifedi y rhywogaethau yn 250,000; ond y mae miloedd eraill wedi eu darganfod er hyny, fel y gellir yn awr, yn ddïau, eu cyfrif yn 260,000. Y mae anhawsder mwy mewn cael cyfrifon am yr anifeiliaid nag am y llysiau. Ymddengys hyn yn eglur pan yr ystyrir fod y planhigion yn tyfu, ac i'w cael, yn mron yn ddieithriad, yn yr un rhanau o'r byd ag y darganfyddwyd hwynt gyntaf. Ond y mae y nifer fwyaf o'r dosbarth anifeilaidd yn meddu gallu i ymsymmud o'r naill fan i'r llall, ac i ehedeg; ac y mae myrddiynau o rywogaethau hefyd sydd yn rhy fân i'w canfod â'r llygad noeth; tra y mae eraill yn symmud yn rhy gyflym i gael eu hadnabod i sicrwydd. Heb law hyny, y mae eu hoedran a'u rhywiau yn peri cyfnewidiadau mawr yn eu hymddangosiad, fel y mae yn fynych yn anhawdd penderfynu a ydynt o'r un rhywogaethau. Y mae llawer o honynt yn gwneyd eu cartrefi yn ngwaelodion y cefnforoedd; eraill yn llechu yn y tywod ar lan y môr; tra y mae eraill yn chwilio am noddfeydd yn y coedwigoedd mawr, ac yn nghreigiau ac ogofäau y mynyddoedd uchel.

Y mae un awdwr yn cyfrif fod rhif yr anifeiliaid sydd yn meddu asgwrn cefn yn 20,000:—cregynbysg, 20,000:—y rheiddogion (*radiated animals*), 5,000:—rheiddogion neu gymmalogion (*articulated animals*), 5,000:—yr hyn a wnant gyda'u gilydd 50,000 o rywogaethau. Gellir, gyda hyny, chwanegu 200,000 o drychfilod—yn gwneyd cyfanrif o 250,000. Gan fod y cyfrif hwn wedi ei wneyd flynyddoedd yn ol, fe ellir, mae'n debyg, fel y dywedwyd eisoes, chwanegu 10,000 at y nifer, a'u gwneyd yn 260,000.

Er bod yr anifeiliaid wedi eu cynnysgaeddu â gallu i ymsymmud yn ol eu dymuniad, ac o herwydd hyny yn fwy galluog i drosglwyddo eu hunain o'r naill ran o'r byd i'r llall nag y mae llysiau, y mae amryw achosion yn cydweithio i gadw y gwahanol rywogaethau o fewn terfynau neillduol. Yn mysg y rhai penaf gellir cyfrif y gwahaniaeth sydd yn yr hinsawdd, a'r rhwyddineb mwy neu lai gyda pha un y gallant sicrhau cynnaliaeth. Ond am anifeiliaid y tir, y mae y môr a'r mynyddoedd cribog uchel yn rhwystrau ar eu ffordd hwy i symmud o'r naill wlad i'r llall. Mewn llawer o amgylchiadau, fodd bynag, nid ydym yn gallu gweled pa fodd y daethant i gael eu dosbarthu fel y ceir hwynt yn awr; ac nis gellir dychymygu pa fodd y mae nifer fawr iawn o'r gwahanol rywogaethau wedi eu sefydlu yn y gwahanol ranau o'r byd lle y maent i'w cael yn bresennol, os nad addefir yr athrawiaeth, fel yn achos y llysiau, fod y Creawdwr Mawr wedi creu yr anifeiliaid mewn gwahanol ranau o'r byd ar y cyntaf. Nis gellir ond yn y modd hwn atteb y cwestiwn pa fodd y mae anifeiliaid pedwar troediog—er esampl, y rhai sydd yn analluog i groesi y moroedd, neu hyd yn oed y culforoedd—i'w cael mewn ynysoedd yn nghanol y cefnforoedd. Mae hyn yn amlwg ac yn hynod yn achos y *kangaroos* yn Awstralia. Nid yw y creaduriaid hyny i'w cael mewn un rhan arall o'r byd, ond yno.

Y mae naturiaethwyr yn rhanu y ddaear i chwech o deyrnasoedd milofyddol (*zoological kingdoms*). terfynau pa rai sydd yn lled debyg i derfynau chwe chyfandir mawr y byd. A dosberthir y rhai hyn drachefn yn bedwar-ar-ddeg o dalaethau milofyddol (*zoological provinces*).

Gweler MILOFYDDIAETH, ac erthyglau ar y gwahanol greaduriaid uchod mewn manau yn nghorph y gwaith.

*Arwynebedd y ddaear.*—Y mae ei harwyneb, yr hwn sydd yn mesur 197,000,000 (dau can miliwn yn mron) o filldiroedd petryal, yn cael ei rhanu yn anwastad iawn rhwng tir a dwfr. Heb fesur codiadau a disgyniadau y mynyddoedd, &c., cyfrifir fod yr holl diroedd yn mesur 51,500,000 mill. pet., neu ychydig yn fwy nag un ran o bedair o holl arwyneb y ddaear, tra y mae y dyfroedd yn ymdaenu tros 145,500,000 mill. pet., neu agos i dair rhan o bedair o'r cyfan. Heb law hyny, y mae y tir yn cael ei ranu yn anwastad iawn. Y mae yr arddrych gogleddol yn cynnwys tair gwaith cymmaint o dir a'r arddrych deheuol.

*Gallu Attyniadol y Ddaear* (*The Power of Gravitation*).—Y mae pob sylweddau yn meddu gallu attyniadol y naill ar y llall; yr hwn sydd

Digitized by Google

yn eu galluogi, pan heb fod yn ymsymmud, i dueddu at eu gilydd. Adnabyddir y gallu hwn dan yr enw 'gallu attyniadol;' ac y mae yn ddiammheuol ei fod yn un o'r neillduolion hynotaf sydd yn perthyn i sylweddau. Y mae gallu y ddaiar i attynu sylweddau ati yn gyfryw, fel, os gollyngir unrhyw sylweddau yn rhydd o le uchel, y maent yn cael eu tynu ganddi gyda chyflymder o 16 troedfedd yn yr eiliad cyntaf o amser ar ol dechreu disgyn; tair gwaith 16 troedfedd (neu 48 troedfedd) yn yr ail eiliad; a phum gwaith 16 (neu 90 troedfedd), &c., yn y trydydd eiliad—gan gynnyddu yn y cyfartaleddau uchod fel y nesant at y ddaear. Ond wedi cyrhaedd uchder mawr uwch law y ddaear, y mae nerth y gallu attyniadol yn myned yn llai; neu mewn geiriau eraill, y mae sylweddau yn myned yn llai eu pwysau, neu yn myned yn ysgafnach. Er esampl, pe y cymmerid pwys, sef 16 wns, i fyny mewn awyren, &c., byddai ei bwysau yn llai wedi iddi esgyn i uchder mawr, a byddai yn myned yn ysgafnach o hyd fel yr esgynai yr awyren. A'r hyn sydd yn hynod drachefn ydyw, fod pob sylweddau yn myned yn ysgafnach fel y disgynant is law arwyneb y ddaiar. Er esampl, pe y cymmerid sylwedd fil o filldiroedd is law yr arwyneb, ni byddai pwys o 16 wns ond 12 wns; a phe cymmerid ef hanner y ffordd rhwng yr arwyneb a chanol y ddaear, ni phwysai ond 8 wns, &c. Nid ydys i ddeall wrth hyn fod neb wedi cyrhaedd mor isel i'r ddaear; mewn gwirionedd, nid ydyw y pyllau glô, &c., dyfnaf sydd yn adnabyddus yn fwy na 1,200 o latheni o ddyfnder. Y pwll glô dyfnaf yn Mhrydain ydyw Rosebridge—2,500 tr. Y mae gwaith glô Lambert, yn Belgium, yn 3,490 tr. o ddyfnder. Er hyny, fe geir digon o wybodaeth, fel yr eir i lawr iddynt, fel y gellir dibynu ar gywirdeb y ffeithiau a nodwyd uchod.

Y mae amryw gyfeiriadau at yr erthygl hon yn nghorph y gwaith, fel hyn, "Gwel DAIARYDDIAETH." Ond y mae yr erthyglau hyny i'w cael dan eu henwau priodol yn y RHESTR sydd yn nechreu pob cyfrol, ac yn y RHESTR GYFFREDINOL fydd yn nechreu y gyfrol ddiweddaf.

Am fanylion ynghylch gwahanol wledydd y byd, gwel dan eu henwau priodol.

Am wybodaeth bellach ynghylch ffurfiad y ddaear, a'i deddfau, gwel AMSER; ANIALDIROEDD (*Deserts*, &c.); ATTYNIAD; CORALAU (*Corals*); CREIGIAU; CYFANDIROEDD (*Continents*); DAEARGRYNFAAU (*Earthquakes*); DAIAREG; DYFFRYNOEDD; DYFROEDD Y DDAEAR—sef, AFONYDD, FFYNNONAU, A LLYNAU; DYNOFYDDIAETH (*Ethnography*)—dosbarthiad ac unoliaeth dyn; EIRA A GWLAW (*Snow and Rain*); FFERYLLIAETH; GOLEUNI; GWRES; GWYNTOEDD A CHORWYNTOEDD (*Winds and Storms*); HAUL; LLANW A THRAI Y MOR; LLEUAD; LLOSGFALAU (*Volcanoes*); LLYSIEUAETH (*Botany*); MILOFYDDIAETH (*Zoology*); MOROEDD A CHEFNFOROEDD; MWNYDDIAETH (*Mineralogy*); MYNYDDOEDD; PELLDDRYCHAU (*Telescopes*); PYSGOD; SERYDDIAETH; SWN (*Sound*); SYLWEDD (*Matter*); TRYDANIAETH; TYNFAEN (*Magnet*); YMLUSGIAID; YR AWYRGYLCH (*Atmosphere*), &c., &c.

DAFYDD AB EDMWNT.—Ganwyd ef, yn ol yr hanesion, yn yr Hen Blas, yn Hanmer, yn sir Fflint, o fewn cyfoeth Powys Fadawg. Bu yn achlysurol yn preswylio yn Llysfasi, ar y terfyn deheuol o Ddyffryn Clwyd, ac yn Glan-y-pwll, Wepre, &c. Yr oedd mam Tudur Aled yn chwaer iddo. Gŵr bychan o gorph, ac yn gwisgo gŵn llwyd, neu fantell wlan, oedd efe. Meredydd ab Rhys, clerigwr Rhiwabon, oedd ei athraw barddonol. Bu Gutyn Owain a Thudur Aled yn ddysgyblion iddo yntau. Ennillodd y gadair yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn 1451, a 1461. Yr oedd Gutyn Owain yn teithio gydag ef i Eisteddfod Caerfyrddin—Gutyn yn ei hûg sidan, a Dafydd yn ei fantell wlân; ond aeth Dafydd adref â'r gadair arian ar ei ysgwydd. Ni faddeuodd beirdd Morganwg byth iddo am ennill y fuddugoliaeth hon. Y mae Iolo Morganwg, a Thaliesin, ei fab, yn ei gondemnio yn eu nodiadau ar "*Gyfrinach y Beirdd;*" ond yr ydoedd Dafydd ab Edmwnt uwch law eu gallu i'w niweidio. Cyhuddir ef o ddyfeisio y pedwar mesur ar hugain, o gaethiwo y rheolau, a llunio rheolau newyddion, &c.; ond y cwbl a wnaeth efe, erbyn chwilio i'r cwynion a ddygid yn ei erbyn, oedd tynhau ychydig ar gadwynau dau bennill. Nid efe a luniodd y cynghaneddion; ond tyfasant yn raddol gyda'r mesurau; a phriodolir eu perffeithiad i Ieuan Llawdden, un o feirdd Morganwg. Y maent i'w gweled yn "Nosbarth Edeyrn Dafod Aur," yn awdl "Gwilym Tew i Fair," cyn y flwyddyn 1414; ac yn awdl Lewis Morganwg i "Leision Abad Glynnedd," yn 1490. Amcan Gruffydd ab Nicolas yn Eisteddfod Caerfyrddin oedd cael trefn a dosbarth ar feirdd a barddoniaeth. Yr oedd gan bob cadair, yn ol hen ddefod, gwlwm, neu rif arbenig o fesurau. Y rhai a fernid yn oreu ar y pryd a elwid yn 'Cwlwm Cadair.' Gwnaeth Gruffydd ab Nicolas hysbysiad y byddai i'r goreu am ddethol mesurau, a chanu arnynt yn bencerddaidd, gael y tlws arian. Dafydd ab Edmwnt a'i ennillodd; a dyma y dyfarniad—"A goreu ar ddychymmyg, a pharotaf ei awen, y cafwyd Dafydd ab Edmwnt;" ac efe a ennillodd "o nerth awen a chanu." Yr unig newydd-bethau a ddyfeisiodd Dafydd ab Edmwnt oedd caethiwo yr hypynt byr, gan ei alw yn 'orchest y beirdd;' a chaethiwodd y gadwyn gyrch, gan ei galw yn 'gadwen fer.' Wedi iddo drefnu y mesurau, "a chanu arnynt yn fwy gorchestol na neb o'r prydyddion, y barnwyd iddo y gadair arian, a'i dodi ar ei ysgwydd." Dywedir iddynt fod am naw niwrnod yn canu yn yr eisteddfod cyn dangos eu gwaith; canys yr oedd canu ar y cwlwm o fesurau fel enghreifftiau i'r awenyddion yn ddyledswydd orphwysedig ar y pencerdd. A chan mai dyben y cyfryw fesurau oedd profi medr a chywreinrwydd yr ymgeiswyr yn y rheolau, nid oedd gorchestion Dafydd ab Edmwnt mor anfuddiol ag y myn llawer eu bod. Mewn eraill ar ei ol yr oedd y camwri a briodolid iddo ef, am eu bod wedi ceisio cyfyngu barddoniaeth i'r rhif hwnw o fesurau. Yn ei ol Iolo Morganwg, Tudur Aled oedd y troseddwr. Yn Eisteddfod Caerfyrddin yr oedd Ieuan Llawdden, Gwilym Tew, Ieuan ab Hywel Swrdwal, ac Ieuan Gethin, &c.; ond nis gallent wrthsefyll awen a chelfyddyd "y gŵr bach â'r gŵn llwyd." Yn "*Ngorchestion Beirdd Cymru,*" y mae wyth o'i gyfansoddiadau barddonol i'w cael—oll yn rhwydd a gorchestol yn eu cynghaneddion. Yn ei Gywydd Marwnad i Siôn Eos, arddangosa y teimladau tyneraf, a'r rhesymau cryfaf yn erbyn cospi â marwolaeth. Bu farw, yn ol yr hanesion a geir, rhwng 1480 a 1490; a chladdwyd ef yn Hanmer.

Digitized by Google

**DAFYDD AB GRUFFYDD.**—Yr oedd efe yn fab i Gruffydd ab Llywelyn Fawr, ac yn frawd i 'Llywelyn ein Llyw Olaf.' Nis gellir cymmeradwyo rhai o'i ymddygiadau yn y rhan flaenaf o'i fywyd; ond tua chanol ei oes, yr oedd yn mysg y dewraf o ddewrion ei wlad, yn ymladd dros ei rhyddid a'i hiawnderau. Yn y diwedd, bu farw o'r farwolaeth greulonaf. Pan fu farw Dafydd ab Llywelyn heb blant, dewisodd y Cymry Owain, a Llywelyn ei frawd, yn gyd-dywysogion arnynt. Owain oedd yr hynaf; a chan ei fod yn anfoddlawn i gydranu, cymmerodd y maes yn erbyn Llywelyn. Dygir Dafydd ab Gruffydd gyntaf i sylw mewn hanesyddiaeth fel cydfradwr âg Owain. Aflwyddasant, pa fodd bynag; a charcharwyd hwynt yn Nghastell Padarn, Llanberis, tua'r flwyddyn 1254. Nid yn hir y parhaodd carchariad Dafydd, o blegid yr ydym yn ei gael yn Nghaerfyrddin, yn ben ar nifer o foneddigion Cymreig a ddewiswyd gan Llywelyn i gyfarfod y dirprwywyr Saesnig, gyda'r amcan o lawnodi cadoediad am flwyddyn rhwng byddinoedd y ddwy wlad. Ond gadawodd Dafydd Gymru, ac ymunodd â byddin Harri III.; ac yr oedd efe yn bresennol yn mrwydr Morfa Caerlleon, yn gwasanaethu dan Arglwydd Audley, pan y gorchfygwyd y Saeson gyda lladdfa fawr. Erbyn 1277, ceir fod Dafydd wedi dringo yn uchel i ffafr brenin Lloegr, yr hwn a'i gwnaeth yn farchog, ac a roddodd iddo ferch i Iarll Derby yn wraig; yr hon oedd ystafellyddes i'r frenhines. Gweddw ieuangc oedd hi ar y pryd—newydd gladdu ei gŵr. Gwnaed ef yn arolygwr dan y brenin ar yr holl gestyll perthynol i'r Saeson yn Nghymru; a dywedir iddo gael cestyll Dinbych, a Frodsham yn sir Gaer, yn anrheg ganddo, gyda thiroedd yn perthyn iddynt, gwerth mil o bunnau yn y flwyddyn. Yr oedd ei ysbryd anesmwyth, er hyny, yn anfoddlawn; ac wrth weled y driniaeth a dderbyniodd Llywelyn oddi ar ddwylaw Harri, efe a benderfynodd adael Lloegr, a chynnyg ei gleddyf eilwaith at wasanaeth ei frawd, a'i wlad. Triniaeth annhêg a gafodd efe gan y boneddigion Saesnig. Yr oedd un gŵr, enw yr hwn oedd William Venables, yn tori y coed i lawr ar ei ystâd, a elwir Lleweni, yn Nyffryn Clwyd. Bygythiodd un arall, o'r enw Reginald de Grey, gymmeryd castell Llanlestyn, yn sir Fflint, oddi arno, gan hawlio ei blant yn wystlon am ei iawn ymddygiad rhag llaw. Yna, efe a benderfynodd ffoi i Gymru, a gwnaeth i Llywelyn dyngu wrtho na byddai iddo byth mwyach roddi arfau i lawr nes yr ysgubid pob Sais allan o'r wlad. Ar ddyfodiad Dafydd i'w plith, adfywiodd byddinoedd Llywelyn, a dechreuwyd rhyfelgyrch newydd, trwy i Dafydd, yn ben ar fyddin gref, wneyd rhuthr medrus ac annisgwyliadwy ar gastell Pen-ar-lâg *(Hawarden)*, ar nos Sul y Blodau, 1282. Daliwyd llywydd y castell, sef Roger de Clifford, yn ei wely; a chymmerwyd ef, wedi ei archolli yn farwol, yn garcharor i Eryri. Yna, unodd y ddau dywysog eu byddinoedd, a buont lwyddiannus iawn am ysbaid; ond erbyn diwedd yr haf, yr oedd y fantol wedi troi, a'r Cymry yn erfyn am heddwch gan eu gelynion. Anfonodd Llywelyn a Dafydd ddeisebau, ar wahân, i'r perwyl hwnw at y Saeson. Yr atteb a gafodd Dafydd oedd, os ymgymmerai efe â myned i Palestina i ymladd yn Rhyfeloedd y Groes, ac na ddychwelai efe byth drachefn i Brydain, y gwneid darpariaeth weddus ar gyfer ei urddas ef fel tywysog, ac hefyd ar gyfer ei unig ferch, yn ei absennoldeb. Ond hysbyswyd ef, os gwrthodid y telerau, fod yr Eglwys Babaidd am daranu ei bygythion o esgymmundod ar y tywysogion, a'u deiliaid. Y mae cynnwysiad ei atteb i'r awdurdodau eglwysig yn llawn o'r teimlad dwysaf, a'r rhesymeg goethaf; sef—

"Pan yr elai efe i'r Tir Sanctaidd, efe a elai yno o'i fodd, ac o'i galon i Dduw, ac nid i ddynion; a thrwy ganiatâd Duw, nid elai yno yn anfoddlawn; canys gwyddai fod gwasanaeth trwy drais yn anfoddlawn gan Dduw. Ac os digwyddai iddo, ar ol hyny, fyned i'r Tir Sanctaidd o'i wir ewyllys ei hun, ni ddylai efe a'i etifeddion, o achos hyny, gael eu di-etifeddu; ond yn hytrach, hwy a ddylent gael eu gwobrwyo. Heb law hyny, nid oedd y tywysog, a'i bobl, yn cynnal rhyfel yn erbyn neb o achos dygasedd, neu e.w, trwy ymosod ar diroedd eraill; ond er amddiffyn eu hetifeddiaeth, a'u breintiau, a'u rhyddid eu hunain; a'r arglwydd frenin a'i bobl a gynnaliant ryfel er mwyn hen ddygasedd, ac ysbeilio ein tiroedd ni.

Yr ydym yn credu (meddai) ein bod yn cynnal rhyfel gyfiawn; a gobeithiwn yn hyn y bydd i Dduw ein cynnorthwyo; a thrwy ei ddwyfol ddialedd yn erbyn difrodwyr yr eglwysi, y rhai yn llwyr a ddinystriasant, ac a losgasant, ac a ysbeiliasant o'u dodrefn sanctaidd; a laddasant yr offeiriaid, y crefyddwyr lleyddol, y clottion, y byddariaid, y mudion, y plant yn sugno bronau, y methedig, a'r cystuddiedig—heb arbed na gwryw na benyw; felly, bydded yn mhell oddi wrth eich Sanctaidd Dado deb daranu unrhyw ddedfryd yn erbyn neb, oddi eithr y sawl a gyflawnhasant y cyfryw bethau. Canys nyni, y rhai a ddioddefasom y cyfryw bethau gan swyddogion y brenin, ydym yn gobeithio derbyn eich tadol gysur o'u herwydd, a cheryddu o honoch y cyfryw gyssegr-ysbeilwyr a'u cefnogwyr, y rhai nid ellir amddiffyn eu gweithredoedd hyn mewn un modd, rhag, o achos eisieu adferyd dyledus gerydd arnynt hwy, y bydd i'r drygau rhagenwedig gael eu gwneyd yn gynllun gan eraill. Hefyd, y mae llawer yn ein gwlad yn rhyfeddu eich bod chwi yn ein cynghori i adael ein gwlad ein hunain, a thrigo yn mhlith gelynion; canys os nad allwn gael heddwch yn ein cyfiawn wlad gynhenid, pa fodd y cawn heddwch mewn gwlad ddyeithr, yn mhlith estroniaid? Ac er mai caled ydyw bywyd o ryfel a chynllwyn, etto caletach fyddai cael ein llwyr ddyfetha. Duw a luddias i bobl Gristionogol gael eu diddymu am amddiffyn eu gwlad a'u breintiau! Felly, gorfodir ni i hyn gan angenrheidrwydd, a chan drachwant ein gelynion; a chwychwi, Sanctaidd Dad, a ddywedasoch yn ein gwydd, eich bod am gyhoeddi dedfryd ar y rhai, er mwyn dygasedd neu elw, a gythryblant yr heddwch; ac y mae yn amlwg i bawb pwy ydynt y cyfryw. Gan hyny, cymmhellir ni i ryfel gan ofn angeu a charchariad, neu ddi-etifeddiant parhaus, gan ddirmygiad ammodau, creulawn lywodraethiad, a llawer o bethau cyffelyb. A hyn a ddangoswn i chwi, a deisyfwn genych dadol gynnorthwy.

Yn mhellach, sylwn fod llawer eraill yn nheyrnas Lloegr wedi digio y brenin: ond etto, ni ddi-etifeddodd efe neb o honynt am byth, fel y dywedir. Ac os darfu i neb o honom ninnau ei ddigio ef yn anghyfiawn, dylem wneuthur boddlonrwydd iddo hyd y gallom; eithr ni ddylai efe ein di-etifeddu. A chan ein bod yn ymddiried ynoch, erfyniwn arnoch ymdrechu tuag at ddwyn hyn oddi amgylch, Sanctaidd Dad. Haerir yn ein herbyn ein bod wedi tori yr heddwch; eithr hwynthwy yn hytrach a'i torasant, a phob ammod a chyttundeb gydag ef."

O herwydd hyn, fe esgymmunwyd eu deiliaid gan archesgob Caergaint, a syrthiodd y tywysog Llywelyn yn Muallt, trwy law bradwr, gan adael Dafydd yn unig feddiannwr ar hen deyrnas wasgaredig, fechan, a dirywiedig y Prydeiniaid. Yn nghwymp Llywelyn, darfyddodd yni a



Digitized by Google

dewrder y genedl, a syrthiodd y Dywysogaeth yn ddarnau oddi wrth ei gilydd. Ceisiodd Dafydd adferu pethau; a gwysiodd benaethiaid Gwynedd i'w gyfarfod yn Ninbych, a bwriadai ail ddechreu rhyfelgyrch egnïol; ond ychydig fu ei ddylanwad. Daeth y Saeson yn mlaen fel cefnllif dinystriol, a chymmerasant feddiant o'r castelli, ac o Eryri ei hunan; yr hon a elwir "cyssegr sancteiddiolaf y dewrion." Bu Dafydd yn ffoadur crwydrol o'r awr hono nes y daliwyd ef a'i deulu mewn cors, nos Mehefin 21ain, gan swyddogion y brenin, y rhai a arweinid gan Einion ab Ifor a Grouw ab Dafydd—y rhai oedd wedi derbyn llwgrwobrau. Cymmerwyd Dafydd a'i deulu yn garcharorion i gastell Rhuddlan, lle yr oedd Iorwerth I. ar y pryd. Ceisiodd Dafydd gael ymddangos o flaen y brenin wyneb yn wyneb; ond nacawyd hyn iddo. Cafodd ei garcharu yn y modd mwyaf diogel yn Rhuddlan; ac yn fuan, danfonwyd ef dan osgordd gref i'r Amwythig, lle y gosodwyd ef ar ei brawf; a daeth Iorwerth, brenin Lloegr, â chŵyn yn ei erbyn fel un o'i ddeiliaid ei hun. Gorchymynodd un-ar-ddeg o ieirll, a chant o farwniaid, i'r frawdle; ac yr oedd yntau ei hun yn bresennol. Cafwyd Dafydd yn euog yn ngwyneb amryw gŵynion, a thraddododd John de Vans, prif ynad Lloegr, y ddedfryd fwyaf annynol arno a gyhoeddwyd erioed ar neb; yr hon oedd fel y canlyn.—Yr oedd efe i gael ei lusgo wrth gynffonau meirch trwy heolydd Amwythig i fan y dioddefaint, am geisio bradychu y brenin, yr hwn a'i gwnaeth yn farchog; i gael ei grogi am ladd Fulk Trigald, a marchogion eraill, yn nghastell Pen-ar-lag; a'i galon a'i gylla i'w llosgi, am iddo wneuthur y gelanedd ar ddydd Sul y Blodau; a'i ben i gael ei dori oddi wrth ei gorph, a'i aelodau eu crogi i fyny mewn pedwar lle cyhoeddus mewn amryw fanau yn Lloegr, o achos iddo fwriadu angau y brenin. Dioddefodd celain Dafydd hyn i'r eithaf, ac yr oedd gorfoledd y Saeson yn gymmaint fel y bu ymryson taer rhwng trigolion Caerefrog a Chaerwynt am yr anrhydedd o gael y fraich ddeheu. Ond yr anrheg gigyddlyd a farnwyd yn deilwng i Gaerwynt, a'r aelodau eraill a ddanfonwyd i Gaerefrog, Bristol, a Northampton; ac er fod trigolion Caer Ludd mewn llawenydd, ei ben a osodwyd ar bawl yn y Tŵr Gwyn, yn agos i ben ei frawd.

Dyna ddiwedd yr olaf o hen deyrnach y llywodraeth Brydeinig; yr hon a wrthsafodd holl ruthriadau Rhufain fawreddog, ac a fu mewn brwydr law-law, a di-dòr bron, gyda'r Saeson a'r Normaniaid, am yr ysbaid o wyth can mlynedd. Canodd Bleddyn Fardd ddwy farwnad ar ol Dafydd ab Gruffydd, y rhai a welir yn y "*Myfyrian Archaiology.*"

**DAFYDD AB LLYWELYN.** Mab ieuangaf Llywelyn ab Iorwerth, neu Llywelyn Fawr, oedd efe, o Joan, merch Ioan, brenin Lloegr, a chwaer i Harri III. Bu Llywelyn yn briod ddwy waith—y tro cyntaf gyda Tangwystl, merch Llywarch Goch, arglwydd Rhos, o'r hon briodas yr hanodd Gruffydd—gŵr ieuangc dewr a dibris. Yr oedd llawer o bethau yn gwrthweithio rhag i'r mab hwn ddilyn ei dad; o herwydd y buasai ei ysbryd rhyfelgar yn sicr o daflu y Dywysogaeth i ryfel a'r Saeson drachefn. Yr oedd wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn ei dad; a bwriwyd ef i garchar am wrthryfela, a pharotowyd Dafydd i gymmeryd lle ei dad fel tywysog. Dyna oedd cynllun Llywelyn a'i benaethiaid, a dymuniad calon eu gelynion, y Saeson, hefyd; a Llywelyn, wrth weled ei angau yn nesau, a wysiodd ei bendefigion i'w gyfarfod yn Ystradfflur, fel y gallai wneyd ei ddymuniad yn hysbys iddynt mewn dull ffurfiol, ac y byddai iddynt hwythau gydnabod Dafydd fel ei olynydd. Bu Llywelyn farw yn 1240, wedi teyrnasu am 46ain mlynedd; ac yn ol y rhagdrefniadau, esgynodd Dafydd i'w le. Yn mhen mis wedi ei ddyrchafu i'r orsedd, gwnaeth gyttundeb heddwch gyda brenin Lloegr, gyda'r bwriad o roddi diwedd ar y cwerylon gwaedlyd rhwng y ddwy wlad; yn yr hwn yr ymgymmerai â thalu gwarogaeth i'w ewythr, Harri, fel ei frenin; a throsglwyddodd iddo ei hawl i Ogledd Cymru. Ond buan y canfu Dafydd ei ffolineb pan welodd efe fod yr iau y rhoddodd ei wddf ynddi yn drymach nag y dychymmygodd; a buan y penderfynodd hefyd ei bwrw ymaith. Ymgynghreiriodd gyda brodyr Gruffydd ab Madoc, arglwydd Powys Isaf; a denodd llawer o benaethiaid Cymreig eraill oedd yn ngwasanaeth Harri i gymmeryd rhan yn yr hyn oedd ganddo mewn golwg. Dechreuodd ei wrthryfel trwy anrheithio tiroedd Syr Ralph Mortimer, ac eraill o ddeiliaid gwriogaethol Harri; a chymmerodd feddiant ar long oedd ar ei mordaith i Gaer yn llwythog o wenith ac ymborth. Ceisiodd y brenin arno ymbwyllo, ac ymheddychu; a galwyd arno i roddi iawn am y galanasdra a wnaeth efe ar ei ddeiliaid. Yn y cyfamser, attolygodd esgob Bangor arno ryddhau Gruffydd, ei frawd, o garchar, wedi iddo ddeall y cyflwr yr oedd efe ynddo; ond yn ofer yr ymbiliodd âg ef. Ni feiddiai Dafydd ollwng y fath ysbryd gwrthnysig a beiddgar a'r eiddo Gruffydd, ei frawd, yn rhydd. Esgob Bangor, er hyny, a esgymmunodd Dafydd, ac a brysurodd at Harri III., gan osod creulondeb Dafydd o'i flaen mewn dull tra effeithiol. Anfonodd ei gŵynion i'r Pab hefyd, a chadarnhaodd y Pab yr esgymmundod. Cymmerodd Harri, mewn enw, blaid y carcharor anffodus; a llawnododd Sina, gwraig Gruffydd, gyttundeb ar ran ei gŵr gyda brenin Lloegr—yr hwn a ymrwymai i'w gael yn rhydd. Aeth ffurfafen achos Dafydd bellach yn dywyll. Yr oedd bygythion yr eglwys yn hongian uwch ei ben, plaid ei frawd a'i wrthymgeisydd ar gynnydd mawr yn y wlad, a'i ewythr, a Harri, yn galw arno, dan ei berygl, i ollwng y carcharor yn rhydd. Ond penderfynodd nad ufuddhai i gais ei ewythr. Mewn canlyniad i hyny, aeth Harri gyda byddin fawr tua Chaer, gyda'r bwriad o weinyddu cerydd llym ar ei nai. Llwyddodd yn ei amcan; o blegid danfonodd Dafydd genad ato yn cynnyg rhyddhau Gruffydd o garchar ar yr ammod y derbynid ef ei hun i'w freiniol ffafr. Cydsyniodd y brenin â'r ammod hwn; ond chwanegodd delerau trymion eraill o'i eiddo ei hun:—y penaf o ba rai oedd, fod i Gruffydd, a'i fab Owen, gael eu trosglwyddo i'w ofal ef. Yn mhen ychydig fisoedd, yn unol âg adran yn y cyttundeb, aeth Dafydd i lys y brenin i dalu gwarogaeth iddo, a rhoddi gwystlon cryfion iddo na byddai iddo byth drachefn godi mewn gwrthryfel yn ei erbyn. Ar y pryd hwn yr oedd rhyddid ac annibyniaeth cenedl y Cymry yn isel iawn. Yr oedd gelyn trahaus yn eu troi fel y mynai, ac nid oedd eu tywysog yn ddim amgen na llwfrddyn di-amcan, yn cael ei hud-lithio gan greulondeb ar un llaw, ac ofn

Digitized by Google

dreisiodd diriogaethau ei frodyr eraill, a'i gyfneseifiaid, yr un modd, ac alltudiodd hwythau o'r wlad. Yn 1175, yr oedd Harri, brenin Lloegr, mewn helbul gyda'i diriogaethau Ffrengig; a chan ei fod yn gweled nas gallai anfon milwyr i dalu y pwyth yn ol i Dafydd am ei drahâ, efe a ddefnyddiodd gynllun i ennill ei gynnorthwy heb anafu ei gyfeillgarwch. Rhoddodd y brenin ei chwaer, Emma, yn wraig i'r tywysog; ac anfonodd Dafydd, mewn canlyniad, fil o wŷr i Ffraingc at wasanaeth ei frawd-yn-nghyfraith. Yn 1176, yr ydym yn ei gael gyda Rhys ab Gruffydd, tywysog Deheubarth, Owain Cyfeiliog, tywysog Powys, ac amryw bendefigion Cymreig, yn derbyn gwŷs y brenin i'w gyfarfod ef mewn senedd yn Rhydychain. Bu yr ymostyngiad hwn o eiddo Dafydd yn achos o rwgnach ac anfoddlonrwydd mawr yn mhlith ei ddeiliaid; a phan ddiangodd Roderic o garchar, efe a dderbyniwyd yn galonog gan y bobl, yn enwedig gan y Monwyson. O herwydd ei greulondeb tuag at ei ddeiliaid, a'i dueddiad at y Saeson, penderfynodd y werin godi mewn gwrthryfel yn erbyn Dafydd; ac ar air Roderic, codasant fel un gŵr, a gorfu i Dafydd encilio dros afon Gonwy o'u ffordd; a than aden y gwarchodlu Saesnig yn nghastell Rhuddlan y bu efe yn llechu am ysbaid. Yr oedd Llywelyn ab Iorwerth Drwyndwn y pryd hwn dan nawdd, ac yn aros yn llys ei ewythr, Roderic. Ystyrid mai efe oedd gwir etifedd y teitl 'tywysog' gan bob plaid; a phan gafwyd cyfleusdra, gosodwyd ef yn y swydd. Gwelodd Dafydd, a bu mor gall a deall hyny, fod llais y wlad yn ei erbyn; ac yn 1194, yr oedd ei nai, Llywelyn, wedi ei osod yn ei le; ac nid oedd ganddo ond castell neu ddau ar ei helw. Ail ymaflodd asbri rhyfel ynddo erbyn hyn, a chasglodd ychydig o ffyddloniaid yn Ngwynedd; ac wedi cael cymmhorth gan y Saeson, cymmerodd brwydr le, a chyfarfyddodd Llywelyn ef ar ei ymdaith, a llwyr orchfygwyd ef. Yn mhen ychydig wedi hyn, efe, a'i fab Owain, a laddwyd yn Nghonwy.

DAFYDD DDU O HIRADDUG, neu Dafydd ap Roderic ab Madog. Brodor oedd o Degeingl, a ficer Tremeirchion tua 1340. Y mae'n debyg iddo gymmeryd ei ffugenw oddi wrth fynydd cyfagos, sef Moel Hiraddug. Yn ol rhai hanesion, yr oedd efe yn ficer Bodfari hefyd. Y mae darlun cywrain o hono yn ei wisgoedd swyddol yn eglwys Tremeirchion, gyda'r argraph, "*Hic Jacet David ap Roderic ap Madoc.*" Yr oedd Dafydd yn fardd enwog a dysgedig, a chanddo law yn ffurfiad deddfau mydryddiaeth Gymraeg. Cymmerwyd y "*Pum Llyfr Cerddoriaeth*" a gyhoeddwyd gyda Grammadeg Edeyrn Dafod Aur, o lyfr Dafydd Ddu Athraw; ond fod y gwaith wedi cael ei helaethu a'i gywiro yn ol rheolau diweddarach gan Simwnt Fychan, tua'r flwyddyn 1580.

Ystyrid ef hefyd yn brophwyd ac yn ddewin; a phriodolir llawer o ddaroganau iddo ef a'i gyfoeswr, Shôn Cent. Barna Williams, yn ei "*Eminent Welshmen*," mai i Dafydd y dylid priodoli daroganau Robin Ddu; yr hwn oedd yn byw gan mlynedd yn ddiweddarach. Ond fe allai mai i oes Robin, a rhyfeloedd Glyndwr, a'r Rhosynau, y mae y daroganau yn perthyn, a bod ofergoel ac anwybodaeth wedi pentyru pob peth ar ben Dafydd, o herwydd ei fod yn ŵr eglwysig o flaen ei oes mewn dysg a rhinweddau. Y mae 'Awdl Sanctaidd am ddiwedd Dyn, a'i Gorph," o'i waith ef yn y "*Myfyrian Archaiology*," ar fesur Hypynt, yn cynnal yr un brif odl drwyddi, ac y mae 11 tudalen yn yr un llyfr dan yr enw '*Officium B. Mariæ.*'

DAFYDD GAM. Yr oedd efe yn farwnig, ac yn un o'r dynion mwyaf dewr yn ei oes. Ganwyd ef yn sir Frycheiniog, tua 1370. Ei brif balas oedd y Peityn, yn mhlwyf Garthbrengy, ger Aberhonddu. Ei enw ar y cyntaf oedd Dafydd ab Llywelyn; a chafodd y llysenw 'Gam' am fod ganddo lygad croes. Yr oedd yn filwr o'i febyd, a bu am rai blynyddoedd yn ngwasanaeth Bolingbroke, Iarll Henffordd, ac Arglwydd Brycheiniog. Pan wysiodd Owain Glyndwr ei benaethiaid i'w gyfarfod yn Machynlleth, yn 1402, er mwyn ei gydnabod yn Dywysog Cymru, a rhoddi coron ar ei ben, yr oedd Dafydd Gam yn eu plith. Ac os oes coel i'w roddi ar yr hanes, dangosodd ei hun yno yn bob peth, ond yn wladgarwr; o blegid mewn dull brâd-lofruddiog, efe a amcanodd ladd y gwron enwog. Pa fodd bynag, aflwyddiannus fu ei ymgais; a gwaith mawr a gafwyd i berswadio Owain rhag ei roddi i farwolaeth yn y fan a'r lle. Er hyny, bu yn ngharchar ganddo am ddeng mlynedd. Cafodd ei ryddhau o'r diwedd, o herwydd i'r brenin dalu swm mawr o arian drosto, ar ei addewid bendant na chymmerai efe byth arfau yn erbyn tywysog ei wlad. Ond mor fuan ag y gallodd ymryddhau o afaelion Owain, efe a ymunodd â'r gelynion. Fel addaliad am hyn, llosgodd Owain balas oedd ganddo, o'r enw Gyrnigwen, hyd y llawr. Yr hanes nesaf sydd genym am Dafydd yw, iddo ladd ei berthynas, Rhisiart Fawr, arglwydd Slwch, yn nhref Aberhonddu. O herwydd hyn, bu ar ffo am ysbaid o amser. Yn 1415, cododd fyddin o wŷr yn Mrycheiniog i fyned gyda'r brenin Harri IV. ar ryfelgyrch i Ffraingc. Rhan o'r rhyfelgyrch hwn oedd brwydr bwysig Agincourt; a chafodd dewrder Dafydd Gam gyfleusdra manteisiol i'w ddangos ei hun yn yr ymladdfa greulawn hono. Efe a ddanfonwyd gan y brenin i archwilio sefyllfa a rhif y gelynion, cyn dechreu y frwydr; a daeth yn ol gan ddywedyd, "fod yno ddigon i'w lladd—digon i'w cymmeryd yn garcharorion — a digon i ffoi ymaith." Collodd Dafydd Gam ei fywyd yn mhoethder y frwydr, a syrthiodd ei fab-yn-nghyfraith, Roger Fychan, a pherthynas arall iddo, o'r enw Gwallter Llwyd hefyd, yn y frwydr hono. Dywedir fod y tri wedi syrthio wrth geisio achub bywyd y brenin, yr hwn a amgylchwyd gan y gelynion; a bod y brenin, fel cydnabyddiaeth fach am aberth mor fawr, wedi eu gwneyd yn farchogion. Gŵr hynod o ddewr oedd Syr Dafydd Gam, cryf, ond hagr, o gorph, a meddai ar feddwl annibynol. Y mae Syr Walter Raleigh, wrth sôn am dano yn mrwydr Agincourt, yn canmawl ei ddewrder, ac yn dyweyd ei fod yn tra rhagori ar Mago, ac yn ei gymmharu i Hannibal.

DAFYDD IFAN AB EINION, NEU DAFYDD AB IFAN AB EINION. Yr oedd efe yn geidwad castell Harlech yn 1468, o dan deulu Lancaster, yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynau—yn ddewrddyn gwladgar, a hardd o gorph; a glynai gyda ffyddlondeb hynod wrth ei blaid. Gwnaeth Iorwerth IV. a'i bleidwyr lawer cynnyg, trwy deg a garw, i gael y castell oedd yn ei feddiant—ond yn gwbl ofer. Gydag ychydig o wŷr, efe

Digitized by Google

a heriodd, yn y gaer gadarn hono, holl alluoedd y Yorkiaid, tra nad oedd ond dwy gadarnfa arall yn y deyrnas heb blygu i'w hawdurdod. Wedi blino o'r diwedd, parodd y brenin i Wilym Herbert, iarll Penfro, yn 1468, yn mhen saith mlynedd ar ol esgyniad Iorwerth i'r orsedd, a dymchweliad ty Lancaster, gymmeryd castell Harlech, pa beth bynag fyddai y canlyniadau. Yr iarll, wedi casglu ei fyddinoedd ynghyd, a gychwynodd tua'r lle; a chyda dirfawr boen, o herwydd gorfod cludo ei beiriannau rhyfel dros y mynyddoedd, i fyny pa rai yr oedd yn rhaid i'w filwyr ddringo braidd trwy nerth eu hewinedd a'u dannedd, efe a gyrhaeddodd o flaen y castell o'r diwedd, ac a ddechreuodd warchau arno. Wedi bod o flaen y lle am ychydig, galwodd yr iarll, dros ei feistr, y brenin, am i Dafydd roddi y lle i fyny iddo ef; a bygythiodd ef yn enbyd os na chydsyniai â'r cais yn ddioedi. Y mae atebiad Dafydd yn dangos ei fod yn ddyn beiddgar a phenderfynol; ac fel hyn yr atebodd efe:—"Ewch, a dywedwch i'ch meistr fy mod unwaith wedi amddiffyn castell yn Ffrainge nes yr oedd holl hen wragedd Cymru wedi clywed am y peth; ac yr amddiffynaf hwn etto nes y clyw holl hen wragedd Ffrainge am yr amddiffyniad." Cynddeiriogodd hyn yr iarll; a pharotodd yn ddiattreg i wneyd ymosodiad; ond ar ol ymladdfa waedlyd, terfynodd y frwydr yn mhlaid Dafydd, a'i wŷr. Gadawodd yr iarll y gwarchae yn nwylaw ei frawd, Syr Risiart Herbert, gan ei fod ei hun wedi llwyr ddiflasu ar y gorchwyl. Yr oedd Risiart yn deall ei waith yn well na'i frawd. Torodd ymaith eu hadgyflenwadau am ddwfr ac ymborth i'r fyddin; a'r canlyniad fu, i Dafydd roddi y lle i fyny o herwydd newyn. Pa fodd bynag, sicrhaodd iddo ei hun, a'i wŷr, ammodau rhyddid a bywyd; y rhai nid oeddynt wrth fodd y brenin, a gwrthododd eu cadarnhau. Pan glybu Risiart hyn, efe a ddywedodd:—

"Cymmered eich mawrhydi fy einioes i yn lle einioes y penaeth Cymraeg; ond y mae'n *rhaid* cyflawni yr ammodau, neu ynte mi a roddaf Dafydd yn ol yn y castell, a chewch chwithau anfon y neb a fynoch i'w gymmeryd."

Parodd hyn i Iorwerth gydsynio; ond ni chafodd Herbert ddim am ei lafur heb law bywyd Dafydd ab Ieuan ab Einion. Yr oedd y rhyfelgar Rheinallt ab Gruffydd o'r Tŵr, yn agos i'r Wyddgrug, yn mhlith swyddogion Dafydd yn y gwarchae hwn. Dywedir mai dyma y pryd y cyfansoddwyd yr alaw ardderchog adnabyddus, 'Ymdaith Gwŷr Harlech.' Ni wyddys pa beth a ddaeth o arwr dewrwych Harlech ar ol cael ei ryddhau trwy ffyddlondeb diŵyro Syr Risiart Herbert.

**DAFYDD IONAWR.** Gwel Richards, Dafydd, cyf. ix. tudal. 127.

**DAFYDD OWEN,** neu 'Dafydd y Gareg Wen.' Ganwyd ef yn 1722. Mab ydoedd efe i Owain Wmffre, o'r Gareg Wen, yn mhlwyf Ynys Cynhaiarn, yn sir Gaernarfon. Enw ei fam oedd Gwen Roberts—teulu yr hon oedd yn byw mewn lle o'r enw Isallt. Yr oedd ei theulu yn enwog iawn fel meddygon; ac yr oedd hithau yn feddiannol ar synwyr cryf, yn gantores dda, ac yn farddones led rwydd. Mae'n debyg fod mam Dafydd wedi meithrin tuedd at farddoniaeth yn ei mab pan yn lled ieuangc; ac iddo yntau, mewn canlyniad, ddewis y delyn fel ei offeryn cerdd, pan oedd telyn yn mhob tŷ, a'r werin Gymreig yn gwynfydu yn sain ei hodlau melusion. Yr oedd yn naturiol credu, medd un hanesydd, ei fod yn anghyffredin o fedrus mewn 'tynu mêl o'r tanau mân,' pan oedd 'ei ên mor lyfn a'i law;' o blegid er iddo farw yn 27ain oed, yr oedd ei glod yn y gelfyddyd wedi ymledu yn mhell; ac y mae ei enw a'i enwogrwydd yn anwyl gan ei genedl hyd y dydd hwn. Nid yn unig yr oedd yn enwog fel cerddor, ond priodolir iddo awduriaeth tair, beth bynag, o'n halawon cenedlaethol mwyaf swynol a melus, y rhai sydd mewn bri hyd heddyw; sef 1af, 'Codiad yr Ehedydd.' Dywedir mai dychwelyd yr oedd Dafydd yn lluddedig gyda glasiad y boreu o gynnal noswaith lawen yn Mhlas y Borth, pan yr eisteddodd i ddadflino ar faen mawr a ddangosir hyd y dydd hwn; ac wele 'ddysgawdwr mawl rhwng gwawl a gwyll,' yn codi o i lŵth gweiriog yn ei ymyl, ac yn ehedeg i fyny dan dywallt ei fêl-odlau paradwysol ar bawb a phob peth o'i ddeutu. Ar hyn, dyma'r hugan oddi ar yr hen delyn; ac yn y fan a'r lle, Dafydd a chwareuodd ac a ddododd ar gôf a chadw 'Codiad yr Ehedydd'—un o'r alawon mwyaf dynwaredol a swynol a feddwn fel cenedl. 2il, 'Difyrwch Gwŷr Cricceth.' Cyfansoddwyd hon, meddir, ar gyfer Gŵyl Mabsant Cricceth. Cyfansoddodd Ieuan Glan Geirionydd gân ar gyfer yr alaw—y llinell gyntaf o ba un ydyw, 'Fenyw fwyn, gwrando gŵyn.' 3ydd, Yr alaw sydd yn dwyn ei enw, 'Dafydd y Gareg Wen.' Y mae y traddodiad sydd ynglŷn â chyfansoddiad yr alaw hon yn dra effeithiol. Yr oedd Dafydd ar ei wely angeu, a'i fam, un diwrnod, wrth yr erchwyn yn ei wylio. Syrthiodd y telynor i berlewyg, a thybiai yr hen wraig fod lamp bywyd yn diffodd. Ond yn mhen ysbaid, ymddadebrodd, a gwibiodd ei lygaid synedig o gwmpas yr ystafell hyd oni chyfarfuont â llygaid pryderus ei fam; a dywedodd wrthi iddo fod yn y nefoedd yn gwrando y canu pereiddiaf a glywodd dyn erioed. Dywedodd hefyd ei fod yn cofio y gân a genid; ac os cai fenthyg y delyn, y gallai chwareu arni y dôn a glywodd. Caniatawyd ei gais iddo, a chwareuodd yntau arni 'Dafydd y Gareg Wen,' a chofiodd ei fam yr alaw. Gyda bod yr hen offeryn cerdd yn anadlu ei nodyn diweddaf, ehedodd ysbryd y cerddor ymaith, ac

"Yn sŵn yr hen delyn gogwyddodd ei ben,  
Ac angau rodd fywyd i'r hen Gareg Wen."

Cafodd Syr Walter Scott afael ar y traddodiad hwn, os dylid ei alw yn draddodiad, a chyfansoddodd gân dan y teitl, "*The Dying Bard*," ar yr alaw, 'Dafydd y Gareg Wen.' Ond y mae Syr Walter wedi camgymmeryd lle ei breswylfod. Yn Eifionydd y dylasai fod—ac nid yn Emlyn. Bu Dafydd farw yn 1749, yn 27ain oed; a chladdwyd ef yn mynwent Ynys Cynhaiarn—lle y mae gwyddfa hardd ar ei fedd, a llun telyn yn gerfiedig arni.

**D'ALEMBERT, JEAN LE ROND:** meintonydd, gwyddonydd, a llenor Ffrengig enwog. Ganwyd ef yn Paris, yn 1717. Cafwyd ef yn noeth ar risiau eglwys St. Jean le Rond: dygwyd ef i fyny gan wraig gwydrwr, a darganfyddwyd mai mab anghyfreithlawn ydoedd i'r Chevalier Destouches a Madame de Tencin, gwraig hynod am ei harabedd a'i phrydferthwch, gŵr yr hon oedd yn swyddog cyflegrol. Efe a dderbyniodd

Digitized by Google

ei addysg yn Ngholeg Mazarin. Yna ymroddodd gyda brwdfrydedd i astudio gwyddoniaeth, a derbyniwyd ef i'r athrofa wyddonol yn 1741. Gyda Diderot, efe a sefydlodd yr "*Encyclopædia*" enwog: ysgrifenodd y traethawd rhagarweiniol iddo, a golygodd y rhan wyddonol o'r gwaith. Yr oedd yn gyfaill i Frederick II. o Prwssia; yr hwn, yn aflwyddiannus, a geisiodd ganddo ymsefydlu yn Berlin. Gwasgodd Catherine o Rwssia arno i ymgymmeryd âg addysg ei mab—ond yn ofer. Hoffai neillduaeth ac annibyniaeth, safai draw o gymdeithas, ac nid oedd yn gofalu dim ynghylch arian ac anrhydedd. Ysgrifenodd amryw o lyfrau pwysig ar wahanol byngciau gwyddonol a hanesiol. Bu farw yn 1783. Prif nodweddion ei gymmeriad oedd caredigrwydd, symlrwydd, ac annibyniaeth. Yr argraphiad goreu o'i weithiau athronyddol a llenyddol yw yr un a gyhoeddwyd gan Bastren, yn Paris, yn 1805, mewn deunaw o gyfrolau.

**DAMASCENUS, JOANNES**: mynach dysgedig, yr hwn a anwyd yn Damascus tua 756. Yr oedd ei dad, Sergius, Cristion cyfoethog o Syria, yn gynghorwr i'r caliph; ac wedi ei farw ef, pennodwyd ei fab, Joannes, yn gynghorwr yn ei le. Ei enw Arabaidd ef oedd Mansus. Addysgwyd ef gan fynach Italaidd o'r enw Cormas; yr hwn yr oedd tad Damascenus wedi ei waredu o fysg nifer o garcharorion caethiwedig.

Ysgrifenodd Damascenus amryw draethodau i amddiffyn delw-addoliaeth, yn erbyn y delwdorwyr (*iconoclasts*), y rhai yr oedd yr ymherawdwr Leo yn eu cefnogi. Pan wedd Joannes ddarfod iddo drwy hyny anfoddloni yr ymherawdwr, efe a ymneillduodd i fynachlog a elwir St. Saba, ger llaw Jerusalem, lle yr ymroddodd dros y gweddill o'i oes i ddarllen ac ysgrifenu. Cyfrifir ef yn mysg ysgrifenwyr enwocaf yr eglwys ddwyreiniol yn yr wythfed ganrif. Ei waith penaf yw "*Y Ffydd Uniawngred*," mewn pedwar llyfr; yn yr hwn y mae efe yn profi ei ddaliadau allan o weithiau yr ysgolwyr a'r hen dadau. Cŵyna llawer, a hyny yn gyfiawn, ei fod wedi ymgynghori mwy â llyfrau dynion nag â llyfr Duw. Cyhoeddodd hefyd amryw lythyrau a thraethodau yn erbyn y Manicheaid a'r Nestoriaid. Dywed Dorner am dano mai efe oedd yr awdurdod uchaf yn llenyddiaeth dduwinyddol y Groegiaid.

**DAMCANIAETH** (*Theory*). Arferir y gair hwn, yn y lle cyntaf—yn wrthwyneb i *ffaith*—i arwyddo fod dosbarth o ffeithiau wedi eu cyffredinoli, a'u cyfleu mewn un mynegiad cynnwysfawr. Y mae felly yn cyfatteb i egwyddor, i wirionedd cyffredinol, neu i ddeddf natur. Fod chwysigen hanner llawn o wynt yn ymchwyddo ac yn ymddryllio pan y dalier hi o flaen tân, sydd bwngc o ffaith. Ond pe y dywedir fod cyrph yn gyffredinol yn ymchwyddo gan wrês—damcaniaeth neu egwyddor gyffredinol ydyw hon, sydd yn cynnwys yr holl ddosbarth o ffeithiau. Rhoddi damcaniaeth ffaith, yn yr ystyr yma, yw rhoddi ei deddf gyffredinol. Gelwir hyn hefyd ei heglurhâd hi, ac weithiau ei hachos.

Yn ail, y mae damcaniaeth yn wrthwyneb i *dybiaeth* (*hypothesis*). Gellir gosod ffaith, am ennyd, i orphwys ar egwyddor dybiedig, gan wneyd ymgais yn y cyfamser i symmud pob peth tybiedig, trwy brofi neu wrthbrofi yr egwyddor. Yr oedd pyllau tro (*vortices*) Descartes yn dybiaeth, i roddi cyfrif am symmudiadau y planedau; a thybiaeth hefyd, ar y cyntaf, oedd daliad Newton, mai attyniad oedd yr achos o'r symmudiadau hyn. Gwrthbrofwyd a gadawyd tybiaeth Descartes, ond cadarnhawyd tybiaeth Newton; a phan beidiodd a bod yn dybiaeth, daeth yn ddamcaniaeth.

Yn olaf, y mae damcaniaeth yn wrthwyneb i *ymarferiad*. Damcaniaeth pwngc ydyw y wybodaeth o hono, neu yr eglurhâd arno. Ymarferiad yw y defnydd a wneir o'r pwngc. Damcaniaeth yw anianaeth (*physiology*)—ac ymarferiad yw meddyginiaeth. Gall y wybodaeth a fedd crefftwr, er enghraifft, fod naill ai yn ymarferol a phrofiadol, megys gwybodaeth y morwr am argoelion y tywydd, neu ynte yn ddamcanol—wedi ei chasglu oddi wrth egwyddorion neu ddeddfau cyffredinol, a gadarnhäer mewn modd gwyddorol; megys, pan yr arferir damcaniaeth y gwyntoedd a deddf tymmhestloedd i ragfynegu y tywydd. Dylid bod yn dra gofalus wrth gymmhwyso y fath wybodaeth ddamcanol at y celfyddydau, a materion ymarferol. Nid digon ydyw fod y damcaniaethau wedi eu cadarnhau:—dylid chwilio a chael gwybodaeth am holl amgylchiadau yr achos, fel y galler gwneuthur cyfrif o bob gweithredydd a duedda i gynnyrchu neu i ladd yr effaith.

Dyna y prif ystyron sydd i'r gair Saesneg *theory*. Ond dylem ddywedyd nad yr ystyron hyn yn hollol a roddir i'r gair Cymraeg *damcaniaeth*, fel yr arferir ef yn gyffredin. Ystyr y gair yn ngenau Cymro ydyw, tybiaeth olygus a fyddo yn ffrwyth myfyrdod, yn hytrach nag yn gasgliad oddi wrth ffeithiau sicr a diymwad. Rhywbeth ydyw felly ag sydd yn sicrach na thybiaeth noeth, ac yn ansicrach na gwirionedd amlwg. Pan arwyddocao *theory* rywbeth yn amgen na hyn, gair arall a arferir.

**DAVIES, DAVID DANIEL, M.D.** Meddyg enwog oedd efe; a ganwyd ef yn mhlwyf Llandyfaelog, ger Caerfyrddin. Amaethwr bychan cyfrifol, o'r enw Daniel Davies, yn byw ar ei dir ei hun, oedd ei dad; ac efe oedd yr hynaf o dri o feibion. Wedi derbyn addysg feddygol, ymsefydlodd yn Sheffield; a bu yno am ddeng mlynedd yn un o feddygon clafdy y dref. Dringodd i gryn enwogrwydd fel meddyg, ac ysgrifenodd rai erthyglau galluog ar destynau meddygol i'r *Edinburgh Review*, pan yr oedd y cyhoeddiad hwnw yn anterth ei lwyddiant. Nid anrhydedd bychan iddo oedd hyn. Daeth i enwogrwydd yn Llundain fel meddyg i Ysbytty Bydwreiciol y Frenhines Charlotte; a thraddododd amryw areithiau ar y testyn. Erbyn 1819, yr oedd ei enwogrwydd mor fawr fel y pennodwyd ef yn feddyg i'r Dduces o Kent ar achlysur genedigaeth y frenhines Victoria; ac ar ol hyny anrhydeddwyd ef â chyfeillgarwch y Duc o Kent hyd ei farwolaeth. Yn 1825, etholwyd ef i gadair bydwreiciaeth Coleg Llundain; a phan agorwyd y sefydliad yn Hydref, 1828, efe a ymgymmerodd â'r swydd. Yn y fl. 1836, cyhoeddwyd, mewn dwy gyfrol, ei waith mawr ar 'Fyd-wreiciaeth,' yn cynnwys ffrwyth ei brofiad helaeth, a'i ymchwiliadau manwl i lenyddiaeth y pwngc; ynghyd â disgrifiad o'r offerynau a ddyfeisiodd flynyddoedd cyn hyny. Parhaodd i ymenwogi hyd ei afiechyd diweddaf; yr hwn a gymmerodd le Rhagfyr 4ydd, 1841.

Digitized by Google

**DARWIN, CHARLES ROBERT,** F.R.S. Naturiaethwr enwog, a darganfyddwr y ddeddf o Ddetholiad Naturiol, neu fel y gelwir hi gan y Saeson, *Natural Selection*. Ganwyd ef yn yr Amwythig, Chwefror 12fed, 1809. Mab ydoedd i Dr. Robert W. Darwin; ac yr oedd ei fam yn ferch i'r enwog Josiah Wedgwood—y gwneuthurwr enwog o lestri pridd. Addysgwyd ef yn ysgol yr Amwythig, a phrifysgolion Edinburgh a Chaergrawnt. Ymroddodd gydag egni a dyfal-barhâd i astudio Bywydeg, Llysieuaeth, a Daeareg. Ar y 27ain o Ragfyr, 1831, cafodd ei bennodi fel naturiaethwr ar rhyfel-long y llywodraeth, a elwid *The Beagle;* yr hon oedd yn cychwyn ar ei mordaith ymchwiliadol wyddonol yn Moroedd Deheuol yr America. Dyma ddechreu ei enwogrwydd ef fel naturiaethwr. Dychwelodd i Loegr yn 1836. Yn y cyfamser, talodd ymweliad â llawer o wledydd, a chasglodd doraeth o wybodaeth ar fywydeg a llysieuaeth a ystyrid o'r gwerth mwyaf. Yn 1838, pennodwyd ef yn ysgrifenydd y Gymdeithas Ddaearegol; a'r flwyddyn ddilynol, yn Gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol. Yn 1839, cyhoeddodd ei *Journal of Researches into the Geology and Natural History of the various Countries visited by H.M.S. Beagle.* O 1840 hyd 1843, cymmerwyd ei amser i fyny gyda chyhoeddiad y gwaith a elwir *The Zoology of the Voyage of the Beagle:*—llyfr a ddygwyd allan dan nawdd y llywodraeth, ac i'r hwn yr ysgrifenwyd erthyglau gan rai o brif naturiaethwyr y dydd. Yn 1842, ymddangosodd ei waith ar *The Structure and Distribution of Coral Reefs;* yn 1844, ei *Geological Observations on Volcanic Islands;* ac yn 1846, ei *Geological Observations on South America.* Cododd y gweithiau pwysig hyn ef i'r rhestr flaenaf o wyddonwyr ei oes.

Yn mhen tair blynedd ar ol ei briodas, yn 1839, ymsefydlodd yn Down—lle prydferth yn swydd Caint; ac yma, bellach, y treuliodd ei amser i astudio, ac i ysgrifenu ar byngciau gwyddonol. Yn mis Tachwedd, 1859, ymddangosodd ei lyfr enwog ar *The Origin of Species by means of Natural Selection*, yn yr hwn y ceir ei olygiadau ar yr athrawiaeth fawr sydd yn anwahanol gyssylltiedig â'i enw. Crëodd ymddangosiad y llyfr hwn gyffro anghyffredin yn mysg gwyddonwyr. Ysgrifenodd lawer o weithiau llafurfawr eraill ar Lysieuaeth:—yr hwn oedd yn hoff bwngc ganddo. Un arall o'i weithiau pwysicaf ydyw *The Descent of Man*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1871.

Bu farw yn annisgwyliadwy Ebrill 19eg, 1882, a chafodd ei weddillion eu claddu gydag arwyddion o barch yn Mynachlog Westminster.

DARWINIAETH.—Y mae Darwiniaeth, fel damcaniaeth, yn golygu fod y grëadigaeth fywydol yn un, a'i holl ranau yn dal perthynas â'u gilydd. Cnewyllyn y ddamcaniaeth hon ydyw dechreuad rhywogaethau. Dywed Darwin fod y rhan fwyaf o naturiaethwyr, hyd yn ddiweddar, yn credu fod rhywogaethau gwahanol greaduriaid yn gynnyrchion anghyfnewidiol, ac wedi eu creu ar wahân i'w gilydd.

Y cyntaf i geisio profi yn wahanol mewn dull gwyddonol oedd Buffon; ond nid oedd efe yn sefydlog yn ei farn. Ond Lamarck oedd y cyntaf i dynu sylw neillduol at hyn. Cyhoeddodd ei olygiadau yn gyntaf yn y flwyddyn 1801. Dysgai fod un dosbarth o rywogaethau wedi disgyn o ddosbarth arall. Awgrymai fod pob cyfnewidiad yn y byd materol a'r byd bywydol i'w priodoli i weithrediad deddfau, ac nid i gyfryngiad goruwchnaturiol.—*Origin of Species*, td. 13, 14.



Ond i Charles Darwin ei hun y perthyn y clod am ddamcaniaeth Ymddadblygiad *(Evolution);* o blegid nad oedd neb, o'i flaen ef, wedi ymaflyd yn y cwestiwn o ddifrif, ei ddeall i'r fath raddau, nac wedi edrych ar y ddwy deyrnas fywydol, sef y lysieuol a'r anifeilaidd, fel un gyfundrefn fawr. Dylem grybwyll, hefyd, yr edrychir ar Alfred Russell Wallace fel cydddarganfyddwr â Darwin; am fod y ddau wedi meddwl am yr un ddamcaniaeth yn gyfamserol, heb fod y naill yn gwybod dim am y llall. Ond yr oedd Charles Darwin yn meddu ar fwy o athrylith na'i gyd-ddarganfyddwr, ac wedi ystyried y pwngc yn fwy trylwyr; a hyny am tuag ugain mlynedd.

Nid gormod ydyw dywedyd fod ei waith yn cyhoeddi ei lyfr ar *Ddechreuad Rhywogaethau (The Origin of Species)* wedi peri cyffro trwy yr holl fyd gwareiddiedig. Ar ol hyn, efe a gyhoeddodd ei lyfr ar *Ddisgyniad Dyn (The Descent of Man);* yn yr hwn yr eglurodd efe y ddamcaniaeth yn helaethach. Fe gyhoeddodd Darwin amryw lyfrau eraill; ond y mae sylwedd ei ddysgeidiaeth yn y ddau lyfr a nodwyd ar Ddarwiniaeth.

Damcaniaeth Darwin, yn fyr, ydyw hyn:—fod y deyrnas anifeilaidd wedi ymddadblygu o bedwar neu bump, y fan bellaf, o'r ffurfiau isaf o fywyd; megys, y penbwl *(tadpole);* a bod y deyrnas lysieuol, yr un modd hefyd, wedi ymddadblygu o nifer gyffelyb, neu lai, o hadau. Ac awgryma, yn mhellach, y possiblrwydd fod y ddwy deyrnas wedi dechreu mewn un ffurf isel o fywyd. Yr hen ddamcaniaeth a ddysgai fod y rhywogaethau yn greadigaethau gwahanol ac anghyfnewidiol. Pa bryd bynag y gwnai rhywogaeth newydd ymddangos ar wyneb y ddaear, priodolid hyny i weithred greadigol neillduol; yr hon y gellid ei galw yn 'wyrth.' Y fath wahaniaeth sydd rhwng y ddwy ddamcaniaeth! Yn ol yr hen ddamcaniaeth, ni ddaeth un rywogaeth i fod ar y dechreu, neu mewn unrhyw gyfnod yn hanes y byd ar ol hyny, ond trwy weithred neillduol o eiddo Duw. Nid felly, meddai Darwin:—o blegid y mae y grëadigaeth fywydol, yn ei holl amrywiaeth, wedi ymddadblygu o un ffurf isel o fywyd; a hyny trwy ddeddf neu ddeddfau rheolaidd, o'r dechreuad. Pe y cymmerid yn ganiataol fod y ddamcaniaeth hon yn wir, er mwyn ei hegluro, dylid gofyn, Pa fodd y cymmerodd hyn oll le, a thrwy ba ddeddf? Dichon nas gellir egluro y mater yn well na thrwy roddi y rhydd gyfieithiad canlynol o waith Darwin ei hun:—

'Y deddfau hyn, a'u cymmeryd yn eu hystyr ëangaf, ydynt dyfiant gydag adgynnyrchiad; etifeddiaeth, yr hyn sydd bron a bod yn oblygedig mewn adgynnyrchiad; amrywiaethiad trwy weithrediad uniongyrchol ac anuniongyrchol ammodau bywyd, a thrwy ddefnydd a diddefnydd—graddau y cynnydd mor uchel fel y mae yn arwain i ymdrech am fywyd; ac mewn canlyniad, i ddetholiad naturiol—y mae yn sicrhau gwahaniaethiad mewn cymmeriad a difodiant ffurfiau llai gwelliantol. Fel hyn, trwy y rhyfel a ddygir mewn natur, trwy newyn a marwolaeth, y mae y peth mwyaf dyrchafedig y gallwn feddwl am dano yn canlyn yn union-

gyrchol; sef, y dygiad i fod o'r anifeiliaid uchaf. Y mae ardderchawgrwydd yn y golwg hwn ar fywyd, gyda'i amrywiol alluoedd; sef, ei fod wedi ei anadlu ar y cyntaf gan y Creawdwr mewn nifer bychan o ffurfiau, neu mewn un ffurf yn unig. A thra yr oedd y blaned hon yn myned rhagddi, gan gylchdroi yn ol deddf sefydlog attyniad, yr oedd ffurfiau eraill dirif o'r fath fwyaf prydferth a rhyfeddol, o ddechreuad mor syml, yn cael eu dwyn i fod trwy ymddadblygiad.'—*Origin of Species*, td. 429.

I. *Deddf fawr y ddamcaniaeth ydyw Dewisiad Naturiol, neu Oroesiad y Cyfaddasaf.*

Eiddo Darwin yw y term cyntaf—'Dewisiad Naturiol;' ac eiddo Herbert Spencer yw y term olaf; sef, 'Goresgyniad y Cyfaddasaf' (*The Survival of the Fittest*).

Yn ol gorchymyn Creawdwr, mae'r holl lysiau i hadu hâd, a phrenau ffrwythlawn i ddwyn ffrwyth wrth eu rhywogaeth, trwy yr holl deyrnas lysieuol. Yr un modd y mae y deyrnas anifeilaidd—pysgod y môr, ymlusgiaid y ddaear, anifeiliaid y maes, ac ehediaid yr awyr—wedi 'derbyn gorchymyn i ffrwytho, ac amlhau, a llanw y ddaear a'r moroedd.' Gan na fedr y ddaear ond cynnal rhan fechan o'r llysiau a'r creaduriaid a adgynnyrchir o dymmor i dymmor, ac o flwyddyn i flwyddyn, penderfynir pa rai o honynt sydd i gael eu difa, a pha rai sydd i barhau i ddwyn hiliogaeth, gan egwyddor 'dewisiad naturiol,' neu 'oroesiad y cyfaddasaf.' Cadernid y ddamcaniaeth hon ydyw, ei bod yn seiliedig ar ffeithiau anwadadwy.

Ymaflodd Mr. Darwin yn ei waith mewn dull gwyddonol. Ei orchwyl cyntaf ydoedd casglu ffeithiau, ac yna tynu casgliadau oddi wrthynt, a ffurfio damcaniaeth i geisio rhoddi cyfrif am y ffeithiau. Dyma yw cadernid gwyddoniaeth (*science*). Gweled yr afal yn syrthio ddeffrodd feddwl Newton i ddarganfod deddf attyniad. Edrych ar y creigiau yn cael eu ffurfio yn araf o laid yr afonydd a barodd i'r daearegwr dynu y casgliad fod holl greigiau y ddaear wedi eu ffurfio yn gyffelyb; ac os felly, fod eisieu can miliwn (100,000,000) o flynyddoedd, o leiaf, i roddi cyfrif am ffurfiad y creigiau. Ac felly Darwin:—craffai ar weithrediadau bywyd yn y ddwy deyrnas, fel y gwelir hwynt heddyw ar y ddaear; a pha beth a welir? Y mae'r llysiau yn hadu hâd wrth eu rhywogaeth:—ac y mae yr anifeiliaid yn eppilio yn ol eu rhywogaeth. Dyna y ddeddf—tebyg yn cynnyrchu ei debyg—trwy yr holl ddaear. Hon yw y ddeddf sydd wedi bod yn gweithredu o'r dechreuad. Ond ynglŷn â'r ddeddf hon y mae deddf arall; sef, Deddf Amrywiaethiad (*The Law of Variation*). Nid oes dau oen, na dau laswelltyn, na dau bren, na dau wyneb, yr un fath ar wyneb y ddaear. Y mae y ddeddf hon ar unwaith yn rhoddi lle i ddewisiad. Dewisa y ffermwr yr hadau goreu i'w hau yn y meusydd, a'r lloi, a'r ebolion, a'r ŵyn goreu i gadw stoc dda ar y fferm. Gwna y gwinllanydd, y garddwr, a phawb sydd yn trin tir, yr un fath; neu, o leiaf, hwy a ddylent wneuthur felly. Hyd y byddo modd, cedwir y goreuon o hyd; a'r canlyniad o hyn yw, fod cynnydd a gwelliant yn dilyn. Nid yw y ffermwr, wrth wneuthur felly, yn gwneyd dim ond dilyn deddf sydd eisoes yn gweithredu mewn natur.

Y mae yn wir fod y cynnydd yn annhraethol gyflymach trwy wasanaeth dyn, na phan y mae natur yn gweithredu o honi ei hun; o blegid y mae dyn, wrth ei gymmharu ef â'r greadigaeth îs-law iddo, yn oruwch-naturiol! Ond yr un ydyw y ddeddf, er hyny. Gall dyn beri 'i'r anialwch flodeuo fel rhosyn, a'r diffaethwch fel gardd yr Arglwydd,' a hyny mewn byr amser. Ac, o'r ochr arall, trwy esgeulusdra a diofalwch dyn, fe ä y gerddi mwyaf paradwysaidd yn ol yn anialwch diffaeth. Dyn ydyw arglwydd y ddaear, a choron gwaith y creu; ac os na bydd efe yn llanw ei le, effeithia ei gwymp ar yr holl deyrnas. Y mae y greadigaeth 'wedi ei darostwng i oferedd—nid o'i bodd, eithr o blegid yr hwn a'i darostyngodd.' Os hon ydyw deddf y greadigaeth fywydol—sef, detholiad naturiol—rhaid iddi gael amser maith iawn i wneyd ei gwaith. Nid yw saith neu wyth mil o flynyddoedd ond megys saith neu wyth o ddyddiau yn ei hanes. Dywed Darwin fod y ddamcaniaeth yn ammhossibl, yn ol yr amser byr o gyfrif am oed y byd. Rhaid golygu, gan hyny, fod y dyddiau yn Genesis yn sefyll am gyfnodau, er mwyn i'r ddeddf gael digon o amser i wneyd ei gwaith. Ond ar wahân i Ddarwiniaeth, rhaid i ni gredu fod y ddaear yn hen iawn—yn ol tystiolaeth ddiymwad daeareg. Oddi wrth yr egwyddorion a nodwyd eisoes, a thrwy gymmeryd yr amser maith i ddynodi oes y ddaear, y casgliad y daeth Darwin iddo yw—fod natur, trwy ddifa y gwael a dewis y gwych, trwy gymmeryd mantais ar y duedd i amrywio i ddewis y goreu—fod yr amrywiaethau (*varieties*) hyn, yn mhen amser maith, yn myned yn rhywogaethau (*species*) gwahanol. Hyn, fel y sylwasom eisoes, yw cnewyllyn yr holl gyfundrefn hon.

II. *Yr Organydd, a'i Amgylchfyd* (*The Organism, and its Environment*).—Rhaid cymmeryd yr organydd a'i amgylchfyd i ystyriaeth cyn y gellir esbonio cynnydd a dadblygiad bywyd. Dau gwestiwn sydd yn rhaid i bawb sydd yn trin y tir, a phawb sydd yn magu anifeiliaid, eu hystyried yw y rhai hyn. I ddechreu, rhaid cael hâd da; ac wedi hyn, rhaid hau yr hâd hwnw mewn tir wedi ei wrteithio yn dda; ac y mae'n rhaid i'r hâd, a'r tir, a'r hinsawdd, fod yn cyfatteb i'w gilydd. Ar yr organydd y rhoddai Darwin y pwys mwyaf; ond tybia rhai naturiaethwyr enwog nad oedd Darwin wedi talu digon o sylw, nac wedi rhoddi digon o le, i'w amgylchfyd. A'r mewnol y mae a wnelo 'dewisiad naturiol' yn benaf. Dyma ddarnodiad y Proffeswr Lè Conte o egwyddor Ymddadblygiad:—'Cyfnewidiad cynnyddol parhaus ydyw, yn ol deddfau neillduol, trwy gyfrwng galluoedd trigiedig.' Gellir edrych ar ddadblygiad y cyw o'r ŵy fel enghraifft i egluro yr egwyddor, yn ol y darnodiad uchod. Cymmer y dadblygiad le trwy ddeddfau rheolaidd bywyd—trwy y gallu neu yr yni sydd yn trigo yn y gronynau a gyfansoddant y *protoplasm* (sylfaen bywyd) fel y gelwir ef ganddo, yn yr ŵy. Neu, yn ol enghraifft arall yn y bywyd llysieuol, yr ydym yn cael 'yn gyntaf yr eginyn, wedi hyny y dywysen, yna yr ŷd yn llawn yn y dywysen.' Ond wedi i'r cyw ymddadblygu o'r ŵy, rhaid ystyried ei fagwraeth; a'r byd y bydd efe yn byw ynddo. Y mae'n wir fod yr hâd yn dwyn ffrwyth yn ol ei rywogaeth; ond dibyna ansawdd y cynhauaf lawer ar y tir, y tywydd, a'r hinsawdd. Mewn gair, y mae'n rhaid cymmeryd yr allanol a'r mewnol i ystyriaeth, er mwyn cyfrif yn llawn am ddadblygiad bywyd.

III. *Cynnydd parhaus bywyd ar y ddaear.*—Y mae Darwiniaeth yn golygu, nid yn unig fod

Digitized by Google

yr holl greaduriaid, a'r holl lysiau, sydd yn y greadigaeth, wedi dadblygu o un neu ychydig o ffurfiau neu gynffurfiau, o ran amrywiaeth a lliosawgrwydd; ond fod bywyd ar y ddaear yn codi yn uwch o oes i oes, ac o gyfnod i gyfnod. Y ffurf isaf o fywyd a geir gyntaf, a'r ffurfiau uchaf o fywyd a geir yn olaf; a choron y cyfan yw dyn! Trwy fod natur yn dewis yr addasaf, ac mewn ystyr, fel rheol, y goreu, y canlyniad yw fod bywyd yn ymgodi i dir uwch. Ond nid ydyw y dadblygiad yn gysson, yn barhaus, nac yn ddifwlch. Ceir yn fynych hefyd ddirywiad. Gellir gweled yr egwyddor yn gweithredu yn hanes cenhedloedd. Dadblygodd y Groegiaid mewn gwybodaeth a chelfyddyd am oesau—nes o'r diwedd i ddosbarth o athronwyr gael eu magu yn Groeg na welodd y byd, hyd yn hyn, mo'u rhagorach. Yna, daeth dirywiad i mewn —am y rheswm, yn ol barn dysgedigion, nad oedd y cynnydd mewn rhinwedd a moesoldeb yn gyfartal i'r cynnydd oedd yno mewn gwybodaeth. Mewn gwleidyddiaeth, dadblygodd Rhufain am oesau, nes y teimla teyrnasoedd y byd yn ddyledus i'w gwladweinwyr enwog. Ond y mae dirywiad a chwymp Rhufain mor hynod ag y bu ei chynnydd a'i dadblygiad—am fod cyflwr moesol y trigolion yn waradwyddus yn nghanol y llwyddiant tymmhorol. Hyn, hefyd, yw hanes y greadigaeth is-law i ddyn. Wrth edrych ar y cwestiwn o'r dechreu i'r diwedd, neu ar hanes bywyd ar y ddaear o'r dechreuad, nid oes dim i'w weled yn fwy amlwg nag ymddadblygiad. Ond wrth ystyried y cwestiwn yn fanwl a gofalus, ceir fod dirywiad yn gystal a chynnydd, marwolaeth yn gystal a bywyd, yn ffeithiau pwysig yn hanes bywyd. Y mae yn ammhossibl olrhain yr holl achosion o hyn; ond fel yn hanes cenhedloedd, y mae i'w briodoli i ryw ddiffyg yn yr organydd, neu ynte yn ei amgylchfyd. Y mae iechyd a bywyd yn dermau cymmharol. Nid oes un dyn hollol iach mewn bod—ond pa bryd y dechreua marwolaeth weithio yn y cyfansoddiad? Pe y ceid organydd perffaith, ac amgylchfyd perffaith hefyd yn cyfatteb yn hollol i'r organydd, bywyd tragwyddol fyddai y canlyniad, medd Herbert Spencer. Ni cheir mo hyny byth ar y ddaear. Ond y mae yma raddau o berffeithrwydd.

Yn mhlith pethau eraill a enwir gan Darwin fel achosion o ddirywiad, ceir diffyg defnydd o ermigau neu synwyrau. Fel rheol, y mae y fraich ddeheu yn gryfach na'r fraich aswy, am fod mwy o ddefnydd yn cael ei wneyd o honi. Un rheswm paham y mae rhai dynion yn fwy gwybodus a diwylliedig nag eraill yw, am eu bod wedi cael gwell addysg; *h.y.*, am eu bod wedi gwneyd mwy o ddefnydd o'r meddwl. Y mae y llygad yn gweled yn well, a'r glust yn clywed yn well, drwy eu bod yn cael eu defnyddio. Llygaid bychain gwael sydd gan dwrch daear, am nad oes ganddo nemawr o wasanaeth iddynt. Y mae y pysgod sydd yn byw mewn ogofeydd tywyll yn colli eu gallu i weled, am nad oes wasanaeth i'w llygaid yn y tywyllwch.

Wrth gymmeryd golwg ëang ar y pwngc, rhaid cymmeryd dosbarthiad *daearegol* a *daearyddol* bywyd i ystyriaeth. Mae olrhain hanes bywyd yn Ddaearegol yn anhawdd ac yn ddyrys; o blegid mai ychydig, mewn cymmhariaeth, y mae creigiau y ddaear wedi eu dadguddio o'u cyfrinach hyd yn hyn. Y mae'n eglur fod yna gyfnodau, megys Cyfnod yr Iâ (*Glacial Period*), &c., wedi bod. Ar adegau felly, diflanodd rhai rhywogaethau yn llwyr; ac wedi i rywogaeth ddarfod, nid ydyw byth yn cael adgyfodiad.

Yr adeg yr oedd y rhedyn a'r llysiau yn tyfu, y rhai a ffurfiasant y gwythïenau glô sydd yn nghrombil y ddaear, yr hwn sydd o gymmaint o wasanaeth i ddyn yn awr, nis gallai dynion fyw y pryd hwnw arni. Yr oedd awyrgylch y ddaear yn afiach a gwenwynllyd i'r rhywogaeth ddynol. Y mae dadblygiad y ddaear, a dadblygiad bywyd ar y ddaear, yn rhwym o gyfatteb i'w gilydd. Felly, os byddai yr hinsawdd yn llai manteisiol, nis gallai bywyd o ffurf uchel ffynu. Y mae hyn yn ffaith am ranau o'r ddaear hyd yn awr. Ac o herwydd hyn, y mae bywyd o radd isel yn ffynu mewn rhai parthau, tra y mae bywyd o radd uwch wedi cilio yn ol, neu ddarfod. Ac os daw y ddaear yn baradwys fel gardd yr Arglwydd, a'i gwyneb hi fel gwyneb y nef, bydd hyny yn brawf fod trigolion y ddaear wedi eu gwneyd, trwy yr efengyl, yn ddynion da.

Y mae y dosbarthiad Daearyddol yn egluro yr un egwyddor. Os ydyw Darwiniaeth yn wir, pa fodd yr aeth yr hadau o'r naill ynys i'r llall, ac o'r naill gyfandir i'r llall? Pa fodd y croesodd yr anifeiliaid y moroedd? Y mae'n hysbys fod brodorion yn yr America cyn ei darganfod gan Columbus; ac nid gwaith hawdd ydyw penderfynu heddyw pa fodd yr aethant hwy yno. Ond y mae y cwestiynau sydd yn naturiol yn codi o Ddarwiniaeth yn llawer mwy anhawdd i'w hatteb. Pa fodd y gwisgwyd yr holl ddaear â llysiau o bob math—o un, neu ychydig, o hadau? Pa fodd y poblogwyd yr holl fyd â chreaduriaid o un penbwlyn? Er hyny, nid yw eu hatteb yn ammhossibl. Y mae Darwin wedi profi fod yr adar yn gallu cario hadau o'r naill ynys i'r llall, ac o'r naill wlad i'r llall, a thrwy hyny yn hau meusydd, ac yn planu coedwigoedd. Ond pa le bynag y ceir bywyd, bydded ef lysieuol neu anifeilaidd, rhaid i ddeddf cyfaddasiad (*the law of adaptation*) gael ei chydnabod.

IV. *Rhai o anhawsderau Darwiniaeth.*—Un o anhawsderau penaf y ddamcaniaeth hon yw, fod rhywogaethau, wrth eu croesi, yn myned yn ddi-eppil. Yr ydym yn gweled fod mulod (*mules*) yn ddi-eppil. Ond cyfaddefir yn awr nad ydyw hyn yn rheol ddïeithriad. Dywedir fod, mewn rhai rhanau, ddefaid a geifr, er eu croesi, yn eppilio. Mae llysiau hefyd yn hadu had, ac yn dwyn ffrwyth, er eu croesi, o dan ammodau neillduol. Ond y mae Parhâd Ffurf (*the Persistence of Type*) yn amlwg drwy holl anian. Oni bae am hyn, byddai natur yn un gymmysgfa. Ond y mae parhâd yr un ffurfiau o fywyd, fel y ceffylau a'r defaid, a hyny am filoedd o flynyddoedd, yn ffaith anwadadwy.

Y mae y dolenau colledig (*the missing links*), sef y dolenau sydd yn dangos fod y naill ddosbarth o greaduriaid wedi tarddu o ddosbarth îs, hefyd, yn peri blinder nid bychan i naturiaethwyr. Teimlir yr anhawsder hwn pan y ceisir cymmhwyso y ddamcaniaeth at fodolaeth dyn. Dywedir mai yr eppäod; sef, yr *orang-outan*, y *chimpanzee*, a'r *baboon*, ydyw y rhywogaeth agosaf at ddyn o'r rhai sydd yn fyw ar y ddaear yn awr. Ni ddywedir fod dynion wedi dadblygu o'r eppäod; ond fod dynion ac eppäod wedi ymddadblygu o hynafiaid oedd yn byw mewn coed mewn cyfnod boreuol yn hanes y byd, y rhai oeddynt yn wahanol i ddynion ac eppäod. Ond nid oes olion o honynt hwy, na

Digitized by Google

neb o'u hiliogaeth am oesau lawer, wedi eu darganfod. Y mae yr olion hynaf a geir o fodau dynol yn dangos eu bod wedi dadblygu mewn ystyr feddyliol lawn cymmaint a llawer o'r llwythau sydd yn awr yn trigo ar y ddaear. Rhaid dyfod o hyd i'r dolenau colledig hyn cyn y gall y ddamcaniaeth roddi cyfrif am fodolaeth dyn—hyd yn oed mewn ystyr naturiol.

V. *Ar ba delerau y gellir derbyn Darwiniaeth.*—Fel tybiaeth weithiol (*working hypothesis*) yr edrychir gan lawer o ddynion dysgedig ar Ddarwiniaeth yn awr, er fod y naturiaethwyr a'r gwyddonwyr yn credu yn y ddamcaniaeth. Addefir yn lled gyffredinol fod gwirionedd yn y ddamcaniaeth; ond pa mor bell y llwydda i esbonio cynllun Duw o weithredu yn y greadigaeth fywydol, sydd bwngc y ceir llawer iawn o amrywiaeth barn yn ei gylch.

Nid ydyw Darwiniaeth, fel y cyfryw, yn cynnyg rhoi cyfrif am y byd materol. Mae'n wir fod Herbert Spencer yn olrhain yr egwyddor i holl elfenau y byd materol; ond â'r byd bywydol yn unig yr oedd a wnelai Darwin. Damcaniaeth yr 'Hylif Niwliog' (*The Nebular Theory*) ydyw yr un y credir ynddi gan wyddonwyr. Yr Hylif Niwliog ydyw y ffurf cyntaf a mwyaf syml ar fater y gwyddant hwy am dani. Ond o ba le y daeth y gronynau hyny o fater?—a phwy a roddodd fodolaeth iddynt? Nid oes ond un llyfr a fedr atteb y cwestiwn hwn; sef, y Beibl!—'Yn y dechreuad y crëodd Duw y nefoedd a'r ddaear!' Nid ydyw Darwiniaeth yn gallu rhoddi cyfrif am ddechreuad bywyd, hyd yn oed yn ei ffurf mwyaf syml. O ba le y daeth yr hedyn cyntaf—o'r hwn, fel y dywedant, y dadblygwyd y deyrnas lysieuol? O fater difywyd, medd rhai. Ond dychymyg gwâg yw hwn. Y mae y dybiaeth am hunan-genhedliad (*spontaneous generation*) yn hollol ddisail, yn ol credo gwyddonwyr mwyaf yr oes. Ni cheisiodd Darwin ei hun roddi cyfrif am ddechreuad bywyd. Ei bwngc ef oedd ceisio rhoddi cyfrif am fywyd wedi iddo ddechreu. Y mae llawer o wyddonwyr wedi ceisio esbonio ymddadblygiad mater bywydol allan o fater difywyd—ond yn hollol aflwyddiannus.

Yn mhellach, nid ydyw Darwiniaeth yn gallu esbonio dechreuad bywyd y creadur symmudol ac ymwybodol direswm. Addefir fod pellder mawr rhwng y deyrnas lysieuol ac anifeilaidd; ond nis gall Darwiniaeth 'bontio' y gagendor sydd rhyngddynt. Ac yn olaf, nis gall Darwiniaeth roddi cyfrif am fodolaeth dyn, fel ysbryd anfarwol. Yr oedd Darwin yn cymmhwyso ei ddamcaniaeth at ddyn yn yr oll ag ydyw; ond credwn fod Wallace wedi profi, tu hwnt i bob ammheuaeth, nas gall y ddamcaniaeth hon roddi unrhyw gyfrif am ddyn fel bod moesol, meddyliol, ac ysbrydol. O fewn y terfynau a nodwyd, os profir fod Darwiniaeth yn wir, ni raid i hyny beri braw i neb. Gan hyny, os ydyw Darwin wedi profi mai 'dadblygiad' ydyw cynllun Duw o weithredu mewn natur, a bod y naill ddosbarth o rywogaethau wedi ymddadblygu o'r llall—ac nid fod pob rhywogaeth yn greadigaeth wyrthiol ar ei phen ei hun; etto, nid yw efe wedi gwneyd i ffwrdd â'r gwyrthiol a'r goruwchnaturiol. Rhaid cael Duw i greu y byd materol! Rhaid cael Duw i greu bywyd ar y ddaear—hyd yn oed yn ei ffurf iselaf! Ac y mae'n rhaid cael Duw i greu dyn ar ei lun a'i ddelw, fel bod moesol ac ysbrydol! Os ydyw y ddamcaniaeth Ddarwinaidd, mewn dull o siarad, wedi diddymu y gwyrthiau bychain, mae'r gwyrthiau mawrion y soniwyd am danynt yn aros heb eu symmud.

VI. *Dylanwad Darwiniaeth ar addysgiaeth yr oes.*—Yr ydym yn credu nad oes un ddamcaniaeth wedi cario cymmaint o ddylanwad ar ddysgawdwyr ac addysg yr oes a'r ddamcaniaeth hon o eiddo Darwin. Ar y cyntaf, teimlid y gwrthwynebiad cryfaf iddi gan naturiaethwyr, yn gystal a chan athronwyr a duwinyddion. Yr oedd gan y duwinyddion wrthwynebiad pendant iddi, am y credent fod yn ammhossibl i Darwin a Moses fod yn gysson â'u gilydd. Erbyn hyn, y mae y gwyddonwyr a'r athronwyr yn mron a bod yn unfryd-unfarn am Ddarwiniaeth; ac y mae llawer o'r duwinyddion dysgedicaf yn credu fod gwirionedd yn y ddamcaniaeth. Ond nis gallant ei derbyn ond ar ammodau neillduol, fel y dangoswyd eisoes. Mewn ystyr manwl, y mae Darwiniaeth yn gyfyngedig i'r ddwy deyrnas fywydol; ond dilynir yr egwyddor i bob cyfeiriad gan ddysgawdwyr o bob math. Pa gangen bynag fydd cylch efrydiaeth y gwyddonwyr — pa un ai seryddiaeth, daeareg, fferylliaeth, neu fywydeg—egwyddor ymddadblygiad a welir ganddynt yn mhob man. Ac am yr athronydd, y mae y ddysg newydd hon wrth fodd ei galon.

Y mae dwy ysgol o athronwyr yn y wlad hon—y naill yn cael ei chynnrychioli gan Mr. Herbert Spencer, a'r llall gan y Proffeswr Ed. Caird—dwy ysgol wahanol i'w gilydd: ond nid oes dim yn amlycach yn y naill a'r llall nag ymddadblygiad. Dichon nad oes neb yn fyw wedi astudio y ddamcaniaeth mor drwyadl, ac wedi ei deall mor dda, a Mr. Herbert Spencer. Y mae efe yn edrych arni fel yn uno yr holl wyddorau â'u gilydd. Nid oes dim yn boddloni cywreinrwydd yr athronwyr yn well nag undod a chydgordiad holl ddeddfau anian. Y mae Mr. Spencer, nid yn unig yn olrhain yr egwyddor trwy holl elfenau a deddfau y byd a'r bydoedd materol, gan gynnwys o fewn cylch ei gweithrediadau yr holl fydoedd sydd yn crogi yn y ffurfafen uwch ben, a'r holl filoedd o fân ronynau (*atoms*) sydd yn cyfansoddi dyferyn o ddwfr; ond y mae efe yn eu dilyn yn ol ar hyd yr oesoedd diderfyn at yr 'hylif niwliog' y tybia efe oedd yn bodoli yn y dechreuad. Ac y mae efe yn dilyn yr egwyddor, hefyd, ar i fyny—heibio i'r natur lysieuol, a heibio i'r natur anifeilaidd—at ddynion, o bob llwyth, iaith, a chenedl, yn mhob oes o'r byd. Pe y personolid yr egwyddor, byddai efe yn barod i ddyweyd ei bod yn hollbresennol, yn hollwybodol, ac yn hollalluog—yn gweithredu yn ddïorphwys, nos a dydd, ar hyd holl ysbaid ëangfaith y crëad.

Yn ol Mr. Spencer, y mae dadblygiad yn eglur, hefyd, yn iaith pob cenedl. Ar y dechreu, ni feddai cenedloedd mewn sefyllfa anwaraidd ond ychydig enwau a phrif eiriau—ac o ychydig wraidd-eiriau y mae yr ieithoedd mwyaf cyfoethog a fedd y byd heddyw wedi ymddadblygu. Yr un modd hefyd y golyga efe am gymdeithas. Ychydig o arferion syml ac isel oedd gan y bobl ar y dechreu; ond ymddadblygodd y cenedloedd gwareiddiedig yn raddol: ac er pob dirywiad, aeth teyrnasoedd penaf y byd rhagddynt, o oes i oes, yn eu deddfau lliosog a chyflawn—yn eu harferion amrywiol—yn eu masnach ëang—ac mewn manteision addysgawl a chrefyddol, nes y maent fel y gwelir hwynt heddyw. Gwel YMDDADBLYGIAD, &c.

Digitized by Google

DANTE, ALIGHIERI: bardd mawr Italy, a anwyd yn Florence yn Mai, 1265. Yr oedd efe yn hanu o deulu pendefigaidd. Dangosodd yn foreu duedd gref at ddysgeidiaeth, a dywedir ei fod wedi astudio yn mhrif ysgolion Bologna a Phadua. Tybir hefyd ei fod wedi ymweled â Pharis, ac hwyrach â Rhydychain. Pan nad oedd ond o ddeutu deng mlwydd oed, y gwelodd gyntaf, yn nhŷ ei thad, Folco Portinari, y ferch Beatrice, prydferthwch yr hon a gynnyrchodd ynddo nwyd o gariad edmygol, yr hon a ddaeth yn un o'r elfenau cryfaf yn ei fywyd mewnol, ac yn wreiddyn neu ffynnonell rhai o'r drychfeddyliau mwyaf arddunol yn ei bryddest fawr. Bu Beatrice farw yn 1290; ac yna hi a ddaeth iddo ef yn ddelw berffeithiedig o ddoethineb a phurdeb. Yn y flwyddyn 1292, ar ol ei marwolaeth, efe a briododd Gemma de' Donati—teulu yr hon oedd yn perthyn i blaid y Ghibeliniaid, a'r hon a wnaeth ei fywyd yn faich iddo drwy ei thymmer ddrwg. Gwasanaethodd Dante yn myddin Florence yn mrwydr Campaldino; ac yn fuan ar ol hyny yn y rhyfel â'r Pisaniaid. Yn 1300, dewiswyd ef yn brif ynad Florence; ac o'r adeg hono, dechreuodd ei anffodion a'i grwydriadau. Yna ymranodd y Guelphiaid yn ddwy blaid, a adnabyddir fel y Bianchiaid a'r Neriaid; a chan y drwgdybid Dante o fod yn ffafriol i'r Bianchiaid, dedfrydwyd ef i gael ei alltudio, ac attafaelwyd ei etifeddiaethau. Yr oedd efe y pryd hwnw yn Rhufain; ac o hyny allan, bu raid iddo gymmeryd noddfa mewn amrywiol lysoedd oedd yn ffafriol i'r blaid Ghibelinaidd —â'r hon yr ymunodd efe. Yn 1304, gwnaeth, gydag alltudion eraill, ymgais aflwyddiannus i fyned i mewn i Florence trwy rym arfau. Ar ol llawer o grwydriadau, cafodd noddfa yn Ravenna, gyda Guido Novello da Polenta; ac yno y bu farw, yn 1321. Y pryd hwnw, teimlai a galarai Florence, a holl Italy, o herwydd eu colled fawr. Adeiladwyd cofadail arddderchog iddo yn Ravenna—lliosogwyd copïau o'i weithiau, a sefydlwyd proffeswriaethau i'w hegluro—ac ysgrifenwyd cyfrolau o esboniadau arnynt. Gwnaeth y Florentiaid ymgais i gael adferiad o weddillion eu bardd alltudiedig—ond yn ofer. Symmudwyd ei esgyrn gan y Tad Antonio Santi, canghellydd y Franciscciaid, yn 1677, pan yr adgyweiriwyd ei gofadail gan y Cardinal Corsi. Ail ddarganfyddwyd yr arch yn 1865. Anrhydeddwyd y darganfyddiad trwy gynnal gwledd gyhoeddus, Gorph. 8fed; a bu ei gorph, wedi ei osod mewn arch o wydr, yn gorwedd mewn lle cyhoeddus am amryw ddyddiau. Gelwir pryddest fawr Dante yn "Comedi Ddwyfol;" ac yn y ffurf o weledigaeth y mae hi yn gosod allan ddirgelion y byd anweledig, uffern, y purdan, a pharadwys. Dyma y gwaith mawr cyntaf yn llenyddiaeth ddiweddar Ewrop, ac y mae yn sefyll ar ei ben ei hun fel creadigaeth athrylith. Y mae wedi pasio trwy argraphiadau aneirif, ac wedi ei gyfieithu drosodd a throsodd drachefn i holl ieithoedd Ewrop. Cyfansoddodd Dante amryw o weithiau eraill; ond nid oes un o honynt yn dyfod i fyny â'r "Comedi Ddwyfol." Ei brif nodweddion ydynt unoliaeth drychfeddwl, dyfnder athronyddol, crefyddolder dwys, a gallu disgrifiadol digyffelyb mewn bywiogrwydd a chywirdeb. Y mae tebygolrwydd mawr rhyngddo a Milton. Ei weithiau eraill ydynt: "*La Vita Nuova*"—Hanes ei fywyd a'i serch at Beatrice, yr hwn a ysgrifenodd pan yn ieuangc; Y "*Convito;*" "*Rime;*" "Traethawd ar Unbenaeth;" "Ar yr iaith gyffredin;" "Ei lythyrau;" "Am dir a dwfr."

DAPHNE: cyssegr enwog y duw Apollo, ger Antiochia, yn Syria. Sefydlwyd ef, yn gystal a'r ddinas, gan Seleucus Nicator. Y pellder rhwng y ddau le oedd o ddeutu pum milldir; ond mewn hanesiaeth, y maent yn cael eu cyssylltu ynghyd. Yr oedd y sefyllfa yn un brydferth naturiol anghyffredin, gyda ffynnonau dihysbydd drwy y flwyddyn, a chyflawnder o goed. Ymsefydlodd Seleucus yma, ac adeiladodd deml fawreddog, a chofadail anferth, i'r duw. Addurnodd y penaduriaid Seleucidaidd, ac yn enwedig Antiochus Epiphanes, y lle yn mhellach fyth. Yn mhlith manteision eraill, yr oedd yn meddu breintiau noddfa. Yn y cymmeriad hwn y crybwyllir am dano yn 2 *Macc.* iv. 33. Yn nheyrnasiad Antiochus Epiphanes (c.c. 171), cymmerodd yr hen archoffeiriad gwladgarol Onias, wedi iddo geryddu Menelaus am gyflawni cyssegr-ysbeiliad yn Ierusalem, noddfa yn Daphne; o ba le y dygwyd ef yn fradwrus, ar gais Menelaus; a llofruddiwyd ef gan Andronicus, yr hwn oedd yn llywodraethu Antiochia, pan yr oedd y brenin wedi myned ymaith i ryfela. Nid ydyw Josephus yn rhoi yr hanes hwn am farwolaeth Onias.—"*Hyn. Iudd.*," xii. 5, *adr.* 1. Pan y daeth Syria dan lywodraeth Rhufain, parhaodd Daphne yn enwog fel cyrchfa pererinion. Ond dechreuodd adfeilio yn amser Julian, pan y dechreuodd Cristionogaeth, o fewn yr ymherodraeth, fuddugoliaethu ar baganiaeth. Darganfyddwyd ei safle gan Pococke, a theithwyr eraill, yn *Beit-el-Maa*, 'Tŷ y Dwfr,' ar lan aswy yr Orontes, i'r de-orllewin o Antiochia, ac ar dir uwch. Y mae y ffynnonau, ac arogl y llysiau gwylltion, yno, yn gysson â'r hyn oll a ddarllenwn am nodweddion naturiol cyssegr Apollo.

DARDA: mab Mahol—un o bedwar dyn tra enwog am eu doethineb, ond ar y rhai yr oedd Solomon yn rhagori: 1 *Bren.* iv. 31. Gelwir Ethan, y cyntaf o'r pedwar, yn "Ezrahiad;" ond y mae yn ansicr pa un a ydyw yr enw yn estyn at y llall. Yn 1 *Cron.* ii. 6, modd bynag, y mae yr un pedwar enw yn digwydd drachefn fel "meibion Zerach," o deulu mawr Phares yn llwyth Iudah, gyda'r gwahaniaeth bychan fod Darda yn ymddangos fel Dara. Nid oes un ammheuaeth nad yr un ydyw y personau hyn a'r rhai a grybwyllir yn 1 *Bren.* iv.

DARWIN, ERASMUS: bardd ac anianofydd, yr hwn a anwyd yn Elton, ger Newark, yn 1731. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt; ac ar ol cael y gradd o ddoctor yn Edinburgh, ymsefydlodd fel meddyg yn Lichfield. Yn 1781, symmudodd i Derby, lle y bu farw yn 1802, yn ddeg a thrigain oed. Ei brif weithiau yw y rhai hyn:—"*Botanic Garden,*" "*Zoonomia, or the Laws of Organic Life,*" a "*Phytologia, or the Philosophy of Agriculture and Gardening.*" Y mae yn ddiddadl fod awdwr y rhai hyn yn ddyn dysgedig, craff, a gwreiddiol anghyffredin; ond er hyny, ymddengys lawer iawn o fympwy a hygoeledd drwy ei holl weithiau. Ei brif waith yw y "*Zoonomia:*" cynnwysa hwn draethawd ar genhedliad a chyfundraeth o glefydwriaeth. Wyr iddo ef ydyw y Charles Darwin sydd wedi cyrhaedd gradd helaeth o enwogrwydd yn ein dyddiau ni.

Digitized by Google

**DAVIES, PARCH. BENJAMIN, D.D.** Yr oedd efe yn fab i'r Parch. Rees Davies, Canerw; a ganwyd ef yn 1739. Wedi gorphen ei efrydiaeth yn Ngholeg Caerfyrddin, dewiswyd ef gan bwyllgor Athrofa Annibynol y Fenni i fod yn athraw cynnorthwyol i'r Parch. Mr. Jardine; ac ar ei farwolaeth, yn y fl. 1766, etholwyd Dr. Davies yn brifathraw y sefydliad. Bu llawer o ddynion a enwogasant eu hunain yn fawr wedi hyny dan ei addysg yn y Fenni; ac yn eu plith, y Dr. Williams, o Rotherham. Parhaodd yn athraw yno am bedair blynedd ar ddeg; ac yna dewiswyd ef yn athraw clasurol Coleg Homerton; ac ymgymmerodd yn y cyfamser â bugeiliaeth yr eglwys fechan a ymgynnullai yn Fetter Lane, yn Llundain. Llanwodd y ddwy swydd gyda gradd helaeth o gymmeradwyaeth, o 1783 hyd 1787; pryd y gorfu arno, o herwydd gwaeledd iechyd ac iselder meddwl, roddi ei broffeswriaeth yn y coleg i fyny. Dioddefodd oddi wrth y pruddglwyf, fel y bu raid iddo, o herwydd hyny, a chynnydd anhwyldeb corphorol arall, roddi ei ofal gweinidogaethol i fyny yn 1795. Ar ol treulio rhai blynyddoedd yn symmud o fan i fan, i geisio adferiad iechyd, ymsefydlodd yn Bath—lle y mwynhaodd weinidogaeth efengylaidd a chyfeillgarwch gwresog y Parch. Mr. Jay, o'r dref hono; yr hwn a ddywedai ei fod yn un o'r dynion mwyaf duwiolfrydig a adnabu efe erioed Bu farw yn orfoleddus iawn Gorphenaf 22ain, 1817, yn 78ain oed. Cyhoeddodd nifer fechan o bregethau, a thraethodyn rhagorol o dan y teitl "*Primitive Candour*," yn attebiad i rai o syniadau Dr. Priestley: ac yr oedd ei attebiad wedi ei ysgrifenu mewn ysbryd mor deg a hynaws fel y galwodd y doctor gydag ef, i ddiolch iddo am ei foneddigeiddrwydd.

**DAVIES, DAVID,** o Landinam. Ganwyd Mr. Davies Rhagfyr 18fed, 1818, mewn tyddyn o'r enw Drain tewion, yn mhlwyf Llandinam, yn sir Drefaldwyn. Efe oedd yr hynaf o naw o blant. Nid oedd ei fanteision addysg ond bychain. Bu yn yr ysgol ddyddiol a gynnelid ynglŷn âg eglwys y plwyf yn Llandinam nes yr oedd yn un-ar-ddeg oed; ac yna, terfynodd ei addysg ffurfiol. Fe'i bendithiwyd ef â chyfansoddiad cadarn; a dywedir yr edrychid arno er yn blentyn gan ei gyfoedion fel arweinydd a thywysog yn eu chwareuon. Dygwyd ef i fyny gan ei rieni i ymarfer â phob diwydrwydd, ac i wneyd ei ran mewn oedran ieuangc tuag at gynnaliaeth y teulu. Yn chwanegol at lafurio y tir, byddai ei dad yn prynu coed, ac yn eu llifio yn blangciau at wasanaeth yr ardaloedd cylchynol. Dygwyd yntau hefyd i ymarfer â llifio; a chyn hir, cyrhaeddodd fedrusrwydd mawr yn y gwaith. Symmudodd ei dad o'r Drain tewion i dyddyn cyfagos, o'r enw Neuadd fach; ond bu efe farw pan nad oedd ei fab hynaf ond tuag ugain oed. Ac yn awr, yr oedd cynnaliaeth y fam a'r teulu yn gorwedd bron yn hollol ar ysgwyddau David Davies. Nid oedd yr anhawsderau yr oedd ynddynt, fodd bynag, iddo ef ond moddion dadblygiad i'w yni anorchfygol. Dangosodd yn y blynyddoedd hyn yr un nodweddion—diwydrwydd, ewyllys gref, barn ddoeth—ag a'i gwnaeth mewn amser diweddarach yn wrthddrych parch ac edmygedd ei gydgenedl yn gyffredinol. Cymmaint oedd ei lwyddiant fel, yn y fl. 1848, y gallodd gymmeryd Ty'n-y-maen—fferm sydd yn awr mewn cysylltiad â Phlasdinam, preswylfod ei fab, Mr. Edward Davies. Ac yn 1850, chwanegodd ati Gwernerin—fferm ag sydd ar yr ochr arall i ddyffryn yr Hafren. Tua'r adeg yma y cymmerodd ei *gontract* cyntaf; sef, gwneyd ffordd a phont dros yr Hafren, yn agos i'r fan lle y saif gorsaf Llandinam yn bresennol. Mor foddhaol y gwnaeth efe y gwaith hwn fel, ar gynnygiad yr arolygwr sirol, y rhoddwyd i Mr. Davies 15*p.* yn chwanegol at y swm yr oeddid wedi cyttuno arno. Ychydig wedi hyny, adeiladodd Mr. Davies bont arall yn agos i Lanfair Caereinion; a phan yn cario allan y gwaith hwn, daeth i gydnabyddiaeth â Miss Margaret Jones, o'r Wern, gyda'r hon y priododd yn 1851.

Yr oedd Mr. Davies eisoes wedi dechreu dangos haelioni neillduol at achosion crefyddol. Pan oedd angen am gyfraniadau at gapel y Methodistiaid yn Llandinam, addawodd swm mor fawr at yr amcan nes synu yr holl gymmydogion; o blegid yr oeddynt yn tybied fod swm mor fawr allan o gyrhaedd dyn o'i sefyllfa ef. Ond yr oedd efe ei hun yn teimlo yn hyderus fod Rhagluniaeth am ei lwyddo; ac erbyn i'r adeg ddyfod i dalu yr addewidion, yr oedd mor alluog a neb o'r cyfranwyr eraill i gyfarfod â'i ymrwymiad.

Yn mhen ychydig o flynyddoedd wedi priodi, dechreuodd Mr. Davies ar anturiaethau mawr ei fywyd. Yr oedd y rhai hyn am lawer o flynyddoedd ynglŷn â ffyrdd haiarn. Gyda'r craffder a'r doethineb oedd mor nodweddiadol o hono, gwelodd mai angen mawr sir Drefaldwyn y pryd hwnw oedd ffyrdd haiarn; ac mewn cyssylltiad â gŵr o'r enw Mr. Savin, dechreuodd wneuthur ffordd haiarn o'r Drefnewydd i Lanidloes. Yr hyn oedd yn hynod ynglyn â'r ffordd hon oedd, nad oedd ffordd haiarn etto wedi cyrhaedd, nac i'r Drefnewydd nac i Lanidloes; ac yr oedd yn rhaid dwyn y defnyddiau trymion oedd eisieu at y gwaith i'r Drefnewydd naill ai ar hyd y ffordd fawr o Groesoswallt, pellder o 36ain milldir, neu gyda'r ddyfr-ffos. Cyn gorphen y ffordd hon, ymgymmerodd ef a Mr. Savin â gwneyd ffordd haiarn Dyffryn Clwyd, o Rhyl i Ddinbych. Yn ystod gwneuthuriad y ffordd hon, byddai yn gyffredin yn gweithio am un awr ar bymtheg y dydd. Wedi agoriad y ffordd, yn Tachwedd, 1858, aeth efe a Mr. Savin yn mlaen i orphen y ffordd o'r Drefnewydd i Lanidloes; yr hon a agorwyd yn y flwyddyn 1859. Ei waith mawr nesaf oedd y ffordd haiarn o'r Drefnewydd i Fachynlleth; yr hon a agorwyd yn Tachwedd, 1862. Yn mysg ei weithiau eraill, yr oedd y ffyrdd haiarn o Benfro i Tinbych, o Tinbych i Whitland, o Aberhonddu i Ferthyr Tydfil, ac o Aberystwyth i Bencader. Gorphenwyd y ffordd olaf hon yn 1867. Yn 1872, gorphenodd y ffordd o Gaersws i Manledd; a dyma y cymmeriad diweddaf o'i eiddo ynglŷn â gwneuthuriad ffyrdd haiarn.

Yn fuan dechreuodd cyfnod newydd yn hanes ei fywyd—cyfnod y glofeydd. Mor foreu a'r flwyddyn 1864, yr oedd wedi troi ei sylw at adnoddau tan-ddaearol ei wlad. Canfyddai mai gyda'r fasnach lô yr oedd y rhagolygon disgleiriaf o hyny allan. Ond ynglŷn â'r fasnach hon, fel yn mhob cyfnod o'i oes, dangosodd ddoethineb neillduol mewn perthynas i'r lle a'r amser goreu i ddechreu ar ei weithrediadau. Ymgynghorai â dynion oedd ganddynt wybodaeth a phrofiad trwyadl gyda mwnau glô: ac yna, wedi ei argyhoeddi gan ffeithiau, rhoddai

Digitized by Google

ei holl gynneddfau ar waith tuag at ddadblygu y fasnach lô yn Neheudir Cymru. Dechreuodd ar y gwaith yn y parth uchaf o Gwm Rhondda. Dyma oedd cychwyniad yr *Ocean Collieries.* Eangodd ei weithrediadau yn fawr; cymmerwyd prydlesi ar chwaneg o dir; a chwanegwyd pwll at bwll; fel, erbyn hyn, y mae yr *Ocean Collieries* yn rhoi gwaith i dros chwe mil o bobl. Ac yr oedd hanner cyfalaf y cwmpeini yn perthyn i Mr. Davies.

Y mae ëangiad y fasnach lô yn un o'r ffeithiau mwyaf pwysig yn hanes Cymru am y blynyddoedd diweddaf. Y mae dadblygiad adnoddau Morganwg, yn arbenig, wedi bod mor fawr fel nad oedd ffyrdd haiarn Cwmni Dyffryn Tâf, a chwmni y Rhymni, gyda'r dociau mawrion yn Nghaerdydd a Phenarth, yn gallu trosglwyddo y glô o'r glöfeydd i'r llongau heb lawer o anghyfleusdra, ac heb golli llawer o arian ac amser. Gan fod Cwmni Dyffryn Tâf, ac Ardalydd Bute, yn gwrthod gwneyd darpariadau ar raddfa digon ëang, ac ar delerau rhesymol, i berchenogion y glöfeydd, tybiodd y rhai olaf hyn mai y peth goreu iddynt fyddai cymmeryd y mater i'w dwylaw eu hunain. Felly, penderfynasant wneuthur llongarth (*dock*) cyfleus yn Barry, o ddeutu saith milldir o Gaerdydd; ac ynglyn â hyn, wneyd ffordd haiarn ati yn uniongyrchol o'r glöfeydd. Y prif ysgogydd yn y symmudiad mawr hwn, yn ddiau, oedd Mr. Davies. Yr oedd y gwrthwynebiad i'r ysgogiad yn fawr. Cyflwynwyd deisebau yn ei erbyn gan wŷr o ddylanwad ëang. Daeth y mesur ger bron pwyllgor Tŷ y Cyffredin yn niwedd 1882; ac nid cyn Awst, 1885, wedi ymdrechfa bron ddigyffelyb, y pasiwyd ef. Yr oedd costau yr ymdrechfa hon i gefnogwyr y llongarth newydd yn 70,000*p.*; tra y bu raid i'r blaid arall wario o ddeutu 100,000*p.*

I Mr. Davies, yn fwy nag i neb arall, yr oedd llwyddiant y mesur yn ddyledus. Efe oedd prif gefnogydd y mesur; ac ar ei graffder a'i wybodaeth brofiadol ef yr oedd y fuddugoliaeth, i raddau helaeth, yn dibynu.

Cwblhawyd yr holl waith mewn llai na phum mlynedd; ac agorwyd y llongarth Gorphenaf, 1889. Gellir ffurfio barn am faint y gwaith oddi wrth y ffaith fod y glô a lwythwyd ynddo y flwyddyn gyntaf yn 2,830,000 o dynelli.

Anghyflawn fuasai unrhyw fywgraphiad o Mr. Davies heb grybwylliad am ei garedigrwydd neillduol fel tirfeddiannwr. Yn y fl. 1862, pwrcasodd etifeddiaeth Trewythen; ac yn 1874, pwrcasodd etifeddiaeth yn y Garn, yn mhlwyf Kerry. At y rhai hyn, chwanegodd etifeddiaeth yn mhlwyf Llanwnog yn 1876, ac etifeddiaeth Plasdinam yn 1885. Pan y daeth i feddiant o'r lleoedd hyn, yr oedd yr adeiladau arnynt, gan mwyaf, yn hen a dirywiedig; ond penderfynodd Mr. Davies wneyd pob peth yn ei allu at hwyluso gwaith ei denantiaid. Gwnaeth ostyngiad mawr yn rhenti y ffermydd a ystyrid eu bod yn cael eu gor-rentu o'r blaen; adeiladodd annedd-dai newyddion sylweddol a chysurus, a gofalodd fod tai allan rhagorol yn cael eu gosod i fyny yn y cyfan. Treuliodd ar ei etifeddiaeth dirol yn mhell dros 28,000*p.*, a hyny heb godi dim yn ardrethi ei denantiaid.

Y mae ymdrechion Mr. Davies o blaid Coleg Aberystwyth yn dra adnabyddus i'r wlad. Bu am ddeuddeng mlynedd yn drysorydd i'r sefydliad; ac yr oedd ei gyfraniadau at yr adeilad, ac at ysgoloriaethau yn y coleg, dros 6,000*p.*

Adnabyddid Mr. Davies trwy y wlad fel dyn rhyddfrydig ei ysbryd; ac y mae holl enwadau crefyddol Cymru wedi profi ei haelioni tywysogaidd. Gwneid ceisiadau beunyddiol ato am gynnorthwy i ddiddyledu capeli, ac y mae y symiau a gyfranodd at yr amcanion hyn bron yn aneirif. Ynglŷn â'i enwad ei hun—y Methodistiaid Calfinaidd—yr oedd yn gwneyd cyfraniadau helaeth at yr oll o'r gwahanol drysorfeydd; ac y mae yn ddïammheu fod ei haelioni nodedig ef wedi bod yn symbyliad i lawer o'i gydwladwyr i wneyd ymdrech egnïol o blaid achosion crefyddol a dyngarol.

Yn y flwyddyn 1864, gwnaeth Mr. Davies ymgais aflwyddiannus i gynnrychioli sir Aberteifi fel Rhyddfrydwr yn y senedd; ac yn 1874, dewiswyd ef yn aelod dros fwrdeisdrefi y sir hono. Parhaodd yn aelod seneddol hyd 1886. Daeth allan y flwyddyn hon fel gwrthwynebydd i fesur Mr. Gladstone o blaid llywodraeth gartrefol i'r Iwerddon; a gorchfygwyd ef gan Mr. Bowen Rowlands, trwy fwyafrif o naw o bleidleisiau.

Ni chymmerodd unrhyw ran flaenllaw mewn materion gwladwriaethol yn ystod y tair blynedd olaf o'i oes. Yr oedd yn ustus heddwch yn sir Drefaldwyn; ac yn 1889, dewiswyd ef i gynnrychioli Llandinam yn y cynghor sirol.

Bu Mr. Davies farw prydnawn Sabbath, Gorphenaf 20fed, 1890; a chladdwyd ef y dydd Iau canlynol, yn mynwent eglwys Llandinam.

Parhaodd Mr. Davies, trwy ei holl lwyddiant, yn ddyn dïymhongar a syml; a dwfn a chyffredinol oedd y galar a deimlwyd yn y wlad gan y newydd am ei farwolaeth. Y mae symmudiad wedi ei gychwyn gyda'r amcan o wneyd cofarwydd (*memorial*) cenedlaethol iddo. Y mae y swm sydd eisoes wedi ei gyfranu at yr amcan yn 800*p.* Nid ydyw y ffurf sydd i fod arno wedi ei benderfynu etto; ond gan fod ei fab, Mr. Edward Davies, wedi hysbysu, ar ei ran ef a'i fam, y bydd iddynt roi 5,000*p.* er cô[f] am Mr. Davies tuag at ysgoloriaethau i fechgyn tlodion, ac at lyfrgell yn Barry, y mae yn bosibl y bydd y swm a gyfrenir gan y wlad at y[r] amcan yn cael ei neillduo at godi côf-golofn [i] Mr. Davies yn ei ardal enedigol.

**DAVIES, PARCH. EDWARD.** Ganwyd ef yn Newport, yn sir Amwythig, Mawrth 15fed, 1796. Symmudodd ei rïeni i ardal y Wern, yn sir Ddinbych. O herwydd marwolaeth ei dad, pan nad oedd efe ond chwe blwydd oed, bu raid i Edward droi allan i ennill ei fara pan yn ieuangc; a'i waith am flynyddoedd oedd gyru ceffyl i gludo glô o Wrecsam i Ruthyn. Er mor oer a chaled oedd y gwaith hwn, cafodd ychydig seibiant wrth farchogaeth yn ei gert wâg tuag adref; yr hwn a ddefnyddiodd, nid i wâg-siarad gyda'i gyd-deithwyr, ond i ddarllen rhyw lyfr neu gilydd fyddai ganddo wrth law: a darllenydd dyfal ac ystyrbwyll oedd efe. Yr oedd yr hen geffyl yn adnabod y ffordd yn dda; onid ê, buasai Edward, a'i lyfr, a'r drol, a'r cwbl, dros y clawdd yn fynych, gan mor ddwys a dwfn yr ymgladdai yr efrydydd ieuangc yn y pwngc a ddigwyddai fod dan ei sylw. Yr oedd tuedd at grefydd ynddo er pan yn blentyn; ond nid ymunodd âg un eglwys nes bod rhwng un a dwy-ar-bymtheg oed, pan yr ymunodd âg eglwys yr Annibynwyr yn Harwd—un o'r rhai oedd dan ofal y Parch. William Williams, o'r Wern. Gwelodd llygaid treiddiol Mr. Williams

Digitized by Google

y bachgen, a daeth y ddau yn fuan yn gyfeillion cynnes. Tybiai nad oedd gan neb yn Nghymru y fath fachgen yn aelod a 'Nedi Davies,' fel y galwai ef. "Wrantaf fi Nedi,' meddai. 'Choelia e' ddim ond a wêl â'i ddau lygad. Fe ddaw Nedi yn *rhywun*, gewch chwi wel'd :'—a phrophwydodd yn gywir. Yn fuan wedi ymuno â'r eglwys, annogwyd ef i ddechreu pregethu; a mynych y gwasanaethai yn lle Mr. Williams yn yr eglwysi bychain oedd o dan ei ofal, ac i eglwysi eraill. Yr oedd y Saesneg lawn mor rwydd ganddo ef a'r Gymraeg; a phregethai yn y ddwy iaith, fel y byddai amgylchiadau yn galw. Yn Ionawr, 1817, rhoddodd y gwaith o gario glô i fyny, a chafodd dderbyniad i goleg yr Annibynwyr yn Llanfyllin, oedd y pryd hyny dan ofal Dr. Lewis. Yno dangosodd yn fuan ei allu anarferol i ddysgu pob peth a osodid o'i flaen, fel y rhagorodd ar ei holl gyd-ysgolheigion hyd yn oed yn y clasuron. Yr oedd ei gynnydd mor gyflym fel y pennodwyd ef, yn mhen tair blynedd ar ol ei dderbyniad iddo, yn athraw clasurol y coleg. Yn Ionawr, 1822, pennodwyd ef hefyd yn gydweinidog â Dr. Lewis ar eglwys y Drefnewydd, lle yr oedd yr athrofa wedi ei symmud er 1821. Heb law hyn, efe oedd gweinidog eglwys Bwlch-y-ffridd—pentref bychan ychydig o'r Drefnewydd. Yn 1839, symmudwyd yr athrofa i Aberhonddu. Rhoddodd erbyn hyn bob gofal gweinidogaethol i fyny, fel y caffai fwy o hamdden i ddiwyllio ei feddwl, a thrwy hyny feddu mwy o gymmhwysderau yr athraw. Bu yn cynnrychioli y Feibl Gymdeithas yn ystod ei arosiad yn Aberhonddu mewn llawer o gyfarfodydd a gynnelid yn y parthau cylchynol. Yr oedd yn ddyn addfwyn a thawel, yn llenor o'r radd uchaf, yn ysgolhaig campus, er nad oedd ond y nesaf peth i fod yn hunan-addysgol, ac yn bregethwr synwyrol a dirodres. Bu farw Chwefror 25ain, 1857; a chladdwyd ef yn Eglwys St. John, Aberhonddu. Safodd yn ei gyssylltiadau cyhoeddus yn ddiargyhoedd am 34ain mlynedd, a threuliodd oes lafurus ac ymdrechgar o blaid pob egwyddor dda, gan ddyfal chwilio am wybodaeth, a chyfranu o honi i ddosbarth pwysig o ysgolheigion. Yr oedd efe yn enghraifft teg o ddyn yn codi trwy ddyfal-barhâd a hunan ddiwylliant, o ddinodedd i safle bwysig a defnyddiol; ac yr oedd ei fywyd yn esampl deilwng o efelychiad pob gŵr ieuangc.

**DAVIES, Parch. EVAN.** Ganwyd ef yn Hengwm, yn mhlwyf Lledrod, yn sir Aberteifi. Ar farwolaeth ei fam, pan nad oedd efe ond tair blwydd oed, symmudodd ei dad a'i deulu i Lundain; ond gadawyd ef ar ol, dan ofal modryb iddo; yr hon fu yn dda wrtho, ac a'i maethodd fel un o'i phlant ei hun. Cafodd addysg gyffredin dda; yna rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda masnachydd yn yr ardal hono; ac ar derfyn y tymmor, symmudodd yntau i Lundain ar ol y teulu. Yn fuan, ymunodd âg eglwys yr Annibynwyr yn Little Guildford Street, Southwark; a chafodd dderbyniad ar ol hyny i ysgol Dr. Phillips, yn y Neuaddlwyd, gyda'r bwriad o ymgyflwyno i fywyd cyhoeddus. Bu yno am ddeunaw mis; ac yn 1829, llwyddodd i gael derbyniad i'r *Western Academy*, dan lywyddiaeth Dr. George Payne. Wedi gadael y coleg ymsefydlodd am dymmor fel gweinidog yn Great Torrington, Devon—hen faes llafur y seraphaidd John Howe. Ond ar fod yn genhadwr yr oedd efe wedi rhoddi ei fryd. Ni arosodd yn Nyfnaint ond am ychydig amser, gan i'w wasanaeth gael ei dderbyn gan Gymdeithas Genhadol Llundain. Neillduwyd ef yn nghapel Wickline, Llundain, yn Ebrill, 1835, i fyned yn genhadwr i China; ac ymsefydlodd yno yn ngorsaf Penang. Ar ol cyrhaedd yno, dechreuodd efrydu y Chinaeg; a thrwy ddyfal-barhâd llwyddodd i'w meistroli yn ddigonol i gynnal ysgol Gristionogol i'r plant brodorol. Nid oedd hinsawdd China yn dygymmod â'i iechyd; a bu raid iddo ddychwelyd yn 1840, wedi pedair blynedd o lafur caled fel ysgolfeistr a chenhadwr. Yna gwasanaethodd y gymdeithas am amryw flynyddoedd fel dirprwywr yn ei gwahanol gyfarfodydd. Ar ol hyny pennodwyd ef yn arolygydd y *Boys' Mission School*, yn Walthamstow, ac yn weinidog yr Annibynwyr yn Richmond; ond o herwydd afiechyd, bu raid iddo roddi y diweddlaf i fyny, pan y derbyniodd bwrs yn cynnwys 200*p*. fel cydnabyddiaeth garedig o'i lafur. Bu yn weinidog ar ol hyny yn Heywood, ac yn Dalston. Pregethai yn achlysurol yn Hackney, ac yn Hornsey; ond o herwydd afiechyd, nis gallai barhau. Bu farw Gorphenaf 18fed, 1864. Ysgrifenodd amryw lyfrau, a dygodd allan gasgliad cyflawn o weithiau Dr. Edward Williams, o Rotherham.

**DAVIES, Parch. JENKIN, Twr-gwyn.** Yr oedd efe yn fab i ŵr o'r enw Evan Davies, blaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y lle hwnw; ac arwyddion i'w canfod ynddo pan yn ieuangc fod cylch o ddefnyddioldeb eang yn ei aros. Yr oedd yn efrydydd ymroddgar; a chafodd ei gadw o fewn terfynau eglwys Dduw ar hyd ei oes. Llafuriai lawer gyda'r Ysgol Sabbothol; ac am fod llawer wedi ei gymmhell i ddechreu pregethu, efe a ufuddhaodd. Ar ol marwolaeth y Parch. Evan Morris, yn 1825, disgynai mwy o ofal yr eglwysi o amgylch ei gartref arno nag o'r blaen; ac arweiniodd hyn, yn mhen amser, iddo symmud o Bensarn i'r Twr-gwyn i gartrefu. Ac ar gais ei frodyr, ymryddhaodd yn fwy oddi wrth orchwylion y bywyd hwn, fel y gallai fyned mwy oddi cartref i wasanaethu crefydd. Ond byr fu ei oes. Yn nechreu y fl. 1842, adfeiliodd ei iechyd; a bu farw Awst 10fed, o'r flwyddyn hono.

**DAVIES, Parch. DAVID.** Ganwyd ef yn Llygadenwyn, yn mhlwyf Llanybydder, yn y flwyddyn 1797. Ymunodd â'r Annibynwyr yn Rhyd-y-bont, a dechreuodd bregethu yn fuan. Addysgwyd ef yn Neuaddlwyd. Ei eglwys gyntaf ydoedd New Inn, lle yr ordeiniwyd ef Mawrth 27ain, 1833. Yr oedd yn dduwinydd da, ac yn bregethwr hynod o gymmeradwy. Bu farw Rhagfyr 12fed, 1875.

**DAVIES, Parch. HENRY.** Un o weinidogion enwog y Bedyddwyr. Ganwyd ef yn Nhrelettert, yn sir Benfro, yn 1753. Yr oedd ei rieni yn aelodau o eglwys y Bedyddwyr yn Llanglofian. Dilynodd yr alwedigaeth o grydd nes oedd tuag ugain oed. Dechreuodd bregethu yn Rhagfyr, 1775, ac ordeiniwyd ef yn 1780; a bu yn gydweinidog â'r Parch. Thomas Lewis, yn Llanglofian. Yr oedd yn boblogaidd iawn. Dywedir ei fod yn un o bregethwyr 'yr hwylian mawr.' Yr oedd yn meddu corph cryf, ac yr oedd ei ddwylaw yn hynod fawr. Digwyddodd, pan yr oedd yn ddyn ieuangc yn pregethu yn

Digitized by Google

Nghastellnewydd, i golomen ddisgyn ar ei ysgwydd, ac aros yno am gryn amser. O herwydd hyny, adwaenid ef wrth yr enw 'Y dyn â'r golomen:' ac mewn ardaloedd eraill, fel 'Y dyn â'r llaw fawr.' Pregethodd Grist dros bum mlynedd ar hugain. Bu farw Mai 9fed, 1825.

DAVIES, Parch. JOHN. Ganwyd ef yn ardal Pen-y-graig, ger llaw Caerfyrddin, yn y fl. 1807. Derbyniodd ei addysg yn Athrofa Caerfyrddin, a dechreuodd bregethu gyda'r Annibynwyr yn ieuangc. Yr eglwys gyntaf y bu yn gweini iddi oedd Pen-y-graig; ac ordeiniwyd ef Ebrill 20fed, 1829. Yr oedd yn feddyliwr da, ac yn draddodwr hyawdl; ac yr oedd yr efengyl yn meddu dylanwad mawr ar ei ysbryd —yr hyn a deimlid yn ei bregethau. O Ben-y-graig a Phont-y-berem, symmudodd i Gwmaman; lle y llafuriodd am dros chwarter canrif olaf ei oes, nes i'w iechyd ei orfodi i roddi y weinidogaeth i fyny. Yr oedd efe yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd yr enwad yn sir Forganwg.

DAVIES, Parch. JOHN. Gweinidog gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn Nghastellgeifr, yn mhlwyf Llanarth, yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1804. Hanodd o deulu crefyddol, ac addysgwyd ef yn athrofa Neuaddlwyd, ac ar ol hyny yn athrofeydd y Drefnewydd a Llanfyllin. Yr eglwys gyntaf y bu yn gweinidogaethu ynddi oedd Glandwr, yn sir Benfro—lle yr ordeiniwyd ef Mawrth 28ain, 1827. Bu yno am 37ain mlynedd. Yr oedd yn ŵr o feddwl a chymmeriad pur; ond yr oedd yn lled ddigymdeithas gyda dyeithriaid, er nad oedd efe felly gyda'i gyfeillion. Yr oedd yn fyfyriwr caled, ac ystyrid ef yn ysgolhaig Hebrëig rhagorol. Ysgrifenodd esboniad a chyfieithiad o'r 'prophwydi byrion.' Bu farw Rhagfyr 10fed, 1884, yn 81ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Moriah.

DAVIES, Parch. THOMAS, Llandrillo, yn sir Feirionydd. Ganwyd ef Mai, 1804, mewn lle a elwir Tŷ Croes; a dechreuodd bregethu tua'r fl. 1835. Dywedir mai efe ydoedd yr Annibynwr cyntaf a bregethodd yn Nghynwyd; a phregethodd lawer yno, ac yn Nghorwen, Llandrillo, Llandderfel, Rhyd-y-wernen, Soar, a Bethel. Ordeiniwyd ef Mehefin 2il, 1870. Bu farw, ar ol bywyd llafurus, Medi 2il, 1882.

DAVIES, JOHN LLOYD. Llëygwr oedd efe; a gellir ei restru yn mysg enwogion ei sir enedigol. Ganwyd ef yn yr Hen Lew Du, yn Stryt y bont, Aberystwyth, Tachwedd 1af, 1801. Gadawyd ei fam yn weddw pan nad oedd efe ond pump oed; a phenderfynodd hithau roddi yr addysg oreu iddo y gallai ei gael. Bu yn yr ysgol oreu yn Aberystwyth nes yr oedd yn 13eg oed, pan y symmudwyd ef i ysgol arall—i Westbury, yn sir Amwythig. Wedi dychwelyd o'r ysgol hon, cafodd ei ddwyn i fyny yn gyfreithiwr; ac mewn blynyddoedd, yr ydym yn ei gael mewn cymmundeb â Mr. Walters yn Nghaerfyrddin; a dywedid ei fod yn ddadleuydd grymus a nerthol. Priododd weddw o'r enw Mrs. Steward, o Blaendyffryn, yn sir Gaerfyrddin. Etholwyd ef yn 1845 yn uchel sirydd dros sir Aberteifi; ac yn 1855, dychwelwyd ef i'r senedd dros fwrdeisdrefi y sir hono. Ni ddaeth efe yn mlaen fel ymgeisydd yn yr etholiad cyffredinol canlynol, o herwydd afiechyd; a bu farw Mawrth 21ain, 1860, yn 59ain mlwydd oed.

DAVIES RHYS. Pregethwr teithiol oedd efe gyda'r Annibynwyr, ac adnabyddid ef wrth yr enw 'Rhys y glun bren.' Yr oedd yr holl Dywysogaeth megys yn faes ei weinidogaeth, a threuliodd ei oes i bregethu yr efengyl. Ganwyd ef yn ardal Castellnewydd, yn sir Gaerfyrddin, yn 1772. Ymunodd â'r Annibynwyr yn nyddiau ei ieuengctid; ac ar gymmhelliad y frawdoliaeth, dechreuodd bregethu yn lled fuan. Aeth i'r ysgol i Glandwr, yn sir Benfro, lle y dysgodd elfenau y Saesneg a'r Lladin; ac aeth o Glandwr i Ogledd Cymru, lle y bu am dymmor yn cadw ysgol ddyddiol, gan bregethu ar y Sabbothau. Dychwelodd i ardal Saron, ger Castellnewydd; ac wrth yr enw 'Rhys Davies, Saron,' y cyhoeddid ef bellach tra y bu byw. Cyttunai pawb a'i hadwaenent ei fod yn wahanol i bawb eraill. Yr oedd yn ddiarebol am boethder ei dymmer; a chynnhesrwydd ei ysbryd oedd ei brif, os nad ei unig ragoriaeth fel pregethwr. Llais aflafar, ac iaith sathredig, oedd ganddo; ac yr oedd ei ystumiau yn annaturiol, a'i syniadau yn gyffredin. Ond er hyny, byddai yn cael cryn ddylanwad ar ei wrandawyr. Byddai yn llawn cyffro wrth ddarllen ei destyn, a bron y gallai ofyn bendith heb fyned yn hwyliog; ac nid ystyriai y gynnulleidfa yn addoli ac yn gwrando yn briodol os na byddai yr 'Amen' yn cael ei ddyweyd yn aml ac yn eglur. Yr oedd ganddo ddull hynod o daflu ei law o'i enau at y gynnulleidfa wrth bregethu; ac arweiniodd hyn ef i brofedigaeth weithiau, gan ei fod fel yn lluchio ei eiriau â'i law at y gynnulleidfa. Yr oedd yn pregethu ar brydnawn Sadwrn mewn capel yn y wlad; ac ar ol iddo ddarllen ei destyn, daeth dau amaethwr i mewn, y rhai a fuont yn y farchnad. Yr oedd y ddau wedi yfed llawn ddigon, a mwy na digon, a phregeth yn erbyn meddwdod oedd y bregeth. Eisteddai un o'r ddau ar gyfer y pregethwr, a'r llall o'r neilldu. "Dyna'r meddwyn, dyna'r meddwyn," ebe y pregethwr, gan amneidio â'i law fel arferol; a thybiodd y gŵr yn y canol ei fod yn cyfeirio ato ef. Cododd ar ei draed, a dywedodd—"Beth sydd ar y dyn yn cyfeirio yn gysson ataf fi? Mae fy nghyfaill sydd yn y gongl acw mor feddw a minnau." Profedigaeth fechan oedd hon; ond taflwyd ef un tro i un llawer mwy. Yr oedd yn pregethu ar brydnawn Sabbath mewn fferm, ac yn y gegin y cynnaliwyd yr odfa. Yr oedd y lle yn llawn o wrandawyr; ac yr oedd ci mawr yn gorwedd ar yr aelwyd. Safodd y pregethwr ar yr aelwyd, a dechreuodd ar ei waith. Tybiodd y ci ei fod yn ei herio ef, a derbyniodd yr heriad gan chwyrnu, a nesau at y pregethwr. Cafodd y dynion cryfaf yn y lle ddigon o waith i ddofi y ci, a chafodd y dynion duwiolaf ddigon o waith i dawelu Rhys Davies hefyd. Gan yr adwaenid ef mor gyffredinol wrth yr enw 'Rhys y glun bren,' dylem yma hysbysu pa fodd y digwyddodd. Ar un o'i deithiau, cafodd niwed i'w goes, yr hyn a barodd i'w droed chwyddo yn y fotasen; ac yn hytrach na'i rhwygo, gadawyd hi am y troed, mewn gobaith y byddai i'r chwydd gilio. Ond yn lle hyny, trôdd yn ennyniad, a bu raid tori ymaith y glun yn ei forddwyd. Yr oedd holi hanes yr anffawd, neu gyfeirio o gwbl at ei glun, yn

Digitized by Google

drosedd mawr yn ei olwg, Cyfeiriodd un wraig barchus, lle yr oedd yn llettya un noson, unwaith neu ddwy at yr anaf; ond efe a gyfeiriodd yr ymddiddan at rywbeth arall. Ond gan fod y wraig hono, fel llawer eraill, yn awyddus i wybod yr hyn yr amcanai efe ei ddirgelu, hi a ofynodd iddo yn eglur o'r diwedd, gan ddywedyd, "Mr. Davies, pa beth a gawsoch ar eich clun?" Yntau a'i hattebodd yn lled sarug—"'Rwy'n credu yn fy nghalon eich bod mewn mwy o bryder am fy nghlun i nag am eich cyflwr o lawer." Rhoddodd hyn derfyniad ar yr ymddiddan. Digwyddodd iddo fyned i letty cysurus dro arall, a gorchymynodd gwraig y tŷ i'r forwyn dwymno y gwely i'r hen ŵr. Gwnaeth hithau hyny; ac aeth y pregethwr i ystafell y gwely, a dechreuodd ddiosg ei ddillad. Pan gofiodd y forwyn ei bod wedi anghofio y *warming pan*, rhedodd i fyny y grisiau yn ebrwydd, ac agorodd ddrws yr ystafell. Diffoddodd yntau y ganwyll pan glywodd hyny, a diangodd i'w wely, heb ddattod y glun bren. Aeth y forwyn mor ddistaw ag y gallai at y gwely, a chafodd afael, fel y meddyliai hi, ar goes y *warming pan*, a dechreuodd dynu ynddi. Pan ddeallodd Rhys Davies ei bod yn ymaflyd yn y glun bren, ffyrnigodd yn fawr, a ffyrnigodd y forwyn hefyd; a chan ei bod yn eneth hoyw a phenderfynol, tynodd ef o'i wely i lawr y llofft gerfydd ei goes. Y mae yn hawddach dychymmygu na darlunio drwg dymmher Rhys Davies, a syndod y ferch yn wyneb y brofedigaeth hon!

Gwerthfawrogid gweinidogaeth Rhys Davies gan yr hen bobl yn yr eglwysi, o blegid ei bod yn ddiammheuol Galfinaidd, a hyny yn y blynyddoedd pan y sonid cymmaint am 'y *system* newydd.' Perchid ef yn fawr gan y gweinidogion hefyd, am ei fod yn ofalus a gochelgar yn ei holl ymddiddanion. Fel gweddïwr, yr oedd yn hynod, ac yn llwyddiannus, yn ddïau. Ofnid unwaith y byddai yn rhy lwyddiannus. Pan yr oedd yn cadw ysgol yn sir Feirionydd, cymmerwyd gwraig amaethwr yn glaf iawn ar enedigaeth plentyn. Anfonwyd am y meddyg, yr hwn a wnaeth ei oreu; ond o herwydd ei aflwyddiant, efe a ddigalonodd. Anfonwyd am y pregethwr i weddïo dros y wraig; ac yntau a gydsyniodd ar unwaith. Dewisodd aros yn y gegin, gan addaw gweddïo yn ddigon uchel i'r wraig a'i phriod ei glywed o'r ystafell arall. Aeth yn hyderus at orseddfainge y gras. Soniodd am barodrwydd Duw i wrandaw y rhai a alwent arno; cyfeiriodd at enghreifftiau nodedig o lwyddiant gweddi, a dymunodd yn uchel, "Dyro nerth i'th law-forwyn i esgor!" Ac ar hyny, ganwyd plentyn. Daliai yntau ati, gan ddywedyd drachefn, "Dyro, dyro nerth i'th law forwyn i esgor!" a daeth plentyn arall i'r byd. Erbyn hyny, dychrynwyd yr amaethwr, gadawodd y wraig a'r efeilliaid, ac aeth at Rhys Davies, gan ddymuno arno, er mwyn pob daioni, i roddi i fyny weddïo; onid ê y llenwid y tŷ â phlant. Dywedir mai efe, pan yn pregethu mewn lle o'r enw Bedd-y-coedwr, fu yn offerynol yn llaw yr Arglwydd i argyhoeddi bachgen o'r enw William Williams; yr hwn, wedi hyny, a adwaenid trwy Gymru wrth yr enw anwyl, 'Williams, o'r Wern.' A thra y bydd y gweinidog enwog a duwiol, Williams, o'r Wern, mewn coffadwriaeth, coffheir hefyd am 'Rhys y glun bren.' Bu farw Ionawr 6ed, 1847, ar ol pregethu gy a'r Annibynwyr am fwy na hanner can mlynedd.

DAVIES, PARCH. THOMAS RHYS. Ganwyd ef yn Penwenallt, Cilgeran, yn sir Benfro, Mai 19eg, 1790. Yr oedd ei rieni yn gwrando yn gysson gyda'r Annibynwyr; ond tueddwyd ef i ymuno gyda'r Bedyddwyr pan yn 16eg oed. Pregethodd am y tro cyntaf mewn cyfarfod yn nghymmanfa Amlwch. Hoffwyd ef a'i gyfaill ar y pryd gan Christmas Evans; ac annogodd hwynt i aros yn y Gogledd—lle, y pryd hwnw, yr oedd y cynhauaf yn fawr, a'r gweithwyr yn anaml. Ymsefydlodd ei gyfaill, Mr. T. James, yn Lleyn; a daeth Mr. T. R. Davies i Ddyffryn Conwy, at yr ychydig Fedyddwyr oedd yn ymgynnull yn y Roe, Ffordd Lâs, a Glanwydden. Yr oedd ei lafur yn fawr iawn, fel yr oedd llafur ei frodyr yn y weinidogaeth y blynyddoedd hyny. Teithiai ol a blaen, gan bregethu mewn ffermdai, a pha le bynag y caffai ddrws agored; fel y dywed efe iddo fod am rai blynyddoedd heb braidd gysgu dwy noswaith nesaf i'w gilydd yn yr un gwely. O herwydd rhyw anghysur a gymmerodd le ynghylch gweithredoedd un o'r capeli uchod, dygwyd cŵyn yn ei erbyn; ac yn nghymmanfa Rhuthyn, yn 1818, diarddelwyd ef. Daeth yn amlwg drachefn mai camgymmeriad oedd y cyfan, ac mai mewn camsyniad y darfu i'w frodyr weithredu fel y gwnaethant. Ymunodd Mr. Davies wedi hyny â'r Wesleyaid; a bu yn pregethu gyda hwynt am agos i saith mlynedd; ond pan welodd adeg gyfleus, gadawodd hwynt i fyned yn ol at y Bedyddwyr. Ei gyfarchiad wrth ymadael, oedd, "Ffarwel, frodyr bach! dyma fi yn myn'd adref." Ar ol hyny, ymsefydlodd fel gweinidog yn Nglyn Ceiriog, a thrachefn yn Heath street, Toxteth Park, Liverpool, lle yr arosodd am bum mlynedd; ac yna, aeth yn ol i'w gartref—Cilfowyr—lle y bu yn weinidog i eglwysi Cilgeran a Pheniel. Bu yn pregethu am hanner can mlynedd; a bu farw yn 67ain oed, a chafodd ei gladdu yn yr un bedd a'r enwog Christmas Evans. Yr oedd yn hynod ffraeth ar adegau. Unwaith, pan yn cyfeirio at fedd Moses, dywedodd, "Ni ŵyr neb i'r fodfedd pa le y mae bedd Moses; ond mi wn i o fewn ergyd careg. Cludodd yr Arglwydd ef ar gyfer Bethpeor. Ystyr 'Beth' ydyw 'tŷ'—'Tŷ Peor.' Nid oedd modd gwneyd mwy o *spite* â Peor, yr eilunddnw, nag i'r Arglwydd gladdu ei hen was ar gyfer ei dŷ." Ar adeg arall, yr oedd un o'i frodyr wedi colli ei bregeth; ac yr oedd mewn profedigaeth chwerw o'r herwydd. Cyfarfu Mr. Davies âg ef ar y ffordd i'r capel. "Mr. Davies anwyl, beth a wnaf?" "Wel, be sy 'rŵan, felly?" "Ond wedi colli 'mhregeth yr ydw i." "B'le 'roet ti yn i chadw hi?" "Yn y mhoced." "O! dyna lle bu'r bai! Nid yn y mhoced y bydda i yn eu cadw nhw." "Wel, ymhle y byddwch chi yn eu cadw nhw, syr?" "Yn fy het!" Etto:—"Gwell yw enw da nag enaint gwerthfawr. Peth o'r ddaear yw enaint, ond enw da sydd beth o'r nef." "Yr oedd ffordd y Môr Coch yn ddiogel i Israel; ond pan aeth Pharaoh iddi, collodd ei fywyd! 'Doedd dim busnes ganddo fyned iddi—*private road* a agorodd Jehofah i'w deulu ei hun oedd hono."

DAVIES, PARCH. THOMAS, D. D. Yr oedd yn fab i Dafydd ap Robert ap Llywelyn, o Gaerhun, yn Nyffryn Conwy—lle y ganwyd ef yn 1515. Addysgwyd ef yn Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt. I rectoriaeth Llanbedr, a ficer-

Digitized by Google

iaeth Caerhun, y dyrchafwyd ef gyntaf. Yna pennodwyd ef yn archddiacon Llanelwy yn 1559. Collodd hi yn 1554 am ei fod yn briod; ond adferwyd ef pan esgynodd Elizabeth i'r orsedd. Yn 1546, gwnaed ef yn ganghellydd eglwys gadeiriol Bangor. Pennodwyd ef yn esgob Llanelwy yn 1561—swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth, yn niwedd 1573. Yr oedd yn ŵr duwiol a haelionus; a sefydlodd ysgoloriaeth yn Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt.

DAVIES, Parch. TIMOTHY. Ganwyd ef Tachwedd 20fed, 1779, yn y Plas bach, Ciliau Aeron, sir Aberteifi, lle y preswyliai ei rïeni. Yr oedd efe yn drydydd mab i'r Parch. David Davies, Castellhywel. Bu yn gyd-weinidog â'i dad am amser. Yn 1810, cafodd alwad gan eglwys y Great Meeting House, Coventry; a bu yn weinidog arni am wyth mlynedd. Yna, derbyniodd alwad gan yr eglwys Annibynol yn Evesham; a symmudodd yno yn 1818, a pharhaodd i'w gwasanaethu am ddeugain mlynedd, gyda llawer o lwyddiant. Bu farw, ar ol cystudd maith, Tachwedd 28ain, 1860; a chladdwyd ef yn mynwent ei hen gapel. Cyfieithwyd y rhan fwyaf o Esboniad Dr. Coke i'r Gymraeg ganddo.

DAVIES, Parch. WILLIAM. Clerigwr perthynol i'r Eglwys Sefydledig oedd efe; a ganwyd ef, fel y tybir, yn Ystradgrach, yn mhlwyf Llanfynydd, yn sir Gaerfyrddin, yn 1727. Yr oedd yn bregethwr galluog, ei athrawiaeth yn bur, ei fuchedd yn sanctaidd, a'i sêl dros ogoniant Duw yn dra thanbaid. Ond cododd hyn elynion iddo; a meddyliodd y rhan liosocaf o drigolion Llangiwc am ei gael yn glerigwr yr eglwys hono. Ond llwyddodd dynion oedd yn ei gashau o herwydd ei rinweddau i'w attal. Bellach, barnodd ei gyfeillion, ac yntau hefyd, nad oedd ond gobaith gwan iddo lwyddo i gael lle y byddai o ddefnydd iddo yn yr Eglwys Sefydledig; gan hyny, penderfynodd bregethu y tu allan i'r sefydliad. O hyny allan, nid ymddangosodd efe yn un o bulpudau Eglwys Loegr; eithr ymroddodd i fod o wasanaeth gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Ymffurfiodd, gyda'r sawl a'i dilynasant ef allan o'r eglwys, yn gymdeithas eglwysig, gan gyfarfod mewn tŷ annedd o'r enw Penbwchlyn. Wedi i hwn fyned yn rhy fach, cymmerwyd dau dŷ annedd yn mhen dwyreiniol y dref. Yr oedd efe yn cynnal ysgol ddyddiol fel prif foddion ei gynnaliaeth. Yn agos i Gastellnedd y mae hen gapel enwog y Gyfylchi; a thybir mai iddo ef yr adeiladwyd ef, tua'r flwyddyn 1776. Ymdrechodd yr Eglwyswyr i gael meddiant o hono; ond bu eu cais yn aflwyddiannus, am nad oedd prawf ei fod wedi ei gyssegru erioed. Rhenid yr adeilad megys yn ddau gyssegr—y sancteiddiolaf a'r cyffredin. I'r sancteiddiolaf yr äi y clerigwyr; ond byddai holl bregethwyr y cyfundeb yn cael gweinyddu yn y llall. Fel hyn y bu am flynyddoedd, heb fod un pregethwr yn anturio croesi 'y wahanlen.' Ond o'r diwedd, diflanodd y ŵyn. Dioddefodd ef a'i gyfeillion gryn erledigaeth—ond bu o wasanaeth mawr yn ei fywyd, a theithiodd gryn lawer trwy Dde a Gogledd yn pregethu. Bu farw yn 1787, yn 60ain oed. Traddodwyd ei bregeth angladdol gan yr hyglod Jones, o Langan; a dywedir ei fod yn wylo yn hidl uwch ben bedd ei gyfaill, ac yn dyweyd yn nyfnder ei alar, "O! Davies anwyl! Gwas yr Arglwydd! ti a fuost farw! Do! disgynaist i'r bedd, â'th goron ar dy ben!"

DAVIES, Parch. WILLIAM. Ganwyd ef mewn ffermdy a elwir Croes Efa, ychydig uwch law Llandyrnog, yn Nyffryn Clwyd, yn 1784. Adnabyddir ef yn well wrth yr enw 'Davies, Affrica.' Ymunodd ei rïeni â'r Wesleyaid cyn sefydlu y genhadaeth Gymreig—pan oedd Mr. Edward Jones, Bathafarn, ger Rhuthyn, yn pregethu, ac yn teithio y wlad. Anfonwyd ef gan y gynnadledd yn genhadwr cyntaf i Sierra Leone, yn 1814; ond bu raid iddo ddychwelyd yn 1818, o herwydd ei iechyd. Yn lled fuan ar ol ei ddychweliad daeth i Gymru; a bu yn gadeirydd y dalaeth o 1821 hyd 1826.

DAVIES, WILLIAM, ph. d. Gweinidog gyda'r Annibynwyr yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1804, mewn lle o'r enw Crofft-y-cyff, yn agos i gapel Ffald-y-brenin, yn mhlwyf Llan-y-crwys, yn yr un sir. Adwaenid ef, yn benaf, wrth yr enw 'Davies, Ffrwd-fâl,' lle y cyrhaeddodd enwogrwydd fel ysgolfeistr. Yr oedd ei fam yn aelod ffyddlawn o'r eglwys Annibynol yn Ffald-y-brenin, ac ymunodd Mr. Davies â hi yn nyddiau ei ieuengctid. Dechreuodd bregethu yn fuan, a derbyniwyd ef fel myfyriwr i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, lle y gwnaeth gynnydd mawr mewn dysgeidiaeth, a daeth yn enwog mewn ieitheg a gwyddoniaeth. Ei eglwys gyntaf oedd eglwys Annibynol Dyfneint, lle yr ordeiniwyd ef. Ni ddaeth yn enwog fel pregethwr; a gallasai ddywedyd, "Ni'm danfonwyd i bregethu, ond i gadw ysgol." Adeiladwyd ysgoldy iddo gan Mr. Davies, Ffrwd-fâl, ar ei dir ei hun, ar ochr y ffordd o Lansawel i Caio; ac yn yr adeilad fechan hon y bu efe yn dwyn yn mlaen ei waith am lawer blwyddyn. Yr oedd yn feddiannol ar wybodaeth gywir o elfenau y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg—yn rhifyddwr medrus, ac yn gyfarwydd yn egwyddorion cyntaf mesuroniaeth; ac yn meddu gallu i ddeffro ysbryd ei ysgolheigion. Bu farw Rhagfyr 10fed, 1859, yn 55ain oed; a chladdwyd ef yn mynwent Elim, ger Caerfyrddin.

DAFYDD BENFRAS. Bardd enwog a chlodfawr, oedd yn blodeuo rhwng 1190 a 1240. Ceir deuddeg o'i ysgrifeniadau yn y "*Myfyrian Archaiology*," ac oll yn awdlau cywrain a gorchestol, yn null yr oes hono o gynghaneddu. Y maent yn werthfawr mewn ystyr hanesyddol hefyd, yn gystal ag fel barddoniaeth.

DAFYDD NANMOR. Ardal yn sir Feirionydd, ger llaw Beddgelert, ydyw Nanmawr; ac yno, mewn lle o'r enw Cae Dafydd, yn agos i'r Hafodgaregog, preswylfa Rhys Goch Eryri, y trigai efe. Yr oedd Rhys Goch yn foneddwr, a dywedir iddo roddi y tyddyn i Dafydd Nanmor, ac iddo ei alw yn Gae Dafydd. Blodeuodd tua 1440, a bu farw yn 1460. Yr oedd yn bresennol yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin, yn 1441; ac yn ol yr hen gopïau, "Gwilym Tew o Dir Iarll, a Dafydd Nanmor a gâd yn oreuon eu gwybodau a'u hawen: a mwyaf ei orchest ar gerdd dafod y bernid Dafydd Nanmor, ac hefyd am ddefodau Llysoedd Tywysogion Cymru hyd ag a barant." Yr oedd fel bardd yn meddu ar allu awenyddol cryf, ac yn enwog gyda boneddigion ei wlad. Yn ol rhai, claddwyd ef yn Tŵr Gwyn ar Daf; ond yn ol eraill, yn Meddgelert.

Digitized by Google

DAVIES, DAVID, o Abertawe: pregethwr galluog a hyawdl yn mysg yr Annibynwyr. Ganwyd ef yn mhentref Llangeler, yn sir Gaerfyrddin, Mehefin 12fed, 1763. Cadwai ei rieni dafarndy bychan, ac ystyrid hwy yn bobl barchus, er nad oeddynt ond mewn amgylchiadau canolig; ac ymddengys yr arferent fyned yn achlysurol i eglwys y plwyf. Ni chafodd gwrthddrych y sylwadau hyn fwy o fanteision addysg nag oedd i'w cael ar y pryd yn ysgol y pentref; ac, fel y gellir meddwl, nid oedd y manteision hyny yn rhai rhagorol. Modd bynag, dysgodd ddarllen ac ysgrifenu ychydig; a bu hyny yn ddiau o gymmhorth dirfawr iddo ar ol hyn. Nid oedd, dybygid, yn y tafarndy bychan lle y magwyd ef, yn cael nemawr o fanteision crefyddol; ond ryw fodd neu gilydd ymddengys iddo deimlo argraphiadau crefyddol yn foreu. Dywedir yr arferai, er yn blentyn, ofyn bendith ar ei fwyd mewn modd hynod o ddefosiynol a phriodol, a hyny pwy bynag fyddai yn y tŷ yn ei weled a'i glywed; ac i'w dad hefyd, ar un achlysur, ei glywed yn gweddïo dros ei rieni yn nghysgod rhyw lwyn neillduedig. Ni wyddys pa hyd y parhaodd yr argraphiadau hyn; ond y mae yn debygol eu bod wedi gwanhau i raddau, a rhoddi y ffordd i demtasiynau ieuengetid. Priododd, cyn bod yn ugain oed, gydag un o'r enw Jane Evans; yr hon oedd o'r un gymmydogaeth ag yntau, a thua blwyddyn yn ieuengach nag ef, a'r hon a fu yn briod ac yn fam ragorol. Yn fuan ar ol hyny, efe a ymunodd â'r eglwys Ymneillduol yn Penrhiw—i'r hon y pryd hwnw yr oedd yr enwog David Davies, o Gastell-hywel, yn weinidog. Y mae yn ymddangos i'r clodfawr Christmas Evans ymuno â'r eglwys yn agos yr un amser ag ef. Ni bu yn cyfranogi o Swper yr Arglwydd ond unwaith gyda'r brodyr yn Penrhiw. Yr oedd ei argyhoeddiad mor ddwfn a chyffrous. nes y bu yn mron yn ymyl gwallgofi; ac ychydig o gyfarwyddyd a chysur i un yn ei amgylchiadau ef a dderbyniai oddi wrth ei frodyr yn Mhenrhiw, y rhai oeddynt yn fwy hynod am eu cywreingarwch a'u hysbryd beirniadol a dadleugar, nag am eu medrusrwydd i arwain un oedd yn yr amgylchiadau yr oedd Mr. Davies ynddynt i gael esmwythâd a thawelwch i'w feddwl trallodus. Yn ffodus, yn y cyfamser, digwyddodd fyned i wrandaw ar Mr. Perkins, gweinidog yr Annibynwyr yn Mhen-cadair; ac o dan weinidogaeth efengylaidd y gŵr hwnw, cafodd dawelwch i'w feddwl clwyfus, ac ymunodd â'r eglwys yn y lle hwnw. Gan hyny, gwelir iddo ef fwrw ei goelbren gyda'r Annibynwyr, tra y darfu i Christmas Evans ymuno â'r Bedyddwyr. Daeth eglwys Pen-cadair i ganfod yn fuan ei fod yn meddu ar wybodaeth eang, a phrofiad dwfn, a llawer o gymmhwysderau i bregethu yr efengyl; ac annogwyd ef i arfer ei ddawn yn gyhoeddus —ac â hyn y cydsyniodd yntau. Mewn bwthyn bychan yn mhlwyf Llangeler, lle y trigiannai dilledydd, y traddododd efe ei bregeth gyntaf; a ffaith lled hynod ydyw, mai yn yr un tŷ, ac yn ystod yr un wythnos, y darfu i Christmas Evans hefyd draddodi ei bregeth gyntaf.

Dechreuodd Mr. Davies bregethu naill ai yn 1784 neu 1785. Aeth yn boblogaidd yn fuan, ac ymgasglai torfeydd mawrion i wrando arno; canys daeth ei allu a'i ddoniau anarferol i'r golwg cyn pen ychydig. Wedi bod yn pregethu yma a thraw am rai blynyddoedd, derbyniodd alwad i fod yn gydweinidog â Mr. John Lewis, yn y Dre-fach, ger llaw Llangeler; a neillduwyd ef i'r swydd yn 1790. Wrth gwrs, ni chafodd Mr. Davies addysg athrofaol, gan fod gofalon teuluaidd yn ei luddias i fyned i'r coleg. Ymddengys mai lled aflwyddiannus oedd gweinidogaeth Mr. John Lewis wedi bod, yn gymmaint ag nad oedd yr eglwys yn y Dre-fach, pan neillduwyd Mr. Davies yn gydweinidog âg ef, yn cynnwys ond tua deuddeg o aelodau; ac nid oedd y rhai hyny yn ymlyngar iawn wrth y lle, gan eu bod yn bwriadu ymuno âg eglwysi eraill. Ond yn fuan ar ol sefydliad Davies yn eu mysg, daeth yr achos yno i wisgo gwedd newydd. Yr oedd y gynnulleidfa a'r eglwys yn lliosogi; a chyn pen dwy flynedd, bu raid helaethu y capel, gan fod yr hen un yn rhy fychan i gynnwys y gynnulleidfa. Ni chyfyngodd Davies ei lafur i'r Dre-fach a'r gymmydogaeth, ond dechreuodd weinidogaethu un Sabbath o bob mis yn y Neuadd-lwyd, a Sabbath arall yn Gwernogle; a bu yn foddion i gasglu ynghyd gynnulleidfaoedd ac eglwysi rhagorol yn y lleoedd hyny. Yr oedd ei weinidogaeth dan lyd a seraphaidd nid yn unig yn effeithio yn fawr ar y cymmydogaethau yr oedd yn llafurio yn uniongyrchol ynddynt, ond teimlwyd ei ddylanwad hefyd ar y weinidogaeth yn mhlith yr Annibynwyr trwy lawer o siroedd, ac yn enwedig yn y Deheudir, trwy ei bod wedi rhoddi tôn newydd iddi.

Yn 1795, efe a dderbyniodd alwad oddi wrth eglwysi y Mynydd-bach a'r Ysgetty, yn ardal Abertawe, i fod yn olynydd i'r hybarch Lewis Rees; ac â'r alwad hon cydsyniodd yntau. Yn maes newydd ei weinidogaeth, ymroddodd Mr. Davies i lafurio gydag egni ac ymroad chwanegol. Yr oedd cylch ei weinidogaeth yn bwysicach yn awr nag o'r blaen, yn gymmaint a bod yr ardaloedd newydd y llafuriai ynddynt yn llawer mwy poblog. Yr oedd tref Abertawe heb un eglwys Annibynol ynddi, gan fod yr un a fuasai yno gynt, er's mwy na thrigain mlynedd wedi troi yn Ariaidd. Penderfynodd yntau wneyd ei ran i blanu eglwys yno, a dechreuodd bregethu mewn ystafell ardrethol yn heol y Castell. Ni bu yn pregethu ynddi ond am ychydig fisoedd na welwyd fod y lle yn myned yn rhy gyfyng; a phenderfynwyd adeiladu capel eang yn y lle, a galwyd ef yn Ebenezer. Casglodd ynghyd yno eglwys a chynnulleidfa liosog, a bu yn weinidog yn Mynydd-bach, Ysgetty, Treforris, ac Ebenezer, hyd 1808; pan gymmerodd Mr. Daniel Evans ofal eglwysi y Mynydd-bach a Threforris, ac y cyfyngodd yntau ei weinidogaeth i Abertawe a'r Ysgetty.

Nid oedd terfyn i lafur y gŵr rhagorol, a'r pregethwr hyawdl hwn, nid yn unig yn nghylch ei weinidogaeth gartrefol, ond yn agos ac yn mhell, canys teithiodd lawer trwy Ogledd a Deheudir Cymru; ac yn mhob man yr oedd ei ddoniau melus, a'i bregethau galluog a brwdfrydig, yn dwyn tyrfaoedd mawr i'w wrando. Pan ar ei deithiau pregethai ddwy a thair gwaith y dydd fel rheol; a thrwy ei weinidogaeth ymmus bu yn foddion i adfywio llawer o achosion adfeiliedig ac i blanu rhai newyddion mewn amryw ardaloedd. Yr oedd ei lafur yn ddiammheuol yn ddirfawr. Tua'r flwyddyn 1800, aeth i Lundain gyda'r amcan o ymberffeithio yn yr iaith Saesonig, ac i bregethu i'r miloedd hyny o'i gydgenedl, y Cymry, oedd yn cael eu hesgeuluso yn y ddinas. Ymroddodd i lafurio a phregethu gyda nerth a dylanwad anghyffredin; ymgasglai torfeydd lliosog o Gymry i

Digitized by Google

wrando arno; ac er na bu yno y pryd hwn ond pedwar mis, llwyddodd i roddi cychwyniad effeithiol i achosion Cymreig yn Southwark, Deptford, a Woolwich. Yr oedd yn llawn o ysbryd cenhadol. Efe ydoedd un o'r rhai blaenaf yn Nghymru i bleidio achos y Gymdeithas Genhadol: yn ei gapel ef yn Abertawe y cynnaliwyd y cyfarfod cenhadol cyntaf a fu yn y Deheu, yn y flwyddyn 1814, pryd yr oedd yn bresennol yr enwogion Mr. Matthew Wilks, a Mr. Tracy, ysgrifenydd Cymdeithas Genhadol Llundain, yn nghyd â'r rhan fwyaf o weinidogion y Deheudir. Areithiai yn danbaid o blaid y genhadaeth; a dywedai y diweddar Mr. Griffiths, cenhadwr i Madagascar, mai wrth wrandaw Mr. Davies yn areithio ar yr achos hwn y cynnhyrfwyd ei feddwl ef gyntaf i beri iddo benderfynu myned yn genhadwr at y paganiaid. Dyn gweithgar anghyffredin oedd efe yn mhob cylch cyhoeddus. Teimlai yn selog iawn yn achos talu dyledion addoldai, a thraddododd anerchiad grymus ar yr achos, yr hon a gyhoeddwyd gyda hanes gweithrediadau Cymmanfa Mynydd-bach, yn 1815. Yr oedd yn cynnyg cynllun i gyrhaedd yr amcan, a diau, pe y cawsai fyw ychydig yn hwy, y buasai yn llwyddo i gario allan ei gynllun. Dywedir na ddarfu iddo, yn ystod tymmor ei weinidogaeth, sef chwe blynedd ar hugain, dderbyn dim llai na dwy fil yn aelodau i'r eglwysi oedd dan ei ofal, a diammheu iddo fod yn offeryn i argyhoeddi llawer yn nghwrs ei weinidogaeth achlysurol rymus ar ei deithiau aml. Erbyn hyn, er ei fod yn ddyn yn meddu ar gorph cryf a chyfansoddiad cadarn yn naturiol, yr oedd gorlafur yn dechreu effeithio yn ddifrifol ar ei iechyd cyffredinol, tra nad oedd efe etto ond yn nghanol ei ddyddiau. Yn niwedd 1815, a dechreu 1816, teimlai fod ei nerth yn dadfeilio. Yn nghymmanfa Gwynfe, swydd Gaerfyrddin, yn mis Mehefin, y flwyddyn olaf a nodwyd, y pregethodd efe am y tro diweddaf mewn cyfarfod cyhoeddus, ac yr oedd effeithiolrwydd mawr yn ei bregeth, er nad oedd yn gallu ei thraddodi gyda'i egni a'i nerth arferol. Ac ar ddiwedd y bregeth, efe a ganodd yn iach â'i frodyr yn y weinidogaeth, a'r dorf yn gyffredinol, mewn modd hynod doddedig, hyd oni ymgyfarfyddent yn nghymmanfa "y rhai cyntafanedig." Pregethodd am ychydig fisoedd yn hwy i'w gynnulleidfaoedd gartref; ond gwaelu yr oedd—ac yn mis Hydref, 1816, cafodd ddyrnod drom yn marwolaeth ei anwyl briod, yr hyn oedd yn golled ddirfawr iddo. Yr oedd yn derbyn tri ar ddeg o aelodau newyddion at fwrdd yr Arglwydd yn Ebenezer y Sabbath olaf y bu fyw, pryd y rhoddodd anerchiad oedd yn toddi pob calon. Bu farw mewn tawelwch a hyder y dydd Iau canlynol, sef Rhagfyr 26ain, 1816, yn 53ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am o 31ain i 32ain o flynyddoedd. Gadawodd chwech o blant ar ei ol; a bu dau o'i feibion yn y weinidogaeth; sef, y Parchn. D. Davies, Stoke Bishop, a J. Davies, Homerton, Llundain.

Ni raid petruso rhestru Mr. Davies yn un o bregethwyr blaenaf Cymru yn ei ddydd. Arferai y diweddar hybarch D. Williams, o Troedrhiwdalar, ddywedyd nad adwaenai efe neb i'w gyffelybu gydag ef am hyawdledd, oddi eithr Robert Roberts, Clynnog. Dywed y Parch. Dr. Rees, Abertawe, yn ei "*Nonconformity in Wales*," fel y canlyn am dano:—

"Yn mysg nifer o areithwyr penigamp, oedd yn addurn i'r areithfa Gymreig yn mhlith yr Anghydffurfwyr, hanner cant a thrigain mlynedd yn ol, yr oedd David Davies, o Abertawe, yn meddu lle amlwg. Mewn rhai ystyriaethau rhagorai ar ei holl gydoeswyr enwog. Dywed bonedawr, a gofiai yn dda am effeithiau ei hyawdledd, fod y dylanwad a ddilynai ei weinidogaeth yn hynod iawn. Yr oedd seiniau peroriaethus ei lais yn cynnyrchu argraph ryfeddol. Fel y gwresogai yn ei bwngc, dymunol fyddai sylwi ar wynebau deawydd y dorf a'i gwrandawai, a chasglu oddi wrth eu hedrychiad y mwynhâd a deimlent. Yn fuan clywid gwaeddiadau dolefus, yn amlygu y teimlad dyfnaf; ac yn weithredol chwarddai rhai trwy eu dagrau. Y mae cannoedd yn awr yn fyw a allant ddwyn tystiolaeth i gywirdeb yr adroddiad hwn. Nid ydym i ddeall, pa fodd bynag, ei fod yn ymhyfrydu mewn dywedyd pethau ysmala yn y pulpud. Yr oedd yr effaith a gynnyrchid ganddo yn wastad yn un o'r fath fwyaf difrifol. Yr oedd goslef a thôn ei lais, pan yn desgrifio buddugoliaethau a gogoniant y Gwaredwr, a gwynfydedigrwydd y saint, y fath fel nad oedd yn bossibl eu hanghofio. Yn wir, yr oedd peroriaeth ei lais yn ddigon i gadw sylw y mwyaf diofal; a phan yr oedd y llais perseiniol hwnw yn cael ei ddefnyddio i gyhoeddi athrawiaethau gogoneddus yr efengyl yn eu holl gyflawnder a'u gwerth, ni raid rhyfeddu at yr effeithiau rhyfeddol a gynnyrchai ei weinidogaeth gyffrous ar y gwrandawyr."

Er mai fel pregethwr yr oedd David Davies yn enwog iawn, ac mai yn y gwaith o bregethu y Ceidwad i'w gydwladwyr yr oedd ei hyfrydwch penaf, yr oedd yn awdwr hefyd. Ond y penaf o'i weithiau oedd ei "*Beibl Teuluaidd*," gyda sylwadau eglurhaol ar bob pennod. Bu farw yr awdwr cyn cwbl orphen y gwaith hwn, a chwblhawyd ef gan y Parch. D. Davies, Pantteg, trwy orphen y sylwadau ar rai o'r epistolau, a Llyfr y Datguddiad. Cyfansoddodd Mr. Davies amryw ugeiniau o emynau Cymreig, ac y mae rhai o honynt yn rhagorol.

DAVIES, DAVID, o Gastell-hywel: llenor a bardd rhagorol. Ganwyd ef yn y Goitre Isaf, Llangybi, swydd Aberteifi, Chwefror 14eg, 1745. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, ac mewn undeb â'r Annibynwyr yn y Cilgwyn pan oedd yr eglwys o dan ofal gweinidogaethol Phylip Pugh; ac yr oeddynt yn ofalus iawn am ddwyn eu plant i fyny, fel hwythau, i barchu crefydd a'i hordinhadau. David Davies oedd yr hynaf o saith o blant; ac un o honynt oedd y Dr. Benjamin Davies, yr hwn am ryw gymmaint o amser a fu yn arolygwr coleg Caerfyrddin, mewn cyssylltiad â'r Parch. R. Gentleman, ac wedi hyny yn weinidog i'r Undodiaid yn Evesham—ac yno y terfynodd efe ei oes. Yr oedd ei rieni yn medru gwerthfawrogi addysg, ac yn awyddus am i'w plant gael addysg dda; ac o ran eu hamgylchiadau hefyd yn gallu fforddio rhoddi i'w plant addysg felly. Dodwyd David mewn ysgol yn Leominster, dan ofal y Parch. Joshua Thomas, yr hwn oedd berthynas iddo; ac wedi hyny symmudwyd ef i Lan-y-byther, dan ofal Mr. D. Jones. Pan oedd tuag un ar bymtheg oed, aeth i Langeler, dan addysg y Parch. T. Lloyd, ficer Ponboyr; ac arosodd yn y lle am dair blynedd. Wedi hyny, treuliodd tua phedair blynedd yn athrofa Caerfyrddin, pan oedd o dan arolygiaeth Dr. Jenkin Jenkins. Daeth ei alluoedd a'i dalentau i'r golwg yn amlwg yn ystod yr amser hwnw. Yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, yn mherthynas i'w deimladau crefyddol, efe a ddywed mai gweddiau ei dad, pan yn cyflawni y ddyledswydd deuluaidd, a'i deffrodd gyntaf; a dywed yr arferai fyned ar ei liniau i weddio

Digitized by Google

wrtho ei hun ar hyd y meusydd pan yn wyth neu yn naw mlwydd oed. Dyfnhawyd argraphiadau crefyddol ar ei feddwl tra yr oedd yn y coleg yn Nghaerfyrddin; a'r pryd hwnw, y mae yn ymddangos, y dechreuodd bregethu. Pan ar ymadael o'r athrofa, yr oedd dwy eglwys wedi rhoddi galwad iddo i weinidogaethu yn eu mysg; sef, eglwysi Llanedi, swydd Gaerfyrddin, ac eglwysi Ciliau Aeron, a'r Cilgwyn, yn swydd Aberteifi. Dewisodd yntau y maes diweddaf i lafurio ynddo. Ac yma yr arhosodd efe hyd ddiwedd ei oes. Yn 1775, priododd gyda Miss Anne Evans, o'r Foel-allt, Ciliau Aeron, gyda'r hon y bu fyw yn ddedwydd; ac yn fuan ar ol priodi, gwnaeth ei drigfod yn Nghastell-hywel, yn mhlwyf Llandyssul; ac yno y preswyliodd hyd derfyn ei yrfa.

O berthynas i'w olygiadau duwinyddol, a'i ddaliadau crefyddol, hwyrach y byddai yn anhawdd penderfynu beth oeddynt hyd sicrwydd, yn gymmaint ag nad oedd efe ei hunan, o herwydd rhyw resymau, yn teimlo parodrwydd i'w gwneuthur yn eglur. Mynai rhai ei fod yn Arminiad, ac eraill ei fod yn Ariad, os nad yn Undodwr. Pa fodd bynag, y mae yn ymddangos fod rhyw lacrwydd yn ei olygiadau, o herwydd, mewn llythyr at gyfaill, efe a ddywed:—"Yr wyf yn berffaith dawel yn fy meddwl fy hun y dichon fod y Dr. Priestley, ac eraill o'i blaid, yn ddynion da, ac yn Gristionogion gwirioneddol. Yr wyf o'r un farn hefyd am John Calvin, a Dr. Crisp, a'u dysgyblion hwythau. Eisteddwn yn ddedwydd mewn cymmundeb gyda hwynt, yn y gobaith gwynfydedig o fod yn eu cymdeithas dros byth yn y nefoedd." Er nas gellid ei ystyried ef yn bregethwr hyawdl, yr oedd, pan y cynnhyrfid ef gan ei bwngc, yn ymylu ar fod yn hyawdl; ac yr oedd ei bregethau yn fynych yn amlygu dyfnder ei deimladau, a thynerwch ei natur. Yr oedd arwyddion o'i ddysgeidiaeth eang i'w gweled yn ei bregethau, yn gystal ag yn ei weithiau barddonol. Nid hir, ar ol gwneyd ei gartref yn Nghastell-hywel, y bu efe heb agor ysgol yno, yr hon a aeth yn fuan yn gyrchfan i lawer o ddynion ieuaingc o bob cwr o'r Deheudir, ac amryw fanau yn y Gogledd, ac o Loegr hefyd, oedd yn ymofyn addysg glasurol; a chyfododd llawer o honynt i sefyllfaoedd uchel yn y byd a'r eglwys. Ystyrid ei ysgol ef yn un o'r rhai goreu, os nad y rhagoraf yn Nghymru ar y pryd. A phan bennodwyd Dr. Horsley yn esgob Tŷ Ddewi, gweloedd y gŵr hwnw ar unwaith mai gweinidog Anghydffurfiol oedd yr ysgolfeistr mwyaf llwyddiannus yn ei esgobaeth; ac nid oedd hyny wrth ei fodd. Er dangos ei anfoddlonrwydd, gwnaeth yn hysbys nad oedd efe yn bwriadu urddo neb o ysgolheigion Davies. Er y dichon fod ymddygiad yr esgob yn y peth hwn—ymddygiad, wrth gwrs, nas gellir ei gymmeradwyo—wedi effeithio rhyw gymmaint i niweidio yr ysgol, yr oedd cymmeriad yr athraw ac effeithiolrwydd yr ysgol yn gyfryw nad oedd y niwed yn un pwysig. Ymddengys, heb law bod yn ddysgedig ei hun, fod Mr. Davies yn meddu ar gymmhwysderau rhagorol i gyfranu addysg i eraill. Dysgyblwr llym a manwl ydoedd, fel llawer o ysgolfeistri y dyddiau hyny.

Nid oes y gradd lleiaf o ammheuaeth nad oedd efe yn ddyn o dalent a medr mawr; etto, nid llawer o gynnyrchion rhyddieithol sydd genym o'i ysgrifell. Yn wir, nid ydys yn gwybod ond am ddau ddernyn:—un a gyfieithwyd ganddo mewn afiechyd, pan yn bedair ar hugain oed, sef traethawd Scougal ar "Fywyd Duw yn Enaid Dyn;" a'r llall yn erthygl Saesnig o'i waith, a ymddangosodd yn yr "*Analytical Review,*" yn cynnwys math o feirniadaeth ar weithiau Dafydd Ab Gwilym. Yn "*Telyn Dewi,*" yr hwn a gyhoeddwyd ganddo yn 1822, y ceir ei weithiau barddonol gwreiddiol, ynghyd â llawer o gyfieithiadau o farddoniaeth Saesnig; ac y mae yn y gyfrol fwy o gyfieithiadau nag o gyfansoddiadau gwreiddiol; a diammheu ei fod yn rhagori yn fawr fel cyfieithydd barddonol, fel y prawf ei gyfieithiad o Gray's "*Elegy in a Country Churchyard*" mewn modd arbenig. Ystyrir fod hwn yn un o'r cyfieithiadau goreu sydd yn yr iaith Gymraeg, ac ni phetrusai rhai ddyweyd ei fod yn well na'r gwreiddiol.

Yr oedd Mr. Davies yn ddyn caredig a chymmwynasgar anarferol, ac yn ofalus hynod am deimladau pobl eraill. O bossibl na bu yr elfen ddiweddaf yn ei gymmeriad yn un achos i beri iddo gadw ei syniadau crefyddol ar byngciau dadleuol mor guddiedig, fel na chyffyrddai â hwynt yn mron yn ei bregethau, rhag y buasai ei olygiadau yn ymddangos yn rhy ffafriol i Ariaeth neu Undodiaeth, ac y rhoddasai felly boen i'w gyfeillion crefyddol anwylaf. Yr oedd dau o feibion Mr. Davies yn y weinidogaeth yn mhlith yr Undodiaid:—Mr. D. Davies yn Nghastellnedd, a Mr. Timothy Davies yn Evesham. Bu farw y pregethwr dymunol, yr ysgolhaig gwych, a'r bardd a'r llenor coeth hwn, ar y 3ydd o Orphenaf, 1827, wedi cyrhaedd yr oedran teg o 83ain mlwydd.

**DAVIES, GRIFFITH, F.R.S.:** un o ar-rifyddion (*actuaries*) enwocaf y Deyrnas Gyfunol. Ganwyd ef wrth odrau mynydd y Cilgwyn, yn mhlwyf Llandwrog, ger llaw Caernarfon, ar yr 28ain o Ragfyr, 1788. Yn un o'r cloddfeydd cyfagos yr oedd ei dad, Owen Dafydd, yn arfer gweithio, ac yr oedd ganddo deulu lliosog; ond yr oedd yn ddyn diwyd a gonest, a bu farw yn 93ain mlwydd oed, yn 1854. Cymmerodd ei dad ei fachgen, Griffith, gydag ef i'r gloddfa pan oedd yn bur ieuangc—naw neu ddeg oed. Ychydig amser y bu mewn ysgol ddyddiol cyn hyny; ond teimlai ei hun yn wastad yn dra dyledus i'w athraw yn yr Ysgol Sabbothol am ei gyfarwyddiadau. Erbyn ei fod tua dwy ar bymtheg oed, yr oedd wedi gallu rhoddi heibio ychydig arian, a defnyddiodd hwynt i fyned dan addysg Mr. Evan Richardson i Gaernarfon—er dysgu Saesneg, rhifyddiaeth, &c. Dyna'r pryd y daeth efe ei hun yn ymwybodol, ac y daeth ei athraw, ac eraill a ddeuent i gyffyrddiad âg ef i weled, fod ynddo allu nodedig mewn rhifyddiaeth. Yna aeth yn ol i'r gloddfa, neu y chwarel, ond ymhyfrydai mewn rhifyddiaeth yn fawr o hyd, a synai ei gyfeillion drwy ei waith yn gwneyd pethau tywyll mewn rhifyddiaeth yn eglur. Penderfynodd y mynai ddeall mwy o Saesneg er mwyn ymgodi yn y gloddfa os oedd bossibl; ac i'r dyben hwnw aeth i Lundain cyn bod yn llawn un ar hugain oed. Yn gymmaint ag nad oedd yn ei feddwl ar y pryd amcan uwch na'r un a nodwyd, ni fwriadai aros yn y brifddinas yn hir. Yr oedd yn hollol ddyeithr yn y ddinas fawr; ac fel llawer eraill, bu yn cerdded o gwmpas o fan i fan am ddyddiau, ac yn methu cael dim i'w wneyd. Ond cafodd rhyw genadwri wrth ymadael o Gymru i'w chario at Gymro oedd yn Llundain, ac yn is-athraw mewn ysgol yno. Fel yr oedd yn naturiol iddo ef o dan yr

Digitized by Google

amgylchiadau, dywedodd ei hanes wrth y gŵr. Cynghor hwnw iddo oedd, myned i ryw ysgol i ddysgu yr iaith Saesnig; a chymmerodd yntau yr awgrym. Aeth i ysgol; ac yn y flwyddyn ddilynol, cymmerodd le yn is-athraw mewn ysgol. Agorodd ysgol ei hun yn 1811, a phriododd yn 1812. Yn mhen dwy flynedd wedi hyny, cyhoeddodd ei "*Key to Bonnycastle's Trigonometry*," yr hwn sydd yn cynnwys ymofynion i rai o ymchwiliadau dyfnion serydd-iaeth. Erbyn hyn yr oedd ei glod yn dechreu ymledu, a'i ysgol yn cynnyddu. Dechreuodd yntau astudio egwyddorion blwydd-daliadau (*annuities*) yn drwyadl, a daeth ei glod yn adnabyddus yn Llundain. Yn mysg eraill a ymgododd i enwogrwydd a fuont yn ei ysgol, gellir enwi Syr John Franklin, y môr-deithiwr enwog. Rhoddodd yr ysgol heibio yn 1822, ac yn 1825 cyhoeddodd lyfryn bychan a gyfansoddodd ar "*Life Contingencies*," &c. Cyfansoddodd hefyd ac argraphodd gyfran o waith mawr ar flwydd-daliadau; ond ni chafodd hamdden i'w orphen. Yr oedd gorchwylion Mr. Davies dros Gwmni yr India Ddwyreiniol, Ariandy Lloegr, a sefydliadau o'r fath, yn cymmeryd ei amser yn mron yn gwbl. Yr oedd ei enw erbyn hyn wedi dyfod yn uchel ac yn anrhydeddus. Etholwyd ef yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol yn 1831; ac wedi hyny yn gymmrawd o Gymdeithas Ystadegol Ffraingc; a pharhaodd ei fedrusrwydd fel rhifyddwr a mesuronydd i ddyfod i'r golwg yn fwy o hyd.

Ond er ei fod yn llawn gwaith gyda'i orchwylion bydol, nid oedd yn esgeuluso pethau pwysicach. Yr oedd yn ddyn o ysbryd gwir grefyddol. Ymunodd gyda'r Methodistiaid Calvinaidd, a ymgynnullent y pryd hwnw yn Wilderness Row, yn mhen ychydig fisoedd ar ol myned i Lundain, a pharhaodd yn ffyddlawn hyd y diwedd. Bu am flynyddoedd lawer yn flaenor gweithgar. Ymhyfrydai yn fawr yn nghyfeillachau y saint, ac yr oedd ei hoffder yn fawr at dŷ yr Arglwydd. Darllenai lawer ar Air Duw, a gweddiai lawer wrtho ei hun; ac nid oedd neb yn fwy cysson gyda'r ddyledswydd gartref nag efe. Cafodd gystudd maith yn ei ddiwedd, a bu farw Mawrth 21ain, 1854, yn y 66ain mlwydd o'i oedran.

DAVIES, JOHN PHILIP, o Dredegar. Gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr. Mab oedd efe i glerigwr Bangor a Henllan, yn swydd Aberteifi, a ganwyd ef Mawrth 12fed, 1786. Dywedir ei fod wedi mabwysiadu golygiadau y Bedyddwyr wrth ddarllen y llyfrau oedd yn myfyrgell ei dad, cyn bod yn sicr a oedd y fath enwad a'r Bedyddwyr yn bod. Ymunodd â'r enwad hwnw yn foreu, a dechreuodd bregethu pan yn ieuangc. Nid oedd efe ond ieuangc pan briododd, a chollodd ei wraig trwy farwolaeth yn mhen llai na blwyddyn. Cymmerodd daith trwy y Gogledd; ac yn mhlith manau eraill, ymwelodd â Threffynnon, a derbyniodd alwad oddi wrth yr ychydig gyfeillion oedd yno i fod yn weinidog iddynt; ac yno y neillduwyd ef i'r weinidogaeth yn 1810, a dywedir mai efe oedd y gweinidog cyntaf a fu gan y Bedyddwyr yn sir Fflint.

Nid hir iawn y bu efe yn Nhreffynnon; canys symmudodd i Liverpool, i gymmeryd gofal eglwys y Bedyddwyr Cymreig yn y dref hono. Priododd yr ail waith gydag un o deulu cyfrifol yn sir Fflint; ond y mae yn ymddangos nad oedd ei wraig yn digwydd meddu ar dymmer lariaidd, nac o dueddiadau cynnil—ond yn hytrach i'r gwrthwyneb, ac i hyny fod yn gryn brofedigaeth a blinder iddo. Symmudodd o Liverpool i Lundain; a bu yn llafurio yn mysg y Cymry yno am beth amser. Ei symmudiad nesaf oedd i Llanyferi a Chydweli, yn sir Gaerfyrddin. Tra yr oedd yn y lle diweddaf y dechreuodd ei fywyd fel llenor. Y peth gyntaf a wnaeth yn y ffordd hon oedd cyfieithu a chyhoeddi "*Esboniad Andrew Fuller ar y Dadguddiad.*" Cafodd alwad oddi wrth eglwys y Bedyddwyr yn Nhredegar yn y fl. 1818; a chydsyniodd yntau, ac ymsefydlodd yno. Er fod yr eglwys ar y pryd yn rhifo dros ddau cant o aelodau, etto nis gellir ystyried fod yr achos yn flodeuog, yn gymmaint a bod yr aelodau yn hynod wasgaredig drwy y cymmydogaethau o amgylch i gryn bellder—tua Sirhowy, Rhymni, Pen-y-cae, &c. Daliodd ei boblogrwydd yn Nhredegar yn wyneb llawer o anfanteision. Yn un peth yr oedd llawer o weinidogion y Bedyddwyr yn y Deheudir yn Galviniaid lled uchel, ac yr oedd Mr. Davies wedi mabwysiadu golygiadau Fulleraidd; ac o blegid hyny, yr oedd drysau llawer o gapeli ei enwad ef ei hun yn gauedig yn ei erbyn. Blinid ef hefyd, fel yr awgrymwyd o'r blaen, gan ei wraig; yr hon oedd o dymmer anhywaith, ac yn hynod wastraffus—yr hyn a'i harweiniasai i ddyledion, oni buasai fod cyfeillion yn ei waredu allan o'i helyntion. Yr hyn a chwanegai at ei drallodion hefyd oedd gwaeledd ei iechyd, yr hyn a'i hanalluogai yn fynych am wythnosau a misoedd i bregethu. Ond yn wyneb y cwbl yr oedd yn hynod dawel, a'i dduwioldeb, ei serchogrwydd, a'i siriolděb, ynghyd â hylithrwydd swynol ei ddawn pregethwrol yn ennill serch a chydymdeimlad cyffredinol.

Yr oedd Mr. Davies yn llenor rhagorol. Ysgrifenodd lawer i'r "*Seren Gomer*," yn enwedig yn amser y ddadl ar Fulleriaeth, a ddygwyd yn mlaen ar ddalenau y misolyn hwnw yn y blynyddoedd 1822—23. Ysgrifenai yn y ddadl hon o dan yr enw "Mab Dewi Ddu." Yr oedd yn Gymro selog, ac yn deall y Gymraeg yn dda. Yr oedd yn ei fryd ddwyn allan Eirlyfr Cymraeg; ond ni chwblhaodd efe yr amcan hwnw. Rhagorai yn fawr fel pregethwr, ac yr oedd dylanwad ei bregethu yn amlwg ar y weinidogaeth yn mysg y Bedyddwyr yn y Deheu. Bu farw ar y 23ain o Awst, 1832, yn 46ain mlwydd oed. Cyhoeddwyd cyfrol o'i eiddo, dan y teitl o "*Draethodau Duwinyddol*," ar ol ei farwolaeth, dan arolygiaeth ei gyfaill, y Parch. D. R. Stephen: ac yn y traethodau hyn canfyddir ei fod yn ddyn o alluoedd a medrusrwydd mawr.

DAVIES, JOHN, Caerdydd: gweinidog a phregethwr rhagorol gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn Myddfai, yn swydd Gaerfyrddin, Mai 1af, 1823. Arferai fynychu y cyfarfodydd crefyddol yn mysg yr Annibynwyr er yn blentyn; a phan yn y ddeuddegfed flwydd o'i oedran, derbyniwyd ef i gymmundeb yr eglwys yn ei blwyf genedigol. Yr oedd yr eglwys hono ar y pryd o dan ofal bugeiliol y Parch. D. Davies, o Sardis—un o'r pregethwyr mwyaf doniol yn Nghymru yn ei ddydd. Pan yr oedd Davies yn ei bymthegfed flwydd, symmudodd i Defynog, yn swydd Frycheiniog, mewn trefn i ddilyn ei alwedigaeth. Mor fuan ag yr ymsefydlodd efe yn y gymmydogaeth hono, efe a ymunodd a'r

eglwys yn y Brychgoed, oedd dan ofal y Parch. J. Stephens; ond nid hir y bu Stephens heb sylwi fod yn y gwehydd ieuangc ddefnydd dyn mawr a defnyddiol. Ar ddymuniad y gweinidog a'r eglwys, efe a ddechreuodd bregethu yn fuan ar ol gadael ei un ar bymtheg oed. Cafodd gynnorthwy ychydig gyfeillion Cristionogol caredig i fyned i ysgol ragbarotoawl yn Hanover, yn sir Fynwy. Yn 1842 derbyniwyd ef i Goleg Aberhonddu; ac arosodd yno am yr ysbaid o bedair blynedd, pryd y derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys yn Llanelli, yn swydd Frycheiniog, i fod yn weinidog iddi; ac ordeiniwyd ef yno yn mis Awst, 1846. Daeth ei awydd didor am weithio i'r golwg yn fuan yn y lle hwn: adeiladodd yno ddau ysgoldy, lle y sefydlodd ddwy o ysgolion Sabbothol ac ysgolion dyddiol. O dan ei weinidogaeth fywiog, dechreuodd yr eglwys a'r gynnulleidfa adfywio yn fuan. Yna gwelwyd fod Llanelli yn lle rhy gyfyng i'w dalentau a'i ymroddiad; ac mewn cydymffurfiad a chynghor ei gyfeillion, derbyniodd yr alwad a gafodd oddi wrth yr eglwys yn Aberaman i fod yn weinidog iddi, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yno yn y flwyddyn 1854. Nid oedd yr eglwys yn Aberaman ar y pryd ond cymmharol fechan; ac yr oedd hefyd mewn sefyllfa lled wywedig, a'r capel o dan faich o ddyled. Nid hir, pa fodd bynag, y bu Mr. Davies yn y lle na ddaeth ei weithgarwch i'r golwg; ac mewn llai na dwy flynedd yr oedd y rhan fwyaf o'r ddyled wedi ei thalu, a'r capel wedi ei helaethu ar draul o yn agos i fil o bunnau. Bu yn offeryn hefyd i adeiladu capel newydd yn Nghwmaman, ac aeth deg ar hugain o aelodau yr eglwys yn Aberaman i ffurfio eglwys newydd yn y lle hwnw. Yn fuan wedi hyny ffurfiwyd cangen eglwys arall yn Abercwmboy. Yr oedd ganddo ran flaenllaw hefyd yn ffurfiad yr eglwys Saesnig yn Aberdar. Naw mlynedd y bu yn Aberaman; ond teimlodd yr holl ardal boblogaidd hono ei ddylanwad i raddau pell iawn.

Yn 1863, ar daer ddymuniad yr eglwys yn Mount Stuart, Caerdydd, efe a symmudodd i gymmeryd gofal yr eglwys hono. Nid oedd yr eglwys yno ond bechan—gyda dyled o 500*p.* ar y capel. Helaethwyd y capel yn ddioed trwy osod oriel ynddo; ond talwyd y draul hono, ynghyd â'r ddyled flaenorol, yn mhen tua dwy flynedd. Dechreuodd Mr. Davies achos Saesneg mewn ystafell yn heol Patrick, a ffurfiwyd eglwys yn y lle yn fuan. Adeiladwyd capel i'r eglwys ieuangc hono yn Hannah Street, ac yr oedd yr holl draul yn agos i 5,000*p.*; ac yn mis Gorphenaf, 1863, efe a roddodd ofal yr eglwys Gymreig i fyny, i weinidogaethu yn nghapel Hannah street. Cliriwyd ymaith draul y capel hwn hefyd o'r bron i gyd cyn marwolaeth Mr. Davies—yr hyn a gymmerodd le ar yr 8fed o Fai, 1874, yn 51ain mlwydd oed. Hebryngwyd ef i'w fedd yn nghladdfa Caerdydd gan dyrfa anarferol o liosog a galarus.

Dyn bychan ac egwan o gorph oedd Mr. Davies; ond er fod ei iechyd yn wael er's blynyddoedd, yr oedd y fath yni a gweithgarwch ynddo fel y cyflawnodd amrywiol ddyledswyddau ei weinidogaeth gyda ffyddlondeb mawr; ac heb law hyny, yr oedd yn ymdaflu gydag egni anghyffredin i symmudiadau cyhoeddus ei enwad. Efe oedd golygydd y "*Beirniad,*" oddi ar adeg ei sefydliad yn 1860 hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth; a chyda dyfalwch a gallu mawr y cyflawnodd efe y gwasanaeth hwn. Yr oedd yn feddiannol ar ystorfa fawr o wybodaeth dduwinyddol a chyffredinol, ac yn bregethwr hynod dderbyniol a phoblogaidd. Nid oes ammheuaeth, yn marn pawb oedd yn ei adnabod, ei fod yn un o'r dynion mwyaf rhyddfrydig ei ysbryd, gwrol yn arddel ei egwyddorion, a phenderfynol yn eu gweithio allan, a feddai yr enwad Annibynol yn y Dywysogaeth; a bu ei farwolaeth yn golled dirfawr i'r enwad, ac i Ddeheudir Cymru yn enwedig.

DAVIES, MORRIS. Ganwyd y llenor coeth hwn yn Mhennant-igi Uchaf, yn mhlwyf Mallwyd, yn sir Feirionydd, yn mis Hydref, 1796. Dywedir mai ei dad oedd y Methodist cyntaf yn mhlwyf Ffestiniog. Ychydig o fanteision addysg a gafodd. Richard Herbert, un o ysgolfeistriaid Ysgolion Rhad Symmudol Dr. Williams, a Mr. William Pugh, curad y plwyf, a Mr. William Owen, o Drallwm, fuont yn athrawon iddo. Dechreuodd ymhel â Grammadeg Gymraeg, barddoniaeth, a cherddoriaeth, pan oedd yn bur ieuangc. Bu, o ganol y flwyddyn 1819 hyd ddiwedd 1823, yn cadw ysgol yn Mhont Robert, Llanfyllin, a Mallwyd. Aeth o Fallwyd i Syston, yn swydd Leicester, i gadw *National School*, dan olygiaeth y Parch. E. Morgan, M.A. Cyrhaeddodd yno Ionawr 1af, 1824. Bu o gryn gynnorthwy i Mr. Morgan wrth barotoi cofiant Saesneg Mr. Charles o'r Bala. Gan nad oedd yn gysurus yn y fan hono, dychwelodd yn nghanol 1825 i Gymru; a bu hyd 1836 yn cadw ysgol yn Llanfair Caereinion. Bu, yn ystod y blynyddoedd nesaf, yn ysgrifenydd yn swyddfa Mr. John Williams, cyfreithiwr, o Lanfyllin, ac yn swyddfa Meistri. Williams a Breese, yn Mhwllheli a Phorthmadoc. Yn mis Mai, 1844, ymgymmerodd â chadw yr Ysgol Frytanaidd yn Mhont Ynys Galch, rhwng Tremadog a Phorthmadog. Er fod Mr. Davies yn meddu ar gymmeriad da fel ysgolhaig, ymddengys nad oedd ganddo nemawr o ddawn i lywodraethu lliaws o blant. Yn 1849, aeth i Fangor. Bu yno am beth amser yn ysgrifenydd masnachol, ac am lawer o flynyddoedd wedi hyny yn swyddfa Mr. Lloyd Jones, cyfreithiwr.

Yr oedd efe yn un o'r ysgrifenwyr Cymreig mwyaf cywir a destlus yn ei oes. Yn wir nid oes nifer fawr o Gymry sydd yn awr yn fyw a wnaethant fwy o wasanaeth i lenyddiaeth Gymreig nag efe. Ysgrifenodd lawer o erthyglau buddiol i'r "*Traethodydd,*" ac amryw erthyglau i'r "*Gwyddoniadur;*" a chyn hyny i'r hen "*Seren Gomer,*" pan oedd o dan olygiaeth Mr. Joseph Harris; ac hefyd i'r "*Drysorfa,*" "*Goleuad Cymru,*" a'r "*Gwladgarwr.*" Yr oedd efe hefyd yn fardd ac yn gerddor da. Cyhoeddodd lyfr hymnau at wasanaeth y Methodistiaid, ac ystyrir ef yn gasgliad rhagorol. Ei waith llenyddol olaf oedd "*Cofiant a Gweithiau y Parchedig Daniel Rowlands, Llangeitho.*" Ar y 9fed o Dachwedd, 1875, cyflwynwyd iddo dysteb o ddau cant o bunnau—yr hyn a'i llonodd yn fawr. Bu farw ar y 10fed o Fedi, 1876, ychydig cyn cyrhaedd ei bedwar ugain oed.

Yr oedd Mr. Davies yn ddyn crefyddol, doeth, cywir, a diymhongar.

DAVIES, ROBERT: yr hwn a adwaenid yn gyffredin wrth ei enw barddonol, *Bardd Nantglyn.* Yn moreu ei oes gelwid ef 'Robyn Ddu o'r Glyn,' neu 'Robyn Ddu o Nantglyn.' Ganwyd ef mewn tyddyn bychan o'r enw Henfryn,

Digitized by Google

ger llaw Nantglyn, yn y flwyddyn 1769: ond y mae amgylchiadau boreu ei oes yn lled anhysbys. Pan ddaeth i oedran cymmhwys, rhoddwyd ef i ddysgu y grefft o deiliwr; ond nid yw yn ymddangos ei fod wedi ei dilyn yn rheolaidd iawn ar hyd ei oes. Fel dysgybl i'w gymmydog, Twm o'r Nant—yr hwn a breswyliai yn nhref Dinbych—y daeth allan gyntaf fel bardd; a chanmolai y bardd hwnw ei gynnyrchion. Dechreuodd gyfansoddi ar ddull interliwdiau ei athraw barddonol; ond nid ymddengys iddo ragori yn fawr yn y dull hwn, er fod "Ewyllys Adda" o'i waith yn dangos llawer o allu a thalent yn y cyfeiriad hwnw. Dywedir ei fod wedi bod mewn undeb â'r Methodistiaid yn nechreu ei oes, a phriododd ferch i bregethwr perthynol i'r enwad hwnw; ond nid hir y parhaodd ei gyssylltiad â'r Methodistiaid, o herwydd trodd yn Eglwyswr. Yn 1798, ennillodd gadair eisteddfod Caerwys. Testyn y gadair oedd "Cariad i'n gwlad, drwy adgofiad yr hen Eisteddfod, a defodau Cymru." Symmudodd i Lundain yn 1800, lle y daeth i gydnabyddiaeth â llawer o'i gydwladwyr a deimlent hoffder mawr at wlad eu tadau; ond ni bu ei arosiad yno ond tua phedair blynedd. Ni symmudodd ei deulu yno o gwbl, a theimlai yntau hiraeth mawr am danynt; ac ar ol ei ddychweliad, ymsefydlodd yn Nantglyn—ac yno y bu hyd ddiwedd ei oes. Derbyniwyd ef yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion yn y brif ddinas yn 1800, a chyfansoddodd yntau gywydd rhagorol i'w swyddogion hi. Pennodwyd ef yn fardd y gymdeithas yn 1801, ac yn ysgrifenydd iddi yn 1802—3. Cyhoeddodd lyfryn swllt o'i farddoniaeth dan yr enw "*Cnewyllyn mewn gwisg*," &c., yn y fl. 1803. Ei lyfr nesaf oedd ei "*Rammadeg*," yr hwn a ddaeth allan gyntaf yn 1808; ac aeth y llyfr hwn drwy amryw argraphiadau ar ol hyn. Ennillodd Gadair Powys yn eisteddfod Gwrecsam yn 1820, gyda'i awdl farwnad fuddugol ar farwolaeth Sior III. Ennillodd lawer o wobrau eisteddfodol. Bu yn feirniad hefyd mewn amryw eisteddfodau; ond tynodd anfoddlonrwydd lliaws o feirdd pan y darfu iddo, mewn cyssylltiad â Dr. Pughe a Dewi Silin, roddi y wobr yn eisteddfod Dinbych, yn 1819, am yr awdl oreu ar "Elusengarwch," i'r Dryw, pan y bernid yn gyffredinol mai Dewi Wyn oedd yn ei haeddu. Cyhoeddwyd casgliad o'i weithiau barddonol, o dan y teitl o "*Diliau Barddas*," gan Mr. Gee hynaf. Ystyrid ef yn un o lenorion a beirdd penaf ei ddydd. Bu yn gwasanaethu fel clochydd yn Nantglyn am flynyddoedd; a bu farw gartref, Rhagfyr 1af, 1835, yn 66ain oed.

DAVIES, Y PARCHEDIG SAMUEL: sef y cyntaf o'r enw. Ganwyd ef yn mis Mehefin, 1788, mewn lle o'r enw Ffordd, yn mhlwyf Cilcain. Gan mai efe oedd bachgen ieuangaf ei rieni, cafodd fwy o'i ffordd ei hun ganddynt nag a ddylasai gael. Yr oedd yn moreu ei oes mor annysgedig ac anhywaith fel na ddaethai i galon neb y buasai yn gwneyd pregethwr byth. Ond tua deuddeg oed, dechreuodd fyw yn fwy difrifol a diargyhoedd. Tua'r adeg hon, daeth Trefnydd Calvinaidd, o'r enw Evan Roberts, i Gilcain, i gadw ysgol Gymreig ar y Sabbothau, ac aeth Samuel yn ddysgybl iddo; a thrwy ddyfalwch daeth yn fuan i allu darllen y Beibl. Yr oedd yn amlwg fod yr hyn a ddarllenai, yn gystal a'r canu a'r gweddïo a glywai yn yr ysgol, yn cael dylanwad pur ddwys ar ei feddwl; ond gan nad oedd neb yn gwasgu arno i fynegu ei deimladau, ac nad oedd yntau yn ewyllysio eu mynegu o hono ei hun, bu am gryn amser heb neb i'w gyfarwyddo, nac i gydymdeimlo âg ef. Yn y trallod meddwl hwn yr ydoedd pan y clybu fod Jones, o Bathafarn, un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y Wesleyaid, i bregethu ar ryw foreu Sabbath, yn mis Tachwedd, 1801, yn mhlwyf Llanferres. Aeth Samuel Davies, gan hyny, yno i wrandaw arno; a boddhawyd ef gymmaint yn mater a dull ei bregeth, fel y penderfynodd fyned i wrandaw ar bregethwyr y Wesleyaid bob tro y caffai gyfleusdra. Yn mhen ennyd ar ol hyn, clywodd y Parch. John Bryan yn pregethu ar yr adnod, "Diangc am dy einioes." Effeithiodd y bregeth hon mor ddwys ar ei feddwl fel y penderfynodd ymuno â'r Wesleyaid, er fod yr achos oedd ganddynt ddwy filldir a hanner o bellder o'i gartref; ond ofnai fyned i'r cyfarfod eglwysig, rhag yr ystyrid ef yn rhy ieuangc. Ond rhyw ddiwrnod yn ngwanwyn 1802, daeth Mr. John Morris i'r ardal, a phregethodd yn nhŷ un Robert Jones, Maeshafn, ar y testyn hwn:—"Y cyfaill, pa fodd y daethost ti yma heb fod genyt y wisg briodas?" Sylwodd Mr. Morris ar Samuel; ac ar ol yr oedfa, aeth ato, ymaflodd yn ei law, ac arweiniodd ef i'r gymdeithas eglwysig. Ar ol hyn, cododd awydd ynddo i wneuthur ei oreu er dychwelyd ei gymmydogion i'r ffydd. Cymmerodd ystafell yn Nghilcain, a chafodd gan frodyr crefyddol o Lanferres i ddyfod yno i arfer moddion. Weithiau, byddai drycin, neu rywbeth, yn rhwystro iddynt ddyfod, ac yna byddai gorfod ar Samuel Davies ddarllen a gweddïo ei hunan. Cyn hir mynodd Samuel Davies gael capel yno, yr hwn a agorwyd yn mis Hydref, 1803. Bu am ysbaid o amser ar ol hyn yn Llansannan; a thra yno arferai fyned o amgylch i gadw cyfarfodydd gweddi, ac yn fuan dechreuodd esbonio ychydig ar yr hyn a ddarllenai. Pan ddychwelodd i sir Fflint, annogwyd ef i wasanaethu ei enwad fel pregethwr cynnorthwyol. Wrth weled ei fod yn llwyddo yn y ffordd hon, cynghorwyd ef gan y Parchedig Owen Davies i ymroddi yn gwbl i'r weinidogaeth, ac i fyned i gydlafurio â Mr. Jones, Bathafarn, a Mr. William Davies ar gylchdaith Machynlleth:—ac yno yr aeth. Yn mis Awst, 1807, symmudwyd ef i gylchdaith Caernarfon. Ar ol bod am ddwy flynedd yn fawr ei barch yn y gylchdaith hon, symmudodd i Ddinbych, lle y daeth yn gydnabyddus â merch ieuangc ragorol o'r enw Miss Twiston; ac yn 1814 priododd hi. Yn 1810, aeth i Liverpool, lle y defnyddiodd bob hamdden i helaethu ei wybodaeth, ac yn enwedig i ddysgu yr iaith Saesnig. Ordeiniwyd ef yn gyflawn weinidog yn 1811, a bu o hyny hyd ei farwolaeth yn llafurio yn galed mewn llawer cylchdaith.

Cyfansoddai ei bregethau yn bur ofalus, a thraddodai hwynt yn mron air yn air fel y byddent wedi eu hysgrifenu. Siaradwr lled afrwydd ydoedd; ond er hyny byddai yn pregethu yn dra nerthol. Yn mis Gorphenaf, 1818, cyhoeddodd bregeth ar "Brynedigaeth Gyffredinol," yr hon a wrth-attebwyd gan Ieuan Glan Geirionydd. Fel atteb i Ieuan, cyhoeddodd S. Davies lyfr o'r enw "*Calviniaeth yn cael ei dadlenu, a'r gwirionedd yn cael ei amddiffyn*." Y ffordd a gymmerodd Ieuan i atteb hwn oedd cyfieithu pregethau Hurrion i'r Gymraeg, y rhai a gyhoeddwyd gan J. Parry, Caerlleon, gyda rhagymadrodd gan John Elias.

Digitized by Google

Yn 1841, cyhoeddodd bregeth ar "*Etholedigaeth Ddiammodol;*" sef, esboniad ar *Rhuf.* ix. Efe a gyhoeddodd hefyd, mewn undeb â gweinidog arall, "*Y Drysorgell Efengylaidd, neu Gorph o Dduwinyddiaeth,*" ynghyd â'r "*Hyfforddwr Teuluaidd.*" Yn mis Mawrth, 1840, bu farw ei wraig, a rhwng gofid, a phryder, ac afiechyd, gwanychodd ei alluoedd meddyliol yn fawr. Oedfreiniwyd ef yn 1845, ac yna symmudodd at ei ferch i Liverpool; ond yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, efe a ail briododd.

Yn 1851, aeth i Gaerlleon, lle y tarawyd ef gan haint y gïau, ac y collodd ei briod. Yn y flwyddyn ganlynol, daeth i Ddinbych i gartrefu gyda'i ferch; ac yma y bu hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd Mai 7fed, 1854.

DAVIES, THOMAS, Llandeilo: pregethwr hyawdl a chymmeradwy gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn mhlwyf Trelech, yn swydd Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1820. Dangosodd, er yn blentyn, duedd grefyddol gref, gan yr ymhyfrydai o'i febyd gyrchu i foddion gras—ac yn enwedig i'r Ysgol Sabbothol, a'r cyfarfodydd gweddïau, a'r cyfarfodydd eglwysig, &c. Pan yn un ar bymtheg oed, ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Nhrelech; ac yr oedd ei ymroad crefyddol a'i dalent yn gyfryw ag a barasant i'r eglwys yn y lle ei gymmhell i arfer ei ddawn yn gyhoeddus trwy bregethu cyn ei fod wedi gorphen ei unfed flwydd ar hugain. Efe a dreuliodd beth amser mewn ysgol ragbarotoawl yn Nghaerfyrddin; ac yn haf y flwyddyn 1843, derbyniwyd ef yn efrydydd i Goleg Aberhonddu—ac yno efe a dreuliodd bedair blynedd yn ymbarotoi ar gyfer gwaith ei oes. Yn 1847, derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys yn Llandeilo Fawr, yn swydd Gaerfyrddin, yr hon oedd wedi ei hamddifadu o weinidogaeth pregethwr tanllyd a nerthol—sef y diweddar Williams—trwy farwolaeth. Profodd Mr. Davies yn fuan ei fod yn olynydd teilwng i'r gŵr enwog a'i blaenorai; canys yr oedd ei weinidogaeth yn hynod lwyddiannus, a'r eglwys a'r gynnulleidfa yn myned ar gynnydd y naill flwyddyn ar ol y llall. Tua'r flwyddyn 1861, ail adeiladwyd a helaethwyd yr addoldy; ac adeiladwyd ysgoldy helaeth ger llaw iddo, lle y cynnelid yr Ysgol Frytanaidd. Yn nhymmor ei weinidogaeth yn y Tabernacl, yr oedd Mr. Davies yn dra adnabyddus trwy Dde a Gogledd Cymru fel pregethwr poblogaidd a hyawdl anarferol; ac yr oedd galw mawr am ei wasanaeth yn mhob rhan o'r wlad, mewn cyfarfodydd pregethu, cymmanfaoedd, &c. Ond yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, ar ol llafurio yn y weinidogaeth yn Llandeilo am chwe blynedd ar hugain, bu farw yn dra disymmwth yn hwyr y dydd, ar yr 28ain o Hydref, 1873. Yr oedd efe wedi bod allan y prydnawn hwnw, ac wedi dychwelyd erbyn amser tê: ac ymddengys ei fod mor siriol ag yr arferai fod wrth y bwrdd. Aeth i fyny i'w fyfyrgell gyda'r amcan o ysgrifenu llythyrau; ac wrth fyned dywedodd wrth ei briod ei fod yn disgwyl cyfaill yno, a gofynodd iddi ei alw i lawr pan y deuai. Daeth y cyfaill i mewn yn fuan, ac aeth y forwyn i ymofyn Mr. Davies—ond nid oedd i'w gael yn ei fyfyrgell. Gan hyny, aeth at ei ystafell wely; ac er ei dirfawr syndod, canfu ef yn gorwedd ar y gwely yn mhangfa marwolaeth—a bu farw yn mhen ychydig funydau o glefyd y galon.

Claddwyd ef yn y gladdfa ger llaw y capel y bu yn gweinyddu ynddo; ac yr oedd ei gynhebrwng yn un o'r rhai mwyaf lliosog a pharchus a welwyd erioed yn y parthau hyny o'r wlad. Yn mysg y lliaws mawr oedd yn bresennol yr oedd cant a thri ar hugain o honynt yn weinidogion o wahanol enwadau.

Yr oedd Mr. Davies yn un o'r dynion siriolaf a hawddgaraf o ran ei dymmer, ac yn llawn o garedigrwydd ac o natur dda. Fel Cristion a gweinidog, cyflawnai ei ddyledswyddau gydag ymroddiad a ffyddlondeb mawr. Fel pregethwr, yr oedd yn nodedig am ei hyawdledd. Yr oedd ei ddawn hylithr, ei lais soniarus, ei egluriadau tarawiadol, a'r gwres â'r hwn y traddodai wirioneddau yr efengyl, yn ei wneyd yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y Dywysogaeth. Bu ar ymweliad âg America rai blynyddau cyn diwedd ei oes, ac yr oedd yn boblogaidd iawn yn mysg ei gydgenedl yno. Yr oedd yn awdwr "*Hanes Bywyd y diweddar Barch. D. Rees, Llanelli.*"

DAVIES, WALTER (*Gwallter Mechain*): llenor, bardd, a beirniad dysgedig. Mewn tŷ o'r enw Wern y ganwyd ef, yn mhlwyf Llanfechain, sir Drefaldwyn, Gorphenaf 15fed, 1761. Er nad oedd amgylchiadau ei rieni ond isel, etto yr oeddynt yn hanu o deuluoedd anrhydeddus. Nid oes ond ychydig o hanes ei ddyddiau boreuol ar gael—fel y mae yn digwydd gyda llawer eraill o Gymry a gyrhaeddasant enwogrwydd. Ond dywedir y byddai yn ceisio ysgrifenu ar lechi pan nad oedd ond tua thair blwydd oed. Ymddengys mai ychydig o ysgol a gafodd; ond daeth i ragori yn fuan hyd yn oed ar ei athraw. Dechreuodd yn foreu gyfansoddi barddoniaeth: canys cyn ei fod yn ugain oed efe a ysgrifenodd gywydd yn annog crefyddwyr y wlad i fyw yn dangnefeddus. Y mae yn eglur iddo ddeinyddio ei amser yn moreu ei oes i ddiwyllio ei feddwl a chasglu gwybodaeth; ac yr oedd wedi cyfansoddi llawer o englynion, caneuon, a charolau cyn bod yn ddeg ar hugain oed. Yn nhymmor ei ieuengctid ef, yr oedd yr eisteddfodau yn dechreu adfywio. Cynnaliwyd un yn Llangollen, yn 1788; a dichon mai hon oedd yr eisteddfod gyntaf i Walter Davies fod yn bresennol ynddi. Cynnaliwyd eisteddfod yn Nghorwen drachefn, yn mis Mai, 1789; yr hon a agorwyd drwy i wrthddrych y cofiant hwn adrodd cywydd anerchiadol rhagorol. Yr oedd Jonathan Hughes a Thomas Edwards, o'r Nant, yn bresennol yn yr eisteddfod hon, ac yn ymgystadlu ynddi. Rhoddwyd deuddeg o destynau i'r beirdd i gyfansoddi yn ddifyfyr arnynt—ac i Walter Davies y dyfarnwyd y wobr. Nid peth bach ydoedd i fardd ieuangc fel efe drechu y ddau fardd a enwir uchod. Chwanegodd hyn o angenrheidrwydd at ei glod; ac yn mis Medi, ennillodd gadair y Gwyneddigion; yn yr eisteddfod oedd ganddynt yn y Bala; sef, "Awdl ystyriaeth ar oes dyn;" pan yr oedd D. Ddu Eryri, Twm o'r Nant, a Jonathan Hughes, ac eraill, yn ymgystadlu. Ac yn eisteddfod Llanelwy hefyd, yn y flwyddyn ganlynol, efe a ennillodd y wobr am y traethawd goreu ar y testyn "Rhyddid," yr hwn wedi hyny a gyhoeddwyd ar draul Owain Myfyr. Erbyn hyn yr oedd Walter Davies yn dechreu tynu cryn sylw, a thrwy garedigrwydd ychydig gyfeillion cyfoethog, anfonwyd ef i Goleg All Souls, Rhydychain, gyda'r amcan o'i barotoi i fod yn weinidog o'r Eglwys Sefydledig. Treuliodd bedair blynedd yno heb ddyfod oddi yno o

Digitized by Google

gwbl—hyd yn oed ar y gŵyliau. Cyhoeddodd ysgrif yn y "*Cambrian Register*," yn y flwyddyn 1795, ar ystadegaeth plwyf Llangenach, yr hon a gododd ei gymmeriad fel hynafiaethydd. Yn yr un cyhoeddiad, yn y flwyddyn ddilynol, yr ymddangosodd bywgraphiad o'i eiddo i William Jones, Llangadfan, yr hwn oedd fardd clodfawr yn ei ddydd.

Yn 1796, ar ei ddyfodiad o'r brif ysgol, pennodwyd ef yn gurad Meifod, yn sir Drefaldwyn. Yn 1799, cafodd guradiaeth barhaol Ysbytty Ifan, a pherigloriaeth Llanwyddelen gan yr esgob Horsley, yr hon a roddodd efe i fyny pan bennodwyd ef i berigloriaeth Manafon yn 1807, gan yr esgob Cleaver. Gwnaeth lawer yn y blynyddoedd hyn gyda'r eisteddfodau, yma a thraw ar hyd y wlad, a chyfansoddodd amryw bethau mewn rhyddiaith a barddoniaeth. Cynnorthwyodd y Mri. Charles. o'r Bala, a Roberts, o Dremeirchion, i ddiwygio orgraph y Beibl Cymraeg, yn 1809. Bu hefyd yn gwneuthur ymchwiliad i sefyllfa amaethyddol a theuluaidd Gogledd a Deheudir Cymru, dros y *Board of Agriculture.* Cyhoeddwyd ffrwyth ei ymchwiliad yn y Gogledd, yn 1810; ac yn y Deheudir, yn 1813—15, yn ddwy gyfrol. Yr oedd ganddo law yn nygiad oddi amgylch eisteddfod fawr Caernarfon, yn 1819. Efe a ennillodd ar destyn y gadair, am yr awdl oreu ar farwolaeth y Cadfridog Picton: ac efe oedd y buddugwr am y traethawd Saesneg ar sefydliadau barddol Caerfyrddin a Morganwg. Yr oedd erbyn hyn yn un o ddynion penaf, os nad y blaenaf o wŷr yr eisteddfod; ac yr oedd wedi ennill llawer o wobrwyon a thlysau, am awdlau, a thraethodau, &c. Ac o hyny allan, Gwallter Mechain oedd y prif feirniad yn yr eisteddfodau a gynnaliwyd yn Ngwrecsam, Aberhonddu, Dinbych, Beaumaris —prif eisteddfodau y blynyddoedd hyny. Bu yn gefnogwr gwresog i'r "*Gwyliedydd*" o'r adeg y sefydlwyd y cyhoeddiad hwnw yn 1822, hyd nes y darfu i henaint ei luddias. Ysgrifenodd lawer hefyd i'r "*Cambrian Quarterly Magazine.*" Y dyrchafiad diweddaf a gafodd yn yr eglwys oedd cael ei bennodi yn ficer Llanrhaiadr yn Mochnant, yn 1837, pan oedd yn mron yn 77ain mlwydd oed. Er fod hen ddyddiau wedi ei oddiweddyd, nid oedd ei athrylith na'i awen wedi pylu ond ychydig. Cyfansoddodd lawer ar ol gadael ei 80ain mlwydd oed. Mynegir iddo ysgrifenu awdl ar y greadigaeth ar gyfer eisteddfod Aberffraw, er nad anfonodd efe hi i'r gystadleuaeth; ac yr oedd ar y pryd yn mron a chyrhaedd ei 89ain oed! Nid oedd ei lygaid wedi tywyllu bron hyd derfyn ei ddyddiau: ac mewn gwirionedd, yr oedd ei alluoedd yn ymddadblygu yn barhaus; ac ni raid petruso ei restru yn mysg llenorion, beirdd, a beirniaid penaf ei wlad yn yr oes yr oedd yn byw ynddi.

Ni bu ei afiechyd diweddaf ond byr. Cymmerwyd ef yn glaf ar ddydd Llun, a bu farw mewn tawelwch y dydd Mercher canlynol, sef Rhagfyr 5ed, 1849, yn 89ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llanrhaiadr yn Mochnant.

**DAVIES, WILLIAM, D. D.:** gweinidog a phregethwr enwog gyda'r Wesleyaid. Ganwyd ef yn Aberystwyth yn y flwyddyn 1820. Ni chafodd ond addysg cyffredin yn moreu ei oes yn ei dref enedigol; ond gwnaeth ddefnydd da o'r manteision oedd yn ei gyrhaedd, fel y gallesid disgwyl i un o'i alluoedd ef wneyd. Bu yn ysgolfeistr am beth amser. Yr oedd ei fam yn wraig grefyddol, a thrwy gynghor ac esampl yr oedd efe wedi ei arwain ganddi ar lwybrau crefydd; a phan yn lled ieuangc, efe a ymunodd â'r Wesleyaid. Tua'r flwyddyn 1841, gan fod yr eglwys y perthynai iddi yn gweled ynddo gymmhwysderau i'r gwaith, annogwyd ef i ddechreu pregethu, ac felly fu yn y fl. 1841. O ddeutu yr un adeg hefyd, efe a gyfieithodd ac a gyhoeddodd bregeth y Parch. Dr. Bunting ar "*Gyfiawnhâd*;" ac aeth ar daith drwy Ogledd Cymru er lledaenu y bregeth. Yr oedd efe yn myned yn boblogaidd fel pregethwr ar y daith hon; ac yn enwedig yn ardal Bethesda, Arfon. Yn mysg manau eraill, ymwelodd âg Ynys Môn, a daeth i gyfarfyddiad a thynodd sylw y diweddar Barch. David Williams, yr hwn oedd bregethwr rhagorol yn y cyfundeb Wesleyaidd. Ebe Mr. Williams wrtho, "Ai ti a gyfieithodd y bregeth hon?" "Ie," oedd atteb y dyn ieuangc. "Dylet ti gael gwell gwaith, wel di, na gwerthu pregethau," meddai Mr. Williams. Treuliodd Davies beth amser yn yr ynys yn pregethu yma a thraw, fel yr oedd galw am dano. Yn y flwyddyn 1843, galwyd ef i ddechreu ar waith rheolaidd y weinidogaeth, yn ynys Môn. O hyny allan y gwahanol gylchdeithiau y bu yn gweinidogaethu iddynt oeddynt:—Abergele a Chonwy, Abermaw, Dolgellau, Liverpool, Bangor, Tregarth, Beaumaris, Llundain, Caernarfon, a Bangor, yr ail waith. Wedi ei ddyfodiad i Fangor y tro hwn, pennodwyd ef yn olygydd ar yr "*Eurgrawn*," ac yn oruchwylydd y llyfrfa; a pharhaodd i fod yn olygydd a goruchwylydd hyd ddydd ei farwolaeth, er nad oedd yn y misoedd diweddaf yn gallu cyflawni y gwaith. Bu o wasanaeth gwerthfawr i'w enwad ei hun mewn amryw o gylchoedd eraill. Bu yn gwasanaethu fel ysgrifenydd y capeli am rai blynyddoedd. Llanwodd y swydd hono yn nodedig o effeithiol. Boddhawyd y Parch. W. Arthur, llywydd y gynnadledd ar y pryd, mor fawr yn ei ddull o wneyd y gwaith, fel y galwodd sylw y gynnadledd ato, ac yr argymmhellodd y cynllun fel un gwerth ei ddilyn. Bu am ddeng mlynedd yn ysgrifenydd cyllidol y dalaeth; a phob amser yr oedd efe yn feistr ar yr holl anhawsderau cyssylltiol â'r swydd. Yr oedd ganddo law arbenig yn holl symmudiadau cyhoeddus y dalaeth am yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes.

Yr oedd Dr. Davies wedi bod yn nychu o ran ei iechyd er's amser; ac fel y dywedwyd, yr oedd yn misoedd olaf ei fywyd yn analluog i gyflawni ei ddyledswyddau golygyddol ac arolygol. Ac ymddengys ei fod yn dioddef mwy o lawer nag a dybiodd ei gyfeillion. Ergyd drom iddo oedd colli ei anwyl briod yn annisgwyliadwy yn nechreu haf 1875; ac y mae yn debyg i hyny brysuro y diwedd iddo yntau. Yr oedd mawredd ei ddioddefiadau yn nyddiau olaf ei oes, ac yn neillduol tuedd ei glefyd i gyfodi i'w ben, gan ddyrysu ei feddwl, yn ei gwneyd yn anhawdd cael hamdden i ymddiddan âg ef; ond er hyny cafodd adegau o seibiant i roddi ar ddeall fod ei hyder yn Nuw yn llawn. Ei dystiolaeth oedd "mai da y gwnaeth yr Arglwydd bob peth, ac mai da y gwna efe bob peth;" a chwanegai, "Dyna fy mhrofiad i yn bresennol." Bu farw yn hollol dawel boreu ddydd Gwener, Awst 13eg, 1875, yn 55ain mlwydd oed.

Yr ydym yn dyfynu y sylwadau canlynol o ysgrifell un a'i hadwaenai yn dda a ymddang-

Digitized by Google

osodd yn "*Maner ac Amserau Cymru*" yn adeg ei farwolaeth, am nas gallwn feddwl am ddim sydd yn fwy cymmhwys i osod allan y dyn, y llenor, a'r pregethwr:—

"Yn marwolaeth Dr. Davies, collodd y Dywysogaeth un o'i meibion mwyaf galluog. Yr oedd yn Saul yn myd y meddwl. Cynnysgaeddwyd ef â galluoedd meddyliol cryfion iawn; a bu yntau yn llafurus a diwyd i'w dysgyblu, eu coethi, a'u cyfoethogi â goludoedd gwybodaeth. Perchenogai ddirnadaeth dreiddgar, amgyffrediad eang, gallu ymresymiadol cryf, barn aeddfed, a dychymmyg bywiog. Yr oedd yn gallu meddwl yn glir, yn gyflawn, ac yn gyflym iawn...Yr oedd yn ddyn cyflawn; medrai droi ei law at unrhyw beth. Yr oedd yn dduwinydd galluog; meddai gydnabyddiaeth helaeth âg awduron hen a diweddar; darllenodd lawer ar yr hen Buritaniaid, a gallai eu dyfynu at ei wasanaeth; yr oedd wedi meistroli damcaniaethau awdwyr diweddar, fel y profai ei ddarlithoedd ar yr 'Iawn,' 'Colenso a Moses,' &c. Yr oedd yn feirniad ysgrythyrol craff, ac yn ddeonglydd goleu a medrus. Talodd lawer o sylw i wyddoniaeth, ac yr oedd yn gartrefol yn ei wahanol a'i amrywiol ddoniau. Gwyddai am holl gylch llenyddiaeth Gymreig. Yr oedd yn Gymro aiddgar. Cymmerai ddyddordeb mawr yn yr iaith Gymraeg, a rhoddodd sylw mawr i'w helfenau a'u deddfau. Yr oedd y wlad wedi canfod ei allu, ac wedi ei bennodi fwy nag unwaith yn feirniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Fel yr awgrymwyd, bu yn olygydd yr '*Eurgrawn*' am yr wyth mlynedd diweddaf o'i oes —a chyn hyny yn golygu y '*Winllan*.'...Dygodd allan '*Eiriadur Ysgrythyrol*' rhagorol iawn; ac ar ol hyny '*Agoriad i'r Ysgrythyrau*.'...Ond fe allai wedi y cwbl, mai fel pregethwr y rhagorai fwyaf. Yr oedd y materion bob amser yn sylweddol ac ysgrythyrol. Ni ddefnyddiodd y pulpud erioed i wneyd arddangosiad (*display*) o'i ddysg a'i wybodaeth ei hun. Yr oedd yn ormod o ddyn Duw i hyny. Byddai cyfansoddiad y bregeth yn rhesymegol a destlus, a'r traddodiad yn awdurdodol, yn rymus, a swynol nodedig. Y fath ddetholiad o iaith gywir, bur, goeth, a chynghaneddol. Y fath lais—cyflawn, cydgordiadol, peraidd, cryf, a threiddgar. Cofir am rai oedfaon a gafodd am ddyddiau y nef."

**DAVY, SYR HUMPHRY**: un o fferyllwyr penaf yr oesau. Ganwyd ef Rhagfyr 17eg, 1778, yn Penzance, yn Cernyw—lle yr oedd ei dad yn gweithio fel cerfiedydd coed. Bwriad ei rieni oedd ei ddwyn i fyny i'r alwedigaeth o feddyg, a rhwymwyd ef gyda llaw-feddyg a chyfferiwr yn Penzance. Ar yr un pryd, dechreuodd gwrs o efrydiau ar "grefydd a gwleidyddiaeth, meddyleg, a moeseg." Bu mesuroniaeth ac athroniaeth yn wrthddrychau ei sylw. Ond ei astudiaeth o anianyddiaeth naturiol a'i dygodd fwyaf agos at y gangen o wyddoniaeth y rhagorodd efe gymmaint ynddi. Yr oedd wedi cyrhaedd y bedwaredd flwydd ar bymtheg o'i oedran, pa fodd bynag, cyn dechreu astudio fferylliaeth gydag egni ac ymroddiad. Cymmerwyd ef yn gynnorthwywr gan y Dr. Beddows, o Clifton. Yno dechreuodd ar gwrs o arbrawfiadau ar anadlu gwahanol nwyon; a mwy nag unwaith bu ei fywyd yn mron myned yn aberth. Cyhoeddodd hanes ei ymchwiliadau, yr hyn a sefydlodd ei gymmeriad; a phennodwyd ef yn ddarlithiwr yn y Sefydliad Brenhinol, yn Llundain, pan yn 22ain oed. Traddododd ei ddarlith gyntaf yn 1801; a gwnaeth ei hyawdledd a newydd-deb ac amrywiaeth ei ddarganfyddiadau, ei ddarlithiau yn hynod boblogaidd. Yn 1803, dechreuodd ar ymchwiliadau oedd yn dal cyssylltiad âg amaethyddiaeth, a thraddododd gwrs o ddarlithiau ar y testyn. Cyhoeddwyd hwynt yn 1813, dan y teitl "*Elements of Agricultural Chemistry*." Ond y darganfyddiadau y gorphwys enwogrwydd Davy arnynt yn benaf fel fferyllydd ydynt, y rhai a gawsant eu dechreuad yn y golygiadau a amlygwyd ganddo yn 1806, mewn darlith a draddodd efe dan y teitl, "*On some Chemical Agencies of Electricity*." Ystyrid y traethawd hwn yn un o'r rhai gwerthfawrocaf a ysgrifenwyd ar wyddoniaeth fferyllol, a chafodd brif wobr Sefydliad Ffraingc am dano.

Yn 1812, gwnaed Davy yn farchog, a phriododd foneddiges yn meddu ar gryn gyfoeth; ac ar ol hyny ymddiswyddodd o gadair y Sefydliad Brenhinol. Cafodd genad gan lywodraeth Ffraingc i ymweled â'r Cyfandir, er gwneuthur ymchwiliadau pellach i'w ddamcaniaeth ar weithrediadau llosgfalaidd, a chafodd dderbyniad gwresog gan wyddonwyr y wlad. Ar ei ddychweliad i Loegr, yn 1815, talodd sylw neillduol i'r llosgnwy sydd yn achosi tanchwa mewn gweithydd glo: a dyfeisiodd lamp y glowr (Davy's *safety lamp* fel ei gelwir)—un o gymmwynasau penaf gwyddoniaeth i ddynoliaeth. Er y cydnabyddid yn gyffredinol werth y ddyfais, yr unig wobr a dderbyniodd am dani oedd barwnigiaeth. Etholwyd Syr Humphry Davy yn olynydd i Syr Joseph Banks, fel llywydd y Gymdeithas Frenhinol, yn 1820. Yn gynnar yn y fl. 1825, dechreuai gwyno fod ei nerth yn pallu; ac yn 1826, cafodd ergyd o'r parlys yn ei ystlys ddeheu. Gwnaeth ddwy daith i'r Cyfandir er ceisio adferu ei iechyd; a bu farw yn Geneva, ar y 29ain o fis Mai, 1829, yn yr oedran cymmharol ieuangc o 51ain. Rhoddwyd iddo gladdedigaeth gyhoeddus, fel arwydd o barch, gan lywodraeth Geneva. Yr oedd enwogrwydd Syr Humphry Davy yn gyfryw fel yr oedd wedi ei ethol yn aelod o holl brif sefydliadau gwyddonol y byd yn mron. Dywed Cuvier, fod "Mr. Davy, yr hwn nad yw etto yn 32ain oed, yn meddu, yn marn pawb sydd yn alluog i ffurfio opiniwn ar y fath lafur, le yn y rhes flaenaf yn mysg fferyllwyr yr oesau." Un o'i ddywediadau ydoedd: "Trwy ffurfio damcaniaethau, ac yna eu cymmharu â ffeithiau, yn unig y mae i ni ddarganfod gwir ddirgelwch natur." Fel arbrawfiedydd yr oedd yn hynod am gyflymder; ac ynddo, medd un, yr oedd cyflymder yn nerth. Heb law y gweithiau a grybwyllwyd eisoes, a lliaws mawr o ysgrifau yn y "*Philosophical Transactions*," cyhoeddodd "*Elements of Chemical Philosophy*," a "*Consolations in Travel, or the Last Days of a Philosopher*."

**DANTON, GEORGE-JACQUES**: un o'r dynion hynotaf yn mysg arweinyddion y chwyldroad yn Ffraingc. Ganwyd ef yn Arcis-sur-Aube, Hydref 28ain, 1759. Addysgwyd ef i'r bâr, ac yr oedd yn ymarferyd fel dadleuydd yn Paris; ond nid oedd ei gymmeriad yn uchel, o herwydd ei arferion afradus. Yr oedd yn amlwg yn meddu y cymmhwysderau hyny sydd yn cynnorthwyo dyn i'r gwaith peryglus o fod yn gynnhyrfwr gwleidyddol. Yr oedd yn dal a gewynog, a llinellau ei wynebpryd yn erwin, ond yn darawiadol; a meddai ar lais fel sŵn dyfroedd cynnhyrfus, neu ruad taran. Yr oedd hefyd yn eofn ac uchelgeisiol; a'i hyawdledd yn ffrwyth dychymyg bywiog; ac er ei fod yn amddifad o swyn areithyddiaeth ddengar ac athroniaeth ddofn, cariai bob peth i'w ganlyn drwy

Digitized by Google

ei danbeidrwydd a'i wres. Nid rhyfedd i Mirabeau ei weled, a phrysuro i sicrhau ei gyfeillgarwch a'i gefnogaeth; ac nid rhyfedd i'r fath un ddyfod yn arweinydd yn mysg y werin, ac yn ddychryn i'w wrthwynebwyr. Yn 1790, yn cael ei gefnogi gan y gymdeithas a elwid y *Cordeliers*, a sylfaenwyd ganddo ef, efe a gyflwynodd i Louis XVI. ddeiseb o'r wyth dosbarth a deugain, i ba rai yr oedd Paris wedi ei rhanu, yn erbyn gweinidogion y brenin, gan haeru eu bod wedi colli ymddiried y genedl. Etholwyd ef yn aelod dros ddosbarth y Seine. Ar ol carchariad Louis yn Varennes, efe oedd y prif symmudydd gyda golwg ar y cynnulliad mawr poblogaidd yn y Champs de Mars, yn yr hwn y galwai am i'r brenin gael ei ddiorseddu. Ar yr 8fed o Awst, 1791, gyda beiddgarwch a hyfdra digymmhar, efe a ddywedodd wrth gynnrychiolwyr Ffraingc yn y gymmanfa ddeddfwriaethol, y byddai eu gwaith yn gomnedd dadgan fod yr orsedd yn wâg yn sicr o arwain i wrthryfel cyffredinol. Cafodd tynged Louis ei phenderfynu, a phennodwyd Danton yn weinidog cyfiawnder, ac yn benaeth ar y chwech yr ymddiriedwyd gweinyddiad y llywodraeth i'w dwylaw. Pan yn gweinyddu y swydd hon, dangosodd ei fod yn ddyn gwaedlyd, uchelgeisiol, dialgar, ac ariangar; ond yr oedd hefyd yn ddewr a medrus i reoli achosion cyhoeddus mewn amser pan yr oedd pob cam a gymmerid yn un peryglus.

Pan oedd byddin Prwssia ar oresgyn Ffraingc, yn 1792, dychryn wedi dal pawb, ac arweinyddion y blaid werinol yn methu deall pa beth i'w wneyd er rhoi attalfa ar y llifeiriant ofnadwy, esgynodd Danton i fyny i'r tribun, a thraddododd un o'r areithiau mwyaf tanllyd a ddaeth erioed dros wefusau unrhyw arweinydd o'i nodwedd ef; a therfynodd gyda'r ymadrodd cynnhyrfus a ganlyn:—"Y mae y wlad mewn perygl; er gochelyd y trychineb, un peth sydd yn angenrheidiol—eofndra, eofndra di-ildio, a dim ond eofndra!" Dylanwadodd y geiriau hyn fel swyn ar y genedl Ffrengig. Yn mhen ychydig wythnosau yr oedd pedair ar ddeg o fyddinoedd Ffrengig yn barod i gymmeryd y maes, a churasant yn ol gyda dewrder digyffelyb y lluoedd cynghreiriol. Pe buasai Danton wedi troi ei alluoedd a'i egnïon yn unig yn erbyn gelynion ei wlad, aethai ei gymmeriad i lawr i oesoedd dyfodol heb ei lychwino; ond cariodd allan ei nwyd a'i greulondeb yn erbyn ei gyd-ddinasyddion; a phriodolir llawer o greulonderau y chwyldroad, yn enwedig y rhai a gyflawnwyd yn Medi, 1792, iddo ef, naill ai fel dechreuwr neu gefnogwr. Wedi diddymu y frenhiniaeth, rhoddodd Danton i fyny y swydd o weinidog cyfiawnder, a phennodwyd ef yn llywydd y Gymmanfa Gyfansoddiadol, ac yn un o bwyllgor y diogelwch cyhoeddus. Tra yn gweinyddu y swyddau hyn, gwnaeth ei oreu i ddwyn oddi amgylch brawf y brenin. Nid oedd Danton yn bresennol yn y llys oedd i gyhoeddi dedfryd marwolaeth ar y brenin; ond efe a ddychwelodd mewn pryd i bleidleisio dros ei ddienyddiad. Ni chafwyd un rheswm dros y bleidlais a roddodd. Yn y cyfamser, yr oedd pobl Paris, neu yn hytrach y blaid a arweinid gan glybiau y Jacobiniaid, wedi dewis arweinydd arall; yr hwn, yn ei ymddygiadau cyffredin, oedd yn dra gwahanol i Danton, ac yn ei olygiadau gwleidyddol ei wrthwynebwr galluocaf. Yr arweinydd hwn ydoedd Robespierre. Ymddangosai rhyw arwyddion fod Danton yn tueddu at fwy o dynerwch, a gwanhaodd ei ddylanwad mewn canlyniad i hyn; ac yn niwedd y fl. 1793, teimlodd Danton fod argyfwng pwysig yn dynesu. Gwnaed ymgais aflwyddiannus i'w gymmodi ef â Robespierre. Cawsant gydymddiddan—ond ymadawsant ar delerau gwaeth nag o'r blaen. Yr oedd erbyn hyn yn ymdrechfa farwol rhyngddynt; ond yr oedd Danton yn dechreu blino ar y chwyldroad, ac yn ymwybodol na byddai yn fuan yn ddim amgen na ffug; yr hyn nis gallai efe, er ei holl ddiffygion, ei oddef; a'r canlyniad oedd iddo syrthio i fath o ddifaterwch ac esgeulusdra, yr hyn a roddodd fantais i Robespierre i'w ddinystrio. Ceisiodd ei gyfeillion ei gyffroi o'i ddiofalwch, ond ei atteb oedd: "Gwell genyf gael fy nienyddio fy hun, na dienyddio eraill." Yr oedd wedi ei ddallu gan ymwybodolrwydd o ryw allu ynddo ei hun, fel y dadganai na feiddiai ei elynion ddyrchafu bys yn ei erbyn ef. Ond y mae dynion o nodweddiad Robespierre, er yn amddifad o wroldeb gwirioneddol i wynebu perygl yn ei wyneb yn deg, yn meddu math o feiddgarwch llechwraidd sydd yn peri iddynt ymosod ar ddynion mwy na hwy eu hunain, os bydd amgylchiadau yn ffafriol. Ymosododd Robespierre arno, a dygwyd cyhuddiadau yn ei erbyn. Pan y galwyd arno i roddi cyfrif o'i waith yn gweinyddu achosion cyllidol y wladwriaeth, gwrthododd ymostwng i'r ymchwiliad, os na orfodid ei bum cydymaith mewn swyddau i fyned dan yr un ymchwiliad, ac ymneillduodd i'w le genedigol. Ymddengys fod Danton, am ryw reswm neu gilydd, wedi cymmeryd rhan mewn cynllwyn bradwrus gyda'r Duc o Orleans, ac eraill o elynion y weriniaeth. Cyhuddwyd Danton gan St. Just fel bradwr o flaen Pwyllgor y Diogelwch Cyhoeddus, a daliwyd ef ar y 30ain o Fawrth, 1794, a chafodd ei ddwyn o flaen llys y chwyldroad—llys oedd wedi ei sefydlu ganddo ef ei hun; a chondemniwyd ef, a thorwyd ei ben, ynghyd â Camille, Desmoulins, ac eraill, ar y 5ed o Ebrill canlynol, yn 34ain mlwydd oed. Rhagfynegodd Danton dynged Robespierre, gan ei alw yn "llwfrwas dirmygedig" (*infamous poltroon*); a chwanegodd yn ddioed, "Myfi oedd yr unig un a allasai ei waredu." Atheist oedd Danton. Perthynai i'r ysgol Ffrengig o faterolwyr, ac ni chredai yn anfarwoldeb yr enaid. Cadwodd ei ddewrder yn y prawf, ac hyd yn oed ar y dienyddle. "Byddaf yn fuan," ebe efe wrth y dienyddwr, "wedi syrthio i ddiddymdra; etto bydd fy enw yn fyw yn nheml hanesyddiaeth." Fel yna y bu farw y dyn hynod hwn, a gymmerodd ran mor amlwg yn y chwyldroad mawr.

DE QUINCEY, THOMAS. Ganwyd yr ysgrifenydd talentog hwn yn Greenhays, Manchester, yn 1785. Marsiandwr goludog oedd ei dad, yr hwn a fu farw pan oedd ei blant yn ieuaingc, gan adael i'w weddw 1,600*p*. y flwyddyn i fyw arnynt. Ar ol bod mewn dwy neu dair o ysgolion, aeth De Quincey yn 1803 i Rydychain. Yno y dechreuodd efe fwyta opiwm—arferiad a wnaeth niwed dirfawr i'w feddwl, i'w gorph, ac i'w amgylchiadau. Gadawodd y brif athrofa yn 1808; ac ar ol bod am ryw ysbaid o amser yn crwydro hyd Lloegr a Chymru, aeth i breswylio i gymmydogaeth Llynoedd Cumberland, lle y cafodd gymdeithas yr awdwyr enwocaf yn eu dydd. Nid ymroddodd i lenyddiaeth, oddi eithr er mwyn difyrwch, nes oedd efe yn ddeugain oed, pryd y gorfu arno, er mwyn ymgynnal,

Digitized by Google

ysgrifenu i'r "*London Magazine.*" Ac yn y cyhoeddiad hwnw y darfu iddo gyhoeddi ei "*Confessions of an Opium Eater*"—un o'r cyfansoddiadau rhyfeddaf, ond odid, mewn bod. Parhaodd i ysgrifenu o hyny allan ar bob rhyw bwnge, ac mewn llawer arddull. A mỳn llawer mai efe, gan eithrio y Proffeswr Wilson, oedd y cylchgronwr (*magazine writer*) mwyaf gorchestol a ymddangosodd yn Mhrydain. Y mae yn nodedig ar gyfrif ei asbri a'i wreiddioldeb, ynghyd â rhwysg a godidawgrwydd ei ddychymyg; ac y mae ei arddull hefyd yn ddiguro mewn gwreiddiolder, eglurder, ac ystwythder. Dygodd lenyddiaeth yr Almaen i sylw darllenwyr Saesnig rai blynyddoedd cyn i Carlyle ei gwneuthur hi mor adnabyddus.

Yn 1832, aeth i'r Alban, gan ymsefydlu yn agos i Edinburgh, lle y bu yn fawr ei barch hyd ei farwolaeth; yr hyn a ddigwyddodd ar yr 8fed o fis Rhagfyr, 1859. Cyhoeddwyd ei weithiau mewn un-ar-bymtheg o gyfrolau, rhwng 1862 ac 1871, gan A. a C. Black, Edinburgh; ac ysgrifenwyd bywgraphiad o hono mewn dwy gyfrol gan Page, yr hwn a gyhoeddwyd gan Higg a'i Gyf., Llundain.

**DERBE:** *Act.* xiv. 20, 21; xvi. 1; xx. 4. Ni wyddys yn fanwl yn mha le y safai y dref hon; ond gwyddys yn lled sicr yn mha ddosbarth yr oedd. Safai yn y rhan ddwyreiniol o ucheldir gwastad Lycaonia, yr hwn sydd yn ymestyn o Iconium tua'r dwyrain, ar hyd ochr gogleddol mynyddoedd Taurus. Rhaid ei bod yn rhywle yn agos i'r lle yr oedd y bwlch a elwid Porth Cilicia yn ffurfio ffordd o wastadedd isel Cilicia i ucheldir y canolbarth; a thybir ei bod yn orsaf ar y ffordd fawr oedd yn pasio yn y cyfeiriad hwnw. Ymddengys fod Cicero wedi myned trwy Derbe, ar ei daith o Cilicia i Iconium. Y cyfryw oedd ffordd Paul ar ei ail daith genhadol (*Act.* xv. 41; xvi. 1, 2); ac y mae yn debygol hefyd ar y drydedd: *Act.* xviii. 23; xix. 1. Yn ei daith gyntaf (*pen.* xiv. 20, 21), efe a ddaeth o'r ochr arall, sef o Iconium, o herwydd fod erledigaeth yn y lle hwnw, ac yn Lystra. Ni chofnodir unrhyw ddigwyddiadau fel wedi cymmeryd lle yn Derbe. Yn gysson â hyn nid yw yn cael ei chrybwyll yn rhestr yr enwau yn 2 *Tim.* iii. 11. Yn yr hanes apostolaidd, crybwyllir Lystra a Derbe gyda'u gilydd. Yn y dyfyniad o'r epistol, Lystra, ac nid Derbe, a grybwyllir. Y mae y gwahaniaeth yn gywir; canys y mae Paul yma yn rhifo ei erledigaethau. Yn Derbe y ganwyd Gaius—cyfaill a chyddeithiwr Paul: *Act.* xx. 4.

**DERHAM, WILLIAM:** duwinydd ac anianydd o Sais, yr hwn a anwyd yn Stoughton, sir Worcester, yn 1657. Ar ol gorphen ei addysg yn Rhydychain, gwnaed ef yn beriglor Upminster, yn Essex. Pennodwyd ef yn ddarlithydd Boyle yn 1711 a 1712, a gwnaed ef wedi hyny yn ganon Windsor, ac yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol. Yn 1713—1714, cyhoeddodd gynnwys ei ddarlithiau mewn dau lyfr o'r enw "*Physico-Theology,*" ac "*Astro-Theology;*" yn y rhai y mae yn ceisio profi bod, gallu, a doethineb Duw oddi wrth ei weithredoedd. Cyhoeddodd drachefn lyfr o'r enw "*The Artificial Clockmaker,*" ac ysgrifenodd lawer o gofiantau i'r "*Philosophical Transactions.*" Yn 1730, graddiwyd ef gan brif athrofa Rhydychain yn athraw mewn duwinyddiaeth. Bu farw ar y 5ed o Ebrill, 1735, yn 78ain oed.

**DIFFYG AR YR HAUL.** Gwel HAUL.

**DONNE, JOHN:** bardd a duwinydd o Sais. Ganwyd ef yn Llundain, yn y flwyddyn 1573. Marsiandwr o haniad Cymraeg oedd ei dad, ac yr oedd ei fam yn berthynas i Syr Thomas More, a Heywood, y bardd.

Yn Babydd y dygwyd ef i fyny; ond ar ol gorphen ei addysg yn y ddwy athrofa, trodd yn Brotestant. Ar ol hyn bu yn ysgrifenydd i'r Arglwydd Ganghellydd Ellesmere; ond trowyd ef allan o'i le am briodi yn ddirgel nith i'r pendefig hwnw; ac nid dyma'r holl gosp a osodwyd arno, canys fe'i carcharwyd hefyd, a chymmerwyd ei briod oddi arno; ond trwy erlyniad cyfreithiol, a ddifaodd ei holl eiddo, efe a lwyddodd i'w chael yn ol. Maddeuodd ei chwegrwn iddo yn fuan wedi hyn; a chyn hir, perswadiwyd ef i roddi rhodd o 800*p.*, bob yn ugain punt yn y mis, i'w ddaw, tuag at ei gynnaliaeth ef a'i wraig. Yn groes i ewyllys ei wraig, aeth Donne gyda Syr Robert Drury i ymweled â dinas Paris; a thra yr oedd efe yno, bu farw ei wraig wrth roddi genedigaeth i blentyn. Pan ddychwelodd i Loegr, annogwyd ef i ymroddi i'r weinidogaeth; ac ar ol ysbaid o amser, gwnaed ef yn ddoethawr mewn duwinyddiaeth, yn gaplan i'r brenin Iago, ac yn ddeon St. Paul. Pan ddaeth nychdod arno, efe a aeth yn analluog i gyflawni ei ddyledswyddau gweinidogaethol; ond pan y clywodd rywun yn awgrymu mai cymmeryd arno fod yn wael yr ydoedd, am ei fod yn rhy ddiog i bregethu, efe a aeth, mewn gwendid dirfawr, i fyny i'r pulpud, ac a bregethodd yr hyn a eilw Walton "ei bregeth angladdol ei hun." Cyhoeddwyd y bregeth hono—a'r enw a roddwyd arni oedd "*Death's Duel.*" Efe a fu farw yn 1631.

Cyfrifir Donne yn awdwr gwych, er fod ei weithiau yn lled adnabyddus. Y mae yn amlwg oddi wrth ei weithiau rhyddieithol ei fod yn rhesymwr cadarn, ac yn feddyliwr dwfn; ac y mae ei farddoniaeth hefyd yn llawn o ddarfelydd a gwres. Y mae bywyd Donne gan Izaak Walton yn un o'r bywgraphiadau mwyaf difyrus i'w darllen yn yr iaith Saesnig.

**DRAKE, SYR FRANCIS:** mordwywr a llyngesydd enwog, yr hwn a anwyd yn Tavistock, yn swydd Devon, yn ol y golygiad cyffredin, yn 1545; ond 1539, yn ol Barrow, ei fywgraphydd. Pennodwyd ei dad i ddarllen gweddiau i'r morwyr yn y llynges frenhinol, a gwnaethpwyd ef, meddir, o'r diwedd yn ficer eglwys Upnor, islaw Chatham, lle y byddai y llynges yn arfer angori. Ond ymddengys mai camgymmeriad yw hyn, gan nad oes un prawf yn adnabyddus fod y fath eglwys yn bod. Cafodd Francis felly ei ddwyn i fyny yn mhlith llongwyr, a rhwymwyd ef gan ei dad yn freintwas i gymmydog oedd yn berchenog llong. Gan nad ydoedd i'r gŵr hwn blant, gadawodd ei long a'i thaclau yn ei ewyllys i Drake. Dygodd y llong hon gryn elw iddo; ond pan y clywodd am orchestion ei berthynas, Syr John Hawkins, yn y cefnfor Yspaenig, efe a'i gwerthodd hi, ac a ymunodd â'r llynges frenhinol dan arweiniad y llywydd hwnw. Yn llyngesgyrch anffodus Hawkins yn erbyn yr Yspaeniaid, collodd Drake yr oll a feddai, a chollodd ei gymmeriad hefyd i fesur; canys bu yn euog o anufudd-dod, a gadawodd ei lywydd a'i gyfaill mewn adeg o gyfyngder. Er hyny, dangosodd ei hun yn llongwr medrus,

Digitized by Google

a dygodd y llong a lywyddai adref yn ddiogel. Gwnaeth Drake ei holl golledion i fyny drwy ysbeilio yr Yspaeniaid. Yn 1570, cafodd genad reolaidd gan y frenhines Elizabeth i hwylio i'r India Orllewinol i anrheithio yr Yspaeniaid; ac yn 1572, aeth allan drachefn gyda dwy long, er mwyn ymosod ar borthladdoedd yr Americ Yspaenig. Cymmerodd ddwy ddinas, a dychwelodd gydag ysbail mawr i Plymouth. Yn 1577, anfonodd Elizabeth bump o longau, dan lywyddiaeth Drake, i ymosod ar yr Yspaeniaid yn Moroedd y Deheu. Ar yr hynt hon, efe a ddifrododd y sefydliadau Yspaenig; chwiliodd (*explored*) arfordir Gogledd America hyd wyth radd a deugain tua'r gogledd (48° *N. lat.*), a galwodd y wlad a ddarganfu yn *New Albion.* Yna aeth i'r India Ddwyreiniol; a chan hwylio o amgylch Penrhyn Gobaith Da, efe a ddychwelodd i Plymouth, yn mhen dwy flynedd a deng mis ar ol cychwyn allan. Yn ystod yr amser hwn, efe a fordwyodd o amgylch y byd: —a dyma yr enghraifft gyntaf o hyny gan Sais. Anrhydeddodd y frenhines ef trwy giniawa ar fwrdd ei long yn Deptford, a'i wneuthur ef yn farchog. Yn 1589, ymwthiodd i mewn i borthladd Cadiz, a dinystriodd liaws mawr o'r llongau a ddarperid i wneyd ymosodiad ar Brydain; ac yn y flwyddyn ganlynol, gwasanaethodd fel is-lyngesydd Arglwydd Howard yn y llynges; yr hon, gyda chynnmhorth y gwynt a'r tonau, a wasgarodd ac a lwyr ddinystriodd Arflynges (*Armada*) alluog Yspaen. Ar ol hyn, aeth i'r India Orllewinol gyda Syr John Hawkins; ond rhwng y naill beth a'r llall, ni bu yr hynt hon yn llwyddiannus. Ni ddychwelodd na Syr John Hawkins na Syr Francis Drake adref yn fyw. Bu farw yr olaf ger llaw Nombre de Dios ar yr 28ain o Ionawr, 1596.

DRYDEN, JOHN. Ganwyd y bardd hwn yn Aldwinkle, yn swydd Northampton, ar y nawfed dydd o Awst, 1631. Ar ol bod am ryw ysbaid yn ysgol Westminster, aeth, yn 1650, i Goleg y Drindod yn Nghaergrawnt, lle yr ennillodd radd celf athraw. Yn 1657, aeth i Lundain, yn ysgrifenydd i'w berthynas, Syr Gilbert Pickering; yr hwn oedd yn aelod o gynghor Cromwell. Pan fu farw yr Amddiffynydd, ysgrifenodd Dryden alargân ar yr achlysur; ond ymddengys ddarfod iddo allu anghofio ei alar yn dra buan; canys, mor gynted ag y cyhoeddwyd Siarl yr Ail yn frenin, llongyfarchwyd ef gan Dryden mewn cân a elwir *Astræa Redux.* Parodd yr anghyssondeb hwn anghydfod rhyngddo a theulu Syr Gilbert; felly ymadawodd Dryden âg ef, a phenderfynodd ennill ei fywoliaeth trwy brydyddu, a hyny yn benaf gogyfer â'r chwareufa. Y *Duke of Guise* oedd y chwareuawd cyntaf a gyfansoddodd; ond y cyntaf a chwareuwyd oedd *The Wild Gallant.* Yn 1663, priododd ferch i Iarll Berkshire, gyda'r hon y derbyniodd waddol; ac yn 1670, pennodwyd ef yn fardd y llys (*poet laureate*), ac yn hanesydd proffesedig, gyda chyflog o 300*p.* y flwyddyn. Yn fuan wedi hyn, efe a ymrwymodd i gyflenwi y chwareufeydd â thair o chwareuawdau newyddion bob blwyddyn, am o ddeutu 350*p.* o gyflog yn flynyddol. Rhwng 1662 a 1694, gwnaeth chwech-ar-hugain o chwareuawdau. Yr oedd deuddeg o honynt yn dreiswawdau (*tragedies*), a naw yn gymwawdau (*comedies*). Nid oes odid neb yn darllen y rhai hyn yn awr: prin y maent yn haeddu eu darllen, canys y maent oll yn annaturiol, a llawer o honynt yn hynod o anfoesol. Yn 1681, cyhoeddodd y duchangerdd *Absalom and Achitophel*, yn yr hon yr ymosodai ar y Puroniaid (*Puritans*). Y Duc o Monmouth a feddylir wrth Absalom, Iarll Shaftesbury wrth Achitophel, Siarl yr Ail wrth Dafydd, a'r Duc o Buckingham wrth Zimri. Cyfrifir hon yn un o'r tuchangerddi perffeithiaf yn yr iaith Saesnig. Ymosod ar y bardd Shadwell y mae Dryden yn y duchangerdd *Mac Flecknoe;* ac amddiffyn Eglwys Loegr, ac ymosod ar y Pabyddion, y mae efe yn y *Religio Laici.*

Pan yr esgynodd Iago yr Ail i'r orsedd, trodd Dryden yn Babydd, a rhoddodd ei resymau dros hyny yn yr "*Hind and Panther*"—cân a wawdiwyd yn fedrus gan Prior a Montague yn y "*Country Mouse and City Mouse.*" Pan ddaeth chwyldroad y fl. 1688, symmudwyd Dryden o'i swydd, a gwnaed ei hen wrthwynebydd, Shadwell, yn fardd y llys yn ei le. Yn 1694, dechreuodd gyfieithu "*Virgil;*" a gorphenodd ef yn niwedd y flwyddyn 1696, a chyhoeddwyd ef yn 1697. Yn mhen tua mis yn ddiweddarach na hyn, ymddangosodd ei awdl ar "*Alexander's Feast*"—un o'r cyfansoddiadau godidocaf yn yr iaith Saesnig. Yn y fl. 1700, cyhoeddodd ei "*Fables,*" ynghyd â chyfieithiadau o "*Ovid*" a "*Boccaccio.*"

Ni ragorodd un bardd Saesneg ar Dryden mewn nerth, rhwyddineb, a melusder mydryddiaeth; ac fel duchanwr, y mae efe heb ei ail. Bu farw ar ddydd Calanmai, 1700, a chladdwyd ef gyda rhwysg mawr yn Mynachlog Westminster.

DUNSTAN: archesgob Caergaint, ac un o enwogion penaf yr eglwys yn Mhrydain yn yr oesoedd canol. Ganwyd ef yn, neu ger llaw, Glastonbury, yn Ngwlad yr Haf, B. A. 925, o deulu pendefigaidd; ac addysgwyd ef yn mynachlog Glastonbury, yr hon oedd ar y pryd yn enwog fel eisteddle dysg. Ymroddai i astudio gyda dyfalwch mawr yn ei ddyddiau boreuol; ac heb law bod yn ddysgedig yn y pethau yr oedd duwinyddion yn gyffredinol yn ddysgedig ynddynt, yr oedd yn gyfansoddwr cerddorol rhagorol. Chwareuai yn fedrus ar amryw offerynau; yr oedd hefyd yn arlunydd, yn emydd, ac yn of, &c. O dan nawdd ei ewythr, Adelm, archesgob Caergaint, cyflwynwyd ef i lys Athelstan; ac yno y treuliodd efe rai blynyddoedd. Ond blinodd yno, a dychwelodd yn ol i Glastonbury. Trodd yn fynach pan yn ieuangc, ac adeiladodd gell neu feudwy-dy iddo ei hun, yn nghyd âg ystafell fechan fel math o gapel; a threuliai ei amser yno mewn ymarferiadau crefyddol, gan arfer ei gywreinrwydd fel celfyddydwr yn ngwasanaeth yr eglwys mewn rhyw ddull neu gilydd. Yn amser ei enciliad i Glastonbury, tybia Chalmers fod synwyrau Dunstan i raddau wedi rhoddi ffordd. Dywedir y dychymmygai fod y diafol yn ymweled âg ef:—ac un diwrnod, pan yn cymmhell ei demtasiynau gyda mwy o daerineb nag arferol, ac yn rhoddi ei ben trwy ffenestr ei gell, iddo gydio mewn gefail chwilboeth, ac ymaflyd yn ei drwyn—nes y dychrynwyd yr holl gymmydogaeth gan ysgrechfeydd yr un drwg! Dyna'r chwedl. Wrth gwrs, canmolwyd y gwrhydri hynod hwn gan y bobl gyffredin yn fawr. Mewn dull o siarad, rhoddodd Edred, olynydd Edmund, B. A. 948, ei gydwybod, ei drysorau, a'i awdurdod yn llaw Dunstan. Cymmerodd y diweddaf fantais ar

Digitized by Google

hyny i ddyfod âg urdd newydd o fynachod i Loegr—yr hyn a fu yn achos o gryn anghydfod. Canfyddai fod ei ddyrchafiad, mewn rhan fawr, i'w briodoli i'w ddull meudwyaidd a gerwin o fyw. Proffesai ei hun yn bleidiwr selog i reolau mynachaidd manwl. Darfu i'w ymddygiadau, fodd bynag, gynnhyrfu gwrthwynebiad y clerigwyr bydol (*secular*), y rhai a ymunasant â rhai o wŷr y llys, a deimlent yn anfoddog o herwydd ei ymddygiadau uchelfrydig, i ffurfio plaid gref yn ei erbyn. Ar farwolaeth Edred, ac esgyniad ei olynydd Edwy, cymmerwyd yr abadaeth oddi ar Dunstan, ac alltudiwyd ef o'r wlad yn 955. Adferodd Edgar ef yn y flwyddyn ganlynol i Glastonbury, a dyrchafwyd ef i esgobaeth Worcester yn gyntaf; wedi hyny gwnaed ef yn esgob Llundain; ac yn 959 cafodd ei bennodi yn archesgob Caergaint. Aeth Dunstan i Rufain i dderbyn caniatad y pab i dderbyn y pennodiad, a chafodd hyny gyda phob rhwyddineb. Ar ei ddychweliad, yr oedd ei ddylanwad ar y brenin yn gyfryw fel y galluogwyd ef i ddwyn y clerigwyr Saesnig dan awdurdod Rhufain yn fwy nag y buont o'r blaen; a rhoddodd i'r mynachod ddylanwad a fu yn eiddo iddynt mewn rhan fawr hyd adeg y Diwygiad Protestanaidd. Darfu i Dunstan, yn cael ei gefnogi gan Edgar, lethu y gwrthwynebiad a amlygasid gan y wlad am gyhyd o amser yn erbyn awdurdod y pab. Gan hyny, y mae y prelad hwn yn parhau i gael ei ganmol yn fawr gan y mynachod, a phleidwyr mwyaf selog Pabyddiaeth. Cadwodd ei ddylanwad yn y llys ar hyd teyrnasiad Edgar; ac ar farwolaeth y diweddaf, yn y fl. 975, trwy ei ddylanwad ef i raddau mawr y diogelwyd yr orsedd i Edward, mab hynaf y diweddar frenin. Tra yr oedd Edward o dan oed, llywodraethai Dunstan gyda llaw uchel yn y wladwriaeth a'r eglwys; ond pan lofruddiwyd y tywysog hwnw yn 979, ac i Ethelred esgyn i'r orsedd, gwanhaodd ei ddylanwad; a dywedir fod y diystyrwch â pha un yr arferai y brenin edrych ar ei fygythion o ddialedd dwyfol yn ei ofidio i'r fath raddau, fel y darfu iddo ymneillduo i'w ddinas archesgobawl, a marw o ofid meddwl, Mai 19eg, 988, yn 63ain mlwydd oed.

Yr oedd Dunstan yn ddyn o alluoedd anghyffredinol. Buasai ei nerth meddyliol, ei benderfyniad i gyrhaedd ei amcan, ei ymddygiadau anhyblyg a dibetrus, yn ei ddyrchafu i awdurdod mewn unrhyw oes; ond yr oedd yn meddu, yn chwanegol at yr ansoddau hyn, gydnabyddiaeth ddofn â gwendidau y natur ddynol, a deall clir a threiddgar, a'i galluogai i weled yr hyn oedd yn angenrheidiol a doeth i lywodraethwr ei wneyd. Er ei fod yn llywodraethwr unbenaethol, yr oedd ei uchelgais yn wastad o dan lywodraeth ei ddoethineb. Ond yr oedd amcan mawr ei fywyd, sef dwyn oddi amgylch ymostyngiad hollol yr eglwys Anglo-Saesonaidd i Eglwys Rhufain, yn beth nas gall pobl amseroedd diweddar mewn un modd ei edmygu. Yn hytrach, gofidiant o herwydd ei lwyddiant.

DUWIAU GAU. Y mae yr enw Hebraeg ar Dduw (*Elohim*) fel y Cymraeg, 'Arglwydd' yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol gyssylltiadau. Gelwir y gwir Dduw yn fynych yn Elohim; fel y gelwir yr angylion, barnwyr, tywysogion, ac weithiau ddelwau a duwiau gau: *Gen.* i. 1; *Exod.* xxii. 20; *Salm* lxxxvi. 8; hefyd, *Exod.* xxi. 6; xxii. 8; 1 *Sam.* ii. 25; *Exod.* xxii. 28. Teimlai yr Israeliaid y fath adgasrwydd a dirmyg tuag at dduwiau dyeithr, fel nad oeddynt yn barod i'w henwi; ond rhoddent arnynt ryw enwau yn arwyddo dirmyg. O ganlyniad, yn lle *Elohim*, galwent hwy yn *elilim*—dim, gwagedd, duwiau di-werth. Yn lle Mephi-baal, a Meribaal, ac Ieru-baal, dywedent, Mephi-boseph, a Meri-boseph, ac Ieru-boseph. Arwyddai y gair 'Baal' feistr, gŵr; a'r gair 'boseph,' cywilydd. Yr oedd y bodau, pa un bynag ai dychymygol ynte gwirioneddol oeddynt, a fabwysiadwyd yn mysg dynion fel gwrthddrychau addoliad, yn lle Iehofah, yn dangos yn eglur sefyllfa syrthiedig dyn. Ofn, chwant, casineb, neu falchder, oedd yn amlwg yn meddu y lle blaenaf yn eu syniadau pan yn dewis gwrthddrychau eu haddoliad. Nid oedd dim syniad pur a dyrchafedig ynglŷn â hyn. Prif dduwiau yr hynafiaid oeddynt Iau, Iuno, Festa, Minerva, Ceres, Diana, Gwener, Mawrth, Mercher, Neifion, Vulcan, ac Apollo. Ystyrid Iau yn dduw y nefoedd; Neifion, yn dduw y môr; Mawrth, yn dduw rhyfel; ac Apollo, yn dduw hyawdledd, barddoniaeth, a physygwriaeth, &c. Math arall o dduwiau, a ystyrid yn ailraddol, oeddynt ddynion wedi eu canoneiddio a'u duwioli. Fel yr oedd y duwiau mwyaf yn meddiannu y nefoedd yn eu hawl eu hunain, yr oedd y duwiau ailraddol drwy eu teilyngdod wedi eu trosglwyddo i'r nefoedd, am eu bod wedi byw megys duwiau ar y ddaear. Y mae gan Hesiod bryddestawd ar "Genhedliad y duwiau," yn yr hon yr eglura eu cenhedliad a'u haniad—a'r cyfan yn gwneyd math o gyfundrefn dduwinyddol baganaidd. Ond er cymmaint a ysgrifenwyd ganddynt, y mae yn anhawdd cael allan gwir syniadau y paganiaid yn mherthynas i'w duwiau: y maent yn fynych yn hynod gymmysglyd a dyrus, ac weithiau yn llawn o wrthddywediadau. Cydnabyddent nifer dirfawr o dduwiau uwchraddol ac israddol, oeddynt yn meddu llywodraeth ar bethau; a thybient fod pob man yn llawn o dduwiau. Cyfrifa Varo fod deng mil ar hugain yn cael eu haddoli mewn cylch bychan o wlad, a bod eu rhifedi yn chwanegu yn barhaus. Mewn paganiaeth ddiweddar, y mae duwiau gau i'w rhifo wrth y miliynau; ac mewn gwirionedd y maent yn aneirif. Nid oes neb sydd yn credu ac yn ymhyfrydu yn y gwir Dduw yn gallu meddwl am sefyllfa bresennol dynolryw, heb deimlo a gofidio. Ond y mae y sicrwydd dwyfol a roddir o lwyddiant Cristionogaeth yn dwyn llawenydd i bob dyn ystyriol: —"Y duwiau ni wnaethant y nefoedd a'r ddaear, a ddyfethir oddi tan y nefoedd;" *Ier.* x. 11.

DYER, JOHN: bardd Saesneg o gryn fri. Ail fab ydoedd i gyfreithiwr cyfrifol yn Aberglasney, yn sir Gaerfyrddin; ac yno y ganwyd ef yn y fl. 1700. Derbyniodd ei addysg yn ysgol Westminster; ac wedi gorphen ei amser yno, dechreuodd astudio y gyfraith. Ond er yn ieuangc, yr oedd tueddfryd naturiol ei feddwl at farddoniaeth ac arluniaeth; a chan fod ei dad wedi marw pan nad oedd efe ond ieuangc, cafodd ryddid i ddilyn y duedd hon. Bu yn astudio arluniaeth am dymmor dan un o'r enw Richardson, ac wedi hyny yn teithio yn y Deheudir, gan ymarfer y gelfyddyd ei hun. Yn ystod y cyfnod hwn yr ysgrifenodd ei bryddestawd "*Grongar Hill*," yr hon sydd gyfansoddiad yn cynnwys barddoniaeth ddisgrifiadol ragorol; a chyhoeddwyd hi yn 1727. Er nad ydyw yn ymddangos iddo ymberffeithio yn fawr mewn arluniaeth, aeth i Italy i astudio y gelfyddyd; ac yno yr

Digitized by Google

ysgrifenodd ei "*Ruins of Rome;*" pryddest ddisgrifiadol a gyhoeddwyd yn 1740. Ar ei ddychweliad yn ol i Brydain, gan ei fod yn meddu ychydig eiddo, efe a ymneillduodd i breswylio i'r wlad. Cymmerodd urddau eglwysig, a phriododd foneddiges o'r enw Ensor; a dywedir ei bod yn un o ddisgynyddion Shakspeare. Bu yn beriglor Belchford a Kirkby, swydd Lincoln, ac wedi hyny yn Coningsby, yn yr un sir. Efe a fu farw yn y lle diweddaf yn niwedd 1757, yn 57ain mlwydd oed.

Yn 1757 y daeth allan "*The Fleece*" o'i waith, yr hon sydd bryddest led faith, ac yn cynnwys rhai darnau rhagorol. Gellir dyweyd hefyd fod yn ei "*Ruins of Rome*" rai llinellau prydferth a tharawiadol. Ond hwyrach wedi'r cwbl mai ar "*Grongar Hill*" y mae enwogrwydd barddonol Dyer yn gorphwys yn benaf. Er nad oes yn y bryddestawd hon ddyfnder a threiddgarwch meddyliol hynod, na drychfeddyliau nodedig, cynnwysa grynodeb o syniadau tlws a tharawiadol; ac y mae yn debyg o fod bob amser yn hoff ddernyn gan lawer o ddarllenwyr.

DYFRHAU TIR (*Irrigation*): dull a arferir i gynnyddu ffrwythlonwydd tiroedd trwy ddefnyddio moddion celfyddydol er cael dwfr arnynt, neu eu gorchuddio â dwfr ar adegau pennodol. Y mae dyfrhau tir, o leiaf, mor hen ag ydyw amgloddio neu ddrênio. Fe allai ei fod o hynafiaeth mwy. Natur a ddysgodd i ddyn gyntaf y fantais oedd i'w chael trwy ddyfrhau y tir drwy orlifiad afonydd. Yr Aipht, dybygid, oedd y maes a ddyfrhawyd gyntaf gan gelfyddyd. Nis gallai effeithiau cynnyrchiol dyfroedd y Nilus, wedi ei gorlifiad, lai na thynu sylw y preswylwyr, a dysgu y wers iddynt—nad oedd dim yn angenrheidiol er cael y tir oedd y tu allan i gylch gorlifiad yr afon yn ffrwythlawn ond yn unig efelychu natur. Y mae gweddillion y camlesydd mawrion, a welir hyd heddyw yn y wlad hono, yn profi fod ymdrechiadau egnïol wedi eu gwneuthur gynt i ddyfrhau y parthau hyny o'r wlad nad oedd gwlaw yn disgyn arnynt. Yr oedd y camlesydd wedi eu gwneyd yn mhob rhan o'r wlad, ac yn derbyn cyflenwad o ddwfr o'r Nilus, ac yn ei gario i bob man—o herwydd nid oedd yr Aipht yn lle anwastad. Y mae yn dra thebygol fod amryw o'i llynau mawrion yn weithiau celfyddydol wedi eu cyfaddasu i fod yn gronfeydd i ddal y dwfr wedi i'r Nilus ddisgyn o fewn ei cheulanau. Ceir digon o brofion fod yr Aiphtiaid wedi bod yn dyfrhau eu tiroedd yn gelfyddydol ar raddeg eang. Nis gellir, modd bynag, ddywedyd llawer yn mherthynas i amaethyddiaeth y wlad; o herwydd y mae ein gwybodaeth am dani yn mron yn hollol gyfyngedig i'r hyn a fynegir i ni yn yr Ysgrythyrau. Pan deithiodd Abraham a Lot ynghyd i chwilio am wlad i aros ynddi ar ol gadael yr Aipht, cyttunasant i ymwahanu, pan ddeallasant nas gallai y wlad yr oeddynt ynddi eu cyflenwi hwy a'u teuluoedd, a'u hanifeiliaid, â chynnaliaeth angenrheidiol. Dewisodd Lot wastadedd yr Iorddonen, am ei fod yn ddyfradwy fel gwlad yr Aipht. "A Lot a gyfododd ei olwg, ac a welodd holl wastadedd yr Iorddonen, mai dyfradwy ydoedd oll, cyn i'r Arglwydd ddyfetha Sodom a Gommorah, fel gardd yr Arglwydd, fel tir yr Aipht;" *Gen.* xiii. 10. Pan y disgrifiai Moses Wlad yr Addewid i'r Israeliaid, darluniai hi fel gwlad yn cael ei chyflenwi â dwfr mewn ffordd naturiol—yn wrthgyferbyniol i'w dull celfyddydol hwy o ddyfrhau â'r traed, neu trwy ddefnyddio y traed i weithio y peiriant i gyfodi dwfr o'r camlesydd, fel yr arferid gwneyd yn yr Aipht:—"O herwydd y tir yr wyt yn myned iddo i'w feddiannu, nid fel tir yr Aipht y mae, yr hwn y daethoch o hono, lle yr heuaist dy hâd, ac y dyfrheaist â'th droed, fel garddlysiau; ond y tir yr ydych yn myned trosodd iddo i'w feddiannu sydd fynydd-dir, a dyffryndir, yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd. A bydd, os gan wrando y gwrandewch ar fy ngorchymynion, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i chwi heddyw, i garu yr Arglwydd eich Duw, ac i'w wasanaethu â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid; yna y rhoddaf wlaw i'ch tir yn ei amser, sef y cynnar-wlaw, a'r diweddar-wlaw; fel y casglech dy dŷ, a'th win, a'th olew;" *Deut.* xi. 10—14.

Yr oedd gwlad yr Aipht wedi ei gwneuthur mor gynnyrchiol trwy ei dyfrhau fel yr oedd Pliny yn ei chymmharu â Leontines—y parth mwyaf ffrwythlawn yn Sicily. Diammheu fod yr Aipht yn hynod gynnyrchiol mewn ŷd mor foreu ag amser Abraham, yr hwn a ymfudodd yno yn amser newyn. Ychydig iawn a wyddys am amaethyddiaeth hen deyrnasoedd Assyria, Babilon, Carthage, Phœnicia, a Groeg, ac nis gwyddom am eu dull o ddyfrhau; ond y mae yn debygol eu bod yn arfer trefniadau yr Aipht. Deallir oddi wrth ysgrifeniadau yr hynafiaid fod y Rhufeiniaid yn dyfrhau ar raddfa helaeth, fel un o'r moddion goreu i wellhau y tir. Yn marn yr hen awdwr Rhufeinig Cato, y ffordd gyflymaf i gyfoeth oedd magu anifeiliaid da; gan hyny, rhoddai y flaenoriaeth i ddolydd. Nid yw yn dadleu mai porfa ydyw y peth gwerthfawrocaf y gall tir ei gynnyrchu; o herwydd yn yr ystyr yma y mae yn rhoddi y flaenoriaeth i winllanoedd, gerddi wedi eu dyfrhau, meusydd helyg, a gerddi olewydd. Ond dywed eu bod hwy yn rhoddi mwy o elw yn ol cyfartaledd y draul a roddid arnynt; ond ar y llaw arall, fod y dolydd yn wastad yn rhoddi ac yn ad-dalu. Gan hyny, y mae Cato yn cynghori i wneuthur dolydd, yn enwedig rhai i'w dyfrhau, pa le bynag y ceid dwfr yn gyfleus. Y mae Columella hefyd yn cynghori gwneyd yr un modd. Ond nid oes un ysgrifenydd Rhufeinaidd ar amaethyddiaeth wedi rhoddi cyfarwyddiadau pa fodd i wneyd dôl ddyfradwy. Yn uniongyrchol ar ol cwymp yr ymherodraeth Rufeinig, adfeiliodd amaethyddiaeth, a bu mewn sefyllfa isel am o ddeutu deg canrif. Ni raid rhyfeddu, gan hyny, wrth ystyried hyn, nad oedd amaethyddiaeth yn gyffredinol yn Italy yn gwellhau dim ar yr hyn ydoedd yn mysg y Rhufeiniaid, hyd nes y cymmerodd adfywiad le ar lenyddiaeth. Dyfrhau tir, fe allai, oedd yr unig gangen o amaethyddiaeth a wellhawyd ac a ddefnyddiwyd cyn i'r oesoedd tywyll fyned heibio; ac yr oedd y gwelliant yn hyn yn gyfyngedig i ogleddbarth Italy. Y mae dyfrhâd Lombardy hyd heddyw yn ffurfio nodwedd arbenig yn ei hamaethyddiaeth. Yr oedd yr hen frenhinoedd yn cefnogi y gwaith hwn; ac arferai y Lombardiaidd ddyfrhau eu tiroedd ar raddeg eang mor foreu a B. A. 1037. Y mae y Po, yr Adige, y Tagliamento, ac afonydd eraill, yn cyflenwi y wlad â dwfr, haf a gauaf; a dyfrheir yr holl wlad yn mron o Venice i Turin yn y modd hwn. Nid ydyw dyfrhau yn cael ei gyfyngu yno i dir porfa; ond dyfrheir tir ŷd, a gwinwydd, a gwastadeddau lle y tyfir reis. Yr oedd yn ddigon naturiol i'r arferiad hwn o ddyfrhau tir fyned o Lombardy i

Digitized by Google

ddeheubarth Ffrainge, lle yr arferir dyfrhau tir i dyfu y cynnyrchion gwerthfawrocaf sydd yn dyfod o'r ddaear. Ychydig o gnwd a gyfodir hyd heddyw yn Yspaen heb ddyfrhau y tir. Y mae rhai dolydd yn y wlad hon, yn nghymmydogaeth Salisbury, yn swydd Wilts, wedi peri i rai dybied fod dyfrhau wedi bod mewn arferiad yn Mhrydain er amser y Rhufeiniaid. Pa fodd bynag am hyny, y mae yn sicr nad arferwyd dyfrhau tir yn Mhrydain yn ol y drefn oedd yn Italy hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, pan yr ymdrechwyd gwneuthur hyny ar raddeg fawr yn swydd Caergrawnt, gan Italiad o'r enw Pallavicino; ac ni ddilynwyd ei esampl hyd ddiwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreu yr un bresennol. Er hyny, y mae llawer o ddyfrhau tiroedd wedi bod yn mhob cwr o'n gwlad. Fel y gallesid disgwyl oddi wrth natur yr hinsawdd, y mae hyn yn cael ei arfer yn helaeth yn India: ond nid o lawer i'r graddau y dylid gwneyd. Dywedodd Mr. John Bright, yn Nhŷ y Cyffredin, yn 1878, y gallesid rhagflaenu newyn yn y wlad hono yn mron yn gwbl pe byddai i gynllun eang gael ei lunio i wneyd dyfr-ffosydd (*canals*) drwyddi. Dyfrhëir y tir hefyd i raddau helaeth yn China, a rhanau o America—yn enwedig yn Mexico a Pheru. Ac y mae y Cymry sydd wedi ymfudo i Patagonia hefyd wedi cael prawf o ddefnyddioldeb y drefn pan y bydd prinder gwlaw yno.

Fel hyn y dywed y diweddar Syr Humphry Davy:—"Y mae dwfr yn hanfodol i lysieuaeth; a phan y byddo tir wedi ei orchuddio â dwfr yn y gauaf neu yn nechreu y gwanwyn, y mae y lleithder sydd wedi treiddio felly yn ddwfn i'r pridd yn troi yn faeth i wreiddiau y planhigion yn yr haf, ac yn attal yr effeithiau drwg hyny sydd yn digwydd yn fynych mewn tiroedd yn eu sefyllfa naturiol mewn canlyniad i barhâd tywydd sych am dymmor maith .....Cynnwysa dwfr afon yn gyffredin swm pennodol o ddefnydd gwrtaith; ac y mae mwy ynddo ar ol gwlawogydd nag o'r blaen, yn enwedig mewn afon yn rhedeg mewn gwlad amaethedig. Hyd yn oed mewn achosion pan y mae y dwfr a ddefnyddir i ddyfrhau tir yn bur, ac yn rhydd oddi wrth sylweddau anifeilaidd a llysieuol, y mae yn effeithio i ddosbarthu yn fwy cyfartal y sylweddau maethlonol fydd yn y ddaear; ac mewn tymmorau oer iawn, ceidw wreiddiau tyner a dail y glaswellt rhag i'r rhew effeithio arnynt."

Er dangos y gallu sydd mewn dwfr i amddiffyn rhag oerni, nid oes angen ond crybwyll un ffaith anianyddol dra adnabyddus; sef, fod dwfr, o ran priodlbwys, yn 42° gradd Fahrenheit; gan hyny, nid ydyw y dwfr sydd felly yn dyfod i gyffyrddiad â gwreiddiau bron un amser islaw y tymmeredd hwn; o ganlyniad, nid yw mewn un modd yn niweidiol iddynt. Y mae llawer o fanteision yn deilliaw o ddyfrhau. Y mae yn dwyn lleithder i'r tir, yr hyn sydd yn angenrheidiol mewn tymmorau sych, ac mewn gwledydd poeth; yn amddiffyniad i blanhigion rhag eithafion oerni a gwres; yn dosbarthu ac yn cario gwrtaith i'r planhigion; ac y mae hefyd yn golchi ymaith sylweddau niweidiol oddi wrth eu gwreiddiau.

Dylai y dwfr a ddefnyddir fod yn rhydd oddi wrth laid, ac ammhuredd o'r fath ag sydd yn cau tyllau y dail, ac yn gorchuddio gwreiddiau planhigion, ac yn ymyryd â'u tyfiant. Nid yw dyfrhau tir yn beth mor gyffredin yn Mhrydain Fawr ag y byddai ddymunol. Dywedir nad ydyw y gweirgloddiau sydd yn Mhrydain wedi eu dyfrhau yn gelfyddydol yn cynnwys nemawr mwy na chan mil o erwau, a bod y rhan fwyaf yn neheu a gorllewin Lloegr. Ceir ffermydd wedi eu dyfrhau â dwfr carthffosydd yn ngwahanol ranau y deyrnas; ac y mae eu nifer yn cynnyddu yn barhaus. Yr enghraifft fwyaf llwyddiannus o hyn sydd yn agos i Edinburgh, lle y mae dosbarth helaeth o wlad o dan wair, rhwng Portable a Leith, yn rhentu yn ol y swm o ugain i ddeugain punt yr erw. Torir y gwair o dair i bum waith y flwyddyn; ac y mae cymmaint a deg tunell yr erw wedi ei gael yno ar y tro ar un toriad.

**DYWALGI** (*Tiger*): un o'r milod mwyaf o rywogaeth y gath (*felidæ*), yr hwn sydd yn gyfartal â'r llew mewn maint a chryfder, ac yn rhagori arno mewn chwimwthder. Y mae yn feinach na'r llew, ei holl ffurf yn fwy cathaidd, a'i ben yn llai ac yn grynach. Nid oes ganddo ddim mwng. Goddiweddа ei ysglyfaeth un ai trwy redeg ar ei ol, neu ynte trwy gynllwyn, a neidio arno. Y mae ei nerth mor fawr fel y gall ddwyn ymaith ŷch. Y mae hyd ambell un, o flaen ei drwyn i flaen ei gynffon, o ddeutu pymtheg troedfedd, a'i uchder hefyd yn dair neu bedair. Ond y mae dywalgwn y gwahanol wledydd yn gwahaniaethu cryn lawer mewn maintioli. Y mae dywalgwn Bengal, er enghraifft, yn llawer mwy na rhai Bokhara. Blew tew, main, a disglaer, o liw melynlwyd gloew, sydd i'r dywalgi. Yn Asia yn unig y mae'r bwystfil hwn i'w gael. Mewn lleoedd coediog y mae yn trigo, ac nis gall fyw lle na bydd yn alluog i gael dwfr. Y mae'r difrod a wna dywalgwn mewn rhanau o India yn fawr iawn, ac y maent yn lladd nifer mawr hyd yn oed o fodau dynol. Y mae y fenyw yn esgor ar dri, neu bedwar, neu bump o genawon. Pan gymmerer y rhai hyn yn ieuainge, y mae yn hawdd eu dofi, a dangosant gryn lawer o hoffder at y rhai a ymddygant yn garedig tuag atynt. Eppilia yn fynych pan mewn caethiwed, ond nid mor fynych a'r llewes.

Y mae hela dywalgwn yn orchwyl hoff gan yr Indiaid, ac y mae y perygl sydd ynglŷn âg ef yn hytrach yn mwyhau nag yn lleihau y dyddordeb a gymmerant ynddo. Bydd Ewropiaid yn gyffredin yn marchogaeth ar elephantiaid pan y byddant yn hela, ac oddi ar eu cefnau hwynt y byddant yn saethu y dywalgwn. Rhoddai yr *East India Company*, yn yr amser a fu, wobr o bunt i bwy bynag a laddai ddywalgi. Y mae dywalgwn erbyn hyn yn llawer llai eu rhifedi yn yr India nag oeddynt. Dyma rai o'r ffyrdd a gymmerir i'w dinystrio yn y gwledydd a fling ganddynt. Gosodir bwäau gyda saethau gwenwynig ar eu llwybrau, fel pan gyffyrddant â hwynt yr ehedant ymaith o honynt eu hunain. Gosodir rhwydau o wahanol fathau hefyd, gyda gafr neu oen fel abwyd. Telm-gist (*box-trap*), gyda drych wedi ei ddodi o'i fewn, a arfera y Chineaid. Ac y mae y dywalgi, wrth gael ei attynu gan ei ddarlun ei hun fydd ynddo, yn dattod rhwymyn y cauad, ac felly yn cau ei hun i mewn yn y gist. Yr arfer yn Oude ydyw gwasgaru dail llydain, wedi eu dwbio â glud, yn llwybr y dywalgi; a chyn gynted ag y sathr ar un o'r dail hyn, bydd ei dynged wedi ei selio; canys efe a rwbia ei wyneb â'i bawen, er mwyn cael ymwared o'r dail. Ond wrth wneuthur hyn, gorchuddia ei wyneb â dail, nes llwyr ddallu ei hun o'r diwedd. Yna ymdreigla ar y ddaear gan gynddeiriogrwydd, pan y bydd yn ddiogel i'r helwyr nesau ato i'w roddi i farwolaeth.

Digitized by Google

DEINIOL WYN, neu DANIEL. Mab ydoedd i Dunawd Ffur, abad a sefydlodd goleg crefyddol enwog Bangor is-y-coed, yn sir Fflint. Bu ar y cyntaf yn cynnorthwyo ei dad; ac yn 516, sefydlodd fynachdy yn Mangor Deiniol—Bangor, yn sir Gaernarfon. Yn mhen ysbaid pennodwyd ef yn esgob cyntaf Bangor. Bu farw, yn ol Sieffre o Fynwy, yn 544; ond y mae y Proffeswr Rhys yn ammheu y dyddiad.

DEIO AB IEUAN DDU. Blodeuodd fel bardd yn y rhan ddiweddaf o'r bymthegfed ganrif. Ganwyd ef yn Llanfihangel y Creuddyn, ger Aberystwyth. Yn Llangynfelyn, ger Cors Fachno, y bu yn preswylio; ac yno y claddwyd ef. Yr oedd yn fardd gorchestol, a llawer o'i waith ar gôf a chadw; ac yr oedd yn dra hoff o glera, yn ol arfer beirdd yr oesoedd hyny.

DERFEL GADARN. Rhyfelwr enwog yn amser Arthur, a mab i Hywel ab Emyr Llydaw. Hynododd ei hun yn fawr yn mrwydr Camlan. Cyflwynodd y rhan olaf o'i oes i grefydd; a rhestrwyd ef, ar ol ei farwolaeth, yn mysg y seintiau Cymreig. Y mae eglwys Llandderfel, ger y Bala, wedi ei chyflwyno iddo. Yn yr hen amser, yr oedd yno ryw hen ddelw yn cael ei haddoli, o'r enw 'Derfel Gadarn,' yr hon a anrhydeddid â phererindodau, ac offrymau, ac a ystyrid o fri. Mewn rhai o'r delwau, byddai peirianau a wnaent i'r llygaid agor, a throi o amgylch, a llawer o ddyfeisiau cyffelyb trwy ba rai y twyllid y bobl. Rhoddodd Harri VIII. orchymyn i ddinystrio pob delwau o'r fath; a syrthiodd hon dan yr un condemniad. Cymmerwyd y ddelw hon i Lundain, yn Mai, 1538, ac yno llosgwyd hi yn Smithfield, "gyda'r hwn eilun y llosgwyd ac y crogwyd y mynach Forest am deyrnfradwriaeth." Tua'r fl. 1837, yr oedd rhai gweddillion am Derfel i'w gweled gan y Parch. John Jones, rheithor Llandderfel, y rhai a elwid 'Ceffyl Derfel' a 'Ffon Derfel.'

DEWI WYN O EIFION. Gwel OWEN, DAVID.

DEULWYN, IEUAN. Yr oedd efe yn ŵr o ddysg a gwybodaeth, a sefyllfa dda, fel y gwelir oddi wrth y ffaith iddo gael ei alw, yn 1460, gydag eraill, i gastell Penfro, i derfynu pwngc dyrys ynghylch achau, a theitl, &c., yr Herbertiaid. Gwysiwyd, i'r amcan hwn, "*the foure cheyffest men of skyll within the prouynce of South Wallys.*" Hywel Surdwal, Ieuan Deulwyn, ac Ieuan Brechfa, "*Bardes*," oedd tri o honynt. Ac wedi hir chwilio coflyfrau Mynachlog Ystrad Fflur, Mynachlog Margam, &c., hwy a osodasant y cwbl ger bron y brenin mewn pedair o ieithoedd—sef yn y Lladin, y Gymraeg, y Ffrangcaeg, a'r Saesneg. Bernir yn gyffredin mai cymmrodor o Bendeulwyn, plwyf Cydweli, ydoedd; er fod Iolo Morganwg yn honi mai yn Mhendeulwyn, yn mro Morganwg, y preswyliai. Tybir hefyd gan rai mai oddi wrtho ef y mae yr enw 'Dillwyn' wedi disgyn. Efe oedd llywydd gorsedd Morganwg yn 1480, ac athraw Iorwerth Fynglwyd, a Lewis Morganwg, &c. Y mae'n debygol i Ieuan Deulwyn, Dafydd Nanmor, a D. ab Edmwnd farw tua'r un amser.

DISRAELI, BENJAMIN:—Iarll BEACONSFIELD. Mab hynaf ydoedd i Mr. Isaac Disraeli, awdwr y "*Curiosities of Literature.*" Ganwyd ef yn 1805, yn Bradenham House, yn swydd Buckingham. Bwriadwyd ef ar y cyntaf i fod yn gyfreithiwr — yn ddadleuydd; ond trodd ei feddwl at lenyddiaeth; ac y mae yn ddiammheuol ei fod wedi llwyddo i raddau pell yn y cyfeiriad hwn. Yn 1827, efe a gyhoeddodd ei ffug-chwedl gyntaf; sef, "*Vivian Grey.*" Wedi hyny, teithiodd ar y Cyfandir, ac yn y Dwyrain am ychydig flynyddoedd. Yn 1832, ymddangosodd fel ymgeisydd Radicalaidd dros High Wycombe—bwrdeisdref lled agos i'w gartref.

Gan ei fod yn anadnabyddus fel gwleidyddwr, ymofynodd cyfaill iddo, o'r enw Bulwer, am gymmeradwyaeth a chefnogaeth gan yr hen Ryddfrydwr, Joseph Hume. Ysgrifenodd Mr. Hume lythyr ato yn cymmeradwyo ei egwyddorion, ac yn dadgan ei obaith y byddai yn ffyddlawn iddynt. Ymofynwyd â Mr. O'Connell hefyd, a gwnaeth yntau hefyd yn gyffelyb; ac ar sail cefnogaeth y ddau, a'i syniadau Radicalaidd ei hun, yr ymofynodd efe am bleidleisiau yr etholwyr. Gwadodd Mr. Disraeli y ffeithiau uchod ar ol hyny; ond yr oedd y profion o'u gwirionedd yn rhy gryfion. Gwnaeth ddau ymgais arall am y gynnrychiolaeth—ond bu yn aflwyddiannus bob tro.

Ymddangosodd drachefn fel ymgeisydd dros fwrdeisdref Marylebone—rhan o'r brifddinas—yr hon oedd newydd ei chreu. Yn ei anerchiad i'r etholwyr, dyddiedig "Bradenham House, swydd Bucks, Ebrill 9fed, 1833," cydnabyddodd ei fod yn gefnogydd seneddau tair blynyddol, a phleidlais drwy y tugel. Y pryd hwnw edrychid ar bleidwyr y cyfryw ddiwygiadau fel Radicaliaid eithafol; os nad, yn wir, fel chwyldroadwyr. Yr oedd efe hefyd am ddiddymu y 'trethi ar wybodaeth,' sef y trethi ar bapur, ac ar hysbysiadau; ac o blaid addrefnu holl gyfundrefn drethol y wlad. Ac ymrwymai, yn enwedig, i ddefnyddio ei holl alluoedd i sicrhau diddymiad y trethi gwladol a elwir *assessed taxes*;—yr hwn oedd yn ddrychfeddwl hynod o feiddgar a gwreiddiol. Dywedodd yn yr anerchiad hwn:—

"Er na chefnogir fi gan y naill na'r llall o'r pleidiau aristocrataidd, yr wyf yn appelio atoch chwi gyda hyder fel aelod annibynol o gymdeithas, yr hwn nad ydyw yn disgwyl unrhyw les, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, oddi wrth lygredd gwladol na chamlywodraeth; fel aelod o deulu sydd heb ei halogi trwy dderbyn arian y cyhoedd; a'r hwn nad ydyw yn meddu unrhyw hawliau ar ystyriaethau y cyhoedd, ond y rhai hyny sydd yn seiliedig ar gydymdeimlad y cyhoedd. Yr wyf yn erfyn am eich cefnogaeth fel dyn sydd eisoes wedi ymladd brwydr y bobl, ac fel un sydd yn credu mai yr unig sylfaen ar yr hon y gellir yn awr gyfodi llywodraeth effeithiol a daionus ydyw ymddiriedaeth ddiderfyn yn athrylith y genedl Brydeinig."

O herwydd rhyw resymau neu gilydd, ni lwyddodd Mr. Disraeli i ennill ymddiried etholwyr Marylebone, mwy nag etholwyr High Wycombe o'r blaen.

Y sêdd nesaf y ceisiodd am dani oedd Taunton, yn Ebrill, 1835, fel gwrthwynebwr Toriaidd i Mr. Labouchere—etholiad a gymmerodd le ar bennodiad Mr. Labouchere gan Argl. Melbourne yn Feistr y Bathdy (*Master of the Mint*). Yn ei araeth etholiadol, anturiodd i ymosod ar Mr. O'Connell, gan ei gondemnio fel bradwr.

"Yr wyf yn edrych ar y Whigiaid (meddai) fel plaid wan, ond uchelgeisiol; yr hon nis gall gyrhaedd awdurdod ond trwy ymgyssylltu â bradwr."

Digitized by Google

Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyn yr oedd Mr. O'Connell yn cyfarch cyfarfod yn Dublin, pryd y gollyngodd efe holl ffrwd ei hyawdledd, a'i allu rhyfeddol i dalu y pwyth i'w wrthwynebwr, trwy ryw hanner cellwair âg ef, a'i ddal i fyny yn wrthddrych o wawd a dirmyg ei wrandawyr. Yr oedd bod nofelydd ieuangc o Iuddew wedi beiddio ei alw yn 'fradwr' yn ddigon i gyffroi ei natur; ac nis gallai neb ryfeddu at hyny.

"Y mae efe yn fy ngalw yn fradwr (gwaeddai Mr. O'Connell yn uchder ei lais mawr, a'i holl gyfansoddiad, ar y pryd, fel yn ymysgwyd dan deimlad). Fy atteb i hyn yna yw – mai dyn celwyddog ydyw. Y mae efe yn gelwyddog mewn gweithred ac mewn geiriau! Y mae ei fywyd yn gelwydd byw! Y mae efe yn warth i'w rywogaeth. Pa beth a all fod y sefyllfa hono ar gymdeithas a all oddef y fath greadur—yn meddu y digywilydd-dra i ddyfod yn mlaen gan bleidio cyfres o egwyddorion ar un adeg, a derbyn cynnorthwy gwleidyddol yn rhinwedd yr egwyddorion hyny; ac ar adeg arall, yn proffesu egwyddorion hollol wrthwyneb iddynt? Efe yw y mwyaf dirmygus o'i rywogaeth a'i ryw; ac y mae Lloegr yn cael ei diraddio trwy fod ganddi ar wyneb ei chymdeithas anfad-ddyn sydd yn meddu ei natur adgas, ffiaidd, ac ysgeler ef. Na feddylier, pan yr wyf yn siarad am Mr. Disraeli fel un o hiliogaeth Iuddew, fy mod yn amcanu ei waradwyddo o herwydd hyny. Yr oedd yr Iuddewon, ar un adeg, yn bobl etholedig. Yr oedd dyhirod yn eu mysg, er hyny; ac y mae yn rhaid mai o un o honynt hwy y disgynodd Disraeli. Y mae efe yn meddu ar nodweddau neillduol y lleidr anedifeiriol; ac yr wyf yn credu mai Disraeli oedd raid fod enw hwnw. O ran dim a wn i, y mae y Disraeli presennol wedi hânu o hono; a than yr argraph ei fod felly, yr wyf yn awr yn maddeu i etifedd cyfreithlawn y lleidr cableddus a groeshoeliwyd."

Er nad oedd ball ar barodrwydd Disraeli i luchio sylwadau diraddiol at eraill, megys Argl. John Russell, Argl. Palmerston, Syr Robert Peel, &c.; ac er iddo dderbyn llawer dyrnod effeithiol yn ol, ni theimlodd gymmaint oddi with un o honynt ag oddi wrth hon o eiddo O'Connell. Aeth 'y lleidr anedifeiriol' adref yn llawer dyfnach na'r cwbl—o gymmaint a'i fod yn falch o'i haniad Iuddewig. Ysgrifenodd lythyr at Mr. O'Connell yn bygwth talu yn ol iddo; a buasai wedi ei wahodd i ymladd gornest, oni buasai ei fod yn gwybod ei fod wedi lladd un dyn o'r enw D'Esterre mewn gornest; ac wedi gwneyd diofryd nad ymladdai efe byth mwy. Er hyny, ysgrifenodd at fab Mr. O'Connell; a chan iddo yntau wrthod, bygythiodd y daliai enw ei dad tra y byddai byw i ddirmyg y cyhoedd. Ond gwell fuasai iddo adael llonydd i'r hen wron; o blegid dywedir ei fod wedi cyfeirio yn ddirmygus at Mr. Disraeli fel 'disgynydd uniongyrchol o Judas Iscariot!'

Yr oedd yn amlwg fod opiniynau Mr. Disraeli yn graddol newid i fod yn fwy Toriaidd, o herwydd rhyw resymau adnabyddus iddo ef ei hun; ac yn 1836, cyhoeddodd gyfres o lythyrau, dan y teitl "*The Letters of Runnymede;*" yn mha rai yr oedd efe yn ymosod gyda gradd o greulondeb ar y blaid Ryddfrydig.

Yn 1837, etholwyd ef i'r senedd fel aelod Toriaidd dros Maidstone. Traddododd y frenhines ei haraeth ar yr 20fed o Dachwedd; ac yn mhen tua phythefnos ar ol hyny (Rhag. 7fed) y traddododd efe ei araeth gyntaf yn y Tŷ. Ymosodiad, yn benaf, ar Mr. O'Connell oedd yr araeth hon. Nid oedd yr hen ymladdwr Gwyddelig wedi eistedd i lawr, o'r braidd, pan gododd dyn lled ieuangc, hynod yr olwg arno, 'mor wŷned a'r galchen,' â'i lygaid wedi eu sefydlu ar lawr y tŷ, a'i wallt yn fodrwyau ar eu gilydd ar ei dalcen, gan appelio am gydymdeimlad y tŷ—yr hyn a ganiateir bob amser i aelod ar ei araeth gyntaf. Ond er fod yr araeth wedi ei pharotoi yn ofalus, yr oedd y traddodiad o honi yn fethiant llwyr; a dangosodd yr aelodau yn lled fuan yr arwyddion cyffredin o'u hanghymmeradwyaeth. Yna terfynodd yn y geiriau prophwydol canlynol:—

"I am not at all surprised at the reception I have experienced. I have begun several times many things, and I have often succeeded at last. I will sit down now, but the time will come when you will hear me."

Yn Gymraeg fel y canlyn:—

"Nid wyf yn rhyfeddu i'r graddau lleiaf at y derbyniad a gefais. Yr wyf wedi dechreu amryw bethau, ac yr wyf yn fynych wedi llwyddo yn y diwedd. Mi a eisteddaf i lawr yn awr, ond fe ddaw yr amser pan y gwrandewch arnaf."

Yn y fl. 1841, newidiodd Mr. Disraeli ei gynnrychiolaeth, ac anfonwyd ef i'r senedd i gynnrychioli bwrdeisdref yr Amwythig.

Yn nghorph y blynyddoedd cyntaf y bu yn y senedd, yr oedd yn gefnogydd i Syr Robert Peel. Ond pan ymrwymodd Peel i ddiddymu Deddfau yr Yd, yn 1845, trodd Mr. Disraeli ei wyneb at amddiffynwyr y deddfau anghyfiawn hyny; a daeth yn arweinydd iddynt ar unwaith. Yn Rhagfyr, 1851, ymddiswyddodd Argl. John Russell; a chymmerodd Argl. Derby y swydd o brif weinidog, Chwefror 27ain, 1852. Yna efe a bennododd Mr. Disraeli, y tro cyntaf, yn ganghellydd y trysorlys; ond ni pharhaodd efe mewn swydd ond hyd y Rhagfyr canlynol; pan y pennodwyd Iarll Aberdeen yn brif weinidog. Yn Chwefror, 1855, pennodwyd Argl. Palmerston yn brif weinidog. Yn Chwefror, 1858, pennodwyd Iarll Derby yn brif weinidog drachefn; a phennododd yntau Mr. Disraeli eilwaith yn ganghellydd y trysorlys. Daeth Argl. Derby a mesur o ddiwygiad yn mlaen:—yr hwn ni dderbyniodd ond ychydig o gefnogaeth y Tŷ. Ymddiswyddodd gan hyny; ac ar Mehefin 18fed, 1859, daeth Argl. Palmerston drachefn i fod yn brif weinidog; a pharhaodd mewn swydd hyd Tachwedd, 1865. Yna pennodwyd Iarll Russell yn brif weinidog; ond ni pharhaodd mewn swydd ond hyd Gorph. 6ed, 1866, pan y daeth Iarll Derby i feddiant o honi drachefn. Yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn, Mr. Disraeli oedd yn arwain yr wrthblaid yn Nhŷ y Cyffredin; a gwnaeth lawer ymosodiad chwerw ar wladlywiaeth dramor Argl. Palmerston. Ond ar ol i Argl. Derby ddyfod i swydd, dygwyd mesur o ddiwygiad seneddol yn mlaen i Dŷ y Cyffredin gan Mr. Disraeli, gyda'r amcan o roddi yr etholfraint i bawb oedd yn dal tai:—yr hwn a gariwyd, ar ol ymdrechfa galed. Yn Chwefror, 1868, ymddiswyddodd Argl. Derby; ac ar y 27ain o'r mis, cafodd Mr. Disraeli ei bennodi yn brif weinidog; ond ni pharhaodd efe mewn swydd ond hyd y Rhagfyr canlynol. Ymddiswyddodd o herwydd fod Mr. Gladstone wedi cario ei benderfyniad o blaid Dadsefydliad yr Eglwys yn yr Iwerddon, yn ngwyneb gwrthwynebiad penderfynol ei weinyddiaeth ef; ac yn yr etholiad cyffredinol a ddilynodd, gorchfygwyd y Toriaid gyda mwyafrif mawr. Gwrthododd Mr. Disraeli gymmeryd swydd yn y fl. 1872. Ond yn y fl. 1874,

Digitized by Google

dadgorphorwyd y senedd; ac ar ol yr etholiad cyffredinol, meddai y Toriaid fwyafrif o hanner cant, pan bennodwyd Mr. Disraeli yn brif weinidog drachefn, Chwefror 21, 1874; a pharhaodd am ychydig dros chwe blynedd. Gwnaed amryw gyfnewidiadau mewn rhai o'r deddfau yn ystod yr amser hwn. Cafwyd deddfau i lywodraethu y gweithfeydd, i wellhau anneddau gweithwyr a chrefftwyr, a deddf hefyd ynghylch daliadaeth tir. Yn Mawrth, 1876, cyffrowyd teimlad y wlad yn ddirfawr trwy yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn y newyddiaduron ynghylch creulonderau gwaradwyddus y Tyrciaid at y Cristionogion yn Bulgaria; ac ymosodwyd ar y llywodraeth gan amryw o'r arweinyddion rhyddfrydig yn y senedd o herwydd y gefnogaeth yr oedd hi yn ei roddi i Twrci. Yn Awst, 1876, dyrchafwyd Mr. Disraeli i Dŷ yr Arglwyddi, gyda'r teitl o Iarll Beaconsfield. Trwy y blynyddau 1876 ac 1877, parhaodd Mr. Disraeli, yn ngwyneb gwrthwynebiad cryf yn y wlad, ac er fod dau o aelodau pwysig ei weinyddiaeth wedi ymddiswyddo—sef, Argl. Derby ac Argl. Caernarfon—i wylio Rwssia, a dangos gwrthwynebiad penderfynol i'w gwladlywiaeth. A phan yr oedd hi yn ymddangos fel yn bwriadu cymmeryd meddiant o Gaer Cystenyn, anfonwyd llynges Brydain i'r Dardanelles, a dygwyd nifer o filwyr o India i Malta. Pan y cyttunwyd ar y telerau rhyngddynt yn San Stefano, mynai Iarll Beaconsfield gyflwyno y cyttundeb i sylw y galluoedd mawr. Ar ol hyny, galwyd cynghrair cyffredinol yn Berlin, yn yr hwn yr oedd Iarll Beaconsfield ei hun yn bresennol fel un o gynnrychiolwyr Prydain. Ac yn haf, 1878, penderfynwyd Cwestiwn y Dwyrain am amser trwy yr hyn a elwir yn 'Gyttundeb Berlin.' Ar ol yr etholiad cyffredinol yn 1880, cafodd y Rhyddfrydwyr drachefn fwyafrif mawr, ac ymddiswyddodd Iarll Beaconsfield y tro diweddaf. Yn ngauaf y fl. 1881, o herwydd amryw anhwylderau yn ei gyfansoddiad, ac ar ol dioddefiadau mawr, bu farw Ebrill 19eg, 1881. Claddwyd ef yn Hughenden, yn swydd Buckingham; a chodwyd cofadail er coffadwriaeth am dano yn Mynachlog Westminster, ar awdurdod y senedd.

Yr oedd Iarll Beaconsfield yn meddu ar alluoedd mawr ac amrywiol, a medr hefyd i lywodraethu plaid led afiywodraethus. Ysgrifenodd y gweithiau canlynol:—"*The Revolutionary Epic;*" a "Hanes Bywyd Argl. George Bentinck;" amryw o bamphledau politicaidd; a nifer o ffug-chwedlau, yn mha rai y mae ei syniadau a'i ddamcaniaethau ar wleidyddiaeth i'w canfod. Y rhai mwyaf adnabyddus o honynt ydyw, "*Sybil*," "*Coningsby*," "*Tancred*," ac "*Endymion*"—y diweddaf o ba rai a gyhoeddwyd ychydig o fisoedd cyn ei farwolaeth.

**DAFYDD BENWYN.** Un o feirdd Gorsedd Morganwg. Yr oedd efe yn ddysgybl i Lewis Morganwg, ac yn llywydd yr orsedd yn 1580; ond yn ol eraill, yn 1560. Yr oedd ganddo law yn nghyfansoddiad "*Cyfrinach y Beirdd*," yn ol y diwygiad a wnaed arno yn yr eisteddfod a gynnaliwyd yn Mhlas y Fan, ger Caerphili, o dan nawdd a dawn Syr Edward Lewis, tua 1580. Dywedir mai o'i ysgrif-lyfr ef, a'r eiddo Meurig Dafydd, a Llewelyn Sion, y cafodd Edward Dafydd y defnyddiau i gyfansoddi y llyfr fel y mae yn bresennol. Canwyd marwnad iddo gan Llewelyn Siôn.

**DAFYDD EDWARD**, o Fargam, yn sir Forganwg. Yr oedd efe yn un o feirdd Gorsedd Morganwg, yn 1620. Efe a lywyddodd yno yn 1660, ac a fu farw yn 1690. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau ar gael; ond ei brif waith oedd traethawd manwl a dysgedig ar reolau barddoniaeth Gymreig, yr hwn a gyhoeddwyd gan Iolo Morganwg, dan y teitl o "*Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain*," yn 1829.

**DAFYDD Y DARON**, o Aberdaron. Mab ydoedd i Ifan ap Dafydd; a hanodd o wehelyth Caradoc ap Iestyn, tywysog Cymru. Yr oedd yn ddeon Bangor yn amser Owain Glyndwr, ac yn bleidiwr gwresog iddo; o herwydd yr hyn y cyhoeddwyd, ef yn 1846, yn herwr (*outlaw*). Dywedir mai yn ei balas ef y bu Hotspur, Mortimer, ac Owain, yn ymgynghreirio i feddiannu Ynys Prydain, ac i'w rhanu rhyngddynt.

**DALHOUSIE, IARLL.** Yr oedd efe yn fab i George Maul, y 12fed Iarll Dalhousie, a ganwyd ef Mehefin 29ain, 1847. Daeth i sylw fel gwleidyddwr galluog pan yn ieuangc. Yr oedd yn eglur ei fod yn meddu ar gryn wybodaeth wleidyddol ëang, a barn aeddfed; a meddai, gyda hyny, lawer o allu i gyflwyno ei syniadau i sylw y cyhoedd. Bwriodd ei goelbren yn mysg y blaid Ryddfrydig; ac ymladdodd y frwydr fawr fythgofiadwy yn Liverpool, yn erbyn Mr. Whitley. Bu yn aflwyddiannus, fel y gallesid disgwyl, wrth ystyried mor Doriaidd ydyw corph mawr etholwyr y fwrdeisdref hono. Adnabyddid ef y pryd hwnw fel Arglwydd Ramsey. Er ei fod wedi aflwyddo, parodd ei ddisgleirdeb fel gwleidyddwr gyffro ac edmygedd yn mysg y Rhyddfrydwyr yn gyffredinol. Y flwyddyn ddilynol, cafodd ei ethol dros Liverpool yn ddiwrthwynebiad; ond yn mhen ychydig amser, dyrchafwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi ar farwolaeth ei dad.

Bu yn geidwad y sêl fawr yn ngweinyddiaeth Mr. Gladstone; ac yr oedd hefyd yn bleidiwr cryf i ymreolaeth. Bu farw Tachwedd 24ain, 1887; ac yr oedd y teimladau o ofid o herwydd y golled a gafwyd yn gyffredinol yn mysg y blaid Ryddfrydig. Chwanegwyd llawer at y teimlad hwn o herwydd ei fod ef a'i briod wedi marw o fewn ychydig oriau i'w gilydd yn Havre. Yr oeddynt wedi bod yn teithio am eu hiechyd, ac nid oedd ond ychydig amser er pan gyrhaeddasant o New York. Ond yn fuan wedi cyrhaedd Havre, cymmerwyd Iarlles Dalhousie yn waelach, a bu farw yno ar nos Iau, Tachwedd 24ain. Dywedir ei fod ef a'i briod yn dra hoff o'u gilydd, ac yn hynod ddedwydd; ac o herwydd hyn, teimlai ei arglwyddiaeth yr ergyd yn fawr. Aeth i orphwys y noson hono gyda chalon athrist; ac yn ystod y nos, tarawyd ef gan y parlys, a bu farw yn mhen ychydig oriau. Cafodd y ddau eu claddu yn yr un bedd; a gadawsant dri o blant ieuaingc, a llu o gyfeillion personol ac edmygwyr, i alaru ar eu hol.

**DAVIES, MR. DAN ISAAC.** Dechreuodd ei yrfa gyhoeddus fel dysgybl-athraw yn Ysgolion Brytanaidd Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, lle y bu am bum mlynedd. Wedi myned trwy ei arholiad yn llwyddiannus, pennodwyd ef yn athraw ar Ysgol Frytanaidd Aberdâr—lle y bu am naw mlynedd. Yn ystod yr amser hwn, llafuriodd i barotoi ei hun ar gyfer yr arholiad am y gradd o wyryf yn y celfyddydau—

Digitized by Google

yr hwn a ennillwyd ganddo. Yn 1869, pennodwyd ef yn olynydd i Dr. Evan Davies, fel prifathraw Coleg Normalaidd Abertawe; ac yn y fl. 1871, cynnygiwyd iddo y swydd o arolygydd cynnorthwyol yr ysgolion cyhoeddus. Ar ol gwasanaethu y swydd hon am flynyddoedd yn Lloegr, pennodwyd ef yn is-arolygydd yn 1882; a symmudwyd ef i ranbarth Merthyr Tydfil, lle y gwasanaethodd o dan yr arolygydd Mr. William Edwards.

Yn mysg y cymdeithasau cyhoeddus y cymmerodd ran ynddynt—ac yn wir, y bu yn un o'u prif sefydlwyr—gallwn enwi Cymdeithasau Cymmrodorion Llundain a Chaerdydd; Cymdeithas Gymreig Deheudir Cymru a sir Fynwy; Cymdeithas Genhedlaethol Cymry Liverpool; Cymdeithas Diwylliant yr Iaith Gymraeg; Cymdeithas y Naturiaethwyr; Cymdeithas Gymreig a elwir y *Cambrian Society;* Undeb yr Ysgolion Sabbathol Cymreig Caerdydd; ac amryw eraill. Er nad oedd lawn 49ain mlwydd oed pan y bu farw, yr oedd y gwaith a gyflawnodd yn ëang, ac o wasanaeth mawr i'r genedl.

Claddwyd ef Mai 31ain, 1887, yn mynwent Cathays, Caerdydd; ac ar gais y trigolion, cafodd y claddedigaeth ei wneyd yn un cyhoeddus; ac ymgasglodd amryw filoedd i dalu eu parch olaf i'w weddillion. Preswyliodd, yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, yn Nghaerdydd; a pherchid ef gan holl athrawon y cylch yr oedd yn gweithredu ynddo, a chan ei gydnabod.

Perthynai i'r enwad Annibynol, ac yr oedd yn grefyddwr da a gweithgar. Rhwng ei lafur yn nghyflawniad ei swydd fel arolygwr yr ysgolion, a gorchwylion eraill yr ymgymmerodd a hwy, ofnir ei fod wedi gorweithio ei hun, a byrhau ei ddyddiau. Ni chafodd ond cystudd byr.

DAVIES, Parch, DAVID, Abermaw. Mab ydoedd i Mr. Evan Davies, Gorlan, Penmachno. Ganwyd Mr. David Davies yn y flwyddyn 1815; a phan yn ieuangc, dangosodd ei fod yn awyddus am wybodaeth, ac yn ymdrechgar i'w gyrhaedd. Yr oedd yn gysson yn y cynnulliadau crefyddol pan yn ddyn ieuangc, ac yn barod i ymgymmeryd âg unrhyw waith y gallai ei gyflawni. Dangosodd yn fuan ei fod yn meddu ar lawer o gymmhwysderau i fod yn ŵr cyhoeddus, fel y bernid gan swyddogion yr eglwys; a bu gŵr o'r enw Hugh Rowlant yn hynod o ofalus am dano, ac yn ymdrechgar gydag ef. Cymmhellodd ef yn lled ieuangc i bregethu, a dechreuodd ar hyny cyn bod yn 20ain mlwydd oed; a thŷ Hugh Rowlant ydoedd yr unig athrofa a gafodd efe. Cigydd oedd Hugh Rolant wrth ei alwedigaeth; ac er ei fod, yn marn pawb a'i hadwaenai, yn ddyn crefyddol, meddyliai plant y llan 'nad â'i efe byth i'r nefoedd,' am ei fod yn lladd creaduriaid yn barhaus. Bu Mr. D. Davies yn weithgar yn moreu ei oes gyda phob ysgogiad daionus; a gwnaeth lawer, gyda Mr. O. Gethin Jones a Mr. Richard Vaughan, tuag at gael Ysgol Frytanaidd i'r gymmydogaeth hono. Ond trwy ormod o ddiofalwch ynghylch y tir yr adeiladwyd hi arno, cymmerodd yr Eglwys feddiant o honi; ac mewn canlyniad, cedwid yr ysgol yn y capel.

Bu Mr. D. Davies am flynyddoedd yn oruchwyliwr i'r boneddwr a berchenogai y tyddyn o'r enw Bennar, yn Penmachno—yr hwn y bu efe, yn ddiweddarach, yn ei drin. Llanwodd y swydd hon gyda ffyddlondeb mawr; a chynnygiodd y boneddwr ei anfon i'r ysgol, os elai yn barson; ac addawodd, gyda hyny, y gofalai am fywoliaeth fras iddo. Ond efe a wrthododd y cynnygiad. Yr oedd gormod o ysbryd pregethu, ac o dân crefydd, ynddo i gymmeryd ei rwymo yn hualau oerion esgobyddiaeth Gymreig. Cyrhaeddodd enwogrwydd yn fuan fel pregethwr; ac yr oedd yn feddiannol ar ddawn a ffraethineb, a gallu, i osod ei feddwl allan yn eglur, a chyda dylanwad. Trwythwyd ei ysbryd mewn amryw ddiwygiadau nerthol; a pharhaodd y teimladau hyny trwy ei oes. Ystyrid ef yn ŵr Duw gan bawb oedd yn ei adnabod, a dwfn fu y galar ar ei ol pan y bu farw.

Priododd, pan yn ieuangc, ferch ieuangc o'r enw Miss Ellen Thomas, o Benar; ac arferai ddyweyd mai dyma y tro doethaf a wnaeth efe erioed. Ganwyd iddynt chwech o blant—dau fab sydd yn yr America, a phedair o ferched; sef, Mrs. Lloyd, Post office, Corwen; priod y Parch. T. Gray, Birkenhead; priod y Parch. W. Jones, o Liverpool, a phriod Mr. Edward Ellis, Huyton Quarry, ger Liverpool. Symmudodd i Gorwen yn 1860; ac yn 1864, symmudodd i'r Abermaw. Yn 1874, rhoddodd ei gyssylltiad â'r eglwys yn yr Abermaw i fyny, am ei fod yn teimlo ei hun yn heneiddio. Bu yn llywydd Cymdeithasfa y Gogledd yn 1876; a llanwai le pwysig yn nghyfarfod misol Meirionydd.

DOLBEN, DAVID, d. d.: esgob Bangor. Ganwyd ef yn Segrwyd, ger Dinbych, yn 1581. Yr oedd yn fab ieuangaf i Robert Wynn Dolben, yr hwn a breswyliai yn Segrwyd. Ei fywoliaeth gyntaf oedd Llangerniew, yn sir Ddinbych, yn 1621. Ar ol hyny, bu yn ficer Hackney; o ba le y dyrchafwyd ef yn esgob Bangor, Mawrth 4ydd, 1631. Bu farw Tach. 27ain, 1633.

DOLBEN, JOHN, d.d.: archesgob Caerefrog. Yr oedd efe o'r un teulu a Dr. David Dolben. Ganwyd ef yn Sandwich, yn sir Northampton, lle yr oedd ei dad, Dr. William Dolben, yn barson. Yr oedd ei fam yn chwaer i'r archesgob Williams. Ganwyd ef yn 1625; a chyrhaeddodd y radd o m. a. yn y fl. 1647. Wedi derbyn amryw o ddyrchafiadau eglwysig, gwnaed ef yn esgob Rochester yn 1666, ac yn archesgob Caerefrog yn 1683. Bu farw yn Ebrill, 1686; a chladdwyd ef yn yr eglwys gadeiriol.

DOLBEN, Syr WILLIAM. Yr oedd efe yn frawd i Dr. John Dolben—y manylion am yr hwn a geir uchod. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn m. a. yn 1665. Daeth yn ddadleuydd yn y Middle Temple; ac wedi ei wneyd yn farchog, cafodd ei ddyrchafu yn farnwr y frenin-fainge.

DUNAWD FFUR. Gelwid ef hefyd yn Dunawd, neu Dunod Fawr, neu Dunod Wr. Yr oedd yn fab i Pabo Post Prydain, ac yn ei ieuengetid yn rhyfelwr enwog yn mysg Brythoniaid y Gogledd. Cyssylltir ei enw yn y *Trioedd* gyda Gwallawg ab Lleenawg, a Chynfelyn Drwsgl, fel "tri phôst cad Ynys Prydain...... sef, y medrynt ddosbarth ar gâd a chatteyrnedd yn oreuon o bawb oll ar a fuant erioed." Yn "Marwnad Urien Rheged," o waith Llywarch Hen, dywedir fod Dunawd Ffur yn ymladd â meibion Urien. O'r diwedd, bu raid iddo adael ei diriogaeth, a rhoddi ei hun dan amddiffyniad Cyngen ab Cadell, tywysog Powys: yr hwn, hefyd, a roddodd nawdd ac achles i'w dad

Digitized by Google

a'r prydiau gyda manylwch ystadegol, ond y cyfryw ateb ag sydd yn gysson â natur prophwydoliaeth, yn yr hon y mae llawer o'r hyn sydd yn amgylchiadol yn cael ei gelu, a llawer o'r hyn sydd yn hanfodol yn cael ei ddadguddio. Y mae yr ateb yn gyfryw ag sydd o duedd i gadw ffydd a gobaith yn fyw yn yr eglwys yn ngwyneb holl gyfnewidiadau ei hanes, ac i'w chyffroi i wyliadwriaeth, i weddi, ac i ymchwiliad. Er yr holl ymgais i ddifodi Cristionogaeth ar un llaw, ac i'w llygru ar y llaw arall, y mae yn amlwg mai buddugoliaethus fydd yn y diwedd. Bydd teyrnasoedd y byd yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Grist ef. Rhyfela llawer yn erbyn yr Oen, ond yr Oen a'u gorchfyga hwynt. Y mae holl amcan y llyfr, gan hyny, yn ymarferol. Dedwydd yw yr hwn sydd yn darllen, a'r rhai sydd yn gwrandaw geiriau y brophwydoliaeth hon, ac yn cadw y pethau sydd yn ysgrifenedig ynddi.

Os edrychwn i'r saith epistol at y saith eglwys, ni a welwn fod y saith eglwys, yn eu hamgylchiadau a'u perthynasau neillduol, yn fewnol ac yn allanol, yn eu rhagoriaethau a'u diffygion, nid yn unig yn ddangosiad i ni o'r hyn oedd Cristionogaeth yn yr oes Apostolaidd, ond hefyd yn rhagddangosiad i ni o ansawdd yr eglwys rhag llaw, mewn oesoedd dyfodol. Gwelir cywirdeb y dysgrifiadau a gynnwysir yn y saith epistol yn mhob oes, yn y naill gangen o'r eglwys neu y llall. Y mae yr annogaethau, y gocheliadau, y bygythiadau, a'r addewidion a gynnwysir ynddynt, yn angenrheidiol yn mhob oes; ac nid yn unig i bersonau unigol yn yr eglwys, ond hefyd i gangenau mwy neu lai o'r eglwys gyffredinol.

Y mae yr adran nesaf, yr hon sydd yn dechreu gyda'r ail weledigaeth, yn cynnwys bras amlinelliad o hanes dyfodol yr eglwys ar y ddaiar, yn ei pherthynas â'r galluoedd gelynol, sef Satan a'i offerynau, y rhai a geisiant ei drygu. Mae Satan yn ceisio, yn gyntaf oll, diwreiddio yr eglwys yn llwyr, trwy gynddaredd erlidigaeth; ond pan nad yw yn llwyddo yn hyny, y mae yn ceisio ei llygru trwy dwyll, a'i hennill i wneuthur dewisiad o fwyniant a chyfoeth, anrhydedd a gallu, daiarol.

Ond cyn cyfeirio yn fwy manwl at yr helyntion a'r ymosodiadau a gyfarfyddai yr eglwys, y mae y cwbl yn cael eu dwyn i mewn yn gyntaf oll trwy weledigaeth yr Oen, yr hwn a laddwyd, ond a ddyrchafwyd ar orseddfainc Duw i fod yn gydgyfranog â'r Tad yn holl addoliad y nefoedd, ac i'r hwn yr ymddiriedwyd llywodraethiad pob peth; yr hyn a arddangosid trwy yr arwyddlun priodol o drosglwyddo llyfr seliedig iddo, yr hwn ni allai neb ond yr Oen agoryd ei seliau nac edrych iddo. Yn yr holl awgrymiadau dyfodol, gan hyny, a roddir o hanes y byd a'r eglwys, yr hyn sydd i'w gymmeryd fel y golygiad arweiniol a sylfaenol ydyw—fod holl lywodraethiad yr eglwys a'r byd hefyd yn llaw Crist; fod holl ddirgeledigaethau rhagluniaeth yn adnabyddus iddo ef, ac mai cynghor ei ewyllys ef a gyflawnir, a'i ogoniant ef a ddadguddir, trwy y cwbl. Y mae llywodraeth y byd yn llywodraeth gyfryngol, ac yn seiliedig ar iawn. Ni oddefir i ddim gymmeryd lle, gan hyny, i ddyrysu amcanion y prynedigaeth trwy iawn; ond yn hytrach goruwchreolir a darostyngir, ïe, yr ymosodiadau cryfaf a'r dichellion cyfrwysaf i'w sicrhau.

Y mae agoriad y saith sel yn rhoddi i ni olwg gyffredinol ar brif weinyddiadau llywodraeth Duw ar y byd, sef ymweliadau ei ras a'i ragluniaeth, a hyny drachefn mewn natur a hanesiaeth, yn y gwahanol ffyrdd o ryfel, newyn, drudaniaeth, &c. Y mae y gwahanol ymweliadau barnol hyn yn ymddangos i feddwl dyn yn dywyll a dirgelaidd, yn gymmaint a y diniwed yn dyoddef gyda'r euog, ïe, rhai rhagorol y ddaiar yn dyoddef erlidigaethau yn mhob ffurf—yn cael eu llabyddio, eu lladd yn feirw â'r cleddyf, yn crwydro mewn anialwch ac ogofeydd y ddaiar. Ond y mae agoriad y seliau yn dwyn y gwirionedd mawr hwn i'r amlwg—y bydd i holl elynion Crist a'i wirionedd, dynion sydd wedi llygru eglwys Crist eu hunain, neu ynte wedi cymmeryd eu hudo gan y cyfryw, syrthio yn y diwedd dan lid yr Oen; ac o'r ochr arall, y cedwir pawb sydd yn parhau yn eu ffyddlondeb iddo, ac y dygir hwynt trwy waed yr Oen o'u cystudd mawr.

Ond cyn i ddigofaint eithaf ac anadferadwy ddisgyn ar y byd annuwiol, wedi ymgaledu trwy bechod, ac wedi addfedu i ddinystr, gelwir arnynt trwy ymweliadau chwerwon a llymion y saith udgorn i edifeirwch. Y mae udganiad y tri udgorn olaf, y rhai a elwir y tair gwae, yn anghyffredin o ofnadwy; a dywedir fod llawer wedi dychrynu mewn canlyniad i'r chweched udgorn, ac wedi rhoddi gogoniant i Dduw. Dilynir y seithfed udgorn â lleisau yn y nef, "Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef."

Ond cyn y rhoddir dysgrifiad o ddinystr hollol a llwyr gelynion Crist, gelwir sylw neillduol at ei eglwys, a hyny mewn cymmeriad deublyg. Yn gyntaf, fel yn cyfateb i'w gwir nodweddiad fel gwraig yr Oen. Fel y cyfryw, y mae hi yn amlygu ffyddlondeb iddo; a than y gymhariaeth o ddau dyst, yn prophwydo yn ei enw. Ymosodir arnynt gan y bwystfil o'r pydew diwaelod, a lleddir hwynt; ond nid oedd hyn ond rhagarweiniad i fuddugoliaeth uwch; o herwydd adgyfodir hwynt eilwaith, a dyrchefir hwynt i'r nef yn ngolwg eu gelynion. Prif elyn eglwys Crist, yr hwn sydd yn cyffroi ac yn arwain pob ymosodiad yn ei herbyn ydyw y ddraig, sef y diafol; ond ei offerynau gweledig, a'i brif gynnrychiolwyr yn y byd, ydyw y bwystfil, yr hwn sydd yn cyfodi o'r môr, a'r bwystfil, yr hwn sydd yn cyfodi o'r ddaiar, sef y gau brophwyd. Y mae eglwys Crist, mor bell ag y mae hi yn bur i Grist, ei phen, yn gynnwysedig o'r holl rai hyny sydd yn cadw gorchymyn Duw a thystiolaeth Iesu Grist. Ac er ei bod bob amser yn ddarostyngedig i gasineb a gelyniaeth y diafol, eto nid yw ei ymosodiadau yn ei herbyn yn gwisgo yr un ffurf bob amser. Weithiau y mae gweithgarwch yr anifail yn fwy, ac weithiau yn llai, ac ymddengys weithiau fel o'i phlaid.

Ond nid ydyw yr eglwys wedi bod yn ffyddlawn i'w chymmeriad ei hun, nac i hawliau ei Gwaredwr a'i Harglwydd. Y mae yr hon oedd yn myned dan yr enw "eglwys Crist" wedi colli pob perthynas âg ef ond ei enw. Y mae y wraig wedi myned yn butain. Y mae hi wedi myned i undeb godinebus â'r anifail—hyny yw, a galluoedd annuwiol y byd hwn—offeryn y diafol; a thrwy yr undeb hwn, y mae hi wedi dyfod i fwynhâd o fanteision y byd hwn, yn ei gyfoeth, ei anrhydedd, a'i fwynderau cnawdol; ond y mae hi wedi colli y cymmeriad o fod yn forwyn bur i Grist. Y mae hi "yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad," gan ddefnyddio ei allu ef, a dibynu ar ei adnoddau. Ond mewn canlyniad i hyn, nid yw yn cyfateb mwy i Ierusalem, y ddinas sanctaidd, ond i Babilon, yn yr hon y mae holl elfenau y byd hwn yn ymgyfarfod. Trwy ei hundeb â'r

wyr yn gyffredinol i'r penderfyniad mai Pabyddiaeth ydyw "Babilon;" ac hefyd mai Pabyddiaeth ydyw anghrist. Yr ydoedd hyn yn ymddangos yn eu holl ysgrifeniadau; a'r grediniaeth hon oedd grym eu hymosodiadau ar ei chyfeiliornadau a'i hofergoelion. Er fod rhai o'r ysgrifenwyr mwyaf diweddar yn gogwyddo i gredu fod anghrist yn ymddangosiad mwy diweddar na Phabyddiaeth, ac yn arwyddo galluoedd y byd hwn yn eu hundeb âg anffyddiaeth ac annuwioldeb cyhoeddus; eto, y mae ysgrifenwyr Protestanaidd yn gyffredinol yn credu mai Pabyddiaeth ydyw Babilon, a'r lluaws yn credu mai y hi ydyw anghrist hefyd. Y mae y gwirionedd hwn wedi bod o bwys mawr i roddi sefydlogrwydd i olygiadau esbonwyr, ac i roddi llyffethair ar ddychymygion dynion. Y mae hyn yn cael ei dderbyn fel un terfyn sicr i esboniadaeth i'w gadw mewn golwg. Yn flaenorol i'r Diwygiad, cyn i ddynion gael eu goleuo am natur Pabyddiaeth, yr oedd *pennodau* xiii. a'r xvii—y ddwy bennod bwysicaf yn y llyfr, yn eu cysylltiad â deongliadaeth yr holl lyfr—yn hollol dywyll; ond yn awr, y mae y ddwy bennod hyn yn eglur mewn cymhariaeth, ac yn rhoddi mantais i drefnu helyntion a chyfnewidiadau blaenorol a dilynol. Nid oes gan esbonwyr un pwynt sefydlog eto yn eu hesboniadau ar y seliau, yr udgyrn, a'r phiolau; ac o ganlyniad, y mae yr anghyssonderau a'r cymmysgedd mwyaf yn ffynu yn eu mysg. Y mae rhai (Lambert, Bullinger, Brightman, &c.) yn golygu fod y saith phiol yn "esboniad ar y saith udgyrn;" tra y mae ereill, megys Hengstenberg, yn golygu fod y seliau, yr udgyrn, a'r phiolau, yn cydredeg megys dros yr un ysbaid, ond fod yr ysbaid hwnw yn cael ei ddysgrifio o bwynt gwahanol yn y naill rhagor y llall; y mae esbonwyr gwahanol eto, megys Luther, a'r rhan fwyaf o esbonwyr, yn golygu y tri saith yn dilyn eu gilydd, ac yn ymestyn yn mlaen yn rheolaidd o agoriad y sel gyntaf hyd dywalltiad y phiol olaf.

Y mae llawer o ysgrifenwyr yn edrych ar y saith eglwys yr ysgrifenwyd y saith epistol atynt, nid yn unig fel eglwysi Asia Leiaf, ond hefyd fel yn cynnrychioli eglwysi ereill mewn modd prophwydoliaethol, neu yn cynnrychioli gwahanol gyfnodau ar yr eglwys. Rhydd Vitringa y saith eglwys i gysgodi y cyfnodau canlynol ar yr eglwys:—100—280, 280—320, 329—700, 700—1,200, 1200—1516, 1516—1600, a 1600 yn mlaen. Yn ol Brightman, y mae y pedair cyntaf yn cael eu gosod allan trwy ffugrau cyffelyb i'r rhai uchod; ond y tair olaf fel hyn—Sardis, yr eglwys Lutheraidd; Philadelphia, yr eglwys Galvinaidd; a Laodicea, Eglwys Loegr. Y mae hyn yn ddigon fel anghraifft.

Y mae yn naturiol ymofyn pa fodd y mae y Pabyddion yn esbonio y rhanau hyny o'r Dadguddiad sydd, yn marn Protestaniaid, mor benderfynol yn eu herbyn? Yr ateb ydyw—eu bod hwy yn cytuno â'r Diwygwyr mewn gwneyd "Babilon" yn un âg "anghrist;" ond y maent yn esbonio anghrist yn wahanol. Wrth anghrist y deallant hwy, yn ol 2 *Thes.* ii, berson neillduol; a'r un modd, cymhwysant y dysgrifiad yn *Dad.* xiii. at yr un person. Dywedant am dano y cyfyd o lwyth Dan, yr ymffrostia ei hun yn Fessiah, yr adgyfyd deml Ierusalem am dair blynedd a hanner, y bydd iddo ddarostwng yr holl fyd a dymchwelyd Cristionogaeth, y bydd iddo osod i fyny ei addoliad ei hun yn y deml adgyweiriedig, ac o'r diwedd, y bydd i Grist ei hun ddisgyn ar fynydd yr Olewydd, a'i roddi i farwolaeth. At yr anghrist *hwn* y priodolant hwy y cwbl a ddywedir am y "bwystfil" ac am "Babilon." Camsyniad yn mhlith Protestaniaid yw gwneyd anghrist a Babilon yr un; ac y mae y Pabyddion yn cymmeryd mantais o'r camsyniad i droi ymaith fin y brophwydoliaeth am y "butain fawr" oddi wrthynt eu hunain. Y mae amryw o ysgrifenwyr diweddar wedi galw sylw neillduol at hyn, a dangos mai nid Pabyddiaeth ydyw yr unig elyn sydd i eglwys Crist; ond bod iddi beryglon oddi wrth anffyddiaeth, ac mai anffyddiaeth digêl—y cyfryw ag a ymddangosodd yn Ffrainc yn amser y chwyldroad, yn niwedd y ganrif ddiweddaf, ond yn fwy cyffredinol, ac yn fwy creulawn, ac mewn undeb â galluoedd y byd hwn—ydyw anghrist.

Ond yn chwanegol at y tri cyfnod arbenig i ba rai y gellir dosbarthu esboniadaeth y Dadguddiad, gellir hefyd ei ddosbarthu yn unol â'r tair egwyddor sydd i'w canfod ynddynt. Er bod esbonwyr yn amrywio yn ddiderfyn yn y manylion; eto, y maent yn syrthio dan y naill neu y llall o'r tri phen canlynol:—I. Y mae rhai yn credu fod y rhan fwyaf o Lyfr y Dadguddiad wedi ei gyflawnu yn oesoedd boreuaf yr eglwys. A'r syniad hwn y cytuna Grotius, Hammond, Wetstein, Lee, Stuart, ac ereill; ond y mae y rhai hyn yn anghytuno â'u gilydd am y manylion. Myn rhai fod corff y llyfr yn cyfeirio at ddinystr Ierusalem, tra y mae Ewald yn ei gymhwyso at Rufain a'r ymherawdwyr. Ond cymmer ereill fod dinystr paganiaeth hefyd yn cael ei olygu. Dosbartha Stuart yr holl lyfr fel ag i gymmeryd i mewn y tri, fel y canlyn:—o *pen.* vi. hyd xi, dysgrifir dinystr Ierusalem a dymchweliad gallu erlidigaethus yr Iuddewon; ac ar yr un pryd, gwaredigaeth y Cristionogion; yn ail, y mae *pen.* xii.—xix. yn cynnwys dysgrifiad o ddinystr gallu erlidigaethus Rhufain, a buddugoliaeth ar baganiaeth; yn drydydd, y mae *pen.* xx.—xxii. yn cynnwys ymdrechiadau paganiaeth ag sydd eto i ddyfod, yn nghyd â'u dymchweliad hollol, yn cael ei ddilyn gan y farn gyffredinol, a chospedigaeth dragwyddol yr annuwiol a gogoneddiad y duwiol.

II. Y mae y nifer mwyaf o esbonwyr yn cymmeryd cynnwysiad y llyfr fel dysgrifiad prophwydoliaethol o'r prif ddygwyddiadau yn hanes y byd a'r eglwys, o'r oes apostolaidd hyd ddiwedd y byd. Ond tra y maent yn cytuno yn y golygiad cyffredinol hwn, y maent yn amrywio yn eu hesboniad o wahanol ranau—rhai yn cymhwyso y cyfan at yr eglwys; ereill yn eu cymhwyso mewn rhan at hanesiaeth gyffredinol.

Treuliodd Bengel lawer o'i amser i astudio y llyfr hwn, a llwyddodd i alw sylw mwy cyffredinol ato yn ystod y ganrif ddiweddaf na neb arall, yn enwedig ar y Cyfandir. Er fod yr esboniwr hwn yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel un o'r rhai mwyaf craff a gochelgar; eto, teimlodd y fath hyder yn ei ddull o esbonio y Dadguddiad, fel yr anturiodd roddi y flwyddyn 1836 fel amser ail ymddangosiad yr Arglwydd, a dechreuad y mil blyneddoedd. Credodd fod yr agoriad ganddo i ddadgloi dirgeledigaethau amseryddiaeth y llyfr, ac i nodi yn bendant amseriad ei brif ddygwyddiadau. Yr agoriad hwn ydoedd y rifedi 666—"*a'i rifedi ef yw chwe chant a thrigain a chwech;*" yr hyn ydyw rhifedi y bwystfil. Dywedodd Luther o'i flaen, "fod y rhifedi hwn yn dangos hyd parhâd Pabyddiaeth." Gosododd Bengel ddechreuad y rhifedi hwn



Digitized by Google

yn y flwyddyn 1073, yn amser Gregory VII; neu yn 1143, pryd yr oedd gallu Pabyddiaeth wedi cyrhaedd ei nawn. Cymmerodd yn ganiataol fod 666 o flyneddoedd yn cyfateb i 42 o fisoedd prophwydoliaethol (*pen.* xiii. 5); ac o ganlyniad, fod un mis prophwydoliaethol yn cyfateb i 15¾ o flyneddoedd cyffredin; ac un dydd prophwydoliaethol yn cyfateb i hanner blwyddyn. Yn ol y rheol hon, gan hyny, y mae oriau, a dyddiau, a blyneddoedd prophwydoliaethol i'w mesur, yn ol ei farn ef. Wrth gymhwyso y mesurau hyn at y gwahanol amserau a enwir yn y Dadguddiad, daeth i'r penderfyniad fod y 666 o flyneddoedd, sef diwedd Pabyddiaeth, yn syrthio yn y flwyddyn 1740; bod hyrddiad y bwystfil i'r pydew diwaelod yn disgyn yn 1836; a'r mil blyneddoedd yn cyrhaedd o 1836 i 2836. Er holl hyder Bengel yn ei gyfundrefn amseryddol—ac nid oes un esboniwr sydd wedi ei ddilyn ar y Dadguddiad yn sefyll mor uchel ei gymmeriad am ddoethineb—y mae amser wedi profi ei bod yn gyfeiliornus. Ac eto, y mae dynion yn parhau i brophwydo pa bryd y bydd dechreuad y mil blyneddoedd a dyfodiad yr Arglwydd eto i'r ddaiar. Onid yw geiriau yr Arglwydd Iesu ei hun yn benderfynol yn erbyn pob ymgais o'r fath: "Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun;" *Act.* i. 7; *Mat.* xxiv. 36; *Marc* xiii. 35. Er fod amseroedd yn cael eu nodi yn y Dadguddiad, megys "amser, amseroedd, a hanner amser," sef 3½ o amseroedd, 42 o fisoedd, 126 o ddyddiau; eto, y maent mor anmhenderfynol a chyffredinol fel nas gellir cyrhaedd unrhyw gasgliadau penderfynol a sicr drwyddynt. Yn wir, y mae yn anmhosibl cymhwyso y dysgrifiad am ddygwyddiad neu weithredydd at unrhyw berson neu amgylchiad neillduol, a dyweyd gyda sicrwydd iddynt gael eu cyflawnu ynddynt hwy. Y mae yn angenrheidiol cadw natur prophwydoliaeth mewn golwg, yn unol â pha un y dichon iddi gael ei chyflawnu mewn *gwahanol ffurfiau, ar wahanol adegau, ac i wahanol raddau.* Cawn anghreifftiau cyffelyb am brophwydoliaethau o'r Hen Destament; o ganlyniad, y mae yn anmhosibl dyweyd pa bryd, neu yn mha ddygwyddiad neillduol, y mae unrhyw brophwydoliaeth wedi ei chyflawnu yn hollol, ac i'r graddau uchaf, tra nad yw hanesiaeth ond *mewn rhan* o'n blaen. Er fod y rhesymau cryfaf dros feddwl mai yr Eglwys Babaidd ydyw Babilon, am fod y nodau trwy ba rai y dysgrifir Babilon yn perthyn iddi hi; eto, i'r graddau y dichon y nodau hyn ymddangos mewn eglwys arall, i'r graddau hyny y mae delw y butain yn perthyn iddi. Pwy a ddywed fod yr holl eglwysi a ffurfiwyd yn amser y Diwygiad yn hollol rydd oddi wrth gyfranogi o'r nodau hyn? Y mae eglwysi Protestanaidd wedi bod yn anffyddlawn i egwyddorion efengylaidd, ac wedi aberthu eu purdeb a'u rhyddid am fanteision bydol. Felly, er mai am Rufain yn benaf y llefarwyd y brophwydoliaeth, llefarwyd hi hefyd am bob eglwys arall sydd yn gwisgo yr un nodau.

Rhoddwn anghraifft neu ddwy eto o'r modd y mae cynnwysiad y llyfr hwn wedi ei gymhwyso at ddygwyddiadau neillduol, gan ysgrifenwyr enwog. Fel y canlyn y mae T. Scott yn ei gymhwyso. Y mae y chwe *sel* gyntaf yn arwyddo, yn gyntaf, gynnydd boreuol Cristionogaeth; ac yna, dymchweliad graddol yr ymherodraeth baganaidd Rufeinig trwy wahanol farnau, nes y dychwelwyd yr ymherawdwr at Gristionogaeth. Yn y pedwar *udgorn* cyntaf (*pen.* viii.), rhagfynegir dymchweliad yr ymherodraeth Rufeinig gan y Gothiaid, a gwahanol lwythau gogleddol ereill. Yn y *pummed* a'r *chweched*, cynnydd Mahometiaeth; yn gyntaf dan y Saraceniaid, ac yn nesaf dan y Tyrciaid. Yn *pen.* xi, prophwydir ansawdd lygredig yr eglwys am 1260 o flyneddoedd; ond yn ystod y cyfnod hwn, nid yw y gwirionedd heb dystion iddo, ond lleddir hwynt a dystewir eu tystiolaethau am amser byr; ond y mae lladdiad y tystion eto i ddyfod. Yn *pen.* xii, cyfeirir yn fwy manwl at y modd y daeth Rhufain yn Gristionogol mewn enw. Yn *pen.* xiii, ceir prophwydoliaeth am gyfodiad a sefydliad Rhufain Babaidd fel y bwystfil â deg corn iddo; a'r offeiriaid Pabaidd fel y bwystfil deugorn; a'r pab fel delw y bwystfil. Dysgrifir y rhai hyn yn fwy manwl, yn ol Scott, yn *pen.* xvii. Yn *pen.* xiv, ceir gwrthwynebiad credinwyr i'r gallu anghristaidd hwn.

Y mae esboniad Mr. Lloyd y Bala ar y Dadguddiad yr un o ran egwyddor ag eiddo Scott, ond ei fod yn amrywio ychydig mewn manylion. Er anghraifft, y gwahaniaeth mwyaf rhyngddynt ydyw, fod Mr. Lloyd yn credu fod y tystion wedi eu lladd, a bod chwech o'r phiolau wedi cael eu tywallt, o'r hyn lleiaf fod y chweched yn cael ei thywallt—effaith yr hyn fydd dadymchweliad ymherodraeth y Tyrciaid yn Ewrop. Ac y mae yn ddiau, pe buasai Mr. Lloyd yn awr yn fyw, y dywedasai fod y phiol hon ar gael ei gorphen. Ar yr un egwyddor eto y mae esboniad maith Elliot [*Horæ Apocalypticæ*]—yr esboniad olaf o bwys a ddaeth allan yn Seisoneg; ond ei fod yntau eto yn amrywio yn y cymhwysiad at ffeithiau unigol. Tybia ef fod y chwe *sel* cyntaf yn dynodi chwech o gyfnodau dilynol yn hanes yr ymherodraeth Rufeinig; sef yn 1af, Cyfnod o fuddugoliaeth a llwyddiant. 2il, Cyfnod o ryfel cartrefol a thywallt gwaed. 3ydd, Gorthrymder arianol. 4ydd, Dinystr ac anrhaith cyffredinol. 5ed, Erlidigaeth Cristionogion. 6ed, Dymchweliad paganiaeth dan Cystenyn. Dynoda y chwe *udgorn* chwech ymweliad barnol âg ymherodraeth Rhufain trwy y Gothiaid, yr Hunniaid, y Vandaliaid, a'r Tyrciaid. Y mae y "llyfr bychan," a'r gweledigaethau sydd yn canlyn (*pen.* x. a xi. 1—13), yn cyfeirio at dymmor y Diwygiad: *mesuriad y deml* a arwydda fod gwahaniaeth yn cael ei wneyd rhwng y wir a'r gau Eglwys. Y *ddau dyst* a arwydda eglwysi ffyddlawn yn y dwyrain a'r gorllewin o Ewrop. Yn *pen.* xi. 14, y mae y *seithfed udgorn* yn cael ei udganu. "Y wraig wedi ei gwisgo â'r haul" (*pen.* xii.) a arwydda yr ymdrech sydd rhwng yr Eglwys Gristionogol a'r ddraig baganaidd. "Y bwystfil cyntaf â'r deg corn" a arwydda Rhufain Babaidd; y "bwystfil deugorn," Pabyddiaeth, gyda'i dwy urdd o offeiriaid; "delw y bwystfil" a arwydda gynghorfaau yr Eglwys Babaidd. Cymhwysir y *saith phiol* at chwyldroad mawr Ffrainc, yn y flwyddyn 1789, a'r dygwyddiadau dilynol. Y *chweched phiol* a arwydda farnedigaethau ar ymherodraeth y Tyrciaid; yr hyn yw y llinyn terfyn rhwng y gorphenol a'r dyfodol. Gwelir fod yr esboniad am y chweched phiol yr un ag esboniad Mr. Lloyd. Y mae Elliot yn gwahaniaethu mewn llawer o bethau oddi wrth esbonwyr blaenorol iddo, er gwaeth; er esampl, dealla ef wrth y "plentyn gwryw" (*pen.* xii. 5) Cystenyn Fawr; ond y mae Mr. Lloyd, ac esbonwyr diweddarach, megys Ebrard, yn deall Crist, yr hyn sydd yn llawer mwy tebyg. Y

Digitized by Google

mae cyfundrefn Elliot, yr hon ydyw y gyfundrefn gyffredin, a'r hon sydd yn gynnwysedig mewn cymhwyso yr oll o'r Dadguddiad at bersonau, a ffeithiau neillduol mewn hanesiaeth, yn sicr o gamarwain, fel y mae hi yn gwneyd, at lawer o bethau disail ac eithafol.

Hengstenberg ydyw un o'r esbonwyr diweddaraf yn yr Almaen ar y Dadguddiad, ac un o'r rhai sydd wedi ei gario ymaith mor bell a neb i olygiadau camsyniol a chwithig. Dechreuodd y mil blyneddoedd, yn ol ei farn ef, yn amser Siarl Fawr, a dybenodd yn y flwyddyn 1848. Felly, y mae y tymmor hapus hwn wedi myned heibio. Y chwyldroadau yn 1848 oeddynt Gog a Magog. Y mae holl rediad ei esboniad yn myned ar y dybiaeth mai prophwydoliaethau yn erbyn anffyddiaeth a gwrthgiliad yn unig sydd yn y llyfr, ac nid yn erbyn ofergoeledd a honiadau uchel-eglwysyddol hefyd. Nid yw hyn yn rhyfedd, wrth gofio mai efe ydyw prif arweinydd uchel eglwyswyr yr Almaen.

III. Y mae esbonwyr ereill yn cyfeirio yr holl brophwydoliaethau sydd yn y Dadguddiad at y dyfodol. Golyga yr ysgrifenwyr hyn fod y cwbl i gymmeryd lle yn uniongyrchol o flaen ail ddyfodiad yr Arglwydd, a diwedd pob peth. Deallant wrth "Israel" yn y brophwydoliaeth, Israel yn llythyrenol: y "ddau dyst" yn ddau berson—efallai Moses ac Elias: wrth "ddyddiau" y deallir dyddiau yn llythyrenol: wrth "anghrist" neu y bwystfil dan ei ben diweddaf, y meddylir anghrist personol—cynnrychiolwr anffyddiaeth y byd—yr hwn a deyrnasa dros holl hen derfynau yr ymherodraeth Rufeinig am dair blynedd a hanner, hyd nes y daw Crist yn bersonol i'w ddyfetha. Wrth y "llyfr seliedig" (*pen.* v. 6) y meddylir hawlweithred Crist i'r etifeddiaeth a bwrcasodd, ond yr hon sydd eto heb ei chymmeryd o law y trawsfeddiannydd. Trwy agoriad y seliau y dynodir y gweithredoedd trwy ba rai y cymmer yr Iesu feddiant o'i etifeddiaeth a'i orsedd. Cyfeirir yr holl weledigaethau dilynol at y dymchweliad mawr olaf.

Gwelir oddi wrth y talfyriad hwn o esboniadaeth Llyfr y Dadguddiad fod esbonwyr yn gyffredinol yn ceisio ei egluro ar yr egwyddor *fod yn bosibl gwneyd hyny trwy gymhwyso yr oll o hono at ffeithiau pendant mewn hanesiaeth eglwysig a gwladol, a threfnu y cyfan mewn modd amseryddol.* Y mae y casgliadau amrywiol, anghysson, ac eithafol y mae y fath egwyddor wedi arwain iddynt yn ddigon i ddarbwyllo pob dyn, sydd heb benderfynu y myn weled cyflawniad o ryw brophwydoliaeth benodol mewn rhyw ffaith bendant, nad yw yn gwasanaethu yn pwrpas ond i gamarwain dynion os cymmerir hi yn mhellach nag i'n cyfeirio at *brif egwyddorion a phrif gyfnodau a helyntion yr eglwys a'r byd.* Ac nid rhaid chwilio yn mhellach er mwyn sicrhau i ni ein hunain y gocheliadau, y cysur, y goleuni, a'r nerth y bwriadwyd iddo fod yn foddion i'w cyfranu. Ac hyd yn oed wrth ei gymmeryd fel rhagfynegiad o brif egwyddorion a chyfnodau hanesiaeth eglwys Crist, ceir ynddo ddigon o destynau ymchwiliad, a digon o bethau anhawdd eu deall. Ond fe etyb ei brif ddyben o gryfhau ein ffydd, ein cariad, a'n gobaith. Rhoddwyd y Dadguddiad i Ioan pan dan erlidigaeth; ac yn y fath amgylchiadau y gwerthfawrogir ef fwyaf ac y deallir ef oreu bob amser. Dyma ffydd ac amynedd y saint. Nid oes un llyfr yn fwy cyfaddas i ddangos i ni yr angenrheidrwydd am y ddau, ac i fod yn foddion cynnaliaeth i'r ddau. Y mae y llyfr hwn yn ddiweddglo gogoneddus i'r holl ddadguddiad dwyfol. Y mae y llyfr cyntaf o'r gyfrol sanctaidd yn dechreu gyda chreadigaeth y nef a'r ddaiar, a sylfaeniad teyrnas Dduw. Y mae yr olaf yn dybenu gyda diwedd y greadigaeth gyntaf, ac yn gosod o flaen ein llygaid nefoedd newydd a daiar newydd, a holl eglwys waredigol Duw wedi cyrhaedd perffeithrwydd tragwyddol. Yn Llyfr Genesis, ni a welwn ddyfodiad pechod i'r byd, ei effaith ar ddyn, a'i ymledaeniad dros y byd; ac yn Llyfr y Dadguddiad, ni a welwn y diwedd y mae pechod yn arwain iddo, sef yr ail farwolaeth—y llyn sydd yn llosgi o dân a brwmstan, i'r hwn y bwrir y temtiwr a'r twyllwr mawr, a'r rhai a barhânt hyd y diwedd dan lywodraeth ei dwyll. Ar y llaw arall, ni a welwn pa beth fydd diwedd gogoneddus y rhai fydd wedi eu prynu a'u golchi trwy waed yr Oen; sef, cael preswylio yn y ddinas sanctaidd, lle y mae pren y bywyd a pharadwys Duw, gan wasanaethu Duw a'r Oen yn dragywydd.—(*Kitto's Cycl., Elliot, Davidson, Lloyd, Herzog, Biblesches Worterbuch.*)

DAIAREG: y wyddoreg sydd yn golygu ymchwiliad i natur crawen y ddaiar. Cyfeirir yr ymchwiliad hwn at—1af, Ddefnyddiau cyfansawdd y grawen. 2il, Trefniad y creigiau a'r haenau (*strata*). 3ydd, Y cyfnewidiadau ag y mae arwyneb y ddaiar wedi myned drwyddynt. Cynnwysa hanes anianaeth y ddaiar, gan gynnwys y byd mwnawl, llysieuog, ac anifeilaidd, yn ei hymchwiliadau; ac ymgeisia i olrhain holl gyfnodau amser, o ddechreu y cread hyd yn bresennol. Nid yw daiareg, fel gwyddoreg, gan hyny, ddim wedi ei chyfyngu i un gangen o wybodaeth, ond y mae yn dwyn cyssylltiad agos ac angenrheidiol â gwahanol gangenau anianaeth naturiol. Mae yn amlwg i unrhyw ymchwilydd manwl i greigiau y greadigaeth, eu bod yn gorwedd ar eu gilydd yn rheolaidd mewn trefn; eu bod yn gwahaniaethu yn ddirfawr oddi wrth eu gilydd; a'u bod yn cynnwys gweddillion creaduriaid pur wahanol i'w gilydd, yn ol nodwedd y gwahanol haenau. Mae y daiaregydd yn cymmeryd yr holl ffeithiau hyn dan ei sylw, yn edrych i mewn i'w natur, yn eu cymharu â'u gilydd, ac yn tynu casgliad teg ac anwrthwynebol oddi wrth y profion a wel efe o flaen ei lygaid. Yr *inductive method*, gan hyny, fel ei gelwir, neu y gyfundrefn gasgliadol—egwyddor yr hon yw tynu casgliad cyffredinol, ar sail ymchwiliad digon eang a phrofiadau digon manwl—hon yw yr egwyddor ar ba un yr adeilada daiareg ei hathrawiaethau.

Yn gyntaf oll, mewn ffordd o arweiniad i'r wyddoreg newydd ond dyddorol a phwysig hon, ni a gyfeiriwn at ychydig o ffeithiau yn hanes ei chynnydd i'w ystad presennol. Sylwai yr hynafiaid ar ffeithiau unigol ac anghyssylltiol yn perthyn i ansawdd y ddaiar. Dywed tad hanesiaeth, Herodotus, fod cregyn yn mynyddoedd yr Aipht; a rhydd Ovid, y bardd Rhufeinig, y geiriau canlynol yn ngenau Pythagoras:—

"Vidi ego quod fuerat solidissima tellus,
Esse fretum; vidi factas ex æquore terras
Et procul a pelago conchæ jacuere marinæ."

Gwelais yr hyn a fu unwaith yn ddaiar galed wedi dyfod yn fôr; gwelais dir wedi ei ffurfio o'r môr, a gwelais hefyd gregyn, a fu unwaith yn y môr, yn gorwedd yn mhell oddi wrtho.

Ond ni wnaeth y Groegiaid na'r Rhufeiniaid ond ambell nodiad o'r natur hwn, o ffaith oedd yn ymwthio i'w sylw.

Digitized by Google

Yn Italy, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, y dechreuwyd sylwi yn fanwl, ac mewn trefn, ar y gweddillion llysieuol ac anifeilaidd a geir mewn cyflawnder yn yr Apennines. Pan dynwyd sylw dynion meddylgar at y rhai hyn, cyfododd dadleuon am eu natur. Y cwestiynau mewn ddadl oedd, pa un ai gweddillion creaduriaid a fu unwaith yn fyw oeddynt, ai ynte efelychiadau y cyfryw, wedi eu ffurfio yn y graig gan ryw allu dirgelaidd, ond direol; ac hefyd, os oedd y cregyn hyn yn ysbail gwirioneddol y môr, pa un ai wedi eu cyfleu yno yr oeddynt gan y dylif, ai ynte gan ryw chwyldroadau ereill yr aeth y ddaiar drwyddynt. Un o'r dynion cyntaf o feddwl uwch law y cyffredin a dalodd sylw neillduol i'r cwestiynau hyn oedd yr enwog Leonardo de Vinci, yr hwn a honai yn gadarn mai cregyn gwirioneddol oeddynt, a bod y mynyddoedd oedd yn eu cynnwys wedi bod unwaith yn waelod y môr. "Os y dywedwch wrthyf," meddai, "mai natur a dylanwad y ser sydd wedi achosi y cyfryw ffurfiau creginawl, dangoswch i mi fod y ser yn gwneuthur y cyfryw ffurfiau yn awr, o wahanol oedran ac o wahanol rywogaeth, yn yr un lle." Bu farw Leonardo yn 1519.

Aethpwyd yn mlaen mewn gwahanol wledydd i gasglu cregyn; ond y ffaith foreuol bwysicaf yn hanes y wyddoreg hon oedd, ffurfiad amgueddfa ddaiaregawl gan William Woodward, yn 1695, yr hon a adawodd yn ei ewyllys i brif ysgol Caergrawnt, gan sefydlu hefyd broffeswriaeth er astudiaeth daiareg. Y mae yr amgueddfa hon yn awr mewn bod. Prif lyfrau y daiaregwr ydyw y casgliadau hyn, yn nesaf at y creigiau eu hunain.

Y cam nesaf a gymmerwyd i arddangos ac i gyssylltu y wybodaeth a feddai dynion am ansoddau creigiau a thiroedd, y rhai a ffurfir oddi wrth greigiau, oedd gwneuthur mapiau lliwiedig, er mwyn dangos terfynau pob un. Ond yr oedd eu gwneuthur yn gofyn llafur mawr; ac yn gyntaf oll, yn y gwneuthuriad o honynt, ni ddodid i lawr y gwahanol diroedd na haenau, ond yn unig y prif fun neu graig yn y gymmydogaeth.

Woodward oedd y cyntaf a alwodd sylw neillduol at y ddeddf gyffredinol—fod y creigiau yn gorwedd yn haenau, a hyny nid yn unig yn Mhrydain, ond yn ngwahanol wledydd y Cyfandir; a bod cregyn a chynnyrchion ereill y môr i'w cael yn gloedig yn y creigiau cyfandirol, fel yn yr ynys hon. Yr oedd sefydlu y gwirionedd pwysig hwn trwy gasgliad eang o ffeithiau unigol yn gam pwysig yn nghynnydd y wyddoreg.

Dywed Humboldt mai Stewa, yn 1669, oedd y cyntaf a dynodd wahaniaeth rhwng y creigiau a ffurfiwyd yn flaenorol i hanfodiad llysiau ac anifeiliaid ar y ddaiar; ac o ganlyniad, yn amddifad o weddillion y cyfryw a'r creigiau a ffurfiwyd ar ol hyny; ac o ganlyniad yn llawn o honynt.

Gwnaethpwyd y sylw hefyd, nad yw cregyn sydd i'w cael mewn creigiau yr un yn mhob gwlad; ond bod rhywogaethau neillduol i'w cael gyda'u gilydd, a bod trefn neillduol i'w chanfod yn eu cyflead.

Y cyntaf a ddosbarthodd fynyddoedd yn dri dosbarth oedd Lehman, yn 1756:—y creigiau *cyntefig*, a ffurfiwyd pan y crewyd y byd; y rhai a ffurfiwyd o ddinystr y rhai cyntefig; a thrydydd dosbarth a ffurfiwyd trwy ddylifau cyffredinol a neillduol. Parhawyd o hyn allan i wahaniaethu rhwng y *primitive*, y *secondary*, a'r *tertiary*—y cyntefig, yr eilraddol, a'r trydyddol; yr hyn sydd yn dwyn drychfeddwl newydd i'r amlwg, sef *oed* y graig. Rhag llaw, yr oedd cyflead creigiau, a'u cynnwysiad ffosylaidd, yn cael edrych arnynt yn eu cyssylltiad â threigliad *amser*.

Yn nesaf mewn trefn yn mhlith daiaregwyr y mae Werner, athronydd Almaenaidd, yr hwn a roddes boblogrwydd i ddaiareg na bu yn ei feddu erioed o'r blaen. Ffurfiodd efe ddosbarthiad o greigiau, nid yn ol eu cynnwysiad ffosylaidd, ond yn ol eu nodweddiad mwnawl; ac mor bell a hyny, nid dwyn y wyddoreg yn mlaen, ond gadael iddi lithro yn ol a ddarfu iddo. Er y gwyddai Werner am bwysigrwydd ffosylau yn eu cyssylltiad â'r creigiau a'u cynnwysent, eto ni ddefnyddir hwynt i wahaniaethu gwahanol greigiau a haenau oddi wrth eu gilydd.

Yn nesaf, yr ydym yn dyfod at William Smith, yr hwn a elwir yn dad daiareg Prydain. Ar ba gyfrif?—o herwydd nid efe, fel y gwelsom, oedd y daiaregwr cyntaf yn y deyrnas hon. Y mae yr ateb i'r cwestiwn yn ein dwyn at gyfnod pwysig mewn daiareg. Yr oedd daiaregwyr wedi sylwi yn flaenorol fod cregyn i'w cael, nid yn blith-draphlith, heb reol na threfn, ond yn ddosbarthedig; fod creigiau penodol yn cynnwys ffosylau penodol. Ond nid oedd yr egwyddor hon wedi ei defnyddio yn rheol wrth ba un i ddosbarthu holl greigiau unrhyw wlad. Ond arweiniwyd Smith, yn ei orchwylion fel *civil engineer*, i sylwi ar y drefn reolaidd y gorwedda yr haenau ar eu gilydd yn nghymmydogaeth Bath, wrth eu trefnu yn ol y ffosylau a gynnwysent. Cafodd yr un haenau eilwaith yn yr un drefn yn ngogledd Lloegr. Cyhoeddodd fapiau yn cynnwys ffrwyth ei lafur yn 1815. Yn ddiweddarach, cyhoeddodd waith a gyfenwid, *The English Strata identified by Organic Remains*="Yr haenau Seisonig yn cael eu profi i fod yr un trwy y gweddillion organaidd neu gyfluniol a gynnwysant." Mewn hanes a gyhoeddodd o'i lafur boreuol, dywed iddo ddechreu pan tuag ugain oed; ac iddo, mewn anwybodaeth o'r hyn a wnaeth dynion ereill, osod o flaen ei feddwl yr ymofyniad canlynol, "Pa fodd y gallai yn oreu osod allan drefn gorweddiad creigiau ar eu gilydd; parhad eu hymestyniad o gymmydogaeth i gymmydogaeth, a'r gogwyddiad dwyreiniol a berthynai iddynt." Yr ydoedd mewn petruster am dymmor; ond o'r diwedd "darganfyddodd ffordd i ddyweyd a oedd unrhyw ddwy graig mewn gwahanol ranau o'r wlad yr un, trwy edrych a oeddynt yn cynnwys yr un gweddillion anifeilaidd a llysieuol; neu mewn geiriau ereill, yr un ffosylau cyfluniaidd." Yn 1831, rhoddodd Cymdeithas Ddaiaregol Llundain ei bathodyn aur iddo, "am ei fod yn ddarganfyddwr mawr a gwreiddiol mewn daiareg Seisonig; ac yn enwedig am mai efe oedd y cyntaf yn y wlad hon i ddarganfod ac i ddysgu y modd i benderfynu a ydyw creigiau yr un ac i benderfynu eu holyniad rheolaidd trwy y ffosylau a gynnwysant." Gwel y darllenydd gan hyny pa beth yw egwyddor fawr y dosbarthiad a wneir o greigiau gan ddaiaregwyr, a'r hwn a ddodwn ger eu bron. Nid lliw, na llun, na chwaith y defnyddiau a'u cyfansoddant—megys pa un ai o natur cleilyd, tywodlyd, calch, glo, neu haiarn—sydd yn rheol y gyfundrefn a wneir o honynt yn benaf; ond y *ffosylau, sef y cregyn, yr anifeiliaid, a'r llysiau sydd ynddynt*. Y mae hyn yn ein harwain yn naturiol at y darganfyddwr mawr nesaf—Cuvier. Un o athronwyr ac ymchwilwyr mwyaf unrhyw oes ydyw Cuvier. Y mae yn amlwg mai angen mawr daiareg y pryd hwn oedd naturiaethwr o wybodaeth digon eang, ac o allu athronyddol o'r radd uchaf, i gymhwyso egwyddor Smith yn gyffredinol at anifeiliaid o bob oedran ac o bob

Digitized by Google

rhywogaeth, a hyny heb gael ei ddwyn ymaith gan ddychymyg na chasgliadau disail. Yr oedd y cymhwysderau hyn yn cyfarfod yn y Ffrancwr enwog. Gwaith mawr Cuvier ydoedd chwilio i mewn i olion a gweddillion anifeiliaid, fel y maent i'w cael yn y creigiau yn bresennol. Fel rhagbarotoad i hyn, yr oedd gwybodaeth fanwl o'r anifeiliaid sydd yn awr yn fyw yn angenrheidiol. Y mae y cyssylltiad rhwng gwahanol ranau ysgrud anifail mor sefydlog a sicr, ac y mae y naill rywogaeth yn rhedeg mor ychydig i'r llall, fel nad oes ond ychydig o esgyrn anifail yn angenrheidiol er mwyn i ddifynwr cywrain allu dyweyd pa fath greadur ydyw, ac i ba ddosbarth y perthyna. Y mae corn, carn, dant, neu ben unrhyw asgwrn, os bydd wedi ei gadw yn dda, yn ddigon, medd Cuvier, gyda sylw a chraffder, yn chwanegol at wybodaeth gyffredinol o esgyrnyddiaeth (*osteology*), i allu adnabod yr holl anifail, eystal a phe buasai yr holl ysgrud o'ch blaen. Ond cyn ymddiried i'r egwyddor hon yn ei chymhwysiad at anifeiliaid anadnabyddus, gwnaeth y sylwedydd mawr hwn lawer o brawfiadau ar ddarnau o esgyrn o anifeiliaid adnabyddus. Ar ol y rhagbarotoad hwn, dechreuodd ar ei ymchwiliadau yn mhlith anifeiliaid y creigiau. Gwnaeth ymchwiliadau i ddim llai na chant a hanner o wahanol rywogaethau; ac o'r rhai hyn yr oedd y rhan fwyaf yn hollol anadnabyddus o'r blaen. Y mae ei waith, yr hwn sydd mewn chwech o gyfrolau mawrion, yn cynnwys yn agos i hanner cant o fapiau, a darluniau o 3,800 o ysgrudiau, esgyrn, a dannedd. Nid oedd raid iddo deithio nemawr i gael anghreifftiau at ei bwrpas. Y mae yr haenau ar ba rai y mae Paris yn sefyll, ac o ba rai y mae ei thai wedi eu hadeiladu, yn gyfoethog o'r cyfryw. Yn yr amgueddfa naturiol hon, ac mewn olion ffosylaidd a anfonwyd iddo o wahanol barthau y byd, darganfyddodd y creaduriaid rhyfeddaf: y *palæotherium*, creadur rhwng ceffyl a mochyn; yr *anoplotherium*, yr hwn sydd agosaf i'r *rhinoceros* o'r rhai sydd yn awr yn fyw; a'r *megatherium*, yr hwn a enwir oddi wrth ei faintioli. Rhoddodd y cyhoeddiad o'r darganfyddiadau hyn holl naturiaethwyr Ewrop ar waith. Mae yr ymchwiliadau hyn mor bwysig, fel y maent wedi rhoddi bod i wyddoreg newydd yn nghanol daiareg, sef *palæontology* (henfodofyddiaeth). Ar ol y rhagarweiniad hanesyddol hwn, heb gyfeirio at yr athronwyr enwog sydd wedi dilyn yn y darganfyddiadau hyn, ni a arweiniwn y darllenydd, mor fyr ag y gallwn, i ansawdd bresennol daiareg.

Y mae genym ddigon o brofion ar gael i ddangos fod cyfangorff y ddaiar yn hylif tanllyd o'i mewn; megys, ymarllwysiad y llosgfynyddoedd, y ffynnonau poethion, yn nghyd â'r mygdarth agerol sydd yn codi i fyny; heb law y ffaith fod y gwres yn cynnyddu fwyfwy, yn ol y pellder y cloddir i mewn oddi wrth yr arwyneb, fel y ceir yn y mwngloddiau glo ac ereill. Cynnydda y gwres yn raddol, yn ol deddf bendant; ac yn ol y ddeddf hon, canfyddir nad oes dim defnyddiau yn y greadigaeth a allant ddal y poethder heb droi yn hylif ac yn ager o fewn pellder tuag un milltir ar ddeg o'r arwyneb; ac os felly, mae yn ddiammheuol nad yw trwch crawen y ddaiar yn fwy nag un ar ddeg o filltiroedd. Mae hon fel plisgyn teneu yn gorwedd ar hylif tanllyd berwedig, yn dygyfor yn ddibaid, o drwch wyth mil o filltiroedd! Nid yw yn rhyfedd, gan hyny, fod cyfnewidiadau parhaus yn cymmeryd lle ar wyneb y ddaiar, y rhai a achosir gan nerthoedd y gweithredydd cyffredinol hwn; megys, toddiad creigiau, yn nghyd â ffrydiad allan yr hylif tanllyd o losgorelau (*craters*) y llosgfynyddoedd (*volcanoes*). Y mae durfingder canolog (*mean density*) y ddaiar hefyd yn profi nas gall fod ei chlamp yn un cyfangorff caled, ac mae bod ei hysgogiadau ar wedd tonau, fel y canfyddir mewn daiargrynfäau, yn arwain i'r un penderfyniad—fod canol y ddaiar mewn ansawdd hylifol gan wres, a'n bod ninnau yn byw ar grawen ansefydlog, sydd yn gorchuddio cyfangorff arswydol o ddefnyddiau toddedig. Mae yn ffaith ag sydd tu hwnt i bob ammheuaeth, trwy sylw manwl, fod y grawen yn ymgodi yn raddol mewn rhai manau, ac yn ymsuddo mor raddol mewn manau ereill; ac fe welir y rheswm am hyny, yn gymmaint a'i bod yn gorwedd ar y dygyfor berwedig o'i mewn. Oddi wrth yr un peth hefyd y canfyddir pa fodd y cyfnewidiodd y dyfroedd eu gwelyau, trwy fod cyfandir eang yn ymgodi mewn un man, tra yr oedd rhanau ereill o'r ddaiar yn ymsuddo, fel ag i beri i'r dyfroedd ddisgyn i'r manau hyny.

Gorchwyl y daiaregwr yw chwilio i natur y grawen, mor bell ag y mae yn gyrhaeddadwy i ddyn ei thrafod a'i deall. Dymunir galw sylw y darllenydd at y pethau canlynol, fel egwyddorion dianwadadwy, ar ba rai y sylfaenir daiareg.

1. Bod y byd yn ddarostyngedig i ysgogiadau diymorphwys, y rhai a lywodraethir gan ddeddfau pendant.

2. Bod y cyfnewidiadau a gymmerasant le yn nghrawen y ddaiar yn yr amser sydd wedi myned heibio, yn hanfodol o'r un natur a'r rhai hyny sydd mewn gweithrediad yn bresennol.

3. Bod yr ysbaid maith o amser trwy ba un y bu galluoedd natur yn gweithredu, yn gwneyd i fyny trwy barhad yr hyn sydd yn ddiffygiol o ran grym; hyny yw, fod galluoedd bychain, ond cael digon o amser, yr un mor rymus i ddwyn effeithiau oddi amgylch a galluoedd cryfion mewn byr amser.

4. Fod hanes y tymmorau a aethant heibio, o herwydd hyn, yn esbonio y presennol.

5. Er mai llonyddwch a gweithrediadau rheolaidd parhaol yw yr hyn a geir yn y greadigaeth fel ei hansawdd gyffredin, eto bod y llosgfynyddoedd, y daiargrynfäau, a'r llifeiriaint, ar brydiau, yn myned ar draws ei gweithrediadau dirgelaidd a dystaw, yr un fath ag yr aflonyddir ar dawelwch yr awyr ar dymmorau gan ystormydd o fellt a tharanau. Yn y naill a'r llall, bwriedir yr achosion cyffroawl er daioni, ac i weithio allan ddybenion doeth a da y Creawdwr anfeidrol.

Y peth cyntaf fel maes ymchwiliad y daiaregwr yw Creigiau. Mewn ystyr ddaiaregol, gelwir pob math o gyfangorff ffurf (*solid*), cyfansoddedig o ddefnyddiau mwnol, yn *greigiau*. Yn yr ystyr hwn, nid yn unig siaredir am yr ithfaen (*granite*), y lechfaen, y dywodfaen, a'r galchfaen, ond y clai meddalaf, a hyd yn oed llaid, a'r crynoad lleiaf o dywod, dan yr un enw, sef *creigiau*. Mae dull eu crynoad yn gwahaniaethu yn fawr, ac yn galw am eu dosbarthu i dri dosbarth. 1. Rhai âg arwyddion tân arnynt—fel wedi oeri a chaledu o fod unwaith yn hylif toddedig. 2. Rhai âg arwyddion arnynt eu bod wedi eu gwaddodi mewn dwfr—yn gorwedd yn haenau megys wedi eu crynoi ar ryw dymmorau neillduol, neu fel wedi myned trwy ryw fath o gyfnewidiad yn y dull o'u gwaddodi. 3. Rhai o nodweddiad perthynol i'r ddau flaenorol, âg arwyddion arnynt eu bod o ddefnyddiau y creigiau tanllyd, ond wedi eu ffurfio yn y dyfroedd

Digitized by Google

Gelwir y cyntaf, y creigiau tanllyd; yr ail, y creigiau dyfrol; y trydydd, y creigiau trawsnewidiol neu drawsffurfiol (*metamorphic*).

Tuag at ddeall natur creigiau, mae yn angenrheidiol sylwi ar y gwahanol elfenau sydd yn cyfansoddi sylweddau y greadigaeth. Yn lle pedair elfen y siaradai yr hen bobl am danynt, mae y darganfyddiadau diweddaf wedi rhoddi i ni gymmaint a dwy a thrigain—ac efallai y daw rhagor eto i'r golwg. Yr elfenau hyn sydd yn cyfansoddi y gwahanol sylweddau a welwn o'n hamgylch, er na chyfarfyddir ond âg un ar bymtheg o'r rhai hyn yn nghyfansoddiad cyssoddau mŵnol, pa un ai ffurf ai hylif. Y rhai hyny ydynt,[1]

| | |
|---|---|
| Oxygen (Ufelai). | Silicium (Celltawn). |
| Hydrogen (Ulai). | Aluminum (Allogsawd). |
| Nitrogen (Blorai). | Potassium (Delwygnur). |
| Carbon. | Sodium (Halodsawd). |
| Sulphur (Llosfaen). | Magnesium (Magnesawd) |
| Chlorine (Halnwy). | Calcium (Calchid). |
| Fluorine (Lliorain). | Haiarn. |
| Phosphorus (Llosnur). | Manganese (Manganys). |

Yr elfenau hyn, wrth ymuno â'u gilydd mewn gwahanol gyfartaledd, a ffurfiant y rhan fwyaf o grawen y ddaiar, yn gystal a'i moroedd a'i hawyr. O'r elfenau hyn, y mwyaf pwysig yw *oxygen:* —cyfansodda, mewn undeb â *silicium*, fwy na hanner y ddaiar dan ffurf yr hyn a elwir *silica.* Ymuna hefyd âg *aluminum* i ffurfio yr hyn a elwir *alumina*:—math o ddaiar ag sydd yn hanfodol i gyfansoddiad dosbarth neillduol o greigiau, sef, y llechau talcaidd a chleiog, y rhai ydynt yn gyffredin iawn i'w cael tros wyneb y ddaiar, ac yn ffurfio, trwy eu dadgyssodiad, y gwelyau o glai y cyfarfyddir â hwynt bron yn mhob man; ac y mae agos yr hanner o'r clai hwn yn gyfansoddedig o *oxygen.* Eto, ffurfia *oxygen* agos yr hanner o *carbonate of lime* (marm) —sawd y gareg calch, a sylwedd mŵnol o ba un y ceir carneddau mynyddig o drwch llawer cant o latheni mewn llawer man o'r ddaiar. Ac os chwanegwn at hyn breswyliad yr *oxygen* yn y dwfr, sydd mor helaeth yn y meini, mewn llysiau, ac mewn creaduriaid byw—gan gofio fod yr *oxygen* yn pwyso wyth ran o bob naw o'r dwfr—gellir yn hawdd gredu fod hanner crawen y ddaiar o leiaf yn gyfansoddedig o'r elfen hon.

*Hydrogen:* un eto o elfenau cyfansawdd dwfr.

*Nitrogen:* un o elfenau yr awyr, ac yn myned i mewn i gyfansoddiad sylweddau anifeilaidd a llysieuog.

*Carbon:* prif gyfansoddydd llysiau a glô, yn nghyd â'r rhanau mwyaf ffurf o anifeiliaid. Hwn yn ei agwedd buraf yw yr adamant (*diamond*)—y caletaf a'r gorwychaf o'r gemau.

*Sulphur:* cyfansoddydd mewn sylweddau anifeilaidd a llysieuog. Mygderthir llawer iawn o hwn o'r llosgfalau, naill ai mewn agwedd bur, neu mewn undeb â *hydrogen*; ac y mae yn elfen bwysig yn ffurfiad metteloedd y ddaiar.

*Chlorine:* prif gyfansoddydd halen, ac yn ffurfio gwelyau helaeth o greighal (*rocksalt*).

*Fluorine:* hwn, mewn undeb â chalch, a ffurfia y canfaen (*spar*), yr hwn a geir mewn cyssylltiad â mŵn plwm.

*Iodine:* ceir hwn mewn dwfr hallt a llysiau y môr; hefyd mewn glô, &c.

*Bromine:* ceir hwn yn nwfr y môr, mewn undeb â *magnesia*, ac hefyd mewn ffynnonau hallt.

[1] Defnyddir y termau Seisonig yn lled helaeth yn yr erthygl hon, fel y bydd hyny yn fantais i'r darllenydd i ddeall y pwnc yn fwy trwyadl pe dygwyddai iddo droi at draethodau Seisonig ar ddaiareg.

*Borine:* ceir hwn yn ffurf *borate of soda*, wedi ei genedlu yn naturiol yn y tir tua Thibet, ac hefyd yn ngwaelodion rhai llynau.

*Phosphorus:* hwn, o dan y wedd o *phosphate of lime*, sydd yn cyfansoddi y rhan fettelaidd o esgyrn, ac yn rhoddi grym a ffurfder iddo. Ceir ef hefyd mewn llysiau, ac o honynt y mae yn myned i mewn i gyfansoddiad yr anifail.

*Silicium*, neu *silicon:* prif gyfansoddydd *silica:* sef sylwedd y tânfaen. Dangoswyd yn ein sylwadau ar yr elfen *oxygen* pa mor helaeth y mae hwn yn ymgymmysgu â sylweddau y greadigaeth.

*Aluminum:* gellir dywedyd yr un peth am hwn eto ag am *silicium.* Mewn cyssylltiad âg *oxygen*, fel yr awgrymwyd eisoes, ffurfir ran fawr o grawen y ddaiar.

*Potassium:* mae hwn yn myned i mewn i gyfansoddiad llawer math o greigiau, yn enwedig y *felspar*, o'r hwn, fel un o'r cysranau, y ffurfia yr ithfaen gronynog (*granite*) a'r ithfaen haenol (*gneiss*).

*Sodium:* gweiir ar unwaith pa mor bwysig yw hwn yn nghyfansoddiad y ddaiar, trwy gofio pa mor gyffredin yw halen yn moroedd y greadigaeth, a bod *sodium* yn elfen hanfodol mewn halen.

*Magnesium:* o hwn yn benaf y ffurfir y meini *hornblende*, *steatite*, a'r *serpentine.* Ceir ef hefyd yn y calchfaen magnesiaidd (*magnesian limestone*) sydd wedi ei ddosbarthu yn dra helaeth drwy y greadigaeth.

*Calcium:* prif gyfansoddydd marm (*carbonate of lime*). Nid oes eisieu dyweyd gair am bwysigrwydd calch yn y greadigaeth. Ceir ef mewn *gypsum* neu *sulphate of lime* (ufelhal calch), a cheir hwn yn welyau eang mewn mwy nag un o'r gwahanol greigiau.

*Haiarn* a *Manganese.* Y mae y rhai hyn yn ddigon hysbys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr.

Dyma y defnyddiau elfenol sydd, trwy eu huniad â'u gilydd, yn cyfansoddi sylweddau creigiog y ddaiar, ac yn ei gwneyd yn addas i lysiau ac anifeiliaid fyw arni.

Yn nesaf, ni a ystyriwn natur y creigiau yn y cyssoddau mŵnol ag sydd yn ffurfio y gwahanol haenau. Y prif fŵnau yn eu cyfansoddiad ydynt *quartz*, *felspar*, *mica*, *augite*, *hornblende*, *oxydulated iron*, *marm*, *ufelhal calch*, *dolomite*, *chloride of sodium*, *lignite*, a *glo.* Cyfarfyddir âg amryw ereill yn awr ac yn y man mewn creigiau a gwaelodion. Er ei bod yn anhawdd rhoddi deall priodol i'r darllenydd trwy unrhyw ddysgrifiad ysgrifenedig —annogir ef, tuag at eu deall a'u hadnabod, i fynu darnau o'r gwahanol greigiau i'w hefrydu —eto dodwn i lawr rai sylwadau er arweiniad a chynnorthwy. Ac yn gyntaf, y *quartz:* math o faen grisialaidd; ei liw yn wyn; pan yn bur, y mae yn dryloyw; tebyg i wydr o ran ei glawdd, gyda llinres wen.

*Felspar:* ei liw cyffredin yw gwyn, weithiau llwydlas, a rhuddgoch yn yr ithfaen yn fynych, mae yn dryloyw, neu weithiau braidd yn dywyll, a glawdd gwydraidd ganddo.

*Mica:* y prif liwiau ydynt gwyn, llwydlas, melyn, gwineu, neu ddu; mae yn dryloyw ac yn dryddysglaer, yn neillduol mewn llafonau teneu. Canfyddir ef ar unwaith yn y *granite*, y *gneiss*, a'r *mica slate*, trwy ddysgleirdeb y llafonau.

*Talc:* gwahaniaethir hwn oddi wrth *mica*, drwy ei fod yn hyblyg (*flexible*), ond nid yn hydwyth (*elastic*).

*Augite.* mae ei liw yn gwahaniaethu o wyrdd neu lwydlas, i wineu neu ddu—yn gyffredin yn

Digitized by Google

dywyll, ei glawdd yn wydraidd, ac yn tebygu i ystor (*resin*) brau. Ceir hwn yn gyffredin iawn mewn creigiau llosgfalaidd.

*Hornblende*: ei brif liw yw gwyrdd yn ei wahanol raddau nes cyrhaedd y du; mae yn dywyll yn fynychaf, a'i glawdd yn wydraidd—mae yn frau pan mewn darnau bychain, ond yn wydn pan yn bentwr, ac felly yn anhawdd ei dori. Mae hwn yn gyfansoddydd hanfodol o'r *granite* a'r *gneiss*, &c.

*Diallage*: du-wyrdd ei liw, yn tynu at frychddu, a'i glawdd yn fettelaidd.

*Haiarn tryfaenol* (*oxydulated iron*): haiarn-ddu tywyll ei liw—durdynol iawn pan yn bentwr, â glawdd mettelaidd iddo. Ceir ef yn welyau mawrion yn Norway a Sweden.

*Marm* (*carbonate of lime*) a *dolomite*: math o galchfeini cymmysgedig â *magnesia*.

Y rhai hyn yw y mŵnau sydd yn cyfansoddi crawen y ddaiar o'r bron, ac o'r mŵnau hyn, trwy eu huniad â'u gilydd mewn gwahanol gyfartaledd, y ffurfir y gwahanol greigiau.

Dwg ymchwiliad manwl i unrhyw gyfran lled helaeth o arwyneb y ddaiar o'n blaen ddau ddosbarth gwahanol o gyssoddau mŵnol.

1. Y rhai hyny yn mha rai y ceir y mŵnau cyfansoddol yn risiannau (*crystals*) gwahanedig, heb ddim arwyddion treuliad i'w canfod arnynt, ac yn ffurfio drwy eu hymuniad â'u gilydd greigiau grisialaidd. 2. Y rhai hyny yn mha rai y ceir y mŵnau cyfansoddol wedi treulio, ac naill ai wedi eu cymmysgu â'u gilydd yn ddiddrefn, neu wedi eu dosbarthu yn welyau gwahanedig.

I'r dosbarth cyntaf y perthyn y *granite*, y *syenite*, y *greenstone*, y *basalt*, a'r *gneiss*, ac amrywiau hefyd o'r *mica slate* a'r galchfaen graeanog.

I'r ail y perthyn tywodfeini, crwnsypiau (*conglomerates*), pilfeini (*shales*), cleiau a chalchfeini cyfanaidd. Wrth sylw manwl, ceir creigiau grisialaidd y dosbarth cyntaf weithiau yn debyg i'r gwaddodol, megys yn y llechau talc a'r llechau clai; ac o'r ochr arall, ceir y creigiau gwaddodol yn nghymmydogaeth y llosgfalau cyntefig, ac wedi cyfnewid i raddau, ac yn tebygoli i'r creigiau grisialaidd.

Yn awr, nid ar dybiaeth neu ddychymyg y mae y daiaregwr yn seilio ei athrawiaethau, ond ar y ffeithau a ganfyddir yn cymmeryd lle trwy aliuoedd natur yn nghorff y greadigaeth yn y tymmor presennol; ac ymresyma oddi ar y deddfau sydd yn awr yn gweithredu at yr hyn a gymmerodd le drwy yr un ddeddfau yn oesoedd cyntefig y ddaiar. Yn y llosgfynyddoedd, y mae yn gweled effaith toddiant y mŵnau cyfansawdd; ac mewn ceulanau tywodlyd a lleidiog, effaith gweithrediad dwfr. Yn ngweithrediad y ddaiargryn, y mae y galluoedd hyn yn dadgymmalu y creigiau; yn ngweithrediad tonau y môr, y maent yn eu treulio; yn llafur diorphwys ac ymchwyddol y môrgudyn (*coral*) ar draethellau coralaidd y Môr Tawel, y mae y galluoedd hyny i'w canfod ar waith, a roddasant hefyd eu dullwedd i'r creigiau cyntefig. Yn ngweddillion pysgod, megys cregyn, a chreaduriaid ereill wedi eu sawdd-ddodi yn y tywod neu y llaid a fo yn ymgasglu drostynt, canfyddir yr un ffeithiau ag a gyfarfyddir yn haenau creigiog y ddaiar, sydd yn awr yn dir sych. Wrth sylwi yn fanwl ar y cyfnewidiadau diweddaraf, fel hyn, yr ydys yn gallu ymresymu yn ol at y cyfnewidiadau a gymmerasant le oesoedd dirifedi yn ol. Gellir gan hyny ei gymmeryd yn ganiataol fel gwirionedd safadwy, mai fel y mae sylwedd creiglyd yn cael ei daflu allan o'r llosgfynyddoedd yn hylif toddedig ac yn ymgaledu yn greigiau yn y tymmor presennol, felly hefyd y bu mewn cyfnodau blaenorol; a chan hyny, fod creigiau tanllyd yn bod y pryd hyny, y rhai a ddygwyd ar ol hyny yn agosach i'r arwyneb, neu a fwriwyd allan o grombil y ddaiar. Felly eto, megys y ceir y creigiau tanllyd wedi myned trwy ryw fath o ddullnewidiad, fel y maent yn haenau ar eu gilydd yn nghymmydogaeth *lava* y cyfnod presennol, yn yr un modd y gellir rhoddi cyfrif am eu hymddangosiad yn yr un cyflwr yn y cyfnodau blaenorol; ac yn mhellach, trwy yr un math o ymresymiad, yn gymmaint a bod y cyfnewidiadau sydd i'w canfod trwy nodiadau lluosog, yn nosbarthiad creaduriaid cyfluniol (*organic*) wedi cymmeryd lle ar wahanol gyfnodau dilynol; o herwydd hyn, y mae yn bosibl penderfynu perthynas y naill haen o greigiau â haen arall mewn unrhyw barth o'r ddaiar, pan y cyfarfyddir â thwr o weddillion anifeilaidd neu lysiau, wrth eu cymharu â gweddillion a geir mewn rhyw fan arall. Fel hyn, y mae daiareg wedi cyrhaedd sicrwydd tra diammheuol yn ei phrif egwyddorion a'i daliadau, fel ag i wneyd ei lle yn awr fel gwyddoreg wirioneddol ac ymarferol.

Yn nesaf, wedi i ni sylwi yn 1af ar yr elfenau sydd yn cyfansoddi y gwahanol fŵnau; ac yn 2il, ar natur ac ymddangosiadau y mŵnau hyn, wele ni yn awr yn dyfod, yn 3ydd, at y CREIGIAU a ffurfir trwy gyssylltiad y mŵnau â'u gilydd.

Gosodir creigiau yn wahanol ddosbeirth, yn ol fel y gorweddant yn olynol ar eu gilydd dros wyneb y greadigaeth. Dechreuwn gyda'r isaf, ac esgynwn o graig i graig, nes cyrhaedd y ffurfiad diweddaraf.

I. Y CREIGIAU TANOL (*igneous*).
1. Y dosbarth Plutonaidd.
2. Y dosbarth Llosgfalaidd.

II. Y CREIGIAU HAENOL DIFFOSYLOG.
Y dosbarth Trawsnewidiol.

III. Y CREIGIAU HAENOL FFOSYLOG.
*Y Cyfnod Cyntefig* (*Primary*), yn cynnwys
1. Y dosbarth Cambriaidd.
2. Y dosbarth Siluriaidd.
3. Y dosbarth Devonaidd.
4. Y dosbarth Carbonaidd.
5. Y dosbarth Permiaidd.

*Y Cyfnod Eilraddol* (*Secondary*), yn cynnwys
1. Y dosbarth Triassaidd.
2. Y dosbarth Oolitaidd.
3. Y dosbarth Wealdenaidd.
4. Y dosbarth Marmaidd (*chalk*).

*Y Cyfnod Trianol* (*Tertiary*), yn cynnwys
1. Y dosbarth Eocenaidd.
2. Y dosbarth Miocenaidd.
3. Y dosbarth Pleiocenaidd.
4. Y dosbarth diweddaraf.

Gwnawn rai sylwadau ar y gwahanol ddosbarthiadau hyn yn olynol; ac a ystyriwn yn

I. Y CREIGIAU TANOL.

1. *Y Dosbarth Plutonaidd.* Mae y dosbarth hwn yn cynnwys y *granite*, y *syenite*, y *greenstone*, y *trap*, a'r *basalt*.

*Y granite*; sef yr ithfaen neu y gronynfaen. Mae yn gyfansoddedig o risianau, *mica*, *quartz*, a *felspar*, yn gymmysg â'u gilydd. Y prif ddefnydd yw *felspar*, a'r nesaf yw y *quartz*. Y mae y lliw yn gwahaniaethu yn ol gwahanol gyfartaledd y defnyddiau; weithiau yn goch neu yn

Digitized by Google

wyn, oddi wrth y *felspar* a'r *quartz;* weithiau yn llwydlas neu ddu, o herwydd fod mwy o'r *mica* yn y rhai hyny. Mae y creigiau hyn yn ffurfio rhai o fynyddoedd uchaf y byd. Hwy yw y gwasarn ar ba un y gorwedda y rhan fwyaf o greigiau y ddaiar. Ceir hwy mewn gwelyau o bob llun; hefyd yn wythïeni, wedi ymwthio i mewn i greigiau pob cyfnod, cyntefig a diweddar. Ceir hefyd wythïeni granitaidd yn croesi eu gilydd—y diweddaraf yn croesi yr hynaf; ac y maent hefyd yn ymddangos yn bentyrau mawrion. Mewn gwirionedd, pa le bynag y ceir y clogwyn uchaf o gadwen o fynyddoedd yn gyfansoddedig o'r *granite*, nid yw ond pentwr o'r graig hon wedi ymwthio allan o'r dyfnderoedd oddi tanodd, a chodi yr haenau oedd yn gorwedd arno, ac ymgaledu ar ol hyny. Rhyw gymmysgedd heb drefn yw y creigiau hyn, tebyg i unrhyw hylif toddedig, megys haiarn tawdd, a fo wedi hyny yn oeri ac yn ymgaledu.

*Syenite.* Math o ithfaen yw hwn, yn mha un y ceir yr *hornblende* yn cymmeryd lle y *mica*, ac felly yn gyfansoddedig o *felspar, quartz*, a *hornblende;* yr hyn sydd yn peri fod y graig hon o dduach lliw na'r ithfaen cyffredin. Tardda yr enw oddi wrth y ddinas Syene yn yr Aipht, lle y mae digon o hono. Mae bryniau Malvern, yn swydd Caerwrangon, yn gyfansoddedig o honynt.

*Greenstone*, sef y gwyrddfaen: enw a roddir ar y creigiau hyny ag sydd yn gyfansawdd o *felspar* ac *augite*, neu *hornblende*. Mae yn dwyn perthynas â'r *syenite*, ac yn debyg iddo.

*Y Creigiau Trap.* Gelwir hwy wrth yr enw hwn oddi wrth air Gothaidd, yn arwyddo gris, gan eu bod yn ymddangos yn llechresi, y naill yn uwch na'r llall fel grisiau. Cynnwysant y creigiau porphoraidd *(porphyries)*, a'r *basalt*. Tardda yr enw *porphyry* oddi wrth y gair Groeg πορφυρος, ystyr yr hwn yw porphor. Cyfeirir ef yn awr at unrhyw graig, yn mha un y ceir grisianau gwahanedig o *felspar*, neu ryw faen arall. Cyfyngir yr enw *basalt* yn awr at gruglwythau o *hornblende* neu *augite*, yn cynnwys y mettel *titanium*, yn nghyd â grisianau o *felspar*. Y maent o liw gwyrddlas neu frychddu. Cyfarfyddir â hwynt yn llechresi taflenol, ac ymddangosant fel colofnau, weithiau yn grynion, weithiau yn yswigenllyd, a thro arall yn gorwedd yn dalpiau hirgrynion mewn gwely o graig wahanol.

2. *Y Dosbarth Llosgfalaidd;* sef y creigiau a fwriwyd allan o grombil y ddaiar yn hylif toddedig, ac a galedasant wedi hyny wrth oeri. Mae lle i farnu i'r *granite* ymchwyddo allan yn raddol, ond i'r rhai hyn gael eu bytheirio allan o losgorelau y llosgfynyddoedd. Mae rhai o honynt yn wydraidd, fel canlyniad oeri yn gyflym; ereill yn dyllog fel yspwng, fel canlyniad o fod ager wedi myned i mewn iddynt tra mewn cyflwr hylifol; ac ereill eto fel llaid llosgfalaidd, o herwydd ymgymmysgu â dwfr, gwlaw, neu yr eira toddedig sydd yn fynych yn cydfyned âg ymarllwysiad y llosgfynyddoedd, nes ffurfio math o graig briddlyd, a elwir *tuff* neu *tufa*.

Gyda golwg ar natur y creigiau tanol, mae arwyddion yn bod sydd yn profi—

1af, Iddynt gael eu ffurfio yn mherfeddion y ddaiar, a'u bod unwaith yn hylif toddedig, ond a galedodd wedi hyny.

2il, I'r creigiau *trap, porphoraidd*, a *basalt*, gael eu ffurfio yn ngwaelodion y dyfroedd; eu bod unwaith yn doddedig, ond iddynt ymgaledu dan bwysau y moroedd.

3ydd, I'r creigiau llosgfalaidd gael eu ffurfio yn nghymmydogaeth yr awyr; eu bod unwaith yn doddedig, ac iddynt ymgaledu yn agos i'r arwyneb, o dan ddylanwad y nwyfre (*atmosphere*).

II. Y CREIGIAU HAENOL DIFFOSYLOG.

Y nesaf yw y *Dosbarth Trawsnewidiol;* sef y rhai a waddolwyd yn ngwaelodion y dyfroedd, ond a newidiasant eu gwedd ar ol hyny trwy effaith y gwres tanddaiarol; ac yn gyntaf,

*Y gneiss*, neu yr *ithfaen llechog*, o'r un defnyddiau a'r *granite*, ond yn awr yn haen ar haen. Yn amddifad o'r *felspar*, gelwir ef wrth yr enw *micaschist* (talc-llechog). Pan y byddo *quartz* yn gorbwyso, gelwir ef *quartz-rock;* a phan yr *hornblende*, yn *hornblende-schist*. Mae y graig hon yn gorwedd ar y *granite*.

*Y micaschist* (y talc-llechog): cyssawdd o *quartz* a thalc, yn unedig â'u gilydd mewn gwahanol gyfartaledd. Y mae o ffurfiad llafnol, mwy neu lai, yn ol ei gynnwys o'r talc; a'i liw yn gwahaniaethu oddi ar yr un achos, er mai y mwyaf cyffredin yw llwydlas. O ran ei sefyllfa, y mae y graig hon mewn trefn yn dilyn y *gneiss*. Ceir hi yn fynych yn yr ochr ogledd-orllewinol o'r Iwerddon, tua Connemara, ac hefyd yn Ucheldiroedd yr Alban.

Heb fanylu yn mhellach, wele ni yn awr gyda'r

III. CREIGIAU HAENOL FFOSYLOG;

sef y *fossiliferous rocks*. Gwahaniaethant yn fawr oddi wrth eu gilydd; a'r profion goreu o oedran a ffurfiad unrhyw haen o honynt yw y gweddillion cyfluniol (*organic remains*) a geir ynddynt. Tardda y gair ffosyl (*fossil*) oddi wrth y gair Lladin *fossum;* Cymraeg, ffos; ac arwydda beth wedi ei gloddio allan o'r ddaiar. Wrth gyfarfod â gweddillion coed, neu bysgod, neu anifeiliaid, yn mherfeddion y creigiau, yr oedd yn gwestiwn pur naturiol a oedd y rhai hyn wedi eu cynnyrchu trwy ryw weithrediad dychymygol o eiddo natur, neu a oeddynt yn weddillion gwirioneddol creaduriaid cyfluniol a byw. Bu raid taflu ymaith y dybiaeth gyntaf yn fuan, trwy ddarganfyddiadau newyddion. Wedi hyny, tybiwyd mai gwaith y dylif oedd rhwygo y creigiau, a thaflu i'w crombil bentyrau o gregyn ac esgyrn anifeiliaid, &c., tros wyneb y ddaiar, fel creaduriaid ag oeddynt yn byw ar y pryd hwnw. Trwy lafur diflino daiaregwyr diweddarach, cafwyd fod yn rhaid taflu heibio y cyfeiliornad hwn eto, a seilio y wyddoreg ar egwyddorion cwbl groes. Yr oedd y gweddillion yn hollol wahanol i ddim creaduriaid sydd yn awr yn byw ar y ddaiar, ac, fel gweddillion creaduriaid diflanedig, y maent yn dystion o wahanol agweddau y ddaiar, trwy ymddangosiad a diflaniad creaduriaid cyfluniol, o ffurfiad a dulliau priodol i'r cyfnewidiadau parhaus a gymmerent le ar yr arwyneb. Gellir casglu pa mor bwysig yw yr athrawiaeth hon oddi wrth y ffaith o fod yn agos i 30,000 o wahanol rywogaethau, perthynol i'r byd anifeilaidd a thyfol (*animals and plants*), wedi eu darganfod. Ceir hwy yn mhob dull a chyflwr; rhai yn eu hagwedd gyntefig; ereill wedi eu troi yn geryg; ac ereill yn arddangos rhanau o honynt yn faenol, a rhanau ereill yn yr ystod o'u cyfnewid. Mae maeneiddiad (*petrifaction*) yn cymmeryd lle mewn gwahanol ffyrdd:—

1af, Trwy dynu ymaith sylwedd y creadur; megys mewn esgyrn a geir mewn ogofâu, ac mewn cregyn.

2il, Trwy gresteniad (*incrustation*); pryd y byddo y creadur wedi ei amdoi â mater mwnol, ac, i raddau, wedi ei gymmysgu âg ef.

3ydd, Trwy sugno mater gwaddodol, megys

tywod, i mewn i gorff y creadur, fel y ceir mewn cregyn ac esgyrn.

4ydd, Trwy fod y naill ddefnydd yn cymmeryd lle y llall; megys mewn gweddillion llysiau, trwy sugno *silica* i mewn, ac ymgyfnewid i agwedd fwnol.

5ed, Trwy gyfnewidiad fferyllaidd; pryd y dygir y rhanau cyntefig ansoddol i gyssoddiad newydd trwy weithrediad fferyllaidd, ond heb fod dim mater mŵnol yn cael ei gymmeryd i mewn.

6ed, Trwy ddullnewidiad; pryd nad oes dim cyfnewidiad yn y sylwedd, ond yn unig newidiad yn nhrefniad yr ithau (*particles*) cyssoddol. Yn y Cyfnod Cyntefig, yr isaf yw,

1. *Y Dosbarth Cambriaidd a Siluriaidd.* — Gelwid y creigiau isaf o'r dosbarth hwn unwaith dan yr enw *Creigiau Cambriaidd*, fel yn wahanedig oddi wrth y Siluriaidd. Ond mae y daiaregwr enwog hwnw, Syr Roderick Murchison, yr hwn sydd wedi gwneyd creigiau Cymru yn destyn ei efrydiaeth neillduol, wedi dangos eu bod yn perthyn i'r un dosbarth y tu hwnt i bob ammheuaeth; ac felly, y mae yr enw olaf wedi llyncu i fyny y cyntaf. Eglurir y ddau yn awr wrth yr enw y *Dosbarth Siluriaidd.* I'r dosbarth hwn y perthyn y rhan fwyaf o greigiau Cymru. Maent o natur llechog, a chynnwysant amrywiol weddillion. Yr isaf o honynt ydynt greigiau y Wyddfa; yna, calchfaen y Bala; wedi hyny, creigiau Plynlymon. Ar y rhai hyn y gorwedda llechfeini Llandeilo; yna, tywodfeini Caer Caradoc. Y nesaf mewn trefn yw creigiau y Wenlock, ac ar y rhai hyn y gorwedd pilfeini isaf Ludlow (*Lower Ludlow Shale*); yna, calchfaen Aymestry, a thywodfeini calchaidd uchaf Ludlow. Mae y dosbarth Siluriaidd yn cyrhaedd o sir Faesyfed, trwy siroedd Trefaldwyn, Aberteifi, Meirionydd, a Chaernarfon; hefyd mewn rhan i siroedd Caerfyrddin, Penfro, Brycheiniog, Mynwy, Caerloyw, Caerwrangon, Henffordd, ac Amwythig; a dodwyd yr enw arnynt oddi wrth yr hen Frythoniaid, a elwid gan y Rhufeiniaid *Silures.*

Yn y ffurfiad Siluriaidd y cyfarfyddir â'r arwyddion cyntaf o fywyd yn y greadigaeth; sef, gweddillion pysgod bychain, megys y tair-labedion (*tulobites*), mafalogion (*mollusca*), a chregyn mân. Mae Murchison wedi cyfrif 731 o rywogaethau mafalog, a 113 o rywogaethau pelydrog (*radiata*), yn nghreigiau y ffurfiad hwn. Heb law yn Nghymru, ceir hwynt yn Rwssia ac America, a manau ereill.

2. *Y Dosbarth Devonaidd*, neu y *Tywodfaen Coch Hynaf* (*Old Red Sandstone*). Dodwyd yr enw hwn arnynt oddi ar eu bod yn gyffredin iawn yn swydd Dyfneint (*Devon*). Ceir hwy hefyd yn yr Alban, yn siroedd Henffordd a Brycheiniog, ac fe ffurfiant y mynyddoedd uchel a elwir Banau Brycheiniog. Estynant yn llain cul i swydd Gaerfyrddin, ac oddi yno i swydd Benfro. Cyfarfyddir â hwynt hefyd yn yr Iwerddon, Rwssia, ac America. Trwy ddarganfyddiadau Murchison, Sedgwick, De la Beche, ac ereill, canfyddwyd y dylid golygu y creigiau hyn fel ffurfiad penodol a gwahanol i'r Siluriaidd. Cafwyd cymmaint a 275 o rywogaethau ffosylog yn haenau Dyfneint a Chernyw yn unig. Mae lle i farnu mai eu cludo i'r gwaddod tywodlyd gafodd y gweddillion hyn, yn gymmaint ag nas ceir mo honynt ond yn anfynych yn gyfain. Llafnau o dywodfeini grutaidd yw ceryg y ffurfiad hwn, ac y maent yn dra gwerthfawr i adeiladu, neu fel priddlechau ar benau tai.

3. *Y Dosbarth Carbonaidd.* — Nid ydyw yn ymddangos fod y ffurfiad hwn yn gorchuddio cyfandiroedd neu ynysoedd mawrion, ond ei fod yn wahanedig mewn manau penodol, fel clytiau yma a thraw, megys yn Neheubarth a Gogledd Cymru, yn yr Alban, yn Nghastell Newydd, yn Lloegr, &c. Ceir ef hefyd yn yr Iwerddon, yn ngwahanol wledydd Ewrop, yn Asia, ac (yn ol darganfyddiad Dr. Livingstone) yn Affrica. Fel ag y mae America yn eang, ac yn fawr yn mhob peth—ei hafonydd, ei mynyddoedd, ei dyffrynoedd, ei choedwigoedd, &c.—felly hefyd ceir y ffurfiad hwn yn eangach a helaethach yno nag mewn un wlad arall.

Yr oedd y gweithrediadau trwy ba rai y ffurfiwyd y creigiau hyn yn myned yn mlaen yn dra chyffredin ar wyneb y ddaiar yn nhymmor eu ffurfiad. Y cyntaf o'r dosbarth hwn yw,

1af, *Y Creigiau Calch.* Mae y creigiau hyn yn Lloegr a Chymru yn gorwedd yn gyffredin ar ymylon yr *old red sandstone*, ac o dan y glo. Yn yr Alban, ceir hwynt bob yn ail â haenau isaf y glo. Y maent yn llawn o'r cwrel, a chregyn un-fasglog a dwy-fasglog. Golygir iddynt gael eu ffurfio yn ngwaelodion y dyfnder gan mwyaf gan y cwrel, yn debyg fel ag y mae y creaduriaid bychain hyn yn awr yn ffurfio ynysoedd cwrelaidd y Môr Tawel Deheuol. Gwahenir hwy oddi wrth y glo yn Nghymru gan haen o dywod grutaidd. Yn ngogledd Lloegr mae y glo yn suddo i'r grutfaen melinog (*millstone grit*), ac weithiau yn cylchynu calchfaen y mynydd (*mountain limestone*). Yn yr Iwerddon, dosberthir hwy yn welyau gwahanol gan bilfeini, a waddodwyd mewn dyfroedd lled ddwfn, megys y gwelir heddyw yn Môr y Canoldir, lle y mae y cwrel yn ei waelodion yn fynych wedi eu gorchuddio â llaid a deflir arnynt gan y ffrwd ddyfroedd.

2il, *Y Glo.* Ffurfiwyd hwn, mae yn amlwg, o lysiau a dyfent yn goedwigoedd mawrion yn nhymmor ei ffurfiad, ar waelodion ynysoedd, ac mewn llebedd lleidiog, megys ar gainc o fôr, neu ar fin aberoedd, ac a suddasant i waelodion y dyfnder, lle y cyfnewidiwyd hwy i'w hagwedd fewnol trwy gyfnewidiad fferyllaidd.



Dar. 226.

Mae rhywbeth tebyg i hyn i'w weled yn y ffaith fod sylwedd llysieuog yn myned trwy gyfnewidiad fferyllaidd yn aml nes ymweithio (*ferment*) a duo, ac ymboethi, ac yn y diwedd myned ar dân. Dodwch wair, er anghraifft, ar ei gilydd mewn cyflwr llaith, a'r canlyniad fydd iddo ymweithio a chymmeryd tân. Os rhwystrir iddo fyned ar dân, ceir ei fod wedi duo, yn dysgleirio, ac yn arogli fel llôs (*bitumen*). Pe y gwesgid unrhyw

Digitized by Google

lysiau, mewn cyflwr lleithog, i'r fath radd fel ag i rwystro i'r elfenau nwyfol (*gaseous*) ddianc, y canlyniad fyddai ffurfiad llôs neu lô, yn y gwahanol raddau o gyfnewidiad. Wrth sylwi ar sylweddau llysieuog, yn mhob gradd o'u hymweithiad—sugraidd, gwinaidd, egraidd, a llosaidd—ceir fod gwirf (*alcohol*), gwirfwy (*ether*), *naphtha*, *petroleum*, llôs, glo, ambr, ac hyd yn oed yr adamant, o darddiad llysieuog. Mae gweddillion y glo yn bur nodweddus ac arbenigol. Ceir lluaws o lysiau yn ddoyn tebygoli i goed rhedyn, megys y gwelir yn y darlun blaenorol Ceir trigain math o'r llysiau hyn yn y glo yn unig; llawer o honynt yn debyg i'r hyn sydd yn tyfu yn awr yn mharthau poethion y ddaiar, yr hyn sydd yn brawf fod yr hinsawdd yn nhymmor eu tyfiant yr un fath â hinsawdd y manau hyny. Tyst o hyn yw math o goed rhedyn a elwir *sigillariæ*, o ba rai y cafwyd deugain math yn y glô. Wele yn canlyn ddarlun o gyff un o'r rhai hyn, o'r enw *caulopteris*, oddi wrth καυλος=cyff, a πτερις=rhedynen.



Dar. 227.—Caulopteris.

Mae tri o wahanol farnau o barth i ddull ffurfiad y glo. Tybia rhai i'r coed a'r llysiau ereill dyfu yn y manau lle y mae y glo yn bresennol; ereill, iddynt gael eu golchi i lawr gyda'r afonydd i lanau y môr, ac yno ymdyru yn nghyd; ereill eto, mai cynnyrch hen fawnogydd yw y glo. Mae seiliau i bob un o'r tybiau hyn, ac y mae yn debyg iawn fod pob un o honynt yn gywir.

Tyfai llysiau a elwir *stigmaria* yn lluosog anghyffredin yn y dyfroedd, ac a'u llanwent â'u gweddillion pydredig, nes—trwy fod llaid a thywod yn pentyru yn yr un man, ac yn ymgymmysgu â hwynt—troi y morgainc neu y llyn yn gors. Ar hyn y tyfai llysiau o rywogaeth wahanol, a elwir *equiseta* (rhawn y march) a *calamites*, yn nghyd â choed mwy yma a thraw. Yn nghyrff meirw y rhai hyn, ceid defnyddiau i ffurflo gwelyau o fawn a glo. Suddai y gors dan wyneb y môr, lle y derbyniai waddodion o dywod a chlai, y rhai a ffurflent haen y tywodfaen a'r



Dar. 228.—Stigmaria.

calchfaen, sydd yn gorwedd rhwng haenau y gwelyau glo. Cymmerodd hyn le amryw o weithiau tros dymmor maith ffurfiad y glo, nes cenedlu yr holl welyau glo fel eu gwelir heddyw.

Dywedir fod 64 o'r gwelyau hyn i'w cael yn Nghymru, a chymmaint a 100 yn Newcastle; a bod y cwbl yn 3,000 o droedfeddi o drwch. Yn America, mae y cwbl o'r gwelyau glo yn Nova Scotia, a chymmeryd yr haenau o glai a cheryg sydd rhyngddynt i'r cyfrif—tros 14,000 o droedfeddi o drwch. Mae y glo yn ymdaenu yn nyffryn yr afon Mississippi yn unig dros gymmaint a dwy ran o dair o holl gyfandir Ewrop; ac yn Pennsylvania, Virginia, ac Ohio, y mae yn cyrhaedd tros 207 o filltiroedd o hyd, a 190 o filltiroedd o led. Yn Pennsylvania, ceir un wythïen o drwch 10 troedfedd, ag sydd yn ymdaenu tros 14,000 o filltiroedd ysgwâr. Cyfarfyddir weithiau â'r hyn a elwir *fault* yn y glo, pryd y deuir i ben draw y wythïen, ac y bydd raid cloddio yn is, er dyfod o hyd i'r wythïen drachefn. Effaith dirgryniad y ddaiar yw hyn: trwy weithrediad y nerthoedd tu mewnol, fe holltwyd y creigiau, a dadgymmalwyd y gwythïeni glo, gan godi y naill i fyny, tra y gadewid ereill heb eu symmud o'u lle. Tymmor y llysiau mewn modd arbenig oedd tymmor ffurfiad y glo. Ni chyfarfyddir â gweddillion un math o anifail yn y glo; dim ond ychydig o gregyn dwfr croyw a'r ysgorpion. Tra yr oedd y moroedd yn llawn o bysgod mawr a mân o gyfluniad uchel, nid oedd ymlusgiaid, a bwystfilod, ac anifeiliaid y ddaiar, ac ehediad asgellog, wedi ymddangos o'r bron ar y tir hyd yn hyn. Ac eto, y mae un darganfyddiad yn profi fod y tir sych wedi ymddangos cyn y ffurfiad presennol. Tybid unwaith mai yn y tymmor hwn y dechreuodd oes yr ymlusgiaid, trwy ddarganfod un o luniad tra anghenfilaidd, rhwng llyffant a madfall, â chorff llyffant ganddo, ond â dannedd a genau madfallog. Gelwir y creadur hwn wrth yr enw *archegosaurus*. Cafwyd, beth bynag, ar ol hyny, trwy lafur Cadben Brickenden a'r Dr. Mantell, yr un rhywogaeth yn y creigiau Devonaidd—ffaith ag sydd yn dangos fod creaduriaid yn anadlu awyr yn bod y pryd hyny, ac yn byw ar y tir sych cyn tymmor y glo. Nid awn yn bresennol i chwanegu dim am ddefnyddioldeb a gwaith y glo, rhagor na dywedyd na wyddom ni ddim yn iawn pa fodd y gallai ein byd ni, yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg, fyned yn mlaen hebddo.

4. *Y Dosbarth Permiaidd* yw y nesaf:—enw oddi wrth Perm, gwlad yn Rwssia, lle y mae y graig hon yn gorchuddio rhan o'r ddaiar o ddau cymmaint maintioli a Ffrainc. Gorwedda hon ar y creigiau Carbonaidd. Cynnwysa yr haen isaf ryw gymmysgedd o fân geryg, wedi eu claddu mewn maen dolomitaidd, neu galchfaen magnesiaidd. Cyfansoddir y mân geryg hyn o ddarnau o galchfaen y mynydd, neu lo, neu rai o'r creigiau a orweddant yn îs. Gelwir hwy weithiau wrth yr enw y galchfaen magnesiaidd (*magnesian limestone*). Wrth sylwi ar y gweddillion yn y creigiau hyn, ceir eu bod yn perthyn yn hytrach i'r creigiau oddi tanynt nag i'r rhai sydd yn gorwedd oddi arnynt. Wele ni yn awr yn dyfod at

Y Cyfnod Eilraddol. Yn hwn, ceir

1. *Y Dosbarth Triassaidd*, neu y *Tywodfaen Coch Diweddaraf* (*New Red Sandstone*).—Gelwir y ffurfiad hwn wrth yr enw *Trias* yn yr Almaen, oddi wrth y ffaith o'i fod yn gynnwysedig yno o dair rhan arbenig; sef, 1. Math o gleibridd (*marl*) amryliw. 2. Math o galchfaen, a elwir *muschelkalk*. Ac yn 3. Math o dywodfaen brithog. Adnabyddir y graig hon weithiau gan ddaiaregwyr ein gwlad ni wrth yr enw

Digitized by Google

*poikilitic* (*brithog*), oddi wrth y Groeg ποικιλος =brith. Mae yn gynnwysedig o dywodfeini a chleibridd coch brithedig; a dilynir y rhai hyn gan welyau o greigiau calch. Gelwir ef y tywodfaen coch diweddaraf (*new red sandstone*), i'r dyben i'w wahaniaethu oddi wrth y tywodfaen coch hynaf (*old red sandstone*). Mae yr olaf yn gorwedd dan y glo, er ei bod yn eisieu mewn manau, megys yn ngwelyau glo Dudley, lle y mae y glo yn gorwedd ar y creigiau Siluriaidd. Mae y gyntaf—sef y *new red sandstone*—yn gorwedd oddi ar y glo. Y mae y dosbarth hwn o greigiau yn croesi ein hynys o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain, ac yn cyrhaedd o Ddyfneint trwy Wlad yr Haf, siroedd Caerloyw, Caerwayr (*Warwick*), Caerwerydd (*Lancashire*), a Chaerefrog, i Gernyw (*Cumberland*). Ni cheir llawer o weddillion ffosylog yn y graig hon; ond eto, y mae yn dra chyfoethog o halen, llysnur (*soda*), a glyfaen (*gypsum*). Ceir y creigiau hyn hefyd yn lluosog yn Ffrainc, Germany Italy, Rwssia, a Gogledd America.

Yn y ffurfiad hwn y ceir y creighal (*rocksalt*). Yn swydd Gaer, mae y gwelyau o gleibridd coch a gwyrdd, sydd yn gorwedd bob yn ail â'r glyfaen a'r creighal, dros 600 troedfedd o'drwch; ac yn Northwich, mae y ddau wely o halen o leiaf yn 60 troedfedd o drwch, ac yn cyrhaedd mor bell a milltir a hanner. Cloddir cymmaint â 250,000 o dynelli o halen yn swydd Gaer yn unig yn flyneddol; ac y mae genym brawf hanesyddol fod yr hen Brydeinwyr yn eu gweithio, a'u bod heb ddiffyg arnynt, tros 2000 o flynedd-oedd. Ceir halen hefyd yn mwngloddiau enwog Wicliczka, yn Poland, o fewn y creigiau marmaidd. Yn Carbona, yn yr Yspaen, cyfarfyddir â mynydd o halen 600 troedfedd o uchder, a 1200 o led wrth ei waelod. Y dybiaeth fwyaf debygol yn nghylch ffurfiad y gwelyau halen yw, mai trwy weithrediad llosgfalaidd y dygwyd hyny oddi amgylch, yn gymmaint a bod *chloride of sodium*—prif gyfansoddydd halen—yn beth cyffredin yn mhlith chwydfeini y mynyddoedd



Dar. 229.—Ammonite.

tanllyd. Cyfarfyddir âg ol traed hynod yn y creigiau Triassaidd, perthynol i anifail a elwid gan Proffeswr Owen wrth yr enw *Labyrinthodon*, oddi wrth ei ddannedd. Y dannedd yn unig a ddarganfyddwyd ar y cyntaf, a phenderfynodd Owen eu bod yn perthyn i gyfryw anifail a hwn; a phan y cafwyd ol y traed, cadarnhawyd y penderfyniad hwnw, trwy broflon fod y traed a'r dannedd yn perthyn i'r unrhyw fath greadur, yr hwn oedd fath o lyffant anferth. Ceir olion ymlusgiaid ereill, ac adar hefyd, gwahanol i ddim sydd yn awr yn adnabyddus. Mae proflon yn bod fod rhai ymlusgiaid bychain yn byw, hyd yn oed yn nhymmor ffurfiad y glo; ond anaml iawn oeddynt. Nid oedd eu hadeg neillduol hwy eto ond yn ei dechreuad. Yn y calchfaen Triassaidd, a elwir *muschelkalk*, y cyfarfyddir gyntaf â'r *Ammonites*—rhywogaeth o fafalogion; y rhai a geir yn amlach yn yr haenau diweddarach, megys y creigiau Oolitaidd, Marmaidd, a'r Trianol. Ceir hefyd ol glanau y môr, a'r tonau, a'r dyferion gwlaw, yn y tywodfeini cleiog. Gellir mesur maint y dyferion, a phenderfynu o ba bwynt y chwythai y gwynt y dydd y disgynent.

2. *Y Dosbarth Oolitaidd.* — Tardda y gair *oolite* o ωος=*wy*; a λιθος=*careg*, yn gymmaint a bod y creigiau hyn yn gyfansoddedig o fân ronynau a'r lun wyau, megys grawn pysgod. Y cyntaf o'r dosbarth hwn yw

*Lias.*—Math o galchfaen glâs, cleilyd, yw hwn, yn ymddangos fel yn ffurflo gwaelod y creigiau Oolitaidd, er ei fod yn gyffredin yn haen gwahanol ac annibynol. Ceir ef yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, yn amrywio o 500 i 1000 o droedfeddi o drwch, ac yn cynnwys gweddillion lluosog o bysgod ac ymlusgiaid dyfrol tra hynod; yn neillduol yr *ichthyosaurus* a'r *plesiosaurus*.

Yn ein hynys ni, ffurfla y *lias*, fel yr *oolite*, fath o wregys ar ei thraws o Lyme-Regis yn swydd Dorset, hyd lanau y môr, o'r tu gogledd-ol i Whitby, yn swydd Gaerefrog—fel hyn, yn ymestyn trwy Wlad yr Haf, gan droi o'r neilldu ychydig i siroedd Morganwg a Mynwy, ac oddi yno i siroedd Caerloyw, Caerwrangon, Caerwayr, Caerlur (*Leicestershire*), Gaerlwytcoed (*Lincolnshire*), Dim Obant (*Nottingamshire*), i swydd Gaerefrog. Mae gweddillion y pysgod yn dangos eu bod o ffurfiad gwahanol i bysgod y cyfnodau blaenorol. Oddi wrth bresennoldeb y clai a'r tywod fel wedi eu gwaddodi ar lanau y moroedd, gellir casglu fod cryn lawer o dir sych yn bod y pryd hyn. Mae y gweddillion pysgod ac ymlusgiaid yn fynych mor agos yn gyflawn fel y gellir ail osod i fyny, oddi wrth yr ysgrudiau (*skeletons*) a gloddir o'r creigiau, yr anifail cyflawn a phriodol, a dwyn i'r amlwg, yn y modd hyn, y creaduriaid rhyfedd hyny oeddynt yn oesi ar y ddaiar rai myrddiynau o flyneddoedd yn ol, megys eu gwelir yn ngerddi y Palas Gwydr yn Sydenham. Y rhyfeddaf o'r rhai hyn, fel yr awgrymwyd, yw yr *Ichthyosaurus* a'r *Plesiosaurus*.

*Yr Ichthyosaurus:* oddi wrth ιχθυς=pysgodyn; a σαυρος=madfall, neu geneu goeg. Y mae y ddau gysseiliad yn unedig â'u gilydd yn y creadur hwn. Yr oedd ganddo drwyn y môrfochyn (*porpoise*), dannedd yr afanc (*crocodile*), pen y madfall, rhodlau (*paddles*) y morfil, a glain cefn pysgodyn. Yr oedd ei ddannedd yn lluosog, a'i lygaid yn anferthol o faint. Adnabyddir cymmaint a deg o wahanol rywiau o'r creadur dyeithr hwn yn y *lias* yn unig.

*Y Plesiosaurus:* oddi wrth πλησιον=yn agos i; a σαυρος=madfall; hyny yw, mwy tebyg i'r madfall nag i bysgodyn. Yr oedd ganddo ben y madfall, dannedd yr afanc, gwddf hir anferthol, tebyg i gorff y sarff, cefn a chynffon fel anifail pedwartroediog cyffredin, asenau y *chameleon*, a rhodlau y morfil. Tybir ei fod yn gwahaniaethu yn ei ddull o fyw oddi wrth yr *ichthyosaurus;* tra yr oedd hwnw yn byw yn nyfnderoedd y moroedd, nofiai y *plesiosaurus* ar, neu yn agos i'r, arwyneb mewn dyfroedd traethog, gan estyn ei wddf hir yn ol ac yn mlaen, yn debyg i alarch; a chrafangai, yn awr ac yn y man, am y pysgod a nofient o fewn ei gyrhaedd. Cynnorthwya y

Digitized by Google

darlun canlynol tuag at ffurfio drychfeddwl cywir o hono.

Y nesaf o'r dosbarth Oolitaidd yw,

*Yr Oolite.*—Mae yr haen hwn yn dechreu yn ynys Portland, ar arfordir Dorset, ac yn ymestyn drwy siroedd Dorset, Gwlad yr Haf, Caerloyw, Rhydychain, Northampton, Caerlwytcoed, a Chaerefrog. Ar y Cyfandir, ceir ef yn Normandy, ac yn mynyddoedd yr Alpau; hefyd yn yr Almaen, a Poland, yn gystal a Phortugal a'r Yspaen. Dosberthir yr *oolite* i'r uchaf, y ganol, a'r isaf. Y mae y gweddillion ffosylog yn dra



Dar. 230.—Plesiosaurus.

lluosog yn y dosbarth hwn. Ceir gwelyau cwrelaidd yn siroedd Berks, Wilts, a Chaerefrog. Hefyd yn agos i Gaerbaddon, &c., ceir *ammonites* a *nautili*, yn nghyd âg amrywiaeth o bysgod cregyn. Y mwyaf nodedig o'r ymlusgiaid yw y *pterodactyle*—hanner o ymlusgiad a hanner o aderyn. O ran llun ei ben a'i wddf, y mae yn debyg i aderyn; o ran ei gorff a'i gynffon, tebygola i bedrybed (*quadruped*). Mae ei ddannedd yn perthyn i nodwedd madfallog, ac y mae ei adenydd yn debyg i eiddo yr ystlym. Mae cymmaint a 17 o wahanol rywiau o'r creadur hwn yn adnabyddus. Yr oedd yn byw, mae yn debygol, mewn dwfr llonydd, heb fod yn mhell o'r lan.



Dar. 231.—Pterodactyle.

Heb law hwn, dyna y *megalosaurus*, a ddarganfyddwyd gyntaf gan y diweddar Dr. Buckland. Creadur anferthol oedd hwn; math o ymlusgiad ysgigol (*carnivorous*), yn 70 troedfedd o hyd yn ol Cuvier. Mae trwch y dosbarth Oolitaidd yn 5,000 o droedfeddi o leiaf.

3. *Y Dosbarth Wealdenaidd.* — Gwaddodiad dwfr croyw yw y ffurfiad hwn, a'r unig un a geir felly, oddi eithr y glo. Gan hyny, mae y gweddillion cyfluniol yn gynnwysedig o lysiau, cregyn, pysgod, ac ymlusgiaid *afonol*. Ymddengys y creigiau hyn yn lluosog yn y rhan hyny o

Digitized by Google

Loegr a elwir *The North and South Downs*—sef yn y parthau hyny a elwir y *Weald;* hyny yw, coettir, oddi wrth *wald*=coed; yn gymmaint a bod y rhandir hwnw o'r wlad wedi ei orchuddio unwaith â choedwigoedd mawrion. Profodd y Dr. Mantell mai ceg afon fawr oedd y fro hon, lle y tywalltai ei dyfroedd i'r môr.

Dosrenir y ffurfiad hwn fel y canlyn:—

1af, Clai coettir; o 130 i 200 troedfedd o drwch; yn gymmysgedig â gwelyau calch a thywod, megys y ceir yn nghoettiroedd Sussex, Surrey, a Kent.

2il, Tywodfeini Hastings; o 400 i 500 troedfedd o drwch, megys yn Tunbridge Wells, &c.

3ydd, Gwelyau Ashburnham.

Ceir golwg eglur iawn ar y *Wealden* yn Ynys Wyth (*Isle of Wight*). Mae yn ymestyn o Horsham i Hastings, lle y treiddia dan y môr, ac y ffurfia wely y Môr Udd (*English Channel*), ac yna ymddengys drachefn yr ochr draw yn Boulonnais, yn Ffrainc; fel hyn, cynnwysa arwyneb o 200 milltir o'r gogledd i'r dwyrain, a 220 o'r gogledd-orllewin i'r deheu-ddwyrain; a'i drwch tua 2,000 o droedfeddi. Ceir haenau yn yr Almaen tebyg i dywod Hastings, a'r clai coettir, yn cynnwys haenau o lo da, o un i dair troedfedd o drwch; a'r un modd yn ynys Bornholm. Yr oedd cyfnewidiadau mawrion yn cymmeryd lle ar y ddaiar yn nhymmor ffurfiad y creigiau Wealdenaidd—y tir yn ymgodi mewn manau, ac yn ymsuddo mewn manau ereill, fel ag i newid gwelyau afonydd, a gollwng y môr i mewn, lle nad oedd ond llynoedd o'r blaen. Yn mysg ymlusgiaid y tymmor hwn y ceir y creadur anferth madfallaidd hwnw, yr *iguanodon*, a ddarganfyddwyd gan y Dr. Mantell. Yr oedd hwn yn llawer mwy na'r *megalosaurus*, ac yn frenin yn mhlith yr ymlusgiaid, fel ag yr oedd y *mammoth* yn mhlith yr anifeiliaid. Ymddengys oddi wrth ddullwedd ei ddannedd, mai creadur llysborthol (*herbiverous*) ydoedd, a chan hyny ei fod yn ddiniwed mewn cymhariaeth. Dengys y gweddillion ffosylog ei fod o gyffelyb ffurfiad a'r creadur a adnabyddir wrth yr enw *iguana* yn ein hamseroedd ni, ond ei fod yn llawer mwy o faint; canys tra nad yw yr *iguana* yn fwy na phum troedfedd o hyd yn gyffredin, yr oedd yr *iguanodon* o 60 i 70 troedfedd o'i drwyn i ben ei gynffon. Wele yma ddarlun o'r *iguana* adnabyddus i ni.



Dar. 232.—Yr Iguana.

Yn cydoesi â'r *iguanodon* yr oedd creadur mawr iawn arall, perthynol i'r dosbarth madfallaidd, o'r enw *hylæosaurus.* Mae natur y llysiau, yn nghyd â nifer a maintioli yr ymlusgiaid, yn dangos fod yr hinsawdd hyd yn hyn yn parhau yn boeth.

4. *Y Dosbarth Marmaidd* (*chalk*). Ffurfiad tanforol yw hwn, helaethach na ffurfiad dwfr croyw y *Wealden*, ac yn gorwedd arno. Mae y cyfnewidiad hwn yn debyg i'r hyn a gymmerai le, pe bai y môr, ar ol hir waddodiad o'r dwfr croyw yn nyfnderoedd llynoedd mawrion America Ogleddol, yn cael ei ollwng i mewn, trwy ostyngiad o arwyneb y ddaiar, fel ag i beri i waelodion y llynoedd sydd yn awr yn is na'r môr ddyfod yn waelod iddo. Achosai ychydig o ostyngiad o'r tir y fath orlifiad a hyn gan y môr dros ran helaeth o'r wlad; ac fe ddechreuai y gwaddodion morol yn union ddisgyn i'r gwaelodion, fel ag i ffurfio creigiau, yn mha rai y byddai gweddillion morol yn ymgladdu. Golygwn ete, ar ol crynoad o'r fath waddodion o drwch yr haenau marmaidd, i'r cwbl gael ei godi i fyny drachefn yn raddol, trwy rym y nerthoedd tanddaiarol. Deuai y gwaddodion dwfr croyw yma a thraw i'r golwg drachefn trwy rwygiad o'r creigiau, a symmudiad ymaith o ran o'r môr-waddodion, a byddai y parthau cymmydogol fel mur o derfyn oddi amgylch; a dyma yw yr hyn a ganfyddir yn nghreigiau y *Wealden* a'r marm. Yn y rhanau isaf y mae y dosbarth marmaidd yn dywodlyd, a gelwir y maen hwn wrth yr enw y dywoden wyrddlas (*green-sand*) yn Lloegr. Dosberthir y rhan uchaf o'r ffurfiad marmaidd i, 1af, y marm isaf, heb gellt (*flint*); ac yn 2il, y marm isaf gyda chellt: y cwbl yn gorwedd ar glai marmaidd. Yn Saxony a Bohemia, ymddengys yr holl ffurfiad yn welyau o gellt; ac y maent yn amrywio yn eu hymddangosiadau mewn gwahanol wledydd. Ychydig ffeithiau sydd yn fwy hynodol, ac wedi achosi mwy o wahanol olygiadau, na'r llinellau hirion o gellt a geir yn y marm: y gwahaniaeth rhwng lliw llwyd-ddu y meini cellt, a gwyn pur y marm, yn tynu sylw neillduol at eu ffurfiad. Nid ydyw oddfynau (*nodules*) celltaidd ddim wedi eu cyfyngu i'r marm yn unig; ond cyfarfyddir â hwy yn nghalchfaen y mynydd, ac yn yr *oolite*. Ond beth a achosodd y cellt-feini? Wrth edrych arnynt trwy y chwydd-wydr, ceir eu bod yn cynnwys gweddillion lluosog o'r milionos (*infusoria*), a chan hyny casglwyd eu bod wedi eu ffurfio bron yn gwbl o'r fath greaduriaid. Ond canfyddwyd fod y cellt o'r un fath gyfansoddiad a'r ysbwng; ac y mae yn dra thebyg, yn ol y dyb bresennol, fod *silica* wedi ei waddodi mewn agwedd ceuledig, ac amwisgo am yr ysbwng a'r sylweddau ereill a gynnwysa'r cellt.

Y mae y dosbarth marmaidd yn dra chyfoethog mewn ffosylau, yn gymmaint a bod holl gruglwyth y marm gwyn yn heidio o'r milionos gwlybyrog, a chreaduriaid bychain ereill. Mae y pysgod yn dangos arwyddion eu bod yn tebygoli yn fwy i luniad a natur pysgod y tymmor presennol, ac felly hefyd y llysiau.

Yn y Cyfnod Trianol (*Tertiary*), ni a ystyriwn wahanol ddosbarthiadau y cyfnod hwn gyda'u gilydd; sef yr *eocenaidd*, y *miocenaidd*, y *pliocenaidd*, a'r *pleistocenaidd* neu y *post-pliocenaidd*, nes cyrhaedd y gwaddodiad olaf oll, sef y llif-waddodol (*diluvial*) a'r dwfr-briddol (*alluvial.*)

Digitized by Google

Gyda dechreuad y cyfnod hwn, gellir dywedyd i'r drefn bresennol ar y greadigaeth ddechreu; ac o herwydd hyn, trwy gymharu nifer y cregyn yn y gwahanol haenau, tebyg i gregyn y tymmor presennol, fe alwodd Syr C. Lyell y ffurfiad isaf wrth yr enw *eocene*, oddi wrth *ηως=y wawr*, a *καινος=newydd;* i arwyddo gwawriad cyfnod newydd. Galwai y nesaf yn *miocene*, oddi wrth *μειων=llai*, a *καινος=newydd;* i arwyddo fod yr haenau hyn yn cynnwys lleiaflaeth o gregyn y tymmor presennol: a'r nesaf eto yn *pliocene*, oddi wrth *πλειων=mwy*, a *καινος=newydd;* i arwyddo fod y gwelyau hyn yn cynnwys mwyaflaeth o'r cregyn diweddaraf. Dosberthir hwy hefyd i'r haenau trianol—isaf, canol, ac uchaf. Er fod y gwelyau hyn yn ddiweddar mewn cymhariaeth, eto ffurfiant haenau o waddodion mor drwchus a haenau cyfnodau blaenorol; megys yn nghleidir Llundain, sydd yn perthyn i'r tymmor eocenaidd, a'r hwn sydd 500 troedfedd o drwch. Mae yn hynod fod Llundain a Paris, prif ddinasoedd y ddwy deyrnas gryfaf yn y byd, yn gorwedd ar welyau o'r un natur, sef y cleidir eocenaidd. Nid yw yr haenau trianol yn cyrhaedd i uchder mawr yn Mhrydain; ond ar gyfandiroedd Ewrop ac America, y maent yn wahanol; megys yn nghymmydogaeth yr Alpau, yn Switzerland, lle y ceir hwy mewn mynyddoedd o uchder 6,000 o droedfeddi, a thrwch yr haenau gymmaint a 2,000 o droedfeddi. Ceir y creigiau hyn mewn gwahanol wledydd:—yn Lloegr, yr Alban, yr Iwerddon, Ffrainc, yr Almaen, Switzerland, Italy, Sicily, ac arfordir Affrica, yn nghyd â glanau Môr y Canoldir; hefyd yn Rwssia, yn Asia, ac yn ngogleddbarth a chanolbarth America. Gan hyny, gellir olrhain y dynesiad graddol at gyflwr presennol arwyneb y ddaiar, yn ei chreigiau a'i gweddillion pysgodol, llysieuol, a milodol (*zoological*) bron yn mhob parth o'r byd.

Oddi ar ymchwiliad manwl a helaeth i wahanol haenau y cyfnod hwn, gwnaethpwyd y casgliadau canlynol:—

1. Eu bod wedi eu gwaddodi mewn pantiau, yn gyffredin o farm, weithiau o ryw graig hynach.
2. Bod cyfnewidiadau pwysig wedi cymmeryd lle yn nghodiad a disgyniad y môr a'r tir yn y tymmor hwn.
3. Bod rhan o Ewrop wedi ei orchuddio â llynoedd mawrion, megys llynoedd morol America yn y dyddiau presennol.
4. Bod gweithrediadau llosgfalaidd yn myned yn mlaen yn bur nerthol a bywiog yn ystod y tymmor hwn.
5. Bod addoeriad graddol wedi cymmeryd lle yn y tymmor hwn; ac, fel canlyniad newidiad yr hinsawdd, fod y lluniau llysieuog ac anifeilaidd yn agosau fwyfwy at luniau y tymmor presennol.

Y mae yn dra thebygol fod gwyneb y ddaiar y pryd hwn, yn ein lledred ni, wedi ei fritho âg ynysoedd, y rhai a gylchid gan gilfachau a ffrydleoedd—rhai o honynt yn dra eang eu maintioli, ac afonydd cryfion ynddynt, yn gwaddodi amrywiol welyau o dywod a llaid. Yr oedd y moroedd cymmydogol yn heidio gan forfleiddiaid mawrion, môr-gathod anferthol, cleddbysg (*sword fishes*), llif-bysg (*saw fishes*), a llawer ereill, na cheir mo honynt ond tua therfynau dwyreiniol yr Hen Fyd, ac yn morgainc Mexico. Yn nghyd â'r rhai hyn, yr oedd llawer o bysgod ag oeddynt yn byw mewn cregyn, y rhai a gyfyngir yn awr i'r un parthau; hefyd llawer o bysgod tebyg i'r rhai sydd yn awr yn byw ar ein glanau. Yr oedd arfordir y môr hwn wedi ei wisgo â choed mawrion a llysiau lluosog, hyd yn oed at fin y dwfr; sef palmwydd, coed cocoa, a gwŷdd tebyg i'r hyn a geir tua'r cyhydedd, yn y parthau dwyreiniol o'r ddaiar. Yr oedd yr afonydd, ac fe allai y môr, yn gyfagos i'r glanau, yn llawn o afancod, tra yr oedd crwbanau (*tortoises*), a môrgrwbanau (*turtles*) o wahanol rywogaethau, yn byw ar y lan neu yn y dwfr. O fewn yr ynys, yr oedd lluoedd o epaod, rhai o honynt o gryn faintioli, yn llamu o gangen i gangen yn y coedwigoedd. Yr oedd yno hefyd fleiddiaid a llwynogod, yn nghyd â'r wiwer a chreaduriaid ereill o'r un natur. Yr oedd yr adar a'r nadroedd yn lluosog—y rhai olaf yn anferth eu maint. Yr oedd yno hefyd greaduriaid ereill pur ddyeithr, a gwahanol i ddim sydd yn awr yn adnabyddus, megys y *palæotherium*, *anoplotherium*, a'r *dinotherium*. Creadur anferth, llysborthol, oedd yr olaf, â dau ysgythrddant (*tusks*) ganddo, i dynu i fyny wreiddiau a choed ar y tir, neu yn ngwaelodion y dyfroedd. Yr oedd y creadur hwn yn uno y morfil a'r elephant yn ffurfiad ei gorff, a'r mwyaf ydoedd o'r mammaethion (*mammals*) pedwartroediog.



Dar. 233.—Y Dinotherium.

Ceir hefyd y *mastodon* yn y tymmor hwn:—creadur tebyg i'r elephant, ond yn gwahaniaethu oddi wrtho i'r fath raddau fel ag i berthyn i rywogaeth arall. Yr oedd o ran maint yn 12 troedfedd o uchder, ac yn 25 troedfedd o hyd; ac un o'i gilddannedd yn pwyso o 17 i 20 pwys.

Yn mhlith y rhai uchod, yr oedd hefyd yr ych, y ceffyl, yr elephant y *rhinoceros*, yr *hippopotamus*, yr *hyæna*, a'r ystlym. Yr oedd yr *anoplotherium* yn cyfranogi o gyseiliad y *rhinoceros*, y ceffyl, yr *hippopotamus*, y mochyn, a'r camel, o ran ei gorff. Ar bob llaw, ymddangosai y Creawdwr fel pe bai wedi cyfartalu o'r bron y nifer, y galluoedd, a theithi y gwahanol greaduriaid, fel ag i addasu y byd at ddyfodiad dyn, yr uchaf a'r rhagoraf o honynt oll—bod wedi ei gynnys-

Digitized by Google

gaethu a rheswm, a galluoedd i olrhain a beirniadu ar ei gyfansoddiad ei hun, a deall y berthynas sydd rhyngddo a phob creadur arall, yn gystal a'i Greawdwr anfeidrol. Cyfnod y mammaethion pedwar troediog yw y *Trianol;* a hwy, yn ol tystiolaeth y creigiau, oedd yr olaf a'r nesaf o flaen dyn. Mae llawer o'u rhywogaethau wedi diflanu, ac y mae y lleill yn gydoeswyr â'r hil ddynol. Nid oes un ffaith yn holl ddadguddiadau daiareg yn fwy dianwadadwy na hyn; sef fod pob math o greadur perthynol i'r ddaiar islaw dyn wedi cael ei ddwyn i fod cyn bod dyn



Dar. 234.—Mastodon.

wedi ei greu. Yn y cyfnod *diweddaraf* y cyfarfyddir â gweddillion dyn; ac yr oedd yr holl luaws o lysiau, ac ymlusgiaid, a bwystfilod, ac anifeiliaid, wedi byw a bod, a threulio eu tymmor ar y ddaiar am oesoedd dirifedi cyn ffurfio yr haenau yn mha rai y ceir gweddillion dyn. Yr athrawiaeth ag y mae daiareg yn ei dysgu yw, mai y *cyfnod llysieuol*, mewn modd arbenig, oedd y *cyfnod cyntefig* o'r *creigiau haenol ffosylog;* mai *cyfnod yr ymlusgiaid*, mewn modd arbenig, oedd y *cyfnod eilraddol*; mai *cyfnod y mammaethion* oedd y *cyfnod trianol;* ac mai dyn oedd y creadur olaf a greodd Duw, fel y perffeithiaf a'r uchaf o'i holl weithredoedd, ac er mwyn yr hwn y cymmerodd y fath ofal, manylwch, trafferth, ac amser, i ddarparu arwyneb yr hen ddaiaren. Felly y dywed y Beibl: a hyn yw tystiolaeth daiareg hefyd. Mae yr anffyddiwr wedi bod yn ceisio gwrthbrofi y gosodiad pwysig hwn, dro ar ol tro, trwy haeru fod gweddillion dyn wedi eu cael mewn haenau îs a hynach na'r rhai hyny a ffurfiwyd o fewn tymmor amseriad dyn ar y ddaiar. Ond profwyd naill ai mai gweddillion rhyw greadur arall oedd y rhai hyny a dybid eu bod yn perthyn i ddyn; neu fe ddangoswyd mai gorwedd yr oeddynt mewn crynoad o laid a thywod, perthynol i'r tymmor diweddaraf. Fel hyn, profwyd gan Cuvier mai gweddillion *salamander* oedd y rhai a ddarluniesid gan Scheuchtzer fel ysgrud dyn. Wele ddarlun o hono.



Dar. 235.—Ysgrud Scheuchtzer.

Gwnaed llawer o'r ysgrud dynol, sydd i'w weled yn y *British Museum*, a'r hwn a gafwyd mewn calchfaen yn Guadaloupe, un o ynysoedd yr India Orllewinol; a cheisiwyd profi oddi wrtho fod dyn yn troedio y ddaiar cyn tymmor ffurfiad y glo. Ond erbyn chwilio yn fanylach, cafwyd mai mewn gwaddodiad pur ddiweddar y gorweddai y gweddillion, sef y gwaddodiad marmaidd ag sydd yn awr yn myned yn mlaen; a bernir nad yw yr ysgrud yn fwy na 200 mlwydd oed. Mae pob darganfyddiad yn profi, trwy ymchwiliad manwl, ymddangosiad diweddar dyn.

Wele ni yn awr wedi cyrhaedd y ffurfiad diweddaraf. Gellir casglu oddi wrth yr hyn sydd

Digitized by Google

2. Y mae y creigiau sydd yn gorwedd yn haenau ar eu gilydd ac yn ffurfio crawen y ddaiar, yn ol barn daiaregwyr, yn ddim llai nag o wyth i ddeng milltir o drwch.[1] Pa faint o amser fyddai raid gael i'r fath drwch gael ei ffurfio, yn ol y cyfartaledd o ychydig fodfeddi mewn can mlynedd?

3. Y mae yr holl drwch hwn yn gyfansoddedig, fel y gwelwyd, o ugeiniau o wahanol haenau,[1] a phob un yn cynnwys gweddillion llysieuol ac anifeilaidd, yn gorwedd mor reolaidd y naill uwch ben y llall, a phe buasent wedi eu trefnu mewn ystafell naturiaethwr. Y mae y cyfryw gyfnewidiadau ag a ddysgrifiwyd, nid yn unig yn nghyfansoddiad mwnawl y gwahanol greigiau, ond hefyd yn y llysiau a'r anifeiliaid sydd wedi eu cloi ynddynt, yn dangos fod y dyfroedd wedi myned trwy gyfnewidiadau mawrion cyn y gallasai y fath wahaniaeth fod yn y creigiau a ffurfiwyd yn eu gwaelodion. Y mae yn rhaid fod y cyfnewidiadau hyn wedi gofyn amser maith i'w dwyn oddi amgylch; o herwydd, yn ol pob tebygolrwydd, yr oeddynt yn araf iawn.

4. Sylw arall sydd yn cadarnhau hyn ydyw, fod creigiau yn fynych yn cynnwys mân geryg llyfn, a olchwyd ymaith oddi wrth greigiau hynach. Mae yn rhaid, gan hyny, nid yn unig fod y creigiau hynach hyn wedi eu gwaddodi yn raddol yn ngwaelod y môr, ac wedi ymgaledu yn graig, ond hefyd wedi cael eu gwisgo drachefn gan y dwfr cyn ffurfiad y creigiau sydd yn awr yn cynnwys y mân geryg crynion sydd ynddynt.

5. Cadarnheir yr un casgliad trwy y gwahanol ymgodiadau y mae y creigiau wedi myned trwyddynt.[2] Y mae y creigiau tanol i'w cael yn fynych wedi ymwthio i fyny i'r creigiau haenol. Ond y mae y dull y gorwedda y creigiau ar eu gilydd yn dangos fod yr haenau hynaf wedi cael eu taflu i fyny gan ymgodiad yr hylif tanllyd oddi tanynt, cyn i'r haenau diweddaraf gael eu ffurfio, o herwydd nid yw osgo y gwahanol haenau yn gyffelyb i'w gilydd. Y mae yr isaf yn ymgodi yn fwy unionsyth, y nesaf yn llai felly, a'r trydydd yn llai drachefn, nes y bydd yr olaf yn fynych yn wastad. Y casgliad oddi wrth hyn ydyw, fod ysbaid o orphwysdra wedi bod ar ol yr ymgodiad cyntaf, a hwnw yn ysbaid digon maith i ganiatau ffurfiad haen arall yn ngwaelod y môr cyn yr ail ymgodiad; yna, ail ysbaid o orphwysdra, a ffurfiad o graig newydd, yn cael ei ddilyn gan ymgodiad drachefn; ac felly yn mlaen, o'r graig haenol isaf i fyny at yr uchaf.

6. Y mae amryw o gyfnewidiadau hollol, bron, wedi bod yn y llysiau a'r anifeiliaid a breswyliant y ddaiar. Mor wahanol oeddynt, fel nad allasent gydoesi, mwy nag y gall creaduriaid wedi eu cyfaddasu i'r pegynau fyw o fewn y trofanau. Ond yr oedd pob dosbarth o greaduriaid wedi eu cyfaddasu i'r ddaiar ar y pryd, a pharhaodd y dosbarth hwnw hyd nes y daeth y ddaiar yn anghymhwys iddo trwy oeriad graddol; yna diflanodd, a chododd creadigaeth newydd o lysiau ac anifeiliaid. Ond bu y dosbarth blaenorol byw ddigon o hyd i greigiau miloedd o droedfeddi o drwch gael eu gwaddodi, y rhai sydd yn awr yn cynnwys eu gweddillion. Pa faint o amser fyddai raid ei gael i hyn oll gymmeryd lle!

Nid oes dim yn hyn yn anghysson â'r Ysgrythyr; yn hytrach, y mae yn gysson â'r geiriau canlynol o ran ysbryd a thuedd:—"Cyn sylfaenu y mynyddoedd o flaen y bryniau y'm cenedlwyd; cyn gwneuthur o hono ef y ddaiar, na'r meusydd, nac uchder llwch y byd." Onid ydyw hynafiaeth aruthrol y greadigaeth, fel yr argreffir ef ar y bryniau oesol, yn rhoi grym tarawiadol yn y dysgrifiad o dragwyddoldeb doethineb.

II. Er mor hen y profir fod y ddaiar, eto y mae bod *dechreuad* wedi bod iddi yn un o osodiadau amlycaf daiareg. Y mae y wyddoriaeth wedi cadarnhau tu hwnt i ammheuaeth, byth mwy, dystiolaeth yr Ysgrythyr—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar." Ië, mae daiareg wedi profi fod dechreuad newydd wedi bod, nid unwaith, ond amryw weithiau—o leiaf, *bum gwaith*. Yma, ni a allwn gyfeirio at gwestiwn o ddyddordeb a phwysigrwydd mawr mewn cyssylltiad â'r hyn sydd dan sylw; sef, yn mha fodd y mae rhywogaeth o greaduriaid nad oeddynt mewn bod yn dyfod i fod? Y mae daiareg yn ein dysgu fod hyn wedi cymmeryd lle lawer gwaith. Y mae y creaduriaid a breswylient y ddaiar ar wahanol gyfnodau o rywogaethau gwahanol. A'r ymofyniad ydyw, pa fodd y mae y rhai hyn yn dilyn eu gilydd? Pa un ai trwy weithrediad achosion naturiol yn unig, ai ynte trwy greadigaeth newydd? Y mae rhai wedi dal fod yn bosibl i'r naill rywogaeth newid i rywogaeth arall, trwy weithrediad achosion naturiol; ac wedi dwyn yn mlaen dros eu barn y gwahaniaeth y mae hinsawdd a magwriaeth a dylanwadau ereill yn ei wneuthur yn yr un rhywogaeth o lysiau ac anifeiliaid. Mor wahanol, er anghraifft, y mae y naill gi i'r llall! Addefir fod gwahaniaeth mawr yn yr un rhywogaeth, a hyny yn cael ei achosi trwy achosion naturiol; a'r ymofyniad ydyw, A ddichon y gwahaniaeth fod mor fawr nes i'r rhywogaeth newid o gwbl i rywogaeth arall? A ddichon i'r blaidd gael ei newid yn gi? A ddichon i amgylchiadau allanol newid yr epa yn ddyn? I'r cwestiwn hwn, ateb y naturiaethwyr uchaf eu henwau, a lluosocaf eu nifer, ydyw, er fod cyfaddasrwydd yn hanfodi mewn llysiau ac anifeiliaid i newid i raddau mwy neu lai, yn ol yr amgylchiadau allanol y byddont ynddynt, a bod y gwahaniaethau hyn yn drosglwyddadwy i'w hiliogiaeth; eto y mae y gwahaniaeth rhwng y naill rywogaeth a'r llall yn sefydlog ac anghyfnewidiol. Nid yw achosion naturiol byth yn gallu newid y naill i'r llall. O ganlyniad, y mae y rhywogaethau gwahanol o lysiau ac anifeiliaid a geir yn guddiedig yn y gwahanol greigiau sydd yn dilyn eu gilydd yn profi creadigaeth newydd a dilynol, fel y mae y gwahanol rywogaethau sydd ar y ddaiar yn awr yn brawf o allu creadigol yn nygiad pob un o honynt i fod. Ceir hanes y ddadl, a seiliau y penderfyniad, gan Lyell, Dr. Pritchard, &c. Gwel Rhywogaeth.

Y mae rhyw ychydig ysgrifenwyr, megys awdwr y llyfr a elwir *Vestiges of Creation*, wedi haeru fod tuedd mewn cyfansoddiad anifail i fyned rhagddo o'r ffurf symlaf hyd at y mwyaf cywrain, trwy weithrediad deddfau naturiol yn unig. Felly, fod cymhwysder a gallu yn y rhywogaeth isaf o greaduriaid i fyned rhagddi o'r naill rywogaeth i'r llall nes cyrhaedd yr uchaf: ac mai y creaduraid o'r cyfansoddiad symlaf a grewyd yn gyntaf, ac iddynt hwy ymddadblygu trwy rinwedd eu gallu naturiol nes cyrhaedd perffeithrwydd dyn. Y mae Hugh Miller, yn ei *Footprints of the Creation*, wedi dangos fod y dybiaeth uchod oll yn ddychymygol yn ei ffeithiau ac yn ei chasgliadau.

III. Dengys daiareg bod creadigaeth dyn, fel y tystia yr Ysgrythyr, wedi cymmeryd lle yn ddiweddar, sef o ddeutu chwe mil o flynyddoedd

[1] Gwel dar. 1, ar y map diweddaf.
[2] Gwel dar. 2.

yn ol. Y mae hyn yn gasgliad o bwys mawr yn mhob ystyriaeth. Fel y canlyn y dywed Syr C. Lyell:—"Afreidiol ydyw i mi aros ar y profion o greadigaeth ddiweddar dyn, o herwydd nid oes un daiaregwr deallus yn ei ammheu; yn wir, yr anhawsder ydyw olrhain yr arwyddion o hanfodiad dyn ar y ddaiar mor bell yn ol a'r creaduriaid sydd yn cydhanfodi âg ef yn awr. Nid oes un creadur sydd yn byw ar y tir yn peryglu ei hun gymmaint ar y dwfr ag ydyw dyn, a hyny yn wareiddiedig ac yn anwareiddiedig; ac nid oes un creadur, gan hyny, mor ddarostyngedig i gael ei orchuddio mewn haenau o dywod o ffurfiad diweddar mewn moroedd a llynoedd; ac fel y dywed Cuvier, nid yw gweddillion dyn yn fwy treuliadwy nag eiddo anifeiliaid ereill. Ar feusydd lle y bu brwydrau, oesoedd a chanrifoedd yn ol, y mae esgyrn dynion wedi cadw llawn cystal ag esgyrn ceffylau yn yr un beddau. Ac hyd yn oed pe buasai rhanau mwyaf sylweddol y corff dynol wedi diflanu, gadawsai argraff o'i ffurf ar y graig, fel y gwna dail tyneraf planigion, a chroen meddalaf llawer o anifeiliaid. Buasai gweddillion celfyddyd, wedi eu gwneuthur o'r defnyddiau mwyaf annhreuliadwy, yn goroesi bron bob llysiau ac anifeiliaid a allasent gael eu claddu yn y graig. O fewn cof hanesiaeth, y mae adeiladau, ie dinasoedd cyfain, wedi cael eu claddu gan hylif llosgfalaidd, a chan ddaiargrynfäau, a'u llyncu i'r môr; a phe buasai y fath ddygwyddiadau wedi cymmeryd lle am oesoedd dirifedi cyn hanes y Beibl am greadigaeth dyn, buasai olion mwy parhaus o ddyn wedi eu hysgrifenu yn y creigiau nag sydd o'r llysiau a orchuddient unwaith ynysoedd môr y gogledd, a'r ymlusgiaid anferth hyny a chwareuent yn ddiweddarach yn afonydd a moroedd y gogledd."

IV. Byddai yn orchwyl hyfryd ac adeiladol i fyned dros yr holl ddefnyddiau eto, mewn trefn ddangos y goleu y maent yn ei daflu ar *Fod a phriodoliaethau Duw.* Y mae Dr. Buckland wedi gwneyd hyn yn ei *Bridgewater Treatise.* Prif amcan holl ysgrifeniadau Hugh Miller ydyw dangos y goleu y mae ymchwiliadau daiaregawl yn ei daflu ar y cwestiynau uchaf eu dyddordeb a'u pwysigrwydd. Nid yn unig y mae daiareg yn ein tywys i lawr i berfeddion y ddaiar, ac yn ol i oesoedd dirifedi, ond hefyd i fyny, ac yn cysylltu ei darganfyddiadau âg ymchwiliadau yr uchanianydd a'r duwinydd. Sylwer ar yr anghreifftiau canlynol:—

1. Cwestiwn cyntaf ac olaf uchanianiaeth ydyw —Pa mor bell y mae meddwl dyn, yn ei ddeddfau a'i ddrychfeddyliau, yn cyfateb i feddwl Duw? A ydyw dyn yn canfod perthynasau pethau fel y mae Duw yn eu canfod? Nid mor berffaith, ond yn ol *cynllun* gwybodaeth Duw. A ydyw deddfau rhif a mesur, cyfaddasrwydd a phrydferthwch, hapusrwydd a moesoldeb, yr un i ddyn ag ydynt i Dduw? Y mae lle i'r cwestiwn yma, er cofio fod dyn wedi syrthio. Pa fodd y dichon i ddaiareg roddi goleu ar gwestiwn o'r fath? Fel y canlyn: mae yn meddwl dyn egwyddor sydd yn ei arwain i ddosbarthu y gwrthddrychau sydd yn ei amgylchu yn ol ychydig o nodweddau mawr gwahaniaethol sydd yn perthyn iddynt. Y mae y deyrnas lysieuol wedi ei dosbarthu felly gan amryw o lysieuwyr enwog; ac yn ddiweddaf oll, y mae Lindley wedi rhoddi ei gyfundrefn ef i'r byd, yn yr hon y mae llafur ymchwilwyr blaenorol wedi ei gorffori a'i berffeithio. Yn gyffelyb y mae y naturiaethwyr enwog Cuvier, Agassiz, ac Owen, wedi dosbarthu y byd anifeilaidd yn ol ei nodweddau gwahaniaethol. Y mae athronwyr wedi bod am oesoedd yn llafurio i ddwyn eu gwybodaeth i'r sefyllfa y mae ynddi yn awr. Ond yr hyn y dymunem alw sylw ato yma yw, bod y dosbarthiad sydd wedi ei wneyd trwy gymmaint o ddiwydrwydd ac athrylith yn y deyrnas lysieuol ac anifeilaidd, yn cyfateb yn gwbl yn ei nodweddau mawr i'r dosbarthiad a wnaethpwyd oesoedd dirifedi cyn i ddyn ymddangos yn y byd gan y Creawdwr, ac sydd yn awr yn ysgrifenedig yn y graig. Nid oedd gan y naturiaethwyr uchod un golwg ar gynnwysiad y creigiau wrth ffurfio eu dosbarthiadau a'u cyfundrefnau; eto y maent yn cyfateb i'r gyfundrefn ddwyfol. Dyma yr un trefniadau ag yr arweinir dyn iddynt trwy ei ymchwil ei hun i'w cael wedi eu hysgrifenu yn uniongyrchol gan fys Duw mewn natur, y tu allan i ddyn.[1]

2. Edrychwn yn nesaf ar ddaiareg yn ei chysylltiad âg ymresymiad Hume, yr anffyddiwr, yn erbyn *gwyrthiau.* Ei wrthddadl ef yw, fod gwyrth yn droseddiad o ddeddfau natur; a chan fod profiad yn tystio i anghyfnewidioldeb y deddfau hyn, nis gall fod gwyrth neu droseddiad o'r deddfau

[1] Commencing at the bottom of the scale, we find the Thallogens, or flowerless plants, which lack proper stems and leaves—a class which includes all the algæ. Next succeed the Acrogens, or flowerless plants, that possess both stems and leaves, such as the ferns and their allies. Next, omitting an inconspicuous class, represented by but a few parasitical plants, incapable of preservation as fossils, come the Endogens—monocotyledonous flowering plants, that include the palms, the liliaceæ, and several other families, all characterized by the parallel venation of their leaves. Next, omitting another inconspicuous tribe, there follows a very important class—the Gymnogens—polycotyledonous trees, represented by the coniferæ and cycadaceæ. And last of all come the dicotyledonous Exogens—a class to which all our fruit, and what are known as our "forest trees" belong, with a vastly preponderating majority of the herbs and flowers that impart fertility and beauty to our gardens and meadows. This last class, though but one, now occupies much greater space in the vegetable kingdom than all the others united.

Such is the arrangement of Lindley, or rather an arrangement, the slow growth of ages, to which this distinguished botanist has given the last finishing touches. And let us now mark how closely it resembles the geologic arrangement, as developed in the successive stages of the earth's history.

| | |
|---|---|
| Silurian . . . | Thallogens. Acrogens. |
| Old Red . . . | Gymnogens. |
| Carboniferous | Monocotyledons. |
| Permian . . . | |
| Triassic . . . | |
| Oolitic . . . . | Dicotyledons. |
| Cretaceous . . | Dicotyledonous trees. |
| Tertiary . . . | |

Geologic [Thal. Ac. Gy. Mon. Dic.] arrangement.
Lindley's [Thal. Ac. Mon. Gy. Dic.] arrangement.

The parallelism which exists between the course of creation as exhibited in the animal kingdom, and the classification of the greatest zoologist of modern times, is perhaps still more remarkable. Cuvier divides all animals into vertebrate and invertebrate; the invertebrate consisting, according to his arrangement, of three great divisions—mollusca, articulata, and radiata; and the vertebrates, of four great classes—the mammals, the birds, the reptiles, and the fishes. From the lowest zone at which organic remains occur, up till the highest beds of the Lower Silurian System, all the animal remains yet found belong to the invertebrate divisions. The numerous tables of stone which compose the leaves of this first and earliest of the geologic volumes, correspond in their contents with that concluding volume of Cuvier's great work, in which he deals with the mollusca, articulata radiata; with however

Digitized by Google

hyn erioed wedi cymmeryd lle. Trwy ymresymiad o'r natur yma y ceisiai yr ysgrifenydd hwn wrthbrofi gwyrthiau. Ond y mae daiareg yn dyfod yn mlaen, ac yn dangos trwy ffeithiau anwadadwy, fod gwyrth ar ol gwyrth wedi eu cyflawnu. Y mae pob creadigaeth yn wyrth; o herwydd nid ydyw yn codi trwy weithrediad deddfau allan o'r hyn a hanfodai yn flaenorol. Ni chlywir byth mwy am wrthddadl Hume yn erbyn gwyrthiau.

3. Fel y canlyn y mae Miller yn dangos perthynas yr hyn a ddywedwyd am gydgordiad cyfundrefnau dynol â'r gyfundrefn ddwyfol ar *bersonoliaeth Duw*, yn erbyn Pantheistiaid. Nid allasai ond personau megys Lindley, Cuvier, &c., ffurfio cyfundrefn o lysiau a chyfundrefn o anifeiliaid; onid ydyw yn amlwg ynte mai Person Anfeidrol a ffurfiodd y cyfundrefnau cyfatebol sydd mewn natur.

4. Un o sylwadau Buckland ydyw, fod daiareg wedi taflu goleu chwanegol ar y prawf naturiol o *undiaeth Duw*. Yr ydym yn casglu hyn oddi wrth natur, trwy ganfod yr *un deddfau* yn mhob cwr o'r greadigaeth—yr un deddfau yn llywodraethu y goleuni ac attyniad yn y ser pellaf ag sydd ar y ddaiar; y mae yn rhaid, gan hyny, ein bod yn ymherodraeth yr un Llywydd mawr. Fel y mae seryddiaeth yn ein gwneuthur yn gydnabyddus â thiriogaethau newyddion yn yr eangder, ac yn dangos fod y cyfan dan lywodraeth yr un Bod mawr, felly mae daiareg yn ein harwain yn ol yn annherfynol mewn amser, ac yn dangos i ni greadigaeth yn dilyn creadigaeth, a'r naill yn gwahaniaethu oddi wrth y llall, ond y cyfan dan lywodraeth yr un deddfau.

5. Y mae y wybodaeth a gynnwysir yn yr erthygl hon yn dangos i ni mor gyflawn o ddefnyddiau ydyw pob dosbarth o greigiau i amlygu *doethineb Duw*, trwy gyfaddasu pethau i'w gilydd, megys llysiau ac anifeiliaid i'w gilydd, ac hefyd i'r manau y preswylient.

6. Gwelir hefyd fel y mae yr holl chwyldroadau ag sydd wedi cymmeryd lle ar y ddaiar wedi ei pharotoi yn drigle i ddyn. Y mae hyn yn fwy tarawiadol pan gofir mai y ddwy elfen, trwy weithrediad pa rai y dygwyd y cwbl oddi amgylch, yw y DWFR a'r TAN. Er fod y ddwy elfen hyn mor wrthwynebol i'w gilydd, eto mor brydferth yr oeddynt yn cydweithredu i'r un amcan. Y mae maintioli y moroedd, cylchrediad y dyfroedd trwy y ddaiar, trwy y cymylau, ar hyd y dyffrynoedd a'r glynoedd, eu hesgyniad trwy bibellau anweledig i'r awyr, eu ffurfiad yn gymylau, eu disgyniad yn wlith a gwlaw i ddyfrhau y ddaiar, ac i gyflawnu yr aneirif ddybenion sydd iddynt, a hyny nid fel cylchrediad y gwaed yn y corff, am ychydig o flyneddoedd, ond am oesoedd ar ol oesoedd, nes y mae dychymyg dyn yn blino yn eu holrhain. Mor rhyfedd ac ofnadwy y mae y cyfan! Ond y mae tonau y môr yn golchi ymaith y tir, a phe na byddai ond yr elfen ddwfr yn gweithio, darfyddai ynysoedd a chyfandiroedd. Ond i wrthweithio hyn, rhaid cael elfen arall i gynnyrchu tir; a'r elfen adgynnyrchiol hon ydyw tân. Y mae y môr i fesur yn gwneyd hyn trwy beri fod ei waelod yn cael ei orchuddio â haenau newyddion. Ond er y parai hyn i ddyfnder y môr leihau, eto, heb y gallu i gyfodi yr haenau hyn, ni chesglid y dyfroedd dan y nefoedd i'r un lle, fel yr ymddangosai y sychdir. Y gallu hwn ydyw gwres. A oedd un o'r elfenau hyn yn ddamweiniol? Ac yn enwedig, a ydyw y cydweithrediad felly?

Gellid gwneyd sylwadau cyffelyb ar rai o'r prif sylweddau ag sydd yn y ddaiar, a'u gwasanaethgarwch i ddyn; yn enwedig glo, calch, a meteloedd.

Y mae natur llysieuol *glo* yn cael ei addef yn gyffredinol; ond gallasai y llysiau hyn, ar ol byw eu dydd, ddadgyfansoddi i'w helfenau cyntefig a diflanu; ond yn lle hyny, y maent wedi eu trysori yn y ddaiar yn y fath gyflawnder, fel, er maint y defnyddio sydd arno, nid oes perygl iddo gael ei ddyhysbyddu am oesoedd a chanrifoedd i ddyfod. Y fath ddarpariaeth ddaionus yw ar gyfer dyn!

Er fod y *calch* i'w gael yn greigiau mawr celyd, eto, ffurfiwyd ef gan mwyaf, os nid yn hollol, gan gregyn, a rhanau ereill anifeiliaid. Y mae cregyn pysg yn gallu adeiladu y cregyn sydd yn gysgod iddynt allan o'r sylwedd calchaidd sydd mewn dwfr. Ar ol ateb y dyben o gysgodi y preswylydd, gallasai y cregyn hyn ddychwel yn ol i'w helfenau cyntaf, ac y mae llawer felly; ond y mae y cregyn hyn gan mwyaf wedi cael eu pentyru ar eu gilydd a'u pobi gan yr elfenau yn galch. Ac yna, ar ol i waelodion y môr gael ei godi drachefn gan weithrediad gwres, y mae yr hen ogofeydd tanforawl, gyda'u cynnwys, yn dyfod yn gloddfa i ddyn. Pwy fuasai yn meddwl fod y pysgod hyn, pan yn tynu y defnyddiau calchaidd allan o'r môr i'w dybenion eu hunain, yn gweithio ar gyfer angenion dyn hefyd?

Afreidiol yw dyweyd gair am werth y meteloedd eto i angen dyn. Hebddynt, ni buasai gwareiddiad na diwylliad yn bosibl; ni buasai na hau na medi, aredig na chloddio; ni buasai defnyddiau at dai na gweithfaoedd, y celfyddydau na gorchwylion cyffredin bywyd. Y fath fywyd fuasai ein bywyd heb y mwnau! Ond yn mha le y maent i'w cael? Y maent i'w cael wedi eu trysori mewn gwythienau yn y graig. Y maent i'w cael yn gorwedd mewn llawer o wahanol ffyrdd; weithiau yn treiddio trwy y graig; bryd arall yn dalpiau unigol; a phryd arall yn fwn. Y mae llawer o anhawsder wedi ei brofi i allu esbonio hyn oll yn foddhaol; ond y mae y pethau canlynol yn rhan o gredo y daiaregwyr enwocaf. Yn *gyntaf*, nid oedd y gwythienau hyn yn greigiau yn wreiddiol. Yn *ail*, achoswyd yr agoriadau yn mha rhai y mae y meteloedd gan yr ymgodiadau a'r dadgyssylltiadau ofnadwy y mae y ddaiar wedi myned trwyddynt. Yn *drydedd*, y

this difference; that the three great divisions, instead of occurring in a continuous series, are ranged, like the terrestrial herbs and trees, in parallel columns. How closely this corresponds with the geologic arrangement, the following sketch will show.

| | |
|---|---|
| Silurian . . . | Rad. Art. Mol. Fishes. |
| Old Red . . . | Reptiles. |
| Carboniferous | |
| Permian . . . | |
| Triassic . . . | |
| Oolitic . . . . | Birds. Mammals. |
| Cretaceous . . | |
| Tertiary . . . | Pla. Mam. |
| Recent . . . . | Man. |

Geologic [Rad. Art. Mol. Fish. Rep. Bird. Mam. Man.] arr.
Cuvier's [Rad. Art. Mol. Fish. Rep. Bird. Mam. Man.] arr.

*Hugh Miller's Testimony of the Rocks.*

Digitized by Google

mae y meteloedd yn wahaniaethol oddi wrth y creigiau y gorweddant ynddynt. Y fath gylch o weithrediadau gallofyddol a fferyllaidd sydd yn ofynol i sicrhau hyn oll! Y fath ddaioni i ddyn ydd i'w ganfod yn y darpariadau hyn, yn enwedig pan edrychir arnynt gyda'u gilydd! Parotowyd y glo mewn un ffordd, y calch mewn ffordd arall, a'r meteloedd mewn ffyrdd gwahanol eto; ond y maent oll yn cytuno i wasanaethu dyn. Y maent yn fynych hefyd i'w cael yn yr un gymmydogaeth, lle y canfyddir y glo yn toddi yr haiarn, a'r calch yn gwasanaethu yn y gorchwyl.

Cyfeiriwn ein darllenwyr at yr erthyglau canlynol yn y gwaith hwn, CREADIGAETH; DYLIF; MWNAU, &c., ac hefyd at y gweithiau canlynol:—*Lyell's Principles of Geology; De la Beche's How to Observe; Murchison's Siluria; Bakewell's Geology; Phillips' Manual of Geology; Richardson's Introduction to Geology; Mantell's Wonders of Geology*, a *Medals of Creation*; *Anderson's Course of Creation; Buckland's Bridgewater Treatise; Ansted's Geology; Hugh Miller's Old Red Sandstone*, a *Testimony of the Rocks; Dr. Pye Smith's Geology and Scripture; Reports of the Geological Society; The Geologist*—cylchgrawn misol; a'r erthyglau dan y gair *Geology* yn yr *Encyclopædia Britannica*, yn nghyd â'r *Metropolitana.*

DAIARFOCH: mewn milodraith, rhywogaeth o dethogion cigysol gwadndroediog, y rhai a restrir gan Linnæus yn mhlith rhywogaeth yr eirth; ond y mae naturiaethwyr diweddarach, gyda phriodoldeb, yn eu hystyried ar wahân. Er fod y creaduriaid hyn yn cael eu rhestru yn mhlith y dosbarth cigysol, y mae eu cyfansoddiad wedi ei gyfaddasu yn well at ymborthi ar lysiau nag ar gig: yn wir, y maent yn llawer llai cigysol nag un anifail a berthyn i'r dosbarth hwn, oddi eithr yr arth, efallai. Y mae y daiarfoch yn meddu pump o fodiau byrion a chryfion tu blaen a thu ol i'w traed, a chrafangau nerthol, y rhai ydynt yn dra chyfaddas at dyllu a chwalu y ddaiar er chwilio am wreiddiau. Y mae coesau yr anifail yn fyrion a gewynog, ei gorff yn llydan a chadarn, ei ben yn hir, ei drwyn yn flaenfain, ei glustiau yn fychain, a'i gynffon yn fer. Y mae rhyw fath o sylwedd gwerog yn rhedeg o hono, ac yn meddu arogl tra annymunol. Mae yr un peth i'w ganfod mewn amryw anifeiliaid cigysol ereill, ond fod arogl y sylwedd yn gwahaniaethu yn ol y rhywogaethau. Yn y gathfwsg (*civet cat*), er anghraifft, y mae arogl y sylwedd mor ddymunol fel y mae wedi ei restru yn mhlith y peraroglau; tra, ar yr ochr arall, y mae arogl y sylwedd a ymâd oddi wrth yr anifeiliaid a elwir *moufettes* mor ddrygsawrus, fel y maent wedi derbyn yr enw "anifeiliaid drewllyd."

Bydd y daiarfoch yn cysgu yn ystod y dydd yn eu tyllau, ac yn cerdded o gwmpas y nos i chwilio am ymborth. Cyhuddir hwynt yn fynych o ddinystrio cwningod, helfilod, a hyd yn oed ŵyn ieuainc: ond ymddengys mai gwreiddiau a ffrwythau ydyw eu prif ymborth. Gydag ewinedd cryfion eu traed blaen, byddant yn turio twll dwfn a helaeth, yn gyffredin mewn tir ysgafn a thywodlyd: ni bydd i'r twll hwn ond un fynedfa oddi allan; ond ar ol myned i mewn, ymwahana yn ystafelloedd, a therfyna mewn ystafell gron yn y gwaelod, wedi ei gwisgo yn dda â gwair sych. Y mae y daiarfoch yn dra unigol yn eu dull o fyw: ni chanfyddir hwynt un amser hyd yn oed yn nghymdeithas benywod eu rhyw eu hunain; a chan y byddant bob amser yn cysgu yn eu gwelyau cynhes yn ngwaelod eu tyllau yn ystod y dydd, byddant bob amser yn dewion, ac mewn cyflwr da. Gwerthfawrogir eu cig mewn llawer o fanau fel ymborth. Y maent yn anifeiliaid glân yn eu harferion; a dywedir, os dygwydd i ryw anifail faeddu eu gorweddfaau, y bydd iddynt eu gadael yn uniongyrchol. Yn ei dosbarthiad daiaryddol, y mae y rhywogaeth yn daenedig dros holl Ewrop, Canolbarth a Gogledd Asia, a Gogledd America: ni wyddys fod dim o honynt yn Affrica na Deheudir America. Y mae tri math o ddaiarfoch.

1. *Y daiarfoch cyffredin.* Y mae y rhai hyn yn gyffelyb o ran eu maintioli i gŵn canolig, ond y mae eu coesau yn llawer byrach, ac y mae eu cyrff yn lletach. Y mae eu penau yn hirion a blaenfain, eu clustiau o'r braidd yn guddiedig gan flew, a'u cynffonau mor fyrion fel na chyrhaeddant ond prin at hanner eu coesau ol; y mae eu crwyn yn hynod o dewion a gwydn; eu blew yn hir ac afrywiog dros eu holl gorff, ac yn llusgo ar bob ochr iddynt ar hyd y ddaiar, wrth iddynt gerdded. Y mae blew y rhan uchaf o'u cyrff, a'u hystyried ar wahân, yn dri o wahanol liwiau—gwyn melyn yn y gwaelod, du yn y canol, a llwyd y tu allan, o blegid yr hyn y gelwir yr anifail weithiau yn *bryf llwyd*: y mae y gynffon wedi ei gorchuddio â blew hirion a garw o'r un lliw ac ansawdd, ac y mae y gwddf, y ddwyfron, y bol, a'r aelodau hefyd wedi eu gorchuddio â blew byrach, o liw tywyll unffurf.

Er fod daiarfoch i'w cael drwy holl barthau gogleddol Ewrop ac Asia, nid oes ond ychydig o honynt yn un man i'w canfod. Eu hymborth yn benaf ydyw gwreiddiau, ffrwythau, trychfilod, a llyffaint, ond distrywiant hefyd wyau a chywion petris, ac adar ereill a wnânt eu nythod ar y ddaiar, ac ymosodant ar nythod gwenyn gwylltion, rhag colynau y rhai y maent yn eithaf diogel, o blegid hirder eu blew a thewder eu crwyn. Dewisant y coedwigoedd mwyaf anial i drigo ynddynt, ac y maent yn llonydd a diniweid yn eu harferion; ond os ymosodir arnynt, amddiffynant eu hunain yn ddewr a phenderfynol, ac anaml y gall cŵn cymmaint ddwywaith a hwynt eu gorchfygu. Bydd y fenyw yn bwrw ei rhai bach yn gynnar yn y gwanwyn, y rhai a rifant o dri i bump; rhydd ei llaeth iddynt yn ofalus am y pump neu y chwech wythnos cyntaf; yna, dysg hwynt yn raddol i ymdaraw drostynt eu hunain. Pan y delir hwynt yn ieuainc, byddant yn hawdd i'w dofi, a deuant mor chwareus a chŵn bychain; dysgant adnabod eu meistr yn fuan iawn, a chanlynant ef i ba le bynag yr elo: ond am yr hen rai, y mae yn anmhosibl eu dofi hwy; parhant yn ddiymddiried dan y driniaeth dyneraf. Bydd y daiarfoch yn cael eu hela mewn rhai parthau o'r wlad wrth oleuni y lloer, pryd y byddant allan yn chwilio am ymborth: y mae eu crwyn yn werthfawr, ar ol eu trin yn briodol, at amryw ddybenion; y mae eu blew yn ddefnyddiol at wneuthur brwsiau arlunwyr; a gwna eu chwarteri ol, wedi eu halltu a'u mygu, ffolenau (*hams*) rhagorol. Ond nid ydyw y math hwn o gig yn cael ei werthfawrogi i'r fath raddau yn y wlad hon ag yn China, lle y dywedir y gellir canfod dwsinau o ddaiarfoch yn grogedig yn y marchnadoedd cyhoeddus mewn rhai manau, yn enwedig yn Pekin.

2. *Y daiarfoch Americaidd.*—Y mae y daiarfoch hyn, pan yn eu llawn faintioli, yn mesur tua dwy droedfedd a hanner o flaen y trwyn i fon y gynffon, yr hon sydd yn chwe modfedd chwaneg.

Digitized by Google

Nid ydyw eu trwyn mor flaenfain ag eiddo y rhywogaeth Ewropaidd, er fod eu penau yr un mor hir; y mae eu clustiau yn fyrion a chrynion, ewinedd eu traed blaen yn llawer hirach mewn cymhariaeth nag ewinedd y rhywogaeth gyffredin, eu cynffonau yn fyrach, eu blew o ansawdd hollol wahanol, ei liwiau hefyd yn dra gwahanol, ac y mae eu harchwaeth yn fwy cigysol; y pen a rhanau ol y corff yn unig a orchuddir gan flew byrion garw; y mae holl ranau ereill y corff wedi eu gwisgo mewn pân (*fur*) hynod o esmwyth, main, a sidanaidd, uwch law pedair modfedd o hyd. A'u cymmeryd ar eu penau eu hunain, y mae y blew hirion hyn o liw llwyd porfforaidd yn y bon, ac yn frithion o hyny hyd at yr arwyneb gan gylchau llwyd-ddu a llwyd oleu bob yn ail, ond wedi eu trefnu yn y fath fodd fel mai y lliw diweddaf ydyw yr agosaf allan; gan hyny, dyma ydyw prif liw cefn ac ochrau yr anifail, yn gystal a'i ddwyfron a'i fol; lliw y pen, y bochgernau, a'r gwddf, ydyw gwyn, ond y mae yno gylch llwyd-dywyll yn pasio dros y llygaid a'r clustiau, o'r trwyn hyd at y gwegil; ac y mae yno ysmotiau o'r un lliw, ond eu bod ychydig yn oleuach, yn amgylchu y llygaid, ac yn union o flaen y clustiau. Y mae y coesau, megys y pen, wedi eu gorchuddio â blew byrion a garw, o liw llwyd dywyll; ac y mae yr ewinedd yn dra hirion a cheimion, ac o liw goleu, yr hyn beth ei hunan sydd yn ddigonol i wahaniaethu y rhywogaeth hon oddi wrth y daiarfoch Ewropaidd, y rhai y mae eu hewinedd yn llawer byrach, er eu bod yn anifeiliaid mwy, ac o liw llwyd-dywyll.

Y mae y daiarfoch i'w cael yn y gwastattiroedd tywodlyd sydd yn nghymmydogaeth y Mynyddoedd Creigiog, mor bell i'r gogledd a'r afon Peace, a tharddiadau Afon y Mynyddoedd, yn lledred 58°. Y mae cyflawnder o honynt hefyd ar y gwastattiroedd a ddyfrheir gan y Missouri, ac ar lanau y Saskatchewan a'r Afon Goch, yr hon a red i Lyn Winipeg. Tra y bydd y ddaiar yn orchuddiedig gan eira, anaml y bydd y daiarfochyn yn gadael ei wâl. Anifail araf ac ofnus ydyw, ac efe a ddianc i'r twll cyntaf a gaiff, os erlidir ar ei ol; a chan y rhed yn dra chyflym ar hyd y tir tywodlyd, efe a gyrhaedd allan o berygl cyn hir. Yn gynnar yn y gwanwyn, pa fodd bynag, pan y dechreuant ddyfod allan o'u tyllau, gellir eu dal yn hawdd trwy dywallt dwfr i mewn atynt, yr hwn, gan y bydd y ddaiar wedi rhewi, a red nes llenwi eu gwâl, fel y bydd raid i'r anifail ddyfod allan. Gyda golwg ar derfyn deheuol dosbarthiad daiaryddol y rhywogaeth, o'r hyn lleiaf mewn un cyfeiriad, gwyddys fod daiarfoch yn Mexico, fel yr ymddengys oddi wrth y dysgrifiad a roddir o honynt gan Fernandez.

3. *Y Daiarfoch Indiaidd.* Gelwir yr anifail hwn gan yr Hindwaid yn *bhalloo-soor*, neu arthfochyn. Y mae yn gyffelyb o ran ei faintioli i'r daiarfochyn cyffredin, ond y mae ei goesau yn hirach; a gwahaniaethir ef ar unwaith drwy fod ei drwyn main yn terfynu yn gyffelyb i drwyn baedd cyffredin, a thrwy fod ei gynffon fer o'r braidd yn noeth. Y mae yr anifail hwn tuag ugain modfedd o uchder, ac y mae ei gynffon yn naw modfedd o hyd. Y mae yn meddu corff ac aelodau arth; a thrwyn, llygaid, a chynffon baedd. Y mae ei glustiau yn fyrion, wedi eu gorchuddio yn hollol gan flew, ac amgylchynir hwynt gan gylch gwyn ysgafn. Y mae y traed yn wadn-ysgogol, a phump o fodiau ar bob un o honynt yn gyssylltiedig wrth eu gilydd, ac yn meddu ewinedd cryfion, modfedd o hyd. Y mae blaen y trwyn o liw cnawd, ac o'r braidd yn noeth, gan nad oes arno ond ychydig flew ar yr ochrau; mae y bol hefyd o'r braidd yn hollol amddifad o flew. Lliw cyffredinol y blew dros yr holl gorff ydyw gwyn melyn, gyda blaenau duon, yr hyn a rydd arliw llwyd-dywyll i wisg yr anifail, ac a bâr iddi ymddangos yn llinellau tonog pan yr ymsymmud. Y mae y gwddf yn felyn; ac ar ddwy ochr y pen y mae dwy o linellau duon, y rhai a ymunant tua'r trwyn; y mae y lleiaf o'r rhai hyn, yr hon sydd yn dra chul, yn ymylu y wefl uchaf; y mae y llall yn llawer lletach, ac yn pasio o bob ochr i'r llygad, yn amgylchu y glust, ac yn disgyn ar ddwy ochr y gwddf, i ymuno yn y ddwyfron â'r lliw du sydd yn gorchuddio y rhanau blaen. Y mae yr holl wddf, a amgylchynir gan y llinellau duon hyn, yn gyffelyb o ran ei liw i'r corff, ond ei fod ychydig yn oleuach. Y mae y coesau ol yn dduon, megys y coesau blaen, ac wedi eu gorchuddio gan flew byrion garw. "Y mae y daiarfoch yn India," medd Dr. Johnson, yn ei *Sketches of Indian Field Sports*, "yn dra thebyg i ddaiarfoch Lloegr, ond eu bod yn fwy ac yn dalach; y maent yn dra chreulawn, ac ymosodant ar luaws o gŵn. Gwelais gŵn, a ymosodent ar udfil (*hyæna*) neu flaidd, yn ofni eu gwynebu. Nid oes ond ychydig o honynt, ond cyfarfyddir â hwynt yn achlysurol yn y bryniau. Y maent yn gyffelyb o ran eu natur i'r arth."

Yn ein cyfieithiad ni o'r Bibl, dywedir fod y babell wedi ei gorchuddio â "chrwyn daiarfoch" (*Exod.* xxv. 5), ac fod esgidiau yn cael eu gwneyd o honynt (*Ezec.* xvi. 10). Y mae yn dra thebygol fod defnyddiad y gair *daiarfoch*, yn y cyssylltiadau hyn, am *tahash*, wedi cyfodi oddi wrth ddiffyg gwybodaeth digon manwl am hanes anifeiliaid y dwyrain gan y cyfieithwyr. Fel y gwelwyd eisoes, nid oes daiarfoch yn Arabia; ac nid oes ond ychydig o honynt yn y manau y maent, megys yn Lloegr. Ond ymddengys oddi wrth *Exod.* xxxv. 23, fod lluaws o bersonau yn ngwersyll Israel â chrwyn *tahash* yn eu meddiant ar yr un pryd, fel nas gallai fod prinder o'r anifeiliaid hyny. Cymmerodd y rhan fwyaf o'r hen gyfieithiadau y gair *tahash* fel yn golygu lliw dugochlas, i'r hwn y lliwid y crwyn hyrddod; ac y mae Bochart yn amddiffyn yr opiniwn hwn. Ond myn y rabbiniaid mai anifail ydoedd; a meddylia Aben Ezra ei fod o rywogaeth yr ych: rhyw anifail sydd yn *dew* a *bras;* ac yn yr ystyr hwn, ymddengys mai yr un ydyw y gair a'r *tahash* Arabaidd—bras, olewaidd. Y mae tybiaeth y rhai hyny a gyfeiriant y gair *tahash* at y môrlo, gan hyny, yn eithaf credadwy, gan fod y môrlo yn hynod am ei frasder, neu ei olew, hyd yn oed yn yr ynys hon. Heb law hyny, y mae crwyn môrloi, ar gyfrif eu parhausder, yn cael eu defnyddio i orchuddio cistiau a choffrau, er eu diogelu rhag y tywydd; ac fel y defnyddid croen y *tahash* at wneuthur esgidiau (*Ezec.* xvi. 10), felly y gellir gwneuthur cystal lledr o groen môrlo ag o groen llo ei hun.

Ni raid yn bresennol ond profi fod anifeiliaid, addas at y pwrpas, yn hawdd i'r Israeliaid i'w cael yn yr anialwch. Er gwneuthur hyn, ni a ddyfynwn o waith Thevenot (td. 166), yr hwn, tra yn Tor, porthladd yn y Môr Coch, a ddywed, "Ond nis gallent ddangos dim i mi o bysgodyn penodol, yr hwn a alwent hwy yn *fôr-ddyn.* Pa fodd bynag, cefais law un o honynt ar ol hyny Delir y pysgodyn hwn yn y Môr Coch, o gwmpas ynysoedd bychain, ger llaw Tor. Y mae yn

Digitized by Google

bysgodyn mawr cryf, ond nid oes dim yn hynod yn perthyn iddo ond dwy law, y rhai sydd mewn gwirionedd yn gyffelyb i ddwylaw dyn, oddi eithr fod y bysedd wedi eu cyssylltu yn nghyd gan groen, megys troed gŵydd; *ond y mae croen y pysgodyn yn debyg i groen gafr wyllt* neu *alpafr*. Pan y gwelant y pysgodyn hwn, tarawant ef yn ei gefn â môrdryferau, fel y gwnânt â morfilod, ac felly y lleddir ef. *Defnyddiant ei groen at wneuthur tarianau, y rhai nid ä pelenau drwyddynt.*" Pa un ai math o fôrlo, ai nad e, ydoedd y pysgodyn hwn, y mae yn anmhosibl penderfynu yn bresennol, gan na ddynodir un gair yn nghylch ei fod yn dyfod i'r tir, na'i fod yn ddwyelfenog; er hyny, gall mai efe ydyw *tahash* yr Hebreaid. Dywed Niebühr, "*Dahash* y galwodd marsiandwr o Abushahr y pysgodyn hwnw a elwir *porpoise* (môr-fochyn) gan gadbeniaid Seisonig, a'r hwn a elwir gan yr Almaenwyr yn *fôr-faedd*, neu *dolphin*. Yn ystod fy mordaith o Maskat i Abushahr, gwelais luaws mawr o honynt yn nghyd, yn agos i Râs Mussendom, y rhai oeddynt oll yn myned yr un ffordd, gan nofio yn dra chyflym."

Y mae y tystiolaethau hyn yn dangos—1. Bod anifail yn cael ei alw yn *dahash* yn Arabia eto. 2. Bod yr anifeiliaid hyny yn dra lluosog. 3. Bod croen yr anifail yn debyg i groen gafr wyllt; gan hyny, yn addas i'w drin a'i weithio. 4. Mai pysgodyn tew a bras ydyw, onide ni byddai môrdryferau yn angenrheidiol er ei ddal, ac ni elwid ef yn fôr-fochyn (*porpoise*), i'r hwn, ni a dybiem, y mae yn debyg, er mai nid efe ydyw y pysgodyn hwnw. 5. Bod ei groen yn cael ei ddefnyddio at wneuthur tarianau, a'r tarianau hyny y fath na effeithia pelenau arnynt; yr hyn a eglura y peth y cyfeiria Michaelis ato, pan y dywed, gan ddyfynu Rau, bod crwyn yr anifeiliaid hyn yn cael eu defnyddio at wneyd esgidiau, o blegid eu meddalwch; ond defnyddid hwynt hefyd i orchuddio cabanau, bythynod, &c., o blegid y tybid eu bod yn amddiffyniad rhag taranau.—(*Penny Cycl.; Calmet's Dict.*)

DAIARGRYN, [רעש]: ysgydwad arswydlawn yn nghrawen y ddaiar. Ni wyddys ond ychydig iawn am yr achos o ddaiargrynfäau; ond ymddengys eu bod i'w priodoli i ddylanwad tân neu wres. Yn nghymmydogaeth rhai o'r mynyddoedd tanllyd, megys Vesuvius a Pichincha, yn agos i Quito, bydd ysgydwad yn y ddaiar yn cymmeryd lle ar adegau penodol, ac yn parhau o 20 i 30 o eiliadau, cyn ymarllwysiad y llosgnwy. Bydd graddau yr ysgydwad yn chwanegu yn ol yr ysbaid a el heibio rhwng y naill ddaiargryn a'r llall, ac am hyny, yn ol yr amser y bydd y llosgnwy yn ymgasglu. Y mae y ffaith syml hon, yr hon sydd wedi ei phrofi gan dystiolaethau lluaws mawr o deithwyr, yn tueddu at daflu goleuni cyffredinol ar yr achos o ddaiargrynfäau, drwy ddangos y dylid ystyried llosgfynyddoedd gweithredol megys diogel-gloriau (*safety-valves*) i'r gwledydd a'u hamgylchynant. Fe gynnyddir y perygl o ddaiargrynfäau drwy gauad i fyny agoriadau y llosgfynydd; ond y mae dinystr Lisbon, Caracas, Lima, Cashmir, ac amryw ddinasoedd yn Calabria, Syria, ac Asia Leiaf, yn dangos i ni, ar y cyfan, nad yn nghymmydogaeth llosgfynyddoedd gweithredol y mae grym yr ysgydwad yn fwyaf nerthol. Dywed daiaryddwr deallus Amasea: "Er y pryd yr ymagorodd llosgeneuau Etna, trwy ba rai y dianga tân, ac er y pryd y mae llosgnwy a dwfr wedi bod yn cael eu harllwys allan, nid ydyw y wlad yn agos i'r arfordir wedi bod mor agored i gael ei hysgwyd ag yn yr amser blaenorol i neillduad Sicily oddi wrth Italy isaf, pan yr oedd pob cyssylltiad â'r arwyneb allanol yn gauedig." Ymddengys oddi wrth hyn fod cyssylltiad rhwng daiargrynfäau â'r gallu llosgfalaidd; yr hwn, er ei fod yn cael ei amlygu yn mhob man, ac er ei fod mor daenedig a gwres mewnol ein planed, nid ydyw yn cyrhaedd pwynt mor uchel ond anfynych, a'r pryd hyny ond mewn manau penodol, ag i dori allan yn llifeiriant tanllyd.

Bydd daiargrynfäau yn arddangos eu hunain drwy ysgogiadau dilynol cyflym tuag i fyny, neu yn gydwastad â'r ddaiar, neu drwy ysgogiadau cylchog. Ymddengys y bydd y ddau fath cyntaf o ysgogiadau yn dygwydd gyda'u gilydd. Amlygwyd yr ysgogiad tuag i fyny mewn modd neillduol yn nymchweliad tref Riobamba, yn y flwyddyn 1797, pan y canfyddwyd cyrff lluaws o'r trigolion wedi eu lluchio i Cullca; sef bryn amryw gannoedd o droedfeddi o uchder ar yr ochr wrthgyferbyniol i afon Lican. Lledaenir yr ysgogiad yn gyffredin drwy donweddiadau mewn cyfeiriad llinellol, gyda chyflymder o ugain i wyth ar ugain o filltiroedd yn y mynyd. Yr ysgogiadau cylchog ydyw y rhai mwyaf anghyffredin, ond ar yr un pryd y rhai mwyaf peryglus. Canfyddwyd muriau wedi eu gŵyrdroi, ond heb eu taflu i lawr; rhesi o goed wedi eu troi o'u cyfeiriad cyfochrog blaenorol, a meusydd wedi eu gorchuddio â phlanigion gwahanol, y rhai a symmudasid yn naiargryn fawr Riobamba, yn nhalaeth Quito, ar y 4ydd o Chwefror, 1797; a chanfyddwyd effeithiau cyffelyb ar ol daiargryn Calabria, rhwng y 5ed o Chwefror a'r 28ain o Fawrth, 1783. Dywed yr athronydd enwog, Alexander Von Humboldt:—"Pan yn gwneuthur cynllun o dref adfeiliedig Riobamba, nodwyd allan un lle neillduol i mi, lle y canfyddwyd holl ddodrefn un tŷ dan adfeilion tŷ arall. Yr oedd yn amlwg ddarfod i'r gweryd rhydd ymsymmud megys hylif mewn ysgogiad, yr hwn y rhaid cymmeryd yn ganiataol a gyfeiriwyd yn gyntaf oll tuag i lawr, yna yn gyfredol âg wyneb y ddaiar, ac yn ddiweddaf tuag i fyny. Canfyddwyd yn angenrheidiol appelio at yr *Audiencia*, neu y Llys Cyfiawnder, i benderfynu yr ymrafaelion a gyfododd mewn perthynas i berchenogaeth meddiannau ag oeddynt wedi eu symmud i bellder o amryw gannoedd o *toises* (gwrhyd Ffrengig—6·395 troedfedd)."—*Cosmos*, td. 201.

Mewn gwledydd na ddygwydd daiargrynfäau ond yn anfynych, megys yn neheubarth Ewrop, y mae tybiaeth gyffredinol yn ffynu bod gwres mawr ac wybren gadduglyd yn rhagredegwyr gwastadol iddynt. Ond dywed Humboldt fod y dybiaeth hon yn hollol gyfeiliornus. Teimlodd efe ddaiargrynfäau pan y byddai yr wybren yn glir, a gwynt deheuol yn chwythu, yn gystal ag ar wlaw ac ystormydd o fellt a tharanau. Dygir tystiolaeth gyffelyb gan amryw deithwyr ereill. Er, yn gyffredin, nad amlygir y gweithrediadau a gymmerant le yn nghrombil y ddaiar drwy unrhyw gyfnewidiadau yn y tywydd, na thrwy unrhyw ymddangosiadau neillduol yn y wybren, nid ydyw yn annhebygol, ar achosion o ddaiargrynfäau trymion, na throsglwyddir ryw effaith i'r awyrgylch. Yn ystod ysgydwad maith y ddaiar yn nyffrynoedd Piedmontaidd Pelis a Clusson, canfyddwyd y cyfnewidiadau mwyaf yn estyniad trydanol yr awyrgylch tra yr oedd y wybren yn glir. Nid ydyw y swn tanddaiarol fydd yn dilyn daiargryn yn gyffredin yn cyn-

Digitized by Google

nyddu yn ol graddau grym yr ysgogiadau. Ni ddilynwyd daiargryn fawr Riobamba — un o'r ymweliadau mwyaf ofnadwy ag sydd wedi ei gofnodi yn hanes anianyddol ein planed — gan unrhyw swn o gwbl. Dygwyddodd y swn ofnadwy a glywyd yn y ddaiar dan ddinasoedd Quito ac Ibarra; ond yr hwn ni chlywyd dim o hono yn Tacunga a Hambato, y rhai oeddynt yn agosach i ganolbwynt yr ysgogiad, yn mhen tuag ugain mynyd *ar ol* y ddaiargryn. Yn naiargryn enwog Lima a Callao, yr hon a gymmerodd le Hydref 28ain, 1746, clywyd swn cyffelyb i daran danddaiarol yn Truxillo, yn mhen chwarter awr ar ol yr ysgydwad, ond ni ddilynwyd ef gan unrhyw ysgogiad yn y ddaiar. Yr un modd, yn mhen ysbaid maith ar ol daiargryn fawr Granada Newydd, yr hon a gymmerodd le yr 16eg o Dachwedd, 1827, clywyd tyrfiadau tanddaiarol drwy holl ddyffryn Cauca dros ysbaid o ugain neu ddeg ar ugain o eiliadau, ond ni ddilynwyd hwy gan un ysgogiad. Bydd natur y swn hefyd yn gwahaniaethu llawer iawn: bydd un ai yn swn treigledig, neu yn rhugl-drwst, neu yn tincian megys cadwyni pan yn cael eu symmud, neu megys taranau agos, megys, er esampl, yn ninas Quito; neu, yn ddiweddaf, yn swn clir ac adseiniol. Yn Caracas, yn ngwastattiroedd ffrwythlawn Calabozo, ac ar lanau y Rio Apure, yr hon a ymarllwysa i'r Orinoco, clywyd swn ofnadwy, cyffelyb i daranau, yr hwn ni ddilynwyd gan ddaiargryn, dros ddarn o wlad yn 9,200 o filltiroedd ysgwâr, ar y 30ain o Ebrill, 1812, tra yr arllwysodd mynydd tanllyd St. Vincent, yn y pellder o 632 o filltiroedd i'r gogledd-ddwyrain, ffrwd helaeth o losgnwy. Yn y flwyddyn 1744, ar yr achlysur o ymarllwysiad mawr y llosgfynydd Cotopaxi, clywyd swn tanddaiarol, cyffelyb i swn cyflegrau, yn Honda, ar yr afon Magdalena, yr hon sydd yn 436 o filltiroedd o bellder oddi wrth y mynydd. Y mae yn ddiau na chludwyd y swn gan yr awyr, ond drwy y ddaiar, a hyny mewn dyfnder mawr. Yn ystod daiargryn ofnadwy Granada Newydd, yn Chwefror, 1835, clywyd taranau tanddaiarol ar yr un mynydau yn Popayan, Bogota, Santa Marta, a Caracas (lle y parhaodd am saith awr heb un ysgogiad yn y ddaiar), ac yn Hayti, Jamaica, ac ar Lyn Nicaragua.

Bydd daiargrynfäau weithiau yn eang iawn o ran cylch eu gweithrediad. Teimlwyd y ddaiargryn fawr a ddinystriodd ddinas Lisbon,[1] y 1af o Tachwedd, 1755, yn yr Alpau, yn arfordir Sweden, yn yr Antilles, yn Antigua, Barbadoes, a Martinique, yn llynoedd mawr Canada, yn Thuringia, yn ngwlad wastad yr Almaen Ogleddol, ac yn yr ynysoedd bychain ar lanau y Baltic. Attaliwyd ffynnonau pellenig yn eu rhediad, yr hyn beth y sylwyd arno fel yn dilyn daiargrynfäau yn amser yr hynafiaid gan Demetrius y Callatiad. Sychodd ffynnonau poethion Töplitz i fyny, a dychwelasant eilwaith, gan orchuddio y wlad o'u hamgylch, â'u dyfroedd wedi eu lliwio gan dudliw *(ochre)* haiarn. Yn Cadiz, cyfododd y môr i'r uchder o bedair troedfedd a thrigain; tra yn yr Antilles, lle na chyfyd y llanw yn gyffredin ond o chwech ar ugain i wyth ar ugain o fodfeddi, cododd yn ddisymmwth uwchlaw ugain troedfedd, ac yr oedd y dwfr mor ddu ag inc. Y mae cyfrifiad wedi ei wneyd fod cyfran o arwyneb y ddaiar, mwy bedair gwaith na holl Ewrop, wedi ei hysgwyd ar yr un eiliad yn yr adeg hono. Ni wyddys hyd yn hyn am un gallu drwy ba un y lladdwyd cymmaint o bobl mewn cyn lleied o fynydau: dinystriwyd trigain mil o bersonau yn Sicily yn 1693; o ddeg ar ugain i ddeugain mil yn naiargryn Riobamba, yn 1797; ac y mae yn debygol gymmaint bum gwaith yn Asia Leiaf a Syria, dan Tiberias a Justinian yr hynaf, tua'r blyneddoedd 19 a 526.

Y mae amgylchiadau yn mha rai y mae y ddaiar wedi bod yn cael ei hysgwyd am luaws o ddyddiau yn olynol yn nghadwen yr Andes, yn Neheudir America. Dywed Humboldt, ei fod ef yn adnabyddus â'r esamplau canlynol, yn mha rai y mae ysgogiadau wedi bod yn cael eu teimlo yn mron bob awr o'r dydd am fisoedd, ac y mae y lleoedd yn mhell oddi wrth unrhyw losgfynydd:— Ar ochr ddwyreiniol cadwen Alpinaidd mynydd Cenis, yn Fenestrelles a Pignerol, o Ebrill, 1808; rhwng Madrid Newydd a Little Prairie, i'r gogledd o Cincinnati, yn Unol Daleithiau yr America, yn Rhagfyr, 1811, yn gystal a thrwy holl auaf y flwyddyn ddilynol; ac yn Mhashalaeth Aleppo, yn misoedd Awst a Medi, 1822.

Gwneir cyfnewidiadau mawrion yn arwyneb y ddaiar weithiau trwy ddaiargrynfäau. Dywedir fod rhyw fynyddoedd wedi eu symmud o ran eu sefyllfaoedd gan ddaiargryn Calabria, yn 1783; ond nid ydyw y ffaith hon wedi ei phrofi yn drwyadl. Y mae, pa fodd bynag, tu hwnt i ammheuaeth, fod arfordir Chili wedi myned trwy gyfnewidiad mawr mewn canlyniad i ddaiargrynfäau yn ystod y pymtheng mlynedd ar ugain diweddaf. Yn y flwyddyn 1822, dyrchafwyd yr arfordir, i'r gogledd o Valparaiso, am hanner can milltir, yn agos i dair troedfedd yn uwch nag ydoedd o'r blaen; a dyrchafwyd y creigiau mewn rhai manau ar y lan bedair troedfedd. Yn y flwyddyn 1825, dyrchafwyd ynys St. Maria (37° lled. deheuol) naw troedfedd, fel y dinystriwyd porthladd deheuol yr ynys yn hollol yn mron. Ar y 29ain o Medi, 1759, dyrchafwyd llosgfynydd Jorullo 1684 o droedfeddi uwch law ei uchder blaenorol, ar ol daiargryn a tharanau tanddaiarol a barhaodd am 90 o ddyddiau.

Pe byddai modd i ni dderbyn hysbysrwydd am sefyllfa ddyddiol arwyneb y ddaiar, y mae yn debygol y canfyddem fod rhyw ran o honi yn wastadol yn myned o dan gynhyrfiad, mewn canlyniad i wrthweithiad ei rhanau mewnol. Dywed Mrs. Somerville fod tua 255 o ddaiargrynfäau wedi cymmeryd lle yn yr ynysoedd Prydeinig, ond mai rhai ysgeifn oedd y cyfan.

Nid oes dim yn dylanwadu mor ofnadwy ar y synwyrau a daiargryn. Nid ydyw y dylanwad hwn i'w briodoli yn gymmaint i'r ffaith y bydd y dyn yn hysbys o'r dinystr arswydlawn fydd wedi cymmeryd lle mewn canlyniad i ddaiargrynfäau mewn amser a aeth heibio, ond yn hytrach i ddadguddiad disymmwth o dwyll y grediniaeth y bydd wedi bod yn ei choleddu yn wastadol am sefydlogrwydd y ddaiar. Yr ydym yn arfer er pan yn blant a gwneyd cyferbyniad rhwng ysgogrwydd dwfr a diysgogrwydd y tir, a chadarnheir y teimlad hwn gan dystiolaeth ein synwyrau. Pan y teimlwn, gan hyny, y ddaiar yn ysgogi yn ddisymmwth dan ein traed, dadguddir i ni ryw allu naturiol dyeithrol, â'r hwn y byddwn yn anhysbys yn flaenorol, fel yr achos

[1] Cyfrifwyd fod ysgydwad y ddaiargryn hon wedi ymledu dros 700,000 o filltiroedd o dir, neu y ddeuddegfed ran o amgylchedd y ddaiar. Ni pharhaodd yr ysgydwad ofnadwy hwn ond pum mynyd: dygwyddodd tua naw o'r gloch yn y boreu, ar Wyl yr Holl Saint, pan yr oedd yr holl drigolion yn mron yn yr eglwysydd, o blegid yr hyn ni laddwyd dim llai na 30,000 o bersonau drwy gwympiad yr adeiladau hyny. —*Daubeney on Volcanoes*, td. 514—517.

Digitized by Google

o'r ysgydwad. Dinystrir lledrith oes gyfan mewn eiliad—diflana ein crediniaeth dwyllodrus yn sefydlogrwydd natur, a theimlwn megys pe byddem wedi ein halltudio i derfynau rhyw alluoedd dinystriol anhysbys i ni. Tynir ein sylw gan bob swn, a'r ysgogiad lleiaf yn yr awyr, ac nis gallwn ymddiried yn mhellach yn y tir ar yr hwn y byddwn yn sefyll. Anfonir dynion gan ofn ac arswyd allan o'u tai; ond ni byddant bob amser yn cael diogelwch drwy hyny. Nis gall un dyn sefyll heb gymhorth: bydd pobl yn ymaflyd yn eu gilydd, mewn coed, neu mewn rhywbeth arall a ddygwyddo fod o fewn eu cyrhaedd. Bydd rhai yn taflu eu hunain ar y ddaiar; ond bydd yr ysgydwad mor rymus a nerthol fel y rhaid iddynt ledu eu breichiau rhag cael eu dymchwelyd a'u lluchio yma a thraw. Teimla anifeiliaid hefyd yn ddychrynedig. Safant â'u traed ar led, a'u penau i lawr, gan grynu yn ddirfawr; a bydd hyd yn oed crocodiliaid yr Orinoco, y rhai ydynt ar adegau ereill yn eithaf marwaidd, yn gadael gwely cryncdig yr afon, ac yn rhedeg gan waeddi i'r coedwigoedd cyfagos. Ymddengys yr awyrgylch ei hun fel yn cyfranogi o'r terfysg, canys bydd yr adar yn ehedeg o gwmpas yn wylltion. Yn y cyfamser, ymgilia y môr oddi wrth y lan; ond yn mhen ychydig fynydau, dychwela yn ol mewn tòn uchel, yr hon a agosha megys mur o ddwfr gyda chyflymder anghredadwy, a gorchuddia yr holl dir isel. Rhuthra yn ol drachefn gyda'r un cyflymder. Parha yr ysgogiad hwn yn y môr tra y byddo ysgydwad y ddaiargryn yn nerthol. Bydd llongau hefyd a hwyliant yn agos i'r lan ar ddaiargryn yn teimlo ysgydwad hollol wahanol i'r ysgydwad a gynnyrchir gan wyntoedd. Y mae gorlifiad y môr, ar rai amgylchiadau, wedi bod yn farwol i luaws mawr o bobl. Y mae personau hefyd wedi eu llyncu i fyny gan agenau wedi eu hachosi gan ddaiargrynfäau.

Crybwyllir am ddaiargrynfäau yn yr Ysgrythyr. Yr ymweliad cyntaf o'r fath â Phalestina a gofnodir ydyw yr un a ddygwyddodd yn nheyrnasiad Ahab (c. c. 918—897), pan y cyfarwyddwyd Elias i fyned allan, a sefyll yn y mynydd ger bron yr Arglwydd: "Ac wele, yr Arglwydd yn myned heibio, a gwynt mawr a chryf yn rhwygo y mynyddoedd, ac yn dryllio y creigiau o flaen yr Arglwydd; ond nid oedd yr Arglwydd yn y gwynt: ac ar ol y gwynt, *daiargryn;* ond nid oedd yr Arglwydd yn y ddaiargryn: ac ar ol y ddaiargryn, tân; ond nid oedd yr Arglwydd yn y tân: ac ar ol y tan, llef ddystaw fain;" 1 *Bren.* xix. 11, 12. Cymmerodd daiargryn ofnadwy le yn nyddiau Uzziah, brenin Iudah, yr hon, medd Josephus [*Hen.* ix. 10, 4], "a ysgydwodd y ddaiar, a gwnaed rhwyg yn y deml, fel y pelydrodd goleuni yr haul drwyddo; yr hwn, drwy syrthio ar wynebpryd y brenin, a'i tarawodd â gwahanglwyf," yr hyn ydoedd yn gospedigaeth, medd yr hanesydd, oddi wrth Dduw ar y brenin, mewn canlyniad i'w waith yn trawsfeddiannu y swydd offeiriadol. Canfyddir fod y ddaiargryn hon yn un arswydlawn, oddi wrth y ffaith fod Zechariah yn llefaru am dani fel y canlyn:—"A chwi a ffowch fel y ffoisoch rhag y ddaiargryn yn nyddiau Uzziah brenin Iudah" (*Zech.* xiv. 5): ac ymddengys hefyd oddi wrth Amos (*pen.* i. 1) fod y dygwyddiad mor hynod, a'i fod wedi gwneyd y fath argraff dwfn ar feddyliau y bobl, fel y daeth yn fath o gyfnod i gyfrif amser oddi wrtho; geiriau y prophwyd ydynt "dwy flynedd o flaen y ddaiargryn."

Ymddengys fod daiargrynfäau yn adnabyddus yn Palestina yn yr hen amseroedd, oddi wrth y ffaith eu bod yn elfen yn y farddoniaeth Hebreaidd. Darllenwn yn *Salm* xviii. 7—"Yna y siglodd ac y crynodd y ddaiar; a seiliau y mynyddoedd a gynhyrfodd ac a ymsiglodd, am iddo ef ddigio." Cymharer *Hab.* iii. 6; *Ier.* iv. 24; *Esa.* v. 25. Nid oedd yn annaturiol i unrhyw amlygiad neillduol o ewyllys, penarglwyddiaeth, a daioni Duw, gael eu rhaghysbysu mewn cyssylltiad â daiargrynfäau, a'r pethau cydfynedol â hwynt, yn mysg arwyddion ereill yn y nefoedd uchod, neu yn y ddaiar isod: *Ioel* ii. 28; *Mat.* xxiv. 7, 29. Yr unig ddaiargryn a grybwyllir yn y Testament Newydd ydyw yr hon a ddygwyddodd ar adeg croeshoeliad y Messïah (*Mat.* xxvii. 50, 51; *Luc* xxiii. 44, 45; *Marc* xv. 33), a thybia amryw ei bod wedi ei theimlo dros yr holl fyd. Tybia ereill na theimlwyd hi ond yn Iudea, neu yn y deml yn Ierusalem. Dywed Cyril o Ierusalem, fod y creigiau a holltwyd gan y ddaiargryn hon yn mynydd Calfaria yn cael eu dangos yn ei amser ef. Y mae Sandys a Maundrell yn dwyn tystiolaeth gyffelyb; a dywedant eu bod hwy wedi bod yn chwilio y rhwygiadau yn y graig, a'u bod wedi cael boddlonrwydd mai effeithiau daiargryn oeddynt. Yr oedd yn rhaid ei bod yn ddaiargryn ofnadwy cyn y buasai yn gwneyd i'r canwriad gydnabod diniweidrwydd ein Iachawdwr: *Luc* xxiii. 47. Y mae y tywyllwch [gwel d. g.] y sonir am dano yn y lleoedd hyn wedi ei ddefnyddio fel gwrthddadl yn erbyn geirwiredd yr efengylwyr. Y mae yn eglur mai peth yn dilyn y ddaiargryn oedd y tywyllwch hwn. Nid ydyw effaith gyffelyb i hyn yn beth anghyffredin mewn cyssylltiad â daiargrynfäau. Os hyn ydyw y ffaith, yna y mae yr hanes yn gysson â natur; ac y mae y tywyllwch mewn gwirionedd yn llefaru o blaid, yn lle yn erbyn, gwirionedd yr efengyl. Nodwn un neu ddwy o esamplau. Cymmerodd ymarllwysiad llosgfalaidd tra hynod le ar y 19eg o Ionawr, 1835, yn mynydd tanllyd Coseguina, yr hwn a saif yn Machwy Fonseca, yn Nghanolbarth America. Blaenorwyd yr ymarllwysiad gan swn trystfawr, yr hwn a ddilynid gan golofn o fwg yn dyrchafu o'r mynydd; cynnyddodd y mwg nes yr aeth i ffurf ac ymddangosiad cwmwl mawr trwchus, yr hwn, wrth edrych arno o bellder o ddeng milltir ar ugain, a ymddangosai fel coronbieth anferthol o bluf, yn dyrchafu yn gyflym ac yn ymledu yn mhob cyfeiriad. Yn nghorff y ddau ddiwrnod canlynol, teimlwyd ysgydwad yn y ddaiar amryw weithiau; torodd gwawr yr 22ain yn deg a chlir, ond canfyddwyd cwmwl trwchus o ffurf byramidiaidd yn nghyfeiriad y mynydd tanllyd. Esgynodd hwn yn raddol, ac erbyn 11 o'r gloch yn y bore, yr oedd wedi ymledu dros yr holl wybren, gan gau allan oleuni y dydd yn hollol, ac yr oedd y tywyllwch yn gyfartal i dywyllwch y noswaith fwyaf cymylog: parhaodd y tywyllwch hwn o'r braidd yn ddibaid am dri diwrnod; a thrwy ystod yr holl amser, disgynai llwch du mân o'r wybren i'r ddaiar. Ymledodd y tywyllwch hwn dros hanner Canolbarth America. Yr oedd y ddaiargryn mor nerthol fel y cyfnewidiwyd llinell yr arfordir, y gwrthdrowyd rhediad afon, ac y ffurfiwyd dwy ynys newydd. Dygwyddodd yn gyffelyb hollol mewn daiargryn a gymmerodd le yn Cartago, Canolbarth America, pan y gorchuddiwyd y ffurfafen gan gaddug du trwchus, yr hwn a barhaodd am dri diwrnod.—[*Recreations in Physical Geography,* td. 382.]

Digitized by Google

Yn achos yr ymarllwysiad llosgfalaidd a ddymchwelodd Herculaneum a Pompeii (B. A. 79), hysbysir i ni gan Pliny yr ieuangaf, mai y peth cyntaf a welwyd oedd colofn o darth tew yn cyfodi yn unionsyth o Vesuvius, ac yna yn ymledu allan, nes yr oedd ei rhan uchaf yn gyffelyb i gangenau pinwydden, a'i rhan isaf i fôn y pren. Gwelid fflachiadau o dân mor ddysglaer a mellt yn tori allan o'r cwmwl du hwn yn achlysurol; yr hyn a ddilynid gan dywyllwch dwysach na thywyllwch y nos, a syrthiai lludw o hono hyd yn oed yn Misenum. Y mae yr ymddangosiadau hyn yn berffaith gysson â'r rhai a welwyd mewn ymarllwysiadau diweddarach, yn neillduol ymarllwysiad Monte Nuovo yn 1538, ac ymarllwysiad Vesuvius yn 1822.

Anrheithiwyd Iudea gan ddaiargryn rai blynoedd (31) cyn genedigaeth Crist, yn amser brwydr Actium, am yr hon y dywed Josephus [*Hen.* xv. 52], "na ddygwyddodd ei bath mewn unrhyw adeg, a'r hon a ddygodd ddinystr mawr ar anifeiliaid y wlad hono. Trengodd tua deng mil o bobl hefyd trwy gwympiad tai." Ysgrifena Jerome hefyd am ddaiargryn, yr hon, yn nyddiau ei ieuenctid (tua B. A. 315), a ddinystriodd Rabbath Moab.—[*Jerome* ar *Esa.* xv.] Llefara ysgrifenwyr y canoloesoedd hefyd am ddaiargrynfäau yn Mhalestina, a dywedant eu bod nid yn unig yn drymion ac arswydlawn, ond yn aml hefyd. Ysgydwyd Ierusalem gan ddaiargryn yn 1834, a niweidiwyd capel yr enedigaeth yn Methlehem. Ymwelwyd âg Ierusalem a'r gymmydogaeth mor ddiweddar a'r flwyddyn 1836 gan ddaiargryn drom; ond y mae y ddinas yn aros eto heb dderbyn un niwed mawr oddi wrth yr achosion tanddaiarol hyn.

Crybwyllir daiargrynfäau yn mhlith y trallodion ag oeddynt i flaenori dinystr Ierusalem (*Mat.* xxiv. 7), ac y mae Josephus, a haneswyr ereill, yn sicrhau fod y rhaghysbysiad wedi ei gyflawnu yn llythyrenol. Arferir y gair daiargryn hefyd mewn ystyr mwy cyfyng, i ddynodi cynhyrfiadau mynyddoedd, ac ysgydwad seiliau y greadigaeth—yr hon sydd yn iaith ffugrol, i osod allan fawredd, nerth, a gallu Duw: *Salm* civ. 32; xlvi. 2; cxiv. 4. Y mae daiargrynfäau, mewn iaith brophwydoliaethol, yn dynodi chwyldroadau a chynhyrfiadau mewn teyrnasoedd ac ymherodraethau : *Dad* vi. 12; xvi. 18, 19.—(*Humboldt's Cosmos; Penny Cycl.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Calmet's Dict.*)

DAIAROL: y serchiadau wedi eu sefydlu ar bethau y bywyd hwn: arferir y gair yn wrthgyferbyniol i nefolfrydedd: *Iago* iii. 15, 17. Defnyddir y gair mewn ystyr arall hefyd, pan y dywedir fod Adda a'i holl had yn ddaiarol, o blegid fod eu cyrff wedi eu llunio o bridd y ddaiar, a'u bod yn preswylio ar y ddaiar: 1 *Cor.* xv. 40, 47; 2 *Cor.* v. 1; *Phil.* ii. 10.

DAIL, [Heb. דליות=*dalioth*]: eangiad o risgl coed a llysiau ydyw dail. Y maent yn gyffredin yn deneuon, a chroesir hwy gan un neu chwaneg o wythïenau, yn gyfansoddedig o ddefnydd cyffelyb i gorff y pren neu y planigyn y byddant yn tyfu arno. Y mae dail y gwahanol blanigion o amrywiol ffurfiau—rhai yn grynion, rhai yn hirgrynion, &c. Y mae eu gwythïenau yn ffurfio haen dyblyg, yr uchaf o ba rai sydd mewn cyssylltiad â nodd y pren neu y llysieuyn, a'r isaf mewn cyssylltiad â rhisgl isaf y gainc ar ba un y tyf y ddeilen. Y mae dail yn gyfansoddedig o sylwedd ysbyngaidd gwyrdd, neu ryw liw arall, yn amgauedig mewn croen teneu, yn yr hwn y mae lluaws mawr o dyllau mân, er galluogi y llysieuyn i dderbyn awyr i mewn. Cyfrifwyd 170,000 o'r tyllau mân hyn mewn un ochr i ddeilen y pren bocs. Cyssylltir deilen â phren drwy baladr neu goes, neu ynte fe dyf o hono yn uniongyrchol; rhed y gwythïenau trwy y paladr cyn y gallant ymledu i gorff y ddeilen. Pan y bydd y paladr yn onglog, ni chyfyngir y ddeilen at yr onglau nag at y cyfryngau rhyngddynt, ond fe dyf ar y naill neu y llall; ond eu bod yn unffurf yn yr un rhywogaeth. Ymgyssyllta y paladr â bôn y ddeilen yn gyffredin; ond mewn rhai llysiau, megys yn y pren eurafalau, ymuna â chorff y ddeilen. Yn gyffredin, bydd yn ymgolli yn sylwedd ysbyngaidd y ddeilen; ond pasia heibio iddo mewn rhai amgylchiadau; ac mewn dail cyfansawdd, ffurfia amdorch (*tendril*) yn fynych. Y mae dibynai yn perthyn i rai dail, yr hwn, mewn glaswellt, sydd fath o sylwedd pilenaidd yn cyfodi o fôn y gwelltyn; tra mai math o rwyd ydyw yn y palmwydd, yr hwn a ffurfir, meddir, o wê yn perthyn i wythïenau y dail. Y mae y sylwedd ysbyngaidd, o'r hwn y cyfansoddir dail, a'r hwn sydd yn cyssylltu yn nghyd eu gwythïenau, yn gwahaniaethu yn fawr mewn gwahanol blanigion, er cyfarfod â'u gwahanol angenion. Yn gyffredin, y mae celloedd y sylwedd hwn, a berthyn i ochr uchaf y ddeilen, wedi eu dodi yn unionsyth ar y croen, tra y mae celloedd yr ochr isaf yn gyfochrog âg ef; ond y mae hyny yn amrywio yn fawr, ac fe ddygwydd yn fynych fod celloedd dwy ochr y ddeilen yn gyffelyb. Y cyfan a ymddengys sydd yn unffurf yn y sylwedd hwn ydyw, ei fod yn cynnwys cyflawnder o ronynau o lesni (*chlorophyll*), a'i fod yn cael ei groesi yn mhob cyfeiriad gan awyr bibellau, y rhai sydd bob amser mewn cyssylltiad â'r mân dyllau y cyfeiriwyd atynt. Yr achos, yn gyffredin, fod ochr isaf rhai dail o liw goleuach na'r ochr uchaf ydyw, fod y sylwedd ysbyngaidd a gyfansodda y ddeilen yn fwy tyllog, neu yn cynnwys mwy o gelloedd yr ochr hono. Swyddogaeth dail ydyw puro y nodd crai a anfonir iddynt gan y bôn, drwy ei ddosbarthu a'i drefnu, a'i gyfaddasu at natur y llysieuyn, a'i gyfeirio wedi hyny i'w le priodol. Mewn trefn i'w galluogi i gyflawnu y dyledswyddau pwysig hyn, maent yn meddu arwyneb eang, yn agored uniongyrchol i weithrediad goleuni ac awyr; arwyneb eangach drachefn yn alluog i anadlu, os ystyriwn eu hawyrgelloedd aneirif; ac y mae agoriadau yn eu rhisgroen i reoleiddio eu hanadliad a'u chwysiad. Dygir y diweddaf yn mlaen yn benaf trwy ddylanwad goleuni yr haul; ond er eu cadw rhag dyoddef yn ormodol oddi wrth y cyfryw weithrediad, diogelir hwynt yn mhob amgylchiad gan bilionen wydn, yr hon a orwedd ar yr ochr allanol i'r rhisgroen, a thrwy drefniad neillduol celloedd y diweddaf, y rhai ydynt deueuon neu dewion, yn un haen neu yn amryw haenau, yn unol â'r amgylchiadau dan ba rai y bwriedir i blanigyn dyfu yn naturiol. Y mae y ddarpariaeth hon mor wanaidd mewn llysiau a dyfant dan y dwfr, fel y gwywa eu dail yn uniongyrchol wedi eu dwyn dan ddylanwad yr awyr; ond y mae y ddarpariaeth mor gyflawn mewn planigion wedi eu bwriadu i dyfu mewn sefyllfaoedd sychion a phoethion, fel y gallant fyw dros amryw fisoedd heb un cyflenwad o leithder. Mewn canlyniad i'r swyddau pwysig hyn y mae dail wedi eu trefnu i'w cyflawnu, y mae yn anhebgorol angen-

Digitized by Google

rheidiol eu cadw rhag derbyn un niwed, os mynir i blanigyn dyfu yn llwyddiannus.

Y mae cyfeiriadau mynych yn y Beibl at *ddail*. Dyma ydoedd defnydd gwisg ein rhieni cyntaf: pan ddeallasant eu bod yn noethion, hwy "a wniasant ddail y ffigysbren, ac a wnaethant iddynt arffedogau;" *Gen.* iii. 7. Dywed Esaiah (*pen.* i. 30), pan yn bygwth dinystr ar yr annuwiol, "Canys byddwch fel derwen â'i dail yn syrthio, ac fel gardd heb ddwfr iddi." Gyda bara croew a dail surion y byddai plant Israel yn bwyta yr oen pasc: *Exod.* xii. 8. Pan y daeth y golomen a anfonwyd allan o'r arch gan Noah yn ei hol, yr oedd ganddi "*ddeilen* olewydden yn ei chylfin," yr hyn oedd yn arwydd fod y dyfroedd wedi cilio: *Gen.* viii. 11. Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir *deilen* yn y fan hon yn cael ei gyfieithu *cangen* yn *Neh.* viii. 15. Dywedir yn *Ier.* xvii. 8, am y gŵr a ymddiriedo yn yr Arglwydd, "ei ddeilen fydd îr, ac ar flwyddyn sychder ni ofala, ac ni phaid â ffrwytho." Ni effeithia helbulon a phrofedigaethau y byd arno yn niweidiol, ond parha drwy y cwbl yn wyrddlas ac iraidd, gan "roddi ei ffrwyth yn ei bryd, a'i ddalen ni wywa, a pha beth bynag a wnel, efe a lwydda;" *Salm* i. 3; *Ezec.* xlvii. 12. Gyda golwg ar genedl Israel, dywed Esaiah, "Megys deilen y syrthiasom ni oll;" *pen.* lxiv. 6. Yr oeddynt wedi bod unwaith, fel gwladwriaeth ac eglwys, yn uchel a dyrchafedig, ac yn derbyn yn helaeth o roddion a rhagorfreintiau Duw yn mhob ystyr, megys deilen ar ryw bren iraidd a ffrwythlawn; ond yr oeddynt erbyn hyn fel deilen, yr hon, o ddiffyg ireidd-dra, sydd yn cwympo yn wywedig oddi ar y pren, gan gael ei chipio ymaith gan bob gwynt a ddygwydd chwythu arni. Pan yr ettyl Duw ei ddaioni oddi wrth ddynion, o herwydd eu pechodau, hwy wywant ac a syrthiant, pa mor uchel bynag fyddont; a chipir hwynt ymaith gan wynt ei farnedigaethau: *Salm* xc. 5, 6; *Esa.* xli. 2; lvii. 13. Yn y dysgrifiad a geir yn y Datguddiad o'r Ierusalem nefol, dywedir, "Yn nghanol ei heol hi, ac o ddau tu yr afon, yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth: a dail y pren oedd i iachau y cenedloedd;" *Dad.* xxii. 2. Nid yn unig yr oedd ffrwyth y pren yn cyfranu bywyd, ond yr oedd hyd yn oed ei ddail yn rhinweddol ac iachusol. Nid ydym i dybio oddi wrth hyn y bydd unrhyw afiechyd yn y nefoedd, canys dywedir wrthym yn benodol y "sych Duw ymaith bob deigr" oddi wrth lygaid y preswylwyr; "a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach;" *Dad.* xxi. 4. Ond y meddwl ydyw, y bydd bywyd ac iachusrwydd y byd dedwydd hwnw wedi eu derbyn trwy gyfranogi o ffrwyth a dail pren y bywyd; trwy hyny y bydd preswylwyr y wlad wedi eu hiachau oddi wrth eu hafiechyd ysbrydol, ac wedi derbyn bywyd tragwyddol. Gwel PREN Y BYWYD.—(*Eadie's Bib. Cycl.; Penny Cycl.*)

DAIONI: yr hyn a ddeallir wrth y gair hwn yn gyffredinol ydyw, unrhyw beth a chwanega ein dedwyddwch, neu a leiha ein poen. Y mae llawer o ddyryswch wedi ei ddwyn i ysgrifeniadau athronyddol, drwy beidio gwahaniaethu rhwng y tri ystyr yn mha rai y defnyddir y gair *daioni*. 1. Defnyddir ef am unrhyw beth *boddhaol*, neu yr hyn a rydd bleser uniongyrchol, heb gymmeryd y canlyniadau i ystyriaeth. 2. Defnyddir ef am unrhyw beth *defnyddiol*, neu yr hyn sydd, ar y cyfan, yn fwyaf manteisiol ini yn yr bywyd presennol. 3. Defnyddir ef am *rinwedd*, neu yr hyn a gymmeradwyir gan Dduw, a'r hyn a gynnyrcha ddedwyddwch tragwyddol. Os ydyw dynion bob amser yn dewis *y daioni penaf ymddangosiadol*, fel yr haera uchanianyddwyr, rhaid i ni ofalu rhag esgeuluso chwilio i mewn i *natur* y daioni a ddewisir ganddynt, canys hyny a benderfyna eu nodweddiad. Dewisir y *boddhaol* gan y dosbarth a chwennychant ddilyn eu chwantau. Dewisir y *defnyddiol* gan y personau a ymgynghorant â'u rheswm yn unig; ond dewisir y *rhinweddol* gan y bobl hyny a ymgynghorant â'u cydwybodau hefyd. Y diweddaf ydyw yr unig wir ddoethineb; canys y mae y math hwn o ddaioni yn cynnwys pob math arall.

Daioni, a'i ystyried yn athronyddol, ydyw cyfaddasrwydd unrhyw beth at gynnyrchu rhyw ddyben penodol. Daioni, mewn moesddysg, yw perffeithrwydd, hynawsedd, a charedigrwydd.

Y mae daioni Duw yn dwyn perthynas â pherffeithrwydd hanfodol ei natur, ac â'r caredigrwydd a amlygir ganddo tuag at ei greaduriaid. Y mae daioni, medd Dr. Gill, yn hanfodol i Dduw, heb yr hyn beth ni byddai yn Dduw: *Exod.* xxxiii. 19; xxxiv. 6, 7. Ni pherthyn daioni ond i Dduw yn unig—"Nid da neb ond un, sef Duw" (*Mat.* xix. 17); ac nid yw yr holl ddaioni a geir yn ei greaduriaid ond ffrydiau wedi tarddu o ffynnonell ei ddaioni ef. Efe yw y daioni penaf; swm a sylwedd pob dedwyddwch: *Salm* cxl. v. 12—15; lxxiii. 25; iv. 6, 7. Nid oes dim ond daioni yn Nuw, ac nid oes ond daioni yn dyfod oddi wrtho: 1 *Ioan* i. 5; *Iago* i. 13, 14. Y mae efe yn anfeidrol dda; nis gall meddyliau meidrol ddirnad ei ddaioni: *Rhuf.* xi. 35, 36. Y mae yn anghyfnewidiol dda: *Seph.* iii. 17. Y mae daioni Duw yn gyfranogol a gwasgaredig: *Salm* cxix. 68; xxxiii. 5. Gyda golwg ar wrthddrychau daioni Duw, gellir eu hystyried yn gyffredinol ac yn neillduol. Y mae ei ddaioni cyffredinol i'w ganfod yn ei holl greaduriaid; ie, hyd yn oed yn y greadigaeth ddifywyd—yr haul, y ddaiar, yn nghyd â'i holl waith; ac yn ei waith yn llywodraethu, yn cynnal, ac yn amddiffyn y byd yn gyffredinol: *Salm* xxxvi. 6; cxlv. Y mae ei ddaioni neillduol yn dwyn perthynas âg angelion, ac â'r saint: âg angelion yn ei waith yn eu creu, yn eu sicrhau, ac yn eu gwneuthur yr hyn ydynt; ac â'r saint yn ei waith yn eu galw, yn eu cyfiawnhau, yn eu mabwysiadu, yn eu sancteiddio, ac yn eu gogoneddu yn dragwyddol yn y pen draw.—(*Charnock's Works*, cyf. i. td. 574; *Paley's Nat. Theol.*, pen. 26; *Dwight's Theol.; Buck's Theol. Dict.*)

DAL: cynnal, attegu, attal, amddiffyn, &c. Caethiwo, cymmeryd gafael ar, dodi mewn dalfa: 1 *Sam.* xxiii. 26; 2 *Bren.* xxv. 6; *Mat.* xxvi. 57. Cynnal ac attegu rhag cwympo: *Salm* cxxxix. 10. Dal anifeiliaid wrth hela neu bysgota: *Amos* iii. 5; *Luc* v. 5. Cadw gair yr Arlwydd yn y meddwl, a myfyrio arno: *Ier.* xxiii. 18; *Act.* xvi. 14; *Titus* i. 9; 2 *Pedr* i. 19. Gafael yn gadarn a diysgog mewn unrhyw beth: *Diar.* iii. 18; *Heb.* iii. 14; *Dad.* iii. 11. Parhau yn ddisigl yn ngwyneb pob gwrthwynebiad yn ffydd yr efengyl: *Dad.* ii. 13.

DALEN: llen, haen, llafn teneu. "Gwna hefyd ddalen o aur coeth; a nadd arni, fel naddiadau sel, *Sancteiddrwydd i'r Arglwydd;*" *Exod.* xxviii. 36. Dywed A. Clarke, mai ar ffurf math o *flodeuyn* yr oedd yr aur wedi ei weithio. Y

Digitized by Google

mae y Deg a Thrigain yn darllen yr un fath a'r cyfieithiad Cymraeg. Y mae yn dra sicr ei fod ar ffurf rhyw flodeuyn prydferth. "A gyrasant yr aur yn ddalenau teneuon, ac a'i torasant yn edafedd:" *Exod.* xxxix. 3. Gorchymynodd yr Arglwydd ar fod i'r thusserau a ddefnyddiwyd gan Corah, Dathan, ac Abiram, a'u cymdeithion, i offrymu, gael eu gweithio "yn *ddalenau* llydain, i fod yn gauad i'r allor," fel y byddent yn arwydd parhaus i feibion Israel o'r farn a ddisgynodd ar y gwŷr hyny am eu gwrthryfel: *Num.* xvi. 38. "A phan ddarllenasai Iehudi dair *dalen* neu bedair, yna efe a'u torodd â chyllell ysgrifenydd, ac a'u bwriodd i'r tân;" *Ier.* xxxvi. 23. Nid dalenau, yn ol fel y deallir y gair genym ni yn bresennol, oedd y rhai hyn, ond *colofnau* neu *raniadau.* Σελιδας (=*colofnau*), ydyw y gair a ddefnyddir yn y lle hwn yn y Deg a Thrigain.

DALFA: carchar, neu ystafell mewn carchar; lle i gadw person yn ddiogel rhag dianc: *Gen.* xl 3, 4, 7; *Num.* xv. 34.

DALEAID, [*Daleites*]: dilynwyr David Dale, gwaithfeistr tra diwyd, Cristion haelfrydig, a gweinidog cynnulleidfa Annibynol yn Glasgow. Ar y cyntaf, ymunodd â'r Glassiaid, âg amryw o ddaliadau pa rai y cydsyniai, ond diflaswyd ef gan eu hysbryd cul a bydol: ymadawodd, gan hyny, oddi wrthynt, yn benaf o blegid ei fod yn dewis crefydd ymarferol o flaen crefydd ddamcanol, a haelfrydedd a chariad Cristionogol o flaen dysgyblaeth eglwysig lem. Gan iddo fyned yn gyfoethog drwy ddiwydrwydd, cyssegrodd ei holl feddiannau at wneuthur daioni; ac fe saif ei enw yn uchel yn bresennol yn mysg dyngarwyr ei oes. Efe ydoedd sylfaenydd sefydliad enwog Lanark Newydd, yr hwn oedd dan arolygiad ei fab yn nghyfraith, Robert Dale Owen, hyd ei farwolaeth. Y mae y Daleaid yn ffurfio yn bresennol yr ail ddosbarth o Annibynwyr yn Scotland—y Glassiaid ydyw y dosbarth cyntaf; ac ar ol marwolaeth Mr. Dale, ymunasant â'r Inghamiaid. Gwel d. g.—(*Scotch Theol. Dict.; Jones's Dict. of Rel. Opin.; Williams's Dict. of all Rel.*)

DALILAH, [דלילה—*tlawd*]: gwraig a breswyliai yn nyffryn Sorec, yn llwyth Dan, yn agos i wlad y Philistiaid. Ymollyngodd Samson dan ei dylanwad, a barna rhai ddarfod iddo ei phriodi: *Barn.* xvi. 4. Llwgrwobrwywyd hi gan dywysogion y Philistiaid i fradychu Samson. Bu yn aflwyddiannus ar y cyntaf; ond o'r diwedd gorchfygodd ef, ac amddifadodd ef o'i gryfder trwy dori ei wallt. Gwel SAMSON.

DALMANUTHA, [Δαλμανουθα]: pentref yn agos i Magdala. Dywed Marc ddarfod i'r Iesu a'i ddysgyblion fyned i long ar fôr Galilea, a myned i barthau Dalmanutha (*Marc* viii. 10), ond *Magdala* y gelwir y lle gan Matthew (*Mat.* xv. 39). Ymddengys, oddi wrth hyn, fod Dalmanutha yn agos i Magdala; a safai, y mae yn debygol, ar du gorllewinol llyn Gennesaret, ychydig i'r gogledd o Tiberias.

DALMATIA, [Δαλματια]: tiriogaeth yn Ewrop, ar du dwyreiniol Morgainc Venice, yn ffurfio rhan gynt o Illyricum, ac yn cyffwrdd â Macedonia. Anfonwyd Titus i'r cyffiniau hyn gan Paul, yn ol fel y tybir, i ledaenu Cristionogaeth: 2 *Tim.* iv. 10. Y mae y wlad hon yn perthyn yn bresennol i ymherodraeth Awstria, ac y mae ynddi tua 300,000 o drigolion. Preswylir y treffydd ar yr arfordir yn benaf gan Babyddion, y rhai a siaradant yr Italaeg. Ond deiliaid Eglwys Groeg ydyw preswylwyr rhanau mewnol y wlad.

DALLINEB: amddifadrwydd o olwg naturiol; diffyg dirnadaeth ddeallawl, anwybodaeth. Defnyddir y gair weithiau am amddifadrwydd hollol o olwg, ac weithiau am ball ar y golwg. Yr oedd dallineb y dyn y sonir am dano yn yr efengyl, yr hwn a anesid yn ddall, yn ddallineb llwyr a hollol. Ond nid oedd dallineb gwŷr Sodom, y rhai nis gallent gael hyd i ddrws tŷ Lot (*Gen.* xix. 11), a dallineb Paul dros ystod y tri diwrnod cyntaf y bu yn Damascus, ond dallineb dros amser yn unig. Y mae y Deg a Thrigain yn gosod allan sefyllfa trigolion Sodom yn rhagorol, trwy ddyweyd eu bod wedi eu taraw âg analluogrwydd i weled. Dywed Moses (*Lef.* xix. 14), "Na ddod dramgwydd o flaen y dall." Gellir deall y gorchymyn hwn yn llythyrenol neu yn ffugrol; fel pe byddai yn annog ar fod i garedigrwydd a chyfarwyddyd gael eu cyfranu i'r rhai a fyddent mewn angen gwybodaeth a chynghor, neu y rhai a fyddent mewn perygl o fyned ar gyfeiliorn, &c. Dywed hefyd (*Deut.* xxvii. 18), "Melldigedig yw yr hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'r ffordd." Gellir deall yr ymadrodd yma hefyd yr un modd. Dywedodd yr Iebusiaid wrth Dafydd, pan yr ymosodai ar Ierusalem, er mwyn ei wawdio (2 *Sam.* v. 6), "Ni ddeui di yma, oni thyni ymaith y deillion a'r cloffion;" megys pe dywedent nad oedd arnynt hwy angen am neb ond y deillion a'r cloffion i amddiffyn eu dinas. Dywed Iob (*pen.* xxix. 15) ei fod ef wedi bod yn llygaid i'r dall; hyny yw, arferai roddi cynghorion a chyfarwyddyd i'r neb fyddai mewn angen am danynt, a chymmerai boen i adferu y rhai a elent ar gyfeiliorn o ddiffyg gwybodaeth a deall. Dywed y Gwaredwr o'r braidd yn yr un ystyr (*Mat.* xv. 14), "Os y dall a dywys y dall, y ddau a syrthiant yn y ffos," er dysgrifio trahausder y Phariseaid, y rhai, er mor ddeillion oeddynt yn ffyrdd Duw, eto a ymgymmerent â'r gwaith o dywys ac arwain ereill. Efe a ddywed wrthynt (*Ioan* ix. 39—41) ei fod wedi dyfod i'r byd "fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion." Atebodd y Phariseaid, gan iddynt ddeall fod hyn yn cyfeirio atynt hwy, trwy ofyn, "A ydym ninnau hefyd yn ddeillion?" Atebodd yntau, "Pe deillion fyddech (yn naturiol neu anocheladwy, neu pe yr addefech eich anwybodaeth), ni byddai arnoch bechod; eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hyny y mae eich pechod yn aros." Un o'r neillduolion penaf yn nghymmeriad y Messïah, y rhagddywedir am danant yn y prophwydi, ydyw, y byddai iddo agoryd llygaid y deillion: *Esa.* xxix. 18; xxxv. 5; xlii. 16. Pan y daeth dysgyblion Ioan at yr Iesu, gan hyny, i ofyn iddo, oddi wrth eu meistr, ai efe oedd yr un yr oeddynt yn ei ddysgwyl, dywedodd wrthynt, "Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch: y mae y deillion yn gweled eilwaith;" *Mat.* xi. 5.

"Brashâ galon y bobl hyn, a thrymhâ eu clustiau, a chau eu llygaid;" *Esa.* vi. 10. Sylwa Mr. Taylor ar yr adnod hon, nad oedd llygaid yr Iuddewon, a siarad yn fanwl, wedi eu "cau;" ac nad ydyw y gair (*yw*) yn arwyddo *cau;* er y rhoddir yr ystyr hwnw iddo mewn geiriaduron. Ond y mae yn debygol mai y meddwl ydyw, fod

Digitized by Google

llygaid y bobl yn gogwyddo, yn gwibio, yn gwrthod edrych—yn edrych i bob man ond lle y dylasent edrych. Ac onid ydyw hyn yn ddysgrifiad cywir o nodweddiad yr Iuddewon yn amser Crist? Y mae yr ystyr hwn hefyd yn cydsynio â'r lle arall y defnyddir y gair (*Esa.* xxxii. 3): "Yna llygaid y rhai a welant ni cheuir." Y mae yr un syniad yn gynnwysedig yn yr ymadrodd, "ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch."

Gall dallineb, fel afiechyd ar ermig y golwg, gael ei gynnyrchu drwy i hylifau naturiol y llygaid sychu i fyny, trwy ba rai y treiddia pelydrau goleuni; a gall hyn gael ei effeithio gan henaint, yr hyn a gynnyrcha aneglurder, ac o'r diwedd ddallineb; neu, gellir ei ddwyn oddi amgylch drwy gymhwyso gwres mawr at y llygaid; megys y dywedir ddarfod i un o freninoedd Lloegr gael ei ddallu. Os bydd y llygaid wedi sychu i fyny, y mae yn rhaid y byddant wedi caledu. Neu fe all dallineb gael ei gynnyrchu drwy i bilionen neu groen tew dyfu dros ran o'r llygaid, yr hyn a ettyl belydrau y goleuni rhag treiddio i mewn iddo: hwyrach y meddylid yn yr hen amseroedd fod hyn yn rhoddi ymddangosiad o galedrwydd i'r llygaid. Gelwir y fath lygad mewn llawer man yn Nghymru yn *llygad China*, ac yn *wall eye* yn Lloegr.

Bydd y sylwadau blaenorol yn gymhorth i roddi cyfrif am yr anghyssondeb ymddangosiadol a welir weithiau rhwng testyn ein cyfieithiad ac ymyl y dalenau (a chyfieithiadau ereill hefyd), lle y cyfieithir yr un gair yn "ddallineb" ac yn "galedrwydd." Felly yr ydym yn darllen yn *Marc* iii. 5: "Gan dristâu am *galedrwydd* (ymyl y ddalen, *dallineb*) eu calon hwynt." Felly hefyd yn *Rhuf.* xi. 25; "Ddyfod *dallineb* (*caledwch*) o ran i Israel." *Eph.* iv. 18; "Trwy *ddallineb* (*caledrwydd*) eu calon." 2 *Cor.* iii. 14; "Eithr *dallwyd* (*caledwyd*) eu meddyliau hwynt." Canfyddir esamplau cyffelyb mewn lleoedd ereill. Yn awr, os at anhwyldeb wedi ei gynnyrchu drwy sychiad i fyny hylifau y llygaid y cyfeirir yn y lleoedd hyn, a lleoedd ereill, pa un bynag ai yn cyfodi oddi wrth yr achosion a grybwyllwyd eisoes, ai oddi wrth unrhyw achos arall, gallwn ddirnad yn rhwydd drwy ba foddion y gallasai y ddau ddrychfeddwl o *ddallineb* a *chaledrwydd* ddeilliaw oddi wrth yr un gair; ac yn wir, fe all y ddau gyfieithiad fod yn gywir, gan yr arweinir ni gan un at yr achos, sef caledrwydd; a chan y llall at yr effaith, sef dallineb.

Gyda golwg ar ddallineb ysbrydol, y mae rhai adnodau yn y Beibl yn ymddangos fel yn gwrthddyweyd eu gilydd; megys *Ioan* xii. 40, lle y dywedir mai yr Arglwydd a ddallodd lygaid, ac a galedodd galon rhyw bobl; a *Mat.* xiii. 15, lle y dywedir mai y bobl eu hunain a gauasant eu llygaid; a'r un modd y dywedir yn *Act.* xxviii. 27. Y mae yn hawdd iawn cyssoni yr adnodau hyn trwy edrych ar y pwnc yn ei liw priodol. Cymmerai y bobl fantais oddi wrth waith Duw yn cyfranu iddynt gyflawnder o drugareddau i ddibrisio ei ddaioni, a thewychent a brasaent drwy lythineb a meddwdod; ac felly, mewn rhyw ystyr, gellid dyweyd mai haelioni Duw oedd yn brashau eu calon, ac yn trymhau eu llygaid. Ond yr oedd y bobl hyn, ar yr un pryd, drwy eu glythineb, wedi myned yn amrosgo, yn ddiog, yn dewion, ac yn fras eu calonau; ac heb law hyny, mor hwyrdrwm trwy ddylanwad gwirod a diod gadarn, fel yr oedd eu llygaid a'u clustiau yn ddiwasanaeth iddynt: gellid dywedyd wrthynt, "Gan glywed y clywch, ac ni ddeallwch; ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch;" ac yn y sefyllfa farwaidd a swrth hon yr arosent, gan ei dewis yn hytrach na sefyllfa fwy pwyllog, sobr, a rhesymol, a gwrthodent ymattal oddi wrth yr hyn a'i hachosa, rhag iddynt, ar ryw adeg bwyllog, ddygwydd canfod yn gywir â'u llygaid, a chlywed yn iawn â'u clustiau, ac edifarhau, ac ymwrthod â'r cyfryw ymddygiad, "ac i mi eu hiachau hwynt." Cymh. *Esa.* v. 11; xxviii. 7 Yn mha le y mae anghyssondeb yn awr rhwng y gwahanol ymadroddion hyn? Oni chanfyddir anghreifftiau beunyddiol o ddynion yn camddefnyddio rhoddion Duw, er dinystr eu cyrff a'u heneidiau? Gwyddys am y meddw, nas gall ef, er pob ymdrech, sefydlu ei lygaid ar un gwrthddrych; ond gogwyddant a gwibiant yn mhob cyfeiriad, er y gall na bydd un gwall yn eu rhanau mewnol. Fe all y gewynau a symmudant y llygaid weithredu mewn rhyw ddull, tra y bydd y llygaid eu hunain yn analluog i ganfod yn gywir, o blegid nas gallant gludo delweddau cywir o wrthddrychau allanol i'r meddwl. Dyma ydoedd y rheswm hefyd pa ham y llefarai yr Iesu drwy ddammegion: yr oedd y bobl yn rhy hwyrdrwm a hurt i ganfod a dirnad gwirionedd syml ac eglur; ond yr oedd ychydig obaith y gallesid ennill eu sylw trwy hanes neu chwedl.

Yr oedd yn arferiad yn ngwledydd y dwyrain i gospi troseddwyr ysgeler, megys gwrthryfelwyr neu deyrnfradwyr, trwy dynu ymaith eu llygaid o'u penau; ac yn wir, y mae y gospedigaeth hon yn cael ei harfer yn y gwledydd hyny yn bresennol. Mae yn debyg mai yn y dull hwn y cospwyd y brenin Zedeciah gan Nebuchodonosor, er mwyn ei ddallu yn effeithiol: 2 *Bren.* xxv. 7; *Ier.* xxxix. 7; lii. 11. Ceir anghraifft hefyd o'r gospedigaeth hon yn amgylchiad Samson. "Ond y Philistiaid a'i daliasant ef, ac a dynasant (Heb. *dyllasant*) ei lygaid ef;" *Barn.* xvi. 21. Cawn ef ar ol hyny yn galw ar yr Arglwydd, ac yn dywedyd, "O Arglwydd Ior, cofia fi, atolwg, a nertha fi, atolwg, yn unig y waith hon, O Dduw, fel y dialwyf âg un dialedd ar y Philistiaid am fy nau lygad;" *adn.* 28. Dengys hyn hefyd greulondeb Nahas, yr Ammoniad (1 *Sam.* xi. 2), yr hwn ni wnai un cyfammod â gwŷr Iabes Gilead, ond ar yr ammod y byddai iddo gael tynu allan lygad deheu pob un o honynt. Dengys hyn hefyd lymder cospedigaeth y diystyr o'i rieni: "Llygad yr hwn a watwaro ei dad, ac a ddiystyro ufuddhau ei fam, a dŷn cigfrain y dyffryn, a'r cywion eryrod a'i bwyty;" *Diar.* xxx. 17. Hyny yw, caiff ddyoddef cospedigaeth gwrthryfelgarwch a theyrnfradwriaeth. Yn ddiweddaf, dengys hyn iaith gref y gwrthryfelwyr yn ngwrthryfel Corah. "A dyni (Heb. *dylli*) di lygaid y gwŷr hyn?"—a fydd i ti eu darostwng i ddallineb llwyr ac anadferadwy? neu, mewn geiriau ereill, a ydyw yn dy allu di i gospi gwrthryfel mor eang a hwn, megys y cospit un gwrthryfelwr? *Num.* xvi. 14.

Y mae anwybodaeth yn fath o ddallineb, mor anfanteisiol a pheryglus weithiau ag amddifadrwydd o olwg naturiol; o blegid hyny, dywed Moses wrth Hobab, "Na âd ni, atolwg; canys ti a adwaenost ein gwersyllfaoedd yn yr anialwch, ac a fyddi yn lle llygaid i ni;" *Num.* x. 31. Yr oedd angen mawr am y cyfryw arweinydd yn yr anialwch mawr disathr y teithiai y genedl drwyddo ar y pryd, er eu harwain yn ddiogel rhag peryglon oddi wrth elynion, oddi wrth wyntoedd gwenwynllyd, ac oddi wrth dywod

Digitized by Google

symmudol, &c., ac er eu harwain at ffynnonau o ddwfr iachusol ar eu taith. Os dywedir, yn amgylchiad Moses, y gallasai yr angel a arweiniai y gwersyll nodi a chyfarwyddo eu taith, heb gymhorth Hobab, atebwn fod hyny yn wirionedd. Ond eto, ni byddai yr angel yn gwneuthur dim i'r genedl ond yr hyn nas gellid ei gyflawnu trwy offerynau dynol.

Y mae mynychder deillion yn ngwledydd y dwyrain bob amser yn taraw y teithiwr â syndod. Dywed Volney ei fod ef, allan o gant o bersonau yn Cairo, wedi cyfarfod âg ugain yn hollol ddeillion, deg â dim ond un llygad ganddynt, ac ugain ereill â'u llygaid yn gochion, yn grawnllyd, neu yn meddu rhyw anaf.—[*Travels in Egypt*, i. 224.] Y mae hyn yn cael ei achosi yn benaf gan ennynfa lygeidiol (*ophthalmia*) yr Aipht, yr hyn sydd yn heintiol yn y wlad hono, ac yn arfordir Syria. Y mae yr afiechyd hwn yn dechreu gyda'r fath ennyniad angerddol, fel y bydd yr holl bilionau hyny, yn mhen ychydig oriau, ag sydd yn ishulio arwyneb agosaf allan y llygad, ac arwyneb mewnol yr amrantau, wedi eu gorchuddio â chlapiau bychain cochion, o'r rhai y rhed sylwedd crawnllyd. Ymled yr ennyniad yn gyflym dros ganwyll y llygad; dinystrir yr holl feinweoedd mewnol, a throir hwynt yn grawn; llynora y wisg allanol drwyddi; a gwagheir holl gynnwysiad y llygad. Yn ei ffurf fwyaf angerddol, rhed yr afiechyd ei gwrs mewn o 3 i 7 niwrnod; ond fe barha weithiau am gymmaint a hyny o wythnosau neu fisoedd. Y mae yr afiechyd i'w briodoli i'r ansoddau neillduol hyny ar yr awyrgylch, pan y dywedir ei bod yn fwshedol (*miasmatic*); am yr hwn ansawdd, pa fodd bynag, nid ydys yn gwybod dim ond ei fod yn cynnyrchu dylanwad gwahanol ar y corff i effeithiau cyffredin oerni a lleithder. Nis gellir ystyried y gwahanol achosion a nodir gan deithwyr o'r afiechyd hwn, megys cyflawnder yr awyrgylch o lwch a gronynau halenaidd, y ddefod sydd mor arferedig yn mhlith trigolion gwledydd y dwyrain o gysgu ar benau y tai, gwyntoedd deheuol, ymborth aflachus, eillio y pen, &c., ond fel ail achosion yn unig; ac yn mysg y rhai hyn, ymborth aflachus, lludded mawr, a bod dan wlith y nos, yw y rhai pwysicaf. Y mae yr afiechyd yn heintus, ond anaml y trosglwydda y naill berson ef i'r llall. Nid ydyw yn gyfyngedig i'r dwyrain, ond ymddengys yma ac acw drwy holl Ewrop. Dyoddefodd y byddinoedd Ffrengig a Seisonig yn ddirfawr oddi wrtho tra yn yr Aipht, ac ar ol hyny. Y mae y frech wen hefyd yn achos mawr o ddallineb yn y dwyrain.

Crybwyllir yn y Testament Newydd am amrywiol ddeillion: *Mat.* ix. 27; xii. 22; xx. 30; xxi. 14; *Ioan* v. 3. Cynnyrchwyd dallineb Bariesu yn wyrthiol, ac nis gwyddom ddim am ei natur (*Act.* xiii. 6). Priodola Tobit ei ddallineb (*Tobit* ii. 10) i waith adar y tô yn bwrw tail twymn i'w lygaid, fel yr oeddynt yn agored. Os ystyrir fod yr hanes yn wirionedd, yr hyn nid oes un angen am i ni ei gredu, y mae yn rhaid edrych ar ei wellhad megys gwyrth. Er fod bustl pysgodyn yn hen feddyginiaeth at afiechyd yn y llygaid [*Plin. Hist. Nat.*, xxxii. 24], a'i fod wedi ei ddefnyddio yn fynych mewn amseroedd diweddar, nis gellir tybio ei fod wedi cael un effaith iachaol yn achos Tobit; canys nid yn unig yr oedd y feddyginiaeth yn ddisymmwth, ond fe welwyd y "rhuchen yn dirisglo ymaith oddi wrth giliau ei lygaid ef;" *Tobit* xi. 13. Ceir anghreifftiau o ddallineb mewn canlyniad i henaint yn *Gen.* xxvii. 1; 1 *Bren.* xiv. 4; a 1 *Sam.* iv. 15. Tarawyd y fyddin Syriaidd a aethant i Dothan i ddal Eliseus yn ddisymmwth â dallineb, mewn modd gwyrthiol: 2 *Bren.* vi. 18. Bygythir dallineb weithiau yn yr Hen Destament fel cospedigaeth am anufudd-dod: *Deut.* xxviii. 28; *Lef.* xxvi. 16; *Seph.* i. 17. Nis gallai neb y byddai yr anaf hwn arno wasanaethu yn yr offeiriadaeth: *Lef.* xxi. 18.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*; *Calmet's Dict.*; *Rel. Encycl.*; *Herzog's Real Encycl.*)

DAMARIS, [Δάμαρις]: gwraig yn Athen, yr hon a arweiniwyd i gofleidio Cristionogaeth trwy wrandaw ar Paul yn pregethu: *Act.* xvii. 34. Tybia rhai mai gwraig Dionysius, yr Areopagiad, ydoedd, am yr hwn y crybwyllir yn flaenorol; ond ni chaniata cystrawen y Groeg y casgliad hwn. Ni ddygwydd yr enw Damaris yn un man arall; oddi wrth yr hyn y tybia rhai mai llygriad ydyw o Damalis (Δάμαλις), yr hwn nid oedd yn enw anghyffredin. Y mae yn lled debygol fod hyn yn gywir, o blegid y mae cyfnewid yr *r* a'r *l*, y naill am y llall, yn beth cyffredin yn yr iaith Roeg.

DAMASCUS, [Heb. דמשק; Gr. Δαμασκός]: dinas enwog yn Asia, a phrif ddinas Syria. *Darmsûk* y gelwir hi gan y Syriaid, a *Dimasckk* neu *Es-Sham* gan yr Arabiaid. Saif y ddinas ar wastadedd ffrwythlawn, wrth droed dwyreiniol mynydd Anti-Libanus. Siaredid am dani weithiau gan yr hynaflaid fel dinas Arabaidd; ond i Syria y mae yn perthyn mewn gwirionedd. Sonir yn 2 *Sam.* viii. 5, 6, am "y Syriaid o Damascus," ac y mae y geiriau "Syria Damascus," i'w gweled yn 1 *Cron.* xviii. 6. Dywedir yn benodol yn *Esa.* vii. 8, mai "pen Syria yw Damascus;" a cheir yn *Esa.* xvii. 3, y derfydd y "freniniaeth o Damascus." Felly, gwelir yn amlwg oddi wrth yr ymadroddion hyn mai prif ddinas yr ymherodraeth Syriaidd oedd y dref hon. Derbyniodd talaeth o Syria [Syria Damascena, —*Plin. Hist. Nat.*, v. 13] ei henw oddi wrthi, yr hon a ddynodir yn 1 *Cron.* xix. 6, megys מעכה, yr hwn enw a gyfieithir "Syria-maachah" yn y Beibl Cymraeg. Y mae y gwastadedd ar yr hwn y saif y ddinas tua 400 o ystadau (50½ o filltiroedd) o Fôr y Canoldir, a thua 135 o filltiroedd i'r gogledd o Ierusalem. Saif Damascus yn agos i'r afon Chrysorrhoas (Barrada), gan yr hon, yn nghyd â'i changenau, trwy gynnorthwy camlesydd, y dyfrheir hi yn helaeth. Y mae yn enwog er yn fore. Fe sieryd Strabo (xvi., td. 756) yn uchel am ei mawredd. Yr oedd ei henwogrwydd mewn golygiad crefyddol hefyd yn fawr. Dywed Julian am dani [*Ep.* 24]—"Damascus fawreddog a chyssegredig, yr hon sydd yn rhagori ar bob dinas yn mhrydferthwch ei themlau a mawredd ei hallorau, yn gystal ag yn mhrydlonrwydd ei thymmorau, gloewder a phurdeb ei ffynnonau, cyflawnder ei dyfroedd, a ffrwythlondeb ei thir."

Gelwir Damascus —yr hon a ystyrir gan rai fel y ddinas hynaf yn y byd—yn "berl wedi ei hamgylchu â gwyrddemau" (*emeralds*) gan y dwyreinwyr. Nis gall dim fod yn brydferthach na'i sefyllfa, pa un bynag ai o ochr mynydd Libanus yr agosheir ati, ai o'r diffaethwch i'r dwyrain, ai o'r ffordd fawr o Aleppo i Hamah, ar yr ochr ogleddol. Amgylchir y ddinas am filltiroedd gan feusydd ffrwythlawn, neu erddi,

Digitized by Google

fel y gwelir hwynt, yn gynnwysedig yn benaf o goed olewydd. O holl ddinasoedd y dwyrain, y mae yn debygol mai Damascus ydyw y fwyaf dwyreiniol o ran ei harddull.

Y mae gwastadedd Damascus yn ddyledus am ei ffrwythlondeb a'i brydferthwch i'r afon Barrada, y crybwyllwyd am dani eisoes, yr hon a dybir ydyw yr un ag Abana neu Pharpar y sonir am danynt yn 2 *Bren.* v. Gwel d.g. ABANA.

Y mae yr olygfa ar Damascus o ochr mynydd Libanus yn swynol dros ben. Rhydd Addison [*Damascus and Palmyra*, cyf. ii., 92], y dysgrifiad canlynol o honi:—"Ymagorodd un o'r golygfeydd ardderchocaf a fedd y byd o flaen fy llygaid: megys yr olwg gyntaf ar Caer Cystenyn —y mae yn anghymharol. Yr oeddym yn edrych i lawr o uchder o fil o droedfeddi ar wastadedd eang, yr hwn a derfynid yn y pellder gan fynyddoedd gleision, a'r hwn a orchuddid gan goedwig gyfoethog a ffrwythlawn o goed cnau ffrengig, ffigys, pomgranadau, eirin, bricyll (*apricots*), eurafalau, gellig, afalau, a'r pren locust, y rhai a ffurfiant goedwig donog uwch law hanner can milltir o gylchfesur, yn meddu amrywiaeth mawr o liwiau, tewder a ffrwythlondeb arbenig o ddail, a ffurf o wyllt-brydferthwch, yr hyn a gynnyrchid drwy fod cangenau y coed uchaf yn ymdaflu allan uwch ben brysglwyni cyfoethog o bomgranadau, llebafalau (*citrons*), ac eurafalau, gyda'u dail melynion, gwyrddion, a gwineu; ac yna, dychymygwch ein teimladau, wrth weled yn ymgodi yn fawreddog yn y pellder, uwch law yr arwynebedd eang hwn o ddeilfrigau cyfoethog a ffrwythlawn, gromenau plymaidd chwyddedig, lloerdlysau (*crescents*) goreuredig, a meindyrau marmor Damascus; tra yn nghanol y cyfan, gan ymdroelli tua'r ddinas, y rhedai brif ffrwd yr afon Barrada. Fel y disgynem, gwelem yma ac acw, drwy agoriadau yn y coed, ddarnau bychain o diroedd gwyrddlas, neu caem gipolwg ar erddi trefnus. Yr oedd yr holl dir ffrwythlawn wedi ei amgylchu gan fur pridd, tu hwnt i'r hwn yr oedd pob man yn ddiffrwyth ac anial." Rhydd Lamartine ddarluniad cyffelyb o'r lle, ond meithach, yn ei *Travels in the East.*



Dar. 233 —DAMASCUS.

Nid ydyw y ddinas ei hun yn cyfateb i brydferthwch ei hamgylchoedd. Yn y rhan Armeniaidd o'r dref, y mae y tai wedi eu hadeiladu â chlai; ac yn yr ochr sydd yn wynebu yr heol o honynt, y mae ychydig ffenestri bychain delltog, gyda chauadau wedi eu lliwio yn gochion. Y maent yn isel, a'u drysau yn gyffelyb i ddrysau ystablau. Y mae tomen o dail a llyn o ddwfr drewllyd o flaen drws pob un o honynt yn mron. Y mae mewn rhai o'r trigfanau hyn, a berthynant i'r prif farsiandwyr Armeniaidd, gyfoeth a gorwychder mewnol mawr. Y mae y dodrefn yn gynnwysedig o garpedau costfawr o Persia neu Bagdad, y rhai a orchuddiant y llawr o farmor neu goed cedrwydd yn hollol, a lluaws o glustogau a matrasau yn yr orneuadd (*saloon*), i aelodau y tŷ eistedd neu orwedd arnynt. Y mae yn y ddinas un heol lydan dda, yn cynnwys palasau prif swyddogion Twrci yn Damascus, y rhai ydynt bendefigion y wlad. Y mae y rhanau o'r palasau hyn ag sydd yn gwynebu yr heol, er hyny, yn gyffelyb i furiau carchar neu ysbytty: —nid ydynt ond muriau llwydion o glai, gydag ychydig o ffenestri, tra y gwelir porth mawr yma ac acw yn arwain i gyntedd. Ond mae y tu mewn iddynt yn ysblenydd. Y mae addurniadau lluaws o'u gorneuaddau yn unig wedi costio uwch law mil o bunnau. Y mae marchnadfaoedd (*bazaars*)—sef yr heolydd yn mha rai y cerir masnach yn mlaen—y ddinas yn dra nodedig. Mae y farchnadfa fawr tua milltir a hanner o hyd. Ystafelloedd bychain culion ydyw y siopau yn gyffredin. Dywed Dr. Richardson, fod "siopwyr Damascus yn gyffredin yn lân yr olwg arnynt, wedi ymwisgo yn dda, yn dra chysurus yn eu hymddangosiad, ac yn neillduol o foesgar tuag at ddyeithriaid. Y mae y marchnadfaoedd wedi eu goleuo yn well, ac yn meddu ymddangosiad mwy ysblenydd nag eiddo Cairo na Chaer Cystenyn. Y mae i bob dosbarth o

nwyddau ei heol neu ei farchnadfa briodol ei hun: mewn un, ni werthant ddim ond esgidiau; meddiennir un arall yn gwbl gan eurofaint, &c." Bydd y marsiandwr yn eistedd yn nrws ei siop, â'i goesau yn blethedig o dano, a'i bibell yn ei enau yn lled fynych. Y mae yno bob math o nwyddau yn y gwahanol ystordai, ac yn neillduol nwyddau o India, y rhai a ddygir gan deithfinteioedd o Bagdad. Yn nghanol y marchnadfaoedd y saif y gwestty prydferthaf yn y dwyrain, sef eiddo Hassan Pasha. Adeilad gromenog anferth ydyw, bwa mawreddog yr hon a ddwg ar gof eglwys St. Pedr yn Rhufain; cynnelir ef yr un modd gan golofnau o wenithfaen. Darn o'r gwaith Mooraidd prydferthaf y gellir ei weled yn y byd ydyw porth y gwestty hwn. Nid oes ond tua thrigain mlynedd er ys pan adeiladwyd y gwestty. Yn lled agos i'r lle hwn y mae y brif deml Fahometaidd, yr hon oedd gynt yn eglwys wedi ei chyssegru i Ioan. Canfyddwyd yn y lle sanctaidd hwn asgwrn pen a bedd yr apostol, yr hyn a rydd i'r lle y fath sancteiddrwydd, fel na faidd hyd yn oed i Fahometiaid, dan boen marwolaeth, fyned i mewn i'r ystafell yn mha un y cedwir y creiriau. Gan fod Damascus yn sefyll ar gwr yr anialwch, ac ar gyffiniau gwastattiroedd Syria, a dyffrynoedd Galilea ac Idumea, defnyddir y ddinas fel man i orphwyso gan deithfinteioedd India. Cerir yn mlaen drafnidiaeth helaeth yno. Y mae dau gant o farsiandwyr yn byw yn wastadol yn y dref. Dygir y fasnach dramor yn mlaen gan deithfintai Mecca, teithfintai Bagdad, a theithfintai Aleppo, yn nghyd â lluaws ereill o rai llai, y rhai a gludant nwyddau i ac o Beirout (porthladd y ddinas), Tripoli, Acre, &c. Rhydd teithiwr a ymwelodd â'r ddinas tua'r flwyddyn 1833 y manylion canlynol am dani:—"Cyfrifant fod yn Damuscus 129 o siopau barceriaid, 22 o weithdai at argraffu ar nwyddau cotwm, &c., 75 o liwyr nwyddau, 120 o liwyr sidan, 34 o dai dirwynwyr sidan, 748 o farsiandwyr brethyn *damask*, 211 o chwegnwyddwyr (*grocers*), 68 o drinwyr tybaco, 72 o gyfrwywyr, 11 o farsiandwyr pebyll, 47 o ofaint copr, 50 o werthwyr nwyddau haiarn, 54 o feddygon anifeiliaid, 70 o farsiandwyr pân (*fur*), 98 o eirionwerthwyr, (*lacemen*), 24 o farsiandwyr ŷd, 148 o bobwyr, 58 o felinyddion, 122 o dai coffi, 32 o ancwynwyr (*confectioners*), 59 o faddonau cyhoeddus, 129 o gigyddion, 71 o deilwriaid, 43 o siopau i werthu pibellau, 6 o wneuthurwyr oriaduron, 200 o ystordai mân-nwyddau, 4 o weithfaoedd gwydr, 19 o arfwyr (*armourers*), 4 o weithfaoedd sebon, 143 o wehyddion, a thros 400 o gogyddion cyhoeddus." Y mae y gwaith o wneuthur cleddyfau yn Damascus, yr hwn a fu unwaith mor enwog, wedi dirywio er ys llawer o amser: ond gwneir yno gleddyfau ceimion (*sabres*) da hyd yn bresennol. Y mae yr allforiadau o Damascus yn gynnwysedig yn benaf o sidan crai, gwreiddrudd (*madder*), gwm, opiwm, a ffrwythau sychion. Dywed Lamartine fod ei thrigolion yn rhifo tua 300,000, o ba rai y mae 30,000 yn Gristionogion. Ni rydd cyfrif arall [*M'Culloch's Geograph. Dict.*] ond o 120,000 i 150,000 o drigolion, y rhai a gynnwysant 12,000 o Gristionogion, a chymmaint a hyny o Iuddewon. Y mae Damascus yn ddinas hynod o ddyddorol. Y mae yn drwyadl ddwyreiniol, er y gellir canfod yn bresennol yn ei heolydd gynnrychiolwyr y rhan fwyaf o deyrnasoedd enwog y byd. Mae ei hagosrwydd i Baalbec a Phalmyra—y rhai nid ydynt ond adfeilion, ei sefyllfa lwyddiannus bresennol, ar ol bod yn bodoli am gyfnod meithach, hwyrach, nag un ddinas ar wyneb y ddaiar, yn nghyd â llawer o ffeithiau sydd mewn cyssylltiad â'i hanes, yn cydymuno i wneuthur y dref yn dra enwog.

Y mae cyfnewidiadau gwleidyddol a dylanwadau cymdeithasol wedi lleihau a lliniaru llawer ar benboethni diarebol pobl Damascus. Y mae y dosbarthiadau isaf, yn wir, yn parhau yn benboethiaid; ond y mae teimladau gwell gyda golwg ar grefydd yn ffynu yn mysg y dosbarthiadau uchaf. Pan yr ymwelodd Lamartine â'r ddinas, yr oedd yn rhaid i bob Cristion yn y lle wisgo tyrbanau duon. Dywed wrthym, ei fod ef a'i gymdeithion, wrth agoshau at y ddinas, wedi ymwisgo mewn dillad Tyrcaidd, er mwyn dianc rhag cael eu hadnabod fel Ewropiaid, gan chwanegu, "gwneid y rhagofal hwn yn angenrheidiol gan drigolion penboeth Damascus a'r gymmydogaeth. Y mae pobl Damascus yn casau yr enw a'r wisg Ewropaidd. Hwy yn unig yn mysg y dwyreinwyr sydd wedi gwrthod derbyn consuliaid, neu hyd yn oed ddirprwywyr consulaidd, oddi wrth y galluoedd Cristionogol. Y mae Damascus yn ddinas sanctaidd, benboeth, a rhydd—rhaid peidio ei halogi â dim." Hyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ol, buasai gweled gwisg Ewropaidd ar yr heol yn achosi cynhwrf. Gwaherddid i Gristionogion ac Iuddewon farchogaeth un math o anifail ond asyn. Canfyddodd Addison (yn 1835), pa fodd bynag, gyfnewidiad mawr yno er gwell. Yr oedd trahausder y trigolion yn cael ei gadw oddi mewn i derfynau. Marchogai ef a'i gymdeithion geffylau, a gwelodd luaws mawr o Gristionogion yn ymgymmysgu âg ereill, gan rodio neu ddilyn eu gorchwylion yn eu gwisgoedd priodol eu hunain, heb eu haflonyddu gan neb. Dywed mai yr unig arwyddion o anfoddlonrwydd a ganfyddasant oedd ambell i edrychiad cilwgus yma ac acw, neu ambell i waedd daglyd o "*Yavor*" (anffyddiwr), wedi iddynt droi eu cefnau. Priodola Addison y gwellhad hwn mewn rhan i'r ffaith fod consul Prydeinaidd yn preswylio yn y ddinas. Chwanega y teithiwr hwn:—"Megys 'porth Mecca'—y lle yn yr hwn yr ymgasgla y deithfintai fawr o bererinion—y mae Damascus wedi bod yn cael ei hystyried yn wastadol yn un o'r dinasoedd Moslemaidd mwyaf cyssegredig; a chan ei bod yn cael ei llenwi yn flyneddol gan dyrfa anferth o benboethiaid crefyddol yn prysuro at fedd y prophwyd, nid ydyw yn rhyfedd fod y trigolion wedi bod yn wastadol mor neillduol am eu penboethni a'u rhagfarn tuag at Gristionogion. O'r braidd y byddai yn ddoeth, hyd yn oed yn awr, yn ystod ymgasgliad y deithfintai fawr, i Ewropiaid arddangos eu hunain yn eu hetiau a'u cotiau o flaen y dyrfa o drueiniaid penfoelion a lanwant yr holl heolydd, yn danllyd gan sel grefyddol."—[cyf. ii., td. 449.]

Arweiniwyd Mr. Addison i'r man, yn ol y traddodiad sydd yn mysg y Cristionogion, lle y gwelodd Saul y goleuni o'r nef. Gan deithio o amgylch muriau y ddinas, daeth ef a'i gymdeithion at fan lle yr oeddynt wedi malurio ychydig, lle y dywedir y gostyngwyd Paul i lawr mewn basged, er dianc rhag cynddaredd yr Iuddewon: "Yna y dysgyblion a'i cymmerasant ef o hyd nos, ac a'i gollyngasant i waered dros y mur mewn basged;" *Act.* ix. 25. Oddi yno, aethant yn mlaen at lecyn gwyrddlas, yr hwn oedd wedi ei amgylchu gan goed, dros benau pa rai y gellid gweled crib Mynydd Hermon yn y pellder.

Digitized by Google

Hysbyswyd iddynt mai i'r lle hwn yr oedd Paul wedi cyrhaedd ar ei daith tua Damascus, pan y llewyrchodd o'i amgylch yn ddisymmwth oleuni o'r nef: *Act.* ix. 3. Y mae y lleoedd hyn yn cael eu dangos gyda'r hyder mwyaf gan holl Gristionogion Damascus, ac edrychir arnynt gyda pharch mawr. Canfyddir yr "heol a elwir Uniawn" (*Act.* ix. 11) yn bresennol yn Damascus, neu o'r hyn lleiaf, heol o'r enw hwnw. Dywed Addison, ei bod yn "filltir o hyd," a'i bod "yn cael ei galw felly am ei bod yn arwain yn uniongyrchol o'r porth at y castell neu balas y Pasha." Y mae tŷ Iudas hefyd, i'r hwn yr aeth Ananias, yn cael ei nodi allan hyd yn bresennol, yn gystal a thŷ Ananias ei hunan. Yn agos i'r porth deheuol y mae tŷ, yr hwn y dywedir oedd eiddo Iudah, lle y bu Paul yn llettya ar ol ei dröedigaeth. Y mae ystafell fechan oddi mewn iddo, lle y dywed traddodiad ddarfod i Paul dreulio tri diwrnod heb ymborth, hyd nes yr adferodd Ananias ei olwg iddo. Dywed traddodiad hefyd mai yno y cafodd y weledigaeth y cyfeirir ati yn 2 *Cor.* xii. 2. Saif mosc fechan, tua deugain llath oddi wrth dŷ Iudah, yn yr hon y dywedir y claddwyd Ananias. Y mae yn yr heol a elwir Uniawn hefyd ffynnon, dwfr yr hon a ddefnyddir gan y Cristionogion er coffadwriaeth mai â dwfr y ffynnon hono y bedyddiwyd Paul. Yn agos i'r ddinas, ar y ffordd sydd yn arwain at y gladdfa Dyrcaidd, y mae adeilad, yn yr hon y dywedir y trigai Naaman y Syriad. Y mae yn awr yn yspytty gwahangleifion; ac yn agos iddi y mae beddadail, yr hon y dywed traddodiad sydd eiddo Gehazi, gwas Eliseus, yr hwn a ymneillduodd i Damascus ar ol ei geryddu gan y prophwyd, lle y bu farw. Ond nid oes lawer o hyder i'w roddi yn y cyfryw draddodiadau.

Nid ydys yn gwybod dim yn sicr am hanes boreuol Damascus. Y mae ei hadeiladiad wedi bod yn cael ei briodoli i Abraham, yn nghyd âg i'w oruchwyliwr, "Eleazar o Damascus." Y mae yn amlwg bod y ddinas yn bodoli mor fore a dyddiau Abraham oddi wrth *Gen.* xiv. 15; xv. 2; ond y mae y modd y sonir am dani yn yr adnodau hyn yn dangos mai nid dinas newydd ac anadnabyddus ydoedd, hyd yn oed yn yr adeg hono; canys y mae goruchwyliwr Abraham yn cael ei nodweddoli fel un o Damascus, ac y mae sefyllfa tref arall, sef Hobah, yn cael ei nodi trwy ddyweyd ei bod "o'r tu aswy i Damascus." Y mae L. Müller [*Ad. Orig. Reg. Damascus*] wedi ymgymmeryd â'r gwaith o ddangos ei bod yn cael ei llywodraethu y pryd hyny gan ei llywodraethwyr ei hun. Y mae yn anmhosibl penderfynu pa mor hir y parhaodd yn annibynol; ond ymddengys (2 *Sam.* viii. 5, 6; 1 *Cron.* xix. 4) ddarfod i'r brenin wneyd ymosodiad ar Dafydd fuddugoliaethus, trwy yr hyn y gorchfygwyd y Syriaid â lladdfa fawr gan y penadur Hebreaidd, a darostyngwyd Damascus, a gwnaethpwyd i'w thrigolion dalu teyrnged. Ni pharhaodd y sefyllfa hon o warogaeth yn hir, canys yn nyddiau ei ddilynydd (1 *Bren.* xi. 24), cyfododd un o'r enw Rezon, un o weision Hadadezer, brenin Sobah, a gwnaeth ei hun yn feistr ar Damascus, a chan lywodraethu ar Syria, "yr oedd efe yn wrthwynebydd i Israel holl ddyddiau Solomon." Ar ol Rezon, meddiannwyd yr orsedd gan Hezion: dilynwyd yntau gan ei fab Tabrimmon (1 *Bren.* xv. 18, 19), yr hwn ydoedd mewn cynghrair âg Asa, brenin Iudah. Gan gadw yr un llinell uniongyrchol, disgynodd y goron drachefn i Benhadad; yr hwn, gan ei fod mewn cynghrair â Baasa, brenin Israel, a lwgrwobrwywyd gan Asa i adael ei gynghreiriad, ac i ymuno âg ef i ymosod ar Baasa, yr hwn a niweidiwyd yn fawr gan y byddinoedd unedig (1 *Bren.* xv. 19, 20). Yn amser Benhadad, mab y brenin blaenorol, yr oedd Damascus yn brif ddinas ymherodraeth gadarn, gan yr ymddengys (1 *Bren.* xx. 1) fod "deuddeg brenin ar ugain" (tywysogion a llywodraethwyr taleithiau, y mae yn debygol) yn ei ddilyn yn yr ymgyrch a wnaeth efe yn erbyn Samaria. Wrth Ahab, ei brenin, dywedodd yn drahaus, trwy y cenadau a anfonodd efe ato, "Dy arian a'th aur sydd eiddof fi; dy wragedd hefyd, a'th feibion glanaf, ydynt eiddof fi." Nid oedd gan frenin Israel ddim i'w wneyd ond ufuddhau:—"Yn ol dy air di, fy arglwydd frenin, myfi a'r hyn oll sydd genyf ydym eiddot ti." Cynnyddwyd gwancusrwydd Benhadad gan y parodrwydd hwn i gydsynio â'i gais; ac efe a aeth yn mlaen yn ei haerllugrwydd, yr hyn a fu yn foddion i gyffroi digofaint Ahab. Ymgynghorodd brenin Israel â holl "henuriaid y wlad;" a chan iddo gael ei annog ganddynt i wrthod cydsynio â gofynion Benhadad, cyfarfu â bygythion y brenin hwnw â'r geiriau nodedig hyn:—"Nac ymffrostied yr hwn a wregyso ei arfau, fel yr hwn sydd yn eu diosg." Ymroddodd brenin Damascus yn ddiarswyd i gyfeddach a meddwdod. Yr oedd Ahab dan ddylanwadau crefyddol. Ymladdwyd y frwydr; gorchfygwyd y Syriaid, a thrwy gryn drafferth y llwyddodd y brenin i ddianc. [Gwel BENHADAD.] Ymosodwyd ar Hazael, dilynydd Benhadad, gan ei fod yn anfoddlawn i roddi i fyny y gobaith am fod yn feistr ar Ramoth-Gilead, gan alluoedd unedig Iudah ac Israel, pa rai a orchfygwyd ganddo, gan glwyfo Ioram (2 *Bren.* viii. 28); a'r hwn, yn ddiweddarach, dan Iehu (2 *Bren.* x. 32), a anrheithiodd ran helaeth o deyrnas Israel, gan "ddyrnu Gilead âg offer dyrnu o heiyrn;" *Amos* i. 3. Yna aeth Hazael i fyny tuag Ierusalem (2 *Bren.* xii. 17); ond anfonodd y brenin Ioas iddo drysorau gwerthfawr, yn nghyd â'r holl aur a gafwyd yn nhŷ yr Arglwydd ac yn ei dŷ ei hun, yr hyn a fu yn foddion i beri iddo droi yn ei ol. Meddiannodd, pa fodd bynag, deyrnas Israel (2 *Bren.* xiii. 3), ac er ymddwyn tuag at y bobl yn orthrymus, llwyddodd i'w trosglwyddo i ddwylaw ei fab, Benhadad III, yr hwn a gafodd ei orchfygu dair gwaith gan y brenin Israelaidd Ioas (2 *Bren.* xiii. 24), ac a amddifadwyd o'i holl fuddugoliaethau. Cymmerodd Ieroboam II. (2 *Bren.* xiv. 28) fantais oddi wrth hyn, a meddiannodd Damascus ei hunan. Cymmerodd undeb rhwng Israel a Damascus le ar ol hyn, pan yr ymgyfammododd (2 *Bren.* xv. 37) Resin, brenin y diweddaf, a Pecah, brenin Israel, â'u gilydd, a yr ymgymmerasant â rhyfelgyrch yn erbyn Ahaz, brenin Iudah (*Esa.* vii. 1). Llwyddasant i ddwyn Elath drachefn at Syria (2 *Bren.* xvi. 6); ond methasant yn eu hamcan gyda golwg ar Ierusalem. Erfyniodd Ahaz, pa fodd bynag, am gymhorth Tiglath-pileser, brenin Assyria, ac anfonodd iddo anrhegion mawrion; cydsyniodd y brenin hwnw â'i gais, ac ymosododd ar Damascus, gorchfygodd hi, a dygodd ei thrigolion yn gaethion i Cir (ar yr afon Cur), lladdodd Resin, a chyssylltodd diriogaeth Damascus â'i deyrnas ei hun (2 *Bren.* xvi. 9; *Esa.* viii. 4; x. 9; xvii. 1). Syrthiodd Damascus ar ol hyn dan awdurdod y Babiloniaid a'r Persiaid, oddi ar ba rai y cymmerwyd hi gan Alexander Fawr, fel un o ganlyniadau ei fuddugoliaeth yn Issus [*Arian, Exped. Alex.*, ii. 11, 15; *Curt.*, iii. 12]. Yna bu yn rhan

Digitized by Google

o deyrnas y Seleucidæ, oddi wrth ba rai y disgynodd i ddwylaw y Rhufeiniaid [*Flor.* iii. 5; *Diod. Sic.* xxxix. 30]. Perthynai, yn amser Paul, i deyrnas ddibynol y tywysog Arabaidd Aretas. Mewn cyfnod diweddarach, rhestrid hi yn mysg dinasoedd Decapolis [*Plin. Hist. Nat.*, v. 16]; yna chwanegwyd hi at dalaeth Phœnicia; ac o'r diwedd ffurfiai ran o dalaeth Phœnicia Libanesia. O amser Hadrian, mwynhäai y teitl o brif ddinas, ond nid oedd yn meddu breintiau prif ddinas. Dan ymherawdwyr Groegaidd Caer Cystenyn, Damascus oedd dinas enwocaf y dwyrain, ac yr oedd yn nodedig am ei chyfoeth, ei moethau, ei gorwychder, a lluosogrwydd ei poblogaeth Gristionogol. Cyfnod pwysig yn ei hanes oedd ei dymchweliad gan y Saraceniaid. Dechreuwyd y rhyfel tua B. A. 633, gan yr enwog Abubeker, dilynydd Mohammed; a diweddodd yn nghwymp y ddinas, a sefydliad Mahometiaeth yn lle Cristionogaeth ynddi. Daeth wedi hyny yn brif ddinas yr holl fyd Mahometaidd, hyd nes y symmudwyd y galiphiaeth o honi i Bagdad. Parhaodd y ddinas dan lywodraeth caliphiaid Bagdad hyd nes y daeth i ddwylaw y Tyrciaid, ac y gwnaethpwyd hi yn enwog gan Noureddin a Saladin. Yn y flwyddyn 1301, meddiannwyd y ddinas gan Timour y Tartariad, yr hwn a ymddygodd yn greulawn tuag at y trigolion. Ymddengys oddi wrth Josephus [*De Bell. Jud.*, i. 2; xxv. 2, cymharer *Act.* ix. 2] fod nifer lluosog o Iuddewon yn preswylio yn y ddinas.—(*Penny Cycl.*; *Calmet's Dict.*; *Kitto's Cycl.*; *Rel. Encycl.*)

**DAMIANIAID**: plaid grefyddol yn y chweched ganrif, a elwid wrth yr enw hwn oddi wrth Damian, esgob Alexandria. Yr oedd eu daliadau yn gyffelyb i ddaliadau yr Angeliaid. [Gwel d.g.]

**DAMMEG—ION** (*meg*). Y gair arferedig am *ddammeg* yn y Testament Newydd yw παραβολη, o'r ferf παραβαλλω; ac yn arwyddo cyflead o wahanol bethau, megys llongau mewn rhyfel ochr yn ochr. Yn y Testament Newydd, arwydda dammeg *cyffelybiaeth.* Yn *Marc* iv. 30, cyfieithir y gair *cyffelybrwydd*; yn *Heb.* xi. 19, *cyffelybiaeth*; yn *Heb.* ix. 9, *cyffelybiaeth*, yn gyfystyr â chysgod. Yn y lleoedd crybwylledig, arferir y gair mewn ystyr cyffredinol, anmhenodol, yn gosod allan unrhyw fath o gyffelybiaeth neu gymhariaeth. Defnyddir y gair hefyd mewn ystyr eang i ddynodi ymadrodd tywyll, ffugrol, ac aneglur—ymadrodd yn meddu ystyr cuddiedig; *Mat.* xiii. 35: ac am ddiareb neu wireb; *Luc* iv. 23; a'r Deg a Thrigain yn 1 *Sam.* x. 12; *Ezec.* xviii. 2. Yn fwyaf neillduol, defnyddir y gair i ddynodi y *ddammeg*, fel yn wahaniaethol oddi wrth gymhariaethau ereill, ac oddi wrth ddiarebion ac ymadroddion yn meddu ar ystyr aneglur. Yn yr ystyr hwn yr arferir y gair yn y tair efengyl cyntaf; ond nid yn un lle arall yn y Testament Newydd. Nid yw y gair παραβολη i'w gael yn y bedwaredd efengyl; ond arferir gair arall—παροιμια—sydd yn agos o'r un ystyr; a chyfieithir ef â'r gair *dammeg*: *Ioan* x. 6; xvi. 25. Tra mai ystyr neillduol ac amlaf y gair παραβολη ydyw dammeg, ac nad yw yr ystyron ereill yn perthyn iddo ond yn anfynych; nid yw παροιμια yn dynodi y ddammeg, ond yn Ioan yn unig: ei arwyddocâd mwyaf cyffredin yw, ymadrodd ffugrol, dywediad tywyll, llawn o feddwl cuddiedig. Yn y Deg a Thrigain, defnyddir ef i olygu gwirebau byrion a chynnwysfawr, neu ddiarebion. Y mae y ddau air, fel y gwelir, yn cael eu harfer mewn ystyr anmhenodol ac eang, yr un fath a'r gair Hebraeg *mashal.*

Y mae amryw, o bryd i bryd, wedi cymmeryd arnynt roddi darnodiad o ddammeg; "ond," fel y sylwa Trench, "nid yw yn orchwyl hawdd ffurfio y fath ddarnodiad boddlonol, fel ag i beidio gadael allan un o'i phethau nodweddiadol, ac ar yr un pryd peidio dwyn dim i mewn a fyddai yn afreidiol, ac yn unig yn ddamweiniol." Dysgrifia Jerome y ddammeg fel "araeth neu ymadrodd buddiol, yn cael ei gosod allan trwy ffugr cymhwys, ac yn cynnwys o'i mewn ryw addysg ysbrydol." "Y ddammeg," medd Unger, "sydd gyffelybiaeth, trwy hanes ffugrol, ond tebyg i wirionedd, yn arddangos pethau mwy goruchel mewn dull difrifol." "Dammeg," medd Teelman, "sydd gyffelybiaeth oddi wrth bethau cyffredin ac eglur, i osod allan rywbeth ysbrydol a nefol." Y mae Bengel hefyd yn ei darnodi fel y canlyn—"Y ddammeg sydd araeth, yr hon, trwy hanes ffugiedig, ond eto yn debyg i hanes gwirioneddol, wedi ei gymmeryd oddi wrth bethau perthynol i fywyd cyffredin, sydd yn arddangos gwirioneddau llai amlwg, sef gwirioneddau moesol." Er fod y darnodiadau hyn yn gystal ag a ellid ddymuno, ac yn cymmeryd i fewn fwy o nodweddau y ddammeg nag eiddo yr ysgrifenwyr clasurol—er anghraifft, Cicero, darnodiad yr hwn o ddammeg ydyw *collatio*=cymhariaeth—er eu bod, meddwn, yn rhoddi drychfeddwl cyffredinol am ei natur, eto, nid ydynt yn cymmeryd sylw o'r pethau sydd yn ei gwahaniaethu oddi wrth ddulliau ffugrol a chymhariaethol ereill o weinyddu addysg. Yn awr, gyda chynnorthwy rhai o'r ysgrifenwyr goreu ar y mater, ni a geisiwn roddi rhyw syniad i'n darllenwyr am natur a nodweddau y ddammeg, trwy edrych am y gwahaniaeth sydd rhwng y dull hwn o addysgu a dulliau ereill cyffelyb.

Y mae y ddammeg i'w gwahaniaethu oddi wrth yr *alleg* (*fabula*=*fable*).[1] Y mae y gwahaniaeth rhwng y ddammeg a'r alleg yn fwy dwfn na'r golygiad fod yr olaf yn mynegu am ddygwyddiad a gymmerodd le mewn gwirionedd, tra nad yw y cyntaf ond yn edrych ar y dygwyddiad fel yn bosibl. Y mae a wnelo yr alleg yn unig â gwirebau wedi eu cymmeryd oddi wrth gallineb bydol: y mae hi "o'r ddaiar yn ddaiarol." Nid yw byth yn amcanu at ddim uwch nag addysgu ac argymhell gwersi moesol, a'r gwersi hyny yn llawn o hunanoldeb gan amlaf. Y mae prif elfen rhinwedd, sef cariad, yn gorwedd y tu allan i gylch addysgiaeth yr alleg. Y gwersi uchaf o'i heiddo ydyw hunan-ofal, diwydrwydd, callineb, rhagwelediad — y pethau uchaf yn nghyfrif y dyn anianol. "Y mae yr alleg yn cyrhaedd hyd at y pwynt hwnw o foesoldeb, yr hwn y gall dynion y byd ei ddeall a'i gymmeradwyo."—*Trench.* Y mae yn amlwg, felly, fod y gwahaniaeth rhyngddynt yn wahaniaeth mewnol a hanfodol, ac nid yn wahaniaeth o ran gwedd allanol, fel y barna Herder, a Lessing, ac ereill. Dichon i'r gwahaniaeth allanol fod mewn rhai anghreifftiau, ond nid yw yn alluog o gymhwysiad cyffredinol. Yr oedd yr hynafiaid (Aristotle, Cicero, Quintilian) yn tybied mai y gwahaniaeth yw, fod yr alleg yn gyfansoddiad mwy, a'r ddammeg yn gyfansoddiad llai perffaith a gorphenedig. Barnai Lessing, fel y sylwyd eisoes, fod yr alleg yn dwyn yn mlaen y ffaith fel yn wirioneddol, a'r ddammeg fel yn bosibl, ac mai

[1] Yn yr ysgrif hon arferir *alleg* am *fable*, a *chwedl* am *myth.*



Digitized by Google

yn hyn y gorweddai y gwahaniaeth. Yn ol barn Herder, cynnwysir y gwahaniaeth rhyngddynt yn hyn, fod yr alleg yn gwneyd defnydd o'r greadigaeth ddireswm, a'r ddammeg yn cymmeryd y greadigaeth resymol yn gyfrwng ei haddysgiadau. Y mae Olshausen (ar *Mat.* xiii.) yn gwrthod esboniad Lessing ar y gwahaniaeth sydd rhyngddynt, am fod y ddammeg ysgrythyrol yn llefaru am y dygwyddiad fel wedi cymmeryd lle mewn gwirionedd, ac nid yn unig fel dygwyddiad posibl i gymmeryd lle; felly y mae y gyntaf o ddammegion Iesu Grist, sef dammeg yr hauwr. Ac yn erbyn golygiad Herden, dwg yn mlaen ddammegion yr Hen Destament, yn enwedig *Ezec.* xvii. 1, &c., "yn yr hon y mae y greadigaeth ddifywyd yn ddeiliad neu yn sylfaen y ddammeg." Ar y llaw arall, y mae dynion yn cael eu dwyn yn mlaen yn allegau Æsop, i'r dyben o'u gwneyd yn gyfryngau i drosglwyddo gwersi y bardd. Y mae y gwahaniaeth rhyngddynt, yn ol barn Olshausen, yr un ag a bleidir gan Trench ac ereill. "Y mae y gwahaniaeth, yn ddiddadl, yn rhywbeth mewnol. Y mae y tir y saif ysgrifenydd allegau arno yn is, a'i amcan heb fod mor uchel. Ni fwriada yr alleg ddim uwch na chyfeirio at rinweddau daiarol, neu ansoddau canmoladwy." Yn awr, gan fod creaduriaid direswm, megys y morgrugyn, y ci, yr ych, yn feddiannol ar ansoddau hoffus, megys diwydrwydd, ffyddlondeb, dyfalbarhad, a'r cyffelyb—gan yr edrychir ar rai anifeiliaid fel cynnrychioliaid rhyw fath o ansoddau canmoladwy, y mae y natur anifeilaidd yn cael ei defnyddio mewn modd tra manteisiol yn yr alleg i addysgu ac argymhell yr ansoddau greddfol mewn creaduriaid direswm ydynt yn rhinweddau mewn dyn. Ac os dygir dynion yn mlaen fel cyfryngau addysg yn yr alleg, nid edrychir arnynt yn eu perthynasau uchaf, yn eu cyssylltiad â Duw ac â'r byd ysbrydol, ond yn unig yn y pethau hyny sydd ganddynt yn gyffredin â'r byd anifeilaidd. Ond y mae y ddammeg yn ein dyrchafu i diriogaeth uwch—i diriogaeth foesol, neu yn hytrach yr ysbrydol. Y mae a wnelo yr alleg â pharth isaf y byd moesol; ond y mae y ddammeg yn ymddyrchafu at y perthynasau moesol uchaf, ac y mae yn myned uwch law y moesol at yr ysbrydol a'r dwyfol. Nid callineb dynion y byd hwn y mae hi yn ei addysgu, ond y "ddoethineb sydd oddi uchod:" "pethau nefol" sydd ganddi hi i'w llefaru, fel y Prophwyd Mawr ei hun; ac felly, nid yw hi yn ymdroi dim yn myd y creaduriaid direswm, creaduriaid analluog o ran eu natur i ymwneyd â'r moesol a'r ysbrydol. Pan y dygwydda y ddammeg yn achlysurol gyffwrdd â naturiaeth ddireswm, y mae yn edrych arni yn ei pherthynas â Duw. Pan yr ymdrinir â dynion yn yr alleg, cymmerir hwynt yn eu perthynasau iselaf; pan y dygir anifeiliaid i mewn i'r ddammeg, cymmerir golwg arnynt yn eu gwedd a'u perthynas uchaf. "Gan nad ydyw perthynas anifeiliaid â'u gilydd," medd Dr. Trench, "yn berthynas ysbrydol, nis gall weini cyfatebion mewn un modd er cynnorthwyo i ddeall egwyddorion teyrnas Dduw. Ond y mae holl berthynas dyn â dyn yn ysbrydol, ac y mae amryw o'i gyssylltiadau â'r byd islaw iddo felly hefyd. Y mae ei arglwyddiaeth ar y byd anifeilaidd, er anghraifft, yn gorphwys ar ei natur ysbrydol, yn awdurdod wedi ei rhoddi iddo oddi uchod; gan hyny, fel yn nammeg y bugail a'r defaid (*Ioan* x.), gwasanaetha i osod allan wirioneddau dyfnach o barth perthynas Duw â dyn."

Y mae yr alleg, *o ran ei ffurf*, yn ymwrthod â phethau fel y maent; ac er mai addysgu gwirionedd ydyw ei hamcan, eto y mae yn gwneuthur hyny trwy ddychymygion; y mae yn gwisgo y gwersi a addysga mewn gwedd sydd yn wrthwyneb i ffeithiau. Y mae creaduriaid direswm yn ymresymu, a rhai dileferydd, a hyd yn oed difywyd, yn siarad ac yn gweithredu; ond y mae holl wedd allanol y ddammeg yn debygol; ac nid oes un gwrthddrych nac un dygwyddiad yn cael ei ddwyn ger bron ond a ddichon fod mewn gwirionedd. "Yn meddwl y dyn sydd yn addysgu trwy ddammegion," medd un ysgrifenydd, "y mae creadigaeth Duw, fel y daeth o law y Creawdwr, yn rhy berffaith, yn rhy gyssegredig, i gael ei gosod allan mewn gwedd wahanol i'r wedd sydd arni." Ac felly, nid ydym yn cael yn nammegion Iesu Grist un troseddiad ar ddeddfau sefydledig natur, na dim gor-ryfedd neu ddiddeddf; nid oes ynddynt hwy na phrenau yn siarad nac anifeiliaid yn ymresymu; buasai hyny yn anghydweddol â phwysigrwydd eu gwersi, ac â difrifwch eu hamcan.

Y mae gwahaniaeth hefyd rhwng y ddammeg a'r chwedl (*myth*). Mewn chwedloniaeth, y mae yr ystori yn cael ei hadrodd fel gwirionedd; ac y mae yn dueddol i feddyliau anmhrofiadol ei derbyn fel adroddiad gwir o ffeithiau. Y meddwl craffus yn unig a dichon weled nad ydyw y chwedl yn ddim amgen na chyfrwng i drosglwyddo rhyw wirionedd mwy syml. Ac nid yw y drychfeddwl am y gwahaniaeth rhwng y chwedl a'r gwirionedd sydd yn gorwedd dani yn adnabyddus, yn y cyffredin, yn oes ffurfiad y chwedl ei hun—ac yn yr amseroedd y mae y meddwl cyffredin yn rhoddi crediniaeth frwdfrydig iddi. Perthyna y gwaith o dreiddio hyd at y gwirionedd mewnol, o ysgaru y drychfeddwl syml oddi wrth y wisg farddonol a dychymygol, i oesoedd diweddarach, o dueddiad a gallu mwy athronaidd a manwl. Tra y mae yr ystorion chwedlonol yn cael eu llefaru, nid fel gwisg neu gyfryngau trosglwyddiad y gwirionedd, ond fel pe mai hwy ydynt y gwirionedd ei hun, y mae yn wahanol yn y ddammeg; y mae hi yn cael ei chyfleu yn y cyfryw fodd fel ag i alluogi pob meddwl ar unwaith i ddeall mai ffurf allanol ar y gwirionedd ydyw; fod rhyw gnewyllyn yn amgauedig o fewn y plisgyn, ac mai llestr gwerthfawr ydyw, fel y dywed un awdwr, yn cynnwys gwin sydd yn fwy gwerthfawr fyth. Nis gallwn dybied y byddai yn bosibl i unrhyw oes, pa mor anfanylaidd ac anathronaidd bynag, gamsynied gyda dammegion ein Hiachawdwr yn yr un dull ag y gwnaeth dynion gyda'r chwedlau paganaidd; sef edrych ar y ddammeg fel y gwirionedd ei hun, nid fel y wisg am dano, a'r cyfrwng i'w drosglwyddo.

Er fod y gair παραβολη yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd (*Luc* iv. 23; v. 36) am ddiareb yn gystal ag am ddammeg, a bod παροιμια, yn Ioan, fel y crybwyllwyd eisoes, yn cael ei arfer am ddammeg yn gystal ag am ddiareb neu wireb gynnwysfawr; eto, y mae y nifer fwyaf o'r ysgrifenwyr ar y materion hyn, tra yn addef fod mwy o gyffelybrwydd yn y ddammeg i'r ddiareb nag i'r alleg, nac i'r chwedl, yn barnu nad ydynt yn hollol gyfystyr. Y mae y ffaith mai yr un gair a arferir yn Hebraeg am y ddau ddull o ymadroddi yn dangos nad yw y gwahaniaeth rhyngddynt yn un hanfodol, fel y gwahaniaeth sydd rhwng yr alleg a'r ddammeg. Y mae y gwahaniaeth rhyngddynt yn bod yn eu ffurf.

Digitized by Google

Priodoleddau ffurf y ddiareb ydyw byrder—ei bod yn gynnwysfawr, ac yn cynnwys rhyw gyferbyniad. Dammeg wedi ei chrynhoi ydyw diareb; a diareb wedi ei helaethu a'i gosod allan mewn gwisg ffugrol ydyw dammeg. "Y mae y ddiareb," medd Trench, "er nad o angenrheidrwydd, eto yn dra chyffredin, yn ddammegawl; hyny yw, y mae wedi ei hadeiladu ar ryw ffugr erybwylledig neu ddealledig; fel, er esampl, 2 *Pedr* ii. 22. Ac o'r ochr arall, y mae y ddiareb yn aml yn ddammeg wedi ei chrynhoi." Gellid, er enghraifft, estyn y ddiareb, "Os y dall a dywys y dall, hwy ill dau a syrthiant yn y clawdd," yn ddammeg, ac y mae mewn lluaws o ddiarebion gyfeiriad at allegau meithion. Y diarebion yn y cyffredin ydynt eu cnewyllyn—y gwirionedd a gynnwysant yn cael ei draddodi mewn ychydig eiriau.

Y mae y ddammeg yn gwahaniaethu hefyd oddi wrth yr alegori. Y mae y gair αλληγορια yn arwyddo fod un peth yn cael ei egluro o dan ddelw peth arall. Y mae ynddi ddau beth yn cael ei arddangos, ac y mae gwerth yr arddangosiad allanol, sydd fwyaf dealladwy, yn gynnwysedig yn gwbl yn ei gyfaddasrwydd i osod allan yr hyn sydd yn gorwedd dano. Y mae Trench yn sylwi fod yr alegori yn gwahaniaethu oddi wrth y ddammeg yn fwy yn ei ffurf nag yn ei sylwedd. Yn yr alegori, y mae yr hyn a arwyddoceir wedi ei gydwau â'r hyn sydd yn ei arwyddo; y mae ansoddau a gweithrediadau yr olaf yn cael eu priodoli i'r cyntaf; ond yn y dammeg, y mae y naill a'r llall yn cael eu cadw ar wahan, a'u cyfleu ochr yn ochr, fel y mae y gair yn dynodi. Y mae y gair "Wele Oen Duw," yn ymadrodd alegoraidd: y mae "Fel Oen yr arweiniwyd ef i'r lladdfa," ar y llaw arall, yn ymadrodd dammegawl. Yn y naill y mae un arddangosiad yn gorwedd *dan* arddangosiad arall; yn y llall, y mae y naill yn cael ei gyfleu yn ymyl y llall, i'r dyben o ddangos y cyffelybrwydd rhyngddynt. Y mae Esgob Lowth yn esbonio y gwahaniaeth yn yr un dull. Yn *Esa.* v. 1—6, yr ydym yn cael dammeg, a'r eglurhad yn cael ei roddi arni yn *adn.* 7. Y mae y dull hwn o ymadroddi yn cau allan ymadroddion llythyrenol neu amwysaidd: y mae pob gair yn ffugrol; ond yn *Salm* lxxx. 9—18, yr ydym yn cael o dan yr un ffugr, sef Israel o dan y gyffelybiaeth o winwydden, anghraifft o'r alegori. Yno, y mae y ffugr, a'r hyn a arwyddoceir trwyddo, yn cael eu cymmysgu, heb droseddu ar reolau yr alegori. Y mae yr un meddwl yn cael ei osod allan yn y naill yn y geiriau, "bwriaist y cenedloedd allan," ag sydd yn y llall yn y geiriau hollol ffugrol, "Efe a'i cloddiodd hi, ac a'i digaregodd hi." Yn yr alegori, y mae y winwydden yn cael ei dyfetha "gan gerydd wyneb Duw;" ond yn y ddammeg, y mae y dull ffugrol yn cael ei gadw yn mhob ymadrodd; y mae ei chae yn cael ei dynu ymaith, a hithau yn myned yn sathrfa, yn cael ei hysgythru, drain yn cyfodi ynddi, a'r cymylau yn cael gorchymyn i beidio gwlawio mwyach arni. Y mae ymadroddion, y rhai yn yr alegori ydynt yn feddiannol ar brydferthwch mawr, ac yn berffaith gydweddol â'r chwaeth buraf, a fyddent yn eithaf anmhriodol yn y ddammeg. "Amcan yr alegori," medd owth, "ydyw addurno y mater, er ei osod allan yn fwy mawrwych; fel, trwy ei ddysgrifio mewn iaith fwy dyrchafedig, y gallai daraw y meddwl yn fwy grymus: ond amcan y ddammeg ydyw symmud y gwirionedd am ennyd oddi ger bron ein meddwl, mewn trefn i gelu pa beth bynag a gynnwysa fyddo o duedd i dramgwyddo ac anfoddloni, ac i beri iddo yn ddystaw a dirgelaidd weithio ei ffordd, ac ennill goruchafiaeth megys yn lladradaidd." Nid yw yn angenrheidiol esbonio yr alegori fel y ddammeg, o blegid y mae hi rywfodd yn esbonio ei hun; "y mae yn cynnwys ynddi ei hun ei heglurhad; ac fel y mae yr alegori yn myned rhagddi, y mae yr eglurhad yn myned law yn llaw gyda hi." "Nid yw yr alegori," medd Poelitz,[1] "yn enwi y gwrthddrych sydd i gael ei ddarlunio, ond y mae yn peri iddo fod yn y golwg, mewn ffugr neu gymhariaeth sydd yn cyfateb yn hollol âg ef; ac nid yw o un pwys pa un fyddo y gwrthddrych a ddarlunir ai gwirionedd rheswm, ynte egwyddor foesol."

"Y mae rhagoriaeth dammeg," medd Kitto, "yn dibynu ar briodoldeb a nerth y gymhariaeth ar ba un y mae yn cael ei seilio; ar ei chyfaddasrwydd cyffredinol, a chydweddiad ei rhanau neillduol; ar eglurdeb ei phrif nod neu ei hamcan; ar brydferthwch a chymhwysedd yr arddull yn mha un y gosodir hi allan, ac ar ei chymhwysder i gyfarfod amgylchiadau a galluoedd y gwrandawyr." Os cymmerir y ffugr oddi wrth wrthddrychau fyddont i raddau yn anadnabyddus, pa mor briodol bynag fyddo y cydweddiad, nis gall ddyddori y gwrandawyr, am nas gall daflu iddynt ddim goleuni ar y mater dan sylw. Tuedd y dull hwn fyddai gwneyd yr hyn oedd yn dywyll o'r blaen yn fwy aneglur fyth, o herwydd dyeithrwch y gymhariaeth. Pe yr edrychid i mewn i holl ddammegion yr Ysgrythyrau, fe welid nad ydynt yn ddiffygiol yn y cymhwysder hwn. Y maent yn gyffredin wedi eu hadeiladu ar wrthddrychau ac arferion cyffredin ac adnabyddus—pethau natur gan mwyaf. Edrycher *Esa.* v. 1—7; *Ezec.* xv, a xix. 10, 14; xix. 1—9; a xxxi. Un anghraifft neillduol o'r cyfaddasder yma o ran eglurdeb sydd yn nammegion yr Ysgrythyrau ydyw, y gymhariaeth aml sydd yn gosod allan gariad Duw at ei bobl, a'i ffyddlondeb cyfammodol iddynt, a'u hymlyniad hwythau wrtho ef dan y ffugr o gyfammod priodasol. Nid oes braidd un o'r prophwydi nad ydynt, i fesur mwy neu lai, yn defnyddio y gymhariaeth hon. Yn chwanegol at briodoldeb ac eglurder y gymhariaeth, y mae hefyd yn angenrheidiol iddi fod yn brydferth; o blegid nid egluro y mater ydyw unig amcan y ddammeg—yr hon sydd yn un gangen o farddoniaeth—ond ei wneyd yn fwy tarawiadol ar y meddwl. "Y mae y ffugrau oddi wrth wrthddrychau natur yn rhagori ar bob gwrthddrychau ereill yn hyn," medd Lowth, "o blegid y mae yn mron bob darlun o natur, os caiff ei dynu yn gywir, yn feddiannol ar brydferthwch arbenig. Os oes rhai o fath gwahanol, y cyfryw ag a ellid eu hystyried yn llai coeth a thlws, dylid ystyried pa un ai nid ydynt i'w rhestru yn mysg y dammegion hyny ag y mae eu prydferthwch ar goll i ni, er nad oeddynt, efallai, yn amddifad o brydferthwch i bobl yr oes a'r wlad y cawsant eu llefaru ynddynt." Dylai holl ranau y ddammeg fod hefyd yn eglur, ac yn berthynol i'w gilydd ac i'r cyfan. Ni ddylid, ar yr un pryd, dysgwyl i gyffelybrwydd fod rhwng holl fanylion y ddammeg a'r hyn a fwriedir arddangos;—"*non enim res tota rei necesse est similis sit,*" medd Cicero,—"nid yw yn angenrheidiol iddi fod yn gyffelyb i'r cyfan;"—ond gellid dysgwyl fod y ddammeg a'r wers a fwriedir ei dysgu yn cyd-daraw ac yn cydweddu â'u gilydd yn y pethau ag y mae drychfeddwl mawr y ddammeg

[1] Dyfynedig gan Lisco *On the Parables.*

Digitized by Google

yn gorphwys arnynt. Y mae holl ddammegion yr Hen Destament, ar wahan oddi wrth nodwedd oruchel y gwersi a gynnwysant, yn gynlluniau o ddammegion perffaith. O barth i brydferthwch a phriodoldeb dammegion Iesu Grist, ni a gawn sylwi dan y gair hwnw.

Y mae y dull dammegawl o weinyddu addysg i'w gael yn llenyddiaeth pob cenedl. Yr oedd y ddammeg neu yr alleg yn cael ei galw gan y Groegiaid, *αἶνος*, a chan y Rhufeiniaid, *fabula*. Arferwyd edrych ar y ddammeg fel yn cynnwys dwy ran—y *protasis*, yn trosglwyddo yr ystyr llythyrenol yn unig; a'r *apodosis*, yn cynnwys yr ystyr cyfriniol, sef y wers foesol neu ysbrydol a addysgir yn yr ystori. Nid yw, fodd bynag, yn angenrheidiol fod yr ystyr olaf yn cael ei grybwyll: y mae yn cael ei adael allan o amrai o ddammegion yr Iachawdwr, pan yw y gwirionedd a osodir allan yn gyfryw ag yr oedd y dysgyblion yn anaddfed ar y pryd i'w dderbyn a'i ddeall, neu pan fwriadai ddadguddio rhyw wirionedd a fynai ei gadw yn guddiedig oddi wrth yr Iuddewon anghrediniol.

Ni a ganfyddwn mewn hanesiaeth Ysgrythyrol fod y ddammeg a'r alleg yn ddau ddull arferedig yn amseroedd yr Hen Destament, ac yn cydweddu yn arbenig â theithi meddwl y dwyreinwyr yn yr oesoedd hyny. Yn Llyfr y Barnwyr (ix. 8, 15) ni a gawn ddammeg (neu fel y mae Lisco yn ei galw, "alleg")[1] y prenau yn dewis brenin arnynt, yr hon a lefarodd Iotham wrth wŷr Sichem, i'r dyben o'u hargyhoeddi o'u ffolineb yn eu gwaith yn dewis dyn mor wael ag Abimelech yn frenin. Cawn hefyd ddwy ddammeg brydferth yn Ail Lyfr Samuel (xii. 1—7, a xiv. 1); yn y gyntaf o'r rhai y mae Nathan yn argyhoeddi Dafydd o'i bechod yn achos Uriah; ac yn yr ail y mae y wraig o Tecoa yn ymbil am ffafr y brenin tuag at Absalom. Ond, fel y dywed Trench, er mai yn yr Ysgrythyrau y ceir yr anghreifftiau perffeithiaf o'r dull hwn o weinyddu addysg, ac mai y dammegion Ysgrythyrol ydynt y cynllun i farnu gwerth a phrydferthwch llenyddol dammegion ereill, eto, prin y gellid edrych ar ein hymchwiliad i'r gangen hon o lenyddiaeth yn gyflawn heb i ni dalu rhywfaint o sylw i ddammegion cyffredin—rhai mewn llyfrau ereill heb law y Beibl. Y mae gan yr awdwr y cyfeiriasom ato bennod gynnwysfawr yn ei waith ar y testyn hwn, ar y rhan yma o hono, o'r hwn y gwnawn grynodeb yn y sylwadau canlynol.

Yr oedd y ddammeg yn un o'r cyfryngau penaf i weinyddu addysg o bethau moesol yn ngwledydd y dwyrain; a chafodd y dull hwn ei anrhydeddu gan Iesu Grist, trwy ei wneyd yn gyfrwng trosglwyddiad y gwirioneddau a'r gwersi ysbrydol uchaf. Y mae rhai wedi cael eu harwain—oddi ar ofn, dybygid, rhag i wreiddioldeb addysg Iesu Grist gael ei gymylu gan ddim—i wadu y ffaith fod y dull dammegawl yn adnabyddus i'r Iuddewon o flaen dyddiau ein Iachawdwr. Ond heb law fod y gwadiad ei hun yn groes i ffeithiau, mae yr ofn a barodd i rai wadu y ffaith yn codi oddi ar syniadau anaddfed am wreiddiolder addysg ein Iachawdwr. "O blegid," fel y sylwa un awdwr, "os Cristionogaeth ydyw y grefydd gyffredinol, y mae yn rhaid iddi grynhoi yn nghyd yr holl belydrau gwasgaredig o oleuni: y mae yn rhaid iddi gymmeryd meddiant o holl elfenau gwirionedd sydd i'w cael yn mhob cyfundrefn; ac wrth wneuthur hyn, nid yw yn cymmeryd gafael ar yr hyn sydd yn ddyeithr iddi, ond yn hytrach yn hawlio yr hyn sydd yn eiddo iddi ei hun." Er fod cynnwysiad neu fater gweinidogaeth yr Iesu yn anghydnaws â chwaeth calon ei gydoeswyr, eto nid ydym i feddwl ei fod wedi gwisgo ei athrawiaeth yn y ffurf fwyaf anghydnaws; ond yn gwbl i'r gwrthwyneb. Arferai ef appelio at ddiarebion a gwirebau yr oeddynt yn gyfarwydd â hwy, ac a ystyrid ganddynt fel trysor o wybodaeth genedlaethol. Dyfynai yn rhydd o draddodiadau eu tadau i'r dyben o'u gwrthddadleu neu eu cywiro Defnyddiai eu hen ymadroddion hwy, a llanwai hwy â bywyd ei ddadguddiad newydd. Yr oedd "Deled dy deyrnas" yn rhan o'r gwasanaeth Iuddewig yn barod, ac yr oedd "Tangnefedd i chwi" yn rhan o gyfarchiad cyffredin y genedl; ond yn ngeiriau yr Iesu fe gafodd y geiriau fywyd newydd, ac ystyr llawer mwy helaeth a dwfn. Yr oedd y proselyt yn cael ei alw yn "greadur newydd," a'i ddychweliad oddi wrth baganiaeth at grefydd yr Israeliaid yn adnabyddus wrth yr enw "ailenedigaeth;" ond tra y cymhwysent hwy y geiriau at berthynas allanol yn unig, arferodd yr Iesu hwynt i ddynodi cyfnewidiad ysbrydol ar ansawdd y galon. Yr oedd addysgu trwy ddammegion, yn ddiau, y dull mwyaf cyffredin o bob dull yn mysg yr Iuddewon. Dywedir mai Hillel a Schammai oeddynt y dammegwyr goreu cyn amser ein Iachawdwr, ac R. Meir yn union ar ol ei ddyddiau ef. Y mae traddodiad yn myned fod y gallu i lunio dammegion wedi gwywo ar ol ei amser ef; ac nid yw hyn, medd Trench, yn anhawdd ei ddeall, o blegid yr oedd ffigysbren yr Iuddewon wedi gwywo fel nas gallasai ddwyn ffrwyth mwyach.

Fel anghraifft o'r dammegion Iuddewig, ni a roddwn yr un a ganlyn:—y mae yn cael ei hachlysuro gan y cwestiwn, "Pa ham y mae dynion da yn marw yn ieuainc mor fynych?" Yr atebiad yw, "Fod yr Arglwydd yn rhagweled y syrthient i bechod, pe gadewid hwy yn fyw." "I ba beth y mae hyn yn debyg?" "Tebyg yw i frenin, yr hwn, wrth rodio yn ei ardd, a ganfyddodd ryw rosynau oeddynt yn eu blagur, ac yn gwasgaru perarogl hyfryd. Daeth i'w feddwl, 'Os ydyw y rhai hyn yn rhoddi y fath berarogl pan nad ydynt eto ond yn blaendarddu, pa beth a wnant pan fyddant wedi cwbl ymagor?' Yn mhen amser, aeth y brenin eilwaith i'w ardd, gan ddysgwyl gweled y rhosynau erbyn hyn wedi ymagor, ac i ymddifyru yn eu harogl dymunol; ond erbyn iddo sylwi arnynt, canfyddodd hwynt yn llwydaidd a gwywedig, ac wedi colli eu perarogledd. Llefodd allan mewn tristwch, 'Pe buaswn wedi eu casglu pan oeddynt yn dyner ac ieuainc, a phan oeddynt yn gwasgaru eu harogledd, gallaswn gael pleser gyda hwynt; ond yn awr, nid ydynt yn werth dim i mi.' Y flwyddyn ganlynol, aeth y brenin i rodio yn ei ardd; ac wrth weled y rhosynau yn blaendarddu, ac yn taenu eu perarogl, rhoddes orchymyn i'w weision, 'Cesglwch hwynt, fel y gallwyf eu mwynhau cyn iddynt wywo, fel y gwnaethant y flwyddyn o'r blaen.'" I ddangos fel y mae'proselyt yn fwy cymmeradwy gan Dduw nag hyd yn oed y Lefiad, llefarwyd y ddammeg hon.—Cyffelybir y proselyt i afr wyllt, wedi ei dwyn i fyny yn yr

[1] Dywed Trench nad yw yr alleg yn gydweddol âg amcan yr Ysgrythyrau, am mai callineb bydol ydyw eithaf ei haddysg hi. Ac o barth i'r ddwy ddammeg, neu alleg, yn *Bren.* a *Barn.*, dylid cofio mai nid cenadau Duw sydd yn eu llefaru, ac mai nid dadguddiad o'i gynghor ef ydyw eu cynnwysiad. Oddi ar gallineb y byd hwn, y maent yn cael eu llefaru gan ddynion anysbrydoledig. Y maent yn dynoethi ffolineb—nid pechod.

Digitized by Google

anialwch, ond wedi ymgyssylltu o honi ei hun â'r ddeadell: ac y mae y bugail yn gofalu am dani gyda chariad arbenig. Nid oes dim yn rhyfedd yn y ffaith fod y ddeadell o ddefaid yn caru y bugail, o blegid y mae efe yn gofalu am dani hi o'i hieuenctid; y mae yn ei harwain allan yn y bore, ac yn ei dychwelyd yn y prydnawn; ond y mae bod yr afr a fagwyd yn yr anialwch diffaeth, ac ar y mynyddoedd, yn ei ganlyn ac yn ymlynu wrtho, yn gofyn oddi wrtho yntau ofal a chariad neillduol i gyfateb i'w hymlyniad hi. Y mae ar gof a chadw hefyd luaws o ddammegion byrach. I argymhell ymdrech i grynhoi y myfyrdodau mewn gweddi ar Dduw, dywedir—"Pe deuai rhywun at freniu daiarol i ddeisyfu rhywbeth ganddo, ond yn lle gwneyd ei ddeisyfiad yn hysbys, yn troi o'r neilldu i siarad â'i gymmydog, oni chynhyrfai hyny ddigllonedd cyfiawn y brenin."

Yr hyn sydd yn peri y dyddordeb mwyaf yn y dammegion Iuddewig ydyw y cwestiwn, A oes rhyw gyssylltiad yn bod rhyngddynt â dammegion ein Iachawdwr. Y mae rhai ysgrifenwyr yn ceisio profi fod cyffelybrwydd mawr ynddynt i'w ddammegion ef, ac yn amcanu rhoddi cyfrif am hyny. Ni phetrusa rhai ddyweyd fod Iesu Grist wedi benthyca ambell un a gydweddai â'i amcan, gan eu hadffurfio, a rhoddi iddynt y cyfeiriad a atebai i'r wers ysbrydol a fwriadai ei dysgu. Ond nid ydyw y dybiaeth hon yn cael ffafr ond gan ychydig. Tybia ereill fod y dammegion Iuddewig o awduriaeth diweddarach nag eiddo yr efengylau; a bod y Rabbiniaid, tra yn chwilio ysgrythyrau y Testament Newydd gyda'r bwriad o godi gwrthddadleuon yn eu herbyn, wedi cyfoethogi eu hunain allan o honynt. Yr oedd Lightfoot yn un o bleidwyr y dybiaeth hon, a gwnaeth grynodeb o ddywediadau y Rabbiniaid o dan yr enw *Wit stolen by the Jews out of the Gospel.* Ond y mae y dybiaeth hon yn cael ei gwrthod fel y llall. Y mae yn wir nas gellir gwadu fod rhywfaint o debygrwydd yn bod weithiau: gallesid dysgwyl i hyny fod yn naturiol; ac yn wir, gydag anhawsder y buasid yn ei ochel, o blegid y mae dammegion ein Iachawdwr a dammegion y Rabbiniaid wedi eu sylfaenu ar ffugrau wedi eu cymmeryd oddi wrth yr un arferion a gwrthddrychau. Ond y mae ymchwiliad i'r naill a'r llall yn sicr o arwain y darllenydd i ganfod nid yn unig ragoriaeth y naill ar y llall, ond hefyd yr annhebygrwydd sydd rhyngddynt i'w gilydd. Nid yw eu cyffelybrwydd ond arwynebol, tra y mae eu hannhebygrwydd yn dyfod fwy-fwy i'r golwg, po ddyfnaf yr edrychir i mewn iddynt. Y mae Trench, yn ei waith ar y dammegion, yn dyfynu yr un a ystyria ef yn oreu o'r dammegion Iuddewig, ac a fernir gan rai yn gyffelyb i ddammegion ein Iachawdwr. Tybiodd rhai ei bod yn hynod debyg i'r rhan olaf o ddammeg priodas mab y brenin—y rhan am y wisg briodas. "Y mae y Rabbiniaid wedi traddodi yr hyn a ganlyn ar *Preg.* xii. 7, lle y mae yn ysgrifenedig, 'Ac y dychwel yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef.' Y mae wedi ei roddi i ti yn ddifrycheulyd; edrych dithau am ei roddi yn ol yn ddifrycheulyd iddo yntau. Y mae yn debyg i frenin daiarol wedi rhanu y gwisgoedd breninol i'w weision. Yna, y rhai oeddynt ddoethion a'u plygasant i fyny yn ofalus, ac a'u dodasant o'r neilldu yn y wisgfa; ond y rhai ffol a aethant ymaith, ac a wisgasant y dillad hyn gyda'u gorchwylion cyffredin. Yn mhen amser daeth y brenin i ymofyn am ei wisgoedd: dychwelodd y rhai call hwynt yn union fel y cawsant hwynt; ond yr oeddynt wedi eu diwyno gan y rhai ffol. Yr oedd y brenin wedi ei fawr foddhau gan y rhai call, a dywedodd, 'Plyger y gwisgoedd, a doder hwynt yn y wisgfa, ac ymadawed y rhai hyn mewn heddwch;' ond yr oedd yn ddigllawn wrth y rhai ffol, a dywedodd, "Anfoner y gwisgoedd i gael eu golchi, a thafler y gweision hyn i garchar;" felly y gwna yr Arglwydd â chyrff y cyfiawnion, fel y mae yn ysgrifenedig; *Esa.* lvii. 2: ac â'u heneidiau: 1 *Sam.* xxv. 29. Ond â chyrff y drygionus: *Esa.* xlviii. 22; lvii. 21; ac â'u heneidiau: 1 *Sam.* xxv. 29." Ond, fel y sylwa Trench, nid yw y cyffelybrwydd yn y ddammeg hon i ddammeg priodas mab y brenin ond o'r fath fwyaf arwynebol; oddi eithr fod yma frenin yn y ddwy, a bod cymmeradwyaeth a gwg y brenin yn troi ar y wisg, y maent heb ddim cyffelybrwydd i'w gilydd. Y mae mwy o wir debygrwydd yn y ddammeg Dalmudaidd i ddammeg y talentau, gan fod yn y ddwy ymddiried yn cael ei roddi, yr hyn a roddwyd dan ofal y gweision yn cael ei alw yn ol, a hwythau yn cael ymddwyn atynt yn ol eu hymddygiad tuag at yr hyn a roddwyd i'w gadw atynt. Ond y mae y tebygrwydd yma eto yn diflanu wrth syllu arno. Y mae y ddammeg Iuddewig yn hollol amddifad o bob naturioldeb. Y mae y gwisgoedd yn cael eu rhanu; ond nid oeddynt i gael eu defnyddio! Y mae eu meddiannydd, ar ol talm o amser, yn galw am danynt yn ol! Nis gellir canfod yn hyn oll ddim yn cyfateb i arferion bywyd dwyreiniol; nid yw ffugr neu gymhariaeth y ddammeg yn ddarlun o ddim: y mae y brenin yn gweithredu oddi ar fympwy, ac fel heb un amcan. Y mae rhyw blentynrwydd yn ei ymddygiad, y rhaid i ni chwilio am ei fath yn ofer yn nammegion arddunol ein Iachawdwr. Ond y mae holl fanylion dammeg y talentau yn naturiol a thebygol. Pa beth mwy naturiol nag i bendefig, pan ar gychwyn i wlad bell, roddi ei dda dan ofal ei weision; ac ar ol dychwelyd, eu galw i gyfrif am eu hymddygiadau yn ei absenoldeb.

Nid oedd y ddammeg yn cael ei hesgeuluso yn hollol gan y tadau eglwysig, er mai ychydig o honynt a ymaflasant yn y cyfrwng hwn i drosglwyddo eu haddysg. Ceir dwy neu dair o ddammegion yn ysgrifeniadau Hermes. Ac y mae nifer o ddammegion i'w cael yn ngweithiau Ephraem Syrus. Yn ysgrifeniadau Bernard, y mae y ddammeg a'r alegori yn cael eu defnyddio yn fynych. Ond er na cheir y ddammeg reolaidd ond yn anfynych yn ngweithiau yr awdwyr eglwysig boreuaf, eto y mae y dull dammegawl, fel y mae yn amlwg, yn un o nodweddau eu harddull. Y mae eu homiliau neu eu pregethau yn hynod am hyn. Y mae ysgrifeniadau Awstin a Chrysostom, ac ereill o'r tadau enwocaf, yn orlawn o'r ffugrau tlysaf a mwyaf priodol, y rhai, luaws o honynt, a ellid eu gweithio allan yn ddammegion o'r fath fwyaf tarawiadol. Y mae Trench yn gwneyd y dyfyniadau canlynol o honynt, i ddangos eu cyfoeth a'u cymhariaethau mwyaf priodol a phrydferth. Wrth lefaru am Fab Duw ac am y pechadur yn byw yn yr un byd ac yn cyfranogi o'r un pethau, dywed Awstin—"Ond meddyliwch am y gwahaniaeth sydd rhwng y carcharor yn y carchar a'r ymwelydd sydd wedi dyfod i edrych am dano! Y maent eill dau rhwng muriau y gell: gallai un anghyfarwydd feddwl fod y ddau dan yr un caethiwed; ond yr ymwelydd tyner a chymmwynasgar, yr

Digitized by Google

hwn a all arfer ei ryddid fel y myno, ydyw y naill: y mae y llall yn rhwym yno am ei drosedd." Drachefn, wrth roddi cerydd i'r rhai yn eu hanwybodaeth a feiddiant weled beiau yn nhrefniadau Rhagluniaeth, dywed, "Pe yr elech i mewn i weithdy y gof, ni feiddiech weled bai ar ei feginau, ei eingion, a'i forthwylion. Pe buasai genych, nid medrusrwydd y celfyddydwr, ond synwyr ac ystyriaeth dyn, pa beth a ddywedech? 'Nid heb achos y mae y fegin wedi ei gosod yma; yr oedd y celfyddydwr yn gwybod, er nad wyf fi yn gwybod y rheswm.' Ni wnai yr un o honoch feiddio gweled bai ar y gof yn yr efail, ac a feiddiwch chwi weled bai ar Dduw yn y greadigaeth?" Dyma anghraifft hefyd o eiddo Chrysostom: pan yn llefaru am ddyrchafiad y natur ddynol ar ddadguddiad meibion Duw, gofyna—"I ba beth y mae y greadigaeth yn gyffelyb? Cyffelyb yw i fammaeth wedi magu tywysog; ac ar ol iddo ef esgyn gorsedd ei dad, y mae hi yn cydlawenhau âg ef, ac yn cyfranogi o'r llesion."

DAMMEGION IESU GRIST. Gan fod llefaru mewn iaith ffugrol, ac yn enwedig estyn y ffugr allan yn gymhariaeth faith, fel y gwneir yn y ddammeg, yn rhwym o fod dan ryw amgylchiadau yn ddull aneglur o weinyddu addysg, y cwestiwn cyntaf a phwysicaf sydd yn ymgynnyg wrth efrydu y dammegion ydyw cwestiwn y dysgyblion, sef, "*Pa ham* yr wyt ti yn llefaru wrthynt trwy ddammegion?" *Mat.* xiii. 10. Y mae y rheswm mawr am ddefnyddiad y dull hwn gan Iesu Grist yn grynhoad o amryw resymau. Y mae ei atebiad ef ei hun i'w ddysgyblion yn dangos mai nid unplyg oedd ei reswm dros wneyd cyfnewidiad yn ffurf ei addysgiadau. Y mae yn amlwg fod ansawdd calonau y rhai nesaf ato, y rhai a dderbyniasid i'r cylch cyfrinachol, yn gofyn am y dull dammegol, yn gystal ag ansawdd wrthwyneb meddyliau y rhai oeddynt "oddi allan." Efallai fod y ffaith fod yr Iuddewon eisoes yn gydnabyddus â'r dull hwn, a'u bod yn coledd hoffder neillduol at y wisg ddammegol yn un rheswm. Yr oeddynt wedi eu cynnefino â'r ddammeg yn ysgrifeniadau y prophwydi, ac, fel yr holl genedloedd dwyreiniol, yn cael eu swyno yn fwy gan wirionedd, os byddai yn cael ei gyflwyno ger eu bron yn ngwisgoedd addurniadol y ddammeg a'r alegori. Ond nid ydym ni yn gweled fod nemawr o bwys yn y ffaith hon, pan ddygir hi yn mlaen fel atebiad i'r cwestiwn uchod. Pe buasai yr Iesu wedi dechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus trwy lefaru mewn dammegion, yr esboniad mwyaf naturiol ar hyny, efallai, a fuasai, ei fod, er mantais ei wrandawyr, ac er boddhad i'w chwaeth, wedi ymaflyd yn y cyfrwng o addysgiaeth oedd yn fwyaf arferedig yn mhlith y genedl, ac yn fwyaf hoffus ganddi. Ond gan fod hanner ei oes weinidogaethol yn mron wedi ei threulio heb iddo lefaru un ddammeg, a bod ei brif bregethau a'i ymddyddanion wedi eu llefaru mewn arddull syml, y mae yn rhaid i ni ymofyn am y rheswm mewn rhyw ystyriaethau ereill mwy dwfn. Gellir edrych ar wedd ddammegol ei addysgiadau yn fwy cydweddol â'i amcan ef ei hun, ac yn fwy cymhwys i gyfarfod ansoddau a chymmeriadau gwahanol ei wrandawyr.

Yr oedd y ddammeg yn *foddion dysgyblaeth iachusol ar feddyliau y dysgyblion.* Tueddai uwch law pob ffurf arall i ddeffro eu meddyliau, trwy eu dwyn i ymdeimlo âg anhawsder a dirgelwch. Yr oedd y ddammeg yn cyflwyno o'u blaen ddigon o wirionedd i ennyn eu hawydd am wybod chwaneg, ac ar unwaith yn cynhyrfu meddylgarwch ynddynt, ac yn rhoddi defnyddiau—"hadau meddwl"—iddynt. Yn ei ymddyddan olaf â'i ddysgyblion, dywedodd yr Iesu wrthynt, "Y pethau hyn a leferais wrthych mewn dammegion; eithr y mae yr awr yn dyfod, pan na lefarwyf wrthych mewn dammegion mwyach, eithr y mynegaf i chwi yn eglur am y Tad;" *Ioan* xvi. 25. Er, efallai, nad yw y gair *dammegion* (παροιμια) yma yn golygu dammegion yn yr ystyr llythyrenol—nad yw, fel y sylwa Olshausen, yn cyfeirio at ei ddammegion ei hun yn fwy neillduol nag at ei ymadroddion ereill, ond fod y παροιμιαι yn dynodi holl ddulliau y byd o weinyddu addysg, sef trwy gyfrwng iaith ddynol, yr hon nid yw ond dammeg dywyll i drosglwyddo gwybodaeth deilwng a pherffaith o bethau dwyfol; eto y mae yn amlwg fod y dammegion hyn yn cynnwys y gwirioneddau dwyfol, ac y galluogid hwy mewn amser dyfodol i ddwyn allan o honynt y trysorau a orweddant yn guddiedig y pryd hwn. Nid oedd gwaith yr Ysbryd, yr hwn a addewid iddynt i "lefaru yn eglur am y Tad," i fod yn gwbl annibynol ar addysg flaenorol yr Iesu: ei eiriau a'i ddammegion a gynnwysent hanfod y ddysgeidiaeth, yr hon yr oeddynt hwy i gael eu galluogi i'w dirnad yn helaethach dan arweiniad y Dyddanydd. Felly, nid ydym i feddwl fod holl eiriau yr Iesu, yn nyfnder eu hystyr, yn cael eu deall gan ei ddysgyblion: ni fwriadai efe hyny wrth eu llefaru. "Ni buasai efe," medd Neander, "yn Fab Duw ac yn Fab y dyn, oni buasai fod ei eiriau, fel ei weithredoedd, er eu holl gyfaddasrwydd at amgylchiadau yr amseroedd, eto yn cynnwys rhyw bethau oeddynt tu hwnt i amgyffred, ac yn cario yn guddiedig o'u mewn bethau wedi eu cadw ar gyfer oesoedd dyfodol i'w chwilio allan." A'r nodwedd yma ydyw un o'r neillduolion sydd yn gosod Iesu Grist ar ei ben ei hun, yn annhraethol bell oddi wrth bawb ereill fel dysgawdwr. Ac amcan mwyaf uniongyrchol ei athrawiaeth ef oedd cynhyrfu meddyliau marwaidd ei ddysgyblion, creu ynddynt gydymdeimlad â, ac archwaeth at, y gwirioneddau a ddadguddiai; a dwyshau eu hawydd am wybodaeth o honynt. Hâd oedd ei eiriau ef, y rhai oeddynt i dyfu mewn amser i ddyfod, yn ol natur y ddaiar, a natur y driniaeth a gai. A chan mai nid llanw meddyliau y dysgyblion â chyfres o bynciau difywyd oedd amcan eu hathraw, ond dodi ei eiriau ynddynt fel "ysbryd a bywyd," y mae yn amlwg ei fod o bwys mawr, tuag at sicrhau yr amcan hwn, nid yn unig pa beth fyddai mater yr addysg, ond hefyd yn mha ffurf y caffai ei chyfranu. Ac nid oes amheuaeth fod llefaru trwy ddammegion yn un o'r dulliau goreu i ddeffro y meddwl i sylwi ar wirionedd, i ddenu y meddwl ato trwy brydferthwch y wisg, a thrwy eglurder a chyfaddasder y ffugr i wneuthur argraff ddofn o'r gwirionedd ar y meddwl a'r cof.

Mae yn amlwg, gan hyny, mai un o'r deddfau dan ba rai y cyfranai Iesu Grist ei addysg oedd, fod yr addysg yn cael ei gweinyddu yn gyfatebol i raddau y derbyniad a roddid iddi, a'r defnyddiad a wneid o honi. Y mae ein Hiachawdwr yn rhoddi arbenigrwydd i'r ddeddf hon fwy nag unwaith yn ei bregethau: dwg hi yn mlaen fel egwyddor gyffredinol, yn amlygu ei hun yn holl oruchwyliaethau Duw, ac fel eglurhad digonol ar ei ymddygiadau tuag at ei greaduriaid rhesymol: "Yr hwn y mae ganddo, y rhoddir iddo: a'r hwn nid oes ganddo, ïe, yr hyn sydd ganddo,

Digitized by Google

a "ddygir oddi arno." "Dyma," medd Neander, "y ddeddf fawr a sefydlodd Crist yn nygiad yn mlaen ei deyrnas; os bydd i dueddiadau pechadurus a daiarol ddiffodd y goleuni dwyfol, fe fydd y tywyllwch yn dywyllwch hollol. Nis gall geiriau Crist gael dim lle. Os ydyw llygad yr enaid wedi ei dywyllu, y mae y goleuni dwyfol yn llifeirio allan yn ofer. Y mae dammeg yr hauwr yn gosod allan mewn dull bywiog ger ein bron yr angenrheidrwydd am dir wedi ei fraenaru, fel ag i fod yn gymhwys i dderbyn yr hâd, mewn trefn i'r hâd hwnw flaendarddu a dwyn ffrwyth." Ac, yn ol hyn, adgofiai yr Iesu yr Iuddewon cnawdol eilwaith ac eilwaith nas gallasent ei ddeall cyhyd ag y parhäai eu meddyliau yn yr ansawdd oedd arnynt ar y pryd. Yr oedd ffurf a gwisg allanol ei addysgiadau yn ymddangos iddynt uwch law amgyffred, am fod gwirionedd Duw—cynnwysiad yr addysgiadau, yn rhwym o fod uwch law dirnadaeth dynion wedi ymddyeithro oddi wrth Dduw.

Y mae atebiad yr Iachawdwr ei hun i gwestiwn y dysgyblion yn cynnwys mai y prif achos o'i ddefnyddiad o'r dull hwn oedd, y gwahaniaeth mawr oedd rhwng y naill ddosbarth o'i wrandawyr a dosbarth arall. Ewyllysiai ef i rai ei ddeall, tra nad ewyllysiai i ereill ei ddeall. Wrth lefaru mewn dammegion, yr oedd yr amcan dyblyg yn cael ei sicrhau. Yr oedd yr Iachawdwr, trwy gyfrwng y ddammeg, yn gallu cyfleu pob gwirionedd oedd yn angenrheidiol, ac mewn ffurf mor aneglur fel nad oedd neb yn ei ddeall ond y sawl a fwriedid i hyny, y rhai y "rhoddwyd gwybod dirgelion teyrnas nefoedd" iddynt; y rhai a feddiannent y dadguddiad ysbrydol; y rhai "oddi mewn," a dderbyniasid i gymdeithas agosaf yr Iesu, ac a wnaed yn feddiannol ar galonau hawddgar a da: ac yn ngrym goleuni dadguddiad o fewn y dosbarth yma, a thrwy yr awyddfryd angerddol a ennynai yn eu calonau am chwanegiad gwybodaeth, yr oedd y ffurf ddammegol a roddai yr Iesu ar y gwirionedd yn fwy o fantais nag o rwystr. Pe buasai ein Iachawdwr yn mynegu gwirioneddau ysbrydol yn eu noethder, ni buasai ond ychydig o honynt yn cael effaith ddwfn ar feddyliau eu gwrandawyr; ac ni buasai ond ychydig o'r gwrandawyr yn alluog i deimlo dyddordeb ynddynt: buasent yn rhy uchel i ddirnadaeth hyd yn oed y dysgyblion eu hunain; a buasai y dull noeth a diaddurn yn peri na buasent yn gadael eu hol ar y meddwl a'r cof. Ond wrth gael eu cyflwyno ger eu bron dan ryw ddelweddau bywiog, mewn brawddegau byrion a tharawiadol; wrth ddwyn y gwirionedd ysbrydol i'w sylw yn ngwisg gwrthddrychau adnabyddus natur, a'i gyfleu mewn ffurf hanesyddol, yr oedd ar unwaith yn cyffroi sylw, yn peri ymholiad, a thrwy brydferthwch y gymhariaeth, neu briodoldeb yr arwireb fer, yn gweithio ei ffordd i'r meddwl a'r myfyrdod. Efallai fod y gymhariaeth ar adeg traddodiad y ddammeg yn aneffeithiol i ddwyn y gwirionedd ar rai amserau i ymaflyd yn y meddwl; eto yr oedd y ddammeg ei hun yn gweithio ei ffordd i'r cof, ac felly yr oedd y ddammeg fel plisgyn yn diogelu y cnewyllun—fel y wisg yn cadw yr hedyn, hyd oni ddeuai yr amser a'r manteision priodol iddo ymagor; neu, fel y sylwa Dr. Trench, fel arian o wlad dramor, yn anghymhwys i gael eu defnyddio ar y pryd, ond eto wrth law ganddynt erbyn y cyrhaeddent i'r wlad hono. Pan gyflawnwyd yr addewid am yr Ysbryd Glân, daeth y dysgyblion i ddeall gwirioneddau y dammegion yn eu holl eglurder a'u pwysigrwydd. Sylwa Kleuker[1] o barth i hyn:—"Amcan dammegion Crist, yr un modd a'r dysgrifiadau prophwydol o'r blaen o'i ddyfodiad, oedd rhoddi darluniad o bethau yn ol eu holl gynnwysiad a'u gwirionedd, ond eto, fel y cyntaf, yn orchuddiedig mewn graddau o dywyllwch, fel nas gallasai neb weled i mewn i'w hysbryd, ond yn unig y rhai a ymofynent am hyny gyda chalonau diffuant; nid oedd ereill yn deall dim o hono, ac ni wnaent ddim defnydd o'r gwirionedd, ond ymddigio wrtho, a gwrthwynebu Crist."

Pa beth oedd amcanion neillduol Iesu Grist wrth lefaru mewn dammegion gyda golwg ar gorff ei wrandawyr—y gwrandawyr cnawdol a maleisus? Gellid meddwl fod geiriau yr Iachawdwr ei hun yn benderfynol ar hyn. Crybwylla (*Mat.* xiii. 11) fod dau amcan, neu amcan dyblyg, i'r ddammeg: "Am roddi i chwi wybod dirgelion teyrnas nefoedd, ac ni roddwyd iddynt hwy." Ei amcan gyda golwg ar ei ddysgyblion oedd chwanegu eu gwybodaeth yn nirgelion y deyrnas; ac yr oedd y dull dammegawl, fel y sylwyd eisoes, y dull mwyaf cyfaddas i gyrhaedd yr amcan hwnw: a'i amcan gyda golwg ar y gwrandawyr cnawdol oedd, cadw y wybodaeth o'r dirgelion oddi wrthynt—gan y profent hwy mai cnawdol oedd ansawdd eu calon, a'u bod yn llochi malais ato ef. Cydffurfiodd o'r diwedd â'r rheol a argymhellodd ar ei ganlynwyr yn ei bregeth ar y mynydd:—"Na roddwch yr hyn sydd sanctaidd i'r cŵn, ac na theflwch eich gemau o flaen y moch." Trwy y ddammeg yr oedd yn rhoddi helaethrwydd i'r rhai yr oedd ganddynt: y sawl a feddent yr ansawdd meddwl a'r cymmeriad oedd yn ofynol, yr oedd y ddammeg yn foddion i chwanegu eu gwybodaeth, a hyny yn barhaus: ond y rhai nid oedd ganddynt, yn hytrach na pheri chwanegiad at eu gwybodaeth hwy, "dygir oddi arno yr hyn sydd ganddo;"—yr oedd eu syniadau tywyll yn cael eu tywyllu, a'u meddyliau yn cael eu harwain i fwy o ddyryswch nag o'r blaen am egwyddorion teyrnas Dduw.

Y mae rhai ysgrifenwyr ar y dammegion, ac yn eu plith Lisco, yn ceisio osgoi y gwirionedd fod Crist yn llefaru ar ddammegion fel cyflawniad o'r farn o ddallineb ysbrydol ar y dosbarth anghrediniol o'i wrandawyr. Gellid, yr ydym yn addef, dybied, ar yr olwg gyntaf, mai y drychfeddwl yn ngeiriau Iesu Grist, fel y maent yn cael eu hadrodd yn *Mat.* xiii. 13, ydyw, fod ein Iachawdwr wedi ymgymmeryd â'r dull dammegol o addysgu, yn unig fel *canlyniad* oddi wrth ddallineb dosbarth o'i wrandawyr: "Am hyny, yr ydwyf yn llefaru wrthynt hwy ar ddammegion: canys a hwy yn gweled, nid ydynt yn gweled." Pe na buasai genym un awgrym ar hyn, heb law yr ymadrodd uchod, gallasem gyduno â Lisco ac ereill yn y golygiad—gan mai amcan cyffredinol y ddammeg yw eglurhau gwirionedd—nad oedd amcan yr Iesu, gyda golwg ar y dosbarth mwyaf hwyrdrwm o'i wrandawyr, yn ddim amgen na rhoddi manteision helaethach iddynt i ddeall ei athrawiaeth. Ond y mae y cyd-destyn, a'r adroddiad a wneir o ymadroddion yr Iesu gan Marc a Luc, yn dangos tu hwnt i bob ammheuaeth fod y golygiad hwn yn arwynebol a chyfeiliornus. Y mae yn amlwg fod ἱνα a μηποτη, y rhan fynychaf, os nad bob amser, yn dynodi bwriad neu amcan, ac nid canlyniad. Nid oes ond un neu ddwy o anghreifftiau lle yr arferir hwynt yn

[1] Dyfynedig yn Lisco, *On the Parables*.

Digitized by Google

ammheus, ac achos yr ammheuaeth hwnw ydyw rhagfarnau duwinyddol. Ond pe y gellid dangos i foddlonrwydd fod ἵνα (=*fel*), a μήποτε (=*fel na; rhag*), yn dynodi *canlyniad* o beth, yn gystal a *rhagfwriad* neu *amcan*, eto, y mae y dyfyniad a wna Iesu Grist o'r prophwyd Esaiah yn ein rhwymo i gredu ei fod ef yn llefaru y dammegion *i'r dyben* i ryw ddosbarth o'i wrandawyr beidio ei ddeall. Yn yr ystyr yma y mae yr ymadroddion hyn yn cael eu dwyn ger bron mewn manau ereill yn y Testament Newydd (*Ioan* xii. 39; *Act.* xxviii. 26). Y mae Matthew, a Luc yn yr Actau, yn dilyn cyfieithiad y Deg a Thrigain o'r geiriau, gydag ychydig wahaniaethau dibwys; ond y mae Ioan (xii. 39) yn rhoddi cyfieithiad o'r eiddo ei hun o honynt, yn yr hwn y mae y drychfeddwl o fwriad a dyben (*the teleological sense*) yn rhy amlwg i'w wadu; "Am hyny, *ni allent gredu* (οὐκ ἠδύναντο πιστεύειν), o blegid dywedyd o Esaias drachefn, Efe a ddallodd eu llygaid, ac a galedodd eu calon *fel na welent* (ἵνα μὴ ἴδωσι)." Os trown drachefn at eiriau gwreiddiol y prophwyd ei hun, y mae yn amlwg ei fod ef yn llefaru am farn o ddallineb ar y genedl yn gosp am bechodau blaenorol. Gwneid Israel yn analluog i adnabod dwyfoldeb anfoniad a chenadwri y prophwyd. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon yn nghydoeswyr y prophwyd ei hun; ond yn fwyaf neillduol, yn nallineb dygn y genedl dan weinidogaeth y Duw-ddyn. Yr oeddynt wedi eu tywyllu a'u gwneyd mor ddideimlad gan eu meddyliau cnawdol, fel nas gallent weled na phryd na thegwch yn mherson y Duw-ddyn, nac adnabod y dwyfol yn ei eiriau rhyfeddol. Dywed Trench, ar y geiriau yn Esaiah: "Nid ydym i ddeall wrth y gorchymyn, 'Brasâ galon y bobl hyn' (*Esa.* vi. 10), fod unrhyw oruchwyliaeth benodol tuag at eu caledu wedi ei gweinyddu y pryd hwnw arnynt; ond bod yr Arglwydd, yr hwn a'i gwnaeth yn ddeddf gyfiawn yn ei lywodraeth foesol, fod i bechod achosi caledwch calon ac annheimladrwydd ysbrydol, yn cyhoeddi y gadawai ef i'r ddeddf hon gymmeryd ei chwrs gyda chydoeswyr Esaiah, a chyda cydoeswyr Crist hefyd; fel ag y dywedir yn *Rhuf.* i. fod yr un ddeddf wedi ei dwyn i weithrediad gyda'r byd Cenedlig."

Y mae yr amcan dyblyg hwn a berthynai i'r ddammeg—sef eglurhaud irgelion teyrnas nefoedd i'r naill gymmeriad, a'u celu oddi wrth y cymmeriad gwrthwyneb—yn gydweddol âg amcan ymddangosiad, ac â holl waith Iesu Grist. Nid yn ei ddammegion yn unig y canfyddir y ddwy elfen yma; a phe buasai ei ddammegion yn amddifad o honynt, ni buasai cymmaint o gydweddiad ynddynt â chymmeriad cyffredinol ei weinidogaeth a'i weithredoedd. Yr oedd ymddangosiad Crist yn amlygu ar y naill law doster Duw, ac ar y llaw arall ei ddaioni. Gosodwyd ef i fod yn "gwymp" ac yn "gyfodiad i lawer yn Israel." "I farn," meddai, "y daethym i'r byd hwn, fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac fel yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion." Yn *Ioan* vi, ni a gawn anghraifft darawiadol o weithrediad y ddeddf bwysig hon. Yn ei ymddyddan â'r Iuddewon anghrediniol, dechreuodd trwy lefaru wrthynt mewn dull ffugrol am y "bwyd ni dderfydd;" yn nhywyllwch a chnawdolrwydd eu syniadau, deallasant hwy ei eiriau yn y wedd fwyaf daiarol; ac fel yr oeddynt hwy yn myned yn mlaen i wasgu arno am wybodaeth helaethach am "y bara o'r nef," yr oedd ef, yn hytrach na dios̀g y gwirionedd oddi wrth y ffugr, yn dwyn y ffugr yn fwy ger eu bron: gwisgai y gwirionedd mewn dirgelwch mwy dwfn yn mhob ymadrodd, hyd oni ymddangosai ei eiriau mor ddyeithrol ac anamgyffredadwy iddynt o'r diwedd, fel y tramgwyddodd lluaws o'i ddysgyblion wrth galedwch yr ymadrodd—"Ac ni rodiasant mwyach gydag ef." Wrth adael y rhan hon o'r testyn, nis gallwn lai na rhoddi rhyddgyfieithiad o sylwadau Dr. Fairbairn ar y mater: "Nid oedd yn hyn oll—yn yr ymddyddan â'r Iuddewon a adroddir yn *Ioan* vi, ac yn ngwaith yr Iesu yn llefaru trwy ddammegion yn hanner olaf ei weinidogaeth—ddim niwed pendant yn cael ei wneuthur ganddo ar feddyliau ei wrandawyr. A gellir cydfarnu i ryw raddau â Lisco, y dylasai y cyfnewidiad hwn yn ei ddull o weinyddu addysg gyffroi ynddynt hwy ymchwiliad mwy difrifol a deffrous am y gwirionedd. Ond prin y gellir dyweyd mai hyn oedd ei amcan wrth ddechreu ymgymmeryd â'r dull hwn. Yr oedd cuddio y gwirionedd yn y fath ffurf ddirgelaidd yn weithred uniongyrchol o farn am eu gwrthwynebiad blaenorol i'w nerth, ac yr oedd yn ei effeithiau naturiol yn mron yr un peth a gosod llen dewach o dywyllwch dros lygaid eu deall. Yr oedd y gwirionedd drwy hyny yn dyfod iddynt hwy yn ddirgelwch mwy anhawdd ei ddeall nag o'r blaen; ac felly, yr oedd defnyddio y dull dammegol yn ymweliad barnol o eiddo Duw arnynt am eu hesgeulusiad o freintiau blaenorol, yn gymmaint a'i fod yn tueddu yn anocheladwy i gryfhau eu gwrthdarawiad i athrawiaeth yr Iesu, ac i leihau eu gallu i ddeall ei athrawiaeth. Pe unig amcan Crist a fuasai eu goleuo trwy wybodaeth o'r gwirionedd, mae yn ddiddadl y gallasai, ac y gwnaethai, ei gyflwyno ger eu bron mewn ffurf fwy deniadol a dealladwy nag y gwnaeth. Yr un pryd, yr oedd eu hymddyeithriad parhaus hwy oddi wrth y gwirionedd yn cyfodi, nid oddi ar ei fod yn cael ei gyhoeddi iddynt mor aneglur, fel nas gallasent ei ddeall, ond am ei fod mor ysbrydol fel na fynent ei dderbyn." Y mae hyn yn unol âg egwyddorion y prawf ag y mae dynion dano yn mhob oes. "A'r trugarog y gwnei drugaredd; a'r gŵr perffaith y gwnei berffeithrwydd: a'r glân y gwnei lendid; ac â'r cyndyn yr ymgyndyni."

Y mae Stier, Trench, ac amryw awdwyr hen a diweddar, yn rhoddi arbenigrwydd mawr i egwyddor arall mewn cyssylltiad â'r dull dammegol o addysgu, sef y "cyssondeb neu y cydweddiad a deimlir yn anymwybodol gan bawb, a'r hwn y mae y meddyliau dyfnaf yn dra hoff o'i olrhain, sydd yn bod rhwng y byd naturiol a'r byd ysbydol." Y mae y cydweddiad hwn yn peri fod y cyfatebion sydd rhyngddynt yn fwy na chymhariaethau; y mae y pethau gweledig yn gysgodau o'r anweledig, ac fel y cyfryw, yn meddu rhywfaint o nerth rheswm ynddynt. I'r meddyliau mwyaf ysbrydol, y mae y pethau ar y ddaiar yn bortreadau o'r pethau yn y nefoedd. Gofyna yr angel yn *Nyholl Gwynfa* Milton,

> "What if earth
> Be but the shadow of heaven, and things therein
> Each to other like, more than on earth is thought."

Y mae y drychfeddwl hwn wedi amlygu ei hun i ddynion dwfn-feddylgar yn mysg Iuddewon, paganiaid, a Christionogion. Deuwyd o hyd iddo yn llyfrau yr ysgrifenwyr cyfriniol Iuddewig. Dywedir yn llyfr Sohar, "Beth bynag sydd ar y ddaiar, y mae hwnw yn y nefoedd hefyd; ac nid oes dim mor fychan a dibwys yn y byd nad yw yn cyfateb i rywbeth arall cyffelyb yn y nef-

Digitized by Google

oedd." Y mae yr hen dadau, Tertullian yn enwedigol, yn llawn o feddyliau cyffelyb. Wrth draethu am yr adgyfodiad, efe a ddywed:—"Y mae pob peth yma yn dystion o'r adgyfodiad; y mae pob peth mewn natur yn amlinellau prophwydol o weithredoedd dwyfol; nid yn unig y mae Duw yn *llefaru* dammegion, ond yn eu gwneuthur."[1] Yr olwg yma, yn ddiau, a ddylem ei chymmeryd ar ddammegion Iesu Grist: nid cymhariaethau pwrpasol ydynt, ond cyfatebiaethau (*analogies*); a chan hyny, y maent yn meddu ar nerth rhesymiadol i raddau mwy neu lai. Y mae y gallu i lefaru dammegion o'r radd uchaf, fel holl ddammegion y Testament Newydd, yn tybied y sylwadaeth gywiraf ar natur, a holl agweddau y bywyd dynol; yn tybied hefyd yr adnabyddiaeth ddyfnaf o egwyddorion a gwrthddrychau y byd ysbrydol, yn nghyd â'r gallu i adnabod y berthynas sydd rhwng y naill a'r llall—fel y mae y gyntaf yn gysgod, a'r olaf yn wrthgysgod a sylwedd. Yn y ddammeg, y mae teyrnas natur yn ddarlun o deyrnas gras; ac yr ydym yn ymgyfodi oddi wrth y naill, yr hon y mae ei deddfau a'i gwrthddrychau yn fwy adnabyddus, at y llall, yr hon y mae ei deddfau a'i gwrthddrychau yn llai adnabyddus i ni: y mae yr ysbrydol yn cael ei esbonio â'r anianol, yr anweledig a'r tragwyddol trwy gynnorthwy y gweledig a'r amserol. A chan mai yr un Bod ydyw llywydd y ddwy deyrnas, y mae yr un egwyddorion a deddfau yn rheoli yn y naill ag a ganfyddir yn y llall. Y mae tymmor hau, adeg tyfiant yr hâd, a chynauaf, yn perthyn i'r byd ysbrydol yr un fath ag i'r byd elfenol. Y mae y ddammeg, ar bwys y berthynas ddaiarol sydd rhwng y tad a'r plant, yn ymddyrchafu at Dduw, Tad pob cnawd, a Thad yr ysbrydoedd: ymresyma oddi wrth gariad tadau ein cnawd, er eu bod "yn ddrwg," at gariad a gofal yr Anfeidrol. Edrycha ar deimladau naturiol mynwes y tad daiarol yn rhyw ddelw o deimladau calon y Tad o'r nef. "Yr oedd," fel y sylwa Kleuker, "cylch naturiaeth a hanesyddiaeth, gwrthddrychau y synwyrau a sylwadaeth, yn cyflwyno arwyddluniau ger bron ei feddwl ef (Iesu Grist); yn dyfod yn llestri i gludo ymborth nefol, yr hwn sydd yn llwyr ddiwallu yr ysbryd; yr oedd pob peth gweledig yn cael ei wneyd ganddo ef yn ddarlun o'r anweledig. Dammeg ydyw y prawf goreu o bob profion: y mae yn ddigon isel i amgyffredion y dynion mwyaf anianol, tra y rhaid i'r meddwl mwyaf arddansoddol gydnabod fod *un* cyfatebiaeth, os bydd yn llawn o ystyr a nerth, yn rhoddi ar unwaith fwy o oleuni ar, ac awdurdod i, wirionedd dansoddol, a mwy o ddylanwad iddo ar y meddwl, nag a ddichon y gadwen gryfaf o ymresymiad ei wneuthur. Y mae holl ddammegion Crist mor dra rhagorol, mor ddwfn ac arddunol, mor gynnwysfawr ac anefelychadwy, nas gallasai dim na neb ond y cyfryw feddwl ag oedd gan Iesu Grist—un a feddai y ddirnadaeth ag oedd ganddo ef am *amser, personau a phethau*—eu cynnyrchu."

Y mae holl ddysgeidiaeth Iesu Grist yn llawn o ffugrau wedi eu cymmeryd allan o natur, ac amgylchiadau ac arferion bywyd; yr hyn sydd yn dangos ei fod ef yn edrych ar deyrnas natur yn ddarlun a delw o deyrnas gras. Y mae efe yn edrych ar newyn a syched naturiol fel arwyddlun o awyddfryd anniwalladwy am fwynhâd o bethau dwyfol. Efe ydyw bara y bywyd; efe sydd yn rhoddi y dwfr bywiol. Iddo ef y mae tlodi ysbrydol yn cael ei arwyddo gan dlodi tymmorol. Y mae y pren da, yr hwn yn unig sydd yn dwyn ffrwyth da, yn addysgu y gwirionedd, nas gall gweithred wirioneddol dda byth gyfodi ond oddi ar galon sanctaidd. Y mae y sarff—y wiber wenwynig—yn ddarlun o ragrithiwr. Y mae yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw yn "fam, yn frawd, ac yn chwaer i'r Iesu." Nid yw perthynasau uchaf ac agosaf natur yn ddim amgen na chysgodau o berthynas uwch yn yr ysbrydol. Y mae y deml yn gysgod o'i gorff, a dinystr y deml yn arwydd o'i angeu. Yn y gronyn gwenith yn disgyn i'r ddaiar, ac yn marw, mewn trefn i ddwyn ffrwyth lawer, y mae yr Iesu yn gweled bywyd a ffrwythlondeb fel canlyniad ei angeu ei hun. Y mae yr egwyddor fawr—un o brif egwyddorion yr ysbrydol—fod bywyd yn canlyn marwolaeth, bywyd yn ammod marwolaeth, bywyd yn cael ei gynnyrchu gan farwolaeth, yn cael ei dysgu yn eglur trwy holl naturiaeth. Y mae yr enedigaeth naturiol yn ein haddysgu am yr enedigaeth ysbrydol; a phan oedd yr Iesu yn llefaru wrth Nicodemus am yr enedigaeth newydd, yr oedd yn defnyddio y dull hwn o osod y gwirionedd allan, nid yn unig am mai yr enedigaeth naturiol ydyw y gymhariaeth oreu a allesid ei chael i arddangos y cyfnewidiad ysbrydol, ond "fod holl amgylchiadau yr enedigaeth naturiol wedi cael eu rhagdrefnu yn y fath fodd ag i arddangos y dirgelwch mawr arall." Yr un modd, pan leferir am Iehofah o dan y teitl o frenin, nid yw yr enw hwn yn cael ei fenthyca oddi ar freninoedd y ddaear; ond Duw sydd wedi rhoddi benthyg ei deitl ei hun iddynt hwy; ac y mae nid yn unig wedi rhoddi yr enw arnynt hwy, ond hefyd wedi trefnu yn y fath fodd fel y mae pob gwir lywodraeth ar y ddaiar, ei chyfreithiau, ei sefydliadau, ei nodded, a'i chosp, yn ddarlun o'i lywodraeth oruchaf Ef. Nid ymadrodd ffugrol mewn un modd ydyw "teyrnas Dduw;" ond y mae yn ymadrodd perffaith llythyrenol. Llywodraeth a theyrnas Dduw ydynt y gwreiddiol; nid yw llywodraethau dynol yn amgen na chopïau o'i eiddo ef. Efe ydyw y Brenin mawr, y gwir Frenin; ac un o amcanion rhoddiad y teitl, a'r awdurdod y mae y teitl yn arwyddo, i ddynion, ydyw, fel y gallai y byd, trwy yr anianol, gael mantais i adnabod yr ysbrydol.

Ar allu y ddammeg i argyhoeddi y meddwl, neu y grym ymresymiadol a orwedda ynddi, y mae Tholuck yn gwneyd y sylwadau canlynol yn ei esboniad ar Efengyl Ioan (*pen.* xv):—"Mae gallu angenrheidiol y ddammeg yn gorwedd yn hyn, mai awdwr y deyrnas ysbrydol yw awdwr teyrnas natur hefyd; ac y mae y ddwy deyrnas yn cael eu dwyn yn mlaen yn ol yr un deddfau. Ar gyfrif y rheswm hwn, y mae y cyffelybiaethau a gymmera Iesu Grist allan o deyrnas natur, nid yn unig yn gyffelybiaethau yn unig, ond yn gyfatebiadau dyfnion; ac y mae natur felly yn dwyn ei thystiolaeth i deyrnas Dduw. Ac o blegid hyn, y mae yn cael ei dderbyn fel hen wirionedd fod pa beth bynag a ganfyddir yn y deyrnas ddaiarol, yn hanfodi hefyd yn y deyrnas nefol. Oni buasai ei bod felly, ni byddai y cyffelybiaethau hyny yn feddiannol ar y gallu argyhoeddiadol hwnw a gyflwynir ganddynt ger bron pob meddwl sydd heb suddo i'r iselder mwyaf anianol."

RHAGORIAETH DAMMEGION CRIST.

Y mae dammegion yr Efengylau, fel y gall-

[1] Talia divinarum virium lineamenta, non minus parabolis operate Deo quam locuto.

asem gredu yn mlaen llaw oddi wrth ddoethineb eu hawdwr, yn annhraethol ragori ar holl ddammegion y byd. Y maent yn berffaith yn eu mater a'u ffurf. Cynnwysant y gwirioneddau uchaf yn y wisg brydferthaf. "Nid oes ynddynt ddim gormodol ac afreidiol—nid oes ynddynt na mwy na llai nag sydd wir angenrheidiol i roddi eglurder a grym i'r syniadau a ddadblygir. Y mae eu darllen unwaith yn ddigon i ddwyn eu prydferthwch i'n golwg; ond po mwyaf mynych ac ystyriol y safom uwch eu pen, mwyaf y llenwir ni â syndod at berffeithrwydd eu ffurf a'u mater." Pa mor ddeniadol bynag ydyw eu ffurf allanol—yr adnabyddiaeth a ddangosir ynddynt o bob peth daiarol, eu cymhariaethau tlysion, a'u barddoniaeth uchel—eto, y mae y gwirionedd nefol ac ysbrydol a orwedd dan y ffurf hon fyth yn fwy gogoneddus ac anhywerth. Gwna Lisco y sylwadau canlynol ar eu perffeithrwydd:—"Fel y dywedodd Luther am yr holl Ysgrythyr, 'mai gardd Duw ydyw—gardd sydd yn llawn o brenau gwerthfawr, yn dwyn ffrwyth toreithiog; ac er ei fod lawer gwaith o'r blaen wedi curo y cangenau, fel ag y syrthiai llawer o'r ffrwyth i'w afael, eto yr oedd yn barhaus yn canfod ffrwyth newydd mor fynyched ag y curai y pren drachefn;' felly, yn arbenig, y gellir dywedyd am y dammegion. Y mae yn drysoredig ynddynt hwy gyflawnder didrai o addysg, dyddanwch, rhybuddion, ac annogaethau. Y mae eu hystyr yn gyfoethocach na'r môr—nid oes neb wedi yfed ymaith eu cyflawnder. Y mae pob adystyriaeth uwch eu pen yn dwyn rhyw gyfeiriadau neu awgrymau newyddion i'n golwg, ac yn tywallt goleuni newydd ar ddirgelion teyrnas nefoedd. Y mae pob darllenydd, pa un bynag ai dysgedig ynte annysgedig, coeth ynte anghoeth, yn sicr o ddeall rhywfaint ar y dammegion, er fod y llygad mwy craffus yn canfod yn mhellach i mewn i'w hystyr na'r llygad mwy tywyll. Y maent yn ddigon syml i'r syml, ac yn ddigon dwfn i'r meddyliwr mwyaf dwfn. Y maent, yr un fath a'r holl Ysgrythyr, yn afon ag y gall yr oen gerdded drwyddi, tra ar unwaith yn ddigon dwfn i'r cawrfil."

### EGLURHADAETH Y DAMMEGION.

Y mae hwn yn gwestiwn na cheir ond ychydig o unfrydedd arno yn mysg esbonwyr. Y mae gwahaniaeth hanfodol rhwng dull y naill esboniwr a'r llall o'u deongli; a barna pob dosbarth fod pawb ond y sawl a gymhwyso at eu heglurhadaeth y rheolau a ddilynir ganddo ef, yn gwneyd cam â'r dammegion. Gan un ysgol o esbonwyr, y mae deonglyddiaeth yr ysgol wrthwyneb yn dlawd, noeth, a difeddwl: ystyria fod ei beirniadaeth yn ysbeilio y dammegion o'u gwir werth; tra y barna hithau, ar y llaw arall, fod beirniadaeth y llall yn rhedeg yn wallgof—fod barn hybwyll yn rhoddi lle i ddychymyg direol, a bod y dychymyg hwnw yn gwthio i ddammegion Iesu Grist ystyron ac addysgiadau na fwriadai efe mewn un modd eu trosglwyddo trwyddynt. Y mae un dosbarth o esbonwyr nad ymofynant yn nammegion Crist am ddim mwy na chyfatebiaeth cyffredinol rhwng y ddammeg a'r wers ysbrydol a weinyddir ganddi: nid ydyw manylion y gymhariaeth yn ddim ond addurniadau israddol, yn hanfodol mae yn wir i gyfanrwydd a phrydferthwch y gymhariaeth, eto yn gyfryw nad ydyw i ymofyn am ddim yn yr ystyr ysbrydol i gyfateb iddynt. Y mae y dosbarth gwahanol, ar y llaw arall, yn amcanu cario y deongliad yn mhellach; ond y mae y dosbarth hwn drachefn yn cynnwys o'i fewn awdwyr mor amrywiol, yn gwahaniaethu mor bell oddi wrth eu gilydd, fel mai prin y gallem edrych arnynt yn perthyn i'r un ysgol o esbonwyr. Y mae rhai yn myned i'r cyfryw eithafion ag y mae pob esboniwr o farn dda, ac heb gael ei ogwyddo gan ragfarnau blaenorol, yn cilio rhagddynt; tra y mae ereill, er yn gwrthod dull noeth un dosbarth, eto yn amddifad o gydymdeimlad â dull dychymygol a chyfriniol y dosbarth arall. Yn ol y dosbarth cyntaf a enwasom, nid yw manylion y ddammeg [Trench] ond yn gyffelyb i fynedfeydd mewn tŷ gwych, y rhai a wnaed nid er eu mwyn eu hunain, ond i arwain o un ystafell i un arall. Nid min ydyw y gyllell oll, nid llinynau ydyw y delyn i gyd; ond er nad ydyw pob rhan o'r gyllell yn awchus, na holl ddarnau y delyn yn meddu ar allu i roddi allan swn, eto y mae y rhanau hyny yn angenrheidiol i'r naill a'r llall. "Y mae lluaws o amgylchiadau yn nammegion Crist," ebe Boyle, "yn gyffelyb i'r plu sydd yn gyru y saeth: nid ydynt hwy yn wir yn trywanu yr un fath a blaen y saeth; ond er ysgafned ydynt, eto y maent yn angenrheidiol er galluogi y saeth i archolli a thrywanu." I'r dosbarth yma y perthynai Chrysostom—un o'r esbonwyr goreu yn mysg y tadau, os nad y goreu o honynt oll. Rhybuddia yn fynych rhag cario holl fanylion y ddammeg yn rhy bell. Y mae Awstin, ar y llaw arall, yn ymhyfrydu mewn ymofyn am ryw ystyr ysbrydol i gyfateb i bob amgylchiad yn y ddammeg; ac y mae yn rhaid addef fod ei waith yn cario hyn i eithafion yn ei arwain i wneyd sylwadau dychymygol a phlentynaidd, sydd yn peri i ni ryfeddu am fod yn bosibl i ddyn o feddwl mor fawr, a barn mor addfed a chywir, erioed eu cynnyrchu.

Y mae yn ymddangos mai y llwybr canol gyda hyn, fel gyda lluaws o bethau ereill, ydyw y mwyaf diogel. Y mae yr eglurhad a roddes yr Arglwydd Iesu ei hunan o ddammegion yr hauwr ac efrau y maes, yn ddigon, dybygem, i ddangos annigonedd ac anghymhwysder dull un dosbarth o esbonio y dammegion. Y mae yr eglurhad hwn, fe ellid meddwl, yn fwy nag esboniad ar y ddwy ddammeg grybwylledig—y mae yn *agoriad* i'r oll o ddammegion Crist: trwy eu hegluro hwy i'r dysgyblion, dangosodd yr Iesu y ffordd i gael allan wir a chyflawn ystyr ei holl ddammegion. Yn awr, y mae yr Iesu ei hun yn gwneyd sylw yn ei eglurhad o *fanylion* y ddwy ddammeg. Cyffelyba y maes i'r byd, yr adar i'r diafol, y drain i ofalon a phleserau bywyd, &c. Ar y llaw arall, y mae gorgywreinrwydd rhai esbonwyr yn eu dyfaliadau am ystyr holl fanylion unrhyw ddammeg yn rhwym o ymddangos i bob meddwl sobr yn dra anghydweddol â'r parch a ddylid ei deimlo i ddysgeidiaeth yr Ysgrythyrau. Y fath gyferbyniad a welir rhwng ambell eglurhad plentynaidd ar y ddammeg â mawredd ac arddunedd y ddammeg ei hun! Y mae yn beryglus, fel y sylwa un awdwr, wrth geisio ysbrydoli y cyfan, i gellwair â gair Duw; i ymhyfrydiad yr esboniwr yn yr ymarferiad o'i gywreinrwydd beri iddo golli ei olwg oddi ar yr ystyriaeth mai sancteiddiad y galon trwy y gwirionedd ydyw amcan mawr yr Ysgrythyrau; a dylid cofio fod rhedeg yn y dull hwn o esbonio i eithafion wedi bod yn fanteisiol dros ben i gyfeiliornwyr, gan eu bod hwy, ar bwys hyn, wedi cymmeryd eu rhyddid i wyrdroi y dammegion, yn anad un

rhan o'r Ysgrythyrau, i'r dyben o gyfateb â'u golygiadau.

Y mae yn anhawdd, efallai, gosod i lawr reolau penodol, dieithriad, o barth eglurhadaeth y dammegion. Fel gyda holl ranau yr Ysgrythyr, felly hefyd gyda'r dammegion, y mae yn rhaid, tuag at gael allan feddwl Duw, i'r dyn fod yn feddiannol ar naws ysbrydol a sanctaidd ar ei galon fel Cristion—rhaid fod rhyw gydymdeimlad dwfn rhwng ei galon â'r gwirionedd. Parch helaethach i'r gwirionedd dwyfol a fuasai yn ddigon i gadw lluaws o esbonwyr rhag gwneyd sylwadau ffol, dychymygol, a phlentynaidd, oddi wrth ddammegion yr Arglwydd Iesu: ïe, gallasai barn gywir, ar unwaith, ddangos iddynt fod y person a lefarodd y dammegion yn annhraethol rhy fawr ei feddwl, a difrifol ei amcan, i draddodi gwersi yn cynnwys yr addysg ddibwys ac orgywrain a wasgent hwy o honynt. Y mae barn hybwyll yn hollol angenrheidiol, rhag na byddo i'r dychymyg gael ei ollwng yn afreolaidd wrth eu trin. Fel y llefarwyd y dammegion eu hunain, felly hefyd y dylai eu heglurhadaeth fod—"yn fuddiol i athrawiaethu, i geryddu, ac i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda."

Y dynesiad agosaf at reol mewn cyssylltiad âg eglurhadaeth y dammegion, yn ol barn Trench, ydyw yr eiddo Tholuck:—"Y mae yn rhaid caniatau fod cymhariaeth yn berffaith yn ol y mae yn feddiannol ar gyfoeth o gymhwysiadau; ac felly, wrth ymdrin â dammegion Crist, dylai yr esboniwr weithio ei ffordd yn mlaen ar y dybiaeth fod pob un o'r rhanau yn meddu ar ystyr; a dylai roddi i fyny ymofyn am dano yn unig, pan y mae yn anmhosibl ei gael heb drais, neu pan y mae yn ddigon amlwg fod yr amgylchiad hwn neu arall wedi ei chwanegu yn unig er mwyn cyfanrwydd a naturioldeb y gymhariaeth. Ni ddylem edrych ar yr un rhan fel heb fod yn hanfodol, oddi eithr fod ein gwaith yn dal gafael ynddi fel yn hanfodol yn dinystrio unoliaeth a pherffeithrwydd y cyfan." Dylid, yn y lle cyntaf, mewn trefn i wahaniaethu yr hyn sydd hanfodol i ystyr y ddammeg, a'r hyn sydd heb fod felly, ddeall beth ydyw y gwirionedd mawr a fwriedir ei ddysgu trwyddi: oddi eithr i'r gwirionedd hwnw ymddangos yn ei fawredd ger bron meddwl yr efrydydd, y mae yn anobeithiol y gall gyrhaedd golygiadau cywir am y ddammeg. Y gwirionedd hwn ydyw y canolbwynt, o amgylch pa un y mae yr holl addysgiadau ereill yn troi. Y mae y drychfeddwl mawr yma a berthyn i bob dammeg, fel agoriad i ddeall yr holl ranau ereill. Yn fynych, y mae rhyw amgylchiad perthynol i draddodiad y ddammeg, rhyw gwestiwn wedi bod yn achlysur i'w llefariad, neu ryw ymadrodd yn cael ei dynu fel addysg oddi wrthi, yn penderfynu pa beth yw y drychfeddwl mawr. Nid yw y cynnorthwyon hyn yn cael eu rhoddi bob amser yn yr un dull; ond prin y ceir un ddammeg hebddynt. Weithiau y maent yn dyfod oddi wrth ein Iachawdwr ei hun (*Mat.* xxii. 14; xxv. 13); weithiau gan yr haneswyr (*Luc* xv. 1, 2; xviii. 1); weithiau, fel y sylwyd, fel rhagymadrodd i'r ddammeg (*Luc* xviii. 9; xix. 11); ac weithiau fel olymadrodd (*Mat.* xxv. 13; *Luc* xvi. 9); a rhai prydiau, ceir agoriad i'w hystyr o'i blaen ac ar ei hol, fel yn nammeg y gwas annhrugarog (*Mat.* xviii. 23), achlysur llefariad pa un oedd cwestiwn Pedr (*adn.* 21), a'r wers a ddysgir ydyw *adn.* 35.

Y mae y gwir eglurhad ar unrhyw ddammeg yn sicr o ymddangos i bob dyn o farn gywir fel y mwyaf naturiol. Y mae yn sutio yn rhwydd a hwylus yn ei le, yn unol â'r hyn a geir yn y cyd-destyn oedd achlysur ac amcan llefariad y ddammeg; ac wedi cael yr eglurhad hwn—y gwir eglurhad—y mae fel canolbwynt o amgylch pa un y mae holl fanylion y ddammeg yn ymgasglu ac yn cymmeryd eu lle yn y dull mwyaf naturiol. Dichon nad yw y gwir eglurhad yn hawdd ei gael bob amser; nid ydym yn ei alw yn naturiol am ei fod yn ymgynnyg, megys o hono ei hun, i feddwl pob efrydydd: yn hytrach, y mae y gwir feddwl yn anhawdd iawn i'w ddwyn allan mewn lluaws o anghreifftiau; ond wedi unwaith y deuir o hyd iddo, y mae yn canmawl ei hun yn y fan i feddwl pob dyn o farn. Y mae yn bod gydag eglurhadaeth y dammegion yn gyffelyb i'r hyn yw gyda deddfau anian: y mae yn ofynol wrth berchen athrylith i ddarganfod y ddeddf; ond ar ol iddo ef ei chael allan, y mae yn profi ei hun, ac yn cario argyhoeddiad i'w chanlyn i bob meddwl. Ac y mae y gwir esboniad yn taflu goleuni ar holl fanylion y ddammeg: dengys nad oes ynddi ddim afreidiol. Y mae y gwir eglurhad, fel y dywed Trench, fel allwedd yn troi yn y clo heb rygnu, ac yn gwbl ddidrafferth: a phrin y mae angenrheidrwydd am ei amddiffyn gyda chyfeiriadau at ddywediadau y Rabbiniaid Iuddewig, a dyfyniadau o'r awduron Groegaidd a Lladinaidd, neu ei attegu âg eglurhadau wedi eu cymmeryd oddi wrth hynafiaethau ac arferion gwledydd y dwyrain.

Addefir hefyd yn gyffredin na ddylid ceisio profi na gwrthbrofi unrhyw athrawiaeth, gan adeiladu y prawf neu y gwrthbrawf yn benaf ar ddammeg. Gellir, mae yn wir, egluro gwirioneddau profedig o'r blaen trwyddi hi, ac hyd yn oed dwyn prawf chwanegol oddi wrthi; ond nid yw yn briodol adeiladu prawf arni hi ei hunan. Y mae yn rheol bwysig mewn eglurhadaeth i gychwyn gyda'r eglur, ac esbonio y tywyll a'r ffugrol trwy help yr amlwg a'r llythyrenol. Y mae y rheol hon, pa fodd bynag, wedi cael ei hanghofio gannoedd o weithiau, yn enwedig mewn dadleuon—pan y mae ymwared yn cael rhywbeth tebyg i reswm i amddiffyn pwnc ag y mae yn anhawdd cael gwir reswm o'i blaid. Ceir anghraifft o hyn yn Bellarmine. Dywedir yn nammeg y Samariad trugarog fod y lladron *yn gyntaf* wedi diosg yr ymdeithydd, ac *wedi hyny* ei archolli: ac oddi wrth hyny ceisia Bellarmine brofi un o athrawiaethau yr Eglwys Babaidd am gwymp dyn; sef fod y dyn yn gyntaf wedi ei amddifadu o'r doniau dwyfol, wedi ei ddiosg o fantell cyfiawnder; ac mewn canlyniad i hyny, wedi cael ei archolli a'i glwyfo yn ei enaid. Yr un modd, ymresyma Socinus oddi wrth ddammeg y gwas annhrugarog—gan fod y brenin wedi maddeu i'w was yn unig ar ei gais (*Mat.* xviii. 22), ac nid ar gyfrif unrhyw iawn wedi ei wneuthur iddo, neu heb ymyriad un cyfryngwr, y gall Duw yr un modd faddeu i ddynion, heb ofyn iawn drostynt, ac heb eiriolaeth un cyfryngwr ar eu rhan. Ond y rhai mwyaf euog o droseddu y rheol hon o bawb, medd Trench, oedd y Gwybedyddion a'r Manicheaid. Eu hunig amcan hwy yn eu defnyddiad o'r Ysgrythyrau oedd ymofyn am liwiau o eiddo Cristionogaeth i roddi gwedd wahanol ar gyfundraeth oedd yn gwbl anghristionogol. Deuent at y Beibl, nid i ddysgu ei iaith, ond i edrych ai nis gallent ei orfodi i lefaru eu hiaith hwy: nid oedd

Digitized by Google

ynddynt ddim dymuniad i gael y gwir feddwl allan o'r Ysgrythyrau; ond gwthient iddynt eu meddyliau eu hunain." Ac ni a gawn y cymmerent y rhyddid hwn yn fwy gyda'r dammegion nag un rhan arall. Nis gallasent wneuthur hyny â rhanau llythyrenol ac eglur y Beibl; ond gwnaent yn fwy diberygl gyda'r rhanau ffugrol. Yn erbyn gwaith cefnogwyr yr heresiau uchod yn cellwair gyda dammegion ein Iachawdwr, cyfododd Irenæus a Tertullian eu llef yn wrol, gan roddi arbenigrwydd i'r rheol, nas gellir adeiladu athrawiaeth ar sail dammeg, ond fod y ddammeg ei hun i gael ei hesbonio yn unol âg addysg eglurach y Beibl.

Dull arall o esbonio y dammegion ydyw eu gwisgo âg arwyddocâd prophwydol. Edrychir arnynt fel yn cynnwys hanes dadblygiad a chynnydd teyrnas Dduw—fod yr elfen hanesyddol a phrophwydol yn perthyn yn fwy neillduol iddynt na'r foesol a'r ysbrydol. Gwahanol gyfnodau y deyrnas, nid ei hegwyddorion, a gynnwysant yn benaf. Y maent yn gyffelyb, yn ngeiriau Boyle, i ryw fath o gregyn, y rhai, heb law y bwyd a roddant i ni, a gynnwysant berlau hefyd; felly y dammegion, y mae ynddynt nid yn unig wersi moesol, ond prophwydoliaethau pwysig hefyd. Dyma farn Bengel hefyd. Sylwa ef am y saith dammeg a gynnwysir yn *Matthew* xiii—gan fod y seithfed yn cyfeirio, yn fwy nag un o'r lleill, at ddiwedd y byd, at yr hyn ni chyfeiria y gyntaf o gwbl, fod y saith gyda'u gilydd yn ddarluniad prophwydol o gyflwr yr eglwys yn ngwahanol gyfnodau yr oruchwyliaeth bresennol, heb law eu bod yn cynnwys egwyddorion cyffredinol teyrnas Dduw; ac fod y gwahanol ddammegion wedi ac yn cael eu cyflawnu yn olynol yn ei hanes. Cyflawnwyd y gyntaf yn oes Iesu Grist ei hun; yr ail, yn oes yr apostolion a'r oes ar ol eu marwolaeth, o blegid dyna'r pryd y dechreuodd dynion gysgu (*adn.* 25); y mae y drydedd a'r bedwaredd yn cyfeirio at eangiad teyrnas Dduw; dysgrifia y bummed gyflwr tywyll ac adfeiliedig yr eglwys; y chweched, gyflwr teyrnas Dduw pan yn cael ei phrisio uwch law pob peth arall; y seithfed, sefyllfa yr eglwys yn y dyddiau diweddaf, pan mewn annhrefn a chymmysgedd mawr.

Rhydd Bengel y daflen ganlynol, yn yr hon y mae y gwahanol ddammegion yn *Matthew* xiii. yn cael eu cyfleu gyferbyn a chyfnodau neillduol.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Amser yr apostolion ... ... ... | 16 |
| 2. | Wedi marw yr apostolion ... ... | 26 |
| 3. | Cystenyn Fawr ... ... ... | 32 |
| 4. | Naw canrif o dan udgorn y seithfed angel ... ... ... ... ... | 33 |
| 5. | Teyrnas y Bwystfil a'r Diwygiad Protestanaidd ... ... ... ... | 44 |
| 6. | Teyrnas Dduw yn cael ei phrisio uwch law pob peth arall, a Satan wedi ei rwymo ... ... ... ... | 46 |
| 7. | Annhrefn y dyddiau diweddaf ... | 47 |

Mae yn rhaid addef fod sail i'r dybiaeth hon. Y mae yn ddiammheu fod rhai o'r dammegion yn feddiannol ar ystyr prophwydol: cyfeiriant at ganlyniadau dyfodol egwyddorion teyrnas nefoedd; y byddai i'r hedyn mwstard gynnyddu yn bren mawr, a'r surdoes lefeinio yr holl does. Rhagarwyddir angeu Iesu Grist yn nammeg y llafurwyr; ac yn nammeg priodas Mab y brenin, ceir rhagfynegiad o ddinystr Ierusalem, a throsglwyddiad breintiau teyrnas Dduw oddi wrth yr Iuddewon i'r Cenedloedd. Ond y mae yn fwy na thebyg nad ydym i gario hyn yn rhy bell. Gwirioneddau, a deddfau teyrnas Dduw, ydyw baich y dammegion; ac nid ei hanes. A chan fod cynnydd a dadblygiad yn un o'i deddfau, mae y dammegion hyny a gynnwysant y ddeddf hon yn debyg i brophwydoliaethau am dani. Ond edrych y mae yr Arglwydd Iesu yn nammegion yr hedyn mwstard a'r surdoes ar ei chynnydd—nid yn gymmaint fel ffaith yn hanes teyrnas Dduw, ag fel dadblygiad naturiol ei hegwyddorion, yn codi oddi ar natur yr egwyddorion hyny.

Y mae gwahanol ddosbarthiadau wedi eu gwneuthur o'r dammegion, yn ol fel y gosodant allan wahanol wirioneddau, neu yr un gwirionedd yn ei wahanol gyssylltiadau. Yn ol ateb yr Iachawdwr ei hun, y maent wedi eu bwriadu i osod allan ddirgelion teyrnas nefoedd i'r rhai sydd yn ewyllysio eu deall. A chan fod dwy ochr i'r dirgelion hyn, sef ochr gras Duw, ac ochr derbyniad gan y pechadur, gellir dosbarthu y dammegion yn ol fel y rhoddant arbenigrwydd ar y naill neu y llall o'r ddwy ochr hyn. Y mae y dammegion i gyd yn cynnwys y ddwy, ond y mae un yn rhoddi mwy o oleu ar y naill, ac un arall ar y llall. Y mae y dammegion sydd yn gosod allan yn benaf ymddygiad grasol Duw tuag at ddynion, yn meddu fel eu hamcan i egluro *dirgelwch gras;* ond y rhai sydd yn gosod allan yn benaf ymddygiadau dynion tuag at ras Duw, yn meddu fel eu hamcan i osod allan *ddirgelwch ffydd.* Ni byddai yn anhawdd gwneyd dosbarthiad o'r holl ddammegion yn unol â'r golygiad hwn. Y mae y dosbarthiad o honynt gan Lange yn fwy manwl na hwn, ac yn gynnwysedig dan y tri phen canlynol:—

Yn gyntaf, Y mae holl ddadblygiad teyrnas Dduw, o'i dechreu i'w diwedd, yn gynnwysedig mewn saith o ddammegion. Er ei fod ef yn priodoli ystyr prophwydol i'r rhai hyn, eto y mae yn hòni cyfaddasrwydd pob un o honynt i bob oes. (1.) Y mae teyrnas nefoedd yn had da ag sydd yn cyfarfod â rhwystrau yn y gwahanol fathau o dir y mae yn syrthio iddo, ond y mae yn syrthio hefyd i dir da:—yr oes apostolaidd. (2.) Ond nid yn unig y mae rhwystrau yn nghalonau dynion, ond mae y gelyn ddyn hefyd yn hau efrau:—oes yr heresiau. (3.) Ond nid yn unig y mae gwrthwynebiadau oddi fewn ac oddi allan i'r deyrnas hon, ond er ei bod yn fach yn ei dechreuad, fel gronyn o hâd mwstard, eto y mae yn cynnyddu nes myned yn bren, ac adar y nefoedd yn nythu yn ei gangenau:—Cristionogaeth wedi ei sylfaenu yn grefydd yr ymherodraeth. (4.) Teyrnas nefoedd yn debyg i surdoes yn ei ymweithiad dirgelaidd yn mysg dynion:—cenedloedd paganaidd yn dyfod yn raddol ac yn ddystaw dan ddylanwad Cristionogaeth yn y canol oesoedd. (5.) Y mae teyrnas nefoedd wedi ei chuddio yn yr eglwys weledig fel trysor mewn maes:—amser y diwygiad. (6.) Yn gyffelyb i berl gwerthfawr:—y gwerth a roddir ar Gristionogaeth yn y dyddiau diweddaf. (7.) Yn gyffelyb i rwyd a fwrir i'r môr, ac a gasglodd bob rhyw beth:—diwedd y byd: *Mat.* xiii. Y mae y ddammeg brydferth yn *Marc* iv. 26—29, yn dangos cynnydd y deyrnas mewn modd graddol a naturiol, yn unol â'i hegwyddorion ei hun o'i dechreu i'w diwedd.

Yn ail; yn y casgliad nesaf o ddammegion, dangosir teyrnas nefoedd fel gras a thrugaredd Duw i'r byd. Y mae y rhai hyn i'w cael yn benaf yn Luc. (1.) Y Samariad trugarog: *Luc* x. 30—37. Y mae Crist yn ei gymharu ei hun

Digitized by Google

i Samariad tosturiol, yr hwn sydd yn estyn ymwared i'r ddynoliaeth ag sydd yn ymdrybaeddu yn ei gwaed, ac wedi ei gadael iddi ei hun o ran yr offeiriaid a'r Lefiaid. (2.) Y swper mawr: *Luc* xiv. 16—24. Y mae hon yn dangos ymddygiad gwahanol yr Iuddewon hunan-gyfiawn, a'r publicanod a'r Cenedloedd, tuag at ddarpariaeth yr efengyl. Y mae yr un gwirionedd i'w ganfod yn y tair dammeg yn mha rai y mae Crist yn ceisio y colledig: *Luc* xv. (3.) Y ddafad a gollesid; (4.) y darn arian a gollesid; (5.) a'r mab a gollwyd. Ar ol y rhai hyn (6.), y mae y ddammeg am y goruchwyliwr anghyfiawn (*Luc* xvi), yn yr hon y mae yr Arglwydd yn ein dysgu mai trwy ddangos trugaredd y mae i ni feithrin y teimlad o angen am drugaredd yr efengyl. (7.) Y ddammeg am y gŵr goludog a Lazarus. Y mae yr hwn na allasai ddangos trugaredd i ereill yn syrthio yn fyr o drugaredd ei hun, tra y mae y gwirioneddol dlawd yn cael ei gymmeryd i fynwes Abraham; yn nesaf, dangosir mai y ffordd i gyrhaedd trugaredd ydyw trwy weddi ddibaid. I'r dyben hyn, lleferir (8.) dammeg y barnwr anghyfiawn a'r weddw dlawd. Ac hefyd (9.) trwy yr hwn a aeth at ei gyfaill hanner nos i geisio tair torth yn echwyn (*Luc* xi. 5—8. Er mwyn dangos yr ysbryd priodol sydd i fod mewn gweddi, ni gawn (10.) ddammeg y Pharisead a'r publican (*Luc* xviii); i'r un perwyl y mae (11.) dammeg y ddau ddyledwr, o ba rai yr hwn y maddeuwyd iddo lawer a garodd yn fawr (*Luc* vii. 41, 42); ac yn ddiweddaf (12.), dammeg y gwas yr hwn oedd yn nyled ei Arglwydd o ddeng mil o dalentau; eto, o herwydd iddo wrthod trugarhau wrth ei gydwas, a roddwyd eilwaith i'r poenwyr hyd oni thalai yr hyn oll oedd ddyledus iddo: *Mat.* xviii. 23.

Yn y trydydd dosbarth, ni gawn y dammegion hyny sydd yn amlygiad o weinyddiad trugaredd yn unol â chyfiawnder, a barn ddialeddol ar y cyfryw ag sydd yn gwrthod trugaredd. O'r rhai hyn, ni gawn yn (1.) ddammeg y gweithwyr yn y winllan (*Mat.* xx). Yma y dangosir i ni fod rhoddion trugaredd a gwobrwyon cyfiawnder yn gysson â'u gilydd; a bod cyflawnder yn yr efengyl yn edrych, nid at faint yr hyn a wneir, ond at ei ansawdd, a'i fod yn rhoddi y flaenoriaeth i barodrwydd i wasanaethu Crist ar y syched am wobr. Arddangosir hyn mewn goleuni cryfach eto (2.) yn nammeg y deg gwas a dderbyniodd ddeg punt, un i bob un, ond a wobrwywyd yn wahanol yn ol graddau eu ffyddlondeb. Yn gyffelyb, ac eto yn wahanol, ydyw (3.) dammeg y talentau (*Mat.* xxv.); (4.) y gŵr goludog a adeiladodd ysguboriau mwy, ond uwch ben yr hwn y dywedodd Duw, "O ynfyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddi wrthyt; ac eiddo pwy fydd y pethau a barotoaist (*Luc* xii. 16)? (5.) y ffigysbren diffrwyth (*Luc* xiii. 6—9); (6.) dammeg priodas mab y brenin (*Mat.* xxii. 1—14); (7.) dammeg y ddau fab (*Mat.* xxi. 28); (8.) y llafurwyr anffyddlawn yn ngwinllan eu Harglwydd (*Mat.* xxi; *Marc* xii; *Luc* xx). Er mwyn dangos allan y gwir a'r gau dan y Testament Newydd, lleferir yn (9.) ddammeg y deng morwyn, o ba rai yr oedd pump yn gall a phump yn ffol. Mae y dosbarth hwn yn dybenu gyda'r ymddyddan am y farn ddiweddaf; yr hwn, er ei fod yn ddammegol o ran, sydd yn tori trwy ffurf caeth y ddammeg.

Yn gyffelyb y mae ymddyddanion yr Arglwydd Iesu yn *Ioan* yn ddammegol eu dull; ac ynddynt ni a gawn yr oll o natur—y gwynt, y ffynnon, bara, y winwydden, a'r goleuni—holl arferion bywyd, megys y bugail, a'r gwinllanydd—holl hanesiaeth yr Hen Destament, y sarff bres, y manna, y pasg, a'r deml—yn cael eu defnyddio i osod allan Grist a dirgelion ei deyrnas.

Y gweithiau y derbyniasom fwyaf o gymhorth oddi wrthynt wrth barotoi yr erthygl hon ydynt, *Trench's Notes on the Parables*; *Lisco on the Parables*; *Esbon. Calvin*, *Olshausen*, *Stier*, ac *Alford*; a *Neander's Life of Christ*. Y mae llenyddiaeth ein cenedl ni yn dlawd iawn yn y gangen hon; ond cyhoeddwyd yn ddiweddar gyfrol fechan gryno a buddiol ar y dammegion, o waith y Parch. E. Evans, Llangollen. Y bai mwyaf ar y llyfr hwn ydyw ei fod yn rhy fyr, gan fod holl ddammegion ein Iachawdwr yn faes mor helaeth.

DAMWAIN—EINIAU, [*gwain*]: dygwyddiad heb ei ddysgwyl: *Gen.* xxviii. 11; *Ruth* ii. 3. "Ac edrychwch, os ä hi i fyny ar hyd ffordd ei bro ei hun i Bethsemes; yna efe a wnaeth i ni y mawr ddrwg hwn: ac onid e, yna y cawn wybod nad ei law ef a'n tarawodd ni: ond mai *damwain* oedd hyn i ni;" 1 *Sam.* vi. 9. Ystyr y gair yn yr adnod hon ydyw—os gadawai y buchod, heb fod dan arweiniaid dyn, eu lloi, a'r borfa, a'r ffyrdd ar hyd pa rai yr arferent deithio, gan gludyr arch tua Bethsemes (pwynt agosaf tir Israel) yna gallai y Philistiaid gasglu oddi wrth yr amgylchiad goruchnaturiol hwn mai llaw Duw oedd wedi eu cystuddio, fel cospedigaeth am gadw yr arch; ond os na ddygwyddai felly, gallent dybied mai canlyniad achosion naturiol, ond anhysbys, oedd eu hafiechyd rhyfedd. Y pethau y sieryd dynion am danynt fel yn dygwydd drwy ddamwain ydyw y pethau hyny a gymmerant le heb un achos eglur iddynt; megys yn *Luc* x. 31: "Ac ar *ddamwain*, rhyw offeiriad a ddaeth y ffordd hono," &c.; hyny yw, nid oedd yn myned heibio i'r dyn anafus yn fwriadol. Er hyny, nid oes dim yn cymmeryd lle nad ydyw yn wybyddus i Dduw, ac wedi ei ragweled ganddo ef. Y mae y gair, yn ol fel yr arferir ef gan atheistiaid. yn anathronyddol, yn gystal ag yn annuwiol. Gwel Atheistiaid.

DAN, [דן, *barnwr;* Deg a Thrigain, Δάν]: pummed mab Iacob, a'r hynaf o'i feibion o Bilhah, llaw-forwyn Rahel: *Gen.* xxx. 3; xxxv. 25. Sefydlydd un o lwythau Israel. Nid oedd gan Dan ond un mab, enw yr hwn oedd Husim (*Gen.* xlvi. 23): eto, pan yr ymadawodd yr Israeliaid o'r Aipht, cynnwysai y llwyth hwn 62,700 o ddynion mewn oed (*Num.* i. 39); yr hyn a'i gwnai yn ail o'r llwythau mewn rhifedi—Iudah yn unig a ragorai arno. Ni effeithiwyd cymmaint ar ei rifedi yn yr anialwch a llawer o'r llwythau; o blegid yn y cyfrifiad a wnaethpwyd cyn myned i Ganaan, rhifai 64,400 (*Num.* xxvi. 43); yr hyn oedd yn chwanegiad o 1,700; ac yr oedd yn ail y pryd hyn eto o ran poblogaeth. Ond nid oes dim yn hanes y llwyth yn cyfateb i'r rhagoriaeth hwn mewn rhifedi; y mae yr amgylchiad hynotaf yn ei hanes, pa fodd bynag, yn dwyn cyssylltiad â'r ffaith hon. Gan i'r rhandir gwreiddiol a nodesid allan i'r llwyth yn mharth de-orllewinol Palestina fyned yn rhy gyfyng i'w boblogaeth luosog, aeth nifer o'r llwyth i ymofyn sefydliad newydd i'r parth gogleddol, a chymmerasant feddiant parhaus o ddinas a thalaeth Lais, neu Lesem (*Ios.* xix. 47; *Barn.* xviii. 29). Yr oedd y dalaeth a nodesid yn rheolaidd i'r llwyth, er yn

Digitized by Google

gyfyng, yn dra ffrwythlawn. Yr oedd gwlad y Philistiaid ar y tu gorllewinol iddi; parth o randir Iudah, yn nghyd â Beniamin, ar y tu dwyreiniol; rhandir Ephraim ar y tu gogleddol; a rhandir Simeon ar y tu deheuol. Yr achos penaf o fod y diriogaeth yn rhy gyfyng ydoedd analluogrwydd y Daniaid i fwrw ymaith y Philistiaid a'r Amoriaid, y rhai a breswylient mewn parthau o honi. Nid oes un ammheuaeth nad oedd y rhandir, fel y nodesid hi yn wreiddiol—ond nid fel yr oedd wedi ei meddiannu—yn cyrhaedd hyd Fôr y Canoldir drwy wlad y Philistiaid. Un o'r llwyth hwn oedd Samson; ac y mae agosrwydd y llwyth at y Philistiaid yn egluro llawer o amgylchiadau yn hanes y gwron hwnw. Ymddengys oddi wrth yr hanes hwnw fod rhyw fath o gyfathrach dirgelaidd rhwng y Philistiaid a'r Daniaid, er yr elyniaeth gyhoeddus ag oedd rhwng Israel a'r rhai blaenaf (*Barn.* xiii.—xvi). O'r dinasoedd a nodesid i Dan (*Ios.* xix. 40), ni allodd y llwyth gymmeryd meddiant o gwbl o amryw o honynt, megys Ecron ac Ioppa; syrthiodd ereill, megys Bethsemes, Estaol, a Soreah, i ddwylaw Iudah (*Ios.* xxi. 16; 1 *Cron.* vi. 59; *Ios.* xv. 33; *Barn.* xviii. 1—12). Yn ystod yr ymgyrch yn erbyn Iabbin, dan Deborah, arosodd Dan "mewn llongau" (*Barn.* v. 17); oddi wrth yr hyn yr ymddengys fod y llwyth, mewn rhan, o'r hyn lleiaf, yn preswylio tua'r arfordir. Ar eu ffordd tua Lais, ysbeiliodd y Daniaid ŵr o'r enw Micah, yn mynydd Ephraim, o ryw bethau cyssegredig a ddefnyddid mewn gwasanaeth eilunaddolgar, a darbwyllasant Lefiad ieuanc ag oedd yn ngwasanaeth Micah i ymuno â hwynt. Wedi cymmeryd meddiant o Lais, gosodasant i fyny ddelw gerfiedig Micah, yr hon y parhasant i'w haddoli hyd y caethgludiad (*Barn.* xviii). Dygodd sefyllfa Dan ei thrigolion newyddion i fasnach fywiog â'r Phœniciaid cymmydogaethol, canys hi a safai ar y brif ffordd o Phœnicia i'r Euphrates, a daeth yn safle i deithfinteioedd. Ymddengys ddarfod i'r gweddill o'r llwyth, y rhai a arosasant yn eu rhandir gwreiddiol, gael eu gorchfygu gan y Philistiaid, a'u bod drachefn wedi eu llyncu i fyny gan lwyth cryf Iudah; fel nad oedd un dalaeth benodol yn cynnrychioli y llwyth yn amser y caethgludiad ond Dan yn unig. Gall mai hyn ydyw y rheswm pa ham na enwir Dan yn *Dad.* vii. 5—8.—(*Kitto's Cycl.; Herzog's Real Encycl.*)

DAN: y dref a elwid ar y cyntaf Lais, neu Lesem, yr hon y crybwyllir am dani yn yr erthygl flaenorol fel wedi ei meddiannu gan ran o lwyth Dan, a'r rhai a newidiasant ei henw cyntefig. Y mae y dysgrifiad a roddir o gyflwr Lais cyn ei dymchweliad yn arwyddo fod y lle yn perthyn i'r Sidoniaid, a bod y trigolion yn trigo yn llonydd a diofal "yn ol arfer y Sidoniaid," gan fwynhau cyflawnder o bob peth (*Barn.* xviii. 7). Ymddengys eu bod yn teimlo y diogelwch hwn oddi wrth y ffaith nad oedd unrhyw alluoedd gelynol yn eu cymmydogaeth, ac oddi wrth yr ymddiried a roddent yn amddiffyniad Sidon; yr hon oedd, pa fodd bynag, yn rhy bell i roddi iddynt un cymhorth mewn achos o ymosodiad disymmwth, cyffelyb i'r un y dymchwelwyd hwynt drwyddo. Sylwodd yr ysbïwyr yn fanwl ar bellder Sidon fel amgylchiad ffafriol i'r ymgyrch; ac nid ydyw yn ymddangos ddarfod i Sidon wneuthur un ymdrech i fwrw y Daniaid ymaith o'r ddinas. Daeth Dan ar ol hyny yn brif eisteddle eilunaddoliaeth Ieroboam, a gosodwyd un o'r ddau lo aur i fyny yno (1 *Bren.* xii. 28, 29). Goresgynwyd hi, yn nghyd â dinasoedd ereill, gan y Syriaid (1 *Bren.* xv. 20); ac y mae ei henw yn eithaf adnabyddus oddi wrth yr ymadrodd "o Dan i Beerseba," yr hwn a arferid i ddynodi maintioli Gwlad yr Addewid (*Barn* xx. 1; 1 *Sam.* iii. 20; 2 *Sam.* xvii. 11). Yr oedd Dan, hyd yn oed yn nyddiau Eusebius, yn bentref bychan, yr hwn a osodir ganddo ef o fewn pedair milltir i Paneas, yn nghyfeiriad Tyrus. Gan fod y pellder hwn yn cyfateb i sefyllfa y ffynnon yn Tel el-Kady, yr hon a ffurfia un o adnoddau yr Iorddonen, a chan ei fod yn cyfateb, y mae yn debygol, i'r lle a elwir yn Dan gan Josephus [*Hyn.* i. 102], nis gallai gan hyny mai sefyllfa Dan oedd Paneas ei hun, yr hyn sydd wedi bod yn cael ei ddyweyd mewn amseroedd diweddar. Nid oes dim adfeilion yn aros yn agos i ffynnon Tel el-Kady, ond sylwodd Burkhardt ar adfeilion hen dai annedd o fewn taith tua chwarter awr i'r gogledd; ac y mae y bryn sydd uwch law y ffynnon yn ymddangos fel pe byddai adeiladau wedi bod arno rywbryd—(*Burkhardt's Syria*, td. 42; *Robinson's Researches*, iii. 351—358; *Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

DANADL: llysieuyn adnabyddus iawn, ar ddail pa un y mae pigau bychain gwenwynllyd; a phan y cyffyrddir â'r dail, ä y pigau hyn drwy y croen, a chynnyrchant boen a chwydd. Nid ydyw y ddeilen pan yn wlyb, neu pan wedi crino, yn meddu y gallu hwn. Y mae bod danadl mewn tir yn arwydd o ddiffyg diwylliant; er gosod hyny allan, defnyddir ef yn y lleoedd canlynol;—*Esa.* xxxiv. 13; *Hos.* ix. 6. Y mae gair arall, *charul* (חרול) yn dygwydd dair gwaith yn y Beibl, yr hwn a gyfieithir *danadl* yn mhob un o'r lleoedd yn y cyfieithiad Cymraeg. *Diar.* xxiv. 30, 31; "Mi a aethym heibio i faes y dyn diog, &c.; ac wele codasai drain ar hyd-ddo oll; danadl (*charullim*) a guddiasai ei wyneb ef." Dywedir yn *Iob* xxx. 7, fod y sant hwnw yn cael ei watwar gan blant y bobl hyny y buasai yn ormod o iselhad ganddo eu cymmeryd i'w wasanaeth ychydig cyn hyny, a'r rhai oeddynt mor ddistadl a dirmygus fel y "rhuent yn mhlith perthi, ac yr ymgasglent dan *ddanadl.*" Ceir y gair hefyd yn *Seph.* ii. 9; "Fel Sodoma y bydd Moab, a meibion Ammon fel Gomorrah: *danadl*-dir, a phyllau halen, ac anghyfanneddle tragwyddol." Y mae cryn anhawsder i benderfynu at ba lysieuyn neu blanigyn y cyfeirir yn yr adnodau uchod. Y mae y rhan luosocaf o gyfieithwyr ac esbonwyr wedi meddwl mai rhyw blanigyn pigog neu ddanadl a olygir wrth *charul*, oddi wrth y planigion ereill a enwir gydag ef. Gan hyny, y mae mieri, coed eirin gwylltion, ac ysgall, bob un o honynt, wedi eu dewis fel y pethau a olygir; ond gan y danadl y mae y nifer luosocaf o gefnogwyr. Ond dewisa Celsius y *zizyphus paliurus*, neu y planigyn a fu yn cael ei alw "draenen Crist," fel yr un sydd yn cyfateb oreu i'r amrywiol gyddestynau.

Am yr holl benderfyniadau hyn, pa fodd bynag, y mae yn rhaid sylwi nad ydynt yn ddim amgen na dychymygion; o blegid, fel y dywed Rosenmüller, nad ydyw y gair hwn gan yr ieithoedd perthynasol, ac hefyd o blegid "fod cyfieithwyr Groegaidd Alexandria yn gwahaniaethu yn hollol yn y cyntaf a'r diweddaf o'r tri lle hyn (yr unig leoedd yn mha rai y dygwydd y gair Hebraeg) oddi wrth ein testyn Hebraeg presennol ni; ond yn yr adnod yn Iob, cyfieithant *charul*,

Digitized by Google

"prysgwydd gwylltion." Nid ymddengys, oddi wrth ystyr yr adnodau crybwylledig, fod angenrheidrwydd anhebgorol am ddeall mai planigyn pigog a olygir wrth y gair sydd dan sylw. Y cwbl a awgrymir yw, yr ä meusydd llafuriedig, os esgeulusir hwynt, yn llawn o chwyn, ac y bydd y chwyn hyn y fath ag y gall segurwyr, megys y dywed yr adnod yn Iob, ymgysgodi danynt, neu orwedd i lawr yn eu canol. Y mae yr adnod hon, yn wir, yn ymddangos fel yn cau allan bob math o blanigion pigog a danadl, o blegid nid äi neb i'r fath le a hyny yn wirfoddol; ac y mae un o'r esbonwyr, megys y dyfynir ef gan Celsius [ii., td. 168], o'r un farn, fel yr ymddengys, yr hwn a ystyria mai *pys*, neu yn hytrach ffacbys, a olygir. Heb law hyny, y mae yn deilwng o sylw fod gair mewn iaith berthynasol, yr Arabaeg, ag sydd yn lled debyg i'r gair *charul*, sef *khardul*. Cymhwysir y gair hwn mewn hen lyfrau Arabaidd, yn gystal ag yn bresennol, at wahanol fathau o fwstard, ac hefyd at blanigion a ddefnyddir i'r un dybenion a mwstard. Gwyddys yn dda fod rhai rhywogaethau o fwstard gwyllt yn dueddol iawn o dyfu mewn meusydd ŷd, ac mai hwy ydynt y math mwyaf trafferthus o chwyn. Crybwylla un awdwr diweddar—Syr James Smith—am un rhywogaeth o honynt fel yn lluosog iawn mewn meusydd ŷd, ac hefyd mewn tiroedd anniwylliedig pan y torir hwynt ar y cyntaf, sef *sinapis arvensis*. Fel hyn



Dar. 237.—Sinapis Orientalis.

hefyd y dywed ysgrifenydd mor hen a Gerarde, yn ei *Lysieulyfr*:—"Y mae tri math o faip gwylltion: un ydyw ein hydfaip cyffredin, y rhai a gynnyrchant yr hadau o ba rai y gwneir olew ydfaip (*rape oil*), ac y porthir adar cân; y llall ydyw y gelyn cyffredin i ŷd, yr hwn a elwir genym ni yn *cedw gwyllt* (*charlock*)." Awgryma hefyd fod hwn yn cael ei alw yn *carlock*, *chadlock*, a *kadlock*—geiriau ag y mae cyffelybrwydd rhyngddynt a *khardul*, *kharul*, neu *charul*, a'r rhai a gymhwysir yn y wlad hon at y math hwn o fwstard gwyllt, megys ag y cymhwysir *khardul* at y rhywogaeth o fwstard ag sydd yn tyfu yn naturiol mewn amrywiol barthau o Asia. Bod rhai o'r rhywogaethau hyn i'w canfod yn Syria a Palestina sydd dra hysbys, megys y crybwylla Russell fod y *sinapis arvensis*, neu y cedw gwyllt, yn dra chyffredin yn nghymydogaeth Aleppo.

Dywed Irby a Mangles hefyd, eu bod hwy, yn ystod eu taith o Bysan i Adjeloun, wedi cyfarfod â'r planigyn mwstard yn tyfu yn wyllt, ac mor uchel a phenau eu ceffylau. Mewn gwirionedd, y mae rhai o'r rhywogaethau yn tyfu mor fawr yn y gwledydd hyn, fel y tybiwyd mai un o honynt hwy oedd y pren mwstard y cyfeiriai Crist ato. Y mae yn debygol, gan fod y *sinapis arvensis* mor gyffredin, ei fod i'w gael hefyd yn Palestina, er nas gellir penderfynu hyny ond gan lysieuwr da yn y fan a'r lle, neu drwy gymharu esamplau pur a digymmysg. Ond y mae math arall, y *sinapis orientalis*, yr hwn sydd yn dra chyffredin mewn meusydd ŷd yn Syria, ac yn neheubarth a chanolbarth Ewrop, a'r hwn y mae yn lled anhawdd ei wahaniaethu oddi wrth y *sinapis arvensis*. Cyfateba y naill fath neu y llall o'r planigyn hwn i'r adnodau crybwylledig; a chan fod cyffelybrwydd rhwng eu henwau, y mae yn debygol iawn mai hwn ydyw *charul* yr Ysgrythyr. Dyma y planigyn a dyfai gyntaf mewn maes yn cael ei ddiwyllio yn esgeulus, tra y gorchuddiai mewn ychydig amser feusydd anniwylliedig; a chan ei fod yn tyfu mor fawr ag y dysgrifir ef gan rai o deithwyr Gwlad Canaan, ffurfiai gysgod rhagorol rhag gwynt poeth, ac hyd yn oed rhag pelydrau yr haul.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*; *Rel. Encycl*; *Calmet's Dict.*)

DANIEL, [דניאל=*Duw yw fy marnwr*]: ydoedd brophwyd enwog yn amser breniniaethau y Caldeaid a'r Persiaid. Y mae y Beibl yn son am ddau ereill o'r un enw: mab Dafydd, o Abigail y Carmelees (1 *Cron.* iii. 1); a Lefiad, o hiliogaeth Ithamar (*Ezra* viii. 2).

Saif y prophwyd Daniel yn uchel yn mhlith rhagorolion y ddaiar. Y mae yn debygol nad oes o fewn cylch llenyddiaeth sanctaidd neu gyffredinol son am ddyn o gymmeriad uwch na'r prophwyd Daniel. Os edrychwn ar ei fonedd syml a dirodresol, ei dduwioldeb uchel a diymwthgar, ei wroldeb ffyddlawn a diarswyd yn cyhoeddi gwirioneddau annerbyniol, ei dawelwch a'i amynedd yn nghanol peryglon aruthrol ac ofnadwy, a'i ddarluniad aruchel o farn ddisymmwth yn nghlustiau y glwth o Babilon, nis gallwn lai na rhyfeddu a pharchu ac anwylu ei fuchedd sanctaidd a'i gymmeriad dysglaer. Yr oedd ei gorff yn brydferth, ei ymddangosiad yn hardd, ei iechyd yn hoenus, ei wybodaeth yn eang, ei ddoethineb yn fawr, a'i fuchedd yn sanctaidd. Dysgodd ieithoedd dyeithr heb anghofio iaith ei fam; gwasanaethodd yn llys Babilon heb ymoeri at wlad ei enedigaeth; ceisiodd ddoethineb Caldea, ond ceisiodd yn fwy y ddoethineb sydd oddi uchod. Bu yn ffyddlawn i'w wlad, yn ffyddlawn i'w gydgenedl, yn ffyddlawn i lywodraeth Babilon, ac yn ffyddlawn i "Dduw ei dadau."

Disgynodd Daniel o un o deuluoedd uchaf Iudah, ac efallai ei fod o'r had breninol (*Dan.* i. 3; Josephus, *Hynaf. Iudd.*, x. 10. 1). Tybir oddi wrth *Dan.* ix. 24, mai Ierusalem oedd lle ei enedigaeth. Pan oedd Daniel, Ananïah, Misael, ac Azarïah yn ieuainc, cymmerwyd hwy yn gaethion i Babilon, yn y bedwaredd flwyddyn o

Digitized by Google

deyrnasiad Iehoiacim, brenin Iudah. Dewiswyd Daniel i wasanaethu yn llys y brenin yn Babilon, pryd y rhoddwyd iddo yr enw Beltesassar, yn ol defod y dwyrain o newid enwau dynion, pan gymmerai cyfnewidiad le yn eu sefyllfaoedd: 2 *Bren.* xxiii. 34; xxiv. 17; *Esth.* ii. 7; *Ezra* v. 14.

Yn ei sefyllfa newydd, derbyniodd Daniel fanteision addysg uchaf Babilon. Cynnyddodd yn fawr mewn dysg, moes, a dawn; ac megys yr oedd Moses yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid, felly hefyd yr oedd Daniel yn ddysgedig yn holl ddoethineb y Caldeaid. Profwyd ef yn fuan drwy gynnyg iddo ran o fwyd a diod y brenin. Gwrthododd y cynnyg yn bwyllog a phenderfynol; ymgadwodd rhag bwyd gwaharddedig; a glynodd yn ei ddull syml cyntefig o fyw. Ennillodd ei wroldeb gymmeradwyaeth dynion, a choronwyd ei ymddygiad â bendith y nefoedd. Wedi i Daniel orphen ei addysg barotoadol, cawn ef yn llys Nebuchodonosor, ac yn dyfod i barch a sylw neillduol trwy ddeongli breuddwyd y brenin;—"Y brenin a fawrygodd Daniel, ac a roddes iddo roddion mawrion lawer; ac efe a'i gwnaeth ef yn benaeth ar holl dalaeth Babilon, ac yn ben i'r swyddogion ar holl ddoethion Babilon." Ac wedi hyny, ar ol tymmor o amser yn nheyrnasiad Nebuchodonosor, efe a ddeonglodd freuddwyd arall o eiddo y brenin, pryd yr hysbysodd i'r brenin y byddai iddo, o herwydd uchder ei ffroen, golli ei orsedd am dymmor, ond y byddai iddo gael ei adferyd i'w orsedd ar ol ei ymostyngiad: *Dan.* iv. Mae ymddygiad Daniel ar yr amgylchiad pruddaidd hwn yn esampl i gynghorwyr holl freninoedd y ddaiar. Arddangosodd serch mawr at y brenin, a phryder mawr am lwyddiant y freniniaeth, yn nghyd â gonestrwydd a gwroldeb neillduol trwy ddangos yn amlwg i'r brenin ffordd llwyddiant a llonyddwch.

Wedi marwolaeth Nebuchodonosor, anghofiwyd Daniel, ac anghofiwyd ei wasanaeth i'r wladwriaeth. Symmudwyd ef o'i swyddau uchel, a chyfyngwyd ef am dymmor i swydd ddibwys: *Dan.* viii. 27; ond gan nas gellir cuddio gwir deilyngdod yn barhaus, daeth Daniel i anrhydedd drachefn, yn y flwyddyn gyntaf, ac yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Belsassar (*Dan.* v. 7, 8), trwy ddarllen yr ysgrifen ar galchiad y pared. Yn ystod teyrnasiad y brenin hwn y brawychwyd ac y cysurwyd Daniel gan ddwy weledigaeth ryfeddol, yn y rhai y gwelodd gynnydd a dadfeiliad breniniaethau cedyrn, yn nghyd â'u perthynas â breniniaeth Duw y nefoedd, ar yr hon ni bydd diwedd: *Dan.* vii, viii.

Wedi buddugoliaethu ar Babilon gan alluoedd unol Media a Phersia, bu Daniel yn ddiwyd, yn ystod teyrnasiad Darius, neu Cyaxares II., yn rhyddhau y ffordd i'r Iuddewon i ddychwelyd o'u caethiwed. Ni ddiangodd rhag saethau cenfigen. O herwydd ei burdeb a'i lwyddiant, ei elynion a faglasant y llywydd; ac yn ol gorchymyn y brenin, taflwyd Daniel i ffau y llewod. Diogelwyd ef yno, a gwaredwyd ef oddi yno mewn modd gwyrthiol—cynnyddodd ei glod trwy yr amgylchiad rhyfeddol hwn, a dyrchafwyd ef i swyddau o anrhydedd dan Darius a Cyrus: *Dan.* vi. Cafodd weled dechreu a diwedd caethiwed ei gydgenedl yn Babilon. Yr oedd, fel Ioan, yn "anwyl gan Duw;" a dangoswyd iddo rai o weledigaethau rhyfeddaf y dadguddiad dwyfol. Fel dyn, fe welodd bethau rhyfeddol yn cymmeryd lle; ac fel prophwyd, gwelodd fod pethau llawer mwy i gymmeryd lle yn y dyfodol. Digonwyd ef â hir ddyddiau: bu farw â'i lygaid yn gweled iachawdwriaeth Duw. Claddwyd ef, fel y tybir, yn Susa, yn meddrod y breninoedd.

DANIEL, LLYFR: mae llyfr Daniel yn un o'r llyfrau pwysicaf a mwyaf dyddorol yn yr Hen Destament. Gelwir y llyfr ar enw Daniel, am mai efe yw y cymmeriad amlycaf yn y llyfr, ac mai efe yw ei awdwr (*Dan.* vii. 1, 28; viii. 2; ix. 2). Pan gasglwyd llyfrau yr Hen Destament at eu gilydd, ni chyflewyd Llyfr Daniel gyda llyfrau y prophwydi, eithr gosodwyd ef gyda y drydedd ran o'r Ysgrythyrau. Nid oedd Daniel yn brophwyd *swyddol*; hyny yw, nid oedd wedi cyssegru ei fywyd yn llwyr i swydd prophwyd. Perthynai Daniel i ddosbarth y *gweledyddion*, ac nid i ysgol y prophwydi. Ond nid ydyw Llyfr Daniel, o herwydd hyn, yn llai ysbrydoledig na rhanau ereill yr Hen Destament.

Mae y llyfr hwn yn cynnwys dwy ran, *hanesyddol* (*pen.* i—vi) a *phrophwydoliaethol* (*pen.* vii—viii), y rhai sydd wedi eu cyfleu yn ol eu priodol amseryddiaeth. Ceir yn y llyfr hanes bywyd Daniel, a hanes y gaethglud yn Babilon; ond ymddengys mai prif ddyben y llyfr yw dangos y moddion rhyfeddol a drefnodd Duw i gadw crefydd bur yn fyw yn mhlith y genedl etholedig; pan oedd y deml yn ddadfeiliau, a'r genedl yn mhell o Wlad yr Addewid. Duw a drugarhaodd wrth ei bobl yn ol ei drugarogrwydd, a gwnaeth flyneddoedd eu cospedigaeth yn flyneddoedd bendithiol. Trwy y gweledigaethau a'r prophwydoliaethau a gofnodir yn y llyfr hwn, mynegodd Duw yn nghanol y byd Cenedlig fod Israel eto yn eiddo yr Arglwydd, mewn cyfammod yr hwn nid anghofir. Mae yr arwyddion a gofnodir, a'r rhyfeddodau a adroddir yn Daniel (*pen.* i, iv.) yn gyffelyb i'r rhai a wnaed cyn hyny yn Ngwlad yr Aipht. Dybenion yr arwyddion, y gweledigaethau, a'r gwaredigaethau, oedd argraffu ar feddyliau yr Iuddewon nad oedd cyfnewidiad yn eu Duw hwynt; dangos i fydollywiawdwyr Caldea fod mawr wahaniaeth rhwng eu breniniaethau hwynt a breniniaeth Duw, a dangos i elynion crefydd y Beibl fod yr eglwys yn ddiogel yn mhob ystormydd.

Meistrolodd Daniel egwyddorion llywod-ddysg y byd hwn, yn fwy fe allai na phawb o genedl yr Iuddewon. Casglodd wybodaeth gywir ac eang am freniniaethau y ddaiar, ond parhaodd yn ei ymlyniad wrth freniniaeth Duw. Ac iddo ef, yn fwy na neb o'i frodyr y prophwydi, y rhaghysbyswyd, drwy yr Ysbryd Glân, fuddugoliaethau a chwyldroadau teyrnasoedd y ddaiar. Mae hir arosiad Daniel yn Caldea, a'i fod mor gyfarwydd âg arferion y wlad hono yn rheswm dros y ffurf yn yr hon y derbyniodd ac yr adroddodd ei weledigaethau.

Mae rhan o'r llyfr yn iaith y Caldeaid (ii. 4; vii. 28), a'r gweddill yn iaith yr Hebreaid. Mae yr Hebraeg yn debyg i eiddo Ezeciel, ond ei bod yn burach. Nid yw y darnau Caldeaidd yn y Galdaeg briodol; eithr y maent yn ol y dafodiaith neillduol a arferid gan yr Iuddewon yn Babilon. Mae arddull y llyfr, fel y mae Lowth ac ereill wedi sylwi, yn fwy rhyddieithol na barddonol. Mae yr adroddiadau hanesyddol yn faith a gwasgarog; ond y mae y prophwydoliaethau yn fwy areithyddol a chryno—y rhai a orphenir yn fyrbwyll, ac a orphenir yn sydyn.

Y mae rhai wedi ammheu dilysrwydd Llyfr Daniel. Gallesid dysgwyl y byddai i anffyddwyr

Digitized by Google

ymosod ar y llyfr hwn; o blegid os addefir fod Llyfr Daniel yr hyn y mae yn cymmeryd arno ei fod, mae dwyfol awdurdod y Beibl yn canlyn yn anocheladwy. Ond gan mai o anwybodaeth am wir gynnwysiad y llyfr y mae y cyfryw ammheuon yn codi, y ffordd fwyaf effeithiol i'w cyfarfod ydyw eu rhagflaenu trwy ymchwiliad i'w cynnwysiad.

Y mae y prophwyd Daniel yn dechreu ei lyfr hynod trwy wneyd crybwylliad am ddechreu y caethgludiad i Babilon, ac yn ei ddybenu trwy gyfeirio at ddiwedd y caethgludiad (*pen*. i. 1, 2, a *pen*. ix. 12), a thrwy hyny yn dangos i ni bwysigrwydd yr amgylchiad hwnw yn ei gyssylltiad â'r llyfr. Aeth Nebuchodonosor i fyny yn erbyn Iudah dair gwaith. Y waith gyntaf, pan oedd Iehoiacim yn frenin ar Ierusalem (c. c. 606); pryd y darostyngwyd y ddinas sanctaidd trwy osod treth arni. Ac yn mhlith y rhai a gymmerwyd yn gaeth yr oedd DANIEL. Yn yr ail ryfelgyrch (c. c. 598), cymmerwyd y brenin Iehoiacim a'r prophwyd Ezeciel yn gaeth. Yn y drydedd, dinystriodd Nebuchodonosor y ddinas sanctaidd; cymmerodd Sedeciah (*Ier*. xxxix. 7) yn rhwym i Babilon, a rhoddwyd terfyn ar hanfodiad Iudah fel teyrnas annibynol. Y mae yr amgylchiad hwn yn bwysig yn ei gyssylltiad â holl brophwydoliaethau yr Hen Destament, o herwydd cyfododd yr Arglwydd amryw o brophwydi i alw y bobl i edifeirwch, cyn i'r farn fygythiedig ddisgyn arnynt, a hyny o amser Ioel ac Amos hyd at Ieremiah ac Ezeciel, y rhai a welsant y caethgludiad. Yr oedd Ezeciel yn mysg y gaethglud wrth afon Chebar, yn cyhoeddi cenadwriaethau yr Arglwydd i'r bobl. Llefarwyd prophwydoliaethau Esaiah (*pen*. xl—lxvi), er eu calonogi â'r amserau gogoneddus oedd i wawrio ar ol eu caethgludiad. Felly, ni adawodd yr Arglwydd ei bobl heb oleuni oddi uchod yn eu cyfyngder; eto, yr oedd dadguddiedigaethau newyddion yn angenrheidiol i gynnal eu hysbryd yn ngwyneb y canrifoedd o siomedigaethau a gorthrwm oedd yn eu haros ar ol eu dychweliad. "Yr oedd y prophwydi wedi tynu y fath ddysgrifiadau mawreddus o'u gwaredigaethau, fel yr oedd y genedl yn dysgwyl i'w cyflwr, ar ol eu dychweliad, fod yn hynod o hapus; ond gan eu bod i ddyoddef gorthrwm breniniaethau daiarol am dros bedwar cant o flyneddoedd cyn genedigaeth y Messiah, gallasent gael eu temtio i feddwl mai twyllodrus oedd y fath waredigaeth ag a gawsant o Babilon. O herwydd hyn y dangosodd Duw i'w was Daniel, mewn gweledigaeth, yr hyn oedd yn aros ei bobl etholedig."—*Calvin*. Gwelwn oddi wrth hyn, fod i brophwydoliaethau Daniel eu lle priodol yn nghynnydd dadguddiedigaethau Duw i'w eglwys. Yr oedd y caethgludiad i Babilon yn gyfnod newydd yn hanes yr eglwys, ac felly yr oedd dadguddiad newydd yn angenrheidiol am natur a diwedd yr ymherodraethau daiarol y deuai yr eglwys i gyffyrddiad â hwy, a'r diwedd gwynfydedig oedd yn ei haros er eu holl ymosodiadau.

Gan mai Daniel oedd i fod yn gyfrwng y dadguddiedigaethau hyn, gwelwn gyfaddasrwydd neillduol yr addysg a dderbyniodd, a'r amgylchiadau yr oedd ynddynt, yn llys Babilon. Dadguddiai yr Arglwydd ei feddwl yn wastad ar gyfer amgylchiadau neillduol, a chymhwysid offerynau priodol i dderbyn y dadguddiad.

Treuliodd Daniel dros ddeng mlynedd a thrigain o'i oes yn llys Babilon, a llys y Mediaid a'r Persiaid (*pen*. i. 1, 6, 21; x. 1). Ac nid hyny yn unig, ond bu ei hunan yn wladweinydd, ac yn llenwi y swyddau mwyaf dylanwadol (*pen*. ii. 48; v. 29; vi. 29; ac viii. 27). Yr oedd hyn yn fantais iddo ddeall natur teyrnasoedd daiarol, ac felly yn gymhwysder ynddo i dderbyn hysbysiadau am eu cyfodiad a'u cwymp mewn oesoedd dyfodol. Yr oedd y dygwyddiadau rhyfeddol y bu yn llygad dyst o honynt, sef darostyngiad balchder Nebuchodonosor, dymchweliad Belsassar, codiad buan a diflaniad breniniaeth Babilon, a'i waredigaethau rhyfeddol ef ei hun a'i gyfeillion (*pen*. iii—vi), o natur i ddangos diddymdra galluoedd y byd hwn, a dianwadalwch teyrnas Dduw Derbyniodd fantais hefyd oddi wrth yr addysg a gafodd yn nysgeidiaeth y Caldeaid, fel y derbyniodd Moses oddi wrth ddysgeidiaeth yr Aiphtiaid, i ddwyn tystiolaeth dros y gwir Dduw mewn llys paganaidd. Ac nid yw yn annhebygol nad oddi wrth Daniel y derbyniodd "doethion y dwyrain" y traddodiad am amser genedigaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Yr oedd Daniel a'i dri chyfaill yn dwyn tystiolaeth ffyddlawn i'w Duw yn ngwyneb enbydrwydd bywyd, ac yn profi eu hunain yn Israeliaid yn wir, yn y rhai nid oedd dim twyll (*pen*. i. 8; viii. 1, &c.). Yr oedd gymmaint uwch law ei oes ag oedd Noah a Iob uwch law eu hoes hwythau (*Ezec*. xiv. 14, &c; xxviii. 3). Yr oedd ei ffyddlondeb i'w Dduw yn condemnio y paganiaeth oedd o'i amgylch, a bu yn foddion i ddwyn Nebuchodonosor i roddi anrhydedd i Arglwydd Dduw y nefoedd (*pen*. iv); ond er yr holl ddyrchafiad a gafodd mewn llys paganaidd, yr oedd ei gydymdeimlad mor ddwys â'i genedl ei hun yn ei thrallod, ac mor daer oedd ei weddiau drosti hyd ddiwedd ei oes (*pen*. ix). Er ei fod yn wladweinydd penaf ei oes, ac wedi bod yn brif weinidog i amryw o ymherawdwyr, ac i chwaneg nag un teulu breninol (*dynasty*), ac er ei fod yn brophwyd enwog ei hun, eto, yr oedd yn chwilio yn fanwl i ysgrifeniadau prophwydi boreuach (*pen*. ix. 2). Felly y cymhwyswyd Daniel i dderbyn gweledigaethau oddi wrth Dduw ei hun, ac i'w trosglwyddo i fod yn arweiniad ac yn gynnaliaeth i eglwys Dduw hyd ddiwedd amser.

*Pen*. i. Y mae Daniel yn ei adroddiadau bywgraffyddol a hanesyddol, yn mha rai y mae yn dangos ei ragoriaeth ei hun a'i gyfoedion ar y dewiniaid paganaidd (*pen*. i. 17, 20), yn ymddangos fel cynnrychiolwr ei genedl, ac yn edrych ar ei ragoriaeth ei hun fel prawf o ragoriaeth ei grefydd a rhagoriaeth ei Dduw ar eu crefydd a'u duwiau hwythau. Ystyriai y dewiniaid fel cynnrychiolwyr crefydd a doethineb y paganiaid. Yn gyffelyb yn yr adroddiadau a geir yn *pen*. ii, iv, v, dangosir rhagoriaeth crefydd Duw Israel ar eilunaddoliaeth. Nid oedd yr anrhydedd a gyrhaeddodd trwy ei ddoethineb ond rhagddangosiad o'r freniniaeth a'r llywodraeth a roddir i bobl saint y Goruchaf (*pen*. vii. 27). Yr oedd bywyd Daniel yn gysgod o gynnwysiad ei brophwydoliaeth. Esbonia hyn hefyd pa ham y rhoddir i mewn amryw adroddiadau bywgraffyddol am dano ei hun a'i gyfeillion rhwng ei brophwydoliaethau.[1]

Ar ol y rhagymadrodd hanesyddol a geir yn y bennod gyntaf, ymrana yr un ar ddeg ereill i ddwy ran. Yn y gyntaf (*pen*. ii—vii) ceir golwg gyffredinol ar deyrnasoedd y byd hwn, a llwyddiant teyrnas Dduw yn y diwedd. Yn yr ail ran (*pen*. viii—xii) rhoddir i ni olwg mwy

[1] Mor ddisail, gan hyny, ydyw yr wrthddadl a dynwyd oddi wrth y canmoliaethau hyn yn erbyn dilysrwydd y llyfr hwn.



Digitized by Google

neillduol ar deyrnasoedd y byd hwn yn eu cyssylltiad uniongyrchol â'r Iuddewon yn y canrifoedd dilynol; ond rhoddir prophwydoliaeth yn gyntaf am ddyfodiad y Messïah i'r cnawd, a'i farwolaeth (*pen.* ix). Y mae awdwr y llyfr wedi rhoddi arbenigrwydd ar y dosbarthiad hwn trwy ysgrifenu y rhan gyntaf—o *pen.* ii. 4, hyd ddiwedd *pen.* vii—yn yr iaith Galdaeg; a'r ail ran—o ddechreu yr wythfed bennod hyd ddiwedd y llyfr—yn yr Hebraeg, yr un fath a'r bennod gyntaf. Yn y rhan gyntaf, defnyddia iaith y deyrnas Fabilonaidd, yn mha un yr oedd yn byw; yn yr ail, iaith pobl Dduw. Esboniad naturiol o'r gwahaniaeth hwn yn yr iaith ydyw, fod y Galdaeg yn cael ei defnyddio yn y bras ddarluniad a roddir o deyrnasoedd y byd hwn, a'r Hebraeg yn y prophwydoliaethau sydd yn dwyn perthynas mwy uniongyrchol âg Israel. Byddai yn anhawdd i wadwr dilysrwydd Llyfr Daniel esbonio y gwahaniaeth hwn, ac yn enwedig yn y fan y mae yn cymmeryd lle. Yn amser y Maccabeaid, yr iaith gyffredin yn mhlith yr Iuddewon oedd y Galdaeg-Aramaidd, neu Syriaeg: a phe twyllwr fuasai awdwr y llyfr, mae y tebygolrwydd yn gryf mai yn yr iaith sanctaidd yr ysgrifenasai y llyfr. Ond pe buasai, er mwyn ei wneuthur yn fwy dealladwy i'r cyffredin, yn ysgrifenu rhan o hono yn y Galdaeg, buasai yn debyg o ysgrifenu yr ail ran felly, o herwydd fod hyny yn dwyn cyssylltiad mwy uniongyrchol â'r oes hono.

Y mae y gwahaniaeth yn yr iaith yn cyfateb i wahaniaeth pwysig yn y defnyddiau. Pe rhoddid y seithfed bennod gyda'r ail ran, byddai ymddangosiad o gyfiawnhad dros gymmeryd y "corn bychan" (*pen.* vii. 8) am Antiochus Epiphanes, fel y cymhwysir yr wythfed bennod ato ef (*pen.* viii. 8—12). Ac effeithiai hyny drachefn ar yr esboniad a roddid o'r ddelw yn yr ail bennod. Ac felly ni pharhäai pedair ymherodraeth Daniel ond hyd at amser Antiochus. Yn ol yr esboniad hwn ni chynnwysai Llyfr Daniel na phrophwydoliaeth na gweledigaeth o'r ymherodraeth Rufeinig, nac o Gristionogaeth yn ei chyssylltiad â'r ymherodraeth hono. Ond y mae awdwr y llyfr ei hun wedi rhoddi y seithfed bennod gyda y rhan gyntaf o'r llyfr, trwy ei hysgrifenu yn yr un iaith, ac felly mewn modd neillduol wedi gwahaniaethu y ddwy ran oddi wrth eu gilydd. Canfyddir cyffelybrwydd rhwng *pen.* ii, a'r vii; y iii, a'r vi; a'r iv, a'r v.

*Pen.* ii, vii. Prif ddyben y rhan gyntaf o'r llyfr ydyw rhoddi golwg gyffredinol ar y PEDAIR YMHERODRAETH. Gwneir hyn mewn dwy weledigaeth:—y gyntaf i Nebuchodonosor ei hun, yn *pen.* ii; yr ail i Daniel, yn *pen.* vii. Gwelodd Nebuchodonosor ddelw fawr. Ei phen aur oedd teyrnas Babilon; ei breichiau a'i dwyfron o arian, oedd teyrnas Media a Phersia; ei bol a'i morddwydydd o bres, teyrnas Groeg; ei choesau haiarn, a'i thraed—peth o honynt o haiarn a pheth o honynt o bridd—ydyw y darluniad o ymherodraeth Rhufain, yn nghyd â'r teyrnasoedd a ffurfiwyd yn y dwyrain a'r gorllewin o Ewrop ar ei chwymp hi trwy ymsefydliad y barbariaid gogleddol yn y gwahanol wledydd a berthynai iddi. Gwelodd Nebuchodonosor hefyd gareg wedi ei thori allan, nid o waith llaw, yr hon a darawodd y ddelw, ac a gydfaluriodd yr haiarn, y pridd, y pres, yr arian, a'r aur; a'r gareg, yr hon a darawodd y ddelw, a aeth yn fynydd mawr, ac a lanwodd yr holl ddaiar. Nis gall fod ammheuaeth nad teyrnas y Messïah ydyw hon.

Yn y weledigaeth a gafodd Daniel (*pen.* vii), ymddengys yr un pedair ymherodraeth fel pedwar bwystfil, y rhai a ddaethant i fyny o'r Môr Mawr, wedi iddo gael ei luchio i ferw cynddeiriog gan bedwar gwynt y nefoedd. Ymddengys yr ymherodraeth Galdeaidd fel llew, ac iddo adenydd eryr; yr un Media-Persiaidd yn debyg i arth a thair asen yn ei safn, sef Babilon, Lydia, a'r Aipht; yr un Roegaidd a ddangosir fel llewpard, a chanddo bedair aden ar ei gefn, a phedwar pen, sef Antigonus, Ptolemæus, Lysimachus, a Cassander, pedwar olynydd Alexander Fawr; yr un Rufeinaidd a gynnrychiolir trwy greadur nad oes iddo enw, ond yr oedd yn fwy ofnadwy nag un o'r rhai blaenorol; ac iddo yr oedd dannedd mawrion o haiarn, a deg o gyrn; yn mhlith y rhai hyn, cyfododd un arall ac a wthiodd ymaith dri o'r rhai blaenaf o'u gwraidd, o'i flaen ef. Yr oedd y corn bychan hwn yn gryfach na'r lleill, ac y mae yn gwneuthur ymosodiad ar eglwys Dduw, ac fe fu drech na hi, hyd oni ddaeth yr Hen Ddihenydd i roddi terfyn ar ei allu, a diwedd ar ddyoddefiadau y saint, trwy roddi pob llywodraeth i Fab y dyn, yr hwn oedd yn dyfod gyda chymylau y nef.

Y mae y gwahaniaeth rhwng y ddwy weledigaeth hyn yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng nodweddiad a sefyllfa Nebuchodonosor, yr hwn a gafodd y gyntaf, a nodweddiad Daniel, yr hwn a dderbyniodd yr ail. Gosodir allan yr ymherodraethau hyn trwy bethau difywyd—y ddelw a'r gareg nid o waith llaw—yn y gyntaf; ond trwy bethau bywydol yn yr ail—bwystfilod a Mab y dyn. Gwelodd Nebuchodonosor hwynt yn eu hymddangosiad dysglaer allanol, megys aur ac arian, ac yn tra rhagori ar deyrnas Dduw, yr hon yn ei dechreuad sydd fel careg fechan. Ond gwelodd Daniel i natur ac ansawdd foesol y teyrnasoedd hyn, a deallodd nad ydynt, er eu holl rwysg a'u mawredd, ond bwystfilod o anian pan yn erbyn Duw a'i Grist ef. Rhwng gweledigaethau Nebuchodonosor a Daniel (*pen.* iii—vi), ni a gawn bedwar hanes rhyfedd am gyfryngiad Duw o blaid ei weision ac yn erbyn ei elynion. Yn y drydedd bennod, y mae gwaredigaeth ryfeddol tri chyfaill Daniel am wrthod addoli y ddelw aur a osodasai i fyny. Yn y bedwaredd bennod, darostyngir Nebuchodonosor—pen aur y ddelw a welodd yn ei freuddwyd—i ymborthi ar wellt y ddaiar fel eidion, ac i fyw am saith mlynedd fel anifail o herwydd ei falchder. Rhydd yr amgylchiad hwn fantais i ddeall natur fwystfilaidd teyrnasoedd annuwiol y byd yn unol âg arwyddluniau y seithfed bennod:—ac yn enwedig y dysgrifiad a roddir am y llew yn *Dan.* vii. 4. Cynnwysa y bummed bennod y ddedfryd a gyhoeddwyd ar Belsassar y brenin o herwydd ei draha rhyfygus, a'r cyflawniad uniongyrchol o'r ddedfryd. Mae yr hanesion hyn yn taflu goleu ar, ac yn cadarnhau y prophwydoliaethau a gynnwysir yn y gweledigaethau: y maent, fel holl wyrthiau y Beibl, yn egluro ac yn gwirio y gwirioneddau a ddysgir mewn cyssylltiad â hwynt. Dangosant fel y mae yr Arglwydd yn amddiffyn ei weision yn eu ffyddlondeb iddo ef; ac hefyd, trwy esampl dau frenin yr ymherodraeth gyntaf, mor fuan y mae yr Arglwydd yn darostwng mawrion y ddaiar yn eu balchder ac uchder eu ffroen. Anghreifftiau ydyw yr hanesion hyn o nerth y gareg a dorwyd, nid trwy waith llaw, yn dechreu malurio y ddelw. Gan fod yr Arglwydd wedi rhoddi ei bobl yn llaw y Babiloniaid i'w cospi am eu pechod, y mae am iddynt ddeall mai

Digitized by Google

ei bobl ef ydynt; ac mai efe, ac nid eu duwiau hwy, ydyw llywodraethwr y byd: ac mai er eu mwyn hwy y mae yn cyflawnu y gwyrthiau hyn, a thrwyddynt yn parotoi y llwybr yn ol iddynt i'w gwlad. Ac mai nid yn ddieffaith y buont i'r dyben hyny, y mae yn amlwg oddi wrth gyhoeddiad Cyrus iddynt ddychwelyd; ac nid i ddychwelyd yn unig, ond hefyd i adeiladu tŷ i Arglwydd Dduw Israel fel Arglwydd Dduw y nefoedd: *Ezra* i. 1—4.

Gyda'r wythfed bennod y mae ail ran y llyfr yn dechreu. Hyd yn hyn, yr ydys yn cael golwg gyffredinol ar deyrnasoedd y byd, mor bell ag y maent yn dyfod i gyffyrddiad â theyrnas Dduw, hyd nes y bydd y gareg wedi myned yn fynydd mawr, ac wedi llenwi yr holl ddaiar; ac, yn iaith y seithfed bennod, hyd nes y byddo yr Hen Ddihenydd yn rhoddi y freniniaeth i bobl saint y Goruchaf. Yn yr ail adran, ni gawn ddwy weledigaeth yn cyfateb i'w gilydd (*Dan.* vii. ac hefyd x—xii), yn y rhai y dysgrifir yn fanylach yr ail a'r drydedd ymherodraeth, a sefyllfa y genedl sanctaidd danynt.

Yn ngweledigaeth yr wythfed bennod, yr hon a dderbyniodd yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Belsassar, ac felly ychydig cyn cwymp yr ymherodraeth Fabilonaidd, gwelodd y ddwy ymherodraeth ganol, sef y rhai oedd i lywodraethu ar Israel ar ol cwymp Babilon, dan yr arwyddlun o hwrdd a bwch gafr. Enwir y ddau yn benodol (*adn.* 20, 21; cymharer *pen.* x. 13, 20; xi. 2—4) fel nad oes le i gamgymmeriad, fel yr enwir Babilon yn *pen.* ii. 37, 38. Yr ymherodraeth Rufeinig ydyw yr unig un na enwir yn benodol yn y llyfr.[1] Ni roddir ond dysgrifiad byr o'r hwrdd a'r ddau gorn, sef y Mediaid a'r Persiaid:—bu Daniel fyw i weled yr ymherodraeth hon. Y mae y dysgrifiad yn fwy manwl am lywodraeth Groeg:—Cyfodasai corn hynod—Alexander Fawr—rhwng llygaid y bwch, yr hwn yn fuan, trwy ei ruthrgyrch o'r gorllewin i'r dwyrain, a roddes derfyn ar allu Persia. Yn lle y corn mawr, cyfododd pedwar o rai llai yn ei le, sef breniniaethau Macedonia, Asia, yr Aipht, a Syria; ac o un o'r rhai hyn, sef Syria, y cyfododd corn bychan; hyny yw, brenin, yr hwn a ymfawrygodd yn erbyn yr Arglwydd, ei gyssegr, a'i bobl; a'r hwn a ddysgrifir yn gyffelyb i Anghrist yn y seithfed bennod. Y brenin hwn oedd Antiochus Epiphanes, i'r hwn y perthynai Syria a Gwlad Canaan, a'r hwn a roddes ei fryd ar sefydlu addoliad i'r duw Jupiter trwy ei holl deyrnas; a chyda sel gorphwylledig, ïe, gwallgof—yr hyn a achlysurwyd iddo gael ei alw yn Epimanes, yn lle Epiphanes—yn erbyn addoliad y Duw byw, efe a ddifwynodd y cyssegr sanctaidd, a roddodd derfyn ar yr addoliad yn Ierusalem, ac a osododd i fyny addoliad gau dduwiau. Yr oedd hyn yn fwy ofnadwy, o herwydd fod plaid yn Ierusalem yn mhlith yr Israeliaid eu hunain yn cael eu hudo ganddo trwy weniaith: 1 *Mac.* i. 12, &c.; 2 *Mac.* iv. 9: cymharer *Dan.* xi. 30, 32. Er mwyn gweled maint traha beiddgar ac annuwiol, gweniaith sarffaidd, a'r anrhaith a barodd yr adyn hwn, dylid darllen llyfrau y Maccabeaid. Ni bu neb o'r penaduriaid ereill y crybwyllir am danynt i'w cystadlu âg ef yn nghynddaredd ei alyniaeth yn erbyn teyrnas Dduw. Gwelir oddi wrth lyfrau Daniel, Ezra, a Nehemïah, na lesteirient yr Iuddewon yn yr ymarferiad o'u crefydd ond yn achlysurol, ac weithiau yr estynent nodded iddynt. Am Nebuchodonosor, gwel *Dan.* iv. 31—34; Darius y Mediad, *Dan.* vi. 27, 28; Cyrus, *Ezra* i. 2—4; Artaxerxes, *Ezra* vii. 12, a *Neh.* ii. 7, 8; ac yn ol Josephus [*Hynaf. Iudd.*, xi. 8], yn gyffelyb yr oedd Alexander Fawr. Yr oedd angen, gan hyny, am brophwydoliaeth neillduol at Antiochus, fel y gallai Israel ddeall y perygl oedd o'u blaenau, ac ymarfogi yn ei erbyn. Dengys ymgodiad y Maccabeaid yn erbyn yr archelyn hwn na bu y brophwydoliaeth yn ofer: 1 *Mac.* ii. 58, &c.

Y mae esbonwyr yn gyffredin wedi edrych ar Antiochus fel cysgod o anghrist. Rhydd hyn oleu ar berthynas y weledigaeth yn y seithfed bennod â'r weledigaeth yn yr wythfed bennod. Y mae y ddwy yn cynnwys dysgrifiad o brif elynion teyrnas Dduw: un ydyw anghrist y drydedd ymherodraeth, yr hwn fu yn anrheithio cyssegr a phobl Dduw yn niwedd yr oruchwyliaeth gyntaf; a'r llall ydyw YR ANGHRIST, mewn modd arbenig, yr hwn a gyfyd o'r bedwaredd ymherodraeth, a'r hwn a ddysgrifir fel dyn pechod, mab y golledigaeth; yr hwn sydd "yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir;" 2 *Thes.* ii. 4. Y mae anghrist yr Hen Destament yn cysgodi anghrist y Testament Newydd; fel y mae y farn ar eglwys ddirywiedig yr Hen Destament yn gysgod o'r farn a ddaw ar eglwys ddirywiedig y Testament Newydd yn ymddyddanion olaf Crist: *Mat.* xxiv.

Ond cyn myned yn mlaen at y weledigaeth nesaf (*pen.* x—xii), yn yr hon y mae Daniel yn cael dadguddiedigaethau pellach am yr hyn a welodd yn yr wythfed bennod, ni a edrychwn i gynnwysiad y nawfed bennod, a'i chyssylltiad â'r pennodau ereill.

Y mae Daniel yn ymofyn am oleuni ar y deng mlynedd a thrigain ag yr oedd y caethgludiad yn ol Ieremiah (*pen.* xxv. xxix), i barhau (*adn.* 1—3); ac fe'i derbyniodd, wedi iddo fod ger bron Duw, mewn hunanffieiddiad a chyda thaerineb mawr yn gweddïo ac yn ymbil: *adn.* 4—19. Rhoddwyd ef trwy yr angel Gabriel yn y brophwydoliaeth hynod am y deng wythnos a thrigain: *adn.* 20—27. Gweddïo yr oedd Daniel am waredigaeth y genedl a thros fynydd sanctaidd ei Dduw; ac yn y brophwydoliaeth, y mae yn cael dadguddiad am natur gwaredigaeth fwy na'r waredigaeth o Babilon, ac hefyd am awdwr y waredigaeth—y Messïah. Ond nid oedd y Messïah i ymddangos yn fuan ar ol y dychweliad: yn hytrach yr oeddynt i aros am ddeg a thrigain o seithiau (wythnos) o flyneddoedd cyn y deuai; ac wedi hyny, nid oedd i ymddangos yn ei ogoniant fel y gallasai rhai, ac efallai Daniel, yn ol y weledigaeth yn y seithfed bennod, ei ddysgwyl; ond yr oedd gael ei iadd, a thrwy hyny wneuthur cymmod dros anwiredd, a dwyn cyfiawnder tragwyddol i mewn:—y byddai i gorff y genedl ei wrthod, ac y gwrthodid hi drachefn, ac y dinystrid Ierusalem a'r deml, ac y parhaent felly hyd y diben terfynedig.

Y mae y brophwydoliaeth hon yn cynnwys y dysgrifiad cyflawnaf ac egluraf o'r Messïah, ei waith, ac amser ei ddyfodiad i'r byd, yn yr oll o'r Hen Destament; ac y mae y pedair adnod hyn yn atebiad perffaith i'r gwrthddadleuon sydd wedi cael eu dwyn yn mlaen o amser Porphyry, yr anffyddiwr, hyd esbonwyr cnawdol Germany yn ein dyddiau ni, yn erbyn dilysrwydd Llyfr

[1] Y mae hyn yn rheswm dros hynafiaeth y llyfr: o herwydd, pe yn amser y Maccabeaid y cyfansoddwyd ef, pa reswm fuasai dros beidio enwi Rhufain (*Dan.* xi. 30), fel y gwneir yn llyfrau y Maccabeaid (1 *Mac.* viii), ac fel yr enwir yr Aipht yn *Dan.* xi. 8, 42.

Digitized by Google

Daniel. Er mwyn esbonio ymaith y prawf o ddwyfoldeb y llyfr—ac o ganlyniad, o ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau yn gyffredinol—haerant mai nid at y Messïah y cyfeiria y geiriau, ond at Antiochus Epiphanes; a dirdynant y geiriau er mwyn eu cymhwyso ato ef: yna haerant yn mhellach mai yn amser y Maccabeaid ac yn oes Antiochus y cyfansoddwyd Llyfr Daniel, ac mai *hanes* am dano ef ar ol ei ymddangosiad ydyw y geiriau hyn, ac nid *prophwydoliaeth*. Y mae prophwydoliaethau ereill y llyfr yn cael yr un driniaeth ganddynt. Mewn atebiad i hyn oll, nid rhaid ond darllen yr adnodau canlynol:—"Deng wythnos a thrigain a derfynwyd ar dy bobl, ac ar dy ddinas sanctaidd, i ddybenu camwedd, ac i selio pechodau, ac i wneuthur cymmod dros anwiredd, ac i ddwyn cyfiawnder tragwyddol, ac i selio y weledigaeth a'r brophwydoliaeth, ac i eneinio y sancteiddiolaf. Gwybydd gan hyny, a deall *y bydd* o fynediad y gorchymyn allan am adferu ac am adeiladu Ierusalem, hyd y blaenor Messïah, saith wythnos, a dwy wythnos a thrigain: yr heol a adeiledir drachefn, a'r mur, sef mewn amseroedd blinion. Ac wedi dwy wythnos a thrigain y lleddir y Messïah, ond nid o'i achos ei hun: a phobl y tywysog yr hwn a ddaw a ddinystria y ddinas a'r cyssegr; a'i ddiwedd *fydd* trwy lifeiriant, a hyd ddiwedd y rhyfel *y bydd* dinystr anrheithiol: ac efe a sicrha y cyfammod â llawer dros un wythnos: ac yn hanner yr wythnos y gwna efe i'r aberth a'r bwydoffrwm beidio; a thrwy luoedd ffiaidd yr anrheithia efe hi, hyd oni thywallter y dyben terfynedig ar yr anrheithiedig;" *Dan.* ix. 24—27. Am bwy y mae y geiriau hyn yn llefaru? Nis gall fod ammheuaeth ond yn meddyliau y rhai ni fynant weled. Os am Grist yr Arglwydd, yna y mae y ddadl ar ben am wirionedd dwyfol Llyfr Daniel; o herwydd os yn amser y Maccabeaid, fel yr hona anffyddwyr a rhesymolwyr, dyma brophwydoliaeth mor eglur a phe buasai wedi ei hysgrifenu â goleuni yr haul; a phrophwydoliaeth sydd yn egluro holl brophwydoliaethau ereill y Beibl, ac yn sicrwydd o'u cyflawniad.[1] Y mae y geiriau hyn fel cadwen euraidd, y naill ddolen yn y llall, a'r oll yn meddu y cymhwysder perffeithiaf fel ateb i weddi Daniel. Yr oedd deng mlynedd a thrigain y caethgludiad, fel yr addefa yn ei weddi, yn gosp ar y genedl am eu pechod; ond nid ydoedd yn iawn am bechod i Dduw, yr oeddynt yn derbyn maddeuant yn eu rhyddhad; ond ni byddai camwedd yn cael ei ddybenu a chyfiawnder tragwyddol yn cael ei ddwyn i mewn fel sail adferiad i gymmod tragwyddol â Duw am ddeg a thrigain o seithiau (o flyneddoedd). Trwy ba aberth y dygid hyny oddi amgylch yn yr amser rhagderfynedig? Y mae *adn.* 26 yn rhoddi yr ateb:—"Lleddir y Messïah, ond nid o'i achos ei hun;" yr hyn sydd yn cyfeirio at aberthiad anifail mewn trefn i gadarnhau cyfammod: o ganlyniad, dywedir yn *adn.* 27, "Efe a sicrha y cyfammod â llawer," a gwneir i aberth a bwyd-offrwm yr Hen Destament beidio: a'r pryd hwn y cyflawnir, nid yn unig brophwydoliaeth Ieremïah am y dychweliad o Babilon, ond cyflawnir yr holl brophwydoliaethau:—"Efe a selia y weledigaeth a'r brophwydoliaeth;" ac nid yn unig purir y cyssegr eilwaith, fel y gweddïai Daniel (*adn.* 17, 20), ond "eneinir y sancteiddiolaf," yn yr hwn y gall Duw drigo yn mysg ei bobl. Y mae gweddi y prophwyd yn cael ei hateb, a llawer mwy. Am fanylion amseryddol y brophwydoliaeth hon, gwel DENG WYTHNOS A THRIGAIN.

*Pen.* x—xii. Yn y weledigaeth hon, olrheinir yn fanylach yr hyn a gynnwysir yn yr wythfed bennod. Yn *pen.* xi, y mae cynnwysiad y brophwydoliaeth; yn *pen.* x, y mae y rhagarweiniad; ac yn *pen.* xii, y mae y diweddglo.

[1] Ond heb law y profion *mewnol* y cyfeirir atynt uchod am ddilysrwydd Llyfr Daniel, y mae y profion *allanol* canlynol yn hollol benderfynol dros ddilysrwydd y llyfr hynod hwn:—

1. *Nis gallasai y llyfr gael ei gydnabod fel rhan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd ond ar sail ei ddilysrwydd.* Tybier am fynyd nad oedd cânlyfr yr Hen Destament wedi ei gau cyn dyddiau y Maccabeaid, ac mai y pryd hwnw yr ysgrifenwyd y llyfr hwn, mae yn anmhosibl wedi hyny rhoddi cyfrif pa ham y cyflewyd ef gyda'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Yr oedd llyfrau yr Apocrypha yn cymmeradwyo eu hunain yn fwy i chwaeth a theimlad y genedl yn nyddiau y Maccabeaid, na Llyfr Daniel; ac eto cauwyd allan lyfrau yr Apocrypha o ganon-lyfr yr Hen Destament.

2. *Y mae cyfeiriadau Ezeciel at Daniel yn brawf cryf o ddilysrwydd y llyfr.* Sonia Ezeciel (*pen.* xiv. 14, 20) am Noah, Daniel, ac Job, fel tri wŷr diarebol am eu cyfiawnder. Dywed Ezeciel (*pen.* xxviii. 3) mewn modd gwatwarus am dywysog Tyrus—"Wele di yn ddoethach na Daniel; ni chuddir dim dirgelwch oddi wrthyt." Y mae y cyfeiriad hwn at Daniel yn dangos ar unwaith fod ei enw yn glodfawr trwy holl wlad Caldea.

3. *Tystia cyfieithiad y Deg â Thrigain o blaid dilysrwydd y llyfr.* Dechreuwyd cyfieithiad y Deg a Thrigain yn Alexandria, tua y flwyddyn 285 c. c. Nid ydyw yn hollol hysbys pa bryd y gorphenwyd ef; ond bernir iddo gael ei orphen yn mhell cyn amser y Maccabeaid; os felly, yr oedd Llyfr Daniel yn adnabyddus cyn eu dyddiau hwy. Cawn Lyfr Daniel yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, nid wedi ei *gyfieithu*, ond agos wedi ei *ail wneyd*; canys chwanegwyd ato lawer o draddodiadau a chwedleuon. Dengys y ffaith hon i gyfieithwyr Alexandria deimlo dyddordeb neillduol yn y llyfr.

4. *Y mae hanes Josephus am ymweliad Alexander âg Ierusalem yn attegu yr un golygiad.* Dywed Josephus [*Hynaf. yr Iudd.*, xi. 8] i Alexander gael ei gyffroi yn fawr yn erbyn yr Iuddewon o herwydd eu ffyddlondeb i Darius, ac iddo gychwyn tuag Ierusalem gyda bwriad i'w cospi; ond iddo gael ei dawelu gan Iaddua yr archoffeiriad; ac iddo ddadgan ei hun yn bleidgar i'r Iuddewon wedi iddo weled yn mhrophwydoliaethau Daniel y byddai i Persia ymostwng i lywodraeth brenin Groeg. Pa un bynag ai gwir ai anwir yw y traddodiad hwn, y mae yn ddigon sicr i Alexander ddangos ffafr i'r Iuddewon. Y mae yn amlwg y credai Josephus a'i gydoeswyr fod Llyfr Daniel wedi ei ysgrifenu cyn dyddiau Alexander Fawr. Nid oedd dyddiau y Maccabeaid a dyddiau Josephus yn mhell oddi wrth eu gilydd. Os yn nyddiau y Maccabeaid y cyfansoddwyd Llyfr Daniel, y mae yn anhawdd dychymygu pa fodd y priodolai Josephus y llyfr i dymmor blaenorol.

Y mae awdwyr rhai o lyfrau yr Apocrypha yn arddangos cyfarwyddyd yn Llyfr Daniel; megys y gwelir yn Baruch, ac yn Llyfr Cyntaf y Maccabeaid. Y mae y llyfrau hyn, yn ddiau, yn cyfeirio at brophwydoliaethau Daniel. Y mae darluniadau Daniel o'r berthynas a fodolai yn ei ddyddiau ef rhwng yr Iuddewon a'r Cenedloedd, yn hollol groes i'r ysbryd a ffynai yn nyddiau y Maccabeaid. Darlunir Daniel yn cael ei addysgu yn iaith a doethineb Babilon; yn cael ei neillduo yn benaeth ar ddoethion llys Caldea; yn derbyn enw newydd; yn meithrin cyfeillgarwch agos a chynhes â thywysogion Cenedlig:—yr hyn bethau sydd yn groes hollol i'r penboethni crefyddol a'r culni cenedlaethol a hynodent amser y Maccabeaid. Y mae gwybodaeth gywir yr awdwr o arferion a defodau cyntefig Babilon a Media—yr ymadrodd y *Mediaid a'r Persiaid*, ac nid y *Persiaid a'r Mediaid*, fel y gwelir yn Llyfr Esther a Llyfr Cyntaf y Maccabeaid, yr hyn a ddengys uchafiaeth y Mediaid yn nyddiau yr awdwr—yn nghyd â holl ysbryd y llyfr, yn profi i'r llyfr gael ei ysgrifenu y tu allan i Palestina, a chyn amser y Maccabeaid.

Y mae beirniaid diduedd yn cydnabod dilysrwydd llyfrau hanesyddol wrth lawer llai o brofion nag a enwyd o blaid Llyfr Daniel. Ond y mae genym brawf chwanegol, yr hwn ynddo ei hun sydd yn ddigonol a gorphenol. Y mae genym feddwl Crist ar y pwnc dan sylw. Nyni a wyddom fod Llyfr Daniel yn rhan o ysgrythyrau yr Hen Destament yn amser Crist a'r apostolion. Gwyddom hefyd fod cyfeiriadau lluosog Crist a'r apostolion at yr Ysgrythyrau fel cyfanwaith yn brawf o awdurdod a dilysrwydd holl ranau y cyfanwaith hwnw. Heblaw hyny, y mae yr Athraw Mawr, yn *Mat.* xxiv. 15, yn cyfeirio yn bendant at un o brophwydoliaethau Daniel; a thrwy hyny, yn gosod prophwydoliaeth Daniel yn gyfochrog mewn awdurdod â'i ragddywediadau ef ei hun. Nis gellir ammheu dilysrwydd ac awdurdod Llyfr Daniel heb ammheu awdurdod y "Gwirionedd" ei hun.

Digitized by Google

Agorir y byd anweledig o'n blaen yn y ddegfed bennod, a dangosir ei berthynas â dygwyddiadau y byd hwn. Er fod hyn yn gysson â manau ereill o'r Ysgrythyr (*Iob* i. 7, &c.; *Zech.* iii. 2; *Iudas* 9; *Dad.* xii. 7, &c.), eto nid ydyw yn ymddangos yn yr un eglurder mewn un man ag ydyw yma. Dysgir yr athrawiaeth o wasanaethgarwch angelion i deyrnas Crist a'i bobl yn fynych: yn y lle hwn cawn anghraifft nodedig o'r modd y cyflawnant eu gwasanaeth. Yma, ni a welwn fod angel neillduol—hyny yw, angel cwympiedig—yn sefyll megys blaenor i deyrnas Persia, ac yn gyffelyb fod angel gelynol i Dduw a'i deyrnas yn dywysog tir a theyrnas Groeg. Y mae Michael, un o'r tywysogion penaf, yn ymddangos o blaid Israel. Gyda Michael, mae angel arall o blaid Israel; ac y mae efe yn cael ei anfon i hysbysu i Daniel yr hyn a ddygwyddai i deyrnasoedd y ddaiar (sef Persia a Groeg), a'r hyn a ddyoddefai Israel oddi wrthynt; ac yna y mae yn hysbysu pa ham na ddaethai yn gynt âg ateb Duw i weddi Daniel, sef am fod tywysog teyrnas Persia wedi sefyll yn ei erbyn am un diwrnod ar ugain, ond ei fod ef trwy gynnorthwy Michael wedi ennill y fuddugoliaeth: hyny yw, fe lwyddodd ef i ennill brenin Persia i fod yn ffafriol i Israel er y cyfan a allai tywysog y byd hwn wneuthur i gyffroi ei gynddaredd yn eu herbyn. Ond eto yr ydoedd rhag llaw i wylied rhag i frenin Persia fyned eilwaith dan ddylanwad yr ysbryd drwg, a chael ei gyffroi drachefn yn erbyn Israel—"Dychwelaf i ryfela â thywysog Persia." Ar ol hyny, y mae tywysog tir Groeg yn dyfod; ond yn ei erbyn ef nid ydyw yr angel sydd dros Israel, hyd yn oed gyda chynnorthwy Michael, mor lwyddiannus. Gorchfygwyd yr ysbryd oedd yn gweithio yn erbyn Duw a'i bobl yn llys Persia; o herwydd y mae breninoedd Persia, fel y gwelir oddi wrth lyfrau Ezra a Nehemïah, yn ffafriol i Israel. Ond nid felly yn nheyrnasoedd Groeg:—bu raid iddynt ddyoddef llawer oddi wrth olynwyr Alexander, ac oddi wrthynt hwy y cododd eu harchelyn Antiochus, yn ol y brophwydoliaeth sydd yn y bennod nesaf.

Y mae y brophwydoliaeth hon (*pen.* xi.) yn ymranu yn dair rhan. Yn gyntaf, ceir dysgrifiad byr (*adn.* 2—4) o unbenaeth Persia a Groeg; yn nesaf, dysgrifiad o'r ymdrechfeydd pwysicaf rhwng y Seleuciaid, llywodraethwyr Syria, a'r Ptolemiaid, llywodraethwyr yr Aipht (*adn.* 5—20); ac yn drydydd, prophwydoliaeth fanwl am Antiochus Epiphanes (*adn.* 21—45). Gwelwn fod holl brophwydoliaethau y llyfr hwn, sydd yn cyfeirio at deyrnasoedd y byd hwn, yn cadw at yr amlinelliad cyffredinol a geir yn mreuddwyd Nebuchodonosor (*pen.* ii), a bod y naill weledigaeth ar ol y llall yn fwy manwl. Mae y seithfed bennod yn fwy manwl na'r ail, gan ei bod yn dangos fel y cyfyd anghrist allan o'r deg corn. Yn gyffelyb, y mae yr unfed bennod ar ddeg yn disgyn yn fwy manwl na'r wythfed at ymraniadau teyrnas Groeg, gan godi Syria (sef y gogledd) a'r Aipht (sef y deheu) i sylw neillduol, a gadael allan y ddwy deyrnas ereill o'r pedair a ddilynodd ymherodraeth Alexander. Yr oedd Gwlad Canaan rhwng y gogledd a'r deheu, ac felly yn dyoddef oddi wrth yr Aipht a Syria—weithiau yn syrthio dan orthrwm y naill, ac weithiau dan orthrwm y llall. O Syria y cyfyd "y brenin a wna wrth ei ewyllys ei hun;" sef Antiochus. Y mae yn deilwng o sylw na enwir Syria mwy na Rhufain yn y prophwydoliaethau hyn, a hyny am nad oedd un pwysigrwydd hanesol yn perthyn iddynt eto. Nid oedd Syria hyd amser Daniel wedi bod ond talaeth o deyrnasoedd Babilon, Persia, a Groeg, yn olynol. Am hyny, ni enwir breninoedd Syria ond wrth yr enw cyffredinol, "breninoedd y deheu." Y mae hyn eto yn brawf, gyda llaw, mai nid yn amser y Maccabeaid y cyfansoddwyd y llyfr: o herwydd y buasai cymmaint o reswm, oddi wrth bwysigrwydd Syria, y pryd hwnw iddi hi gael ei henwi ag oedd dros enwi yr Aipht (*adn.* 8, 42).

Prophwydoliaeth y bennod hon ydyw yr un sydd yn rhedeg allan fanylaf i amgylchiadau hanesyddol o un a geir yn yr holl Feibl. Gallasai hyn gael ei fwriadu er mwyn galw sylw mwy arbenig yr Iuddew, yn ystod y dystawrwydd prophwydoliaethol o bedwar can mlynedd oedd i ganlyn, at brophwydoliaeth bwysig y nawfed bennod am y Messïah, ac i fod yn gynnaliaeth iddynt yn yr amseroedd blinion oedd yn eu haros. Y mae y ddegfed bennod, a'r unfed ar ddeg, yn meddu hynodrwydd a chymhwysder arbenig i amgylchiadau Israel yn y canrifoedd dilynol; o herwydd y goleu y maent yn ei roddi, y naill ar y byd anweledig, a'r llall ar y dyfodol. Yn ngoleu y naill, gwelent fod amddiffynwyr iddynt yn mhlith angelion Duw, ac yn ngoleu y llall nad oeddynt yn ddisylw gan Dduw yn eu hadfyd mwyaf.

Y mae *pen.* xii. nid yn unig yn ddiweddglo y weledigaeth hon, ond yn ddiweddglo priodol i'r holl lyfr. Yn gyntaf (*adn.* 1—3), rhoddir y cymhelliadau cryfaf i ffyddlondeb yn y dyddiau tywyll oedd o'u blaenau, "y cyfryw ni bu er pan yw cenedl hyd yr amser hwnw," trwy eu cyfeirio at yr adgyfodiad a'i ganlyniadau. Mai yr adgyfodiad cyffredinol yn niwedd y byd a feddylir, sydd amlwg, o herwydd "rhai a ddeffroant i fywyd tragwyddol, a rhai i warth a dirmyg tragwyddol." Y mae yr ystyriaeth o hyn yn mhob cyfyngder yn meddu nerth i gryfhau y meddwl mewn trallod. Y mae yr ymadrodd a geir ddwywaith yn yr adnod gyntaf, "yr amser hwnw," sef yr amser a ddysgrifir yn flaenorol, ac absennoldeb unrhyw nod o amser yn y ddwy adnod ganlynol, yn dangos mai ystyriaeth i gadarnhau y bobl ddewisedig yn eu hymlyniad wrth eu cyfammod â'u Duw a gynnwysir ynddynt.[1] Yn *adn.* 5, y mae Daniel yn gweled dau angel nad oedd wedi eu canfod o'r blaen, "un o'r tu yma ar fin yr afon, ac un arall o'r tu arall ar fin yr afon." Yna y mae un o'r rhai hyn yn gofyn i'r angel a roddodd y dadguddiad sydd yn y bennod flaenorol, "Pa hyd fydd hyd ddiwedd y rhyfeddodau hyn?" Ac mewn atebiad, y mae efe yn eu cyfeirio yn ol at *pen.* vii. 25, sef amser anghrist. Yn yr adnodau canlynol (*adn.* 8—12) y mae yn cyfeirio at Antiochus, fel yr ymddengys wrth gymharu *adn.* 11, a *pen.* xi. 31. Yn *adn.* 6, cyfeiria yr angel, yn ei ymofyniad, at ddiwedd rhyfeddodau rhagluniaeth Duw yn gyffredinol, sef diwedd teyrnasiad anghrist, ymddangosiad Mab y dyn yn ei ogoniant, a'r adgyfodiad cyffredinol. Ond y mae Daniel, wrth ofyn iddo, "Beth fydd

[1] Fel prawf o ddylanwad yr athrawiaeth hon ar y rhai ffyddlawn yn mhlith y dyoddefwyr dan Antiochus, gellir cyfeirio at yr hanes a geir yn 2 *Mac.* vii. am fam a saith mab yn dyoddef eu blingo a'u llosgi yn fyw am nad ymostyngent i ymwrthod â chyfraith eu Duw. Fel y canlyn y llefarent yn eu poenau:—"A phan oedd efe yn rhoddi i fyny'r ysbryd, efe a ddywedodd, 'Tydi, lofrudd, wyt yn dwyn ein bywyd presennol oddi arnom, ond Brenin y byd a'n cyfyd ni (y rhai ydym yn meirw dros ei gyfreithiau ef) i fywyd tragwyddol.'" Y mae ymadroddion cyffelyb yn yr un bennod.

Digitized by Google

diwedd y pethau hyn?" yn cyfeirio yn fwy uniongyrchol at ddiwedd y trallod oedd ar oddiweddyd y genedl Iuddewig, a'r hyn oedd wedi ei ragfynegu yn y bennod flaenorol. Crist ac anghrist sydd yn cael eu dal ar gyfer eu gilydd trwy y llyfr. Y mae y brophwydoliaeth am ddyfodiad cyntaf y Messïah yn y nawfed bennod, rhwng y ddwy weledigaeth am anghrist yr Hen Destament, i fod yn gynnaliaeth i'r "rhai deallgar" yn eu blinfyd. Ar ol y rhagfynegiad am anghrist y Testament Newydd, y mae prophwydoliaeth am Fab y dyn yn dyfod gyda chymylau y nef, neu am ail ddyfodiad y Messïah. Prophwydodd Daniel am y Messïah yn ei ddyoddefiadau ac yn ei ogoniant; a dengys yr awgrymiadau (*pen.* x. 2; xii. 8) hyn ei fod ef yn chwilio *pa bryd* neu *pa ryw amser* yr oedd ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhagdystiolaethu dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny;" 1 *Pedr* i. 10—12. Er fod y "deng wythnos a thrigain" hyd amser y Messïah yn cael ei adranu eilwaith yn fanylach, i "ddwy wythnos a thrigain," ac i "un wythnos,"—ac yr oedd yn adgyfnerthiad mawr i'r eglwys gael yr addewid hon am amser ei ddyfodiad yn y cnawd—eto ni allasai ond cyflawniad y brophwydoliaeth ei hegluro. Felly hefyd am ail ddyfodiad y Messïah.

Y mae Llyfr Daniel yn yr Hen Destament yn meddu ar yr un berthynas i'r prophwydi ereill ag y mae Llyfr y Dadguddiad yn y Newydd yn meddu i ymadroddion prophwydoliaethol Crist a'i apostolion. Yr oedd y prophwydi yn gyffredin a'r apostolion yn rhoddi goleu ar eu hamseroedd eu hunain yn benaf; ond y mae Daniel ac Ioan yn y Dadguddiad yn edrych yn mlaen at amseroedd pan na byddai gweledigaeth, ac yn rhoddi goleuni i gynnal ffydd a gobaith yr eglwys, er nad i foddio chwilfrydedd. Yr oedd Llyfr Daniel yn oleuni trwy y pum can mlynedd, o'r caethgludiad hyd ddyfodiad cyntaf Crist a dinystr Ierusalem, i'r rhai deallgar; felly y mae Dadguddiad Ioan, o ddyfodiad Crist yn y cnawd hyd ei ail ddyfodiad mewn gogoniant. Y mae Daniel yn cynnwys cyfeiriadau at y cyfnod olaf yn yr ail a'r seithfed bennod o'i lyfr; ac o hyn y tardd y cyssylltiad neillduol sydd rhwng y ddau lyfr hyn. Gellir galw y naill yn Ddadguddiad yr Hen Destament, fel y gelwir y llall yn Ddadguddiad y Newydd. A rhyngddynt y mae cyffelybrwydd a gwahaniaeth amlwg. Y mae y ddau yn sefyll ar derfyn eithaf cyfnod o ysbrydoliaeth, ac wedi eu bwriadu i daflu goleuni ar y tywyllwch dilynol. Fel y mae Llyfr Daniel yn gwahaniaethu rhwng cyntaf ac ail ddyfodiad y Messïah, felly mae Dadguddiad Iesu Grist i Ioan yn gwahaniaethu rhwng ei ddyfodiad i osod i fyny ei deyrnas gyda nerth a gogoniant am fil o flynyddoedd a'i ddyfodiad i farnu y byd. Ond y mae Daniel yn gweled ac yn dysgrifio teyrnas Dduw yn ngoleuni yr Hen Destament, ac Ioan yn ngoleuni y Newydd. Y mae Daniel yn dyfod (*pen.* xi) at fanylion—eto nid mor bell ag i ddyrysu amcanion prophwydoliaeth—rhyfeloedd, priodasau, a buddugoliaethau y Syriaid a'r Aiphtiaid, fel nad oes brophwydoliaeth mor amgylchiadol yn yr holl Ysgrythyr; ac hefyd at fanylion amseryddol gyda golwg ar Antiochus, a chyda golwg ar amser ymgnawdoliad y Messïah (*pen.* viii. 14: xii. 11, 12; ix. 24—27). Am y cyntaf, cyfrifir wrth y dyddiau; ac am yr ail, i'r flwyddyn. Yr oedd hyn yn briodol dan oruchwyliaeth gysgodol, pryd yr oedd yr eglwys yn byw fwy wrth olwg nag wrth ffydd. Ond er nad ydyw Ioan yn rhoddi manylion amgylchiadol, eto y mae efe yn fwy eglur am y mil blynyddoedd, y farn olaf, a'r Ierusalem newydd, &c. Gwahaniaeth pwysig rhwng y ddau ddadguddiad hyn ydyw, fod Daniel yn cael ei orchymyn i selio y weledigaeth (*pen.* viii. 16; xii. 4). Ond wrth Ioan y dywedir "Na selia y weledigaeth." Y rheswm a roddir dros hyn yw, bod "yr amser yn agos:"—cyfeiriad, gellid meddwl, at y rheswm a roddir i Daniel dros selio y weledigaeth; sef "o herwydd dros ddyddiau lawer y bydd." Gallesid dysgwyl mai yn hollol fel arall y buasai, wrth ystyried mai at amser Antiochus y cyfeiria y gweledigaethau y dywedir am eu selio. Fe allai y dywedir fod amser cyflawniad prophwydoliaethau Ioan yn agos yn unol â'r golygiad am holl oruchwyliaeth yr efengyl fel "diwedd y byd," "terfynau yr oesoedd," ac felly yn dechreu yn ei amser ef. Ond i'r Iuddewon yr oedd y tywyllwch oedd rhyngddynt ag amser dyfodiad y Messïah, er nad ydoedd ynddo ei hun mor faith, eto yn absennoldeb manteision goruchwyliaeth oleuach, ac i genedl mor dueddol i ymofyn am arwyddion, yr oedd yn faith.

Y mae lluaws o esboniadau ar y llyfr hwn wedi eu cyhoeddi. Ni a gyfeiriwn at rai allan o lawer —*Ephraim Syrus*, *Jerome*, *Theodoret*, *a Hyppolytus*, yn mhlith y tadau. *Jarchi*, *Kimchi*, *Abenezra*, *a Joseph Jacchiades*, yn mhlith y rabbiniaid. *Melancthon*, *Calvin*, *Œcolampadius*, *Martin Geier*, *C. B. Michaelis*, *a J. D. Michaelis*, yn mhlith y Diwygwyr. Y mae gweithiau y diweddar *Hengstenberg* ac *Auberlin* wedi eu cyfieithu i'r Seisoneg, ac wedi eu cyhoeddi gan Clark, o Edinburgh. Cyssegrodd Syr Isaac Newton ran o'i oes i geisio deall ac esbonio Llyfr Daniel. Y mae Arglwydd Carlisle, arglwydd-raglaw presennol yr Iwerddon, newydd gyhoeddi nodiadau ar yr wythfed bennod o Daniel.

DANNEDDOG: yn meddu dannedd. "Wele, gosodaf di yn fen-ddyrnu newydd ddanneddog" (Heb., *safnog*); *Esa.* xli. 15. Y mae yn debygol mai cyfeiriad sydd yma at beiriant dyrnu a arferid yn Palestina a'r Aipht, a'r hwn a arferir hyd yn bresennol. Y mae y peiriant hwn yn gyfansoddedig o ddau blanc tew, wedi eu cyssylltu yn nghyd dalcen wrth dalcen, a'r blaena. yn plygu tuag i fyny. Dodir ceryg miniog mewn tyllau o danynt, a phigau heiyrn rai gweithiau yn lle ceryg. Llusgir y peiriant dros yr ŷd gan ychain, a dyn neu fachgen yn eistedd ar brydiau ar y planc, er chwanegu y pwysau. Trwy hyn, nid yn unig fe ryddheir yr ŷd, ond fe felir y gwellt, fel y bydd yn ymborth addas i anifeiliaid (2 *Bren.* xiii. 7). Y mae yr Arglwydd yn annog ei bobl i beidio llwfrhau, gan addaw eu cadarnhau, eu cynnorthwyo, eu cynnal, a'u gwneuthur yn fuddugoliaethus, ac yn arswyd i'w gelynion. Wedi eu hadnewyddu fel hyn, a'u gwneuthur yn *ddanneddog*, hyny yw, yn fedrus i gyhoeddi cenadwri Duw yn finiog ac argyhoeddiadol, dyrnant y mynyddoedd, a gosodant "y bryniau fel mwlwg;" byddant "nerthol drwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr;" 2 *Cor.* x. 4; *Heb.* iv. 12, 13.

DANNOD, [*annod*]: edliw, ceryddu, gwarthruddo. Cyfieithir yr un gair Groeg (ὀνειδίζω) drwy bedwar o wahanol eiriau:—*edliw*, yn *Mat.* xi. 20; a xxvii. 44: *difenwi*, yn *Marc* xv. 32: *gwaradwyddo*, yn *Mat.* v. 11; *Luc* vi. 22; *Rhuf.* xv. 3; a 1 *Tim.* iv. 11: a *dannod*, yn *Marc* xvi. 14 a *Iago* i. 5. Nid ydyw y gair gwreiddiol yn

Digitized by Google

golygu ceryddu mewn geiriau yn unig, ond cynwysa hefyd sarhau a gwaradwyddo dyn trwy edliw rhyw drosedd iddo, pa un bynag a fyddo yn euog o hono ai peidio. Ymddygwyd yn y dull hwn tuag at Grist, ac y mae ei ganlynwyr byth er hyny wedi cyfarfod â'r un driniaeth: dywedir pob drygair yn eu herbyn: *Mat.* v. 11; xxvii. 44. Wedi i Grist adgyfodi, "efe a ymddangosodd i'r un ar ddeg, a hwy yn eistedd i fwyta; ac a *ddannododd* iddynt eu hanghredin-iaeth;" *Marc* xvi. 14. Hyny yw, efe a'u ceryddodd neu a'u beiodd, nid i'r dyben o'u gwarthruddo, ond er mwyn eu meddyginiaethu ac i gryfhau eu ffydd. Efe a wnaeth hyn iddynt o blegid eu bod, wedi yr holl broflon a gawsant, eto heb gredu. Y mae hwn yn amgylchiad pwysig yn hanes adgyfodiad Crist. Ni bu dynion erioed yn fwy anhawdd i'w hargyhoeddi o unrhyw beth na'r un dysgybl ar ddeg o wirionedd adgyfodiad yr Arglwydd. Dengys hyn yn bendant nad oeddynt wedi cytuno â'u gilydd i dwyllo y byd. Y mae Duw yn cyfranu ei roddion yn haelionus i bawb, "ac heb *ddannod;*" *Iago* i. 5. Nid yw efe yn edliw i ni, nac yn ein sarhau am ein hymddygiad a'n hanniolchgarwch blaenorol, nac yn cwyno ein bod yn myned at ei borth yn rhy aml; ond y mae yn caniatau i ni agosâu ato yn y modd mwyaf rhydd; daw i'n cyfarfod yn yr ysbryd mwyaf caredig, a chyfrana i ni ei roddion haelionus gyda'r parodrwydd mwyaf, os gofynwn hwynt mewn ffydd. Gallwn fod yn sicr, pan y gofynwn ffafr gan Dduw, na chyfarfyddwn âg unrhyw edliwiad dideimlad, ac na dderbyniwn atebiad sarug ganddo.

DANT, DANNEDD, [שן; Deg a Thrigain, ὀδούς; Vulgate, *dens*]. Dywedir yn gyffredin fod y gair Hebraeg yn deilliaw oddi wrth שנה, ystyr yr hwn ydyw "cyfnewid;" o blegid fod y dannedd cyntaf yn cael eu cyfnewid am rai ereill. Y mae gwahaniaeth mawr yn ffurf, nifer, sefyllfa, a'r dybenion y mae dannedd yn wasanaethgar iddynt, yn yr amrywiol dylwythau o anifeiliaid—y mae y gwahaniaeth mor fawr fel y mae naturiaethwyr wedi dewis hyny yn rheol i ddosbarthu tethfilod yn llwythau ac yn deuluoedd. Y mae rhai o'r tethfilod heb ddannedd o gwbl, megys y grugarth a'r arwellog. Mewn rhai o dylwyth y morfil, y maent yn gynnwysedig o gyfres o lafnau cornaidd yn tarddu o'r en uchaf, y rhai a adnabyddir wrth yr enw asgwrn morfil (*whalebone*). Y mae holl dylwyth yr adar yn amddifad o ddannedd. Melir eu hymborth hwy, pan y bydd yn angenrheidiol, trwy ddarpariaeth gyfaddas a feddant yn eu cylla, a thrwy gymhorth ceryg mân, a sylweddau celyd ereill, y byddant yn eu llyncu yn reddfol. Dannedd nadroedd gwenwynig ydyw yr arfau mwyaf marwol â pha rai y mae anifeiliaid wedi eu cynysgaethu. Mae y dannedd gwenwynig o ffurf fachog. Pan y bydd yr ymlusgiad yn dawel, bydd y dannedd hyn yn gauedig megys llafn cyllell, neu ewinedd cath; ond pan y cyffroir ef, cyfyd hwynt i fyny yn uniongyrchol: y mae y dant hefyd yn gyffelyb i bibell, â thwll bychan yn ei flaen, drwy yr hwn y trosglwyddir y gwenwyn i'r briw o chwysigen fechan dan y llygad. Y mae y dannedd mewn anifeiliaid cigysol, megys y llew, y teigr, &c., yn arfau ofnadwy: felly hefyd y maent yn y baedd gwyllt. Bydd yr elephant yn eu defnyddio fel offerynau i'w amddiffyn ei hun. Yn y moruncorn (*narwhal*), ni bydd ond un dant yn gyffredin yn tori allan, ac erys ei gymhar yn guddiedig; y mae yn nodedig am ei hyd a'i ffurf pigfain, a thybir ei fod yn cael ei ddefnyddio fel arf amddiffynol. Nid ydyw yr ysgythrddannedd nerthol hyn yn tyfu i'w llawn faintioli yn yr elephant, y moruncorn, a'r morfarch, ond yn y gwryw yn unig. Mewn anifeiliaid cigysol, gan nad ydyw eu hymborth yn gofyn cael ei falu, y mae y dannedd wedi eu cyfaddasu at ddal ysglyfaeth, ac at ei rwygo yn ddarnau; y maent yn bigfain a miniog o ran ffurf, ac yn cau i'w gilydd, fel nad ydyw eu blaenau yn myned i gyfarfyddiad i niweidio eu hawchlymder. Yn y wiwer, y llostlydan, llygod, &c., y mae dau ddant hir, miniog, yn y ddwy en, tebyg iawn i gynion; ac er eu defnyddio am flyneddoedd i gnoi sylweddau celyd, i agor cnau, neu i gymmynu coed, ni byddant un amser yn pylu. Heb law y rhai hyn, y mae gan anifeiliaid o'r llwyth hwn ddannedd mâl, tuag at gnoi eu hymborth yn ddigon mân. Y mae rhai o'r anifeiliaid, a ymborthant ar rawn a llysiau, yn meddu dannedd tori yn y ddwy en, megys y ceffyl; ac ereill yn yr en isaf yn unig, megys ychain, defaid, a cheirw. Y mae ganddynt, heb law hyny, gyfres o ddannedd mâl rhagorol, gyda pha rai y byddant yn dwyn eu hymborth i sefyllfa fân iawn cyn ei lyncu. Gan ddyn, mewn cymhariaeth i'w faintioli, y mae y dannedd lleiaf o unrhyw greadur sydd yn ymborthi ar laeth. Ynddo ef, ffurfiant ddwy res, a phob dant mewn cyffyrddiad â, ac yn gynnaliaeth i'w ddau gymmydog; y maent o'r bron yn gydradd hefyd, yr hyn a'i gwahaniaetha oddi wrth y creaduriaid hyny — megys yr epa — ag sydd debycaf iddo o ran cyfansoddiad corfforol. Mewn dyn mewn oed, y mae y ddwy en yn cynnwys pedwar o ddannedd tori yn y tu blaen, yn nesaf i ba rai y mae pâr o ddannedd bonbraff a blaenfain, y rhai a elwir yn ddannedd y llygaid; tu ol i ba rai, ar y ddwy ochr, y mae pump o ddannedd mâl. Felly, y mae un ar bymtheg o ddannedd yn mhob gen, pan y byddant yn gyflawn. Gan fod y dannedd yn ffurfiedig o sylwedd na thyf yn gyfatebol i dyfiant graddol yr en mewn plant, gwelwn ddarpariaeth na cheir mo honi yn un rhan arall o'r corff. Cynnysgaethir yr ieuanc â dwy gyfres o ddannedd, yn gwahaniaethu mewn maintioli, nifer, a rhai o honynt mewn ffurf. Cynnwysa y gyfres gyntaf bedwar o ddannedd blaen, dau ddant llygad, a phedwar o ddannedd mâl, yn mhob gen. Yn ystod parhad y gyntaf, bydd yr ail gyfres yn dechreu ffurfio. Fel y cynnyddant, gwasgant ar wreiddiau y dannedd cyntaf, gan eu hamddifadu o nodd, fel ag i achosi i'r gwreiddiau ddarfod wrthynt. Felly, bwrir y dannedd cyntaf, gan hyny, heb y gwreiddiau. Pan y bydd y plentyn tua saith mlwydd oed y dechreua yr ail gyfres o ddannedd wneyd eu hymddangosiad, drwy fwrw ymaith y rhai cyntaf y naill ar ol y llall. Nid oes ragflaenoriaid i'r ddau bâr o ddannedd mâl sydd yn y ddwy en yn nesaf at ddant y llygad yn y gyfres gyntaf. Y maent yn llawer hwy yn dyfod i'r golwg: ni chymmer hyny le hyd y ddeunawfed neu yr ugeinfed flwyddyn, pan yr ymddengys y pâr dannedd mâl pellaf, y rhai a elwir yn ddannedd synwyr, am y dylai fod dyn wedi cyrhaedd i'w lawn synwyr erbyn hyny. Y tymmor boreuaf i ba un y gellir olrhain elfenau dannedd ydyw i tua'r pedwerydd mis o fywyd milrithiol (*fœtal life*). Os edrychir arnynt yn mhen peth amser ar ol hyny, pryd y gellir eu canfod yn eglurach, ymddangosant fel codenau bychain, yn llawn o

Digitized by Google

lestri gwaed a gewynau. Bydd arwyneb mewnol y chwysigenau bychain yn casglu yn nghyd sylwedd arbenigol—yr emliw (*enamel*)—yr hwn a drefnir mewn ffurf grisialaidd, a'r hwn a gyfansodda wisg allanol gymmaint o'r dant ag a fydd yn y golwg. Y mae y tu mewn i'r wisg wedi ei lenwi â bywyn, yn gyfansoddedig o lestri gwaed a gewynau, o'r hwn y ffurfir asgwrn caled iawn, fel ag i lenwi y wisg allanol: mewn trefn i roddi cryfdwr i'r dant, fe chwanegir y gwraidd yn raddol. Pan dŷr y dant allan o'r chwysigen, hi a dderfydd yn gwbl ac yn hollol, fel na bydd y llestri a ffurfiasant yr emliw yn bodoli mwyach; gan hyny, nis gall gael ei adnewyddu, er y dywed rhai fod cig y dannedd yn cymmeryd ei lle. Y mae y rhan arall o'r dant, a gyfansodda ei ganol a'i wraidd, yn parhau i fyw ac i gael ei gyflenwi â gwaed ac yni gewynog. Y mae y llestri gwaed a'r gewynau mewn dant yn ei gyflawn faintioli yn fychan iawn. Ant i mewn trwy dwll bychan yn y gwraidd. Ymleda yr agoriad tuag i mewn, fel ag i ffurfio gwagle bychan, lle y cerir yn mlaen y gwaith o feithriniad: y mae y gewynau yn deilliaw oddi wrth un o ewynau tyneraf y corff, yr hyn ydyw yr achos o'r boen dirfawr a deimla dyn pan yn cael ei flino gan y ddannodd. Gwisg heb deimlad ydyw yr emliw, yn gorchuddio yr asgwrn caled byw sydd yn cyfansoddi y gweddill o'r dant. Er ei fod yn gwbl ddideimlad ei hun, nid yw yn attal trosglwyddiad teimlad; o blegid fe deimla y dannedd oddi wrth oerni a gwres, a phethau ereill, er y ddarpariaeth hon. Y mae yr emliw crisialaidd wedi ei drefnu yn brydferth, mewn trefn i wrthweithio y draul y mae yn agored iddo. Y lleoedd y mae dewaf ydyw y manau hyny sydd yn fwyaf agored i dreuliad. Yn y dannedd blaen a dannedd y llygaid, y mae yr emliw yn dewach ar eu blaen ac ar eu hochrau allanol, nag ar eu hochrau mewnol; tra mai ar wyneb uchaf y dannedd mâl y mae mwyaf o hono. Mae asgwrn y dant yn cynnwys mwy o elfenau priddlyd, mewn cyfartaledd, nag esgyrn ereill y corff; ac y mae yr emliw, heb law ei fod yn gwahaniaethu oddi wrth asgwrn, drwy nad ydyw yn meddu llestr gwaed a gewynau, a thrwy ei fod wedi cael ei ffurfio o grisialau, eto mae yn gwahaniaethu oddi wrth asgwrn hefyd mewn cyfansoddiad, trwy nad oes madruddyn (*cartilage*) ynddo. Gyda golwg ar nodweddion allanol y dant, dosbarthir ef fel y canlyn:—y coryn, neu gymmaint o hono ag sydd yn weledig; y gwddf; a'r gwraidd. Gwreiddiau bychain sydd i'r dannedd blaen, y rhai a weithredant yn gyffelyb i wellaif—eiddo yr en uchaf yn gyffredin yn cau am ddannedd yr en isaf. Y mae gwreiddiau i ddannedd y llygaid, y rhai a ddefnyddir i rwygo. Mae dau wraidd wedi ymgysylltu yn nghyd i'r ddau bâr cyntaf o ddannedd mâl, ac y mae i'r dannedd mâl ereill o dri i bedwar o wreiddiau. Y mae y dull yn mha un y mae y dannedd yn cael eu hattegu gan y gorchfannedd (*gum*), a'r modd y maent wedi eu sicrhau, yn deilwng o sylw hefyd. Y mae y gorchfanneddau yn gwasanaethu, nid yn unig fel gobenyddion ystwyth a chedyrn i'r dannedd, trwy yr hyn y maent yn gryfder mawr iddynt pan yn cael eu defnyddio, ond y maent yn cyfranu mewn rhan tuag at eu meithriniad, trwy y cyssylltiad llestrol (*vascular*) sydd rhyngddynt. Mewn hen ddyddiau, pan y bydd gwahanol ranau y corff yn dechreu crebachu, bydd y gorchfanneddau yn cilio yn ol oddi wrth y dannedd, drwy yr hyn y byddant weithiau yn disgyn ymaith, er eu bod yn eithaf iach. Trwy y dull yn mha un y mae y dannedd wedi eu gosod yn eu morteisiau, y mae iddynt arwynebedd eang o gynnaliaeth. Nid ydyw yr holl bwysau yn gasgledig ar ben y dant, megys yn yr amgylchiad o yru hoelen i ddarn o bren, ond dosberthir ef yn gyfartal dros holl arwyneb y gwraidd; yr hwn, mewn rhai dannedd, sydd yn gymmaint bedair gwaith ag arwyneb eu rhanau gweledig; felly, a thybied fod pwysau cyfartal i bedwar pwys ar ben y dant, drwy gael ei estyn dros arwyneb yr holl wraidd, dygir ef i lawr i bwys.

Dygwydda y gair *dant* gyntaf yn y Beibl gyda chyfeiriad at yr aelod hwnw yn llythyrenol mewn dyn, y golled am ba un, trwy drais, a nodir gan Moses, er egluro ei gyfraith gyda golwg ar dalu y pwyth—"dant am ddant;" *Exod.* xxi. 24. Os dygwyddai hyn rhwng gwŷr rhyddion (neu rhwng Israeliad a gŵr dyeithr: *Lef.* xxiv. 22), y mae yn debygol, fel mewn achosion ereill o anafu, y derbynid iawn arianol trwy gytundeb cyfrinachol, os na byddai y person anafedig yn afresymol yn ei ofynion, pryd y trosglwyddid yr achos i ddwylaw y barnwr, yr hwn sydd yn cael ei anerch, fel yr ymddengys, yn *Deut.* xix. 21. Darllenir y geiriau sydd yn *Exod.* xxi. 24; *Lef.* xxiv. 20; a *Deut.* xix. 21, "pris dant am ddant," yn Nhargum Ionathan [cymharer *Hyn. Jos.*, iv. 8. 35]; ond os parai meistr y golled anadferadwy hon i wasanaethwr, hyny yw, i gaethwas, cospid ef drwy ei amddifadu yn hollol o'i wasanaeth (*Exod.* xxi. 27). Yr oedd yr un ddeddf yn gymhwysiadol pe un o'r Cenedloedd a fuasai y caethwas, er gwaethaf esboniadau yr athrawon Iuddewig.—[*Selden's De Jure Nat. et Gent.*, iv. 1, td. 465.] Nid ydyw esboniad ein Harglwydd ar y gyfraith (*Mat.* v 38), yr hon a gamarferid i raddau helaeth yn ei amser ef [*Horne's Introd.*, cyf. ii. td. 377, y 6ed arg.], yn gwahardd dim ond *talu y pwyth* i'r *troseddwr*—nid y fath amddiffyniad o'n diniweidrwydd ag a all fod yn gynnwysedig mewn geiriau; ond *ymddial anghyhoedd*, a hyny yn neillduol mewn ysbryd digofus. Y mae ei annogaethau yn dwyn perthynas yn hytrach â'r niweidiau hyny nas gellir eu hadgyweirio gan yr ynad gwladol, neu trwy y gyfraith: dylem oddef y rhai hyn, yn hytrach na dial o'u plegid. —[Gwel Rosenmüller, Grotius, a Whitby.] Yn *Salm* iii. 7, y mae genym לחישני am yr en ddynol; defnyddir yr un gair yn *Barn.* xv. 15—17, am en asyn; ac yn *Iob* xl. 14, am eiddo y lefiathan. Cyfeirir at "ddant wedi ei dori;" hyny yw, dant wedi pydru, yn *Diar.* xxv. 19, fel cyffelybiaeth addas o "hyder ar ffalswr yn nydd cyfyngder." Y mae "dannedd bwystfilod," neu yn hytrach "dant" (שן), yn ymadrodd a ddefnyddir i osod allan anrheithiad gan anifeiliaid gwylltion: megys "Anfonaf hefyd arnynt ddannedd bwystfilod;" *Deut.* xxxii. 24: cymharer 2 *Bren.* xvii. 25. Defnyddir y gair weithiau yn gyffelybiaethol am glogwyn serth neu ben craig; megys yn *Iob* xxxix. 28, lle y dywedir am yr eryr, "Y trig efe ac yr erys mewn craig, ac ar ysgythredd (Heb., *dant*) y graig." Felly hefyd yn 1 *Sam.* xiv. 4; "Yr oedd craig serth o'r naill du i'r bwlch, a chraig serth o'r tu arall i'r bwlch." Enw y creigiau hyn oedd Boses a Seneh.

Canfyddir y gair *dannedd* yn y nifer deuol yn unig (שנים, *ὀδόντες*), gan gyfeirio at y ddwy res; er hyny, defnyddir ef am y rhif luosog (1 *Sam.* ii. 13). Dygwydda y gair yn gyntaf gyda chyf-

Digitized by Google

eiriad at yr ermygau hyny mewn dyn (*Gen.* xlix. 12): "Gwyn fydd ei *ddannedd* gan laeth;" wrth yr hyn y dealla y Deg a Thrigain a'r Vulgate, "gwynach fydd ei ddannedd na llaeth;" *Num.* xi. 33; *Diar.* x. 26; *Can. Sol.* iv. 2; vi. 6. Er mai שנים oedd y gair cyffredin am ddannedd, yr oedd gan yr Hebreaid enw gwahanol am y cilddannedd, yn enwedig eiddo y creaduriaid mwyaf; megys מתלעות yn *Iob* xxix. 17; *Salm* lvii. 4; *Diar.* xxx. 14; *Ioel* i. 6; a thrwy drawssymmudiad, מלתעות yn *Salm* lviii. 6. Y mae dannedd y lefiathan, pa fodd bynag, yn cael eu galw שנים yn *Iob* xli. 14. Y gair gwreiddiol am ifori—dannedd elephant—yn 1 *Bren.* x. 22, ydyw שנים, yr hwn a gyfieithir yn y Vulgate, "*dentes elephantorum* (=dannedd elephantiaid): 2 *Cron.* ix. 21. Mewn adnodau ereill, defnyddir y gair dannedd yn gyffelybiaethol; megys yn 1 *Sam.* ii. 13; "â chigwain dridaint yn ei law." Y mae "dannedd cenawon y llewod" yn arwyddlun o greulondeb a rheibusrwydd y drygionus: *Iob* iv. 10. Y mae i ddyn gymmeryd ei gnawd â'i ddannedd yn arwyddo ei gnoi gan ofid a chyfyngder: *Iob* xiii. 14: cymharer *Dad.* xvi. 10. Dealla y Vulgate y frawddeg a ddywed Iob (*pen.* xix. 20), wrth ddarlunio dyfnder ei gystudd, "â chroen fy nannedd y diengais," fel yn cyfeirio at groen ei wefusau; ond dealla Gesenius hi megys ymadrodd diarebol, yn arwyddo, "O'r bron y mae genyf un man iach ar fy nghorff." Y mae "taraw ar gàr yr en," a "thori dannedd," yn arwyddo sarhau ac analluogi: *Salm* iii. 7: cymharer *Micah* vi. 13; 1 *Bren.* xx. 35; *Galar.* iii. 30. Cyffelybir dannedd enllibwyr, &c., i "waewffyn a saethau;" *Salm* lvii. 4; cymharer 1 *Sam.* xxiv. 9. Wrth dori dannedd y cyfryw bersonau y golygir eu hanalluogi: *Salm* lviii. 6. Mae diangfa rhag malais gelynion yn "ddiangfa o'u dannedd hwynt;" *Salm* cxxiv. 6; *Zech.* ix. 7. Y mae gorthrwm yn cael ei gymharu i "ddannedd megys cleddyfau, a childdannedd megys cyllyll;" *Diar.* xxx. 14. Cyffelybir dannedd prydferth i "ddeadell o ddefaid gwastadgnaif, y rhai a ddaethant i fyny o'r olchfa;" *Can.* iv. 2; vi. 6: ond y mae y rhan ddiweddaf o'r gyffelybiaeth, "y rhai oeddynt bob un yn dwyn dau oen, ac nid oedd un ynddynt yn ddieppil;" yn cael ei chyfieithu yn llawer gwell gan Le Clerc—"Y maent oll yn efeilliaid; ac nid oes un o honynt wedi colli ei gymhar." Tori y "dannedd â cheryg" (Seis., *gravel stones*), sydd droellymadrodd cryf am siomedigaeth lem: *Galar.* iii. 16. "Dannedd o haiarn" sydd arwyddlun o allu dinystriol: *Dan.* vii. 7, 19. Y mae cenedlaeth yn meddu dannedd llewod, a childdannedd hen lew, yn dynodi un yn traflyncu trwy drais anwrthwynebol: *Ioel* i. 6: cymharer *Preg.* xxi. 2; *Dad.* ix. 8. Prophwydi trachwantus a rhagrithiol ydyw "y prophwydi a frathant â'u dannedd, ac a lefant, Heddwch;" *Micah* iii. 5. "Cymmeryd ymaith waed o enau, a ffieidd-dra oddi rhwng dannedd," ydyw gwaredu trueiniaid o afael creulondeb: *Zech.* ix. 7. "Glendid dannedd" sydd ymadrodd cyffelybiaethol am newyn ac eisieu: *Amos* iv. 6. "Ysgyrnygu dannedd," a arwydda yn briodol rhincian dannedd gan gynddaredd neu anobaith. Y gair Hebraeg a gyfieithir felly ydyw חרק: *Iob* xvi. 9; *Galar.* ii. 16; *Salm* xxxv. 16; xxxvii. 12; cxii. 10; *Marc* ix. 18; *Act.* vii. 54. Cyfieithir ef *rhincian dannedd* yn y lleoedd canlynol:—*Mat.* viii. 12; xiii. 42, 50; xxii. 13; xxiv. 51; xxv. 30; *Luc* xiii. 28. Cyfeirir at effaith pethau egr ar y dannedd yn y ddiareb, "Y tadau a fwytasant rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae y dincod;" *Ezec.* xviii. 2; *Diar.* x. 26. (*Aitkin's Elements of Physiology*; *Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

DANTEITHIOL—ION, [*dantaith*]: moethus, blasus, dantfelus; gwych, costfawr; moethau, ymborth blasus, danteithfwyd. "Pob peth *danteithiol* a gwych a aethant ymaith oddi wrthyt; ac ni chai hwynt ddim mwyach;" *Dad.* xviii. 14. Dygwydda yr holl bethau hyn i Babilon anghristaidd yn nydd ei gofwy. Dywed y proffeswr Stuart, mai yr hyn a olygir ydyw "pob math o ddodrefn a gwisgoedd wedi eu goreuro neu eu brodio, ac am hyny yn ddysglaer a gorwych." Bu Babilon yn mwynhau y cyfryw bethau yn hir ac yn helaeth; ond am iddi eu camddefnyddio mewn eilunaddoliaeth, balchder, a phob aflendid, amddifadwyd hi o honynt gan Dduw, yr hwn a'i dymchwelodd i waradwydd tragwyddol. Bydd *danteithion* ar fyrddau breninoedd a thywysogion: *Gen.* xlix. 20; *Diar.* xxii. 3. Mae gan y gwŷr a weithredant anwiredd eu *danteithion;* sef mwyniant pechod, golud, parch, mawredd bydol, a thrythyllwch cnawdol. Ystyrir y pethau hyn ganddynt hwy yn ddanteithion. Yn ngwyneb fod dynion yn gyffredinol yn agored i gael eu llithro o lwybr eu dyledswydd gan y pethau hyn, cawn y Salmydd yn llefain am gael ei gadw rhagddynt: "Na ostwng fy nghalon at ddim drwg, i fwriadu gweithredoedd drygioni gyda gwŷr a weithredant anwiredd: ac na âd i mi fwyta o'u danteithion hwynt;" *Salm* cxli. 4. "A lanwodd ei fol o'm danteithion; efe a'm bwriodd i allan;" *Ier.* li. 34. Darllena Dr. Blayney y geiriau fel hyn:—"Efe a lanwodd ei fol; efe a'm bwriodd o'm hyfrydwch." Barna efe fod cyfeiriad yn y geiriau at ein rhieni cyntaf yn cael eu bwrw allan o baradwys. Yr oedd Gwlad Canaan yn hyfrydwch i Israel, fel etifeddiaeth yr Arglwydd; fel gwlad dan fendith Duw; ac yn neillduol am fod cyssegr Duw yno, yn nghyd â'i ordinhadau a'i bresennoldeb. Bwriwyd yr Iuddewon allan o'u gwlad gan frenin Babilon gyda chreulondeb gwaedlyd. Fe ddygwyddodd hyn iddynt o herwydd eu pechodau yn erbyn yr Arglwydd.

DARBOD, [*pod*]: darparu, parotoi, arlwyo, gofalu am, gwneuthur darpariaeth yn mlaen llaw. "Yn *darbod* pethau rhagorol;" *Rhuf.* ii. 18:—ar ymyl y ddalen, "profi pethau â gwahaniaeth rhyngddynt." Seis., "And approvest the things that are more excellent." Gellir cymmeryd y gair gwreiddiol yma mewn un o ddau ystyr; sef yn yr ystyr o *wahaniaethu*, neu yn yr ystyr o *gymmeradwyo*. Cymhwysir y gair hwn fynychaf, ac yn ei ystyr priodol, at y gwaith o brofi mettelau trwy dân. Yna, defnyddir ef mewn ystyr cyffredin, am brofi neu wahaniaethu unrhyw beth oddi wrth beth arall, er mwyn gwybod ei natur, ei ansawdd, &c.: *Luc* xii. 56. Y mae yn debygol mai hyn ydyw ei ystyr yma, a'i fod yn cyfeirio yn hytrach at y weithred ddealltwriaethol o wahaniaethu rhwng peth a pheth, nag at y weithred foesol o gymmeradwyo peth. Dichon nas gallesid dyweyd gyda phriodoldeb—o leiaf nid yw rhediad y cyddestynau yn rhagdybied hyny—fod yr Iuddewon yn cymmeradwyo neu yn caru pethau Duw, neu yn "darbod pethau rhagorol;" ond y drychfeddwl a red drwy y geiriau ydyw, fod yr Iuddew yn ei uchelbrisio ei hun ar gyfrif ei wybodaeth o'r

Digitized by Google

pethau ag oeddynt yn unol âg ewyllys Duw.—[*Barnes*, ar yr adnod.] "Heb *ddarbod* dros yr eiddo;" 1 *Tim.* v. 8. Heb ragofalu neu ddarparu yn mlaen llaw tuag at angenion tebygol ei deulu. Y mae Duw yn *darbod* ar gyfer ein hangenion: hyny yw, y mae yn gweled yn mlaen llaw beth fydd arnom ei eisieu, ac yn darparu ar gyfer yr angenion hyny yn ei ragluniaeth. Felly hefyd yr ydym ninnau, yn ol ein gallu, i ddyfalu beth fydd angenion tebygol ein teuluoedd, a gwneyd darpariaeth ar eu cyfer. Dywed yr apostol am y neb nad ydyw yn darbod dros yr eiddo, "Efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r di-ffydd." Nid wedi ei gwadu trwy ddadganiad cyhoeddus hwyrach, ond trwy ei ymddygiad. Gall eto fod yn broffeswr crefydd; ond dengys trwy yr ymddygiad hwn nad ydyw yn meddu ysbryd crefydd, a'i fod yn ddyeithr i'w gwir natur. Y meddwl ydyw, y byddai iddo ef, drwy y fath weithred, ymwrthod yn ymarferol â Christionogaeth, gan ei bod yn argymhell y ddyledswydd hon ar bawb. Y mae esgeuluso unrhyw ddyledswydd, mor bell ag y cyrhaedd hyny, yn wadiad o'r ffydd. "Gwaeth yw na'r di-ffydd;" hyny ydyw, gwaeth na'r paganiaid ag oeddynt heb gredu yr efengyl; canys yr oeddynt hwy yn ei chydnabod yn ddyledswydd arnynt i ddarbod ar gyfer eu teuluoedd.

DARFOD, [*bod*]: diweddu, dybenu, gorphen, cyflawnu, cwblhau. Pan yn arddangos rhagoroldeb Crist ar bob creadur, ïe, ar y nefoedd a r ddaiar, dywed y Salmydd, "Yn y dechreuad y seiliaist y ddaiar, a'r nefoedd ydynt waith dy ddwylaw. Hwy a *ddarfyddant*, a thi a barhei, ïe, hwy oll a heneiddiant fel dilledyn; fel gwisg y newidi hwynt, a hwy a newidir. Tithau, yr un ydwyt, a'th flyneddoedd ni *ddarfyddant;*" *Salm* cii. 25—27. Wedi i'r bydyssawd, yn nghyd â holl gyfundrefnau yr eangder mawr, gyflawnu amcanion eu creadigaeth, rhydd eu Hawdwr derfyn arnynt:—"y nefoedd a'r ddaiar a ânt heibio." Ond fe barha Crist yn anghyfnewidiol drwy y cwbl: "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd;" *Heb.* xiii. 8. "Dy flyneddoedd di sydd yn oes oesoedd;" *Salm* cii. 24; *Esa.* li. 6. "Yna y daw y rhai ar *ddarfod* am danynt yn nhir Assyria;" *Esa.* xxvii. 13:—hyny yw, rhai mewn cyflwr isel a digymhorth, yn dymmorol neu ysbrydol. Fe dderbyn y cyfryw gysur ac adfywiad, ac fe'u gwaredir oddi wrth eu gelynion, drwy udgorn mawr yr efengyl. "A'r seithfed angel a dywalltodd ei phiol i'r awyr, a daeth llef uchel allan o deml y nef, oddi wrth yr orseddfainc, yn dywedyd, *Darfu;*" *Dad.* xvi. 17. Ni ddywedir wrthym pa ham y tywalltodd yr angel ei phiol *i'r awyr*. Y dybiaeth fwyaf tebygol am y drychfeddwl yr amcenir ei osod allan yma ydyw, fel yr ymddengys mai yn yr awyr y cynnyrchir ystormydd a thymmestloedd, felly y deuai y dinystr hwn oddi wrth ryw achosion goruwchnaturiol; megys pe byddai yr holl wybren wedi ei llenwi â chorwynt ofnadwy a thymmestl ddinystriol gan ryw allu anweledig. "A daeth llef uchel allan o deml y nef......yn dywedyd, *Darfu.*" Yr oedd y gyfres o farnedigaethau ar deyrnas anghrist ar gael ei chyflawnu; yr oedd llywodraeth y bwystfil ar derfynu am byth. Yr ystyr yma ydyw, bod y dinystr hwnw mor sicr o gymmeryd lle fel y gellid siarad am dano fel wedi ei gyflawnu: "*darfu.*" "Ac efe a ddywedodd wrthyf, *Darfu;*" *Dad.* xxi. 6. Dygwydda ymadrodd cyffelyb i hwn yn *Ioan* xix. 30, pan y dywedodd ein Gwaredwr ar y groes, "Gorphenwyd." Yr ystyr yw y mae y gwaith mawr wedi ei gyflawnu; y mae holl achosion dynion wedi eu trefnu a'u cwblhau. Y mae y gwaredigion wedi eu casglu yn nghyd i ddiogelwch—y rhai drygionus wedi eu tori ymaith—gwirionedd yn fuddugoliaethus—ac y mae pob peth yn awr wedi ei gwblhau, ac yn barod gogyfer â'r sefyllfa dragwyddol.—*Barnes.*

DARFODEDIGAETH: nychdod, afiechyd difaol. Dihoeniad y corff, yn deilliaw yn gyffredin oddi wrth afiechyd yn yr ysgyfaint, yn mha amgylchiad y gelwir ef "darfodedigaeth ysgyfeiniog" (*pulmonary consumption*) neu *phthisis.* Y mae afiechyd yr ysgyfaint yn ffynu i raddau helaethach yn Lloegr, hwyrach, nag mewn unrhyw wlad arall; dywedir ar awdurdod dda fod cymmaint a 70,000 o'r trigolion yn marw bob blwyddyn o'r afiechyd hwn yn unig. Tybir yn gyffredin mai yr achos penaf o hyn ydyw ansefydlogrwydd hinsawdd ac awyrgylch laith a tharthog y wlad hon. Fe allai fod hyn yn wirionedd i ryw raddau; ond y mae llawer yn ddyledus i ragdueddiadau trosglwyddedig o dad i fab, yn gystal ag i'r amgylchiadau anffafriol gyda golwg ar awyriad, ymborth, gwisgoedd, &c., yn mha rai y mae cyfran helaeth o'n poblogaeth yn byw. Gall plorynod ymffurfio ar yr ysgyfaint mewn canlyniad i amryw achosion. Lle y mae rhagdueddiad at hyny, pâr yr anwyd ysgafnaf, neu y gwyrad lleiaf oddi wrth reolau iechyd, i'r afiechyd dori allan; ac hyd yn oed lle na bydd rhagdueddiad, nid ydyw yn angenrheidiol ond wrth ychydig er ei gynnyrchu; ac fel hyn y mae yn bod, nid yn unig yn Lloegr, ond drwy holl Ewrop: yr ydys wedi canfod fod personau dan y darfodedigaeth yn ffurfio cyfran mor helaeth o gleifion ysbyttai yr Almaen, Ffrainc, Italy, ac ysbyttai ereill ar y Cyfandir, ag yn ein mysg ninnau. Yn mysg yr *achosion* a ragdueddant yn fwyaf cyffredinol, gellir crybwyll, yn chwanegol at yr hyn a drosglwyddir o dad i fab, fel y cyfeiriwyd, cyfansoddiadau manwynog, ffurfiad neillduol o'r frest yn caethiwo ar le yr ysgyfaint fel ag i'w hattal rhag ymweithio yn rhydd: cynnyrchir hyn weithiau trwy wasgiad celfyddydol, yn enwedig yn mysg merched ieuainc—yn erbyn yr hon arferiad y mae yn anmhosibl i ni gyfodi ein llef yn rhy uchel nac yn rhy fynych. Gellir rhestru ennyniad yr ysgyfaint, anwyd, llosglwyf (*syphilis*), clwyf y brenin, y frech wen, y frech goch, neu unrhyw afiechyd sydd â'i duedd at ddrygu ansawdd y gwaed, neu at wanychu y cyfansoddiad, yn mysg achosion darfodedigaeth; yn gystal a rhai gorchwylion, wrth ddilyn pa rai y rhaid i ddynion anadlu awyr yn llawn o anmhuredd, yr hwn a achosa ennyniad yn y mynedfeydd ysgyfeiniol, yr hwn ennyniad sydd yn debyg iawn o ymledu i'r ysgyfaint ei hun, gan gynnyrchu yr afiechyd plorynog. Cyn dyfeisiad cysgodau tynfaenol (*magnetic guards*) i'r genau, y rhai a attynant y gronynau bychain dur, gan eu hattal rhag myned i'r cyfansoddiad gyda'r anadl, anaml y byddai llifwyr nodwyddau yn cyrhaedd yr oedran o ddeugain mlynedd; a chanfyddir yn awr fod torwyr gwallt, pobwyr, melinyddion, seiri meini, gweithwyr mewn fferylldai, carwyr glo, ysgubwyr simneiau, trinwyr llin a charth, a gweithwyr mewn ystordai lledr—oll yn agored iawn i afiechyd yr ysgyfaint. Bydd i beswch ysgafn, yn deilliaw oddi wrth ychydig anwyd a gafwyd drwy eistedd mewn

Digitized by Google

ffrwd o wynt oer, neu trwy wlychu, neu trwy wisgo dillad llaith, os esgeulusir ef yn fynych, waethygu, nes arwain o'r diwedd i ddarfodedigaeth. Felly hefyd y gwna y manwynau, oddi wrth yr hwn y dyoddefa cyfran helaeth o'r dosbarth isaf. Sylwyd lawer gwaith, wedi i doriadau y manwynau gilio ymaith oddi ar wyneb y croen, y byddai arwyddion y darfodedigaeth yn ymddangos; yr hyn a awgrymai yn eglur fod yr afiechyd wedi cilio yn ol i'r ysgyfaint, lle yr ymddengys fod ei brif gartrefle.

Y mae cyffelybrwydd cyffredinol rhwng *arwyddion* y darfodedigaeth, er eu bod yn gwahaniaethu ychydig yn ol natur yr afiechyd. Bydd ar y cyntaf deimlad o lesgedd a gwendid. Ar y cyffro lleiaf, fe gyflyma y gwaed, ac fe ä yr anadl yn gaeth; a bydd yn aml beswch byr a sych, yr hwn a gynnydda mewn nerth a mynychder. Ar y cyntaf, ni bydd ond ychydig neu ddim poeredd yn ei ganlyn; ond fe ddaw hyn yn raddol, nes yr ä o'r diwedd yn helaeth, ac y bydd llinellau neu liw gwaedlyd ar y llysnafedd tew a fwrir o'r genau. Cura y corff yn raddol, a chyll ei nerth; yna y daw chwysiadau y nos, cwsg anesmwyth, gwrid i'r gruddiau, syched gwastadol, a phesweh a ymddengys fel yn casglu nerth wrth fel y bydd y cyfansoddiad, yr hwn a anrheithir ganddo, yn myned yn wanach wanach. Y mae ar y cyntaf deimlad o gaethiwed yn y frest; yna, wrth fel y cynnydda yr anhawsder i anadlu, fe ddilyna poenau llym, pigog, yn neillduol dan asgwrn y ddwyfron wrth wneuthur hyny, a phan yn pesychu; bydd y meddwl yn dra chyffredin yn cyfranogi o wendid y corff, gan suddo i sefyllfa anobeithiol; neu teimla gyfnewidiadau disymmwth o obaith ac ofn, wrth yr hyn y glyna yn fynych hyd angeu. Dygir y terfyniad oddi amgylch yn gyffredin drwy ymddrylliad un neu chwaneg o lestri gwaed yr ysgyfaint, mewn pangfa o beswch; yna, dilyna gwaedlifiant, ac fe sudda y claf yn lluddedig, gan chwanegu un yn rhagor at restr hirfaith ebyrth y darfodedigaeth.

A ydyw yr afiechyd hwn yn feddyginiaethol? Rhaid ateb gyda galar nad ydyw! Ond edrych ato mewn pryd, yn ei gychwyniad, dywedir fod yn bosibl ei luddias; a chyda gofal mawr, lle y byddys yn gwybod na bydd un rhagdueddiad ato, efallai y gellir ei attal rhag tori allan o gwbl eilwaith: ond pan y bydd y plorynod wedi ymffurfio, madredd wedi dechreu, y peswch yn boenus, a'r poeredd yn helaeth—er y gellir, trwy gyfferïau penodol, trwy symmud i hinsawdd dynerach, a thrwy wylio rhag pob dylanwadau niweidiol, attal yr afiechyd yn ei fynediad yn mlaen am dymmor, a thrwy hyny estyn yr oes—eto, y mae meddyginiaeth lwyr yn hollol anmhosibl: nid ydyw yr afiechyd wedi marw, ond huno y mae; a gall ddadebru ar unrhyw fynyd, i gyflawnu ei waith ofnadwy gyda chamrau breision.

Yr oedd y darfodedigaeth yn un o'r barnedigaethau a fygythiai yr Arglwydd ar genedl Israel, os na wrandawent hwy arno ef, ac os dirmygent ei ddeddfau, ac os torent ei gyfammod: "Minnau hefyd a wnaf hyn i chwi: gosodaf yn oruchaf arnoch ddychryn, *darfodedigaeth*, a'r cryd poeth," &c.; *Lef.* xxvi. 16, &c.; *Deut.* xxviii. 22. Gwelwn oddi wrth hyn, mai Duw sydd yn gosod clefydau ac afiechyd ar ddynion; a hyny yn gospedigaeth arnynt, er mwyn eu "tywys i edifeirwch." Tra y parhaodd yr Israeliaid i wasanaethu Duw, yr oeddynt yn fuddugoliaethus ar eu gelynion, yr oedd eu meusydd yn ffrwythlawn, a ffynai heddwch a thangnefedd drwy yr holl dir. Ond pan yr aethant i ollwng dros gof ac i ddiystyru yr Arglwydd, ymwelodd dinystr â'u gwlad, yr hon a aeth o'r diwedd yn anghyfannedd, a gwasgarwyd hwythau dros yr holl fyd. Dyma brawf i'r anffyddiwr, pe ystyriai, o wirionedd y dadguddiad dwyfol; a dyma rybudd hefyd i bob un nad ydyw yn ufuddhau i orchymynion Duw.

DARIUS, neu yn hytrach DARIAUESH (דריוש): enw ydyw hwn ar dri o freninoedd Mediaidd a Phersiaidd a grybwyllir yn yr Hen Destament. Y mae Grotefend wedi darganfod ffurf gwreiddiol yr enw, yr hwn sydd yn wahanol i'r ffurf Hebreaidd a Groegaidd, yn ngherfiadau Persepolis: *Darheush* neu *Darieush* ydyw yno [*Heeren's Ideen*, i. 2., td. 350]. Rhydd Herodotus i'r gair yr ystyr o ἑρξίης, neu, yn ol y darlleniad arall, ἑρξείης; ystyr y cyntaf ydyw *attaliwr*, ac ystyr y diweddaf ydyw *dyn o orchestion mawrion.* Y mae y blaenaf yn gysson â *dal yn dyn*, yr hyn ydyw ystyr *Dârâ*, y ffurf Persiaidd diweddar o'r enw Darius.

1. DARIUS Y MEDIAD: yr hwn y sonir am dano yn *Dan.* v. 31; ix. 1; xi. 1, &c. Mab oedd y Darius hwn i Astyages, brenin y Mediaid, a brawd i Mandane, mam Cyrus, ac i Amyit, mam Efil-Merodach, a nain Belsassar. Yr oedd Darius y Mediad, gan hyny, yn ewythr o du ei fam i Efil-Merodach a Cyrus. Mae y Deg a Thrigain, yn *Dan.* vii, yn rhoddi iddo yr enw Artaxerxes; y mae y drydedd bennod ar ddeg o Lyfr Daniel, neu y bennod anghanonaidd, yn ei alw Astyages; a Cyaxares y gelwir ef gan Xenophon. Dilynodd Belsassar, brenin Babilon, mab ei nai, neu ŵyr ei chwaer, i'r orsedd yn c.c. 3448, yn ol Calmet; neu yn 3468, yn ol Usher. Nid ydyw Daniel yn rhoddi hanes un frwydr flaenorol rhyngddynt; ond gwneir y diffyg hwn i fyny gan Esaiah ac Ieremïah: *Esa.* xiii, xiv, xlv, xlvi, xlvii; *Ier.* l, ac li.

2. DARIUS: mab Hystaspis. Mae rhai wedi bod yn tybio, ar awdurdod yr archesgob Usher a Calmet, mai yr un oedd hwn ag Ahasferus yr Ysgrythyr, a gŵr Esther. Ond yn ol barn Dr. Prideaux, Artaxerxes Longimas ydoedd Ahasferus. Gwel AHASFERUS. Adennillodd Darius Babilon ar ol bod yn ei gwarchae am ugain o fisoedd. Gwrthryfelodd y ddinas hon, yr hon oedd cyn hyny yn brifddinas y dwyrain, yn erbyn Persia, gan gymmeryd mantais ar y chwyldroadau a ddygwyddasant—yn gyntaf ar farwolaeth Cambyses, ac wedi hyny ar lofruddiad y Magiaid neu y doethion. Treuliodd y Babiloniaid bedair blynedd i wneyd darpariadau; a phan feddyliasant fod digon o ymborth yn eu dinas dros amser maith, dyrchafasant faner gwrthryfel. Casglodd Darius fyddin yn nghyd mewn brys mawr, ac efe a warchaeodd Babilon. Cauodd y Babiloniaid eu hunain i fyny oddi mewn i'w muriau—uchder, a thrwch pa rai a'u diogelent rhag ymosodiad: gan nad oedd ganddynt ddim i'w ofni ond newyn, casglasant yn nghyd eu holl fenywod a'u plant, a llofruddiwyd hwynt —pob un yn cadw ond yn unig ei wraig anwylaf, ac un gwasanaethwr. Trwy hyn, cyflawnwyd prophwydoliaeth Esaiah: *pen.* xlvii. 7—9. Tybia rhai, ddarfod i'r Iuddewon naill ai cael eu gyru ymaith gan y Babiloniaid, o herwydd eu bod yn rhy ffafriol i Darius, neu ynte eu bod, mewn ufudd-dod i gymhelliadau mynych y prophwydi, wedi ymadael o'r ddinas pan y gwelsant fod y

Digitized by Google

bobl yn penderfynu gwrthryfela: *Esa.* xlviii. 20; *Ier.* l. 8; li. 6—9; *Zech.* xi. 6, 7. Bu Darius am ugain mis o flaen Babilon heb wneuthur nemawr lwyddiant; ond o'r diwedd, llwyddodd Zopyrus, un o'i gadfridogion, i gymmeryd meddiant o'r ddinas trwy ddichell. [Gwel BABILON.] Gorchymynodd Darius gludo ymaith y can porth pres, yn ol prophwydoliaeth Iremïah: "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd; Gan ddryllio y dryllir llydain furiau Babilon, a'i huchel furiau (Seis., pyrth), a losgir â thân; a'r bobl a ymboenant mewn ofer edd;" *Ier.* li. 58. Yn Herodotus yr adroddir yr hanes hwn.

3. DARIUS CODOMANNUS. Perthynas pell oedd y Darius hwn i deulu breninol Persia. Yr oedd mewn sefyllfa led isel pan y dodwyd ef gan Bagoas, yr eunuch—yr hwn a fu yn offeryn i lofruddio dau frenin, Ochus ac Arses—ar yr orsedd. Ei enw oedd Codomannus, ond mabwysiadodd yr enw Darius wedi iddo gael ei ddyrchafu yn frenin. Yr oedd wedi deilliaw oddi wrth Darius Nothus; mab yr hwn, Ostanes, oedd tad Arsames, yr hwn a genedlodd Codomannus. Nid oedd ar y dechreu ond brysnegesydd i'r ymherawdwr Ochus. Ond un diwrnod, pan yr oedd gyda byddin ei dywysog, heriwyd y dewraf o'r Persiaid gan un o'r gelynion. Aeth Codomannus yn mlaen, a gorchfygodd yr heriwr; a gwnaethpwyd ef, mewn canlyniad, yn llywodraethwr ar Armenia. Dyrchafwyd ef o'r sefyllfa hon gan Bagoas i orsedd Persia. Ymosododd Alexander Fawr ar yr ymherodraeth Bersiaidd, a gorchfygodd Darius mewn tair o frwydrau dilynol. Ar ol y frwydr ddiweddaf, diangodd Darius tua Media, gyda'r bwriad o gasglu byddin arall yn nghyd. Tra yn y lle hwn, cymmerwyd ef i fyny gan Bessus, llywodraethwr Bactria, a Narbazanes, pendefig Persiaidd, y rhai a'i rhwymasant ef â chadwyni, gan ei orfodi i fyned i gerbyd; ac yna ffoisant, ac yntau gyda hwynt, tua Bactria. ar ol teithio yn frysiog am amryw ddyddiau, goddiweddwyd y bradychwyr gan Alexander, y rhai, gan weled eu perygl, a geisiasant orfodogi Darius i fyned ar gefn ceffyl, ac achub ei hunan gyda hwynt; ond gan iddo wrthod cydsynio â'u cais, trywanasant ef amryw weithiau, a gadawsant ef i drengu yn y cerbyd. Yr oedd wedi marw erbyn i Alexander gyrhaedd ato, yr hwn nis gallai ymattal rhag wylo uwch ei ben. Taflodd Alexander ei fantell dros gorff Darius, ac anfonodd ef i Sisigambis, ei wraig, fel y gallai hi ei gladdu yn meddrod breninoedd Persia. At y Darius hwn y cyfeirir yn 1 *Mac.* i. 1; a thybia rhai mai efe yw yr un y sonir am dano yn *Neh.* xii. 22.—(*Watson; Calmet's Dict.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Herzog's Encycl.*)

DARLITH, [*dar* a *llith*]: *dar*, yn gyfansoddedig o'r blaenddod cryfhaol *dy*, a'r geiryn *ar*, ac yn arwyddo *cyn* neu *ar fod*, gan gyfateb i'r blaenddodyn Seisoneg *pre: llith*, a arwydda, yr hyn sydd yn denu, neu yn tynu allan; y mae yr abwydyn yn llith i'r pysgodyn, ac ymresymu mewn gwahanol ffyrdd yn llith i'r meddwl, a'r gair yn dyfod felly i olygu perswadio, yr hwn ystyr a roddir iddo yn yr hen ddeddfau Cymreig —"Tyngu trwy *lith* nebun:" gan hyny, y mae *llith* yn arwyddo yr un peth a'r gwreiddyn Lladin i'r gair Lladin am addysg—*duc*—sef arwain, denu, tynu allan. Felly, gellir golygu mai ystyr y gair *darlith* yw, addysg yn cael ei weinyddu drwy ddarllen neu trwy draddodi. Darlithiau y gelwir gwersi beunyddiol athrawon colegau yn gyffredin, y rhai a wahaniaethant oddi wrth wersi yr ysgolfeistr cyffredin yn eu bod heb fod yn arholiadol, ond yn gadael yr efrydydd i ddilyn neu beidio. Tra y mae yr ysgolfeistr yn atebol am dynu allan feddwl pob un o'i ysgolheigion, nid yw y darlithiwr sydd yn y gadair athrofaol yn atebol am ddim ond fod ei eglurhad ef o'i bwnc yn oleu, yn gywir, ac yn gyflawn. Anhawdd yw dangos y gwahaniaeth sydd rhwng *araeth*, a *phregeth*, a *darlith;* ac eto, fe deimlir fod gwahaniaeth rhyngddynt. Dichon fod darlith yn dwyn mwy o berthynas â darllen nag a wna araeth a phregeth, ac y cyrhaeddir ei hamcan hi drwy ddarllen yn well nag y cyrhaeddir amcan y lleill. Gall araeth fod yn fer neu yn faith; ond nid araeth deilwng mo honi os na bydd rheitheg ei chyfansoddiad a'i thraddodiad yn cynhyrfu y gwrandawyr:—y mae y llygad, holl linellau y wyneb, y fraich, a phob ystum ar y corff, yn rhan o'r araeth, ac y mae ei llwyddiant yn dibynu yn fawr ar ei bod yn ymddangos i'r gwrandawyr yn ddifyfyr, neu yn ddylifiad brwd o'r meddwl ar y pryd, ac ar fod yr ystum, fel y dywed Shakspeare, yn cyfateb i'r gair. Yr unig wahaniaeth rhwng araeth a phregeth, mae'n debyg, yw, fod rheitheg y bregeth i fod yn llai rhwysgfawr a chynhyrfus, ond yn esmwyth a difrifol: mewn araeth, nid yw cryn lawer o rodres yn ei chyfansoddiad a'i thraddodiad yn llwyr ddifa ei heffeithiolrwydd; ond y mae effaith pregeth dda yn sicr o gael ei golli trwy rodres y pregethwr. Ond nid yw darlith mor ddibynol ar reitheg: ei hamcan hi yw taflu goleu ac egluro, argyhoeddi trwy brofion, yn hytrach na thrwy appeliadau, ac ymwneyd â'r deall yn fwy nag â'r galon a'r gydwybod; ac fe ellir, o ganlyniad, ei darllen gyda mwy o briodoldeb nag araeth a phregeth. Y mae iaith araeth a phregeth i fod yn dafodiaith gwlad, ac y mae yn rhaid i'w hymresymiadau fod yn feithach, ac yn llawnach o anghreifftiau nag sydd ofynol mewn darlith—iaith yr hon sydd yn agosâu at iaith llyfrau, ac ymresymiadau yr hon ni ofyn esamplau lawer. Yr un pryd, nid ydym yn awgrymu fod y nodweddion gwahaniaethol yna i'w canfod bob amser yn y tri dosbarth yma o gyfansoddiadau; ac eto, os oes gwahaniaeth yn bod rhwng y pethau a elwir yn bregeth, araeth, a darlith, tybiwn mai yr hyn a ddarluniwyd ydyw; ac felly, tra y dywedir fod y bregeth yn ymarferol a difrifol, yr araeth yn hyawdl a chynhyrfus, dywedir fod y ddarlith yn gynnwysfawr ac addysgiadol. Gallem gyfeirio at aml bregeth ag oedd mewn gwirionedd yn ddarlith, ac at aml ddarlith ac araeth ag oeddynt yn bregethau:—darlithiau duwinyddol cynnwysfawr yw llawer iawn o'r pregethau pynciol; ac areithiau hyawdl yw llawer un o'r pregethau doniol a glywir yn ein gwlad; tra y gellir dywedyd, ar y llaw arall, fod lluaws o'r areithiau a'r darlithiau ar ddirwest, &c., yn dwyn nodweddion gwahaniaethol y bregeth.

Yn Eglwys Sefydledig y wlad, y mae yr enw darlith wedi cael ei roddi am ugeiniau o flynyddoedd ar y bregeth hono a draddodid yn chwanegol at wasanaeth angenrheidiol y plwyf; sef, tybier fod dau wasanaeth mewn eglwys ar y Sabbath, a bod y plwyfolion yn dymuno cael un arall, tuag at yr hyn y ffurfiant drysorfa, neu y gedy rhywun gymynrodd, ac i gyflawnu yr hwn y penodir rhyw offeiriad neillduol—y gwasanaeth hwnw a elwir yn ddarlith, a'r gweinidog yn ddarlithiwr. Y mae yn y brif ddinas luaws o blwyfi yn y rhai y cynnelir gwasanaeth o'r fath;

Digitized by Google

ond diau mai yr un a elwir y *Golden Lecture* sydd wedi cyrhaedd yr enwogrwydd penaf, drwy hyawdledd ei diweddar wasanaethydd, Melville. Ond y mae y darlithiau sydd wedi cael eu sefydlu drwy gymynrodd mewn cyssylltiad â phrif ysgolion Rhydychain a Chaergrawnt, wedi bod yn foddion i gyfoethogi llenyddiaeth Seisonig yn ddirfawr.

DARLITH FISOL: darlith ydyw hon a draddodir yn fisol gan weinidogion Cynnulleidfaol Llundain, yn eu gwahanol gapelydd, ar gylch. Mae y darlithiau hyn wedi eu trefnu yn rheolaidd, fel ag i ffurfio cyfres o ddarlithiau yn dwyn perthynas â'u gilydd am flwyddyn, neu ragor. Un o ffrwythau y darlithiau misol hyn ydyw cyfrol werthfawr ar brofion Dadguddiad, yr hon a gyhoeddwyd yn 1827.

DARLITH FISOL WARBURTONAIDD: darlith ydyw hon a sefydlwyd gan yr esgob Warburton, i brofi gwirionedd crefydd ddadguddiedig yn gyffredinol, ac yn neillduol y grefydd Gristionogol, oddi wrth gyflawniad y prophwydoliaethau sydd yn yr Hen Destament yn dwyn perthynas â'r Eglwys Gristionogol, ac yn neillduol y rhai a gyfeiriant at wrthgiliad Rhufain Babaidd. I'r sefydliad hwn yr ydym yn ddyledus am ddarlithiau rhagorol Hurd, Halifax, Bagot, a llawer ereill.

DARLITH GYNNULLEIDFAOL: sefydlwyd y ddarlith hon gan y Cynnulleidfäwyr, neu yr Annibynwyr Seisonig, yn y flwyddyn 1833. Ei hamcan ydyw amddiffyn Cristionogaeth yn ei holl ranau yn erbyn dadleuon gwrthddywedwyr yn gyffredinol; ac er bod y gyfres hon o ddarlithiau o natur boblogaidd a phregethwrol, y mae yn eu plith amryw draethodau o wir deilyngdod.

DARLITH Y MASNACHWYR: sefydlwyd hon yn y flwyddyn 1672, gan y Presbyteriaid a'r Annibynwyr, er dangos yr undeb ag oedd yn bodoli yn eu mysg, yn gystal ag i amddiffyn athrawiaethau y Diwygiad yn erbyn cyfeiliornadau Pabyddiaeth, Sosiniaeth, ac anffyddiaeth. Dewisid y gweinidogion enwocaf am ddysg a phoblogrwydd fel darlithwyr; megys Dr. Bates, Dr. Manton, Dr. Owen, Mr. Baxter, Mr. Collins, Mr. Jenkins, Mr. Mead; ac ar ol hyny, Mr. Alsop, Mr. Howe, Mr. Cole, ac ereill. Cyfranai rhai o brif farsiandwyr a masnachwyr y brifddinas tuag at gynnal y darlithiau. Mewn canlyniad i ryw gamddealltwriaeth, ymneillduodd y Presbyteriaid i neuadd Salter, ac arosodd yr Annibynwyr yn neuadd Pinner. Y mae y ddarlith hon yn parhau hyd yn bresennol.

DARLITHIAU BAMPTON: cyfres o wyth o bregethau a draddodir yn flyneddol yn mhrifathrofa Rhydychain, y rhai a sefydlwyd gan y Parch. John Bampton, canon Salisbury. Yn ol cyfarwyddiadau ei ewyllys, y maent i fod ar un o'r pynciau canlynol:—I gadarnhau a sefydlu y ffydd Gristionogol, ac i wrthbrofi dadleuon cyfeiliornwyr, ar awdurdod ddwyfol yr Ysgrythyrau sanctaidd—ar awdurdod ysgrifeniadau y tadau boreuol, gyda golwg ar ffydd ac ymarweddiad yr eglwys gyntefig—ar ddwyfoldeb ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist—ar ddwyfoldeb yr Ysbryd Glân—ar erthyglau y grefydd Gristionogol, fel y gwelir hwynt yn Nghredo yr Apostolion a Chredo Nicea. Tuag at gynnal y darlithiau hyn, gadawodd ei diroedd a'i etifeddiaethau mewn ewyllys i'r canghellydd, i'r meistriaid, ac i ysgolheigion prifathrofa Rhydychain am byth. Un ammod yn ei ewyllys yw, na bydd un person yn addas i draddodi y darlithiau hyn, os na bydd wedi cyrhaedd o'r hyn lleiaf y gradd o athraw y celfyddydau yn mhrifathrofeydd Rhydychain neu Caergrawnt, ac na chaniateir i neb draddodi yr un bregeth ddwywaith. Gellir dywedyd nad oes, o bosibl, mewn un iaith gyfres o gyfrolau galluocach a mwy ysgolheigaidd; ac nad oes un gwaith er ys blyneddoedd lawer wedi cynhyrfu y byd duwinyddol gymmaint a darlithiau Bampton y flwyddyn ddiweddaf (1858), gan y Parch. H. L. Mansel, B.D., yr hwn waith sydd ar y cyfan yn cyfarfod yn well â gwrthddadleuon anffyddiaeth athronaidd y dyddiau presennol nag unrhyw lyfr fe allai yn yr iaith Seisonig.

DARLITHIAU BOYLE: cyfres o wyth o bregethau neu ddarlithiau, wedi ei sefydlu yn 1691, trwy gymynrodd yr Anrh. Robert Boyle, i brofi gwirionedd y grefydd Gristionogol, yn erbyn anffyddwyr, heb gymmeryd sylw o unrhyw ddadleuon yn mysg Cristionogion, ac i ateb gwrthddadleuon newyddion a godid o bryd i bryd. Yn y gyfres yma y ceir, yn mhlith lluaws mawr o weithiau campus, draethodau gorchestol Dr. Samuel Clarke ar fod Duw, yr esgob Kidder ar y Messïah, a'r esgob Newton ar y prophwydoliaethau.

DARLITHIAU HULSEAIDD: sefydlwyd y darlithiau hyn yn mhrifysgol Caergrawnt drwy gymynrodd y Parch. John Hulse, yr hwn a fu farw yn 1790. Amcan y sefydlydd oedd cael ugain o ddarlithiau wedi eu traddodi a'u hargraffu yn flyneddol, ar brofion Cristionogaeth, neu anhawsderau yr Ysgrythyrau; ond gan i'r drysorfa waelu, ni thraddodwyd y gyfres gyntaf hyd 1820; ac yn 1830, lleihawyd nifer y darlithiau o 20 i 8.

DARLITHIAU MOYER: cyfres o wyth o bregethau, a draddodir yn flyneddol. Sefydlwyd hwynt drwy haelioni yr arglwyddes Moyer, tua'r flwyddyn 1720. Amcan y darlithiau oedd cadarnhau gwirionedd athrawiaeth y Drindod, yn ngwyneb yr ymosodiadau a wneid arni ar y pryd gan luaws mawr o ysgrifenwyr Seisonig. Traddodwyd y gyfres gyntaf o'r darlithiau gan Dr. Waterland, ar ddwyfoldeb Crist.

DARLITHWYR, yn Eglwys Loegr, ydynt urdd o bregethwyr ar wahan oddi wrth beriglor-iaid, ficeriaid, a churadiaid. Dewisir hwynt gan y *vestry*, neu gan brif drigolion y plwyf; cynnelir hwynt trwy gyfraniadau gwirfoddol a chymynroddion, a hwy yn gyffredin fydd y pregethwyr yn y prydnawniau. Lle y sefydlir darlithiau drwy roddion personau haelionus, appwyntir y darlithwyr gan y sylfaenwyr heb gydsyniad nac ymyriad perigloriaid, &c., yr eglwysi, ond nid heb ganiatad a chymmeradwyaeth yr esgob; megys darlithiau yr arglwyddes Moyer yn eglwys St. Paul. Ond nid oes gan y darlithiwr hawl i'r pulpud heb gydsyniad y periglor neu y ficer.

DARLLENIADAU AMRYWIOL: wrth hyn y deallir yr anghreifftiau o wahaniaeth a gan-

Digitized by Google

fyddir mewn gwahanol ysgriflyfrau Hebraeg a Groeg o'r Ysgrythyrau. Heb wyrth i gyfryngu, yr ydoedd yn anmhosibl i'r testyn cyssegredig barhau i ymledaenu, heb deimlo, i raddau mwy neu lai, oddi wrth dynged pob llyfrau ysgrifenedig. Ac y mae yn eglur na chymmerodd y fath gyfryngiad le oddi wrth y ffaith nas gellir canfod dau ysgriflyfr, naill ai o'r Beibl Hebraeg neu o'r Testament Groeg, yn berffaith gysson â'u gilydd yn mhob golygiad. Gan fod y llawysgrifau gwreiddiol wedi myned ar goll er ys llawer o amser, y mae yn anmhosibl nodi allan un ysgriflyfr, a dywedyd am dano yn bendant fod hwnw yn cynnwys *geiriau* y prophwydi a'r apostolion. Y mae amryw ddarlleniadau i'w cael hyd yn oed yn y copïau goreu, y rhai y rhaid iddynt, yn ol egwyddorion beirniadaeth deg, roi y ffordd i ddarlleniadau a gynnwysir mewn copïau gwaelach.

Pan y siaredir am ddarlleniad gwahanol, ni olygir yn gyffredin ddarlleniad yn amrywio oddi wrth y testyn gwreiddiol ysbrydoledig, ond un yn amrywio oddi wrth y *testyn derbyniedig*, sef Beibl Hebraeg Vander Hooght, yr hwn a gyhoeddwyd yn Amsterdam yn 1705; a'r Testament Groeg Elzevir, yr hwn a argraffwyd yn Leyden, yn 1624. Gan i'r argraffiadau hyn, o herwydd harddwch a destlusrwydd y gwaith a roddwyd arnynt, dderbyn cylchrediad helaeth, a chan iddynt ddyfod yn seiliau i argraffiadau dilynol, appelid attynt mewn cwestiynau beirniadol; a phan y cyhoeddid argraffiadau beirniadol, argreffid y testyn hwn yn llawn, heb un cyfnewidiad, a dodid y darlleniadau amrywiol ar ymyl y dalenau. Trwy gymhariaeth fanwl o'r darlleniadau hyn, canfyddwyd fod lluaws yn eu mysg yn meddu mwy o hawl i gael eu derbyn na'r rhai sydd yn llenwi eu lle yn y testyn. Er fod nifer y gwahanol ddarlleniadau yn amryw gannoedd o filoedd, eto nid oes ond ychydig o honynt, mewn cymhariaeth, o un pwys i ystyr yr adnodau yn mha rai y dygwyddant. Y mae yr ysgriflyfrau mwyaf gwallus y gwyddys am danynt yn cynnwys pob athrawiaeth o ffydd, pob gorchymyn moesol, a phob ffaith ac amgylchiad hanfodol mewn hanesiaeth, a ganfyddir yn y rhai mwyaf cywir. Y mae y gwahaniaeth yn fwy mewn llythyrenau nag mewn geiriau; ac hyd yn oed lle y dygwydd gwahaniaeth mewn geiriau, y mae hyny yn fwy yn y sain nag yn y synwyr.

Pan y darganfyddwyd ar y cyntaf fod darlleniadau amrywiol yn bodoli yn y copïau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, cynnyrchwyd nid ychydig o fraw yn mynwesau y bobl hyny na sylwent ond ychydig ar bynciau beirniadol; ond canfyddir yn awr yn eglur fod y darlleniadau hyn, er mor lluosog ydynt, mor bell oddi wrth wanhau awdurdod, neu dynu oddi wrth gywirdeb gair Duw, fel y maent yn hytrach yn myned yn mhell tuag at gadarnhau y naill a'r llall; tra y dangosant yn anwrthbrofadwy, trwy eu bod wedi eu hysgrifenu yn annibynol ar eu gilydd, gan bersonau yn byw mewn amseroedd gwahanol, mewn gwledydd gwahanol, ac o ddaliadau gwahanol, nad oedd un cydfwriad rhwng yr ysgrifenwyr i drosglwyddo i oesoedd dilynol athrawiaethau penodol, megys trwy awdurdod ddwyfol.

Y mae tarddiadau y gwahanol ddarlleniadau yn amrywiol; ond y rhai canlynol ydyw y prif rai:—beiau neu gamgymmeriadau yn y copïau a ddefnyddid i adysgrifenu oddi wrthynt; diofalwch neu gamgymmeriad o du yr adysgrifenwyr; cyfnewidiadau beirniadol; a llygriadau gwirfoddol. Nis gellir profi, pa fodd bynag, ond ychydig iawn o anghreifftiau o'r math diweddaf a nodir: dywed Eichhorn nas gellir canfod ond dau yn yr holl Hen Destament.

Wrth farnu cywirdeb neu anghywirdeb y gwahanol ddarlleniadau, dylid cymmeryd golwg ar dystiolaethau amrywiol ysgriflyfrau, yr hen gyfieithiadau, y dyfyniadau a ganfyddir yn ysgrifeniadau hen awdwyr Iuddewig a Christionogol, rhediad y cyd-destynau, iaith gyffredin y wlad, &c. Gwel BEIRNIADAETH Y BEIBL, dan y dosraniad *Cywirdeb y Testyn*; ADGYWEIRIAD; DEONGLIADAETH, &c.—(*Buck's Theol. Dict.*)

DARLLENYDDIAETH. Y mae dyn wedi ei gynnysgaethu â dawn i drosglwyddo, nid yn unig ei feddwl i ereill, ond hefyd ei deimladau ar yr un pryd; sef, naill ai trwy leferydd, ysgrif, neu argraff; ac y mae y gelfyddyd o ddarllen yn dda yn cynnwys y ddau beth hyn, sef gosod allan synwyr yr hyn a ddarllenir, yn nghyd â'r dymmer briodol iddo. Y mae bod yn ddarllenwr da yn nod teilwng i bob Cymro, yn enwedig yr ieuanc, i ymestyn ato. Y prif bethau er cyrhaedd hyn yw, *Iawn seiniad llythyrenau a geiriau, Acceniad, Pwysleisiad*, a *Goslef*.

IAWN SEINIAD LLYTHYRENAU.

Y mae yn wybyddus i'r darllenydd Cymraeg fod i bob llythyren yn ei iaith ef ei sain briodol; ac nid fel llawer o lythyrenau yn yr iaith Seisonig, yn fynych yn newid eu sain, neu ynte yn fudion, mewn geiriau. Nis gellir darllen yn briodol oddi eithr rhoddi i bob llythyren ei sain ei hun. Efallai yr edrychir ar hyn gan rai fel peth hollol ddiangenrhaid, ac nad ydyw manylu arno mewn darllenyddiaeth ond tebyg i hollti blewyn, neu hidlo gwybedyn. Ond os telir sylw teilwng i'r anghreifftiau canlynol o *wall* seiniad amryw lythyrenau, a wnaed gan ddarllenwyr diofal, canfyddir yn eglur y dichon i gamseiniad un lythyren—ie, dim ond un—wyrdroi ystyr yr hyn a ddarllenir i wrthuni a chyfeiliornad. Gall y darllenydd dderbyn y cyfryw anghreifftiau fel ffeithiau, ac nid fel ffughanesion. Cyflawnwyd y gwallau hyn, nid yn unig gan rai yn dechreu dysgu darllen, ond gan hen ddarllenwyr; a hyny yn ddiau, nid oddi ar ddrwg fwriad, nac oddi ar anmharch bwriadol i air Duw, ond oddi ar anferwch, a diffyg gofal a chwaeth priodol. Y mae y gwallau hyn yn gyffredin wedi eu gwneuthur trwy ddilyn arferiad rhyw ardal neu gymmydogaeth neillduol o seinio rhai llythyrenau.

Yr oedd gŵr ieuanc ychydig flyneddoedd yn ol yn darllen y drigeinfed bennod o Esaiah yn gyhoeddus cyn pregethu. Efe a seiniai ambell lythyren yn ol fel yr arferid ei seinio mewn ymddyddanion cyffredin yn y gymmydogaeth y ganed ef ynddi, sef seinio y llythyren *i* yn *u*. Ac fel hyn y darllenai efe yr adnod olaf, "Y bychan a fydd yn *ful*, a'r gwael yn genedl gref." Dyna eglwys Dduw wedi ei gwneyd yn *ful!* Wrth roddi y sain yna i'r llythyren *i*, gwelir pa beth fydd ystyr yr adnod hono hefyd sydd yn *Deut.* xxxii. 30; "Pa fodd yr ymlidiai un *ful*, ac y gyrai dau ddeng *mul* i ffoi, ond am werthu o'u Craig hwynt, a chau o'r Arglwydd arnynt?" Os bernir ystyr yr ymadroddion dwyfol hyn wrth y sain yna a roddir iddynt, oni ymrithia cynnifer o fulod ffoedig ger bron meddwl y gwrandawr yn y fan? Pa fodd y gall efe osgoi hyn? *Un* lythyren fechan a gamseiniwyd—ie, y *leiaf* hefyd o'r holl lythyrenau; ac eto, gymmaint o wrthuni anoddefadwy a deflir drwy hyn, er yn anfwriadol,

Digitized by Google

ar air Duw. Addefir mai nid hawdd ydyw ymryddhau oddi wrth hen arferiad o gamseinio llythyren, pan y mae gwlad neu ardal yn gyffredinol wedi ei harferyd felly er ys oesoedd. Er hyny, dylai pob darllenydd wneyd pob ymdrech i ddiwygio yn hyn.

Mewn rhai ardaloedd, seinir y llythyren *u* yn *i*, fel hyn:—"Dyma genedlaeth Adda yn y d*i*dd y creodd D*i*w dd*i*n, ar l*i*n D*i*w y gwnaeth efe ef;" *Gen.* v. 1. Ac yn yr hen bennill yma,—

"O! cyfod bellach f'enaid pridd,
Anadla tia'r lan."

Dyna yr enaid wedi ei gyfnewid yn *bridd* fel y corff, os wrth y sain y penderfynir y synwyr.

Camseinir mewn rhai ardaloedd ereill y llythyren *i* yn *y*; a sylwer y fath gyfnewidiad a wna hyny ar ystyr amryw o'r ymadroddion ysgrythyrol, megys yr adnod hon,—"Ac Agrippa a ddywedodd wrth Paul, yr wyt ti o fewn ychydig i'm hennill i fod yn Gr*y*stion." Gwyddys yn dda beth yw ystyr y gair *crŵst;* a phe dywedid mai y gair hwn wedi ei luosogi yw Cr*y*stion, ni byddem fawr gallach er hyny.

Nid ydyw y Seison chwaith, mwy na ninnau y Cymry, yn rhydd bob amser oddi wrth y gwall hwn, hyd yn oed rhai o'u gwŷr enwocaf. Dywedir am y gŵr talentog hwnw, Garrick, yn ei gofiant gan Murphy, y byddai yntau weithiau yn camseinio y llythyrenau *i* ac *u*. Yr oedd gwall o'r fath yma mewn gŵr mor enwog a chyhoeddus ag ef yn fwy anesgusodol. Yr oedd ganddo gyfaill o'r enw Dr. Hill, yr hwn oedd wedi sylwi yn fynych ar hyn: ac i'r dyben i argyhoeddi Garrick o'i fai, a hyny mewn ffordd esmwyth a didramgwydd, anfonodd Dr. Hill ddeiseb ato ef oddi wrth I ac U, yn cynnwys eu cŵyn o herwydd y cam a gaent ganddo, a'u herfyniad taer am degwch a chyfiawnder. Anfonodd Garrick atebiad yn ol i'w gyfaill a gyflwynasai eu deiseb, ac a ddywedodd wrtho mewn barddoniaeth fel hyn:—

"If it is, as you say, that I've injur'd a letter,
I'll change my note soon, and I hope for the better:
May the right use of letters, as well as of men,
Hereafter be fix'd by the tongue and the pen.
Most devoutly I wish they may both have their due,
And that *I* may be never mistaken for *U*."

Rhoddir y lythyren *i* mewn ambell air heb ei heisieu mewn rhai cymmydogaethau, fel hyn,—"A'r angel a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch, c*i*anys g*i*anwyd i chwi heddyw G*i*eidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd;" *Luc* ii. 10, 11. "C*i*anaf i'r Arglwydd tra fyddwyf byw; c*i*anaf i'm Duw tra fyddwyf;" *Salm* civ. 33. A chlywch y bachgen yn darllen llythyr ei frawd:—"Yr oedd c*i*areg yn ngh*i*arn y g*i*aseg." Y mae yn wir nad yw hyn yn newid nemawr ar synwyr gair neu ymadrodd; ond eto, y mae yn wall y dylid diwygio oddi wrtho.

Clywir rhai hefyd wrth ddarllen yn dodi y lythyren *t* i mewn, lle nad oes ei heisieu, a hyny yn ol arfer eu cymmydogion o lefaru; fel yma,—"Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, a erys yn nghysgod yr Holl*t*alluog;" *Salm* xci. 1. "Yr holl*t* eneidiau y rhai a ddaethant gyda Iacob o'r Aipht;" *Gen.* xlvi. 26. Onid yw y fath blentynrwydd â hyn mewn darllenydd cyhoeddus yn anesgusodol? Hyderir fod yr ychydig esamplau detholedig hyn yn ddigonol i argyhoeddi pob un diduedd mai nid gorfanylwch mympwyol ydyw gwneyd cymmaint sylw o sain llythyren mewn darllenyddiaeth. Awn rhagom bellach i sylwi ar

IAWN ADRODDIAD GEIRIAU.

I ddarllen yn briodol ac yn deilwng, fe ddylid adrodd pob gair fel y mae, ac nid dyweyd y naill air yn lle y llall. Bernir mai y ffordd fwyaf tebygol i argraffu ar feddwl y darllenydd y pwys o hyn yw, crybwyll amryw anghreifftiau eto o ddarlleniad gwallus mewn geiriau. Y mae pob un o honynt yn ffaith fel y lleill. Prin y gellir tybied y dylai neb darllenwyr wasanaethu yn gyhoeddus hyd oni fedront, o'r hyn lleiaf, ddarllen geiriau yn gywir, heb son am amryw bethau ereill perthynol i'r gelfyddyd hon. Bu amgylchiadau ar achos crefydd yn Nghymru pan oedd darllenwyr yn anaml, yn enwedig darllenwyr da, fel yr oedd yn rhaid cymmeryd y darllenydd fel y ceid ef. Ac yr oedd yn haws esgusodi gwallau y pryd hwnw nag ydyw yn yr oes freintiedig hon. Yn awr, crybwyllir amryw esamplau o walladroddiad geiriau.

Rhyw hen ŵr, yr hwn a dybiai ei hun hefyd yn ddarllenwr lled dda, a adroddai *Salm* vii. 16 fel hyn:—"Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ei hun, a'i *draed* [draha] a ddisgyn ar ei gopa ei hun." Pa ddrychfeddwl a allasai y darlleniad yma o'r frawddeg olaf yn yr adnod gyfleu i ddyn na chlywsai mo honi erioed o'r blaen, ac na wybuasai nemawr o'r Ysgrythyr cyn hyny? Gellid meddwl y canfyddai yn ei ddychymyg rywun yn ymdreiglo yn chwyrn ar ochr mynydd serth, neu rhyw olygfa arall gyffelyb iddi. A pha beth a olygai yr hen ddarllenydd ei hun, y mae yn anhawdd gwybod. Rhyw ŵr arall a ddarllenai *Salm* cxiv. 1, fel yma:—"Pan aeth Israel o'r Aipht, tŷ Iacob oddi wrth bobl *ynghyfraith* [anghyfiaith]." Y mae yn hawdd i ni weled nad oedd y darllenydd hwn yn gydnabyddus iawn âg achau hâd Abraham, Isaac, ac Iacob, nac â hanes meibion Ham chwaith, onide ni thybiasai eu bod yn perthyn mor agos â hyn i'w gilydd. Gellid gwneuthur rhith esgus drosto: yn un peth, y mae y ddau air hyn, *ynghyfraith* ac *anghyfaith* yn debyg iawn i'w gilydd ar gipolwg—yn debycach felly na llawer o eiriau, yn enwedig os oedd ei Feibl yn fân a llwydaidd. Peth arall, efallai fod gan y darllenydd feddwl go isel, fel rhai o'i gymmydogion, am "bobl ynghyfraith." Ond wedi y cwbl, nid yw hyn oll ond rhith esgusawd dros y darlleniad gwallus hwn. Beth a debygech chwi am ddarlleniad fel hyn eto, a wnaed o'r adnod yma:—"Wele cynnifer o flynyddoedd yr ydwyf yn dy wasanaethu di, ac ni throseddais i un amser dy orchymyn, ac ni roddaist *funud* [fynn] erioed i mi i fod yn llawen gyda'm cyfeillion." Gwnaed y gwall hwn gan ddarllenwr go wych. Pan ddywedwyd wrtho gan ei gyfaill o'r neilldu ei fod wedi camgymmeryd wrth ddarllen yr adnod hon, a hyny yn gyhoeddus, edrychodd arno yn syn, a dywedodd, "Wel, rhyfedd iawn! Yr wyf yn synu ataf fy hun fy mod wedi gwneyd y fath gamgymmeriad, a hyny drwy fy oes! Ond yn wir, tybied y byddwn i yn wastad mai gwall yr argraffydd oedd hwn; ei fod wedi gadael darn o'r gair 'munud' allan, drwy roddi dim ond darn o hono, sef 'mun.' Diolch i chwi!" ebe fe wrth ei gyfaill caredig. Diolch iddo yntau hefyd dros yr argraffydd druan; ac hefyd am gyfaddef y gwir, yn lle digio. Ymddygodd y gwr hwn yn deilwng o ddyn.

Chwanegir anghraifft neu ddwy eto o ddarlleniad gwallus ar eiriau. Darllenir a dadgenir yn fynych y ddwy linell olaf yn yr hen bennill adnabyddus hwnw,

"Mae'r iachawdwriaeth fel y môr," &c,

yn y modd yma,—

Digitized by Google

"Mae ynddi ddigon digon byth
I'r *treuan* ac i'r gwan."

Ni ŵyr yr iachawdwriaeth ddim am y *trcuan* yna: ond hi a edwyn yn dda bob *truan* a ddel ati am ei fywyd. Ceisiwyd argyhoeddi pen cantor o'r camsyniad yma, trwy ddadganu y geiriau uchod ar y dôn a elwir "Lydia." Efe a welai ei wall, ac a addawai ddiwygio; ond fel mai gwir y ddiareb, "Anhawdd yw tynu cast o hen geffyl," felly yntau a syrthodd yn ol drachefn at ei "*dreuan*," ac yno y gadawyd hwy ill dau gyda'u gilydd. Efallai y goddefir i ni adrodd un hanesyn eto ar y pwnc dan sylw, cyn yr elom yn mlaen at gangen arall o'r gelfyddyd hon. Yr oedd dau hen gyfaill o bregethwyr cynnorthwyol, fel eu gelwid, yn byw yn yr un gymmydogaeth, mewn rhan o Gymru, o ddeutu trigain mlynedd yn ol. Ystyrid hwy gan bawb o'u cydnabod yn ddynion gwir grefyddol, a pherchid hwy yn fawr fel y cyfryw. Aethant un noson gyda'u gilydd i gadw moddion crefyddol yn y gymmydogaeth. Dechreuodd un o honynt yr oedfa drwy ddarllen a gweddïo: yna efe a eisteddodd, a chododd y llall i fyny i bregethu. Ar ol canu mawl, galwodd sylw y gynnulleidfa at ei destyn, gan ddywedyd, "Yr wyf yn galw eich sylw at eiriau a welir yn argraffedig yn llyfr y prophwyd Zephanïah—yr eilfed bennod, a'r bummed adnod; ac y mae y geiriau i'w darllen fel hyn,—"Gwae breswylwyr glan y môr, cenedl y *cythreuliaid*." "Nag e, nag e," ebe ei gyfaill yn ddystaw y tu ol iddo: "yr ydych yn methu, nid cenedl y *cythreuliaid* ydyw." Troes yntau ato yn lled gyffrous, ac a ddywedodd, "Pa beth, Dafydd, ai tydi sydd yn myn'd i'm dysgu i ddarllen fy nhestyn? Na, goelia i, y medraf ddweyd fy nhestyn heb dy help di, beth bynag." Yna galwodd sylw y bobl drachefn at ei destyn, ac a'i darllenodd fel o'r blaen, ond yn fwy grymus, "Gwae breswylwyr glan y môr, cenedl y CYTHREULIAID." "Cenedl y *Cerethiaid* ydyw, Siams," ebe ei gyfaill wrtho dros ei ysgwydd. Ar hyn, cipiodd Siams ei wydrau oddi ar ei lygaid, ac a'u gloewodd hwynt gyda phrysurwch, ac a'u hail osododd ar ei lygaid drachefn, ac a edrychodd gyda chraffder ar y *cythreuliaid* yn ei destyn; ond er ei fawr syndod, efe a welodd yn y fan nad oedd yno un o honynt, eithr ei fod wedi camgymmeryd yn ddirfawr. Yna efe a droes at ei gyfaill o'r tu ol iddo, ac a ddywedodd wrtho, "Wel, wel, hawyr bach, tydi Dafydd Ifan sydd yn dy le! Wedi meddwl dweyd tipyn yr oeddwn i am y cythreuliaid: ni wn i ddim am y genedl yma, y Cerethiaid. Dere, Dafydd, dywed di air wrth y bobl." Adroddir helyntion o'r fath yma, nid er mwyn dynoethi gwaeleddau hen gynghorwyr duwiol a ffyddlawn, na'u gwneuthur yn wrthddrychau gwawd i'r anystyriol; eithr er mwyn dangos y fath bwys sydd mewn darllen gair Duw yn gywir a phriodol, yn enwedig pan y gwneir hyny ger bron cynnulleidfa. Dyna ddigon bellach, ebe y darllenydd, ar hyn yna: beth sydd eto yn hanfodol i Ddarllenyddiaeth? Y peth nesaf ydyw

ACENIAD.

Ystyr y gair *acen* yw codiad neu ostyngiad y llais, yn fwy grymus ar ryw *sill* nag arall yn yr un gair, i arwyddocau lle y byddo pwys a grym y gair yn gorwedd, yr hwn a ddisgyn fynychaf ar y sill diweddaf ond un i bob gair Cymraeg, ac o hyny yn ol bob yn eilsill i ddechreuad pob gair lluaws-sill; megys *an*-nghyf-*iawn*-der. Ymgynghored y darllenydd â'i Ramadeg ar y mater hwn, lle y caiff ei gyfarwyddo gyda manylwch. Yn nesaf i hyn y mae

PWYSLEISIAD.

Megys mai grym y sain a osodir ar ryw *sill* enwedigol mewn gair, a elwir *acen;* felly, grym y sain a roddir ar ryw *air* enwedigol mewn ymadrodd a elwir *pwyslais*, megys hwn—"*Tydi* yw'r gŵr." Deallir hyn yn gyffredin gan ddarllenwyr Cymreig, yn enwedig yn yr Ysgol Sabbathol, o blegid ymdrinir âg ef ganddynt yn fynych. Mae synwyr, grym, amrywiaeth, a phrydferthwch yn hyn a ddarllenir, yn dibynu i raddau helaeth a iawn drefniad y pwyslais. Gellir gwyrdroi ymadroddion o'u hystyr priodol yn hollol trwy gamosodiad o hono. Y mae cymmaint o wahaniaeth yn hyn rhwng darlleniad da a darlleniad bongleraidd ar unrhyw bennod o'r Ysgrythyr, fel yr ammheuir gan y sawl a'u gwrandawo ai yr un bennod ydyw. Gellir hefyd rhoddi amryw ystyron i'r un ymadrodd drwy osodiad gwahanol y pwyslais; fel hyn—"A *wyt* ti yn drist heddyw?" A wyt *ti* yn *drist* heddyw? A wyt *ti* yn drist heddyw? A wyt ti yn drist *heddyw?* Y mae ystyr yr ymadrodd yna yn dibynu ar y man y gosodir y pwyslais. Sylwer eto ar ofyniad pwysig ein Harglwydd i Iudas yn ngardd Gethsemane: "Iudas, ai â chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn?"—yr wyt ti yn *bradychu* Mab y dyn?—yr wyt *ti* yn bradychu Mab y dyn?—yr wyt ti yn bradychu *Mab y dyn?*—Iudas, ai â *chusan* yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn? Fe welir wrth y symmudiadau hyn ar y pwyslais, y gellir rhoddi amrywiaeth syniadau i'r ymadrodd uchod. Er mwyn dangos yn mhellach bwysigrwydd iawn bwysleisiad, sylwer ar yr anghreifftiau canlynol:—*Ioan* ix. 7; "Am hyny, y Phariseaid hefyd a ofynasant iddo drachefn, pa fodd y cawsai efe ei olwg." Os gosodir y pwyslais ar y gair *drachefn*, rhoddir ar ddeall drwy hyny fod y Phariseaid wedi gofyn hyn o'r blaen i'r dyn dall. Ond wrth graffu ar y cyd-destynau, gwelir nad oeddynt, ond mai dyma y tro cyntaf iddynt ofyn hyn iddo. Eithr yr oedd y cymmydogion wedi gwneuthur felly. Am hyny, gosoder y pwyslais ar y gair *Phariseaid*, ac felly bydd yr ystyr yn briodol. Pwysleisir ymadroddion Ffestus yn *Act.* xxv. 21, gan rai fel hyn:—"Eithr gwedi i Paul appelio i'w gadw i wybyddiaeth *Augustus*, mi a erchais ei gadw ef hyd oni allwn ei anfon ef at *Cæsar*." Os pwysleisir ar y gair *Cæsar*, heblaw ar *Augustus*, rhydd hyny ar ddeall i ni mai nid yr un person ydoedd Augustus a Cæsar, ond mai dau wahanol oeddynt. Eithr gwyddys yn amgen; am hyny, na rodder y pwyslais ar Cæsar fel ar Augustus: canys gormod gorchest yw gwneuthur un dyn yn ddau, a'u cadw yn fyw. Dyma anghraifft eto:—*Act.* vii. 46, 47; "Yr hwn a gafodd ffafr ger bron Duw, ac a ddymunodd gael tabernacl i Dduw Iacob. Eithr Solomon a adeiladodd dŷ iddo ef." Darllenir hyn weithiau mewn dull a esyd allan mai nid yr un gwrthddrych oedd y tabernacl a ddymunodd Dafydd ei gael i Dduw Iacob, a'r *tŷ* a adeiladodd Solomon iddo. Ond pan gymharer yr ysgrythyrau hyn â'u gilydd—2 *Sam.* vii. 2; 1 *Cron.* xxii. 14; xxix. 2—5—gwelir yn amlwg mai yr un gwrthddrych oeddynt. Am hyny, y geiriau sydd i'w pwysleisio yw y rhai hyn—*a ddymunodd—tabernacl—Solomon—adeiladodd*—a gwneler hyny â llais priodol. Y mae yn anhawdd mynegu gymmaint o gyfeiliornadau a seilid hyd yn oed ar yr Ysgrythyrau eu hunain, pe byddent i'w deall yn ol fel y pwysleisir hwynt gan rai. Y mae yn hysbys i bawb mai trwy yr un drefn y cyfiawnheir pawb a gredant pa un bynag ai Iuddewon ai Cenedloedd;

Digitized by Google

ond y mae yn bosibl i ddarllenydd, naill ai drwy ei ddiofalwch neu ei anwybodaeth, bwysleisio yr adnod ganlynol i osod allan fod gan yr Arglwydd ddau lwybr i wneyd hyny. "Ai i'r Iuddewon y mae efe yn Dduw yn unig? onid yw i'r Cenedloedd hefyd? Yn wir y mae efe i'r Cenedloedd hefyd: gan mai un Duw sydd, yr hwn a gyfiawnhâ yr enwaediad *wrth* ffydd, a'r dienwaediad *trwy* ffydd." Ond os gosodir y pwyslais ar y gair *ffydd* yn y ddau le uchod, yn hytrach nag ar y geiriau *wrth* a *trwy*, dyna y drefn yn eglur; sef mai yr un modd y cyfiawnheir y naill fel y llall. Credir yn gyffredin mai ar unwaith y cyfyd Duw y meirw oll, y cyfiawnion a'r anghyfiawnion. Ond sylfaenir golygiad gwahanol i hyn, sef, y cyfodir y saint o flaen yr annuwiolion, oddi wrth bwysleisiad gwallus ar ymadroddion Paul yn 1 *Thes.* iv. 15, 16; "Canys hyn yr ydym yn ei ddywedyd wrthych yn ngair yr Arglwydd, na bydd i ni, y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd, ragflaenu y rhai a hunasant. O blegid yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd, â llef yr archangel, ac âg udgorn Duw: a'r meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf," &c. Y mae yn hollol eglur mai nid cyferbynu adgyfodiad y duwiolion âg adgyfodiad yr annuwiolion y mae yr apostol yn y geiriau hyn; ond dangos na bydd i'r saint byw fyned o flaen y saint meirw i gyfarfod â'r Arglwydd yn ei ddyfodiad i farnu y byd, ac i fwynhad o'u dedwyddwch; eithr y bydd y byw a'r meirw yn cydfwynhau hyn. Ac i'r dyben i hyny gymmeryd lle, y mae yn rhaid i'r saint meirw gael eu cyfodi yn gyntaf. Dyna yw gwir feddwl y geiriau. Yn awr, rhodder pwyslais fel hyn:—"A'r *meirw* yn Nghrist a *gyfodant* yn gyntaf," &c.; yna gwneir cyflawnder â'r pwnc sydd gan yr apostol mewn llaw.

Mynych y cyfarfyddwn â geiriau neu ymadroddion gwrthgyferbyniol yn yr Ysgrythyrau, y rhai nis gellir gosod allan eu synwyr, eu grym, na'u prydferthwch, heb gymmeryd gofal neillduol am eu pwysleisio yn briodol. Dyma un anghraifft o honynt, yn ymadroddion Crist yn nhŷ Simon y Pharisead: *Luc* vii. 44—46; "Ac efe a drodd at y wraig, ac a ddywedodd wrth Simon, A weli di y wraig hon? mi a ddaethym i'th dŷ di, ac ni roddaist i mi *ddwfr* i'm traed: ond *hon* a olchodd fy nhraed â *dagrau*, ac a'u *sychodd â gwallt ei phen*. Ni roddaist i mi *gusan*: ond *hon*, er pan ddaethym i mewn, *ni pheidiodd â chusanu fy nhraed*. Fy *mhen* âg *olew* nid iraist: ond *hon* a irodd fy *nhraed* âg *enaint*." Oni fyddai darlleniad diofal ac afler o'r geiriau tra phrydferth hyn yn cymylu eu prydferthwch, ac yn friw i deimladau pob dyn o chwaeth at ddarllenyddiaeth a'i clywo. Cofier nas gellir darllen un mater yn briodol oddi eithr ei ddeall ef, a meddiannu ei ysbryd.

Cyn gadael y mater hwn, y mae 'genym un gocheliad i'w roddi. Na fynycher y pwysleisiadau yn ddiangenrhaid; os amgen, collir eu gwir wasanaeth a'u prydferthwch, a byddant yn llawer llai eu heffaith. Ymgadwed pob darllenydd hefyd rhag ymddangos yn ormod ei drafferth a'i ffwdan wrth ddarllen; eithr ymollynged yn rhwydd a naturiol, fel nad ymddangoso fel pe byddai ar ei *oreu* wrth gyflawnu hyn. Y mae yn wir y dylai pob un wneyd ei oreu o'r neilldu i ddysgu darllen yn *dda;* ond tra y byddo yn cyflawnu y gwasanaeth o ddarllen yn gyhoeddus, cuddied ei *fwriad* i wneuthur hyn allan o'r golwg hyd y medro. Bellach, ni a sylwn ar yr hyn sydd yr un mor angenrheidiol i ddarllenyddiaeth a phwysleisiad, sef



GORPHWYSIADAU.

Maent yr un mor hanfodol i ddarlleniad deallus a theilwng ag ydyw y pwysleisiadau. Nis gellir yn hawdd ganfod y synwyr hebddynt. Y maent o'r un gwasanaeth i'r darllenydd i gael ei anadl wrth ddarllen, ag ydynt yn ei ymddyddanion cyffredin. Y mae yr attalnodau arferedig, y rhai ydynt ychydig, yn ddigon adnabyddus i bob darllenydd. Efallai mai y ffordd oreu fyddai peidio ymgadw atynt yn rhy gaeth, gan nad ydynt bob amser yn berffaith gywir. Mae hyn yn ddiau yn fwy cymhwysiadol at ddarllenwyr da nag at rai lled ganolig. Pa faint o saib sydd i'w gymmeryd wrth bob un, a pha agweddiad llais yn neillduol sydd i fod wrthynt, sydd bwnc anhawdd i'w benderfynu. Hwyrach mai y rheol oreu ar y cyfan, yn enwedig i'r dosbarth cyntaf a grybwyllwyd, ydyw sylwi yn fanwl pa fodd y maent yn eu harferyd yn eu hymddyddanion cyffredin; o blegid yr ydym y pryd hwnw, i raddau helaeth, yn naturiol. Ar yr un pryd, nid ydys yn golygu, wrth ddyweyd hyn, y dylid esgeuluso yr attalnodau yn llwyr; canys y maent yn dra chynnorthwyol i'r darllenydd, ond iddo beidio cadw atynt yn rhy gaeth. Y mae yr Ysgrythyr wedi cael ei gŵyrdroi yn erchyll weithiau, trwy diffyg gofal i sylwi ar yr attalnod, yn enwedig yn yr hen amseroedd gynt. Cafodd yr ysgrifenydd yr hanes canlynol gan ŵr oedranus a pharchedig yn y weinidogaeth, yn ddiweddar. Dygwyddodd iddo ef, pan oedd yn llanc, fyned gyda'i gymmydogion i wrandaw gŵr dyeithr yn pregethu. Ei destyn oedd 1 *Pedr* iii. 5, 6; "Canys felly gynt yr oedd y gwragedd sanctaidd hefyd, y rhai oedd yn gobeithio yn Nuw, yn ymdrwsio, gan fod yn ddarostyngedig i'w gŵyr priod: megys yr ufuddhaodd Sarah i Abraham, gan ei alw ef yn arglwydd y merched......." Ac yn ol ei ddarlleniad o'i destyn, felly yr oedd ei sylwadau arno. Ond pa fodd, atolwg, y bu i'r gŵr dyeithr ddarllen "arglwydd y merched?" Esgeuluso a wnaeth efe sylwi ar attalnod bychan oedd yn ei destyn ar ol y gair "arglwydd," yr hwn sydd fel hyn,—"gan ei alw ef yn arglwydd: merched yr hon ydych chwi," &c.

Y mae math arall hefyd o orphwysiad, heb law y rhai a grybwyllwyd, yr hwn a elwir "gorphwysiad pwysig" (*emphatical pause*). Saib, neu attaliad y llais dros ryw gymmaint o amser yw hwn, a wneir weithiau o flaen, bryd arall ar ol, rhyw ymadrodd neu fater mwy pwysig na chyffredin, at yr hwn y dymunir tynu sylw y gwrandawyr mewn modd neillduol; er anghraifft, "Eithr hyn, meddaf, O frodyr, na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw; ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth. Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi *ddirgelwch* [gorphwysiad pwysig]: Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf." Y mae yn angenrheidiol fod y darllenydd wedi cyrhaedd gradd helaeth o fedrusrwydd mewn darlleniaeth i gyflawnu hyn yn weddus a naturiol. A dylid gochelyd ei arfer yn rhy fynych, megys y pwysleisiadau, rhag iddo golli ei effeithioldeb; o blegid fel y mae yn tynu sylw y gwrandawyr yn neillduol, ac yn cyfodi eu dysgwyliadau am rywbeth nodedig, os na bydd y peth hwnw yn ol eu dysgwyliad, siomir hwynt yn fawr, ac efallai y dirmygant y sawl a geisio ei wneuthur.

Yn awr, ni a sylwn ar un gangen bwysig eto a berthyn i iawn ddarlleniaeth, ac un o'r rhai pwysicaf o'r cwbl ydyw yn y gelfyddyd hon; sef,

Digitized by Google

LLYWODRAETHIAD Y LLAIS.

Y mae Awdwr natur wedi cynnysgaethu dyn â dawn i amlygu, nid yn unig ei *feddwl* i ereill, ond hefyd ei *deimladau* ar yr un pryd. Ac y mae i bob teimlad, neu nwyd, ei ddull priodol a naturiol i ddadguddio ei hun drwy y wynebpryd, agweddau y corff, ac yn enwedig drwy amrywiadau y llais. Y mae i bob teimlad ei *lais* ei hun. Gocheled y darllenydd rhag pob rhyw dôn annaturiol a dyeithr. Y mae yn wir fod gan rai well llais, a gwell llywodraeth arno, nag sydd gan ereill; ond eto, dylai pob dyn lefaru a darllen yn ei lais naturiol ei hunan, a gwneyd y goreu o hono. Yr oedd dyn dall ryw dro yn eistedd wrth y bwrdd mewn gwledd. Gwedi i ryw gyfaill yno dalu diolch cyhoeddus i'r Arglwydd am ei drugareddau, gofynodd y dall yn ddystaw i'r sawl oedd yn ei ymyl, "Pwy oedd y gŵr yna a ofynodd fendith?" "Adwaenoch chwi mo'ch cymmydog?" ebe yntau. "Na choelia i," ebe y dall, "nid ei lais *o* oedd hwn'a." Y mae rhai gwŷr enwog wedi rhoddi cyfarwyddyd, drwy fath o argraffnodau neillduol, pa fodd i lywodraethu a threfnu y llais wrth ddarllen; ond y maent yn rhy anhawdd a chaeth i'r cyffredin allu gwneyd defnydd o honynt. Y gwirionedd yw hyn—gellir crynhoi sylwedd pob cyfarwyddiadau ar y mater hwn i'r ymadrodd bychan yma, *Dilynwch natur.* Y mae y bobl mwyaf diddysg ac anwybodus yn gosod allan eu meddwl a'u teimladau i'w gilydd yn eu hymddyddanion cyffredin, heb wybod dim mwy am reolau areithyddiaeth nag y gŵyr y cyfryw reolau am danynt hwythau. Pa fodd y mae hyny yn bod? Y maent yn *naturiol* felly; a gwyrad oddi wrth hyn ydyw y llais tuchanllyd, undonol, a dyeithr, sydd gan ambell un wrth ddarllen; yr hwn a dybia fod ei ddull ef yn gosod mwy o barch ar air Duw na darlleniad *naturiol* o hono. Nid yr un peth yw darllen ac areithio; eto, y mae y naill yn dwyn tebygrwydd i'r llall mewn aceniad, pwysleisiadau, ac amrywiadau y llais, ond nid i'r un graddau. Pa le y mae y llinell derfynol rhwng y ddau orchwyl hyn, nis gallwn yn bendant ei nodi allan. Gwneler yn deilwng o synwyr cyffredin yn hyn, fel yn mhob peth arall.

Y mae rhyw ranau o'r Ysgrythyr i'w darllen mewn llais *is*, ac ereill mewn llais *uwch* na rhanau ereill. Y mae naturiaeth ei hun yn dysgu hyny i ni, megys yr anghraifft ganlynol, yn 1 *Sam.* xxvi. Pan oedd y brenin Saul yn cysgu yn nghanol ei wersyllfa, ac Abner a'i wŷr o'i amgylch ef, anturiodd Dafydd ac Abisai ato drwy ganol y milwyr; a phan oeddynt yn ei ymyl ef, dywedodd Abisai wrth Dafydd, "Duw a roddes heddyw dy elyn yn dy law di: yn awr gan hyny gâd i mi ei daraw ef, atolwg, â gwaewffon, hyd y ddaiar un waith, ac nis ail darawaf ef. A Dafydd a ddywedodd wrth Abisai, Na ddyfetha ef: canys pwy a estynai ei law yn erbyn eneiniog yr Arglwydd, ac a fyddai ddïeuog? Dywedodd Dafydd hefyd, Fel y mae yr Arglwydd yn fyw," &c.

Oni fyddai yn annaturiol iawn i neb ddarllen yr ymddyddan a fu rhwng Dafydd ac Abisai yn ymyl Saul, ac yn nghanol ei wŷr, â llais mor *uchel* a rhanau ereill o hanes yr amgylchiad hwn? O blegid ymddyddan *dystaw* ydoedd rhwng y ddau, pan oeddynt mewn perygl am eu bywyd i neb eu clywed. Cymmerer drachefn hanes yr hyn a wnaeth Dafydd dranoeth ar ol hyn, yn 1 *Sam.* xxvi. 13—25. "Yna Dafydd a aeth i'r tu hwnt, ac a safodd ar ben y mynydd o hirbell, ac encyd fawr rhyngddynt. A Dafydd a *lefodd* ar y bobl, ac ar Abner fab Ner, gan ddywedyd Onid atebi di, Abner?" Dyna Dafydd yn awr yn *bloeddio*, ac nid yn llefaru yn *ddystaw*, fel y gwnaethai yn ymyl Saul. Am hyny, dylai y darlleniad o hyn fod mewn cywair *uwch*, ac eto nid mewn llais bloeddio; o blegid ni oddefir bloeddio wrth ddarllen. Hynod o annaturiol fyddai darlleniad o'r ymadroddion canlynol o eiddo Martha wrth ei chwaer Mair, mewn llais gogyfuwch a rhanau ereill yn y bennod hono—"Fe ddaeth yr Athraw, ac y mae yn galw am danat." Yn *ddirgel* y mynegodd Martha hyn, ac ni fynasai i'r bobl yn y tŷ wybod y dirgelwch. Y mae yn bosibl i'r darllenydd *sisial* hyn yn ddigon hyglyw i'r rhai a fyddant yn gwrandaw arno, os ceir dystawrwydd gweddus yn y gynnulleidfa.

Y mae rhyw ranau mewn cyfansoddiad i'w darllen gyda mwy o *gyflymdra*, ac ereill gyda mwy o *arafwch.* Ceir anghraifft o hyn yn *Gen.* xviii, lle y ceir hanes Abraham yn croesawu yr angelion: "Ac Abraham a *frysiodd* i'r babell at Sarah, ac a ddywedodd, Paratoa ar *frys* dair phiolaid o flawd peilliaid, tylina, a gwna yn deisenau. Ac Abraham a *redodd* at y gwartheg, ac a gymmerodd lo tyner a da, ac a'i rhoddodd at y llanc, yr hwn a *frysiodd* i'w barotoi ef," &c. Onid oes swn *brysiog* yn y rhan yma o'r hanes? Y fath ddirfawr gam a wneid âg Abraham pe darllenid ei orchymyn ef i Sarah, i *frysio* tylino, yn hirllais a llusgedig, fel pe buasai yr hen batriarch yn rhy dduwiol i siarad un amser yn uwch na chyflymach na'u gilydd! Am hyny, gwneler cyfiawnder â chymmeriad llettygar Abraham, drwy ddarllen y darnyn hwn yn ei gyflymdra a'i ysbryd priodol. Ond os darllenir y bennod hon drwyddi, gwelir mai nid yn y cyflymdra hwn y dylid darllen y ddosran ddiweddaf o honi; sef, eiriolaeth Abraham ger bron yr Arglwydd dros Sodom. Y mae efe yn awr yn wylaidd, yn ddifrifol, ac yn grynedig, gan ystyried ei hun "yn llwch ac yn lludw," wrth anerch yr uchel Dduw. Am hyny, darllener hyn mewn dull tra gwahanol i ymadroddion Abraham wrth ei wraig, ac wrth ei was. Nid gyda'r un cyflymedd y darllenir dysgrifiad y bardd o'r "*alarch* yn nofio ar y dwfr llonydd" ag y darllenir ei ddarluniad o'r *gwenoliaid* yn gwibio drwy yr awyr—

"Ar dro chwyrn, a'r drych arnynt
Fel arf dur yn gwanu 'r gwynt."

'Ystyrir yn gyffredin fod yr hyn a gynnwysir o fewn *cromfachau* i'w ddarllen â llais *is* ac yn *gyflymach* na'r hyn a fyddo yn flaenorol ac yn ddilynol iddo, megys yr anghraifft hon—*Heb.* xi. 37, 38; "A grwydrasant mewn crwyn defaid, a chrwyn geifr; yn ddiddym, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr (y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt); yn crwydro mewn mynyddoedd, a thyllau, ac ogofeydd y ddaiar."

I'r dyben i'r darllenydd gyflawnu ei swydd fel y cyfryw yn briodol, y mae yn angenrheidiol iddo osod ei hun yn ei ddychymyg yn lle neu yn amgylchiadau y rhai fyddont wedi llefaru yr hyn y mae efe yn ei ddarllen, fel yr elo i'r un ysbryd i ryw raddau a hwythau. Pan elo i ddarllen 1 *Bren.* xviii, esgyned i fynydd Carmel, a gosoded ei hun yn yr amgylchiadau a gymmerasant le yno. Bydd hyn yn fanteisiol iddo i osod allan yr amrywiaeth lleisiau sydd yn briodol i'r amrywiol ymadroddion sydd ynddi; megys *gwawdiaith* Elias wrth brophwydi Baal, *adn.* 27:—"Gwaeddwch â llef uchel; canys duw yw efe; naill ai ymddyddan y mae, neu erlid, neu ymdeithio y mae efe; fe allai ei fod yn cysgu, ac

Digitized by Google

mai rhaid ei ddeffro ef." Ond y mae y llais wrth ddarllen *gweddi* Elias ger bron allor ei Dduw, yn dra gwahanol i hyny, yn *adn.* 36, 37:—"O Arglwydd Dduw Abraham, Isaac, ac Israel! gwybydder heddyw mai ti sydd Dduw yn Israel, a minnau yn was i ti, ac mai trwy dy air di y gwnaethym i yr holl bethau hyn. Gwrandaw fi, O Arglwydd! gwrandaw fi, fel y gwypo y bobl hyn mai tydi yw yr Arglwydd Dduw, ac mai ti a ddychwelodd eu calon hwy drachefn." Drachefn, y mae ei *orchymyn* ef i *ladd* prophwydi Baal i'w ddarllen yn wahanol i bob un o'r dulliau hyn, yn *adn.* 40:—"Deliwch brophwydi Baal; na ddianged gŵr o honynt."

Y mae iaith dyn wedi DIGIO i'w darllen mewn llais priodol i'r dymmer hono. Cymmerer geiriau y mab hynaf, yn nammeg yr afradlawn, yn esampl o hyn: "Wele, cynnifer o flyneddoedd yr ydwyf yn dy wasanaethu di, ac ni throseddais i un amser dy orchymyn; ac ni roddaist fynn erioed i mi i fod yn llawen gyda'm cyfeillion: eithr pan ddaeth dy fab hwn, yr hwn a ddifaodd dy fywyd di gyda phuteiniaid, ti a leddaist iddo ef y llo pasgedig." Golwg sarug oedd ar y bachgen hwn, a sŵn digofus oedd yn ei lais. Nid felly yr oedd ysbryd ei dad, pan y dywedodd wrtho, "Fy mab, yr wyt ti yn wastadol gyda mi, a'r eiddof fi oll ydynt eiddot ti. Rhaid oedd llawenychu a gorfoleddu: o blegid dy frawd hwn oedd yn farw, ac a aeth yn fyw drachefn; ac a fu golledig, ac a gafwyd;" *Luc* xv. Darllener drachefn eiriau Saul wrth ei fab Ionathan. Y mae hon yn llawer mwy cyffrous nag iaith y mab hynaf yn y ddammeg: "Ti fab y gyndyn wrthnysig, oni wn i ti ddewis mab Iesse yn waradwydd i ti, ac yn gywilydd i noethder dy fam? Canys tra fyddo mab Iesse yn fyw ar y ddaiar, ni'th sicrheir di na'th deyrnas: yn awr, gan hyny, anfon a chyrcha ef ataf; canys marw a gaiff efe;" 1 *Sam.* xx. 30, 31. Ond yn wahanol i'r ysbryd yna oedd eiddo Ionathan wrth ateb ei dad, "Pa ham y bydd efe marw? beth a wnaeth efe?"

Drachefn, mae gan DRISTWCH neu DDIGALONDID ei lais naturiol, megys y claf wrth lyn Bethesda, "Arglwydd, nid oes genyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr: ond tra fyddwyf fi yn dyfod, arall a ddisgyn o'm blaen i;" *Ioan* v. 7. Y mae *galar dwys* yn myned i raddau yn mhellach na hyn, megys galarnad Dafydd ar ol ei fab Absalom:—"O fy mab Absalom! fy mab, fy mab Absalom! O na buaswn farw drosot ti, Absalom, fy mab, fy mab!" 2 *Sam.* xviii. 33. Oddi eithr fod y darllenydd yn feddiannol ar deimladau tyner iawn wrth ddarllen yr alarnad hon, goreu ddo ef po lleiaf a geisio wneuthur dynwarediad o deimladau Dafydd; o blegid nid oes dim adgasach mewn darllenydd neu areithydd, na cheisio dynwared teimladau pan na byddo ef ei hun yn feddiannol arnynt ar y pryd.

Y mae LLAWENYDD drachefn â'i ddull priodol ganddo i'w ddadguddio ei hun. Y mae yn ddiammheu fod gweision y pendefig yn Capernaum yn llawen yr olwg arnynt, a llawenydd yn eu lleferydd hefyd, pan y mynegasant iddo, gan ddywedyd, "Y mae dy fachgen yn *fyw*;" *Ioan* iv. 51. Yn wahanol i hyn y mynegwyd wrth Iairus y geiriau canlynol:—"Bu *farw* dy ferch; na phoena mo'r Athraw;" *Luc* viii. 49. Tra chwithig fyddai darllen y ddau fynegiad uchod yn yr un dull o ran y llais. Gŵyr pawb mai gyda llawenydd y mynegodd yr angel ei genadwri wrth y bugeiliaid, gan ddywedyd, "Nac ofnwch: canys wele yr wyf fi yn mynegu i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl. Canys ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd," &c.; *Luc* ii. 10, 11. Y mae dull llusgedig a thuchanllyd wrth ddarllen y genadwri hon yn ddigon a chodi gwrid yn ngwynebpryd yr angel ei hun wrth ei glywed.

Y mae gan WROLDER eto ei lais a'i ddull ei hun. Clywch ef yn y geiriau canlynol:—"Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Am hyny, nid ofnwn pe symmudai y ddaiar, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr: Er rhuo a therfysgu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef;" *Salm* xlvi. 1—3. Neu araeth yr offeiriad wrth filwyr Israel, cyn cychwyn i'r frwydr yn erbyn eu gelynion:—*Deut.* xx. 3, 4; "Clyw Israel: yr ydych chwi yn nesäu heddyw i'r frwydr yn erbyn eich gelynion: na feddalhaed eich calon, nac ofnwch, na synwch, ac na ddychrynwch rhagddynt. Canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn myned gyda chwi i ryfela â'ch gelynion trosoch chwi, ac i'ch achub chwi." Onid yw synwyr cyffredin yn dyweyd y dylid darllen yr araeth fer hon mewn ysbryd *gwrol*. Gallesid chwanegu lluaws o anghreifftiau o'r fath hyn ar yr amrywiol dymmerau; canys y mae yr Ysgrythyrau sanctaidd yn cynnwys y cyfan yn eu holl amrywiaethau. Ond er mwyn rhoddi cyfleusdra chwanegol i'r darllenydd weled yr angenrheidrwydd iddo gyfaddasu ei oslef i ansawdd y mater a ddarlleno, nodir ychydig esamplau eto. Clywch ddyn balch *brolgar* yn llefaru:—*Esther* v. 11—13; "A Haman a adroddodd iddynt ogoniant ei gyfoeth, ac amldra ei feibion, a'r hyn oll y mawrhasai y brenin ef ynddynt, ac fel y dyrchafasai y brenin ef goruwch y tywysogion a gweision y brenin. A dywedodd Haman hefyd, Ni *wahoddodd* Esther y frenines NEB gyda'r brenin i'r *wledd* a wnaethai hi, OND MYFI; ac YFORY *hefyd* y'm gwahoddwyd ati hi gyda'r brenin! OND nid yw *hyn oll* yn *llesäu* i mi, tra fyddwyf fi yn gweled *Mordecai yr Iuddew* yn *eistedd* yn *mhorth y brenin*." Gan i'r creadur chwyddedig hwn gofio, yn nghanol ei frol, am ei elyn Mordecai, meddylir fod ei lais brolgar yn cyfnewid yn sydyn i agwedd hollol wahanol, pan ddywedodd, "OND nid yw *hyn oll* yn *llesäu*," &c. Safwn ar furiau Ierusalem gyda'r Iuddewon crynedig, a chlywn araeth fostfawr Rabsaceh, yn yr hon y mae balchder, rhyfyg, heriad, dirmyg, a chabledd, yn cael eu hamlygu i'w heithafion. "Gwyliwch rhag i *Hezeciah* eich HUDO chwi, gan ddywedyd, Yr *Arglwydd* a'n *gwared* ni. A waredodd un o dduwiau 'r *cenedloedd* ei wlad o law *brenin Assyria?* Mae duwiau *Hamath* ac *Arphad?* mae duwiau *Sepharfaim?* a waredasant hwy *Samaria* o'm llaw I? *Pwy* sydd yn mhlith *holl* dduwiau y gwledydd hyn a'r a waredasant eu gwlad o'm llaw I, fel y gwaredai yr ARGLWYDD *Ierusalem* o'm llaw?" *Esa.* xxxvi. 18—20.

Dyma anghraifft eto o YMDAERIAD; sef y ddwy butain yn taeru â'u gilydd am y plentyn byw ger bron y brenin Solomon. Y mae yma drachefn amrywiaeth lleisiau yn hanes yr amgylchiad hwn: 1 *Bren.* iii. 16—28.

Hyderir fod yr esamplau crybwylledig yn gwasanaethu yn ddigonol i ddangos yr angenrheidrwydd o amrywio y llais yn gyfaddas i ansawdd yr hyn a ddarllenir. Pe chwanegid lluaws eto o'r fath (canys y mae yn hawdd gwneuthur hyny o'r Ysgrythyrau, ac o weithiau y beirdd), swm y cwbl fyddai, DILYNWCH NATUR.

Digitized by Google

Am hyny, terfynir yn awr gyda dymuniad fod i'r gelfyddyd o ddysgu darllen yn dda gael sylw teilwng gan bob Cymro. A gobeithir y daw hyn yn gangen o ddysgeidiaeth bwysig, îe, yn mhob athrofa lle y parotoir gwŷr ieuainc i waith pwysig y weinidogaeth efengylaidd, fel y byddont yn *ddarllenwyr da*, yn gystal ag yn *bregethwyr da*.

DARNGUDDIO: chwiwladrata, chwilena, chwiwbigo. Dyma y trosedd yr oedd Ananias a Sapphira yn euog o hono: *Act.* v. 1, 2, 3. Ystyr y gair Groeg, *ενοσφισατο*, a gyfieithir *darnguddio*, ydyw, lladrata yn ddirgelaidd, neillduo rhan o unrhyw beth er mwyn ei feddiannu yn dwyllodrus. Felly y gwnaeth Ananias a'i wraig gyda'r meddiant a werthasant hwy: ni ddodasant wrth draed yr apostolion ond rhan o'r gwerth, a hyny yn enw yr holl werth; gan hyny, cyhuddir hwynt gan Pedr o "ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân." Gwel Ananias. Fe ddywed Paul yn ei lythyr at Titus, am weision, "Nid yn *darnguddio*, ond yn dangos pob ffyddlondeb da;" *Tit.* ii. 10. Nid yw y gwas i gymmeryd iddo ei hun yr hyn sydd yn eiddo i'w feistr; hyny yw, nid ydyw i *chwilena*—bai, fel y gŵyr pawb, y mae gweision, yn enwedig caethion, yn neillduol o agored iddo.

DARNIO: dryllio, tori yn ddarnau, chwilfriwio: "A Samuel a ddarniodd Agag ger bron yr Arglwydd yn Gilgal;" 1 *Sam.* xv. 33. Tybia Clarke mai trwy offerynoldeb ereill, fel barnwr, y gwnaeth Samuel hyn. Ond dywed Harmer, "Nid ydyw yn annhebygol nad Samuel ei hunan a gyflawnodd y weithred. Yr oedd defodau y dwyrain, gyda golwg ar hyn, yn wahanol i'r eiddom ni." Mewn ufudd-dod i orchymyn Duw y gwnaeth Samuel y weithred hon, wedi i Saul wrthod ei gwneyd, oddi ar ryw ystyriaethau o hunanfoddhad. Os oedd Saul yn pechu drwy arbed Agag, yn nghyd â'r defaid a'r ychain, yn groes i orchymyn Duw, yr ydym ninnau hefyd yn pechu yn ei erbyn, os ydym, yn ein hymdrech ysbrydol, yn arbed rhai o'n chwantau. Gelynion ydyw y rhai hyn y rhaid eu dinystrio yn llwyr a hollol; ac os na wnawn hyny, byddant hwy yn sicr o'n dinystrio ni yn y diwedd. Yn mha wedd bynag y gall y gelyn ymddangos, ein dyledswydd ydyw darnio pob Agag. Canfyddir y gair hefyd yn *Barn.* xix. 29: xx. 6; 1 *Bren.* xvii. 23; 2 *Cron.* xxviii. 24; a *Marc* v. 4.

DAROGAN. Gwel Dewiniaeth.

DAROSTYNGEDIG: cyfarfyddir â'r gair hwn amryw weithiau yn y Testament Newydd; sef yn *Rhuf.* viii. 7; 1 *Cor.* xiv. 32, 34; xvi. 16; *Eph.* v. 24; *Titus* ii. 5, 9; 1 *Pedr* ii. 18; iii. 5; *Heb.* xii. 9; ac yn yr anghreifftiau hyn oll, cyfieithiad ydyw o air Groeg yn arwyddo *trefnu danodd*, neu *ddwyn dan lywodraeth*, megys y ceir ef yn 2 *Cor.* ix. 13; *Gal.* ii. 5. Gwel Darostyngiad.

DAROSTYNGIAD: cyfansawdd o *dar-os-tyng-iad: dar*, yn arwyddocau *cyn* neu *ar fod; os* neu *gos*, yn arwyddo rhywbeth anghyflawn neu ranol, a phan yn flaenddodyn, fel yma, yn arwyddo iselhad neu waelder; *tyng* neu *twng* yn arwyddo ffawd, dygwyddiad, damwain, tynged, neu ran; "Nid *twng* ond a fyno Duw," ebe hen ddiareb Gymreig, gan olygu nad oes dim yn cymmeryd lle heb i Dduw ei fwriadu; *iad* yn derfyniad enwol: y gair yn ei grynswth yn golygu tynged wael, neu gyflwr isel. Nid ydym yn cyfarfod â'r gair hwn ond teirgwaith yn y Testament Newydd, sef yn 2 *Cor.* ix. 13; *Gal.* ii. 5; *Iago* i. 10: yn y ddau le blaenaf, y mae yn gyfieithiad o air Groeg, yn arwyddo trefnu danodd, neu ddwyn dan lywodraeth; ac yn yr olaf, cyfieithiad yw o air yn arwyddo isel, mewn gwrthgyferbyniad i uchel. Yn 2 *Cor.* ix. 13, dywedir, "Yn gogoneddu Duw o herwydd darostyngiad eich cyffes chwi i efengyl Crist;" sef o herwydd bod eich ymarweddiad, mewn geiriau a buchedd, wedi cael ei ddwyn dan lywodraeth efengyl Crist. *Gal.* ii. 5; "I ba rai nid ymroisom trwy ddarostyngiad, na ddo dros awr;" sef, er fod gau frodyr wedi dyfod i mewn i ysbïo ein rhyddid ni, fel y'n caethiwent at seremonïau, eto, ni roisom le iddynt i'n caethiwo; canys yn hytrach na darostwng ein hunain dan eu syniadau caeth hwy, ni chymhellasom ar Titus, ac efe yn Roegwr, i enwaedu arno. *Iago* i. 10; "A'r cyfoethog yn ei ddarostyngiad;" sef, nid yn ei fod wedi ei ddwyn dan lywodraeth rhywbeth allanol, ond llawenyched am ei fod dan deimlad priodol, yn iselfrydig, ac nid dan ddylanwad mympwyon a chŵydd cyfoeth.

DAROSTYNGIAD CRIST. Mae duwinyddion yn gyffredin yn edrych ar Grist yn y cyflawniad o'i swydd gyfryngol mewn *dwy sefyllfa*, sef o ddarostyngiad a dyrchafiad. Mae rhai nad ydynt yn gwneuthur y dosbarthiad hwn mewn cynnifer o eiriau, megys Bullinger a Calvin. Gadewir ef allan hefyd mewn lluaws o gredoau uniongred y Diwygiad. Llefara ereill, megys Pictet, yn anmhenderfynol am y ddwy sefyllfa (*status dupex*), gan ddyweyd mai natur ddynol Crist yn unig yw gwrthddrych y naill a'r llall, o herwydd nas gall y natur ddwyfol gyfnewid. Defnyddia ereill y geiriau *darostyngiad* a *dyrchafiad* fel dosbarthiad deublyg o hanes Iesu Grist ar y ddaiar. Yn fynych hefyd defnyddir y geiriau *gweithred* a *sefyllfa*, y naill am y llall, fel pan ddysgrifir y sefyllfa o ddarostyngiad trwy ddyweyd ei bod yn gynnwysedig mewn gweithredoedd penodol, megys yr ymgnawdoliad, &c. Gwahaniaeth Polanus ydyw, mai yr ymgnawdoliad ydoedd y weithred o ymddarostyngiad, ond mai i'r sefyllfa o ddarostyngiad y perthynai yr oll a ddyoddefai ar ol hyny. Dywed ereill, mai ei farwolaeth ydoedd yr ail radd yn ei ddarostyngiad. Bydd y crybwylliadau hanesyddol hyn yn foddion i ddeffro mwy o sylw at y modd y llefara yr Ysgrythyr ar hyn. Ceir yr athrawiaeth am ddarostyngiad a dyrchafiad Crist gyflawnaf, mewn ychydig eiriau, yn *Phil.* ii. 6—11; ac o ganlyniad, y maent wedi cael sylw neillduol mewn cyssylltiad â'r mater hwn. Y mae yr apostol yn annog i fod o'r un meddwl a Christ, yr hwn a'i darostyngodd ei hun. Crybwyllir am ddwy weithred o eiddo Crist, sef "efe a'i dibrisiodd ei hun," neu fel ar ymyl y ddalen, ac yn nes i'r gwreiddiol (*ἐκένωσε ἑαυτὸν*) "a'i gwaghaodd ei hun, ac "efe a'i darostyngodd ei hun" (*ἐταπείνωσεν*). Y mae y gwaghad (*κενοῦν*) yn gynnwysedig mewn cymmeryd arno "agwedd gwas;" y darostyngiad (*ταπεινοῦν*) mewn bod yn "ufudd hyd angeu, îe angeu y groes." Dywedir *pa bryd* y cymmerodd y darostyngiad hwn le, sef wedi ei gael "mewn dull fel dyn" (*σχήματι εὑρεθεὶς ὡς ανθρωπος*). Yr un modd, dywedir pa bryd y gwaghaodd ei hun trwy gymmeryd arno agwedd gwas, sef, "ac efe yn ffurf Duw (*ἐν μορφῇ Θεοῦ ὑπάρχων*). Tra

Digitized by Google

yr ydoedd Crist, fel Mab Duw, yn hanfodi yn "ffurf Duw," efe a'i gwaghaodd ei hun trwy gymmeryd "ffurf gwas." Y mae *dwy radd* yn cael eu priodoli i ymddarostyngiad Crist yma. 1. Pan yn ffurf Duw, y mae yn gwaghau ei hun trwy gymmeryd ffurf gwas. 2. Ac mewn canlyniad i hyn. wedi dyfod yn ddyn—"a'i gael mewn dull fel dyn;"—yn y ddynoliaeth, efe a ddaeth yn ufudd hyd angeu y groes. Dyfod yn ddyn oedd y cam cyntaf fel ag i allu dyoddef; marw trwy benderfyniad gwirfoddol oedd yr ail. Trwy y cyntaf, efe a ddaeth i *sefyllfa* ag yr oedd dyoddef a marw yn ddichonadwy iddo. Ei weithred fel tragwyddol Fab Duw, ac yn ffurf Duw, oedd dyfod i'r cyfryw sefyllfa. Bod yn ufudd hyd angeu oedd gweithred ei ewyllys ddynol mewn undeb â'i ewyllys ddwyfol, neu weithred y Duw-ddyn. Mwy priodol ydyw gwahaniaethu rhwng y ddau beth hyn yn ymddarostyngiad Mab Duw; nid fel dwy radd, ond fel dyfod i sefyllfa, a gweithredu yn y sefyllfa hono. Gellir casglu oddi wrth y geiriau dan sylw mai dau beth i'w gwahaniaethu oedd i Fab Duw ddyfod yn ddyn, ac i'r Duw-ddyn redeg gyrfa o ufudd-dod, a rhoddi ei hunan yn wirfoddol i farw ar y groes. Nid oedd gweithred y Mab yn dyfod yn ddyn yn gweithredu fel gorfodaeth ar ei ewyllys ddynol wedi iddo ddyfod. Ymddadblygai ei ddynoliaeth yn ei holl gynneddfau corfforol, deallol, a moesol, yn y modd mwyaf rhydd a gwirfoddol. Y mae yr efenylwyr yn cadarnhau trwy eu hanes yr hyn a ddysgir mewn modd athrawiaethol gan Paul. Ond cyn edrych dros hyn, dylid cyfeirio at y ddau ymadrodd pwysig yn y geiriau dan sylw, sef "ffurf Duw" a "ffurf gwas." Cyferbynir hwynt â'u gilydd, a dywedir i Grist waghau ei hun o'r naill, a chymmeryd y llall. Nid ymwaghaodd o'i Dduwdod; ni pheidiodd a bod mwy yn Dduw, ïe, ni pheidiodd a bod yn ogyfuwch â Duw. Nis gall y gair "ffurf," gan hyny, arwyddo y natur ddwyfol, fel y myn rhai; o herwydd ni waghaodd ei hun o'r natur ddwyfol, ond fe ymddiosgodd o "ffurf Duw," gan gymmeryd "ffurf gwas." Y mae y geiriau. "ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw," yn ein cynnorthwyo i egluro yr hyn sydd i'w ddeall wrth "ffurf." Y mae gwrthgyferbyniad amlwg rhwng "efe a'i gwaghaodd ei hun," a "ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw." Nid "gogyfuwch" ydyw y gair *ἴσα*, a gyfieithir felly yn Gymraeg, *ἴσος* fyddai hyny; ond ystyr *ἴσα* ydyw, *yn gyffelyb, yr un modd, megys* [*Bernhardi Gram. Groeg*, 128]. Yr ystyr, gan hyny, yw, "ni thybiodd yn drais fod yn gyffelyb i Dduw," i hanfodi, ac i amlygu ei hun fel Duw, mewn modd anfeidrol a thragwyddol, priodol i Dduw; er hyny, efe a ymwaghaodd o'r modd anfeidrol a thragwyddol o'i ddadguddio ei hun, ac a gymmerodd agwedd (ffurf) gwas; hyny yw, dull meidrol a therfynol o'i ddadguddio ei hun; ac nid hyny yn unig, pe felly "agwedd dyn" fuasai y gair; ond yn is na hyny, efe a gymmerodd y ddynoliaeth, dan effeithiau pechod, "yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus." Ac er iddo ymddiosg o agwedd gwas yn ei adgyfodiad, eto parhaodd mewn "dull fel dyn" ar ol hyny, ac fe barha felly byth. Fel Duw-ddyn yr hanfoda ac yr amlyga ei hun i dragwyddoldeb. Y mae amryw o brif dduwinyddion yr Almaen, megys Ebrard, Liebner, Hofmann, a Thomasius, yn dadleu fod Mab Duw, trwy ei ymgnawdoliad, wedi ymddiosg o'r ffurf ddwyfol o hanfodi, er na pheidiodd a bod yn Dduw; a bod y geiriau dan sylw yn cyfiawnhau y golygiad hwn. Ac er mwyn amddiffyn y golygiad yn mhellach, gwnant y gwahaniaeth, fod *sylwedd* personoliaeth i'w wahaniaethu oddi wrth yr *ymwybyddiaeth* o bersonoliaeth; hyny yw, y dichon i gyfnewidiad gymmeryd lle 'yn ymwybyddiaeth un, heb i gyfnewidiad gymmeryd lle yn sylwedd ei fod. A'r modd y cymhwysant hyn ydyw, trwy ddywedyd fod Mab Duw wedi ymwaghau o'r ymwybyddiaeth sydd yn briodol iddo fel Duw, heb fod un cyfnewidiad yn sylwedd ei wir a'i briodol Dduwdod.

Eithr er nad allwn ddirnad hyd a lled, uchder a dyfnder, y darostyngiad hwn, diau y dylem ymdrechu deall, hyd y mae ynom, yn mha beth yr oedd yn gynnwysedig. Ai darostyngiad ydoedd mewn cyferbyniad i'w ddyrchafiad dilynol? ynte darostyngiad mewn cyferbyniad i'r hyn a allai Crist fod ar y ddaiar, a'i ddyrchafiad dilynol? ynte darostyngiad mewn cyferbyniad i'w urddas blaenorol, yr hyn allasai fod ar y ddaiar, a'i ddyrchafiad dilynol? Y mae y tri golygiad yna yn bosibl ar y pwnc, ac y mae rhanau o'r Ysgrythyr i gadarnhau y naill a'r llall; ond tra nad yw yr adnod a brawf y cyntaf yn profi yr ail a'r trydydd, na'r adnodau a brofant y cyntaf a'r ail yn profi y trydydd, y mae yr adnodau sydd yn profi y trydydd yn profi y ddau flaenorol, gan ddangos hefyd nad ydynt hwy ond rhan o'r gwirionedd. Darostyngiad mewn cyferbyniad i'w ddyrchafiad dilynol a geir yn *Heb.* xii. 2: "Yr hwn yn lle [neu am] y llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes...ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw." Darostyngiad mewn cyferbyniad i'r hyn y gallasai y Gwaredwr fod ar y ddaiar, a'i ddyrchafiad dilynol, a geir yn *Heb.* iv. 14, a v. 7, 8; "fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw." "Yr hwn, yn nyddiau ei gnawd, gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddïau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth, a chael ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd; er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd." Ei ddarostyngiad yn wyneb y ddwy elfen a enwyd, a'i urddas blaenorol, a geir yn *Phil.* ii. 5—9. Gellir, pa fodd bynag, adael y golygiad blaenaf, gyda dywedyd, nas gwyddom fod neb yn ei ddal; o blegid nis gellir addef fod y Messïah hyd yn oed yn ddyn da, heb gydnabod fod ei fywyd yn gyflwr o ddarostyngiad, ac y gallasai efe fel dyn ei ysgoi; eithr y mae y ddau olygiad olaf yn meddu pleidwyr galluog a lluosog, a'r ddadl rhyngddynt yw, a oedd yr ymgnawdoliad yn ddarostyngiad o gyflwr blaenorol? Y Sociniaid—y rhai a wadant briodol Dduwdod yr Arglwydd Iesu—a wadant hefyd, o angenrheidrwydd, fod ei fywyd yn y cnawd yn ddarostyngiad o gyflwr dwyfol blaenorol. Eithr y mae dosbarth o dduwinyddion uniongred ar bwnc y priodol Dduwdod, yn gwadu fod yr ymgnawdoliad ei hun yn ddarostyngiad, ac felly mai ar ol gwisgo y natur y darostyngodd efe ei hun. "Nid yw yr ymgnawdoliad," medd Knapp, "byth yn cael ei grybwyll yn yr Ysgrythyr fel yn perthyn i'r cyflwr o ddarostyngiad;" a dywed fod Paul (*Phil.* ii. 5—9) yn arfer yr ymadroddion, "Efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas," ac "efe a'i darostyngodd ei hun," gan gyfeirio yn unig at gyfran, ac nid at yr oll, o oes y Gwaredwr yn y byd.

Y mae anghyfnewidioldeb natur ddwyfol Crist wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn gwirionedd ei ymddarostyngiad wrth ddyfod yn ddyn. Os

Digitized by Google

dywedir fod anghyfnewidioldeb y natur ddwyfol yn gwrthbrofi y syniad hwn, gellir gofyn, Beth a feddylir wrth anghyfnewidioldeb Duw? Os para yn dragwyddol yn yr un ystâd ddigyffro a diyni, yna y mae creadigaeth y byd, a myrdd o ffeithiau rhagluniaeth, yn profi nad yw Duw yn anghyfnewidiol felly. Megys nad oedd cyfnewidiad natur yn cymmeryd lle yn y ddynoliaeth wrth ymddarostwng o'r naill radd i'r llall, nes cyrhaedd o'r diwedd ddyfnder y bedd; felly, nid oedd cyfnewidiad natur yn cymmeryd lle yn y ddwyfol wrth ymddarostwng i undeb â'r ddynoliaeth: ac megys y dywedai Pilat am yr Iesu, pan ar hiniog y bedd, mai dieuog oedd o un bai, felly hefyd yr oedd purdeb y natur ddwyfol wedi ei gadw yn berffaith yn ei hundeb â chnawd. Yn ail, Fod yr ymostyngiad yn ymuniad y ddwy natur yn un gwirioneddol. Nid ffugymostyngiad oedd yr eiddo ef. Nid newyn, na syched, na thlodi ymddangosiadol oedd yr eiddo ef. Nid teimlo newyn fel yr hwn a feddai arian ddigon i'w ddiwallu, ond fel y tlawd diobaith. Nid yn dlawd yn yr un ystyr ag y mae cybydd sydd â'i logellau yn llawn aur ac arian; ond fel y gwir dlawd, sydd heb wybod i ba le y gwyneba am gymhorth. Nid i ni y perthyn egluro pa fodd y gallai efe deimlo ei hun yn dlawd, tra yr oedd holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo yn gorfforol; ond hyn a wyddom, "y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr, fel y byddai drugarog ac Archoffeiriad ffyddlawn;" a'i fod "wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau, eto heb bechod," fel y gallai "gyd-ddyoddef gyda'n gwendid ni," a "chynnorthwyo y rhai a demtir." Y mae gwerth ei esampl i ni yn dibynu yn hollol ar ei fod yn meddu yr un natur, a than gyffelyb amgylchiadau a ni, a bod temtasiwn yn meddu yr un dylanwad naturiol arno ef ag arnom ni. A welwch chwi y bachgenyn newynog yna sydd yn ysbïo ar y bara yn ffenestr y masnachdy, ac yn raddol raddol yn estyn ei law i ysbeilio? A welwch chwi y bachgenyn arall sydd yr un mor newynog, yn cilio draw, gan gadw ei law rhag eiddo ei gymmydog? Nid oes gan y blaenaf ddimai yn ei logell, na gobaith am damaid i dori ei newyn; tra y mae llogell yr olaf yn llawn o aur ac arian, ond ei fod yn penderfynu bod yn esampl i'r bachgen tlawd. Ai nid ffug fyddai y fath esampl? Nid yw colyn newyn yn cyffwrdd â'r bachgen goludog; nis gŵyr ef ddim am yr anobaith sydd yn mynwes y llall—y mae ei ewyllys a'i arian rhyngddo a hyny. Pa fodd ynte, y gall ef gydymdeimlo? canys nid yw y brofedigaeth erioed wedi cyffwrdd âg ef. Dau beth tra gwahanol yw bod yn dlawd o orfod, a bod yn dlawd o ddewisiad; o blegid tra y mae y blaenaf yn dyoddef poenau corfforol a meddyliol tlodi, nid yw yr olaf yn gwybod ond am yr anfanteision corfforol yn unig, y rhai nid ydynt ond dibwys o'u cyferbynu â'r boen feddyliol. Eithr nid ffug yw esampl ein Harchoffeiriad mawr ni: nid ffugio bod yn newynog yr oedd pan demtiwyd ef gan ddiafol, ac nid ffugio tlodi yr oedd pan ddywedai fod gan y llwynogod ffauau, a chan adar y nefoedd nythod, ond nad oedd ganddo ef le i roddi ei ben i lawr.

Y mae y natur ddwyfol a'r natur ddynol wedi eu huno yn mherson yr Arglwydd Iesu Grist yn y fath fodd fel mai un ymwybyddiaeth ydyw ymwybyddiaeth y Duw-ddyn. Er fod priodoliaethau y ddwy natur ynddo, eto nid yw yn ymwybodol o hono ei hun fel dau, ond fel un. Nid ydyw yn gweithredu fel dau, ond fel un, er fod ganddo ddwy ewyllys. O fewn cylch ei ymwybyddiaeth personol y mae y dwyfol a'r dynol yn eu purdeb mwyaf, heb fod y dwyfol yn troi yn ddynol, na'r dynol yn ddwyfol; ac eto y mae unoliaeth ei berson yn cynnwys yr oll. Nid teimlad ac ymwybyddiaeth ddynol yn unig o'r natur ddwyfol, nac ymwybyddiaeth ddwyfol yn unig o'r natur ddynol, ond ymwybyddiaeth briodol i'r Duw-ddyn o'r ddwy. Y mae ei fod yn un person yn cynnwys hyn. Ond pa fodd y gallasai yr Anfeidrol a'r meidrol ddyfod o fewn cylch yr un ymwybyddiaeth ac ewyllysiad personol, heb i'r dynol ymgolli yn y dwyfol? Nid ydoedd yn bosibl, heb i'r natur ddynol gael ei dyrchafu uwch law iddi ei hun, neu i'r natur ddwyfol yn mherson y Mab ymwaghau o ogoniant priodol iddo fel Duw. Er defnyddio y geiriau cryfaf wrth lefaru am yr ymgnawdoliad, i osod allan ymddarostyngiad Mab Duw, eto y mae tuedd mewn ysgrifenwyr uniawngred i anghofio yr hyn sydd yn gynnwysedig mewn gwir ddynoliaeth, a thrwy hyny i leihau ei ymddarostyngiad fel Duw, a'i ufudd-dod fel dyn. Y mae yn bosibl priodoli perffeithiau dwyfol, megys hollwybodaeth a hollalluogrwydd, iddo fel dyn, ag sydd yn anghysson â dynoliaeth. Felly y gwna y Lutheriaid, wrth amddiffyn eu hathrawiaeth o *gydsylweddiad*. Y mae yn bosibl gwneuthur yr un peth heb fyned mor bell a hwy. Fe ddichon y teimlai rhai betrusder i addef mai yn raddol y daeth Iesu Grist i ddeall pwy ydoedd ef ei hun, o ran mawredd ei berson, ei berthynas â'r Tad ac â'r Ysbryd, a natur y swydd gyfryngol yr ydoedd wedi dyfod i'w gweinyddu. Ond y mae hyn yn gynnwysedig mewn dyweyd ei fod yn ddyn; os na ddywedir hefyd ei fod wedi ymddyrchafu uwch law deddfau cynnydd ac ymddadblygiad dynol; ond nis gellir dywedyd hyn heb wrth hyny leihau ei ddarostyngiad. Nis gallwn edrych arno wedi ei wneuthur yn mhob peth yr un ffunud a ni heb ei fod yn ennill ei wybodaeth yn raddol fel ni; eto, y mae yn wir, yn ol graddau natur ddilwgr. Yr oedd felly am ei *berson ei hun*—yn ol graddau cynnydd ei wybodaeth o'r Hen Destament y daeth i ganfod yn fwy fwy eglur (1af.) ei fod yn ei berthynas â'r ddeddf, yn ddibechod, am fod ei hyfrydwch yn berffaith ynddi; (2il,) ac yn ei berthynas â'r prophwydoliaethau, y byddai i Dduw ei hun ddyfod yn ddyn; ac yn (3ydd,) trwy y teimlad o'i burdeb personol, mewn gwrthgyferbyniad i lygredigaeth y byd, ymddadlenodd yn raddol o flaen ei feddwl ei berthynas â'r Tad. Effeithiai amgylchiadau gwyrthiol ei enedigaeth i gadarnhau hyn. Yn y modd yma, gallwn ddirnad pa fodd y daeth yr Iesu i ddeall mai efe oedd Mab Duw yn y cnawd, a hyny yn unol â chynnydd ei ddynoliaeth. Y mae yr ychydig awgrymiadau a geir am ei fywyd anghyhoedd yn tueddu i gadarnhau hyn. (1.) Cymmeriad Ioseph a Mair, yr hyn a'u harweiniai i'w ddwyn i fyny yn ofn Duw, ac i'w addysgu yn yr Ysgrythyrau. Dywedir am dano ei fod "yn cryfhau yn yr ysbryd, ac yn gyflawn o ddoethineb;" *Luc.* ii. 40. (2.) Y mae yr un casgliad yn deilliaw oddi wrth yr hanes a geir am dano yn ddeuddeg oed yn yr ŵyl. Gellir meddwl oddi wrth y geiriau "dy dad a minnau yn ofidus a'th geisiasom," nad oedd ei enedigaeth wyrthiol ddim eto yn hysbys iddo. Defnyddir y gair a ddywedodd mewn atebiad i hyn, "Oni wyddoch fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'm Tad," fel yn dangos fod

Digitized by Google

ei wybodaeth yn gyflawn am natur ei berthynas â'i Dad: ond nid yw yn ymddangos ei fod ef yn galw Duw yn Dad mewn gwrthgyferbyniad i Ioseph, neu i ddangos anghyssondeb yn ngeiriau Mair; ond dadganai yn y geiriau hyn ei deimlad, nad oedd dim yn uwch, na dim yn well nag iddo aros yn nhŷ ei Dad nefol. Buasai yn naturiol, o'i gariad at Dduw a'i gymdeithas âg ef pan yn bleutyn, yn ei alw yn Dad. Ac yn enwedig, gan ei fod yn berffaith rydd oddi wrth bob ysbryd gwasaidd, ac yn cael ei brif hapusrwydd mewn ymddigrifiad yn Nuw. Fel hyn, ennillai yr Iesu, trwy ei gariad at Dduw a'i sancteiddrwydd, y teimlad o faboliaeth mewn ystyr moesol a chrefyddol yn gyntaf oll, fel ei frodyr; a thrwy ei wybodaeth gynnyddol o'r Hen Destament, yr ymagorodd o flaen ei feddwl natur y gwaith oedd o'i flaen fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion. Nis gwyddom pa beth oedd testynau yr ymddiddan yn y deml, ddim pellach na'u bod y pethau a berthynont i deyrnas ei Dad: gallasent fod y prophwydoliaethau am y Messïah; ond os felly, ni allasai eu cymmhwyso ato ei hun; neu, ni buasai y doctoriaid yn synu at ei ddeall ef. (3.) Pan yn ddeuddeg oed, y mae wedi dyfod i deimlo fod Duw yn Dad iddo, a bod y pethau a berthynant i deyrnas ei Dad yn bethau ei fywyd; ond nid oes un awgrymiad ei fod etto yn deall ei fod yn uniganedig Fab Duw, ac yn Ail Berson yn y Drindod, na chwaith ei fod yn ymwybodol o'i swydd fel Gwaredwr. Y cyfan a wyddom am dano ar ol bod yn y deml yn ddeuddeg oed, a dechreuad y ddegfed flwyddyn ar hugain (*Luc* iii. 23), ydyw, ei fod yn dilyn galwedigaeth *fydol*, yn byw gyda Ioseph, ac yn adnabyddus fel mab y saer: *Marc* vi. 3. Yn niwedd y tymmor hwn o ddystawrwydd am ei hanes, y mae yn ymddangos fel y Messïah, ac fel sylfaenwr teyrnas Dduw: *Mat.* iv. &c. Pan ddaeth at Ioan i'w fedyddio, cyn clywed y llais o'r nef, rhaid fod natur ei swydd a'i waith wedi ymagor o flaen ei feddwl; heb hyn, ni allasai ddefnyddio y geiriau "y mae yn weddus i ni gyflawnu pob cyfiawnder." Nid oedd bedydd Ioan yn orchymynedig yn y gyfraith: ond cyfaddefiad gwirfoddol ydyw o bechadurusrwydd, a'r angen am faddeuant; ond ni allasai yr Iesu ymofyn am fedydd yn yr ystyr yna. Y mae yn rhaid, gan hyny, ei fod yn cymmeryd ei fedyddio fel arwydd ei fod wedi ymgymmeryd âg achos rhai ereill oedd yn haeddu marw, ac nad oedd gobaith iddynt ond trwy ei farwolaeth yn eu lle. Ond yr oedd ymwybyddiaeth o natur ei swydd yn cynnwys hefyd ymwybyddiaeth o'i berthynas â Duw fel ei Dad, mewn ystyr uwch nag ystyr moesol a chrefyddol. Ac er nad oes genym ddim o hanes yr Iesu bendigedig rhwng ei ddeuddegfed a'i ddegfed flwydd ar hugain, etto, nis gallwn ammheu nad cyfwng pwysig yn ei oes oedd y deunaw mlynedd hyny, a'i fod yn parhau i gynnyddu mewn doethineb. A pha ddoethineb mor uchel a gwybodaeth am dano ei hun yn ei berson a'i waith? Er fod yr Ysgrythyr yn ddystaw ar hyn, etto nid yw yn anghysson â'r Ysgrythyr mewn manau ereill, nac â'r hyn a hysbysir i ni am ddynoliaeth y Ceidwad, i feddwl ei fod wedi cynnyddu yn naturiol i gyflawn oedran:—y mae yr Ysgrythyr yn bendant ar hyn (*Luc* ii. 52). I'r graddau yr oedd sancteiddrwydd ei natur yn ymddadblygu gyda chynnydd ei gynneddfau, teimlai ei fod ef yn un didoledig oddi wrth bechaduriaid; i'r un graddau y teimlai ei gariad yn ymgynhyrfu i waredu pechaduriaid. Yn ngoleuni yr egwyddorion hyn, oedd yn ymweithio o'i fewn, y deallai gysgodau a phrophwydoliaethau yr Hen Destament. Teimlai mai yr un ysbryd oedd yn ei lywodraethu ef ei hun ag oedd yn rhedeg trwy y dadguddiad dwyfol oedd yn ei ragfynegu. Nis gall neb ddywedyd na allasai y prophwydoliaethau am amser a lle ei enedigaeth—deng wythnos a thrigain Daniel, a Bethlehem Micah—fod yn foddion i chwanegu eglurder syniadau Iesu o Nazareth am dano ei hun fel y Messïah addawedig. Wedi i holl gyfrifoldeb a chynnwysiad ei swydd fel Cyfryngwr ymagor o flaen ei feddwl, ni allasai lai, hyd yn oed yn ngoleuni yr Hen Destament, na deall mai Mab Duw wedi dyfod yn ddyn ydoedd:—seliai amgylchiadau ei enedigaeth yr hyn a ymweithiai ynddo ei hun trwy ei deimladau personol a thystiolaeth yr Hen Destament. Fe ddealla y darllenydd mai nid dyweyd yr ydym mai yn ystod ei yrfa yn y byd yr ennillodd Iesu Grist y mawredd a berthynai iddo; ond mai yn raddol yr ennillodd yr *ymwybyddiaeth* cyflawn o'i fawredd. Yr oedd ei ddarostyngiad mor wirioneddol wrth ddyfod yn ddyn, fel mai nid dyrchafu y ddynoliaeth uwch law'iddi ei hun a wnaeth, er mwyn ffurfio undeb personol â hi; ond dibrisio ei hun, a'i gael mewn dull fel dyn yn mhob peth hanfodol i ddynoliaeth. Ac yn yr olwg yma y deuwn i ryfeddu dirgelwch ei ymgnawdoliaeth a dyfnder ei ymddarostyngiad. Ac y mae eisieu cofio yn barhaus mai nid olrhain gyrfa dyn yr ydym, ond gyrfa a chynnydd Duw-ddyn.

Wrth ei olrhain yn mhellach trwy ei fywyd cyhoeddus, ni a welwn, nid yn unig ei fod wedi dyfod i sefyllfa o ymddarostyngiad trwy ddyfod yn ddyn, ond mai bywyd o ymddarostyngiad gweithredol yn y sefyllfa hono oedd ei fywyd. Nid yn unig fel tragwyddol Fab Duw y dibrisiodd efe ei hun trwy ddyfod yn ddyn, ond fel Duw-ddyn: bywyd oufudd-dod i'w Dad a arweiniodd yn y byd. Yn ei fedydd, efe a ymgymmerodd yn wirfoddol â gorchwyl ei fywyd, yn yr olwg glir ar y cwbl oedd yn gynnwysedig yn hyn. Mewn canlyniad i'r ymgyflwyniad personol hwn i wneuthur y gwaith a roddwyd iddo gan ei Dad, derbyniodd gyhoeddiad ei Dad o'r nefoedd, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Daeth yr Ysbryd arno megys colomen; eneiniwyd ef mewn modd neillduol i'r cyflawniad o'i swyddau cyfryngol. Er ei fod ef yn Fab Duw, etto, wedi ei wneuthur yn gnawd, yr oedd efe yn sefyll mewn angen am yr Ysbryd Glân i'w gymhwyso i, ac i'w nerthu i fyned trwy ei waith. Gweithred wirfoddol ei ewyllys ef, yn ngwyneb pob temtasiwn a phob ymosodiad, oedd rhoi ufudd-dod i orchymyn ei Dad. Yn ei demtiad yn yr anialwch, yr oedd dwy ffordd yn cael eu hagor o'i flaen, y gwir a'r gau; a'r ymofyniad oedd, pa un a ellid ei ennill drwy addewidion o awdurdod ac esmwythyd a gogoniant daiarol i ddewis y gau, ac i ymgeisio at Fessïaeth, y fath ag a chwennychai calonau anianol yr Iuddewon, ac i wrthod y gwir, yr hyn oedd yn gynnwysedig mewn cyhoeddi edifeirwch a maddeuant pechodau, ac yn y diwedd a'i harweiniai i angeu, ïe, angeu melldigedig y groes. Yn yr amgylchiadau hyn, penderfyniad gwirfoddol yr Arglwydd oedd i gyflawnu gwaith y prynedigaeth trwy ei aberthu ei hun. A rhoddi y penderfyniad hwn mewn grym yr oedd trwy ei holl ufudd-dod a'i ddioddefiadau dilynol. Dechreuodd ail gyfnod ei fywyd cyhoeddus gyda marw-

Digitized by Google

olaeth Ioan Fedyddiwr; ac ynddo fe gyfarfydd-odd â gwrthwynebiad mawr, er iddo gyflawnu y gwyrthiau mwyaf rhyfeddol: gwnaeth ymdrech mawr hefyd, yn ystod y cyfnod hwn o'i weinidogaeth, i lwyddo i ennill y bobl i edifarhau, a derbyn teyrnas Dduw. Eto, ychydig oedd ei lwyddiant; ac yna, ar ei ddychweliad i Cesarea Philippi, efe a ragfynegodd am y waith gyntaf i'w ddysgyblion fod yn rhaid iddo fyned i Ierusalem, a dyoddef llawer, a'i ladd: *Mat.* xvi. 21. Yr oedd hon yn ail demtasiwn arbenig iddo, ac y mae Pedr yn ei gwasgu arno; ond y mae penderfyniad yr Arglwydd yn parhau yn ddisigl: *Mat.* xvi. 23. Yna, y mae ei weddnewidiad yn dilyn (*Mat.* xvii) yn niwedd yr ail gyfnod, ac y mae yn clywed yr ail waith lef o'r nef yn dywedyd, "Hwn yw fy anwyl Fab." Trydydd cyfnod ei weinidogaeth gyhoeddus, o'i weddnewidiad hyd ei ddyoddefiadau olaf, a hynodir gan y sicrwydd cynnyddol, a'r manylwch gyda pha un y rhagfynegai ei ddyoddefiadau: *Mat.* xvii. 22; xx. 18: ac hefyd, ei adgyfodiad. Ar ol adgyfodiad Lazarus, ymneillduai i fesur mawr, ac nid ymgeisiai trwy ryfeddodau nerthol i effeithio ar y bobl; ond yn benaf dim, ei ymdrech oedd i gadarnhau ei ddysgyblion. Wedi i'r awr ddyfod, aeth yn gyhoeddus i Ierusalem, i'r deml, a chyflwynodd ei hun i elyniaeth marwol ei elynion. Clywir y drydedd waith lef ei Dad, a'r tro hwn yn y deml ei hun: *Ioan* xii. 28. Yna y dechreuodd ei ddyoddefiadau olaf. Gwelir, gan hyny, mai gyda y priodoldeb mwyaf y lleferir am sefyllfa yr Arglwydd Iesu Grist ar y ddaiar yn sefyllfa o ddarostyngiad; a hyny, yn gyntaf, am mai ymddarostyngiad anfeidrol ynddo ydoedd, fel tragwyddol Fab Duw, ddyfod yn ddyn, a chael ei wneuthur dan y ddeddf, a thrwy hyny ei wneuthur yn bechod, ac yn felldith, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf; ac yn ail, am ei fod fel Duw-ddyn ar y ddaiar yn ymostwng yn barhaus i ewyllys ei Dad, gan roddi amlygiadau adnewyddol, yn ngwyneb y temtasiynau cryfaf ynddynt eu hunain, i fod yn ufudd hyd angeu, ie, angeu y groes.

Er ei fod mewn sefyllfa o ddarostyngiad nes y "cyfodwyd ef o feirw," ac y "rhoddwyd iddo ogoniant," eto, heb wadu hyny, y mae rhai, megys Martensen, wedi dewis gwahaniaethu rhwng ei ddarostyngiad a'i ddyrchafiad o fewn cylch ei fywyd daiarol, cyn ei adgyfodiad. I'r cyntaf y priodolant bob amlygiad o ufudd-dod a dyoddefaint, ac i'r olaf bob amlygiad a roddai o'i allu a'i ogoniant dwyfol, megys ar fynydd y gweddnewidiad. Mae dwy gyfres o ffeithiau yn rhedeg trwy ei hanes. Galwai ei hun yn "Fab y dyn;" dywedai ereill am dano, "Onid hwn yw'r saer, mab Mair, brawd Iago a Ioses, a Iudas a Simon, ac onid yw ei chwiorydd yn ein plith ni? A hwy a rwystrwyd o'i blegid ef;" *Marc* vi. 3. "Temtiwyd ef yn mhob peth yr un ffunud a ninnau." "Gogwyddodd ei ben, a rhoddodd i fyny yr ysbryd." Yr ochr arall, cyhoeddwyd cymmeradwyaeth iddo o'r nef, addolwyd ef gan angelion, cyflawnai wyrthiau, a chyfodai y meirw. Yr oedd ei ogoniant yn cael ei guddio a'i ddadguddio. Y mae y preseb a'r groes yn ei hanes; ond mae "lluaws o lu nefol," a mynydd y gweddnewidiad hefyd. Eto, sefyllfa o ddarostyngiad oedd ei sefyllfa ar y ddaiar; ac y mae hyd yn oed yr amlygiadau o ogoniant a ddiangai oddi wrtho yn fanteisiol i'n cynnorthwyo i edrych i mewn i ddyfnder y darostyngiad hwnw. Ond er yr amrywiaeth hwn, un sefyllfa o ddarostyngiad oedd sefyllfa Mab Duw ar y ddaiar.

Y mae natur yr ymddarostyngiad a gymmerodd le yn ymgnawdoliad Mab Duw wedi tynu sylw duwinyddion yn mhob oes, ond nid un amser gymmaint ag yn y dyddiau presennol. Mae ymchwiliadau duwinyddol yr Almaen y deng mlynedd diweddaf wedi troi yn benaf o gwmpas y dirgelwch mawr hwn. Er y pery yn ddirgelwch byth i ddeall dyn. eto y mae ei fod felly yn ei dynu yn mlaen i syllu yn fwy fwy arno, ac i ffurfio ei syniad am dano. Cwestiwn pwysig rhwng canlynwyr Luther a Chalvin, o amser y Diwygiad hyd yn bresennol, yw yr un canlynol; sef, a ydyw y gwahaniaeth rhwng dwy sefyllfa Crist yn wahaniaeth sydd yn dwyn perthynas a'i berson, ynte â'i natur ddynol yn unig? Etyb y Lutheriaid yn benderfynol yr olaf; ond y Calviniaid y blaenaf. Dywedant hwy fod "sefyllfa yn perthyn i berson, ac nid i natur."—*Status non est naturæ sed personæ.* Dywed Ebrard, fod yr ateb priodol i'r ymofyniad yn ymddibynu ar wahaniaethu rhwng sefyllfa (*status*) o ddarostyngiad a gweithred (*actus*) o ddarostyngiad, a rhwng sefyllfa a gweithred o ddyrchafiad. Os gofynir, a yw y gwahaniaeth yn wahaniaeth yn ei natur ddynol yn unig, ai ynte yn ei berson dwyfol?—yr ateb ydyw, fod gwahaniaeth yn ei natur ddynol yn y ddwy sefyllfa hyn. Yn y sefyllfa o ddarostyngiad, yr oedd ei ddynoliaeth dan effeithiau pechod; ond yn ei ddyrchafiad, y mae ei ddynoliaeth wedi ei rhyddhau oddi wrth ganlyniadau pechod. Mor bell a hyn y mae ateb y Lutheriaid yn iawn. Ond nid hyn yw yr holl wir. Y mae yn rhaid cofio hefyd fod person dwyfol Mab Duw yn sefyll yn yr un berthynas â'i ddynoliaeth yn y ddwy sefyllfa hyn. Ac er fod gwahaniaeth yn ei ddynoliaeth, eto, nid gwahaniaeth yn hanfod ei ddynoliaeth ydyw. Ac hefyd, gan nad yw y ddynoliaeth yn meddu hanfodiad annibynol yn mherson Crist; nid ei ddynoliaeth fel *rhan* o hono a ddyrchafwyd, ond efe ei hun—ei berson. Felly, yr ateb ydyw, mai gwrthddrych y ddwy sefyllfa ydyw person Crist yn ei natur ddynol, wedi ei chodi i undeb â'i berson: *subjectum status alteratrius est persona Christi quoad naturam humanam, a persona assumtam.* Neu, fel y dywedwyd—i berson y perthyn sefyllfa, ac nid i natur. Gofyniad gwahanol ydyw, ai i'r natur ddynol y perthynai y *weithred* o ymddarostyngiad, a'r *weithred* o ddyrchafiad? I hyn yr atebai y duwinyddion Lutheraidd a Chalvinaidd yn hollol wahanol. Ateb yr olaf ydyw, mai y *person dwyfol* a ymddarostyngodd, ac mai gwrthddrych yr ymddarostyngiad ydyw y *natur ddwyfol.* "Darostyngodd Crist ei hun yn ol ei natur ddwyfol, yn gyntaf, trwy ddarostyngiad gwirfoddol ei berson (*voluntaria personæ subjectione*), i ddyfod yn Gyfryngwr yn ol ewyllys ei Dad, ac i gyflawni y swydd gyfryngol yn ei holl ranau. Yn ail, trwy guddio dan len, am dymmor, ei ogoniant a'i fawredd dwyfol, fel y gallai ddyoddef a marw yn y cnawd (*gloriæ et majestatis suæ divinæ ad tempus occultatione—Wendelin*). Er y dywed yr ysgrifenwyr hyn weithiau mai y natur ddynol yw gwrthddrych darostyngiad Crist, eto, yn gyffredin, yr athrawiaeth a ddysgant ydyw, nid fod y natur ddynol wedi ei darostwng trwy yr ymgnawdoliad, yn hytrach trwy bechod y darostyngwyd hi, ac mai dyrchafiad annhraethol iddi ydoedd i Fab Duw ei chymmeryd i undeb â'i berson ei hun. "Gyda golwg ar y natur ddwyfol, nid oedd dim lleihad yn y darostyngiad, na chwanegiad yn y dyrchafiad; eto, y mae ymwaghad yn cael ei briodoli i Grist, am fod ei ogoniant

Digitized by Google

wedi ei guddio dan len, a dyrchafiad am fod y gogoniant hwnw yn cael ei amlygu drachefn"—[*Turretin*]. "Dyrchafwyd Crist yn ol ei natur ddwyfol—nid trwy ei fod wedi ennill mawredd nac urddas newydd—ond trwy amlygiad o'r gogoniant a berthynai iddo er tragwyddoldeb, ond a guddiwyd am dymmor yn y cnawd. Dyrchafwyd Crist yn ol ei natur ddynol—1. Trwy ei fod wedi ei ryddhau oddi wrth wendidau y ddynoliaeth. 2. Trwy dderbyn pob dawn angenrheidiol i berffeithiad a hapusrwydd uchaf y ddynoliaeth" [*Wendelin*]. Bod y golygiadau hyn o ran eu sylwedd yn gywir, nis gall fod ammheuaeth. A bod golygiadau y Lutheriaid yn anghywir, nid oes angen treulio amser i ddangos. Eu sylwedd ydynt fel y canlyn:—Y mae y natur ddwyfol wedi ymuno â dynoliaeth yn ymgnawdoliad Mab Duw; a thrwy yr ymgnawdoliad, y mae dynoliaeth Crist yn cyfranogi o briodoliaethau dwyfol; ond y mae y natur ddynol yn Nghrist, trwy weithred o'i heiddo ei hun, a'i heiddo ei hun yn unig, wedi ymwrthod am dymmor â mwynhad cyflawn (*usus plenarius*) o'r priodoliaethau dwyfol; ond yn ei ddyrchafiad, cafodd y ddynoliaeth y cyflawn fwynhad hwn. Gwelir fod y syniadau hyn yn seiliedig ar y dybiaeth fod y ddynoliaeth yn meddu hanfodiad annibynol yn mherson Crist.

Ni a roddwn olwg, yn nesaf, ar y syniadau sydd yn ffynu yn mhlith ysgrifenwyr yr Almaen yn bresennol ar berthynas y ddwy natur yn mherson Crist; ac o ganlyniad, am natur ei ymddarostyngiad pan y daeth yn ddyn. Yn ol Dorner, awdwr y gwaith mawr ar *Berson Crist*, tuedd yr hen ysgrifenwyr oedd dangos fod y ddwy natur wedi eu huno mewn un person, a hwnw yn berson dwyfol, trwy ddyrchafu y ddynol, fel ag i'w gwneuthur yn ddichonadwy ei huno â natur anfeidrol; ond tuedd ysgrifenwyr presennol, yn y ddwy gangen fawr o'r eglwys efengylaidd ar y Cyfandir, ydyw dywedyd fod yr undeb wedi ei ddwyn oddi amgylch, nid trwy ddyrchafu y natur ddynol, ond trwy ymddarostyngiad gwirioneddol y Gair Tragwyddol. Dull dewisol yr hen ysgrifenwyr oedd dywedyd mai cymmeryd y natur ddynol i undeb â'i berson dwyfol a wnaeth Mab Duw; ond geiriad dewisol ysgrifenwyr presennol ydyw, dywedyd fod Mab Duw wedi dyfod yn ddyn. Y mae y ddau yn unol â'r Ysgrythyr, er y gall y ddau arwain y meddwl yn fwy naturiol at ddyrchafiad y ddynoliaeth, a'r llall at ymddarostyngiad y person dwyfol. Y mae yn amlwg fod perygl i'r ddwy ochr fyned i eithafion. Perygl y cyntaf ydyw dwyfoli y ddynoliaeth, er mwyn esbonio dirgelwch yr undeb rhwng y ddwy; a pherygl yr olaf ydyw gwneuthur Duw yn greadur, i'r un dyben. Y mae yr hen Lutheriaid wedi syrthio i'r cyfeiliornad cyntaf, trwy ddyweyd fod dynoliaeth Crist wedi ei gwneuthur yn gyfranog o briodoliaethau dwyfol; ac y mae Dorner yn dwyn cyhuddiad yn erbyn rhai o ysgrifenwyr enwocaf yr Almaen, eu bod yn gogwyddo i'r perygl arall, a bod rhai o honynt wedi syrthio iddo. Y mae eu syniadau, eb efe, yn anghysson âg anghyfnewidioldeb y natur ddwyfol. Y mae yn wir fod rhai wedi dadleu fod yr ymgnawdoliad o gwbl yn anghysson âg anghyfnewidioldeb Duw, a than gysgod yr wrthddadl hon, wedi alltudio o'u credo erthygl hanfodol i Gristionogaeth ei hun. Ond nid un felly ydyw Dorner. Y mae efe yn cael ei gydnabod fel hanesydd mwyaf dysgedig yr athrawiaeth am berson Crist a ysgrifenodd erioed, ac fel un o amddiffynwyr galluocaf y gwirionedd hwn. Ond er nad ydyw yr ymgnawdoliad ynddo ei hun yn anghysson âg anghyfnewidioldeb Duw, eto y mae yn bosibl esbonio yr ymgnawdoliad yn y fath fodd ag y peidiai a bod yn ymgnawdoliad ac yn ymddarostyngiad ar un llaw, ac ar y llaw arall, fel ag i fod yn anghysson âg anghyfnewidioldeb Duw. Y mae y rhai yr ysgrifena Dorner yn eu herbyn mor eiddigeddus dros syniadau cywir am anghyfnewidioldeb Duw ag ydyw yntau ei hun, ac yn cael eu hystyried mor uniongred yn gyffredin. Felly y mae y ddwy blaid ar y mater hwn mor awyddus a'u gilydd i ddal y naill wirionedd mewn ystyr cysson â'r llall. Yn Mhrydain, yn mhlith y Seison, yr Ysgotiaid, a'r Cymry, yr ydym yn foddlawn i gredu y ddau wirionedd, heb ymdrechu am syniadau clir a sefydlog arnynt; ac o ganlyniad, heb deimlo yr angen i lafurio am syniadau *cysson â'u gilydd* ar y gwirioneddau hyn, ac ereill hefyd. Yr ydym ni yn meddwl mai digon o barch i'r gwirionedd ydyw ei gredu heb geisio ei ddeall, tra nad oes dim yn cyffroi mwy o ymchwiliad yn mhlith yr Ellmyn na chwestiynau o natur yr un dan sylw. Odid fawr y daw allan mewn deng mlynedd erthygl, chwaithach cyfrol, o ddim maintioli, yn amlygu dim treiddgarwch ar bwnc duwinyddol yn y deyrnas hon; ond nid oes flwyddyn heb i'r wasg Ellmynaeg fwrw allan ei chyfrolau a'i herthyglau wrth y degau ar y cwestiynau dyfnaf. Yr hyn a'n harweiniodd i'r sylwadau hyn ydyw, teimlad y dichon fod cymmaint o barch i'r gwirionedd yn y bywiogrwydd diorphwys a amlygir ar y Cyfandir, er iddo arwain weithiau i syniadau nas gallwn eu cymmeradwyo, ag sydd yn yr iawngrededd farw ag sydd yn ffynu yn y wlad hon.

Dyma ychydig frawddegau o ddarlithiau Sartorius ar berson a gwaith Crist:—"Nid yw ymgnawdoliad Mab Duw, yn Iesu Grist, yn seiliedig o angenrheidrwydd yn ei hanfod ddwyfol; ond gweithred rydd ydyw o ras ac ymostyngiad dwyfol. Pe buasai y cyntaf yn wir, buasai ei Dduwdod, yn ymddibynu ar ammodau meidrol, terfynol, ac amserol, sef ar natur a ffurf dynol. Ac ni buasai hyn yn amgen na gwadiad o'i wir Dduwdod, yn anfeidroldeb, annibyniaeth, ac ysbrydolrwydd ei natur. Buasai mawredd a pherffeithrwydd Duw wedi ei gyfnewid i anmherffeithrwydd a bychandra dyn. Mae yr hyn a fuasai yn annheilwng o Dduw yn anfeidrol deilwng o hono, pan ystyrir ef yn weithred o ymddarostyngiad grasol. Y mae hyn yn wir am ddynion. Buasai ymddigrifo mewn chwareuon a theganau plentyn, pe hyny a fuasai ei duedd naturiol, yn hollol annheilwng o ddyn mewn cyflawn oed. Ond pan y bydd y tad neu y fam yn ymostwng, o gariad at eu plant ac er mwyn eu difyrwch, i siarad yn debyg iddynt, teimlir fod hyn yn dra theilwng o honynt. Nis gellid yn hawdd dysgu plant ond fel hyn. 'Os mynwch ddysgu plant' ebe Luther, 'rhaid i chwi fod yn blentyn gyda hwynt. Felly, gan y mynai Crist dynu dynion ato ei hun, yr oedd yn rhaid iddo ddyfod yn ddyn.' Y mae yn wir fod y pellder rhwng Duw a dynion yn anfeidrol fwy na rhwng dynion a phlant, a'r ymostyngiad dwyfol yn anfeidrol fwy na dim ymostyngiad sydd o fewn gallu dyn. Ond yn hyn yr amlygir mawredd cariad Duw, yr hwn, gan na allasai garu neb sydd uwch nag ef, a ymostyngodd at ddyn: *Salm* cxiii. 5. Y mae pob dadguddiad o eiddo Duw i ddyn yn ymostyngiad; ac yn ymgnawdoliad a dyoddefiadau Mab Duw y mae yr ymostyngiad hwn wedi cyrhaedd y dyfnder isaf. Trwy yr holl

Digitized by Google

Feibl, y mae y Duw mawr yn llefaru wrth ddynion mewn dull dynol am ei fawredd ei hun. Nis gellir deall yr Ysgrythyr o gwbl, heb gofio mai amlygiad o ras Duw yn ymostwng at ddyn ydyw. Felly mae rhai, wrth gamsynied gweithrediadau grasol ei ewyllys, gan eu hystyried fel yn perthyn o angenrheidrwydd i'w hanfod, wedi *darostwng* Duw i fod yn ddyn, heb ddeall mai *ymddarostyngiad* yn Nuw ydoedd dyfod yn ddyn. Nid yw ymgnawdoliad Mab Duw chwaith yn anghysson âg anghyfnewidioldeb hanfodol ei natur ddwyfol. Nid ydym i feddwl am yr ymgnawdoliad fel yn newid y Duwdod i'r dyndod o gwbl nac mewn rhan. Y mae yn gyfeiliornus i ddyweyd fod natur ddwyfol Crist wedi ei chyfnewid a'i lleihau, neu ei bod wedi peidio a bod am dymmor yr hyn a fu, ac wedi dyfod yn un arall; neu eto, i ddyweyd ei fod wedi rhoddi i fyny y meddiant o'r holl neu o un o'r priodoliaethau dwyfol. Haeru hyn a fyddai gwadu i Fab Duw ei wir Dduwdod; ac o ganlyniad, tragwyddoldeb ac anghyfnewidioldeb ei hanfod. Ond gofynir, Yn mha beth yr oedd ei ymddarostyngiad a'i ymwaghad yn gynnwysedig, os na pheidiodd a bod yn wir Dduw? A pha fodd y mae deall ymadroddion fel y rhai canlynol—"Fy Nhad sydd yn fwy na myfi;" "Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist?" Yr ateb i hyn ydyw, yn gyntaf, nad ydyw gwirionedd ei Dduwdod yn difodi gwirionedd ei ddyndod, ac iaith y ddynoliaeth yw hyn. Ac yn ail, darfu i Fab Duw, yn sefyllfa ei ddarostyngiad, fel dyn, ymwrthod â chyflawn fwynhad (*use*) ac â gweithgarwch a gogoniant y natur ddwyfol, ond nid â meddiant ynddynt nac â'u hanfod. Heb yr ymwrthodiad hwn, ni buasai ei ymddarostyngiad na'i ymgnawdoliad, nac o ganlyniad y prynedigaeth trwyddo, yn wirioneddol. Ond nid yw hyn yn cynnwys un cyfnewidiad yn ei Dduwdod na'i briodoliaethau. Y mae yn perthyn i hollalluogrwydd ei fod uwch law cael ei derfynu gan un gallu arall; ond fe all roi terfyn arno ei hun. Ac y mae hyn yn cael ei wneuthur mewn gwahanol raddau yn mhob perthynas o eiddo yr Anfeidrol â'r meidrol, ond yn benaf oll yn yr ymgnawdoliad. Y mae llygad dyn, mewn un amrantiad, yn cymmeryd i mewn y bydoedd pellaf, yn canfod nefoedd a daiar; ond ar ddisgyniad yr amrant, y mae yn canfod llai lai, heb fod y llygad trwy hyny yn newid o ran ei hanfod, nac yn ei nerth i weled. Felly, nid yw y Duwdod yn newid o ran ei hanfod, nac yn colli ei briodoliaethau anfeidrol, er i len o gnawd (*Heb.* x. 20) ddisgyn o flaen llewyrch ei ogoniant."

Nid oes gan Dorner nemawr i'w ddyweyd yn erbyn hyn; ac eto, y mae yn cyfeirio ato fel anghraifft o duedd i lefaru am yr ymgnawdoliad mewn modd ag a all effeithio ar gywirdeb ein syniadau am anghyfnewidioldeb Duw. Yr ymadroddion ammheus yn ei olwg ef ydynt, fod yn rhaid i Fab Duw megys "gau ei lygad" wrth ddyfod i gnawd, ac hefyd yr awgrymiad fod yn bosibl iddo ymwrthod â'r mwynhad neu ddefnydd o "hollwybodaeth" heb hefyd ymwrthod â'r meddiant o hono. Os yw yn bosibl gwneuthur gwahaniaeth rhwng y mwynhad a'r meddiant mewn cyssylltiad â hollwybodaeth, gellir hefyd am hollalluogrwydd a hollbresennoldeb; ac felly, fe ddywedir fod y Gair (y *Logos*) wedi ymwrthod â'r mwynhad o'r priodoliaethau hyn yn yr ymgnawdoliad. Yr oedd yr hen dduwinyddion yn arfer ystyried fod priodoliaethau Duw mewn undeb mor fywiol â'i hanfod, fel mai hwynthwy sydd yn gwneuthur i fyny ei hanfod; ac felly, nid mor ddiogel yw llefaru am y Gair yn rhoddi i fyny y mwynhad o briodoliaethau dwyfol, rhag bod hyny yn cynnwys rhoddi i fyny yr hanfod o honynt. Y mae ysgrifenwyr ereill, medd Dorner, wedi gweithio allan y duedd a ganfyddir yn Sartorius i osodiadau pendant: o'r rhai hyny, y mae yn enwi amryw o'u prif dduwinyddion presennol; sef, Thomasius, Hofmann, Delitsch, Ebrard, Lange, Liebner, Gess. Y ddau olygiad sydd yn bosibl, eb efe, ar ymddarostyngiad Mab Duw yn ei ymgnawdoliad ydynt, yn gyntaf, iddo ddarostwng ei hun mor bell, trwy ymwaghad o'i briodoliaethau naturiol, yn yr amlygiad o honynt, nes gallu ffurfio undeb â dynoliaeth yn ei sefyllfa wanaf yn y fan, ac i'w ddynoliaeth fod o ran deddfau ei chynnydd yr un a dynoliaeth gyffredin. Y golygiad arall posibl ar hyn ydyw, nid fod Mab Duw wedi rhoddi terfynau arno ei hun fel person dwyfol, yn ol y meddwl blaenorol, ond ei fod yn *cyfranu* o hono ei hun mewn modd terfynol. Y mae y gwahaniaeth rhwng y ddau hyn yn amlwg. Yn y cyntaf, dywedir ei fod ef ei hun wedi ymddiosg o bob mawredd ag ydoedd yn gwneuthur yn anmhosibl iddo ef ei hun—person anfeidrol a thragwyddol—ddyfod yn ddyn, a hanfodi o fewn terfynau meidrol: yn ol yr olaf, dywedir nad yw Mab Duw, fel person tragwyddol, wedi ymddiosg o ddim; ond ei fod yn preswylio yn y ddynoliaeth, yn ol graddau y ddynoliaeth i dderbyn mewn cyfraniadau neu amlygiadau meidrol a therfynol. Y mae Dorner yn dewis yr olaf ei hun fel yr unig esboniad cysson â mawredd anghyfnewidiol a thragwyddol Mab Duw; tra y mae yr awduron a enwyd yn dadleu dros y blaenaf. Erbyn hyn, bydd y darllenydd deallus yn barod i feddwl fod Dorner yn peryglu cymmaint ar wir athrawiaeth yr ymgnawdoliad, ag y mae ei wrthwynebwyr ar anghyfnewidioldeb Duw. Dylem ddyweyd hefyd, fod Dorner yn dadleu fod yr undeb rhwng y ddwy natur yn undeb personol; ond eto, y mae yn dyweyd nad ydoedd yr undeb yn berffaith, neu mor berffaith yn sefyllfa ei ddarostyngiad, ag y mae yn sefyllfa ei ddyrchafiad. I'r haeriad hwn, y mae Liebner yn ateb yn effeithiol trwy ddangos fod yr Iesu yn llefaru am dano ei hun bob amser fel person, ac fel yr *un* person a Mab Duw; ac hefyd, trwy ddangos mai ar berffeithrwydd yr undeb rhwng y ddwy natur, tra ar y ddaiar, y mae perffeithrwydd ei iawn, a'r prynedigaeth trwyddo, yn ymddibynu. Yr ydym wedi rhoddi yn fyr yr hyn sydd yn cael ei ddyweyd o'r ddwy ochr ar y dirgelwch mawr hwn, er mwyn cyffroi sylw y darllenydd ar un llaw, a'i ochelgarwch ar y llall. Glyned yn ddiysgog wrth eiriau y Beibl, ac ymdreched, dan arweiniad Ysbryd Duw, i'w deall yn eu cyssondeb â'u gilydd. Nis gwyddom a ydyw rhai o'r awduron y cyfeirwyd atynt i'w cael yn Seisoneg ai nad ydynt. Y llyfrau a defnyddiwyd wrth ysgrifenu yr erthygl hon ydynt—*Entwicklungsgeschichte der Lehre von der Person Christi*, gan *Dorner*. *Die Lehre von Christi Person and Werk*, gan *Sartorius*. *Die Lehre von der Person Christi*, gan *Gess* *Iahrbucher für Deutsche Theologie*; yn yr hwn y mae amryw o erthyglau ar y mater er pan y cychwynodd yn 1856, dan olygiad Liebner, Dorner, ac ereill. *Christliche Dogmatik*, gan *Ebrard*. Gwel hefyd CRIST; IESU GRIST; DYRCHAFIAD, &c., yn y gwaith hwn.

DATHAN, [דָּתָן, Deg a Thrigain, Δαθὰν= *defod* neu *gyfraith*]: un o dywysogion llwyth

Digitized by Google

**Reuben, yr hwn a ymunodd â Corah, ac Abiram ei frawd, mewn gwrthryfel yn erbyn awdurdod Moses ac Aaron:** *Num.* xvi. 1. Gwel AARON.

**DAUDDYBLYG:** y mae amryw ystyron i'r gair hwn yn y Beibl. Y mae calon *ddauddyblyg*, tafod *dauddyblyg*, a meddwl *dauddyblyg*, yn wrthgyferbyniol i galon, tafod, a meddwl syml, cywir, a gonest, &c. Y mae *dauddyblyg* yn arwyddo llawnder, a helaethrwydd mawr hefyd. Bydd yr Arglwydd yn talu yn *ddauddyblyg* pan y bydd yn rhoddi bendithion yn helaeth ac yn aml; gras ar ras; a bendithion ar fendithion. "Derbyniodd o law yr Arglwydd yn *ddauddyblyg* am ei holl bechodau;" *Esa.* xl. 2. Yr ystyr, y mae yn debygol, ydyw, y derbyniai Ierusalem fendithion dwbl, y rhai a fyddent yn llawer mwy na'r holl brofedigaethau a'r holl gyfyngderau ag yr oedd pechod wedi eu dwyn arni. Yn lle ei cheryddu am ei gwrthryfelgarwch a'i phechadurusrwydd yn ei erbyn, y mae yr Iehofah yn troi i'w chysuro a'i bendithio. Byddai y gorfoledd a'r dedwyddwch a dderbyniai oddi wrth fendithion yr Arglwydd yn *ddauddyblyg*, mewn cymhariaeth i'w chystudd a'i galar o blegid ei phechod. "Yn lle eich cywilydd y cewch *ddauddyblyg*;" *Esa.* lxi. 7. Darllena Lowth y frawddeg fel hyn, "Yn lle eich cywilydd, chwi a dderbyniwch etifeddiaeth ddwbl." "Anrhydedd dauddyblyg." Pan yr adferwyd Iob o'i dlodi a'i gystudd, "chwanegodd yr Arglwydd yr hyn oll a fuasai ganddo yn *ddauddyblyg*;" *Iob* xlii. 10.

DAVIES, HOWEL, o sir Benfro. Y mae digon o hanes y gŵr hwn ar gael i ddangos ei fod yn un o'r "cawri ag oedd ar y ddaiar" yn nghychwyniad y diwygiad Methodistaidd. Gŵr ydoedd a yfasai yn drwm o ysbryd yr efengyl; gŵr na wnai gyfrif o ddim, am y gallai "orphen ei yrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniasai gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw."

Disgynai y Parch. H. Davies o deulu parchus a chrefyddol, ac ymddangosai ynddo o'i ieuenctid awydd cryf am wybodaeth, a medrusrwydd i'w gyrhaedd. Wedi treulio rhyw gymmaint o amser mewn ysgol gartrefol, anfonwyd ef gan ei rieni i Landdowror, yn sir Gaerfyrddin; a gosodwyd ef dan addysg yr hybarch Griffith Jones—gŵr a gyfenwir, ac nid yn anmhriodol, yn "seren fore" y diwygiad Methodistaidd yn Nghymru. Barnwn, wrth yr amgylchiad hwn, fod naws crefyddol wedi lefeinio ysbryd y rhieni yn gystal a'r mab; onidê, ni anfonasid ef am hyfforddiant at un o'r fath ag oedd "apostol Cymraeg" Llanddowror. Nid oedd y llencyn ar y pryd ond egwan ei iechyd; a lled wanaidd o gyfansoddiad y parhaodd hefyd ar hyd ei oes. Yr oedd o duedd ddifrifol ac astud bob amser; ond o dan bregeth Mr. Jones y daeth i adnabod y "gwirionedd megys ag y mae yn yr Iesu;" ac o hyny allan, gogwyddai ei feddwl yn benderfynol at ymgyssegru i wasanaeth y Gwaredwr, trwy ymroddi i weinidogaeth yr efengyl; ac i'r dyben hyny, wedi ymbwylliad a gweddi, fe ymofynodd am urddau yn Eglwys Loegr. Fe wnaeth hyn—nid fel llawer o'i flaen, ac ar ei ol, er mwyn anrhydedd ac elw—ond o gariad at y Gwaredwr, ac o wir eiddigedd i lesau eneidiau dynion. Fel proflon o hyn, gellir cyfeirio at amgylchiadau dilynol ei oes.

"Ar ddydd ei urddiad," medd ei fywgraffydd, "rhoddai Mr. Jones hysbysiad o hyny i'r holl gynnulleidfa; a deisyfai ran yn eu gweddïau, ar fod i Ben mawr 'yr eglwys dywallt ei Ysbryd arno, a'i wneuthur yn llwyddiannus iawn yn ei weinidogaeth. Fel hyn yr aeth allan; ac yn ysbryd a nerth Elias, pregethodd, nid efe ei hunan, eithr Crist Iesu yr Arglwydd. Gellid dyfalu oddi wrth y ffeithiau cyssylltiedig â'i ymroddiad i'r weinidogaeth, a'r dull difrifol y gosodwyd ef yn y swydd, mai "gweithiwr difefl" a fyddai, a llwyddiannus "i droi calonau y tadau at y plant, a'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn; i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod." Felly hefyd y bu, fel y gwelwn yn y canlyniad.

Yr eglwys gyntaf y galwyd ef i weini ynddi ydoedd Llys y fran, yn swydd Benfro. Rhoes y gweinidog ieuanc brawf yn fuan mai nid gwyliedydd dall a chysglyd ydoedd; ond gyda ffyddlondeb teilwng o'r ymddiried a roddasid ynddo, fe rybuddiai yr annuwiol, ac a ddywedai, "Ti, annuwiol, gan farw y byddi farw." Ond ni allai ei gynnulleidfa oddef gwirionedd mor noeth; a rhaid oedd, dan weinidogaeth mor effro a ffyddlawn, naill ai ffreuo â'u gweinidog, neu â'u pechodau. Y cyntaf, dybygid, a wnaethant; a llwyddasant i gael gwared o'r pregethwr, trwy ei droad allan o eglwys Llys y fran.

Bwriadwyd hyn yn ddiau gan y diafol er rhwystr i'r efengyl; ond yn y gwrthwyneb y bu. Ac fel carchariad Paul yn Rhufain, fe droes yr amgylchiad gofidus hwn allan er llwyddiant i'r efengyl, ie yn Nghymru oll. Yr oedd Mr. Davies bellach yn rhydd i fyned i unrhyw eglwys, neu i bob eglwys, drwy yr holl wlad, a alwai am ei wasanaeth. Cerddodd y son am dano i bob cwr fel pregethwr digyffelyb, a lluoedd lawer a ymgasglent i wrandaw arno, pa le bynag y ceid allan ei fod i bregethu. Rhoddwyd cyfleusdra iddo, trwy wibio o'r naill blwyf i'r llall, yn y modd crybwylledig, i ddwyn yr efengyl yn ei symledd a'i blas priodol i gyssylltiad â llaweroedd o ddynion yn mhob cwr o'r wlad, na chawsant y fraint hono, pe yr arosasai yn sefydlog yn eglwys Llys y fran. Yr oedd maes ei lafur wedi ymhelaethu yn ddirfawr, a chafodd brofion lawer fod llaw gan Dduw yn yr amgylchiad, a'i fod wedi ei fwriadu ganddo er daioni, er ei ddwyn o amgylch "gan ddwylaw anwir;" y rhai, yn ddiarwybod, a fuont yn offerynau "i wneuthur pa beth bynag a ragluniodd llaw a chynghor Duw eu gwneuthur."

Ond er i faes llafur Mr. Davies gael ei eangu yn ddirfawr trwy ei fwriad allan o Lys y fran, eto nid oedd ei gylch presennol mor eang ag y mynai ei Arglwydd iddo fod; na'i sefyllfa mor rydd a dirwystr ag yr oedd yn rhaid ei chael. Hyn hefyd a ddygwyd oddi amgylch trwy elynion crefydd, yn fwy na thrwy ei chyfeillion. Fel hyn y bu. Eiddigeddodd ei frodyr yr offeiriaid gymmaint wrtho, o herwydd ei ysbryd, ei fuchedd, a'i athrawiaeth—y rhai, gan eu purdeb, oeddynt mor wahanol i'r eiddynt hwy, ac yn eu condemnio yn ngolwg y wlad—fel ag i gau eu heglwysi o un i un yn ei erbyn. Yr oedd ei boblogrwydd a'i lwyddiant yn boenus iddynt. Mynent lethu un ag oedd yn eu condemnio hwy, trwy fod gymmaint yn well na hwy. I'r un graddau yr oedd cymmeriad a gweinidogaeth Mr. Davies yn ennill cydwybodau a chalonau y werin, ac yn eu sugno ato: felly yr oedd eiddigedd a dygasedd y clerigwyr yn cynneu yn ei erbyn. A pha beth oedd i'w wneyd? Os gadewid ef fel hyn i ymweled â gwahanol eglwysi y sir, pawb a aent ar ei ol ef; ac, wrth gwrs, fe syrthiai y gwyliedyddion deillion i anfri cyferbyniol. Nid oedd dim yn well, dybygent hwy, na'i gau allan

Digitized by Google

o'r eglwysydd. Bellach, nid oedd ganddo un eglwys i weinyddu yn sefydlog ynddi, ac ni chaniateid iddo weinyddu yn achlysurol mewn eglwysydd ereill. Rhaid oedd iddo, yn y fath amgylchiad, naill ai rhoddi heibio pregethu o gwbl, neu fyned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, bwrw ymaith yr iau eglwysaidd a'i caethiwai, a rhedeg yn y gwrthwyneb i ganonau y sefydliad gwladol. Dewisodd yr olaf, a seliodd Pen yr eglwys yr enciliad â'i gymmeradwyaeth; a pharodd iddo droi allan fwyfwy er llwyddiant i'r efengyl.

Dylid sylwi ddarfod i'r Parch. Howel Davies ddechreu cyffroi ei wlad trwy ei weinidogaeth tua'r un amser ag y cychwynodd Howel Harris a Daniel Rowlands o Langeitho, ar eu gyrfa gyhoeddus, sef tua'r flwyddyn 1736; ac i'r naill a'r llall lafurio rhyw gymmaint o amser, blwyddyn neu ddwy efallai, heb wybod am eu gilydd; a pheth hynod hefyd fod Whitfield a Wesley yn Lloegr wedi cychwyn eu rhedfa hwythau tua'r un amser, a'r cwbl heb un adnabyddiaeth am eu gilydd, chwaithach cynghrair rhwng y naill a'r llall. Anhawdd ydyw peidio edrych ar y ffaith hon fel prawf eu bod dan ddylanwad yr un meddwl, wedi eu gwresogi â'r un tân, ac wedi eu bedyddio â'r un a'r unrhyw Ysbryd. Ac os oedd eu llafur a'u llwyddiant, tra yr oeddynt ar wahân, yn brawf o ddylanwad yr un Ysbryd, yr oedd eu hymuniad a'u hymgorfforiad â'u gilydd yn ol llaw yn brawf chwanegol o'r un peth. Davies, Harris, a Rowlands, oedd y tri, ar eu hymuniad â'u gilydd, a ffurfient eginyn Methodistiaeth Cymru.

Yr oedd sir Benfro, o ran ei hagwedd grefyddol, yn gyffelyb i bob rhan arall o'r Dywysogaeth pan ddechreuodd Howel Davies ei yrfa. Nid oedd gwybodaeth o Dduw yn y wlad. Cyffelyb bobl ac offeiriaid. Anurddid yr holl wlad â chwareuon ofer ar Ddydd yr Arglwydd: a'r unig achos a allwn gael am unffurfiaeth y chwareuon a'r campau ydyw, mai effaith oeddynt o'r un achos, sef y darlleniad o hen *Lyfr y Chwareuon* (*Book of Sports*) a ddarllenid gynt yn y llanau. Edrychid ar y darlleniad hwn fel trwydded awdurdodol y llywodraeth i'r bobl i chwareu; a chan mai yn y llan yn unig y darllenid y llyfr, edrychid ar y llan a'r chwareuon yn dwyn cyssylltiad â'u gilydd; a bod y gwasanaeth o fewn, a'r chwareuon oddi allan, yr un mor ganmoladwy a buddiol. Yn yr eglwys yr oedd yr addoli, ac yn y fynwent yr oedd y campio—y ddau yn cael eu cyflawnu gan yr un bobl, a'r ddau yn cael eu trwyddedu gan yr un awdurdod! Yr oedd hyn o wahaniaeth rhyngddynt, pa fodd bynag, yr oedd yr addoli o fewn yn *ffurf*, a'r chwareu oddi allan yn *ysbryd;* y cyntaf yn *farwaidd* ac yn *flin*, a'r olaf yn *fywiog* ac yn *ddifyr.* Ond yr oedd y ddau yn anghymmeradwy gan Dduw yn mron fel eu gilydd; ac am danynt y dywedai Duw, "Maent yn faich arnaf, blinais yn eu dwyn."

Bu gweinidogaeth Mr. Howel Davies yn fendithiol i raddau anarferol, nid yn unig yn sir Benfro, ond mewn llawer iawn o fanau ereill trwy holl Gymru yn mron; ac nid yn Nghymru yn unig, ond mewn rhai manau yn Lloegr hefyd. Cododd cyfeillgarwch rhyngddo a Whitfield, yr hwn a'i cryfhaodd yn fawr yn y penderfyniad o bregethu efengyl gras Duw yn mhob man y rhoddid cyfleusdra iddo, pa un bynag ai o fewn y llanau plwyfol, ai y tu allan iddynt. Ar gais Whitfield a'r iarlles Huntingdon, ymwelodd Mr. Davies â Llundain, a bu ei weinidogaeth yn y Tabernacle a Tottenham Court Road, yn dra derbyniol a llwyddiannus. Llafuriodd lawer dros amryw o flyneddoedd yn nghapelydd yr iarlles, yn Brighton, Bristol, a manau ereill, lle y defnynai ei weinidogaeth fel y gwlaw, gan ffrwythloni y diffaethdir cras.

Fe fu Mr. H. Davies yn pregethu am ugain mlynedd agos—weithiau mewn llan, weithiau mewn tŷ, ac weithiau yn yr awyr agored—cyn iddo gael un adeilad ar enw capel i weini ynddo yn ei wlad ei hun. Y capel cyntaf a godwyd yn y sir oedd capel Woodstock, yn y flwyddyn 1754, a'r ail oedd y Capel Newydd, ar derfyn gogleddol y sir, yn y flwyddyn 1763—yn y ddau hyn, yn nghyd â dau addoldy eglwysaidd, ond diwaddol, ereill, sef capel Maunton, ger Narberth, a St. Daniel, ger Penfro. Yn y pedwar lle hwn y gweinyddai y gŵr duwiol Swper yr Arglwydd yn fisol: ac i'r lleoedd hyn yr ymgasglai lluaws mawr iawn i'r cymundeb—nid llai meddir weithiau na dwy fil o nifer. Mr. Davies oedd y cyntaf o weinidogion Eglwys Loegr a weinyddodd mewn addoldy anghyssegredig, a'r unig un a weinyddai y sacramentau ynddynt yn ei sir ei hun tra y bu fyw.

Ymwelodd Mr. Howel Davies â Gogledd Cymru rai gweithiau. Yr oedd taith i'r Gogledd yn ei amser ef yn orchestwaith nid hawdd ei wneuthur, ac yn enwedig i ŵr o gyfansoddiad gwanaidd a meddwl pruddaidd. Yr oedd y ffyrdd y pryd hyny yn ddrwg ac yn fynyddig, y llettyau yn wael ac yn anaml; caredigion yr efengyl, gan mwyaf, yn dlodion eu sefyllfa, a'u rhif yn ychydig; yr oedd yr addoldai, ac ychydig oedd o honynt yn ei amser ef, yn wael ac oerion, a phell oddi wrth eu gilydd; y rhagfarn yn erbyn y pengryniaid yn greulawn fel y bedd; y werin yn dertysglyd a dideimlad; y clerigwyr yn llawn cynddaredd; a'r gwŷr mawr yn llygadu am gyfleusdra i fwrw eu dial ar y dynion a gyfrifid ganddynt fel aflonyddwyr y byd. Pan yr ystyrir yr amgylchiadau hyn, nid gorchest bychan i ŵr o sefyllfa Mr. Davies, ac o iechyd mor wan, oedd teithio y Gogledd i bregethu yr efengyl. Eto, fe wnaeth hyn; a chawn aml grybwylliad am ei enw hyd heddyw fel un a arddelwyd mewn modd amlwg, ac i raddau helaeth, er dychwelyd pechaduriaid at Dduw. Crybwyllir am dano fel un o'r rhai oedd yn bresennol yn y gymdeithasfa gyntaf a gynnaliwyd erioed yn y Bala. Fe allai mai at y daith hon y cyfeiria ef ei hun, mewn llythyr o'r eiddo at Howel Harris: "Yn mherthynas," meddai, "i fy mynediad i'r Gogledd, yr wyf yn meddwl y bydd yn rhy boenus i mi, sydd yn parhau o hyd yn llesg a chlefycca; ond pa fodd bynag, yr wyf yn penderfynu cynnyg hyny, *pe gorfyddai i mi farw ar y ffordd.*" Mae yr ymadroddion olaf o'r llythyr yn profi, nid mawredd yr anturiaeth yn unig, ond aidd ac ysbryd y diwygiwr, pan yr ymroddai i fyned, dan wendid corfforol gymmaint, ac hefyd heb wybod na allai y daith gostio ei fywyd iddo.

Ymddengys y bu ef yn gurad ar un adeg ar ei oes, a thros ryw dymmor, i'w hen athraw, periglor Llanddowror, lle y cerid ac y perchid ef gan laweroedd, a lle y bu yn offerynol i ddychwelyd llawer o ddynion at Dduw. Drachefn, efe a symmudodd i Hwlffordd (*Haverfordwest*), yn ei sir ei hun. Pan y daeth i'r dref hon, yr oedd achos crefydd yn isel iawn, a'r ychydig broffeswyr yn llwrf a difywyd; ond cyn hir, ar ol ei ddyfodiad, bu sŵn a chynhwrf yn mysg yr esgryn sychion, a buan y daeth gwedd tra gwa-

Digitized by Google

hanol ar ansawdd crefydd yn y lle. Yr ydym yn casglu oddi wrth ryw grybwylliadau achlysurol a wneir am dano, fod rhyw ambell eglwys blwyfol yn rhoddi derbyniad iddo, ryw gymmaint o amser ar ol i'r lleill ei wrthod. Nid annhebyg ydyw nad yn eglwys Prengast, yn Hwlffordd, yr oedd Mr. Davies yn gweini ar yr amser crybwylledig, er nad oes genym eithaf sicrwydd. Deallwn hefyd y derbynid ef i eglwys Llechryd, ger Aberteifi, dros ryw dymmor ar ol ei ymuniad â'r Methodistiaid, a chyn adeiladu y Capel Newydd, yn sir Benfro. Tra y llafuriai yn y lle hwn, aeth y llan yn rhy gyfyng i'r gynnulleidfa a ymgasglai yno i wrandaw arno, am hyny arferai bregethu yn y fynwent; llanwyd hon hefyd, yn nghyd â'r llanerch ger llaw, a elwid Banc Llechryd. Mawr iawn oedd yr effeithiau a ddilynai ei weinidogaeth yn y lle hwn. Torai y gynnulleidfa fawr allan mewn mawl a gorfoledd, a pharhaent felly hyd yr hwyr, er fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn y bore. Ar un achlysur, pregethai Howel Harris gydag ef; ond nid o fewn y llan, ond o faes iddi, ie, o faes i'r fynwent. Y gwir ydyw, fod y gynnulleidfa yn rhy fawr i'r eglwys; a phregethai un Howel yn y fynwent, a'r Howel arall y tu allan i'r tir cyssegredig. Er mai brodyr oeddynt yn yr Arglwydd, ac er mai yr un gwirionedd a gyhoeddent, ac mai at yr un nôd yr amcanent, eto ni oddefid ond i un ddyfod o fewn muriau y fynwent i gyhoeddi Ceidwad i bechaduriaid!

Cafodd Mr. Davies yr hyfrydwch o ddychwelyd un Mr. Bateman, person St. Bartholomew Fwyaf, Llundain. Yr oedd gan y gŵr hwn fywoliaeth hefyd yn Nghymru. Yn ystod un o'i ymweliadau â swydd Benfro, lle yr oedd ei bersonoliaeth, cafodd gyfleusdra i bregethu mewn llan yr arferai Mr. Davies bregethu ynddi; a defnyddiodd y cyfleusdra i fytheirio cyhuddiadau enllibus yn erbyn y Methodistiaid; a rhybuddiai ei wrandawyr, er mwyn eu heneidiau, i'w gochelyd. Ond ar ol y bregeth hon, syrthiodd arno brudd-der ysbryd a chyfyngder meddwl, na allai roddi un cyfrif am dano, a'r fath ag a'i gwnaethai yn ddiawydd am gyfeillach a garasai o'r blaen; a than y pruddder hwn, bu gorfod arno wrandaw Mr. Howel Davies yn pregethu, a hyny yn yr un addoldy ag y buasai, ychydig yn ol, yn ei wawdio ef a'i ganlynwyr. Ar yr achlysur hwn, teimlodd y gair fel picell yn ei drywanu; ei bechodau, bellach, a'i llethent ef, "aethant dros ei ben, oeddynt fel baich trwm, rhy drwm iddo ei ddwyn." Bu am fis o amser yn y cyfyngder hwn cyn cael un esmwythâd i'w enaid archolledig. O hyn allan, bu yn fendithiol iawn i laweroedd yn Nghymru, ac yn Llundain hefyd.

Safai Mr. Howel Davies yn uchel yn mysg ei frodyr. Perchid ef yn fawr am hynawsedd ei ysbryd a chyssondeb ei gymmeriad. "Gŵr tirion, mwynaidd, oedd Mr. Howel Davies," meddai yr hybarch John Evans, o'r Bala, "a phregethwr ennillgar iawn." Yr oedd hefyd yn meddu ar lawer o wybodaeth ac o ddawn, a'r cyrhaeddiadau hyn wedi eu heneinio yn helaeth â'r olew sanctaidd. Dywedai rhai nad oedd nemawr yn fyr o fod yn gydwastad â Rowlands ei hun mewn doniau ennillgar a gweinidogaeth wlithog. Yr oedd ei ymadrodd "yn defnynu fel y gwlaw, ac yn dyferu fel y gwlith," tra y bu mewn cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig; ac wedi hyny, nid oedd ond yr un o ran ei weinidogaeth ac o ran ei amcan. Ni newidiai ei ddull i foddhau dynion, ond äi rhagddo yn ddiwyro, gan olygu cymmeradwyaeth ei Arglwydd, ac achubiaeth eneidiau dynion, yn brif nod ei fywyd. Ymgynnullai lluaws mawr i wrandaw arno, pa le bynag y deallid ei fod yn pregethu; ac ar Sabbath cymundeb, deuai, fel y crybwyllwyd, cynnifer a dwy fil yn nghyd i gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Wrth ystyried nad oedd nifer yr eglwysi Methodistaidd yn sir Benfro ond ychydig, a nifer yr aelodau yn mhob un ond ychydig mewn cymhariaeth, rhaid fod llawer o'r cymunwyr yn cyrchu o gryn bellder; heb hyny, nis gallai y gynnulleidfa chwyddo i'r fath nifer: trwy yr amgylchiad hwn, rhoddid prawf o'r ad-dyniad nerthol a berthynai i'w weinidogaeth, yn gystal ag o aidd grefyddol y gynnulleidfa.

Yn y flwyddyn 1770, bu farw y Parch. Howel Davies. Bernir ei fod wedi bod yn gweinidogaethu am 35 o flyneddoedd. O'r tymmor hwn, fe fu dros ryw ysbaid yn gurad yn Llanddowror, drachefn yn gweini yn eglwysydd Llys y fran a Phrengast; ac am ryw gymmaint o amser heb un lle sefydlog, ond yn cynniwair, heb law gwahanol barthau sir Benfro, lawer o fanau yn Neheudir a Gogledd Cymru, a rhai trefydd Lloegr; ond yr un mlynedd ar bymtheg olaf o'i oes a ddefnyddiwyd i weini yn fwy sefydlog yn y pedwar lle a grybwyllwyd uchod, sef Woodstock, y Capel Newydd, a chapeli Mounton a St. Daniel's. Claddwyd ei weddillion yn mynwent eglwys Prengast, yn Hwlffordd. Ar yr achlysur, canodd Williams, Pant y celyn, alargan am dano, a dywed yn un o'r penillion:—

> "Pwy sydd yn y *coffin* pygddu, trwm, y'nghanol y fath lu,
> Medd trafaelwyr ar y gefnffordd, rhei'ny 'n synu hefyd sy:
> HOWEL DAVIES, ffyddlon, cywir, bugail pedair eglwys fawr,
> Sydd yn myn'd i fynwent Prengast, heno i orwedd yno i lawr."

DAVIES, WILLIAM, o Castellnedd. Yr hanes cyntaf sydd genym ar gael am y clerigwr duwiol hwn ydyw ei fod yn gurad i un Mr. Pinkney, yr hwn oedd yn weinidog dau blwyf yn sir Forganwg, sef Castellnedd a Llanelltyd. Cyn yr adeg y daethai Mr. Davies i'r lle, ymddengys fod yn Nghastellnedd a'i hamgylchoedd nifer o bobl wedi eu dwyn i garu yr efengyl trwy weinidogaeth Howel Harris, Rowlands o Langeitho, a'u cydlafurwyr; a chan nad oedd gweinidogaeth na buchedd clerigwyr y fro yn cyd-daro â'u chwaeth ddiwygiedig hwy, eiddigeddent yn fawr, a gweddïent lawer, ar i Arglwydd y cynauaf anfon gweithiwr cymhwys i lafurio yn y maes aeddfed hwn. Barnent mai y cyfryw un oedd y curad ieuanc, Mr. Davies, ac mai mewn atebiad i'w gweddïau yr anfonwyd ef i'w plith.

Ennillodd Mr. Davies serch ei uchradd, Mr. Pinkney, hefyd yn fawr; a hyny trwy fwyneidd-dra ei dymmer, a duwioldeb ei ysbryd. Hoffwyd ef hefyd yn fawr gan y rhai hyny o'r bobl a feddent chwaeth at yr efengyl; eto, nid hir y bu cyn iddo ddyfod yn wrthddrych gwawd a dygasedd dosbarth arall o bobl, yn enwedig pobl fawr y dref a'i hamgylchoedd; er nad ymddengys fod ganddynt un achwyniad yn ei erbyn, ond fod ei athrawiaeth yn rhy bur, ei fuchedd yn rhy sanctaidd, a'i aidd dros ogoniant Duw yn rhy danbaid. Pa fodd bynag, cydfwriadasant yn ei erbyn i'w yru ymaith, a cheisiasant yn daer ar Pinkney gydsynio i wneyd hyny, ond yn hollol ofer. Ni fynai y gŵr boneddig ymadael â'i gurad, gan y gwyddai nad oedd un achwyniad cyfreithlawn yn ei erbyn: a churad a barhaodd Mr. Davies iddo tra y bu Mr. Pinkney fyw; ond

Digitized by Google

wedi ei farw, ail ymosod a wnaed, a'r tro hwn llwyddo a wnaethant. Cafodd Mr. Davies alwad gref i ymsefydlu ar ol hyn yn Llanguge, oddi wrth y rhan fwyaf o'r plwyfolion; ond y gwŷr mawr yno a safasant yn erbyn, a llwyddasant i gael gweinidog arall i'w gwasanaethu, mwy cydnaws â'u chwaeth eu hunain.

Rhoddodd yr amgylchiadau hyn brawf i Mr. Davies a'i gyfeillion crefyddol nad oedd iddo nemawr obaith i allu bod yn ddefnyddiol o fewn yr eglwys, a phenderfynodd ymroddi i waith ei Arglwydd o faes iddi; a'r dydd y cymmerodd y clerigwr arall feddiant o Languge, pregethodd Mr. Davies y tu allan i'r hen adeilad, a hyny mor efengylaidd a gwlithog, fel ag i gwbl esmwythau eu gofid am ei gauad ef allan. Y canlyniad fu, iddo droi ei gefn yn llwyr ar Eglwys Loegr, ac ymroddi i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab yn mysg y Methodistiaid. Mewn canlyniad i'r ymneillduad hwn, cyfarfyddai Mr. Davies a'i gyfeillion â'u gilydd, gan ymffurfio yn gymdeithas eglwysig ar wahan oddi wrth Eglwys Loegr; a chychwynodd Mr. Davies ar ei yrfa weinidogaethol, yn rhydd bellach oddi wrth y llyffetheiriau canonaidd a fu yn ei gaethiwo o'r blaen.

Dywedir mai iddo ef yr adeiladwyd y capel sydd yn mhlwyf Mihangel, ger llaw Castellnedd, a elwir Capel Gyfylchi. Adeiladwyd hwn tua'r flwyddyn 1776, rhyw gymmaint o amser ar ol ymneillduad Mr. Davies at y Methodistiaid. Nid ydyw yn ymddangos i'r capel hwn gael ei gyssegru erioed, er fod gwedd eglwysaidd arno, ac er gwneyd defnydd a dybid yn eglwysaidd o hono dros ysbaid deugain mlynedd. Yn y capel hwn y gweinyddai Mr. Davies Swper yr Arglwydd—neu ryw offeiriad arall, megys Mr. Jones, Llangan; Howells, Trehill; Phillips, Llangrallo, ac ereill—hyd ei farwolaeth. Cymmerodd yr amgylchiad galarus hwn le yn y flwyddyn 1787, pan oedd yn 60 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd yn mynwent y dref. Pregethodd Mr. Jones, o Langan, y bregeth angladdol; a dywedir fod Mr. Jones yn wylo yn hidl uwch ben bedd ei gyfaill, ac yn dywedyd, "O Davies, anwyl!—O Davies, gwas yr Arglwydd! ti fuost farw!—Do: disgynaist i'r bedd â'th goron ar dy ben!"

DAVIES, JOHN, o Nantglyn. Ganwyd y gweinidog duwiol a dirodres hwn yn y flwyddyn 1760, mewn tyddyn a elwir y Glythau, yn mhlwyf Nantglyn, yn agos i Ddinbych. Yr oedd ei fam yn arfer gwrandaw pregethwyr y Methodistiaid; a John yntau yn achlysurol a wnai yr un peth; eto tyfodd i fyny yn galed ac anystyriol hyd nes yr ydoedd yn 18 mlwydd oed. Yn mhen tua phum mlynedd ar ol ei droi o gyfeiliorni ei ffordd, daeth ar ei feddwl gyfarch ei gyd-ddynion mewn ffordd o bregethu; ac er na chyrhaeddodd dalentau a gwybodaeth rhai, eto bu yn dra gwasanaethgar i'w genedl yn y ffordd hon am ysbaid trigain mlynedd yn mron. Am ystod blyneddoedd cyntaf ei broffes, a'i weinidiogaeth, dyoddefai lawer o warth ac erlid—yn gyntaf, oddi wrth ei dad ei hun, yr hwn a'i curai ac a'i rhegai yn fynych am nad äi i negesau drosto ar y Sabbath: wedi hyny, cyfarfu â llawer o anmharch oddi wrth y werin anwybodus a thywyll, am geisio eu cyfarch yn nghylch achos eu heneidiau. Amcanwyd troi ei dad o'i dyddyn o achos fod ei fab yn pregethu; a hyny yn ddiau a wnaethid oni bai i farwolaeth y gŵr boneddig, perchenog y tir, a'i oruchwyliwr, gymmeryd lle yn y cyfamser.

Golwg syn i lawer, y pryd hyny, oedd gweled llanc diaddurn a diddysg yn troi allan i bregethu i'w gydwladwyr: llanc o deulu digrefydd, heb ddim manteision teuluol nac athrofaol. Gallai llawer un wenu gyda gradd o ddibrisdod ar yr amgylchiad, fod mab i amaethwr, ar lechwedd mynydd, yn anturio ar y fath waith—dyn heb un parotoad wedi ei wneyd arno, ond a wnaethpwyd ar ei ysbryd trwy ymgeledd yr efengyl—heb ei dynu trwy un athrofa, na'i ysbrydoleiddio trwy arddodiad dwylaw un esgob:—gallai llawer un edrych ar hyn gyda diystyrwch perffaith, a synu pa fodd na buasai rhywun yn ei luddias. Ond er hyn i gyd, yr oedd yma fwy o drefn a chymhwysder nag a ymddengys ar yr olwg gyntaf. Yr oedd yn y llanc o'r Glythau elfenau priodol gweinidog yr efengyl, er lleied oedd ei ddysg, a gwyleiddied oedd ei honiadau. Pa ddysg oedd yn gymhwysach iddo na'r un Ysgrythyrol? Pa aidd oedd yn fwy gweddus yn y gwaith hwn na'r un a losgai gan awydd gogoneddu Duw ac achub eneidiau dynion? Pa ansawdd meddwl mwy priodol na bod yn wylaidd a gostyngedig? Elfenau yw y rhai hyn, nad oes neb, er uched ei ddawn a dyfned ei ddysg, yn wir genad dros Dduw hebddynt, na neb yn anghymhwys i'r swydd a'u cafodd. Elfenau hefyd ydynt ag oeddynt yn gwreichioni yn ddysglaer yn John Davies. Ië, yr oedd dull cyffredin ei ddygiad i fyny, ei iaith ddiaddurn a dirodres, ei gyffelybiaethau agos oddi wrth bethau cyffredin ac amlwg, yn fwy o gymhwysder ynddo i gyfarch pobl mor ddiddysg ac anwybodus ag oedd preswylwyr ei wlad enedigol y pryd hyny, na phe buasai ei ddoniau yn fwy godidog a'i ddullwedd yn fwy ysblenydd. Y mae offer haiarn yn fwy defnyddiol i drin y ddaiar, er mor gyffredin, nag a fyddai yr un o aur dilin: felly yr oedd John Davies yn gymhwysach i'r gwaith y galwyd ef iddo, nag a fuasai dyn o deimladau mwy coethedig neu o hyawdledd mwy gorwych.

Fe deithiodd John Davies lawer ar hyd ac ar led y Dywysogaeth, yn y Deheu a'r Gogledd; ac hefyd yn y trefydd hyny yn Lloegr y mae cynnulleidfaoedd Cymreig gan y Methodistiaid ynddynt. Cychwynodd mewn amser nad oedd ond ychydig o gapeli gan un enwad yn Ngwynedd—mewn amser yr oedd llawer o bregethu yn yr awyr agored, mewn tai annedd, ac mewn ysguboriau—mewn amser nad oedd un Ysgol Sabbathol yn y wlad, ac mewn amser y mae yn rhaid fod tywyllwch dudew yn gordoi y trigolion. Rhaid fod ei anfanteision ef, a'r rhai a gydlafurient ag ef y pryd hwnw yn fawrion iawn; eto, cafodd John Davies oesi yn y tymmor mwyaf tyfadwy a fu ar Fethodistiaeth. Yr oedd iddo gydlafurwyr o'r fath rymusaf; yr oedd y Parchedigion Evan Richardson, a John Roberts, wedi dechreu ychydig o flyneddoedd o'i flaen; dechreuodd Mr. Charles, o'r Bala, a Mr. Jones, o Ddinbych, tua'r un amser ag yntau; yn fuan ar ei ol, ymddangosodd Ebenezer Morris, yn y Deheu, a Robert Roberts, Clynog, yn y Gogledd; ac yn fuan wedi hyny, torodd allan Elias, o Fon, a Richards, Tregaron, a'i frawd o Abergwaun: fel hyn, anrhydeddwyd ef â chydlafurwyr o'r fath enwocaf. Yn ei ddyddiau ef hefyd y cododd yr Ysgol Sabbathol—sefydliad a roes ysgogiad anarferol i gynnydd crefydd trwy Wynedd a Deheu.

Yr oedd John Davies yn un o'r wyth pregethwr lleygaidd a ordeiniwyd gyntaf yn y Gogledd, yn y flwyddyn 1811. Prawf oedd hyn o'r cyfrif a wneid o hono gan ei frodyr. Nid ydym yn golygu ei fod yn bregethwr o'r radd uchaf; etto yr

Digitized by Google

oedd yn sefyll yn anrhydeddus yn mhlith lluaws ei frodyr, ac i raddau helaeth yn boblogaidd gan y gwrandawyr. Yr oedd llawer o ffraethineb ymadrodd ganddo; ac er fod ganddo hawl, ar gyfrif oedran a chymmeriad, i gymmeryd y blaen, eto, cryn anhawsder a brofid i gael ganddo wneuthur hyny. Nid oedd ynddo un duedd i ymwthio i sylw; rhaid oedd ei gymhell yn fwy na'i warafun i siarad; eisteddai yn wastad ris yn is na'r un a gymhellid arno. Gwnai hyn hefyd, nid o rodres ac o rith gostyngeiddrwydd, ond oddi ar ystyried ereill, mewn gwirionedd, yn well nag ef ei hun.

Safai John Davies, fel ychydig o rai ereill a welsant hir ddyddiau ar y maes, fel dolen gyssylltiol rhwng hynafiaid Methodistiaeth a'r rhai presennol; ac yn ddolen hefyd rhwng dau ddosbarth o bregethwyr, sef yr enwogion doniol, a'r rhai cyffredin. Nid oedd ef ei hun mewn un o'r ddau ddosbarth; ond yr oedd ynddo elfenau cyfathrach â'r ddau. Daliai gyfathrach â blaenoriaid y bobl; eto hawdd oedd gan yr israddolion nesau ato; ac felly yr oedd iddo le pwysig mewn ffordd o gyssylltu a chadarnhau yr holl frawdoliaeth. Anrhydeddwyd ef â hir ddyddiau. Cafodd weled plant ei blant, a thangnefedd ar Israel. A chyrhaeddodd yr oedran patriarchaidd o 82 mlwydd, a bu farw mewn hedd yn Mehefin, 1843.

**DAW—ON**: mab yn nghyfraith: un yn briod â merch un arall: *Gen.* xix. 14; 1 *Sam.* xviii. 18; xxii. 14; 2 *Bren.* viii. 27; *Neh.* vi. 18; xiii. 28.

**DAWN Y TAFODAU**: neu ddawn yr ieithoedd; canys hyn a feddylir wrth yr ymadrodd. Gelwir ieithoedd yn dafodau yn yr Hen Destament yn gystal ag yn y Newydd: *Gen.* x. 5; *Deut.* xxviii. 49; *Ioan* viii. 2; *Act.* xxvi. 14. Mae iaith yn cael ei galw yn *dafod*, o herwydd y tafod yn fwyaf neillduol yw peiriant llefariad. Mae *gwefus* hefyd yn dynodi ambell waith yr un peth. Ond y tafod yw yr aelod mwyaf angenrheidiol tuag at lefaru. O herwydd hyn, geilw y Salmydd y tafod, ei ogoniant; *Salm* xxx. 12; cviii. 1. Y rhagoriaeth a berthyn i ddyn, o ran aelodau ei gorff, uwch law pob creadur arall, yw ei dafod:—tafod yn llefaru a feddiannir gan ddyn yn unig. Awgrymir yr un peth gan Iago, pan ddywed, "Ag ef," sef y tafod, "yr ydym yn bendithio Duw a'r Tad, &c.;" *Iago* iii. 9. Heb dafod, nis gallem ymddyddan, na thrin ein materion bydol, na siarad am bethau gwell na'r byd. Beth fuasai ein bywyd heb y gymdeithas a gawn trwy y tafod?

Dawn y tafodau oedd y gallu i lefaru mewn ieithoedd na ddysgasid yn flaenorol. Gŵyr pawb gwybodus nad peth bach yw dysgu iaith, ac yn enwedig llefaru yn rhwydd ynddi. Yr oedd gan hyny y ddawn hon yn un o'r gwyrthiau mwyaf hynod ac anwadadwy a goffeir yn yr Ysgrythyr; a dawn yw a berthyn yn unig i amser yr efengyl, gan na ddarllenwn ddim am dani yn yr Hen Destament. Gan iddi gael ei rhoddi yn gyntaf ar ddydd y Pentecost, gellir ei galw yn ddawn urddiad yr oruchwyliaeth newydd. Addawodd ein Harglwydd yr Ysbryd cyn ei ymadawiad; ac enwodd amryw o'r pethau a weithredai ac a gyfranai; ac yn mhlith pethau ereill, enwodd yn benodol y ddawn hon: "â thafodau newyddion y llefarant;" *Marc* xvi. 17.

Yr hanes am roddiad cyntaf y ddawn hon a geir yn *Act.* ii. Dywedir fod yr apostolion "oll yn gytûn yn yr un lle." Ni ddywedir pa le oedd. Barna rhai mai yr oruchystafell ydoedd, y sonir am dani yn y bennod flaenorol: *adn.* 13. Ond nid yw hyny yn debyg, gan eu bod, fel y mae yn eglur, mewn rhyw le mwy agored i'r cyhoedd. Meddylia rhai hefyd fod yr "ugain a chant," y sonir am danynt yn y bennod flaenorol (*adn.* 15), gyda'r apostolion y pryd hwn. Ond nid tebygol chwaith yw hyn. Ymddengys mai "hwy oll," yn yr adnod gyntaf o'r ail bennod, oeddynt yr un apostol ar ddeg, a Matthias, a enwir yn yr adnod ddiweddaf o'r bennod gyntaf. Mwy amlwg eto yw hyn, pan ystyriom yr hyn a ddywedir yn mhellach, iddynt "oll lefaru â thafodau ereill" (*adn.* 4), ac mai "Galileaid oeddynt oll" (*adn.* 7). Dywedir hefyd am Pedr, pan gyfododd i lefaru, ei fod "yn sefyll gyda'r un ar ddeg" (*adn.* 14).

Diau'i'r apostolion ddyfod yn nghyd i weddïo; ond dywedir eu bod "yn eistedd" pan ddaeth "sŵn disymmwth o'r nef." Tebygol eu bod yn ymddyddan â'u gilydd yn nghylch yr addewid a roddasid iddynt. Y mae ymddyddan am bethau ysbrydol yn foddhaol gan Dduw, a bendith a addewir iddo. Gwel *Mal.* iii. 16. Rhagflaenid y rhoddiad o'r ddawn hon gan arwyddion allanol, cyffelyb i'r hyn a gymmerodd le pan fedyddiwyd ein Harglwydd:—sŵn disymmwth yn gyntaf, yn debyg i sŵn "gwynt nerthol." Nid oedd yno wynt, ond sŵn megys sŵn gwynt. Gellir cyfieithu yr ail adnod fel hyn—"A daeth yn ddisymmwth o'r nef sŵn megys o chwyrn chwythiad cryf, a llanwodd yr holl dŷ lle yr eisteddent." Gwedi hyny, ymddangosodd iddynt "dafodau gwahanedig megys o dân," ac "eisteddodd," neu ymorphwysodd, un o'r tafodau hyn ar bob un honynt. Ac yna dywedir iddynt gael eu llanw â'r Ysbryd Glân. Ac er dangos mai gwaith yr Ysbryd oedd, chwanegir iddynt "lefaru megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd," neu megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt i lefaru.

Y tafodau "gwahanedig" a ddylai yn hytrach fod yn dafodau gwasgaredig, neu ymdaenedig, sef dros yr holl le. Rhydd-gyfieithiad Schleusner yw, "fflamau o dân yn wasgaredig yma a thraw." Y tebygolrwydd yw, iddynt weled fflamau o dân ar lun tafod, ar wahân, yn y lle yr oeddynt ynddo; a darfod i'r rhai'n orphwys, un o honynt ar bob un o'r apostolion. Eu bod yn dafodau holltiog (*cloven*), yn ol y Seisoneg, nid yw yn gywir. Tybir fod eu hymddangosiad megys tân yn dynodi nerth treiddiol, purawl, a thoddedig yr athrawiaeth a draddodai yr apostolion. A chan eu bod yn dafodau, meddylir gan rai fod cyfeiriad at gymmysgedd tafodau yn Babel, ac y dynodir fod y felldith hono ar gael ei symmud y pryd hwn, gan y cynnysgaethid yr apostolion â gallu i lefaru wrth bob cenedl.

Nid oes i ni ddeall, oddi wrth *adn.* 4, i'r apostolion oll lefaru ar yr un amser, er na ddywedir yn amgen yma. Cawn yn aml yn yr Ysgrythyr yr hyn nad yw yn llwyr eglur mewn un lle yn cael ei gyflawn eglurhau mewn lle arall. Rhydd Paul gyfarwyddyd pendant ar y pen hwn. Gorchymyn i'r rhai a lefarant â thafodau i wneuthur hyny "ar gyich," sef un ar ol y llall: 1 *Cor.* xiv. 27. Felly yn ddiau y gwnai yr apostolion.

Sylwn ar yr amrywiaeth mewn perthynas i'r ddawn hon. Yn gyntaf, ar ddydd y Pentecost, rhagflaenid ef âg arwyddion allanol—y sŵn, a'r fflamau tafodog. Yn ail, cyfrenid ef ar y bedyddiedig trwy osodiad dwylaw yr apostolion: *Act.* viii. 17. Ac yn drydydd, o dan bregethiad Pedr yn nhŷ Cornelius, heb un arwydd allanol, na gosodiad dwylaw chwaith: *Act.* x. 44. Cyfnewidia

Digitized by Google

Duw yn aml y modd o weithredu, fel y byddo da yn ei olwg. Ond yn ol yr hanes a gawn yn Actau yr Apostolion, y modd cyffredin oedd trwy arddodiad dwylaw yr apostolion; a thybir gan rai na chyflwynid y ddawn trwy arddodiad dwylaw neb arall. Eto, darllenwn am Paul, iddo dderbyn y ddawn trwy osodiad dwylaw Ananias, yr hwn oedd ddysgybl, ac nid apostol: *Act.* ix. 17. Er na ddynodir yn benodol yn yr adnod hon am ddawn y tafodau, eto hyn yn amlwg a feddylir; o herwydd yr ymadroddion, "llanw â'r Ysbryd Glân," a "derbyn yr Ysbryd Glân," a ddynodant yn gyffredin y ddawn hon, nid yn unig yn llyfr yr Actau, ond hefyd yn yr epistolau. At hyn y cyfeiria Paul yn *Gal.* iii. 2—5; a thebyg mai y ddawn hon a feddylir wrth "y rhodd nefol" yn *Heb.* vi. 4. Ni sonir dim yn benodol am y ddawn hon ond yn yr Actau a'r Epistol Cyntaf at y Corinthiaid. Bernir gan rai y cyfeiria Paul at y ddawn hon yn *Rhuf.* i. 11; o'r hyn lleiaf, ei bod yn un o'r doniau yr ewyllysiai ei chyfranu iddynt. Mae yn dra thebygol nad oedd yn yr eglwys oedd yn Rhufain un o'r doniau gwyrthiol y pryd yr ysgrifenasai Paul ati; o herwydd wrth enwi, yn *pen.* xii. 6—8, y swyddi oeddynt i'w cyflawnu, nid yw yn son am un o'r doniau hyn; a'r hyn a ddywedir am yr achos o hyn yw, am na ymwelodd un apostol hyd yn hyn â Rhufain; gan mai trwy arddodiad dwylaw yr apostolion y cyfrenid yn gyffredin y doniau hyny.

Ond gofynol yw nodi yr hyn a ddywedir gan Paul yn ei Epistol Cyntaf at y Corinthiaid. Crybwylla, yn *pen.* xii, am yr amrywiol ddoniau, y rhan fwyaf yn wyrthiol, a gyfrenid yn ei amser; a dywed am danynt mai rhoddion yr Ysbryd oeddynt oll, heb nodi y modd y cyfrenid hwynt; "a'r holl bethau hyn," meddai, "y mae yr un a'r unrhyw Ysbryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'r neilldu, megys y mae yn ewyllysio;" *adn.* 11. Ac yn *pen.* xiv, geilw y Corinthiaid i gyfrif am y diffyg trefn oedd yn eu mysg, yn enwedig o ran dawn y tafodau. Oddi wrth yr hyn a ddywed, gallwn gasglu y pethau canlynol:—

1. Bod y ddawn hon, nid fel y ddawn i iachau, yn achlysurol, ond yn barhaus, yn tebygu yn hyn i unrhyw ddawn naturiol. Pe na buasai o'r fath hyn, ni buasai modd i'w chamarferyd. Y ddawn i iachau oedd yn ol yr hyn a welai yr Arglwydd yn dda; am hyny, nis gellid ei chamddefnyddio.

2. Yr oedd y rhai a gynnysgaethid â'r ddawn hon yn deall yr hyn a lefarent, er mewn iaith na ddysgasent yn flaenorol. Hyn sydd amlwg oddi wrth yr hyn a ddywedir yn *adn.* 4 a 14. Ni chyfieithir yn gyffredin yr adnod hon, na'r un ganlynol, yn ol eu hiawn ystyr. Fel yr arwydda *gobaith* weithiau yr hyn a obeithir (*Rhuf.* viii. 24; 1 *Cor.* ix. 10); felly, *deall* yma sydd i'w gymmeryd am yr hyn a ddeallir, neu y sydd yn ddealladwy. Rhoddwn y cyfieithiad canlynol:—"Canys os gweddïaf â thafod, fy ysbryd a weddïa; ond yr hyn a ddeallaf sydd yn ddiffrwyth (heb fudd i'r gwrandawyr). Pa beth ynte sydd *i'w wneyd?* Gweddïaf â'r ysbryd, a gweddïaf hefyd yn ddealladwy (sef i'r gwrandawyr); canaf â'r ysbryd, a chanaf hefyd yn ddealladwy." Dyma fel y golygir y geiriau gan Beza, Lightfoot, Lock, ac ereill: ac y mae yr adnodau amgylchol yn eglur ddangos mai hyn yw yr ystyr. Rhaid cyfieithu "trwy fy neall," yn *adn.* 19 yn yr un modd—"trwy fod yn ddealladwy."

3. Yr oedd y ddawn o lefaru â thafodau, a'r ddawn o gyfieithu tafodau, yn wahanol, gan eu nodir felly yn 1 *Cor.* xii. 10. Ond perchenogid y ddawn gan rai, fel yr ymddengys oddi wrth *adn.* 5 a 13; a gwelwn oddi wrth yr *adn.* 27 a 28, fod ereill nad oedd ganddynt ond un o'r doniau hyn.

4. Ymddengys fod rhai yn meddu y ddawn hon yn helaethach nag ereill, gan y llefarent mewn mwy o ieithoedd. Felly y dywed Paul am dano ei hun: 1 *Cor.* xii. 10. Nid annhebyg yw mai un iaith a roddid i bob un o'r apostolion ar ddydd y Pentecost, gan mai un flaen dafodog a orphwysai ar bob un o honynt.

5. Nid dawn er adeiladaeth yr eglwys oedd y ddawn hon, ond er argyhoeddi anghredinwyr: 1 *Cor.* xiv. 21, 22. Ac er bod y Corinthiaid yn awyddus am dano, nid oedd o gymmaint defnydd i'r eglwys nac o gymmaint gwerth i'w berchenog, ag amryw o ddoniau ereill, yn enwedig cariad: 1 *Cor.* xiii. 1; xiv. 1. Tuedd dyn yw ceisio yr hyn a'i dyrchafo yn ngolwg dynion, yn hytrach na'r hyn a'i gwnelo yn ddefnyddiol, neu yn gyffelyb i Dduw.

Mae achos i feddwl nad hir y bu y ddawn hon yn yr eglwys. Ni sonir dim am dani yn yr epistolau diweddaf, naill ai o eiddo Paul neu yr apostolion ereill, Iago, Pedr, Ioan, ac Iudas, pan y cyfeiriant at rai o'r doniau gwyrthiol ereill. Dawn angenrheidiol oedd ar y dechreu. Darfyddodd, fel y mae yn debyg, yn raddol, gan barhau mewn rhan hyd ddiwedd yr oes apostolaidd. Dywed Irenæus, yn yr ail ganrif [llyfr v. pen. 6], "Ni a glywsom frodyr lawer, a chanddynt ddoniau ysbrydol, yn llefaru mewn amrywiol dafodau." Gallasai ef glywed y rhai a gynnysgaethid â'r doniau hyn gan yr apostolion. Cyfeiria at amser a aethai heibio, "Ni a glywsom;" ond ni ddywed am yr amser yr ysgrifenasai ynddo. "Llawer o'r Cristionogion cyntaf," medd Mosheim, yn ei hanes am y ganrif gyntaf [pen. 4], "mor gynted ag y bedyddid hwynt, yn ol gorchymyn Crist, ac eu cyflwynid i wasanaeth Duw trwy weddi ddifrifol, a lefarent ieithoedd na wyddent ac na ddysgasent o'r blaen." Ac yn yr ail ganrif [pen. 1], dywed fel y canlyn:—"Y doniau hyn (gwyrthiol) a roddasid er dybenion doeth a phwysfawr, a ddechreuasant leihau yn ol lleihad yr achosion y rhai o'u herwydd y cyfrenid hwynt. Ac felly, pan lewyrchwyd yn mron yr holl genedloedd gan y gwirionedd, a chynnyddu yn feunyddiol o'r eglwysi yn mhob lle, yna dechreuodd yn raddol ddawn gwyrthiol y tafodau leihau. Ymddengys, ar yr un pryd, trwy dystiolaethau diammheuol, ddarfod i ddoniau gwyrthiol ereill, y rhai yn helaeth a gyfoethogasai Hollalluogrwydd a doethineb y Goruchaf â hwynt yr eglwys ar ei dechreu, gael eu parhau trwy y canrif hwn (yr ail)."

Hòna Eglwys Rhufain fod gwyrthiau wedi parhau trwy bob oes, a chofrestra wyrthiau aneirif a wnaed, fel y dywed, gan ei haelodau. Ond y maent gan mwyaf yn gyfryw nas gall neb o synwyr diledrith eu coelio; a buont yn un o'r achosion penaf o'r anffyddiaeth a genedlai yn mhob oes. Felly y gwyrthiau a ymffrostia ynddynt a ddygasant ac a ddygant ffrwyth hollol wrthwyneb i'r gwyrthiau cyntefig. Gwnaed gwyrthiau gynt ag oeddynt yn foddion i ddiddymu anffyddiaeth, ond gwyrthiau Eglwys Rhufain a barant anffyddiaeth; ond nid ydym yn cofio darllen iddi erioed hòni hawl i ddawn y tafodau—yr hynotaf o'r holl ddoniau gwyrthiol, a'r anhawddaf i'w hefelychu. Nis gwyddom am un ymgais o'r

Digitized by Google

fath hyn, ond yr hyn a wnaed ychydig flynyddoedd yn ol gan y diweddar Edward Irving—dyn mor nodedig o ran helaethrwydd ei ddeall a'i ddoniau naturiol, ag oedd o ran diffyg pwyll, synwyr, a doethineb. Ond methodd yn hollol yn ei ymgais, a gwnaeth ei hun a'i ganlynwyr yn wrthddrychau gwawd, dirmyg, a gwarth:—taledigaeth ddyledus i ryfyg a balchder ysbrydol.

DAVIES, FRANCIS, D.D.: esgob enwog a duwiol; brodor o sir Forganwg, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1611. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1628, lle y cymmerodd ei raddau yn y celfyddydau, ac y gwnaethpwyd ef yn gymmrodor. Wedi iddo gymmeryd urddau, derbyniodd fywoliaeth yn ei wlad enedigol. Dyoddefodd lawer drwy ei fod yn un o bleidwyr y teulu breninol. Ond ar ol yr adferiad, derbyniodd yn ol yr hyn a gollasai. Yn 1660, daeth yn archddiacon Llandaf; ac yn y flwyddyn ganlynol, cymmerodd ei radd o D.D. Yn 1667, ar farwolaeth y Dr. Hugh Lloyd, cyssegrwyd ef yn esgob Llandaf. Bu farw yn 1674, a chladdwyd ef yn ei eglwys gadeiriol. — (*Woods' Ath. Oxon. Le Neve's Fasti; Williams' Biog. Dict.*)

DAVIES, JOHN, D.D., a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw "y Dr. Dafis o Fallwyd," a anwyd, fel y tybir yn gyffredin, o gylch B. A. 1570, yn mhlwyf Llanferes, sir Ddinbych. Yr oedd yn disgyn o deulu Cymraeg pendefigaidd, o du ei dad a'i fam; canys dywed Yorke, yn ei *Royal Tribes of Wales*, fod ei dad o lwyth Marchudd ap Cynan. Enw ei dad oedd Dafydd ap Ioan (neu Sion, gwehydd, mewn sefyllfa gysurus yn mhlwyf Llanferes, sir Ddinbych), ap Rhys, ab Ednyfed, o Lanrhaiadr yn nghwmmwd Cynmeirch, cantref Ystrad, yn sir Ddinbych; a'i fam, sef gwraig Dafydd ab Ioan ap Rhys, ydoedd Elisabeth, merch Lewis Dafydd Llwyd, o hiliogaeth Ednyfed Fychan, un o farchogion Llywelyn Fawr, Tywysog Cymru. Ychydig iawn o gofnodau am y Cymreigydd dysgedig a llafurus hwn sydd ar gael, ac ystyried pa mor ddiweddar yr oedd yn byw; ond y mae cywydd o waith Rhisiart Cynwal, i ofyn Beibl gan y Dr. Davies, dros Robert ap Heilyn, yn cofnodi tad y Dr., ac yn dangos ei fod yn dal perthynas â'r teuluoedd anrhydeddusaf yn Ngogledd Cymru yn eu hamser. Yn y cywydd hwnw, dywedir,—

"Dwyfol wyt, Siôn, diflot, sad,
Dafis ireidd-ber dyfiad;
Hollwaed Dafydd lle tyfych,
Hap i ryw Siôn ap Rhys wych."

Mewn llythyr, wedi ei ddyddio Awst 26, 1623, at Syr John Wynn o Wydyr, wrth son am gyhoeddi *Geiriadur Lladin a Chymraeg* Syr Tomas ab Wiliam, y mae yn galw yr hynafiaethydd enwog, R. Fychan, o'r Hengwrt, yn gefnder; yr hyn a brawf ei darddiad anrhydeddus, megys ag y dangoswyd uchod.

Cafodd gwrthddrych y byrgofiant hwn ei addysg foreuol yn ysgol ramadegol Rhuthyn, yr hon a sefydlasid ychydig flyneddoedd cyn hyny gan y Dr. Gabriel Goodman. Ei athraw yno ydoedd y Dr. Richard Parry, yr hwn a ddyrchafwyd wedi hyny i esgobaeth Llanelwy; a hyn, mae yn debyg, a fu yr achlysur i ddechreu y gyfeillach garedig rhwng yr athraw a'r dysgybl, a barhaodd hyd derfyn eu hoes, ac a drodd allan o gymmaint elw i Davies wedi hyny, pan ddyrchafwyd ei hen athraw i'r esgobaeth.

Gellir casglu oddi wrth grybwylliad sydd yn rhagymadrodd y Dr. Davies i'w *Eiriadur Cymraeg a Lladin*, iddo fod dan addysg y Dr. Morgan hefyd, cyfieithydd enwog y Beibl; canys wrth grybwyll am "y gwŷr godidog a dysgedig," a gyfansoddasant eirlyfrau Cymraeg yn yr ysbaid o gylch trigain mlynedd o'i flaen ef, dywed,—

"Yn gyntaf, y Parchedig William Morgan, dysgawdwr duwinyddiaeth, o ysgol Caergrawnt, cyfieithydd cywir a ffyddlawn yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg, esgob gwyliadwrus Llandaf yn gyntaf, ac wedi hyny esgob Llanelwy, enw yr hwn sydd hyfryd genyf ei draethu â'm genau; canys wrth draed y Gamaliel hwn y cefais fy addysgu a'm dwyn i fyny."

O ysgol Rhuthyn, efe a symmudodd i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, B.A. 1589. Ni bu ei arosiad yno y tro cyntaf dros bedair blynedd; ond yn yr ysbaid hwnw, cafodd y radd o Wyryf yn y Celfyddydau, a chyrhaeddodd gryn enwogrwydd mewn dysgeidiaeth golegol. Yn 1593, efe a ymadawodd o Rydychain o blegid diffyg moddion i aros yno yn hwy, fel y tybia rhai, ac a ddychwelodd i Gymru, lle yr ymroddodd i fyfyrio duwinyddiaeth, ac i helaethu ei wybodaeth yn iaith a hynafiaethau ei wlad. Rhaid ei fod wedi dechreu efrydu y Gymraeg mor fore a hyn, o leiaf; canys dywed yn y rhagymadrodd i'w ramadeg, a gyhoeddwyd yn 1621, ei fod wedi cyssegru ei amser hamddenol er ys mwy na deng mlynedd ar ugain at hyn o orchwyl. Yn y flwyddyn ar ol iddo ymadael o Rydychain, cymmerodd ei ordeinio; ond bu am ddeng mlynedd ar ol hyny cyn cael unrhyw ddyrchafiad eglwysig. Yn 1604, ar ol marwolaeth y Dr. Morgan, a chyn i'r Dr. Parry gael ei ethol i esgobaeth Llanelwy yn ei le, cafodd Davies ei anrhegu â pherigloriaeth Mallwyd, yn sir Feirionydd, gan Iago I.; ac yn fuan ar ol hyny, gwnaed ef yn gaplan i'w gyfaill Parry, sef pan ddyrchafwyd yr olaf i'r esgobaeth.

Ar ol preswylio yn y wlad am gryn bymtheng mlynedd, a chael tipyn o foddion trwy ei berigloriaeth a'i gaplaniaeth, efe a aeth i Rydychain drachefn, yn 1608, ac a dderbyniwyd yn aelod o Goleg Lincoln, fel darllenydd o frawddegau yr esgob Lombard, wedi cael caniatâd yn mlaen llaw i beidio rheoli yn y celfyddydau. Nis gellir penderfynu yn fanwl pa faint o amser yr arosodd yr ail dro yn Rhydychain; ond gellir casglu na bu yno yn hir, gan y canfyddir ef yn 1612 yn cael ei ethol i ganoniaeth Llanelwy. Yn 1613, cafodd beriglloriaeth Llan y Mawddwy, yn sir Feirionydd; ac yn 1615, cafodd ficeriaeth Darowain, yn sir Drefaldwyn, yr hon a roddodd i fyny er mwyn cael Llanfawr, ger y Bala; a dywed rhai fod Garthbeibio hefyd ganddo.

Yn 1616, cymmerodd radd o Ddoctor Duwinyddiaeth; ac yn 1617, efe a gyfnewidiodd ganoniaeth Llanelwy am gôrberigloriaeth Llannefydd. Ymddengys wrth gywydd Rhisiart Cynwal, y cyfeiriwyd ato eisoes, fod Mallwyd, Llan y Mawddwy, Llanfawr, a Llannefydd, ganddo ar unwaith, os nad oedd Garthbeibio hefyd. Dyma fel y dywed y bardd wrtho:—

"Mae iti renti drwy ras,
Mab dewrddoeth, mwy bo d' urddas
Mallwyd sydd am wellad sant,
A Mawddwy yn eich meddiant,
A Llanfawr blaenawr heb ludd,
Llawn afael a Llannefydd."

Pan oedd y Dr. Parry, yn 1620, yn diwygio cyfieithiad y Dr. Morgan o'r Beibl, cafodd gynnorthwy nid bychan yn y gorchwyl gan y Dr. Davies; a bernir, medd y *Gwladgarwr*, mai iddo



Digitized by Google

ef y dylid priodoli llawer o gywreinrwydd yr argraffiad hwnw. Mae yn hawdd canfod yn rhagymadrodd Lladin y Dr. i'w eiriadur, fod ganddo ef law arbenig yn nghyfleithiad yr Ysgrythyrau, lle y dywed,—

"Os bydd rhai yn barod i feio arnaf, meddaf, a thaeru fy mod megys yn fy ail fabandod, am fy mod yn ymyryd â'r pethau plentynaidd hyn, fel y geilw rhai hwynt; eto, yr wyf yn gobeithio y caf faddeuant yn hawdd, hyd yn oed gan y bobl hyn, pan y deallont fy mod megys wedi lladrata yr amser a weriais yn nghylch y llyfr hwn [y *Geiriadur*] oddi wrth bethau ereill mwy pwysfawr (canys yr wyf yn ewyllysio rhoddi cyfrif o'm holl amser i'r rhai sydd yn chwilio mor fanwl am bob gwall i'm barnu yn euog); ac yr wyf yn meddwl fod yr amser a dreuliais at gyfansoddi y geirlyfr yn fuddiol a llesol, o herwydd y byddwn arferol o ddychwelyd oddi wrth y gorchwyl ysgafn hwn, fel y'i gelwir, efo mwy o awydd a chydag astudrwydd a diwydrwydd newydd, dauddyblyg, at y pethau pwysfawr hyny, sef pregethu yr efengyl, a chyfleithu yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg."

Y mae rhai yn meddwl fod gan y Dr. Davies law hefyd yn nygiad cyfleithiad y Dr. Morgan yn mlaen; a thybiant y cefnogir hyny gan ymadrodd o waith y doctor ei hun, sydd yn ei ragymadrodd i'w *Ramadeg*, lle y dywed:—"*Utrique S. S. Bibliorum interpreti Brit. indignus fui administer.*" Ond argraffwyd cyfleithiad y Dr. Morgan yn 1588, pan oedd Davies yn 18 oed; am hyny, nis dichon fod y gwasanaeth a wnaeth ef i gyfleithiad y Dr. Morgan o nemawr bwys. Heb law hyny, dangosir ganddo ef ei hun mai ar ol hyn, sef o gylch 1593, yr ymroddodd efe i fyfyrio iaith ei wlad yn egniol.

Y mae yn dra sicr mai efe a gyfieithodd y "namyn un deugain erthyglau crefydd" sydd yn y *Llyfr Gweddi Gyffredin*; canys cyhoeddwyd hwynt yn llyfr ar wahan, yn 1664, sef yn mhen ugain mlynedd ar ol ei farwolaeth, â'i enw wrtho, dan yr enwad yma:—"*Articlau—Y Namun un deugain Articlau Grefydd. O gyfieithiad J. D., S.S.T.P.*"

Y gwaith pwysig nesaf a wnaeth, yn 1621, oedd *Gramadeg Cymraeg yn Lladin*, dan yr enwad:—"*Antiquæ Linguæ Britannicæ Rudimenta, sive Wallicæ Grammatica*;" hyny yw, "*Elfenau yr Hen Iaith Frutanaidd, neu Ramadeg Cymraeg.*" Y mae hwn yn waith gwir ddysgedig—yn eglurhad rhagorol ar elfenau a neillduolion y Gymraeg, fel y mae yn proffesu bod. Y mae yn tra rhagori, mewn amryw bethau, ar bob Gramadeg Cymraeg a gyhoeddwyd ar ei ol; a dengys yr awdwr, nid yn unig eangder ei wybodaeth o ansoddau yr iaith, ond hefyd ei fod yn dra hyddysg yn ngwaith y rhai oedd wedi ysgrifenu ynddi o'i flaen, yn enwedig gwaith y beirdd. Rhagflaenir y llyfr gan lythyr cyflwyniadol i'r esgob Parry, a rhagymadrodd, mewn ffordd o lythyr, at y Dr. Edmund Prys. Yn y rhagymadrodd, dywed yr awdwr iddo fod yn dyfal fyfyrio yr iaith dros fwy na deng mlynedd ar ugain o'i oes. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r gramadeg yma yn 1809, dan arolygiad y Parch. Henry Parry, ficer Llanasa, yn sir Fflint.

Ond yn 1632 y dygodd y Dr. Davies allan ei orchestwaith penaf, sef ei *Eiriadur Cymraeg a Lladin*, ar ba un y dibyna ei enwogrwydd llenyddol, yn enwedig fel egluriydd iaith ei wlad. Yr oedd efe wedi dechreu y gwaith llafurfawr hwn er ys cryn ddeugain mlynedd cyn ei gyhoeddi, fel y tystia ei hun mewn llythyr wedi ei amseru Ionawr 23ain, 1627, at Mr. Owen Wynn o Wydyr, mab Syr John Wynn:—"Ond am fy ngeiriadur fy hun," eb efe, "yr hwn a ddechreuais er y flwyddyn 1593, nid wyf ond dechreu ei ysgrifenu yn deg; eto, hyderaf y bydd yn barod os caniata Rhagluniaeth, erbyn dechreu yr haf. Lladin yn gyntaf a'r Gymraeg yn canlyn sydd gan Syr Tomas ap Wiliam; a'r Gymraeg yn gyntaf a'r Lladin ar ol hyny sydd yn fy un innau."

Y mae yn annichonadwy darlunio y llafur dirfawr a gafodd y doctor i gwblhau y geiriadur hwn, gystal a'r llafur a ofyna pob geiriadur arall, yn fwy tarawiadol nag y gwna yr awdwr ei hun, yn ei ragymadrodd Lladin i'r gwaith, lle y dywed:—"Ac na fydded i ti gamgymmeryd chwaith, ddarllenydd anwyl, na meddwl i mi orphen hyn o gasgliad yn ddiboen, ac yn ddidrafferth, ac yn debycach i un a fyddai yn chwareu, megys, yn hytrach nag i ddyn a fyddai yn astudio ac yn ymdrafferthu yn ddiwyd. Canys bydded sicr i ti mai gwaith pwysfawr a llafurus ydyw cyfansoddi geiriadur mewn unrhyw iaith gyffredin, fel y byddo iddo ryngu bodd i'r genedlaeth bresennol; a mwy o lawer fyddai yr anhawsdra i'w gyflawnu yn y fath fodd ag y byddai iddo ateb dysgwyliad yr oesoedd i ddyfod. Y mae y gospedigaeth druenus ac echryslawn hono a welodd Duw yn dda ei rhoddi ar blant dynion, sef cymmysgiad yr ieithoedd yn Nhŵr Babel, wedi gormesu ac arglwyddiaethu cymmaint ar yr holl ieithoedd, ac wedi eu dadymchwelyd yn y fath fodd, fel ag y maent yn parhau i gael eu cyfnewid a'u llygru o'r amser hwnw hyd yr awr hon, a hyny, nid yn unig yn ngwlad Syria, ond hefyd trwy yr holl fyd. Ac y mae yr ymrafaelion a'r dadleuon sydd beunydd yn dygwydd yn mhob dysgeidiaeth a chelfyddyd, o herwydd yr achos hwn (ansicrwydd ystyr amryw eiriau mewn ieithoedd) yn dwyn mawr ofid, a thristwch, a galar, a llafur i'r dysgedig; a phoen a thrafferth i'r bobl gyffredin a'r annysgedig. A dyma yr achos fod gramadegau a geirlyfrau yn cael eu cyfansoddi a'u hargraffu yn mhob iaith, i'r dyben o sefydlu ystyr ac arwyddocâd geiriau mewn modd anghyfnewidiol. Eto er hyn i gyd, y mae ieithoedd yn gyffredin mor ddiffygiol ac anghyflawn, a chymmaint o wagleoedd a thyllau megys ynddynt, fel, er mwyn eglurhau amryw bethau a chelfyddydau a arwyddoceir mewn un iaith âg enwau cyfaddas a pherthynasol, a phriodol iddynt eu hunain, y mae yn angenrheidiol, mewn iaith arall, naill ai arfer amryw eiriau i'r dyben i amlygu ac eglurhau un gair, neu ddychymygu a bathu gair newydd i gyflawnu y diffyg. Ac o herwydd hyn, y mae yn gofyn fod y dyn sydd yn ewyllysio cyfansoddi geiriadur cyflawn a pherffaith o unrhyw iaith, nid yn unig yn meddu tair calon, fel y dywed Ennius am dano ei hun; neu dri thafod, fel y mae Varro yn son am y Messaliaid; ond, fel Mithridates, yn amgyffred ac yn deall amryw ieithoedd yn hollol berffaith; megys yr Hebraeg, y Galdaeg, y Syriaeg, y Dalmudaeg, yr Arabaeg, yr Indiaeg, yr Armeniaeg, yr Ethiopaeg, y Twrcaeg, y Groeg, y Lladin, ac amryw ieithoedd ereill. I ddysgu y rhai hyn yn gyflawn, y mae holl amser bywyd dyn yn rhy fyr ac anghyfatebol. Y bobl hyn yn unig a allant amgyffred a mynegu y mawr a'r digyffelyb anhawsdra i gyfansoddi geiriadur, y rhai a fuant eu hunain yn llafurio yn nghylch y cyfryw orchwyl. Hwy a allant mewn rhan amgyffred y boen a'r llafur a gefais

i, ddydd a nos i chwilio allan a chasglu ac ysgrifenu y fath leng neu luaws o eiriau, a gosod pob un yn y lle a'r sefyllfa berthynasol iddo ei hun: hwy yn unig a allant ddeall y drafferth a gefais i chwilio a darllen amryw lyfrau i gael gweled gwir ystyr ac arwyddocâd pob gair; ac wedi y cwbl, eu hysgrifenu a'u hadysgrifenu oll, ddwy waith neu dair, yn addas ac yn deg allan. Ac fel y byddai y gwaith hwn yn fwy perffaith a chyflawn, myfi a ddarllenais agos yr holl lyfrau sydd yn yr iaith Gymraeg, yn gystal y rhai sydd o waith llaw neu ysgrifenedig, a'r rhai argraffedig, ond yn enwedig gwaith y beirdd a'r prydyddion, y rhai sydd yn mhob iaith agos yn sefydlu ystyr geiriau, ac yn fynych yn rhoddi iddynt arwyddocâd neillduol: hyn a fu er mawr les a budd i mi i'r dyben o sefydlu ystyr geiriau, a'u hysgrifenu yn iawn. Ond er bod gwaith y beirdd o bob gwlad yn dywyll ac yn anhawdd ei amgyffred, eto nid ydwyf yn meddwl fod ysgrifeniadau y beirdd mewn un iaith yn fwy tywyll a dyrys, ac annealladwy, nag yn y Frutaniaeth. O herwydd pa ham, poenus a thrafferthus iawn a fu y gwaith o'u darllen hwynt i mi, yn enwedig o achos fy mod wedi methu gweled un dyn oedd yn eu deall yn y mesur lleiaf, fel y byddai i mi ddadgan fy meddyliau yn eu cylch wrtho, ac fel y cydymgynghorem o'u plegid."

Ar ddymuniad Syr John Wynn o Wydyr, dechreuodd y Dr. Davies, yn Ebrill, 1626, arolygu a diwygio *Geiriadur Lladin a Chymraeg* Syr Tomas ap Wiliam, y crybwyllwyd am dano eisoes, yr hwn oedd mewn llawysgrifen; a gorphenodd hyn o orchwyl, medd efe yn ei lythyr at Mr. Owen Wynn, yn Ionawr y flwyddyn ganlynol. Gyda golwg ar yr hyn a wnaeth i hwn, y mae yn dyweyd yn ei ragymadrodd Lladin fel y canlyn:—"Na fydded i ti feddwl na chymmerais ddim chwaneg o boen a thrafferth yn nghylch *Geiriadur Lladin a Chymraeg* y Dr. Tomas ap Wiliam na'i ailysgrifenu ef allan o'i ysgrifenlaw ef ei hun; ond gwybydd fy mod wedi angwanegu amryw eiriau Cymraeg, i'r dyben o eglurhau yn fwy cyflawn ystyr ac arwyddocâd y geiriau Lladin. Yr wyf hefyd wedi ei ddiwygio o'r aneirif feiau a'r gwallau oedd yn bur aml yn rhedeg drwy gorff yr holl lyfr; ac fel y byddai yn fwy perffaith, ac ar yr un pryd yn llai ei faintioli, mi adewais allan yr holl eiriau Hebraeg a Groeg, ac amryw ereill oedd ynddo, gan fy mod yn barnu y gall y rhai sydd yn ewyllysio gwybod ystyr y cyfryw eiriau eu chwilio hwy allan yn ngeirlyfrau y rhagddywededig ieithoedd. Mi a adewais heibio hefyd lawer o eiriau cyfansoddedig a chyssylltiedig, ac amryw eiriau oedd yn tarddu neu yn deilliaw o rai ereill; ac, yn agos yr holl rangymmeriadau, a rhai o'r goreiriau, o achos bod yn hawdd chwilio allan a gweled ystyr y rhai hyn oddi wrth y ffynnonau o ba rai y maent yn tarddu, sef y cyssefiniaid, yr unigoliaid, y berfau, yr enwau gweiniaid, yr un fath ag yr adwaenir plant oddi wrth eu rhieni: mewn byr eiriau, yr ydwyf wedi cyfnewid, adferyd, difeio, a iachau, pa le bynag yr oedd eisieu llaw y meddyg; yr hyn sydd wedi rhoddi gwedd newydd ac arall oddi wrth yr un gyssefin, fel y gellir ei alw yr awr hon yn waith i mi fy hun, yn hytrach na gorchwyl y meddyg Syr Tomas ap Wiliam, er fy mod wedi sylfaenu hwn megys ar hwnw."

Yn y flwyddyn 1627, dygodd y Dr. Davies ei lafur geiriadurol i derfyniad, trwy orphen ei *Eiriadur Cymraeg a Lladin* ei hun, a newid un Lladin a Chymraeg Syr Tomas ap Wiliam, a chwanegu ato, fel y barnodd yn briodol; a phum mlynedd ar ol hyny, fe ddygodd y ddau waith allan, mewn un llyfr, dan yr enw "*Antiquæ Linguæ Britannicæ et Linguæ Latinæ Dictionarium Duplex*;" hyny yw, "Geiriadur Dyblyg o'r Hen Iaith Frutanaidd a'r Iaith Lladin."

Y mae *Botanologium*=Llysieueg, lled helaeth wedi ei chwanegu at y *Geiriadur Cymraeg a Lladin*; a'r "Diarhebion Cymraeg," "Y pedair Camp ar hugain," ac "*Authorum Britannicorum nomina et quando floruerit*"=enwau yr awdwyr Brutanaidd a'r amser y blodeuent, wedi eu chwanegu at yr un Lladin a Chymraeg. Ymddengys oddi wrth lythyr Lladin a ysgrifenodd y Dr. Davies at un Syr Simonds D'Ewes, ei fod wedi cyfieithu ac egluro y "Diarhebion Cymraeg;" a dywedir fod y llawysgrif yn cynnwys casgliad tra helaeth yn nghadw hyd y dydd hwn yn y *British Museum*, yn Llundain. Anfonwyd y llythyr crybwylledig o Fallwyd, wedi ei amseru Chwefror 2il, 1640; a dechreua fel hyn:—"Pan ddaeth eich llythyr i'm llaw, nid oedd genyf gyfieithiad o'r Diarhebion Brutanaidd o'r fath a ddeisyfech. Ond cyn gynted ag y derbyniais ef, dechreuais ar y gorchwyl o'u deongli; ac yr wyf yma yn anfon i chwi ychydig leni, a thrwy ganiatâd Duw, mi a yraf i chwi y gweddill ar fyrder."

Cyflwynwyd y geiriadur i Charles II., oedd y pryd hyny yn "Vchel Allvocaf Dywysog Cymbrû," chwedl R. Fychan; ond ymddengys na ddygodd y warogaeth yma i'r llys ddim budd i'r awdwr; canys gellir casglu oddi wrth y llythyr y cyfeiriwyd ato fwy nag unwaith o'r blaen at Mr. O. Wynn, mai'r Gwyniaid o Wydyr a fuant gynnorthwyol i'r awdwr i ddwyn ei waith gorchestol allan. Dyma fel y dywed yr awdwr ei hun:—"Mewn perthynas i gost yr argraffu, dymunai eich tad unwaith gael ei wybod; ac anfonais innau ateb iddo y byddai o gylch lxxvii bunt, o'r hyn nid oedd efe fodlawn i dalu ond xli; ond deallais wrth eich llythyr chwi, fod eich arddderchog frawd yn bwriadu rhoddi chwaneg. Daw cost y diwygiwr, am edrych dros yr argraffu, i 60*p*. neu 70*p*. chwaneg. Os rhynga bodd Syr Richard roi cynnyg ar gyfeillion, er gweled beth a ellir ei gael at y gost hono, ac os gwel yn dda adael i mi gael clywed oddi wrtho, mi a wnaf fwy o frys, ac a ymdrechaf i fod yn gwbl barod erbyn canol yr haf."

Gwnaeth Dr. Davies gymmwynas annhraethol i'w iaith a'i genedl, trwy gyhoeddi ei eiriadur, yr hwn, yn deilwng, a barhaodd yn safon yr iaith am yn agos i ddau can mlynedd, sef hyd ymddangosiad geiriadur godidog y Dr. Pughe; a diau fod yr awdwr yn bur deilwng o'r cymmeriad a roddai Wood iddo, "ei fod yn dra hyddysg yn hanes a hynafiaethau ei genedl ei hun, yn feirniad o'r cywiraf yn yr ieithoedd Groeg a Hebraeg, yn ymchwiliwr diflino i hen ysgrifeniadau, ac yn bur gydnabyddus âg awduron cywrain ac anghyfredin." Pan gyhoeddodd y Dr. Davies ei eiriadur, gellir casglu y meddyliodd rhai fod geirlyfraeth Gymraeg wedi cyrhaedd perffeithrwydd cyflawn; ac ni wnaed un ymgais at chwanegu dim at ei waith ef, neu ddiwygio dim arno, am gryn chwech ugain mlynedd. Pa fodd bynag, anturiodd y craffus Llywelyn Ddu o Fôn (Lewis Morris) ddywedyd ei feddwl yn bur ddiseremoni am y geiriadur dan sylw, heb ofalu dim beth oedd barn ereill am dano, mewn llythyr at un Mr. Pegge, fel hyn:—"Mae hyn

Digitized by Google

i'w briodoli yn benaf i'n diffyg o eiriaduron da: gwaith brys ydyw geiriadur y Dr. Davies, y goreu sy genym, ac nid yw yn cynnwys dros hanner corff ein iaith, yr hyn a barodd i mi er ys deugain mlynedd bellach wneyd cymmaint o chwanegiadau ato, er fy mudd fy hun, ag a allwn yn ystod fy narlleniad. Gwnaeth Mr. Edward Llwyd ychydig yn y ffordd hono yn ei *Arch. Brit.*, ond nid yw'r cwbl o'n geiriaduron ereill ond sothach a hudlewyrn. Nid oedd T. Richards, a grybwyllwch yn un o'ch llythyrau at y Dr. Phillips, yn gymhwys at y gorchwyl: cymmerodd efe i mewn hyd yn oed wallau y Dr. Davies, a chwanegodd lawer atynt o'i eiddo ei hun, ac eiddo ei ohebwyr, enwau y rhai yn ffol a roddodd efe yn mysg ei hen awdwyr hybarch, megys pe sypynid Quarles a Cibber i fyny gyda Horas a Virgil. Yr oedd Richards yn llafurus, ond yn hynod anwybodus a hwyrdrwm. Yr oedd y Dr. Davies yn ddyn o wybodaeth ddofn mewn ieithoedd, yn brydydd Cymraeg go dda, ac yn dra hyddysg yn ein iaith, fel yr ymddengys oddi wrth sylwadau yn ei ysgriflaw sydd yn fy meddiant i; ond yr oedd yn gwbl anwybodus o athroniaeth naturiol, ac anturiaf ddyweyd na wyddai efe ddim am anifeiliaid, oddi gerth ei ysgrubliaid a'i ednod ei hunan. Cyfleithodd enwau ei anifeiliaid, ei lysiau, a'i gloddilion (*fossils*) o eiriaduron gwaelion, pan ydoedd athroniaeth naturiol yn ei babandod; am hyny, ni ddylid ymddiried ynddo braidd mewn un erthygl ar y pethau hyny; ac y mae ei lyfr fel plentyn wedi ei eni yn ei chwe' mis."

Mae rhai wedi bod yn beio Llywelyn Ddu am ddywedyd mai "gwaith brys ydyw geiriadur y Dr. Davies," o blegid fod y Dr. wedi bod wrtho am ddeugain mlynedd; ond nid gyda golwg ar yr amser a gymmerwyd i'w ysgrifenu y galwai Llywelyn ef yn "waith brys," ond gyda golwg ar ei gynnwysiad a'i drefn. Am ei gynnwysiad, dywed Llywelyn nad "yw yn cynnwys dros hanner corff yr iaith;" ond buasai yn nes at y gwir pe dywedasai nad yw yn cynnwys *degwm* yr iaith. Er hyn oll, os cofir mai hwn oedd y geiriadur cyntaf, o ddim pwys, a wnaed yn Gymraeg; ac os ystyrir y llafur dirfawr o gasglu o wahanol lyfrau Cymraeg oedd gan mwyaf mewn hen lawysgrifau hynod o anhawdd eu darllen, hyd yn oed y nifer o eiriau a gynnwys y geiriadur bychan hwn, a'r drafferth o'u trefnu oll drachefn, yn lled agos i egwyddorol—os ystyrir y pethau hyn yn briodol, nis gall un dyn gwybodus, diragfarn, lai nag edrych ar eiriadur y Dr. Davies yn wir orchestgamp, ac ar ei awdwr fel cymmwynaswr mawr i'w genedl. Ond pa mor ragorol bynag oedd y geiriadur yma yn ei amser, nis gellir edrych arno mwyach ond fel cywreinwaith llenyddol, ac nid fel geiriadur defnyddiol ac ymarferol.

Am y geiriadur Lladin a Chymraeg a gyhoeddodd y Dr. Davies, yn nglŷn â'i un Cymraeg a Lladin ei hun, dywed rhai nad ydyw ond talfyriad bychan o eiriadur gwreiddiol Syr Tomas ap Wiliam, ac y byddai cyhoeddi y gwreiddiol hwnw, hyd yn oed yn awr, yn anrheg o'r werthfawrusaf i'r efrydydd Cymraeg. Mae yn sicr y byddai yn hoff gan gannoedd, os nad miloedd, gael y gwaith, fel cywreinbeth llenyddol; ond pa mor orchestol bynag y gallai ei fod yn ei ddydd, nid oedd ei gyfansoddi ond gwaith bychan mewn cymhariaeth i eiriadur Cymraeg a Lladin Davies, gan fod y Lladin oll wedi ei threfnu yn barod, fel nad oedd gan y meddyg, T. ap Wiliam, ddim i'w wneuthur ond egluro y geiriau â Chymraeg briodol.

Yn yr un flwyddyn ag yr argraffwyd y geiriadur, cyhoeddodd y Dr. Davies gyfieithiad Cymraeg o'r llyfr a elwir *Y Resolution*, dan yr enwad canlynol:—"Llyfr y Resolusion; yr hwn sydd yn dysgu i ni bawb wneuthur ein goreu, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Gristionogion, hyny ydyw ar ymadael â'n drwg fuchedd, a throi ar ddaioni a duwioldeb; wedi ei gyfieithu yn Gymraeg y gan J. D., er lles ei blwyfolion; a'i brintio yn Llundain yn nhŷ John Beale, tros yr un J. D. 1632."

Dywedir mai gwaith Iesuad (*Jesuit*), o'r enw Robert Parsons, oedd y llyfr hwn; ond nid oes dim o hynodion Eglwys Rhufain i'w canfod ynddo; ond y mae o duedd wir ymarferol a Christionogol. Y mae "Gweddi yr Arglwydd," a "Chredo yr Apostolion," yn ieithoedd Llydaw a Chernyw, yn niwedd y llyfr; gyda chyfieithiad llythyrenol o "Weddi yr Arglwydd" o'r Llydawaeg a'r Gernywaeg.

Dygwyd ail argraffiad o'r cyfieithiad hwn allan yn 1684, dan olygiad y Cymreigydd medrus hwnw, Charles Edwardes, yr hwn a ddywed ar y wynebddalen—"Fe Brintiwyd y *Llyfr* hwn, er ys mwy nâ hanner cant o Flynyddoedd a aethant heibio, ac yn awr drachefn, nid yn unic er mwyn y *Gymraeg bûr* sydd ynddo, (yn amgenach nag mewn un llyfr arall ond y Bibl) eithr hefyd er mwyn y *Defnydd da*, a ellir ei wneuthur o hono."

Ymddengys fod yr ail argraffiad hwn yn cael ei barotoi i'r wasg, cystal a'r "Llyfr HyfforDD i'r Nefoedd," er y flwyddyn 1677; canys yn y "Llythyr at y Darllenydd," a amserwyd Awst 13eg, 1677, sydd o flaen y "Trysor i'r Cymru," dywedir—"*Os* Duw a rydd iechyd a bywyd, disgwyliwch mewn amser am ail brintio y *Llwybr Hyfforddi'r Nefoedd, a Llyfr y Resolusion*; y rhai, nid yn unic er mwyn y matter, ond hefyd er mwyn y iaith tra-rhagorol sydd ynddynt (ac yn enwedig y diwethaf o'r ddau (o ran iaith) wedi osod allan gan y Cymreigiwr goreu yngHymru, yn ei amser, sef y *Doctor Davies*) a haeddant eu printio drachefn."

Y mae yn amlwg wrth y nodiadau hyn fod gan ein hynafiaid feddwl pur uchel am Gymreigiad y Dr. Davies, ac yr oedd efe yn deilwng o'r cyfryw edmygiad; a phe cymmerai ysgrifenwyr yr oes hon y Dr. Davies, Charles Edwardes, Edward Samuel, ac ereill o gawri Cymreigaidd y dyddiau hyny, yn esamplau, byddai eu Cymraeg yn llawer rhagorach, yn enwedig gyda golwg ar lafarwedd.

Dygwyd y trydydd argraffiad o'r gwaith hwn allan ar draul y gwladgarol Owain Myfyr. Yn yr argraffiad hwn, newidiwyd enw y llyfr; canys yn lle *Llyfr y Resolusion* fel yn y ddau argraffiad arall, gelwir ef yn hwn, *Dyhewyd y Cristion*—enw, y mae yn debyg, o ddyfais y Dr. Pughe.

Fe ddywedir y byddai y Dr. Davies, pan yn darllen gwahanol lyfrau, ac yn cyfarfod â darnau neu ymadroddion a roddent foddhad neillduol iddo, yn dodi nodau ar ymyl y ddalen gyferbyn â hwynt. Fe wnaeth rhywun gasgliad o'r cyfryw ddarnau ar ol ei farwolaeth, gan eu cyhoeddi yn llyfr dan yr enw "*Flores Poetarum Britannicorum*," mewn cyssylltiad â Barddoniaeth Salesbury.

Dywedir y dangosid pregethau gynt, mewn llawysgrifen, yn llyfrgell Ystrad Meurig, am y

Digitized by Google

rhai y dywedid mai pregethau y Dr. Davies oeddynt. Nid ydys yn gwybod am ddim arall o'i gynnyrchion llenyddol ef ei hun; ond dywedir fod ysgriflyfr lled fawr yn meddiant Mr. Justice Bosanquet, yn cynnwys anerchiadau canmoliaethol beirdd ei oes iddo; a gresyn bod y cyfryw heb eu cyhoeddi, gan fod yn dra thebyg y cynnwys y rhai hyny amryw grybwyllion am ei nodwedd a'i fuchedd nas ceir mewn un man arall.

Dywed rhai mai Siân, merch Rhys Wyn, Llwyn On, ydoedd ei wraig; ereill a ddywedant mai chwaer Rhys Wyn, a merch John Wyn ydoedd; ond y mae pawb yn cytuno ei bod yn chwaer i wraig yr esgob Parry, athraw y Dr. Davies, y crybwyllwyd am dano eisoes; a digon tebyg fod hyny yn un achos o'r aml ffafrau a gafodd y doctor gan yr esgob. Ymddengys na bu i Davies blant; ac ar ol iddo farw, dywedir i'w wraig briodi ei gurad, ac mai priodas hynod o annedwydd ydoedd.

Yr oedd ei fywoliaethau eglwysig mor lluosog, fel y dywedir iddo gasglu cryn lawer o gyfoeth oddi wrthynt; ac ymddengys iddo fod yn gymmwynaswr neillduol yn ystod ei fywyd i blwyf Mallwyd a'r gororau. Adeiladodd bont faen ar ei draul ei hun yn agos i'r llan, a elwir Pont y cleifion; a gosodwyd ei enw, J. D., mewn dau fan yn y palmant â cheryg gwynion; y rhai, fel y dywedir, sydd i'w canfod hyd y dydd hwn. Dywed rhai ddarfod iddo adeiladu dwy bont arall gyffelyb yn yr un plwyf. Hefyd, ail adeiladodd ganghell a chlochdy yr eglwys, lle y mae llythyrenau ei enw yn weledig eto; a llwyr adgyweiriodd y persondy; ac yn y palmant o flaen y drws, gosodwyd llythyrenau ei enw er mwyn cadw coffadwriaeth am dano.

Y mae yn ymddangos wrth ryw ychydig o linellau prydyddol a briodolir iddo ef a'i was, ei fod o dymmer lawen a digrifol, yn enwedig pan yn nghymdeithas y gwas hwn, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn dra hoff ganddo. Dywedir fod y ddau gyda'u gilydd unwaith, pan yr aeth dau Eglwyswr heibio iddynt, ac y dywedodd y doctor wrth ei was—

"Dacw ddau offeiriad ffol
Yn myn'd ar ol eu gilydd;

ac i'r gwas ateb,—

"Ond bod yn well ei ddysg a'i ddawn,
Mae 'n agos iawn y trydydd."

Y mae hanes y Dr. Davies a'r gwas hwn yn dwyn i'n cof yr hyn a ddywedodd Ieuan ap Howel Swrdwal am Dafydd ap Edmwnt a'i was, Gutyn Owain—"P'un y meistr a ph'un y gwas, nis gwn i;" ond hyn sydd amlwg, fod y gwas yma o eiddo y Dr. Davies yn bur hyf ar ei feistr, gystal ag yn bur hoff ganddo.

Gadawodd yn ei ewyllys ardreth maes o'r enw "Dolddyfi," i dlodion plwyf Mallwyd am byth. Dywedir fod yr afon wedi treulio cryn ran o'r maes erbyn hyn, ond eto y mae ei ardreth o seithbunt i ddeg yn y flwyddyn Gadawodd y gweddill o'i diroedd rhwng dau nai, un o du y wraig—mab y Dr. Parry, medd rhai, tra y dywed ereill mai nai arall o du y wraig ydoedd o'r enw Wyn—a'r llall o'i du ei hunan. Dywedir fod y tiroedd yn awr yn werth tua 300*p.* y flwyddyn. Y mae rhan nai y wraig, sef y Plas uchaf, a'r tiroedd perthynol iddo, wedi ei werthu er ys deugain mlynedd bellach; ond dywedir fod rhan ei nai ef ei hun yn meddiant y teulu hyd y dydd hwn.

Aeth ei lyfrau, medd yr hanes, i feddiant gŵr o'r enw Kenrick, a fu yn weinidog lawer o flynyddoedd yn ol i'r Ymneillduwyr (yr Henaduriaid, medd rhai), yn Ngwrecsam, yr hwn a symmudodd oddi yno i Gaerwysg, â'r llyfrau, o angenrheidrwydd, i'w ganlyn; a dywedir eu bod byth yn meddiant ei hiliogaeth.

Efe a fu farw yn ei dŷ ei hun, yn Mallwyd, Mai 15fed, 1644, pan o gylch 74 oed; a chladdwyd ef yn nghanghell eglwys Mallwyd; ac ar ei gareg fedd, cerfiwyd y geiriau canlynol, y rhai, gan fod y gareg yn llawr i'r lle, sydd wedi llwyr dreulio ymaith:—

IOHANNES DAVIES, S. T. D.,
RECTOR ECCLESIÆ PAROCHALIS DE MALLWYD,
OBIIT 15 DIE MAII,
ET SEPULTUS FUIT 19, A.D. 1644, IN VIRTUTIS,
POTIUS QUAM NOMINIS MEMORIA."

Sef yw hyny—"Ioan Dafis, Dysgawdwr Duwinyddiaeth Gyssegredig, periglor eglwys plwyf Mallwyd, a fu farw y 15fed dydd o Fai, ac a gladdwyd ar y 19eg, B.A. 1644, er cof am ei rinwedd yn fwy nag am ei enw."

Cytuna ei gofiannwyr i dystiolaethu ei fod; fel gŵr eglwysig, ynad, a Chymreigydd, yn dra pharchus gan ei gydwladwyr yn gyffredinol, fel y gellir cymhwyso y llinellau a wnaeth Siôn Tudur i'r Dr. Morgan ato yntau gyda phob priodoldeb; sef,—

"Cei glod o fyfyrfod fawr,
A da dylych hyd elawr:
Tra gwneir tai, tra caner tant,
Tra fo Cymro 'n cau amrant."—

(*Cambr. Register; Cambr. Plutarch; Davies' Antiq. Ling. Brit. Dict. et Antiq. Ling. Brit. Rudi.; Enwog. Cymru; Gwladgarwr; Traethodydd*, &c.)

DAVIES, EDWARD: ganwyd y gŵr hwn yn mhlwyf Llanfareth, yn sir Faesyfed, yn y flwyddyn 1756. Amaethwr parchus oedd ei dad, ar enw yr hwn y galwyd ef. Derbyniodd ei addysg foreuol mewn amrywiol fanau; ond yn 1774, rhoddwyd ef yn athrofa ramadegol Aberhonddu. Un o'i gydysgolheigion yn y lle hwn oedd Theophilus Jones, hanesydd sir Frycheiniog; ei gyfeillgarwch â'r hwn a barhaodd hyd ei farwolaeth, yn 1812. Wedi bod am flwyddyn yn Aberhonddu, sefydlodd ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hunan yn y Gelli, yn 1775; ac yn 1779, ordeiniwyd ef yn ddiacon i guradiaeth Bacton, yn sir Henffordd, yr hon, yn nghyd âg eglwysydd St. Margaret a Turnaston, y bu raid iddo eu gwasanaethu am flwyddyn yn ddidâl. Symmudodd wedi hyny yn fuan i guradiaethau Dorston a Peterchurch; y rhai, yn nghyd â Turnaston, y parhaodd i'w gwasanaethu hyd ddiwedd 1782. Y pryd hyn, cyflawnai y gwasanaeth dwyfol bum gwaith, a phregethai dair gwaith bob Sabbath, gan deithio dros ddeng milltir ar ugain, am yr hyn ni dderbyniai ond 30*p.* yn y flwyddyn. Effeithiodd y llafur dirfawr hwn ar ei gyfansoddiad, a theimlodd oddi wrtho yn mlyneddoedd diweddaf ei oes. Yn 1783, symmudodd o'r Gelli, a chymmerodd ofal yr ysgol ramadegol yn Chipping Sodbury, yn sir Gaerloyw, a churadiaeth Great Badminston, lle yr arosodd am un mlynedd ar bymtheg. Yn 1784, cyhoeddodd ei waith cyntaf, yr hwn a elwid *Aphtharte, the genius of Britain*—pryddest yn ol arddull yr unfed ganrif ar bymtheg; ac yn fuan wedi hyny, *Vacunalia*, yn cynnwys traethodau mewn mesur cerdd ar wahanol bynciau, yn nghyd â rhai cyfieithiadau. Yn 1795, ymddangosodd fel ffugchwedlwr, mewn gwaith a elwid *Eliza Powell*, mewn dwy gyfrol,

Digitized by Google

am yr hyn y derbyniodd ugain gini;—yr unig swm uniongyrchol a dderbyniodd erioed am ddim o'i weithiau llenyddol. Yn 1799, symmudodd i guradiaeth Olveston. Yn 1802, derbyniodd guradiaeth barhaus Llanbedr, yn sir Faesyfed; ac yn 1805, rhoddodd Dr. Watson, esgob Llandaf, iddo fywoliaeth Bishopston, ger Abertawe. Wedi gorchfygu llawer o anhawsderau, llwyddodd i gyhoeddi ei *Celtic Researches*, yn 1804; ac yn 1809, *Mythology of the Druids*. Yn 1811, cyhoeddodd gyfrol yn cynnwys *Cyfres o Draethodau ar Undeb Eglwysig*, y rhai a ystyrir yn mhlith y rhai goreu ar y pwnc yn yr iaith Seisonig; ac fel prawf o'i gymmeradwyaeth, rhoddwyd iddo gan yr esgob Burgess brebendiaeth Llangynllo, yn eglwys athrofaol Aberhonddu. Yn 1816, cyhoeddodd draethawd a elwid *Immanuel; sef llythyr ar Esa.* vii. 14, *mewn atebiad i sylwadau beirniadol Iuddew diweddar*; ac yn yr un flwyddyn, symmudwyd ef i berigloriaeth Llanfair Orllwyn, yn sir Aberteifi, a changhellwriaeth eglwys Aberhonddu. Yn niwedd 1823, collodd ei olwg yn mron yn llwyr; yr oedd ei lygaid bob amser yn ddiffygiol, mewn canlyniad i ddamwain a ddygwyddodd iddo pan yn chwe mlwydd oed. Yn 1824, at gyfrif ei ddysgeidiaeth, etholwyd ef yn un o ddeg cymmrodor y Gymdeithas Lenyddol Freninol, yr hyn a roddai hawl iddo i dderbyn can gini yn y flwyddyn. Yn 1825, ymddangosodd ei draethawd rhagorol ar *Hawliau Ossian*. Bu farw, wedi hir a maith gystudd, Ionawr 1af, 1831. Y mae cofiant llawn a dyddorol am dano yn y *Cambrian Quarterly Magazine*, cyf. iii. td. 408, wedi ei ysgrifenu gan y Parch. W. J. Rees, o Cascob, golygydd dysgedig y *Liber Landavensis*.—(*Williams' Biog. Dict.*)

DAVIES, RICHARD, D.D.: mab Dafydd ab Gronw, curad y Gyffin, ger Conwy, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1501, mewn lle a elwir Plas y Person; a derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn New Inn, Rhydychain. Yn 1550, cafodd ficeriaeth Burnham gan Edward VI, ac yr oedd perigloriaeth Maidsmoreton, sir Buckingham, yn ei feddiant hefyd; ond amddifadwyd ef o'i fywoliaeth gan y frenines Mary, a bu raid iddo ffoi o Loegr gyda'i wraig. Ymsefydlodd yn Geneva, lle y dyoddefodd dlodi a helbul mawr, gan ymddibynu ar y cyntaf ar haelioni a chyfraniadau ei gydffoedigion; ond yn mhen tair blynedd, meistrolodd yn hollol yr iaith Ffrengig, a chafodd guradiaeth yno, oddi wrth ba un y cafodd fywoliaeth gysurus. Ganwyd ei feibion, Thomas, Peregrine, a Jerson, yn Geneva. Ar farwolaeth Mary, adferwyd ef i'w fywoliaethau, pa rai a ddaliai dan ymddiried gydag esgobaeth Llanelwy, i ba un y cyssegrwyd ef, Ionawr y 31ain, 1560. Symmudwyd ef i esgobaeth Tŷ Ddewi, Mai 21ain, 1561. Cafodd y teitl o D.D. yn 1566. Yr oedd yr esgob Davies yn un o ysgolheigion penaf ei oes, ac y mae pob anrhydedd yn deilwng i'w goffadwriaeth am ei ymdrechion gwladgarol i gael yr Ysgrythyrau i iaith arferedig ei gydwladwyr. Er dwyn yn mlaen yr amcan hwn, gwahoddodd ato rai o'r ysgolheigion dyfnaf a'r ieithwyr galluocaf, y penaf o ba rai oedd William Salesbury, i'r dyben o gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg. Yn 1567, ymddangosodd y cyfieithiad cyntaf o'r Testament Newydd yn Gymraeg, yn benaf o waith William Salesbury, ond cyfieithwyd y rhanau canlynol gan yr esgob:—yr Epistol Cyntaf at Timotheus; yr Epistol at yr Hebreaid; Epistol Iago; a dau epistol Pedr. Ac y mae anerchiad "i'r Cymry oll," wedi ei ysgrifenu mewn Cymraeg rhagorol gan yr esgob, yn nechreu y Testament. Ymddangosodd y Ffurfwasanaeth—*Liturgy*—hefyd yn y flwyddyn 1567, yr hwn a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan yr esgob, gyda chymhorth Salesbury; a chyd-ddygai y ddau y gost o'i argraffu. Yn ol Syr John Wynn, yr oeddynt yn mhell yn mlaen gyda chyfieithu yr Hen Destament, a buasent yn ei orphen pan yr aeth yn ymrafael rhwng yr esgob a William Salesbury am ystyr cyffredinol a gwraidd un gair, yr hyn a fu yn achos iddynt ymadael oddi wrth eu gilydd, ar ol bod yn byw yn nghyd agos i ddwy flynedd. Bu yr esgob byw bump neu chwe blynedd ar ol yr ymraniad hwn, a William Salesbury tua phedair ar ugain, ond rhoddodd i fyny ysgrifenu. Yn nghyfieithiad newydd y Beibl Seisoneg, yr hwn a wnaed drwy orchymyn y frenines Elizabeth, a'r hwn a adnabyddir wrth yr enw "Beibl Parker," ac a gyhoeddwyd yn 1568, adolygodd a chymharodd yr esgob Davies â'r Hebraeg gwreiddiol lyfrau Iosuah, Ruth, a dau lyfr Samuel. Yn 1577, cyhoeddodd bregeth a draddodasid ganddo yn nghladdedigaeth Walter, iarll Essex, yn Nghaerfyrddin, yn mis Tachwedd, yn y flwyddyn hono. Yr oedd hefyd yn fardd Cymraeg da, ac y mae rhai darnau o'i waith ar gael. Y mae yn ofidus meddwl fod dyn mor enwog wedi rhoddi achos i gwyno o blegid ei waith yn llywodraethu ei esgobaeth; ond nis gellir gwadu na ddarfu iddo dlodi esgobaeth Tŷ Ddewi yn ddirfawr, er mwyn darparu gogyfer â'i deulu lluosog, Bu farw Tachwedd 7fed, 1581, yn 80 mlwydd oed, yn mhalas esgobol Abergwili, a chladdwyd ef yn eglwys y plwyf. Gadawodd weddw ar ei ol, o'r enw Dorothy, ac amryw blant.—(*Wood's Ath. Oxon.*; *Willio' St. Asaph*, *Williams' Biog. Dict.*)

DAVIES, THOMAS, D.D. Mab ydoedd yr esgob hwn i Dafydd ab Robert ab Llywelyn, Ysw., Caerhun, ger Conwy, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef tua'r flwyddyn 1515. Derbyniodd ei addysg athrofaol yn Ngholeg St. John, Caergrawnt, a'r bywoliaethau cyntaf a gafodd oedd perigloriaeth Llanbedr y Cenyn, a ficeriaeth Caerhun. Yn 1539, penodwyd ef i archddiaconiaeth Llanelwy, yn yr hon swydd y parhaodd hyd 1554, pryd yr amddifadwyd ef o honi o blegid iddo briodi, ond adferwyd ef ar esgyniad y frenines Elizabeth. Gwnaethpwyd ef hefyd yn 1546, yn ganghellydd eglwys gadeiriol Bangor. Dyrchafwyd ef i esgobaeth Llanelwy yn 1561, lle y bu hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddygwyddodd tua Gŵyl Mihangel, 1573. Yr oedd yn nodedig am ei dduwioldeb a'i elusengarwch; a sefydlodd ysgolfraint (*scholarship*) yn Ngholeg y Frenines, Caergrawnt; a gadawodd yn ei ewyllys hefyd amryw o symiau mawrion at ddybenion elusengar ereill.

DAVIES, OWEN: awdwr amryw lyfrau yn yr iaith Gymraeg. Ganwyd ef yn Ngwrecsam, yn 1752. Wedi symmud i Lundain, ymunodd â'r Trefnyddion Wesleyaidd, a phenodwyd ef yn bregethwr teithiol yn 1789, yn mha sefyllfa y parhaodd dros amryw flyneddoedd. Ar sefydliad y genadaeth Wesleyaidd Gymreig, etholwyd ef i fyned i Gymru fel arolygwr. Ei lyfrau ydyw y rhai canlynol:—1. *Amddiffyniad o'r Methodistiaid Wesleyaidd*, 1806. 2. *Ymddyddanion rhwng dau gymmydog; yn dangos cyf-*

Digitized by Google

*eiliornadau Calviniaeth*, 1807. 3. *Sylwadau ar lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Mr. Thomas Jones*, 1808. 4. *Llythyr at Mr. T. Jones*, tua 1809. 5. *Catecism i Blant, ac ereill*, 1811—ail argraffiad. 6. *Deuddeg o Bregethau ar wahanol destynau*, 1812. Mae amryw bregethau o'i waith hefyd wedi eu cyhoeddi yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*. Bu farw yn Liverpool, Ionawr 12fed, 1830.

DAWNS, fel ei harferir yn bresennol, yw symmudiadau destlus a bywiog y corff, wedi eu cymhwyso trwy gelfyddyd at fesurau neu dônau ar offerynau cerdd, neu gyda'r llais dynol. Neu, efallai, yn fwy cydweddol âg ysbryd y gelfyddyd, gellir dywedyd, fel y barna rhai, mai dawns yw y gelfyddyd o ddangos teimladau y meddwl trwy wahanol ysgogiadau y corff a'i aelodau.

Nid hawdd olrhain hanes dechreuad yr arferiad o ddawnsio; o blegid y mae i'w chael yn mhlith pob cenedl, hyd yn oed y rhai mwyaf gwyllt ac anwaraidd; a faint bynag o addysg ac ymdrech sydd yn angenrheidiol er perffeithio un yn yr arferiad, ymddengys fod tueddiad ati yn bodoli yn naturiol yn y cyfansoddiad dynol ei hun. Fel y mae tymmer y barbariaid yn gyffredinol yn fwy gwyllt ac aflywodraethus nag eiddo y cenedloedd gwareiddiedig, felly hefyd y maent yn nodedig o hawdd effeithio arnynt trwy ddylanwad swn, ac yn dueddol neillduol at yr arferiad o ddawnsio. Mae Mr. Gallini yn sylwi fod trigolion y rhan fwyaf o Affrica, yn feibion a merched, yn hoff anarferol o ddawnsio, yn enwedig yn y Gold Coast. Yn y parth hwn o'r wlad, yn nghanol eu llafur caletaf, os bydd i'r bobl ond clywed rhywun yn canu, neu yn chwareu ar offeryn cerdd, nis gallant ymattal heb daflu eu llafur ymaith, ac ymollwng i ddawnsio yn y fan. Mewn llawer o anghreifftiau, gwelwyd y negroaid yn ymdaflu eu hunain wrth draed rhyw Ewropiad a fyddai yn chwareu ar ryw offeryn cerdd iddynt, gan erfyn arno beidio â'i gân, rhag iddo eu lluddedu hwy hyd angeu, am nas gallent beidio â'u dawns tra y byddai yn chwareu ar ei offeryn. Gwelwyd y cyffelyb beth hefyd yn mhlith yr Indiaid Americaidd, ond eu bod hwy yn fwy creulawn a barbaraidd o ran eu natur na'r negroaid; ac o ganlyniad yr oedd eu dawns yn fwy afrosgo a barbaraidd. Nid oes ammheuaeth nad yn yr un modd y tarddodd y dawns yn mhlith y Groegiaid, ag yn mhlith yr holl genedloedd ereill, ond eu bod hwy wedi bod dros oesoedd lawer yn genedl wareiddiedig; ac mewn canlyniad, fod eu dawns yn fwy rheolaidd a gwareiddiedig nag eiddo y cenedloedd barbaraidd. Ymddengys eu bod hwy wedi ymberffeithio eu dawns fel cyfundrefn i'r fath raddau fel y gallent ei dullweddu yn y fath fodd fel ag i gynnyrchu y teimladau a ddewisent o'r bron yn mhlith eu hedrychwyr. Dywedir y byddai dawns yr Eumenides neu y Furies (duwiesau dialedd) yn y chwareufa yn Athen mor darawiadol ac ofnadwy fel ag i greu braw anwrthwynebadwy yn nghalonau yr holl edrychwyr—y byddai hyd yn oed hen filwyr yn crynu mewn dychryn yn yr olwg arnynt, y dorf yn rhedeg allan, a'r bobl yn dychymygu eu bod yn gweled y duwiesau ofnadwy, wedi eu harwisgo â dialedd o'r nef, mewn trefn i gospi troseddau ar y ddaiar. Yr oedd gan y Groegiaid eu dawnsiau milwraidd, y rhai a ystyrient o bwys mawr mewn trefn i feithrin a chadw i fyny ysbryd milwraidd yn mhlith eu gwŷr ieuainc. Mae Plato yn cyfleu dawns yr hynafiaid i dri dosbarth:—y milwraidd, y teuluaidd, a'r crefyddol, yr hwn a arferid mewn cyssylltiad â'r aberthau, &c. Yr oedd dau fath o ddawns milwraidd; sef dawns y plant, a'r ddawns arfog. Y Spartiaid oedd wedi sefydlu y cyntaf, i fod yn foddion i gynhyrfu gwroldeb boreuol y plant, ac i'w harwain yn raddol i'r ddawns arfog. Yr oedd dau gôr yn perthyn i'r ddawns hon; sef côr y bobl mewn oed, a chôr y plant: ond gan mai er mwyn y plant yn benaf yr oedd y dawns yn cael ei gynnal, yr oedd yn myned yn fynych ar eu henw hwynt. Byddai y ddau gôr yn myned trwy eu cyflawniadau yn noethion. Byddai côr y plant yn trefnu eu symmudiadau yn ol fel y byddai côr y bobl yn eu harwain, a'r naill a'r llall yn dawnsio ar yr un pryd, gan ganu caneuon Thales, Alemæon, a Dionysodotus. Yr hen bobl a fyddent yn arfer agor y dawns, gan ddywedyd, "Yn yr amser a aeth heibio, yr oeddym ni yn rhai gwrol." Yna yr atebai y gwŷr ieuainc, "Yr ydym ni felly yn awr." Ac yna yr atebai y plant, mewn cyd-gôr, "Byddwn ni yn fwy felly eto pan y deuwn i'n hoed."

Am y dawns teuluaidd—math o arferiad er difyrwch ac adloniad oedd hwnw, ac yn gynnwysedig yn benaf mewn math o nwyf-chwareu a llamsach, heb nemawr amcan o efelychiad, nac o ddilyn un math o dôn yn perthyn iddi. Yr oedd y canu a'r dawns yn arferedig mewn cyssylltiad â'r holl orymdeithiau a'r gwyliau, y rhai a gedwid er anrhydedd y duwiau paganaidd. Yn wir, yr oedd y rhywogaeth hon o ddifyrwch a llawenydd mor anhebgorol fel na ystyrid un ddefod wedi cael ei chyflawnu yn iawn hebddynt. Ac ymddengys hefyd fod gan yr Iuddewon, yn gystal a chenedloedd ereill, eu dawns cyssegredig, yr hwn a arferid ganddynt ar eu huchel wyliau, ac ar achlysuron o adgoffâd am ryw arwyddion neillduol o ffafr ddwyfol tuag atynt, yr hyn a ystyrient yn foddion arbenig er eu deffroi i arddangos eu llawenydd a'u diolchgarwch yn y modd mwyaf bywiog am y cyfryw ragorfreintiau.

Ymddengys fod rhai ysgrifenwyr o'r farn nad oes un cyfeiriad yn yr Hen Destament at yr hyn a olygir genym ni wrth y gair *dawns;* ond mai math o offeryn cerdd a olygai yr ysgrifenwyr ysbrydoledig wrth y gair Hebraeg a gyfieithir *dawns*. Megys yn *Exod.* xv. 20, lle y crybwyllir gyntaf yn yr Ysgrythyrau am ddawnsio, fod y gair מחלר yn tarddu o הלל neu הל, yr hyn sydd yn arwyddo *tyllu*, *trywanu*, *treiddio*, ac felly yn cael ei ddefnyddio yn eithaf naturiol am unrhyw bibell, ac felly yn gosod allan ryw un neu gilydd o'r offerynau cerdd pibellog. Ond y mae y gair hwn, neu ryw un arall tarddedig oddi wrth yr un gwreiddyn, yn cael ei ddefnyddio yn *Exod.* xxxii. 19; 1 *Sam.* xviii. 6; *Ier.* xxxi. 4, 13—lle y mae yn anhawdd, gellid meddwl, deall dim arall ond *dawns* wrtho. Ac heb law hyny, y gair χορός=*dawns;*—y mae y Deg a Thrigain yn ei ddefnyddio yn y manau uchod, yr hyn sydd yn gryn awdurdod dros gredu mai dyna yw gwir ystyr y gair; ac heb law hyny, mae y ffaith fod trigolion y dwyrain hyd heddyw yn arfer dawnsio gyda'r dympan yn cadarnhau yr un golygiad yn fawr. Ond yr oedd y dawns yn yr hen amseroedd yn dra gwahanol o ran ei ddull i'r peth ydyw yn bresennol yn ein plith ni, fel yr ymddengys oddi wrth ymddygiad Miriam gynt ar lan y Môr Coch, "yr hon a gymmerodd dympan yn ei llaw, a'r holl wragedd a aethant allan ar ei hol hi, â thympanau ac â dawnsiau. A dywedodd Miriam wrthynt, Cenwch i'r Arglwydd; canys gwnaeth yn ardderchog: bwriodd y march a'r

Digitized by Google

**marchog** i'r môr;" *Exod.* xv. 20, 21. Ac yn yr un modd, medd teithwyr, y mae y dawns yn cael ei ddwyn yn mlaen eto yn ngwledydd y dwyrain. Y mae y prif berson o'r rhai a fyddo yn nghyd yn blaenori y beroriaeth a'r dawns, a'r lleill yn ei ddilyn yn ei holl ysgogiadau. Mae Wolff, y cenadwr, wrth ddarlunio gŵyl grefyddol yn mhlith rhyw Gristionogiou dwyreiniol, yn dyweyd fod un person o urddas yn eu plith, yr hwn oedd yn arweinydd i'r gân ac i'r dawns, yn blaenori ac yn arwain llu o bersonau ereill trwy heolydd y ddinas, y rhai oeddynt yn neidio ac yn dawnsio, gan efelychu yn hollol yr holl ystumiau a'r ysgogiadau ag oedd yntau yn eu gwneuthur o'u blaen.

Yn y dawns yn yr hen amseroedd, mewn cyssylltiad â chrefydd, mintai o wragedd a fyddai yn y cyffredin yn myned trwy y cyflawniadau, y rhai yn fynych, ar achlysuron o lawenydd cyhoeddus, a roddent eu gwasanaeth yn wirfoddol a rhad (*Exod.* xv. 20; 1 *Sam.* xviii. 6); ond ymddengys y byddai y meibion ar brydiau yn cyduno yn y dawns, megys yr ydys yn cael fod Dafydd yn dawnsio â'i holl egni o flaen yr arch (2 *Sam.* vi. 14); a dysgir ni hefyd fod yr Iuddewon mewn amseroedd diweddarach yn dilyn esampl Dafydd, a bod y dawns yn mhlith eu hoff arferion, fel diweddiad priodol ar yr achlysur llawen o gadw gŵyl y tabernacl. "Aelodau y Sanhedrim, llywyddion y synagogau, penaethiaid yr ysgolion, a'r holl rai enwog ar gyfrif eu gradd neu eu duwioldeb oeddynt yn canlyn y beroriaeth gyssegredig â'u lleisiau, gan neidio a dawnsio, â ffaglau yn eu dwylaw, drwy y rhan fwyaf o'r nos, tra yr oedd y gwragedd a'r bobl gyffredin yn edrych arnynt."—[*Buxtorf de Synag. Jud.*, pen. 21.] "Pa gyssylltiad a all fod rhwng dawnsio ac addoli, nis gallaf ddweyd," medd Dr. A. Clarke, ar 2 *Sam.* vi. 14, "ond hyn yr wyf yn wybod, y gall neidio disymmwth ac anwirfoddol fod yn effaith cynhyrfiad disymmwth." Arferid y dawns hefyd mewn cyssylltiad â phethau cyffredin, yn gystal a phethau crefyddol, yn yr hen amseroedd;—megys ar amser casglu y gwinwydd (*Barn.* xxi. 21); ac ar ol ennill buddugoliaeth, mewn ffordd o glod i'r buddugwr, &c. (1 *Sam.* xxi. 11). Ac y mae yn debyg i'r dawns ddyfod yn raddol i arferiad yn llawn mor fynych mewn cyssylltiad â phethau naturiol ag â phethau ysbrydol, os nad yn fynychach: *Ier.* xxxi. 4

Meddylir fod cyfnewidiad mawr wedi cymmeryd lle yn marn y cyhoedd o berthynas i'r dawns, yn ystod oesoedd clasurol Groeg a Rhufain. Yn lle, fel y dywed y beirdd Groegaidd, bod yr arferiad yn gyfryw fel ag yr ymhyfrydai y duwiau eu hunain ynddi [*Potter's Græc. Antiq.*, ii. 400], a'i bod mewn ymarferiad nid yn unig yn Rhufain, ond hefyd trwy yr holl ymherodraeth Rufeinig, er bywiocau eu huchel-wyliau a chynnal eu llawenydd teuluaidd (*Luc* xv. 25; *Mat.* xiv. 6); eto, daeth yr arferiad mewn amser yn gyfryw yn nhyb y cyhoedd fel ag i gael ei hystyried yn sarhad i ŵr o urdd gymmeryd rhan ynddi. A thybia rhai fod syniad felly yn mhlith yr Iuddewon, ac mai oddi ar hyny yr oedd Michal, merch Saul, yn gwarthruddo Dafydd, wedi iddo fod yn dawnsio o flaen arch Duw: 2 *Sam.* vi. 16—23.—[*Pictor. Dict. of the Bible.*] Mewn canlyniad, yr oedd holl gylchoedd uchel a boneddig Rhufain a'i thaleithiau, yn yr amseroedd uchod, yn mwynhau eu pleser oddi wrth y dawns, yn gyffelyb ag y maent eto yn ngwledydd y dwyrain, sef trwy edrych ar gwmpeini cyflogedig o honynt yn myned trwy eu cyflawniadau. A than nodded yr ymherawdwyr a'u rhaglawiaid rhyseddog, megys Herod, yr oedd y gelfyddyd yn cael ei choethi i'w pherffeithrwydd mwyaf, a'u digrif-ddawnsiau (*pantomimes*), megys eiddo yr Almehs yn yr amseroedd diweddar, o natur cnawdol a llygredig iawn. Pan nad oedd yr uchelradd urddasol yn arfer ymgymmysgu â'r dawns, yr oedd Herod yn ei hystyried hi yn anrhydedd annhraethol i dywysoges o fath Salome i ddawnsio ar ddydd ei enedigaeth; ac mewn canlyniad, y mae yn tyngu trwy lw y byddai iddi hithau gael yn ol ganddo yntau unrhyw beth a ofynai hi: *Mat.* xiv. 3—12. Nid oes genym anghraifftiau o fod dawns yn cael ei arfer er difyrwch cnawdol yn unig yn yr Ysgrythyrau, oddi gerth dawns yr "ynfydion," y crybwyllai Michal, merch Saul, am dano (2 *Sam.* vi. 20); neu ddawns y teuluoedd hyny y cyfeirir atynt yn Llyfr Iob (*Iob* xxi. 11—15); a'r dawns a gynnaliwyd ar ddydd genedigaeth Herod (*Mat.* xiv. 6; *Marc* vi. 22). Ac nid ymddengys fod genym un anghraifft ysgrythyrol o ddawns yn y nos, nac o ddawns gymmysg o feibion a merched yn nghyd, megys yr arferir yn y wlad hon, oddi gerth fod y dawns eilunaddolgar o flaen y llo aur, yr hwn a wnaethai Aaron i feibion Israel, felly (*Exod.* xxxii. 6, 19); canys yn y dawns cyssegredig, er fod meibion a merched yn fynych yn cymmeryd eu rhan ynddynt, eto, safent ar wahan y naill oddi wrth y llall: *Salm* lxviii. 25; *Ier.* xxxi. 13.

Am y dawns presennol, fel y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ein plith ni, gellir dywedyd yn ddibetrus am y rhan fwyaf o hono, yn ngeiriau yr hybarch Charles o'r Bala—"Y mae yn ddiammheu yn un o weithredoedd y cnawd, ac yn tueddu at anlladrwydd a halogedigaeth."—(*Encycl. Brit.; Kitto's Cyc. Bib. Lit.; Eadie's Bib. Cycl.; Gardner's Christ. Cycl.*)

DEADELL—AU—OEDD, [*dēad*]: **mintai**, gyr, haid, cenfaint, praidd. Am ystyr y gair mewn cyssylltiad â bugeiliaeth, gwel BUGAIL. Defnyddir ef mewn ystyr ffugrol mewn lluaws o fanau yn y Beibl. Cyffelybir yr eglwys i ddeadell, er gosod allan luosogrwydd ei haelodau; eu serchogrwydd a'u hundeb â'u gilydd; eu perthynas â'r un un bugail, sef Crist, bugail ac esgob eu heneidiau: *Can.* i. 7; *Esa.* xl. 11; *Act.* xx. 28. Cyffelybir *gwallt* yr eglwys i ddeadell o eifr (*Can.* iv. 1), drwy yr hyn y gosodir allan fod ei haelodau bywiol mewn undeb â Christ eu pen, a'u bod yn agos iawn at eu gilydd mewn ffydd a chariad. Cyffelybir ei *dannedd* hefyd i ddeadell o ddefaid gwastadgnaif: *Can.* iv. 2. "Melldigedig yw y twyllodrus, yr hwn y mae yn ei ddeadell wryw, ac a adduna ac a abertha un llygredig i'r Arglwydd: canys Brenin mawr ydwyf fi, medd Arglwydd y lluoedd, a'm henw sydd ofnadwy yn mhlith y cenedloedd;" *Mal.* i. 14. Y rheol wrth offrymu i'r Arglwydd oedd, "Offrymwch wrth eich ewyllys eich hun, un gwryw perffaith gwbl, o'r eidionau, o'r defaid, neu o'r geifr. Nac offrymwch ddim y bydd anaf arno; o herwydd ni bydd efe gymmeradwy drosoch," &c.; *Lef.* xxii. 19—25. Yr oedd yn dra phriodol i'r Arglwydd, gan hyny, gyhoeddi melldith uwch ben y neb a'i diystyrai wrth gynnyg offrymu iddo aberthau na chyfatebent i'r dysgrifiad hwn, er amddiffyn ei hun a'i ogoniant. Dyma ydoedd nodweddiad cyffredinol y genedl Iuddewig yn amser y prophwyd Malachi: *pen.* i. 8, 12, 13.

Digitized by Google

DENMARC. Teyrnas ydyw hon yn Ngogledd Ewrop. Tybir fod ei henw wedi tarddu oddi wrth *Dan*, gan yr hwn, meddir, y sefydlwyd y frenhiniaeth; a *mark*, gair Germanaeg am "wlad." Ei phrif ddinas yw Copenhagen. Yn ol cyttundeb Llundain (1852), yr oedd y deyrnas hon yn cynnwys Denmarc gyda'r duciaethau Schleswig, Holstein, a Lauenburg. Ond diddymwyd y cyttundeb hwn trwy gyttundeb Vienna, Hydref 30ain, 1864; o dan yr hwn y darfu i frenin Denmarc roddi i fyny bob hawl i'r duciaethau uchod yn ffafr brenin Prwssia ac ymherawdwr Awstria. Etto: o dan Gyttundeb Prague, Awst 20fed, 1866, cafodd y duciaethau eu cyssylltu â Phrwssia; ac y maent yn bresennol yn ffurfio rhan o ymherodraeth Germany. Unwyd duciaethau Schleswig a Holstein gyntaf â Denmarc gan Christian III., yn y flwyddyn 1553; ond caniatawyd iddynt gael llywodraeth wahanol. Cyttunwyd fod y ddwy dduciaeth bob amser yn cael eu hystyried fel un.

*Arwynebedd a phoblogaeth.*—Heb gyfrif duciaethau Schleswig, Holstein, a Lauenburg, y mae arwynebedd y wlad yn 14,809 mill. pet.; ond trwy Ynys yr Ia, ac Ynysoedd Faröe, y mae yn mesur 54,840 mill. pet.:—agos cymmaint arall ag Ysgotland. Yn y flwyddyn 1890, rhifai poblogaeth Denmarc 2,172,205.

*Rhaniadau.*—Y mae Denmarc yn cael ei rhanu yn awr yn bedair talaeth; sef, Jütland, neu y gorynys; yr Ynysfor, yr hon sydd yn gorwedd rhwng y wlad a Sweden; Ynys yr Iâ, yr hon sydd yn gorwedd 700 o filldiroedd i'r gorllewin o Norway, a 300 milldir i'r dwyrain o Greenland; ac Ynysoedd Faröe, pa rai sydd agos hanner y ffordd rhwng Ynys yr Iâ a Shetland. Rhoddir yma eu prif drefydd:—

Yn Jütland, y prif drefydd ydynt Aalborg (poblogaeth 15,000), Aarhuus (26,000), Horsens (14,000), Randers (14,000), a Fredericia (9,000).

Yn yr Ynysfôr Daniaidd y mae Copenhagen (poblogaeth yn 1886, 329,460), Elsinore (10,000), Odense (23,000).

Yn Ynys yr Iâ, Rey-kiavik, 1,500:—ar yr arfordir de-orllewinol.

Ynysoedd Faröe, Thorshavn, 1,500:—ar arfordir deheuol Strömöe.

Y mae Copenhagen—ystyr yr enw ydyw Hafn Marsiandwyr (*Merchants' Haven*)—prifddinas y deyrnas, a chanolbwynt ei thrafnidiaeth yn yr un lledred ag Edinburgh, Moscow, Kamschatka, a Nain yn Labrador. Gorwedda ar ochr y Meinfôr (*Sound*), rhwng Denmarc a Sweden. Dinas brydferth ydyw, wedi ei hadeiladu yn drefnus, ac yn meddu amddiffynfa gadarn. Y mae ynddi brifysgol enwog. Ennillodd Arglwydd Nelson fuddugoliaeth fawr yno ar lynges Denmarc, yn y flwyddyn 1801; ac yn y flwyddyn 1807, tân-belenwyd hi, a chymmerwyd llynges Denmarc i Brydain.

*Penrhynoedd.*—Y Skaw, ar derfyn gogleddol y wlad; Hertberg a Horn ar y gorllewin i Jütland; y Penrhyn Gogleddol a Skagen ar y gorllewin i Ynys yr Iâ.

*Ynysoedd.*—Zealand, Fünen, Langeland, Laaland, Falster, a Moen, rhwng Schleswig a Sweden; Bornholm, i'r deheu o Sweden; Ynys yr Iâ, yn y dwyrain o Greenland; ac Ynysoedd Faröe, rhwng Ynys yr Iâ ac Ynysoedd Shetland.

Y mae Ynys yr Iâ yn mesur 37,800 mill. pet., a'i phoblogaeth tuag 80,000. Y mae yr ynys yn fynyddig, a'i phigau uchaf yn esgyn 6,000 tr. uwch law y môr. Y mae yr holl ynys wedi ei thaflu i fyny gan gynnhyrfiadau llosgfalaidd yn y ddaear; ac y mae tua deg-ar-hugain o foelydd tanllyd i'w cyfrif arni—wyth o ba rai sydd wedi bod yn taflu eu cynnwys i fyny yn nghorph y can mlynedd diweddaf—Mynydd Hecla, 5,000 tr., ydyw y fwyaf enwog. Ceir ynddi amryw o ffynnonau berwedig; un o ba rai, y Geyser Fawr, sydd yn taflu colofn o ddwfr poeth i fyny i'r awyr o 80 i 100 tr. o uchder; ac yn y dyfnder o 72 tr. yn y ddaear, y mae y dwfr yn 30 o raddau uwch law y pwynt berwi. Y mae y gauafau yn gelyd yno. Nid oes goed i'w gweled ar yr ynys; ac nis gellir tyfu grawn o unrhyw fath arni. Ond y mae bresych (*cabbage*), a phytatw yn tyfu yno. Perthyna trigolion Ynys yr Iâ i'r tylwyth Scandinafiaidd. Nid ydyw eu hiaith, yr hon a elwir *Norse*, neu *Icelandic*, ond yr hen Ddanäeg. Dyma y dafodiaith sydd wedi ymlygru leiaf o'r holl deulu Scandinafiaidd o dafod-ieithoedd. Cyfyngir masnach yr ynys i wlân, ymenyn, crwyn, pysgod, ac olew.

Y mae Ynysoedd Faröe yn cynnwys dwy-ar-hugain o ynysoedd bychain; y rhai sydd yn gorwedd yn agos i'w gilydd—o ba rai y mae 17 yn cael eu poblogi. Nid yw eu harwynebedd ond tua 510 mill. pet.; a'u poblogaeth tua 12,000. Yn yr ynysoedd hyn y mae y gauafau yn hynod dyner, a'r haf yn llaith ac yn niwlog. Y mae y dydd hwyaf yno yn ugain awr; a'r byraf yn bedair awr. Haidd ydyw yr unig ŷd y gellir ei dyfu. Pysgota, a hela, a gofalu am ddefaid, ydyw prif waith y trigolion; ac nid ydyw y brif ddinas ond megys pentref.

*Machwyon, Culforoedd, &c.*—Skager Rack, rhwng Jütland a Norway; Cattegat, rhwng Jütland a Sweden; y Meinfôr (*Sound*), rhwng Zealand a Sweden; y Cylch Mawr (*Great Belt*), rhwng Zealand a Fünen; y Cylch Bychan (*Little Belt*), rhwng Fünen a Schleswig; Lymfiord, yn Ngogledd Jütland; Machwy Colberg, a Morgaingc Lubeck, i'r de o Holstein.

*Afonydd.*—O herwydd neillduolrwydd ffurf y wlad, a'r toriadau amrywiol y mae y môr wedi ei wneuthur iddi, nid ydyw afonydd Denmarc ond o ychydig bwys—gyda'r eithriad o'r Elbe, yr hon sydd yn ffurfio ei therfyn de-orllewinol. Ychydig o drefydd mawr sydd ynddi. Nid oes ond tua saith â'u trigolion dros 10,000.

*Hinsawdd a Chynnyrchion.*—Er ei bod yn gorwedd yn uwch o ran lledred, y mae ei hinsawdd yn llawer mwy tymmherus na Germany. Ychydig o ystormydd sydd yno; a phan y digwyddant, ni byddant yn parhau yn hir; ond y mae y nefoedd yn gyffredin wedi ei gwisgo â chymmylau, ac y mae swm y gwlaw sydd yn disgyn yno yn fawr. Y mae Denmarc yn hynod o amddifad o fŵnau, gyda'r eithriad o Ynys Bornholm; yn yr hon y ceir glô, ond ei fod yn wael, gyda cheryg adeiladu, a chlai i wneyd llestri pridd a marmor glas. Y mae halen yn cael ei ddwyn i'r wlad, a glô hefyd; ond mawn a thywyrch a ddefnyddir yn gyffredin fel tanwydd. Tyfir llysiau yno yn dda, wrth ystyried y lledred; a cheir hwynt yn debyg i'r rhai a geir yn Ngogledd Germany. Nid yw y fforestydd yn fawr, ac y maent yn cael eu cyfyngu yn benaf i'r arfordir dwyreiniol. Ceir porfeydd rhagorol yn y rhanau isaf o'r wlad, a phrif orchwyl trigolion y rhanau hyny yw magu ceffylau a gwartheg, a gwneuthur caws ac ymenyn. Y prif gynnyrchion ydyw rhug, haidd, ceirch, gwenith, a gwenith Ffraingc, gyda phytatw, llin, a thybaco; a thyfir yno fwy nag sydd

Digitized by Google

**DEALL—US—DWRIAETH.** Yn ei ystyr mwyaf eang, y mae y gair *deall* yn arwyddo un o brif weithrediadau gwahaniaethol y meddwl. Un o'r ychydig osodiadau y cytunir arnynt yn fwyaf unfrydol gan ysgrifenwyr ar athroniaeth y meddwl ydyw y dosbarthiad triphlyg a wneir o'i brif weithrediadau neu alluoedd i *ddeall, teimlad,* ac *ewyllys.* Cymmerwyd llawer o amser, a chostiodd lawer o ymdrech i ddyfod i'r unfrydedd hwn. Gan rai ysgrifenwyr, dosberthir y meddwl i ddeall ac ewyllys, yr hwn a ymddengys ar yr olwg gyntaf fel yn cau allan y teimlad yn hollol; ond wrth sylwi, ceir allan eu bod yn cynnwys y teimlad dan y pen ewyllys. Y mae yr un peth yn wir am ddosbarthiad Reid a Dr. Thomas Brown. Y mae y cyntaf yn gwneuthur dosbarthiad deublyg, sef y galluoedd deallol a'r galluoedd gweithrediadol, yn yr hwn y mae y teimlad wedi ei guddio mewn rhan; sef y synwyrau a'r teimlad o chwaeth dan y cyntaf, a'r amrywiol deimladau ereill dan yr olaf. Y mae Brown yn ymwrthod â'r enw galluoedd, ac yn ystyried y meddwl mewn gwahanol ansoddau neu gyflyrau, y rhai a enwir ganddo ef yn allanol neu fewnol. Dan y cyntaf, cynnwysir synwyryddiaeth; dan yr olaf, y deall a'r teimladau. Edrychir ar yr ewyllys ganddo fel yn gorwedd yn nhiriogaeth y teimlad; ac felly y mae ei ddosbarthiad ef yn gwneuthur i fyny synwyryddiaeth, deall, a theimlad. Felly hefyd Syr. W. Hamilton, yr hwn a ddosbartha ymddangosiadau (*phenomena*) y meddwl i'r tri canlynol—y deall, neu wybodaeth; y teimlad, neu bleser a phoen; ac yn drydydd, yr ewyllys a'r dymuniad. Yr un modd Mr. Morell, a'r cyffredin o ysgrifenwyr diweddar yr Almaen; er anghraifft, Beneke, yr hwn sydd, efallai, wedi ysgrifenu mwy ar y mater hwn, a'r rhai cydrywiol âg ef, nag odid un yn yr oes bresennol.

Ond gyda golwg ar pa fodd i synied am, a gosod allan y dosbarthiad uchod, y mae cryn amrywiaeth barn yn mysg gwahanol awdwyr. Myn rhai, ar un llaw, fod pob un o'r tri yn gynneddfau gwahanol, yn meddu ar hanfodiad gwahaniaethol y naill oddi wrth y llall; ond gwrthodir y golygiad yma gan yr ysgrifenwyr dyfnaf a galluocaf. Y gwirionedd yw, na ddylid meddwl am foment y gellir rhanu y meddwl i wahanol alluoedd, pob un o honynt yn meddu ar ei weithrediadau gwahaniaethol ei hunan; ond yn hytrach, dylid ei ystyried yr *un* ac *yn* un yn y naill a'r llall o'r gweithrediadau uchod. Yr un a'r unrhyw feddwl sydd yn deall, yn teimlo, ac yn ewyllysio. Ond er nad ydynt i'w gwahanu oddi wrth eu gilydd, na chyda'u gilydd i'w gwahaniaethu oddi wrth yr un meddwl, y maent er hyny i'w gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd *yn* yr un meddwl. Nid yw y meddwl yn gweithredu yr un fath pan y mae yn ewyllysio a phan y mae yn deall; nac yr un fath pan y mae yn teimlo a phan y mae yn deall neu yn ewyllysio; felly, y cyfan a ddeallir pan yn son am gynneddf neu allu o eiddo y meddwl ydyw, fod ei weithrediadau wedi cael eu chwilio a'u dosbarthu yn ol eu natur, eu sefyllfa, a'r amgylchiadau dan ba rai y maent yn cael eu hamlygu i ni; a bod enwau gwahaniaethol wedi eu rhoddi i bob dosbarth i ddynodi yr hyn sydd wahaniaethol ynddo oddi wrth bob dosbarthiadau ereill. Ar un cyfrif, ni ddylid tybied fod y meddwl megys yn gynnwysedig o wahanol ystafelloedd, ac i bob un ei gwaith a'i grym priodol ei hunan; ond dylid cofio yn barhaus mai yr un grym sydd yn gweithredu yn yr oll o'i weithrediadau—nid yn unig yr un meddwl, ond yr un grym; ond yn unig ei fod yn gweithredu yn ol ac mewn darostyngiad i wahanol ddeddfau. Ar yr un pryd, gellir cadw y geiriau *cynneddfau* neu *alluoedd* i arwyddo y gweithrediadau gwahaniaethol hyn o eiddo y meddwl er mwyn cyfleusdra yn unig. Cofier mai y cwbl a osodir allan ynddynt ydyw gwahaniaeth modd. Y mae ein hymwybyddiaeth yn tystio i ni nad ydym yn gweithredu yr un fath pan yn ewyllysio a phan yn teimlo neu yn deall, ac eto, tra y mae i bob un o'r rhai hyn eu nodweddion priodol a gwahaniaethol eu hunain, y maent yn y gwreiddyn yn un, ac o herwydd hyny yn gydglymedig a chydwëedig â'u gilydd. Canys nis gallwn ddeall heb ewyllysio, nag ewyllysio heb ddeall, na'r naill na'r llall o honynt heb deimlo. Y llwybr goreu i gael syniad cywir a chlir am natur, dosbarthiad, rhifedi, a chydberthynas y cynneddfau ydyw, trwy edrych ar y meddwl dynol, nid fel peiriannwaith wedi ei wneuthur yn gyflawn yn ei holl ranau ar unwaith, a thrwy weithredu y naill dro ar ol y llall, a'r naill flwyddyn ar ol y llall, yn chwanegu mewn grym a nerth; ond yn hytrach, fel y gwneir yn awr gan yr ysgrifenwyr goreu, fel cyfansoddiad (*organism*) i'r hwn y perthyn bywyd, tyfiant, ac ymddadblygiad. O edrych arno fel hyn, gwelir cyfatebiaeth prydferth iawn rhwng ei gynnydd yn ei holl alluoedd a'r cyfansoddiad corfforol hwn, y mae yn ei sefyllfa bresennol mewn undeb âg ef. Y mae profiad yn ein dysgu fod y meddwl yn dibynu am ddadleniad ei alluoedd oll ar y cyfansoddiad corfforol, ac y mae ein hymwybyddiaeth hefyd yn dangos i ni fod cynnydd y meddwl yn cadw i fyny yn mhob gradd o hono â chynnydd a thyfiant y corff, y naill yn dyfod yn fwy addfed fel y mae y llall yn dyfod yn fwy perffaith; ac o ganlyniad, y mae y deddfau ag sydd yn perthyn i'r naill yn dal mewn grym yn y llall, a'r naill yn taflu goleu hefyd ar y llall. Gan hyny, wrth sylwi ar a barnu am weithrediadau y meddwl, dylid cymmeryd hyn i ystyriaeth—nas gallwn gael syniad cywir am danynt heb edrych arnynt fel ymddadblygiad cynnyddol cyfansoddiad a thyfiant meddyliol. Os mynem gael drychfeddwl cyflawn am y blodeuyn, rhaid i ni edrych arno, nid yn y gwreiddyn, y ddeilen, na'r ffrwyth, ond yn y naill a'r llall, a'r naill fel y mae yn dilyn ar ol y llall; a thuag at ein cynnorthwyo yn hyn, byddai yn fanteisiol i ni allu cymmeryd gafael yn yr unoliaeth hwnw ag sydd yn amcan terfynol holl weithrediadau y meddwl. Canys yn wir dyna yw amcan athroniaeth—pob athroniaeth—chwilio am yr un yn mysg y llawer, yr un sydd yn rhwymo y llawer ynddo ei hunan. Canys fe'n dysgir ni gan reswm, fel mai o unoliaeth y mae pob peth yn tarddu, felly hefyd mai ynddo y maent yn dybenu. Felly, megys y mae y meddwl dynol yn y gwreiddyn yn un, o'r hwn y mae holl amrywiaeth ei weithrediadau yn tarddu, felly y mae yr holl amrywiaeth gweithrediadau hyn drachefn yn cydsyrthio yn ol i un amcan a dyben mawr. Yn awr, pa beth ydyw hwnw? Pa beth ydyw gwrthddrych ymestyniad ac ymgyrhaeddiad y meddwl? Ar hyn y mae meddyliau yn gwahaniaethu:—rhyddid, medd rhai; cariad, medd ereill; gwirionedd, medd ereill drachefn; y cyfan, medd ereill eto, yn drindod gyda'u gilydd, yn cyfateb i'r dosbarthiad triphlyg o weithrediadau y meddwl dynol. Yn ol y golygiad yma, cyrhaeddiad uchaf y deall ydyw rheswm neu wirionedd; cyrhaeddiad uchaf teimlad ydyw cariad; a chyrhaeddiad uchaf yr ewyllys

Digitized by Google

ydyw rhyddid. Efallai y byddai yn fwy unol â dysgeidiaeth y Beibl i ddywedyd mai cariad yn benaf, a deall a rhyddid yn is-wasanaethol iddynt —"Y mwyaf o'r rhai hyn yw cariad;" ac os ydyw hyn yn gywir, Duw ei hunan ydyw, canys "Duw, cariad yw."

Ond cyn y gall gyrhaedd i feddiant a mwynhad o'r cariad, y rheswm, a'r rhyddid yma, y mae yn rhaid i'r gwahanol alluoedd hyn fyned trwy lawer o ddadblygiadau—pob un o honynt yn ei godi rywfaint uwch law dylanwad pethau allanol a defnyddiol, ac yn ei ddwyn yn nes at yr hyn y mae yn dyheu am dano, ac yn ymestyn ato. Ac yn y fan yma y mae anhawsder mawr eto yn codi, pa fodd i osod allan yr amrywiol ddadblygiadau hyn. Dyma yr anhawsder sydd i wybod a phrofi nifer a natur yr is-gynneddfau, fel y gelwir hwy—is-gynneddfau y deall, y teimlad, a'r ewyllys. Nid oes a wnelom ni yn yr erthygl hon ond â'r deall yn unig; ond ni a roddwn yma gynllun, wedi ei seilio ar Morell, Fichte, ac ereill:—




Efallai, er mwyn rhai darllenwyr, y dylid egluro y cynllun uchod. Edrychwn ar y meddwl fel yn alluog i weithredu mewn tair ffordd wahanol, sef mewn ffordd o ddeall, o deimlo, ac ewyllysio. Ond wrth sylwi yn fanwl ar ddadblygiad pob un o'r rhai hyn eto, gwelir eu bod yn myned trwy amryw sefyllfaoedd (*stages*): er anghraifft, y mae deall yn y dechreu yn hanfodi yn benaf fel synwyryddiaeth, pryd y mae rheswm yn bur wan ac anamlwg; ond fel y mae yn cynnyddu, cyrhaedda yr ail sefyllfa, sef canfyddiad, pryd y mae yn gwahaniaethu y byd allanol oddi wrtho ef ei hunan, a'i holl deimladau a'i brofiad ei hunan. Ar ol hyny, y mae yn cyrhaedd i sefyllfa uwch, yn yr hon y mae yn gallu ad-ddangos iddo ei hunan drwy y cof ac adfyfyrdod yr hyn a fu ynddo o'r blaen, a thrwy gymhorth y dychymyg yn gallu eu hadgyfleu a'u hail osod mewn modd newydd ger ei fron ei hunan. O'r sefyllfa yna, yn olaf, y mae yn cyrhaedd pen yr ysgol, lle y mae yn dyfod i wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'i rhyddhâ. Felly, yr un modd y teimlad a'r ewyllys. Ac yn olaf, dangosir fod cyrhaeddiadau uchaf y deall a'r ewyllys yn gwahaniaethu i'r eiddo y teimlad, sef cariad.

Yn bresennol, cymmerwn olwg ar amrywiol gynneddfau deallol y meddwl; neu yn ol yr olwg a roddwyd uchod, yr amrywiol ddadblygiadau o eiddo y deall ar ei ffordd at wirionedd pur fel rheswm. Y cyntaf yw, *Deall fel synwyryddiaeth.* Dyma y sefyllfa gyntaf y mae y deall yn amlygu ei hunan ynddi, yn yr hon y mae yn gweithredu drwy y synwyrau. Ystyrir synwyryddiaeth gan rai fel gweithrediad corfforol yn unig; ond y mae hyn yn sicr o fod yn gyfeiliornad. Mae yn wir fod rhyw berthynas rhwng y gallu yma o eiddo y meddwl a'r cyfansoddiad corfforol; ac ar un wedd neu ochr iddo, ni byddai yn anmhriodol ei alw yn allu corfforol; ond yn y wedd neu yr ochr arall, y mae yn hollol feddyliol. Yn yr ystyr olaf hwn, darnodir ef gan rai fel y sylw y mae y meddwl yn ei dalu i'r argraffiadau a wneir ar y cyfansoddiad corfforol y mae mewn undeb âg ef. Felly, yn ystyr priodol y gair, y meddwl sydd yn gweled, ac nid y llygaid, y meddwl sydd yn clywed, ac nid y glust, y meddwl sydd yn teimlo, ac nid y dwylaw, &c. Yn wir, y mae y gwirionedd yma yn cael ei ddysgu i ni megys yn reddfol yn ffurf iaith dynion, pan y dywedant, "Yr wyf yn gweled, Yr wyf yn teimlo," &c. Gwrthddadleuir yn erbyn y darnodiad uchod, ein bod yn teimlo argraff y synwyrau, pa un bynag fyddo y meddwl yn sylwi arnynt ai peidio. Er anghraifft, os clwyfir unrhyw ran o'r corff, dywedir ein bod yn teimlo poen; serch na bydd y meddwl wedi cyfeirio ei sylw i'r graddau lleiaf at yr achos. Y mae hyn yn dra ammheus, gan fod ffeithiau ar gael sydd yn profi yn mhell iawn, os gellir tynu ymaith sylw y meddwl oddi wrth yr argraff, a'i roddi yn llwyr ar bethau ereill, na wna yr argraff gryfaf—er anghraifft, y dolur mwyaf poenus—beri y poen lleiaf. Dyma yr achos pa ham y mae brwdfrydedd neu deimlad cryf o unrhyw fath yn gwneuthur dynion yn ddideimlad i unrhyw niwed corfforol; ac ar yr egwyddor yma, gellir, heb dybied unrhyw gynnorthwyon dwyfol a gwyrthiol, egluro tystiolaeth llawer merthyr yn nghanol y tân a'r ffagodau, nad oedd yn teimlo y poen lleiaf yn arteithio ei natur. Gwrthddadl arall yn erbyn y golygiad mai yn y meddwl y mae synwyryddiaeth ydyw, ein bod yn gallu, pan yn teimlo rhyw boen, nodi allan ryw ran mwy na'i gilydd lle y teimlir ef, megys cur yn y pen, poen yn y troed, &c. Ond yn ateb i hyn, gellir, yn amlwg iawn, ddywedyd mai effaith profiad ydyw ein bod yn gosod ein hargraffiadau corfforol mewn rhyw ran neillduol yn y corff, neu rhyw le neu gyfeiriad neillduol y tu allan iddo, mewn amgylchiadau ereill. Trwy brofiad mynych, yr ydym yn dysgu gwybod pellder a chyfeiriad y swn a glywir trwy y glust, er anghraifft; felly hefyd trwy brofiad mynych yr ydym yn dysgu gwybod pa le i feddwl am boen yn rhyw ran o'r corff. Pan biger y plentyn ar ryw ran nad yw erioed wedi ei weled, nis gall ar unwaith wybod pa le i roddi ei law i ddangos y fan lle y mae yn teimlo y boen; yr hyn sydd yn dangos mai trwy fynych brofiad y mae y gallu hwn yn cael ei ffurfio. Eto, pan fyddo dyn wedi cael tori rhyw aelod, y mae yn ffaith y bydd yn teimlo fel pe byddai y boen yn y rhan sydd wedi ei dori allan o'i gorff; ac er hyny gŵyr pawb nas gall y boen fod yno. Y gwirionedd yw, mai yn y meddwl y mae; ond fod y meddwl trwy yr undeb dirgelaidd sydd rhyngddo â'r corff, mewn canlyniad i fynych brofiad, wedi dysgu rhoddi lle neillduol i'w deimladau yn amrywiol ranau y corff, i gyfateb i'r berthynas neillduol a all fod rhyngddo a'r rhanau hyny.

2. *Deall fel canfyddiad neu arweledìad* (*intuition*). Fel y ceisiwyd dangos o'r blaen, gelwir yr effaith a gynnyrchir ar y meddwl gan ddylanwad oddi allan yn *synwyryddiaeth;* a gelwir yr hyn sydd yn canlyn yn uniongyrchol ar ol hyny yn *ganfyddiad.* Trwy y cyntaf y mae y meddwl yn ymwybyddus yn unig o argraffiadau arno ei hunan trwy gyfrwng y synwyrau; ond trwy yr olaf y mae yn gallu priodoli yr argraffiadau hyny i wrthddrychau sydd yn bod y tu allan iddo ei hunan. I'r cyntaf yr ydym yn

Digitized by Google

ddyledus am y sicrwydd sydd genym am ein hanfodiad ein hunain fel bodau teimladol, ac i'r olaf am y sicrwydd a feddwn o hanfodiad pethau ereill heb law ni ein hunain a thu allan i ni ein hunain. Y mae gwahaniaeth barn mawr wedi bod rhwng ysgrifenwyr yn nghylch natur y gallu hwn o ganfod gwrthddrychau allanol. Byddai yn rhy faith i ni yn yr erthygl hon olrhain yr amrywiol farnau ar hyn; ac am hyny, ni wnawn ond yn unig rhoddi y farn a ystyrir gywiraf gan y cyffredin o'r ysgrifenwyr mwyaf dwfn a meddylgar; sef, ein bod yn canfod gwrthddrychau allanol yn uniongyrchol, ac nid trwy rhyw gyfrwng rhwng y meddwl a hwy: mewn geiriau ereill. fod canfyddiad yn effaith cyffyrddiad y meddwl â natur; sef, gweithrediadau y naill ac argraffiadau y llall yn cael eu cyfuno a'u cydweddu â'u gilydd trwy eu gweithrediad a'u gwrthweithrediad ar eu gilydd. Yn y sefyllfa flaenorol, sef synwyryddiaeth, yr oedd y meddwl yn talu sylw i'r argraffiadau a wneir arno, heb geisio ymholi i'w hachos a'u hystyr; ond yn y sefyllfa hon, y mae ei sylw i fesur yn myned ymaith oddi wrth yr argraffiadau eu hunain at eu hachos allanol a'u hystyr; a thrwy y gallu canfyddiadol y mae yn eu hegluro, ac yn rhoddi cyfrif am danynt trwy weithrediad gwrthddrychau oddi allan. Nis gall synwyryddiaeth wneuthur hyn; y cyfan a ddichon y gallu hwn ei wneuthur ydyw, sylwi ar yr argraffiadau eu hunain. eu sillebu megys, ac i'r eithaf eu darllen; ond rhaid cael gallu uwch i weled a dirnad yr ystyr y maent yn ei osod allan—a'r gallu hwnw ydyw *canfyddiad.* Y mae y berthynas wrthgyfatebol (*inverse*) sydd rhwng y ddau allu yma â'u gilydd yn cael ei osod allan yn y rheol ganlynol o eiddo Syr William Hamilton. Tu hwnt i ryw nod penodol, po gryfaf y synwyryddiaeth, gwanaf oll ydyw y canfyddiad, a pho egluraf y canfyddiad, lleiaf oll yw grym synwyryddiaeth; hyny yw, fod gwybodaeth a theimlad yn hanfodi bob amser mewn cyfartaledd croes y naill i'r llall.

3. *Deall fel ad-ddangosiad.* Yn y sefyllfa o'r blaen, yr oedd y meddwl yn edrych ac yn canfod gwrthddrychau megys wyneb yn wyneb; ac felly yr oedd ei wybodaeth yn uniongyrchol. Ond yn y sefyllfa hon, nid ydyw yn edrych wyneb yn wyneb, ond megys mewn drych; felly, gelwir y gweithrediad hwn o eiddo y meddwl yn *ddrychfeddyliol,* neu yn ad-ddangosiadol, am ei fod yn edrych drwyddo, nid yn uniongyrchol ar y pethau eu hunain, ond ar ei argraffiadau ef ei hunan o honynt, y rhai a gafodd drwy ganfyddiad neu arwelediad. Dyma sail y dosbarthiad a wneir ar wybodaeth i uniongyrchol ac anuniongyrchol, neu gyfryngol a digyfrwng. Gweithrediad o'r natur yma ydyw y cof a'r dychymyg; am y rhai, gwel dan y geiriau hyny.

4. *Deall fel dirnadaeth* (*understanding*). Dyma ystyr mwy cyfyng y gair *deall.* Yn y Seisoneg, gosodir ef allan drwy y gair *understanding;* ac yn iaith yr Almaen, *verstand.* Gelwir y gallu yma gan Hamilton yn "gynneddf perthynasau;" am mai trwy ei chymhorth hi y mae y meddwl yn cymharu ac yn barnu perthynasau. Yn rhagbarotoawl i hyn, y mae yn dysgu arddansoddi a chyffredinoli. Yn y cyntaf, y mae wrth edrych ar luaws o wrthddrychau yn sylwi ar ryw ansawdd a berthyn i'r oll o honynt, ac yn cyfyngu ei ystyriaeth at hwnw yn unig, gan adael y lleill heibio o'i sylw yn llwyr; yna y mae yn defnyddio rhyw air i'w osod allan, megys *gwyn, da, prydferth.* Yn yr olaf, y mae wrth edrych ar lawer o wrthddrychau yn canfod fod rhyw brif ansoddair yn gyffredin iddynt oll; ac o ganlyniad, y gellir eu rhestru o dan yr un dosbarthiad cyffredinol — dyn, anifail. Y buddioldeb o hyn ydyw, dwyn ein sylw oddi wrth y manylion, ac felly gwneuthur ein gwybodaeth yn fwy helaeth a chynnwysfawr o lawer. Pan y mae y meddwl yn ei ansawdd synwyriaethol a chanfyddiadol, y mae yn cael ei orfodi i edrych ar y gwrthddrych o'i flaen fel y mae yn ymddangos ar y pryd yn ei holl weddau amryfal. Ond yn ganlynol, y mae yn ffurflo iddo ei hunan syniadau cyffredinol oddi wrth yr holl amrywiaeth sydd yn dyfod o flaen ei sylw, yn eu gosod allan mewn enwau a geiriau cyffredinol, ac yn barnu eu perthynas â'u gilydd yn ol deddfau dirnadaeth. Gellir dosbarthu y barnau hyn yn dri yn gyntaf. Gellir cymharu arddansoddiad âg arddansoddiad, cyffredinoliad â chyffredinoliad, ac arddansoddiad â chyffredinoliad. Wedi barnu rhwng y rhai hyn â'u gilydd, pa un a ydynt yn cytuno â'u gilydd ai peidio, y mae yn gosod ei benderfyniad allan mewn gosodiad cyffredinol; megys, Y mae dyn yn greadur rhesymol; ac yna y mae yn myned yn mlaen i gymharu gosodiad â gosodiad, a thynu un arall oddi wrthynt. Dyma, yn fyr, ydyw swydd a gwaith y deall, yn ystyr mwy cyfyng a phriodol y gair. Gwelir fod y gweithrediad yma o eiddo y meddwl yn hollol ffurfiol; hyny ydyw, y mae a wnelo nid â phethau ond â pherthynasau pethau â'u gilydd. Gelwir y deddfau dan ba rai yr ydys yn ffurflo y barnau hyn yn ddeddfau meddwl (*laws of thought*)—nid deddfau y meddwl (*laws of the mind*):—ac â'r rhai hyn y mae a wnelo rhesymeg. Fel hyn, y mae a wnelo y dirnadaeth â syniadau, i'w cymharu â'u gilydd, ac i farnu eu cytundeb neu eu hanghytundeb â'u gilydd. Y mae yn cyfateb i'r hyn a elwid gan y Groegiaid yn διανοια; ac nid ydyw arddansoddiad, cyffredinoliad, barn, rhesymiad (nid rheswm), ond gwahanol ffurfiau o'r gweithrediad hwn o eiddo y meddwl. Y mae yn hawdd canfod, ond ystyried, mai lle y gallu yma yn mysg y cynneddfau ydyw, dyfod â'r meddwl i fwy o glirder ac eglurder. Y mae deddfau dirnadaeth fel rhyw fold (*mould*), i'r hon y traddodir ein drychfeddyliau yn eu hansawdd anmhenodol blaenorol, ac o'r hon y deuant allan yn gwisgo ffurf y deddfau sydd wedi eu cyfyngu a'u newid i'w delw eu hunain. Ac wrth wneuthur hyny, yr ydym yn ennill mwy o eglurder, ond ar draul colli eangder, ac efallai ddyfnder hefyd. Mewn arwelediad, yr ydym yn edrych i lawr i ddyfnder diwaelod, ac i eangder diderfyn rhyw wirionedd nas gall iaith mo'i osod allan yn glir a llawn; ond y mae deddfau dirnadaeth yn taflu eu llinyn o'i gwmpas, ac yn rhoddi terfyn arno, ac yn ei ddwyn o fewn y terfynau hyny i olwg y meddwl fel syniad clir, ond o'i gymharu â'r sefyllfa yr oedd ynddo o'r blaen yn arwynebol. Y ffurf yn yr hwn y mae y dirnadaeth yn amlygu ei hunan gan hyny ydyw, gosodiad cyffredinol; ac y mae yr haeriad a wneir ynddo yn bertffaith gadarnhaol o ran ffurf, pa un bynag a fydd sicrwydd am y mater ai peidio, ac yn hollol annibynol ar raddau y sicrwydd hwnw. Yn awr, gan mai hanfod gosodiad cyffredinol ydyw tystio fod term mwy cyffredinol yn cynnwys un llai cyffredinol, y mae yn amlwg nas gall fod yn offeryn i ddarganfod un gwirionedd; y cwbl a all wneuthur ydyw terfynu, cyfyngu, a dosbarthu ein meddyliau i dermau olynol, a'u darostwng y naill i'r llall, yn ol eu perthynas priodol eu hunain.

Digitized by Google

5. *Deall fel rheswm.* Y mae dau olygiad gwahanol yn cael ei roddi gan ysgrifenwyr ar reswm. Rhai a edrychant arno fel cynneddf ar ei phen ei hunan, megys un o'r cynneddfau ereill; hyny yw, fel achos rhyw rym neillduol o eiddo y meddwl: ereill a edrychant arno fel y gallu sydd gan y meddwl o fod yn ffynnonell wreiddiol egwyddorion angenrheidiol a chyffredinol, y rhai ydynt yn y meddwl cyn pob profiad allanol, ac yn annibynol arno; a pha rai ydynt y ffurfiau y mae ein gwybodaeth yn bosibl ynddynt, ac felly ydynt yn cyfansoddi deddfau sylfaenol y deall. Dyma olygiad y diweddar Syr W. Hamilton. Yr enw a rydd efe arno ydyw y gallu rheoleiddiol (*regulative*)—*locus principiorum.* Y mae yn cyfateb i'r hyn a elwir gan y Groegiaid *nous:* yn ei ystyr mwyaf manwl, yn Seisoneg, gelwir ef weithiau *common sense;* ac yn fwy diweddar, rheswm: gan Pascal, *intuition* a *sentiment:* yn yr Almaenaeg, *vernunft.* Y mae Syr W. Hamilton yn cynnyg y gair *noetic* i arwyddo yr holl wybodaeth sydd yn gwreiddio yn y meddwl ei hunan; ac *inoetic* i arwyddo gweithrediadau y deall (*understanding*). Nid oes un cwestiwn mwy pwysig yn hanes athroniaeth y meddwl nag ydyw yr un yn nghylch a oes rhyw ran o'n gwybodaeth wedi gwreiddio yn y meddwl ei hunan, ac heb ei derbyn oddi allan trwy y synwyrau. Cymmerai ormod o'n gofod i ni adolygu hanes y ddadl yn nghylch drychfeddyliau gwreiddiol. Digon ar hyn o bryd yw dweyd mai yr athrawiaeth sydd yn cael mwyaf o dderbyniad ydyw fod rhywfaint o leiaf o'n gwybodaeth i'w briodoli i egwyddorion gwreiddiol yn y meddwl, heb erioed ei argraffu arno gan wrthddrychau oddi allan iddo; ond pa fodd y mae i ni wybod pa ran o'n gwybodaeth sydd felly? Beth ydyw y prawf i benderfynu hyn? Leibnitz oedd y cyntaf i ddarganfod a dadgan hyn yn eglur. Y ddau brawf ydynt cyffredinolrwydd ac angenrheidrwydd. Gall profiad wedi ei gynnyrchu gan yr hyn sydd tu allan i ni ddangos i ni yr hyn *sydd;* ond rheswm, trwy ei egwyddorion cynhenid ei hunan, a all ddyweyd wrthym pa beth sydd *raid* fod: ond yr athronydd a wnaeth fwyaf o ddefnydd o'r prawf hwn ydoedd Kant; ac eto y mae gwahaniaeth mawr rhwng ysgrifenwyr pan yn amcanu dangos pa rai ydyw yr egwyddorion hyn o eiddo y meddwl. Y ddau eithaf y maent yn rhedeg iddo ydyw eu lluosogi yn ormodol ar y naill law, a lleihau eu nifer ar y llaw arall; ond y gwirionedd ydyw, y mae yr egwyddor ar ba un y dylid dosranu ein drychfeddyliau gwreiddiol hyd yn hyn heb ei dwyn i'r amlwg. Y mae yn wir os os oes rhyw ran o'n gwybodaeth yn cael ei nodweddu gan angenrheidrwydd, y gellir casglu yn deg oddi wrth hyny nad allesid cael y rhan hono trwy brofiad allanol. Ond a ydyw yn osodiad pendant ac uniongyrchol o eiddo y deall, sydd yn ofyniad ammheus; o herwydd gall angenrheidrwydd, fel ansawdd rhyw ran o'n gwybodaeth, darddu oddi ar ddau beth croes i'w gilydd; hyny yw, oddi ar wendid y meddwl, neu oddi ar allu y meddwl: os oddi ar y cyntaf, y mae yr angenrheidrwydd yn nacaol; os oddi ar yr olaf, yn gadarnhaol. Rhoddwn yr anghreifftiau canlynol o waith Syr W. Hamilton:—"Pan yr ydwyf yn canfod unrhyw beth, yr wyf o angenrheidrwydd yn hòni fy mod i fy hunan, a rhywbeth arall gwahanol i mi fy hunan, yn bod; ac am 'nas gallaf' feddwl ond ar y sail fod pob peth ag yr wyf yn ymwybodol o hono yn bod, yr wyf o angenrheidrwydd yn edrych ar fodaeth yn wybodaeth wreiddiol yn fy meddwl, ac eto yr wyf yn ymwybodol fod hyn yn tarddu oddi ar *nerth* fy meddwl, ac nid oddi ar *wendid:* ond ar y llaw arall, y mae genym amryw feddyliau sydd yn ymddangos yn angenrheidiol oddi ar *wendid* y meddwl i allu eu gweled mewn un ffordd arall. Fel hyn, y mae gwendid y meddwl dynol yn egwyddor fawr nacaol, i'r hon y mae yn rhaid priodoli amryw o weithrediadau mwyaf pwysig y deall: dyma anghraifft—y ddeddf uchaf o eiddo y meddwl ydyw yr hon a elwir deddf gwrthddywediad—nis gall peth fod a pheidio bod ar yr un pryd (*Alpha est æ Alpha non est*). Yn ail, deddf arall o eiddo y meddwl ydyw yr hon a elwir y ddeddf sydd yn cau allan y canol—naill ai y mae peth yn bod, neu nid yw yn bod (*aut est Alpha, aut non est*); nis gall dim fod yn y canol rhwng y ddau; rhaid i un fod yn wir—nis gall y ddau fod. Y mae y rhai hyn yn egwyddorion nad oes modd, ac nad oes raid eu profi; y maent yn profi pob peth eu hunain, ond nis profir hwy gan ddim. Yn awr, gosodwn i lawr y ddeddf ganlynol:—Y mae pob peth y gellir ei ddirnad yn gorwedd rhwng dau eithaf, y rhai ydynt yn gwrthddywedyd y naill y llall; ac o ganlyniad, nis gall y ddau fod yn wir, ac eto y mae yn rhaid i un o honynt fod felly. Er anghraifft, y mae genym ddirnadaeth am le; nis gallwn beidio dirnad am le; y mae lle, gan hyny, yn un o ffurfiau angenrheidiol y meddwl; y mae yn amlwg fod lle yn derfynol neu yn annherfynol; rhaid iddo fod y naill neu y llall:—nis gall y ddau fod yn wir yn ol y ddeddf gyntaf a enwyd, a rhaid i un fod yn wir yn ol y ddeddf olaf; ac eto, er fod yn rhaid addef bod lle yn derfynol neu yn annherfynol, nis gallwn ddirnad y naill na'r llall. Yn gyntaf, nis gallwn ddirnad fod lle yn derfynol—nis gallwn feddwl am nod tu hwnt i'r hwn nid oes le; y mae pawb yn ymwybodol o'r anmhosiblrwydd hwn: eto, pe gallem feddwl am le fel yn derfynol, ac heb gael ei amgylchu tu draw i'r terfyn hwnw gan le, yna ni byddem dan orfod o feddwl bod yn rhaid i bob peth fod *mewn* lle; ac i'r gwrthwyneb, os edrychwn ar y lle terfynol hwn ei hunan mewn lle, yna nid ydym wedi dirnad yr oll o le fel yn derfynol. Nis gallwn, gan hyny, ddirnad am le fel yn derfynol. Yn ail, nis gallwn ddirnad am le yn annherfynol. Gall y meddwl ehedeg mewn myfyrdod tu hwnt i'r haul; pasio heibio mewn dychymyg i'r holl fydyssawd o ddefnydd, a chodi o gylch i gylch yn yr eangder gwag, ac eto heb fyned tu draw i'r terfynol, heb gyrhaedd at yr Anfeidrol—heb gyrhaedd ond yn unig at yr anmhenodol; ac nid yw yr anmhenodol, pa mor fawr bynag, ond meidrol; fel y dywed Pascal. Yn ofer y chwyddwn ein dirnadaeth tu draw i bob lle. Gallwn ddychymygu, ond nis gallwn gyrhaedd un gronyn o'r Anfeidrol: fel hyn y mae y ddau eithafnod yma yn anmhosibl eu dirnad. Pe na buasai genym ond un, buasem yn edrych ar hwnw yn anmhosibl, ac ar yr un croes iddo yn angenrheidiol; ond gan y gorfodir ni i ystyried y ddau, yr ydym yn cael fod y ddau fel eu gilydd yn annirnadwy; ac eto, er ein bod yn analluog i edrych ar y naill na'r llall yn bosibl, fe'n rhwymir trwy ddeddf uwch i addef fod un, ac nad oes ond un, yn angenrheidiol. Y golygiad arall (a'r un mwyaf cywir, yn ol ein barn ni) a enwyd a roddir ar reswm ydyw, ei bod yn gynneddf ar ei phen ei hunan, ac yn achos rhyw rym neillduol o eiddo y meddwl. Yn y sefyllfa hwn y mae y meddwl wedi cyrhaedd mwy o ryddid ac annibyniaeth nag o'r blaen, ac yn alluog i dros-

Digitized by Google

glwyddo y wybodaeth uniongyrchol a ennillodd drwy arwelediad i ffurfiau y ddirnadaeth; neu, o'r ochr arall, yn llenwi ffurfiau y dirnadaeth â ffeithiau profiad; a thrwy hyn, y mae yn dyfod i edrych ar y meddwl a'r byd fel gwrthranau y naill i'r llall, ac yn ffurfio gwybodaeth sydd yn uno y gwirioneddol â'r drychfeddyliol ynddi ei hunan, sydd ar yr un pryd yn wirioneddol ac yn gyffredinol. Y mae y wybodaeth yma o eiddo rheswm yn cynnwys mwy na desgrifiad rhesymiadol; y mae yn treiddio i mewn i galon y gwirionedd, ac yn edrych arno yn ei gyssylltiadau ol a blaen, ac yn gweled ynddo amlygiad o ryw ddeddf gyffredinol: a thuag at ei chyrhaedd, y mae rheswm yn myned trwy amryw oruchwyliaethau, y naill yn ymddyrchafu uwch law y llell. Y gyntaf ydyw sylwadaeth a phrawf. Dyma radd gyntaf gweithrediad rheswm—sylwi ar ffeithiau, gan eu cymmeryd oll yn ganiataol fel gwirioneddau, a hyny i'r dyben o olrhain y deddfau sydd yn rhedeg drwyddynt ac yn eu llywodraethu, a thrwy hyny gael gafael ar wirionedd cyffredinol mewn ffurf hollol gyfansawdd (*concrete*), yn yr hwn yr ydym yn cyfuno yr oll a roddir i ni trwy ganfyddiad a'r arddansoddion uchaf o eiddo y dirnadaeth. Ac y mae yn deilwng o'n sylw fod y deddfau hyn a ganfyddir mewn *natur* yr un a'r unrhyw, erbyn edrych, a'r rhai a berthyn i *reswm*, fel ag wrth ddarganfod y deddfau sydd yn perthyn i wrthddrychau y tu allan i ni, yr ydym mewn gwirionedd yn edrych ar ddeddfau y rheswm sydd o'n mewn yn gweithredu y tu allan i ni. Yn ail, prawf (*experiment*), trwy yr hyn y mae y meddwl yn ymdrechu gweled natur yn ei gwaith. "*I caught nature in the very act*," medd un athronydd; ac wrth wneuthur hyn, y mae, oddi ar ragweled fod yn rhaid ei fod yn gweithredu yn ol rhyw ddeddfau penodol, yn eu darllen yn aneglur yn ei fynwes ei hunan, ac yna yn ceisio eu canfod a'u hadnabod allan o hono ei hunan yn y greadigaeth. Yr ail ris y mae rheswm yn esgyn i fyny ar hyd-ddi ydyw, myfyrdod: lle y mae y meddwl wedi cyrhaedd mwy o ryddid eto, ac yn gwrthod cymmeryd ffeithiau profiad, fel y rhoddir hwynt ger ei fron drwy y synwyrau, fel gwirionedd, cyn chwilio i mewn i natur a chadernid ei weithrediadau deallawl ei hunan. Ac yn olaf, y gris uchaf o eiddo y meddwl dynol ydyw, pan y mae wedi cyrhaedd perffaith ryddid ac annibyniaeth ar bob peth y tu allan i gylch ei ymwybyddiaeth ei hunan, ac yn gwneuthur ymchwiliad am y gwirionedd heb ddim sylfaen arall ond ei feddyliau cynhenid ei hunan. Mewn ychydig eiriau, gellir gosod allan y gweithrediad uchaf o eiddo y meddwl fel rheswm, fel yr un yn yr hwn y mae meddwl (*thought*) yn gwneuthur ei hunan yn unig yn wrthddrych ei ymchwiliad, ac o'r meddwl hwnw fel gwreiddyn yn dadblygu cyfundraeth gyfan o wirionedd neu wybodaeth. Yn y sefyllfa hon, nid oes ganddo ddim i'w gyfyngu ond cynnwys ei ymwybyddiaeth ar y naill law, a deddfau ymresymiad ar y llaw arall. Nis gall esgyn yn uwch na hyn. Nid oes dim yn fwy amlwg na'r duedd sydd yn y meddwl dynol i gyrhaedd y tir yma. Y mae am chwilio a chael yr olwg uchaf ar bob peth—am gyrhaedd y syniad hwnw am bethau nas gall ei alluoedd meidrol ef ddim cael un uwch nag ef. Y mae y duedd yma yn cyfodi oddi ar y dyheuad sydd o'n mewn am ddyfod o hyd i'r *un*, fel y sylwyd o'r blaen. Nod uchaf ymchwiliad meddwl dyn ydyw cyrhaedd y fan lle y mae bod a gwybodaeth yn un: a'r nod hwnw, os olrheinir ef yn gywir, yw Duw ei hunan.—(Gwel *Hamilton on Reid and Lectures; Fleming's Vocab. of Philosophy; Erdmann's Psychologische Briefe; Morell's Psychology; Encyct. Brit.*, d.g. *Metaphysics*, &c.

DEBIR, [דביר; Deg a Thrigain, Δαβίρ]: dinas yn llwyth Iudah, tua deng milltir ar ugain i'r de-orllewin o Ierusalem, a deng milltir i'r gorllewin o Hebron. Gelwid y ddinas hefyd Ciriath-Sepher (*Ios.* xv. 16), a Chiriath-Sannath (*Ios.* xv. 49). Ystyr yr enw *Debir* ydyw *gair* neu *oracl*; a chymhwysir ef at y parth cyssegredig a neillduedig hwnw o'r deml, neu o'r cyssegr sancteiddiolaf, yn mha un yr oedd arch y cyfammod wedi ei dodi, ac yn mha un y derbynid atebion oddi rhwng y cerubiaid. Oddi wrth hyn, ac oddi wrth y ffaith mai ystyr yr enw *Ciriath-Sepher* ydyw *llyfr-dinas*, tybir mai rhyw le cyssegredig neillduol, neu eisteddle dysgeidiaeth, yn mhlith y Canaaneaid, oedd Debir, yn mha un y gosodent eu cofnodion. "Nid ydyw yn debygol," fel y sylwa y Proffeswr Bush, "bod ysgrifeniadau a llyfrau, yn yr ystyr a roddir genym ni i'r geiriau, yn bethau cyffredin iawn yn mysg y Canaaneaid; ond yr oedd ganddynt ryw ddull, y mae yn ddiammheu, i gofnodi dygwyddiadau, a rhyw fath o ddysgeidiaeth, yn y parthau hyny." Meddiannwyd Debir gan Iosuah (*Ios.* x. 38); ond gan iddi gael ei hadfeddiannu gan y Canaaneaid, rhoddodd Caleb, i'r hwn y rhoddasid y dref, ei ferch Achsah mewn priodas i'w nai Othniel, am ei wroldeb yn ennill y ddinas eilwaith (*Ios.* xv. 16). Rhoddwyd y dref drachefn i'r offeiriaid (*Ios.* xxi. 15). Nid oes dim o'i holion i'w canfod yn bresennol.

Yr oedd dau o leoedd ereill a elwid Debir. Yr oedd un o honynt yn perthyn i Gad, tu hwnt i'r Iorddonen (*Ios.* xiii. 26); a'r llall yn perthyn i Beniamin, er ei bod yn wreiddiol yn llwyth Iudah.—(*Kitto.*)

DEBORAH, [דברה, *gair* neu *wenynen;* Deg a Thrigain, Δεββῶρα]: prophwydes, gwraig Lapidoth. Preswyliai, y mae yn debygol mewn pabell dan balmwydden, rhwng Ramah a Bethel, lle y barnai Israel: *Barn* iv. 4, 5. Golyga hyn, y mae yn debyg, mai hi oedd y cyfrwng drwy ba un yr amlygai Duw ei feddwl i'w bobl; ac y mae yn debygol yr ystyrid hi yn fath o benaeth ar y genedl, ar gyfrif ei dylanwad ac awdurdod ei nodweddiad, ac y dygid cwestiynau dyrus ac ammheus ati hi i'w penderfynu. Hi a ddywed yn ei chân (*Barn* v. 6, 7):—

> "Yn nyddiau Samgar, mab Anath,
> Yn nyddiau Iael, y llwybrau a aeth yn anhygyrch,
> A'r fforddolion a gerddasant lwybrau ceimion.
> Y maesdrefi a ddarfuant yn Israel:
> Darfuant, nes i mi, Deborah, gyfodi;
> Nes i mi gyfodi yn fam yn Israel."

Yn lle y gair *maesdrefi*, fel y mae yn y cyfieithiad Cymraeg, darllena Kitto fel hyn:—"Yr *arweinwyr* a ddarfuant yn Israel."

Oddi wrth awgrymiadadau ereill a gynnwysir yn y gân hono, ac oddi wrth amgylchiadau ereill, ymddengys fod y bobl wedi suddo i sefyllfa o ddigalondid mawr, dan orthrymder y Canaaneaid, fel yr oedd yn anhawdd eu cyffroi a'u cynhyrfu i wneuthur un ymdrech i ddryllio rhwymau eu caethiwed. Oddi wrth y diolch a roddir gan Deborah i'r bobl am yr ymdrech a wnaethant o'r diwedd, gellir casglu yn ddigon naturiol ei bod hi wedi bod yn ymdrechu eu hannog at wneuthur hyn am hir amser yn flaenorol heb un

Digitized by Google

llwyddiant. O'r diwedd gorchymynodd i Barac, mab Abinoam, o Cedesh, dinas yn Naphtali, i ymddangos ger ei bron ar fynydd, nid yn mhell o Hazor; a gwnaeth yn hysbys iddo fod yr Arglwydd yn ewyllysio iddo ymgymmeryd â'r gorchwyl o ryddhau ei wlad o gaethiwed. Ond y fath ydoedd ansawdd ddigalon ei deimlad, a'r fath oedd ei ymddiriedaeth yn nodweddiad rhagorol ac awdurdod Deborah, fel nad addawai ymgymmeryd â'r gwaith ond ar yr ammod y byddai iddi hi ei ddilyn. Cydsyniodd hithau â hyny o'r diwedd. Yna aethant gyda'u gilydd i Cedesh —yr oedd y ddinas hon yn nghymmydogaeth Hazor, prif ddinas eu gorthrymwyr—a chasglasant yn nghyd ddeng mil o wŷr yno, gyda pha rai yr aethant tua'r deheu, a gwersyllasant ar fynydd Tabor. Casglodd Sisera, cadfridog Iabin, brenin Hazor, fyddin ynghyd yn uniongyrchol, ac erlidiodd ar eu hol, a gwersyllodd gyferbyn â hwynt yn ngwastadedd mawr Esdraelon. Trwy gael ei annog a'i wroli gan Deborah, disgynodd Barac yn eofn o Tabor i'r gwastadedd gyda'i fyddin o ddeng mil o wŷr, i ymosod ar fyddin ragorach Sisera, gan yr hwn yr oedd naw cant o gerbydau haiarn. Gorchfygwyd y Canaaneaid; ac ymlidiwyd hwynt gan Barac tua'r gogledd hyd Haroseth. Disgynodd Sisera o'i gerbyd, pan yn cael ei erlid, a diangodd ar ei draed i babell Heber y Canaaneaid; gan wraig yr hwn y llofruddiwyd ef. Trwy y fuddugoliaeth fawr hon (yr hon a gymmerodd le tua y fl. c.c. 1296), dinystriwyd awdurdod y tywysogion brodorol, a sicrhawyd heddwch i'r Israeliaid, yr hwn a barhaodd am ddeugain mlynedd. Tros ystod peth o'r amser hwn, y mae yn debygol fod Deborah wedi parhau i arfer ei hawdurdod blaenorol: ond nid oes dim yn rhagor o'i hanes ar gael.

Dywedir ddarfod i'r gân a gyfansoddwyd ar yr achlysur o'r fuddugoliaeth fawr ar Sisera gael ei chanu gan "Deborah a Barac." Ystyrir yn gyffredin mai Deborah a'i cyfansoddodd; a'i bod wedi ei pharotoi i'w chanu ar ddychweliad Barac a'i filwyr yn ol o'r ymlidiad. Y mae yn esampl ragorol o farddoniaeth Hebreig foreuol. —(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

2. DEBORAH: mammaeth Rebeccah, yr hon a ddaeth gyda hi o Padan-Aram i Ganaan; bu farw yn agos i Bethel, a chladdwyd hi dan dderwen, yr hon, o blegid hyny, a alwyd rhagllaw *Alon-Bacuth*=derwen wylofain: *Gen.* xxxv. 8.

DECAPOLIS [ἡ Δεκάπολις, αἱ δέκα πόλεις]. Ymddengys fod yr enw yn golygu, nid talaeth neu gylchdaith bennodol, fel y dywedir yn gyffredin, ond *deg o ddinasoedd*, yn cynnwys y pentrefi cymmydogaethol, y rhai a ymdebygolent i'w gilydd trwy eu bod yn cael eu preswylio yn benaf gan y Canaaneaid, a thrwy eu bod yn gyffelyb o ran eu sefydliadau a'u rhagorfreintiau gwladol. Dywedir yn *Mat.* iv. 25, "A thorfeydd lawer a ganlynasant yr Iesu o Galilea, a Decapolis, ac Ierusalem, ac Iudea, ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen." Rhydd Pliny y rhestr ganlynol fel enwau y dinasoedd, ond addefa fod ychydig wahaniaeth barn yn nghylch ei chywirdeb [*Nat. Hist.* v. 16, 18]—1. Damascus; 2. Philadelphia; 3. Raphana; 4. Scythopolis; 5. Gadara; 6. Rippos; 7. Dion; 8. Della; 9. Galasa; 10. Canatha. Ysgrifenodd Josephus am Gadara a Hippos fel dinasoedd Groegaidd [*Hen.*, xvii. 11, adr. 4], a dywedodd mai Scythopolis ydoedd dinas fwyaf y Decapolis [*Rhyf. Iudd.*, iii. 9, adr. 7]: oddi wrth yr hyn y gellir casglu ei fod yn cau Damascus allan o'r nifer. Yn lle Damascus a Rephana, y mae Cellarius yn dodi Cæsarea-Philippi a Gergesa, a Ptolemy Capitolias [*Winer's Real-wörterbuch*, i. 308]. Daeth yr enw Decapolis, mewn amser, i gael ei gymmhwyso at fwy na *deg* dinas: yr hwn amgylchiad a rydd gyfrif mewn rhan am y gwahaniaeth sydd rhwng rhestrau gwahanol ysgrifenwyr. Y mae Stephan o Byzantium, er enghraifft, yn cyfrif *pedair ar ddeg* o ddinasoedd Decapolaidd. Mae yn eglur nad oedd y dinasoedd Decapolaidd, y sonir am danynt yn yr Efengylau, yn mhell oddi wrth Fôr Galilea: *Marc* v. 20; vii. 31. Ni chanfyddir yr enw Decapoli yn yr Apocrypha; ac yn ol Mannert, ni chanfyddir ef ond yn unig yn ngwaith ysgrifenwyr ganrif gyntaf; ac nid oes gyfeiriad ato, o'r braidd, mewn amseroedd diweddar.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*; *Herzog's Real Encycl.*; *Calmet's Dict.*

DECHREU—AD, [*de—cre;* Groeg, Ἀρχὴ)—*arché*]: defnyddir y gair hwn yn yr Ysgrythyrau mewn lluaws o wahanol ystyron. 1. Gyda chyfeiriad at *ddechreuad* o ran amser, dyfodiad i fodolaeth, &c.: *Mat.* xix. 4; xxiv. 8; *Ioan* i. 1, 2; *Heb.* ii. 3. At *ddechreuad* gweinidogaeth Crist ar y ddaiar: *Luc* i. 2, 3—ac efallai, yn *Ioan* xv. 27, at *ddechreuad* gweinidogaeth yr apostolion wedi ei farwolaeth: *Act.* xi. 15—at *ddechreuad* ymgydnabyddiaeth â Christionogaeth: 1 *Ioan* ii. 7, 24—at fuchedd y neb y lleferir am danynt: *Act.* xxvi. 41; *Ioan* iii. 8—ac yn fynych at yr hyn a gymmerodd le cyn creadigaeth y byd: gwel yn neillduol 2 *Thes.* ii. 13. 2. Gyda chyfeiriad at *sefyllfa gyntefig* neu *wreiddiol: Iudas* 6. 3. Y mae Crist yn cael ei alw yn *ddechreuad*, neu yn *ben: Dad.* i. 8; xxi. 6; xxii. 13; cymmharer *Dad.* iii. 14. Efe ydyw dechreuad, pen, neu achos effeithiol y greadigaeth; o blegid y mae efe cyn pob peth, a thrwyddo ac erddo ef y crewyd pob peth; cymharer *Ioan* i. 1, 2, 3; *Col.* i. 16, 17; *Heb.* i. 10. Y mae y gair ἀρχὴ (dechreuad), yn ol y cymhwysiad hwn, yn cyfatteb i'r gair Hebraeg ראשית, wrth yr hwn enw y gelwir Doethineb, hyny yw, y Messïah. Yr Arglwydd a'm meddiannodd i (ראשית דרכו), y *dechreuad*, y *pen*, neu *egwyddor ei ffordd;* hyny yw, o waith y greadigaeth, fel y dengys y cyd-destynau yn eglur: *Diar.* viii. 22. Ac y mae rhai wedi tybio fod y gair cyntaf yn Genesis (בראשית), heb law ei fod yn cyfeirio at *amser*, yn cyfeirio at Grist, trwy ac er mwyn yr hwn y crewyd y byd. Mewn canlyniad i hyn, y mae *Targum Ierusalem* yn darllen *Gen.* i. 1, *drwy Ddoethineb;* hyny ydyw, y Messïah. Dynoda y gair hefyd y pethau canlynol:—1. Y rhan gyntaf o unrhyw gyfnod pennodol; megys blwyddyn, neu ystod teyrnasiad yr Hebreaid: *Exod.* xii. 2; *Esa.* i. 26. 2. Y gweithredydd cyntaf, neu yr achos o beth: *Num.* x. 10; *Micah* i. 13. 3. Yr hyn sydd yn tra rhagori ar bob peth arall: *Diar.* i. 7; ix. 10. —(*Parkhurst's Greek Lex.*)

DEDAN, [דדן; Deg a Thrigain Δαιδάν]: crybwyllir am ddau berson o'r enw hwn yn y Beibl; un ydoedd mab Cus (*Gen.* x. 7); a'r llall ydoedd ail fab Iocsan, mab Abraham o Ceturah: *Gen.* xxv. 3. Yr oedd y naill a'r llall yn sefydlwyr llwythau, y rhai a grybwyllir yn fynych yn yr Ysgrythyr ar ol hyny; ac y mae Gesenius, Winer, ac ereill, yn barnu nad oedd y rhai hyn mewn gwirionedd yn llwythau gwahanol, ond mai yr un llwyth ydoedd, yn cael ei ddeilliaw, yn ol gwahanol draddodiadau. oddi wrth hynafiaid

Digitized by Google

gwahanol. Ond ymddengys yn fwy cysson, pa fodd bynag, i ymlynu wrth y golygiad cyffredin, drwy yr hwn y gwahaniaethir hwynt oddi wrth eu gilydd.

Ni wyddys ond ychydig iawn am ddisgynyddion Dedan, mab Cus. Tybir eu bod wedi ymsefydlu yn Arabia Ddeheuol, yn agos i Lynclyn Persia; ond prif sail y dybiaeth hon ydyw, fod man o'r enw Dadan neu Dadena yn y gymmydogaeth.

Ymddengys mai yn nghymmydogaeth Idumea y preswyliai disgynyddion Dedan, mab Iocsan, ac ŵyr Abraham; canys y mae y prophwyd Ieremïah (*pen.* xlix. 8) yn galw arnynt i sicrhau eu diogelwch, o blegid fod dinystr meibion Esau, sef yr Idumiaid, ger llaw. Y mae yr un prophwyd (*Ier.* xxv. 23) yn eu cyssylltu â Thema a Buz, dau dylwyth arall yn Arabia Garegog, neu Arabia Ddiffaeth, megys y gwna Ezeciel (*pen.* xxv. 13) â Thema, talaeth yn Edom. Nid ydyw yn eglur bob amser, pan arferir y gair, pa Dedan a olygir; ond y mae yn debygol mai y llwyth Cusaidd a ddysgrifir fel yn chwannog at drafnidiaeth; neu yn hytrach, hwyrach, yn ymwneyd â'r gwaith o gludo nwyddau. Cyfeirir atynt yn y cymmeriad hwn gan Esaiah (*pen.* xxi. 13); yn Ezeciel (*pen.* xxvii. 20), dysgrifir y Dedaniaid fel yn cyflenwi marchnadoedd Tyrus â "brethynau gwerthfawr i gerbydau;" ac y mae yr un prophwyd mewn man arall (*Ezec.* xxxviii. 13) yn eu henwi yn mysg marsiandwyr Tarsus.—(*Kitto.*)

DEDWYDDWCH, [*dy-ad-gwydd*]: defnyddir y gair hwn i osod allan o leiaf ddau o wahanol ystyriaethau. 1. Sefyllfa gysurus yn y byd, neu lwyddiant anghyffredin mewn amgylchiadau tymmorol. Y gair cyfystyr yn y Groeg am dano yw, *εὐδαιμονία* (*εὐ=da; δαίμων=tynged* neu *ddygwyddiad*; a hyny, yn ol syniadau yr ysgrifenwyr boreuol, oddi wrth y duwiau neu o'r nefoedd). Pa fodd y daeth y gair hwn (dedwyddwch) i gyfathrach â'r meddylddrych o lwyddiant tymmorol, y mae yn anhawdd sicrhau. O bosibl nad drwy y teimlad o foddhad all fod yn nghalon dyn wrth weled ei ddymuniadau yn cael eu cwblhau; o blegid rhaid nad yw cynnwysiad y dedwyddwch hwn yn ddim amgen na'r ymwybyddiaeth hwnw mewn dyn—fod yr allanol yn dyfod i gyd-darawiad â dymuniadau y mewnol. Fel y cyfryw, y mae yn fwy o air perthynasol na dim arall. Pan y siaredir am ddyn mewn sefyllfa o ddedwyddwch yn ei berthynas â'r byd, golygir ei fod yn fwy felly na dynion yn gyffredin, a bod y dedwyddwch hwnw yn ei gyssylltiad âg ef ei hun yn gorbwyso y drafferth a'r boen y dichon fod yn ddarostyngedig iddynt. Y mae y dedwyddwch hwn yn dyfod i gyffyrddiad agos âg ystyr y gair *pleser* (Gr. *ἡδονή*; Llad. *voluptas*). Y mae yn dyeithro ychydig oddi wrtho, drwy nad ydyw, fel pleser, yn golygu unrhyw fwyniant neillduol, nac yn gynnwysedig mewn unrhyw foddhad unigol o'n teimladau, ond yn hytrach yn yr effeithiau y mae y fath foddhad yn ei gynnyrchu ar y gïau (*nervous system*). Gwelir, o ganlyniad, fod a wnelo y dedwyddwch hwn yn fwy â'r naturiol o'r dyn nag âg unrhyw ddymuniadau pur ysbrydol a all fod yn ei feddiant.

2. Cyflwr neu sefyllfa, yn golygu cydgyfarfyddiad dedwydd gwahanol bethau â'u gilydd yn eu perthynas â'r anifeilaidd a'r ysbrydol. Hwn o lawer yw yr ystyr eangaf. Y gair Groeg cyfystyr yw *μᾶκᾶρία* (dansoddol, *μᾶκάριος*). Dyma yr unig air, mor bell ag y gellir casglu, a arferir yn yr Ysgrythyrau, sydd yn cyflwyno y meddylddrych o wynfyd neu ddedwyddwch. Nid yw bob amser yn cael ei ddefnyddio yn yr un cyssylltiadau. (1.) Golyga weithiau sefyllfa rydd a manteisiol, o ran amgylchiadau allanol, i fwynhau pethau rhesymol a chyfreithlawn: *Act.* xxvi. 2; 1 *Cor.* vii. 40. Defnyddir ef yn yr ystyr hwn mewn gwrthgyferbyniad i *wae*, fel y gair goreu i osod allan dawelwch meddwl, a rhyddhad oddi wrth ofalon. Cawn fod ein Harglwydd (*Mat.* xxiv. 19) yn cyhoeddi gwae uwch ben y "beichiogion, a'r rhai yn rhoi bronau" yn nyddiau y dinystr, o blegid y drafferth a'r caethiwed gofal fyddai arnynt gyda'u rhai bychain. (2.) Gesyd allan gyflwr o burdeb meddwl a theimladau, neu fwynhad o fendithion a grasusau crefyddol: *Mat.* v. 3—11; *Luc* i. 45; vi. 20—22; *Rhuf.* iv. 6—9. Cawn hefyd mai *μᾶκᾶρία* (yn yr ystyr hwn) a ddefnyddia y Deg a Thrigain fel gair sydd yn gyfystyr am אשרי. Gwel *Deut.* xxxiii. 29; *Salm* i. 1.

Cytuna amryw eiriaduron i ystyried *μᾶκᾶρία* fel math o addasair (*epithet*) am y duwiau, y rhai a gyferchid yn wastadol gan y beirdd paganaidd yn *μάκαρες θεοί=duwiau dedwydd*, mewn gwrthgyferbyniad i ddynion marwol:—

*Πρός τε θεῶν μακάρων, προς τε θνητῶν ἀνθρῶπον.*
*Homer's Il.*, i. 339.

Mewn canlyniad i hyn, defnyddiwyd y gair i drosglwyddo y syniad o dragwyddol hapusrwydd yn y byd dyfodol, yn gystal ag i olygu y sefyllfa benaf mewn dedwyddwch ag y mae yn bosibl i ddyn ei chyrhaedd yn y byd hwn. Ac nid anfynych yr arferir y gair gan Hesiod, Pindar, a Herodotus, yn gyfeiriedig at y meirw, neu at y llenyrch lle y trigent, yn ol eu syniad hwy. Gelwid y llenyrch hyn yn *μακάρων νῆσοι=ynysoedd y rhai dedwydd.* Gosodai yr awdwyr Groegaidd diweddar hwynt yn mhen eithaf y môr gorllewinol, lle y syrthiodd eu gwroniaid yn ebyrth i'r cleddyf, a lle y mwynhäai hanner-dduwiau y bedwaredd genedlaeth fath o orphwysdra iddynt eu hunain. Nid yw Pindar yn gweled yn dda leoli y drigfan i un man neillduol; ond golygai Herodotus mai yn Oasis, canol anialwch Affrica, yr ydoedd.

Gellir yn rhesymol gasglu, oddi wrth yr ymchwiliadau blaenorol i ystyron geiriau, fod mwy a wnelo *μᾶκᾶρια* â'r dyn ysbrydol, fel y mae mwy a wnelo *ἐυδαιμονία* â'r dyn naturiol. Nid ydys wrth hyn yn golygu fod un math o wrthdarawiad yn eu cyssylltiadau, ond yn unig yr arferid edrych arnynt fel geiriau anmherthynasol. Y mae dyn rywfodd yn gyfrwng rhwng y naturiol a'r ysbrydol; ac y mae awdwr natur wedi ei gynnysgaethu â dymuniadau sydd yn dal perthynas arbenig â'r naill fel y llall o'r rhai hyn; a'r "peth a gyssylltodd Duw," nid teg yw i neb eu dadgyssylltu. Y mae adeg wedi bod ar y dyn pan oedd yr elfen ysbrydol a'r naturiol mewn perffaith gydgordiad â'u gilydd. Tra y derbyniai y gyntaf ei rhan trwy gymdeithasu â Duw yn y gorchymyn, derbyniai yr olaf ei rhan hithau wrth lafurio y ddaiar, &c. Cydgyfarfyddiad y naill â'r llall oedd yn gwneyd y dedwyddwch yn un perffaith; a rhaid, oddi wrth ddeddfau y meddwl, fod syrthio yn fyr yn ammodau dedwyddwch y naill yn achlysuro anghysur yn y llall hefyd. Os cywir hyn, y casgliad naturiol yw, mai ymwybyddiaeth o berffeithrwydd, neu gydymffurfiaeth â deddf, yw hanfod dedwyddwch. Pa beth yw'r ddeddf hono, mae yn anhawdd dyweyd.

Digitized by Google

Profiad yn unig sydd yn dysgu dyn i'w theimlo a'i chydnabod yn gywir. Nid peth dyeithr yw clywed dynion yn cydnabod fod ganddynt eu hadnoddau (naturiol a moesol) sydd â'u tuedd i weinyddu dedwyddwch iddynt, trwy gydymffurfio â hwynt yn gyfreithlawn, ac mai diffyg cwympo i mewn â'r rhai hyn yw ffynnonell eu trueni a'u hanghysur. Y mae'r elfen naturiol fel hyn yn gydweedig â'r foesol, ac y mae croesi yr olaf bob amser yn cario dylanwad dinystriol ar y flaenaf. Byddai cydffurfio yn fanwl âg ysbryd y ddeddf foesol, nid yn unig yn fwyniant ysbrydol i'r dyn, ond hefyd yn ffynnonell dedwyddwch naturiol iddo. Cymmaint o drueni y mae dynion yn ei ddwyn arnynt eu hunain yn unig o herwydd byw mewn pechod a llygredigaeth. Yn hyn y mae deddf yr anifail a dyn yn gwahaniaethu;—deddf i lywodraethu *un* natur sydd gan y blaenaf, tra y mae gan yr olaf ddeddf i lywodraethu *dwy;* y mae y blaenaf yn cenedlu *pleser* wrth gydffurfio â'i ddeddf, tra y cenedla yr olaf *ddedwyddwch* wrth gydffurfio â'i ddeddf yntau; y mae y blaenaf yn mwynhau pleser wrth fod tan lywodraeth greddf i gadw ei ddeddf ef, tra y mae yr olaf yn mwynhau dedwyddwch wrth *ewyllysio* cadw ei ddeddf yntau. Nid ydys wrth ddyweyd hyn yn meddwl nad yw dyn, yn gystal a'r anifail, yn gwybod drwy brofiad beth yw hanfodion pleser—y mae'r naill a'r llall yn bwyta ac yn yfed, &c.; ond eto, nid yw yr hanfodion hyn amgen na rhan o'r hyn y mae ei ddedwyddwch yn cael ei wneyd i fyny o hono.

Ond yn mha bethau y gellir dywedyd fod gwir ddedwyddwch yn gynnwysedig? Nid ydys heb gofio fod amrywiaeth chwaeth a golygiadau yn y byd, a bod pob dyn yn sugno ei ddedwyddwch oddi wrth yr hyn sydd fwyaf dewisol ganddo. O bosibl nad yw y rhan amlaf o'r gwrthddrychau ag y mae dynion yn ceisio cysur iddynt eu hunwrth eu meddiannu yn gyfreithlawn ynddynt eu hunain; ac mai elfenau ydynt a ordeiniwyd gan y Creawdwr i gyfranu dedwyddwch i'r byd: ond y mae eu camddefnyddio, a dysgwyl gormod oddi wrth y naill a'r llall o honynt, yn annibynol ar eu gilydd, yn eu gwneuthur wrth naturiaeth yn ffynnonellau gwae ac anghysur. Yn y camddefnyddiad y mae dyn yn ymddwyn fel pechadur. Nid anfynych y cyfarfyddir âg ambell un a wna y byd—yn ei anrhydedd, ei gyfoeth, a'i alwedigaeth—yr unig wrthddrych mwynhad. Dyma yw "arfer y byd" drwy "ei gamarfer." Gwelir ereill yn ceisio sugno iddynt eu hunain ddedwyddwch wrth ymroddi yn hollol i ddymuniadau ac "ewyllysiau y cnawd," ar draul esgeuluso galwedigaethau crefyddol. Ymrodda ereill drachefn i fyfyrdod a dysg; dyma yw eu "bwyd a'u diod;" ac nid yw o nemawr bwys ganddynt aberthu yr elfenau blaenorol, os gallant rywfodd gyrhaedd eu hamcan yn hyn. Cyfarfyddir â dosbarth arall sy'n ymgyflwyno bron yn hollol at ddyledswyddau yr allor—eu holl ddigrifwch a'u llawenydd yw "myned i dŷ yr Arglwydd;" ac yno yr hoffant drigo holl ddyddiau eu bywyd. Efallai mai yn y teimlad a all fod mewn dyn o gydgyfarfyddiad yr holl elfenau hyn y mae ei ddedwyddwch yn gynnwysedig. Ac os byddys mewn meddiant gwirioneddol o hanfodion crefydd—o chwaeth a dymuniadau pur yr ysbrydol, nid oes ammheuaeth na bydd i hyn, i raddau pell, nawseiddio dymuniadau y naturiol, a chynnorthwyo y dyn i'w defnyddio yn eu hystyr gyfreithlawn, yn ol fel y bwriadodd awdwr natur iddynt gael eu defnyddio.

Ond pa fodd y gall dyn gyrhaedd dedwyddwch? a pha bethau yw yr elfenau hanfodol a wnant y dedwyddwch hwnw i fyny? Dyma y gofyniadau sydd yn ymgynnyg yn naturiol i'r meddwl. Gellir ateb y cyntaf fel hyn:—Trwy ddysgyblu y meddwl yn wastadol i adfyfyrio ar ddyben bywyd, ac ymdrechu gwneyd pob peth yn ddarostyngedig i hyny. Atebir yr ail gan mwyaf yn y gosodiadau canlynol:—

1. Mwynhad cyfreithlawn o bleserau y synwyrau (*sensitive pleasures*). Y mae y rhai hyn yn gynnwysedig mewn iechyd, mewn bwyta, ac yfed, a chysgu, mewn llafurio, a mwynhau golygfeydd, &c. Y mae y Creawdwr wedi darparu yn helaeth ar gyfer y dymuniadau hyn; a rhaid fod gwneuthur defnydd cymmedrol o honynt yn cyfranu at gynnorthwyo y dyn i'w fwynhau ei hun. Nid yw yn anmhosibl eu gwneyd yn elynion i ddedwyddwch drwy anghymmedroldeb. Bydd cadw y meddwl yn wastadol mewn dysgyblaeth dda yn sicr o fod yn foddion i'w rheoleiddio o fewn cylch cyfreithlondeb.

2. Mwynhad cyfreithlawn o bleserau cymdeithasol. Nid creadur i fyw arno ei hunan yw dyn. Y mae wrth naturiaeth yn aelod o gymdeithas. Awgrymodd y Creawdwr hyn iddo yn ei waith yn ordeinio priodas: a dilys yw mai rhai o hanfodion amlycaf deddfau y meddwl yw cydymdeimlad a chyfeillgarwch. Y mae yn eithaf priodol edrych ar gymdeithas fel math o gadwen, a phob dyn yn ddolen ynddi; y mae wedi ei gyssylltu â'i gyd-ddynion, ac y mae a wnelo ei holl amgylchiadau ef, pa un bynag ai meddyliol ai masnachol, â'u hamgylchiadau hwythau; ac y mae eu cysur a'u llawenydd hwy i fod yn gysur ac yn llawenydd iddo yntau. Ar yr un pryd, y mae cymdeithasau anghyfreithlawn; a lluaws a ymdrechant sugno pleserau iddynt eu hunain oddi wrth y rhai hyny. Cadw dyben bywyd o flaen y meddwl yw yr unig wrthglawdd sicr a alluoga y dyn i ymryddhau oddi wrth y rhai hyn.

3. Mwynhâd cyfreithlawn o bleserau myfyrdod. Dyma y man cyntaf y mae dyn yn gadael yr anifail. Nid yw ffynnonell pleser yr olaf yn cyrhaedd yn mhellach na'r elfen deimladol a'r gymdeithasol; ond mae gan ddyn alluoedd i fyned ar ol gwirionedd, ac y mae graddau y dedwyddwch a fwynha oddi wrthynt yn dibynu ar yr iawn arferiad a wneir o honynt. Y mae yn rhaid eu dysgyblu. Dyfroedd melus yr enaid sychedig am wybodaeth, yw olrhain llwybrau y *pa ham* a'r *pa fodd* yn ei ymchwiliadau am y gwirionedd. Y mae myfyrdod fel hyn yn un o'r elfenau pwysicaf yn nedwyddwch dynoliaeth, yn gymmaint a'i fod yn dwyn dyn i gyffyrddiad agosach â'r Creawdwr—yn gwisgo mwy o'i nodweddau, &c.

4. Mwynhad o fendithion a grasusau crefyddol. Y mae dyn, nid yn unig wedi ei gyssylltu â natur, â dynoliaeth, ac â gwirionedd, ond hefyd â Duw, fel gwrthddrych addoliad. Un o'r elfenau cryfaf all fod ynddo yw yr un grefyddol; ac yn ei waith yn cymdeithasu â Duw y mae dyn mewn gwirionedd yn derbyn fwyaf o ddedwyddwch—dyma lle y mae yn mwynhau ei hun helaethaf; ac y mae yn rhaid meithrin yr elfen ysbrydol cyn y mae yn bosibl mwynhau a rheoleiddio y byd naturiol yn iawn. Y mae crefydd, fel hyn, yn fath o ganolbwynt dedwyddwch y ddau fyd. Tra y mae yn rhoi gorfoledd bydol i'w pherchenog drwy ei gynnorthwyo i "arfer y byd hwn heb ei gamarfer," y mae ar yr un pryd yn rhoddi

Digitized by Google

gorfoledd ffydd iddo, drwy ei nerthu i edrych ar dragwyddol wynfyd y byd ysbrydol. "Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau ydynt heddwch."

Nid yn y naill nac yn y llall o'r cyssylltiadau blaenorol y mae dedwyddwch yn gynnwysedig; ond yn yr oll o honynt gyda'u gilydd. Mynai Aristotle fod bywyd da yn ei wahanol ranau, yn nghyd âg ymddygiadau addas i'r bywyd hwnw, yn gyfystyr â bod yn ddedwydd. Nid rhywbeth yw dedwyddwch ag y mae dyn yn ei ddymuno fel moddion i gyrhaedd rhywbeth arall; ond y mae yn gyflawn ynddo ei hun. Dyma o angenrheidrwydd yw eithafnod pob gweithred, ac enaid holl ragolygon dynoliaeth. Y mae yn cynnwys ynddo ei hun yr holl ddymuniadau am bleserau, cyfoeth, awdurdod, gwybodaeth, ac anrhydedd, ag y gall dyn eu meddiannu, ac yn eu gwneyd oll yn ddarostyngedig iddo. Fel y mae dyn yn fod moesol, rhaid mai yn ei gynnydd moesol y mae nerth ei ddedwyddwch; ac os felly, y mae dyn yn ddedwydd trwy ei fod yn rhinweddol. Yn yr ystyr hwn, y mae yn debyg, y golygai Schelling[1] fod *rhinwedd* a *dedwyddwch* yn eiriau cyfystyr.

Wedi y cwbl, y mae profiad yn dysgu pawb nad yw yn bosibl cyrhaedd perffeithrwydd dedwyddwch yn y byd hwn. Yn y byd nesaf y cyrhaeddir hwnw, pan y bydd dyn mewn cyflawn fwynhad o heddwch a ffafr ei Greawdwr. Pa faint bynag yw y berthynas a hanfoda rhwng pechod a phoen, mae yn rhaid cyfaddef fod dyn yn dwyn llawer o annedwyddwch arno ei hunan o herwydd peidio cydymffurfio â deddf. Nid ydys heb gofio fod dosbarth o dduwinyddion i'w cael a ystyrient boen yn elfen hanfodol yn nedwyddwch cymdeithas, o blegid ei fod yn fath o adfywiad (*refreshment*) i'n natur; ac na buasai yn bosibl meddu ymwybyddiaeth o ddedwyddwch oni bai poen. Ond y syniad mwyaf rhesymol yw, mai trwy gydgyfarfyddiad amrywiaeth gwrthddrychau a dymuniadau âg amrywiaeth chwaeth mewn gwahanol ddynion, y mae dyfod i feddu ymwybyddiaeth o ddedwyddwch. Gwel POEN.—(*Paley's Moral and Political Philosophy*; *Whewell's Morality*; *Aristotle's Ethics*; *Thomas' Crisis of Being*; *Geiriadur y Parch. W. Jones*; *Robinson's Greek and English Lexicon*; *Liddell and Scott's do.*; *Schrevelius' do.*; *Donnegan's do.*; *Fischer's Christiani Stockii Clavis.*)

**DEDDF**, [Gr., νομος]. Y mae o bwys i ddarllenwyr y Beibl ddeall gwahanol ystyron y gair νομος (*nomos*), yr hwn sydd yn un o'r geiriau a gyfarfyddwn fynychaf yn yr Ysgrythyrau. Y mae y gair yn deilliaw o'r ferf νεμω=*dosranu, tori allan oddi wrth, penodi i.* "Y mae y rhangymmeriad a ffurfir o'r ferf yn arwyddo yr hyn sydd gan un mewn arferiad a meddiant" [*Robinson's Lex.*]; ac oddi ar yr ystyr hwn y mae *nomos* yn cael ei ddefnyddio i ddynodi arferiad, megys arferiad gwlad. Yn yr ystyr hwn y mae cyfieithwyr y Deg a Thrigain wedi ei arfer am yr Heb. תורה (2 *Sam.* vii. 19). Yn y Testament Newydd ni ddefnyddir y gair ond yn unig am gyfraith neu ddeddf, yn cael ei phenodi naill ai gan arferiad neu osodiad. Y mae *nomos* yn arwyddo yn y Testament Newydd, *deddf*, mewn ystyr gyffredinol. Gwel *Rhuf.* iv. 15; v. 13; vii. 8; 1 *Tim.* i. 9. Y mae yr ystyr hwn iddo hefyd mewn ysgrifenwyr clasurol. Fynychaf, y mae *nomos* yn dynodi cyfraith neu ddeddf neillduol; ac yn benaf, yn y Testament Newydd, y gosodiadau Mosenaidd. Yn yr ystyr hwn arferir y gair am y gosodiadau canlynol:— 1. Cyfreithiau yn dal perthynas â hawliau a dyledswyddau gwladol (*Ioan* vii. 51; viii. 5; xix. 7; *Act.* xxiii. 3; xxiv. 6). Felly am ddeddf priodas (*Rhuf.* vii. 2, 3; 1 *Cor.* vii. 39); am offeiriadaeth Lefi (*Heb.* vii. 19); ac yn debyg yr arferir y gair yn yr awdwyr Groegaidd [*Dem.* a *Xen.*] am ryw gyfreithiau gwladol neillduol oedd yn mysg eu cenedl. 2. Am osodiadau perthynol i ddefodau crefydd ac addoliad; megys puredigaeth (*Luc* ii. 22); enwaediad (*Ioan* vii. 23); aberthau (*Heb.* x. 8). 3. Am ddeddfau yn dal perthynas â sefyllfa foesol dyn (*Rhuf.* vii. 7; *Iago* ii. 8; *Heb.* viii 10). 4. Am gyfraith ysgrifenedig (*Rhuf.* ii. 14). Yn y Testament Newydd, arferir y gair yn fynych am *y gyfraith*—holl gyfraith Moses, ar wahân oddi wrth unrhyw osodiad neillduol. Gwel y manau canlynol:—*Mat.* v. 18; xxii. 36; *Luc* xvi. 17; *Ioan* i. 17. Dynoda hefyd oruchwyliaeth Moses (*Rhuf.* x. 4; *Heb.* vii. 12); arwydda llyfr y gyfraith, sef y Pum Llyfr, yn wahaniaethol oddi wrth y prophwydi a'r Salmau (*Mat.* xii. 5; *Luc* ii. 23). Weithiau y mae *nomos* yn arwyddo yr holl Hen Destament (*Ioan* x. 34; xii. 34; xv. 25). 5. Y mae ὁ νομος τε λειος ("perffaith gyfraith;" *Iago* i. 25) yn golygu yr oruchwyliaeth Gristionogol, mewn cyferbyniad i oruchwyliaeth Moses. "Cyfraith rhyddid" (*Iago* ii. 12), heb yr ansoddair "perffaith," sydd enw ar yr efengyl. Dynoda y gair hefyd, orchymynion a rheolau yr efengyl; "cyfraith Crist" (*Gal.* vi. 2). 6. Y mae *nomos* hefyd yn arwyddo rheol, neu safon gweithrediad—y gallu hwnw yn meddwl dyn sydd yn ei yru yn mlaen mewn rhyw gwrs neillduol. Dyma yr ystyr a ddylid roddi, fe allai, i'r geiriau "deddf y meddwl" a "deddf yr aelodau" yn *Rhuf.* vii.

Gellir edrych yn mhellach ar y gair *deddf* dan ddosbarthiad mwy cyffredinol. Weithiau y mae yn dynodi gosodiad neu ddeddfraith awdurdodol, yn cael ei ffurfio gan feistr neu arglwydd, er mwyn rheoli ymddygiadau y rhai sydd yn ddarostyngedig iddo. Fel hyn yr ydym yn deall y gair *deddf*, pan soniwn am ddeddf Duw, pa un bynag ai ei ddeddf foesol gyffredinol, ynte unrhyw gyfundrefn o osodiadau lleol a byrbarhaol, wedi eu rhoddi ganddo ef; megys y gosodiadau a elwir y deddfau barnol a seremonïol. Yn ol yr ystyr yma i'r gair, y mae yn dal perthynas â rhaith; hyny yw, y mae y ddeddf yn cael ei gosod gan un blaid, yr hon sydd yn meddu hawl a gallu i orchymyn, ac yn cael ymostwng iddi gan blaid arall, ar ba un y mae ufudd-dod yn ddyledswydd. Y mae cyfreithiau gwladol teyrnas—pob rheol a osodir gan awdurdod, ac a gadarnheir gan gospau, pa un bynag a ddaethant oddi wrth Dduw, ffynnonell pob awdurdod wirioneddol a chyflawn, ynte oddi wrth y rhai sydd yn cynnal awdurdod wladol ar y ddaiar—yn cael eu gosod allan trwy yr un gair, *deddf*, ac yn yr un ystyr o'r gair. Y mae ystyr arall, mae yn amlwg, i'r gair hwn. Nid oes dim perthynas rhwng yr arwyddocâd hwnw iddo a rheithwyddiaeth (*jurisprudence*); ond y mae yn cael ei arfer mewn achosion pan nad oes greaduriaid rhesymol i ufuddhau neu i anufuddhau o gwbl. Defnyddir ef i osod allan y cyssylltiad sydd rhwng achos ac effaith mewn pethau difywyd. Dyma feddwl y gair *deddfau natur*, yr hwn a esyd allan

[1] Un o'r Pantheistiaid Ellmynaidd, a dysgybl Fichte, awdwr *idealism* y Cyfandir.



Digitized by Google

gwrs rheolaidd a sefydlog pethau; ac yn unol â'r un arwyddocâd y sonir am ddeddfau y meddwl. Y mae y ddeddf ag y mae creaduriaid cyfrifol yn rhwym o ufuddhau iddi yn un peth; a'r ddeddf, trwy rinwedd pa un y mae creaduriaid byw neu ddifywyd yn ymddwyn yn wastad yn gyffelyb mewn amgylchiadau cyffelyb, yn beth arall. Ond er fod y gwahaniaeth hwn yn bod rhwng y naill a'r llall, eto y mae yn briodol eu dynodi â'r un gair deddf, ar gyfrif yr unffurfiaeth cyffelyb sydd yn perthyn iddynt. Er, efallai, fod yr ymadrodd yn perthyn yn fwy neillduol i'r cyssylltiad hwnw rhwng uchradd ac isradd, lle y mae awdurdod gan y naill i orchymyn, a gallu gan y llall i ufuddhau; eto, o herwydd yr unffurfiaeth a'r sefydlogrwydd parhaus sydd yn perthyn, er esampl, i ddeddfau naturiaeth weledig, ac i ddeddfau y meddwl dynol, y mae y gair yn cael ei gymhwyso, gyda phriodoldeb, at yr olaf fel y cyntaf.

Tybygem fod y dosbarthiad a wna Macknight ar wahanol ystyron y gair *deddf* (νομος) yn dra chynnwysfawr a chywir. Mewn rhai lleoedd y mae yn arwyddo y dadguddiad dwyfol yn gyffredinol. Rhoddir yr enw hwn ar holl "ymadroddion Duw," y rhai a ymddiriedwyd i'r Hebreaid. Dyma yr ystyr sydd yn aml i'r gair yn Llyfr y Salmau, ac yn fynych yn y Testament Newydd: *Ioan* x. 34; xii. 34; xv. 25; *Rhuf.* ii. 17. Yn yr holl leoedd hyn, y mae *deddf* yn golygu yr holl ddadguddiadau dwyfol, fel y maent i'w cael yn Ysgrythyrau yr Hen Destament. Ond pan y mae yr ysgrifeniadau hyn yn cael eu dosbarthu i wahanol ranau, megys yn *Luc* xxiv. 44, y mae y ddeddf neu y gyfraith (*nomos*), yn ol y dosbarthiad hwnw, yn golygu Pum Llyfr Moses yn unig. Dyma y meddwl hefyd yn yr ymadrodd, "Wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi;" *Rhuf.* iii. 21. Yn yr ystyr cyfyngedig yma i'r gair, y mae y fannod yn cael ei rhagddodi yn gyffredin, er mai nid bob amser. Am mai y cyfammod a wnaeth Duw âg Abraham oedd un o'r prif ddadguddiadau a roddes Duw o'i feddwl, a bod sylwedd yr holl ddadguddiad grasol yn gynnwysedig o'i fewn, y mae Macknight yn barnu mai dyma y meddwl sydd i'r gair *deddf* mewn rhai lleoedd, megys y rhai a ganlyn:—"Canys yr enwaediad yn wir a wna les, os cedwi y ddeddf" (*Rhuf.* ii. 25), a "deddf ffydd" (*Rhuf.* iii. 27). "Deddf ffydd" yma, fel y mae yn wrthgyferbyniol i ddeddf gweithredoedd, ydyw y cyfammod grasol hwnw a wnaeth Duw â dynion yn ebrwydd ar ol y cwymp. Gelwir y cyfammod grasol yn bur briodol yn ddeddf, am mai efe ydyw y gyfraith neu y rheol trwy ba un y mae pechaduriaid yn cael eu cyfiawnhau yn mhob oes. Yn *Rhuf.* ii. 25, gelwir hi wrth y gair unigol "deddf." Ond y mae yn amlwg fod y golygiad hwn ar y ddwy adnod y cyfeiriwyd atynt yn anghywir. Nid oes yn y gair "deddf ffydd" un cyfeiriad neillduol at gyfammod Abraham; ond at drefn Duw o gyfiawnhau pechadur trwy ffydd, yn wrthgyferbyniol i gyfiawnhad trwy weithredoedd. "Nid rhwng y ddeddf a'r efengyl," sylwa Alford, "fel dwy oruchwyliaeth, y gwneir cyferbyniad yma; ond rhwng deddf gweithredoedd a deddf ffydd, pa un bynag ai dan y gyfraith ai dan yr efengyl." Ac y mae y gair "cyfiawnderau y ddeddf," yn *Rhuf.* ii. 26, yn dangos mai y ddeddf foesol a feddylir yno.

Y mae yr efengyl hefyd yn cael ei galw yn ddeddf neu gyfraith (*nomos*); "cyfraith Crist" (1 *Cor.* ix. 21); "deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu" (*Rhuf.* viii. 2); a "chyfraith rhyddid" (*Iago* i. 25). Arwydda hefyd ddeddf natur, yr hon sydd ysgrifenedig yn nghalonau dynion, ar gyfrif yr hyn y dywedir eu bod yn "ddeddf iddynt eu hunain" (*Rhuf.* ii. 14). Ac mewn ystyr trawsenwol, arferir y gair am unrhyw beth sydd yn meddu ar nerth a grymusder deddf; megys, "deddf pechod" "deddf yr aelodau," "deddf y meddwl" (*Rhuf.* vii. 21.) Mae y gair *nomos*, yn yr ystyr olaf, o'r un meddwl, ebe M. Stuart, a'r geiriau Lladin *dominatio* a *praeceptum*.

DEDDF PECHOD.

Mae yn ymddangos mai yr arwyddocâd olaf a nodasom i'r gair *deddf* ydyw ei ystyr yn yr ymadroddion "deddf pechod," a "deddf pechod a marwolaeth;" *Rhuf.* vii. 23; viii. 2. Nid oes un math o raith yn perthyn i ddeddf pechod: yn hytrach, gallu neu ddylanwad ydyw, yn cynnyrchu effeithiau priodol iddo ei hun yn y neb y mae yn cartrefu. "Nid yw deddf pechod," ebe Dr. Chalmers, "na mwy na llai na'r duedd bechadurus sydd yn ein natur. Y mae yn cael ei galw yn ddeddf, am ei bod, fel deddfau pwys a thyniad, neu drydaniaeth, yn rhoddi ysgogiad i'r rhai y gweithreda arnynt mewn rhyw gyfeiriad neillduol; a phriodolir iddi y grym ysgogiadol hwnw sydd yn perthyn i ddeddf, pan ddywedir ei bod yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl, ac yn amcanu yn barhaus am oruchafiaeth."

DEDDF YSBRYD Y BYWYD.

"Deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu a'm rhyddhaodd i oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth;" *Rhuf.* viii. 2. Rhai esbonwyr a farnant mai wrth "ddeddf ysbryd y bywyd" y golygir yr un a "deddf y meddwl" (*Rhuf.* vii. 23); wrth ba un y golygir, meddant hwy, yr uchafiaeth hwnw y mae dylanwadau Ysbryd Duw yn ei roddi i reswm a chydwybod ar y nwydau a'r tueddiadau llygredig. Ond y farn gyffredin ydyw, mai yr efengyl a feddylir. "Yr wyf yn hytrach yn meddwl fod yr apostol yn llefaru am yr efengyl, yr hon a elwir 'deddf ysbryd y bywyd,' am ei bod wedi ei rhoddi gan yr Ysbryd, a chael ei chadarnhau gan ei ddoniau."—*Macknight*. Y mae egluradaeth yr esbonwyr canlynol yn dwyn allan feddwl yr ymadrodd yn well. "Y mae deddf ysbryd y bywyd" yn dynodi y duedd neu yr egwyddor hono yn y meddwl sydd yn meddu ar ddigon o nerth i attal gweithrediad deddf pechod a marwolaeth, ac yn y pen draw i'n rhyddhau oddi wrthi. Y mae yn cael ei dodi oddi mewn fel hedyn cymmeriad newydd, trwy rinwedd yr hwn y cynnyrchir y dymuniad, a'r amcan, a'r egnïon, ac o'r diwedd, yr holl oruchafiaeth a berthyn i fywyd o sancteiddrwydd. Gelwir y ddeddf hon yn 'ddeddf ysbryd y bywyd,' am fod yr hwn y mae y ddeddf hon wedi ei sefydlu o'i fewn yn feddiannol ar syniad ysbrydol; ac fel y mae syniad y cnawd yn farwolaeth, felly y mae syniad yr ysbryd yn fywyd. Y mae yn ddeddf yr ysbryd, am mai yr Ysbryd yw y person sydd yn ei gosod i weithio yn yr enaid; ac yn 'ddeddf ysbryd y bywyd,' ar gyfrif y sefyllfa newydd ag y mae yn dwyn yr enaid iddi."—*Chalmers* ar y lle. "Nid y dyn sydd yn rhyddhau ei hun; ond rhyw allu sydd yn rhyddhau—sydd yn dattod y rhwymau—sydd yn ei dynu oddi wrth gaethiwed pechod: 'deddf ysbryd y bywyd' y gelwir y gallu hwnw. Fel yn *Ioan* viii. 36, y lleferir yn unig am y Mab fel y person a ddichon beri gwir ryddhad; felly fe lefarir yma am 'ddeddf ysbryd y bywyd yn

Digitized by Google

Nghrist Iesu.' I'r dyben yn unig i'r cyferbyniad rhwng deddf a marwolaeth ymddangos yn fwy eglur y lleferir am Grist yn y lle hwn fel yn cael ei gynnwys yn y ddeddf a sylfaenwyd ganddo ef."—*Olshausen.* "Y rhai hyn heb fod y ddeddf ganddynt, ydynt ddeddf iddynt eu hunain;" *Rhuf.* ii. 14. Ar y gwahaniaeth rhwng deddf natur a'r ddeddf ysgrifenedig oedd gan yr Iuddew, y mae Olshausen yn gwneyd y sylwadau canlynol:—"Dengys yr apostol fod deddf wedi ei rhoddi i'r Cenedloedd hefyd. Dysgrifia y ddeddf hon fel 'deddf ysgrifenedig yn eu calonau;' yr hwn eiriad a ffurfia gyferbyniad â deddf yr Hen Destament, yr hon oedd yn ysgrifenedig ar leehau ceryg. Wrth y ddeddf hon y meddylir llais Duw yn y gydwybod, yr hwn sydd yn gwneyd ei hun yn glywadwy, gan nad pa mor brin, hyd yn oed yn y dosbarth isaf o'r byd paganaidd. Ond o barth i'r berthynas sydd rhwng y ddeddf fewnol hon â'r ddeddf allanol a roddwyd trwy Moses, y mae yn rhaid caniatau fod yr olaf, nid yn unig yn fwy eglur a phenodol, ac yn llawer mwy cywir, yn ei gofynion, ond hefyd ei bod yn rhagori yn y peth hwn yn enwedig—ei bod yn hòni yn fwy eglur ei bod yn gyfraith Duw ei hun. Y mae y diffyg o hyn yn neddf dufewnol y pagan yn ei egluro ei hun yn ymrysonfa dufewnol ei feddwl; o blegid y mae llais y nwydau a'r tueddiadau pechadurus yn llwyddo yn wastad i wneyd ei hun yn glywadwy yn yr ymrysonfa â lleferydd y ddeddf oddi fewn, am na adwaenir yr olaf ond i radd anmherffaith iawn fel llais Duw, megys y mae mewn gwirionedd. Yr un pryd, po mwyaf aneglur yr ymddengys y ddeddf dufewnol, mwyaf ydyw ffyddlondeb y rhai a ufuddhant i'w rhybuddion gwanaidd a chymmysglyd. Mae y gwahaniaeth, gan hyny, rhwng deddf y pagan, a deddf eglur Moses, yr hon sydd yn cario gyda hi brofion amlwg o'i tharddiad dwyfol, yn fawr iawn; ac o ganlyniad, yr oedd manteision yr Iuddewon, am eu bod yn feddiannol o'r ddeddf hon, yn fanteision uchel. Eto, y mae y gwahaniaeth hwn yn cael ei leihau gan y ffaith fod deddf Moses, gyda'i holl eglurder, yn gofyn, mewn unrhyw achos neillduol, gymhwysiad, yn cael ei benderfynu gan y dull yn mha un y caiff ei hesbonio; ac yr ydoedd hyn yn dibynu cymmaint ar agwedd meddwl yr Iuddew, ag yr oedd eglurhadaeth y ddeddf dufewnol ar agwedd meddwl y Groegwr."

DEDDF NATUR.

Dywed yr apostol fod y pagan "wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf." Y mae y gair a gyfleithir *natur*, yn fynych yn dynodi y cyfansoddiad naturiol—y tuedd neu y gogwydd sydd yn nglŷn â'r dyn ei hun, ar wahân oddi wrth symbyliad a dylanwad oddi allan, i benderfynu ei weithrediadau. Y mae y dull hwn o eirio yn perthyn i bob iaith; a defnyddir ef, fel yn y fan hon, gan Paul, i osod allan yr ysgogydd tufewnol at ryw actau neillduol. Pan ddywedir fod anifail yn greulawn "wrth naturiaeth," yr hyn a feddylir yw, fod ei greulondeb i gael ei briodoli i, ac i'w esbonio gan, ei gyfansoddiad naturiol. A phan ddywedir fod y Cenedloedd "wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf," yr hyn a feddylir yw, eu bod yn gwneuthur y pethau hyny heb gael eu haddysgu gan ereill. Nid gan addysg nac esampl, ond gan eu syniad cynhenid eu hunain am dda a drwg y maent yn cael eu harwain. Am eu bod yn feddiannol ar y syniad naturiol hwn am y da a'r drwg, y maent, er yn amddifad o ddeddf ddadguddiedig, yn ddeddf iddynt eu hunain. Nid yw y gair, "wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf," yn rhoddi lle i feddwl y dichon i'r pagan gyflawnu y ddeddf, ac felly gyrhaedd cyfiawnhad yn ei gwyneb; ond yn hytrach ei fod o hono ei hun, heb un dylanwad oddi allan, yn gweled drygedd rhai gweithredoedd, megys llofruddiaeth neu ladrad, ac yn eu hysgoi. Nid yw y gair yn cynnwys ei fod wrth naturiaeth yn gwneuthur yr holl bethau a orchymyna y ddeddf. Eithr pan y mae y pagan cydwybodol, yr hwn sydd heb y ddeddf ddadguddiedig, yn ymddwyn yn unol â gofynion y gyfraith neu y ddeddf sydd o'i fewn, y mae, mor bell ag y mae ei gydffurfiad yn cyrhaedd, yn ddeddf iddo ei hunan. Gellid meddwl nad oes yn ngeiriau yr apostol sail ddigon cadarn i adeiladu cadwedigaeth paganiaid arni. Y mae dyweyd fod y pagan wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf, yn meddu ar ystyr, a'r ystyr hwnw yn fwy naturiol na'r ystyr a roddir i'r ymadrodd gan rai—fod y pagan yn cyflawnu y ddeddf, ac yn ufuddhau iddi yn y fath fodd fel ag i gyrhaedd cyfiawnhad ger bron Duw. Profi y gwrthwyneb i hyn yn hollol am yr Iuddew a'r Groegwr ydyw amcan yr apostol yn y rhanau cyntaf o'r epistol. Nid yw yr ymadrodd chwaith yn rhwym o gynnwys y drychfeddwl fod y pagan yn rhoddi yr un ufudd-dod efengylaidd i'r ddeddf ag y mae plant Duw yn ei roddi. Yr hyn a brofa ydyw fod yr Iuddew a'r Groegwr yn ddiwahaniaeth yn dyfod dan gondemniad am anufudd-dod i'r ddeddf, a'u bod yn cael eu gwobrwyo fel eu gilydd am ufudd-dod—nad oes derbyn wyneb gyda Duw—y bernid pawb yn ol y ddeddf—nad arbedid gwrandawyr y ddeddf ar y cyfrif hwnw, ond yn unig ei gwneuthurwyr. Bellach, yr oedd yn naturiol dyweyd:—Y mae y Cenedlddyn heb un ddeddf ysgrifenedig: nid yw y dadguddiad a roddwyd i'r Iuddew ganddo ef; felly nis gellir cymhwyso yr egwyddorion uchod ato ef. Yn atebiad i hyn, dywed yr apostol fod gan y Cenedloedd gyfraith mor wirioneddol a'r Iuddewon; yr hon, er nad yn ysgrifenedig ar lechau na memrwn, sydd yn ysgrifenedig ar eu calonau. Fel y dangosir yn *adn.* 13 fod yr Iuddewon dan ddeddf, felly y dangosir yn yr adnodau canlynol fod y Cenedloedd hefyd dan ddeddf; ac nid yw yr apostol yn dangos fod y naill mwy na'r lleill yn cyrhaedd cyfiawnhad trwy y ddeddf. Y gwrthwyneb ydyw ei amcan. Y prif beth mewn golwg wrth ddywedyd fod y Cenedloedd "wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf" ydyw dangos eu bod hwythau, er heb ddadguddiad, eto mewn gwirionedd—mor wirioneddol a'r Iuddewon—dan ddeddf, ac yn ddeddf iddynt eu hunain; a phrawf o'i bod yn ysgrifenedig yn eu calonau ydyw eu bod wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf. Nid oes modd meddu deddf ond mewn un o ddwy ffordd—yn ysgrifenedig oddi allan neu oddi mewn. Y mae y Cenedloedd yn ei meddu yn yr ystyr olaf, o blegid y maent "wrth naturiaeth," nid trwy gymhelliad, neu addysg, neu esampl oddi allan, yn gwneuthur rhai pethau sydd yn y ddeddf.

**DEDDF FOESOL.** Gwel yr erthyglau ar Cyfraith; Rhoddiad y Gyfraith; Gorchymyn. Ni a gyfyngwn yr erthygl hon at rai sylwadau cyffredinol ar egwyddorion ac ysbryd y ddeddf foesol. I'r grefydd Iuddewig yr ydym

Digitized by Google

yn ddyledus am y crynodeb perffaith o holl ddyled dyn a gynnwysir yn y deg gorchymyn. Y mae pob un o'r gorchymynion hyn yn condemnio, nid yn unig y trosedd allanol a waharddа, nid yn unig y weithred anfad yn ei holl ysgelerder, ond hefyd pob peth sydd yn gogwyddo tuag ati, a phob ymddygiad sydd yn arwain i'w chyflawniad; ac wrth ddyweyd yn y modd gwaharddiadol, "Na wna," y mae yn rhwymo arnom yr ymarferiad rhinweddol gwrthwyneb. Fel hyn, y mae y gorchymyn, "Na ladd," yn condemnio, nid yn unig y weithred o lofruddio yn fwriadol, ond pob math o drais, a phob coleddiad o nwyd dialgar: y mae yr hwn a gasao arall yn euog yn wyneb y gorchymyn hwn fel y llofrudd a laddo ei gymmydog. Y mae yn condemnio, nid yn unig y weithred, ond yr holl lwybrau y mae y meddwl yn myned trwyddynt rhyngddo a chyflawniad y weithred. Y mae y dull eang hwn o esbonio gorchymynion y ddeddf foesol yn cael ei warantu, nid yn unig gan gasgliadau rheswm, a chan esboniadau manwl Iesu Grist arni, ond hefyd gan lythyren y deddf ei hunan; o blegid y mae yr olaf o'r gorchymynion, "Na chwennych," yn dangos fod tueddiadau y galon, yn gystal a'r gweithredoedd allanol, yn perthyn i'r holl orchymynion; fod y naill fel y llall yn disgyn dan raith y Deddfroddwr. Mae y degfed gorchymyn yn esbonio eangder ystyr yr holl orchymynion ereill.

Wrth i ni edrych ar y ddeddf foesol yn y wedd eang, fanwl, ac ysbrydol yma, ni a welwn ei bod yn grynodeb cyflawn o holl ddyledswyddau y creadur. Y mae yn argymhell addoliad yr unig wir a bywiol Dduw; y mae yr addoliad hwn i gyfateb i berffeithiau anfeidrol ei wrthddrych; y mae ei fawredd yn gofyn holl barch a mawl y creadur; ei ddaioni yn haeddu ei ddiolchgarwch. Dylid ei ofni am ei fod yn Dduw eiddigus; dylid gobeithio ynddo, o herwydd fod ei drugaredd yn parhau yn dragywydd. Y mae y ddeddf hon yn gwahardd pob math o eilunaddoliaeth, pa un bynag ai trwy gymmysgu addoliad y gwir Dduw âg addoliad eilunod, ynte trwy addoli y gwir Dduw trwy gyfrwng lluniau a delwau; ïe, y mae y neb a roddo gariad uchaf ei galon i ryw wrthddrych heb law i Dduw yn troseddu y gorchymyn hwn mor hollol a phe y syrthiai ger bron delw gerfiedig. Wrth orchymyn i beidio cymmeryd enw Duw yn ofer, rhwymir ni i deimlo ac i ddangos y parch mwyaf i Dduw ac i'w awdurdod, i feithrin y teimladau tufewnol sydd yn briodol oddi wrthym tuag ato, i roddi mynegiad allanol o'r teimladau hyny yn y dull mwyaf parchus. Fe sefydla y gorchymyn hwn hefyd rwymedigaeth llwon a chytundebau. Trwy orchymyn i gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath, sefydlir yr angenrheidrwydd am addoliad cyhoeddus, ac am broffes allanol o wirioneddau crefydd; a chadarnheir hyn trwy gymhelliad sydd yn perthyn yr un fath i holl ddynolryw, yr hwn a allasai ddysgu yr Iuddew i ystyried pob cenedl fel creaduriaid Duw, fel deiliaid ei lywodraeth, yr un modd ag yntau. Y mae yn deilwng o sylw hefyd fod y gorchymyn hwn, yn gymmaint a'i fod yn gofyn am i orphwysfa y Sabbath estyn ei mwynderau at y gwas, y forwyn, y dyeithrddyn, a hyd yn oed at anifeiliaid, yn profi fod y Creawdwr yn sylwi ar, ac yn gofalu am, ei holl greaduriaid; fod pob dosbarth o ddynion, yr isaf fel yr uchaf, yn wrthddrychau ei ofal tadol; nad yw y gwahaniaethau damweiniol ag sydd yn dyeithro y naill ddosbarth o ddynion oddi wrth y llall, yn dyeithro yr un o honynt oddi wrth y gofal a'r haelioni dwyfol; a bod hyd yn oed y greadigaeth ddireswm yn cyfranogi o ofal a thynerwch y Creawdwr; ac y dylai dynion yr un modd drin y dosbarth hwn o greaduriaid gyda thynerwch a gofal, fel y mae eu Creawdwr yn gwneuthur.

Y mae gorchymynion yr ail lech yn cynnwys ein dyledswyddau tuag at ein cyd-ddynion. Swm y gorchymynion hyn ydyw, "Câr dy gymmydog fel ti dy hun." Y mae y gorchymyn, "Anrhydedda dy dad a'th fam," yn cynnwys, nid yn unig rwymedigaethau plant tuag at eu rhieni, ond yr holl ddyledswyddau sydd yn cyfodi oddi ar gyssylltiadau teuluaidd; ac y mae a wnelo y gorchymyn nid yn unig âg actau neillduol o ufudd-dod, ond â'r tueddiadau tufewnol a ddylent reoli ein hymddygiadau yn ein cyssylltiadau perthynasol. Ac y mae y gorchymyn hwn hefyd yn gofyn y parch a'r anrhydedd sydd yn briodol oddi wrth isafiaid at uchafiaid: y mae yn rhwymo arnom y dyledswyddau sydd yn cyfodi oddi ar bob math o berthynas gymdeithasol gyfreithlawn. Yn y lle cyntaf, y mae yn gofyn am ein hufudd-dod a'n parch tuag at Dduw ei hun, ffynnonell pob awdurdod, Tad yr ysbrydoedd; ac yn nesaf, ein hufudd-dod a'n hymostyngiad i bob awdurdod sydd wedi deilliaw oddi wrtho ef. Y mae y gorchymynion ereill yn cyduno yn berffaith â mynegiadau y rheswm a'r gydwybod, pan y maent yn rhoddi eu llais yn eglur, ac yn gwahardd y troseddau a waherddir yn gyffredin gan gyfreithiau dynol fel yn niweidiol i hapusrwydd cymdeithas. Yr un pryd, y mae o bwys i ni gofio fod y gwaharddiadau yn gorphwys, nid yn unig ar reswm y peth, ond hefyd ar awdurdod ddwyfol. Y mae mynegiadau rheswm a chydwybod o barth i foesau yn cael eu gwrthddyweyd yn mhlith llawer o genedloedd. Y mae syniadau cyfeiliornus am lesiant cymdeithas, grym y nwydau llygredig, a thwyll eilunaddoliaeth, wedi ffynu yn fynych i ddystewi eu llais hwy. Mewn un wlad, yr oedd lladrad yn cael ei oddef, os cai ei ymarfer gyda mesur o fedrusrwydd; mewn gwledydd ereill, y mae y trais a'r ysbeiliad mwyaf beiddgar yn cael ei anrhydeddu fel arddangosiad o wroldeb. Weithiau, y mae godineb a'r troseddau mwyaf annaturiol yn cael eu cyflawnu heb na galar na chywilydd; ïe, y mae pob math o ysgelerder yn cael ei orchymyn fel rhan o addoliad crefyddol. Yn rhai o'r gwledydd paganaidd, yr oedd ysbryd ymddial yn cael ei ddyrchafu i restr y rhinweddau: edrychid arno fel yn gyfystyr â gwroldeb ac ysbrydiaeth. Ystyriasid dyn o duedd faddeugar fel yn amddifad o ymadferth ysbryd a chymmeriad. Pan laddai un ei gymmydog dan gynhyrfiad ysbryd dialgar, anrhydeddid ef yn mron fel math o arwr. Yr ydym hefyd yn gweled holl deimladau mwyaf cyssegredig natur yn cael eu sangu dan draed. Y mae yn arferiad aml yn mysg rhieni mewn rhai gwledydd paganaidd i adael i'w plant drengu o herwydd rhyw anaf corfforol. Ac y mae meddyliau dynion yn cynnefino mewn amser âg ysgelerderau o'r fath, fel nad ydynt yn gweled dim o'u drygioni. Y mae gau grefyddau yn twyllo eu dysgyblion i'r fath raddau, fel na phetrusant bentyru aberthau dynol ar allorau eu heilunod; y mae y meistr yn lladd ei gaethwas, y gorchfygwr yn cyflawnu y creulonderau mwyaf anfad ar ei gaethion; ïe, y mae rhieni yn rhoddi eu plant yn ebyrth i'r eilunod, gan foddi eu cri â sain eu symbalau ac â'u

hudiadau gwallgofus eu hunain. Ac y mae i'w ystyried fod y ffieidd-derau hyn, y naill neu y llall o honynt, wedi gwarthnodi oesoedd a chenedloedd a ystyrir fel rhai goleuedig a gwareiddiedig. Yr oedd y naill neu y llall o honynt mewn arferiad yn Babilon, yr Aipht, Phœnicia a Carthage, Groeg a Rhufain. Gorchymynid rhai o'r ysgelerderau gan ddeddfwneuthurwyr, ac amddiffynid hwynt gan athronwyr. "Pa beth, yn wir," gofyna un awdwr, "a ellid obeithio oddi wrth ddeddfwneuthurwyr ac athronwyr, pan gofiom am osodiadau Lycurgus, gyda golwg ar burdeb moesau, a threfniadau Plato ar yr un mater, yn ei gynllun o lywodraeth berffaith; pan ystyriom gnawdolrwydd yr Epicuriaid, ac anweddeidd-dra y Cyniciaid; pan welwn fod hunanladdiad yn cael ei arfoli gan y Stoiciaid, ac ymryson llofruddiol y cleddyfwyr ei amddiffyn gan Cicero. Y mae y cyfryw amrywiaeth ac ansefydlogrwydd o barth rheol ac ymarferiad dyledswyddau moesol, fel y maent yn cael eu sefydlu gan awdurdod wan ac amrywiog o opiniwn dynol, yn profi y buddioldeb o gyfryngiad dwyfol amlwg, i roddi eglurder a grym i'r gwaharddiadau pwysig hyn; ac y mae yn anhawdd dyfalu pa mor bell yr oedd y cyfryw gyfryngiad yn angenrheidiol, a pha effaith a wnaed ganddo trwy ddylanwadu ar opiniwn a barn dynion, a rheoleiddio eu hymddygiadau, pan gofiom mai y ddeddfraith Fosenaidd (*Mosaic code*), yn ol pob tebyg, oedd y gyfraith ysgrifenedig gyntaf a gafodd unrhyw genedl; a bod yn rhaid ei bod yn adnabyddus yn gyffredinol yn y gwledydd dwyreiniol hyny, o'r rhai y cafodd yr hen ddeddfwneuthurwyr mwyaf enwog gynlluniau eu deddfau ac egwyddorion eu hathroniaeth."

Ond darfu i'r grefydd Iuddewig hyrwyddo hawliau rhinwedd, nid yn unig trwy orchymynion penodol y deng air deddf, ond hefyd trwy argymhell mewn dull eglur ac awdurdodol y ddwy egwyddor fawr ar ba rai y mae pob rhinwedd yn gorphwys—y ddwy egwyddor ag y mae y gyfraith a'r prophwydi yn crogi arnynt; sef cariad at Dduw a chariad at ein cymmydog. Y mae cariad at Dduw yn cael ei orchymyn yn y ddeddf foesol fel egwyddor lywodraethol y galon, fel cymhellydd pob gweithred dda, enaid a bywyd pob ufudd-dod. Ar wahân oddi wrth yr egwyddor hon, y mae pob gweithred, gan nad pa mor dda fyddo o ran ei natur, yn weithred farw: hyn sydd yn gwneuthur gweithred o ymddangosiad rhinweddol yn drwyadl a gwirioneddol felly.

Y mae yn amlwg i bob efrydydd o'r Beibl fod y geiriau *deddf* a *chyfraith* yn cael eu harfer yn yr Hen Destament a'r Newydd mewn ystyr eang, yn cynnwys yr holl sefydliadau Mosenaidd; ac y mae hyny yn dangos fod yr holl gyfreithiau mewn rhyw ystyr yn un—yn meddu ar y fath gyssylltiad â'u gilydd fel ag i ffurfio un gyfraith. Yr un pryd, dylid cofio fod y ddeddf foesol yn meddu lle ar ei phen ei hun: hi, mewn modd arbenig, oedd cyfraith fawr yr Hebreaid. Yr oedd y gyfraith farnol a'r gyfraith seremoniol yn dibynu arni hi: y ddeddf foesol oedd sail y naill, a hi oedd yn gosod angenrheidrwydd am y llall. Yr oedd gan y ddeddf foesol, fel y sylwa Dr. Owen, fel y rhoddwyd hi i Israel, ei hamcan a'i hystyr wladyddol neu boliticaidd, yn gymmaint ag mai hi oedd rheol benaf y llywodraeth wladol—yr holl gospau yn y naill yn dwyn perthynas â'r gorchymynion yn y llall. Yr oedd ganddi ei lle hefyd yn yr oruchwyliaeth hono ag yr oedd yr eglwys dani ar y pryd; ond ynddi ei hun yr oedd yn gwbl foesol. Er fod gwedd rhai o'r gorchymynion yn Hebreaidd—fod, er anghraifft, y pedwerydd a'r pummed yn cael eu rhoddi gyda rhesymau a chwanegiadau yn perthyn yn arbenig i sefyllfa y genedl yn Nghanaan—eto, nid oedd y cymhwysiad hwn arni atynt hwy yn cyfnewid dim ar natur ei gorchymynion. Yr oedd y dull arbenig yn yr hwn y rhoddwyd y ddeddf foesol yn dangos ei bod, er yn un â'r deddfau ereill, eto yn wahanol oddi wrthynt. Y deg gorchymyn yn unig a lefarwyd yn ddigyfrwng gan Iehofah ei hun (*Exod.* xx. 1); tra yr oedd y deddfau ereill yn cael eu rhoddi ar wahân i Moses, a thrwyddo ef i bobl Israel. Ac y mae pwys mawr yn cael ei roddi ar y gwahaniaeth hwn: *Exod.* xix. 10, 11, 17, 18; *Deut.* iv. 33, 34; xxxiii. 2. Ac nid ymddengys y gallasai fod un achos o'r gwahaniaeth hwn yn null rhoddiad y gwahanol ddeddfau, oddi eithr y gwahaniaeth hanfodol sydd rhyngddynt. Yr oedd y deng air deddf yn perthyn i'r Israeliaid, nid yn unig fel cenedl, ond i bob un fel person unigol; ac nid yn unig fel cenedl etholedig, ond fel dynion—fel creaduriaid rhesymol, a deiliaid llywodraeth foesol Iehofah. Ar wahân oddi wrth y cyfammod a wnaeth yr Arglwydd â hwynt fel cenedl, yr oedd y ddeddf foesol yn dwyn perthynas â hwynt fel deddf eu natur; tra yr oedd y deddfau a'r barnedigaethau ereill a roddwyd trwy gyfryngiad Moses yn perthyn iddynt fel pobl etholedig, ac yn rhanau o'r wladwriaeth eglwysig y dygwyd hwy dani "hyd amser y diwygiad" trwy Iesu Grist. Y mae amgylchiadau ereill yn profi yr un peth; megys fod y ddeddf foesol wedi ei hysgrifenu gan fys Duw ar lechau o geryg—wedi ei hysgrifenu ar bob tu, fel ag i gau allan y posiblrwydd o chwanegiadau ati; ac ar lechau celyd, y rhai oeddynt yn gyfaddas i ddiogelu parhad yr ysgrifen. Gwnaed hyn, fel y sylwa Hengstenberg, nid o herwydd diffyg o ddefnyddiau ereill ysgrifen; ond yr oedd hyn yn arwyddlun o rai o nodweddau pwysig y ddeddf foesol, ac yn awgrymu y gwahaniaeth rhyngddi a'r deddfau ereill. Yr oedd y llechau ceryg yn arwyddocaol o'r parhad annewidiol a berthyn i'r ddeddf, fel mynegiad o ewyllys Duw. Yr oedd yn arddangosiad allanol o'r gwirionedd a fynegwyd gan Iesu Grist yn nyddiau ei gnawd —"Yn wir, meddaf i chwi, hyd onid êl y nef a'r ddaiar heibio, nid ä un iod nac un tipyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblhaer oll."

Yr oedd y ddeddf foesol hefyd yn cael ei hystyried fel telerau cyfammod Sinai: *Deut.* iv. 13. "Llechau y cyfammod" y gelwir y llechau ceryg (*Deut.* ix. 9, 11); a "geiriau y cyfammod" (*Exod.* xxxiv. 28). Y mae gwahaniaethiad neillduol yn cael ei wneuthur rhwng y deng air a'r gosodiadau a'r gorchymynion ereill. Gelwir y cyntaf yn "eiriau yr Arglwydd;" ond yr enw ar y geiriau a roddwyd trwy Moses ydyw, "y barnedigaethau." Y mae y lle sydd i'r ddeddf foesol fel telerau y cyfammod yn cael ei ddangos yn mhellach trwy y ffaith mai yn arch y cyfammod y dodwyd y llechau. Amcan mawr gwneuthuriad yr arch oedd i gynnwys llechau y gyfraith; ac yr oedd hi yn cael ei galw "arch y cyfammod" am ei bod yn cynnwys llechau y cyfammod. Gosodwyd llyfr y gyfraith (*Deut.* xxxi. 26) ar ol hyny gan Moses yn ochr yr arch. Yr oedd y ffaith mai y deng air yn unig a gedwid o fewn yr arch yn rhoddi ar ddeall eu bod hwy yn cynnwys ynddynt eu hunain ddarluniad cyflawn

Digitized by Google

y ddeddf. Y mae yr ansawdd hwn yn hollol wrthwynebol i ansawdd efengylaidd ar galon pechadur. Y dymmer efengylaidd ar y galon ydyw yr unig dymmer sydd yn gydweddol â chynnwysiad addysg yr Ysgrythyrau am drefn Duw i achub. Pan y mae y galon wedi ei thoddi a'i thymmeru gan athrawiaeth gras, yn cael ei thraddodi i "ffurf yr athrawiaeth" hono, y mae ei holl ddymuniadau a'i dysgwyliadau, ei barn a'i hargyhoeddiad, yn gwbl efengylaidd. Y mae pob pechadur, yr hwn y mae ei argyhoeddiad yn diweddu mewn cyfiawnhad ac adenedigaeth, yn cael ei weithio i'r un ansawdd meddwl a'r apostol Paul; sef i gyfrif ei gyflawnderau ei hun, yn y rhai y buasai o'r blaen yn ymorfoleddu, yn dom a cholled, ac i geisio cyfiawnder yn haeddiant Mab Duw yn unig, "heb ddim o'i gyfiawnder ei hun, yr hwn sydd o'r gyfraith." Yn *Phil.* iii. 4—10, y ceir y darluniad mwyaf cyflawn a bywiog yn yr holl Feibl o ddeddfoldeb—o ymgais galed pechadur yn ei gyflwr natur i ennill cymmeradwyaeth Duw trwy ei weithredoedd ei hun; o'i ymlyniad wrth bob peth ffafriol sydd yn nglyn â'i amgylchiadau, a'i wag hyder ynddynt; ac o'i ymffrost balchaidd sydd yn gyssylltiedig â'r egwyddor ddeddfol. Ac yn yr un adran, ni a gawn olwg ar symmudiad pechadur o un cyflwr i gyflwr arall, o fod dan y ddeddf i fod dan ras, a'r chwyldroad a'r cyfnewidiad trwyadl a wneir yn y symmudiad hwnw ar farn ei feddwl, ac ansawdd ei galon, gyda golwg ar bethau. Y mae y breintiau a'r cyfiawnderau oeddynt gynt yn elw i'r dyn, y rhai a olygid ganddo yn well na bywyd ei hun, yn myned yn awr nid yn unig yn bethau cyffredin neu ddiwerth, ond yn adgas a gwrthodedig: y mae yr elw yn myned yn golled, y breintiau oeddynt yn wrthddrych bost falchaidd yn myned yn dom; yn lle ymogoneddu ynddynt, y mae yr enaid argyhoeddedig bellach yn cywilyddio o honynt. Cyn y cyfnewidiad hwn, Paul ei hun oedd y cwbl, a phethau Paul oedd pob peth: yr oedd Crist, a'i angeu a'i rinweddau, dan len, a'i enw a'i goffadwriaeth yn esgymunedig; ond mewn canlyniad i'r chwyldroad mawr a wnaed drwy holl galon yr erlidiwr "ar hanner dydd" ar y ffordd, y mae pob peth a phawb wedi newid. Y mae yr holl ymffrost yn cael ei ddwyn ymaith am byth oddi wrth Paul ei hun: nid efe ydyw gwrthddrych ei fost mwyach, ond Crist a'i groes. y mae ei gyfiawnderau ei hun wedi eu taflu heibio fel bratiau budron, ac y mae yntau dros ei holl fywyd heb un amcan ganddo ond ennill Crist. Darfu i ardderchogrwydd gwybodaeth Crist Iesu "ddiorseddu yr egwyddor ddeddfol ar unwaith yn ei galon, ei lwyr ddarbwyllo unwaith am byth o'r anmosiblrwydd hollol iddo gyrhaedd bywyd tragwyddol trwy ei weithredoedd a'i bethau ei hun; a gwneyd Mab Duw yn ganolbwynt ei holl fywyd, yn wrthddrych ei holl obaith, ei gariad, a'i ymffrost, yn fwy nag yr oedd ei hunan iddo o'r blaen. Ni a'i cawn yn ymffrostio ar ol hyn, ond nid yn y cnawd, nid yn ei freintiau a'i weithredoedd, ond yn Iesu Grist a'i groes, ac yn achlysurol yn ei wendid, am fod nerth Crist yn cael mantais i ddyfod yn fwy i'r golwg. Ac mewn canlyniad i'r cyfnewidiad mawr hwn, yr ydym yn cael yr apostol yn dilyn ar ol cyfiawnder yn llawn mwy llafurus nag o'r blaen; ond nid oddi ar yr un egwyddor, nac i'r un dybenion. Yn awr y mae yn ymestyn nid at gydffurfiad allanol a defodol â gorchymynion deddf Duw, ond at y perffeithrwydd uchaf; y mae y nod yr ymestyna ato yn ei yrfa Gristionogol yn annhraethol uwch nag oedd ei nod pan yn Pharisead. Nid oes dim bellach a'i boddlona ond y cyflwr hwnw o berffeithrwydd mewn corff ac enaid a gyrhaeddir yn adgyfodiad y meirw; ac y mae yn amcanu at hyn, nid er mwyn cyrhaedd cyfiawnder, nid i'r dyben o ennill bywyd tragwyddol, ond i'r dyben o fod yn gydffurf â'r person y cafodd ei fywyd, ei gyfiawnder, a'i nerth ynddo. Y mae y darluniad a roddir yn yr adran hon o bechadur balch yn cael ei fywyd yn Nghrist yn unig yn dangos trefn yr efengyl am gyfiawnhad yn diogelu y pechadur rhag dau eithafnod dinystriol: pan y mae yn ymaflyd gyntaf ynddo, y mae yn ei ryddhau oddi wrth falchder, hunanymddiried, a deddfoldeb; a chyda'r un sicrwydd, y mae yn cynnyrchu o'i fewn awydd anniwall ac ymdrech parhaus am berffeithrwydd; nid am foesoldeb fel o'r blaen, ond am y sancteiddrwydd hwnw sydd yn gydffurf â natur a deddf Duw—y perffeithrwydd hwnw a ganfyddir yn mherson Iesu Grist, cynllun goruchel pob Cristion.

Y mae deddfoldeb yn cyfodi oddi ar falchder y galon, ac yn ymnoddi y tu cefn i anwybodaeth. Y mae pob dyn deddfol yn ddall mewn ystyr ysbrydol. Yr un pryd, y mae ymgais ddeddfol yn tybied rhyw gymmaint o wybodaeth: y mae yn tybied fod gradd o ystyriaeth wedi ei ddeffro yn y meddwl. Dywedir am yr Iuddewon "eu bod yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain," yr hwn ymadrodd a ddarllena Alford, "*striving to establish their own righteousness*," yr hyn a ddengys fod y rhai sydd yn gwneuthur felly wedi eu darbwyllo i fesur o'r pwys o fod yn gymmeradwy gan Dduw. Yr oedd gan yr Iuddewon yn amser Paul "sel Duw," neu sel dros Dduw. Yr oedd ymofyniad y gŵr ieuanc, "Pa beth da a wnaf, fel yr etifeddwyf fywyd tragwyddol," yn arwyddo fod rhyw hyder a deffroad yn ei feddwl o barth cyrhaedd hyny; edrychai ar fywyd tragwyddol fel caffaeliad pwysig. Yr un pryd, noddfa y pechadur deddfol ydyw anwybodaeth: nid oes dim mor ddinystriol i hunanymddiried balch a'r goleuni. Priodola yr apostol Paul (*Rhuf.* x. 3) ymgais deddfol y genedl i'w hanwybodaeth beius:—"Canys hwynthwy, heb wybod cyfiawnder Duw, ac yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw." Ar yr adnod hon, y mae Hodge yn gwneyd y sylwadau canlynol:—"Camsyniad mawr yr Iuddewon oedd eu camsyniad am drefn cyfiawnhad. Y mae anwybodaeth am y mater hwn yn cynnwys anwybodaeth am gymmeriad Duw, am ofynion ei ddeddf, ac am danynt eu hunain. Y mae hyn, gan hyny, yn rhwym o fod yn bwnc bywydol. Y mae y rhai sydd yn cyfeiliorni am hanfod y pwnc hwn yn cyfeiliorni yn ddinystriol; a'r rhai sydd yn feddiannol ar olygiadau cywir ar y gwirionedd hwn, nis gallant gyfeiliorni am wirioneddau hanfodol ereill. Mae yr ymadrodd, 'cyfiawnder Duw,' yn agored i amryw esboniadau. Yr eglurhad sydd yn fwyaf cyfaddas i'r rhan hon, a rhanau ereill cyffelyb, ydyw, y cyfiawnder hwnw ag y mae Duw yn awdwr iddo; y cyfiawnder a dderbynir ac a gymmeradwyir ganddo ef. Yr ystyr, gan hyny, ydyw, 'Yn anwybodus o'r cyfiawnder a ddarparwyd gan Dduw, ac yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, nid ymostyngasant i'w gyfiawnder ef.' Yr achos o wrthodiad yr Iuddewon oedd eu hymwrthodiad hwy o drefn achubiaeth trwy Waredwr croeshoeliedig, a'u gwaith yn parhau i hyderu yn eu haeddiant a'u manteision

Digitized by Google

eu hunain fel sail eu cymmeradwyaeth gyda Duw." Wrth "gyfiawnder Duw" y meddylia Alford, nid y ffordd i gyfiawnhad a drefnodd Duw, fel yr esbonia Stuart, ond yr unig gyfiawnder a etyb ger bron Duw, yr hwn sydd yn dyfod yn eiddo i ni trwy gyfiawnhad. Dyma eglurhad De Wette hefyd. Y mae y dyn deddfol hefyd yn ddiffygiol mewn gwybodaeth am ddeddf Duw. Nid yw yn meddu ond y syniadau mwyaf arwynebol am y rheol y ceisia ymgyfiawnhau yn ei hwyneb; y mae heb erioed ei hadnabod yn ysbrydolrwydd, eangder, a manylrwydd ei gofynion; ac felly y mae heb ei argyhoeddi o ddrwg a drwghaeddiant pechod. Y mae ei anwybodaeth am bechod yn cyfodi oddi ar ei anwybodaeth am y ddeddf: nid yw yn canfod gwyrni y naill, am nad yw yn canfod uniondeb y llall; nid ydyw yn adnabod pechod fel y mae yn wrthryfel yn erbyn Duw, am nad yw deddf Duw wedi amlygu ei hun yn ei hysbrydolrwydd sanctaidd iddo. Dyfodiad y ddeddf at y pechadur—ei gwaith hi, fel rheol fanwl a sanctaidd a digyfnewid, yn dadguddio ei hun iddo, sydd yn myned o dan wraidd deddfoldeb: "Pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod, a minnau a fum farw." Nid oes dim yn fwy o sarhad ar yr iachawdwriaeth trwy Grist na deddfoldeb: iaith y galon ddeddfol ydyw fod Crist wedi marw yn ofer; fod Duw yn nhrefn iachawdwriaeth wedi myned i draul ddiangenrhaid. Y mae hefyd yn ymarferol yn gwadu yr angenrheidrwydd am ddylanwadau yr Ysbryd Glân, trwy gymmeryd arno fod ganddo ef ei hun allu i gyflawnu yr holl ddyledswyddau ag y mae Duw yn eu gofyn. Y mae y syniadau isaf ag y dichon y meddwl eu llochi am Dduw, am ei gyfraith, am bechod, am Iesu Grist a'i gyfryngdod, am yr Ysbryd Glân a'i waith, a'r tybiau uchaf am allu y dyn ei hun, yn gorwedd wrth wraidd deddfoldeb y galon sydd heb ei hadferu trwy ras.

DEDDFRODDWR: gosodwr neu wneuthurwr cyfraith. "Yr Arglwydd yw ein deddfwr;" *Esa.* xxxiii. 22. "Un gosodwr cyfraith sydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli;" *Iago* iv. 12. Iehofah ydyw ffynnonell pob awdurdod: nid oes neb yn meddiannu awdurdod ond efe yn unig. Er fod creaduriaid yn anfarwol; eto Duw ydyw y Bod y dywedir am dano, "yr hwn sydd ganddo anfarwoldeb;" a'r un modd, er yr anrhydeddir rhai dynion, megys Moses, Lycurgus, â'r teitl o ddeddfroddwr, eto nid oes ond un gosodwr cyfraith, sef Duw. Y mae pob bod crëedig o dan awdurdod; ond am Dduw, y mae yn hunanymymddibynol, uwch law pob awdurdod, ac yn wreiddyn pob awdurdod. Y mae ei holl greaduriaid yn ddarostyngedig i'w awdurdod ef. Y mae efe yn unig Benaeth arnynt. Y mae ei arglwyddiaeth yn berffaith annibynol; a hi yw yr arglwyddiaeth uchaf. Nis gall neb attal ei law yn y gweinyddiad o honi, ac nid oes gan neb hawl i ofyn iddo, pan yn gwneuthur fel y myno â llu y nef ac â thrigolion y ddaiar, Pa beth yr wyt ti yn ei wneuthur? Y mae ei awdurdod ef yn anfeidrol sanctaidd, cyfiawn, doeth, a da. Y mae Grotius yn barnu fod yr adnod grybwylledig (*Iago* iv. 12) yn cyfeirio at Grist mewn gwrthgyferbyniad i Moses, ac fod yr apostol yn ymresymu yn erbyn y rhai a fynent ymgadw at y defodau Iuddewig:—"Nid oes genym ni yn yr Eglwys Gristionogol ond un gosodwr cyfraith—Crist, nid Moses." Ond y mae yr esbonwyr yn gyffredin yn ymwrthod â'r golygiad hwn. Nid ydynt yn meddwl fod y cyfeiriad yma gan yr apostol o gwbl. Meddwl yr apostol, ebe Manton, ydyw, nad oes ond un Deddfroddwr goruchaf ac annibynol, ewyllys yr hwn ydyw rheol uniondeb. Nid ydyw gosodwyr cyfreithiau dynol ond rhaglawiaid dano ef; ac mewn pethau ysbrydol, nis gall neb ond Duw osod cyfraith i'r gydwybod. Mewn llywodraethau gwladol, y mae cyfreithiau dynion i gael eu parchu a'u cadw; ond llefaru y mae yr apostol yma am lywodraeth fewnol y gydwybod, ar yr hon nid oes gan neb awdurdod ond Duw. Pan orchymyna Paul (*Rhuf.* xiii. 5) i ymostwng i'r awdurdodau gwladol—"nid yn unig o herwydd llid, ond o herwydd cydwybod hefyd"—ni feddylia fod cyfreithiau dynol yn rhwymo y gydwybod fel cyfraith Duw. Nid ydynt yn ei rhwymo yn uniongyrchol, ond trwy rinwedd gorchymyn Duw—yr un fath ag y mae y Cristion dan rwymau i gyflawnu ei ddyledswyddau gwladol oddi ar rwymau crefyddol. "Ymddarostyngwch i bob dynol ordinhad, er mwyn yr Arglwydd;" 1 *Pedr* ii. 13. Gorchymyn Duw sydd yn rhwymo y gydwybod i ufuddhau i orchymyn dyn. "Yr wyf yn dy rybuddio i gadw gorchymyn y brenin, a hyny o herwydd llw Duw;" *Preg.* viii. 2. Nid yw gorchymynion dynion yn haeddu ufudd-dod mor gyffredinol a diammodol a'r eiddo Duw. Angenrhaid yw ufuddhau i Dduw mor gynted ag y del ei ewyllys o barth rhywbeth neillduol yn wybyddus; ond dylid gwneyd ymchwiliad i gyfreithiau dynol, pa un a ydynt yn gyfiawn a da, yn gwasanaethu i'n llesâd cyffredin; ac mewn rhai amgylchiadau, y mae anufudd-dod i'r cyfreithiau, nid yn unig yn ganiataol, ond yn ddyledswydd; "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion;" *Act.* v. 29. Ond y mae cydwybod dyn yn rhwym i orchymynion Duw, hyd yn oed pe nas gallai ganfod eu rhesymoldeb a'u daioni.

DEFNI, [*dafn*]: dyferion, defnynau disgynedig. "Ymserth gwraig sydd megys *defni* parhaus;" *Diar.* xix. 13; xxvii. 15. Y mae y fath wraig yn gymmaint o flinder a thŷ yn meddu tô tyllog. Dywedir fod y drychfeddwl wedi ei gymmeryd oddi wrth dai haf a chelloedd gwiail y dwyreinwyr, y rhai oeddynt yn gymhwys i breswylio ynddynt ar dywydd sych, ond yn dra anghysurus ar dywydd gwlyb; a byddai yn rhaid i'r neb a drigai ynddynt ar y fath dywydd, o blegid gwastadrwydd eu toau, fod yn agored i "ddefni parhaus." Cyffelyb i hyny ydyw "gwraig anynad."

DEFNYDD—IAU, [*defn*]: sylwedd, mater, elfen; yr hyn y gwneir peth arall o hono. *Defnyddio arf* ydyw gweithio âg ef: *Esa.* liv. 16. "A'r *defnyddiau* (Seis., *elements*) gan wir wres a doddant;" 2 *Pedr* iii. 10. Y mae llawer o wahanol farnau wedi bod mewn perthynas i ystyr y gair *defnyddiau* (στοιχεια) a arferir yn y fan hon. Canfyddir y gair yn y manau canlynol yn y Testament Newydd:—*Gal.* iv. 3, 9; *Col.* ii. 8, 20; *Heb.* v. 12, lle y cyfieithir ef yn *wyddorion* ac yn *egwyddorion*, yn nghyd âg yn yr adnod dan sylw, lle y cyfieithir ef *defnyddiau.* Dynoda y gair, y rhanau mân hyny o ba rai y cyfansoddir unrhyw beth. Yna, dynoda yn briodol ranau cyfansoddol y byd elfenol. Nid ydym i ddeall fod yr apostol yn defnyddio y gair yn berffaith yn yr un ystyr ag y defnyddir ef yn awr gan fferyllwyr, ond yn unol âg ystyr cyffredin y gair

yn ei amser ef. Y drychfeddwl a gynnwysir yn y frawddeg ydyw, y byddai i'r elfenau o ba rai y cyfansoddir y byd fyned drwy gyfnewidiad, yr hwn a gynnyrchid gan *wres*. Nis gellir casglu oddi wrth yr adnod hon y diddymir y byd trwy dân: y cwbl a awgrymir ydyw, y bydd iddo fyned trwy gyfnewidiadau pwysig.

DEFNYN—AU: diferyn, rhanyn bychan o ryw wlybwr, megys gwlithyn. Dywed Iob am Dduw, "Efe a wna y defnynau dyfroedd yn fân;" *Iob* xxxvi. 27. Duw sydd yn peri fod y cymylau yn ymdywallt yn ddafnau mân ar y ddaiar, er ei ffrwythloni. Efe ydyw Rheolwr mawr holl drefniadau natur: *Gen*. ii. 5, 6; *Salm* lxv. 5—13; cxlvii. 8; *Ier*. xiv. 22. "Llanwyd fy mhen â gwlith, a'm gwallt â *defnynau* y nos;" *Can. Sol*. v. 2. Ymadrodd ydyw hwn yn gosod allan iselder a thrueni mawr: *Esa*. iv. 6; *Dan*. iv. 25. Y mae *defni* hefyd yn arwydd o flinder a thrallod: *Amos* vi. 11. Y mae yn debygol fod cyfeiriad yn y geiriau *gwlith*, *defnynau*, a *nos*, at ddyoddefiadau Crist dros ei eglwys, pan yn ei gyflwr o ddarostyngiad, pryd yr oedd ei chwys fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaiar yn ngardd Gethsemane; yr hyn oedd yn arwydd amlwg o ing a thristwch angeuol ei enaid: *Luc* xxii. 44.

DEFOSIYNOL: crefyddol, duwiolfrydig, bucheddol. Rhai o'r nodweddiad hwn oedd Cornelius y canwriad, a'r milwr oedd dano, yn nghyd âg Ananias: *Act*. x. 2, 7; xxii. 12. *Defosiynol* sydd air a ddefnyddir gan Luc am ddychweledigion dienwaededig oddi wrth y Cenedloedd, a fyddent wedi ymwrthod âg eilunaddoliaeth, ac yn addoli y gwir Dduw.—*Esgob Mann*. Ευσεβης, "dyn o dduwioldeb gwirioneddol."—*Benson*. Nis gellir ammheu nad oedd Cornelius eisoes mewn cyflwr cadwedigol, ac y gallasai farw yn y cyflwr hwnw, heb wybod fod Crist wedi ymddangos yn y cnawd. Yr oedd ei ffydd yn y Messiah yn gywir a diffuant; ond gan fod Crist wedi dyfod i'r byd, nid oedd yn briodol i unrhyw ddyn da, ag oedd yn dysgwyl am ei ymddangosiad, aros yn anwybodus o'r dygwyddiad pwysig.—*Dr. Dick*.

DEG—AU, [Gr. δεκα]: naw ac un: rhif o berffeithrwydd. "Newidiodd fy nghyflog i *ddengwaith*;" hyny yw, amryw weithiau: *Gen*. xxxi. 7. Arferir y gair mewn ystyr cyffelyb yn *Lef*. xxvi. 26; *Num*. xiv. 22; 1 *Sam*. i. 8; *Iob* xix. 3. Wrth *ddeg punt* a *deg talent* y golygir amryw ddoniau a manteision: *Luc* xix. 13; *Mat*. xxv. 28. "*Degfed* rhan y ddinas a syrthiodd;" hyny yw, fe ddinystrid rhan helaeth o'r gallu erlidgar, sef teyrnas anghrist: *Dad*. xi. 13. "A chwi a gewch gystudd *ddeng niwrnod*;" *Dad*. ii. 10. Cystudd am amser byr; am ychydig ddyddiau. Y mae yn bosibl, yn wir, na olygid wrth hyn ond deng niwrnod yn llythyrenol; ond y mae tybio mai *ychydig* a feddylir wrth ddeg yn y fan hon yn fwy cysson â nodwedd gyffredinol y dadguddiad gyda golwg ar rifedi. Cymharer 1 *Sam*. xxv. 38; a *Dan*. i. 12, 14, 15. Ni wyddom pa hyd y bu y cystudd; ond rhoddwyd sicrwydd i'r personau ag oeddynt i'w ddyoddef na pharhäai yn hir, ac yr oeddynt i dynu cysur a chynnaliaeth yn eu proffedigaethau oddi wrth y sicrwydd hwnw. Oni ddylem ninnau yn awr ymgysuro yn yr un syniad? Nis gall blinderau y bywyd hwn, pa mor enbyd bynag y dichon iddynt fod, barhau ond ychydig; ac oni ddylem eu dyoddef heb rwgnach, ac ymgysuro yn y gobaith y darfyddant oll ar fyrder?—*Barnes*.

DEG GORCHYMYN. Gwel Deddf; Gorchymyn.

DEGTANT. Gwel Offer Cerdd.

DEGWM—YMAU: y ddegfed ran o gynnyrch y tir, neu o ffrwythau y coed, neu ŵyn, gwlan, caws, wyau, cywion, &c., a benodir gan gyfraith y wlad er cynnaliaeth y personiaid.

Yn Ffrainc yr ydym yn cael yr hanes cyntaf am ddegymau yn cael eu codi o dan oruchwyliaeth yr efengyl. Derbyniodd Clovis, brenin y wlad hono, Gristionogaeth tua'r flwyddyn 496; sef yn agos i bum cant o flyneddoedd ar ol ymddangosiad y Gwaredwr, a phan oedd y dyn pechod yn cymmeryd camrau bras ar wyneb y ddaiar. Ei amcan wrth dderbyn y grefydd newydd oedd, fel y tybiai, ennill goruchafiaeth ar ei elynion: ac yn ngosodiad y degwm, meddyliai ei fod yn gosod sail i hawlio ffafr ddwyfol. Y mae Cilperic, ŵyr i Clovis, a thrydydd brenin Cristionogol Ffrainc, yr hwn a lofruddiwyd yn y flwyddyn 584, yn cwyno "fod ei drysorgell yn wag, a'i gyfoeth wedi cael ei drosglwyddo i'r eglwys." "Esgobion," medd efe, "yn unig sydd yn teyrnasu, ac yn meddu y gorwychder a gollais i fy hunan." Cafodd yr offeiriadaeth, o amser i amser, werth y deyrnas drosodd lawer gwaith. Ni oddef ein gofod i ni fanylu i ddangos fel yr oedd yr offeiriaid yn ysbeilio y bobl trwy dwyll, a'r brenin a'r bendefigaeth yn ysbeilio yr offeiriaid trwy drais. Yr oeddynt yn chwareu i ddwylaw ac o ddwylaw eu gilydd yn barhaus, ac yn cynnal i fyny deimladau llidiog gwastadol. Twyllai yr offeiriaid y bobl, ac ysbeiliai y brenin yr offeiriaid pan y gwesgid ef gan angen: ac fel hyn, croeshoelid y bobl rhwng dwy blaid wancus. Trwy ddeddf o eiddo y penadur Charlemagne, penderfynwyd fod y degwm yn eiddo yr eglwys. Parodd hyn i lawer o'r bobl adael eu tiroedd yn anniwylliedig o bwrpas i amddifadu yr offeiriaid o'r degwm; ond trwy weithio yn egnïol ar goelgrefyddolder yr oes, ystwythwyd y wlad o'r diwedd i'w goddef. Yn niwedd y ganrif ddiweddaf, pan yr oedd y Ffrancod bron oll fel cenedl wedi neidio o'r naill eithafnod i'r llall, ac anghrefyddolder wedi cymmeryd lle coelgrefyddolder, dygwyddodd y chwyldroad, a dinystriwyd yr holl gyfundrefn. Yn adferiad y freniniaeth, ni adferwyd y degwm; eithr y mae offeiriaid yr Eglwys Babaidd Sefydledig yn Ffrainc yn cael eu cynnal yn awr gan y llywodraeth.

Dygwyd Ynys Prydain o dan yr iau Babaidd o ddeutu y flwyddyn 600; ond ni sefydlwyd y degwm ynddi am ddau cant o flyneddoedd wedi hyny. Y pryd hwnw, bu gan Offa, brenin ar ran o Loegr, law yn llofruddiaeth brenin ar ran arall o'r wlad. Gweithiwyd ar euogrwydd, ofnau, a gorgoeledd y brenin hwnw, wedi iddo gyflawnu yr ysgelerder, fel y neillduodd y degwm i'r Eglwys Babaidd yn iawn am ei drosedd, ac yn ammod gwaredigaeth o'r purdan. Dadleuir yn gadarn mai nid degwm y deyrnas a neillduwyd ganddo, ond yn unig y degwm o'i eiddo ei hun. Yn mhen o ddeutu trigain mlynedd wedi hyny, dywedir i ni fod y brenin Ethelwolf wedi eangu y gosodiad i gynnwys yr holl deyrnas. Ond am hyn hefyd y mae cryn amrywiaeth barn. Nid yn unig gwedir ei hawl i wneuthur hyn, ond gwedir y weithred; a dywedir na wnaeth yn

Digitized by Google

unig ond degymu holl feddiannau y goron yn y deyrnas.

Ni chrybwyllir am ddegymau yn y *Codex of Canons* sydd yn dybenu yn y flwyddyn 451. Dros y pedair canrif ar ol hyny, cynnelid Cristionogaeth trwy offrymau gwirfoddol ei dysgyblion. Aeth yn agos i wyth gant o flyneddoedd heibio ar ol ymddangosiad y Gwaredwr cyn i'r gyfundrefn ddegymol gael ei sefydlu trwy gyfraith ddynol. Yn araf iawn y gwnaeth y drefn ei hymddangosiad. Pregethid i'r bobl yn fynych y ddyledswydd o gyssegru y ddegfed o'u meddiannau i'r Arglwydd, a'r fraint o gael gwneuthur hyny, a'r bendithion fyrdd a ddilynai y weithred. Ennillid lluaws o rai hygoelus i gydsynio; ond ni orfodid neb. Ar y cyntaf, gellid ei dalu i'r offeiriad a ddewisid gan y talydd; ond wedi rhanu y wlad yn blwyfydd, rhaid oedd i bob un eu talu i glerigwr ei blwyf ei hun.

Yn ei sefydliad dechreuol yn Mhrydain, defnyddid y degwm at bedwar o ddybenion; sef cynnal yr esgobion, cynnal yr offeiriaid, adgyweirio yr eglwys, a chadw y tlodion. Ar y cyntaf, cyfyngid ef at gynnyrch y tir yn unig; ond wedi hyny crafangodd am ŵyn, a gwlan, a pherchyll, ac wyau; ac mewn rhai manau, ffrwythau y gerddi a'r perllanoedd, a'r pysgod a ddelid o'r dyfroedd: ond ni ddegymid yr hyn nad oedd yn tyfu nac yn lluosogi, megys meini, llechau, glo, plwm, a chopr.

Cyfeiria pleidwyr y degwm at ei sefydliad o dan yr hen oruchwyliaeth, a cheisiant gasglu ei fod o darddiad dwyfol. Dywedant hefyd ei fod yn beth rhesymol a naturiol ynddo ei hun; ond pwysant yn benaf—o leiaf, yr ymresymwyr cadarnaf—ar benodiad y gyfraith wladol, gyda dyledswydd y deiliaid o roddi ymostyngiad iddi. Dywedant fel y canlyn o'i blaid, Bod ffynnonell y degwm yn y natur ddynol:—y fynyd y canfyddwn ein perthynas â Duw, y fynyd hono hefyd y teimlwn ein dibyniad arno, a'n rhwymedigaeth iddo. Yr oedd yr holl genedloedd paganaidd yn cyssegru y ddegfed at wasanaeth eu duwiau. Y mae y duedd at hyn yn gyfran o ddeddf natur, ac wedi tarddu, nid oddi wrth Iuddew na Chenedlddyn, ond oddi wrth yr Anfeidrol ei hunan. Pan ymddangosodd y Gwaredwr mewn cnawd, ni ynganodd air am ddileu y degymau; nid yn unig ni orchymynodd, ond ni awgrymodd hyny. Cafodd gyfleusdra rhagorol i'w collfarnu pan yn cyhoeddi gwae ar yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid; ond yn lle gwneuthur hyny, rhoddodd iddynt ei gymmeradwyaeth; "Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr: canys yr ydych yn degymu y mintys, a'r anis, a'r cwmin, ac a adawsoch heibio y pethau trymach o'r gyfraith, barn, a thrugaredd, a ffydd: rhaid oedd gwneuthur y pethau hyn, ac na adewid y lleill heibio;" *Mat.* xxiii. 23. Eu beio ddarfu Crist am adael heibio "bethau trymach y gyfraith;" ond dywedodd yn eglur fod yn rhaid gwneuthur "y pethau hyn," sef talu degymau.

Gwrthwynebwyr y degwm a atebant y rhesymau blaenorol trwy ddywedyd y dylai golwg ar ein perthynas â Duw, a theimlad o'n dibyniad arno, ein harwain i gydnabod ei hawl, nid yn unig i'r degfed, ond i'r cyfan a feddiennir genym, ac i ni ein hunain hefyd—gyrff ac eneidiau; ond ni chynnwysa hyn ein bod ni na'n heiddo i fod yn feddiant clerigwyr. Pan lefarodd Crist y wae a grybwyllwyd, nid oedd gwladwriaeth Israel wedi ei dinystrio, na goruchwyliaeth Moses wedi ei dileu; gan hyny, yr oedd cyflawnder y gyfraith ddwyfol ar y pryd hwnw yn galw am dal iad y degymau yn gyflawn ac yn fanwl. Ond wedi hyny, daeth Crist yn lle Moses, efengyl yn lle deddf, a dodwyd i lawr yr egwyddor, "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn:" ac hefyd bod yn "rhaid i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl," ac nid byw wrth ddeddfau gwladol. Gyda golwg ar arfer y paganiaid tuag at eu duwiau, Cristionogion ydym ni, ac ni ddylem ddilyn nac Iuddewon na Chenedloedd paganaidd mewn mater o'r fath hwn.

Dywed y pleidwyr, fod Abraham wedi talu degwm i Melchisedec, "offeiriad y Duw goruchaf" (*Heb.* vii); a bod hyny yn esampl ac yn rhwymedigaeth i'r holl oesoedd dilynol: *Gen.* xiv. 17—20.

Y gwrthwynebwyr a atebant trwy ddywedyd fod Melchisedec wedi rhoddi bara a gwin i Abraham a'i holl arfogion, ac iddo yntau gydnabod ei garedigrwydd trwy roddi degwm yn ad-daliad: nid degwm o'i eiddo personol, ond degwm o ysbail rhyfel. Nid Melchisedec a hawliodd, ond Abraham a roddodd, o wirfodd ei ewyllys ei hun: unwaith o gwbl y gwnaed hyn, ac nid teyrnged flyneddol. Dywedant hefyd fod Abraham yn offeiriad; ac os ydyw hwn yn esampl ac yn rhwymedigaeth, ei fod yn esampl ac yn rhwymedigaeth i'r naill offeiriad dalu degwm i'r llall, ac nid dim pellach. Hefyd, ei bod yn esampl ac yn rhwymedigaeth i'r offeiriaid roddi bara a gwin i borthi y bobl, yn llawn cymmaint ag y mae yn esampl a rhwymedigaeth i'r bobl roddi degwm i gynnal yr offeiriaid. Os cymmerir un rhan yn esampl, rhaid cymmeryd y llall hefyd.

Cyfeiria y pleidwyr at adduned Iacob: *Gen.* xxviii. 22; "O'r hyn oll a roddech i mi, gan ddegymu mi a'i degymaf i ti." Dywedant fod gweithred Iacob yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn deilwng o efelychiad pawb.

Atebir trwy sylwi fod Iacob wedi gwneuthur hyn yn ewyllysgar, oddi ar dueddfryd ei feddwl ei hun: ac mai degymu ei eiddo ei hun a ddarfu, ac nid degymu eiddo neb arall. Mai eithaf priodol ydyw i ddyn gyssegru y degfed o'i feddiannau personol at wasanaeth crefyddol, neu unrhyw gyfran arall o'i feddiannau, ond nad yw hyny mewn un modd yn cyfiawnhau llywodraethwyr gwladol i ddegymu trwy orfodaeth eiddo eu holl ddeiliaid.

Dadleua y pleidwyr fod y trefniant o ddwyfol osodiad o dan yr oruchwyliaeth Iuddewig; ac er i'r oruchwyliaeth hono gael ei dileu, nad ydyw hyny yn un rheswm pa ham nas gallwn ac na ddylem gadw mewn ymarferiad y pethau a berthynent iddi, cyn belled ag na byddont yn groes i ysbryd ac egwyddorion yr oruchwyliaeth Gristionogol. Bod gweinidogion yr efengyl yn perchen hawl i gynnaliaeth, ac nad oes yr un rheswm pa ham na weinyddir y gynnaliaeth hono trwy ddegymau mwy na thrwy ryw drefniant arall. Bod Duw wedi trefnu hyny o dan yr oruchwyliaeth gynt, a bod hyny yn rheswm cadarn dros briodoldeb a doethineb y trefniant o dan yr oruchwyliaeth hon.

Etyb y gwrthwynebwyr fod yr hyn a ddilëwyd yn berffaith ddirym. Bod yr oruchwyliaeth Iuddewig a'i holl osodiadau wedi cael eu hollol ddileu, ac y mae yr hyn a ddilëwyd mor berffaith ddiawdurdod a phe na buasent erioed wedi bod mewn grym. Yr un awdurdod ag a'u gosododd a'u dileodd hefyd; ac fel y mae anghydffurfio â'r hyn a osodwyd yn bechod o anufudd-dod, felly hefyd y mae cydffurfio â'r hyn a ddilëwyd.

Digitized by Google

Bod y degwm yn cael ei dalu i'r Leflaid, y rhai a gyflawnent wasanaeth cyffredin yn y tabernacl a'r deml, ac nid i feibion Aaron, y rhai oeddynt offeiriaid; a rhoddwyd hyn iddynt yn lle eu cyfran o dir yn y wlad: "Canys degwm meibion Israel, yr hwn a offrymant yn offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, a roddais i'r Leflaid yn etifeddiaeth; am hyny, dywedais wrthynt nad etifeddent etifeddiaeth yn mysg meibion Israel;" *Num.* xviii. 24. Nid oedd gan yr offeiriaid Iuddewig ond y degfed o'r degwm; perthynai y naw rhan arall i'r Lefiaid. "Pan gymmeroch gan feibion Israel y degwm a roddais i chwi yn etifeddiaeth oddi wrthynt; yna offrymwch o hyny offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, sef degwm o'r degwm. Felly yr offrymwch chwithau hefyd offrwm dyrchafael i'r Arglwydd o'ch holl ddegymau a gymmeroch gan feibion Israel; a rhoddwch o hyny ddyrchafael-offrwm yr Arglwydd i Aaron yr offeiriad;" *Num.* xviii. 26, 28. Er fod y degwm o osodiad dwyfol, nid oedd un gyfraith ddynol i orfodi ei daliad. Yr oedd yn rhaid ei dalu yn wirfoddol, ac os esgeulusid hyny, Duw yn unig oedd i'w cospi: *Mal.* iii. 9, 10; *Neh.* xiii. 10, 11, 12. Yr oedd hefyd at wasanaeth y dyeithr, yr amddifad, a'r weddw, ac nid at wasanaeth y Lefiaid yn unig: *Deut.* xiv. 29. "Pan ddarffo i ti ddegymu holl ddegwm dy gnwd, yn y drydedd flwyddyn, sef blwyddyn y degwm; yna y rhoddi i'r Lefiad, i'r dyeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw," &c.; *Deut.* xxvi. 12, 13. Os eir at yr hen oruchwyliaeth, gellir profi hawl i gyntafanedig dyn ac anifail, yn llawn cystal ag y gellir profi hawl i'r degwm, a gofyn am danynt arian prynedigaeth. "Pob peth a agoro'r groth o bob cnawd, yr hwn a offrymir i'r Arglwydd, o ddyn ac anifail, fydd eiddot ti;" *Num.* xviii. 15, 16.

Defnyddia y pleidwyr eiriau yr apostol, "Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn gwneuthur pethau cyssegredig, yn bwyta o'r cyssegr? a'r rhai sydd yn gwasanaethu yr allor, yn gydgyfranogion o'r allor? Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl;" 1 *Cor.* ix. 13, 14. Ymresymant fod y geiriau hyn yn gymmeradwyaeth o'r ddarpariaeth a wnaed at gynnaliaeth yr offeiriadaeth Iuddewig, ac y dylid gwneuthur darpariaeth gyffelyb ar gyfer cynnaliaeth gweinidogaeth yr efengyl. "*Felly hefyd;*" hyny yw, yn yr un dull a modd "yr ordeiniodd yr Arglwydd," &c. Bod y cyffelybrwydd yn berffaith: diogelir hawl y naill o dan yr efengyl i gael eu cynnal trwy yr efengyl, mor gyflawn ag y diogelwyd hawl y llall o dan y ddeddf.

Etyb y gwrthwynebwyr trwy ddyweyd nad oedd yr apostol, wrth yr ymadrodd "felly," yn golygu fod gweinidogion yr efengyl i gael eu cynnal yn yr un dull neu fodd a'r offeiriaid o dan y ddeddf, ond yn unig fod iddynt gael eu cynnaliaeth oddi wrth eu swydd—y gynnaliaeth yn unig oedd ganddo mewn golwg, ac nid cymhell y cyffelyb ddull o gynnaliaeth. Fel yr oedd yr offeiriaid gynt yn byw ar bethau y deml, "felly hefyd" yr oedd gweinidogion yr efengyl i fyw, nid ar ddegymau, ond ar roddion gwirfoddol eu dysgyblion: *Phil.* iv. 16, 18; *Gal.* vi. 6; 1 *Cor.* ix. 1—5; 3 *Ioan* 5—8. Os ceisiai dynion drwg gymmeryd mantais ar eu haelfrydigrwydd, yr oeddynt i'w gochel, i wylio rhagddynt, i gau eu geneuau, ac i gilio oddi wrth eu cymdeithas: *Act.* xx. 28—31; *Tit.* i. 10, 11; 2 *Thes.* iii. 14; *Phil.* iii. 17—19.

Cyfeiria y pleidwyr at eiriau yr apostol yn y llythyr at yr Hebreaid (*pen.* vii. 5); "A'r rhai yn wir sydd o feibion Lefi yn derbyn swydd yr offeiriadaeth, y mae ganddynt orchymyn i gymmeryd degwm gan y bobl yn ol y gyfraith, sef gan eu brodyr, er eu bod wedi dyfod o lwynau Abraham." Dywedant, er fod yr oruchwyliaeth hono wedi terfynu, eto yr erys y rhwymedigaeth.

Etyb yr wrthblaid, fod y rhwymedigaeth wedi terfynu yr un awr ag y terfynodd yr oruchwyliaeth; "Canys wedi newidio yr offeiriadaeth, angenrhaid ydyw bod cyfnewid ar y gyfraith hefyd;" *Heb.* vii. 12. Dadleuant hefyd pe buasai y rhwymedigaeth yn aros, na buasai ond yn unig ar "y brodyr;" hyny yw, y rhai fuasai yn cymmeradwyo ac yn derbyn eu gwasanaeth, ac na buasai yn rhwymedigaeth ar bawb o bob cred—yn Iuddewon a Chenedloedd.

Dywed y pleidwyr fod perchenogion tiroedd yn yr oesoedd boreuol wedi neillduo y degwm yn wirfoddol; a chan fod ganddynt hawl i wneuthur a fynent â'u heiddo eu hunain, mai meddiant yr eglwys ydyw yn gyfiawn ac am byth.

Atebir hyn trwy wadu y weithred a'r hawl. Gofynir yn mha oes y bu perchenogion tiroedd *oll* o'r un meddwl, a pha fodd y dygwyddodd iddynt *oll* neillduo yr *un faint?* Ond pe buasent wedi gwneuthur hyny, gwedir eu hawl o'i wneuthur. Gallasent roddi pa ran bynag o'u cynnyrch tra yr oeddynt eu hunain yn trin y tiroedd, neu gallasent roddi y ddegfed neu ryw ran arall o'u tiroedd fel yr ewyllysient; ond nid oedd ganddynt yr un hawl i ddegymu eiddo eu hiliogaeth, ac nis gallasent yn gyfiawn osod treth ar ofal, medrusrwydd, a diwydrwydd oesoedd dilynol. Pa hawl oedd ganddynt i roddi y degfed o'r hyn na bu erioed yn eiddo iddynt?

Dadleua y pleidwyr y byddai yn anghyfiawnder erchyll i amddifadu yr eglwys o'r degymau, gan ei bod yn eu meddiannu mor gyfreithlawn ag y meddiennir y naw rhan arall gan eu perchenogion—eiddo yr eglwys ydynt, ac nis gellir ei hamddifadu o honynt heb fod yn euog o gyssegrysbeiliad.

Etyb yr wrthblaid trwy ofyn, Pa eglwys a feddylir? Gan Babyddion y sefydlwyd hi gyntaf, ac at gynnaliaeth offeiriadaeth Babaidd. Os pwysir ar eu neillduad cyntaf, y mae yn eglur mai gan yr Eglwys Babaidd y mae yr hawl iddynt; ond os pwysir ar gyfraith y wlad, rhaid addef fod y gallu ag sydd yn perchen awdurdod i lunio cyfraith, yn perchen hefyd awdurdod i'w dileu, pan y barno hyny ddoethaf. Ni chydnebydd y llywodraeth un awdurdod annibynol yn y wlad hon ond ei hunan yn unig. Ni fyn oddef yr eglwys yn gyfochrog iddi fel gallu annibynol. Y mae luaws o weithiau wedi trin a throi yr eglwys fel ei chreadur ei hun, yn ol ei barn ei hun am gyfaddasiad y driniaeth. Gall, pe mynai, ddileu yr eglwys fel sefydliad gwladol, a chymhwyso ei meddiannau at ddybenion gwladwriaethol. Y mae yn amlwg nad eiddo y clerigwyr ydyw y degwm; o blegid nid oes ganddynt awdurdod arno ond am eu hoes yn unig. Nis gallant benodi etifedd arno, fel ar eiddo personol. Ni fyn rhai amddifadu y meddiannwyr presennol o hono tra y byddont byw, nac amddifadu y meddiannwyr lleygol chwaith ond trwy gytundeb cyfwerth. Y mae yn amlwg hefyd nad eiddo y meistr tir ydyw, o blegid yr oedd y degwm yn cael ei ystyried wrth brynu y tir; gan hyny, rhaid mai eiddo y wladwriaeth ydyw, a gall y llywodraeth, y pryd y barno yn addas, ei ddefn-

Digitized by Google

yddio at wasanaeth y wladwriaeth, heb fod yn euog o drais nac anghyfiawnder i'r mesur lleiaf.

Yn ol deddf y degwm yn bresennol, a ffurfiwyd rai blyneddoedd yn ol, enwir rhyw gynnifer o farchnadleoedd yn y deyrnas, a phenodir swyddogion ynddynt i gymmeryd prisiau yr ydau o farchnad i farchnad. Prisiwyd cynnyrch y tiroedd gan brwywyr gosodedig, ac y mae y perchenog yn atebol am y degwm, yr hwn a'i cyfyd eilwaith oddi ar y deiliaid. Dodir canolbris yr ydau am y flwyddyn yn y marchnadleoedd penodedig, at ganolbris yr ydau yn y chwe blynedd blaenorol, a thelir yn gyfatebol am y degwm. Math o lithren ydyw, yn codi ac yn gostwng; os cyfyd neu os gostwng yr ŷd, cyfyd neu gostynga y degwm yn gyfatebol; a chanolbris yr ŷd am y saith mlynedd diweddaf yn barhaus ydyw y safon.

Ni farnwyd yn angenrheidiol nodi awduron mewn cyssylltiad â'r erthygl hon, gan fod hanesiaeth yn sail i'r ffeithiau y crybwyllir am danynt. Am y rhesymau dros ac yn erbyn, gall y darllenydd farnu drosto ei hun.

DEHEU: y wlad, neu y parth o'r ffurfafen a fydd ar ddeheulaw dyn, pan y saif â'i wyneb tua'r dwyrain. Y mae saith o eiriau Hebreig yn cael eu defnyddio am y gair hwn yn yr Ysgrythyrau. 1. נגב (sych). Y mae yn debygol fod y gair hwn yn deilliaw oddi wrth y gwyntoedd poethion a sychion a fyddent yn chwythu yn flyneddol i Syria, dros Affrica ac Arabia. "Yn Mawrth," medd Volney, "ymddengys y gwyntoedd *deheuol* niweidiol yn Syria gyda'r un amgylchiadau ag yn yr Aipht; hyny yw, gyda'r un *poethder*, yr hwn fydd mor uchel o ran ei raddau fel y mae yn anhawdd cael drychfeddwl am dano heb ei deimlo; ond gellir ei gymharu i wres ffwrn fawr, pan yn tynu y bara o honi [*Voyage en Syrie et Egypte*, llyfr i. td. 297; cymharer td. 55; *Luc* xii. 55, "A phan welwch y deheuwynt yn chwythu, y dywedwch, y bydd gwres;" a gwel *Kitto's Physical History of Palestine*, td. 221, 222]. Cymhwysir y gair weithiau at ddarn o dir craslyd a sych. Dywedai merch Caleb wrth ei thad, "Canys gwlad y deheu a roddaist i mi;" neu yn hytrach, yn ol yr Hebraeg, "gwlad sych a roddaist i mi:" "Dyro i mi hefyd ffynnonau dyfroedd;" *Barn.* i. 15; cymharer *adn.* 9. Brydiau ereill, cyfeiria y gair at y gwledydd cras hyny—er eu ffrwythlondeb achlysurol—dros ba rai y chwythai y deheuwynt i Syria. Felly y dealla y Deg a Thrigain a'r Vulgate yr ymadrodd sydd yn *Esa.* xxi. 1; "Fel y mae corwynt yn y deheu yn myned drwodd." "Baich anifeiliaid y deheu;" yn ol y Groeg, "anifeiliaid yr *anialwch;*" *Esa.* xxx. 6. Mewn amryw anghreifftiau yn y Deg a Thrigain, ni wneir ond dodi y gair Hebraeg mewn llythyrenau Groeg, megys yn *Ios.* x. 40; xi. 16; *Obad.* 19, 20; ac hwyrach yn 1 *Sam.* xxi. 41. Defnyddir y gair hefyd mewn ystyr daiaryddol yn *Num.* xxxiv. 3; *Ios.* xv. 2; 1 *Cron.* ix. 24; 2 *Cron.* iv. 4; *Ezec.* xl. 2; xlvi. 9, &c. Ond defnyddir y gair hwn hefyd mewn ystyr pwysig arall; sef, fel enw ar y parthau anial a orweddant i'r deheu o Iudea, sef anialwch Sur, Zin, a Paran, gwlad fynyddig Edom neu Idumea, a rhan o Arabia Garegog (cymharer *Mal.* i. 3; *Shaw's Travels*, td. 438). Fel hyn, ar fynediad cyntaf Abraham i Ganaan, dywedir iddo "fyned ac ymdaith tua'r deheu" (*Gen.* xii. 9); ac ar ei ddychweliad o'r Aipht i Ganaan, dywedir iddo fyned "i'r deheu" (*Gen.* xiii. 1); er ei fod yn teithio mewn gwirionedd ar y pryd tua'r gogledd. Cymharer *adn.* 3; "Efe a aeth ar ei deithiau, o'r deheu hyd Bethel." Dywedir mai yn y parth hwn y preswyliai yr Amaleciaid, "yn nhir y deheu," pan yr anfonodd Moses yr ysbïwyr i chwilio Canaan (*Num.* xiii. 29), sef yn y wlad rhwng Edom a'r Aipht, ac ar y tu dwyreiniol i'r Môr Marw a Mynydd Seir (gwel AMALECIAID). Cynnwysid trigolion y parth hwn yn muddugoliaethau Iosuah (*pen.* x. 40). Pa bryd bynag y rhydd y Deg a Thrigain y gair Hebraeg mewn llythyrenau Groeg, Ναγέβ, bydd yn dwyn perthynas yn wastadol â'r rhandir neillduol hwn. I'r un parth y perthyn yr ymadrodd, "Dychwel, Arglwydd, ein caethiwed ni, fel yr afonydd yn y deheu" (*Salm* cxxvi. 4); Deg a Thrigain, "fel *llifddyfroedd gauafol* yn y deheu," y rhai yn ddisymmwth a lanwant y dyffrynoedd yn ystod y tymmor gwlawog (cymharer *Ezec.* vi. 3; xxxiv. 13; xxxv. 8; xxxvi. 4, 6). Bydd y rhai hyn yn sychion yn yr haf: *Iob* vi. 15—18. Yr oedd yr Iuddewon, trwy eu caethgludiad, wedi gadael eu gwlad yn wag ac anial; ond trwy eu dychweliad, llanwent hi eilwaith. Gelwir y parth hwn yn ddiffaethwch Iudea: *Mat.* iii. 1; *Ios.* xv. 61: cymharer *Salm* lxxv. 6, ymyl y ddalen; gwel hefyd *Ier.* xvii. 26; xxxii. 44; xxxiii. 13; *Ezec.* xx. 46, 47; xxi. 4; cymharer *Obad.* 19, 20; *Zech.* vii. 7. Y mae y ffordd o Ierusalem i Gaza, "yr hon sydd anghyfannedd," yn myned drwy ran o'r parth hwn: *Act.* viii. 26. Fel hyn, fel y sylwa Drusius, golyga y gair yn fynych, nid yr holl arddrych deheuol o'r ddaiar, ond ardal anial ar y tu deheuol i Iudea. Defnyddir ef weithiau mewn ystyr perthynasol; fel hyn, gelwir dinasoedd Iudah "dinasoedd y deheu" (*Ier.* xiii. 19), fel yn dwyn perthynas â Caldea, yr hon a elwir "y gogledd:" *Ier.* i. 14; cymharer iv. 6; a vi. 1. Y mae Ierusalem ei hunan yn cael ei galw "coed maes y deheu," neu *wlad* y deheu: *Ezec.* xx. 46; cymharer *Gen.* xiv. 7. Y mae yr Aipht yn cael ei galw hefyd "y deheu;" fel hyn, "brenin y deheu" (*Dan.* xi. 5) ydyw Ptolemy Soter a'i olynwyr; cymharer *adn.* 6, 9, 11, 15, 25, 29, 40; ond yn yr adnod ddiweddaf, dywed Mede mai y Saraceniaid o Arabia Ddedwydd a olygir: gwel ei waith, td. 674, 816. 2. דרום, yr hwn, yn ol Gesenius, sydd air o darddiad ammheus. Yn y Deg a Thrigain, cyfieithir ef λίψ yn *Deut.* xxxiii. 23, ystyr gwreiddiol yr hwn air ydyw *gwynt de-orllewinol;* νότος (*deheuwynt*) yn *Preg.* i. 6; xi. 3; *Ezec.* xl. 24, 27, 28, 44, 45; xli. 11; a θάλλασσα yn *Ezec.* xlii. 18. 3. תימן, yn nghyd â'i orair תימנה, yr hyn a orwedd yn hollol ar y tu *deheuol;* Deg a Thrigain, νότος, λίψ; ac weithiau, ni wneir ond dodi y gair mewn llythyrenau Groeg; felly y gwneir yn *Hab.* iii. 3; Θαιμάν. Yn wir, ysgrifenir y tri gair blaenorol felly: *Ezec.* xx. 46. Dygwydd y gair hwn yn *Exod.* xxvi. 35: *Num.* ii. 10; iii. 29; x. 6; *Iob* ix. 9; xxxix. 26; *Salm* lxxviii. 26; *Can. Sol.* iv. 16; *Esa.* xliii. 6; *Hab.* iii. 3; *Zech.* ix. 14; xiv. 4. Yn *Zech.* vi. 6, dynoda yr Aipht. Defnyddir ef mewn iaith farddonol am y deheuwynt: *Salm* lxxviii. 26; a *Can. Sol.* iv. 16. Y mae תימנה a נגב yn cael eu defnyddio y naill am y llall yn *Exod.* xxvi. 18; xxxvi. 23; *Ezec.* xlvii. 1. 4. ימין, yr hwn hefyd a olyga yr ochr ddeheuol a'r deheu. *Salm* lxxxix. 12; "Ti a greaist ogledd a deheu." Deg a Thrigain, θάλλασσα; Vulgate, *mare.* Y mae yn ddiammheu fod y gair yn y lle hwn yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr eangaf, ac yn cynnwys nid

Digitized by Google

yn unig yr holl wledydd i'r deheu, ond hefyd y Cefnfor Indiaidd, &c.—yr holl arddrych. 5. חדר: "O'r deheu y daw corwynt" (*Iob* xxxvii. 9), hyny yw, yn llythyrenol, "o ystafell" neu "o ystorfa" (*ἰκταμιείων*, *interioribus*). Canfyddir yr ymadrodd yn llawn yn *Iob* ix. 9—"ystafelloedd y deheu" (חדריתמן, *ταμεῖα νότου*), y deheu pellaf; hwyrach mai ystyr y gair yn y ddwy adnod hon ydyw ystafelloedd neu ystorfeydd y deheuwynt. 6. כדבר: "Canys nid o'r deheu y daw goruchafiaeth" (*Salm* lxxv. 6); hyny yw, yn llythyrenol, "nid o'r anialwch." 7. מים: "A gasglodd efe o'r tiroedd...ac o'r deheu" (*Salm* cvii. 3)—*θάλασσα*, *mare*; lle y dywed Gesenius y dylai y gair gael ei gyfieithu "gorllewin," er ei fod yn sefyll yn wrthgyferbyniol i מעפן; megys yn wir y cyfieithir ef dan yr un amgylchiadau yn hollol yn *Esa.* xlix. 12. Cyfeiria at *Deut.* xxxiii. 23, ac *Amos* viii. 12. Yn y Testament Newydd, ni a gawn *νότος* mewn ystyr daiaryddol: *Mat.* xii. 42; *Luc* xiii. 29; *Dad.* xxi. 13. Cyfieithir y gair *μεσημβρία* yn "deheu" yn *Act.* viii. 26. Defnyddir y gair yn yr un ystyr gan Josephus (*Hyn.* iv. 5. 2).—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

DEHEUBARTH: a arwydda y *parth deheuol* o Gymru, a elwir weithiau yn gyffredin, "Deheudir Cymru," ac, yn fynych, "Y Deheudir" yn unig. Y mae y Deheubarth, meddai Carnhuanawc, "yn cynnwys y wlad rhwng Gwy a Hafren, yr hon a ddywedir i Offa ei dwyn oddi ar y Cymru." Gelwir y parth yma o'r wlad weithiau yn Gwent a Dyfed; ac ambell dro, dim ond Dyfed yn unig. Ac fe ymddengys fod yr enw hwn yn bur hen hefyd, canys fe allai mai oddi wrth enw trigolion Dyfed, sef Dyfedwyr, Dyfedwys, neu Dyfedion, y cymmerodd y Rhufeiniaid yr enw *Dimetæ*; a hyd yn oed pe na bai Dyfedwyr ond Cymreigiad o *Dimetæ*, gallai y gair, er hyny, fod yn dra hen, fel y canfyddir yn fuan. Y mae hyn yn ein harwain yn lled naturiol, fel y tybir, at bwnc a all fod yn ddyddorol iawn yn ngolwg amryw ddarllenwyr; sef,

HEN RANIADAU CYMRU.

Y rhaniad hynaf sydd yn adnabyddus o Gymru ydyw yr un a wnaeth yr ymherawdwr Rhufeinaidd, Severus, B.A. 207, pan y rhanodd efe yr holl diriogaethau Rhufeinig yn Ynys Prydain yn ddau ddosbarth, sef *Britannia Prima*—yr ardal ar y tu deheu i'r Tafwys; a *Britannia Secunda*—Cymru.[1]

Yr oedd Cymru y pryd hyny yn cynnwys yr holl wlad rhwng yr Wyfer (*Weaver*), yr Hafren, a'r môr. Heb law y deuddeg sir sydd yn gwneyd Cymru i fyny yn awr, yr oedd yn cynnwys sir Fynwy a sir Henffordd, a rhanau o sir Gaerloyw, sir Gaerwrangon, sir Amwythig, a sir Gaerlleon. Mesurai, tra yn y dull cyntefig hwn, o Bwynt Carmel yn Môn i Gas Gwent (*Chepstow*) yn Morganwg. o gylch 145 milltir; ac o Benbedw (*Birkenhead*) ar y Mersey i Ben y Pyrod (*Worm's Head*) yn Morganwg, o gylch 140 milltir. O enau y Clwyd yn sir Ddinbych i Ynys Barry yn Morganwg, o gylch 140 milltir; ac o enau y Dyfi yn Ngheredigion i Bont y Gogledd (*Bridgenorth*) ar yr Hafren, yn sir Amwythig, o gylch 70 milltir; tra yr ymestyn Pen Braich y Pwll, yn sir Gaernarfon, i'r gorllewin tu hwnt i enau y Dyfi tua 30 milltir; a Phenrhyn Tŷ Ddewi, yn sir Benfro, tua 50 milltir.

Y dull a gymmerodd Severus i ranu *Britannia Secunda* (Cymru), oedd, yn ol y tair prif genedl neu giwdod, â'r rhai yr oedd efe yn adnabyddus fel ei phreswylwyr; sef,

1. *Y Silures*=Esyllygwyr, neu wŷr Esyllwg; a breswylient Henffordd, rhan o Gaerwrangon, ac o Gaerloyw, Maesyfed, Brycheiniog, Mynwy, a rhan o Forganwg, hyd yr afon Nedd; a'u prif ddinas oedd *Vinta Silurium* = Caerwent, yn Mynwy; ac ar ol hyny *Bullæum Silurium*= Caerffili, yn Morganwg. Dywedir i'r bobl hyn gael eu galw yn Esyllygwyr, ac weithiau Syllygwyr, Syllyri, &c., am fod eu gwlad, yr hon a elwid Esyllwg, yn dir agored, isel, yn llawn o olygfeydd. Hefyd, galwyd hwynt yn bur fore yn Gwentwyson, Gwenti, Gwyr Bro Went, &c., a'u gwlad yn Gwent—geiriau o gyffelyb ystyr i Esyllygwyr ac Esyllwg.

2. *Y Dimetæ*=Dyfedwys, neu wŷr Dyfed; trigiannwyr y rhan o Forganwg a elwir Gŵyr (Gower), holl Benfro, Caerfyrddin a Cheredigion, neu Aberteifi; a'u prif ddinas oedd Maridinum=Caerfyrddin. Dywed un i wlad y bobl hyn gael ei galw yn Dyfed (*Dimetæ*), am fod eu gwlad yn sefyll i'r de o'r afon Dyfi; ac arall a ddywed mai ystyr Dyfed ydyw gwlad ddyfrog neu aberog, a bod yr enw yn bur addas, gan fod y wlad yn ymestyn i'r môr, ac Aberdaugleddyf yn ei rhanu bron drwy ei chanol.

3. *Yr Ordovices* = Gordefigion, Gordefigwyr, neu Gordefigwys; sef y rhai sydd yn preswylio yr holl wlad a elwir yn awr Gogledd Cymru, neu Gwynedd, sef *Venedocia* y Rhufeiniaid—yn cynnwys y rhan o Amwythig sydd o'r tu gogledd i'r Hafren, a'r rhan o Gaer sydd o'r tu gorllewin i'r Wyfer, a holl Fflint, Dinbych, Trefaldwyn, Meirion, Caernarfon, a Môn. Dywed un awdwr y gelwid gwlad y Gordefigion yn Ardyfi, neu y wlad i'r gogledd o afon Dyfi; ond *Venedocia* (Gwynedd) y galwai y Rhufeiniaid y wlad; a gelwid hi felly, yn ol tyb rhai, am fod penau eu mynyddoedd yn gyffredin yn wyn gan eira. Gelwir y trigolion yn fynych, oddi wrth Gwynedd, yn Gwyneddwyr, Gwyneddwys, a Gwyndodwyr, Gwyndodiaid, Gwŷr Gwynedd, &c.

Yn mhen tua 550 mlynedd ar ol y rhaniad uchod, gwnaeth Offa, brenin y Mers, yr hwn oedd hynod am ei ryfeloedd â'r Cymry, "y clawdd mawr, a elwir Clawdd Offa, yn derfynfa rhwng Gwlad Cymru a'r Mers;" a hyny i ddau ddyben, sef er mwyn cyfyngu "Gwlad Cymru," ac er mwyn attal ymgyrchiadau y Cymry yn erbyn y Seison. Cymmerodd hyn le, meddai y *Brut*, B.A. 765. Yr oedd y clawdd hwn yn dechreu wrth y Maes Glas (*Basingwerk*), ar lan y Dyfrdwy, ger llaw Treffynnon, yn sir Fflint; ac oddi yno cerdd tua'r deheu, ychydig i'r dwyrain o'r Wyddgrug; ac i'r gorllewin o Gaergwrle, Gwrecsam, Rhiwabon, y Waen (*Chirk*), a Chroesoswallt (*Oswestry*), ac yn mlaen at yr Hafren, uwch law Llandrinio; a chan ddechreu drachefn wrth Tal y bont (*Buttington*), cerdd ychydig i'r dwyrain o Drefaldwyn a Chlunwy (*Clun*), trwy Dref y Clawdd (*Knighton*); ac i'r gorllewin o Lanandras (*Presteign*); ac oddi yno at yr afon Wy, yn Henffordd, ychydig is law y Gelli (*Hay*); ac oddi yno, medd rhai, hyd Gas Gwent, er nad oes yno ddim o'i olion i'w ganfod yn bresennol.

Y pryd hyn, llwyddodd y Seison i ysbeilio y Cymry o Henffordd a'r Amwythig, ac o'r rhanau

[1] Yn mhen amser, chwanegodd y Rhufeiniaid bedwar dosbarth arall at y ddau uchod, dan yr enwau Flavia Cæsariensis—y wlad rhwng y Tafwys a'r Hymyr (*Humber*); Maximus Cæsariensis—y wlad rhwng yr Hymyr a'r Taen (*Tyne*); Valentia—y wlad o'r Taen hyd y Clwyd (*Clyde*) a'r Forth yn yr Alban; a Vespasiana—ei therfynau yn anhysbys, ond dywedir ei bod yn cyrhaedd hyd *Inverness*.

Digitized by Google

o Gaer a Chaerwrangon, a Chaerloyw, oedd o'r blaen yn perthyn i Gymru; a bu raid i dywysog Powys symmud ei lys o Bengwern (*Shrewsbury*) i Mathrafal, yn Nhrefaldwyn; ac yn y flwyddyn 833, cyhoeddodd Egbert fod yn rhaid i bob un o hiliogaeth Frytanaidd ymadael o'i lywodraeth ef yn ystod chwe mis, ac nad oedd i un Cymro groesi Clawdd Offa mwyach, dan boen marwolaeth.

Y rhaniad nesaf o Gymru a wnaed gan Rhodri Mawr ab Merfyn Frych, o gylch 877; yr hwn a'i dosbarthodd yn dair talaeth, sef Gwynedd, Powys, a'r Deheubarth, i'w dri mab, Anarawd, Merfyn, a Chadell. Anarawd a gafodd Gwynedd, a'i lys oedd yn Aberffraw; Merfyn a gafodd Powys, a'i lys oedd yn Mathrafal; a Chadell a gafodd Deheubarth, a'i lys oedd yn Dinefwr.

Ar ol hyn, dywedir i Howel Dda ap Cadell, o gylch B.A. 945, ranu holl wlad Cymru, yn ol esampl Aelfryd o Loegr, yn rhandiroedd, neu swyddi (*counties*), a chantrefi; ac i'r ymsefydlwyr Normanaidd adranu y rhai hyny drachefn yn gymmydau. Pa ddiwygiadau bynag a wnaed ar raniadau Cymru gan Howel Dda, ymddengys fod y tri phrif raniad a wnaed gan Rhodri Mawr wedi parhau mewn grym hyd amser Llewelyn ab Gruffydd, B.A. 1282, yr hwn oedd y diweddaf o'r tywysogion Cymreig a adolygodd raniadau y Dywysogaeth, fel yr ymddengys wrth y mynegiad canlynol sydd yn y *Myv. Arch.*, ii. 606:—

PARTHAU CYMRU.

"Llyma y modd i mesurwyd ac i rhanwyd Cantrevydd a Chymydau holl Gymru, yn amser Llywelyn ab Gruffydd y Tywysawg diweddaf o'r Cymry. Tair Talaith a vu yn Nghymru; un yn Aberfraw yn Môn; a'r ail yn Ninevwr yn Neheubarth; a'r drydedd yn Mathrafal yn Mhowys."

GWYNEDD,

neu dalaeth llys Aberffraw, a ddosbarthwyd yn bedair rhan: *Môn, Arfon, Meirionydd, Perfeddwlad.*

I. *Môn*, a elwid gan y Rhufeiniaid *Mona Insula* =Ynys Fôn, yn arwyddo *mwyn*, oddi wrth y cloddfeydd mynor a mŵn oedd ynddi, medd un awdwr; tra y tybia ereill mai ystyr Môn yw corff gwahanedig neu ddidoledig; ac y mae rheswm dros gymhwyso yr ystyr yma at Fôn, yr hon a wahanir oddi wrth y gweddill o dir Cymru gan yr afon Menai. Tybia Rowland mai Bon y galwai yr hen Frytaniaid yr ynys, yn arwyddo terfyn neu eithafoedd tir Cymru. Gelwid yr ynys weithiau gynt yn Môn Fynydd, i'w gwahaniaethu oddi wrth Môn Aw=Manaw (*Isle of Man*). Y mae Môn yn cynnwys tri chantref:—Aberffraw, Cemmaes, Rhosyr.

1. Aberffraw, "a elwir velly," meddai *Llyfr Coch Asaph*, "o'r afon sy'n i hymyl lle rhoedd gynt Lys enwog i Ddwysog Gwynedd ar avon honno a elwir Ffraw; ac ewyr pawb mae Aber cyn y Vrutanet a arwyddochâ yn gyffredin gyhyrdhiad a thrawiad avon yn a môr Tegaingl, sef Tanaet." Felly, Aberffraw yw aber yr afon Ffraw; ac y mae yn cynnwys dau gwmmwd:—

(1.) Llifon, oddi wrth llif dwfr.

(2.) Malldraeth, mall-traeth; sef traeth mall, meddal, neu dywodlyd, hawdd suddo ynddo.

2. Cemmaes, cam-maes, medd rhai; cyn-maes, medd ereill, sef pentir, neu benrhyn: arferir y gair weithiau am gadfaes, neu faes rhyfel. Y mae cantref Cemmaes yn cynnwys dau gwmmwd:—

(1.) Talybolion, sef eithafnod Polion; sef y man eithaf yn Môn yr aeth Paulinus y Rhufeiniad iddo, yr hwn a ddileodd y derwyddon o Fôn, o gylch B.A. 58. Gelwir y cwmmwd hwn hefyd weithiau, Tal y Moelion.

(2.) Twr Celyn, neu Dir Cuhelyn.

3. Rhosyr, neu yn hytrach Rhosir; hyny yw, Rhos hir, "ac nid Rhos Fair," meddai P. B. Williams; ond Rhosvair, medd Angharad Llwyd. Enw cyffredin y lle yn awr ydyw Niwbwrch= *Newborough.* Cynnwysai y cantref hwn ddau gwmmwd:—

(1.) Tindaethwy, din—taith—gwy; sef dinas ger llaw dwfr teithiol, rhedegol: castell ar ddwfr teithiol, medd y Dr. Jones.

(2.) Menai, main—aw, sef dwfr cul, neu gulddwfr.

Yn ol hen raniad arall o Fôn sydd yn y *Myv. Arch.*, enwir y cymmydau fel hyn:—Llanfaes, Cemmaes, Talebolion, Aberfraw, Penrhos, Rhosyr.

II. *Arfon* ydyw yr ail ran o Wynedd, sef Ar—Môn; a elwid felly, meddai *Llyfr Coch Asaph*, "o achos i bod yn agos i Vôn." Cynnwys Arfon bedwar cantref:—Aber, Arfon, Dunodig, Lleyn.

1. Aber, neu ffrwd, afonig. Cynnwys cantref Aber dri chwmmwd:—

(1.) Llechwedd Uchaf, neu y llethr uchaf.

(2.) Llechwedd Isaf, neu y llethr isaf.

(3.) Nant Conwy, neu Aber Conwy.

Yn ol un rhaniad yn y *Myv. Arch.*, nodir Arllechwedd fel cantref, yn cynnwys dau gwmmwd, Trefriw ac Aber; ond yn y rhaniad uchod, Aber yw y cantref, ac ni sonir am Arllechwedd. Mae y rhaniadau sydd yn y *Myv. Arch.* dan y penawd "Parthau Cymru" mor gymmysglyd ac annosbarthus, fel nas gellir ymddiried nemawr i'w cywirdeb, er y bernir yn addas eu crybwyll yn eu priodol leoedd.

2. Arfon, fel cantref, a gynnwys ddau gwmmwd:—

(1.) Uwch Gwyrfai, sef uwch yr afon Gwyrfai.

(2.) Is Gwyrfai.

Mewn un rhaniad arall yn y *Myv. Arch.*, dan gantref Arfon, Uch Conwy ac Is Conwy a nodir fel dau gwmmwd y cantref.

3. Dunodig, sef tiriogaeth Dunod ap Cunedda, a gynnwys ddau gwmmwd:—

(1.) Ardudwy, neu Ardwyrydwy, sef ar yr afon Dwyryd.

(2.) Eifionydd, neu Yfionydd, medd un, yn arwyddo *afonydd.*

Mewn rhaniad arall yn y *Myv. Arch.*, gelwir y cantref hwn yn Dunodyn, yn cynnwys dau gwmmwd, a elwir Privnot ac Ardudwy.

4. Lleyn, yn arwyddo llain hir o dir, medd rhai; tra y tybia ereill mai *Llyn* ydyw yr enw priodol, oddi wrth Llyn Cantref y Gwaelod. Mae y cantref hwn yn cynnwys tri chwmmwd:—

(1.) Cwmmwd main, neu maen. Nid ydys yn sicr pa un ai cwmmwd *cul* (main), ai cwmmwd y *meini*, a arwydda yr enw.

(2.) Tinllaen, neu Dinlleyn, sef Dinas neu Gastell Lleyn neu Llyn.

(3.) Canologion, o *canol*, y "gwŷr canolog," medd y Dr. Jones.

Yn y rhaniad arall dan "Cantref Llyn" (ai yr un a Lleyn, nis gwyddys), ceir enwau y tri chwmmwd hyn,—"Dinmael, Is Clogyon (Canologion?) Cuondinman."

III. *Meirionydd*, neu wlad Meirion ap Tybiawn ap Cunedda, ydyw y drydedd ran o Wynedd. Ystyr y gair Meirion ydyw *llaethwr*, neu *hafodydd.* Mae y rhan yma yn cynnwys dau gantref, Meirion a Penllyn.

1. Meirion a gynnwys dri chwmmwd.

Digitized by Google

(1.) Tal y bont, sef *talcen y bont.*
(2.) Penal, neu Penol, sef y rhan olaf.
(3.) Ystumanner, yn hytrach Ystumaner, sef Ystwy Maenor=Maenor yr Ystwy. Ystumanner a arwyddai *ystumiau anner;* sef pranciau buwch ieuanc, yr hyn nid yw yn debyg o fod yn ystyr enw y cwmmwd.

Yn y *Myv. Arch.*, dan Meirion, ceir y gair *cantref* yn cynnwys dau gwmmwd arall, a elwir Cyfelach a Maden; ond ni roddir enw y cantref.

2. Penllyn, sef Pen Llyn Tegid. Cynnwys y cantref hwn dri chwmmwd:—
(1.) Uch Meloch.
(2.) Is Meloch. Enw lle neu afon ydyw Meloch.

Yn y rhaniad arall sydd yn y *Myv. Arch.*, ceir Uch Meloch ac Is Meloch dan "Gantref Eryri."
(3.) Mignant, sef ochr nant neu ffrwd.

IV. *Perfeddwlad*, neu y Canolbarth, yw y bedwaredd ran o Wynedd, ac y mae yn cynnwys pum cantref:—Rhufoniog, Ystrad, Rhos, Dyffryn Clwyd, Tegeingl.

1. Rhufoniog, sef tiriogaeth Rhufawn ap Cunedda, a gynnwys ddau gwmmwd:—
(1.) Uwch Aled, sef uwch yr afon Aled.
(2.) Is Aled.
"Uch Aleth ac Is Aleth" sydd yn y "Parthau."

2. Ystrad, sarn (*stratum* neu *causeway*) Rufeinig, a gynnwys ddau gwmmwd:—
(1.) Hiraethog, y mynydd hir neu daenedig.
(2.) Cynmeirch, uchel neu banog, medd y Dr. Jones.

Mewn rhaniad arall yn y "Parthau," rhoddir y cymmydau Hiraethog a Cefn Meirch, neu Crymeirch, yn Nghantref Rhufoniog; ac Uwch Aled ac Is Aled yn Nghantref Ystrad.

3. Rhos, crugle, neu eithinle, a gynnwys dri chwmmwd:—
(1.) Uwch Dulas, sef uwch yr afon Dulas.
(2.) Is Dulas.
(3.) Creuddyn, gwaedle.

4. Dyffryn Clwyd, sef dyffryn yr afon Clwyd, a gynnwys dri chwmmwd,—
(1.) Coleigion, a elwir hefyd yn y "Parthau," Coleion, Coelogion, Golygion, a Colyan," sef tiriogaethau Coel ap Cunedda.
(2.) Llanerch, a elwir yn y "Parthau" Llan Arch, a Llanarth.
(3.) Dogfeilyn, sef tir Dogfael ap Cunedda.

Mewn rhaniad arall sydd yn y "Parthau," rhoddir Rhuthyn yn y cantref hwn yn lle Dogfeilyn, ac ar odre y ddalen, dywedir, "Ruthyn; hevyd cwmmwd Dogfeilyn."

5. Tegeingl, Maes yr Eingl (*Englefield*), a gynnwys dri chwmmwd:—
(1.) Cwnsyllt, Cwnsallt, neu Cynsyllt, sef taldir y brenin neu y cyllidlys.
(2.) Prestatyn, neu Prystatyn, sef ar y traethau neu y tywod.
(3.) Rhuddlan, y Llan Rydd, medd rhai, pan y tybia ereill mai y Llan Rudd (coch) a feddylir, oddi wrth liw rhudd y ddaiar yn y lle.

Yn y "Parthau," dywedir, "Swmp Cantrevydd Gwynedd xv. A swmp ei Chymmydau xxxvi;" ond "swmp" y cantrefydd yn y rhestr uchod yw 14, a'r cymmydau 35, heb son am y rhai ammheus a grybwyllwyd o'r dosbarth a elwir "Parthau Cymru."

POWYS.

Po—Gwy, neu Po—Gwys, y wlad uwch law yr afon Wy, yw yr ail dalaeth o Gymru, sef talaeth llys Mathrafal, a ddosbarthwyd yn ddwy ran:— *Powys Fadog* a *Powys Wenwynwyn.*

I. *Powys Fadog*, a elwir felly oddi wrth Madog ab Meredydd, ab Bleddyn. Cynnwys y rhan yma o Bowys bum cantref:—y Barwn, y Rhiw, Uchnant, Trefred, Rhaiadr.

1. Y Barwn, neu Gantref y Brëyr, a gynnwys dri chwmmwd:—
(1.) Dinmael, neu Dinas Mael, sef Mael ap Cunedda.
(2.) Edeyrnion, sef tiriogaeth Edeyrn ap Cunedda.
(3.) Glyndyfrdwy, sef dyffryn yr afon Dyfrdwy.

Yn "Mharthau Cymru," ceir Llangonwy, Dinmael, a Glyndyfrdwy, dan y gair "Cantref," heb nodi pa gantref, yn mysg cymmydau Perfeddwlad.

2. Y Rhiw, neu y Bryn, a gynnwys dri chantref:—
(1.) Iâl, ardal deg, ddigoed, agored: *ael*, medd y Dr. Jones.
(2.) Ystrad Alun, ffordd neu sarn ar yr afon Alun.
(3.) Caergwrle, yr amddiffynfa gadarn.

Y "Parthau" yn y *Myv. Arch.*, a noda "yr Hôb" (*Hope*) fel cwmmwd yn y cantref hwn. Ar odre y ddalen, gelwir y cwmmwd yma "yr Hobeu:" efallai fod yr enw yn dyfod oddi wrth y mesur a elwir *hobaid.*

3. Uchnant, sef uwch nant yr afon Dyfrdwy. Cynnwys y cantref hwn dri chwmmwd:—
(1.) Merffordd, ffordd ar y Mers, neu ar y cyffindir. "Berford"=Berffordd, medd y "Parthau."
(2.) Maelor Gymraeg, marchnad Gymraeg (*Broomfield*).
(3.) Maelor Saesneg.

4. Trefred, Maerdref, neu Drefad, a gynnwys dri chwmmwd:—
(1.) Croesfaen, croes — maen, a elwir hefyd Croes Fain, sef croes o feini.
(2.) Tref y Waen (*Chirk*). Ar odre y ddalen yn y "Parthau," gelwir y cwmmwd yma yn Trefywen, Trevowain; ac yn *Lib. Hergest*, Trevwen.
(3.) Croesoswallt (*Oswestry*), oddi wrth Oswallt neu Oswal ap Cunedda.

Yn y "Parthau," cyssylltir "C. y Treuddyn" â Chroesoswallt, heb nodi y cantref.

5. Rhaiadr, oddi wrth yr afon Rhaiadr, sef yw rhaiadr, cwymp afon dros graig, neu y cyffelyb. Cynnwys y cantref hwn dri chwmmwd:—
(1.) Mochnant Isrhaiadr: Penrhyn (*promontory*) Isrhaiadr, medd y Dr. Jones; ond ystyr *moch* ydyw chwyrn: yna ystyr Mochnant ydyw *nant chwyrn.*
(2.) Cynllaeth: y llaeth cyntaf, medd y Dr. Jones. "Cynllaith" yw yr enw yn "Mharthau Cymru."
(3.) Nant-heudwy, neu Nanheudwy. Nis gwyddys beth ydyw *heudwy*, os nad yw yn enw afon neu ffrwd: fe ddichon mai Nant y Meudwy oedd yr enw cyntefig, os nad yr un ydyw a "Nant Odyn," a geir yn y "Parthau."

"Hevyd," meddai y "Parthau," "o vewn Powys Vadawg i rhoed swydd y Drevwen gynt ac velly y dyly vod etto."

II. *Powys Wenwynyn*, yw yr ail ran o dalaeth Powys. Gwenwynyn ydoedd fab Owain Cyfeiliog. Cynnwys y rhan hon ddeg cantref:—Y Fyrnwy, Cynan, Llyswynaf, Ystlyg, Cydewain, Arwystli, Maelienydd, Elfed, Buallt, Clawdd.

1. Y Fyrnwy, oddi wrth yr afon Fyrnwy. Cynnwys y cantref hwn dri chwmmwd:—
(1.) Mochnant uwch Rhaiadr.

Digitized by Google

(2.) Mechain Iscoed: y Cyttir bychan dan y coed, medd y Dr. Jones.

(3.) Llanerch Hudol.

Yn y "Parthau," cyssylltir Nant Odyn a'r Cefn Blaidd âg Uch Rhaiadr, fel cymmydau.

2. Cynan; sef tiriogaeth Cynan Garwyn ab Brochwel Ysgythrog, mae yn debyg. Cynnwys y cantref hwn ddau gwmmwd:—

(1.) Mawddwy: afon o'r enw, yn arwyddo dwfr cynhyrfus, medd y Dr. Jones.

(2.) Cyfeiliog (Hafren, ar odre y ddalen), oddi wrth Owain Cyfeiliog, mae yn debyg.

3. Llyswynaf: teyrniarll (*palatine*), medd y Dr. Jones, a gynnwys ddau gwmmwd:—

(1.) Caereinion, oddi wrth Einion Yrth ap Cunedda.

(2.) Mechain Uwch Coed.

Cyssylltir cwmmwd Ystrad Marchell â'r ddau yma yn y "Parthau."

4. Ystlyg: crymder, medd y Dr. Jones: "Ystlys" a roir ar odre y ddalen yn y "Parthau." Y mae y cantref hwn yn cynnwys tri chwmmwd:—

(1.) Deuddwfr, sef cyfarfyddiad dwy afon neu ddwy ffrwd.

(2.) Corddwr, neu Corddwfr: dynesiad afonydd, neu guldir rhwng dau ddwfr, medd y Dr. Jones. "Gorddwr Isaf" sydd yn y "Parthau" mewn un man. Ystyr *Gorddwr* ydyw llawer o ddwfr.

3. Ystrad Marchell: Sarn neu Ffordd Marcellus, meddai y Dr. Jones. Yr oedd Marchell hefyd yn enw merch Arwystl Gloff ab Owain Danwyn, ab Einion Yrth, ap Cunedda; a merch Tewdwr ap Teithfalch, brenin Morganwg.

Mewn un dosbarthiad yn y "Parthau," cyssylltir "Is Rhaiadyr a Llannerch Hudol" â "Deuddwvr."

5. Cydewain (Cyd—Owain?). Yn y "Parthau," gelwir y cantref hwn "Cedewain;" sef, efallai, *ced*, neu *rodd* Owain. Cynnwys y cantref yma ddau gwmmwd:—

(1.) Cynan.

(2.) Hafren, sef yr Afon Hafren.

Dan gantref Cedewain, yn y "Parthau," fe roddir "Cynan, Cyfeiliog, a Mawddwy;" ac ar odre y ddalen, rhoddir "Uch Haves ac Is Haves;" ac mewn lle arall, "Uch Affes ac Is Affes."

6. Arwystli: tiriogaeth Arwystl ap Cunedda. Cynnwys y cantref yma dri chwmmwd:—

(1.) Uwch Coed.

(2.) Is Coed.

(3.) Gwrthrynion: gyferbyn â'r bryniau, medd y Dr. Jones. "Gwarareinion" sydd yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Gwerthrynion."

7. Maelienydd: y Bryniau Melyn, medd y Dr. Jones; ond diau mai oddi wrth Mael ap Cunedda y gelwir y lle; canys gelwir Mael, yn "Monedd y Saint," yn Mael Maelienydd; a dywedir iddo gael ei alw felly "yn gof am a wnaeth er gwared y wlad hono." Y mae y cantref hwn yn cynnwys tri chwmmwd:—

(1.) Ceri. Tybia y Dr. Jones mai *bochgern* yw ystyr y gair; gan ei darddu, mae yn debyg, oddi wrth *cern*, ll. *cerni*, neu *cernau*; ond y mae coed a elwir ceri (*medlar tree*); a dichon mai oddi wrth amlder y coed hyny yn y lle y galwyd y cwmmwd yn Ceri.

(2.) Rhiwlallt, yn arwyddo Bryn y Llwyn, medd y Dr. Jones. Ar odre y ddalen, yn y "Parthau," gelwir y cwmmwd hwn yn "Rhiwllallt" a "Traillallt."

(3.) Glyn Ieithon; hyny yw, medd y Dr. Jones, "Bryn yr Ieithoedd;" yn hytrach, y mae *glyn* yn arwyddo *nant*.

Yn y "Parthau," nodir pedwerydd cwmmwd yn Nghantref Maelienydd, a elwir "Swydd Grev;" ac ar odre y ddalen, "Swydd Fuddugre a Swydd Ddygre." Mewn lle arall, cyssylltir "Swydd Fuddugre, Swydd Ieithon, Llythyvwr," fel tri chwmmwd.

8. Elfed; hyny yw, ystormus, medd y Dr Jones. Hefyd, arwydda Hydref. Yn y "Parthau gelwir hwn "Cantref Elvael," oddi wrth Mae efallai. Y mae yn cynnwys tri chwmmwd:—

(1.) Uwch Mynydd; ar odre y ddalen, yn y "Parthau," "Elvael uwch Mynydd."

(2.) Is Mynydd: ar odre y ddalen, "Elvael Is Mynydd."

(3.) Llechddyfnog; sef y Gloddfa, medd y Dr Jones. Ar ymyl y ddalen, "Dywynawg."

9. Buallt: hyny yw, Yr Hen Lwyn, medd y Dr. Jones. Cynnwys y cantref hwn dri chwmmwd:—

(1.) Dreulys; sef, medd y Dr. Jones, Yr Anniwylliedig. Yn y "Parthau," "Swydd Drevlys," sef Rhandir Llys y Dref.

(2.) Swydd-y-fam. Yn y "Parthau," gelwir y cwmmwd yma "Swydd y Van;" ac ar odre y ddalen, "Dinau y wain"—Dinas y Waen (?).

(3.) Isirfon; sef Is yr Afon Irfon, neu Yrfon.

10. Clawdd: hyny yw, ffos (*dyke*), a gynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Dyffryn Tenfediad: Dyffryn Cynnyrchiol, medd y Dr. Jones. Ar odre y ddalen, yn y "Parthau," gelwir y cwmmwd hwn "Dyfryn Tyveidiad," oddi wrth *twf*.

(2.) Swyddwynogion; hyny yw, y Tiroedd Swyddogol, medd y Dr. Jones. "Swyddinogion" ydyw yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Swydhynogion."

(3.) Penwellt; yn arwyddo Pen neu Penrhyn gwell, medd y Dr. Jones; ond y mae *gwellt* yn y gair yn y "Parthau," a phob man arall: dichon yr arwydda Penrhyn gwyllt. "Pen-*wallt*" ydyw mewn un man.

"Ac velly," meddir, yn y *Myv. Arch.*, "i cad yn y dalaeth, bedwar cantref ar ddeg; ac yn y cantrevydd i mae deugain cwmwd;" ond yn ol y rhestr uchod, y mae talaeth Powys yn ddwy ran—Powys Fadog a Phowys Wynwynyn—yn cynnwys pymtheg cantref, a'r rhai hyny yn cynnwys dau gwmmwd a deugain.

DEHEUBARTH,

A elwir hefyd Dyfed, ydyw y drydedd dalaeth o Gymru, sef talaeth Llys Dinefwr, yr hon a ddosberthir yn chwe rhan:—*Ceredigion*, *Dyfed Briodol*, *Caerfyrddin*, *Morganwg*, *Brycheiniog*, a *Gwent*.

I. *Ceredigion*; sef tiriogaeth Ceredig ap Cunedda. Gelwir y rhan hon o'r Deheubarth yn awr yn swydd neu sir Aberteifi; ac y mae yn cynnwys pedwar cantref: — Penwedig, Canol, Castell, swydd Hirwaen.

1. Penwedig; sef yw hyny, Penrhyn gwaedlyd, medd y Dr. Jones: os felly, dichon mai Penwaedog oedd enw cyntefig y cantref hwn; ac y mae ynddo dri chwmmwd:—

(1.) Geneu 'r Glyn.

(2.) Creuddyn. Gwel *Perfeddwlad*, 3. (3)

(3.) Perfedd, neu y cwmmwd canol.

Yn y "Parthau," ceir yr un cymmydau mewn cantref a elwir "Gwarthav."

2. Canol. Cynnwys y cantref hwn dri chwmmwd:—

(1.) Mefenydd, sef y Mynyddog, medd y Dr. Jones; yna, efallai mai Myfynydd ydyw enw priodol y cwmmwd hwn.

Digitized by Google

(2.) Anhunog; hyny yw, dihunog, effro. Digysgod, medd y Dr. Jones.

(3.) Penarth; sef, *pen* neu darddiad yr afon Arth. Yn y "Parthau," gelwir y cwmmwd hwn "Penardd;" ac ar odre y ddalen, "Penuth."

3. Castell. Ar odre y ddalen, yn y "Parthau," gelwir hwn "Cantrevwyniou." Cynnwys y cantref hwn ddau gwmmwd:—

(1.) Mabwynion; hyny yw, Tir y Meibion, medd y Dr. Jones.

(2.) Caerwedros; sef y Gaer, neu yr Amddiffynfa waedlyd.

4. Hirwain: yn y "Parthau," "Hirwen" ydyw, ac ar odre y ddalen, "Seirwen." Y mae yn dra sicr mai *Gwaen hir* ydyw ystyr yr enw; ac yna mai Hirwaen oedd yr enw cyntefig. Y mae y cantref hwn eto yn cynnwys dau gwmmwd:—

(1.) Gweinionydd. Yn y "Parthau," "Gwinionydd" ydyw yr enw. Y mae yn hollol debyg mai *gwaen* ydyw gwreiddyn yr enw hwn hefyd; ac mai *Gwaenionydd* ydyw yr enw priodol.

(2.) Iscoed.

II. *Dyfed Briodol*, a elwir yn gyffredin *Dyfed* yn unig, ydyw yr ail ran o'r Deheubarth, ac y mae yn cynnwys wyth gantref:—Arberth, Daugleddeu, Y Coed, Penfro, Rhos, Pybydiog, Cemmaes, Emlyn.

1. Arberth, *ar—perth*, ar y terfyn, medd y Dr. Jones, a gynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Penrhyn, sef y pentir. "Penrhyn ar Elen" sydd yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Ar Deivi, ar Elyas."

(2.) Estrolef: sefydliad yr estroniaid, medd y Dr. Jones. "Estrylwyv" ydyw yr enw yn y "Parthau," mewn un man, ac mewn lle arall, "Escyrogev:" ac ar odre y ddalen, "Esterolev."

(3.) Talacharn: ystyr hwn, medd y Dr. Jones, ydyw, ar y fachwy (*on the bay*).

2. Daugleddeu: "Dau Gleddyv" ydyw yr enw yn y "Parthau." Cynnwys y cantref hwn dri chwmmwd:—

(1.) Amgoed, *am—coed*.

(2.) Pennant, *pen—nant*.

(3.) Iselfre: bryn isel. "Y Velvre," sydd yn y "Parthau," ac "Evelore" ar odre y ddalen.

3. Y Coed, a gynnwys ddau gwmmwd:—

(1.) Llanhauaden: "Llanhuadain" ydyw yr enw yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Llanihaden."

(2.) Castell Gwys: "Castell Gwis" (*Wiston*) ydyw yn y "Parthau."

4. Penfro, *pen—bro*, Penrhyn, a gynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Coed yr Haf.

(2.) Maenor Byr.

(3.) Cwmmwd Penfro.

5. Rhos, a gynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Hul-ffordd, sef Ffordd Howel, medd y Dr. Jones. "Hwlfforddl" ydyw yn y "Parthau.

(2.) Castell Gwalchmai.

(3.) Y Garn.

6. Pybidiog: gwersylliad, medd y Dr. Jones: "Pebidiog" ydyw yn y "Parthau." Cynnwysa y cantref hwn dri chwmmwd:—

(1.) Mynwy: *mewn—gwy*, hyny yw, mewn dwfr, medd y Dr. Jones.

(2.) Pencawr, *pen—cawr*. "Pencaer" sydd yn y "Parthau;" a dichon mai hwn ydyw yr enw priodol.

(3.) Pybidiog: "Pefiniawg" sydd yn y "Parthau."

7. Cemmaes (gwel *Mon*, cantref 2.) Cynnwysa y cantref hwn dri chwmmwd:—

(1.) Uwch-Nefer, sef uwch yr afon Nefer "Nyver" y gelwir yr afon hon yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Never."

(2.) Is-Nefer

(3.) Trefdraeth, *tref—traeth*.

8. Emlyn: y cantref cul, medd y Dr. Jones; ac felly, ymddengys y tybir mai *ymyl* ydyw gwreiddyn yr enw. Y mae hwn yn cynnwys tri chwmmwd:—

(1.) Uwch-Euch, sef uwch yr afon Euch, medd y Dr. Jones. "Uwch Cuch" sydd yn y "Parthau."

(2.) Is-Euch. "Is Cuch" sydd yn y "Parthau."

(3.) Lleffethr: llethr, neu lechwedd, medd y Dr. Jones. "Evelethyr" sydd yn y "Parthau," ac ar odre y ddalen "Elved, Llevethyr."

III. *Caerfyrddin* ydyw y drydedd ran o'r Deheubarth; ac arwydda, medd y Dr. Jones, y *gaer* neu yr *amddiffynfa fawr*. Tybia ereill, i'r enw gael ei gymmeryd oddi wrth un o'r ddau Ferddin, neu Myrddin. Cynnwys y rhan hon bedwar cantref:—Ffiniog, Eginog, Bychan, Mawr

1. Ffiniog, sef terfynog, a gynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Hirfryn, *hir — bryn*, rhwng y Nedd a'r Tawy.

(2.) Derfedd: yr eithafedd, medd y Dr. Jones "Pervedd," sef canol, sydd yn y "Parthau."

(3.) Is Cennen; sef is yr afon Cennen, sef yr afon wyllt, medd y Dr. Jones.

2. Eginog; hyny yw, cynnyrchiol. "Cantrev y Geiniog," sydd yn y "Parthau," ac "Eginog" ar odre y ddalen. Cynnwys hwn dri chwmmwd:—

(1.) Gwyr, sef amgylchedig gan ddwfr, medd y Dr. Jones: arwydda y gair *gogwyddog* hefyd.

(2.) Cydweli; hyny yw, cydlif afonydd.

(3.) Carnwyllion: gwyllion yw rhai yn hoffi y gwyll neu y tywyll; gwyddanod. Tybia y Dr. Jones mai morwyr, neu ruthrgyrchwyr Danaidd oedd y gwyllion y galwyd y cwmmwd hwn ar eu henw.

3. Bychan, "Cantref Bychan," ydyw hwn yn y "Parthau." Cynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Mallaen; hyny yw, anhydraidd, medd y Dr. Jones.

(2.) Maenor Deilo, sef Maenor Llandeilo.

(3.) Caeo, neu Caeaw; hyny yw, yn gauedig gan afonydd neu ddyfroedd.

4. Mawr: "Cantrev Mawr," yn ol y "Parthau," a gynnwys bedwar cwmmwd:—

(1.) Cethiniog, o *cethin*.

(2.) Elfed; neu "Elfyw," yn ol y "Parthau;" sef tiriogaeth mab Elfyw, medd y Dr. Jones.

(3.) Uchdryd: "Mab Uchtryd" sydd yn y "Parthau," ac "Ychdryd" ar odre y ddalen. Tiroedd Uchdryd ab Edwyn, ab Goronwy, medd y Dr. Jones.

(4.) Wydigadaf: "Widigada" sydd yn y "Parthau," sef y faenor rhwng yr afon Wydig a'r Taf.

IV. *Morganwg*, ydyw y bedwaredd ran o'r Deheubarth, ac arwydda y parth ar y Môr Gwyn, medd y Dr. Jones; pan y tybia ereill i'r wlad gael ei galw yn Morganwg, oddi wrth Morgan Mwynfawr, a elwid hefyd Morgan Morganwg ab Adras neu Arthwys, o wehelyth Llyr Llediaith. Cynnwysa y rhan hon bedwar cantref:—Glyn Nedd, Pennythen, Breninol, Gwentlwg.

1. Glyn Nedd, sef Glyn yr afon Nedd. "Gro



Digitized by Google

Nedd" ydyw yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Cronarth." Cynnwysa y cantref hwn bedwar cwmmwd:—

(1.) Rhwng Nedd, sef rhwng Nedd a Dulas, medd y Dr. Jones: "Rhwng Nedd ac Avan," ydd yn y "Parthau."

(2.) Afan: rhwng y Nedd ac Afan, medd y Dr. Jones. "Tir yr Hwndrwd" a rydd y "Parthau" yn y lle hwn mewn un man, a'r "Coetty" mewn man arall; ac ar odre y ddalen, dywedir, "Rhwng Nedd a Thawy. Cwmmwd arall yw hwn yn Ll. H. Y."

(3.) Pen-y-bont (*Bridgend*). "Tir yr Iarll" a roddir yma yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Y Coetty."

(4.) Glynogwr, sef Glyn yr Afon Ogwr, neu Ogwy. "Maenawr Ogwr" sydd mewn un man yn y "Parthau," a "Maenor Glynogwr" ar odre y ddalen.

2. Pennythen: *pen—gwythen*, efallai; sef Pen yr afonydd, medd y Dr. Jones. "Pen y Nen" sydd yn y "Parthau," ac ar odre y ddalen, "Penychen." Cynnwysa y cantref hwn bedwar cwmmwd:—

(1.) Meisgyn; hyny yw, tir porfa, medd y Dr. Jones; ond dywed y Dr. Pughe mai gwyfyn ydyw Meisgyn.

(2.) Glynrhondda, sef Glyn yr afon Rhondda. "Glyn Rhoddni" sydd yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Rhodnei a Rhodne."

(3.) Talafan, sef tarddiad yr Afan. "Tal y Van" sydd yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Maenor Dal y Van."

(4.) Rhuthyn. "Maenor Rhuthyn" sydd yn y "Parthau."

3. Breninol, neu, yn ol y "Parthau," "Cantrev Breninawl," a gynnwys bedwar cwmmwd:—

(1.) Cibwyr, sef ar yr Afon Cib. "Cibwr" sydd yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Cibwrn."

(2.) Senghenydd; sef llain o dir, medd y Dr. Jones. "Seinghennydd" sydd yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Saint Henydd;" ac efallai mai ar yr enw hwn y galwyd y cwmmwd.

(3.) Uwch caeth: "Uwch Cayach" sydd yn y "Parthau," sef afon o'r enw.

(4.) Is Caeth, neu Is Cayach, neu, ar odre y ddalen, "Caeach."

4. Gwentlwg, sef yn Ngwent. "Gwanllwgr," sydd yn y "Parthau," a "Gwentllwch" ar odre y ddalen. Cynnwysa y cantref ddau gwmmwd:—

(1.) Yr Ardd Ganol. "Canol" sydd yn y "Parthau."

(2.) Eithaf Dylogion: y tirfeddianwyr eithaf, medd y Dr. Jones. "Edelygion" sydd mewn un man yn y "Parthau," ac "Eithias Elogion" mewn lle arall; ac ar odre y ddalen, "Eithav Edlygion."

Mae y "Parthau" yn cyssylltu "Yr Haidd, Y Mynydd," a'r ddau gwmmwd uchod mewn un man; ac mewn lle arall, rhoddir "Y Diev Bervedd" i mewn.

V. *Brycheiniog*, ydyw y bummed ran o'r Deheubarth, ac arwydda *Bryniog*, medd y Dr. Jones; ond tebycach ydyw i'r wlad hon gael ei galw ar enw *Brychan*, a elwid hefyd Brychan Brycheiniog, ab Enllech. Cynnwysa y rhan hon dri chantref:—Selyf, Canol, Mawr.

1. Selyf, yn arwyddo Bryniau y Weledfa, medd y Dr. Jones; ond y mae yn debycach, braidd, i'r cantref gael ei alw ar enw Selyf ap Cynan Garwyn, ab Brochwel Ysgythrog. Cynnwysa y cantref hwn ddau gwmmwd:—

(1.) Cwmmwd Selyf.

(2.) Trahaiarn, sef tir Trahaiarn Fychan, yr hwn a lofruddiwyd gan y Normaniaid, yn Brycheiniog, B.A. 1198, medd y Dr. Jones. Yn y "Parthau," gelwir y cwmmwd hwn yn "Tirhaiarn."

2. Cantref Canol, a gynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Talgarth, sef tal, neu ben y Garth.

(2.) Ystradwy, sef Sarn, neu ffordd yr Afon Wy. "Ystrad Yw Uchaf" sydd yn y "Parthau."

(3.) Brwynllys, sef Llys y Brwyn, neu Lys y Petrusder.

3. Cantref Mawr, a gynnwys dri chwmmwd:—

(1.) Tir Rawlff: "Tir Rawf" sydd yn y "Parthau," ac ar odre y ddalen, "Ralph," sef enw dyn.

(2.) Llywel; hyny yw, gorwel, terfynwel, cyffiniau pellaf y golwg. "Lliwel" sydd yn y "Parthau."

(3.) Ceryghywel: "Crug Hywel" sydd ar odre y ddalen yn y "Parthau."

VI. *Gwent* ydyw y chweched rhan, a'r olaf, o'r Deheubarth, a gyrhaeddai gynt hyd yr Afon Gwenwy (*Wenny*); oddi wrth yr hon, y mae yn debyg, y cafodd y rhandir yma ei henw. Y mae yn cynnwys tri chantref:—Gwent Uwch Coed, Gwent Is Coed, Cantref Coch.

1. Gwent uwch Coed, neu "Uchcoed," a gynnwys bum cwmmwd:—

(1.) Euas.

(2.) Teirtref.

(3.) Erging.

(4.) Cwmmwd uwch coed.

(5.) Brynbiga: "Bryn Buga," sydd yn y "Parthau;" ac ar odre y ddalen, "Brynbygaf." Mae yn bur debyg mai y gwraidd ydyw *bryn—bu—cad*, sef *bryn yr ymladdfa*.

2. Gwent Is Coed: "Cantref Iscoed" sydd yn y "Parthau," ac "Iscoed Gwent" ar odre y ddalen. Y mae hwn yn cynnwys pedwar cwmmwd:—

(1.) Tref-y-Grug.

(2.) Y Mynydd, neu, "Mynyw" yn ol y "Parthau," ac ar odre y ddalen, "Uch Mynydd."

(3.) Llefenydd: "Lle Mynydd" sydd yn y "Parthau;" ar odre y ddalen, "Llevnydd," a "Llevynydd."

(4.) Cwmmwd Iscoed.

3. Cantref Coch, a elwir yn awr "Fforest y Deon." Nid yw hwn, hyd y gwelsom ni, wedi ei ranu yn gymmydau. Yn y "Parthau," dywedir, "Cantrev Cochion yw y seithved Cantrev o Vorganwg, a hwnw a vesurwyd o Vynwy hyd ym Mhont Caerloyw; neu Cantrev Coch yn y Ddena, hyd Gaerloyw."

Rhifedi yr holl gantrefydd yn y Deheubarth, yn ol y rhestr uchod, yw 26; a rhifedi y cymmydau yw 77.

Ac felly y terfyna yr hanes am Hen raniadau Cymru, a elwir yn y *Myvyrian Archaiology*, "Parthau Cymru."—(*Myv. Arch.; Powel's Hist. of Wales; Jones' Hist. of Wales; Woodward's Hist. of Wales; Pennant's Tours in Wales*, &c.)

**DEHEULAW, LLAW DDEHEU**: dynoda y gair hwn, mewn iaith allegawl, allu a nerth. Yn unol â hyn, priodola yr Ysgrythyr yn gyffredinol i ddeheulaw Duw weithredoedd ei holl-alluog-rwydd: *Exod.* xv. 6; *Salm* xxi. 8; xliv. 3, &c.; *Mat.* xxvi. 64; *Col.* iii. 1; *Heb.* i. 3; x. 12. Dynoda y ddeheulaw yn gyffredin y deheu, megys y dynoda y llaw aswy y gogledd. A golygu dyn

Digitized by Google

yn sefyll â'i wyneb tua chodiad haul, bydd y dwyrain o'i flaen, y gorllewin o'i ol, y gogledd ar ei law aswy, a'r deheu ar ei law ddeheu. Dyna fel y byddai yr Hebreaid yn edrych ar bedwar chwarter y byd. Gan hyny, dynoda *Cedem*, ystyr yr hwn ydyw *o flaen*, y dwyrain hefyd; ac *Achor*, yr hwn a olyga *y tu ol*, y gorllewin; *Iamim*, y deheulaw, ydyw y ddeheu; a *Shemol*, y llaw aswy, ydyw y gogledd. Er esampl, "Onid yw Dafydd yn ymguddio gyda ni mewn amddiffynfeydd yn y coed, yn mryn Hachilah, yr hwn sydd o'r tu deheu i'r diffaethwch?"—ymyl y ddalen, "ar y llaw ddeheu i Iesimon;" 1 *Sam.* xxiii. 19. 24.

Safai y cyhuddwr yn gyffredin ar ddeheulaw y cyhuddedig (*Salm* cix. 6); gan hyny, safai Satan ar ddeheulaw yr archoffeiriad Iosuah, i'w wrthwynebu ef: *Zech* iii. 1. Ond yn fynych, mewn ystyr hollol wahanol, y mae bod ar ddeheulaw dyn yn golygu ei amddiffyn, ei noddi, a'i bleidio: *Salm* xvi. 8; cix. 31; cviii. 6.

Dywed ein Hiachawdwr, er dangos pa mor ddirgel y dylem gyflawnu ein gweithredoedd da, "Eithr pan wnelych di elusen, na wyped dy law aswy pa beth a wna dy law ddeheu;" *Mat.* vi. 3. Uwch law pob peth, dylem ofalu rhag ymffrost gwag mewn elusenau a rhoddion. Y mae rhoddi deheulaw yn arwydd o gyfeillgarwch. Dywed Paul bod Iago, Cephas, ac Ioan, wedi rhoddi deheulaw cymdeithas iddo ef a Barnabas: *Gal.* ii. 9. Y mae yr ymadrodd hwn yn dygwydd yn fynych yn llyfrau y Maccabeaid.

Byddai yr Hebreaid, wrth wneuthur llw, yn dyrchafu eu deheulaw: *Esa.* lxii. 8; *Gen.* xiv. 22; *Deut.* xxxii. 40. Gwel Llw.

Pan y galwodd Iacob Beniamin, fel y mae ar ymyl y ddalen, *yn fab ei ddeheulaw*, arddangosai radd neillduol o serch tuag at blentyn ei anwyl Rahel (*Gen.* xxxv. 18); a phan y croesodd ei ddwylaw yn fwriadol, fel ag i ddodi ei law ddeheu ar ben Ephraim (*Gen.* xlviii. 14), deallodd Ioseph yn y fan fod hyny yn arwydd o lwyddiant rhagorach. Pan y darllenwn (1 *Cron.* xxix. 24), ar adeg dyrchafiad Solomon yn frenin, "a holl feibion y brenin Dafydd a roddasant eu dwylaw ar fod dan Solomon," dylem ddeall mai y llaw ddeheu a olygir, fel arwydd o ymddarostyngiad a gwarogaeth. Felly hefyd am Babilon —(*Ier.* l. 15) "Hi a roddes ei llaw," hyny ydyw, ei llaw ddeheu—y mae wedi gwystlo ei ffyddlondeb: ac felly hefyd yn *Galar.* v. 6; "Rhoisom ein llaw"—ein llaw ddeheu, gan amlygu drwy hyny ein hymostyngiad—"i'r Aiphtiaid, i'r Asyriaid, i gael digon o fara." Pan y dywedai Abraham (*Gen.* xiv. 22), "Dyrchefais fy llaw at yr Arglwydd Dduw goruchaf," golygu yr oedd ei fod wedi tyngu i'r Arglwydd, drwy ddyrchafu ei ddeheulaw; gan hyny, nas gallai dynu yn ol. Pa beth a feddylir, gan hyny, am y rhai y dywedir (*Salm* cxliv. 8) bod "eu deheulaw yn ddeheulaw ffalsder," a'r rhai nas gellir cymmeryd eu llw; neu am y rhai sydd wedi myned mor ynfyd ag i addoli duwiau o waith eu dwylaw eu hunain, heb byth ymofyn "a oes celwydd yn eu deheulaw," lle y dylai fod gwirionedd, ffyddlondeb, a chywirdeb diwyrni: *Esa.* xliv. 20.

Estynid y ddeheulaw allan wrth erfyn (*Diar.* i. 24; *Esa.* lxv. 2), wrth areithio (*Act.* xxvi. 1), ac yn neillduol wrth weddïo, neu er amddiffyn, cyfarwyddo, &c.

Gan fod llawer o orchwylion bywyd yn cael eu cyflawnu â'r llaw ddeheu, a chan mai gweithwyr oedd y rhan luosocaf o wrandawyr ein Harglwydd, ni ddylem fyned heibio heb sylwi ar bwysigrwydd ei gynghor—"Ac os dy law ddeheu a'th rwystra, tor hi ymaith;" *Mat.* v. 30. Buasai yn rhaid i'r cymhelliad fod yn gryf, a'r argyhoeddiad yn rymus, cyn y buasai un dyn yn dyoddef y golled a'r boen a arddangosir drwy yr iaith ffugyrol hon.

Y mae eistedd ar ddeheulaw dyn yn arwydd o anrhydedd neillduol; gosodwyd Bathseba, fel mam y brenin, ar ddeheulaw Solomon (1 *Bren.* ii. 19; cymharer *Salm* xlv. 9); a phan y dywedir fod Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw (*Act.* vii. 55; *Rhuf.* viii. 34; *Col.* iii. 1), y mae yn gosod allan urddas a dyrchafiad anghymharol.

Pan y priodolir deheulaw i Dduw, y mae yr ymadrodd i'w ddeall yn ol dull dyn. Nid oes i'r Duwdod na llaw ddeheu nac aswy; ond gan mai yn neheulaw dyn yn fwyaf neillduol y mae ei nerth, ei fedrusrwydd, a'i allu, defnyddir y drychfeddwl mewn iaith ffugyrol i osod allan nerth a gallu Duw.—(*Calmet's Dict.*)

DEHEUWYNT. Gwel Gwyntoedd.

**DEIAL**: orfynag; offeryn i wybod oriau y dydd drwy gynhorth cysgod, pwynt, neu linell sefydlog, ar fath o fwrdd mesuredig. Gall y cysgod gael ei effeithio gan oleuni yr haul neu y lleuad. Os gan y cyntaf, gelwir yr offeryn yn heulfynag (*sun dial*); os gan yr olaf, gelwir ef yn lloerfynag (*moon dial*). Y mae y gair *awrfynag* neu *orfynag*, yn gymhwysiadol i'r naill a'r llall; ac o herwydd hyny, yn fwy dewisol i ddarnodi yr offeryn. Tybir fod y gair *deial* wedi hanu o'r Lladin *dies*=dydd. Y mae hyn gan rai, pa fodd bynag, yn ammheus. Gelwid yr offeryn gan yr hynafiaid yn *gnomon*, a *sciathericum*; a'r gelf o ddeialaeth yn *gnomonica* a *sciatherica*, ac weithiau yn *photosciatherica*, a phryd arall yn *horologiographia*. Y mae deialyddiaeth yn cael ei hystyried yn gangen o'r gwyddonau cymmysg. Ei phrif egwyddor ydyw y ddysg seryddol am symmudiadau ymddangosiadol yr haul. Oddi wrth y rhai hyn, trwy wasanaeth meidrofyddiaeth a thryfaliaeth (*geometry and trigonometry*) y cafwyd allan ei deddfau a'i gweithrediadau.

Yn oesoedd y cynfyd pell, ac am amser wedi hyny, nid oedd gan ein tadau un ffordd i ranu amser ond trwy sylwi ar godiad a machludiad yr haul, a'i esgyniad uchaf oddi ar y terfyngylch. Yr oedd hyn yn cyfateb yn llawn i'w hangenion hwy; a'r rhaniad syml hwn—hwyr, a bore, a chanol dydd—yn eu llwyr foddloni; ond fel yr oedd amgylchiadau dynion yn newid, fe ddaeth rhaniad manylach yn angenrheidiol. Yn mhob peth, "angen ydyw mam dyfais;" ac felly yn y peth hwn. Yr angen cymdeithasol am raniad mwy cyfleus o amser a arweiniodd i'r gelfyddyd o ddeialyddiaeth. Nid oedd y gelfyddyd hon, fel y gellid meddwl, mwy na chelfyddydau ereill, ar y cyntaf ond syml iawn. Cyrhaeddodd yn raddol, pa fodd bynag, i fwy o berffeithrwydd, fel y daeth mewn amser i gael ei hystyried gan agos i bob cenedl yn un o gangenau pwysicaf y gwyddonau seryddol; a pharhaodd i gael ei hystyried felly hyd yn agos i ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Dengys y gweithiau lluosog—a llawer o honynt yn ddysgedig iawn—a gyhoeddwyd yn y ganrif hon ar y pwnc, fod y gelfyddyd ar y pryd yn un o fri neillduol; ond erbyn hyn, pan y mae offerynau ereill mwy cyfleus wedi dyfod i arferiad mor gyffredinol—pan y mae yr awrlais yn mhob tŷ, a'r oriawr yn llogell pob



Digitized by Google

trwy begynau atebol y ddau alban, ceid dau gynllun crwmol, oddi wrth ba rai y gellid gwneyd yn hawdd unrhyw nifer o orfynegau ceuol. A phan ystyrir nad oedd yn angenrheidiol cadw mewn golwg y rhanau hyny o'r cynllun crwmol nad oeddynt i gael eu dangos yn y ceuedd, y mae yn amlwg nad oedd y deial hwn o ran ei wneuthuriad ddim yn amgen na gwaith llaw y celfyddydwr.

Ar ol gwneyd y deial cyntaf, yr oedd yn bur hawdd gwneyd ereill oddi wrtho. Fel hyn, gosoder plât yn ymyl y deial Caldeaidd hwn yn sefydlog mewn unrhyw sefyllfa, gyda mynegfys unionsyth; noder ar y plât sefyllfa uchaf y cysgod o awr i awr, ar ddyddiau heulorsafol a chyhydeddol, ac uner yr orbegynau atebol â llinellau, a cheir gweled fod y tri phegwn cyfal bob amser mewn llinell wastad; ac fel hyn, heb unrhyw ddamcaniaeth, gellir gwneyd pob math o ddeialau amseriadol.

Gellid yn rhesymol ddysgwyl fod pob cenedl ag oedd yn gwybod rhywbeth am seryddiaeth wedi cael allan ryw foddion i ranu amser. Trwy hyn, cafodd yr Aiphtiaid ryw foddion i'r perwyl hwn; ond yn mhlith eu holl hynafiaethau nid oes genym hanes am gymmaint ag un orfynag. Nid yw yn anmhosibl, pa fodd bynag, nad oes llawer o honynt, gyda phethau ereill, wedi eu claddu yn nhywod y wlad, ac yn adfeilion eu dinasoedd. Tybiwyd gan lawer fod y pigdyrau mawrion a ganfyddir mor fynych yn yr Aipht, wedi eu cyfodi mewn anrhydedd i'r haul, ac yn gwasanaethu fel heulfynegau. Gallasai cylch hynod Osymandias berderfynu rhyngoredd (*azimuths*) y cyrff nefol, a thrwy hyny ddadgan yr awr o'r dydd a'r nos. Dywed Herodotus fod y Groegiaid wedi derbyn eu gwybodaeth o wasanaeth y polyn a'r mynegfys oddi wrth y Babiloniaid, ac o'r ffordd i ranu y dydd i ddeuddeng awr. Yr oedd medrusrwydd y Groegiaid, pa fodd bynag, mewn meidrofyddiaeth, yn eu galluogi i wneyd pob math o ddeialau; ac y mae Ptolemy, yn ei *Syntaxis*, trwy gynnorthwy ei *Analemma*—offeryn â'r hwn y gellid egluro yr amryw bosebau seryddol—yn rhoddi eglurhad manwl ar eu gwneuthuriad.

Yr oedd deialau yr hynafiaid yn nodi yr awr o'r dydd trwy gysgod y mynegfys; ond nid oedd iddynt na chreiddiau nac echelau; ac yr oedd hyn yn fantais ar lawer o gyfrifon. Yr oedd eu horiau hwy yn newid gyda'r tymmor, ac felly nid oedd wiw i'r orlinellau gyfarfod â'u gilydd. Yr oeddynt hwy yn foddlawn ar ganfod sefyllfa tri phwynt yn mhob un, a buasai dau yn ddigon, canys yr oedd y llinellau yn amlwg uniawn yn yr holl orfynegau gwastad. Yr oedd llwybrau dyddiol y cwr eithaf o'r cysgod yn croesdori y terfyngylch yn mhwynt y cyfodiad a'r machludiad, ac o'r rhai hyn gallasai fod unrhyw nifer, ond yn y cyffredin yr oeddynt yn cael eu cyfyngu i gromellau y Cranc a'r Afr; yr oedd y llinell am yr Hwrdd a'r Fantol bob amser yn syth, ac yn gwasanaethu fel canolbwynt yn yr awrlinell. Yr oedd y cyfarwyddiadau a roddid gan Ptolemy yn ddigon tuag at wneyd orfynegau rheolaidd, ac nid ydyw efe yn trafod un math arall. Y mae yn sicr, pa fodd bynag, fod yr hynafiaid yn gwneyd orfynegau sythogwyddol (*vertical declining dials*), canys y mae wyth o honynt eto ar gael ar y Tŵr Gwynt, yn Athen; ond y mae yn fwy na thebyg fod rhan o lyfr yr *Analemma* yn awr ar goll, ac mai dyna yr achos fod y rhan arall mor dywyll ac yn ymarferol ddifudd.

Y golofn fwyaf ddyddorol o orfynegiaeth hynafol ydyw y Tŵr Gwynt, y cyfeiriwyd ato yn barod, yr hwn sydd eto yn sefyll, ac a ddysgrifir yn llawn gan Stuart, yn ei *Antiquities of Athens*. Mae y tŵr hwn yn wyth ongl rheolaidd, ac ar ei wyth wyneb y mae y prif wyntoedd yn cael eu cynnrychioli, ac oddi arnynt y mae wyth deial; pedwar yn rheolaidd, sef dwyrain, gorllewin, gogledd, a de; a'r pedwar ereill yn y cyfeiriadau canolaidd. Y mae Vitruvius yn rhoddi dysgrifiad o'r tŵr yn *pen.* vi o'i lyfr cyntaf; ond nid yw yn son un gair am y deialau; ac y mae hyn yn hynod, yn gymmaint a'i fod wedi rhoddi hanes pob deial adnabyddus yn ei amser ef, ac y mae yn sicr fod y rhai hyn ar bob cyfrif yn fwy pwysig na'r rhai y crybwylla ef am danynt. Tybir oddi wrth y dystawrwydd hwn fod y deialau ar y tŵr wedi eu gwneyd ar ol ei amser ef, ac yn mhell ar ol amser Andronicus Cyrresthes, yr hwn a'i adeiladodd. Nis gellir dyweyd dim gyda sicrwydd am yr amser y gwnaed y deialau hyn. Bernir oddi wrth saerniaeth y tŵr ei fod yn fwy diweddar nag amser Pericles ac Anaxagoras. Nid oedd y gelfyddyd o orfynegiaeth yn ddigon adnabyddus yn eu dyddiau hwy i wneyd y deialau; ond mor bell ag yr oedd gwybodaeth wyddonol yn angenrheidiol, gallasent gael eu gwneyd yn amser Hipparchus, neu yn ddiweddarach. Y mae hyn yn sicr—yr oedd yn rhaid fod gan y neb a'u gwnaeth radd helaeth o wybodaeth gelfyddydol, a'i fod yn deall tryfaliaeth, oddi eithr i ni dybied ddarfod iddo eu gwneyd yn ddamweiniol trwy geisbrofiadau oddi wrth hannergylch ceuol Berosus.

Y mae y deialau hyn, fel y dysgrifir hwy gan Stuart, wedi eu gwneyd ar ddull y rhai a roddir gan Commandine, yn ei esboniad ar *Analemma* Ptolemy. Yn mhob un y mae y mynegfys yn eisieu, ond y mae y twll yn yr hwn y gosodid ei yn weladwy yn y mynor. Nid yw uchder na gwaelod y mynegfys o gymmaint pwys, gan y gellir eu cael allan oddi wrth fesuriadau y deial. Ar ol ymchwiliad manwl, cafodd Delambre allan fod y deial deheuol, yr hwn yw y mwyaf pwysig, yn hynod o gywir, a bod ei fynegfys yn mesur deng modfedd a hanner Seisonig. Nid yw yr oriau arno wedi eu rhifo; ond rhai amseriadol ydynt, ac yn cael eu cyfrif o gyfodiad haul hyd hanner dydd, ac o hanner dydd hyd fachludiad yr haul. Nid yw y deial gogleddol ond math o at-ddodiad i'r un deheuol, ac yn yr un raddfa, a chyda'r un mynegfys. Y mae yn perthyn i hwn rai diffygion, ond nid ydynt o lawer o bwys.

Y mae y deial dwyreiniol mor gywir a'r un deheuol. Nid yw ond cul iawn, am fod ei fynegfys yn 19½ modfedd o hyd. Y mae yr un deddwyreiniol yn ol yr un cyfartaledd yn ei holl ranau. Uchder y mynegfys yw 25½ modfedd. Gogwyddiad y llinell gyhydeddol i linell y terfyngylch yw 42° 40′ yn ol cyfrifiad. Nid yw yr un ogledd-ddwyreiniol mor ffodus. Uchder y mynegfys yw 6½ modfedd, nes y mae yr orlinellau, tair mewn rhif, yn dra cheimion. Ond o'r cyfan, hwn yw y lleiaf pwysig o honynt oll. Nid yw y tri arall, sef y de orllewin, gorllewin, a gogledd orllewin, yn ddim ond gwrthranau o'r lleill, ac nid yw Stuart yn rhoddi un dysgrifiad o honynt. Y mae yr oll gyda'u gilydd yn rhoddi golwg gyffredinol ar orfynegiaeth yr hynafiaid, fel a gafwyd yn flaenorol, trwy ymchwiliad a wnaed ar ddeial a gafwyd yn Delos, ac a ddysgrifiwyd gan Delambre yn 1814. Y mae y rhai hyn, pa fodd bynag, yn fwy ac yn well na'r deial

Digitized by Google

hwnw, ac yn aros yn eu sefyllfa gyntefig. Y maent yn cynnwys yr adroddiad goreu a chyflawnaf sydd ar gael o ddeialyddiaeth ymarferol yr hynafiaid.

Y mae cyfuniad hynod arall o ddeialau yn ninas Athen, a adwaenir wrth yr enw Deialau Phædrus. Y mae pedwar o honynt ar un maen o fynor, ar yr hwn y mae yn gerfiedig Φαιδρος ζωιλου παιανιευς εποιει. Oddi wrth ffurf y llythyrenau, tybia M. Visconti, yr hwn a anfonodd arluniau o'r deial i Delambre, ei fod wedi ei wneyd o ddeutu yr ail neu y drydedd ganrif o'r cyfnod Cristionogol. Y mae y deialau hyn yn cadarnhau yr hyn sydd amlwg oddi wrth y rhai ar y Tŵr Gwynt, fod y Groegiaid yn gwneyd deialau syth a gogwyddol, ar egwyddorion meidrofyddol. At y rhai hyn, gellir chwanegu un hynod arall a gafwyd yn Portici, yn 1755, ac a ddysgrifiwyd gan efrydwyr Naples. Y mae ar lun clun o gig moch, ac fel y lleill, yn dangos oriau amseriadol. Y mae damcaniaeth y deial hwn yn dra syml; ond pan ystyrir fod gwybodaeth y Groegiaid yn anmherffaith mewn tryfaliaeth, gallasai fod yn anhawdd ei wneyd. Y mae yn fwy na thebyg mai oddi wrth y deial Caldeaidd y gwnaed ef, yn ol y cynllun syml a ddysgrifiwyd yn barod. Nid oes un hysbysrwydd am amser ei wneuthuriad, ac nid yw Vitruvius, yr hwn sydd yn rhoddi hanes yr holl hen ddeialau, yn son dim am y deialau hyn.

Yr amser y gosodwyd yr heulfynag cyntaf yn Rhufain oedd yn y flwyddyn 290 c.c. Cymmerwyd ef gan Papirus Cursor oddi ar y Samariaid. Yn 261 c.c. gosodwyd deial yn y ddadleufa, gan Valerius Messala, yr hwn a gafodd yn Catania. Yr oedd lledred y lle hwn bum gradd yn llai na r eiddo Rhufain. Yn y flwyddyn 164, trwy orchymyn Q. Marcius Philippus, y gwnaed y deial cyntaf yn Rhufain; ac y mae yn dra thebygol i hwn gael ei wneyd gan ryw grefftwr tramor, gan nad oes neb o'r Rhufeiniaid wedi ysgrifenu dim ar ddeialiaeth. Gwelsom eisoes fod y deial a gafwyd yn Pompeii wedi ei wneyd i ledred Memphis, ac am hyny nad oedd mor addas i'w sefyllfa ag ydoedd yr un o Catania i Rufain. Y mae y ffeithiau hyn yn ddigon i brofi nad oedd gwybodaeth wyddonol yn uchel iawn yn Rhufain nac yn Italy.

Y mae yn ymddangos fod heulfynegau yn dra chyffredin yn amser Plautus. Mewn dernyn o un o'i chwareuon [*The Bœotian*], a ddiogelwyd gan Aulus Gellius yn ei *Attic Nights*, y mae yn gwneyd yr ymosodiad digrifol a ganlyn ar ddeialau:—

"Ut illum di perdant, primus qui hora repperit,
Quique adeo primus statuit hic solarium.
Qui mihi comminuit misero articulatem diem,
Nam me puero uterus erat solarium,
Multo omnium istorum, et verissimum,
Ubi iste monebat esse, nisi quum nihil erat.
Nunc etiam quod est, non est, nisi soli lubet
Itaque adeo jam oppletum est oppidum solariis,
Major pars populi aridi raptant fame."

A ganlyn sydd gyfieithiad rhwydd o'r dernyn uchod, ac eto y mae yn ddigon manwl i beidio newid dim ar ei ystyr:—

"E fethl y duwiau'r dyn a ganfu gyntaf
Pa fodd i nodi oriau! A methl i
Hwnw a roes heulfynag yma hefyd
I ddarnio 'm dyddiau mor druenus yn
Fan dipiau bach. Pan oeddwn i fachgenyn
Fy mol oedd fy heulfynag i; a gwell,
A llawer sicrach oedd nag un o honynt.
Dywedai'r deial hwn i'r dim pa bryd
I fyn'd i'm ciniio, pan fai genyf fwyd.
Ond weithian, Ha! pan fyddo genyf ymborth,
Ni feiddiaf fwyta heb genad teg yr haul.
Mae'r dref mor lawn o'r cas ddeialau hyn,
Fel mae'r rhan fwyaf o'i thrigolion bron
Llewygu 'n lân o barch i'r haul, y rhai
Yn llesg ymlusgant trwy 'i heolydd hi."

Yr oedd yr Arabiaid, gan eu bod wedi derbyn eu gwybodaeth seryddol oddi wrth y Groegiaid, yn ymgymmeryd â'u cyfundrefn o ddeialaeth heb ond ychydig o gyfnewidiadau. Yr oeddynt yn astudio *Analemma* Ptolemy, ac yr oedd ganddynt wahanol ffyrdd i amrywio a rhwyddhau ei egluriadau. Nid oedd un genedl yn rhoddi mwy o bwys ar ddeialyddiaeth nag oeddynt hwy. Y mae hyn, pa fodd bynag, yn ddigon cysson. Yr oedd y deial yn offeryn llawer mwy defnyddiol mewn gwledydd deheuol nag y gallasai fod mewn gwledydd gogleddol, am fod y dydd, am ran fawr o'r flwyddyn, mor fyr yn yr olaf, a bod tywyniad yr haul mor ddamweiniol. Abul-Hassan, yr hwn a flodeuodd o gylch y drydedd ganrif ar ddeg, ac un o'u hysgrifenwyr diweddaraf, a ddygodd iddynt oriau cyfartal, ac a'u dysgodd pa fodd i'w holrhain ar y deial; ond nid yw yn ymddangos iddo wneyd llawer o ddefnydd o honynt, ac y mae yn debyg na chafodd ei ddarganfyddiad y gefnogaeth a deilyngai. Heb law hyn, dyfeisiodd yr awdwr hwn lawer o welliadau ereill, a gwnaeth lawer o ddeialau tra chywrain. Un o honynt a elwid *chaphir*—gair sydd yn arwyddo carn ceffyl—am yr hwn, y mae yn ymddangos, na wyddai y Groegiaid ddim byd. Efe a ddysgodd hefyd pa fodd i olrhain symmudiad cysgod ar hyd arwynebau gwastad, rholynog, pigyrnol, a phellenog. Yr oedd y Groegiaid, pa fodd bynag, wedi cael y blaen arno yn ngwneuthuriad deialau ar arwynebedd pigyrnol.

Yn ysgrifeniadau Abul-Hassan, cyfarfyddir â damcaniaeth nad ydyw i'w chanfod yn holl ysgrifeniadau y Groegiaid, nac hyd yn oed yn ngweithiau awduron diweddar. Efe a ddefnyddiai fesuriaeth conigaidd (*conic sections*) i ddysgrifio cromell yr arwyddion. Mae yn wir fod Commandine a Clavius wedi olrhain eu cromellau o arwyddion trwy foddion a gawsant oddi wrth ddamcaniaeth y cyrflinellau hyn; ond y maent yn llawer mwy tywyll, ac yn hollol wahanol i gynllun yr Arabiaid. Nid oes un o honynt yn son am ddeial cyffredinol Regiomontanus, na'r deialau Analemmaidd, sydd yn dangos yr awr oddi wrth uchder yr haul; ac nid oedd ganddynt un syniad am yr onglau wrth graidd deialau gwahanol. Ceir y pethau hyn yn ngweithiau yr Ewropiaid cyntaf a ysgrifenasant ar ddeialyddiaeth; ond nid ydynt hwythau yn hòni yr anrhydedd o'u dyfeisio iddynt eu hunain. Y mae bwlch gan hyny yn hanes deialyddiaeth nad yw yn hawdd ar hyn o bryd ei lenwi i fyny. Yr ydym yn gweled cynnydd amlwg, ond nis gwyddom i bwy yr ydys yn ddyledus am dano. Yr oedd y darganfyddiadau hyn wedi eu gwneyd, y mae'n debyg, cyn dechreuad y gelfyddyd o argraffu; a thrwy hyny mae yn bosibl fod y gweithiau gwreiddiol wedi myned ar goll, tra y mae traddodiad wedi cludo i ni y pethau mwyaf pwysig o honynt.

Yn mhlith y rhai cyntaf o'r ysgrifenwyr diweddar ar ddeialyddiaeth, gellir rhifo John Stabius, Andrew Striborius, a John Werner, y rhai oeddynt seryddwyr o'r bymthegfed ganrif. Ymddengys, er hyny, na chafodd gweithiau un o honynt eu hargraffu. At y rhai hyn, gellir chwanegu John Schoner, seryddwr o'r unfed ganrif ar bymtheg; yr hwn, yn 1515, a gyhoeddodd ei *Horarii Cylindri Canones*, yn yr hwn y mae yn trafod am wneuthuriad deialau rholyn-

Digitized by Google

aidd. Cyhoeddwyd gweithiau ereill i'r un gŵr wedi hyny gan ei fab Andrew Schoner. Ymddangosodd rhai syniadau ereill ar ddeialyddiaeth mewn traethawd a gyhoeddwyd yn y calaniadur Rhufeinaidd, a argraffwyd yn 1518. Y mae yr ysgrifenydd hwn, ar ol Regiomontanus, yn trafod yr or-ysgwâr cyffredinol, yr hwn sydd yn tybio oriau cyfartal; fel yr ymddengys fod y damcaniad hwn mewn arferiad yn y bymthegfed ganrif, os nad yn gynnarach. Yn amser Stoffen, yr oedd cyfundrefn newydd o ddeialyddiaeth wedi ei ffurfio; ond y mae enw yr awdwr yn anhysbys.

Cyhoeddodd mynach o'r enw Sebastian Munster, yr hwn oedd ddilynydd i Luther, yn Basle, yn 1531, lyfr gyda'r teitl hwn, *Composito Horologiorum in plano muro, truncis anulo concavo cylindro, et variis quadrantibus*, &c.; ac yn 1533, *Horologiographia post priorem editionem.* Achosodd y gweithiau hyn gyfnewidiad trwyadl yn y gelfyddyd o ddeialyddiaeth. Dygodd yr awdwr hwn oriau cyhydeddol i arferiad, yn lle y rhai amseryddol; rhoddodd graidd i'r deial, ac echel yn lle y mynegfys unionsyth, creiddiau a chreiddlinellau dosbarthiadol, ac yr oedd yn anmhosibl i gyfnewidiadau mor bwysig gael eu gwneyd gan neb oddi eithr ei fod yn fedrus mewn meidrofyddiaeth. Un o ddyfeisiau Munster ydoedd y lloerfynag. Nid yw yn sicr mai efe oedd awdwr yr holl welliadau a briodolir iddo, ond y mae yn ddigon sicr mai efe oedd y cyntaf i'w cyhoeddi.

Yr ysgrifenydd nesaf oedd Andrew Schoner. Cyhoeddodd ei waith yn 1562, gyda'r teitl hwn—*Gnomonicæ Andreæ Schoneri Noribergensis, hoc est de descriptionibus horologiorum sciatericorum omnis generis, &c., omnia recens nata et edita.* Gellid tybio oddi wrth y geiriau diweddaf fod yr oll yn y llyfr hwn yn wreiddiol i'r awdwr ei hun: ond ni allasai hyn fod yn wir am yr hyn a gyhoeddwyd eisoes yn ngwaith Munster naw mlynedd ar ugain yn flaenorol. Y mae Schoner yn crybwyll am lawer o ddynion dysgedig a fu o'i flaen yn yr un maes, ac yn gofidio fod ffrwyth eu llafur yn anadnabyddus; ond nid yw yn cyfeirio mewn un modd at enw Munster. Gellid ei ystyried yn fath o benboethiad yn ei ffordd ei hun, canys yr oedd yn credu nas gallasai dyn wneyd heb ddeial, mwy nag y gallasai wneyd heb fwyd a diod. Yr oedd yn ysgrifenydd tywyll, ac ni chyfranodd ddim newydd ar y pwnc, oddi eithr ychydig ar ddeialau gogwyddol mewnol ac allanol: am y rhai nid yw Munster, nac un o'r hynafiaid, yn son dim. Cyhoeddwyd traethodau ereill ar ddeialyddiaeth yn yr un ganrif, megys yr un gan Benedict, yn 1574; Elie Vinet, yn 1564; John o Padua, yn 1582; a Valentio Pini, yn 1598. Ond ni chwanegodd y rhai hyn nemawr at yr hyn oedd yn hysbys o'r blaen ar y pwnc.

Yn y ganrif ganlynol, ymddangosodd gwaith seryddwr arall o'r enw La Hire ar yr un pwnc. Yr oedd y gwaith hwn, yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1682, ac wedi hyny yn 1698, yn cynnwys llawer o newydd-deb, ac ar y cyfrif hwnw yn deilwng o gael ei grybwyll; ond nid oes dim arall i'w ddyweyd am dano, heb law ei fod yn dywyll iawn, ac yn lled ddifudd. Yn 1693, cyhoeddodd Ozanam draethawd ar ddeialyddiaeth, yr hwn a ystyrir gan Delambre yn waith clir, ac yn tra rhagori o ran dybenion ymarferol ar waith La Hire. Ysgrifenwyd llawer ar y gangen hon yn yr ail ganrif ar bymtheg gan agos yr holl seryddwyr. Cyhoeddodd Clavius un gyfrol 4-plyg o 800 td. ar ddeialyddiaeth yn unig, yn 1612. Yr oedd y gyfrol hon, fel y gellid tybio, yn cynnwys yr oll a wyddid ar y pwnc yn ei amser ef, gyda rhyw gymmaint o chwanegiad o'i waith ef ei hun. Yn y gwaith hwn, y mae Clavius, yn ol dull yr hen wyddonwyr, yn egluro y damcaniad a'r ymarferiad yn lled fanwl.

Fel y crybwyllwyd eisoes, y mae deialyddiaeth, er y ddeunawfed ganrif, fel gwybodaeth ymarferol, wedi ei rhifo gyda'r pethau a fu. Y mae offerynau ereill mwy cyfleus wedi dyfod i arferiad: ni byddai ond ofer, gan hyny, yn y gwaith hwn, i ni ymhelaethu ar egwyddorion dyrus celfyddyd farw. Ond cynnygiwn yma un eglurhad ar wneuthuriad a gwasanaeth y deial, a rhoddwn ychydig o awgrymiadau i'r rhai hyny sydd, er mwyn cywreinrwydd, neu rywbeth arall, yn ewyllysio deall y wybodaeth hon yn fanylach.

Yn y sylwadau blaenorol ar hanes deialyddiaeth, yr ydym wedi cael achlysur i son yn aml am y *mynegfys.* Gwneir hwn yn gyffredin o ryw ddarn o fetel, a gosodir ef yn gyfredol âg echelau y ddaiar, ac am hyny y mae yn cyfeirio yn wastad tua'r gogledd. Saif y mynegfys ar blât arall o fetel—gwastad neu ogwyddedig—yr hwn a elwir yn orblât; ac ar yr hwn y nodir cyfeiriadau y cysgod ar y gwahanol oriau, yr hanner oriau, a'r chwarter oriau, ac hyd yn oed weithiau, ar raniadau llai. O'r ddau blât hyn wedi eu gosod yn briodol y gwneir y deial.

Peth cyffredin i ddyn weithiau ydyw sylwi fod chwarter awr, mwy neu lai, o wahaniaeth rhwng ei oriawr sydd yn ei logell—yr hon y gŵyr ei bod yn iawn—a'r deial sydd o'i flaen, yr hwn eto fel y tybia sydd yn rhwym o fod yn gywir. Tybier fod y ddau yn iawn, beth sydd i gyfrif am y gwahaniaeth? Yr achos ydyw fod amser yr haul yn galw am gywiriad, yr hwn y gellir yn hawdd ei wneyd trwy gymhorth tabl a roddir yn gyffredin mewn almanaciau i'r perwyl hwn. Dyweder ei bod yn naw o'r gloch yn y bore ar yr haul. Golyga hyn fod yr haul yn yr orgylch a berthyn i dair awr cyn canol dydd; neu ei fod yn 3 gwaith 15, sef 45 gradd, oddi wrth y prif orgylch tua'r dwyrain. Y prif orgylch ydyw yr hwn sydd yn tori yr orblât yn llinell xii xii; a'r orgylch dan sylw (y deheuol o'r ddau sydd heb eu cysgodi) yw yr hwn sydd yn tori yr orblât yn ix ix. Yn awr, pan y mae yr haul yn nghyfer unrhyw wastad, yr unig gysgod ar y gwastad hwnw yw cysgod yr ymyl a ddelir i'r haul. Y mae ymyl uchaf y mynegfys yn gyffredin i'r orgylchau i gyd, a'i gysgod, gan hyny, yn rhan o'r orgylch yn yr hwn y mae yr haul ar y pryd. Gall y darllenydd yn hawdd unioni hyn, a gweled, o ran oriau cyfain, fod yr agoriadau hyn yn ateb holl ddybenion y deial.

Y gwrthwynebiadau penaf i'r deial ydyw fod cysgod y mynegfys yn rhy aneglur i roddi gwybodaeth fanwl hyd yn oed i ddybenion cyffredin; a bod y gwrthdoriad (*refraction*) sydd bob amser yn gwneyd i'r haul ymddangos ryw ychydig yn rhy uchel, yn taflu y cysgod yn wastad ryw fymryn tua'r nawn; hyny yw, yn peri fod yr amser yn rhy gyflym yn y bore ac yn rhy araf yn y prydnawn; a thrwy hyny fod yn rhaid ei cywiro bob amser mewn trefn i wybod y gwir amser. Os na bydd ymyl y mynegfys yn denau iawn, rhaid tori yr orblât, a symmud y rhan foreuol oddi wrth yr un brydnawnol uniawn led y mynegfys. Y mae yr holl bethau hyn yn peri na bydd y deial byth mwy mewn ymarferiad.

Y mae llawer iawn o bob math o ddeialau;

Digitized by Google

ond y rhai canlynol ydynt y rhai mwyaf neillduol:—

*Y deial gwastad* (*horizontal dial*); sef yr hwn a wneir ar blât gwastad yn gyfredol â gwyneb y ddaiar.

*Y deial unionsyth* (*vertical dial*); sef yr hwn a wneir ar blât syth. Gelwir y rhai hyn yn ogleddol, deheuol, dwyreiniol, neu orllewinol, yn ol y pwynt ar ba un y byddant yn gwynebu.

*Y deial syth-ogwyddol* (*vertical declining dial*); neu ddeial unionsyth, heb fod yn gwynebu at un o'r prif begynau.

*Y deial gŵyrgam* (*inclining or oblique dial*), a wneir ar blat a fyddo yn gwneyd onglau gwyrog â'r terfyngylch. Gelwir y rhai hyn yn *reclining* a *proclining dials*, pan y byddant yn gwyro oddi wrth neu at yr edrychydd.

*Y deial cyhydeddol* (*equinoctial dial*), ydyw yr hwn y mae ei arwyneb yn rhedeg yn gyfochrol â'r cyhydedd, neu yn sythlinellol i echel y ddaiar.

*Y deial pegynol* (*polar dial*), a olrheinir ar arwynebedd a fyddo yn sythlinellol i'r cyhydedd, ac yn myned trwy y pegynau.

Os teimla rhai o'n darllenwyr yn awyddus i olrhain chwaneg ar y wybodaeth gywrain hon, nis gellir yma wneyd chwaneg na'u cyfarwyddo at rai o'r ysgrifenwyr goreu ar y pwnc; ond dylai un fod yn lled hyddysg mewn seryddiaeth, ac yn ddysgedig yn y gwyddonau, yn neillduol mewn meidrofyddiaeth a thryfaliaeth yn ei gwahanol gangenau, cyn dysgwyl dyfod yn ysgolhaig gwych mewn orfynegiaeth. Gwel *Imperial Journal*; *Pen. Cycl.*; *Encycl. Brit.*

DEIAL AHAZ: 2 *Bren.* xx. 8—11; *Esa.* xxxviii. 8. Hwn yw y deial cyntaf, a'r unig un, y mae genym hanes am dano yn yr Ysgrythyrau. Er fod yr offeryn hwn mewn arferiad gan genedloedd ereill [gwel dan y gair DEIAL], y mae yn ymddangos ei fod hyd yn hyn yn anadnabyddus i'r Iuddewon; ac nid yw yn sicr eu bod am ryw ysbaid ar ol hyn yn rhanu amser i oriau. Yn Llyfr Tobit, yr ydym yn darllen gyntaf am oriau; gwel hefyd *Dan.* iii. 6. Y mae yr hanes am ddeial Ahaz yn gysson â'r golygiad yn yr ysgrif flaenorol, mai i'r Caldeaid y perthyn yr anrhydedd o'i ddyfeisio.—*Herod.*, llyfr ii. c. 109. Myn rhai, y mae yn wir, roddi yr anrhydedd hwn i'r Phœniciaid, a haerant fod Homer yn cyfeirio at rywbeth cyffelyb pan y sonia [*Odyss.* xv. 402], fod "ynys o'r enw Syria yn gorwedd uwch law yr Ortygia, yn yr hon y sylwid ar symmudiadau yr haul." Tybir mai y Phœniciaid oedd yn cyfanneddu yr ynys hon o Syria, a'u bod yn dra cheifydd ar y pryd yn y gangen hon o seryddiaeth. Gosododd Pherecydes, yn mhen tua thri chan mlynedd ar ol Homer, fath o heulfynag yn yr un ynys, drwy yr hon y rhenid y dydd i oriau. Y mae rhai o'r Groegiaid yn awgrymu mai Anaximander, yr hwn a flodeuodd o gylch 547 c.c., o dan deyrnasiad Cyrus, a ranodd y dydd gyntaf i oriau, ac a ddygodd heulfynegau i'w plith hwy. Yr oedd hyn tuag amser y caethiwed yn Babilon. Y mae yn debyg mai oddi yno y cymmerodd Anaximander y deial i Groeg, canys y mae yn sicr iddo deithio llawer yn Caldea. Yr oedd y Caldeaid yn cael eu hystyried yn hynod am eu gwybodaeth seryddol er yn fore iawn, ac yr oedd hyn yn naturiol yn eu harwain i'r gelfyddyd o ddeialyddiaeth; ac felly y mae yn bur bosibl mai oddi yno y dygwyd y wybodaeth hon i Ahaz. Y mae Herodotus, pa fodd bynag, yn sicrhau (llyfr i. pen. 109) "fod y Groegiaid wedi derbyn eu gwybodaeth am y deial a dosraniad y dydd i ddeuddeg rhan oddi wrth y Babiloniaid." Y mae yn ddigon sicr fod Ahaz mewn cyfathrach ar y pryd â'r Babiloniaid; canys y mae genym hanes am dano (2 *Bren.* xvi. 10) yn ymweled â Tiglath-Pileser, brenin Assyria, yn Damascus; a gellid meddwl ei fod yn awyddus i ddwyn pob peth newydd a rhyfedd a welai mewn gwledydd ereill i'w wlad ei hun; o blegid tra yr oedd yn Damascus y tro hwn, tynwyd ei sylw at allor yn y ddinas hono o wneuthuriad hynod, ac anfonodd yntau orchymyn yn ddioed at Urïah am iddo wneyd un ar yr un cynllun yn Ierusalem. Y mae y ffaith hefyd fod tywysogion Babilon wedi anfon at Hezecïah i ymofyn am y rhyfeddod a wnaed yn y wlad, yn brawf tebygol lled gryf mai oddi yno yr oedd Ahaz wedi cael y deial a elwid ar ei enw.

Y mae yr hanes ysgrythyrol am y wyrth ar ddeial Ahaz yn syml, ond yn dra rhyfedd. Yr oedd Hezecïah, yr hwn ydoedd yn fab i Ahaz, wedi ei gymmeryd yn glaf; anfonodd am Esaiah y prophwyd i ymgynghori âg ef am natur ei afiechyd. Gorchymynodd Esaiah iddo drefnu ei dŷ—y byddai farw, ac na byddai byw. Wrth glywed hyn, Hezecïah a drodd ei wyneb at y pared i weddïo, ac a wylodd âg wylofain mawr. Cyn i Esaiah fyned allan i'r cyntedd canol, daeth gair yr Arglwydd ato drachefn, yn gorchymyn iddo ddychwelyd, a dyweyd i'r brenin fod ei weddïau wedi eu gwrandaw, y byddai i'r Arglwydd chwanegu pymtheng mlynedd at ei oes, ac yr elai i dŷ yr Arglwydd ar y trydydd dydd: ond mynai Hezecïah gael arwydd; cynnygiodd iddo ei ddewis o ddau—"A ä y cysgod ddeg o raddau yn mlaen, neu a ddychwel efe ddeg o raddau yn ol?" "Hawdd," meddai Hezecïah, "i'r cysgod ogwyddo ddeg o raddau; nid felly, dychweled y cysgod yn ei ol ddeg o raddau." Gweddïodd Esaiah ar yr Arglwydd, "a'r cysgod a drodd ar hyd y graddau, ar hyd y rhai y disgynasai efe yn neial Ahaz, ddeg o raddau yn ei ol."

Y mae yr hanes hwn wedi peri llawer o drafferth i esbonwyr yn mhob oes. Y prif anhawsder ydyw y gair a gyfleithir *graddau*. Ystyr y gair Hebraeg (עלה o צעלה) ydyw *esgyn*, *myned i fyny*; myned o un radd i radd uwch; yna y grisiau ar hyd y rhai yr esgynir, megys ffyn ysgol, a chymhwysir ef at risiau dringfa, &c.: gwel 1 *Bren.* x. 19; *Ezec.* xl. 26, 31, 34. Oddi wrth hyn, yr oedd yn briodol ei gymhwyso at yr arwyddion neu y llineilau ar y deial sydd yn nodi esgyniad neu ddisgyniad yr haul yn y ffurfafen; neu yn fwy priodol esgyniad neu ddisgyniad y cysgod ar wyneb y deial. Gall y graddau hyn arwyddo y llinellau ar yr orblât, neu risiau llys Ahaz, neu risiau rhyw ddringfa neillduol a adeiladwyd ganddo mewn lle arall [gwel *Carpzov. Apparat. Historic. Crit. Lips.*, 1748, td. 352, &c.] Y mae Josephus [*Hynaf. Iudd.*, x. 2, 1], yn ei ddeall am risiau yn nhŷ neu yn llys Ahaz; "Efe a ddymunodd ar fod i gysgod yr haul, yr hwn a ddisgynasai eisoes ddeg o raddau (*risiau*) yn ei dŷ, i ddychwelyd eilwaith i'r un lle." Y mae y Deg a Thrigain hefyd yn *Esaiah* yn ei gyfieithu yn *risiau*, ac yn ei ddeall yn yr un ystyr ag y gwna Josephus—*αναβαθοὺς τοῦ οἴκου του πατρός σου*="y graddau neu y grisiau yn nhŷ dy dad." Y mae y Galdaeg, am yr ymadrodd yn y Breninoedd yn arfer y gair "awrfaen;" ac yn cyfieithu yr ymadrodd yn Esaiah, "y cysgod ar faen yr oriau." Yr oedd Symmachus yn sicr

Digitized by Google

yn ei ddeall am heulfynag—*στρέψω τήν σκιὰν τῶν γραμμῶν ἥ κατέβη ἐν ὡρολογίῳ* "Αχαζ=" Mi a barat i gysgod y graddau, yr hwn (*gysgod*) a aeth i lawr yn neial Ahaz ddychwelyd." Jerome hefyd a'i geilw yn *Horologium*. Gall y gair, fel y gwelir, arwyddo y grisiau i dŷ neu lys Ahaz, ac nad oedd yr hyn a elwir "deial Ahaz" ddim yn amgen na symmudiadau y cysgod ar y grisiau hyny. Ond y dybiaeth fwyaf rhesymol ydyw golygu ei fod yn arwyddo rhyw offeryn o ddyfais neillduol i wybod yr amser, ar wahan oddi wrth y tŷ. Gellid meddwl hefyd oddi wrth yr amgylchiadau, ei fod o wneuthuriad ac mewn sefyllfa y gallasai Hezeciah, yr hwn oedd eto heb gwbl wella, ei weled yn hawdd o'i ystafell. Gallasai fod yn y "cyntedd canol," y crybwyllir am dano yn 2 *Bren*. xx. 4.

Ond gyda golwg ar wneuthuriad a ffurf deial Ahaz, y mae eto lawer iawn o amrywiol farnau. Yr oedd Cyril o Alexandria a Jerome yn credu mai math o risiau ydoedd, wedi ei wneyd yn y fath fodd fel ag yr oedd symmudiadau cysgod yr haul ar hyd-ddo yn gwasanaethu i nodi oriau y dydd. Hyn hefyd, mae'n debyg, oedd golygiad Josephus, ac amryw ereill. Ereill a dybiant mai math o big-adail neu golofn ydoedd, wedi ei chyfodi ar lawr gwastad, ar hyd wyneb yr hwn yr oedd llinellau wedi eu holrhain, i ddynodi yr oriau. Y mae Grotius yn cytuno â Rabbi Elias Chomer, ac yn ei ddysgrifio fel "hanner-gylch ceuol, gyda phellen yn ei ganol; cysgod yr hon a ddisgynai ar linellau oedd wedi eu holrhain o'r tu fewn i'r ceuedd." Hwn oedd deial Berosus [*Vitruv*., ll. ix. pen. 9] y crybwyllwyd am dano yn nechreu yr erthygl flaenorol. Un o offeiriaid Belus yn Mabilon oedd Berosus, ac yr oedd yn byw yn nghylch tri chan mlynedd ar ol Ahaz. Gelwir y deial hwn ar ei enw, nid am mai efe a'i dyfeisiodd, ond am mai efe a'i dygodd gyntaf o Babilon i Groeg. Bu yn ddysgawdwr seryddol yn Cos, ac wedi hyny yn Athen, lle y mae un o'i ddeialau yn cael ei ddangos hyd y dydd hwn. Os hwn ydoedd deial Ahaz, yr oedd yn hawdd iddo gael un o'r gwneuthuriad hwn wedi ei wneyd yn barod yn Babilon. Ond yn y pellder hwn oddi wrth yr amgylchiad, y mae yn anmhosibl i neb ddyweyd yn fanwl pa fath ydoedd.

Y mae llawer o anffyddwyr wedi arllwys y dirmyg mwyaf ar y Beibl, o blegid yr hanes am ddeial Ahaz; ac y mae rhai ysgrifenwyr Cristionogol wedi myned i gryn drafferth i wadu yr hyn sydd wyrthiol yn yr hanes, drwy geisio cyfrif am dano ar egwyddorion naturiol. Y mae yr Esgob Stock yn ceisio cyfrif am dano ar egwyddorion adnabyddus gwrthdoriad (*refraction*); a dywed, pe byddai i gwmwl, neu gorff o awyr o bwysedd gwahanol i'r awyr cylfredin, gyfyngu rhwng y mynegfys a chrib yr orblât isiaw, y byddai iddo, os yn drymach na'r awyr, beri i'r cysgod gilio oddi ar uchder unionsyth y ddringfa, a thrwy hyny esgyn dr wchefn ar hyd y grisiau yr oedd cyn hanner dydd wedi myned i lawr ar hyd ddynt; neu os b udai y cwmwl yn ysgafnach, byddai y canlyniad yn gwbl groes. [Gwel *Stock's Trans. of Isaiah*; Bath, 1803; td. 109.] Dywedir fod y golygiad hwn o eiddo yr esgob yn cael ei gadarnhau trwy dystiolaeth hanesyddol o amgylchiad cyffelyb wedi cymmeryd lle. Y mae Rosenmüller yn dyweyd fod P. Romauld, prior yn nghlasgordy Metz, wedi sylwi ar y 27ain o Mawrth, 1703, fod y cysgod wedi gogwyddo awr a hanner ar ei ddeial ef, mewn canlyniad i wrthdoriad y goleuni yn mharthau uchaf yr awyr, ac ymddangosiad cwmwl ar y pryd. Ond heb gyffwrdd dim â seiliau yr haeriadau hyn, y mae yn sicr ddiammheu fod yr argoel ar ddeial Ahaz yn un o gymmeriad gwyrthiol; ac ni byddai y wyrth yn ddim llai pe gallem ni fod yn sicr o'r cyfrwng naturiol yn ei ddygiad oddi amgylch. Nid oedd dim llai nag ysbrydoliaeth ddwyfol a allasai gynnorthwyo Esaiah i wneyd yr hysbysiad yn y fath le ac ar y fath amser; ac heb law hyny, rhoddodd y prophwyd ei ddewis i'r brenin, pa un a fynai efe i'r cysgod fyned ddeg o raddau yn ei flaen, neu a fynai efe iddo ddychwelyd hyny yn ei ol. Pa beth oedd hyny ond gwyrth?

Nid ydys yn gweled un angenrheidrwydd i geisio penderfynu cyfrwng y wyrth hon o gwbl; ac nid oes un achos i dybied fod unrhyw ymyraeth â chylchdroad y ddaiar a sefyllfa yr haul yn angenrheidiol i'w dwyn oddi amgylch. Yr adroddiad syml yn 2 *Bren*., lle y mae yr hanes yn cael ei roddi yn fwyaf cyflawn, ydyw, fod yr Arglwydd, mewn atebiad i weddi Esaiah, wedi troi y cysgod ddeg o raddau yn ei ol. Y mae y geiriau yn Esaiah, "Felly yr haul a ddychwelodd yn ei ol ddeg o raddau," yn eisieu mewn tri o ysgriflyfrau y Dr. Kennicott, ac yn wreiddiol mewn dau o eiddo De Rossi, ac y mae y geiriau "cysgod y graddau, yr hwn a ddisgynodd yn neial Ahaz gyda'r haul," yn fwy cywir ar ymyl y ddalen, graddau "wrth neu gyda'r haul," yr hyn sydd yn golygu yr hyn a effeithid gan symmudiad yr haul. Y mae yr *ὁ ἥλιος* cyntaf yn yr adnod hon yn cael ei adael allan yn ysgriflyfr Pachom o'r Deg a Thrigain. Ond os cymmerir y gair i mewn, nid yw ond teg ei gymmeryd yn ei ystyr poblogaidd, fel y gwneir â geiriau ereill, am oleuni yr haul, neu giliad y cysgod yn y fath fodd a phe buasai yr haul ei hun wedi symmud o'i le. Y mae yn amlwg, a chymmeryd y testynau fel y maent, fod yr hyn sydd yn cael ei alw yn haul mewn un man yn cael ei alw yn gysgod mewn man arall; ac yn sicr y mae yr un mor athronyddol son am yr haul yn dychwelyd, ag ydyw son am dano yn machlud neu yn cyfodi. Nid yw ond ymddangosiad yn y naill amgylchiad a'r llall.

Yn ol yr hyn a ddywedir wrthym yn y Beibl am y wyrth hon, y mae yn ddigon i ni gredu fod y cysgod wedi ei yru yn ei ol ar ddeial Ahaz trwy weithrediad syml o allu dwyfol, heb gyrhaedd yn mhellach, hyd y gwyddom ni, na'r goleuni oedd yn disgyn ar y deial ei hun. Ni ddywedir fod dim amser wedi ei golli i drigolion y byd yn gyffredinol drwy yr amgylchiad; ac y mae yn sicr nad oedd un cyfnewidiad yn y cysgod ar unrhyw ddeial yn Mabilon ar y pryd, o blegid yr oedd seryddwyr Babilon yn anfon cenadau at Hezeciah i ymofyn am y rhyfeddod a wnaed yn y wlad—yr hyn sydd yn golygu fod y rhyfeddod yn gyfyngedig i'r wlad hono yn unig. Yr oedd mor leol, fel y mae yn ammheus, pe buasai deial arall yn Ierusalem, heb law deial Ahaz, a fuasai rhyw gyfnewidiad yn y cysgod yn ganfyddadwy ar wyneb hwnw. Argoel i Hezeciah yn unig ydoedd; ac yr oedd gyru y cysgod yn ei ol ddeg o raddau ar ddeial Ahaz ei dad, yn llawn ddigon i roddi boddlonrwydd iddo ef. Nid oes un sail i feddwl fod yr argoel ar y deial o hirbarhâd; gallai fod y cysgod wedi dychwelyd yn mhen ychydig funydau i'w le priodol drachefn. Y mae yr holl hanes hwn, gan hyny, yn ddigon rhesymol; ac nis gall un anffyddiwr ei ammheu, heb iddo yn gyntaf brofi nas

Digitized by Google

gall y Duw hwnw a wnaeth yr haul, beri y cyfnewidiad bychan hwn yn ei gysgod.—(*Calmet's Dict.*; *Taylor's Fragments*; *Kitto's Bib. Cycl.*; *Barnes' Notes*; *Clarke's Com.*; *Rosen.*)

DEISTIAETH: tardda y gair oddi wrth y gair Seisoneg *Deist*, gwreiddyn yr hwn yw y gair Lladin *Deus*=Duw. Atddoder y terfyniad Cymraeg *iaeth* at y Seisoneg *Deist*, a chawn y bastarddair Deistiaeth. Mewn gwrthgyferbyniad i Atheistiaeth, mae Deistiaeth yn cydnabod bod Duw; ac mewn cyferbyniad i Olldduwiaeth, yn cydnabod fod Duw uwch law y byd, ac yn wahaniaethol oddi wrth y byd: ond y mae Deistiaeth yn dal yn mhellach, nid yn unig fod Duw yn wahaniaethol oddi wrth, ond hefyd ei fod yn sefyll ar wahan oddi wrth y byd; ac felly, ar ol creu y byd, iddo ei adael i weithrediad deddfau a osodwyd iddo yn y dechreu. Ond y mae Theistiaeth (Θεος—y Groeg am *Dduw*), yn dal fod Duw yn parhau i gynnal ac i lywodraethu y byd, a phob peth unigol sydd ynddo, trwy ei bresennoldeb a'i allu uniongyrchol. Sylwer fod y gair Seisoneg *Deist* yn arwyddo peth gwahanol i'r gair *Theist*, gan fod y blaenaf yn golygu anghredwr, a'r olaf yn golygu credwr. Creda y ddau yn modolaeth Duw; ond y mae y Deist yn gwadu rhagluniaeth Duw, a'i arolygiad dros y greadigaeth. Yr oedd athronwyr Groeg yn edrych ar yr Epicuriaid yn dal credo gyffelyb o ran ei thuedd i'r hyn yr ystyria credinwyr yr oesoedd diweddaraf yw syniadau y Deistiaid. Gwadent ymyriad y duwiau âg amgylchiadau y byd yma, a haerent eu bod yn anfeidrol rhy uchel i sylwi ar ddim o bethau y ddaiar. Yn ol hyn, yr oedd dymuniad calon ddrwg dyn yn cael ei gyflawnu, trwy ei fod yn cael gweithredu fel y mynai, heb, yn ol y golygiad yma, gael ei alw i gyfrif gan un bod uwch law iddo ei hun. Ond heb law yr ystyr caeth hwn i'r gair, y mae iddo arwyddocâd eangach, ac yn cael ei ddefnyddio yn gyfystyr â chrefydd naturiol; hyny yw, y corff o wirioneddau am Dduw, am ddyledswydd, ac am anfarwoldeb, y gellir eu casglu trwy reswm, ac nad ydynt uwch law rheswm. Felly y mae Deistiaeth yn ymwrthod â phob peth mewn Cristionogaeth nas gall y rheswm dynol ei ddarganfod a'i brofi.

Ymddangosodd Deistiaeth fel gwadiad o bob peth goruwchnaturiol mewn Cristionogaeth yn ystod yr eilfed ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, yn Lloegr. Yn annibynol ar egwyddorion moesol y galon, y rhai sydd yn arwain dynion ar gyfeiliorn yn mhob gwlad ac oes, yr oedd achosion neillduol ar waith y pryd hwnw, i ba rai, mewn rhan, y gellir olrhain ymddangosiad Rhesymoliaeth mewn crefydd. Yr oedd meddwl dyn, ar ol hir gaethiwed a darostyngiad y canoloesoedd, wedi hòni ei ryddid a'i annibyniaeth yn y Diwygiad Protestanaidd; ac wedi tori trwy lyffetheiriau traddodiad mewn crefydd, cododd yn erbyn awdurdod mewn athroniaeth, ni oddefai ormes mewn gwleidyddiaeth, a honai hawl barn bersonol yn mhob peth. Yr oedd meddwl Ewrop fel newydd ddeffro o gwsg canrifoedd; ac yn newydd-deb y teimlad a brofodd yn yr ymarferiad o'i nerth, nid rhyfedd ei fod yn rhedeg weithiau o'r eithafoedd o beidio meddwl dim drosto ei hun, i'r eithafoedd arall o feddwl mai rheswm dyn ydyw safon eithaf gwirionedd. Gosod y Beibl yn lle yr eglwys yn safon gwirionedd mewn crefydd a moesau a wnaeth y Diwygiad; ond amlygodd rhai eu gelyniaeth yn erbyn y gwirionedd trwy osod i fyny eu rheswm eu hunain yn lle anffaeledigrwydd traddodiad. Fel hyn y mae eithafoedd yn rhedeg i'w gilydd ac yn cenedlu eu gilydd.

Thomas Hobbes, yr hwn a fu farw yn 1679, a elwir yn dad Rhyddfeddylwyr neu Ddeistiaid Lloegr; nid am mai efe oedd y cyntaf o ran amser, ond am mai efe sydd yn sefyll uchaf, nes y delom at Hume, mewn annibyniaeth meddwl, ac mewn nerth i osod allan ei feddwl. Yr oedd efe yn honi nad oes gan un dyn ddim gwybodaeth ond a ennillodd trwy brofiad—nad oes un rheol fewnol wrth ba un i lywodraethu ei ewyllys ond argraffiadau ei synwyrau corfforol a'i chwantau anianol—nad oes y fath beth a chydwybod neu deimlad o ddyledswydd, yr hon nas gall dyn droseddu yn ei herbyn heb fod yn hunangondemniedig—fod y geiriau *da* a *drwg* yn eiriau cymhariaethol, yn arwyddo pethau gwahanol i wahanol ddynion ac mewn gwahanol amgylchiadau, heb fod dim ynddo ei hun yn anghyfnewidiol dda a drwg; y rheol wrth ba un y mae dyn i wybod pa beth sydd yn ddrwg a da ydyw ewyllys y brenin neu y pen swyddog gwladol dan ba enw bynag—nad yw crefydd yn ddim amgen nag ofn slafaidd rhyw allu anweledig ac anadnabyddus i ni, ac nad yw cyfiawnder ei hun ond nerth y trechaf. Ei farn am yr Ysgrythyrau ydyw mai yr unig sail ar ba un y gallwn gredu eu bod wedi dyfod oddi wrth Dduw ydyw tystiolaeth yr eglwys; hyny yw, tystiolaeth dynion; ac mewn achos o ddadl, yr eglwys yn unig a all benderfynu eu hystyr. Y mae Hobbes yn anghraifft, yn mhlith lluaws ereill, o anghrededd hyd at Atheistiaeth yn cydgyfarfod âg ofergoeledd Pabyddol mewn dyn o feddwl cryf, ond heb adnabod y gwirionedd.

Ond Edward Herbert, Arglwydd Cherbury, oedd yr ysgrifenydd cyntaf o ran amser a dynodd sylw at, ac a amddiffynodd egwyddorion Deistiaeth yn Lloegr—milwr dewr, yn gystal a meddyliwr medrus, yn dal golygiadau Deistaidd. Yr oedd yn ysgrifenydd galluog ar uchanianaeth (*metaphysics*), a'i olygiadau crefyddol oeddynt Ddeistaidd. Honai barch mawr i grefydd, a daliai mai Cristionogaeth oedd y brydferthaf o grefyddau y byd. Yr oedd wedi gosod ei hun mewn cryn berygl dros grefydd drwy arwain 4,000 o Brotestaniaid Languedoc, drwy benodiad duc Savoy, i ymsefydlu yn Piedmont; ond cymmerwyd ef yn garcharor. Honai fod crefydd yn gynnwysedig mewn pum peth:—1. Bod Duw. 2. Y dylai dyn ei addoli. 3. Rhinwedd yw prif elfen addoliad. 4. Edifeirwch yn gwneyd iawn am fai. 5. Bod sefyllfa ddyfodol i wobrwyo rhinwedd a chospi pechod. Cyhoeddodd ddau draethawd—*De Veritate* (1624), a *De Religione Gentilium* (1645)—yn mha rai y mae yn dysgu yr egwyddorion hyn. Nid oedd yn gwadu fod dadguddiad uniongyrchol o'r nefoedd yn bosibl i ddyn; ond haerai nas gall fod yn sail sicrwydd i neb ond y dyn a'i derbynio oddi wrth Dduw. Fod tystiolaeth a thraddodiad, a phob moddion sydd gan y naill ddyn i drosglwyddo gwybodaeth i'r llall, yn ansicr a thwyllodrus. Hòna fod holl ddynolryw yn rhwymedig i dderbyn ei "bum pwnc" sylfaenol ef, y rhai ydynt golofnau crefydd naturiol, a dedfryda i golledigaeth bob pagan a'u gwrthoda, fel pe buasai ef wedi darganfod gwirionedd a sicrwydd i holl ddynolryw, er ei fod yn gwadu hyny i bawb arall.

Y nesaf at Herbert yn rhestr yr ysgrifenwyr Deistaidd oedd Charles Blount, yr hwn a

Digitized by Google

ysgrifenodd *Anima Mundi* (1679): ac ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd *Oracles of Reason* (1695). Heb wneuthur ymosodiad uniongyrchol ar Gristionogaeth, cymhella i sylw bum pwnc crefydd naturiol Herbert, a phriodola bob chwanegiad atynt i hunangais offeiriaid a phregethwyr. Rhydd dderbyniad i syniad Hobbes am uchafiaeth y llywodraeth wladol mewn materion o grefydd. Yn 1722, cyhoeddodd John Toland, Gwyddel, ysgrif dan yr enw, *Christianity not Mysterious*, gyda'r bwriad o ddangos nad oes dim mewn Cristionogaeth uwch law rheswm, ac nas gallasai dim felly fod ynddi, mor bell ag yr oedd hi yn amcanu at fod yn ddefnyddiol, mwy nag y mae dim yn ddirgeledig yn elfenau a chynnyrchion natur, megys coed, meini, awyr, dwfr, &c. Y mae pob peth sydd yn ymddangos yn ddirgeledig ynddi wedi codi o gymmysgedd anmhur a gymmerodd le rhwng ei hegwyddorion cyntefig ac Iuddewiaeth ac athroniaeth. Ystyrid y llyfr hwn yn un o brif gynnyrchion Deistiaeth; gwrthwynebwyd ef trwy y wasg, llosgwyd ef gan y dienyddwr cyffredin mewn canlyniad i gyhoeddiad seneddol yr Iwerddon, a thrwy ffoedigaeth brysur y diangodd efe ei hun o afaelion y gyfraith.

Y Goliath anffyddol nesaf a ddaeth yn mlaen â'i gleddyf a'i darian oedd Anthony Collins; yr hwn, yn 1713, a gyhoeddodd *Discourse on Freethinking*, yn erbyn ffydd mewn awdurdod. Dan yr enw "rhyddfeddyliwr" y gosodai ei hun allan yn feddyliwr anffyddol. Hònai fod hyn yn hawlfraint dyn, nas gellir ei amddifadu o honi—fod y Beibl yn ei chaniatau; mai rhyddfeddylwyr mawr eu hoes oedd y prophwydi; fod Crist yn gorchymyn chwilio yr Ysgrythyr; fod Paul yn hòni y fraint, ac yn ei defnyddio, ac felly dynion enwocaf pob oes. Daeth llu o ysgrifenwyr yn mlaen yn erbyn Collins; ond yr enwocaf o honynt oedd yr ieithyddwr a'r beirniad mawr, Bentley. Nid oedd efe am attal dynion i feddwl drostynt eu hunain, a chyda'r rhyddid mwyaf; ond nid oedd am ganiatau i anffyddwyr mai rhyddid *oddi wrth* Gristionogaeth ydyw rhyddid meddwl. Ysgrifenodd Collins yn ddiweddarach yn erbyn prophwydoliaethau a gwyrthiau, fel profion o Gristionogaeth. Dilynwyd ef yn hyn gan Woolston (1731). Wedi ymwrthod â phob peth o grefydd uwch law rheswm, ac hefyd wedi gwadu prophwydoliaethau a gwyrthiau fel profion o ddadguddiad goruchnaturiol, ac er hyny yn rhyw ymhòni i ddal gafael mewn Cristionogaeth, gellir gofyn pa beth oedd eu syniad am Gristionogaeth? Yr ateb yw, nad oedd ganddynt syniad am grefydd ond oedd yn gynnwysedig mewn moesoldeb parchus oddi allan. A'r syniad hwn a osodir allan gan Arglwydd Shaftesbury yn ei *Characteristics* (1714). Amcan y traethawd hwn ydyw gosod allan y prydferth fel elfen hanfodol moesoldeb; a'r hyn sydd yn brydferth ydyw perffeithiad rhinwedd; ac y mae pob cymhelliad i rinwedd, ond yr olwg ar ei brydferthwch, yn anghysson â'i natur; o ganlyniad, y mae gwobr a chosp mewn byd arall felly. Y gwaith sydd yn cynnwys golwg gyffredinol ar egwyddorion Deistiaeth, yn eu cyssylltiad â Christionogaeth, ydyw *Christianity as old as the Creation*, gan Matthew Tindale (1733). Amcan y gwaith hwn ydyw ceisio dangos fod crefydd naturiol yn berffaith, a bod Cristionogaeth yn wir mor bell ag y mae hi yn unol â hi. Y mae crefydd yn gynnwysedig mewn rhoddi ufudd-dod i ewyllys Duw; a rheol yr ewyllys hono ydyw rheswm dyn.

Thomas Chubb a gyhoeddodd y gwaith Deistaidd nesaf (1747), yr hwn a elwir *Gwir Efengyl Crist;* a'i amcan ydyw profi nad ydyw Iesu Grist yn yr efengylau yn gofyn dim newydd—dim nad oedd yn ddyledswydd ar ddyn yn annibynol ar y Testament Newydd; hyny yw, fel yr hònai Tindale, fod crefydd naturiol a Christionogaeth yr un. Ceir yr un syniad drachefn yn ngweithiau athronyddol Bolingbroke, gyda haeriadau mai unig amcan crefydd ydyw bod yn beiriant i gadw dynion dan lywodraeth yr awdurdod wladol (1751).

Mae y rhestr uchod yn cynnwys prif weithiau Deistiaid Lloegr, y rhai sydd yn awr bron yn anadnabyddus. Y ddau brif waith a ddaeth allan mewn gwrthwynebiad iddynt ydyw, *Warburton's Legation*, neu ddwyfol anfoniad Moses, a *Butler's Analogy*, yr hwn sydd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, a'r hwn sydd yn cael ei gyfeirio yn benaf at Ddeistiaid, ac ar eu hegwyddorion hwy y mae yn anatebadwy. Y mae y gyfrol fechan hon yn cynnwys ateb boddhaol i holl ymresymiadau anffyddwyr am y can mlynedd blaenorol.

Yn nesaf, ymddangosodd yr ammheuwr enwog Hume, yr hwn a amcanai ddadsylfaenu sicrwydd rheswm, yn gystal ag awdurdod y Beibl. Nid ammheuwr gyda golwg ar grefydd ydoedd yn unig; ond cariai allan ei ammheugarwch yn gyffredinol trwy holl diriogaethau gwybodaeth, hyd yn oed i wadiad o sicrwydd am fodolaeth ei enaid ei hun. Felly, yn briodol, nis gellir galw Hume yn Ddeist, am na chredai mewn dim; er fod yn dda gan y Deistiaid hyny ag yr oedd eu credo nacaol yn fwy anwyl ganddynt na'u credo gadarnhaol fabwysiadu gwrthddadleuon Hume yn erbyn y Beibl, er iddynt drwy hyny gael eu harwain i wadu eu rheswm—Beibl y Deistiaid—eu hunain. Dangosodd Hume nad oes le i Ddeistiaeth roddi ei throed i lawr; a bod crefydd rheswm a natur yn diflanu mor ebrwydd a chrefydd ddadguddiedig yn mhresennoldeb ei swynyddiaeth ddadansoddol ef. Y cwestiwn, gan hyny ydyw, nid Pa un a dderbyniwch, ai crefydd natur ai crefydd y Beibl? ond Pa un ai Atheistiaeth ai Cristionogaeth? Nid oes le rhwng y ddwy. Dewisodd Hume y blaenaf, ac ysgrifenodd yn erbyn bod Duw, yn gystal ag yn erbyn y Beibl. Yr oedd credo Hume yn un nacaol drwyddi; ac o ganlyniad, cynnwysai erthyglau nacaol Deistiaeth. Ar y gosodiad canlynol, yr hwn a greodd deimlad ac ymofyniad cyffredinol, y mae hyny o ymresymiad Hume ag a wasanaethai bwrpas y Deist yn seiliedig:—*Fod tystiolaeth unffurf dynoliaeth dros weithrediad cysson deddfau natur yn mhob man, a phob amser, yn dystewi tystiolaeth rhyw ychydig ddynion a hònant fod amrywiad neu attaliad wedi bod ar y deddfau uchod.* Mynai Hume brofi fel hyn, nid yn unig nad oedd y fath beth a gwyrthiau; ond pe byddent yn bodoli mewn gwirionedd, nad yw yn bosibl byth profi eu bodolaeth, oni bai iddynt fod mor gyffredinol nes y byddai gorbwysedd profiad dynolryw o'u tu. Yn ol yr un ymresymiad, gellir gwadu fod corachod o ddynion yn bodoli yn agos i'r pegwn gogleddol yn yfed *train oil*, fel ag yr yf cenedloedd ereill ddwfr neu laeth. Eto, y mae pawb ag sydd yn gydnabyddus â daiaryddiaeth, yn credu fod yr Exquimaux yn bodoli, a'u bod yn eppil lawer o dan y maintioli cyffredin. Yn ol ymresymiad Hume, yr oedd y brenin barbaraidd ag oedd yn byw mewn hinsawdd gynhes iawn, yn ymresymu yn briodol pan yr anfonodd wŷr dyeithr o'i wlad fel celwyddwyr am ddyweyd fod dwfr yn eu gwlad hwy yn myned yn galed fel haiarn, a gwlaw yn

Digitized by Google

disgyn o'r nefoedd fel plu. Yr oedd gorbwysedd profiad y brenin a'i ddeiliaid i ddystewi profiad ychydig ddyeithriaid, gan nad pa mor wir oedd eu tystiolaeth!

Yr oedd Tom Payne yn ysgrifenydd medrus ar wleidiadaeth, ond ymffrostiai nad oedd wedi gweled y Beibl er ys amser maith pan yr ysgrifenai yn ei erbyn. Nid ydyw yn ymddangos yn ddifrifol yn ei ymosodiad, ond gwawdio y mae. Eto, y mae gwawd Payne, a'i annuwioldeb, wedi creu mwy o anffyddwyr nag ymresymiad mwy medrus Hume, ac ereill. Y mae ysgrifeniadau Payne yn erbyn y Beibl yn gymmaint o sarhad i'w synwyr ag ydyw ei ysgrifeniadau ar wleidiadaeth o barch iddo. Prin yr oedd ysgrifeniadau duwinyddol Payne yn teilyngu i Watson i fyned i'r drafferth i'w hateb, er fod yn ddoethineb iddo wneyd hyny er attal eu dylanwad niweidiol ar feddyliau rhai llai gwybodus.

Y mae Deistiaeth wedi ymdrechu i esbonio gwyrthiau fel chwedlau ffôl, yn tarddu oddi ar gred hygoelus yr Iuddewon, ac nad oedd y fath bethau yn bod mewn gwirionedd. Ni chydsaif hyn â'r hanes a gawn gan Moses am dano ei hun yn arwain chwe chan mil o bobl, heb law gwragedd a phlant, allan o gaethiwed yr Aipht, drwy y Môr Coch, a thrwy yr anialwch am ddeugain mlynedd, pryd y rhoddwyd cyfraith iddynt a ddaeth wedi hyn yn gyfraith eu gwlad. Yr un hanesydd ag sydd wedi rhoddi y gyfraith iddynt ar glawr, sydd hefyd wedi rhoddi hanes y pläau ar yr Aiphtiaid, holltiad y môr, porthiad yr Israeliaid â manna, rhoddiad gwyrthiol y gyfraith, holltiad yr Iorddonen, a dyfethiad dwyfol eu gelynion, fel nad ammheuwyd y gwyrthiau erioed gan yr Israeliaid mwy na'r gyfraith ag oedd yn rheol eu moesau ac yn ddeddf eu gwlad. Y mae gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid eu ffughanesion, y rhai nid oedd y bobl oleuedig yn eu plith yn eu credu am eiliad, ac ni adroddwyd hwynt erioed mewn un llyfr, neu nifer o lyfrau, fel ag i ddyfod yn gymhlethedig â sefydliadau pwysicaf eu gwlad, ac i roddi awdurdod ddwyfol i'w cyfreithiau. Y mae gan y Cymry, a chenedloedd ereill, eu ffughanesion, ac y mae delw chwedlau arnynt yn hollol fel ar ffughanesion y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Ond y mae hanes cyflawniad gwyrthiau yr Hen Destament yn dyfod i waered atom gyda phob awdurdod sobr hanesiaeth. Pan yr holltwyd yr Iorddonen, codwyd cofadail i gofio am yr amgylchiad, at yr hon y cyfeirir yn mhen oesoedd mewn llyfrau a ysgrifenwyd gannoedd o flyneddoedd ar ol dyddiau Iosuah, fel peth oedd yn bodoli i'w gweled y pryd hyny. Y mae yn anmhosibl esbonio yr amgylchiad ar y dybiaeth mai ffugchwedl oedd y cyfan, heb ddinystrio ein seiliau i gredu pob hanesiaeth. Hefyd, y gwyrthiau a gyflawnodd y Gwaredwr a gydnabyddid gan ei wrthwynebwyr; ac y mae yr anffyddwyr boreuaf yn methu gwadu eu bodolaeth, ond yn eu priodoli i swyngyfaredd.

Y mae Deistiaid yn aml iawn yn gwneyd y camgymmeriad o edrych ar y Beibl fel un llyfr a fuasai wedi ei ysgrifenu gan un dyn; ac nid edrychant arno fel crynoad o ysgrifeniadau amryw ddynion wedi byw mewn gwahanol oesoedd yn ystod amser maith, ond yn dwyn tystiolaeth i'r un peth. Y mae Moses ac Iosuah mewn un oes, Elias ac Eliseus mewn oes arall, hanes pa rai a ysgrifenir gan wahanol awdwyr, a Christ a'i apostolion mewn cyfnod gwahanol i bob un o honynt, yn cael eu gosod allan gan nifer o haneswyr hollol annibynol ar eu gilydd fel gwneuthurwyr gwyrthiau:—a phe buasai cymmaint o dystion annibynol ar unrhyw fater arall mewn hanesiaeth, ni fuasai un Deist byth yn ammheu ei wirionedd. Pa ham, gan hyny, yr ydys mor anghrediniol ar y pwnc hwn? Yn wir, er i ddau hanesydd credadwy wahaniaethu peth, ni wrthodir eu tystiolaeth yn hollol o herwydd rhyw ychydig o anghydgordiad; ond yn hytrach, byddai hyn yn brawf nad oedd un cydfwriad yn y mater, ac felly yn gwneyd y peth yn gredadwy o ran ei brif sylwedd. Er anghraifft, y mae archiad Claudian i roddi ei ddelw yn nheml yr Iuddewon, a mynegiad yr Iuddewon o'u hanghymmeradwyaeth o hyn, yn ol Philo, wedi dygwydd yn y cynauaf; yn ol Josephus, yn amser hau. Yr oedd y ddau yn gydoeswyr â Claudian; ond ni chytunant yn hollol yn eu tystiolaeth am yr amgylchiad uchod. Eto, nid oes neb yn ammheu na ddygwyddodd y peth rywbryd, er nas gellir bod yn bendant pa adeg ar y flwyddyn y dygwyddodd hyn. Hyd yn oed pe caniateid fod y pedwar efengylwr heb gyd-ddyweyd yn hollol am bob amgylchiad, nid yw hyn yn gwanhau dim ar sylwedd eu tystiolaeth; ac felly am ysgrifenwyr ereill y Beibl. Ac os caniateir tystiolaeth y Beibl—ac nid ydyw yn deg ei gwadu—y mae gwyrthiau y Beibl, a'r hyn y maent yn sel wrtho, ar unwaith yn cael eu profi yn sylweddau o ddirfawr bwys i'r byd.

Nid oes golygiadau Deistaidd wedi cael eu cyhoeddi nemawr erioed yn mhlith y Cymry; ond yn unig y golygiadau a ddeil rhai yn nghylch y tywydd, y rhai sydd o duedd Ddeistaidd. Haerir fod y greadigaeth fel peiriant wedi ei gwneyd yn y dechreu i fyned o honi ei hun, heb ymyriad y peiriannwr âg un o'i rhanau. Nid ydys yn haeru fod y rhai a ddaliant yr athrawiaeth yma i gyd yn Ddeistiaid, er fod rhai, fel Combe; ond ystyrir mai yn y cyfeiriad yma y mae y golygiad yn arweddu. Cyfetyb y dyb i eiddo yr Epicuriaid, y rhai a hônent, fel y crybwyllwyd uchod, fod y duwiau yn rhy uchel i ymyraeth âg amgylchiadau y bywyd hwn. Fel cymhellydd i fywyd rhinweddol, y mae y golygiad o ymyriad Duw â hin yn athrawiaeth o bwys.

Pan yr hônir fod Duw yn ymyraeth â deddfau tywydd, i'w rheoleiddio i gyrhaedd amcanion o'i eiddo ei hunan, golygir fod terfynau i'r ymyriad yma—fod deddfau hinsawdd pob gwlad wedi eu penderfynu gan ei moroedd, ffurf ac uchder ei mynyddoedd, amledd ei llynoedd, natur ei chreigiau, eangder a llun ei dyffrynoedd, ei lleoliad, a lluaws o bethau ereill. Hônir gan luaws a wadant ymyriad dwyfol â deddfau hin, fod ymyriad dwyfol â meddyliau; eto cedwir o fewn cylch gweithrediad deddfau gwahanol feddyliau. Er i ddyn cyffredin gael ei ddylanwadu oddi uchod, ofer fyddai dysgwyl iddo yn wyrthiol gael ei ysbrydoli fel prophwyd. Felly ofer yw dysgwyl am ymyriad dwyfol gyda thywydd, fel ag i obeithio cael tywydd yn y wlad gogystal ag eiddo gwledydd mwy tymmerus. Tywydd ynysol, sef un gwlyb a chyfnewidiol, fydd ein tywydd ni yma bob amser. Er fod deddfau tywydd am a wyddom ni, yn berffaith sefydlog, eto y mae yn rhaid cydnabod fod lle wedi ei adael i ddynion i amrywio tipyn ar eu gweithrediadau Y mae pob gwlad â'i hinsawdd yn iachach, a'i thywydd yn fwy dymunol, o gael ei thrin, ei harloesi, a'i sychu yn briodol. Dyma le i ddyn amrywio peth ar weithrediadau deddfau tywydd; ac os oes hyn o le wedi ei adael i ddyn i amrywio,

Digitized by Google

yn hanfodol—nid mewn ymddangosiad yn unig, nac wedi ei greu felly—yn *ddelw* neu wir lun person y Tad. Gwahanol bersonau ydynt yn yr un hanfod, a'r un priodoliaethau dwyfol yn perthyn i'r naill fel y llall i'r un graddau. Fel y dywed Mr. Charles, "nid y mae delw y Duw anweledig *arno*, ond delw y Duw anweledig *ydyw ef ei hun*, yn gyfan ac yn hollol; yr hyn yw y Tad, hyny ydyw y Mab; a'r hyn yw y Mab, hyny ydyw y Tad—heb un yn fwy na llai na'u gilydd."

Dywed yr apostol, "Megys y dygasom ddelw y daiarol, ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol;" 1 *Cor.* xv. 49. Hyny yw, megys y dygasom ddelw Adda bechadurus ac anufudd, ac y dilynasom ei esampl, dylem ymdrechu cael delw yr Ail Adda ar ein calonau; ei ufudd-dod, ei ostyngeiddrwydd, ei amynedd, ei addfwynder, &c." Y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir ddelw y pethau;" *Heb.* x. 1. Cyfeiria y gair *cysgod* yn y fan hon hon at fraslun-iad o rywbeth, y fath ag a dŷn saer â dernyn o farm, neu y fath ag a arlinella celfyddydwr, pan ar fedr tynu ardeb neu lun. Efe a frasdyn amlinell o'r gwrthddrych y bwriada ei dynu, yn dwyn rhyw debygolrwydd iddo, ond nid y "wir ddelw;" canys nid ydyw eto yn gyflawn. Cyfeiria y geiriau a gyfieithir "gwir ddelw" at ardeb neu lun gorphenedig, lle y byddo pob rhan yn eilun manwl o'r gwrthddrych. Y "daionus bethau i ddyfod" a gyfeiriant at y bendithion dyfodol a gyfrenid i ddyn drwy'r efengyl. Y meddwl yw, fod y darluniad yn anmherffaith dan yr hen aberthau—dim ond amlinell yn unig—o'r bendithion a gyfranai yr efengyl i ddynion. Darluniad cysgodol oeddynt; nid oeddynt y fath ag y gellid hòni yr atebent ddyben y pethau a gynnrychiolent, ac y perffeithient y rhai a'u hoffryment. Nis gallai y fath fraslun anmherffaith ateb y dyben i achub yr enaid, mwy nag yr ateba braslun a dynai adeiladydd y dyben o dŷ, na mwy nag yr atebai yr arlun cyntaf a dynai paentiwr y dyben o ardeb perffaith a gorphenedig. Yr hyn oll a ellid ei wneuthur drwy y naill neu y llall a fyddai, trosglwyddo rhyw syniad pell a thywyll o'r peth a allai tŷ neu ardeb fod; a hyn oedd y cwbl a wnaed drwy gyfraith Moses.—*Barnes.* Darllenwn (*Dad.* xiii. 14, 15) fod Duw wedi goddef i'r bwystfil i dwyllo dynion, yr hwn a orchymynodd iddynt i wneuthur *delw* i'r bwystfil, yr hon a dderbyniodd anadl fel y llefarai; a lleddid y sawl nad addolent ddelw y bwystfil. Yn ol Rabbi Solomon, eilunod wedi eu gosod ar benau tai, yn mhelydrau yr haul, oedd y delwau y crybwyllir am danynt yn *Lef.* xxvi. 30; *Esa.* xxvi. 9. Ond dywed Abenezra mai capeli, neu demlau bychain symmudol oeddynt, ar ffurf cerbydau, er anrhydedd i'r haul. Deillia y gair *chamanim* (delw) o'r gair *chaman*, yr hwn a arwydda *twymno, llosgi*. Mae yn bosibl mai eilunod oeddynt o glai llosgedig. Nid ymdrinir yn y lle hwn â delwau yn yr ystyr o eilunod, ond cyfeiriwn y darllenydd at yr erthygl dan y gair EILUN.—(*Calmet's Dict.*; *Buck's Theol. Dict.*)

DELWADDOLIAETH. Gwel EILUNADDOLIAETH.

DELWDORWYR, [*Iconoclastes*, neu *Iconoclastæ*, o'r Groeg εἰκων=delw, a κλαζω=tori]: enw a rydd Eglwys Rhufain ar bawb a wrthodant ddefnyddio delwau yn nglŷn âg addoliad. Yn yr ystyr yma, gelwir nid yn unig yr Eglwysi Diwygiedig ond rhai eglwysi dwyreiniol hefyd yn ddelwdorwyr, ac ystyria y Pabyddion hwynt yn hereticiaid, fel rhai gwrthwynebol i addoli delwau o Dduw a'r saint, gan eu dryllio yn yr eglwysi.

Dechreuodd y gwrthwynebiad i ddelwau yn Groeg, dan deyrnasiad Bardanes, yr hwn a wnaed yn ymherawdwr y Groegiaid yn nechreuad yr wythfed ganrif, pan yr oedd eu haddoli wedi dyfod yn beth cyffredin. Gwel EILUN. Ond darostyngwyd y cynhyrfiadau a achlysurodd hyn gan chwyldroad, yr hwn, yn B.A. 713, a amddifadodd Bardanes o'r orsedd ymherodrol. Pa fodd bynag, torodd y ddadl allan drachefn gyda ffyrnigrwydd dau-ddyblyg dan deyrnasiad Leo yr Isauriad, yr hwn a gyhoeddodd ddeddf yn B.A. 726, i ddiddymu addoliad delwau, medd rhai, gan orchymyn i'r holl ddelwau, ond delw croes Crist, i gael eu symmud o'r eglwysydd; ond yr unig beth a wnai y ddeddf hon, yn ol ereill, oedd gwahardd rhoddi un math o addoliad iddynt. Bu y gyfraith yma yn achlysur o ryfel gartrefol, yr hon a dorodd allan yn ynysoedd yr Ynysfor, a thrwy annogaethau yr offeiriaid a'r mynachod, anrheithiodd ran o Asia, ac wedi hyny a gyrhaeddodd i Italy. Cefnogid y cynhyrfiadau a'r terfysgoedd gwladol yn Italy yn benaf gan y pabau Rhufeinig—Gregory I. ac II. Esgymunwyd Leo; a thorodd ei ddeiliaid yn Italy eu hymrwymiadau iddo, gan gymmeryd arfau, a lladd neu alltudio holl gynnrychiolwyr a swyddogion yr ymherawdwr. Mewn canlyniad i hyn, cynnullodd Leo gynghor yn Nghaercystenyn yn B.A. 730, lle y diraddiwyd Germanus, esgob y ddinas, oedd yn noddwr delwau; a gorchymynodd ar i bob delw gael ei llosgi yn gyhoeddus, a gweinyddodd amryw gospedigaethau trymion ar y rhai a ymlynent wrth y cyfryw eilunaddoliad. Mewn canlyniad i hyn, cyfododd dwy blaid—un yn arfer addoli delwau, ac am hyny a alwyd delw-addolwyr (*iconoduli*, neu *iconolatræ*, o εἰκων=delw, a λατρεια=addoliad), a'r llall yn dal allan fod y fath addoliad yn anghyfreithlawn, ac nad oedd dim yn fwy teilwng o sel Cristionogion na dyfetha a dystrywio y delwau a'r lluniau a barent y fath eilunaddoliaeth wrthun; ac felly dynodid hwy wrth yr enw *delwdorwyr*. Nid yn unig dilynwyd sel Gregory II. mewn addoliad delwau, ond rhagorwyd arno gan ei olynydd Gregory III; ac mewn canlyniad i hyn rhwygwyd y taleithiau Italaidd oddi wrth ymherodraeth Groeg. Yn B. A. 754, cynnullodd Constantine a elwid Copronymus gynghor yn Nghaercystenyn, a olygid gan y Groegiaid fel y seithfed cynghor cyffredinol, lle y condemniwyd yn ddifrifol addoliad a defnyddiad delwau. Mewn canlyniad i ddedfryd y cynghor, cospwyd yn llym y rhai a gyfodent gythrwfl yn y llywodraeth, a gwnaed cyfreithiau newydd i osod terfyn ar drawsder y mynachod. Dilynodd Leo IV. a gyhoeddwyd yn ymherawdwr yn 775, yr un mesurau; a defnyddiodd ddylanwad gorfodol cyfreithiau cospawl er mwyn dileu delwaddoliaeth o'r Eglwys Gristionogol. Yn 780, gwenwynodd Irene, gwraig Leo, ei gŵr, gan gymmeryd awenau y llywodraeth i'w llaw ei hun tra yr oedd ei mab Constantine dan oed; ac yn 786, galwyd cynghor yn nghyd yn Nicea, yn Bithynia, a adnabyddir wrth yr enw Ail Gymmanfa Nicea, yr hon a ddileodd y cyfreithiau a'r dedfrydau yn erbyn yr eilunaddoliaeth newydd, a adferodd addoliad delwau a'r groes, ac a gyhoeddodd gospedigaethau llymion yn erbyn y rhai a ddalient allan mai Duw oedd unig wrthddrych addoliad

Digitized by Google

bresennol, rhyw lysoedd mewn cyssylltiad â hwynt, ac y mae rhywbeth yn arbenig ynddynt oll gyda golwg ar eu huchafiaid ysbrydol, ac yn yr awdurdod a weinyddir ganddynt. Y prif rai o honynt ydyw—deon Westminster; deon capel St. George, Windsor; deon Eglwys Crist, Rhydychain; deon yr Archau; deon Capel y Brenin; deon Battel; deon Bocking; deon Middleham, &c. Pe olrheinid hanes y sefydliadau hyn i'w tarddiad, ceid gweled mai sefydliadau eglwysig oeddynt, yn benaf o benodiad breninol, ac yn meddu breintiau ac awdurdod neillduol, y rhai a ddiangasant heb eu chwalu pan yr aeth sefydliadau eglwysig Lloegr dan beth cyfnewidiad yn amser y Diwygiad. Y mae hefyd *ddeoniaid anrhydeddus*, megys deon Capel Breninol palas St. James. Y mae esgob Llundain yn ddeon talaeth Caergaint, a bydd archesgob Caergaint yn anfon ei orchymyn iddo i wysio esgobion ei dalaeth i gymmanfa eglwysig, pan y bydd hyny yn angenrheidiol.—(*Cycl. of Pol. Knowl.; Penny Cycl.*)

DEON YR ARCHAU. Gwel ARCHAU, LLYS YR

DEONGLIADAETH YSGRYTHYROL. O dan y gangen hon o wybodaeth, fe ymdrinir yn gyffredin â'r hyn a elwir, yn iaith duwinyddiaeth ddiweddar, yn *Hermeneutics*, ac yn *Exegesis*. Er fod y ddau air uchod, o ran eu gwreiddiau, yn arwyddo yr un peth, eto y mae arferiad wedi rhoddi iddynt ystyr gwahanol i'w gilydd: y cyntaf yn gosod allan yr egwyddorion hyny a ddylai lywodraethu deongliadaeth Ysgrythyrol; a'r ail yn arwyddo y cymhwysiad a wneir o'r egwyddorion hyn at ddeongli unrhyw ran o'r Beibl. Nid oedd yn bosibl i *Hermeneutics* gael ei ffurfio fel gwyddor cyn i lawer o anturiaethau gael eu gwneuthur mewn esboniadaeth. Er hyny, hyd yn oed ar y cyntaf, yr oedd yr egwyddorion ag sydd i'w cymhwyso mewn eglurhadaeth, yn cael eu dwyn i weithrediad yn yr esboniad gyda mwy neu lai o ymwybyddiaeth o du yr esboniwr. Nid oedd *Hermeneutics*, ar y dechreu, yn amgen na chrynhoad o sylwadau buddiol; yn raddol y ffurfiodd ei hun yn gyfundrefn sylfaenedig ar egwyddorion eglur ag sydd yn deilliaw yn uniongyrchol o natur, meddwl, ac iaith.

Wedi cael y Beibl i'n meddiant, mae yn naturiol i ni ofyn, Pa foddion sydd i'w defnyddio er deall yr hyn a gynnwysir ynddo? Gan ei fod wedi ei lefaru mewn iaith ddynol, a'i fwriadu i ddynion, mae yn amlwg fod ei ddeongliadaeth i gael ei ddwyn yn mlaen yn unol â'r egwyddorion sydd i lywodraethu deongliad unrhyw lyfr arall. Nid ydyw ei ddeongliadaeth yn gwahaniaethu oddi wrth ddeongliadaeth gyffredinol yn mhellach nag yn ei chymhwysiad neillduol at y Beibl, yn yr hyn y mae ei gymmeriad duwinyddol a chrefyddol i'w gymmeryd o dan ystyriaeth.

Tuag at fod yn alluog i ddeongli unrhyw lyfr, mae yn angenrheidiol bod yn hyddysg yn yr iaith yr ysgrifenwyd ef ynddi. Heb hyn nid yw yn ddichonadwy i wneuthur ymchwiliadau annibynol i gynnwysiad y llyfr. Mae yn bosibl i'r iaith fod yn anhawdd i'w deall, am ei bod yn iaith farw, a'i diwylliad wedi ei esgeuluso am ganrifoedd meithion. Ond pa faint bynag fydd yr anhawsderau, mae yn rhaid meistroli yr iaith cyn y gellir cael gafael yn ei thrysorau. Cyfansoddwyd y Beibl mewn tair o ieithoedd henafol, y rhai, o herwydd amrywiol achosion, ydynt yn annawdd i'w deall. Nid ydym mewn sefyllfa i farnu drosom ein hunain mewn perthynas i feddwl y gyfrol ysbrydoledig, cyn y byddom wedi ein gwneyd ein hunain yn gyfarwydd â'r ieithoedd hyn.

Wedi dysgu iaith y llyfr, fe ofynir yn naturiol pa fath feddyliau a gynnwysir ynddo;. pa un ai rhai yn dwyn cyssylltiad â'n cylch presennol o hanfodiad, ai cylch uwch—pa un ai tymmorol ai ysbrydol? Tuag at ateb y gofyniad hwn, nid oes eisieu i ni ond cymmeryd y meddyliau o dan ystyriaeth, yn annibynol ar yr iaith neillduol yn mha un y gosodir hwy allan. Wedi gadael cyntedd nesaf allan iaith ddynol, dylem ymdrechu cyrhaedd cyntedd nesaf i mewn y meddylddrychau. Mae gwaith y deonglydd yn ddeublyg, sef deall yr iaith, a deall y meddyliau a gynnwysir ynddi. Wrth ymdrin â deongliadaeth Ysgrythyrol, mae yn weddus i ni, gan hyny, sylwi ar

I. Yr ieithoedd gwreiddiol yn mha rai yr ysgrifenwyd y Beibl.

II. Y meddyliau a osodir allan yn yr Ysgrythyrau drwy gyfrwng yr ieithoedd hyn.

III. Y gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd o'r dechreuad hyd yn bresennol i ddeongli yr Ysgrythyrau, o ran iaith yn gystal a meddwl; neu, mewn geiriau ereill, hanes deongliadaeth Ysgrythyrol am yn agos i ddwy fil o flyneddoedd.

I. Ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyr.

1. Hebraeg ydyw prif iaith y Beibl. Y mae ei dylanwad yn ganfyddadwy ar Aramaeg a Groeg yr Ysgrythyrau. Fe fu yn iaith fyw i'r Iuddewon o dan yr hen oruchwyliaeth am ddeuddeg can mlynedd. Mewn cyfnod maith o amser, y mae yn bosibl i iaith newid llawer, ac i'r rhanau diweddaf sydd ar gael fod yn dra gwahanol i'r rhanau cyntaf a ysgrifenwyd. Y mae hyn i'w ganfod wrth gymharu cyfansoddiadau boreuaf yr Hen Destament â'r rhai diweddaraf. Nis gellir meddwl fod yr Hen Destament yn cynnwys yr holl ysgrifeniadau a gyfansoddwyd yn yr iaith Hebreig; yn wir, y mae crybwylliadau ynddo am lyfrau ereill. Ond yr ydym yn ddyledus i'r Beibl am gymmaint o Hebraeg ag sydd ar gael o Hebraeg yr hen fyd. Mae yr Ysgrythyr yn cynnwys darnau o gyfansoddiadau hollol wahanol o ran eu cymmeriad i'w gilydd:—rhai mewn rhyddiaith, ac ereill mewn barddoniaeth. O'r olaf, mae gwahanol fathau yn y Beibl; ac y mae y darnau mewn rhyddiaith ynddo yn bur wahanol i'w gilydd, er nad ydyw yr amrywiaeth mor ganfyddadwy a phe buasem yn feddiannol ar lenyddiaeth yr Hebreaid yn ei chylchrediad helaethaf. Wrth gymmeryd golwg ar yr holl amgylchiadau uchod, nis gallwn lai na gweled fod yr anhawsderau i iawn ddeall yr iaith Hebreig yn fawrion a lluosog. Mae y Groeg a'r Lladin yn rhydd i raddau oddi wrth yr anhawsderau hyn. Hefyd, y mae yn yr Hen Destament ysgrifeniadau o wahanol barthau o Wlad Canaan, ond yn benaf o Iudea a Ierusalem; y mae ereill o'r rhan ogleddol o'r wlad, ac yn wahanol o ran lliw eu hiaith i'r iaith gyffredin a ddefnyddir yn y Beibl. Mae yn fwy anhawdd adnabod priodieithoedd yr Hebraeg nag eiddo y Groeg, o herwydd fod cylchrediad llenyddiaeth y gyntaf wedi bod mor gyfyng—ychydig o lyfrau yn unig sydd ar gael. Heb law hyny, mae yn yr Hen Destament lawer o eiriau, y rhai a ddygwyddant ond unwaith neu ddwy, neu ynte yn bur anaml; ac y mae cael allan ystyr y rhai hyn, a chyfrif yn foddhaol am eu ffurfiau neillduol, yn waith anhawdd. Er fod yr Hebraeg yn syml o ran ei



Digitized by Google

chystrawen, ac yn mhell o fod yn lluosog iawn o ran ei geiriau, eto y mae cylchrediad cyfyng ei llenyddiaeth, yn gystal ag anghydweddau llawer o'i geiriau, yn ei wneyd yn waith anhawdd. Hefyd, pan oedd yr iaith Hebraeg yn cael ei siarad ac yn flodeuog, nid oedd un ymgais yn cael ei wneuthur er deall ei gramadeg. Nid yw gramadeg yn amgen nag olrheiniad i, a gosodiad allan o, egwyddorion iaith, fel y mae yn ymddangos mewn ysgrifen. Yr oedd yn ddiffyg cyffredinol yn yr hen fyd nad oedd neb yn gofalu dim yn nghylch gramadeg iaith. Yn mhlith y Groegiaid, Socrates, Plato, a'r twyll-ymresymwyr (*sophists*), oeddynt y rhai cyntaf i olrheinio gramadeg yr iaith Roeg. Nid oedd ymchwiliadau Plato i'r gangen hon o wybodaeth ond hynod arwynebol. Wedi i'r iaith Hebreig ddadfeilio yn mhlith y genedl y dechreuwyd ei dysgu yn ramadegol. Y gofgolofn fwyaf o ymdrechiadau dysgedigion yn y cyfeiriad hwn o'r canrifoedd olaf cyn Crist ydyw cyfieithiad y Deg a Thrigain.

Yn nesaf, ni a ofynwn, A ydyw yn bosibl i ni yn yr oes hon ddeall iaith Hebreig y Beibl, a pha foddion a allwn ddefnyddio er cyrhaedd gwybodaeth drwyadl o honi? Yr ateb ydyw, y gallwn: a thraddodiad ydyw un o'r moddion a arferir i hyny. Y mae dau fath o draddodiadau:—

1. Cyfieithiadau. Cyfieithiad y Deg a Thrigain, a ddechreuwyd yn y flwyddyn 300 c.c., ac a ddiweddwyd yn y flwyddyn 100 c.c. Er fod y cyfieithiad hwn yn ddefnyddiol ar lawer ystyr, ac yn enwedig fel dangoseg o'r modd yr oedd yr iaith Hebreig yn cael ei deall gan ddysgedigion yr oes yn mha un y gwnaed y cyfieithiad Groegaidd, eto nid yw yn ddigon i'n galluogi i orchfygu yr holl anhawsderau ag sydd yn gyssylltiedig â'r iaith Hebreig, gan fod llawer o eiriau a brawddegau yn dywyll ac aneglur ynddo. Ond heb law y moddion ysgrifenedig hyn,

2. Mae traddodiad geneuol (*oral tradition*) yr Iuddewon yn fanteisiol i'r un dyben. Fe gafodd yr iaith hon ei defnyddio fel iaith ddysgedig yn ysgolion dysgedig y Rabbiniaid, wedi i ganon yr Hen Destament gael ei gwblhau. Yno y parhaodd i fod yn iaith fyw, er nad oedd yn cael ei siarad fel yn yr hen amser, pan oedd yn iaith y bobl hefyd. Cofgolofn o hyn ydyw y Talmud, ac yn enwedig *testyn* y Talmud, yr hwn a elwir Mishna—ailadroddiad y gyfraith, Deuteronomium Iuddewaidd. Fe ysgrifenwyd hwn yn y drydedd ganrif o oes ein Iachawdwr, yn yr iaith Hebreig. Yn yr amser hwnw, yr oedd yr Hebraeg i'r Iuddew dysgedig, yr hyn oedd y Lladin i'r cenedl-ddyn dysgedig yn y canoloesoedd. Ond yn oes cyfansoddiad y Talmud, yr oedd yr iaith Hebreig wedi newid yn fawr; canys fe ddefnyddir lluaws o eiriau newyddion yn gystal a ffurfiau newyddion ar eiriau yn y Mishna. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg y gwnaed ymdrechiadau mawrion gan ddysgedigion Cristionogol i wneyd eu hunain yn gyfarwydd â'r holl lenyddiaeth Iuddewig. Y pryd hyny y deallwyd fod ei chylchrediad mor helaeth, a'i phwysigrwydd mor fawr. Pan ddechreuodd dysgedigion yr Eglwys Gristionogol fyfyrio llenyddiaeth yr Iuddewon gyda sel, fe grewyd dysgwyliadau rhy uchel ynddynt oddi wrth yr efrydiaeth hon. Gan nad oedd y manteision a gawsant oddi wrth ei hastudio yn gyfartal i'r dysgwyliadau a goleddwyd, yr oedd yn naturiol i wrthweithiad gymmeryd lle, ac i'r gangen hon gael ei hesgeuluso yn ormodol eilwaith. A byddai yn beth tra dymunol iddi gael ei diwyllio eto gyda sel, gan ei bod yn cynnwys llawer o drysorau gwerthfawr a buddiol i efrydydd yr iaith Hebreig. Er hyny, ni ddylid gosod ymddiried hollol ynddi, gan fod llawer o eiriau a brawddegau a drosglwyddwyd trwy draddodiad yn hollol ansicr o ran eu gwir ystyr. Nid ydym yn alluog trwy gymhorth traddodiad yn unig i gael allan wir feddwl yr iaith Hebreig. Ac yr oedd yr un faint o angen ardystio yn erbyn (*protest against*) traddodiad geneuol yr Eglwys Iuddewig, ag oedd i wneuthur hyny â thraddodiad geneuol yr Eglwys Babaidd.

Y moddion arall a ddylid ei ddefnyddio er cyrhaedd gwybodaeth ddofn o'r iaith Hebreig ydyw, ei chymharu âg ieithoedd cyfathrachol ac anghyfathrachol, yn gystal ag â phob iaith ddynol. Po leiaf y byddo cylchrediad unrhyw iaith, mwyaf yn y byd o angen sydd iddi gael ei hastudio mewn cyssylltiad â'r ieithoedd cyfathrachol iddi. Ni a gymhwyswn hyn at yr iaith Hebreig, yr hon sydd gangen o gyff yr ieithoedd Semitaidd. Mae yr enw hwn yn arferedig er ys o ddeutu can mlynedd, ac yn seiliedig ar *Gen.* x. 21; ond nid ydyw yn eithaf priodol, gan y cyfrifir ynddo ieithoedd yn perthyn i'r dosbarth Semitaidd, y rhai, yn ol Genesis, a berthynant i gyff arall.

(1.) Yr iaith agosaf a thebycaf i'r Hebraeg ydyw y Ganaanaeg neu y Phœniciaeg (yr enw Groegaidd), yr hyn, yn ol *Gen.* x. 20, a berthyn i Cham, ac nid i Sem. Yr oedd yr iaith hon yn cael ei siarad yn Affrica, yn Carthage, ac ynysoedd ereill Môr y Canoldir. Pe buasai hon wedi ei chadw, ni a fuasem yn feddiannol ar y moddion goreu i ddeall yr iaith Hebraeg. Ond y mae ei llenyddiaeth gan mwyaf wedi diflanu; er hyny y mae ychydig o'r gweddillion wedi eu cyfieithu gan y Rhufeiniaid, y rhai nid oeddynt, mwy na'r Groegiaid, yn gofalu nemawr am fod yn hyddysg yn iaith dyeithriaid. Yr oedd hwn yn ddiffyg cyffredinol yn yr hen fyd. Llawer iaith a aeth ar goll trwy ddifaterwch gorchfygwyr y genedl gan yr hon yr arferid siarad yr iaith. Mewn perthynas i'r iaith dan sylw, mae yn hysbys fod graddau o oleuni wedi ei daflu arni yn y blynyddoedd diweddaf trwy yr ymchwiliadau llwyddiannus sydd wedi cael eu gwneuthur i arysgrifau ar fathodau, beddfeini, ac ogofeydd. Ond nid oes un llyfr yn yr iaith hon wedi ei ddarganfod, ac nid yw y bathodau yn cynnwys ond ychydig eiriau, deongliad pa rai sydd yn bur anhawdd. Ysgrifenodd Gesenius enwog lyfr ardderchog ar gofgolofnau henafiaethol Phœnicia, yr hwn sydd yn cynnwys ymchwiliadau dysgedig gwir lwyddiannus, er fod ynddo rai pethau sydd erbyn hyn yn cael eu hystyried yn anghywir.

(2.) Yr Aramaeg. Yr oedd yr iaith hon yn cael ei llefaru yn y gwledydd Arameaidd, Syria, a Mesopotamia. O hon y deilliodd y Galdaeg a'r Syriaeg. Fe ystyrir y rhai hyn yn gyffredin yn ddwy briodiaith wahanol: un yn cael ei siarad yn Babilon a Chaldea, a'r llall yn Syria a Mesopotamia; ac felly fe elwir y naill yn Aramaeg Ddwyreiniol, a'r llall yn Aramaeg Orllewinol. Mae eraill yn dal na bu y Galdaeg erioed yn cael ei llefaru fel priodiaith wahanol i'r Syriaeg. Nid oedd ond cangen o'r Aramaeg yn gymmysgedig â'r Hebraeg. Yr ydym yn ddyledus i'r ysgrifdystiau Iuddewig yn gyfangwbl am ein gwybodaeth o honi.

Y Syriaeg sydd briodiaith Aramaeg ddiweddar, yr hon a gafodd ei diwyllio gan y Syriaid Cristionogol yn Edessa a Nisibis. O'r ail ganrif wedi

Digitized by Google

amser Crist, yr oedd ei llenyddiaeth yn gyfoethog, yn enwedig mewn duwinyddiaeth; ond o herwydd i'r Cristionogion gael eu gwasgaru gan y Mahometiaid, nid ydyw y llenyddiaeth hon wedi ei chadw gystal i ni a'r llenyddiaeth Arabaidd. Nid ydyw iaith y Zabeaid, neu ddysgyblion Ioan Fedyddiwr, ond priodiaith Syriaeg ddiweddar wedi llygru yn fawr. Mae y Syriaeg yn cael ei siarad yn bresennol gan Gristionogion yn Hindwstan a Mesopotamia. Mae yr Aramaeg yn perthyn yn agos i'r iaith Hebreig, ac y mae yn wasanaethgar i'w hegluro, er ei bod yn symlach ac yn dlotach na hi.

(3.) Yr Arabaeg. Ysgrifeniadau yr Arabiaid ydynt y lluosocaf sydd ar gael o holl weithiau y cenedloedd Semitaidd. Er nad oes ond ychydig o weddillion y llenyddiaeth hon ar gael oddi ar yr amser cyn Mahomet, eto fe gadwyd yn lled gryno yr ysgrifeniadau perthynol i'r iaith hon, o'r seithfed, yr wythfed, a'r nawfed ganrif yn mlaen. Ond y mwyafrif o'r rhai hyn sydd mewn llawysgrifau; eto, y mae llawer o honynt wedi eu cyhoeddi yn y ddau can mlynedd diweddaf, ac yn enwedig yn ystod yr hanner cant olaf.

Y mae gwybodaeth o'r Arabaeg yn anhebgorol angenrheidiol i unrhyw un fyddo yn ewyllysio gwneuthur ymchwiliadau dysgedig annibynol i'r ieithoedd Semitaidd, o blegid y mae llawer gwreiddyn gair sydd ar goll yn yr ieithoedd ereill ar gael yn hon. Y mae yn allwedd i'r holl ieithoedd Semitaidd; ac yn nesaf at yr Hebraeg, y fwyaf dyddorol o honynt. Mae yr iaith yn fwy diwylliedig, a'i llenyddiaeth yn fwy cyfoethog na'r lleill. Y mae yn cael ei siarad yn bresennol mewn rhanau o Asia ac Affrica.

(4.) Yr Ethiopaeg oedd iaith trefedigaeth Arabaidd yn Ethiopia, ac yn perthyn yn agos i'r briodiaith Himjaritaeg. Mae yn adnabyddus trwy gyfieithiad o'r Beibl a wnaed ynddi, yn gystal a thrwy weithiau eglwysig ereill. Fe barhaodd i fod yn iaith y bobl yn Abyssinia hyd y drydedd ganrif, pryd y newidiwyd hi am yr Ammhariaeg. Y gramadeg goreu yn yr iaith hon, a gyhoeddwyd yn 1857, gan Dr. Dillmann; a'r geirlyfr goreu iddi ydyw yr hwn a gyfansoddwyd gan Hiolo Ludolf, yr hwn a ddechreuodd gyfnod newydd yn astudiaeth yr iaith hon.

Y mae llawer o'r ieithoedd Semitaidd, y rhai oeddynt yn blodeuo yn yr hen fyd, wedi eu colli yn gyfangwbl erbyn hyn; ond os bydd i arysgrifau o'r ieithoedd hyn gael eu darganfod, y mae yn debygol y ceir goleuni newydd arnynt.

Y mae yr Assyriaeg wedi bod ar goll am ganrifoedd meithion; eto, yn ystod y blyneddoedd diweddaf, y mae wedi ei galw o'i hadfeilion i fywyd eilwaith. Y mae yr Assyriaeg yn iaith sanctaidd, yn perthyn yn agos i'r Aramaeg, ac yn gymmysgedig â llawer o elfenau dyeithrol. Fe ddaeth yr Assyriaid i gyffyrddiad â'r Israeliaid yn y flwyddyn 800 c.c. A byddai bod yn hyddysg yn yr iaith hono yn gymhorth i egluro llawer rhan o'r Hen Destament; ond iaith anhawdd i'w deongli ydyw yr Assyriaeg, gan fod ei hysgrifen mor ddyeithr. Nid yw Rawlinson, hyd yn hyn, wedi gwneuthur llawer mwy na thaflu allan dybiau mewn perthynas i'r iaith hon. Ond y mae cymdeithas Ffrengig, yr hon a ymwelodd â'r dwyrain, wedi gwellhau llawer ar olrheiniadau Rawlinson i'r Assyriaeg. Os bydd rhywun yn cymmeryd arno ddefnyddio yr ieithoedd Semitaidd, hen a newydd, i egluro yr iaith Hebraeg, fe ddylai eu dysgu yn berffaith. Os boddlona ar wybodaeth arwynebol o honynt, y mae mewn perygl o wneyd mawr niwed. Ni ddylem roddi ymddiried hollol hyd yn oed mewn geirlyfrau, canys y mae y rhai hyny ar brydiau yn anghywir.

Er fod cydnabyddiaeth o'r ieithoedd Semitaidd yn fanteisiol, ac hyd yn oed yn angenrheidiol, tuag at gyrhaedd gwybodaeth ddwfn o'r iaith Hebreig; eto, dylid cofio fod i'r olaf ei neillduolion, y rhai nas gellir eu hesbonio ond yn ei goleuni ei hun. Y mae llawer wrth gymharu yr Hebraeg a'r Arabaeg wedi myned i eithafion trwy esbonio ymaith neillduolion y gyntaf, a chyfrif am danynt yn ol egwyddorion penodol yr olaf. Fe aeth Albert Schulteus yn rhy bell yn y cyfeiriad hwn. Dylid cofio, er fod y ddwy iaith hon yn perthyn yn agos ac yn debyg i'w gilydd, eu bod yn wahanol, ac mai nid un iaith ydynt. Y mae, er hyny, yn fanteisiol eu cymharu, gan fod yr hyn sydd weithiau yn aneglur yn yr Hebraeg yn derbyn goleuni newydd oddi wrth yr Arabaeg; ac felly y gellir dyweyd am yr holl ieithoedd Semitaidd—yr hyn sydd dywyll yn y naill sydd yn aml yn oleu yn y llall: y mae yn fanteisiol iawn gan hyny eu cymharu â'u gilydd. Ond nid yn unig y mae yn fanteisiol i gymharu yr Hebraeg â'r ieithoedd sydd wedi codi o'r un cyff cyffredin, ond hefyd dylid ei chymharu â'r ieithoedd Indo-Almaenaidd; ïe, â'r holl ieithoedd dynol, gan beri iddynt dalu teyrnged i dduwinyddiaeth. Mae rhyw debygolrwydd yn holl ieithoedd y byd i'w gilydd; ac y mae rhai o'u hegwyddorion seiniol yr un. Po mwyaf o ieithoedd y byddo dyn yn hyddysg ynddynt, hawddaf y bydd iddo ddysgu rhyw iaith neillduol. Y mae yr Hebraeg yn mhell o fod yn iaith hawdd; er hyny, y mae yr ymchwiliadau llwyddiannus a wnaed i'r iaith hon yn yr hanner canrif diweddaf yn ernes digonol o'r hyn a wneir yn y dyfodol. Nis gellir dysgwyl gwybodaeth drwyadl a hollol o'r holl ieithoedd Semitaidd oddi wrth bob duwinydd, gan y cymmerai y drafferth o'u dysgu lawer gormod o'i amser. Mae hyny o wybodaeth o'r iaith Hebreig a ellir ei chyrhaedd trwy gymhorth gramadeg a geirlyfr yn ddigon i ateb y dyben i'r mwyafrif o dduwinyddion. Nis gellir dysgwyl mwy na hyn oddi wrth weinidogion y gair yn gyffredinol; ond dylai y dyn fydd yn cymmeryd arno dreiddio yn ddwfn i'r iaith Hebreig, a'r hwn sydd yn amcanu taflu goleuni newydd ar ranau tywyll o'r Hen Destament, wneyd ei hun mor gyfarwydd ag y gall yn yr holl ieithoedd Semitaidd, a hyny hefyd yn eu holl gangenau.

2. Yr ail iaith Ysgrythyrol ydyw yr Aramaeg. Hwn ydyw yr enw gwreiddiol cywir a ddefnyddir yn yr Hen Destament am yr iaith a leferid yn y gogledd i Palestina; hyny yw, Assyria, Mesopotamia, Babilon, a Syria; ac yn gydweddol â hinsawdd arw y gwledydd hyn, y mae yr iaith yn arw a thrwsgl o ran ei chydseiniau, yn dlawd ac yn drwm o ran ei llefariad; ac o'r holl ieithoedd Semitaidd, y leiaf ddiwylliedig. Yr un yw yr iaith hon a'r Syriaeg: y mae yr enw olaf hwn yn dalfyriad o'r gair Assyriaeg. Arferai y Groegiaid alw yr Assyriaid yn Syriaid. Yr olaf yw yr enw mwyaf hawdd a chyffredin, a'r cyntaf ydyw yr un mwyaf penodol. Yr oedd yr Assyriaid yn gangen o'r Arameaid. Yn y flwyddyn 800 c.c. y daeth yr enw Assyriaid yn enw cyffredin, ac y cymmerodd le yr hen enw Arameaid. Y gweddillion hynaf o'r iaith Aramaeg sydd yn gynnwysedig yn *Gen.* xxxi. 47 lle y defn-

Digitized by Google

yddir dau air o'r iaith hon—y ddau air hynaf mewn coffadwriaeth. Fe leferir yma am berthynas Iacob a Laban: yr oedd yr olaf yn Aramead, a'r cyntaf yn Hebrëwr, er ei fod wedi dyfod i Palestina o'r tir gogleddol iddi. Sonir yma am gofgolofn, yr hon a osodir i fyny gan y ddau arwr fel cofgolofn heddwch rhyngddynt. Yr oedd rhyfeloedd yn arfer bod rhwng yr Hebreaid a'r Arameaid, y rhai oeddynt yn byw yn ymyl eu gilydd; ond yn awr, wele heddwch yn cael ei sefydlu, a chofgolofn o'r amgylchiad yn cael ei gosod ar y terfyn rhwng y ddwy wlad. Yr oedd y ddwy genedl yn enwi y gofgolofn heddwch yn eu hiaith eu hunain—un yn Aramaeg, a'r llall yn Hebraeg. Oddi wrth y ddau air hyn, yr ydym yn casglu fod yr Aramaeg wedi ymffurfio yn iaith wahanredol ddwy fil o flyneddoedd cyn Crist.

Adnod Arameaidd ydyw *Ier.* x. 11, yn nghanol yr Hebraeg. Y mae yr iaith yma yn oruchel, barddonol, a phrophwydoliaethol. Y mae yn amlwg nad ydyw yr adnod hon yn ei lle priodol. Nis gall lai nag ymddangos yn ddyeithr bod un adnod Aramaeg yn nghanol adnodau Hebreig. Yr oedd Ieremïah yn Hebrëwr pur. Yr hyn sydd yn fwyaf tebygol ydyw, bod yr adnod hon wedi ei chwanegu at destyn llyfr Ieremïah er amser y caethiwed. Ar y cyntaf, cafodd ei gosod, yn ol pob tebyg, yn unig ar ymyl y ddalen; ac yn raddol, gwthiodd ei hun i'r testyn. Efallai iddi gael ei chyfansoddi gan ryw brophwyd Hebreaidd o ysgol y prophwydi yn y caethiwed, tua y bummed neu y chweched ganrif cyn Crist, pryd yr oedd yn arferiad i ysgrifenu Aramaeg. Nid oes dim yn rhagor ar gael na'r adnod hon o'r holl lyfr, i ba un, yn ol pob tebyg, y perthynai. Y darnau meithaf o'r iaith Aramaeg yn y Beibl sydd yn gynnwysedig yn *Ezra* iv. 8; vii. 12—26; a *Dan.* ii. 7, 8. Nid oes un ammheuaeth nad ysgrifenwyd y darnau Arameaidd hyn gan Israeliaid neu Hebreaid. Pan gaethgludwyd y genedl Hebreig i Babilon, hwy a gymmerasant iaith eu gorchfygwyr. Gelwir yr iaith Feiblaidd hon yn gyffredin yn Galdaeg; ond nid ydyw yr enw hwn yn eithaf priodol. Fe'i gelwir yn y Beibl yn Syriaeg: *Esa.* xxxvi. 11. Y mae ynddi liw Hebreaidd; ac oddi wrth y gymmysgfa hon y cyfododd iaith y Talmud, yr hon y dylid ei chymharu â'r darnau Arameaidd yn yr Hen Destament.

3. Y drydedd iaith Ysgrythyrol ydyw Groeg y Testament Newydd. Yn yr amser yr ysgrifenwyd y Testament Newydd, yr oedd yr iaith Roeg yn iaith yr holl fyd gwareiddiedig; yr oedd yn blaguro yn llawer o drefydd Palestina, ac yn iaith Feiblaidd yr Iuddewon yn yr Aipht, a lleoedd ereill tu allan i Wlad Canaan. Mor gynted ag yr ymledodd Cristionogaeth tu allan i Palestina, yr oedd yn angenrheidiol ei chyhoeddi yn yr iaith hon er mwyn iddi fod yn ddealladwy yn gyffredinol. Yr oedd yn mhlith dychweledigion boreuol Cristionogaeth, Roegiaid genedigol yn gystal ag Iuddewon Groegaidd: un o'r olaf oedd yr apostol Paul, yr hwn a wnaeth fwy na neb arall i ffurfio arddull iaith y Testament Newydd.

Pwy bynag fyddo yn dysgwyl cyfarfod âg iaith bur, glasurol, yr hen awduron Groegaidd goreu yn y Testament Newydd, y mae yn sicr o gael ei somi. Yr oedd yr awdwyr yn Iuddewon, ac eto yn cyfansoddi yn yr iaith Roeg. Nid rhyfedd, gan hyny, fod llawer cystrawen Hebreig, a llawer gair Hebraeg, yn gymmysgedig â'u hiaith, yr hon oedd *y διαλεκτος κοινη*, ac yn enwedig iaith y bobl gyffredin; ac o herwydd llawer o neillduolrwydd ynddi, fe ellir ei galw yn iaith Macedonia-Alexandria. Y mae ynddi dair o elfenau gwahanol; sef, 1, y Groegaidd; 2, yr Iuddewig; 3, y Gristionogol-eglwysig.

Gan fod yr Iuddewon Groegaidd yn cael eu galw yn Hellenistiaid, felly gelwir iaith y Testament Newydd ac iaith y Deg a Thrigain yn *Hellenistic.* Er mwyn iawn ddeall yr elfen Iuddewig yn iaith y Testament Newydd, fe ddylid bod yn gyfarwydd iawn â'r hen iaith Hebreig, ac â llyfrau yr Hen Destament; ac hefyd cymharu y cyfieithiad Alexandriaidd, gan nad yw y dyfyniadau yn y Testament Newydd wedi cael eu gwneyd yn uniongyrchol o'r Hebraeg, ond trwy gyfrwng y cyfieithiad hwn. Hefyd, y mae bod yn hyddysg yn Apocrypha yr Hen Destament, ac yn ngweithiau Josephus a Philo, yn gymhorth i ddeall iaith y Testament Newydd. Heb law hyny, gan fod priodiaith Arameaidd yn cael ei siarad yn Palestina fel iaith gyffredin y bobl yn amser Crist, felly nis gallai hon lai na dylanwadu ar iaith y Testament Newydd. Y mae cymharu y cyfieithiad Syriaidd âg ysgrifeniadau Talmudaidd a Rabbinaidd hefyd yn ddefnyddiol. Os oedd dirgeledigaethau mawrion Cristionogaeth i gael eu gosod allan mewn iaith ddynol, yr oedd yn rhaid dyfeisio geiriau a thrawddegau newyddion i'r pwrpas; hefyd, fe ddefnyddir llawer gair yn y Testament Newydd mewn ystyr gwahanol i'r hyn yr oedd yn cael ei arfer yn flaenorol.

O holl ysgrifenwyr y Testament Newydd, Paul ydyw y puraf o ran ei iaith; ac eto, y mae efe yn ysgrifenu fel Iuddew. Prif waith Paul oedd pregethu, ac nid ysgrifenu; ond y mae yn bosibl nad ydoedd ei ddullwedd ef o gyfansoddi ddim heb ei ddylanwad ar ysgrifenwyr ereill y Testament Newydd. Yn nesaf at Paul, yr apostol Ioan sydd wedi arfer y dylanwad mwyaf ar iaith y Testament Newydd. Er fod iaith y Testament Newydd yn gyfansoddedig o'r elfenau yr ydym wedi cyfeirio atynt; eto, mor ddiweddar a'r ganrif olaf, yr oedd rhai duwinyddion yn dal fod Groeg y Testament Newydd yn Roeg pur, heb dderbyn unrhyw ddylanwad oddi wrth ieithoedd ereill. Yr oeddynt wedi eu harwain i'r casgliad hwn gan y grediniaeth y byddai diffyg purdeb yn Ngroeg y llyfr yn ddiraddiad mawr ar ei ysbrydoliaeth, ac hefyd gan eu hanwybodaeth o Roeg y Beibl, yn gystal a Groeg yr awduron goreu.

Wedi i anghywirdeb y dyb uchod ddyfod i'r golwg, aed i'r eithafion arall o geisio cael allan fwy o frawddegau Hebreig yn iaith y Testament Newydd nag y sydd ynddi mewn gwirionedd; ond yn bresennol, fe addefir fod y gwirionedd yn gorwedd rhwng y ddau eithafion a enwyd. Y gramadeg goreu o iaith y Testament Newydd ydyw yr eiddo Winer—efrydydd perthynol i ysgol Hermann; ac y mae ei ddylanwad i'w weled yn amlwg yn nygiad allan y gwaith hwn—y mae yn naill ochrog. Er fod Hermann yn Roegwr da iawn, medd Ewald, eto nid oedd ganddo fawr o ddrychfeddwl am ieithoedd dynol yn gyffredinol.

II. Wedi meistroli iaith y llyfr, ein gorchwyl nesaf ydyw cael allan y synwyr—yr hyn a osodir allan trwy yr iaith. Mae llawer yn siarad fel pe baent yn meddwl y gellid gwneyd unrhyw beth allan o'r Beibl. Y mae pob plaid yn appelio ato fel sylfaen i'w credo. Pe byddai y Beibl

Digitized by Google

mor ansicr o ran ei ddeongliad, ni byddai yn werth y drafferth i olrheinio i'w gynnwysiad; dylai gael ei roddi o'r neilldu fel llyfr diwerth. Ond os nad ydyw y Beibl i gael ei egluro yn ol mympwy pob dyn, y mae yn rhaid fod rhyw egwyddorion wrth ba rai y dylid ei ddeongli.

Chwilio allan a sefydlu yr egwyddorion ydyw amcan deongliadaeth. Y mae egwyddorion adnabyddus a sefydlog yn gymhwysadwy at bob iaith ddynol, trwy rinwedd pa rai y mae ei hystyr yn ddealladwy. A chan fod y meddwl dwyfol wedi ei ddadguddio mewn iaith ddynol, heb i ddeddfau yr iaith hono gael eu cyfnewid, y mae yr egwyddorion sydd yn llywodraethu deongliadaeth gyffredin i'w cymhwyso at y gyfrol sanctaidd. Yma, ar drothwy ein testyn, cyfarfyddir ni âg ymofyniad o bwys; sef, Ai nid yw y neillduolrwydd sydd yn perthyn i'r Beibl yn galw am y cymhwysiad o egwyddorion neillduol yn y deongliad o hono. A ydyw egwyddion deongliadaeth Ysgrythyrol yr un ag egwyddorion deongliadaeth gyffredinol? Yr ateb eglur i hyn ydyw, Gan fod y Beibl yn llyfr wedi ei ysgrifenu mewn iaith ddynol, dylid ei ddeall fel llyfrau ereill, yn unol âg egwyddorion cyffredinol; ond gan ei fod yn llyfr *ysbrydoledig*, y mae ystyriaethau pwysig i'w cadw mewn golwg wrth gymhwyso yr egwyddorion hyn nad ydynt yn perthyn i lyfrau ereill. Ond nid oes dim yn yr ystyriaethau hyn sydd yn ein hattal rhag cymhwyso at ddeongliad y Beibl yr un egwyddorion ag sydd yn ein galluogi i benderfynu gyda sicrwydd pa beth ydyw ystyr llyfrau ereill. Y mae i eiriau yr un ystyr yn y Beibl ag mewn llyfr anysbrydoledig; ar wahân, neu mewn cystrawen, y maent i'w deall yn ol yr un deddfau yn y ddau; nid oes i iaith eithradau oddi wrth reolau gramadeg yn y Beibl, mwy nag mewn cyfansoddiadau ereill; ac nid oes un ansicrwydd yn perthyn i ystyr geiriau, nac un afreoleidd-dra yn yr arferiad o honynt, nad ydyw eu cyffelyb i'w cael mewn iaith lafar neu ysgrifenedig mewn arferiad gyffredin. Nid diffyg, gan hyny, mewn egwyddorion deongliadaeth yn eu cymhwysiad at yr Ysgrythyrau ydyw yr achos o'r camesboniadau sydd wedi eu tywyllu a'u hanurddo. Ond cyn cyfeirio yn mhellach at reolau deongliadaeth, y mae yn angenrheidiol gwneuthur ychydig o sylwadau arweiniol, diffyg ystyriaeth o ba rai sydd wedi bod yn achos ffrwythlawn o'r esboniadau mwyaf mympwyol a disail. Un o'r rhai hyn ydyw, fod i'r ysgrifen eglurder gwreiddiol o ran meddwl neu ystyr. Pe byddai meddwl yr ysgrifen ar y cyntaf yn ddauddyblyg neu yn ansicr, ni byddai o werth ymboeni i gael allan ei gwir ddeongliad, ac ni ddylai gael ei throsglwyddo o oes i oes fel rhodd gyffredinol i ddynoliaeth; ond os ydyw yn seiliedig ar wybodaeth ddofn, ac yn gynnyrch uniongyrchol enaid gwir fawr, y mae ei hystyr o angenrheidrwydd yn eglur ac yn unplyg. Po mwyaf gwerthfawr fyddo ysgrifen, egluraf oll yr ystyriwyd ei chynnwysiad ar y cyntaf. Po mwyaf dwfn oedd y drychfeddwl wedi ei argraffu ar enaid yr awdwr—po mwyaf dwfn oedd y llythyrenau wedi eu cerfio yn y graig â phin o haiarn ac â phlwm, mwyaf eglur a dealladwy y byddent i oesoedd dyfodol. Nid oes un ammheuaeth nad oes un llyfr mor eglur yn wreiddiol a'r Beibl. Y mae yn wir fod ei ddyfroedd yn ddyfnion, eto y maent yn ddysglaer fel y grisiai. Ysgrifeniadau ag sydd yn cynnwys meddyliau aneglur, nis gallant lai na diflanu yn hollol mewn ychydig amser. Y mae yn wir fod ysgrifeniadau o'r cymmeriad hwn wedi cyrhaedd bri ac enwogrwydd mawr am dymmor; ac y mae mor wir a hyny eu bod wedi llithro i dir ebargofiant gyda yr un buandra ag yr ymwthiasant i sylw ar y cyntaf. Y mae yr ysgrifeniadau nad ydynt yn eglur ar y dechreu yn myned yn annealladwy yn mhen rhyw ychydig o flyneddoedd. Pa faint o lyfrau yr hen fyd sydd wedi cyrhaedd tir anghof o herwydd diffyg mewn eglurdeb gwreiddiol. Y rhanau gwerthfawrocaf o bob llenyddiaeth sydd wedi cael eu cadw, gan mai y rhanau hyny yn unig sydd yn dal i'w profi. Gallwn gymmeryd yn ganiataol fod pob ysgrifen yn werthfawr ag sydd wedi ei throsglwyddo trwy y gwahanol oesoedd o'r hen fyd i'r byd diweddar; a bod y gwerth hwnw yn gynnwysedig yn ei heglurder gwreiddiol. Nid ydyw y llyfrau sydd wedi eu casglu yn nghyd yn y Beibl ond rhan fechan o lenyddiaeth helaeth sydd yn awr ar goll. Er y buasai bod yn feddiannol ar yr holl lenyddiaeth Hebreig yn fanteisiol i ddeall y llyfrau hyn, eto ni a allwn fod yn sicr ein bod wedi cael y cyfansoddiadau ysbrydoledig a ymddiriedwyd i'r genedl. Y mae yn eglur i bawb, mai yr achos eu bod wedi eu cadw trwy y blyneddoedd ydyw eu gwerth mewnol anwadadwy. Y mae y byd yn cynnal ei ddydd barn o genedlaeth i genedlaeth ar awdwyr a'u gweithiau—rhai yn cael eu gosod ar y llaw aswy, ac ereill ar y llaw ddeheu—rhai yn cael eu condemnio i dir ebargofiant, ac ereill yn cael eu codi i barch a bri. Y mae y byd yn gofyn amser maith i ffurfio ei farn mewn perthynas i weithiau awdurol dyn. Y mae yn anhawdd i ni, o ganlyniad, osod eu lle priodol i weithiau y ganrif bresennol, gan nad ydyw y byd eto wedi ffurfio barn ddiysgog yn eu cylch. Heb law hyny, gan fod yr awdwyr yn byw mor agos atom, y mae yn anhawdd i ni ymddiosg oddi wrth deimladau personol mewn perthynas iddynt. Mae rhagfarn a sel plaid yn aml yn llywodraethu am dymmor; ond mewn perthynas i weithiau yr oesoedd a aethant heibio, y mae dynolryw yn lled unol yn eu barn; y mae eu bod ar gael yn yr oes hon yn brawf fod ynddynt werth a theilyngdod. Pan ystyriom y dirgelion a ddadguddir yn y Beibl, cyfryngau eu dadguddiad yn gystal a hynafiaeth y llyfr, nis gallwn lai na rhyfeddu ei fod mor eglur a dealladwy. Gan fod y Beibl wedi ei fwriadu i bawb, a hyny ar y pethau y mae o bwys annhraethol i bawb fod yn eu deall a'u credu, gallwn benderfynu fod ei feddwl yn wreiddiol eglur. Y mae graddau mewn eglurdeb: a gallwn ddysgwyl llawer o aneglurdeb, gan mai mewn rhan yn unig y mae yr Anfeidrol yn ei ddadguddio ei hun a'i drefn.

Os oedd yr ysgrif yn wreiddiol ac yn eglur, y mae yn rhaid nad oedd dim ond un ystyr iddi; os ydyw y llygad yn syml, y mae yr holl gorff yn oleu. Os oedd yr awdwr yn meddiannu deall da, nis gallai fod yn gweled mwy nag un gwrthddrych ar y tro: arwydd o wendid deall, yn gystal a gwendid llygad, ydyw ei fod yn gweled yn ddwbl. I'r awdwyr ysbrydoledig, nid oedd dim yn dywyll ag oedd yn gyssylltiedig â gweinyddiad eu swydd. Yr oedd y dyfodol weithiau yn cael ei ddwyn o flaen eu meddwl mor eglur ag y mae yr hyn sydd newydd fyned heibio yn ymddangos i ni. Yr oeddynt hefyd yn feddiannol ar allu i drosglwyddo y golygiadau hyny mewn perthynas i'r dyfodol yn eglur i ereill. Un meddwl penodol sydd i bob brawddeg a ddefnyddir

Digitized by Google

ganddynt; a chael allan yr ystyr hwn a ddylai fod amcan pob esboniad a gyhoeddir ar y Beibl. Rhyw un gwirionedd pendant sydd yn cael ei ddysgu yn mhob adnod, er fod hwnw yn aml yn rhagdybied ac yn seiliedig ar wirionedd arall neu wirioneddau ereill. Y mae y fath beth a gwirionedd gwrthddrychol, ar wahan oddi wrth farn tumewnol y dyn, mewn perthynas iddo: y mae y gwirionedd hwnw yn syml, ac yn dangos ei hun trwy gyfrwng geiriau.

Dyledswydd y deonglydd ydyw chwilio am y meddwl sydd yn y geiriau, heb ymfoddloni ar lai nag sydd ynddynt, ac heb geisio ynddynt yr hyn ni fwriadwyd iddynt ddysgu. Mewn geiriau pendant a dealladwy, ceir meddwl sicr a diammwys; ac mewn trefn i hyny, rhaid ei fod yn feddwl unigol. Yn unol â hyn, y mae Protestaniaeth yn dal mai un meddwl gwreiddiol a neillduol sydd i bob brawddeg, bod hwnw i'w gael yn uniongyrchol yn y geiriau, ac mai mor bell yn unig ag y mae ystyr llythyrenol (*sensus literalis*) unrhyw adran o'r Ysgrythyr yn dysgu gwirionedd pendant y dylid ei defnyddio fel prawf athrawiaethol. Y mae yr egwyddor hon yn cydnabod y ddyledswydd o sylfaenu duwinyddiaeth ar esboniadaeth lythyrenol a gramadegol y geiriau. Er fod duwinyddion, trwy yr oesoedd, o bryd i bryd, yn dysgu mai ystyr syml y geiriau sydd i'w dderbyn fel rheol ffydd ac ymarweddiad, a bod hwnw yn rheol ddigonol, eto ni chydnabyddwyd ac ni ddefnyddiwyd yr egwyddor hon gyda dim cyssondeb cyn y Diwygiad Protestanaidd. Syniad sydd wedi ffynu yn lled gyffredinol ydyw, gan fod Ysbryd Duw yn awdwr y Beibl yn ystyr priodol y gair, rhaid fod cyfoeth ei gynnwysiad, fel ei Awdwr, yn annherfynol; ac o ganlyniad, nad oes berygl i ni fedru dychymygu mwy o ystyron iddo nag sydd ynddo; a bod, gyda meddwl llythyrenol y geiriau, feddyliau ereill yn nghudd dan hwnw. Y syniad hwn a arweiniodd i'r dull *arallegol* o esbonio yr Ysgrythyrau. Ond nid yn unig, nac yn benaf, yr ystyriaeth o ysbrydoliaeth a arweiniodd i'r dull arallegol o esbonio, ond y fantais y mae y dull hwn yn ei roddi i bawb gael yr ystyr a fynont hwy o'r Beibl. Yn ol y dull arallegol o esbonio, y mae un peth yn cael ei ddyweyd, a pheth arall yn cael ei feddwl; naill ai peth gwahanol i'r hyn sydd yn ymddangos fel ystyr cyntaf y geiriau, neu ynte peth arall gydag ystyr cyntaf y geiriau. Ond gan nad oes un reol i'n galluogi i benderfynu pa beth ydyw y meddwl arall a gynnwysir yn y frawddeg, y mae y demtasiwn yn fawr i bawb weled ynddi ei feddwl ei hun. Rhag bod neb yn meddwl fod y rheol hon yn un a'n ceidw i nofio ar wyneb llythyren y Beibl yn unig, ac nas gallwn ddysgwyl ond am ddeongliadaeth arwynebol, sychlyd, a marw, wrth gydymffurfio â hi, dylem gofio nad yw y cymhwysiad o honi at gyfansoddiadau dynol ddim yn cau allan yr aneirif gyfeiriadau sydd yn dysgleirio trwy, ac yn cyfoethogi y cyfansoddiadau uchaf. Y mae troellymadroddion, cyfeiriadau hanesyddol, y dewisiad a wneir o eiriau penodol, ac hyd yn oed cyflead y geiriau, i gyd oll yn cyssylltu y mater dan sylw, yn meddwl awdwr o'r radd uchaf, â'r holl greadigaeth, ac â holl ffrwd hanesiaeth; ac eto y mae y cyfan dan deyrnged i osod allan ryw brif feddwl sydd yn ymgodi yn naturiol o'r geiriau, ac nid oes dim geiriau ereill a all wasanaethu y dyben cystal. Os oes, fel y dywedwyd am Macauley, lawer o gyfrolau mewn un linell o'i eiddo, nid oes ond y rheol lythyrenol o ddeongli yn angenrheidiol tuag at ei ganfod. Pa mor gyfoethog bynag ydyw y cyfansoddiad mewn gwirionedd noeth, mewn golygiadau athronyddol, neu ehediadau barddonol, cystrawen ramadegol ydyw yr agoriad sydd yn dadgloi y trysorau i ni. Sylw arall hefyd sydd yn dangos nad rhaid i ni wrth y dull arallegol o ddeongli, er mwyn cael cyfoeth o feddwl allan o ysgrif, os bydd ynddi, ydyw, fod gwirioneddau—cyffredinol yn eu cymhwysiad, ac anghyfnewidiol yn eu parhad—yn cael eu dysgu i ni trwy hanesion a dygwyddiadau personol a lleol. Fel y mae deddfau y greadigaeth yn cael eu hamlygu trwy ffeithiau neillduol; felly y mae gwirioneddau cyffredinol llywodraeth foesol Duw yn cael eu dysgu a'u hegluro yn yr hanesion mwyaf syml a phersonol a geir yn y Beibl. Trwy rinwedd y ffaith fod y neillduol yn amlygiad o'r cyffredinol, a'r cyffredinol yn cynnwys y neillduol, nid yw awduron dynol o angenrheidrwydd yn canfod y cyfan sydd yn eu hysgrifeniadau eu hunain; a pho mwyaf o'r peth byw a fyddo yn ymweithio fel greddf trwy yr ysgrif, ac nid yn cymmeryd ei gaethiwo gan ffurfiau rhesymegol, pellaf oll ydyw yr awdwr a'i ddarllenwyr oddi wrth fod yn presennoli y cyfan o flaen eu meddwl ar unwaith. Llawer mwy ynte yr oedd y gwirionedd dwyfol, yr ysbrydolwyd dynion sanctaidd Duw i'w lefaru, uwch law eu hamgyffred hwy, a'r geiriau a ddefnyddient hwy i'w gosod allan. Er yn cynnwys, yn y geiriau mwyaf priodol, y gyfran o'r gwirionedd oedd yn dyfod i olwg yr ysgrifenydd, cynnwysant hefyd ryw ddyfnderoedd anfeidrol na ddaeth i'w olwg o gwbl. Yn yr ystyr hwn, gan hyny, nid rhaid i ni wrth egwyddor arallegol deongliadaeth mewn trefn i suddo yn is na'r wyneb wrth geisio cael allan gynnwysiad y geiriau.

Nid yw yr hyn a hònir am un meddwl gwreiddiol i'r geiriau yn anghysson â'r ffaith fod rhan fawr o'r Hen Destament yn *gysgodol*. Y mae yn osodiad diammheuol fod yn bosibl i'r un drychfeddwl, i'r un gwirionedd neu ffaith sylfaenol, amlygu ei hun mewn gwahanol gylchoedd, eangach neu gulach, a chyda gwahanol raddau o amlygrwydd, ac mewn cyfundrefn o wrthddrychau uwch neu is. Yn yr amlygiadau hyn, y mae yr aneglur yn cyfeirio at yr eglur, yr is at yr uwch, yr anmherffaith at y perffaith. Un egwyddor neu wirionedd sydd; ond y mae hwnw yn ymgodi trwy wahanol gylchoedd y gweledig at yr anweledig. Yn awr, gan fod yr Hen Destament yn meddu yr un awdwr, ac yn cyfeirio at yr un nôd a'r Newydd, nis gall lai na bod yr hyn a gynnwysir yn y cyntaf, heb law ei fod yn gymhwysadwy at y presennol, yn rhagbarotoad hefyd i'r dyfodol. Ond yr un egwyddorion a gwirioneddau a ddysgir trwy gyfundrefn o sefydliadau cnawdol ac amserol yn yr Hen Destament, ag a ddysgir yn eglurach yn y Newydd mewn cyssylltiad â llywodraeth gyffredinol Duw, ac â gwrthddrychau yn eu perthynas ysbrydol a thragwyddol. Ac er nad oedd yr ysgrifenwyr yn deall yn fynych ddim pellach na'r cymhwysiad presennol, yr oedd eu gwasanaethgarwch dyfodol yn cael ei fwriadu gan Dduw. Nid ar ddealltwriaeth yr ysgrifenwyr o holl gynnwysiad yr hyn a ysgrifenent y mae unoliaeth y dadguddiad dwyfol yn ymddibynu, ond ar yr Ysbryd, yr hwn oedd ynddynt. Gan mai un ydyw y Beibl o ran ei darddiad, ei ddyben, a'i egwyddorion, rhaid i bob deongliadaeth gywir gydnabod hyn yn ei hymchwiliadau. Hyn ydyw ei dis-

Digitized by Google

gelwch rhag syniadau mympwyol a dychymygion disail. Trosedd cyntaf y dull arallegol o ddeongli ydyw cymmeryd geiriau allan o'u cyssylltiadau priodol, ac allan o gyssylltiad â meddyliau sylfaenol yr Ysgrythyrau. Y mae y fath beth a chyfaledd neu gyfatebiaeth Ysgrythyrol (*analogia Scripturæ*), yn unol â pha un y dylid edrych ar bob rhan yn ngoleuni yr oll. Sylw arall sydd yn dangos y gwahaniaeth hanfodol rhwng deongliadaeth arallegol Philo, y Rabbiniaid, Origen, Swedenborg, ac ereill, a'r esboniadau cysgodol a geir yn y Testament Newydd o'r Hen, ydyw, mai *pethau* yn yr Hen Destament sydd yn gysgodol o'r Newydd ac nid *geiriau*—naill ai sefydliadau, neu bersonau, neu ddygwyddiadau, &c. Y cysgodau eu hunain, naill ai oen y Pasc, y swydd offeiriadol, gŵyl y cymmod, &c., oedd yn rhagddangosiadau o'r pethau gwell i ddyfod trwy rinwedd yr egwyddorion a ddangosent. Ac o ganlyniad, yn y *pethau* a adroddir yn y geiriau y mae chwilio am yr ystyron a'r gwirioneddau dyfnach, ac nid yn y geiriau eu hunain. Ond y geiriau, bron yn hollol, heb ystyried yr hyn a osodir allan trwyddynt, ydyw gwrthddrych dyfeisiau yr arallegwyr. Nid rhyfedd, gan hyny, fod y Beibl yn cael ei droi i wasanaethu unrhyw beth yn ol y fath gyfundrefn o ddeongliadaeth a hon. Y mae esboniadaeth, wedi ei seilio ar y meddyliau, y gwirioneddau, a'r ffeithiau mawr a gyflwynir trwy y geiriau, yn llawer mwy anhyblyg i ddymuniadau a mympwyon dynion na'r hon nad ydyw yn edrych ddim pellach na'r geiriau eu hunain. Gwelir, gan hyny, nad yw y rheol lythyrenol a gramadegol o ddeongliadaeth yn anghysson âg ymdrech i dreiddio i mewn i gyfoeth yr Ysgrythyrau, ond yn hytrach mai hon ydyw yr unig reol ddiogel i hyny. Nid yw y gosodiad, chwaith, mai un meddwl sydd i frawddeg, a hwnw y meddwl sydd yn cyfodi yn naturiol o'r geiriau, o'u deall yn eu hystyr a'u cyssylltiad priodol, yn cau allan yr ystyr cysgodol a all fod ynddynt.

Y mae yn angenrheidiol nodi y gwahaniaeth sydd rhwng deongliadaeth a chymhwysiad o'r gwirioneddau a ddysg deongliadaeth gywir i ni, er mwyn canfod terfynau yr olaf, ac hefyd er mwyn gweled nad ydyw y rheol y dadleuir drosti yma ddim yn anghysson â'r cyflawnder anhysbyddadwy sydd yn yr Ysgrythyrau. Y mae gair Duw, nid yn unig yn ffynnonell a rheol y gwirionedd; ond fel y cytryw, y mae yn offeryn Ysbryd Duw i genedlu ac i feithrin bywyd ysbrydol. Yn y ddau olygiad yma, sef fel rheol i ddyn yn holl amgylchiadau amrywiol ei fywyd, ac hefyd fel offeryn Ysbryd Duw i fywhau, i nerthu, i ffrwythloni, i sancteiddio, i ddyddanu, ac i arwain pechaduriaid, y mae o bwys annhraethol i wybod *y* gwirionedd; yr hyn fyddai yn anmhosibl heb fod meddwl pendant, ac un meddwl hefyd, i'r geiriau, a bod hwnw yn gyrhaeddadwy trwy yr unig lwybr diogel i ddeongliadaeth ddynol.

Ond pa berthynas sydd rhwng deongliadaeth lythyrenol a deongliadaeth dduwinyddol? Neu pa berthynas sydd rhwng deongliadaeth a duwinyddiaeth? Bod yn bosibl i ni ddeongli yr Ysgrythyrau ar y dybiaeth o wirionedd rhyw gyfundrefn neillduol o dduwinyddiaeth, sydd amlwg oddi wrth y ffaith fod llawer wedi gwneyd hyny. Nad yw hyn yn ymddangos yn amgen na rhoddi ein meddwl ein hunain yn y Beibl, yn hytrach na chwilio am feddwl y Beibl, a ymddengys mor amlwg i lawer. Y cyntaf ydyw egwyddor broffesedig Pabyddiaeth. Ei hymresymiad sydd fel y canlyn:—Gan mai i'r eglwys y rhoddwyd yr Ysgrythyrau, trwyddi hi yn unig y mae yn ddichonadwy cyrhaedd deongliad cywir o honynt. A thrachefn:—Nis gellir deall yr Ysgrythyrau ond trwy yr un Ysbryd ag a'u llefarodd; a chan mai yn yr eglwys yn unig y mae yr Ysbryd yn preswylio, ac mai trwy ei dysgawdwyr awdurdodedig, ei chynghorfäau, a'i phabau, y mae yr Ysbryd yn arwain yr eglwys i bob gwirionedd, y mae yn anmhosibl i neb esbonio y gyfrol sanctaidd ond y hi. Y mae dyfnderoedd a thywyllwch y Beibl y fath fel nas gall personau unigol ei ddeall ond dan arweiniad ac awdurdod yr eglwys; a chan mai yn ei thraddodiad y mae meddwl yr eglwys i'w gael, y mae traddodiad eglwysig a chatholig i fod yn rheol deongliadaeth Ysgrythyrol.

Y mae Protestaniaeth, i'r gwrthwyneb, wedi diwygio yr eglwys a'i hathrawiaeth, heb gydnabod un rheol na ffynnonell gwirionedd ond yr Ysgrythyrau yn unig. Ni chydnebydd hi awdurdod traddodiad na chredoau eglwysig fel rheol anffaeledig wrth ba un i ddeall gair Duw. Y gair sydd i farnu ac i benderfynu ar athrawiaethau, defodau, ac ymarferiadau yr eglwys, ac nid yr eglwys i benderfynu pa fodd y mae pawb i ddeall y gair. Hôna Protestaniaeth ei le priodol i air Duw, nid yn unig mewn gwrthgyferbyniad i draddodiad, ond hefyd mewn gwrthgyferbyniad i ymhoniad disail i oleuni mewnol (*lunem internem*); yr hwn a fyn osod goleuni yr Ysbryd Glân yn rheol deongliadaeth, yn annibynol ar, ac yn flaenorol i'r, ystyriaeth, Pa beth a ddywed yr Ysgrythyr? Y mae yr Ysbryd yn arwain i'r gwirionedd, ond *trwy* air gwirionedd yr efengyl y mae yn gwneuthur felly. Nid rheswm chwaith wedi ei adael iddo ei hun sydd i benderfynu pa beth a ddywed yr Ysgrythyr; o herwydd mewn pethau ysbrydol y mae ef yn dywyll ac yn analluog i adnabod y gwirionedd. Gan fod y Beibl yn air Duw, nid oes un awdurdod y tu allan iddo ei hun i fod yn rheol ei ddeongliadaeth. Egwyddor Protestaniaeth ydyw fod y Beibl yn egluro ei hun. Dywed Gerhard mai yr Ysgrythyr Sanctaidd ydyw yr unig ddeonglydd cyfreithlawn o hono ei hun. Trachefn, dywed Quenstadt fod yn anmhosibl cael esboniad sicr ac anffaeledig ond o'r Ysgrythyrau eu hunain; o herwydd yr Ysgrythyr, neu yn hytrach yr Ysbryd Glân yn llefaru yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ydyw eu deonglydd cyfreithlawn. Y mae yn *rhaid* i'r Ysgrythyr ei ddeongli ei hun; o herwydd rhaid i bob cyfansoddiad dynol wneuthur hyny—llawer mwy ynte llyfr sydd yn ddwyfol yn ei darddiad a'i gynnwysiad. *Gall* wneyd hyny, o herwydd y mae ei amcan yn gofyn fod ynddo eglurder; ac y mae yr amcan hwn, yn nghyd â dwyfoldeb ei darddiad, yn sicrhau ei fod yn un mewn ysbryd a gwirionedd, er fod ynddo yr amrywiaeth mwyaf. Y canlyniad angenrheidiol o hyn ydyw, fod pob rhan yn derbyn goleuni oddi wrth yr oll. Y mae y golygiad hwn yn cael ei gynnwys yn yr egwyddor a osodir i lawr gan ysgrifenwyr Protestanaidd fel rheol sylfaenol esboniadaeth Ysgrythyrol; sef, fod yn rhaid deall ac egluro y Beibl yn ol "cyssondeb y ffydd." Hyn ydyw y cyfieithiad Cymraeg o'r ymadrodd *αναλογια της πιστεως*; sef *analogia y ffydd*: *Rhuf.* xii. 6. Yn ol y cyfieithiad cyffredin o'r ffurf Seisoneg o'r gair hwn, sef *analogy*, y cyfieithiad ydyw "cyfatebiaeth y ffydd," neu "cyfaledd y ffydd." Y mae yr ysgrifenwyr yn

Digitized by Google

amrywio yn yr ystyr a briodolant i'r ymadrodd. Dywed rhai mai y meddwl ydyw, y dylai pob rhan o'r Ysgrythyr gytuno â phob rhan arall sydd yn cyfeirio at yr un mater. Dywed ereill yn fwy cyffredinol, mai cyssondeb ymadroddion y Beibl a feddylir (*Harmonia dictorum biblicorum*), yn nghyd â chyfeiriad ei holl athrawiaethau at un nod arbenig, a'u hymddibyniad y naill ar y llall. Ereill a ddealla wrth "gyssondeb y ffydd" athrawiaethau sylfaenol, yn unol â pha rai y mae egluro holl ymadroddion y Beibl. Ereill drachefn a una y ddau olygiad uchod yn nghyd, sef nid yn unig yr athrawiaethau sylfaenol, ond hefyd eu cyssylltiad a'u cyssondeb â'u gilydd. Nid ydyw y rheol hon, sef cyssondeb y ffydd, yn ddim amgen na chasgliad neu swm o holl dystiolaethau egluraf yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ac yn unol â golygiadau Protestanaidd, yr unig lwybr trwy yr hwn y mae i ni gael allan feddwl y tystiolaethau egluraf hyn ydyw, trwy foddion cyffredin deongliadaeth unrhyw gyfansoddiad arall, sef trwy ramadeg a rhesymeg. Yn y modd yma y ffurfir gosodiadau cyffredinol, ac y deuir o hyd i brif feddylddrychau neu athrawiaethau y Beibl, y rhai sydd i fod yn rheol wrth ba rai y mae deongli adranau neu frawddegau mwy aneglur. Gwahaniaethant hefyd rhwng eglurder allanol a mewnol; ac er mwyn sicrhau yr olaf, y mae nid yn unig ramadeg a rhesymeg yn angenrheidiol, ond yr Ysbryd Glân, yr hwn yn unig ydyw deonglydd cyflawn ei eiriau ei hun: wrth ddywedyd fod goleuni yr Ysbryd Glân yn angenrheidiol i ddeall yr Ysgrythyrau, y meddwl ydyw, nid yn gyntaf ac yn benaf, i alluogi dynion i ffurfio gosodiadau cyffredinol, ac i ganfod cyssondeb y brawddegau unigol â hwynt, ond i'w galluogi i weled gogoniant mewnol y meddwl, ac i'w gymhwyso atynt eu hunain. Y mae gwybodaeth gywir, gan hyny, o athrawiaethau sylfaenol yr Ysgrythyrau, ac o'r cyssondeb hanfodol sydd yn rhedeg trwyddynt, yn ymddibynu ar oleuni dwyfol gyda'r moddion cyffredin i gael allan ystyr unrhyw ysgrif arall. Nid ydyw y rheol dduwinyddol o esbonio, yn ol "cyssondeb y ffydd," nag yn cau allan nac yn lleihau dim ar bwysigrwydd y rheol ieithyddol a gramadegol, ond yn hytrach yn ei rhagdybied ac yn ei chynnwys. Yn unol â hyn, yr ydym yn cael fod y Diwygwyr wedi rhoddi symbyliad cryf i efrydiaeth ieithyddol. Gosodai Luther bwys arbenig ar ddysgu ieithoedd gwreiddiol y Beibl. Ymdrinai Melanchthon â hyn mewn modd neillduol yn ei *Retoreg*. Cydnabyddir Calvin fel tywysog esbonwyr; ac nid oes dim yn ei hynodi ef yn fwy na'r ymdrech i gael allan y meddwl yn ol ystyr a chyssylltiad y geiriau. Yn unol â'r sylwadau hyn, gellir crynhoi rheolau deongliadaeth i'r pedair canlynol—

1. Y mae yn angenrheidiol i ni ddeall iaith neu ieithoedd y llyfr yr ydym yn cymmeryd arnom ei ddeongli. Y mae gwybodaeth arwynebol o'r iaith neu yr ieithoedd hyn yn beryglus, ac yn arwain i gyfeiliornadau. Fe ddylai fod genym ddrychfeddwl cywir am iaith ddynol yn gyffredinol, ac am iaith neillduol y llyfr sydd yn cael ei egluro genym. Nid ydyw y lleiaf yma yn ormodedd. Y mae pob gair, sill, a llythyren, yn werth eu deall.

Rhaid i ni benderfynu ystyr priodol a gramadegol y geiriau a ddefnyddir trwy ddeddfau iaith, a thrwy natur a theithi priodieithoedd yr Ysgrythyrau, fel y defnyddid hwynt ar lafar ac mewn ysgrifen y pryd yr ysgrifenodd yr awdwr. Rhaid cymharu y geiriau fel y defnyddir hwynt mewn gwahanol amgylchiadau yn yr Ysgrythyrau, ac hefyd fel y defnyddir hwynt gan awduron cyfamserol—eu dal i fyny yn ngoleuni y cangenieithoedd cydberthynasol—eu holrhain i'w gwreiddiau—eu hystyried yn eu perthynas â'r cyd-destyn, ac yn ngwyneb yr holl reolau gramadegol sydd yn effeithio ar, ac yn penderfynu ystyr, iaith pa un bynag ai priodol, ai ffugrol, ai arallegol. Prif offerynau y llafur hwn ydyw y geiriadur a'r gramadeg; ond gan "nas gellir cael gwybodaeth o'r ystyr ond trwy wybodaeth o'r geiriau," yn ol arwireb Luther, a chan na roddwyd iaith newydd i'r ysgrifenwyr ysbrydoledig, y mae yn amlwg fod hyn yn waith nas gall deonglydd cydwybodol a thrwyadl o'r Ysgrythyrau ei hebgor. Gelwir hwn y dull *gramadegol ac ieithyddol*, a chydnabyddir ef mewn arferiad ac mewn traethodau gwyddonawl fel y dull deongliadol cyntaf i'w gymhwyso at y Beibl.

2. Ond y mae ystyr geiriau yn ymddibynu, nid yn unig ar egwyddorion ieithyddol a gramadegol, ond hefyd ar fwriad, meddwl, a theimlad yr awdwr wrth eu defnyddio. Y mae geiriau yn ddelw neu adlewyrchiad meddwl yr ysgrifenydd, ac yn wasanaethgar i'w ymresymiad. Anhawdd ydyw penderfynu a sylweddoli llawn arwyddocâd a gwerth geiriau trwy yr ymchwiliad ieithyddol a gramadegol llwyraf, os byddwn yn anwybodus o amcan yr awdwr wrth eu defnyddio, a'r lle sydd iddynt yn ffrwd y meddwl a fwriedir ei drosglwyddo. Y mae yn beryglus, fel y gwyddys, i farnu am ystyr iaith mewn dyfyniadau, ac ar wahan oddi wrth rediad cyffredinol y meddwl a'r ymresymiad o ba un y ffurfia ran; ac o ganlyniad, yn chwanegol at y dull gramadegol, y mae yn rhaid i ni wrth y dull *rhesymegol*, er mwyn cael allan ystyr unrhyw gyfansoddiad. Y mae hyn yn gynnwysedig mewn ymdrech i gael allan amcan yr ysgrifenydd yn y cyfansoddiad, a chyssylltiad unrhyw adran neu ymadrodd neu air â'r amcan hwnw. Mewn trefn i ddeall llawn ystyr geiriau dyn, y mae yn rhaid i ni ddeall rhywfaint am y dyn ei hun, ac am ei feddwl.

3. Ond heb law ymofyn i ystyr gramadegol geiriau, ac i'w cyssylltiad âg amcan yr ysgrifenydd, ac â ffrwd ei ymresymiad, y mae yn angenrheidiol, mewn trefn i ddeall y Beibl, neu unrhyw lyfr arall, i ymofyn i'r ystyr yn mha un y deallai cydoeswyr yr ysgrifenydd hwynt. Rhaid cymmeryd yn ganiataol fod dyn yn ysgrifenu er mwyn cael ei ddeall gan y rhai yr ysgrifenai atynt; o ganlyniad, y mae o bwys tuag at ddeall geiriau awdwr, i gael allan y modd y deallid ef gan ei ddarllenwyr cyntaf; y mae hyn o bwys, yn neillduol wrth ymofyn i ystyr geiriau o arwyddocâd cyffredinol, athronyddol, a duwinyddol. Y mae hanes y syniadau oedd yn ffynu yn yr oes yr ysgrifenai yr awdwr dan sylw, y dulliau o feddwl am grefydd, am wirionedd a moesau, yn nghyd âg arferion y wlad y preswyliai, yn rhoddi cynnorthwy yn fynych i ddeall yr hyn a ysgrifenai. Y mae hyn yn dangos yr angenrheidrwydd am reol arall yn chwanegol at y ddwy flaenorol, sef yr un *hanesyddol*.

4. Egwyddor arall, nid llai pwysig ynddi ei hun, ac o bwysigrwydd neillduol yn ei chymhwysiad at yr Ysgrythyrau, ydyw y gofal angenrheidiol i beidio deongli un rhan o ysgrifeniadau dyn fel ag i fod yn anghysson â rhanau ereill. Y mae hon yn rheol sydd i'w chymhwyso at ysgrifeniadau pob dyn sydd yn ysgrifenu gyda dealltwriaeth cyffredin a chydag amcan difrifol, ac yn

enwedig felly at yr Ysgrythyrau, yn mha rai y cawn ddadguddiad o gyfundrefn gysson o wirioneddau, y rhai sydd yn amrywio o ran ffurf, ond yr un o ran sylwedd ac ysbryd. Nid oes un ysgrifenydd yn ei wrthddyweyd ei hun o fwriad, ac yr ydym yn rhwym yn ngwyneb tegwch i esbonio syniadau dyn yn gysson â hwy eu hunain, mor bell ag y mae hyny yn ddichonadwy. A phan y mae pob esboniad arall yn annhosibl, ein cyfiawnheir i esbonio unrhyw frawddeg neu adran yn hollol anghysson â brawddegau ereill, ac nid mewn un amgylchiad arall. Gan fod hon yn rheol i'w chymhwyso at ysgrifeniadau dynol, pa faint uwch at lyfr y mae Duw yn awdwr iddo, ac sydd yn cynnwys dadguddiad o ddirgeledigaethau ei ddoethineb a'i ewyllys. Hon ydyw pedwaredd reol deongliadaeth, yn ol pa un y mae pob rhan o'r Ysgrythyrau i'w hesbonio yn gysson â'r oll, neu, yn iaith yr hen dduwinyddion, yn ol "cyssondeb y ffydd."

Nid oes neb a ddadleua yn erbyn cywirdeb yr egwyddorion hyn, a'u hystyried yn gyffredinol, er eu bod yn cael eu camddefnyddio a'u gwyrdroi yn fynych mewn ymarferiad. Gyda gofal a dysgeidiaeth briodol, byddai y rheolau hyn gyda'u gilydd yn ddigonol i'n galluogi i benderfynu ystyr geiriau y Beibl gyda'r un sicrwydd ag y gallwn benderfynu ystyr llyfrau ereill. Y camddefnyddiad o'r egwyddorion hyn sydd yn arwain i gyfeiliornadau. Gwedir neu esgeulusir defnyddio rhai o honynt yn fynych; bryd arall, rhoddir pwysigrwydd anghymmedrol ar y naill mewn cymhariaeth i'r llall; a thrachefn, cymhwysir y naill neu y llall yn annheg at wahanol ranau o'r Ysgrythyrau. Nid un, pa un bynag fyddo hono, ond yr oll yn nghyd yn eu cymmesuredd priodol, ydyw yr allwedd a egyr i ni drysorau yr Ysgrythyrau. Buasai yn fuddiol i ni roddi anghreifftiau o'r camsyniadau y mae dynion wedi syrthio iddynt trwy gamddefnyddio neu esgeuluso y naill neu y llall o'r egwyddorion hyn; ond y mae yr erthygl yn myned yn faith eisoes, a cheir mantais i olrhain eu cymhwysiad dan y gair ESBONIADAU.

Wedi ymdrin â rheolau cyffredinol deongliadaeth, yn nghyd â'u cymhwysiad at yr Ysgrythyrau, rhaid cyfeirio yn fyr at yr ystyriaethau neillduol hyny y mae yn angenrheidiol eu cofio wrth ddeongli y Beibl, gan ei fod yn llyfr ysbrydoledig.

*Yn gyntaf*, Y mae y ffaith fod y Beibl yn cynnwys dadguddiad dwyfol, ac o ganlyniad yn anfaeledig, yn dangos nas gallwn gymhwyso yr un rheolau at yr hyn sydd yn anghyffredin ac yn oruchnaturiol ynddo, ag y gallwn at y chwedlau rhamantaidd a gynnwysir mewn hen awduron paganaidd. Wedi unwaith y profir fod y Beibl yr hyn yr hòna ei fod, ni feiddiwn ymosod ar y gorchwyl o'i ddeongli fel pe na byddai ei wyrthiau ond dygwyddiadau cyffredin wedi eu lliwio gan ddychymyg yr ysgrifenydd. Mewn llyfrau cyffredin, yr ydym yn cymmeryd yn ganiataol y *gall* fod camsyniadau, ac adroddiadau disail, er yn hollol anfwriadol; ond wedi y derbynir y Beibl fel gair Duw, y mae y cwbl a gynnwysa, yn ol ystyr cyffredin a gramadegol y geiriau, ac yn unol â'r rheolau a osodwyd i lawr, i'w dderbyn fel gwirionedd. Y mae egwyddorion deongliadaeth Ysgrythyrol yn cymmeryd yn ganiataol fod y Beibl yn cynnwys ffeithiau goruchnaturiol, a bod yr ysgrifenwyr dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Gorchwyl amddiffynydd Cristionogaeth ydyw profi hyn, ac y mae deongliadaeth yn cael ei sylfaenu ar ffrwyth ei lafur ef.

*Yn ail*, Neillduolrwydd arall sydd yn perthyn i'r Beibl ydyw, er ei fod yn gynnwysedig o lawer o wahanol gyfansoddiadau, wedi eu hysgrifenu gan wahanol ddynion ac mewn gwahanol oesoedd, eto *un* dadguddiad o feddwl ac ewyllys Duw ydyw, a phob rhan yn angenrheidiol at berffeithiad y cyfan. Er fod ysgrifenwyr y Beibl yn lluosog, ac mewn llawer o bethau yn wahanol iawn i'w gilydd, eto yr oeddynt oll dan arweiniad yr un Ysbryd. Y mae y ffaith hon yn dangos pwysigrwydd y bedwaredd egwyddor a osodwyd i lawr o ddeongli y naill ran yn ngoleu y llall, a gosod gwahanol oruchwyliaethau a gwahanol ysgrifeniadau ar gyfer eu gilydd, fel y gallont adlewyrchu ar eu gilydd. Nis gellir cymhwyso yr egwyddor hon mor bell at ysgrifeniadau dynion ag y gellir at air Duw. Y mae deongliadaeth ddiweddar yn brawf mor bell y mae yr ystyriaeth hon wedi cael ei hanghofio.

*Yn drydydd*, Fel y sylwyd yn flaenorol, nid yw dynion yn fynych yn deall nac yn amgyffred holl gynnwys eu geiriau eu hunain; ac o ganlyniad, nis gellir eu gwneuthur yn gyfrifol am yr holl gasgliadau y gellir eu tynu oddi wrthynt: ond am Ysbryd Duw, yr oedd efe yn gweled ac yn bwriadu y cyfan a gynnwysir yn y geiriau a ddefnyddiai yr ysgrifenwyr; felly, y mae y casgliadau cyfreithlawn ac anocheladwy oddi wrth y geiriau yn rhan o gynnwys gwirioneddol y Beibl. Mae yn egwyddor yn *Nghyffes Westminster* (i. 6) bod yr Ysgrythyrau yn cynnwys "holl gynghor Duw am bob peth angenrheidiol er gogoniant Duw, iachawdwriaeth dyn, ffydd, ac ymarweddiad, naill ai mewn geiriau penodol, neu *trwy gasgliad teg ac angenrheidiol.*" Dengys hyn y pwysigrwydd o ymofyn yn fanwl i lythyrenau y gair, ac i chwilio yn fwy trwyadl i gyssylltiadau athrawiaethol geiriau y Beibl, ac i dreiddio yn ddyfnach i'w hystyr nag y gellir i gyfansoddiadau dynol.

*Yn olaf*, Yr ydym i ddysgwyl cyfarfod âg anhawsderau ac aneglurder bwriadol yn yr Ysgrythyrau. Mewn ysgrifeniadau dynol, dysgwylir i'r awdwr osod allan ei feddwl mor eglur ag y mae hyny yn ddichonadwy iddo, mewn trefn i gael ei ddeall. Ond gyda dadguddio ei hun, yr oedd gan Dduw amcan pellach mewn golwg. Bwriadai ei ddadguddio ei hun yn fynych ond mewn rhan, ac i wneuthur aneglurder y dadguddiad yn ddysgyblaeth i galonau ac yn brawf ar ffydd ei bobl. Mae dyben i ddystawrwydd y Beibl: ac nid y geiriau agosaf ac egluraf a ddefnyddir i osod allan yr hyn a ddadguddir. Cydnabyddir hyn am brophwydoliaethau, ond y mae gwirionedd ynddo am ranau ereill. Oddi wrth hyn, ni a welwn mai nid yr ystyr hawddaf ac agosaf bob amser ydyw yr ystyr cywir. Mae y neillduolrwydd sydd yn perthyn i lyfr Duw yn galw arnom i gymhwyso yr egwyddorion cyffredinol a osodwyd i lawr, dan lywodraeth yr ystyriaethau hyn, at ei ddeongliad.

Ond nid egwyddorion a rheolau ydyw y cwbl sydd yn angenrheidiol tuag at ddeall yr Ysgrythyrau. Y mae yn bosibl i ddyn feddu yr holl ddysgeidiaeth sydd yn angenrheidiol mewn iaith, hanesiaeth, a rhesymeg; ac eto, o ddiffyg cymhwysderau uwch, fethu yn hollol cael allan wir amcan gwersi mawr ac amlycaf y llyfr Yr ochr arall, y mae dynion hollol amddifad o'r gallu i'w ddarllen yn yr ieithoedd yr ysgrifenwyd ef gyntaf, eto, trwy gyfrwng cyfieithiadau, wedi llwyddo, ac yn llwyddo, i gyrhaedd gwybodaeth o'r gwirioneddau gwahaniaethol ac achubol—er mwyn pa rai yr ysgrifenwyd ef. Ac nid gwybodaeth arwynebol, anghyssylltiol, ond gwybod-

Digitized by Google

aeth eang, ddofn; ac, nid yn unig gwybodaeth ddigonol er iachawdwriaeth, ond hefyd er mwyn ffurfio barn annibynol a chywir am brif wirioneddau y dadguddiad sanctaidd. Fel anghreifftiau o hyn, gallwn gyfeirio at amryw o draethodau Jonathan Edwards, megys ar *Bechod Gwreiddiol*, ac ar *Y Serchiadau Crefyddol*, yn mha rai y ceir amlygiadau o'r gallu uchaf i ddarganfod meddwl y Beibl trwy gymharu Ysgrythyr âg Ysgrythyr, heb ddim, neu nemawr ddim, o'r hyn a ddeallir yn gyffredin wrth ymdrafodaeth feirniadol. Nid ydyw hyn yn lleihau dim ar yr angenrheidrwydd am wybodaeth o'r ieithoedd gwreiddiol, os mynir cael gwybodaeth fanwl a chywir o'r Ysgrythyrau yn eu holl adranau a'u gwahanol gyssylltiadau: ond pa beth yw y prif gymhwysderau moesol y cyfeiriwyd atynt mewn trefn i ddeall y Beibl? Y cyntaf oll yn mhlith y cymhwysderau hyn ydyw *cariad at y gwirionedd*, a pharodrwydd i ymwrthod â'n syniadau ein hunain er ei fwyn. O'n blaen y mae gwaith a gyfansoddwyd gan arall. Pa fodd y mae i ni wneyd hwn yn eiddo i ni ein hunain? Pa fodd y mae meddyliau un arall i fod yn ddealladwy i ni? Ein gorchwyl cyntaf tuag at fod yn llwyddiannus i wneuthur hyn, yw ymwadu â'n hewyllysiau ein hunain, a pheidio cymmysgu ein heiddo ni âg eiddo arall; y mae yn rhaid i ni waghau ein hunain, er mwyn rhoddi lle i eiddo arall. Hunan-ymwadiad—yr hwn sydd rinwedd—yw y peth cyntaf i'w wneyd tuag at fod yn alluog i ddeall gwaith un arall: ond nid ydyw hwn ond cymhwysder nacaol; y mae yn angenrheidiol i ryw gymhwysder pendant gael ei chwanegu. Yr hyn sydd eisieu ydyw gallu newydd i wneyd y dyeithr yn eiddo i ni ein hunain. Beth ydyw y gallu newydd hwn? Onid cariad at y gwrthddrych—y gwirionedd? Mae pob peth yn eiddo i ni trwy gariad: os ydym yn caru y gwirionedd, yr ydym yn ei ddeall yn iawn, yn ei werthfawrogi, ac yn ei wneuthur yn eiddo i ni ein hunain. Nis gall dyn adnabod yr hyn sydd ddwyfol yn yr Ysgrythyr heb wir gariad tuag ato. Fe ddylai y deonglydd fynu gafael yn y meddwl sydd yn y gair, heb chwanegu dim ato na thynu dim oddi wrtho; er mwyn ei ddeall, y mae yn rhaid iddo godi ei feddwl at yr hyn sydd oruchel a dyrchafedig yn y gwrthddrych, a pheidio gosod dim anghywir ynddo: ni ddylem feddwl am wrthddrych yn ddim mwy na dim llai nag ydyw mewn gwirionedd—tebyg yn unig a all ddeall a gwerthfawrogi ei debyg. Nis gall neb ond athronydd werthfawrogi yn iawn feddyliau athronyddol. Nis gall neb ond beirdd ddeall a gwneuthur cyfiawnder â meddylddrychau barddonol. Ac felly, nis gall neb ddeongli yr Ysgrythyr yn briodol heb gael ei dywys gan yr Ysbryd hwnw a gynhyrfodd ddynion sanctaidd i'w hysgrifenu ar y cyntaf.

Os cariad at y gwirionedd fydd yn ein llywodraethu yn ein hymchwiliadau i ystyr y gyfrol sanctaidd, neu i unrhyw gyfrol arall, ein hymofyniad cyntaf fydd, Pa beth sydd wirionedd? Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng ymofyn i wirionedd ein golygiadau yn nechreu ac yn niwedd ein hymchwiliadau. Y mae yn hawdd, ac yn wir yn hawddach, i'n darbwyllo ein hunain fod ein syniadau yn wir, pa beth bynag fyddont, *ar ol* i ni eu derbyn oddi wrth arall neu eu mabwysiadu i ni ein hunain, nag ydyw peidio rhoddi derbyniad iddynt *cyn* i ni ymofyn i'w gwirionedd. Un peth ydyw dymuno cael y gwirionedd o'n hochr, a pheth arall ydyw dymuno bod o ochr y gwirionedd. Y mae cariad at y gwirionedd yn gynnwysedig mewn penderfyniad i roddi ufudd-dod iddo, ac i'w ddilyn pa le bynag yr arweinia ni. Y mae dynion yn gyffredin yn ddarostyngedig i lywodraeth teimladau ag sydd yn gwyro eu barn, ac yn gogwyddo eu meddwl at y naill ochr yn hytrach na'r llall, yn hollol annibynol ar wirionedd; un o'r teimladau hyn ydyw y gwrthwynebiad naturiol sydd yn perthyn i'r meddwl i fod mewn petrusder neu ammheuaeth. Nid oes un llwybr i gael gwaredigaeth oddi wrth y boen sydd yn nglŷn â phetrusder ond trwy ddyfod i benderfyniad. Y mae hyn, yn nghyd â llafur ymchwiliad, yn peri i'r lluaws neidio at unrhyw benderfyniad a ymgynnygia i'w meddwl, yn hytrach na bod heb yr un. Y mae awydd am fod yn *wreiddiol*, neu am feddu rhyw syniadau ag a fyddo yn dwyn eu delw hwy eu hunain, yn demtasiwn i rai i aberthu y gwirionedd. Y mae ereill yn eu hesboniadau dan ddylanwad gorbarch i hynafiaeth, neu i'r hyn sydd eisoes yn cael ei gredu a'i dderbyn. Ond yr hyn sydd wedi gweithredu mor nerthol a dim yn erbyn y gwirionedd ydyw diffyg ymddiried yn nerth y gwirionedd i'w amddiffyn ei hun. Yn fynych, y mae y rhai a broffesant eu hunain yn gyfeillion neillduol y gwirionedd—ac y mae pob plaid yn hòni yr anrhydedd hwn iddynt eu hunain—yn teimlo yn ofnus am dano, fel pe byddai rhyw blentyn eiddil yn sefyll mewn perygl oddi wrth bob cyfnewidiad tywydd, ac yn analluog i amddiffyn ei hun. Oddi ar y teimlad hwn yr ymddangosodd cynnifer o *pious frauds* yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth, ac yr appeliwyd at y Beibl yn yr oesoedd diweddaraf yn erbyn ymchwiliadau y daiaregwr a'r seryddwr; ond y mae treigliad amser, a hanesiaeth darganfyddiadau yn mhob cangen o wyddoreg yn brawf y gallwn adael i'r gwirionedd ei amddiffyn ei hun.

Rhoddwn ychydig o awgrymiadau o barth i'r modd y mae deongliadaeth yn cael ei chyssylltu âg efrydiau Beiblaidd ereill:—

Os ydym yn alluog, trwy wneuthur iawn ddefnydd o'r iawn foddion, i gael gafael eilwaith yn y gwirionedd fel y daeth allan o ac yr amlygodd ei hun i feddwl yr awdwr, yr ydym yn dysgu hefyd adnabod trwy hyn yr hyn nad oedd yn sefyll yn wreiddiol yn y cyssylltiad hwn. Mae deongliadaeth yn cynnwys beirniadaeth—ysgariad yr hyn oedd yn perthyn oddi wrth yr hyn nad oedd yn perthyn i'r cyssylltiad gwreiddiol. Nid yw beirniadaeth yn amgen na'r ysgariad hwn. Mae yn bosibl fod rhywbeth wedi ei wthio ei hun i mewn i'r cyssylltiad gwreiddiol, neu ynte fod rhywbeth wedi ei golli o hono. Nid ydyw y cyssylltiad wedi ei gadw yn berffaith, fe allai, fel yr oedd ar y dechreu. Wrth gymmeryd unrhyw frawddeg o dan ystyriaeth, y gofyniad a gyfyd yn naturiol yn y meddwl yw, A ydyw y frawddeg hon wedi ei chadw fel yr oedd yn wreiddiol? Mae pob brawddeg yn perthyn i ryw ran o lyfr; a ydyw y rhan hon wedi ei chadw fel yr oedd yn wreiddiol, neu ynte a oes rhywbeth dyeithr wedi ymwthio i mewn iddi? Yr oedd pob rhan ar y cyntaf yn gwneyd i fyny gyfanwaith yn enaid yr awdwr, ac fe ddylid darllen y rhanau yn ngoleuni y cyfanwaith. Yr oedd cyssylltiad bywiol rhwng y gwahanol ranau a'u gilydd yn meddwl yr awdwr; ac felly, wrth ddeongli, mae yn angenrheidiol ystyried pa beth a berthyna i'r awdwr, a pha beth ni pherthyn iddo. Mae argraff y gweithiwr i'w weled, i raddau mwy neu lai, ar bob gwaith. Y mae i bob prophwyd a bardd ei

Digitized by Google

neillduolrwydd, yr hwn sydd yn dangos ei hun yn eu cyfansoddiadau. Po mwyaf eglur, po mwyaf ardderchog oedd y bardd o ran ei ddrychfeddyliau, mwyaf i gyd ei neillduolrwydd, a hawddaf i gyd i adnabod ei waith. Mae yn bosibl i ni wybod yn awr pa oraclau a roddwyd trwy Moses. Y mae argraff yr oes yn mha un ei cyfansoddwyd i'w gweled, i raddau mwy neu lai, ar bob gwaith. Er y bydd ynddo elfen dragwyddol, greadigol, eto mae ei wisg allanol yn dwyn argraff yr oes yn mha un y cyfansoddwyd ef. Mae yn anhawdd yn aml dyweyd gyda sicrwydd yn mha ganrif yr ysgrifenwyd llawer llyfr yn y Beibl.

Nid ei wasanaethu ei hun y mae deongliadaeth —nid ydyw ond moddion i gyrhaedd dyben uwch nag ef ei hun. Yr amcan ddylai fod mewn golwg wrth ddeongli y Beibl ydyw, ei wneuthur yn eiddo i ni ein hunain. Ni a ddylem gymhwyso y cwbl atom ein hunain; ïe, heb wneuthur hyn, ni fyddem ddim gwell er ein hadnabyddiaeth o hono. Y dyben ddylai fod ynom wrth ddeongli ydyw *cymhwysiad*—"i berffeithio dyn Duw yn mhob gweithred dda;" canys mae yr hyn a ysgrifenwyd wedi ei ysgrifenu er addysg i ni. Yr hyn a lefarodd yr Ysbryd wrth eglwys Dduw yn Rhufain a Philippi mae yn ei lefaru wrth yr eglwysi yn y dyddiau presennol. Mae y cwbl yn ymddibynu ar y cymhwysiad ymarferol. Fe ddylai pob deongliad fod yn ymarferol, neu yn hytrach fod yn cynnwys egwyddorion y gellid eu cario allan i ymarferiad; ond nid yw gwir gymhwysiad yn bosibl cyn i ni gael gafael ar y gwir ystyr. Mae hyn wedi ei gamddeall yn fawr y blyneddoedd diweddaf, gan fod llawer yn myned yn rhy frysiog at y cymhwysiad ymarferol. Yr oedd Kant o'r farn fod deongliad dysgedig yn anghydweddol â deongliad ymarferol: ond nid yw y naill i'w aberthu i'r llall. Y mae i'r ddau eu lle priodol.

Y mae ysgrifeniadau yr hen fyd yn myned yn raddol yn fwy tywyll ac ansicr, er iddynt fod unwaith yn eglur. Mae yn bosibl i iaith yr hen fyd fyned yn raddol yn aneglur. Y mae angenrheidiau newydd yn gwthio eu hunain i mewn, ac yn cadw yr hen yn ol allan o'r golwg. Mae tuedd gref mewn dyn i ddarllen yr hen wrth oleuni y newydd, yn hytrach nag wrth ei oleuni ei hun. Nid ydyw cyfeiliornad mewn un man yn codi ei ben yn fwy naturiol nag wrth ddeongli llyfrau sanctaidd; ac y mae yn ffaith fod ysgrifeniadau crefyddol pob cenedl braidd wedi eu deongli yn anghywir. Yr oedd gan yr Indiaid eu llyfrau cyssegredig, y Vedas, y rhai oeddynt yn egluro yn hollol fympwyol. Nid oes ond yr ugeinfed ran o lyfrau crefyddol y Persiaid ar gael; y rhai sydd wedi eu hesbonio yn hollol anghywir gan y Persiaid diweddar. Nid ydyw y Mahometiaid presennol yn deall ond ychydig ar y Coran; ac y mae yr Hen Destament yn llyfr seliedig i'r Iuddewon hyd y dydd hwn. Nid oes un llyfr wedi dyoddef cymmaint a'r Beibl oddi wrth gam ddeongliadaeth: y mae pob dyfais wedi ei chymhwyso at ŵyrdroi ei ystyr.

Y mae yn bosibl i amser ddyfod pan fyddo ammheuaeth yn cael ei lettya mewn perthynas i gynnwysiad gwirioneddol a gwerth tragwyddol y Beibl. Felly y mae wedi bod gyda llenyddiaeth cenedloedd ereill. Ni werthfawrogwyd y llenyddiaeth Roegaidd yn briodol am ganrifoedd. Dyna fel yr oedd hi gyda golwg ar y llenyddiaeth Ladinaidd yn y canoloesoedd. Am dros fil o flynyddoedd, nid yw llenyddiaeth Feiblaidd wedi cael ei diwyllio fel y dylasai, ac felly fe aeth yn arferiad i ddirmygu ac i ddibrisio ei gwerth. Po fwyaf yr ymchwilir i mewn iddi, mwyaf ardderchog y mae ei chynnwysiad yn ymddangos. Nid oes un llyfr yn gwella cymmaint a'r Beibl wrth ei olrhain; ac y mae yn ddiammheu ei fod yn cael ei ddeall yn well, a'i werthfawogi yn fwy, yn yr oes hon nag yn unrhyw oes arall, o ddyddiau yr apostolion hyd yn bresennol. Er yr holl gamddeongliadau sydd wedi cael eu rhoddi ar lawer rhan o'r Ysgrythyr, nis gallwn lai na chroesawu o'n calon yr ymroad sydd wedi cael ei wneyd ar y Cyfandir yn ystod yr hanner canrif diweddaf i iawn ddeongli y Beibl; ac y mae yr esgeulusdra sydd wedi bod am ganrifoedd gyda golwg ar hyn yn galw am i fwy o ymdrechion gael eu gwneyd yn yr oes hon.

III. Hanes deongliadaeth Ysgrythyrol o'r dechreu hyd yn bresennol.

Yn yr oes apostolaidd, yr oedd yr Ysgrythyrau yn cael eu defnyddio i ddybenion ymarferol—i adeiladu a dysgu yr eglwys. Nis gellir siarad yn briodol am ddeongliadaeth Ysgrythyrol, sylfaenedig ar wyddoriaeth, yn ei gyssylltiad â'r Testament Newydd, cyn tua chanol yr ail ganrif o oed ein Iachawdwr: er hyny, y mae eglurhadaeth Ysgrythyrol mor hen a Christionogaeth; gan fod llyfrau yr Hen Destament yn wrthddrychau myfyriaeth duwinyddion dysgedig yn y ganrif gyntaf. Ac wrth eu deongli, yr oedd yr un egwyddorion a rheolau yn cael eu defnyddio gan Gristionogion ag a arferid gan yr Iuddewon yn yr ysgolion Rabbinaidd, ac yn y synagog wrth addysgu y bobl.

Yr oedd deongliadaeth Ysgrythyrol yn cymmeryd cyfeiriadau gwahanol yn mhlith yr Iuddewon. Yn Palestina, yr oedd y Beibl yn cael ei ddefnyddio i egluro dirgelion y dyfodol. Yn ei *destyn*, fel yn rhyw fath o fatheiniau (*hieroglyphics*) amryliw, yr oedd yr Iuddewon yn dychymygu eu bod yn darllen arwyddion pethau dyfodol. Yr oedd felly adgofion a gobeithion y bobl yn cydgyfarfod ynddo, ac yn sylfaenedig ar eu dull o'i ddeongli.

Yr oedd y Rabbiniaid, nid yn unig yn tynu adnodau allan o'u cyssylltiad, ond er mwyn rhoddi ystyr newydd i eiriau y Beibl, yr oeddynt yn defnyddio pob math o gelfyddyd i drawsosod y llythyrenau, y rhai a ddeonglid yn ol eu rhif, yn gystal ag i newid llythyrenau a geiriau tebyg i'w gilydd. Yr oedd rhai o honynt yn dal fod yn bosibl egluro pob adnod mewn 49, 70, 600,000, o wahanol ffyrdd. Gwel *Eisenmenger's Entdecktes Judeathum*, i, td. 454; *Döpke's Hermeneutik der neutest Schriftsteller*, 1829; *Hirschfeld's Geist der Talmudischen Ouslegung lei Bibel; Tholuck Das Alte Testament im Neuen Testament*, 1854.

Yr oedd deongliadaeth, yn enwedig o ran amcan, yn cael ei gario yn mlaen yn hollol wahanol gan yr Hellenistiaid yn Alexandria. Yr oedd y rhai hyn yn ceisio uno egwyddorion athroniaeth Groegaidd, yn yr hon yr oeddynt yn hyddysg, âg athrawiaethau a ddadguddir yn y Beibl, gan fyned oddi wrth symledd yr efengyl, a rhoddi i eiriau y gwirionedd ystyron nas gellid eu hamddiffyn yn ol egwyddorion deongliadaeth gramadegol hanesyddol: yr oeddynt yn troi yr hanes yn y Beibl yn ddammeg, a deddfau barnol yr Iuddewon yn yr Hen Destament yn arddansoddiad blodeuog. Er mwyn olrhain ystyron pellenig, dirgelaidd, ac ysbrydol geiriau, yr oeddynt yn esgeuluso eu hystyron llythyrenol, y rhai a ystyrid ganddynt yn annheilwng o urddas y Beibl. Gan eu bod yn golygu fod pob gair ynddo

Digitized by Google

wedi ei lefaru trwy ysbrydoliaeth Duw, credent hefyd fod pwyslais neillduol i'w roddi ar bob un; bod prophwydoliaethau a rhagarwyddion i'w cael yn yr oll o'r Hen Destament; ac mai yr ystyr arallegol dirgel yn unig sydd yn deilwng o gael ei briodoli i ddwyfol ysbrydoliaeth.

Achos arall i'r dull hwn o ddeongli y gyfrol ysbrydoledig gael ei fabwysiadu oedd, analluu i'w thrin yn y ffordd iawn—diffyg rhyfeddol mewn gwybodaeth o'r iaith Hebreig, ac mewn gwybodaethau ereill, ag sydd yn wir angenrheidiol er cymhwyso dyn i fod yn ddeonglydd medrus. Nid oeddynt yn gwybod yn well; ac yr oeddynt yn hollol analluog i ganfod diffyg ac ansicrwydd eu hegluradaeth arallegol-dirgeledig, ac i gynnyg gwell deongliad yn ei le. Fe fabwysiadwyd y dull hwn hefyd oddi ar angen yr oes i amddiffyn yr athrawiaeth Gristionogol yn erbyn ymosodiadau a gwrthwynebiadau yr Iuddewon. Po mwyaf gelyniaethol oedd yr olaf i Gristionogaeth, a pho mwyaf ymdrechgar yr oeddynt i'w darostwng, mwyaf selog oedd amddiffynwyr y ffydd i ennill y fantais fwyaf ar eu gwrthwynebwyr oddi wrth eu dull o ddeongli yr Hen Destament, ac i brofi nad oedd anghyssondeb rhwng yr athrawiaeth Gristionogol ag ysgrifeniadau Moses a'r prophwydi; ond yn hytrach fod cyssondeb perffaith rhyngddynt. Dyma oedd sefyllfa pethau hyd yn oed yn amser Origen, yr hwn a fu farw yn 254. Nid efe a ddyfeisiodd y dull arallegol o ddeongli, ond efe oedd y cyntaf i'w osod i fyny fel egwyddor gywir deongliadaeth; a chyda y dull gramadegol hanesyddol, i roddi iddo hawl sylfaenedig ar wyddoriaeth, tra nad oedd yn flaenorol ond yn cael ei arfer mewn symlder diarwybod. Gydag ef y deffrodd yr ymwybyddiaeth o'r anghyssondeb rhwng y ddau ddull o ddeongli, ac fe geisiodd gyfryngu rhyngddynt a'u cyssoni. Yr oedd efe yn dal fod i'r Beibl dri ystyr—llythyrenol, moesol, ac ysbrydol; yr hyn sydd yn cyfateb i'r tair rhan sydd mewn dyn; sef, corff, enaid, ac ysbryd. Yr hyn nis gellir ei esbonio yn llythyrenol, dylid ei ddeongli yn arallegol. Mewn gwrthwynebiad i ddeongliadaeth yr Alexandriaid ac Origen, fe ddaeth ysgol gymmedrol Antiochia allan yn y bummed ganrif. Ei phrif gynnrychiolwyr oeddynt Deodor o Tarsus, Theodor o Mopsaest, John Chrysostomus, Ephraim Syrus, a Theodoret. O'r amser hwn y daeth deongliadaeth ramadegol i fri, yr hon hefyd oedd yn cael ei harfer yn flaenorol gyda'r arallegol. Yn yr Eglwys Ladinaidd, fe enwogodd Jerome ac Ambrosius eu hunain fel esbonwyr.

Mympwy ac ansicrwydd y dull arallegol o ddeongli a'i dinystriodd. Er mwyn rhoddi attalfa arno y mabwysiadwyd deongliadaeth ramadegol hanesyddol. Gan i'r olaf gael ei gario yn mlaen mewn dull rhyddfrydig, nes peryglu athrawiaethau ac awdurdod yr eglwys, a chan fod dynion yn arfer credu yr efengyl er mwyn yr eglwys, ac yn dymuno cael gafael mewn safon wrth ba un y gallent farnu cywirdeb unrhyw ddeongliad, hwy a geisiasant esbonio y Beibl yn unol â thraddodiad yr eglwys. Nis gallwn lai nag edrych ar ddeongliadaeth draddodiadol eglwysyddol ond fel gradd bellach o ddadblygiad yn hanes y wyddor sydd dan ein sylw. Hwn oedd safle deongliadol holl esbonwyr y canoloesoedd. Y gofgolofn uchaf o dlodi meddyliol y deonglwyr hyn ydyw eu hymlyniad hollol wrth farnau tadau yr eglwys, yn nghyd â'r casgliadau a wnaethant o'u gweithiau, heb gynnyg unrhyw chwanegiad o'r eiddynt hwy eu hunain. Trwy esgeuluso myfyriaeth Ysgrythyrol, a thrwy anwybodaeth o'r ieithoedd gwreiddiol, yr oedd duwinyddiaeth y canoloesoedd yn ddiffygiol mewn sylfaen Feiblaidd sicr. Pwysig o'r ochr arall, yn y canoloesoedd, ac yn neillduol o'r ddegfed ganrif yn mlaen, oedd esbonwyr Iuddewaidd yr Hen Destament; y Rabbiniaid Jarchi, Aben Ezra, Dafydd a Moses Kimchi, Maimonides, ac ereill. Wedi i Nicholas Lyra, Laurentius Valla, a Reuchlin, ddechreu cyfnod newydd mewn myfyriaeth Hebreaidd yn mhlith Cristionogion—ac ar ol goresgyniad Caer Cystenyn, i lenyddiaeth Roegaidd ymledu—fe ddechreuodd wawrio ar eglurhadaeth Ysgrythyrol. Yn lle sefydlogrwydd deongliadaeth traddodiadol eglwysyddol, ac yn lle mympwy y dull arallegol ffoldybus, fe ddaeth esboniadaeth goethus ieithegol Erasmus i fri, yr hwn a ennillodd gymmeradwyaeth helaeth oddi wrth ddynion mwyaf dysgedig yr oes. Yr oedd myfyriaeth Feiblaidd yn cael ei diwyllio yn fwy dwfn a chyffredinol fyth yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Treiddiodd Luther i mewn i ddyfnderoedd yr Ysgrythyr, ac fe agorodd y ffordd i fyned at ysbryd y gair oddi wrth y llythyren; ac fel cyfieithydd y Beibl i'r bobl, yr oedd yn sefyll yn uwch na phawb. Ond mewn gwybodaeth ddofn a chywir o ieithoedd yr Ysgrythyrau, yr oedd Melanchthon a meddylwyr dyfnion ereill yr oes hono, yn rhagori ar Luther; ac nid oes un ammheuaeth na chafodd ei gynnorthwyo ganddynt i gyfieithu y Beibl. Yr ydoedd cydnabyddiaeth Zuinglius â gweithiau yr awdwyr clasurol yn fanteisiol iddo i gyrhaedd enwogrwydd fel un hyddysg yn iaith y Testament Newydd; a thrwy fanyldra a chywirdeb ei esboniadaeth, yr oedd Calvin yn rhagori ar bawb. Ar y cyntaf, yr oedd myfyriaeth Ysgrythyrol yn cael ei diwyllio yn fwy cyffredin a dwfn yn yr Eglwys Ddiwygiedig nag yn yr Eglwys Lutheraidd, yr hon oedd yn talu sylw yn benaf i gyfundraethau duwinyddol. Hefyd, aeth deongliadaeth Ysgrythyrol y Lutheriaid yn fuan iawn i ddibynu eilwaith ar lyfrau arwyddol yr eglwys; er fod hyny yn hollol groes i egwyddor Protestaniaeth, gan mai annibyniaeth esboniadaeth Ysgrythyrol ar allu yr eglwys, a phob awdurdod ddynol, yw yr egwyddor flaenaf yn ysgrifeniadau y Diwygwyr. Tra yr oedd yr uniongred yn yr Eglwys Ddiwygiedig yn sefyll mewn perygl i fod yn arosol yn eu deongliadaeth, yr oedd y Romonstrantiaid (Arminiaid), y rhai a aethant allan o'r eglwys hon, ac yn eu plith Grotius yn benaf, yn ymlynu wrth y dull gramadegol hanesyddol o ddeongli, a hyny yn fynych yn naill ochrog, a chyda gormod o gulni ysbryd. Yn yr Eglwys Lutheraidd, fe ystyrir Erneste yn gyffredin fel adferwr deongliadaeth annibynol, a chynnyddodd amddiffynwyr y dull hwn o ddydd i ddydd; ac yr oedd yn canmawl ei hun wrth ysbryd yr oes, yr hwn oedd yn hiraethu er ys talm am ei ryddhau ei hun o lyffetheiriau caeth y Lutheriaid. Er hyny, fe gymmerodd yr olaf esboniadaeth eilwaith i'w gwasanaeth yn rhy fuan i les a llwyddiant y wyddor; a pho mwyaf gwrwynebol oedd y deongliad, mwyaf cydweddol âg ysbryd yr oes yr ystyrid ef. Yr oedd dynion oedd yn dal yr athrawiaethau newyddion (y Neologiaid) yn arfer appelio at yr Ysgrythyr fel sylfaen i'w credo. Pa un a oedd yr ymddygiad hwn o'r eiddynt yn cyfodi oddi ar weddill o barch at awdurdod yr Ysgrythyr, neu ynte oddi ar ymwybyddiaeth o ffalsedd, nis gallwn benderfynu. Yr oeddynt trwy lawer math o gelfyddyd

Digitized by Google

yn proffesu esbonio ymaith y gwyrthiau a'r dirgelion hyny, tarddiad goruchnaturiol llawer o ba rai oedd yn cael ei esbonio gan yr uniongred mewn ffordd hollol wahanol. Yr oedd y Goruchnaturiaethwyr (*Supranaturalists*) yn gystal a'r Rhesymolwyr (*Rationalists*) yn medru myned heibio yn ddisylw i lawer o bethau ag oedd yn ymddangos fel yn milwrio yn erbyn eu cyfundrefn dduwinyddol hwy. Yr oeddynt hefyd yn ceisio cyssoni pethau nad oedd un cyssondeb rhyngddynt, a hyny am nad oeddynt yn ddigon gonest i gyfaddef yr anhawsder. I leihau yr annhrefn hwn, fe gynnygiodd Kant ysgaru deongliadaeth ddysgedig dduwinyddol a deongliadaeth ymarferol (moesol); ond nis gallai yr eglwys ddyoddef yr ysgariad annaturiol hwn am amser maith. Yr oedd ysbryd yr oes yn galw am eu cymmodi a'u cyssoni â'u gilydd. Y cam cyntaf a roddwyd er cael hyn i ben oedd treiddio yn fwy dwfn a thrwyadl i ieithoedd y Beibl, yr hyn a wnaed gyda golwg ar yr Hen Destament gan Gesenius, De Wette, ac Ewald; ac ar faes y Testament Newydd gan Winer a Meyer. Wedi i ddysgedigion olrhain yn drwyadl ieitheg y Beibl, yr oeddynt mewn gwell mantais i gael allan ei wir ystyr; ac y mae golwg arall i'w weled ar ddeongliadaeth Ysgrythyrol ar y Cyfandir yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. Mae yr arfau a ddefnyddid yn flaenorol yn erbyn y gwirionedd yn awr yn cael eu harfer i'w amddiffyn; a'r darganfyddiadau a wnaed yn ngwahanol gangenau llenyddiaeth Ysgrythyrol yn y blyneddoedd diweddaf ydynt wedi taflu goleuni ar lawer rhan o'r Beibl ag oedd yn cael ei amgylchynu gan dywyllwch dudew. Y mae dadleuon y pleidiau yn cael eu dwyn yn mlaen ar dir athrawiaethau ac athroniaeth crefydd, yn hytrach nag mewn deongliadaeth. Nid ydyw barnau duwinyddol yn dylanwadu cymmaint ar yr olaf ag yr oeddynt, er nad ydyw hollol anmhleidgarwch yn bosibl. Yn bresennol, y mae dynion uniongred yn treiddio yn ddyfnach i ystyr yr Ysgrythyrau, heb esgeuluso ar yr un pryd y dull gramadegol hanesyddol o ddeongli; ond trwy fyned heibio iddo, y maent wedi ennill safle uwch. Y mae y cynnydd a wnaed yn yr ystyr hwn yn y blyneddoedd diweddaf i'w weled yn amlwg iawn, er fod perffeithrwydd eto yn mhell o fod wedi ei gyrhaedd.—(*G. W. Meyer Geschichte der Schriph Erklarung seit der Wiederherstellung der Wissenschaften*, Goettingen, 1802—9, pum cyfrol; *Ewald Einleitung in die Bibel; Reuss Geschichte der heiligen Schriften Neuen Testaments*, ail argraffiad 1853, td. 481—581; *Hertzog*.)

DEOR, [de—gor]. tori allan, ymddangos, dyfod allan o'r plisgyn, bwrw y plisgyn. "Fel petris yn eistedd, ac heb *ddeor*, yw yr hwn a helio gyfoeth yn annheilwng;" *Ier.* xvii. 11. Y mae gwahanol farnau yn nghylch pa aderyn a feddylir yn y fan hon. Dywed rhai esbonwyr mai y gyffylog, ereill mai y myniar, ac ereill drachefn mai y gôg; ond y mae rhesymau digon cedyrn dros wrthod pob un o'r tybiau hyn. Y mae Buffon yn gwneuthur y *bartavella*, neu y betrisen Roegaidd, yn rhywogaeth wahanol; ac ymddengys mai dyna yr aderyn a olygir yn y fan hon. Hysbysir i ni gan Bellon, mai "yn mysg creigiau y bydd y *bartavella* yn gyffredin, ond y bydd yn disgyn i'r gwastadedd i wneyd ei nyth; ac fel yr iâr gyffredin, hi a eistedd ar wyau adar ereill, os na bydd ganddi wyau o'i heiddo ei hun." Yn awr, os eistedd y *bartavella* ar wyau aderyn arall yn ei absennoldeb, ac os gyrir hi ymaith gan yr aderyn hwnw pan y dychwel yn ol, bydd yn debyg i ddyn o amgylchiadau isel a gymmerodd feddiant, dros amser, o eiddo un arall, ond yr hwn y bu raid iddo ei ollwng o'i afael cyn derbyn un budd oddi wrtho. Dyna yr hyn a olygir yn y fan hon gan y prophwyd.—*Dr. Shaw.*

DERFISHIAID, [*Dervishes*]. Y mae y gair hwn yn deilliaw oddi wrth ddau air Tyrcaidd—*der*, drws; a *fish*, estynedig; o blegid y byddai yr Iuddewon crwydrol yn aml yn gorwedd wrth ddrysau y cyfoethogion. Cymhwysir y gair at y rhai a fabwysiadant dlodi yn wirfoddol, ac a lynant wrtho fel proffes grefyddol. Megys y gair *facir*, yn yr Arabaeg, dynoda yn wreiddiol rai nad oes ganddynt na thân nac un lle sefydlog i fyw ynddo. Cafodd sylfaenwyr cyntaf yr urdd gryn drafferth i'w dwyn i mewn i'r grefydd Fahometaidd: attelid hwynt gan y gwaharddiad —Dim mynachaeth mewn Islamiaeth! Gan hyny, cymmerent ofal i adael allan lwon o wyryfdod, ac ni ofynent fywyd cymdeithasol yn yr un man; ac nid oeddynt yn fanwl chwaith gyda golwg ar ympryd a gweddi. Fel pob penboethiaid yn mhob oes, hwyrach y chwennychent ddarganfod y llwybr i addoli a fyddai debycaf o dderbyn ffafrau y nefoedd. Ond y mae yn wastadol mewn gau grefydd gymmaint o dwyllwyr a phenboethiaid; ac efallai fod y ddau nodwedd iad yn cyfarfod yn yr un person yn amlach nag y dychymygir. Gan hyny, yr oedd synu y bobl drwy eu hymarferiadau creulawn a mympwyol, a thrwy lymdoster eu bywyd, yn llawn cymmaint o amcan gan y Derfishiaid cyntaf a boddhau Duw. Eto, gyda'u holl ynfydrwydd—a gallwn chwanegu, eu twyll—yr oedd yr athrawiaethau a ddysgent yn hynod am eu moesoldeb.

Dywed y Derfishiaid Tyrcaidd, y gellir olrhain eu tarddiad hyd at Ali, ac hyd yn oed at Abubekr—yr hwn oedd y cyntaf o bedwar olynwr uniongyrchol Mahomet. Ond nid oedd Ali, y pedwerydd o'r caliphiaid hyny, yn Dderfish. Ni sefydlodd un urdd: nid oedd efe ond y Mahometiad cyntaf a ranodd ei holl gyfoeth yn mysg y tlodion. Efelychwyd ei esampl gan eraill ar ei ol; fel y cyfododd dosbarth o bobl, pa rai, megys y Chwiorydd Trugaredd, a gyssegrent eu hunain at wasanaeth yr anghenus a'r digymhorth, ac a ddarostyngent eu hunain i dlodi gwirfoddol. Ond cyfnewidiodd pethau yn fuan. Ymddiriedwyd y cymynroddion a adawsid gan y ffyddloniaid at wasanaeth y tlodion i'w cyfranu i'r bobl selog hyn; a thrwy hyny, daeth yr urdd yn feddiannol ar gyfoeth mawr. Heb law hyny, yr oedd yn rhaid fod gan ddynion mor dduwiol ddylanwad mawr gyda'r nefoedd; gan hyny, yr oedd yn rhaid prynu eu gweddïau—derbynient lawer o gyfoeth o'r ffynnonell hon. Ond nid oes digoni ar drachwant dynol; tarawodd y Derfishiaid, fel eu brodyr o'r ffydd Babaidd, ar gynllun arall i ymgyfoethogi: troisant i wneyd a gwerthu teganau swyngyfareddol, megys y masnachai y rhai diweddaf mewn creiriau, i ba rai y priodolent rinweddau gwyrthiol. Trwy hyn, ennillasant radd helaeth o barch, a chynnyddai eu hurdd yn feunyddiol, nid yn unig o raddau isaf cymdeithas, ond o'r graddau uchaf hefyd.

Wedi i un urdd gael ei sefydlu, nid oedd dim yn hawddach na sefydlu rhai eraill; canys y mae twyll bob amser yn ffrwythlawn mewn dichellion a chynlluniau. Cyfododd deuddeg ar ugain

Digitized by Google

o'r rhai hyn, y naill ar ol y llall, a phob un o honynt yn ymdrechu myned tu hwnt i'r lleill mewn dysgyblaeth ac arferion afresymol. Wrth gwrs, yr oedd y pethau hyn oll wedi eu bwriadu i effeithio ar edrychwyr; ac y mae yn ddiau iddynt gael yr effaith a amcenid i raddau helaeth. Nid oes un dyn yn foddlawn i chwareu rhan y ffwl yn rhad. Aeth y Derfishiaid yn gyfoethog a pharchus. Gallent ddywedyd yr hyn a fynent, a hyny hyd yn oed wrth foneddigion o'r radd uchaf. Dilynent y fyddin i faes y gwaed; a chyda'r Coran yn eu dwylaw, annogent filwyr y ffydd (felly y gelwir y milwyr Mahometaidd), i ymladd yn erbyn pob anffyddwyr a chamgredwyr.

Y mae y Derfishiaid sydd yn byw yn gyfundebau, a'r rhai a gyfansoddant y dosbarth lluosocaf o ddigon, yn meddu eu penaeth, ac y maent yn ddarostyngedig i gyflwr o brawf a chyflawniadau crefyddol, heb law y gweddiau ag y mae pob Mahometiad yn rhwym o'u hadrodd. Gan nad ydyw gwyryfiaeth yn cael ei orchymyn yn gaeth, er fod hyny yn cael ei gymmeradwyo, y mae llawer o honynt yn briod. Nid ydyw y rhai hyn, pa fodd bynag, yn byw yn gyfundebol: y maent hwy oll yn meddu eu trigfanau neillduol; ond dysgwylir iddynt oll dreulio y noson flaenorol i unrhyw arddangosfa gyhoeddus yn adeilad y sefydliad i ba un y perthynant. Heb law y rhai hyn, y mae Derfishiaid teithiol, y rhai sydd yn crwydro yn barhaus o un parth i'r byd Mahometaidd i'r parth arall—rhai i bregethu, rhai ar bererindod, â llawer i gardota a lladrata.

O'r urddau lluosog o Dderfishiaid a fodolent unwaith yn Twrci, tair yn unig sydd yn teilyngu sylw y darllenydd — y Mevlevy, y Bedevy, a'r Rufai; ac hyd yn oed o'r rhai hyn, urdd Mevlevy ydyw yr unig un sydd yn derbyn unrhyw radd o barch, o'r hyn lleiaf yn mysg y dosbarthiadau uchaf.

I. Sefydlydd urdd Mevlevy oedd Mevlana-Jelaleddin-Hoomy-Muhammed, yr hwn a gyfenwid Sultan-ul-Ulema, neu benadur y dysgedigion. Ganwyd ef yn Balk, yn Chorasan, yn B. A. 1226. Yr ydoedd o deulu urddasol: yr oedd ei daid o ochr ei dad wedi priodi Alaeddin (Aladdin), un o freninoedd Chorasan; heb law hyny, yr oedd yr hen ŵr ei hunan yn deilliaw, o ochr ei dad, oddi wrth y Caliph Abubekr, ac yr oedd ei fam yn dywysoges.

Dysgai Jelaleddin yn gyhoeddus yn Iconium, fel yr hen athronyddion. Yr oedd yr holl ddinas yn awyddus am dderbyn ei ddysgeidiaeth. Ond yn B.A. 1264, daeth dyn o'r enw Shemseddin i Iconium, o Tauris, yr hwn a gynnyrchodd gyfnewidiad mawr yn arferion Jelaleddin. Yr oedd y Shemseddin hwn hefyd yn deilliaw o Abubekr, ac yr ydoedd yn benaeth ar urdd o Dderfishiaid. Ni oddefai ei egwyddorion caeth iddo edrych, heb ofidio, ar ddoethawr mor enwog a Jelaleddin yn ymlynu cymmaint wrth faterion y byd. Llwyddodd i gael gan y diweddaf ymwrthod â chyfranu addysg, ac i dreulio amryw wythnosau olynol gydag ef yn ei ymneillduaeth. Anfoddhaodd hyn ddysgyblion Jelaleddin yn ddirfawr, y rhai a gynllwynasant i lofruddio Shemseddin. Achubodd y diweddaf ei hun, pa fodd bynag, drwy ddianc; aeth y llall mor bruddglwyfus o blegid colli ei gyfaill, fel yr ymwadodd â'r byd, ac y sefydlodd, yn 1265, urdd Derfishiaid Mevlevy. Cyfansoddodd waith a elwir *Mesnevy*, yr hwn a gynnwys beth o'r barddoniaeth mwyaf poblogaidd yn y dwyrain—mor boblogaidd, yn wir, fel y mae lluaws o'i bennillion moesol yn cael eu harfer megys diarebion yn bresennol; a phrif orchwyl ei ddilynwyr ydyw canu ei ganiadau.

Bu farw Jelaleddin yn 1294, wedi gosod y fath enwogrwydd ar ei urdd, fel y cydnabyddid hi yn rhagori ar y lleill oll. Penaeth presennol [1848] yr urdd hon yw Cheleby-Effendy, yr hwn hefyd a breswylia yn Iconium. Fel olynydd Jelaleddin, y mae yn meddu yr hawl i benodi penaeth pob sefydliad crefyddol, yn nghyd â'r anrhydedd o wisgo pob sultan newydd â chleddyf Othman.

Y mae yn rhaid i bob ymgeisydd am aelodaeth yn urdd Mevlevy ymwrthod â gwagedd y byd, a chyflawnu y gorchwylion mwyaf distadl yn y gegin yn ystod tymmor eu prawf o fil ac un o ddyddiau; ac ni oddefir iddynt fyned tu allan i derfynau y sefydliad hyd nes y terfyna eu prawf. Yna, fe rydd y penaeth ystafell i'r ymgeisydd yn mysg ei frodyr, a derbynir ef i mewn i holl seremoniau crefyddol yr urdd.

Bydd y Derfishiaid hyn, bob dydd Mawrth a dydd Gwener, yn cyflawnu eu defodau crefyddol cyhoeddus mewn ystafell wythonglog, yr hon a elwir ganddynt hwy yn ystafell weddi. Y mae ynddi ddwy oriel, ac y mae wedi ei neillduo at yr amcan hwnw yn unig. Nid oes yn y neuadd un addurnwaith ond enw y sefydlydd mewn llythyrenau euraidd mawr. O dan yr enw y mae eisteddle y penaeth. Gyferbyn â'r lle hwn y mae yr hyn y gellir ei alw yn berorfa, lle yr eistedd lluaws o'r brodyr i chwareu offerynau cerdd. Y mae yno le neillduedig hefyd i'r sultan, yr hwn fydd yn bresennol weithiau ar yr achlysuron hyn.

Agorir drysau y neuadd am hanner dydd, pryd y llenwir yr orielau gan edrychwyr. Cyn hir deua rhai o'r Derfishiaid i mewn; cyfarchant enw y sefydlydd, a phenliniant o amgylch yr ystafell. Yna, ymostyngant hyd nes y bydd eu talcenau yn cyffwrdd â'r llawr, cyfodant ac eisteddant ar eu sodlau. Wedi hyny, daw y penaeth i mewn yn ei dro; cyfarcha yr un enw parchedig, a yn mlaen i'w le priodol, a dechreua y weddi a elwir *fat ha*, wedi i'r côr o Dderfishiaid ganu emyn Bersiaidd. Yn y cyfamser, bydd y gweddill o'r brodyr wedi dyfod i mewn, ac eisteddant yn eu lleoedd priodol, ar ol myned drwy y cyfarchiadau a'r ymostyngiadau angenrheidiol. Pan y bydd y cyfan wedi cydymgasglu, dechreua y seindorf, offerynau pa rai fydd yn gynnwysedig o dabyrddau pres bychain a chwibanoglau, chwareu tôn, mewn amser lled araf ar y cyntaf, ond bywioga yn ddisymmwth, pan y cyfyd yr holl Dderfishiaid ar eu traed, ac y cerddant yn araf ar hyd yr ystafell dair gwaith, yn cael eu blaenori gan y penaeth. Wedi iddynt fyned drwy hyny o orchwyl, fe saif y penaeth: pasia pob brawd, ymgrymant yn isel iddo, ymaflant yn ei law, dyrchafant hi at eu gwefusau a'u talcenau, a dechreuant droi o gwmpas.

Yn awr y dechreu y chwareu gwirioneddol, yn mha un y cymmer pob un ei ran. Bydd pawb o honynt yn troi o gwmpas, ar y cyntaf yn lled araf, ond fel y bywioga cerddoriaeth y seindorf, cyflymant yn eu hysgogiad, nes yr ânt o'r diwedd y bydd yn anhawdd i'r llygad eu dilyn. Dilynir y gerddoriaeth drwy ganu emyn, yn gosod allan ddyledswyddau ac yn canmawl proffes y Derfishiaid. Bydd nifer y rhai a ymunant yn y chwareu ynfyd hwn ar yr un pryd yn amrywio o naw i dri ar ddeg, a phery y chwareu o bump i saith mynyd. Yna cymmer cwmni arall o'r un nifer eu lle; ond bydd pob cwmni yn

myned drwy y chwareu dair gwaith neu bedair yn ystod y gwasanaeth. Tra y bydd y brodyr hyn yn myned drwy eu gwaith, bydd y Simazen-Bashy, neu feistr y ddawns, yn edrych arnynt yn fanwl, rhag na byddo i un o honynt dori o'i gylch priodol. Pan y byddant wedi gorphen yr holl wasanaeth hwn, a phan y bydd yr holl addolwyr wedi diffygio gan flinder, gweddïa y penaeth am lwyddiant yr ymherodraeth ac iechyd y sultan. Yna, ymadawa pawb, yn cael eu dilyn gan y penaeth.

II. Urdd Bedevy. Y mae aelodau yr urdd hon, y rhai a elwir "Oernadwyr" gan Ewropiaid, yn tra rhagori ar yr urdd flaenorol mewn ynfydrwydd a ffolineb arferion. Y maent yn meddu sefydliad crefyddol yn St. Dmitry, pentref yn agos i Caer Cystenyn. Y lle yn mha un y cyflawnant eu defodau sydd ystafell gyfonglog, muriau yr hon sydd wedi eu britho yn helaeth â dyfyniadau o'r Coran, oddi eithr lle y mae rhyw offerynau cerdd yn grogedig. Yn yr ongl sydd yn pwyntio tua'r ddinas sanctaidd, y mae cell fechan, a elwir Mihrab, lle y cedwir y Coran yn ofalus. Yn union o dan hyny, y mae sypyn o offerynau miniog. Y mae enw sefydlydd yr urdd yn y lle mwyaf amlwg ar y mur. Cyflawnant eu hymarferiadau crefyddol fel y canlyn:—

Dechreuant gyda gweddi (*namez*), yr hon a adroddir gan y penaeth. Fe eistedd yr holl Dderfishiaid o'i gwmpas, ar ol ymostwng hyd y llawr, a chydganu rhai adnodau o'r Coran, gan symmud eu cyrff o ddeheu i aswy tra yn gwneyd. Pery y rhagbarotoad hwn am tua hanner awr. Yna cyfodant oll, ac eisteddant yn ddifrifol ar eu sodlau yn nghanol yr ystafell, fel ag i ffurfio rhengoedd rheolaidd. Adroddir gweddïau ereill, gan symmud y corff yr un modd. Ar arwydd oddi wrth y penaeth, cyfyd pob un o honynt eilwaith, symmudant gam yn mlaen, a syrthiant yn ol i'w sefyllfa flaenorol. Parhânt i wneuthur hyn mewn undeb perffaith â'u gilydd. Adroddant holl briodoliaethau Duw, a hyny mewn geiriau cyffelyb i Litani yr Eglwys Ladinaidd. Ymddangosant fel wedi cyrhaedd i eithafnod penboethni pa bryd bynag y dywedant y gair *Allah!* yr hwn a adroddant o'r hyn lleiaf ugain gwaith mewn mynyd: dyrchafant eu lleisiau yn uchel iawn y pryd hyny. Cynnorthwyir y penaeth gan y Derfish hynaf, yr hwn a eistedd ar ei law ddeheu: calonoga ei frodyr drwy ei lais a'i ystumiau; a thrwy hyny, cyfrana nerth chwanegol at eu hoernadau. Y pryd hyny, bydd pob Derfish yn mabwysiadu rhyw ysgogiad corfforol neillduol; weithiau o ddeheu i aswy, a phryd arall yn ol ac yn mlaen. Y mae yr ysgogiad arwyddluniol hwn, yn ol sefydlydd yr urdd, wedi ei fwriadu i arddangos ysgogiad llestr pan yn cael ei luchio gan y tonau: megys y gellir dyweyd nad oes i'r môr na therfynau, na gwaelod, na glan, ystyrir ef fel arwyddlun gwanaidd o anfeidroldeb Duw. Ni chlywir dim yn awr ond swn taglyd yn dyfod o fynwesau crynedig y Derfishiaid; rhed chwys i lawr ar hyd eu gruddiau, gorchuddir eu gwefusau gan ewyn, a bydd gwythïenau eu gyddfau mor chwyddedig fel yr ymddangosant megys ar ymddryllio. Bydd rhai yn syrthio i lawr, megys pe wedi eu taraw yn ddisymmwth gan lewyg: ymwingant yn mreichiau eu brodyr, gan barhau i waeddi *Allah!* Bydd rhai yn cymmeryd arnynt lesmeirio, a chludir hwynt allan yn uniongyrchol. Ymddengys ereill yn hollol ddiffygiol gan flinder; a'r mynyd y gellid meddwl eu bod ar drengu, adnewyddant eilwaith, a dechreuant oernadu yn waeth nag o'r blaen. Cyn hir, megys mewn gwallgofrwydd, ymaflant yn yr offerynau miniog, er mwyn chwanegu gwaed at eu gwaeddiadau.

Ond nid ydyw penboethiaid, pa mor selog bynag fyddont, bob amser yn foddlawn i ddyoddef llawer o boen corfforol. Cymmer y Derfishiaid hyn ofal mawr na wnant chwaneg o niwed iddynt eu hunain na thori ychydig yn ysgafn ar eu croen; fe atebir eu dyben yn llawn cystal gan ychydig ddyferion o waed ar y wynebpryd, a phe tywalltent holl waed eu gwythïenau. Y mae yn wir y gellir canfod rhai o honynt weithiau â'u hwynebau yn greithiau mawrion; ond nid ydyw y rhai hyn ond bongleriaid, ac y mae yn ddiau y chwardd eu brodyr mwy celfyddgar am eu penau.

Gelwir y defodau a ddysgrifiasom gan y Derfishiaid eu hunain yn *Muckabelé* (dyrchafiad gogoniant Duw), ac yn *Tewhid* (mawrygiad unoliaeth Duw).

III. Seid-Ahmed Rufaï, yr hwn a fu farw mewn coedwig rhwng Bagdad a Bassora, yn y flwyddyn 1200, oedd sefydlydd yr urdd sydd yn dwyn ei enw.

Y mae cyffelybrwydd mawr rhwng y dosbarth hwn o Dderfishiaid a'r dosbarth diweddaf, gan yr ystyriant, fel hwythau, fod defosiwn yn gynnwysedig mewn galw ar enw Duw mewn llais mor uchel nes colli eu hanadl. Dosberthir eu defodau crefyddol yn bum rhan. Y mae y rhan gyntaf yn gynnwysedig o'r *namez*, yr hon weddi a adroddir ganddynt dan gyfarwyddyd y penaeth, i'r hwn y talant yr arwyddion o barch a ystyriant yn ddyledus i'w nodweddiad. Wedi iddynt orphen y weddi hon, safant oll ar eu traed yn llinell union yn nghanol yr ystafell: yna dechreuant adrodd adnodau o'r Coran, gan symmud eu cyrff o ddeheu i aswy, ond heb newid eu sefyllfaoedd; cyfodant eu lleisiau yn raddol, a chyflymant eu hysgogiadau, yn ol cyfarwyddyd eu harweinydd, yr hwn a geidw yr amser iddynt â'i ddwylaw. Gorphenir yr ail ran hon o'r gwasanaeth drwy adrodd priodoliaethau Duw: gwnant hyn â'u llygaid yn gauedig, ac mor hir hyd nes y diffygia eu llais. Gorphwysant am ychydig ar ol hyn. Yn ystod yr yspaid hwn, ymafla un o'r Derfishiaid fydd yn nghanol y llinell mewn pâr o symbalau, yr arweinydd mewn tabwrdd pres, a'r trydydd mewn math o dympan. Cynnyrchir drwy yr offerynau hyn swn anmheraidd, yr hyn fydd yn arwydd i ddechreu y drydedd ran o'r gwasanaeth. Gwasanaetha y gerddoriaeth fel cyngherddawd (*accompaniment*) i'r *Hamdey Muhammedy*, neu yr emynau er anrhydedd Mohamed, y rhai a ddadgenir gan yr arweinydd, tra yr ymuna y lleill mewn math o gydgan, yn gynnwysedig o'r geiriau *Ya Allah!* a *Ya Hoo!* Terfynir y cydgan mewn udiadau, wrth wneyd pa rai yr ymddengys y Derfishiaid fel yn cydymgais â'r gerddoriaeth farbaraidd—sain anghydgordiol pa un a chwanega bob eiliad. Yn y bedwaredd ran o'r gwasanaeth, gorchymyna y penaeth i'r offerynau gael eu dodi o'r neilldu, ac adnewyddir y rhan leisiol o'r addoliad. Yna, dadgenir yr *Ilahis*—emynau Persiaidd a gyfansoddwyd gan ryw Dderfishiaid sciotiol. Cyfnewidir ysgogiad y corff yn awr, yr hwn oedd ar yr achlysur blaenorol o ddeheu i aswy, a symmudant yn ol ac yn mlaen: yn ystod yr ysgogiad hwn, gwaedda pawb *Allah! Hoo!* gyda chyflymder cynnyddol, ac yn uwch nag o'r blaen. Yn ystod y rhan hon o'r

Digitized by Google

gwasanaeth, rhydd y penaeth gleddyfau miniog, gwyniasboeth, i'r rhai mwyaf medrus o'r Derfishiaid. Chwyrnellant yr arfau arswydlawn, a ffugiant eu cymhwyso yn achlysurol at eu gwynebau, neu ryw ran arall o'u cyrff. Pan y cyflawnir y gamp hon yn gyflym a medrus, nid ydyw yn rhyfedd fod llygaid yr edrychwyr yn cael eu twyllo, er na bydd y cleddyfau un amser yn cyffwrdd â'r croen. Yn ddiweddaf, i derfynu y chwareu, adroddir ychydig weddïau gan y penaeth, a chymhwysir poer er iachau briw ffugiol. —(*Buck's Theol. Dict· Penny Cycl.; Rel. Encycl.*)

DERW, DERWEN, [אלון; Deg a Thrigain, Βάλανος; Llad. *Quercus*]. Deallid y gair Hebraeg hwn (fel y dygwydd yn *Gen.* xxxv. 8; *Ios.* xxiv. 26; *Esa.* ii. 13; vi. 13; xliv. 14; *Hos.* iv. 13; *Amos* ii. 9; *Zech.* xi. 2) gan yr hen gyfieithwyr, fel yn dynodi y dderwen; ac nid oes un rheswm dros ammheu eu cywirdeb. Yn y Beibl Cymraeg, y mae geiriau ereill wedi eu cyfleithu "derwen," yn neillduol *Alah* (אלה), wrth yr hwn y dynodir, y mae yn debygol, y pren *terebinth.* Ni chrybwyllir mor fynych yn y gwreiddiol am y dderwen ag y gwneir yn y cyfieithiad awdurdodedig, yn yr hwn y dygwydd mor fynych fel y gall ein harwain ni i dybied fod y derw mor gyffredin yn Palestina ag yn y wlad hon. Ond nid ydyw y derw ar un cyfrif yn gyffredin yn Syria, oddi eithr mewn parthau mynyddig, lle y mae yr hinsawdd yn debycach i hinsawdd gwledydd gogleddol; ac hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyny, ni thyfant i'r un maintioli ag y canfyddir hwynt yn fynych yn y wlad hon. Crybwyllir mewn modd neillduol yn yr Ysgrythyr am "dderw Basan" (*Esa.* ii. 13; *Ezec.* xxvii. 6; *Zech.* xi. 2), megys pe buasai y coed derw yn lluosocach ac yn fwy yn y mynyddoedd tu hwnt i'r Iorddonen nag yn un man arall. Fel hyn y mae yn bod hyd yn oed yn bresennol. Y mae Burckhardt yn crybwyll yn fynych am goedwigoedd tewion o dderw—tewach na dim coedwigoedd a welodd efe yn Syria—yn mharthau mynyddig Basan a Gilead. Sieryd yn ddiolchgar am y' cysgod a dderbyniai oddi wrthynt; ac y mae yn debygol mai presennoldeb y coed derw hyn a roddai i'r olygfa y nodwedd Ewropaidd y sonia am dano.—[*Syria*, 265, 348.] Ar yr ochr hono i'r afon, y mae coedwig dew o dderw mor bell i'r deheu a chymmydogaeth Amman, prifddinas yr Ammoniaid [td. 356]. Y mae coed derw bychain yn aml yn y bryniau a'r gwastattiroedd ger llaw tarddiadau yr Iorddonen [td. 45, 312, 315]: a chanfyddir rhai o faintioli mawr mewn gwahanol barthau o'r wlad, ger llaw y llynoedd naturiol o ddwfr a gyflenwir gan ffynnonau.—[td. 193, 315.] Ar lechweddau isaf Lebanon, y mae lluaws mawr o goed derw byrion, a bydd y trigolion yn defnyddio eu cangenau i adeiladu toau gwastad eu trigfanau.—[td. 4, 7, 18, 193, 312, &c.] Yn nesaf at Burckhardt, Arglwydd Lindsay ydyw y teithiwr a wna y crybwylliadau mynychaf am goed derw yn Palestina. Cadarnha efe y dystiolaeth am eu cyflawnder yn Basan a Gilead. Geilw efe hwynt yn "dderw pigog ardderchog," ac yn "dderw bythwyrddion," a sylwa ar fath gwahanol o'r rhai diweddaf, yn meddu dail lletach na chyffredin.—[*Travels*, ii. 122, 124, 127.]

Ond ceir coed derw hefyd yr ochr orllewinol i'r Iorddonen, yn Ngwlad Canaan. Dysgrifia Arglwydd Lindsay fynyddoedd deheuol Iudea, tua Hebron, fel wedi eu gorchuddio drostynt gan fanwydd isel o'r derw pigog. Y mae llawer iawn o'r derw pigog a'r derw bythwyrddion i'w gweled rhwng Samaria a mynydd Carmel. Y mae cyflawnder o'r un coed ar barthau deheuol y mynydd hwnw, ac ar lanau yr afon Cison. Y mae y coed tewion a orchuddiant Fynydd Tabor yn gynnwysedig yn benaf o dderw a choed *pistachio*, a chanfyddir derw yn y dyffrynoedd sydd yn ymestyn o'r mynydd hwnw.—[*Lindsay*, ii. 51, 77, 85.] Darganfyddodd Hasselquist goedwigoedd o'r derw Kermes yn y dyffrynoedd tu hwnt i wastattir Acre, ar y ffordd i Nazareth.—[*Travels*, td. 153.]

Gellir cynnwys yr holl wahanol rywogaethau o'r coed derw a ganfyddir yn Mhalestina, y mae yn debygol, dan y pum dosbarth canlynol:—1. *Y derw bythwyrdd*, y rhai a geir nid yn unig yn Asia orllewinol, ond hefyd yn Affrica ogleddol ac Ewrop ddeheuol. Y mae hwn yn bren yn tyfu yn uchel; ond nid ydyw ei gangenau yn ymledu ond ychydig, ac y mae ei goed yn galed iawn, a defnyddir ef yn helaeth at bob gwaith y bydd eisieu iddo barhau. 2. *Y derw Montpelier*, i ba rai y mae dail cyffelyb i ddail celyn, ac yn fythwyrdd. Rhestrir hwn ar awdurdod Pococke. Brodor o Ewrop ddeheuol ydyw y pren hwn hefyd, fel yr awgryma ei enw; ac y mae yn dra gwahanol i'r math blaenorol, drwy ei fod yn meddu llawer iawn o gangenau ceimion ac anffurfiol, yn nghyd â bod ei ddail yn wlanog oddi danynt. 3. *Y derw cibau blewog*, y rhai a elwir felly oddi wrth ymddangosiad gwrychog eu blodeugib (*calyx*). Bydd y rhywogaeth hon yn tyfu i faintioli lled fawr, a cheir coed rhagorol o honynt, yr hwn a ddefnyddir yn helaeth gan y Tyrciaid i adeiladu llongau a thai. Ond er fod y math hwn i'w gael yn Syria, y mae yn llawer mwy cyffredin yn Asia Leiaf. 4. *Y derw cibau pigog mawr*, y rhai a dderbyniant eu henw oddi wrth eu blodeugib pigog. Y mae y rhywogaeth hon yn gyffredin yn y dwyrain, lle y tyfant yn goed hardd, yr hyn ni wnant yn ein hinsawdd ni er pob triniaeth. Nid ydyw coed y rhywogaeth hon ond o ychydig werth; ond y mae eu mes yn werthfawr, o ba rai yr allforir i'r wlad hon yn flyneddol 7,500 o dynelli, at wasanaeth barceriaid. Adnabyddir hwynt dan yr enw *valonia.* 5. *Y derw Kermes*, y rhai a dderbyniant eu henw oddi wrth drychfilyn (*kermes*, o dylwyth y *coccus*) a ymlyna wrth gangenau y manwydd bythwyrdd hyn, ar ffurf pelenau cochion bychain, o faintioli pys. Ceir lliw porphoraidd oddi wrth y trychfilod hyn, tra adnabyddus yn yr hen amseroedd; ond defnyddir *cochineal* yn ei le yn bresennol. Defnyddid y lliw hwn gan yr Hebreaid; canys y mae y gair תולע, yr hwn a ddynoda drychfilyn, ac yn neillduol y *kermes*, yn dynodi hefyd y lliw a geir oddi wrtho (*Esa.* i. 18; *Galar.* iv. 5); gan hyny, cyfieithir ef κόκκινον (ysgarlad) yn yr adnodau hyny lle y dygwydd.

Ystyrid coed derw, a choedwigoedd derw, fel lleoedd priodol i gynnal gwasanaeth crefyddol ynddynt; a gosodid allorau i fyny ynddynt (*Ios.* xxiv. 26); ac y mae yn debygol y byddai pobl yn y dwyrain, yn gystal ag yn y gorllewin, yn arfer ymgasglu dan gysgod coed derw adnabyddus i ymdrin â gwahanol bynciau, ac i wneuthur cyfammodau, megys y darllenwn yn Homer, Theocritus, a beirdd ereill.

Yr oedd eistedd dan goed derw yn beth cyffredin yn mysg yr Hebreaid: *Barn.* vi. 11; 1 *Bren.* xiii. 14. Claddodd Iacob eilun-dduwiau o dan dderwen (*Gen.* xxxv. 4), a chladdwyd

Digitized by Google

Deborah, mammaeth Rebecca, dan un o'r coed hyn (*Gen.* xxxv. 8; 1 *Cron.* x. 12). Urddwyd Abimelech yn frenin dan dderwen (*Barn.* ix. 6). Cynnelid eilunaddoliaeth dan goed derw (*Esa.* i. 29; lvii. 5; *Hos.* iv. 13). Byddai delwau hefyd yn cael eu gwneyd o dderw (*Esa.* xliv. 14).

Y mae y gwahanol rywogaethau o goed derw sydd yn y byd yn gyffredinol yn dra lluosog. Y mae yn debygol nad ydynt yn rhifo llai na chant a hanner. Ar yr achlysur presennol, nis gallwn ond rhoddi hanes byr am y rhywogaeth mwyaf adnabyddus.

I. Derw Ewrop, Asia Ogleddol, a Barbary. Cynnwysir dan y pen hwn yr holl rywogaeth gyffredin, y rhan fwyaf o ba rai a feithrinir yn y wlad hon. Gellir eu rhanu yn dri dosbarth:—*derw y goedwig*, neu *Robora*; *y derw Ewropaidd*, neu *yr Ilices*; a *derw y cwpanau mysoglyd*, neu *y Cerres*.

1. *Derw y goedwig*, neu *Robora*. Y mae y rhywogaethau a gynnwysir dan y pen hwn yn meddu dail teneu cwympedig, y rhai ni thyfant un amser yn flaenllym, a bydd eu mes mewn cwpanau beision. Gellir cymmeryd coed derw gwylltion Lloegr fel i gynnrychioli y rhywogaethau ereill, y rhai a wahaniaethant oddi wrthynt yn benaf yn swm y manblu sydd ar eu dail, yn maintioli y mes, ac yn ansawdd eu coed.

*Y derw Prydeinig cyffredin.* Y dail yn eisteddog (*sessile*), neu yn agos felly, yn deneu, yn dra anwastad, ac yn meddu ond ychydig lyfndra ar yr ochr uchaf. Y mae y mes wedi eu trefnu yn dwysenau paladrog hirion. Nid ymddengys fod y math yma, yr hwn yw y derw mwyaf cyffredin yn Lloegr yn bresennol, wedi ei gyfyngu i barthau oerion Ewrop, megys y tybiodd rhai; canys te dyf yn Yspaen a Hungary: ond y mae yn wir ei fod yn llawer mwy cyffredin yn y gogledd nag yn y deheu. Dywedir mai y math hwn ydyw *y derw Prydeinig gwirioneddol*, coed yr hwn yn unig sydd yn gyfaddas at ddybenion morwrol, ar gyfrif ei hir barhad a'i galedrwydd; ond nid ydyw hyn ond ffugchwedl, gan fod coed y rhywogaeth nesaf mor gyfaddas a hwythau dan amgylchiadau cyffelyb. Effeithir yn fawr ar goed y derw, fel ar goed pob prenau ereill, gan natur y tir yn mha un y tyfant; ac efallai mai hyn gynnyrchodd yr haeriad cyffredin mai derw Sussex, y rhai sydd yn gynnwysedig yn benaf o'r derw Prydeinig cyffredin, ydyw y math goreu y gellir ei ddefnyddio at adeiladu llongau. Adnabyddir y rhywogaeth hon yn hawdd drwy fod eu dail yn meddu coesau byrion iawn, neu heb goesau o gwbl, tra y tyf y mes ar baladrau hirion.

*Derw blaenfain* y gerddi sydd fath hynod, a'i gangenau yn cyfodi yn uniawn o'r paladr, fel cangenau y pren poplys.

*Derw y cwpanau eisteddog.* Y dail ar goesau hirion, o liw melyn, yn dra anwastad, o sylwedd cryf, ac yn llyfnion ar yr ochr uchaf; a'r mes naill ai yn hollol eisteddog, ai ynte yn tyfu ar goesau byrion. Yr ydym eisoes wedi crybwyll am dybiaeth, yr hon sydd yn gyfeiliornus, bod coed y math hwn yn waelach na choed y derw Prydeinig cyffredin. Dangoswyd trwy luaws o brofion nad oes un gwahaniaeth o bwys rhyngddynt o ran eu cryfder a'u gwydnwch. Ac y mae y ffaith fod nenfwd Neuadd Westminster wedi ei hadeiladu o'r coed hyn yn ddigon o brawf o'u hir barhad. Y mae derw y cwpanau eisteddog i'w cael yn mhob man yn bresennol yn Lloegr, ond nid oes gyflawnder o honynt yn unman. Y mae mwy o honynt, pa fodd bynag, yn y gorllewin nag yn un lle arall; a'r math hwn ydyw y rhan luosocaf o goed derw Gogledd Cymru. Y mae yn bren llawer prydferthach na'r cyntaf, ac yn tyfu yn gynt; gan hyny, y mae yn llawer mwy ennillfawr i'r planwr. Ymddengys ei fod eto yn gyffredin iawn yn neheudir Ewrop.

*Y derw addfed.* Brodor o barthau deheuol Ewrop. Y mae yn dra thebyg i'r math diweddaf, ond y mae ei ddail yn llai, ac yn fynych yn dra gwlanog oddi tanynt. Y mae yn bren ardderchog, ac yn dwyn cyffelybrwydd i dderw Twrci.

Nid oes ammheuaeth nad y math diweddaf ydyw y dderwen y sonia Loudon am dani dan yr enw *Esculus* (ffawydden); ond y mae yn ammheus at ba bren y cyfeiria Linnæus dan yr enw hwn. Ond y mae derwen fechan arall, yr hon a geir yn neheudir Ffrainc, yn dwyn perthynas â derw y cwpanau eisteddog, yr hon a elwir *pyrenaica*, neu *Tawzin*. Nid ydyw coed y math hwn ond o ychydig ddefnydd, oddi eithr at wneuthur llestri coed. Adnabyddir hwynt yn hawdd wrth eu dail llwydion, blew pa rai sydd yn hynod o arw.

2. *Y derw bythwyrddion* (*yr Ilices*). Y mae yr holl goed derw Ewropaidd sydd yn meddu dail bythwyrddion gwirioneddol yn perthyn i'r dosbarth hwn; y rhai a agoshant, pa fodd bynag, ar rai golygiadau, at dderw y cwpanau mysoglyd, pan y bydd y rhai hyny wedi eu meithrin yn Ewrop. Yn yr amgylchiadau hyny, adnabyddir hwynt drwy fod cen eu cwpanau yn fyr iawn, a thrwy na bydd ymylon eu dail yn bigog.

*Y derw bythwyrddion cyffredin.* Dail hirgrynion, miniog, lledraidd, cyfain, neu fylchog, ac yn llwydwyn oddi tanynt. Rhisgl anwastad. Mes ar lun wy, ac ar goesau byrion. Ei fathau yn dra amrywiol, ac yn gyffredin dros ddeheudir Ewrop, lle y gellir ei ganfod gyda dail yn gwahaniaethu o fod mor bigog a dail celyn, hyd nes y byddant mor lyfnion yn eu hochrau a dail olewydden: y maent yn amrywio hefyd mewn maintioli. Hoffant gymmydogaeth y môr; ac yn eu sefyllfa naturiol, tyfant ar eu penau eu hunain, neu ynte yn dyrau bychain: ni byddant un amser yn ffurfio coedwigoedd. Y mae eu coed yn galed iawn, yn drwm, yn wydn, ac o ansawdd rhagorol yn mhob golygiad, os na bydd ei bwysau yn anffafriol iddo. Y mae eu mes yn chwerwon, ac yn anaddas fel ymborth.

*Derw y mes melus.* Dail hirgrynion, lledraidd, cyfain, neu fylchog, difin, gwynion, a gwlanog oddi tanynt. Rhisgl anwastad. Mes hirgrynion. Y derw bythwyrddion hyn, medd y Cadben Cooke, ydyw rhai o brif goed yr Yspaen. Mae y coedwigoedd naturiol wedi eu ffurfio o honynt i fesur mawr. Fel rhywogaeth, y maent yn hollol wahanol i'r rhai blaenorol; y mae y dail yn dewach, yn grynach yn eu blaen, ac o liw glaswyrdd; ac y mae y pren drwyddo oll yn fwy cryno. Yn y mes, pa fodd bynag, y mae y gwahaniaeth mwyaf, y rhai y gellir eu bwyta.

*Derw y dail crynion.* Dail crynion yn mron, gyda dannedd pigog, yn debyg i galon yn eu bôn, yn llyfn ar yr ochr uchaf, ac yn wlanog oddi tanynt. Ni wyddys ond ychydig am y math hwn. Dywed Smith, ac ereill, mai pren Yspaenaidd ydyw.

*Y pren corcyn*, neu *corcwydden.* Dail hirgrynion, difin, lledraidd, cyfain, neu fylchog, a gwlanog oddi tanynt. Rhisgl agenog a mandyllog. Y mae y pren corcyn i'w gael dros holl Yspaen, ond yn Catalonia a Valencia y mae mwyaf o hono. Defnyddir ei risgl yn helaeth tuag at wneuthur cyrc, a phethau cyffelyb. Dywedir



Digitized by Google

fod ffurf y pren yn llawer prydferthach na'r derw bythwyrdd cyffredin, a'i fod yn tyfu i uchder mawr mewn tir cyfaddas i'w natur.

*Y derw ffawydd* (*Beech oak*). Y dail o ffurf gwrthwyaidd, ar goesau byrion, ac yn wlanog oddi tanynt. Y ffrwyth yn eisteddog. Y cwpanau yn meddu cen gwlanog a chryno. Y mes o'r braidd yn hirgrynion. Brodor o Portugal, Yspaen, a Tangiers, ac ymddengys ei fod yn anadnabyddus yn y wlad hon.

*Y derw Kermes*, at yr hwn bren y cyfeiriwyd eisoes. Dail hirgrynion, anhyblyg, llyfn o'r ddau tu, ac yn meddu dannedd pigog. Mes ar lun wy. Y cwpanau yn meddu cen miniog ac ymledol.

3. *Derw y cwpanau mysoglyd* (*y Cerres*). Mae coed derw y dosraniad hwn yn hynod am eu dail teneu pluholltog (*pinnatifid*), cen hir, cul, a rhydd eu cwpanau, a'u hisddail hirion cwympol.

*Derw Twrci.* Dail cwympol, ar goesau byrion, ac o ffurf hirgrwn; yn wlanog oddi tanynt; cibau blaenfeinion, ac onglog i raddau. Mae yr isddail (*stipules*) yn hwy na'r dalendraed (*footstalks*). Y cwpanau yn hannergrwn, gyda chen gwlanog hir rhydd. Planigyn tra chyffredin dros holl barthau de-ddwyreiniol Ewrop, lle yr ymddengys y ffurfia rai o'r mathau prydferthaf o dderw. Y mae yn tyfu yn bren uniousyth, ac yn tyfu yn llawer cyflymach na'r derw Prydeinig. Mae coed y pren wedi ei fritho yn brydferth, mewn canlyniad i'r llinynau arianaidd a redant drwyddo; a chredir ei fod, dan amgylchiadau ffafriol, gystal a choed unrhyw rywogaeth arall. Dywedir ei fod yn cael ei ddefnyddio yn helaeth yn Twrci a Ffrainc tuag at adeiladu llongau.

*Y derw Yspaenaidd.* Y cyff yn gorcaidd; a'r cangenau yn lled unionsyth. Y dail agos yn fythwyrddion, o ffurf blaenfain, yn meddu dannedd mân miniog, yn lledraidd o ran sylwedd, yn wyrdd tywyll o ran lliw, ac yn wlanog oddi tanynt. Y cwpanau braidd yn eisteddog, gyda chen garw, pigog, ac ymledol.

*Y derw Awstriaidd.* Dail hirgrynion, gwlanog a llwydion oddi tanynt, ar goesau hirion; cibau byrion, ar lun ŵy, a chyfan. Yr isddail yn fyrach na'r dalendraed. Y cwpanau yn hannergrwn a gwrychog. Y mae dail y math yma, pa rai a dyfant yn Awstria, Hungary, &c., yn fwy na dail y derw Yspaenaidd, ac y mae y mes yn fwy hefyd: y maent yn mhob peth arall yn dra thebyg.

*Y derw cibau pigog mawr*, am ba rai y soniwyd yn flaenorol. Dail hirgrynion, cibau pigog, a llwydwyn oddi tanynt. Cwpanau mawr, hannergrwn, gyda chen blaenfain, hirion, ac ymledol.

II. Derw y Dwyrain. Ni wyddys nemawr am rywogaethau y parth hwn o'r byd. Dygodd y teithiwr Ffrengig, Olivier, adref gydag ef un rhywogaeth dra thebyg i'r derw Tyrcaidd; sef, derw y cwpanau mysoglyd, yr hwn y dywedai oedd i'w gael drwy holl Asia Leiaf, ac mai dyma y coed a ddefnyddiwyd yn ystordy arfau Caer Cystenyn. Cafwyd math arall yn Caramania, sef y derw anhyblyg (*quercus rigida*), lle y dywedir fod coed derw yn tyfu i faintioli a phrydferthwch mawr; ac mae y derw afalau cyffredin (*quercus infectoria*) wedi bod yn hysbys er ys llawer o amser. Ond nis gall fod un ammheuaeth nad ydyw y parthau mynyddig sydd yn terfynu rhwng yr ymherodraeth Dyrcaidd ac India yn cynnyrchu gwahanol rywogaethau o dderw ag y dylid eu harchwilio; ac mewn gwirionedd, anfonwyd tri o rywogaethau gwahanol yn ddiweddar o Koordistan.

Rhoddwn hanes byr eto am y rhywogaethau a gafwyd yn ngwledydd y dwyrain.

*Y derw cibau blewog*, am ba rai y soniwyd eisoes. Dail hirgrynion, gwlanog oddi tanynt, ac agos yn gyfan, ac y mae iddynt goesau hirion. Cwpanau hannergrwn, gwlanog, a gwrychog. Dysgrifir y dderwen hon fel pren mawr, o ba un y ceir coed rhagorol.

*Y derw afalau dwyreiniol.* Dail hirgrynion, ar lun ŵy, tra llyfn ar y ddau du, yn ddanneddog yn eu hochrau, ac yn gwympol. Y mes yn hirion ac yn eisteddog. Cwpanau brithion. Pren tra chyffredin yn Asia Leiaf, lle yr ymosodir ar ei gangenau gan drychfilyn bychan; yr hwn a'u tylla hwynt, gan achosi ffurfiad yr afalau derw (*oak-galls*) y gwyddys am danynt mor dda mewn trafnidiaeth. Ni bydd un amser yn tyfu i faintioli mawr, ac nid ydyw o un defnydd oddi eithr er mwyn ei afalau. Bydd ei gangenau weithiau yn cynnyrchu cnapiau mawr rhyddgoch, yn yspyngaidd oddi mewn. Bu rhai yn tybio mai y rhai hyn oedd afalau y Môr Marw, y rhai oeddynt yn deg i'r golwg, ond er hyny yn cynnwys dim ond llwch a lludw.

*Derw y dail anhyblyg.* Dail hirgrynion, llyfnion, annosbarthedig, gyda dannedd pigog, a glas wyrddion oddi tanynt. Y dalendraed yn flewog yn eu blaen. Cen y cwpanau yn anhyblyg ac ymledol. Brodor o Caramania ydyw y pren hwn, ac yn ol rhai, o'r Morea hefyd, ond y mae hyn yn ammheus. Y mae yn blanigyn prydferth, ond ni wyddys dim am ei ddefnyddioldeb.

*Derw Mr. Brant.* Y cangenau, y dalendraed, a'r dail wedi eu gorchuddio oddi tanynt â gwlan tew, byr. Y dail ar lun calon, ac yn meddu dannedd miniog, o liw llwydwyn, gyda manblu serenog ar yr ochr uchaf. Dysgrifir y pren hwn yn y *Botanical Register* fel planigyn tra hynod. Y mae y dail, pan yn eu llawn faintioli, a mesur eu coesau, yn chwe modfedd o hyd, ac yn dair modfedd a hanner o led yn y man lletaf, yr hyn sydd yn agos i'r bôn.

*Derw y dail castanwydd.* Dail yn hirgrynion a blaenfain, lled wlanog ar yr ochr isaf, danneddog, gyda chibau gwrychog. Y mes o'r braidd yn eisteddog, ac yn hirgrwn o ran ffurf, gyda chwpanau, pan yn hen, wedi eu gorchuddio â chen gwrthdröedig. Pren ydyw hwn a dyf yn nhalaeth Mazanderan, a dywedir ei fod yn dra phrydferth. Bydd y dail yn fynych o bedair i bum modfedd o hyd.

*Y derw breninol.* Dail yn meddu ar goesau, o ffurf ŵyaidd blaenfain, gyda dannedd miniog anwastad, ac o'r ddau tu yn wyrdd, yn ddysglaer, ac yn llyfn. Brodor o Koordistan ydyw y pren hwn. Rhywogaeth ardderchog ydyw, ac yn meddu dail gymmaint a dail y gastanwydden Yspaenaidd, i ba rai y maent yn dra thebyg.

*Derw y manna.* Dail yn meddu ar goesau, yn hirgrynion a lled debyg i galon o ran ffurf; yn llyfn o'r ochr uchaf, ac yn wlanog oddi tanynt. Y mes yn hirgrwn, yn ddigoesau, ac yn llyfn. Brodor yw o fynyddoedd Koord, lle ei darganfyddwyd yn ddiweddar gan Mr. Brant, y consul Prydeinig yn Erzerum, yr hwn a gafodd allan y byddai y Koordiaid yn cael sylwedd melus o'i gangenau a'i ddail, drwy eu mwydo mewn dwfr berwedig yn ystod tymmor poethaf y flwyddyn, gan eu gadael i ferwi nes y bydd yr holl ddwfr wedi diane ymaith yn ager. Gwneir y sylwedd hwn drachefn yn deisenau, a gwerthir hwynt yn marchnad dinas Van dan yr enw *Ghiok-helvashêe*=Melusfwyd y nef.

Digitized by Google

*Y derw Georgiaidd.* Dail hirgrynion, a gwlanog oddi tanynt, gyda hadgibau byrion. Y mes o'r bron yn eisteddog. Y cwpanau yn flewog, gyda chen miniog. Brodor o Georgia.

III. Derw yr Himalaya, China, &c. Y mae yr holl deithwyr fuont yn ymweled â mynyddoedd yr Himalaya yn tystiolaethu fod yno gyflawnder o goed derw. Casglodd y bobl a roddwyd ar waith gan Dr. Wallich luaws mawr o esamplau, a dywed Dr. Royle eu bod i'w cael yn amrywio mewn maintioli o fod yn brenau bychain i fod yn goed mawrion. Ni sylwn yn bresennol ond ar y rhai canlynol:—

*Derw dail y pren cneufarc* (*Marking-nut leaved oak*). Dail gwrthŵyaidd, anfiniog, lledraidd, a chyfan, o ffurf calon yn eu bôn, yn wlanog oddi tanynt, a'r dail ieuainc yn meddu dannedd miniog. Y mes wrthynt eu hunain, neu yn ddwbl, ar goesau byrion gwlanog, trwyn gwastad, tua ddwywaith cyhyd a'r cwpanau bas cenog. Gan y dygwydd y rhywogaeth hon yn nghyrau uchaf coedwigoedd yr Himalaya, hyd yn oed yn uwch na'r pinwydd, nid oes ammheuaeth na chyfatebai i hinsawdd Lloegr; ac os felly, byddai ei dygiad yma yn dra dymunol, canys dywedir ei fod yn bren ardderchog, coed yr hwn a werthfawrogir yn fawr gan y brodorion. Dywed Dr. Wallich y bydd yn mesur yn fynych 80 neu 100 o droedfeddi o uchder; a'r cyff, chwe throedfedd oddi wrth y llawr, yn mesur o bedair troedfedd ar ddeg i ddeunaw troedfedd o amgylchedd; a dywed ei fod wedi gweled lliaweroedd o honynt hyd yn oed yn fwy na hyny.

*Ilex yr Himalaya.* Dail lledraidd, wyaidd o ran ffurf, yn ddysglaer a llyfn ar yr ochr uchaf, gwlanog oddi tanynt, a bylchog yn eu hochrau. Y mes ar eu penau eu hunain, yn eisteddog, ac yn llym (*acute*), ac ychydig yn hwy na'r cwpanau gwlanog hannergrwn, cen pa rai sydd yn fychain ac agos at eu gilydd. Y mae hwn yn bren prydferth, ac yn dra thebyg i dderw bythwyrdd Ewrop.

*Derw dail gwlanog Nepaul.* Dail hirgrynion, gwyrdd tywyll, danneddog, lledraidd, a gwlanog oddi tanynt. Y mes ar eu penau eu hunain; y cwpanau yn genog, heb bigau. Y mae y rhywogaeth hon yn un o'r rhai prydferthaf a ddarganfyddwyd hyd yn hyn.

*Derw y cwpanau cylchog.* Dail gwrthŵyaidd, blaenfain, bylchog yn eu hanner uchaf; lled laswyrdd, a sidanaidd oddi tanynt. Y mes yn geseiliog, eisteddog, ac ŵyaidd, a'r cwpanau wedi eu rhychu. Dywedir fod y rhywogaeth hon yn yr Himalaya yn tyfu yn brenau mawrion, a bod coed rhagorol i'w cael oddi wrthynt.

*Derw China.* Dail ŵyaidd, blaenfain, gyda dannedd gwrychog bas, a choesau hirion; lled wlanog oddi tanynt. Y mes yn grynion, yn eisteddog, ac yn gyplau. Y cwpanau yn meddu cen llwydwyn blaenfain, yn wrthblygedig o'r tu allan, ac yn hwy na'r mes. Rhywogaeth Chineaidd brydferth, a ddarganfyddwyd mewn parthau mynyddig. Dywedir fod y pren hwn yn dra thebyg i'r gastanwydden Yspaenaidd.

IV. Derw Unol Daleithiau America. Y mae y rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn yn cael eu meithrin yn Lloegr. Dyoddefant, pa fodd bynag, oddi wrth ddiffyg gwres haf, ac nid ydynt mor werthfawr i ni a rhywogaethau Cyfandir Ewrop. Ni chawn nodi yn bresennol ond y rhywogaethau sydd yn gyffredin yn mhlanigfeydd Prydain Fawr.

*Y derw gwyn.* Dail hirgrynion, pluholltog (*pinnatifid*), a glaswyrdd oddi tanynt; hadgibau hirion, anfiniog, cyfain, yn ymledu tuag i fyny. Y mes yn meddu coesau. Y cwpanau â chlapiau bychain arnynt. Rhywogaeth hardd iawn, yn cynnyrchu mes melus a choed rhagorol, ac yn debycach i'r derw Ewropaidd nag un arall o'r rhywogaethau Americaidd. Bydd y coed hyn yn tyfu yn aml yn nghoedwigoedd America i'r uchder o 70 neu 80 troedfedd.

*Derw gwyn y dail castanwydd.* Dail ar goesau hirion, gwrthŵyaidd, lled wlanog oddi tanynt, a danneddog yn eu hochrau. Y cwpanau yn culhau tua'r gwaelod. Y mes yn ŵyaidd o ran ffurf. Pren lled brydferth ydyw hwn, yn amrywio yn fawr yn ol natur y tir yn mha un y bydd yn tyfu. Y mae y coed yn dyllog, ac nid ydyw o ansawdd dda iawn; ond y mae y dail llydain dysglaer gwyrdd yn dra phrydferth.

*Y derw ysgarlad.* Dail llyfnion, hirgrynion, ac ar goesau hirion; hadgibau gwahanedig, llymion, danneddog, ac yn wrychog yn eu blaenau. Y cwpanau yn meinhau tua'u gwaelod, hanner cyhyd a'r mes. Y mae cyflawnder o'r rhywogaeth hon, yn nghyd â'r rhywogaethau dilynol, yn nhaleithiau canoldirol Gogledd America, y rhai a dderbyniant eu henwau oddi wrth fod eu dail yn troi yn goch ddysglaer yn y cynauaf. Y maent yn brenau mawrion a hardd. Nid ydyw eu coed ond o ychydig werth; ni ddefnyddir ei ond fel tanwydd, ac at wneuthur llestri i ddal nwyddau sychion.

*Derw coch y mynydd.* Dail llyfnion, hirgrynion ar goesau hirion; hadgibau danneddog, a gwrychog yn eu blaen. Cwpanau gwastad oddi tanynt. Y mes yn ŵyaidd. Bydd y pren hwn yn tyfu i'r uchder o 100 troedfedd. Mae yn dra thebyg i'r rhywogaeth ddiweddaf. Nid ydyw ei goed ond o ychydig werth.

*Derw y lliwiwr*, neu *y derw du.* Dail gwlanog oddi tanynt, hirgrynion gwrthŵyaidd, ac ymledol; hadgibau byrion, lled ddanneddog, a gwrychog yn eu blaen. Cwpanau gwastad oddi tanynt. Mes crynion. Brodor ydyw y pren hwn o Bennsylvania a mynyddoedd y Carolinas a Georgia, lle y tyf yn bren mawr iawn, gyda rhisgl mor ddu fel y derbyniodd yr enw o *dderw du.* Y mae ei goed yn gryf, ond yn dra garw. Y mae y rhisgl mewnol yn cynnwys cyflawnder o liw melyn tra dysglaer, yr hwn a adnabyddir mewn trafnidiaeth dan yr enw *quercitron*; ac allforir llawer iawn o hono yn flynyddol o Philadelphia.

*Y derw helyg.* Dail pilenaidd, yn meinhau i'r ddau ben, yn gyfan, a llyfn, gyda blaen bychan. Mes crynion. Pren mawr ydyw hwn, â rhywbeth yn debyg ynddo i bren helyg, oddi wrth yr hyn y derbyn efe ei enw. Dywedir fod ei goed yn gryf, ond yn dra garw.

*Y derw byw.* Dail lledraidd, hirgrynion, amdröedig, cyfain, a diflaen; ac wedi eu gorchuddio oddi tanynt gan fanblu serenog. Mes hirgrynion, ar goesau. Rhywogaeth dra gwerthfawr, yn gyfyngedig i daleithiau deheuol Gogledd America, lle y mae cyflawnder o hono. Y mae digonedd o'r math hwn yn Texas hefyd. O'r derw byw y ceir coed derw goreu America. Y mae yn drwm, yn gryno, ac yn meddu graen llyfn; a defnyddir ef yn helaeth yn llongorsafau America, er na bydd yn gyffredin yn tyfu i faintioli mawr. Dywedir fod y mes yn dra melus. Y mae yn llawer rhy dyner i hinsawdd y wlad hon.

V. Derw Mexico. Y mae y rhai hyn yn

Digitized by Google

Yna, wedi dangos y modd y breiniwyd y beirdd gorseddog a'r ofyddion cyntaf—beth oedd eu henwau, a pheth oedd y dyledswyddau perthynol i'w swyddau gwahanredol—dywedir am neillduad y dosbarth derwyddol fel hyn:—

"Ac yn yr amser hynny hefyd y defodwyd ac y breiniwyd yn *Dderwyddon* Meiwyn Fardd, a Rhiallon Asgellawg ab Prydain ab Aedd Mawr, a Berwyn ab Arthrawd; ac arnynt y rhoddwyd cynnal golychwyd a'r gwybodau a berthynynt i hynny herwydd y Tri Chof, a herwydd a gaid wrth farn cadair a gorsedd."



Dar. 238.—DERWYDD.

Y mae y tair gradd, Bardd, Ofydd, a Derwydd, yn cael eu cydnabod yn nghyfreithiau Dyfnwal Moelmud, yr hwn, yn ol "Gwehelyth Iestyn ab Gwrgan," oedd yn byw o ddeutu un genedlaeth ar bymtheg ar ol Prydain. Yno gelwir ef yn "Dderwyddfardd," fel hyn:—

"Tair cangen celfyddyd barddoniaeth. Cyntaf, privardd * * Ail, ofydd * * Trydydd, *derwyddfardd*, a hwnw a fydd o fardd gorseddog, graddedig a gwarantedig o ddoethineb a gwybodau, ac o dafawd i ddangaws barn a phwyll ar wybodau; a'i swydd a fydd yn mraint rhodd o bwyll a chenedlad gorsedd ddefodawl, yn warantedig o raith gorsedd gan goelbren. A'i swydd dodi addysg, a dangaws gwybodau doethineb a dwyfoldeb yn ngorsedd beirdd, ac yn llys ac yn llan, ac yn y teulu y bytho ynnod ei swydd yn drwyddedawg. Ac iawn a chyfraith i bob un o'r tri hyn ei bumerwi rhyddion, yn mraint ei swydd celfyddyd, yn wahanredawl rhag a ddylit iddo yn amgen yn mraint Cymro cynnwynawl; sef ni ddiffydd braint gynnwynawl un celfyddyd; nac un celfyddyd y gynnwynawl."—*Ancient Laws and Institutes of Wales*, cyf. ii. td. 510.

Yr ydym yn casglu oddi wrth y dyfyniad hwn fod y tair gradd yn ogyfuwch o ran braint, er yn wahanol o ran swydd. A dywedir hyny yn bendant mewn amryw gofion ereill, megys y rhai canlynol:—

"Tri Bardd cyfarthelyd y sydd; nid amgen Prifardd, Derwydd, ac Ofydd. Can nas dylit, ac nas gellir pen o'r naill ar un o'r lleill, o'r tri hynny cyd y bo braint i bob un o honynt rag y llaill, herwydd braint ac arbenigrwydd swydd a dyled."—*Trioedd Braint a Defawd, MSS.*

"Tri Bardd cydradd y sydd, a Phrifeirdd Ynys Prydain a'u gelwir, am eu bod o flaen pob beirdd ereill:—Bardd Braint o gysefin ymfod, Derwydd o bwyll ac ansawdd, ac Ofydd o ymgais a barn gorsedd. A phrifeirdd cydradd ydynt, sef yn ogyfuwch yr un a'r llall ac arall a'u bernir wrth fraint a defod, o brif elfod.—*Trioedd Defodau a Breiniau, MSS.*

"Tair cainc Barddoniaeth, Prydyddiaeth, Ofyddiaeth, a Derwyddiaeth, sef cydfraint a chyfunbwys y bernir y tair cainc hynn, can nis gellir pennogaeth i un o honynt ar y llall; cyd y bont gwahanbwyth nis byddant gwahanfraint."—*Trioedd Braint a Defod.*

Y breintiau ag yr oedd y Derwydd, yn gystal a'r ddwy syrth ereill, yn meddu hawl arnynt o herwydd ei swydd, fel yr ydym yn casglu oddi wrth gyfreithiau Dyfnwal Moelmud, oedd pum erwi rhyddion o dir, rhyddid rhag cymmeryd rhan mewn rhyfel, braint cennad gorwlad, trwydded a chymhorth p'le'r elai, ei dir yn ddidreth, a dogn o bob arad o fewn y swydd y byddai ynddi yn warantedig yn athraw.—*Welsh Laws and Institutes*, cyf. ii.

Y mae traddodiadau y Beirdd yn rhoddi i ni restr o drethi ac offrymau, y rhai a delid mewn chwanegiad at y cynnysgaethau uchod.

"Tri thrythged Bardd; seigiau o fwyd a llyvr, a gwisgoedd, ac arian."

"Tair aberthged gyffredin Bardd; un yw Blithged, ar Alban Hefin ei rhoddi; ail yw Peillged, a honno ar Alban Elfed; trydydd Melged, a'i rhoddi ar Alban Arthau; a dognau o bob un o'r tri yr Alban Eilir, sef pan y breinier y cerddi newyddion; a thlodion, ac eillion, ac estronion, a gaffant eu dognau o'r tair Aberthged yr amseroedd hynn, can nad oes iddynt drwydded dyledog o dir a da."—*MSS.*

Gweddus yw adrodd fod Iwl Caisar yn cadarnhau i raddau y dadganiadau uchod o barth breintiau yr urdd farddol. Yn ol ei dystiolaeth ef, yr oedd Derwyddon Gâl yn rhyddion oddi wrth wasanaeth milwrol, trethi, a rhwymedigaethau dinesig neu wladol ereill; a dywed i'r ystyriaeth o hyn annog llawer i ddyfod yn ymgeiswyr am y swydd [llyfr vi, pen. 14]. Ac os oedd hyn yn wir am Gâl, y mae yn llawer mwy cymhwys am Brydain, lle, yn ol yr hyn a glywsai Cæsar ei hun, yr oedd Derwyddiaeth neu Farddas wedi cael ei dechreuad, a'r lle yr oedd hi buraf yn ei amser ef.

Wedi dangos fel hyn y breintiau oedd yn gyffredin i'r derwydd gyda'r ddwy radd ereill, awn rhagom i sylwi ar arbenigrwydd ei swydd. Dywedasom mai arolygu y dosbarth crefyddol a golychwydol mewn Barddas ydoedd gwaith neillduol y derwydd. Adroddir yn mhellach yn "Llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain," mai

"Ei ddyled yw athrawiaethu, a chynnal rhagorsedd, a rhagcadair, a golychwyd ar fannau ac adfannau lleuad, ac ef a ddysg gyfrinach Barddas a Dwyfoldeb, a doethineb, a moesau daionus."—*Iolo MSS.*

Ac yr oedd iddo gyfyngu ei weinidogaeth i'r ardal a benodid iddo gan arglwydd y cyfoeth. Medd "Trioedd Braint a Defawd:"—

"Derwydd, a swydd a ddoder iddaw a fydd o rodd a braint arglwydd cyfoeth ynghwmmwd a thref y bo achaws; ac am a rodder o'r wlad y danaw, gelwir hynny ei swydd ef, ac yn ei swydd cynnal addysg a golychwyd, nid amgen na dysgu, mal y dylai athraw trwyddedawg, pob gwybodau daionus a dosparthus a font warantedig o Lafar Gorsedd gyffallwy, ac efe a ddylai gynnal cyrch golychwyd man a'i gofynner, a man y bo dosparthus a gwarantedig o gof ac arfer gwlad a chenedl, a braint iddaw nas dyccer arfer

Digitized by Google

"Pwy gyntaf a gafas ddeall ar lythyr?

Addaf a'i cafas gyntaf gan Dduw Ymharadwys, a'i fab ef Afel wirion a'i dysges gan ei dad, a Chain lofrudd, brawd Afel, a fynnai glod o dda byd, ac Afel nis mynnai, namyn o wybodau wrth fodd Duw, a deall a dysg ar a wnaeth, ac a fynnai Dduw, ac am hynny cenfigenodd Cain wrth ei frawd Afel ac a'i lladdodd o fwrn a chynllwyn; ac yna collwyd y gwybodau a ddug Afel ar ddeall. Gwedi hynny y cafas Addaf fab arall, a'i enw Sedd, ac ef a ddysges iddo'r wybodaeth ar lythyr a phob gwybodau dwyfolion ereill. Ac i Sedd y bu fab a'i enw Enos, a ddysged gan ei dad yn ŵr wrth lythyr a gwybodau moliannus ar lyfr a llen. Ac Enos oedd y gŵr a wnaeth lyfr cadw gyntaf, er cynnal cof a chadw am bob hardd a moliannus a daionus, sef am a wnaeth Duw greawdr a'i waith ar nef a daear, ac a orchymynodd yn ddeddf a chyfraith ar ddyn. A'r wybodaeth hon a gadwed gan eppil Enos hyd yn amser Noe Hen, a gwedi darfod am y dwr diluw, a dyfod o'r llong i dir sych, efe a ddysges Noe'r wybodaeth ar lyfr a phob gwybodau ereill iddei fab Iaboth a'n cenedl ninnau y Cymry, a hanoeddynt o Iaboth, ab Noe Hen, a'i cawsant y wybodaeth honn, ac a'i dugasant gyda nhwy hyd yn Ynys Prydain, ac a'i cynhaliassant gan amlhau a mwyhau gwybodau ar lythyr a llen, a dodi ar hynny bob cof a chadw, hyd oni ddaeth Crist ynghnawd."—*MSS.*

Nid ydym yn bwriadu olrhain hanes y grefydd hon, a gweithrediad ei dirywiadau dros oesoedd boreuaf ei hanfodiad yn Mhrydain; ond yn unig sylwn ar yr agwedd a arweddai yn ei henaint, pan oedd ar fedr cael ei llyncu i fyny gan Gristionogaeth, yn ol fel y darlunir hi yn nhraddodiadau Barddas.

Mynegir i ni yn y coflon hyn mai y weithred gyntaf o ddadguddiad dwyfol ydoedd y dadganiad a'r amlygiad o enw gogoneddus y Creawdwr ar ffurfiad y bydyssawd, pan y "rhuthrodd efe allan o'i anfeidroldeb." Felly y darllenwn yn "Rhol Cof a Chyfrif."

"Cyntaf a ellir ar gof caffael enw Duw, sef Duw a roddes ei enw ar lafar nid amgen nag /|\, a chyda'r gair cyflam yr holl fydoedd a'r holl fywydau o'i hanfodoldeb i fod a bywyd a bloedd gorfoledd /|\, gan adlefaru enw Duw, ac iselfain pereiddlais y llafar, ac nis gellir ei ail yny dychwel Duw bob hanfod o'r marwoldeb a ddug pechod arnaw, pan adlefair Duw a'i enw; ac o enw Duw ar lafar y cafwyd pob cerdd ac arwest, a'i tafawd a'i tant y bo, a phob gorfoledd, a phob llawenydd, a phob bywyd, a phob gwynfyd, a phob han a hanas o arfodoldeb a bywydoldeb, ac nis gellir marwoldeb nam o dri pheth, sef ydynt afrinaw enw Duw, afrifaw enw Duw, ac afrywiaw enw Duw; a'r lle a'i catwer, a thra catwer enw Duw ar gof, parth rhin a rhif a rhyw, nis gellir amgen na bod a bywyd a gwybod a gwynfyd hyd fyth fythoedd."—*Iolo MSS.*, td. 45.

Eto, mewn darn o hen ddwned, dan yr enw "Cyfymbwyll Maccwy ai Athraw:"—

"Adolwyn, pa fodd y cafwyd deall gyntaf ar lythyr parth llun a llafar?

Ys ef hynny Duw pan nad oedd mewn na byw na bod namyn Ef ei Hun, a ddatganer ei enw, ac yn gyttrym a'r gair yn floedd gorfoledd pob byw a bod yn gwbledig a melusaf a glywid erioed ar gerdd y llafar hynny, ac yn gyttrym a'r llafar goleuni, ac yn y goleuni llun ar enw yn dri llais drillafar, yn gyflef gyfennyd, ac yn y gweled dri llun, a lliw a llun goleuni ydoedd; ac yn un a'r llafar a lliw a llun y llafar hwnw oeddynt y tair llythyren gyntaf, ac o gysswllt eu tri llafar y lluniwyd pob llafarau eraill ar lythyr, sef a glywes y llafar Menw Hen ab y Tairgwaedd, ac a wnaeth lun llafar enw Duw gyntaf, ac eraill a wedant taw Einigan Gawr a wnaeth lythyr gyntaf, a llun enw Duw oedd hynny pan y cafas ef ei hunan yn fyw ac yn bod yn gyttrym gyfergyd a'r llafar." —*Coelbren y Beirdd*, td. 7.

Ymddengys oddi wrth y modd y darlunid enw Duw yn ngwneuthuriad y Cylch Cynghrair, gystal ag oddi wrth amgylchiadau ereill, fod pelydrau albanaidd yr haul, y rhai a ymgyfarfyddent ar y maen llog, yn cael eu hystyried gan y Derwyddon fel cyfatebiad ar glawr anian i'r Llafar Crëedigol. Felly edrychid ar yr haul ei hun fel cysgod o'r Duwdod; a diammheu fod ei amryw ddylanwadau ar wahanol dymmorau y flwyddyn yn cael eu hystyried fel yn gosod allan wahanol briodoliaethau ei hanfod—yn ei arddangos fel Ceidwad, Cynnaliwr, a Dofydd, neu attaliwr ei hynawsedd. Y mae yn anhawdd i ni ddywedyd a dderbyniodd y cynfyd hyn trwy ddadguddiad, neu ynte effaith athronyddiaeth y beirdd ydoedd mewn amser mwy diweddar. Sicr yw bod anian yn gysgod o'r byd ysbrydol; o blegid rhoddir cadarnhâd i'r gosodiad gan Paul, pan y dywed, "Ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed a welir yn amlwg, sef ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod;" *Rhuf.* i. 20.

Wrth gymharu Derwyddoniaeth Ynys Prydain â chyfundrefnau crefyddol gwledydd Cenedlig ereill, mae yn rhaid i bob meddwl diduedd gydnabod ei bod yn tra rhagori arnynt mewn purdeb ac arddunlant dychymyg. Ond y peth sydd yn taflu yr anrhydedd penaf arni ydyw yr athrawiaeth o *un Duw*. Dyma ei henaid, a'r hyn sydd yn cyfranu bywyd a harddwch i'w holl ranau. Gwelir crynodeb o Ddwyfyddiaeth yr hen Gymry, fel y mae ar lawr yn y traddodiadau a elwir "Trioedd Barddas," dan y gair Bardd.

Y mae y "Trioedd" hyn i'w gweled yn *Lyric Poems* E. Williams; a dywed ef iddo eu copio o gasgliad Llywelyn Sion—bardd awengar ac athronyddol o ddeutu 1560. Tynasai hwnw hwynt o lawysgrifau lled hen, rhai o honynt yn hen iawn; a'r oll o'r athrawiaethau yn hôni tarddiad o'r cynoesoedd. Y mae M. Pictet, ysgolhaig Ffrengig, wedi eu cyfieithu yn ddiweddar i'r Ffrancaeg, a rhoddi esboniad o bob un yn yr unrhyw iaith. Cyhoeddodd hwynt yn Geneva yn llyfryn destlus a deniadol, fel gweddillion o Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain.

Gwel y darllenydd bellach fod gan ein hynafiaid Derwyddol ddrychfeddyliau ardderchog am Dduw, ac nad yw chwedloniaethau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn deilwng o'u gosod ochr yn ochr â hwynt. Y mae rhywbeth mawreddog yn y dyb ag sydd yn darlunio y Bod tragwyddol, hunanhanfodol, fel yn treiglo ac yn llenwi y ceugant diderfyn, yn rhuthro allan o hono i greu y byd, ac yn dwyn holl drefn y greadigaeth yn mlaen gyda golwg ar adferiad a dedwyddwch dyn yn y pen draw. Diau fod yma olion o'r grefydd batriarchaidd!

Y mae Cylch y Ceugant yn arwyddo yr ymyl perffaith hwnw ag sydd yn amgau holl eangder bodoldeb—yr "annherfynedigrwydd diddechreu a diddiwedd parth lle ac ymbarhad o amser."—[*MSS.*] Ond er y dywedir mai Duw ei hun sy'n treiglo Cylch y Ceugant, eto yr oedd defnyddiau elfenol y greadigaeth yno hefyd ynddo ef, a thrwyddo ef, fel eu bywyd a'u bodoldeb.

Fel hyn, mewn holwyddoreg farddol, yr ydym yn darllen:—

"*Awenydd.* A pha bethau parth defnyddiaethau y gwnespwyd bodolion o fyw a marw a bethau dan

Digitized by Google

olwg a chlyw a theimiad a deall a rhŷn a chrebwyll dychymmyg dyn?"

"*Athraw.* Ys ef a'u gwnespwyd o'r manred, sef cywarchenau yn eithafoedd eu mendidau a'u hefnynau eraill, a phob mendidyn yn fyw herwydd bod Duw ym mhob mendidyn ag un cyflawn ynddo mal a lle nis gellid ei fwy trwy holl amleoldeb y ceugant, sef hynny, yr eangder diderfyn; a Duw hefyd ymhob un o honynt mendidaur manred, ag yn un wedd yn y cwbl o honynt yn eu cymminedd cyfungwlm. Am hynny llafar Duw llafar pob mendidyn o'r manred, tra rhif a deall er nag eu rhifoeddd na'u hansawdd; a llafar pob mendidyn ys ef llafar Duw. Duw yn mendidyn yn fywyd, a phob mendidyn neu efnyn yn Nuw a'i fywyd. Ag am a ddangoser, sef fal hyn y damheger geni Duw o'r manred, heb ddechre heb ddiwedd."—*MSS.*

Ac yn gyffelyb mewn lle arall:—

"Pa ddefnydd gan Dduw yn gwneuthur y byd, nid amgen na'r nef a'r ddaear, ag ereill o bethau a wyddis neu a farner am danynt?"

"Y manred, sef yw hynny y manaf o bob man hyd nas gellid ei fanach, a hwnnw yn rhedeg yn un mor drwy'r holl geugant, a Duw yn fywyd ynddo, ac ym mhanrhedyn, a Duw yn ymsymmud ynddo, ac yn newid cyflwr y manred heb ymnewid ynddo ei Hunan, sef un dinewid yw bywyd yn ei holl ymmodau, ag nid un y cyflwr yn addemodер. Ac am hynny, sef Duw ym mhob ymmod, y rhodded Modur yn un o enwau Duw."—*MSS.*

Pan, beth bynag, y "rhuthrodd Duw allan o'i anfeidroldeb," gan wneyd ei hun yn "feidrol ger meidrol" yn nghreadigaeth y byd gweledig, darfu iddo gynnull y meidion.

"O'r meithion anfeidrol ynghylch y Ceugant, a'u cyfleoli yn drefnus, ac yn gyflawn o ddosparthus, ynghylch y Gwynfyd, yn fydoedd a bywydoedd, ag anianoedd heb na rhif na phwys na mesur arnaddynt a allai feddwl a deall amgen nag ef ei Hunan a'u cynnarbod neu eu cyflyfelu, pei oesoedd anorphenadwy Cylch y Ceugant y meddai."—*MSS.*

Cylch y Gwynfyd oedd y cyflwr a neidiodd i fodolaeth ar ynganiad enw Duw. Dyma fangre y bendigedigion, o'r lle y gwelant ef "yn un cyngyd gogoniant, heb arnaw na rhin na rhif na rhyw ellid ei wybod, namyn goleuni perffaith, a chariad perffaith, a gallu perffaith, er daioni pob bod a bywyd."—[*Rhol Cof a Chyfrif.*] "Hwy hefyd a gânt glywed peroriaeth yr enw glân hyd fyth dragywydd; a lle ai clywer nis gellir amgen na chadernid bod a bywyd hyd fyth tragywydd."

Rhai o'r gwynfydolion hyn, beth bynag, "gan amcanu mwyhau gwynfyd a ddygynt gyrch ar y Ceugant ar oddeu datrinaw a geffynt yno, a gwybod rhin a rhif a rhyw ar Dduw;" ond ni allent hyny, canys marwoldeb a'u hattaliodd, a hwy a syrthiasant i Gylch yr Abred, hyd yn oed i Annwn, neu gyflwr isaf bodoldeb. Yn un o'r Trioedd a ddyfynwyd uchod, dywedir mai balchder ydyw y pechod sydd yn bwrw i Annwn; ond rhaid ei fod yn falchder yn ei ddull mwyaf cyflawn, yn ymosod ar anfeidroldeb. Ond yn gymmaint ag nad ellir byth mwy roddi hyn mewn gweithrediad, y mae y ddiareb yn wir—

"Nid eir i Annwn ond unwaith."

Eithr i unrhyw orsaf neu radd arall yn Abred, gall dyn ddisgyn yn ol y bo natur a maintioli ei bechodau. Efe a adgyfyd, beth bynag, i gyflwr dynoliaeth; ac er nad pa cyn amled y syrthio, efe a gyrhaedd y gwynfyd o'r diwedd. Ac fe gymmer hyn le gyda golwg ar yr holl hil ddynolac yna diwedd Abred."

Ymddengys y gair *abred* fel wedi ei gyfansoddi o *ab* a *rhed*, ac y mae wedi ei fwriadu i gyfleu y meddylddrych am y raddoliaeth anifeilaidd neu fywydol, drwy ba un y rhaid i'r enaid esgyn yn rheolaidd tuag at bwnc rhyddid. Byddai y cyflwr hwn, gan ei fod mewn ystyr yn ail ddechreuad o fywyd, yn myned weithiau hefyd dan yr enw *adfyd:*—gair a arferir fyth yn ein plith er dynodi trueni a thrallod.

Rhydd y dyfyniadau canlynol allan o'r Hol wyddoreg Farddol eglurhad pellach ar athrawiaeth Cylch yr Abred.

"O ba le y daethost, a pheth yw dy ddechreuad?"

"O'r byd mawr y daethum, a'm dechreuad yn Annwn."

"Ymha le'r ydwyt yn awr? A pha fodd y daethost i'r lledd ydwyd?"

"Yr wyf yn y Byd Bychan, lle daethum gan dreiglo cylch yr Abred; ac yn awr yn ddyn ar ei derfyn a'i eithafon."

"Beth oeddyt cyn dy ddyfod yn ddyn ynghylch yr Abred?"

"Yn Annwn y lleiaf yngallu oeddwn a ellit bywyd ynddo, a'r nesaf a allai fod at y marw pendant. Ag ymhob rhith, a thrwy bob rhith a ellir corph a bywyd y daethum hyd ynghyflwr dyn a'r Byd Bach yn Abred, lle bu tost a thrwm ynghyflwr hyd oes oesoedd, er pan ym parthwyd yn Annwn oddi wrth y marw drwy ddwrn Duw a'i fawr haelioni a'i gariad diderfyn a diddarfod."

"Drwy ba sawl rhith y daethost, a pheth fu dy ddamwain?"

"Drwy bob rhith a ellir bywyd ynddo, yn nwr, yn naiar, ac yn wybren: a'n namwain a fu pob tost a phob caled, a phob drwg, a phob dioddef; ac ychydig y bu'r daioni a'r gwynfyd cyn dyn o honof."—*MSS.*

Sonir yn y Trioedd am *gythraul*—wrth ba enw y mae Cristionogion yn deall y diafol. Dengys y dernyn canlynol beth oedd tyb y Derwyddon am dano:—

"Nid oes bywyd i gythraul, ag nid ar oddeu ynddo, eithr o angen, ag o anfodd, heb na bod na bywyd o barth handid a hundeb, eithr gwag wrth wag, a marw wrth farw, a dim wrth ddim, ydyw. Lle y mae Duw yn dda wrth dda, yn lawnder wrth lawnder, yn fywyd yn y bywyd, ac yn gyfan ynghyfan, a goleu yngoleu."—*MSS.*

Y mae pob peth yn tueddu at ddarostyngiad y cythraul: ac wedi i holl ddynolryw gael eu dwyn o'r diwedd i Gylch y Gwynfyd, bydd terfyn hollol arno, o blegid ni bydd lle i dywyllwch pan y byddo yn ddydd tragwyddol.

Nid ydym yn meddwl fod egwyddorion Derwyddoniaeth yn gysson âg aberthau gwaedlyd. o leiaf nid ydym yn canfod unrhyw gyfeiriad at y fath bethau yn y darnau traddodiadol sydd wedi dyfod i lawr atom ni. Yn hytrach, y mae y gair *aberth* yn dwyn cyssylltiad amlwg â'r offrymau a roddid i'r beirdd ar y prif wyliau. Y mae yn gyfansoddedig o *a* gadarnhaol, a *berth* prydferthwch, golud. Gŵr *aberthog* ydyw gŵr goludog. Y mae yn haeddu sylw bod "addon coed," "blodau," a "meillion"—pethau yn cyfranogi yn fwy o'r prydferth na'r llesol, yn cael eu rhifo yn mhlith aberthau y beirdd mewn rhai hanesion. Y mae y ffaith hon yn codi y gofyniad, Ai tybed y darfu i'r *Magi*—"y Derwyddon o'r Dwyrain" (fel y cyfieithir yr ymadrodd yn y Testament Gwyddelig)—pan yr anrhegasant i'r plentyn dwyfol "aur, thus, a myrrh," wneyd rhywbeth heb law offrymu iddo eu haberthau arferol, fel yr bardd dysgwyliedig a ymddangosai yn awr ar Alban Arthan?

Cred y Derwyddon oedd, fod pob peth yn tynu at berffeithrwydd;—fod casineb anghyflawnder,

Digitized by Google

ac anwybodaeth yn lleihau o hyd, a chariad, gwybodaeth, a chyfiawnder yn ennill nerth bob dydd; a bod hyn oll yn cael ei ddwyn o amgylch trwy offerynoliaeth y bardd—yr haul moesol. Yr oedd yn rhaid, gan hyny, fod y bobl yn edrych yn mlaen am godiad "Haul y Cyfiawnder"—yr oedd yn angenrheidiol i Fab cyffelybiaethol Duw ddyfod yn Fab gwirioneddol Duw, cyn y gallai "ddattod gweithredoedd diafol." Pan, gan hyny, y daeth Crist, ac y gwelodd y Magi ei seren ef, yn nghyfeiriad paladr y dwyrain, nid oedd yn rhyfedd iddynt gychwyn allan o law ar eu taith hirfaith "i'w addoli ef:" nid oedd yn rhyfedd i Dderwyddon Prydain dderbyn Cristionogaeth yn y dull cyffredinol a chyflawn y darlunir ef gan hanesyddwyr eglwysig.

Ond a ydyw y golygiadau a roddasom fel hyn am ddwyfyddiaeth y Derwyddon allan o draddodiadau gorsedd y beirdd yn cael eu cadarnhau neu eu cefnogi gan awdurdodau allanol? Wrth chwilio i natur a nodweddiad Derwyddoniaeth Ynys Prydain, y mae yn angenrheidiol i ni gofio yr hyn a ddywed Julius Cæsar oedd y gred ar y Cyfandir yn ei amser ef; sef bod hono yn cael ei hystyried fel yn burach na chyfundrefn y Galwys, a bod y sawl ag oedd yn dymuno cael gwybodaeth fwy cyflawn o honi yn arfer dyfod drosodd yma i'r dyben hyny. Felly pe tybiem fod crefydd y Cyfandir yn cynnwys yr athrawiaeth o amldduwiaeth, fel y myn Cæsar i ni gredu, ni chyffyrddai y ffaith hono â nodweddiad Derwyddoniaeth Prydain. "Ni chafwys un wlad arall," medd "Trioedd Braint a Defod," "erioed ddeall cyflawn o Farddoniaeth." Yr oedd yn hawdd, gan hyny, iddynt syrthio i'r amryfusedd o ddwyfoli priodoliaethau. Beth bynag, y mae yn ddigon dichonadwy i Cæsar fod wedi cael ei gam hysbysu yn nghylch y mater; neu gall ei fod wedi ei gam ddarlunio er mwyn gwasanaethu ei ddybenion ei hun. Pa fodd bynag, y mae genym dystiolaeth Pliny, ac ysgrifenwyr boreuol ereill, bod y Derwyddon yn dal yr athrawiaeth o un Duw. Ac at hyn y gellir chwanegu tystiolaeth y gelfyddyd hynafiaethol, yr hyn ni chanfyddodd hyd yn hyn unrhyw weddillion o eilunaddoliaeth Gymreig. Y mae yn wir mai tystiolaeth nacaol ydyw yr un dan sylw, ond yn gymmaint a bod hynafiaetheg wedi bod yn hynod eang yn ei hymchwiliadau, y mae er hyny yn dra gwerthfawr yn y mater yma.

Y mae pob ysgrifenydd yn addef bod athrawiaeth yr Abred, neu drawsenaidiad, yn un o brif agweddau Derwyddoniaeth. Dywed Cæsar yn enwedig y byddai y Derwyddon yn dysgu nad oedd yr enaid yn trengu, ond ei fod ar ol marwolaeth yn symmud o un corff i gorff arall.—[*De Bel. Gal.*, cyf. vi. pen 14.] Dywed hefyd fod y Galwys yn haeru iddynt oll hanu o'u tad Annwn, ac mai gan y Derwyddon y cawsant hyny o wybodaeth. Cyffelyb ydyw tystiolaeth Mela o barth parhad bywyd yr enaid gwedi angeu. Fe ddywed fod un o addysgiadau y Derwyddon wedi dyfod i'r amlwg, yr hwn, ar ddull Triad, sydd fel y canlyn:—

"Y dylit ymddwyn yn wrol mewn rhyfel,
Bod eneidiau yn anfarwol
A bod bywyd arall gwedi angau."
*Mela*, llyfr iii. 2.

Y mae y golygiad a briodolir i Dderwyddon Prydain o barth diwedd Abred yn cael ei gefnogi hefyd gan rai o'r ysgrifenwyr boreuol hyn; y rhai a fynegant mai athrawiaeth y Derwyddon ydoedd, er fod y byd ynddo ei hun yn annyfethadwy, y gorfyddai tân a dwfr arno o'r diwedd.—*Strabo*, &c.

Wedi geni Crist, ac i'w eglwys gael ei phlanu yn ein hynys, y mae Derwyddoniaeth yn cael ei llyncu i fyny gan Gristionogaeth. Byddai y Derwyddon yn edrych ac yn hiraethu yn wastadol am amser gwell. Ystyrient eu cyfundrefn eu hunain fel rhyw oruchwyliaeth barotoawl—yn ymestyn yn mlaen, ond eto heb gael gafael. Ond pan ddaeth Crist, canfyddent ynddo ef bob perffeithrwydd—ynddo ef yr oedd holl egwyddorion cywir Derwyddiaeth yn cael eu cyflawnu. Am hyny, y mae ar gof a chadw mai "Tair addysg arbennig a gafas genedl y Cymry: cyntaf er yn oes oesoedd oedd y Gwyddanod, cyn nog amser Prydain ab Aedd Mawr; ail oedd Barddas fal a'i dysgid gan y Beirdd gwedi 'r caffaeliad o honynt; trydydd y Ffydd yng Nghrist *yn oreu o'r tair.*" — *Trioedd Braint a Defod.*

Y SYNIADAU DIWEDDAR.[1]

DERWYDD. Gan fod cynnifer o wahanol farnau ac o ddadleu yn nghylch Derwyddon a Derwyddiaeth, tybir nas gellir cymmeryd ffordd ddiogelach i roddi golygiad teg ar y mater na thrwy ddangos pa fodd yr ymdrinir âg ef yn y prif ysgrifeniadau sydd yn traethu arno. Y mae yr ysgrifeniadau hyn o ddau fath—cenedlaethol ac estronol.

Y prif ysgrifeniadau cenedlaethol ar y pwnc yma ydyw "Trioedd Dyfnwal Moelmud;" "Trioedd Ynys Prydain," a elwir hefyd "Trioedd Hanesyddol," sef "Trioedd Morganwg;" "Trioedd Braint a Defod;" "Trioedd Barddas;" amryw ddarnau sydd yn yr *Iolo MSS.*; rhai dyfyniadau sydd yn *Nghoelbren y Beirdd* Ab Iolo; a gweddillion barddonol y "Cynfeirdd" a'r "Gogynfeirdd."

Am "Drioedd Dyfnwal Moelmud," credir yn gyffredin fod eu hawdwr yn byw 400 mlynedd c. c. Dyma yr amser a benodwyd iddo gan Mr. Owen (y Dr. Pughe) yn y *Cambrian Biography*, a hwn a ddilynwyd gan y rhan fwyaf o ysgrifenwyr. Ond *Llyfr Dinas Basing* (*Basingwerk*) a amsera ddechreuad ei deyrnasiad 694 mlynedd c. c.; ac ymddengys y tybiodd y Parch. Peter Roberts fod yr amseriad hwnw yn bur foddhaol. Pa fodd bynag, ymddengys i ni fod Mr. Stephens wedi profi yn ddiammheuol nad ydyw y gweithredoedd a'r deddfwriaethau a briodolir i Dyfnwal Moelmud bedwar neu chwe chan mlynedd c. c. ddim amgen na gweithredoedd Alfred, a alwai y Cymry, Aelfryd Fawr, a fuchedd ai yn agos i naw can mlynedd *ar ol* Crist; ac nad ydyw Dyfnwal Moelmud y Cymry, mewn gwirionedd, ddim ond ffug. Am y profion o hyn yn llawn, gwel DYFNWAL MOELMUD.

Y mae rhai yn dywedyd nad oes yn nghyfreithiau Dyfnwal ddim cyfeiriad at ddefodau diweddar nac at y grefydd Gristionogol; pan, mewn gwirionedd, y maent yn llawn o'r cyfryw gyfeiriadau. Y mae ynddynt gyfeiriadau at lyfrau a gwyliau arbenig, y rhai y gwyddys wrth gyfreithiau Howel Dda eu bod yn bethau Cristionogol; y maent yn son am lysoedd cyfraith yn meddu yngnaid, rheithwyr, a chynghaws, ysgrifen ar byst, llanau (*churches*), ffeiriau a marchnadoedd, arfau bonedd, celfyddyd, meddygin-

[1] Ysgrifenwyd y ddwy ran o'r erthygl hon gan bersonau yn coleddu y gwahanol olygiadau sydd ynddynt.

Digitized by Google

ffurfiau triadol hyn. Am hyny, nis dichon fod y copïau hynaf o'r cyfreithiau Cymreig wedi eu tynu o'r Trioedd hyn; ac o ganlyniad, mae tebygolrwydd cryf fod "Trioedd Dyfnwal" wedi eu tynu o gopïau Dyfed a Gwent, y rhai sydd ddwy ganrif o leiaf hynach na'r gyfres Foelmudaidd.

Y mae sylwedd y Trioedd, gystal a'u ffurf, yn cadarnhau ein hymresymiad gyda golwg ar eu diweddarwch. Cyfeirir weithiau yn benaf at y rhai a elwir y "Trioedd Hanesyddol," y rhai y gellir dangos mai talfyriadau ydynt o'n llenoriaeth genedlaethol, ein hystorïau, ein chwedlau, a'n rhamantau (*romances*), fel yr oeddynt mewn bod yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, y bymthegfed, a'r unfed ar bymtheg. Gellir eu holrhain yn gyffredin i'w tarddiadau; ac nid ydynt, mewn un ystyr pwysig o'r geiriau, yn ddefnyddiau gwreiddiol. Rhaid i un anghraifft wasanaethu fel prawf o hyn. Mae un o'r Trioedd fel hyn:—

"Tri chorff a wnaeth Duw er Teilaw, un sydd yn Llandaf y Morgannwc, yr ail yn Llan Deilo fawr, y trydydd ymhen Alun yn Dyfet, mal y dyweit yr ystoria (*legend*)."—*Myv. Arch.*, ii. 10.

Y mae yr "ystoria" ar ba un y mae y Triad hwn wedi ei seilio mewn bod eto; ac wedi ei hysgrifenu gan Sieffre o Fynwy yn y ddeuddegfed ganrif, ac i'w gweled yn y *Liber Landavensis*, td. 353. Y mae amryw anghreifftiau ereill mor benderfynol a hon; ond gall y darllenydd sydd yn meddu gwybodaeth o hen "ystorïau" a rhamantau Cymru a Lloegr wneyd yr ymchwiliad drosto ei hun; ac nis gall lai na dyfod i'r penderfyniad am y Trioedd, yn lle eu bod yn wirioneddau cyntefig, mai cydgorfforiadau ydynt, gan mwyaf, o ffug yn ei sefyllfa uchaf a diweddaraf o ymddadenhuddiad. Ni ddiangodd y cysylltiad yma rhwng y Trioedd, a chwedl, a rhamant, mo sylw Carnhuanawc; ond er i'r Trioedd eisoes gynhyrfu ei ammheuon difrifolaf [*Remains*, i. 153, nodiad], eto cysurai efe ei hun â'r penderfyniad anfeirniadol mai helaethiad o'r Trioedd oedd y rhamantau, yn lle bod y blaenaf yn dalfyriadau o'r olaf.—[*Remains*, i. 154]. Pan gynnwysir y mwyaf yn y lleiaf—y llyfr yn y cynnwysiad, neu y môr yn yr afon—bydd yn ddigon buan cymmeryd y dewisiad uchod. Y dewisiad arall a gymmerir yma; am hyny, gan fod y Trioedd wedi eu seilio ar y chwedlau a'r rhamantau, ac wedi eu hysgrifenu yn orgraffau yr amseroedd diweddar, ni raid fod dim anhawsder i benderfynu eu hamseriad a'u gwir nodwedd. Nid yw ffydd yn y Trioedd ond erthygl *newydd* yn ein credo hanesyddol, heb fod nemawr dros drigain mlwydd oed; ond y mae wedi gwneuthur gryn lawer eisoes i ddwyn Cymru a Chymry i warth, ac i iselhau nodwedd llenyddiaeth Gymreig. Y mae yn bryd bellach i ni ei dileu, fel y gallom adnewyddu dysgeidiaeth iachus Poweliaid a Llwydiaid y dyddiau gynt, a dwyn i'r amlwg, yn ngoleu gwybodaeth ddiweddar, hanes gwell, ardderchocach, a mwy gwirioneddol o'n gwlad, sydd yn awr yn gorwedd yn ein hen weddillion prydyddol a chofadeiliol.

Dywedir gair yn awr ar nodwedd gramadegol yr amryw Drioedd hyn, a'r dernynach ereill a nodwyd o'r *Iolo MSS.*, a *Choelbren y Beirdd* Ab Iolo. Y mae hwn yn bwnc helaeth iawn, ond ni wneir yma ond cil agor y drws, fel y gallo yr ymchwilgar fyned rhagddo. Ymgyfyngir at y llythyraeth yn unig, fel y peth hawsaf i bawb weled y cyfatebiad.

Cyn dechreu dwyn esamplau yn mlaen i ddangos hyn, y mae yn deg hysbysu mai y gwir ydyw, nad oedd gan y Cymry un math o lythyrenau, ar wahan oddi wrth y llythyrenau Rhufeinaidd a Saxonaidd, hyd y nawfed neu y ddegfed ganrif. Mewn hen ysgriflyfr o lyfrgell Bodleian, y mae egwyddor (*alphabet*) a elwir "Egwyddor Nemnivus" = (*Nennius*, Nyniaw?). Math ar ddynwarediad trwsgl ydynt o'r llythyrenau *Runic*, yn nghyd âg enwau y llythyrenau yn gyssylltiedig; ac o flaen yr egwyddor y mae y rhagymadrodd hwn:—

"Dyfeisiwyd y llythyrenau hyn gan Nemnivus oblegid i ryw Sacson sylwi yn sarhaus fod y Brutaniaid heb lythyrenau: ar hyny, gwnaeth Nemnivus y rhai hyn ar unwaith allan o'i ddychymyg ei hun, ac felly dirymodd y dirmyg a deflid ar ei genedl."

Prawf hyn ar unwaith fod y Brutaniaid wedi llwyr golli y wybodaeth o'r llythyrenau Groeg oedd ganddynt pan y daeth Julius Cæsar i'r ynys hon; ac nid rhyfedd, canys cwbl ddifrododd Suetonius Paulinus, o gylch B.A. 58, a'i olynwyr Rhufeinig, y Derwyddon a'u holl lenoriaeth, beth bynag a allasai hono fod; ac nid oes dim prawf fod cymmaint a llinell o'u gwaith, na dim byd arall perthynol iddynt, yn Gymraeg, wedi cyrhaedd oes Gildas, chwaithach fod eu holl ddefodau ar gof gwlad yn y ddegfed ganrif, a'r canrifoedd canlynol, fel yr haera Iolo Morganwg a'i ddysgyblion. Heb law fod y Rhufeiniaid, y rhai fuont yn llywodraethu Prydain am dros bedwar can mlynedd, wedi rhoddi eu bryd, yn holl egni eu cynddaredd, a'u nerth, a'u dylanwad, ar lwyr ddifodi y Derwyddon, a phob peth perthynol iddynt yn Mhrydain yn gystal ag yn Gâl, fe ddaeth Cristionogaeth i'r ynys, yn ol pob tebygrwydd, yn ystod y ganrif gyntaf; ac yn ebrwydd ar ol y Rhufeiniaid, os nad yn wir cyn iddynt lwyr ymadael oddi yma, fe ddaeth gormes y Gwyddyl Ffichti i'n plith; ac yn nglŷn â hono drachefn, daeth gormes ddiderfyn y Seison ar ein gwarthaf, fel, rhwng yr holl bethau hyn, nad ydyw ryfedd yn y byd fod y Derwyddon a'u defodau, a'u dysg, a hyd yn oed pob cof am danynt, wedi llwyr golli o fysg y genedl cyn amser Gildas, yn y chweched ganrif.

Nid ysgrifenwyd dim erioed yn Gymraeg, nac mewn un iaith arall—o leiaf, nid oes dim ar gael—yn Egwyddor Nemnivus, hanes yr hon sydd yn llefaru am dani ei hun; ac nid ydyw yn honi bod yn henach na'r nawfed ganrif, o bellaf. Y gwirionedd ansyfladwy ydyw, y gellir sicrhau yn ddibetrus na bu gan genedl y Cymry na'i beirdd, byth ar ol colli yr arferiad o'r llythyrenau Groeg a ddefnyddient yn amser Cæsar, unrhyw egwyddor heb law yr un Rufeinig yn y ffurf Saxonaidd; ac ni bu ganddynt erioed egwyddor, fel y Gwyddelod, ac enwau y llythyrenau ynddi wedi eu cymmeryd oddi wrth y coed hyny, am y rhai y camdybir fod y gân ddiweddaf a briodolir i Taliesin yn traethu, a elwir *Kad Goddeu.*

Am *Coelbren y Beirdd* Llywelyn Sion, a gyhoeddwyd, "wedi ei chwanegu a'i diwygio" gan Iolo Morganwg, y Dr. Pughe, Edward Davies (y Celtig), ac Ab Iolo, nid oes achos dweyd ond hyn—Os gellir cadw Trioedd a mân grybwyllion dienw a diawdurdod ereill, mewn cadwfa ddirgel, i'w dwyn yn mlaen am y tro cyntaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i brofi hanfod a defnyddiad *Coelbren y Beirdd* unrhyw nifer o ganrifoedd cyn hyny, nas gall fod dim anhawsder i brofi unrhyw beth a'r a ddymuner. Y gwir ydyw, nad oes dim prawf llawysgrifol yn

Digitized by Google

cherfiadol fod cymmaint ag un anghraifft o gyfansoddiad yn *Nghoelbren y Beirdd* ar na "gwydd" (coed), na "main," na "phlagod" (memrwn), na phapyr, cyn amser Iolo Morganwg: ac os oes, dyger yr anghraifft ger bron y byd; yn amgen, doethineb fyddai tewi â son mwyach am hynafiaeth *Coelbren y Beirdd.*

Gildas, yr hwn a ysgrifenodd o gylch B.A. 560, yw y Prydeinwr cyntaf a gyfansoddodd ddim o gwbl, hyd y gwyddys; ac yn Lladin yr ysgrifenodd yntau, fel y mae yn ddigon hysbys. Ymddengys nad oedd dim cofion Brutanaidd ar gael yn ei amser ef. Dyma ei eiriau:—

"Ni ddilynaf fi ysgrifeniadau a chofion fy ngwlad fy hun, y rhai (os bu'r cyfryw erioed mewn bod) a ddifawyd yn nhân y gelynion, neu a ddilynasant fy nghydwladwyr alltudiedig i diroedd pell; am hyny, arweinir fi gan hysbysiadau ysgrifenwyr estronol, y rhai, gan eu bod yn ddrylliedig ac anghyfunol, sydd yn hynod o aneglur."—*Giles' Chron.*, td. 301.

Y cyfansoddiad Cymraeg cyntaf o ddim pwys a ysgrifenwyd, hyd y mae genym un prawf, yw Cyfreithiau Hywel Dda. Sefydlwyd y rhai hyn yn gyfreithiau y wlad, yn ol un copi, medd Carnhuanawc, B.A. 914; ereill a'u hamserant 950.

Y mae cyfansoddiad arall bychan, dienw, a gafodd Edward Llwyd mewn hen gopi o *Juvencus*, a ddichon fod, yn ol barn Nash, yn hynach na chyfreithiau Howel. Tybia E. Llwyd iddo gael ei ysgrifenu yn y seithfed ganrif; a barna Nash y gall fod cyn hyned a'r nawfed ganrif, gan fod ffurf y geiriau ynddo yn gyffelyb i'r arnodiadau (*glosses*) sydd yn ysgriflyfrau y Bodleian, y rhai y barna Zeuss, ac ereill, eu bod cyn hyned a'r ddegfed, os nad y nawfed ganrif. Y mae llinellau y cyfansoddiad hwn yn rhedeg i'w gilydd yn y llawysgrif wreiddiol; ond y mae yn amlwg eu bod yn gwneyd i fyny dri phennill, o dair llinell bob un.

Y mae Zeuss wedi nodi allan dri o gyfnodau arbenig yn hanes yr iaith Gymraeg, y gellir eu gwahaniaethu; megys hynafol, canoloesol, a diweddar. Terfyniad lluosog enwau y cyfnod cyntaf oedd *ou*, yr ail *eu*, a'r trydydd *au;* megys llech*ou*, kebystr*eu*, tann*au*. Y mae "Triodd y Clud*au*, a Thriodd y Cargludau," "Trioedd Ynys Prydain, sef cof am hynodion o ddynion ac o bethau," cystal a'r Trioedd ereill a nodwyd, a'r dernynach yn *Iolo MSS.*, a *Choelbren y Beirdd* ab Iolo—y mae y rhai hyn oll yn perthyn i'r cyfnod diweddaf. Yr oedd cyfnewidiad y llythyrenau bron yn gwbl anarferedig yn y cyfansoddiadau hynaf sydd ar gael; ac nid oedd ynddynt lythyrenau i gynnrychioli ch, dd, ff, ng, ll, ph, w, ac y. Yr egwyddor a ddefnyddiwyd yn y tri phennill o *Juvencus* yw hon:—

a, b, c, d, e, f, g, h, i, l, m, n, o, p, r, s, t, u.

Fel yr oedd cyfansoddiadau yn myned yn fwy diweddar, yr oedd mwy o gyfnewidiadau a llythyrenau dwbl yn cael eu dwyn i'r orgraff yn barhaus; ac wrth nifer y rhai hyn, yn nghyd â'r pethau ereill a nodir yma, gellir barnu cyfnod neu amser pob cyfansoddiad Cymraeg yn lled gywir. Tua diwedd y ddeuddegfed ganrif, neu ddechreu y drydedd ganrif ar ddeg, dygwyd *k* i'r orgraff; ac yn fuan ar ei hol dygwyd *v* i mewn, yr hon a arferid yn lle *f*, ac yn lle *u* yn achlysurol; ac o gylch yr un amser, defnyddid *y* yn lle *ei* ac yn lle *i*, yn "yt," &c.; ac yn fuan wedi hyny, defnyddid *i* yn rhagferf, yn y lle y defnyddiwn ni *y*, ac y defnyddiai yr ysgrifenwyr hynaf *e;* megys, "i mae," "i telir," "i dyscwyd," &c.; pan yr ysgrifenwn ni, "y mae," "y telir," "y dysgwyd;" ond yr ysgrifenwyr hynaf "emae," "etelir," "edescuid," &c. Parhawyd i ddefnyddio yr *i* ragferf hyd o gylch dechreu y ddeunawfed ganrif; canys yn 1776, ceir fod y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), mewn "adscrif" o flaen ei bregethau, yn ei hamddiffyn, fel peth oedd wedi myned allan o arfer gyffredin; a hyny, fel y mae yn hysbys wrth lyfrau ereill, yn lled ddiweddar.—[*Casgl o Breg.*, llyfr i, at y darll. td. xi.] Fe roddwyd y *k* heibio rywbryd yn ystod y rhan olaf o'r unfed ganrif ar bymtheg. Dywed Mr. Stephens mai y Dr. Davies o Fallwyd a'i dileodd; os felly, dichon iddi barhau yn yr orgraff hyd 1621, pan y cyhoeddodd ef ei Ramadeg, yr hwn a ddaeth ar ol hyny yn safon llythyraeth y Gymraeg. Pa fodd bynag, nid yw yn Nhestament Salesbury, yn 1567; a chredir mai prin y daeth dros derfyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Parhawyd i ddefnyddio y *v*, yn enwedig yn lle *u*, ar amserau, hyd ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg; canys yr oedd iddi le addefedig yn yr egwyddor yn 1671, pan gyhoeddodd Charles Edwardes ei argraffiad o *Dlad Seiniad Meibion y Daran*, o gyfleithiad M. Kyffin, fel y dengys yr egwyddor ganlynol sydd ar ddiwedd y llyfr:—

"a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th v u w y z."

Y mae y darllenydd yn awr mewn mantais i gymharu yr anghreifftiau canlynol, ac i farnu yn mha gyfnodau yr ysgrifenwyd hwynt.

Y tri phennill o *Juvencus* yn y nawfed neu y ddegfed ganrif:—

1. "Niguorcosam nemheunaur henoid mitelu nit gurmaur mi amfranc dam ancalaur. Nican ili guardam ni cusam henoid cet iben med nouel mi amfranc dam anpatel. Namereit nep leguenid henoid isdiscinu micoueidid dou nam Ricour imguetid."

Dyfyniad o "Awdyl" sydd yn *Llyfr Du Caerfyrddin*, o'r ddeuddegfed ganrif:—

2. "Arduireaue tri trined in Celi. yssi un a thri vned un ynni. Vnguirth oe teithi. un dun diuoli athvolaf uaurri maur dy urhidri."—*Myv. Arch.*, i. 575.

Anghraifft o ddernyn sydd ar ddiwedd Cyfreithiau Howel, llawysgrif o'r drydedd canrif ar ddeg:—

3. "Mae elle etal estraun o alanas kemint abraut enelle cenicier aralanas maab ad duco iuam ikenedel arall ikan eneb aucicus drostau."—*Myv. Arch.*, iii. 437.

Dyfyniad arall o Gyfreithiau Howel, y dywedir ei fod o'r ddeuddegfed ganrif; ond y mae y llythyraeth yn debycach i un y drydedd neu y bedwaredd ganrif ar ddeg:—

4. "O teyr forth gueneyr saraet yr breuyn; un eu pan torrer ynaud pan roho naud ydyn ay lad; arall eu pan del deu urenyn ar eu kydteruyn oachaus emaruoll ag eghuyt edeu ureuyn ar deu lu llad ohur yr neyll gur yr llall; tredet eu kam arueru oy gureyo a honno adercheuyr ar uod y hanner en uuoy."—*Owen's Laws*, i. 6.

Dyma ddyfyniad arall o Gyfreithiau Howel, gymmerwyd o lawysgrif sydd yn yr Amgueddfa Frutanaidd, o'r drydedd neu y bedwaredd ganrif ar ddeg:—

5. "Essef yttoed drycdedyuev a dryckyfureithiou kynnoc ef. Ykymerth ynteu chwegwyr obop kymwd ygkymry. Ac yduc attaw yr ty gwynn. aseith ugein baglawc yrwng esgyb ac archesgyb. ac abadeu. ac athraon da ywneuthur ykyfureithiev da. ac ydiot yrei drwc aoed kynnoc ef."—*Cambrian Regis.*, i. 194.

Dyfyniad o gopi o *Meddygon Myddfai*, y tybir iddo gael ei ysgrifenu o gylch y drydedd ganrif ar ddeg:—

Digitized by Google

6. "Gan borth duv goruchel bendeuic ymа ydangoset y medeginaetheu goreu ac yn benaf or yssyd wrth gorf dyn sef aberis eu hyscriuynu Riwallon vedic ay veibon nyt amgen Cadvgon a Gruffut ac Eynon."—*Cambr. Regis*, ii. 304.

Dyfyniad o *Epistol Episcop Menew*, yn 1567:—

7. "Ond am Escop Ruuain (yr hwn y elwir hefyt Pap, val y gelwit gynt Escopion Escopaetheu eraill) nyd oes (mi wn yn dda) ny-mawr yn credu vot cam ymwreddiat yn y byt arno, ac na wnaet ond pigo querel arno yn ddiachos ac yn hwyr o amser: yr hwn pe scrivenwn ganved ran yr iawn achosion y sydd yn yn y erbyn ef, vo dyvei yn vwy ei swmp na'r ddarn arall i'r llyfr hwn."—*Test. Sal. At y Cembru*, td. xiii.

Dyfyniad o'r Beibl, 1630:—

"Dringaf yn vwch na'r cwmylau, tebyg fyddaf i'r Goruchaf. Er hynny i vffern i'th ddescynnir, i ystlysau yr ffôs."—*Esa.* xiv. 14, 15.

Yn awr, am Gyfreithiau Dyfnwal, y Trioedd ereill, a'r dernynach o'r *Iolo MSS.* ac o Ab Iolo.

"Trioedd Dyfnwal Moelmud:"—

9. "Tri chadernid gwybodau a chelvyddydau: addysg o athrawon wrth vraint a thrwydded; breinioldeb gwybodau a chelvyddydau ar a'u gwypont; a gwobrau gwarantedig o gyvraith, am a wneler yn ddosparthus o arch ac ammod, gan wybedyddion a chelvyddiaid."—*Myv. Arch.*, iii. 288, *Tri.* 29.

"Y Trioedd Hanesyddol," sef "Trioedd Ynys Prydain:"—

10. "Tri Haelioni Teyrnedd Ynys Prydain: Rhydderch Hael ab Tudwal Tudclud; a Mordaf Hael ab Serfan; a Nudd Hael ap Senyllt; a'u cynneddfau oeddynt ni phellynt o un peth bynnag o'r byd ac o ryw i'r neb a'i ceisiai hyd y bâi ganddynt, nag a gaent yn rodd, neu yn echwyn, neu o gyfarch; na châr nas chas na thras nag estron, ai ceisiai."—*Myv. Arch.*, ii. 63, *Tri.* 30.

"Trioedd Braint a Defod:"—

11. "Tair deddf-ochel y sydd ar Fardd; gochel diogi can mai gwr wrth ymgais ydyw; gochel cynnen can mai gwr wrth heddwch ydyw; a gochel ffolineb can mai gwr wrth bwyll ydyw."—*Ed. Williams' (Iolo Morganwg) Lyric Poems*, ii. 229.

"Trioedd Barddas:"—

12. "Tri chylch hanfod y sydd, Cylch y Ceugant, lle nid oes namyn Duw, na byw na marw, ag nid oes namyn Duw a eill ei dreiglo; Cylch yr Abred, lle pob ansawdd-hanfod o'r marw, a dyn a'i treiglwys; Cylch y Gwynfyd, lle pob ansawdd-hanfod o'r Byw, a dyn a'i treigla yn y nef."—*Ed. Williams' Lyr. Poems*, ii. 235.

"Llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain:"—

13. "Cyn nog amser Prydain ab Aedd Mawr, nid oedd namyn Gwyddoniaid yn wyr wrth Ddysg ac Athrawiaeth Gwlad a Chenedl, a chan nad oedd na Deddf na llafar gorsedd ar a wyddai y Gwyddoniaid, ef a ddigwyddwys coll ar lawer o wybodaeth a chof, ac Ysgysrwydd Cenedl y Cymry, a Gwedi Gwladychu o'r Cymry yn nawdd Gwladwriaeth Prydain, ac ymroddi 'n hollol i fod wrth y deddfau daionus ar drefn ddoeth a wnaeth efe, fe cafwyd lonyddwch ac yspaid anraith."—*Iolo MSS.*, td. 46.

"Rhol Cof a Chyfrif:"—

14. "Cyntaf a ellir ar gof caffael Enw Duw sef Duw a roddes ei enw ar lafar, nid amgen nag /|\ a chyda'r gair cyflam yr holl fydoedd a'r holl fywydau o'i hanfodoldeb i fod a bywyd a bloedd gorfoledd /|\ gan adlaforu Enw Duw Ag iselfain pereiddlais y y llafar ag nis gellir ei ail yny dychwel Duw bob hanfod o'r marwoldeb a ddug pechod arnaw."—*Iolo MSS.*, td. 45.

Esampl o'r mân ddyfyniadau dibwys sydd yn Nghoelbren y Beirdd Ab Iolo:—

15. "Einigan Gawr a weles dair colofn goleuni ag arnynt holl wybodau a fuant erioed ag a fyddant fyth yn ddangosedig ynddynt, ac efe a gymmeres dair gwydden gerdin ag a ddodes arnynt luniau ag arwyddion bob gwybodau yn goffadwy, ag ai dangoses hwynt, a'r rhai a'u gwelsant a ddodasant gamddeall a geubwyll arnynt, ag a ddysgasant dwyll wybodau a Dodi Duw ar y Gwiail lle nid oedd namyn ei enw arnynt."—*Coelbren y Beirdd*, td. 6.

Cyffelyb ydyw y mân ddyfyniadau ereill sydd gan Ab Iolo, o ran sylwedd a llythyraeth, am y rhai y dywed:—"Iawn immi hyspysu y rhoddaf, yn awr, fal ar *bob tro arall*, yn y Traethawd hwn, sylwadau awduron, hen neu ddiweddar, eraill, *gair a llythyren*, yn llwyr gytunol â'r ysgrifau a'r cyhoeddiadau dann fy ngolwg." Credir fod hyn yn wir; ac os felly, *diweddar* iawn ydyw yr holl awduron a ddyfyna.

Yn awr, nid oes ond ychydig a fedrant ddarllen y dyfyniadau 1, 2, a 3; ac nid llawer chwaneg a fedrant ddarllen y 4 a'r 5: mae y 6 gryn lawer yn haws, a'r 7 a'r 8 yn haws fyth; ond nid yw llythyraeth y 9—15, yn gwahaniaethu dim o bwys oddi wrth lythyraeth arferedig y dydd heddyw; ïe, y mae llythyraeth pob un o'r rhai hyn yn fwy cynnefin nag hyd yn oed llythyraeth y Beibl (rhif 8) a argraffwyd yn 1630; ac o ganlyniad, y casgliad anocheladwy ydyw, fod y rhif 9 a'r 10, &c., wedi eu hysgrifenu, ac yn ol pob tebygolrwydd, eu cyfansoddi hefyd, *ar ol* 1630. Ac nid oes dim a argyhoedda yr ymofynydd diragfarn eu bod yn hynach, ond dwyn hen lawysgrifau yn mlaen i brofi hyny. Hefyd, y mae llafarwedd (*idiom*) y rhif 9—15, yn profi yn amlwg mai Beirdd Morganwg oedd eu hawdurou. Y mae pob adrywydd o'r llythyren *k* wedi diflanu o honynt; ac y mae yr ch, dd, ff, a'r holl gyfnewidiadau ereill ynddynt, yn gwbl fel y sefydlodd y Dr. Davies hwynt; fel y maent mor hawdd eu darllen y dydd heddyw gan bawb a fedrant Gymraeg, ag ydyw Beibl Iwbili Cymdeithas Llundain.

Clywsom fod rhai mân ddarnau ereill, diamseriad a dienw, mewn llawysgrifau, cyffelyb o ran ansawdd i'r darnau a ddyfynwyd uchod (rhif 9—15) o honynt—rhai ar ffurf trioedd, ereill ar ffurff catecismau ("hawl ac ateb"), a'r lleill ar lun traethodach; a bod rhai yn ddigon hygoel i gredu yn eu calon y traethant yn awdurdodol ar Dderwyddon a Derwyddiaeth (a alwant Barddas) henafol Ynys Prydain! Pa fodd bynag, os cyhoeddir hwy rywbryd, bydd yn hawdd i'r darllenydd craffus fesur eu gwerth a phenderfynu amser eu cyfansoddiad, wrth y cyfarwyddiadau a roddwyd eisoes.

Cenir yn iach weithian i'r holl ffug-gyfansoddiadau hyn (rhif. 9—15), fel pethau cwbl annheilwng i gyfeirio atynt fel awdurdodau dros ddim yn y byd y traethant arno, gan sylwi, tra y mae 35 llawysgrif o Gyfreithiau Howel, ac amryw gopïau o bob cyfansoddiad arall sydd yn wir hen, nad oes dim ond un copi ar gael o'r pethau a elwir "Cyfreithiau Dyfnwal," "Trioedd Morganwg," "Trioedd Moes a Defod," "Trioedd Barddas," a'r mân ddarnau sydd yn yr *Iolo MSS.* a *Choelbren* Ab Iolo; a dywedir fod yr unig gopi oedd o rai o honynt wedi colli.

Yr ysgrifeniadau cenedlaethol ereill, y barnai Iolo Morganwg, y Celtig Davies, y Dr. Pughe, a'u dysgyblion, eu bod yn llawn o hysbysiadau a chyfarwyddiadau awdurdodol am Dderwyddon a derwyddiaeth hynafol Prydain, ydyw *gweddillion barddonol y cynfeirdd a'r gogynfeirdd.* Dywed Ed. Williams (Iolo Morganwg) fod "barddon-

Digitized by Google

laeth Taliesin yn y *chwechedganrif*, yn arddangos cyfundrefn gyflawn o Dderwyddiaeth." —*Lyric Poems*, ii. 194.

Tarawodd y syniad yma yr ysgrifenydd mor rymus, fyneddoedd yn ol, fel y penderfynodd fynu deall yr hen farddoniaeth Gymraeg, os dichonadwy, yn enwedig gwaith Taliesin, fel y gallai farnu drosto ei hun. Er mwyn hyn, ymgynghorwyd, o angenrheidrwydd, â chyfieithiadau Davies, yn ei *Researches* a'i *Mythology*, â chyfieithadau y Dr. Pughe, ac ereill. Yr oedd y rhai hyn n tueddu yn uniongyrchol i gadarnhau syniad Iolo; ond fel yr oeddys yn dyfod yn fwy cynnefin â'r ysgrifeniadau gwreiddiol, dechreuwyd ammheu cywirdeb amryw o'r cyfieithiadau, gan dybied fod llawer mwy o goelgrefydd a Derwyddiaeth yn y cyfieithiadau nag y sydd yn y caniadau eu hunain. Yn y cyfamser, daeth *Literature of the Kymry* gan Stephens, i law, yr hwn a brawf yn ddiammheuol fod y rhan fwyaf o syniadau Davies a'i ddysgyblion yn hollol gyfeiliornus; a thynodd gyfansoddiadau Taliesin i lawr o 77 i 12 o niter. Wedi hyny, ymddangosodd *Grammatica Celtica* y proffeswr Zeuss, yr hwn sydd yn agoriad ardderchog i'r hen gyfansoddiadau Cymreig, gystal ag i eiddo cangenau ereill o'r Geltaeg; ac yn ddiweddaf oll, daeth *Taliesin* Mr. Nash allan, yr hwn sydd yn profi yn gadarn nas dichon fod *cymmaint ag un* o'r caniadau a briodolir i Taliesin, Aneurin, Myrddin, Llywarch Hen, &c., wedi eu hysgrifenu yn y chweched nac hyd yn oed yn y ddegfed ganrif. Gellir canfod hyn ar unwaith drwy gymharu ffurf yr iaith â'r arnodiadau (*glosses*) a briodola Zeuss i'r wythfed neu y nawfed ganrif.

Y llawysgrif hynaf, yn cynnwys cyfansoddiadau prydyddol y beirdd Cymreig (heb law yr hen gopi a nodwyd o *Juvencus*), a ffynnonell y goelgrefydd Dderwyddol dybiedig, ydyw y *Llyfr Du o Gaerfyrddin*, yn llyfrgell Fychaniaid yr Hengwrt, a ysgrifenwyd yn y ddeuddegfed ganrif; canys y mae yn cynnwys marwnad i Fadog ab Meredydd, Tywysog Powys, yn y flwyddyn 1158. Nid oes yn y *Llyfr Du* ddim a briodolir i Taliesin ond "Ymdidan rhwng Myrdin Wyllt Thaliessin;" "Englynion Beddau Milwyr Ynys Prydain;" ac "Ymddiddan rhwng Ugnach ab Mydno o Gaer Leon a Thaliesin o Gaer Deganwy."

Nid ydys yn gwybod fod neb, hyd yn oed y Celtig Davies, yn cyfeirio at un o'r caniadau hyn fel rhai hynod o Dderwyddol. Cyn belled, gan hyny, ag y mae prawf yn cyrhaedd, nid ysgrifenwyd y rhan fwyaf o'r caniadau a briodolir i Taliesin yn y ddeuddegfed ganrif. Yn y *Llyfr Coch o Hergest* y maent hwy i'w canfod; ac nid ysgrifenwyd y *Llyfr Coch*, yn ol E. Llwyd, hyd o gylch diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg: o ganlyniad, dyma yr ysbaid o gylch *wyth gan mlynedd* rhwng yr amser y tybir iddynt gael eu cyfansoddi a'r llawysgrif hynaf y canfyddir hwynt ynddi, a hyny yn nghanol "yr oesoedd tywyll!" Cyhoeddwyd y rhai hyn, a'r holl gyfansoddiadau barddonol hynaf a fedd Cymry, yn y gyfrol gyntaf o'r *Myvyrian Archaiology*. Dywedir y dichon i rai o'r hen ysgrifeniadau gael eu dwyn yma o Lydaw, i'r lle y gallai eu bod wedi eu cymmeryd rywbryd gyda ffoedigion: ond mynega Taillandier, yn ei ragymadrodd i *Eiriadur Lepelletier*, mai amseriad y llawysgrif hynaf a fedd y Llydawiaid yw B.A. 1450, yn cynnwys daroganau rhyw rith brophwyd o'r enw Gwinglaff—yr un, fel yr ymddengys, a Myrddin y Cymry. Felly, nid ennillid dim pe gellid profi fod rhai o honynt wedi eu cludo yma o Lydaw.

Dosberthir barddoniaeth y *Myv. Arch.* yn amseryddol, i ddwy gyfres. Y gyntaf, gwaith y cynfeirdd, neu y beirdd boreuaf, o'r chweched hyd ganol y ddegfed ganrif. Yr ail, y gogynfeirdd, neu feirdd y canoloesoedd, o B.A. 1120 hyd B.A. 1380.

O'r 124 cyfansoddiadau a gynnwys y gyfres gyntaf, nid oes lai na 77, fel y crybwyllwyd eisoes, neu yn agos i ddwy ran o dair o honynt, yn cael eu priodoli i Taliesin—yn cynnwys darnau hanesyddol, cyfriniol, athronyddol, crefyddol, moesol, a duchanol. Dyma y caniadau, yn nghyd â'r rhai a briodolir i Myrddin, sy'n ffurfio yr ystorfa fawr o'r hon y cafwyd defnyddiau i bleidio y syniad fod dysg ac athroniaeth, ffugion, traddodiadau, ac ofergoelion hen lwysbendodaeth Dderwyddol Gâl a Phrydain i'w cael mewn cyfansoddiadau nad oes un o honynt yn hòni bod yn hynach na dechreu y chweched ganrif o'r cyfnod Cristionogol. Y mae yn amlwg, ar ymchwiliad brysiog yn unig i gynnwysiad nifer mawr o'r caniadau a briodolir i Taliesin gan ysgrifenwyr y llawysgrifau a gyhoeddwyd yn y *Myv. Arch.*, nas gellir eu priodoli i'r chweched, y seithfed, yr wythfed, ïe, na'r ddegfed ganrif. Un peth tra nodedig yn nglŷn â'r mater yma, ac a deilynga fwy o sylw nag a gafodd hyd yn hyn, ydyw, nad ydyw y rhan fwyaf o'r caniadau a dybir yn hynaf oll, ac a briodolir i Taliesin, ac ereill o'r cynfeirdd, ddim yn agos mor anhawdd eu darllen ag amryw o ganiadau beirdd adnabyddus o'r ddeuddegfed, y drydedd ar ddeg, a'r bedwaredd ganrif a ddeg. Yr oedd y Dr. Pughe wedi sylwi fod caniadau Taliesin yn llawer haws eu darllen na gwaith Cynddelw; ond methai ef yn lân a deall beth oedd yr achos o hyny, os nad oedd yr iaith yn fwy llygredig yn y ddeuddegfed ganrif, ac felly yn annhebycach i'n iaith ni yn awr nag ydoedd yn y chweched ganrif! Ni ddaeth i'w feddwl gwladgarol ef erioed ddychymygu mai cyfansoddiadau o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd y bymthegfed ganrif ydyw y rhai a briodolir i Taliesin.

Mae enw ardderchog y bardd ffugiol hwn wedi bod yn dŵr cadarn i'r rhan fwyaf o'r hynafiaethwyr Cymreig, y rhai sydd wedi derbyn yn ddibetrus yr hyn oll a ymddengys dan ei enw, fel prawf o sefyllfa llenoriaeth, athroniaeth, a Derwyddiaeth, yn mysg eu cydwladwyr yn y chweched ganrif! Mae y *Mabinogion*, a gyfieithwyd mor brydferth gan Lady Charlotte Guest, yn agoriad arbenig i'r rhan fwyaf o'r caniadau hyn, yn enwedig y rhai cyfriniol, gan eu bod wedi eu seilio yn amlwg ar y chwedlau Mabinogaidd. Gellir casglu beth oedd beirdd Cymru mewn gwirionedd, yn y ddegfed ganrif, heb na ffug na "chyfrin" yn eu cylch, o ffynnonell ddiammheuol, sef Cyfreithiau Howel Dda. Casglwyd y rheithlyfr godidog hwn, trwy orchymyn Howel, gan dri ar ddeg, medd rhai, o'r dynion mwyaf dysgedig a gafwyd trwy holl Gymru; ond yn ol yr hysbysiad sydd yn y copi a gyhoeddwyd yn y *Myv. Arch.*, iii. 361, gan "chwegwyr o bob cymwd yn y Dywysogaeth—y pedwar yn lleygion, a'r ddau yn ysgolêigion—rhag gosawd o'r lleygion dim a vai yn erbyn yr Ysgrythyr lân." Gallwn sylwi yma, wrth fyned heibio, na ddewiswyd na Bardd na Derwydd at y gorchwyl pwysig yma. Dechreua y cyfreithiau gyda dyledswyddau a rhagorfreintiau y pedwar ar ugain swyddog llys, y rhai oedd fel y canlyn:—

Digitized by Google

"SWYDDWYR Y BRENIN.

| | |
|---|---|
| 1. Penteulu. | 9. Gostegwr. |
| 2. Efeiriad. | 10. Pencynydd. |
| 3. Dystain. | 11. Meddydd. |
| 4. Penhebogydd. | 12. Meddyg. |
| 5. Brawdwr llys. | 13. Trulliad. |
| 6. Pengwastrawd. | 14. Drysawr. |
| 7. Gwas ystafell. | 15. Côg. |
| 8. Bardd teulu. | 16. Canwyllydd. |

SWYDDWYR Y VRENINES.

| | |
|---|---|
| 17. Dystain y vrenines. | 21. Llawvorwyn. |
| 18. Efeiriad y vrenines. | 22. Drysawr y vrenines. |
| 19. Pengwastrawd y vrenines. | 23. Côg y vrenines. |
| 20. Gwas ystavell y vrenines. | 24. Canwyllydd y vrenines." |

Yn wythfed y cyfleir y bardd teulu yn y gyfres hon; gan hyny, y mae yn amlwg ei fod yn un o benswyddogion y llys. Ond nid oedd ei "sarâed" a'i "werth" yn gyfartal yn mhob ystyr a "sarâed" a "gwerth" un o'r pedwar ar ugain ond y drysawr yn unig. "Ei sarâed yw chwebuw a chweugaint o ariant. Ei werth yw chwebuw a chweugeinmuw." Hyn hefyd oedd swm "sarâed" a "gwerth" amryw ereill o'r penswyddogion; megys y penhebogydd, y brawdwr llys, y pengwastrawd, y gwas ystafell, y gostegwr, y pencynydd, y meddydd, y meddyg, y trulliad, y côg, a'r canwyllydd: ond yr oedd "sarâed" a "gwerth" y rhai hyn yn cael ei "hardderchavael." Yr oedd "sarâed" a "gwerth" amryw o'r "swyddogion arver a devawd" yr un ag eiddo y bardd teulu; sef y gwastrawd avwyn, y porthor, y gwylwr, y cynnutai, y gôv llys, a'r pencerdd, neu y bardd cadeiriawg. Lle y bardd teulu wrth y bwrdd ydoedd "ar neill-law y penteulu."

Cyfyngid swydd y bardd yr amser yma at yr ymarferiad o'i gelfyddyd yn unig. Yn ol y cyfreithiau hyn, yn y ddegfed ganrif, nid oedd efe nac "offeiriad," nac "athraw," nac "athronydd," na "derwydd"—dim ond cantwr yn unig; ac y mae yn dra thebyg ei fod yn gyfansoddwr cerddi hefyd. Gyda golwg ar ganu yn y llys ger bron y brenin, dywedir, "Pan vyner canu cerdd, y bardd cadeiriawg a ddechreu; a'r canu cyntaf o Dduw, a'r ail o'r brenin bieuvo y llys......Gwedi y bardd cadeiriawg, y bardd teulu biau ganu tri chanu, o gerdd amgen. O dervydd i'r vrenines vynu cerdd, aed y bardd teulu i ganu iddi gerdd yn ddifesur; a hyny yn isel, fal nad aflonyddo y neuadd gantho."

Yr oedd efe hefyd i ganu cerdd i'r penteulu pan fynai. Hefyd, yr oedd i "ganu unbeniaeth Prydyn" (Prydain?) pan renid yr anrhaith ar ol rhyfel. Gan hyny, nid oedd hyd yn oed "bardd y brenin" ddim amgen na phrydydd a cherddor yn y ddegfed ganrif, pan ysgrifenwyd cyfreithiau Howel Dda—y cyfansoddiad Cymraeg o awdurdod ddiammheuol cyntaf erioed a roddwyd mewn ysgrifen, fel y crybwyllwyd eisoes. Mae yn amlwg na wyddai cyfansoddwyr y cyfreithiau hyn ddim yn y byd am y ddwy "gangen" arall o "gelfyddyd barddoniaeth," a elwir hefyd dwy "achen (*degree*) y beirdd," sef "ofydd a derwyddfardd," neu "ofydd a derwydd," a lusgwyd i mewn gan feirdd Morganwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac ar ol hyny.

Y dosbarthiad awdurdodol (*authentic*) hynaf, ar ol cyfreithiau Howel, a geir o'r beirdd, fel y tybir, sydd i'w weled yn *Ordinance de Gales*, a ddeddfwyd yn B.A. 1403, dan deyrnasiad Harri IV, pan y deddfwyd *Aue les Ministrelt, Bardes, Rymours, et Westours, et autres Vagabundez Galeys deinz Northgales ne soient deformes seoffrez de surcharger le paiis, come ad este devant; mais soient ils outrement deffenduz sur peine d'emprisonment d' un an;*" sef yw yr ystyr,—Na bo i gler, beirdd, rhigymwyr, chwilienwyr, a chrwydriaid Cymreig ereill yn Ngogledd Cymru, gael eu goddef mwyach i orlwytho y tir fel ag y maent yn awr; ond y gwaherddir hwynt o hyn allan dan boen a charchar am un flwyddyn.

Gwelir mai graddau neu "achen" y beirdd yn nechreu y bymthegfed ganrif oedd "cler, beirdd, rhigymwyr, a chwilienwyr; ond nid oes yma, mwy nag yn nghyfreithiau Howel, air o son am nac "ofydd" na "derwydd," na "derwyddfardd." Mae y tair gradd olaf, beirdd neu brydyddion, rhigymwyr, a chwilienwyr," yn ddigon dealladwy i'r cyffredin; ond y mae y Dr. Pughe wedi tywyllu y radd gyntaf (cler), yn fawr, trwy roddi eglurhad cwbl ddychymygol a disail i'r gair. Ystyr y gair *cler* yn Gymraeg, fel y gair *cliar* yn y Wyddelaeg, ydyw cerddor, prydydd, neu gantwr. Dichon mai damweiniol yn unig ydyw y cyssylltiad ymddangosiadol sydd rhwng y gair a'r Lladin *clerus*. Ymddengys fod y geiriau Gwyddelig *clarsair*, a *clairseoir*=telynwr, oddi wrth *clar*=bwrdd, chwareuwr ar fwrdd; a *clairseach*=telyn y saith fwrdd, neu fwrdd â saith dant, yn dal perthynas â'r gair *cler*, os nad yn wraidd iddo. Y mae y dull y daethpwyd i edrych ar y dosbarth, neu y radd yma o'r beirdd, i'w weled yn amlwg, yn mysg pethau ereill, yn ail ystyr y gair *cler*, sef *clyr*, neu *gacwn y meirch* (*gadflies*).

Ar ol y ddeddf dan sylw o'r eiddo Harri, ym gyfarfyddai y beirdd mwyaf parchus a dysgedig mewn gorseddau (*sessions*) yn y Deheubarth, dan nawdd y barwniaid; ac yn Ngwynedd a Phowys trwy ganiatâd breninol.

Ceir dosbarthiad arall arnynt yn hanes "Eisteddfod fawr Caerfyrddin," a gynnaliwyd trwy ganiatâd y brenin, dan nawdd Gruffydd ab Nicolas, o gylch 1451, lle yr oedd Dafydd ab Edmwnt yn fardd cadeiriog. Graddau y beirdd yma oedd pencerdd, dysgybl pencerddaidd, dysgybl dysgyblaidd, dysgybl yspâs graddawl, dysgybl yspâs heb radd, a dysgybl yspâs.

Cyffelyb oedd eu graddau yn yr eisteddfod a gynnaliwyd yn Nghaerwys, trwy ganiatâd Harri VIII, 1523, lle yr oedd Tudur Aled yn bencerdd; ac yn yr un a gynnaliwyd yn yr un lle, trwy ganiatâd y frenines Elisabeth, 1568, dan nawdd Syr Richard Bulkley, Syr Rhys Gruffydd, y Dr. Elis Price, a William Mostyn, Ysw., lle yr oedd Lewis Edward, William Llŷn, Owen Ifan, neu Owain Gwynedd, a Simwnt Fychan yn bencerddiaid.

Nid oes yn hanes yr un o'r eisteddfodau hyn eto ddim cymmaint a chrybwylliad am yr ofydd na'r derwydd.

Tebyg hefyd ydyw y graddau a briodola I. D. Rhys iddynt, yn ei ramadeg, a gyhoeddwyd yn 1592. Y mae efe yn son hefyd am fardd caw, posfardd, ac arwyddfardd. Hefyd, ofergerddorion, sef pibydd hudawl, tabter, ffidler, sef crythawr crwth drithant, a datgeiniad; ond ni ddyd yr un o'r rhai hyn yn mysg y graddau. Ymddengys wrth yr hanes a rydd ef, fod yr holl frawdoliaeth yn gler, ond fod yn rhaid iddynt glera oll wrth drefn a dosbarth. Ond y mae yntau mor ddystaw am "ofydd a derwydd" Iolo Morganwg, &c., ag ydyw pob hanesydd awdurdodol arall.

Yn awr am ganiadau Taliesin a'u hawdwr, lle

Digitized by Google

y dywed Iolo Morganwg fod "cyfundrefn gyflawn o Dderwyddiaeth i'w chanfod." Y mae y pwnc yma mor eang, fel nas gellir ond cymmeryd trem yn unig yn y lle hwn ar y pethau sydd ynddo yn dwyn perthynas uniongyrchol â'r mater mewn llaw, sef Derwyddon a Derwyddiaeth.

Mae y gân gyntaf, a elwir "Hanes Taliesin," sydd yn y *Myv. Arch.*, a'r *Mabinogion*, wedi ei seilio yn amlwg ar chwedl neu ramant (*romance*) Cored Gwyddno Garanhir; ac y mae'r llawysgrif hynaf sydd ar gael o honi, heb son am brofion mewnol, yn profi yn ddiammheuol nad ydyw yn hynach na'r drydedd ganrif ar ddeg o bellaf; a thystiolaetha hyd yn oed yr *Iolo MSS.* mai un Tomas ab Einion Offeiriad ydoedd ei hawdwr. Mae yn amlwg hefyd mai fel rhamant neu ffugchwedl y cyfeiriai beirdd y canoloesoedd at y gân dan sylw. Hefyd, mae yn dra anhawdd, os nad yn anmhosibl, cyssylltu Taliesin y chwedl â bardd Urien Rheged. Gosodir golygfa y chwedl, fel y rhan fwyaf o'r chwedlau Cymreig, yn y chweched ganrif; ond yr oedd ysgrifenwyr y chwedlau mor anghytunol yn eu golygiadau am gyfnod Taliesin, fel y mae un Mabinogi yn ei wneuthur yn brif fardd yn llys Arthur, un arall yn gosod ei anturiaethau yn nheyrnasiad Maelgwn Gwynedd, tra y gwna y trydydd ef yn gydymaith i Brân Fendigaid, tad yr ardderchog Garadog, oedd yn ei flodau yn y ganrif gyntaf; ond nid oes yr un o honynt yn ei gyssylltu âg Urien Rheged. Mae cymmysgfa fel hyn yn ddigon, pe na byddai dim arall, i arwain yr ymofynydd diduedd am y gwirionedd i edrych ar Taliesin fel ffug o ddychymyg prydyddion a chwedlonwyr, ac nid fel gwir berson. Pe buasai sefylfa Taliesin fel bardd Urien Rheged yn ffaith adnabyddus i'r Cymry, a phe buasai ei ganiadau er anrhydedd y pendefig hwnw wedi cael derbyniad cyffredinol yn yr unfed ganrif ar ddeg neu y ddeuddegfed, y mae yn dra annhebyg y buasai y chwedlonwyr yn ei gyssylltu âg anturiaethau chwe chanrif boreuach. Ond os fel Taliesin y dewin yr oedd yn adnabyddus, a honai fod yn gydoeswr âg "Alisander Fawr," ac wedi bod gyda Noa yn yr arch, gallasai yn hawdd fod yn gydymaith i Brân Fendigaid. Mae y pethau hyn yn esbonio eu hunain. Heb law hyn, dylid sylwi nad y person a gyflwyna y prif chwedlonydd Cymraeg, Sieffre o Fynwy, i'w ddarilenwyr, fel pen bardd a dewin ei genedl, ydyw Taliesin; eithr Myrddin neu Merlin!

Y mae dernyn arall yn y gân ddigyssylltiad a elwir "Gododin Aneurin," y pwysir llawer arno fel prawf o hanfod Taliesin fel bardd o'r chweched ganrif; sef,

> "Mi na vi Aneurin
> Ys gwyr talyessin
> Oveg kywrenhin
> Neu cheing e ododin
> Kyn gwawr dyd dilin."

Sef yw yr ystyr:—

> Canaf fi Aneurin,
> Mae yn hysbys i Taliesin,
> Y meddwl medrus—
> Oni bydd cerdd i Ododin
> Cyn tywyniad y dydd teg?

Mae yr *ch*, *k*, *v*, *w*, *y*, &c., sydd yn y dernyn hwn yn ddigon o brawf iddo gael ei ysgrifenu rywbryd o'r drydedd ganrif ar ddeg i'r bymthegfed; ac nis gall fod yn gyfansoddiad o'r chweched ganrif, nac hyd yn oed o'r ddegfed, fel y tybir yn gyffredin ei fod; am hyny, ni ddichon fod ynddo un prawf o hanfod Taliesin yn y chweched ganrif. Y mae y profion o ddiweddarwch y "Gododin" mor amlwg a chedyrn, fel nas gellir eu gwrthwynebu; ond ni wiw ymdroi yma i'w holrhain. Rhaid boddloni ar ddywedyd, pa beth bynag sydd yn y Gododin, nas gellir profi ei bod yn hynach, yn ei gwedd bresennol, na'r ddeuddegfed ganrif; ac y mae yr holl "gyfrin" a "Derwyddiaeth" a dybir eu bod ynddi, yn y *cyfieithiadau* o honi. Gwel GODODIN.

Dechreuwyd ammheu awduriaeth amryw o'r caniadau a briodolir i Taliesin gan Edward Jones, bardd y brenin, mor foreu a 1792. Pan ddadgorfforwyd y llywodraeth dywysogol yn Nghymru, ar ol marwolaeth Llywelyn ab Gruffydd yn 1282, medd efe, "y fath ydoedd gorthrwm y Seison ar y genedl orchfygedig, fel y gellir dywedyd am y beirdd a anwyd 'ar ol dydd angeuol Cymru,' eu bod wedi eu geni dan ddylanwad planed adwythig ac aniandrwg. Bu raid iddynt arfer eu celfyddyd gyssegredig dan gudd ac mewn gofid; a gorfodwyd hwy i ddarostwng eu digofaint a fuasai yn tori allan yn y caniadau mwyaf tanbaid yn erbyn eu gorthrymwyr angharedig a chreulawn. Eto, nid oeddynt ddystaw na diwaith. Er mwyn i'w hawen gael anadlu eu gwladgarwch yn ddigosp, yr oeddynt yn gorfod bod yn dywyll, prophwydol, a dewiniol. Fel yr oedd mynachod yr Eglwys Gymreig, yn eu dadl â Rhufain, wedi ysgrifenu amryw o'u caniadau crefyddol, a'u tadogi ar Taliesin, er amddiffyn eu hathrawiaethau, felly priodolai y beirdd yn awr lawer o'u hysgrifeniadau gwladol i'r un awdwr hybarch, gan ddwyn amryw ereill yn mlaen fel prophwydoliaethau Myrddin yr hynaf. Dyma yr achos fod cymmaint o ansicrwydd gyda golwg ar wir weddillion y chweched ganrif, gan eu bod wedi ein cyrhaedd ni yn anafus a llygredig; a hyn hefyd ydyw y rheswm am y naws gyfriniol sy'n treiddio trwy yr holl brydyddiaeth ddiweddar a ddysgrifir genyf yn bresennol. Tybir y gallwn ni, yn awr, ddarganfod geuoldeb y caniadau sy'n gwbl ffugiol, er iddynt fyned heibio hyd yn oed i feirniaid o fath y Dr. Davies a'r Dr. I. D. Rhys, heb gael eu hammheu. Ysgrifenwyd hwynt i wasanaethu amcan poblogaidd ac amserol; ond ni chynlluniwyd hwy gyda'r fath graffder a gofal ag i guddio eu camgymmeriadau hanesyddol, newydd-deb eu hiaith, a nodau ereill o'u ffugioldeb, o olwg yr ysgolhaig gofalus a goleuedig."

Arweiniodd craffder beirniadol Sharon Turner ef, tra yn amddiffyn cynnwynoldeb (*genuineness*) y caniadau Brutanaidd yn gyffredinol, i siarad yn bur ofalus ar bwnc y caniadau a briodolir i Taliesin. "Y rhai mwyaf pwysig," ebe fe, "yw y rhai ar y rhyfeloedd rhwng y Cymry a'r Seison; a thros gynnwynoldeb y caniadau hyn yr wyf fi yn dadleu." Y caniadau y dadleua Turner eu bod yn wir eiddo Taliesin yw,

> Y caniadau i Urien, ac ar ei Ryfeloed
> Ei Ymddyddan â Merddin.
> Y Caniadau ar Elphin.
> Ei Farwnadau Hanesyddol.

Rhestr ydyw hon nas gellir profi fod un ynddi yn hynach na'r ddeuddegfed ganrif.

Siaradodd y Dr. John Jones, Cymro, yr hwn a gyhoeddodd *Hanes Cymru* yn 1824, yn bur eglur ar y pwnc yma. "Y mae ysgrifeniadau y beirdd Cymreig," eb efe, "yn bur luosog. Y casgliad helaethaf o honynt sydd yn y gyfrol gyntaf o'r *Myvyrian Archaiology:* maent yn gynnwysedig o goegbethau cywrain, ar byneiau dibwys yn bur

fynych, ac wedi eu gwisgo mewn iaith drwsgl; ac ni chynnwysant gymmaint ag un gerdd arwrol. Dywedir fod Aneurin, Llywarch Hen, a Thaliesin, yn blodeuo yn y chweched ganrif; os felly, syrthiodd awen Cymru i gwsg am bum can mlynedd, a deffrodd drachefn yn yr unfed ganrif ar ddeg. Y mae yr amseroedd yr oedd y beirdd hyn yn blodeuo ynddynt wedi bod yn fater o bryder mawr i hynafiaethwyr, y rhai a hysbysant y byd fod Llywarch wedi ei gladdu yn eglwys Llanfor, gan dynu y casgliad anghyson fod Taliesin wedi ei gladdu yn yr eglwys hono saith gan mlynedd cyn y gallasai yr adeilad fod wedi ei chodi. Nid yw y llawysgrif Gymreig henaf yn cyrhaedd yn mhellach yn ol na'r ddeuddegfed ganrif. Y mae Merddin yn traethu am berllan, i'r hon nid oedd hanfod cyn y goresgyniad. Y mae Aneurin, Llywarch Hen, Merddin, a Thaliesin, yn defnyddio y geiriau Seisonig *frank*, *venture*, *banner*, *sorrow*, &c., ac yn dwyn enwau lleoedd i mewn nad oeddynt wedi eu hadeiladu, ac enwau saint nad oeddynt wedi eu canoneiddio yn y chweched ganrif."

Nododd Carnhuanawc rai o'r caniadau hyn fel rhai ffugiol; a dywedodd y Parch. Rice Rees "y gellid gwahaniaethu y rhai ffugiol oddi wrth y lleill wrth y dull diweddar yn yr hwn yr ysgrifenwyd hwynt." Addefodd hyd yn oed Ab Iolo fod "yn gwbl amlwg mai cân ffugiol ydyw Hanes Taliesin," gan awgrymu fod amryw o'r caniadau ereill a briodolir iddo yn gyffelyb [*Iolo MSS., Eng. Trans.*, td. 335, nod.] er y credai ei dad, Iolo, eu bod oll mor ddiffuant a'r Ysgrythyrau.

Fe wel y darllenydd bellach fod hynafiaeth amryw o'r caniadau hyn yn cael ei ammheu er ys hir amser gan rai o brif lenorion Cymru; a bod Mr. Stephens wedi eu tynu i lawr o 77 i 12 o nifer; ond gallasai, fel y prawf Mr. Nash yn ddiammheuol, eu dileu oll yn eithaf diogel oddi ar restr hynafiaeth uwch law y ddeuddegfed ganrif. Y gwir ydyw, fod archwiliad brysiog i'r gweddillion prydyddol sydd yn y *Myv. Arch.*, a elwir Gwaith y Cynfeirdd, yn ddigon i'n hargyhoeddi nad ydynt ddim ond darnau anghyssylltiedig, a ysgrifenwyd o'r ddeuddegfed ganrif hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, a hyny, yn ol pob tebygolrwydd, o enau y cler, neu y beirdd crwydrad, y rhai oeddynt gan mwyaf, fel y gellid dysgwyl, yn dra annysgedig ac anwybodus. Yr amgylchiad yma yn unig a eglura y gwirionedd gyda golwg ar y caniadau a briodolir i Taliesin, mewn modd arbenig, y rhai sydd wedi eu clytio yn nghyd, gan mwyaf, o grybwylliadau am leoedd, rhai dygwyddiadau hanesyddol, cyfeiriadau at y "Mabinogion," neu chwedlau ellyllig a rhamantaidd y Cymry, dernynach o ddaiaryddiaeth ac athroniaeth, brawddegau o Ladin mynachol, syniadau moesol a chrefyddol, gwirebau a diarebion wedi eu cydblethu yn gymmysgfa ryfedd, a'r cwbl weithiau mewn un ganig fechan. Eto, dyma yr ystorfa ryfedd o'r hon y tynodd Iolo Morganwg a'i ddysgyblion eu "cyfundrefn gyflawn o Dderwyddiaeth"—"trawsfudiad yr enaid," a'r cwbl a gadwyd gan y beirdd er amser Cæsar, ac a ddysgid gan Gristionogion yn y chweched ganrif.

Un o'r ffynnonellau mwyaf toreithiog o "drawsfudiad yr enaid," yn ol barn ysgol Dderwyddol Iolo, ydyw y chwedl dan sylw—"Hanes Taliesin." Dyma un anghraifft o honi:—

"Kyntaf im lluniwyd ar lyn dyn glwys
Yn llys Caridwen em penydiwys
Cyd bawn bach o'm gwlled gwyl fy nghynnwys
Oeddwn fawr uwch llawr llann am tywys
Prid fum parwyden per awen Parwys
Ag ynghyfraith heb iaith am rhydd rylliwys
Hen widdon ddulon pan lidiwys
Anghuriawl ei hawl pan hwyliwys."

"Ffoes yn gadarn
Ffoes yn llyffan
Ffoes yn rhith bran
Braidd orphwys
Ffoes yn derwyn
Ffoes yn gadwyn
Ffoes yn Iyrchwyn
Mewn llwyn llychwys
Ffoes yn fleiddyn
Ffoes bleiddawr
Yn niffaeth
Ffoes yn fronfraith
Cyfiaith Colwys
Ffoes yn gadno
Cyd naid ystumau
Ffoes yn Felau
Fal na thycciwys."

"Ffoes yn wiwair ni chynnydd celwys
Ffoes yn Gern Hudd rhudd im rhwyfwys
Ffoes yn haearn mewn tan towys
Ffoes yn ben gwayw gwae ai puchwys
Ffoes yn darw taer ymladdwys
Ffoes yn faedd Gwrych mewn rhych rheithiwys
Ffoes yn ronyn gwyn Gwenith lwys
Ar ael llen carthen im carfaglwys
Cymmaint oedd ei gweled a chyfeb rhewys
A fai yn llenwi fal llong ar ddyfrwys
Mewn boly tywyll im tywalldwys
Mewn mor dylan im dychwelwys
Bu goelfain im pan im cain fygwys
Duw Arglwydd yn rhydd am rhyddhawys.
*Tal. ac cant.*"

Cyffelyb ydyw y darnau trawsfudiadol ereill sydd yn gyssylltiedig â'r un uchod: "Dyhuddiant Elphin," &c. Y mae Nash yn barnu nad ydyw y chwedlau hyn yn hynach na'r drydedd ganrif ar ddeg; ond y mae y llythyraeth yn arwyddo yn bur amlwg nad ydynt yn hynach na'r unfed ganrif ar bymtheg, neu y bymthegfed o bellaf. Cymharer y llythyraeth â'r anghreifftiau a roddwyd eisoes o lythyraeth wir henafol.

Cerdd fechan arall a briodolir i Taliesin, y tybia ysgol Iolo ei bod yn llawn o Dderwyddiaeth, ydyw "Marwnad Aeddon o Fon," yr hon a ddechreua fel hyn:—

"Echrys Ynyt gwawd hu ynys gwrys gwobretor
Mon Mad gogei
Gwrhyd erfei
Menai ei dor
Lleweis wirawd
Gwin a bragawd
Gan frawd esgor
Teyrn wofrwy
Diwedd pob rhwy
Rhwyf rewintor
Tristawn ddeon
Yr Archddeon
Can rychior."

Digon yw dywedyd yma fod yn gwbl amlwg mai marwnad ddiniwed ydyw y ganig hon i ryw archddeon neu archddiacon o Fon, ac nad oes ynddi fwy o Dderwyddiaeth nag sydd yn Marwnad Goronwy Owain i Lewis Morris, o Fôn. Dywedwyd llawer iawn gan y Celtig Davies, ac ereill, ar bwys y gair *hu* sydd yn y llinell gyntaf, am addoliad Hu, duw dychymygol, sef yr haul. Esgeulusodd yr ysgrifenwyr hyn sylwi, pan yr ailadroddir y llinell gyntaf yn y ddeunawfed pennill, lle y dechreua gwahanol adroddiad o'r gân, yn lle "gwawd hu ynys," yr ysgrifenir "gwawd hwynys." Rhaid fod camysgrifeniad,

Digitized by Google

gan hyny, wedi dygwydd yn un o'r ddwy linell. Ni flinodd hyn ddim ar Davies, yr hwn a ysgrifenodd y ddwy linell yr un fath, gan ysgrifenu *hu* â llythyren benigol yn *Hu*. Pa fodd bynag, y mae holl rediad ac ystyr y gân yn dangos fod Hu yn gwbl allan o'i le yn nghymdeithas deon, archddeon, ac angelion; ac y mae yn dra thebyg mai dull o ysgrifenu *yw* ydyw *hu* neu *hw*, neu gamysgrifeniad o hono. Dengys llythyraeth y gân ei bod wedi ei hysgrifenu o gylch yr un amser a "Hanes Taliesin."

Y mae Davies a'i ddysgyblion yn meddwl eu bod yn canfod mawl i dduw a elwir "Pryd" ganddynt, mewn cerdd fechan a briodolir i Taliesin, a elwir "Armes." Y Dr. Meyer, gan gredu Davies, a gyfieitha y llinellau cyntaf o honi yn y dull dychymygol yma:—

"Pryd, Duw Prydain fawr, yr ardderchog Hu, gwrando fi! Frenin y nefoedd, nac ymguddia oddi wrthyf yn ystod fy swydd! Y mae gwledd brydferth wedi ei thaenu o'th flaen wrth y castell rhwng y ddau lyn (ymadrodd crefyddol am Brydain Fawr); mae y llynoedd yn amgylchynu y gaer; y gaer yn amgylchynu y ddinas; y ddinas yn erfyn arnat ti, Frenin Hollalluog; saif offrwm pur ger dy fron, aberth dewisedig yn ei len aberthol; y mae draig fawr (ymadrodd cyffredin am yr haul, yn cyfeirio at ei amgylchrawd) yn goruwch amgylchu y lle y saif y llestri cyssegredig."

Prin y mae cyfieithiad Davies ei hunan yn fwy gwrthun na hwn. Nid oes dim cyssylltiad rhwng y ddwy linell gyntaf o'r gân a'r rhai dilynol, ond perthynant yn amlwg i'r darn blaenorol, sef "Marwnad Uthr Bendragon." Y maent yn yr un mesur a'r rhai rhagflaenol, ac yn anhebgorol angenrheidiol at wneyd y synwyr yn gyflawn, fel hyn:—

"Fy nhafawd i draethu fy Marwnad
Handid o meinad gwrthgloddiad byd
Pryd Prydain hu ysgein ymhwyllad
Gwledig Nef ynghennadeu nam doad."

Hyny yw, mewn Cymraeg gyffredin, ddigyfrin:—

"Fy nhafod i draethu fy marwnad.
Ped amgylchynid y byd â chaer o geryg,
Dros wyneb Prydain yr ymledaenai dy goffadwriaeth.
Arglwydd Nef, caniatâ anghof i bechod."

Gwir ddechreu y ganig a elwir "Armes" sydd fel hyn:—

"Kein gyfeddwch
Y am deulwch lluch omplaid
Pleid am gaer
Caer yn chaer ry yscrifiad
Virain fo rhagddaw
Ar llen caw mwyedig Vein
Dreig amgyffreu
Odd uch llen lleu llestreu llad
Llad yn eurgyrn
Eurgyrn yn llaw
Llaw yn ysci
Ysci ymodrydaf
Fur itti iolaf
Buddug Veli
A Manhogan
Rhi rhygeidwei deithi
Ynys fel Feli
Teithiawg oedd iddi."

Hyny yw:—

Gwledd ardderchog ("gain")
Er cymmodi pleidiau gwrthwynebol
Amryson yn y ddinas,
Gorthrwm atgas.
Prydferth oedd ei bresennoldeb,
Mewn cadachau lliain tra llednais.
Y penaduriaid o amgylch
Oddi uchod a roddent y *llestri llad* (y rhodd lestri),
Rhoddion o eurgwpanau,
Yr eurgwpanau mewn llaw
Yn llawn o wirod,
Gwirod y cwch gwenyn (*medd*)
Addolaf dy ddoethineb.
Y buddugol Feli
Ab Manogan
Y Brenin, yr hwn oedd brif geidwad
Ynys Prydain ("y Fel ynys"),
Oedd yn teithio atat ti.

Gan fod y dernyn uchod wedi cael ei gamgyfieithu a'i ŵyrdroi mor druenus gan wahanol bersonau, er mwyn ei wneyd yn ddarlun o'r goelgrefydd Dderwyddol, cymmerwyd caniatâd i roddi y cyfieithiad syml uchod o'i wir ystyr ger bron; canys yn lle bod yn ddarluniad o gyfrinion aberthyddol y Derwyddon, ac o offrymiad aberth mewn castell rhwng dau lyn, nid ydyw y ganig na mwy na llai na charol Nadolig, neu gân hynod o ddiniwed a difeddwl ar y cyfan, er anrhydedd i enedigaeth ein Iachawdwr; ac y mae y llythyraeth, &c., yn dangos yn ddigon amlwg nad ydyw ond cyfansoddiad diweddar, fel y lleill o'r un dosbarth.

Er mor ddyddorol i'r darllenydd y gallai fod egluro y gweddill o'r caniadau a elwir "Gwaith y Cynfeirdd," a'u dadgyssylltu oddi wrth y camgyfleithiadau lluosog a wnaed o honynt, a'r camesboniadau truenus a roddwyd arnynt, eto, rhaid ymattal yma, gyda dyweyd unwaith yn mhellach eu bod *oll* wedi eu hysgrifenu o'r ddeuddegfed ganrif hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, a rhai o honynt, fe ddichon, yn ddiweddarach; a dylid cofio yn bendant mai yn y cyfieithiadau a'r esboniadau y mae yr holl Dderwyddiaeth a'r cyfrinion, ac nid yn y caniadau gwreiddiol eu hunain; canys byddai yn ynfydrwydd meddwl fod Derwyddon a Derwyddiaeth mewn bod yn Nghymru o'r ddeuddegfed hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, pan nad oes un prawf eu bod yma y chweched ganrif. Gan mai hyn ydyw y gwirionedd profadwy am "Waith y Cynfeirdd," ofer ydyw cyfeirio iddynt hwy, mwy nag i'r "Trioedd," a'r dernynach ereill a fu dan sylw, am unrhyw eglurhad ar wir Dderwyddon a Derwyddiaeth henafol Ynys Prydain.

Am waith y "Gogynfeirdd," gellir dyweyd yn ddibetrus am danynt mai yn y cyfleithiadau o honynt hwythau y mae yr holl Dderwyddiaeth, ac nid yn y caniadau gwreiddiol. Y mae yn wir y canfyddir fod y geiriau *Derwydd*, *Derwyddon*, a *Derwyddoniaeth*, wedi dyfod i arferiad yn achlysurol gan y beirdd Cristionogol a drigent yn llysoedd tywysogion Cristionogol yn y ddeuddegfed, y drydedd ar ddeg, a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, er eu bod yn anadnabyddus i awdwyr y chwedlau.

Tybia Mr. Stephens fod prif feirdd y cyfnod yma, yn enwedig Cynddelw, yn awyddus am hynodi eu hunain fel urdd, rhagor y cler a'r beirdd crwydrad, a bod y parch traddodiadol i Dderwyddiaeth yn ateb eu dyben; eu bod wedi ymaflyd yn hwn, gan roddi bywyd newydd yn yr hen grediniaeth, a'i thaflu o'u hamgylch eu hunain fel cylch cyfriniol i'w cadw ar wahan oddi wrth y cler a'r werin. Ond nid oes un prawf fod y gyfryw hen grediniaeth mewn bod. Nid oes *dim* hanes am dani rhwng Tacitus yn y ganrif gyntaf, a Chynddelw yn y ddeuddegfed ganrif. Dywed Cynddelw, wrth gyfarch Owain Gwynedd:—

Digitized by Google

"Beirniad am regyd beird am regor
Ath folant feirdion Derwydon dor
O bedeiriaith dyfyn o bedeir or;"

fel cyfieithiad o'r hyn y defnyddia Mr. Stephens waith y Celtig Davies:—

"Gwneir beirdd yn ynadon o ardderchogrwydd.
Beirdd a'th folant di, sef Derwyddon cylch
Pedeiriaith, o bedair ardal."

Yr ydys yn gwybod beth oedd y *pedeiriaith* hyn oddi wrth "Hanes Taliesin," a ddywed fod y beirdd yn ddysgedig mewn pedair iaith; sef Lladin, Ffrancaeg, Cymraeg, a Seisoneg—yn y rhai yr oeddynt i fod yn barod i ateb holiadau a roddid iddynt. Ond nid *cylch* ydyw ystyr *dor;* ond *drws*, *porth*, a gall arwyddo *amddiffyn:* ac wrth ddefnyddio yr ymadrodd, "Derwyddon cylch," dygodd Davies ystyr i mewn nad yw yn perthyn i'r ystyr yn y pennill, ac y mae yn cynnwys naws gyfriniol, a chyfeiriad at y *corau* nodedig a'r *maengylchoedd*. Yr hyn a ddywedai y bardd wrth ei benaeth oedd:—

"Beirdd a'th folant di, amddiffynydd y doethion
O bedair iaith."

Camddeallodd Mr. Stephens ddyfyniad arall lle y mae y gair *Deruyddon*. Dyfyniad ydyw o bennillion a gyflwynodd Cynddelw i Madog ab Meredydd:—

"Nis gwyr namyn Duw a dewinion byd
A diwyd Derwydon
O eurdorf eurdorchigion
Ein rif yn riweirth afon;"

o'r hwn hefyd y cymmer Mr. Stephens gyfieithiad Davies:—

"Oddigerth Duw a dewiniaid y tir,
A diwyd Dderwyddon
O'r hil ysblenydd, gwroniaid yr eurdorchau, nid oes neb a wyr
Ein rhif yn nhônau yr afon."

Gwneir i Cynddelw gyfeirio yma at rif y Derwyddon: ond os tröir i'r gân wreiddiol, canfyddir mai un pennill o ddeunaw ydyw hwn, a bod y pum pennill blaenorol yn cyfeirio at rif gosgordd Madog ab Meredydd. Y pennill sydd o flaen yr uchod, ac yn nesaf ato, yw hwn:—

"Ym maes mathrafal mathredig tyweirch
Gan draed meirch mawrydig;
Ar dadl cynadl ced fudig
Arwyd iawn wladlwyd wledig."

Hyny yw:—

"Ym maes Mathrafal mathrwyd tyweirch
Gan draed meirch mawryddig;
Y mae efe yn hael ei roddion i'r rhai a ymddyddanant âg ef,
Arwydd iawn o dywysog gwladgarol."

Cyfeiria y rhif y llefarir am dano yn y pennill dilynol yn amlwg at osgordd Madog, ac nid at ei Dderwyddon:—

"Nid yw hysbys, ond i Dduw a dewiniaid byd
A diwyd ddoethion
Y dorf euraidd, sydd yn gwisgo eurdorchau,
Ein rhif yr hwn sy fel tônau yr afon:"

lle y cyfeiria y geiriau *eurdorf* ac *eurdorchogion* yn amlwg at y gwroniaid, ac nid at Dderwyddon neu ddewiniaid.

Gan hyny, pan gyfarfyddir â'r gair *Derwyddon* yn nghaniadau beirdd adnabyddus y ddeuddegfed, y drydedd ar ddeg, a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn cael ei gyfeirio at bersonau adnabyddus, dylid rhoddi cymmaint o barch iddynt a meddwl nad *Druidæ*, yn ol ystyr Julius Cæsar a Pliny, a olygent, eithr yn unig athronyddion neu ddoethion; neu, efallai, dim ond dewiniaid, sef personau y tybid eu bod wedi eu cynnysgaethu â galluoedd neu ddoethineb oruchnaturiol, fel Myrddin, yr hen Robyn Ddu, neu Dic Ysbot—y rhai oedd yn britho pob ardal yn yr hen amseroedd. Mewn gwirionedd, pan archwilir cyddestyn yr ymadroddion a ddyfynir i brofi Derwyddon a Derwyddiaeth y drydedd ganrif ar ddeg a'r canrifoedd dilynol, yn nghyd â hanes personol y rhai y perthynant iddynt, y mae yr holl gyfrin yn diflanu yn y fan.

Fel hyn, mewn cân a gyflwyna Cynddelw i Owain Cyfeiliog, tywysog Powys, yn y ddeuddegfed ganrif, rhydd Davies y dyfyniad canlynol, yn yr hwn, ebe fe, "y rhydd y bardd i ni gipdrem nodedig o ddawns gyfriniol y Derwyddon:"—

"Drud awyrdwyth amnwyth amniver
Drudyon a veirtyon
A vawl neb dragon."

Yr hwn a gyfieitha efe fel hyn:—

"Gan ymsymmud yn chwyrn yn rhawd yr wybr, mewn cylchau, o nifer anghydrif, yr ymuna Derwyddon a Beirdd i fawrygu yr arweinydd."

Y mae hwn yn un o'r ymadroddion a ddyfyna Mr. Davies fel un sydd yn profi yn ddigonol, "nid yn unig fod proffeswyr addefedig o Dderwyddiaeth yn Ngwynedd a Phowys yn y ddeuddegfed ganrif, a'u bod yn dilyn yr un athrawiaeth gyfriniol ag a briodolir i Taliesin, fel safon eu cyfundrefn, ond hefyd bod eu proffes yn cael ei goddef, a hyd yn oed ei nodi gan dywysogion y taleithiau hyny." Ond yn ffodus i synwyr cyffredin, ac i gymmeriad Gerallt o Gymru (*Geraldus Cambrensis*), yr hwn a ddarlunia Owain Cyfeiliog fel tywysog nodedig am ei gyfiawnder, ei ddoethineb, a'i gymmedroldeb tywysogaidd, "gŵr o ymadrodd hyawdl, hynod am drefn dda ei diriogaethau," esampl ydyw hon o oddefiad y tywysog i Dderwyddiaeth a lwyr gamddeallwyd ac a gamgyfieithwyd gan Davies, yr hwn a adawodd allan y llinell derfynol o'r ymadrodd,

"Namwyn dreic ae dirper,"

heb yr hon nid oes i'r llinellau ereill gyssylltiad. Ystyr y llinellau yw hyn:—

Dewr ei dueddiad, afrifed ei ddigrifwch,
Dewrion a beirdd
Ni folant bendefig
Ond pendefigion a'i haeddo.

Nid oes yma ddim son am Dderwydd o gwbl, ac y mae hon yn anghraifft bur deg o'r dull cyffredin o ddyfynu cymmaint yn unig o'r ymadroddion hyn a'u cyffelyb ag a wasanaethant amcan penodol, ac o'u gŵyrdroi i ateb y cyfryw amcan trwy eu camegluro. Dylid sylwi yma mai ystyr y gair *Drudyon*—drudion, ydyw *dewrion*, *gwroniaid*, ac nid Derwyddon=*Druids*. Ceir y gair *drud* ddeuddeg gwaith yn y pymtheg llinell dilynol, o'r rhai y mae y dyfyniad uchod yn rhan, ac arwydda yr un peth bob tro.

Y mae esampl dra digrifol o'r dull hwn o ymdrin â delweddau prydyddol i'w chael yn nghyfieithiad Davies o ymadrodd arall sydd yn yr un gân o eiddo Cynddelw, lle y mae y bardd yn darfoli ei arwr mewn nifer o gyffelybiaethau awenyddol:—

"Yn rith rynn ysgwyd
Rac ysgwnn blymnhwyd
Ar ysgwyt yn arwein
Yn rith llew rac llyw goradein
Yn rith llauyn anwar llachar llein
Yn rith cletyf claer clod ysgein yn aer
Yn aroloct kyngrein

Digitized by Google

Yn rith dreic rac dragon prydein
Yn rith bleit blaengor vu yuein."

Cyfieithiad Davies o'r llinellau hyn sydd fel y canlyn:—

"Yn rhith (ffurf) tarian grynedig, o flaen terfysg ymchwyddol, yn cael ei dwyn yn uchel ar ysgwydd y blaenor—yn rhith llew, o flaen y penaeth â'r adenydd cryfion—yn rhith gwaewffon echrydus, yn meddu llafn ddysgleiriol—yn rhith cleddyf gloew, yn gwasgar clod yn y gâd, ac yn gorthrechu y rhengau cydwastad—yn rhith draig, o flaen penadur Prydain, ac yn rhith blaidd eofn, yr ymddangosodd Owain."

"Yma," meddai Davies, "ceir y bardd yn dynwared yr athrawiaeth Dderwyddol, neu ymadroddion cyfriniol Taliesin, ac yn darlunio ei arwr fel wedi gwneyd treigliad nid anenwog yn nghylch y trawsfudiad" (Cylch yr Abred).

Wrth ystyried y bardd, y person y cyfeirir ato, ac amser y cyfansoddiad, prin y buasai yn angenrheidiol gwrthbrofi ynfydrwydd mor wrthun, oddigerth fod yr un camsyniad rhyfedd o ystyr y caniadau hyn o waith y beirdd Cymreig yn ffynu hyd yn oed y dydd heddyw. Yr ydys yn canfod yn amlwg yn y delweddau hyn, nid yn unig nad oes ynddynt ddim ond chwareuad awen, ond hefyd fod yma ddau amgylchiad a ddylasent agor llygaid hyd yn oed y Celtig Davies ei hunan i weled gwir natur yr ymadrodd. Yr oedd Owain Cyfeiliog yn rhyfela yn erbyn Harri II, a'r penadur hwnw oedd "Dragon Prydain," a grybwyllir yn y llinellau uchod. Prin y dadleuasai hyd yn oed Mr. Davies fod y tywysog Cymraeg hwnw wedi cyrhaedd y fath bwynt yn nghylch y trawsfudiad, fel ag i wir ymddangos yn ddraig sylweddol o flaen Harri II. Buasai pob ammheuaeth a allesid deimlo ar y pwnc yn diflanu trwy ddarllen y gweddill o'r gân. Ychydig linellau yn mlaen, sieryd y bardd am ei noddwr fel

"Gelyn traws ryvel dros ruvein yd wys
Tros y llys yn llundein."

Hyny yw,

Gelyn ffyrnig yn erbyn gwŷr Rhufain,
Yn erbyn y llys yn Llundain.

Cyfeiria hyn at yr amgylchiad o ddadl Owain Cyfeiliog â Baldwin, archesgob Caergaint, gan yr hwn, pan yn pregethu Rhyfeloedd y Groes yn Nghymru, y gwysiwyd ef i gyfarfod o'r tywysogion a gwŷr llên; yr hyn a wrthododd yntau, gan fod awdurdod esgobaeth Caergaint dros esgobaethau Cymru wedi bod bob amser yn bwnc o ddadl. Y mae ymsuddo oddi wrth y fath bwnc i ddyfnderoedd Cylch yr Abred, yn ystod pedair llinell, yn rhy ddisyfyd, ond odid, gan y credinwyr mwyaf hygoel yn Nerwyddiaeth y ddeuddegfed ganrif.

Gallasai Davies a'i ddysgyblion gofio fod Gerallt o Gymru yn gydoesydd âg Owain Cyfeiliog. Yr oedd yn archddeon Brycheiniog; ac yn 1176, etholwyd ef yn esgob Tŷ Ddewi, er na chadarnhawyd ef yn ei swydd. Yr oedd efe yn genadwr yn Nghymru i archesgob Caergaint, ac yr oedd yn bur selog a gweithgar er diwygio yr eglwys oddi wrth ei llygredigaethau. A ellir tybio am foment y buasai y fath ddyn yn anwybodus o hanfod ofergoelion Derwyddol a Hu-addoliad a addefasid yn gyhoeddus yn Nghymru yn ei amser; neu, pe yn adnabyddus o honynt, y buasai yn eu gadael yn gwbl ddisylw yn mhob ystyr, trwy weithred gystal ag yn ei deithlyfr.

Byddai dwyn yr holl ymadroddion ger bron o'r caniadau hyn, a gamgyfieithwyd ac a gamddefnyddiwyd gan Davies, ac ereill, fel profion o hanfod Derwyddon a Derwyddiaeth yn y ddeuddegfed ganrif, a'r canrifoedd dilynol, yn orchwyl diddiwedd. Hyderir y dywedwyd digon i ddangos mai yn y cyfieithiadau a'r esboniadau yn unig o'r caniadau hyn, fel caniadau y "Cynfeirdd," y mae holl Dderwyddon a Derwyddiaeth y ddeuddegfed ganrif, &c., ac nid yn y caniadau eu hunain. Ymddengys mai cynllun yr ysgrifenwyr hyn, Davies, &c., oedd cymmeryd pob gair o'r hen ganiadau yn ei ystyr llythyrenol cyfyngaf, heb ganiatau dim rhyddid i ddychymyg ac awen yr hen feirdd Cymreig i arfer ffugrau a throellau ymadrodd; a phan y cyfarfyddent eiriau ac ymadroddion nas gallent eu deall, ni phetrusent roddi iddynt ystyr o'u dychymyg eu hunain, cytunol â'r pwnc a fyddai ganddynt mewn llaw.

Gair eto ar y chwedlau Cymreig, a elwir y "Mabinogion," ac yna gorphenir gyda golwg ar yr ysgrifeniadau Cymreig yn nglŷn â Derwyddon a Derwyddiaeth. Nid hawdd ydyw penderfynu amseriad y chwedlau hyn, fel y sylwa Mr. Stephens; ond y mae yn sicr fod amryw o honynt cyn hyned a'r ddeuddegfed ganrif; ac y mae yn debyg fod sylwedd llawer o honynt ar gof y cler a'r "ystoriawr" er ys hir amser cyn hyny. Pa fodd bynag, gellir sicrhau yn ddibetrus fod y Derwydd yn fod cwbl anadnabyddus i'r rhamantau Cymreig; ac yn yr amser y cyfansoddwyd y "Mabinogion" a'r cerddi Taliesinaidd, nad oedd dim cof traddodiadol neu boblogaidd am y Derwyddon a'r chwedlau Derwyddol mewn bod yn Nghymru. Yn y chwedlau Mabinogaidd sydd o wir darddiad Cymreig (nid y rhamantau Arthuraidd Llydawaeg), er eu bod yn llawn o swyngyfaredd a dewiniaeth, eto, nid yw y gair *Derwydd* i'w gael ynddynt o gwbl. Yn y gwrthwyneb; yn y chwedlau Gwyddelig, y mae y dewin dan yr enw *draoi*, *druidh*=dewin neu dderwydd; *draioideacht*, *druidheact* = dewiniaeth, yn chwareu rhan bur bwysig. Ond y mae y rhan hon yn dra gwahanol i'r un a rydd Iolo Morganwg a'i ddysgyblion i'w Derwyddon hwy. Y mae Derwyddon y gwyr hyn wedi eu hadferyd, gydag addurniadau dychymygol, trwy gymhorth y crybwylliadau drylliog a adawyd gan ysgrifenwyr Groeg a Rhufain; tra y mae Derwyddon y Gwyddelod yn ymddangos yn eu gwir gymmeriad fel hudolion a daroganwyr. Yn yr argraffiad Gwyddelig o Nennius, gelwir dewiniaid Gwrtheyrn (Vortigern) yn Dderwyddon, "*draidhe*," "*druidhe*;" yn yr ysgrif Ladin, "*Magi*;" yn y cyfieithiad Cymraeg o Sieffre o Fynwy, y gair a ddefnyddir ydyw "dewinion," yr hwn sydd yn gyfieithiad digon cywir o *Magi;* ond yn Mrut Tysilio, ceir yr enw diamwys—y "daydec Prifard"—y deuddeg prifardd, yr un dosbarth ag yr ymrysonai Taliesin y chwedl â hwy yn llys Maelgwn. Pe buasai anrhydedd y Derwyddon am ddoethineb y fath yn Nghymru yn y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg ag y tybiai Davies a'i ddysgyblion ei bod, diau y canfyddasid rhyw grybwylliad am danynt naill ai yn hanes, neu ramantau, neu lenoriaeth yr oes. Ond heb law yr ychydig esamplau sydd yn y caniadau Taliesinaidd, lle y ceir y gair "Derwyddon" yn arwyddo doethion, athronwyr, neu ddewinion, heb ddim cyssylltiad angenrheidiol rhyngddynt â'r gwir Dderwyddon, nid ydys yn clywed dim son am danynt. Yr oedd y "sywedydd," neu y serddewin, yn gymmeriad llawer mwy pwysig.

Cymmerir yn ganiataol yn gyffredin fod y gair *Derwydd* yn dal cyssylltiad â *dar* a *derw*. Tybia yr archddiacon Williams fod y gair *dar*-

Digitized by Google

*ogan* yn dyfod o'r un gwreiddyn. Ond arddodiad mwyhaol, a ddefnyddir yn gyffredin, ydyw *dar;* ac felly yr ystyria y Dr. Pughe ef yn y gair *darogan*. Tybir fod genym wreiddyn tebycach o lawer i *Derwydd* yn y gair *der*, *deru*, sef ellyll, ysbryd drwg, diafl; yna, arwyddai *Derwydd* un yn meddu ysbryd dewiniaeth, swynwr, neu ddewin. Ac yr ydys wedi dangos eisoes mai yn yr ystyr yma y defnyddid y gair *Derwydd* pan y dygwyddai gael ei ddefnyddio yn nghaniadau y gogynfeirdd, gystal a'r rhai a briodolir i'r cynfeirdd, y rhai nid ydynt yn defnyddio y gair ar un amgylchiad, yn yr ystyr a rydd y clasuron (*classics*) i'r gair *Druidæ*. Ond yn ystori Lludd a Llefelys, yr unig ystori o'r "Mabinogion" yn yr hon y dygir dewin neu ddrwg ysbryd i mewn yn bendant, yn wahanol i'r hudol, gelwir ef "gwr lleturithiawc" (gŵr lledrithiog), gŵr yn gallu ymeangu neu newid ei ffurf.

Hefyd, yr ydys yn cael *gwybion*=gwybeddion (galwai Balaam ei hun "gwybedydd;" *Num.* xxiv. 16), hefyd *gwidon* (gwiddon, neu gwyddon) "gwiddan," gwyddan, gwrach, efallai o'r gwreiddyn *gwid* neu *chwid*, chwyrndroad neu chwyldroad, neu fel y tybia y Dr. Pughe, o *gwidd*, sych, crebach, gwrach (*a hag*).

Pwy bynag a ddichon fod yn awdwyr y coflon o'r rhai y tynodd Sieffre o Fynwy ei *Frut* (ac y mae yn amlwg eu bod wedi tarddu o ffynnonellau Prydeinig, hyd yn oed os daethant drwy ffrydle Lydawaidd), ni wyddent hwy ddim, o leiaf ni fynegasant ddim, am Dderwyddon nac addoliad Derwyddol yn Mrydain. Yn yr ymadrodd sydd yn mynegu am "y wledd fawr" a wnaeth Caswallawn, ar ol cael y fuddugoliaeth ar "Ilcasar" (Julius Cæsar), pan y cynnullodd efe ei gydfarchogion a'u gwragedd i Lundain "i anrhydeddu eu duwiau," yn yr hon wledd yr offrymwyd, medd y chwedl, 40,000 o wartheg, 100,000 o ddefaid, a 30,000 o anifeiliaid gwylltion, heb law ednod yn afrifed, nid ydys yn clywed un gair am yr ardderchog Dderwyddon. Yn amser Lleurwg, y dychwelwr cyntaf at Gristionogaeth, yr unig rai y gwyddai Sieffre o Fynwy am danynt fel offeiriaid yr eilunaddolwyr oedd Fflaminiaid ac Archfflaminiaid; ac nid oedd ganddo ef na chasglwr *Brut Tysilio* (os oedd y ddau yn wahanol) ddim i'w ddywedyd am y Derwyddon—rhagorfreintiau y rhai, yn ol Iolo Morganwg a'i gyd-ddychymygwyr, a drosglwyddwyd i'r Eglwys Gristionogol! Yr oedd Mr. Herbert, wrth gael ei daraw gan y dystawrwydd hwn o eiddo y brutiwr ar bwnc mawr Derwyddiaeth, yn meddwl fod cynllun rheolaidd yn bod i gelu y gwirionedd; ond y casgliad cywir ac amlwg ydyw, na ddarfu i'r Derwyddon, ar ol cael eu dileu gan Paulinus yn B. A. 58, fel y crybwyllwyd eisoes, ddim ymadnewyddu yn y ddegfed ganrif; ac nad oedd y pryd hyny, mewn gwirionedd, ddim coffadwriaeth o fath yn y byd am danynt yn mysg y genedl.

Y mae yn hawdd canfod yn yr hen chwedlau Cymreig, pe heb un dystiolaeth arall, fod cred yr hen Gymry bron yn ddiderfyn o eang mewn dewiniaid, gwiddanod, tylwyth teg, ac ymrithiadau ellyllon o bob math. Canfyddir yn mhellach, fod y traddodiadau a'n cyrhaeddasant ni o amseroedd pell am y pethau hyn yn byw fyth yn ngenau y werin, ac y gwelir olion eu hanfod hyd y dydd hwn mewn enwau lleoedd, creigiau, meini, ffynnonau, mynyddoedd, nentydd, a'r cyffelyb. Y mae yn rhesymol i ni ddysgwyl, gan hyny, pe buasai cof am y Derwyddon a'u defodau cyfriniol, eu maengylchoedd, eu halloriau, a'u llysoedd barn, yn bod mewn traddodiadau poblogaidd o'r chweched ganrif, y rhaid y canfyddasid hwy yn awr, rhag mor anfarwol ydyw nodwedd cyssylltiad y fath bethau â gwrthddrychau naturiol neu gelfyddydol. Pa fodd bynag, nid ydys yn coflo am gymmaint ag un esampl, trwy Gymru benbaladr, yn yr hon y mae enw'r Derwydd wedi ei gyssylltu â'r fath wrthddrychau.[1]

Rhanwyd Cymru yn 208 o gantrefi a chymmydau gan Iorwerth I., yn y drydedd ganrif ar ddeg; ond er bod i amryw o honynt enwau yn arwyddo dygwyddiadau a gwrthddrychau naturiol, ac enwau dynion, nid oes dim un wedi ei alw ar unrhyw sefydliad Derwyddol, na gwrthddrych Derwyddol.

Hefyd, mae o gylch 800 o enwau Cymreig ar ddail, llysiau, a phlanigion, yn y gwahanol restri a gasglwyd gan y Dr. Davies, Richards, H. Davies, &c.; ond nid oes un o honynt yn dwyn enw y Derwydd, er y ceir "Bysedd Ellyllon," "Bwyd Ellyllon," "Mantell y Cor," "Blodau Taliesin," "Chwys Arthur," "Llaeth y Cythraul," &c., yn britho yr holl restri. Nid yw yr enwau Cymreig ar yr uchelwydd (*mistletoe*), na llysiau yr hudol (*vervain*) chwaith, yn dwyn dim cyssylltiad â'r Derwydd.

Eto, nid oes dim un crybwylliad yn yr hen ganiadau Cymreig am arwydd nodedig arall y dywedir ei fod yn perthyn i Dderwyddiaeth, sef "Glain," neu "Glain Nedr" (*Ovum Onguinum*), yr hwn, yn ol yr hanes a rydd Pliny, a gynnyrchid gan nadroedd. Mae yn wir fod y fath chwedl yn adnabyddus yn Gâl; ond nid oes un cyfeiriad at y fath ofergoeledd yn y caniadau Cymreig, os bu erioed yn Mhrydain. Meddyliodd Mr. Herbert fod cyfeiriad at y "Glain" mewn dernyn perthynol i "Waith Cattraeth," sydd wedi ei gymmysgu â "Duhuddiant Elphin;" ond os chwilir y pwnc yn briodol, canfyddir yn amlwg mai yn ei gyfleithiad ef y mae'r "Glain," ac nid yn y llinellau gwreiddiol. Dysgrifiad ydyw y rhai hyny o ryfelwr—nid o Dderwydd—a chymhwysir y "lluch nadredd" at ben dysglaer gwaewffon penadur, ac nid at hudeilur swyngyfareddwr. Nid oes gan hyny un cyfeiriad yn yr hen gyfansoddiadau Cymreig at un o arwyddion nodedig yr offeiriadaeth Dderwyddol, na'r dystiolaeth wanaf o blaid y chwedlau a gyhoeddir am nodwedd, sefydliadau, defodau, ac arferion y lwysbendodaeth hynod hono.

Yn y *Liber Landavensis*, rhoddir dysgrifiad am luaws o derfynau tiroedd a roddwyd i eglwys Llandaf gan wahanol bersonau, o'r chweched hyd y ddeuddegfed ganrif, lle y crybwyllir am amryw wrthddrychau naturiol a chelfyddydol —coed, meini, carneddau, crugiau, ffosydd, &c.—wrth eu henwau dynodol; ond nid oes yn yr holl lyfr ddim ond un enw yn unig y gallai hyd yn oed y Celtig Davies neu Iolo Morganwg weled Derwyddon ynddo, sef *guern itrition* = Gwern y Druidion; ond er anffawd i goleddwyr Derwyddon dychymygol Cymru, y mae gwahaniaeth pwysig rhwng ffurf (*drition*) neu Druidion a "Derwyddon," yn enwedig os llusgir *gwydd*=gwybodaeth,

[1]. Ar ol ysgrifenu hyn, dywedodd cyfaill wrthym fod lle yn Eifionydd, rhwng Llanllyfni a Thre Madog, a elwir "Bwlch Derwydd." Fe ddichon fod rhai pethau a lleoedd dinôd ereill mewn gwahanol ardaloedd yn dwyn yr enw; ond nid oes son am danynt mewn llyfrau, hyd y canfyddasom ni. Mae y Dr. Jones, yn ei Hanes Cymru, yn nodi 21 o feini hirion, maengylchoedd, a chreigiau; ond nid yw'r Derwydd yn cael ei grybwyll yn nglŷn âg un o honynt.

Digitized by Google

i gyfansoddiad "Derwydd;" heb law mai ystyr Druidion, fel y sylwyd eisoes, ydyw *gwroniaid* neu *arwyr*. "Gwern" ydyw *coed* o'r enw, neu *gors*: gan hyny, *Gwern* neu *Gors y Gwroniaid* ydyw "*guern itrition*," ac nid Gwern neu Gors y Derwyddon; ac nid oedd dim neillduol, hyd y gwyddys, a fynai y Derwyddon á *gwern* na chorsydd.

Bernir hefyd yn gyffredin am Geryg y Druidion, yn sir Ddinbych, fod y lle wedi ei alw yn ddiau ar enw y Derwyddon; ond gwelir yn amlwg bellach mai ystyr yr enw yw Ceryg y Gwroniaid, ac nid Ceryg y Derwyddon.

Tre y Dryw, yn Mon, hefyd, sydd le yr haera ein haneswyr Derwyddol ei fod gynt yn llawn o Dderwyddon: pa fodd bynag, nid yw yr enw yn arwyddo hyny; canys *dryw*, medd y Dr. Davies, ydyw "*trochilus, reguliolus*—sywidw, rhyw ddwfraderyn hoff gan y crocodil; tinsigl y gwrych; cyffylog y môr." Yn lle bod yn llawn *Derwyddon*, gan hyny, arwydda yr enw Tre 'r Dryw mai lle llawn o *adar* ydoedd.

Gwelir yn amlwg bellach, fel yr hyderir, mai ofer ydyw ymgynghori â dim Cymraeg am wir eglurhad ar hen Dderwyddon cyntefig Ynys Prydain—nad oes dim i'w gael, nac yn ein hen ysgrifeniadau prydyddol na rhyddieithol, nac yn hen enwau unrhyw wrthddrychau naturiol na chelfyddydol sydd yn ein gwlad, megys enwau lleoedd, adeiladau, terfynau, a llysiau; ïe, a bod hyd yn oed yr *enw* a roddid iddynt gan ein hynafiaid cynhanesol (y trigolion oedd yma pan ddaeth Julius Cæsar i'r ynys), o ran dim sicrrwydd sydd genym i'r gwrthwyneb, wedi colli; gan mai ystyr y gair *Derwydd* yn ein holl hen ysgrifeniadau, fel y sylwyd eisoes, ydyw dewin, swyngyfareddwr, hudol, chwidw, athronydd, gŵr doeth, gŵr lledrithiog, &c.

Gan fod y pethau hyn felly, nid oes dim i'w wneyd ond boddloni ar yr ychydig hanes am yr hen Dderwyddon, fel yr ydys yn eu galw, a geir mewn ysgrifenwyr estronol, y rhai y mae eu hanfod a'u hamseriad yn ddiammheuol.

O'r holl ysgrifenwyr hyn, Julius Cæsar a ysgrifenodd helaethaf a manylaf. Nid ydyw yntau ond byr iawn; ac y mae yn ymgyfyngu yn hollol, fel yr holl ysgrifenwyr clasurol (*classical writers*), at Dderwyddon Gâl (Ffrainc), heb grybwyll rhai Prydain ond yn achlysurol yn unig. Dichon i hyn ddygwydd o blegid dau beth; sef tebygolrwydd crefydd y ddwy wlad i'w gilydd, a hefyd diffyg cyfleusdra Cæsar i fanylu ar neillduolion crefydd Prydain, os oedd ynddi ryw neillduolion gwahanol i grefydd Gâl; canys ni bu efe yn yr ynys hon ond o gylch tair wythnos y tro cyntaf, 55 C.C., a phedwar mis yn y flwyddyn ganlynol; ac yr oedd ar lawn waith y ddau dro yn ymladd â'r trigolion. Pa fodd bynag, dywed y tybid mai yn Mhrydain y cafodd y sefydliad ei ddyfeisio, ac iddo gael ei idwyn oddi yno i Gâl; a bod y rhai a fynent wybodaeth fanwl o'r gyfundrefn yn ei amser ef, yn myned o Gâl i Brydain i fyfyrio. Y mae hyn yn arwyddo yn gryf fod sefydliad crefyddol y ddwy wlad yr un yn hollol o ran sylwedd: â hyn y cytuna tystiolaeth Tacitus, yr hwn a ddywed yn bendant fod yr un defodau ac ofergoelion i'w gweled yn mysg y Brutaniaid a'r Galiaid. Gallesid dysgwyl hyn yn naturiol; canys y mae y sicrwydd mwyaf mai yr un genedl oedd trigolion y ddwy wlad yn ddechreuol, ac mai o Gâl y daethant drosodd i Brydain; ac y mae yn amlwg wrth Cæsar, Tacitus, ac ereill o'r uchawduron (*classics*), eu bod yn deall iaith eu gilydd pan oedd y gwŷr hyny yn ysgrifenu; am hyny, ymddengys i ni fod darluniad o Dderwyddon y naill wlad, o ran sylwedd, yn ddarluniad o Dderwyddon y llall hefyd.

Y nesaf i Cæsar o ran pwysigrwydd a helaethder ydyw Pliny yr Hynaf, ysgrifenydd Rhufeinig manwl ar anianyddiaeth a daiaryddiaeth, yr hwn oedd yn byw yn nechreu y ganrif gyntaf.

Heb law y rhai hyn, ceir crybwylliadau yn achlysurol ar Dderwyddon Gâl yn Cicero, Strabo, Diodorus Siculus, Pomponius Mela, Suetonius, Tacitus. Plutarch, Diogenes Laertius, Ammianus Marcellinus, ac amryw ereill.

Am yr enw a roddai y Brutaniaid a'r Galiaid i'w hoffeiriaid yn eu hiaith eu hunain, yn amser Cæsar, a chyn hyny, y mae yn anmhosibl gwybod yn awr gyda sicrwydd, fel y sylwyd eisoes, pa beth ydoedd; ond pa fodd bynag am hyny, y mae dysgedigion yn cytuno fod yr enw Lladin a roddai Cæsar iddynt, sef *Druidæ*, yn tarddu o'r gwreiddyn Groeg δρῦς (*drus*) *derw*; er yr ymddengys i ni fod yn debycach mai o'r gair Celtig *derwydd*, yn ei hen ddull, *derwyd* (o *derw*, a'r hen derfyniad *yd*—*ydd*) y deillia y gair Lladin *druid*, yr hwn sydd bron yr un sain yn hollol. Ond pa un bynag ai Lladineiddiad o'r gair Celtig *derwyd* =derwydd, ydyw *druid*, ai Cymreigiad o'r gair Lladin *druid* ydyw *derwydd*, *Derwyddon* ydyw y gair sydd genym ni yn awr i ddynodi *Druidæ* gwirioneddol yr hen oesoedd gystal a Derwyddon dychymygol Iolo Morganwg a'i ddilynwyr.

Y mae yn hollol amlwg hefyd fod perthynas benodol rhwng yr hen Dderwyddon a derw, fel y dengys Pliny yn ddiammheuol yn yr ymadroddion canlynol:—

"Nid ydyw y Derwyddon=*Druidæ* (canys felly y maent yn galw eu dewiniaid, eu doethion, a'u hoffeiriaid), yn cyfrif dim yn y byd yn fwy cyssegredig na'r uchelwydd (*misletoe*), a'r pren ar yr hwn y tyf, os bydd yn dderw. Cymmerwch hyn wrth fyned heibio: y mae yr offeiriaid neu yr aberthwyr hyn yn gofalu am ddewis llwyni at eu gwasanaeth crefyddol a wneir i fyny yn unig o dderw; ïe, nid ydynt yn offrymu un aberth, nac yn cyflawnu un ddefod gyssegredig heb gangenau a dail y coed hyn. Felly y mae yn ymddangos yn eithaf rhesymol iddynt gael eu galw yn Groeg yn Δρυιδαι (*Druidai*)=Derwyddon. Ac yn wir, pa beth bynag a ganfyddant yn tyfu ar y pren hwnw, heb law y ffrwyth ei hun, y maent yn ei ystyried yn rhodd o'r nef, ac yn arwydd sicr fod y Duw a wasanaethant wedi dewis y pren penodol hwnw, ac nid rhyfedd, canys y mae yr uchelwydd yn anwywedig, ac yn anhawdd i'w gael ar dderw: ond pan y cyfarfyddant âg ef, y maent yn ei gasglu yn dra defosiynol, gyda llawer o seremoniau. Yn gyntaf, y maent yn gofalu yn benaf ar fod y lleuad yn union chwe diwrnod oed; canys ar y dydd hwnw y dechreuant hwy eu misoedd a'u blyneddoedd newyddion, ïe, a'u hamryw gyfnodau, y rhai sydd yn meddu amdreigliad o ddeng mlynedd ar ugain—o blegid y pryd hyny y tybiant fod y lleuad o nerth mawr a grym digonol, ac heb ddyfod i'w hanner goleuni neu derfyn ei chwarter cyntaf. Y maent yn ei alw (yr uchelwydd) yn eu hiaith hwy, 'holliach,' am y tybiant yr iachâ bob clefyd, o ba ryw bynag y bo. Yn awr, pan y byddant am ei gasglu, wedi iddynt barotoi eu haberthau a'u gwleddoedd yn briodol dan y pren dywededig, y maent yn dwyn dau eidion cyn wyned a'r llaeth yno, cyrn y rhai wedi hyny, ac nid cyn hyny, a rwymant i fyny. Wedi gwneuthur hyn, ac ar ol i'r offeiriad ddyfod yno mewn gwenwisg swyddol, y mae yn dringo y pren, ac yn tori yr uchelwydd â bwyellig aur, a hwythau oddi tanodd yn ei dderbyn i wisg wen. Yna ymosodant i ladd yr anifeiliaid crybwylledig, gan fyngial llawer o areithiau a gweddïau ar i Dduw weled yn

Digitized by Google

duol; ac y mae ganddynt amryw ddelwau o hono, a golygant ef fel dyfeisiwr yr holl gelfyddydau, ac ystyriant ef yn arweinydd yn eu teithiau a'u rhodiadau, a chredant fod ganddo ddylanwad mawr i ennill elw a llwyddiant masnachol. Yn nesaf ato ef y maent yn addoli Beli neu Belin,[7] a Mawrth, a Iau, a Gwener (*Minerva*). Maent yr un gred am y duwiau hyn, gan mwyaf, a chenedloedd ereill: credant mai Beli a'u ceidw rhag clefydau, mai Gwener a rydd ddychymyg yn y celfyddydau, mai Iau sydd yn meddu llywodraeth galluoedd y nefoedd, mai Mawrth sydd yn llywyddu rhyfeloedd. Pan y penderfynant fyned i frwydr, iddo ef yn gyffredin y maent yn diofrydu y pethau a gymmerant mewn rhyfel. Pan wedi gorchfygu, byddant yn aberthu yr anifeiliaid ysbeiliedig a ddiangant y gyflafan,[8] ac yn casglu pethau ereill i'r un man. Gellir gweled cludeiriau o'r pethau hyn mewn llawer talaeth wedi eu pentyru i fyny yn eu lleoedd cyssegredig; ac nid mynych y beiddia neb, gan ddiystyru cyssegredigrwydd yr amgylchiad, guddio dim o'r ysbail yn eu tai, na chymmeryd dim o'r pethau a fyddant wedi eu rhoddi o'r neilldu felly; ac y mae y gospedigaeth lymaf, ac arteithboen, wedi eu gosod am y fath weithred.

Haera yr holl Galiaid eu bod wedi deilliaw o'r duw Dis; a dywedant mai hyn oedd y traddodiad a gawsant gan y Derwyddon. O blegid hyn, y maent yn cyfrif rhaniadau pob tymmor, nid wrth nifer y dyddiau, ond y nosweithiau: cadwant ddyddiau genedigaeth, a dechreu misoedd a blyneddoedd, yn y fath fodd ag y dilyno y dydd y nos."—Llyfr. vi. 13, 14, 16—18.

Y mae Diodorus Siculus. cydoesydd â Cæsar, yn dangos fod doethion y Galiaid yn dair gradd, am y rhai yr ysgrifena efe fel hyn:—"Y mae gwneuthurwyr pennillion [prydyddion] yn mysg y Galiaid, y rhai a alwant yn Feirdd (Βαρδοὶ). Y mae y rhai hyn, y rhai sydd yn canu ar offerynau tebyg i delynau, yn moli rhai, ond yn goganu ereill. Hefyd, y mae yn eu plith fath ar athronyddion a duwinyddion mewn bri mawr, y rhai a alwant Derwyddon (Δρυίδαι). Y mae ganddynt hefyd Brophwydi (Μαντεῖς=swynwyr, dewiniaid), y rhai a barchant yn fawr." Dywed fod gan y rhai hyn oll y dylanwad mwyaf ar y genedl, "nid yn unig mewn heddwch," ebe fe, "ond hyd yn oed mewn rhyfel—y mae cyfeillion a gelynion yn ymostwng iddynt;" a hysbysa fod y rhai hyn yn fynych yn cyfryngu rhwng byddinoedd arfog pan ar ymosod mewn rhyfel, ac yn "dofi eu digofaint, fel y dofa dynion anifeiliaid gwylltion."

Yn fuan ar ol y gwŷr hyn, y mae Strabo, y daiaryddwr, oedd yn ei flodau o gylch 24 c.c., yn ysgrifenu am y tair gradd fel hyn:—"Yn mysg yr holl Galiaid, y mae tri dosbarth yn cael eu hanrhydeddu yn neillduol, y Beirdd (Βαρδοὶ), y Prophwydi (Οὐατεῖς, a gyfieithir yn gyffredin *Ofyddion*), a'r Derwyddon (Δρυίδαι). Cantorion a phrydyddion yw y Beirdd. Aberthwyr ac anianyddion ydyw y Prophwydi. Ond y mae y Derwyddon, heb law anianyddiaeth, yn ymarfer âg athroniaeth foesol." Yn lle y gair Μαντεῖς a ddefnyddiwyd gan Diodorus Siculus, y gair a ddefnyddia Strabo yw Οὐατεῖς; ac y mae y naill yn egluro y llall; a gellir bod yn sicr mai prophwydi, dewiniaid, neu swyngyfareddwyr a olygai yr uchawduron wrth y naill a'r llall. Am y gair Cymraeg *ofydd*, y mae yn sicr nad arwydda yr un peth, heb edrych arno fel Cymreigiad o'r Lladin *Euvates*, a hwn drachefn o'r Groeg Οὐατης.

Y mae Lucan, oedd yn ei flodau o gylch B. A. 60, yn crybwyll enwau y tair gradd wrth yr enwau *Bardi*, *Vates*, a *Druidæ*; ond nid yw yn egluro pa beth oedd swydd y *Vates*, neu y prophwydi, a elwir yn awr *ofyddion*; a thybia rhai mai yr un dosbarth a olyga wrth *Vates* a *Bardi*. Y mae ei gyfarchiad i'r Derwyddon (*Druidæ*) yn cadarnhau tystiolaeth Pliny a Cæsar am danynt. Dyma ystyr yr hyn a ysgrifenodd efe ar y pwnc:—

"A chwithau, feirdd, a elwir yn brophwydi (*vates*), a gedwch fywiog gof am y gwroniaid a syrthiasant mewn rhyfel, dros oesoedd hirion, trwy dywallt allan bennillion byrfyfyr yn afrifed. Y mae eich aberthau ysgeler, a'ch defodau barbaraidd chwithau, offeiriaid a Derwyddon goruchel, y rhai a roddir heibio mewn rhyfel, yn cael eu hadnewyddu. Chwychwi yn unig sydd yn adnabod, neu yn hytrach, chwychwi yn unig sydd heb adnabod y duwiau goruchaf a nefol. Yr ydych yn hoffi trigo yn mysg coed uchel a llwyni pellenig, ac yn dysgu nad yw eneidiau dynion, pan ymadawont o'u cyrff, yn myned i'r ddystaw uffern (*Erebus*=abred, y cysgodion) lle y mae llywodraeth Pluto (llywydd yr ardaloedd uffernol), i fysg ysbrydion gwelw a chethin; ond fod yr ysbryd fyth yn llywodraethu aelodau a chymmalau mewn byd arall: ac nad yw marwolaeth ddim mwy na phwynt canol rhwng y bywyd dyfodol a'r bywyd a derfynodd: gwych pe buasai eich egwyddorion wedi eu seilio ar wirionedd a gwybodaeth safadwy. Yn ddiau, y mae y Gogleddwyr hyn yn gwbl ddedwydd, y rhai sydd yn coleddu y fath fympwyon ofer, yn y rhai y maent yn ymlochesu. Nid yw ofn marw, yr hwn sydd yn ddychryn mwyaf ar ddynion, yn deintio unwaith i'w cylla hwy. Y mae hyn yn eu gwneyd mor benderfynol, mor hyf a gwrol, fel y rhedant i gyfarfod y bidog a'r cleddyf, gan mai trawsymfudo y maent hwy—nid marw; a llyfrder ydyw arbed y bywyd sydd i gael ei adferyd drachefn."

Tua thri chan mlynedd yn ddiweddarach, y mae Ammianus Marcellinus, yr hwn oedd yn ei flodau o gylch B. A. 360, yn nodi y tri dosbarth dan sylw fel y canlyn.—

"Yna cynnyddodd gwybodaeth o'r celfyddydau a'r gwybodau yn mysg y werin bobl [yn Gâl], a ddechreuwyd gan y Beirdd (*Bards*), y Prophwydi (*Euvates*), a'r Derwyddon (*Druids*). Y Beirdd a ganent gyfansoddiadau gwych ar eu telynau am weithredoedd nerthol eu gwroniaid: y Prophwydi a edrychent yn ddyfnach i natur, gan gynnyg canfod ei chyfrinion uchaf, a'i gweithrediadau mwyaf dirgelaidd; ac yn mysg y rhai hyn y mae y Derwyddon, yn ddynion mwy coethedig, ac yn honi ffurfio cymdeithas yn ol rheolau Pythagoras, yn cwbl ymroddi i fyfyrio pethau dwyfol a chuddiedig. gan ddiystyru pob mwyniant daiarol, a sicrhau yn hyderus fod eneidiau dynion yn anfarwol."

Ac fel hyn y terfyna pob tystiolaeth o bwys sydd ar gael, hyd y gwyddys, am yr hen Dderwyddon. Y mae yn amlwg fod y tair gradd, neu y tri dosbarth, dan sylw, mewn bod yn amser Cæsar, a chyn hyny, yn wir; canys y mae Poseidonius y Stoiciad, yr hwn a fu yn teithio yn Gâl o gylch 100 c.c., pan yn son am gyfoeth a haelioni tad Bituitus, y penaeth Arfernaidd, yn dyweyd fod "un o *Brydyddion* y barbariaid," ar ol derbyn rhodd hynod o haelionus, wedi canu

"Fod aur a bendithion i farwolion yn tarddu o frisg olwynion ei gerbyd."

Gellir casglu mai yr achos i Cæsar beidio gwneuthur sylw o'r gwahanol raddau neu y gwahanol ddosbarthiadau crybwylledig ydoedd,

Cæsar yn cymhwyso yr enwau oedd yn y chwedloniaeth Rufeinig at dduwiau y Galiaid, oedd yn cyfateb, yn ol ei dyb ef, i'w priodoliaethau cyffredinol."—*M'Devitte.*

7 "Dywed Ausonius mai yr un oedd Beli neu Belin y Galiaid ag Apollo y Rhufeiniaid."—*P. Roberts.*

8 "Sylwa Athenæus 'fod y Galiaid yn aberthu eu caethion rhyfel i'r duwiau.'"—*M'Devitte.*

Digitized by Google

o blegid nad edrychai ar y cantorion (*bardi*) a'r dewiniaid (*eubates, ovates*, neu *vates*) yn teilyngu y fath sylw ag a roddodd i'r offeiriaid, sef y Derwyddon (*Druidæ*); ac am hyny, iddo fyned heibio heb son am danynt.

Yr ydys wedi dyweyd eisoes mai darluniad o Dderwyddon Gâl yn unig a rydd yr uchawdur-on hyn; ond os na chaniateir yr hyn a awgrymwyd yn barod—fod perthynas genedlaethol trigolion y ddwy wlad â'u gilydd, a bod cyfathrach Derwyddon Gâl â Derwyddon Prydain, yn ol tystiolaeth Cæsar am danynt, yn sail i gredu fod darluniad o Dderwyddon y naill wlad, o ran sylwedd, yn ddarluniad o Dderwyddon y llall hefyd —rhaid i ni foddloni heb ddim darluniad awdurdodol o Dderwyddon Prydain. Yr *unig* grybwylliad awdurdodol am danynt ydyw yr hyn a welir uchod, mewn tair llinell neu bedair, yn ngwaith Cæsar, heb law yr hanes a rydd Tacitus am eu llwyr ddifrodiad yn Ynys Mon, yn B.A. 58, gan Suetonius Paulinus; a chan nad yw hanes y gyflafan erchyll hono am ddinystr terfynol doethion ein cyndadau ond ber, nis gall lai na bod yn wir ddyddorol i'r darllenydd. Wedi i'r cadflaenor medrus a rhyfelgar, Suetonius, gyrchu ei fyddinoedd tuag Ynys Mon ("ynys gadarn a noddfa ffoedigion"), efe a orchymynodd ffurfio badau â gwaelodau gwastad iddynt at gludo ei wŷr traed dros afon Menai, gan beri i'r marchwyr fyned drosodd naill ai trwy gael allan ryd, neu trwy nofio drosti.

"Yno," sef ar lan yr afon yn Mon, medd Tacitus, "safai tyrfa fawr o wŷr arfog ar y traeth, a benywod yn rhedeg yma a thraw yn eu plith, fel gwyllion, mewn galarwisgoedd, â'u gwallt yn daenedig, gan gario ffaglau o dân. Safai y Derwyddon (*Druidæ*) hefyd oddi amgylch â'u dwylaw yn ddyrchafedig tua'r nefoedd, gan dywallt gweddïau dygnol ac erchyll. Tarawyd y milwyr â syndod gan newydd-deb yr olygfa; a goddefent i'w cyrff aros yn ansygogol dan eu clwyfau, fel pe buasai eu haelodau wedi glynu. Yn mhen ychydig amser, trwy gael eu cynhyrfu gan eu blaenoriaid, a hwythau yn annog eu gilydd i beidio cymmeryd eu dychryn gan dorf fenywaidd felly, hwy a ddygasant eu baneran yn mlaen, ac a ddymchwelasant y rhai a safent ar eu ffordd, gan eu bwrw i'w tanau eu hunain. Gosodwyd llu gwarcheidiol ar y gorchfygedig, a thorwyd i lawr y llwyni oedd wedi eu cyssegru i'w coelgrefydd ffyrnig a chreulawn; canys cyfrifent fod yn addas poethoffrymu gwaed caethion ar eu hallorau; ac ymgynghorent â'r duwiau trwy gyssegr-chwilio ymysgaroedd dynion."

Gellir casglu oddi wrth weddi Buddug (*Boadicea*), cyn ymosod ar y Rhufeiniaid, a drosglwyddwyd i ni gan Siphilin (*Xiphilinos*), o'r ddeuddegfed ganrif, yn ei dalfyriad o Dion Cassius, o'r ail ganrif, fod y Brutaniaid yn addoli duwies a elwid yn Groeg *Andraste*:—"A Buddug, gan gyfodi ei dwylaw tua'r nef, a ddywedodd, 'Yr wyf yn diolch i ti, O *Andraste!* a galwaf arnat, tydi fenyw addfwyn, &c., tydi yr hon wyt yn Arglwyddes wastadol i ni.'"

Hefyd, dywed yr un ysgrifenydd, wrth ddarlunio y creulonderau a gyflawnodd y Brutaniaid dan Buddug ar drigolion yr ardaloedd oedd yn ddarostyngedig i'r Rhufeiniaid,—"A hyn oll a wnaethant yn ddirmygus," ebe fe, "ar y pryd yr oeddynt yn aberthu ac yn gwledda yn eu llwyni cyssegredig; yn enwedig yn yr eiddo *Andate*; canys felly y galwent *Buddugoliaeth*, a hono a addolent yn benaf."

Gellir casglu oddi wrth y dernynau byrion digyssylltiad hyn, fod Derwyddon Prydain yn cyflawnu eu defodau crefyddol mewn "llwyni cyssegredig," yn addoli gan dduwiau, ac yn "poethoffrymu gwaed caethion ar eu hallorau," megys y dengys Cæsar, Pliny, Lucan, &c., fod Derwyddon Gâl yn gwneuthur.

Pa fath oedd yr allorau a ddefnyddiai y Derwyddon yn eu "llwyni cyssegredig" sydd weithian yn gwbl anhysbys. Dychymyga rhai mai "gweddillion Derwyddol" ydyw y cromlechau, y maengylchoedd, y maenresi, y meini hirion, y cistfeini, y meini chwyf, y carneddau, y crugiau, &c., a welir ar hyd y wlad hon a Ffrainc, a gwledydd ereill; ond nis gellir penderfynu hyn ar unrhyw dystiolaeth safadwy.

Gan fod y darluniadau a roddwyd gan amryw awdwyr, ac a roddir eto yn fynych gan ereill, o'r Derwyddon, mor ddychymygol a disail, tybir y bydd yn hoff gan ein darllenwyr ymofyngar i ni fod mor helaeth a manwl ag y goddefa y defnyddiau a'n terfynau i ni fod. Yn awr, terfynir yr erthygl yn ngeiriau addfwyn y diragfarn wladgarol Garnhuanawc, yr hwn y ddywed:—

"Ar ol sylwi ar y cyfan o'r hyn a ellir ei gasglu yn mhlith y Beirdd Cymreig, a thraddodiadau Cymru, mewn perthynas i'r Derwyddon, a'r cyfan a ellir ei bigo allan trwy fanwl-chwilio awdwyr pellenig, a chymharu hyn oll â'r gweddillion maenol ac ereill ar glawr, o'r braidd y gellir dyweyd ein bod yn meddiannu mwy o wybodaeth am grefydd a defodau y Derwyddon nag am eiddo y cynddiluwiaid. A oeddynt, mewn chwerwder gelyniaeth, yn aberthu i gythreuliaid; ai a oeddynt, yn ol yr ychydig oleuni a feddiannent, yn cyfodi eu hallorau i'r Duw nid adwaenent, ac yn eeisio ymbalfalu am dano ef, nis gwyddom. O fethiant profion yn y pethau hyn, na fydded i ni ymsefydlu ein hunain yn farnwyr, rhag ofn derbyn camdystiolaeth. Digon i ni yr argyhoeddiad mai amseroedd anwybodaeth oedd y pryd hyny, ac mai o'r cenedloedd yr oedd ein rhieni ninnau megys ereill. Am hyny, ymgadwn ar y naill law rhag barnu yn ddiawdurdodol, ac ar y llall ymogelwn rhag dianrhydeddu rhagoroldeb yr efengyl, trwy dori i lawr y gwahanfur rhwng cyflwr cymmodol ac anghymmodol, a thrwy ddyrchafu rhinweddau anianol i gyfartalwch âg effeithiau gras.

"Eithr un peth sydd amlwg; gan ys beth oedd ansawdd eu daliadau crefyddol, yr oedd eu sefydliad, o ran ei berthynasau gwladwriaethol, mewn un peth, os gallwn farnu oddi wrth ei effeithiau, yn haeddiannol o glod a pharch. Yr oedd yn meithrin ac yn cynnal gwladgarwch i'r graddau godidocaf; o herwydd ni fu i neb rhyw bobl ymdrechu yn fwy dewr a gwrol yn erbyn gormesiad estronol na'r rhai hyny a gawsant eu dwyn i fyny dan y sefydliad Derwyddol."—(*Myv. Arch.; Lhwyd's Arch. Brit.; Cambr. Register; Owen's Cambr. Biog.; Powel's Hist.; Cambro-Briton; Davies' Celt. Res. & Myth.; Williams Enwog. Cymru; Rhæs. Ling. Cum. Inst.; Cymmrodorion Transact.; Iolo MSS.; Lib. Land., Greal Llund.; Williams' (Iolo) Poems; Hanes Cym. Carnh.; Rowl. Mon. Ant.; Angh. Lhwyd's Mona; Owen's Llyw. Hen.; Giles' Six Chron.; Jones' Rel. and Hist. Acc. of the Welsh Bards; Borlase's Ant. Corn.; Camden's Brit.; Toland's Druids; Jones' Hist.; Woodward's Hist.; Turner's Hist. and Def.; Coel. y Beirdd Ab Iolo; Stephen's Lit. Kym.; Guest's Mabin.; Yewell's Chron.; Welsh Sketches; Vallancey's Collect.; Zeuss, Gram. Celtica; Nash's Taliesin; Cambr. Journal; Cæsar, Pliny, Lucan, Diod. Sic.; Amm. Marcell.; Britannia Antiq., &c.*)

Digitized by Google

**Derwyddiaeth** ydyw yr enw a roddir ar sefydliad crefyddol y Cymry, am yr hwn sefydliad nid oes dim i'w ddyweyd nas canfyddir yn yr erthygl flaenorol am y Derwyddon.

**DESATIR**: casgliad a ddarganfyddwyd yn ddiweddar o un ar bymtheg o lyfrau cyssegredig, yn cynnwys pymtheg o hen brophwydoliaethau Persiaidd, yn nghyd â llyfr o waith Zoroaster. Dyma, o'r hyn lleiaf, ydyw proffes y casgliad ei hunan. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn iaith na leferir mo honi yn unman yn bresennol, ac y mae yn wahanol i'r Zend, y Pehlvi, a'r Bersiaeg ddiweddar. Gwnaeth y diweddaf o'r pymtheg prophwyd, Sasan, yr hwn oedd yn byw yn amser dymchweliad y Sasaniaid, pan y gorchfygwyd y wlad gan yr Arabiaid, gyfieithiad llythyrenol o'r *Desatir*, yn nghyd âg esboniad arno. Y llyfr hwn wedi hyny, hyd yr eilfed ganrif ar bymtheg, oedd un o brif adnoddau yr hen athrawiaethau crefyddol Persiaidd, yn gymmysgedig â serddewiniaeth a chythreuliaeth; ac ar ol bod mewn tir anghof am tua chant a hanner o flynyddoedd, a ddarganfyddwyd gan dân addolwr dysgedig yn Ispahan. Darbwyllwyd ei fab, Mollah Firuz, gan yr Iarlles Hastings, i gyhoeddi argraffiad o hono yn Bombay, yn 1820, at yr hwn y chwanegodd Erskine gyfieithiad Seisoneg. Y mae y cyfieithwr, pa fodd bynag, yn ystyried mai ffug ydyw y casgliad, ac y mae Sylvester de Sacy [*Journal des Savants*, Chwefror, 1821] yn credu mai gwaith tân-addolwr yn y bedwaredd flwyddyn o'r Ffoad ydyw y *Desatir;* yr hwn, fel y tybia ef, a ddyfeisiodd yr iaith yn yr hon y mae wedi ei ysgrifenu, er mwyn rhoddi gwedd hynafol ar y llyfr. Dywedir fod Joseph Von Hammer, ysgolhaig dwyreiniol arall tra enwog, pa fodd bynag, yn credu yn nidwylledd y *Desatir*. Bydded fel y byddo, gellir deall oddi wrth y gwaith hwn yn fanylach hen gyfundrefn grefyddol ddwyreiniol, yn yr hon y canfyddir, heb law y Pandemonium (prif lys y cythreuliaid) a thrawseneidiad, elfenau addoliad y ser, serddewiniaeth, dewiniaeth, athrawiaeth swyngyfareddion, yn gystal ag elfenau y grefydd Hindwaidd, yn neillduol y gyfundrefn o *castes*.—(*Buck's Theol. Dict.*)

**DESCARTES RENE**: ganwyd yr athronydd hwn yn La Haye, yn Touraine, Mawrth 31ain, 1596; a bu farw yn Stockholm, Chwefror 11eg, 1650, cyn bod yn llawn pedair blwydd ar ddeg a deugain oed.

Yr oedd Descartes o deulu urddasol: yr oedd ei dad yn aelod o senedd Rennes. Y mae efe yn un o'r enghreifftiau lluosog sydd ar gael o gyfansoddiadau gweiniaid wedi eu huno â meddyliau o'r gradd uchaf. Derbyniodd ei addysg foreuol yn mysg y Jesuitiaid; y rhai oeddynt, ychydig yn flaenorol, wedi sefydlu un o'u hathrofäau yn nghymmydogaeth preswylfod ei dad, yn La Flèche. Yn ystod yr amser y bu yn athrofa La Flèche, ffurfiodd gyfeillgarwch â Marsenne; yr hwn a barhaodd hyd farwolaeth y mynach enwog hwnw; ac y mae yn dra thebyg fod yr amgylchiad hwn wedi tueddu yn fawr at gryfhau ymlyniad Descartes wrth fesuroniaeth ac arddansoddiaeth. Nid oedd alsoddeg (*algebra*) yn cael ei hastudio y pryd yma ond gan ychydig, ac ni feddai ond ychydig allu ac eangder fel cynllun olrheiniad; tra y tueddai meintoniaeth (*geometry*), fel y meithrinid hi ar y pryd, yn ormodol at esodiadau anhawdd a chywrain, heb dalu sylw priodol i'r egwyddorion cyffredinol ar ba rai y dibynai eu dadansoddiad a'u cyfosodiad, neu i natur yr egwyddorion sylfaenol ar ba rai y mae ymresymiad meidrofyddol erbyn hyn wedi ei osod. Buasai newydd-deb cymhariaethol alsoddeg yn rhoddi swyn yn ei hastudiaeth i feddwl o ansawdd cyffelyb i feddwl Descartes; a buasai chwilio i mewn i'w hegwyddorion cyntaf, ac i weithrediadau y meddwl yn nadblygiad gweithredol gwirioneddau meintoniaeth, yn debycach o dynu ei sylw bywiog na chasgliad o ganlyniadau cywrain, ond angenrheidiol. Y mae yn hawdd dychymygu fod ei gwrs o astudiaeth yn yr athrofa yn lled annhrefnus, a'i fod yn ymddibynu mwy yn aml ar ei nerth meddyliol ei hun i fyned drwy ei wersi, nag ar ddarlithiau y proffeswr, neu y llyfrau a ddodid yn ei ddwylaw. Gwerthfawrogwyd y nodwedd hwn yn nghymmeriad Descartes gan ei gyfeillion a'i athrawon. Gwnaeth y penderfyniad i ymwrthod â phob llyfr, ac i ymdrechu dileu o'i feddwl y wybodaeth a ddysgasid iddo, fel ag i ddefnyddio y gallu a ennillasai drwy ddysgyblaeth yr athrofa i chwilio i mewn i egwyddorion sylfaenol gwybodaeth ddynol. Ac ystyried nad oedd Descartes y pryd hyn ond pedair blwydd ar bymtheg oed, y mae yr amgylchiad hwn yn un heb ei gyffelyb mewn hanesiaeth.

Ymattaliodd Descartes yn ddoeth rhag cyhoeddi ei olygiadau y pryd hyn; ond yn gysson âg arferiad yr oes yn mhlith dynion o'i sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol ef, ymgymmerodd â'r gelfyddyd filwrol. Gwasanaethodd yn gyntaf fel gwirfoddoliad yn myddin Holland, ac wedi hyny yn myddin y duc o Bavaria; ac yr oedd yn bresennol yn mrwydr Prague, yn y flwyddyn 1620, yn mha un y dangosodd wroldeb mawr. Nid oes un gelfyddyd mor anffafriol i'r wyddor ddansoddol a'r gelfyddyd filwrol; gan hyny, gadawodd Descartes hi cyn hir, ac aeth yn ol at ei hoff bynciau, at ba rai yr oedd ei feddwl mor gyfaddas. Ond hyd yn oed yn ystod yr amser y bu yn filwr, nid esgeulusodd ei ymchwiliadau mesuronol ac athronyddol. Credir mai yn ystod ei arosiad yn Breda y cyfansoddodd Descartes ei *Compendium Musicæ*, er nad argraffwyd ef hyd ar ol ei farwolaeth.

Dywedir mai y rheswm dros iddo adael y fyddin oedd y creulonderau a welsai yn cael eu cyflawnu yn Hungary: ond y mae yn fwy tebyg mai ei amcan oedd cael gweled y byd dan amgylchiadau gwahanol. Ymwelodd yn olynol â Holland, Ffrainc, Italy, a Switzerland, ac arosodd am beth amser yn Venice a Rhufain. Y mae ei waith yn peidio ymweled â Galileo tra yn Italy wedi peri syndod i laweroedd; ond dywedir mai y rheswm am hyny oedd eiddigedd o blegid enwogrwydd yr athronydd hwnw, ac y mae lle cryf i gredu fod gormod o wirionedd yn hyn. Dymuniad Descartes oedd cael teyrnasu ei hunan yn nghylch ei gymdeithion, ac yn y byd athronyddol hefyd.

Wedi gorphen ei deithiau, penderfynodd Descartes neillduo ei holl sylw at ymchwiliadau athronyddol a mesuronol; a'i uchelgais ydoedd adnewyddu holl gylch y gwyddorion. Gwerthodd gyfran o'i etifeddiaeth yn Ffrainc, ac ymneillduodd i Holland, lle y dychymygai y gallai gael mwy o hamdden i ddilyn ei dueddiadau. Arweinid ef, pa fodd bynag, i ddadleuon lawer gan ei ysgrifeniadau; ac o blegid bywiogrwydd a thrahausder ei feddwl, ymddygai weithiau yn ysgornllyd tuag at y dynion mwyaf yn mysg ei gydoeswyr.

Digitized by Google

**Yr** oedd enwogrwydd Descartes yn fawr hyd yn oed yn ystod ei fywyd: a hyny nid yn unig yn mysg dysgedigion, ond yn nghylchoedd uchaf cymdeithas yn mhob parth o Ewrop. Pan y cyfododd yr eglwys, gan hyny, yn erbyn heresi ei athroniaeth, ac y gwnaethpwyd yntau yn ddarostyngedig i erlidigaeth drom ac ychydig berygl, derbyniodd wahoddiad Christiana, breninea Sweden, yr hon a gynnygiodd noddfa ac amddiffyn iddo rhag gelyniaeth ddallbleidiol ei elynion. Ymddygodd y frenines tuag ato gyda'r parch mwyaf, a rhyddhawyd ef oddi wrth orfod cyflawnu y defodau arferedig a ofynid yn y dyddiau hyny gan freninoedd oddi wrth bawb a dderbynid i'w presennoldeb. Dewisodd y frenines pa fodd bynag, er mwyn bod yn wahanol i bawb ereill, y mae yn debyg, ddilyn ei hastudiaethau gyda Descartes am bump o'r gloch yn y boreu; a chan na byddai ei iechyd un amser yn dda iawn, dygwyd arno, drwy erwindeb yr hinsawdd, yn nghyd âg anmhrydlondeb yr awr, afiechyd yr ysgyfaint, o'r hwn y bu farw yn fuan, yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg a deugain o'i oedran. Chwennychai y frenines ei gladdu yn anrhydeddus yn Sweden, ond gwrthwynebwyd hyny gan y llysgenadwr Ffrengig; a chludwyd ei weddillion i'w claddu yn mysg ei gydwladwyr yn Paris. Ac fel hyn y bu farw un o ddynion mwyaf ei oes, yn aberth i fympwy ynfyd y frenines, dan nawdd yr hon yr ymlechai rhag erlidigaeth yr eglwys.

Y mae ei ysgrifeniadau—yn mhlith pa rai y mae Egwyddorion Athroniaeth, Myfyrdodau Arddansoddol, Traethawd ar y Nwydau, Traethawd ar Ddyn, a Thraethawd ar y Modd i ymofyn Gwirionedd yn y Gwyddorion—yn gwneyd naw o gyfrolau pedwar plyg —(*Penny Cycl.*; *Rel. Encycl.*)

DETHOL: dewis, neillduol. Gwel ETHOL.

DEUDDEG, [Gr. *δεκαδυο, δωδεκα*]: deg a dau. *Deuddeg* oedd nifer llwythau Israel: *Mat.* xix. 28; *Act.* xxvi. 7. *Deuddeg* oedd nifer apostolion Crist, y rhai a osodir allan, yn *Dad.* xii. 1, megys deuddeg seren yn nghoron yr Eglwys Efengylaidd, sef y wraig oedd "wedi ei gwisgo â'r haul, a'r lleuad dan ei thraed." Yn *Dad.* vii. 5—8, dywedir fod *deuddeng* mil o bob un o lwythau Israel wedi eu selio. Yn y dysgrifiad a geir o'r Ierusalem nefol, yn *Dad.* xxi. 12, dywedir fod iddi "*ddeuddeg* porth, ac wrth y pyrth *ddeuddeg* angel, ac enwau wedi eu hysgrifenu arnynt, y rhai yw enwau *deuddeg* llwyth Israel." Ac yr oedd i fur y ddinas "*ddeuddeg* sylfaen, ac ynddynt enwau *deuddeg* apostol yr Oen;" *adn.* 14. A deuddeg porth y ddinas, "deuddeg perl oeddynt;" *adn.* 21. "Yn nghanol ei heol hi, ac o ddau tu yr afon, yr oedd pren y bywyd, yn dwyn *deuddeg* rhyw ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth;" *Dad.* xxii. 2. Nid ydym i ddeall mai deuddeg o *wahanol* ffrwythau a ddygai y pren, ond ei fod yn dwyn deuddeg o *gnydau*; hyny yw, cnwd bob mis drwy y flwyddyn.

DEUGAIN, [Gr. *τεσσαράκοντα*]: dau ugain. Ystyrid yr ysbaid hwn o amser yn gyssegredig. Darostyngodd Moses ei hun ddwywaith *ddeugain* niwrnod mewn ympryd a gweddi: *Deut.* ix. 9, 18. Ymprydiodd Elias ddeugain niwrnod a deugain nos pan ar ei daith i Horeb, mynydd Duw: 1 *Bren.* xix. 8. Yr un modd y gwnaeth yr Iesu hefyd yn yr anialwch, pan yn cael ei demtio gan ddiafol: *Mat.* iv. 2. Coffadwriaeth am yr amgylchiad hwn ydyw deugain niwrnod y Grawys. *Deugain* niwrnod o amser a gafodd y Ninefeaid i edifarhau: *Jonah* iii. 3. Bu yr Israeliaid, o blegid eu pechodau, yn cael eu cystuddio yn yr anialwch am *ddeugain* mlynedd: *Num.* xiv. 33, 34. Gwnaeth yr Arglwydd yr Aipht yn ddiffaethwch anrheithiedig ac anghyfanneddol am ei bradwriaeth i Israel am *ddeugain* mlynedd: *Ezec.* xxix. 11—14. Yn amser y dylif, bu yn gwlawio am *ddeugain* niwrnod a *deugain* nos: *Gen.* vii. 12. Bu Ezeciel yn dwyn anwiredd tŷ Iudah am *ddeugain* niwrnod: *Ezec.* iv. 6. Bu Noah yn pregethu edifeirwch i'r hen fyd am *ddeugain* niwrnod dair gwaith: *Gen.* vi. 3. Esgynodd Crist i'r nefoedd yn mhen *deugain* niwrnod wedi adgyfodi: *Act.* i. 3—9. *Deugain* oedd nifer y gwialennodiau oedd i'w gweinyddu ar ddrwgweithredwyr yn ol y gyfraith: *Deut.* xxv. 3. Rhag ofn troseddu y gyfraith hon, yr oedd yn arferiad yn mysg yr Iuddewon, o'r hyn lleiaf yn amser Crist, i gyfyngu nifer y gwialennodiau i bedair ar bymtheg ar ugain, neu ddeugain ond un. Y mae genym dystiolaeth Paul ar hyn, yr hwn a ddywed, "Gan yr Iuddewon bumwaith y derbyniais *ddeugain* gwialennod ond un:" 2 *Cor.* xi. 24.

DEUTERONOMIUM, (*δεύτερος=ail*; a *νόμος=cyfraith*): enw a roddir ar y diweddaf o Bum Llyfr Moses. Tardda yr enw o'r Deg a Thrigain, y rhai a gyfieithiasant משנה התורה הזאת yn *Deut.* xvii. 18, a *Ios.* viii. 32, *τὸ δευτερονόμιον τοῦτο=yr ail gyfraith hon.* Y meddwl a gyssylltir â'r enw yw, *yr ail gyfraith*, neu *ail adroddiad y gyfraith.* Gwelir ar unwaith briodoldeb yr enw ar y llyfr, pan ystyriom nad ydyw ond adgrynhoad o'r hanes a gynnwysa y tri llyfr blaenorol, ac ailadroddiad o'r deddfau a roddwyd ar Sinai, gydag ychydig amrywiaethau ac eithradau y ceir sylwi arnynt eto.

Cytuna Iuddewon a Christionogion i briodoli awduriaeth y llyfr i Moses, yn gystal a'r pedwar ereill. Ond nid yw hyn heb gael ei ammheu gan rai yn yr oesoedd diweddaf. Myn rhai iddo gael ei ysgrifenu lawer yn ddiweddarach, ac ereill mai rhanau o hono yn unig a ysgrifenwyd gan Moses, a'r rhanau ereill gan ereill oesoedd ar ol ei ddyddiau ef. Ond dengys llyfrau ereill yr Hen Destament iddo gael ei ysgrifenu mewn cyfnod boreu yn hanes y genedl Hebreig. Gan mai Pum Llyfr Moses oedd sylfaen crefydd a gwleidyddiaeth yr Hebreaid, gellid dysgwyl cyfeiriadau mynych yn eu hanes at y llyfrau hyn. Heb gyfeirio yn awr at y ffaith fod copi o'r Pum Llyfr gan y Samariaid i brofi ei hynafiaeth, nodwn rai cyfeiriadau amlwg at y Deuteronomium sydd mewn llyfrau diweddarach. Heb fyned yn mhellach yn mlaen na Llyfr y Barnwyr, y mae cyfeiriadau eglur at y Deuteronomium yn nghân Deborah (cymharer *Deut.* xxxii. â *Barn.* v. 8; *Deut.* xxxiii. â *Barn.* v. 4, 5). Yn *Barn.* viii. 22, 23, lle y gwrthoda Gedeon arglwyddiaethu ar Israel, o blegid mai Iehofah yn unig oedd eu brenin, cawn gyfeiriad amlwg at *Deut.* xvii. 14—20, xxxiii. 5. Yn foreuach eto, cawn amryw brofion yn Llyfr Iosuah fod Deuteronomium mewn bodolaeth pan ei hysgrifenwyd. Y mae *Deut.* xxiv. 26, lle y dywedir, "A Iosuah a ysgrifenodd y geiriau hyn yn *llyfr* cyfraith Duw," yn rhagdybied bodolaeth y fath lyfr. Yn *Deut.* xxxi. 24—26, cawn gyfeiriad at y llyfr hwn, a'i fod wedi ei ddodi gan y Lefiaid, yn ol cyfarwyddyd Moses, wrth ystlys

Digitized by Google

arch y cyfammod. Yn *Deut.* iv. 10, cawn grybwylliad am Iosuah yn dilyn cyfarwyddiadau Moses gyda golwg ar ddygiad Israel i'w gwlad. Yn *Deut.* iii. 28; xxxi. 23, hysbysir ni i Moses roddi iddo ef gyfarwyddiadau ar y pen hwn. Heb ymhelaethu, gellid sylwi yn gyffredinol fod Llyfr Iosuah yn gorphwys yn gwbl ar Bum Llyfr Moses, ac yn enwedig ar Deuteronomium—yn cael ei lenwi â'i ysbryd, ac yn cyfeirio yn fynych ato. Mae y ffaith hon mor eglur fel y myn rhai o wrthwynebwyr awdurdod Mosenaidd y Deuteronomium ei fod ef a Llyfr Iosuah wedi eu cyfansoddi gan yr un awdwr.

Y mae amryw ystyriaethau ereill a ddangosant nas gall y llyfr hwn fod wedi ei gyfansoddi yn ddiweddarach nag amser Moses. Y mae trwyddo yn rhagdybied y ffaith fod Israel ar y pryd ar ben myned i mewn i Ganaan i gymmeryd meddiant o'u gwlad, ond heb wneuthur hyny eto. Mae y darluniadau a roddir ynddo o'r wlad yn gyfryw ag a gytuna yn unig â'r dyb eu bod eto yn anadnabyddus â hi. Yn *Deut.* xi. 10—12, dywedir ei bod, yn wahanol i'r Aipht, yr hon a ddyfrheid yn gelfyddydol, yn cael ei dyfrhau gan wlaw o'r nefoedd. Amlwg yw oddi wrth hyn fod hinsawdd y wlad yn anadnabyddus iddynt hyd yn hyn; ac y mae yr un mor amlwg fod yr Aipht yn anadnabyddus iddynt, ac yn fwy felly nag un wlad arall. Mae eu hanadnabyddiaeth o wlad eu hetifeddiaeth yn dyfod i'r golwg hefyd yn *Deut.* viii. 7—9. Y ddwy ffaith hyn yn nghyd a ddangosant i'r llyfr gael ei gyfsoddi rhwng y mudiad o'r Aipht a'r meddianniad o Ganaan. I'r un perwyl hefyd y mae y gorchymynion a roddir iddynt o barthed y Canaaneaid a'u heilunadoliaeth yn *pen.* xii. Nis gallasai *Deut.* xi. 26—32, a *pen.* xxvii. gael eu hysgrifenu wedi eu mynediad i'r wlad. Y mae y naill a'r llall yn gysson yn unig â'r dyb iddynt gael eu cyfansoddi pan oedd Israel ar derfyn eu gwlad, ond eto heb fyned iddi. Mae y ffeithiau hyn mor amlwg fel y myn rhai i Deuteronomium gael ei ysgrifenu o flaen llyfrau ereill Moses. Ond os cymharwn wahanol ranau o hono â'r llyfrau ereill, ceir gweled fod eu bodolaeth yn cael ei ragdybied ynddo. Y mae yr adnodau a gyfeiriwyd atynt yn barod yn rhagdybied hanes Israel yn yr Aipht, eu caethiwed yno, a'u gwaredigaeth oddi yno. Mae yn y llyfr hwn hefyd, yn y cyfeiriadau at osodiadau a threfniadau deddfol a gynnwysa, yn barhaus yn rhagdybied bodolaeth y trefniadau a nodir yn y llyfrau ereill. Cymharer, er anghraifft, *Deut.* xviii. â *Num.* xviii. 20; a *Deut.* xxiv. â *Lef.* xiii. xiv. Dwg hyn gyfansoddiad y llyfr i lawr hyd ar ol rhoddiad y ddeddf.

Yn gysson â hyn y mae y llyfr ei hun yn cynnwys hysbysiad cadarnhaol i'w gynnwysiad gael ei lefaru gan Moses ger llaw yr Iorddonen, yn ngwlad Moab: *Deut.* i. 1, 5. Mewn gair, cynnwysa y llyfr lawer o hysbysiadau a ddangosant yn lled amlwg i'r oll o hono, oddi eithr y bennod olaf, gael ei ysgrifenu gan Moses. Ceir y geirweddiad, "y llyfr hwn," "geiriau y gyfraith hon," y rhai sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn," a'r cyffelyb, yn ei fritho drwyddo: *Deut.* xvii. 18, 19; xxviii. 58, 61; xxix. 19, 20, 29; xxx. 10. Y mae yr ymadroddion hyn oll yn tybio bodolaeth rhyw lyfr penodol:—a pha lyfr a allant olygu, os nad Deuteronomium? Ië, y mae y llyfr yn hawlio Moses fel awdwr iddo: *Deut.* xxxi. 9, 24. Myn rhai fod yr ymadroddion, "y llyfr hwn," "y gyfraith hon," yn Deuteronomium, yn cyfeirio at y Pum Llyfr oll, gan mai hyny a olygir wrthynt mewn llyfrau diweddarach: *Ios.* i. 8; viii. 31, 34; xxiv. 26; 2 *Bren.* xiv. 6; xxii. 8, 11; 2 *Cron.* xvii. 9; xxxiv. 14, 15; *Neh.* viii. 1, 3, 18. Yn ngwyneb hyn, dyweda Kurtz, "Nid oes ond un pwynt bychan yn cael edrych drosto yn yr ymresymiad hwn; ond dygwydda hwn fod y pwynt ar yr hwn y mae yr holl ymresymiad yn troi, sef y gair bychan "hon," yr hwn a welir bob amser yn Deuteronomium, yn ein gorfodi i'w gysyngu at y *thorah* (cyfraith) y cyfeirir ati; hyny yw, *thorah* llyfr Deuteronomium. Dadleuir, mae yn ddiammheu, os ysgrifenwyd y Pum Llyfr, yn yr oll o honynt mewn cyssylltiad â'u gilydd (*una serie*) gan Moses ei hunan, y gall y gair "hon," ac mewn gair y rhaid iddo, gyfeirio at yr holl Bum Llyfr yn ei ffurf fodoledig. Nid yn unig byddai y fath atebiad yn cymmeryd ar ganiatâd (*petitio principii*), ac fel y cyfryw yn ddirym, ond gellir profi ei fod yn wrthodadwy ar y seiliau mwyaf cedyrn. Dygir yn mlaen *thorah* Deuteronomium yn *pen.* iv. 44, 45, gyda y geiriau:—"A dyma y gyfraith (neu "y gyfraith hon") a osododd Moses o flaen meibion Israel; dyma y tystiolaethau, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, a lefarodd wrth feibion Israel ...... yn ngwlad Sehon, brenin yr Amoriaid," &c. A phan, yn mhellach yn mlaen yn yr anerchiadau, y cyfarfyddir â'r *thorah hon*, neu y "llyfr hwn," yn cael ei nodi, yn ol holl ddeddfau deongliad nis gallwn ddeall ond y *thorah* y crybwyllwyd am dani; hyny yw, *thorah* Llyfr Deuteronomium. Yn mhellach, y mae yr ystyr yr arferir y gair "hon" yn cael ei osod allan tu hwnt i bob dadl yn *Deut.* xxvii. 1, lle y dangosir yn amlwg fod "y gyfraith hon," sydd yn dygwydd yn *adn.* 3, yn cael ei arfer yn gyfystyr â "holl orchymynion yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi *heddyw*." Ond pa un bynag a gyfeiria yr ymadrodd, "y gyfraith hon" at y Pum Llyfr neu beidio, y mae yn amlwg ddigon ei fod yn cyfeirio at Deuteronomium, a bod y llyfr hwn, ar y cyfan, o eiddo Moses. Dywedasom, "ar y cyfan," o blegid rhaid eithrio y bennod olaf, yr hon a rydd hanes marwolaeth Moses. Y mae yn amlwg, oddi wrth ddiwedd *pen.* xxxi., fod Moses yn honi awduriaeth y llyfr hyd yno, yn nghyd â'r gân yn *pen.* xxxii, a'r fendith yn *pen.* xxxiii; ac felly gosodir allan yr holl lyfr hyd yma fel cyfanwaith o eiddo Moses. Rhaid fod *pen.* xxxiv. yn gyfansoddiad gwahanol. Y mae hon wedi ei chyssylltu mor agos â *Ios.* i, fel pe y darllenid y ddwy yn nghyd, ni chanfyddid un toriad yn yr hanes; ond byddai yr olaf yn ymddangos fel parhâd o'r gyntaf. Gan hyny, ystyrir y bennod hon fel attodiad at Deuteronomium, er mwyn cyssylltu hanes Moses â hanes Iosuah, ac mai gan awdwr Llyfr Iosuah yr ysgrifenwyd hi.

Dadleua rhai yn erbyn tarddiad Mosenaidd Deuteronomium oddi wrth y gwahaniaeth sydd rhwng ei arddull ac arddull y llyfrau ereill. A rhaid addef fod cryn wahaniaeth rhyngddynt; ond gwahaniaeth ydyw ag sydd yn hawdd cyfrif am dano oddi wrth amgylchiadau neillduol Moses ac Israel ar y pryd. Y mae y gwahaniaeth hwn yn gynnwysedig yn benaf yn y pethau canlynol:—Yn gyntaf, y mae cyfeiriadau Deuteronomium at amgylchiadau Israel pan yn eu gwlad yn fwy penodol nag yn y llyfrau ereill (er anghraifft, *Deut.* vi); yr hyn sydd yn cyd-daraw yn dda â'r dyb iddo gael ei gyfansoddi lle y proffesa iddo gael, sef ar derfynau Canaan. Yn nesaf, y mae y gyfraith, fel y rhoddir hi yn Deuteronomium,

Digitized by Google

yn fwy cyffredinol a helaeth yn ei chymhwysiad nag fel y rhoddir hi yn y llyfrau ereill. Y mae yr olaf o gymmeriad mwy offeiriadol a Leflaidd; y rhan fwyaf o'r deddfau ydynt ddeddfau a chyfarwyddiadau i'r dosbarth hwn, y rhai nid oedd yn angenrheidiol i neb arall fod yn berffaith adnabyddus o honynt. Ond yn Deuteronomium, anerchir y genedl ar ei mynediad i'w gwlad: perthyna y deddfau i'r genedl fel cyfangorff; ac am hyny, ni wneir cyfeiriad at yr holl drefniadau a'r gosodiadau, gan nad oedd yn angenrheidiol i neb ond yr offeiriaid a'r Leflaid wybod y manylion hyn. Amgylchiad arall a gyfrif am y gwahaniaeth hwn ydyw, fod cynnwysiad Deuteronomium yn cael ei wneyd i fyny o anerchiadau ymadawol y deddfroddwr. Oddi wrth yr amgylchiad hwn, gallem ddysgwyl i amlygrwydd penodol gael ei roddi ynddo i syniadau ag i deimladau neillduol y llefarwr, y fath ag a rydd ffurf i'r llyfr yn wahanol i'r hyn a ffyna yn y llyfrau ereill. Ni raid ond ei gymharu â hwy i weled ar unwaith mai felly y mae. Cawn yma fwy o arddull cynghor yn ffynu fel elfen, yn lle gorchymyn pendant ac anhyblyg; cawn annogaethau a chyfarwyddiadau; yma rhoddir bywyd ac ysbryd i'r ddeddf a roddwyd yn y llyfrau blaenorol yn y llythyren. Y mae yn perthyn iddo, gan hyny, elfen brophwydol. Yn y llyfrau ereill, y deddfroddwr llym sydd yn dyfod i'r golwg; ond yma y dysgawdwr teimladwy yn taflu ei hun i deimladau ac amgylchiadau y bobl—yn eu dysgu a'u cyfarwyddo, yn eu rhybuddio a'u bygwth, yn eu cynghori a'u hannog. Yr oedd Israel yn awr yn sefyll ar lan yr Iorddonen, yn barod i'w chroesi i'w gwlad. Yr oedd Moses bron gorphen ei daith, a'r awr ger llaw iddo huno gyda'i dadau; ond cyn ei symmud, canfu, trwy ysbryd prophwydoliaeth, amgylchiadau dyfodol y genedl — y profedigaethau, y peryglon, a'r camweddau a hynodent ei hanes yn y dyfodol. Gwyddai fod eu llwyddiant a'u dedwyddwch yn anwahanol gyssylltiedig â'u hymlyniad wrth gyfraith eu Duw; a gwyddai hefyd mai rhy dueddol oeddynt i adael y gyfraith hon; ïe, fod perygl iddynt adael Duw a chofleidio gau grefyddau y cenedloedd amgylchynol. Poenai hyn ei feddwl, ac arweiniodd ef i ddwyn i'w cof diriondeb yr Iehofah tuag atynt. Gyda theimlad tad wrth farw dros lesiant dyfodol ei blant, casglodd hwynt yn nghyd ger ei fron i roddi iddynt ei siars ddiweddaf.

Arweinia hyn ni i roddi yma grynodeb byr o'r llyfr. Dechreua trwy ddwyn ger eu bron eu teithiau drwy yr anialwch, lle y cawsant amlygiadau digyffelyb o ofal a thynerwch Duw, er maint eu gwrthnysigrwydd: *pen.* i—iv. 43. Ailadrodda iddynt yr holl ddeddf, dyga y rhanau pwysicaf i fwy o gyhoeddusrwydd, gan eu britho âg appeliadau ac annogaethau cynhyrfiol: *pen.* iv. 44—xxvi. Hyfforddia hwynt pa bethau i'w gwneuthur wedi croesi yr Iorddonen: *pen.* xxvii, xxviii. Rhybuddia hwy o'r barnedigaethau a oddiweddent drosedd a gwrthgiliad: *pen.* xxix, xxx. Yna rhydd gyfarwyddiadau yn nghylch cadwraeth y gyfraith wrth ystlys arch y cyfammod, gan orchymyn yn bendant iddi gael ei darllen yn nghlyw cynnulleidfa Israel un waith bob saith mlynedd, ar ŵyl y pebyll. Ar yr un dydd ysgrifenodd gân, fawreddog o ran ffurf, a difrifol a threiddiol o ran cynnwysiad: *pen.* xxxi, xxxii, Wedi ei rybuddio fod ei farwolaeth ger llaw, cyhoeddodd ei fendithion ar y llwythau: *pen.* xxxiii. Yn y bennod olaf, yr hon, fel y nodwyd, a ysgrifenwyd gan law arall, cawn ei hanes yn esgyn i ben Pisgah, lle y cafodd olwg helaeth ar Wlad yr Addewid, y bu farw yn gant ac ugain mlwydd oed, ac a gladdwyd gan law Duw ei hun.

Dylid sylwi fod y llyfr yn cynnwys amryw brophwydoliaethau am amgylchiadau dyfodol y genedl, yn enwedig *pen.* xxviii, xxx, xxxii, xxxiii. Cynnwysa un brophwydoliaeth eglur am y Messïah (*pen.* xviii. 15—19), lle yr addawa Duw godi i'r genedl "brophwyd fel Moses." Wedi profi mai at y Messïah y cyfeiria y brophwydoliaeth hon, gwna Kurtz y sylwadau priodol a ganlyn:—"Y mae neillduolrwydd yn y darluniad—'prophwyd fel Moses'—ac y mae yn un teilwng o sylw manwl; hyny yw, tra yr ymddengys y geiriau ar y naill law yn arwyddo y tebygolrwydd cyflawnaf rhwng Moses a'r propdwyd addawedig, y mae ar y llaw arall gyferbyniad, ïe wrthosodiad, amlwg yn cael ei olygu, cyffelyb i'r cyferbyniad rhwng yr Adda cyntaf a'r ail. Os edrychwn ar y cyferbyniad yn yr anghraifft ger ein bron yn unig yn yr ochr allanol a ffurfiol, y mae y tebygolrwydd yn berffaith. Fel Moses, ymddiriedid iddo am holl dŷ Dduw; fel Moses, byddai iddo ymddyddan â Duw wyneb yn wyneb. Ond os edrychwn ar agweddau mwy mewnol ac angenrheidiol, rhydd y tebygolrwydd le yn fuan i gyferbyniad. Rhaid i brophwyd a lefarai â Duw mewn dull mor berffaith wrtho ei hunan ag y gwnaeth Moses, ac i'r hwn yr ymddiriedir iddo am dŷ Dduw fel y gwneid gynt yn unig i iddo ef, dderbyn y ddawn anarferol a'r sefyllfa neillduol hon i ddybenion mor anarferol a neillduol ag y derbyniodd Moses hwy. Fel Moses, rhaid iddo fod yn waredwr i'r genedl, yn awdwr a sefydlydd cyfammod newydd yr Iehofah; a chan y rhaid i gyfammod newydd fod yn well na'r un o'i flaen, rhaid i'r "prophwyd fel Moses' fod ar gyfrif hyn yn *fwy* na Moses."—(*Dr. Kurtz' Hist. of the Old Cov.*, cyf. iii.; *Haverrnick's Intro. to the Pentateuch; Hengstenberg's Intro. to the Pent. and Christology*, cyf. i.)

DEWI SANT: "sant" gwarcheidiol Cymru. Mab oedd Dewi Sant i Sandde ab Cedig, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig; a'i fam oedd Nonn, merch Gynyr o Gaer Gawch, yn sir Benfro. Ond y mae y chwedl am dano yn y *Lives of the Cambro British Saints* yn olrhain ei achau o Cunedda Wledig hyd at Grist, fel hyn:—Cunedda ab Edeyrn, ab Padarn Beisrudd, ab Deil, ab Gwrddeil, ab Dwfyn, ab Gorddwfyn, ab Amgnod, ab Amweryd, ab Onwydd, ab Perw, ab Dwfn, ab Owain, ab Afallach, ab Eugen, ab Eirddolen, fab Mair y Wyryf, mam Iesu Grist. Yn ol Gerallt o Gymru, ganwyd ef mewn lle a alwyd ar ol hyny Tŷ Ddewi, a bedyddiwyd ef yn Mhorth Clais, yn y gymmydogaeth hono, gan Albeus, esgob Munster, "yr hwn, drwy ragluniaeth ddwyfol, a ddaeth yno ar yr adeg hono o'r Iwerddon." Dywedir i Dewi Sant dderbyn ei ddysgeidiaeth yn ysgol Illtyd; ac wedi hyny yn ysgol Pawl Hen, neu Paulinus, yn y Tŷ Gwyn ar Daf, lle y dywedir iddo dreulio deng mlynedd i fyfyrio yr Ysgrythyrau, a lle yr ydoedd Teilo, ail esgob Llandaf, yn un o'i gydfyfyrwyr. Sefydlodd ar ol hyny fynachlog yn nyffryn Rosina, neu y Rhos, yr hwn le a alwyd drachefn Mynyw. Bu yn preswylio yn y lle hwn gyda'i ddysgyblion, gan arfer y llymdoster crefyddol a gefnogid gan ofergoeledd yr oes. Dywedir iddo gael ei flino a'i gythruddo yn fawr gan Boia, un o benaethiaid y Gwyddyl Ffichti, yr hwn oedd wedi

Digitized by Google

cymmeryd meddiant o'r gymmydogaeth; ond gorthrechwyd ef gan amynedd a hyawdledd y "sant," ac argyhoeddwyd a bedyddiwyd ef o'r diwedd. Am fanylion pellach o hanes ei fywyd, gwel d.g. BANGOR DEWI.

Nid ydyw nifer yr eglwysydd a'r capelydd a sefydlwyd ganddo yn Neheudir Cymru yn unig, heb son am ereill yn Lloegr, yn ddim llai na thri ar ddeg a deugain. Rhoddir rhestr o honynt yn nhraethawd rhagorol Rees ar y Saint Cymreig. Bu farw Dewi, yn ol rhai dyddiadau, yn B A. 544, yn 82 mlwydd oed, yn y fynachlog a sefydlasai ger Mynyw, lle y claddwyd ef yn anrhydeddus trwy orchymyn Maelgwn Gwynedd. Seintiwyd ef gan y pab Calixtus, tua 1120, a chynnelid gŵyl ei goffadwriaeth ar y dydd cyntaf o Fawrth, sef y diwrnod, yn ol Gerallt, ar ba un y bu farw. Ni chrybwyllir un gair am chwedl y geninen (*leek*), a'i dewisiad fel arwydd cenedlaethol, gan ei fywgraffwyr boreuaf. Ond ni wneir y sylw hwn gyda'r amcan i anmharu ei goffadwriaeth; canys y mae wedi hir fwynhau, a hyny yn gyfiawn, y safle uchaf yn mhlith "saint" ei wlad. Y mae ei dra-ragoriaeth wedi bod yn ddiammheuol er y ddeuddegfed ganrif; ac y mae cân Gwynfardd, a ysgrifenwyd yn yr oes hono, yn ei ganmawl yn yr iaith uchaf. Yr oedd ei greirfa (*shrine*) yn Mynyw mor enwog, fel yr attynai bererinion, nid yn unig o bob parth o Gymru, ond hefyd o wledydd tramor; ac y mae genym hanes am dri o freninoedd Lloegr—William y Gorchfygwr, Harri yr Ail, ac Edward y Cyntaf, yn nghyd â'i wraig—yn ymweled â hi. Ystyrid dwy daith i Fynyw yn gyfartal i un daith o bererindod i Rufain.

Ysgrifenwyd hanes bywyd Dewi Sant gan amryw bersonau:—un gan Ricemarch, tua B.A. 1090, cyfysgrif o ba un a gedwir yn yr Amgueddfa Brydeinig, Cotton MSS., Vespasian A. xiv., a'r hwn sydd wedi ei gyhoeddi yn y *Lives of the Cambro-British Saints;* un arall gan Gerallt o Gymru, tua 1200, yr hwn a gyhoeddwyd yn *Wharton's Anglia Sacra;* un arall gan John o Teignmouth, cydoeswr Gerallt, yr hwn a ddodwyd i mewn yn *Capgrave's Collection;* ac un gan Leland, yn nheyrnasiad Harri VIII, yr hwn a gyhoeddwyd yn ei *Collectanea.* Y mae chwedl hefyd wedi ei hysgrifenu am dano yn Gymraeg, yr ysgrif wreiddiol o ba un sydd yn nghadw yn yr Amgueddfa Brydeinig, Cotton MSS., Titus D. xxii. Y mae y chwedl hon wedi ei chyhoeddi yn y *Lives of the Cambro-British Saints*, dan y penawd "Buchedd Dewi Sant." Hwyrach mai nid anfuddiol fydd y talfyriad canlynol o honi.

Wedi olrhain ei achau i fyny hyd Grist, fel y sylwyd yn nechreu yr ysgrif hon, dywedir:— "Ceredig frenin a wladychodd dalm o flynyddoedd, ac o'i enw ef y cafodd Ceredigion ei henw; a mab a fu iddo, ac enw y mab oedd Sant; ac i hwnw yr ymddangosodd angel yn ei hûn, a dywedodd wrtho, 'Fory, ti äi i hela, a thi a gaffi dri dyfod ger llaw afon Deivi, nid amgen carw, gleisiaid, a haid o wenyn mewn pren uwch ben yr afon, yn y lle a elwir Henllan yr awr hon; dyro y tir i fab ni aned eto, efe biaufydd y ddau le hyd y ddydd brawd, y rhai a ddywespwyd uchod, Linhenllan a Liconinancan.'"

Wedi hyn, yr ydym yn cael i Padric Sant fyned hyd yn Nglyn Rosina, gan fwriadu treulio ei oes yno; ond ymddangosodd angel iddo, yr hwn a ddywedodd wrtho, "Gadaw di y lle hwn i fab ni aned eto." Grwgnachodd Padric o herwydd hyn; ac er mwyn ei dawelu, anfonodd yr Arglwydd ei angel eilwaith ato, "i ddangos iddo ynys yr Iwerddon o'r eisteddfa syuu yn Nglyn Rosin," gan ddywedyd y byddai yn apostol yn yr ynys hono. Bu hyn yn foddion i lonyddu meddwl Padric, a gadawodd y lle hwnw i Dewi, yr hwn na enid hyd yn mhen deng mlynedd ar ugain. Ymadawodd mewn llong i'r Iwerddon yn nghymdeithas gŵr o'r enw Cruchier, yr hwn a gyfododd efe o farw, er ei fod wedi ei gladdu yn y morfa er ys pymtheng mlynedd. Gwnaethpwyd Padric yn mhen amser yn esgob yn yr ynys.

"Ac yn mhen y deng mlynedd ar ugain wedi hyny, fal yr oedd y brenin a elwid Sant yn cerdded ei hun, wele leian yn cyfarfod âg ef; ymafael a wnaeth yntau ynddi hi, a dwyn trais arni; a'r lleian a gafas feichiogi: enw y lleian oedd Nonn, a mab a aned iddi; a Dafydd a roed yn enw arno; a gŵr ni bu iddi hi na chynt na gwedy—diwair oedd hi o feddwl a gweithred.

"Cyntaf gwyrth a wnaeth Dewi er pan gafas hi feichiogi: ni fynai hi fwyd namyn bara a dwfr yn ei hoes, ac ni lewes Dewi fwyd namyn bara a dwfr. Ail gwyrth a wnaeth Dewi: a'i fam yn myned i'r eglwys i wrandaw pregeth Gildas Sant. Gildas a ddechreuodd bregethu, ac nis gallai; ac yna y dywawt Gildas, 'Ewch oll o'r eglwys allan, ebe fe, ac elchwyl profi pregethu a wnaeth, ac nis gallai. Ac yna y gofynawdd Gildas, a oedd neb yn yr eglwys onid efe ei hun. 'Ydwyf fi yma,' heb y lleian, 'rhwng y dor a'r pared.' 'Dos di,' heb y Sant, 'allan o'r eglwys, ac arch y plwyf oll i ddyfod i mewn.' A phob un a ddaeth i'w le i eistedd fal y buasai; ac yna pregethu a wnaeth y Sant yn eglur, ac yn uchel. Yna y gofynawdd y plwyf iddo, 'Pa ham na elleist di bregethu i ni gynneu, a ninnau yn llawen yn dymunaw dy wrandaw di.' 'Gelwch,' heb y Sant, y lleian i mewn a yrais i gynneu o'r eglwys. Heb y Nonn, 'Llyma fyfi.' Heb y Gildas yna, 'Y mab sydd yn nghroth y lleian hon sydd fwy ei feddiant, ei rad, a'i urddas na myfi, canys iddo ef ei hun y rhoddes Duw fraint a henaduriaeth holl saint Cymru yn dragwyddawl, cyn dydd braud a gwedy. 'Ac am hyny,' heb ef, 'nid oes ffordd i mi drigaw yma yn hwy, o achos mab y lleian acw, yr hwn a roddes Duw iddo benaduriaeth ar bawb o'r ynys hon; a rhaid yw i mi,' heb ef, 'fyned i ynys arall, a gadaw i'r mab hwn yr ynys hon.' Gwyrth arall a wnaeth Dewi yn yr awr y ganed ef. Fe ddaeth taranau a mellt, a chareg a oedd gyferbyn a phen Nonn a holltodd hyd oni fu yn ddau hanner, ac y neidiodd y naill hanner iddi dros ben y lleian hyd is ei throed, pan ydoedd hi yn esgor. Gwyrth arall a wnaeth Dewi pan ei bedyddiwyd. Fe ymddangosodd ffynnon o'r ddaiar lle ni buasai ffynnon erioed; a dall a oedd yn dala Dewi wrth fedydd a gafas yno ei olwg; ac yna y dall a wybu fod y mab yr oedd yn ei ddala wrth fedydd yn gyflawn o rad Duw; a chymmeryd y dwfr bedydd a wnaeth, a golchi ei wyneb âg ef. Ac o'r awr y ganed y dall, wynebclawr oedd, ac yna ei olwg a gafas; a chwbl o'r a berthynai arnei, sef a wnaeth pawb yna moli Duw fal y dylent.

"Y lle y dysgwyd Dewi ynddo a elwid Vetus Rubus, sef yw hyny yn Gymraeg, Yr Henllwyn. Yno y dysgwyd iddo ef seilim (salmau) yr holl flwyddyn, a'i llithion a'r offerenau; yno y gwelodd ei gyd-ddysgyblion ef golomen â chylfin aur iddi yn dysgu Dewi, ac yn chwareu yn ei gylch. Oddi yno y daeth Dewi hyd at athraw a elwid Paulinus, a dysgybl oedd hwnw i esgob sant a

Digitized by Google

oedd yn Rhufain; a hwnw a ddysgodd Dewi hyd oni fu athraw."

Yn ystod yr amser y bu yn yr ysgol hon, dywedir i Dewi gyflawnu y wyrth o adferu ei olwg i Paulinus, yr athraw, drwy ddodi ei ddwylaw ar ei lygaid. "Ac yna bendigodd Paulinus Dafydd o bob bendith a geffit yn ysgrifenedig yn y ddeddyf hen ac yn y newydd."

"Yna y daeth angel at Paulinus, a dywedyd wrtho fal hyn, 'Amser,' heb ef, 'yw i Dafydd sant fyned oddi yma i wneuthur y pethau sydd wedi eu hordeinio gan Dduw iddo eu gwneuthur.' Oddi yno y daeth Dewi hyd yn Nglastynbri, ac yno yr adeiladodd ef eglwys. Dewi a ddaeth i'r lle yr oedd dwfr yn llawn o wenwyn, ac a'i bendigodd, ac a wnaeth y dwfr hwnw yn dwymn hyd ddydd brawd, a hwnw a elwir Yr Enaint Twymyn. Oddi yna y daeth Dewi hyd yn Nghowlan, a hyd yn Repecwn; yna y daeth i Collan a Glasgwm; yna yr adeiladodd Llanllieni, yn nglan Hafren; yna y rhoddes wared i Bebrawc, brenin Erging, a oedd yn ddall; yna adeiladodd eglwys yn Ngwent, yn y lle a elwir Raglan; yna adeiladodd eglwys yn y lle a elwir Llangyfelach yn Ngwyr. Dau sant a oeddynt yn Nghydwelly, a elwid Boducat a Nailtrim, a ymroddasant yn ddysgyblion i Dewi. Oddi yno yr ymchwelodd Dewi hyd y lle a elwid Vitus Rubus, ac yno yr oedd esgob a elwid Goeslan, a hwnw oedd yn frawd ffydd i Dewi; a Dewi a ddywedodd wrtho, 'Angel yr Arglwydd a ddywedodd i mi mai o'r braidd y daw un o gant o'r lle hwn i deyrnas nef; ac y dangoses i mi le arall, ac o'r lle hwnw nid ä neb i uffern, a'r a fo ffydd dda a chred ganddo; ac o'r rhai a gladder yn mynwent y lle hwnw hefyd nid ä neb i uffern.'

"A rhyw ddiwrnod, daeth Dafydd a'i ddysgyblion, nid amgen Aedan, Eluid, ac Ismael, a llawer gyda hwynt, i'r lle a fynegasai Duw iddynt; nid amgen yn Nglyn Rosyn—Hodnant y gelwir y lle hwnw. Cyntaf lle dan yr awyr y cynneuasant hwy dân fu yno; a phan y cynneuasant hwy y tân yno y bore glas y cyfodes mwg, ac y cylchynodd y mwg hwnw yr ynys hono oll, a llawer o'r Iwerddon; a hyny o'r bore glas hyd bryd gosper; ac yna y darganfu tywysog a elwid Boya, ac Ysgotiaid, y mwg hwnw; ac o lid, eistedd a wnaeth mewn craig uchel o'r bore hyd bryd gosper, heb fwyd ac heb ddiod. A'i wraig a aeth ato, ac a ofynodd iddo, 'Pa ham na fyni na bwyd na diod?' 'Dioer,' heb ef, 'trist wyf a llidiog, mwg a welais heddyw yn cyfodi o Hodnant; ac yn cylchynu llawer o ddinasoedd: y gŵr,' heb ef, 'a gynneuodd y tân hwnw, ei feddiant ef a gerdda y ffordd y cerddodd y mwg.' Heb y wraig wrtho, 'Yr wyt yn ynfyd, cyfod i fyny,' heb hi, 'a chymmer dy wŷr gyda thi, a lladd y neb a gynneuodd y tân hwnw ar dy dir di heb dy genad,' Ac yna y daeth Boya, a'i esgwïeriaid gydag ef, ar feddwl lladd Dewi a'i ddysgyblion: a phan ddaethant parth a'r lle yr oedd Dewi, y dygwyddasant yn y cryd hyd na ellynt hwy wneuthur dim drwg i Dewi, nac i'w ddysgyblion, onid eu gwatwar a dywedyd geiriau dirmygedig yn eu cyfair, ac ymchwelyd adref. Ac fal y byddynt felly, wele gwraig Boya yn cyfarfod â hwynt, ac yn dywedyd wrthynt, 'Ein bugeiliaid ni a ddywedasant i mi farw ein holl ysgrybliaid, nid amgen ein gwartheg, ein hychain, a'n greoedd (meirch), a'n defaid, ac eu bod oll yn feirw, â'u llygaid yn agored, ac yn cwyno, ac udo, a griddfan.' A Boya, a'i wraig, a'i dylwyth, a ddywedasant, 'Y sant y buom ni yn ei watwar a wnaeth hyn,' sef y cawsant hwy yn eu cynghor gweddïo y sant, a cheisio ei fodd ef a'i dylwyth. Ac yna y rhoddes Boya yn dragwyddol Hodnant i Dewi. Ac ymchwelyd adref a wnaeth Boya, a'i dylwyth gydag ef; a phan ddaethant adref, hwy a gawsant eu hanifeiliaid yn fyw ac yn iach."

Wedi hyn, dywedir i Boya wneyd ymdrech i beri i Dewi a'i ddysgyblion gilio o'r lle, drwy orchymyn i'w lawforwynion fyned hyd at yr afon oedd ger llaw y man lle yr oeddynt. ac ymddyosg, a siarad geiriau anweddus. Ond ni lwyddodd yn ei amcan. Dranoeth, aeth gwraig Boya gyda'i llysferch i Dwyn Alun i gasglu cnau. Wedi iddynt gyrhaedd i waelod y glyn, dywedodd y llysfam wrth y llysferch. "Dyro dy ben yn fy arffed, fel y torwyf ef y maith." Ufuddhaodd y "forwyn dda ddiwair," a chyflawnodd y llysfam y weithred; a tharddodd ffynnon yn y man i'r hwn y llifodd ei gwaed, o'r hon y dywedir i lawer o ddynion gael iechyd a gwaredigaeth; a gelwir y ffynnon hono hyd heddyw, Ffynnon Dunawd, canys Dunawd oedd enw y forwyn. Yna ffodd y llysfam, ac ni wybu neb o ba angeu y bu farw. Wedi hyny, yr ydym yn cael i Boya fwriadu lladd Dewi a'i ddysgyblion, ond cyn iddo allu rhoddi ei fwriad mewn gweithrediad, cafodd ef ei hun ei ladd mewn trŵ lle yr oedd yn cysgu, gan elyn iddo; a daeth tân o'r nef, yr hwn a losgodd ei holl adeiladau hyd y llawr; "a gwybydded pawb ladd o'r Arglwydd Dduw Boya a Satrapa y wraig o achos Dewi."

Yna yr ydym yn cael Dewi yn adeiladu yn nglyn Hodnant; ac am nad oedd yno ond ychydig o ddwfr, gweddïodd Dewi ar yr Arglwydd, a tharddodd ffynnon yn ddiattreg, mewn atebiad i'w weddi, yr hon a fu yn llawn o win dros ystod ei oes yn Hodnant. A tharddodd dwy ffynnon o ddwfr croew hefyd mewn atebiad i weddïau yr esgob Gweslan ac Eliud, dysgybl i Dewi, "y rhai a elwir Ffynnon Gweslan a Ffynnon Eliud."

Ac yn y dyddiau hyny, yr oedd Aedon Sant yn gweddïo yn ei eglwys yn ninas Gwerwin, sef ar noson y Pasc, pryd yr ymddangosodd iddo angel oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn a hysbysodd iddo fod Dewi Sant, ei feistr, mewn perygl am ei fywyd oddi wrth dri o aelodau ei fynachlog, drwy eu bod yn darparu bara, â gwenwyn ynddo, iddo i'w fwyta dranoeth; a dywedodd yr angel wrth Aedan am anfon cenad at Dewi i'w osod ar ei ocheliad. Yna aeth Aedan yn drallodus, a dywedodd, "Arglwydd, pa fodd yr anfonaf genad yno, gan mor fyred yw yr amser, ac nid oes long yn barod fel y galler ei chael?" "Anfon di," ebe yr angel, "dy gyd-ddysgybl, nid amgen Scuthyn, hyd y traeth, a mi a baraf iddo fyned drwodd." Yna gwnaeth Scuthyn yn llawen fel y gorchymynwyd iddo, ac aeth hyd y traeth, a cherddodd i'r dwfr hyd ei liniau, ac yn ddisymmwth, daeth anghenfil o'r môr, a chymmerodd ef ar ei gefn, a chludodd ef drosodd i'r ochr arall; ac erbyn deuddeg o'r gloch ddydd y Pasc yr oedd gyda'i athraw. Ac fel y deuai Dewi o'r eglwys o'r gwasanaeth, cyfarfu â'r cenad mewn lle a elwid Bed Yscolan. Derbyniodd Dewi ef yn groesawgar, a holodd ef yn nghylch Aedan Sant, ei ddysgybl.

Wedi i'r cenad ateb holl ofyniadau Dewi yn nghylch Aedan, galwodd ef o'r neilldu, a hysbysodd iddo ei genadwri; ac yna dychwelodd Dewi ddiolchgarwch i Dduw. Drachefn efe a aeth i'r fynachlog; ac wedi i bawb eistedd yn eu lleoedd priodol, cyfododd y diacon i wasanaethu Dewi

Digitized by Google

a'r bara gwenwynig yn gyntaf. Cymmerodd Dewi y bara, a thorodd ef yn dri darn; rhoddodd un o honynt i âst a safai y tu allan i'r drws; ac yn y fan wedi iddi ei fwyta, syrthiodd ei blew ymaith mewn amrantiad, a thorodd ei chroen oddi am dani, a disgynodd ei holl goluddion i'r ddaiar. Anfonodd Dewi yr ail ddarn i frân a eisteddai yn ei nyth ar goeden ger llaw y fynachlog; a phan y cymmerodd y frân y bara yn ei chylfin, syrthiodd yn farw i'r ddaiar. Cymmerodd Dewi y trydydd darn, ac wedi ei fendithio, efe a'i bwytaodd ei hunan; ac efe a barodd i'r holl frodyr edrych arno, a hwy a ryfeddent yn ddirfawr, ac a ofnent am Dewi. Yna, efe a amlygodd iddynt yr ymgais a wnaethpwyd i'w wenwyno; a'r holl frodyr a felldithiasant y cynllwynwyr; ac ordeiniodd yr Arglwydd na chaent ran o deyrnas nefoedd.

Ac wedi cadarnhau ffydd a chred yn yr ynys hon, ymgasglodd yr holl lafurwyr ysbrydol hyd at ddôr senedd Brefi, "a'r esgyb, a'r athrawon, a'r offeiriaid, a'r breninoedd, a'r tywysogion, a'r ieirll, a'r barwniaid, a'r goreugwyr, a'r ysgwieriaid, a'r trefyddwyr yn llwyr, a phawb heb allu rhif arnaddynt a ymgynnullasant i senedd Brefi, ac ammod a wnaethpwyd yn y gynnulleidfa hono—Pwy bynag o'r senedd o'r saint a bregethai fal y clywai y nifer hwnw yn gyffredin, gadu o honynt yn benadur ar saint Ynys Prydain." Yna, dywedir i'r saint ddechreu pregethu, bob un yn ei gylch; ond nis gallodd cymmaint ag un o honynt gyflawnu telerau yr ammod. Wedi hyny, dechreuwyd ymofyn a oedd neb a allai bregethu i'r nifer hwnw, pryd yr atebodd Paulinus, "Myfi a wn am was ieuanc teg, addfwyn, ac angel yn wastad yn gydymaith iddo, a mi a wn ei fod ef yn gymhen, ac yn ddiwair, ac yn caru Duw yn fawr, ac a wn y câr Duw yntau, a'i fod yn gyfranog ar yr holl foesau da; a myfi a wn mai y dyn y mae mwyaf o rad Duw yn yr ynys hon yw hwnw, a Dafydd Sant y gelwir." Yna efe a'u cynghorodd hwynt i alw am dano yno. Gwnaethpwyd hyny; ond atebodd Dewi y cenadau, "Nid äf fi yno, canys gwell genyf weddïo Duw yma; ewch chwi yn nhangnefedd Duw a'i gariad." Anfonwyd ato eilwaith, ond ni chafwyd ond yr un atebiad.

Y drydedd waith, cytunodd yr holl saint i anfon ato y ddau brif sant fel cenadwyr, sef Deiniol a Dubricius; a'r noswaith cyn iddynt fyned, dywedodd Dewi wrth ei ddysgyblion, "Fy meibion, gwybyddwch chwi y daw cenadau yma yfory; ewch i bysgota i'r môr, a dygwch yma ddwfr gloew o'r ffynnon." Daeth y cenadau, fel y dywedasai, a darparodd Dewi a'i ddysgyblion giniaw iddynt, a dodwyd o'u blaen gyflawnder o bysgod, a dwfr o'r ffynnon, yr hwn a droisai yn win iddynt. Ond gwrthododd Deiniol a Dubricius gymmeryd o'r ymborth nes yr addawodd Dewi fyned gyda hwynt i'r senedd yn Brefi. Wedi ymborthi, aeth Dewi gyda'r cenadau; ond cyn iddynt gyrhaedd yno, daeth gwraig i'w cyfarfod gan alaru ac wylofain, unig fab yr hon oedd wedi marw; a phan y gwelodd Dewi y wraig yn y fath gyflwr, arosodd, ac archodd i'r cenadau fyned yn eu blaenau. Yna, cymmerodd Dewi drugaredd ar y wraig, ac efe a aeth gyda hi i'w thŷ, ar lan yr afon Teifi, lle y gorweddai corff ei mab; a gweddïodd ar yr Arglwydd, gan ddyweyd, "Fy Arglwydd Dduw, yr hwn a ddisgynaist o fynwes y Tad i'r byd hwn o'n hachos ni bechaduriaid, i'n prynu ni o safn yr hen elyn, trugarha Arglwydd wrth y wraig weddw hon, a dyro iddi yn fyw ei hunig fab, fel y mawrhäer dy enw yn yr holl ddaiar." A phan ddarfu Dewi ei weddi, cyfododd y mab yn holliach, fel pe yn cyfodi o gysgu; a chyflwynodd y sant ef i'w fam. O hyny allan, dilynodd y dyn ieuanc Dewi, gan wasanaethu Duw.

Yna aeth Dewi gyda'r cenadau i'r man yr oedd y saint yn dysgwyl am dano; a phan y cyrhaeddodd yno, croesawyd ef ganddynt oll, a syrthiasant ar eu gliniau, a gofynasant iddo bregethu. Er mwyn iddo gael gwell mantais, chwennychent ei arwain i ben bryn uchel, lle y pregethasai o'r blaen. Ymesgusododd am beth amser, gan ddywedyd nas gallai ef wneyd yr hyn a ofynent. Cydsyniodd â'u cais, pa fodd bynag, o'r diwedd, ond gwrthododd fyned i ben y bryn, a dywedodd na fynai efe un man i sefyll arno ond y tir gwastad. Yna, dechreuodd bregethu allan o gyfraith Crist, a chlywai pawb yn gyffredinol ei lais mor eglur a sain udgorn, fel y rhyfeddent oll. Ac fel y pregethai Dewi ar y tir gwastad a grybwyllwyd, cyfododd y llawr megys mynydd uchel dan ei draed, fel y gwelodd pawb ef; ac y mae y bryn yn weledig hyd yn bresennol, ac yn wastattir o bob parth iddo; "a'r wyrth a'r rhyfeddod hono a wnaeth Duw i Dewi yn Llanddewibrefi."

Yna cytunasant yn mysg eu gilydd i foli Dewi Sant, ac i gydnabod yn unfrydol ei fod yn dywysog ar saint Ynys Prydain, gan ddywedyd fel hyn:—"Megys y rhoddes Duw benadur yn y môr ar bob cenedl o'r pysgod, ac megys y rhoddes Duw benadur yn y ddaiar ar yr adar, felly y rhoddes ef Dewi yn benadur ar y dynion yn y byd hwn; ac yn y modd y rhoddes Duw Matheus yn Iudea, a Lucas yn Alexandria, a Christ yn Ierusalem, a Phedr yn Rhufain, a Martin yn Ffrainc, a Samson yn Llydaw, y rhoddes i Dewi Sant fod yn Ynys Prydain." "A'r dydd hwnw, holl saint yr ynys hon, a'r breninoedd oll, a ostyngasant ar eu gliniau i addoli Dewi, ac a roddasant iddo fod y penaf o saint Ynys Prydain; ac yr oedd efe yn haeddu hyny; a'r dydd hwnw y rhoddodd Dewi noddfa ac amddiffyn i bob cyfryw ddyn a'r a wnelai ddrwg, ac a ffoai ato am nawdd. Hon yw noddfa Dewi i bawb a fo yn ninas Rubi, yn nawdd Dewi, ac o dan ei amddiffyn oddi wrth y byd, y mae iddo genad i fyned o Ddyfi hyd at Deifi; yn ddiogel oddi wrth y byd, a mwy na hyny, yn ddiogel oddi wrth bob sant, a brenin, a dyn yn yr ynys hon. Noddfa Dewi yw pa le bynag y bo tir cyssegredig i Dewi Sant, na lyfaso na brenin, na thywysog, nac esgob, na sant roddi nawdd iddo o flaen Dewi; canys efe a gafas nawdd o flaen pawb, ac nis cafas neb o'i flaen ef, canys ef a osodes Duw a dynion yn benaf o'r holl ynys."

Drachefn, tra yr oedd Dewi, ar y dydd Mawrth diweddaf o Chwefror, yn gwrandaw ei ddysgyblion yn gwasanaethu Duw, clywodd angel yn dywedyd wrtho, "Dafydd, beth a geisiaist er ys talm gan dy Arglwydd Dduw, y mae yn barod pan y mynech." Cyfododd yntau ei wynebpryd i fyny yn llawen, a dywedodd, "Yr awr hon, Arglwydd, cymmer dy was i'th dangnefedd." A chlywodd y dysgyblion yr hyn a ddywedasid, a synwyd hwy yn ddirfawr, a syrthiasant i lawr fel meirw; a thra yn eu cyfyngder, clywsant lef ddiddan, ac arogl persawrus yn llenwi y ddinas. A llefarodd Dewi yr ail waith yn uchel, "Arglwydd Iesu Grist, cymmer fy enaid, ac na ad fi yn hwy i drigo yn y drygau hyn." Wedi hyny, clywsant yr angel yn dywedyd eilwaith wrth



Digitized by Google

Dewi, "Dafydd Sant, ymbarotoa erbyn y dydd cyntaf o Fawrth: fe ddaw dy Arglwydd di, Iesu Grist, a naw rhad nef gydag ef, a rhai tecaf y ddaiar, ac a eilw gyda thi o'r rhai a ddewisech o ysgolheic, a lleyc, a gwirion a phechadur, ieuanc a hen, mab a merch, gŵr a gwraig, morwyn a phutain, Iuddew a Sarassin, a hyny a ddaw gyda thi." Pan y clywodd y brodyr hyn, torasant allan i wylo ac ochain, gan ddywedyd, "Arglwydd Dewi Sant, cynnorthwya ein tristwch ni." Yna y dywedodd Dewi wrthynt, "Fy mrodyr, byddwch wastad o'r un meddwl; a pha beth bynag a welsoch ac a glywsoch genyf fi, cedwch ef, a gorphenwch y peth mwy."

Ac o'r dydd hwnw hyd yr wythfed, nid aeth Dewi allan o'r eglwys i bregethu na gweddïo. Y mae chwedl iddo fyned gyda'r angel un diwrnod drwy yr ynys hon a'r Iwerddon. Gan i'r angel ddyweyd, "Gwybyddwch yr ä eich athraw, Dewi Sant, o'r byd hwn yr wythnos nesaf at yr Arglwydd," gwelid saint yr ynys hon, a saint yr Iwerddon, yn myned yn nghyd o bob parth i ymweled â Dewi. O! pwy yna a allai ddyoddef wylofain y saint, neu ocheneidiau y meudwyaid, neu yr offeiriaid a'r dysgyblion yn dywedyd, "Pwy a'n dysg ni?" Cwyn y personiaid yn dywedyd, "Pwy a'n cynnorthwya ni?" Anobaith y breninoedd yn dywedyd, "Pwy a'n hurdda ni? Pwy a fydd yn dad cyn drugaroced a Dewi? Pwy a weddïa drosom ni ar ein Harglwydd?" Cwynfan y tlodion a'r cleiflon yn udaw, y mynneich a'r gweryddon, a'r rhai priod a'r penydwyr, y gweision ieuainc a'r morwynion, y meibion a'r merched, a'r rhai newydd eni ar eu bronau yn gollwng eu dagrau. Yr oedd yno alar cyffredinol —breninoedd yn galaru am eu brawd, hynafgwyr yn galaru am eu mab, a'r meibion yn galaru am eu tad. Dydd Sul, canodd Dewi offeren, a phregethodd i'r bobl. Yn niwedd y bregeth, bendithiodd Dewi bawb yn gyffredinol: yna llefarodd fel hyn, "Arglwyddi, frodyr, a chwiorydd, byddwch lawen, a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch genyf fi, a minnau a gerddaf y ffordd yr aeth ein tadau ni iddi; ac yn iach iwch; a phoed grymus. fo iwch fod ar y ddaiar, ac fyth bellach nid ymwelwn ni yn y byd hwn." Yna cyfododd y gynnulleidfa yn gyffredin, gan gwyno ac wylofain, a dywedyd, "Och, na lwnc y ddaiar ni! Och, na ddaw tân i'n llosgi ni! Och, na ddaw y môr dros y tir! Och, na syrth y mynyddoedd ar ein gwarthaf ni?" Ac yr oedd pawb o honynt ar fin angeu o ddydd Sul hyd ddydd Mercher ar ol marwolaeth Dewi: ni chwaethasant na bwyd na diod, ond gweddïent drwy dristwch. A nos Fawrth, yn nghylch caniad y ceiliog, wele, llanwyd y ddinas gan lu o angelion, ac yr ydoedd yn llawn o bob math o ganiadau a llawenydd; ac yn y bore, wele, daeth yr Arglwydd Iesu, a chydag ef naw urdd o angelion, megys y gadawsai ei fawrhydi, ac yr oedd yr haul yn llewyrchu ar yr holl luoedd.

A'r dydd Mawrth hwnw, y cyntaf o Fawrth, cymmerodd Iesu Grist enaid Dewi Sant, gyda mawr fuddugoliaeth, llawenydd, ac anrhydedd; a chludwyd ef gan yr angelion i'r "lle y mae goleuni heb ddiwedd, a gorphwys heb lafur, a llawenydd heb dristwch, ac amledd o bob rhyw dda, a buddugoliaeth, a chlaerder, a thegwch..... lle y mae Abel gyda'r merthyron, lle y mae Enoch gyda'r rhai byw, lle y mae Noah gyda'r llongwyr, lle y mae Abraham gyda'r patrieirch, lle y mae Melchisedec gyda'r offeiriaid, lle y mae Iob gyda'r rhai da eu dyoddef, lle y mae Moysen gyda'r tywysogion, lle y mae Aaron gyda'r esgyb, lle y mae Dafydd gyda'r breninoedd, lle y mae Esaias gyda'r prophwydi, lle y mae Mair gyda'r gweryddon, lle y mae Pedr gyda'r apostolion, lle y mae Pawl gyda gwŷr Groeg, lle y mae Thomas gyda gwŷr yr India, lle y mae Ieuan [Ioan] gyda gwŷr Asia, lle y mae Matthew gyda gwŷr Iudea, lle y mae Lucas [Luc] gyda gwŷr Achaia, lle y mae Marcus [Marc] gyda gwŷr Alexandria; lle y mae Andreas gyda gwŷr Scythia; lle y mae yr angelion a'r archangelion, a cherubiaid, a seraphiaid, a brenin y breninoedd yn oes oesoedd."—(*Williams' Biog. Dict.; Lives of the Camb. Brit. Saints.*)

DEWIN—IAID. Enw cyffredinol ydyw hwn yn arwyddo pob dosbarth o rodreswyr a gymmerant arnynt egluro pethau tywyll, a rhagfynegu dygwyddiadau dyfodol. Prawf o hyn ydyw fod yr enwau a gymhwysir at y gwahanol ddosbarthau yn cael eu defnyddio yn y Beibl yn dra mynych yn gyfystyr; megys astronomyddion, brudwyr, consurwyr, daroganwyr, doethion, hudolion, planedyddion, swynwyr, swynyddion, swyngyfareddwyr, ymofynwyr â'r meirw, a'r enw dan sylw—dewiniaid—oll o'r un dosbarth, ond yn arfer gwahanol ystrywiau a seremoniau i gyflawnu eu rhodreswaith. Ac y mae yn dra sicr fod yr holl nodweddau, neu o leiaf y rhan fwyaf o honynt, yn ymgyfarfod yn yr un personau.

Yr *astronomyddion* (o'r Groeg, *αστερα*; Seisoneg, *astrologers*) oedd fath o ddewiniaid a ragfynegent bethau trwy ymgynghori â sefyllfa y gwahanol gyrff nefol. Yr oedd y dosbarth hwn o ddewiniaid mewn bri mawr yn mysg yr holl hen genedloedd, oddi gerth y Groegiaid yn unig. Dywedir eu bod ar yr un tir yn mysg y Chineaid a'r amaethwyr; ac yr oeddynt mewn parch dirfawr yn mysg y Caldeaid a'r Aiphtiaid; ond nid ydyw llyfrau Moses yn son am danynt, os nad oeddynt yn gynnwysedig yn mysg y dewiniaid a'r swynwyr, yr hyn, fel y crybwyllwyd eisoes, sydd dra thebyg. Ceir cyfeiriad pendant atynt yn *Esa.* xlvii. 13, 14, 15; *Dan.* i. 20; ii. 2, 10; iv. 7; v. 11.

Ymddengys i'r Iuddewon, yn ystod y caethiwed, ddysgu y gelfyddyd; a'u bod er y pryd hyny wedi bod yn dra hoff o honi; o leiaf, yr oeddynt yn nodedig felly yn y canrifoedd boreuaf o'r cyfnod Cristionogol. Iuddewon oedd amryw o'r ysgrifenwyr mwyaf enwog ar astronomyddiaeth dan y Caliphaid, neu olynwyr Mahomet; megys Messahlah, Moses Ben Maimon, Solomon Jarchi, ac amryw ereill.

Dosbarth arall o ddewiniaid y sonia yr Ysgrythyrau am danynt yw *brudwyr*,—gair yn deilliaw o *brud*, sef hanes, oeslyfr, cofiyfr: Seis., *observer of times*,—un yn cymmeryd arno ragddywedyd dygwyddiadau gwladol a naturiol wrth symmudiad y cymylau, y diffygion ar yr haul neu y lleuad, a'r cyffelyb. Ymddengys fod y rhai hyn yn dal perthynas â'r astronomyddion. Crybwyllir am danynt yn *Lef.* xix. 31; xx. 6; *Deut.* xviii. 12; *Esa.* xix. 3 (*wizards* yw yr enw Seisoneg yn y lleoedd uchod): *Dan.* ii. 27; iv. 7; v. 11—yma, *soothsayers* ydyw y gair Seisoneg.

*Consurwyr* sydd ddosbarth arall o ddewiniaid a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau. Deillia yr enw hwn yn amlwg o'r Lladin, *conjurare*; Seis., *conjurer*. Yr enw Hebraeg yw שאל אוב, a gyfieithir i'r Seisoneg yn gyffredin fel hyn, *consulter*

Digitized by Google

*with a familiar spirit*=ymgynghorydd âg ysbryd dewiniaeth. Cyfieithiad y Deg a Thrigain yw ἐγγαστρίμυθος=cyllebrydd (*ventriloquist*); rhai a ymofynent â'r ysbryd dewiniaeth y cymmerant arnynt ei fod ynddynt, ac a roddent ei atebion i ereill. Cymhwysid yr enw אוב (*Ob*) atynt gyda golwg ar yr ysbryd, neu y diafol, a'u cynhyrfent, ac a chwyddai y bol, nes yr ymddangosai fel ochrau potel. Fel hyn, yr oedd *Ob* yr Hebreaid yr un peth yn hollol a *Pytho* y Groegiaid; a defnyddid y gair, nid yn unig i ddynodi y gweithredydd, ond y πνεῦμα πύθωνος (yr ysbryd dewiniaeth) a'i meddiannai. Gwel *Lef.* xx. 27, a 1 *Sam.* xxviii. 8, lle y cyfieithir ef genym ni yn "ysbryd dewiniaeth:" ond yn *Deut.* xviii. 11, ac *Act.* xix. 13, defnyddia ein cyfieithwyr ni y gair *consuriwr.*

*Doethion* (μαγοι=*magicians, wise men*): oedd hen sect o ddewiniaid a gafodd ei dechreuad, fel y tybir, yn mysg y Mediaid, ac a ddaeth i fri mawr yn mhlith amryw genedloedd. Gwel Doethion.

Y dosbarth nesaf o ddewiniaid y sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau yw *hudolion;* yn deilliaw o *hud*—deniad, llithiad. Ceir y gair yn *Exod.* vii. 11; *Dan.* ii. 2; *Mal.* iii. 5, lle y defnyddia y cyfieithwyr Seisonig y gair *sorcerers;* yn *Deut.* xviii. 10, lle y defnyddia y Seison *witch;* ac *Ier.* xxvii. 9, lle y rhydd y Seison *enchanters.* Mae y gair Hebraeg (מכשף) yn arwyddo dadguddio. Ymddengys eu bod, fel y dosbeirth ereill, yn cymmeryd arnynt ddadguddio cyfrinachau, pethau wedi colli, canfod trysorau cuddiedig, a deongli breuddwydion; ac felly, yn llwyddo i *hudo* eu cydwladwyr hygoelus.

*Planedyddion,* a ddeillia o planed (*a planet*): un yn ymgynghori â'r planedau, tebyg i'r astronomyddion, er mwyn rhagfynegu pethau dyfodol. Yr enw Hebraeg מעונן=*meonen*, a ddeillia o ענן=*cwmwl*, ac a arwydda rai, fel y brudwyr, yn dewinio wrth symmudiad y cymylau, &c. Cyfarfyddir â'r gair yn *Deut.* xviii. 10, 14.

*Swynwyr, swynyddion, swyngyfareddwyr:*—oll yn deilliaw o *swyn* (*a charm*)—ydynt wahanol enwau ar ddosbarth arall o ddewiniaid. Ceir yr enw *swynwyr* yn *Deut.* xviii. 11 (Seis., *charmen*); *Exod.* vii. 11, 22; viii. 7, 18, 19; ix. 11 (Seis., *magicians*); *Act.* xiii. 6, 8 (Seis., *sorcerer;* Groeg, μάγος); *swynyddion,* yn 1 *Sam.* xxviii. 3; 2 *Cron.* xxxiii. 6; 2 *Bren.* xxiii. 24 (Seis., *those that had familiar spirits*); *Ier.* xxviii. 9 (Seis., *sorcerers*); a *swyngyfareddwyr* yn *Dad.* xxi. 8; xxii. 15 (Seis., *sorcerers*). Y mae enw Hebraeg y rhai hyn yn deilliaw o air sydd yn arwyddo *sarff;* a chyfeiria, y mae yn dra thebyg, at rai a arferent rinio seirff, yr hwn oedd hoff ddull y dwyreinwyr o ddewinio, ac y mae yn parhau yn ei fri yno hyd y dydd heddyw.

*Ymofynwyr â'r meirw* (Seis., *necromancers*), sydd ddosbarth nodedig arall o ddewiniaid. Arferai y rhai hyn fyned i fynwentydd, a manau cyffelyb, i chwilio cyrff y meirw; ond yn fwy mynych, cymmerent arnynt gyfodi y meirw, trwy gymhorth yr *Ob,* fel y ddewines o Endor, a dwyn pethau dirgel i'r amlwg o'r byd anweledig; ïe, cafwyd lluaws o'r rhai hyn mor ryfygus a hòni y gallent ddwyn hyd yn oed ysbrydion drwg a da, gystal ag ysbrydion dynion, o'r byd arall, i fod at eu gwasanaeth. Dywedir mai y dosbarth yma a olygir yn *Gen.* xli. 8; *Exod.* vii. 11; *Lef.* xix. 26, er nas cyfieithir hwy felly yma; ond yn *Deut.* xviii. 11, ceir, "nac a ymofyno â'r meirw;" ac, yn y Seisoneg, "a *necromancer.*"

Crybwyllwyd eisoes fod y gair *dewiniaid* yn enw cyffredinol ar yr holl ddosbarthiadau hyn; ac y mae yn cael ei ddefnyddio yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl yn dra mynych; ac mewn lluaws o'r manau hyny, defnyddir geiriau gwahanol yn y cyfieithiad Seisoneg; yr hyn sydd yn cadarnhau y syniad mai enw cyffredinol ydyw; megys *Deut.* xviii. 14; *Esa.* viii. 19; xliv. 25; *Ier.* xxvii. 9; xxix. 8; *Micah* iii. 7; *Zech.* x. 2 (Seis., *diviners*); *Gen.* xli. 8, 24; *Dan.* ii. 2, 10, 27; iv. 7, 9; v. 11 (Seis., *magicians*): 1 *Sam.* xxviii. 3; 2 *Bren.* xxi. 6; xxiii. 24; 2 *Cron.* xxxiii. 6 (Seis., *wizards*): *Lef.* xix. 31; xx. 6 (Seis., *those that have familiar spirits*); *Ios.* xiii. 22; *Micah* v. 12 (Seis., *soothsayers*).

Dwy waith, hyd yr ydys yn cofio, y cyfarfyddir â'r gair *dewin* yn y rhif unigol yn y Beibl, sef yn *Ios.* xiii. 22; *Dan.* ii. 10.

Y mae y gair *dewin,* yn ol y Dr. Pughe, yn deilliaw o *dew*—gair a arferid yn fynych gan yr hen ysgrifenwyr Cymreig am Dduw; ac y mae yn dal perthynas agos â'r Ffrancaeg, *Dieu;* Lladin, *Deus;* Groeg, Θεός; a dichon mai yr olaf ydyw eu gwreiddyn oll. Dywed Charles, "nad yw y gair *dewin,* o ran ei ansawdd, yn cario un ystyr *drwg* mwy na *da,* ond fel y mae drwy arferiad cyffredinol yn cael ei gymmeryd mewn ystyr drwg." Pa fodd bynag, nid yw y gair yn cael ei arfer yn yr Ysgrythyrau, fel y sylwa Mr. Charles ei hun, ond "am ddynion drwg a thwyllodrus, yn hudo dynion ar eu hol er mwyn elw, trwy gymmeryd arnynt hysbysu rhyw ddirgelwch am bethau dyfodol."

DEWINES, [*dewin*]; nid yw y gair hwn i'w gael yn y Beibl Cymraeg ond unwaith yn unig, hyd yr ydym yn cofio; sef, yn 1 *Cron.* x. 13, lle y dywedir,—"Felly y bu farw Saul, am ei gamwedd a wnaethai efe yn erbyn yr Arglwydd, sef yn erbyn gair yr Arglwydd, yr hwn ni chadwasai efe, ac am iddo ymgynghori â *dewines,* i ymofyn â hi." "*One that had familiar spirit*" ydyw y Seisoneg sydd yma am y gair Cymraeg *dewines.* Pan sonir gyntaf am y ddewines hon, yn 1 *Sam.* xxviii. 7, "gwraig o berchen ysbryd dewiniaeth" y gelwir hi yn y cyfieithiad Cymraeg; ac yn y cyfieithiad Seisoneg,—"*a woman that hath a familiar spirit.*" Ei henw Hebraeg yw, בעלת אוב, *meistres yr ob* (*potel* neu *gostrel*)—un yn meddu ysbryd cythreulig; yn llefaru ynddi â llais dwfn o'i cheudod, megys o botel neu gostrel. Gwel Dewin. Un o'r darluniad yma oedd yr hon a elwir yn gyffredin "y ddewines o Endor," â'r hon yr ymgynghorodd Saul ar ol i'r Arglwydd wrthod ei ateb "na thrwy freuddwydion, na thrwy Urim, na thrwy brophwydi" (1 *Sam.* xxviii. 6); am yr hon y dywedir ddarfod iddi "ddwyn Samuel i fyny" ar gais Saul (*adn* 11—14).

Y mae amryw farnau gyda golwg ar y ddrychiolaeth a ymddangosodd i Saul ar yr achlysur hwn, ac y mae llawer o ddynion dysgedig wedi ysgrifenu yn egnïol ar bob ochr. Gellir crynhoi y gwahanol syniadau ar y pwnc i bedwar dosbarth—y dosbarth sydd yn dal allan mai Samuel ei hun a ymddangosodd; y dosbarth sydd yn credu mai Satan a ymddangosodd yn rhith Samuel; y dosbarth sydd yn credu mai gwyrth oedd yr holl ymddangosiad; a'r dosbarth sydd yn hòni na chymmerodd dim goruwchnaturiol le, ond i'r cwbl gael ei ddwyn yn mlaen drwy ddichell a medr y wraig, yn gweithredu ar ofn a hygoeledd Saul. Yr oedd Saul, yr hwn oedd wrth natur yn ddyn

Digitized by Google

gwan a chynhyrfus, wedi dyfod yn awr, o blegid amryw brofedigaethau a helbulon, bron yn gwbl orphwyllog: yr oedd efe yn ofni, fel y dywed y Beibl, a'i galon yn crynu yn ddirfawr: 1 *Sam.* xxviii. 5. Yn yr agwedd meddwl yma, a thra yr oedd efe ar fin ei frwydr olaf, mae yn gorchymyn i'w weision ei hun geisio gwraig iddo, o berchen ysbryd dewiniaeth; ac y mae efe, a dau o'i weision gydag ef, yn myned ati, "liw nos"—yr amser mwyaf cymhwys i arfer twyllwaith. Y mae yn ymddyddan â'r wraig ar ei phen ei hun, tra yr oedd ei ddau was, pa un bynag ai gelynion dirgel ai gwir gyfeillion iddo oeddynt, o'r neilldu yn rhywle, ond yn agos wrth law. A allasai un o'r ddau hyn, neu ryw un arall, ddim cytuno â'r ddewines i bersonoli Samuel mewn ystafell arall? canys ymddengys na welodd Saul y ddrychiolaeth, er iddo siarad â hi (*adn.* 13, 14); yr hon, fel y dylid sylwi, na ddywedodd ddim wrtho nas gallasai ei weision eu dywedyd, oddi gerth y geiriau hyn—"yfory y byddi di a'th feibion gyda mi" (*adn.* 19); i'r hyn, pa fodd bynag, y gellir ateb, na chymmerodd marwolaeth Saul le dranoeth, a bod y gair a gyfieithir yma "yfory" yn ddigon amwys; canys er bod y gair מחר yn arwyddo "yfory" mewn rhai ymadroddion, y mae yn arwyddo y dyfodol, annherfynol, mewn manau ereill: *Exod.* xiii. 14, a gwel ymyl y ddalen; *Jos.* iv. 6, 21; cymharer *Mat.* vi. 34. Dywedir yn mhellach, nad oedd ei gwaith yn "llefain â llef uchel," ac yn dywedyd wrth Saul yr un amser ei bod yn ei adnabod ef, yn ddim amgen na dichell brydlawn y ddewines, wedi ei fwriadu i fwyhau ei medr yn ei chelfyddyd.

Ond gwrthddadleuir yn erbyn y dyb fod dim cydhoced wedi ei chwareu, am fod y Beibl, nid yn unig yn gosod allan fod y ddewines yn sicrhau, ond ei fod yntau ei hun yn sicrhau, ei bod hi wedi gweled Samuel, a'i fod wedi llefaru wrth Saul, ac na roddir yr awgrym lleiaf nad y gwir Samuel oedd yr hwn y lleferir am dano. Dygir yr un gwrthddadleuon yn erbyn fod cyllebraeth (*ventriloquism*) wedi cael ei arfer; yr hyn a seiliwyd ar air a ddefnyddiwyd gan y Deg a Thrigain, ἐγγαστρίμυθος.

Mewn atebiad i'r rhai sydd yn deall y geiriau yn llythyrenol, ac yn dal mai Samuel a ymddangosodd yn weithredol, megys Justin Ferthyr, a Josephus, &c., dywedir y buasai ymddangosiad gwirioneddol Samuel yn anghysson â'r hyn a ddysgir gan ysbrydoliaeth am sefyllfa y meirw; ac y mae yn cymmeryd yn ganiataol y gall enaid neu ysbryd gymmeryd ffurf gorfforol, ymddyddan yn glywadwy, &c.; ac yn mhellach, nas gellir credu y byddai i Dduw oddef i eneidiau ymadawedig ei weision gael eu cyrchu yn ol i'r ddaiar trwy ddefodau cwbl goegion, neu rai yn cael eu heffaith gan gydweithrediad y diafol.

Y mae rhai ereill, fel y crybwyllwyd, yn credu i'r ddewines lwyddo i gael gan Satan, neu ryw ysbryd drwg arall, bersonoli Samuel. Ond mae y dybiaeth yma, heb son am anhawsderau ereill, yn priodoli dim llai na gallu gwyrthiol i'r diafol, canys y mae yn cymmeryd yn ganiataol y gall bod ysbrydol ac anghorfforol ymddangos, ac y gall Satan gymmeryd yr ymddangosiad a ddewiso.

Heb law hyn, y mae yr hanesydd yn galw yr ymddangosiad yma i Saul yn שמואל הוא="Samuel *ei hun*" (gadewir y gair olaf allan yn hollol gan ein cyfieithwyr); yr hyn nis gallasai wneyd yn unol â'r gwirionedd, pe na buasai yn ddim ond y diafol; yr hwn, heb law hyny, sydd yn ceryddu Saul yn llym am ei annuwioldeb a'i ddrygioni. Byddai caniatau y gallai Satan, neu ysbryd drwg arall, bersonoli rhywun yn ol ei ewyllys, beryglu yr amlygiadau cryfaf o blaid Cristionogaeth.

Y mae ereill yn dal eglurhad sydd yn ymddangos â chryn sail iddo yn yr Ysgrythyrau mewn hanesion am bethau cyffelyb wedi cymmeryd lle; sef, mai adroddiad yw yr holl hanes o wyrth—*darluniad neu argraffiad dwyfol* ydyw, mewn rhan ar synwyrau Saul, ac mewn rhan ar eiddo y wraig, ac wedi ei fwriadu fel cerydd a chosp ar Saul. Dadleuir oddi wrth rediad yr hanes yn *adn.* 11, 12, yr ymddangosodd Samuel cyn i'r wraig gael amser i arfer ei hudoliaeth, ei mygdarthiad, &c.; canys cyn gynted ag y gofynodd y wraig, Pwy a ddygaf fi i fyny atat ti? ac iddo yntau ddywedyd, Dwg i mi Samuel i fyny; canfu y wraig Samuel, a llefodd â llef uchel—personolwyd Samuel ei hun o flaen ei meddwl, dygwyddiad mor groes i'w dysgwyliad fel y llefodd allan gan ofn. Ar yr un pryd, a thrwy yr un moddion gwyrthiol, gwnaed hi yn hysbys o'i hymwelydd breninol. Yna y mae y weledigaeth yn parhau yn meddwl Saul, trwy yr hon y mae efe yn derbyn ei gerydd olaf o'r nef, ac yn clywed dedfryd ei dynged agosaol. Fel hyn, cyfryngodd Duw trwy wyrth cyn i unrhyw ffurfiau dewinol gael eu harfer, megys ag y gwnaeth er rheoli meddwl Balaam pan aeth brenin Moab i ymofyn â dewiniaeth, fel y gorfu iddo fendithio y rhai y mynai Balac iddo eu melldithio (*Num.* xxiii); ac megys ag y cyfryngodd Duw hefyd pan yr anfonodd Ahaziah i ymgynghori â Baal-zebub ei dduw yn nghylch ei adferiad, pan y rhwystrodd efe y cenadau trwy ei brophwyd Elias, y ceryddodd eu meistr, ac y cyhoeddodd ei farwolaeth: 2 *Bren.* i. 2, 6. Gellir sylwi yma hefyd i Saul gael ei gollfarnu i farwolaeth a haeddodd efe yn gyfiawn, o blegid iddo arfer moddion y gwyddai eu bod yn anghyfreithlawn. Tybia rhai mai gweledigaeth o'r un natur oedd y cerydd a roddwyd i Elias yn Mynydd Horeb, pan y daeth "gwynt mawr a chryf yn rhwygo y mynyddoedd ac yn dryllio y creigiau o flaen yr Arglwydd," yr hwn a ddilynwyd gan "ddaiargryn," &c. 1 *Bren.* xix. 11, &c. Tybir hefyd mai o'r un natur yr oedd temtiad Crist. Y mae Farmer yn priodoli gadawiad allan y geiriau "ei hun" ar ol Samuel yn y lle hwn i ragfarn y cyfieithwyr.

Yn yr un dosbarth y mae yn rhaid cyfleu *hudoles*: *Exod.* xxii. 18; *Esa.* lvii. 3. Yn yr adnod gyntaf, *witch* sydd yn y cyfieithiad Seisoneg, a *rheibes* yw yn nghyfieithiad y Dr. Morgan. Dywed ysgrifenydd yn *Kitto's Bibl. Cyclopædia* mai ystyr priodol y gair Seisoneg *witch*, yn enwedig yn adeg y cyfieithiad Seisoneg, oedd benyw, yr hon, trwy gyfryngwriaeth Satan, neu yn hytrach trwy ysbryd dewiniaeth, wedi ei happwyntio gan Satan i'w dilyn, a gyflawnai weithredoedd goruchnaturiol, mewn canlyniad i gytundeb rhyngddi â Satan, wedi ei ysgrifenu ganddi â'i gwaed ei hun, trwy yr hyn y rhoddai ei hun i fyny i Satan am byth. Dywed y *Beibl Darluniadol*, yr arferir y rhyw fenywaidd yn y lle hwn, o herwydd mai merched oedd, y rhan amlaf, yn arferyd y grefft o ddewinio. Pa fodd bynag, y gair gwrywaidd "hudol" ydyw yn y cyfieithiad Cymraeg yn *Deut.* xviii. 10 (Seisoneg, *a witch*); ac yn lluosog, "hudolion," yn *Exod.* vii. 11; *Dan.* ii. 2; *Mal.* iii. 5 (Seis., *sorcerers*); *Jer.* xxvii. 9 (Seis., *enchanters*).

Ymddengys i ni fod i'r gair *hudoles* ystyr gwahanol yn yr ail destyn, *Esa.* lvii. 3, lle y dywedir

Digitized by Google

"Nesewch yma, meibion yr *hudoles*, had yr odinebus, a'r butain." Tybir mai ystyr y gair yn y lle hwn ydyw benyw hudoliaethus, yn denu ac yn llithio i lwybrau ac ymarweddiad halogedig ac aflan; ac mai gwahanol eiriau am yr un person ydyw "yr hudoles, yr odinebus, a'r butain," er mwyn cryfhau y syniad.

Rhaid dywedyd gair eto am ddewines arall y sonir am dani yn *Act.* xvi. 16; sef, y "llances yr hon oedd ganddi ysbryd dewiniaeth," a gyfarfu â Paul a'i gyfeillion yn Neapolis. Gellir casglu y tybia Barnes mai offeiriades Apollo yn Delphi oedd y ddewines hon. Pa fodd bynag, ymddengys fod rhyw ysbryd drwg ynddi, yr hwn a'i cynnorthwyai i dwyllo y rhai a ymofynent â hi, a'r hwn a fwriodd Paul alla o honi.

DEWINIAETH: megys y dywedwyd am y gair *dewin*, enw cyffredinol ydyw hwn hefyd am bob dosbarth o rodreswaith a arferid yn yr amseroedd gynt i ddarganfod pethau dirgel, ac i raghysbysu dygwyddiadau dyfodol. Gwelir gwirionedd hyn oddi wrth y ffaith fod yr un geiriau yn cael eu defnyddio yn gyfystyr am y gwahanol ddosbarthiadau yn dra mynych yn y Beibl; megys *brudiau* (*Lef.* xx. 27; 2 *Bren.* xxi. 6; 2 *Cron.* xxxiii. 6); *hudoliaeth* (2 *Bren.* ix. 22; xxi. 6; 2 *Cron.* xxxiii. 6; *Esa.* xlvii. 9, 12); *rhodreswaith* (*Act.* xix. 19); *swyngyfaredd* (*Gal.* v. 20; *Dad.* xviii. 23); *swynion* (2 *Bren.* xvii. 17; *Micah* v. 12; *Nah.* iii. 4; *Act.* viii. 11); *cyfareddion* (2 *Cron.* xxxiii. 6; *Dad.* ix. 21); a *dewiniaeth* (*Gen.* xliv. 5, 15; *Num.* xxii. 7; xxiii. 23; *Deut.* xviii. 10; 2 *Bren.* xiv. 17; *Ier.* xiv. 14; *Ezec.* xii. 24; xiii. 6, 7, 23; xxi. 21—23; *Micah* iii. 6; *Act.* xvi. 16; *Lef.* xx. 27; 1 *Sam.* xxvii. 7; *Num.* xxiv. 1; 1 *Sam.* xv. 23). Cymhared y darllenydd yr holl gyfeiriadau hyn â'r Beibl Seisoneg, er gweled fod yr un geiriau yn cael eu defnyddio yno hefyd yn gyfystyr.

Y mae y meddwl dynol drwy yr oesoedd wedi bod yn dra awyddus i wybod cwrs tynged, ac i ddeall yn mlaen llaw pa ganlyniadau a ddeilliai oddi wrth gynlluniau neu weithredoedd bwriadol; ac yn y gwledydd a'r oesoedd hyny lle y mae anwybodaeth am ddeddfau naturiol a hygoeledd wedi cydymuno i ddarostwng y meddwl, y mae wedi bod yn ymgais at foddhau y duedd naturiol hon i dreiddio i'r dyfodol trwy edrych am argoelion mewn pethau, rhwng pa rai a gwrthddrych eu pryder ni fodolai un cyssylltiad ond yn nychymyg y dewin. Cyfeirid at bob rhan o natur yn mron, fel yn arddangos, mewn amgylchiadau penodol, argoelion da neu ddrwg o dynged ddyfodol dyn; a daeth ofergoeliaeth ddall i edrych ar gydgyfarfyddiad damweiniol pethau, a flaenorai ryw ddygwyddiad neu argyfwng yn mywyd un neu ddau ddyn, fel rhagarweiniad sicr a dieithriad i ganlyniadau cyffelyb yn achosion dynion yn gyffredinol. Drwy y fath syniadau plentynaidd ac afresymol a hyn y rheolid ymddygiadau y paganiaid yn y materion pwysicaf, yn gystal ag yn amgylchiadau mwyaf cyffredin bywyd; ac oddi wrth hyn y deilliodd adarddewiniaid, daroganwyr, a'r holl dylwyth o dwyllwyr, y rhai, drwy gyssylltu hen draddodiadau âg ychydig o wybodaeth naturiol, a ddaethant i honi eu bod yn feddiannol ar gelfyddyd gyfriniol, pwysigrwydd a dylanwad yr hyn a chwanegwyd ganddynt yn ystrywgar drwy gyssylltu â hi bob peth ag oedd yn rhwysgfawr a dymunol yn seremoniau eu crefydd.

Yr oedd y gelfyddyd hon, pe byddai yn briodol galw cynnyrch anwybodaeth a thwyll yn gelfyddyd, yn wahanedig i amrywiol gangenau, a phob cangen yn meddu ei dysgawdwyr penodol. Mewn golygiad cyffredinol, gellir edrych ar ddewiniaeth un ai yn naturiol neu yn gelfyddydol: y blaenaf yn seiliedig ar y syniad bod yr enaid yn meddu, drwy ei natur ysbrydol, ryw ragwybodaeth am y dyfodol, yr hon a amlygir ganddo yn neillduol mewn breuddwydion a phan yr agosâ at angeu: tra y gorphwys yr olaf ar ddeongliadaeth neillduol o drefn natur, yn gystal ag ar y sylwadau a'r prawfiadau a ddygwyd i mewn gan ofergoeliaeth. Y mae y gwahanol gyfundrefnau a'r dulliau a ffynent yn yr hen amseroedd yn dra lluosog; megys, er anghraifft, Awyrgoel, dewiniaeth oddi wrth yr awyr a'r gwynt; Rhifddewiniaeth, yr hon a ddygid yn mlaen drwy ffugrau; Mwg-armes, sef dewiniaeth â mwg aberthau; Llaw-armes, sef dewiniaeth drwy y llinellau ar gledrau y dwylaw; Dwfr-ddewiniaeth; Tân-ddewiniaeth, &c. Ond heb gynnyg nodi ac egluro yr holl ddulliau o ddewinio a arferid yn yr hen oesoedd, nyni a gyfyngwn ein hunain at y dulliau a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau:—1. Y dull o ddewinio trwy astronomyddiaeth, a thrwy agweddau natur. *Doethion* y gelwir y personau a arferent y dull hwn yn y Beibl: *Exod.* vii. 11; *Esa.* xliv. 25; *Ier.* l. 35; *Dan.* ii. 12, &c. 2. Y dull o raghysbysu dygwyddiadau drwy ehediad adar, a thrwy ddefnyddio y coelbren. [Gwel d.g.] 3. Y dull o ragfynegu cyfnewidiadau gwladol a naturiol oddi wrth ysgogiad y cymylau, diffygion yr haul a'r lleuad, a chyfuniad y ser: *Esa.* xlvii. 13. *Brudwyr* ydyw yr enw Ysgrythyrol ar y dosbarth hwn o ddewiniaid: *Lef.* xix. 31; xx. 6; *Deut.* xviii. 11; *Dan.* ii. 27; iv. 7; v. 11; *Esa.* xix. 3. 4. Y dull o ddewinio trwy swyno seirff. Y mae hyn yn cael ei arfer eto yn y dwyrain. 5 Y dull o gyfleu neu yngan geiriau a phethau mewn trefn benodol, fel math o swyn. 6. Y dull o ddarogan dygwyddiadau drwy ysbryd dewiniaeth: *Lef.* xx. 27; 1 *Sam.* xxviii. 8; *Act.* xvi. 16. 7. Y dull o alw y meirw o'u beddau, a dwyn dirgelion i amlygrwydd o'r byd anweledig, drwy fynychu beddau, edrych cyrff, ac yn fynychaf drwy gymhorth yr אוב (*Ob*), fel y ddewines o Endor. 8. Saeth-armes, fel ei gelwir, sef dull o ddewinio â saethau (*Ezec.* xxi. 21; 2 *Bren.* xiii. 14—19); anghraifft nodedig o'r hyn a geir yn hanes Nebuchodonozor, yr hwn, gan ei fod yn anmhenderfynol pa un ai ar Ierusalem ai ar Rabbah yr ymosodai yn gyntaf, a gymmerodd ei arwain yn hollol yn ei benderfyniad gan gyfres o ddefodau ofergoelus. Y modd y dewinid drwy saethau oedd, wedi yn gyntaf eu gloewi, fel y gellid eu dilyn yn well â'r llygaid, eu saethu â bwa, ac yna teithio yn y cyfeiriad y disgynai y nifer luosocaf o honynt; neu, wedi cymmysgu yn nghyd nifer o saethau âg enwau y dinasoedd diofryddedig wedi eu nodi arnynt, ymosod ar y gyntaf a dynid allan: neu trwy ddodi tair saeth mewn cod, megys y gwna yr Arabiaid, ar y gyntaf o ba rai y byddai yn ysgrifenedig, "Arwain fi, Arglwydd;" ar yr ail, "Attal fi, Arglwydd;" tra y byddai y drydedd heb ddim yn ysgrifenedig arni. Felly, os y gyntaf a dynid allan, byddai y dyn i fyned; os yr ail, byddai i ymattal; os y drydedd, gan na byddai un atebiad wedi ei gael, byddai yn rhaid ail wneyd. 9. Llatharmes, neu ddewiniaeth drwy ffyn: *Hos.* iv. 12. Y mae y dull hwn o ddewinio wedi ei gymmysgu â'r dull blaenorol, nid yn unig gan Jerome, Grotius ac ereill,

ond hyd yn oed gan y Deg a Thrigain, yn yr hwn y cyfieithir חצים Ezeciel yn ῥάβδος="gwialen." Ond y mae yr offerynau dewiniaeth y cyfeiria Hosea atynt yn hollol wahanol i'r rhai a ddysgrifir gan Ezeciel, חצים, gan mai saethau a ddefnyddir gan y diweddaf, tra y sieryd y cyntaf am מקל="ffon." Y dull o ddewinio drwy y ffon oedd, wedi ei gosod ar ei phen, gadael iddi syrthio, a phenderfynu yn ol y cyfeiriad i ba un y disgynai; neu, yn ol ereill, drwy fesur y ffon â'r bys, gan ddyweyd am bob rhychwant, "Myfi a äf," neu "Nid äf," a phenderfynu y mater yn ol yr hyn a ddywedid ar y mesuriad diweddaf. Arferid y ddau ddull, yn ol fel y dywed Jerome, yn dra mynych gan yr Assyriaid a'r Babiloniaid. 10. Dull arall o ddewinio oedd trwy "ymofyn â delwau," תרפים (*Ezec.* xxi. 21). Ystyrir yn gyffredin mai swyneilunod oedd y rhai hyn; ond rhydd y cyfieithiad Persiaidd, a rhai cyfieithiadau ereill, ar ddeall mai offerynau astronomyddol neu dablau oeddynt. 11. Modd arall o ddewinio oedd drwy edrych i iau aberth newydd ei ladd; a thrwy sylwi ar ei sefyllfa a'i lliw yn unol â rheolau penodol, canfyddid arwyddion ffafriol neu anffafriol. Y dull olaf y mae o bwys ei grybwyll yw y dull o ddewinio trwy "y cwpan." Ond yn mha ddull yr arferid ef—pa un ai drwy sylwi ar ymddangosiad rhyw gyfferïau swyngyfareddol a dywelltid i'r llestr, ai ynte fod yma gyfeiriad at gwpan enwog y dywedai hen draddodiad dwyreiniol er cyn cof ei bod wedi bod yn meddiant rhyw bersonau mawreddog, a'r hon a gynnrychiolai yr holl fyd; neu, yn ddiweddaf, pa un a ddylid cyfieithu y gair gwreiddiol נחש = 'dewinio" drwy y gair "chwilio" neu "ymofyn yn ddyfal," fel y mae amryw ysgrifenwyr dysgedig, awyddus i glirio nodweddiad Ioseph oddi wrth y cyhuddiad o arfer swyngyfaredd (*Gen.* xliv. 5), wedi ceisio profi—y mae yn hollol anmhosibl i ddyfod i un penderfyniad.

Os nad yn yr Aipht, magwrfa y gwyddorion a'r celfyddydau, y ganwyd dewiniaeth, y mae yn ymddangos bod y wlad hono wedi rhoddi cefnogaeth iddi er yn fore, a pha un a oedd rhai o'i ffurfiau wedi dyfod yn wrthddrychau ofergoeliaeth gyffredinol, neu ynte a arferid hwy er mwyn elw yn amser Ioseph, y mae yn eithaf hysbys bod swynwyr yn y wlad hono yn amser ymadawiad yr Israeliaid, gwybodaeth pa rai am ddirgelion natur, a'u medrusrwydd yn eu celfyddyd, a'u galluogai, i ryw raddau, i ymgystadlu â Moses mewn gwneuthur gwyrthiau. Trwy ba foddion hynod y cyflawnent y campau hyny, pa fodd y tröent eu gwïalenau yn seirff, y dyfroedd yn waed, ac y dygent allan lyffaint yn heigiau dirifedi, sydd ymofyniad ag sydd wedi peri dyryswch mawr i lawer o wŷr dysgedig a duwiol. Y mae rhai wedi tybio mai yr unig ffordd i roddi cyfrif am y gweithredoedd hyn ydyw eu priodoli i hudoliaeth a chastiau llaw ysgafn—y seirff, y llyffaint, a'r pethau ereill angenrheidiol, wedi eu darparu yn ddirgel wrth law. Ond dywed ereill bod yr anhawsderau sydd yn nglŷn â'r dull hwn o ddeongli mor eglur a lluosog, fel y rhaid i bob meddwl ystyriol addef bod yn llawer mwy rhesymol tybio bod y consurwyr hyn yn cael eu cynnorthwyo, yn nghyflawniad eu castiau hynod, drwy ganiatâd Duw, gan ysbryd dewiniaeth. "Gall daiar, awyr, a môr," medd un ysgrifenydd galluog, "gynnwys llawer o bethau na freuddwydiodd ein hathroniaeth erioed am danynt. Os ydyw yr ystyriaeth hon yn tueddu i ddarostwng balchder dysgeidiaeth, gall ddwyn ar gof i'r Cristion nad ydyw pethau dirgel yn perthyn iddo ef, ond i allu uwch."

Y mae yn naturiol tybied, gan na bu Moses erioed mewn un wlad wareiddiedig ond yr Aipht, bod yr holl awgrymiadau a geir yn ei ysgrifeniadau at y gwahanol ffurfiau o ddewiniaeth yn cyfeirio at y dulliau a arferid yn y wlad hono; ac yn wir yr oedd ei gydwladwyr, tra yno, wedi myned mor hoff o'r math yma o ofergoeledd, fel yr ymddengys ei fod yn cario dylanwad ar nodweddiad ac arferion y genedl yn gyffredinol drwy ei holl hanes. Bu y dewiniaid oedd yn lluosog yn mysg cynfrodorion Canaan, ac yn ngwlad y Philistiaid (*Esa.* ii. 6), yn fagl ac yn dramgwydd mawr i'r Israeliaid, wedi iddynt ymsefydlu yn Ngwlad yr Addewid; ac eto, er holl waharddiadau llymion y gyfraith, ni wnaethpwyd dim ymdrechion effeithiol i attal y pechod drwy gospi y troseddwyr hyd ddyddiau Saul; yr hwn, pa fodd bynag, a droseddodd y gyfraith ei hunan y noswaith cyn ei gwymp: 1 *Sam.* xxviii. Ond i Caldea y perthyn yr anrhydedd (?) o fod yn famwlad i ddewiniaeth. Yr oedd y dewiniaid wedi ennill y fath raddau o awdurdod a dylanwad yn y wlad hono, fel y ffurfient y dosbarth uchaf, ac y mwynhäent sefyllfaoedd yn y llys. Yn wir, yr oeddynt mor anhebgorol yn mysg y Caldeaid, fel na chyflawnid un weithred, ni ffurfid un cyssylltiad, nid adeiledid un tŷ, nid ymgymmerid âg un daith, ac ni ddechreuid un rhyfelgyrch, hyd nes y byddai y dewiniaid wedi nodi y diwrnod ffodus, ac wedi addaw llwyddiant. Ymfudodd tyrfaoedd lluosog o'r twyllwyr hyn ar wahanol amserau o Caldea ac Arabia i Wlad Canaan, i ddilyn eu celfyddyd ennillgar, yn neillduol yn ystod teyrnasiad y breninoedd diweddaf (*Esa.* viii. 19): a chanfyddwn Manasseh, nid yn unig yn gefnogydd iddynt, ond yn awyddus am ymddangos fel yn un o'u cymdeithion mwyaf medrus: 2 *Bren.* xxi. 6; 2 *Cron.* xxxiii. 6. Bu y caethiwed maith y buont ynddo yn Babilon yn foddion i ledaenu yn eangach fyth yn mysg yr Iuddewon hoffder dwfn at yr ofergoeledd hwn; o blegid wedi eu dychweliad i'w gwlad eu hunain, ac ar ol ymwrthod yn hollol âg eilunaddoliaeth, a thra yr oeddynt ar yr un pryd wedi eu hamddifadu o brophwydoliaeth, ymollyngasant yn raddol, fel y mae Lightfoot wedi dangos yn foddhaol, cyn ymddangosiad Crist, i bob ffurf o ddewiniaeth.—*Comment. on Mat.*

Yr oedd y gyfraith Fosenaidd yn cynnwys gwaharddiadau llymion yn erbyn pob math a ffurf o ddewiniaeth (*Exod.* xxii. 18; *Lef.* xix. 26, 31; xx. 7; *Deut.* xviii. 10, 11) fel yn cynnyrchu awydd am wybodaeth anghyfreithlawn ac yn tynu y meddwl oddi wrth yr unig ddoeth Dduw; tra, ar yr un pryd, y rhoddid addewidion arbenigol y byddai i Dduw anfon iddynt brophwydi, yn lle dewiniaid, y rhai a fynegent yr ewyllys ddwyfol, a ddadguddient y dyfodol, ac a ddysgent bob gwybodaeth ddefnyddiol yr ofer ymofynid am dani yn mysg y gau ymhònwyr hyny i ddoethineb. Y mae cryn ddadleu wedi bod, pa fodd bynag, yn mhlith gwŷr dysgedig, yn nghylch y cwestiwn, pa un ai cymmeryd arnynt eu bod yn meddu galluoedd goruchnaturiol yr oedd yn hen ddewiniaid, ai ynte a oeddynt yn cael eu cynnorthwyo mewn gwirionedd gan ysbrydion aflan. Mabwysiedir y golygiad diweddaf gan holl dadau boreuol yr eglwys yn mron, y rhai a appeliant, er cadarnhau eu golygiad, at iaith eglur yr Ysgrythyr; at weithredoedd Iannes ac Iambres yn nyddiau Moses; at y ddeddf ddwyfol,

yr hon ni buasai byth yn gwahardd pechodau nad oeddynt yn bodoli; ac at y tebygolrwydd cryf sydd na buasai ymhòniadau i ddeongli breuddwydion, ymddyddan â meirw, &c., byth yn cael ei gredu yn ystod cynnifer o oesoedd pe na buasai rhai anghreitffiau awdurdodol o wirionedd hyny i'w cael. O'r tu arall, y mae ysgrifenwyr galluog wedi bod yn dal ac yn dadleu nad oedd yr holl ffurfiau o ddewiniaeth ond cyfundrefn o dwyll, a bod yr Ysgrythyr ei hun yn fynych yn gwatwar y rhai a'i harferent fel yn hollol analluog i gyflawnu dim tu hwnt i alluoedd cyffredin natur: *Esa.* xlvii. 11—13; xliv. 25; *Ier.* xiv. 14; *Ionah* ii. 8.—(*Faber's Origin of Pagan Idolatry; Farmer's Dissert. on Miracles; Lightfoot's Works; Rosenmüller's Geog.*, vii. 101, 102; *Gesenius' Comment. on Isaiah; Richardson's Dissertation on the Manners of Eastern Nations; Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

**DIACON — IAID.** Gosodiad tra phwysig gyda golwg ar y pwnc yma a phynciau cyffelyb ydyw, mai y Testament Newydd yn unig sydd yn cynnwys rheolau a chyfarwyddiadau awdurdodol, y rhai y mae Cristionogion yn rhwym i'w dilyn gyda golwg ar hanfod, a threfn, a swyddogion yr Eglwys Gristionogol.

Pa chwanegiadau bynag a wnaed at y rheolau a'r cyfarwyddiadau crybwylledig, fel y sylwa y Dr. Dwight yn briodol, a pha mor ddoeth neu angenrheidiol bynag y gwnaethpwyd y cyfryw chwanegiadau gan ddynion, nis gallant hòni yr awdurdod neu y rhwymedigaeth leiaf ar gydwybodau Cristionogion. Ofer yw dywedyd yn ngwyneb hyn fod yr eglwys wedi ei gadael yn benagored a diamddiffyn rhag annhrefn a sism. Mae yr ateb i'r wrthddadl hon yn amlwg a chyflawn:—gadawyd yr eglwys fel y dewisodd Doethineb Anfeidrol ei gadael. Pe y gwrthddadleuid, yr hyn fel y tybir na wneir, nad ydyw y sefyllfa y gadawyd hi ynddi y sefyllfa oreu, er hyny byddai y clwyf heb un feddyginiaeth; canys nis gellir chwanegu at eiriau Duw heb fod yn agored i'r pläau a gyhoedda Ioan yn erbyn y cyfryw a wnant hyny.

Os dewisir gweled pa fodd y mae swydd diacon, a phethau ereill perthynol i'r Eglwys Gristionogol, wedi bod yn yr oesoedd tywyll Pabyddol, a ddilynasant yr oes apostolaidd, a pha fodd y mae yn awr mewn eglwysi a ddeilliasant o'r Eglwys Babaidd, gall y rhai sydd yn meddu amser a chyfleusdra, fel y dywed Milton, ddarllen yr hen ysgrifeniadau darniog, anghysson, ac a lygrwyd gan Babyddion, a briodolir i'r rhai a elwir "tadau yr eglwys," gystal a llyfrau ereill anysbrydoledig; ond nis gellir priodoli awdurdod iddynt fel rheolau Eglwys Crist, ac nid ydyw ei ddeiliaid ef yn rhwym i'w dilyn.

Ymddengys oddi wrth y Testament Newydd mai dau ddosbarth o swyddogion yn unig a sefydlodd yr apostolion i fod yn barhaus yn yr Eglwys Gristionogol; sef, *esgobion* neu *henuriaid*, a *diaconiaid*. Gwel ESGOBION; HENURIAID. Ni sonir yn y Testament Newydd am y ddau ddosbarth hyn o swyddogion mewn cyssylltiad â'u gilydd ond yn *Phil.* i. 1, a 1 *Tim.* iii. 1—13.

Cymreigiad ydyw y gair *diacon* o'r gair Groeg διάκονος (Seis., *deacon*); a'i ystyr llythyrenol cyntefig ydyw *gwas*—yn ol Wright, *un yn gwasanaethu yn y llwch.* Ceir y gair Groeg, διάκονος, yn unigol neu luosog yn y Testament Newydd, ddeg ar ugain o weithiau; a chyfleithir ef, yn unigol neu luosog, fel y dygwyddo, weithiau *gwas*, weithiau *diacon*, ond gan amlaf *gweinidog*, yn ol syniad y cyfieithwyr am ei ystyr yn ei wahanol gyssylltiadau. Buasai cyfieithu y gair, fel pob geiriau o'r fath, i un gair sefydlog, gan ddefnyddio hwnw yn unffurf a chysson, fel y Groeg yn mhob man, yn llawn mor ddymunol a ffyddlawn. Y manau y ceir y gair gwreiddiol, a'i wahanol gyfieithiadau (lle y gellir darllen *gwas*, *gwasanaethwr*, neu *diacon*, yn unigol neu luosog), yw y rhai canlynol:—

1. Gwas neu gwasanaethwr: *Ioan* ii. 5, 9 (Seis., *servants*).

2. Diacon: *Phil.* i. 1; 1 *Tim.* iii. 8, 12 (Seis., *deacons*).

3. Gweinidogion (yn y Seisoneg, *minister* sydd yn yr holl fanau hyn, ond lle y rhoddir *servants* rhwng ymsangau): *Mat.* xx. 26; xxii. 13 (*servants*); xxiii. 11 (*servant*); *Marc* ix. 35 (*servant*); x. 43; *Ioan* xii. 26 (*servant*); *Rhuf.* xiii. 4; xv. 8; xvi. 1 (*servant*, Cym. gweinidoges); 1 *Cor.* iii. 5; 2 *Cor.* iii. 6; vi. 4; xi. 15, 23; *Gal.* ii. 17; *Eph.* iii. 7; vi. 21; *Col.* i. 7, 23, 25; iv. 7; 1 *Thes.* iii. 2; 1 *Tim.* iv. 6.

Ymddengys mai gair cyffredinol ydyw, yn dynodi rhai yn cyflawnu rhyw fath o wasanaeth; ac y mae yn amlwg mai *gwas* ydyw y syniad penaf a drosglwydda yn mhob man.

Cyffelyb hefyd ydyw y ddau air arall perthynol i διάκονος (*diaconos*), a chyffelyb yw eu gwahanol gyfieithiadau; sef y ferf διακονέω (*diaconeô*), yr hon a gyfieithir yn *gwasanaethu*, *gweini*, a *gwneuthur*; a'r sylweddair διακονία (*diaconia*), a gyfieithir *gwasanaeth*, *gweinidogaeth*, *swydd*, a *chymhorth.*

Fel hyn, yn *Mat.* iv. 11; viii. 15; xx. 28; *Luc* x. 40; xii. 37, crybwyllir am yr angelion *yn gweini* i Grist; am Grist wedi dyfod "nid i'w *wasanaethu*, ond i *wasanaethu*;" am Martha yn grwgnach yn erbyn ei chwaer am iddi ei gadael i *wasanaethu* ei hunan; am yr Arglwydd, er dangos ei gymmeradwyaeth, yn ymwregysu, ac yn *gwasanaethu* ar ei weision ffyddlawn; yn *Ioan* xii. 26, dywed yr Iesu, "Os *gwasanaetha* neb fi, dilyned fi;" yn *Act.* vi. 2, dywed Pedr, "Nid yw gymmesur i ni adael gair Duw a *gwasanaethu* byrddau;" yn *Rhuf.* xv. 25; a 2 *Cor.* iii. 3, llefara Pau. am ei fynediad i Ierusalem "i *weini* i'r saint," ac am eglwys Corinth megys llythyr Crist wedi ei *weini* ganddo ef; ac yn 1 *Pedr* i. 12, cyfeirir at waith yr hen brophwydi yn *gweini* i ni: ond yn yr iaith wreiddiol, y mae yr holl *weini* a'r *gwasanaethu* hyn yn cael eu mynegi â'r ferf *diaconeô*, mewn gwahanol ffurfiau.

Eto, pan y llefara Luc (*pen.* x. 40) am Martha megys yn "draffferthus yn nghylch llawer o *wasanaeth*;" ac (*Act.* i. 17, 25; vi. 1, 4; ix. 29) am "y *weinidogaeth*, o'r hon y cyfeiliornodd Iudas;" am esgeuluso y gwragedd gweddwon yn y *weinidogaeth* feunyddiol;" ac am y dysgyblion yn bwriadu "anfon *cymhorth* i'r brodyr oedd yn preswylio yn Iudea;" pan y dywed Paul (*Rhuf.* xi. 13), "yr wyf yn mawrhau fy *swydd*;" ac (1 *Cor.* xii. 5 xvi. 15) "y mae amryw *weinidogaethau*, ond yr un Duw;" a bod "tŷ Stephanas wedi ymosod i *weinidogaeth* y saint;" pan y llefara (2 *Cor.* iii. 8; v. 18; xi. 8) am "*weinidogaeth* yr Ysbryd;" am "*weinidogaeth* y cymmod;" ac am ysbeilio eglwysi ereill i *wasanaethu* ("i wneuthur *gwasanaeth*") i Corinthiaid; pan (1 *Tim.* i. 12; *Col.* iv. 17; *Heb.* i. 14) y diolcha i Grist Iesu am ei "osod ef yn y *weinidogaeth*," ac y gorchymyn ddywedyd wrth Archipus, "Edrych at y *weinidogaeth* a dderbyniaist gan yr Arglwydd," ac y cyfeiria at

Digitized by Google

*weinidogaeth* angelion ar ran etifeddion iachawdwriaeth. Yn yr holl esamplau yma, y gair gwreiddiol a gyfieithir fel hyn ydyw *diaconia*= gwasanaeth.

Gwelir yn awr mor eang ac amrywiol yw y defnydd a wneir o'r geiriau dan sylw. Y maent yn dal perthynas yn y Testament Newydd â phob math o *wasanaeth*—gwasanaeth angelion, gwasanaeth oruchel ac ymroddol Crist, gwasanaeth y prophwydi a'r apostolion, gwasanaeth cariad i'r saint, gwasanaeth gweinidogion neu ynadon gwladol, gwasanaeth gweision mewn teulu, a hyd yn oed gwasanaeth neu weithrediadau twyllodrus ac annuwiol dirgel genadon Satan.

Ond heb law hyn, bernir yn gyffredin fod i'r geiriau dan sylw ystyr *penodol* neu *gelfyddydol* (*technical*) hefyd. Yn llythyrau yr apostolion y mae iddynt gymhwysiad llawer mwy cyfyng. Nid yw Paul wrth ysgrifenu at y Philippiaid (*Phil.* i. 1), yn crybwyll, fel yr awgrymwyd eisoes, ond am ddau fath o swyddogion—*esgobion* a *diaconiaid*. Ac er y darllenwn mewn manau ereill am henuriaid a bugeiliaid, profir i ni, yn *Act.* xx. 17, 28; *Tit.* i. 5, 7; *Pedr* v. 1—4, mai geiriau ydyw *esgob*, *henuriad*, a *bugail*, yn arwyddo yr un swydd yn hollol. Ac y mae yn nodedig nad yw yr apostol, yn ei gyfarwyddiadau i Timotheus a Titus i drefnu yr eglwysi a adawodd dan eu gofal, yn dysgrifio cymhwysderau dim ond y ddwy swydd yma yn unig: 1 *Tim.* iii. 1—12; *Tit.* i. 5—9. Yr ydym, gan hyny, yn casglu mai y ddau ddosbarth hyn —*esgobion* a *diaconiaid*—yn unig a ordeiniodd Crist i fod yn swyddogion parhaus yn ei eglwys ef. Gyda golwg ar yr ystyr penodol neu gelfyddydol, fel yr anturia rhai ei alw, y cyfeiriwyd ato eisoes, y mae y profion Ysgrythyrol yn hynod o brinion. Y mae rhai yn tybied fod yr ysgrythyrau canlynol yn tueddu i brofi y pwnc dan sylw:—*Rhuf.* xii. 7, yr hon y gellid ei chyfieithu—"Ai diaconiaeth, byddwn ddyfal yn y ddiaconiaeth:" 1 *Pedr* iv. 11, yr hon a oddef ei chyfieithu—"Os llefaru a wna neb, llefared megys geiriau Duw, os gwasanaetha neb fel diacon, gwnaed megys o'r gallu y mae Duw yn ei roddi:" a 1 *Tim.* iii. 8, 10, 12, 13, lle y dywed Paul y rhaid i'r diaconiaid fod yn onest, y rhaid profi y rhai hyny cyn iddynt wasanaethu swydd diaconiaid, y rhaid i'r diaconiaid fod yn wŷr un wraig, a dadgana y bydd i'r "rhai a wasanaethant swydd diaconiaid yn dda, ennill iddynt eu hunain radd dda." Gwelir mai lled benagored ydyw terfynau y swydd hon, hyd yn oed yn wyneb yr ysgrythyrau uchod.

Y mae hyd yn oed sefydliad cyntaf y diaconiaid yn bwnc o gryn ddadl yn mysg duwinyddion enwog; a rhaid addef, er bod ysgrifeniadau yr apostolion yn tystiolaethu fod y fath swydd yn hanfodol, ac yn penodi y cymhwysderau iddi, eto, nad ydynt yn mynegu yn bendant mewn un man pa bryd yr appwyntiwyd y swydd, nac yn nodi natur na therfynau penodol ei dyledswyddau. Credir yn gyffredin, a hyny yn rhesymol, fel y tybir, fod dechreuad y swydd i'w ganfod yn yr amgylchiadau a fynegir yn *Act.* vi. 1—6. Pa fodd bynag, y mae rhai gwŷr dysgedig, ac yn eu plith y Dr. Mosheim, yn barnu fod diaconiaid yn yr eglwys cyn yr amser a nodir yma, a bod Crist yn llefaru am danynt yn yr ymadrodd canlynol:—"Ond na fyddwch chwi felly: eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megys yr ieuengaf; a'r penaf megys yr hwn sydd yn gweini;" *Luc* xxii. 6. Y gair sydd yma am "ieuengaf" yw νεώτερος (*neôteros*), ac am "yr hwn sydd yn gweini," διακονῶν (*diaconôn*). Y mae efe yn tybied fod y gair olaf yn eglurhad trwyadl o'r blaenaf, a'i fod yma yn briodol yn dynodi swydd diacon yn yr Eglwys Gristionogol. Y mae efe yn ystyried fod μείζων (*meizôn*) hefyd, y gair Groeg am "y mwyaf," yn dynodi *rheolwr* neu *henuriad*; o blegid yr eglurir ef gan ἡγούμενος (*hêgoumenos*) "penaf," ac y cyfetyb i *diaconôn*. Yn unol â'r eglurhad yma, tybia efe mai diaconiaid mewn ystyr priodol oedd y gwŷr ieuainc a ddygasant Ananias a Sapphira i'w claddu. Er amddiffyn, ac fel y tybia efe, er llwyr gadarnhau y syniad yma, y mae yn sylwi fod Pedr yn dywedyd, "Yr un ffunud yr ieuainc, byddwch ostyngedig i'r henuriaid." Y geiriau a ddefnyddir yma ydyw νεώτεροι (*neôteroi*), πρεσβύτεροι (*presbuteroi*): yr olaf yn arwyddo, yn ol ei farn ef, henuriaid yr eglwys, a'r blaenaf y diaconiaid. Chwanega at hyn oll, y gellid cadarnhau yr ystyr yma i'r gair *neôteroi* â llawer o esamplau o ysgrifenwyr Groeg a Rhufain, ac amryw ysgrifenwyr ereill, cyssegredig ac anghyssegredig. Y mae Dr. Mosheim yn casglu oddi wrth yr ystyriaethau hyn, fod diaconiaid yn yr eglwys cyn yr amgylchiad a nodir yn *Act.* vi.

Y mae y Dr. Dwight yn gwrthwynebu y syniad yma yn helaeth ac egnïol, ac, fel y tybir, yn llwyddiannus. Un rheswm a ddwg yn mlaen yn ei erbyn ydyw, fod yn anhawdd credu ddarfod i Grist drefnu swyddogion yn ei eglwys, trwy ei appwyntiad digyfrwng ei hunan; ac eto, nad oes un ysgrifenydd yn y Testament Newydd wedi rhoddi dim hanes, na chymmaint ag awgrymiad am y peth.

Rheswm arall a ddwg Dwight yn erbyn syniad Mosheim ydyw, nad oedd dilynwyr Crist yn ddigon lluosog y pryd hyny i gael eu trefnu yn y dull a amddiffynir gan yr hanesydd.

Hefyd, sylwa Dwight nad oes un cyfeiriad yn yr hanes am ddewis diaconiaid, a roddir yn *Act.* vi, at unrhyw swyddog o'r fath nodwedd megys yn bod cyn hyny. Y mae ymresymiad Mosheim yn cael ei wneyd i fyny o ddwy ran; sef, fod y gair *neôteros* yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyrau yn gyfystyr â *diaconos*, a bod yn rhaid i bob corff o bobl gael eu swyddogion. I'r rhan gyntaf o'r ymresymiad, atebir, er fe allai y dylid cydnabod fod y gair *neôteros* yn cael ei arfer fel hyn yn yr ymadrodd a nodwyd gan Pedr, eto, fod yn amlwg nad yw yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr yma yn y Testament Newydd ond pur anfynych. Nid ydys yn gwybod am un anghraifft arall hyd yn oed a oddefai y cyfryw ystyr. I'r ail ran o'r rheswm, atebir, er y rhaid i bob corff o bobl wrth eu swyddogion, rhaid i'r cyfryw gyrff gael eu ffurfio a'u sefydlu o gryn nifer, a rhaid bod eu hanfod yn adnabyddus a sefydlog, cyn y gall fod y cyfryw swyddogion yn angenrheidiol; ond nid oedd yr eglwys ond prin wedi dyfod i'r sefyllfa yma pan yr appwyntiwyd y diaconiaid y sonir am danynt yn *Act.* vi. Gan hyny, yr ydym yn casglu, gyda lluaws o efrydwyr dysgedig y Testament Newydd, mai hwn ydyw yr hanes cyntaf a geir am sefydlu diaconiaid.

Ymddengys fod yr apostolion eu hunain hyd y pryd hwn wedi gweinyddu elusenau yr eglwys i'r rhai a fyddent mewn angen. Ond yn awr, yr oedd yr eglwys wedi cael y fath chwanegiad, fel yr oedd y gwasanaeth yma o gyfranu yr elusenau yn rhwystro yr apostolion i roddi cymmaint o amser ag a ddymunent ei roddi at "weddi a

Digitized by Google

gweinidogaeth y gair;" am hyny, dymunasant ar yr eglwys i ethol saith o wŷr cymhwys i'w gosod ar hyn o orchwyl. Ond nid yw y Testament Newydd byth yn galw y gwŷr hyn yn ddiaconiaid, ac nid yw un o'r geiriau a fu dan sylw yn dysgrifio eu dyledswyddau. Eu gwaith penodol hwy oedd cyfranu elusenau yr eglwys i'r holl aelodau oedd mewn angen. Yr ydys wedi awgrymu eisoes fod yn anhawdd penodi terfynau manwl swydd diacon, ond gellir casglu oddi wrth hanes neillduad y saith yn yr Actau, mai yr hyn oedd yn hanfodol i'r swydd ar y dechreu oedd gofalu am bethau bydol a thymmorol yr eglwys — "gwasanaethu byrddau." Pa fodd bynag, y mae yr hanes Ysgrythyrol a geir am rai o'r saith hyn—yr unig rai y ceir eu hanes—yn profi tu hwnt i ddadl, i'n tyb ni, nad oedd eu neillduad i'r ddiaconiaeth yn eu rhwystro i gymmeryd rhan bwysig yn ngorchwylion ysbrydol yr eglwys; canys yn niwedd hyd yn oed *Act.* vi ceir fod y cyntaf ar y rhestr, sef Stephan, yn dadleu yn gyhoeddus â "rhai o'r synagog a elwir eiddo y Libertiniaid, a'r Cyreniaid, a'r Alexandriaid, a'r rhai o Cilicia, ac o Asia," y rhai "ni allent wrthwynebu y doethineb a'r ysbryd trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru." Yn *Act.* vii, ceir ei bregeth ardderchog i'r erlidwyr crybwylledig, ac i'r tyrfaoedd creulawn a gynhyrfwyd ganddynt, ac i'r "holl rai a eisteddent yn y cynghor," trwy annogaeth y rhai y llabyddiwyd Stephan, "ac efe yn galw ar Dduw," ac yn gweddïo dros ei lofruddion! Ac yn *Act.* viii. 5—8, 12, 26—40, ceir un arall o'r saith diacon hyn, sef Phylip, yn pregethu yr Iesu yn Samaria, ac i'r "eunuch galluog" o Ethiopia; ac ar ol hyn, ceir fod Phylip y diacon, yn cael ei alw "Phylip yr efengylwr;" *Act.* xxi. 8. Ond pa un ai yn rhinwedd eu swydd fel diaconiaid, ai yn rhinwedd eu haelodaeth eglwysig yr oeddynt yn pregethu, sydd yn anhawdd ei benderfynu; canys gellir profi fod aelodau cyffredin yr eglwysi cyntefig yn meddu cyflawn hawl i bregethu; ie, ymddengys fod *holl* eglwys Ierusalem unwaith yn pregethu. Dyma yr hanes:—"A bu yn y dyddiau hyny erlid mawr ar yr eglwys oedd yn Ierusalem: a phawb a wasgarwyd ar hyd gwledydd Iudea a Samaria, ond yr apostolion. A'r rhai a wasgarasid a dramwyasant gan bregethu y gair. A'r rhai a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai yn nghylch Stephan, a dramwyasant hyd yn Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, heb lefaru y gair wrth neb ond wrth yr Iuddewon yn unig. A rhai o honynt oedd wŷr o Cyprus ac o Cyrene, y rhai wedi dyfod i Antiochia a lefarasant wrth y Groegiaid, gan bregethu yr Arglwydd Iesu;" *Act.* viii. 1, 4; xi. 19, 20.

Heb law hyn, er bod *Act.* vi. 3, a 1 *Tim.* iii. 8—13, yn cynnwys mynegiad gofalus o gymhwysderau moesol diacon, ni ddywedir gair am natur eu dyledswyddau; ac eto, dyma yr unig fanau sydd yn traethu ar y swydd hon sydd yn yr Eglwys Gristionogol. Gellir casglu oddi wrth yr Ysgrythyrau uchod y rhaid i'r rhai a ddewiser yn ddiaconiaid fod yn ddiargyhoedd o ran eu duwioldeb, eu gonestrwydd, cywirdeb a chyssondeb eu hymadrodd, eu cymmedroldeb, eu anhunanolrwydd, eu barn a'u doethineb, eu ffyddlondeb profedig, a phriodoldeb Cristionogol ymddygiad eu gwragedd a'u teuluoedd. Wrth ystyried y terfynau cyfyng, mewn cymhariaeth, a benodid i ddyledswydd Stephan a'i gydswyddogion—"gwasanaethu byrddau"—gallesid tybied na buasai yn angenrheidiol iddynt wrth gymhwysderau uwch na gonestrwydd, anmhleidgarwch, a doethineb. Eto, heb law bod iddynt air da, yr oeddynt i fod yn "llawn o'r Ysbryd Glân"—y cymhwysder olaf hwn wedi ei fwriadu, efallai, i awgrymu fod yn angenrheidiol i'r tri ereill a grybwyllwyd yma, tuag at fod o'r fath nerth a sefydlogrwydd ag y gellid ymddiried ynddynt yn ddiogel, fod wedi eu seilio ar dduwioldeb dwfn a gwirioneddol. Gellir tybied yr edrychid ar holl aelodau yr eglwys yn Ierusalem fel rhai cywir yn eu proffes o Gristionogaeth; ond yr oedd yn ofynol i'r gwŷr a ddewisid i'r ymddiriedaeth hon fod uwch law y cyffredin o ran eu duwioideb a'u doniau. O ganlyniad, pan ddaeth "y lluaws dysgyblion" yn nghyd i weithredu yn ol annogaeth Pedr, "hwy a etholasant Stephan, gŵr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân, a chwech ereill—ac y mae yn rhesymol meddwl fod y chwech hyny hefyd yn meddu yr un doniau ysbrydol; yn wir, y mae genym sicrwydd am hyny gyda golwg ar Phylip.

Am ddewisiad y diaconiaid, yr unig gyfarwyddyd sydd genym ar y pwnc ydyw *Act.* vi. 3, 5, lle y dywedir, "Am hyny, frodyr, edrychwch yn eich plith eich hunain am seithwyr da eu gair, yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb, y rhai a osodom ar hyn o orchwyl. A boddlawn fu yr ymadrodd gan yr holl luaws: a hwy a etholasant Stephan," &c. Etholwyd y saith hyn o blith y brodyr; ac yr oedd gan yr holl luaws dysgyblion lais yn eu hetholiad.

Y mae eu nifer yn cael eu hysbysu yn bendant yn y lle hwn; ac wrth gyfarchiad Paul yn *Phil.* i. 1—"Yr esgobion a'r diaconiaid"—y mae yn amlwg fod amryw o honynt yn eglwys Philippi; a hyn ydyw yr holl gyfarwyddyd sydd genym yn nghylch eu nifer yn y Testament Newydd.

Gosodwyd hwynt yn eu swydd gan yr apostolion, y rhai, "wedi iddynt weddïo, a ddodasant eu dwylaw arnynt:" a gellir casglu mai mewn canlyniad i'r dodiad dwylaw yma y derbyniasant y doniau gwyrthiol a ymddangosasant mor fuan ar ol hyn yn Stephan a Phylip.

Y mae rhai yn credu y dylid arfer y ddefod hon o arddodiad dwylaw wrth osod y swyddogion hyn, ac ereill, yn eu swydd y dyddiau presennol Ond gan fod doniau anghyffredin yn dilyn arddodiad dwylaw yr apostolion yn wastad, a chan nad oes y fath ddoniau yn cael eu cyfranu yn awr yn y cyfryw ddull, y mae llawer yn credu mai gweddusach yw peidio arfer y fath ddefod wrth neillduo swyddogion eglwysig i'w swydd. Ac y mae genym esamplau o rai yn cael eu gosod mewn swyddau eglwysig heb arddodiad dwylaw; megys y deuddeg apostol, y deg a thrigain, yr apostol Paul, &c. Trwy godiad dwylaw yr aelodau, fel yr arwydda y gair Groeg χειροτονήσαντες (*cheirotonêsantes*), y gosodwyd "henuriaid yn mhob eglwys," yn ol *Act.* xiv. 23. Cyfieithir yr un gair, yn 2 *Cor.* viii. 19, yn *dewis*; ac yn *Act.* x. 41, yn *etholedig*. Dyma sylwedd yr hyn oll a ymddengys i ni yn y Testament Newydd am ddiaconiaid a'u swyddau.

Yn awr, rhoddwn olwg byr ar y diacon yn yr oesoedd a ddilynasant yr oes apostolaidd, hyd yn bresennol; a cheir ei fod yn gwahaniaethu fwyfwy, fel y mae yn pellhau oddi wrth amser yr apostolion. Yr awdurdodau sydd genym ar hyn ydyw ysgrifeniadau y tadau, a'r hanesion eglwysig a gwladol.

Yn Eglwys Rhufain ac Eglwys Loegr, diacon yw y radd isaf o dair yn yr offeiriadaeth—esgob offeiriad. a diacon. Yr oedd ordeiniad y diacon

Digitized by Google

yn gwahaniaethu oddi wrth ordeiniad y presbyter o ran ei ddull ac o ran y gallu a roddai. Canys yn ordeiniad y presbyter, gofynid i'r presbyteriaid a fyddent bresennol i ymuno â'r esgob yn yr arddodiad dwylaw; ond gallai ordeiniad diacon gael ei gyflawnu gan yr esgob yn unig; o blegid fel y dywed Can. 4edd o bedwaredd Cymmanfa Carthage, nad ordeinid ef i'r offeiriadaeth, ond i iswasanaeth yr eglwys.

Gyda golwg ar ddyledswyddau y diaconiaid hyn, eu gorchwyl mwyaf cyffredin oedd cynnorthwyo yr esgob a'r presbyter yn ngwasanaeth y cyssegr. Y diacon oedd i ofalu, mewn modd neillduol, am lestri ac addurniadau y bwrdd cyssegredig. Gwaith y diaconiaid, yn ngweinyddiad y cymun, oedd rhoddi yr elfenau cyssegredig i'r bobl, fel y dengys Justin Ferthyr a Cyprian. Pa fodd bynag, nid oedd gan y diacon awdurdod i *gyssegru* yr elfenau; canys gwaharddwyd hyn yn Can. 15fed, Cymmanfa Arles, B. A. 312; ac yn Can. 18fed o Gymmanfa Nicea, gwaharddwyd iddynt, o herwydd eu hisafiaeth, i weinyddu y cymun i'r offeiriaid. Yr oedd gan y diaconiaid awdurdod i weinyddu yr ordinhad o fedydd hefyd, fel y prawf Tertullian a Chymmanfa Eliberis, Can. 77, yn amlwg, er y gwedir hyn gan Epiphanius, a rhai ereill. Cateceisio dysgyblion ieuainc, yn hytrach na phregethu, oedd gorchwyl y diacon; ond pan na byddai yr esgob neu y presbyter yn pregethu, byddai y diacon yn darllen yr homili o un o'r tadau. Dywed Ambrose, esgob Milan, B. A. 380, yn bendant, nad oedd diaconiaid yn pregethu yn ei amser ef, er ei fod ef yn meddwl eu bod oll ar y dechreu yn efengylwyr, fel Stephan a Phylip. Gwaith y diaconiaid hefyd oedd derbyn rhoddion y bobl; ac wedi eu cyflwyno i'r esgob neu y presbyter, medd Cyprian a Hieronymus, yr oeddynt i fynegu enwau y cyfranwyr mewn llais uchel. Yr oeddynt yn cael eu hawdurdodi weithiau, medd Cyprian, fel cenadon neillduol yr esgob, i gyflawnu y ddefod o arddodiad dwylaw ar yr edifeiriol, yr hyn oedd arwydd o gymmodiad. Dywed awdwr yr *Apost. Constitutions*, viii. 28, fod gan y diaconiaid hawl i attal yr is offeiriaid; ond ni wnant hyn ond yn absennoldeb yr esgob a'r presbyter yn unig, a hyny mewn amgylchiadau anocheladwy. Gorchwyl cyffredin y diaconiaid, mewn cymmanfaoedd cyffredinol, oedd gweithredu fel ysgrifenyddion a dadleuwyr dan gyfarwyddyd eu hesgobion. Byddent weithiau yn pleidleisio fel dirprwywyr eu hesgobion, pan nas gallent hwy fod yn bresennol; ond nid ydym yn cael eu fod byth yn pleidleisio mewn cymmanfa gyffredinol trwy rinwedd eu swydd eu hunain. Ond mewn cynghorfeydd taleithiol, goddefid iddynt weithiau roddi eu pleidlais, gystal a'r presbyteriaid, yn eu henwau eu hunain. Un o is ddyledswyddau y diaconiaid, yn ol yr *Apost. Constitutions*, oedd darparu lleoedd yn yr eglwysydd i rai ar eu dyfodiad i mewn, a cheryddu y rhai a ymddygent yn annheilwng.

Gyda y dyledswyddau uchod yn yr eglwysydd, yr oedd y diaconiaid i gymmeryd gofal hefyd o'r angenus, yr amddifaid, y gweddwon, merthyron mewn carchar, a'r holl dlodion a'r cleifion a feddent ryw hawl ar gasgliadau cyhoeddus yr eglwys. Yr oeddynt i wneyd sylw neillduol hefyd o angenion ysbrydol, gystal a thymmorol y bobl; a pha le bynag y gwelent hwy ddrygau nas gallent trwy rinwedd eu swydd a'u hawdurdod eu hunain, eu diwygio, yr oeddynt i'w cyflwyno i sylw yr esgob.

Yr oedd rhif y diaconiaid yn amrywio yn ol angen y gwahanol eglwysi: ond dywed Sozomen (vii. 19), na bu gan yr eglwys yn Rhufain erioed fwy na saith diacon, yn ol y cynllun apostolaidd.

O gylch diwedd y drydedd ganrif, gwaharddwyd i'r diaconiaid briodi. Trefnodd Cymmanfa Ancyra, B. A. 344, Can. 10fed, os hysbysai y diaconiaid pan yn cael eu hordeinio, y byddai iddynt briodi, na byddai iddynt gael eu hymddifadu o'u swydd er iddynt briodi; ond os priodent heb wneuthur y cyfryw hysbysiad, "y rhaid iddynt syrthio i restr y lleygwyr!"

Yn Nghymmanfa Laodicea, B. A. 381, trefnwyd na oddefid i ddiacon eistedd yn mhresennoldeb presbyter; ac yn Nghymmanfa gyntaf Carthage, Can. 11eg, trefnwyd rhif y barnwyr oedd i eistedd mewn barn ar achos clerigwyr—tri esgob ar achos diacon, chwech ar achos presbyter, a deuddeg ar achos esgob. Trefnwyd hyn yn ol gradd y swyddau.

Yn Nghymmanfa Vienna, B. A. 1311, gofynai Clement v. i'r diaconiaid fod yn ugain oed, o leiaf; ond yn ol Cymmanfa Trent, yn y 23ain flwyddyn o'u hoedran yr oedd yn angenrheidiol iddynt gael eu hordeinio.

Y mae yn Eglwys Rhufain yn awr ddeunaw o ddiaconiaid cardinalaidd, y rhai sydd i ofalu am bethau tymmorol a meddiannau yr eglwys. Heb law y rhai hyn, y mae ynddi archddiaconiaid hefyd.

Yn Eglwys Groeg, y mae sefyllfa a swyddi y diaconiaid yr un ag yn Eglwys Rhufain; ond goddefir iddynt briodi.

Yn Eglwys Loegr hefyd, fel Eglwys Rhufain, y mae y diaconiaid yn "wŷr llên;" a gallant gyflawnu holl swyddau offeiriad, oddi gerth cyssegru yr elfenau sacramentaidd, a dadgan y gollyngdod. Y mae gan yr eglwys hon hefyd ei harchddiaconiaid.

Yn yr Eglwys Lutheraidd, diaconiaid yw y rhai sydd yn cyfateb i gaplanau a chynnorthwywyr y gwŷr llên yn Eglwys Rhufain. Ystyrir y diacon fel ail beriglor; neu, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth y cyntaf, galwyd ef yn bregethwr. Os bydd mwy na dau ddiacon, appwyntir archddiacon ac isddiacon. Ar y cyntaf, yr oedd y diaconiaid yn yr eglwys hon yn ddarostyngedig i'r periglor, ond daethant yn fuan yn gyfartal, ac i gyflawnu yr un swyddau. Telid hwynt o'r cyllidau cyffredin, y rhai a wneid i fyny gan mwyaf o gymunroddion trefol; ac am hyny, cyssylltid swydd diacon â swydd ynad yn bur fynych. Yn ddiweddar, cymmerwyd y teitl o ail a thrydydd beriglor yn lle diacon. Rhaid gwahaniaethu y swydd yn y ffurf hon oddi wrth y diaconiaid fel cydweinyddion yr henuriaid. Yr oedd y Diwygwyr yn dymuno adferu y swydd i'w dull cyntefig [*Luther's Works, Walch*. xiii. 2464]; a chymmeradwywyd rheolau yn fore i'r dyben hyny [*Richter. l. c.* i. 66, 122—3]. Yr oedd Calvin yn ystyried y swydd fel un o bedair hanfodolion llywodraeth yr eglwys.—*Geneva Ch. Direct. in Richter. l. c.* i. 34; *Conf. Gallicana*, erth. 29; *Belgica*, erth. 30, 31; *Bohem*, erth. 9.

Yn eglwysi y Presbyteriaid, ymgolla swydd diacon yn swydd yr henuriad llywodraethol; ond mewn rhai eglwysi, y mae yn wahanredol, a chyfyngir hi at ddosbarthiad elusenau yn unig.

Y mae y diaconiaid yn mysg yr Annibynwyr neu y Cynnulleidfaolwyr, heb law gofalu am achosion tymmorol yr eglwys, yn cynnorthwyo y gweinidog â'u cynghor, ac yn arwain mewn cyfarfodydd gweddïo a chyfarfodydd eglwysig.

Digitized by Google

yn absennoldeb y gweinidog Dywed Buck, eu bod yn pregethu yn achlysurol i gynnulleidfaoedd bychain yn y pentrefydd cyfagos; ond nid ydys yn gwybod am un esampl o ddiacon, yn rhinwedd ei swydd fel y cyfryw, yn pregethu ar un achlysur yn mysg yr Annibynwyr Cymreig. Efallai mai cyfeirio y mae Buck at y dosbarth lluosog a elwir pregethwyr cynnorthwyol. Dywed y Dr. Payne [*The Church of Christ Considered*, td. 64], gyda golwg ar yr Annibynwyr, y cymmerir yn ganiataol nad ydyw diacon yn swyddog ysbrydol—mai ei waith penodol ef yw gwasanaethu byrddau; sef "bwrdd yr Arglwydd, fel y tybir yn gyffredinol, bwrdd y gweinidog, a bwrdd y tlodion." Dewisir diaconiaid yr enwad hwn gan aelodau pob eglwys, mewn cyssylltiad â'i gweinidog, yn annibynol ar bob awdurdod arall; a gosodir hwy yn eu swydd, weithiau trwy arddodiad dwylaw y gweinidog, a rhyw weinidogion ereill gydag ef a ddichon gael eu galw gan yr eglwys i'w gynnorthwyo ar yr achlysur; a phryd arall gosodir hwy yn eu swydd heb arfer y ddefod hono.

Y mae y Dr. Payne yn dywedyd fod penodi natur ac eangder swydd diacon o bwys ymarferol mawr:—fod rhai wedi myned i'r swydd heb wybod ond ychydig am ei natur, gan feddwl ei bod yn rhoddi iddynt ryw awdurdod yn yr eglwys, heb fod yn alluog i ddywedyd pa awdurdod, ac iddynt gymmeryd awdurdod, naill ai trwy anwybodaeth, neu am eu bod yn chwennych y blaen na pherthynai iddynt hwy nag i'w swydd. Fod yr eglwys, mewn canlyniad, wedi syrthio i sefyllfa o drawsawdurdod llëygol—un gwaeth hyd yn oed na thrawsawdurdod offeiriadol [*Ch. of Christ Consid.*, td. 66, &c.]. Ystyria efe mai yr achos o hyn i gyd ydyw, fod natur ac eangder y swydd heb eu penodi yn ddigon manwl; ond gan nad ydyw y Beibl yn gwneuthur hyny fel y gwelir yn y rhan gyntaf o'r erthygl hon, "y mae y clwyf heb un feddyginiaeth," os na chwanegir at air Duw.

Er mwyn gochel drygau o'r fath a nodwyd, dywed y Dr. fod rhai eglwysi yn arfer y cyfleusdra o ethol y diaconiaid bob blwyddyn [t. 67]; ond gan nad oes sail Ysgrythyrol i hyny, y mae ef yn ymwarchod yn fawr rhag y fath ymddygiad. Ond os na ddilynir y Beibl yn fanwl, dichon nad oes mwy o berygl yn y cyfleusdra hwn nag mewn rhyw un arall.

Y mae swydd diacon yn mysg y Bedyddwyr yn gwbl yr un fath ag yn mhlith yr Annibynwyr.

Lled debyg hefyd yw dyledswyddau y swydd yn mysg y Methodistiaid Calvinaidd, ond fod enw a dewisiad y swyddogion yn wahanol. "Nid oes neb i flaenori yn nghymdeithasfa neillduol" yr enwad hwn, "ond a fyddo o ddewisiad aelodau y gymdeithas, ac a gymmeradwyir gan gymdeithasfa fisol y sir. A dylai yr eglwys amlygu ei hamgylchiad yn y cyfarfod misol cyn dewis blaenor; ac os, bernir fod angen blaenor yn chwaneg arnynt, anfonir dau neu dri o genadau yno, i'w cyfarwyddo a'u cynnorthwyo yn mherthynas i'r dewisiad."—*Cyffes Ffydd*, t. 61. xxxiii., 3ydd argr.

Am nifer y blaenoriaid hyn, "y mae pob cymdeithas neillduol i fod dan olygiad dau neu chwaneg o flaenoriaid, wedi eu dewis gan yr holl gymdeithas, a'u cymmeradwyo gan gymdeithas y sir."—*Cyffes Ffydd*, t. 42, 2.

*Blaenoriaid* hefyd y gelwir diaconiaid y Methodistiaid Wesleyaidd. "Y mae pob cymdeithas" berthynol i'r enwad hwn. "wedi ei rhanu i gwmnïau llai, a elwir rhestrau, yn eu priodol drigfanau. Y mae oddeutu deuddeg o bobl yn mhob rhestr, un o ba rai a elwir yn *flaenor*. Ei waith ef ydyw—1. Gweled pob aelod yn ei restr unwaith yn yr wythnos, mewn trefn i holi pa fodd y mae eu heneidiau yn cynnyddu; i gynghori, ceryddu, cysuro, neu hyfforddi, fel y byddo yr achos yn gofyn; i dderbyn yr hyn a fyddont yn ewyllysio ei roddi tuag at gynnorthwyo yr efengyl. 2. I gyfarfod y gweinidogion a goruchwylwyr y gymdeithas unwaith yn yr wythnos, i'r dyben o hysbysu y gweinidogion am y cleifion, neu am y neb a fyddo yn rhodio yn afreolus, ac na chymmer ei rybuddio; i dalu i'r goruchwylwyr yr hyn a dderbyniasant gan eu hamrywiol restrau yn yr wythnos flaenorol; ac i ddangos eu cyfrifon o'r hyn a gyfranodd bob un. —*Rheolau cymdeithas y Methodistiaid Wesleyaidd*, t. 1, &c.

Dewisir y blaenoriaid hyn mewn cyfarfod o flaenoriaid ereill ac arolygwr y gylchdaith, heb fod gan aelodau cyffredin yr eglwys un llais yn y gorchwyl; a phan ymgyferfydd yr holl eglwys yn fisol, dywed yr arolygwr pwy fydd eu blaenor newydd.

Y mae y darluniad yma mor gywir a ffyddlawn ag y gallwyd ei roddi o'r swyddogion eglwysig hyn, nid yn unig fel y gosodir hwynt allan yn y Beibl, ond fel y maent yn mysg prif enwadau Cristionogol Ewrop.—(*The Works of the Fathers, by Bagster; Dwight's Theology; Sir P. King's Enquiry; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; The Stand. Libr. Cycl.; Encycl. of Rel. Knowl.; Herzog's Real Encycl.; Penny Cycl.; Christ. Wit.; Dorman's Prin. of Truth; Williams' Prin. and Constit. of the Church of Christ; Beverley's Inquiry into the Script. Doct. of Christ. Minis.; Milton's Church Quest.; Buck's Theol. Dict.; Cyff. Ffydd y Meth. Calv.; Rheolau Cym. y Meth. Wesl., &c.*)

DIACONES—AU: tardda y gair hwn o *διακόνισσα*, neu *ἡ διακονος*. Yr unig fan yn y Testament Newydd lle y ceir y gair hwn, *diacones*, ydyw yn *Rhuf.* xvi. 1; "Yr wyf yn gorchymyn i chwi Phebe ein chwaer, yr hon sydd weinidoges (*διάκονον*=diacones neu wasanaethyddes) i eglwys Cenchrea." Nid oes yma ddim crybwylliad na hyfforddiad yn nghylch na chymhwysderau, na dyledswyddau, na dewisiad diaconesau —dim ond crybwylliad o'r enw yn unig; a dichon nad ydyw yn arwyddo mwy na bod y wraig rinweddol, Phebe, yn gwneuthur *rhyw wasanaeth* o bwys i'w chyd-Gristionogion. Pa wasanaeth, nid ydyw yn hysbys: tueddir ni i gasglu, oddi wrth *adn.* 2, y dichon mai *gwasanaeth arianol* ydoedd:—"Derbyn o honoch hi yn yr Arglwydd, megys y mae yn addas i saint, a'i *chynnorthwyo* hi yn mha bethau bynag y byddo rhaid iddi wrthych: canys hithau hefyd a fu *gymhorth i lawer*, ac i *minnau fy hun* hefyd." Y mae yn rhaid i Ysgrythyroldeb swydd diacones sefyll neu syrthio ar *Rhuf.* xvi. 1, 2, yn unig; a thybir fod y ddwy adnod hon yn seiliau pur ammheus iddi. Y mae rhai yn meddwl y gallai *adn.* 12 o'r un bennod gyfeirio at y swydd; ond y mae hono yn fwy ammheus hyd yn oed na'r ddwy arall. Am y gwragedd gweddwon "trigeinmlwydd oed," *ac uchod*, a grybwyllir yn 1 *Tim.* v. 9, &c., tybia rhai eu bod yn ddiaconesau; ond y mae yn debycach, oddi wrth rediad y cyd-destyn, fod yr apostol yn eu nodi hwy fel gwrthddrychau addasach i *dderbyn* cymhorth gan yr eglwys, nag *roddi* cymhorth iddi. Nid

Digitized by Google

oes dim sail i'r swydd chwaith yn 1 *Tim.* iii. 11, os na haerir fod gwragedd i gael swyddi eglwysig yn nghysgod eu gwŷr. Ymddengys mai amcan yr apostol, yn *Tit.* ii. 3, yw annog yr hen chwiorydd Cristionogol i roddi esampl dda i'r gwragedd ieuainc, "mewn ymddygiad" gweddus, fel "henafwragedd," ac nid fel *diaconesau.*

Pa fodd bynag, fel yr oedd yr oes apostolaidd yn pellau, a'r eglwys yn ymsuddo fwyfwy mewn Pabyddiaeth, fe ddaeth diaconesau i fri yn mysg proffeswyr Cristionogaeth. Ceir crybwylliadau lled fynych am danynt yn ysgrifeniadau y tadau o Ignatius i waered. Yn ol y rhai hyn, yr oedd y cymhwysderau isod yn mysg y rhai gofynedig:—Yr oedd yn angenrheidiol i ddiacones fod yn wraig weddw wedi ymddwyn plant. Nid oedd un i gael ei dewis os byddai mwy nag un gŵr wedi bod ganddi. Dengys Tertullian, O. A. 200, eu bod yn sefyll yn fanwl at y rheol hon y pryd hyny.

Rhai o ddyledswyddau diaconesau oedd gweinyddu ar fedydd benywod; hyfforddi a pharotoi rhai ieuainc erbyn cael eu bedyddio; ymweled â merthyron yn ngharchar ar amseroedd o berygl ac erlidigaeth, am fod yn haws i wragedd gael mynedfa i'r cyfryw leoedd na gwŷr; a sefyll wrth ddrws yr eglwys i arwain benywod i'w lleoedd priodol yn ystod y gwasanaeth.

Y mae rhai dysgedigion wedi bod yn dadleu pa un a oedd y diaconesau yn cael eu hordeinio trwy arddodiad dwylaw ai peidio; ond y mae Can. 15, Cymmanfa Chalcedon, yn dadgan yn bendant eu bod yn cael eu hordeinio felly; yr hyn a gadarnheir gan awdwr yr *Apost. Constitutions*, viii. 19.

Nid yw yn gwbl hysbys pa hyd y parhaodd y swydd yma; ond y mae yn amlwg na ddiddymwyd hi ar unwaith. Ymddengys fod diaconesau yn Eglwys Groeg, yn Caer Cystenyn, hyd amser Balsamon, sef hyd ddiwedd y ddeuddegfed ganrif. Fe ganfyddir fod rhai cymmanfaoedd yn erchi rhoddi y swydd heibio yn yr eglwysi Lladinaidd mor foreu a chanol y bedwaredd ganrif; ond ni ddiddymwyd hi yn llwyr o honynt hyd y ddegfed ganrif.—(*Works of the Fathers, by Bagster; Herzog's Real. Encycl.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.,* &c.)

DIACONIAID A DIACONESAU, TAI: Ymddengys mai math o sefydliadau Almaenaidd ydyw y rhai hyn, yn cyfranogi o nodweddau gwyryfdai, elusendai, ac ysgolion, neu golegau; ac mai rhai o'u prif amcanion ydyw cynnorthwyo y tlawd, y claf, yr amddifad, plant, &c. Y mae Wichern ei hun, awdwr yr erthygl arnynt yn *Herzog's Real Encyclopædia*, yn ammheu priodoldeb yr enwau uchod arnynt; ac am hyny, yn ymdrin â hwy fel *tai brodyr*, a *sefydliadau diaconesau.*

I. *Tai brodyr.*—Yr enw wrth ba un yr adnabyddir aelodau y sefydliadau hyn gan eu gilydd a chan ereill, yw *brodyr*. Rhwymyn eu hundeb ydyw ffydd fywiol yn Nghrist. Ni dderbynir neb i mewn ond rhai wedi cyrhaeddyd gradd o brofiad Cristionogol. Rhaid iddynt fod, oddigerth yn Benygen, yn 20 oed, yn rhydd oddi wrth wasanaeth milwrol, heb fod dan ammod priodas, ac nis gallant briodi heb gael caniatad penodol. Ar ol myned dan brawf priodol, y maent i ymroddi i ddyledswyddau y sefydliad: sef, gan mwyaf, gofalu am y tlodion, y plant, a'r cleifion, a diwyllio eu meddyliau. Eu prif amcan ydyw cyfranu gwybodaeth Ysgrythyrol, er eu bod yn rhoddi hyfforddiadau mewn addysg gyffredinol hefyd. Heb law rhoddi addysg i'r plant, dysgir rhyw alwedigaeth fuddiol iddynt hefyd; ac ar ol iddynt ymadael, byddant yn dal perthynas gyfeillgar â'r tŷ, trwy anfon yn fynych at eu hen athrawon am gynghor a chyfarwyddyd. Y mae gan rai o'r tai hyn athrawon yn mysg yr Almaeniaid sydd yn Switzerland, Rwssia, Hungary, Gogledd America, Affrica, a'r India Ddwyreiniol. Y mae rhai o'r tai hyn yn cynnwys cymmaint a 170, mwy neu lai, o aelodau; amryw o honynt yn llafurio ar led, fel y nodwyd, a'r lleill yn y tai. Yn y tŷ, ymranant yn saith dosbarth, dan wahanol enwau, megys Näin, Emmaus, Bethel, &c. Y mae i bob un o'r dosbarthau hyn dduwinydd fel prif gynnorthwywr a chynghorydd; ac o dano ef y mae athraw, is athraw, ysgrifenydd, a brawd oedranus profiadol, fel brawd teuluaidd, yr hwn sydd i ofalu am deulu yn cynnwys 12 o blant. Y mae ganddynt reolau manwl i bob dosbarth, y rhai sydd i reoleiddio eu dyledswyddau. Y mae ganddynt ddau gyfarfod wythnosol ar gylch o'r brodyr, dan arweiniad y llywydd, yn y rhai y cymmer y brodyr yn unig ran, ac yr ymgynghorant gyda golwg ar ddybenion cyffredinol y sefydliad. Mae gwaith pob diwrnod yn cael ei ddechreu a'i ddiweddu gyda gwasanaeth crefyddol cyffredinol, yn yr hwn y bydd pawb o'r sefydliad—y plant cystal a'r brodyr—yn bresennol. Y mae y Brodyr a ddanfonir allan yn dal cymdeithas gyfeillgar â'r rhai a arosant yn y sefydliad, trwy ddarllen yr un rhanau appwyntiedig o'r Beibl bob Sabbath, trwy gynnal cyfarfodydd gweddi misol yr un amser, a thrwy fynych ohebu â'u gilydd, &c.

II. *Sefydliad diaconesau.* Sefydlwyd y rhai hyn yn yr Almaen, gan y gweinidog Fliedner, B. A. 1836; ac y maent ar gynnydd parhaus, er eu bod yn nghanol sefydliadau Pabyddol, megys Chwiorydd Trugaredd, Chwiorydd y Bachgen Iesu, &c. Y mae eu hamcanion yn gyffelyb, gyda golwg ar y rhyw fenywaidd, i amcanion y tai brodyr yn eu perthynas â'r rhyw arall. Benywod heb briodi, dan ddeugain mlwydd oed, ydyw y rhai a dderbynir i mewn; y rhai, wedi cael prawf boddhaol o'u ffyddlondeb, a sefydlir fel diaconesau. Y maent hwy, fel y brodyr, yn cael eu hanfon allan i lafurio, ac y maent yn dal cymundeb cyffelyb â'u gilydd. Y maent yn ymrwymo i fod mewn gwasanaeth i'r sefydliad am bum mlynedd fel diaconesau. Heblaw sefydliadau cyntefig yr Almaen, y mae ganddynt yn awr rai yn Ffrainc, yn Switzerland ac yn Holland. (*Herzog's Real Encycl.*)

DIAFOL, [Διαβολος, *gwrthwynebwr, cyhuddwr, enllibiwr*]: tywysog yr angelion syrthiedig, a phrif elyn pob daioni. Y mae y bod hwn yn myned dan wahanol enwau yn yr Ysgrythyrau; megys Abadon, Apolyon (*Dad.* ix. 11), Beelzebub (*Mat.* xii. 24), Belial (2 *Cor.* vi. 15), tywysog y byd hwn (*Ioan* xii. 31), penaeth y cythreuliaid (*Mat.* ix. 34), tywysog llywodraeth yr awyr (*Eph.* ii. 2), lleiddiad dyn a thad y celwydd (*Ioan* viii. 44), tywysog y byd hwn (*Ioan* xiv. 30), gwrthwynebydd (1 *Pedr* v. 8), angel y pydew diwaelod (*Dad.* ix. 11), y ddraig fawr a'r hen sarff (*Dad.* xii. 9). Ond yr enwau mwyaf mynych arno yn yr Ysgrythyrau yw *diafol* a *Satan*. Y mae yr enw *diafol* yn cael ei arfer yn fwy mynych na *Satan* yn y Testament Newydd; ond weithiau, y mae y naill a'r llall yn cael eu harfer (*Dad* xii. 9). Y mae Crist yn ei demtiad, wrth gilgwthio ei elyn (*Mat.* iv), yn ei alw yn Satan, tra y mae yr efengylwyr, wrth adrodd yr hanes,

Digitized by Google

yn ei alw yn ddiafol. Cyfleithiad o'r gair *diabolos* yw diafol, yr hwn sydd yn deilliaw oddi wrth y ferf *diabolo*, yr hon sydd yn arwyddo, *gwanu trwy, dwyn drosodd;* ac mewn ystyr troellymadroddol, *tystiolaethu yn erbyn, cyhuddo.* Ac y mae y diafol yn cael ei alw yn "gyhuddwr y brodyr;" *Dad.* xii. 10.

Ystyrir fod y gair Hebraeg, *Satan*, yn fwy cynrywiol (*generic*) na'r gair Groeg, *diabolos.* Y blaenaf yn gosod allan ei nodwedd fel gwrthwynebwr pob daioni, a'r olaf yn gosod allan yn fwy penodol yr hyn y mae yn ei wneyd, er gwrthwynebu y saint, fel eu twyllwr a'u cyhuddwr. *Diabolos* ydyw y gair y mae y Deg a Thrigain yn ei roddi yn wastad am y gair שטן, pan fyddo y bannod yn cael ei defnyddio. Y mae y gair *diabolos* yn cael ei gymhwyso bedair gwaith at fodau dynol yn y Testament Newydd; a thair gwaith o'r pedair y mae yn ansoddair yn y rhif luosog, ac yn cael ei gyfleithu i'r gair *enllibaidd* yn y cyfleithiad Cymraeg awdurdodedig: 1 *Tim.* iii. 11; 2 *Tim.* iii. 3; *Tit.* ii. 3. Yn y bedwaredd anghraifft (*Ioan* vi. 70), y mae Crist yn dyweyd wrth ei ddysgyblion, "Oni ddewisais i chwi y deuddeg, ac o honoch y mae un yn ddiafol (*diabolos*)?" Hwn ydyw yr unig anghraifft yn y Testament Newydd o'r gair yn y rhif unigol yn cael ei gymhwyso at un bod dynol. Ac y mae y rheswm amlwg dros gymhwyso yr enw hwn at Iudas, fel eithrad i'r rheol, yn myned yn mhell iawn i'w chadarnhau. Y rheol yw, fod arfer y Testament Newydd o ddefnyddio y gair yn y rhif unigol yn arwyddo gwahanfodaeth (*individuality*), ac y mae yn cael ei gymhwyso i Satan fel enw priodol. Y mae y gair *diafol* yn cael ei gymhwyso i Iudas, fel eithrad i'r rheol gyffredin, oddi ar ei debygolrwydd neillduol i'r diafol, fel cyhuddwr a bradwr Crist, ac am ei fod yn cydweithredu âg ef mewn modd neillduol er dwyn o amgylch ei amcanion drygionus. Oddigerth yr eithradau a nodwyd, y mae ymadroddiaeth gyffredin y Testament Newydd yn dangos fod y gair *diafol* (ὁ *diabolos*) yn enw priodol yn cael ei gymhwyso at fod nodedig, yr hwn y mae ei ddylanwad yn rymus a niweidiol ar yr hil ddynol: *Mat.* iv. 1—11; *Luc* viii. 12; *Ioan* viii. 44; *Act.* xiii. 10; *Eph.* vi. 11; 1 *Pedr* v. 8; 1 *Ioan* iii. 8; *Dad.* xii. 9. Gair Hebraeg anghyfleithedig yw *Satan*, yr hwn sydd yn tarddu oddi wrth y ferf שטן, sydd yn arwyddo *cynllwyno, gwrthwynebu, bod yn wrthwynebwr;* mewn canlyniad, ei ystyr yw, gelyn neu wrthwynebwr. Y mae y gair *Satan* yn fynych yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr rywogaethol (*generic*), er gosod allan wrthwynebwr:—megys yn 1 *Bren.* xi. 14; "Yr Arglwydd a gyfododd wrthwynebydd (שטן) i Solomon;" hyny yw, "Hadad yr Edomiad." Ac yn *adn.* 23 o'r un bennod, y mae yr un gair yn cael ei gymhwyso eilwaith at Rezan. Ac y mae y gair yn cael ei arfer yn yr un ystyr yn 1 *Sam.* xxix. 4, lle y gelwir Dafydd yn wrthwynebwr. Ac yn *Num.* xxii. 22, lle y dywedir i "angel yr Arglwydd sefyll ar y ffordd, yn wrthwynebydd (שטן) i Balaam;" hyny yw, i'w wrthwynebu i fyned at dywysogion Moab. Yn *Zech.* iii. 1, 2, y mae y gair yn cael ei arfer yn ei ystyr enwedigol (*specific*), fel enw priodol; "Ac efe a ddangosodd i mi Iosuah yr archoffeiriad yn sefyll ger bron yr Arglwydd, a Satan (השטן) yn sefyll ar ei ddeheulaw i'w wrthwynebu (לשטנו=*i'w sataneiddio ef*). A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan (השטן), Cerydded yr Arglwydd dydi, Satan." Y mae yn amlwg oddi wrth y cyssylltiad, yn gystal ag oddi wrth fod y bannod yn cael ei ddefnyddio, mai rhyw wrthwynebydd penodol sydd yma yn cael ei osod allan.

Yn y bennod gyntaf a'r ail o Lyfr Iob, y mae yr un defnydd o'r gair gyda'r bannod yn cael ei wneuthur amrywiol weithiau. Ac y mae yr amgylchiadau yn y rhai y gosodir Satan allan yn cadarnhau yr un golygiad. Gwel hefyd 1 *Cron.* xxi. 1. Y mae yr athrawiaeth o weithredydd drwg anweledig yn cael ei gosod allan yn fwy amlwg yn y Testament Newydd nag yn yr Hen. Ar ol dyfodiad Crist yn y cnawd, a dechreuad yr oruchwyliaeth Gristionogol, yr oedd i'w ddysgwyl y buasai gwrthwynebydd mawr y grefydd Gristionogol, a gwrthwynebydd ei hawdwr yn enwedig, yn gwneyd ei ymosodiad yn ei erbyn yn fwy amlwg a phenodol. Ac felly hefyd y bu; canys y mae gwrthwynebiad Satan a'i deyrnas i Grist a'i deyrnas yn y byd yn rhedeg trwy yr oll o Ysgrythyrau y Testament Newydd, fel yr ymddengys oddi wrth y rhanau canlynol o hono, yn nghyd â'u cyd-destynau:—*Mat.* iv. 10; xii. 26; *Marc* iv. 15; *Luc* x. 18; xxii. 3, 31; *Act.* xxvi. 18; *Rhuf.* xvi. 20; 2 *Cor.* xi. 14; *Dad.* ii. 13; xii. 9. Y mae Pedr yn cael ei alw unwaith yn Satan (*Mat.* xvi. 23), a hyny o herwydd ei ysbryd a'i ymddygiad pan yn annog yr Iesu i "drugarhau wrtho ei hun," a pheidio a myned yn ei flaen i gyfarfod â'r dyoddefiadau ag oedd yn ei aros wrth ddwyn yn mlaen a gorphen ei waith ar y ddaiar; ac felly, yr oedd yn gweithredu fel gwrthwynebwr. Hon ydyw yr unig anghraifft yn y Testament Newydd ag y mae y gair *Satan* yn cael ei gymhwyso at neb heb law penaeth y cythreuliaid.

Y mae y gair *diafol*, yr hwn yw y cyfieithiad o'r gair *diabolos* yn y Testament Newydd bob amser, yn cael ei ddefnyddio weithiau hefyd fel cyfleithiad o'r geiriau δαιμων a δαιμονιον yn y cyfleithiad Cymraeg. Ond nid yw y gair *diabolos* byth yn cael ei arfer am y *demoniaid* neu y cythreuliaid, ond bob amser am eu penaeth neu eu tywysog, yr hyn sydd yn profi ei fod yn cael ei ddefnyddio fel enw priodol.

Am fodolaeth y diafol fel person, yr ydys yn rhwym o ddefnyddio yr un safon yn ei gyssylltiad âg ef ag a gymmerir o barth i fodolaeth rhyw berson arall. Pan yn darllen am Alexander Fawr neu Cæsar, eu bod yn rhyfela, yn ennill brwydrau, ac yn darostwng eu gwrthwynebwyr, &c., yr ydys yn deall ac yn credu ar unwaith eu bod yn bersonau mewn gwirionedd, ac yn rhyfelwyr enwog hefyd; ac mai nid rhyw ddansawdd neu gynneddf yn unig y mae eu hanes yn ei osod allan. Ac os ydys yn credu bodolaeth y cyfryw bersonau tra yn darllen am eu gweithrediadau hwynt, pa ham na ddylem gredu bodolaeth diafol hefyd ar yr un tir, pan yn darllen am ei weithrediadau yntau? Canys onid yw yr Ysgrythyrau yn ei osod ef allan yn hollol yn ffurf gweithredydd personol wrth ddarlunio ei nodwedd a'i weithrediadau? Y maent yn ei osod ef allan fel yn meddu gallu ac awdurdod—a bod ganddo genadon a chanlynwyr—ei fod yn temtio ac yn gwrthwynebu—ei fod yn gyfrifol am ei weithrediadau, a'i fod yn euog—ei fod i gael ei farnu ac i dderbyn cospedigaeth yn y pen draw. Yn awr, y mae yn rhaid i ni dybied fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn bwriadu gosod allan a dysgu fod y diafol yn fod neu yn berson gwirioneddol, neu ynte nad oedd. Os oeddynt hwy yn bwriadu ein dysgu gredu yn modolaeth a phersonoliaeth y diafol, y mae yn

Digitized by Google

anhawdd meddwl y gallasent yn hawdd arfer ymadroddion mwy cymhwys a phriodol i osod hyny allan nag a wnaethant pan yn crybwyll am dano yn eu hysgrifeniadau. Ond ar y dybiaeth nad oeddynt yn amcanu gosod hyny allan—sef, profi yr athrawiaeth o fodolaeth a phersonoliaeth y diafol yn eu hysgrifeniadau—y mae yn rhaid addef fod y defnydd y maent yn wneyd o iaith, geiriau, ac ymadroddion, y rhai nas gallant osod allan un meddylddrych arall, yn hollol anneongladwy. O blegid byddai tybied nad yw yr ymadroddion eglur, penodol, y rhai a arferir am y diafol yn yr Ysgrythyrau, fel bod personol, ymwybodol, gweithredol, a chyfrifol, ond math o droellymadrodd, neu ddynsodwedd (*prosopopeia*), yn unig, yn gwneyd yr ysgrifenwyr sanctaidd, ysbrydoledig, yn euog o ddefnyddio troellymadrodd yn y fath fodd fel nas gellid, drwy un reol perthynol i iaith, ddeall mai troellymadrodd ac nid syml-iaith ydoedd; ac yn y fath fodd fel nas gellid ei gymmeryd fel troellymadrodd heb droseddu yn erbyn holl reolau rheithoreg, wrth y rhai, ar achlysuron ereill, y mae ymadroddion ffugyrol o'r fath yn arfer cymmeryd eu llywodraethu. O blegid y mae dwyn yn mlaen ddynsodiant (*personification*) ar hyd llyfr o faintioli ac amrywiaeth y Beibl, pe buasai wedi ei ysgrifenu hyd yn oed gan yr un awdwr, heb byth ei ollwng o afael, yn y rhanau mwyaf syml ac egwyddorol o hono—a byth gael ei egluro mai fel dynsodiant neu droellymadrodd y mae yn cael ei ddefnyddio pan fyddo y gwirioneddau mwyaf pwysig a difrifol i gael eu gosod allan a'u haddysgu, a hyny pan y byddo yn cael ei amcanu at wasanaeth y dynion mwyaf anwybodus a thueddol i ofergoeliaeth—dynsodiant o Genesis i'r Dadguddiad—y mae hyn yn beth hollol afreolaidd ac annerbyniadwy. Ond byddai cymmeryd fod pob un o ysgrifenwyr gwahanol lyfrau y Beibl, y rhai ydynt yn dra gwahanol i'w gilydd o ran eu hieithwedd a'u dull o feddwl, ac yn ysgrifenu dan lawer o wahanol amgylchiadau trwy y tymmor hirfaith o yn agos i ddwy fil o flynyddoedd; sef o amser Moses i Ioan; a thybied iddynt oll syrthio i'r arferiad o'r un dynsodiant, a'i ddilyn a'i arfer hefyd yn y fath fodd tywyll ac aneglur, fel ag i fod yn sicr na buasai un o bob cant o'u darllenwyr yn gallu eu deall yn gywir; byddai meddwl y fath beth a hyn yn llawer mwy nag a oddef eithaf terfynau arferiaeth a rhesymolrwydd. Mae y pwnc hwn o fodolaeth y diafol yn ddiau yn bwysig iawn o ran ei natur, o blegid mae ei ddylanwad yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol yn cyrhaedd braidd at bob pwnc o athrawiaeth a dyledswydd; ac felly yn effeithio ar holl gylch ein ffydd a'n hymarweddiad. Os nad oes y fath beth a diafol a'i angelion mewn bodolaeth, yna y fath syniadau cyfeiliornus y mae y Beibl wedi arwain llawer o ddynion iddynt, ïe, y rhai mwyaf duwiolfrydig o honynt hefyd, o ran eu ffydd a'u hymarweddiad. Nid yw yn beth syn, ond y mae hyny yn naturiol, os nad yn angenrheidiol, fod iaith sathredig boblogaidd yn cael ei harfer yn y Beibl, wrth son am gylchdroadau y tymmorau, ymddangosiadau y nefoedd a'r ddaiar, ffurfiad a chyfansoddiad y belen ddaiarol, &c., sef darluniad o honynt fel y maent yn ymddangos i'r sylwedydd cyffredin. Ond yn mha le yr ymddengys yr angenrheidrwydd, na chwaith y priodoldeb o ddefnyddio iaith drofegol neu ffugrol i drafod pynciau duwinyddol syml yn yr Ysgrythyrau? A diammheuol y gellid dysgwyl y manylwch a'r gofal mwyaf wrth ddarnodi gwirioneddau syml pwysig yn nglyn âg iachawdwriaeth yr enaid—y buasai pob gair ac ymadrodd yn cael eu defnyddio yn eu gwir ystyr symlaf yn hollol wrth drafod y fath wirioneddau. Ac yn ol hyny, os nad yw y diafol yn fod neu yn berson gwirioneddol, yn ngwyneb yr hyn a ddywedir am dano yn yr Ysgrythyrau, rhaid addef nad yn hawdd y gellir cyfarfod âg un cyfansoddiad mwy anghymhwys na'r Beibl er gosod allan wirionedd mewn iaith ddealladwy.

Gellir sylwi hefyd, os nad oes y fath beth a bodolaeth bersonol yn perthyn i'r diafol a'i angelion, ei bod yn ffaith ryfedd iawn, ac yn ffaith ag sydd yn llefaru yn anffafriol iawn am yr Ysgrythyrau, ar ol iddynt gael eu rhoddi yn llawn, fel nad oes un dadguddiad o'r nef yn rhagor i'w ddysgwyl, er dwyn dysgyblion Crist allan o unrhyw gyfeiliornad ag a allent syrthio i'w goleddu; ac wedi i Grist ei hun—goleuni y byd a phrophwyd yr eglwys—ymddangos yn y cnawd, ac wedi iddo dywallt yr Ysbryd Glân ar yr apostolion, yr hwn yn ol yr addewid am dano, oedd i'w tywys hwynt i bob gwirionedd; ac wedi iddynt hwythau gael amser i gyfranu i'r byd yr holl wirioneddau yr oedd efe wedi ymddiried iddynt i'w haddysgu—y mae yn dra rhyfedd wedi y cyfan fod y pwnc o anfodolaeth y diafol wedi bod braidd yn gwbl os nad yn hollol anadnabyddus yn y byd am yn agos i ddeunaw cant o flynyddoedd, ac nad oes ond ychydig iawn o bersonau etto mewn cymhariaeth yn gallu gweled y fath athrawiaeth yn yr Ysgrythyrau, ar ol pob goleuni ag sydd wedi ei daflu arnynt drwy y cyfieithiadau newyddion, a'r holl esbonio sydd wedi bod arnynt gan y beirniaid mwyaf dysgedig. Ac nid oedd yr hen ysgrifenwyr galluocaf, megys Socinus, Crellius, ac ereill, hyd yn oed yn mhlith y blaid ag y mae ei blaenoriaid yn bresennol yn fwyaf selog dros y dyb nad yw diafol yn fod personol, yn gallu deall y mater yn y goleu hwn. Ac os yw y Beibl wedi ei fwriadu i ddysgu, yn mysg pethau ereill, yr athrawiaeth nad yw diafol yn fod personol, rhaid dywedyd am dano ei fod mor dywyll, aneglur, ac aneffeithiol ar y pwnc hwn pa mor bwysig bynag ydyw, fel ag i ddywedyd yn anffafriol iawn am dano fel dadguddiad oddi wrth Dduw.

A pheth sydd yn dra rhyfedd, sef, na buasai yr Athraw Mawr, yr hwn oedd yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd, yn dangos yn amlwg mai cyfeiliornad oedd y dyb o fodolaeth y diafol, fel y dangosodd efe amryw bethau ereill yn mhlith yr Iuddewon. Buasem yn disgwyl iddo ddynoethi y fath gyfeiliornad a hwn mor benodol ag y gwnaeth ef gyda golwg ar unrhyw lygredigaeth yn nghyfraith Moses, neu orchymynion; yn neillduol os oddi wrth y cenedloedd paganaidd yn ystod y caethiwed Babilonaidd, fel y myn ein gwrthwynebwyr, yr oedd yr Israeliaid wedi derbyn eu golygiadau am ysbrydion da a drwg.

Er fod y sylwadau uchod, yn ddiau, yn dangos i raddau mawr afresymolrwydd golygiad y rhai a wadant fodolaeth y diafol; eto, rhaid addef, gan mai athrawiaeth ddadguddiedig yw y pwnc, mai at y gyfraith ac at y dystiolaeth y rhaid cyfeirio er cyrhaedd penderfyniad yn ei gylch. Ac os cymmerir, yn ol tyb ein gwrthwynebwyr, mai *yr egwyddor o ddrygioni* yn benaf sydd i'w deall wrth y gair *diafol* neu *Satan* yn yr Ysgrythyrau—oddi gerth mewn rhai anghreifftiau y maent yn haeru mai am ryw berson neu bersonau penodol y mae y gair yn cael ei ddefnyddio—y mae yn anhawdd iawn, gellid meddwl, gwneuthur fawr o

Digitized by Google

synwyr, na chael nemawr o gyssondeb o luaws o adnodau, lle y crybwyllir am y diafol. Cymhwyser yr egwyddor at ychydig o anghreifftiau —"Yna yr Iesu a arweiniwyd i fyny i'r anialwch gan yr Ysbryd i'w demtio gan ddiafol;" *Mat.* iv. 1—11.

Yn awr, gellir gofyn a demtiwyd Crist gan ryw fod gwirioneddol a phersonol, ynte gan egwyddor ddrwg yn unig y temtiwyd ef? Os atebir mai gan egwyddor ddrwg, yna, rhaid gofyn eilwaith, yn mhwy yr oedd yr egwyddor ddrwg hono yn bodoli? Ai yn yr Iesu? os yn yr Iesu, yna nis gellir dywedyd am dano mwyach ei fod "yn ddiddrwg a dihalog" (*Heb.* vii. 26), o blegid fod yr egwyddor o ddrygioni ynddo, yr hyn a'i gwnaeth yn hunandemtydd. Heb law hyny, dylid sylwi hefyd, nas gall yr egwyddor ddrwg hon fod yn ddrwg moesol ynddi ei hun, heb ei bod yn bodoli mewn cyssylltiad â rhyw fod ymwybodol a moesol; o blegid nis gall pechod neu ddrwg fodoli fel y cyfryw yno, fel y mae mewn cyssylltiad â sefyllfa neu weithrediad rhyw weithredydd cyfrifol. Ac yn awr, pwy oedd y gweithredydd hwn yn nhemtiad ein Harglwydd? Ai wrth fath o ddansoddiant (*abstraction*) yn unig y dywedai ein Harglwydd ar yr amgylchiad—"Na themtia yr Arglwydd dy Dduw—ymaith Satan?" Ai ynte a oedd efe yn anerch rhyw berson gwirioneddol, yn meddu ei ddymuniadau, ei amcanion, a'i ewyllysiad, ond ei fod ef yn fod *drygionus* am fod y teimladau hyny yn ddrwg?

Nid oes ond un ateb cysson a rhesymol a ellir ei roddi i'r gofyniad uchod, a'r ateb hwnw yn dangos mor anghysson ac afresymol yw y dyb, mai dynsodiant (*personification*) o ddrwg yn unig yw diafol.

Eto, dywed Crist:—"O'ch taddiafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynwch chwi eu gwneuthur. Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; ac ni safodd yn y gwirionedd, o blegid nid oes gwirionedd ynddo ef. Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd; canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo;" *Ioan* viii. 44. Gellid meddwl fod yr adnod hon yn cyfeirio at Satan yn neillduol, ac yn rhoddi dysgrifiad cywir nodedig o hono, yn ol y dyb gyffredin am dano. Canys yr oedd Satan yn lleiddiad dyn o ddechreuad bodolaeth y teulu dynol: efe a demtiodd ein rhieni cyntaf i gyflawnu y trosedd, yr hwn a'u dygodd hwy a'u hiliogaeth i drueni. "Canys yn Adda y mae pawb yn meirw"—efe a ddinystriodd ar unwaith eu cyrff a'u heneidiau. "Ni safodd yn y gwirionedd," pan y gwrthryfelodd yn erbyn ei Greawdwr, gan ddiystyru y gwirioneddau mwyaf pwysig, ac y gwrthwynebodd eu dylanwad: "ni safodd yn y gwirionedd" chwaith, pan y twyllodd efe Efa, pan yr hudodd efe hi i ddywedyd yr anwireddau adgasaf, a hyny am "nad oes gwirionedd ynddo ef," dim cariad at y gwirionedd, dim parch iddo, na dim tuedd i'w arferyd. Pan yn arfer anwireddau i dwyllo ein rhieni cyntaf, ei eiddo ei hun ydoedd, o'i ddyfeisiad a'i ffurfiad ei hun. Allan o'i drysorau ei hun, o dwyll a malais, y dygodd efe hwynt allan. Canys y mae efe mewn ffordd o hynodrwydd "yn gelwyddog, ac yn dad iddo"—yn achos a dechreuad o hono, ac o bob celwyddau yn gyffredinol. Y mae iaith ein Iachawdwr wrth yr Iuddewon yn eithaf cymhwysiadol yn y golygiad hwn, pan y dywedai, "O'ch tad diafol yr ydych chwi." Dyma hefyd yw ystyr naturiol yr adnod uchod, gellid meddwl, ond ei chymmeryd yn ol ystyr amlwg ei geiriau, ac yn ei chyssylltiad âg adnodau ereill o'r Beibl. Er fod y gair *diafol* yn cael ei arfer yn lled fynych yn y Testament Newydd, eto nid yw ond mewn ychydig fanau yn unig heb fod yn cyfeirio yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol at fod, yr hwn, fel y mae yn amlwg, a gydnabyddid gan y rhai yr ysgrifenai yr efengylwyr a'r apostolion atynt fel prif elyn Duw a dyn a phob daioni. Y mae hyn yn amlwg wrth yr Ysgrythyrau a ganlyn, a'u cyffelyb:—*Mat.* iv. 1; xiii. 39; xxv. 41; *Luc* viii. 12; *Ioan* xiii. 2; *Act.* xiii. 10; *Eph.* iv. 27; vi. 11; *Heb.* ii. 14; *Iago* iv. 7; 1 *Pedr* v. 8; 1 *Ioan* iii. 8. Ond yn ol y dyb a gofleidir gan y rhai nad ydynt yn credu yn modolaeth diafol fel person, pe cymhwysid y meddylddrych mai yr *egwyddor o ddrygioni* sydd i'w ddeall wrth y gair diafol yn yr adnod dan sylw, gellid gofyn, a ydyw yn bosibl priodoli y cyfryw bethau i ddansoddiad yn unig? Dansoddiad yn lleiddiad dyn!—dansoddiad yn gelwyddog! Ni safodd yr egwyddor o ddrygioni yn y gwirionedd! Mewn gwirionedd, y mae cymhwyso y cyfryw bethau at yr egwyddor o ddrygioni yn unig, yn ymddangos yn ansynwyredd hollol: canys pa angenrheidrwydd oedd i'r ysgrifenydd ysbrydoledig ddywedyd fod diafol yn pechu o'r dechreuad, os nad oedd yn ddim arall ond yr egwyddor o ddrygioni? A pha gyssondeb, yn ol y dyb hon, sydd i ddywedyd fod diafol neu Satan "yn ymrithio yn angel goleuni" (2 *Cor.* xi. 14), os nad yw yn meddu nac ewyllysiad, nac amcan, nac yn gallu gweithredu.

Ac os oes y fath beth a phriodoleddau personol yn bod, rhaid addef fod yr ysgrifenwyr sanctaidd yn priodoli y rhai hyny i'r diafol. Ond fel pe byddent wedi blino ar yr ofer-dy buchod, mae rhai o wrthwynebwyr diweddar y dyb o fodolaeth y diafol yn haeru "mai wrth y gair diafol yn yr adnod uchod, yr ydys i ddeall y Sanhedrim, neu y llywodraethwyr Iuddewig. Yr oeddynt hwy yn lleiddiaid dyn o'r dechreuad, o blegid hwy a gasasant ac a wrthwynebasant Iesu Grist o ddechreuad ei weinidogaeth; ac yn gymmaint a bod yr hwn ag sydd yn casau ei frawd yn lleiddiad dyn, felly yr oeddynt hwythau yn lleiddiaid dyn, am ddarfod iddynt gasau yr Iachawdwr. Ni safasant yn y gwirionedd, am ddarfod iddynt wadu dwyfol anfoniad y Messiah, a dwyn camdystiolaeth yn ei erbyn ef. Pan yr oeddynt yn dywedyd celwydd, yr eiddynt eu hunain oeddynt yn ddywedyd, am eu bod yn ymhyfrydu yn eu tymmer ddrygionus ac anwireddus; a'r Sanhedrim oedd y tad a'r dyfeisydd o'r holl anwireddau maleisus, y rhai a ledaenid am Iesu Grist, tad a dechreuad yr holl wrthwynebiad a wnaed yn erbyn y gwirionedd. "Y dechreuad" yma, sydd yn golygu dechreuad gweinidogaeth Iesu Grist, a'r Phariseaid oeddynt blant y llywodraethwyr, neu y Sanhedrim, o blegid yr oeddynt wedi derbyn o'u hysbryd, ac yn cyflawnu eu gwaith. Yr oeddynt hwy yn blant ufudd i'r camgyhuddwyr gynt. Gellir dywedyd, yn ngeiriau duwinydd galluog diweddar, am y golygiad hwn, "Yn awr, yn ddiau, y mae yr esboniad hwn yn mhell o fod yr hawddaf a mwyaf naturiol. Nid oedd iaith ein Iachawdwr yn cael ei deall; ïe, nis gallai ei bod yn cael ei deall yn yr ystyr hwn gan y rhai a'i clywsant ef; ac ni buasai yr ystyr hwn yn cael ei wneyd allan o'i eiriau, pe na buasai rhyw amcan penodol mewn golwg i gael ei ateb, neu ryw gyfundrefn i'w chefnogi, i'r hon yr oedd eu hystyr amlwg a naturiol yn anffafriol."

Digitized by Google

Nid oes gymmaint ag un awgrymiad wedi ei roddi yn yr holl Destament Newydd o fod y llywodraethwyr, neu y Sanhedrim Iuddewig, erioed yn cael eu personoli yn y modd y tybir yma. Oni fuasai pob darllenwyr diduedd yn penderfynu mai yr un oedd gan yr Iesu mewn golwg wrth yr *o diabolos* yma a'r *diabolos* a'i temtiodd ef yn yr anialwch, a hauodd yr efrau yn mhlith y gwenith; yr hwn y mae y tân tragwyddol wedi ei ddarparu iddo; yr hwn a roddodd yn nghalon Iudas fradychu ei athraw;—"yr hwn yr oedd nerth marwolaeth ganddo" (yn mha ystyr yr oedd y nerth yma gan y Sanhedrim Iuddewig?), a gweithredoedd yr hwn mae Mab Duw wedi ymddangos i'w dinystrio? Nid wyf yn petruso dywedyd nas gellir cymhwyso y gair (diafol) yn yr adnodau hyn, a llawer ereill, at lywodraethwyr yr Iuddewon, na'r Sanhedrim, ond at ryw elyn eithaf adnabyddus, nid yn unig i Iesu Grist, ond hefyd i'w bobl a'i achos yn mhob oes o'r byd.

Yn mhellach, ar yr annhebygolrwydd o gywirdeb syniad ein gwrthwynebwyr ar yr adnod uchod, oni ellir gofyn pa ham yr oedd y Sanhedrim neu flaenoriaid y bobl yn cael eu galw yn ddiafol yn neillduol? Onid oedd yr Iuddewon yn gyffredinol mor lygredig a drygionus a'r Sanhedrim? Mewn gwirionedd, yr oedd Nicodemus, os nad oedd Ioseph o Arimathea hefyd, yn perthyn i'r Sanhedrim, ac yn wŷr da. Heb law hyny, onid oedd Crist yn anerch yr holl genedl; ac os felly, mewn canlyniad, yn anerch y Sanhedrim a swyddogion y bobl; ac felly, y mae yn canlyn ei fod ef yn eu gwneyd hwy yn dad iddynt eu hunain—yr hyn a fuasai yn llawn mor anghysson ag y gall tyb ein gwrthwynebwr ei hunan fod. Heb law hyny, a chymmeryd yn ganiataol mai dechreuad gweinidogaeth Iesu Grist sydd i ni ei feddwl wrth y gair *dechreuad* yn yr adnod, byddai hyny yn ei gwneyd yn anghymhwys i'r Sanhedrim; canys nid ydys yn cael eu bod hwy yn gwrthwynebu gweinidogaeth Crist mor foreu a gwŷr Nazareth; felly, yn ol damcan ein gwrthwynebwyr, buasai yn fwy cymhwys galw gwŷr Nazareth yn "Lleiddiad dyn o'r dechreuad," na'r Sanhedrim a'r swyddogion Iuddewig.

*Mat.* xxv. 41—46; "Yna y dywed efe hefyd wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragwyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angelion," &c. Gallesid tybied mai ystyr amlwg a naturiol yr adnod hon, mor bell ag y mae yn perthyn i'r pwnc dan ystyriaeth, ydyw, mai cospedigaeth wedi ei darparu yn wreiddiol i rifedi o fodau llygredig, ac anniwygiadwy ddrygionus, y rhai sydd wedi gwrthryfela yn erbyn Duw, o'r rhai y mae un fel penaeth, a'r lleill fel ei angelion a'i genadon dano, ydyw y gosp dan yr hon y bydd i'r rhai drygionus o'r teulu dynol gael eu dedfrydu yn y dydd olaf. Ac am y bodau hyn, y mae hyny yn cael ei awgrymu yn amlwg am danynt, eu bod hwy yn gyffelyb i'r hil ddynol wedi gwrthgilio oddi wrth Dduw, ond eu bod eto, er hyny, yn gyfrifol iddo, a bod diwrnod wedi ei benodi, pan yr ymddengys Iachawdwr y byd, fel barnwr pawb, pryd y gelwir hwynt, a'r holl ddynion drygionus o flaen ei orsedd, i gael eu dedfrydu i gosp dragwyddol am eu troseddau.

Ac yn y goleu yma, yr hwn yw yr unig ystyr naturiol a ellir roddi i'r geiriau—y mae yn rhaid fod diafol a'i angelion yn fodau rhesymol a chyfrifol; onid e, nis gallasent fod yn ddeiliaid barn, ac yn wrthddrychau i dderbyn cospedigaeth am eu drygioni. Ond trwy fod yr adnod hon yn taraw mor uniongyrchol a phenodol er profi y pwnc o fodolaeth y diafol fel person neu fod, y mae gwrthwynebwyr yr athrawiaeth wedi bod yn ymegniol iawn i ddiosg y geiriau o ran eu hystyr o fod yn cyfeirio yn y mesur lleiaf at ddydd barn.

Yn ol eu damcaniaeth hwy, wrth y "diafol a'i angelion" yn yr adnod uchod, yr ydys i ddeall yr ymherawdwr Rhufeinaidd a'i swyddogion. "*Angelion* neu genadon *diafol* oeddynt y personau hyny, y rhai oeddynt yn weithgar yn cyhuddo, bradychu, ac erlid y Cristionogion." "Y mae y *defaid* yn arddangos tiriondeb a diniweidrwydd y rhai hyny a fuont yn gyfeillgar i ganlynwyr Crist, y rhai oedd yn arfer tuag atynt y dyledswyddau o lettygarwch, caredigrwydd, a dyngarwch. Y *geifr* ydynt yn arwyddocau yr Iuddewon hyny ag oeddynt yn greulawn a llidiog tuag at y rhai oedd yn eu mysg, a'r rhai o honynt hwy eu hunain fel cenedl ag oeddynt wedi derbyn Cristionogaeth." "*Y tân tragwyddol* yw y trallodau cenedlaethol tymmorol, y rhai oedd i ddyfod ar wrthwynebwyr achos Crist, ac yn neillduol ar erlidwyr ei ddysgyblion."

Ond heb sylwi dim ar annaturiolrwydd a threisolrwydd y cyfryw eglurhad a'r un uchod ar yr adnod dan sylw, y mae un ystyriaeth yn tynu yr holl adeilad i'r llawr ar unwaith, sef, na oddef y geiriau mewn un modd eu cymhwyso at ddinystr Ierusalem; ond at ddydd y farn olaf y maent yn cyfeirio: ac mewn canlyniad, y maent yn brawf cadarn o fodolaeth y diafol a'i angelion. Ac yn yr un ystyr hefyd, y mae yn amlwg, yr oedd y *demoniaid*, neu y cythreuliaid, ag oeddynt wedi cymmeryd meddiant o'r ddau ddyn, y rhai oeddynt yn trigo yn mhlith y beddau, y rhai, pan welsant yr Iesu, a lefasant, gan ddywedyd, "Iesu, Fab Duw, beth sydd i ni a wnelom â thi? a ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser?" Y mae yn amlwg wrth hyn fod yr ysbrydion drygionus yma yn gwybod fod amser wedi ei benodi pan y byddai iddynt gael eu trosglwyddo i ddyoddef mwy o boenedigaeth nag oeddynt yn ei ddyoddef y pryd hwnw: *Mat.* viii. 29.

Ac mewn cyssylltiad â'r mater hwn hefyd, oni ddywedir fod "y cythreuliaid (neu y demoniaid) yn credu ac yn crynu;" *Iago* ii. 19: mewn canlyniad, y maent yn gwybod eu bod wedi eu dedfrydu i ddyoddef rhyw boenedigaeth drymach eto nag y maent yn ei ddyoddef yn awr.

Ac at bwy y gall y gair *cythreuliaid* fod yn cyfeirio onid yw at angelion syrthiedig? "Canys onid arbedodd Duw yr angelion a bechasant, eithr eu taflu hwynt i uffern, a'u rhoddi i gadwynau tywyllwch i'w cadw i farnedigaeth;" 2 *Pedr* ii. 4. "Yr angelion hefyd, y rhai ni chadwasant eu dechreuad, eithr a adawsant eu trigfa eu hun, a gadwodd efe mewn cadwynau tragwyddol dan dywyllwch i farn y dydd mawr;" *Iudas* 6. Y mae yr adnodau uchod yn siarad mor benodol ar y pwnc o fodolaeth angelion, eu cwymp, a'u cospedigaeth, fel y mae rhai o wrthwynebwyr yr athrawiaeth o fodolaeth diafol fel person yn haeru mai ar y dystiolaeth yn yr adnodau hyn yn benaf y mae y dyb wrthwynebol yn sylfaenedig.

Ac mewn trefn i'w gwrthateb, mynant mai wrth yr angelion yn yr adnodau hyn yr ydys i ddeall yr ysbiwyr hyny a anfonwyd i edrych ansawdd Gwlad Canaan, y rhai a roddasant anair i'r wlad ar eu dychweliad. Ond heb fanylu dim

Digitized by Google

ar yr annhebygolrwydd neillduol fod yr adnodau uchod yn cyfeirio dim at yr ysbïwyr a nodwyd—y mae y cyssylltiad yn gwahardd hyny; a pheth arall, nid yw yn ymddangos y gellir cyfieithu y gair ἀγγελοι, yn *genadon*, neu *ysbïwyr*, yn y cyssylltiad hwn, yr hyn sydd yn dadsylfaenu y dyb ar unwaith. Fel yma, yr ydys yn canfod yn eglur, fod rhediad yr Ysgrythyrau yn cyd-dystiolaethu fod y diafol yn berson, neu yn fod rhesymol a chyfrifol.

Am y diafol, o ran ei natur, ysbryd neu angel ydyw. Ac y mae yr holl briodoleddau gwahanredol, y rhai sydd yn perthyn yn naturiol i'r cyfundeb lluosog hwnw o fodau nefol, yn perthyn iddo yntau. Y mae yn feddiannol ar ddeall-twriaeth, yr hyn a gynnwys ddirnadaeth, cof, a barn; yn nghyd â serchiadau, dymuniadau, nwydau, ewyllysiad, a bywiogrwydd dibaid: *Heb.* i. 14; *Col.* i. 16; *Eph.* iii. 10; vi. 12; 1 *Pedr* i. 12. Am y bodau hyn, er fod tystiolaeth yr Ysgrythyrau yn bendant eu bod yn ysbrydol (neu eu bod yn ysbrydion), eto, fe allai mai gormod fyddai haeru fod eu hysbrydolrwydd hwy yr un yn hollol o ran ei natur ag ysbrydolrwydd Duw; a phe y priodolid iddynt ryw fath o gyrff nefol, awyrol, neu ysbrydol, gellid meddwl braidd y byddai hyny megys yn gynnorthwy i ffurfio meddylddrych cywir am rai o dystiolaethau y Beibl o barthed iddynt: megys pan y sonir am danynt mewn cyssylltiad â gofod, ymsymmudiad, ymddangosiad, ymddysgleiriad, &c.: *Luc* ii. 9; *Mat.* xxviii. 3; *Act.* i. 10; xii. 7 [gwel *Dr. Pye Smith's First Lines of Christian Theology*, td. 329., argraffiad cyntaf]. Am y bodau hyn, y maent yn lluosog (*Dan.* vii. 10; *Salm* lxviii; 2 *Bren* vi. 16, 17); yn nerthol iawn—ond o ba natur, ac yn mha fodd y mae eu nerth yn cael ei arfer, nid oes genym wybodaeth hollol sicr a phenderfynol: *Mat.* xxvi. 53; 2 *Pedr* ii. 11; 2 *Thes.* i. 7. Ac y mae seiliau i gredu hefyd fod graddau yn mysg y bodau hyn; canys sonir am thronau, arglwyddiaethau, a thywysogaethau yn eu plith: ond pa un a yw y graddau hyn yn tarddu oddi ar amrywiaeth galluoedd naturiol a deallol, ynte oddi ar ryw benodiad swyddol, nid yw yr Ysgrythyrau yn ein dysgu mewn un modd (*Eph.* iii. 10; vi. 12; *Col.* i. 16; 1 *Pedr* iii. 22). Nid yw yr Ysgrythyrau chwaith yn ein dysgu yn hollol benodol gyda golwg ar yr amser y dygwyd y bodau hyn i fodolaeth; ac mewn canlyniad, y mae amrywiaeth syniadau yn mhlith dynion o barthed i'r pwnc. Rhai a feddyliant mai ar ol creadigaeth y byd hwn y dygwyd hwy i fodolaeth [*Lectures on Divinity by John Dick, D.D.*, cyf. ii. td. 233, ail argr.]. Ereill a fynant iddynt gael eu creu ychydig yn flaenorol i greadigaeth dyn, a chyda bwriad grasol o fod yn wasanaethgar iddo. Ac ereill a dybiant, gan fod yr angelion yn greaduriaid mor ardderchog yn llywodraeth Duw, y gallai eu bod wedi eu creu oesoedd lawer cyn dygiad dyn i fodolaeth. Y mae yr Ysgrythyrau yn ein dysgu yn bendant am y ffaith ddychrynllyd fod rhyw ddosbarth o'r angelion sanctaidd a dedwydd wedi pechu yn erbyn eu Creawdwr, ac wedi cwympo o'u cyflwr creadigol i gyflwr o euogrwydd, halogrwydd, a thrueni. "Yr angelion hefyd, y rhai ni chadwasant eu dechreuad, eithr a adawsant eu trigfa eu hun, a gadwodd efe mewn cadwynau tragwyddol dan dywyllwch, i farn y dydd mawr;" *Iudas* 6. "Canys onid arbedodd Duw yr angelion a bechasant, eithr eu taflu hwynt i uffern, a'u rhoddi i gadwynau tywyllwch, i'w cadw i farnedigaeth;" 2 *Pedr* ii. 4. Beth oedd rhifedi, graddau, ac amgylchiadau ereill yr angelion hyn, yn flaenorol i'w cwymp, nid yw Ysbryd Duw wedi gweled yn dda ei amlygu; ac mewn canlyniad, nid oes genym un wybodaeth am y peth. Ac nid yw y dadguddiad dwyfol chwaith yn ein dysgu gyda golwg ar y ffaith alarus, pa fodd y syrthiodd y diafol a'i angelion—bodau oedd wedi eu creu mor ogoneddus, deallus, a sanctaidd a hwy—i fod yn fodau pechadurus, aflan, euog, a thruenus. Y mae dyfodiad pechod i fodolaeth yn ei gyssylltiad â'r angelion—sef, pa fodd y daeth bodau gogoneddus, deallus, a sanctaidd fel hwy, i fod yn fodau pechadurus, aflan, ac euog—yn bwnc ag sydd wedi dyrysu duwinyddion yr oesoedd a fu yn amcanu at ei egluro. Ac fe allai fod dystawrwydd y dadguddiad dwyfol ar y mater yn lled awgrymiadol mai pwnc i'w gredu fel ffaith ac nid i'w ddeall fel damcaniaeth ydyw. Dyma'r fan y mae dechreuad drygioni yn ein cyfarfod gyntaf; ac er nad ydys yn gallu deall pa fodd y dechreuodd, eto, rhaid addef y ffaith; fel yr ydys yn fynych yn gorfod addef ffeithiau ereill yn y byd naturiol, y rhai nas gallwn eu hegluro. Gyda golwg ar beth oedd pechod yr angelion, meddylia rhai mai twyllo ein rhieni cyntaf ydoedd: y mae ereill yn barnu mai at bechod cyntaf yr angelion y cyfeirir yn *Gen.* vi. 2: tra y mae ereill, ac fe allai gyda mwy o briodoldeb, yn barnu mai balchder ydoedd, a bod y geiriau yn 1 *Tim.* iii. 6, "Nid yn newyddian yn y ffydd, rhag iddo ymchwyddo, a syrthio i ddamnedigaeth diafol," yn cyfeirio at hyny. Ond, a chaniatau fod y golygiad diweddaf yn gywir, nid yw yn gosod allan ond ansawdd y trosedd yn unig, heb daflu un goleuni ar y weithred yn y camwedd. Er fod yr Ysgrythyrau yn dangos yn amlwg fod lluaws mawr o'r angelion, y rhai ni chadwasant eu dechreuad; eto, y mae yn amlwg eu bod hefyd yn siarad yn benodol am un fel arweinydd neu benaeth arnynt oll, yr hwn a enwir mewn ffordd o hynodrwydd *y sarff, yr hen sarff yr un drwg, diafol, Satan*, &c. Ac y mae y cyssylltiad sydd rhwng yr angelion syrthiedig â'u pen y fath, fel y mae eu gweithrediadau hwy oll mewn undeb âg ef, ac yn is-wasanaethol iddo, yn myned yn a than ei enw ef, ac yn cael eu hystyried megys yn eiddo ef.

Mae Moses Stuart yn sylwi [*Bibliotheca Sacra*, i. 120. 1843]—"Ymddengys," ebe fe, "gan hyny, nad oes ond un diafol, neu Satan; a llawer o ysbrydion aflan, neu angelion Satan." Y mae y ffaith fod y fath wahaniaeth yn cael ei ddangos yn yr Ysgrythyrau rhwng y diafol a'i angelion, wedi cyfodi, ac nid yn annaturiol chwaith, fath o ammheuaeth yn meddyliau rhai, pa un a ydynt yn perthyn i'r un dosbarth o greaduriaid a'u gilydd, ai nid ydynt? hyny yw, pa un ai y blaenaf yn mysg cydraddiaid yn unig ydyw Satan, ynte a ydyw efe yn un o ddosbarth uwch o greaduriaid na'i angelion ei hun? Er nad yw yr Ysgrythyrau yn dywedyd dim yn benodol y naill ffordd na'r llall—eto, maent yn ymddangos fel yn rhoddi awgrymiadau, oddi wrth y rhai yr ydys yn casglu yn naturiol nad ydyw Satan ond y blaenaf yn mhlith cydraddiaid. Megys yn *Mat.* xii. 26, lle mae Crist yn son am "Satan yn bwrw allan Satan;" er, fel y gwelsom, ei bod yn debygol mai yr ystyr yw, "os Satan a fwrw ei hun allan"—eto, y mae'r cyfeiriad yn y pen draw tu hwnt i ammheuaeth at ddylanwad cythreulig. Mewn canlyniad, y mae hyn yn cael ei ystyried megys yn perthyn i Satan, ac yn gwneyd i fyny ran o'i gylch priodol ei hun. Felly, mae y cythreuliaid



Digitized by Google

yn cael eu hystyried fel pe baent yn gweithredu dano ef. Megys y ceir yn *Act.* x. 38, lle y mae Pedr yn siarad am Grist yn "iachau pawb ar a oedd wedi eu gorthrymu gan ddiafol," lle y mae y cyfeiriad yn amlwg at anhwylderau ag oeddynt wedi eu dwyn o amgylch trwy ddylanwad cythreulig, ac felly y mae yn amlwg fod y dylanwad hwn yn cael ei ystyried megys dan lywyddiad Satan. Ac y mae'r adnodau uchod mewn perffaith gydgordiad â *Mat.* ix. 34, lle y mae y Phariseaid yn cyhuddo Crist, ac yn dywedyd mai "trwy benaeth y cythreuliaid yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid."

Felly, ymddengys fod yr holl gythreuliaid yn cael eu llywyddu fel unbenaeth gan Satan: *Mat.* xii. 26; *Col.* i. 13; *Eph.* vi. 12; *Col.* ii. 15; *Mat.* xxv. 41. Y mae y bodau annedwydd hyn hefyd yn uchel o ran graddau eu gwybodaeth resymol, yn enwedig mewn ffordd o ddichell, twyll, a chyfrwysdra i dwyllo: *Iago* ii. 19; iii. 15; *Marc* i. 24; 2 *Cor.* ii. 11; xi. 3, 14. Hefyd, y mae yn ddiau eu bod yn nerthol iawn; canys felly yr ydys yn cael eu bod yn flaenorol iddynt golli eu sefyllfa ddechreuol, ac nid oes un awgrymiad yn cael ei roddi eu bod yn llai eu nerth wedi iddynt golli eu sancteiddrwydd. Ac nid oes un ammheuaeth chwaith, pe caniateid iddynt gan Dduw, nas gallent wneyd pethau grymus ac ofnadwy mewn modd anianyddol (*Iob* i, ii), yn gystal ag mewn ystyr foesol i hudo a thwyllo i ddrygioni. Ond y maent dan oruchlywodraeth Duw (*Iudas* 6). Ac onis gellir tybied fod yr attaliad ar y bodau hyn yn llawer tynach ar ol marwolaeth y Gwaredwr nag ydoedd yn flaenorol i hyny? a bod eu dylanwad ar y byd mewn ystyr anianyddol yn bresennol wedi ei wneyd yn dra chyfyng? Gwel *Col.* ii. 15.

Am nodweddiad moesol y bodau hyn, y maent yn drylawn a phenderfynol ddrygionus, ac yn gwneyd eu goreu yn barhaus, mor bell ag y gallant, er temtio a dinystrio dynion, trwy eu gwneuthur yn ddrygionus. Felly y mae yn amlwg fod y diafol ei hun, fel penaeth y cythreuliaid, o ran ei nodweddiad, yn ddrygionus hollol (1 *Ioan* iii. 8; *Ioan* viii. 44). Y mae ei enwau —Satan, gwrthwynebwr, diafol, &c.—yn adbelydru ei nodweddiad. Y mae yn llawn o bob gelyniaeth gwreiddiol yn erbyn pob cyfiawnder; a'i feddwl grymus, bywiog, cywrain, yn llawn o bob teimladau ansanctaidd a drwg—yn byw ac yn gweithredu dan ddylanwad y balchder mwyaf trahaus, yr elyniaeth fwyaf dirgasol, a'r creulondeb mwyaf adwythig. Drwg yw cyflwr sefydlog y diafol, yn yr hwn y mae wedi ymgadarnhau gan anorchfygolrwydd ei duedd at bechod —anorchfygolrwydd nas gall un math o argymhellion byth ei ddarostwng. Ac arwyddoceir yr ymgadarnhad hwn mewn drwg, gan y geiriau "cadwynau tragwyddol dan dywyllwch, i farn y dydd mawr;" *Iudas* 6. Mae anghyfnewidioldeb nodweddiad drygionus y diafol yn cau allan y meddylddrych am edifeirwch, ac felly yn cau allan y posiblrwydd o un adferiad iddo byth. Am weithrediadau diafol neu Satan, y mae y rhai hyn yn dra nerthol a lluosog, trwy fod yn perthyn iddo ef fel ei weithredoedd, nid yn unig yr hyn y mae yn ei wneuthur ei hun yn bersonol, ond yr hyn hefyd y mae yn ddwyn yn mlaen drwy ei angylion fel offerynau.

Ond er fod gweithrediadau diafol yn ddiau yn dra lluosog a grymus, eto credir eu bod yn cael eu cymmedroli, eu cyfyngu, a'u hattal:—Yn gyntaf, gan allu uniongyrchol Duw; canys pa beth bynag yw rhwysg a grym penaeth y cythreuliaid, nid yw yn bosibl y gall ef wrthsefyll a gwrthweithio y gallu anfeidrol, ar yr hwn y mae yn dibynu am ei fodolaeth ei hun. Yn ail, y mae ei weithrediadau yn cael eu cyfyngu trwy nad ydyw ei alluoedd ar y goreu ond meidrol. Ac yn drydydd, trwy y cyssylltiad naturiol sydd rhwng achos ac effaith. Ond mor bell ag y caniateir iddo gan yr attaliadau uchod, gosodir diafol allan yn y gair "megys llew rhuadwy yn rhodio o amgylch, gan geisio y neb a allo lyncu;" 1 *Pedr* v. 8. Y mae yr Ysgrythyrau yn gosod allan yn amlwg fod gweithrediadau y diafol yn foesol ac anianyddol o ran eu natur.

Trwy ei weithrediadau moesol y twyllodd efe ein rhieni cyntaf, ac y dygodd bechod arnynt hwy a'u hiliogaeth drwy hyny (*Gen.* iii); yr annogodd efe Dafydd i rifo y bobl (1 *Cron.* xxi. 1); y gwrthwynebodd efe Iosuah yr archoffeiriad (*Zech.* iii. 1); ac y temtiodd yr Arglwydd Iesu Grist yn y diffaethwch: *Mat.* iv. "Yr oedd holl fywyd Iesu Grist yn un ymdrechfa yn erbyn Satan; ond y mae ei ymdrechiadau yn ei erbyn ar ddechreuad a diweddiad ei weinidogaeth gyhoeddus yn cael eu nodi allan mewn modd penodol. Yr oedd y gyntaf yn tarddu oddi wrth y temtasiynau ag oeddynt yn cyfodi oddi wrth newyn, twyll cyfoeth, ac anrhydedd daiarol; a'r ail yn cyfodi oddi wrth yr ofnau mwyaf dychrynllyd ac arswydlawn. Yr oedd yn angenrheidiol, fel yma, i'r Iachawdwr i ddyoddef, gan gael ei demtio (*Heb.* iv. 15): mewn canlyniad, rhaid ystyried y temtio y crybwyllir am dano yn *Mat.* iv, a fu arno, nid mewn gweledigaeth, ac nid mewn ffurf allanol, ond mewn awgrymiadau neu gymhwylliadau (*suggestions*) i'r meddwl. Cymharer 2 *Cor.* xi. 14; *Ezec.* viii. 3; xi. 1; *Dad.* xvii. 3. Ac fe allai i'n Iachawdwr, fel y mae yn dra thebyg, deimlo math o ymadawiad o ddylanwad teimladwy ei natur oruchel ar y pryd; yn gyffelyb i'r hyn a gymmerodd le yn yr ardd ac ar y groes: *Luc* xxii. 53; *Mat.* xxvii. 46."—*Dr. Pye Smith's First Lines of Christian Theology*, td. 333—335, argr. cyntaf. Trwy ei ddylanwad moesol hefyd y mae y diafol yn annog dynion i bob drygioni yn ymarferol (*Ioan* xiii. 2, 27; xii. 31; xvi. 11; *Act.* v. 3); i lygru proffes wirioneddol o'r efengyl, a lledaenu gau athrawiaethau (*Ioan* v. 44; *Mat.* xiii. 19, 39; 2 *Cor.* xi. 3, 13, 14; 2 *Thes.* ii. 9, 10); yn rhwystro dylanwad yr efengyl (*Mat.* xiii. 19; 1 *Thes.* ii. 18; 2 *Cor.* iv. 4); yn twyllo dynion (2 *Thes.* ii. 9; 1 *Pedr* v. 8; 2 *Cor.* ii. 11; *Ioan* xiv. 30; 1 *Ioan* iii. 7, 8); ac yn arfer pob twyll er llithio Cristionogion i bechod (*Luc* xxii. 3; 1 *Pedr* v. 8). Mae y gwahanol foddion, y rhai a arferir gan ddiafol er dwyn ei amcanion drygionus o amgylch, yn cael eu galw yn gynllwynion, picellau tanllyd, dyfnderoedd, maglau, pob twyll, anghyfiawnder, &c. Y mae Satan yn tywyllu deall dynion mewn trefn i'w cadw mewn anwybodaeth; yn gwyrdroi eu barn fel ag y gallo eu harwain i gyfeiliornadau; yn awgrymu iddynt feddyliau drwg, mewn trefn i gyffroi ynddynt yr ysbryd o falchder, llid, digofaint, a phob nwydau drwg. Ond pan y dywedir fod y diafol yn temtio dynion i ddrygioni, nid ydys i ddeall ei fod mewn un modd yn eu gorfodi i gyflawnu yr hyn sydd ddrygionus:—y cyfan a all wneyd ydyw cynllwyn a themtio. Rhaid i'r dyn gyflawnu y weithred ddrwg yn wirfoddol cyn y bydd yn euog ger bron Duw. Gan fod y fath elyniaeth gan y diafol at bob daioni a dedwyddwch, y mae yn amlwg y dein-

Digitized by Google

yddia efe bob cyfleusdra a phob moddion a fyddo yn ei afael er cyrhaedd ei amcanion ofnadwy; a chan nas gall efe ei hun fod yn hollbresennol, diau ei fod yn defnyddio ei angylion i gydweithredu âg ef, lle bynag y byddont, yn gystal a dynion drygionus a fyddont dan eu dylanwad. A chan mai hudo neu demtio dynion i ddrygioni y mae y diafol, y mae yn canlyn yn naturiol ei fod yn dyfal sylwi mewn trefn i adnabod gwrthddrychau ei demtasiynau, fel y gall barotoi yr abwyd mwyaf priodol iddynt, a thebycaf o'u rhwydo, a'i fod yn gwneyd hyny yn y modd mwyaf dirgelaidd, fel na byddo iddynt ddeall eu perygl ac ysgoi ei faglau. Ond wedi y cyfan, rhaid addef fod temtasiynau Satan yn bwnc trylawn o ddirgelwch; canys nid ydys yn gallu dirnad dim gyda golwg ar y *modd* y mae y diafol yn gallu effeithio yn ddrwg ar feddyliau neu ysbrydoedd dynion. Ond nid ydyw hyny yn newid dim ar y ffaith, mwy nag y mae ein hanwybodaeth o'r *modd* y mae yr Ysbryd Glân yn effeithio yn dda ar feddyliau neu galonau dynion yn gwrthbrofi y ffaith o fod hyny yn bodoli. Ac os yw dynion da yn dyfod yn well trwy ddylanwad bodau da arnynt, onid ydyw yn llawn mor resymol tybied y gall dynion drwg gael eu gwneyd yn waeth trwy ddylanwad bodau drygionus arnynt? Ac nid ydyw bod dylanwad Satan yn gweithredu fel yma yn milwrio dim mwy yn erbyn cariad a haelfrydedd Duw tuag at ddynion, na bod dynion drwg yn cael eu goddef ar y ddaiar, neu fod drwg moesol yn bodoli yn y byd mewn un ffordd. Os oes rhyw wahaniaeth rhwng y naill ddrwg a'r llall, y mae hyny yn gynnwysedig yn ngraddau y naill rhagor y llall, ac nid yn yr egwyddor.

Ond ymddengys hefyd fod y diafol yn effeithio yn anianyddol ar gyrff dynion yn gystal ag ar eu meddyliau; canys y mae yr Ysgrythyrau yn dysgu yn amlwg fod gan Satan law benodol yn nygiad anhwylderau ar ddynion (*Iob* ii. 7; *Luc* xiii. 16); ac y mae Pedr yn dyweyd am Grist, ei fod "yn cerdded o amgylch gan wneuthur daioni ac iachau (ἰώμενος) pawb ag a oedd wedi eu gorthrymu gan ddiafol (τοῦ διαβόλου): *Act.* x. 38. Dywedir hefyd fod Hymeneus ac Alexander yn cael eu traddodi i Satan, fel y dysgent na chablent: 1 *Tim.* i. 20. Nis gellir meddwl y buasai Satan yn dysgu y personau uchod i beidio cablu, nac y buasai Paul chwaith yn meddwl am eu gosod dan addysg y fath athraw i'r dyben hwnw, canys dysgu dynion i gablu y mae Satan yn wastad, ac nid eu dysgu i beidio. Mewn canlyniad, tybir mai yr ystyr yw i Paul eu diarddel hwynt o'r eglwys, gan ddwyn arnynt ryw anhwylderau corfforol, a hyny trwy offerynoliaeth Satan, gyda golwg ar eu diwygio a'u hadferu; o blegid ymddengys fod y ddawn wyrthiol o ddwyn cospedigaethau tymmorol ar y rhai afreolaidd wedi ei hymddiried i'r apostolion: 1 *Cor.* v. 5. Ymddengys fod Farmer yn un o'r rhai cyntaf yn y deyrnas hon, yn yr amseroedd diweddar, a Semler wedi hyny yn yr Almaen, i fabwysiadu y dyb resymolig (*rationalistic*), mewn perthynas i'r cythreuliaid, neu y demoniaid, yn y Testament Newydd, sef "nad oes i ni ddeall wrth yr ymadrodd un *cythreulig*, neu un â *chythraul ganddo*, ond un dan ddylanwad rhyw fath o glefyd neu gilydd; ac nad oes dim i'w ddeall yn rhagor wrth yr ymadroddion 'cythreuliaid yn myned i un,' neu 'yn cael eu bwrw allan o un,' na bod math o glefyd, megys gwallgofrwydd yr *epilepsy*, neu rywbeth o'r fath, yn dyfod arno, o un tu, ac yn cael ei symmud oddi arno o'r tu arall." Ond beth bynag yw yr anhawsderau sydd yn gysylltiedig â'r pwnc, y mae yn eithaf amlwg fod y cythreuliaid yn cael eu galw yn ysbrydion aflan, a'u bod yn ymwybodol eu bod dan gondemniad: *Mat.* viii. 29. Daeth Crist i'r byd i ddinystrio teyrnas Satan; ac y mae efe yn cyfeirio at ei waith yn bwrw allan gythreuliaid trwy fys Duw fel prawf ei fod ef yn cyflawnu y gwaith hwnw. A phan y mae yn cael ei gyhuddo mai trwy benaeth y cythreuliaid yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid, y mae yn cyfarfod y cyhuddiad trwy sicrhau mai rhwygo teyrnas Satan a fuasai hyny; sef Satan yn bwrw allan Satan; hyny yw, bwrw allan ei ddeiliaid neu ei angylion ei hun; a'r casgliad anwrthwynebol oddi wrth hyn ydyw, fod Satan a'r cythreuliaid yn un tŷ, ac yn perthyn i'r un deyrnas, y naill fel y llall. Mewn gair, y mae ymdroddion yr Ysgrythyr ar y pen hwn y fath fel nas gellir gwneyd un synwyr o honynt heb olygu fod y cythreuliaid oedd yn meddiannu dynion, yn fodau rhesymol, ac mai nid math o glefydau oeddynt. Yn un peth, siaredid *wrthynt* ac am *danynt* fel bodau rhesymol; yr oedd eu gwaith hwythau yn siarad, yn ymddyddan, yn gofyn, ac yn ateb gofyniadau, yn arddangos eu bod yn gwybod am yr Iesu, ac yn ei ofni—pethau nas gellir eu dywedyd yn ddiau mewn un modd am glefydau (*Mat.* viii. 29; *Luc* viii. 28); arddangosir hwy hefyd yn myned allan o un person, ac yn myned i mewn i un arall: *Mat.* viii. 32. Y mae Crist yn siarad â hwynt, yn gofyn eu henwau, yn eu bygwth, yn gorchymyn iddynt dewi, i ymadael a pheidio dychwelyd, &c: *Marc* i. 25; v. 8; ix. 25. Gwel hefyd *Act.* xix. 15; *Iago* ii, 19. Ac y mae yr holl bethau hyn, gellid meddwl, yn brofion digon amlwg, a hyny mewn iaith mor eglur a syml, fel nas gellir yn hawdd camgymmeryd ei hystyr—ac yn dangos yn bur eglur fod syniadau y Saduceaid diweddar yn llawn mor gyfeiliornus ag eiddo yr hen Saduceaid, y rhai oedd yn nyddiau ein Iachawdwr. Gwel CYTHRAUL, SATAN. (*Olshausen's Commentary; Storr and Flatt's Biblical Theol.; Kitto's Cyc. Bib. Lit.; Dr. Pye Smith's First Lines of Christ. Theol.*, td. 333—340; *Walter Scott on the Existence, &c., of Evil Spirits.* &c.; *Bastow's Bib. Dic.; Pictor. Bib. Dic.; Dr. Eadie's Bib. Cycl.; Lectures on Theol., by John Dick, D.D.*, cyf. ii. td. 249—266 ail argr.)

DIALYDD Y GWAED: cyfathrachwr, neu berthynas agosaf dyn lladdedig, i'r hwn y perthynai dial ei waed ef ar yr hwn a'i lladdasai. Pan leddid dyn, ystyriai ei gyfathrachwr mai ei ddyledswydd ydoedd dial ei waed, trwy roddi y lladdwr i farwolaeth, naill ai â'i ddwylaw ei hun, neu trwy gyflogi un arall i gyflawnu y weithred. Teimlai fod y gwaed a dywalltesid yn gwaeddi am ddial, ac nas gallesid dystewi y waedd hono ond â gwaed yr hwn a'i tywalltasai. Ymddengys ei fod yn rhydd i'r dialydd i roddi y lladdwr i farwolaeth, os cai afael arno, heb na holiad na phrawf. Nid oes yr un rheol am hyn, ond y mae y rheolau a roddir o barth i ddinasoedd noddfa yn cynnwys mai felly yr ydoedd. Gwel DINAS NODDFA.

DIANA, [Gr., Ἄρτεμις]: *Act.* xix. 24. Duwies yn mysg y Rhufeiniaid, a adnabyddid dan amrywiol ffurfiau, agweddau, a phriodoliaethau. Megys duwies Ephesus, yn yr hwn gymmeriad yn unig y mae a fynom ni â hi yn bresennol, y

Digitized by Google

mae yn ddiamınheu ei bod yn cynnrychioli yr un gallu ag a addolid yn Palestina dan yr enw Astoreth, yr hwn a oruwchreolai genedliad a genedigaeth. Y mae yn dwyn perthynas, gan hyny, â holl dduwiau cydrywiol Asia, o ddosbarth Gwener, ac yn cyfranu o'r hyn lleiaf o'u cyssylltiad â'r *lleuad*. Y mae Creuzer wedi casglu yn nghyd nifer o dystiolaethau, mewn trefn i ddangos pa fodd y dygwyd ei haddoliad i mewn i Ephesus o arfordiroedd y Môr Du; ac ymdrecha nodi allan yr elfenau Medo-Persiaidd, Aiphtaidd, Libyaidd, Scythiaidd, a Chretaidd, o ba rai y cyfansoddir hi [*Symbolik*, ii. 115, &c.].

Yr oedd y ddelw gyntaf o honi, y mae yn debygol, yr hon y dywedid a syrthiasai o'r nef, yn dra anghelfydd; a barnu oddi wrth ei darlun ar hen fathodau, nid ydoedd fawr amgen na phen, gyda chorff difurf, yn cael ei gynnal gan ffon o bob tu. Y mae gwahanol farnau yn nghylch y sylwedd o ba un yr ydoedd y ddelw wedi ei gwneuthur. Dywed y rhan fwyaf o'r awdurdodau mai coed ebon ydoedd, a thybia Creuzer fod lliw du y coed yn arwyddluniol. Dywed Pliny fod Mucianus, yr hwn a'i gwelsai, yn sicrhau mai o goed y winwydden yr oedd wedi ei gwneuthur, a bod y ddelw mor hen fel yr oedd wedi goroesi saith o adferiadau ar y deml [*Hist. Nat.*, xvi. 79]. Yn ol Xenophon, aur oedd ei defnydd [*Anab.*, v. 3]. Y mae y ddelw ddiweddaf o'r dduwies, gydag ymddadblygiad cyflawn o'i phriodoliaethau, yn ol Creuzer, yn gydgasgliad o dduwiau Asiaidd ac Aiphtaidd. Er hyny, nid oes eto fawr o ol y gelfyddyd Roegaidd i'w weled yn ei ffurfiad. Y mae eto yn debycach i gorffoethyn (*mummy*) nag i gerflun Groegaidd. Rhai o'r priodoliaethau mwyaf nodedig yn y ddelw hon ydynt—y pen tyraidd, megys eiddo Cybele; y goleugylch tu ol iddo yn cynnrychioli y lleuad; arwyddion sidyddol y tarw, y gefeilliaid, a'r cranc ar ei mynwes; y tu isaf iddynt, dwy garlant, un o flodau, a'r llall o fês; y bronau lluosog; y llewod, y ceirw, a'r gwartheg mewn gwahanol leoedd; y gwenyn a'r blodau ar yr ochrau, &c. Megabyzi y gelwid ei hoffeiriaid, y rhai oeddynt eunuchiaid. Gwel EPHESUS.

Y gair a ddefnyddir am Diana yn y cyfieithiad Arabaidd o'r bennod a ddyfynwyd ydyw *Az Zuharat*, yr hwn ydyw yr enw Arabaidd am y blaned Gwener.—(*Kitto's Cyclo. Bib. Lit.*)

DIANGFA: gwaredigaeth o gyfyngder, neu rhag perygl. Yn gyffredin, meddylia y gair waredigaeth o gyfyngder mawr, neu rhag perygl uniongyrchol. Yr oedd sefyllfa Israel yn Babilon yn anobeithiol—"torasid hwynt ymaith o'u rhan hwy;" ond rhoddodd yr Arglwydd iddynt ddiangfa;" *Ezra* ix. 13: "Ein henaid a ddiangodd fel aderyn o fagl yr adarwyr: y fagl a dorwyd, a ninnau a ddiangasom;" *Salm* cxxiv. 7: "I'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfäau rhag marwolaeth;" *Salm* lxviii. 20. Bydd temtasiwn weithiau yn ein cylchynu yn y fath fodd fel nas gallwn weled un ffordd o waredigaeth; ond "ffyddlawn yw Duw, yr hwn ni âd ein temtio uwch law yr hyn a allom, eithr a wna yn nghyd â'r demtasiwn ddiangfa hefyd, fel y gallom ei ddwyn;" 1 *Cor.* x. 13.

DIANRHYDEDD—U, [anrhydedd]: sarhau, anmharchu, difrïo. Dianrhydeddodd yr Iuddewon y Messïah drwy ddirmygu a bychanu ei berson; trwy gablu ei eiriau, ei weithredoedd, a'i athrawiaeth; trwy wadu ei anfoniad oddi wrth Dduw; a thrwy ei groeshoelio rhwng dau leidr yn y diwedd: *Ioan* viii. 49. "Yr hwn wyt yn gorfoleddu yn y ddeddf, trwy dori y ddeddf a ddianrhydeddi di Dduw?" *Rhuf.* ii. 23. Wrth ymffrostio yn y ddeddf, amlygai yr Iuddewon eu crediniaeth o'i dwyfoldeb. Wrth ei throseddu, hwy a wadent hyny. A chan mai eu gweithredoedd ydyw y prawf goreu o wir olygiadau dynion, yr oeddynt hwy yn dianrhydeddu mwy ar y ddeddf wrth ei throseddu, nag a anrhydeddent arni wrth ymffrostio ynddi. Nid ydyw o fawr bwys pa beth fyddo tybiau un; fe wna ei ymddygiad anghysson lawer mwy o waradwydd i grefydd nag a wna ei broffes o anrhydedd iddi. Y bywyd a'r ymarweddiad, ac nid proffes y gwefusau, a wir anrhydedda grefydd Duw.—(*Barnes.*)

DIANWADALWCH, [gwadal; Heb. טלבל]: digyfnewid, safadwy, sefydlog. Un o berffeithderau hanfodol Duw. Dianwadalwch Duw yw ei anghyfnewidioldeb. Y mae yn ddianwadal neu yn ddigyfnewid yn ei hanfod (*Iago* i. 17); yn ei briodoliaethau (*Salm* cii. 27); yn ei amcanion (*Esa.* xxv. 1; *Salm* xxxiii. 11); yn ei addewidion (*Mal.* iii. 6; 2 *Tim.* ii. 12); ac yn ei fygythion (*Mat.* xxv. 41). "Mae hwn yn berffeithrwydd," ebe Dr. Blair, "ag sydd, hwyrach, yn fwy nag un perffeithrwydd arall, yn gwahaniaethu y natur ddwyfol oddi wrth y natur ddynol, yn rhoddi yni cyflawn i'w holl briodoliaethau, ac yn rhoddi hawl iddi i'r addoliad penaf. Oddi wrth hyn y tardd trefn reolaidd natur, a sefydlogrwydd y bydyssawd. Oddi wrth hyn y deillia rhediad digyfnewid y deddfau hyny a reoleiddiant ymddygiad dynolryw o oes i oes. Oddi wrth hyn y cyfyd unffurfiaeth y llywodraeth heno, a sicrwydd yr addewidion hyny ag ydynt yn sail ein hymddiried a'n diogelwch. Gellir codi gwrthddadl, pa fodd bynag, yn erbyn yr athrawiaeth hon, oddi wrth y gorchymynion a roddir i weddïo, ac oddi wrth ymarferiadau crefyddol ereill. Gellir gofyn, I ba ddyben y telir addoliad ac y gweddïir ar fod ag y mae ei gynllun wedi ei sefydlu yn anghyfnewidiol? Byddai grym yn yr wrthddadl hon, pe byddai ein cyflawniadau crefyddol wedi eu bwriadu i wneyd unrhyw gyfnewidiad yn Nuw, un ai trwy gyfranu gwybodaeth iddo am yr hyn a wyddai yn flaenorol, neu trwy gynnyrchu serchiadau ynddo nad oedd yn eu meddu, neu ynte trwy ei ddarbwyllo i gyfnewid mesurau a ffurfiasai yn flaenorol: ond nis gall ond syniadau anmherffaith am grefydd awgrymu y fath feddylddrychau. Y cyfnewidiad yr amcenir i'n defosiynau ei gynnyrchu sydd arnom ni ein hunain, ac nid ar yr Hollalluog. Trwy dywallt allan ein syniadau a'n dymuniadau ger bron Duw; trwy fawrhau ei berffeithderau, a chyfaddef ein hannheilyngdod ein hunain; trwy ddadgan ein dibyniaeth ar ei gymhorth ef, ein diolchgarwch am ei ffafrau yn yr amser a aeth heibio, ein hymostyngiad i'w ewyllys, a'n hymddiried yn ei drugaredd ddyfodol, nyni a feithrinwn y fath serchiadau ag a weddai i'n lle a'n sefyllfa yn y bydyssawd, ag ydynt i gael eu hymarfer genym fel dynion ac fel Cristionogion. Dylai yr ystyriaeth o'r perffeithderau dwyfol gynnyrchu edmygedd yn ein meddyliau; ein dysgu i efelychu, mor bell ag y goddef ein gwendid, y dianwadalwch a'r sefydlogrwydd a fawrheir genym (2 *Cor.* iii. 18); ac yn ddiweddaf, dylai gynnyrchu hyder ac ymddiried yn Nuw, yn nghanol chwyldroadau y byd ansefydlog hwn"

Digitized by Google

"Dianwadalwch ei gynghor;" *Heb.* vi. 17. **Ei fwriad** sefydlog. Amcan yr apostol oedd dangos yn y modd mwyaf difrifol na byddai i'w fwriad ef gyfnewid. Ni bydd i gynlluniau Duw newid byth; ac y mae pob gobaith a feddwn ni am y nefoedd yn seiliedig ar y gwirionedd fod ei fwriadau ef yn anghyfnewidiol. Pe newidiai efe ei gynlluniau, pe cymmerai efe ei lywodraethu gan fympwy, pe yr ewyllysiai efe un peth heddyw a pheth arall yfory, pwy a allai ymddiried ynddo, neu a gai ddim gobaith am y nef? Ni wyddai neb pa beth i'w ddysgwyl; ac nis gallai neb ymddiried ynddo. Mor ddiolchgar, gan hyny, y dylem ni fod, am fod i Dduw ei gynghor dianwadal, a bod hwnw wedi ei gadarnhau trwy lw difrifol! "Trwy ddau beth dianwadal;" *adn.* 18. Beth ydyw y "ddau beth dianwadal" yma sydd wedi bod yn bwnc o ymchwiliad yn mysg esbonwyr. Y rhan fwyaf, megys Doddridge, Whitby, Rosenmüller, Koppe, a Calvin, a dybiant fod y cyfeiriad at *addewid* a *llw* Duw, pob un o'r rhai a fyddai yn sylfaen gadarn i sicrwydd iachawdwriaeth, ac yn mhob un o'r rhai y byddai yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog. — (*Buck's Theol. Dict.; Esbon. Barnes.*)

DIAREB—ION: Seis., *proverb;* It. *proverbio;* Ffr. *proverbe;* Llad. *proverbium;* Gr. παροιμια (*paroimia*).

Y mae llawer ymgais wedi ei wneuthur o dro i dro gan ysgrifenwyr i roddi darnodiad cywir a chyflawn o ddiareb; ond hyd yn hyn, fe allai yn anfwyddiannus—o leiaf i ddim perffeithrwydd. Rhoddwn ddau neu dri o anghreifftiau. Rhoddir y deffiniad canlynol gan Erasmus:—"*Paroemia est celebre dictum scita quapiam novitate insigne*"= "Diareb sydd ddywediad arferedig gan y cyffredin, yr hwn a nodweddir gan ryw newydd-deb tarawiadol." Cervantes, yn *Don Quixote*, a'u dysgrifia fel "brawddegau byrion, wedi eu seilio ar brofiadau meithion." Johnson, yn ei *Eiriadur*, a'u geilw yn "frawddegau byrion a adroddir yn fynych gan y bobl." Synesius, ar awdurdod Aristotle, mewn gwaith o eiddo y diweddaf, sydd yn awr ar goll, a ddywed "mai olion ydynt o hen athroniaeth wedi eu cadw yn nghanol llawer iawn o ddinystr, o herwydd eu *byrdra* a'u *defnyddioldeb.*" Y mae un awdwr, Howell, os nad ydym yn camgymmeryd, yn gosod allan hanfodion neillduol diareb yn y tri gair canlynol, pob un yn dechreu yn y llythyren *s*:—"*Shortness, sense, and salt*=byrdra, synwyr, a halen, neu arabedd." Yr esgob Lowth a ddywed mai nodweddion diareb ydyw ei bod yn fyr, yn dywyll, ac yn ddestlus. Y mae ereill yn rhoddi iaith ffugrol, odliad, a "chlecian cydseiniaid" i lawr yn eu darnodiad o'r gair. Ond y darnodiad goreu a gafwyd eto yw yr eiddo Arglwydd John Russell, yr hwn a daflwyd allan ganddo yn ddifyfyr mewn ymddyddan yn nhŷ Syr James Mackintosh—"*One man's wit and all men's wisdom.*" Arabedd un a doethineb pawb."

Ni chaniateir i ni yn bresennol adolygu pob un o'r deffiniadau uchod ar ei ben ei hun. Mae yn bosibl fod rhywbeth yn gywir yn mhob un o honynt; ac eto, fe allai nad oes un o honynt nad yw naill ai yn rhoddi gormod neu ynte rhy fychan i mewn i osod allan wir a chyflawn ystyr y gair; ond os cymmerwn y cyfan gyda'u gilydd, y mae yn amlwg fod yr elfenau canlynol yn dra phwysig, os nad yn hanfodol, mewn gwir ddiareb —byrdra, ac addysg; a'u bod yn cael eu derbyn a'u harfer gan y bobl. Mewn geiriau ereill, rhaid i ddiareb fod yn air byr, yn air gwir, ac yn air y lluaws. Y mae yn amlwg fod byrdra mewn geiriau yn hanfodol i ddiareb. "Llawer mewn ychydig" ydyw un o nodweddion arbenig y ffurf yma o addysg. Mae y boddhad a'r mwynhad a deimlir gan y meddwl drwyddynt i'w briodoli i'r un achos ag sydd yn peri i ni gael cymmaint o bleser wrth edrych ar arlinellau anorphenedig, sef am eu bod yn gadael lle i'r darfelydd (*imagination*) i weithredu. Yn hyn, y mae yn hollol wrthgyferbyniol i araethyddiaeth, yr hon sydd yn ymhelaethu ar ryw fater neu wirionedd, yn ei estyn a'i ddyhyspyddu, yn traethu ar y testyn; ond y mae y ddiareb yn disgyn ar unwaith i mewn i galon, enaid, a chnewyllun y testyn; ac oddi wrth hyn y tardd priodoldeb y gair *di—ar—eb*, yn wrthgyferbyniol i *ar—aeth.* "*Brevity,*" medd y ddiareb Seisonig, "*is the soul of wit;*" a dyma yn enwedig ydyw enaid diareb. Y mae y meddwl yn aml yn hoffi cael rhyw gipolwg ar y gwirionedd, cael agor y drws megys, ac wedi hyny ei adael iddo ei hunan i fyned i mewn i ystafell y gwirionedd, i edrych a chwilio drosto ei hunan. Y ddiareb feraf mewn bod, am a wyddys, ydyw yr un ganlynol yn yr iaith Almaenaidd—"*Voll-toll;*" yr hon ni chynnwys ond chwech o lythyrenau. Yr ystyr ydyw, fod llawnder yn fynych yn gyssylltiedig â balchder, yn enwedig pan y mae yn dyfod yn rhan i un ag oedd o'r blaen yn amddifad o hono. Yn bur agos ati mewn byrdra y mae y ddiareb Gymreig, "Melus, moes." Yn Seisoneg, cawn "*Store is no sore,*" ac "*Extremes meet.*" Yn Lladin, "*Respice finem*"="Edrych at y diwedd." Yn Groeg, χειρ χειρα νιπτει="y mae y llaw yn golchi y llaw;" γνωθι σεαυτον="adnebydd dy hun." Yn Italaeg, *Casa mia, mamma mia*="fy nghartref, mynwes fy mam." Nis gallwn gydsynio â Trench, fod yr anghraifft a roddir ganddo o ddiareb faith yn ddiareb oll, er bod Freytag wedi ei dodi i lawr fel y cyfryw: "Dywedasant wrth y camel-aderyn (yr estrys), Cluda ar dy gefn · atebodd, Nis gallaf; canys aderyn ydwyf. Dywedasant, Eheda: atebodd, Nis gallaf; canys camel ydwyf." Y mae yn amlwg fod yma elfen ag sydd yn hollol anghydweddol â natur diareb, sef ffugchwedl; o ganlyniad, rhaid ei chau allan o fod yn ddiareb yn ngwir ystyr y gair. Gyda golwg ar y terfyn pellaf y gellir estyn diareb ato o ran geiriau, y mae yn amlwg, os na bydd yn rhy faith i gael ei hadrodd yn hwylus o enau i enau gan ddynion yn eu cyfeillach â'u gilydd, a'i chydweu megys â'u hymddyddanion heb ei bylchu na'i throi fel y gwneir gyda chwedlau ac esamplau, y gellir ei hystyried fel yn perthyn i diriogaeth gyfreithlawn y ffurf ddiarebol.

Yr ail elfen hanfodol mewn gwir ddiareb ydyw *addysg.* Y mae yn rhaid iddi gynnwys rhyw wirionedd, a chyflwyno rhyw addysg. Y mae yn bosibl i frawddeg fod yn fer ac yn cael ei defnyddio yn fynych gan y bobl, ac eto heb fod yn ddiareb wirioneddol, am na bydd ynddi un gwirionedd cyfaddas neu addysg briodol yn cael ei argymhell. Felly, er anghraifft, y mae yr arwyddeiriau hyny a ddefnyddir yn fynych gan y bobl i arllwys eu teimladau—megys, "Duw gadwo'r brenin," "Oes y byd i'r iaith Gymraeg;" y rhai sydd gyfaddas yn fwy i dywallt allan, nag i dderbyn i mewn. Y mae y neillduolion canlynol yn perthyn i'r wedd y cyflwynir gwirioneddau ger ein bron mewn diarebion. *Yn gyntaf* y mae yn cael ei osod allan ynddynt mewn ffurf ag sydd yn gyfaddas i'r synwyrau (*senses*). Y

Digitized by Google

mae bob amser yn mron yn gwisgo rhyw fath neu gilydd o gorff gweledig am dano. Heb hyn, ni byddai yn gyfaddas i duedd a chwaeth y cyffredin, y rhai sydd bob amser yn hoffi edrych ar wirioneddau yn eu ffurf ansoddol (*concrete*) yn hytrach nag yn eu ffurf ddansoddol (*abstract*); ac yma y gorwedd y rheswm pa ham y mae iaith ffugrol mor gyffredin yn cael ei defnyddio mewn diarebion, yn gymmaint felly fel y myn rhai ei bod yn anhebgorol iddynt. Efallai fod hyn yn ormod, canys y mae lluaws mawr o honynt heb ddim ffugr yn cael ei ddefnyddio ynddynt, megys "Afrad pob afraid." "Pob cyffelyb a ymgais," a channoedd yn chwaneg. Ar yr un pryd, y mae y rhai sydd wedi eu gwisgo â ffugrau tarawiadol a phriodol yn meddu ar fantais ddirfawr, yn gymmaint a'u bod yn cael dyfodfa i'r oll o'r dyn—yn myned i mewn i'r deall trwy heolydd y dychymyg a'r teimladau, ac yn cynhyrfu felly, nid rhyw un randir, ond holl diriogaeth yr enaid. Cymmerer yn unig un anghraifft: tybier fod dihareb fel y canlyn yn bod, ac yn cael ei defnyddio —O flaen angeu yr ä peswch sych. Mor farwaidd fyddai dywediad fel yna mewn cymhariaeth i'r ffurf darawiadol ac effeithiol a roddir iddo yn y ddiareb Gymreig—"Udgorn angeu yw peswch sych." Yr un meddwl sydd yn y ddwy frawddeg; ond y mae y ffurf ffugrol sydd arni yn yr olaf yn ei chyfaddasu i daraw a chynhyrfu, nid yn unig y rhan ddeallol o honom, ond hefyd y teimlad a'r dychymyg. Y mae y defnydd a wneir yn fynych ynddynt o'r ffugr-ymadrodd a elwir gormodiaith yn taflu rhyw swyn chwanegol arnynt, ac yn rhoddi mwy o effeithiolder iddynt. Er anghraifft, y ddiareb Bersiaidd a ddywed fod "Crai y nodwydd yn ddigon llydan i ddau gyfaill, ond fod yr holl fyd yn rhy gul i ddau elyn." Bryd arall, y maent yn cynnwys yr hyn a elwir croesdyb (*paradox*), fel yr un a ddefnyddiwyd gan Hesiod gynt, pan yn perswadio ei frawd i beidio â chyfreithio; ac yn dangos iddo y byddai yn well iddo gymmeryd rhyw gyfran o'r hyn a ystyriai oedd yn eiddo iddo nag anturio i benderfyniadau gwŷr y gyfraith—*Πλεον ημισυ παντος*, meddai="Y mae yr hanner yn fwy na'r cyfan." Y mae odl a chyflythyriad yn gymhorth chwanegol at eu gwneuthur yn haws eu cofio, ac yn fwy deniadol.

"Little strokes fell great oaks."
"Safe bind, safe find."
"Gwell bach a feddwyf na mawr a welwyf."
"Na chwâr hyd niwed."
"Na chellwair hyd liwed."

Y mae yr Italiaid yn tra rhagori yn hyn, o herwydd y fantais sydd ganddynt, am fod eu hiaith yn gwneuthur i gynnifer o'i geiriau ddiweddu yn y llafariad *o* ac *i* ac *a*:—

"Tre fratelli tre castelli."
(Tri brawd tri chastell.)

*Ffran.*—"Femme rit quand elle peut et pleuré quand velle veut."
(Gwraig a chwardd pan y gallo, ac a wyla pan y myno.)

*Lladin*—"In vili veste nemo tractatur honeste."
(Nid oes neb mewn gwisg garpiog yn cael ymddwyn ato yn anrhydeddus.)

*Groeg*—"*Χαλεπα τα καλα.*"
(Pethau mawr a da sydd anhawdd i'w cyflawnu.)

Gyda golwg ar gyflythyreniad, y mae yn iawn i ni hòni nad oes un genedl a all ymgystadlu â'r Cymry yn hyn:—

"Gwel, a chel, a chlyw." [yn loewddu."
"Gwyn y gwel y fràn ei chyw, er bod ei liw
"Y budd a ludd y lludded."
"Gwell câr mewn llys nag aur am fys."

Mae genym gyflawnder o anghreifftiau cyffelyb

*Seis.*—"No cross no crown."
"Do in hill as you would do in hall."

*Lladin*—"Nil sole et sale utilius."
(Dim mwy buddiol na haul a halen.)

*Groeg*—"*Σωμα σημα.*"
(Y corff, arwydd yw.)

*Italaeg*—"Traduttori, tradittori."
(Cyfieithwyr, bradychwyr.)

Nid ydym yn cofio gweled yn un o'r ieithoedd ereill y ffurf gyfochrog ganlynol—yr hon a geir yn fynych yn y diarebion Cymreig.

"Nid cydwybodus ond cywir.
"Nid cywir ond meddylgar."
"Nid dedwydd ond diddrwg."
"Nid diddrwg ond dibechod."

*Yn ail.* Y mae yr olwg a roddir ar wirioneddau mewn diarebion bob amser yn dreiddiadol (*intuitive*), yn hytrach nag yn rhesymegol (*logical*). Nid dysgu y pa ham a'r pa fodd, ond y *pa beth*, ydyw eu hamcan.

*Yn drydydd.* Y mae y gwirionedd mewn diareb yn cael ei gyflwyno i'r meddwl, nid yn ei an sawdd dadblygedig, ond yn yr eginyn; ac oddi ar hyn y tardd ei byrdra. Y mae llawer diareb unigol yn amgau o'i mewn holl sylwedd ac enaid cyfrol fawr. "O dan len y diarebion hyn," medd Plutarch, "yr ymguddia yr egin hyny a ddadblygid gan awdwyr athronyddol i lawer o gyfrolau." Nid darnau na rhanau o wirioneddau ydynt ond gwirioneddau cyflawn yn yr *eginyn*. Hadau gwirionedd, y rhai a dellir i'r meddwl, lle y dadblygir ac yr addfedir hwynt trwy fyfyrdod ac adfyfyrdod, nes y tarddant allan mewn amser yn brenau cyflawn, llawn ffrwyth. Mor hawdd a fyddai chwyddo ac estyn y ddiareb Seisonig, "*Extremes meet,*" er anghraifft, i gyfrol gyfan mewn ffordd o'i hegluro, er rhoddi esamplau o honi o bob cyfeiriad. Fel sypiau nwyddau, y rhai wedi eu gwasgu gymmaint fel y meddylicch nad oes ond ychydig o swm o'u mewn, ond erbyn eu hagor a'u chwilio, yr ydym yn synu wrth feddwl fod yn bosibl i gymmaint o swm gael ei ddirwasgu i gan lleied o le; felly y mae y brawddegau byrion a bychain hyn, erbyn i ni eu chwilio a threiddio ychydig i'w hystyr gynnwysfawr, yn dadguddio trysorfa gyfoethog o wirioneddau anmhrisiadwy eu gwerth.

*Yn olaf.* Y maent oll yn gosod allan y gwirioneddau a gynnwysir ynddynt yn eu gwedd ymarferol, ac nid damcanol (*speculative*); o herwydd yr amcan mewn golwg ynddynt ydyw, nid yn uniongyrchol goleuo y deall na boddhau y dychymyg, ond perswadio yr ewyllys. "Gwirioneddau i gael eu gwneuthur" sydd yn cael eu dysgu i ni ynddynt; am hyny y gelwir hwy weithiau *adages*, o *ad* ac *agendum*=pethau i gael eu hymarfer; ac i ddangos ac argraffu y pwys o hyn—o wrandaw, ac ystyried, a gwneuthur geiriau y doethion—y mae y bennod gyntaf o Lyfr y Diarebion wedi ei bwriadu a'i chyfaddasu, yn enwedig y rhanau olaf o honi.

Y drydedd elfen hanfodol mewn diarebion ydyw poblogrwydd—eu bod yn cael eu credu a'u harfer gan y bobl. Y mae Trench yn tueddu at edrych ar yr elfen yma fel unig neillduolrwydd diareb, o'i chyferbynu â'r brawddegau byrion, llawn o synwyr, a geir yn argraffedig, ac eto heb erioed eu defnyddio yn ngeneuau y werin. Hyn, efallai, yn fwy na dim, ydyw ei nodwedd arbenig. Mae llawer gwireb ac ynddi

Digitized by Google

ddefnyddiau diareb ardderchog, pe unwaith y cymmerid hi i fyny gan y lluaws, ac yna ei chylchredeg o enau i enau, hyd oni byddai yn eiddo cyffredin; ond hyd nes y gwneler hyn iddi, nid ydyw yn briodol ei hystyried yn ddiareb. Gall yr aur fod yn bur a dilin, ac wedi ei fathu yn gywir, ac argraff y penadur arno yn amlwg, ond hyd nes y rhoddir ef i gylchredeg, nis gellir ei ystyried fel rhan o gyfoeth y genedl. Gall fod yn rhan o gyfoeth person unigol, ond nid ydyw yn cael ei ystyried yn eiddo cenedlaethol nes y byddo yn troi ac yn treiglo o law i law yn nhrafodaeth masnachol y wlad. Felly, treigliad y wireb o enau i enau a'i gwna yn ddiareb yn ngwir ystyr y gair, ac a'i cyfansodda yn eiddo cyffredin, yn ddadganiad o argyhoeddiad a theimlad y lluaws. Mae pob cymhwysder arall yn y frawddeg ganlynol o waith Wordsworth i fod yn ddiareb, "The child is the father of the man;" ond byddai yn anmhriodol ei galw a'i hystyried felly nes y byddo wedi dyfod i gael ei defnyddio ar lafar yn fwy cyffredin yn ymddyddanion y bobl; ac yn wir y mae yn awr yn fynych yn cael ei defnyddio gan lawer; ac yn ol pob tebygolrwydd, bydd yn fuan mewn arferiad cyffredinol, ac yn cael ei hystyried yn ddiareb o'r iawn ryw, ac o'r radd uchaf, pryd yr ystyrir hi, nid mwyach yn ddywediad o eiddo Wordsworth, ond yn ddadganiad o syniad ac argyhoeddiad cyffredinol y genedl, ac efallai yr holl ddynoliaeth. Fel hyn y mae i ni ddeall yr ymadrodd a ddefnyddir i osod allan ddiareb gan rywun—"Dywediad heb awdwr iddo," am fod yr awdwr wedi colli ei feddiant unigol ynddo, gan ei fod o hyn allan yn eiddo y lluaws. Y mae Trench yn egluro y gair *proverb*, yr hwn sydd yn tarddu o *verbum*=gair, a *pro*=dros neu o flaen, fel yn cynnwys y drychfeddwl o air yn cael ei lefaru dros y lluaws—fel y dywedir am y bardd, ei fod yn rhoddi ymadrodd i'r teimladau a'r meddyliau sydd yn hofran yn aneglur yn mynwesau dynion yn gyffredinol. Ond y mae yn amlwg fod y tarddiad uchod yn hollol anghywir. Ystyr gyntefig a phriodol y rhagddawd *pro*, yn Lladin, ydyw "yn mlaen" o ran lle; "gair yn mlaen" ydyw gwir ddrychfeddwl y gair *proverbum*; gair yn cael ei daflu allan o flaen un mewn ymddyddan; gair parod, i'w roddi ger bron gydag awdurdod a grym fel barn ac argyhoeddiad dynion yn gyffredinol. Yn yr Ellmynaeg, *sprichwort* ydyw y gair am ddiareb. Ystyr yr hwn ydyw, "gair i gael ei siarad." Y mae llawer o ymadroddion a fu yn cael eu siarad a'u defnyddio, nad ydynt felly mwyach, nad ydynt i'w cyfarfod mwyach ond mewn ysgrifen a chasgliadau o ddiarebion. Y mae eu bywyd wedi darfod, ac nis gellir eu galw mwyach ond hen ddiarebion—ymadroddion fu gynt felly, ond nid ydynt mwy. Y maent fel batholion wedi eu galw i mewn gan y llywodraeth i beidio a chylchredeg mwyach, ac i gael eu cadw o hyn allan fel cywreinion a berthynent i amseroedd gynt; a chan ein bod eisoes yn son am fatholion, y mae y tri pheth a enwyd yn angenrheidiol tuag at wneuthur y batholion hyn yn gymmeradwy. Yn gyntaf, eu bod o ran maintioli yn hylaw i'w taflu o'r naill i'r llall, sef byrdra. Yn ail, eu bod wedi eu gwneuthur o ryw ddefnydd gwerthfawr, pa un bynag ai pres, ai arian, ai aur. Yn olaf, eu bod yn cael eu treiglo o enau i enau yn nhrafodaeth barhaus y gymdeithas ddynol.

Y mae llawer o arwirebau prydferth, ag sydd yn meddu ar bob cymhwysder i fod yn ddiarebion, ond yn unig eu bod yn rhy gyfyng eu cymhwysiad, neu heb fod yn syrthio i mewn a chwaeth y lluaws. Mae rhai o sylwadau Chesterfield a La Rochefoucauld, ar ddygiad da i fyny a moesgarwch felly. "Y mae prydferthwch i'r corff yr hyn ydyw synwyr da i'r meddwl." "Moesgarwch dyn ei hun ydyw y diogelwch goreu rhag anfoesgarwch ereill." "Nid oes dim yn ein hattal i fod yn naturiol yn fwy na'r dymuniad i ymddangos felly." Y mae yn bosibl, fel y daw y lluaws yn mlaen mewn diwylliad meddwl a chyflymder dirnadaeth, y mabwysiedir fel eu doethineb eu hunain yr ymadroddion dillyn a synwyrlawn sydd yn awr yn gloedig mewn llyfrau fel "arabedd un." Y cyfryw yw y fflachiadau canlynol o eiddo Napoleon:—

"Gall y galon gael ei rhwygo yn ddarnau, tra y mae yr enaid yn sefyll yn ddigryn."

"Achos da, ac nid yr ystanc, sydd yn gwneuthur merthyr."

"Yn gyffredin, y ddoethineb gywiraf ydyw penderfyniad cadarn."

"Undeb gweithrediad sydd yn sicrhau llwyddiant moddion."

Ar ol ceisio chwilio fel yna i wir natur diarebion, byddai yn fuddiol i ni ymofyn yn nghylch eu tarddiad tebygol. Er eu bod, fel y sylwyd eisoes, ar ryw gyfrif yn ddiawduriaeth, yn gymmaint a'u bod yn llais ac yn farn y lluaws, eto, ar y dechreu, yr oedd iddynt eu hawdwr priodol, yr hwn a'u lluniodd yn ei fathdy priodol ei hunan, fel y dywed Howell:—

"The people's voice the voice of God we call,
And what are proverbs but the people's voice,
Coined first, and current made by common choice,
Then sure they must have weight and truth withal."

Y mae darnodiad Arglwydd J. Russell yn cynnwys esboniad ar darddiad a dechreuad llenyddiaeth ddiarebol. Y mae gan y cyffredin o ddynion fwy o ddoethineb yn eu penau nag sydd ganddynt o allu i'w roddi mewn geiriau; ond pan y clywant sylw tarawiadol synwyrgall, y maent yn barod i'w fabwysiadu, ac i ddywedyd, "Y mae yn union y peth a feddyliais i fy hun lawer gwaith." Felly, y mae "arabedd un yn ddoethineb pawb."

Barnai Aristotle mai olion ydynt o hen athroniaeth y cynoesoedd—drylliau achubedig o hen lestr athroniaeth, yr hon a gollwyd yn ninystr a chwyldroad pob peth. Yn debyg i'r cregyn a geir weithiau yn mhenau mynyddoedd—olion "aruthrol lifiadau yn amser yr hen Noe;" ac y mae yn ddiammheu fod hyn yn eithaf gwir am y rhai mwyaf henafol o honynt. Yn ol Erasmus, eu tarddfa ydynt—1. Atebion hen oraclau, megys (*Gnothi seanton*) "Adnebydd dy hunan." 2. Arwyddluniau alegoraidd Pythagoras. 3. Gweithiau y beirdd, megys Menander, yr hwn a ddyfynir gan Paul, fel y tybia rhai; o leiaf, y mae Paul a Menander yn dyfynu yr un ddiareb—"Y mae ymddyddanion drwg yn llygru moesau da." 4. Cyfeiriad at ddygwyddiadau mewn hanesiaeth, a hanes y duwiau paganaidd, cenedloedd, &c. Gellir chwanegu at y pethau hyn amryw ereill cyffelyb; ond gwasanaetha hyn i ddangos y cyfeiriad y mae i ni edrych tuag ato am ddechreuad a tharddiad yr amrywiol ddiarebion gwasgaredig sydd i'w cael yn mhob iaith.

DIAREBION GWAHANOL GENEDLOEDD.

Os cymherir y casgliadau sydd wedi eu gwneuthur o ddiarebion gwahanol genedloedd, un o'r pethau cyntaf a'n tarawa ydyw fod nifer mawr yn feddiant cyffredin gan yr oll o honynt;

Digitized by Google

a'r unig achosion o hyn ydynt naill ai unoliaeth y meddwl dynol yn mysg pob cenedl, neu ynte eu bod wedi treiglo o un i ddechreu i'r lleill; ac un o'r pethau anhawsaf ydyw gallu penderfynu pa un o'r ddau achos uchod sydd i'w roddi; ac os yr olaf, pa genedl o'r rhai y ceir y ddiareb ganddynt sydd yn meddu yr awduriaeth wreiddiol o honi. Weithiau, y mae yn hawdd, mewn cymhariaeth, wneuthur hyn; bryd arall, y mae yn annichonadwy. Gyda golwg ar y diarebion hyny ag sydd yn perthyn yn briodol i un genedl, y maent yn aml yn adlewyrchu eu nodweddau gwahaniaethol mor gywir, neu yn cyfeirio at ryw bethau neu amgylchiadau cyssylltiedig â hwynt ag sydd ar unwaith yn ein hysbysu i bwy y maent yn perthyn, ac o ba le y daethant. Fel y dywed Bacon—"*The genius, wit, and spirit of a nation are discovered in its proverbs.*"

Hawdd iawn ydyw canfod ar unwaith mai diareb Ladinaidd ydyw yr un ganlynol:—

"Rem ad *triarios* venit."

Yr enw oedd gan y Rhufeiniaid ar y milwyr a fyddai ganddynt yn nghadw wrth gefn erbyn amgylchiadau o frys a pherygl ydoedd *triarii.*

"Gwnai pob gŵr lleyg yn Castile frenin, a phob clochydd bab," sydd ddiareb Yspaenaidd, fel y mae yn eglur.

Y mae gwir ddelw y Chineaid ar yr un ganlynol:—"Palas yw y penadur, ei swyddogion yw y grisiau, a'r bobl ydyw y tir lle y mae yn sefyll arno."

Y mae yn hawdd gwybod mai o'r Almaen y daeth y ddiareb ganlynol:—"Nid pob person eglwys a all wisgo esgidiau Martin Luther;" a phwy ond Iuddew a gyfansoddodd yr hon a ddywed, "Pan y dybler nifer y priddfeini, daw Moses i'r golwg."

Y mae "Eglwysi mawr, seintiau bychain;" "Cyfaill Duw, gelyn yr offeiriad;" "Nid yw mynachod a llygod yn ymadael heb fod drwg," yn cyfeirio at amser y Diwygiad, pan y dechreuodd dynion esbonio rhwygiadau yn y wenwisg. Y mae y Beibl yn cofnodi oedran ac achlysur y ddiareb, "A ydyw Saul hefyd yn mhlith y prophwydi?" Y mae tarddiad hanesiol hefyd i lawer o ddiarebion Arabia, yn gyffelyb ag i Iorwerth y Trydydd, brenin Lloegr, a'r "*Honi soit qui mal y pense*"="Drwg i'r hwn a dybio yn ddrwg." Y mae diarebion Arabia yn hynod am eu cyfeiriadau at lewod, ceffylau, a chamelod; yr eiddo Yspaen a'r Eidal at fulod; yr eiddo y wlad hon at lwynogod, cwn, a chathod; ond y blaidd sydd wedi cymmeryd y gafael cryfaf yn nychymyg trigolion Ffrainc. Sylw dwfn heliwr Assyriaidd ydyw, "Y mae trwyn y llew wedi ei amddiffyn yn dda." Ffrwyth profiad rhyw leidr yn mhlith meibion Ismael ydyw, "Bydded y nos eich camel." Cynghor Yspaenaidd ydyw, "Os dywed un, dau, tri, eich bod yn ful, gwisgwch gynffon;" a phrofiad Eidalaidd ydyw, fod "yr asyn sydd yn rhuo yn bwyta ychydig wair." Y Ffrancod sydd yn dywedyd, "Marwolaeth y blaidd ydyw iechyd y defaid;" "Pan bydd farw y blaidd, yr holl gŵn a rydd frathiad iddo;" "Siaredwch am y blaidd a gwelwch ei gynffon;" "Bydd farw y blaidd yn ei groen." Ond yr Yspaeniaid sydd yn dywedyd, "Y mae y blaidd yn gwneuthur yn yr wythnos yr hyn sydd yn ei attal i'r eglwys ar y Sabbath." Y mae haniad Derwyddol i'r diarebion Cymreig canlynol:—

"Nid dim ond Duw."
"Nid Duw ond dim."
"Nid bod ond angen."
"Nid angen ond Duw."
"Coeliaw dim a choeliaw pob peth."
"Gwir yw pob peth, ac nid gwir dim."
"Nid iawnder ond oesawr."

Nid hawdd ydyw gwybod pa beth a feddylir wrth rai o'r cyfryw, a pha mor bell y maent yn unol â dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau. Yr un tarddiad sydd i'r arwyddeiriau barddonol—

"Y gwir yn erbyn y byd."
"Yn wyneb haul a llygad goleuni."
"Gwaedd uwch adwaedd."
"Llafar bid lafar."
"Duw a phob daioni."
"Calon wrth galon."
"A laddo a leddir."
"Iesu," neu "O Iesu! na'd gamwaith."

Y pedair olaf oeddynt ddewis-eiriau yr eisteddfodau taleithiol, Morganwg, Dyfed, Powys, a Gwynedd.

Nid yw diarebion y Beibl yn cael eu cyfyngu at Lyfr y Diarebion. Y mae amryw o'r rhai mwyaf adnabyddus i'w cael mewn llyfrau ereill yn yr Hen Destament a'r Newydd; megys, "Yr un fath bobl ac offeiriad;" "Y tadau a fwytasant y grawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae y dincod;" "Y mae enw da yn well nag enaint gwerthfawr;" "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, a thi a'i cei ar ol llawer o ddyddiau." Y mae y bregeth ar y mynydd, ac ymddyddanion yr Arglwydd Iesu, yn llawn o ymadroddion sydd erbyn hyn wedi dyfod yn mhlith y diarebion cyfoethocaf. "Na wyped dy law aswy pa beth a wna dy law ddeheu." "Dinas a osodir ar fryn ni ellir ei chuddio." "Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn." "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." "Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun." "Ychydig lefain sydd yn lefeinio yr holl does."

Nid hawdd ydyw nodi yn fanwl a sicr ragoriaethau cymhariaethol diarebion y gwahanol brif genedloedd. Ar yr un pryd, yr argraff sydd ar ein meddwl ni ydyw, fod y rhai Cymreig, Seisonig, Iuddewig, a Lladinaidd, yn llawn o synwyr, sylwedd, a chraffder; mewn ffraethineb ac asbri (*humour*), y mae y rhai Yspaenaidd, ac Almaenaidd, ac Ysgotaidd, yn hynod; mewn destlusrwydd a theleidrwydd, y rhai Italaidd a Ffrancaidd; ac mewn arucheledd a mawredd, y rhai Groegaidd. Un o'r anhawsderau mwyaf a deimlir mewn cyssylltiad â diarebion ydyw gwneuthur casgliad darllenadwy o honynt. Y mae amryw wedi gwneuthur ymgais at hyn; ond yn ol barn Disraeli, yn hollol aflwyddiannus. Y mae yr awdwr crybwylledig yn meddwl mai y peth goreu a fyddai i bob dyn wneuthur casgliad iddo ei hunan yn y ffordd a farnai yn oreu, gan yr argreffid hwy felly yn well ar y meddwl. Erasmus oedd y casglydd cyntaf ar ol Polydore Vergil, yr hwn a gwynai yn dost am nad oedd Erasmus yn cydnabod ei fod yn ddyledus iddo am lawer o'r hysbysiadau. Eithr cyn hyn, yr oedd Plutarch yn ei *Opera Moralia* wedi rhoddi i lawr ac egluro 131 o honynt; talfyrwyd 552 gan Zenobius, a 775 gan Diogenianus; cyhoeddwyd y rhai hyn gyda 1,400 o waith Suidas, a 353 o'r *Vatican*, gan Andrew Schott, yn Antwerp, yn y flwyddyn 1612. Cyhoeddwyd gan wasg Elzevir, yn 1653, gasgliad Michael Apostolus, a hefyd dalfyriad o rai Erasmus.

Y diarebion Yspaenaidd ydyw y rhai mwyaf lluosog o lawer: y maent yn hen iawn. Ceir llawer o honynt yn y *Spanish Chronicle*—un o'r cyfansoddiadau hynaf mewn rhyddiaith yn yr

Digitized by Google

iaith hono; ceir llawer yn ngwaith Don John Manuel, ac amryw yn ngwaith barddonol arch-offeiriad Hita. Tua chanol y bymthegfed ganrif, cyhoeddodd C. Pedo Valles 4,300 o ddiarebion Yspaenaidd; cyhoeddwyd 6,000 gan Wunez, 1,000 gan Mal Lara, 6.000 gan Cejudo, a chan Juan de Yriarte; cyhoeddwyd argraffiad breninol yn cynnwys nifer mawr. Yn Italy, gan Florio, 6,000, yn y flwyddyn 1591; gan Angelus Mosurini, a chan Julius Varini. Yn Ffrainc, gan Oudin; ac yn Denmarc, gan awdwr anadnabyddus. Yn Lloegr gan Camden, Herbert, Howell, Fuller, a Ray. Cyhoeddwyd gwaith yr olaf yn 1670; a chyhoeddwyd ef yn ddiweddar gan Bohn yn ei *Antiquarian Library:* y cynllun a fabwysiedir ganddo ydyw yr un sydd yn eu dosbarthu yn ol llythyrenau y wyddor. Y flwyddyn ddiweddaf (1859), cyhoeddwyd *The Proverbs of all Nations, compared by Walter W. Kelly*—yn yr hwn y dosberthir hwy yn ol yr amrywiol destynau cynnwysedig ynddynt. Efallai mai cyfuniad o'r gwahanol ddulliau a fyddai yr un mwyaf perffaith; ond hyd yn hyn, y mae y fath gasgliad yn beth i'w ddymuno ac heb ei gyflawnu. Y mae y dull a fabwysiedir gan Trench yn un tra boddhaol, sef dadguddio y trysorau o farddoniaeth, ffraethineb, ac addysgiadau moesol a chrefyddol sydd yn guddiedig ynddynt. Gellid yn hawdd ysgrifenu cyfrol fawr yn y llwybr yma, a fyddai yn dra dyddorol ac adeiladol.

Ymfoddlonwn yn bresennol ar roddi yn unig ychydig anghreifftiau dan y gwahanol ddosbarthiadau a ellid eu gwneuthur.

1. *Athroniaeth mewn diarebion*, sef athroniaeth y bobl; o herwydd nid yw y gallu yma o chwilio i egwyddorion dechreuol pethau wedi ei gyfyngu i ychydig ddewisolion. Mae pob dyn yn meddu ar ryw radd o hono, mwy neu lai, ac y mae dynion yn gyffredinol—hyny yw, y bobl yn eu cymmeriad fel y cyfryw—yn meddu ar radd helaeth o hono, fel y gwelir yn eu diarebion, lle y maent wedi eu trysori ganddynt. Mewn aml i ddiareb fechan, cawn gymmaint o wirionedd ac athroniaeth wedi ei grynhoi mewn ychydig eiriau, ag a geir wedi ei estyn gan lawer ysgrifenwr enwog i ddarlith faith. Yma cawn, nid yn wir y dilyniadau (*processes*) sydd yn angenrheidiol i fyned trwyddynt er mwyn cyrhaedd y casgliadau (*results*), ond y casgliadau eu hunain, y rhai ydynt y pen uchaf i'r ysgol yn mhob athroniaeth; er anghraifft, dywed y ddiareb Gymreig, "Goreu canwyll, pwyll i ddyn." Y mae yma gyrhaeddiad pwysig yn athroniaeth y meddwl dynol gyda golwg ar y berthynas agos rhwng y galluoedd deallol a'r teimladau, lle y dangosir i ni fod hunanfeddiant a gwastadrwydd teimlad yn nerthu ac yn awchlymu y deall; o'r ochr arall, y mae byrbwylldra brysiog yn rhwystr ac yn ddyryswch iddo, yn tatlu niwl a thawch arno, nes ei analluogi yn aml i weled dim. Eto, cymmerer y ddiareb Seisonig, "*As the man is worth his land is worth;*" a'r un Gymraeg gyffelyb iddi, "Mal y bo'r dyn y bydd ei lwdn:" yn y rhai y dysgir ni pa fodd y mae dyn yn rhoddi ei ddelw ar bethau sydd tu allan iddo ag sydd yn dwyn cyssylltiad âg ef; yn gymmaint felly fel ag y mae y tir y mae yn ei drin, neu yr anifeiliaid y mae yn eu porthi, yn rhoddi drychfeddwl i ni am ei gymmeriad ef ei hunan—pa un ai diwyd, medrus, gofalus, ai ynte i'r gwrthwyneb ydyw—diofal, diog, a diddefnydd. Eto, y mae y ddiareb ganlynol i'w chael mewn gwahanol ffurfiau yn mhlith amryw genedloedd:—"*Take your wife's first advice, and not her second*"= Cymmer gynghor cyntaf dy wraig, ac nid yr ail. Yn yr Italaeg, dywedir, "Y mae gwragedd yn ddoeth ar y cynnyg cyntaf, ond yn ffyliaid ar ol ystyried." Y mae yn rhaid fod y cynghor uchod wedi ei seilio ar sylwi a chanfod fod meddyliau y rhyw fenywaidd yn naturiol yn llai eu gallu i ymresymu nag eiddo y rhyw arall, ond eu bod yn rhagori ar ddynion yn eu gallu treiddiadol (*intuitive*). yr hwn, medd Trench, a eilw Montague, yn "*l'esprit prime-sautier*"=llam y llewpard, yr hwn a gymmer ei ysglyfaeth, os cymmer ef oll, ar un naid. Yr anghraifft olaf a gymmerwn ar hyn ydyw y ddiareb Italaidd, "*Gold is gold's worth;*" yr hon sydd yn myned dan wraidd y *mercantile theory*, sef y gyfundrefn hono gynt a fynai ddysgu mai arian ac aur yw cyfoeth gwladwriaeth, ac a fu yn achos colli miliynau lawer o gyfoeth o ddiffyg yn unig canfod y gwirionedd eglur fod pob peth a all brynu arian, neu y gellir ei brynu âg arian, yn gyfoeth mor wirioneddol ag arian eu hunain, pa rai ydyw careg sylfaen trafnidiaeth wladol (*political economy*) ddiweddar.

2. *Barddoniaeth mewn diarebion.* Dyma un o'r prif elfenau ynddynt sydd yn eu gwneuthur mor swynol—y darfelydd, y dychymmyg, a'r delweddau prydferth sydd yn aml yn pelydru ynddynt. Hawdd iawn fyddai rhoddi esamplau aneirif, ond cymmerwn ychydig. Dechreuwn gyda'r ddiareb Gymreig brydferth,

"Gweddw crefft heb ei dawn."

*Seis.*—"Grey hairs are death's blossoms."

*It.*—"Il tacere non fu mai scritto."
(Silence was never written down.)

*Lladin.*—"Dü laneos habent pedes."
(The gods when avenging themselves have their feet shod in wool.)

*Groeg.*—"Πομφόλυξ ὁ ἄνθρωπος."
(Man, a bubble.)

*Ysp.*—"Yr hyn a sugnir i mewn gyda llaeth y fam, a red allan yn yr amdo."

*Chineaidd.*—"Mesurir tyrau wrth eu cysgodion, felly dynion mawr wrth eu henllibwyr."

*Indiaidd.*—"Y mae y pren ——— yn perarogli y fwyall sydd yn ei dori i lawr."

Yr un modd y maent yn aml yn llawn o arabedd, ffraethineb, ac asbri diddiwedd.

3. *Moesoldeb mewn diarebion.* Ni raid dywedyd mai addysgiadau moesol ydyw baich diarebion pob gwlad yn mron; ac y mae yn deilwng o sylw eu bod ar y cyfan yn hynod o gywir a phur. Y mae eithriadau, y mae yn wir fel y gallesid dysgwyl, pan gofiom am galon lygredig dyn. Y rhyfeddod yw eu bod mor bur ac mor llwyr dros y gwirionedd ag y maent. Y mae yn ffaith mai ychydig mewn cymhariaeth o ddiarebion gwir anfoesol sydd i'w cael: y mae y rhai Italaidd yn cael y gair o fod yn cefnogi y teimladau hunangar a dialgar; ond, a thynu rhyw ychydig fel hyn mewn cymhariaeth oddi wrth y lluaws mawr, y maent yn cael eu nodweddu o ran eu moesoldeb gan gywirdeb a phurdeb tra chanmoladwy. Byddai anghreifftiau dan y pen yma yn ddiddiwedd.

4. *Addysgiadau crefyddol mewn diarebion.* Fe allai nad gormod fyddai dyweyd ar hyn, pe chwilid yn fanwl yr holl drysorau o ddiarebion pob gwlad, y gellid casglu o honynt gorff o dduwinyddiaeth ymarferol lled gryno; a'r argraff sydd ar ein meddwl ni ydyw, nad ydyw y rhai Cymreig yn ol i'r eiddo unrhyw genedl yn hyn. Pa fodd y gallesid gosod allan ddwfn dlodi enaid

Digitized by Google

dyn, pan y mae yn wag o Dduw; ac o'r ochr arall, ei ddedwyddwch a'i gyfoeth, pan y mae y Creawdwr yn eiddo iddo, mewn modd mwy cryno ac effeithiol nag yn y ddiareb Gymreig, "Heb Dduw heb ddim, Duw a digon;" a chyffelyb iddi ydyw yr un ganlynol—"Digon Crist, trist yn llawen;" ac hefyd, "Digon Duw da i unig." Am bechod, y maent yn ein dysgu mai "Un pechod a lusg gant ar ei ol," ac nad "Baich, ond y baich o bechod." Ni wyddom am un sydd yn gosod allan yn fwy grymus ac argraffiadol y gwirionedd pwysig fod Llywodraethwr mawr y byd yn rhoddi ei farn ar bob gweithred o'n heiddo na'r un ganlynol:—"A wnelo dyn, Duw a'i barn." Ac i ddangos i ni, er ei fod yn hir ei amynedd tuag atom, eto ei fod yn sicr o gospi pechod i'r eithaf yn y diwedd, dywedir, "Hwyraf dial, dial Duw;" "Llwyraf dial, dial Duw;" ac hefyd, "Hir yr erys Duw heb daro, llwyr y dial pan y delo." Ac i'n dysgu mai ofer ydyw pob ymdrech o'n heiddo,ni heb fendith Duw—"Ni fyno Duw, ni lwydd;" o'r ochr arall, "A fyno Duw rhy noddir." Er dangos nad oes dim ond gwir grefydd a lwyr ddarostwng lygredigaeth ein natur, pan nad ydyw moesoldeb mewn gwirionedd ond yn ei guddio—"Crefydd a ladd y drwg, nid yw moes ond ei guddio;" ac i'n hadgofio nad oes i ni yma ddinas barhaus, ond mai un i ddyfod yr ydym i'w dysgwyl—"Nid tref ond nef;" ond rhaid ymdrechu i fyned i mewn, canys "A orchfygo yma, a goronir fry." Am y Gwaredwr, dywedir mai "Goreu meddyg, meddyg enaid." A'r un modd cawn addysgiadau lluosog o'r un natur mewn ieithoedd ereill. Yn y ddiareb Ladinaidd, "*Vox populi, vox Dei*"=Llais y bobl, llais Duw, cawn gnewullyn y ddadl a ddygir yn mlaen gan ysgrifenwyr i brofi y bod o Dduw, sef cydsyniad yr holl genedloedd; ac nis gwyddom am ddim yn mron yn fwy prydferth na'r defnydd a wna Trench o'r ddiareb Seisonig, "*One man, no man*," i ddangos ei bod yn ei hystyr uchaf yn gorwedd ar y gwirionedd mawr fod y wladwriaeth, yn y drychfeddwl o honi, yn rhagflaenu y person unigol; ac nid yn unig y wladwriaeth, ond y mae yr un peth yn wirionedd mewn ystyr uwch eto am yr eglwys.

Cyn terfynu hyn o erthygl ar ddiarebion, fe allai y dylid dyweyd ychydig eiriau o berthynas i'r defnydd o honynt. Y mae yn rhaid addef eu bod yn cael eu defnyddio yn llawer llai mynych a chyffredinol nag yr oeddynt unwaith; ac y mae hyn yn beth i ofidio o'i herwydd, yn hytrach nag i lawenhau yn ei gylch. Nid ydyw mewn modd yn y byd yn profi ein bod wedi myned yn rhy uchel ein chwaeth, ac yn rhy ddoeth ein barn, ac yn rhy ddysglaer ein hathrylith: i'r gwrthwyneb, ni gawn fod yr athrylith uchaf, y ddoethineb berffeithiaf, y chwaeth buraf a welodd ein daiar ni erioed wedi gwneuthur defnydd helaeth o'r talfyriadau bychain hyn o wirionedd a gwybodaeth yn eu hysgrifeniadau. Y beirdd Groegaidd, ac ysgrifenwyr ereill, Plato, Aristotle, Bacon, Shakspeare; ïe, yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain—Solomon, ac un mwy na Solomon—y rhai hyn oll a wnaethant ddefnydd o ddiarebion yn eu haddysgiadau; ac y mae yn ddiammheu y parhânt yn eu poblogrwydd mewn rhyw ffurf neu gilydd hyd ddiwedd amser.

Y DIAREBION CYMREIG.

"Gweddillion doethineb yr hen Gymry," y geilw y Dr. J. Davies, o Fallwyd, hwynt, yn ddigon addas, dybygid; gan nad oes ond megys gweddill ar gael erbyn ein dyddiau ni, wedi eu gadael gan ddifrod amser, dinystr rhyfeloedd, câs gelynion, a difaterwch y rhai y bu ar eu llaw, pe mynasent, eu diogelu rhag syrthio i ddifancoll. Rhwng helyntion helbulus yr oesoedd gynt, a phrinder gwladgarwch yn y rhai diweddar, nid rhyfedd nad oes ond gweddill ar gael; y rhyfeddod yw fod cymmaint o ffrwyth sylwadau ein hynafiaid yn gadwedig eto er addysg a hyfforddiant eu heppil.

O barth i gasgliadau o ddiarebion Cymreig, dywed Dr. W. O. Pughe, "ddarfod dechreu crynhoi yn nghyd ein diarebion yn gynnar iawn. Catwg, abad cyntaf Llancarfan, yn y chweched ganrif, oedd y cyntaf o'r rhai y mae genym ddim gweddillion o'u casgliadau. Yn yr unfed ganrif ar ddeg, Cyrus o Iâl oedd yn rhagori yn y llwybr hwn. Trachefn, yn y bymthegfed ganrif, Sypyn Cyfeiliog a angwanegodd yr hyn a wnaethai yr hynafiaid; a llawer ereill a wnaethant chwanegiadau ar ol hyny. Yn y cyfan, y mae uwch law deuddeng mil o ddoeth wersi yr hen Brydeiniaid wedi eu dwyn at eu gilydd."

Am Cyrys o Iâl a'i gasgliad, dywed y Dr. Davies, o Fallwyd, fel y canlyn:—"Y casgl cyntaf o'r diarebion hyn a elwid gynt, 'Madwaith hen Gyrys o Iâl.'" Ac y mae yn debygol mai y casgliad hwn a ddodes y doethor wrth ei *Eiriadur*, yr hwn gasgliad, eb efe, sydd "gywirach ac amlach nag y printiwyd hwynt o'r blaen." Yr un casgliad hefyd a chwanegodd Richards at ei *Eiriadur* yntau, gan ddweyd am dano, "Ni ellais i anghwanegu nemor at y casgl cyflawn a osodes y Dr. Davies allan gyda'i Eirlyfr." Cyhoeddwyd argraffiad o "Ddiarebion Cymreig, a gasglwyd allan o Ddictionary y Dr. Davies," yn Llundain, 1672. Yn 1659, argraffwyd "Diarebion Cymreig wedi eu cyfieithu yn Saesneg, gan James Howel."

Y mae amryw o'r hen ddiarebion hyn wedi disgyn i ni oddi wrth y Derwyddon, a rhai o honynt, ond odid, yn cynnwys rhywbeth o'u hegwyddorion. Lluaws o'r diarebion goreu a destlusaf nid ydynt ddim amgen nag adlewyrchiadau o oleuni canaid yr efengyl, a gwybodaeth o'r Ysgrythyrau, fel y dengys esgob Mynyw yn ei *Epistol at y Cymru*, a osodwyd o flaen cyfieithiad W. Salesbury o'r Testament Newydd. Y mae gwaith y beirdd wedi bod yn ffrwythlawn drwy yr oesoedd, o amser y cynfeirdd hyd yn awr, i chwanegu ein hystor o'r ceinion hyn. Y mae eu hysgrifeniadau yn frith o ddoetheiriau godidog, moeswersi buddiol, a dywediadau ffraeth, synwyrlym, wedi eu gwisgo mewn iaith brydferth a barddonol; ac o'r canoloesoedd i waered, gyda'r addurn chwanegol o gynghanedd.

Y mae craffder yn ofynol i adnabod y gwir oddi wrth y gau yn yr arferiad o ddiarebion, ac i'w cymhwyso gyda phriodoldeb i addurno a bywiogi araeth, ac nid ei beichio a'i llethu. Y mae arferiad anamserol ac annherthynol o honynt yn eu gwneuthur yn ddiflas a dieffaith.

Diau fod llawer o ddiarebion da, a hen eiriau a dywediadau arabeddus eto ar lafar gwlad, heb erioed eu rhestru, y rhai y byddai yn werth eu cadw, er y dichon fod rhai o honynt yn lled wladaidd eu diwyg a chyffredin o ran iaith. Y mae y gwir yn deilwng o sylw hyd yn oed mewn gwisg wladaidd, tra na byddo yn cynnwys dim croes i wylder a gweddeidd-dra.

Credwn y bydd yn dda gan ein darllenwyr gael rhestr o'r hen ddiarebion hyn, wedi eu trefnu yn gyfleus i ymgynghori â hwy pan y mynir. Er mwyn gwneyd y rhestr hon mor gyflawn ag y

Digitized by Google

gellid, darfu i ni gymharu pedair neu bump o restrau yn nghyd, ac yn eu plith y rhestr dra chyflawn sydd yn y *Myvyrian Archaiology*. Gyda golwg ar y rhif a noda y Dr. Pughe yn ei arweiniad i'w *Eiriadur*, a grybwyllwyd eisoes, sef deuddeng mil, rhaid i ni ddywedyd fel y dywedodd Thomas Jones, o Dregaron, gyda golwg ar y *Trioedd*, mai "hyn a allasem ni gael o'r deuddeng mil."

Mae ychydig o'r diarebion hyn wedi eu gwisgo âg iaith a ymddengys yn bresennol yn arw ac aflednais. Ond dylid priodoli hyn i ansawdd ac arfer yr oes yr ysgrifenwyd hwynt ynddi; canys y mae geiriau sydd yn gwbl oddefedig ac arferedig mewn un oes yn dyfod yn aflednais a diarfer mewn oes ddyfodol. Mae yn hawdd canfod hyn yn y Beibl Cymraeg, y *Bardd Cwsg*, a llyfrau ereill o'r un oes, lle y mae amryw eiriau a ystyrir yn awr yn hynod aflednais. Os ystyrir hyn yn briodol, bydd yn hawdd gan y darllenydd esgusodi yr ychydig aflednеisrwydd sydd yn ngeiriad rhai o'r diarebion canlynol, gan eu bod yn llawer hynach, fe ddichon, nag unrhyw lenyddiaeth a'r a feddwn.

A addef rydan.
A aeth yn nghyd aeth o'r byd.
Abl i bawb a'i boddlono.
Abl i bawb a'i gweinyddo.
Abl i bawb ei gydradd.
Abl yw soeg i foch.
Ac yna mi a ddeffroais.
Achles calon cwrwf.
A achwyno heb achos, gwneler achos iddo.
A arbedodd ei lwyn, a gollodd ei fwyn.
A arbeto ei fach, arbeted ei gynnogyn.
Achos bychan y daw blinder.
Achos heb achos o hono.
Achos i'r bysen fod ar y barth.
Achub maes mawr â drygfarch.
Achwyn rhag achwyn rhagddo.
Adail dedwydd yn ddiddos.
Adar o'r unlliw a hedant i'r unlle.
Adfyd pob hir dristwch.
Adneu cyhyryn gan gath.
Adneu gan berchen.
A Duw nid da ymdaraw.
A Duw yn y (o'r) blaen.
Adwaen laeth can nis dyfnwyf.
Adwen mab a'i llawch, ac nid edwyn mab a'i câr.
Adwyog cae am hwsmon.
Adwyth diriad heb achos.
Addas i bawb ei gydradd.
Addaw mab addaw faen.
Addaw mach ar addaw mab.
Addaw mawr a rhodd fechan.
Addaw teg a wna ynfyd yn llawen.
Addaw y môr ar y mynydd.
Addef yw tewi.
Addfed angeu i hen.
Addug yr hydd i'r llyn.
Addug yr hydd i'r maes mawr.
Adduned herwr hirnos.
A ddwg angeu nid adfer.
A ddwg da drwg gynghor?
A ddyfo can-car a ddyfydd can-nos.
A ddyfo cancar ef a ddyfydd can nos.—*Dr. Davies.*
A ddyfo i a'i dyhaith, ef a ddyfydd a wnel ei waith.
A ddygo y gôd ymborthed o honi.
A ddygo yr wy, a ddwg a fo mwy.
A ddysger i'th fab dduwsul, efe a'i gwybydd dduwllun.
Aed lew i gynbwrf câd, Duw a'i differ.
A el i lys heb neges, doed â'i neges gantaw.
A el i'r gware, adawed ei groen gartref.
Aelwyd a gymhell.
Aerwy cyn buwch.
A esgyno yn hwyr, ebrwydd y dis-
Afiach pob trwm galon. [gyn.
Afieithus pob mammaeth.
Aflafar pob tawedog.
Aflan dwylaw diogswrth.
Aflan genau anudonol.
Aflednais pob gwyllt.
A fo aml ei fara, dan ganu aed i laetha.
A fo aml ei feibion, bid wag ei goluddion.
A fo aml ei fêl rhoed yn ei uwd.
A fo caled yn nghyngaws, dadleued ar bob achaws.
A fo da gan Dduw ys dir.
A fo digywilydd a fydd digolled.
A fo diried ar fôr, diried fydd ar dir.
A fu ddyn aeth yn adyn.
A fo a'i fryd ar ddebed (gerdded), ni wna dda cyn ei fyned.
A fo goreu i ryfel goreu i heddwch.
A fo gwanaf gwedd'ied.
A fo hen arched weddi.
A fo hyborth, hywir fydd.
A fo marw er ei fygwth, a'i faw y cymuner.
A fo marw, ni ymogelir.
A fo nesaf i'r eglwys, fydd pellaf oddi wrth baradwys.
A fo trechaf, treisied.
A fo pen, bid pont.
Afrad yw gwrthod.
Afrad pob afraid.
Afrwydd pob dyrys.
A fu bencwd, aeth yn dincwd.
A fyno barch, bid gadarn.
A fyno Duw derfid.
A fyno ddrwg i'w gymmydog, iddo ei hun y daw.
A fyno glod, bid farw.
A fyno gymhell, bid glaf.
A fyno iechyd, bid lawen.
A ffol nid doeth ymryson.
A gafas y carn, a gafas y llafn.
A gaffo ddyrnod y bore, hyd ucher ydd â ag ef.
A gair Duw yn uchaf.
A garo ei fam, cared ei elldrewyn.
A garo ei gilydd, nid adnebydd ei gabl.
A garo ei gilydd nis dirmyg.
A garo yr iau, cared ei waryau.
A garo ei gwr, cared ei chwegr.
A gasgler ar farch Malen, dan ei dor yr ydd â.
A gatwer â gair wrth raid.
A grawn cybydd a ys glwth.
A grea'r frân fawr, a grea'r frân fechan.
A gŵyn cŵyn bychan, cŵyn mawr a ddarogan.
A gŵyn rwy ni rygwynfan.
A gyfodes a golles ei le.
A gymmero ddysg cadwed.
A'i wregys ar dro.
Alwysen tam o garw.
A lygrwys Duw a lygrwys dyn.
Allan o olwg allan o feddwl.
Allwedd calon cwrwf da.
Amaerwy aduabod amynedd.
Amaerwy direidi drwg anian.
Amcan a fydd gan bawb.
A'm caro i cared fy nghi.
Amcan cyn gwneuthur.
Amgeledd y ci am y cwd halen.
Am gwymp hen y chwardd gwên gwas.
Am gwymp hen y chwardd ieuanc.
Amlaf cwrwf tra hitler.
Amlaf y mel tra hitler.
Amlach yw y brain na'r gweilch.
Aml bai lle ni charer.
Aml tro ar feddwl serchog.
Amlwg cas a chariad.
Amlwg gwaed ar farch gwel
Amlwg gwaed o ben crach.
Ammharod pob anallu.
Ammheuthyn pob dieithrfwyd.
Ammau pob anwybod.
Ammod a dyr defod (ddeddf).
Ammraint pob tor defod.
Amser i fwyd, amser i olychwyd.
Amser sydd i bob peth.
Anafus pob drwgfoesawg.
Anaf yngiau angau yngwythi.
Aneglur gennad yw ceudawd.
Aneirian pob diriaid.
Anffawdd i'r dyn a'm twyllodd ddwywaith.
Anffawd i minnau o'm twylla y drydedd waith.
Anghall mal dall a dwyllir. [tan.
Angel pen ffordd, a diawl pen-
Angen a bair i hen wrach duthio.
Angen a bryn ac a werth.
Angen a dyr ddeddf.
Angen a ddysg i hen redeg.
Anghariadus pob diriad.
Anghenawg pob tlawd.
Anghwbl pob eisieu.
Anghymen pob ffol.
Anghynnes pob oer.
Angau angen dyhewyn dir.
Angen a ddyfrys.
Angen garw, drud a'i heirch.
Anghwanegid mefl mawrair.
Anghyfarwydd a dyr ei din yn cachu.
Anhael pob cybydd.
Anhapus pob trwch.
Anhawdd i weniaeth dwyllaw ond unwaith.
Anhawdd chwythu tân â blawd yng ngenau.
Anhawdd gwreica a ffynu yn yr un flwyddyn.
Anhawdd rhedeg oni ellir cerdded.
Annhebyg biau ffynio.
Anhyderus pob ofnog.
Anhydyn pob afrywiog.
A noddo Duw ry noddir.
Annoeth llithrig ei dafod.
Annog dy gi, ac na ddos ganddo.
Anos ci i gell agored.
Anrhaith gyfludwydd (gyfludd fydd), taiawg yn nhŷ ei gilydd.

Digitized by Google

Anrhaith gyfludwyt, taeog yn nhŷ ei gilydd.—*Dr. Davies.*
Anwadal barn pob ehud.
Anwâr fu (i) felyn ei fraint.
Anwydog chwannog i dân.
Anwyl gan bawb a gâr.
A oddef dy ran.
A oddef rydau.
A oddefo a orfudd.
A ogano a ogenir.
Araf dân a wna frâg melus.
Araith doeth a drud ni ddygymmydd.
Arbed geisiaw ac arbed gael.
Arbed law ac arbed droed.
Ar bob da, Duw sydd athraw.
A ranawdd nef a gafas
A rano i luaws, rhaned yn hynaws.
Ardd cŷd bŷch, ardd cyn ni bŷch.
Ar ddiwedd y mae barnu.
Arf a gei lw heddwch.
Arf doeth yw pwyll.
Arfer a wna meistri.
Arfog a gaffo rybudd.
Arglwydd a gymhell.
Arglwydd biau a wrthoter.
Arglwydd gwan, gwae ei was.
Arglwydd pawb ar ei eiddo.
Ar hindda mae gweithio rhag newyn pan ddelo.
Ar hindda y mae cynnuta rhag anwyd y gaua'.
Arian a bryn ac a werth.
Ar ni allo trais twylled.
Ar ni ochelo'r mwg, ni ochel ei ddrwg.
A'r gwelleif y llâs y weirglodd.
Ar nid yw pwyll pŷd yw.
Ar nid oddefo gwas, bid was iddo ei hun.
Ar ni phortho ei gath, porthed ei lygod.
Ar ni roddo a garo, ni chaiff a ddymuno.
Ar ni wano yn ddraen, ni wân yn gipyll.
Ar ol gwlaw tes a ddaw. [oleu.
Ar ol cymmylau yr ä'r wybren yn
Arofyn drwg fugail.
Arwaesaf a ddiffydd diffaith.
Arwaesaf ar leidr ei ddâl.
Arweisaf i leidr ei fanag.
Arwydd drwg mwg yn niffaith.
Arwydd nad eig bwch.
Aseth ni phlyco nid da.
Asglodyn gwern yn mhen y gath.
Asgre lân diogel ei pherchen.
Asgwrn yr hen yn yr angen.
Astrus pob anaf.
Atfai gell i gi, mynych ydd a iddi.
Atgas dirieid-ddyn.
Ateb araf gan ddysgedig.
Athro pawb yn ei dy.
Athrodwaith o gentigen.
Aur gan bawb a chwennycha.
A wahanodd cnawd, gwahanodd ddolur.
Awchus arf a eillio.
Awdur cerdd a'i gwnêl.
Awgrym pawb nis gwybydd.
A wnel drwg arhoed y llall.
A wnel drwg ymogeled.
A wnel dyn, Duw a'i barn.
A wnel Duw nid ä yn adwaith.
A wnelir yn rhin nant, ef a'i gwybydd cant.
A wnel mad, mad a ddyly.
A wnel mawrddrwg, a fydd mawrllw.
A wnel dwyll, ef a dwyllir.
Awr ddrwg, caffaeliad ffalswr.
Awydd a dyr ei wddf.
A yfo lawer, bid feddw.
A wreiddio mewn drygioni, anhawdd fydd ei gynghori.
A yso tam y mab, ysed ei fefl gantaw.

B.

Bai ar wrach dori ei chlun.
Bai ar farch dori ei droed.
Balchder a'i gydymaith a gafas gwymp ar unwaith.
Balchder heb droed.
Balchder o bell.
Bara ac ymenyn yn un tamaid.
Barf nid ardd ni chwardd ychlas.
Bâs pan wahener hyny.
Basaf dwfr yn yd lefeir.
Bawddyn wrth ei grybwyll.
Be â bawd y gweuid gwe.
Be caffai bawb a fynai, ni byddai hiraethawg neb rhai.
Bellach, bellach, fel chwedl y barcut.
Bendith i'r hwch biau 'r bloneg.
Berwid calon llew (neu lew).
Bid aha byddar.
Bid anian dedwydd.
Bid anniwair diferiawg.
Bid anwadal ehud.
Bid dirieid dryganianus.
Bid ddrwg gwraig o fynych warth.
Bid ehud drud er chwerthin.
Bid efain alltud.
Bid gwrandaw glan wrth awr.
Bid gyfa ran rybuchir.
Bid hyfagl gwyar ar onn.
Bid lâs lluarth.
Bid lawen iach.
Bid lawen meddw.
Bid lyfn dy baderau.
Bid nych cwyn claf.
Bid reniad ymgyfarth.
Bid reiniad yn nghyfarch.
Bid rydlyd dy arfau.
Bid trist pob galarus.
Bid wagelawg lleidr.
Bid war antur glew wrth awr.
Bid wastad gwraig o'i mynych warth.
Bid gwraig drwg o'i mynych warth.
Bid wyw gŵr heb fagwriaeth.
Bid wyw march a gnith gwellt Mai, neu Bid fyw.
Blaengar ymadrodd ffôl.
Blingo'r gath hyd ei llosgwrn.
Blodau cyn Mai malpai na bai, neu goreu na bai.
Bo amlaf fo'r bleiddiau, gwaethaf fydd i'r defaid.
Bob eilwers y rhed y cŵn.
Bod yn hir yn glaf a marw eisys.
Bo hynaf fo'r dyn, gwaethaf fydd ei bwyll.
Bo hynaf fo'r rhŷg, tebycaf fydd i'w dad.
Boloch fydd daw.
Boloch ofnawg fydd daw.
Bonedd a dywys, dillad a gynnwys.
Bore brwynawg, bradawg ieir.
Bore coch a mawredd gwraig.
Bore i bawb pan goto.
Bo tyna' fo'r llinyn cyntaf y tyr.
Braith ei gôd a gynnull.
Brawd i fud pob anghyfiaith.
Brawd i sefyll ar adwy.
Brawd yw celwyddog i leidr.
Brawd yw cymmwynas i ddireidi.
Brawd yw mygu i dagu.
Brenin fydd unllygeidiawg yn mysg y deilliaid.
Breuddwyd gwrach wrth ei hewyllys.
Brodyr pob cerddorion.
Buan barn pob ehud.
Buan y saetha ynfyd ei follt.
Budd cyn tymp.
Bu mor edifar ganddo a'r gwr a laddodd ei filgi.
Bu well i'r gwr a grwydrws nog i'r gwr fu farw rhag newyn.
Bwrw â'th unllaw, cais â'th ddwylaw.
Bwrw cath (caeth) i gythraul.
Bwrw ceir dros gyffion.
Bwrw dwfr am ben gwr marw.
Bwrw gwyddif ar ol yr hwyaid.
Bwrw heli yn y môr.
Bwrw nos dros benben.
Bwystlawn genau callawr.
Bwyta y mel o'r cwch.
Bwyta y difyn fal y rhuddo—sef ar lech yn pobi.
Bychan fydd mam y cynfyl.
Bychodedd minailed, neu mynialedd.
Bydd fyw march a'th fi wellt Mai.
Byddar a gaiff gyffelyb.
Byr ddryganian a wna hir ofal.
Byrddydd ni dderfydd cynghor.
Byrhoedlog digasog saint.
Byw ar garu y mae Dyddgu.

C.

Cadarnach yw'r edau yn gyfrod edd nag yn ungorn.
Cadw dy lin ef ä yn eurllin.
Cadw dy wlan ef ä yn eurwlan.
Cafas da ni chafas drwg.
Caffad malu, caffad ei werth.
Cais farchog da dan draed ei farch.
Cais yn y mwlwg.
Calan gauaf garw hin, annhebyg i gynnefin.
Caletach glew na maen.
Calon ni gynnydd cysgid, neu gystudd.
Calon y Sais wrth Gymro.
Cân grwth na chân.
Can ddieued ag ysu o'r llygod y cwlltyr.
Can ebrwydded yn y farchnad croen yr oen a chroen y ddafad
Can boethed a'r tân.
Can ehud ni ddawr pa ffaig.
Can feddwed a'r dwsel.
Can felused a'r mel.
Can gynted a'r gwynt.
Can iached a'r brithyll.
Can iached a'r glain.
Can loywed a'r dwfr.
Can mil gwraig.
Canmoled pawb y rhyd mal y caffo
Can pen can synwyr.
Can oered a'r in.
Can rewydd ni bydd pell rhin.
Can wyned a'r ia.
Can wired a'r efengyl.
Can wst gan henaint.
Cancr sydd i ddyn a chan esgar.
Canymdaith ci ei losgwrn.
Cant mwyn mab yn y tŷ.
Canu heb gywydd.
Câr cywir yn yr ing y gwelir.
Carid chwaer ddiriad.
Carth gwaelawd y bellen.
Câr y gwr aed yn mhell.
Casbeth gwŷr Rhufain.

Digitized by Google

Casbeth Owain Cyfeiliog.
Cas dyn yma, cas Duw fry.
Cas fydd a oreilitio.
Cas fydd y neb a geisio.
Cas myharen mwyeri.
Cas yw 'r gwirionedd lle ni charer.
Caseg gloff, cloff ei hebol.
Castell pawb ei dŷ.
Cau tin wedi bramu.
Cau y drws wedi myned y defaid allan.
Ceinmygir pob newydd.
Ceisied asgre ei fam a gollo.
Ceisio bod yn lleian cyn bod yn fabli.
Ceisio ei fam yn forwyn ieuanc.
Ceisio diried yn ei dyddyn.
Ceisied pawb ddwfr i'w long.
Celfydd celed ei arfaeth.
Cell Arglwydd y weilgi.
Cell hafodwr ei fuarth.
Cenau milgi a morwyn ni chaiff eu mwyn a'u maco.
Cenau yn ei wâl, a gast lem.
Cenmyl gwraig mawrdda.
Cenad fud drud a'i cretwy.
Cenad hwyr drwg ei neges.
Cenfigen a ladd ei pherchen.
Cenfigen wrth well.
Ceugant yw angeu.
Cerddwys a rwymwys.
Cerid chwaer ddiriad can ni charer.
Cerid chwaer diried cyn ni charer. —*Dr. Davies.*
Ci chwyrnog halawg ei bais.
Ci a helio bob llwdn ni bydd da ar yr un.
Clwm anghenog ar y geiniog.
Clwm eiddil moch ellwng.
Clwm gwrach ar ei dimai.
Clywir corn can ni weler.
Cnu y ddafad farw.
Codi pais gwedi piso.
Coel can hadain.
Coel gwrach o'i heistedd.
Coelio llai clust na golwg.
Coes yn lle morddwyd.
Cof a lithra, llythyr a geidw.
Cof pob diweddaf.
Cof gan bawb a gâr.
Coffa dy din pan entrewych.
Cofl gwas diog. Llwyth was diog.
Cogor iâr yn ydlan.
Coll medd y frân pan gaffo ddigon.
Colled a hoffed.
Colles ei gludwr a gyrchawdd tŷ i adwr.
Colles dy lad cystal i'r fuwch.
Cosp ar ben iâr.
Cospi yr arth yn ngŵydd y llew.
Cos din taeog, efe a gach yn dy ddwrn.
Craff ci, caletach asgwrn.
Craff fydd llygad y gwestwr.
Craffach na'r efail.
Crechwen yn ngenau ynfyd.
Crefydd iâr wrth ei gylfin.
Croesaw dwfr i long.
Crŷd ar hen angeu ys dir.
Crynu fal y forwialen.
Crywyn cyn moch, moch o ddamwain.
Cuall cleddyf byr o wain.
Cu annair wedi praidd.
Cur yr haiarn tra fyddo poeth.
Cwymp ar galedlawr.
Cwymp y gwr yn y rhych.
Cwyn bychod ceiliog yr aerwy.
Cyd boed da nid gwirdda.
Cyd boed doeth diriad ys drud.
Cyd boed hirddydd dybydd ucher.
Cyd celer nawnos, ni chelir nawmis.
Cydfwyta â mab arglwydd, ac na chyd chwareu.
Cyd gwichio'r fen, hi a ddwg ei llwyth.
Cydles i bawb galw 'r ychain.
Cyd yso cig march, bid ar gig ebol.
Cyfa ran rybuchir.
Cyfaill blaidd bugail diog.
Cyfareddion gwrach waethwaeth.
Cyfarwydd dwfr yn ei ddyfrlle.
Cyfarwyddaf llaw lle y doto.
Cyfled mantell yn ei gwrthwyneb ag ar ei hwyneb.

> Cyfled mantell mewn celli,
> Gwrthwyneb a'i hwyneb hi;
> Ac nid cutled gweled gwir
> Ar ei wyneb a'r anwir.
> *Ior. Fynglwyd.*

Cyfnewid â hael.
Cyfoed fydd da a dedwydd.
Cyfoethog i werthu, tlawd i brynu.
Cyfrin pen â chalon.
Cyffes pob rhwydd.
Cymmwythach corach a simach.
Cymmyrid haiarn hoedl dyn.
Cyd bod hir haf-ddydd dybydd ucher.
Cyn ddyheued ac ysu o'r llygod y cwlltr.
Cynddrwg a'r Fad felen.
Cyn hoed da nid Mordaf.
Cyngheusedd wedi brawd.
Cynghor hen nith attwg (Addwg, neu Cyssul).
Cynghor iach i glaf.
Cynghori diriad nid hawdd.
Cynghor y gobenydd.
Cynghor i'm gwas yn hen.
Cynnadl taeog yn ei dŷ.
Cynnelw cinyn gan gadechyn.
Cynt y cwrdd dau ddyn na dau fynydd, neu dwy lan.
Cynt y llysg yr odyn na'r ysgubor.
Cyntaf ei og cyntaf ei gryman.
Cyrch Cabrytai.
Cyrchid fryn a ddysgwylio.
Cyrch y ci ar y freuan.
Cysgu fal y pathew.
Cyssul hen nith addwg. [ffon.
Cystal ar draed a marchogaeth
Cystal y march a'i adfarch werth.
Cystal Hywel a Hwlyn.
Cystal modfedd o led, a modfedd o hyd.
Cywala gweddw gwraig unben.
Cywrys am fwyd, carant ofid.

## Ch.

Chwannog annoeth i ymliw.
Chwannog trwch i drin.
Chwannog mab i'w hynt, chwannog adref a fo cynt.
Chwareu ac na friw, cellwair ac na chywilyddia.
Chwareu broch ynghod.
Chwareu hen gi a chenau.
Chwareu hwch a phorchell.
Chwareuid mab noeth, ni chwery mab newynog.
Chwareuys yn awr, nid chwareuys ym mhen y flwyddyn.
Chwarddiad dŵr dan ia.

> Hoyw fydd gwin gloyw gan gler,
> Chwerw, poen dielw, pan daler.
> *D. ab Gwilym.*

Chwedlau y gwreigedd yn y felin.
Chwefror chwyth neidr o'i nyth.
Chwêg mêdd, chwerw pan daler.
Chwegach bwyd cybydd.
Chweirys, gnawd o anianawd (anynawd.)
Chweyrys gwawd o anianawd.—*Dr. Davies.*
Chwerddid bryd wrth a garer.
Chwerthin a wna ynfyd yn boddi.
Chwil gan nos.

## D.

Da angeu ar eiddiawg, neu taeawg.
Da daint rhag tafawd.
Da mab y gôf.
Dadleu gwedi barn.
Dadleu mawr mynych, ac egni ar lygoden.
Da gwaith Duw roi cyrn byrion i'r fuwch a hwylio.
Da gweddai bêr i'r golwyth.
Da gŵr mal pawb.
Da hil ceirch gan ddrwg gynnog.
Daint y ci wrth yr hwch.
Dala dy dŷ am a fo, a diofryd a atfo (ddarffo.—*Dr. Davies*).
Dala llyswen erbyn ei llyw.
Dalis da yn hyd fu.
Dall fyddar pob trwch.
Dall pob anghyfarwydd.
Dall yn barnu ar liwiau.
Damwain pob hely, neu helynt.
Dangos llwyr i gyfarwyne.
Dangos diriad i gŵn.
Dangos dy fys [lys?] i falawg, yn teu a'i heirch yn gwbl.
Dangos llwybr i gyfarwydd.
Dangos nef i bechadur.
Dangos y llo, ac na ddangos y llaeth.
Dau bryd newynog a wna'r trydydd yn lwth.
Dau waith a fydd gan gywraint.
Dawn y dydd ydyw y bore.
Da y cynnydda meddwl gŵr da.
Da y gwelsoch gwell y del.
Da yw y sant y creder iddo.
Da yw a saif ac ni waner.
Da yw cof mab.
Da yw Duw, a hir yw byth.
Da yw 'r maen gyda 'r efengyl.
Dechreu blaen carai o foly.
Dedwydd a gar dadolwch.
Dedwydd a gaiff ddraen yn ei uwd
Dedwydd Dofydd a'i rhydd rhad.
Dedwydd i'r a'i gwŷl a'i câr.
Defnyddfawr pob anghywraint.
Delor a ddwg drwg i'w nyth.
Dellis da yn yd yn.
Deuparth clod yn mhenglog.
Deuid (defod) y ci wrth yr hwch.
Deuparth gwaith ei ddechreu.
Deuparth ffordd ei gwybod.
Deuparth ffydd yng nghalon
Deuparth parch yw arfer.
Deuparth pryd ymdrwsio.
Deuparth bonedd yw dysg.
Deuparth dysg yw hyder.
Deuparth taith ymbarotoi.
Deuparth tref ei harferau.
Deuparth cerdd ei gwrando.
Deuparth rhodd yw ewyllys.
Deuwch brydnawn.
Dewin pob diog.
Dewin pob eiddig.
Dewis ai 'r iau ai 'r fwyall.
Dewis o'r ddwy fach ddu hwch.
Dewis pawb o'i giniaw.
Diangc ar Glwyd a boddi ar Gonwy.
Diau gynnadl taeog o'i dŷ.
Dibech fywyd gwyn ei fyd.

Digitized by Google

Diengid gwan erlid rhy gadarn, Neu elid.—*Dr. Davies.*
Diffaith llyffant dan ia.
Diferwy Duw ddiawg.
Dig pawb rhag a'i câr.
Digon da diwyd genad.
Digon Crist trist yn llawen.
Digon Duw da i unig.
Digon o grwth a thelyn.
Digon yw digon o fêl.
Digon yw digon o ffigys.
Digawn yw chwareu rhynawd.
Diglod pob anhawddgar.
Digrif gan bob aderyn ei lais.
Digu pawb o anadl y pibydd.
Digystudd deurudd dagrau.
Dihuniad a brydero.
Dillad a gynnwys.
Dillyn ieuanc carpiog hen.
Dillyn yn llaw henfab.
Dinas a ddiffydd ddiffaith.
Dir ydyw gadael peth o'r dwfr heibio.
Diriaid a gabl ei oreu.
Diriaid ni fyn wrandaw.
Diriaid a gaiff ddraen yn ei uwd.
Diriaid a glud i ddedwydd ac o fôr ac o fynydd.
Diriaid ni hawddfaidd heddwch.
Dirmygir ni welir.
Dirwest, a chred, a gweddi.
Disymmwth fydd dwylaw ammhwyll.
Dirwest odyn.
Diwedd hen cadw defaid.
Diwŷl ydyw angeu, diwylach a ellau.
Diwytaf i Fleiddian ei genad ei hunan.
Dyled ar bawb ei addaw.
Dod dy law ar dy galon.
Dod fenthyg i noeth, nis cai dranoeth.
Doeth a dwŷllir dairgwaith, ni thwyllir drud ond unwaith.
Doeth dyn tra tawo.
Dogn sydd ar bob peth.
Dolurus calon ofalfawr.
Dofydd dihirwaith aros.
Drud a dâl dau cyfled.
Drud a dyb wrth ei fam.
Drud i ddala, doeth i estwng.
Drud ganu deulw.
Drwg a drefn wrth ei drwydded-awg.
Drwg dybus drwg eisys.
Drwg ei hun a debyg arall.
Drwg o lys ni atter gwadd, neu
Drwg llys ni atter ond a wahodder.
Drwg pawb o'i wybod.
Drwg pawl ni safo flwyddyn.
Drwg pechod o'i bell erlid.
Drwg wrth dranoeth.
Drwg un drwg arall.
Drwg y ceidw diawl ei was.
Drwg yw'r drwg, a gwaeth yw'r gwaethaf.
Drwg yw'r ffordd ni cherdder ond unwaith.
Drwg yw drygwas, gwaeth yw bod hebddaw.
Drwg yw'r peth na thal ei ofyn.
Drwg yw'r swydd ni thal ei gwasanaeth.
Drwg yw y deg ewin.
Drych i bawb ei gymmydog.
Drygwaith dwywaith y gwneir.
Drythyll pob digriad, neu pob diriaid.
Drythyll maen yn llaw esgud.
Drythyllwch drwg ei ddichwain.
Duw a byrth i fusgrell.
Duw a fedd, dyn a lefair.
Duw a ranodd, nef a gafodd.
Duw a ran yr annwyd fel y rhan y dillad.
Duw biau y gwneuthur.
Duw cadarn a farn bob iawn.
Dwrdd gan deulu.
Dwyn oddi ar y saint.
Dwyn y carth o'r pared.
Dybydd hinon gwedi gwlaw.
Dybydd rew i lyffant.
Dyccer ni weler ei ranu.
Dyccid ammwyll ei ran.
Dyccid chwant dros peiriant pwyll.
Dyccid Duw dafar o law.
Dychyferydd trwch â thrin.
Dyddaw drwg, hanbyddir gwell.
Dyfal donc a dŷr y garreg.
Dyfydd dyhirwaith aros.
Dygas gwaith erlyn.
Dygn dyn o garchar.
Dygn yw addaw a garawr.
Dygymmyrid haiarn hoedl dyn.
Dygystudd deurydd dagrau.
Dihir waith aros.
Dyly mach ni ddyly ddim.
Dylyn hael onid el yn gi.
Dylluan yn llaw henfab.
Dyrnod gwas, hir yw ei gas.
Dyro lyn i ddoeth e fydd ddoethach.
Dyryswys y garthen.
Dysg ddedwydd â gair, dysg ddiriaid â gwiail.
Dysg gan ynfyd ymogelyd, a chan y doeth dysg wnaethyd.
Dysgu gradd i henfarch.
Dywaid llafar ni wypo.
Dywal dir fydd ei olaith.
Dyweddi o wnc, galanas o bell.
Ebawl yr ebawl i Dduw.
Ebrill garw, parchell marw.
Echwyn yw nâg.
Edifar cybydd am draul.
Edrych dannedd march rhodd.
Edwyn crach y llall.
Edwyn hen gath lefrith.
Edwyn pawb a dain.
Eddewid gwragedd dau eiriawg.
Eddewid gwraig odid yw.
Eddewid nis gwneler nid yw.
Eddyw (ethyw) corn heb ysgyfarn.
Ef a barodd ei ran yn egin.
Ef a gaiff dyn ddysg o'i febyd hyd ei henaint.
Ef a gair cynghor gan ynfyd.
Ef a gair gwall ar y callaf.
Ef a gwsg galarus, ac ni chwsg gofalus.
E fu ddewr ond fe ddarfu.
E fynai y gath a'r ddwy gynffon.
Ef a ddaw haf i gi.
Ef a fydd am y maidd ar ni bu am y caws.
Efe a aeth ar gyrn a phibau.
Efe a ŵyr dyn pan êl, ac ni ŵyr pan ddêl.
Ef a ŵyr y gath pa farf a lŷf.
Ef y molir pawb wrth ei waith.
E fynnai'r gath bysgod, ond ni fynnai wlychu ei thraed.
Egor dy gwd pan gaech borchell.
Eang yw'r byd i bawb.
Ehegr fydd dryglaw i ammwyll.
Eidduned herwr hirnos.
Eilfam modryb dda.
Eiriach law, nac eiriach droed.
Eiriawl a garawr hawddwaith.
Eiriawl ni garawr ni gyngain.
Eithr gallu nid oes dim.
E las a gafas rybudd, ac ni las a'i cymmerth.
Elid bryd yn ol breuddwyd.
Elid ci i gell agored.
Elid gwraig yn ol ei henllib.
Elid llaw gan droed.
Elid ryw ar barth pa yw.
Elid un i gant, elid cant i un.
Elid ysgubor gan ddrygdorth.
Elid y wrach i'r freuan, er ei genau ei hunan.
Elusen tam o garw.
Enw heb senw.
Enwawg meichiad o'i foch.
Enwir difenwir ei blant.
Ergryn llwfr lluawa addoed.
Ergyd ar gais.
Ergyd yn llwyn cyssul heb erchi.
Er heddwch nac er rhyfel, gwenynen farw ni chasgl fêl.
Esgud drygfab yn nhŷ arall.
Esmwytha gwaith yw methu.
Ewyllys y gwyngam am ei lawdr.
Ewyn dŵr addewid gwas.

Ff.

Ffawd pawb yn ei dâl.
Ffiaidd ni charer.
Ffol pob tlawd.
Ffordd bell i wr o Benllyn.
Ffordd lan Faglan ydd air i nef.
Ffordd lan Fechan ydd ai y wenynen yn ei phreseb.
Ffo rhag drygtir, ac na ffo rhag drwg arglwydd.

G.

Gadu gwraig ag unfell, a'i chymmeryd â dwy.
Gadu'r nos waethaf yn olaf.
Gair dannod yw am un a fethodd.
Gair drwg anianol a lusg drwg yn ei ol.
Gair gwraig fal gwynt yn faweddiau.
Gair gwraig gwneler.
Gair gwraig mal gwynt y cychwyn.
Gair gwr o gastell.
Gan rewydd nid pell fydd rhin.
Gauaf glas monwent fras.
Gelyn yw i ddyn ei dda.
Gellwng drygwr i ysgubor gwrda.
Genau mwyalch ac arch blaidd.
Gênid rhybuched rhwng llaw llawes.
Gênid ym wŷs yn nhŷ Dduw.
Geuawg ni chaffo copinawd.
Glew a fydd llew hyd yn llwyd.
Gnawd adneu yn llan.
Gnawd aelwyd ddiffydd yn ddiffaeth.
Gnawd aflwydd gan ddiriaid.
Gnawd ar eiddil ofalon.
Gnawd as tŷr gan orchymyn.
Gnawd buan o fain.
Gnawd buan o fras.
Gnawd corffawg o fain.
Gnawd cyssul dedwydd yn ddoeth.
Gnawd dial anghwbl gan anghelfydd.
Gnawd difrawd ar blant enwir.
Gnawd digarad yn llys.
Gnawd addewid gwraig gwaith ry phall.
Gnawd ffo ar ffraeth.
Gnawd gan rewydd rychwerthin.
Gnawd gorphwysfa lle bo croes.
Gnawd gwarth o fynych gyswyn.

Digitized by Google

Gnawd gwedi llyn lledfrydedd.
Gnawd gwin yn llaw wledig.
Gnawd lladrad yn ddiymgel.
Gnawd llwyr dâl llwyr dwng.
Gnawd mab taer yn filain.
Gnawd man ar ran cynnifiad.
Gnawd merydd ym mro.
Gnawd mynych awn, i fethdaith.
Gnawd o ben drythyll draha.
Gnawd o egin meithrin das.
Gnawd osp er nas gwahoddor.
Gnawd rhiau eu rhadau yn wasgarawg.
Gnawd rhygas wedi rhyserch.
Gnawd serchog ymlyniad.
Gnawd sŷn syml anghyfiaith.
Gnawd tawel yn delaid.
Gnawd uwch ben dedwydd diddos.
Gnawd wedi rhedeg attregwch.
Gnawd wedi traha tramgwydd.
Gnawd wedi traha tranc hir.
Gnawd y cair colled o fraw.
Gnawd yn ol dryghin hindda.
Gnawd yn y bo cydwyr y bydd cyrch.
Gnawd yn y bo dwfr y bydd brwyn.
Gochel dafarn, ac nac ochel ildio.
Godrohid buwch o'i phen.
Gofal dyn Duw a'i gweryd.
Goganu'r bwyd a'i fwyta.
Gogyfeirch pawb ar ni wypid.
Goleu freuddwyd a welir liw dydd.
Golwg Duw ar adyn.
Golwg dyn ar a'i dyhudd.
Golwg pawb ar a garo.
Golwg serchog, syberw fydd.
Golwg yn yd gŵyl yd gâr.
Golwg y perchen yw cynnydd y da.
Gorddiweddid hwyr fuan.
Goreu bechan, bechan buwch.
Goreu bo'r chwareu tecaf fydd peidio.
Goreu camwri cedwid.
Goreu canwyll pwyll i ddyn.
Goreu celwydd, celwydd goleu.
Goreu cloff, cloff aradr.
Goreu cynghaws, gwas diawg.
Goreu cynneddfau, cadw moes.
Goreu da, y da mwyaf.
Goreu defawd daioni.
Goreu drwg, y drwg lleiaf.
Goreu edifeirwch, edifeirwch gwerthu.
Goreu enw, mi biau.
Goreu gan fy mam ei lladd.
Goreu gwrthwyneb, gwrthwyneb cwys.
Goreu meddyg, meddyg enaid.
Goreu newyn, un ariant.
Goreu peddestr yw gau.
Goreu rhan, rhoddi cynnwys.
Goreu un, tudded mantell.
Goreu yw'r gwareu tra atter.
Gorllyfnu pen ci tra eler heibio.
Gormes y taeawg ar ei gilydd.
Gormodd bw ar ebol.
Gormodd iaith yw twt ar farch.
Gorug ei waith a fach y fachdaith.
Gormodd esmwythder sydd anhawdd ei drin.
Gosymdaith dyn Duw a'i rhan.
Goyaen a wel ynghyfyng.
Gwaddawd gwythlonedd gair blwng.
Gwae a arbôo ei giniaw, o din dafad wedi gwlaw.
Gwae a dro o glun i glun, ac ni feddo beth ei hun.
Gwae a ddyco ei henwas i lys.
Gwae a fo â'i fefl yn ei fynwes.
Gwae a fyn mefl ar bychod.
Gwae a gawdd Duw ac nis cred.
Gwae a gâr ni garer.
Gwae a gaffo ddrygair yn ieuanc.
Gwae a wnel da i ddiawg.
Gwae a ŵyl ei arglwydd beunydd.
Gwar ddigariad llys.
Gwaedlyd wrth faint dy drachywedd.
Gwae fyrrwr yn nghanauaf.
Gwae ieuainc a eiddun henaint.
Gwae'r mil ni wŷl ei berchen.
Gwaethaf anaf anfoes.
Gwaethaf rhyfel, rhyfel teisban (rhyfel yn yr ŷd).
Gwaethaf ystôr o ferch.
Gwaeth un blaidd cloff na dau iach.
Gwaethwaeth chwedl Wilmot.
Gwaethwaeth faensaer, wellwell brensaer.
Gwaethwaeth fal mab gafr.
Gwaethwaeth y rhed y cwn.
Gwae undyn a wnel cant yn drist.
Gwae ŵr a gaffo ddrygwraig.
Gwag tŷ heb fab.
Gwaith y nos y dydd a'i dengys.
Gwaith ysgawn ymogelyd.
Gwala gweddw gwraig unben.
Gwallt bonwyn a gwyn estronion.
Gwân dy bawl yn hafren, hafren fydd hi fal cynt.
Gwanwyn gwlyb, cynauaf diweddar.
Gware gweli ir.
Gware hen-gi â cholwyn.
Gware mi trech.
Gwartheg arall yn adnau, pan fo chwecaf ni bydd tau.
Gwareuid mab noeth, ni chwarae mab newynog.
Gwas da a gaiff ei le.
Gwas da bronwala ei arglwydd.
Gwas i was y chwibanwr.
Gwasgu'r haid cyn no'i cherdded.
Gwas gŵraidd cyn no'i gerdded.
Gwatwar y dydd am waith nos.
Gwedi treiglo pob tre, teg edrych tuag adre.
Gweddil mab iach.
Gweddw crefft heb ei dawn.
Gweddw pwyll heb amynedd.
Gweini ffawd hyd frawd ys dir.
Gwelïus nid diddolur.
Gweled deubeth o'r un.
Gweled ei glust â'i lygad.
Gwell aderyn yn y llaw na dau yn y coed.
Gwell cariad y ci na'i gas.
Gwell oorawg na chybydd.
Gwell agor na chynnwys.
Gwell am y pared a dedwydd, nac am y tân a diriaid.
Gwell anghanawg môr, nag anghanawg mynydd.
Gwell aros na mefl gerdded.
Gwell aros o alltudedd, nag aros o fedd.
Gwell bedd na buchedd angenawl.
Gwell benthyg nag eisieu.
Gwell bendith y tlawd na meistrolaeth y cadarn.
Gwell bod yn ben ar yr hyddod, nag yn din ar yr iyrchod.
Gwell bodd pawb na'i anfodd.
Gwell bonedd na thaeogrwydd.
Gwell buarth hysp nag un gwag.
Gwell bychod ynghôd na chôd wag.
Gwell byr eistedd na byr sefyll.
Gwell byw na marw.
Gwell cadw nag olrhain.
Gwell caffael nodwydd na cholli'r cwlltr.
Gwell can muw i'r can-nyn, nag un muw i undyn.
Gwell câr cell na châr pennill.
Gwell câr yn llys nag aur ar fys.
Gwell ceiniog na brawd.
Gwell cerdd o'i breiniaw.
Gwell ci a rodio na chi a eisteddo.
Gwell clwt na thwll.
Gwell ceginiaeth na brenhiniaeth.
Gwell crefft na golud.
Gwell cul cyfa na byr anghyfa.
Gwell cybydd lle bo na hael lle ni bo.
Gwell cynghor hen na'i faeddu.
Gwell cynnil na chywraint.
Gwell cynnwys gott nag un lleidr.
Gwell chwareu nag ymladd.
Gwell drygsaer na drygof.
Gwell Duw na dim.
Gwell Duw na drwg obaith.
Gwell Duw wrth ei folawd.
Gwell Duw yn gâr na llu y ddaiar.
Gwell dwylaw 'r cigydd na dwylaw'r sebonydd.
Gwell dychymygwr na goruchwyliwr.
Gwell dyhudd na rhyseddu.
Gwell dyn drwg o'i gospi.
Gwell dynoliaeth na drych.
Gwell edrych ar ddyn yn cachu nag yn cymynu.
Gwell eidion gwerth nag un pryn.
Gwell eistedd ar y gwellt nag ar y llawr.
Gwell erlid arglwydd na'i ragod.
Gwell gan hwyr na chan foreu.
Gwell gan wraig a fo da genthi nag a fo da iddi.
Gwell gochel mefl na'i ddial.
Gwell goddef na gofal.
Gwell gobaith na gofid.
Gwell golud na rhyssedd.
Gwell gorne golchi nag un glythni.
Gwell gwae ti na gwae ni.
Gwell gwegil câr na gwyneb estron.
Gwell gwestai gwraig nag un gwr.
Gwell gwichio'r colydd na chochi'r deurudd.
Gwell gwr a ddaeth yn mhen y flwyddyn na'r gwr ni ddaeth byth.
Gwell gwir na chelwydd.
Gwell gwr na gwŷr.
Gwell gwr na'i ran.
Gwell gwr o'i berchi.
Gwell gwraig o'i chanmol.
Gwell hanner had na hanner haf.
Gwell hen hawl na hen alanas.
Gwell hir bwyll na thraha.
Gwell hir weddwdod na drwg briod.
Gwell iddaw a ddonier nag a fonhedder.
Gwell i'r dyn y drwg a ŵyr na'r drwg nis gŵyr.
Gwell i'r gath nad elid i hafotta.
Gwell i'r gwr aeth â'r faneg i yta nag â'r ffetan.
Gwell i wraig y pysgotwr nag i wraig y gwynfydwr.
Gwell maen garw a'm attalio, na maen llyfn a'm gollyngo.
Gwell mam godawg na thad rhieddawg.
Gwell marchwr gwerthu nag un prynu.

Digitized by Google

Gwell marw na hir nychdod.
Gwell marw na mynych ddifrod.
Gwell mefl fod na mefl gerdded.
Gwell migwrn o wr na mynydd o wraig.
Gwell moes law no moes fam.
Gwell nâg na dau addewid.
Gwell nâg nag addaw ni wneir.
Gwell nerth dwywrach nag un.
Gwell peidiaw nag ymddiriediaw.
Gwell penlöyn yn llaw na hwyad yn awyr.
Gwell pren cyhuddiad na dyn cyhuddgar.
Gwell pwyll nag aur.
Gwell rhan ofn na rhan cariad.
Gwell rhan ofni na rhan-lyncu.
Gwell rhy draws na rhy druan.
Gwell synwyr na chyfoeth.
Gwell tewi na drwgddywedyd.
Gwell toliaw na heriaw.
Gwell trwch nag arwyniad.
Gwell un cynnorthwy na dau wŷs.
Gwell un ceidwad na dau ymlyniad.
Gwell un crywyn (neu croen) na dau fuddelw.
Gwell un dyrnod â'r ordd na dau â'r morthwyl.
Gwell un gair yn mlaen na dau yn ol.
Gwell un hwde na dau addaw.
Gwell-well hyd farf, waeth-waeth hyd farw.
Gwell-well pob ffynedig.
Gwell wyneb na gwaly.
Gwell ychydig gan rad na llawer gan afrad.
Gwell yn nghysgod y gowpen nag heb ddim.
Gwell y lle y ffoes Wilmot na'r lle y llas.
Gwell y llysg dau etewyn nag un.
Gwell yn mlaen yr iyrchod nag yn ol yr hyrddod.
Gwell y tyn merch na rhaff.
Gwell y wialen a blyco na'r hon a doro.
Gwell yw'r ddirwy na'r anrhaith.
Gwell yw'r march yn ei forddwyd nag yn ei bresob.
Gwerthfawr pob odidawg.
Gwerthu cig hwch, a phrynu cig moch.
Gwerthu mel i brynu peth melus.
Gwir a ddywawd Gwion gwd.
Gwirion pawb ar ei air ei hun.
Gwiw aur i a'i dirper.
Gwna dda dros ddrwg, uffern ni'th ddwg.
Gwnelid serch saeth syberw.
Gwneuthur cig o un a physgod o'r llall.
Gwneuthur deuddrwg o'r un.
Gwrach a fydd marw eto yn Rhiw Fabon.
Gwr ni'th gâr ni'th gydfydd.
Gwr pawb yn haf.
Gwrthlys i bob llys a fydd.
Gwrthod gwahodd a myned i west.
Gŵyl yw hanes.
Gwynt a lŷf da gwraig weddw.
Gwyw calon gan hiraeth.
Gyda'r ci y cerdd ei gynffon.
Gyrr fab ti a gei nâg.
Gyru brân i geisio tir.
Gyru'r cŷn a gerddo.

H.

Haeddu anerch yw caru.
Haeddu ar nyth y cacwn.
Hael byrllofiog.
Hael Ywain [Hywel] o bwrs y wlad.
Hael pob colledig ychenawg.
Haf hyd galan, gauaf hyd Fai.
Hanbid gwaeth y ddryeath o dori ei hewinedd.
Hanbid gwell y ci farw y llall.
Hanbydd ychwaneg y môr o bisodyn y dryw.
Hanes tŷ hanes coed.
Hanner y wledd hoffedd yw.
Hap Dduw ddewryn.
Hardd pob newydd.
Haul yn Ion wr ni mâd welawr, Mawrth a Chwefrawr a'i dialawr.
Hawdd cymmod lle bo cariad.
Hawdd cynneu tân yn hen aelwyd.
Hawdd dyddio rhwng ffals a chwannog.
Hawdd eiriawl ar a garer.
Hawdd nawdd yn ngwasgawd gorwydd.
Hawdd peri i fingam wylo
Hawdd peri i fonheddig sori.
Hawdd talu ffug i ffol.
Hawdd tori carai hir o groen gŵr arall.
Hawdd tynu gwaed o ben crach.
Hawdd ŷf a wyl ei wely.
Hawdd yw clwyfo claf.
Hawdd yw digio dig.
Hawdd yw dywedyd pymtheg.
Hawdd yw tynu cleddyf byr o wain.
Haws cau â bŷs nag â dwrn.
Haws dadleu o goed nag o gastell.
Haws dringo na disgyn.
Haws gan hwyr na chan fore.
Haws gwneuthur hebog o farcut na marchog o daeog.
Haws llosgi tŷ na'i adeilad.
Haws twyllo maban na thwyllo gwrachan.
Haws yw dywedyd mynydd na myned drosto.
Heb Dduw heb ddim, Duw a digon.
Hen bechod a wna gywilydd newydd.
Hen gi ydyw ci Morgan.
Hen nawdd gorfod arnaw.
Hir ammod nid â i dda, neu annod.
Hir chwedl anghenog.
Hiraeth am farw ni weryd.
Hir addewid i nâg.
Hir eistedd i ogan, neu ddiogi.
Hir ei lygad a wrthgrif.
Hirfrydig a yfo ei holldda.
Hir fydd edau gwraig eiddil, neu fusgrell.
Hir fydd i gybydd ei gabl.
Hir gnif heb esgor lludded.
Hir grawn gan newyn.
Hir hûn faelgwn yn eglwys Rôs.
Hir hynt a chyrchu llawgar.
Hir ladrad i grôg.
Hir lyngeswriaeth.
Hir nych i angeu.
Hir pob aros.
Hirsaig a chyllell aflem.
Hir sefyll i drwm.
Hir weddwdod i fefl.
Hir wyniau i ddireidi.
Hir y bydd blewyn yn myned yn nhin blaidd.
Hir y bydd chwerw hen alanas.
Hir y bydd enderig ych drygwr.
Hir y byddir cyn cnoi tamaid chwerw.
Hir y bydd march bach yn ebol.
Hir y bydd y mud yn mhorth y byddar.
Hir yw'r mab yn y ceubren.
Hoedl dyn ni chanlyn y da.
Hoedl dyn nid gelyn a'i rhan.
Hoff ymenyn trathan.
Hoff gan anghenog ei goelio.
Hoff gan bob edn ei lais.
Hoff gan fadyn ei faw ei hun.
Hoff gan ynfyd ei gnwpa.
Hoff tam mab ni charer.
Hwch o bob heledd.
Hwyrwaith i anffynedig.
Hwy clod na golud.
Hwyr y bydd dyn o'r diniewed da.
Hwy clod na hoedl.
Hwyra dial dial Duw, llwyra dia dial Duw.
Hydr gwr o'i gymmydogaeth.
Hydr pob costog ar ei dom ei hun.
Hydr waedd gwaedd wrth fro.
Hygar pawb wrth a garo.
Hyd tra fych na fydd ofer.
Hyd yn oed yr undydd ydd â'r crochan ar y tân.
Hy pawb ar ei fabsant.
Hy pawb yn absen ofn

I.

Iach rydd rhyfedd pa gŵyn
Iawn chwedlawg mab.
Iawn i bawb i gadw ei hun.
Iro blonhegen.
Iro tin hwch â bloneg.
I'r pant y rhed y dŵr.

Ll.

Lladd gwaed â'i ddwylaw ac â'i draed.
Lladd y gwadn fel y bo'r troed.
Llaes maen yn oerddwfr.
Llaw ddiriaid a ddidawl ei pherchen.
Llaw lluaws ar waith.
Llawer un a ddwg newyn, ac er hyny gwraig a fyn.
Llawen meichiad pan fo gwynt.
Llaw frys llaw gywraint.
Llaw mab yn llawes ei dad.
Llaw lân diogel ei pherchen.
Llawer am hawl, un a'i dyly.
Llawer o weddill o feddwl chwannog.
Llawer câr baw ymdeg.
Llawer gair yn wynt a ä heibio
Llawer dyn a wna gymmyg drwy dros dda.
Llawer gwir drwg ei ddywedyd.
Llawer dyn mawr ei eisieu, a eilw ei gi gydag ef.
Llawer o'r dwr a â heibio heb wybod i'r melinydd.
Llawer rhwng byw a digon.
Llawer teg drwg ei ddefnydd.
Llawer hagr, hagr fydd.
Llawn i bobi golwyth.
Lleas pawb pan rydyngir.
Lle bo mwg y bydd tân.
Lle caffo Cymro y cais.
Lle da i bawb lle y carer.
Lledfryd lladd ei gydymaith.
Lleddid mollt ni ddyfydd.
Lleilai lymaid gauaf.
Lle ni bo dysg ni bydd dawn.
Lle'r ymgreinio'r march y gedy beth o'i flew.
Lles pawb pan feddyger.

Digitized by Google

Llaw a estyn a gymmer.
Llaw pawb ar ei anaele.
Llanw mewn llu.
Llawer math sydd o'r ynfydrwydd.
Lle y bo dolur y bydd y llaw.
Llechu ar gefn y gist.
Lletaf fydd y biswelyn o'i sathru.
Llewid bwyd ni bo beichiawg.
Llewid cywestach.
Lliaws ei anaf ni garer.
Llif yn afon hinon fydd.
Llon colwyn ar arffed ei feistres.
Llon costog ar ei domen ei hun.
Llon fydd y llygoden pan na bo y gath gartref.
Llon llygod lle ni bo cath.
Llwfr ladd ei gydymaith.
Llwm o fam, a thwm o dorth, ni cheidw ei wyneb ys gwna gwarth.
Llwm tir ni phoro dafad.
Llwyd ac ynfyd ni ddygymydd.
Llwyd pob hen.
Llwyd yw 'r farchnad.
Llywodraeth gwŷr sydd anhaws.
Llwyth gwr ei gorwg.
Llyfid y ci y gwayw y brather [âg ef.
Llygad Duw ar adneu.
Llygad cywraint yn mhen anghywraint.
Llymaf fydd y gwayw o'i flaen.
Llymaf y maes, llymaf yr ysgyfarnog.

M.

Mab côf gwr a'i côf.
Mab Gwenlliant esgeulus.
Mab heb ddysg, tŷ a lysg.
Mab rhyfech rhyfenid.
Maeddau'r dylluan wrth y maen.
Mae baw yn y caws.
Mae cloch wrth bob daint iddo.
Mae gwehilion i'r gwenith.
Maen dros iaen.
Magu chwileryn yn mynwes.
Mai oer a wna ysgubor gynnes.
Mal adain i walch.
Malaen a ddyly ei daith.
Mal bwyd hely.
Mal ci â baw ar ei ben.
Mal cogail gwraig fusgrell.
Mal cŵn gan gyfreion.
Mal dall yn taflu ei ffon.
Mal dau eurych.
Mal drygfonheddig ei faich.
Mal dyrnod pen.
Mal aderyn ar y gaingc.
Mal eiry Mawrth ar y maen.
Mal ffon Hywel ab Goronwy.
Mal gwaith Emrys.
Mal llwyth maen Cetti.
Mal llygad yn mhen.
Mal llyn melyn ar drai.
Mal llyfu mêl oddi ar ddrain.
Mal mursen nos Nadolig.
Mal moel rhwng dwy ddeithig.
Mal myn magod.
Mal rhaw yn miswail.
Mal rhybudd hyd Wem.
Mal tynu bach trwy goed.
Mal un yn ieud Grygunan.
Mal y mollt yn ieud Grygunan.
Mal wy ar drosol.
Mal y bo'r dyn y bydd ei lwdn.
Mal y cânt y gwr.
Mal y cerych dy fawl.
Mal y ci a'r hwch.
Mal y ci pan lysg ei droed.
Mal y cŵn am y moch.
Mal achenawg am ei geiniawg.
Mal y gath am y pysgod.

Mal gwalch dros fin yr ellyn.
Mal y Gwyddel am ei yru allan.
Mal y Gwyddel am y ffaling.
Mal y iar dan radell.
Mal y iar â'i baw i mewn a'i hwy allan.
Mal y llin ar y maen.
Mal y llwynog am yr ogfaen.
Mal y llyffant dan yr og.
Mal y llygoden dan balf y gath.
Mal y moch am y ffawydd.
Mal y neidr gribawg.
Mal y peilliaid i Indeg.
Mal y peilliant ymdeg.
Mal y pysg am y dwr.
Mal yr âb am ei cheneu.
Mal yr aran am ei ddwy goes.
Mal yr eddi am y garfan.
Mal y rhisg am y pren.
Mal yr hwch dan y fwyall.
Mal yr hwch yn yr haidd.
Mal yr hŷdd a'r blaidd.
Mal y saeth i'r llinyn.
Mal y tân yn y carth.
Mal y tân yn yr aelwyd.
Mal y try'r ddôr ar ei cholyn, y try'r diog yn ei wely.
Mam esgud a wna ferch ddiog.
Mam fechan a ddifanw ei phlant.
Man yd fydd trwyn yd fydd trew.
Marchog a fydd wedi gŵyl.
March a syrth oddi ar ei bedwar carn.
March a ŵyl yr ŷd, ac ni ŵyl y cae.
March i ddiawg, ci i lwth.
Mawr arth oddi allan.
Mawredig pendefig castell.
Mawrth a ladd, Ebrill a fling.
Mawr yw toraeth yr atlwydd.
Mecid llwfr llawer addoed.
Mecid llwfr llawer cynghor.
Mecid tristyd lledfryd llwyr.
Meddiant bychan i ewyllys drwg.
Meddwl dyn Duw a'i terfyn.
Mefl ar dy farf.
Mefl i'r côg ni lyfo ei law.
Mefl i'r llygoden untwll.
Mefl ys gnawd o wedd-dawd hir.
Mehefin heulawg a wna fedel ei mochddwyreawg.
Meithrin chwileryn.
Mel a'i gol.
Melina tlawd ei gwynos.
Melys bys pan losgo.
Melys geirda am a garer.
Melysaf fydd y cig po nesaf i'r asgwrn.
Melysaf y gwellt nesaf i'r ddaiar.
Melys moes eto.
Melys pan gaer, chwerw pan daler.
Mi adwaen iwrch, er nas daliwyf.
Mi a gawn a fai gan fy mam, ac ni chawn a'i dygai i'r llan.
Moch barn pob ehud.
Moch ddysg nawf mab hwyad.
Moes pob tud yn ei dud.
Moled pawb y rhŷd mal y caffo.
Moliant gwedi marw.
Mor edifar ganddo a'r gŵr a laddodd ei filgi.
Mor esgud a'r gath rhwng y tŷ a'r ysgubor.
Morwyn ieuanc mab yn arffed.
Mud arynaig y llafar.
Mursen nos Nadolig.
Mursen fydd o ŵr mal o wraig.
Mwyaf trwst llestri gweigion.
Mwy llygad na bol.
Mwy na breuan dinfoel.

Mwy nag un ci a'm cyfarthodd i.
Mwy nag y bydd da'r blaidd, ni bydd da ei isgell.
Mwy na'r afr er dangos ei thin.
Mwy na'r bêl dan yr hunnog.
Mwy na'r cyfrwy i'r hwch.
Mwy na'r rhegen yn y rhych.
Mwy nag un bwa yw yng nghaer.
Myned â'r gogr i'r afon.
Mynych heb raid bod ar wall.
Mynych i'r praidd bod ar wall pan fo tywysog yr enderig.
Mynych y daw drwg fugail.
Mynych y syrth mefl o gesail.

N.

Na beleu i fôl, na gwraig i selsig.
Nac ir wadn hanbydd gwaeth.
Nac untrew na dau, ni nawdd rhag angeu.
Nac ymddiried i estron.
Na choll dy henffordd er dy ffordd newydd.
Na chred fyth ferch dy chwegrwn.
Na ddala dy dŷ wrth gynghor dy drwyddedawg.
Na ddeffro y ci a fo 'n cysgu.
Naddiad dy foch na ad yn rhwy.
Na ddifanw dy beriglawr.
Na ddos a gŵr wrth ei faint, neu ddrych.
Na drygddyn ys gwell ci da.
Na farn ddyn na'th ran hyd yn mhen y flwyddyn.
Na fid dy elyn dy gymmydawg.
Na fid dy wraig dy gyfrin.
Na fram oni 'th wthier.
Na fydd frad fugail i'r a'th gredo.
Na fydd oreistoddgar yn ystafell.
Na fydd rhy fwythus lle galler dy hebgor.
Na fydd ry hy ar rywiawg.
Na fynych gur lwfr.
Naill a'i llwynog a'i llwyn rhedyn.
Namyn Duw nid oes dewin.
Natur yr hwch fydd yn y porchell.
Nawf maen hyd waelod.
Na werth er bychodedd.
Na werth nef er benthyg byd.
Na wreica ond yn agos.
Na wrthod dy barch pan y cynnygier.
Neges pendefig yn rhad.
Nerth drygddyn ys gwell ei dda.
Nesaf i bawb ei nesaf.
Nes i mi fy nghrŷs na'm pais.
Nesnes y llefain i'r dref.
Nes na choel.
Nes penelin nag arddwrn.
Neuadd pob diddos.
Neur fegaist a'th ddirprwy.
Newydd benyg yn henfon.
Newid y gwewyr.
Newid y penweig.
Ni ad annoeth ei orfod.
Ni ad diriaid ei garu.
Ni ad môr hyd ei wregys.
Ni ad môr marwolus ynddaw.
Ni aing yn mro ni bydd wrth wir.
Ni baidd llwfr llam chelaeth.
Ni bu Arthur ond tra fu.
Ni bu eiddil hen yn was.
Ni bu esgynu gorŵydd oddi ar geffyl.
Ni bu rygu na bai rygas. [arall.
Ni bu ddrwg i un na bai dda i
Ni butra llaw dyn er gwneuthur da iddo ei hun.
Ni butra llynwyn.
Ni byddaf na thoryn dwyn na chapan glaw.

Nid synwyrol ond cydwybodus.
Nid cydwybodus ond cywir.
Nid cywir ond meddylgar.
Nid meddylgar ond serchog.
Nid serchog ond cerddgar.
Nid cerddgar ond ymddiddangar.
Nid ymddiddan ond am Dduw.

Nid cynghor ond tad.
Nid gweddi ond mam.
Nid ymgeledd ond chwaer.
Nid cadernid ond brodyr.
Nid galluog ond cefndyr.
Nid cenedlog ond cyfyrdyr.
Nid hoywder ond cleddyf.
Nid amddiffyn ond tarian.
Nid hyder ond bwa.
Nid brwydr ond gwewyr.
Nid lladd ond dagr.
Nid tŷ heb ŵr.
Nid tân heb gŷff.
Nid ynfydrwydd ond cariad.
Nid ffolineb ond meddwdod.
Nid tlodi ond clefyd.
Nid gwall synwyr ond ymryson.
Nid methiant ond musgrelli.
Nid doethineb ond tewi.
Nid diogi ond syrthni.
Nid syrthni ond pechod.
Nid pechod ond temtasiwn.
Nid tlawd ond nas cymmer.
Nid cyfoethog ond syber.
Nid gwresog ond yr haul.
Nid oer ond y lleuad.
Nid amlder ond y ser.
Nid buan ond gwynt.
Nid moliannus ond cytundeb.
Nid cyfoeth ond iechyd.
Nid ysbail ond gwynt.
Nid prudd-der ond marwolaeth.
Nid llawenydd ond nef.
Nid anhyfryd ond uffern.
Nid hyfrydwch ond gyda Duw
Nid athrylith ond llawen.
Nid diddym ond trist.
Nid dedwydd ond diddrwg.
Nid diddrwg ond dibechod.
Nid dibechod ond sanctaidd.
Nid sanctaidd ond diwybod.
Nid diwybod ond disynwyr.
Nid hudoliaeth ond ieuenctid.
Nid ieuenctid ond ennyd awr
Nid twyll ond y byd.
Nid prudd-der ond eisieu.
Nid helaethrwydd heb ddigon.
Nid ammheuthyn llawer.
Nid somedigaeth ond gwraig.
Nid difyrwch ond milgi.
Nid llawenydd ond march.
Nid digrifwch ond gwalch.
Nid ofnog ond digasawg.
Nid digasawg heb achaws.
Nid dyoddefgar ond doeth.
Nid doeth a ymryson.
Nid mwynder ond merch.
Nid mabgar ond difilain.
Nid milain ond taiawg.
Nid taiawg ond cerlyn.
Nid cerlyn ond afrywiog.
Nid afrywiog ond iangwr.
Nid iangwr ond o arfereu.
Nid hawddgar ond difalch.
Nid difalch ond trugarawg.
Nid trugarawg ond deddfawl.
Nid marchog heb ffon.
Nid peddestr heb fwa.
Nid chwannawg ond mab.
Nid esgeulus ond gweinidog.
Nid cywir ond ci.
Nid amyneddgar ond cath.
Nid melys ond pechod.
Nid chwerw ond pennyd.
Nid ymddiried ond cydymaith.
Nid hoffder ond etifedd.
Nid glân ond y pysg.
Nid cyfrinach ond rhwng dau.
Nid ŵyr ond a weles.
Nid hysbys ond a ymofyno.
Nid cyfarwydd ond a wypo.
Nid call ond a gatwo yn ei gof.
Nid dysg heb synwyr.
Nid gwenieithus ond merch.
Nid afiaethus ond diofal.
Nid gwenwynig ond cath.
Nid ffyrnig ond ci.
Nid creulon ond llew.
Nid cyfrwys ond epa.
Nid dichellgar ond llwynog.
Nid ystrywgar ond ysgyfarnog.
Nid athrylithgar ond bytheiad.
Nid diswrth ond byrhwch.
Nid brwnt ond ffwlbert.
Nid moethus ond bele.
Nid bywiog ond gwiwair
Nid esgud ond dyfrgi.
Nid esmwyth ond pathew.
Nid diffaith ond ystlum.
Nid boneddig ond hŷdd.
Nid rhywiog ond march.
Nid gwâr ond ŷch.
Nid taiog ond eidion.
Nid rhadlawn ond dafad.
Nid llysieuwraig ond gafr.
Nid tomlyd ond bwch.
Nid teg ond paun.
Nid rhyfygus ond bronfraith.
Nid serchog ond eos.
Nid balch ond alarch.
Nid syw ond y bi.
Nid sionc ond y dryw.
Nid cyfannedd ond ceiliog.
Nid afradlawn ond iâr.
Nid ynfyd ond gŵydd.
Nid budr ond hwyad.
Nid gwrol ond ceiliog du.
Nid mwynaidd ond eog.
Nid llechiad ond cyffylog.
Nid anllad ond aderyn y to.
Nid musgrell ond ceiliogwydd.
Nid glwth ond mulfran.
Nid anferth ond garan.
Nid trais ond tân.
Nid rhwystr ond dwfr.
Nid ysgafn ond wybr.
Nid trwm ond daiar.
Nid dewr ond gŵyr.
Nid calonog ond a gyrcho.
Nid diarswyd ond a arhô.
Nid ofnog ond a ffô.
Nid llwfr ond a lecho.
Nid anfeidrol ond dim.
Nid dim ond Duw.

Nerth eryr yn ei ylfin.
Nerth unicorn yn ei gorn.
Nerth sarff yn ei chloren.
Nerth hwrdd yn ei ben.
Nerth arth yn ei breichiau.
Nerth tarw yn ei ddwyfron.
Nerth twrch yn ei aflach.
Nerth ci yn ei ddant.
Nerth ysguthan yn ei hadenydd.
Nerth gwraig yn ei thafod.

## O.

O achos y fammaeth y cusenir y mab.
O bob ceinmyged cyffes oreu.
O bob ffordd o'r awyr ydd ymchwelo'r gwynt y daw gwlaw.
O bob trwm trymaf henaint.
O bychydig y daw llawer.
O bydd call i gi mynych ydd â iddi.
O bydd llawen y bugail, llawen fydd y tylwyth.
O bydd neb ar ol bid y bawaf.
O bydd gwlân gan fursen fe fydd am bob brwynen.
O bydd uwch bawd na sawdl.
O cheri di ni'th garo, collaist a geraist yno.
O daw ymenyn doed.
Och wŷr nad aethant yn wreigedd.
O chyrhaedd fry ni ddaw obry.
Odid a ardd.
Odid dyn diriaid di hawl.
Odid a ddyry ateb.
Odid a gatwo ei wyneb o eisiwed.
Odid archoll heb waed.
Odid da diwarafun.
Odid difro diwyd.
Odidawg a fo didwyll.
Odid dyn têg dianaf.
Odid addewid a ddel.
Odid elw heb antur.
Odid o'r cant cydymaith.
O down ni ni a ddown.
O down ni er pedwar ar ddeg, ni ddown er pymtheg.
Oed a ardd.
Oed y dyn ni chanlyn y da.
Oed a rydd ateb.
Oedd raid deall i alltud.
O eisieu gwrda y dodir bawddyn ar y bwrdd.
O englyn ni ddaliaf haid.
Oer pob gwlyb.
Oer yw iagell yr alanas.
Oer yw y cariad a ddiffydd er un chwa o wynt.
O flewyn i flewyn ydd â'r pen yn foel.
O fôr ac o fynydd, ac o waelod afonydd, y denfyn Duw dda i ddedwydd.
Ofni ei gysgawd.
Offeren pawb yn ei galon.
Ogfaenen yn ngeneu benhwch.
O gywirdeb y galon y dywaid y gwirion.
O hir ddyled ni ddylir dim.
O hoenyn i hoenyn ydd â'r march yn gwta.
O lymaid i lymaid y darfu 'r cawl.
O lladd y gath lygoden, ar frys bi a'i hys ei hun.
O myni nodi iwrch ti a fwri naid amgen; o myni fod yn iyrchgi, ti a fwri naid a fo mwy.
O ofrys ni wys cw dda.
Oni byddi cyfarwydd cyfarch.
Oni byddi gryf bydd gyfrwys.
Oni byddi wrth gynghor dy fam, bydd wrth gynghor dy lysfam.
Oni cheffi genin, dwg fresych.
Oni heuir ni fedir.
Onid march ys caseg.
O ddeuddrwg goreu yw'r lleiaf.
Os gwr mawr cawr, os gwr bychan côr.
O sul i sul ydd â'r forwyn yn wrach.
O'r badell ffrio i'r tân.
O'r bore hyd ucher y newid yr amser.
Os cregyn fydd yn y cwd, cregyn ddaw allan.

Digitized by Google

P.

Pa ham y bydd cul y barcud? Am ysglyfiad.
Pa ham y llŷf y ci y maen? Am nas gall ei ysu.
Pan fo gwlân gan fursen y bydd pais i bob brwynen.
Pan fo mwyaf dy galedi, gobeithia y gorfyddi.
Pa le yn y fuddai y mae'r enwyn?
Pan bwyser arnad, tyn dy droed atat.
Pan dywyso y dall ddall arall, y ddau a ddygwydd i'r pwll.
Pan dywyso'r enderig ei braidd, ni bydd da i'r ysgrubl y dydd hwnw.
Pan el lladron i ymgyhuddo y caiff cywiriaid eu da.
Pan fo addoed ar y geifr, y bychod a ridiir.
Pan fo ingaf gan ddyn, ehengaf fydd gan Dduw.
Pan fo culaf yr ych, goreu fydd yn y gwaith.
Pan fo meilierydd ar ben malurio, y bydd esgud asgell gwipia.
Pan fo teca'r chwareu, goreu fydd peidio.
Pan gair mihi ni cheir miha.
Pan laddo Duw y lladd dyn.
Pan laddo Duw y lladd yn drwm.
Pan gysgo pawb ar gylched, ni chwsg Duw pan rydd wared.
Pan wypo dyn ladd ci, cynddaredd a yr arno.
Pan nad rhyfedd na thyf post aur trwy nen tŷ yr anwir.
Pan yrer y Gwyddel i maes, ennaint a gyrch yntau.
Pan yrer y Gwyddel allan, ynfyd ydd heurir ei fod.
Pa waeth y dring y gath o dori ei hewinedd?
Pasg gwyn cynauaf coch.
Pawb a chwennych anrhydedd.
Pawb a drais yn mhais ei dad.
Pawb a gâr ei gywala.
Pawb a ŵyr oddi wrth ei ddolur ei hun.
Pawb â'i chwedl gantho.
Pawb drosto ei hunan, Duw drosom ni i gyd.
Pawb yn llosgwrn ei henfon.
Pawb yn y gorphen.
Pe dywetai dafawd a wypai geudawd, ni bvddai gymmydawg neb rhai.
Pei y gath a fyddai gartref, gwaeth a fyddai i chwi.
Pen carw ar ysgyfarnog.
Pen ci ar fore gwanwyn.
Pen punt a llosgwrn dimai.
Pen saer pob perchenog.
Pen dros bawb lle ni charer.
Perchi gwr er ei fawed.
Petwn dewin ni fwytawn furgyn.
Pieufo'r fuwch aed yn ei llosgwrn.
Pieufo yr henfon, ymafled yn ei chynffon.
Pilio yr wy cyn ei bobi.
Po callaf y dyn anamlaf ei eiriau.
Po uchaf y dyrchafiad mwyaf y cwymp.
Pob byw a enir i ysgar.
Pob cadarn gwan ei ddiwedd.
Pob cyffelyb a ymgais.
Pob darogan dydderpid.
Pob diareb gwir, pob coel celwydd.
Pob dryll ydd â'r aing yn y pren.
Pob edn a edwyn ei gymhar.
Pob enwir difenwir ei blant.
Pob gwlad yn ei harfer.
Pob hir nychdod yn ei angeu.
Pob llwybr mewn ceunant i'r unffordd a redant.
Pob llwrf llemitior arnaw.
Pob peth yn ei amser.
Pob peth a ddaw drwy 'r ddaiar ond y marw mawr ei garchar.
Pob traha yn y gorphen.
Poeri ar ei ddilledyn ei hun.
Po cyfyngaf gan ddyn, ehangaf gan Dduw.
Po dicaf y ceiliog cyntaf y cân.
Po dyfnaf y môr, diogelaf fydd i'r llong.
Po hynaf fo y Cymro ynfyta fydd.
Po hynaf fo yr ŷd tebycaf fydd i fyd.
Po mwyaf fo'r brys mwyaf fydd y rhwystr.
Po mwyaf fo 'r drafod, mwyaf fydd y gorfod.
Po mwyaf fo 'r llanw mwyaf fydd y trai.
Po tecaf fo y chwareu goreu fydd peidio.
Po tŷnaf fo'r llinyn cyntaf y tŷr.
Pren yn nghoed arall biau.
Pryn ŷd e fydd drud;
Pryn flawd ti a ei yn dlawd.
Prydnawn coch a mawredd gwraig.
Pryn hen pryn eilwaith.
Pryn tra flingych.
Pwy a edrych ddanedd ceffyl benthyg?
Pwy bynag sydd heb wraig sydd heb ymryson.
Pwy wyr tranc mab wrth feithrin?
Pwyll a ddyly padell.
Pysgota yn mlaen y rhwyd.
Pystolwyn i'r allt.

R.

Rhag angeu ni thycia ffô.
Rhag anwyd ni weryd canwyll.
Rhag bod y sul heb siglaw.
Rhag myned un llôg o'r tŷ.
Rhag newyn nid oes wyledd.
Rhagnythed iâr cyn dodwy.
Rhag trymfryd ochid achenawg.
Rhaid fydd nithiaw ni bo pur.
Rhaid i'r fuwch wrth ei llosgwrn.
Rhaid i segur beth i'w wneuthur.
Rhaid wrth anmhwyll bwyll parawd.
Rhaid yw cropian cyn cerdded.
Rhaid yw genau glân i oganu.
Rhan druan rhan draian.
Rhan gorwydd o dad.
Rhan y gwas o gig yr iâr.
Rhanu rhwng y bol a'r cefn.
Rhetid câr gan orwaered.
Rhetid maen oni gaffo wastad.
Rhieddawg achenawg yn ffô.
Rhew i lyffant.
Rhewydd pob rhyfeddawd.
Rhin tridyn cannyn a'i clyw.
Rhodd ac adrodd rhodd bachgen.
Rhodd fawr ac addaw bychan.
Rhodd Ifor ar ei gapan.
Rhodd gwŷr Erging.
Rhodd i hen nac adolwg.
Rhoi 'r câr o flaen y march.
Rhoi 'r ordd dan y celynllwyn.
Rhuthr ci o gribaudd.
Rhuthr enderig i'r allt.
Rhuthr mammaeth.
Rhwng y diawl a'i gynffon.
Rhwng y ddwy ystol ydd â'r din i lawr.
Rhwng y rhisg a'r pren.
Rhwng y tân a'r pentan.
Rhwy fu rhyfychod gynnen.
Rhwydd ni bo dyrys.
Rhybudd ofnog a dal y ci.
Rhybudd i ddedwydd.
Rhybrynwys ry erchis.
Rhybrynawdd barfawg a eirch.
Rhybuched baw gares.
Rhybuched drygfab i'w fam.
Rhy dŷn a dŷr.
Rhy lawn a gyll.
Rhy uchel a syrth.
Rhydd i wraig ei thafawd.
Rhygas rhywelir.
Rhyfoddawg rhy fawr a wŷl.
Rhygas pob rhywir.
Rhygu pob rhyfychod.
Rhyw i fab iwrch lamu.

S.

Saith mlynedd y darogenir delli.
Sef a ladd a gyhudd.
Sef a lwydd i fefl ei chelu.
Sef yw blaidd y bugail.
Siarad cymmaint â mab Saith Gudyn.
Siarad cymmaint a Merddin ar bawl.
Sicraf yw yr hyn sicraf.
Sieffrai piau'r troed, Sieffrai piau'r fwyall.
Somi Duw â mynach marw.
Son am Awst wyliau 'r Nadolig.
Swrth pob diog.
Sychu trwyn y swch.
Symmudaw addef rhag drwg.
Syrthid march oddi ar ei bedwar carn.
Syrthid mefl o gesail.

T.

Tabler i lyfrau, tafarn i chwedlau.
Tafawd a dŷr yr asgwrn.
Tafawd aur yn mhen dedwydd.
Tafawd gelyn ar ddannedd ni chydsain ar wirionedd.
Tafl â'th unllaw, cais â'th ddwylaw.
Talwys a ryfeichwys.
Taraw gwibiog ni wyl ei fuches ei hun gan edrych dros y cloddiau.
Tawedog tew ei ddrwg.
Tebyg oedd cwd i gyfrwy.
Tebyg oedd hwch i garegl.
Teg pob dianaf.
Teg pob hardd.
Teg pob chwedl ni bo gwrthwyneb iddo.
Teg tân bob tymp
Teirgwaith y dywaid mursen bendith Dduw yn y tŷ.
Teirgwers gwraig rewydd.
Telitor gwedi halawglw.
Temyl glwth ei gegin.
Terfyn cywiraf cyngwystl
Toll fawr a wna doll fechan.
Toriad hen daeliwr.
Tori difyn ar y dorth, ni wna wala e wna warth.
Tost a fydd mwg coll.
Tra fo'r borfa yn tyfu y bydd marw y march.
Tra fo 'r ci yn maesa ydd â yr ysgyfarnog i'r coed
Trafferth ŷch hyd echwydd.

Digitized by Google

Traha a threisio y gweinion, a ddifa 'r etifeddion.
Tra rheto 'r ôg rheted y freuan.
Tra rheto 'r ôg rheted y ddraenglwyd.
Tranoeth wedi y dygwyl.
Trech ammod na gwir.
Trech a gais nag a geidw.
Trech anian nag addysg.
Trech blaidd na'i genad.
Trech Duw na drwg obaith.
Trech gwan arglwydd na chadarn was.
Trech gwlad nag Arglwydd.
Trech llafur na direidi.
Trech tynged nag arfaeth.
Trech y tyn merch na rhaff.
Treigl maen hyd wastad.
Trengid golud ni threing molud.
Trengid lud ni threing golud.
Trengis a fremmis.
Tricid can ni wahodder.
Tricid gwr wrth ei barch ni thrig wrth ei gyfarwys.
Trist pob galarus.
Troi o bobtu i'r berth.
Troi 'r gath yn yr haul.
Trychni nid hawdd ei ochel.
Trydydd troed i hen ei ffon.
Ty ni fyno Duw ni lwydd.
Tw! farch benthyg.
Twyll drwy ymddiried.
Twyllid rhyfegid rhyfygiaid.
Twyllwr yw gwobr.
Twyme y dwr a'i fwrw allan.
Tyfid maban ni thŷf ei gadachan.
Tyfid ebol o hyd gar.
Tyfid enderig o'i dor.
Tynghedfen gwraig ot.
Tyn y cwyr o'th glustiau.
Tynu bach trwy goed.
Tyst yw 'r chwedl i'r englyn.
Tywyll boly hyd pan lefair.
Tywyll fydd gau, goleu gwir.
Tywynaid graienyn ei ran.

U.

Uchenaid at ddoeth.
Uchenaid gwrach ar ol ei huwd.
Ucher a ddaw gan ddryghin.
Un arffod a fag i gant.
Un cam diogi a wna ddau a thri.
Un dyn a ddryga ar gant.
Un o blant Angharad segur.
Unllaw ar wlan canllaw ar wlan.
Unllawiog fydd mammaeth.
Unllygeidiog fydd brenin yn ngwlad y deilliaid.
Un geiniawg a ddyly cant.
Unpryd yr iâr yn yr ysgubor.
Untrew o garchar.
Unwaith yr aeth yr arglwyddes i nofio hi a foddodd.
Udgorn yw cwrw da.
Uwch pen na dwy ysgwydd.
Uwch yw y brag na'r gwenith.

W.

Wyneb trist drwg a ery.
Wylid ni wŷl ei berchen.
Wythnos y llwynog.

Y.

Y bendro wibwrn.
Y bol a bil y cefn.
Y budd a ludd y lludded.
Y câr cywir yn yr ing y gwelir.
Ychydig laeth a hyny yn enwyn.
Ychydig yn aml a wna llawer.
Y cŷn a gerddo a yrir.
Y ci a fyner ei grogi a ddywedir ei fod yn lladd defaid.
Y cyntaf a ddelo i'r felin, maler iddo yn gyntaf.
Y cyntaf a'i clybu, dan ei din y darfu.
Y cyntaf ei ôg, cyntaf ei gryman.
Y dafn a dyll y gareg, nid o gryfder ond o fynych syrthio.
Y diweddaf a oddiwedder ar y freuan, ar hwnw y dielir.
Y dŷn a werthodd ei dŷ yn mha wlad y caiff letty.
Ydyw corn heb ysgyfarn.
Y fefl a wneler yn rhin nant, hi a dywynnyg yn ngŵydd cant.
Y felin a fâl a fyn ddwfr.
Y ferch a ddel i'w phrofi, hwyr y dêl i'w phriodi.
Y gath a fo dda ei chroen a flinger.
Y gŵr yn ceisio ei gaseg, a'i gaseg dano.
Y gŵn a roed i gannwr, ac nid â'r gŵn o dy 'r gŵr.
Y llaw a rydd a gynnull.
Y march a fydd marw tra bo y gwellt yn tyfu.
Y march a wŷl yr ŷd, ac ni wŷl y cae.
Y march a wich ys ef a ladd.
Y march a fram a ddwg y pwn.
Y mud a fynaig i'r llafar.
Y mud a ddywed y gwir.
Y naill flwyddyn a fydd mam i ddyn, a'r llall fydd ei elldrewyn
Y neb a saetho ar adrybedd a gyll ei saeth.
Y naill wenwyn a ladd y llall.
Y neb a fo â march gantho a gaiff farch yn menthyg.
Y parchell byw bid fau.
Ymbell ammeuthyn a wna mefl.
Ymchwel yma, na ddymchwela; nid oes o'r byd ond ymchwelyd.
Ymganlyn â dedwydd.
Ymgeledd ci am y cwd halen.
Ymryson â'r gôf yn ei efail.
Ymryson â doeth ti a fyddi ddoethach.
Ymryson â ffol ti a fyddi ffolach.
Ymchwelid Duw ei law yn ngaufnos.
Ymguddio ar gefn y gist.
Yn ceisio y blewyn glas y boddodd y gaseg.
Yn mhob daioni y mae gobrwy.
Yn mhob drygioni y mae pechod.
Yn mhob dewis y mae cyfyngder.
Yn mhob crefft y mae ffalsder.
Yn mhob clwyf y mae perygl.
Yn mhob gwlad y megir glew.
Yn mhob dyn y mae enaid.
Yn mhob enaid y mae deall.
Yn mhob deall y mae meddwl.
Yn mhob meddwl y mae naill ai drwg ai da.
Yn mhob rhith y daw angeu.
Yn mhob rhyfel y mae gofal.
Yn mhob pechod y mae ffoledd.
Yn ceisiaw y cyrn colli y clustiau.
Yn yr ing goreu yw y câr.
Yn y croen y ganer y blaidd y bydd marw.
Yn y lle y bo'r da, y rhoir ac y tycia.
Yn y lle yr ymgreinio 'r march, ydd edy beth o'i flew.
Ynfyd a gabl ei wrthban.
Yr aderyn a faoer yn uffern, yn uffern y myn drigo.
Yr afr ddu a lâs.
Yr hai a laddodd yr hwch.
Yr hwch a dan a fwyty y soeg
Yr hwch a wich ys hi a ladd.
Yr oen yn dysgu i'r ddafad bori.
Yr un asgwrn a dâl.
Ys da felin a ballodd.
Ys dir drwg fhag drwg arall.
Ys dir i hael a roddo.
Ys dir angeu i eidiawg.
Ys dir nithiaw ni bo pur.
Ys dir lladd y gwadn wrth refedd y troed.
Ys drwg y deg ewin, ni bortho i'r un gylfin.
Ys ef fy nghâr a orfo.
Ys ef a ladd a gyhudd.
Ysgafnllwyth a glud coed.
Ysgafn y daeth, ysgafn yr aeth.
Ysgrubl diriaid yn eithaf.
Ys gwell can mesur na chan trwch.
Ys gwell deli wrth a fo.
Ys gwell cau â bys nag â dwrn.
Ys id ar bawb ei bryder.
Ys mefl iddo ni ddyto ei fach.
Ysid bwyd drygwr heb ei ddiolch.
Ysu bwyd yr ynfyd yn y blaen.
Ys marw a fo diobaith.
Ystum llawgar yn rhanu.
Ysbys pawb pan ddarfo.
Ysbys y dengys y dyn o ba radd y bo ei wreiddyn.

---

DIAREBION EREILL A CHWANEGWYD O AMRYW GASGLIADAU.

A.

A fo ar ei gerdded ni wna dda cyn ei fyned.
A ddygo 'r nodwydd a ddwg y crogwydd.
Anhawdd dwyn dyn oddi ar ei dylwyth.
A ddywed peth a fyno, a glyw y peth nis myno.
Amlaf ei gwŷs amlaf ei ysgub.
Amser a â heibio wrth chwareu ac wrth weithio.
A fo byw yn dduwiol a fydd marw yn ddedwydd.
Am y nofio fo, ni waeth ganddo pwy a foddo.
Aml ddyrnod a dyr y gareg.
A farchoco y march pedoled.
A gano yn ei wely a gria cyn cysgu.
Anifail a fydd yr eidion pe 'i torid ei gynffon.
Amgen na hwy, pedfai amgenach na'u gilydd.
Arglwydd, eb y naill arglwydd wrth y llall, Beth a wnawn am flawd potes: ai codi melin i falu pecaid? Adeilio melin i falu mesur?
A ddywedo y gwir torir ei ben.
A ddigio heb achos cymmoded heb iawn.
Aflwyddiannus pob diriaid.
A gafodd y dyn a gafodd y da.
A garo y byd, aed i'r bont.
Amryfaelus pob ymladdgar.
Amlwg tom ar farch gwyn.
Anhawdd tynu henfarch o rygyng.
A garer neu gaseir a welir o bell.
Ar ol rhodio pob lle, hawddfyd i gartre'.
Ail i chwedyl chwiliais.
A bryn dir a bryn geryg.
A bryn flawd a bryn eisin.

Digitized by Google

A bryn gig a bryn esgyrn.
Addaw gyda mab, a thalu gyda merch.
A chwennycho ddrwg i arall, iddo ei hun y daw.
A eistedd yn dlawd, a ymdwym yn gyfoethog.
Allwedd arian a egyr bob clo.
A geir yn rhodd a gerdd yn rhwydd.
Arwydd ddrwg ar ddyn gweled ei berfedd.
A fu ddyn aeth yn adyn.
A recho ar y bryn a rech lle nas myn.
A recho yn y nant a rech yn ngwydd cant.
Ammod a dyr gyfraith.
Ar ni roddo a garo, ni chaiff a ddymuno.
Angen a ŷr hen i redeg.
A fo dda gan Dduw ystyrgar fydd.
Addewid ni weler nid yw.
Adfyd a ddwg gwybodaeth, a gwybodaeth ddoethineb.
Adfyd a bair i rai edrych o'u deutu.
A garo Duw a gospa.
A gadwo Duw cadwedig fydd.
A losgo ei odyn a fyn i arall losgi.
Anhardd pob drwg foesawg.
Antur hir ledrad heb ddial.
Ar ol yfed syched fydd.
A rhinweddau da gorthrechir drwg.
A ymoreuro ymoreured â'r goreu.
A eiriach ei wialen, a ddifwyna ei fachgen.

B.

Berwi y dwfr a'i daflu allan.
Bachgen diriaid a wna ŵr da.
Blewyn i gi a'i brathodd.
Brau din brau dafad.
Blingo hwch â chyllell bren.
Bara gwyn sych.
Bara gwyn a chig moch a chwrw, a bair i ŵr werthu ei dir.
Berwant yn eu hisgell eu hunain.
Bwyd yr ynfytaf a fwytir gyntaf.
Bid gwrm biw, bid llwyd blaidd.
Bid rhwng y din a'r wialen.
Brith yn ieuanc, carpiog hen.
Byr ei hun, hir ei hoedl.
Bwyta llymru â mynawyd.
Bwrw dwfr i Havren.
Bydded y gerdd yn ol y testyn.
Bwrw ergyd ar gais.
Beth gwedi celwydd: cernawd.
Boddi y melinydd.
Balch yw geifr ar y rhew.
Balch yw hwyaid ar y gwlaw
Bawddyn wrth ei grybwyll.

C.

Can falched o'i gwd ag yntau o'i sach.
Can wirioned a diawl dwyflwydd.
Can galled ag Ieuan Cydewain.
Can lased a'r geninen.
Can gyfrwysed a barcud fis Gorphenaf.
Ceir gweniaith gan bob un.
Ceir y drwg yn mhob man.
Can wyned a'r can.
Can ddued a'r frân.
Can haeled a Nudd.
Can goched a'r gwaed.
Can gryned a'r bel.
Can falched a chribau y bleiddiau.
Cochwallt y gwaethaf o'r holl ddynion.
Cwrw yn mol twrf yn mhen. [cig.
Cystadl yfed o'r cawl a bwyta o'r
Cwyn rhugl rhag cwyn rhagddo.
Cwrw Aber Conwy goreu pe 'i pellaf.
Cyfri'r cywion cyn eu deor.
Cyhyd ag ystol uffern.
Cywir yn ing y gwelir.
Cywain y cwbl i'r bol fal y gigfran.
Cynt i'r gell nag allan.
Cymmerwch y mynydd o'i ben e dderfydd.
Cynt meddwl na gweithred.
Cyfathrach i fwyta, cenedl i ymladd.
Cyfathrach o agos, galanas o bell.
Cyfrwy i hwch.
Cyfrwy i fuwch.
Cyfyng ac eang yw dewis.
Coel gwrach yn y lludw.
Cydwybod lân diogel ei pherchen.
Cas gan ynfyd a'i cynghoro.
Canys fe fethws ebai y ddylluan.
Cas gan y gath y ci a'i baetho.
Ceir pob peth am arian.
Cynt i'r dorth nag i'r canad pobi.
Cystal a llwybr aradr.
Cynghor yn ol.
Cyfoethog pob dedwydd.
Cymmer dy barch a gwrthod dy anmharch.
Cyfuwch a'r ser.
Chwynwch eich gardd eich hun yn gyntaf.
Cadw peth fel carth rhag tân.
Cardota Gwyddelwern.
Colli y clustiau cyn cael y cyrn.
Can esgor i ieuanc.
Castell pob dyn yw ei dŷ.
Canmawl dy fro a thrig yno.
Cadarn ofyn a wna gadarn nacâu.
Cadarn wrth gadarn.
Cadw ci a chyfarth fy hun.
Cwlwm oediawg a ddettyd.
Chwi a'i cewch a ffonod ar eich cefn.
Cosyn glan o gawsellt budr.
Chwi piau y byd, cechwch ynddo.
Claf o'r un clwyf.
Crach a ddywed crach gyntaf.
Cneua mewn brwyn.
Cadw dy afraid, ti a'i cei wrth dy raid.
Ceisiaw swllt yn ngwalfa blaidd.
Cnoi awel.
Chwareu plant yn y pistyll.
Chwareu am bob peth ac ymladd am y bwyd.
Câr a glyw, bid farw bid fyw.
Cerid yr afr ei myn, bid o ddu bid o wyn.
Cas gweled a geisio.
Cariad a orchfyga bob peth.
Ceintach wedi brawd.
Cymmaint ar y werthyd ag ar y bellen.
Cludo heli i'r môr.
Cneifier wedi praidd.
Cneuan yn ngenau hen hwch.
Cymmydog da ydyw clawdd.
Curo ei chwch wrth y graig.
Curo un o dwll ac o drafes.

D.

Digon o dân er llosgi Llundain.
Duw gatwo pawb rhag meddwl ei fam.
Da cael us gan ddrwg dalwr.
Da cynghor gwraig heb ei ofyn.
Dwy wedd i'r llech, ac un i'r pobty.
Drwg y dialodd ei gam, a fwyhaodd ei ofal.
Dilyn hael hyd farw.
Dysgu rhygyng i henfarch.
Dwyn ei ffon oddi ar ddewr.
Da cael ynys mewn môr mawr.
Dianc rhag y mwg i'r daflod.
Dianc rhag y mwg a syrthia i'r tân.
Dal canwyll i'r fall.
Dal y llygoden a'i bwyta.
Da dal crothell mewn cawell cregyn.
Da i gyrchu angeu i wr boneddig.
Da yr edwyn hen gath lefrith.
Da i gyrchu angeu at ŵr claf.
Diofal a fydd diofyn.
Diofal yw dim.
Drwg yw y chwareu ni ennillo neb.
Dod i gadarn ei ran, neu fe a'i myn.
Dotiedig pob anghofus.
Dysgu offeren i offeiriad.
Diddestl pob hen.
Dedwydd pob ffyddlawn.
Dawn dedwydd yn ngolwg.
Diflas fydd barn heb ei gofyn.
Da cyffelyba y byddar os clyw o beth.
Da gan y naill gi grogi y llall.
Da ydyw dyn â gwddf hir a hwp yn ei chwedl.
Darfu y pen darfu yr ammod.
Digon i bawb a gaffo.
Diboen i ddyn dybio'n dda.
Dim anair i ŵr yr eglwys.
Drwg ei hun a debyg arall.
Diofal a gân yn ei wely.
Duw piau gwneyd etifedd.
Da ysgafn a dwysga.
Dwyn dwr dros afon.
Dywsul y pys.
Dala y gath erbyn ei chynffon.
Da cynnydd medel gwrda.
Delis da yn yd fu.
Diddrwg didda, megis hen gi.
Dig pob colledig.
Diddig pawb wrth a garo.
Dyood chwant dros ben.
Dyn a gerir lawer gwaith er mwyn ei gydymaith.

E.

E ddaeth y caws o'r un cawsellt.
Edrych fal gafr wyllt ar daranau.
E ddaw drygddyn wrth ei grybwyll.
Eddewid gwraig odid yw.
Ef a ddaw haid i gwch.
Ef a wnai ddrwg rhwng cardotyn a'i gwd.
Eli i bob dolur yw amynedd.
Eli calon cwrw da.
Edrych y naid cyn ei neidiaw.
Ef a wnai y peth ni wnai.
Egor y farchnad cyn canu y gloch.
Ef aeth glastwr yn ei glastiau.
Er maint fo 'r dryc-hin, hi a â o'r diwedd yn sych-hin.
Er na wnei ddrwg na wna debyg.
Ef a dyf y draen a'i flaen arno.
Ewyllys heb allu.
Ennill y gronyn a cholli dau cymmaint.
Ennill nodwydd ddur a cholli y trosol haiarn.
Enw heb senw.
Erchi i ynfyd redeg.
Esmwyth gwaith gwrandaw.
Esmwythdra o'i ddilyn a ddianc.
Ethwy corn heb ysgyfarn.

Digitized by Google

F.

Felly finnau, chwedl y mochyn.

FF.

Fflwring i dlawd ei geiniog.
Ffoi rhag yr hwrdd i gorlan y defaid.
Ffordd Buallt i Henffordd.

G.

Gair i gall.
Gair gwraig fal gwynt yn cychwyn.
Gair gŵr yn gwreica.
Gadu gwraig unfefl a'i chymmeryd â dwy.
Galanas o bell, dyweddi o agos.
Gan Dduw y ceir pob daioni os ceisir.
Gauaf glâs a wna fynwent fras.
Gedwch le i'm modryb i neidiaw.
Gelyn gan gerlyn ei gâr.
Gelyn i ddyn ei ddynion (ddamwain).
Glân y gŵyl yr afyr ei myn, bid ef ddu, bid ef wyn.
Gloyw pob glân.
Gnawd a fo dogn diofryd.
Gnawd am anerch un arall.
Gnawd am air serth un arall.
Gnawd anaf ar ddiriaid.
Gnawd bod anaf ar annoeth.
Gnawd bronrain balch.
Gnawd dyn adgas heb olud.
Gnawd i feddw addef ei feddwl.
Gnawd pob dedwydd yn niddos.
Gnawd seithug ar lwfr.
Gnawd gwedi traha attregwch.
Gnawd i wraig dda fod yn araf yn ei chell a'i chlod yn mhell.
Gobaith a fyw, diobaith a farw.
Gochel ymladd â thridyn: offeiriad, gwraig, ac ynfyd.
Gofyn i mam a wyf fi leidr.
Gogana dy fro a thrig yno.
Goreu angenogiaid geifr.
Goreu barn cyfiawnder.
Goreu cardod rhoi lletty.
Goreu cydymaith ceiniog.
Goreu cyfnewid cyfnewid o dir.
Goreu cyfoeth yw iechyd.
Goreu cyfraith ammod.
Goreu ammod cyfiawnder.
Goreu cyngor a gadbwyd.
Goreu gwaith diwrnod dal dyn wrth fedydd.
Goreu gwaith undyn gwarchadw tŷ.
Goreu hael hael offeiriad.
Goreu haelioni rhoddi cardod.
Goreu i bawb ei ddigon.
Goreu i bawb mi biau.
Goreu llaeth llefrith.
Goreu llwyddiant gwenyn.
Goreu llyn gwin.
Goreu meistr a fu was.
Goreu neges myned a chroes.
Goreu o'r brethyn y cochaf.
Goreu o'r ceirch y breisgaf.
Goreu o'r cwn y cyntaf.
Goreu o'r gwenith y moelaf.
Goreu o'r gwŷr y doethaf.
Goreu o'r gwreigedd y ddisymlaf.
Goreu o'r lliain y meinaf.
Goreu o'r meirch y mwyaf.
Goreu o'r moch y tewaf.
Goreu parodrwydd arian.
Goreu un anifail buwch.
Goreu un arf cyllell.
Goreu un bwyd bara.
Goreu un dyn gŵr.
Goreu un ddiod o ddwfr.
Goreu un enllyn helyn.
Goreu un gair mi biau.
Goreu un mil march.
Goreu y celid peth nis gwypid.
Goreu y gwineuwallt ar bawb.
Goreu cam cam cyntaf.
Goreu cyttys, cyttys pentan.
Goreu cyfrwysdra gonestrwydd.
Goreu yfgrubl defaid.
Goreu y gwna gwas da ei hun.
Goreu ympryd ympryd Wener.
Goreu i bawb ei bieuffawd;
  Goreu pieuffawd deall;
  Goreu deall doethineb;
  Goreu doethineb iawnder;
  Goreu iawnder cariadoldeb;
  Goreu ar garu Duw caru ei blant.
Gormodd iaith yw twt ar farch.
Gormod awydd a dyr ei wddf.
Gormod o ddim nid yw dda.
Gormod caws mewn maidd.
Gormod gormes bendith Dduw 'n tŷ.
Gyda'r nos y cyfyd malwen.
Gwasgu y mêl cyn ei dyru.
Gwlad i gymmen yw pob gwlad.
Gwell yw i'r ymarôwr nac i'r dialwr.
Gwr ar fwrdd a llanc ar faes.
Gwr dyeithr yw fory.
Gnawd i ddyn ddwylaw.
Gwaethaf i ddyn ei ddyn ei hun.
Gwell yw dau ben nag un.
Goddef fan gamau.
Gyru halen i'r Heledd.
Grawn cybydd a ys glwth.
Gwae y fo a wertho ei wrthban.
Gwae glaf a'i clyw anfoddawg.
Gwae hen a gollo ei ymogr.
Gwae ieuanc ni wnel gynghor.
Gwae ni wna da a'i dyfydd.
Gwae a wel ac ni wel ei hunan.
Gwae ni adwaen ei hunan.
Gwae a wnel ac ni wyr pa ham.
Gwae a gredo i bob chwedl a glywo.
Gwae y ferch ni fedro fod gan ei hunan.
Gwae a fo yn brudd rhag ofn brâd.
Gwaethaf gwir yw gwaradwydd.
Gwae wraig a gaffo ddrygwr.
Gwaethaf byriau byriau hwch.
Gwaethaf blŷs blŷs eisieu.
Gwaeth na'r fad felen.
Gwag gwely heb wraig.
Gwall ar nis mynych welir.
Gwallt du, gwallt dewr.
Gwan ei galon a gyll, gwnaed oreu gallo.
Gwartheg Huw Conwy Vychan, diawl a doro ar eich rhedeg.
Gwaith celfydd celu rhin.
Gwaith gylfin iar.
Gwaew yn nghalon gan hiraeth.
Gwell cariad y ci na'i gâs.
Gwell piso y ddafad na thom y fuwch.
Gwell yr heddwch gwaethaf na'r rhyfel goreu.
Gwell awr o lawenydd na dwy o brudd-der.
Gwell rhinwedd cardotyn na mawredd brenin.
Gwell na da dienbyd.
Gwell un a wellâo na dau a waethygo.
Gwell angeu na chywilydd.
Gwell y gwyr Sion oddi wrth gyweiriaw swch.
Gwell ychydig gan râd na llawer gan afrad.
Gwell drwg ordderchu na drwg briodi.
Gweithred llary llywiaw nifer.
Gwell arfer nag athraw.
Gwell asgell yr hedydd.
Gwell yw bwrw tŷ i lawr drwy gynghor.
Gwell celfydd na thrysor.
Gwell cymmydog yn agos na char yn mhell.
Gwell drygsaer na drygdaeliwr.
Gwell dyfod yn hwyr nac na ddeler byth.
Gwell edifeirwch gwerth nag edifeirwch prynu.
Gwell hygarwch na phryd.
Gwell yw un blaidd cloff na dau iach.
Gwen deg â gwenwyn dani.
Gwenhwyfar, ferch Ogyrfan Gawr, drwg yn fechan, gwaeth yn fawr.
Gweithio castell ar ben cawnen.
Gwnaed pawb y peth a fedro, ebai Coch y Ceffylau.
Gwenwyn ar lefrith.
Gwg o bell, gwraig o agos.
Gwraig a ddywed gwraig Dafydd Dew am danat ti.
Gwnelid anghelfydd annerth.
Gwnelid da diwyd gânad.
Gwneuthur ei fin yn din.
Gwraig ddiawg a wna ferch esgud.
Gwaith byrbwyll, nid gwaith ystyrbwyll,
Gwynfyd herwr yw hirnos.
Gwin coch, mêr moch, a mwg, ynt dri gelyn i'r golwg.
Gwir a ddywed y frân, odid e drachwant galon lân.
Gwisgi pob troed at y drwg.
Gwyl gwna dy oreu.
Gwyliaw croes wylfor.
Gwynfyd hwyaid Plas y Ward.
Gwyn pob newydd, llwyd pob hen.
Gwyn y gwel y frân ei chyw.
Gyru yr hwyaid i gyrchu y gwyddau o'r dwr.
Gwyddau yn pencawna.
Gwna gynghor dy hen gyfaill.
Gynt gynt i'w dechreu pob hen chwedl.
Gyru y swch yn swmbwl.
Gyru y llettam i'r ystol.
Gyriawg yr ych llog.
Gyru hael oni el yn gi.

H.

Hai gyda'r ci, hai gyda'r ysgyfarnog.
Hanner gair i gall.
Hawdd cysgu mewn croen cyfa.
Haws barnu na saethu saeth.
Haws dieneidiaw na dinaturiaw
Haws llenwi bol na llygaid.
Hawdd cysgu mewn croen cyfa.
Haws llenwi bol na llygad.
Hawdd pobi yn ymyl blawd.
Hawdd addaw, ond anhawdd cywiraw.
Haws cadw nag olrhain.
Hawdd yw ofni ofnawg.
Hawdd cael drwg ac anhawdd myned oddi wrtho.
Heddyw yn ddyn a fory yn adyn.
Hesbin yw pob dafad hyd na ddelo.

Digitized by Google

Heb na thŷ nag ymogor.
Hen arfer, hon a orfydd.
Hen a ŵyr, ieuanc a debyg.
Hen hwyr hawdd ei orddiwes.
Hawdd taflu'r mynydd i'r môr yn ol ei wahanu y naill gareg oddi wrth y llall.
Hir y byddis yn llenwi llestr a ollyngo.
Hir fydd bys gwden gwanwr.
Hir ddarogan derfydd.
Hir yw byth a da yw Duw.
Hiroed anniolch.
Hirddydd merydd mall.
Hir ei gof ni fynych rydd.
Hir y byddir yn magu offeiriad.
Hoff gan bawb a bryno.
Hoff gan bob bwch ei ddigrifwch.
Hoff gan bawb ei gariad.
Hoff pob newydd.
Hirbryd a wna fawrbryd, a mawr bryd a wna'r mawr gywilydd.
Hindda gwyr Môn yw gwynt Iwerddon.
Hwyaf yn y byd aed bellaf i'r coed.
Hwi! cwn y dref; Hai! ein ci ninnau.
Hy pawb ar ei eiddo.
Hun yr eos
Hwi! gyda'r ci: hai gyda'r geinach.
Hwy y byddis yn arofyn gwaith na'i wneuthur.
Hun yr aderyn.
Hwyr waith i anfynedig.
Hyfryd meichiad pan fo gwynt.
Hy pob ceiliog ar ei domen.
Hy y gall un framu wrth ei dân ei hun.

## I.

Iach yn ymofyn meddyg.
I ti yr heddyw; i bwy y fory?

## Ll.

Lladd maer Caer ar Gefn Cerwyni.
Llong i longwr, a melin i felinydd.
Lledled rydau, waethwaeth ddeddfau.
Llawer a ddyfynwyd, ychydig a ddewiswyd.
Llathen o'r un brethyn.
Lleiaf rhan rhan y rhanwr.
Lladd yr iâr a cholli y cywion.
Llawer o waith a wna llawer o ddwylaw.
Llawer a sieryd llawer o wragedd.
Llawer ammau diau fydd.
Llawer o dda a wna llawer o ddynion.
Lladd y maer ar y morfa.
Lle y bo dolur y bydd y llaw.
Llechu ar gefn y gist.
Lle yr ydych ddicaf rhowch eich twca.
Llywelyn pob lle weithiau gartref.
Lluchio cwn â cheryg.
Llygaid segur a wylia.
Llygriad y peth goreu yw y llygriad gwaethaf.
Lle crafa'r iâr e biga'r cyw.
Llygaid diawl tan gareg.
Lladd y gwirion yn nghysgod yr euog.
Lle clyd i fethu, lle oer i fyny.
Llef yn afon hindda fydd.
Lle y byddo da y rhoir ac y tycia.
Lle y syrthio y ffon.
Llidiog lluosog.
Llwyraf dial dial Duw.

## M.

Mae dwy ffordd i'r coed.
Mae achos i'r iâr bigo'r bysgen.
Mae modfedd yn llawer yn nhrwyn gŵr.
Mae pwll yn mhob drws weithiau.
Manwl pob rhan, hardd pob cyfan.
Mwth y rhydd yr hyn ni'm addug.
Meddylia dy ymadrawdd cyn ei draethu.
Mae dau faw ci yn Nghaer.
Mae brân i frân y fron.
Mal baedd cynddeiriog.
Mae mêl yn ngallt Ddygai; ond pwy sydd well er ei fod?
Mae yn rhy hwyr cynnilaw pan eir i din y cwd.
Melys yw cig lledrad.
Mynych y daw beunydd, fal ynfydion Cyfeiliog.
Mae sawyr y cennin ar y cewyll.
Mor glaiar â llyn llefrith.
Mae dechreu i bob peth; ond nid oes diwedd ond i rywbeth.
Meddyg i bawb ei lygaid.
Modrwy aur yn nhrwyn hwch.
Mae yn rhaid i'r adar mân gael bwyd.
Mae newid gwaith cystal a gorphwyso.
Magu cynrhonyn mewn cig.
Mae dau olwg ar farch gwyn.
Mae achos i'r gath lyfu'r pentan,
Mae modd i ladd ci heb ei grogi.
Mal cof gwrach.
Mae fo ar y gwir, a minnau ar y tir.
Mal pais Caradawg.
Mal dannedd i genawon.
Mal ysgubor offeiriad.
Mal y pysg ym maes o'r dwr.
Manwl gyfrif a wna hir gyfeddach.
Mesur pawb wrth ei lathen ei hun.
Mi wn, mi wn, fal ateb yr ysguthan.
Mwy y twrw na'r taraw.
Mwy y braw na'r briw.
Mor ddiles a halen i'r iâr.
Mi adwaen lwynog er nas goddiweddwyf.
Mwyaf poen yw poen methu.
Mud pob anghyfiaith.
Myfi yn cael yr enw, ac ereill yn cael yr ennill.
Mal y bwytâes y cannwr y can myharen.
Mal gwydd am guddiaw ei hwyau.
Mwyaf clod lleiaf ddyweto.
Mae yn dangos ar eich barf pa saig a fu ar eich bwrdd.
Mae modfedd yn ddigon er dianc.
Mi wn, chwedl yr ysguthan wrth y bi.
Mae brân i frân, a gwalch i walches, a dylluan i'w chymhares.
Mal gwib mammaeth.
Mab synwyrawl a wna dad llawen.
Mwy na'r dwr ar gefn ceiliogwydd.
Mynych y barn pob ehud.

## N.

Ni chwythoedd na bai da i rywun.
Ni chydfydd hael âg anhael.
Ni wel y trachwant fyth ei ddigon.
Ni wyr neb lai na'r hwn a wyr y cyfan.
Nid drewdod yn nhrwyn twrch ei fudreddi.
Nid hawdd o fran y gwneir eos.
Nid hawdd gyru dysg ar ddoeth yn ei olwg ei hun.
Na fynych dramwy lle bo mwyaf dy groesaw.
Na hir ddilyn hirddrwg.
Newid y penwag yn Nefyn.
Nid gwell rhwy na digon.
Nid o nerth braich ac ysgwydd y mae canu crwth.
Nos â ŷr y brain adref.
Nid da rhy o ddim.
Ni ferchyg farch, ni châr ferch, ni chanlyn filgi.
Ni wyr y gôg ond yr ungainc.
Nid marw y tad fo tradoeth, a fo byw dewr ei fab doeth.
Ni ercha bwyd ond ei brofi.
Na chabla neb y gorffo arnat ei ofn.
Ni bu lanw na bai drai.
Ni bu wala na bai weddill.
Naill ai mammaeth ai gwraig o'i chof.
Ni bydd arno niwed.
Nerth cath yn ei chynffon.
Na saf yn dy greulonder.
Ni wiw galw doe yn ol.
Ni bydd gwr gwyllt heb ei wae.
Ni ddelir hen adar âg ûs.
Ni wna geiriau teg hau y tir.
Ni waeth ganddo o ba du i'r tŷ yr hauer y cywarch.
Ni fedd ef ewin i ymgrafu.
Naill ai rhydraws ai rhydruan.
Ni ddisgyn brân ond unwaith ar y braenar.
Nugiaw gan y cawn.
Ni chyll cybydd mo'i les er ei gywilydd.
Ni bu draha na bai gyhydiad.
Nid oes mwy o goel arno nag ar din dyn bach.
Ni châr hen fuwch ddiniawed.
Ni thrig march er unnos.
Ni thâl y swydd i'w gwasanaethu.
Nid tebyg dim bod heb ddim.
Nid â rhinwedd i'r bedd byth.
Ni wna na byw na marw.
Ni wybod pwy fydd iâr na phwy fydd geiliog.
Ni waeth tewi na siarad.
Ni thâl cam bach mo'i wrthod.
Ni chair gan ddrwg dalawr ond drwg dafawd.
Nid pob dyn cryf a fedr ganu telyn.
Ni bu erioed y fath beth yn Ynys y Cedyrn.
Ni adnapo amnaid yr iâr bid heb ŵy i'w swper.
Ni dderfydd cynghor.
Ni ddilid a'i cynghoro, efe geiff a'i cospo.
Ni chwery hengi â chenau.
Nid eglur y drych yn y tywyllwch.
Nid ei feddwl y geiff dyn.
Nid hwyrach yr ammau na'r diau.
Nid hir barhaus beth cymhellus.
Nis gwyr ar ba droed y sang.
Nis gwyr pa elin i'w gosi.
Nid etifeddiaeth yw gwasanaeth
Ni ddaw henaint ei hunan.
Na werth mo'th iâr ar y gwlaw.
Ni fyn a gaffo, nis caiff a ddymuno.
Ni ludd parawd ei gymmeryd.
Ni wella gwas drwg er ei oganu.
Ni wneir dyn o'r eidion du.
Ni thyf gwellt ar ffordd fawr.
Ni fynag haelaf pan gaer.
Na ymddiried i'r glwth am dy giniaw.

Digitized by Google

Na ymddiried i'r trythyll am dy wraig.
Nofio fal y gareg.
Ni thyr gwlaw un asgwrn.
Ni saif barn ar gadarn.
Ni ddelir hen geffyl âg us.
Ni waeth pa liw ar y bol am y dalio fo y bwyd.
Ni chyttal gofal a chân.
Ni fagodd sychder erioed ddrudaniaeth.
Ni fu erioed ddigon na fyddai beth yn ol.
Ni cheir y dyn ond fal y bo, gwnewch iddo'r tro a fyno.
Ni bu ddrwg erioed o hirymaros.
Ni thyr calon er rhoi ochenaid.
Ni wyddoch o ba le y daw haid i gwch.
Ni huna meddwl henwr.
Ni ddaw gair drwg yn ol.
Ni ddeil y crochan pridd mo'i daraw wrth y pres.
Nid oes mwy diolch nag i'r afr am ei godro.
Ni newid ef y bysen am y ffauen.
Nid ammaethun caws i wŷr Trawsfynydd.
Nid call Cymro oni chollo.
Nid drwy ond y ceir drwg oddi wrtho.
Nid oes neb na ddaw wrth ddywedyd hwda.
Ni chân y gog ond a ganodd.
Nid cyfarwydd ond a gerddo.
Nid oes am y peth a aeth heibio ond tewi son a gadael iddo.
Nid rhyfel ond gwynt.
Niwl y gauaf gwasarn eira.
Niwl y gwanwyn gwasarn irfrwyn.
Ni wiw myned i brynu dŵr gan lysywen.
Ni bu drwg erioed heb ferch yn rhyw ben.
Nid eiddo ond a'i cymmero.
Ni ddyry ef faw i gi, pe cai gareg i roi arno.
Nid glân ond glân ei galon.
Ni thwyllwyd a rybuddiwyd.
Ni wneth i ti hyny na phregeth.
Ni ddygymydd ynfyd a'i geiniog.

O

O'r aeron goreu yw yr eirin.
O ddau ddrwg goreu y lleiaf.
O ddau dda goreu y mwyaf.
Os ei yn was i eurych rhaid i ti gario ei gôd.
O wir gwaith goddau.
O chaiff yr afr fyned i'r eglwys hi a ä i'r allor.
Odid hir gynnydd ar gam.
Odid fenthyg na bo gwaeth.
Odid fab cystal a'i dad.
O lygad y collodd y bachgen y bunt.
Os saif dim safed y bara a'r llaeth.
Oni chedwir y ddimai, nid ä hi byth yn geiniog.
O geiniog i geiniog fe ä'r arian yn bunt.
Os cybydd a fydd efo, e gyll gwnaed oreu gallo.
O gwmpas yw y ffordd nesaf.
O pryni gaws pryn fan-gaws.

P

Piso yn y môr.
Pam y piga'r iar y badell? Eisieu tafawd i'w llyfu.
Pan fo y gath oddi cartre', caiff y llygod le i chware.
Pob peth yn anmhorth i wan.
Po llyfnaf fo y dwfr, dyfnaf fydd y rhyd.
Pan fo marw y sarff bydd marw ei cholyn.
Po mwyaf gaffoch, mwyaf geisiwch.
Pan doddo'r frân, fo ryna'r baban.
Parchell o'i hwch ei hun.
Pan ddel tro ar y geifr, yr afr gloff a fydd ar y blaen.
Pan fo y bol yn llawn y mŷn yr esgyrn orphwys.
Pawb drosto ei hunan.
Pen ci yn y crochan.
Pob sorod i'r gôd ag ef.
Po mwyaf o ddefaid drutaf fydd y gwlan.
Po hynaf fydd 'y dyn gwaethaf fydd ei bwyll.
Pwn i'r odyn a baich i'r felin.
Pryn yn y dref, a gwerth gartref.
Priodas yr iar a'r ceiliog: profi cyn priodi.
Pan ddicaf fo'r ceiliog uchaf y cân.
Pe dywedwn gyhyd a chywydd.
Pan bellaf gwaetha'r gwerth.
Po glanaf fydd y ferch blinaf fydd ei thynged.
Pawb a'i fys ar ei ddolur.
Pob cynnefin dichwith.
Prynu cath mewn cwd.
Prawf dy gymmydog cyn bo raid.
Pob peth o hir arofyn a dderfydd.
Pan gollir y gwlaw o'r dwyrain y daw.
Pan gollir yr hindda o'r gogledd y daw gynta'.
Pan soniwyf fi am geffyl soniwch chwithau am gaseg.
Petai y mynydd yn ymenyn, e wneid pen ag efo.
Poeri am ben ei gadach ei hun.
Pryn fara, ti a ei i gardota.

R

Rhaid i'r dryw gael ei lyw.
Rhoi y pwn trymaf ar y march gwanaf.
Rhaid enllyn da gyda bara llwyd.
Rhaid cof da i ddywedyd celwydd.
Rhaid i bob ceg gael bwyd.
Rhan ddrwg rhan o draian.
Rhaid gwerthu lle bo prynu.
Rhy hwyr cynnilo pan eir i din y cwd.
Rhewi'r carth yn y pared.

S

Son am Awst ddydd calangauaf.
Saeth i bob nod.
Synwyr y fawd.
Sawyr y cenin ar y cewyll.
Sâl y ci ni thâl chwibanu arno.
Safed pob llestr ar ei waelod ei hun.
Swch heb gwlltyr.
Sadia'r mur po garwa'r gareg.
Siglo'r ddor rhag bod yn segur.
Soniwch am ddiawl, ac fe ymddengys.
Sion piau'r meirch, Sion piau'r ceirch.

T

Teg y dywedir am fab o bell.
Tost fydd ar ddyn pan gaffo ei ddewis.
Trech dwy wrach nag un.
Troi'r gwn i daro'r gawnen.
Tinddu, ebe'r frân wrth y wylan.
Tanllwyth y llwynog am y pentwr ceryg.
Tynu llaw hyd ben ci drwg.
Tranoeth gwedi'r dyddgwyl.
Troi dalen newydd.
Trymaf baich baich o bechod.
Tost a fydd mwg coll.
Taw wrth ynfyd.
Taclau gwraig weddw.
Taer yw'r gwir am y goleu.
Truan teyrn heb ei ddeiliaid.
Tario fal yr abad am y cwfaint.
Tyngu nad oes ceryg yn Nghornatun.
Teg pob chwedl heb wrthwyneb.
Tra bo'r cythraul yn uffern, y mae lle i waethygu.
Tlws pob peth bychan.
Trwy bwyll y mae dirwyn y bellen.

U.

Un wenol ni wna wanwyn.
Unwaith am ganwaith i'r gŵr.
Ufudd-dod i gyfoeth, a balchder i dlodi.
Un drwg a lwgr ar gant.
Un peth yw addaw, peth arall yw cywiraw.
Ufudd ac anmharod.
Un awr o ddiogi a wna ddwy o wylofain.
Un trwyn budr a wna gant trwyn glân.

W.

Wyneb llawen llawn ei dŷ.
Wrth ofregedd y ceir drwg.
Wrth hir ymgeisio da'r ymgawsoch.
Wedi nofio y llyn yn min y lan boddi.

Y.

Yn y gwin y ceir y gwir.
Y llaw a estyn a gymhell; diymwared galed a gyll.
Y chydig yw mam y gynnen.
Y genedl a ymgasâ Duw a'i difa.
Yn araf deg yr ä gŵr yn mhell.
Yn mhob pen y mae opiniwn.
Ystig diog yn nhŷ ei gymmydog.
Ymryson â diawl am gudyn o wellt.
Yn yr adwy galetaf y tyr y garwden.
Yr un ddiod a cheffylau Syr Rossier.
Ymgynghora â doeth.
Ymgymdeithasa â dedwydd.
Yr adar a fyn rodio yr un fath er ei wn fo.
Y maen a dreigla ni fwsogla.
Y dillad yw'r dyn a'r dyn ydyw'r truan.
Y ci olaf piau'r asgwrn.
Y gneuen goeg sy galetaf.
Ymwrthod â'r diriaid.
Ymolertha â'r glew.
Ymchwedd â'r hael.
Ys dir angeu i'r eiddawg.
Y mae modfedd yn llawer mewn trwyn.
Y pryf a fegir ar faw a hed uchaf.

CAS-BETHAU GWYR RHUFAIN.

Brenin heb ddoethineb.
Marchog heb brofedigaeth.
Arglwydd heb gynghor.

Digitized by Google

**Gwraig heb feistrolaethwr.**
**Cyffredin heb gyfraith.**
**Gwasanaethyn heb ofn.**
**Tlawd balch.**
**Cyfoethog heb elusen.**
**Cyfreithiwr treisgar.**
**Ustus heb gyfiawnder.**
**Esgob heb ddysg.**
**Henddyn heb dduwioldeb.**
**Ieuanc heb ostyngeiddrwydd.**
**Doeth heb weithredoedd da.**

ANAMLEDD BETHAU Y BYD.

**Cyfreithiwr gonest.**
**Dyn dibechod.**
**Neidr heb wenwyn.**
**Crefftwr heb dwyll.**
**Ymenyn heb enwyn.**
**Cybydd heb flys.**
**Meddwyn heb syched.**
**Duwiol heb weddïo.**

OAS DDYNION SELYF DDOETH.

*Dyn.*

Nis gwypo ac nis dysgo.
Ni bo gantho a'i gwasanaetho, ac nis gwasanaetho ei hun.
Yr hwn a ddelo iddo lawer, ac ni roddo ddim.
A ymrysono â'i arglwydd onid el i'w bwll.
A fo rhyfelwr llesg, ac ni ddymuno heddwch o flaen rhyfel.
A ogano ereill am y beiau a fo arno ei hun.
A dybio ei fod yn well na neb ar bob peth, ac yntau yn waethaf oll.
A echwyno cymmaint ac na bo gantho a'u talo.
A roddo ei gwbl, ac a fo ei hun heb ddim.
A addawo bob peth ac ni chywiro ddim.
A fygythio pawb ac ni bo ar neb ei ofn.
A ddywedo lawer ac ni wrandawo ar neb.
A archo bob peth a welo ac ni chaffo ddim.
A addefo ei rin i'w elyn, neu i'r neb y gwypo nas cêl.
A fasnacho bob peth ac heb brynu dim.
A dyngo lŵ anudon ac ni bo neb yn ei gredu.
A roddo ei hun mewn anurddas er urddas i un arall.
A welo lawer o foesau a chelfyddydau ac ni ddysgo ddim.
A bryno bob peth ac heb ennill dim.
A gasao bawb a phawb yntau.
Na chredo neb na neb yntau.
A ymyro ar bob peth heb achos.
A geisio gêl gan ddyn dyeithr.
A ymgyfrinacho â chyfreithiwr.
A gredo i bawb nas adnapo.
A wnelo yn un dydd fel na allo ddim dranoeth.
A adawo heb wneyd tan dranoeth yr hyn a allo ei wneyd heddyw.
A ymddiriedo i rodd.
A gaffo ddewis ac a ddewiso y gwaethaf.
A gasâo ei les er afles i'w gymmydog.
Ni wnel dda ac nis gado i arall.
A debyco i falchder.
A dybio ei fod yn ddoeth ac yntau yn anghall.
A ymgadarnhao mewn drwg olwg.
A ddysgo lawer ac ni wypo ddim.
A adawo ei gydymaith heb achos.
A wnel ddrwg ac ni bo edifar ganddo.
Tlawd a wrthodo grynodeb.
A wypo gyfraith Duw a'i orchymynion, ac a ddadleu yn eu herbyn er gwobr.
A ymffrostio yn ei gywilydd ei hun.
A ddirmygo Dduw a dyn.

A dreuliais a fu fau.
A roddais a fy fau.
A gedwais a gollais.
A necâis fydd i'm colli.
} Medd enaid.

Dysg yn graff a welych.
Cadw yn graff a ddysgych.
Adrodd y peth a fodrych.
Ni wêdd yn benceneidl ond gŵr a ymladdo gyda'i gâr ac a ofner, a ddywedo gyda'i gâr ac a wrandawer, a feichnio gyda'i gâr ac a gymmerer.
Iachaf cig llwdn gwyllt, iwrch.
Iachaf cig llwdn dof, twrch.
Iachaf cig edn gwyllt, petris.
Iachaf cig edn dof, iar.
Iachaf pysgod môr, llythi.
Iachaf pysgod dwr croew, draenog a brithyll.

TRI CHADARN BYD.

Arglwydd, yr hwn sydd faen dros iaen.
Drud, ni wnel ond a fyno.
Diddym, ni bo dim i'w gael gantho.

SAITH GYNNEDDF YNAD.

Mud a llafar, drud a byddar, ynfyd, ofnawg, a golleichiawg.

DIAREBION, LLYFR Y. Y teitl a roddir i'r llyfr hwn yn yr adnod gyntaf yw, *Diarebion Solomon*; ond yn gyffredin talfyrir ef yn y Beiblau i'r ffurf "Llyfr y Diarebion," a "Diarebion." Felly y gelwir ef yn y *Talmud*, a chan yr Iuddewon mwy diweddar. Gan y tadau, gelwid ef yn fynych dan yr enw, *ἡ παναρκετος σοφια*. Cyn i'r *Talmud* gael ei ysgrifenu, mae yn ymddangos yr arferai yr Iuddewon ei alw yn "Ddoethineb Solomon," naill ai mewn cyfeiriad at y ddoethineb a feddai Solomon yr awdwr, neu at y dysgrifiad a roddir yn y llyfr o ddoethineb, yn y personoliad ardderchog a geir o honi yn yr wythfed bennod. Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir *diareb* yn tarddu oddi wrth wreiddyn sy'n arwyddo (1af) cyffelybu, cymharu; (2il) llywodraethu. Ei ystyr cyntefig ydyw, cyffelybiaeth; cymhariaeth; ac y mae yn fwy tebyg mai yr ystyr yma sydd i'w roddi mewn cyssylltiad â'r gair yn y llyfr hwn; er y myn rhai yn hytrach gymmeryd yr ail ystyr, sef ymadrodd awdurdodol; ond y cyntaf ydyw y mwyaf tebygol o lawer. Ar yr un pryd, nid ydym i gymmeryd y gair *cyffelybiaethol* fel yn cyfeirio at ffurf farddonol yr iaith; ond yn hytrach y mae yn cyfeirio at yr hyn a elwir yn gyfochraeth farddonol (*poetic parallelism*), yr hwn sydd yn ffurf o ysgrifenu brawddegau ar gyfer eu gilydd, ac yn gyfochrog â'u gilydd. Felly, yn y llyfr hwn, nid oes un ddiareb yn mron yn cael ei gorphen mewn un frawddeg. Y mae pob adnod yn gyffredin yn ddwy ran neu aelod cyfochrog; ac weithiau y mae yn dair, a phryd arall yn bedair rhan. Yn gyffredin, y maent yr un hyd a'u gilydd, ac yn sefyll yn y berthynas agosaf â'u gilydd. Dosberthir y ffurf gyfochrog yma gan rai i ddau ddosbarth, sef y dosbarth cyfystyr (*synonymous*), a'r dosbarth gwrthosodol (*antithetic*); a chwanegir yn awr gan ysgrifenwyr drydydd dosbarth, sef y cyfosodol (*synthetic*). Y mae y cyntaf yn ailadrodd yn yr ail adran o'r ddiareb yr un syniad ag a geir yn y cyntaf, neu o leiaf un cyffelyb iddo; megys, er anghraifft, *pen.* v. 1, "Fy mab, gwrandaw ar fy noethineb, a gostwng dy glust at fy neall." Yn yr ail, y mae y ddwy adran yn cynnwys syniadau gwrthgyferbyniol; megys *pen.* xviii. 14; "Ysbryd gŵr a gynnal ei glefyd ef; ond ysbryd cystuddiedig pwy a'i cyfyd?" Yn y trydydd, y mae yr ail adran yn ymhelaethu ar y gyntaf, ac yn cynnwys rhyw beth yn chwaneg, naill ai mewn syniad neu yn y ffurf o'i osod allan, neu ynte mewn ffordd o'i egluro neu ei gadarnhau; megys *pen.* xxiii. 23; "Pryn y gwir ac na werth; felly doethineb, ac addysg, a deall: *pen.* xx. 26; "Brenin doeth a wasgar yr annuwiol, ac a dry yr olwyn arnynt." Yn y dosbarth hwn, y mae y cyfochriad yr un mewn mesur neu hyd, yn hytrach nag mewn ystyr.

RHANIADAU LLYFR Y DIAREBION.

Y mae genym amryw derfynau amlwg ynddo i'n harwain at ei brif raniadau, sef y chwech o wahanol deitlau a geir ynddo, pa rai sydd o leiaf yn dynodi gwahanol arddulliau o gyfansoddiad; ac yn ol barn rhai o'r ysgrifenwyr mwyaf galluog, y maent yn dynodi gwahanol awdwyr hefyd. Yn nechreu y llyfr, ni gawn y teitl cyffredinol, "Diarebion Solomon." Y mae hwn yn ddiammheu yn cyfeirio, nid at ryw ran o'r llyfr, ond at yr oll o hono; ac eto, gallwn ei olygu fel yn fwy penodol yn rhagarweiniol i'r rhan gyntaf o'r llyfr;

Digitized by Google

sef, o *pen.* i. hyd ix. 18. Yn y rhan yma, yn yr Hebraeg, y mae 247 o adnodau, y rhai ydynt oll wedi eu trefnu yn ddeu-ddarn; hyny yw, y maent yn gynnwysedig o ddwy frawddeg neu aelod yn mhob adnod. Yn ol cyfrif Stuart, y mae o fewn y cylch yma o gyfochriadau

| | |
|---|---|
| Cyfystyr, ... ... | 209 |
| Gwrthosodol, ... ... | 4 |
| Cyfosodol, ... ... | 36 |

Lle y canfyddwn fod y dosbarth cyfystyr yn llawer mwy lluosog yn y rhan gyntaf na'r lleill. Y mae yr arddull yn llawer mwy gorphenol a pharhaol, ac yn farddonol i'r gradd uchaf, wedi ei addurno â'r ffugrau mwyaf tarawiadol a'r cymhariaethau mwyaf prydferth. Pa beth a all fod yn fwy perffaith na'r personoliad o ddoethineb yn yr wythfed bennod. Yn chwanegol at arddull a nodwedd cyffredinol y cyfansoddiad, y mae amryw fanylion ereill, yn gwahaniaethu y rhaniad hwn oddi wrth y lleill; sef y cyfarchiad, "Fy mab," yr hwn a adroddir yn fynych ynddo; y defnydd a wneir ynddo o'r enw *Elohim*, a'r cydgasgliad o ddegau a gawn chwaneg nag unwaith ynddo.

*Rhaniad* 2. *Pen.* x. 1—xxii. 16. Is-ddosberthir y rhaniad yma fel hyn:—(1.) *Pen.* x. 15. (2.) *Pen.* xv; xxii. 16.

| | |
|---|---|
| Yn 1af, cawn o gyfochriadau gwrthosodol | 186 |
| Cyfosodol ... ... ... | 23 |
| Ond yn 2il, gwrthosodol ... ... | 24 |
| Cyfosodol ... ... ... | 159 |

Yn y cyntaf, y rhai gwrthosodol sydd yn ffynu; yn yr ail, y rhai cyfosodol. Yn yr ail ran yma, canfyddwn ar unwaith wahaniaeth mawr rhagor y cyntaf. Yma mae pob adnod yn mron yn hollol anghyssylltiol â'r rhai o'i blaen, ac â'r rhai ar ei hol. Y prif eithriadau i hyn ydynt i'w gweled yn *pen.* xx. 10, 11, a 12, 14, a 19, 21, a 30. Nodwedd arall ydyw, fod yr un gair neu yr un geiriau, neu un, a chwaneg weithiau, o eiriau tebyg yn gael eu trefnu i ganlyn eu gilydd, ac i gael eu hail adrodd mewn dwy neu chwaneg o adnodau; er y gall fod ystyr cyffredinol yr adnodau hyny yn dra gwahanol. Gellir gweled anghreifftiau yn *pen.* x. 6, 7, a 14, 15, a 16, 17, a 18, 19, a 20, 21, &c. Yn *pen.* xv. 33; xvi. 1—7, a 10. 11, y mae y gair *Iehofah* yn cael ei ddefnyddio ddeg gwaith yn olynol; a thrwy yr holl raniad yma o'r llyfr, y mae adranau yr adnodau yn cyfateb i'w gilydd mewn hyd. Yn gyffredin, y mae yr adran gyntaf yn cynnwys pedwar o eiriau (yn Hebraeg), a'r ail dri. Gosodwn daflen o honynt:—

4 a 3 (yn gyffredin).
4 a 4 weithiau.
5 a 3 „
3 a 3 „

A dwy waith neu dair, naw a deg, ac hyd yn oed un ar ddeg o eiriau. Weithiau, y mae yr un ddiareb yn cael ei hail adrodd, megys yn *pen.* xiv. 12, a xvi. 25; ac weithiau ran o honi.

*Rhaniad* 3. *Pen.* xxii 17—xxiv. 34. Yn y bennod gyntaf, cyfeirir ni at "eiriau y doethion;" a bernir fod yr ysgrifenydd yn golygu y rhaniad uchod yn yr ymadrodd hwn. Yn yr adnod gyntaf, gelwir arnom i ogwyddo ein clust, ac i wrandaw "geiriau y doethion:" ac yn *pen* xxiv. 33, rhoddir attodiad byr iddynt, lle y dywedir, "dyma hefyd eiriau y doethion." O ran ei nodweddion cyffredinol, nid ydyw y rhan yma yn ol i un o'r rhanau ereill mewn nerth a bywiogrwydd, ac yn enwedig yn y dysgrifiadau a geir ynddo. Y mae y cyfochriadau i gyd yn wrthosodol, oddi gerth un, sef *pen* xxiv. 16. Nodwedd arbenig arall yma ydyw, fod y brawddegau yn cymmeryd yn gyffredin ddwy adnod i'w cyflawnu, ac nid un fel yn y rhaniad blaenorol; bryd arall, cymmerant dair, pump, a saith.

*Rhaniad* 4. *Pen.* xxv.—xxx; sef "Diarebion Solomon, y rhai a gasglodd gwŷr Hezeciah, brenin Iudah, sef ysgrifenyddion Hezeciah." Y mae y rhaniad yma, fel y gallesid dysgwyl, yn wir yn dra thebyg o ran ei arddull a'i drefniad i'r ail. Y mae ynddo 93 o gyfochriadau cyfosodol, a 35 o rai gwrthosodol; ond nid oes yma yr un cyfystyr. Y mae eu hyd yn gyffredin yn wyth, saith, a chwech o eiriau. Yn fynych, y mae un ddiareb yn cael ei hestyn i lawer o adnodau; ac mewn rhai anghreifftiau, y mae yn anhawdd canfod dim tebyg i gyfochriad yn eu ffurf. Y prif wahaniaeth rhwng y rhan yma a'r ail raniad ydyw, fod dwy neu chwaneg o adnodau yn cael eu cyssylltu mewn un frawddeg; yr hyn nid ydyw yn dygwydd oll yn yr ail raniad.

*Rhaniad* 5. *Pen.* xxx; sef "Geiriau Agur." Y mae y bennod hon yn un o'r rhai mwyaf hynod yn y Beibl, ac yn anhawdd ei deall yn drwyadl. Y mae yr iaith yn fywiog a grymus dros ben ac weithiau yn wir arddunol. Y mae y cyfochriadau yma i gyd ond tri yn gyfosodol. Y mae yn amrywiol iawn gyda golwg ar y nifer o adnodau a ddefnyddir ynddi i orphen un frawddeg neu fater; weithiau un, brydiau ereill, dau, tri, pedwar, a chwech. Cynnwysa rhai adnodau un ar ddeg, deuddeg, tri ar ddeg, ac hyd yn oed bedwar ar ugain o eiriau. Ei nodwedd arbenig ydyw y defnydd a wneir ynddi o'r hyn a elwir yn *enigma* neu ddychymyg; ac at y bennod hon y cyfeirir, fe allai, yn y gair *dammegion*, yn y bennod gyntaf, sef geiriau tywyll, aneglur, a dychymygol.

*Rhaniad* 6. *Pen.* xxxi; sef "Geiriau Lemuel frenin, y rhai a ddysgodd ei fam iddo." O'r adnod gyntaf hyd y nawfed, y mae y geiriau a briodolir i Lemuel, yr hwn a gawsai ei rybuddio, dybygid, gan ei fam gyda golwg ar win, gwragedd, a gorthrymder; ac o'r 10fed adnod hyd y diwedd, cawn y ganmoliaeth ardderchog a'r dysgrifiad perffaith o wraig dda a rhinweddol, yr hwn sydd wedi ei ysgrifenu yn yr arddull uchaf o gyfansoddiad cyfochrog; ac mewn perffeithrwydd mesur, y mae yn dyfod i fyny âg unrhyw un o'r Salmau. Y mae pob adnod agos yn gyfochriad cyfystyr, ac y mae y cyfanwaith yn gyfryw nad oes dim tebyg iddo, a'i cystadla mewn symledd, prydferthwch, a bywiogrwydd. Y mae pob adnod yn dechreu yn olynol yn ol llythyrenau y wyddor, yn debyg fel y mae amryw o'r Salmau.

AWDURIAETH LLYFR Y DIAREBION.

Nid oes neb wedi ammheu nad Solomon oedd awdwr rhan fawr, ac efallai y rhan fwyaf, o Lyfr y Diarebion; ond y cwestiwn sg y mae amrywiaeth barn yn ei gylch ydyw, pa un a ddarfu i Solomon wneuthur casgliad o honynt ei hunan mewn llyfr. Y mae yn amlwg, o leiaf, am ran o hono, mai ereill a'i casglodd, sef "gwŷr Hezeciah;" ac y mae hyn yn peri fod yn bosibl mai ereill a gasglasant y rhanau ereill. Y mae y gwahaniaeth amlwg sydd rhwng nodweddion yr amrywiol raniadau uchod wedi arwain amryw o'r ysgrifenwyr mwyaf galluog i farnu fod yn rhaid nas gallasai un dyn fod yn awdwr iddynt. Y mae yn wir, yn y teitl cyffredinol sydd ar ddechreu y llyfr, y priodolir y cyfan i Solomon; ond gellir deall yr ymadrodd "Diarebion Solomon,"

Digitized by Google

fel yr ymadrodd tebyg iddo, "Salmau Dafydd," am Lyfr y Salmau, llawer o ba rai a gyfansoddwyd gan awdwyr ereill dan ysbrydoliaeth Duw. Y mae yn ymddangos i ni fod mantoliad y dadleuon a ddygir o bob ochr yn pwyso yn deg o blaid y syniad mai Solomon oedd awdwr rhaniad 1af, yr 2il, a'r 3ydd; neu o leiaf fod y cyfan wedi myned trwy ei ddwylaw ef cyn eu cyhoeddi. Gyda golwg ar y 4ydd rhaniad, y mae yn amlwg mai Solomon oedd yr awdwr, a gwŷr Hezeciah y casglwyr; y rhai hefyd, yn ol pob tebyg, a gasglasant o fanau ereill y ddwy bennod olaf. Gyda golwg ar ragoriaethau cynnwys y llyfr hwn, y mae yn ddiammheu mai efrydiaeth drwyadl a manwl o hono a roddai y drychfeddwl cywiraf o lawer i ni am danynt. Gresyn na byddai mwy o'i ddarllen a'i esbonio, gan ddynion a merched ieuainc yn enwedig; i'r rhai y mae yn neillduol wedi ei gyfaddasu, i'w hyfforddi, i'w hannog, i'w rhybuddio, ac i'w ceryddu. Y mae ysgrifenwyr yn mhob oes wedi ei olygu fel ystorfa gyfoethog o addysgiadau a doethineb ymarferol; yn yr hwn yr arddangosir adnabyddiaeth ddofn o'r natur ddynol, portreiadau i'r byw o wahanol gymmeriadau, a threiddiad dwfn i egwyddorion gwir ddoethineb a gwir rinwedd. Y mae eu ffurf ddiarebol, eu byrdra, eu cyfaddasder, a'u min blaenllym, yn gymhorth nid bychan i'r cof i'w trysori a'u galw drachefn o flaen y meddwl mewn amgylchiadau ag y byddwn yn sefyll mewn angen am eu gwasanaeth yn ymarferol. Y mae y cyfarwyddiadau a roddir ynddynt wedi eu cyfaddasu at bob dosbarth a sefyllfa o ddynion—tlawd a chyfoethog, dysgedig ac annysgedig, gwas a meistr, brenin a deiliaid—fe all y cyfan gael trysor o ddoethineb a chyfarwyddyd ynddynt. Dyfynir o'r llyfr hwn yn y Testament Newydd yn y manau canlynol: *Rhuf.* xii. 16; *Heb.* xii. 5, 6; 1 *Pedr* iv. 8; 1 *Thes.* v. 15; yr hyn sydd yn profi ei fod o awdurdod ddwyfol. —(*Melancthon Explicatio Prov. Hunt; Hodgson; Lawson Bridges on the Proverbs; Mercer; Schultens; Hirtz; Umbreit; Ewald* yn ei *Relischen Bucher; Kitto's Cycl., &c., &c.*)

DIBLATHAIM. Gwel ALMON-DIBLATHAIM.

DIBON, [דִּיבֹן; Deg a Thrigain, Δαιβών]; neu DIMON [דִּימוֹן, *Esa.* xv. 9]; a elwir hefyd Dibon-Gad, o blegid iddi gael ei hail adeiladu gan y llwyth o'r enw hwn (*Num.* xxxii. 34):—dinas ar lan ogleddol afon Arnon, yn y man lle y croesodd yr Israeliaid yr afon ar eu taith tua'r Iorddonen, a'r lle y gwersyllasant y tro cyntaf ar ol ei chroesi. Mewn amseroedd diweddarach, canfyddwn hi, yn nghyd â dinasoedd ereill yn y parth hwn, yn meddiant y Moabiaid: *Ier.* xlviii. 22. Y mae ei sefyllfa wedi ei darganfod gan Seetzen, Burckhardt, Irby, a Mangles, mewn lle a elwir Diban, mewn llain o dir isel yn y dalaeth a elwir Koura, tua thair milltir i'r gogledd o Arnon (Modjeb). Y mae yn y lle lawer iawn o adfeilion, ond nid oes dim ynddynt o ddyddordeb neillduol. Yr oedd lle arall a elwid Dibon yn llwyth Iudah (*Neh.* xi. 25), hwyrach mai yr un man ag a elwir Dimonah yn *Ios.* xv. 22.—(*Calmet's Dict.; Kitto's Cycl.*)

DICLAH, [דִּקְלָה; Deg a Thrigain, Δεκλά]: llwyth wedi deilliaw oddi wrth Ioctan: *Gen.* x. 26, 27. Gan fod y gair yn yr Aramaeg a'r Arabaeg yn arwyddo *palmwydden*, barnwyd fod yn angenrheidiol chwilio am sefyllfa y llwyth mewn rhyw diriogaeth gyfoethog mewn coed palmwydd. Barna Bochart fod eu sefyllfa yn Arabia Ddeheuol; a dywed Michaelis mai yn nghymmydogaeth y Tigris (oddi wrth y cyfatebiaeth sydd rhwng yr enw Diglath a'r gair Diclah); ond lle y mae tir yr ymchwiliad mor ansicr, y mae yn anmhosibl cyrhaedd penderfyniad boddhaol—(*Kitto's Cycl.*)

DICHELL—ION, [Groeg, τεχνη]: twyll, ystryw, cyfrwysder, hoced. Arwydda y gair Groeg, yn gyffredinol, *meddyliau*; ond weithiau, arwydda meddyliau cyfrwys, ystrywgar, twyllodrus—pan y byddo dyn yn *meddwl* un peth ac yn *dywedyd* peth arall. "Fel na'n siomer gan Satan: canys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef;" 2 *Cor.* ii. 11:—hyny yw, yn ol y Groeg, ei feddyliau, ei gynghorion, y rhai ydynt yn ddichellgar a chyfrwys. Megys pe dywedasai Paul, Yr ydym yn gwybod ei gynlluniau, ei feddyliau, ei gyfrwysder, a'i fedr. Nid ydym heb wybod nifer dirfawr y dichellion a arferir yn gysson ganddo ef i'n drygu ni, ac i ddinystrio eneidiau dynion. Y mae efe yn llawn dichellion; ac yr oedd Paul wedi cael digon o achlysur i fod yn gydnabyddus â'r moddion a arferai efe i ddymchwelyd ei gynlluniau, ac i ddinystrio yr eglwys. Y mae yr eglwys yn mhob oes, yn gystal a Christionogion unigol, wedi bod yn ddarostyngedig i ddylanwad y dichellion hyn; gan hyny, fe ddylent fod ar eu gwyliadwriaeth rhagddynt. "A phob dichell anghyfiawnder;" 2 *Thes.* ii. 10. Y mae dau ddrychfeddwl yn yr ymadrodd hwn. Un ydyw, y byddai *dichell*; a'r llall, y byddai hyny i'r dyben o ddwyn yn mlaen anghyfiawnder neu drawsedd. Byddai i gyfundrefn anghyfiawn y "dyn pechod" gael ei chynnal trwy foddion twyllodrus. Nis gall neb a ddarllenodd lythyrau Pascal ammheu nad yw y dysgrifiad hwn yn gymhwysiadol at gyfundrefn y Jesuitiaid; ac nis gall neb cydnabyddus â gweithredoedd y Babaeth, fel y buont mewn ymarferiad gwastadol, ammheu nad ydyw yr holl gyfundrefn yn cael ei dysgrifio yn gywir drwy yr iaith hon. Y mae yr ymresymiadau golygus â pha rai y mae amddiffynwyr y gyfundrefn hon wedi dyheuro ac esgusodi pechodau o amryw fath yn mysg ei harwyddion mwyaf nodedig. Y mae *dichell* a chyfrwysder yn perthyn i ddynion fel pechaduriaid syrthiedig; ac y maent yn tebygu yn hyn, fel yn mhob peth arall, i Satan, yr hwn sydd yn twyllo yr holl fyd: *Dad.* xii. 9; *Rhuf.* iii. 13; *Salm* x. 7; xxxviii. 12; l. 19; cxix. 118; *Diar.* xii. 2, 20; *Esa.* xxxii. 7. Y mae yr Arglwydd yn gwaredu y rhai sydd wir edifeiriol oddi wrth hyn: *Salm* xxxii. 2; *Ioan* i. 47. "Mi a'ch deliais chwi trwy *ddichell*;" 2 *Cor.* xii. 16. Mi a lwyddais i gyrhaedd fy amcan drwy dwyll; hyny ydyw, gan ddefnyddio twyll trwy gymmeryd arnaf mai arian i'r saint tlodion a chyfranoddiol oeddynt, pan mewn gwirionedd mai arian i mi fy hun oeddynt. Ni ddichon fod Paul erioed wedi cyfaddef hyn am dano ei hun; ac y mae y rhai sydd yn tybied fod hyn yn perthyn iddo ef, ac yna yn dadleu ei bod yn iawn defnyddio twyll i gyrhaedd eu hamcanion, yn gŵyrdroi yr ymadrodd yn ddirfawr. Ni byddai Paul byth yn cario ei fesurau yn mlaen trwy anonestrwydd, ac ni ddarfu iddo erioed gyfiawnhau un math o dwyll. Y mae yn eglur oddi wrth yr adnodau dilynol mai cyhuddiad ydoedd hwn a ddygid yn ei erbyn gan y gau athrawon oedd yn mhlith y Corinthiaid.—(*Barnes.*)

Digitized by Google

DIDYMUS. Gwel Thomas.

DIEGWAN, [egwan]: nerthol, cadarn, grymus. "Ac efe yn *ddiegwan* o ffydd;" *Rhuf.* iv. 19. Hyny yw, yr oedd Abraham yn meddu ffydd gref yn addewid Duw, er mor annhebyg ydoedd i olwg dyn y byddai iddi gael ei chyflawnu.

DIENYDDWR: crogwr, dialeddwr, dieneidiwr, marwolaethwr. "Y brenin a ddanfonodd *ddienyddwr;*" *Marc* vi. 27. Groeg, σπεκουλατωρ, gosgorddwr, gwyliedydd, milwr. Golyga y gair *dienyddwr* un sydd felly o ran ei swydd. Nid oedd swyddog penodol o'r fath yn yr amseroedd hyny.

DIENEIDIO, [enaid]: llofruddio; amddifadu dyn o'i fywyd: *Deut.* xix. 11; xxii. 26; xxvii. 25; *Salm* xxxi. 13; xciv. 6. Gwel Llofruddiaeth.

DIENWAEDEDIG. Gwel Enwaediad. Y Cenedloedd a elwir yn ddienwaediad, a dienwaededig, mewn cyferbyniad i genedl Israel, y rhai a elwir yn enwaediad. Y ddau air Groeg am enwaediad a dienwaediad ydynt—περιτομη ac ἀκροβυστια. Y mae dynion cyndyn, anufudd, a gwrthnysig, yn cael eu galw yn ddynion "dienwaededig o galon ac o glustiau;" *Act.* vii. 51. Fel yr oedd y gair "enwaedu y galon" yn cael ei a fer i osod allan yr oruchwyliaeth ysbrydol sydd yn cynnyrchu teimlad yn y galon, ac ufudddod yn yr ymddygiad, felly v mae "calon ddienwaededig" yn arwyddo y dymmer wrthwyneb —cyndynrwydd ac anufudd dod. Y mae grym mawr, ebe Calvin, yn yr ymliwiad hwn. "Yr oedd yr enwaediad yn orchudd ganddynt hwy i guddio pob drwg. Felly, pan y mae Stephan yn eu galw yn 'ddienwaededig o galon,' y mae yn golygu, nid yn unig eu bod yn ystyfnig, a gwrthryfelgar yn erbyn Duw, ond eu bod hefyd yn fradwrus ac yn dorwyr cyfammod, a'u bod wedi eu cael allan felly hyd yn oed yn yr awydd yr ymffrostient gymmaint ynddo; ac felly y mae yn troi eu gogoniant yn gywilydd iddynt. Y mae yn dyweyd yn hollol yr un peth a phe dywedasai eu bod wedi troseddu cyfammod eu Duw, fel ag i wneyd eu henwaediad yn ofer. Y mae yr ymadrodd wedi ei gymmeryd allan o'r gyfraith a'r prophwydi. Gan mai Duw a osododd yr arwydd, y mae yn awyddus am i'r Iuddewon wybod i ba ddyben y cawsant eu henwaedu; sef fod iddynt enwaedu eu calonau a'u holl nwydau llygredig i'r Arglwydd." "Dienwaededig o wefusau"—yn ol yr Hebraeg, "gwefusau rhy fawrion"—a gyfeiria at safndrymedd Moses, ei anallu i lefaru yn groew. "Cyfrifwch yn ddienwaededig ei ffrwyth ef; tair blynedd y bydd efe megys dienwaededig i chwi;" *Lef.* xix. 23. Pob pren ar yr hwn y tyfai ffrwyth bwytadwy, gwaherddid Israel i fwyta o'i ffrwyth am dair blynedd ar ol ei blanu. Y bedwaredd flwyddyn yr oedd ei holl ffrwyth yn gyssegredig i'r Arglwydd; a'r bummed flwyddyn yr oeddynt hwythau yn rhydd i fwyta ei ffrwyth. Yr oedd y ffrwyth yn cael ei ystyried yn ddienwaededig, neu aflan, hyd nes yr offrymid y blaenffrwyth i'r Arglwydd. Mae y rheswm dros hyn i'w weled yn amlwg. Nid oedd y ffrwyth yn ei berffeithrwydd eithaf cyn pen tair blynedd; am hyny, yr oedd yn anaddas offrymu y blaenffrwyth i'r Arglwydd cyn pen pedair blynedd. Yr oedd hyn yn dysgu amryw o bethau i'r Israeliaid. Yr oedd y cyssegredigaeth a berthynai i brenau y maes yn arddangosiad i'r genedl. o i sancteiddrwydd hi ei hun: yr oedd pob peth o'i hamgylch yn y byd anifeilaidd, a'r byd llysieuol, yn dangos iddi yn barhaus y gwahaniaeth rhwng glendid ac aflendid. Dangosai hyn hefyd fod ffrwyth y ddaiar mewn rhyw ystyr yn aflan hyd oni lanheir ef. "Yr oedd y seremoni hon," ebe Calvin, "yn addysgu yr un gwirionedd ag a drinir gan Paul—fod pob peth yn cael ei 'saucteiddio trwy air Duw a gweddi;' 1 *Tim.* iv. 5. Y mae yn wir nad oes dim ynddo ei hun yn anmhur; ond am fod y ddaiar wedi ei llygru trwy lygredigaeth dyn, y mae y ffrwythau llesol, gyda golwg arnom ni, yn cael eu cyfrif yn ddienwaededig." Y mae Graves [*Lectures on the Pentateuch*] yn sylwi fod y gosodiad hwn yn fuddiol, am y gallasai roddi nerth chwanegol yn y prenau i ddwyn ffrwyth; ac am fod y genedl wedi ei chadw cyhyd yn yr anialwch, fod yn debyg fod eu gwybodaeth am natur prenau yn dra anmherffaith, ac felly fod y gyfraith hon yn rhoddi iddynt amser i allu dysgu gwahaniaethu y prenau iachus oddi wrth y rhai niweidiol.

DIEPPILEDD [di-eppil]: diblant, anmhlantadwy, anffrwythlawn; cyflwr anmhlantadwy. *Can. Sol.* iv. 2; *Esa.* xlix. 20; "Plant dy ddieppiledd a ddywedant eto lle y clywech, Cyfyng yw y lle hwn i mi; dod le i mi fel y preswyliwyf." Mae y cyfleithiad Seisoneg yn darllen, "*The children which thou shalt have, after thou hast lost the other,*" &c.="Y plant a gei ar ol i ti golli y lleill." Y mae Jarchi yn darllen, "Y plant yr ymddifadwyd di o honynt a ddywedant eto." Y mae dinas wedi ei hamddifadu o'i phreswylwyr yn cael ei chyffelybu i fam wedi colli ei phlant. Cyfieithiad Calvin o'r geiriau ydyw, "*The children of thy bereavement,*"="plant dy amddifadrwydd." Ac wrth y gair, y mae rhai yn golygu plant amddifaid; ond y mae "dieppiledd," neu amddifadrwydd, yn cyfeirio yma at y fam; nid at y plant. Yr eglwys a olygir yn ddieppil. Mae yn amlwg fod yr ymadrodd yn gosod allan luosogiad rhyfeddol ar aelodau yr eglwys. Yr oedd Ierusalem wedi ei hamddifadu o'i meibion trwy y cleddyf, trwy y newyn, a chaethgludiadau; ond y mae y prophwyd yn addaw eppil newydd iddi yn eu lle. Addewir i'r genedl y caffai, ar ol ei dychweliad o Babilon, weled Ierusalem yn "llawn o blant yn chwareu" yn ei heolydd: *Zech.* viii. 5. Er fod yr Iuddewon wedi eu tori ymaith o'r eglwys, eto ni bydd hi yn amddifad o feibion a merched: "Yr Ierusalem hono uchod sydd rydd, yr hon yw ein mam ni oll." "Canys ysgrifenedig yw, Llawenha di, yr anmhlantadwy, yr hon nid yw yn eppilio; tor allan a llefa, yr hon nid wyt yn esgor: canys i'r unig y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi ŵr;" *Gal.* iv. 27.

DIESGUS, [esgus]: anesgusodol, nas gellir ei esgusodi. "Hyd onid ydynt yn ddiesgus;" *Rhuf.* i. 20. Fe roddodd Duw i'r paganiaid brawf mor eglur o'i fodolaeth a'i hawliau trwy ei weithredoedd yn y greadigaeth, fel nad oes ganddynt un esgus dros eu heilunaddoliaeth, a thros attal y gwirionedd trwy eu drygioni. Fe gynnwysir yma fod yn angenrheidiol i ddynion gael moddion gwybodaeth cyn y byddant yn gyfrifol; ac nid ydyw Duw yn eu barnu pryd nas gallant lai na bod yn anwybodus, o ddiffyg moddion i roddi iddynt wybodaeth o'r gwirionedd. Dyma ydoedd cyflwr y byd paganaidd. Yr oedd ganddynt

Digitized by Google

hwy foddion i wybod cymmaint am Dduw ag a ddangosai yr ynfydrwydd o addoli eilunod mudion: *Esa.* xliv. 8—10. "O herwydd pa ham, diesgus wyt ti, O ddyn, pwy bynag wyt yn barnu;" *Rhuf.* ii. 1. Nid med lwl hyn ydyw, eu bod hwy yn ddiesgus am farnu ereill, ond nad oedd ganddynt un esgus i'w ddwyn ger bron Duw am eu pechodau. Gan fod y Cenedloedd, y rhai a farnent hwy, dan gondemniad, ac yn ddiesgus (*Rhuf.* i. 20), felly yr oedd yr Iuddewon, y rhai a'u condemnient, yn ddiesgus, ar yr un tir, ac i raddau mwy felly.—*Barnes.*

DIEUOG—I, [*euog*]: difai, dinam, digyhuddedig. "Nid *dieuog* gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei enw ef yn ofer;" *Exod.* xx. 7; *Deut.* v. 11. Hyny yw, nid glân, nid pur, nid diniwed. Cyfieithir y gair *cospedigaeth* yn 1 *Bren.* ii. 9; a chyfieithir ef *gwirion* yn *Iob* ix. 28. "Ac ni *ddieuoga* yr anwir;" *Nah.* i. 3. Hebraeg, "A chan ddieuogi ni ddieuoga." Yr un geiriau a gyfieithir, "Heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn;" *Exod.* xxxiv. 7.

DIFA, [*dif*]: dyfetha, dinystrio, difrodi, ysu, treulio, afradloni. "Ac angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo mewn fflam dân o ganol perth: ac wele y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei difa;" *Exod.* iii. 2. Nid angel creedig oedd hwn, gan y gelwir ef yn Arglwydd, neu Iehofah (*adn.* 4); gan hyny, rhaid mai Angel y Cyfammod, sef Crist, ydoedd. Dywed Clarke fod y weledigaeth hon—"1. Yn gysgod o gyflwr Israel yn eu gwahanol gyfyngderau a'u herlidigaethau—yr oeddynt yn mhân adfyd, ond heb eu difa. 2. Yn gysgod hefyd o gyflwr eglwys Dduw yn yr anialwch—mewn erlidigaethau yn fynych, yn nghanol ei gelynion, yn mro cysgod angeu, ac eto heb ei difa. 3. Yn gysgod hefyd o gyflwr pob dilynydd i Grist—wedi ei fwrw i lawr, ond heb ei wrthod; wedi ei demtio yn fawr, ond heb ei ddyfetha; yn rhodio drwy y tân, ond heb ei ddifa. Pa ham y cedwir yr holl rai hyn yn nghanol y pethau hyny ag ydynt yn meddu tuedd naturiol i'w dyfetha hwynt? Am fod Duw yn eu canol hwynt. Dyma a gadwodd y berth rhag ei difa, a dyma a gadwodd yr Israeliaid; a hyn, a hyn yn unig, sydd yn cadw yr eglwys, ac yn dal enaid pob gwir gredadyn yn y bywyd ysbrydol. Yr hwn nad yw Crist yn trigo yn ei galon trwy ffydd, a gaiff yn fuan ei ddifa gan y byd, y cnawd, a'r diafol." Ond er fod Duw yn amddiffyn ei anwyliaid yn eu holl beryglon rhag cael eu dyfetha a'u difa gan eu gelynion, fe ymddyga yn dra gwahanol at ei wrthwynebwyr, canys efe a'u difa hwynt fel tân ysol: *Heb.* x. 27; *Salm* lix. 13; cxliv. 6; *Ier.* viii. 13; *Zech.* v. 4.

DIFAI—EIUS: dibechod, dianaf, heb drosedd. "Yr hwn a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw;" *Heb.* ix. 14. Yr oedd yr anifail a offrymid yn yr aberthau Iuddewig i fod yn ddianaf: *Lef.* i. 10; xxii. 19—22. Nid oedd i fod yn gloff, nac yn ddall, nac yn ysig. Cyfeiria y gair a gyfieithir yma yn *ddifai* (αμωμος) at y ffaith hon, ei fod yn ddiddiffyg, neu yn ddianaf. Y drychfeddwl yw, fod yr Arglwydd Iesu, yr aberth mawr, yn *berffaith*: *Heb* vii. 26. "Canys difai ydynt ger bron gorseddfainc Duw;" *Dad.* xiv. 5. Ystyr y gair a gyfieithir yma *difai* (ἄμωμοι), yn briodol, yw, *difefl*, *difrycheu*: 1 *Pedr* i. 19. Nis gellir deongli hyn fel yn golygu eu bod yn bur a sanctaidd wrth natur, ond eu bod yn bur, fel y safent o flaen gorseddfainc Duw yn y nefoedd—eu gynau wedi eu golchi a'u cànu yn ngwaed yr Oen: *Dad.* vii. 14. Y mae yn wirionedd diammheuol y bydd pawb a fyddant yno yn bur, "canys nid ä i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra na chelwydd;" *Dad.* xxi. 27. "O blegid yn wir pe buasai y cyntaf hwnw yn ddifeius, ni cheisiasid lle i'r ail;" *Heb.* viii. 7. Y mae hyn yn cynnwys fod Duw wedi dywedyd nad oedd y cyfammod cyntaf yn berffaith, neu yn ddifai. Nid y meddwl ydyw, fod yn perthyn i'r cyfammod hwnw a wnaed drwy Moses feiau gwirioneddol, neu ei fod yn addysgu yr hyn nad oedd iawn, ond nad oedd yn cynnwys darpariaeth mor gyflawn am faddeuant pechod ac iachawdwriaeth yr enaid ag oedd yn ddymunol. Nid oedd ond rhagbarotoad i'r efengyl.—*Barnes.*

DIFENWI, [*difanw*]: ymsenu, goganu, anmharchu, rhoi drygair, rhoi anair, dychanu. Y mae y gair *difenwi*, fel yr arferir ef yn y Testament Cymraeg, yn sefyll am ddau air gwahanol yn y Groeg—ενυβρίζω (o ὕβρις, balchder, trahausder, poenydio, niweidio), a λοιδορέω (o λοιδορος, difenwr, difrïwr, enllibiwr, un yn arfer iaith gabluddus). Y mae y ddau air, gan hyny, yn amlwg o gyffelyb ystyr, ac yn arwyddo yr un peth. Wedi sylwi yn fanwl ar y cyssylltiadau yn mha rai yr arferir y geiriau uchod gan yr ysgrifenwyr sanctaidd, y mae yn ymddangos mai y darnodiad goreu o'r gair difenwi ydyw hwn—rhoddi anfri ar un mewn gair neu ymddygiad, trwy yr hyn y gwneir niwed i un yn ei feddwl, ac efallai yn ei amgylchiadau. Y mae difenwi a chablu un, gan hyny, bron, os nad yn gwbl, yr un peth. Nid yw yn hawdd, pa fodd bynag, eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd. Gwel *Heb.* x. 29; *Ioan* ix. 28; *Act.* xxiii. 4; 1 *Cor.* iv. 12; 1 *Pedr* ii. 23.

Nodir yma ddwy anghraifft o'r geiriau uchod ar gyfrif y cyssylltiadau gwrthddrychol rhyfedd y maent yn sefyll ynddynt. Yn *Heb.* x. 29, y mae yr apostol Paul, tra y mae yn rhoddi yr Hebreaid crediniol ar eu gocheliad rhag iddynt fyned i gyflwr o wrthgiliad hollol ac anadferadwy, yn tybio am un wedi myned i'r tir ofnadwy hwnw. Nid ydyw yn dywedyd fod neb erioed wedi myned iddo, nac hyd yn oed yn awgrymu yr ä neb iddo byth. Ond ymresymu y mae oddi wrth y tyb-osodiad yna, ac yn dyweyd am yr hwn a dybir ganddo, ei fod yn y gwaith o wrthgilio, wedi "barnu yn aflan waed y cyfammod, a difenwi Ysbryd y gras." Y mae y gair ενυβρίσας a arferir yma, yn arwyddo fod y gwrthgiliwr tybiedig hwn, trwy y fath wrthgiliad, wedi ymddwyn yn ddirmygus a diystyr tuag at yr Ysbryd Glân, yr hwn a elwir yma yn "Ysbryd y gras," am mai efe sydd yn cyfranu pob gras ysbrydol i bechaduriaid. Gwaith neillduol yr Ysbryd Glân yn ngoruchwyliaeth yr achub ydyw dwyn dyn i sefyllfa o ras, a'i ddiogelu ynddo; ac ni all dyn ymadael yn hollol â'r cyflwr hwn heb wrthwynebu yn ddirmygus yr holl ddylanwadau hyny o eiddo yr Ysbryd, trwy y rhai y cedwir ef. Os bydd i ddyn, ar ol "derbyn gwybodaeth o'r gwirionedd," wrth yr hyn y golygwn ei ddygiad llawn i gyflwr achubedig; os bydd iddo, meddwn, wedi hyny, "fathru Mab Duw, a barnu yn aflan waed y cyfammod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef," y mae yn rhwym drwy hyny o ddifenwi Ysbryd y gras hefyd. Dywedir yn *Heb.* vi. 4, fod y personau a rybuddir fel hyn wedi eu gwneyd "yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân." Myn amryw esbonwyr tramor diweddar

Digitized by Google

nad yw hyn yn golygu mwy na'u bod wedi eu gwneyd yn gyfranogion o freintiau yr efengyl. Ond dengys yr esgob Middleton fod y fath syniad yn gwbl anghydweddol âg ystyr yr ymadrodd dan sylw. Un o neillduolion y geirweddion ysgrythyrol, a'r holl dafodieithoedd dwyreiniol, medd efe, ydyw, eu bod yn gosod allan briodoleddau, nid trwy gyfrwng ansoddeiriau, fel y gwneir yn yr ieithoedd gorllewinol, ond trwy yr achosion deilliadol (*genitives*) o enwau y priodoleddau, yn dibynu ar y sylweddair i'r hwn y perthynant. Yn y Syriaeg, y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei alw yn "Ysbryd Sancteiddrwydd." Yn *Heb.* iv. 16, y mae yr *orsedd rasol*, yr hyn sydd yn un o enwau y Goruchaf, yn cael ei galw,-- ὁ θρόνος τῆς χάριτος=*gorseddfainc y gras.* Yn 1 *Pedr* v. 10, y mae Duw holl-rasol yn cael ei alw ὁ Θεὸς πάσης χάριτος=*Duw pob gras.* Ac yma y mae yr Ysbryd grasol yn cael ei alw τὸ πνεῦμα τῆς χάριτος, wrth yr hyn y golygir yr Ysbryd Glân. Y mae yr esboniad hwn ar yr ymadrodd yn cydweddu yn hollol â'i gyssylltiadau. Nid oes dim a ymddengys yn fwy naturiol i'r neb sydd yn addef personoliaeth yr Ysbryd Glân na bod yr apostol yn crybwyll yn yr un adnod am "fathru Mab Duw," a "difenwi Ysbryd y gras;" ac y mae yn gweddu i'r rhai sydd yn gwadu y personoliaeth hwnw, o leiaf, i ddangos y gall y gair ἐνυβρίζειν olygu *pethau* a *phriodoleddau* yn gystal a phersonau; ac heb law hyny, dyleut brofi fod breintiau yr efengyl yn gyflead teg a llawn o syniad yr apostol yn yr ymadrodd. Ymddengys i ni fod yr Ysbryd Glân fel hyn yn cael ei ddifenwi yn ei berson; a gwneir hyn trwy wrthod yn ddirmygus ei ddylanwadau, gwadu eu gwirioneddolrwydd, ac o bosibl eu priodoli i weithrediad ysbrydion drwg. Y mae "difenwi Ysbryd y Gras," y sonir am dano yn y llythyr at yr Hebreaid, a'r "cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân," y sonir am dano yn yr efengyl, yn golygu yr un peth, ac yn bechod y sicrheir ni am dano gan Fab Duw ei hun nad oes maddeuant o hono yn y byd hwn nac yn yr hwn a ddaw.

Yn 1 *Pedr* ii. 23, ni a gyfarfyddwn â'r gair *difenwi* mewn cyssylltiad â gwrthddrych arall. "Yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn." Y mae yn ffaith amlwg am yr Arglwydd Iesu Grist, yn nyddiau ei gnawd, ei fod wedi cael ei ddifenwi gan ei gydoeswyr yn mhob dull a modd. "Murmur mawr oedd am dano ef yn mysg y bobl. Canys rhai a ddywedent, Gŵr da yw; ac ereill a ddywedent, Nag e, eithr twyllo y bobl y mae." Yr oedd dynion lawer yn siarad yn anwireddus a diystyrllyd am dano, a thrwy hyny yn amcanu ei niweidio yn ei gymmeriad, ac yn ei berson hefyd. Efe a ddifenwyd. Dywedid am dano mai trwy Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid. Condemniwyd ef yn llys yr archoffeiriad am gabledd, a buasent yn ei roddi i farwolaeth o'r farn hono pe buasai yr awdurdod yn eu dwylaw. Cyhuddwyd ef ger bron Pilat o derfysg a bradwriaeth yn erbyn Cæsar, a haerid nad oedd y barnwr hwnw garedig i Cæsar hyd oni byddai iddo ei gospi fel y cyfryw. Wedi ei draddodi i'w groeshoelio, a thra yr oedd eto ar y pren yn dyoddef, yr oedd yr offeiriaid a henuriaid y bobl yn sefyll i edrych ar yr olygfa ddifrifol hono, ac yn ei watwar, gan ddywedyd, "Ereill a waredodd efe, gwareded ef ei hun, os hwn yw Crist, etholedig Duw." Ac hyd yn oed, ar ol ei adgyfodiad oddi wrth y meirw, tra yr oedd y milwyr yn tystio ei fod wedi cyfodi yn wir, ac yn adrodd pa fodd y bu, dywedai yr un dynion, âg arian halog yn eu dwylaw, "Dywedwch, ei ddysgyblion ef a ddaethant o hyd nos ac a'i lladratasant ef, a nyni yn cysgu. Ac os clyw y rhaglaw hyn, nyni a'i perswadiwn ef, ac a'ch gwnawn chwi yn ddiofal." Y gair hwn a daenwyd yn mhlith yr Iuddewon hyd y dydd heddyw. Nid gwehilion y bobl oedd yn gwneuthur hyn, ond y penaethiaid—y dynion helaethaf eu gallu a'u dylanwad, eu sel a'u crefyddolrwydd, yn yr holl wladwriaeth Iuddewig i gyd. Yr oedd hyn hefyd yn cael ei wneyd yn y modd mwaf amlwg a chyhoeddus. Y fath oedd gelyniaeth y bobl hyn i'r Gwaredwr ac i'w achos, fel nad oeddynt yn gofalu beth, na pha gymmaint a ddywedent i'w erbyn, os gallent drwy hyny ei ddinystrio. Yr oedd holl lid, holl falais, holl greulondeb, a dybenion annheilwng y galon Iuddewig, yn dyfod i'r golwg yn eu gwaith yn difenwi Crist. Ond, "pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn." Yn wyneb hyn oll, ni ddangosodd deimlad dig, ac ni lefarodd air garw. Gofynai, a oedd neb o honynt a allai ei argyhoeddi ef o bechod; a dyna y cwbl. Yn hyn, fe roddodd i ni esampl fel y canlynem ei ol ef. A dedwydd yw y rhai sydd yn gallu dyweyd, "Pan y'n difenwir, yr ydym yn bendithio; pan y'n herlidir, yr ydym yn ei ddyoddef;" 1 *Cor.* iv. 12. Nid bob amser y mae canlynwyr proffesedig Crist wedi gwneyd hyn Adroddir am Sextus Quintus, pan gyfodwyd ef i gadair Pedr yn Rhufain, fod saflun Pasquin un noswaith wedi ei gwisgo â chrys budr, gyda'r esgusawd a ganlyn wedi ei ysgrifenu, ei fod o'r diwedd dan yr angenrheidrwydd o wisgo llian heb ei olchi gan fod ei olchwraig wedi ei gwneyd yn dywysoges. Yr oedd hyn yn sarhad ar chwaer "ei sancteiddrwydd," gan mai hyny oedd ei gorchwyl isel cyn i'w brawd gael ei ddyrchafu. Parodd hyn, pa fodd bynag, i'r brawd gynnyg gwobr helaeth i unrhyw un a allai ddyfod o hyd i wybod pwy oedd yr awdwr. Ac wedi deall hyn, penderfynodd yr awdwr, heb feddwl y gallai y fath ddigrifwch derfynu mor bwysig, y buasai iddo fyned at y tad sanctaidd i wneyd y cyfaddefiad arno ei hun. Felly y gwnaeth, a derbyniodd y wobr addawedig; ond er mwyn ei ddiogelu rhag cyflawnu y fath weithred rhag llaw, gorchymynodd Quintus ar fod i'w dafod gael ei dynu allan o'i ben, a'i ddwylaw gael eu tori ymaith oddi wrth ei gorff. Hwn, pan ddifenwyd, a ddifenwodd drachefn.

Y mae yr arfer iselwael ac annheilwng yma o ddifenwi eu gilydd gan ddynion eto. Mae yn debyg nad oes un prawf mwy galarus o lygredigaeth hollol y natur ddynol, na'r duedd sydd yn y naill ddyn, a hyny yn aml heb un achos, i iselu a difrïo y llall. Nid yw teimlad na chymmeriad, cysur teuluaidd na defnyddioldeb cymdeithasol dyn, mewn llawer amgylchiad, ddim yn rhy gyssegredig i'r duedd beryglus yma estyn ei dwylaw aflan er eu niweidio. Gwneir hyn mewn gwahanol ffyrdd. Y cyfrwng cyffredin i gymmeryd enw da un ymaith ydyw iaith lafaredig neu ysgrifenedig, trwy adrodd yr hyn sydd mewn rhan yn wir, neu yr hyn sydd anwiredd hollol Ond gwneir hyn weithiau yn llawn mor effeithiol trwy ddystawrwydd; sef trwy beidio a llefaru pryd y dylid gwneyd. Pan fyddo ar ein llaw i roddi gair da i un fyddo yn cael ei ddifrïo ar gam, yr ydym yn euog o'i ddifenwi, trwy beidio a gwneyd hyny. Pan yn gwrthod rhoddi ymddiried mewn un y mae o bwys iddo ei gael, a chanddo sail deg i ddysgwyl am dano; a phan yn troi un o wasanaeth heb roddi rheswm digonol

Digitized by Google

Cros hyny, yr ydym yn difenwi mewn amgylchiadau fel hyn, a lluaws o'u cyffelyb, trwy roddi y fath brofion o'n drwg-dybiau ein hunain ag a fyddo yn seiliau teg i ereill wneyd yr un peth yn hollol.

Gall y drwg hwn gael ei gyflawnu yn fwriadol neu yn anfwriadol; os y blaenaf, y mae yn tarddu oddi ar falais; os yr olaf, oddi ar anystyriaeth; ac nid yw y naill ond ychydig, os dim, gwell na'r llall. Y mae yn alarus meddwl fod y wasg, yr hon sydd yn un o fendithion cymdeithasol penaf yr oes yr ydym yn byw ynddi, yn cael ei defnyddio mor fynych fel cyfrwng gan ddynion dibris a diegwyddor i dywallt eu llysnafedd difriol am ben dynion gonest a diamddiffyn. Rhaid fod i hyn ryw achosion. ond nid oes a fynom ni yn bresennol ond â'r ffaith yn unig. Y mae y duedd hon mor farbaraidd ac annynol, heb son am anfoesgar, nad oes rif i'w wneyd ar y drygau a gyflawnwyd ac a gyflawnir ganddi. Weithiau, y mae y wyryf deg yn cael ei dynoethi, nes y mae yn destyn chwerthiniad i ynfydion. Bryd arall, y mae y wraig dyner a gofalus yn cael ei gwawdliwio, nes y mae yn ddrwg-dybiedig gan ei theulu, ac yn destyn cler i'w chymmydogion. A phryd arall y mae y dyn caredig a chymmwynasgar, llafurus a hunanymwadol, yn cael ei gamddarlunio yn y fath fodd, nes y mae yn fuan yn gweled ei gyfeillion goreu wedi cefnu arno, a gwlad o bobl yn troi yn ei erbyn. Yn gysson â hen sylw, "mai y pren uchaf yn y goedwig sydd yn cael mwyaf o bwys gwynt," felly y dynion goreu yn mhob cylch ydynt wrthddrychau etholedig difenwaith a difriaeth. Nid yw yn angenrheidiol i ni dybied mai dynion o gymmeriadau pwysig eu hunain sydd yn gwneyd hyn; ond gwneir ef yn gyffredin gan blantos bwhwmanllyd, neu ddynionach anwybodus, heb ddysgu egwyddorion cyntaf moesgarwch, ac heb fedru eto ar lythyrenau. Blinir un gan yr ysfa i ysgrifenu, ac un arall gan yr ysfa i fod yn ffraeth, a llawer ereill gan rywbeth mwy annheilwng na hyny. Gollyngir y saeth, nid ar antur, ond gyda chywirdeb peiriannol, a hyny o gastell cyfleus y ffug enw. Nid yw y clwyfedig druan, fel Cæsar yn Rhufain, pan drywanodd Brutus ei ddagr yn ei galon, yn cael cymmaint o hyfrydwch a gweled y llaw a wnaeth yr archoll.

Ofnir fod llawer o'r drwg hwn yn cael ei gyflawnu gan ddynion yn ddifeddwl; nid yn gymmaint o falais i wneyd drwg, ag oddi ar awydd chwareus i beri rhyw fath o ddigrifwch, fel pe byddai bod yn ddigrif yn fwy anrhydeddus na bod yn garedig ac yn dda. Dangoser i un o'r dynion hyn y niwed fydd eu digrifwch hwy wedi ei achosi; ni bydd ganddo well esgus na dywedyd ei fod wedi ei wneyd yn hollol ddifeddwl. O blegid hyn, yr oedd un dyn enwog yn ei osod i lawr fel rheol fod dyn annoeth yn fwy peryglus na dyn bwriadol ddrwg; o blegid, lle nad oedd yr olaf yn ymosod ar neb ond ar ei elynion, a'r rhai yr ewyllysiai eu niweidio, fod y blaenaf yn ei ddylni yn ymosod ar bawb—gelynion a chyfeillion yn ddiwahân. Byddai yn dda i'r dosbarth hwn gofio y chwedl am y ddau fachgen oedd yn gwylio y llyffaint yn y pwll. Fel y cyfodai y llyffaint eu penau uwch law y dwfr, yr oedd y bechgyn yn barod i'w cyfarch â cheryg. O'r diwedd, cyfodai un o'r llyffaint i fyny, a dywedai, "Fechgyn, nid ydych chwi yn ystyried fod yr hyn sydd yn chwareu i chwi yn angeu i ni."

Ymdrechir amddiffyn yr arferiad hon weithiau trwy ddywedyd nas gall ychydig o ddigrifwch diniwed effeithio ar feddwl neb ond y bychan a'r dibwys. Pe byddai yr haeriad hwn yn wir, nid oes genym un hawl i glwyfo y dyn gwanaf ac eiddilaf ei feddwl; ond nid gwir ydyw. Nid yw fod peth yn ddigrifwch yn ei wneyd yn ddiniwed, ac y mae niwed yn sier o effeithio ar y meddwl mwyaf, yn gystal a'r lleiaf. Gall dyn fod yn rhy fawrfrydig i gymmeryd arno, ond nid oes neb yn rhy fawr i deimlo. Yr oedd Socrates, ychydig cyn yfed y gwenwyn a roddes derfyn ar ei einioes, yn croesawu ei gyfeillion âg anerchiad ar anfarwoldeb yr enaid; a chyn dechreu, dywedai, nad oedd yn credu fod neb o duedd mor ddigrifol ag y gallai ei feio ef am siarad ar y fath bwnc, ar y fath amser. Yr oedd y cyfeiriad yma yn sicr at Aristophanes, yr hwn oedd wedi cyfansoddi dychangerdd, gyda'r bwriad o wawdio yr athronydd enwog, a'i syniadau. Dywedir yn aml na chymmerodd Socrates un sylw o'r dirmyg, ac i ddangos ei fod gymmaint uwch law y fath beth, ei fod wedi bod amryw droion yn y chwareudŷ yn clywed y cyfansoddiad yn cael ei adrodd, ac nad amlygodd erioed unrhyw duedd i ad-dalu, er y gallasai wneuthur hyny. Ond er cymmaint dyn oedd Socrates, dengys y cyfeiriad uchod o'i eiddo ar fin marw, fod yr amgylchiad wedi effeithio yn ddwys ar ei feddwl. Os oedd yn rhy ddoeth i ddial, nid oedd yn rhy fawr i deimlo.—(*Ebrard on the Heb.*; *Bloomfield's Greek Test.*; *Brown's Phil.*; *Dymond's Principles of Morality*; *Dwight's Divinity.*)

DIFODIAID. Gwel DINYSTRIAID.

DIFRYCHAU—EULYD: glân, pur, dihalog. "Megys oen difeius a difrycheulyd;" 1 *Pedr* i. 19. Dyna y fath oen ag oedd i'w aberthu o dan yr hen oruchwyliaeth: *Lef.* xxii. 20—24; *Mal.* i. 8. Yr oedd hyn yn cael ei ofyn,—1. O blegid fod yn briodol i ddyn offrymu yr hyn a olygid yn berffaith yn ei ryw. 2. O blegid mai hyny yn unig a fyddai yn gysgod priodol o'r aberth mawr a wnelid gan Fab Duw. Cedwid i fyny y syniad fel hyn, o oes i oes, y byddai ef, o'r hwn yr oedd yr holl aberthau yn gysgod, yn berffaith bur. Ac un felly oedd Oen Duw: "Yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau;" 1 *Pedr* ii 22. "Yn ddifrycheulyd ac yn ddiargyhoedd;" 2 *Pedr* iii. 14. Gan ein bod i sefyll cyn hir yn mhresennoldeb Duw sanctaidd, dylai fod yn amcan o ymdrech egnïol yn ein golwg i gael symmud ystaen diweddaf pechod a llygredigaeth oddi ar ein heneidiau, fel na byddo arnom, yn y dydd hwnw, "na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw;" *Eph.* v. 27.

DIFFAETHWCH: anialwch, lle anghyfannedd; lle disathr; lle heb ei lafurio na'i ddiwyllio. Y mae y gair weithiau yn arwyddo lle heb neb yn ei gyfanneddu; bryd arall, lle nad oedd y dinasoedd ond anaml, neu yn mhell oddi wrth eu gilydd. Lle felly ydoedd diffaethwch Iudea, y man y bu Ioan Fedyddiwr yn byw, yn pregethu, ac yn bedyddio ynddo. Arferir y gair hefyd am leoedd sychion, tywodlyd, neu fynyddig; neu am goedwigoedd yn agos i ddinasoedd; am diroedd porfa hefyd, rhydd i bawb droi eu hanifeiliaid iddynt. Mewn lleoedd felly y ceir fod praidd Laban, ac Iacob, ac Iethro: "A Moses oedd yn bugeilio defaid Iethro; ac efe a yrodd y praidd o'r tu cefn i'r anialwch;" hyny yw, i'r ochr arall i'r bryn, o'r golwg, i le diogel: *Exod.* iii. 1. Yr oedd y rhan ogleddol o Arabia Garegog yn cael



Digitized by Google

el alw yn ddiffaethwch, lle y bu Israel yn teithio drwyddo. Gelwir ef yn "ddiffaethwch gwag erchyll," o herwydd y cawodydd tywod fyddai ar brydiau yn claddu y teithwyr yn fyw, y creiglau erchyll oedd ynddo, a'r seirff a'r bwystfilod ysglyfaethus a gynniweirient drwyddo. Bu yr Israeliaid yn y diffaethwch hwn am ddeugain mlynedd, yn cael eu cynnal a'u cadw yn wyrthiol. Am hanes eu teithiau, gwel d.g. ISRAELIAID. Bygythiai yr Arglwydd Israel, wedi iddynt gyrhaedd Gwlad Canaan, os na wrandawent arno, os na wnaent ei holl orchymynion, os dirmygent ei ddeddfau, ac os ffieiddiai eu henaid ei farnedigaethau, y byddai iddo wneyd eu tir yn ddiffaethwch. a'u dinasoedd yn anghyfannedd: *Lef.* xxvi. 14, 15, 33—36. Llosgwyd dinas Ai gan Iosuah, "a gwnaeth hi yn garnedd dragywydd, ac yn ddiffaethwch hyd y dydd hwn;" *Ios.* viii. 28. Pan oedd Dafydd yn ffoi rhag Saul, aeth ef a'i wŷr i anialwch Maon, yn y rhos o'r tu deheu i'r diffaethwch: 1 *Sam.* xxiii. 24. Y mae Iob yn cymharu gorthrymwyr yr amddifaid a'r weddw i asynod gwylltion yr anialwch—"y diffaethwch yn dwyn iddynt fwyd, ac i'w plant;" *Iob* xxiv. 3—5; xxxix. 6. Pobl yn byw ar ysbeilio oeddynt. "Efe a wna afonydd yn ddiffaethwch;" hyny yw, eu sychu, a gwneyd eu lle yn ddiffaith: *Salm* cvii. 33:—troi gwlad ddyfradwy yn grasdir digynnyrch, yn gosp ar y bobl oedd yn byw yno am bechu yn erbyn Duw. Y mae yr Arglwydd yn dangos fod hen hoffder ganddo at y genedl Iuddewig: "Cofiais di, caredigrwydd dy ieuenctid, a serch dy ddyweddi, pan y'm canlynaist yn y diffaethwch, mewn tir ni hauwyd;" *Ier.* ii. 2. Dywed yr Arglwydd y gwnai efe Babilon, o blegid ei hymddygiad tuag at ei bobl, "yn anialwch, yn grasdir, ac yn ddiffaethwch;" *Ier.* l. 12. Bygythir Ninefeh â barnedigaeth gyffelyb: *Zeph.* ii. 13, 14. Yn niffaethwch Galilea, yr hwn oedd yn agos i'r Iorddonen, y temtiwyd Crist gan ddiafol: *Mat.* iv. 1. Y mae prophwydoliaeth am elynion eglwys Dduw, yr hon a gymhwysir at Iudas Iscariot, o blegid iddo fradychu Crist, yn *Act.* i. 20, y "byddai eu preswylfod yn anghyfannedd;" *Salm* lxix. 25. Dywedir am y wir eglwys, pan y dechreuodd llywodraeth anghrist, ei bod wedi ffoi i'r diffaethwch dros holl dymmor llywodraethiad y gallu hwnw, megys y ffodd Israel o gaethiwed yr Aipht i'r diffaethwch: *Dad.* xii. 6. Pan oedd Crist a'i ddysgyblion yn mhell oddi wrth ddinas na thref, porthwyd pedair mil o wŷr, heb law gwragedd a phlant, yn wyrthiol ganddo yn y diffaethwch: *Mat.* xv. 32—38. Dywedir fod Duw yn gwneuthur peth newydd ar y ddaiar, sef gwneyd afonydd yn y diffaethwch; hyny yw, darparu yr efengyl a'i breintiau i'r bobl, fel yr oedd yn rhoddi dwfr ac afonydd i'r bwystfilod yn yr anialwch: *Esa.* xliii. 19, 20. Pan yr adferid y genedl Iuddewig i'w breintiau crefyddol, o'r agwedd adfeiliedig yr oedd wedi myned iddi, "gwneid ei hanialwch fel Eden, a'i diffaethwch fel gardd yr Arglwydd;" *Esa.* li. 3. Felly hefyd y gwna yr efengyl â'r byd paganaidd, yr hwn sydd megys "diffaethwch gwag erchyll." Gwel ANIALWCH.

DI-FFYDD: anghredadyn, un digred, digoel, un amddifad o ffydd. Groeg, *απιστοσ*. Y gair hwn a gyfieithir hefyd *anghredadyn* (*Ioan* xx. 27), a *digred* (1 *Cor.* vii. 14). "Efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r di-ffydd;" 1 *Tim.* v. 8. Y mae *eiddo* (*οἱ ἴδιοι*) yn yr adnod hon yn golygu perthynasau y dyn; tra y mae y *teulu*, yr hwn a ddynodir gydag arbenigrwydd trwy y gair *yn enwedig*, yn arwyddo yn neillduol ei berthynasau agosaf—ei dad a'i fam, ei frodyr a'i chwiorydd. Y mae y gair Groeg am deulu yn dyfod o'r gair *οικος*=*tŷ*; teulu ydyw y perthynasau hyny sydd yn cyd-drigo yn yr un tŷ âg ef Y mae rhai yn barnu mai teulu y ffydd a olygir yma yn fwyaf neillduol, ac yn cadarnhau y golygiad â *Gal.* vi. 10. Ond fe ellid meddwl nad oes yn yr adnod hono un gefnogaeth i'r dybiaeth fod gofal mwy i'w gymmeryd hyd yn oed am deulu y ffydd nag am berthynasau. Y cyferbyniad a wneir yno ydyw y cyferbyniad rhwng teulu y ffydd a dynion yn gyffredin. Dyledswydd gyntaf dyn yn y ffordd hon ydyw darbod dros y rhai a ymddiriedodd yr Arglwydd yn fwyaf uniongyrchol i'w ofal; ac os ydyw, yn chwanegol at ddarparu gygyfer a'u hangenrheidiau a'u cysuron hwy, yn alluog i gynnorthwyo ereill, y mae yn amlwg mai y rhai y mae gras wedi eu cyssylltu yn ysbrydol âg ef. Y bobl fwyaf cymmwynasgar eu hunain, a mwyaf rhinweddol, ydyw y gwrthddrychau mwyaf teilwng o ddaioni. Hwy sydd yn sefyll yn nesaf mewn teilyngdod i'w deulu, y rhai y mae dan rwymau i ddarbod ar eu cyfer. "A wadodd y ffydd;" o blegid nid ydyw ffydd—nid yw Cristionogaeth, athrawiaeth y ffydd, ac nid yw y gras o ffydd yn yr athrawiaeth—yn dinystrio y dyledswyddau naturiol, ond yn eu perffeithio a'u cadarnhau. Nis gall ffydd hanfodi yn yr enaid ar wahân oddi wrth gariad; ie. y mae cariad yn elfen hanfodol mewn gwir ffydd, fel yn mhob grasusau. "Nid pwnc ydyw gwrthddrych ffydd," medd un awdwr, "ond gras a gwirionedd Duw, i'r hwn y mae ysbryd y credadyn yn llwyr ymroddi, fel y mae yr hwn sydd yn caru yn llwyr roddi ei galon. Felly y lle nad yw cariad, a'r lle nad yw yn gweithio, nid yw ffydd yno, ac nid yw yn gweithio chwaith; a'r hwn nid yw yn cyflawnu dyledswyddau cariad tuag at ei berthynasau, nis gall beidio a bod yn anghredadyn." "Gwaeth yw na'r di-ffydd"—na'r anffyddiad; nid yn unig y dyn sydd heb gredu yr efengyl i fywyd, ac eto yn rhoddi coel ei feddwl i'w gwirionedd; ond yr anffyddiwr neu y pagan. Y mae, fel y sylwa Bengel, naturiaeth ei hun yn dysgu dyn i ddarbod dros ei deulu. Nid yw y cyflawniad o'r dyledswyddau hyn yn beth anfynych yn mysg paganiaid: y maent hwy yn cydnabod rhwymedigaeth gyffredin y cyssylltiadau teuluol; ac os ymwrthyd Cristion proffesedig â hwy, y mae yn darostwng ei hun yn is mewn moesau na'r di-ffydd. Y mae y pagan yn rhoddi esampl iddo, yr hon nid yw yn ei dilyn. Ac fel y sylwa Calvin, y mae esgusawd y Cristion, yr hwn sydd yn byw yn ngoleuni yr efengyl, yn llai am dori y deddfau hyny mewn natur, y rhai a gydnabyddir hyd yn oed gan y rhai digred. "I'r rhai halogedig a di-ffydd nid pur dim;" *Tit.* i. 15. Y mae bwydydd a diodydd, a phethau allanol, yn bur i'r sawl sydd yn bur oddi fewn; ond i'r halogedig a'r di-ffydd, y mae pob peth yn anmhur—y mae y pur yn anmhur iddynt hwy: nid pur iddynt hwy ddim oddi fewn nac oddi allan. Gan fod anmhuredd moesol wedi llychwino eu meddwl a'u cydwybod—ffynnonellau eu holl feddyliau, eu myfyrdodau, a'u gweithredoedd—nis gall dim arall fod yn bur iddynt: y mae pob peth yn dyfod iddynt hwy yn achlysur o bechod, a phob peth a greodd Duw yn cael ei ddarostwng ganddynt i fod yn wasanaethgar i anmhuredd. Y mae Macknight yn dewis cyfieithu y gair yn *unfaithful*—anffydd-

Digitized by Google

lawn; am fod yr apostol, yn ol ei farn ef, yn golygu, wrth y di-ffydd, nid y paganiaid neu y rhai digred, ond aelodau eglwysig anffyddlawn i Iesu Grist, ac i burdeb ei grefydd.

DIGAREGU—ODD: symmud ceryg ymaith. "Efe a'i cloddiodd hi, ac a'i *digaregodd;*" *Esa.* v. 2—fel y byddai yn haws ei hamaethu. Yr oedd hyn yn orchwyl priodol ac angenrheidiol. Nid yw yn anhawdd deall ystyr cyffredinol y ddammeg hon. Ond y mae Jerome wedi ceisio dilyn yr aralleg yn fanwl, ac esbonio pob rhan o honi. "Wrth gyffelybiaeth y winllan," medd efe, "y mae deall y genedl Iuddewig, yr hon a amgylchynwyd neu a glodd iwyd ganddo âg angelion; wrth ei digaregu, symmud ymaith ei delwau; wrth y tŵr, y deml a adeiladwyd yn nghanol Iudea; wrth y gwinwryf, yr allor." Nid oes dim priodoldeb, pa fodd bynag, mewn ceisio esbonio fel hyn yn fanwl wahanol ranau y ddammeg. Yr ystyr cyffredinol ydyw, bod Duw wedi dewis y genedl Iuddewig; ei fod wedi dangos gofal mawr tuag atynt drwy roddi iddynt ei ddeddf, drwy eu hamddiffyn, a thrwy ddarparu ar eu cyfer; nad ydoedd wedi cadw dim oddi wrthynt ag oedd yn gyfaddas at gynnyrchu duwioldeb, ufudd-dod, a dedwyddwch, a'u bod hwythau wedi diystyru ei holl ddaioni, a myned yn dra llygredig. Am hyny, y mae y barnedigaethau a gyhoeddir gan Dduw, yn *adn.* 5, 6, ar y genedl yn gyfiawn, er mor drymion ydynt. "Cynniweiriwch, cynniweiriwch trwy y pyrth: parotowch ffordd y bobl; palmentwch, palmentwch briffordd; *digaregwch* hi: cyfodwch faner i'r bobloedd;" *Esa.* lxii. 10. Y mae llawer iawn o wahanol farnau yn nghylch ystyr yr adnod hon. Tybia Grotius ei bod yn cyfeirio at yr offeiriaid a'r Lefiaid, at ba rai y cyfeirir hefyd yn yr adnodau blaenorol, ac mai gorchymyn ydyw ar iddynt fyned i mewn i'r deml. Tybia Calvin ei bod yn cyfeirio at yr Eglwys Gristionogol, ac mai y syniad ydyw, y dylai ei phyrth fod yn agored yn wastadol i dderbyn pechaduriaid edifeiriol. Tybia Rosenmüller mai anerchiad ydyw i'r dinasoedd a orweddent rhwng Babilon a Ierusalem, ac mai y meddwl ydyw, y byddai i'w pyrth gael eu taflu yn agored er hyrwyddo dychweliad y gaethglud, ac y symmudid yr holl rwystrau o'r ffordd. Tybia ereill ei bod yn cyfeirio at yr Iuddewon, ac mai gorchymyn ydyw ar iddynt hwy fyned drwy byrth Babilon; a chwanegir archiad yn uniongyrchol i'r bobl barotoi y ffordd iddynt. Y mae yn debygol mai y diweddaf ydyw yr eglurhad cywiraf ar yr adnod. Gorchymyn ydyw i'r Iuddewon caethgludedig yn Babilon i ddychwelyd i'w gwlad eu hunain. Byddai i'r pyrth, ag oeddynt wedi bod yn gauedig am gymmaint o amser, gael eu taflu yn agored, a chaent ryddid i ddychwelyd i'w gwlad. O'i hesbonio fel hyn, mae y cyssylltiad yn amlwg. "*Digaregwch* hi;" hyny yw, symmudwch yr holl geryg oddi ar y ffordd; neu, mewn geiriau ereill, parotowch lwybr esmwyth, ar hyd yr hwn y gallant deithio gyda rhwyddineb. Y mae y gair a ddefnyddir yma (סקל) yn golygu *llabyddio â meini* yn gyffredin—math o gospedigaeth yn mysg yr Hebreaid: 2 *Sam.* xvi. 6—13. Oddi wrth hyn, arwydda gasglu ceryg yn bentwr; ac y mae hefyd yn meddu yr ystyr o symmud ceryg o faes (*Esa.* v. 2), ac yma, eu symmud o'r ffordd pan y byddant yn rhwystr i'r teithiwr. Tybia Harmer fod y gair yn y fan hon yn golygu cyfodi pentyrau o geryg yma ac acw, mewn pellder penodol oddi wrth eu gilydd, fel math o geryg terfyn yn yr anialdiroedd, i ddynodi y ffordd i deithwyr, yr hon arferiad, medd efe, sydd yn dra chyffredin yn Arabia. Ond y deongliad mwyaf naturiol ydyw, eu bod i symmud y ceryg er hyrwyddo ffordd y teithwyr.

DIGELWYDDOG: gwir, cywir, ffyddlawn, geirwir. "Yr hon a addawodd y digelwyddog Dduw cyn dechreu y byd;" *Tit.* i. 2. Nid yn unig ni ddywedodd gelwydd, ond y mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog: *Heb.* vi. 18. Anmhosiblrwydd moesol yw yr anmhosiblrwydd. Y mae cariad Duw at wirionedd y fath, ac y mae sancteiddrwydd ei gymmeriad y fath, fel nas gall ddywedyd celwydd. Y ffaith fod Duw yn ddigelwyddog—ei bod yn naturiol iddo bob amser ddywedyd y gwir, ac na ddichon i amgylchiadau byth ddygwydd yn y rhai y bydd iddo gilio oddi wrtho—yw sail ein holl obeithion am iachawdwriaeth.

DIGOFAINT: teimlad cyffrous yn y meddwl yn codi oddi ar fod un wedi derbyn niwed neu gamwri; neu weithiau, oddi ar dybied fod un wedi derbyn cam: yn gyffredin, y mae yn ei ganlyn awydd i ymddial, neu i fynu iawn gan y blaid fyddo wedi troseddu. Y mae, pa fodd bynag, yn amrywio, o ran graddau ei danbeidrwydd; ac yn y meddwl haelfrydig, didwyll, ei radd uchaf, o bosibl, fydd tuedd i roddi cerydd ysgafn i'r troseddwr. Cyffroir y meddwl i ddigofaint hefyd pan y gwneir cam â châr neu gyfaill; ac i ryw raddau, y mae dyn yn cael ei gynhyrfu iddo yn yr olwg ar ymddygiad anghyfiawn, creulawn, neu ormesol tuag at bersonau nad oes un berthynas uniongyrchol rhyngddo â hwy, neu ynte pan yr ymosodir ar fawnderau y gymdeithas y mae efe yn aelod o honi. Mae hwn yn deimlad naturiol yn meddwl dyn, heb fod mewn un modd yn bechadurus ynddo ei hun, ond wedi ei fwriadu gan Awdwr doeth a da ein natur er mwyn cyrhaedd rhyw amcanion penodol yn yr amgylchiadau neillduol yr ydym wedi ein gosod ynddynt. Ond yn gymmaint ag mai daioni perffaith yn y Duwdod yw yr egwyddor a fu yn achos o greadigaeth pob peth yn y dechreu, ac sydd hefyd yn cynnal pob peth yr awr hon; ac hefyd, os ydyw yn wir mai caredigrwydd ac ewyllys da cyffredinol yw deddf fawr yr holl greadigaeth foesol, y mae y cwestiwn yn ymgynnyg i'r meddwl, pa ham y planwyd mewn dyn egwyddor sydd yn ymddangos fel yn hollol groes i ewyllys da. Y ffordd i ateb hwn, fel pob cwestiwn arall o'r un dosbarth yw, cymmeryd y natur ddynol fel y mae, a'r amgylchiadau yn mha rai y gosodwyd dynion fel y maent hwythau; ac yna, ystyried fel y mae y natur hono a'r amgylchiadau hyny y naill yn cyfateb i'r llall; neu, i ba fath ymddygiad gyda golwg ar yr amgylchiadau hyny y mae unrhyw deimlad neillduol yn ein harwain. Y pwnc i'w ystyried yw, nid pa ham na chawsem ein cynnysgaethu â'r fath natur, a'n gosod yn y fath amgylchiadau, fel ag i gau allan yr angenrheidrwydd am deimlad mor llym a chyffrous a digofaint; ond, gan gymmeryd ein natur a'n sefyllfa fel y maent, ymofyn pa ham y cynnysgaethwyd ni â theimlad fel hwn; a hyny, yn benaf, er mwyn dangos pa bryd y mae yn cael ei gamddefnyddio.

Dylid gwahaniaethu rhwng dig a chasineb, pa mor debyg bynag y dichon i'r naill ymddangos i'r llall. Nid yw yn ymddangos fod "y rhai gynt"

Digitized by Google

yn gweled dim i'w anghymmeradwyo mewn casineb mwy nag mewn ewyllys da, pan y dywedent "câr dy gymmydog, a chasâ dy elyn:" yn ol cyfundrefn fel hyn o foesau, ein gelyn yw gwrthddrych naturiol un o'r teimladau hyn, fel y mae ein cymmydog yn wrthddrych naturiol i'r llall. Ond nis gall hyn fod yn gywir; o blegid y mae casineb, malais, a dial, yn gwbl groes i grefydd Iesu Grist, ac yn hollol groes hefyd i natur y peth ei hunan. Nis gall fod un teimlad a blanwyd yn ein natur gan Dduw yn ddrwg ynddo ei hun; ond eto, y mae dynion yn fynych yn rhoddi y ffrwyn i deimlad naturiol i'r fath raddau nes ei ddyfod yn rhywbeth hollol wahanol i'r hyn ydoedd yn y dechreu, fel rhan o'n cyfansoddiad. Yn y modd yma yn neillduol y mae malais ac ymddial yn cymmeryd achlysur oddi wrth y teimlad naturiol o ddigofaint. Mewn trefn i weled pa beth yw y teimlad yma ynddo ei hun, fel y gosodwyd ef ynom gan Awdwr ein natur, y mae yn angenrheidiol ei olrhain i'w darddiad; ac oddi wrth hyny, fe welir yn eglur beth oedd dyben ei blaniad ynom.

Rhenir digofaint gan yr esgob Butler i ddau fath—y brysiog a'r sydyn, yn nghyd â'r pwyllog, tawel, ac arosol. Weithiau, gelwir y cyntaf yn ddig yn unig, ac yn fynych teimlad neu nwyd; yr hwn, er ei fod yn air cyffredin, a gyfyngir yn fynych i'r teimlad penodol hwn—dig sydyn, fel y mae i'w wahaniaethu oddi wrth ddigofaint pwyllog, parhaol—malais ac ymddial. Ystyrir yn wastad fod pob un o'r geiriau yna yn golygu rhywbeth drygionus; rhywbeth afresymol o ran yr hyn a achlysurodd y teimlad, neu anghymmedrol o ran y gradd neu ynte o ran y parhad o hono. Ond oddi wrth eiriau Paul, "Digiwch, ac na phechwch" (*Eph.* iv. 26), y mae yn eglur nad yw y teimlad ei hun na drwg na da. Er nad yw y geiriau mewn un modd yn cynnwys cefnogaeth i roddi y ffrwyn i deimlad digofus, gan mai yr ystyr yn ddiau yw, er digio o honom, na phechom; eto, y mae yn amlwg fod yma wahaniaeth yn cael ei wneyd rhwng dig a phechod —rhwng y teimlad naturiol a digofaint pechadurus.

Nid yw digofaint sydyn yn fynych yn ddim ond greddf—yn gymmaint felly ag yw y duedd i gau y llygaid pan y byddwn yn tybied fod rhywbeth ar syrthio iddynt. Nid yw yn golygu y gallu i roddi un rheswm drosto ei hun, mwy na greddf. Yn hyn, y mae yn gwahaniaethu oddi wrth y digofaint pwyllog a thawel. Y mae yn wir y dichon i'r cyntaf, fel y diweddaf, gael ei achosi gan gamwri neu ddiystyrwch: yn yr amgylchiadau hyn, y mae y rheswm yn galw sylw y meddwl at y cam neu y diystyrwch sydd yn achlysuro y teimlad: ond mor bell ag y mae y digofaint sydyn i'w wahaniaethu oddi wrth y pwyllog a'r tawel, nid oes un rheswm i'w roddi drosto ef pan y cymmer le. Yr unig ffordd trwy ba un y gall y rheswm neu y deall beri digofaint yw, gosod ger bron y meddwl anghyfiawnder neu gamwri o ryw fath neu gilydd. Ond am y digofaint sydd yn parhau dros fynyd awr, nid yn unig fe'i cyffroir yn fynych heb reswm gwirioneddol, ond hefyd heb gymmaint a rheswm ymddangosiadol; hyny yw, heb un ymddangosiad o gamwri, fel y mae i'w wahaniaethu oddi wrth niwed neu boen. Nis gellir meddwl mai rheswm sydd yn achos o'r nwyd yma, fel yr amlygir hi mewn babanod, yn y rhywogaeth isaf o anifeiliaid, ac mewn dynion yn eu hymddygiadau tuag at anifeiliaid: yn yr amgylchiadau hyn, cyffro a theimlad, ac nid rheswm, yw yr achos o'r teimlad. Cyffroir y nwyd yn naturiol gan wrthwynebiad, niwed sydyn, ac mewn lluaws o amgylchiadau ni feddylir gymmaint ag unwaith am ddrwghaeddiant neu fai yr hwn sydd yn gwneyd y niwed neu yn achos o'r gwrthwynebiad.

Y rheswm a'r dyben pa ham y gwnaed dyn fel hyn yn agored i'r teimlad yma yw, fel y byddai yn fwy cymhwys i attal, ac hefyd (neu yn benaf, efallai), i wrthwynebu a gorchfygu ymosodiad sydyn, trais, a gwrthwynebiad, a'u hystyried yn unig fel y cyfryw, heb un olwg ar fai neu ddrwghaeddiant yr hwn sydd yn achos o honynt. Eto, gan y gellir ystyried trais yn yr ystyr pellach o fai, a chan y dichon i gamwri, fel y mae i'w wahaniaethu oddi wrth niwed, gynnyrchu digofaint sydyn; felly fe all y digofaint hwnw, yn achlysurol, wasanaethu i attal neu i wella y cyfryw fai neu niwed. Ond wrth ei ystyried ar wahân oddi wrth ddig arosol, y mae wedi ei osod ynom er mwyn hunan-amddiffyniad, ac nid er mwyn gweinyddu cyfiawnder. Y mae yn eglur fod rhai amgylchiadau—a dygwyddant yn bur fynych mewn gwledydd anwareiddiedig, lle nad oes llywodraeth reolaidd wedi ei ffurfio—pan y byddai aros yn llonydd yn sicr o arwain i ddinystr buan; yn y cyfryw amgylchiadau, gwrthwynebiad sydyn yn unig a all sicrhau diogelwch.

Ond y mae digofaint pwyllog yn hanfodol wahanol i hwn. Nid yw yn cael ei gyffroi gan, nac wedi ei fwriadu er mwyn attal niwed noeth, heb ymddangosiad o gamwri neu anghyfiawnder. I'r dyben o weled, mor agos ag y mae yn bosibl, beth ydyw gwrthddrych naturiol ac achlysurol digofaint o'r fath yma, meddyliwn pa fodd yr effeithir arnom pan yn darllen chwedl, ffugiol efallai, am ryw greulondeb gwarthus, wedi ei chyfansoddi yn bwrpasol i'r dyben o gyffwrdd â'n teimladau. Y mae hyn yn y fan yn cyffroi digllonedd, gyda rhyw ddymuniad am i'r creulondeb gael ei gospi; ac er i'r niwed oedd mewn golwg gael ei attal, y mae ei fod wedi ei fwriadu yn unig yn ddigon i beri y teimlad hwn o'n mewn. Pe tybid fod y chwedl yn wir, byddai y teimlad yr un mor naturiol ac mor gyfiawn; a gellid dyweyd nad oes odid ddyn yn y byd na theimla fel hyn ar rai achlysuron. Ymddengys yn eglur fel wedi ei gyssylltu ynom â theimlad o dda a drwg moesol. Pe tybid yn mhellach ein bod yn adnabod y dyn a wnaeth, a'r dyn a ddyoddefodd y cam, ni wnai hyn chwaith un gwahaniaeth, oddi eithr, efallai, yr effeithiai yn fwy arnom o blegid hyny. Nid casineb na malais mewn un modd yw y digllonedd hwn y mae dynion heb fod a fynont yn bersonol â'r achos yn ei deimlo tuag at greulondeb ac anghyfiawnder; ond un o'r rhwymau cyffredinol sydd yn dal cymdeithas wrth ei gilydd yw—teimlad caruaidd y mae pob un yn ei goledd o ofal am yr holl hil, yn gystal ag am dano ei hun; ac, a siarad yn gyffredinol, nid yw yn ymddangos fod y teimlad hwn yn rhy uchel yn mhlith dynolryw. Pe meddylid fod y cam wedi ei wneyd â ni ein hunain, neu y rhai yr ydym yn edrych arnynt fel ni ein hunain, y mae yn eglur mai yr un fyddai natur yr effaith a gai arnom, er ei bod yn sicr y byddai yn uwch mewn graddau, ac yn llai diflanedig, yn gymmaint a bod y teimlad o'n dedwyddwch a'n trueni ein hunain yn fwy agos atom, ac yn wastad yn bresennol i ni: ac oddi wrth gyfansoddiad ein natur, nis gallwn lai na theimlo mwy o ddyddordeb yn y pethau a berthynant i ni ein hunain: ac ymddengys mai hyn

yw yr oll o'r teimlad yma, yr hwn, a llefaru yn briodol, sydd naturiol i bob dyn; sef, digofaint yn erbyn cam a drygioni yn gyffredinol, a hyny i raddau pellach, pan y gwneir y cam â ni ein hunain, yn ol fel y mae gofal dynion am danynt eu hunain yn fwy nag am ereill. Oddi wrth hyn, y mae yn ymddangos mai drwg moesol, ac nid drwg naturiol; nid poen, ond anghyfiawnder, sydd yn peri y digofaint y mae dim parhad ynddo. Gwrthddrych naturiol y digofaint yw, nid yr hwn y bydd y neb sydd yn dyoddef yn edrych arno fel achlysur diniwed y boen neu y golled sydd wedi dygwydd iddo, ond yn hytrach yr hwn a fu yn achos o niwed i ni ein hunain neu i ereill mewn ystyr moesol. Ceir prawf chwanegol fod y teimlad o anghyfiawnder a chamwri yn hanfodol iddo, pe yr ystyrid yr amgylchiadau dan ba rai mae y teimlad bob amser yn cael ei ddwyshau. Am hyny, gan mai gwrthddrych naturiol digofaint arosol yw camwri, ar wahân oddi wrth boen neu golled, y mae yn hawdd gweled mai yr amcan er mwyn yr hwn y planwyd y teimlad hwn mewn dyn ydyw, attal a meddyginiaethu y camwri hwnw, yn nghyd â'r trueni sydd yn ei ddilyn. Arf ydyw, a roddodd Duw yn ein dwylaw, i wrthwynebu camwri, anghyfiawnder, a chreulondeb. Gwelir, gan hyny, oddi wrth yr hyn sydd wedi ei ddyweyd, mai y gwahaniaeth rhwng y ddau fath yma o ddigofaint—y sydyn a'r pwyllog—ydyw hyn, Nid yw y cyntaf yn golygu ein bod wedi derbyn cam; ond y mae y diweddaf yn golygu hyny. Mae y cyntaf yn cyffroi cyn bod genym amser i feddwl dim, ac yn gwrthwynebu pob trais a niwed; y mae y diweddaf yn cynneu gyda gwres parhaus yn erbyn camwedd ac anghyfiawnder. Greddf yw y cyntaf a blanwyd i ddiogelu rhag niwed corfforol: teimlad moesol yw yr olaf, wedi ei roddi er mwyn gwrthwynebu anghyfiawnder. Y mae anifeiliaid yn cyfrancgi o'r blaenaf; i ddyn yn neillduol y perthyn yr olaf.

Dyna yn ddiau yw yr olwg iawn ar ddigofaint, fel teimlad naturiol, pan heb ei gryfhau trwy roddi gormod o ffrwyn iddo, na chyfyngu arno trwy hunan-ymwadiad, na chwaith ei orchfygu gan deimladau ereill, neu rai o arferion neillduol bywyd. Y mae yn amlwg nad yw y sylwadau yma yn perthyn dim i'r rhai hyny sydd o herwydd rhyw amcanion wedi gorchfygu eu teimladau, neu ynte trwy arferion ffol a llygredig wedi cyfnewid eu natur.

Mewn perthynas i'r camddefnydd o'r teimlad naturiol hwn, y mae yn fynych i'w weled mewn llawer o amgylchiadau. Weithiau, y tu allan, yn yr hyn a elwir natur ddrwg; i'r hyn y mae rhai dynion mor dueddol ag ydyw ereill i gael ymosod arnynt gan ryw glefyd corfforol y maent yn dueddol iddo. Ymesyd yr anhwyldeb meddyliol yma arnynt ar yr achlysur lleiaf, ac heb reswm yn y byd, a phâr eu bod, bob awr o'u hoes, mewn perygl o redeg i'r eithaflon mwyaf niweidiol. Llai trystfawr, ond nid llai diniwed, yw anniddigrwydd; yr hwn sydd yn gyfryw ag y dylai y creaduriaid anffodus sydd, o herwydd sefyllfa israddol, neu ryw amgylchiadau ereill, yn sefyll yn ei ffordd, ac yn dyoddef oddi wrth y rhai y meddiennir ef ganddynt, fod yn wrthddrychau y tosturi mwyaf. Yr un egwyddor, fe ellid meddwl, yw hon a'r llall; ond am ei bod wedi gwreiddio mewn meddyliau o gyfansoddiad gwahanol, y mae yn ymddangos i ni yn wahanol, ac yn dyfod i gael ei dynodi wrth enwau gwahanol. Yr hyn, mewn meddwl gwanaidd, sydd yn anniddigrwydd, ac yn ymdywallt yn llesg a nychlyd ar bob peth a ddaw yn ei ffordd—y mae hwn, mewn meddwl mwy galluog, yn myned yn gynddaredd. Yn y naill amgylchiad, y mae y nwyd yn ymdywallt ar unwaith; yn y llall, y mae yn gwneyd hyny o hyd. Y prif amgylchiadau o gamddefnydd o ddig arosol a phwyllog yw, pan y mae pleidgarwch i ni ein hunain yn peri ein bod yn tybied i ni dderbyn cam pan na bydd hyny yn bod; pan y mae y pleidgarwch hwn yn ei arddangos i ni fel yn fwy nag y mae mewn gwirionedd; pan yr ydym yn ymdawelu mewn digofaint afresymol a gwarthus tuag at un nad ydyw wedi bod yn ddim ond achlysur diniwed o ddrwg i ni; hyny yw, digofaint o herwydd poen neu anghyfleusdra, heb fod un camwri yn nglŷn â hyny, yr hyn sydd mor ffol a direswm a phe coleddid dig parhaus tuag at rywbeth difywyd; pan y mae y digder o blegid camwedd neu anghyfiawnder yn ymgodi yn rhy uchel—yn myned yn fwy na chyfatebol i'r weithred sydd mewn golwg ganddo, neu ynte pan y gweinyddir poen neu niwed heb un amcan uwch na boddio y teimlad digofus, er i hwnw fod wedi ei gyffroi yn naturiol. Gellid nodi hefyd y penderfyniad meddwl a amlygir weithiau i beidio derbyn prawf nad oes un rheswm dros deimlo yn ddigofus—fod y niwed wedi dygwydd trwy gamsyniad neu gamddealltwriaeth. Y mae yn hyn yn ddiammheu lawer o gymmysgedd o falchder ystyfnig, os nad o rywbeth mwy. Ond er pob camddefnydd a wneir o hono, y mae y teimlad ynddo ei hun yn dda. Y mae yn hanfodol i fywyd cymdeithas fod camwri, anghyfiawnder, a chreulondeb, yn cael eu cospi; a chan fod tuedd mewn tosturi—yr hwn sydd mor naturiol i'r natur ddynol—i beri y byddai gweinyddu cyfiawnder yn dra anhawdd ac anhyfryd, y mae digofaint yn erbyn llygredigaeth a drygioni yn rhywbeth sydd yn gorbwyso y gwendid tyner hwnw, yn gystal a phob peth a fynai attal y llymder angenrheidiol er sicrhau cefnogaeth i rinwedd, mewn achosion ag y mae llymder yn hollol angenrheidiol. Pe tybid fod dyn yn euog o lofruddiaeth, neu ryw weithred greulawn arall, ac eto dynion yn naturiol heb deimlo dig tuag at y cyfryw weithred, na'r hwn a'i cyflawnodd, ond pawb yn edrych ar y troseddwr fel ar y diniwed, fe barai tosturi, yn mhlith pethau ereill, fod gweinyddu cyfiawnder yn beth tra anhawdd ac anhyfryd; ac yn fynych, fe attaliai hyny yn lân: ac er y gwedir yr egwyddor o haelfrydedd, neu ewyllys da, o gwbl gan rai, ac er ei bod yn wir yn bur isel, a bod dynion heb ofalu nemawr am ddedwyddwch eu cydgreaduriaid, eto nid ydynt yn ddiofal am eu trueni, ond effeithir yn fawr arnynt ganddo, fel y mae yn amlwg fod lle i'r teimlad hwnw a gynnyrchir gan yr olaf gan fai neu ddrwg haeddiant, fel ag i orbwyso tynerwch neu dosturi.

Y mae y dylanwad daionus y mae y teimlad yma yn ei gael ar amgylchiadau dynion yn y byd, i'w weled yn amlwg. Cedwir dynion rhag niweidio eu cydgreaduriaid gan ofn eu digio, ac y mae hyny yn dda, pan na bydd cariad at rinwedd ynddo ei hun yn ddigon i roddi attalfa arnynt; ac heb law hyny, y mae lle i ofni na byddai ystyriaeth bwyllog a thawel fod diogelwch cymdeithas yn gofyn hyny bob amser yn ddigon o gymhelliad i gospi troseddwr, pan y bydd trosedd wedi ei gyflawnu, oni bai fod yr ystyriaeth hono yn cael ei chefnogi gan y teimlad naturiol o ddigofaint yn erbyn y bai, a'r hwn a'i cyflawnodd,

Digitized by Google

Rhaid ystyried hyn fel effaith ddaionus, pa mor ddymunol bynag y dichon iddi fod i ddynion weithredu oddi ar egwyddor well, a chymmeryd eu harwain gan reswm pwyllog yn unig. Y mae yn wir mai wedi ei gario allan i eithafion pechadurus yr ydym ni yn fwyaf cydnabyddus â digter mewn dynion; ond eto y mae y teimlad hwn, oddi wrth yr hwn y cymmer dynion achlysur i redeg i'r pechodau ofnadwy o falais ac ymddial—y mae hwnw, fel y planwyd ef yn ei natur gan Dduw, nid yn unig yn ddiniwed, ond yn deimlad rhinweddol o eiddo y meddwl. Ynddo ei hun, ac yn ei darddiad, nid yw yn ddim mwy nag anfoddlonrwydd tuag at gamwedd a drygioni; yr hyn yw yr unig beth sydd allan o'i le yn y greadigaeth, a'r unig beth y mae yn rhesymol ei ddirmygu a'i gasau. Dyma yw digofaint y dyn duwiol, pan y mae, fel y cawn rai esamplau yn y Beibl, megys yn amgylchiad Moses a Phineas, yn codi oddi ar feddwl eiddigeddus dros ogoniant Duw ac anrhydedd ei achos: *Exod.* xi. 8; xxxii. 26; *Num.* xxv. 11.

Digofaint fel yma, ond ei fod yn gwbl rydd oddi wrth bob gwendid pechadurus oedd yn nglŷn â'r teimlad yn y dynion goreu, ar eu hamserau goreu, oedd digofaint yr Arglwydd Iesu Grist: *Marc* iii. 5. Mor bell ag y mae yn debyg i'w eiddo ef mewn dynion, y mae yn dda; ac er mai pechod yw peidio digio yn gyfiawn ac yn sanctaidd, eto digofaint pechadurus yw hwnw sydd yn codi oddi ar rywbeth heb law cariad at Dduw, pa un bynag ai balchder, hunan-gariad, neu gasineb at ein cymmydog.

DIGOFAINT DUW.

Y mae yn Nuw ddigofaint; mynych y mae ei air yn son am dano, ac ynddo ef y mae yn anfeidrol bur, yn cydhanfodi â daioni a thrugaredd anfeidrol. Y mae Nahum yn dechreu ei brophwydoliaeth (*pen.* i. 2) gyda dysgrifiad o ddigofaint Duw—"Duw sydd eiddigus, a'r Arglwydd sydd yn dial; yr Arglwydd sydd yn dial ac yn perchen llid; dial yr Arglwydd ar ei wrthwynebwyr, a dal dig y mae efe i'w elynion." Weithiau, ymddengys fel yn son am ddial fel peth priodol iddo ef ei hun: "Myfi biau dial; myfi a dalaf." "Llid a digofaint, trallod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg." Darllenwn am dano yn cuddio pechod, gan ei selio yn mysg ei drysorau; yn dysgwyl dydd taledigaeth; yn hogi ei gleddyf dysglaer; yn parotoi ei fwa, ac yn trefnu ei saethau; yn ymgysuro ar ei wrthwynebwyr, ac yn ymddial ar ei elynion—ymadroddion sydd yn golygu ei fod fel yn ymlonyddu mewn dial ar ei elynion. Os tybir, medd John Howe, fod ymadroddion fel yma yn cynnwys rhywbeth nad yw yn perthyn i'r natur ddwyfol, neu rywbeth anghysson â'r amlygiadau o drugaredd, tynerwch, a thosturi, a roddir o honi, ystyrier yn gyntaf, beth y mae yn rhaid i ni addef yw ystyr y cyfryw ymadroddion; ac hefyd, pa mor dda y mae hyny yn cytuno â syniad iawn am Dduw. Gyda golwg ar y peth cyntaf, nid yw yn angenrheidiol tybied fod dim mwy, ac ymddengys hefyd y rhaid i ni dybied nad oes dim llai yn cael ei olygu trwy y cyfryw ymadroddion nag ewyllys sefydlog, dawel, benderfynol, rydd oddi wrth nwydau, i gospi pechod, mor bell ag y mae hyny yn angenrheidiol er dwyn oddi amgylch amcanion ei lywodraeth. Eu bod yn golygu ewyllys i gospi sydd amlwg, o herwydd y maent yn amlygiadau diammheuol o ddigofaint, ac nis gellir dywedyd dim tynerach am ddigofaint nag mai ewyllys i gospi ydyw. Nis gall olygu cosp heb yr ewyllys hono; o blegid er fod y gair llid neu ddigofaint yn cael ei arfer yn y Beibl am y gosp ei hunan, eto, hyd yn oed y pryd hwnw, y mae yr ewyllys hono yn cael ei chymmeryd yn ganiataol; pe amgen ni byddai yr hyn a elwir cosp yn ddim ond damwain, wedi dygwydd yn hollol ddifwriad; ac os felly, nid cospedigaeth a fyddai. Llawer llai y gellir edrych ar y gair fel dadganiad Duw o'i ewyllys i gospi, ar wahân oddi wrth yr ewyllys hono ei hunan; o herwydd, os caniatawn ei fod yn dadganiad gwirioneddol, nis gall fod yn ddadganiad o ddim. os nad yw Duw yn meddu rhywbeth yn cyfateb iddo; sef, yr ewyllys a ddadgenir trwyddo. Y mae yn ewyllys rydd oddi wrth bob nwydau, heb ddim aflonyddwch neu gyffro meddwl yn nglŷn â hi; y mae ynddi gyssondeb hefyd gyda golwg ar bob achlysur yn mha un y mae cyssegredigrwydd y llywodraeth ddwyfol yn cael ei ddianrhydeddu, a chosp yn cael ei ofyn fel iawn. Nid oes ynddi chwaith un cyfnewidiad pellach na'r hyn y gallwn dybied sydd yn gynnwysedig mewn edrych ar yr un gwrthddrych mewn gwahanol agweddau, megys wedi myned heibio, yn bresennol, neu ynte yn y dyfodol, ac yn cael edrych arno o'r blaen gyda bwriad, ac wedi hyny gyda chymmeradwyaeth parhaus. Y mae perffeithrwydd y natur ddwyfol, nid yn unig yn caniatau, ond yn gofyn hyn. O blegid y mae rheswm yn deall ac yn cydnabod fod ansawdd meddwl pwyllog, tawel, cysson, a phenderfynol o'r fath yma yn rhagoriaeth yn mhob ynad. O herwydd hyn y dywed un hynod yn mhlith ysgrifenwyr paganaidd, y dylai barnwyr fod yn *legum similes*=yn gyffelyb i'r deddfau eu hunain, y rhai na chyffroir mo honynt gan un nwyd; bob amser yn anhyblyg:—a pha le y gellir cael y rhagoriaeth yna yn ei berffeithrwydd uchaf ond yn Nuw ei hunan? Hefyd, gallwn yn hawdd ganiatau ei bod yn ewyllys sydd yn ymlonyddu gyda chymmeradwyaeth yn yr hyn a ewyllysir ganddi, os ystyriwn beth yw hyny; sef, diogelu urddas ac anrhydedd ei lywodraeth oruchel ef. Yn wir, y mae ymfoddhau yn unig mewn poen neu drueni yn deimlad mor annaturiol fel y mae yn rhyfedd ei fod i'w gael yn unman; a phan y mae yn ymddangos fel yn cael ei goledd gan rai dynion—yr hyn yn wir sydd wirionedd am y rhai mwyaf anghenfilaidd eu hysbryd—eto, mewn lluaws o amgylchiadau (y rhai ydynt, y mae yn sicr, yn feius iawn hefyd), efallai y gellir camgymmeryd gwir natur yr achos. O bosibl nad poen y person fydd yn dyoddef ynddo ei hun yw yr achos o'r pleser, ond yn unig mor bell ag y mae yn brawf o ragoriaeth neu uchafiaeth y llall, yn yr hyn y mae efe yn ymfalchïo, yn enwedig os bu yn ammheu ei awdurdod o'r blaen, neu os bu dadl yn ei gylch, oedd hyd yma heb ei phenderfynu. Yn yr achos yma, teimlir llawenydd dirgel yn mynwes y blaid uchaf, am ei fod yn cael ei waredu oddi wrth yr ofn poenus y dichon iddo dderbyn yr un driniaeth ei hunan; ac yn gymmaint a'i fod yn ei hystyried yn ddiraddiad arno ef i'r llall, neu edrych mor isel a darostwng cymmaint arno fel ag i dybied neu obeithio ynddo ei hun y gallai efe brofi mai efe ydoedd y cryfaf; cymmerir hyfrydwch yn awr mewn gadael iddo deimlo prawf mor eglur o'i gamsyniad.

Ond yr hyn y mae yn rhaid i ni feddwl am dano fel yr hyn y mae y Duw bendigedig yn ymfoddloni ynddo wrth gospi yw, y rhesymoldeb a'r uniondeb sydd mewn bod hawliau cyssegredig ei lywodraeth ef dros y byd; ac hefyd mewn trefn i roddi ar ddeall mor anghydnaws â'i natur ef yw pob peth anmhur: ac nis gall yr hyn sydd ynddo

Digitized by Google

ei hun mor briodol beidio bod yn foddlawn yn ei olwg ef. Y mae yn tragywyddol ymddigrifo yn rhesymoldeb a chymhwysder ei arfaethau a'i weithredoedd ei hun, ac ymlawenha yn ngwaith ei ddwylaw, fel y maent yn cyfateb i'r cynlluniau tragwyddol a ffurfiwyd ganddo yn ei feddwl anfeidrol ddoeth a chynnwysfawr ei hun; fel, er nad yw yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol, ac nad oes hyfrydwch ganddo yn ngofldiau ei greaduriaid trallodedig—yr hyn y mae ei ddaioni mawr yn ei dueddu yn hytrach i edrych arno gyda thosturi—eto, y mae gwir ddybenion cospedigaeth yn ddaioni cymmaint mwy na'u hesmwythdra hwy a'u diangfa rhag y dyoddef y maent wedi ei haeddu, fel y mae yn rhaid dewis y dybenion hyny yn hytrach; ac nis gellir edrych arnynt fel yn fwy dewisol o herwydd un rheswm, ond hwnw sydd yn peri eu bod hefyd yn gyfryw ag y gellir ymfoddhau ynddynt; sef y daioni gwirioneddol, a'r amcanion goruchel sydd yn hanfodol ynddynt. O herwydd hyn, sonir weithiau am weinyddiad cyfiawn yr ewyllys ddwyfol yn nghospedigaeth troseddwyr fel amser o lawenydd, ie, fel aberth cymmeradwy, âg arogl peraidd a hyfryd yn perthyn iddo. Ond yn gymmaint a bod rhai o'r ymadroddion uchod yn ymddangos fel yn gosod allan hyfrydwch mewn boddhau nwyd greulawn a dialgar, fe ddylid ystyried fod y pethau a ysgrifenir er rhybudd i ddynion cnawdol, ynfyd, ac ystyfnig, i'w cyfaddasu i ryw fesur i'w dirnadaeth bwl hwy am bethau nad ydynt eto yn eu gweled nac yn eu teimlo. I'r dyben hwn, weithiau yr hyn a ddygir ger bron yw, dyn galluog, digofus; am fod arddangosiad felly o ddigofaint yn fwy priodol i beri ofn ar feddyliau anghoeth, isel, na dwyn eu sylw at weithrediadau pwyllog, tawel, barnwr yn gweinyddu cyflawnder; yn gymmaint a'i bod yn angenrheidiol iawn cyfaddasu ymadroddion at y person y lleferir wrtho, er na byddant yn cyfateb yn llawn i'r peth y bwriedir ei lefaru.

Am hyny, gan mai hyn yw y cyfan, y mae genym un rheswm i dybied ei fod yn cael ei ddeall mewn ymadroddion Ysgrythyrol o'r fath ag a nodwyd uchod, sef ewyllys gadarn, dawel, i ddiogelu y llywodraeth ddwyfol rhag pob dianrhydedd, trwy weinyddu cosp ddyladwy am bob sarhad a deflir arni; ac ewyllys hefyd sydd yn ymddigrifo ynddi ei hunan, neu yn ymfoddloni yn mhriodoldeb neu gymhwysder ei phenderfyniad neu ei bwriad ei hunan: am hyny, nid oes yn hyn ddim annheilwng o Dduw; nid oes ynddo ddim anghysson â'i berffeithiau ereill, na chwaith ddim nad yw yn syniad o Fod perffaith yn mhob ystyr—yn ei ofyn fel peth ag y mae yn anmhosibl iddo fod yn gyflawn hebddo. O herwydd, os byddwn yn meddwl am fod felly, fel pen-arglwydd a rheolwr penaf y byd, byddai y syniad am dano yn anmherffaith iawn pe y cymmerid o hono yr ewyllys yma i gospi. O herwydd pe ffurfid y fath ddrychfeddwl am dywysog fel ag i gau allan y dueddfryd i gospi troseddwyr, teimlai pawb yn y fan fod ynddo ddiffyg hanfodol. Nid ystyriai neb ei bod yn ddim canmoliaeth i lywodraethwr i ddweyd am dano ei fod o natur mor hynaws fel ag i oddef i bawb wneyd yr hyn a fyddai da yn ei olwg ei hun; os taflai rhywun sarhad arno, ni theimlai yn ddig o herwydd hyny; cyfranai ei ffafrau i bawb yn ddiwahaniaeth; edrychai gyda chymmaint o gymmeradwyaeth ar y rhai a ddiystyrent ei awdurdod, a ymosodent ar ei iawnderau, ac a ymdrechent ddadymchwel ei lywodraeth, ag ar y rhai manylaf eu hufudd-dod i'w ddeddfau, a mwyaf ymlyngar wrth ei achos. Byddai yr hwn a dyngai ei fod yn elyn iddo yr un mor ddiogel a'r deiliad ffyddlonaf a mwyaf teyrngarol. Yn hytrach na bod yn ganmoliaeth i dywysog, ni byddai hyn yn mryd pawb ond prawf o anghymhwysder hollol i ddal teyrnwialen. Nid yn unig fe ddichon i ddaioni perffaith gydhanfodi â doethineb, cyflawnder, a gwirionedd; ond y mae yn anmhosibl iddo fod heb y pethau hyny. Y mae gwahanol ragoriaethau meddwl coethedig yn cytuno i wneyd un cyfanwaith digoll, a'r naill yn adlewyrchu ar y llall, nes chwanegu dysgleirdeb y cyfan; ond y mae perffeithiau y natur ddwyfol yn llawer mwy felly. Ond gymmaint yn rhy isel yw ein meddyliau uchaf ni am yr Anfeidrol, fel yr ydym yn pallu pan y byddwn yn fwyaf difrifol yn ymdrechu llefaru a meddwl yn fwyaf teilwng am Dduw, ac yn y modd mwyaf cymhwys i'w ragorol fawredd ef.—(*Butler's Sermons; Howe's Works.*)

DIGRED: di-ffydd, anghredadyn: 1 *Cor.* vi. 6; vii. 12; x. 27; xiv. 22, 23; 2 *Cor.* iv. 4; vi. 14; *Dad.* xxi. 8. Gwel ANGHREDINIAETH; IAU.

DIHALOG—EDIG: pur, glân, sanctaidd. Dyna y fath berson ydyw Crist fel archoffeiriad; "sanctaidd, diddrwg, *dihalog;*" *Heb.* vii. 26. Ystyr y gair Groeg (*ἀμίαντος*), a gyfieithir *dihalog* yn yr adnod hon, ydyw "dianaf," "heb un anmherffeithrwydd corfforol." Un felly yw Crist mewn ystyr foesol. "Heb ddim yn isel, gwael, neu anaddas yn ei ymddygiad."—*Clarke.* Tra y bu yma ar y ddaiar, ni lychwinwyd ef gan bechod —yr oedd "yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd." Y mae pechod bob amser yn llygru yr enaid, ond yr oedd yr Arglwydd Iesu yn rhydd oddi wrth bob llygredd o'r fath. Y mae Crist yn galw ei eglwys, "Fy *nihalog;*" *Can.* v. 2. Heb., תמתי= *fy mherffaith.* Y mae yr eglwys felly yn nghyfiawnder perffaith y Cyfryngwr; y mae wedi ei rhaglunio i fod yn berffaith yn arfaeth Duw; ac y mae yn dymuno ac yn ymdrechu yn barhaus am berffeithrwydd: *Phil.* iii. 8—14; *Rhuf.* viii. 29; *Col.* ii. 10. "Crefydd bur a *dihalogedig;*" *Iago* i. 27:—crefydd ddifrycheulyd; crefydd y gwel Duw ei bod yn bur a dihalog. Tybia Rosenmüller fod cyfeiriad yn y gair *dihalogedig* at berlau a gemau, y rhai a ddylent fod yn bur a difrychau. Y mae etifeddiaeth y saint yn y nef yn "anllygredig a *dihalogedig;*" 1 *Pedr* i. 4. Y meddwl ydyw y bydd yn etifeddiaeth bur. Ni bydd wedi ei hennill trwy anonestrwydd; ni bydd chwaith yn cael ei chadw trwy dwyll; ni bydd yn gyfryw ag a lygra yr enaid, neu a esyd y perchenog mewn profedigaeth i fyned yn afradlawn, anghymmedrol, cnawdol, ac yn drachwantus, fel y mae etifeddiaethau breision gyda ni yn fynych; ni bydd yn y mwynhad tragwyddol o honi ddim a duedda mewn un modd i lygru neu halogi y galon. "Pa sawl etifeddiaeth," meddai Benson, "a gafwyd trwy anghyfiawnder a thwyll; trwy wenwyno neu lofruddio y gwir etifedd mewn rhyw ffordd arall; trwy gamattal eiddo amddifaid digymhorth a diamddiffyn; trwy andwyo y weddw; trwy orthrymu cymmydogion; trwy wasgu y tlodion, a dwyn oddi arnynt eu gwisgoedd a'u gwinllanoedd! Ond ni ddifwynwyd etifeddiaeth ddyfodol y saint erioed âg un o'r llygredigaethau hyn; nid ydyw wedi ei hennill na'i chadw trwy un o'r ffyrdd uchod; ac ni bydd i bersonau wedi eu llygru â'r drygau hyn chwaith na rhan na chyfran ynddi."

Digitized by Google

DIHENYDD, [*hanu*]: dihaniad, diddeilliad, diddechreuad. "Yr Hen Ddihenydd;" *Dan.* vii. 9, 13, 22. Ni ddefnyddir yr ymadrodd ond yn y tri lle hyn. Y mae y gair gwreiddiol עתיק (*Ateec*) yn air Caldaeg, yr hwn a arwydda parhaol, neu arosol. Y cyfieithiadau cyffredin o'r ymadrodd ydyw y rhai canlynol:—Groeg, παλαιος ημερων =*Yr hen o ddyddiau*, yr hwn sydd yn debyg i'r Seisoneg, *Ancient of days.* Y mae cyfieithiad Calvin yn gyffelyb—*Antiquus* (*senex*) *dierum.* Y mae y proffeswr Bush yn dewis yn hytrach, *Permanent of days*, neu *Enduring of days*=Un parhaus neu arosol o ddyddiau. Deallir yr ymadrodd gan Wintle yn weithredol—"Yr hwn sydd yn gwneuthur y dyddiau yn hen;" ac o ganlyniad, yn barod i farw. Y mae yr ymadrodd yn cynnwys gwrthgyferbyniad rhwng cyfnewidioldeb teyrnasoedd a gorseddfeinciau y byd hwn, y rhai ydynt yn elynol i Dduw, ac anghyfnewidioldeb Duw a diysgogrwydd y deyrnas nad yw o'r byd hwn. Y mae rhai yn deall yr ymadrodd, "Hen Ddihenydd" am y Mab; "Crist, brenin a barnwr pawb, yr hwn a elwir yr Hen Ddihenydd ar gyfrif ei dragwyddol Dduwdod, heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes."—*Poole.* Yn mhlith y Diwygwyr, y mae Œcolampadius—yr hwn y mae ei esboniad ar *Daniel* yn cynnwys amlygiadau o gynneddfau uchel fel esboniwr—yn deall Crist, a'i fod yn cael ei alw wrth yr enwad hwn o herwydd ei fod yn Oen a laddwyd er cyn seiliad y byd. Ond y mae y cyffredinolrwydd o esbonwyr yn deall y Tad, ar wahân oddi wrth y Messïah. "Mab Duw, yr hwn a ddywedir ei fod yn debyg i 'Fab y dyn.'"—*Gill.* "Y tragwyddol Dduwdod ei hun."—*Calvin.* "Y Duw tragwyddol, yr hwn a hanfodai o dragwyddoldeb."—*Scott.* "Y Tad, yr Hen Ddihenydd, a roddes i'r Mab, fel Cyfryngwr, lywodraeth, gogoniant, a breniniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, a ieithoedd, ei wasanaethu: 'Ei lywodraeth sydd lywodraeth dragwyddol, yr hon nid â ymaith, a'i a'i freniniaeth ni ddyfethir.' Yr oedd gorseddfeinciau ereill, ond bwriwyd y rhai hyny i lawr; ac un 'megys Mab y dyn' a ddaeth at yr Hen Ddihenydd, ac a dderbyniodd y llywodraeth ganddo." — *Charles.* Ffurfir amrywiol farnau am amser cyflawniad y brophwydoliaeth, pan y bwrir i lawr y gorseddfeydd, ac yr eistedd yr Hen Ddihenydd (*Dan.* vii. 9), a phan y del Mab y dyn gyda chymylau y nefoedd, ac y daw at yr Hen Ddihenydd (*adn.* 13), yn unol â'r egwyddor gyffredinol a gymmerir i esbonio y llyfr wrthi. Yr oedd yr eglwys foreuol ac amryw o'r Diwygwyr yn edrych ar y prophwydoliaethau hyn fel wedi eu cyflawnu mewn amseroedd a fu; sef o dan ymherodraethau Babilon, Persia, Groeg, a Rhufain baganaidd; ac felly yn edrych ar y brophwydoliaeth am yr Hen Ddihenydd a dyfodiad Mab y dyn gyda chymylau y nef fel wedi ei chyflawnu yn esgyniad y Messïah i'r nefoedd ar ol ei adgyfodiad. Hyn yw esboniad Calvin:— "Dylem ystyried," eb efe, "yn y lle cyntaf, pa ham y dywedir fod yr *Hen Ddihenydd*, sef y Duw tragwyddol ei hun, *yn eistedd ar orseddfainc barn.* Gellid meddwl fod yr olygfa hon yn afreidiol, gan fod Duw wedi bod yn llywodraethu y byd er ei ddechreuad. Ond pan y mae yr Arglwydd fel yn ymguddio, trwy beidio rhoddi amlygiadau neillduol o hono ei hun fel llywodraethwr, y mae annuwiolion yn meddwl fod Duw wedi gadael y byd; ac y mae hyd yn oed y saint yn gofyn, 'Pa hyd, Arglwydd, y'm hanghofi? ai yn dragywydd?' *Salm* xiii. 1. Ond pan y rhydd amlygiadau neillduol o hono ei hun, dywedir ei 'fod yn parotoi ei orseddfainc i farn' (*Salm* ix. 7); a'i fod yn eistedd ar ei orseddfainc. Yna y mae Daniel yn dysgrifio, yn ol dull dynol, y parotoadau i farn, yn nghyd â chymhwysderau y barnwr. 'Yr oedd ei wisg cyn wyned a'r eira'—i ddangos ei gyfiawnder diwyrni; 'a gwallt ei ben fel gwlan pur'—i ddangos urddas a doethineb; dywedir fod 'olwynion ei orseddfainc yn dân poeth,' mewn cyfeiriad at yr olwynion a berthynent i orseddfeinciau breninoedd, ac i osod allan y cyflymdra gyda pha un y mae yr Arglwydd yn gweled ac yn barnu pob peth.' 'Afon danllyd oedd yn rhedeg, ac yn dyfod allan oddi ger ei fron, yr hon oedd yn gorlifo ac yn llosgi i fyny y tir.' 'Mil o filoedd a'i gwasanaethent ef;' sef gosgorddlu o angelion, y rhai ydynt yn barod i gyflawnu ei ewyllys, ac i adlewyrchu mawredd a gallu y brenin tragwyddol. 'Ac agorwyd y llyfrau;' hyny yw, y mae y dadguddiad o Dduw trwy ddyfodiad Crist i'r byd, a phregethiad yr efengyl, mewn cyferbyniad i'r awgrymiadau tywyll o hono yn flaenorol, fel agoriad llyfrau oedd o'r blaen yn gauedig." "At yr Hen Ddihenydd y daeth:" y mae Calvin yn gryf mai at esgyniad Crist i'r nefoedd y mae hyn yn cyfeirio, o herwydd mai y pryd hyny yr amlygwyd ei ogoniant. Y mae amryw o esbonwyr diweddar, er yn gwahaniaethu oddi wrth Calvin mewn rhai o'i olygiadau, eto yn cytuno âg ef mewn ereill. Fel y canlyn y dywed y proffeswr Bush:—"Y mae yn amlwg oddi wrth yr holl weledigaeth nad yw yn cyfeirio at 'y farn gyffredinol' sydd i fod yn niwedd y byd. Y mae y farn yn un leol, a'r neb sydd i'w barnu yw, nid holl ddynolryw, ond un gallu gormesol, erlidgar, eilunaddolgar, a chableddus, yr hwn a osodir allan trwy y bwystfil a'r corn bychan yn yr adnod flaenorol."—*Hierophant*, td. 109. A hyn hefyd y cytuna Faber. Fel y canlyn y llefara Bush am ddyfodiad Mab y dyn at yr Hen Ddihenydd:— "Wrth hyn y meddylir gosodiad Mab y dyn yn ei swydd fel Arglwydd pawb oll, a'i waith yn dechreu teyrnasu fel Cyfryngwr. Y prif ymofyniad yw, Pa bryd y gellir dyweyd i hyn gymmeryd lle? Y mae yr ateb yn amlwg, mai ar ei esgyniad i'r nefoedd y dechreuodd weinyddu ei swydd fel brenin ar ei eglwys, ac ar bob peth er mwyn ei eglwys......Y mae yr holl ddadganiadau a gynnwysir yn y Testament Newydd o barth i sylfaeniad teyrnas ysbrydol Crist yn cyfeirio at y brophwydoliaeth hon yn Llyfr Daniel." Y mae Bush yn deall yr ymadrodd fod "Mab y dyn yn dyfod gyda chymylau y nefoedd," am gymylau o angelion, am osgorddlu angelaidd. Ac felly hefyd y dealla *Act.* i. 9; "A chwmwl," hyny yw, o angelion, "a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt." Dygwyd ef megys gan osgorddlu o angelion i dderbyn seiliau y swydd oruchel yr ydoedd i'w gweinyddu fel pen yr ymherodraeth gyffredinol ac ysbrydol oedd yn awr ar gael ei gosod i fyny. Y mae y golygiad hwn yn cydweddu âg urddas a dyrchafiad y Messïah, ac â'r dysgrifiad mawreddog a gawn yn *Salm* xxiv; "O byrth! dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch ddrysau tragwyddol, a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn," &c. Nid ydyw esboniadau Hengstenberg, Reichel, Hävernick, &c., yn amrywio llawer oddi wrth hyn. Dywed Hävernick fod maluriad y ddelw, a chynnydd y gareg, yr hon a aeth yn fynydd mawr, ac a lanwodd yr holl ddaiar (*Dan.* ii), ac hefyd dyfodiad Mab y dyn gyda chymylau y nef at yr Hen Ddihenydd,

Digitized by Google

yn cyfeirio at yr un peth; sef dinystr yr hen ymherodraethau hyd at Rufain baganaidd, mewn gwrthgyferbyniad i ddechreuad newydd yn sylfaeniad yr eglwys.

Y mae dosbarth arall o esbonwyr, yn yr hwn y mae y nifer mwyaf o ysgrifenwyr Protestanaidd, yn golygu fod y geiriau dan sylw i'w cyflawnu eto. Fel y golygai Calvin ddyfodiad cyntaf Crist, a'i esgyniad i ogoniant, wrth y geiriau; cyfeiriai Luther y geiriau at ei ail ddyfodiad. Y mae Jonathan Edwards yn gweled priodoldeb yn y geiriau i osod allan y ddau; "Ni ddywedir iddo *ddisgyn* nac *esgyn* gyda chymylau y nef, ond iddo *ddyfod*, ac iddo ddyfod at yr Hen Ddihenydd; yr hyn sydd yr un mor briodol at ei esgyniad pan yr aeth i dderbyn ei deyrnas, ac i gael ei wisgo yn ei awdurdod a'i ogoniant breninol, ac hefyd at ei ddyfodiad yn y dydd olaf, yr hyn hefyd fydd ei ddyfodiad i'w deyrnas. Y mae y geiriau yn ddiau yn cynnwys y ddau; o herwydd yn y ddau y mae yn dyfod gyda lluoedd o angelion; yn y ddau, dilynir ef gan seintiau wedi adgyfodi, o herwydd y mae yn debygol fod y seintiau a adgyfododd gyda Christ wedi esgyn gydag ef; yn y ddau, y mae yn dyfod at ei Dad, sef yr Hen Ddihenydd. Y mae y ddau yn gyfnodau amlwg yn nechreuad teyrnas nefoedd, yn yr hon y mae yr Iesu yn frenin. Ond at ei esgyniad i'r nefoedd y cyfeiria y geiriau amlycaf a mwyaf uniongyrchol. Lleferir am hyn yn amlwg yn y Testament Newydd pan yr aeth at Dduw, yr Hen Ddihenydd, i dderbyn ei deyrnas; ond cyfeiriant hefyd, mae yn ddiau, at ei ail ddyfodiad."—*Notes on the Bible.*

Ymwrthoda lluaws o esbonwyr â phob un o'r ddau. Ni raid i ni, medd Auberlen, ond cymharu y dysgrifiad o'r Messïah, yr hwn a leddir, yn *Dan.* ix, â'r dysgrifiad am dano yn taraw y ddelw, ac yn myned yn fynydd mawr, yn *Dan.* ii, ac hefyd am dano yn dyfod gyda chymylau y nef, yn *Dan.* vii, i weled nas gall y ddau ddysgrifiad olaf gyfeirio at ei ddyfodiad cyntaf. Yn *Dan.* ii, a vii, y mae yn Arglwydd yr arglwyddi, ac yn Frenin y breninoedd, yr hwn sydd yn gorchfygu y bwystfil gyda'r deg corn (*Dad.* xvii. 12—14); ac yna y cyflawnir y geiriau, "Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef, ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd;" *Dad.* xi. 15. Drachefn, nis gall y geiriau gyfeirio at ddiwedd y byd, fel y myn Luther; o herwydd y mae y farn (*Dan.* vii. 9) yn gyssylltiedig â diwedd y pedair ymherodraeth a dinystr Anghrist; o ganlyniad, nis gall gyfeirio at y farn olaf. Ond trwy gymharu Daniel â'r Dadguddiad, yn ol y cyfeiriadau uchod, ni a welwn y gollyngir Satan yn rhydd ar ol mil o flyneddoedd o lwyddiant a gogoniant mawr, ac ar ol dinystr y pedwar bwystfil ac Anghrist; o ganlyniad, nid y farn olaf fydd yr hon a fydd yn ddinystr iddynt hwy.

Y mae y brophwydoliaeth am un megys Mab y dyn yn dyfod gyda chymylau y nefoedd, ac yn dyfod at yr Hen Ddihenydd, yn cael ei deall yn gyffredin gan y rhai sydd yn ymwrthod â'r ddau esboniad arall am ddechreuad y mil blyneddoedd, a'r amlygiadau nerthol o ogoniant Crist trwy ba un y cyflawnir hyny. Gwel dan y gair MILFLWYDDIANT.

DILEAN: dinas yn Iudah: *Ios.* xv. 38.

DIL—IAU, [*il*]: dil mêl; crwybr. Yr adeilad cellawg a wneir gan y gwenyn i ddodi eu hwyau a'u mêl ynddo. Am ddysgrifiad manwl o hono, gwel d.g. GWENYN. Dywedir am ddeddfau a barnau yr Arglwydd, "Mwy dymunol ynt nag aur: melusach hefyd na'r mel, ac na dyferiad y *diliau mel;*" *Salm* xix. 10. Dywedir mai yr hyn a ddyfera o'r diliau o'r mel ydyw y math puraf a melusaf. Crybwylla Homer am y math hwn fel yn dra melus. Dywed Crist am ei ddyweddi, bod ei gwefusau "yn dyferu fel *dil mel*" (*Can. Sol.* iv. 11); hyny yw, bod ei geiriau yn felus, addfwyn, a thyner. "Y dyn llawn a fathra y *dil mel:* ond i'r newynog pob peth chwerw sydd felus;" *Diar.* xxvii. 7. Y mae y dyn llawn a hunandybus yn mathru yr addewidion a'r bendithion gwerthfawrocaf a melusaf; ond y mae y dyn sydd yn teimlo ac yn cydnabod ei angen a'i annheilyngdod yn ddiolchgar am y rhoddion lleiaf: *Mat.* xv. 27.

DILEFEINLLYD. Gwel LEFAIN.

DILEU, [*di-le*]: symmud ymaith, diddymu; tynu ymaith, rhwbio ymaith, distrywio. "*Dileaf* ddyn, yr hwn a greais, oddi ar wyneb y ddaiar;" *Gen.* vi. 7. Dywed Benson, fod y gair gwreiddiol a gyfieithir *dileaf* (מחה) yn y fan hon yn dra grymus: "Mi a ysgubaf ddyn ymaith oddi ar wyneb y ddaiar, fel yr ysgubir llaid o le a ddylai fod yn lân, ac y teflir ef i'r domen. Y mae ystyron ereill i'r gair, megys duo, neu godi ysgrifen fel nas gellir ei darllen. Yn *Num.* v. 23, cyfieithir y gair, *golchi ymaith.* "Ysgrifened yr offeiriad y melldithion hyn mewn llyfr, a golched hwynt ymaith â'r dwfr chwerw." Yr oedd yr inc a ddefnyddid ar yr achlysur, medd y rabbiniaid, heb ddim ynddo a'i gwnai yn annileadwy, fel y gallai yr ysgrifen gael ei olchi ymaith â'r dwfr chwerw. Yn yr ystyr hwn y cymhwysir y gair at *ddileu* enw neu ysgrifen: *Exod.* xxxii. 32, 33, *Salm* lxix. 28; *Dad.* iii. 5. "Myfi, myfi yw yr hwn a *ddileaf* dy gamweddau;" *Esa.* xliii. 25. Y mae y ffugr hwn wedi ei gymmeryd oddi wrth yr arferiad o gadw cyfrifon; pan y telid dyled, croesid neu dilëid y cofnodiad o honi oddi ar y llyfr cyfrif. Felly y dywed Duw ei fod yntau wedi dileu camweddau yr Iuddewon. Croesodd eu pechodau oddi ar ei lyfr. Maddeuodd iddynt. Wrth gwrs, ar ol maddeu iddynt, ymddygai tuag atynt fel rhai wedi derbyn maddeuant; hyny yw, fel cyfeillion. Yn yr un ystyr y defnyddir y gair yn y lleoedd canlynol:—*Neh.* iv. 5; *Salm* li. 1, 9; cix. 14; *Ier.* xviii. 23. "*Dileais* dy gamweddau fel cwmwl, a'th bechodau fel niwl;" *Esa.* xliv. 22. Nid ydyw y frawddeg hon yn hollol ddealladwy. Amlygid ei gwir feddwl yn well drwy ei darllen fel hyn: "Gwnaethum iddynt ddiflanu fel cwmwl tew;" a'r ystyr yw, fel y chwythir cwmwl tew ymaith, pa mor dywyll a bygythiol bynag y gall fod, gan y gwynt, nes y byddo y ffurfafen yn glir a dysglaer, felly y parodd Duw i'w pechodau hwythau ddiflanu, ac y symmudodd dymmestl ei ddigofaint. Nis gall dim arddangos *pechod* yn fwy tarawiadol, o ran ei natur a'i ganlyniadau, na chwmwl tew, tywyll, bygythiol, yn ymdaenu dros y ffurfafen, gan guddio yr haul, a llenwi yr awyrgylch â phrudd-der; ac nis gall dim arddangos natur ac effeithiau maddeuant yn fwy prydferth na'r drychfeddwl o symmud ymaith y cyfryw gwmwl, nes y byddo y ffurfafen yn glir yr awyrgylch yn dawel a siriol, a'r haul yn tywallt ei belydrau adlonol ar y ddaiar. Felly hefyd y mae enaid y pechadur wedi ei amgau

Digitized by Google

mewn cwmwl tew; ond pâr maddeuant i'r cwmwl gilio ymaith, a theimla yntau yn dawel, yn ddedwydd, ac yn siriol. "Gan *ddileu* ysgrifenlaw yr ordeiniadau;" *Col.* ii. 14. Y mae yn debygol fod yma gyfeiriad at gytundeb ysgrifenedig, yn mha un y rhwyma dyn ei hun i wneyd unrhyw waith, neu i dalu arian, a'r hwn a erys mewn grym yn ei erbyn hyd nes y dilëir yr ysgrifrwym (*bond*). Gellid gwneyd hyny, naill ai trwy ddileu yr enwau, neu trwy dynu llinellau ar draws y cytundeb, neu, yn ol yr arferiad a ddilynid yn y dwyrain, trwy yru hoelen drwyddo. Arddangosir y ddeddf seremonïol fel y cyfryw gytundeb, yn rhwymo y rhai hyny oeddynt dani i'w chadw hyd nes yr hoeliwyd hi wrth y groes. Y meddwl yma yw, fod gorchymynion trymion deddf Moses wedi eu dileu, a bod marwolaeth Crist wedi diddymu yr angenrheidrwydd am dani. Cafodd ei farwolaeth yr un effaith gyda golwg ar yr ordinhadau hyny a phe buasent wedi eu dileu o'r deddf-lyfr. Gwnaeth hyny trwy eu cyflawnu hwy, trwy ddwyn cyfundrefn fwy perffaith i mewn, a thrwy ddileu yr angenrheidrwydd am eu cadw o hyny allan, gan fod y cwbl yr oeddynt wedi eu bwriadu i'w cysgodi wedi eu cyflawnu yn awr mewn ffordd well. "Eithr pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddilëir;" 1 *Cor.* xiii. 10. Y meddwl yw, y colla neu y diflana yr hyn sydd "o ran," neu yr hyn sydd anmherffaith, yn ngoleuni eglurach y nef, lle y byddwn mewn cyflwr o berffeithrwydd hollol. Diflana pob anmherffeithrwydd yno; ac fe ä y cwbl a feddwn ni yma yn aneglur, ar goll yn ngogoniant rhagorach a pherffeithiach y byd tragwyddol; megys y diflana goleu gwan ac anmherffaith y ser yn ngoleuni cyflawn a pherffaith yr haul.—(*Rel. Encycl.; Barnes.*)

**DILUW.** Gwel DYLIF.

**DILLAD.** Gwel GWISGOEDD.

**DIMNAH**: dinas yn Zabulon, a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Merari: *Ios.* xxi. 35.

**DIMON.** Gwel DIBON.

**DIMONAH**: tref yn neheubarth Iudah: *Ios.* xv. 22.

**DINAH**, [דִּינָה; Deg a Thrigain, Δεῖνα]: merch Iacob o Leah (*Gen.* xxx. 21), ac am hyny, chwaer gyflawn Simeon a Lefi. Tra yr oedd Iacob yn gwersyllu ger llaw dinas Sichem, twyllwyd Dinah gan Sichem, mab Hemor, tywysog y ddinas. Mewn rhan gan ofn canlyniadau ei gamymddygiad, ac mewn rhan, fe ymddengys, o gariad at y forwynig, dymunodd ei chael yn wraig iddo, gan adael i deulu Dinah benderfynu swm y waddol. Pan y clywodd brodyr Dinah am y cynnygiad, ni chydsynient âg ef ond yn unig ar yr ammod y byddai i drigolion y lle gymmeryd eu henwaedu. Ymostyngwyd hyd yn oed i hyn; a chymmerodd Simeon a Lefi fantais ar y cydsyniad i ymosod ar y ddinas ar y trydydd dydd, pan yr oedd y bobl yn dyoddef dan effeithiau yr enwaediad, a lladdasant hwy oll (*Gen.* xxxiv). Y mae yn anmhosibl cynnyg un esgusawd dros y weithred greulawn hon, ac y mae Iacob ei hunan yn cyfeirio ati yn fynych ar ol hyn gydag adgasrwydd a gofid: *Gen.* xxxiv. 30; xlix. 5—7. Er deall y weithred o gwbl, pa fodd bynag, y mae yn angenrheidiol cadw mewn cof fod ystaen ar nodweddiad chwaer, ac yn neillduol unig chwaer, yn cael ei ystyried hyd yn bresennol yn warthrudd annyoddefol ac yn drosedd anfaddeuadwy yn mysg holl lwythau crwydredig Asia Orllewinol. Os bydd y fenyw yn ddibriod, tramgwydda ei brodyr yn fwy na'i thad; ac os bydd yn briod, yn fwy na'i gŵr; ac ystyriant eu hunain yn rhwym o ddial ei cham. Dyna oedd y rheswm dros ddialgarwch brodyr cyflawn Dinah, a goddefgarwch cymharol ei thad, yn yr amgylchiad hwn. Nid ydyw yn hysbys pa beth a ddaeth o Dinah ar ol hyn.—(*Kitto*).

**DINAIAID**: pobl a wrthwynebasant ail adeiladu y deml: *Ezra* iv. 9.

**DINAS—OEDD**, [*din—as*]: amddiffynfa, caer, tref gaerog, tref. Defnyddir y gair *dinas* mewn ystyr cyffredinol yn y Beibl am unrhyw gydgasgliad o drigfanau. Effaith naturiol yr egwyddor gynnulliadol sydd mewn dynion ydyw dinasoedd. Arweiniwyd y cenedloedd boreuaf gan angenrhaid i adeiladu eu dinasoedd ar leoedd uchel, lle y byddai yn hawddach iddynt amddiffyn eu hunain rhag anifeiliaid rheibus a gelynion. Ar yr ystyriaeth hon, yr oedd y geiriau *dinas* ac *amddiffynfa* ar y cyntaf yn gyfystyr. Wrth fel y cynnyddai y boblogaeth ac yr ymledai amaethyddiaeth, chwanegid diogelwch y trigolion i ryw raddau; yr hyn a'u galluogai i adael yr amddiffynfa, a sefydlu eu trigfanau ar ochr y bryn, ac yn y dyffryn islaw iddo; eto, nid äi y preswylwyr yn mhell oddi wrth ganolbwynt eu nerth, fel nad amddifedid hwynt o'i amddiffyniad. Fe gynnyddai y ddinas, pa fodd bynag, drwy hyn; a chan y byddai yr angen am hunanamddiffyniad yn bod eto, fe amgylchynid y lle â muriau. Trwy hyn, byddai y ddinas yn cynnwys amddiffynfeydd mewnol ac allanol, a dau ddosbarth o bobl; sef dinaswyr, y rhai a drinent y ddaiar ac a garient fasnach yn mlaen; a milwyr, y rhai a amddiffynent y ddinas. Ond yn oesoedd boreuaf gwareiddiad, yr un personau fyddent yn cyflawnu y gwahanol swyddau hyn. Pan y byddai y ddinas mewn perygl, ymgymmerai yr amaethwr a'r masnachwr fel eu gilydd âg arfau er ei hamddiffyn. Nis gellir penderfynu pa mor fore y ffurfiwyd dinasoedd: y mae yn eglur mai cynnyrch amser oeddynt. Tueddiad cyntaf poblogaeth ydoedd ymdaenu; ar ol hyny, ymsefydlai dynion mewn lleoedd penodol. Pan y dywedir, gan hyny, fod Cain wedi adeiladu dinas (*Gen.* iv. 17), y ddinas gyntaf (Enoch, yr hon a alwyd felly yn ol enw mab Cain), y mae yn brawf chwanegol, at awgrymiadau ereill, er dangos nad oes genym yn Llyfr Genesis ond hanes anghyflawn am yr oesoedd boreuaf. Yr ydym yn cael fod dinasoedd yn bodoli yn Ngwlad Canaan yn amser y patriarchiaid, y rhai a amgylchynid ar y cyntaf gan wrthgloddiau, fel ag i'w gwneyd yn "ddinasoedd caerog." Yn y rhai hyn y preswyliai y dosbarth a drinent y ddaiar, y rhai, drwy gymhorth yr adeiladau cedyrn hyn, a amddiffynent eu hunain a'u meddiannau rhag llwythau crwydredig yr anialwch, y rhai oeddynt yn byw y pryd hyny, fel yn awr, ar ysbail. Ond nid oedd angenrheidrwydd am ryw adeiladau hynod o gedyrn. Tra y mae muriau neu fagwyrydd yn anhebgorol fel amddiffyniad yn mhob parth yn mron o Palestina yn bresennol, ac nas gellir dwyn amaethyddiaeth yn mlaen yn llwyddiannus ond yn unig yn nghymmydogaeth tref

Digitized by Google

gaerog, canfyddir fod adeiladau rhwydd iawn ac ysgeifn yn ddigon i ateb y dyben, gan fod yno y fath gyflawnder o fanteision amddiffynol naturiol. Fe deifl y dyfyniad canlynol oleuni ar y mater:—"Gan deithio yn mlaen dros drum coediog o geryg calch, daethom i olwg pentref mawr a safai ar fryn gyferbyn â ni, tra yr oedd yn mhellach ar y llaw ddeheu, ac yn uwch na'r pentref, gastell maluriedig o faintioli mawr, yr hwn o herwydd ei sefyllfa a ymddangosai yn fawreddog. Yr oedd y tir ag oedd rhyngom a'r pentref, ac ar yr ochr ddeheu i'r castell, yn dônog, yn ffrwythlawn, ac wedi ei wrteithio. Buom yn teithio yn agos i awr cyn cyrhaedd troed y bryn, yr hwn a basiwyd genym ar yr ochr ddeheu drwy geunant dwfn ag sydd yn ei wahanu oddi wrth fryn uchel arall ar y tu dwyreiniol, ar ben yr hwn hefyd yr ymddangosai rhywbeth tebyg i amddiffynfa adfeiliedig. Aethom heibio i'r castell ar y tu gogleddol; o ba le y cawsom olwg dda ar yr hen amddiffynfa hon. Y mae yn gorchuddio holl ben y bryn tu mewn i fur trwchus, yr hwn, yn gystal a'r amryw dyrau gan ba rai y nerthid ef, sydd mewn sefyllfa hynod adfeiliedig. Ychydig yn mhellach i'r gorllewin, y mae bryn arall yn orchuddiedig gan wrthgloddiau a thyrau adfeiliedig. Y mae y pentref mawr, yr hwn a elwir Tibinin, neu Chibinin, oddi wrth y castell, yn gorwedd mewn dyffryn rhwng y ddau fryn amgaeredig hyn. Y mae bryn arall ar y tu deheuol i'r prif adeiladau yn orchuddiedig gan adfeilion; ac yn mhellach yn yr un cyfeiriad, tu hwnt i'r dyffryn cul y teithiasom drosto, y mae pedwerydd bryn, sef yr un y cyfeiriais eisoes ato fel yn meddu adfeilion."—*Travels in Egypt and the Holy Land*, &c., gan y Parch. S. Olin, New York, 1843. cyf. ii. 423, 424. Oddi wrth y dyfyniad hwn, gellir cael eglurhad ar rymusder iaith ein Harglwydd, pan y dysgrifia ei ddysgyblion fel dinas wedi ei gosod ar fryn, nas gellir ei chuddio: *Mat.* v. 14. Tybir fod yr Iesu, yn y dysgrifiad hwn, yn cyfeirio at ryw ddinas neillduol; a dywedir mai y Safet ddiweddar ydyw y man oedd ganddo mewn golwg. Saif y ddinas yma, yr hon sydd yn awr mewn sefyllfa adfeiliedig—un o'r pedair dinas a ystyrid yn neillduol sanctaidd, sef Hebron, Tiberias, Ierusalem, a Safet—ar ben y mynydd uchaf yn Galilea, ac un o'r rhai uchaf yn nhiriogaethau yr Iuddewon. Y mae yn weledig o bellder mawr yn mhob cyfeiriad ond o'r gogledd. Nid ydyw y ddinas yn sefyll yn hollol ar ben y bryn crwn, ond yn hytrach ar y tir llechweddog, oddi tano, gydag amddiffynfa neu gastell wedi ei adeiladu ar y pwynt uchaf. Saif y tai y naill uwch law y llall.

Nid oes genym un wybodaeth sicr am yr hen ddull o adeiladu mewn trefi a dinasoedd, oddi eithr yr hyn a ellir ei gasglu oddi wrth yr adfeilion sydd i'w gweled eto yn Ngwlad Canaan. Ond nis gellir cael oddi wrth yr adfeilion hyn ond rhyw syniadau cyffredinol, gan eu bod—er mor luosog ydynt, ac er eu bod yn dangos bod Gwlad yr Addewid yn dra phoblog a blodeuog yn ei dyddiau goreu—yn perthyn i wahanol oesoedd a chyfnodau mewn hanesyddiaeth. Gadawodd y croesgadau amryw amddiffynfeydd ag ydynt yn awr mewn sefyllfa faluriedig; ond nid ydyw y croesgadau ond pethau diweddar mewn cymhariaeth i ddyddiau ein Iachawdwr, ac nid ydyw y dyddiau hyny drachefn ond diweddar iawn mewn cymhariaeth i'r oesoedd boreuaf. Gellir, pa fodd bynag, ffurfio rhyw ddrychfeddwl am yr hen ddinasoedd oddi wrth ddull y dinasoedd presennol yn Palestina, gan fod y dwyreinwyr mor hoff o ddilyn arferion eu cyndadau yn mhob peth.

Wrth byrth y dinasoedd, lle yr ymgasglai llawer o bobl, gan mai yno y byddai y llysoedd cyfreithiol, y marchnadoedd, &c., byddai lleoedd agored o faintioli mwy neu lai, lle yr ymgynnullai yr holl drigolion ar adegau pwysig i ymgynghori â'u gilydd, neu ynte i weithredu: *Neh.* viii. 1, 16; 2 *Cron.* xxxii. 6; 2 *Sam.* xxi. 12; *Iob* xxix. 7; 2 *Bren.* vii. 1. Ni byddai yr heolydd mor gulion ag y maent yn gyffredin yn y dinasoedd dwyreiniol presennol. Enwid hwynt weithiau oddi wrth y nwyddau a werthid ynddynt; fel hyn, ni a ddarllenwn yn *Ier.* xxxvii. 21, am "heol y pobyddion." Yr oedd heolydd Ierusalem wedi eu palmantu [*Hyn. Jos.*, xx. 9. 7]; ond nid oedd angen am balmantu y rhan fwyaf o ddinasoedd Gwlad Canaan, mewn canlyniad i natur greigiog y tir ar ba un y safent. Gwnaeth Herod Fawr heol agored yn Antiochia o geryg caboledig [*Hyn. Jos.*, xvi. 5. 3; cymharer 1 *Bren.* xx. 34]. Heb law heolydd palmantedig, yr oedd Ierusalem yn meddu, cyn y caethgludiad, luaws mawr o ddyfrffosydd celfyddydol, yr hyn a wneid yn angenrheidiol, fel yr ymddengys, oddi wrth fod yr holl ddwfr yn gyfyngedig i un lle neu ddau yn y gymmydogaeth. Boddlonai dinasoedd ereill ar eu ffynnonau, bodolaeth pa rai, y mae yn debygol, a arweiniodd i'w sylfaeniad.

Aeth Palestina dan gyfnewidiadau parhaus, er yr oesoedd boreuaf, gyda golwg ar ei dinasoedd; un canlyniad o'r hyn beth ydyw, bod genym enwau dinasoedd a berthynent yn hollol i gyfnodau penodol. Rhoddodd cyfnod yr ymherodraeth Rufeinig fodolaeth i amryw ddinasoedd ac amddiffynfeydd cedyrn, yn gystal ag i adeiladau gorwych. Yr oedd Galilea yn neillduol yn gyfoethog mewn dinasoedd, trefi, a phentrefi, pa rai, yn ol Josephus [*Vita*, adr. 45], a rifent 204. Y mae ystyr arbenig i enwau dinasoedd Gwlad Canaan gan mwyaf. Mewn llawer o honynt, gwneir cyfeiriad at natur y lleoedd y safent arnynt, megys Rama, Ain, Iericho, Bethlehem, Gibeon, Mizpah. Y mae amryw o honynt yn enwau cyfansawdd, wedi eu ffurfio o'r geiriau canlynol:—בית (tŷ), עיר neu קרית (dinas), חצר (llys), עמק (dyffryn), אבל (llanerch glas), באר (ffynnon), עין (tarddell dwfr), כפרי (pentref). Er gwahaniaethu dinasoedd o'r un enw, chwanegid enw y llwyth i ba un y perthynent. Mewn oesoedd diweddarach, yn enwedig yn nyddiau yr Herodiaid, daeth yn arferiad i roddi enwau Groeg newyddion i'r hen ddinasoedd, megys Diospolis, Neapolis, Sebaste, Cæsarea, Tiberias, &c. Mewn cyfnod diweddarach fyth, Ælia Capitolina y gelwid Ierusalem. Nis gellir penderfynu yn awr gydag un math o sicrwydd pa beth oedd nifer trigolion y gwahanol ddinasoedd, o blegid y mae y defnyddiau nid yn unig yn brin ac anghyssylltiol, ond i raddau yn ansicr. Gyda golwg ar lywodraethiad dinasoedd cyn y caethgludiad, nid oes genym un wybodaeth fanwl, er fod yn debygol mai yn nwylaw yr henuriaid yr oedd y llywodraeth; ac y mae Moses, yn *Deut.* xvi. 18, yn gorchymyn, "Gwna i ti farnwyr (cyfleitha Hengstenberg y gair hwn yn *ysgrifenydd*—*Authentic des Pent.*, i. 450) a blaenorion yn dy holl byrth; a barnant hwy y bobl â barn gyflawn." Ar ol y caethgludiad, sonir am ynadon dan yr enw o *gynghor* [*Joseph.*, *Vita*, adr. 14, 34, 61, 68], uwch law pa un y byddai llywydd neu faer [*Joseph.*, *Vita*, adr. 27; *Rhyf. Iudd.*, ii. 21. 3].

Digitized by Google

Ceir eglurhad ar amryw ymadroddion yn yr Hen Destament drwy gyfeirio at rai neillduolion yn y dinasoedd a'r amddiffynfeydd dwyreiniol. Y mae yn eglur y byddai muriau y dinasoedd caerog yn cael eu hadeiladu mewn rhan weithiau â sylweddau llosgadwy; canys dywed y prophwyd, pan yn cyhoeddi barnau Duw ar Syria, a gwledydd ereill, "Eithr anfonaf dân ar fur Gaza, ac efe a ddifa ei phalasau hi;" *Amos* i. 7. Ymddengys fod muriau Tyrus a Rabbah yn gyfansoddedig o sylweddau cyffelyb; o blegid fe chwanega y prophwyd, "Anfonaf dân i fur Tyrus, ac efe a ddifa ei phalasau hi;" ac eto, "Cynneuaf dân yn mur Rabbah, ac efe a ddifa ei phalasau gyda gwaedd ar ddydd y rhyfel;" *adn.* 10, 14. Un dull o sicrhau pyrth dinasoedd amgaeredig, yn mysg yr hynafiaid, oedd eu gorchuddio â llafnau tewion o haiarn. Y mae hyn mewn arferiad hyd yn bresennol yn y dwyrain. Dywed Pitts, fod pump o byrth i Algiers, bod rhai yn cynnwys dau a thri o byrth chwanegol tu mewn iddynt; a bod rhyw nifer o honynt wedi eu gorchuddio i gyd drostynt â haiarn trwchus. Ymddengys fod y lle yn mha un y cedwid yr apostol Pedr yn garcharor wedi ei sicrhau yn gyffelyb; canys fe ddywed yr ysgrifenydd ysbrydoledig, "Wedi myned o honynt heb law y gyntaf a'r ail wyliadwriaeth, hwy a ddaethant i'r porth haiarn, yr hwn sydd yn arwain i'r ddinas, yr hwn a ymagorodd iddynt o'i waith ei hun;" *Act.* xii. 10. Dywed Pococke, pan yn siariad am bont sydd heb fod yn neppell o Antiochia, a elwir "y bont haiarn," bod dau dŵr yn perthyn iddi, pyrth pa rai sydd wedi eu gorchuddio â llafnau o haiarn; a thybia efe mai dyna y rheswm dros yr enw sydd arni. Y mae rhai o'u pyrth wedi eu gorchuddio â phres; felly y mae pyrth mawrion y brif deml Dyrcaidd yn Damascus. Y mae yn debygol mai at byrth o'r dysgrifiad hwn y cyfeiriai y Salmydd yn y geiriau hyn, "Efe a dorodd y pyrth pres" (*Salm* cvii. 16); a'r prophwyd, yn yr ymadrodd hynod hwnw, lle y mae Duw yn addaw myned o flaen Cyrus, ei eneiniog, "Y dorau pres a doraf, a'r barau heiyrn a ddrylliaf;" *Esa.* xlv. 2. Ond gan y gwyddai y dwyreinwyr nad oeddynt yn ddiogel er yr holl ddarpariadau hyn, gosodent wylwyr i deithio yn ol ac yn mlaen drwy yr heolydd yn ystod y nos, i ddarostwng unrhyw gythrwfl a allai gyfodi, neu i wylio y muriau rhag ymosodiad gelynion. At yr arferiad hon y cyfeiria Solomon yn y geiriau hyn: "Y gwylwyr, y rhai a aent o amgylch y ddinas, a'm cawsant, a'm tarawsant, a'm harchollasant: gwylwyr y caerau a ddygasant fy ngorchudd oddi arnaf;" *Can. Sol.* v. 7. Gellir olrhain yr arferiad hon i oesoedd boreuol iawn; crybwyllir am y wyliadwriaeth fore mor gynnar ag amser ymadawiad Israel o Wlad yr Aipht. Yn Persia, byddai y gwyliedyddion yn rhwym o ddigolledu y personau a gaent eu hysbeilio yn yr heolydd; yr hyn a rydd gyfrif am y dyfalwch a'r llymder a arddangosent yn nghyflawniad eu swydd: ac y mae hyn hefyd yn eglurhad ar y cymmeriad o wyliedydd a roddir i Ezeciel, a'r dyledswyddau a ofynid oddi ar ei law. Os trengai yr annuwiol yn ei anwiredd heb ei rybuddio, yr oedd y prophwyd i fod yn gyfrifol am ei waed; ond os rhybuddiai efe ef o'i berygl, efe a waredai ei enaid ei hun trwy hyny: *Ezec.* xxxiii. 2. Gofynid iddynt hefyd gyhoeddi pa amser ar y nos fyddai, yn awr ac yn y man: "Baich Dumah. Arnaf fi y mae yn galw o Seir, Y gwyliedydd, beth am y nos? y gwyliedydd, beth am y nos? Dywedodd y gwyliedydd, Daeth y bore a'r nos hefyd;" *Esa.* xxi. 11, 12. Cadarnheir hyn gan sylw o waith Chardin ar y geiriau canlynol o eiddo Moses: "Mil o flyneddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe, wedi yr el heibio, ac fel gwyliadwriaeth nos;" *Salm* xc. 4. "Gan nad oedd gan y dwyreinwyr awrleisiau, cyhoeddid gwahanol ranau y dydd a'r nos, y rhai oeddynt yn wyth mewn nifer. Yn yr India, hysbysid gwahanol ranau y nos, mewn dinasoedd mawrion, drwy offerynau cerddorol, yn gystal a thrwy gylchdeithiau y gwyliedyddion, y rhai, drwy floeddiadau a thabyrddau bychain, a hysbysent fod y bedwaredd ran o'r nos wedi myned heibio. Yn awr, gan y deffroid pawb ag oeddynt yn cysgu y bedwaredd ran hono o'r nos, nid ymddangosai yr amser iddynt ond megys mynyd." Y mae yn amlwg bod yr Iuddewon yn gwylied pa fodd yr elai gwyliadwriaethau y nos heibio; ond y mae yn anmhosibl penderfynu drwy ba ddull yr hysbysid hyny gan y gwyliedyddion, pa un ai drwy y llais, ai drwy udgyrn, neu ryw offerynau cerddorol ereill; ac y mae yr un mor anmhosibl dyweyd pa fath amseriaduron a ddefnyddid ganddynt. Y tebygolrwydd ydyw, yr hysbysid y gwyliadwriaethau trwy sain udgorn; canys y mae y prophwyd Ezeciel yn gwneyd chwythu udgorn—o'r hyn lleiaf mewn adeg o ryfel, er rhybuddio y bobl—yn rhan o waith y gwyliedydd. Ymddengys mai mewn tŵr uwch ben porth y ddinas y byddai y gwyliedydd mewn adeg o berygl. Gwel AMDDIFFYNFEYDD.

Byddai tŵr yn gyffredin yn ninasoedd caerog Gwlad Canaan, megys mewn rhai gwledydd ereill, i ba un y ffoai y trigolion pan y canfyddent y byddai yn anmhosibl amddiffyn y ddinas. Pan yr ymosododd Abimelech ar Thebez, enciliodd yr holl drigolion i un o'r tyrau hyn, a heriasant ei gynddaredd: "Yr oedd tŵr cadarn yn nghanol y ddinas; a'r holl wŷr a'r gwragedd, a'r holl rai o'r ddinas, a ffoisant yno, ac a gauasant arnynt, ac a ddringasant ar nen y tŵr;" *Barn.* ix. 51. Gellir casglu pa beth oedd cadernid y tŵr hwn, a'r gwahanol foddion o hunanamddiffyniad ag oedd o'i fewn, oddi wrth ffyrnigrwydd ymosodiad Abimelech, a'i derfyniad anffodus: "Ac Abimelech a ddaeth at y tŵr, ac a ymladdodd yn ei erbyn; ac a nesaodd at ddrws y tŵr, i'w losgi ef â thân. A rhyw wraig a daflodd ddarn o faen melin ar ben Abimelech, ac a ddrylliodd ei benglog ef;" *adn.* 52, 53. Yr oedd tŵr cyffelyb yn ninas Sichem, i'r hwn yr enciliodd y trigolion pan y cymmerwyd hi ac yr hauwyd hi â halen gan yr un trawsfeddiannwr: *Barn.* ix. 45. Byddai y tyrau hyn yn gyffredin yn sefyll ar leoedd uchel, a grisiau yn arwain iddynt. Dyna oedd sefyllfa dinas Dafydd, tŵr cadarn ar fryn uchel yn Ierusalem: "A Salem a gyweiriodd borth y ffynnon.. ..hyd y grisiau sydd yn dyfod i waered o ddinas Dafydd;" *Neh.* iii. 15.

O holl ddinasoedd y byd, ni bu un erioed mor enwog a dinas Ierusalem—"Dinas y Brenin Mawr;" *Salm* xlviii. 2. Golyga y gair *dinas*, pan ei defnyddir mewn iaith allegawl yn y Beibl, unrhyw gyflwr sefydlog, cyflawn, rheolaidd, a diogel: *Salm* cvii. 36; *Diar.* x. 15; *Heb.* xiii. 14, 15. Y mae eglwys Dduw ar y ddaiar yn cael ei galw amryw weithiau yn *ddinas*: *Salm* xlvi. 4; lxxxvii. 3; *Esa.* xxvi. 1; lx. 14; lxii. 12; *Heb.* xii. 22; *Dad.* xi. 2; xxi. 2, 10; xxii. 19. Dywed yr hybarch Mr. Charles, gyda golwg ar hyn, "Yr Arglwydd yw ei Duw a'i brenin; y

Digitized by Google

mae ei iachawdwriaeth yn furiau ac yn rhagfur; y mae holl gyflawnder y bendithion sydd yn Nghrist, holl ddoniau, rhadau, a dyddanwch yr Ysbryd, fel afon hyfryd yn ei llawenhau; y mae ei threfn yn ogoneddus ac yn rheolaidd yn ol y gair; y mae yr Arglwydd Iesu yn Frenin tragwyddol arni, yn ei llywodraethu yn dirion, yn rasol, ac yn effeithiol; pechaduriaid o blant dynion, yn credu yn Mab Duw, yn ymddiried ynddo fel eu Hiachawdwr, ac yn ymostwng iddo fel eu brenin, yw y dinasyddion. Sail y ddinas hon yw yr Arglwydd Iesu yn ei Berson a'i aberth, megys y gosodir ef allan yn athrawiaethau yr apostolion a'r prophwydi: *Eph.* ii. 20. Ei hordinhadau yw y rhodfeydd lle y mae y brenin a'r dinasyddion yn cydgyfarfod yn aml, ac yn cymdeithasu â'u gilydd. Y rhai hyn yw heolydd ac ystrydoedd y ddinas." Y mae y nefoedd hefyd yn cael ei galw yn "ddinas barhaus," ac iddi sylfeini, "saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Y mae cyflwr y dinasyddion yno yn sefydlog, yn ddigyfnewid, yn rheolaidd, yn gymdeithasgar, ac yn ddiogel byth; ac y mae eu breintiau yn anfeirif, yn werthfawr, ac yn dragwyddol. "Yr Arglwydd Dduw Hollalluog, a'r Oen yw ei theml hi. A'r ddinas nid rhaid iddi wrth yr haul, na'r lleuad i oleuo ynddi: canys gogoniant Duw a'i goleuodd hi, a'i goleuni hi ydyw yr Oen;" *Dad.* xxi. 22, 23.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Rel. Encycl.*)

DINAS NODDFA: man gosodedig gan Dduw, i ba un y gallai yr hwn a laddai arall mewn amryfusedd, neu trwy ddamwain, ffoi am ei einioes rhag dialydd y gwaed, hyd oni cheid amser i ymchwilio i'w achos, ac i brofi ei ddiniweidrwydd. Rhoddwyd wyth a deugain o ddinasoedd i lwyth Lefi; ac o'r rhai hyn, neillduwyd chwech i fod yn ddinasoedd noddfa; sef Cedes yn Galilea, yn mynydd Naphthali; a Sichem yn mynydd Ephraim; a Hebron yn mynydd Iudah, ar du gorllewinol yr Iorddonen; a Golan, Ramoth Gilead, a Beser, ar y tu dwyreiniol: *Ios.* xx. 7, 8. Rhanwyd y wlad yn dri dosbarth ar y naill du i'r Iorddonen, ac yn dri dosbarth ar y tu arall, a neillduwyd y ddinas fwyaf gyfleus a hawsaf ei chyrhaedd, yn mhob un o'r dosbarthiadau hyny, i fod yn ddinas noddfa.

Pan leddid dyn, teimlai ei berthynas agosaf mai ei ddyledswydd oedd dial ei waed ef ar y lladdwr. Gallasai, yn angerdd ei lid, ac ar gynhyrfiad y foment, ei roddi ef i farwolaeth, os deuai o hyd iddo; ac ymddengys na chyfrifid hyny yn fai. Ond gallasai y lladdwr fod yn ddiniwed; gallasai y peth ddygwydd—ac y mae pethau felly yn dygwydd yn fynych—yn hollol ddamweiniol ac anfwriadol. O dan yr amgylchiadau hyny, buasai ei osod ef i farwolaeth yn gamwedd, yn dywallt gwaed gwirion. Er mwyn gochelyd hyny, gosodwyd dinasoedd noddfa, lle y gallai yr hwn y byddai i'r cyfryw ddamwain ddygwydd trwy ei law, ffoi, a bod yn ddiogel. Bwriadwyd y dinasoedd hyn i'r hwn a darawai gymmydog heb wybod, ac yntau heb ei gasäu ef o'r blaen; megys, pan elo un gyda'i gymmydog i'r coed i gymynu pren, ac a estyn ei law â'r fwyall i dori y pren, a syrthio o'r haiarn o'r menybr, a chyrhaeddyd ei gymmydog, fel y byddo farw; efe a gaiff ffoi i un o'r dinasoedd hyn a byw, rhag i ddialydd y gwaed ddilyn ar ol y llofrudd, a'i galon yn llidiog, a'i oddiweddyd, am fod y ffordd yn hir, a'i daraw ef yn farw, er nad oedd yn haeddu marwolaeth, am nad oedd efe yn ei gasäu ef o'r blaen: *Deut.* xix. 4—6.

Nid oedd ffoedigaeth y llofrudd i'r ddinas noddfa yn terfynu yr achos. Dyben y gosodiad ydoedd achub ei fywyd hyd nes y ceid amser a chyfleusdra i eistedd mewn barn arno. "Gosodwyd y dinasoedd "i holl feibion Israel, ac i'r dyeithr a ymdeithiai yn eu mysg hwynt; fel y ffoai pawb iddynt a'r a laddai neb mewn amryfusedd, ac na byddai marw trwy law dialydd y gwaed, nes iddo sefyll o flaen y gynnulleidfa;" *Ios.* xx. 9. Gallasai llofrudd bwriadol ffoi i'r ddinas noddfa, ond ni buasai hyny yn achub ei fywyd ef:—"Os bydd gwr yn casäu ei gymmydog, ac yn cynllwyn iddo, a chodi yn ei erbyn, a'i ddieneidio fel y byddo farw, a ffoi i un o'r dinasoedd hyn, yn aanfoned henuriaid ei ddinas ef, a chymmerant ef oddi yno, a rhoddant ef yn llaw dialydd y gwaed, fel y byddo farw;" *Deut.* xix. 11, 12. Ond os byddai y peth wedi dygwydd yn ddifwriad; os byddai i ddyn ladd un arall, ac efe "heb fod yn elyn, ac heb geisio niwed iddo," ac os byddai i'r gŵr anffodus gyrhaedd y ddinas noddfa cyn y delid ef gan ddialydd y gwaed, "Yna barned y gynnulleidfa rhwng y tarawydd a dialydd y gwaed yn ol y barnedigaethau hyn. Ac achubed y gynnulleidfa y llofrudd o law dialydd y gwaed, a thröed y gynnulleidfa ef i ddinas ei noddfa, yr hon y ffödd efe iddi; a thriged yntau ynddi hyd farwolaeth yr archoffeiriad;" *Num.* xxxv. 23—25. Er mai mewn damwain, ac yn gwbl anfwriadol, yr oedd y peth wedi cymmeryd lle, cospid yr hwn trwy ba un y dygwyddasai âg alltudiaeth fel hyn o'i gartref, ac â charchariad o fewn terfynau y ddinas noddfa, er mwyn argraffu ar eu meddyliau syniad cywir am werth bywyd dynol, ac er mwyn eu dysgu i fod yn ofalus am fywydau y naill y llall, wrth ddilyn eu gorchwylion beunyddiol.

Dywedir fod gofal mawr yn cael ei ddangos i wneyd y ffyrdd tua'r dinasoedd noddfa yn hawdd i'w teithio; fod yn rhaid iddynt fod yn wyth a deugain o droedfeddi o led, a bod pontydd i gael eu gosod lle yr oedd hyny yn angenrheidiol. Ar y croes-ffyrdd, rhag i'r ffoadur gamgymmeryd y ffordd, gosodid mynegbyst yn cyfeirio i'r iawn lwybr, a "Noddfa" yn ysgrifenedig arnynt. Yr oedd swyddogion y dinasoedd yn cyfarfod bob blwyddyn, ar y pymthegfed o fis Adar, i edrych y ffyrdd, ac i orchymyn symmud pob rhwystrau; a dywedir y byddai raid i bob un a gymmerai noddfa ynddynt wybod rhyw gelfyddyd, fel y gallai ennill ei fywoliaeth ei hun.

Rhoddasid gorchymyn i Israel, pan helaethid eu terfynau, i osod tair dinas noddfa yn chwanegol: *Deut.* xix. 8, 9. Ond ni wnaed hyny erioed; a dywed yr Iuddewon y bydd i'r diffyg hwn gael ei gyflenwi gan y Messiah.

Dywed Maimonides, fod traddodiadau yr hynafiaid yn sicrhau fod pob un o'r dinasoedd Lefiaidd yn agored i ffoi iddynt, ac yn rhoddi nodded i'r ffoadur, ond fod yn rhaid iddo dalu am ei le yn mhob man ond yn y dinasoedd gosodedig. Heb law y dinasoedd noddfa, yr oedd y deml, ac yn enwedig allor y poethoffrwm, yn rhoddi lloches i lofruddion, hyd oni ellid eu barnu. Darfu i Ioab ac Adoniah ffoi ac ymaflyd yn nghyrn yr allor. Dywed yr Iuddewon, y bernid y sawl a ffoent yno yn ddiattreg, ac os ceid hwynt yn euog, y rhoddid hwynt i farwolaeth; ond os mewn amryfusedd y cymmerai y peth le, y penodid gosgordd i'w dwyn yn ddiogel i'r ddinas noddfa.

Ymddengys fod trefniant o'r fath yma yn hollol anadnabyddus hyd oni osodwyd ef gan Dduw trwy Moses; a thebyg mai y gosodiad yma oedd

Digitized by Google

sail y noddfeydd Groegaidd a Rhufeinig, yn gystal a rhai mwy diweddar mewn gwledydd Cristionogol.

Cymhara yr apostol Paul ffoedigaeth pechadur at Iesu Grist i ffoedigaeth y llofrudd tua'r noddfa. "Y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen;" *Heb.* vi. 18.

DINASFRAINT, DINASYDDIAETH. Nid y brif egwyddor yn y gyfundrefn o ddwyflywodraeth, fel y sefydlwyd hi gan Moses, oedd neillduaeth hollol y genedl oddi wrth genedloedd ereill, fel y tybia rhai; canys nid yn unig fe oddefid i rai heb fod yn Iuddewon drigo yn Ngwlad Canaan, ond mwynhäent amddiffyniad y cyfreithiau i'r un graddau a'r Iuddewon genedigol (*Exod.* xii. 19; *Lef.* xxiv. 22; *Num.* xv. 15; xxxv. 15; *Deut.* i. 16; xxiv. 17: yr oedd deddf usuriaeth, pa fodd bynag, yn eithriad; *Deut.* xxiii. 20); a gorchymynai Moses, heb law hyny, i garedigrwydd a hynawsedd gael ei ddangos tuag atynt (*Exod.* xxii. 21; xxiii. 9; *Lef.* xix. 13, 34; *Deut.* x. 18; cymharer *Ier.* vii. 6; *Mal.* iii. 5); a chyfranogant hefyd o'r breintiau a fwynhäai tlodion y tir, megys cyfran o'r degwm a'r bwyd-offrwm, a chynauaf blwyddyn yr Iubili (*Deut.* xiv. 29; xvi. 11, 14; xxvi. 11; *Lef.* xxv. 6). O'u tu hwythau, gofynid i'r rhai nad oeddynt Iuddewon ymgadw rhag cyflawnu gweithredoedd a fyddent yn groes i deimladau crefyddol y genedl (*Exod.* xx. 10; *Lef.* xvii. 10; xviii. 26; xx. 2; xxiv. 16; *Deut.* v. 14). Ymddengys mai yr unig eithriad oedd bwyta anifail wedi marw o farwolaeth naturiol: *Deut.* xiv. 21. Gan hyny, mantais ysbrydol yn hollol oedd y fantais a fwynhäai yr Iuddew ar y cenedl-ddyn, drwy ei fod yn ddinesydd, yn ddeiliad o'r ddwyflywodraeth, o קהל יהוה (gwladwriaeth Duw), ac felly yn ddarostyngedig i ddeddfau penodol. Ond derbynid Cenedloedd hyd yn oed i fwynhad o'r rhagorfreintiau ysbrydol hyn dan ammodau neillduol (*Deut.* xxiii. 1—9); fel hyn, ni a ganfyddwn דואג (Edomiad) yn mysg yr Israeliaid (1 *Sam.* xxii. 19), a אוריה (Hethiad) hefyd. Yr unig genedloedd a gauwyd allan yn hollol rhag cael dinasfraint yn y ddwyflywodraeth, drwy orchymyn neillduol yr Arglwydd, oedd yr Ammoriaid a'r Moabiaid, oddi ar deimlad o ddigofaint tuag atynt; a'r un fath yr ymddygid tuag at bersonau dyspaddedig a bastardiaid, oddi ar deimlad o waradwydd (*Deut.* xxiii. 1—6). Yn nyddiau Solomon, nid oedd dim llai na 153,600 o ddyeithriaid yn preswylio yn Ngwlad Canaan (2 *Cron.* ii. 17).

Y mae Aristotle yn dechreu y trydydd llyfr o'i *Politik* drwy esbonio y cwestiwn, Pa beth ydyw dinesydd (πολίτης)? Dywed efe mai un ydyw yn meddu rhan yn ngallu barnol a deddfwrol teyrnas; ond addefa fod ei ddarnodiad yn gyfyngedig yn hollol i ffurflywodraeth werinol. Arwydda y gair Rhufeinaidd *civis* hefyd, yn ei ystyr cyflawn, un yn meddu rhyw ran yn ngallu penarglwyddiaethol y deyrnas. Nis gellir cymhwyso y gair *dinesydd*, gan hyny, os cymmerir ef yn ei ystyr hanesyddol, at ddeiliaid unbenaeth, neu, mewn geiriau ereill, penaeth yn meddu yr holl allu llywodraethol yn ei ddwylaw ei hun. Nid ydyw yn briodol, yn ol yr arferiad hen a diweddar o'r gair, gymhwyso hwn ond yn unig at ddeiliaid llywodraethau gwerinol; ond cynnwysir yn y gair hefyd unbenaethau cyfansoddiadol. Nid yw y term unbenaeth cyfansoddiadol yn derm manwl, ond y mae ei ystyr yn ddealladwy: ffurf o lywodraeth werinol ydyw â brenin neu ryw berson o deitl cyfystyr, yn benaeth arni, awdurdod ac urddas yr hwn fydd yn dreftadol. Agosha unbenaethau cyfansoddiadol at unbenaethau annibynol pan na bydd y cyfansoddiad yn rhoddi ond ychydig iawn o awdurdod i'r bobl, a'r ychydig awdurdod hono yn cael ei gwneyd yn aneffeithiol drwy ystrywiau y tywysog a'i gynghorwyr. Bydd unbenaethau cyfansoddiadol o nodweddiad pendefigol, pan y rhoddir llawer o awdurdod gwleidyddol yn nwylaw y lleiafrif; neu gallant agoshau at werinlywodraethau, pan na bydd un gwahaniaeth rhyngddynt ond eu bod yn meddu penaethiaid treftadol, yn lle rhai etholedig. Gan hyny, nid ydyw yn briodol cymhwyso y gair *dinasyddiaeth* ond yn unig at y teyrnasoedd hyny yn mha rai y bydd y cyfansoddiad, pa un ai yn ysgrifenedig ai peidio, yn rhoddi rhyw gyfran o'r awdurdod lywodraethol i'w deiliaid, neu i ryw nifer mawr o honynt.

Y dull cyffredin trwy yr hwn y cyrhaeddir dinasfraint ydyw trwy enedigaeth; trwy feddu rhieni yn ddinasyddion. Yn yr hen deyrnasoedd Groegaidd, ac yn gyffredin yn yr holl hen deyrnasoedd lle y bodolai dinasyddiaeth, hwn oedd yr unig ddull, fel rheol gyffredin, drwy yr hwn y gellid ei gyrhaedd. Byddai yn angenrheidiol cael deddf gyhoeddus cyn y gellid rhoddi dinasyddiaeth i berson a fyddai yn amddifad o honi, yn gystal ag i ddeiliaid gwladwriaethau yn gyffredinol. Gwahaniaeth mewn crefydd oedd un o'r achosion am ba rai y cauid dyeithriaid allan o sefydliadau gwleidyddol y gwladwriaethau hyn. Yr oedd y gyfundrefn Rufeinig, ar y cyntaf, yn wladwriaeth gauedig; ond dygwyd yr arferiad o ganiatau dinasfraint i estroniaid (*peregrini*) i mewn yn dra bore. Yn mhen amser, daeth yr arferiad hon yn rhan o wladlywiaeth Rhufain, drwy yr hyn yr eangodd ei henw, ei hiaith, a'i hawdurdod. Yn nyddiau yr ymherawdwyr, caniateid dinasyddiaeth (*πολιτεία*, *Act.* xxii. 28) i daleithiau a dinasoedd cyfain [*Dio. Cass.*, xli. 25: *Suet. Aug.*, 47], yn gystal ag i bersonau unigol, am unrhyw wasanaeth a wneid i'r llywodraeth neu i'r teulu ymherodrol, neu hyd yn oed am swm penodol o arian (*Act.* xxii. 28; *Dio. Cass.*, xli. 24). Yr oedd yr apostol Paul yn ddinesydd Rhufeinig drwy enedigaeth (*Act.* xxii. 28); ac o herwydd hyny, gwrthdystiai yn erbyn cospedigaeth gorfforol (*Act.* xvi. 37; cymharer *Cic. Verr.*, v. 57, 65; *Euseb. Hist. Eccles.*, v. 1, &c.)

Y mae cyfraith Loegr yn rhoddi dinasfraint i bawb a enir, yn mha wlad bynag, o ddinasyddion Prydeinig, neu os oedd eu teidiau neu eu hen deidiau yn ddinasyddion yn Mhrydain Fawr. Y mae cyfraith Loegr hefyd yn rhoddi dinasfraint i bob un a enir yn y tiriogaethau Prydeinig; yr hon arferiad a gyfododd oddi wrth fod y brenin yn hòni ei hawl yn mhawb a enir oddi mewn i'w diriogaethau fel ei ddeiliaid. Yn nghyfnodau boreuaf hanesyddiaeth Seisonig, deiliaid y gelwid y rhai hyny y gellir eu galw yn awr yn fwy priodol yn ddinasyddion; er y rhaid dosbarthu dinasyddiaeth yn Lloegr i ddau fath, megys yr ydoedd yn Rhufain. Y mae rhai dinasyddion genedigol, nad ydynt yn mwynhau y fraint o bleidlais mewn etholiad cynnrychiolwyr seneddol. Ond nid ydyw hyn yn tarddu o anghymhwysder parhaol neu bersonol: anghymhwysder amserol ydyw, yn tarddu o ddiffyg swm penodol o eiddo; gan hyny, gall pob dyn gyrhaedd dinasfraint

Digitized by Google

gyflawn drwy gasglu yn nghyd y swm angenrheidiol er .meddu y cymhwysder a enwyd. Y mae y rhai hyny nad ydynt yn meddu pleidlais yn y cyflwr o ddeiliaid i'r corff llywodraethol hwnw, o'r hwn y mae y rhai sydd yn meddu pleidlais yn ffurflo rhan. Y mae y telerau ar ba rai y derbynir estroniaid yn ddinasyddion yn wahanol mewn gwahanol wledydd. Trwy y gyfraith newydd a wnaethpwyd yn ddiweddar [7 ac 8 Vict., pen. 76], y mae yn llawer haws cael dinasfraint yn Lloegr nag ydoedd yn flaenorol, pan yr oedd yn angenrheidiol cael gweithred seneddol bwrpasol at hyny.

Y mae llawer o wahanol ffyrdd i dderbyn estroniaid yn ddinasyddion wedi bod mewn arferiad yn Unol Daleithiau Gogledd America; ond gofynant yn bresennol breswyliad o bum mlynedd fel rhagbarotoad i dderbyn dinasfraint. Fe ddewisai rhai personau yn y wlad hono estyn amser y prawf i un mlynedd ar ugain. Byddai hyn, pa fodd bynag, yn fesur tra annoeth; canys os ymfuda dyeithriaid i wlad fel yr Unol Daleithiau, gyda'r amcan o ymsefydlu ynddi, y ffordd oreu ydyw eu gwneuthur yn ddinasyddion mor fuan ag y dewisant. Ymddengys nad oes un rheswm dros wrthod rhoddi holl freintiau dinaswyr i estroniaid, mewn llywodraethau gwerinol, mor fuan ag y dewisant ofyn am danynt, os byddant i'w cael o gwbl. Y mae yn briodol cau dyeithriaid genedigol allan oddi wrth rai o brif swyddau y llywodraeth, yr hyn a wneir yn Lloegr ac yn yr Unol Daleithiau.

Ni dderbynid estroniaid i gyflawn fwynhad o freintiau dinaswyr yn yr hen ymherodraeth Rufeinig; ac yn wir, yn hanes boreuol yr ymherodraeth, ffurfiai y werin ddosbarth ag oeddynt yn amddifaid o amryw ragorfreintiau a fwynheid gan y pendefigion. Gallai dyn dderbyn y ddinasfraint Rufeinig mor bell fel ag i fwynhau pob braint, oddi eithr pleidlais yn yr etholiadau cyhoeddus, a mynedfa i swyddau anrhydeddus y llywodraeth. Nid hyn, pa fodd bynag, oedd dinasyddiaeth, fel y deallid hi gan Aristotle; ac nid hyn chwaith ydyw dinasyddiaeth fel y deallir hi gan lywodraethau rhyddion y dyddiau presennol. Y mae meddu dinasfraint gyflawn yn cynnwys fod dyn yn meddu rhan yn y gallu llywodraethol; ond os na bydd ganddo bleidlais etholiadol, ac os na bydd yn meddu cymhwysder i gael ei ddewis i swyddau anrhydeddus y llywodraeth, nid ystyrir ei ddinasfraint ond yn un gyfyngedig.

Gall dyn o unrhyw grefydd gyrhaedd dinasyddiaeth yn yr Unol Daleithiau, ac ni bydd ei opiniynau yn un rhwystr iddo gael ei ddewis i swyddau penaf y llywodraeth. Ond nid ydyw yn hollol felly yn Mhrydain. Hyd yn ddiweddar, ni oddefid i un dyn gael ei dderbyn yn aelod o Dŷ y Cyffredin, er iddo fod yn ddinesydd, os na byddai yn foddlawn i broffesu ei fod yn Gristion; ond erbyn hyn, y mae math o ddeddf goddefiad wedi ei gwneuthur i dderbyn *Iuddewon* yn aelodau, ar ammodau penodol.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Cycl. of Pol. Know.*)

DINESYDD. Gwel DINASFRAINT.

DINCOD; unigol, *dincodyn:* ceryg y mânffrwythau, cnewyllyn pob grawn: *Num.* vi. 4. Defnyddir y gair hwn hefyd yn y Beibl Cymraeg am y teimlad anhyfryd a gynnyrchir yn y dannedd, drwy fwyta ffrwythau surion; ac y mae y defnyddiad hwn o hono yn eithaf priodol, os ydyw yr esboniad a rydd rhai ar wraidd y gair yn gywir, sef ei fod yn deilliaw oddi wrth *daint* a *cawdd;* a rhai o ystyron *cawdd*, yn ol y doethor Pughe, ydyw blinder, trallod, a gofid. "Y tadau a fwytasant rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae *dincod;*" *Ier.* xxxi. 29. Yr oedd Duw wedi bygwth y buasai "yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant;" ac fe roddodd hyn achlysur i'r ddiareb sydd yn yr adnod hon, ystyr pa un ydyw, fod y plant yn dyoddef am bechodau eu rhieni; a thra yr oeddynt mewn caethiwed, cymhwysent y ddiareb hon atynt eu hunain, megys pe buasai y trueni a ddyoddefent i'w briodoli yn benaf i gamweddau eu tadau: *Galar.* v. 7; *Ezec.* xviii. 2. Ond wedi i'r farn hon gael ei symmud, fe ddarfyddai y ddiareb; a "byddai pob un farw yn ei anwiredd ei hun;" *Ier.* xxxi. 30.

DINIWED—EIDRWYDD: diddrwg, dieuog, glân, gwirion. Yn briodol, bod yn rhydd oddi wrth bob peth tueddol i niweidio, poeni, neu waethygu; megys diniweidrwydd rhyw gyfferi meddygol y mae yn anmhosibl iddynt effeithio er gwaeth ar y cyfansoddiad. Mewn ystyr moesol, y mae y gair yn golygu rhyddid oddi wrth drosedd, neu bechod—dieuogrwydd; purdeb calon; buchedd lân; uniondeb difai. Gan nas gellir priodoli diniweidrwydd perffaith i un dyn, defnyddir y gair yn fwyaf cyffredin i ddynodi dieuogrwydd mewn rhyw achos neillduol: y sefyllfa o fod heb gyflawnu rhyw un trosedd penodol. Yn yr ystyr o burdeb difrycheulyd, nis gellir dyweyd am un dyn ei fod yn ddiniwed; ond yn yr ystyr diweddaf, fe ddichon ei fod yn wir am un ei fod felly. "Efe a wareda ynys y diniwed: a thrwy lendid dy ddwylaw y gwaredir hi;" *Iob* xxii. 30. Y darlleniad ar ymyl y ddalen ydyw, "Y diniwed a wareda yr ynys." Cyfieithiad anhapus ydyw hwn; ac y mae yn eglur fod y cyfieithwyr wedi camgymmeryd meddwl y gwreiddiol; o herwydd y mae yn anhawdd cyssylltu un syniad eglur â'r ymadrodd "gwaredu ynys y diniwed." Y mae yn wir fod y gair a gyfieithir *ynys* (אר) yn gyffredin yn golygu ynys neu wlad arforawl. Pa fodd bynag, defnyddir ef fel negair (*negative*) yn 1 *Sam.* iv. 21, yn yr enw *I-ehabod* (אי כבוד)—"A hi a alwodd y bachgen I-chabod" (ymyl y ddalen, "pa le y mae y gogoniant") neu, "nid oes ogoniant; gan ddywedyd, y gogoniant a ymadawodd o Israel." Cyfarfyddir â'r ystyr yma yn gyffredin yn yr Hebraeg Rabbinaidd, lle y defnyddir ef yn gyssylltiedig âg ansoddeiriau mewn ystyr difeddiannol (*privative*), yn gyffelyb i'r Cymraeg *an* neu *di.* Y mae yn debyg mai talfyriad ydyw o אין=*ni, na, nad; dim;* ac y mae yn cael ei arfer yma fel *negair* i nodweddu (*qualify*) y gair canlynol:—"Efe a wareda, ie, yr hwn *nad* yw ddiniwed." Felly y mae yn cael ei gyfieithu yn y Caldaeg, gan Le Clerc, Rosenmüller, Gesenius, Noyes, ac ereill. Cyfleithir ef gan y Vulgate a'r Deg a Thrigain, "Efe a wareda y diniwed." Yr ystyr ydyw, y bydd y dyn a ddychwel at Dduw, a'r hwn yr edrychir arno gan Dduw fel ei gyfaill, yn alluog i eiriol dros yr euog fel na ddel arnynt y gospedigaeth y maent yn ei haeddu. Gwrandewir ei weddiau ar eu rhan, a chyfrenir ffafrau iddynt er ei fwyn ef, pan na byddant yn haeddu hyny yn bersonol. Cytuna y syniad hwn â *Gen.* xviii. 26; *Ezec.* xiv. 14. Cafodd y syniad ei arddangos yn achos Iob ei hunan, pan y galwyd arno i weddio dros ei gyfeillion; ac yn wir, y

Digitized by Google

mae y syniad i'w gael yn mhob man yn y Beibl. Un o freintiau penaf plentyn Duw yw cael bod yn foddion i attal trueni oddi wrth ereill, ac yn offeryn i gadw enaid rhag angeu. "Wele yr ydwyf yn eich danfon fel defaid yn nghanol bleiddiaid: byddwch chwithau gall fel y seirph, a diniwed fel y colomenod." Argymhellir callineb yn gyntaf oll i'r apostolion: rhaid iddynt ystyried yn bwyllog yn mhob amgylchiad sydd yn gofyn am hyny. Nid yw y ddafad yn rhoddi un ymddiried yn y blaidd; ac felly, yr oedd yr apostolion, nid yn unig i ofalu am danynt eu hunain fel defaid yn gyffredin, ond hefyd i chwanegu at eu hanian syml ac unplyg fel defaid gyfrwysdra y creadur cyfrwysaf oll, sef y sarff. Y gair Groeg, *φρονιμος*, a gyfieithir yma *call*, sydd yn cael ei ddefnyddio yn *Gen.* iii, i gynnrychioli yr Hebraeg ערום; a diammheu fod yr Arglwydd Iesu yn cyfeirio yn ol at yr ymadrodd yn y bennod hono fel eglurhad ar natur y sarff. Maent wedi eu gosod mewn byd llawn o fleiddiaid, ac y mae ganddynt i ymwneyd yn neillduol â'r bod hwnw a elwir unwaith mewn ffordd o arbenigrwydd yn flaidd ei hunan (*Ioan* x. 12); a'r gelyn penodol hwnw y sonir drachefn am dano yn *adn.* 38; ac â seirff ac ysgorpionau, a holl gryfder yr hen sarff: *Luc* x. 19. Y pwnc mawr, gan hyny, yw gweled drwy gyfrwysdra y gelyn, gosod cyfrwysdra yn erbyn cyfrwysdra; bod yn sicr, o'r hyn lleiaf, *mor gall* a'r seirff. Ond nid yn unig hyny; canys gyda dim ond hyn, ni byddent yn ddim mwy na chyfartal â'r rhai drygionus, ac nis gallent eu gorchfygu; am hyny, y mae yr hyn sydd yn canlyn mewn dull hynod a tharawiadol yn cael ei gyssylltu â'r peth cyntaf, yr hyn sydd yn sicrhau mwy o'u tu hwy, ac yn eu gwneuthur yn gallach i fuddugoliaethu. Y fath eiriau rhyfedd yw y rhai hyn, sydd yn cynnwys ac yn gosod ger ein bron y ddoethineb a'r gwirionedd dyfnaf trwy gymhariaethau sydd yn ymddangos fel yn groes i'w gilydd; ond er hyny, sydd trwy y peth hwnw ei hunan yn deffro ac yn symbylu y meddwl i'w deall! Nis gall neb anghofio ymadrodd fel hwn wedi ei glywed unwaith. Nis gallai neb yn cyssylltu dim pwys â geiriau yr Arglwydd Iesu beidio meddwl am dano, a chwilio i mewn iddo. Yn gyntaf oll, y maent, fel yr anfonir hwynt allan ganddo ef, yn *ddefaid* gweiniaid a diamddiffyn; yna y mae Efe am eu cael ac am eu gwneyd yn gall fel *seirff;* ac mor fuan ag y daethant felly, y mae am iddynt fod fel *colomenod.* Fel y mae defaid yn wrthgyferbyniol i fleiddiaid, felly y mae colomenod i seirff—symlrwydd i gyfrwysdra. Y mae y golomen, nid yn unig yn ddiamddiffyn, ond yn ddiniwed, heb wybod dim chwaneg nag mai colomen ddidwyll yw, sydd bob amser yn ofnus yn ehedeg ymaith, ac heb fod ganddi ddim i'w galluogi i wneyd ymosodiad na dim i'w hamddiffyn rhag ymosodiad. Ond gan na byddai y briodoledd yma o eiddo y golomen, ar ei phen ei hun, mewn dynion yn amgylchiadau y rhai y llefarai Iesu Grist wrthynt, yn ddim ond ynfydrwydd (gwel *Hos.* vii. 11, lle y mae Ephraim fel "colomen ynfyd"), y mae yr Arglwydd Iesu yn cyssylltu y diniweidrwydd syml yma â challineb y sarff, yn hollol fel y mae yn darparu ar gyfer yr elfen dwyllodrus, ddrygionus, gythreulig, sydd yn nghyfrwysdra y sarff. "Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd;" *Salm* xxvi. 6. Yn y geiriau hyn, y mae y Salmydd yn gwahaniaethu rhyngddo ef ei hun a'r rhai a broffesent gyflwyno yr un addoliad i Dduw ag yntau, ac a ymwthient i ymaflyd yn ngwasanaeth y cyssegr, fel pe na buasai gan neb ond hwy hawl i'w gyflawnu. Am hyny, gan fod Dafydd a'r rhagrithwyr hyn yn gyffelyb yn yr ystyr yma—eu bod y naill fel y llall yn myned i mewn i'r cyssegr, ac yn amgylchu yr un allor yn nghyd—y mae yn myned yn mlaen i ddangos ei fod ef yn addolydd mewn gwirionedd, gan ddywedyd ei fod nid yn unig yn talu sylw i'r defodau allanol, ond yn nesau at Dduw gyda gwir ysbryd addoli. Y mae yn amlwg ei fod yn cyfeirio at y ddefod gyssegredig o ymolchi a arferid dan y gyfraith. Yr oedd golchi dwylaw fel arwydd ddifrifol o ddiniweidrwydd yn un o'r defodau a argymhellid gan gyfraith Moses (*Deut.* xxi. 6, 7), ac yn beth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon. Arferent yn gyffredin wneyd hyny o flaen gweddi; ac nid oedd yr offeiriaid yn enwedig i gyflawni un o swyddau cyssegredig y cyssegr nes iddynt yn gyntaf dywallt dwfr o'r noe a osodid yn y deml i'r dyben hwnw, a golchi eu dwylaw â'r dwfr hwnw: *Exod.* xl. 30—33. Y mae y Salmydd yn yr adnod dan sylw yn ceryddu y rhagrithwyr am eu hofergoeledd—yn ceisio dim ond puredigaeth trwy ddwfr, tra yn esgeuluso gwir buredigaeth; pan, mewn gwirionedd, mai amcan Duw yn sefydlu yr arwydd allanol oedd dwyn ar gof i ddynion eu llygredd mewnol, ac yn y modd yma eu cefnogi i edifarhau. Yn hytrach na llesoli y rhagrithwyr, nid oedd y golchiad allanol yn gwneyd dim ond eu cadw mewn pellder mwy oddi wrth Dduw. Gan hyny, pan y mae y Salmydd yn dyweyd, "Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd," awgryma nad ydynt hwy ond yn casglu mwy o halogrwydd trwy eu golchiadau. Y mae y gair Hebraeg נקיון (*niccayon*) yn golygu glendid unrhyw beth, a defnyddir ef yn ffugrol am ddiniweidrwydd.—(*Calvin's Commentary on Psalms; Barnes on Job.*)

DINYSTR—IO. Y weithred o ddinystrio yw dinystr; tyniad i lawr; adfail; dadymchweliad; distrywiad, trwy unrhyw foddion; megys *dinystr* adeiladau neu ddinystr dinasoedd. Y mae dinystr yn gynnwysedig yn niddymiad ffurf unrhyw beth—y ffurf hono o ranau sydd yn ei wneyd yr hyn yw; megys dinystr glaswellt neu lysiau trwy eu bwyta; dinystr coedwig drwy dori i lawr y coed; neu ynte, gall ddynodi llwyr ddifodiad; megys dinystr rhyw lywodraeth neillduol, neu ddinystr ar ddedwyddwch. Arferir y gair er dynodi achos dinystr: "Y dinystr a ddinystria ganol dydd." Y mae y gair gwreiddiol a gyfieithir *y dinystr* yn ein Beiblau ni, yn cael ei gyfieithu "y gwynt nerthol" yn y Syriaeg. Cyfieithir ef gan Fry, "yr awel ddeifiol." Dywed efe, "fod y simŵm, neu boethwynt yr anialwch, yn beth rhy hynod a phwysig yn y bröydd hyny i'r bardd sanctaidd fyned heibio iddo pan yn enwi y gwahanol beryglon parod i amgylchu einioes dyn." Gan fod y gwynt hwn yn boeth a llosgadwy, y mae yn rhaid fod ei effeithiau pan yn chwythu ganol dydd yn fwy marwol drachefn. Fel hyn y mae Jos. Scaliger yn egluro yr adnod hon a'r un flaenorol:—"Nid ofni rhag braw y nos, rhag y saeth yn ehedeg y dydd, rhag yr haint a rodia yn yr hwyr, rhag difrod ganol dydd." Dan y pedwar peth hyn, y mae yn crynhoi pob drwg a phob perygl y mae dyn yn agored iddo. Ac fel y mae yr Hebreaid yn dosbarthu pedair awr ar ugain y dydd a'r nos, i bedair rhan (sef, hwyr, hanner nos, bore, hanner dydd) felly y mae yn edrych ar oriau perygl fel wedi eu

Digitized by Google

dosbarthu yn gyffelyb; mewn gair, fod yr hwn sydd wedi gwneuthur yr Arglwydd yn noddfa iddo, bob amser yn ddiogel, ddydd a nos, bob awr, ac oddi wrth bob perygl. "Ha elyn, darfu am ddinystr yn dragywydd;" *Salm* ix. 6. Darllenir yr adnod gan rai fel pe byddai ofyniad, gan ystyried y llythyren ה yn nôd o holiad; fel pe buasai Dafydd yn cyfarch ei elynion, ac yn gofyn a oeddynt wedi gorphen eu gwaith o ddistrywio, i'r graddau yr oeddynt wedi penderfynu dwyn dinystr am ben pob peth; o herwydd y mae y gair Hebraeg תמם (*tamam*) weithiau yn golygu gorphen, cwblhau; ac weithiau dybenu rhyw beth. Ac os cymmerir y gair yn yr ystyr yma, y mae Dafydd mewn gwawdiaith yn ceryddu amcan pechadurus ei elynion. Y mae ereill yn darllen yr adnod heb un gofyniad, a thrwy hyny yn dangos fod llymder y watwareg yn fwy eglur a theimladwy. Tybiant hwy fod Dafydd yn y tair adnod yma yn dysgrifio gwedd ddeublyg ar bethau; ar un llaw (*adn.* 6), dengys ei elynion fel yn ei erlid ef gyda'r toster mwyaf, ac yn parhau yn eu creulondeb gyda'r ystyfnigrwydd mwyaf, nes yr oedd yn ymddangos mai eu bwriad penderfynol oedd peidio ymattal nes llwyr ddinystrio teyrnas a thŷ Dafydd oddi ar y ddaiar; ac ar y llaw arall (*adn.* 7, 8), y mae yn arddangos Duw fel yn eistedd ar orsedd barn yn uniawn ar gyfer y gelyn, i luddias ei amcanion creulawn. Yn ol yr ystyr yna, y darlleniad fyddai, "Ni ddarfu i ti, O elyn, ymgais at ddim ond lladdedigaeth a dinystr dinasoedd; ond o'r diwedd, dangosodd Duw ei fod ef yn eistedd ar ei orsedd yn y nefoedd, i ddwyn i drefn y pethau sydd mewn annhrefn ar y ddaiar." Ereill, yn unol â'r darlleniad ar ymyl y ddalen yn ein Beiblau ni, a edrychant ar y geiriau mewn ystyr mwy cyfyng, fel yn golygu fod anrhaith yr annuwiol wedi ei ddybenu, am fod Duw yn ei farnedigaethau cyfiawn wedi peri i'r trychineb a'r dinystr yr oeddynt wedi ei gynllunio i Dafydd ddisgyn ar eu penau eu hunain. Y syniad a dderbynir gan Calvin ydyw, mai dysgrifiad gwatwarus sydd yn cael ei roddi yn gyntaf o allu peryglus y gelyn, pan y byddent yn ei roddi ar waith hyd yr eithaf; ac wedi hyny, fod barn Duw yn cael ei gosod allan mewn gwrthgyferbyniad i'r gallu hwnw, a'i farn Ef yn troi eu cynghor a'u hamcanion yn ffolineb, yn groes i'w dysgwyliadau hwy. Y mae y cyferbyniad yma rhwng gallu gelynion Duw a'i bobl, a gwaith Duw yn dyrysu eu cynlluniau, yn gosod allan natur ryfeddol y cynnorthwy hwnw y mae Duw yn ei roddi i'w bobl. Nid oedd yr annuwiol wedi gosod un terfyn i'w bwriad i wneuthur drwg, ond llwyr ddistrywio pob peth; ac yn y dechreu, ymddangosai fel pe buasai dinystr llwyr wrth law; ond pan yr oedd pethau yn y sefyllfa annhrefnus yma, daeth yr Arglwydd allan mewn pryd yn gymhorth i'w bobl. "Y gelyn diweddaf a ddinystrir yw yr angeu." Sylwa Bengel am yr adnod yma, mai ymadrodd cynnwysfawr yw. Y mae angeu yn elyn; y mae yn elyn sydd wedi ei ddinystrio; efe yw y gelyn a ddinystrir ddiweddaf o'r cwbl—yn ddiweddaf; hyny yw, ar ol Satan (*Heb.* ii. 14); ac ar ol pechod (1 *Cor.* xv. 54). O herwydd yn y drefn yma y derbyniasant eu nerth: daeth Satan â phechod i mewn; a phechod a achosodd angeu. Y mae y gelynion hyn wedi eu dinystrio; gan hyny, y mae angeu wedi ei ddinystrio. Gellir gofyn, Onid yw yr un egwyddor yn dal yr un modd gyda golwg ar yr holl elynion ereill? o herwydd, mor bell ag y mae y lleill i gyd wedi eu dinystrio, y mae angeu wedi ei ddinystrio hefyd (2 *Tim.* i. 10); gan hyny, yn gymmaint a bod angeu yn aros, y mae y gelynion ereill yn aros hefyd; ac felly, nid angeu a ddinystrir ddiweddaf. I hyn y mae yn rhaid ateb, ddarfod i Grist, mor bell ag yr aeth o'r blaen i frwydr â'i elynion yn gyntaf, orchfygu Satan trwy ei farwolaeth; yn nesaf, pechod, yn ei farwolaeth; ac yn olaf, angeu, yn ei adgyfodiad: ac yn yr un drefn ag y dinystriodd ei elynion, y mae yn gwaredu credinwyr o'u llaw. Fe ellid gofyn drachefn, Pa fodd y mae angeu y *diweddaf* a ddinystrir, os yw yr adgyfodiad yn rhagflaenu dilead "pob pendefigaeth?" Yr ateb i hyn ydyw, fod y farn yn uniongyrchol yn canlyn yr adgyfodiad, ac â'r farn y mae dilead pob pendefigaeth yn gyssylltiedig, ac y mae dinystr angeu ac uffern yn canlyn yn union gyrchol. Dysgrifir trefn y dinystr yn *Dad.* xix. 20; xx. 10, 14. Heb law hyny, fe ddylid deall yr ymadrodd mewn ystyr deublyg. Fe ddinystrir y gelynion fel gelynion. O herwydd hyd yn oed wedi hyn oll, fe fydd Satan o hyd yn Satan, uffern o hyd yn uffern, a'r geifr o hyd yn felldigedig. Y mae yn wir y dinystrir hwy oll yn gyntaf—o flaen angeu y gelyn diweddaf—nid fel na byddant byth mwy yn bod, fel angeu; ac nid yn y fath fodd fel na byddant mwyach yr hyn y maent yn cael eu galw yn awr, sef Satan, uffern, y rhai melldigedig; ond yn y fath fodd fel na byddant mwy yn elynion, yn gwrthwynebu, ac yn alluog i beri rhwystrau; o herwydd fe'u llwyr ddarostyngir, fe'u gwneir yn ddinerth, fe'u cymmerir yn gaethion, ymwelir â hwy â chospedigaeth, ac fe'u gosodir dan draed ein Harglwydd. Nid yw dilead pob pendefigaeth i'w ystyried fel dinystr (hyny yw, diddymiad) gelynion; ac heb law hyny, yn ol *Dad.* xix. 20, y mae dinystrio gallu gelynion y credadyn yn myned o flaen dinystrio angeu, yr hyn y mae dinystr neu ddilead pob awdurdod a phendefigaeth yn uniongyrchol yn ei ddilyn. Y pryd hwnw hefyd, fe ryddheir yr angelion da oddi wrth eu gwasanaeth hwythau.

"Fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw diafol." Dyoddefodd Iesu Grist, a gorchfygodd angeu; ac ymostyngodd y diafol, gweinidog yr hwn yw angeu, iddo. Y mae nerth marwolaeth yn nwylaw y diafol, fel gormeswr cadarn (*Esa.* xlix. 24), ac y mae ganddo awdurdod ar y caethion: *Col.* i. 13. Gweinidog y diafol, fel meistr creulawn, yw angeu—yn traddodi drosodd i'r gelyn y dynion y mae efe yn eu llithio ac yn eu denu trwy bechod; ond trwy farwolaeth, gwnaeth Iesu Grist hwy yn eiddo iddo ei hun.—(*Calvin's Works; Bengel.*)

DINYSTRIAID, [*Destructionists*]: plaid o bobl, y rhai a gredant mai nid mewn bod am dragwyddoldeb mewn poenau a thrueni y mae y gospedigaeth ddyfodol a fygythir ar yr annuwiol yn y Beibl yn gynnwysedig; ond mewn difodiad hollol o fodolaeth, ac y bydd i'r ddedfryd o ddifodiad gael ei gweinyddu gyda mwy neu lai o boen, yn ol graddau euogrwydd y troseddwr.

Y mae yr enw a gymmer y blaid hon arnynt eu hunain, megys enwau amryw bleidiau ereill, yn cymmeryd y pwnc mewn dadl yn ganiataol; sef mai ystyr y gair *dinystr* yn yr Ysgrythyr yw *difodiad*; gan hyny, a siarad yn fanwl, Difodiaid y dylid eu galw, ac nid Dinystriaid. Amddiffynir yr athrawiaeth yn helaeth yn mhregethau Mr.



Digitized by Google

Samuel Bourn, o Birmingham; delid hi hefyd gan Mr. J. N. Scott, Dr. John Taylor, o Norwich; Mr. Marsom, a lluaws ereill.

Dadleua Mr. Bourn fel y canlyn:—Mae llawer o adnodau yn y Beibl, yn mha rai y dynodir, yn yr iaith egluraf a mwyaf diamwys, mai dinystr tragwyddol trwy allu Duw, yr hwn sydd yr un mor alluog i ddinystrio ac i achub, ydyw cospedigaeth ddyfodol yr annuwiol. Felly hefyd, gan y mae ein Iachawdwr yn cadarnhau meddyliau ei ddysgyblion yn erbyn gallu dynion, a dialedd ei gyfiawnder yntau, efe a ddywed, "Ac nac ofnwch rhag y rhai a laddant y corff, ac nid allant ladd yr enaid; eithr yn hytrach ofnwch yr hwn a ddichon ddistrywio enaid a chorff yn uffern;" *Mat.* x. 28. Efe a ddengys yma yn eglur mai pwynt eithaf y digofaint dwyfol, ac mai y peth yr ydym ninnau i'w arswydo yn fwyaf o ddim ydyw dinystr yr enaid, ac nid poen a thrueni diddiwedd. A phan y dywed, "Y rhai hyn a änt i gospedigaeth dragwyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol," ymddengys yn eglur mai nid unrhyw fath o fywyd a olygir, pa mor druenus bynag, wrth y gospedigaeth dragwyddol a osodir yn wrthgyferbyniol i fywyd tragwyddol; ond yr un peth ag a olyga yr apostol wrth "ddinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef;" 2 *Thes.* i. 9. Yn wir, y mae y gair *marwolaeth* ei hun yn cael ei ddefnyddio yn fynych i osod allan ddiwedd y rhai drygionus mewn byd arall, neu ganlyniad gorphenol y cyfiawnder dwyfol yn eu cospedigaeth. "Cyflog pechod (medd yr apostol) yw marwolaeth; eithr dawn Duw yw bywyd tragwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd;" *Rhuf.* vi. 23; viii. 6.

Yn ol ei farn ef, nis gellir meddwl mai yr hyn sydd i'w ddeall wrth y gair *marwolaeth* ydyw bywyd tragwyddol, ar mewn cyflwr o drueni anamgyffredadwy, heb droseddu rheolau pob gweddeidd-dra a chymmysgu ystyron geiriau. Dywed efe mai ystyr priodol y gair *marwolaeth*, pan y cymhwysir ef at gyflwr y rhai drygionus yn y sefyllfa ddyfodol, ydyw difodiad hollol o fywyd a bodolaeth. Er cadarnhau y golygiad hwn yn mhellach, efe a ddywed mai *cwsg* ydyw y sefyllfa a ddefnyddir yn gyffredin gan ein Iachawdwr a'i ddysgyblion, i osod allan y cyflwr i ba un y darostyngir dynion trwy farwolaeth dymmorol; o blegid yr adgyfodir yr enaid drachefn o'r farwolaeth hon: ond o'r llall, yr hon ydyw marwolaeth yn ystyr llawnaf a mwyaf priodol y gair, ac o'r hon nid yw y gyntaf ond cysgod, nid oes un adferiad; marwolaeth dragwyddol ydyw "dinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef."

A yn mlaen yn nesaf at y ffugrau a ddefnyddir i ddysgrifio cospedigaeth dragwyddol y rhai drygionus; ac y mae yn cael eu bod yn cytuno yn hollol i gadarnhau yr un athrawiaeth. Un ffugr, yr hwn a ddefnyddir yn fynych, ydyw yr un a gymmerid oddi wrth sylweddau llosgedig yn cael eu taflu i dân, y rhai, mewn canlyniad, a losgir yn llwyr, os na ddiffoddir y tân. "Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragwyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angelion;" *Mat.* xxv. 41. Yr ystyr ydyw, dinystr hollol ac anocheladwy; o blegid, megys y torir i lawr y pren na ddygo ffrwyth da, ac y bwrir ef i'r tân i'w ddinystrio; megys y bwrir yr ûs diwerth, ar ol ei wahanu oddi wrth y grawn, i'r tân, ac y dinystrir ef yn llwyr, os na ddiffoddir y tân; felly hefyd, fel y tybia ef, ymddengys yn eglur mai nid amcan y ffugr o dân anniffoddadwy, neu dân tragwyddol, ydyw gosod allan radd neu barhad y gospedigaeth, ond y sicrwydd o ddinystr hollol ac anocheladwy, tu hwnt i'r posibirwydd o adferiad. Felly y dywedir bod y dinasoedd—Sodom a Gomorrah—wedi dyoddef dialedd tân tragwyddol; hyny yw, cawsant eu dinystrio mor effeithiol fel nas gellid byth eu hailadeiladu.

Gosodir y ffugrau o "bryf na bydd marw, a thân na ddiffydd," y rhai a ddefnyddir yn *Marc* ix. 44, yn wrthgyferbyniol i fyned i mewn i'r bywyd, ac amcenir hwynt i osod allan gyfnod o fywyd a bodolaeth.

Y mae ein Iachawdwr yn nodi yn arbenig wahanol raddau o drueni dyfodol, i gyfateb i wahanol raddau euogrwydd dynion: *Luc* xii. 47, 48. Os poenydir yr holl annuwiolion yn ddiddiwedd, pa fodd y gellir dyweyd am rai o honynt, na ddyoddefant ond "ychydig ffonnodiau?" Llyncir i fyny bob graddau a gwahaniaeth mewn cospedigaeth gan y syniad o drueni diddiwedd ac annherfynol.

Yn ddiweddaf, gosodir marwolaeth a dinystr tragwyddol, neu ddifodiad, allan yn y Testament Newydd yn briodol fel cospedigaeth dragwyddol, am ei bod yn anocheladwy ac yn anghyfnewidiol dros byth; a gelwir hi hefyd yn y dull mwyaf llythyrenol yn "ddinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef."

Y mae y Dr. Edwards, yn ei atebiad i Dr. Chauncey, ar iachawdwriaeth pob dyn, yn mysg rhesymau ereill, yn dwyn y rhai canlynol yn erbyn yr athrawiaeth:—

1. Mae y gwahanol raddau o gospedigaeth a weinyddir ar y rhai drygionus, yn ol eu gweithredoedd, yn profi nad ydyw eu cospedigaeth yn gynnwysedig mewn difodiad--yn yr hyn beth nid oes graddau.

2. Os dywedir y rhagflaenir cospedigaeth y drygionus, er iddi ddiweddu mewn difodiad, gan boenau, ac y bydd y rhai hyny o wahanol radd, yn ol graddau yr euogrwydd, gellir ateb, y byddys drwy hyn yn gwneyd y gospedigaeth i fyny mewn rhan o boenau, ac mewn rhan o ddifodiad. Ymddengys hefyd nad yw y ddiweddaf ond rhan fechan o'r gospedigaeth ddyfodol—y rhan a weinyddir am y pechod lleiaf; ond y bydd yr holl gospedigaeth a ddyoddefa unrhyw bechadur uwch law yr hyn fydd yn ddyledus am y pechod lleiaf yn gynnwysedig mewn poenedigaeth. Os gallwn ffurfio rhyw ddrychfeddwl yn y sefyllfa bresennol am yr hyn a fyddai yn arswydlawn neu yn ddymunol mewn sefyllfa arall, byddai difodiad ar ol cyfres hirfaith o boenau yn waredigaeth, at ba un yr edrychai y pechadur gyda phryder a dysgwyliad, yn hytrach nag yn gospedigaeth. Ac a ydyw yn gredadwy mai dyma y boenedigaeth y tynodd ein Harglwydd sylw ei ddysgyblion ati fel peth i'w arswydo? Ai hyn ydyw dinystr enaid a chorff yn uffern? A ydyw yn beth credadwy nad yw "dinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef," yn cyfansoddi ond rhan yn unig, a hono yn rhan fechan, o'r gospedigaeth ddyfodol; y gyfryw ran hefyd, ar ol cyfres o boenau, y rhaid yr edrychid arni gan y dyoddefwyr, yn nesaf at sefyllfa o hapusrwydd, fel y peth mwyaf dymunol a allasai ddygwydd iddynt? A ydyw yn bosibl mai dyma ydyw yr hyn a fygythir yn y fath eiriau a "thalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi," a "dial tân fflamllyd?" 2 *Thes.* i. 6, 8. A ydyw yn

Digitized by Google

bossibl y buasai Duw yn eu bygwth â dybeniad ar eu poenedigaeth? Heb law hyny, nid fel diweddiad i gyfres o boenau y dysgrifir y dinystr hwn, ond megys yn cymmeryd lle yn uniongyrchol ar ol y farn ddiweddaf. Pan y del Crist i gael ei glodfori yn ei saint, y pryd hyny fe ddinystrir y rhai drygionus.

3. Y mae yn anmhossibl mai difodiad a olygir wrth "ddinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef;" canys ni byddai mewn difodiad un weithred o allu dwyfol—dim ond attaliad arno; o blegid ni byddai raid i Dduw ond dodi ei law gynnaliol yn ei fynwes am amrantiad, ac fe suddai yr holl greadigaeth i ddiddymdra.

4. Yr un fydd cospedigaeth dynion drygionus a chospedigaeth yr angelion drygionus: "Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragwyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angelion;" *Mat.* xxv. 41. Ond nid mewn difodiad y mae cospedigaeth yr angelion yn gynnwysedig, ond mewn poenedigaeth. Cawsant "eu bwrw i lawr i uffern;" y maent yn "credu ac yn crynu;" cedwir hwynt "mewn cadwynau tragwyddol dan dywyllwch, i farn y dydd mawr;" gwaeddasant, gan ddywedyd, "Beth sydd i ni a wnelom â thi? a ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser?" Pe gallai yr ysbrydion aflan ond eu darbwyllo eu hunain y byddai iddynt gael eu difodi, credu a thawelu a wnaent, yn hytrach na chrynu ac arswydo.

5. Y mae yr Ysgrythyrau yn esbonio eu hystyr eu hunain pan yn defnyddio y fath eiriau a marwolaeth, dinystr, &c. Dywedir yn arbenigol fod yr ail farwolaeth yn gynnwysedig mewn bwrw i'r llyn o dân a brwmstan, ac mewn bod yn meddu rhan yn y llyn hwnw (*Dad.* xx. 14; xxi. 8); yr hyn nis gall fod yn ddysgrifiad o ddifodiad mewn un ystyr. Y mae yr ymadrodd, "efe a'i gwahana ef" (*Mat.* xxiv. 51), mor gryf a'r ymadroddion yn mha rai y defnyddir y geiriau "marwolaeth" a "dinystr;" etto, dywedir fod hyny yn gynnwysedig mewn gosod rhan dyn gyda'r rhagrithwyr, lle "y bydd wylofain a rhincian dannedd."

6. Nid mewn bodolaeth dragwyddol y mae hapusrwydd y cyfiawn yn gynnwysedig, ond mewn bodolaeth ddedwydd dragwyddol; a chan y saif cospedigaeth y drygionus yn mhob man yn wrthgyferbyniol i hyny, y mae yn rhaid ei bod hithau yn gynnwysedig, nid mewn colli bodolaeth, ond mewn amddifadrwydd o fodolaeth ddedwydd, a dyoddef trueni gwrthgyferbyniol.

Gellir tybied fod y Dr. Watts yn credu daliadau y blaid hon i ryw raddau, yn gymmaint ag mai ei opiniwn ef oedd, bod plant rhieni annuwiol, a fyddant feirw yn eu babandod, yn cael eu difodi. Gwel UFFERN.—(*Bourn's Sermons; Dr. Edwards on the Salvation of all Men strictly examined; Adams' View of Religions; Buck's Theol. Dict.*)

DIOD—YDD: darpariaeth o eiddo y Creawdwr daionus, er tori syched ei greaduriaid, ac adloni eu natur. Mae gwlybyroedd i'w hyfed i ddisychedu natur yn un o angenrheidiau bywyd, ac yn un o'r bendithion tymmorol gwerthfawrocaf. Ymddengys fod gwin, llaeth, dwfr, a gwlybyroedd ereill, wedi eu trefnu gan yr Arglwydd i fod yn ddiodydd; ond dwfr, yn ddiau, ydyw y brif elfen a fwriadodd yn ddiod i ddyn ac anifail, yn nghyd â holl naturiaeth. Y mae yn eglur fod dynion, anifeiliaid, bwystfilod, adar, ymlusgiaid, coedydd, a llysiau o bob math, ïe, a'r ddaiar ei hunan, yn cydsefyll mewn angen am gael eu diwallu yn fynych â diod. Pan attelir oddi wrthynt y gwlybwr a dŷr eu syched, marweiddia, gwywa, a diflana pob perchen bywyd, ac ettyl y ddaear ei ffrwyth; ond pan ddisychedir hwynt, ymfywhant, ymloniant, ac ymadnewyddant o ran eu nerth, eu prydferthwch, a'u defnyddioldeb. Mae y Brenin Mawr wedi gwneyd darpariaeth addas i ddisychedu ei holl greaduriaid: "Yr hwn a ŷr y ffynnonau i'r dyffrynoedd, y rhai a gerddant rhwng y bryniau. Diodant holl fwystfilod y maes: yr asynod gwylltion a dorant eu syched. Adar y nefoedd a drigant gerllaw iddynt, y rhai a leisiant oddi rhwng y cangau. Y mae efe yn dyfrhau y bryniau o'i ystafelloedd: y ddaear a ddigonir o ffrwyth dy weithredoedd;" *Salm* civ. 10—13. Mae cyflawnder o ddyfroedd tuag at ddisychedu y ddaear, a'i holl greaduriaid, wedi eu trysori yn y moroedd mawrion; y maent wedi eu halltu yno, ac yn cael eu symmud o fan i fan yn barhaus, drwy weithrediadau grymus deddfau anian, er eu cadw yn ddilwgr; mae sugnyddion anweledig yn eu codi i'r wybren, gan adael yr halltrwydd ar ol; a chludir hwynt yn y cymylau—cerbydau y nefoedd—dros y gwledydd, a thywelltir hwy yn gawodydd i ddyfrhau y ddaiar, fel y dywed Dafydd, "Yr wyt yn ymweled â'r ddaiar, ac yn ei dyfrhau hi: yr ydwyt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr âg afon Duw, yr hon sydd yn llawn dwfr: yr wyt yn parotoi ŷd iddynt, pan ddarperaist felly iddi. Gan ddyfrhau ei chefnau, a gostwng ei rhychau, yr ydwyt yn ei mwydo hi â chawodydd, ac yn bendithio ei chnwd hi;" *Salm* lxv. 9, 10. Mae y cawodydd a dderbyn y ddaear fel hyn o'r nefoedd yn cael eu hyfed ganddi, a'u cadw yn ei mynwes, a'u gollwng allan drachefn mewn myrdd o wahanol fanau, yn ffynnonau, i ffurfio aberoedd, nentydd, ac afonydd, i ddisychedu pob creadur, ac i'w gwasanaethu mewn llawer modd. Mae y ddarpariaeth fawr hon i dori syched y ddaiar, a'i holl greaduriaid, yn dwyn ynddi ei hun brofion eglur a chryfion o galon hael, daioni diderfyn, a thosturi a thrugaredd y Darparwr mawr. Y mae fel efe ei hun, ac yn dwyn ei ddelw ar bob rhan o honi. Mae ei chyflawnder, ei chyffredinolrwydd, a'i rhadlonrwydd, yn nghyd â'i haddasrwydd i atteb ei dybenion mawrion, yn ei ddwyn ef ger ein bronau yn y goleuni mwyaf dymunol. Lle nad yw natur ei hun wedi anfon ei ffrydiau mewn helaethrwydd digonol i dori angenion dynion, anifeiliaid, a llysiau; megys, mewn rhai parthau o'r gwledydd, ac yn enwedig mewn dinasoedd mawrion, daw celfyddyd yn mlaen i gynnorthwyo natur; a chloddir pydewau, gosodir sugnyddion, ffurfir camlesydd, a phibellau, a dwfrgludyddion o bob math, er diwallu pawb a phob peth â diod; a cheir y dyfroedd yn mhob heol, a phob tŷ, i wneyd i fyny bob angen. Ac nid y leiaf o fanteision ein dinasoedd mawrion y dyddiau hyn ydyw y dyfr-leoedd a geir yn yr heolydd, yn gyfleus i bob sychedig i yfed o honynt; ac y mae eu rhifedi yn lliosogi yn feunyddiol.

Gellir casglu oddi wrth lawer o ymadroddion yn y Beibl; ac oddi wrth hanes Agar ac Ismael, pan oeddynt ar farw o syched, yn anialwch Beerseba; ac oddi wrth hanes Israel, yn yr anialwch; a hanes teyrnas Ahab, yn y tair blynedd a hanner pan oedd y wlad heb na gwlith na gwlaw; mai barn drom ydyw amddifadrwydd o ddwfr i'w yfed, ac i ddyfrhau y ddaiar. "O! y griddfan y mae yr anifeiliaid! Y mae yn gyfyng ar y

Digitized by Google

minteioedd gwartheg, am nad oes borfa iddynt; y deadellau defaid hefyd a anrheithiwyd; y tân a ddifaodd borfeydd yr anialwch, y fflam a oddeithiodd holl brenau y maes. Anifeiliaid y maes hefyd sydd yn brefu arnat; canys sychodd y ffrydiau dwfr, a'r tân a ysodd borfeydd yr anialwch." Dyna ddarluniad Joel o sychder. Ond er fod dyoddefaint y sychedig yn ddyoddefaint mawr, a marwolaeth drwy syched yn ofnadwy, nid oes un mwynhâd yn fwy dymunol na mwynhâd y sychedig wrth dori ei syched. Y mae "dyfroedd oerion i enaid sychedig" yn hyfryd annhraethol. Mae daioni Duw i'w weled yn rhyfedd yn hyn. Dwfr, yn ddiammheuol, a ddylai fod yn brif ddiod i ddynion, yn gystal ag i anifeiliaid, a chreaduriaid ereill. Mae llaeth, a llaeth cymmysgedig â dwfr, yn ddiod iachus a da: ac yr oedd llawer o win gynt, ac y mae gwinoedd etto, y gellid eu hyfed yn ddiberygl, sydd yn llesol ac yn adfywiol i natur ar brydiau.

Mae bendithion yr iachawdwriaeth yn cael eu gosod allan yn aml yn yr Ysgrythyrau drwy y gymhariaeth o ddiod:—"A'm gwaed i sydd ddiod yn wir." "Y graig oedd Crist." "O! deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno." "Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed." "Ond pwy bynag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd; eithr y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol." Darlunir bendithion yr efengyl fel dwfr o ffynnonau iachawdwriaeth—ffynnonau wedi eu hagor ar leoedd uchel; afon, â'i ffrydiau yn llawenhau dinas Duw: "Afon bur o ddwfr y bywyd, disglaer fel grisial, yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen." "A'r hwn sydd â syched arno, deued; a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad."

DIOD GADARN. Mae llawer o son yn yr Ysgrythyrau am ddiodydd cedyrn, a chyssylltir gwin a diod gadarn â'u gilydd yn fynych yn y Beibl. Gelwir y ddiod yn ddiod gadarn, mae yn amlwg—1. Nid o blegid ei bod yn arfer rhoddi rhyw nerth mawr i'r bobl sydd yn arfer ei hyfed, ac yn eu gwneyd yn gryfion i fyned trwy galedwaith a llafur blin, a thywydd oerllyd ac anfanteisiol. 2. Nid o blegid ei bod yn tueddu i wneyd y sawl a'i hyfo yn gadarn o ran eu hamgylchiadau bydol. 3. Nid o blegid y gwna y neb a'i hyfo yn gadarn o ran ei alluoedd meddyliol, a'i nodweddiad personol, a'i ddylanwad a'i awdurdod dros ereill; o blegid tuedd uniongyrchol ymhyfrydu ynddi ydyw, darostwng dyn o ran ei alluoedd corphorol a meddyliol, a'i ddinystrio o ran ei amgylchiadau tymmorol, o ran ei nodweddiad personol, ac o ran ei werth a'i ddylanwad yn mysg ei gyd-ddynion. Ond priodol yw ei galw yn ddiod gadarn—1. Am ei bod, yn yr hir ymarferiad â hi, yn wenwyn cryf, a sicr o weithio o dan sylfaeni y cyfansoddiad cadarnaf, a'i ddadymchwelyd. 2. Am ei bod wedi cwympo cedyrn yn Eglwys Dduw, megys Noah, Lot, a miloedd heb law hwynthwy, o ben pinacl anrhydedd a gogoniant, i warth a chywilydd ac annefnyddioldeb dros y gweddill o'u hoes; o leiaf, lawer o honynt. 3. Am ei bod yn sefyll yn gadarn yn erbyn llwyddiant pob cynnygiad anrhydeddus a wnelo y dyn a'i hyfo, ac a ymhyfrydo ynddi, er gwella ei amgylchiadau tymmorol ei hun a'i deulu, ac yn chwalu ei holl obeithion i'r pedwar gwynt. 4. Am mai hi yw y gwrthwynebydd cadarnaf a fedd gwlad i lwyddiant gwybodaeth, moesoldeb a chrefydd, yn mysg ei thrigolion; a'i bod yn meithrin pob anfoesoldeb ac annuwioldeb personol, teuluaidd, a gwladol yn eu plith. 5. Am fod cedyrn yn ei mawrhau, ei dilyn, ac yn ei hamddiffyn, yn erbyn pob ymosodiad a wneir gan ddyngarwch, gwladgarwch, a chrefydd, ar ei dylanwad dinystriol. 6. O blegid cadernid a grym ei dylanwad ar y rhai a ymhyfrydant ynddi. Ond er hyny, y mae y nodiadau uchod yn fwy cymhwysiadol at ddiod gadarn ein diodydd ni, nag at ddiod gadarn y Beibl. Ymddengys nad oedd diodydd cedyrn yr Iuddewon, yn eu sefyllfa naturiol, ond gweiniaid mewn cymhariaeth i ddiodydd cedyrn ein gwlad ni. Nid oedd y gelfyddyd o ddistyllio, mewn trefn i gael alcohol pur o ŷd, yn adnabyddus iddynt hwy; o leiaf, pa sylweddau bynag a allai fod ganddynt i gymmysgu eu gwinoedd â hwynt, er eu gwneuthur yn fwy meddwol, nid oedd ganddynt y cyfleusderau sydd gan win-wneuthurwyr a gwin-werthwyr yn bresennol i'w cymmysgu â gwirodydd poethion. O ddeutu mil o flynyddoedd sydd er pan ddysgwyd y gelfyddyd o ddistyllio; ac ni ddaeth gwlybyroedd distylliedig i arferiad, fel diodydd, hyd y rhan olaf o'r unfed ganrif ar bymtheg. Os gwyddai yr Iuddewon ryw ychydig am y mater, ar *scale* fechan ac anmherffaith, megys distylliad planigion a blodau, y mae yn eglur fod y gelfyddyd ddiweddar o dynu *spirits of wine*, neu *alcohol* pur, o rawn y winwydden ac ydau, yn hollol anadnabyddus iddynt hwy.

Yr oedd yn mysg yr Iuddewon a chenedloedd ereill winoedd iachus ac adfywiol, y rhai nid oeddynt feddwol, ac yr oedd eu hyfed mor ddiberygl ag yfed dwfr a llaeth; ac felly, pan grybwyllir am win yn y Beibl, nid ydym, o angenrheidrwydd, i olygu fod y cyfryw bob amser yn win meddwol. Bod cynnwysiad y grawnsypiau a wesgid gan bentrulliad brenin yr Aipht i gwpan Pharaoh yn anfeddwol sydd yn eglur i bawb: ond yr oedd gan yr hynafiaid amryw ffyrdd i gadw gwinoedd rhag ymweithio, ac felly i barhau yn winoedd anfeddwol. Nid yw darlunio y dull o wneyd hyny o bwys yn bresennol. Y mae y ffaith yn ddigon hysbys o fodolaeth gwinoedd anfeddwol yn Judea, ac mai ffrwyth pur y winwydden yn ei sefyllfa anfeddwol oedd y gwin a yfid yno yn gyffredin gan y trigolion; ac felly yr oedd yn hollol ddiberygl. Y mae yn ddiammheu hefyd yr arferid yfed diodydd meddwol yn Judea fel mewn gwledydd ereill; a bod diodydd meddwol mewn ymarferiad yn mysg amryw o genedloedd, yn gystal ag yn mhlith yr Iuddewon, yn yr hen amseroedd. Bu diodydd cedyrn mewn ymarferiad helaeth yn mysg yr Aiphtiaid, y Caldeaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, a brofir yn eglur yn y Beibl, a chan ysgrifenwyr anysbrydoledig yn mysg y Cenedloedd, a bod llawer o ddiota a meddwi yn mysg yr Iuddewon, a welir yn eglur yn yr Ysgrythyrau; ac felly, yr oedd dylanwad diodydd cedyrn yn eang o Moses hyd Ioan Fedyddiwr. Yr oedd melusder y defnyddiau o ba rai y gwneid gwinoedd yn Palestina, yn nghyd â hinsawdd gynhes y wlad, yn anffafriol i gynnyrchiad gwinoedd cryfion trwy ymweithiad naturiol; ac ymddengys fod eu diodydd ymweithiedig hwy, yn eu sefyllfa naturiol, yn llawer gwanach na diod fràg gyffredin ein gwlad ni. Nad oedd y gwin a wneid o ffrwyth y balmwydden, &c—*shechar* y Beibl, a gyfieithir mor fynych yn ddiod gadarn—ond diod wan mewn cymhariaeth i gwrw ein gwlad ni, a ellir brofi yn eglur. Ond ymddengys fod gan yr hynafiaid, er nad oedd gwirodydd yn hysbys

Digitized by Google

iddynt, amrywiol bethau, megys myrr, a chyfferiau cyffelyb, o ansawdd syfrdanol a meddwol; y rhai a gymmysgent â'u gwinoedd ac â'u diod gadarn, er eu cryfhau a'u gwneyd yn fwy effeithiol i gynnyrchu meddwdod; a gallwn fod yn sicr fod yr arferiad o gymmysgu eu diodydd felly yn gyffredin iawn yn mhlith diotwyr a meddwon yn Iudea. Y mae y Beibl yn son am "win cymmysgedig," am "win coch, yn llawn cymmysg," am "win myrllyd;" ond ni fynai y Gwaredwr yfed y gwin myrllyd, am y mynai yfed y cwpan a roddes y Tad iddo ef yn ei gyflawn synwyr. Y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am feddwdod Noah, ac yn enwedig meddwdod Lot, ond ar y dybiaeth fod y gwin a yfasant wedi ei gymmysgu â chyfferiau syfrdanol.

Ymddengys fod gwin, yn ei sefyllfa naturiol, fel y gwesgir ef o swp o rawn, yn faethol a llesol: "Megys y ceir gwin newydd mewn swp o rawn, ac y dywedir, Na ddifwyna ef; canys y mae bendith ynddo;" *Esa.* lxv. 8. Ac nid ymddengys chwaith fod y Beibl yn gwahardd yfed gwinoedd ymweithiedig gwan Palestina, dan amgylchiadau cyffredin; a phe buasai diodydd cryfion ein gwlad ni yn gyffelyb i'r rhai hyny, digon prin y buasai neb yn meddwl am eu gwrthod, mwy na hwythau, mae yn debygol; ond nid oes nemawr o gymhariaeth rhwng diodydd cedyrn Prydain Fawr y dyddiau hyn a diodydd cryfion Canaan yn y dyddiau gynt.

Gwaharddwyd gwin a diod gadarn i'r offeiriaid Iuddewig, pan yn gwasanaethu yn y cyssegr: "Gwin a diod gadarn nac ŷf di, na'th feibion gyda thi, pan ddelech i babell y cyfarfod; fel na byddoch feirw;" *Lef.* x. 9. Gwaharddwyd hwynt hefyd i'r rhai y byddai adduned Nazareaid arnynt: *Num.* vi. 3, 4. Gwaharddwyd gwin a diod gadarn i fam Samson, cyn ei enedigaeth, am y byddai y bachgen a enid iddi yn Nazaread o'r groth hyd ddydd ei farwolaeth: *Barn.* xiii. 7. Y mae yn debygol hefyd fod yr un rheol yn perthyn i Elizabeth, mam Ioan Fedyddiwr, canys yr oedd Ioan yn Nazaread i Dduw, ie o'r groth, dybygid: *Luc* i. 15. "Nid gweddaidd i freninoedd, O Lemuel! nid gweddaidd i freninoedd yfed gwin; nac i benaduriaid ddiod gadarn: rhag iddynt yfed, ac ebargofi y ddeddf; a newidio barn yr un o'r rhai gorthrymedig;" *Diar.* xxxi. 4, 5. "Gwatwarus yw gwin, a therfysgaidd yw diod gadarn: pwy bynag a somir ynddi, nid yw ddoeth." Y mae y pethau hyn yn ymddangos yn anffafriol i'r ymarferiad o ddiodydd cedyrn.

Dwfr yn benaf oedd diod dyn o'r dechreuad. Dwfr oedd diod benaf y patrieirch a'u teuluoedd. Dwfr oedd diod Israel yn yr anialwch am ddeugain mlynedd. Dwfr a yfai milwyr Gideon. O'r afon yr yfai Elias. Dwfr a yfai Daniel a'i gyfeillion. Cawn Iesu Grist yn gofyn dwfr wrth y pydew yn Samaria. Cynghorid Timotheus i beidio yfed dwfr yn hwy, ond i arfer ychydig win, er mwyn ei gylla a'i fynych wendid: dengys y cynghor mai dwfr a yfai ef o'r blaen. Canmolir y Rechabiaid am eu hufudd-dod i orchymyn eu tad, a'u gwaith yn gwrthod yfed gwin: "Am hyny, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Israel; Ni phalla i Ionadab mab Rechab ŵr i sefyll ger fy mron i yn dragywydd;" *Ier.* xxxv. 19. Y mae y pethau hyn yn dangos nad oedd ymwrthod â diodydd ymweithiedig gweiniaid Palestina yn cael ei ystyried yn bechod ar neb a wnai ymwrthod â hwy gynt.

Cyhoeddir gwaeau dychrynllyd uwch ben diotwyr a meddwon yn yr Ysgrythyrau: "Gwae y rhai cryfion i yfed gwin, a'r dynion nerthol i gymmysgu diod gadarn;" *Esa.* v. 22. A llawer o eiriau cyffelyb a geir yn yr Ysgrythyrau. Y mae hanesion meddwdod yn y Beibl yn anffafriol hefyd i'r ymarferiad â diodydd cedyrn, megys Noah, Lot, Nadab ac Abihu mae yn debyg, Nabal y Carmeliad, Uriah, Elah, Benhadad, Belsassar, ac ereill, a ddygir ger ein bron mewn goleuni anffafriol yn eu cyssylltiad â'r diodydd meddwol. Yr oedd diodydd cedyrn y dyddiau gynt yn fagl ac yn dramgwydd i lawer iawn mewn gwahanol wledydd; ac y maent felly eto yn ein dyddiau ninnau. Yn wir, y mae diodydd cedyrn y dyddiau hyn, drwy chwanegiad arswydlawn eu nerth i feddwi y sawl a'u hyfo, yn beryglus a niweidiol i bawb a'u defnyddio, ond yn unig fel meddyginiaeth; ac y mae yn debyg nad oes gan y gelyn beiriant mwy nerthol i ddistrywio dynion na'r fasnach mewn diodydd cedyrn, oddi eithr eu hanghrediniaeth hwy eu hunain. Y mae ymarferiad cymmedrol â diodydd cedyrn yn arwain i anghymmedroldeb. Y mae meddwdod ac anghymmedroldeb yn dinystrio iechyd ac amgylchiadau tymmorol dynion, yn gwanhau galluoedd eneidiol dyn, yn anurddo ei nodweddiad, ac yn damnio ei enaid. Y mae dwyfol ysbrydoliaeth wedi sicrhau, "Na chaiff meddwon etifeddu teyrnas Dduw."

Mae diodydd cedyrn ein gwlad ni, gan mwyaf, yn hollol anghymhwys i faethu y cyfansoddiad; yn symbylu, yn lle yn rhoddi nerth, ac yn gollwng yr yfwr i'r gwaelodion yn ei ol—i wendid mwy nag o'r blaen; yn poethi y gwaed, ac yn ei ollwng i oerder mwy drachefn; yn dwyn clefydau lawer ar y rhai a ymarferant â hwy; yn gosod maglau i'r oes sydd yn cyfodi i fyny dros wyneb yr holl wlad; yn troi miliynau lawer o bunnoedd bob blwyddyn i wasanaeth llygredigaeth, tlodi gwarth, cynhen, angeu, a damnedigaeth.

DIOD OFFRWM: offrwm yn dilyn yr ebyrth gwaedlyd, a'r mathau ereill o offrymau, oedd y diod offrwm. Yr oedd yn gynnwysedig yn benaf o win—rhan o ba un a dywelltid ar yr aberth, a rhoddid y gweddill i'r offeiriaid. Yr oedd mesur y gwin a offrymid yn cynnyddu yn ol maintioli yr aberth gyda'r hwn y rhoddid ef. Gydag oen neu fyn, offrymid y bedwaredd ran o hin (*hin*—deg peint); gyda hwrdd, y drydedd ran; a chydag ych, hanner hin: *Num.* xv. 4—10. Gwel Aberth.

DIOFRYD: llw, ymrwymiad, neu gyssegriad. "Rhai o'r Iuddewon, wedi llunio cyfarfod, a'u rhwymasant eu hunain â diofryd, gan ddywedyd, na fwytäent ac nad yfent, nes iddynt ladd Paul;" *Act.* xxiii. 12. Rhoddasant eu hunain i fyny i felldith; galwasant ar y Duw hollalluog, yr hwn oedd yn dyst o'u hymrwymiad, i'w dinystrio yn hollol ac am byth, os byddai iddynt archwaethu bwyd neu ddiod nes y byddai Paul wedi ei ladd.

DIOFRYDBETH: peth wedi ei gyssegru gan ddynion at wasanaeth Duw, neu beth wedi ei osod gan Dduw i'w ddinystrio. Pan gyssegrai unrhyw ddyn unrhyw beth i'r Arglwydd, yr oedd hwnw yn ddiofrydbeth. Nid oedd ganddo ef ei hun na meddiant na llywodraeth arno mwy. Yr oedd pob diofrydbeth yn Israel yn eiddo i'r offeiriaid: *Num.* xviii. 14. Pan gyssegrai gŵr ran o faes ei etifeddiaeth, gallai roddi yn lle y maes bris gosodedig yn ol ei hauad — "hauad omer o haidd fydd er deg sicl a deugain o arian." Ond os na roddai y bummed ran uwch law pris y

Digitized by Google

ei natur a'i briodoliaethau; ond nid yw pob math o ddiolchgarwch yn deimlad hunanol. Gwir ddiolchgarwch ydyw cydnabyddiaeth o ddaioni natur Duw fel y mae yn cael ei amlygu tuag atom ni yn bersonol, a thuag at bawb yr ydym yn dwyn cysylltiad â hwynt; ïe, medd un awdwr, "tuag at yr holl greadigaeth resymol a direswm, gan edrych arnom ein hunain fel rhan o'r gyfundrefn fawr o hanfodiad, yn dal cysylltiad ac yn ymwybodol o gydymdeimlad â phob peth byw."

Y mae y diolchgarwch hwnw sydd yn edrych yn unig ar y rhodd yn amddifad o bob rhinwedd grasol ac ysbrydol. Nid oes dim sancteiddrwydd yn y dymuniad am fwynhad a dedwyddwch mwy nag sydd mewn ofn poen. Y mae gwir ddiolchgarwch yn anwahanol gysylltiedig âg amgyffred ysbrydol o, a chariad at, y briodoledd o ddaioni yn Nuw, fel un rhan o'i hawddgarwch moesol; ac nid yw yn edrych yn unig arni fel y ffynnonell o ba un y mae y budd yn deilliaw inl.

**DIONYSIA**: boneddiges Gristionogol, a ddyoddefodd ferthyrdod yn Carthage, yn y chweched ganrif. Yr ydoedd yn wraig gyfoethog, ac yn weddw. Wedi iddi gael ei chymmeryd yn garcharea o blegid ei daliadau crefyddol, cafodd ei dynoethi a'i ffangellu yn y modd creulonaf. Dywedir ei bod wedi cyfarch ei mab bychan, yr hwn oedd wedi ei ddodi ar yr arteithglwyd o'i blaen, â'r geiriau canlynol:—"Cofia, O, fy mhlentyn! ein bod wedi ein bedyddio yn enw y Drindod Sanctaidd; na fydded i ni golli y budd a ddeillia o hyny, rhag y dywedir wrthym ar ol hyn, 'Teflwch hwynt i'r tywyllwch eithaf, lle y mae wylofain a rhingcian dannedd:' canys y mae y poenau hyny nad oes dim diwedd i fod arnynt i'w harswydo mewn gwirionedd, a'r bywyd hwnw ag sydd i barhau am dragwyddoldeb i'w ddymuno." Yn mhen ychydig amser wedi hyny, rhoddodd angeu derfyn ar boenau y fam a'i phlentyn.—(*Fox*.)

**DIONYSIUS**, yr Areopagiad. Crybwyllir enw y gŵr hwn fel wedi derbyn Cristionogaeth dan bregeth Paul, yn ystod ymweliad yr apostol âg Athen (*Act.* xvii. 34). Nid oes dim chwaneg o'i hanes i'w gael yn y Testament Newydd; ond y mae haneswyr eglwysig yn cofnodi rhai neillduolion yn hanes ei fywyd cyn ac ar ol ei dröedigaeth. Dywed Suidas mai Atheniad ydoedd wrth ei enedigaeth, a'i fod yn enwog mewn llenyddiaeth; ei fod wedi bod yn myfyrio yn Athen yn gyntaf, ac wedi hyny yn Heliopolis, yn yr Aipht; a thra yn y ddinas ddiweddaf, ddarfod iddo weled y diffyg hynod hwnw ar yr haul a gymmerodd le ar adeg croeshoeliad yr Iesu, a dywedyd wrth ei gyfaill Apollophanes, "Y mae y Duwdod naill ai yn dyoddef ei hun, ai yn cydddyoddef âg un sydd yn dyoddef." Efe a ddywed yn mhellach, ddarfod i Dionysius, ar ol iddo ddychwelyd i Athen, gael ei dderbyn i'r Areopagus; ac ar ol iddo fabwysiadu Cristionogaeth, tua B. A. 50, iddo gael ei wneyd yn esgob Athen gan yr Apostol Paul ei hun. Nodir y peth diweddaf hefyd gan Syncellus a Nicephorus. Fe haera Aristides, athronydd Atheniaidd, iddo ddyoddef merthyrdod, ac addefir gwirionedd yr haeriad yn gyffredin gan haneswyr; ond nid ydynt yn gallu penderfynu yn nghylch adeg ei farwolaeth, pa un ai dan Trajan ai dan Adrian, neu, yr hyn sydd debycaf, ai dan Domitian. Pa bwys bynag a roddir i'r traddodiadau hyn, y mae yn ddiau fod enw Dionysius, yr Areopagiad, yn dra dyddorol mewn golygiad llenyddol, yr hyn a gyfyd oddi wrth ymgais a wnaethpwyd gan ryw ysgrifenydd ar ol ei amser ef i'w bersonoli; a'r hwn a lwyddodd i gael gan y byd Cristionogol gredu fod ei gyfansoddiadau yn perthyn i'r oes apostolaidd; a thrwy hyny a ddylanwadodd yn fawr ar ysbryd yr Eglwys Ddwyreiniol a'r Eglwys Orllewinol. Dywed Daillè, mai tua B. A. 420 yr oedd y Dionysius ffugiol hwn yn byw [*Dallæus de Scriptis Dionysii Areopagitæ*, Genevæ, 1666]; ond barna Pearson mai yn amser Eusebius Cæsariensis [*Vindic.*, par. 1. c. 10]. Tybia ereill fod y cyfansoddiadau hyn wedi eu hysgrifenu tua B. A. 360, ond na chasglwyd hwynt yn nghyd hyd y bummed neu yn agos i'r chweched ganrif. Maent yn gynnwysedig o lyfr a elwir *The Celestial Hierarchy*; un arall o'r enw *The Ecclesiastical Hierarchy*; *Traethawd ar yr Enwau Dwyfol*; un arall o'r enw *Mystical Divinity*; a deg o epistolau—y pedwar cyntaf wedi eu cyfeirio at y mynach Caius, y pummed at Dositheus, y chweched at Sosipater, y seithfed at yr esgob Polycarp—yn mha un y dywed yr awdwr ei fod wedi gweled y diffyg ar yr haul yn Heliopolis; yr wythfed at y mynach Demophilus—yn mha un y beïir ef gan yr ysgrifenydd am lymder tuag at offeiriad a gŵr llëyg, ac yr adrodda, fel gwrthgyferbyniad i'w ymddygiad, bod Crist wedi ymddangos mewn gweledigaeth i fugail selog, o'r enw Carpus, pan yr oedd wedi blino yn ei ymdrechion i droi pechadur ystyfnig, gan ymresymu âg ef, a dyweyd wrtho ei fod ef yn barod i farw eilwaith dros bechaduriaid; y mae y nawfed epistol wedi ei gyfeirio at yr esgob Titus, a'r degfed at Ioan. Yn y llyfr a elwir *Celestial Hierarchy*, traddoda amryw ystrywiau mewn perthynas i'r angelion. Yn y llyfr a elwir *Ecclesiastical Hierarchy*, eglura seremoniau, yr offeren, cyssegriad yr enaint sanctaidd, ordeiniad esgob, offeiriad, a diacon; y dull o fendithio mynach, a threfn claddedigaeth y marw. Yn y llyfr a elwir *Mystical Divinity*, cymmysga syniadau y Myfyrolion (*Contemplatives*) gyda drychfeddyliau a thermau wedi eu benthyca oddi wrth yr athronyddion Paganaidd. Yn wir, y mae y cynnyrchion hyn mor lawnion o opiniynau athronyddol, fel y tybia Suidas, yr hwn a gred mai Dionysius yr Areopagiad ydyw eu gwir awdwr, bod yr athronyddion y cyfeiriwyd atynt wedi benthyca eu syniadau oddi arnynt hwy, a'u rhoddi allan fel eu heiddo eu hunain. Y mae yn eglur, pe buasai yr ysgrifeniadau hyn yn anffugiol, y buasent yn anmhrisiadwy ar gyfrif y goleuni a fuasent yn ei roddi ar arferion a defodau yr Eglwys Gristionogol yn ei dechreuad. Etto, y mae rhai pobl wedi bod yn haeru mai gwir weithiau yr Areopagiaid ydyw yr ysgrifeniadau hyn; yn mysg pa rai yr oedd Claude David, mynach, yn 1702; Bernard o Sept Fonds, dan yr enw Adrian, yn 1708; ac F. Honoratus, o St. Mary, gofynach Carmelaidd, yn 1720. Yr amgylchiad cyntaf y mae genym sicrwydd yn ei gylch ar ba un y gwnaed cyfeiriad at yr ysgrifeniadau ffugiol hyn oedd, mewn dadl rhwng y Severiaid (plaid o Eutychiaid) a'r Catholiciaid, yr hon a gymmerodd le yn mhalas yr ymherawdwr Justinian, yn 532. Dyfynid hwy ar y pryd gan y blaid hereticaidd. Cyfeiria Maximus, ac ysgrifenwyr ereill mewn oesoedd dilynol, yn fynych atynt. Y mae amryw farnau wedi bod gyda golwg ar wir awdwr y cynnyrchion hyn. Priodolid hwynt yn dra bore i Apolli-

naris, esgob Laodicea, yn y bedwaredd ganrif; ond tybia Cave fod yn debycach mai Apollinaris, mab yr esgob, oedd eu hawdwr.—(*Cave's Hist. Literar. Coloniæ*, 1720, td. 142, 143; *Lardner's Works*, cyf. vii, td. 371, argr. 1788; *Fabric. Bib. Biblioq; Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

**DIOTREPHES** [*Διοτρεφής, un a faethwyd gan Iau*]: un o'r gau ddysgawdwyr, fel yr ymddengys, a gondemnir gan Ioan yn ei drydydd epistol. Y mae yn debygol mai henadur neu ddiacon ydoedd. Gwrthododd dderbyn y llythyr a anfonwyd gan Ioan; a thrwy hyny, gwrthodai ymostwng i'w gyfarwyddiadau, a chydnabod ei awdurdod: 3 *Ioan* 9.

**DIRADDIAD EGLWYSIG**: amddifadiad person o'i urddas swyddol. Cawn anghraifft o hyny yn yr wythfed ganrif, yn Nghaer Cystenyn, yn amgylchiad y patriarch Cystenyn, yr hwn a orfodwyd i fyned allan o'r eglwys yn wysg ei gefn, â'i fantell wedi ei thynu oddi am dano, ac anathemau y frawdoliaeth ar ei ben. Diraddiwyd Cranmer hefyd yn ein teyrnas ninnau, trwy orchymyn y frenines Mari. Rhoddasant am dano wisgoedd esgobol, wedi eu gwneyd o sachlian; dodasant y meitr ar ei ben, a'r fugeilffon yn ei law; ac wedi ei ddwyn yn y diwyg yma ger bron y bobl, diosgasant ei ddillad oddi am dano bob yn ddarn.

**DIRAGRITH** [*di—rag—rith*]: diffuant, syml, gwirioneddol. Groeg, *ἀνυποκριτος*. "Bydded cariad yn ddiragrith" (*Rhuf.* xii. 9); y mae yr ymadrodd canlynol, ebe Bengel, yn fath o eglurhad ar ddiragrithrwydd y cariad—"Casewch y drwg, a glynwch wrth y da:" dylai ein cariad gyfodi oddi ar ymlyniad didwyll wrth yr hyn sydd dda, ac ymadawiad oddi wrth ddrygioni. "Ffydd ddiragrith;" 1 *Tim.* i. 5. Ffydd ddiffuant, wirioneddol; nid honiad a phroffes yn unig o ffydd, fel sydd gan y rhagrithiwr; ond ffydd fywiol, sylweddol—y ffydd sydd yn "puro y galon" (*Act.* xv. 9); yn "gweithio trwy gariad" (*Gal.* v. 6); yn "gorchfygu y byd" (1 *Ioan* v. 4). Y mae Benson yn barnu fod Paul yn lled gyfeirio yma at yr athrawon Iuddewig, y rhai, er mwyn ennill yr Iuddewon anghrediniol, a ddysgent bynciau nad oeddynt eu hunain yn eu credu. Nid oedd eu ffydd ynddynt ond ffugiedig. Un o nodweddau "y ddoethineb sydd oddi uchod" ydyw ei bod yn ddiragrith: *Iago* iii. 17. Y mae brawdgarwch Cristionogol i fod yn benaf dim yn ddiragrith: 1 *Pedr* i. 22.

**DIRDYNU**, [*dir—tyn*]: dwys-dynu. "Ereill a ddirdynwyd;" *Heb.* xi. 35. Cyfeiria y gair a ddefnyddir yma (*τυμπανιζω—tympanu*) at ffurf o arteithio creulawn. Deillia o *τυμπανον* (*tympanum*), tympan, tabwrdd, tympanell, tabyrddau; a dichon i'r offeryn gael ei alw felly o blegid ei debygolrwydd i dympan neu dabwrdd. Gwnelid yr offeryn hwn yn y dwyrain o gant coed teneu, wedi ei amlenu drosto â chroen, megys tympanell (*tambourine*) yn ein plith ni. Estynid corff y troseddwr ar yr offeryn hwn er mwyn chwanegu gerwindeb y clwyfau a wnelid drwy ffangellu. Pan y byddai y corff wedi ei ddirdynu felly, fe dorai y ffrewyll yn ddyfnach; ac fe chwanegid at yr artaith, drwy wneuthur y clwyfau yn agored i'r awyr. Gwel 2 *Mac.* vi. 19—29. Ymddengys fod y gosp y cyfeirir ati yma yn gynnwysedig o ddau beth—y dirdyniad ar yr offeryn, a'r ffangelliad. Gwel *Robinson's Lex.*, a *Stuart*, ar y lle. Tybia Bloomfield, pa fodd bynag, y gellir deall dull yr artaith yn well oddi wrth ystyr gwreiddiol y gair *τυμπανον* (*tympanum*) megys yn arwyddo—1. Cur-ffon, neu ffon guro. 2. Cur-bôst, neu bôst curo, yr hwn oedd ar ffurf T—gan awgrymu fel hyn ystum y dyoddefydd. Gweinyddid y curiad yma weithiau, ebe fe, â ffyn neu wiail; ac weithiau â chareiau lledr, yn cynnwys darnau o blwm. Y mae yr ystyr blaenaf, pa fodd bynag, yn cytuno yn well âg ystyr cyffredinol y gair.—(*Barnes*).

**DIRGEL—WCH**, [*μυστήριον*]. Ymddengys mai tarddiad symlaf a mwyaf naturiol y gair Groeg, a gyfleithir *dirgelwch*, ydyw סתר=cuddio neu ddirgelu; o'r hwn air hefyd y deillia מסתור neu מסתר=lle cysgodol neu ddirgel, dirgelwch. Rhoddir ystyr hollol anysgrythyrol a pheryglus i'r gair yn aml iawn, megys pe byddai yn golygu rhywbeth hollol annealladwy ac annirnadwy. Yn lle hyny, yn mhob man lle y dygwydd yn y Deg a Thrigain, neu yn y Testament Newydd, cymhwysir ef at rywbeth wedi ei ddadguddio, ei hysbysu, ei egluro, neu rywbeth y gellir ei wybod neu ei ddeall. Ymddengys gwirionedd hyn oddi wrth yr esboniad canlynol ar yr adnodau, yn mha rai y dygwydd y gair. Yn gyntaf, defnyddir ef weithiau i ddynodi ystyr arddangosiad arwyddluniol, pa un bynag ai i'r meddwl yr amlygid ef drwy ddammeg, alleiriad, &c., neu i'r llygaid drwy weledigaeth, &c. Wedi i'r Iesu draddodi dammeg yr hauwr (*Mat.* xiii. 3—9), gofynodd y dysgyblion iddo pa ham yr oedd efe yn siarad â'r dyrfa mewn dammegion (*adn.* 10) atebodd yntau, "I chwi y rhoddед gwybod *dirgelwch* teyrnas Dduw: eithr i'r rhai sydd allan, ar ddammegion y gwneir pob peth;" *Marc* iv. 11; *Mat.* xiii. 13. Yn y fan hon, y mae ein Harglwydd yn cymhwyso y gair "dirgelwch" at y gwirioneddau moesol ag oedd yn y ddammeg; hyny yw, at ei hystyr ffugrol. Aralleirir ei ymadroddion, a'u cymmeryd yn eu hystyr cyffredinol, fel y canlyn gan Dr. Macknight:—"Gallaf egluro i chwi natur teyrnas y Messïah, ac athrawiaethau anhawdd ereill yr efengyl, o blegid yr ydych chwi yn alluog i'w gwrandaw hwynt; ond nis medraf ymddwyn felly tuag at y tyrfaoedd, y rhai ydynt mor ystyfnig fel na wrandawant ar ddim a fyddo yn groes i'w rhagfarnau a'u nwydau" [*Harmony of the Gospels*, adr. 49]. Eto, esbonir dirgelwch neu weledigaeth arwyddluniol y "saith seren a'r saith ganwyllbren aur" (*Dad.* i. 12, 16) fel yn golygu "angelion saith eglwys Asia, a'r eglwysi eu hunain" (*adn.* 20). Hefyd, fe esbonir "dirgelwch," neu arddangosiad arwyddluniol, "y wraig oedd yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad" (*Dad.* xvii. 3—6), "Myfi a ddywedaf i ti ddirgelwch y wraig," &c.; *adn.* 7. Pan y dywed Paul, wrth siarad am briodas, "y dirgelwch hwn sydd fawr" (*Eph.* v. 32), y mae yn eglur mai ymdrin y mae â'r sefydliad gwreiddiol o briodas, fel yn arddangosiad ffugrol o'r undeb sydd rhwng Crist a'i eglwys [*Campbell's Dissertation*, p. 10, rhan iii. adr. 9]. Defnyddir y gair hefyd i ddynodi unrhyw beth a fyddo yn guddiedig neu yn annealladwy, nes y byddo wedi ei egluro. Defnyddir ef yn y Deg a Thrigain am רז—*dirgelwch* (*Dan.* ii. 18, 19, 27, 28, 29, 30, 47; iv. 6), mewn perthynas i freuddwyd Nebuchodonosor, yr hyn oedd yn ddirgelwch, a hyny hyd yn oed i'r brenin ei hun; canys yr oedd wedi ei anghofio yn hollol

Digitized by Google

hyd nes yr eglurwyd ef gan Daniel: *adn.* 5, 9. Fel hyn, defnyddir y gair yn y Testament Newydd i ddynodi yr athrawiaethau Cristionogol hyny nad oedd yr Iuddewon na'r byd yn gyffredinol yn eu deall, hyd nes y dadguddiwyd hwynt gan Grist a'i apostolion: "Mawr yw dirgelwch duwioldeb," hyny yw, y grefydd Gristionogol (1 *Tim.* iii. 16), prif ranau pa un yr ä yr apostol yn mlaen i'w nodi—"Duw a ymddangosodd yn y cnawd, a gyflawnhawyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angelion," &c.—gwirioneddau na ddaethant i galon dyn (1 *Cor.* ii. 9) hyd nes y cyflawnwyd ac y dadguddiwyd hwynt gan Dduw i'r apostolion drwy ysbrydoliaeth: *adn.* 10. Fe elwir yr efengyl yn gyffredinol hefyd yn "ddirgelwch y ffydd," yr hon yr oedd rhwymau ar y diaconiaid i'w dal "mewn cydwybod bur" (1 *Tim.* iii. 9); ac hefyd, "Y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a eglurwyd drwy yr eglwys" (*Eph.* iii. 9, 10); "dirgelwch yr efengyl," yr hon y chwennychai Paul ei thraethu yn hyf (*Eph.* vi. 19); "dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ," i ddealltwriaeth gyflawn o ba un y gweddïai ar i'r Colossiaid gael eu dwyn (*Col.* ii. 2; cymharer y defnydd a wneir o'r gair ἐπίγνωσις, 1 *Tim.* ii. 4; 2 *Tim.* iii. 7); yr hwn y dymunai ar y Colossiaid weddïo ar Dduw fod iddo ef a'i gydapostolion gael "drws ymadrodd" i'w draethu yn eglur (*Col.* iv. 3, 4); yr hon a elwir ganddo, "dadguddiad y dirgelwch, yr hwn ni soniwyd am dano er dechreuad y byd; ond yn awr a gyhoeddwyd yn mhlith yr holl genedloedd" (*Rhuf.* xvi. 25, 26); yr hon, fel y dywed ef, "yr ydym ni yn ei llefaru" (1 *Cor.* ii. 7), ac ar ba un yr oedd yr apostolion yn "oruchwylwyr" (1 *Cor.* iv. 1). Defnyddir yr un gair am rai athrawiaethau penodol yn yr efengyl; megys, er anghraifft, dallineb rhanol ac amserol Israel, am yr hwn ddirgelwch nid ewyllysiai yr apostol i Gristionogion fod yn anwybodus (*Rhuf.* xi. 25), a'r hwn y mae efe yn ei esbonio yn yr adnodau dilynol. Geilw ef alwad y Cenedloedd yn "ddirgelwch, yr hwn yn oesoedd ereill nid eglurwyd i feibion dynion, fel y mae yr awr hon wedi ei ddadguddio i'w sanctaidd apostolion a'i brophwydi trwy yr Ysbryd" (*Eph.* iii. 4—6; cymharer *pen.* i. 9, 10, &c.). I'r dosbarth hwn o ddirgeledigaethau y mae yr ymadrodd canlynol yn perthyn, "Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch (1 *Cor.* xv. 51); ni a newidir oll;" ac yna, fe esbonir y cyfnewidiad (*adn.* 51—55). Hyd yn oed pan y llefarai dyn mewn iaith ddyeithr, yn absennoldeb cyfleithydd, a phryd, mewn canlyniad, na ddeallai neb mo hono, eto, tybia yr apostol fod y dyn yn deall ei hun, er ei fod "yn llefaru dirgeledigaethau yn yr Ysbryd;" 1 *Cor.* xiv. 2—4. Ac yn y rhan brophwydol o'i ysgrifeniadau, mewn perthynas i "ddirgelwch yr anwiredd" (2 *Thes.* ii. 7), fe lefara am dano fel peth ag oedd i gael ei ddadguddio (*adn.* 8). Yn ddiweddaf, er terfynu y prawf bod y gair "dirgelwch" yn cael ei ddefnyddio am bethau dirgel y byddai modd eu gwybod, chwanegwn y geiriau hyn—"Pe byddai genyf brophwydoliaeth, *a gwybod o honof y dirgelion oll;*" 1 *Cor.* xiii. 2. Defnyddiai y Groegiaid y gair yr un modd; a defnyddir ef hefyd yn yr un ystyr drwy yr Apocrypha oll (*Tobit* xii. 7; *Judith* ii. 2; *Eccl.* xxii. 22; xxvii. 16, 17, 21; 2 *Mac.* xiii. 21). Cymhwysir ef at ddirgeledigaethau dwyfol neu gyssegredig (*Doeth. Sol.* ii. 22; vi. 22), ac at seremonïau gau grefyddau (*Doeth. Sol.* xiv. 15, 23).—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

DIRGELEDIGAETHAU: pethau cyfriniol (*mysteries*). Y gair Groeg a gyfieithir *dirgelwch* ydyw μυςτηριον=*musterion*, a'i gyfeiriad gwreiddiol ydyw at y *Mustes* (μυστης); sef un wedi cael ei egwyddori yn y dirgeledigaethau a berthynai i'r Groegiaid, ac wedi cael derbyniad iddynt. Wrth y dirgeledigaethau hyn y meddylid seremonïau crefyddol, a gyflawnid allan o ŵydd pawb ond y cyfryw ag oedd wedi myned trwy rhyw ddefodau cyssegredig. Tarddiad y gair ydyw oddi wrth μυω (*muô*), yn arwyddo cau y llygaid neu y genau. Y cyfeiriad ydyw at gau y llygad, medd Neander; o herwydd fod y neb a gyssegrwyd yn cau ei lygaid ar y gweledig, er mwyn cael gweled yr anweledig. Dealla Tholuck ef am gau y genau, o herwydd fod y cyssegredig yn cymmeryd llw o ddystawrwydd. Ystyr arall a roddir iddo ydyw—marw (cau y llygaid), yn arwyddocaol, mewn trefn i fyw yn y dirgeledigaethau. Ystyrient fod marw, a myned trwy ddefodau y cyssegriad, yn gyffelyb i'w gilydd. Yr hyn sydd yn cadarnhau y golygiad hwn yw fod yr un gair yn arwyddo *marw* a *chael cyssegriad* (τελευταν—marw, a τελεισθαι—derbyn cyssegriad).

Yr oedd yr hen grefyddau paganaidd i gyd yn meddu eu dirgeledigaethau. Yn y grefydd Frahminaidd, yn yr India, ni dderbynir neb i fod yn offeiriad heb iddo yn gyntaf gymmeryd llw i beidio byth dadguddio y dirgeledigaethau a ymddiriedir iddo. Trwy arwyddion â'r llaw y cyfrenid addysg i'r cyfryw, a hyny yn yr ystafell ddirgelaf yn y deml. Yr oedd ganddynt hefyd eu llyfrau sanctaidd, y rhai a gynnwysent eu hathrawiaethau dirgelaidd. Yr hyn ydoedd y llyfrau sanctaidd yn nghrefydd India, ydoedd yr ysgrifau arwyddluniol (*hieroglyphics*) yn yr Aipht. Hanes chwedlonaidd y duwiau Isis ac Osiris a gyfansoddai destynau dirgeledigaethau yr Aipht. Yr oedd y rhai hyn yn uchel eu bri yn mhlith doethion y cynfyd; a llawer o honynt a dramwyasant yno er mwyn cael eu cyfoethogi â rhyw awgrymiadau tywyll am danynt. Tybia yr hynafiaid fod dirgeledigaethau Groeg wedi eu derbyn o'r Aipht; a dywed Jamblichus fod Pythagoras, un o athronwyr cyntaf Groeg, wedi myned i'r Aipht er mwyn derbyn addysg gan yr offeiriaid; ond haera ereill iddo fod dan addysg y Brahminiaid. Y mae yn debyg fod y Groegiaid wedi cael eu dirgeledigaethau fel y cawsant eu crefydd, a bod yr un faint o wreiddiolder yn y naill ag yn y llall; ond am ba faint o'r naill neu y llall y maent yn ddyledus i India neu yr Aipht, nis gellir penderfynu. Yr oedd i bob duw yn Groeg ei ddirgeledigaethau neillduol; yr oedd i Iau ei addoliad cyfriniol yn Crete; i Juno yn Argolis; i Hecate yn Æginia; i Diana yn Arcadia, &c. Ond y rhai enwocaf o honynt oll, oedd dirgeledigaethau Dimeter, yn Eleusis; y rhai, o herwydd hyny, a elwir y dirgeledigaethau Eleusinaidd. Credai y Rhufeiniaid fod eu holl grefydd a'u gwladlywiaeth hwy wedi cael eu tarddiad oddi wrth ymweliadau dirgelaidd Numa ag Egeria; ond yn ddiweddarach, dygwyd dirgeledigaethau yr Aipht a Groeg i Rufain, yr hyn a fu yn wasanaethgar i foesau yn mhlith y Rhufeiniaid. Cwestiwn o ddyddordeb, ac un y mae llawer o ysgrifenu wedi bod arno ydyw; pa athrawiaethau crefyddol a ddysgid yn y dirgeledigaethau? neu, a ddysgid rhyw athrawiaethau ynddynt o gwbl? Y mae ysgrifenwyr yn gyffredin wedi cymmeryd yn ganiataol fod rhyw athrawiaethau mewnol dirgeledig yn cael eu

Digitized by Google

2 *Thes.* ii. 7); *dirgelwch*, mewn cyferbyniad i *ddadguddiad* yr anwir hwnw; anwiredd yn gweithredu yn ddirgel, ac eto yn anadnabyddus. Gorphenir *dirgelwch* Duw pan y cyflawnir y prophwydoliaethau mewn perthynas i'r eglwys: *Dad.* x. 7.

Fel y mae y Beibl yn cynnwys amlygiad o drefn rasol Duw i'r byd, y mae yn *ddadguddiad;* ond fel y mae yn ddadguddiad sanctaidd, y mae yn ddirgelwch neu yn anadnabyddus i'r ansanctaidd. Y mae yn bosibl i'r hyn fyddo wedi ei ddadguddio yn wrthddrychol yn y gwirionedd fod yn guddiedig yn fewnol—i'r meddwl. "Os cuddiedig yw ein efengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig." Y mae y cyferbyniad hwn rhwng dadguddiad mewnol ac allanol i'w gael yn y dadguddiad naturiol o Dduw trwy y greadigaeth. Y dadguddiad allanol ydyw yr hwn sydd yn appelio at synwyrau y corff; y mewnol ydyw yr adnabyddiaeth o egwyddorion a deddfau y greadigaeth: ac y mae y rhai hyn yn appelio at y deall. I'r dyn nad ydyw wedi treiddio yn mhellach na'r ffeithiau a'r ymddangosiadau allanol, y mae y wybodaeth ddyfnach am egwyddorion yn ddirgelwch iddo. Yn gyffelyb hefyd y mae y gwirioneddau a'r ffeithiau y mae y Beibl yn eu dadguddio yn ddirgelwch i'r dyn sydd heb dderbyn y dadguddiad ysbrydol, sef cymhwysder meddwl a chalon i ddeall y Beibl. "I ti yr ydwyf yn diolch, O Dad, Arglwydd nef a daiar, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u dadguddio o honot i rai bychain;" *Mat.* xi. 25. "Nid cig a gwaed a ddadguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd;" *Mat.* xvi. 17. Hyn yw y cymhwysder i ddeall dirgeledigaethau yr efengyl. Y mae yr apostol Paul, wrth ddefnyddio y gair *dirgelwch* i ddynodi bwriadau gras a rhaglaniaeth Duw, yn nghyd â'r gwirioneddau athrawiaethol a gadwyd yn guddiedig oddi wrth ddynion hyd nes y daeth cyflawnder yr amser, ond wedi hyny a eglurwyd i gredinwyr, yn cyfeirio at y dirgeledigaethau paganaidd; ond y mae yn tynu sylw yn fynych at un gwahaniaeth rhyngddynt, sef er fod y dirgeledigaethau paganaidd yn cael eu cuddio oddi wrth ond ychydig o'r rhai a broffesent y crefyddau hyny, y mae dirgeledigaethau yr efengyl yn cael eu gwneuthur yn hysbys i bawb sydd yn gwrandaw ar, ac yn ufuddhau i'r, gwirionedd.

Dirgelwch mawr yr Hen Destament ydyw yr Iehofah ei hun, yr hwn ni allasai dynion wybod dim am dano ond fel y dadguddiai ei hun. Dadguddiodd ei hun i Abraham yn gyntaf trwy lais yn unig, ac a'i galwodd o'i wlad ac oddi wrth ei genedl: *Gen.* xii. 1. Ymddangosodd iddo eilwaith pan yn unig mewn gwlad ddyeithr (*adn.* 7) ar wastadedd Moreh. Trachefn hefyd ar wastadedd Mamre (*Gen.* xviii. 1). Yn mlaen yn yr hanes, cawn ef yn aml yn ymddangos i'r patriarchiaid, ond mewn ffordd fyddai yn eu taro â theimlad o ofnadwyaeth a dirgelwch—yn fynych yn ngweledigaethau y nos (*Gen.* xviii). Dywedodd hefyd wrth Moses, ar ol y mynych amlygiadau a roddwyd iddo, "Ni'm gwel dyn, a byw;" *Exod.* xxxiii. 20. Ac yr oedd y grediniaeth yn ffynu yn mhlith y bobl na allasai neb weled Duw mewn modd digyfrwng, a byw: *Barn.* xiii. 22. Yr oedd y dadguddiad o Dduw yn ddirgelwch, ac yn cynnyrchu braw dirfawr yn gyntaf, ond wedi hyny yn gweinyddu adfywiad ac adgyfnerthiad. Yr oedd yr Arglwydd yn ymddiried y dadguddiad am dano ei hun yn ddirgelwch neu gyfrinach i'w weision y prophwydi yn gyntaf, a hwythau eilwaith yn ei ddadguddio i ereill. "Canys ni wna yr Arglwydd ddim, a'r nas dangoso ei gyfrinach i'w weision y prophwydi;" *Amos* iii. 7. "Pan wnai efe i'w oleuni lewyrchu ar fy mhen, wrth oleuni yr hwn y rhodiwn......Pan oeddwn yn nyddiau fy ieuenctid, a dirgelwch Duw ar fy mhabell;" *Iob* xxix. 3, 4: *Salm* xviii. 28. Y mae yr Arglwydd yn hysbysu ei ddirgeledigaethau i'w bobl, ond nid i'r cenedloedd eilunaddolgar. "Y dirgeledigaethau sydd eiddo yr Arglwydd ein Duw, a'r pethau amlwg a roddwyd i ni, ac i'n plant hyd byth;" *Deut.* xxix. 29. Yn ol cyfleithiad Luther, "Y pethau hyn oedd ddirgeledigaethau yn perthyn i Dduw yn unig, ond yn awr y maent wedi eu dadguddio i ni, ac i'n plant." Ceir yr un syniad yn *Salm* cxlvii. 19, 20. Yn mhlith Israel drachefn, i'r rhai oedd yn ofni Duw yn unig yr oedd yr Arglwydd yn ymddiried ei ddirgelwch, sef y dadguddiad am dano ei hun: *Salm* xviii. 28. "Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda'r rhai a'i hofnant ef;" *Salm* xxv. 14. "Gyda'r rhai uniawn y mae ei gyfrinach ef;" *Diar.* iii. 32; *Salm* xxxvi. 10.

Ymgnawdoliad Mab Duw ydyw dirgelwch mawr y Testament Newydd, am mai hyn ydyw y dadguddiad mawr, personol, a pherffaith o Dduw. "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd;" 1 *Tim.* iii. 16. Dirgelwch y bywyd ysbrydol yn y saint ydyw Crist; a'r prif amlygiadau o Grist, trwy ba rai y mae felly, ydyw ei ymgnawdoliad, a'i holl fywyd dilynol hyd ei esgyniad i ogoniant. Yr oedd y dirgelwch hwn yn guddiedig er ys oesoedd; ond yn nghyflawnder yr amser yr eglurwyd ef, a'r dirgelwch hwn ydyw "Crist ynoch," neu yn eich mysg chwi, "gobaith y gogoniant;" *Col.* i. 26, 27. Gelwir cynghor Duw i achub pechaduriaid trwy Grist yn "ddirgelwch ei ewyllys ef" (*Eph.* i. 9), am ei bod yn guddiedig nes ei dadguddiwyd yn Nghrist. Ymddiriedwyd y dirgelwch hwn mewn modd neillduol i'r apostol Paul (*Rhuf.* xvi. 25; *Eph.* iii. 2—6)—i gyhoeddi yn mhlith y Cenedloedd anchwiliadwy olud Crist (*Col.* iv. 3.) Yr oedd yr apostolion yn gyffredinol yn oruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw: 1 *Cor.* iv. 1. "Yr ydym yn llefaru doethineb Duw mewn dirgelwch" (1 *Cor.* ii. 7): nid fel trefn o ddyfais dyn, ond fel "dirgelwch" wedi ei ddadguddio gan Dduw.

Defnyddir y gair mewn ystyr arall ychydig weithiau yn yr Ysgrythyrau; sef am yr ystyr dirgeledig neu guddiedig a drosglwyddir trwy alegori, dammeg, breuddwyd, neu arwyddlun. "Dirgelwch y saith seren a welaist ar fy llaw ddeheu, a'r saith ganwyllbren aur; y saith seren, angelion y saith eglwys ydynt," &c.; *Dad.* i. 20. "Myfi a ddywedaf i ti ddirgelwch y wraig;" *Dad.* xvii. 7. "Y dirgelwch hwn sydd fawr: eithr am Grist ac am yr eglwys yr ydwyf fi yn dywedyd;" *Eph.* v. 32. "Y dirgelwch hwn;" hyny yw, y mater y cyfeirir ato yn gyfriniol yn yr adnod flaenorol am briodas: dirgelwch yr undeb ysbrydol rhwng Crist a'r ddynoliaeth, neu ei eglwys, fel y cysgodir ef yn agosrwydd y berthynas briodasol. Y mae y dirgelwch hwn uwch law dirnadaeth dyn, eto y mae wedi ei ddadguddio fel rhan o drefn Duw yn Nghrist. Gwelir fod yr ystyr hwn o'r gair yn cytuno a'r modd y defnyddia Paul ef yn gyffredin [*Alford*]. Y mae y cymhwysiad o ymadroddion priodasol at Grist a'i eglwys yn "ddirgelwch mawr;" ond rhag i neb feddwl fod yr apostol yn cyfeirio at "un

Digitized by Google

cnawd" perthynas ddaiarol, y mae yn ochelgar i ddyweyd "am Grist ac am yr eglwys yr wyf yn dywedyd." Y mae y gwirionedd hwn yn ddirgelwch nad oes neb yn ei ddeall ond sydd yn ei fwynhau [*Eadie*].

Mewn cyfieithiadau o'r Testament Newydd, ac mewn ysgrifeniadau Pabyddol, cyfleithir y gair *μυστηριον=dirgelwch*, yn *sacrament*, a phriodolir i'r gair sacrament yr ystyron sydd yn perthyn i'r Groeg, *musterion*. Yn y canoloesoedd, defnyddid y gair sacrament am unrhyw athrawiaeth oruchnaturiol, megys "sacrament yr ymgnawdoliad," &c., neu am unrhyw ordinhad y priodolent rinwedd oruchnaturiol iddi. Cymhwysid y gair yn gyntaf at Swper yr Arglwydd a bedydd, ac wedi hyny at ddefodau cysegredig ereill. Pa fodd y daeth y gair "dirgelwch" i gael ei gyfieithu ganddynt yn sacrament, nid oes sicrwydd; o herwydd nid oes un berthynas rhwng y Lladin, '*sacramentum*, a'r Groeg, *musterion*. Y mae Houbigant, offeiriad Pabaidd, yn ymwrthod â'r gair sacrament yn ei gyfieithiad Lladinaidd o'r Hen Destament, ac yn rhoddi yn ei le *secretum, arcanum, absconditum*. Nid yw Erasmus yn ei ddefnyddio ond unwaith yn ei gyfieithiad o'r Testament Newydd, sef "sacrament y saith seren" (*sacramentum septem stellarum*).

Er fod y grefydd Iuddewig yn llawn o ordeiniadau a seremoniau, nid ydynt un amser yn cael eu galw yn yr Hen Destament yn sacramentau na dirgeledigaethau, mwy nag y mae ordinhadau y Testament Newydd yn cael eu galw felly.

Wrth ddirgeledigaethau mewn duwinyddiaeth Brotestanaidd y meddylir athrawiaethau sylfaenol yr efengyl, y rhai sydd uwch law amgyffred rheswm dyn. Er iddynt gael eu dadguddio, y maent yn ddirgeledigaethau yn yr ystyr hwn. "Dirgelwch duwinyddol ydyw tystiolaeth am ryw ffaith neu athrawiaethau, sydd wedi cael eu hysbysu i ni trwy ddadguddiad; ond yr hon nas gall meddwl dyn yn y sefyllfa bresennol amgyffred yn berffaith yn ei hachos, modd ei hanfodiad, ei effeithiau, ac amgylchiadau ereill."—*Dr. P. Smith*. Rhydd hefyd ddarnodiadau o awduron ereill, megys—"Athrawiaethau neu ffeithiau yn meddu cyssylltiad â chrefydd, ond natur a chyssylltiad pa rai nis gallwn yn berffaith eu deall." A'r un ganlynol:—"Athrawiaethau, gwirionedd pa rai, er nad ydynt yn groes i ddeddfau y meddwl, eto nis gall rheswm dyn yn ei sefyllfa bresennol eu hamgyffred o gwbl, neu yn berffaith." Gwahaniaeth sydd wedi cael derbyniad cyffredin ar y mater hwn yw y gwahaniaeth a wneir gan Leibnitz rhwng athrawiaethau uwch law rheswm ac athrawiaethau croes i reswm; Gwirionedd uwch law rheswm ydyw gwirionedd nas gall meddwl dyn, nac unrhyw feddwl crëedig, ei amgyffred; y cyfryw ydyw yn marn Leibnitz y Drindod Sanctaidd, creadigaeth, trefn y greadigaeth, fel y mae yn sicrhau cydgordiad a chyssonedd cyffredinol. Felly, gwirionedd uwch law rheswm ydyw gwirionedd uwch law ein profiad a'n hamgyffred ni. Ond yr hyn sydd yn groes i reswm ydyw yr hyn sydd yn groes i wirioneddau hollol wir ac angenrheidiol (*les verités absolument certaines et indispensables*). Y mae dirgeledigaethau uwch law rheswm, ond nid yn groes i reswm: nid ydynt yn anghysson â hwy eu hunain, nac âg egwyddorion amlwg rheswm a natur; nis gellir amddifadu crefydd o honynt, a chrefydd hebddynt ni byddai yn gymhwys i natur dyn. Y mae athroniaeth feddyliol, foesol, a naturiol yn meddu ei dirgeledigaethau. Y mae Deistiaeth a Rhesymoliaeth yn gwadu dirgeledigaethau [*Toland's Christianity not Mysterious*]. Am sylwadau sylweddol ar y mater hwn, gwel *Cyfatebiaeth Butler*, rhan i. pen. 7; ii. 4; ii. 3.

DIRMYG—U—WYR—EDIG, [*myg*]: diystyrwch, anmharch, gwarth, gwaradwydd. Mae y fath dywyllwch ac anystyriaeth yn nghalon dyn wrth natur, fel y mae yn edrych gyda dirmyg ar yr Arglwydd, ar ei air, ar ei gyfreithiau, ac ar ei eglwys: *Lef*. xxvi. 15; *Num*. xi. 20; 2 *Sam*. xii. 9; *Salm* cvii. 11; *Diar*. xiii. 13; *Amos* ii. 4; *Mal*. i. 6; *Ier*. vi. 10; *Mat*. xviii. 10; *Ioan* xii. 48; 1 *Cor*. xi. 12; 1 *Thes*. iv. 8; v. 20. Ond fe delir iddo, os na edifarha: "Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi, a'm *dirmygwyr* a *ddirmygir*;" 1 *Sam*. ii. 30. "Dirmyg Crist;" *Heb*. xi. 26. Ymyl y ddalen, "er Crist;" hyny yw, er mwyn Crist. Y mae llawer o farnau yn nghylch ystyr y frawddeg hon. Tybia rhai mai golygu y mae fod Moses yn ewyllysgar i ddwyn y gwaradwyddiadau cyssylltiedig â'i waith yn credu y deuai y Messiah, a'i fod wedi ymwrthod â'r rhagolygiadau teg yn yr Aipht er mwyn y dysgwyliad hwnw. Dywed ereill mai y meddwl ydyw, fod Moses yn goddef y cyfryw waradwyddiadau megys ag y dyoddefodd Crist. Haera ereill drachefn, bod yr apostol yn defnyddio y geiriau fel math o ymadrodd *celfyddydol*, a ddeallid yn dda y pryd hyny, i ddynodi y dyoddefiadau a ddyoddefid yn achos crefydd. Yr oedd yn naturiol i Gristionogion y pryd hyny ddysgrifio pob dyoddefiadau o achos crefydd megys yn cael eu dwyn *er mwyn achos Crist;* a dichon i Paul, o blegid hyny, ddefnyddio yr ymadrodd hwn i ddynodi dyoddefiadau yn achos crefydd, gan arwyddo ddarfod i Moses ddyoddef yr hyn a elwid, pan oedd Paul yn ysgrifenu, yn "waradwyddiadau Crist." Fe oddef y gwreiddiol y naill neu y llall o'r esboniadau hyn; y meddwl cyffredinol, pa fodd bynag ydyw, y gwaradwyddid ef o blegid yr yrfa a ddilynai. Ond ystyriai Moses y gwaradwydd hwn yn "fwy golud na thrysorau yr Aipht," yn y rhagolwg ar "daledigaeth y gobrwy."

Dywedir am Grist, "*Dirmygedig* yw, a diystyraf o'r gwŷr;" *Esa*. liii. 3; xlix. 7. Cafodd hyn ei gyflawnu yn llythyrenol. Yr oedd y Gwaredwr mewn modd neillduol yn wrthddrych o ddirmyg a gwaradwydd gan y Phariseaid, y Saduceaid, a'r Rhufeiniaid. Yr ydoedd felly yn ystod ei fywyd ar y ddaiar, ac felly hefyd ar adeg ei farwolaeth; a byth er hyny, dirmygir ei enw a'i berson gan filoedd. Nid oes dim yn gyflawniad mwy tarawiadol o hyn nag ymddygiad yr Iuddewon yn y dyddiau presennol. Y mae hyd yn oed enw Iesu o Nazareth yn cynnyrchu teimlad o ddiystyrwch yn eu meddwl tuag ato; ac unant â'u tadau, y rhai a'i gwrthodasant, i roddi pob enw o ddirmyg arno. "Na *ddirmyga* gerydd yr Arglwydd;" *Heb*. xii. 5. Yn llythyrenol, nac edrych arno fel peth dibwys —fel mater i fod yn ddiystyr o hono. Groeg, ὀλιγωρει. Duw bob amser sydd yn anfon trallodion a chystuddiau, ac ni ddylid eu diystyru a'u dibrisio o herwydd y rhesymau canlynol:— 1. Y ffaith o'u bod yn cael eu hanfon gan Dduw. Beth bynag a wneir ganddo ef, y mae hwnw yn bwysig, ac yn teilyngu sylw dyfnaf a dwysaf dynion. 2. Fe'u hanfonir i ryw ddyben pwysig; ac am hyny, dylid eu hystyried gyda'r pryder a'r gofal mwyaf dyfal. Y mae dynion yn eu dirmygu—(1.) Pan yn ddiofal yn eu cylch, neu

Digitized by Google

pan yn cymmeryd arnynt fod felly. (2.) Pan ballant eu derbyn fel rhybuddion neu geryddon tirion Duw, ac yr edrychant arnynt fel pethau heb un amcan doeth a deallus iddynt. (3.) Pan y derbyniant hwy gydag ymadroddion o ddirmyg, ac y llefarant am danynt hwy a llywodraeth Duw mewn gwawd. Gwel GWARADWYDD, GWARTHRUDD.—(*Barnes*).

DISGYNIAD CRIST I UFFERN. Y mae disgyniad Crist i uffern wedi tynu sylw mawr, a pheri llawer o ddadleu. Y mae yr ymadrodd yn rhan o Gredo yr Apostolion; ond nid yw i'w gael mewn cynnifer o eiriau yn yr ysgrifeniadau sanctaidd. Dywedir iddo "ddisgyn," ac hefyd iddo fod yn "uffern;" ond nid ydym yn cyfarfod â'r ymadrodd, "disgynodd i uffern." Dywed Paul, iddo "ddisgyn i barthau isaf y ddaear." Ymddengys fod yr apostol yn y geiriau hyn yn golygu holl sefyllfa ddarostyngol Crist, yr hon a ddechreuodd yn ei enedigaeth, ac a derfynodd yn ei farwolaeth a'i gladdedigaeth. Y mae yn ddiammheu nad yw y gwirionedd ddarfod i Iesu Grist ddyfod i'r byd yn dyhysbyddu meddwl yr apostol yn y geiriau hyn. Os sylwn ar ystyr naturiol y geiriau, "parthau isaf y ddaear," y mae yr ymadrodd yn dynodi, nid yn unig y ddaear ei hunan, mewn cyferbyniad i uchder y nefoedd, ond hefyd y parthau hyny o'r ddaear sydd yn is na pharthau ereill o honi—yn is na "thir y rhai byw." Yn unol â hyn, yr ydym yn darllen yn *Ezec.* xxvi. 20; "A'th ddisgyn o honof gyda'r rhai a ddisgynant i'r pwll, at y bobl gynt, a'th osod yn iselderau y ddaiar." A thrachefn, "Rhoddwyd hwynt oll i farwolaeth, yn y tir isaf, yn nghanol meibion dynion, gyda'r rhai a ddisgynant i'r pwll." Y mae yr ymadroddion hyn yn ddigon er dangos yn mha ystyr y defnyddir yr ymadrodd yn y Beibl. Y mae Chrysostom yn y geiriau canlynol yn traethu yr un syniad:—"Y mae yn galw marwolaeth wrth yr enw 'parthau isaf y ddaiar.'" Dywedir am y rhai sydd wedi eu claddu, eu bod dan y ddaiar. Dywed Ignatius, "Ar y Sabbath, arosodd dan y ddaiar yn y bedd." Ymddengys fod holl feddwl yr apostol yn cael ei gynnwys yn ngeiriau Theophylact, pan y dywed, "Y mae yn amlwg ddarfod iddo ef, yr hwn oedd uchod, nid yn unig ddisgyn i'r ddaiar pan yr ymgnawdolodd, ond hefyd i *hades* pan y bu farw."

O barth i barhâd amser arosiad Crist yn uffern, fe brophwydodd Dafydd, "Ni adawi fy enaid yn uffern," yr hon brophwydoliaeth a eglurheir gan Pedr yn *Act.* ii. 29—31, fel hyn:—"Ha wyr frodyr, y mae yn rhydd i mi ddywedyd yn hyf wrthych am y patriarch Dafydd, ei farw ef a'i gladdu, ac y mae ei feddrod ef gyda ni hyd y dydd hwn......Ac efe yn rhagweled, a lefarodd am adgyfodiad Crist, na adawyd ei enaid ef yn uffern, ac nas gwelodd ei gnawd ef lygredigaeth."

Cyn chwilio beth all fod meddwl yr hyn a ddywed y Beibl am ddisgyniad Iesu Grist i uffern, dylid sylwi nad oes son am hyn mewn un o'r hen gredoau, fel y mae yn amlwg oddi wrth lawer o brofion a ddygwyd yn mlaen gan Moulin a Vossius. Y copi hynaf yn yr hwn y ceir ef yw y credo personol a briodolir i Athanasius. Ond y mae yn dra ammheus ai Athanasius oedd gwir awdwr y credo hwn: y mae rhesymau cedyrn Vossius yn profi hyn; yr hwn a ddengys un ai nad oedd yn hanfodi o gwbl, neu nad oedd yn adnabyddus yn yr eglwys hyd ddechreu y seithfed ganrif. Y mae yn deilwng o sylw hefyd, nad oedd yr hen gredoau gynt, a gynnwysent yr erthygl am ddisgyniad Crist i uffern, yn cynnwys yr erthygl am ei gladdedigaeth; ac yn y credoau lle yr oedd yr erthygl am y disgyniad i uffern wedi ei gadael allan, fe geid yr erthygl o barth i'r claddedigaeth wedi ei dodi i mewn. Y mae dysgedigion wedi barnu, yn gymmaint a bod y credoau gynt a sonient am y naill, yn gadael allan y llall, ddarfod i'r ddau wedi hyny, trwy ryw amryfusedd, gael eu cyssylltu yn nghyd. Yn amser Rufinus, hyny yw, oddeutu dechreu y bummed ganrif, ystyriai Eglwys Rhufain ei hunan ei bod yn ddigon crybwyll y claddedigaeth yn unig. Yr oedd eglwys Aquilia, y mae yn wir, yn dodi y ddau ffurf o ymadrodd yn eu credo; eto, yn ol a ddywed Rufinus, tybient mai yr un meddwl oedd i'r naill a'r llall. A diammheu fod Vossius yn iawn, pan yn dywedyd, "fod eglwysi y dwyrain ar y cyntaf yn golygu, wrth ddisgyniad Crist i uffern, yr un peth ag a osodid allan gan eglwysi y gorllewin trwy yr ymadrodd "claddedigaeth Crist." Pa bryd y dechreuwyd cyssylltu yr ymadroddion cyfystyr hyn â'u gilydd, fel pe buasent yn gwahaniaethu o ran meddwl, nis gellir penderfynu i fanylrwydd sicr. Tybia Erasmus i hyn gael ei wneyd gan Thomas Aquinas, tua'r flwyddyn 1365. Ond dywed Socrates, yr hanesydd eglwysig, ddarfod i hanner cant o Ariaid, trwy benodiad Acacius, ymgynnull yn Nghaer Cystenyn ac yno gyfansoddi credo, yn yr hwn y proffesent eu bod yn credu yn Nghrist, "yr hwn a fu farw, a gladdwyd, ac a ddisgynodd i'r gororau tanddaiarol, ac a darawodd hyd yn oed Hades âg ofn a dychryn." Ymddengys eu bod hwy yn golygu rhywbeth mwy na chladdedigaeth trwy yr ymadroddion yma. Dygwyddodd hyn tua'r flwyddyn 359. Ond er na sonir mewn geiriau pendant, nac yn yr Ysgrythyrau nac yn y credoau hynaf, am ddisgyniad Crist i uffern, eto y mae Cristionogion uniongred, ar ol chwilio y mater, yn unol â chyssondeb y ffydd, ac yn gysson âg ymadroddion y Beibl, yn derbyn fel gwirionedd am yr Arglwydd Iesu, ei fod, os nad wedi disgyn i garchar y damnedigion, eto wedi myned drwy amgylchiadau y gellir dywedyd yn briodol am dano ei fod wedi disgyn i uffern. Pan y dywedir am dano ddarfod iddo wneyd hyny, y mae yr ymadrodd, o bosibl, i'w gymhwyso mewn rhan at y corff, ac mewn rhan at yr enaid. Gyda golwg ar y corff, y mae yr ymadrodd yn dynodi claddedigaeth neu attaliad y corff yn y bedd, neu mewn cyflwr o farwolaeth. Barn unfrydol pawb diragfarn yw, fod y gair *scheolah*, a gyfieithir *hades* yn y Groeg, yn dynodi y bedd, neu sefyllfa dynion meirw o bob math. Y bedd yn benodol a ddynodir trwyddo yn *Salm* cxli. 7; "Y mae ein hesgyrn ar wasgar ar fin y bedd" (*scheolah*). Ac yn *Salm* xlix. 14, y mae yn dynodi sefyllfa o farwolaeth; "Fel defaid y gosodir hwynt yn uffern: ymyl y ddalen, "y bedd" (*scheolah*); hyny yw, byddant feirw fel defaid, y rhai yn fynych a adewir heb eu claddu; a'r rhai yn sicr nad ydynt yn disgyn i uffern y damnedigion. Yn mhellach, gan fod *scheolah*, neu *hades*, yn dynodi sefyllfa y meirw a'r bedd; felly, myned i'r sefyllfa hono, neu i'r lle hwnw; sydd i'w ddeall wrth fyned neu ddisgyn i *scheolah* neu *hades*. Yn unol â'r syniad hwn y dywed Esaiah (xxxviii. 10), "Myfi a ddywedais, Af i byrth y bedd (*scheolah*), chwanegir finnau at nifer y rhai a fuont feirw ac a gladdwyd. Difuddiwyd fi o weddill fy mlynyddoedd." Yn gyffelyb y llefarai y patriarch Iacob; "Yn ddiau, disgynaf yn alarus at fy mab

Digitized by Google

y lle hwnw i raddau llymach; o herwydd dyoddefodd ein Harglwydd lymder eithaf y felldith, pan yr oedd ing ei enaid, o dan y teimlad o ddigofaint ei Dduw, yn dwyshau poenau ei gorff. Ac fel hyn, diau mai y meddwl y dylid ei gyssylltu â'r ymadrodd "disgyniad Crist i uffern" ydyw, ei ddisgyniad i'r dyfnder hwnw oedd yn gynnwysedig yn nyoddefiadau ei enaid pan mewn undeb â'r corff.—(*Witsius on the Creed.*)

DISTRYW—IO, [Ll., *destructio, destruo*; Seis., *destruction, destroy*]: dinystr, dinystrio, dyfetha. Pan y llefara Iob am fawredd Duw, efe a ddywed, "Y mae uffern yn noeth ger ei fron ef: ac nid oes do ar *ddistryw*;" *Iob* xxvi. 6. Yr un peth a olygir wrth *ddistryw* ac *uffern*, neu le y damnedigion. Priodol y gelwir uffern yn *ddistryw*, o blegid yno fe ddistrywir cyrff ac eneidiau yr annuwiolion dros byth. Er fod uffern yn anweledig i ni, ac nas gwyddom am natur y poenau a ddyoddefir yno, eto y mae y cyfan yn noeth ac yn agored ger bron Duw: "nid oes do ar ddistryw" iddo ef.

"Dinas *distryw* y gelwir un;" *Esa*. xix. 18. Y mae llawer iawn o wahanol ddeongliadau gyda golwg ar yr ymadrodd hwn. Ymyl y ddalen, "neu heres, neu yr haul." Yn y Vulgate, "dinas yr haul;" gan olygu, y mae yn ddiammheu, dinas Heliopolis. Yn y Deg a Thrigain, "dinas Asedec" (ἀσεδὲκ). Yn y cyfleithiad Caldeaidd, "dinas tŷ yr haul (בית שמש), yr hon sydd i gael ei distrywio." Y Syriaeg, "dinas heres." Y darlleniad cyffredin o'r testyn Hebraeg ydyw עיר ההרס (*'Ir haheres*). Ystyr cyffredin y gair הרס (*heres*) ydyw *distryw*—er y gall olygu *gwaredigaeth* hefyd; a thybia Gesenius fod yr enw i gael ei roddi arni o blegid y bwriedid iddi fod yn ddinas *waredigol*; hyny yw, hi fyddai y ddinas i ba un yr elai yr "iachawdwr" y sonir am dano yn *adn*. 20, a'r hon a wneid yn brifddinas ganddo. Haera Ikenius fod y gair *heres* wedi ei gymmeryd o'r Arabaeg, ac mai yr un ydyw a'r enw *Leontopolis, dinas y llew*, dinas yn yr Aipht. Ond heb law gwrthwynebiadau ereill y gellid eu dwyn yn erbyn y deongliad hwn, ni roddir yr ystyr o *lew* i'r gair yn yr Hebraeg. Y darlleniad cyffredin ydyw y darlleniad a ddygwydd yn y testyn—"dinas heres." Ond canfyddir darlleniad arall (החרס) mewn un ar bymtheg o ysgriflyfrau, ac y mae wedi ei gopïo yn y Beibl Amlieithog Complutensiaidd. Ystyr priodol y gair hwn, חרס (*hheres*), ydyw *yr haul*; ac ystyr y frawddeg ydyw, dinas yr haul, hyny yw, Heliopolis. Ffodd Onias, pan y somwyd ef yn ei gais am yr archoffeiriadaeth (c.c. 149), ar farwolaeth ei ewythr Menelaus, i'r Aipht; gweithiodd ei hun i ffafr Ptolemy Philomater a Chleopatra; dyrchafwyd ef i'r sefyllfa uchaf yn y fyddin ac yn y llys, a gwnaeth ddefnydd o'i ddylanwad er caffael caniatâd i adeiladu teml gyffelyb i deml Ierusalem yn yr Aipht, gydag addewid y byddai iddo ef a'i hiliogaeth gael gwasanaethu ynddi yn wastadol fel archoffeiriaid. Er cyrhaedd ei amcan, dadleuai y byddai teml yn fantais fawr i'r Aipht, gan y byddai yn foddion i ennill llawer o Iuddewon yno i fyw; ac os aent yn flyneddol i Ierusalem i'r gwyliau mawr, y byddai perygl iddynt adael yr Aiphtiaid, ac ymuno â'r Syriaid. Gwel *Prideaux's Connexions*, dan y flwyddyn 149 c.c. Dywed Josephus wrthym yn arbenig [*Hyn*. llyfr xiii. pen. iii. adr.1—3], yr haerai, er mwyn ennill y ffafr hon, bod y peth wedi ei ragfynegu gan Esaiah er ys chwe chan mlynedd yn flaenorol; a bod Ptolemy, mewn canlyniad i hyny, wedi rhoddi caniatâd iddo i adeiladu y deml, a'i bod wedi ei chyfodi yn Leontopolis. Yr ydoedd ar gynllun teml Ierusalem, ond ei bod yn llai, ac heb fod mor ardderchog. Yr ydoedd oddi mewn i raglawiaeth Heliopolis, a thua phedair milltir ar ugain o Memphis. Dadleuai Onias bod hyd yn oed ei lle wedi ei ragfynegu gan Esaiah; ac ymddengys oddi wrth hyn y gellir tybied mai yr hen ddarlleniad oedd "dinas yr haul." Haerai hyn er mwyn cymmodi meddyliau yr Iuddewon â'r drychfeddwl o deml arall heb law teml Ierusalem, canys fe deimlai Iuddewon Palestina wrthwynebiad i deml yn yr Aipht. Hwyrach mai yr un rheswm sydd dros fod y Deg a Thrigain wedi cyfieithu yr ymadrodd "dinas Asedec" (ἀσεδὲκ), megys pe mai y gwreiddiol fuasai צדקה (*tzedâkâ*), *dinas cyfiawnder*; hyny yw, dinas lle y trig cyfiawnder, neu ddinas a gymmeradwyid gan Dduw. Ond y mae yn eglur mai llygriad ydyw o'r testyn Hebraeg. Gall fod yn briodol sylwi nad ydyw y cyfnewidiad yn yr Hebraeg rhwng y gair a gyfieithir *distryw* (הרס, *heres*), a'r gair *haul* (חרס, *hheres*), ond cyfnewidiad mewn un lythyren yn unig, y gellid yn hawdd iawn ei chamgymmeryd, sef cyfnewid ח am ה. Gallasai hyn ddygwydd trwy wall adysgrifenydd, er bod lle i dybio oddi wrth yr amgylchiadau y gallasai y peth gael ei wneyd yn fwriadol; ond gan bwy, ni wyddys. Gall fod y testyn yn wreiddiol fel yr honai Onias ei fod, ond iddo gael ei newid wedi hyny gan yr Iuddewon, er gwrthweithio yr awdurdod a ddygai ef yn mlaen dros adeiladu teml yn yr Aipht; ond nid oes brawf pendant o hyny. Y mae y dystiolaeth oddi wrth ysgriflyfrau yn dra ffafriol i'r darlleniad fel y mae yn ein cyfleithiad ni (הרס, *heres*); ac fe ellir cyfieithu y gair un ai *distryw*, neu yr hyn sydd yn fwy tebygol, yn ol Gesenius, yn *waredigaeth*, yr hon ddinas a elwid felly o blegid y *waredigaeth* a ddygid iddi gan yr Iachawdwr addawedig: *adn*. 20. Gellir chwanegu, nad oes un prawf mai y ddinas lle yr adeiladodd Onias y deml oedd gan Esaiah mewn golwg; ond amcan y prophwyd oedd rhagfynegu y dychwelid amryw ddinasoedd yn yr Aipht, un o ba rai a fyddai yr hon a ddynodir yn y lle dan sylw. Cymmerodd Onias fantais ar hyn, a gwnaeth ddefnydd cyfrwysgall o hono; ond y mae yn amlwg mai nid dyna oedd meddwl Esaiah. Y mae yn anmhosibl yn bresennol penderfynu pa un ydyw y darlleniad cywir, ac nid yw o nemawr bwys. Y deongliad mwyaf tebygol, medd Barnes, ydyw yr un a dybia fod Esaiah yn cyfeirio at ddinas a waredid rhag distryw, fel y crybwyllir yn *adn*. 20, ac nad amcanai ddynodi unrhyw ddinas neillduol.

DIRWEST, [*dir—gwest*; Heb., צום; Groeg, ἀσιτία; Llad., *abstinentia*; Seis., *abstinence*]: ympryd, cythlwng, y weithred neu yr ymarferiad o *ymgadw* neu *ymattal oddi wrth* unrhyw beth. Golyga ymgadw oddi wrth foddau blys neu chwant—ymattal oddi wrth foddhad arferol tueddiadau anifeilaidd; llwyrymattaliad, megys wrth ymprydio, neu ymattaliad mewn rhan, megys pan leiheir y swm a ddefnyddir o ymborth. Yn yr ystyr olaf, cytuna â *chymmedroldeb*. Y mae y gair a gyfieithir *dirwest* yn *Gal*. v. 22, yn cael ei gyfieithu *cymmedrolder* yn 2 *Pedr* i 6; "Ac at wybodaeth gymmedrolder, ac at gymmedrolder amynedd." Pa fodd bynag, yn gyffredinol, golyga dirwest, gwneyd defnydd mwy arbedus o fwyniannau nag a olyga cymmedroldeb

Digitized by Google

Golyga dirwest, yn briodol, ymattaliad oddi wrth beth neu weithred, am ei fod yn niweidiol, ac felly yn anghyfreithlawn; golyga cymmedrolder derfynau ymarferiad â pheth ag sydd yn gyfreithlawn. Rheol yw cymmedrolder a gymhwysir at beth a ganiateir gan ddeddf; ymattaliad yw dirwest rhag yr hyn a waherddir gan ddeddf. Mae dirwest yn un o ffrwythau yr Ysbryd. "Eithr ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest;" *Gal.* v. 22. Dysgir dyn gan Ysbryd Duw i ymattal, yn gystal ag i ddefnyddio—ymattal rhag y drwg, ac iawn ddefnyddio y da. Yn ngwyneb chwant anghyfreithlawn Ffelix, pregethai Paul iddo y ddyledswydd o ymgadw—"Ac fel yr oedd efe yn ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd."

Weithiau, arweinir dynion i ddirwest gan amgylchiadau; ymattaliant rhag yr hyn sydd gyfreithlawn o ddiffyg tuedd i fwynhau; megys, Paul a'i gydfordeithwyr yn eu perygl a'u pryder; "Ac wedi bod hir ddirwest;" *Act.* xxvii. 21. "A phan buasai bellach hir ympryd."—*Dr. Morgan.*

Er ys rhai blyneddoedd, defnyddir y gair *dirwest* i arwyddo llwyrymattaliad oddi wrth wlybyroedd meddwol. Mae lluaws mawr yn ngwahanol ranau y byd wedi ardystio ymrwymiad o lwyrymwrthodiad â phob diodydd alcoholaidd. Dadleuant fod gwlybyroedd meddwol yn anghydweddol â chyfansoddiad dyn iach. Golygant fod eu hyfed yn drosedd o ddeddfau natur y cyfansoddiad dynol. Ystyriant nas gellir troseddu hono yn wirfoddol heb droseddu y ddeddf foesol, gan fod creadur rhesymol yn gyfrifol am ei holl weithredoedd. Ystyriant yfed diodydd meddwol ynddo ei hun yn anghyfreithlawn, ac y dylid cymhwyso ato yr egwyddor o lwyrymattaliad—dirwest. Dyma yr unig feddyginiaeth effeithiol, yn ol eu barn hwy, i lanhau y byd oddi wrth y drygau naturiol a moesol hyny a gynnyrchir gan ddiodydd alcoholaidd.

Heb law y rhai sydd o'r golygiadau yna, y mae dosbarth lluosog a ddadleuant y dylid ymattal oddi wrth wlybyroedd meddwol, nid am nad ydynt yn dda ynddynt eu hunain, ond eu harfer yn gymmedrol, eithr o herwydd y camddefnydd a wneir o honynt, a'r anghymmedroldeb cysylltiedig â'r ymarferiad â hwynt. Ystyriant yr angenrheidrwydd i ymattal yn tarddu, nid oddi ar anghyfaddasrwydd y diodydd, ond oddi ar ddiffyg gallu dyn i'w hiawn ddefnyddio. Ac y mae llawer a ystyriant eu hunain yn meddu y gallu i'w hiawn ddefnyddio heb eu camddefnyddio, eto yn llwyrymattal, fel y byddo iddynt roddi esampl i ereill, y rhai nas gallant, fel y tybir, ymgadw oddi wrth anghymmedroldeb heb ymattal oddi wrth yr hyn sydd yn arwain iddo.

DIWEDD, (*diw*): terfyn, dyben, pall, pen, gorpheniad, cwblhad. Defnyddir y gair mewn gwahanol ystyron yn y Beibl:—(1.) Am derfyniad cyfnod o amser: "Ac yn niwedd y Sabbath;" *Mat.* xxviii. 1. (2). Am gwblhad neu orpheniad gweithred; "Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd;" *Esa.* ix. 7. (3.) Am gyflwr neu sefyllfa derfynol dyn: "Ystyr y perffaith ac edrych ar yr uniawn, canys diwedd y gwr hwnw fydd tangnefedd. Ond y troseddwyr a gyd-ddistrywir: diwedd yr annuwiolion a dorir ymaith;" *Salm* xxxvii. 37, 38. (4.) Am bwynt tu hwnt i'r hwn nis gellir myned; "Ymdroant, ac ymsymmudant fel meddwyn; a'u holl ddoethineb a *ballodd*" (Seis., "at their wit's *end*"); *Salm* cvii. 27. (5.) Am derfyniad dadl neu brawf; "A Phedr......a eisteddodd gyda'r gweision, i weled y *diwedd*;" *Mat.* xxvi. 58. (6.) Am derfyniad bywyd neu einioes: "Y neb a barhao hyd y *diwedd*, hwnw a fydd cadwedig;" *Mat.* xxiv. 13: x. 22; *Marc* xiii. 13; *Heb.* iii. 6, 14. (7.) Am derfyniad ar sefyllfa arbenig pethau; megys *diwedd* y byd: *Mat.* xxviii. 20. (8.) Defnyddir y gair i osod allan ddinystr: "Daeth y diwedd ar fy mhobl Israel; nid af heibio iddynt mwyach;" *Amos* viii. 2. (9.) Defnyddir ef am ganlyniad bywyd drygionus: "*Diwedd* y pethau hyny yw marwolaeth;" *Rhuf.* vi. 21. (10.) Arwydda hefyd y dyben neu yr amcan fyddo mewn golwg wrth wneyd unrhyw orchwyl: "Eithr *diwedd* y gorchymyn yw cariad" (1 *Tim.* i. 5); hyny yw, prif ddyben neu amcan y gorchymyn yw cynnyrchu cariad. "Gan dderbyn *diwedd* eich ffydd, sef iachawdwriaeth eich eneidiau" (1 *Pedr* i. 9); hyny yw, prif ddyben neu amcan ffydd ydyw sicrhau iachawdwriaeth. Hyn hefyd yn ddiammheu, medd Barnes, ydyw ystyr y gair yn *Rhuf.* x. 4; "Crist yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu." Dygir oddi amgylch drwy ffydd yn Nghrist y prif ddyben neu yr amcan a gwblheid gan ufudd-dod perffaith i'r ddeddf. Hyny yw, fe ddygesid oddi amgylch gan ufudd-dod perffaith i'r ddeddf, gyfiawnhad ger bron Duw, diogeliad ei ffafr, a bywyd tragwyddol. Y mae yr un dyben yn awr yn cael ei ddwyn oddi amgylch drwy ffydd yn Nghrist. Yr un yw dyben mawr pob un o'r ddau; ac fe gyrhaeddir yr un dyben mawr yn y diwedd. Tybia rhai fod y gair *diwedd* yn yr adnod hon yn cyfeirio at y ddeddf seremonïol—i Grist ei chyflawnu, a gwneyd pen am dani. Golyga ereill mai y meddwl ydyw, iddo gyflawnu y ddeddf foesol yn berffaith. Ac ereill a dybiant mai yr ystyr ydyw, fod y ddeddf yn y diwedd yn ein harwain at Grist, neu mai ei hamcan ydyw ein cyfeirio ato ef. Ond ymddengys mai y gwirionedd syml ac eglur a ddysgir yma ydyw, fod yr un dyben yn cael ei gyrhaedd drwy ffydd yn Nghrist gyda golwg ar ein cyfiawnhad, ag a gyrhaeddesid gan ufudd-dod perffaith i'r ddeddf foesol.

"Ac a saif yn y diwedd ar y ddaiar;" *Iob* xix. 25. Fel hyn y darllena Dr. Morgan yr ymadrodd, "Ac y cyfodir o'r diwedd ar y ddaiar." Mae yn yr adnod hon dystiolaeth ragorol am berson a swydd y Cyfryngwr, ac o ffydd Iob ynddo. Fel pe dywedasai Iob, yr wyf fi yn suddo ac yn marw, ond fe saif ef yn gadarn, yn ddiysgog, ac yn fuddugoliaethus mewn llawn nerth ac awdurdod; gan hyny, fe all fy ngalluogi i sefyll mewn barn, ac fe all amddiffyn fy achos yn erbyn fy holl wrthwynebwyr. Neu ynte, *efe a gyfyd*, fel y golyga y ferf hon yn fwyaf mynych. Hyny yw, naill ai (1.) efe a ddeuai i fodolaeth, neu efe a enid, fel y defnyddir y gair hwn yn aml. Gwel *Num.* xxxii. 14; *Deut.* xxix. 22; *Barn.* ii. 10; 1 *Bren.* iii. 12; *Mat.* xi. 11. Er bod Crist yn bodoli, fel yr oedd yn Dduw, er tragwyddoldeb, eto byddai iddo gael ei wneyd yn ddyn, a'i eni o wraig, yn nghyflawnder yr amser. Neu (2.) efe a gyfyd o'r llwch (ond buasai hyn yn fwy tebygol pe buasai y darlleniad yn yr adnod "o'r ddaiar" yn lle "ar y ddaiar"); canys fe allesid yn briodol crybwyll yn y fan hon am adgyfodiad Crist oddi wrth y meirw fel yr achos o adgyfodiad Iob, am yr hyn y sonir yn y ddwy adnod ddilynol. "Yn y diwedd;" hyny yw, naill ai

Digitized by Google

(1.) yn nyddiau y Messiah neu ddyddiau yr efengyl; y rhai a elwir yn aml yn *ddyddiau* neu *amseroedd diweddaf: Esa.* ii. 2; *Hos.* iii. 5; *Act.* ii. 17; 1 *Tim.* iv. 1; 2 *Tim.* iii. 1; *Heb.* i. 1. Neu, yn hytrach, (1) yn nydd yr adgyfodiad cyffredinol a'r farn; yr hyn, fel y gwyddai ac y credai y patriarchiaid sanctaidd hyny, a gymmerai le yn niwedd y byd; a'r hwn amser a elwir yn *ddydd diweddaf: Ioan* vi. 39, 40, 44, 54. Canys dyma yr adeg y cymmerai adgyfodiad Iob le, am yr hyn y llefarai efe. Y lle ar ba un yr ymddengys ac y saif Crist yn y dydd diweddaf ydyw, *ar y ddaiar;* neu, yn ol yr Hebraeg, *ar y llwch*, yn mha un y gorwedd neu yr huna ei saint, pa rai a adgyfodir o hono ganddo ef: gan hyny, yr oedd yn briodol dyweyd y safai ef *ar y llwch*, neu y bedd, neu angeu; canys efe a rydd y pryd hyny y gelyn hwn, yn mysg gelynion eraill, *dan ei draed:* 1 *Cor.* xv. 25, 26. Darllena rhai y geiriau fel hyn, a hyny yn eithaf cysson â'r Hebraeg, "Y diweddaf, neu yn y diwedd, efe a gyfyd ac a saif i fyny yn erbyn (canys fel hyn y defnyddir yr un ymadrodd mewn lleoedd eraill: *Gen.* iv. 8; *Barn.* ix. 18; *Salm* liv. 3) *y llwch*, ac a ymladd âg ef, ac a weryd gyrff y saint, y rhai a gedwir ynddo fel carcharorion."

"Yn mynegu y diwedd o'r dechreuad;" *Esa.* xlvi. 10. Yn rhaghysbysu yn gywir ddygwyddiadau amser. Y mae hwn yn brawf ag yr appelia Duw yn fynych ato er profi mai efe ydyw yr unig wir Dduw: *Esa.* xli. 22, 23; xliii. 12; xliv. 26.

"Ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd;" *Iago* v. 11:—hyny yw, y diwedd, neu y dyben oedd gan yr Arglwydd yn mhrofedigaethau Iob, neu y canlyniad i'r hwn y dygodd efe yr achos o'r diwedd; sef, ei fod wedi dangos ei hun yn drugarog iawn wrth y dyoddefydd truan; ei fod wedi amlygu ei gymmeradwyaeth o'r dull yr ymddygodd yn ei dreialon; a'i fod wedi dyblu ei feddiannau blaenorol, a rhoddi iddo anrhydedd a dedwyddwch mwy na'r hyn oedd ganddo o'r blaen. Gwel *Iob* xlii.—(*Poole's Annot.; Barnes.*)

DIWAIR, DIWEIRDEB: dihalog, dilwgr; pur, purdeb. Y mae diweirdeb yn un o'r dyledswyddau sydd yn cyfodi oddi ar gyfansoddiad y rhywiau. Y mae yn amlwg fod y gwyniau sydd yn briodol i'r ddau ryw yn perthyn i gyfansoddiad dyn, fel rhan o hono. Ac y mae yr un mor amlwg y bwriadwyd i'r gwyniau hyn gael eu boddhau; o blegid, heb y cyfryw foddhad, darfyddai yr hil ddynol oddi ar y ddaiar. Y mae hefyd yr un mor eglur, y dylai fod rhyw derfynau i'r boddhad hwn; o blegid, pe byddai cyfathrach gyffredin a direol yn bod rhwng y ddau ryw, darfyddai yr hil ddynol yr un mor sicr, er nad mor fuan, trwy esgeulusdra o'r rhai a enid; ac y mae wedi ei brofi hefyd yr arweiniai hyny i ddiffrwythder. Fel hyn, lluddid amcan y Creawdwr yn ffurfiad y rhywiau gan y ddau eithaf—annyweddïaeth cyffredinol ar y naill law, a boddhad afreolaidd a diddeddf ar y gwyniau ar y llaw arall. Y mae, gan hyny, yn llawn mor eglur fod awdwr ein natur wedi gosod ei derfynau i'r boddhad hwn, a'i fod wedi planu y gwyniau rhywiol yn y natur. Egluro ac amddiffyn y terfynau hyn ydyw amcan diweirdeb. Y mae cyfraith diweirdeb, yn gyntaf oll, yn cyfyngu y boddhad o fewn terfynau priodas. I'r ddeuddyn hyny a unir â'u gilydd dros eu bywyd y mae yn unig yn gyfreithlawn. Felly y mae diweirdeb yn gwahardd (1.) *godineb*, neu gyfathrach rhwng gwr neu wraig briod â phawb heb law y person ag y mae efe neu hi wedi ei briodi: (2.) *gordderchiad*, neu waith personau o'r ddau ryw yn cydfyw fel gwr a gwraig am dymmor: (3.) *puteindra*, neu gyfathrach cnawdol rhwng personau dibriod a'u gilydd: (4.) pob gweithred a meddwl anmhur. Gan fod ymddyddanion, gwisgoedd, edrychiadau, a phethau anmhur ereill, yn gweithio i gynhyrfu gwyniau anniwair, y mae cyfraith diweirdeb yn gwahardd pob peth o'r fath. Gan ei bod yn gwarafun y troseddiad gweithredol o honi, y mae ar unwaith yn gwahardd pob meddwl, dychymyg, ac ymddygiad a ddichon arwain i hyny. Y mae crefydd naturiol a dadguddiedig yn gofyn dau beth mewn cyssylltiad â diweirdeb; sef, fod y gwryw a'r fenyw mewn undeb â'u gilydd yn unig; a bod yr undeb hwn sydd rhynddynt hwy ill dau i barhau am eu hoes. Y mae mynegiadau natur yn benderfynol ac eglur, fod boddhad y gwyniau rhywiol i ymgadw o fewn terfynau priodas. Y mae nifer y genedigaethau o'r ddau ryw yn mhob oes a gwlad wedi bod yn bur agos yn gyfartal. Yn awr, os nad unir un gwryw ac un fenyw â'u gilydd trwy briodas, gan wneyd y naill yn eiddo i'r llall, y mae yn rhaid y byddai dosbarthiad y rhywiau yn anghyfartal. Wrth ystyried nifer cyfartal y genedigaethau o'r ddau ryw, edryched y darllenydd ar y tair ffordd sydd yn bosibl i sefydlu cyfathrach rhyngddynt, a barned pa un o'r tair y mae naturiaeth yn ei hamddiffyn. Un ydyw, amlwreicaeth, neu ddosbarthiad anghyfartal; y llall ydyw gordderchiad cyffredin; y drydedd ydyw yr uniad priodasol, neu fod un gwryw ac un fenyw yn ymgyfammodi i'w gilydd am eu hoes. Yn awr, y mae y gyntaf yn annaturiol; o blegid arweiniai i ddinystr cymdeithas. Y mae yr ail hefyd yn annaturiol; o blegid, os ydyw y gwyniau rhywiol yn perthyn i'r ddau ryw yn gyffredinol, gorfodid llaweroedd, gan gyfathrach anghyfartal (amlwreicaeth, er esampl), i fyw bywyd o annyweddïaeth. Cymmerir dadl arall o blaid cyfraith diweirdeb oddi wrth amcan natur, a'r amlygiadau sydd ynddi o fwriad ei Hawdwr i beri iddi amlhau a lluosogi. Cyflwr mwyaf hapus a llwyddiannus cenedl ydyw pan y mae ei phobl yn amlhau. Nid oes dim yn arwyddo darostyngiad gwlad yn fwy na bod y boblogaeth yn lleihau. Yn awr, y mae yn ffaith nad oes dim yn amlhau poblogaeth gwlad yn fwy nag ufudd-dod ei deiliaid i gyfraith diweirdeb. Heb law hyny, y mae yn amlwg mai y berthynas a'r gyfathrach briodol rhwng y rhywiau a'u gilydd ydyw yr hyn gaiff yr effaith oreu ar fagwraeth plant. Nid oes un drafodaeth rhwng y gwryw a'r fenyw ond yr hon a gyfreithlonir gan briodas yn diogelu cysur a llwyddiant plant. Y mae nifer y plant a enir o un wraig yn gymmaint ag a ellir eu magu a'u hamddiffyn gan ddau. Ac y mae gofal am y plant a enir o fewn terfynau anrhydedd priodas yn cael ei deimlo yn gymmaint o bleser ag ydyw y ddyledswydd. Ond i'r gwrthwyneb, pan mae cyfraith diweirdeb a phriodas yn cael ei throseddu, y mae gofal am blant yn dyfod yn faich, a'r cariad atynt yn lleihau. Y mae sefyllfa cymdeithas yn y gwledydd ag y mae cyfraith diweirdeb a phriodas yn cael ei hanmharchu ynddynt yn profi hyn. Y mae y plant yn marw o esgeulusdra, neu yn cael eu llofruddio yn eu mabandod gan eu rhieni. Y mae nifer y plant a ddyfethir mewn gwledydd paganaidd yn mron yn anghredadwy. Ac mewn rhai parthau yn Ewrop, lle y mae anniweirdeb



Digitized by Google

yn rhwysgfawr, y mae anlladrwydd rhieni, a'u hanffyddlondeb i'r cyfammod priodasol, yn achosi esgeulusdra cywilyddus o'u plant. Y mae cynnaliad bastardiaid yn cael ei deimlo yn faich trwm gan y cyhoedd mewn gwledydd llygredig. Gallwn nodi, yn mhellach, fod ufudd-dod i ddeddfau cymdeithas yn hanfodol i hapusrwydd cymdeithas. Prif hapusrwydd cymdeithas ydyw hapusrwydd teuluaidd; ond nid oes dim yn rhwymo teulu yn un, ac yn amddiffyn ei hapusrwydd, yn fwy na diweirdeb. "Pa hapusrwydd teuluaidd a ellir ddysgwyl mewn tŷ a gynhyrfir yn ddibaid gan eiddigedd amryw wragedd, a chwerylon diddiwedd plant y rhai hyny? Pa fodd y gall cariad drigo yn mynwesau plant fyddont yn eppil un tad o amryw orddercbadon? Yr oedd y sefyllfa hon ar gymdeithas yn bod dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol yn yr oes batriarchaidd; ond y mae ei chanlyniadau hyd yn oed y pryd hyny yn dra galarus. Nis gall neb ddarllen hanes teuluoedd Abraham, Isaac, ac Iacob, a Dafydd, heb gael ei argyhoeddi o'r anmhosiblrwydd i osgoi oddi wrth y gyfraith Gristionogol am briodas, heb achosi cynhenau diddiwedd, chwerwder, a therfysgoedd, ïe, llosgach a llofruddiaeth. Ac os hyn ydyw canlyniadau amlwreicaeth a gordderchaeth, pa fodd y gellir dysgrifio effeithiau anniweirdeb ac aflendid cyffredinol? Ni byddai yr enw o dad yn arwyddo dim mwy yn y dyn nag yn yr anifail. Ni byddai dyn yn ddim ond anifail epilgar, heb fod yn wahanol mewn dim oddi wrth ei gydanifeiliaid ond yn ei alluoedd deallawl rhagorach, a'r camarferiad mwy cywilyddus o honynt." Y mae Ridgley yn sylwi, er na chondemnir Abraham, Dafydd, ac ereill o'r patriarchiaid, am eu troseddiad o ddeddfau priodas a diweirdeb, mewn geiriau pendant, eto fod yn amlwg nad oedd eu hymddygiadau yn cael eu cyflawnhau; o blegid, yn un peth, fe grybwyllir am ryw gamymddygiad neu gilydd fel achlysur o'u hamlwreicaeth. Cymmerodd Abraham Agar o herwydd anghrediniaeth Sarah (*Gen.* xvi. 1, 2). Yr achlysur i Iacob gymmeryd Rahel yn wraig iddo ar ol Leah oedd ymddygiad anghyfiawn Laban tu ag ato; a'r hyn a barodd iddo fyned i mewn at Bilhah oedd awyddfryd anghymmedrol Rahel am blant: cyffelyb hefyd oedd yr achos iddo gymmeryd Zilpah, llawforwyn Leah (*Gen.* xxix a xxx). Yr oedd amlwreicaeth y patriarchiaid hefyd yn cael ei ddilyn gan annhrefn a therfysgoedd teuluaidd. Yr ydym yn darllen am gweryl anghymmodol rhwng Sarah ac Agar; am adgasedd Ismael at Isaac, yr hyn a alwai yr apostol yn erlidigaeth (*Gal.* iv. 29). Yr ydym hefyd yn darllen am ymrafaelion yn nheulu Iacob, a'r eiddigedd oedd rhwng plant y naill wraig a phlant y wraig arall. "Am hyny," meddai Ridgley, "y mae yn rhaid i ni benderfynu mai esampl Isaac a ddylid ei dilyn yn hyn o beth; nad oedd ganddo ef ond un wraig, yr hon a gerid ganddo yn fwy nag y carai amryw o'r patriarchiaid eu gwragedd—cariad y rhai oedd yn rhanedig rhwng llawer."

Y mae cyfraith diweirdeb yn gofyn am i'r undeb priodasol barhau hyd farwolaeth un o'r pleidiau. I'r dyben o feithrin hapusrwydd teuluaidd, y mae yn angenrheidiol i'r gŵr a'r wraig ddysgu cyd-ddygiad at eu gilydd, ac arfer hunanymwadiad gwastadol. Yn awr, nid oes un ystyriaeth yn tueddu yn fwy i goledd cyd-ddygiad a hunanymwadiad na'r ystyriaeth fod yr undeb priodasol yn undeb nas gellir ei ysgaru gan ewyllys un o'r pleidiau. Y mae yr angenrheidrwydd am ofal parhaus am y plant am ran fawr o'u hoes, yn nghyd â'r rhwymedigaeth a ddaw ar y plant i ofalu am eu rhieni oedranus, yn dangos fod natur/naturiaeth ei hun yn cefnogi parhad yr undeb priodasol rhwng y gŵr a'r wraig.

Ond y mae gorchymynion ac addysgiadau crefydd ddadguddiedig yn cadarnhau mynegiadau natur ar y mater hwn. Y seithfed gorchymyn yn y ddeddf foesol ydyw, "Na wna odineb." Un o osodiadau y gyfraith farnol oedd, fod yn rhaid i'r mab a hudai wyryf ei phriodi hi: *Exod.* xxii. 16, 17. "Dyma, yn ddiau," ebe Wayland, "y rheol gyfiawn; ac nid oes un rheswm pa ham na ddygid hi i weithrediad yn awr gan y gyfraith wladol, a chan farn a theimlad cymdeithas." Yr oedd godineb yn cael ei gospi gan gyfraith Moses â marwolaeth y ddwyblaid: *Lef.* xx. 10. Ni ddadleuir y dylai hyn gael ei weinyddu yn bresennol ar rai euog o'r pechod; ond y mae llymder y gosp yn Israel—yn y llywodraeth oedd yn uniongyrchol dan awdurdod y Goruchaf—yn dangos pa mor adgas yn ei olwg ef oedd y pechod hwn. Y mae prophwydi Israel hefyd yn cyssylltu y barnedigaethau trymaf âg anniweirdeb. Y mae Iesu Grist, yn ei bregeth ar y mynydd, yn egluro y dyledswyddau sydd yn perthyn i'r rhinwedd hwn: dengys fod a wnelo yn gystal â'r meddwl ag â'r weithred: *Mat.* v. 27—32. Nodir aflendid hefyd yn mysg y pechodau a gauant ddynion allan o deyrnas Dduw: *Eph.* v. 5, 6; *Gal.* v. 19—21; *Col.* iii. 5, 6.

Tuag at amddiffyn a diogelu ein diweirdeb, ni a ddylem ymgadw rhag anghymmedroldeb mewn bwyta ac yfed. Y mae anghymmedroldeb mewn bwyta yn "gwneuthur rhagddarpar dros y cnawd, er mwyn cyflawnu ei chwantau ef;" ac y mae yfed i ormodedd yn dyrysu y rheswm oedd gan un, ac yn ei amddifadu o'i hunanlywodraeth, ac felly yn ei wneyd yn hawdd i'w faglu a'i orchfygu gan demtasiwn. Fel hyn y bu gyda Lot: cadwodd ef ei burdeb yn Sodom; ond wedi ei feddwi gan ei ferched yn Soar, cyflawnodd y pechod gwarthus o losgach. Y mae diogi a seguryd hefyd yn feithriniaeth i bob anlladrwydd ac aflendid. Pan yr ymollyngodd Dafydd i segurdod y gorchfygwyd ef gan ei chwantau. Yn yr amser y byddai y breninoedd yn myned allan i ryfela, arosodd ef yn Ierusalem, ac ymollyngodd i seguryd ar brydnawngwaith; a chanlyniad y segurdod hwn oedd y pechod adgas sydd hyd heddyw yn warthnod ar ei enw. Y mae gwisgiadau anweddus hefyd yn anffafriol i'r gwylder a ddylid ei gadw rhwng y rhywiau. Y mae yr Arglwydd yn ceryddu yr Israeliaid am falchder yn eu gwisgoedd (*Esa.* iii. 16): a dywedir fod Sodoma yn hynod yn hyn; a diau fod ei balchder a'i hynfydrwydd yn ei harwain i'r ffieidd-derau a ddygodd farn Duw ar ei thrigolion: *Ezec.* xvi. 49. Yn benaf dim, dylid cadw gwyliadwriaeth ddyfal ar y meddwl a'r myfyrdod. Nid ydyw anlladrwydd yn ymddangos un amser yn yr ymddygiad allanol, hyd oni byddo y meddwl wedi ei halogi â dychymygion aflan. Ond pan fyddo y galon wedi ei halogi felly, nid oes dim yn eisieu i gyflawnu yr ysgelerderau gwaethaf ond cyfleusderau priodol. Am hyny, fe ddylid cadw y meddwl dan y llywodraeth fanylaf. Dylid gochel pob llyfrau a darluniau, pob cymdeithas a phob ymddygiad a dueddont i borthi ein dychymyg â rhywbeth croes i'n diweirdeb puraf. "Pa faint bynag," medd un awdwr, "fyddo swynion unrhyw lyfr, os bydd yn

anmhur ac anllad, gocheler ef: pa faint bynag fyddo rhagoriaethau cyfaill, os bydd yn drythyll mewn gair neu ymddygiad, ymwrthoder â'i gwmni. Nis gall neb ddwyn tân yn ei fynwes heb losgi ei ddillad." Yr unig ffordd i fod yn ddiogel ydyw "casau y wisg a halogwyd gan y cnawd," ac ymgadw rhag pob rhith drygioni—hyny yw, rhag ymrithiad neu ymddangosiad cyntaf drygioni o flaen y dychymyg.

DIWRNOD—IAU. Yr un gair Hebraeg (יום) a Groeg (ἡμέρα) a gyfieithir *diwrnod*, *dydd*, a *dwthwn*, yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd; ond y gair *dydd* a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin.

Diwrnod cyfan yw amser cylchdroad y ddaiar mewn pedair awr ar ugain: dyma ei ystyr naturiol a chyffredin, pa fodd bynag y cyfrifir yr oriau—pa un ai o hwyr i hwyr, neu o fore i fore, neu o ganol nos hyd ganol nos: *Exod.* xxi. 21; *Luc* xiii. 14; *Ioan* xx. 26; *Act.* i. 3; *Gal.* i. 18. Ond defnyddir ef am lewyrch goleuni y dydd, ar wahân oddi wrth dywyllwch y nos. Felly y dywedir i'r Iesu "ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos" (*Mat.* iv. 2); i'r apostol Paul fod "noswaith a diwrnod yn y dyfnfor" (2 *Cor.* xi. 25); ac i dri chyfaill Iob eistedd gydag ef ar y ddaiar "saith niwrnod a saith noswaith" (*Iob* ii. 13). Dyma yr amser priodol i weithio a theithio, gwledda a chyfeillachu, ac addoli a gwasanaethu yr Arglwydd: *Ionah* iii. 3; *Iob* i. 4; xiv. 6; *Salm* lxxxiv. 10. Diwrnod weithiau a ddynoda y gwyliau Iuddewig. Yr oedd rhai yn mhlith y Rhufeiniaid "yn barnu diwrnod uwch law diwrnod," tra yr oedd ereill yn "barnu pob diwrnod yn ogyfuwch;" *Rhuf.* xiv. 5, 6. Ac yr oedd rhai o'r Galatiaid yn cadw diwrnodiau ac amseroedd cyssegredig ereill ag oeddynt wedi eu diddymu trwy Grist: *Gal.* iv. 10.

Y mae i ddiwrnod ystyr helaethach, yn debyg i'r gair dydd. Arwydda ysbaid o amser annherfynol, megys oes yr oruchwyliaeth efengylaidd, cyfnod barnedigaethau ac ymweliadau rhagluniaethol Duw, a dydd y farn olaf. Dydd gras yr efengyl ydyw y *diwrnod* penodol—y "diwrnod arall" y soniai Dafydd am dano, pryd y mae Duw yn llefaru wrth ddynion, ac yn galw arnynt i ochelyd esamplau o anghrediniaeth, a bod yn "ddyfal i fyned i mewn i'r orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw;" *Heb.* iv. 7—9. Sonir yn fynych am ddiwrnodiau barn a thrugaredd yn ngoruchwyliaeth rhagluniaeth; "Udwch: canys agos yw diwrnod yr Arglwydd; megys anrhaith oddi wrth yr Hollalluog y daw;" hyny yw, ar Babilon: "Diwrnod blinder yw, a mathru, a dyrysni, gan Arglwydd Dduw y lluoedd," &c. "Diwrnod dïal yr Arglwydd...yn achos Sïon yw;" *Esa.* xiii. 6; xxii. 5; xxxiv. 8; *Seph.* i. 15, 16, 18. Ond y diwrnod rhyfeddaf oll fydd y diwrnod olaf o holl ddyddiau y byd hwn; canys y mae Barnydd yr holl ddaiar wedi "gosod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gŵr a ordeiniodd efe;" *Act.* xvii. 31. Yn *Dad.* ii. 10, dywedir wrth angel eglwys Smyrna, "Wele, chwi a gewch gystudd ddeng niwrnod." Wrth y deng niwrnod y dealla rhai esbonwyr amser byr o wrthwynebiad creulawn; ereill, y deng erlidigaeth baganaidd; ac ereill eto, ddeng mlynedd o erlidigaeth dan yr ymherawdwr Dioclesian. Dichon mai yr olaf yw y dyb gywir, gan fod diwrnod a dydd yn y prophwydoliaethau yn aml yn dynodi blwyddyn.

Yn *Dad.* ix. 15, ceir prophwydoliaeth nodedig am helaethiad a llwyddiant Mahometiaeth ar udganiad y chweched udgorn. Dan y pummed udgorn y cyfododd y gyfundrefn ddinystriol ac uffernol hon. Agorwyd y pwll diwaelod; ac o ganol mwg a thywyllwch gau Gristionogaeth y seithfed ganrif, daeth allan luoedd ofnadwy o Saraceniaid, fel heidiau difaol a gwenwynig o locustiaid, dan lywyddiad Abadon neu Apolyon, angel y pydew diwaelod. Parhasant i gynnyddu mewn nerth a helaethu eu terfynau dros bum mis, sef cant a hanner o ddyddiau prophwydol; hyny yw, cant a hanner o flyneddoedd. Y mae yr ysbaid hwn o amser yn cyrhaedd, yn ol barn Newton, Fuller, &c., o'r flwyddyn 612, pan y dechreuodd Mahomet ddysgu ei egwyddorion yn gyhoeddus fel prophwyd Duw, hyd 762, pryd yr adeiladodd y Caliph Almansor ddinas Bagdad, yr hon a wnaeth yn eisteddfa y llywodraeth, ac a alwodd yn ddinas heddwch. Wedi i'r Saraceniaid orphen anrheithio gwledydd lawer a goresgyn teyrnasoedd yn Asia, Affrica, ac Ewrop, yn y seithfed a'r wythfed ganrif, ymorphwysasant mewn mwy o dawelwch am rai oesoedd dan lywodraeth reolaidd. Yna, cyfododd y Tyrciaid rhyfelgar i gospi a distrywio y rhai nad oedd ganddynt "sel Duw ar eu talcenau." Yn yr unfed ganrif ar ddeg, aethant yn bobl nerthol ac yn deyrnas rymus. Sefydlwyd pedair sultaniaeth—yn Bagdad, Damascus, Aleppo, ac Iconium; neu, fel yr enwir hwynt gan rai haneswyr —Persia, Kerman, Syria, a Rhoum. Yr oedd eu hymdrechion a'u rhyfeloedd gan mwyaf yn erbyn yr ymherodraeth Rufeinig ac Eglwys Groeg yn y dwyrain; ond cyfyngwyd hwynt o fewn eu terfynau, ger llaw yr Euphrates, gan derfysgoedd yn eu gwledydd eu hunain, ac ymosodiadau y croesgadau o'r gorllewin. Wedi symmud y rhwystrau hyn, rhyddhawyd y pedair tywysogaeth sultanaidd uchod; ac yn y flwyddyn 1281 y cawsant y fuddugoliaeth gyntaf ar y Cristionogion dwyreinol. Yn 1299, sefydlwyd hwynt yn ymherodraeth unol, dan Othman; ac yn awr yr oeddynt yn rhydd i gydweithredu yn egnïol yn erbyn gau Gristionogaeth. Yr oedd y chweched angel yn awr wedi udganu, a'r gorchymyn wedi myned allan—"Gollwng yn rhydd y pedwar angel sydd yn rhwym yn yr afon fawr Euphrates. A gollyngwyd y pedwar angel, y rhai oedd wedi eu parotoi erbyn awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn, fel y lladdent y traian o'r dynion." Yr oedd y pedair tywysogaeth, megys pedwar angel—cenadon yr Hollalluog i gyflawnu ei fwriadau ef, dros yn agos i bedwar cant o flyneddoedd; hyny yw, 391 neu ynte 396 o flyneddoedd, yn ol fel y cyfrifir y dyddiau prophwydol. Yn ol 360 o ddyddiau yn y flwyddyn, a chymmeryd diwrnod prophwydol am flwyddyn, y mae y cwbl yn 391 o flyneddoedd, a phythefnos. Os cymmerir buddugoliaeth y Tyrciaid ar y Cristionogion dwyreiniol yn 1281 fel dechreuad y cyfnod hwn, yna y diweddiad yw 1672, pan y gorchfygasant y Pwyliaid. "Yn awr," ebe esgob Newton, "y mae yn beth nodedig rhyfeddol i fuddugoliaeth gyntaf yr Othmaniaid ar y Cristionogion y ceir hanes am dani, gymmeryd lle yn y flwyddyn 680 o'r Hegira, a'r flwyddyn 1281 o oed Crist. Cyfrifer 391 o flyneddoedd o'r amser hwnw, a hwy a derfynant yn y flwyddyn 1672; ac yn y flwyddyn hono, fel yr awgrymwyd o'r blaen, y dygodd Mahomet y Pedwerydd Camen-iec oddi ar y Pwyliaid, a rhoddwyd i fyny i'r Sultan wyth a deugain o drefydd a phentrefydd yn nhiriogaeth Cameniec ar ammodau cytundeb heddwch." Y mae rhai esbonwyr diweddarach

Digitized by Google

megys Elliott a Barnes, yn rhoddi deongliad gwahanol ar y brophwydoliaeth dan sylw; o leiaf, hwy a'i cymhwysant hi at amser gwahanol yn hanes Mahometiaeth. Barnant ei bod yn perthyn i'r ysbaid hwnw o amser, sef o'r flwyddyn 1055, pan gymmerwyd Bagdad gan y Tyrciaid, neu 1058, pan y gorseddwyd Togrul fel penaeth y ffyddloniaid, hyd 1453, pan y syrthiodd Caer Cystenyn a'r ymherodraeth ddwyreiniol. Nid yw y cymhwysiad yma o'r brophwydoliaeth heb anhawsdra: canys nid yw "awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn" brophwydol ond 391 o flynyddoedd a phythefnos, yn ol y dull cyffredin o gyfrif 360 o ddiwrnodau yn y flwyddyn, a 30 o ddiwrnodau yn y mis. Y mae hyn tua saith mlynedd yn llai na'r amser gofynol, sef o 1055 i 1453. Ond a chyfrif y flwyddyn yn 365 o ddiwrnodau a chwe awr, mae y cwbl, yn ol Elliott, yn 396 o flyneddoedd, a 105 o ddiwrnodau; ac y mae y diffyg yn llai na dwy flynedd. Eto, os cyfrifir yr amser o sefydliad neu goroniad Togrul, Chwefror, 2il, 1058, hyd Mai 29ain, 1453, dydd cwymp Caer Cystenyn, nid yw y gwahaniaeth ond un flwyddyn a deng niwrnod. Ond, yn mhellach, os cyfrifir o'r cyfnod yr aeth Togrul a'i fyddinoedd Tyrcaidd allan yn eu gyrfa ryfelgar a buddugoliaethus hyd gwymp Caer Cystenyn, cawn 396 o flyneddoedd a 130 o ddiwrnodau; yr hyn sydd yn cytuno â'r brophwydoliaeth o fewn pedwar niwrnod ar ugain.

Y cyfeiriad mwyaf nodedig at ddiwrnodau sydd yn *Dan.* viii. 14. Mewn atebiad i ofyniad rhyw sant, "Pa bryd y bydd y weledigaeth am yr offrwm gwastadol, a chamwedd anrhaith, i roddi y cyssegr a'r llu yn sathrfa?" atebodd un i Daniel, "Hyd ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau: yna y purir y cyssegr." Yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, ceir dwy fil a phedwar cant o ddiwrnodau; ond nid ydym yn canfod un rheswm am ddilyn hwn, yn hytrach na'r testyn gwreiddiol. Nid oes angenrheidrwydd ystyried y diwrnodau yn y cyfrif hwn, fel mewn rhai manau ereill yn ngweledigaethau Daniel ac Ioan, yn ddiwrnodau prophwydol; sef diwrnod am flwyddyn. Y mae neillduolrwydd yn ngeiriad yr adnod hon:—ערב בקר (*hwyr-bore*) yw yr ymadrodd a ddefnyddir yma, ac nid יום, i ddynodi diwrnod; a gelwir y weledigaeth yn *adn.* 26, "Gweledigaeth yr hwyr a'r bore." Gan mai geiriau cyffelyb, sef "yr hwyr a fu, a'r bore a fu," a ddefnyddir gan Moses yn *Gen.* i, i nodi diwrnod cyfan yn hanes cread y byd, rhesymoi yw barnu mai diwrnod naturiol, ac nid prophwydol, a feddylir yma wrth *hwyr-bore*. Yn yr un modd y defnyddir y gair Groeg, νυχθημερον (*nos dydd*), yn 2 *Cor.* xi. 25; "*Noswaith a diwrnod* y bûm yn y dyfnfor."

Yn awr, y mae yn ddiammheuol fod y brophwydoliaeth hon am y ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau yn cyfeirio at ysbaid gormes, anrhaith, a galanasdra Antiochus Epiphanes, brenin Syria, yn Ierusalem ac Iudea; er fod rhai yn credu ei bod hefyd yn gymhwysiadol at drawslywodraeth ysbrydol anghrist am amser hirfaith sydd eto heb derfynu. Yn ol Josephus a Llyfr Cyntaf y Maccabeaid, nid oedd yr amser o halogiad y deml a symmudiad ymaith yr offrwm beunyddiol hyd adsefydliad y gwasanaeth dwyfol gan Iudas ond tua thair blynedd, neu dair a hanner. Ond y mae dwy fil a thri chant o ddiwrnodau dros chwe blynedd. Y prif anhawsder yw gosod yn gywir ddechreuad a diweddiad y ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau yn nheyrnasiad Antiochus Epiphanes. Dywed Dr. Gill fel hyn:—"A chyfrif o'r pymthegfed dydd o fis Cisleu, yn y flwyddyn 145 o'r Seleucidæ, pan y gosododd Antiochus i fyny y ffieidd-dra anghyfanneddol ar yr allor (1 *Mac.* i. 57), hyd y fuddugoliaeth a gafodd Iudas ar Nicanor, ar y trydydd ar ddeg o fis Adar, yn y flwyddyn 151, y mae dwy fil a thri chant o ddiwrnodau yn gywir.....Ond ereill a gyfrifant o wrthgiliad y bobl oddi wrth wir grefydd trwy Menelaus, yn y flwyddyn 141.....A chyfrif o'r chweched dydd o'r chweched mis o'r flwyddyn hono, hyd y pummed ar ugain o Cisleu, yn y flwyddyn 148, pan yr offrymodd yr Iuddewon yr aberth beunyddiol ar allor newydd y poethoffrwm (1 *Mac.* iv. 52), y mae yn union chwe blynedd, tri mis, a deunaw niwrnod." Y mae yn debygol mai yr olaf yw y cyfrif cywir. Y mae yn amlwg mai dydd cyssegriad y deml, ac adferiad addoliad y gwir Dduw, yn ol *Dan.* viii. 13, yw terfyn y ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau; a gellir ystyried yr amser hwn fel yn cynnwys yr holl weithrediadau a'r dygwyddiadau trallodus ag oeddynt yn gyssylltiedig yn uniongyrchol âg anrheithiad tŷ Dduw, a halogiad a sathriad y cyssegr. Os gosodwn derfyn yr amser nodedig hwn ar ddydd puredigaeth y cyssegr gan Iudas Maccabeus, Rhagfyr 25ain, 165 cyn Crist; ac os cyfrifwn yn ol o'r cyfnod hwnw ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau, dygir ni, fel y sylwa Barnes, i Awst y 5ed, 171 cyn Crist. Y pwnc yn awr ydyw, a oedd rhywbeth yn hynodi y flwyddyn hon fel y gellir yn rhesymol osod ynddi hi ddechreuad y ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau? Y mae yn ffaith nad oedd hyd yn hyn ddim anghydfod cyhoeddus rhwng y brenin Antiochus a'r Iuddewon; ond yn y flwyddyn hon, 171 c.c., y dechreuodd yr amgylchiadau helbulus, a'r ymosodiadau twyllodrus, ffyrnig, a dinystriol, y rhai a wnaethant y deml, y ddinas, a'r wlad, yn sathrfa i'r cenedloedd eilunaddolgar ac yn wrthddrychau cynddaredd y gwaethaf o frenhinoedd y ddaiar. Y pryd hyn yr oedd yr adyn Menelaus mewn meddiant o'r archoffeiriadaeth, yr hon a brynodd efe am uwch pris nag a roddasai Iason; a chan ei fod heb fodd i dalu y swm anferth a addawodd, gwnaeth i Lysimachus ysbeilio y deml o'r llestri gwerthfawr oedd ynddi, a gwerthwyd hwynt yn Tyrus i'r dyben i dalu i'r brenin. Llofruddiwyd Onias III. yn fuan yn yr achos hwn; a chyfododd yr Iuddewon yn Ierusalem yn eu llidiogrwydd yn erbyn y cyssegr-ysbeiliwr Menelaus, a lladdasant Lysimachus a'i filwyr Syriaidd. Y canlyniadau uniongyrchol oeddynt, dadymchweliad yr awdurdodau Iuddewig, sefydliad eilunaddoliaeth a chwareufeydd aflan, diddymiad addoliad Iehofah, halogiad y cyssegr âg aberthau ffiaidd, lladdiad miloedd lawer o'r bobl, a chodiad creulonderau a rhyfeloedd ofnadwy. Y mae yn amlwg, gan hyny, fod y flwyddyn yma yn gyfnod pwysig yn hanes crefyddol a gwladol yr Iuddewon dan lywodraeth y gormeswr creulawn Antiochus Epiphanes; ac hyd yn oed os nad yw yn bosibl penderfynu i'r diwrnod ddechreu yr ysbaid o ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau, credwn ei fod yn cynnwys dygwyddiadau pwysig y flwyddyn 171 c.c., ac yn terfynu ar y 25ain o fis Cisleu, yn y flwyddyn 165 c.c. Gwel DYDD.—(*Prideaux's Connexion; Jahn's Heb. Com.; Kitto's History of Palestine.*)

**DIWYGIAD**, neu adfywiad crefyddol, yw yr agwedd ddymunol hono ar bethau pryd y byddo

Digitized by Google

mawrion o lygriad hollol y natur ddynol trwy bechod, dwyfoldeb person a marwolaeth iawnol y Cyfryngwr, yn nghyd â'r angenrheidrwydd anhebgorol o waith yr Ysbryd Glân er cyfnewid pechadur, yn cael eu celu neu eu gwadu gan y prif offerynau yn nygiad y cyfryw ddiwygiad yn mlaen. Ymwrthod â'r gwirioneddau hanfodol hyn sydd wedi bod yn angeu i grefydd bur, ac yn fywyd i bechod yn mhob oes. Mae yr Arglwydd lawer gwaith wedi ymweled âg eglwysi pryd y cyfeiliornent i raddau blin mewn barn a buchedd, ond nid ymwelodd erioed â dynion a wrthodent neu a esbonient ymaith yr athrawiaethau hyny a wahaniaethant yr efengyl oddi wrth grefydd natur, neu gyfundrefnau o foesau yn unig.

2. Y mae yn rhaid iddi gadw dysgyblaeth bur ac Ysgrythyrol. Mae gan yr eglwys hono a allo "oddef y rhai drwg," a adawo ganolfur y gwahaniaeth rhyngddi a'r byd i fyned yn adfeilion, gan ymollwng i fod yn domen o lygredigaeth, yn lle bod yn halen y ddaiar, fwy o sail i ddysgwyl i'w Harglwydd ei chwydu allan o'i enau, na chael ei bendithio ganddo â diwygiad. Y mae y Pen mawr, fel y nodasom, ar amserau, wedi ymweled âg eglwysi felly, a thrwy weithrediadau nerthol ei Ysbryd, wedi eu puro a'u glanhau; ond dylai y cyfryw yn hytrach ofni ei felldith na dysgwyl ei fendith. Pan byddo yr eglwys yn anghydffurfio â'r byd, yn ymestyn at berffeithio sancteiddrwydd yn ofn yr Arglwydd, ac yn cadw y tŷ yn lân, gall ddysgwyl i'r Arglwydd, yr hwn y mae yn ei geisio, ddyfod yn ddisymmwth i'w deml.

3. Y mae yn rhaid iddi fod yn ddiwyd yn yr arferiad o bob moddion cydweddol â'r Ysgrythyrau, a thebygol o dynu sylw y werin at bethau dwyfol; megys, cynnal a chefnogi gweinidogaeth efengylaidd; ymroddi â'i holl egni i wrteithio meddyliau plant ac ieuenctyd â gwybodaeth grefyddol; a thrwy ymddyddanion grasol, i feithrin teimladau duwiol yn mhawb fyddont o fewn cylch ei dylanwad. Cyn y gellir dysgwyl cael toraeth o ffrwyth i Dduw mewn cymmydogaeth, y mae yn rhaid i'r eglwys arfer yr amrywiol ddoniau â pha rai y mae wedi ei chynnysgaethu i "blanu a dyfrhau." Trefn Duw mewn crefydd, fel mewn pethau tymmorol, ydyw rhoddi ei fendith ar lafur dynion i gynnyrchu ffrwyth.

4. Ond yn gyssylltiedig â'r pethau hyn oll, y mae yn rhaid i'r eglwys, mewn ffydd a gweddi daer, ddysgwyl wrth Dduw yn unig am roddi y cynnydd. Dylai arfer moddion fel pe byddai pob peth yn ymddibynu ar hyny, a dysgwyl am y dylanwadau dwyfol dan yr ystyriaeth y bydd ei holl lafur yn ddieffaith hebddynt. Didduwiaeth ydyw arfer moddion heb weddïo, a rhyfyg Antinomaidd ydyw gweddïo heb arfer moddion. Os ydyw yr Anfeidrol weithiau yn mynu ei gael gan y rhai nad ydynt yn ei geisio, nid ydyw un amser yn gadael i had Iacob ei geisio yn ofer. Y mae rai prydiau, er amlygu rhagorol fawredd ei ras, yn gwneyd *mwy* nag a addawodd; ond ni ddarfu iddo erioed wneyd *llai* na'i addewid. Gall yr eglwys hono fyddo yn gwneyd defnydd cydwybodol o holl foddion gosodedig Duw, ac yn parhau yn un a chytûn mewn gweddi, ddysgwyl yn hyderus am ddylanwadau nerthol ac achubol yr Ysbryd Glân.

Yn gymmaint a bod perygl i ddynion—îe, i ddynion da—droi y fendith fwyaf yn felldith, y mae o bwys dirfawr i ni wylio rhag gwneyd diwygiadau crefyddol yn achlysuron drygau andwyol Mae hyny wedi dygwydd lawer gwaith; ac o ganlyniad, y mae galwad uchel ar eglwys Dduw i fod ar ei gocheliad. Y drygau yr ydym mewn perygl o syrthio iddynt mewn cyssylltiad â diwygiadau crefyddol ydynt—

1af. Gadael dyn i orphwys mewn argyhoeddiad, heb fyned trwy gyfnewidiad cyflwr. Ychydig yw nifer y personau, a arferant wrandaw yr efengyl, na theimlant yn angerddol yn nghylch eu cyflwr mewn amser o ddiwygiad; ond un peth yw teimlo argyhoeddiad grymus o bechod ac awydd cryf am gael crefydd, a pheth arall yw y symmudiad o farwolaeth i fywyd. Dywed yr Arglwydd Iesu fod y rhai a gyffelybir ganddo ef i'r creigleoedd, yn credu dros amser, ac yn derbyn y gair yn llawen; ond wedi y cwbl nad oedd ganddynt wreiddyn. Dywedir fod Simon Magus wedi credu; er y cawn wedi hyny ei fod yn mustl chwerwder, ac yn rhwymedigaeth anwiredd. Y mae yn naturiol iawn i weinidogion, swyddogion eglwysig, a chrefyddwyr ereill, yn eu hawydd am gael y gwrandawyr i'r eglwys, appelio mwy at y teimladau nag at y deall a'r gydwybod; ac felly esgeuluso holi y dychweledigion yn ddigon manwl, a dangos iddynt yn ngoleu yr Ysgrythyrau wir natur y cyfnewidiad y mae yn rhaid i bechadur fyned trwyddo er bod yn gadwedig. Peth cyffredin iawn mewn diwygiadau yw cymmeryd yn ganiataol fod dynion, os ymunant â'r eglwys dan deimladau drylliog, yn ddiogel eu cyflwr; ond nis gall dim fod yn fwy peryglus na hyny. Ei duedd uniongyrchol ydyw arwain yr argyhoeddedigion i ymddibynu ar eu dagrau a'u teimladau toddedig am fywyd tragwyddol, yn hytrach nag ar aberth y Cyfryngwr. Y mae yn anmhosibl bod yn rhy ofalus i gyfarwyddo y rhai fyddont dan argyhoeddiad i gloddio trwy bob peth at y wir sylfaen, cyn dechreu adeiladu eu gobaith. Os esgeulusir hyn, bydd y canlyniadau yn angeuol i eneidiau, ac yn niwed annysgrifiadwy i achos Duw. Y mae y dyn dan argyhoeddiad, a oddefir i gysgu ar obenydd gau obaith, mewn enbytach cyflwr nag erioed. Y canlyniad tebycaf fydd, naill ai iddo dori allan yn wrthgiliwr caled, i ammheu a gwawdio pob gwirionedd, neu barhau i gysgu yn ei gau noddfa nes y deffroir ef gan angeu i weled ei gyflwr erchyll ac anaele.

2il. Drwg arall y dylid gwylio rhagddo mewn diwygiadau crefyddol ydyw balchder ysbryd. Y mae hen grefyddwyr, yn gystal a rhai ieuainc, mewn perygl ar y pen hwn. Pan doro diwygiad allan mewn cynnulleidfa, cymmydogaeth, neu sir, bydd rhai aelodau eglwysig, ac o bosibl weinidogion a phregethwyr, oeddynt o'r blaen yn ddinôd ac anghyhoedd, yn debyg o ddyfod i'r golwg yn y cyffroad, ac i enwogrwydd a chyhoeddusrwydd na pherthynai iddynt yn flaenorol. Gesyd eu dyrchafiad disymmwth hwynt mewn sefyllfa enbyd iawn; ac heb weddi a gwyliadwriaeth, temtir hwy i briodoli iddynt eu hunain y clod a berthyn yn unig i Dduw, am y gwaith nad oeddynt hwy yn ddim ond offerynau yn ei law ef i'w gyflawnu. Y mae dychweledigion ieuainc hefyd mewn perygl neillduol o ymchwyddo, yn enwedig os byddant yn ddeiliaid teimladau gwresog, ac yn feddiannol ar ddoniau helaeth a gradd o hyfder. Ni ddylid attal na digaloni neb i wneyd defnydd o'r dawn a roddwyd iddo er gwasanaeth i achos y Gwaredwr, beth bynag fyddo ei oed a'i safle yn yr eglwys; ond dylid bod yn dra gofalus rhag rhoddi cyfle i Satan gymmeryd crefyddwyr ieuainc i'w ogr i'w nithio fel gwenith. Ffordd debyg iawn o roddi

Digitized by Google

iddu fantais arnynt yw eu gwthio yn annoeth i gyhoeddusrwydd anghyfatebol i'w hoed a'u profiad. Amlyga balchder ysbryd ei hun mewn gosod gwerth anmhriodol arnom ein hunain, gosod ein hunain i fyny yn safon i ereill, ac ammheu didwylledd crefydd pawb os na bydd eu teimladau, eu ffordd o weithredu, dull eu tröedigaeth, a'u profiadau, yn cyfateb yn mhob peth i'r eiddom ni. Y mae y dymmer bechadurus hon, pa bryd bynag y caffo le yn y galon, yn sicr o sychu yr ysbryd, a'i amddifadu o gymundeb â Duw; a phan yr amlygo ei hun yn yr ymddyddanion a'r ymddygiadau, yr hyn a wna yn fuan, bydd yn ofid calon i'r saint, ac yn destynau gwawd a chabledd i annuwiolion. Mae eglwysi ac enwadau crefyddol, yn gystal a phersonau unigol, mewn perygl hefyd o droi ymweliadau grasol yr Arglwydd â hwynt yn achlysuron o falchder ac ymffrost cnawdol. Y canlyniad o hyny fydd peri i'r Arglwydd guddio ei wyneb, meithrin culni enwadol, caledu y byd annychweledig, a'i ddwyn i edrych ar grefydd gyda dirmyg.

3ydd. Y mae yn enbyd yn nghyffroadau diwygiad i wahanol ddyledswyddau crefydd gael eu dyrysu, ac i rai gwirioneddau gael eu hanghofio, wrth gyfyngu y sylw at wirioneddau ereill. Y mae cynnulleidfaoedd, yn mhoethder diwygiad, yn gorfod amlhau y moddion cyhoeddus; ac wrth fod yn yr addoldy unwaith neu ddwy bob dydd o'r wythnos, gallwn gael ein harwain i esgeuluso y gweddïau dirgel a theuluol. Fel y mae perygl ar dymmorau o farweidd-dra crefyddol i'r teimladau gael eu hesgeuluso wrth borthi y deall â gwybodaeth; felly ar amser o ddiwygiad, gall y deall gael ei esgeuluso wrth roddi ymborth i'r teimlad. Y mae yn enbyd hefyd i ryw gangen o athrawiaeth, neu ryw ddyledswydd neillduol, gael cymmaint o le yn y weinidogaeth a'r ymddyddanion crefyddol nes byddo athrawiaethau a dyledswyddau ereill yn myned yn ddisylw. Y mae hanes yr eglwys yn ein cynnysgaethu âg amryw anghreifftiau o gyfeiliornadau blinion yn cyfodi ar ol y diwygiadau, y rhai yn ddiammheu a achlysurwyd gan y cyfryw ddiwygiadau, trwy fod rhyw wirioneddau penodol yn cael eu galw i gymmaint o sylw ynddynt nes cuddio gwirioneddau ereill. Wrth argymhell dyledswyddau crefydd, dichon i'w hathrawiaethau gael eu hanghofio; ac wrth ymosod ar ryw un pechod, y mae yn bosibl i bechodau ereill gael teyrnasu yn ddiwrthwynebiad. Y mae yn mhob diwygiad ryw neillduolrwydd yn offerynoliaeth ei gynnyrchiad. Trwy bregethu a phregethwyr galluog yn benaf y cyffrowyd diwygiad mawr y ddeunawfed ganrif, ac yr oedd perygl y pryd hwnw i'r pregethu a'r pregêthwyr gael eu gwneyd yn eilunod—yr hyn a wnaed i raddau, nes i weddïo gael ei esgeuluso. Trwy weddïo yn benaf y cychwynwyd ac y dygir yn mlaen ddiwygiad y blynyddoedd hyn; ac nid ydyw y byd crefyddol allan o berygl i edrych ar bregethu yr efengyl—prif foddion yr Ysbryd Glân i achub y byd—fel peth cymharol o ddibwys. Nid oes dim mwy angeuol i grefydd, a boddhaol i Satan, na gosod rhyw un ddyledswydd neu ryw un gwirionedd i ladd y llall.

4ydd. Mae Cristionogion mewn perygl mawr o syrthio i farweidd-dra a difaterwch ar ol cael eu cyffroi i raddau anghyffredin gan ddiwygiadau. Felly y mae wedi bod yn mhob oes, ac felly y mae o angenrheidrwydd i fod heb ofal neillduol i ymgadw yn nghariad a chymdeithas Duw. Y mae nwydau anifeilaidd dyn yn sicr o gael eu cyffroi i raddau mwy neu lai pan gynhyrfir ei ysbryd gan deimladau crefyddol; ac y mae yn naturiol i'r nwydau hyny fyned yn fwy marwaidd nag arferol yn fuan ar ol cyffroad angerddol. Yr unig ffordd, gan hyny, i ddiogelu bywiogrwydd ysbryd ar ol cyffroad diwygiad, ydyw ymdrechu hyd y gellir i osod attalfa ar y nwydau anifeilaidd, a meithrin ysbrydolrwydd teimlad yn ystod y cyfryw gyffroad. Y mae syrthio i farweidd-dra ysbryd yn ddisymmwth ar ol diwygiad yn niwed annirnadwy i achos crefydd ac eneidiau dynion: nychir ysbrydoedd y dychweledigion ieuainc, agorir y llifddorau i ddylif o lygredd ddyfod i mewn i'r eglwys, a gwneir crefydd yn destyn gwawd i'r byd. Pa beth a all iselu crefydd yn fwy yn ngolwg y byd na gweled eglwys ar ddechreu blwyddyn yn llosgi o sêl grefyddol, ac yn griddfan mewn ing am achubiaeth eneidiau, a chyn diwedd yr un flwyddyn yn cysgu mewn difaterwch? Y mae cyfaddasder ofnadwy mewn cyfnewidiadau disymmwth felly o wresogrwydd crefyddol i oerfelgarwch i wneyd y byd yn anffyddiaid. Dylai yr eglwysi, gan hyny, ymbil ar yr Arglwydd, beth bynag a ddygwyddo iddynt, am eu cadw rhag syrthio i gwsg a difaterwch ar ol ymweliadau rhyfeddol yr Arglwydd â hwynt.

Y mae rhai dynion, a broffesant barch i grefydd, yn coleddu meddyliau rhagfarnllyd yn erbyn diwygiadau, o herwydd fod llawer o wendidau dynol yn nglŷn â hwynt ar y goreu, a'u bod yn cael eu dilyn gan farweidd-dra, gwrthgiliadau, a phethau annymunol ereill. Haera y cyfryw fod cyffroadau diwygiadol yn afreidiol, a bod llwyddiant dystaw a graddol ar grefydd yn fwy dymunol a diogel. Ond os dirmygir diwygiadau o herwydd fod gwendidau dynol yn nglŷn â hwynt, ar yr un tir y gellir dirmygu crefydd ei hun; o blegid yn mha le ac yn mha oes y cafwyd dynion mor bur yn dal cyssylltiad â chrefydd heb lawer o wendidau a diffygion ynddynt? Dengys yr Ysgrythyrau a hanesiaeth eglwysig yn eglur mai nid gwaith dynion, ond ymweliadau grasol Duw, yw diwygiadau crefyddol; ac mai trwyddynt hwy y cadwyd crefydd yn fyw yn y byd o oes i oes. Y mae y neb sydd, gan hyny, yn edrych gyda dirmyg ar y cyffroadau hyn, yn euog o ddirmygu a beio gwaith ei Luniwr.

Yn y bedwaredd bennod o Lyfr Genesis y cawn y crybwylliad cyntaf am yr hyn a allwn alw yn ddiwygiad crefyddol, lle y dywedir, "Yna y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd." Effaith tywalltiad neillduol o'r Ysbryd Glân oedd hyn; ac y mae yn debygol mai dyma y cyffroad neu y diwygiad crefyddol cyntaf a gymmerodd le yn y byd. Yr oedd dyddiau Abraham yn rhai nodedig am lwyddiant crefyddol; a dichon na bu mewn un oes arall, o ddechreu y byd hyd ymgnawdoliad y Gwaredwr, fwy o wŷr rhagorol yn cydoesi. Y mae yn debygol fod Abraham, Lot, Melchisedec, Iob, a'i bedwar cyfaill, oll yn gydoeswyr; ac o bosibl eu bod yn dal cyfeillach grefyddol â'u gilydd. Nid yw yn debyg y gallasai cynnifer o enwogion crefyddol dreulio eu hoes heb eu bod yn cael eu hamgylchynu gan lawer o dduwiolion ereill, y rhai nad ydyw eu henwau ar gael mewn un lle yn awr ond yn "llyfr y bywyd." Cawn amrywiol grybwylliadau am gyffroadau crefyddol pwysig yn nyddiau Moses a Iosuah: dywedir yn yr ail bennod o Lyfr y Barnwyr, i angel yr Arglwydd ddyfod o Gilgal i Bochim, i geryddu y bobl am eu hanniolchgarwch a'u gwrthgiliadau; ac iddynt, wrth

Digitized by Google

ei wrandaw, ddyrchafu eu llef ac wylo, ac aberthu yno i'r Arglwydd. Cafodd yr holl wersyll ei gyffroi a phawb eu pigo gan argyhoeddiad grymus; ac yr oedd eu gwaith yn aberthu yn dangos i'w hargyhoeddiad o bechod eu gyru "at waed y taenelliad" am faddeuant a glanhad. Diwygiad o'r iawn ryw oedd hwn. Y mae genym amryw grybwylliadau am ddiwygiadau a dirywiadau crefyddol yn Israel yn dilyn eu gilydd o ddyddiau Iosuah i ddyddiau Samuel. Yn nheyrnasiad Dafydd, Solomon, Iehosaphat, Iosiah, a Hezeciah, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl lawer gwaith. Er iseled yr oedd crefydd yn nyddiau Malachi, bu mesur o ddiwygiad hyd yn oed y pryd hwnw; canys dywedir fod "y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd yn llefaru bob un wrth ei gymmydog." Dyna un o nodweddau neillduol diwygiad crefyddol. Nid ydyw yr efengylwyr ac Actau yr Apostolion yn ddim amgen na hanes y diwygiadau rhyfeddaf a welodd y byd erioed. Gan fod y Beibl yn son cymmaint am ddiwygiadau crefyddol, y mae yn hynod fod neb a gydnebydd ddwyfoldeb y llyfr hwnw yn beiddio eu condemnio. Er nad oes genym ond ychydig iawn o gynnorthwyon i ddeall hanes crefydd o ddiwedd yr oes apostolaidd hyd ganol y drydedd ganrif, eto y mae yr ychydig sydd genym yn dangos yn eglur fod nerthoedd yr Ysbryd Glân wedi cydfyned â phregethiad a llafur y Cristionogion, mewn modd cyffelyb i'r hyn a gofnodir yn llyfr yr Actau, am o leiaf gan mlynedd ar ol marwolaeth y diweddaf o'r apostolion. Dywed Irenæus, Tertullian, Justin Ferthyr, Origen, ac ereill o'r tadau Cristionogol, fod Cristionogaeth yn niwedd yr ail ganrif a dechreu y drydedd, wedi ymdaenu trwy agos bob gwlad adnabyddus ar y ddaiar, a bod rhifedi y Cristionogion mor fawr, er fod degau o filoedd o honynt yn cael eu merthyru agos bob blwyddyn, fel y gallasent ennill eu rhyddid trwy rym arfau, ond eu bod yn dewis yn hytrach gymmeryd eu lladd nag ymosod ar eu herlidwyr. Cyfaddefa Pliny yr ieuangaf, er ei fod yn bagan, mewn llythyr at yr ymherawdwr Trajan, fod amledd dirfawr y Cristionogion y fath fel yr oedd y temlau paganaidd agos wedi myned yn weigion. Pan ystyriom burdeb y grefydd Gristionogol, tywyllwch a llygredigaeth y byd y pryd hwnw, a'r erlidigaeth ddidrugaredd a ddyoddefai y Cristionogion, mae yn rhaid eu bod wedi cael eu bendithio â diwygiadau digygyffelyb cyn iddynt luosogi fel y gwaethant. O ddiwedd y drydedd ganrif hyd ddechreu y ddeuddegfed, nid oes genym braidd ddim gwerth i'w gofnodi am ddiwygiadau crefyddol. Nid cyfnod y diwygiadau, ond dirywiadau, oedd y tymmor maith hwnw. Yr oedd gan yr Arglwydd ei dystion yn y byd yn yr oesoedd tywyll hyn, megys y Waldensiaid, y Donatiaid, y Novatiaid, &c., y rhai a warthnodir gan haneswyr eglwysig dan yr enw hereticaid. Nid oes genym fawr o hanes boreuol y pleidiau hyn; ond y mae yn rhaid fod gradd helaeth o lwyddiant crefyddol wedi cael ei fwynhau ganddynt cyn iddynt allu dal yn ngwyneb yr erlidigaethau gwaedlyd a ddyoddefasant.

Wedi oesoedd o dywyllwch caddugaidd, yr ydym yn nechreu y ddeuddegfed ganrif yn dyfod o hyd i olyniad o ddiwygiadau gogoneddus. Fe ddaeth y Waldensiaid yn gynnar yn y ganrif hon i sylw, a choronwyd eu llafur a'u dyoddefiadau yn y canrifoedd blaenorol â llwyddiant digyffelyb. Y mae y bobl ragorol hyn yn cael eu crybwyll gan haneswyr eglwysig dan lawer o wahanol enwau, oddi wrth wahanol wledydd a breswylient, neu ddynion enwog a gyfodasant o bryd i bryd yn eu mysg. Waldensiaid yw yr enw mwyaf cyffredin arnynt; ond maent hefyd yn cael eu galw yn Albigensiaid, Picardiaid, Petrobrusiaid, Henuriaid, Pateriniaid, Leoniaid, Josephiniaid, &c. Tua y flwyddyn 1120, yr oedd y diwygiwr enwog hwnw, Peter de Bruis, yn uchder ei enwogrwydd yn eu mysg yn neheubarth Ffrainc. O ddeutu y flwyddyn 1147, cyfododd Henry o Toulouse yn bregethwr nodedig yn eu cyfundeb; ac yn 1160 y dechreuodd Peter Waldo ei fywyd cyhoeddus a defnyddiol. Bu y gwŷr enwog hyn, a llawer o'u cydoeswyr, yn offerynol i ddechreu a dwyn yn mlaen ddiwygiadau grymus ac effeithiol. Dyoddefodd y Waldensiaid erlidigaethau barbaraidd, yn benaf yn Ffrainc, o'r flwyddyn 1176 hyd 1226. Yr oeddynt mor luosog fel y dywedai archesgobion Aix, Arles, a Narbonne, nad oedd digon o galch a cheryg yn y wlad i wneyd carchardai i'w cynnwys. Dywedir eu bod yn 1260 yn wyth gan mil o rifedi, ar ol yr holl filoedd a ddyfethwyd yn y blyneddoedd cyn hyny. Parhaodd y diwygiadau grymus yn eu mysg yn Ffrainc, Italy, Bohemia, a gwledydd ereill, o ddechreu y ddeuddegfed ganrif hyd yn agos i ddiwedd y bymthegfed.

Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, cychwynwyd diwygiad bendithiol yn Lloegr, trwy weinidogaeth ac ysgrifeniadau John Wickliffe. Yr oedd ei ganlynwyr yn lluosog iawn; ac nid y lleiaf enwog yn eu mysg oedd ein cydwladwr selog, Walter Brute. Gwel dan y geiriau LOLLARDIAID A WICKLIFFE.

Yn y bymthegfed ganrif, cafodd Bohemia ei bendithio â diwygiad mawr trwy offerynoliaeth John Huss, a Jerome o Prague. Cyn bod goleuni y ser dysglaer hyn wedi llwyr ddiffoddi, cyfododd haul mawr y Diwygiad Protestanaidd, a gwasgarodd ei lewyrch yn fuan dros y rhan fwyaf o Ewrop. Gan ein bod wedi rhoddi hanes manwl am y cyffroad pwysig hwn mewn erthygl arall, cyfeiriwn y darllenwyr at hono.

Dilynwyd gweinidogaeth y Puritaniaid a'r Anghydffurfwyr yn Lloegr, o ddyddiau y frenines Elizabeth hyd y chwyldroad yn 1688, gan amryw ddiwygiadau rhyfeddol, yn enwedig yn amser y werinlywodraeth a llywyddiad Cromwell, ac yn 1665 — blwyddyn fythgofus y pla mawr yn Llundain. I lafur a dyoddefiadau y gwroniaid hyn, a'r dylanwadau dwyfol cydfynedol, y mae Prydain yn ddyledus am ei rhyddid, ei chrefydd, a'i mawredd presennol.

Bu holl eglwysi Protestanaidd y byd, gyda rhyw ychydig o eithradau lleol, am o ddeutu hanner can mlynedd, tua diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg a dechreu y ddeunawfed, mewn sefyllfa gysglyd a dirywiedig iawn. Dichon na bu un hanner canrif mor ddilewyrch ar achos crefydd o ddechreuad gweinidogaeth Luther hyd y dydd hwn a'r tymmor dan sylw. Ond ar ol hir nos, torodd y wawr yn dra disymmwth mewn gwahanol wledydd yn y flwyddyn 1734, a'r ddwy ganlynol. Erbyn fod y tân wedi cynneu yn America dan weinidogaeth Jonathan Edwards, wele fflamau angerddol yn tori allan yn Nghymru trwy offerynoliaeth Howel Harris. Y flwyddyn ganlynol, y mae Whitfield yn gosod Lloegr yn oddaeth, ac Ebenezer a Ralph Erskine, tua'r un amser, yn cyffroi Scotland. Cyn pen nemawr o fisoedd, yr oedd gan bob un o'r gwŷr rhagorol hyn luaws o gydweithwyr ar y maes. Yn mhen

Digitized by Google

pedair neu bum mlynedd, yr oedd yr holl fyd Protestanaidd fel crochan berwedig—miloedd yn llawenhau ac yn moli Duw, tra yr oedd miloedd ereill yn erlid ac yn cablu.' Yr oedd diwygiad mawr yr unfed ganrif ar bymtheg o angenrheidrwydd yn fath o chwyldroad gwladyddol a llenyddol, yn gystal a chrefyddol; ond ysbrydolrwydd yn unig a nodweddai ddiwygiad y ddeunawfed ganrif. Fe barhaodd y diwygiad hwn yn ei nerth yn y naill wlad neu y llall am o leiaf ddeugain mlynedd, ac y mae ei effeithiau daionus yn cael eu teimlo a'u mwynhau i gymmaint, os nad mwy, o raddau yn awr nag erioed.

Dichon nad oes un wlad ar y ddaiar wedi cael ei bendithio yn fynychach â diwygiadau crefyddol yn y ddau can mlynedd diweddaf na Chymru. Y diwygiad cyntaf y mae genym hanes am dano a dorodd allan yn Nghymru ydyw, tua y flwyddyn 1603, dan weinidogaeth y Parch. William Wroth, offeiriad Llanfaches, yn sir Fynwy. Parhaodd Mr. Wroth i bregethu yr efengyl gydag awdurdod ac arddeliad nodedig am o ddeutu deugain mlynedd. Efe oedd tad ysbrydol y rhan fwyaf o weinidogion duwiol Cymru yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Tra yr oedd yn weinidog plwyf Llanfaches, cyrchai y fath luaws o wyth neu naw o siroedd Cymru a Lloegr yno i'w wrandaw, fel yr oedd yn rhaid iddo yn fynych bregethu ar y fynwent, am na chynnwysai yr eglwys y torfeydd. Wedi ei fwrw allan o'r Eglwys Wladol, ffurfiodd eglwys Annibynol yn y plwyf; a hono oedd yr eglwys Ymneillduol gyntaf a ffurfiwyd yn Nghymru. Torodd diwygiad rhyfeddol allan hefyd yn siroedd gorllewinol y Deheudir rhwng 1620 a 1640, dan weinidogaeth danllyd yr enwog Rees Prichard, ficer Llanymddyfri; a thrwy amrywiol ranau De a Gogledd, yn y blyneddoedd hyny a'r rhai dilynol, trwy offerynoliaeth William Erbury, Walter Cradoc, Vavasor Powell, Ambrose Mostyn, Henry Walter, Stephen Hughes, Hugh Owen, a llawer o wyr rhagorol ereill. Mae un diwygiad a gymmerodd le yn Nghymru yn y ganrif hon yn rhy hynod i'w adael yn ddisylw. Pan dorodd y rhyfel allan rhwng y brenin a'r senedd, yn y flwyddyn 1642, ffodd y gweinidogion, a'r rhan fwyaf o'r gwyr a'r bechgyn perthynol i'w cynnulleidfaoedd, i Loegr, rhag cael eu gorfodi i fyned i fyddin y brenin, gan adael eu hen bobl, eu gwragedd, a'u plant, i ofal rhagluniaeth. Pan oedd y wlad yn ferw gan ryfel, ac yn cael ei difrodi o'r naill gwr i'r llall, llafuriodd yr hen bobl a'r gwragedd diymgeledd hyn i daenu gwybodaeth grefyddol yn mysg eu cydwladwyr, ac ni bu eu llafur yn ofer. Erbyn i'r gweinidogion ddychwelyd o Loegr ar ddiwedd y rhyfel; cawsant fod tuag wyth cant o eneidiau wedi eu dychwelyd at yr Arglwydd yn nghymmydogaeth y mynyddoedd, ar derfynau siroedd Mynwy a Brycheiniog, yn ystod y tair blynedd y buont hwy yn absennol. Cofnodir y ffaith ryfedd hon gan Walter Cradoc yn un o'i bregethau. Darfu i'r diwygiad mewn naw mlynedd ar ugain beri cyfnewidiadau rhyfeddol yn Nghymru. Yn 1633, nid oedd yn yr holl Dywysogaeth ond tri offeiriad yn ddigon gwrol a chydwybodol i anufuddhau i orchymyn annuwiol y brenin gyda golwg ar ddarllen Llyfr y Chwareyddiaethau ar y Sabbathau; ond yn 1662, cafwyd yn agos i gant yn foddlawn i aberthu pob peth yn hytrach na phlygu i'r awdurdodau gwladol gyda golwg ar Ddeddf Unffurfiaeth. Mae genym bob sail i farnu fod y bobl wedi eu cyfnewid er gwell i gymmaint o raddau a'r gweinidogion. Llwyddodd crefydd yn rhyfedd drwy y Dywysogaeth, er angerdd yr erlidigaeth, o amser adferiad Siarl II. hyd y chwyldroad.

Nid ydym wedi cael allan i ddim teilwng o'r enw diwygiad gymmeryd lle yn mysg ein hynafiaid o'r chwyldroad hyd i ddyddiau Howel Harris; ond y mae tegwch yn ein rhwymo i nodi fod ymdrechion duwiol a gwladgarol y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, i addysgu y werin, a llafur dystaw a duwiolfrydig ei gydoeswyr Ymneillduol drwy yr areithfa a'r argraffwasg, wedi gwneyd peth dirfawr at arloesi y ffordd o flaen Harris a'i gydlafurwyr. Er i ddaioni annysgrifiadwy gael ei wneyd yn Nghymru o ddyddiau Wroth hyd y flwydyn 1735, eto Harris, Rowlands, Williams, a'u cydlafurwyr, gafodd yr anrhydedd o fod yn offerynol i roddi ysgydwad crefyddol i'r holl genedl. Mae eglwysi Cymru oddi ar hyny hyd yn awr wedi cael eu breintio â diwygiadau crefyddol bob deng mlynedd neu yn fynychach.

Mae y diwygiad mawr a dorodd allan yn yr America yn niwedd y flwyddyn 1857, a'r hwn sydd erbyn hyn wedi ymdaenu dros lawer o wledydd y byd, yn un o'r cyffroadau mwyaf grymus a chyffredinol a deimlwyd erioed. Pwy a all ammheu nad toriad gwawr iwbili fawr y milflwyddiant ydyw?

Am hanes pellach o'r diwygiadau crefyddol a gymmerasant le mewn oesoedd hen a diweddar, cyfeiriwn ein darllenwyr at y gweithiau canlynol: —*Gillies' Historical Collections*; *Edwards, Colton, Sprague, and Finney, on Revivals*; *Phillip's Life and Times of G. Whitfield*; *the Life and Times of the Countess of Huntingdon*; *Wesley's Life and Journals*; *Hanes bywyd Howel Harris, Daniel Rowlands, W. Williams, Peter Williams, L. Rees, a B. Evans*; *Methodistiaeth Cymru, gan y Parch. J. Hughes*; *Davies' Revivals in Wales*; *T. Phillips' Revival in Wales*; *Dr. Massie on the Irish Revivals*; yn nghyd â'r traethodau a'r cyfrolau rhy luosog i'w henwi a gyhoeddwyd yn y ddwy flynedd ddiweddaf yn America, yr Iwerddon, Lloegr, a Scotland.

**DIWYGIAD PROTESTANAIDD.** Yn yr erthygl hon, ein hamcan fydd rhoddi crynodeb mor fyr ag sydd bosibl o brif ddygwyddiadau y Diwygiad Protestanaidd mewn amryw wledydd. Cymmerai gyfrolau lawer i roddi hanes cyflawn o'r dygwyddiadau hyn; felly, nis gellir yma ond yn unig eu crybwyll. Yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r ymadrodd "Diwygiad Protestanaidd" ydyw, y rhwygiad mawr hwnw a gymmerodd le yn yr eglwys orllewinol, yn yr hanner cyntaf o'r unfed ganrif ar bymtheg, trwy yr hwn y gwahanwyd y bedwaredd ran o boblogaeth Ewrop oddi wrth Eglwys Rhufain. Y gwledydd yn mha rai y mae athrawiaethau y Diwygiad wedi dyfod i gael eu credu gan fwyafrif y boblogaeth, ydyw Sweden, Denmark, Norway, Lloegr, Scotland, Prwssia, yr Iseldiroedd, Hanover, Saxony, Würtemberg, Hesse Cassel, Hesse Darmstadt a Mecklenberg, Hesse Homburg, Nassau a Brunswick, Anhalt, Lippe; dinasoedd rhyddion Hamburg, Bremen, Frankfort, a Lübeck; y taleithiau Rwssiaidd—Livonia, Esthonia, Courland, a Finland; y cantrefi Swissaidd — Bern, Zürich, Basle, Schaffhausen, Aargau, Thurgau, Grisons, Vaud, Glarus, Appenzell, Neufchatel, a Geneva. Y gwledydd yn mha rai y mae rhan o'r boblogaeth, ond nid y mwyafrif, wedi derbyn athrawiaethau

Digitized by Google

y Diwygiad, yw Hungary, Transylvania, Baden, ac ychydig daleithiau Almaenaidd ereill bychain, Ffrainc, y gantref Swissaidd St. Gal, a'r Iwerddon. Heb law hyn, y mae mwyafrif trigolion Unol Daleithiau Gogledd America, yn gystal a'r trefedigaethau Seisonig ac Isellmynaidd, wedi derbyn yr un athrawiaethau.

Mewn trefn i ddeall yn well yr hanes canlynol, y mae yn angenrheidiol i ni ddyweyd mewn ychydig eiriau pa beth oedd sefyllfa yr eglwys yn Ewrop yn flaenorol i'r Diwygiad, a hyny o barth i'r tair elfen fawr sydd yn cyfansoddi ei bywyd fel eglwys, sef athrawiaeth, llywodraeth, ac addoliad. O barth i athrawiaeth, yr oedd Cristionogaeth wedi colli o'r bron ei nodwedd fel crefydd—fel bywyd ysbrydol yn yr enaid; a thrwy gymmysgedd o athroniaeth Roegaidd, ac opiniynau Cenedlig, wedi eu trawsffurfio i gyfundrefn o arddansoddiaeth a damcaniaeth, a phrynedigaeth yr efengyl trwy Iesu Grist wedi ei throi yn drefn i bechadur gyrhaedd bywyd tragwyddol trwy ei weithredoedd ei hun. O barth i lywodraeth, yr oedd urdd neillduol o offeiriaid wedi eu sefydlu, yr hon a hònai yr hawlfraint iddi ei hun o fod yn unig gyfrwng bendithion ysbrydol; ac o gynlyniad, i hon y perthynai uchafiaeth ar Gristionogion ereill. Trwy yr hòniadau hyn, yr oedd cydraddoldeb Cristionogol, a rhagorfraint pechaduriaid fel eu gilydd i nesau at Dduw trwy Iesu Grist, yn cael eu gwadu, er mwyn gwneyd lle i urdd o osodiad dynol. O barth i addoliad, yr oedd Swper yr Arglwydd wedi ei newid i fod yn aberth gwirioneddol; a dysgent fod yr Arglwydd Iesu Grist yn cael ei gyflwyno yn barhaus i Dduw yn yr offeren. Hyn oedd canolbwynt eu haddoliad. Yn y tri pheth hyn, ni gawn hanfod holl gyfeiliornadau Pabyddiaeth. Yr oedd yr eglwysi dwyreiniol a gorllewinol wedi eu derbyn, ac yn eu dal yn gyffredinol trwy nos dywyll y canoloesoedd. Yr oedd yr egwyddorion cyfeiliornus hyn wedi esgor ar fyrdd o arferion ofergoelus, ac ar anwybodaeth ac anfoesoldeb cyffredinol.

Ni byddai ddim yn haws na henwi tu dalenau lawer â hanes y cyfeiliornadau, yr ofergoeledd, yr anwybodaeth, yr anfoesoldeb, a'r annuwiaeth, oedd yn ffynu mor gyffredinol yn holl wledydd Ewrop yn nechreu y cyfnod dan sylw; ond ni a ymfoddlonwn heb geisio ar hyn o bryd roddi dysgrifiad o hono. Y mae yn angenrheidiol, er hyny, i ni ddeall yr honiadau a wneid y pryd hwn gan esgobaeth Rhufain gyda golwg ar ei pherthynas â'r holl wledydd Cristionogol oedd mewn cyssylltiad â hi. Hònai fod ganddi hi, yn ol gosodiad dwyfol, awdurdod hollol ar yr holl Eglwys Gristionogol; ac o ganlyniad, ar holl boblogaeth Ewrop—oddigerth Rwssia, Twrci, a rhan o Poland, lle yr oedd Eglwys Groeg wedi ei sefydlu. Yn rhinwedd yr awdurdod hono, penderfynai y pab bob ammheuon a dadleuon yn nghylch athrawiaeth, dysgyblaeth, a llywodraeth. Yr oedd ei benderfyniadau yn cael eu hystyried yn anffaeledig; a phwy bynag a feiddiai eu gwrthwynebu, a ystyrid yn heretic, ac fel y cyfryw yn agored i geryddon canonaidd, ac hefyd i'r cospau tymmorol hyny ag sydd yn cael eu gorchymyn yn y gyfraith eglwysig yn erbyn hereticiaid. Hònai iddo ei hun, fel pen yr eglwys, awdurdod hyd yn oed mewn pethau tymmorol, a chyhoeddodd yn drahausfalch mai efe oedd ymherawdwr y byd. Cyfrifai fod y parthau hyny a breswylid gan bobl nad oeddynt yn Gristionogion heb breswylwyr; ac os cymmerai Cristionogion yn eu penau feddiannu rhai o'r gwledydd hyny, rhoddai ryddid perffaith iddynt i ymosod ar y trigolion heb yr esgusawd lleiaf, ac i ymddwyn tuag atynt yn gwbl mor greulawn a phe na byddent ond anifeiliaid. Yr oedd y gwledydd, os ennillid hwynt, i gael eu rhanu yn ol fel y dewisai y pab; ac ofnadwy fyddai tynged y tywysog hwnw a feiddiai anufuddhau i'w ewyllys. Mewn canlyniad i'r awdurdod fawr hon a hònid gan y pab, rhoddodd o'r diwedd i frenin Portugal yr holl wledydd i'r dwyrain o Benrhyn Non yn Affrica, a'r holl wledydd i'r gorllewin o'r un pwynt i frenin Yspaen.

Nid ydym i ddeall fod Pabyddiaeth wedi mwynhau perffaith dangnefedd cyn i'r Diwygwyr Protestanaidd ddyfod allan yn ei herbyn. Na: yr oedd ysbryd o wrthwynebiad wedi bod yn ymweithio, yn ymledu, ac yn cryfhau, ar wahanol adegau, ac mewn gwahanol wledydd, ac yn erbyn gwahanol ranau o'r gyfundrefn, er ys tair neu bedair canrif yn flaenorol. Yr oedd yr ysbryd hwn wedi dechreu meddiannu pob dosbarth o gymdeithas, o'r uchaf hyd yr isaf. Yr oedd y llygredigaeth eglwysig mor fawr, a'r clerigwyr yn suddo yn ddyfnach bob dydd, fel y dygwyd yr achos yn fynych o flaen holl Ewrop i'r cynghorfäau cyffredinol. Gwasgwyd yr angenrheidrwydd am wellhâd yn y llysoedd breninol yn fynych, fel yr oedd angenrheidrwydd am ddiwygiad yn cael ei deimlo yn gyffredinol pan ddechreuodd Luther a Zuingle, un yn yr Almaen a'r llall yn Switzerland, ar eu gwaith. Yn erbyn y cynnydd mewn defodau allanol, a'r parch mawr a delid i seremonïau ac addurniadau allanol, y cyfeiriwyd y gwrthwynebiadau boreuaf; gan gyfeiriwyd y gwrthwynebiadau boreuaf; gan gyferbynu i hyny natur ysbrydol crefydd. Ymddangosodd amryw fân sectau yn yr unfed ganrif ar ddeg yn yr Almaen a Ffrainc a ddilynodd y llwybr hwn, megys y Petrobusiaid a'r Henriciaid. Gwnaed ymosodiad ar allu a hòniadau yr urdd offeiriadol o bryd i bryd, ond yn enwedig gan Arnold o Brescia [gwel d.g.], yn y ddeuddegfed ganrif, a chan amryw ganghenau o'r Albigensiaid [gwel d.g.]. Gwnaeth y Waldensiaid ymdrech yn erbyn llygredigaeth ymarferol yr eglwys a'r amseroedd, mewn modd arbenig, a hyny gyda llwyddiant mawr. Ni gawn wedi hyny Wickliffe, yr hwn a elwir "Seren fore y Diwygiad," yn pregethu yn y ganrif flaenorol yn erbyn traws-sylweddiad, uchafiaeth y pab, a chamddefnyddiad cyfoeth yr eglwys. Gelwid ei ganlynwyr, mewn ffordd o wawd, yn Lollardiaid, a rhoddwyd yr enw hefyd ar amryw o sectau y Cyfandir. Yr oedd canlynwyr Wickliffe mor luosog yn y wlad hon fel y dywed un o'i elynion, "Os cyfarfyddwch ddau ddyn, y mae un o honynt yn sicr o fod yn Lollardiad." Cyfieithwyd ei lyfrau i ieithoedd y Cyfandir, ymledaenodd ei egwyddorion, a chyfododd amddiffynwyr galluog iddynt, megys Huss, a Jerome o Prague, y rhai y bu eu hymdrechiadau a'u merthyrdod yn gweithio yn ddystaw yn yr Almaen i barotoi y ffordd i Luther a'i gydlafurwyr yn y ganrif ganlynol. Ond heb law y dynion amlwg hyn oedd yn parotoi y ffordd i'r Diwygiad, yr oedd dosbarth o ddynion llai adnabyddus, ond fe ddichon mor lwyddiannus, er mewn llwybr gwahanol. Y dynion hyn oedd y rhai y bu eu llyfrau, eu cynghorion, a'u duwioldeb fwyaf effeithiol ar y diwygwyr eu hunain, i'w parotoi i'w gwaith. Er esampl, y mae Luther yn cyfeirio at Wesel, Wessel, Tauler, a Staupitz, fel y rhai y bu yn efrydu eu hysgrifeniadau, ac yn cael ei oleuo

Digitized by Google

ganddynt yn y gwirionedd. Dynion fel hyn a ddysgrifir gan Ullmann yn ei waith, *Diwygwyr cyn y Diwygiad*.

Ni a gyfyngwn ein hunain yn yr erthygl hon at gofrestru y dygwyddiadau mwyaf pwysig a gymmerasant le yn hanes y Diwygiad yn yr Almaen, Switzerland, Sweden, Norway, a Denmark, yn yr Iseldiroedd, yn Ffrainc, yn Poland, ac yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon.

Y DIWYGIAD YN YR ALMAEN.

Bernir yn gyffredin mai yr achlysur uniongyrchol o doriad y Diwygiad allan yn yr Almaen oedd gwerthiad y maddeuant-lythyrau. Yn y flwyddyn 1517, cyhoeddodd y pab Leo x babarchiad (*bull*) yn caniatau maddeuant llawn i bawb a gyfranent at ail adeiladu eglwys Sant Pedr, yn Rhufain. At yr amcan yma y dywedid fod yr arian yn cael eu codi; ond y gwir oedd, fod gwastraff Leo wedi gwaghau ei goffrau, a hon oedd y ffordd rwyddaf i'w llenwi. Rhoddwyd dirprwywyr ar waith i werthu y maddeuantau hyn yn mhob parth o Ewrop. Yr oeddynt yn teithio o le i le mewn rhwysg mawr, gan wahodd y bobl i bwrcasu eu nwyddau gwerthfawr. Yn eu plith yr oedd John Tetzel, o urdd y Dominiciaid. Yr oedd wedi bod yn dilyn y fasnach o werthu maddeuantau er ys amryw flyneddoedd ar raddeg fechan; ac felly, wedi cyrhaedd cryn fedrusrwydd yn y gorchwyl. Yr oedd Albert, archesgob Mayence, gan ei fod ar y pryd mewn prinder o arian, wedi cymmeryd maddeuantau yr Almaen dan rent, gan gytuno i ranu yr elw gyda'r pab. Cynnygiodd Tetzel ei wasanaeth iddo, a chafodd dderbyniad croesawgar. Cyn hir yr oedd yr holl wlad mewn cynhwrf; cynnygid maddeuant llawn am bob pechod, pa mor ysgeler bynag, i bawb a allai ei brynu. Gwahaniaethai y pris i gyfatob i sefyllfa y pwrcaswr a natur y trosedd. Proffesent roddi gollyngdod, nid yn unig i bechaduriaid eu hunain, ond hefyd i eneidiau o'r purdan, yr hyn a gymmerai le yn union ar orpheniad y fargen. Yr oedd y cyffro yn ddirfawr. Canfyddai dynion craff bechadurusrwydd y gwaith. Yr oedd rhai yn ddigofus, ac ereill yn gwawdio. Dadleuai amddiffynwyr a gwrthwynebwyr â'u gilydd ar y pwnc yn boethlyd. Yn y cyfamser, pa fodd bynag, teithiai Tetzel drwy y wlad gyda'i lwyddiant arferol. Ymgasglai tyrfaoedd yn awyddus i brynu maddeuant a nefoedd. Cyrhaeddodd Tetzel i Juttenbock, pedair milltir o Wittemberg; ond nis gallai fyned yn agosach i'r ddinas, gan fod etholydd Saxony wedi gwahardd iddo ddyfod i'r dalaeth hono; ond yr oedd Juttenbock yn nhiriogaeth y dyn a'i gosodasai ar waith, sef Albert. I'r lle hwn yr ymdyrai trigolion Wittemberg at y masnachwr, a phrynent ei nwyddau gyda pharodrwydd.

Un diwrnod, eisteddai Luther yn ei gyffesgell yn Wittemberg. Aeth rhai o'r dinaswyr ato, gan gyfaddef amryw bechodau; ond gwrthodent ymostwng i'r penyd arferol. Pan y gwrthododd yntau roddi gollyngdod iddynt, dangosasant iddo y maddeuantau yr oeddynt wedi eu prynu. Dywedodd wrthynt fod y maddeuantau hyny yn hollol ddiwerth, a pharhäai i wrthod rhoddi gollyngdod iddynt. Aethant hwythau, mewn canlyniad, at Tetzel, i achwyn arno. Ond ni wnaethpwyd ond ychydig sylw o wrthwynebiad y mynach. Yr oedd Luther eisoes wedi deall yr efengyl yn rhy dda i gymmeryd ei dwyllo gan hòniadau rhwysgfawr Rhufain. Oddi wrth yr amgylchiad hwn, gwelodd duedd beryglus athrawiaeth y maddeuantau, a gweithredodd ar unwaith ar yr egwyddor a hynodai ei holl fywyd, sef arddel ei argyhoeddiadau mor fuan ag y ffurfid hwynt. Mewn pregeth, yr hon a argraffwyd yn uniongyrchol ac a ledaenwyd yn helaeth, efe a esboniodd yr athrawiaeth Gristionogol o faddeuant, ac a rybuddiodd ei wrandawyr rhag gorphwys ar seiliau daiarol.

Dilynwyd hyn gan ymosodiad ecfnach. Arddangoswyd y creiriau ag oedd wedi eu dodi gan yr etholydd yn eglwys All Saints, Wittemberg, i'r cyhoedd ar Ddydd yr holl Saint, Tachwedd 1af; ar ba achlysur y cyfranogai pawb a ymwelai â'r eglwys, ac a gyffesai, o faddeuant arbenig a ganiateid gan y pab. Penderfynodd Luther ddynoethi yr holl gyfundrefn. Yn ganlynol, y noswaith cyn yr wyl, Hydref 31ain, 1517, gosododd ar byrth yr eglwys ei osodiadau (*theses*) yn nghylch maddeuantau, y rhai oeddynt yn bymtheg a phedwar ugain mewn nifer, a thrwy hyn, dechreuodd gloddio dan un o noddfeydd cadarnaf Pabyddiaeth. Bore dranoeth, darllenid y gosodiadau gan dyrfaoedd synedig. Argraffwyd a lledaenwyd hwynt wedi hyny wrth y miloedd drwy yr Almaen, a chynnyrchent effeithiau nerthol yn mhlith pob dosbarth. Yn mhen ychydig amser, gallesid eu prynu yn mhob parth o Ewrop yn mron.

Yn mhen rhyw ysbaid, drwy gynnorthwy y Conrad Wimpina, proffeswr yn mhrif athrofa Frankfort ar yr Oder, cyhoeddodd Tetzel gyfres o osodiadau yn erbyn gosodiadau Luther. Ond ni bu foddlawn ar hyny: yn ei genfigen a'i gasineb, easglodd yn nghyd gymmaint o gopïau ag a allasai gael o osodiadau Luther, a llosgodd hwynt yn gyhoeddus; ac y mae yn ddiau y buasai yn llosgi eu hawdwr hefyd, pe buasai dan ei awdurdod. Ymddygodd myfyrwyr Wittemberg yr un modd at ei osodiadau yntau, a llosgwyd wyth gant o gopïau o honynt yn mhresennoldeb tyrfa fawr, ac yn nghanol cymmeradwyaeth uchel.

Ymddangosodd gwrthwynebwyr ereill yn fuan o awdurdod uwch. Gwelodd Sylvester Prierias, meistr y palas cyssegredig yn Rhufain, fod ymosodiad Luther yn taraw yn erbyn awdurdod y pab, a cheisiodd wrthweithio yr ymosodiad drwy amddiffyn yr awdurdod hono yn y dull mwyaf eithafol. Haerai yn ddibetrus fod athrawiaeth Eglwys Rhufain, ac athrawiaeth y pab, yn rheol ffydd anffaeledig, oddi wrth ba un y derbyniai hyd yn oed yr Ysgrythyr ei hun nerth ac awdurdod; fod awdurdod yr eglwys a'r pab yn uwch nag awdurdod yr Ysgrythyr; fod yr eglwys yn anffaeledig, nid mewn gair yn unig, ond mewn gweithred, mewn ffydd, ac mewn moesau; y gallai y pab faddeu unrhyw bechod, pa mor ysgeler bynag fyddai; fod y maddeuant-lythyrau, er nad oeddynt wedi eu dadguddio yn yr Ysgrythyr, wedi eu sefydlu mor ddiogel a phe buasent yno drwy awdurdod y pab; a bod y neb a wadai unrhyw rai o'r gosodiadau hyn yn heretic, ac yn myned ar gyfeiliorn yn wirfoddol o lwybr iachawdwriaeth. Gwnai y fath gyfansoddiadau a hyn fwy o ddaioni nag o niwed i achos Luther, gan y dadguddient anfadrwydd y gyfundrefn yn fwy eglur. Cyhoeddodd John Esk, o brifathrofa Jugolstadt, lyfr o'r enw *Obelisks*, yn yr hwn yr ymresymai yn erbyn opiniynau Luther yn ol arddull yr ysgolheigwyr. Cyhoeddodd James Hockstraten, o urdd y Dominiciaid, atebiad mewn iaith dra gwahanol. Nis boddlonid ef gan ddim ond tân neu gleddyf. Galwodd ar y pab i arfer yr awdurdod hono a

Digitized by Google

dderbyniasai oddi wrth Dduw, drwy ddistrywio yr heretic melldigedig.

Symmudodd Luther i dir newydd wrth ateb y cynnyrchion hyn. Yr oedd Prierias yn neillduol wedi dwyn yn mlaen opiniynau croes i awdurdod yr Ysgrythyr, a'r hawl o ymchwiliad personol. Yr oedd hyn yn ormod i'r diwygiwr ei oddef. Gan ei fod yn ddyledus am bob peth i'r Beibl, nis gallasai feddwl am i ddim rhwystrau gael eu bwrw ar ffordd y defnyddiad helaethaf o'r llyfr sanctaidd, a'r ymchwiliad manylaf i'w gynnwysiad; hawliai iddo ei hun a phob dyn arall ryddid i ddarllen, chwilio, a barnu; a dadleuai gyda'i frwdfrydedd arferol dros uchafiaeth awdurdod gair Duw. Dyma oedd prif egwyddorion y Diwygiad y bu Luther yn offeryn i'w ddwyn oddi amgylch.

Arswydai Awstiniaid Wittemberg wrth feddwl am ganlyniadau yr ymrafael yr oedd eu brawd gwresog wedi myned iddi, ac erfyniasant ar iddo dynu yn ol. Ond nid oeddynt nac yn adnabod ei gymmeriad, nac yn gallu iawn brisio materion y ddadleuaeth. "Anwyl dad," ebe Luther, wrth lywydd y mynachdy, "fe syrth yr achos i'r llawr cyn hir, os nad ydys wedi ymgymmeryd âg ef yn enw yr Arglwydd. Ond os felly y mae, y mae yn rhaid i ni ei adael i'r Arglwydd i'w gwblhau."

Hyd yn hyn, diystyrai Leo yr ysgogiad Almaenaidd. Cymmerai arno ymddwyn tuag ato fel ymrafael rhwng dwy blaid wrthwynebus o fynachod, hollol annheilwng o'i sylw. Ond gorfodwyd ef i sylwi ar yr ysgogiad o'r diwedd. Yr oedd Luther wedi cyhoeddi eglurhad ar ei osodiadau, o'r enw *Resolutions;* ac efe a anfonodd gopi o hono i'r pab, yn nghyd â llythyr wedi ei ysgrifenu mewn iaith barchus yn gosod yr holl fater ger ei fron, ac yn dodi ei hun a'i achos i'r pab i wneyd fel y gwelai yn dda â hwynt; o blegid hyd yn hyn, er y goleuni a'r gras a dderbyniasai, yr oedd efe yn ddeiliad ufudd o'r esgobaeth Rufeinig.

Yr oedd y llythyr at Leo wedi ei ddyddio Mai 22ain, 1518. Ar y seithfed dydd o Awst, derbyniodd Luther wys-lythyr i fyned i Rufain, lle y penodwyd Sylvester Prierias, ei wrthwynebydd cyntaf, i wrandaw a phenderfynu ei achos. Yr oedd anghyfiawnder y penodiad hwn mor amlwg fel y penderfynodd cyfeillion Luther, ac yn eu mysg yr oedd etholydd Saxony, wneyd eu goreu er galw yn ol y gwysiad i Rufain, yn yr hyn beth y llwyddasant. Fe benodwyd y cardinal Cajetan, yr hwn oedd ar y pryd mewn cynghor a gynnelid gan yr ymherodraeth yn Augsburg fel llysgenadwr Pabaidd, i chwilio i mewn i'r achos, ac i gymmeryd mesurau priodol i ddarostwng unrhyw heresiaeth a allai ganfod yn opiniynau Luther. Defnyddiwyd yr iaith lymaf yn y gwys-lythyr a anfonwyd ato. Os gwrthodai Luther alw yn ol ei gyfeiliornadau, yr oedd i gael ei gymmeryd yn garcharor a'i anfon i Rufain. Os nad ellid cael gafael yn ei berson, yr oedd i gael ei amddifadu o nawdd y gyfraith, ac yr oedd ef a'i ganlynwyr i gael eu hesgymuno. Os meiddiai unrhyw dywysogion, esgobion, teyrnasoedd, neu ddinasoedd, gynnyg nodded iddo, yr oeddynt i gael eu condemnio; ac yr oedd pwy bynag a wrthodai neu a esgeulusai ufuddhau i orchymynion y llysgenadwr i gael ei ystyried a'i gyhoeddi yn un gwaradwyddus, ac i gael ei amddifadu o'i feddiannau. Ond er hyn oll, ni theimlai Luther un arswyd. Cynghorwyd ef gan amryw o'i gyfeillion, y rhai a deimlent yn bryderus yn ei achos, i gilio o'r maes, ac i ymguddio am ychydig amser. Ond ni chydsyniodd â'u cais. "Dymuna dynion ofnus," eb efe, "i mi beidio myned i Augsburg; ond yr wyf yn penderfynu bod yno. Gwneler ewyllys yr Arglwydd! Y mae Iesu Grist yn teyrnasu yn Augsburg, ac hyd yn oed yn nghanol ei elynion. Bydded Crist byw; bydded Luther a phob pechadur farw; fel y mae yn ysgrifenedig, 'Dyrchafer Duw fy iachawdwriaeth.'"

Ymdrechodd y llysgenadwr cyfrwysgall yn galed er cael Luther dan ei awdurdod, fel y gallai ymddwyn tuag ato yn ol cyfarwyddyd y gwys-lythyr Pabaidd; ond ni lwyddodd yn ei amcanion, drwy drugaredd. Trwy wrandaw ar gynghor ei gyfeillion, gwrthododd ymddangos ger bron y llysgenadwr hyd nes y caffai lythyr oddi wrth yr ymherawdwr yn sicrwydd am ei ddiogelwch. Gwnaethpwyd ymdrechion egniol er ceisio ganddo newid ei feddwl, ond bu y cwbl yn ofer; ni symmudai gam o'r mynachdy Awstinaidd hyd nes y caffai y sicrwydd hwnw am ei ddiogelwch. O'r diwedd, daeth y llythyr dysgwyliedig, ac aeth yntau yn uniongyrchol ger bron y llysgenadwr. Am dri diwrnod olynol, bu Cajetan yn dyhysbyddu ei alluoedd mewn ymdrechion ofer er ceisio gan Luther dynu yn ol, neu ymostwng. Bu yn bygwth, yn erfyn, yn ymresymu, yn addaw, ac yn cynnyg ammodau. Os galwai y diwygiwr yn ol yr hyn a ddywedasai yn erbyn y maddeuantau, ac os addawai beidio dyweyd un gair mwyach ar y pwnc, gallai bregethu fel y dewisai am gyflawnhad a ffydd, a dal y syniadau a fynai; ond yr oedd yn rhaid peidio cyffwrdd âg awdurdod na choffrau y pab. Ar y llaw arall, yr oedd yn rhaid i Luther gael ei argyhoeddi. Nid ymostyngai os na ddangosid iddo o'r Ysgrythyr ei fod yn cyfeiliorni. Yr oedd hyn yn ormod o orchwyl i'r cardinal; gan hyny, terfynodd yr ymddyddan yn ddigon anfoddhaol ganddo ef. Yr oedd y mynach Almaenaidd yn ormod o ddyn iddo. Ond er fod ganddo lythyr oddi wrth yr ymherawdwr, yr oedd rhesymau cryfion dros ofni nad oedd yn ddiogel iddo aros yn hwy yn Augsburg; gan hyny, gwrandawodd Luther ar awgrymiadau ei gyfeillion, a gadawodd y lle. Cyrhaeddodd i Wittemberg Hydref 30ain. Cyn ymadael, ysgrifenodd lythyr at y llysgenadwr, yn yr hwn y nodai, mewn iaith barchus, ei resymau dros ddianc ymaith.

Yn ei ddigofaint o blegid i Luther ddianc, ysgrifenodd Cajetan at yr etholydd, i geisio ganddo dynu ei nodded oddi wrth y diwygiwr, a'i anfon i Rufain i sefyll ei brawf. Gwrthodwyd y ddau gais. Ymaflodd Luther yn nyledswyddau ei swydd eilwaith gydag yni adnewyddol, a chalonogid ef gan ymgasgliad lluoedd o fyfyrwyr i'r athrofa o'r holl daleithiau cylchynol, y rhai a dynid yno gan ei enwogrwydd cynnyddol. Darparwyd llawer meddwl gogyfer â'r frwydr agoshaol drwy ei ddarlithiau a'i bregethau.

Dadganai Luther bob amser ei barodrwydd i ymostwng i'r eglwys. Deallai Leo mai ymostyngiad iddo ef a olygai wrth hyn; a chyhoeddodd babarchiad newydd, yn yr hwn yr ail adroddai yr athrawiaeth Babaidd o faddeuantau, tra y ceryddai ac yr ymwrthodai â'r fath syniadau eithafol ag eiddo Tetzel a'i gyffelyb. Galwai ar bawb i dderbyn yr athrawiaeth, a bygythiai bawb a wrthodai ufuddhau âg esgymundod, a'i ganlyniadau ofnadwy. Ond nid Leo oedd yr eglwys. Yr oedd efe mor agored i gyfeiliorni ac i bechu a dynion ereill. Rhag-

Digitized by Google

mae y cwblyn perthyn i'r un deyrnas; ond nid yr un gwaith sydd gan bob un o honynt i'w wneyd."—*D'Aubigné*, i. 117.

Arweiniodd hyn ef i ddal allan y dylai yr awdurdod wladol gospi yr eglwyswyr, os haeddant gospedigaeth, a pheidio gwneyd sylw o'u bostfawr esgusodion. Mae yn galw ar lywodraethwyr Cristionogol i ddiosg y pab a'i gardinaliaid o'u holl gyfoeth ac anrhydedd, ac i roddi terfyn ar yr afrifed ormesiadau oedd yn dwyn holl deyrnasoedd Ewrop i dlodi. "Rhodded yr ymherawdwr Feibl a llyfr gweddi i'r pab, fel y gadawo freninoedd yn llonydd, ac yr ymfoddlono ar weddio a phregethu."

Wedi dynoethi balchder a thrachwant y cenadon Pabaidd, ac annefnyddioldeb y mynachod, mae yn myned yn hyfach hyfach, ac yn gofyn offeiriaid priod i'r eglwys, "yn ol gosodiad Crist a'i apostolion;" a haera yn ddiofn mai "y diafol a berswadiodd y pab i wahardd yr offeiriaid i briodi." Dywed y dylai ymprydiau a gwyliau yr eglwys gael eu dileu, ac na ddylid cadw un dydd yn grefyddol ond Dydd yr Arglwydd. Mynai efe i hereticiaid gael eu hargyhoeddi trwy yr Ysgrythyrau, fel y gwnai yr hen dadau; ac nid eu gorchfygu trwy dân. Cynghorai bob rhieni i ofalu am beidio anfon eu plant i nac ysgol na choleg ond y rhai y byddai gair Duw yn uchaf ynddynt. Yn olaf, cymhellai yr angenrheidrwydd o gyfyngu y pab at bethau ysbrydol yn unig, a'i orfodi i beidio trethu a gorfodi pobl Gristionogol. Cyhoeddwyd yr appeliad Mehefin 23ain, 1520. Lledaenwyd ef yn gyflym trwy yr holl Almaen, a pharodd gyffro mawr yn mhob man.

Wyth niwrnod cyn cyhoeddiad yr appeliad, yr oedd condemniad Luther wedi ei ddadgan yn Rhufain mewn pabarchiad, yn cynnwys un a deugain o osodiadau, y dywedid iddynt gael eu tynu o'i osodiadau ef ei hun, am y rhai yr esgymunwyd ef fel heretic, y llosgwyd ei lyfrau, ac y traddodwyd ef i'w gospi, os na ddewisai osgoi y dyrnod trwy ddadgyffesu. Appwyntiwyd Esk, ei wrthwynebydd yn Leipsic, trwy ymdrechiadau diflino yr hwn y perswadiwyd Leo i gyhoeddi ei babarchiad, yn genad y pab, ac awdurdodwyd ef i gyhoeddi y pabarchiad yn yr Almaen ac yn yr Iseldiroedd, ac i fynu ufudd-dod i'w holl orchymynion. Bu yr appwyntiad annoeth yma yn foddion i gryfhau achos Luther, yn hytrach na'i wanychu, er i'r appwyntiedig lwyddo, mewn rhai manau, i losgi llyfrau y diwygiwr. Yn wyneb yr aflwyddiant yma, ceisiodd duwinyddion Louvaine wrandawiad gan Margaret, rhaglaw Charles v, yn yr Iseldiroedd. "Y mae Luther, meddent, "yn gwyrdroi y ffydd Gristionogol." "Pwy ydyw Luther?" meddai y dywysoges. "Mynach anwybodus," oedd yr ateb. "O'r goreu," meddai hithau, "ysgrifenwch chwithau, sydd ddynion mor ddysgedig ac mor luosog, yn ei erbyn; fe fydd yn llawer haws gan y byd gredu corff o ddynion dysgedig na chredu un dyn annysgedig." Ond nid oedd yr annogaeth yma wrth eu bodd hwy. Yr oedd yn llawer gwell ganddynt hwy y tân na'r pin ysgrifenu. Wedi i'r duwinyddion hyn barotoi tân mawr, ar ddiwrnod penodedig, i losgi llyfrau Luther, daeth yr efrydwyr a chofleidiau o gyfrolau mawrion, gan eu taflu i ganol yr eirias, yn nghanol crechwen y duwinyddion; ond y mae yn haws dychymygu am faint eu somedigaeth a'u cynddaredd, na'u darlunio, pan ganfyddasant mai eu gwaith hwy eu hunain, a rhyw sothach Pabyddol arall, oedd y cyfrolau a daflwyd i'r tân,ac nid ysgrifeniadau Luther. Pan ofynodd Dominiciaid Holland am ganiatâd yr iarll o Nassau, y rhaglaw, i losgi llyfrau Luther, yn ol gorchymyn y pabarchiad, ei unig ateb oedd, "Ewch a phregethwch yr efengyl yn well na Luther, ac ni bydd genych achos i gwyno yn erbyn neb." Achosodd y cyffro yma ymofyniad cyffredinol, a darllenwyd y llyfrau condemniedig gan laweroedd na buasent yn clywed am danynt oni buasai y cyffro, nac yn meiddio edrych i'w dalenau.

Deallodd Luther fod cyhoeddiad y pabarchiad crybwylledig yn gyhoeddiad o ryfel yn ei erbyn ef, ac ymbarotodd yn briodol ar ei gyfer. Ceir anghreifftiau nodedig o hyn yn y gwaith a elwir *Caethiwed Babilon*, yr hwn a gyhoeddwyd yn Hydref, 1520. Dyma y dyrnod trymaf oedd wedi cael ei roddi hyd yn hyn i athrawiaethau a llywodraeth Rhufain. Dynoethwyd gorthrymderau y Babaeth yn ddiofn, yn yr iaith hyfaf; gosodwyd y gwirionedd Cristionogol allan yn oleu; ac amddiffynwyd hawliau a rhyddid y wir eglwys yn gadarn. Wynebodd Luther ffyrnigrwydd yr ystorm gyda gwroldeb didroi yn ol. Ni lwfrhaodd o flaen un dyn—na thywysog, nac ymherawdwr, nac esgob, na phab. Terfyna y llyfr â'r geiriau canlynol:—"Yr wyf yn clywed fod esgymuniadau Pabaidd newyddion yn cael eu parotoi ar fy nghyfer. Os felly y mae, gellir edrych ar y gwaith hwn fel rhan o'm gwrthddadganiad dyfodol. Daw y gweddill yn fuan ar ei ol, fel prawf o'm hufudd-dod; a ffurfia y cwbl gynnyrch, trwy gymhorth Crist, na welodd ac na chlywodd Rhufain erioed eto ei gyffelyb."

Yn fuan ar ol hyn, appeliodd Luther yn ddifrifol unwaith eto oddi wrth y pab at Gymmanfa Gyffredinol. Yn y cyfamser, cyhoeddodd draethodyn "yn erbyn pabarchiad ffiaidd yr anghrist," ac un arall i amddiffyn yr erthyglau a gondemnid ynddo. Yn y ddau gyfansoddiad hyn, trinia y pab a'i gardinaliaid yn bur ddiseremoni. "Yr wyf yn eich cynghori oll yn yr Arglwydd," eb efe, "ar ddychwelyd o honoch i'ch synwyrau, gan roi terfyn ar eich cableddau dieflig a'ch annuwioldeb rhyfygus, a hyny yn ebrwydd. Canys, os na wnewch hyn, cymmerwch rybudd y bydd i mi, a phawb sydd yn credu yn Nghrist, ystyried eich esgobaeth, sydd yn cael ei meddiannu a'i llywodraethu gan Satan, fel esgobaeth gondemniedig anghrist; fel y bydd i ni nid yn unig beidio ufuddhau, ymostwng, nac ymgyssylltu â hi, ond ei ffieiddio a'i melldithio fel y flaenaf a'r benaf o elynion Crist."

Dilynwyd hyn gan weithred hyfach fyth. Ar y 10fed o Ragfyr, parotowyd pentwr mawr o goed mewn lle cyhoeddus, yn agos i un o byrth Wittemberg. Aeth Luther yno o flaen gorymdaith ddirfawr, yn cynnwys proffeswyr a myfyrwyr yr athrofa, a thrigolion y lle. Wedi cyrhaedd i'r fan, parodd i'r pentwr gael ei danio, ac yna taflodd lyfr cyfraith yr eglwys, y dedfrydau, y gosodedigaethau, a holl ystatudau y Babaeth, i ganol y fflamau. Yn olaf oll, taflwyd y pabarchiad condemniol i mewn, a llefai Luther wrth wneyd hyn, "Megys y blinaist ac y gwaradwyddaist ti Eneiniog yr Arglwydd, felly blinir ac ysir dithau gan dân tragwyddol uffern." Y dydd canlynol, wrth derfynu ei ddarlith arferol ar y Salmau, cyfarchodd ei wrandawyr i'r perwyl canlynol:—"Os na wrthsefwch lywodraeth annuwiol y pab â'ch holl galon, nis gellwch fod yn gadwedig. Pwy bynag sydd yn ymhyfrydu yn nghrefydd ac addoliad y Babaeth, cospir ef yn

Digitized by Google

dragwyddol yn y byd a ddaw." Ar ol hyn, nis gallai fod heddwch â Rhufain.

Yr oedd y pab erbyn hyn yn gyfartal barod i'r frwydr. Danfonwyd dau genad, Caraccioli ac Aleander, i'r Almaen, dan y ffug o fod yn bresennol ar goroniad yr ymherawdwr, ond mewn gwirionedd i wneuthur pob egni er rhoddi y pabarchiad mewn grym yn erbyn Luther. Yr oedd Aleander, a gymmerodd y flaenoriaeth, wedi ei gymhwyso yn odidog i'r gorchwyl y galwyd ef i'w gyflawnu. Gan ei fod yn fedrus mewn dichell, ac ar dân gan ddigofaint yn erbyn yr heresi newydd, yr oedd wedi ymbarotoi i gyflawnu gweithredoedd o ddyngarwch, yn ol fel y caffai gyfleusdra. Hynododd y cenadon eu hunain yn eu ffyddlondeb i Leo, wrth deithio o fan i fan, trwy losgi llyfrau Luther, a tharanu anathema yr eglwys yn erbyn eu hawdwr. Yn Cologne, cyfarfuant âg etholydd Saxony, pan oedd yn dychwelyd o goroniad yr ymherawdwr. Dywedasant wrth y tywysog hwnw eu bod yn hawlio ei ufudd-dod i'r pabarchiad, ac yn gofyn iddo gospi Luther, neu ei anfon i Rufain, fel yr ymddyger ato yn ol y gyfraith. Yr oedd ateb yr etholydd yn dra anfoddhaol: dywedodd wrth genadon y pab nad oedd efe wedi ei argyhoeddi mewn un modd fod Luther yn gyfeiliornus; pan y profid hyny, y gallai cyfiawnder gymmeryd ei ffordd; ond hyd hyny, y byddai iddo ef amddiffyn ei dduwinydd hoff. Wedi iddynt fethu yn y cynnyg yma, troisant at yr ymherawdwr. Effeithiasant yn rhwydd ar ei feddwl ieuanc a thanbaid ef. Yr oedd cael appeliad oddi wrth weinidogion y pab yn dra boddhaol, a chael ei wahodd i gyflawnu gorchymynion pen yr eglwys ar y ddaiar. Cydsyniodd Charles v. i fod yn offeryn dial i Leo. Yn y cyfamser, yr oedd dylanwad Luther ar feddwl y bobl yn yr Almaen yn cynnyddu bob dydd. Yr oedd prif ysgol Wittemberg yn cael ei gorlenwi âg efrydwyr o bob parth, a'i heolydd yn cael eu llenwi âg ymwelwyr, awyddus am weled y dyn yr oedd ei ysgrifeniadau yn taenu goleuni a gwybodaeth drwy holl Ewrop. Yr oedd llythyrau cyfarchiadol yn cael eu tywallt i mewn arno oddi wrth bersonau o radd uchel mewn dysgeidiaeth a sefyllfa; yr oedd tair argraffwasg ar waith parhaus, er mwyn ateb i'r galwad digyffelyb oedd am ei ysgrifeniadau; a rhoddodd cyfeillion ereill, a fywiogid gan ei hyfder ef, aml i ddyrnod i'r gelyn cyffredin. Yr oedd yr Almaen oll yn ferw o gynhwrf.

Ar y 3ydd o Ionawr, 1521, cyhoeddodd Leo ail babarchiad. Yr oedd y cyntaf yn ammodol, yn rhoddi lle i Luther ddadgyffesu, ac yn attal y condemniad ar ei ymostyngiad. Yn yr ail, dadganwyd y condemniad hwnw yn benodol. Yr oedd yn awr wedi cael ei gyhoeddi yn heretic anfeddyginiaethol, wedi ei gyfaddasu i ddinystr. Yr oedd yr amser wedi cael ei ddewis yn fedrus. Yr oedd cynghor ymherodrol ardderchog ar gael ei gynnal, yn yr hwn y byddai yr ymherawdwr a holl dywysogion yr Almaen yn bresennol. Yr oedd Aleander wedi derbyn cyfarwyddiadau i fod yn bresennol, ac i hawlio, yn enw ei feistr, am wasanaeth y milwyr lleol i ddarostwng yr heresi oedd yn cyfodi. Yr oedd cyhoeddi y pabarchiad ar y fath adeg wedi ei drefnu yn fedrus i ddychrynu y digalon, i gryfhau y sefydlog, ac i beri ofn ar bawb.

Dechreuwyd Cynghor Worms ar y 6ed o Ionawr, 1521. Prin y cynnaliwyd cymmanfa fwy ysblenydd erioed o'r blaen. Yr oedd pendefigion yr Almaen yn awyddus am ragori ar eu gilydd yn eu harddangosiad o barch i'w hymherawdwr ieuanc. Gallesid meddwl fod holl gyfoeth yr ymherodraeth wedi ei gasglu i'r un lle, er mwyn gwneyd un arddangosfa fawreddog. Yr oedd yr achlysur hefyd yn dra dyddorol a phwysig. Heb son am bwysigrwydd amgylchiadau gwladol, yr oedd sefyllfa crefydd yn galw am yr ystyriaeth ddifrifolaf. Yr oedd y galwad am ddiwygiad i'w glywed ar bob llaw. Yr oedd pawb yn gweled fod y clwyf yn gofyn sylw diymaros; ond ni wyddai neb pa foddion i'w cynnyg, tra yr oedd y perygl yn mwyhau bob dydd.

Yr oedd Aleander yn hynod ffyddlawn dros ei feistr. Pan ddaeth i Worms, ymdrechodd â'i egni i gael condemniad dioed ar Luther. Mynai efe ei ddinoddedu a'i roddi dan esgymundod yr ymherodraeth ar unwaith, fel y gellid dinystrio ei blaid âg un ddyrnod egnïol. Ond canfuwyd fod hyn yn annichonadwy. Yr oedd syniadau y diwygiwr wedi myned yn rhy ddwfn i'w dadwreiddio yn ddidrafferth. Yr oedd rhai yn siarad am gymmeryd yr holl fater o law y pab, a'i ymddiried i ddedfryd barnwyr diduedd, wedi eu dewis gan brif benaduriaid Ewrop. Cafodd Aleander ei ddyrysu a'i gynddeiriogi. Ond parhau a wnaeth efe i appelio, weithiau at yr ymherawdwr, weithiau at ei weinidogion, ac aelodau ereill o'r cynghor, yn mhlith y rhai y gwasgarodd efe symiau mawrion o arian a ymddiriedwyd iddo gan lys Rhufain. O'r diwedd efe a lwyddodd, trwy rym gwobrau a dichellion, i gael caniatâd i gyfarch y cynghor ymgynnulledig. Ar y 13eg o Chwefror, efe a ymddangosodd o'u blaen, ac a lefarodd am dair awr gyda hyawdledd nwydwyllt. Dysgrifiai Luther fel anghenfil o anwiredd, troseddau yr hwn y dylid eu cospi hyd eithaf llymder y cyfreithiau. Darluniai ei syniadau yn ddichellgar fel rhai croes i athrawiaethau difrifol yr eglwys, ac yn llawn perygl i eneidiau. Yr oedd wedi pechu, fel yr haerai Aleander, yn erbyn yr awdurdodau ar y ddaiar trwy wadu y purdan, er fod yr athrawiaeth hono wedi cael ei sefydlu gan gynghor Florence, yn ngŵydd ymherawdwr Caer Cystenyn, yr hwn a gydnabyddodd y pab y pryd hyny fel pen yr holl Eglwys Gristionogol. Yr oedd wedi pechu yn erbyn yr awdurdodau yn y nef; canys haerodd, pe buasai angel o'r nef yn dysgu yn wahanol na chredai efe ef. Yr oedd wedi pechu yn erbyn yr holl offeiriaid; o blegid yr oedd yn dal allan, yn ei lyfr ar *Gaethiwed Babilon*, fod yr holl Gristionogion yn offeiriaid; ac yr oedd wedi gosod rhaglen (*frontispiece*) i lyfr arall a wnaeth, yn darlunio dau gi yn brathu eu gilydd, trwy yr hyn y darluniai efe yr elyniaeth oedd rhwng y gwyr lleyg a'r gwyr llen. Yr oedd wedi pechu yn erbyn y saint, llyfrau y rhai a ddibrisiwyd ganddo. Yr oedd wedi pechu yn erbyn y byd, trwy wahardd gweinyddu cosp ddienyddol ar neb ond a fyddai wedi cyflawnu pechod marwol. Yr oedd wedi pechu yn erbyn y cynghorau, yn enwedig Cynghor Constance, yr hwn a alwasai efe yn "gorbwll y diafol." Dadganwyd fod ei gondemniad yn hanfodol i ddiogelwch yr Almaen. Pa fodd bynag, nid oedd Duw yn ewyllysio i Luther gael ei gondemnio heb iddo gael gwrandawiad. Yr oedd yn rhaid iddo ef ddwyn tystiolaeth ger bron tywysogion. Cafodd Luther, er mawr somedigaeth i Aleander, ei wysio i'r cynghor, fel y gallai yn bersonol amddiffyn neu wadu y syniadau a briodolid iddo, fel yr ymddygid ato yn ol hyny. Anfonwyd gyda'r wŷs

Digitized by Google

nawddlu digonol, i sicrhau ei ddiogelwch wrth fyned a dychwelyd; ac yr oedd yr awdurdod wedi ei llawnodi nid yn unig gan yr ymherawdwr, ond hefyd gan y tywysogion trwy daleithiau y rhai yr oedd yn rhaid iddo deithio. I etholydd Saxony yr oedd efe yn ddyledus am y rhagocheliad hwn, yr hwn a adwaenai y dynion yr oedd efe i ymwneyd â hwy, ac a wrthododd yn benderfynol i'r diwygiwr adael Wittemberg heb y fath noddaeth. Yr oedd hyn yn somedigaeth arall i Aleander, yr hwn oedd yn hollol barod i wneuthur yr un anfadwaith iddo ag a wnaeth cynghor gwarthus Constance, a barodd ruthro ar Huss a'i losgi, er i sicrwydd gael ei roddi am ei ddiogelwch. Ond gorfodwyd ef i ymostwng.

Amlygodd cyfeillion Luther ddirfawr ofn o'i blegid. Efe yn unig oedd yn ddigyffro. "Os caf ddim ond cynnorthwy Iesu Grist," eb efe, "yr wyf yn benderfynol na ffoaf byth o'r maes, ac na adawaf air Duw.......Pe goleuent dân a gynneuai cyn uched a'r nefoedd, ac a gyrhaeddai o Wittemberg hyd Worms, eto yn Worms yr ymddangosaf yn enw yr Arglwydd, ac a ddymchwelaf y Behemoth.......Clywaf fod yr ymherawdwr wedi cyhoeddi archwys (*mandate*) i'm dychrynu; ond y mae Crist yn byw er ei waethaf; ac mi af finnau i Worms, pe byddai i holl byrth uffern a gallu y tywyllwch fy ngwrthwynebu."

Yr oedd ar gyfeillion a gelynion ofn ei ddynesiad yno. Ei gyfeillion a arswydent gyda golwg ar ei ddiogelwch; a'i elynion a ofnent ddylanwad ei ymresymiad a'i hyawdledd. Fe wnaed ymdrechiadau egnïol er ei rwystro i ymddangos yn y cynghor. Y blaid Babaidd a'i temtïent â'r gobaith o gymmodiad heddychol; amddiffynwyr y gwirionedd a geisient gynhyrfu ei ofnau. Methodd ymdrechiadau pawb. "Dywedwch wrth eich meistr," eb efe wrth genad oddi wrth Spalatin, "yr awn i Worms pe byddai yno gymmaint o ddiafliaid ag sydd o briddlechi ar benau y tai." Efe a aeth i'r ddinas ar yr 16eg o Ebrill. Gwysiwyd ef dranoeth ar ol ei ddyfodiad i ymddangos yn y cynghor. Dyoddefodd iselder ysbryd anarferol ar fore y diwrnod hwnw, braidd hyd at ing; ond yn ei gyfyngder, efe a drodd at yr Arglwydd â llefain cryf a dagrau, ac a gafodd ei wrandaw yn rasusol. Dychwelodd tangnefedd i'w feddwl, a llanwyd ei ysbryd drachefn â gwroldeb sanctaidd a didroi yn ol. Dilynodd y swyddog a appwyntiwyd i'w arwain i'r neuadd i gael gwrandawiad yn siriol. Cafodd gryn drafferth i gyrhaedd y lle, gan faint y llu oedd yno a lenwai bob mynedfa, yn llawn cywreinrwydd awyddus am weled y dyn yr oedd ei glod wedi ymdaenu trwy yr Almaen, a'r hwn y syrthiasai taranau y pab arno hyd yn hyn mor ddiniwed. O'r diwedd, safai o flaen y gynnulleidfa fawreddog. Yr oedd yr ymherawdwr ar yr orsedd. Yn nesaf ato yr oedd ei frawd, yr archddug Ferdinand. Yr oedd chwech o etholwyr yr ymherodraeth yn bresennol; pedwar ar ugain o dduciaid; wyth o iarllod y cyffiniau; deg ar ugain o breladiaid; saith o lysgenadwyr; dirprwywyr deg o ddinasoedd breiniol; tywysogion, iarllod, a barwniaid; cenadwyr y pab—oll yn ddau gant a phedwar o bersonau anrhydeddus a goruchel. Yr oedd gwyneb llawer un yn dangos dirfawr bryder a dyddordeb. Yr oedd Luther yn dal cymundeb â Duw, ac yn mwynhau "perffaith dangnefedd."

Yr oedd casgliad o'i ysgrifeniadau wedi eu gosod ar y bwrdd. Yna gofynwyd iddo a oedd efe yn eu cydnabod fel ei waith, ac a oedd efe yn barod i alw yn ol y syniadau a gynnwysent. Atebodd yr holiad cyntaf yn gadarnhaol. Yn ateb i'r ail holiad, dywedodd ei fod yn dra difrifol a phwysig, ac nas dylai ei ateb heb ystyriaeth briodol, rhag y gallai mewn rhyw ffordd niweidio achos y gwirionedd: am hyny, gofynodd ychydig oediad. Yr oedd ei ddymuniad mor resymol fel nas gellid ei nacau. Ar ei ymddangosiad yr ail ddydd, gofynwyd yr holiadau drachefn. Yna cyfarchodd Luther y gymmanfa:—Dywedodd ei fod yn cydnabod mai ei waith ef oedd y llyfrau oedd ar y bwrdd. Yr oedd eu cynnwysiad yn dra amrywiol. Mewn rhai o honynt, yr oedd yn traethu ar ffydd a gweithredoedd, ac yn dynoethi cyfeiliornadau yr oes: nis gallai alw y rhai hyny yn ol heb droi yn fradwr i'r efengyl. Cynnwysai yr ail ddosbarth ysgrifeniadau oedd yn dynoethi llygredigaethau a chamymddygiadau erchyll y Babaeth: yr oedd y rhai hyn mor echryslawn, ac wedi bod yn destynau cyfiawn o gŵyn mawr yn yr Almaen am gyhyd o amser, fel y byddai llethu gwaith sydd yn dangos eu gwrthuni i'r cyhoedd yn waeth na ffolineb. Yn y trydydd lle, yr oedd efe wedi ymosod mewn rhai o'i lyfrau ar bersonau unigol oedd yn amddiffyn y drygau sydd yn ffynu; ac yr oedd efe yn barod i gyffesu (canys nis gallai hòni bod yn rhydd oddi wrth wall) ei fod weithiau wedi ysgrifenu gyda llymder anmhriodol: eto nis gallai efe alw yn ol y syniadau a draddododd yn yr ysgrifeniadau hyny, o blegid cefnogai hyny elynion y gwirionedd, a gwnai hwy yn hyfach yn eu gwrthwynebiad. Am hyny, yn lle parhau i erchi iddo ddadgyffesu, erfyniai ar y cynghor i ddefnyddio moddion i'w argyhoeddi, o'r Ysgrythyrau, ei fod yn gyfeiliornus. Cyn gynted ag yr argyhoeddid efe, efe a gydnabyddai hyny yn y fan.

"Nid ydych wedi ateb yr holiad," meddai canghellydd archesgob Treves, i'r hwn yr oedd y dosbarth yma o'r gwaith wedi ei ymddiried. "Yr ydys yn gofyn ateb eglur a phendant—A wnewch chwi ai ni wnewch ddadgyffesu?" Yr oedd ateb y diwygiwr yn deilwng o hono ef ei hun:—"Gan fod eich ardderchocaf fawrhydi, a'r tywysogion, yn gofyn ateb syml, mi a'i rhoddaf ef fel hyn:—hyd oni argyhoedder fi trwy brofion o'r Ysgrythyrau, neu trwy reswm amlwg (canys nid wyf fi yn credu mewn na phabau na chynghorau, gan eu bod wedi cyfeiliorni a gwrthddywedyd eu hunain yn fynych), nis gallaf fi lai na dewis glynu wrth air Duw, yr hwn sydd wedi cymmeryd meddiant o'm cydwybod. Nid ydyw yn bosibl i mi, ac ni wnaf byth, wneyd unrhyw ddadgyffesiad, gan nad ydyw nac yn ddiogel nac yn onest i neb weithredu yn erbyn cydwybod. Fel hyn yr wyf yn sefyll: nis gallaf wneyd yn wahanol. Duw a'm cynnorthwyo! Amen." Gwnaeth yr araeth hon argraff ddofn. Tarawyd yr ymherawdwr ei hunan â syndod. "Os na thynwch chwi yn ol," meddai y canghellydd eilwaith, "fe edrych yr ymherawdwr a thaleithiau yr ymherodraeth beth a ddylid ei wneuthur i heretic cyndyn." "Duw a'm cynnorthwyo," ebai Luther; "nis gallaf alw dim yn ol." Yna efe a aeth allan, gan adael y cynghor i gydymgynghori. Pan alwyd arno drachefn, gwnaed ymdrech arall i gael ganddo dynu yn ol. Trinwyd ei appeliad at yr Ysgrythyrau gyda diystyrwch, gan ei fod wedi adnewyddu cyfeiliornadau a gondemniasid gan gymmanfa Constance; fel pe buasai awdurdod cymmanfa Constance yn uwch na gair Duw! Ac i derfynu.

Digitized by Google

dywedodd y canghellydd, "Mae yr ymherawdwr yn gorchymyn i chwi ddywedyd yn syml, *ie* neu *nage*, pa un a ydych yn bwriadu amddiffyn pa beth bynag a ddywedasoch, neu a ydych am dynu rhan yn ol?" "Nid oes genyf un ateb i'w roddi heb law yr hwn a roddais eisoes," oedd ateb Luther.

Wedi dwyn tystiolaeth ardderchog fel hyn i'r gwirionedd, efe a aeth o'r gymmanfa, yn nghanol cymmeradwyaeth ei gyfeillion, ac ysgrechiadau a hyssiau y Pabyddion. Yr oedd ei letty yn ymgyrchfa rhai o gyffelyb ysbryd, y rhai oedd yn ymwthio ato i gynnyg eu hanerchiadau a'u cydymdeimlad, ac i'w gefnogi i ddal ei dir trwy yr ymrysonfa. Ond yn mysg y gelynion, yr oedd dyryswch ac ammheuaeth yn ffynu. Penderfynwyd gwneyd un cynnyg arall. Yr oedd archesgob Treves, i'r hwn yr oedd yr achos wedi ei gyflwyno, yn dra awyddus am lwyddo. Cafodd amryw ymweliadau â Luther, a llafuriodd yn galed er ceisio ganddo ymostwng i farn y cynghor, neu i gymmanfa gyffredinol. Ond bu ei holl ymdrechion yn ofer: nid aberthai Luther air Duw. "Rhoddaf fy mherson a'm bywyd," eb efe, "yn nwylaw yr ymherawdwr; ond nid gair Duw—byth!" Hònai hawl pob Cristion i farn bersonol: os cydsyniai â chynghor, gwnelai hyny ar ammod yn unig fod y cynghor i gael ei orfodi i farnu yn ol yr Ysgrythyr. Cymmerodd dadleuon hirfaith le ar ol hyn. Mynai rhai dori y deithnawdd (*safe-conduct*), a chymhellid yr ymherawdwr i ddal Luther, a'i roddi i farwolaeth. Ond dirmygai tywysogion coethedig yr Almaen y fath gynnyg bas. Yr oedd Charles ei hun, er mor ddallbleidiol ydoedd, yn ymwarchod rhag gwneuthur hyny. Efe a lefodd, gan ddywedyd, "Pe yr alltudid ymddiriedaeth o'r holl ddaiar, eto dylai gael nawdd yn llysoedd breninoedd."

Wedi derbyn caniatad, gadawodd Luther Worms ar y 26ain o Ebrill, ac aeth yn mlaen yn hamddenol ar ei ffordd tua Wittemberg. Wedi iddo gyrhaedd cyffiniau coedwig Thuringian, yn agos i Altenstein, ymosodwyd arno gan bump o farchogion arfog, â mwgwd ar eu gwynebau, y rhai a'i gosodasant ar farch gweili, a dygasant ef ar hyd ffordd hir amgylchog i hen gastell, lle yr oedd i aros mewn caethiwed anrhydeddus.

Castell Wartburg, hen breswylfod tiriarllod Thoringia, oedd i fod yn lle ei alltudiad dros amser. Cynlluniwyd ei guddio yno gan ei gyfeillion, trwy wybodaeth etholydd Saxony; ac, fel y tybir gan rai, trwy oddefiad yr ymherawdwr ei hun—yr hwn, pa mor benderfynol bynag oedd dros ddal i fyny y Babaeth, ni fynai dynu arno ei hun ddigofaint yr Almaen trwy draisymosodiad ar y diwygiwr. Wedi i Luther ymadael, chwalwyd y cynghor gan ymrysonau ffyrnig; pa fodd bynag, y trefniant Pabaidd a lwyddodd yn y diwedd. Wedi i genadau y pab, trwy ymdrech diflino, gael dyfarniad Worms i gollfarnu Luther a'i ymlynwyr, gan orchymyn iddynt gael eu dal a'u trosglwyddo i'r awdurdodau; condemniwyd ei ysgrifeniadau, a chyhoeddwyd rhyfel o ddifodiad yn erbyn yr achos a bleidiai. Yr oedd y cenadau hyn yn crechwen yn eu goruchafiaeth, er y gwyddent yn dda, yn ol sefyllfa y teimlad oedd yn yr Almaen ar y pryd, fod yn annichonadwy rhoddi y dyfarniad mewn grym heb hyrddio y wlad i ganol dychrynfeydd rhyfel cartrefol. Ond nid oeddynt hwy na'u meistr yn gofalu dim pa ofidiau a ddygid ar ereill, os gellid chwyddo trysor yr eglwys drwy hyny, a chynnal ei awdurdod yntau. "Y mae dau ddywediad i Aleander wedi eu cofnodi," medd Waddington, "sydd yn profi ei fod ef yn barod i gyflawnu y trychinebau y cymmerai arno ymwarchod rhagddynt." "Os bydd i chwi, yr Almaeniaid," eb efe, cyn hyn, "y rhai sydd yn cyfranu leiaf o bob Cristionogion i lys Rhufain, ysgwyd ymaith iau y pab, bydd i ninnau fod yn ddigon gofalus am ddarpar y bydd i chwi feirw yn eich gwaed eich hunain, wedi ei dywallt gan ddwylaw y naill y llall." A phan y daeth llafur y cynghor o'r diwedd i ben, cyfarchodd ei gydymaith, Caraccioli, yn y geiriau canlynol, fel math o esboniad ar eu somedigaeth gyntaf, a'u llwyddiant yn y diwedd:—"Wel, Caraccioli, os na lwyddasom i gyflawnu dim pur odidog yn y cynghor hwn, eto mae yn sicr ein bod, trwy y dyfarniad hwn, wedi troi yr holl wlad yn un lladd-dy mawr, yn yr hwn y bydd i'r Almaeniaid, trwy ymgynddeiriogi yn erbyn eu gilydd, fygu yn fuan yn eu gwaed eu hunain!"

Y mae Wartburg yn lle cyssegredig. Yno y cyfansoddodd Luther waith a ysgydwodd allu y pab yn yr Almaen hyd ei sylfaen. Y prif bethau y tywalltai efe ei hyawdledd anorchfygol yn eu herbyn oedd clust-gyffesiad, offerenau dirgel, ac addunedau mynachol. Daliodd hwynt allan fel pethau i'w dirmygu gan ddynion; a phrofodd yn foddhaol eu bod yn groes i air Duw, ac i ryddid Cristionogion. Ond ei waith mwyaf oedd ei gyfieithiad o'r Testament Newydd i'r iaith Almaeneg. Yn Wartburg y gwnaethpwyd hwnw hefyd. Hwn ydyw y gofadail ardderchocaf o'i athrylith, a'r rhodd benaf a gafodd yr Almaen hyd y dydd hwn. Cyhoeddwyd y gyfrol yn Medi, 1522; a derbyniwyd hi gyda diolchgarwch a llawenydd gan y rhai oedd yn caru y gwirionedd; ond condemniwyd a llosgwyd hi yn gyhoeddus mewn llawer o fanau gan y Pabyddion dallbleidiol. Yr oedd y lefain yn gweithio yn rymus yn Wittemberg yn absennoldeb Luther. Hyd yn hyn yr oedd cyfeillion y Diwygiad wedi boddloni ar addunedu ac amddiffyn eu hegwyddorion. Nid oedd cymhwysiad yr egwyddorion hyny at ymarferiad eto ddim wedi ei gyflawnu. Ond o'r diwedd fe ddaeth amser i weithredu. Gadawodd tri ar ddeg o fynachod yr abatty, a thynasant eu haddunedau yn ol. Priododd Feldkirchen, person Kemberg—un o gyfeillion boreuaf Luther. Dilynodd amryw offeiriaid ereill ei esampl. Ar ddydd Nadolig, 1521, adferodd Carlstadt swper yr Arglwydd i'r bobl yn gyhoeddus, gan roddi y ddwy elfen iddynt, a gweinyddu yn yr iaith Almaeneg. Yr oedd y pethau hyn yn ddygwyddiadau pwysig. Yr oeddynt yn ddechreuad y Diwygiad o ddifrif. Ac nid yn Wittemberg yn unig yr oedd y gwaith mawr yn myned rhagddo. Cyfododd amddiffynwyr i'r efengyl yn Erfurth, Friberg, a manau ereill, gan y rhai yr amddiffynid athrawiaethau y Beibl yn selog, ac y lledaenid hwynt yn eang. Darfu i rai anghydfyddiaethau, a dorasant allan yn Wittemberg, o achos brys a thanbeidrwydd Carlstadt yn dwyn diwygiadau allanol i mewn, yn nghyd â chyfodiad ysbryd penboeth, fygwth perygl dros amser, a pheri i Luther ddychwelyd i'w orsaf, er iddo beryglu ei fywyd trwy hyny. Ar ei ddychweliad i Wittemberg yr ail waith, Mawrth 6ed, 1522, ymaflodd yn ei hoff orchwyl yn ddioed, a hyny gyda'i lwyddiant arferol.

O amrywiol gynnyrchion ei bin o gylch yr amser yma, y mwyaf grymus oedd ei draethawd yn erbyn y pab a'r esgobion, a'i ateb i lyfr Harri



Digitized by Google

VIII. ar y saith sacrament. Yr oedd hyfder ei ddull, a rhwyddineb ei syniadau, yn gwallgofi gelynion yr efengyl. Ond trwy rym ymresymiad yn unig yr ewyllysiai efe orchfygu: yr oedd yn casau defnyddio gallu gwladol, a dysgai yr athrawiaeth ddyeithr—dyeithr hyd yn oed i wir Gristionogion yr oes hono, a dyeithr i rai eto—fod gwirionedd i'w ledaeuu a'i amddiffyn, nid trwy dân a chleddyf, ond trwy air Duw ac argyhoeddiad y farn. Ac nid oedd efe yn cyfyngu y defnyddiad na'r eglurhad o'r gyfrol sanctaidd. Yr oedd yn amddiffyn hawl i farn bersonol yn y modd mwyaf penderfynol. "Mae yr hawl, eb efe, "i chwilio a barnu mewn perthynas i faterion ffydd, yn perthyn i bob Cristion yn bersonol; ac y mae yn perthyn iddynt mor hollol, fel mai melldigedig a fyddo yr hwn a gyfyngo drwch y blewyn arno. Y mae Crist wedi ei sefydlu trwy luaws o ddadganiadau anwrthbrofadwy.......Gan hyny, y mae ganddynt nid yn unig hawl i farn bersonol, ond y mae yn ddyledswydd arnynt ffurfio y cyfryw farn; ac y mae yr awdurdod hon yn gwrthbwyso yn rhwydd opiniynau yr holl babau, yr holl dadau, yr holl gynghorau, a'r holl ysgolion sydd yn cyfyngu yr hawl hono i'r esgobion a'r gweinidogion, ac yn ei thraisgipio yn annuwiol a chyssegr-ysbeilgar oddi ar y bobl, y rhai mewn gwirionedd yw yr eglwys."

Ar farwolaeth Leo X, Rhagfyr 2il, 1521, llanwyd y gadair Babyddol gan Adrian VI, dallbleidiwr difeddwl, cynlluniau yr hwn ni foddhäai unrhyw ddosbarth. Yr oedd ei genad, Cheregate, yn nghynghor Nuremberg: ac ar ol cynghori y tywysogion oedd yn bresennol i roddi dyfarniad Worms mewn grym, amlygodd, yn enw ei feistr, syniad dwys o'r angenrheidrwydd am ddiwygiad. Atebwyd y rhan olaf o'i araeth yn barod gan y cynghor, trwy gyhoeddi papyryn a elwid "Y Càn Gormes," yn amlygu i'r byd yr ysgelerderau a arferwyd yn yr Almaen am hir amser. Ni ddaeth dim daioni ymarferol oddi wrth y mesur hwn; ac ni ddeilliodd dim drwg neillduol o hono chwaith. Gwrthododd y cynghor ateb yr annogaethau a dderbyniasant i lethu y symmudiad newydd trwy orthrech; yr hyn a barodd i Luther ymhyfhau i ddwyn rhai pethau newyddion i'r addoliad, ac yn eu plith ei egwyddorion tra hysbys ei hunan. Yr oedd ar y dechreu yn wylaidd ac yn gynnil. Gwaharddwyd addoli yr elfenau; sefydlwyd y ddwy elfen yn y cymun; diddymwyd lluaws o'r gwyliau; rhoddwyd cyfarwyddyd i ddarllen rhanau o'r Ysgrythyrau yn yr addoliad cyhoeddus; annogwyd pregethu yn fynych, a hyfforddi y cymunwyr trwy eu cateceisio. Er mwyn cefnogi canu fel rhan bwysig o'r addoliad cyhoeddus, tröed y Salmau i fesur cerdd yn yr Almaeneg, a chyfansoddwyd hymnau yn yr un iaith. Cynghorwyd pawb i ddarllen yr Ysgrythyrau yn ddiwyd. Trwy y dulliau doeth a gofalus hyn, parotowyd y ffordd i gyfnewidiadau chwanegol, pan y byddai meddwl y werin yn barod i'w derbyn. Nis gellid cyhuddo Luther o fyrbwyllder. Ei arfer gwastadol oedd hyfforddi y bobl yn gyntaf, ac yna troi yr hyfforddiadau hyny i ymarferiad yn raddol. Rhoddwyd y cyfnewidiadau a nodwyd mewn ymarferiad mewn llawer o fanau, mewn cydsyniad â'i annogaethau ef, ac wedi eu cymmedroli yn ol barn y rhai a'u rhoddent mewn gweithrediad. Yr oedd eu dygiad i ymarferiad yn cael ei ragflaenu yn wastad gan bregethiad ffyddlawn o'r efengyl. Wedi i gariad y gwirionedd gael ei blanu yn ddwfn yn nghalonau dynion, nis gallant mwyach arfer yr ofergoelion a guddiant ac a rwystrant y gwirionedd. Cymmerodd y chwyldroadau eglwysig hyn le yn Frankfort-on-the-Maine, Strasburg, Ulm, Halle, Bremen, Magdeburg, Nuremberg, a Hamburg; yn Stettin, Sunda, a Stolpen yn Pomerania, a thrwy holl ddugiaethau Mecklenburg a Holstein. Yr oedd esgobion Samland a Breslau yn ffafriol i'r achos da; ac yr oedd Frederic etholydd breiniol; Louis, iarll breiniol; ac iarll Hesse, yn cefnogi lledaeniad yr efengyl a darostyngiad ymarferiadau ofergoelus, yn eu tiriogaethau.

Bu farw Adrian VI. yn Medi, 1523, a dilynwyd ef gan Clement VII—dyn o gymmeriad gwahanol, yr hwn yn ddioed a ddiddymodd holl fesurau diwygiadol ei ragflaenor. Cafodd Campeggio, ei genad yn nghynghor Nuremberg, ei boeni yn fawr wrth ganfod nas gallai efe ddarostwng y syniadau newyddion trwy orthrech. Pa fodd bynag, llwyddodd i ffurfio cynghrair rhwng y tywysogion oedd yn para yn ffyddlawn i'r Babaeth, trwy yr hwn yr ymrwymasant i ragflaenu pob peth newydd yn eu taleithiau hwy, ac i ddileu heresi cyn belled ag yr oedd yn bosibl.

Mai 5ed, 1525, bu farw etholydd Saxony yn ffydd yr efengyl. Perchir ei enw byth fel cyfaill ffyddlawn i Luther. Cerddodd John Frederick, ei olynwr, yn ei lwybrau. Yr oedd y Diwygiad yn yr Almaen dan rwymau mawrion i'w ofal meithrinol ef. Yn y mis canlynol, priododd Luther. Ymddengys ddarfod i'r dygwyddiad yma beri llawenydd dros amser i elynion y gwirionedd, y rhai a edrychent ar y peth fel gweithred mynach anudonog. Ond yr oedd yn gwbl gysson â'i olygiadau ef fel un wedi newid. Yr oedd wedi ymwrthod â'i broffes fynachaidd er ys cryn amser bellach, am hyny arddangosiad ymarferol oedd ei briodas o'r syniadau a goleddai efe yn awr fel y rhai mwyaf cysson â gair Duw. Gwrthddrych ei ddewisiad oedd Katherine à Bora—un o'r naw lleian a adawsant y lleiandy yn wirfoddol o gylch dwy flynedd cyn hyny, er mwyn ail ddechreu byw, a chyflawnu y dyledswyddau a drefnodd rhagluniaeth i'r rhyw fenywaidd. Yr oedd yn undeb doeth a dedwydd. O gylch yr un amser cafodd y Diwygiad chwanegiad mawr o ran rhif a nerth. Ennillwyd dinas Dantzic. Ymunodd Oldenburg, Hannau, a Tacklenburg, â dilynwyr y gwirionedd. Cofleidiodd Albert, prif athraw o'r radd Deutonig, egwyddorion y Diwygiad, yn nghyd â'i holl farchogion, ac aethant i'r sefyllfa briodasol. Y canlyniad fu sefydlu dugiaeth Prussia. Albert oedd y dug cyntaf.

Mewn parthau ereill o'r Almaen, yr oedd erlidigaeth yn cyflawnu ei gorchwylion gwaedlyd. Llwyddodd yr offeiriaid i gynhyrfu y bobloggaeth i ddial dros amser ar genadon y gwirionedd. Yn Buda, yn Hungary, sicrhawyd llyfrwerthwr oedd yn ymdrechu lledaenu y Testament Newydd ac ysgrifeniadau Luther, wrth ystanc; ac wedi pentyru ei lyfrau o'i amgylch, llosgwyd ef yn eu canol i farwolaeth. Cyflawnwyd y creulonderau mwyaf echryslawn yn Wurberg. Crogwyd rhai ar brenau y goedwig. Hoeliwyd llawer o bregethwyr wrth byst gerfydd eu tafodau, gan eu gadael i ymryddhau fel y gallent. Gwnaed Bavaria yn anghyfannedd gan y dymmestl. Yn Holstein, llofruddiwyd Henry o Zutphen, gweinidog enwog i Grist, yn farbaraidd. Wedi iddo fyned i Mohldorf, ar wahoddiad y person, i bregethu yr efengyl, daliwyd ef yn nyfnder y nos gan y werin anwar, yn cael eu blaenori gan fynach Dominicaidd; ac

Digitized by Google

wedi ei osod dan ffug o brawf, rhoddwyd ef i farwolaeth yn y modd mwyaf creulawn.

Os oedd y dygwyddiadau hyn yn llenwi Luther â galar o blegid dyoddefiadau ei gyfeillion a'i frodyr, yr oedd yn gweled ynddynt weithrediadau naturiol ysbryd annuwioldeb, ac yn llawenychu yn y sicrwydd fod Satan yn ofni am ei deyrnas. Yr oedd rhyfel y werin yn effeithio yn wahanol arno. Yr oedd hono yn peri iddo ofid a dygasedd digymmysg: gofid o blegid y trueni y camarweinid y bobl iddo, y rhai a annogwyd i wrthryfel trwy orthrymderau hirbarhaol; a dygasedd o blegid penboethni arweinwyr y gwrthryfel, a'r bai a daflent mor annheilwng ar y Diwygiad, fel pe buasai yn achos digyfrwng o'r symmudiad. Y mae hyn yn cael ei haeru yn fynych, ond ni chafodd erioed ei brofi. Mewn gwirionedd, yn nhiriogaethau y tywysogion eglwysyddol a wrthsafasent yr efengyl, ac a waharddasent ymdrechiadau y Diwygwyr, y cymmerodd y gwrthryfel le gyntaf. Mae yn dra hysbys ei fod wedi cymmeryd gwedd grefyddol; ond nid oedd Luther yn gyfrifol am hyny. Nid oedd un cyssylltiad chwaith rhwng y gwrthryfelwyr ag ef. Os darfu iddynt gamddeall a chamgymhwyso yr egwyddorion a bleidiai efe, nid arno ef yn ddiau yr oedd y bai am hyny. Mae yn sicr fod eu gwaith yn defnyddio arfau yn achos crefydd yn gwbl groes i'r syniadau a fynegodd efe laweroedd o weithiau. Yr oedd yr ymryson annedwydd hwn yn gofyn chwaneg o'i egnion. Cymmerwyd y rhan fwyaf o'r blynyddoedd 1524 a 1525 i fyny fel hyn. Ymwelodd âg amryw fanau lle yr oedd y gwrthryfel wedi tori allan, a gwnaeth ymdrechiadau mawrion i adfer y bobl i sefyllfa dangnefeddus; dynoethodd ffug honiadau Munzer a'i gymdeithion; ac annogodd dywysogion yr Almaen i fod yn dyner, cymmedrlawn, a chyfiawn. Ni newidiodd ei dymmer ef hyd onid aeth y werin yn gwbl anhydrin, trwy anrheithio y wlad â'u difrodau creulawn, heb arbed neb; ac yna, rhaid cyfaddef iddo ysgrifenu mewn dull nad oedd weddus i weinidog efengyl y tangnefedd, trwy annog yr awdurdodau i ddefnyddio moddion cryfion a dinystriol, ac i weinyddu barn heb drugaredd.

Pa mor chwanog bynag oedd yr ymherawdwr i ddiwreiddio heresiaeth yn yr Almaen, canfu fod yn anmhosibl iddo gyrhaedd ei amcan. Cynnaliwyd cynghorau yn Augsburg yn 1525, ac yn Spires y flwyddyn ganlynol; yn mhob un o ba rai y dirgymhellai y llysgenadon ymherodrol i ddyfarniad Worms gael ei rhoddi mewn grym. Ond ni lwyddasant. Trwy benderfyniad cynghor Spires, cyhoeddwyd nas gellid trefnu yr anghydfod ag oedd yn bod mewn cyssylltiad â chrefydd, ond yn unig mewn cynghor cenedlaethol neu gyffredinol; gofynwyd i'r ymherawdwr alw yn nghyd y cyfryw gyfarfod; a phenderfynodd y tywysogion y llywodraethent eu taleithiau, yn y cyfamser, wrth eu doethineb, gan dalu sylw dyledus i ddeddfau blaenorol, ac yn y fath fodd ag i allu rhoddi cyfrif i Dduw ac i'r ymherawdwr. Yr oedd y sefyllfa hon ar bethau yn ddigon anmhenodol; ond nis gellid cael dim yn fwy penderfynol, gan mor nerthol ydoedd dylanwad egwyddorion y Diwygiad ar y gynnadledd.

Parhaodd pethau yn y sefyllfa hon am ddwy neu dair blynedd. Cymmerodd Luther fantais ar yr ysbaid tawel hwn i sefydlu cyfansoddiad newydd i'r eglwys yn y taleithiau ag oedd wedi derbyn y Diwygiad. Ni wnaeth ond ychydig o gyfnewidiadau yn y ffurfwasanaeth gyffredin. Diddymodd y cyfryw ddefodau ag yr oedd yn amlwg eu bod yn llygredig neu yn ynfyd. Dadganwyd nad oedd o bwys yn y byd pa un ai yn yr Almaeneg ai yn Lladin y cyflawnid y gwasanaeth cyhoeddus; ond yr oedd yr iaith flaenaf yn well, os nad oedd y bobl yn deall Lladin. Gosodwyd clust-gyffesiadau o'r neilldu. Darparwyd homiliau i'r gweinidogion hyny nas gallent bregethu, a holwyddoregau i'r bobl ieuainc. Nodwyd ychydig o'r gwyliau fel rhai i barhau; ond annogwyd y bobl i beidio gweddïo ar saint, gan nad oedd ond un Cyfryngwr, yr Arglwydd Iesu Grist. Yr oedd pechaduriaid cyhoeddus i gael eu cau allan oddi wrth fwrdd yr Arglwydd. Ni symmudwyd y delwau yn gyffredinol o'r eglwysydd. Parheid i ddefnyddio y gwisgoedd a llawer o'r hen ddefodau. Ni fernid bod yn ddoeth symmud a diddymu yr holl bethau hyn hyd nes y deuai y bobl yn fwy addfed a goleuedig. Fe wnaethpwyd trefniadau eang er cyfranu addysg i bobl ieuainc, at yr hyn beth y neillduwyd cyfran o gyllidoedd y mynachdai a ddiddymasid. Symmudwyd pregethwyr analluog ac anghyfaddas, a thalwobrwywyd hwy. Yr oedd y cyfryw ag a ddysgent athrawiaethau gau i gael eu diarddel; ac os parhaent i daenu eu hopiniynau, yr oeddynt i gael eu halltudio. Appwyntiwyd goruchwylwyr, dyledswydd pa rai oedd arolygu y cylchdeithiau a nodwyd iddynt, a gwneuthur adroddiad o bryd i bryd i'r prif awdurdodau gwladol.

Dengys y pethau a nodwyd fod y Diwygiad, yn ei gychwyniad, wedi ei seilio ar egwyddorion digon cymmedrol. Cyfaddefai Luther nad oedd efe yn gofalu ond ychydig yn nghylch y seremoniau, os na byddai yn amlwg eu bod yn bechadurus. Credai y trengai hygoeledd o hono ei hun, os pregethid y gwirionedd pur gyda dyfalwch, ac os parheid i gyfranu addysg gyffredinol.

Yn nghynghor yr ymherodraeth a gynnaliwyd yn Spires, yn ngwanwyn y flwyddyn 1529, y blaid Babaidd a fu yn fuddugoliaethus. Diddymwyd dyfarniad y cynghor blaenorol. Yr oedd y cyfnewidiadau ag oedd wedi eu gwneyd eisoes i aros, ond ni chaniateid dim cyfnewidiadau newyddion; nid oedd dim cyfnewidiadau i gael eu goddef yn y taleithiau hyny ag oedd yn parhau eto yn ffyddlawn i'r hen gyfundrefn; yr oedd yr offeren i gael ei hadferu yn y lleoedd yr oedd wedi ei diddymu; ac yr oedd yr efengyl i gael ei phregethu yn unol â deongliad yr eglwys, heb wneyd dim cyfeiriadau at bynciau dadleuol. Cyhoeddodd y Diwygwyr wrthdystiad (*protest*) difrifol yn erbyn y penderfyniadau uchod. Ni chydnabyddent hwy un awdurdod ar eu cydwybodau ond awdurdod Duw yn unig; nis gallent gydsynio i osod yr Ysgrythyr dan ddeongliad yr eglwys, yn gymmaint a bod gair Duw yn ddigon syml ynddo ei hun; ystyrient mai pechod oedd ail sefydlu yr offeren; y cwbl a ofynent oedd, fod i bob un gael amddiffyniad y llywodraeth, pa ffurf bynag o grefydd a fabwysiadai; gan hyny, appelient oddi wrth y cynghor at yr ymherawdwr, neu at gynghor cyffredinol, neu at unrhyw farnwr cymhwys. Yr oedd y gwrthdystiad wedi ei arwyddnodi gan chwe thywysog, a chan gynnrychiolwyr pedair ar ddeg o ddinasoedd ymherodrol. Y tywysogion oedd—etholydd Saxony, George o Brandenburg, Ernest a Francis o Lunenberg, Wolfgang o Anhalt, a Philip o Hesse; y dinasoedd oedd—Strasburg, Nuremberg, Ulm, Constance, Lindau, Memmingen, Kempten, Nordlingen, Heilbrun, Reutlingen,

Digitized by Google

Isne, Weissemburg, Winsheim, a St. Gal. Lledaenwyd y gwrthdystiad dros yr oll o'r Almaen yn uniongyrchol. Oddi wrth yr amgylchiad hwn y cafodd y rhai a ymneillduent oddi wrth Eglwys Rhufain eu galw yn *Brotestaniaid.*

Yn Hydref yr un flwyddyn y cynnaliwyd cynnadledd Marburg. Er y gwrthodai Luther yr athrawiaeth Babaidd o draws-sylweddiad, daliai athrawiaeth arall nad oedd nemawr wahaniaeth rhyngddi ond mewn enw yn unig. "Cydsylweddiad" ydyw yr enw wrth ba un yr adnabyddir hi. Y mae y Pabyddion yn credu fod y bara a'r gwin yn cael eu cyfnewid yn wirioneddol i gorff a gwaed yr Arglwydd Iesu Grist, gan gynnwys y cnawd a'r esgyrn, ac hyd yn oed yr enaid. Daliai Luther bod corff a gwaed yr Iachawdwr yn bresennol yn a chyda'r bara a'r gwin, fel y treiddia goleuni a gwres i wahanol sylweddau, eto heb heb gyfnewid dim ar ffurf y sylweddau. Ond yr oedd Zuingle, a diwygwyr ereill yn Switzerland, wedi myned lawer yn mhellach, ac wedi gwrthod y golygiadau hyn fel rhai anysgrythyrol. Gwadent y presennoldeb gwirioneddol yn hollol, a dalient mai yn ysbrydol yn unig y mae y Gwaredwr gyda'i bobl. Parodd y gwahaniaeth hwn i Luther ymddyeithrio oddi wrth amryw o'i frodyr. Nid oes un ammheuaeth nad oedd efe yn ddiffuant yn ei farn; ond ni ddaliai y gwirionedd, fel y deallai ef, mewn cariad. Yr oedd yn dra digofus ei ysbryd, ac angharedig ei ymddygiad, tuag at y rhai a broffesent olygiadau gwahanol iddo. Ymddangosai ymrwygiad yn anocheladwy; a chan y buasai hyny yn ddaioni dirfawr i'r achos Pabaidd, gwnai y Pabyddion gymmaint a allent er peri iddo dori allan. Yr oedd tywysog Hesse yn awyddus iawn i attal dygwyddiad a wnaethai gymmaint o niwed. Defnyddiodd gyfryngwriaeth Bucer, drwy offerynoldeb yr hwn y trefnwyd i gynnadledd gymmeryd lle rhwng y pleidiau gwrthwynebus. Cynnaliwyd hi yn Marburg ar y tri diwrnod cyntaf o Hydref, 1529. Ymddangosodd Luther a Melancthon ar un tu, a Zuingle ac Œcolampadius ar y tu arall. Bu yn hollol aflwyddianus: ymlynai y naill blaid a'r llall yn ddiysgog wrth eu daliadau ar ddiwedd y gynnadledd, fel yn ei dechreu. Ond addefasant eu gilydd yn uniongred yn holl bynciau hanfodol crefydd. Fel hyn, tra y cydsyniai y diwygwyr yn nghylch prif wirioneddau yr efengyl, gwahaniaethent yn eu golygiadau am y sacramentau. Bu y gwahaniaeth hwn yn rhwystr mawr ar ffordd llwyddiant y gwirionedd, mewn canlyniad i'r pwys mawr a roddai Luther ac ereill ar y sacramentau.

Penderfynodd yr ymherawdwr roddi terfyn ar y dadleuon yn nghylch crefydd, un ai trwy deg neu trwy hagr. Annogid ef gan y pab i ddewis y diweddaf. Ar ol cryn ymgynghori, penderfynwyd galw cynnadledd arall yn nghyd, yn mha un y gwneid yr ymdrech ddiweddaf i adferu y Protestaniaid. Os na lwyddai, yr oedd moddion treisiol i gael eu gosod mewn gweithrediad. Yn Augsburg yr oedd y gynnadledd i gael ei chynnal, a dechreuodd yn Mai, 1530. Yr oedd yno dyrfa fawr wedi ymgasglu yn nghyd. Dewiswyd tri o dduwinyddion Protestanaidd, sef Melancthon, Spalatin, a Justus Jonas, i amddiffyn achos y gwirionedd. Gwyliai Luther weithrediadau y gynnadledd yn nghastell Coburg — amddiffynfa berthynol i etholydd Saxony, yr hon a safai ar hanner y ffordd rhwng Wittemberg ac Augsburg. Buasai yn annoeth ac yn beryglus iddo fod yn bresennol ei hun yn y cynghor, yn ol pob tebygolrwydd.

Darparodd y blaid Brotestanaidd gyffes o'u daliadau gogyfer â'r gynnadledd. Adnabyddir hi yn bresennol mewn hanesiaeth dan yr enw "Cyffes Augsburg." Melancthon oedd ei hawdwr; ond derbyniodd gymmeradwyaeth Luther, a duwinyddion ereill. Am gynnwysiad y gyffes, yn nghyd â'i hanes yn gyflawn, gwel CYFFES AUGSBURG. Effeithiodd darlleniad y gyffes yn ddwfn ar y gynnulleidfa; a dywedir yr edrychai hyd yn oed yr ymherawdwr yn fwy ffafriol ar Brotestaniaeth byth ar ol hyn. Ond yr oedd efe wedi rhwymo ei hun yn annattodadwy i amddiffyn y pab. Ac ni ewyllysiai ddweyd na gwneyd dim a dueddai yn y radd leiaf i ddarostwng yr anrhydedd a chwennychai o fod yn amddiffynydd y ffydd. Ar yr un pryd, yr oedd yn awyddus i osgoi y gwaradwydd o fod yn erlidiwr, ac i ddarbwyllo y Protestaniaid i ymostwng; ac er mwyn hyny, ymgymmerodd â sicrhau y cynnelid cynghor cyffredinol i benderfynu y ddadl. Gyda yr amcanion hyn, darparwyd gwrthdystiad yn erbyn y gyffes gan y duwinyddion Pabaidd oedd yn bresennol yn y gynnadledd, a gwnaethpwyd ymdrechion i uno y pleidiau. Ond bu y cwbl yn ofer, fel y gallesid dysgwyl. Nid ymostyngai y Protestaniaid mewn materion oedd yn dwyn perthynas â'u cydwybodau i un awdurdod ond awdurdod gair Duw, ac ni thynai y Pabyddion un iod oddi wrth hòniadau y pab. Ar ddiwedd y gynnadledd, yn Tachwedd, cyhoeddwyd rheithbarch lem, yn gwahardd pob cyfnewidiadau mewn athrawiaeth ac addoliad; yn gorchymyn adferu y delwau, yr hen ddefodau a'r seremoniau, y gweddïo ar saint, a'r ymprydiau a'r gwyliau; yn hysbysu bod yn rhaid ail adeiladu y mynachdai ag oedd wedi eu dinystrio, ac adferu eu cyllidoedd; ac yn darparu at osod y penderfyniadau hyn mewn gweithrediad drwy rym milwrol.

Yr oedd Luther yn dawel a diysgog ei feddwl, fel arferol, yn nghanol terfysg blin y cyfnod profedigaethus hwn. Ac nid rhyfedd, canys yr oedd efe "yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, ac yn aros yn nghysgod yr Hollalluog." Rhoddodd cyfaill ag oedd gydag ef yn nghastell Coburg yr hanes canlynol am ei arferion defosiynol:—"Nid oes un diwrnod yn myned heibio nad ydyw yn treulio tair awr i weddïo. Dygwyddais ei glywed yn gweddïo unwaith. Bendigedig fyddo Duw! y fath ysbryd a'r fath ffydd sydd hyd yn oed yn ei eiriau! Enfyn ei erfyniadau gyda'r parch ag sydd yn ddyledus i Dduw, eto gyda'r fath hyder a ffydd fel pe byddai yn teimlo ei fod yn ymddyddan â thad ac â chyfaill." Barnodd y Protestaniaid fod yr amgylchiadau presennol y fath, fel y buasai yn gyfreithlawn iddynt gymmeryd arfau i amddiffyn eu hunain a'u hachos. Mewn canlyniad, cynnaliwyd cyfarfod yn Smalcald; ac ar yr 31ain o Ragfyr, fe arwyddwyd cynghrair Smalcald, yn yr hwn yr ymunai y tywysogion a'r taleithiau Protestanaidd yn un corff i amddiffyn eu gilydd,

Tros rai blyneddoedd ar ol cynnadledd Augsburg, ni chymmerodd un dygwyddiad le yn yr Almaen a niweidiodd nemawr ar achos y Diwygiad. Annogai y pab yr ymherawdwr i arfer mesurau gorfodol; galwai yr ymherawdwr arno yntau i wysio cynghor cyffredinol. Nid ymostyngai un o honynt i gydsynio â chais y llall, ac felly diangodd y diniweid. Bu dyfodiad byddin y Tyrciaid at gyffiniau Awstria yn foddion i ddychrynu Charles; a chymhellwyd ef i gytuno

Digitized by Google

â'r Protestaniaid, Awst 5ed, 1532, am heddwch byr, yr hyn a ddiddymodd yn rhinweddol ddeddfau Worms ac Augsburg, gan eu gadael hwythau yn y mwynhad o'u breintiau crefyddol. Parhaodd pethau yn y sefyllfa hon hyd farwolaeth Clement VII, yr hyn a gymmerodd le Medi 26ain, 1534. Proffesai ei olynydd, Paul III, sel mawr am ddiwygiad, ac appwyntiodd bwyllgor o gardinaliaid ac esgobion i chwilio i mewn i'r gwallau ag yr oedd angen am eu diwygio. Dadguddiodd eu hadroddiad bethau y buasai yn dda gan lys Rhufain allu eu cuddio oddi wrth y cyhoedd: ond disgynodd copi o hono pa fodd bynag, drwy ryw ddamwain, i ddwylaw Protestaniaid, a chyhoeddwyd ef yn uniongyrchol yn yr Almaen, gyda sylwadau priodol gan Luther. Ond er cael yr adroddiad hwn, ac er addef bod angen am ddiwygiad, ymesgusodent rhag ei ddwyn oddi amgylch drwy ddyweyd na ddaethai yr amser eto. Penderfynwyd, pa fodd bynag, cyflwyno yr holl achos i gynghor ag yr oedd y pab newydd wedi ei wysio i ymgynnull yn Mantua, yn y flwyddyn 1537. Ni chynnaliwyd y cynghor byth. Gwrthododd y Protestaniaid gydsynio â chais y pab. Dadleuasant yn erbyn y *lle*:—nid Italy oedd y wlad yn mha un y dylesid cynnull yn nghyd y fath gyfarfod; a phe yr aethent yno, nis gallent deimlo eu hunain yn ddiogel. Ni fynent y pab yn llywydd chwaith, canys nid ystyrient fod yn briodol iddo gael barnu yn ei achos ei hun. Ac yn ddiweddaf, ni addawent blygu i awdurdod hen ganonau ac ysgrifeniadau y tadau; ond mai i air Duw yn unig yr ymostyngent. Gosodwyd rhwystrau ereill anorfod, heb law y rhai hyn, ar y ffordd. Gan i dduc Mantua wrthod derbyn y gynnadledd i'w ddinas, gohiriwyd hi, ac appwyntiwyd hi i gymmeryd lle yn Vicenza; ond pan y cyrhaeddodd y llysgenadon Pabaidd i'r ddinas hono yn Mai, 1538, gwelsant nad oedd un gobaith y cynnelid hi. Yr oedd y rhyfel ag oedd ar y pryd rhwng yr ymherawdwr a Francis I yn rhwystr i esgobion Ffrainc a'r Almaen ddyfod i'r lle appwyntiedig; ac yr oedd gwrthodiad y Protestaniaid i ymostwng yn eithaf hysbys. Mewn canlyniad i'r pethau hyn, gorfodwyd y pab i oedi y gynnadledd hyd amser annhenodol; ond ni chynnaliwyd hi byth.

Yn ystod yr holl amser yma, yr oedd Protestaniaeth yn gweithio ei ffordd yn dawel. Yr oedd amcanion y rhai oedd yn sychedu am waed yn cael eu dyrysu, trwy drugaredd, o flwyddyn i flwyddyn; ac felly yr oedd yr eglwysi yn cael hamdden i gynnyddu, ac i gryfhau yn y ffydd a dderbyniasant, cystal ag i drefnu y ddysgyblaeth oedd yn angenrheidiol er cadw purdeb a threfn. Cymmerodd rhai dygwyddiadau anffodus le, ond prin yr oeddynt yn perthyn i hanes y Diwygiad. Yn mysg y rhai hyn, gellir crybwyll y blinderau a achoswyd gan Ailfedyddwyr penboeth Munster, a'r dadleuon â'r Sacramentariaid, megys duwinyddion Switzerland, a'r rhai a ddalient wahanol opiniynau ar swper yr Arglwydd. Yr oedd y pethau hyn yn effeithio yn niweidiol: y naill trwy gyssylltu y diwygwyr mewn ymddangosiad â dynion anfoesol, cwbl annheilwng o freintiau cymdeithasol; a'r lleill, trwy osod Luther a'i gydlafurwyr mewn sefyllfa anghariadus fel gwrthwynebwyr croes i rai a fuasent yn ewyllysio aros yn gyfeillion a chynnorthwywyr yn yr achos da. Yr oedd gwrthod ymuno â'r Sacramentariaid fel corff crefyddol, neu adael iddynt gyfranogi o fanteision tybiedig cynghrair Smalcald, yn hollol anesgusodol. Mae yn ofidus fod Luther wedi goddef i ragfarnau a theimladau o'r fath ddylanwadu arno; oherwydd i'w gynghor ef yn benaf y rhaid priodoli ymddygiadau y diwygwyr Almaenaidd yn y peth hwn. Gall y doethaf gyfeiliorni, a'r sancteiddiaf gwympo. Gwnaed cynnygion mynych i adfer cydweithrediad; ond yr oeddynt yn aneffeithiol, o blegid eu bod wedi eu seilio ar egwyddorion nas gallai y ddwyblaid eu cydnabod. Mynasai Charles lethu y diwygwyr trwy orthrech, oni buasai iddo gael ei attal gan ryfel niweidiol â Ffrainc, a chan ymddangosiad bygythiol y Tyrciaid. Gorfodwyd ef i blygu i amgylchiadau, ac i ail gadarnhau heddwch Ratisbon.

Yn y cynghor a gynnaliwyd yn Spires, Chwefror, 1542, cynnygiodd Morone, llysgenadwr y pab, Trent, fel lle cymhwys i'r cynghor a hirddysgwyliwyd. Cydsyniodd y blaid Babyddol yn rhwydd; ond ail adroddodd y Protestaniaid eu gwrthwynebiad, o blegid y rhesymau a roddwyd eisoes. Er hyny, cyhoeddwyd gwys y cynnulliad, ac archwyd i'r cynghor gyfarfod yn y Rhagfyr canlynol. Ond yr oedd yr un achosion ag a rwystrasai yr ymgynnulliad yn fynych o'r blaen ar droed eto. Yn 1544, wedi i Charles a Francis ddyhysbyddu eu nerth trwy ryfel hirfaith, llawnodwyd heddwch Crespi. Ar ol symmud y rhwystr yma, dygwyd allan wys arall i gynnuil y cynghor neu y gymmanfa, yr hon a agorwyd Rhagfyr 13eg, 1545. Parhaodd y Protestaniaid i wrthod cydnabod y gymmanfa hon, ac i wrthod rhoddi cynnorthwy mewn un modd gyda golwg ar ei hymgynghoriad. Cawsant eu cefnogi yn fawr yn ddiweddar trwy i'r etholydd breiniol ymuno â'u hachos, a thrwy ddyrchafiad Henry, Protestant cadarn, i ddugiaeth Saxony, a aeth yn wag trwy farwolaeth ei frawd George, yr hwn a barhäai hyd ei fedd yn ymlynydd dallbleidiol wrth Babyddiaeth. Gwahoddwyd Luther i Leipsic ar yr achlysur, a phregethodd mor rymus fel y cofleidiodd yr holl ddinas Brotestaniaeth; a chwanegwyd tiriogaethau y duc ymadawedig at nifer y rhai a lywodraethid gan amddiffynwyr gwirionedd yr efengyl.

Gwrthweithiwyd y manteision hyn trwy ddygwyddiad galarus, sef marwolaeth Luther. Erbyn hyn, yr oedd y prif weithredwyr oedd ar chwareufa ystormus dechreuad y Diwygiad Protestanaidd wedi myned i "ffordd yr holl ddaiar." Yr oedd gyrfa Tetzel wedi terfynu yn druenus yn 1519. Bu farw y Cardinal Cajetan yn 1534. Terfynodd llafur Erasmus yn Gorphenaf, 1536, yn Basle—dinas y treuliodd ran fawr o'i amser ynddi, ac yn yr hon y cyfansoddodd ei brif waith. Bu Campeggio fyw hyd 1539, ac Eck hyd 1543. Aeth Carlstadt, sel fyrbwyll yr hwn a barasai gymmaint o flinder i Luther, i orphwys yn 1541. Ymadawodd Spalatin, cyfaill ffyddlawn y diwygiwr, â'r bywyd hwn yn Ionawr, 1545. Daeth gwys i Luther y flwyddyn ganlynol; a newidiodd efe y ddaiar am y nef, Chwefror 18fed, 1546.

Gan fod rhyw ddadl rhwng iarllod Mansfield yn nghylch eu tiriogaethau, gwahoddwyd Luther i gyfryngu rhyngddynt. Efe a aeth i Eisleben i'r dyben hwnw o gylch mis cyn ei farwolaeth, yn cael ei ddilyn gan ei ddau fab, a Justus Jonas, a threuliodd ddyddiau olaf ei fywyd yn ymdrechu cyflawnu amcan ei ymweliad.

"O flaen drygfyd," medd y Beibl, "y cymmerir y cyfiawn ymaith." Felly y bu gyda golwg ar Luther. Yr oedd y pleidiau ymrysongar, ar yr amser y bu efe farw, yn ymbarotoi i

Digitized by Google

ryfel. Yr oedd Charles wedi penderfynu gorfodi y Protestaniaid i ymostwng i gymmanfa Trent. Yr oedd y llwybr a gymmerodd yn hynod o ran anghyfiawnder, bradwriaeth, a chreulondeb—pethau sydd yn ganlyniadau naturiol i egwyddorion annyoddefol Pabyddiaeth. Mae hanes y rhyfel yn perthyn i hanes lleol. Digon yw mynegu yma fod etholydd Saxony wedi ei orchfygu, a'i gymmeryd yn garcharor yn mrwydr Muhlberg, Ebrill 24ain, 1547. Cadwyd ef a thir-iarll Hesse mewn carchar am bum mlynedd. Dilynwyd y frwydr anffodus hono gan erlidigaeth ddychrynllyd. Gorlifodd byddinoedd yr ymherawdwr yr holl Almaen, gan arllwys dinystr a thrais ar weision yr Arglwydd. Yn ystod y flwyddyn ganlynol, cyhoeddwyd yr *Interim* nodedig, cynllun o athrawiaeth a dysgyblaeth wedi ei ffurfio trwy orchymyn yr ymherawdwr, ac yn cynnwys agos i bob peth gwrthwynebus mewn Pabyddiaeth, ond wedi ei draethu mewn iaith fwy tyner neu ammwys. Yr oedd i fod mewn grym trwy yr holl Almaen hyd derfyn cymmanfa Trent. Fel y rhan fwyaf o gynlluniau a wneir i geisio boddio pawb, felly ni foddiodd hwn neb. Darfu Maurice o Saxony, a rhyw ychydig ereill a deimlent eu hunain yn ddigon galluog i wrthsefyll, wrthod derbyn yr *Interim* yn benderfynol. Gorfodwyd y taleithiau gwanaf, ac amryw o'r dinasoedd rhyddion, trwy orthrech, a gwnaed iddynt ail dderbyn lledrithiau y Pabyddion—ond nid cyn tywallt llawer o waed—a chyflawnwyd anrhaith dychrynllyd. Parhaodd yr agwedd yma ar bethau dair blynedd, pan y dyoddefodd achos Cristiongaeth apostolaidd ddarostyngiad galarus. Yr oedd addoliad Protestanaidd wedi ei ddileu, a gweinidogion Protestanaidd wedi eu gyru o'u cartrefi, a'u gosod yn agored i bob caledi. Mor fawrion oedd y dyoddefiadau, ac mor gyffredinol oedd yr erledigaeth, fel y meddyliodd rhai mai yr amser a nodir yn y Datguddiad ydoedd, pan oedd y ddau dyst i gael eu lladd, ac y gadewid eu cyrff meirw heb eu claddu am "dridiau a hanner;" sef, tair blynedd a hanner, medd yr esbonwyr. Gwel *Dad.* xi.

Ond yr Arglwydd "a dâl yn helaeth i'r neb a wna falchder." Yr oedd Charles yn amcanu at rywbeth mwy nag adferu Pabyddiaeth: yr oedd efe yn bwriadu sefydlu unbenaeth ar adfeilion yr Almaen, a bod ei hun yn ymherawdwr yno fel yr oedd yn Yspaen. Cynhyrfodd hyn egnïon Maurice o Saxony, yr hwn oedd wedi bod hyd yn hyn yn offeryn iddo i ddarostwng y Protestaniaid. Ymddangosodd yn ddisymmwth mewn arfau o blaid hawliau ei gydwladwyr, yr hyn a darawodd yr ymherawdwr â syndod, gan iddo lwyddo bron i'w gymmeryd yn garcharor; a gorfododd ef i lawnodi heddwch Passau, trwy yr hyn y dychwelwyd Protestaniaeth i'w sefyllfa flaenorol. Canfyddwyd yn fuan fod terfynu yr ymryson rhwng y Pabyddion a'u gwrthwynebwyr yn gwbl annichonadwy. Yn nghynnadledd Augsburg, a gynnaliwyd yn 1555, cytunwyd ar "heddwch crefydd," a gydnabyddai hawliau cydwybod; a rhoddwyd rhyddid i broffesu ac addoli i Brotestaniaid yr Almaen. Rhyddhawyd hwy hefyd oddi wrth ddedfrydau esgobion yr Eglwys Babaidd; a chaniatawyd iddynt ffurfio y fath drefniadau ag a ewyllysient gyda golwg ar athrawiaeth, dysgyblaeth, a defodau. Caniatawyd i holl drigolion ymherodraeth yr Almaen rydd arfer yr hawl o farn bersonol mewn pethau crefyddol, ac ymuno â'r cymdeithasau a farnent hwy yn fwyaf cydweddus, o ran syniad ac o ran dull o addoliad, i'r cynllun dwyfol; a dadganwyd os byddai i neb niweidio neu erlid ereill o blegid eu syniadau crefyddol, y dylid myned yn eu herbyn fel gelynion cyhoeddus yr ymherodraeth—fel ymosodwyr ar eu rhyddid, ac fel aflonyddwyr eu heddwch. "Y mae yr anhawsderau oedd i fyned trwyddynt cyn y gellid cael y penderfyniad rhesymol yma," medd Mosheim—"yr ymgynghoriadau meithion, yr ymrysonau tanbaid, a'r rhyfeloedd gwaedlyd oedd i gymmeryd lle yn y rhan fwyaf o daleithiau yr Almaen, er eu dwyn i gydsynio â thelerau mor gysson â rheswm cywir, yn gystal ag â chyfarwyddiadau cyssegredig yr efengyl, yn dangos anwybodaeth ac ofergoeledd truenus yr amseroedd hyn, a saif ar lechres coffadwriaeth fel un o'r profion amlycaf o'r angenrheidrwydd am y Diwygiad." Fel hyn, mewn llai na deugain mlynedd, dirwasgwyd rhan dra phwysig o gyfandir Ewrop oddi tan lywodraeth Rhufain. Dywed Ranke fod Protestaniaeth yn ffynu weithiau yn yr Almaen o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o'r gogledd i'r de. "Yr oedd y pendefigion," eb efe, "yn tueddu ati o'r dechreu: yr oedd y gweinidogion swyddogol, oedd yn awr yn gorff lluosog a dylanwadol, wedi eu dwyn i fyny yn y grefydd newydd: ni fynai y werin glywed son mwyach am rai erthyglau o ffydd—sef yr athrawiaeth am y purdan, er enghraifft,—nac am rai defodau, megys pererindodau: nis gallai un mynachdy gynnal ei hun, ac ni feiddiai neb ddangos creiriau y saint i'r tyrfaoedd. Cyfrifai llysgenadwr Venetiaidd, yn y flwyddyn 1558, mai y ddegfed ran yn unig o drigolion yr Almaen a barhaodd yn ffyddlawn i'r hen grefydd." Yr oedd yr ymryson hwn yn un o'r rhai hynotaf sydd yn hanes yr eglwys; ond y mae y dadblygiad llawn o hono eto yn ol.

Cyn terfynu hanes y Diwygiad yn yr Almaen, diau y byddai ychydig grybwyllion byrion am gydlafurwyr Luther yn y maes pwysig hwn yn gymmeradwy.

Perthyn y lle blaenaf, yn ddiau, i *Melancthon*, yn nesaf i Luther. Efe oedd yr aelod mwyaf talentog a mwyaf defnyddiol o'r fintai Brotestanaidd. Yr oedd ei wybodaeth eang, ei farn oleu, ei ddoethineb fawr, a'i gymmeriad difrycheulyd, yn dwyn iddo barch a chyfrifoldeb cyffredinol. Tra bu Luther byw, ymgynghorai ag ef ar bob achlysur, a thelid y sylw mwyaf i'w gynghorion. Ar ol marw y Diwygiwr mawr, efe a ystyrid trwy gydsyniad cyffredin fel penaeth eglwysig y Protestaniaid. Gwnaeth efe fwy yn ei swydd fel proffeswr duwinyddiaeth yn mhrifysgol Wittemberg nag un dyn byw er lledaenu egwyddorion iachus. Derbyniodd miloedd o efrydwyr hyfforddiadau crefyddol o'i enau, llawer o ba rai a lanwasant swyddi pwysig wedi hyny; a chafodd eu dylanwad effaith dda ar gymdeithas yn gyffredinol. Y mae ei ysgrifeniadau gwerthfawr yn gofadail anniflanedig o'i enwogrwydd. Yr oedd ei gyfarwyddiadau yn dra gwerthfawr yn ngolwg tywysogion yr Almaen, ac yn enwedig gan etholyddion Saxony; ymofynid am ei gynghor ef yn wastad, pa bryd bynag y byddai deddfwriaeth eglwysig dan sylw; ac anfynych y peidid â dilyn ei awgrymiadau. Y mae brychau ar y cymmeriadau glanaf. Os oedd Luther ar amserau yn rhy hyf, ac hyd yn oed yn rhy ehud, ac yn rhy dueddol i gyndyn amddiffyn ei olygiadau, yr oedd Melancthon yn wylaidd wrth natur, ac yn rhyddfrydig hyd eithafion. Yr oedd efe yn foddlawn i gydnabod amryw erthyglau, a ystyriai Luther ac ereill yn

Digitized by Google

hanfodol i burdeb athrawiaeth neu addoliad, yn mysg pethau dibwys; a'i farn ef ydoedd, gyda golwg ar bethau dibwys fel hyn, fod yn eithaf diogel ufuddhau i gyfreithiau y llywodraethau gwladol. Yr oedd efe yn gwahaniaethu yn hyn oddi wrth nifer mawr o'i frodyr. Cyfododd dadl boeth ar y pwnc yma, a chwerwodd feddyliau llawer, ac a ddyeithrodd rai i'w gilydd, y dylasai fod eu holl egnïon yn unfrydol o blaid yr achos mawr. Bu Melancthon farw Ebrill 19eg, 1560, yn dair a thrigain mlwydd oed.

*Frederic Myconius.* Mynach oedd efe ar y dechreu, yr hwn a aeth i fynachdy Annaberg pan oedd yn yr oedran ieuanc o un ar bymtheg mlwydd oed. Yn y flwyddyn 1516, gwnaed ef yn offeiriad, ac ymsefydlodd yn Weimar. Tywysodd ysgrifeniadau Luther ef i'r gwirionedd. Treuliodd y ddwy flynedd ar ugain ddiweddaf o'i oes yn Saxe-Gotha, lle yr oedd yn fugail ac arolygwr. Yr oedd Luther yn dra hoff o'i gynghor a'i gynnorthwy; a charai ef yn fawr. Bu farw Ebrill 7fed, 1547.

*Caspar Crucigar*, oedd frodor o Leipsic. Yn Wittemberg y bu efe yn myfyrio; ac yn 1527, gwnaed ef yn bregethwr yn un o eglwysydd y ddinas hono, ac yn ddarlithiwr yn y brifysgol. Pan sefydlwyd y Diwygiad yn Leipsic, mynai y senedd sicrhau ei wasanaeth yno; ond gwrthododd Luther ymadael âg ef, am yr ystyriai ef yn un o'i gynghorwyr a'i gynnorthwywyr goreu. Bu o gynnorthwy mawr i'r diwygiwr i gyfieithu yr Ysgrythyrau, am ei fod yn dra medrus yn yr Hebraeg. Parhaodd ei salwch am dri mis, ac yn ystod yr amser hwnw yr oedd yn dra diwyd gyda ei amryw efrydiau; ac yn mhlith pethau ereill, yr oedd yn gorphen esboniad Luther ar eiriau olaf Dafydd. Wedi llwyr ddiffygio gan lafur a gofal dros yr eglwysi, bu farw Tachwedd 19eg, 1548, heb fod ond pump a deugain mlwydd oed.

***Justus Jonas***, oedd un o gyfeillion hoffusaf Luther. Bu ef am lawer o flyneddoedd yn beriglor prifysgol Wittemberg, wedi ei appwyntio i'r swydd hono gan etholydd Saxony, yn 1521. Aeth ef gyda Luther i gynghor Worms, a chymmerodd ran gydag ef yn holl brif orchwylion y Diwygiad. Yr oedd yn bregethwr hyawdl a galluog. Symmudodd yn 1541 i Halle. Wedi hyny aeth yn beriglor Eisfeldt, ac yn arolygwr eglwysi yn nugiaeth Coburg. Cyfieithwyd amryw o ysgrifeniadau Luther ganddo ef o'r Almaeneg i'r Lladin. Yr oedd efe gyda Luther yn Eisleben, ac yr oedd yn bresennol pan fu efe farw. Bu fyw hyd 1555, pan y gorphwysodd oddi wrth ei lafur yn drigain a thair mlwydd oed.

*Bugenhagius*, ydoedd athraw ysgol yn Treptore, yn Pomerania. Pan gyhoeddwyd traethawd Luther ar gaethiwed Babilon, yn 1521, dywedodd, ar ol darllen ychydig o'i dudalenau, "Awdwr y llyfr hwn ydyw yr heretic mwyaf heintus a fu erioed yn blino eglwys Crist." Ar ol darllen y llyfr trwyddo, newidiodd ei feddwl: —"Y mae yr holl fyd yn ddall," eb efe, "a'r dyn hwn yn unig sydd yn gweled y gwirionedd." Yn y flwyddyn ganlynol, aeth i Wittemberg, a dewiswyd ef yn fugail yr eglwys fawr. Parhaodd yn y swydd hono hyd ddiwedd ei oes. Galwyd am ei gynnorthwy yn fynych i sefydlu y Diwygiad mewn rhanau ereill o Saxony. Yr oedd Luther yn mawr werthfawrogi ei gyfeillgarwch, a mwynhâai ei gymdeithas Gristionogol yn y modd mwyaf rhyddfrydig. Yr oedd efe yn ddyn hynod o dduwiol, yn dra dyfal mewn gweddi, ac yn gwasanaethu yr Arglwydd yn bur ddiwyd yn ei holl ordinhadau. Ei ddiwedd oedd—tangnefedd. Bu farw Ebrill 20fed, 1558, yn y drydedd flwyddyn ar ddeg a thrigain o'i oedran.

Y gwŷr uchod, yn nghyd â rhai ereill y crybwyllwyd eu henwau eisoes, a fu mewn undeb cariad a llafur yn cydweithredu â Luther yn ei anturiaethau mwyaf peryglus er dwyn yn mlaen y Diwygiad.

Y DIWYGIAD YN SWITZERLAND.

O gylch canol y nawfed ganrif, ymneillduodd mynach Almaenaidd oddi wrth y byd, i le unigol rhwng llynoedd Zurich a Walstetten, ac adeiladodd gell yno, lle y bu fyw am ychydig amser mewn unigedd. Darganfuwyd ei ddirgelfan gan ysbeilwyr, a llofruddiwyd ef ganddynt. Yn mhen mwy na chan mlynedd ar ol hyny, adeiladwyd mynachdy yno ac eglwys, yr hon a gyssegrwyd i'r forwyn. Y noson cyn dydd y cyssegriad, pan oedd esgob Constance a'i offeiriaid yn gweddïo yn yr eglwys, clybuwyd lleisiau nefol yn ddisymmwth yn canu mawl i Dduw. Y bore nesaf, pan oedd yr esgob ar ddechreu y seremoni, cyfarchwyd ef gan ryw fod anweledig yn llefain, "Aros! aros, frawd! y mae Duw ei hun wedi cyssegru y lle!" Rhoddwyd ar ddeall iddo am y canu a glywent y nos o'r blaen, mai canu côr o angelion, apostolion, a saint oedd; fod Crist yn bersonol wedi bendithio yr adeilad; a bod y forwyn yn ei gynnorthwyo, gan sefyll ar yr allor, yn ddysglaer fel y fellten. Y fath oedd y chwedl anwireddus! Cyhoeddodd y pab Leo VIII. babarchiad yn gwahardd i'r ffyddloniaid ammheu ei gwirionedd. Tynodd mynachdy Einsidlen sylw prysur. Yr oedd llanerch mor sanctaidd yn sicr o ddyfod yn gyrchfa lluaws o bererinion. Yr oedd tyrfaoedd o bersonau o bob parth yn llenwi y ffyrdd tua chreirfa "Arglwyddes y Meudwyaid." Dywedid fod gwyrthiau yn cael eu cyflawnu yno. Rhoddwyd arysgrifen uwch ben y drws yn hysbysu yr ymwelydd pryderus y gallai efe o fewn y muriau cyssegredig hyny gael "llawn faddeuant o'i bechodau."

Yn y flwyddyn 1516, neillduwyd Ulric Zuingle yn offeiriad ac yn bregethwr yn y mynachdy. Ganwyd y dyn enwog hwn yn Wildhaus, Switzerland, yn y flwyddyn 1484. Gwelodd ei dad argoelion o dalent anghyffredin ynddo, a dododd ef mewn canlyniad o dan ofal ei ewythr—gwr eglwysig urddasol—yr hwn a'i hanfonodd i'r ysgol, i Wisen yn gyntaf, ac wedi hyny i Basle. Symmudodd oddi yno i Berne, lle y bu yn myfyrio llenyddiaeth glasurol dan Lupulus, adnewyddwr dysgeidiaeth yn Switzerland. Bu yn astudio hefyd yn Vienne; ac yn y flwyddyn 1502, aeth i brifysgol Basle, yn mha ddinas yr arosodd am bedair blynedd, ac yr ennillodd enwogrwydd mawr. Yno hefyd y dechreuodd chwilio i mewn i wirioneddau yr efengyl. Yr oedd wedi bod yn myfyrio duwinyddiaeth yr ysgolion nes alaru arni. Thomas Wittembach, dyn da a dysgedig, a ymsefydlodd yn Basle tua diwedd y flwyddyn 1505, a roddodd y cymhelliad cyntaf i Zuingle yn ei ymchwiliadaeth Ysgrythyrol. Effeithiai ei bregethau yn ddwfn ar luaws mawr. Byddai yn arfer dyweyd, "Nid ydyw yr amser yn mhell pan y diddymir duwinyddiaeth yr ysgolion, ac yr adferir hen athrawiaeth yr eglwys.........Marwolaeth Crist ydyw yr unig brynedigaeth i'n heneidiau."

Yn 1506, aeth yn offeiriad i Glarus—plwyf yn nghymmydogaeth Wildhaus. Bu yno ddeng

Digitized by Google

mlynedd, gan gyflawnu dyledswyddau ei swydd yn ffyddlawn, ac eangu ei wybodaeth. Er y darllenai lawer ar weithiau yr awdwyr Lladinaidd a Groegaidd goreu, yn nghyd âg ysgrifeniadau y tadau; eto, y Beibl oedd ei brif lyfr, yn enwedig y Testament Newydd. Darllenai y diweddaf yn yr iaith wreiddiol, gan gymharu y naill ran â'r llall, a gweddïo am gymhorth yr Ysbryd Glân i ddeall y gwirionedd. Llewyrchodd goleuni yn raddol i'w feddwl; ac mewn canlyniad, aeth i bregethu yn fwy Ysgrythyrol. Yn ystod ei arosiad yn Glarus, ymwelodd ddwy waith âg Italy, fel caplan yn y fyddin Swissaidd ag oedd yn ngwasanaeth y pab. Yn ystod y teithiau hyn, gwelodd falchder, trachwant, a llygredigaeth cyffredinol yr Eglwys Babaidd, yr hyn a barodd iddo ocheneidio am ddiwygiad. Wedi clywed am ei enwogrwydd fel pregethwr, gwahoddwyd Zuingle gan y barwn Geroldsek, llywodraethwr Einsidlen, i fyw i'r dref hono. Cydsyniodd â chais y barwn. Yr oedd efe yn awr yn nghanol yr hygoeledd dyfnaf. Ond ni chelai y gwirionedd. Cyhoeddai efengyl Crist i'r tyrfaoedd a ymgasglent i'r mynachdy mewn gobaith am gael rhyddhad oddi wrth eu pechodau, a rhybuddiai hwynt yn ddifrifol rhag twyllo eu hunain. Nis gallai y fath weinidogaeth lai na bod yn llwyddiannus. Mae yn wir y lleiheid cyllid y mynachdy drwy hyny; ond yr oedd eneidiau yn cael eu hachub—yr hyn oedd yn bwysicach. Ymdaenodd enwogrwydd y pregethwr drwy y wlad, a dechreuodd yr athrawiaethau a bregethid ganddo ddylanwadu mewn llawer man yn Switzerland. Arosodd dau lysgenadwr Pabaidd, Ernius a Pucci, am ychydig amser yn Einsidlen, a gwnaethant eu goreu er darbwyllo Zuingle i beidio ymuno â'r symmudiad diwygiadol. Cynnygiwyd cyfoeth ac anrhydedd iddo. Yr oedd efe wedi bod yn derbyn blwydd-dâl bychan er ys amryw flyneddoedd o'r drysorfa Babaidd, â pha un y byddai yn prynu llyfrau. Nid oedd am werthu ei hun felly. Awgrymodd ei fwriad i ymwrthod â'r blwydd-dâl. "Trwy gymhorth Duw," eb efe, "äf yn mlaen i bregethu yr efengyl, ac fe bâr y pregethiad o honi i Rufain grynu hyd ei sylfeini."

Aeth Samson, mynach Carmelaidd, i Switzerland, yn 1518, i werthu maddeuantau. Yr oedd wedi teithio drwy gantref Uri, ac yn dechreu ar ei waith yn Schwitz, pan y gwrthwynebwyd ef gan Zuingle. "Y mae Iesu Grist wedi dyweyd," ebe y pregethwr, 'Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.' Gan hyny, onid ffolineb haerllug a rhyfyg o'r mwyaf ydyw dywedyd, 'Prynwch lythyrau maddeuant; rhedwch i Rufain; cyfrenwch i'r mynachod; rhoddwch offrymau i'r offeiriaid? Os gwnewch y pethau hyn, myfi a'ch rhyddhaf oddi wrth eich pechodau.'......Iesu Grist ydyw yr unig offrwm; Iesu Grist ydyw yr unig aberth; Iesu Grist yw yr unig ffordd." Cwympodd y fasnach annuwiol hon o flaen nerth y gwirionedd, a bu raid i'r marsiandwr somedig ymadael o'r dref.

Yn Rhagfyr, 1518, dewiswyd Zuingle i'r swydd bwysig o fod yn bregethwr yn eglwys gadeiriol Zurich. Traddododd ei bregeth gyntaf Ionawr 1af, 1519. Dechreuodd ar ei lafur drwy esbonio Efengyl Matthew; a chafodd yr hyfrydwch, cyn hir, o weled cynnulleidfa fawr yn ymgasglu yn nghyd i wrandaw gair Duw. Yr oedd yn beth newydd yn Zurich. Yr oedd yr effeithiau yn gyffelyb i'r hyn oeddynt yn nyddiau yr apostolion. "Rhai a gredasant i'r pethau a ddywedasid, a rhai ni chredasant." Dywedai amryw "yn ddrwg am y ffordd hono ger bron y lluaws;" mynai ereill ddefnyddio mesurau gorfodol: ond er y cwbl, parhau i chwanegu yr oedd nifer y credinwyr. Cyn pen nemawr o amser wedi i Zuingle ymsefydlu yn Zurich, daeth Samson i'r gymmydogaeth, gan benderfynu dial ar ei wrthwynebwyr. Ond teimlai Zuingle yn hollol ddiarswyd. Llefarai yn eofn yn erbyn yr halogrwydd atgas o werthu llythyrau maddeuant, a bu yn dra llwyddianus. Gwrthododd awdurdodau Zurich ganiatau i Samson gario ei fasnach yn mlaen yn eu dinas, a galwyd ef yn ol yn fuan wedi hyny gan y pab.

Pan yr ymwelodd y pla â Switzerland, yn 1519, ymaflodd yn nghyfansoddiad Zuingle. Ymddangosai fod ei farwolaeth yn anocheladwy. Ond cymmerodd Duw drugaredd arno, ac adferwyd ef i'r eglwys wylofus. Bu y clefyd yn dra bendithiol i'w enaid. O hyny allan, yr oedd ei bregethau yn fwy efengylaidd a difrifol fyth. Yr oedd bob amser yn nodedig am ei eglurdeb; ond ar ol hyn yr oedd yn nodedig am ei deimlad gwresog, yr hwn a gynnyrchasid gan yr olwg agos a gafodd ar angeu a thragwyddoldeb, a'r dyddanwch a dderbyniodd oddi wrth yr efengyl yn yr amgylchiad cyfyng. Dilynodd effeithiau cysurus. Derbyniwyd y gwirionedd gan uwch law dwy fil o bersonau, yn mhlith pa rai yr oedd amryw o wŷr cyfoethog y ddinas, a lluaws o ynadon.

Yn ngwanwyn 1522, ymosododd Zuingle ar ymprydiau cyhoeddus yr Eglwys Babaidd. Parhâai yn bersonol i gadw defodau a seremonïau yr eglwys, gan y meddyliai fod hyny yn briodol ac yn angenrheidiol hyd nes y byddai y bobl wedi eu goleuo ar y mater, i wneuthur yr hyn beth yr oedd yn dra ymdrechgar. Er cyflawnu yr amcan hwn, dechreuodd ymosod yn eofn yn erbyn yr ymattaliad ofergoelus oddi wrth gigau, fel arferiad hollol anghysson â gwirionedd a rhyddid yr efengyl. Fe ddygodd hyn gawod o ddigofaint am ei ben. Hysbyswyd esgob Constance, yr hwn a anfonodd ddirprwyaeth, blaenor pa un oedd Melchior Battli, ei gynnorthwywr, yn uniongyrchol i chwilio i mewn i'r cyhuddiadau a ddygasid yn mlaen yn erbyn Zuingle. Gwrthwynebwr hunanol a phenboeth i'r efengyl oedd Battli. "Y mae y seremonïau yn unig," ebe fe, "yn ddigon effeithiol i ddwyn dynion i afael âg iachawdwriaeth. Ni raid i'r offeiriaid wneyd dim ond esbonio eu harwyddocâd i'r bobl." Mewn anerchiad byr, ond grymus, dadguddiodd Zuingle ynfydrwydd a gwrthuni ei elynion. Pan yn cyfarch y cynghor, dywedodd:—"Yn mhob cenedl, fe achubir pob un a gred yn yr Arglwydd Iesu o'r galon. Tu allan i'r eglwys hono, nis gall un dyn gael bywyd. Ein dyledswydd ni, fel gweinidogion Crist, ydyw esbonio yr efengyl ac ufuddhau iddi. Bydded i'r rhai sydd yn byw wrth y seremonïau eu hesbonio!" Dyryswyd y dirprwywyr esgobol, ac nid aethant gam yn mhellach: ond cymmerodd Zuingle fantais oddi wrth yr amgylchiad, a chyhoeddodd lyfr ar y defnyddiad rhydd o gigau, yn yr hwn yr esboniai yr athrawiaeth Gristionogol ar y mater. A pharhaodd i bregethu yn wrol er gwaethaf ei elynion, er i lawer ymgais gael ei wneyd i'w lofruddio.

Appeliodd esgob Constance at y gynnadledd Swissaidd, a llwyddodd i gael penderfyniad i'r effaith na chaniateid i un offeiriad bregethu os

Digitized by Google

achosai ei addysgiaeth anghytundeb yn mhlith y bobl. Mewn canlyniad i hyn, ymdrechodd y blaid wrthwynebus, yn nghynnadledd fawr Zurich, hyd nes y cawsant ddeddf yn gwahardd i bawb bregethu yn erbyn y mynachod. Dilynwyd hyn gan ymgynghoriad rhwng y prif awdurdodau gwladol ac eglwysig o'r ddwy blaid. Erfyniodd y maer ar i'r naill blaid a'r llall beidio pregethu y fath athrawiaethau ag a dueddai i beri cynhwrf yn y wladwriaeth. Gwrthododd Zuingle ufuddhau. "Nis gallaf fi dderbyn yr ammodau hyn," ebe fe. "Myfi a bregethaf yr efengyl yn rhydd, ac heb un ammod, yn unol â'ch penderfyniad cyntaf. Myfi ydyw esgob a bugail Zurich; ac y mae gofal eneidiau wedi ei ymddiried i mi. Os pregetha y mynachod gelwyddau, myfi a'u gwrthwynebaf, a hyny hyd yn oed yn mhulpud eu mynachdy hwy eu hunain. Os bydd i mi, ar y llaw arall, bregethu unrhyw athrawiaeth yn groes i'r efengyl, bydded i mi gael fy ngheryddu; nid yn unig gan y glwysgor, ond gan unrhyw ddinesydd, pwy bynag a ddewiso gyflawnu y ddyledswydd hono: ïe, a mwy na hyny, bydded i mi gael fy nghospi gan y cynghor." Cyrhaeddodd ei amcan drwy ei eofndra. Cadarnhawyd y penderfyniad cyntaf, a gorchymynwyd i'r pregethwyr beidio appelio mwyach at Thomas, Duns Scotus, a duwinyddion athrofaol ereill, fel awdurdodau, ond cyfyngu eu hunain at y Testament Newydd.

Tra yr oedd Zuingle yn llafurio fel hyn yn Zurich, cafodd y gwirionedd ei ddwyn i mewn i barthau ereill o Switzerland. Llafuriai Oswald Myconius o blaid yr achos da yn Lucerne yn ddystaw, drwy ledaenu llyfrau Luther. Pregethai Barthold Haller yr efengyl yn Berne, a Wessemburger yn Basle. Yn Appenzell, Grisons, a thaleithiau ereill, yr oedd y bobl yn myned yn fwy anffafriol yn barhaus tuag at yr athrawiaethau a'r defodau Pabaidd. Yr oedd yr adeg wedi dyfod pryd yr oedd yn rhaid cymmeryd rhyw gam penderfynol. Ymgyfarfu Zuingle, a deg ereill, yn Einsidlen, lle y pregethai Leo Juda yr efengyl yn ei phurdeb. Cynnaliwyd y cyfarfod yn Gorphenaf, 1522. Ar ol dwys ystyried cyflwr pethau, penderfynwyd anerch esgob Constance, eu penaeth eglwysig, a'r cynghor Swissaidd, gan ddadgan y gwirionedd yn hyf, ac erfyn rhyddid perffaith i'w gyhoeddi, ac i adferu y purdeb cyntefig; penderfynwyd hefyd gofyn am ddiddymu gwyryfiaeth orfodol yr offeiriaid. Yr oedd rhesymau cedyrn dros y cais diweddaf. Yr oedd Zuingle eisoes wedi ymryddhau, drwy briodi Anna, gweddw Meyer Knonau, gwraig ragorol, gyda pha un y bu fyw yn dra hapus. Ac yr oedd Xylotect, canon Zurich, ac amryw ereill, wedi dilyn ei esampl.

Lledaenwyd yr anerchiad crybwylledig yn helaeth yn Switzerland. Cynhyrfwyd digofaint cyfeillion llygredigaeth yn ddirfawr, a dechreuasant fabwysiadu y mesurau a gymmeradwyir yn gyffredin gan amddiffynwyr achosion drwg. Am ddialedd ar y diwygwyr y galwodd yr esgob. Trefnodd y cynghor, mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Baden, fod i hysbysiad gael ei anfon i'r awdurdodau am bob offeiriad, a phob dyn arall, a bleidiai y Diwygiad. Dyoddefodd Urban Weiss, gweinidog Fislispach, garchariad maith yn ngharchar yr esgob yn Constance. Alltudiwyd John Hollard, canon Friburg. Amddifadwyd Myconius o'i swydd yn Lucerne, a gyrwyd ef allan o'r gantref. Nodwyd personau ereill i gael eu cospi; ac ofnid am ddiogelwch Zuingle.

Mewn cymmanfa gyffredinol a gynnaliwyd ar Ionawr 29ain, 1523, yn mha un y cynnorthwyai Faber, ficer cyffredinol esgobaeth Constance, a dirprwywyr ereill oddi wrth yr esgob, a'r hon a a alwasid yn nghyd i'r dyben o gymmeryd daliadau y diwygwyr dan ystyriaeth, ymddangosodd Zuingle, er amddiffyn yr athrawiaeth efengylaidd. "Yr wyf wedi bod yn pregethu iachawdwriaeth trwy Grist yn unig," eb efe; "ac o blegid hyny, yr wyf wedi fy ngwarthnodi drwy holl Switzerland fel heretic, twyllwr, a gwrthryfelwr. Yn awr, yn enw Duw, wele fi." Ond ni ddadleuai Faber—i wrandaw yr anfonasid ef, ac nid i ymresymu: nid oedd modd cael ganddo ddyweyd un gair. Pasiwyd penderfyniad, yn awdurdodi Zuingle a'i gymdeithion i bregethu yr efengyl fel o'r blaen. "Bendigedig fyddo Duw!" eb efe, "fe gaiff ei air oruchafiaeth yn y nefoedd ac ar y ddaiar." Wrth glywed hyn, nis gallodd Faber attal ei ddigofaint. "Y mae gosodiadau meistr Ulric," eb efe (gan gyfeirio at saith a thrigain o osodiadau a gyhoeddasai Zuingle gogyfer â'r cyfarfod), "yn groes i anrhydedd yr eglwys ac athrawiaeth Crist; a phrofaf hyny." "Gwnewch chwitbau," ebe Zuingle. Cynnygiodd y ficer cyffredinol fod i'r materion mewn dadl gael eu gosod ger bron prifathrofa i'w penderfynu. "Ni fynaf fi un barnwr ond yr efengyl," ebe Zuingle. "Yr efengyl!" atebai Faber; "yr efengyl byth a hefyd! Gallai dyn fyw yn gyflawn, yn dangnefeddus, ac yn gariadus, pe na byddai un efengyl!" Cynnaliwyd cyfarfod cyffelyb, a thra lluosog, yn mis Hydref yr un flwyddyn. Addoliad delwau a'r offeren oedd y pynciau dan ystyriaeth. Ni feiddiai cymmaint ag un o'r rhai a amddiffynent Babyddiaeth appelio at yr Ysgrythyrau. Teimlent fod gair Duw yn eu herbyn. Derbyniodd achos y gwirionedd rym chwanegol. Dychwelodd llawer o'r offeiriaid i'w plwyfydd wedi eu goleuo a'u hargyhoeddi, a dechreuasant lafurio yn mhlaid yr efengyl. Ymlynai y cantrefi ereill, oddi eithr Schaffhausen, wrth yr hen gyfundrefn. Gwnaethpwyd ymdrech i adferu Zurich. Mewn cynnadledd a gynnaliwyd yn Lucerne, penodwyd dirprwyaeth i ymweled â'r ddinas hono, er mwyn annog yr awdurdodau i ddychwelyd yn ol i'r eglwys, ac i alltudio Zuingle a'i gymdeithion. Ond yr ydoedd yn rhy hwyr. Yr oedd y gwirionedd erbyn hyn wedi ymaflyd yn gadarn yn meddyliau a chydwybodau cyfran helaeth o'r trigolion, ac yn eu plith yr oedd prif ddynion y ddinas. Yn lle cydsynio â'r cais, aethant yn mlaen yn hyfach nag o'r blaen. Diddymwyd y gorymdeithiau coelgrefyddol a gynnelid yno. Claddwyd creiriau ag oedd wedi bod yn cael eu haddoli er ys oesoedd. A rhoddwyd gorchymyn i symmud pob delwau o'r eglwysydd, ac i ranu yr arian a geid am eu haddurniadau rhwng y tlodion. Rhoddodd y gorchymyn foddhad cyffredinol, ac ufuddhawyd iddo yn uniongyrchol.

Yr oedd erlidigaeth wedi dechreu eisoes. Yr oedd Claude Hottinger, yr hwn yn ei sel a fu yn cynnorthwyo mewn symmud croeslun (*crucifix*), heb yn gyntaf dderbyn caniatâd yr ynadon, wedi ei alltudio am y trosedd o Zurich. Cymmerwyd ef yn garcharor mewn cantref arall, a chondemniwyd ef o heresiaeth gan gynnadledd Lucerne, a dienyddiwyd ef. Dygwyddodd hyn yn Chwefror, 1523. Yn hydref y flwyddyn ganlynol, mewn cyfarfod a gynnaliwyd gan y cynghor yn Zug, lle y penderfynwyd llethu y Diwygiad drwy orfodaeth, fe gafodd gweinidog

Digitized by Google

teilwng, o'r enw Oexlin, ei gymmeryd i fyny yn anghyfreithlawn, a'i ddodi yn ngharchar. Mewn ymgais a wnaethpwyd i'w waredu, cyfododd cythrwfl, yn mha un yn anffodus yr ysbeiliwyd ac y llosgwyd mynachdy Ittingen. Gofynwyd yn uchel am ddialedd. Cafodd pedwar o bersonau—y rhai a hynodasant eu hunain yn yr ymgais aflwyddiannus i waredu Oexlin, ond a arferasant eu holl ddylanwad er attal yr ymosodiad ar y mynachdy—eu carcharu am y trosedd diweddaf gan awdurdodau Zurich, i'r hwn gantref y perthynent. Gofynodd y cantrefi ereill am y carcharorion, a bygythient ryfel os na chydsynid â'u cais. Ufuddhaodd awdurdodau Zurich dan ddylanwad ofn am y canlyniadau os gwrthodent. Anfonwyd y carcharorion ymaith. Yr oedd eu tynged eisoes wedi ei phenderfynu. Ni arbedwyd ond un, sef John Wirth. Ar ol eu poenydio yn annynol, torwyd penau y tri ereill; nid am ddinystr y mynachdy, canys yr oedd yn eglur na chymmerasant un rhan yn y weithred hono, ond am eu hymlyniad wrth yr efengyl. Buont feirw yn orfoleddus.

Cyn hir, aeth yr offeren yr un ffordd a'r delwau. Yr oedd wedi ei diddymu yn Mulhausen er y flwyddyn 1524. Yn Ebrill, 1525, anfonwyd gorchymyn allan gan gynghor Zurich, mewn cydsyniad â dymuniad eu gweinidogion, i adferu swper yr Arglwydd i'w symlrwydd cyntefig. Penodwyd tri diwrnod—dydd Iau Dyrchafael, dydd Gwener y Groglith, a dydd Sul y Pasc—i'w gadw felly am y troion cyntaf. Dodwyd byrddau yn yr eglwysydd, yn lle yr allorau. Cludwyd y bara oddi amgylch mewn dysglau coed, a thywalltwyd y gwin i gwpanau o'r un defnydd. Darllenwyd yr adnodau o'r Ysgrythyr ag sydd yn dwyn perthynas â'r ordinhad gan y diaconiaid, tra yr anerchwyd y gynnulleidfa gan y gweinidogion. Ffynai llawenydd cyffredinol. Disgynodd ysbryd cariad ar y bobl. Anghofiwyd hen elyniaethau. Daeth gelynion yn gyfeillion; a daeth swper yr Arglwydd yn rhwymyn undeb.

Yn yr un flwyddyn, cyfaddaswyd y rhanau o'r Ysgrythyrau a gyfieithodd Luther i'r Almaeneg i'r dafodiaeth Swissaeg, y rhai a argraffwyd yn Zurich. Cyfieithwyd y gweddill o air Duw gan y Diwygwyr Swissaeg, a chyhoeddwyd hwy yn nghylch pedair blynedd ar ol hyny. Zurich oedd ffynnonell y Diwygiad yn Switzerland. Yr oedd ei gynnydd yn y cantrefi ereill yn arafach ac yn fwy digyssylltiad. Yr oedd Œcolampadius wedi bod yn pregethu yn Basle er Tachwedd, 1522. Ymsefydlodd Berthold Haller a Sebastian Meyer yn Berne. Yr oedd y gwirionedd yn gwneyd ei ffordd yn raddol mewn amryw fanau; ond hyd yn hyn yr oedd braich y gallu gwladol yn attal ei symmudiad. Cynnaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r corff Helvetig yn Baden, yn Mai 1526, er mwyn rhoddi yr athrawiaethau newyddion i lawr yn un pwrpas. Cymmerodd dadl le, yn yr hon Œcolampadius a Haller oedd y rhai a gymmerasant y rhan benaf ar un ochr, yn erbyn Eck, Faber, a rhai dadleuwyr Pabaidd enwog, ar yr ochr arall. Ond cynnaliwyd y cyfarfod ger bron rheithwyr unochrog. Yr oedd cynnrychiolwyr y taleithiau wedi ymgynnull yn broffesedig i ddyfeisio cynlluniau i lethu y Diwygiad. Peth i'w ddysgwyl oedd iddynt briodoli y fuddugoliaeth i'w henwogion eu hunain. Parhaodd y ddadl am ddeunaw diwrnod. Croesawid Eck a'i gyfeillion yn haelionus gan y ficer; ac yfent win yn helaeth, a roddid iddynt gan abad oedd yn y gymmydogaeth. Mewn gwestty y llettyai y diwygwyr. Gan fod gwr y tŷ yn awyddus, o ran cywreinrwydd, am wybod pa fodd y treuliai Œcolampadius ei amser pan yn ei ystafell, efe a edrychai i mewn yn fynych; ond canfyddai y gwr da bob amser yn darllen ac yn gweddïo. "Rhaid cyfaddef," medd efe, "fod hwn yn heretic pur dduwiol." Pa fodd bynag, y ddedfryd a basiwyd yn y cyfarfod oedd, dinoddi Zuingle a'i gydlafurwyr, a phenderfynu yn ddiysgog i gynnal yr hen ffydd yn ei phurdeb.

Y mae yr Arglwydd "yn diddymu amcanion pobloedd," ond "ei gynghor ef a saif yn dragywydd;" *Salm* xxxiii. 10, 11. Tra yr oedd gwrthwynebwyr gwirionedd yr efengyl yn ofer feddwl attal ei gynnydd, yr oedd llaw Duw wedi ei hestyn allan yn amlwg i'w amddiffyn. Yn lle cymmeryd eu digaloni gan ganlyniadau anhyfryd y cyfarfod yn Baden, aeth y diwygwyr yn mlaen yn dawel, gan ennill tir yn feunyddiol. Llwyddodd Œcolampadius, yn 1526, i sefydlu yr arfer o ganu hymnau yn yr iaith gyffredin yn Baden, mewn addoliad cyhoeddus. Canfyddwyd ei fod o wasanaeth mawr i dduwioldeb, ac yn dra chyfaddas i gadarnhau y bobl yn y gwirioneddau a ddysgid gan y diwygwyr. Yn 1528, symmudwyd delwau o'r prif eglwysydd, er y goddefwyd hwynt dros amser mewn ereill. Yn Chwefror, 1529, llwyr lanhawyd y ddinas oddi wrth eilunaddoliaeth, a diddymwyd yr offeren yr un amser. Yn y cyfamser, yr oedd yr achos yn myned rhagddo mewn amryw o'r cantrefi lleiaf. Dygwyd cyfnewidiadau yn mlaen mewn amryw fanau, cyn belled ag y goddefai yr amseroedd; ac yr oedd rhif y pregethwyr efengylaidd yn cynnyddu yn wastadol. Yr oedd y ffurfiau Pabaidd yn cael eu goddef mewn rhai manau, o ymostyngiad i'r awdurdodau gwladol, yn hir ar ol i wirioneddau yr efengyl gael eu derbyn: mewn manau ereill, yr oedd ymryson tanbaid yn bod; ond ar y cyfan, cynnyddu yn feunyddiol yr oedd y symmudiad. Yr oedd Wolfgang Jouer, abad mynachdy Cappel, yn gyfaill i Zuingle, ac yn amddiffynydd i'r Diwygiad. Yn 1523, appwyntiodd Bullinger yn ddarlithydd duwinyddol yn y mynachdy, a chaniataodd iddo bregethu yn fynych yn eglwys yr abatty. Yn mhen tair blynedd ar ol hyny, cymmerodd swper yr Arglwydd le yr offeren. Yn y flwyddyn ganlynol, rhoddwyd y mynachdy i fyny i lywodraeth Zurich, a thröed ef yn brifysgol: defnyddiwyd y cyllid at dri amcan—i gynnal ysgolheigion, i gynnorthwyo y tlodion, ac i wellhau cyflogau gweinidogion yr efengyl; a gwnaed yr eglwys yn un blwyfol, at yr hon y cyssylltwyd tri phentref cymmydogaethol.

Daeth y blaid Babyddol yn benaf yn Berne am ychydig amser. Gwnaed cyfraith nad oedd dim cyfnewidiad mewn crefydd i gymmeryd lle; ac y dilynid yr hen ffurfiau yn fanwl: cadarnhawyd y gyfraith trwy lw difrifol. Ond yr oedd y gwirionedd wedi cymmeryd y fath afael yn nghalonau dynion fel nad oedd bosibl ei droi allan. Gorfodwyd y llywodraeth yn fuan i roddi lle i ddymuniadau pobl wybodus, a phenderfynodd gyfeirio yr holl bwnc i ddadl gyhoeddus—agored i enwogion y ddwy ochr, o bob parth o Switzerland—ac i sefyll wrth y canlyniad. Adnabyddir hon fel "dadl fawr Berne." Ar y dydd appwyntiedig, Ionawr 7fed, 1528, ymddangosodd Zuingle c Œcolampadius, yn arwain mwy na thri chant a hanner o bregethwyr efengylaidd. Yr oedd esgobion Constance, Basle, Leon, a Lausanne, wedi

Digitized by Google

eu gwysio, ond ni feiddiasant ddyfod: mewn gwirionedd, pur wan yr amddiffynwyd yr achos Pabaidd. Yr oedd deg o erthyglau wedi eu parotoi erbyn y ddadl. Yr erthyglau hyny yw y rhai canlynol:—

1. Mai Crist yw unig ben yr eglwys, yr hon a ddeillia o air Duw yn unig.

2. Nad ydyw yr eglwys yn gwneuthur deddfau nac ordinhadau ond sydd yn sylfaenedig ar air Duw.

3. Crist yn unig ydyw ein doethineb, ein cyfiawnder, ein sancteiddrwydd, a'n prynedigaeth; felly, nad oes dim haeddiant arall ond a geir ynddo ef er iachawdwriaeth a maddeuant.

4. Nas gellir profi o'r Ysgrythyrau fod corff a gwaed Crist yn gynnwysedig yn ddefnyddiol a chorfforol yn y bara a'r gwin yn swper yr Arglwydd.

5. Bod yr offeren yn hollol groes i'r Ysgrythyr.

6. Mai Iesu Grist, yr hwn yn unig a fu farw drosom, ydyw yr unig Gyfryngwr a'r unig Eiriolwr.

7. Nad oes un prawf Ysgrythyrol fod y fath le a phurdan yn y byd a ddaw; felly fod pob gwasanaeth, &c., a wneir ar ran y meirw yn hollol ofer a diwerth.

8. Bod gwneuthur delwau a'u haddoli yn groes i air Duw.

9. Bod priodas yn anrhydeddus i bob dosbarth o ddynion, yn ol tystiolaeth yr Ysgrythyrau.

10. Bod y godinebwr cyhoeddus yn cael ei esgymuno gan yr Ysgrythyrau; ac nad oes un dosbarth o ddynion ag y mae y pechod hwn yn fwy dinystriol yn eu mysg nag yn mhlith clerigwyr, o herwydd dylanwad eu hesampl ddrwg ar ereill.

Dadleuwyd yr erthyglau hyn am ddeunaw diwrnod. Y canlyniad oedd, buddugoliaeth i'r Diwygiad. Diddymwyd Pabyddiaeth yn ebrwydd yn nghantref Berne. Gwrthodwyd awdurdod yr esgobion; bwriwyd allorau a delwau i lawr; diddymwyd yr offeren: cyfarfu dyddiau ympryd, dyddiau gwyliau, gwisgoedd clerigol, organau, clychau, a rhestr faith o ddefodau a seremoniau perthynol i'r oesoedd tywyll, â'r un dynged; a throëd y mynachlogydd yn ysgolion. Dilynwyd esampl Berne gan Schaffhausen, St. Gal, Glarus, Brienne, Bremgarten, Thurgau, y Tockenburg, a dinas Constance. Yr oedd uadl Berne yn haeddu cael ei galw yn "fawr," o blegid yr oedd y canlyniadau yn wir ogoneddus. Sylwa y Dr. Waddington "Fod Diwygiad Switzerland wedi dechreu, fel y diwygiad yn Saxony, trwy ymosod ar faddeuantau, gan mai hwy, o holl sarhadau yr eglwys, yw y rhai adgasaf, am eu bod yn effeithio ar y bobl yn gyffredinol, ac yn amcanu cyflawnu y bwriadau mwyaf gorwael dan ffug. Yr oedd amgylchiadau yr ymosodiad, mae yn wir, ychydig yn wahanol; ond yr oedd y ffaith fod yr esgob yn Switzerland yn cefnogi y diwygiwr yn brawf chwanegol, nad oedd yr hoff amddiffynfa allanol hono i'r castell Pabaidd mwyach yn amddiffynadwy. Syrthiodd braidd heb ymryson: nid oedd yr hyn a fu yn ymladdfa ffyrnig a gwaeddfawr yn yr Almaen, ond ysgarmes a rhagchwareu yn mysg y Swissiaid. Ond wedi cael myned i mewn unwaith, aeth milwyr yr efengyl yn mlaen i wneyd ymosodiad ar sefyllfaoedd oedd braidd yn fwy pwysig. Yn gyntaf, tywalltasant eu digofaint ar yr holl ddefodau anysgrythyrol oedd yn eu blino yn benaf, yn enwedig y gwaharddiad o fwydydd; pethau oedd yn dal perthynas â'u cysur dyddiol, ac yn pwyso fwyaf ar bawb, ac yn benaf oll ar y lluaws oedd yn rhy dlawd i brynu maddeuantau. Y gyfundrefn fynachlogaidd oedd y nesaf ar y rhestr; yn erbyn yr hon y cyfeiriodd Zuingle rai o'i ymdrechion cyntaf.......Ni attafaelwyd y cyllidau yno, fel mewn rhai gwledydd ereill, er lles uniongyrchol y llywodraeth, nac at gynnal personau annheilwng; ond cymhwyswyd hwynt yn ffyddlawn, ar ol talu sylw priodol i feddiannau personol, i gynnal gweinidogion crefydd, i sefydlu ysgolion i'r tlodion, ac i ddybenion daionus ac elusenol ereill. Y delwau oedd gwrthddrychau nesaf yr ymosodiad..........Yr oedd ychydig ochelgarwch, ychydig barch i gydwybodau oedd wedi eu camarwain, heb fod yn ddim mwy disel o blegid cael eu camarwain, yn angenrheidiol am amser, a dim ond amser byr yn unig. Caniatawyd perffaith ryddid ymchwiliadol; dynoethwyd y twyll oedd wedi cael ei arfer er anrhydedd iddynt cyhyd; chwythwyd ymaith y ffugwyrthiau a briodolid iddynt; a chyfododd digofaint y rhai twylledig eu hunain yn eu herbyn: felly hwy a syrthiasant gyda chymmeradwyaeth gyffredinol. Yn olaf, syrthiodd yr offeren. Yr oedd hon yn wrthddrych a anwylid gan y bobl fel treftadaeth, a osodid allan fel peth tra sanctaidd, ac yn cael ei hamddiffyn gan wyrthiau. Yr oedd y pwnc hwn hefyd, o ran ei natur, yn fwy aneglur nag ereill; ac am hyny, nid oedd y rhesymau dros ei ddilead yn fwy annealladwy i'r werin. Pa fodd bynag, yr oedd llwyddiant blaenorol wedi parotoi y ffordd i hyn; ac yn mhob man yr oedd yr amcanion ereill wedi eu cyrhaedd, yr oedd cwymp yr offeren yn dilyn yn ei dymmor, a chwblhaodd hyny fuddugoliaeth y Diwygiad."

Yr oedd pum cantref, Lucerne, Zug, Schweitz, Uri, ac Unterwalden, yn talu eu gwarogaeth fyth i Rufain. Yr oeddynt wedi gwneyd cynghrair â Ferdinand o Awstria, er amddiffyn Pabyddiaeth. Yr oedd hyn yn groes i'r egwyddorion ar y rhai yr oedd y cytundeb Helvetig wedi ei seilio, ac a ystyrid yn briodol fel symmudiad gelynol. Cymmerodd Zurich yr alarm, a chyhoeddodd ryfel; ac anfonodd Berne, fel cynghreirydd Zurich, 10,000 o wŷr i'r maes. Yr oedd y byddinoedd yn barod i ryfel pan y gwnaed cyfryngiad effeithiol rhyngddynt, yr hwn a derfynodd mewn cytundeb heddwch, a lawnodwyd yn Arau, Mehefin 26ain, 1529. Gwrthodwyd y cynghrair â Ferdinand; caniatawyd i bob plaid gyflawn ryddid crefyddol; ond nid oedd chwaneg o gyfnewidiadau i gymmeryd lle heb fod mwyafrif amlwg o breswylwyr dosbarth neu dref yn eu gofyn.

Er hyn oll nis adferwyd cyfeillgarwch. Yr oedd cyffro ac anfoddlonrwydd i raddau gofidus yn ffynu, ac yr oedd pob plaid yn barod i gymmeryd mantais ar bob dygwyddiad a allai fod yn ffafriol i'w lles gwahanredol eu hunain. Yr oedd pobl Zurich yn rhy dueddol i ryfel. Yr oedd amrafaelion dibwys yn cael eu chwyddo yn ormodol; cyfryngwriaethau a gynnygid o gantrefi ereill yn cael eu gwrthod; a digofaint o bob tu yn dilyn. O'r diwedd, mabwysiadwyd cynllun na ddylasai byth gymmeryd lle hyd yr eithaf—gwaharddwyd pob trafodaeth fasnachol â'r pum cantref Pabaidd. Nis gallasai y llymder yma—canys llymder ydoedd, gan fod y cantrefi hyny gan mwyaf yn dibynu ar eu cymmydogion, hyd yn oed am angenrheidiau bywyd—lai na chynhyrfu ad-daliad, ac arwain i elyniaeth gyhoeddus. Bu y canlyniadau yn fwyaf dinystriol i Zurich. Gan fod y gantref hono mor flaenllaw yn y mater,

Digitized by Google

cyhoeddodd y cynghreirwyr Pabaidd ryfel yn erbyn Zurich, a Zurich yn unig, ac ymosodasant yn ebrwydd ar ei thiriogaethau. Cymmerodd brwydr le yn Cappel, yn yr hon y bu y Pabyddion yn gwbl fuddugoliaethus. Canfuwyd fod gwŷr Zurich yn gwbl annigonol. Yr oeddynt yn ddiffygiol o ran medr a gwroldeb. Byr a fu yr ymryson, ac nid oedd y nifer a laddwyd yn fawr; ond yn eu plith yr oedd Zuingle. Efe a ddilynodd y fyddin i'r maes, fel prif fugail, yn unol â defod er cyn cof, ac ymdrechodd â'i holl egni, ond yn ofer, i gyffroi y milwyr i wroldeb. Wedi ei adael ar faes y gwaed yn glwyfedig, lle y gorweddai yn mysg pentyrau o laddedigion, gofynodd rhai o'r milwyr iddo a fynai efe gyffeswr. Yr oedd yn analluog i siarad, ond yr oedd ei law a'i lygad yn barhaus tua'r nefoedd, yn dangos ei fod yn ddyfal mewn gweddi. Nis gallai ateb holiad y milwyr ond trwy ysgwyd ei ben yn unig fel arwydd o wrthodiad. "Os nad ellwch siarad," meddent hwythau, "fel ag i allu cyffesu, bydded i chwi o leiaf erfyn am eiriolaeth mam Duw a'r saint." Gwrthod hyny hefyd a wnaeth efe. "Heretic cyndyn ydyw," meddent hwythau; ac yn ddioed, gwthiodd swyddog a ddaeth i'r lle ar y pryd bicell i'w wddf, a lladdodd ef. Ni chawsant wybod hyd y dydd canlynol pwy ydoedd. Yna yr oedd eu cynddaredd yn ddiderfyn, a dangosasant bob sarhad a'r a allent ar ei gorff, yr hwn a losgwyd yn Lucerne trwy ddwylaw y dienyddwr cyffredin. Y fath ydoedd diwedd galarus Ulric Zuingle! "Bu farw," medd Waddington, "yn nghryfder ei fywyd (yn saith a deugain oed), yn addfedrwydd ei ddealltwriaeth, ac yn nghyflawnder ei ddysg; a thrwy dynged flin, diffoddodd gobaith blyneddoedd o dduwioldeb goleuedig a llafurus. A phan yr ystyriom amryw gyfansoddiadau destlus a llafurus, dadleuol, egluriadol, a deongliadol, a ysgrifenodd efe mewn prin ddeuddeng mlynedd—deuddeng mlynedd hefyd yn cael eu cynhyrfu gan fil o ofalon a dysgwyliadau ereill —y rhai a safant yn gofgolofn dragwyddol o ddysgeidiaeth eang, barn gadarn, tymmer ddiduedd a thirion ar y cyfan, a ffydd dawel, ystyriol, ddifrifol; y mae yn achos o ofid dirfawr, hyd yn oed yn bresennol, ei fod wedi ei dori ymaith fel hyn mor anamserol."

Wedi dyoddef anffawd arall yn Zug, gorfodwyd y cantrefi diwygiedig i ofyn cytundeb, a llwyddasant i'w gael ar delerau mwy ffafriol, fe allai, nag y gallesid dysgwyl. Gadawyd y cantrefi Pabaidd a Phrotestanaidd mewn meddiant llawn a diderfysg o'u hawliau crefyddol, gan ymwrthod â phob ymyraeth â'u gilydd. Yn y dosbarthau lle yr oedd y ddwy blaid, yr oedd y diwygwyr yn cael eu gadael heb eu haflonyddu; ac os byddent, yn y cyfryw leoedd, yn ddigon lluosog i ffurfio cynnulleidfaoedd gwahanol, yr oedd cyllidau y bywioliaethau i'w rhanu rhwng y bugeiliaid Pabaidd a Phrotestanaidd, yn ol cyfartalwch rhif eu gwahanol ddeadellau.

Cymmerodd gwrthweithiad pleidiol i Babyddiaeth le ar ol y rhyfel trychinebus a dynodd gwŷr Zurich mor annoeth arnynt eu hunain. Yr oedd gelynion y Diwygiad yn orphwyllog gan lawenydd. Cyfodid allorau, ac offrymid i'r saint —trwy eiriolaeth y rhai y tybid fod yr holl lwyddiant yma wedi ei gael—a mawrheid y buddugoliaethau trwy orymdeithiau mawreddog ac arddangosion ereill o orlawenydd, nid yn unig yn Switzerland, ond hyd yn oed mewn gwledydd pellenig, ac yn Rhufain ei hun. Pa fodd bynag, nid oedd colled barhaus achos y Diwygiad mor fawr ag yr ofnid. Adferwyd Rapperschwyl, Mellingen, Bremgarten, ac ychydig o leoedd dibwys ereill at y llywodraeth Babaidd. Gwnaed rhyw ymdrechiadau gweiniaid yn Zurich a Berne i ail sefydlu pethau yn ol yr hen drefn; ond gorchfygwyd hwy yn fuan. Eto nis gellir gwadu na roddwyd attalfa ar ledaeniad pellach y Diwygiad. Y mae Switzerland Almaenaidd yn parhau i fod yn Babyddol hyd y dydd hwn.

Effeithiodd marwolaeth Zuingle gymmaint ar iechyd Œcolampadius, oedd wedi bod ar adfeiliad er ys cryn amser, fel y gwanychodd yn gyflym, ac y bu farw yn mhen ychydig wythnosau ar ol ei gyfaill; sef ar Tachwedd 23ain, 1541, yn naw a deugain oed. Myconius a'i dilynodd ef yn Basle. Yr oedd Zuingle yn llenwi y ddwy swydd o fugail a phroffeswr duwinyddiaeth. Cymmerodd Bullinger ei le fel bugail yn Zurich, a bu yn y swydd mewn bri mawr am bedair blynedd a deugain. Bibliander a ddaeth yn broffeswr duwinyddiaeth yno, a gwnaeth wasanaeth nodedig i eglwys Dduw o'r pryd hyny hyd ei farwolaeth, yn mhen deuddeng mlynedd ar hugain ar ol hyny.

Yr oedd egwyddorion y Diwygiad wedi bod ar waith yn ddistaw yn Geneva am gryn amser cyn iddi fod yn gyfleus nac yn ddiogel i wneyd dadganiad cyhoeddus o hyny. Yr oedd tri o'i gweinidogion yn bresennol yn nadl fawr Berne, a dychwelasant adref âg argraffiadau pur ffafriol ar eu meddwl at yr efengyl. Taenwyd gwybodaeth o'r efengyl yn raddol yn mysg y dinaswyr. Yn y flwyddyn 1532, cofleidiwyd golygiadau Protestanaidd gan gryn nifer o'r trigolion. Ymwelodd Farel â'r ddinas yn nghorff gauaf y flwyddyn hono, ond gorfodwyd ef i ymadael heb wneyd nemawr o effaith ar y trigolion. Gwysiwyd ef ger bron yr archficer (*grand vicar*) a'r cynghor esgobol. Pan gynnygiodd ef ddadleu y pynciau, atebodd un o'r barnwyr, gan ddywedyd, "Nid atebai hyny ein dyben ni: pe yr elem i ddadl, gŵyrdroid ein holl weinidogaeth." Llefodd ereill allan, "I'r Rhone, i'r Rhone âg ef! lleddwch ef! lleddwch ef! lleddwch y Luther newydd hwn!" gan chwanegu, "Gwell fyddai i'r Lutheriad drygionus hwn farw, nag i'r holl bobl gael eu cythryblu." Taniodd gwas yr archficer lawddryll arno, ond yn aflwyddiannus. Dilynwyd ef yn fuan ar ol hyny gan Anthony Froment—cyfaill ieuanc iddo, a brodor o Dauphiny, yr hwn a ymsefydlodd yno fel ysgolfeistr, gyda'r prif ddyben o ledaenu gwybodaeth efengylaidd. Llwyddodd yn fuan i gasglu cynnulleidfa yno, a chyda derbyniad a llwyddiant mawr. Ond gorfodwyd yntau hefyd i adael y ddinas, mewn canlyniad i ryw weithrediadau cynhyrfus a achoswyd gan y Pabyddion. Ymgyfarfyddai cyfeillion y Diwygiad, ar ol ei ymadawiad ef, yn ddirgel i addoli ac adeiladu eu gilydd, yn y nos yn fynych, er mwyn osgoi digofaint yr erlidwyr. Dygwyd amryw o honynt ger bron yr awdurdodau, ac alltudiwyd hwynt. Yn y ddinas yr oedd y cynhwrf mwyaf, yn yr hon yr oedd yr esgob ar ymweliad, ar ol bod yn absennol am rai blyneddoedd. Ymddygodd ef yn y fath fodd trahaus, a dangosodd y fath elyniaeth at y Diwygiad, fel yr oedd ei bresennoldeb yn dra annerbyniol; ac efe a ymadawodd, ar ol aros yno bymtheng niwrnod, ac ni ddychwelodd byth mwy. Yr oedd yn beiddio deddfu a gorchymyn, er ei fod yn absennol. Aeth mor bell ag i wahardd darllen yr Ysgrythyrau yn yr iaith gyffredin, a gorchymyn

Digitized by Google

i bawb oedd yn meddu Beiblau yn yr Almaeneg, neu yn y Ffrancaeg, i'w llosgi yn ddioed, dan boen esgymundod. Yr oedd y cyfryw ddedfrydau yn ddiniwed, am nad oeddynt yn cael ufudddod; ond yr oeddynt yn dangos tuedd y blaid Babyddol:—yr oedd eu gelyniaeth at air Duw yn annewidiedig ac annewidiadwy. Yr oedd y pethau hyn yn tueddu i ddyeithro meddyliau y Geneviaid oddi wrth yr esgob: cynnyddodd eu casineb ato pan welsant ef yn ymgyssylltu â dug Savoy, eu gelyn anghymmodlawn; a dygodd symmudiad llys yr esgob o Geneva i Gex, tref yn nhalaeth y dug, bethau i eithafion. Yn Medi, 1534, pasiwyd rheithfarn yn dadgan fod yr esgob wedi rhoddi i fyny ei awdurdod, a bod yr esgobaeth yn wag. Fel hyn, darparwyd y maes ar gyfer cynnydd chwanegol y Diwygiad.

Yr oedd Geneva mewn cynghrair â chantrefi Berne a Friburg—y naill yn gantref ddiwygiedig, a'r llall yn gantref Babaidd. Berne oedd yr un alluocaf. Gwnaeth wasanaeth pwysig i'r achos daionus yn ystod yr ymdrech ddiweddaf rhwng gwirionedd a chyfeiliornad. Aeth Farel, Viret, a Froment, yn nghwmni dirprwyaeth, o Berne; pregethasant yr efengyl dan eu nodded, a hyrwyddasant y Diwygiad mewn llawer o ffyrdd. Arosasant yn Geneva hyd nes y cwblhawyd yr ymraniad yn hollol. Mewn cystadleuaeth gyhoeddus a gynnaliwyd yn Mai a Mehefin, 1535, y rhoddwyd y dyrnod marwol. Yn ei diwedd, addefodd y dadleuwyr Pabaidd eu bod wedi cael eu gorchfygu, a derbyniasant Brotestaniaeth. Dilynwyd eu hesampl gan y bobl yn gyffredinol: a chyhoeddwyd deddf, Awst 27ain, er sefydlu y Diwygiad drwy gyfraith. Parhaodd y gweinidogion a enwyd eisoes i drigo yn Geneva, a gwnaethpwyd Farel yn brif fugail. Tröwyd un o'r mynachdai yn ysgoldy cyhoeddus, a'r llall yn yspytty i'r cleifion. Rhoddwyd yr holl ciddo eglwysig, nad oedd angen am dano, at gynnaliaeth y clerigwyr a'r tlodion, ac at ledaenu dysgeidiaeth.

Ysgrifenir gan hanesydd diweddar fel y canlyn am y mesurau diweddaf a fabwysiadwyd er sefydlu y Diwygiad ar dir cadarn yn Geneva:—"Yn nesaf, aeth y cynghor yn mlaen i drefnu amser a lleoedd addoliad cyhoeddus, cadwraeth y Sabbath, a phethau ereill yn dwyn perthynas â chrefydd a moesoldeb. Sefydlasant, a darparasant ar eu cyfer, bedwar o fugeiliaid, a dau gynnorthwywr; gorchymynasant i'r Sabbath gael ei gadw yn fanwl; trefnasant wasanaeth boreuol ar y dydd hwnw er mwyn gweision a morwynion; a chaniatasant addoliad cyhoeddus a phregethu yn yr Almaeneg a'r Italaeg, er mwyn yr ymnoddwyr lluosog oedd yno na ddeallent ond yr ieithoedd hyny. Gwnaethant ddeddfau yn erbyn halogedigaeth ac afradlonedd, ac yn erbyn dawnsfäau cyhoeddus, ffeiriau, ac arferion ereill a dueddent i lygru moesau. Dangosasant ychydig ofal hefyd am addysgu yr ieuenctyd; ac i'r dyben hwn, sefydlasant ysgol gyhoeddus yn mynachdy diweddar y Ffrancisciaid, yn athraw ar ba un y gosodwyd Anthony Saunier, cyfaill a chydwladwr i Farel. Ar yr un dydd ag y pasiwyd y penderfyniad i sefydlu yr ysgol, galwyd ar yr holl ddinaswyr i gymmeryd llw difrifol i ymwrthod â'r defodau a'r cyfeiliornadau Pabaidd, ac i fyw yn ol rheolau yr efengyl." Ond "dangoswyd ychydig o ddiffyg rhyddid, drwy gospi yr offeiriaid Pabaidd oedd wedi aros yn y ddinas, ac a geid yn euog yn awr ac eilwaith o ddarllen yr offeren a gweinyddu y sacramentau yn ol dull eu heglwys hwy eu hunain; a thrwy gospi hyd yn oed y rhai a aent i leoedd ereill yn y gymmydogaeth i'r seremonïau hyn."—[*Scott's Continuation of Milner*, iii. 308.]

Mewn canlyniad i derfyniad buddugoliaethus y rhyfel â'r duc o Savoy, trosglwyddwyd talaeth Pays de Vaud, yr hon a gynnwysai ddinas Lausanne a lleoedd pwysig ereill, i lywodraeth Berne. Mabwysiadwyd moddion yn uniongyrchol er hyrwyddo Protestaniaeth. Sefydlwyd gweinidogion yn y prif drefydd. Cymmerai dadleuon cyhoeddus le; ac y mae un o honynt, a gymmerodd le yn Lausanne yn Hydref, 1536, yn teilyngu crybwylliad neillduol o blegid yr effaith ddwys a gafodd ar y dinaswyr—pob un o ba rai, yn mron, a gofleidiasant y Diwygiad yn uniongyrchol ar ol hyny. Gwnaethpwyd Peter Caroli yn brif fugail arnynt. Dilynwyd ef y flwyddyn ganlynol gan Viret, cydymaith Farel; yr hwn a lafuriodd yn Lausanne am dair blynedd ar ugain yn dra llwyddiannus.

Ymsefydlodd Calvin yn Geneva yn Awst, 1536. Am lafur a llwyddiant y gwron hwn, yn nghyd â dylanwad ei ysgrifeniadau lluosog ar eglwysi Protestanaidd Ewrop, a'r dygwyddiadau pwysig a gymmerasant le yn ei oes ddefnyddiol, gwel d.g.

Cariwyd y Diwygiad yn mlaen i raddau pellach yn Switzerland nag yn yr Almaen. Daliai Luther ddadswyniad (*exorcism*) yn medydd, cyffes ddirgelaidd, a defnyddiad yr afrlladen yn swper yr Arglwydd, yn nghyd â rhai defodau ereill, ar ba rai yr edrychai fel pethau dibwys. Ysgubwyd yr holl bethau hyn ymaith gan Zuingle a'i gymdeithion. Eu dymuniad hwy oedd dwyn Cristionogaeth i'r symlrwydd y gosodir hi allan yn y Testament Newydd.

Y ffurflywodraeth eglwysig a fabwysiadwyd yn Switzerland oedd yr un henadurol. Ystyrid yr holl weinidogion yn ogyfuwch mewn gallu ac awdurdod. Rheolid achosion yr eglwys, a gwneid eu deddfau dysgyblaethol, gan gynnadledd o weinidogion diaconaidd. Diddymwyd esgobyddiaeth yn hollol.

Y DIWYGIAD YN SWEDEN, NORWAY, A DENMARC.

Derbyniodd parthau gogleddol Ewrop wybodaeth y gwirionedd o'r Almaen. Mor foreu a'r flwyddyn 1521, cofleidiodd marsiandwyr Swedaidd, a ymwelsant â'r wlad hono i ddybenion masnachol, egwyddorion y Diwygiad; ac ar eu dychweliad, llafuriasant yn mhlaid yr efengyl. Tua'r un amser, cyrhaeddodd y sôn am brifysgol Wittemberg i Sweden, ac aeth amryw fyfyrwyr i'r ddinas hono. Yn eu plith yr oedd dau frawd, Laurentius ac Olaus Petri, drwy lafur pa rai yn benaf, dan fendith Duw, y diwygiwyd agwedd foesol Sweden ar ol hyny. Gweinidog oedd Olaus ar y cyntaf; ond ennillodd enwogrwydd mawr cyn hir, a chafodd swyddau pwysig dan y llywodraeth. Llanwodd Laurentius liaws o swyddau eglwysig, ac etholwyd ef yn archesgob Upsal o'r diwedd.

Yr oedd Gustavus Vasa, yr hwn a ddewiswyd yn frenin Sweden yn 1523, yn bleidiwr gwresog i Luther. Tra yn alltudiedig yn Lubeck, yr oedd wedi bod yn myfyrio yr athrawiaethau a ddysgid gan y diwygiwr mawr, a derbyniodd hwynt yn awyddus. Gan nas gallasai lai na gweled fod Protestaniaeth yn fwy ffafriol i gynnydd a lledaeniad gwybodaeth a rhyddid na Phabyddiaeth, penderfynodd wneyd ei oreu o'i phlaid. Un o'r mesurau cyntaf a fabwysiadwyd oedd penderfynu cyfieithu y Testament Newydd i'r Swedaeg,

Digitized by Google

â'r hwn orchwyl yr ymgymmerodd Laurentius Andreas, offeiriad dysgedig, yr hwn wedi hyny a wnaethpwyd yn ganghellydd. Cyhoeddwyd ei gyfieithiad yn 1526. Gorchymynodd y brenin i archesgob Upsal, yr hwn a barhaodd i ymlynu wrth Babyddiaeth, barotoi cyfieithiad arall, fel y gallesid, drwy gymharu y naill a'r llall â'r gwreiddiol, gyrhaedd y gwirionedd yn well drwy hyny. Ni chydsyniodd yr archesgob, pa fodd bynag, â chais y brenin; a phan y canfu nad oedd yn bosibl attal llwyddiant y Diwygiad, ymadawodd o'r deyrnas, gan gymmeryd gydag ef drysorau lawer.

Bu dadl gyhoeddus, a gynnaliwyd yn Upsal, yn 1526, rhwng Olaus Petri a Peter Galle, duwinydd Pabaidd, o wasanaeth mawr i achos y Diwygiad. Cofleidiodd lluaws mawr o offeiriaid olygiadau Protestanaidd; a chan y cefnogid hwy gan y boneddigion, yr oeddynt yn gallu beiddio cynddaredd eu huchafiaid eglwysig, pa rai a wrthwynebent bob cyfnewidiad gyda'r cyndynrwydd eithaf.

Drwy weithio ar ofnau ofergoelus y bobl, yn neillduol mewn adegau o afiechyd, yr oedd y clerigwyr wedi llwyddo i gael etifeddiaethau, cestyll, yn nghyd â llawer o feddiannau ereill o werth dirfawr, oddi ar eu cyfiawn feddiannwyr; ac wedi cyrhaedd gradd beryglus o ddylanwad a gallu gwleidyddol drwy hyny. Yr oedd amgylchiadau cyfyng y deyrnas yn gofyn aberthau dirfawr er mwyn cario y llywodraeth yn mlaen. Yr oedd yn eithaf cyfiawn gosod y rhan drymaf o'r baich ar ysgwyddau y cyfoethogion a'r rhai a ymdröent mewn llawnder. Ond ni wrandawai y clerigwyr ar appeliad Gustavus. Nid oedd yn ddigon ganddynt wrthod cynnorthwyo eu brenin, ac ymdrechu gwrthweithio ei amcanion; ond gwrthwynebent bob cyfnewidiad, pa mor ddaionus bynag, a chyhoeddent Gustavus yn heretic. Cynhyrfent derfysgoedd, a chynllunient fradwriaethau, yn mhob parth o'r deyrnas. Yr oedd Sweden ar ddibyn dinystr. Yn yr argyfwng hwn, gwysiwyd cymmanfa gyffredinol o holl daleithiau y deyrnas i gyfarfod yn Arosen, yn 1527. Ar y cyntaf, nid oedd un tebygolrwydd y gellid trefnu pethau yn heddychlawn. Gwrthodai y blaid eglwysig, yr hon a flaenorid gan John Braske, esgob Lincoping, bob math o oddefiad, a chynnaliasant gyfarfod neillduol, yn mha un yr ymrwymasant drwy lw difrifol i amddiffyn rhagorfreintiau eu hurdd, i gadw eu budr elw, i ddystrywio pob heresi, ac i wrthweithio i'r eithaf bob ymgais at ddiwygiad. Dodasant y cyfammod hwn, gyda'u henwau wrtho, mewn bedd yn eglwys St. Giles, lle y cyfarfuasant, a chafwyd ef yno yn mhen pymtheng mlynedd wedi hyny. Ar ol ymgyfammodi yn y dull hwn, aethant i'r gymmanfa. Cymmerodd dadleuaeth hirfaith a phoethlyd le. O'r diwedd, wrth weled nad oedd un gobaith am gytundeb heddychlawn, cyfododd y brenin, a dywedodd fod yn hollol anmhosibl iddo ef aros yn hwy ar yr orsedd, yn gymmaint a bod y deyrnas yn y fath berygl; a chan hyny, mai ei fwriad oedd ei rhoddi i fyny, ac encilio yn wirfoddol i alltudiaeth, heb ofyn dim ganddynt ond ad-daliad o'r costau yr aeth iddynt i amddiffyn y deyrnas, a phris teg am ei etifeddiaeth deuluaidd. Yna ymadawodd o'r gynnadledd, yn cael ei ddilyn gan ei brif swyddogion milwrol. Cymmerodd ymrafaelion tanbaid le wedi iddo droi ei gefn. Cadwodd yr esgobion eu tir am amser maith, gan wrthod ymostwng yn ystyfnig. Ond darostyngwyd eu cyndynrwydd, gan i'r pendefigion gael eu hargyhoeddi o resymoldeb yr hyn a ofynai y brenin. Ar y pedwerydd dydd, derbyniodd Gustavus ddirprwyaeth oddi wrth y taleithiau, a chydsyniodd â'u cais i ymgymmeryd eilwaith âg awenau y llywodraeth. Pasiwyd deddfau yn gwahardd ymyriad pellach yr esgobion mewn materion gwladol, ac yn adferu y cestyll a'r etifeddiaethau a ddisgynasant i ddwylaw y clerigwyr i'w cyfiawn feddiannwyr. Gwnaethpwyd rheolau hefyd er darparu gweinidogion cymhwys i'r eglwysi; ni ordeinid neb a fyddai yn analluog neu yn anewyllysgar i "bregethu pur air Duw;" dodwyd cyllid yr eglwys dan reolaeth y brenin a'i gynghor, pa rai oeddynt i dalu cyflogau y clerigwyr, yn nghyd â phob costau angenrheidiol ereill, ac i ddefnyddio y gweddill at ddybenion cenedlaethol. Gorchymynwyd darllen yr Ysgrythyrau yn yr holl ysgolion; a chyfyngwyd y mynachod teithiol i derfynau priodol. Trwy drefniadau pellach, rhoddwyd attalfa ar hòniadau afresymol yr Eglwyswyr, y rhai nid oeddynt yn gyfrifol i'r awdurdodau gwladol yn flaenorol i hyn.—[*Gerdes, Hist.* iii. 304—313.]

Ar ol hyny, llwyddodd y Diwygiad yn Sweden. Rhoddwyd y dyrnod gorphenol yn 1529, yn nghyfarfod y taleithiau, a gynnaliwyd yn Orebro, yn yr hwn y penderfynwyd dileu yr awdurdod Babaidd, a sefydlu ffurf o grefydd yn ol yr Ysgrythyrau. Cyhoeddwyd cyfarwyddiadur i'r addoliad, wedi ei barotoi gan Olaus Petri; yr hwn a gynnwysai, heb law cyfarwyddiadau manwl at gyflawnu gwasanaeth eglwysig, grynodeb byr o'r athrawiaeth Gristionogol. Gyda golwg ar seremoniau, yr oedd yn rhoi gormod o le i syniadau ac ymarferion Pabyddol. Caniatëid cadw delwau "er cof am Grist a'r saint." Yr oedd hefyd yn goddef defnyddio dwfr sanctaidd a goreneiniad, a rhai defodau Pabaidd ereill; ond cymmerid gofal i egluro eu harwyddocâd a'u hamcan, er mwyn gochel camddefnydd coelgrefyddol, hyd y gellid. Mae yn dra chysurus meddwl fod yr athrawiaethau a broffesid gan Brotestaniaid Sweden yn gwbl gytunol â gwirionedd efengylaidd. Ysgrifenodd Olaus Petri ar gyfiawnhad, yn neillduol, mewn modd tra eglur.

Yn Denmarc, cystal ag mewn amryw wledydd ereill, bu pregethu maddeuantau yn un o'r moddion cyntaf i agor llygaid dynion am gyfeiliornadau a ffieidd-dra Pabyddiaeth. Cynhyrfodd ymddygiadau Arcimbold, cenadwr y pab, adgasrwydd cyffredinol; ac addfedodd y bobl i dderbyn athrawiaethau Luther, y rhai a bregethid yn eu plith gan amryw oedd wedi myfyrio ysgrifeniadau y diwygiwr, neu wedi ei glywed yn Wittemberg. Yn eu plith yr oedd Martin, dyn dysgedig, a ddanfonwyd i Copenhagen gan etholydd Saxony, ar ddymuniad Christiern II. brenin Denmarc, ac a appwyntiwyd yn bregethwr yn eglwys gadeiriol y ddinas hono. Gellir barnu am effeithiau ei lafur wrth y mesurau a ddefnyddiwyd er eu hattal. Gan fod canonau yr eglwys gadeiriol yn analluog i'w argyhoeddi o gyfeiliornad, ac i wrthsefyll y gwirioneddau a bregethai, cyflogasant fachgenyn oedd yn adnabyddus fel gwatwarwr medrus, ac annogasant ef i ddynwared dull Martin o lefaru ac agweddu, y rhai nad oeddynt yn hynod o lednais. Anfonasant y bachgen o amgylch y ddinas i ddifyru y bobl â ffug bregethau ar faterion digrif, ac i'w traddodi yn null Martin. Yr oeddynt yn ei ddiwallu â digonedd o fwyd da, ac â gormodedd

Digitized by Google

o ddiod feddwol, fel y gallai chwareu ei ran yn fwy effeithiol. Er mor annheilwng oedd y cynllun, efe a lwyddodd. Dychwelodd Martin yn fuan ar ol hyny i Wittemberg. Er hyny, parhaodd y brenin i ddwyn y Diwygiad yn mlaen. Rhwystrodd i ysgrifeniadau Luther gael eu condemnio gan brifysgol Copenhagen. Cyhoeddodd gyfreithiau yn gwahardd rhodres a gloddest y preladiaid. A phan y diswyddwyd ac y gyrwyd ef i alltudiaeth, mynodd gael cyfieithiad o'r Testament Newydd i'r iaith Daenaeg, yr hwn a gyhoeddwyd yn Leipsic yn 1524.

Yr oedd Frederic I, yr hwn a ddilynodd Christiern, yn tueddu i bleidio gwirionedd efengylaidd, a dangosodd duedd yn fuan i noddi y diwygwyr. Darfu i George Sadolin, yr hwn a ymwelodd â Wittemberg, ac a ddychwelodd i'w ddinas enedigol, Wibourg, yn 1525, i agor athrofa Brotestanaidd, yn cael ei gefnogi gan y brenin, dan nawdd yr hwn y parhaodd yn ei lafur defnyddiol er holl wrthwynebiad esgob y lle. Yr oedd llawer o wŷr ereill hefyd yn llafurio yn yr un gorchwyl. Yr oedd John Taussen yn ŵr o radd uchel yn mysg diwygwyr Denmarc. Ganwyd ef yn Birkinde, yn y flwyddyn 1494, o rieni tlawd, y rhai oedd yn gwbl analluog i ddwyn costau ei addysg. Yr oedd ei barodrwydd i ddysgu mor amlwg, fel y cafodd dderbyniad i fynachdy yn Antvorscov, lle y coleddid y gobeithion mwyaf am dano, a gwnaed darpariad iddo orphen ei efrydiaeth mewn unrhyw brifysgol dramor a ddewisai efe, ond Wittemberg, yr hon a ystyrid mor fore a hyny yn gogwyddo at heresi. Aeth yntau i Cologne; ond teimlai anfoddlonrwydd yn fuan at ysgrifeniadau duwinyddion yr ysgol, y rhai a fyfyrid yn benaf y pryd hyny yn y brifysgol hono. Dygwyddodd i rai o ysgrifeniadau Luther syrthio i'w law; buan y derbyniodd y gwirioneddau a ddysgid gan y diwygiwr mawr, ac, er pob gwaharddiad gan ei uchraddolion, efe a aeth i Wittemberg. Dychwelodd yn 1521, ac arosodd am beth amser yn Rostock, lle y cafodd ei radd o athraw yn y celfyddydau, a dechreuodd bregethu. Ail gymmerodd ei le yn mynachdy Antvorscov; condemniai goelgrefydd a drygioni y trefniadau mynachlogaidd yn ddiarbed, a chymhellai yr angenrheidrwydd am ddiwygiad trwyadl. Fe wrandewid ei ddarlithiau gydag anfoddlonrwydd mawr. Traddododd un ar Sul y Blodau, yn 1524, yn yr hon yr helaethai ar annigonolrwydd pob gwaith dynol, ac y cymmerai i mewn yr athrawiaeth o iachawdwriaeth trwy ras-ac iawn Crist; yr hyn oedd mor anfoddhaol i'w wrandawyr mynachol, fel y penderfynasant gael gwared o hono ar unwaith. Mewn ufudd-dod i orchymynion y prior, aeth i breswylio mewn mynachdy yn Wibourg. Carcharwyd ef gan brior y mynachdy hwnw. Ond nis gallai dim ddarostwng sel Taussen. Pregethai yr efengyl o ffenestri ei ddaiargell, a throdd lawer i'r gwirionedd. Cyrhaeddodd ei enwogrwydd y brenin, yr hwn a'i happwyntiodd ef yn un o'i gaplaniaid, ac a roddodd iddo ganiatâd penodol i bregethu yn yr un a fynai o eglwysydd Wibourg. Wedi cael ei esgymuno o'r mynachdy fel heretic anwelladwy, cyhoeddai y newydd da o brynedigaeth i luaws astud a ymdyrent o bob parth i wrandaw arno. Cymmerodd yr esgob a'r offeiriadaeth alarm; gwaharddwyd rhoddi yr eglwysydd i'w wasanaeth; yn ngwyneb hyny, cynnullodd Taussen y bobl yn nghyd yn y fynwent, a phregethodd oddi ar gareg fedd. Yna ymdrechasant ddarostwng y cyfarfodydd trwy rym cyfraith y tir; ond ni chymmerai y bobl eu llwfrhau; aethant yn arfog i'w cynnulliadau, yn barod i wrthwynebu nerth â nerth, ac ymddangosent mor benderfynol fel y bu gwrthwynebiad yn aneffeithiol. Yna cafwyd deddfwriaeth freninol, yn awdurdodi cyhoeddiad rhydd o'r efengyl i ddinasyddion Wibourg.

Yr oedd gweithrediadau cymmanfa y taleithiau, a gynnaliwyd yn Odensee, yn 1527, yn arwyddo cynnydd da yn yr iawn gyfeiriad. Yr oedd cyfarchiad Frederic yn nodedig o gyfaddas ac amserol. Ar ol adgofio yr esgobion o'u rhwymedigaethau i borthi eglwys Crist â phur air Duw, ac i wylio yn ddiwyd dros ei llesâd, efe a gyfeiriodd at ledaeniad cyflym athrawiaethau Luther; yr hyn, fel y dywedai, nas gellid rhyfeddu ato, gan fod gweinidogion Eglwys Rhufain wedi cefnu ar ffynnon y gwirionedd nefol, ac arwain y bobl i byllau lleidiog traddodiadau dynol; a bod y chwedlau gwrachïaidd hyny am wyrthiau wedi cael eu lledaenu yn eu plith i'r fath raddau, a chyda'r fath ddiwydrwydd, fel yr oeddynt yn peri diflasdod ac atgasrwydd hyd yn oed yn ngolwg y werin annysgedig. Gwyddai ei fod ef wedi tyngu i amddiffyn ffydd gatholig Rhufain; ond nis gallai efe ystyried fod y llw hwnw yn ei rwymo i noddi cyfeiliornadau, camarferiadau, ac ofergoelion, oedd wedi graddol ymlusgo i mewn, a chael derbyniad trwy yr holl fyd Cristionogol. Yr oedd efe wedi amddiffyn hawliau a rhagorfreintiau yr offeiriadaeth, ac yr oedd yn bwriadu cadw at ei addewid. Pa fodd bynag, yr oedd yn rhaid iddynt gofio fod egwyddorion y Diwygiad wedi gwreiddio yn ddwfn yn Denmarc, ac nas gellid eu dadwreiddio heb lawer o dywallt gwaed, ac achosi dirfawr helbul a niwed i'w ddeiliaid. Nid oedd yn barod i ddefnyddio y fath fesurau; ac am hyny, ei ddymuniad ef oedd caniatau i bawb arfer eu rhyddid gyda chrefydd, hyd ymgynnulliad y cynghor cyffredinol, i ddeddfwriaethau duwiol yr hwn y rhoddai efe ufudd-dod llawen.

Derbyniwyd cyfarchiad y brenin gan bawb ond yr offeiriadaeth gyda boddhad mawr. Pasiwyd deddfwriaethau yn caniatau llawn ryddid cydwybod; rhoddid nodded helaeth a chyfartal i Babyddiaeth a Lutheriaid; caniateid i fynachod a lleianod adael eu mynachdai, a dilyn bywyd cyffredin; gadewid i offeiriaid briodi; gwaherddid anfon i Rufain am fantell archesgob Pabaidd, a thrwy hyny gydnabod penogaeth y pab; a chyfyngwyd awdurdod eglwysig at bethau eglwysig yn unig.

Malmoe, yn ynys Funen, oedd y dref gyntaf yn yr hon y llawn sefydlwyd y Diwygiad. Pregethodd Martin a Spandermager yr efengyl yno yn selog, a chyda llwyddiant mawr. Yn y flwyddyn 1528, dygasant yn ddoeth ganu cynnulleidfaol i'r addoliad cyhoeddus, a chyhoeddasant lyfr tônau Salmau at wasanaeth y bobl. Yr oedd hon yn weithred dra phoblogaidd. Argraffwyd cyfieithiad hefyd o'r Salmau o gylch yr un amser. Effeithiodd y pethau hyn mor rymus, fel y llwyr ddiddymwyd Pabyddiaeth o Malmoe y flwyddyn ganlynol.

Derbyniodd Norway yr efengyl gan bregethwyr o Denmarc, gan fod y ddwy wlad y pryd hyny, mewn ystyr wladol, yn gyssylltiedig. Bergen a efengyleiddiwyd gyntaf; ac o'r ddinas hono ymdaenodd yn raddol dros yr holl ranau ereill.

Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r Testament

Digitized by Google

Newydd Daeneg, yn 1529, gan Christian Pederson, canon o Lund, yr hwn oedd newydd gofleidio egwyddorion Protestaniaeth. Yr oedd yr argraffiad wedi ei ddiwygio yn fawr, ac yr oedd yn bur gymmeradwy gan hoffwyr y gwirionedd yn Denmarc. Yn yr un flwyddyn, appwyntiwyd Taussen yn bregethwr i eglwys St. Nicholas yn Nghopenhagen, lle yr oedd ei bregethau hyawdl a grymus, yn y rhai y dadleuai ysgelerderau Rhufain, ac yr eglurai yr athrawiaeth efengylaidd yn null un wedi "profi daionus air Duw," yn tynu lluaws o wrandawyr; a pharodd ei lafur lwyddiant mawr i'r achos. Yr oedd y syniad mor gyffredinol a dwfn o blaid yr efengyl, fel y barnodd y brenin fod yr amser wedi dyfod i wneuthur dadganiad cyhoeddus o hyny. Wedi awgrymu y byddai i bwnc crefydd gael ei ddwyn yn neillduol ger bron mewn cyfarfod o'r taleithiau, yn 1530, danfonodd y preladiaid Pabaidd ddirprwyaeth i Cologne, a chawsant gynnorthwy corff o dduwinyddion Almaenaidd. Pan oedd Taussen yn Wibourg, anfonodd yr esgob am Eck, gan obeithio y gallai, trwy ei gynnorthwy ef, ddystewi ei wrthwynebydd; ond gwrthododd Eck anrhydedd oedd mor ammheus. Anfonwyd wedi hyny at Cochlœus; gofynodd ef gynghor Erasmus, ac mewn cydsyniad â'i awgrymiad ef, gwrthododd yntau dderbyn y gwahoddiad. "Y mae y daith yn fawr," meddai Erasmus; "a dywedir fod y bobl o duedd greulawn, ac y mae y gauaf wrth law. Pe buasai yr esgobion yn ymryson dros deyrnas Crist, ac nid yr eiddynt eu hunain, dylasem ni fod yn fwy parod i ymuno yn yr ymdrech. Yr unig gynghor, gan hyny, a allaf fi ei roddi gyda golwg ar y mater, yw, ar i chwi ei olygu fel achos Crist, ac nid achos dyn, ac ar i chwi fod yn fwy boddlawn i ddynion gael iachawdwriaeth na chael eu cospi." Arweiniodd Taussen ei blaid Brotestanaidd, ac a draddododd, ar eu rhan, gyffes ffydd odidog. Cyflwynodd y Pabyddion wrthgyffes, gan gondemnio eu gwrthwynebwyr fel hereticiaid, a chymhell y brenin i'w rhoddi i lawr trwy drais. Yna cynnygiwyd dadl gyhoeddus. Cytunodd Taussen a'i gyfeillion â hyny yn ewyllysgar; ond taflwyd anhawsderau anorfod yn ebrwydd ar y ffordd. Penderfynodd y Pabyddion ddadleu yn Lladin; ond dewisai y Protestaniaid yr iaith Daeneg. Gofynai y blaenaf am ymostyngiad i'r pab fel barnwr diweddaf y ddadl, neu i benderfyniadau y cynghor cyffredinol; ond gwrthodai yr olaf ymostwng i unrhyw awdurdod ond awdurdod yr Ysgrythyrau, gan ganiatau yn unig i'r awdurdod wladol ddadgan syniadau pa un o'r pleidiau ymrysongar a fyddai fwyaf cytunol â'r llyfr sanctaidd. Gan na ildiai y naill na'r llall, ni chymmerodd dadl le. Ond yr oedd yn hawdd canfod fod y fantais o blaid y Protestaniaid; ac ar ol hyny, cynnyddodd eu syniadau yn gyflym.

Bu farw Frederic I, Ebrill 10fed, 1533. Ar ol ei farwolaeth ef, dilynodd rhyngdeyrnasiad am yn agos i ddwy flynedd, pan y cafodd yr esgobion y llaw uchaf—y treisgipiasant y llywodraeth, ac y cynnygiasant ail osod Pabyddiaeth yn ei hawdurdod a'i hanrhydedd blaenorol. Llwyddasant i raddau, ond nid cyn belled ag y dymunasent, gan fod barn y werin yn eu herbyn yn gyffredinol. Cyfeirid ffyrnigrwydd yr ystorm yn benaf yn erbyn Taussen. "Rhoddodd ei elynion eu dylanwad yn ei erbyn," medd Townley, "yr hyn a achosodd iddo gael ei wysio ger bron awdurdodau y deyrnas. Cyhuddwyd ef yn y modd chwerwaf; ac er iddo amddiffyn ei hun yn y modd mwyaf galluog, condemniodd y preladiaid ef i golli ei fywyd, ei anrhydedd, a'i eiddo. Gwrthododd y cynghor gadarnhau y ddedfryd, er y gorchymynwyd iddo adael yr ynys, a pheidio ymddangos byth mwy yn Zealand neu Skania. Ond y dinasyddion, wedi deall y modd y trinwyd ef, a ymgynnullasant o flaen y cynghor, ac a archasant ar iddo gael ei roddi i fyny iddynt hwy yn ddiogel a dianaf. Daeth pelydr nodedig o dynerwch cymmeriad Taussen i'r amlwg ar yr achlysur yma. Yr oedd cynddaredd y boblogaeth at yr esgob Rönnow y fath, ar yr hwn yr edrychent fel awdwr yr erlyniad, fel y penderfynasant ddial eu llid arno wrth iddo ddychwelyd i'w breswylfod. Pa fodd bynag, tawelodd Taussen eu cynddaredd, ac a arweiniodd ei elyn gerfydd ei fraich trwy y dorf at ddrws ei dŷ."

Ar ol ethol Christiern III, mab y brenin diweddar, yn 1535, parhaodd yr esgobion yn eu drwg gynlluniau, ac a suddasant y deyrnas i ddychrynfeydd rhyfel gartrefol. Bu y canlyniad yn andwyol iddynt hwy. Sefydlodd y brenin newydd ei awdurdod er gwaethaf pob gwrthwynebiad. Un o ganlyniadau cyntaf ei lwyddiant oedd attafaelu a difuddio y preladiaid gwrthryfelgar. Cymmerwyd y cyfleusdra i ddwyn holl bwnc y Diwygiad ger bron cymmanfa awdurdodau y deyrnas, mewn cynghor a gynnaliwyd yn Copenhagen. Diddymwyd y radd esgobol. Rhoddwyd yr holl feddiant eglwysig dan drefniad y llywodraeth, gyda'r dealltwriaeth, ar ol darparu yn briodol er cynnal y gwŷr llên, a sefydlu colegau, ysbyttai, tlottai a mynachdai diwygiedig, y byddai i'r gweddill gael eu cyflwyno at dalu y ddyled a achoswyd drwy y rhyfel diweddar, ac at leihau y trethi. Mabwysiadwyd mesurau pwysig ereill er sefydlu a gwneyd y gwaith mawr yn barhaus. Ymgynghorid yn fynych â Luther. Ar ei annogaeth ef, aeth Bugenhagius i Copenhagen, lle yr arosodd am ennyd o amser. Yr oedd yn llywyddu yn y coroniad, pan, yn lle y ffurfiau Pabaidd, y defnyddiwyd seremoniau heb fod mor ofergoelus, a rhai mwy unol â'r Ysgrythyrau. Parotodd ffurf newydd o ordeiniad ar egwyddorion Protestanaidd, yr hon a ddefnyddiwyd yn ordeiniad saith o arolygwyr a osodwyd ar yr esgobaethau, yn lle yr esgobion a ddifuddiwyd. Ail drefnodd brifysgol Copenhagen, yr hon oedd wedi syrthio i adfeiliad, ond a adnewyddid yn awr trwy orchymyn y brenin, ac a waddolwyd yn haelionus. Yr oedd ei wasanaeth mor werthfawr fel y taer ddymunai y brenin ei gadw yn Denmarc; ond gwrthododd efe yr holl gynnygion haelionus a wnaed iddo, a dychwelodd at bobl ei ofal yn Wittemberg.

Cymmerodd sefydliad llwyr y Diwygiad le mewn cyfarfod o'r awdurdodau a gynnaliwyd yn Odensee yn 1539. Cadarnhawyd yn ddifrifol y pryd hyny yr hyn oll a wnaethpwyd gan Bugenhagius, a chyhoeddwyd Protestaniaeth yn grefydd sefydledig Denmarc. Parhaodd Taussen yn selog i yru achos y gwirionedd yn mlaen. Yn 1535, yr oedd wedi cyhoeddi cyfieithiad o Bum Llyfr Moses, yr hwn oedd yn dra derbyniol gan gyfeillion crefydd. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, appwyntiwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth yn Roskilde. Yn 1542, dyrchafwyd ef i arolygiaeth esgobaeth Ripen, lle y llafuriodd hyd Tachwedd 9fed, 1561, pan y terfynodd angeu ei yrfa lafurus a defnyddiol.

Mewn cydsyniad â dymuniad taer Bugenhagius, cymmerodd y brenin arno ofalu am fod

Digitized by Google

i Denmarc gael yr holl Ysgrythyrau yn yr iaith gyffredin. Rhoddwyd côr duwinyddol prifysgol Copenhagen ar waith i arolygu y cyfieithiad. Nid arbedwyd unrhyw draul. Gorphenwyd ef yn 1550: cyfieithiad Luther yn benaf a ddilynwyd. Yr oedd sefydliad y Diwygiad yn Denmarc yn lân mewn cymhariaeth oddi wrth ymosodiad a thywallt gwaed. Crybwyllwyd am ryfel gartrefol; ond ni pharhaodd hono yn hir. Ni chyfodwyd esgynloriau i ddienyddio y diniwed. Nid oedd cludeiriau y merthyron yn fflamio yno. Yr oedd cynnydd y gwirionedd yn raddol, a choronodd buddugoliaeth dangnefeddus yr anturiaeth sanctaidd.

Y DIWYGIAD YN YR ISELDIROEDD.

Yr oedd yr Iseldiroedd, neu y Netherlands (yn cynnwys teyrnasoedd presennol Holland a Belgium), yn ffurfio rhan o diriogaethau eang Charles v. Pan gychwynodd y Diwygiad, Margaret o Awstria, modryb yr ymherawdwr, oedd yn eu llywodraethu, i'r hon yr ymddiriedwyd y rhaglawiaeth yn 1512. Yr oedd athrawiaethau Luther yn cael eu lledaenu yn dra selog gan ei ddilynwyr. Canfu yr argraffwyr hefyd fod ail gyhoeddi ei waith yn orchwyl manteisiol; o ganlyniad, gwasgarwyd ysgrifeniadau y diwygwyr yn helaeth yn yr Iseldiroedd; a chawsant effaith fawr, fel y mae yn hawdd barnu oddi wrth yr ymdrechion a wnaed i ddarostwng y gwirionedd. Pasiwyd cyfraith yn 1521 yn gwahardd cyhoeddi unrhyw waith duwinyddol heb ganiatâd yr esgobion; ac ar ol canfod hyny yn aneffeithiol, appwyntiodd yr ymherawdwr ddau ddirprwywyr gyda llawn awdurdod i wneuthur ymchwiliad am heresi, ac i gospi pob troseddwr. Taflwyd llawer o bersonau i garchar. Yr oedd yr ymosodiad ar Cornelius Grapheus yn nodedig o greulawn, a dengys ddrwganian Pabyddiaeth yn dra eglur. Y trosedd yr haerid ei fod yn euog o hono oedd, ei fod, lawer o flyneddoedd yn ol, wedi ysgrifenu rhagymadrodd i lyfr a gyhoeddwyd gan John van Gooch, yn yr hwn yr anghymmeradwyai rai o ddedfrydau a seremoniau yr eglwys, fel iau afreidiol ar war pobl Gristionogol. Syrthiodd y llyfr i ddwylaw y dirprwywyr, y rhai a gawsant allan yr heresi yn ebrwydd yn y rhagymadrodd. Taflwyd Grapheus i garchar. Wedi dychrynu at ei sefyllfa, cynnygiodd dynu yn ol. Ond yr oedd y cwbl yn ofer. Gallasai dynion gyhoeddi "anlladgerddi, coegchwareu, a duchanau, pa mor llym ac anweddaidd bynag a fyddent," yn gwbl ddigerydd, fel y sylwodd Grapheus yn gyfiawn: pan anturient ymosod ar yr eglwys yn unig yr oeddynt i gael eu hattal. Yr oedd ammheu unrhyw athrawiaeth a gredid yn Rhufain, pa mor ynfyd bynag fyddai; neu betruso yn nghylch unrhyw ddefod, pa mor gywilyddus bynag a allai fod, yn drosedd anfaddeuadwy. Y ddedfryd a basiwyd ar Grapheus oedd, ei fod i wneyd dadgyffesiad cyhoeddus yn Brussels ac Antwerp, ac i daflu y rhagymadrodd adgas i'r tân â'i law ei hun; fod ei holl eiddo i gael ei attafaelu; ei fod yntau i gael ei analluogi am byth i ddal unrhyw swydd gyhoeddus; a'i fod i ddyoddef carchariad parhaus.

Cospwyd ereill yn llymach fyth. Cofleidiodd amryw o fynachod Awstinaidd Anvers egwyddorion y Diwygiad, y rhai a garcharwyd ac a ddygwyd i brawf. Dadgyffesodd rhai o honynt. Safodd tri y prawf, a dedfrydwyd hwy i'r fflamau. Dyoddefodd dau o honynt—Henry Voes a John Echt—yn llawen yn Brussels, Gorphenaf 1af, 1523. Yn mhen tri diwrnod ar ol hyny, dyoddefodd Lambert, eu cydymaith, yr hwn yr effeithiwyd arno gan ofn i ofyn ychydig seibiant, yr un dynged. Yn gyffelyb, rhoddwyd ereill i farwolaeth, trwy orchymyn Aleander, cenad y pab, mewn gwahanol barthau o'r Iseldiroedd. Gwnaeth y dienyddiadau hyn wasanaeth mawr i achos y gwirionedd. Ni phetrusai Erasmus sicrhau, a diau fod ganddo reswm da dros hyny, lle bynag y goleuai Aleander danau merthyrdod, yr hauid hadau heresiau yno yr un amser.

"Y mae pob hanesion yn cytuno," meddai Milner, "mai yn y blyneddoedd 1523 a 1524, yr oedd yr erlidigaethau lymaf. Y mae un esampl o awdurdod dda yn fynych yn ddigon i egluro tymmer rheolwyr, a'r syniadau fydd yn ffynu yn mysg y bobl. Er esampl, yr oedd person yn Antwerp a fyddai yn arfer egluro yr efengyl ar y Sabbathau i dyrfaoedd mawrion o bobl. Rhoddwyd gorchymyn penodol allan i wahardd yr arferiad. Pa fodd bynag, ymgyfarfu y bobl yn y llong-gadlas (*dock-yard*), ac wrth weled nad oedd eu pregethwr neu eu hesboniwr arferol yn ymddangos, esgynodd gŵr ieuanc selog, o'r enw Nicolaus, i gwch oedd yn agos i'r lan, ac anerchodd y gwrandawyr mewn modd pur ddoniol, o'r bennod sydd yn traethu am y pum torth a'r ddau bysgodyn. Y diwrnod nesaf, gorchymynwyd ei ddal, a rhoddwyd ef mewn sach rhag i'r bobl ei adnabod; ac yn y cyflwr hwnw, taflwyd ef yn ddisymmwth i'r afon."

Byddai yn orchwyl poenus rhoddi adroddiad manwl o holl ddychrynfeydd y merthyriadau lluosog sydd yn gwneyd i fyny ran fawr o hanes eglwysig yr Iseldiroedd. Yr oedd dyoddefiadau gweision Duw yn chwerw, a'r ymryson yn fwy hirbarhaol yno nag mewn un wlad arall. Nid oedd yno ond un ffordd i ymddwyn at hereticiaid tybiedig: yr oedd yn rhaid iddynt ddadgyffesu neu gael tori eu penau, eu tagu, neu eu llosgi, yn ol dedfryd eu barnwyr didrugaredd. Er gwaethaf y cospedigaethau dychrynllyd hyn, yr oedd ymneillduad oddi wrth Rufain yn myned yn fwyfwy lluosog yn barhaus: gadawodd llawer o fynachod a lleianod eu mynachdai, ac ymunasant âg ereill mewn bywyd cymdeithasol. Cyfrifid fod y mwyafrif o drigolion Holland, Zealand, a Flanders, wedi coleddu yr athrawiaethau a ddysgid gan y diwygwyr. Cynddeiriogwyd yr erlidwyr trwy hyn, ac arferasant fesurau llymach fyth. Trwy ddeddf a gyhoeddwyd Hydref 14eg, 1529, condemnid pawb a geid yn Brotestaniaid i farw—y dynion i gael tori eu penau, y gwragedd i gael eu claddu yn fyw—a'r rhai a ddadgyffesent, ac a laesent drachefn, i gael eu llosgi. Dyfernid y rhai a dderbynient hereticiaid tybiedig i'w tai i ddyoddef marwolaeth, a'u heiddo i gael ei fforffedu. Cauid allan y rhai a ddrwgdybid o heresi o bob gorchwyl cyhoeddus, ac addawid gwobrau helaeth i achwynwyr. Er hyny yr oedd y gair yn myned rhagddo ac yn cynnyddu.

Cyhoeddodd Jacob Liesveldt, argraffydd, argraffiad o'r Beibl yn yr iaith Belgaeg, yn 1526. Yr oedd yn rhodd o'r werthfawrocaf i bobl erlidiedig Duw, ac yn ffynnon o ddwfr bywiol i lawer enaid oedd yn sychedu am wybodaeth a gras. Ond costiodd i'r argraffydd ei fywyd. Yr oedd wedi rhoddi sylwadau byrion ynddo, yma ac acw, —un o'r rhai oedd fel hyn; "Fod iachawdwriaeth yn dyfod oddi wrth Grist yn unig." Y mae llawn dderbyniad o'r gwirionedd hwn yn ddyrnod marwol i goelgrefydd Rhufain; gan hyny, yr oedd y rhai a'i credent wedi eu nodi i gael dial arnynt. Torwyd pen Liesveldt yn Antwerp;

a chyhoeddwyd dedfrydau olynol yn erbyn y rhai a ymgyfarfyddent i ddarllen yr Ysgrythyrau ac i ymddyddan am danynt, neu hyd yn oed yn meddu y cyfieithiad gwaharddedig. Y gosp oedd fforffedu bywyd ac eiddo. Deddfwyd yn mhellach y byddai i bwy bynag a gyhoeddai unrhyw lyfr newydd, ar unrhyw bwnc, heb ganiatad, gael ei roddi yn yr arteithglwyd, neu ei serio â haiarn poeth, neu dynu un llygad, neu dori ei law.

Ar farwolaeth Margaret o Awstria, yn 1530, dilynwyd hi gan Mary, gweddw Lewis, brenin Hungary, chwaer i Charles v, i'r rhaglawiaeth; a chariodd yr erlidigaeth yn mlaen yn yr un ffyrnigrwydd. Yn y flwyddyn gyntaf o'i llywodraethiad, torwyd pen naw o ddynion yn Hague ar yr un amser; ac yn y flwyddyn nesaf, llosgwyd teulu cyfan, yn cynnwys tad a mam, dwy ferch a'u gwŷr, yn yr un tân, yn Leinburg, tra yn canu mawl i Dduw, ac yn galw ar eu Gwaredwr â'u hanadl olaf. Yr oedd yr argraffiadau a wneid ar yr edrychwyr ar y fath amgylchiadau mor anffafriol i'r grefydd lywodraethol, fel yr erfyniodd llys y ddeddfwriaeth ar y rhaglaw i orchymyn i hereticiaid gael eu dienyddio yn ddirgel. Yr oedd golygfeydd o'r fath yn cymmeryd lle yn barhaus am dros ugain mlynedd ger bron llygaid y bobl; ond yr oedd y gwirionedd yn myned rhagddo yn sefydlog; nifer ei gyfeillion yn cynnyddu yn feunyddiol; a'r Ysgrythyrau, a hyfaosoddiadau duwinyddol defnyddiol, yn cael lledaeniad helaeth. Nid oedd y gwrthwynebiad yn llaesu, ac nid oedd gweision y Gwaredwr yn osgoi dim oddi wrth brofiad eu ffydd. "Ni charasant eu heinioes hyd angeu;" a chynnaliwyd hwynt yn raslawn trwy ffyddlondeb eu Harglwydd.

Yn 1555, aeth Philip II. i'r llywodraeth, trwy i Charles v. encilio o honi. Cadarnhaodd efe yn ebrwydd holl ddeddfau ei dad yn erbyn y Protestaniaid; ac adnewyddwyd yr erlidigaeth dan ei lywodraeth ef, a pharhaodd i anrheithio gyda llymder chwanegol. Y mae hanes Angelus Merula yn eglurhad nodedig o'r creulondeb a'r craffder a ddefnyddiai yr ymlynwyr wrth Rufain i gynnal eu cyfundrefn wrth-Gristionogol. Ganwyd Merula yn Ebrill, yn y flwyddyn 1482. Appwyntiwyd ef i fywoliaeth Henfleet, lle y treuliodd ei oes mewn myfyrdod dyfal o'r Ysgrythyrau, a chyflawniad diwyd o ddyledswyddau ei swydd; ac yr oedd yn cael ei garu a'i barchu gan bawb. Po mwyaf y chwiliai efe air Duw, mwyaf llwyr yn y byd yr argyhoeddid ef o'r angen mawr oedd am ddiwygiad. Yn 1552, aeth mor bell ag i wneyd cyfnewidiadau yn y rhan hono o'r offeren sydd yn cydnabod teilyngdod ac eiriolaeth y saint; pregethai ar yr angenrheidrwydd am ddiwygiad, a dynesai yn amlwg at Brotestaniaeth. Y flwyddyn nesaf, attafaelwyd ei lyfrau a'i bapyrau, a thaflwyd yntau i garchar. Cyhuddwyd ef o amryw bethau a elwid heresiau, megys y rhai hyn:—"Fod yn well esgeuluso deg offeren nag un bregeth; nad oes dim yn angenrheidiol er iachawdwriaeth ond sydd yn ngair Duw; nad ydyw ffydd heb gariad yn wir ffydd; mai yn ol rheolau yr efengyl y dylai dynion fyw, heb ddilyn unrhyw reol arall." Chwiliwyd ac adchwiliwyd ei lawysgrifau gyda chraffder Jesuitaidd, er mwyn canfod profion newydd o'i euogrwydd; ond amddiffynodd ef ei hun yn hyf, a gwrthododd alw dim o'r syniadau a goleddai yn ol. Cynhyrfodd ei ddyoddefiadau gydymdeimlad cyffredinol: yr oedd tyrfaoedd yn ymgasglu i'w weled, a dechreuodd y chwilyswyr ofni y byddai iddo yn y diwedd orchfygu, gan fod yn amlwg nad oedd yn ddiberygl defnyddio mesurau eithafol yn erbyn dyn a gerid ac a anrhydeddid gan bawb. Ond dyfeisiwyd llwybr mileinig, yr hwn a fu yn rhy lwyddiannus. Un diwrnod, aeth gŵr eglwysig anrhydeddus, yn dwyn yr enw o esgob Hebron, i gell Merula, gan gymmeryd arno ei fod mewn pryder a gofid mawr o'i blegid. Ymostyngodd o flaen y carcharor, a chan wylo yn hidl, erfyniodd arno roddi i fyny ac ymgymmodi. Ar ol rhoddi gweniaith fawr iddo am ei ddysg a'i dduwioldeb, aeth yn mlaen i fynegu, gyda golwg ar faterion athrawiaethol, nad oedd dim gwahaniaeth rhyngddynt —y cyfaddefid ei fod yn berffaith uniongred; mai yr unig beth oedd yn angenrheidiol oedd iddo ef gyfaddef ei fod ar fai yn cyfnewid rhai seremoniau, y rhai, gan fod yr eglwys yn eu gofyn, y dylai ei holl blant eu cadw yn barchus. "Ymostyngwch, gan hyny, yr wyf yn erfyn arnoch," meddai yr esgob, "i'r eglwys a'i phenderfyniadau, er mwyn gochel cynhwrf ac annhrefn. Gwelwch fod y bobl wedi eu tramgwyddo yn fawr: a fynech chwi ein gosod ni yn agored i gythrudd a chynddaredd y werin? Cedwch eich bywyd er mwyn y tlodion, sydd yn dymuno gyda llawer o ddagrau ar i chwi ei gadw. Cedwch yr eiddom ninnau; canys y maent yn ymddibynu arnoch chwi. Yr unig beth a geisiwn genych ydyw, ar ryngu bodd i chwi gydnabod eich bod yn annoeth wedi diddymu rhai defodau a seremoniau, y rhai nad ydynt bwysig o ran eu natur, a bod yn ddrwg genych am hyny." Cafodd yr araeth wenieithus yma yr effaith a ddymunid. Perswadiwyd Merula i gydsynio. Arweiniwyd ef, ar ddydd appwyntiedig, o'i garchar i esgynlawr oedd wedi ei chodi mewn lle cyhoeddus, a amgylchynid gan luaws o bobl, y rhai a ymgynnullasant i glywed ei gyffes, ac a ddysgwylient y byddai wedi ei geirio yn gyfatebol i gynnygiad yr esgob. Dygodd un o'r chwilyswyr oedd yn bresennol ysgrif yn mlaen, yr hon y dywedid mai cyffes oedd, ac aeth yn mlaen i'w darllen; ond gwnai hyny mewn llais mor isel, ac mor gyflym, fel nas gallai Merula, yr hwn oedd yn bur fyddar, glywed un gair. Gosodid allan ei fod yn dywedyd ei fod ef yn ymwadu â heresiau Luther, a phob cyfeiliornad arall croes i ffydd Eglwys Rhufain; ei fod yn credu holl athrawiaethau yr eglwys hono, ac y byddai iddo fyw a marw yn ei chymundeb; y credai nas gallai neb fod yn gadwedig allan o honi; ac yn olaf, ei fod yn erfyn gweddïau y bobl, ac yn dymuno maddeuant y rhai a hudodd efe i gyfeiliornad. Pan wnaed cynnwysiad y papyr yn hysbys i'r dorf oedd wedi ymgasglu yn nghyd, rhoddodd cymmeradwyaeth le i adgasrwydd, a thosturi i ddigofaint. Yr oeddynt wedi bod yn edrych ar Merula fel merthyr, ac yn awr yn ei ystyried yn dwyllwr. Ni wyddai efe na hwythau ar y pryd am y cast ffiaidd oedd wedi cael ei arfer. Gofynwyd iddo ddarllen y gyffes; ond buasai hyny yn dynoethi y cyfan. Nid oedd dim amser, meddent; yr oeddynt mewn brys; gallasai terfysg dori allan; yr oedd yn rhaid iddo ei lawnodi yn y fan, a gallai ei ddarllen wedi hyny. Gorphenwyd y budrwaith, ac yna pasiwyd y ddedfryd, yr hon oedd, ei fod i'w amddifadu o'i fywoliaeth eglwysig, a'i ddiraddio; ei fod i ddarllen ei gyffes yn gyhoeddus yn ei eglwys ei hun; . dreulio gweddill ei oes mewn sefyllfa o ddysgyblaeth benydiol, ac i dalu holl gostau ei erlyniad drygionus. Pan ddychwelodd y truan i'w gell,

Digitized by Google

canfu y gwirionedd yn y fan, ac yr oedd wedi ei lethu gan ofid. Mewn digofaint cyfiawn at y twyll adgas y darostyngwyd ef iddo, efe a achwynai yn groch o blegid y cam, a thystiodd ei ddiniweidrwydd o'r gwrthgiliad ymddangosiadol; ei fod ef yn para i gredu, ac yr amddiffynai hyd angeu, y gwirioneddau a bregethasai ac a gyhoeddasai cyn ei garchariad. Gwnaed llawer cynnyg i gael ganddo syflyd o'i sefydlogrwydd, ond yn ofer. Symmudwyd ef o garchar i garchar, a darostyngwyd ef i'r dyoddefiadau mwyaf am flyneddoedd; er hyny, para byth yn sefydlog a wnai efe, ac o'r diwedd condemniwyd ef i'w losgi fel un wedi ail ddychwelyd at hereticiaeth. Rhoddwyd y ddedfryd mewn grym Gorphenaf 27ain, 1557, yn Mons, lle y dyoddefodd ei garchariad olaf. Ar fore y diwrnod hwnw, daeth nai iddo, at yr hwn yr ymddygasai fel mab, a'r hwn oedd yn dra anwyl ganddo, i Mons, heb wybod dim am ei gondemniad. Cyfarfuasant ar y ffordd, fel yr oedd y merthyr yn myned at yr ystanc. Yr oedd ei enaid mewn agwedd dangnefeddus. Yr oedd yn hiraethu am fod gyda Christ, ac archodd i'r gwr ieuanc gludo y sicrwydd i'w gyfeillion ei fod yn ddedwydd ddarfod caniatau iddo gael selio y gwirioneddau a gredasai ac a bregethasai â'i waed. Wedi dyfod i le y dienyddiad, gofynodd ganiatâd i weddïo. Penliniodd wrth yr ystanc, a thywalltodd holl ddymuniadau ei enaid allan mewn erfyniadau taerion. Tra yr oedd wrth y gorchwyl fel hyn, cwympodd yn ddisymmwth, fel pe buasai wedi ei lethu gan yr ymdrech. Dynesodd y dienyddwr ato, gan feddwl mai mewn llewyg yr oedd; ond yr oedd yr ysbryd wedi ymadael. Caniataodd Duw iddo ymadawiad mwy tyner: ysodd y fflamau ei gnawd difywyd, ond yr oedd ei enaid eisoes gyda'i Waredwr.

Arosodd Philip yn yr Iseldiroedd am bedair blynedd, gan ennyn yr erlidigaeth yn mlaen hyd eithaf ei allu. Ond yr oedd ei ymdrech yn ofer. Yn 1559, aeth i breswylio i'r Yspaen, gan adael Margaret, y duges o Parma, yn arweinydd y llywodraeth; a gorchymynodd i aelodau y weinyddiaeth lynu yn dyn wrth y mesurau gorthrymus a fabwysiadai efe. Cadwyd at ei gyfarwyddiadau, eto myned rhagddo yr oedd gwaith Duw. Cyhoeddodd y diwygwyr gyffes ffydd, yn dangos fod eu hegwyddorion yn iach ac Ysgrythyrol. Yn yr ail argraffiad, dair blynedd ar ol hyny, rhagddodwyd cyfarchiad at Philip, yn yr hwn y dywedid wrtho fod y pryd hwn dros gan mil o bersonau yn yr Iseldiroedd yn proffesu Protestaniaeth—prawf o allu y gwirionedd, a dylanwad cryf teimlad crefyddol.

O'r diwedd, cynnyrchodd y dyoddefiadau dychrynllyd a oddefid gan weision Duw, a'r gwastraff arswydus ar fywyd a meddiannau, wrthweithiad, yr hwn a suddodd yr Iseldiroedd yn nychrynfeydd rhyfel gartrefol. Cyflawnodd yr hynod ddug o Alva ysgelerderau, y parai adroddiad o honynt i'r galon gadarnaf grynu. Yn ystod pum mlynedd o amser, rhoddodd yr ellyll mileinig hwn ddeunaw mil o bersonau i farwolaeth trwy ddwylaw y dienyddwr cyffredin. Torid penau y pendefigion a'r boneddwyr; ereill a grogid neu a losgid. Llwythid y coed yn fynych â chyrff meirw, yn hongian wrth eu canghenau. Defnyddid hyd yn oed tylathau yr eglwysydd Protestanaidd i'r perwyl echryslawn yma. Yr oedd yr awyr mewn llawer o fanau yn heintus gan yr arogl a gyfodai o gyrff meirw y rhai a lofruddiwyd fel hyn. Trwy greulondeb coethedig a berthynai yn benodol i erlidigaeth Babyddol, clöid safnau y merthyron, fel nas gallai y lluaws glywed eu dadganiadau o'u llawenydd a'u sefydlogrwydd wrth farw. Ond weithiau ni roddid y safnglo i mewn, neu syrthiai o'u genau. Yn ngwyneb hyn, arferwyd dyfais arall, deilwng o'r uffernolion eu hunain. Llosgid blaen tafodau y dyoddefwyr â haiarn poeth; drwy yr hyn y gwneid hwy yn hollol analluog i lefaru. Cyfrifir fod can mil o bersonau wedi gadael eu cartrefi, a chymmeryd nawdd yn yr Almaen, a gwledydd ereill, er gochel yr ystorm oedd ar eu gorddiwes. Gallasai hyn argyhoeddi y dug o Alva o ffaeledd ei gynlluniau; ond myned rhagddo a wnaeth efe yn ei yrfa waedlyd. Trwy dreth anghyfiawn a gorthrymus, a chynlluniau gormesol ereill, efe a symbylodd y bobl i orphwylledd. Y canlyniad fu gwrthryfel cyffredinol. Trochwyd gwastadedd Holland a Zealand â gwaed. Dilynwyd Alva yn y llywodraeth, yn 1573, gan Requesens—dyn o gymmeriad llawer tynerach, yr hwn a fu farw yn 1576, ac a ddilynwyd gan Don John o Awstria; ond yr oedd yn rhy ddiweddar i adgyweirio y rhwyg. Yr oedd camlywodraeth Yspaenaidd wedi cynnyrchu ffieidd-dod a dygasedd cyffredinol. Ar ol ymdrechfa hir a rhyfelgar, llwyddodd y taleithiau i gael eu hannibyniaeth. Darfu i Holland, Zealand, Utrecht, Friesland, Groningen, Overyssel, a Guelderland, lle yr ydoedd Protestaniaeth yn ffynu yn benaf, ymffurfio yn gydfrodoriaeth o dan yr enw y "Saith Dalaeth Gyfunol," y rhai yn y diwedd a wahanwyd oddi wrth Yspaen. Parhaodd y taleithiau ereill, a elwid y pryd hyny yr Iseldiroedd Yspaenaidd, mewn cyssylltiad â'r henaduriaeth; a thorai erlidigaethau allan ynddynt hwy yn achlysurol dros lawer o flyneddoedd. Cymmerodd y merthyrdod diweddaf le yn yr Iseldiroedd yn 1595. Gwasanaethferch oedd y dyoddefydd, o'r enw Anne von der Hoor. Claddwyd hi yn fyw yn Brussels. Ar ol i'r dienyddwr ei gosod yn y bedd, a thaflu peth pridd arni, gan ddechreu ar ei thraed, ac enhuddo ei chorff hyd ei hysgwyddau, dynesodd rhyw offeiriaid yn mlaen a sicrhaent iddi yr arbedid ei bywyd, os dychwelai i Eglwys Rhufain. Ond gwrthododd hi wrandaw, gan ddywedyd; "Y rhai sydd yn ewyllysio cadw eu heinioes yma, a'i collant ar ol hyn;" a gorchymynodd ei hun mewn gweddi i'r Arglwydd. Yna bwriodd y dienyddwr swm o bridd ar ei gwyneb, ac a sathrodd arno. Un ochenaid a glywyd, ac yr oedd y cyfan drosodd.

Ymdrechodd y Taleithiau Cyfunol yn galed am eu rhyddid, a llwyddasant yn y diwedd. Ymddadlenodd egniadau Protestaniaeth yn gyflawn yn eu hanes. Canfyddwyd fod rhyddid gwladol a chrefyddol yn anwahanol gyssylltiedig; ffynodd gwybodaeth, gwirionedd, a duwioldeb; ac yr oedd y bobl yn ddedwydd a llwyddiannus.

### Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

Yr oedd y diwygiad mawr hwn, a ddechreuwyd gan Luther, yn dal cyssylltiad pwysig, mewn llawer ystyr, â Ffrainc. Diau na pharotowyd un rhan o'r tir Pabyddol yn fwy trwyadl, trwy ei wrteithio â gwaed saint, a'i hau â hadau efengylaidd, na'r tir yma. Dechreuodd yr had yma egino yn y de-ddwyrain, mewn eglwys fechan o'r Waldensiaid [gwel WALDENSIAID]; ac yn y deheubarth yn mysg y Cathariaid. Er na chafodd erioed fuddugoliaeth barhaol yn Ffrainc, eto gwnaeth yr ymrysonau Ffrengig parhaus am ryddid lawer er trymhau taranfolltau y pabau, tra y gwanheid awdurdod y

Digitized by Google

Babaeth yn fawr gan brifysgol a senedd Paris, yn ngwahanol gylchoedd eang ei dylanwad. Gyda golwg ar offerynau y Diwygiad yn Ffrainc, ni ddylid pasio y duchanwyr a'r ysmaldodwyr (*satyrists and humorists*). Nid oedd duchan yr amser hwnw ddim wedi cael ei alltudio o iaith a llenoriaeth gan brif ysgol ganolog oedd wedi ymgyssegru i'r llys, ac nid oedd hyd yn oed dyngasineb ddim wedi ei ladd eto gan amwyseddau ac addurniadau nwyfus. Un o'r llafurwyr enwocaf yn mysg ereill o'r dosbarth hwn oedd Francis Rabelais; yr hwn, er ei fod unwaith yn fynach o urdd Sant Francis, ac ar y pryd yn offeiriad yn Meudon, ger llaw Paris, eto a lafuriodd yn wych fel diwygiwr yn Ffrainc. Heb law y rhai hyn, yr oedd ereill, tra gwahanol eu hysbryd, yn y llys, yn y senedd, yn mysg yr offeiriaid a'r boneddigion, oll yn gogwyddo i ddyrchafu y Diwygiad, trwy gymmeradwyo neu wrthod yn benderfynol yr hyn oedd yn myned yn mlaen, trwy ddifrifwch crefyddol a moesol, trwy gydymdeimlo â'r cyffeswyr, trwy ymdrechiadau celfyddydol a meddyliol, trwy wawd offeiriaid a mynachod—ar fyr, trwy luaws o wahanol ffyrdd. Yma rhaid i ni grybwyll yn gyntaf oll am y brenin, Francis I, "adferydd a thad y gwyddorau." Y nesaf at y brenin yw ei chwaer, "y ddegfed o'r awenesau, a'r bedwaredd o'r teleidesau," Margaret o Valois, neu o Angouleme, neu o Orleans, gwraig gyntaf y Duc o Alençon, y pryd hyny brenin Navarre. Noddwr mwyaf y Diwygiad yn Ffrainc oedd Renata, merch Louis XII, a'r dduges Ferrara, yr hon a amddiffynodd y diwygwyr, ac a gyfranodd yr un ysbryd i'w merch, yr arwraidd Johanna d'Albret, mam Harri IV. Yn mysg y gwyr a gasglodd o'i hamgylch, ac a noddodd yn ei hunbenaeth fechan, Bearn, yr hwn a deilynga y lle cyntaf yw Jacob Lefèvre (Jacobus Faber), a alwyd yn ol ei le genedigol, yn agos i Boulogne, von Etaples (Stapulensis); o blegid yr oedd efe, heb fod yn ddiwygiwr, yn gwasgar goleuni yr efengyl cyn Luther a Zuingle. Mae yn sicr ei fod ef yn dysgu yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf cyn Luther; a phan yr oedd y diwygiwr mawr Almaenaidd heb benderfynu o blaid gwir bresennoldeb Crist yn y sacrament, yr oedd Lefèvre yn dal y presennoldeb lleol, a'r athrawiaeth o hollbresennoldeb.

Yr oedd yr holl bethau hyn, a llawer o obeithion cyffelyb am ddiwygiad cyflawn yn Ffrainc, yn aros heb eu cyflawnu, a rhaid i ni edrych at achosion ereill mwy uniongyrchol am ddechreu y symmudiad. Y cyntaf o'r rhai hyn yw gallu Pabyddiaeth Rhufain, yr hwn a gynnwysai bob perthynas wladol a chymdeithasol ag y treiddiai iddynt. Er y canfyddir ei hanfod yn gyffelyb mewn gwledydd a thaleithiau Pabyddol ereill, eto yr oedd ganddo ddylanwad mwy grymus ar y genedl gyffrous a bywiog hon. Fe edrychid ar Ffrainc byth ar ol bedydd Chlodwig (gweithred y dywedir iddi gael ei mawrhau â gwyrth) fel y deyrnas Babyddol henaf; gan yr ystyrir ei rheolwyr nid yn unig fel y "breninoedd mwyaf Cristionogol," a "meibion hynaf yr eglwys," ond gosodid hwy gan Gregory Fawr gymmaint uwch law breninoedd ereill ag yr oedd y rhai hyny uwch law dynion ereill. Gelwid Pepin a Charlemagne (Charles Fawr) yn "feibion ardderchocaf a gogoneddusaf" priodferch Caniad Solomon—ei "*spirituales compatres*," &c. Rhaid i ni chwanegu at hyn y traddodiadau am faner Oriflamme, yr hon a roddwyd gan angel i feudwy yn St. Germain, a'r ddawn o wellhau y manwynau a roddwyd gan Dduw i Chlodwig a'i olynwyr. Yr oedd gan y traddodiadau ffol hyn ddylanwad nerthol ar feddyliau y bobl.

Yn mhellach, yr oedd amgylchiadau y gallesid dysgwyl iddynt hyrwyddo y Diwygiad, gan eu bod yn fwy gwrthwynebol yn Ffrainc i'r drefn Babyddol nag mewn un man arall; ond er hyny ei rwystro a wnaethant: a chyn belled ag yr oeddynt yn gwanhau y Diwygiad, yr oeddynt yn cryfhau y grefydd genedlaethol a'r eglwys; tra yr oedd diffyg undeb gwladyddol yn hyrwyddo y Diwygiad. Yn Ffrainc, gallasai y Diwygiad ymsefydlu ar sylfaen eang a chadarn, dan dywysogion hanner unbenaethol a feddiannent y tir, ac a allent droi meddiannau yr eglwys at ddybenion gwladol: ond yr oedd hyn yn anmhosibl i gaethweision coron yr Almaen; o leiaf, buasai yn anhawdd iawn i Francis I. ar ol penderfyniad y cynghrair (*concordat*) â Leo X, gynnyg diwygiad mor drwyadl.

Cafodd Diwygiad Ffrainc driniaeth gyffelyb gan brifysgol Paris, ac yn enwedig ei dosbarth duwinyddol, neu y Sorbonne, yr hwn a wnaeth ei hun mor hynod fel amddiffynydd rhyddid yr Eglwys Ffrengig, ac fel gwrthwynebydd trawslywodraeth eglwysig; ac yn y flwyddyn ganlynol i gyhoeddiad gosodiadau Luther (y 95), aeth mor bell a chyhoeddi dedfryd yn erbyn y pla o faddeuant-lythyrau.

Cymmerwyd sefyllfa gyffelyb mewn gwrthwynebiad i'r Diwygiad gan senedd Paris, yr hon a ystyriai ei bod yn cael ei galw allan i amddiffyn iawnderau y goron a rhyddid y genedl yn erbyn trawslywodraeth eglwysig; ac fel hyn y cyrhaeddodd barch a fuasai yn ei golli trwy i'r Diwygiad ddyfod i mewn. Niweidiodd y senedd y Diwygiad yn anuniongyrchol, trwy ddal ei gafael yn ei hawliau a'i hanrhydedd corfforiaethol, yn gymmaint ag yr arweiniodd y bobl fel un gŵr yn erbyn y cynghrair, fel yr oedd yn haws i'r llys Rhufeinaidd ddarbwyllo y brenin, ar ol cael ei gynhyrfu fel hyn, i wrthwynebu y cynhyrfiadau newyddion, ac am hyny oedd yn anghyfreithlawn ac yn aflywodraethol, o blaid rhyddid. O herwydd hyny, nid ydoedd yn anhawdd i genadwr y pab ddarbwyllo y brenin mai "yr unig beth a wnai dwyn crefydd newydd i blith y bobl fyddai achosi newid y rheolwr." Yr oedd dylanwad arall cyssylltiedig â hyn, yn elynol i'r Diwygiad, ac a ddaeth o le cwbl wahanol; sef y casineb cyffredinol a chyfiawn oedd yn erbyn y cynghrair, o'r hwn gasineb y cyfranogai hyd yn oed y gwyr llên.

Ond yn olaf, nid oedd hawliau moesol y grefydd newydd wedi eu cyfaddasu mewn un modd i ennill cenedl gyfan, yn enwedig llys—addurn ardderchocaf, puraf, a mwyaf Cristionogol yr hwn oedd Margaret o Navarre; yn ffugchwedlau prydferth yr hon y mae syniadau am gariad daiarol a nefol wedi eu cymmysgu yn nghyd; a'r hon, yn ei hen ddyddiau, ar ol cyrhaedd difrifwch bywyd, a phrofi galar duwiol, a ysgrifenai fel hyn:—"Yr ydym yn treulio ein hamser gyda theganau a choegbethau." Daeth Protestaniaid Ffrainc, y rhai a gydnabyddent yr egwyddor ddiwygiadol o ffydd megys egwyddor adnewyddiad moesol, fel drain yn ystlysau eu cydwladwyr Pabyddol, a chaseid hwynt fel y cyfryw; ac, fel y dywed Davila, credid y byddai raid eu carthu o'r wlad trwy dywallt eu gwaed!

Ni a welwn wrth hyn, gan hyny, fod diwygiad tiriogaethol ac eglwysig yn anmhosibl i bobl a

Digitized by Google

theyrnas Ffrainc, ond y fath ddiwygiad yn unig ag a ddeilliai o gyfnewidiad rhydd a moesol y dyn ei hun—yn ymddibynu ar nerth mewnol, gan weithio ei ffordd oddi allan, ac hyd yn oed yn erbyn gallu allanol.

Gan y gelwid Protestaniaid Ffrainc a Switzerland yn "Lutheriaid" gan eu gelynion, cyn yr ymraniad a ddechreuodd yn nghylch y sacrament, felly yr oedd yn briodol galw y Diwygiad Ffrengig yn ei ddechreuad yn "Lutheraidd" (er i hyn gael ei ammheu), yn gymmaint ag mai Luther a gynneuodd fflam ddirgel y Diwygiad a ymledaenodd dros yr holl dir. Ond nis gallai efe gadw y fflam hon yn ei phurdeb. Cydymunodd amryw amgylchiadau i rwystro hyn. Er y cydnabyddai Luther gyffredinolrwydd Cristionogaeth a'r wir eglwys i'r fath raddau ag nas gwnaeth odid un diwygiwr arall, eto yr oedd ei natur ef yn rhy Almaenaidd i gael yr un dylanwad dros y Ffrancod ag a allasai Rhufeiniad enwog ei gael. At hyn, rhaid chwanegu ei wrthwynebrwydd i'r Ffrancod fel pobl; a'r iaith yn yr hon yr ysgrifenai ynddi, yr hon a drosglwyddid i Ffrainc trwy gyfrwng cyfieithiadau gweiniaid.

Fel hyn, gan hyny, ymddibynodd Diwygiad Ffrainc arno ei hun nes y cymmerodd Calvin afael ynddo, ond nid oedd wedi ei lwyr adael. Os rhoddodd Duw ffurf gadarn i Ddiwygiad yr Almaen, efe hefyd a lywodraethodd ddygwyddiadau yn Ffrainc am hir amser cyn y Diwygiad, fel yr oedd craidd ei ddysgyrchiad yn isel yn mysg cyfangorff y credinwyr. Fel hyn, canfyddwn ar y dechreu, a chyn i Calvin ddyfod yn enwog, fod hanesyddiaeth yn gwneyd gwahaniaeth rhwng y Diwygiadau hyn—fod un o ansawdd werinol a'r llall yn benadurol, a bod pob un yr un mor gyfreithlawn, gan iddynt gael eu dwyn yn mlaen gan Dduw hanesyddiaeth. Pa fodd bynag, bu tân erlidigaeth yn effeithiol i buro ansawdd werinol Diwygiad Ffrainc, fel na redodd hyd yn oed ei elfenau anmhur, megys y Libertiniaid a'r Ailfedyddwyr, i'r un eithafoedd o benrhyddid ag y rhedodd gwerin ac Ailfedyddwyr yr Almaen; ond ymgadwasant mewn cylch mwy cymmedrol. Bu achosion cyffelyb hefyd, megys tuedd y Ffrancod at drefn a rheol, yn foddion i rwystro twyll a gormodedd pleidiol wrth ethol swyddogion eglwysig. Fel hyn, ffurfid cynnulleidfaoedd bychain mewn amryw fanau, y rhai a ymgynnullent ar gylch mewn lleoedd dirgel. Yr oedd y fath un yn Paris dan nawdd brenines Navarre, a wasanaethid gan Roussel. Canys er yr ymwrthodid â'r cymmeriad offeiriadol, eto yr oedd y swydd eglwysig o bregethu yn cael y fath barch o'r dechreuad, fel mai yr offeiriaid Pabaidd a dderbynient y Diwygiad a osodid ar y cynnulleidfaoedd bychain a nodwyd yn mhob man y gellid gwneyd hyny; ac yn y manau hyny yn unig, lle nad oedd y cyfryw athrawon i'w cael, yr appwyntid gŵr lleyg, trwy rydd ddewisiad, yn was y gynnulleidfa. Pa fodd bynag, yr oedd eithriadau i hyn mewn amgylchiadau anghyffredin, yr hyn a gydnabyddwyd yn sefyllfa ddiweddarach yr eglwys. Yn gyffredinol, yr oedd eglwys ddiwygiedig Ffrainc yn dynesu yn y golygiad yma yn nes at yr eglwys apostolaidd neu gyntefig. Cynnorthwyodd hyn hi i gadw ei bywyd yn nghanol y cyfnewidiadau mawrion yr aeth drwyddynt; a thrwy redeg i'r fath bellder o ddiwygiad ag i wadu swydd gweinidog, gosododd ei hun yn agored i berygl marwol.

Ar y llaw arall, yn Meaux, ymgasglodd amryw o wŷr efengylaidd o amgylch yr esgob Briçonnet, y rhai, heb fod yn sismaticaidd, a ymdrechent lafurio mewn ffordd ddiwygiadol, trwy athrawiaeth ac esampl, o fewn esgobaeth yr esgob hwn, a thrwy ei awdurdod. Y mae y lle cyntaf yn mysg y dynion hyn yn perthyn i Lefèvre: y lleill yw Gerhard Roussel (a elwid Gerardus Ruffus, hefyd Le Roux a Ruffi), Francis Vatable (Vatablus), Martial Mazurier, Josse Clithou (Jodocus Clichtoveus), Michael von Arande (Arundel), a William Farel. Gan iddynt gael eu hammheu yn fuan o heresi, digalonodd y gwŷr hyn mewn rhan o blegid ofn—yn enwedig Briçonnet—ac mewn rhan o blegid erlidigaeth boethlyd. Ffodd Lefèvre a Roussel o Meaux i Strasburg; ac o dan nawdd brenines Navarre, dychwelasant yn fuan i Ffrainc, lle y cymmerasant sefyllfa ganol rhwng yr hen eglwys a'r newydd. Ond Farel, yr hwn nad oedd ddyn i'r fath sefyllfa, a ddychwelodd i'w dalaeth enedigol; ac yno, gan grwydro yn y coedwigoedd fel cenadwr, efe a agorodd ddrws llydan i'r Diwygiad. Martial Mazurier, yr hwn mewn ias o sel gnawdol a fwriodd i lawr ac a dorodd ddelw St. Francis o Assisi, a arweiniwyd gan ofn yr ystanc i ddadgyffesu; ac wedi ei ryddhau o garchar, nid yn unig efe a ddysgodd ac a bregethodd yn erbyn ei argyhoeddiadau blaenorol, ond hefyd a ddylanwadodd ar ŵr ieuanc a garcharwyd gydag ef, Jacob Pavannes (Pauvant, Ponent, &c.), i ddadgyffesu, yr hwn oedd ddysgybl gobeithiol i Lefèvre; ac i goroni y cwbl, efe a ymddangosodd fel cyhuddwr yn erbyn ei frawd ei hun. Yn y cyfamser, parodd addysg ac esampl y gwyr hyn fwy o effaith yn Meaux nag a fwriadent hwy, ac na ddymunent chwaith. Dygwyd John Le Clerc, gwlanwr, i wybodaeth gadwedigol o'r gwirionedd, mewn rhan trwy bregethau efengylaidd Briçonnet, ac mewn rhan trwy ddarllen y Beibl (a gyfieithwyd gan Lefèvre), a thraethodau efengylaidd, y rhai oedd wedi eu lledaenu erbyn hyn gan werthwyr basgedi ffyddlawn a diofn. Heb law gwybodaeth, yr oedd ganddo ef sel danbaid yn erbyn athrawiaethau ac ymarferion Pabaidd, a chynneuwyd ei sel gan y camymddygiadau a welai yn yr eglwys, a'r erlidigaethau yr oedd hi yn euog o honynt, fel y cymhwysai lawer o ymadroddion Ysgrythyrol sydd yn erbyn eilunaddoliaeth at Eglwys Babyddol Rhufain, ac yr ystyriai Babyddiaeth a phaganiaeth — addoliad delwau ac eilunaddoliaeth—yr un pethau. Nid oedd y brwdfrydedd yma oedd ynddo yn ei adael yn foddlawn ar fyned o dŷ i dŷ yn unig, i gadarnhau ei frodyr dychweledig, ond gyrodd ef i wneyd ymosodiad cyhoeddus ar Babyddiaeth. Hoeliodd draethawd ar ddrws eglwys gadeiriol Meaux, yn yr hwn y condemniai y maddeuantau Pabaidd, ac y galwai y pab yn anghrist. Canfyddwyd yn fuan mai efe oedd y sarhäwr; daliwyd ef a chondemniwyd ef i gael ei chwipio am dri diwrnod â gwiail, ac ar y trydydd dydd i gael ei nodi â haiarn poeth ar ei dalcen. Cyflawnwyd y gospedigaeth hon arno. Dichon i'r seriad yma adgofio i Pavannes y cam a wnaethai efe â'i gydwybod ei hun trwy ei wrthgiliad. Ni chafodd orphwysdra "nes iddo gyffesu, trwy air ac ysgrifen, y wir ffydd Gristionogol, yn enwedig yr athrawiaeth am swper yr Arglwydd. Yn y flwyddyn ganlynol (1525), llosgwyd ef yn Paris."

Y mae Meaux wedi cael ei galw yn briodol yn gryd y Diwygiad yn Ffrainc. Canys yma, o dan

Digitized by Google

oedd pethau yn myned rhagddynt, cynnrychiolai dirprwywr y brenin y llywodraeth, a chyfarwyddai yr eglwys mewn materion gwladol, a gosodwyd y naill a'r llall yn eu gwir berthynas â'u gilydd.

Ystyrir yr Eglwys Ddiwygiedig yn Ffrainc dan wahanol gyfnodau. Cynnwysa y cyfnod cyntaf drosiad yr Eglwys Ddiwygiedig i sefyllfa "llywodraeth mewn llywodraeth," o fradwriaeth Amboise hyd ddeddfwriaeth Nantes, 1560—1598. Dan deyrnasiad Harri II, 1547—1559, cynnyddodd diwygwyr Ffrainc mor ddirfawr, ac yr oedd eu hysbryd a threfn gyfaddas eu heglwys wedi rhoddi iddynt gymmaint o nerth mewnol, fel yr oedd yn anhawdd eu golygu nac ymddwyn atynt yn hwy fel ymlynwyr wrth grefydd anghyfreithlawn. Gwnaethant hwy eu hunain bob egni i sicrhau goddefiad neu gydnabyddiad cyfreithiol. Ac yr oeddynt dan fwy o brofedigaeth i amcanu dyfod yn grefydd y llywodraeth, gan nad oedd un grefydd er amser Cystenyn Fawr wedi cyrhaedd y sefyllfa hon, a chan yr edrychent ar y ffydd Rufeinig yn dwyllodrus, ac yn agos i ddarfod. Cadarnheid y golygiad yma yn fwy fyth, am eu bod yn ysbryd yr Hen Destament yn ystyried mai dyledswydd y llywodraeth wladol yw dadwreiddio crefydd gau, a sefydlu y wir grefydd; yn fwy felly, am ei fod yn gwbl unol âg ysbryd yr oes, a hwythau yn llawn gobeithion hyderus, fel y tybient y gallent yn ddiogel orchymyn ar fod i'r awdurdod wladol roddi y fath ddeddfwriaeth, gan ddadgan fod y grefydd Babaidd yn anghyfreithlawn. Chwanegwyd y tueddiad yma, trwy fod tywysogion o'r teulu breninol, megys brenin Navarre, a'i frawd, y tywysog Condé, ac aelodau ereill o'r bendefigaeth, yn mysg ereill, y tri brawd Chatillon, a'r llyngesydd Coligny, yn ymlynu wrth y Diwygiad. Fel hyn, ymgyssylltodd elfen wladyddol rymus âg Eglwys Ddiwygiedig Ffrainc. Rhaid i ni hefyd beidio anghofio annyngarwch ac anffyddlondeb digyffelyb y llywodraeth wladol; yr hwn a gyrhaeddodd ei eithafedd yn amser y gyflafan nodedig a wnaed ar nos St. Bartholomeus yn 1572. Ni ddylid rhyfeddu, gan hyny, fod yr Huguenotiaid hefyd, fel y gelwid Diwygwyr Ffrainc y pryd hyn, wedi cymmeryd gafael yn yr arfau o ymadrodd a'r wasg, yn yr hyn yr oeddynt hwy yn gymmaint rhagorach na'u gwrthwynebwyr, ag oeddynt hwy yn rhagorach na hwythau gydag arfau cnawdol; a phob amser, braidd, yr anturient i faes y gwaed ar achosion peryglus gwleidyddiaeth, byddent yn cael eu trechu. Heb law hyny, canfyddwn yn yr unfed ganrif ar bymtheg —cyfnod o ddiorseddiad a chyffro cyffrediuol— fod syniadau o'r fath fwyaf peryglus i'r llywodraeth yn cyffroi y Pabyddion, a'r cyfryw o honynt nad oedd dan ddylanwad na'r Diwygiad na syniadau cymmysg—gwerinol a chyfbendodol y Diwygiad. At y Pabyddion yn mysg yr ynadon, a'r dosbarth dysgedig yn gyffredinol, y cyfeiriwn. Canfyddir y syniadau hyn, er esampl, yn dryfrith yn ngwaith Stephan de la Boëtie—gwaith a ddaeth yn enwog trwy Montaigne. Pa fodd gan hyny y gallesid dysgwyl i'r Calviniaid gorthrymedig ac erlidiedig ymgadw yn hollol rydd oddi wrth y fath eithafion? Fel hyn y cynnyrchwyd cyfansoddiadau o fath *Franco Gallia* Hotman, *Vindiciæ contra Tyranos* Lanquet, &c., o'r rhai, er maint y gwahaniaeth rhyngddynt, y tynwyd yr hyn a elwir yr hawliau gwladol Huguenotaidd. Wrth gymharu y rhai hyn â hanes Calviniaeth yn Lloegr, Scotland, a'r Iseldiroedd, y maent yn taflu cryn ammheuaeth yn nghylch athrawiaeth ac Eglwys Ddiwygiedig Ffrainc, ac yn cyflawnhau y cyhuddiad a ddygir yn ei herbyn o fod yn Galviniaeth wladol yr unfed ganrif ar bymtheg a'r eilfed ar bymtheg.

Pa fodd bynag, y mae y cyhuddiad difrïol a ddygir yn erbyn Diwygiad Ffrainc o agor ei ffordd trwy ddefnyddio arfau cnawdol, yn cael ei wrthddywedyd gan hanesyddiaeth; canys ar ol i'r Diwygiad hwn gael ei sefydlu trwy ei nerth mewnol ei hun, ac ar ol iddo ei lawn amlygu ei hun o ran athrawiaeth a chyfansoddiad, yr aeth ei bleidwyr i drin y cyfryw arfau. Lleddfir ein gofid gyda golwg ar yr amgylchiad gan syniad a draddodwyd gan Bengel [*Gnomon, New Test., Act.* viii. 36], "Fod teyrnas Dduw yn ymaddasu at bob amgylchiad, heb wneyd niwed iddynt; ei bod fel awyr, yn rhoi lle i bob sylwedd, ac yn treiddio iddynt oll." Ni ddaeth y treiddiad yma braidd erioed yn fwy amlwg nag yn Eglwys Ddiwygiedig Ffrainc, yr hon a yrwyd allan o'r iawn lwybr, yn hytrach na'i bod wedi crwydro yno.

Ar farwolaeth Harri II, yn 1559, esgynodd ei fab, Francis II, i'r orsedd. Tra nad oedd ond plentyn o ran amser a meddwl—a elwid gan Beza yn "blentyn diwerth"—cymmerodd ei lywodraethu yn hollol gan ewythredd ei wraig, Mary o Scotland, y duc Francis o Guise, a'i frawd, y Cardinal o Lorraine. Yr oedd eu sefyllfa wladyddol, perthynas eu nith i'r frenines Elizabeth, perthynas Scotland a Ffrainc i Loegr, sefyllfa eglwysig uchel y Cardinal, uchelfryd diwala y ddau frawd—yr oedd yr holl bethau hyn yn peri iddynt edrych ar y diwygwyr fel eu gelynion, yr hyn a'u gwnaeth yn erlidwyr o'r fath greulonaf. Yn yr amgylchiadau hyn, yr oedd yn naturiol i'r Diwygwyr geisio nawdd eu pendefigion, ac yr oedd yn naturiol i'r rhai hyny, oddi ar ystyriaethau gwladyddol, ar ol cael eu difuddio o'u sefyllfaoedd cyfiawn gan y Guisiaid trahaus, roddi nawdd iddynt. Fel hyn y cyfododd bradwriaeth nodedig Amboise, yr hwn nis deallir yn drwyadl, gyda golwg ar ei gyfranogwyr a'i holl gangenau hyd y dydd hwn. Cymmerodd hyd yn oed amryw Babyddion anfoddog ran ynddo, er mai Calviniaid Ffrainc oedd ei enaid. Ei amcan oedd tori i lawr awdurdod y Guisiaid trahausfalch. Wedi cael eu bradychu gan Galviniaid, dienyddiwyd nifer afrifed o honynt yn ngwydd y brenin, a gwnaeth yr un peth âg arglwyddi a boneddigesau y llys fel difyrwch ar ol ciniaw. Mae yn wir fod gan Calvin a Beza ryw wybodaeth am y gorchwyl, a'u bod wedi ei gondemnio yn ddifrifol. Yr oedd brenin Navarre yn ddwfn ynddo, ond uwch law pawb y tywysog o Condé. Bu marwolaeth ddisyfyd y brenin yn achos i achub y tywysog rhag dienyddiad sicr, os nad llofruddiad; ac y mae yn dra thebyg hefyd y cyfarfuasai ei frawd â'r un dynged; ac achubodd y Calviniaid rhag cael eu llwyr ddileu, trwy osod y ddwy blaid mewn sefyllfa fwy cyfartal. Y fam freninol, y nodedig Catherine de Medicis, oedd y benaf er ceisio dwyn pethau i'r sefyllfa yma, nid yn unig o blegid tuedd naturiol ei chymmeriad, ond hefyd er mwyn sicrhau yr ymherodraeth i'w mab ieuangaf. Fel hyn, cafodd yr Huguenotiaid, nid yn unig fwy o ryddid, ond gobaith da o leiaf am oddefiad. Ac yn gymmaint ag i bob deddfwriaethau erlidigaethus fod yn ddieffaith, ac i'r blaid werinol ddyfod yn fwy cymmedrol, ar ol llawer cynnyg cyfreithiol somedig, rhoddasant eu holl fryd o'r diwedd ar ddygiad y ddeddfwriaeth yn mlaen, yr hon, heb

Digitized by Google

beryglu crefydd y llywodraeth, a ganiatäai oddefiad i'r grefydd newydd, a nawdd i'w hymlynwyr. Yr oedd y rhai hyn bellach mor luosog, fel yr oedd eu dilead yn anmhosibl heb suddo Ffrainc i holl ddychryniadau rhyfel cartrefol. Ond po mwyaf y cynnyddai yr Huguenotiaid mewn nerth a dylanwad gwladol, mwyaf oll y teimlai y Guisiaid yr angenrheidrwydd am gryfhau a chwanegu y blaid Babaidd. Gorchwyl hawdd iddynt oedd didol yr hen heddgeidwad Montmorency oddi wrth y Bourboniaid, a'r Chatilloniaid, a'i ddwyn drosodd i'w plaid hwy, ac felly ffurfio yr hyn a elwid y *Triumvirate.* Cadarnhawyd hwynt yn fuan trwy ymuniad brenin Navarre,—moesoldeb yr hwn ni bu erioed yn gryf, ond a bylwyd yn ddirfawr trwy ei anffyddlondeb i'w wraig ardderchog, Joanna d'Albret, a'i ddirgel gyfrinach âg un o lawforwynion y fam freninol, fel y syrthiodd yn aberth rhwydd i gyfrwysder a dichellion y Cardinal. Llwyddodd Francis Baldwin, y gwrthgiliwr penrhydd, yr hwn a roddodd waith Cassander i'r tywysog, a'r pabgenad Yspaenaidd, yr hwn a ddaliai o'i flaen y gobaith o adferu Navarre Uchaf, i'w wneyd o'r diwedd yn wrthgiliwr hollol.

Hefyd, er mwyn eangu y rhwyg rhwng y Calviniaid a'r Lutheriaid, cymmerodd y Cardinal arno fod yn tueddu at gyffes Augsburg, a ffafrio cylafaredd enwog Poissy. Er na fwynhaodd y Calviniaid eu dysgwyliadau gyda golwg ar y gylafaredd hono, eto bu yn foddion i ddylanwadu yn fawr ar eu hachos. Rhoddodd iddynt y cyfleusdra cyntaf i wneyd cyffes gyhoeddus o'u ffydd, a dangos eu rhagoriaeth moesol, ac o symmud llawer o ragfarnau oedd yn eu herbyn. Cymmerasant gyfleusdra hefyd i ddynoethi anwybodaeth eu gwrthwynebwyr, ac i'w gwneyd yn destyn gwawd hyd yn oed i'w plaid eu hunain. Yr eglwys a'r sacrament oedd y prif bethau a ddadleuid. Bwriadwyd y blaenaf i ddyrysu y diwygwyr, o blegid newyddoldeb eu heglwys, a diffyg galwad eu clerigwyr. Gyda golwg ar yr olaf, gosododd y Cardinal erthygl a gymmerwyd o gyffes y Lutheriaid o flaen ei wrthwynebwyr i'w thanysgrifio, er mwyn eu rhoddi mewn dyryswch, fel y byddai iddynt naill ai gorphen y rhwyg rhwng y Lutheriaid a hwy eu hunain fel Sacramentariaid anfeddyginiaethol, trwy wrthod y presennoldeb corfforol, neu drwy ei dderbyn, ac felly bwrw tân i ganol eu heglwys hwy eu hunain. Mae yn amlwg i'r amcan blaenaf gael ei gyrhaeddyd mewn rhan o leiaf, yn gymmaint ag i annogaethau mynych gael eu hanfon gan Calvin i Poissy am iddynt beidio cymmeryd eu beichio â chyffes Augsburg, wrth yr hon yr oedd efe ei hun wedi rhoddi ei enw, yr hyn a'i gosododd yn agored i ymosodiadau y Lutheriaid; ac nis gallai ei eglurhad—ddarfod iddo ei llawnodi yn ol ystyr ei hawdwr, Melancthon, ac nid yn yr ystyr a roddai esbonwyr diweddarach i'r gyffes hono—ei ryddhau oddi wrth eu condemniad. Gresyn oedd i Calvin oddef i'w gasineb at fradwriaeth y Cardinal ymddangos mewn geiriau caledion yn erbyn cyffes Augsburg. Er hyny, dangosodd rhai o'r aelodau well ysbryd, ac hyd yn oed y Cardinal, cyn belled ag i roddi cais at undeb yn athrawiaeth y swper, fel y cytunwyd i gynnal cylafaredd, yn cynnwys pump o aelodau o bob plaid. Cynnygiwyd, gyda dyben cywir ar ran y Pabyddion, roi cydsyniad i'r presennoldeb corfforol mewn unrhyw eiriau priodol. Yr oedd hyn wedi ei wneyd yn barod mewn ffurf a gymmeradwywyd gan Montluc, esgob Valence (yr hwn oedd yn hanner Calviniad), a Claude d'Espence; ac ar ochr y blaid ddiwygiadol, gan Beza a Des Gallars. Ar ol rhai anhawsderau gyda golwg ar y dull o dderbyn corff Crist yn wirioneddol a sylweddol, cytunwyd ar ffurf, o leiaf, yn yr hon y llwyr wrthodid y presennoldeb corfforol; ond amddiffynid y sylwedd, a ddelid gan y Calviniaid, cystal a'r gwir bresennoldeb yn ol golygiad Calvin, yn erbyn Martyr a'r Zurichiaid. Nid ydoedd llawenydd y fam freninol a'r Cardinal, o blegid y cytundeb, ac nis gallai fod, ond o fyr barhad; canys prin y caniatasai y boblogaeth benboeth, hyd yn oed mewn amser tawelach na hwn, i gynghor cyffredinol dywyllu fel hyn yr athrawiaeth o drawssylweddiad. Yr oedd ei fabwysiadu y pryd hwn, pan yr oedd ymrysonfa waedlyd ar y drws, yn gwbl anmhosibl; ac yr oedd yn naturiol, ac yn ddoeth hefyd, ar ran athrofa Sorbonne, ragweled y cyffro anocheladwy a barai ei gyhoeddiad, trwy ddadgan ei fod yn anfoddhaol, twyllodrus, a hereticaidd. Yr oedd yn annichonadwy i'w gasglyddion a'i amddiffynwyr osgoi drwgdybiaeth, ac nis gallai y fam freninol a'r Cardinal ymlanhau oddi wrth warth heresi ond trwy dywallt gwaed yr Huguenotiaid. Yn y cyfamser, daeth y dylanwad a lifai o'r gylafaredd yma mor gryf, fel y gorfodwyd Beza i ddadgan ei fod ef yn ofni sel angerddol ei hymlynwyr yn fwy nag erlidigaethau ei wrthwynebwyr. Nid yn unig nis gellid rhwystro cyfarfodydd crefyddol yr Huguenotiaid mwyach, ond cymmerent le yn dyrfaoedd, yn cynnwys miloedd o rifedi. Cymmerodd y Diwygwyr feddiant mewn amryw fanau o'r eglwysydd cadeiriol trwy orthrech; mewn manau ereill yr oedd hyn yn afreidiol, gan y caent yr eglwysydd wedi eu gwaghau; ac mewn rhai amgylchiadau, caniatäai eu cyd-ddinasyddion Pabyddol iddynt eu cyd-ddefnyddio.

Dan yr amgylchiadau hyn yr ymddangosodd deddfwriaeth nodedig Ionawr, 1562, yr hon oedd yn fwy nodedig fyth, gan iddi sicrhau am y tro cyntaf freintiau gwladol a rhyddid crefyddol i'r diwygwyr, a chan iddi gael ei chyhoeddi yn ddioed ar ol derbyn y newydd mwyaf cyffrous am eu hymddygiadau eithafol yn Guyenne, ac ar ol gwrthwynebiad sarhaus braidd gan y cenadwr Yspaenaidd. Dadleuwyd y ddeddfwriaeth hon mewn eisteddiad arbenig o gynghor y llywodraeth, a phasiwyd hi yn benaf trwy ddylanwad araeth a wnaed gan y canghellydd enwog yn ateb i'r holiad, "Pa un a oedd cynnulliadau crefyddol yr Huguenotiaid i'w goddef, ynte i'w hattal? Dadleuai yntau y gallai fod yno amryw ddinasyddion oedd yn Gristionogion, ac y gallai efe fyw mewn heddwch â hwy heb feddu yr un ffurf o grefydd." Gorchymynai y ddeddfwriaeth hon ar i bawb o'r grefydd newydd roddi yn ol yr holl demlau, yr adeiladau eglwysig, y dodrefn a'r meddiannau ereill a gymmerwyd oddi ar y Pabyddion; yr holl gyllidau a attaliwyd oddi wrth y clerigwyr, &c.; gan wahardd iddynt bob cyfarfodydd crefyddol, ac adeiladu eu temlau eu hunain o fewn y dinasoedd, heb ganiatau y cynnulliadau hyn ond yn unig o'r tu allan i'r dinasoedd, a hyny yn unig, "hyd oni roddai Duw ras iddynt, a'u harwain yn ol i'r un gorlan, a hyd benderfyniad y cynghor cyffredinol," &c. Er na sicrhaodd y ddeddfwriaeth hon ond ychydig i'r Calviniaid, a hyny yn ammodol, gan eu gorfodi yn wir i roddi yr hyn a feddiannent eisoes i fyny mewn amryw fanau, eto derbynid hi ganddynt hwy gyda llawenydd, yn enwedig gan

Digitized by Google

Beza. Parodd anfoddlonrwydd yn mysg y Pabyddion, a hyd yn oed wrthwynebiad. Gwnaeth llawer o seneddau, megys, er anghraifft, senedd Paris, y gwrthwynebiad cryfaf yn ei herbyn, ac nis gellid cael ei chofrestru ond trwy orfodaeth yn unig, ar ol amryw orchymynion breninol; ac er hyny rhoddwyd amryw adranau ac ammodau i'w lleddfu i mewn. Gwrthddadleuai senedd Paris yn neillduol fod goddefiad i'r ddwy grefydd yn anghysson â rhaniadau a threfniadau taleithiol yr eglwys, gan gynnyg yr holiad pwysig—Pa fodd y gallai esgob, fel bugail eneidiau, godi ei lais yn erbyn bleiddiau, a rhybuddio y praidd rhagddynt, ac ar yr un pryd, goddef iddynt fyned allan o'r dinasoedd yn ddirwystr i wrandaw y pregethwyr; ac fel hyn rhoddi mwy o ufudd-dod i orchymynion y brenin nag i orchymynion Duw? Ni chymmerodd y duc o Guise un rhan yn y fath gwestiynau mewn perthynas i'r egwyddor; ond mynegodd ei olygiadau, a golygiadau y rhan fwyaf o'r Pabyddion, yn fyr a diseremoni, yn y dadganiad—y torai efe y ddeddfwriaeth yn yfflon â min ei gleddyf.

Ar ol y gynnadledd yn Zebern, galwyd ar y duc o Guise gan ei gyfeillion, arweinwyr y blaid Babyddol arbenig yn Paris, a chan ei frawd y cardinal, i achub yr eglwys; ac ymddangosodd yn ddisymmwth, gyda nifer mawr o wŷr arfog, ar y Sabbath, Mawrth 1af, 1562, yn ninas Vassy yn Champaigne, ar y mynydd yr oedd y gynnulleidfa o ddiwygwyr wedi ymgynnull i addoli. Yr oedd cyd-darawiad yn naturiol ac anocheladwy. Nid yw yn angenrheidiol meddwl fod y gyflafan yma wedi ei rhagfwriadu gan Guise. Eto yr oedd yn naturiol i'r Huguenotiaid feddwl hyny, ac i'r hysbysiad am y digwyddiad, fel y rhedai yn gyflym dros Ffrainc, roddi tân yn y defnyddiau oedd eisoes yn mhob man yn barod i ffaglu. Nis gallai craffder y fam freninol, na chymmedroldeb doeth y canghellydd, yn awr rwystro yr ymryson. Darfu i waedd gyffredinol y diwygwyr—"O Israel! aed pawb i'w pebyll!"—eu prysuro i ryfel grefyddol a gwladol arswydus, yn yr hon y petrusai y fam freninol a'i mab, dros amser; ac weithiau, hyd yn oed gogwyddent i bleidio y Calviniaid, a cheisient gymhorth ganddynt yn erbyn y triwyriaeth, i blaid y rhai yr hyrddiwyd hwynt yn anocheladwy. Ymdrechid attal y rhyfel weithiau drwy y pethau a elwid deddfwriaethau tangnefedd, â'r rhai y cytunai y Calviniaid bob amser braidd, gyda hyder plentynaidd, hyd yn oed er cael amryw brofion o'u twyll, heb ofyn un sicrwydd heb law gair y brenin. Rhaid i ni briodoli hyn, ar un llaw, mewn rhan i ddiffyg ystyriaeth, a gorweithiad, a hefyd i'w tueddiadau Cristionogol a theyrngarol; ac ar y llaw arall i rym mawr undeb cenedlaethol Ffrainc. I'r olaf yn unig y gellir priodoli gwaith y Calviniaid, ar derfyniad y rhyfel cyntaf, trwy heddwch Amboise, 1563, yn rhoddi cymhorth gyda'r fath wroldeb a hunanymwadiad ag a ganmolid hyd yn oed gan eu cyd-ddinasyddion Pabaidd, i yru ymaith y Seison o Ffrainc, a wahoddwyd yno i'w cynnorthwyo. Cydnabyddai y Pabyddion hefyd, fod y byddinoedd Calvinaidd, yn nghanol dychrynfeydd rhyfel, wedi dangos y fath radd o dduwioldeb a dysgyblaeth na ragorwyd arnynt ond yn unig gan fyddinoedd Puritanaidd y ganrif ganlynol. Yr oedd y cadfridog Colligny fel craig, ar yr hon yr ymdorai tonau annhrefn; a gellir edrych ar y gweinidogion diwygiedig a ddyoddefasant angeu—nid yn unig ar faes y gwaed, ond ar yr ysgaffald hefyd—fel y lefain a fywiocâi fyddinoedd yr Huguenotiaid. Gan eu bod yn argyhoeddedig o gyfiawnder y rhyfel, a chan eu bod, trwy nerth eu hyawdledd a'u hesampl, yn gwrthwynebu plaid ardderchog yn eu rhesau eu hunain, nad oeddynt dan ddylanwad yr un amcanion difrifol, cymmerasant faich yr anturiaeth beryglus arnynt eu hunain.

Os cyfeiriwn ein sylw am ychydig amser at hanes mewnol yr Huguenotiaid, canfyddwn fod dau dueddiad gwahanol yn ymddangos yn mysg eu gweinidogion mor fore a heddwch Amboise. Yr oedd un dosbarth yn dymuno cadw yr heddwch; yr oedd y llall yr un mor groes i ryfel; eto, gan eu bod yn edrych arni fel yr unig foddion i gael rhyddid crefyddol, yr oeddynt yn haeru y dylasai gael ei chario yn mlaen yn benderfynol ac yn egniol. Cynnrychiolid y blaid flaenaf gan y tywysog o Condé a'r pendefigion, a'r llall gan y cadfridog a'r gweinidigion yn gyffredinol. Fel yr oedd yr elfen wladyddol yn ymlusgo fwyfwy i'r achos cyffredinol, cynnyrchodd yn raddol wahaniad annymunol ynddynt, nes eu gwneyd yn wahanol bleidiau, yn enwedig gan nad oedd Coligny mwyach gan yr Huguenotiaid i'w harwain a'u cynnorthwyo. Galwai y pleidiau hyn eu gilydd yn "Wleidiadwyr" a "Glwyslysolwyr." I'r blaenaf y perthynai Harri o Navarre, ar ol hyny y brenin Harri IV.; ac i'r olaf, y tywysog o Condé, yr hwn, o ran gwroldeb, oedd yn gyfartal i'w dad, ac o ran moesoldeb yn llawer rhagorach Llofruddiwyd ef wedi hyn yn y carchar ar ol gorchfygiad Jarnac, 1569. Galwai y blaid flaenaf eu hunain yn "Faiseurs," a'r olaf yn "Diseurs." Prif nodwedd y blaenaf oedd cymmedroldeb doeth; yr olaf, sel hunanymwadol.

Rhoddodd heddwch St. Germain en Laye, yn 1570, derfyn dros amser ar y trydydd rhyfel crefyddol. Heb law rhai goddefiadau chwanegol at ddeddfwriaeth Ionawr, rhoddwyd dinasoedd La Rochelle, Montauban, Cognac, a La Charite, i'r Huguenotiaid fel ymrwymiadau o ffyddlondeb a dorwyd mor fynych, neu fel "dinasoedd sicrhâd." Y mae hyn yn beth pwysig mewn llawer golygiad. Canys yn hyn y gwelwn ddechreuad y sefyllfa afreolaidd i'r hon y syrthiodd Eglwys Ddiwygiedig Ffrainc, gyda golwg ar y llywodraeth, fel "llywodraeth mewn llywodraeth;" ac nad oddi wrthi hi ei hun na'i hathrawiaeth y daeth hyn; ond cafodd ei gyru i'r sefyllfa yma gan rym amgylchiadau yn deilliaw o anoddefgarwch ac anffyddlondeb y Pabyddion, ac o egwyddor y llywodraeth wladol, yr hon nis goddefai ond un grefydd. Gan ei bod yn ddyledswydd ar "ei fawrhydi mwyaf Cristionogol, a mab hynaf yr eglwys," ar ol cymmeryd llŵ ei goroniad, nid yn unig i'w cau allan o'r llywodraeth, ond i'w dileu, nid oedd gan yr Huguenotiaid ddim i'w wneyd dan yr amgylchiadau ond sefydlu un arall, annibynol, o fewn y llywodraeth elynol hon.

Pe na buasai cyflafan nos St. Bartholomeus, 1572, yr hon, yn ol Perefixe, archesgob Paris, oedd "weithred mor erchyll na bu erioed, ac, os rhynga bodd Duw, na bydd yr un byth o'i chyffelyb"—pe na buasai y gyflafan hon, fel y tybia rhai nad oedd, yn rhagfwriad dieflig a maith, eto profir trwy hanesion mor awdurdodol, fod ei hadau wedi ymsuddo yn ddwfn yn mhenboethni yr offeiriadaeth Babaidd, a bod y weithred ffiaidd yn destyn ymddyddan yn mhell cyn iddi gael ei chyflawni mewn llysoedd Pabaidd a manau ereill,

Digitized by Google

ac, yn wir, hyd yn oed yn mysg yr Huguenotiaid eu hunain. Profir hyn gan fryslythyrau llysgenadol a argraffwyd yn ngwaith Groen von Prinster, yn mha rai y darlunir cyflafan nos St. Bartholomeus gan lysgenadwyr Ffrainc mewn bryslythyrau i lysoedd Rhufain ac Yspaen, lle y dysgwylient gymmeradwyaeth i'r weithred, fel "*acte prémédité*" (=gweithred ragfwriadedig); ond yn y rhai at yr ymherawdwr, pan na ddysgwylient gymmeradwyaeth, fel "*acte non prémédité*" (=gweithred na ragfwriadwyd). Y mae Capefigue yn darlunio y gyflafan fel canlyniad hollol barn gyhoeddus ddallbleidiol, a goleddid ac a attelid am hir amser, ond o'r diwedd a dorodd allan yn danbaid. Rhoddir rhif y rhai a gwympasant y noswaith hono o 20,000 i 100,000. Darfu i'r cynllun o lwyr ddileu yr Huguenotiaid Protestanaidd, o'r hyn yr oedd cyflafan Paris i fod yn ddechreuad, fethu. Pa fodd bynag, arweiniodd i'r pedwerydd rhyfel crefyddol a gwladol, ac i ffurfiad plaid newydd o "*Bolıticians*" (Gwleidiadwyr), dan nawdd brawd ieuangaf y brenin—y duc o Alençon (wedi hyn o Anjou), a meibion heddgeidwad Montmorency. Arweiniodd cyssylltiad yr Huguenotiaid â'r blaid hon yn naturiol i gyfnewidiadau mawrion yn egwyddor grefyddol y Calviniaid. Canlyniad arall mwy parhaus a dinystriol o'r gyflafan oedd, fod colli cymmaint o bendefigion Huguenotaidd trwy lofruddiad, ymadawiad o'r wlad, ofn, a gwrthgiliad oddi wrth yr achos cyffredinol, wedi trosglwyddo yr ymryson o hyn allan i ddwylaw preswylwyr y dinasoedd a'r pentrefydd. Yma yr oedd eu hysgrifeniadau yn cael derbyniad parod, a chynhyrfodd y cof am ryddid canoloesol eu dinasoedd i ymgeisiadau gwir werinlywodraethol.

Yn y cyfamser, ar ol troseddiad newydd a chyflym o'r heddwch, cyfododd gelyn llawer mwy peryglus i'r brenin, y nodedig "Gynghrair Sanctaidd," amcan yr hwn oedd amddiffyn a chadw y grefydd Babaidd. Er mwyn llywodraethu y cynghrair hwn, cymmerodd Harri III. nawdd yn y sefyllfa ammheus o osod ei hun yn arweinydd iddo. I'r dyben o argyhoeddi y cynghrair o'i syniadau Pabyddol, ei orchwyl cyntaf yn nghyfarfod y taleithiau, yn Blois, oedd, diddymu yr holl ddeddfwriaethau ffafriol i'r diwygwyr, a deddfu mai y grefydd Babaidd yn unig oedd i gael ei chydnabod o hyn allan. Y canlyniad fu rhyfel newydd (y nawfed), yr hwn a ddygwyd i derfyn trwy ddeddfwriaeth Poitiers, 1577. Yn hon y sicrhawyd i'r diwygwyr y goddefiadau a roddwyd iddynt yn heddwch St. Germain. Aeth hon y tu hwnt i hono, trwy ganiatau iddynt naw o ddinasoedd diogelwch am chwe blynedd, a mynwentydd iddynt eu hunain; ac yr oeddynt i gael cynghorau (a elwid *Chambers mi-parties*) yn seneddau Bordeaux, Grenoble, Aix, a Toulouse, pob un i gynnwys wyth cynghorwr Pabyddol ac wyth Diwygiedig, ac un llywydd Pabyddol a Diwygiedig. Yr oedd y ddeddfwriaeth hon hefyd yn ymwrthod â chyflafan nos St. Bartholomeus. Ymdaenodd y blinderau a achosodd symmudiadau y duc o Anjou yn yr Iseldiroedd dros Ffrainc hefyd, tra yr oedd y Cynghrair Sanctaidd yn cynhyrfu digofaint y boblogaeth ddallbleidiol, a'r brenin yn gwneyd ei hun yn fwyfwy dirmygedig. Ar ol marwolaeth y duc, gan nad oedd gan y brenin blant, ac mai brenin Navarre a fyddai ei ddilynydd nesaf, cymmerwyd y perygl a fygythiai y grefydd Babaidd yn foddion newydd i gynhyrfu dygasedd yn erbyn yr Huguenotiaid a'r brenin anffodus, a gorfodwyd yr olaf, er cyflawnu cytundeb gwaradwyddus â'r cynghrair (Nemours, 1585), i ddiddymu heddwch Poictiers, yr hwn yr oedd mor falch ag i'w alw *ei* heddwch, a'r holl oddefiadau a roddwyd i'r diwygwyr. Ar ol y ddeddfwriaeth hon, a elwid hefyd deddfwriaeth Gorphenaf, neu yr Unol-ddeddfwriaeth, am yr hwn y dywed D'Aubigné iddi ddwyn cymmaint deirgwaith o'r Huguenotiaid i'r pentwr ag a ddygodd cyflafan noswaith St. Bartholomeus, a'r hon hefyd a gynneuodd ryfel newydd a gwaedlyd, a elwid rhyfel y "tri Harri," fel mai prin yr oedd yn angenrheidiol i'r brenin, er mwyn diddymu yr Huguenotiaid, a gweddillion olaf y Diwygiad yn Ffrainc, gynnyg *Unol-ddeddfwriaeth Chartres*, a dynwyd oddi wrtho gan Guise ar ol y gwarchaeadau a'i ddiangiad yntau o Paris. Yn y ddeddfwriaeth hon, ymrwymodd Harri ar ei lw i beidio rhoddi arfau i lawr nes i'r heretic diweddaf gael ei ddileu o'i deyrnas. Rhwymodd yr un ddyledswydd ar ei ddeiliaid, a gorchymynodd iddynt, ar yr un pryd, beidio cydnabod neb byth fel eu brenin heb ei fod yn perthyn i'r grefydd Gatholig, Apostolaidd, a Phabyddol. Dilynwyd y llw yma yn ail gynghorfa y taleithiau yn Blois—yn yr hon y tyngwyd yn ddifrifol i'r Unol-ddeddfwriaeth hon gan ei haelodau, ac y gwnaed hi yn gyfraith sylfaenol y dalaeth, gan weithred ffurfiol o gymmodiad â'r duc (Rhagfyr 4ydd, 1588), i'r hon y tyngwyd gan y brenin "ar gyfrinion sanctaidd yr allor." Yn ebrwydd ar ol hyn, parodd y brenin i'r duc gael ei lofruddio ar y 23ain o'r un mis; ac ar y 24ain, parodd lofruddio ei frawd—y Cardinal o Guise!

Parodd y ddau lofruddiad yma, a ddilynwyd gan esgymundod Pabaidd ammodol, i'r Cynghrair Sanctaidd a'r rhan fwyaf o'r boblogaeth Babaidd ymgynddeiriogi yn erbyn Harri III, fel y gorfodwyd ef i geisio cynnorthwy yr un Huguenotiaid ag y tyngodd yn ddifrifol ychydig amser yn ol i'w llwyr ddileu. "Yr oedd o werth annhraethol yn awr," meddai Ranke, "fod gallu eto yn Ffrainc heb ei ddarostwng gan y symmudiad cyffredinol hwn; sef, *byddin brenin Navarre*." Gellir dal y ffaith ddiammheuol hon allan yn ngwyneb holl elynion y Diwygiad yn Ffrainc, mai iddynt hwy yn unig y rhaid priodoli cynnaliad pendodaeth Ffrainc, fel na syrthiodd yn ysglyfaeth pleidgarwch yn mysg pendefigion galluog, neu i ymherodraeth Yspaen.

Ar farwolaeth Harri III, a lofruddiwyd gan fynach penboeth o'r enw Jacob Clement, 1595, cydnabyddwyd Harri o Navarre (Harri IV.) yn frenin gan y rhan fwyaf o'r pendefigion oedd ar y pryd yn y llys; ond canfyddai ei hun mewn sefyllfa mor ddyrys, fel mai trwy wroldeb mawr, godidogrwydd ei fuddugoliaethau, a'i dueddiad ardderchog, yn unig y galluogwyd ef i ymgynnal. Heb law y rhyfel cyhoeddus â'r cynghrair galluog, i'r hwn yr oedd nerth newydd yn llifo yn barhaus o ffynnonell ddihysbydd dallbleidiaeth boblogaidd, o arian cymhorth Yspaen, ac o ymrysonau a gynhyrfid yn Paris gan y pabgenad penboeth, suddwyd Harri i ddyryswch arall mwy fyth, fe allai; sef ymrysonfa fewnol â'i blaid orphwyllog ei hun. Yr oedd yn ffodus iddo ef fod ymraniad yn y cynghrair ar yr un pryd, a bod symmudiadau penadurol a gwerinol gwylltion hefyd yn wir, yn cydhanfodi dan y ffurf o undeb Pabaidd.

Gwellhawyd yr Huguenotiaid yn llwyr o'u gobeithion dychymygol am ddiwygiad cyflawn

yn Ffrainc trwy y rhyfeloedd crefyddol a nerth adnewyddol yr Eglwys Babaidd, a daethant yn fuan i gydnabod eu sefyllfa newydd, a llanwyd hwy â'r pryder mwyaf pan y gwelodd y brenin fod yn rhaid iddo wadu ei grefydd er mwyn cadw ei goron. Yr oedd y rhai oedd yn meddu gwybodaeth wleidyddol yn gweled yn amlwg y byddai yn rhaid iddo ef, fel brenin Ffrainc, gymmeryd sefyllfa fwy dyrchafedig, ac y byddai yn rhaid iddo goleuo elfenau Pabaidd ei deyrnas hefyd, ac y terfynai hyn bron o angenrheidrwydd mewn ymwadiad. Ymddengys y golygiad yma yn ei agweddau mwyaf ffafriol yn sylw y duc o Lully:—"Er fy mod i yn Galviniad, eto yr oeddwn yn llwyr argyhoeddedig, a chymhellais y gweinidogion diwygiadol dysgedicaf i gydnabod y gallai Duw gael ei anrhydeddu yn yr Eglwys Babaidd cystal ag yn yr Eglwys Brotestanaidd." Ond y mae yr ochr dywyll i'r darlun i'w ganfod yn yr Huguenotiaid hyny, a dynasant y casgliad oddi wrth yr athrawiaeth a amddiffynid gan weinidogion a duwinyddion Calvinaidd, fod iachawdwriaeth yn gyrhaeddadwy yn yr Eglwys Babaidd, ac oddi wrth yr athrawiaeth Babyddaidd nad oes iachawdwriaeth allan o'r Eglwys Babaidd—y dylai un ddewis yn ddiammodol yr hyn a gydnabyddir *yn gyffredinol*, yn hytrach na'r hyn a gydnabyddir *mewn rhan* yn unig fel peth ansicr, ac *mewn rhan* a ddadleuir. "A hyn," meddai D'Aubigné, yn *Nghyffes Arglwydd de Sancy*, "oedd y rhwyg a barodd i'r brenin ac amryw ereill roddi i fyny." Mynega hyn yn gryfach fyth yn y geiriau a briodolir i'r gwrthgiliwr hwn:—"Gwrthgiliodd y brenin i achub talaeth, a gwrthgiliais innau i achub fy nhalaeth." Cymmerodd yr ymwadiad le yn y modd mwyaf difrifol ar y 25ain o Orphenaf, 1593, yn eglwys St. Denis.

Mae y dygwyddiadau cyssylltiedig â deddfwriaeth Nantes, 1598, a'r anhawsderau a gyfarfu o bob parth, yn rhy amrywiol i'w darlunio yma. Boddlonwn ni, gan hyny, ar roddi dysgrifiad byr o brif gynnwysiad y ddeddfwriaeth ei hunan. Mae yn cynnwys deuddeg a phedwar ugain o erthyglau, yn cael eu dilyn gan un ar bymtheg a deugain o erthyglau penodol neu gyfrinachol, a dau "freintlythyr" (*brevets*) fel egluriadau, &c. Maent yn goddef i'r holl ddeiliaid sy'n coleddu "yr hyn a elwir yn grefydd ddiwygiedig" ryddid cydwybod. Ond cyfyngir rhyddid addoliad gan amryw ammodau, wedi eu seilio mewn rhan ar ddeddfwriaethau heddwch blaenorol, ac mewn rhan ar amgylchiadau yr amser. Dengys yr ammod olaf hwn fel yr oedd awdurdod yn cymmeryd lle hawl, gan fod hyd yn oed y gyfraith newydd yn gorfod ymgymhwyso ato, gan y caniateid hawl eto yn yr amgylchiadau hyny lle yr oedd gallu i'w amddiffyn. Fel hyn, goddefid addoliad crefyddol i'r diwygwyr yn y manau y caffent ef yn 1596 a 1597; sef y manau yr oeddynt yn fwyaf nerthol ynddynt; tra nad oeddynt yn cael y rhyddid hwn yn y manau lle yr oedd y Cynghrair Sanctaidd mewn rhwysg. Pa anfantais bynag a allai y goddefiadau hyn o ryddid i'r diwygwyr achosi i'r grefydd Babaidd, yr oedd hyny yn cael ei lwyr fantoli gan amgylchiadau, gan fod yr olaf yn cael ei chydnabod yn sefydledig yn mhob man, tra nad oedd y flaenaf ond yn cael ei goddef yn unig mewn rhai manau. Trwy gydnabod y grefydd Babaidd fel yr un lywodraethol a sefydledig, yr oedd yn cael ei wneyd yn ddyledswydd, wrth gwrs, ar y diwygwyr, i gadw gwyliau y Pabyddion, trwy ymattal oddi wrth lafur, i dalu trethi at gynnal yr offeiriadaeth Babaidd, &c. Fel cydnabyddiaeth o gyflawniad y ddyled olaf hon, gorchymynwyd ar i 135,000 o *francs* gael eu rhoddi yn flyneddol, o drysor y dalaeth, at gynnal y gweinidogion diwygiedig, a threuliadau eglwysig ereill. Yn y manau nas gallai y dirprwywyr nodi lle cyfaddas i gladdu, goddefwyd i'r Calviniaid, am yr amser, ddefnyddio claddfeydd y Pabyddion. Dadganwyd hefyd eu bod yn gymhwys i bob swyddau llysol, taleithiol, a gwladol; a chaniatawyd iddynt sefydlu prifysgolion a gwronfeydd (*gymnasia*), cystal ag i fwynhau yr ysgolion cyhoeddus. Y goddefiadau mwyaf pwysig, yn ddiau, a gafodd y diwygwyr oedd, yr amryw ddinasoedd diogelwch, fel y gelwid hwynt, a roddwyd iddynt am wyth mlynedd. Gan fod y rhai hyn yn eu meddiant eisoes mewn gwirionedd, ac na buasent yn bur foddlawn i'w rhoddi i fyny ar ol ymwadiad y brenin, dengys y goddefiad hwn yn fwy na dim arall mor beryglus oedd eu sefyllfa hwy a'r dalaeth.

Gellir ystyried ail gyfnod Eglwys Ddiwygiedig Ffrainc, pan yn "llywodraeth mewn llywodraeth," yn cyrhaedd o ddeddfwriaeth Nantes hyd "Ddeddfwriaeth Gras Nismes," yn y blyneddoedd o 1598 hyd 1629.

Er i ymwadiad Harri IV. ysbeilio y diwygwyr o'u hamddiffynwr mewn enw, ac i'r brenin roddi llawer o seiliau teg iddynt i'w ammheu, ac i gwyno rhagddo, eto daethant i wybod yn fuan ar ol ei lofruddiad yn Ravaillac, 1610, eu bod wedi colli eu gwir noddwr a'u cyfaill goreu. Darfu i'r llofruddiad yma, nid yn unig eu hysgubo i ffrwd o ddichellion tanbaid ar ran y pendefigion, ond gwnaeth hwynt yn ysglyfaeth i'w gwrthnysigrwydd eu hunain, yn ol yr hyn, a thanbeidrwydd arferol y Ffrancod, cymmerodd eu pendefigion y cynllun i fyny a roddwyd i lawr yn ei amser gan Harri, am gael talaeth Huguenotaidd rydd a chynghreiriol, dan noddaeth dramor hefyd—cynllun oedd yn fwy dychymygol fyth, gan fod y pendefigion Diwygiadol yn ymranedig o ran eu dylanwad; ac nid oedd y fath undeb rhyngddynt hwy â'r Consistoriaid ag a wnai gynnyg mor fawr yn llwyddiannus. Yr oedd y rhwyg yn cael ei eangu gan y fath wŷr a Sully a Duplessis:—y blaenaf a gynnrychiolai yr egwyddor wladyddol yn fedrus, a'r olaf yr egwyddor grefyddol. Yr oedd y diwygwyr yn awr wedi llawn ffurfio Cynghrair Huguenotaidd; y rhai ar y dechreu, oedd yn ddigon cymmedrol, ac a wrthsafasant ddeniadau cryfion i ymuno mewn gwrthryfel a ffurfiasid gan y tywysog Pabaidd bywiog Condé, yn erbyn y fam freninol. Ond pan adferodd y brenin ieuanc, Louis XIII, yr offeren yn nhalaeth Bearn, trwy rym arfau, ac y dechreuodd wrthddiwygiad yn 1620, cynneuwyd rhyfel grefyddol a gwladol arall. Yn y cyfamser, cymmerodd y Cardinal Richelieu awenau y llywodraeth, gan benderfynu ail sefydlu unbendodaeth hollol ar adfeilion y cynghrair Calvinaidd, yn lle y bendefigaeth falch a chyndyn oedd mewn awdurdod. Mewn canlyniad i hyn, ni chyflawnwyd y goddefiadau a wnaed i'r Calviniaid yn heddwch Montpelier yn 1622; a chynhyrfodd hyny yr Huguenotiaid i ryfel arall, cyflawnach na'r un blaenorol, ac yn debyg o fod yn fwy llwyddiannus, o blegid cynghrair a wnaed â Lloegr. Cymmerwyd y rhyfel yma mewn llaw yn benaf er mwyn amddiffyn dinas Rochelle, amddiffynfa Calviniaeth, yn enwedig Calviniaeth werinol a breninol, ac o blegid ei chynnydd a'i

hundeb masnachol agos â'r Iseldiroedd breiniedig—canolbwynt y gobeithion cynghreiriol a gwerinol. Ni wnaeth y cynghrair â Lloegr ond prysuro cwymp y ddinas falch; yn gymmaint ag i lynges Lloegr, yn lle rhoddi cynnorthwy iddi, ymadael ar ol i'r dinaswyr ei chyflenwi â lluniaeth, a thrwy hyny osod y ddinas yn ysglyfaeth i eisieu dychrynllyd yn gynt; a bu farw lliaws o'r preswylwyr gan newyn tost. Y newyn mawr hwn oedd yr unig achos i'r ddinas gael ei rhoddi i fyny, yn 1629. John Guiton, maer y ddinas, yr hwn y gellid ei gyfrif fel cynnrychiolydd diweddaf Calviniaeth werinol, a gyfarchai y Cardinal ar ei ddyfodiad i'r ddinas anffodus, a gyfanneddid yn awr gan breswylwyr hanner meirw gan newyn, yn y geiriau hyn:—"Gwell yw rhoddi Rochelle i fyny i frenin a ŵyr sut i'w chymmreyd, nag i benadur nad oedd yn alluog i'w chynnorthwyo." Derbyniodd Richelieu y geiriau hyn mewn tymmer dda, ac ymddygodd yn garedig a pharchus, ar y cyfan, at amddiffynwyr y ddinas—cymmeriad yr hon a barhaodd flwyddyn gyfan, ar ol traul o fwy na deugain miliwn o *livres*. Ar ol cynghrair annaturiol ac aneffeithiol âg Yspaen trwy y Duc o Rohan, gorfodwyd yntau hefyd i roddi i fyny yn mhen y flwyddyn, sef yn 1620. Yn y flwyddyn hon y cynnygiwyd deddfwriaeth Nismes, yr hon a gadarnhâai yr hawliau gwladol ac eglwysig a roddwyd i Brotestaniaid Ffrainc trwy ddeddfwriaeth Nantes; ond collasant eu holl annibyniaeth wladyddol.

Bu gradd o orphwysdra dan Richelieu a Mazarin; a hwn oedd y trydydd cyfnod Eglwys Ddiwygiadol Ffrainc, o 1629 hyd 1661.

Yr oedd Richelieu yn wrthwynebol i bob rhyddid crefyddol, ac yn enwedig i Galviniaeth; a phe buasai fyw yn amser y Diwygiad, diau y gwrthwynebasai y Protestaniaid fel y gwrthwynebodd y Jansenistiaid. Ond yr oedd yr amser hwnw yn awr drosodd, ac ymsuddodd yntau yn fuan i anhawsderau mwy. Nid oedd yn unol â'i natur ef i ymddwyn yn wael at leiafrif, a wnaed yn analluog ganddo ef, pa mor barchus bynag y gallai rhai o'r cyfryw rai fod. Y mae yn wir ei fod ef wedi meddwl am uno y grefydd Ddiwygiedig a Phabaidd yn nghyd, a thrwy hyny, ymdyrchafu i fod yn batriarch Ffrainc, ac fel hyn ddwyn yr awdurdod eglwysig a llywodraethol i'w law ei hun; ac er mwyn hyn, yr oedd yn rhoddi y swyddi uchaf yn y dalaeth, y llys, a'r fyddin, ar amgylchiadau neillduol, i Galviniaid; ond yr oedd pob peth yn cael ei fwriadu ganddo ef i hyrwyddo ei brif amcan, sef dyrchafu yr egwyddor benadurol uwch law pob egwyddor arall, a gwneyd penaduriaeth Ffrainc uwch law pob llywodraethau tramor. Yn yr ysbryd yma y gwnaeth efe ddefnydd o'r rhyfelwr medrus a'r Calvin bywiog—y duc o Rohan—yn y rhyfel âg Yspaen. Yn yr un ysbryd yr etholodd efe y diwygiwr adnabyddus, yr iarll o Bethune, i fod yn genadwr Ffrainc yn llys y pab, er mwyn iddo fynegu yn bendant i'r pab am ymosodiad milwyr Ffrainc ar Valtellina. O dan Richelieu, gan hyny, yr oedd y Diwygwyr yn gallu mwynhau llonyddwch, a boddlonrwydd hefyd yn wir; canys er fod ei reolaeth yn ymddangos yn galed, eto yr oedd yn galetach ar y pendefigion nag arnynt hwy; ac yn wir yr oedd y pendefigion uchaf yn parhau i ymdynu oddi wrtho yn fwyfwy. Yr oedd eu gweinidogion a'u duwinyddion yn cael mwy o hamdden yn awr i ddadblygu ac egluro eu hathrawiaethau, mewn llyfrau dysgedig. Yn y dull yma, a thrwy eu bucheddau duwiol, ennillasant fwy o Babyddion i'r ffydd nag a ennillodd y pendefigon i'r ochr arall dan ddylanwad yr iarll a'r gweinidog cardinalaidd. Yr oedd eu hysgolion yn Saumur a Montauban, o blegid ardderchogrwydd eu proffeswyr, a phurdeb eu moesau, yn tynu sylw teuluaidd pendefigaidd o'r Almaen, yn hytrach na phrifysgolion yr Almaen ei hun; ac y mae yn hawdd canfod mai trwy y rhedleoedd hyn y llifodd Calviniaeth drosodd i Brandenburg a Phrwssia.

Yr oedd sefyllfa y Calfiniaid yn well fyth o dan Mazarine (olynydd Richelieu), yr hwn oedd yn barotach i gydnabod eu rhinweddau gwladol tawel; a rhoddodd brawf o hyn trwy ddewis amryw o honynt i swyddau anrhydeddus, yn enwedig yn y dosbarth cyllidol. Nid hyny yn unig, ond ennillasant barch hyd yn oed y llys ei hunan; canys pan yr ydoedd yn rhyfel yn Fronde, nid yn unig gwrthodasant gynnygion taerion y tywysog Conde, ond cymmerasant arfau i fyny yn eu herbyn, ac felly rhoddasant help i gynnal gorsedd bwdr Louis XIV, tra yr oedd dan oed.

Yn awr y dechreuodd pedwerydd cyfnod Eglwys Ddiwygiedig Ffrainc, ac yr oedd yn llawn o dwyll yn erbyn y diwygwyr. Dechreuwyd trwy eu herlid, a'u gorthrymu mewn mân bethau, a diweddodd yn eu llwyr ddinystr mewn ystyr eglwysig a gwladol, trwy ddiddymu deddfwriaeth Nantes dan Louis XIV:—1661 hyd 1685.

Yr oedd Louis XIV, yr hwn a andwywyd drwy addysg druenus, er fod ganddo alluoedd gwychion a chraffus, yn ymdrechu dwyn ei grefydd i gyfateb i'r mawredd gwladyddol a geisiai sefydlu er lles ei deyrnas, yr hon oedd bron yn ddrylliau pan ddechreuodd deyrnasu. Am hyny y mae yn dadgan ei fod yn edrych bob amser ar nifer mawr o'i ddeiliaid oedd o'r grefydd a dybid yn Ddiwygiedig, fel drwg; ac yn unol â hyny, cymmerodd efe fesurau yn eu herbyn, y rhai nas gallai efe eu hystyried o'u lle, gan iddynt gael eu dilyn, dan fendith Duw, â llawer o adferiadau. Ei gynllun oedd peidio eu herlid mewn un modd, na'u gorfodi trwy fesurau newyddion gorthrymus, ond yn hytrach sicrhau iddynt yr hyn a gawsant gan eu tadau, eithr heb roddi chwaneg iddynt; a chyfyngu yr hyn a gawsant o'r blaen o fewn terfynau culaf y caniatâai cyfiawnder a chyfleusdra iddo wneyd. Am hyny, trefnodd ddirprwywyr i gario allan ddeddfwriaeth Nantes, a ffurfiodd benderfyniad, at yr hwn yr ymgadwodd yn fanwl, i beidio rhoddi unrhyw ffafr a ddibynai arno ef ei hun i Brotestaniaid; a gwnai hyny o ewyllys da iddynt, yn hytrach na malais, er mwyn eu dwyn, o fesur ychydig ac ychydig, i ystyried o honynt eu hunain a oedd yn ddoeth iddynt ysbeilio eu hunain o'r manteision y cyfranogai ei holl ddeiliaid ereill o honynt. Ar yr un pryd, cymmhellai yr esgobion i lafurio cymaint ag a allent i'w hargyhoeddi, ac i leihau y cospau eglwysig a'u tueddai i'w pellhau oddi wrth Babyddiaeth, a hefyd i gyfarfod y Calviniaid hyny a ddangosent ysbryd ystwyth, hyd yn oed trwy eu gwobrwyo, &c.

Gwelir yn amlwg oddi wrth hyn oll mai amcan y brenin oedd ennill y diwygwyr yn ol at Babyddiaeth—nid dileu deddfwriaeth Nantes, ond ei gwneyd yn afreidiol. Er mwyn hyn, nid oedd efe yn ewyllysio defnyddio gorfodaeth ac erledigaeth uniongyrchol, ond moddion anuniongyrchol. Yr oedd y rhai hyn yn gynnwysedig o

Digitized by Google

ymchwiliadau gan ddirprwywyr i weithredoedd eglwysi y diwygwyr, oedd wedi eu seilio ar ddeddfwriaeth Nantes; ac yr oedd yr ymchwiliadau hyn yn arwain yn wastad i dwyll, ac yn terfynu mewn tynu ffafrau yn ol, a rhoddi rhai ereill.

Dyma oedd sylfaen y cynllun o wneyd proselytiaid; ond, oni buasai i luaws o amgylchiadau gymmeryd lle nas bwriadai y brenin, a hyd yn oed heb yn wybod iddo, ni buasai byth yn arwain i ddilead ffurfiol o ddeddfwriaeth Nantes.

Yn unol âg ysbryd y pethau hyn, yr oedd y dirprwywyr, trwy gymhelliad yr offeiriadaeth a'u dymuniadau eu hunain, yn rhwydd ganfod fod hawliau lluaws o eglwysydd yn ddiffygiol; ac yn fynych, ar ol hir gyfreithio costus, yn cau rhai o'r temlau, ac yn dystrywio eraill. Bu dylanwad y llys, a'r cyffelyb, mor effeithiol ar lawer o Galviniaid, fel y daeth lluaws o ddefaid cyfrgolledig yn ol i'r hen gorlan Babyddol. Anfonid cyfres gysson o'r dychweledigion i'r llys gan y rhai a bennodwyd i hyny, yr hyn a ddygai iddynt hwy lawer cydnabyddiaeth sylweddol, er eu cefnogi yn y gwaith duwiol a chyssegredig. Bu hyn oll yn foddion i ddeffro yr esgobion o'u diogi; a llafuriodd rhai o honynt yn galed trwy annogaethau, pregethau, a dadleuon, er dychwel y Calviniaid. Yr oedd cynghor y brenin a'r senedd yn gwneyd eu rhan, fel yr offeiriaid a'r dirprwywyr, er ennill dychweledigion, trwy dywallt ffrwd o ddadganiadau, deddfwriaethau, ordinhadau, &c. Dygid y gwaith o ddychwelyd yn mlaen trwy gyfrwng meirchfilwyr ac arian. Ystyriai y brenin hyn yn gwbl naturiol, a chaniatâai feirch a gwŷr i'r perwyl ar draul Calviniaid! Cafodd dychweliadau trwy feirchfilwyr a masnach mewn eneidiau, fel y galwai y Calviniaid yr ymdrafod creulawn ac isel, amddiffynwyr yn mysg y dysgedig a'r annysgedig hefyd. Hònent fod ymddygiad y Gwaredwr ei hun yn cyfiawnhau eu gweithredoedd adgas—ei fod ef yn porthi ei wrandawyr â bara a physgod; heb law fod y tad yn colleidio ei fab afradlawn dychweledig. Dygwyd holl Ffrainc yn raddol i'r cynllun yma o broselytio, megys i drobwll, fel yr oedd ymgadw o hono yn anhawdd, os na buasai yn annoeth hefyd i swyddogion. Cyfranogodd y senedd yn helaeth o orphwylledd yr amser, fel y cyhoeddasant lawer o orchymynion afresymol; megys, fod yr holl demlau Diwygiedig yn y rhai y bu y Pabyddion yn addoli, i gael eu tynu i lawr; fod y gweinidogion i gael eu newid bob tair blynedd; fod plant saith mlwydd yn alluog i ddewis y grefydd Babyddol, a'u bod i gael eu cefnogi yn y tueddiadau dwyfol hyn, trwy dderbyniad ffurfiol i'r eglwys; fod cefnau yr eisteddleoedd yn yr eglwysydd Diwygiedig i'w tynu i lawr, &c. Yr oedd yr adroddiadau mwyaf ardderchog am lwyddiant y gwaith yn cael eu hanfon i Louis XIV; a than ddylanwad dinystriol y Jesuitiaid a'i lys llygredig, daeth hyny yn ffynnonell o gysur iddo ef, ar ol bywyd pechadurus a godinebus. Cadarnheir y pethau hyn a'u cyffelyb hyd yn oed gan y Pabyddion eu hunain, megys y duc o St. Simon, yr hwn nad oedd yn teimlo dim hoffder at y Calviniaid, yr hwn a ddywed—"Yr oedd y brenin yn ewyllysio bod yn dduwiol; a chan nad oedd yn meddu dim gwybodaeth o grefydd, chwiliodd am heddwch cydwybod trwy gyflawnu penydiau ar gefnau yr Huguenotiaid a'r Janseniaid."

Er yr ymddengys fod gwadu crefydd eu tadau wedi dyfod i ffynu mwy-fwy yn mysg diwygwyr, eto yr oedd yn mhell o fod mor gyffredinol ag y mynai yr offeiriaid i'r brenin gredu, er mwyn ei brysuro i'r rhwyd a barotoisid iddo gyda golwg ar y diwygwyr. Gan hyny, er mwyn agor ei lygaid gyda golwg ar nerth eu rhif, a'u sel dros eu crefydd, a'i gadw rhag myned yn mhellach yn ei erledigaethau, penderfynodd Calviniaid rhai taleithiau, megys Poitou, a Lower Languedoc, i ymgynnull mewn addoliad cyhoeddus ar yr un dydd a'r un awr ag y dinystrid eu temlau. Er fod yr arddangosiad yma wedi ei gynllunio yn dda, etto dyfethwyd ef o ddiffyg cydsyniad a threfn; a'r canlyniad fu, taflu mwy o ddrwgdybiaeth ar y diwygwyr fel aflonyddwyr yr heddwch.

Ond yr oedd Louis yn petruso eto gyda golwg ar roddi dyrnod dinystriol ar waith ei daid—y mwyaf a'r goreu o freninoedd Ffrainc. Yr oedd ei gynghor hefyd yn cyfranogi o'r un petrusder. Yr oedd anhawsderau mawrion hefyd ar y ffordd. Ni wyddent pa beth i'w wneuthur gyda golwg ar y gweinidogion diwygiedig; y rhai, trwy eu bucheddau moesol a'u dysgeidiaeth dduwinyddol ac ymarferol, a ffurfiant gorff pwysig a pharchus o'r deiliaid. Yr oedd yn anhawdd eu condemnio i garchar am eu hoes o blegid eu rhif, a'r perygl o gynhyrfu cyffro yn nghanol Ffrainc, oedd eisoes mor barod i gynhyrfiadau. Yr oedd eu halltudio hefyd yn waith peryglus, gan y gwasgerid hwy felly trwy y gwahanol diroedd Protestanaidd, lle yr oedd yn angenrheidiol talu sylw i'w syniadau gwladyddol. Pa fodd bynag, ar eu halltudio y penderfynwyd; a chariwyd ef allan gyda llymder mawr, a llawer o orthrymder.

Ffurfiwyd deddf y Diddymiad o'r diwedd; ac ar ol i'r canghellydd Lettellier, tad y gweinidog rhyfel, pan yn marw, roddi sel y llywodraeth wrth y weithred, llefodd yn ngeiriau Simeon, "Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd; canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth." "Efe a iawn gydnabyddodd y weithred olaf hon," medd y Jesuit d'Avrigny, "fel y fwyaf ffodus ac ardderchog a wnaeth yn ei holl fywyd."

Yr oedd cymylau o arogldarth, yn esgyn o bob parth tua Versailles, i "awdwr y gwaith mawr hwn"—y "Cystenyn Fawr newydd," y "perffeithiaf a'r ardderchocaf o'r holl freninoedd," yr hwn, "er fod ei weithredoedd mawrion wedi cludo ei enw eisoes hyd eithafoedd y ddaiar, a'i wneyd yn glodfawr hyd y genedlaeth olaf, eto dyrchafodd y weithred olaf hon ef hyd y nefoedd, ac ennillodd iddo ei hun glod a bery yn hwy na'r byd." Ond dinystriwyd y gwaith mawr hwn yn fuan gan ŵr ieuanc a elwid Anthony Court, "adferydd Protestaniaeth yn Ffrainc;" a dengys hanes fod barn hollol wahanol yn cael ei choleddu am y "gwaith mawr;" canys daeth yn amlwg yn fuan fod yr hyn a olygai yr eglwys lywodraethol, o leiaf, yn niwed i Ffrainc, ac i'w garthu allan trwy dywallt gwaed, mewn gwirionedd, yn ddyrchafiad iddi. "Cyhyd ag y safai ein crefydd ar sylfaen ddiogel yn Ffrainc, a thra y gallai ein Cloudiaid, ein Dailliaid, a'n Drelincourtiaid eu gwneyd eu hunain yn glywadwy," fel yr ysgrifenai Calviniad o Ffrainc hanner can mlynedd yn ddiweddarch, wrth amddiffyn rhyddid crefyddol yn erbyn esgob Agen, "y fath wyr talentog oedd gan y Pabyddion i'w gwrthwynebu! Ond gan nad oes ganddynt mwyach y fath wrthwynebwyr galluog, onid allwn ddywedyd fod gogoniant yr Eglwys Galig wedi myned heibio? Pa le yn awr y mae y Bourdal-

Digitized by Google

ouiaid, y Massilloniaid, y Flechieriaid, y Mascaroniaid, y Bossuetiaid, yr Arnauldiaid, a lluaws o'u cyffelyb, a roddent anrhydedd arni? Mewn gwlad mor oleu, lle y mae pob dosbarth arall yn ymberffeithio, y mae myfyrio duwinyddiaeth bron wedi ei adael heibio, y mae y pulpudau yn cael eu llanw yn druenus, a pha oleuni bynag y sydd, rhaid chwilio am dano mewn dosbarth dirmygedig." Mae yn amlwg mai dedfryd benderfynol hanesyddiaeth ydyw, ar ol i Ffrainc fwrw ymaith a chau allan o honi ei hun yr halen a gynnwysai Calviniaeth, ei bod wedi syrthio trwy ei meibion Pabaidd, Voltaire, Diderot, d'Alembert, Helvetius, a Lamettrie, i sefyllfa o lygredigaeth foesol a chrefyddol a barodd i'w chanrif athronyddol gyrhaedd terfyn pur anathronyddol.

Gyda golwg ar gyfnodau dilynol yr Eglwys Ddiwygiedig yn Ffrainc, nis gellir edrych arnynt fel rhan uniongyrchol o'r Diwygiad Protestanaidd priodol, ac am hyny ni pherthyn i ni eu holrhain yn yr erthygl hon yn fanwl, er eu bod yn berthynasau agos. Gellir ystyried y pummed cyfnod yn cyrhaedd o 1700 hyd 1715; a gellir galw y cyfnod hwn yn oes y penboethder. Y chweched cyfnod a gyrhaeddai o 1715 hyd 1789, a gellir ei ystyried fel oes adgenedliad yr eglwysi yn y diffaethwch, hyd oni osodwyd hwy mewn ystyr crefyddol a gwladol mewn sefyllfa gyfartal i'r Eglwys Babyddol gan y gymmanfa genedlaethol.

### Y DIWYGIAD YN POLAND.

Yr oedd gwirionedd yr efengyl yn adnabyddus yn Poland er ys amser maith cyn cyfodiad Luther. Yr oedd Cristionogaeth wedi ei dwyn i mewn i'r wlad hono yn y ddegfed ganrif. Cyflawnid y gwasanaeth crefyddol cyhoeddus yno yn iaith y bobl er ys amryw gannoedd o flynyddoedd. Trefniant oedd hwn ag yr oedd yn rhaid i'r pabau, er yn anewyllysgar, ei ganiatau; canys yr oedd mewn ymarferiad cyn ymuniad Eglwys Poland âg Eglwys Rhufain. Mwynhaodd y wlad y rhagorfraint hon hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg, a bu yn dra bendithiol.

Yn y ddeuddegfed ganrif, ymsefydlodd amryw athrawon Waldensiaidd yn Bohemia a Moravia. Aeth rhai o honynt mor bell a Poland, a thaenasant gyda diwydrwydd egwyddorion yr efengyl. Yn mhen tri chan mlynedd wedi hyny, cafodd dilynwyr John Huss y tir wedi ei barotoi i'w hymdrechion. Mabwysiadwyd mesurau llymion er attal y Bohemiaid teithiol rhag taenu gwirioneddau crefydd. Ond bu yr holl ymdrechion yn aflwyddiannus. Tua'r flwyddyn 1449, esboniodd Andreas Galka Dobszynski weithiau Wickliff yn mhrifathrofa Cracow, ac ysgrifenodd emyn, yn cynnwys y syniadau canlynol, o glod i'r diwygiwr:—

"Chwychwi Bwyliaid, Almaenwyr, a phob cenedl! Y mae Wickliff yn dyweyd y gwir! Ni bu gan un wlad baganaidd na Christionogol ddyn mwy nag ef, ac ni bydd chwaith byth.

"Pwy bynag a ewyllysio ei adnabod ei hun, deued at Wickliff; pwy bynag a ddechreuo deithio y llwybrau y mae efe wedi eu nodi, nis gadawant hwy, ac ni chyfeiliornant byth.

"Y mae wedi dadguddio doethineb ddwyfol, gwybodaeth ddynol, a phethau ag oeddynt guddiedig i athronwyr.

"Y mae wedi ysgrifenu drwy ysbrydoliaeth am urddas eglwysig, sancteiddrwydd yr eglwys, yr anghrist Italaidd, a drygioni y pabau.

"Chwychwi offeiriaid Crist, sydd wedi eich galw gan Grist, dilynwch Wickliff.

"Anghristiau ydyw y pabau ymherodrol; derbyniant eu hawdurdod oddi wrth yr anghrist—oddi wrth waddoliadau Almaenaidd ymherodrol.

"Derbyniodd Sylvester, y pab cyntaf, ei awdurdod oddi wrth y ddraig Cystenyn, a thaenodd ei wenwyn dros yr holl eglwysi.

"Trwy gael ei arwain gan Satan, twyllodd Sylvester yr ymherawdwr, a chafodd feddiant o Rufain drwy ddichell.

"Yr ydym yn dymuno heddwch:—gadewch i ni weddïo ar Dduw; bydded i ni finio ein cleddyfau, a nyni a orchfygwn yr anghrist. 'Bydded i ni daraw yr anghrist â'r cleddyf, ond nid âg un wedi ei wneyd o haiarn.' Fel y dywed Paul, 'Lleddwch yr anghrist â chleddyf Crist.'"

"Etifeddiaeth Crist ydyw y gwirionedd. Y mae yr offeiriaid wedi cuddio y gwirionedd; y maent yn ei arswydo, a thwyllant y bobl â chwedlau.

"O Grist! er mwyn dy glwyfau, anfon i ni y fath offeiriaid ag a'n tywys at y gwirionedd, ac a gladd yr anghrist."—*Krasinski's History of the Reformation in Poland*, i. 68.

O blegid ei eofndra yn mhlaid y gwirionedd, gorfodwyd Dobszynski i ddianc o Cracow, a cheisio noddfa yn Silesia.

Er na theimlwyd awdurdod Eglwys Rhufain yn Poland hyd y ddeuddegfed ganrif, yr oedd wedi llwyddo i'r fath raddau fel yr oedd yno yn 1459, 576 o fynachdai, 117 o leiandai, 264 o athrofeydd, a 31 o abattai; a dywedir nad oedd dim llai na dwy ran o dair o'r cyllid a dderbynid oddi wrth y tiroedd yn cael eu defnyddio i ddybenion eglwysig! Anfonid symiau mawr o arian bob blwyddyn i Rufain, yr hyn a dlodai y wlad yn ddirfawr. Ymyrai yr esgobion âg achosion y llywodraeth, a chymmerasant y swyddau goreu iddynt eu hunain. Mynai y clerigwyr gael eu rhyddhau oddi wrth bob trethi. Griddfanai pob dosbarth dan orthrwm y blaid eglwysig.

Mewn cynnadleddau eglwysig a gynnaliwyd tua dechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, gwnaethpwyd trefniadau er attal lledaeniad opiniynau gwrth-Babaidd, canys yr oedd ysbryd ymchwiliad ar led. Cyhoeddwyd llyfrau yn cynnwys syniadau hollol groes i wladlywiaeth Rhufain. Haerai un awdwr (yn 1515), "nad oedd ond yr efengyl yn unig i'w chredu, ac y dylid ymwrthod ag ordinhadau dynol." Lledaenid llyfrau Luther yn helaeth, a darllenid hwynt gyda dyddordeb mawr. Er gwaethaf pob ymdrech i'w hattal i'r wlad, cludid hwy yno yn sypynau mawrion, a bu raid i'r Pabyddion wneyd defnydd o'r argraffwasg mewn hunan-amddiffyniad; ond yr oeddynt yn hoffach o ddifrïo a goganu nag ymresymu. Awgrymai rhai o honynt y priodoldeb o ddwyn y chwilys i weithrediad. Yr oedd yn amlwg fod Pabyddiaeth mewn enbydrwydd mawr.

Ennillai egwyddorion y Diwygiad dir yn gyflym yn Poland Prwssiaidd. Dadganid barn y cyhoedd mor benderfynol yn Dantzic, yn y flwyddyn 1525, fel y bu raid i'r ynadon ufuddhau i gais y bobl. Tröwyd yr adeiladau mynachol yn ysgoldai ac yn yspyttai. Meddiannwyd yr eglwysydd gan bregethwyr Protestanaidd. Diddymwyd Pabyddiaeth yn llwyr. Ond ni pharhaodd y cyfnewidiad dedwydd ond ychydig. Yn Ebrill, 1526, aeth Sigismund I, brenin Poland, i mewn i'r ddinas gyda byddin gref. Adferwyd yr addoliad Pabaidd, a diswyddwyd arweinwyr y Diwygiad; cyhoeddwyd deddfau creulawn yn erbyn cyfeillion y gwirionedd, yn nghyd â'r rhai a'u cynnorthwyent ac a'u noddent. Er hyny parhau i lwyddo yr oedd y gwaith da. Trwy benderfyniadau cynnadledd Piotrkow, yn 1542, dadguddiwyd llawer o bethau y buasai yn well

Digitized by Google

i'r clerigwyr eu gadael yn guddiedig. Gwaharddwyd i rieni anfon eu plant i ysgolion hereticaidd. Gorchymynwyd i bawb beidio darllen llyfrau Luther a Melancthon. Dywedwyd wrth yr awdurdodau am wylio gweithrediadau y llyfrwerthwyr a'r argraffwyr, er mwyn attafaelu pob llyfrau ammheus, ac hyd yn oed i chwilio tai, er cael gafael ar bob cyhoeddiadau Protestanaidd. Awgrymai y penderfyniadau yma gryn lwyddiant yn yr iawn gyfeiriad.

Rhoddwyd cymhelliad cryf i rydd ymchwiliad gan gymdeithas ddirgelaidd a sefydlwyd tua'r un amser yn Cracow, dan arweiniad Francis Zismanini, taleithydd y Francisciaid, a chyffeswr i'r frenines, ac yn cynnwys llawer o wŷr dysgedig ac o radd uchel yn mysg ei haelodau. Yn nghyfarfodydd y gymdeithas, ymdrinid â phob math o bynciau duwinyddol. Ymchwilid a phrofid y daliadau Pabaidd yn eofn, a dadguddid eu tuedd niweidiol. Nis gallai yr ymofyniadau hyn lai nac effeithio yn ddwys ar fywydau dyfodol yr aelodau. Daeth y clerigwyr yn ddysgawdwyr Protestanaidd; a chawsant eu noddi gan y pendefigion. Bu farw Sigismund I. yn 1548. Y pryd hyny yr oedd Protestaniaeth wedi ei derbyn gan luaws mawr o bersonau o bob dosbarth, ond nid oedd un gyfundrefn reolaidd wedi ei sefydlu eto. Yr oedd rhai personau wedi eu hargyhoeddi o anysgrythyroldeb Pabyddiaeth i'w cael yn mhob parth o Poland yn mron: ond yr oedd yr eglwysydd yn gyffredin yn nwylaw y Pabyddion, gan nad oedd eglwysi Protestanaidd wedi eu sefydlu.

Dechreuodd cyfnewidiadau mwy penderfynol ymddadblygu yn mlyneddoedd cyntaf teyrnasiad Sigismund Augustus. Yn 1549, priododd Valenty, periglor Krzczonow—plwyf yn esgobaeth Cracow. Pan y wysiwyd ef i lys yr esgob am y trosedd hwnw, aeth i'r lle yn nghwmni cymmaint o gyfoethogion a gwŷr o ddylanwad fel yr ofnodd yr esgob fyned yn mlaen gyda'r erlyniad. Tua'r un amser, bwriodd Nicholaus Olesnicki, arglwydd Pinczov, y mynachod allan o'r mynachdy ag oedd yn ei dref, tynodd i lawr y delwau yn yr eglwys, a sefydlodd addoliad Protestanaidd yno, yn ol trefn eglwys Geneva. Cynhyrfwyd digofaint y clerigwyr Pabaidd gan y gweithrediadau hyn, a chyfnewidiadau ereill cyffelyb. Penderfynasant fabwysiadu mesurau gorthrechol, ac y galwent yr awdurdodau gwladol i'w cynnorthwyo. Mewn cynnadledd a gynnaliwyd yn Piotrkow, yn 1552, dygodd Hosius, esgob Warmia, gredo newydd i mewn, sylwedd yr hwn a gynnwysid yn y gofyniadau canlynol: —"A ydwyt ti yn credu yn effeithiolrwydd dwfr sanctaidd, gweddïau ar y saint, a chyssegriad llysiau? A ydwyt ti yn credu yn y purdan, y pab, yr offeren, yr ymprydiau, mewn addunedau, ac mewn annyweddïaeth?" Gofynid i'r holl glerigwyr lawnodi y credo hwn. Gofynwyd i'r brenin orchymyn i holl swyddogion y llywodraeth, ac aelodau senedd Poland, ei lawnodi hefyd. Penderfynwyd yn mhellach ddarostwng y pendefigion hereticaidd trwy rym arfau, a thuag at wneyd hyn yr oedd treth drom i gael ei gosod ar y clerigwyr. Yr oedd y Protestaniaid a berthynent i'r dosbarthiadau isaf i gael eu dystrywio drwy erlidigaeth yn ei gwahanol ffurfiau. Ni lwyddodd gelynion y gwirionedd i ddwyn yr amcanion gwaedlyd hyn i ben, pa fodd bynag, yn hollol. Dyoddefodd Nicholaus, periglor Kurow, yr hwn a bregethasai yr efengyl er y flwyddyn 1550, ei ferthyru. Dyoddefodd ychydig ereill wahanol boenydiau. Ond cyfodai ysbryd rhydd y Pwyliaid yn erbyn y fath greulonderau. Yn lle cydweithio â'r clerigwyr, gwrthwynebasant yr erlidigaeth hyd nes y darostyngwyd hi cyn pen nemawr o amser wedi iddi gyfodi.

Y mae yn dra anhawdd cael hanes manwl am ffyniant Protestaniaeth yn Poland; canys pan y caffai y Jesuitiaid y llaw uchaf, byddent yn ofalus bob amser i ddinystrio pob cofnodion y gallent eu cael am y Diwygiad. Gwyddys fod Pabyddiaeth yn dirywio yno er ys llawer o amser. Yr oedd nifer mawr o'r pendefigion wedi ymwrthod â'r egwyddorion Pabaidd, ac wedi dwyn pregethwyr efengylaidd i'r trefydd a'r taleithiau ag oedd dan eu rheolaeth. Yr oedd rhai wedi mabwysiadu Lutheriaeth; ereill yn ymlynu wrth y gyffes Helvetaidd; a dosbarth arall drachefn yn bleidiol i'r Bohemiaid. Bernid fod dwy fil o eglwysydd wedi eu troi yn eglwysydd Protestanaidd.

Yn mhlith y gwŷr enwog a fu yn llafurio o blaid y Diwygiad yn Poland, y mae Andreas Modrzewski yn dra theilwng o gael ei enwi. Er nad oedd mewn undeb gweithredol âg un o'r enwadau Protestanaidd, amddiffynai yn eofn eu hegwyddorion. Fel ysgrifenydd i'r brenin Sigismund Augustus, bu yn ei gynnrychioli mewn amryw lysoedd tramor. Ymdrechodd drwy ei ysgrifeniadau lluosog i ennill y dosbarthiadau uchaf i bleidio achos y Diwygiad. Tua'r amser yr oedd cymmanfa Trent i ymgasglu yn nghyd yr ail waith, dododd ysgrif o flaen y brenin, yn yr hon y nodai y cyfnewidiadau ag yr oedd yn ddymunol eu gwneyd mewn materion eglwysig, ac yr annogai y penadur i'w mynu gan y pab. Eiliwyd ei olygiadau yn wresog: anfonwyd llythyr at y pab Paul IV. yn enw y cynghor, yn gofyn am y cyfnewidiadau canlynol yn Poland:—1. Gwasanaeth yr offeren yn iaith y bobl. 2. Y ddwy elfen yn y cymundeb. 3. Caniatad i offeiriaid briodi. 4. Diddymiad y cyngyllidau (*annats*).[1] 5. Ymgynnulliad cynghor cenedlaethol, i'r dyben o wneuthur diwygiadau pellach, ac i uno yn nghyd y gwahanol bleidiau. Nis gallasai ymdrechiadau y fath ddyn lai nag effeithio yn nerthol o blaid gwirionedd a rhyddid.

Ond yr oedd John Laski, er nad oedd yn ddyn galluocach yn ystyr cyffredin y gair, yn fwy cymhwys, drwy ei fod yn meddu barn iach a duwioldeb ddiffuant, i gyfarwyddo symmudiadau cyfeillion y Diwygiad. Yr ydoedd o deulu pendefigaidd, ac wedi ei neillduo i fywyd clerigol o'i ieuenctid. Wedi derbyn yr addysg oreu ag yr oedd modd ei chael yn Poland, ymwelodd â'r Almaen, Italy, Switzerland, Ffrainc, a Belgium, a daeth yn gydnabyddus â phrif ysgolheigion yr oes. Yr oedd cydnabyddiaeth neillduol rhwng Erasmus ac yntau. Prynodd Laski ei lyfrgell, a gadawodd iddo gael ei gwasanaeth dros ystod ei fywyd. Wedi dychwelyd i Poland, yn 1526, cafodd swyddau pwysig yn yr eglwys; ac yn 1529, ordeiniwyd ef yn esgob Vespien, yn Hungary. Ond yr oedd yr argraffiadau a dderbyniasai wrth ymddyddan â'r Diwygwyr, yn enwedig Zuingle, yn rhy ddwfn i'w dileu. Bu yn gobeithio am ryw dymmor y gwneid y cyfnewidiadau yn Poland ag oedd yn angenrheidiol er puro yr eglwys; ond pan y siomwyd ef yn ei ddysgwyliad, nid "ymgynghorodd efe â chig a

[1] Cyllid blwyddyn bywoliaeth eglwysig: y blaenffrwyth, yr hwn a roddid i'r pab ar farwolaeth esgob, abad, neu glochydd, ac a delid gan eu holynwyr.

Digitized by Google

gwaed." Gan farnu y gallai wneuthur mwy er lledaenu y Diwygiad oddi cartref, ymadawodd o Poland yn 1507. Wedi cyrhaedd i'r Almaen, proffesodd Brotestaniaeth yn gyhoeddus, a phriododd. Mewn cydsyniad â chais taer Anna, tywysoges East Friesland, ymsefydlodd yn Emden, prif ddinas y wlad hono, yn 1543, ac arosodd yno chwe blynedd, yn arolygu y gwaith o sefydlu Protestaniaeth, yn yr hyn orchwyl y bu yn dra llwyddiannus. Yn ystod yr amser hwnw, yr oedd mewn gohebiaeth gysson â'r prif ddiwygwyr. Mewn canlyniad i wahoddiad oddi wrth yr archesgob Cranmer, daeth drosodd i Loegr yn 1550, i gymmeryd rhan yn y gwaith o sefydlu y Diwygiad Seisonig, ac ymsefydlodd yn Llundain yn arolygwr dros y Protestaniaid tramor a breswylient yno. Bu o wasanaeth mawr i'r archesgob ac i'w gydlafurwyr. Ar esgyniad Mari i'r orsedd, ymadawodd o Loegr, a bu yn preswylio am dymmor yn Frankfort-on-the-Maine. Dychwelodd i Poland yn 1556, a threuliodd y gweddill o'i oes mewn ymdrechion egnïol o blaid y Diwygiad yn ei wlad ei hun. Ymddiriedwyd iddo holl arolygiaeth eglwysi Protestanaidd Poland Fechan. Cyfranodd ei ddysgeidiaeth, ei dduwioldeb, a'i sel, yn helaeth tuag at lwyddiant Protestaniaeth. Bu farw, dan bwys ei lafur mawr, Ionawr 8fed, 1560, yn un mlwydd a thrigain oed.

Yn 1555, anfonodd y pab Aloysius Lippomani fel ei genad i Poland, i attal cynnydd Protestaniaeth. Yr oedd ganddo lythyr i'r brenin, yn yr hwn y ceryddai "ei sancteiddrwydd" Sigismund am ei dynerwch tuag at yr hereticiaid, gan orchymyn iddo adferu Pabyddiaeth i'w safle blaenorol; ac os gwrthodai, neu os esgeulusai, bygythid ef â dialedd llymaf yr esgobaeth apostolaidd. Yr oedd y pabgenad yn gynnrychiolwr ffyddlawn o ddymuniadau â golygiadau ei feistr. Cymhellodd y brenin i dori ymaith yr arweinwyr Protestanaidd ar unwaith. Ond yr oedd Sigismund yn analluog ac yn anewyllysgar hefyd i fabwysiadu y fath fesur. Gwnaeth Lippomani, pa fodd bynag, wasanaeth mawr i Babyddiaeth, yn Poland, er iddo ffaelu cyrhaedd amcan mawr ei genadaeth.

Dilynodd Commendoni, olynydd Lippomani, wleidyddiaeth gyffelyb. Dan ei ddysgeidiaeth ef, daeth yr esgobion Pwylaidd yn dra hyddysg mewn pob ystrywiau eglwysig. Cafwyd prawf o hyn mewn cynnygiad a osodwyd ganddynt ger bron y Protestaniaid, yn 1566—cynnwysiad yr hwn oedd, eu bod yn foddlawn i dderbyn yr Ysgrythyrau fel unig sail anffaeledig ffydd, ar yr ammod fod iddynt gael eu hesbonio yn ol yr ystyr a awdurdodwyd gan Ambrose, Chrysostom, Jerome, ac Awstin. Ond pan y gofynwyd iddynt yn mha ystyr yr oedd ysgrifeniadau y tadau hyny i'w deall, addefasant nas gallent dderbyn ond y deongliad ag oedd wedi ei awdurdodi eisoes gan Eglwys Rhufain. Yr Ysgrythyr oedd i fod yn rheol—yr Ysgrythyrau fel yr esbonid hwynt gan y tadau—ac esboniad y tadau fel y deonglid ef gan Rufain!

Bu ymraniad y Protestaniaid yn dair plaid—sef y Lutheriaid, yr Eglwys Ddiwygiedig, a'r Bohemiaid—yn dra niweidiol i achos gwir grefydd. Ymdrechwyd, trwy lawer dull, i uno y pleidiau yn un frawdoliaeth; ond gwrthodai y Lutheriaid gydweithredu. O'r diwedd, pa fodd bynag, cydsyniasant. Mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Sandomir, yn 1570, sefydlwyd yr undeb a elwid "Cydsyniad Sandomir." Cydnabyddodd y tair plaid y naill y llall yn uniongred; caniatawyd cydgymundeb rhwng y gwahanol gynnulleidfaoedd; a chytunasant i ffurfio cynghrair i gynnorthwyo ac i amddiffyn y naill y llall.

Wrth weled nad oedd un gobaith y gallent lethu Protestaniaeth, cydsyniodd y Pabyddion o'r diwedd i roddi i fyny eu gwrthwynebiad dros dymmor. Trwy gyfammod 1573, yr hwn a wnaethpwyd mewn cynnadledd a gynnaliwyd yn Warsaw, dodwyd pob plaid grefyddol yn hollol ar yr un tir gyda golwg ar bob iawnderau a rhagorfreintiau. Cyhoeddwyd hwn fel un o ddeddfau sylfaenol Poland. Ar adeg coroniad Henry o Valois, petrusai y brenin, drwy gael ei annog i hyny gan yr esgobion Pabaidd, rhag cymmeryd llw i gadw cyfammod 1573. Wrth weled hyn, aeth Firby, prif gadlywydd Poland, yn mlaen, a rhoddodd attalfa uniongyrchol ar y gweithrediadau. "Os na bydd i chwi dyngu," eb efe, "ni chewch deyrnasu!" Ufuddhaodd y brenin.

Ond yr oedd achosion a barent ddirywiad eisoes ar waith. Un o'r rhai hyn oedd cyfodiad Sociniaeth. Parhaodd y blaid hon i ennill cefnogwyr hyd nes yr aeth yn gryf a dylanwadol; ac yr oedd rhai o brif ddynion y wlad yn aelodau o honi. Yr oedd hwn yn ddyrnod trwm i wirionedd yr efengyl; canys effeithiodd yn dra niweidiol ar Brotestaniaeth, trwy achosi ymraniadau yn y blaid ddiwygiadol. Dygwyd gwrthwynebydd mwy nerthol fyth i'r maes gan y cardinal Hosius. Trwy ganfod, ar ei ddychweliad o Trent, y perygl dirfawr yr oedd Pabyddiaeth yn agored iddo, penderfynodd ar ddwyn i mewn yr urdd Jesuitaidd, fel y moddion mwyaf effeithiol i wrthweithio y niwed bygythiedig. Ymsefydlodd ychydig nifer o aelodau yr urdd yn ei esgobaeth yn 1554; dilynwyd hwy gan luaws yn rhagor, yn enwedig ar ol marwolaeth Sigismund Augustus, yn 1572. Trwy ennill yn raddol ymddiriedaeth y rhai mwyaf galluog o'r pendefigion, aethant yn dra dylanwadol yn yr eglwys a'r llywodraeth, a defnyddient eu holl ddylanwad o blaid Pabyddiaeth. Cymmerasant y flaenoriaeth cyn hir mewn addysgiaeth, a gwnaethant hi yn iswasanaethgar i'w hamcanion eu hunain, drwy restru yr ieuengctyd o blaid gorthrwm a thwyll eglwysig. Trwy gael eu hannog yn barhaus ganddynt hwy, chwiliai cyfeillion selog Pabyddiaeth am bob cyfleusdra i boeni y Protestaniaid. Cyn hir, ail ymddangosodd erledigaeth; ac ufuddhäai y breninoedd i orchymyn eu cyffeswyr Jesuitaidd. Suddodd Protestaniaeth yn Poland; ac yn bresennol, Pabyddiaeth sydd yn oruchaf yno.

Y DIWYGIAD YN LLOEGR.

Tarddodd y Diwygiad yn Lloegr o ddwy ffynnonell wahanol:—effaith yr adfywiad crefyddol yn yr Almaen ar y bobl, a digofaint y brenin at lys Rhufain. Sail yr undeb rhwng y ddwy blaid oedd casineb at y pab. Rhydd hyn eglurhâd ar neillduolrwydd ac ymddadblygiad y Diwygiad Seisonog. Ymgytundeb ydoedd; a phob cam a gymmerai yn mlaen, argreffid arno nodweddiad y tywysog a fyddai yn llywodraethu ar y pryd. Ennillodd llywodraeth gadarn Harri VII. nerth adnewyddol drwy y rhyfeloedd cartrefol. Esgynodd Harri VIII., yr hwn a anwyd Mehefin 28ain, 1491, i'r orsedd fel olynydd ei dad, Ebrill 22ain, 1509. Gan mai efe oedd y mab ieuangaf, yr oedd wedi ei fwriadu i'r eglwys; a phan y gwnaethid ef yn etifedd yr orsedd drwy farwolaeth ei frawd, ni chollodd ei archwaeth len-

Digitized by Google

yddol. Yr oedd y bobl yn hoff iawn o hono; ond casäent Harri VII. o blegid ei drachwant. Yr oedd y mab yn wastraffus, ac yn hoffi gorwychder. Ar y cyntaf, gwrandawai Harri ar gyfarwyddiadau cynghorwyr ei dad. Ond bwriwyd y rhai hyn o'r neilldu yn fuan gan Wolsey, yr hwn a ddygwyd i mewn i'r cyfringynghor gan Fox, i wrthweithio dylanwad cynnyddol Howard. Cyn hir, aeth Wolsey yn fwy cymmeradwy na'i noddwr, ac yn fwy cymmeradwy hefyd na gwthwynebwyr ei noddwr. Ni wyddai neb yn well na Wolsey pa fodd i drin ewyllys y brenin. Ymröai i foddhau tymmerau Harri, canmolai ei ddysgeidiaeth, a thra yn cymmeryd arno gydsynio âg ef, gweithredai fel y gwelai yn dda. Yn fuan, darbwyllwyd Harri gan Wolsey i drosglwyddo gofalon y llywodraeth i'w weinidogion. O hyny allan, ymddyrchafodd Wolsey yn gyflym i awdurdod. Mor gynnar a'r flwyddyn 1516, safai yn uchaf yn yr eglwys a'r llywodraeth:—efe oedd archesgob Caerefrog, llysgenadwr y pab, a'r arglwydd ganghellydd. Yr oedd yn ail frenin. Bu yn fwy llwyddiannus na Becket—gwnaeth efe yr awdurdod ysbrydol yn gyfartal i'r awdurdod wladol, ac hyd yn oed yn uwch nag awdurdod yr orsedd. Yr oedd y swyddau uchaf yn y llywodraeth gan wŷr eglwysig. Yn y Tŷ Uchaf, eisteddai 21 o esgobion a 26 o abadau meitrog, yn ochr nifer llai o arglwyddi lleyg. Arweinid y werin gan lu o fynachod crwydrol. Yn mhlith y boblogaeth o bedair miliwn, yr oedd 16,000 o offeiriaid wedi eu dosbarthu. Ond prif gofofnau awdurdod yr eglwys oedd y mynachdai, o ba rai yr oedd mil; a chynnwysent 50,000 o fynachod a mynachesau. Meddiannent fwy o etifeddiaethau na'r pendefigion, a chyrhaeddai eu cyllid blynyddol i'r swm o 300,000*p.*; yr hyn a roddai ddylanwad mawr yn eu dwylaw. Ond yr oeddynt wedi dirwyo yn fawr yn eu nodweddiad crefyddol a moesol.

Cyfododd goleuni, pa fodd bynag, o ddau bwynt ar y tywyllwch ymdaenol hwn—oddi wrth Lollardiaeth ac oddi wrth Ieithofyddiaeth. Yr oedd Lollardiaeth, yr hon oedd unwaith wedi bod mor uchel mewn awdurdod, er ys hir amser wedi ei halltudio o ddosbarthiadau uchaf cymdeithas, ac o'r athrofäau, er fod Wickliffiaid i'w cael eto yn Rhydychain dan Edward IV. Ond parhäai y werin i'w hachlesu. Hyrwyddid lledaeniad dirgel ei hegwyddorion drwy y wasg. Ni wnaeth y mesurau llymion a ddefnyddiwyd yn erbyn ei dilynwyr ond eu gwneuthur yn fwy penderfynol yn erbyn yr eglwys ddirywiedig. Fel mai Lollardiaeth oedd halen y dosbarthiadau isaf, felly yr oedd Ieithofyddiaeth yn foddion i ledaenu goleuni yn mhlith dosbarthiadau uwch. Dygwyd hi i mewn i Loegr yn gynnar yn y bymthegfed ganrif. Gan fod yr athrofäau wedi dirywio yn ddirfawr, aeth y rhai a sychedent am wybodaeth i Italy, lle yr oedd y gwyddorau yn adfywio; a dychwelasant gyda thrysorau gwerthfawr o ddysgeidiaeth a llyfrau. Yn mhlith y rhai a addysgwyd yn Italy, yr oedd Fleming, Grey, Tiptoft, a Selling. O'r nifer hwn hefyd yr oedd William Grocyn (1519), yr hwn a ddysgai y Groeg yn Rhydychain, ac a fyfyriai, nid yn unig Aristotle, ond y Testament Groeg; a John Colet (1519), yr hwn a sefydlodd (1512) ysgol St. Paul, er rhoddi addysg yn rhad i 152 o blant, prif athraw pa un oedd yr ieithydd enwog William Lily (1523). Sefydlwyd llawer o ysgolion ereill yn fuan ar gynllun yr ysgol hon. Cefnogwyd y symmudiad hwn gan amryw o'r prif glerigwyr, megys Wolsey, Chadworth, Langton, Fisher, a Fox; yr hwn a sefydlodd, heb law rhai ysgolion rhad, athrofa Corpus Christi yn Rhydychain, gyda thair o broffeswriaethau—Groeg, Lladin, a duwinyddiaeth. Yn mhlith yr Ieithofyddion hyn, y mae Thomas More yn deilwng o gael ei enwi. Bu Erasmus yn cymdeithasu â hwynt. Fel hyn, dan Harry VIII, ymddangosai fod oes euraidd ar wawrio ar lenyddiaeth. Ymosodai yr Ieithofyddion ar anfoesoldeb ac anwybodaeth y clerigwyr, ac ofergoelion y bobl, âg arfau dysgeidiaeth a gwatwareg.

Fel hyn, agorwyd y ffordd i ddiwygiad yn yr eglwys. Yr oedd yr esgob Fox yn awyddus am dano, a chefnogid ef gan amryw wyr dylanwadol, heb law dymuniadau y bobl. Ond yr oedd rhyw bencampwr yn eisieu, i gasglu yn nghyd nerthoedd y symmudiad diwygiadol i ymosod ar y llywodraeth eglwysig. Anturiodd mynach Almaenaidd i'r maes. Llanwyd calonau y rhai a chwennychent ddiwygiad yn Lloegr â llawenydd gan y newydd. Ymdaenodd ysgrifeniadau diwygwyr y Cyfandir yn gyflym yn Lloegr. Cyhoeddwyd y pabarcheb yn cwyno o blegid hyn, ac yn gorchymyn eu difodi, yn gynnar yn 1521. Yn Ebrill, 1521, cyhoeddodd Wolsey, mewn canlyniad i hyn, restr o ddau a deugain o gyfeiliornadau a ganfyddasai yn yr ysgrifeniadau hyny, a mynodd ei hoelio ar ddrysau yr eglwysydd. Edrychai y Lollardiaid, ac ereill o gyffelyb feddwl, ar y diwygwyr Almaenaidd fel brodyr a chydlafurwyr. Ond, erbyn hyn, gwrthwynebid y Diwygiad gan yr Ieithofyddion, er mai hwy a wnaethant y bont dros ba un y daethai drosodd i Loegr. Yn hyn, dilynent Erasmus. Er mor ddidderbynwyneb y condemnient lygriadau a chamarferion penodol, amddiffynent yr eglwys yn wresog; canys oddi wrthi hi y derbynient fodd i ddilyn eu hefrydiaethau, ac o dan ei nodded ni byddent mewn un perygl oddi wrth eu golygiadau crefyddol nac anghrefyddol. Daeth y brenin Harri ei hun i'r maes fel arwr yr Ieithofyddion, a chyhoeddodd lyfr [*Assertio septem Sacram*] yn erbyn Luther. Boddhawyd Leo mor fawr gan sel y brenin, a'i barodrwydd i amddiffyn yr eglwys â'i gleddyf ac â'i ysgrifell, fel y rhoddodd iddo y teitl o *Amddiffynydd y Ffydd*, Hydref, 1521. Y mae penderfyniad Harri i ddiwreiddio y Diwygiad i'w weled mewn deddf a gyhoeddwyd ganddo Hydref 21ain, 1521, yn mha un y gorchymynai i'r awdurdodau gwladol yn mhob man gynnorthwyo er darganfod a chospi ei gyfeillion. Cyfeiriodd yr Ieithofyddion eu holl ddysgeidiaeth a'u medrusrwydd yn erbyn y Diwygiad. Yr oedd yn rhaid i'w bleidwyr fyned i garchar neu ddianc—dadgyffesu neu fyned at yr ystanc. Blyneddoedd o erlidigaeth a thywallt gwaed ydoedd y deuddeng mlynedd nesaf. Ond, er hyny, yn mlaen yr oedd y gwaith yn myned. Anfonai y Diwygwyr ysgrifeniadau pwysig drosodd i Loegr, hyd yn oed o'r gwledydd i ba rai yr oeddynt wedi dianc. Ac ymgymmerai dinaswyr parchus yn Llundain, megys Humphrey Monmouth, a John Petit, â'r gwaith o daenu y cyfryw ysgrifeniadau—y prif un o ba rai oedd cyfieithiad Tindal o'r Testament Newydd, gyda sylwadau. Yn mhlith y rhai mwyaf ymdrechgar er ei ledaenu, gellir enwi R. Necton, a Thomas Garret, clerigwr yn Llundain. Ofer oedd gwrthwynebiad yr esgob Longland, erlidiwr creulawn y Lollardiaid; ofer oedd gwaith yr esgob Tonstal, o Lundain, yn casglu yn nghyd ac yn llosgi pob copi a allai gael o gyfieithiad



Digitized by Google

Tindal; ac yn ofer y ceisiodd More ddangos ei fod yn llawn o feiau a chamgymmeriadau. Yr oedd ei ragoriaeth ar bob cyfieithiad blaenorol yn wirionedd rhy adnabyddus. Lledaenwyd amryw ereill o lyfrau Tindal yn helaeth, megys *Am y Mammon drygionus*, *Y Bregeth ar y Mynydd*, &c.; yn nghyd â *Drych* John Frith, &c.; *Traethawd ar y Sacrament*, a *Llyfr y Purdan*. Ond prin y darllenwyd un o honynt mor gyffredinol ag *Erfyniad y Cardotwyr*, gan Simon Fish, cyfreithiwr ffoedig o Kent, yr hwn a gafodd ei gyhoeddi tua'r flwyddyn 1527. Dadguddiai sefyllfa yr eglwys, mewn golygiad gymdeithasol a gwladol, mewn iaith lem a gwawdus, yn neillduol dylanwad niweidiol mynachaeth. Ni wnaeth atebiad More [*Erfyniad Eneidiau*] ond dynoethi gwendid ei achos. Edrychodd Harri, yr hwn a dderbyniodd gopi o lyfr Fish oddi wrth Anne Boleyn, yn ffafriol arno, ac efe a amddiffynodd ei awdwr rhag erlidigaeth.

Fel hyn, yr oedd had y gwirionedd efengylaidd yn tyfu yn ddirgel er gwaethaf gelynion a fflamau. Y mae yn nodedig mai rhai o Athrofa Gardinalaidd Wolsey, yn Rhydychain, oedd ei amddiffynwyr galluocaf. Yn 1526, dosbarthodd Garret rai o Destamentau Tindal yn mhlith ei fyfyrwyr; ac yn 1527, ffurfiwyd cymdeithas yno o'r rhai oedd yn ffafriol i olygiadau Luther. Yr oedd Frith, yr hwn oedd wedi cael proffeswriaeth yno gan Wolsey, yn un o'r nifer. Bwriwyd ef i garchar llaith, lle y bu farw lluaws. Ond diangodd oddi yno, ac aeth yn gydweithiwr â Tindal. Bu farw wrth yr ystanc yn 1533, am ysgrifenu yn erbyn *Amddiffyniad More i'r Purdan*, ac am gyfansoddi llyfr yn erbyn trawssylweddiad.

Ymaflodd y Diwygiad yn gadarnach yn Nghaergrawnt, lle y darlithiai Stafford (1524—1527) ar y Beibl, yn lle y Brawddegau (*Sentences*), ac yr ymgyssegrodd T. Bilney, Barnes, Hugh Latimer, Bradford, Allen, Coverdale, Lambert, ac ereill, i astudio gair Duw. Gan hyny, tra yr ymlynai yr Ieithofyddion wrth yr hen grefydd, cyfododd dosbarth newydd o ysgolheigion clasurol, y rhai, drwy eu hysgrifeniadau a'u pregethau, a amddiffynent y symmudiadau efengylaidd. Tra y parhäai y brenin, y prif swyddogion gwladol, a'r esgobion, i wrthwynebu y Diwygiad, nid oedd ond ychydig obaith am lwyddiant. Y pryd hyn, cymmerodd amgylchiad le a barodd ddyeithrwch rhwng Harri a Rhufain, ac a'i harweiniodd i bleidio y Diwygiad. Chwennychai y brenin i'w briodas â gweddw ei frawd—er cyflawnu pa un y bu yn angenrheidiol cael trwydded arbenig o Rufain (yr hon a ganiatawyd Rhagfyr 26ain, 1503)—gael ei diddymu. O'u tri mab a'u dwy ferch, nid oedd ond Mary yn unig yn aros. Heb law hyny, nid oedd Catherine yn planta mwyach, ac yr oedd ei hiechyd yn adfeilio. Parodd hyn i hen ammheuon Harri am gyfreithlondeb eu priodas adfywio. Dywedodd Thomas Aquinas wrtho nas gallai y pab osod trefniad dwyfol o'r neilldu. Ymdrechwyd i uno Harri â'r Duces Alençon, yna â Renate; ond bu y ddau gais yn ofer. Ar hyny, gwnaeth Anne Boleyn, yr hon oedd newydd ddychwelyd o Paris, ei hymddangosiad yn y llys, gan dynu sylw pawb ati ei hun, drwy ei harddwch personol. Taniwyd nwydau Harri; a phan y gwrthododd Anne wrandaw un math o gynnygion anghyfreithlawn, aeth yn fwy penderfynol fyth am gael ei ysgaru oddi wrth Catherine. Ymgynghorwyd â'r esgobion a'r cyfreithwyr enwocaf. Cydsyniodd pawb â dymuniad Harri ond More a Fisher. Petrusodd Wolsey am dymmor; ond o'r diwedd ymgymmerodd â dadleu achos y brenin yn Rhufain —Rhagfyr, 1527. Ni wyddai Clement VII. yn y byd pa beth a wnai. Trwy ddileu rheitharch Julius II. efe a gyffroai ddigofaint yr ymherawdwr; a thrwy wrthod gwneyd hyny, fe ddigiai Harri; tra yr oedd efe mewn angen am gynnorthwy y ddau yn erbyn Francis. O'r diwedd, cydsyniodd â chais Wolsey, gan ymddiried y buasai Wolsey yn oedi yr ysgariaeth mor hir ag y byddai yn bosibl. Ni chafodd Catherine ei gwysio ger bron cenadon y pab, oedd i benderfynu yr achos, hyd Mehefin, 1529. Oedodd Campeggio ei benderfyniad hyd ryw adeg ddyfodol. Gwyddai fod heddwch ar gael ei gwblhau rhwng yr ymherawdwr a'r pab; ac yr oedd ganddo lythyr oddi wrth Clement, yn gorchymyn iddo ddychwelyd o Loegr, pan dderbyniodd y newydd am heddwch Cambray, Awst 5ed. Trosglwyddwyd pob gweithrediadau pellach mewn perthynas i'r ysgariaeth i Rufain, ac ymadawodd Campeggio o Lundain yn Medi, 1529. Yna y daeth cwymp Wolsey. Cyhuddwyd ef gan ei elynion lluosog o fethu cyrhaedd ei amcan gyda phwnc yr ysgariaeth. Hydref 17eg, 1529, cymmerodd y brenin y sel fawr oddi arno, a rhoddwyd hi i More, a throwyd ef (Wolsey) o'r llys. A mynai ei elynion hyd yn oed ei garcharu a'i ddirwyo. Ymgasglodd y senedd yn nghyd Tachwedd 3ydd, 1529—y tro cyntaf er saith mlynedd—a dygwyd lluaws mawr o gyhuddiadau yn ei erbyn. Derbyniwyd hwynt ar unwaith gan y Tŷ Uchaf; ond trwy ddylanwad Thomas Cromwell, iarll Essex, ysgrifenydd Wolsey, gwrthodwyd hwynt gan y Tŷ Isaf. Cafodd y bobl waredigaeth trwy gwymp y swyddog uchel hwn. Daeth gwŷr ffafriol i ddiwygiadau yn yr eglwys a'r wladwriaeth yn gynghorwyr i'r brenin, megys y duc o Suffolk, Syr Thomas Boleyn, Cromwell, a Chranmer, y rhai a annogasant Harri i roddi y pwnc o ysgariaeth i dduwinyddion i'w benderfynu. Yn ganlynol, ceisiwyd opiniynau prifysgolion a gwŷr dysgedig y wlad hon a gwledydd ereill. Trwy fygythion a llwgrwobrwyon, llwyddwyd i gael dedfryd ffafriol o Rydychain; ymostyngodd athrofa y Sorbonne yn anfoddlawn i gais y brenin. Ond cymmeradwywyd y pwnc yn uniongyrchol gan yr esgobion Ffrengig, a'r prifysgolion Italaidd. Yn mysg y diwygwyr, yr oedd Zuingle, Œcolampadius, ac Andrew Osiander, yn ffafriol i'r ysgariaeth; ond yr oedd Luther a Melancthon yn wrthwynebol. Gosodwyd yr opiniynau hyn ger bron y senedd yn Ionawr, 1531, a chyhoeddwyd hwynt; ac yn Gorphenaf, gadawodd Catherine y llys am byth. Yn gydfynedol â'r symmudiadau hyn, defnyddiodd y brenin fesurau i wneyd clerigwyr y deyrnas yn fwy dibynol ar yr orsedd. Gan ddarfod i'r rhan fwyaf o honynt gydnabod uchafiaeth Wolsey, bygythiwyd hwythau hefyd â charchar a dirwy. Trwy weled y cleddyf yn crogi uwch eu penau, penderfynasant, mewn cynnadledd a gynnaliwyd Ionawr 24ain, 1531, y pwrcasent eu rhyddhad â 100,000*p*. Ond yn Chwefror, gofynodd Harri iddynt ei gydnabod ef fel pen yr eglwys. Wedi bod yn petruso dros ychydig amser, chwanegasant o'r diwedd at ragymadrodd Mesur yr Arian Cymhorth (*Subsidy Bill*): "Yr ydym yn cydnabod ei fawrhydi fel prif amddiffynydd yr eglwys yn Lloegr, a'i hunig arglwydd a phen, mor bell ag y caniateir hyny gan gyfraith Crist." Arwyddwyd y weithred hon o ymostyngiad gan 9 o esgobion a 62 o abadau yn y Tŷ Uchaf, a chan

Digitized by Google

gwrthryfel; ond gwelodd y duc o Suffolk mai y ffordd ddoethaf oedd eu darostwng. Ymunodd lluaws o'r gwrthryfelwyr, pa fodd bynag, âg ysgogiad pwysicach cyffelyb yn sir Gaerefrog, yn cynnwys 40,000 o wŷr. Pleidid hwynt gan James v. o Scotland. Ymdrechwyd i ddyfod i gytundeb â hwynt. Addawyd ebargofraith a senedd yn Nghaerefrog; ond ni chyflawnwyd hi. Ail gychwynodd y gwrthryfelwyr, ond ni buwyd yn hir cyn eu darostwng; a dienyddiwyd yr arweinwyr, yn nghyd â deg a thrigain ereill. Yna adferwyd heddwch drwy ebargofraith gyffredinol (Mehefin, 1537). Y peth cyntaf a wnaethpwyd, mewn canlyniad i'r gwrthryfeloedd hyn, oedd diddymu y mynachlogydd mwyaf, fel prif ffynnonellau y terfysgoedd, Sefydlwyd ymweliadau. Ymostyngodd y swyddogion ar unwaith, gan eu bod yn ymwybodol o'u heuogrwydd, pan yr addawyd ychydig o dâl blyneddol iddynt. Syrthiodd y naill ar ol y llall o'r sefydliadau Pabaidd hyn, a llosgwyd eu creiriau. Ni arbedwyd hyd yn oed esgyrn Becket. Arwyddnodwyd o'r diwedd esgymundod y brenin, a gorchymynwyd i'r ymherawdwr a Francis i. fyned i ryfel yn ei erbyn. Ysgôdd Harri yr ymosodiad trwy ddarpariadau rhyfelgar, a thrwy ddiplomyddiaeth ystrywgar, ac aeth yn mlaen i ddiddymu y mynachlogydd a'r lleiandai. Cymmeradwyodd y senedd ei fesurau yn gyhoeddus. ac awdurdodasant weithredoedd llymach. Gan hyny, diddymwyd y gweddill o'r mynachdai, a chwanegwyd 160,000*p.* yn flyneddol at drysorfa y llywodraeth. Trwy hyn, bwriwyd y mynachod a'r lleianod, yn nghyd â miloedd ereill oedd yn dwyn cyssylltiad â'r mynachdai, i gyfyngder dirfawr. Gallasai fod hyn yn anocheladwy; ond y mae yn anmhosibl cyfiawnhau y modd yr afradlonwyd y cyfoeth a gafwyd oddi wrth y sefydliadau Pabaidd hyn. Ceisiodd Cranmer ganddynt ei ddefnyddio i sefydlu athrofäau duwinyddol rhad, yn nghyd âg esgobaethau chwanegol ac ysbyttai. Ond ni sefydlwyd ond chwe esgobaeth newydd; sef Bristol, Rhydychain, Gloucester, Peterborough, Caerlleon, a Westminster (diddymwyd y ddiweddaf yn fuan drachefn), yn nghyd â dwy brifathrofa, ac ychydig ysgolion. Canys ni chwennychai y brenin ddiwygiad ond mor bell ag y llanwai ei goffrau ef, ac y cadarnhäai ei uchafiaeth. Y pryd hyn, aeth pethau i wisgo gwedd anffafriol: bu farw Jane Seymour, Hydref 24ain, 1537, wedi rhoddi genedigaeth i etifedd i'r goron. Aeth y brenin yn fwy sarug a gormesol nag erioed, ac yn fwy tueddol i wrandaw awgrymiadau y blaid Babaidd. Cynnyddai dylanwad Norfolk; yr oedd Gardiner wedi dychwelyd o negeseuaeth dramor, a chafodd Bonner, yr hwn a fu wedi hyny yn esgob Llundain, yn gydweithiwr. Yr oedd y diffyg o gyfundrefn reolaidd o athrawiaeth yn myned yn fwy eglur bob dydd. Dienyddiwyd Lambert wrth yr ystanc yn Tachwedd, 1538, am ddal golygiadau Zuingle am y sacramentau. Nid oedd y senedd erioed wedi awdurdodi deg erthygl y gynnadledd eglwysig. Adolygwyd hwy gan ddirprwyaeth o dduwinyddion, gyda Chranmer yn arweinydd; ac yn Rhagfyr, 1537, cyflwynasant *Llyfr yr Esgobion* i'r brenin, er cael ei gymmeradwyaeth iddo. Gwnaeth Harri amryw gyfnewidiadau ynddo, ond ni orchymynodd ei gyhoeddi. Tybiodd Cranmer, ar hyn, y gallai fod yn fwy llwyddiannus pe caffai gynnorthwy y Diwygwyr Almaenaidd. Yr oedd gan Harri feddyliau uchel am Melancthon, ac yr oedd wedi ei wahodd amryw droion i Loegr. Nis gallai Melancthon gydsynio â'i gais; ond anfonwyd Burckhardt, Boyneburg, a Myconius, i Loegr yn ngwanwyn 1538. Dyrysodd Gardiner, pa fodd bynag, y cynllun. Ar ol dadleu ychydig o'r pynciau, dychwelodd yr Almaenwyr, ac ymgymmerodd y senedd â ffurfio yr erthyglau. Wedi ymrysonau a dadleuon poethlyd a hirfaith, mabwysiadwyd y "chwe erthygl waedlyd," Mehefin 28ain, 1539. Daliai yr erthyglau hyny:—1. Trawssylweddiad. 2. Y cymundeb mewn un o'r elfenau. 3. Gwyryfiaeth offeiriadol. 4. Parhad gwastadol addunedau o wyryfdod. 5. Offerenau dros y meirw. 6. Clust-gyffesiad. Rhoddwyd yr athrawiaethau mewn grym drwy greulondeb ofnadwy. Carcharwyd 500 o bersonau mewn ychydig amser. Ymdrechai Cranmer a Chromwell i gymmedroli y creulonderau. Tra y bu Cromwell wrth y llyw, ni chymmerodd dim dienyddiadau le. Ond efe a ddigiodd y brenin yn ddirfawr trwy ei gymhell i briodi Anne o Cleves oddi wrth yr hon y mynodd gael ei ysgaru yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei phriodi. Cymmerwyd Cromwell i fyny ar y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth, a dienyddiwyd ef Gorphenaf 28ain, 1540. Yr oedd ei gwymp yn ddyrnod trwm i achos yr efengyl. Nis gallai Cranmer ei hun attal anrheithiadau y blaid Babaidd.

Yr oedd chweched gwraig Harri, sef Catherine Parr—â'r hon y priodwyd ef Gorphenaf 7fed, 1543—yn dra ffafriol i Brotestaniaeth. Gellir crynhoi hanes llwyddiant y Diwygiad yn ystod y cyfnod hwn i ychydig o le. Tra yr oedd Cromwell eto yn fyw (1540), trefnwyd dwy ddirprwyaeth i sefydlu cyfundrefn o ffydd, a ffurf o wasanaeth. Yn 1543, cyhoeddwyd y llyfr a ddarparesid gan Cranmer a'i gyfeillion, ar ol ei adolygu gan y brenin ac ereill, dan yr enw *Llyfr y Brenin.* Y mae dylanwad y blaid Babaidd i'w weled ar lawer o bethau sydd ynddo. Yn yr erthygl gyntaf, gwneir ymgais i gyssoni cyfiawnhad trwy ffydd âg effeithioldeb gweithredoedd da. Traethir yn yr ail erthygl am yr Eglwys Babaidd fel yn cynnwys pob credinwyr, pa wahaniaeth bynag fyddo rhyngddynt mewn pethau allanol. Cydnabyddir y saith sacrament yn y drydedd. Addefir defnyddioldeb darluniau yn y bedwaredd. Cedwir Swper yr Arglwydd, a'r *Ave Maria* yn iaith y bobl, yn y bummed a'r chweched. Cydnabyddir rhyddid yr ewyllys yn y seithfed. Y mae yr wythfed a'r nawfed yn dal i fyny esampl Crist, yn hytrach na'i deilyngdod, sancteiddhad yn hytrach na chyfiawnhad, ac addefant haeddedigaeth gweithredoedd da. Cymmeradwyir gweddiau dros y meirw yn y ddegfed, ond ni ddywedir un gair am offerenau drostynt, nac am y purdan. Adolygwyd y ffurfwasanaeth (*liturgy*) gan y ddirprwyaeth arall, ond ni ddiwygiwyd ond ychydig arno. Yn 1546, cyhoeddwyd *Cynlyfr Harri*—talfyriad o'r byrlyfr (*breviary*) Pabaidd—yn Seisoneg, yr hwn a ddefnyddid yn y gwasanaeth crefyddol cyhoeddus. Ond yn uniongyrchol ar ol cwymp Cromwell, llwyddodd y blaid Babaidd i gael mesur seneddol, yn gwneyd holl drefniadau y brenin mewn materion eglwysig yn gyfreithiau safadwy. Yn 1542, gwaharddwyd pob llyfrau crefyddol, oddi eithr *Llyfr y Brenin;* ac yn 1543, cyfyngwyd darlleniad y Beibl i'r dosbarthiadau uchaf. Cadarnhawyd gobaith y Pabyddion am ddarostwng y Diwygiad drwy yr undeb a gymmerodd le rhwng Harri a'r ymherawdwr, yn ystod parhad yr hwn y cyhoeddwyd fod Mari

Digitized by Google

ac Elizabeth yn blant cyfreithlawn. Ond newidiwyd gwedd pethau drwy wendid cynnyddol y brenin. Trodd Mari at y Seymouriaid—perthynasau agosaf yr olynydd. Er sicrhau Edward rhag perygl oddi wrth ymrysonau plaid, appwyntiodd Harri ei ewythr yn rhaglaw. Collodd Gardiner ymddiriedaeth y brenin. Rhoddwyd Norfolk a'i fab Surrey allan o'r ffordd trwy gau gyhuddiadau; torwyd pen Surrey, ond diangodd ei dad trwy farwolaeth Harri. Tybir yn gyffredin mai attalfa ar gynnydd y Diwygiad oedd teyrnasiad Harri. Y mae yn wir mai yn ol ewyllys ormesol y brenin y dygid yn mlaen bob materion eglwysig. Er hyny, yr oedd yn fendith fod penadur, ag oedd yn Babydd o ran egwyddorion, wedi ei arwain i gynnorthwyo mor bell a hyn achos ag y gallasai ei ddarostwng trwy foddion treisiol, megys ag yr oedd ei ragflaenoriaid wedi gwneyd â Lollardiaeth. Ond y diffyg mwyaf yn Lloegr oedd amddifadrwydd o wŷr cyffelyb i'r rhai a gyfodasant yn yr Almaen a Switzerland, i gynllunio ac i ddwyn yn mlaen Ddiwygiad trwyadl. Gwelir y diffyg hwn yn fwy eglur yn y cyfnod nesaf.

Esgynodd Edward VI. i'r orsedd pan yn ddeng mlwydd oed, a bu yn teyrnasu o Ionawr 29ain, 1547, hyd Gorphenaf 6ed, 1553. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth, yn ol cyfarwyddyd Cranmer, gan Dr. Richard Cox, a Syr John Cheke, yr hwn a'i dysgodd yn ddirgel yn egwyddorion yr efengyl. Dysgwylid pethau mawrion oddi wrth ei deyrnasiad ef. Dodwyd ef, gan ei fod dan oedran, dan gyfarwyddyd cynghor o 16 o wyr. Gwneid y cynghor hwn i fyny o nifer cyfartal o'r ddwy blaid grefyddol. Arweinwyr y blaid Babaidd oedd yr arglwydd ganghellydd, Wriothesley, a'r esgob Tonstal; arweinwyr y blaid arall oedd Cranmer a'r iarll Hartford (y duc o Somerset), ewythr Edward, yr hwn a etholwyd yn llywydd er gwaethaf gwrthwynebiad Wriothesley. Amddifadwyd y diweddaf o'r sel fawr o blegid rhyw gamymddygiad, a thrwy hyny dystawyd ef. Daeth Somerset yn awr yn amddiffynydd y llywodraeth, ac yn benaeth y rhaglawiaeth (Mawrth 13eg, 1547). Trwy hyn, ennillodd y Protestaniaid gryn ddylanwad. Yr oedd y blaid Babaidd eto yn meddu awdurdod gref; canys yr oedd llawer o'r esgobion, y cyfan yn mron o'r clerigwyr, yn nghyd â'r prifysgolion, yn perthyn iddi Nid oedd lefain y gwirionedd wedi treiddio ond ychydig eto i fysg y bobl gyffredin. Peryglid yr achos hefyd drwy benboethni ei gyfeillion. Er mwyn cadw undeb yn yr eglwys, yr oedd yn angenrheidiol mabwysiadu llwybr canol. Nis gallai neb wneyd hyny yn well na Chranmer. Wrth gyfodi yr adeilad newydd, ymdrechodd ddefnyddio gymmaint ag oedd bossibl o ddefnyddiau yr hen adeilad. Ond ni ddiystyrodd ddefnyddiau ereill. Cymhellwyd gwŷr teilwng ag oedd wedi dianc i wledydd tramor i ddychwelyd adref, a gwahoddwyd ysgolheigion o'r Cyfandir i gynnorthwyo yn y gwaith. Y mae ysgrifeniadau cyffesol y cyfnod hwn yn dwyn arwyddion amlwg o ddylanwad Luther, Zuingle, a Chalvin. Yr amddiffyniad diogelaf i'r Diwygiad oedd yr uchafiaeth freninol; ac yr oedd pob ymosodiad ar fesurau y rhaglawiaeth yn deyrnfradwriaeth. Derbyniodd Cranmer, gan hyny, ei swydd o'r newydd gan y brenin, a dymunodd ar yr holl esgobion wneyd yr un modd. Mewn trefn i gario yn mlaen y mesur hwn yn mysg yr holl glerigwyr, ac i ddarparu y ffordd at Ddiwygiad cyffredinol, appwyntiwyd ymweliad eglwysig yn Ebrill, 1547. Yr oedd moddion wedi eu harfer yn flaenorol i ddwyn y bobl i gydnabyddiaeth â'r Ysgrythyrau ac egwyddorion yr efengyl. Lledaenodd Cranmer *Aralleiriadau Erasmus* yn Seisoneg, yn Gorphenaf, 1547. Daliai *Llyfr yr Homiliau*, a gyfansoddwyd gan Cranmer, Ridley, Latimer, &c., yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd mewn iaith eglur. Gorchymynwyd darllen y ddau lyfr yn yr eglwysydd. Er attal pob cynhwrf, yr oedd yn angenrheidiol cael caniatad y llysoedd uchaf i bregethu. Yn ganlynol, dechreuwyd yr ymweliad yn Medi. Yr oedd yr ymwelwyr i ofalu, nid yn unig bod pawb yn cymmeryd llw yr uchafiaeth, ond fod pererindodau a gorymdeithiau yn cael eu diddymu, am symmud pob darluniau o'r eglwysydd, am fod yr aralleiriadau a'r homiliau yn cael eu harfer, am fod y litani yn iaith y bobl, am fod gwersi o'r Ysgrythyrau yn cael eu darllen, am fod cymunwyr yn cael eu holi, am fod y Sabbath yn cael ei gadw yn fanwl, am fod yr offeiriaid yn cyflawnu eu dyledswyddau, ac am fod cofnodion eglwysig yn cael eu cadw. Yr oedd pregethwyr yn dilyn yr ymwelwyr, y rhai a ddysgent y bobl mewn perthynas i'r Diwygiad.

Yn Tachwedd, 1547, agorwyd y senedd a osododd i lawr sail yr Eglwys Ddiwygiedig. Cymmeradwywyd mesurau ag oedd wedi eu mabwysiadu yn flaenorol; diddymwyd y deddfau yn erbyn hereticiaid; cadarnhawyd yr uchafiaeth freninol eilwaith, a hyny mor bell fel yr ymddiriedwyd appwyntiad esgobion a llysoedd eglwysig yn hollol i'r brenin; dilewyd offerenau dros eneidiau; a dygwyd y cymundeb i mewn yn y ddwy elfen—ond ar yr un pryd, bygythiwyd dirwyon trymion yn erbyn yr ymosodiadau mynych ar y sacrament. Aeth Cranmer yn mlaen, pa fodd bynag, gyda'i ddiwygiadau. Yn Ionawr, 1548, gwaharddodd ddefnyddio canwyllau, lludw, a phalmwydd, a chaniatäai ollyngdod yn rhwydd oddi wrth ymprydiau. Yn Chwefror, gorchymynodd symmud pob darluniau o'r eglwysydd. Cyhoeddodd gyfieithiad Seisoneg hefyd o'r pregethau ar *Gatecism Lutheraidd Nuremberg*. Ar yr un pryd, darparodd ef, yn nghyd â Goodrich, Ridley, &c., ffurf newydd o addoliad, ar sail yr hen ffurfiau gwasanaeth goreu, yn yr hon y dodwyd gwasanaeth Swper yr Arglwydd yn llythyrenol yn mron o'r llithlyfr Pabaidd, yn nghyd â chlust-gyffesiad, gweddïau dros y meirw, canu gyda'r groes, a'r eneiniad; ac yr oedd y gwisgoedd offeiriadol i barhau. Cyhoeddwyd y ffurf hon yn llyfr tua diwedd 1548. Yn gynnar yn 1549, mabwysiadwyd ef gan ddeddf gyntaf yr Unffurfiaeth, fel llyfr gweddi cyffredinol, a gorchymynwyd dechreu ei ddefnyddio Gorphenaf 1af. Dilewyd gwyryfdod yr offeiriaid hefyd gan yr un senedd. Yr ydoedd holl wrthwynebiad y Pabyddion yn hollol ofer hyd yn hyn. Yr oedd Gardiner, yr hwn er y dechreu a wrthwynebai yr aralleiriadau a'r homiliau, ac a ddadleuai yn erbyn awdurdod y rhaglawiaeth, yn awr yn garcharor yn y Tŵr. Yr oedd Tonstal wedi tawelu ac wedi ymneillduo i'w esgobaeth. Yr oedd Bonner yn awr mor hawdd ei drin ag oedd o greulawn o'r blaen. Yr oedd pawb ereill, oddi eithr Mari, yr un mor ddifraw; ond dangosodd y bobl, gan y priodolent y tlodi a'r cyfyngder a ffynai i'r mesurau diwygiadol, gryn anfoddlonrwydd pan y dygwyd i mewn y ffurfwasanaeth newydd. Yn sir Devon a Norfolk yr oedd y cynhwrf mwyaf, lle yr oedd gan y Cardinal Pole lawer o bleidwyr. Yn Cornwall, hawliai byddin

Digitized by Google

o 10,000 o wŷr adferiad Pabyddiaeth, a chafwyd trafferth fawr i'w darostwng. Yn Norfolk, cyhoeddodd dyn o'r enw Ket, barcer, yr hwn a flaenorai 20,000 o wrthryfelwyr, ryfel yn erbyn y pendefigion a'r rhaglawiaeth. Bu raid galw am iarll Essex gyda'i filwyr o Scotland cyn y gallwyd darostwng y gwrthryfel. Heblaw hyn, yr oedd Lloegr mewn rhyfel â Ffrainc, mewn canlyniad i fwriad brenin y wlad hono i ddwyn priodas yn mlaen rhwng Edward a Mary o Scotland—cynllun ag yr oedd y Protestaniaid yn ffafriol iddo. Gwaghaodd y rhyfel hwn goffrau Lloegr, peryglodd y meddiannau Seisonig yn Ffrainc, ac arweiniodd i gwymp yr amddiffynydd. Unodd Warwick â Southampton, prif wrthwynebydd Somerset, a llwyddasant yn fuan i anfon yr amddiffynydd i'r Twr (Medi 1549), ac i'w amddifadu o'i swydd. Eto yr oedd yn rhaid i Warwick, er cadw ffafr y brenin, gynnorthwyo y Diwygiad; fel y rhoddwyd, yn ystod carchariad Somerset, nid yn unig orchymynion caethach i arfer y ffurfwasanaeth, ond penderfynwyd ar ffurf o urddiad, a llyfr o ddeddfau eglwysig. Cwblhawyd y cyntaf yn Mawrth, 1550, ond cymmerodd y diweddaf amryw o flyneddoedd i'w orphen. Yr urddwasanaeth a wnaethpwyd y pryd hyny, gydag ychydig gyfnewidiadau a wnaed yn nheyrnasiad Charles II, ydyw yr un sydd mewn arferiad yn bresennol. Hyd yn hyn, yr amcan penaf oedd puro yr hen eglwys, ac nid sefydlu un newydd. Gan hyny, yr oedd y moddion a ddefnyddid i ddarostwng yr Ailfedyddwyr, y Gwrthdrindodwyr, a phleidiau ereill, yn llymach na'r rhai a arferwyd yn erbyn Pabyddiaeth. Ond y mae yn ystaen ar deyrnasiad Edward fod Joan Bocher wedi ei losgi (Mai 1550) am wadu gwir ddynoliaeth Crist, a Van Paris, Hollandiad, am wadu ei Dduwdod. Yn raddol, daeth egwyddorion y Diwygiad Almaenaidd, a Swissaidd, i ddylanwadu yn fwy grymus er dadblygu y Diwygiad yn Lloegr. Dygwyd hyn oddi amgylch yn benaf drwy ddychweliad y fath ddynion a Miles Coverdale, John Rogers, a John Hooper, o alltudiaeth, a thrwy gynnorthwy y fath ymnoddwyr tramor a Peter Martyr, Ochino, Bucer, De Lasky, a Fagius. Bu Peter Martyr Vermigli, a Bernard Ochino, yn athrawon yn Rhydychain, ac M. Bucer a Paul Fagius yn Nghaergrawnt. Hauodd y gwyr hyn had a ddygodd ffrwyth yn y genedl oedd yn cyfodi. Gwrthwynebai y proffeswyr athrofaol yr athrawiaeth newydd yn danllyd, yn enwedig yr un oedd yn dwyn perthynas â Swper yr Arglwydd. Ond yr oedd y dadleuon mynych yn arwain y diwygwyr eu hunain yn mhellach oddi wrth yr athrawiaethau Pabaidd. Gofynodd Knox a Hooper yn neillduol am ddiwygiadau mwy trwyadl yn ffurfwasanaeth a chyfansoddiad yr eglwys. Ar gynnygiad Hooper, gorchymynodd y cyfrin-gynghor, yn Tachwedd, 1550, bod i fyrddau cymundeb gael eu defnyddio yn lle allorau. Gwrthwynebodd Knox y ffurfwasanaeth a'r esgobaeth, a gwrthododd fod yn esgob. Daeth Eglwys Holland de Lasky (1550) yn gynllun i ereill. Yr ydoedd yn eglwys Bresbyteraidd hollol, yn dal athrawiaethau y Diwygiad yn fanwl, yn ol cynllun yr eglwys apostolaidd. Ewyllysiai amryw wneyd yr Eglwys Seisonig yn gyffelyb iddi. Cynnyrchodd y dylanwadau tramor hyn deimladau gwrthwynebus i'r Eglwys Genedlaethol, pa rai wedi hyny a achosasant lawer o anghydfod. Ond yr oeddynt yn gyfyngedig i gylch bychan ar y cyntaf. Nid oedd goleuni yr efengyl wedi treiddio ond ychydig i lawer o leoedd. A pha ryfedd; canys yr oedd llawer o gynnulleidfaoedd heb glywed un bregeth er ys blyneddoedd. Yr oedd gan amryw glerigwyr lawer o blwyfydd ar lôg gan y rhai a weithient rataf; a Phabyddion dirgel oedd y rhan fwyaf o'r personau a'u dalient. Ysgrifenodd Fagius, yn 1549, mai prin y gellid cael deg o bregethwyr cymhwys. O blegid hyn, penododd Cranmer chwech o lys gapleniaid, pedwar o o ba rai oedd i deithio yn barhaus drwy y wlad gan bregethu. Ymdrechai hefyd ddewis y dynion mwyaf efengylaidd yn esgobion ac yn glerigwyr. Erbyn diwedd 1551, yr oedd yr holl esgobion Pabaidd wedi eu diswyddo. Lleddfwyd llawenydd y blaid efengylaidd drwy gwymp Somerset; ond ni bu hyny yn un attalfa ar ffordd llwyddiant eu hachos. Yr oedd Northumberland dan orfod, er ei fwyn ei hun, i amddiffyn y Protestaniaid, yn neillduol gan fod Edward wedi dadgan ei fod yn cymmeradwyo y diwygiadau a gymhellid gan y duwinyddion tramor, a'i fod wedi gorchymyn adolygu y Llyfr Gweddi. Meddyliai Calvin, Martyr, a Bucer, fod gormod o Babyddiaeth ynddo. Chwennychai Bucer, nid yn unig ddileu amryw o'r defodau Pabaidd, ond sefydlu cynnulleidfaoedd trefnus, gyda dysgyblaeth, gofal am y tlodion, ysgolion, ac adferu y meddiannau eglwysig i'r cynnulleidfaoedd. Arweiniwyd Edward gan ei waith, *Censura supra Libro Sanctorum* (1550), i appwyntio pwyllgor adolygol. Mabwysiadodd y pwyllgor hwn amryw o awgrymiadau Bucer, a chymmerasant rai pethau o argraffiad Polanus o ffurfwasanaeth Calvin—yr ymadroddion rhagarweiniol, y gwrthatebion (*responses*), a rhan o'r gyffes, a'r gorchymynion yn Swper yr Arglwydd; a dileasant y defnyddiad o olew, y tyngediad (*exorcism*), arwydd y groes, clust-gyffesiad, gweddïau dros y meirw, a'r gwisgoedd Pabaidd. Rhoddwyd y Llyfr Gweddi yn ei ffurf ddiwygiedig dan sylw y gynnadledd eglwysig, a than sylw y senedd, a alwyd yn nghyd yn ffodus cyn dienyddiad Somerset, a'r hon a ymgyfarfu yn uniongyrchol ar ol hyny, Ionawr 23ain, 1552. Fel Ail Ddeddf yr Unffurfiaeth, mabwysiadwyd, Ebrill 6ed, 1552, y Llyfr Gweddi diwygiedig, a gorchymynwyd ei ddwyn i arferiad Tachwedd 1af. Ar ol gwneuthur ychydig ddeddfau ereill mewn perthynas i gadwraeth y Sabbath a gwyliau, a thyneru y gyfraith yn erbyn teyrnfradwriaeth, chwalwyd y senedd Ebrill 15fed.

Adolygwyd Rheithlyfr yr Eglwys ar yr un pryd a'r ffurfwasanaeth. Appwyntiwyd pwyllgor at y gorchwyl hwn yn 1549, ond ni ymgymmerwyd â'r gwaith o ddifrif am ddwy flynedd; ac er ei fod wedi ei orphen cyn marwolaeth Edward, ni chyhoeddwyd ef hyd amser Elizabeth, pryd yr ymddangosodd dan yr enw *Reform. Legum Ecclesiastic.* Darparwyd ef gan Cranmer, Goodrich, Cox, P. Martyr, a phedwar o reithwyr. Er ei fod yn waith rhagorol, ni chafodd ei fabwysiadu gan y llywodraeth. O'r diwedd ymgymmerodd Cranmer â'r gorchwyl o wneyd cyffes ffydd. Darparodd 42 o erthyglau, a gosodwyd hwynt, yn Mai, 1552, ger bron y cyfrin-gynghor. Y mae eu tuedd Galvinaidd mor gref fel mai o'r braidd y maent yn gysson â'r ffurfwasanaeth. Gwnai hyn hi yn anmhosibl defnyddio Catecism Nuremberg. Gan hyny, darparwyd un newydd. Y mae yn debygol mai yr esgob Poinet oedd awdwr y catecism hwn. Gorchymynodd y brenin ei ddefnyddio yn Mai, 1553, ac hefyd am i'r clerigwyr gymmeryd llw o

Digitized by Google

gymmeradwyaeth i'r 42 erthyglau, er nad oeddynt wedi eu gosod o flaen y gynnadledd eglwysig a'r senedd er eu cadarnhau. Fel hyn, cwblhawyd y Diwygiad; ac yr oedd hyny yn dda, canys yr oedd iechyd adfeiliedig Edward yn agor golygfa fygythiol o flaen llygaid y diwygwyr. Ni feddyliai Northumberland am ddim llai yn bresennol na sicrhau y goron i'w ferch yn nghyfraith, Jane Grey. Nid oedd anghyfreithlondeb merch Harri wedi ei ddiddymu eto gan y senedd; nid oedd mam James v. wedi ei henwi yn ewyllys Harri; felly, gan fam yr arglwyddes Jane Grey, fel nith i Harri, yr oedd yr hawl gyntaf i'r orsedd. Dangosodd Northumberland i Edward y perygl a ddeilliai i'r Diwygiad oddi wrth deyrnasiad Mari; ac er gwaethaf gwrthwynebiad Cranmer ac ereill, gwnaethpwyd cyfnewidiad yn yr olyniaeth yn ffafr ei ferch yn nghyfraith. Bu farw Edward, Gorphenaf 6ed, 1553, er gofid dirfawr i gyfeillion yr efengyl yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor. Ar y 9fed, cyhoeddwyd yr arglwyddes Jane yn frenines, a Mari yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny. Ymgasglodd y Pabyddion, a gelynion lluosog Northumberland, o amgylch Mari. Ennillwyd lluaws trwy addewidion o ryddid cydwybod. Ond ni theimlai Mari ei bod dan rwymau i gadw addewidion wedi eu gwneyd i hereticiaid. Ystyriai ei bod wedi ei galw i adferu Pabyddiaeth yn ei theyrnas. Ar y dydd yr aeth i'r Twr (Gorphenaf 31ain), rhyddhawyd Norfolk a Gardiner, a Tonstal, Heath, a Day y dydd canlynol, ac adferwyd hwynt i'w swyddau blaenorol. Cauwyd 60 o bersonau allan o'r ebargofraith gyffredinol, yn cynnwys Northumberland, yr hwn wedi hyny a gafodd ei gondemnio o deyrnfradwriaeth, a'i ddienyddio Awst 22ain. Cyflawnwyd claddedigaeth Edward, a choroniad Mari, yn unol â'r hen ddefodau. Mewn rheitharch, a gyhoeddwyd Awst 18fed, cyfyngwyd rhyddid pregethu a rhyddid y wasg "hyd nes y gwneid deddfau pellach." Am wrthwynebu hyn, carcharwyd Hooper, Ridley, Latimer, Coverdale, Rogers, Cox, ac ereill, a Chranmer o'r diwedd. Cadarnhaodd y senedd a ymgynnullodd tua diwedd y flwyddyn hono briodas Harri â Chatherine, a dileodd yr holl ddeddfau diwygiadol a basiwyd dan deyrnasiad Edward. Gan hoffi gorwychder Pabyddiaeth, llawenhâai corff y bobl; cydsyniai y pendefigion, i'r rhai ni ofynasid eto am adferiad o drysorau yr eglwys; a gorfoleddai y gynnadledd eglwysig, o'r hon y bwriasid allan yr holl esgobion diwygiedig, yn ngweithrediadau breninesag oedd "wedi dewis y rhan dda." Yr oedd cyfeillion yr efengyl, a'r clerigwyr priod, mewn dychryn ac arswyd. Mewn un peth, pa fodd bynag, cydsyniai cyfeillion a gelynion, sef eu gwrthwynebiad i gynllun Mari i briodi Philip o Yspaen. Chwennychai y senedd, gan ofni dylanwad tramor, iddi ddewis Sais yn ŵr. Yn Ionawr, 1554, pa fodd bynag, mynodd gyhoeddi ei bwriad i briodi Philip. Parodd hyn gynhwrf yn sir Warwick, yn Nghernyw, ac yn Nghymru. Ni buwyd yn hir cyn tawelu y rhai hyn. Ond brawychwyd trigolion Llundain yn ddirfawr pan ddeallasant fod Syr Thomas Wyat yn dyfod i'w herbyn gyda byddin. Ni theimlai Mari un arswyd er hyny. Appeliodd yn wresog at ddinaswyr Guildhall, ac ymgasglodd miloedd o'i chwmpas, y rhai a orfodasant Wyat i ymostwng Chwefror 11eg, 1554. Y dydd canlynol, dienyddiwyd yr arglwyddes Jane Grey. Yr oedd ei gŵr wedi ei blaenori; a dilynwyd hi yn fuan gan ei thad a'i hewythr. Dienyddiwyd hanner cant o ddilynwyr Wyat yn Llundain, a dienyddiwyd ereill yn Kent. Ceisiodd ef ei hun ymesgusodi trwy gyfodi drwgdybiaeth yn nghylch Elizabeth. Dygwyd hi i'r Twr, rhyddhawyd hi yn fuan, ond gwyliwyd hi yn fanwl. Diangodd amryw bendefigion i Ffrainc. Wedi adferu heddwch, priodwyd Mari â Philip, Gorphenaf 25ain. Gan yr ymddibynai Mari bellach ar y galluoedd Pabaidd, gweithient allan ei holl gynlluniau yn fanwl. Trwy orchymyn breninol, gyrwyd miloedd o dramorwyr teilwng o Loegr; a diangodd 800 o Seison, yn cynnwys amryw fyfyrwyr a duwinyddion—Knox, Grindal, Sandys, Jewel—hefyd i Frankfort, Basel, Zurich, a Geneva. Dilewyd yr uchaflaeth hefyd gan reitharch arall, mewn canlyniad i'r hyn beth y diswyddwyd y rhai oedd yn aros o'r esgobion efengylaidd; ac y mae yn debygol ddarfod i tua hanner y clerigwyr gael eu bwrw i drallod o blegid troseddu Deddf Gwyryfiaeth. Yn Tachwedd, 1554, aeth Pole i Lundain fel pabgenad. Yn nechreu 1555, yr oedd yr Eglwys Seisonig eilwaith yn mreichiau Pabyddiaeth. Yn awr y dechreuodd yr erlidigaethau gwaedlyd ag sydd yn gwarthnodi teyrnasiad Mari. Yn nghorff llai na thair blynedd, bu farw tua 300 o bersonau, gan ogoneddu Duw, fel merthyron, wrth ystanciau. Y mae rhestr y dyoddefwyr yn cynnwys esgobion, doctoriaid, a chlerigwyr; boneddigion, crefftwyr, a llafurwyr—meibion a merched. Nid annerbyniol gan y darllenydd, mae'n ddiau, fydd y rhestr ganlynol o'r rhai mwyaf nodedig, yn nghyd âg adegau eu merthyrdod:—

Yn 1555.

| | | |
|---|---|---|
| Chwefror | 4. | John Rogers, prebendur eglwys St. Paul. |
| " | 8. | Lawrence Saunders, ficer All Hallows. |
| " | 9. | John Hooper, esgob Gloucester. |
| " | — | Dr. Rowland Taylor, ficer Hadleigh. |
| Mawrth | 30. | Robert Farrar, esgob Ty Ddewi. |
| Mai | 30. | John Cardmaker, prebendur Wells. |
| " | — | John Warne, dodrefnydd, Llundain. |
| Mehefin | 10. | Thomas Hawkes, boneddwr, Coggeshall. |
| Gorphen. | 1. | John Bradford, prebendur eglwys St. Paul. |
| " | 22. | Dirick Carver, darllawydd, Lewes. |
| Medi | 20. | Robert Glover, boneddwr, Coventry. |
| Hydref | 16. | Nicholas Ridley, esgob Llundain. |
| " | — | Hugh Latimer, esgob Worcester. |
| Rhagfyr | 18. | John Philpot, archddiacon Winchester. |

Yn 1556.

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth | 21. | Thomas Cranmer, archesgob Caergaint. |
| Ebrill | 28. | John Mace, cyfferiwr, a phump ereill, Colchester. |
| Mai | 15. | Hugh Laverock, dyn cloff, a John Aprice, dyn dall, Stratford-le-Bow. |
| Mehefin | 27. | Un ar ddeg o ddynion, a dwy ferch, yn yr un tân, yn Stratford-le-Bow. |
| Gorph. | 16. | Julius Palmer, ysgolfeistr, Newbury. |
| " | 17. | Catherine Cawches, a dwy ferch iddi, yn nghyd â baban a anwyd yn y fflamau, Guernsey. |

Yn 1557.

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin | 18. | Edmund Allin, melinydd, a'i wraig, a phump ereill, Caergaint. |
| " | 22. | Richard Woodman, toddwr haiarn, a naw ereill, Lewes. |
| Awst | 2. | Pump o feibion a phump o ferched, Colchester. |
| " | — | Joyce Lewis, boneddiges, Lichfield. |
| Rhagfyr | 22. | John Rough, gweinidog, Smithfield. |

Yn 1558.

| | | |
|---|---|---|
| Ionawr. | | Cuthbert Sympson, diacon Eglwys Gristionogol, Smithfield. |
| Mehefin | 27. | Roger Holland, masnachydd, a phump ereill, Smithfield |

Digitized by Google

Gorph. 10. Richard Yeoman, yr hwn a fu yn gurad i Dr. Taylor, Norwich.
Tach. 15. *Dau ddiwrnod cyn marwolaeth Mari.*
Tri o feibion a dwy ferch, Caergaint.

Trengodd lluoedd ereill mewn carcharau. Parhaodd yr erledigaethau hyd nes y terfynwyd oes Mari gan angeu, Tachwedd 17eg, 1558. Bu farw Pole y diwrnod canlynol. Bedydd tanllyd i'r Diwygiad oedd teyrnasiad Mari. Dygodd y cwmwl tystion a gyfododd dystiolaeth i werthfawrogrwydd a gallu yr efengyl; cynnyrchodd yr erledigaethau creulawn gasineb anorchfygol yn nghalonau y bobl tuag at Babyddiaeth.

Torodd y wawr pan yr esgynodd Elizabeth i'r orsedd. Ei gorchwyl hi oedd perffeithio gwaith y Diwygiad. Er dwyn hyn oddi amgylch, mabwysiadodd wleidyddiaeth ganolog. Yr oedd ei chyfrin-gynghor yn gyfansoddedig o Babyddion a Phrotestaniaid. Cyflawnwyd defod y coroniad yn ol y ffurf Babaidd; cymmerwyd y llŵ ar y Beibl Seisoneg. Trwy ddylanwad y llywodraeth newydd, dychwelwyd amryw o gyfeillion y Diwygiad i'r senedd newydd, ond agorwyd hi (Ionawr 25ain, 1559) drwy uchel offeren. Er dangos ei hanmhleidgarwch, rhoddodd Elizabeth y gwaith o adolygu Ffurfwasanaeth Edward i nifer cyfartal o Babyddion a Phrotestaniaid. Ar ol amryw ymdrechion egnïol, bwriwyd o'r neilldu y gwasanaeth Pabaidd a adferasid gan Mari, ail sefydlwyd yr uchafiaeth freninol, ac yn olaf (yn Ebrill), drwy *weithred newydd o Unffurfiaeth*, dygwyd i mewn y Llyfr Gweddi Cyffredin diwygiedig. Wrth ddwyn y deddfau hyn i weithrediad, trefnodd y frenines ymweliad cyffredinol ar sail yr un egwyddorion a'r ymweliad a wnaethpwyd dan deyrnasiad Edward, ac yn dwyn perthynas â'r Protestaniaid manylaf, yn gystal a'r Pabyddion. Yr oedd yr allorau, y delwau, y croesau, a'r canwyllau, i gael eu symmud o'r eglwysydd; ond yr oedd cerddoriaeth offerynol, a'r ddefod o benlinio wrth weddïo a chymuno, i barhau. Cymhellid pawb i fyned i'r gwasanaeth cyhoeddus, ac i sancteiddio y Sabbath; ond o'r llysoedd uchaf yr oedd rhyddid i bregethu, a rhyddid y wasg, ac hyd yn oed rhyddid y clerigwyr i briodi, i'w gael. Ymddangosai y rhan luosocaf o'r clerigwyr yn ewyllysgar i gymmeryd llw yr uchafiaeth a'r unffurfiaeth; o 9400, ni wrthododd ond 80 o offeiriaid, a 70 o swyddogion eglwysydd cadeirol, proffeswyr prifysgolion, a phenaethiaid athrofäau. Ni chydsyniodd ond un o'r un esgob ar bymtheg. Llanwyd lleoedd y clerigwyr anghydsyniol yn mhen ychydig amser gan dduwinyddion wedi dychwelyd o alltudiaeth; ond yn y cyfamser gwasanaethai darllenwyr lleygol. Yr oedd yn anhawddach llenwi y fainc esgobol. Gwnaethpwyd Matthew Parker, cynghorwr y frenhines—dyn dysgedig a difalch—yn archesgob Caergaint. Yn ffodus, yr oedd tri esgob, Barlow, Scory, a Coverdale—y rhai a ddiangasant dan deyrnasiad Mari—a Hodgkin, rhagesgob Bedford, wrth law i gyssegru Parker; yr hyn a gymmerodd le Rhagfyr 17eg, 1559. Yna cyssegrodd Parker esgobion ereill, a chyn pen dwy flynedd yr oedd yr holl esgobaethau wedi eu llenwi â gwŷr efengylaidd. Megys y gwnaethpwyd yn flaenorol, trefnwyd yn gyntaf bob materion ag oedd yn dwyn perthynas â'r llywodraeth a'r addoliad, ac yna aethpwyd i barotoi cyffes ffydd. Yn mlaenaf, ffurfiwyd cyffes fer o 11 o erthyglau, i wasanaethu dros ychydig amser; y rhai yr oedd yn angenrheidiol i'r clerigwyr eu derbyn, a'u darllen yn eu heglwysydd ddwywaith bob blwyddyn. Yn y cyfamser, adolygwyd y 42 erthyglau, a chyflwynwyd hwynt i sylw y gynnadledd eglwysig yn Ionawr, 1563; yr hon, ar ol tori ymaith y tair diweddaf, a fabwysiadodd y gweddill, sef 39, heb gyfnewid nemawr ddim arnynt. Cyhoeddwyd hwynt, drwy gymmeradwyaeth y frenines, yn Tachwedd; ond nid awdurdodwyd hwy gan y senedd hyd Ebrill, 1571. Mabwysiadodd yr un gynnadledd gatecism Lladin Noel yr hwn sydd wedi ei seilio ar gatecism Poinet, a chyhoeddwyd ef yn Seisoneg yn 1570; yn nghyd â *Llyfr o Homiliau*, a barotoisid gan Parker a Jewell; ac yn ddiweddaf, penderfynwyd gwneyd cyfieithiad newydd o'r Beibl, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1572. Yn unol â'i gwleidyddiaeth gymmodol, caniataodd Elizabeth berffaith ryddid cydwybod i'r bobl am y deng mlynedd cyntaf o'i theyrnasiad. Ond cyn hir, trwy ymddygiadau bradwrus y Pabyddion, a gwrthwynebiad cyndyn y Puritaniaid, daeth yn angenrheidiol arfer mesurau llymion. Yn 1561, darganfyddwyd bradwriaeth, dan arweiniad nai Pole, yr hwn a arweiniodd y senedd i orfodi pawb i gymmeryd llw yr uchafiaeth. Gwnaethpwyd hyn er dychrynu yr anfoddogion. Wedi hyny, lledaenwyd traethodau Pabaidd gan offeiriaid penboeth, y rhai, ar ol dychwelyd o Holland, a aethant drwy y wlad mewn gwisgoedd ffugiol, gan ddefnyddio amryw ffyrdd i gynhyrfu y bobl, hyd nes y cynnyrchwyd cydfradwriaeth yn ffafr Mari o Scotland. Heb law hyny, esgymunwyd Elizabeth gan y pab, Ebrill 27ain, 1570, ac ymdrechodd "ei sancteiddrwydd" i gyfodi rhyfel yn ei herbyn. Yna pasiodd y senedd gyfres o ddeddfau er ei hamddiffyn—pa rai a wnaent bob ymosodiad ar ei pherson, ei hiawngrededd, ei theitl i'r goron, yn gystal a gwaith unrhyw un yn dwyn i mewn i'r deyrnas barbarchiadau, &c., yn deyrnfradwriaeth. Gofynid i'r holl glerigwyr, a holl swyddogion y llywodraeth, lawnodi y 39 erthyglau, a bygythid amddifadu Pabyddion ffoedig o'u meddiannau. Anfonwyd allan amryw reitharchiadau ereill ar ol hyny, er attafaelu y llyfrau a'r traethodau bradwrus a anfonid allan yn benaf o'r athrofäau Seisonig yn Douay a Rhufain. Os dienyddiwyd, gan hyny; yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, ddau a thrigain o offeiriaid, dyoddefasant, nid am eu golygiadau crefyddol, ond fel teyrnfradwyr. Ond tra mai ysgogiadau gwleidyddol, yn benaf, oedd ysgogiadau y Pabyddion, yr oedd gwrthwynebiad y Puritaniaid yn seiliedig ar ystyriaethau crefyddol. Gwel PURITANIAID.

Y DIWYGIAD YN YR IWERDDON.

Aeth achos y Diwygiad trwy yr un cyfnewidiadau a chwyldroadau yn yr Iwerddon ag a'i dilynodd yn Lloegr. Ychydig o wir gynnydd a wnaeth yn y wlad dra Phabyddol ac ofergoelus hon. Nid oedd y Protestaniaid ond ychydig o nifer yma, ac yr oeddynt yn agored i bob math o flinderau oddi wrth y Pabyddion penboeth a ffyrnig. Pan gyhoeddwyd Harri VIII, ar ol dileu yr awdurdod Babaidd, yn oruchaf ben daiarol Eglwys Loegr, gwnaeth George Brown, brodor o Loegr, a mynach o urdd Awstin, yn archesgob Dublin, yn 1535; yr hwn a ddechreuodd weithredu yn dra egnïol mewn canlyniad i'r cyfnewidiad hwn'yn y bendodaeth, ar ran Protestaniaeth. Glanhaodd eglwysydd ei esgobaeth oddi wrth ofergoeledd o bob math; tynodd i lawr y delwau, distrywiodd y creiriau, dileodd ddefodau ynfyd a choelgrefyddol. dygodd y Llyfr Gweddi Gyffredin Seisonig i arferiad yn ei eglwysydd; a

Digitized by Google

thrwy y dylanwad a'r awdurdod a feddai yn yr Iwerddon, mynodd gan y genedl Wyddelig gydnabod uchafiaeth y brenin. Alltudiwyd Dowdal, yr hwn a barhâai i'w wrthwynebu, o'r wlad, a throsglwyddwyd penogaeth yr Eglwys Wyddelig, dros amser, o Armagh i Dublin. Dangosodd Harri yn fuan nad enw gwag oedd ei uchafiaeth ef; canys alltudiodd y mynachod o'r wlad hono, attafaelodd eu cyllidau, a distrywiodd eu mynachdai.

Yn nheyrnasiad Edward VI, gwnaeth y Diwygiad gynnydd chwanegol yn yr Iwerddon, a symmudwyd llawer o ofergoeledd, trwy ymdrech diflino yr esgob Brown, a'r gefnogaeth dirion a roddai i bawb a ymdrechai o blaid y Diwygiad. Yn y flwyddyn 1552, appwyntiwyd John Bale yn esgob Ossory, yr hwn oedd yn llafurwr ymroddedig dros yr achos da. Yn ystod yr amser byr y bu efe yn yr esgobaeth hono, ymddygai yn debyg i esgobion cyntefig y Testament Newydd. Pregethai ar bob adeg a gaffai, a hyny yn eglur, ffyddlawn, a llawn o eneiniad; ymwelai â phob rhan o'i esgobaeth; ac ymdrechai hyd eithaf ei allu i argyhoeddi y bobl o ynfydrwydd a pherygl Pabyddiaeth. Ond er ei holl ymdrechiadau daionus, gorchfygid ef y rhan fynychaf. Ymosododd yr offeiriadaeth yn gyndyn ac egnïol yn ei erbyn. Yr oeddynt bron bob un yn ddynion anwybodus a llygredig, ac yn gwbl ofergoelus. Yr oedd eu dylanwad ar y bobl yn cael ei roddi ar waith yn wastadol, ac i'w eithafion, o blaid yr hen grefydd. Gwneid ymosodiadau bradwrus a gwaedlyd yn fynych ar y Protestaniaid. Gwenwynwyd Goodacre, archesgob Armagh; ac yr oedd bywyd Bale yn wastadol braidd mewn perygl. Buasai yn sicr o fod wedi syrthio yn aberth i greulondeb Pabaidd, ar ol marwolaeth Edward VI, a ddygwyddodd Gorphenaf, 1553, oni buasai iddo ymguddio rhag ei elynion. O'r diwedd, gallodd ffoi, a chyrhaeddodd y Cyfandir yn ddiogel. Er i Brotestaniaeth gael ei sefydlu yn gyfreithiol yn yr Iwerddon, eto yr oedd calonau y bobl mewn caethiwed—ac felly y mae y rhan fwyaf o honynt hyd y dydd hwn—ond cafodd lluaws mawr eu rhyddhau trwy yr adfywiad crefyddol nerthol a ymwelodd â'r ynys yn 1859.

Ar ol marwolaeth y tywysog enwog, Edward VI, ac esgyniad y frenines Mari (a elwir yn gyffredin gan y Cymry, "Mari Waedlyd") i'r orsedd, cyfnewidiodd gwedd pethau gymmaint yn yr Iwerddon ag yn Lloegr; ond er i Babyddiaeth gael ei hail sefydlu yno yn ddioed ar ei hesgyniad hi, eto ni chyrhaeddodd yr erlidigaeth i'r Iwerddon, gan i Ragluniaeth ddyrysu ei hamcanion trwy ddygwyddiad tra hynod a gymmerodd le, yr hwn a ddyfynir yma o bapyrau Richard, iarll Cork:—"Wedi i'r frenines Mari ymddwyn yn greulawn at Brotestaniaid Lloegr, o gylch diwedd ei theyrnasiad, llawnododd gommisiwn yn awdurdodi ymddwyn yr un modd atynt yn yr Iwerddon; ac er mwyn cyflawnu yr amcan gyda mwy o nerth, penododd y Dr. Oole, un o'r dirprwywyr, i'w gario allan. Fel yr oedd y doctor hwn yn dyfod i'r Iwerddon gyda'i gommisiwn, daeth ar ei daith i Gaer; a phan glywodd maer y ddinas hono fod ei mawrhydi yn anfon cenad i'r Iwerddon, ac yntau ei hun yn Eglwyswr selog, aeth at y doctor, yr hwn, ar ei ymddyddan â'r maer, a gymmerodd coffr lledr o logell ei fantell, ac a ddywedodd wrtho, 'Dyma gommisiwn a ffrewylla hereticiaid yr Iwerddon,' gan feddwl y Protestaniaid. Pan glywodd gwraig y gwestty eiriau y doctor, a hithau yn cofleidio y grefydd Brotestanaidd, a chanddi frawd hefyd o'r enw John Edmunds, o'r un grefydd, yn ddinesydd ar y pryd yn Dublin, cythryblwyd hi yn ddirfawr. Yna, gan wylio am amser cyfaddas, tra yr oedd y maer yn ymadael, a'r doctor yn ei gyfarch i lawr y grisiau, agorodd y wraig y coffr lledr, a chymmerodd y commisiwn allan o hono, a rhoddodd bac o gardiau wedi eu rhwymo mewn llen o bapyr yn ei le ynddo, a charden y milwr (*knave of clubs*) yn uchaf. Daeth y doctor i fyny i'w ystafell, a rhoddodd y coffr yn ei logell fel o'r blaen, heb feddwl fod dim wedi dygwydd. Y dydd canlynol cyrhaeddodd lan y môr; a chan fod y gwynt a'r tywydd yn ffafriol iddo, hwyliodd tua'r Iwerddon, a glaniodd yn Dublin ar y 7fed o Hydref, 1558. Wedi dyfod i fyny i'r castell, a'r arglwydd Fitz-Walters yn arglwydd raglaw ar y pryd, yr hwn oedd wedi anfon am dano i ymddangos o'i flaen ef a'r cyfrin-gynghor:—wedi i'r doctor ddyfod i mewn, a gwneyd araeth yn mynegu ar ba neges y daethai efe drosodd, efe a gyflwynodd y coffr i'r arglwydd raglaw, yr hwn a barodd ei agor, fel y gallai yr ysgrifenydd ddarllen y commisiwn; ond erbyn ei agor, wele, nid oedd ynddo ddim ond pac o gardiau, a charden y milwr yn uchaf; yr hyn nid yn unig a frawychodd y doctor, ond yr arglwydd raglaw a'r cynghor hefyd. Sicrhâai y doctor yn ddifrifol ei fod ef wedi cael y commisiwn, ond na wyddai naws o'r byd pa fodd yr oedd wedi myned ymaith. Yna atebodd yr arglwydd raglaw, 'Gadewch i ni gael commisiwn arall, a bydd i ninnau chware'r cardiau yn y cyfamser.' Aeth y doctor ymaith yn llawn cyffro meddwl, a dychwelodd i Loegr; ac wedi myned i'r llys, cafodd gommisiwn arall. Ond tra yr oedd yn aros am wynt teg i ddychwelyd i'r Iwerddon, daeth y newydd ato fod y frenines wedi marw; ac fel hyn y gwaredwyd Protestaniaid yr Iwerddon."

Difyrwyd y frenines Elizabeth i'r fath raddau gan y chwedl hon, yr hon a adroddwyd iddi gan yr arglwydd Fitz-Walters, ar ei ddychweliad i Loegr, fel yr anfonodd am Elizabeth Edmunds, enw gwr yr hon oedd Mattershad, a rhoddodd dalwobr iddi o 40*p.* yn y flwyddyn tra y byddai byw.

Cwbl wleidiadol oedd ymrysoniadau Pabyddiaeth yn yr Iwerddon yn ystod teyrnasiad y frenines Elizabeth: a galluogwyd y Babaeth i ddal yr ymrysonaf i fyny trwy gynnorthwy tramor; ond ni pherthyn i ni adrodd y manylion yn yr erthygl hon.

Y DIWYGIAD YN SCOTLAND.

Yr oedd Scotland yn etifeddiaeth fras i'r Pabyddion. Yr oedd hanner y deyrnas yn perthyn i'r offeiriadaeth. Yr oeddynt yn orlwythog gan gyfoeth, ac yr oeddynt yn ei dreulio ar eu melus chwantau, gan ymdroi mewn moethau cnawdol, yn gwbl ddisylw o rybuddion cydwybod ac o farn y wlad am danynt. Yr oedd y wlad wedi ei heigio o fynachod anwybodus a segur o bob math—anfoesoldeb y rhai oedd yn ffieiddio y rhinweddol; ac yr oeddynt yn coleddu pob ofergoeledd ynfyd gyda gofal diwyd, er mwyn cadw y bobl mewn darostyngiad iddynt, ac er mwyn tynu eu sylw oddi wrth eu hymddygiadau gwaradwyddus. Yr oedd hyd yn oed esgobion yn anadnabyddus o air Duw. "Yr wyf yn diolch i Dduw," meddai esgob Dunkeld, wrth gyfarch Thomas Forrest, ficer Dollar, yr hwn a losgwyd yn Edinburgh, "fy mod i wedi byw yn dda yr holl flyneddoedd hyn, ac heb erioed wybod na'r Hen Destament na'r Newydd. Yr wyf fi yn

Digitized by Google

foddlawn ar fy llyfr gweddi (*portesse*)[1] a'm pabiadur (*pontifical*)."[2] Nid oedd y tywyllwch yma i barhau byth. Dygwyd ysgrifeniadau Luther i'r wlad, a dilynwyd hwy yn fuan gan y fath effaith, fel y pasiwyd cyfraith yn y senedd, yn 1525, yn gwahardd trosglwyddo dim o ysgrifeniadau y diwygiwr i'r wlad; canys yr oedd Scotland, fel y dywed y gyfraith hono, "wedi bod bob amser yn lân oddi wrth bob brynti a drygioni." Nis gallasai cyfreithiau seneddol gau allan y gwirionedd. Yn mysg y rhai y bu ysgrifeniadau Luther yn fuddiol iddynt, yr oedd Patrick Hamilton—dyn ieuanc o deulu anrhydeddus, yr hwn oedd wedi ei fwriadu i'r offeiriadaeth er yn blentyn, wedi ei appwyntio yn abad Ferne, ac wedi ei addysgu yn gyfaddas i hyny. Yr oedd wedi tynu yr ammheuaeth o heresi arno ei hun trwy siarad yn rhy rydd am lygredigaethau yr eglwys, a chanfu y byddai yn ddoeth iddo ymadael dros dymmor o wlad ei enedigaeth, a myned i deithio ar y Cyfandir. Tynodd clod Luther ef i Wittemberg, lle y derbyniodd fudd dirfawr wrth ymddyddan â'r diwygiwr hwn ac â Melancthon; ar annogaeth pa rai yr aeth i Marburg, a rhoddodd ei hun dan addysg Lambert o Avignon—llywydd dysgedig a duwiol y brifysgol oedd newydd ei sefydlu yn y ddinas hono. Ni arosodd yno yn hir, canys yr oedd ei enaid wedi ei gynhyrfu gan dosturi eiddigus o blegid trueni ac amddifadrwydd ysbrydol ei wlad ei hun. Ar ol dychwelyd i Scotland, teithiodd o fan i fan, gan dystiolaethu yn erbyn cyfeiliornadau yr oes, dynoethi drygioni y clerigwyr, a phregethu cyfiawnhad trwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Dychrynodd llwyddiant ei ymdrechiadau yr offeiriaid yn ddirfawr. Gosodasant rwyd iddo, i'r hon y syrthiodd. Cyfarwyddwyd un, Campbell, mynach Dominicaidd, i geisio ei gyfeillach; a than y ffug o ymofyn am y gwirionedd, cafodd gydnabyddiad o'i opiniynau o'i enau ef ei hun. Llwyddodd y ddichell; dadguddiodd Campbell yr hyn oll a ddysgodd, a daliwyd Hamilton; carcharwyd ef, dygwyd ef o flaen archesgobion St. Andreas a Glasgow, Hydref 29ain, 1528; a chondemniwyd a llosgwyd ef yr un dydd. Dyoddefodd yn dawel a diysgog, gan lwyr wrthod gwadu y gwirioneddau a ddysgasai, a dadgan ei sefydlogrwydd dianwadal yn nhrugaredd y Gwaredwr.

Gwnaeth merthyrdod Hamilton wasanaeth mawr i achos y gwirionedd. Yr oedd rhai yn ddigofus at anghyfiawnder creulawn ei gondemniad; yr hyn a'u pellhaodd yn raddol oddi wrth yr offeiriadaeth. Cynhyrfwyd llawer ereill i chwilio gwirionedd y syniadau am y rhai y dyoddefodd. Anfonwyd y moddion i wneyd yr ymchwiliadau hyn gan gyfeillion y Diwygiad yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Anfonid copïau o Destament Newydd Tindal, ac ysgrifeniadau Protestanaidd ereill, y rhai a ymddiriedid i bersonau o ddoethineb adnabyddus, ac a ledaenid ganddynt yn y modd mwyaf effeithiol. "Yr oedd un copi o'r Beibl neu y Testament Newydd," meddai M'Crie, "yn gwasanaethu amryw deuluoedd. Ymgynnullent i un tŷ, yn nyfnder y nos, pan fyddai ereill yn cysgu; dygid y gyfrol gyssegredig o'i dirgelfan, a thra byddai un yn darllen, byddai y lleill yn gwrandaw mewn dystawrwydd astud." Yr oedd athrawon yn brinion yn yr amser yma, ond yr oedd rhai o'r offeiriaid oedd wedi cofleidio y gwirionedd, ac ereill oedd yn addas i gyfranu addysg, yn ymroddi yn selog at y gwaith, a theithiasant y wlad o gwr i gwr, gan gyhoeddi y newyddion da am iachawdwriaeth. Dywed Cook fod yr awyddfryd a ddangosai y lluaws i wrandaw y pregethwyr hyn yn dra nodedig. Yr oeddynt yn cael eu hamgylchynu yn wastadol gan dyrfaoedd yn sychedu am addysg; a'r rhai, o blegid sefyllfa anmherffaith y llywodraeth ar y pryd, nid ofnent y dilynid eu tröedigaeth gan ganlyniadau dinystriol i'w heddwch. Tra yr oeddynt dan olygiad a nawdd eu pendefigion eu hunain, gallent aros mewn diogelwch; a phe na thynasent sylw cyhoeddus, trwy gymmeryd rhan mor fywiog a digudd yn lledaeniad gwybodaeth o'r Ysgrythyrau, gadawsid hwy heb eu blino i fyned yn mlaen ac i chwanegu y wybodaeth hono. Y canlyniad fu, i luaws mawr o drigolion Scotland gael eu tueddu yn fore iawn i gofleidio y ffydd Brotestanaidd. Pa fodd bynag, syrthiodd erlidigaeth o'r diwedd ar wroniaid boreuol y Diwygiad. Fe welodd llawer o honynt nad oedd bosibl aros yn ddiogel yn Scotland, a gadawsant eu cartrefi, gan fyned o'u gwirfodd i alltudiaeth—rhai i Loegr, a rhai i Denmarc, yr Almaen, a pharthau ereill o'r Cyfandir. Yn eu plith yr oedd George Buchanan, yr hanesydd ardderchog. Bu ereill yn aflwyddiannus yn eu hymdrechiadau i ddianc, neu dewisasant aros i lafurio dros Dduw, gan adael y canlyniad iddo ef; a thystiolaethodd llawer o honynt y gwirionedd wrth yr ystanc. Ond ni wnaeth y gerwinderau hyn niwed i achos y Diwygiad. Yr oedd rhif y Protestaniaid yn parhau i gynnyddu, a daeth llawer o bendefigion a boneddigion, o eiddo mawr a dylanwad helaeth, yn "ufudd i'r ffydd." Yn 1541, cafodd y cardinal Beaton weithredoedd seneddol, trwy y rhai "y gellid attafaelu eiddo pawb a amlygent unrhyw ammheuaeth gyda golwg ar awdurdod y pab; gwaherddid cyfarfodydd i chwilio yr Ysgrythyrau —nid oedd neb i roi eu barn arnynt hwy ond y rhai oedd wedi eu galw yn ol y gyfraith i hyny; gwaherddid derbyn i dŷ a chuddio hereticiaid; cynnygid gwobrau i bob un a achwynai arnynt; a gwaherddid i bawb wneyd un erfyniad o'u plaid, na rhoddi iddynt y cynnorthwy a allai pob dyn mewn cyfyngder ei ddysgwyl oddi wrth ei gydgreadur." Cymmerodd gweithred bwysig le yn ystod rhaglawiaeth iarll Arran, yn caniatau cyflawn ryddid i bawb ddarllen yr Ysgrythyrau yn yr iaith gyffredin. Yr oedd y preladiaid yn gwrthdystio yn frwd yn ei herbyn; ond bu eu gwrthwynebiad yn ofer. Yr ydoedd y rhaglaw y pryd hyny o blaid y Diwygiad. Fe ddewisodd gapelwyr Protestanaidd; a thrwy eu hymdrechiadau egnïol hwy dygwyd llawer i gofleidio yr efengyl. Dechreuwyd defnyddio y wasg hefyd yn Scotland i bleidio y gwirionedd, a chyhoeddwyd amryw lyfrau buddiol, y rhai a wasgarwyd yn helaeth yn mysg y bobl.

Cyfododd ystorm arall. Gwrthgiliodd Arran oddi wrth y ffydd, ac ymroddodd i ddylanwad y cardinal Beaton. Diddymwyd goddefiadau blaenorol. Trinwyd ymlyniad wrth Brotestaniaeth fel trosedd yn haeddu ei gospi yn llym. Gwysid nifer mawr o bersonau i ymddangos ger bron y cardinal, yn unig am ddarllen y Testament Newydd, a dedfrydid hwy i hir garchariad am y trosedd: dyoddefodd ereill ddienyddiad: llosgwyd pedwar o ddynion yn Perth; un, am iddo wrthwynebu mynach a ddysgai nas gellid bod yn gadwedig heb weddïo ar y saint; a'r tri arall

1. Y llyfr gweddi, neu y *portesse*, yma oedd dalfyriad, mewn ffurf cryno, o'r gweddiau Pabaidd.

2 Pabiadur, neu y *pontifical*, oedd lyfr defodau a seremoniau yr Eglwys Babaidd, neu y rubric Rhufeinig.

Digitized by Google

am iddynt ymddwyn yn anmharchus at ddelw sant, a bwyta cig ar ddydd gwaharddedig. Fe foddwyd gwraig un o'r pedwar am iddi wrthod gweddïo ar y Forwyn Fair yn ystod gwewyr esgor, gan ddywedyd mai ar Dduw yn unig y gweddïai hi yn enw Iesu Grist. "Yr oedd yr amgylchiadau a ddilynent olygfa olaf bywyd y wraig annedwydd hon," meddai Cook, "yn ddigon i effeithio ar galon pob un y mae teimladau goreu ein natur heb eu diwreiddio o honi. Yr oedd yn dra ymlynol wrth ei gŵr; gyda'r hwn yr oedd wedi mwynhau rhai blynyddoedd o ddedwyddwch teuluaidd didor; ac erfyniai ar iddynt gael marw ar unwaith. Wedi gwrthod iddi y dymuniad serchog yma yn y modd mwyaf barbaraidd, hi a droes i liniaru oriau olaf ei gŵr â'r cysuron mwyaf tyner; ac ar ol bod yn dyst o'i ddienyddiad ef, ymbarotôdd erbyn ei merthyrdod ei hun. Yr oedd ei thynerwch fel mam yn dirfawr gynhyrfu ei meddwl. Erfyniodd ar ei chymmydogion fod yn dyner wrth ei rhai bach; ac, i wneyd ei hing yn gyflawn, cymmerodd ei phlentyn sugno oddi ar ei bron, a rhoddodd ef i fammaeth a ragbarotoisai iddo. Eto ni lethodd hyn i gyd ei gwroldeb, ac ni siglodd ei ffydd: ymgododd uwch law ei dyoddefiadau, a bu farw yn wrol ac mewn llawn cysur."

Aberth ardderchocaf y cyfnod hwn ydoedd George Wishart. Yr oedd y dyn godidog hwn wedi disgyn o deulu parchus, perchen etifeddiaeth Pitarrow, yn sir Mearns. Cofleidiodd egwyddorion y Diwygiad pan yn ieuanc. Yn ngwyneb iddo gael ei erlid gan esgob Brechin, am ddysgu y Testament Groeg mewn ysgol yn Montrose, efe a ddaeth i Loegr, ac a fu yn myfyrio am beth amser yn Nghaergrawnt. Dychwelodd i'w wlad yn 1544, yn llawn sel dros y gwirionedd, a dechreuodd yn ebrwydd ar ei yrfa o lafur caled a llwyddiannus. Pregethodd yr efengyl gyda llwyddiant anarferol yn Montrose, Dundee, a thrwy holl orllewin Scotland. "Yr oedd yn rhagori ar ei holl gydwladwyr y pryd hwnw mewn dysg," meddai M'Crie; "ac yr oedd ei hyawdledd o'r fath fwyaf deniadol; ei fywyd yn ddifrycheulyd; ei foesau yn ddillynaidd a hyfwyn; a'i dduwioldeb, ei sel, a'i wroldeb diffuant yn achos y gwirionedd, wedi eu tymmeru â thiriondeb, gwylder, amynedd, doethineb, a chariad digyffelyb. Pan yn teithio i bregethu, canlynid ef yn gyffredin gan rai o'r prif foneddigion, a gorlenwid y bobl a ymdyrent i'w wrandaw gan lawenydd." Dychrynid y cardinal Beaton a'r offeiriaid yn ddirfawr wrth glywed am boblogrwydd Wishart, a phenderfynasant ei lethu ar unwaith. Wedi i gynnyg at ei lofruddio fethu, daliwyd ef, a thaflwyd ef i garchar; darostyngwyd ef i brawf anghyfreithiol, a dedfrydwyd ef i'w losgi. Rhoddwyd y ddedfryd mewn grym yn St. Andrews, Mawrth 1af, 1546, yn mhresennoldeb y cardinal a'r preladiaid ereill. O fewn llai na thri mis ar ol hyny, Mai 29ain, dangoswyd corff llofruddiedig Beaton o'r un ffenestr ag yr oedd efe yn edrych ar ddyoddefiadau y merthyr. Cynhyrfodd ei uchelgais, ei anghyfiawnder, a'i greulondeb anfoddlonrwydd a chasineb cyffredinol. Ffurfiwyd bradwriaeth yn ei erbyn, ac aeth ei fywyd yn fforffed.

Yr oedd John Knox yn canlyn Wishart yn ei daith olaf; a phrin y diangodd heb gyfranogi o'r un dynged. Yr oedd Wishart wedi cael rhagsyniad o'i farwolaeth, ac ni chaniatäai i Knox ei ddilyn yn mhellach. Anfonodd ef yn ol, gan ddyweyd, "Y mae un aberth yn ddigon." Yr oedd y gwr enwog wedi cydnabod ei syniadau Protestanaidd er o ddeutu y flwyddyn 1542. Yr oedd y pryd hyny yn yr 37fed flwyddyn o'i oedran. Ar ol cael addysg dda, efe a aeth i'r offeiriadaeth, a choleddid gobeithion mawrion am ei enwogrwydd dyfodol. Ond nis gallai ei feddwl tanbaid ymofyngar ef foddloni ar sych-wersi diffrwyth yr ysgolion; am hyny, efe a ymroddodd i fyfyrio cyfansoddiadau Jerome ac Awstin, a thadau ereill; ac oddi wrth y rhai hyny arweiniwyd ef at yr Ysgrythyrau. Y canlyniad fu iddo adael y gyfundrefn Babaidd. Wedi ei orfodi o blegid hyn i adael St. Andrews, ar ol bod yn athraw defnyddiol yn mhrifysgol y ddinas hono am lawer o flyneddoedd, efe a aeth i deulu Hugh Douglas, o Langniddrie, yn East Lothian, fel athraw i'w feibion. Ond yr oedd efe yn ddyn wedi ei nodi eisoes. Gwnaed aml gynnyg ar ei fywyd, a daeth yn angenrheidiol iddo chwilio am noddfa. Yr oedd y bradwyr yn erbyn y cardinal Beaton wedi cymmeryd gafael yn nghastell St. Andrews, ac yn cadw meddiant o hono. Cymmerodd llawer ereill oedd yn cael eu blino gan erlidigaeth noddfa yno, ac ymunodd Knox a'i ddysgyblion gyda hwy o gylch y Pasc, 1547. Cafodd waith cydweddol â'i natur yn fuan. Gwahoddwyd ef trwy bleidlais unfryd y gwarchodlu i ddyfod yn gydswyddog a John Rough, yr hwn oedd wedi gweithredu hyd yn hyn fel yr unig gapelwr. Aeth i'r swydd hon gyda llawer o ofn a dychryn; ond yr oedd ei gymhwysder hynod i'r gwaith yn cael ei gydnabod yn gyffredinol. Yr oedd ei esboniadau eglur o'r Ysgrythyrau, a'i hyfder yn condemnio cyfeiliornadau Pabyddiaeth, yn dra defnyddiol. Argyhoeddwyd nifer mawr o drigolion St. Andrews fod Pabyddiaeth yn wrth-Gristionogol, a gadawsant yr eglwys yn gyhoeddus. Buasai newidiadau mawrion wedi cymmeryd lle, oddi gerth canlyniad anffodus yr ymryson, yn yr hwn y cyfranogodd y bradwyr yn erbyn Beaton a'r rhai oedd yn ei bleidio. Ar ol cael cynnorthwy llynges Ffrainc, gorfodwyd hwy i ymostwng; a chadwyd Knox, ac amryw ereill, mewn dalfa am amser maith mewn rhwyflong Ffrengig. Rhyddhawyd Knox yn 1549, ac aeth i Loegr, lle yr arosodd, gan lafurio yn ddiwyd yn achos y Diwygiad, dan nawdd Edward VI, hyd 1554.

Attaliwyd cynnydd y Diwygiad yn Scotland am lawer blwyddyn. Wedi i'r offeiriaid gael y llaw uchaf, defnyddiasant eu gallu gydag egni nodedig. Erlidiwyd rhai o amddiffynwyr mwyaf dylanwadol crefydd, dan amryw o esgusion, ac alltudiwyd neu dienyddiwyd hwy. Adnewyddwyd y cyfreithiau yn erbyn heresi, a chwanegwyd deddfwriaethau ereill. Ac, er mwyn cyfarfod â'r galwad cynnyddol am y Diwygiad, cynnaliwyd cynghorau taleithiol yn 1549, 1551, a 1552; pan y gwnaed trefniadau, y rhai, pe cadwasid atynt, a fuasent yn peri gwelliadau mawrion yn muchеddau a moesau yr offeiriaid, ac yn ansawdd yr addysg a gyfranent. Annogid hwy i beidio cadw eu plant anghyfreithlawn yn eu tai, ac i beidio ceisio bywoliaethau eglwysig iddynt. Rhwymid esgobion a pherigloriaid i bregethu eu hunain o leiaf bedair gwaith o weithiau yn y flwyddyn.

Os oedd rhai o honynt yn anghymhwys i'r gorchwyl, o ddiffyg ymarferiad, yr oeddynt i gadw duwinyddion dysgedig yn eu tai i'w hyfforddi. Yr oedd bywoliaeth i'w rhoi o'r neilldu yn mhob esgobaeth at gynnal pregethwr, neu dâl blyneddol i gael ei drefnu; ac yr oedd y pregethwr y darperid felly ar ei gyfer, i bregethu yn mhlwyfydd y dosbarth y byddai fwyaf o angen am hyny.

Digitized by Google

Casglwyd holwyddoreg gan yr achesgob Hamilton, yr hwn a ddilynodd Beaton yn St. Andrews; a danfonid copiau o hono i bob perigloriaid, ficeriaid, a churadiaid, gyda chyfarwyddiadau i ddarllen rhan o hono yn lle pregeth, bob Sul a gwyl, pan na byddai person addas i bregethu yn bresennol. Cyfarwyddid hwy yn mhellach "i arfer darllen yn eu holwyddoreg yn ddyddiol, rhag, wedi iddynt esgyn i'r pulpud, attal dywedyd ac amryfuseddu, a thrwy hyny beri i'r bobl chwerthin am eu penau." Yr oedd canonau y cynghorau hyn yn cynnwys llawer o ddarpariadau ardderchog; ond yr oeddynt yn gwbl aneffeithiol. Yr oedd bucheddau halogedig yr offeiriaid yn anniwygiedig; a buan yr esgeuluswyd ac yr anghofiwyd y *ffydd ddwy geiniog*—fel y gelwid yr holwyddoreg mewn gwawd, oddi wrth y pris y gwerthid y llyfr. Dywed Cook fod dadl yn cael ei chario yn mlaen yn St. Andrews y pryd hyny, a rydd oleuni nodedig ar sefyllfa crefydd yn yr amser hwnw. Ymwelodd un, Richard Marshall, penfynach y Dominiciaid yn Newcastle, â St. Andrews, a thraddododd bregeth, yn yr hon y dysgai fod Gweddi yr Arglwydd i'w chyflwyno i Dduw yn unig. Yr oedd doctoriaid y brifysgol yn dra digofus o blegid yr haeriad, a rhoddasant fynach arall ar waith, yr hwn yr haerai y gellid offrymu Gweddi yr Arglwydd i'r saint; ac eglurodd ei holl erfyniadau ar yr egwyddor hono.

Er fod cyfeillion yr efengyl mewn cyfyng-gynghor, etto nid oeddynt yn anobeithiol. Yr oedd llawer etto yn glynu, y rhai a gyfarfyddent yn ddirgel i hyfforddi eu gilydd. Yr oedd esgyniad y frenines waddolog i'r rhaglawiaeth, ar ymneillduad iarll Arran, yn 1554, yn ffafriol i'w hachos; gan iddi, er mwyn iddynt bleidio ei honiadau hi i'r swydd uchel, addaw, os llwyddai, eu hamddiffyn yn erbyn malais yr offeiriad. Yr oedd yr erledigaeth yn Lloegr, dan Mari, yn ffafriol i gynnydd yr efengyl yn y taleithiau Scotaidd. Ceisiodd rhai o'r gwyr da a ffoisant rhag yr ystorm noddfa yn Scotland, "lle y goddefid iddynt aros yn ddiogel," meddai M'Crie, "a hyd yn oed i ddysgu yn ddirgel, trwy gydoddefiad y rhaglawes newydd, ac mewn canlyniad i'r diogelwch y suwyd yr offeiriaid iddo gan eu llwyddiant. Trwy deithio o le i le, dysgasant luaws o newydd, a thrwy eu hesampl a'u cynghorion ennynasant y sel guddiedig oedd yn y rhai a dderbyniasant wybodaeth o'r gwirionedd yn flaenorol."

Yr oedd dyfodiad Knox yn amgylchiad pwysicach fyth. Pan y gadawodd Loegr, ar ol marwolaeth Edward, aeth yn gyntaf oll i Geneva, lle y derbyniwyd ef yn garedig gan Calvin a'i gyfeillion. Yn Tachwedd, 1554, ymgymmerodd â'r swydd o arolygu yr eglwys Seisonig a sylfaenesid gan yr ymnoddwyr ag oedd wedi ymsefydlu yn Frankfort on the Maine. Torodd ymraniadau allan yn mysg yr aelodau yn mhen amser, yr hyn a barodd iddo ddychwelyd i Geneva. Pan y derbyniodd hysbysiad am yr agwedd obeithiol oedd ar bethau yn Scotland, barnodd mai ei ddyledswydd oedd ymweled eilwaith â gwlad ei enedigaeth. Ymadawodd o Geneva yn Awst, 1555, ac arosodd yn Scotland hyd Gorphenaf. Treuliodd yr amser y bu yno mewn llafur dibaid, gan bregethu, athrawiaethu, ysgrifenu, a theithio o'r naill le i'r llall. Yr oedd Erskine o Dun, Maitland o Lethington, arglwydd Lorn (iarll Argyle wedi hyny), arglwydd Erskine (iarll Mar wedi hyny), a'r arglwydd James Stuart (iarll Murray ar ol hyny), a llawer ereill o bendefigion, yn mhlith ei wrandawyr. Pregethai mewn tai anghyhoedd, ac yn mhalasau y mawrion; ac yr oedd yn rhaid iddo deithio yn ddirgelaidd: er hyny ymgasglai lluaws mawr i'w wrandaw. Gweinyddwyd Swper yr Arglwydd ar amryw achlysuron yn ol y Testament Newydd; a chydsyniodd y rhai a dderbyniasant y gwirionedd i beidio myned rhag llaw i'r offeren, fel yr oeddynt wedi arfer, ond yr ymneillduent yn hollol oddi wrth yr Eglwys Babaidd, ac yr ymgynnullent yn ddirgel i addoli Duw hyd nes y gwawriai amser gwell arnynt. Gwnaeth rhai o honynt gyfammod difrifol hefyd i'r un effaith—esampl a ddilynwyd gan laweroedd yn Scotland ar ol hyny. Yr oedd yn anmhosibl dwyn yr holl waith hwn yn mlaen yn ddirgel. Adroddwyd gweithrediadau Knox i'r esgobion, a gwysiwyd ef i ymddangos ger bron cynghor o'r clerigwyr, yn eglwys y Black Friars, Edinburgh. Aeth yno ar y diwrnod appwyntiedig, yn cael ei ddilyn gan Erskine o Dun, a boneddigion ereill; ond ni chynnaliwyd un cyfarfod; canys pan ddeallodd y clerigwyr, y rhai a ddysgwylient na buasai yn ymddangos, ac felly y caent ei gondemnio yn ei absennoldeb, ei fod yn debyg o ateb i'r wŷs, gosodasant hi o'r neilldu dan yr esgusawd fod rhywbeth yn annhrefnus ynddi, ac ni feiddiasant ddangos eu hunain. Bu yr amgylchiad hwn yn fantais fawr i'r diwygiwr. Ar y diwrnod yr oedd efe i fod yn sefyll wrth y fainc fel troseddwr, pregethodd yn lletty esgob Dunkeld i gynnulleidfa lawer mwy lluosog nag a welsai erioed o'r blaen; a pharhaodd i bregethu yn yr un man, ddwywaith yn y dydd, am y deng niwrnod canlynol, heb brofi yr aflonyddwch lleiaf. Gwahoddwyd Knox gan y gynnulleidfa Seisonig yn Geneva i fod yn weinidog iddynt; a chan fod yn beryglus iddo aros yn hwy yn Scotland, derbyniodd y cynnygiad. Ar ei ymadawiad, ysgrifenodd lythyr at ei gyfeillion, i gael ei ledaenu yn y lleoedd yr oedd wedi bod yn pregethu ynddynt. Cynnwysai gyfarwyddiadau iddynt pa fodd i ymddwyn yn yr amgylchiadau yn mha rai yr oeddynt. Ar ol eu hannog i ddarllen y Beibl yn fynych, a chynnal addoliad teuluaidd, cymhellai hwynt i ymgyfarfod unwaith yn yr wythnos i gynnal addoliad cyhoeddus. Cynghorai hwynt i ddechreu eu cyfarfodydd drwy weddi a darllen cyfran o'r Ysgrythyrau. Yna, "os byddai gan unrhyw frawd gynghor, esboniad, neu ammheuaeth ar unrhyw fater, gallai lefaru; ond dylai wneyd hyny yn ostyngedig, a chyda dymuniad i addysgu neu i gael ei addysgu; gan ochel 'mynychder geiriau, deongliadau dyrus, a chyndyn ymddadleu.' Os cyfarfyddent, wrth ddarllen neu ymddyddan, âg anhawsderau nas gallent eu dadrys, cynghorai hwynt i'w hysgrifenu cyn ymadael, fel y gallent ofyn barn gwŷr dysgedig yn eu cylch; a dywedodd ei fod ef yn barod i roddi unrhyw gyfarwyddyd iddynt drwy lythyrau, pa bryd bynag y byddai yn angenrheidiol."—[*M'Crie*, i. 193.]

Parhäai nifer y Protestaniaid i luosogi yn barhaus, a theimlai eu harweinwyr mor hyderus a chalonog am y dyfodol fel yr anfonasant lythyr at Knox, i ddymuno arno ddychwelyd. Derbyniodd y llythyr yn Mai, 1557; ac ar ol ystyried y pwnc, ac ymgynghori â'i gyfeillion, penderfynodd gydsynio â'r gwahoddiad. Cyrhaeddodd i Dieppe, ar ei ffordd i Scotland, yn Hydref. Tra yno, derbyniodd ail lythyr yn ei hysbysu fod rhai o'r personau a ymddangosent yn benderfynol wedi dechreu petruso, gan arswydo rhag

Digitized by Google

canlyniadau y fath symmudiad eofn, ac ofni nad oedd eu plaid eto yn ddigon cref i anturio ar y fath orchwyl. Dychwelodd y diwygiwr yn somedig, ond nid yn ddigalon, i Geneva; ond nid cyn anfon cerydd difrifol i'w gyfeillion am eu hansefydlogrwydd. Cynnyrchodd y cerydd effaith rhyfeddol. Ymgyfarfuasant yn uniongyrchol, a gwnaethant gyfammod i gyssegru eu hunain a phob peth a feddent at achos y Diwygiad. Dilynwyd hyn gan fesurau penderfynol. Mabwysiadodd y Protestaniaid yr enw gwahaniaethol "Y Gynnulleidfa," a galwent y pendefigion i ba rai yr oeddynt wedi ymddiried llywodraethiad eu hachosion, yn "Arglwyddi y Gynnulleidfa." A phasiwyd y penderfyniadau canlynol, y rhai a anfonwyd i bawb y gwyddid eu bod yn proffesu Protestaniaeth:—1. Bernir y byddai darllen y Weddi Gyffredin (yn ol y ffurf Seisonig) yn holl blwyfydd y deyrnas bob Sabbath, a phob dydd gŵyl, yn yr eglwysydd, yn llesol ac yn fanteisiol, yn nghyd â'r gwersi o'r Hen Destament a'r Newydd a nodir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin; ac os bydd curadiaid y plwyfydd yn gymhwys, y dylid gorchymyn iddynt ddarllen y cyfryw; ac os na byddent, neu os gwrthodent, bod i'r un mwyaf cymhwys yn y plwyf eu darllen. 2. Bernir mai mewn tai anghyhoedd, lle na byddo ond ychydig bobl, y dylid athrawiaethu, pregethu a deongli yr Ysgrythyrau, hyd nes y tueddo Duw y tywysog i ganiatau i weinidogion cywir a ffyddlawn bregethu yn gyhoeddus."—[*Cook*, ii. 35.] A gweithredodd y Protestaniaid yn ol y penderfyniadau hyn yn yr holl blwyfydd ag oedd dan eu rheolaeth, ac yn eu hanneddau. Edrychai y clerigwyr ar y cyfnewidiadau hyn gyda dychryn. Ceisient ddychrynu y rhai nas gallent eu darbwyllo drwy eu bygythion. Wedi darganfod Walter Mill, offeiriad oedranus, yr hwn a gafodd ei orfodi i ddianc yn amser y cardinal Beaton, am y tybid ei fod yn heretic, cymmerwyd ef i fyny, a dygwyd ef i sefyll ei brawf o flaen archesgob St. Andrews. Er somedigaeth i'r archesgob a'i glerigwyr, amddiffynodd yr hen ŵr ei hun yn fedrus, er ei fod yn 82 mlwydd oed, Ond ni thyciodd hyny iddo. Condemniwyd ef fel heretic cyndyn, a chafodd ei losgi Awst 28ain, 1558. Wedi iddo gael ei sicrhau wrth yr ystanc, dywedodd, "Am danaf fi, yr wyf yn ddwy flwydd a phedwar ugain oed, ac nis gallwn, yn ol trefn natur, fyw lawer yn hwy; ond fe gyfyd cant o rai gwell na mi allan o'm lludw. Yr ydwyf yn gobeithio gan Dduw mai myfi fydd y diweddaf i ddyoddef marwolaerh yn Scotland yn yr achos hwn."—[*M'Crie*, i. 234.]

Cynnyrchodd y dienyddiad creulawn hwn ddigofaint cyffredinol. Aeth y Protestaniaid yn gadarnach ac yn fwy eofn. Anfonodd arglwyddi y gynnulleidfa anerchiad at y frenhines, i erfyn ei nawdd yn erbyn gweithredoedd gorthrymus y clerigwyr, ac i ofyn y goddefiadau canlynol:—bod i'w haddoliad gael ei gyfreithloni; bod i'r ordinhadau o fedydd a Swper yr Arglwydd gael ei gweinyddu yn iaith y wlad, a'r ddiweddaf yn y ddwy elfen; bod i fucheddau drygionus a gwaradwyddus y clerigwyr gael eu diwygio, fel na byddo i'r bobl ddiystyru eu gweinidogaeth; "bod i'r Diwygiad hwn gael ei reoleiddio yn ol cyfarwyddiadau y Testament Newydd, ysgrifeniadau y tadau, a deddfau duwiolfryd yr ymherawdwr Justinian."—*Cook*, ii. 46.] Cymmerodd y frenines arni ddangos teimladau caredig; addawodd amddiffyniad iddynt, a chaniataodd i'r addoliad gael ei ddwyn yn mlaen yn iaith y bobl. Ond ymddangosodd cyn hir mai ei hamcan yn hyn oedd ennill amser, a'i bod yn dirgel fwriadu darostwng Protestaniaeth, mewn cydsyniad â chyfarwyddiadau a dderbyniasai oddi wrth ei hewythredd o Ffrainc (y Guisiaid), mor fuan ag y byddai ei chynlluniau yn barod. Ar ol gwneyd amryw barotoadau, bwriodd ymaith bob cochl, a chyhoeddodd deyrnarch yn gorchymyn i bawb broffesu Pabyddiaeth, ymgasglu yn ddyddiol i'r offeren, a chyffesu i'r offeiriaid; a gwysiodd y rhai enwocaf o'r pregethwyr diwygiadol o flaen senedd oedd i gael ei chynnal yn Stirling, i atteb i unrhyw gyhuddiadau a allent gael eu dwyn yn eu herbyn. Gwnaed ymdrechion er ceisio ganddi ymwrthod â'i hamcanion, ond ni lwyddwyd ond dros ychydig; canys gwysiodd y pregethwyr eilwaith. Penderfynodd y Protestaniaid ddilyn eu gweinidogion ar yr achlysur, er dangos eu penderfyniad a'u serch at yr achos. Perth oedd y lle i ymgyfarfod; ac ymgasglasant yno o'r siroedd cylchynol. Er attal i gamgasgliadau gael eu tynu oddi wrth ymddangosiad y fath gynnulleidfa fawr, anfonwyd Erskine o Dun at y frenines, i esbonio amcan y cydgynnulliad. Ffugiodd y frenines deimladau caredig unwaith drachefn. Dywedwyd wrth Erskine, os chwalai y bobl, y peidid âg erlid y pregethwyr, ac y gwneid y fath ddarpariadau ag a sicrhäai ddiogelwch i'r blaid Brotestanaidd. Ymddiriedodd yn yr addewid, a chynghorodd ei gyfeillion i ddychwelyd adref. Cydsyniodd y mwyafrif; ond arosodd y prif farwniaid a'r prif foneddigion, yn nghyd â'r pregethwyr, yn Perth. Mor fuan ag y deallodd y frenhines eu bod wedi cydsynio â'i chais twyllodrus, bwriodd ymaith ei hud a'i lledrith. Ac ar yr un diwrnod ag yr oedd y pregethwyr i ymddangos, anfonodd gyhoeddiad allan i'w hamddifadu o nawdd y gyfraith am eu habsennoldeb; a gwaherddid i bawb, dan boen dirwyon trymion, roddi lloches iddynt na'u cynnorthwyo mewn un modd. Agorwyd llygaid yr arweinwyr Protestanaidd drwy y twyll ffiaidd hwn; a darbwyllodd hwynt fod yn rhaid iddynt fabwysiadu mesurau mwy penderfynol ac eofn.

Ar yr adeg gyfyng hon, cyrhaeddodd Knox i Scotland. Glaniodd Mai 2il, 1559, sef wyth niwrnod cyn yr amser ag oedd wedi ei bennodi i'r pregethwyr ymddanges yn Stirling; ac ar ol treulio noswaith yn Edinburgh, prysurodd i Dundee, ac oddi yno i Perth, lle y cafodd dderbyniad croesawger gan ei frodyr. Mai 11eg, sef y dydd ar ol condemiad ei gyfeillion, pregethodd Knox yn ei ddull hyawdl arferol yn erbyn yr eilunaddoliaeth a arferid yn Eglwys Rhufain, yn yr offeren yn gystal ag mewn addoliad delwau, ac adgoffaodd i'w wrandawyr y gorchymynion lluosog oedd wedi eu rhoddi gan Dduw i ddinystrio delwau. Ar ol y gwasanaeth, ymwahanodd y rhan fwyaf o'r gynnulleidfa yn dawel, pryd y cyfododd offeiriad ag oedd yn bresennol, "gan ddymuno naill ai profi tueddiad y bobl, ynte dangos ei ddiystyrwch o'r athrawiaeth ag oedd wedi ei thraddodi gan y pregethwr, ac y dadorchuddiodd allor fechan brydferth, wedi ei haddurno â delwau, gan ddarparu at gadw gwasanaeth yr offeren. Dywedodd bachgen a safai ger llaw ryw ymadroddion o anghymmeradwyaeth, a tharawodd yr offeiriad ef. Ad-dalodd y bachgen trwy daflu careg at ei ymosodydd, yr hon, drwy ddisgyn ar yr allor, a dorodd un o'r delwau Gweithredodd hyn fel arwydd ar y bobl oedd yn bresennol, y rhai a gymmerasant blaid y

Digitized by Google

bachgen; ac, yn mhen ychydig fynydau, tynwyd i lawr yr allor, y delwau, a holl addurniadau yr eglwys, a mathrwyd hwy dan draed. Casglwyd tyrfa yn nghyd drwy y cynhwrf, y rhai a ymosodasant yn uniongyrchol ar y mynachlogydd; ac er i ynadon y dref a'r pregethwyr ymgasglu yn nghyd mor fuan ag y clywsant am y cythrwfl, eto ni lwyddodd annogaethau y naill, nac awdurdod y lleill, i ddarostwng y cynhyrfwyr, hyd nes yr oedd tai y mynachod llwydion a duon, yn nghyd âg adeilad ddrudfawr y mynachod Carthusiaidd, wedi eu malurio yn hollol."—[*M'Crie*, i. 259.]

Mewn canlyniad i hyn, casglodd y frenines ei galluoedd yn nghyd yn uniongyrchol, gan fygwth dialedd ar ddinystrwyr yr adeiladau sanctaidd; ac aeth i Perth, gan benderfynu aurheithio y dref. Ymarfogodd arglwyddi y gynnulleidfa er hunan-amddiffyniad, ac yr oedd yr olwg arnynt hwy a'u plaid mor fygythiol fel y barnodd y frenines mai y ffordd ddoethaf oedd peidio anturio ar ymosodiad. Dilynwyd hyn gan gylafareddiadau; ond amcan y frenines oedd ennill amser, er mwyn casglu ei nerthoedd yn nghyd i'w llethu yn llwyr yn y pen draw. Bu ar y pwynt o gwblhau ei hamcan ddwy waith. Buasai achos y Diwygiad yn Scotland yn sicr o gael ei ddinystrio yn anadferadwy, oni buasai i'w arweinwyr lwyddo i gael cymhorth y frenines Elizabeth, yr hon yn gyntaf a anfonodd arian iddynt, ac wedi hyny a wnaeth gytundeb â hwy, mewn canlyniad i'r hyn y chwanegwyd byddin Seisonig at eu galluoedd blaenorol; ac o'r diwedd, coronwyd hwy â llwyddiant. Parhaodd y rhyfel cartrefol tua blwyddyn. Llawnodwyd heddwch, Gorphenaf 7fed, 1560. Ymadawodd yr holl filwyr tramor o'r wlad; sef, y Ffrancod—pleidwyr y frenines; a'r Seison—trwy gymhorth pa rai yr ennillodd y diwygwyr yr oruchafiaeth. Bu farw y frenines ychydig amser cyn terfyniad y rhyfel; a chan mai yn Ffrainc y preswyliai ar y pryd, trosglwyddwyd y llywodraeth i ofal cynghor; ac yr oedd yn amlwg fod mantoliad gallu y deyrnas o ochr y Diwygiad.

Parhaodd y Diwygiad i lwyddo hyd yn ced yn ystod y rhyfel. Dilynwyd yr esampl a roddodd Perth gan St. Andrews, Edinburgh, Stirling, Cupar, a lleoedd pwysig ereill. Tynwyd i lawr y mynachlogydd. Dinystriwyd y delwau, y darluniau, yn nghyd â phob peth a dueddai at eilunaddoliaeth. Sefydlwyd addoliad Protestanaidd. Ymunodd amryw wŷr eglwysig enwog, ag oedd yn nodedig am eu dysgeidiaeth a'u duwioldeb, â'r diwygwyr, a gwnaethant eu goreu o blaid yr achos. Ar derfyniad y rhyfel, yr oedd mwyafrif y genedl yn Brotestaniaid. Yr oedd y llwyddiant hwn i'w briodoli yn benaf i eofndra, doethineb, ac ymdrechion Knox. Yr oedd efe yn bresennol yn wastadol gydag arglwyddi y gynnulleidfa—yn y maes, yn gystal ag yn yr amddiffynfeydd. Cynghorai hwynt mewn anhawsderau; a phan y teimlent yn ddigalon, adnewyddai eu sel drwy ei frwdfrydedd. Yn Hydref, 1559, ymgymmerodd â thaith bregethwrol drwy ran helaeth o'r deyrnas, canlyniad pa un oedd chwanegiad dirfawr at nifer y diwygwyr. Yn ystod y gauaf dilynol, dygodd yn mlaen y cylafareddiad a'r llys Seisonig. "Trwy ei sel a'i weithgarwch, tynodd yn ei ben ddigofaint marwol y frenines a'r Pabyddion. Cynnygiwyd gwobr yn gyhoeddus i unrhyw un a allai ei ddal, neu ynte ei ladd; a gwyliid ef gan nid ychydig bersonau, y rhai a gymhellid gan gasineb neu ariangarwch, er ei ddal. Ond ni attaliwyd ef gan hyn i ymddangos yn gyhoeddus, nac i deithio drwy y wlad yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau. Yr oedd ei ymdrechion yn y cyfnod hwn yn anghredadwy o fawrion. Pregethai yn ystod y dydd; ac yn y nos ysgrifenai lythyrau ar achosion cyhoeddus. Canfyddid ef bob amser yn y lleoedd mwyaf peryglus; ac adnewyddai yr holl Brotestaniaid, a dadymchwelodd y cynlluniau a ddefnyddiwyd i'w llygru ac i'w gwahanu, drwy ei bresennoldeb, ei areithiau cyhoeddus, a'i gyfarwyddiadau dirgel."—[*M'Crie*, i. 296.]

Mewn cyfarfod o'r senedd a gynnaliwyd yn Awst, 1560, cafodd y Diwygiad ei sefydlu yn Scotland. Cymmeradwywyd cyffes ffydd a ddarparesid gan Knox a'i frodyr, a phasiwyd tair deddf. Trwy y gyntaf, diddymwyd awdurdod y pab yn Scotland; drwy yr ail, dilewyd y deddfau ag oedd wedi eu gwneyd o blaid yr Eglwys Babaidd; a thrwy y drydedd, ordeiniwyd fod i bob un a gyflawnai wasanaeth yr offeren, neu a fyddai yn bresennol ar y pryd—am y trosedd cyntaf, gael ei gospi trwy attafaelu ei feddiannau, neu trwy boen corfforol; am yr ail drosedd, trwy alltudiaeth o'r deyrnas; ac am y trydydd, trwy farwolaeth. Yr oedd Knox hefyd wedi parotoi cynllun o lywodraeth eglwysig, a alwyd ar ol hyny, *Llyfr Cyntaf Dysgyblaeth*. Gosodwyd ef ger bron y senedd; ond yr oedd y cyfnewidiadau yn rhy fawrion i dderbyn cymmeradwyaeth unfrydol; ac, ar y cyfrif hwnw, oedwyd y pwnc hyd nes y ceid ymddyddan pellach arno. Er hyny, mabwysiadwyd y cynllun gan y prif ddiwygwyr, a chariwyd ef i weithrediad yn lled gyffredinol.

Esgynodd Mari, brenines y Scotiaid, i'w gorsedd yn Awst, 1561. O'r amser hwnw hyd 1567, pryd y rhoddodd i fyny ei llywodraeth, dyoddefodd achos y Diwygiad lawer oddi wrth ei gelyniaeth anghymmodlawn. Ond o'r diwedd, ennillwyd buddugoliaeth lawn. Cadarnhaodd y senedd gyntaf a gynnaliwyd dan y rhaglaw Murray yr holl ddeddfau a wnaethpwyd mewn cyssylltiad â chrefydd yn 1560, a chwanegwyd deddfau ereill, yn dynodi hawliau, awdurdod, a rhagorfreintiau y ffurflywodraeth yn fwy eglur, gan eu sicrhau oll yn gyflawn at eu dybenion Protestanaidd.

Y DIWYGIAD YN NGHYMRU.

Tra yr oedd amryw wledydd ar y Cyfandir, Scotland, a Lloegr, i raddau, yn cael eu cyffroi drwyddynt gan ddylanwadau nerthol y Diwygiad, yr oedd Cymru anffodus yn gorwedd yn dawel yn nghadwynau haiarnaidd Pabyddiaeth. Gwnaed amryw gyfnewidiadau perthynol i grefydd yn Nghymru yn nheyrnasiad Harri VIII; megys tynu i lawr y mynachlogydd, a symmud y delwau o'r eglwysydd cadeiriol, y rhai yr arferai pobl y wlad eu haddoli. Yr oedd hyny yn ddiwygiad cyn belled ag y cyrhaeddai; ond oddi wrth y brenin a'r senedd y cyfodai, ac nid oddi wrth genedl y Cymry. Cael ei wthio arnynt hwy gan yr awdurdodau, yn groes i'w hewyllys, yr oedd. Nid oes genym hanes am gymmaint ag un pregethwr galluog wedi cyfodi i ysgwyd y genedl, trwy bregethu yr efengyl yn ei phurdeb. Nid yw yr hyn a wnaed i daenu gwybodaeth trwy gyfrwng y wasg hefyd am lawer o flynyddoedd ond prin gwerth ei grybwyll. Yn 1546, cyhoeddwyd cyfieithiad o Weddi yr Arglwydd, y Credo, a'r Deg Gorchymyn, gan Syr John Price, o Aberhonddu, fel y tybir. Yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd William Salesbury ei Eiriadur Seisoneg a Chymraeg. Yn 1550, cyhoedd-

Digitized by Google

wyd llyfryn a elwid *Dymchweliad Allor Uchel y Pab*, gan W. Salesbury; ac yn 1551, cyhoeddodd yr un gŵr gyfieithiad o *Kynnifer llŷth a Ban o'r Ysgrythur ac a Ddarlleir yr Eccleis pryd comun. Sulieu, a'r Gwilieu, trwy'r Vlwyddyn.* Dyna y cwbl o ffrwyth y Diwygiad mewn llenyddiaeth Gymreig, o 1534 hyd 1567. Pan esgynodd Mari i'r orsedd, yn 1553, ac yr adferwyd Pabyddiaeth, ffodd llawer o Brotestaniaid i'r Cyfandir. Yr oedd, y mae yn debygol, yn eu plith ddau neu dri Chymro. Fel y crybwyllwyd, cafodd tua thri chant o Brotestaniaid eu llosgi yn ystod y teyrnasiad hwn yn ngwahanol ranau y deyrnas, ond nid ymddengys fod un Cymro yn y nifer. Yn 1558, esgynodd Elizabeth i'r orsedd, a daeth Protestaniaeth drachefn i fod yn grefydd wladol. Trwy yr holl gyfnewidiadau hyn, yr oedd yr offeiriaid Cymreig, gydag ychydig iawn o eithriadau, yn ddigon ystwyth i droi yn ol ac wrthol. Cadw eu bywioliaethau oedd eu pwnc hwy. Dywedai y Dr. Rowland Meyrick, esgob Bangor, yn 1560, nad oedd ganddo yn ei holl esgobaeth ond dau a fedrent bregethu. Nid oedd cyflwr yr esgobaethau ereill nemawr, os dim, gwell. Yn y rhagymadrodd i'r weithred seneddol a basiwyd yn 1563, yn gorchymyn cyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg, dywedir fod y Cymry yn hollol amddifad o air Duw, a'u bod yn parhau mewn cymmaint, neu yn hytrach fwy, o dywyllwch ac anwybodaeth nag yn amser Pabyddiaeth. Ni ryfedda neb at hyn pan yr ystyrir cymmeriad y rhai a broffesent fod yn arweinyddion i'r bobl mewn crefydd. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1565, cawn nad oedd ond y peth nesaf i ddim o bregethu yn Nghymru, a bod yr offeiriaid yn byw mewn anlladrwydd cyhoeddus, ac yn cadw gordderchwragedd wrth dalu swm blyneddol o dâl am gael eu cadw. Yn y flwyddyn hono, buwyd yn daer am i'r archesgob Parker osod un yn esgob yn Bangor, yr hwn yn ddigel a gadwai dair gordderchwraig! Yn y flwyddyn 1587, cyhuddwyd y Dr. W. Hughes, esgob Llanelwy, o gamlywodraethu ei esgobaeth; a phan wnaed ymchwiliad i'r achos, cafwyd fod yr esgob ei hun yn dal yn ei feddiant un ar bymtheg o'r bywioliaethau cyfoethocaf, fod y rhan fwyaf o'r bywioliaethau mawrion yn meddiant personau nad oeddynt yn byw yn y wlad, fod un a ddaliai y ddwy fywioliaeth oreu yn yr esgobaeth yn llettya mewn tafarndy, ac nad oedd ond tri phregethwr yn trigiannu yn eu plwyfydd; sef y Dr. David Powell, o Riwabon, y Dr. William Morgan, o Lanrhaiadr yn Mochnant, a pherson Llanfechan—hen ŵr pedwar ugain oed. Dywed John Penry yn y flwyddyn 1588:—"Yr wyf yn beiddio sicrhau, a sefyll at hyny, pe chwilid holl goflyfrau Cymru, nas gellid cael allan enw y sir, y dref, neu y plwyf yn mha un y bu gweinidog duwiol a dysgedig am chwe blynedd yn olynol o fewn y naw mlynedd ar ugain diweddaf yn cyflawnu swydd athraw ffyddlawn, ac yn canmawl ei weinidogaeth wrth bob cydwybod dynion. Os wyf yn traethu anwiredd, argyhoedder fi, a bydded i mi gael dyoddef fel enllibiwr; ond os gwirionedd a draethaf, pa ham na oddefir i mi ei draethu?" Yn mhen deugain mlynedd o leiaf ar ol i John Penry ysgrifenu fel hyn, cawn ficer duwiol Llanymddyfri yn galarganu yn y geiriau canlynol:—

"Mae'r *'ffeiriad*, mae'r ffermwr,
Mae'r hwsmon a'r crefftwr,
Mae'r baili a'r barnwr,
A'r bonedd o'r bron,
Bob un am y cynta yn digio'r Goruchaf,
Heb wybod p'un waetha'u harferion
Puteindra'r Sodomiaid,
A meddwdod y Parthiaid,
Lledrad y Cretiaid,
O! credwch y gwir—
Ffalsedd gwlad Graecia,
A gwangred Samaria
Sy'n awr yn llettua yn mhob rhandir:
Mae'n anfoes im' draethu
Ein campiau ni 'r Cymry,
Rhag c'wilydd mynegi
'N hymddygiad i'r byd," &c.

Nid ymddengys i'r cyfnewidiad yn y cyfreithiau gyda golwg ar grefydd effeithio dim ar genedl y Cymry, fel cenedl, ond ei symmud oddi wrth Babyddiaeth at ddidduwiaeth; ond rhoddodd gyfleusdra manteisiol i'r neb fuasai â medr a chalon ganddo i lafurio er lles crefyddol ei gydwladwyr. Daliodd ychydig bersonau afael yn y fantais hon, a gwnaethant waith sydd wedi anfarwoli eu henwau. Bydd coffadwriaeth Richard Davies, William Salesbury, Thomas Huet, William Morgan, Richard Parry, ac ereill o'u cynnorthwywyr yn y gwaith o gyfieithu y Beibl i'r Gymraeg, yn fendigedig tra byddo Cymru, Cymro, a Chymraeg. Ond tra y cafodd ein hynafiaid yn yr unfed ganrif ar bymtheg eu bendithio â dynion addas i gyfieithu gair Duw, nid ymddengys i gymmaint ag un galluog gyfodi yn eu plith yn y ganrif hono i'w bregethu yn y fath fodd ag i dynu unrhyw sylw neillduol. Yn ofer y chwiliwn dudalenau hanes y Diwygiad Protestanaidd am un Jewell, Latimer, Cranmer, neu Knox Cymreig. Pe cawsai ein cydwladwr seraphaidd, John Penry, ryddid a bywyd am ychydig flynyddoedd, buasem ni fel cenedl yn awr yn gallu ymffrostio mewn cyn enwoced diwygiwr ag un genedl yn Ewrop. Nid oedd nemawr, os oedd neb, o'i gydoeswyr yn rhagori arno er ieuenged ydoedd, mewn dysg, doniau, duwioldeb, a sel. Mewn llyfryn a gyhoeddodd yn 1587, dywed fod cyfieithiad o'r prophwydi bychain i'r Gymraeg yn barod i'r wasg ganddo, ac y gallasai unrhyw ddyn cyfarwydd yn yr iaith wreiddiol gyfieithu yr oll o'r Hen Destament mewn dwy flynedd. Dengys yr amryw frawddegau Cymreig a gyfarfyddir yn ei ysgrifeniadau nad oedd neb yn ei oes yn fwy o feistr ar iaith ei fam nag ef. Ond gwelodd Rhagluniaeth yn dda oddef i elynion diwygiad crefyddol roddi terfyn ar fywyd y gŵr ieuanc gobeithiol hwn ar gychwyniad ei yrfa fel dyn cyhoeddus. "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef!"

Y mae diffyg sel gweinidogion crefydd ac anghrefyddolder y genedl yn ymddangos yn amlwg yn yr hwyrfrydigrwydd gyda pha un y dygwyd yr Ysgrythyrau allan. Er i ddeddf seneddol gael ei phasio yn nechreu y flwyddyn 1563, yn gorchymyn i'r holl Feibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin gael eu cyfieithu, eu hargraffu, a'u gosod yn mhob eglwys trwy y Dywysogaeth, erbyn y cyntaf o Fawrth, 1566, a bod esgobion Llanelwy, Llandaff, Tŷ Ddewi, Bangor, a Henffordd, i fod dan ddirwy o ddeugain punt yr un os na buasent yn edrych fod y gwaith wedi e orphen erbyn yr amser hwnw, eto nid ymddangosodd dim ond y Testament Newydd yn unig, a hyny yn mhen blwyddyn ar ol yr amser a nodi yn y weithred i'r cwbl fod yn barod. Aeth u flynedd ar ugain drachefn heibio cyn cael cyfieithiad o'r holl Feibl; ac nid ymddengys i'r cyfieithydd—Dr. Morgan—gael ei osod ar waith gan nac esgob na senedd; ond mai o'i ewyllys da

ei hun yn unig yr ymgymmerodd âg ef. Y mae yn debygol mai digon o gopïau at bulpudau y llanau yn unig a argraffwyd o Feibl Dr. Morgan. Yn 1620, pan oedd y copïau o'r argraffiad cyntaf wedi heneiddio, treulio, a phydru yn yr eglwysydd cafwyd argraffiad newydd diwygiedig gan yr Esgob Parry, ond yn unig eto at bulpudau y llanau. Ni chafwyd argraffiad o'r Beibl i'r bobl cyn 1630. Felly aeth heibio agos i ganrif oddi ar gychwyniad y Diwygiad cyn i'r werin yn Nghymru gael gair Duw i'w dwylaw.

Prin y gellir dyweyd fod dim teilwng o'r enw *Diwygiad* wedi cymmeryd lle yn Nghymru hyd gyfodiad Ymneillduaeth yn 1633. Pethau rhagbarotoawl i ddiwygiad a gymmerasant le yn flaenorol i hyny. O'r pryd hwnw hyd yn awr y mae yr Arglwydd wedi cyfodi dynion enwog o oes i oes yn yr Eglwys Sefydledig ac yn mysg yr Ymneillduwyr, ac wedi bendithio eu llafur i'r fath raddau fel y mae Cymru erbyn heddyw y wlad fwyaf Brotestanaidd ar y ddaiar.—(*J. H. Merle D'Aubigné's Reform.; Michelet's Mem. of Luther; Euseb., Hist. Eccl.; Hottinger's Hist. Eccl.; Mycon., Hist. of the Reform.; Seckendorf's Hist. of Lutherans; M'Crie's Hist. of the Reformation in Italy; Beza's Hist. Eccl.; Félice's Hist. des Prot. de France; Fox's Mart.; Burnet's Hist. of Ref.; Encycl. Britannica; Herzog's Real Encyclop.; Stripe's Annals of the Reformation, and his Life of Archbishop Parker; Penry's Equity of an humble supplication in the behalf of the country of Wales,* 1587, *and his Exhortation unto the people and Governors of her Majesty's country of Wales,* 1588.)

DOCETIAID: cangen o'r Gnosticiaid, y rhai y deillia eu henw o'r gair Groeg *δοκεω=ymddangos, dychymygu*; o blegid haerent na fodolai Crist ond mewn ymddangosiad yn unig. Yr oeddynt yn wahanedig i ddwy blaid. Dywedai rhai mai lledrith hollol oedd corff yr Iesu; ac mai ymddangos yn unig yr ydoedd fel yn cyflawnu gwahanol swyddau bywyd, fel yr angelion a fu yn cael eu croesawu gan Abraham. Dysgai y lleill fod gan Grist gorff gwirioneddol a theimladwy, ond ei fod wedi ei ffurfio o sylwedd nefol, yr hwn a ddychwelodd yn ol i'w sefyllfa flaenorol ar ol iddo ef adael y ddaiar. Cyfododd y cyfeiliornad hwn, fel yr ymddengys, mewn cyfnod tra bore. Yn ol Ignatius, ni chydgyfarfyddent i gadw Swper yr Arglwydd: ac nis gallent wneuthur hyny gydag un radd o gysondeb, gan na buasai dim yn fwy afresymol na chymmeryd y bara a'r gwin fel cofarwyddion o beth na bu erioed yn meddu bodolaeth wirioneddol. Ymosodai y Docetiaid ar sylfaen yr efengyl: dalient na bu Crist farw; ac yn ganlynol, nad oedd modd i bechadur gael ei waredu drwy ei waed—yr hyn sydd yn hollol groes i dystiolaethau yr apostolion am ei farwolaeth.—(*Buck's Theol. Dict.; Rel. Encycl.*)

DOCTOR—IAID: athraw neu ddysgawdwr yn y gyfraith. Dywed rhai mai y gwahaniaeth rhwng y doctoriaid a'r ysgrifenyddion oedd—bod y rhai blaenaf yn dysgu yn benaf drwy lefaru, a'r rhai olaf trwy ysgrifenu. Y mae yn anhawdd, pan y defnyddir yn ein plith yr ymadrodd, "doctor o'r gyfraith," ymryddhau oddi wrth y drychfeddwl o gyfraith wladol a'i gweinyddiad; ond pe gallem ollwng y syniad yna o'n meddwl, a chyfyngu yr ymadrodd at y gyfraith ddwyfol, ni byddem yn neppell, mae'n debygol, oddi wrth feddu syniadau cywir o'r hyn a ddeallid yn Iudea wrth ddoctor o'r gyfraith. Y mae yn deilwng o sylw ddarfod i Nicodemus, yr hwn oedd ei hunan yn ddoctor (*διδασκαλος=dysgawdwr*) o'r gyfraith, fyned i ymgynghori â'r Iesu, ac iddo ei gyfarch yn yr un dull ag y byddai pobl yn ei gyfarch yntau; "Rabbi, nyni a wyddom mai *διδασκαλος* (*dysgawdwr* medrus) ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw:"—gan chwanegu, y mae yn eithaf tebygol, "Pa beth ydyw dy farn di ar y pynciau a'r pynciau?" fel pe dywedasai, "Y mae ein hesboniadau a'n deongliadau ni yn rhy anmherthynasol ac annaturiol; ni chefais erioed fy moddloni ynddynt:—gad i mi glywed dy syniadau di." Felly hefyd pan yr oedd ein Harglwydd yn mysg y doctoriaid (*Luc* ii. 46), nid yn unig gwrandawai ar eu hopiniynau, ond gofynai gwestiynau iddynt; ac edrychai a oedd eu hatebion yn gysson â deddf Duw: ac yr ydym yn cael fod y doctoriaid yn synu o blegid ei ddeall goleuedig, a phriodoldeb ei atebion.

Perthynai doctoriaid y gyfraith yn benaf i blaid y Phariseaid; ond gwahaniaethir hwynt oddi wrth y blaid hono yn *Luc* v. 17, lle yr ymddengys fod newydd-deb athrawiaeth ein Harglwydd wedi dwyn yn nghyd luaws mawr o honynt.

Enwir doctoriaid, neu athrawon, yn mysg doniau yr Ysbryd (*Eph.* iv. 11); a thybia Mr. Taylor nad oedd yr apostol yn golygu cyfeirio at y math hyny o athrawon (neu fugeiliaid) ag sydd yn yr eglwys yn bresennol: ond, gan yr ymddengys ei fod yn eu rhestru yn mhlith rhoddion neillduol Duw, a hyny heb dynu un llinell o wahaniaeth rhyngddynt ac apostolion na phrophwydi, nac efengylwyr na bugeiliaid—hwyrach mai cyfeirio y mae at natur swydd y doctoriaid Iuddewig; gan olygu personau goleuedig a gwybodus, at ba rai y gallai dychweledigion at Gristionogaeth appelio er symmud eu hammheuon o berthynas i'r defodau a'r sacramentau Cristionogol; ac er derbyn boddlonrwydd Ysgrythyrol mai "hwn yw y Crist;" a bod y rhagfynegiadau ag oedd yn dwyn perthynas â'r Messiah wedi eu cyflawnu yn yr Iesu. Y mae hyn yn gysson â'r gwahaniaeth a wneir rhwng y gwahanol swyddau yn 1 *Cor.* xii. 28, lle y rhestra yr apostol, *yn gyntaf*, apostolion—dysgawdwyr cyhoeddus; *yn ail*, prophwydi—dysgawdwyr achlysurol; ac *yn drydydd*, *διδασκαλοι*, doctoriaid neu athrawon—dysgawdwyr cyfrinachol.

Yr hyn a ddeallir wrth *ddoctor* yn y dyddiau presennol ydyw un wedi ennill y radd uchaf mewn duwinyddiaeth, deddfau, physigwriaeth, neu gerddoriaeth. Yn ystyr gwreiddiol y gair, golygir person mor gyfarwydd yn ei gelfyddyd neu yn ei wyddor fel y byddo yn gymhwys i addysgu ereill ynddi.

Y mae lluaws o wahanol farnau gyda golwg ar yr amser y dechreuwyd rhoddi y teitl o ddoctor. Ymddengys iddo gael ei sefydlu i broffeswyr y ddeddf Rufeinig, yn Mhrifysgol Bologna, tua chanol y ddeuddegfed ganrif. Fe ddywed Antony à Wood, y defnyddid y teitl o ddoctor mewn Duwinyddiaeth yn Paris, yn fuan wedi i Peter Lombard gasglu yn nghyd ei Frawddegau, tua'r flwyddyn 1151. Yn flaenorol, Meistriaid yn unig y gelwid y personau hyddysg yn y gwahanol wybodaethau. Ni fabwysiadwyd y teitl o ddoctor yn y prifysgolion Seisonig hyd amser y brenin John neu Harri y Trydydd.

Yn Rhydychain, yr amser angenrheidiol i ennill y teitl o Ddoctor mewn Duwinyddiaeth, yn

Digitized by Google

ganlynol i'r teitl o athraw yn y celfyddydau, ydyw un mlynedd ar ddeg; i ennill y gradd o ddoctor o'r ddeddf wladol, pum mlynedd o'r amser y byddis wedi cael y gradd o wyryf yn y deddfau. Ond gwneir ychydig o ffafraeth â'r personau hyny a ymgeisiant am y gradd yn broffeswrol, er cymhwyso eu hunain i weithredu fel cyfreithwyr yn *Doctor's Commons*, trwy ganiatau y teitl iddynt yn mhen pedair blynedd, yn lle pump. I ennill y teitl o ddoctor mewn physygwriaeth, y mae tair blynedd yn angenrheidiol o'r amser y bydd yr ymgeisydd wedi derbyn y gradd o wyryf mewn physygwriaeth. I dderbyn y teitl o ddoctor mewn duwinyddiaeth neu ddoctor o'r ddeddf wladol, y mae yn rhaid darllen tair o ddarlithiau gwahanol yn yr ysgolion, ar dri o ddyddiau gwahanol: ond trwy drefniant a wnaethpwyd mewn cynghor, y mae caniatâd i ddarllen y tair ar yr un diwrnod. I dderbyn y teitl o ddoctor mewn physygwriaeth, y mae yn rhaid adrodd traethawd ar bwnc a fyddo wedi derbyn cymmeradwyaeth y proffeswr physygwriaeth yn flaenorol, yn gyhoeddus yn yr ysgolion, a rhoddi copi o'r traethawd drachefn i'r proffeswr.

Yn Nghaergrawnt, cyn y ceir y teitl o ddoctor mewn duwinyddiaeth, rhaid fod yr ymgeisydd yn wyryf mewn duwinyddiaeth er ys pum mlynedd, neu yn athraw yn y celfyddydau er ys deuddeng mlynedd. Y darpariadau angenrheidiol ydyw un *act*, dwy wrthebiaeth (*opponency*), pregeth yn yr iaith Lladin, a phregeth yn Seisoneg. Cyn y ceir y teitl o ddoctor yn y deddfau, mae yn rhaid bod yn wyryf yn y deddfau er ys pum mlynedd. Ei ddarpariadau ef ydyw un *act* ac un wrthebiaeth. Yr un ydyw yr amser angenrheidiol er cyrhaedd y teitl o ddoctor mewn physygwriaeth a'r teitl o ddoctor yn y deddfau. Y cymhwysder i gyrhaedd y gradd o ddoctor mewn cerddoriaeth yn y ddwy brifysgol ydyw cyfansoddi a chanu neu chwareu darn o gerddoriaeth sylweddol, ac i hwnw dderbyn cymmeradwyaeth y proffeswr cerddoriaeth. —(*Calmet's Dict.; Eadie's Bib. Cycl.; Cycl. Pol. Knowl.; Penny Cycl.*)

DODAI, neu DODO, [דודי, *fy anwylyd*]: un o dywysogion Dafydd ar bedair mil ar ugain o wŷr, sef dosbarthiad yr ail fis: 1 *Cron.* xxvii. 4; 2 *Sam.* xxiii. 9.

DODANIM, [דדנים; Deg a Thrigain, Ῥόδιοι= *Rhodesiaid, preswylwyr Rhodes*]: hiliogaeth pedwerydd mab Iafan, ac ŵyr Iapheth: *Gen.* x. 4. Y mae Bochart, ac esbonwyr ereill yr achau sydd yn *Gen.* x, yn tybied mai yn neheubarth Asia Leiaf yr oedd trigolion cyntaf Dodanim; a gelwid y wlad yn nghyd â'r ynys gymmydogaethol, Rhodes, gan y Groegiaid yn Doris; a thybir fod olion y tarddiad hwn i'w ganfod yn y llythyrenau Hebraeg ד (*d*) ac ר (*r*); y rhai, o blegid eu tebygrwydd, a roddir yn fynych y naill am y llall. Yn wir, ר sydd mewn rhai copïau, yr hyn a wna y gair yn Rodanim, megys y mae ar ymyl y ddalen mewn rhai argraffiadau o'r Beibl; a hefyd y Deg a Thrigain yr un darlleniad yn *Gen.* x. a 4, a 1 *Cron.* i. 7, lle y mae Ῥόδιοι. Tybir yn mhellach y gellir olrhain preswylwyr o'r teulu yma yn Thessaly ac Epirus, lle y gellir olrhain yr enw yn ninas Dodona, ac yn y wlad Doris. Ond ymddengys fod llawer o ansicrwydd gyda golwg ar y dyfaliadau cywrain hyn.



DODREFN: amgeuedd tŷ, trefnau, offer, taclau. Y mae dodrefn o ddau fath—defnyddiol ac addurniadol. Dengys y Beibl hyn yn amlwg yn y cyssylltiadau neu y cyd-destynau, lle y defnyddir y gair a gyfieithir genym ni *dodrefn*. Y mae yn amlwg y golygai Iacob fod duwiau Laban yn rhan o'i ddodrefn ef. Pan ymadawodd Iacob oddi wrth Laban, erlidiodd yr olaf ar ei ol ef a'i fintai; ac wedi ei oddiweddyd, y mae yn ei gyhuddo o ladrata ei dduwiau. Gan fod Iacob ei hun yn lân, ac yn meddwl yn gydwybodol fod pawb o'i deulu felly, y mae yn gorchymyn i Laban chwilio yr holl fintai; ac wedi i Laban wneuthur hyny, a methu canfod ei dduwiau gan neb, y mae Iacob yn gofyn iddo yn fuddugoliaethus—"Gan i ti chwilio fy holl ddodrefn i, pa beth a gefaist o holl ddodrefn dy dŷ?" *Gen.* xxxi. 37. Y mae y gair *dodrefn* hefyd yn y Beibl yn arwyddo offer amaethyddiaeth, a phob taclau perthynol i amaethyddiaeth, gystal a dodrefn tŷ; megys yn y geiriau hyn—"Ac nac arbeded eich llygaid chwi ddim dodrefn; o blegid da holl wlad yr Aipht fydd eiddo chwi;" *Gen.* xlv. 20. Yn *Exod.* iii. 22, mae y gair *dodrefn* yn arwyddo tlysau (*jewels*):—"Ond pob gwraig a fenthycia gan ei chymmydoges, a chan yr hon fyddo yn cyttal â hi, ddodrefn arian a dodrefn aur:"—Seis., "*jewels of silver and jewels of gold.*" Hefyd, gwel *Exod.* xi. 2. Yr oedd offer y tabernacl, y cyssegr, a'r deml hefyd, yn cael eu galw yn ddodrefn: *Num.* iii. 8; iv. 12; xxxi. 6; 1 *Cron.* ix. 29; 1 *Bren.* vii. 48.

Y mae ystyr ffugrol i'r gair *dodrefn* mewn amryw fanau yn y Beibl. Yn *Diar.* xx. 15, y mae yn arwyddo gwybodaeth:—"Gwefusau gwybodaeth sydd *ddodrefnyn* gwerthfawr." Y mae dodrefn hefyd yn arwyddo llygredigaethau dynion; "Neu pa fodd y dichon neb fyned i dŷ un cadarn, a llwyr ysbeilio ei *ddodrefn* ef, oddieithr iddo yn gyntaf rwymo y cadarn, ac yna yr ysbeilia efe ei dŷ ef." Hefyd, *Marc* iii. 27. Gwel TABERNACL; TEML; TY.

DOEG, [דאג; Deg a Thrigain, Δωηκ=*anesmwyth*, neu *bysgodwr*]: Edomiad a phenaeth bugeiliaid y brenin Saul; yr hon sydd yn swydd bwysig yn y llysoedd dwyreiniol. Yr oedd efe yn dyst yn Nob o'r cynnorthwy a roddodd yr archoffeiriad Abimelech i'r ffoadur Dafydd, trwy roddi iddo gleddyf Goliath, a bara oddi ar y bwrdd sanctaidd: 1 *Sam.* xxi. 7. Gofalodd Doeg am hysbysu hyn i'r brenin; yr hwn, heb ofalu am yr eglurhad a roddodd Abimelech, a chanfod fod y penaethiaid yn ei wrthwynebu, heb ewyllysio gosod dwylaw ar berson mor gyssegredig, a orchymynodd i Doeg ei ladd ef a'i offeiriaid—yr hwn orchwyl a gyflawnwyd gyda'r un parodrwydd a'r un creulondeb gan yr Edomiad 1 *Sam.* xxii. 18, &c.

DOETH—INEB, [Gr. σοφός σοφία; Llad. *sapiens, sapientia*]: y doeth, yn briodol, yw yr hwn sydd yn meddu gwybodaeth; ac oddi wrth hyn, yr hwn sydd yn gallu canfod a barnu yn gywir, neu wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau, rhwng yr hyn sydd gymhwys a phriodol a'r hyn sydd anmhriodol; megys, tywysog doeth, neu ynad doeth. Ystyrid Solomon y doethaf o ddynion. Ond dichon fod un yn ddoeth mewn meddwl, o ran y syniad am bethau, ond heb fod yn ddoeth mewn ymarferiad. Doethineb mewn gweithred neu mewn ymarferiad yw gwneyd defnydd iawn o wybodaeth—y dewisiad o amcanion uchel a

Digitized by Google

chanmoladwy, ac o'r moddion goreu i gyrhaedd yr amcanion hyny. Os fel gallu o eiddo y meddwl yr ystyrir doethineb, yna y gallu i ganfod, gwahaniaethu, a barnu beth sydd fwyaf cyflawn, priodol, a defnyddiol yw; ac os meddylir am dani fel cyrhaeddiad, y wybodoeth a'r defnydd o'r hyn sydd oreu, fwyaf cyflawn, priodol, a mwyaf ffafriol i lwyddiant a dedwyddwch ydyw. Y mae doethineb, yn yr ystyr cyntaf, neu ddoethineb ymarferol, braidd yn gyfystyr â phwyll neu farn (*discretion*, yn Seisoneg). Gwahaniaetha ychydig oddi wrth gallineb yn yr ystyr yma:—yr ymarferiad o farn dda mewn gochel drygau yw callineb; ond barn gywir mewn ymarferiad, yn gochel y drwg neu yn dilyn y da—y farn hono wrth ba un y mae y "gwr da" yn "llywodraethu ei achosion"—yw doethineb. Gan hyny, nid ydyw dallineb ond rhan o ddoethineb. Gwel CALLINEB.

DOETHINEB DUW: eiddo Duw yn unig yw doethineb yn ei pherffeithrwydd uchaf. Y mae efe yn "Dduw unig ddoeth." Trwy ei ddoethineb, yn gymmaint a thrwy unrhyw beth, y mae efe yn rhagori yn anfeidrol ar ei greaduriaid; fel y mae dyn, trwy ei ddoethineb, yn rhagori ar yr anifail. Nis gallwn syniad am Dduw heb syniad am dano fel un anfeidrol ddoeth. Byddai ein meddwl am dano yn gwbl annheilwng pe tybiem ei fod yn meddu ar wybodaeth neu allu anfeidrol, heb ddoethineb i'w defnyddio. Hollol groes i hyn oedd syniad y paganiaid am dano. *Meddwl* y gelwir ef gan Plato; *Rheswm* yr arferai Oleanthes alw Duw; ac ystyriai Socrates yr enw Σοφός yn rhy uchel i neb ond Duw yn unig. Nis gallai Duw fod yn anfeidrol berffaith heb fod yn ddoeth. Doethineb yw y benaf o'i holl ragoriaethau; ni byddai holl berffeithiau Duw heb hyn ond megys corff heb lygad. Collai y cyfan eu gogoniant os yn amddifad o arweiniad doethineb:—ni byddai amynedd Duw ond ofnusrwydd, na'i allu ond gorthrymder, na'i gyfiawnder ond gormes, heb ddoethineb fel ffynnonell a rheolydd y cyfan. Ac y mae y ddoethineb hon yn hanfodol iddo. Gelwir Crist yn "ddoethineb Duw," am ei fod yn agoi ac yn egluro dirgelion Duw i ni. Ond heb law y ddoethineb bersonol yma, mae i Dduw ei ddoethineb hanfodol, sydd yr un a'i hanfod. Y mae holl neillduolion a rhagoriaethau doethineb yn gwreiddio ac yn cydgyfarfod ynddo ef. Fel mai hwnw yw y dyn doethaf sydd â'r amcan mwyaf ardderchog ganddo, ac sydd yn defnyddio y moddion cymhwysaf, felly y mae Duw yn anfeidrol ddoeth; gan mai efe yw y bod mwyaf goruchel, felly y mae ganddo yr amcan mwyaf goruchel. Y mae yn ddoeth o angenrheidrwydd. Fel y mae yn Dduw o angenrheidrwydd, felly y mae yn ddoeth o angenrheidrwydd; o blegid y mae y syniad o ddoethineb yn anwahanol oddi wrth y syniad am Dduw. Nid ydyw yn ei wneyd ei hun yn ddoeth mwy nag y mae yn ei wneyd ei hun yn Dduw. Nid yw yn myned allan o hono ei hunan i chwilio am ddoethineb. Efe yw unig ffynnonell doethineb i ereill; pob doethineb sydd gan angelion a dynion, oddi wrtho ef y deilliodd. Fel mai Duw yw yr unig Fod yn yr ystyr o fod pob bodau ereill wedi deilliaw o hono ef, felly y mae yn unig ddoeth am fod pob doethineb yn tarddu o hono ef. Y mae ei ddoethineb yn gyffredinol, ac yn cynnwys pob peth. Gyda dynion y mae yn wahanol:—y mae un weithiau yn wladweinydd doeth, a hyny yn unig; y mae un arall yn athronydd doeth, heb nemawr fedrusrwydd mewn llywio helyntion gwladwriaeth; gall un fod yn ddoeth mewn cynllunio, ond un arall yn fwy medrus mewn gweithio yr un cynlluniau allan. Ond y mae doethineb Duw yn gyffredinol, am mai doeth o galon yw, am mai natur ddoeth sydd ganddo. Nid oes derfyn ar ei ddoethineb, ond ymddysgleiria yn mhob peth. Fel y mae ei ewyllys yn ewyllysio pob peth, a'i allu yn cyrhaedd pob peth, felly y mae ei ddoethineb yn arwain ac yn rheoli ysgogiadau ei ewyllys a gweithrediadau ei allu: fel mai ei gyfiawnder sydd yn penderfynu mater ei weithredoedd, felly ei ddoethineb sydd yn penderfynu dull ei weithredoedd. Nid ydyw gallu Duw yn allu aflywodraethus: y mae ei ddoethineb yn trefnu pob peth, fel na wneir dim ond sydd gymhwys a phriodol, a chysson â rhagoriaethau Bod mor oruchel; megys na all gyflawnu gweithred anghyfiawn o blegid ei gyfiawnder, felly y mae yn anmhosibl iddo wneuthur gweithred annoeth, o blegid ei ddoethineb anfeidrol. Er nad yw dan angenrheidrwydd i weithredu tu allan iddo ei hun, eto, ar y dybiaeth o'i fod yn gweithredu, y mae, o blegid ei gyfiawnder, dan angenrheidrwydd o wneyd yr hyn sydd uniawn; fel, er mai ewyllys Duw yw egwyddor, eto ei ddoethineb yw rheol ei weithredoedd. Ac y mae ei holl weithredoedd yn profi hyny. Y tystiolaethau a geir yn y Beibl am ddoethineb Duw, fe'u cadarnheir wrth droi i edrych ar ei weithredoedd. Felly y mae lluosogrwydd ei weithredoedd yn y greadigaeth yn ei wneyd—dangosant iddynt oll gael eu gwneyd "mewn doethineb;" *Salm* civ. 24. "Y mae pob un o weithredoedd natur yn weithred o ddoethineb." Pan y mae yr apostol, yn *Rhuf.* i. 20, yn dywedyd fod ei anweledig bethau ef, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, i'w gweled yn amlwg, y gair y mae yn ei arfer yw, ποιημασι, nid ἔργοις—gwaith o lafur yw ystyr y diweddaf, ond ystyr y cyntaf yw gwaith o fedrusrwydd. Dengys y greadigaeth ddoethineb Duw, fel y mae cân yn amlygiad o grebwyll a dychymyg y cyfansoddwr. "Efe a seiliodd y ddaiar trwy ddoethineb" (*Diar.* iii. 19), ac a "estynodd y nefoedd trwy ei synwyr" (*Ier.* x. 12).

Y mae doethineb Duw yn ymddangos hefyd yn ei lywodraeth ar ei greaduriaid. Mae symmudiad rheolaidd ei greaduriaid yn mynegu ei ddoethineb, yn gystal a'u gwneuthuriad manwl. Heb ddoethineb yn ffurfiad y defnydd, yr hwn a wnaed trwy allu Duw, ni buasai y byd yn ddim ond tryblith annhrefnus; ac heb ddoethineb yn y llywodraethiad, ni buasai ond cydgasgliad o ddyryswch; heb ddoethineb, nis gallasai y byd fod wedi ei greu yn y cyflwr y mae ynddo. Y mae rheswm yn berffeithrwydd anhebgorol yn yr hwn sydd yn ben ar bob peth:—heb wybodaeth nis gallasai fod sail yn Nuw i lywodraeth; ac heb ddoethineb, nis gallasai llywodraeth gael ei chario yn mlaen; ac heb y ddoethineb fwyaf rhagorol, nis gallasai efe fod y llywodraethwr mwyaf rhagorol. Ni allasai fod yn llywodraethwr cyffredinol heb ddoethineb gyffredinol; nis gallasai fod yr unig lywodraethwr heb ddoethineb anghymharol; nis gallasai fod yn llywodraethwr annibynol heb ddoethineb wreiddiol ac annibynol; ac nis gallasai fod yn llywodraethwr parhaus heb ddoethineb anllygredig a diddarfod.

Ymddengys doethineb Duw hefyd yn dra rhyfedd yn ngwaith y prynedigaeth. "Rhanau o'i ffyrdd ef" sydd yn dyfod i'r golwg yn mhob man arall; ond yn Nghrist, fel canolbwynt mawr trefn y prynedigaeth, "y mae holl drysorau

Digitized by Google

doethineb a gwybodaeth yn guddiedig." Un dyben mewn golwg wrth ddadguddio cynghor Duw gyda golwg ar waith y prynedigaeth yw gwneyd yn hysbys ddoethineb Duw. "Fel y byddai yr awrhon yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y nefolion leoedd, trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw;" *Eph.* iii. 10. Llefaru y mae yr apostol yn y cyd-destyn am yr athrawiaeth ogoneddus o brynedigaeth pechadur trwy Grist Iesu; a sonia fel y buasai i fesur helaeth yn guddiedig yn oesoedd ereill y byd. Ac yn awr yr oedd yr hyn a wnaed gan Iesu Grist tuag at yr eglwys, nid yn unig wedi dadguddio y dirgelwch i'r eglwys a'r byd, ond hefyd yr oedd Duw wedi ei egluro yn fwy cyflawn i ddeall yr angelion; a dyma oedd un amcan gan Dduw ynddi—dadguddio i'r angelion ei fawr amryw ddoethineb ef. Fe'i gelwir yn "fawr amryw" ddoethineb, o blegid y mawr a'r amryw ddybenion gogoneddus a ddygir oddi amgylch trwyddi. Mae y bwriadau rhyfedd a gyflawnir yn nhrefn y prynedigaeth yn amrywiol iawn. Y mae doethineb Duw ynddi yn eang iawn. Mae y cynllun mor gynnwysfawr fel y bydd lluosogrwydd a chyfoeth ei ranau hyd byth yn dyfod i'r amlwg; ac nid ellir byth yn berffaith amgyffred doethineb Duw fel y mae yn dyfod i'r golwg mewn peri i amrywiaeth mawr o bethau gydweithio er dwyn oddi amgylch amcanion mawr ei drefn. Yr oedd hwn yn amlygiad newydd o ddoethineb Duw i'r angelion. Er eu bod yn fodau dysglaer, deallus, a phob amser yn gweled wyneb Duw, a chymmaint wedi ei wneyd yn hysbys iddynt, eto yr oedd hyn yn cynnwys addysg newydd iddynt hwy. Gallant yn hyn weled mwy o ddoethineb Duw nag a welsant erioed mewn un man o'r blaen. Er ys pedair mil o flyneddoedd o'r blaen, yr oedd yr angelion wedi bod yn myfyrio gweithredoedd Duw yn ei greadigaeth, eto nid oeddynt erioed wedi gweled mawr amryw ddoethineb Duw fel yr oedd wedi ei wneyd yn hysbys iddynt trwy yr eglwys. Gelwir doethineb Duw yn nhrefn yr iachawdwriaeth yn "ddoethineb guddiedig," ac yn "ddoethineb mewn dirgelwch;" 1 *Cor.* ii. 7. Y mae yn fwy tu hwnt i amgyffred galluoedd cyffredin angel nag ydyw ansoddau mwyaf aneglur y creaduriaid tu hwnt i ddeall dyn. Y mae doethineb angelion mor bell oddi wrth lawn amgyffred y pwnc yn berffaith ag oedd oddi wrth ei lunio yn y dechreu. Y ddoethineb a'i dygodd allan i oleuni yn unig a ddichon ei amgyffred. Y mae hefyd yn amrywiol—yn "fawr amryw"—mor amrywiol ag ydyw o ddirgel. Y mae amrywiaeth yn y dirgelwch, a dirgelwch yn mhob rhan o'r amrywiaeth. Nid un weithred ar ei phen ei hun oedd, ond lluaws o fwriadau ac arfaethau: cydgyfarfyddiad o amcanion daionus a moddion daionus. Yn *Eph.* i. 8, fe'i gelwir yn "helaethrwydd doethineb a deall." Doethineb yn y cynghor tragwyddol yn cynllunio ffordd; a deall yn y dadguddiad mewn amser yn trefnu holl helyntion a dygwyddiadau y byd er cyrhaedd amcan ei gynghor. Cyfeiria doethineb at y dirgelwch—deall, at y dadguddiad o hono trwy foddion addas, ac ar amserau priodol. Y mae a fyno doethineb â'r cynllun a'r drefn; deall, â'r gweithrediad a'r cyflawniad. Ymddygodd Duw yn mhob peth fel yr oedd yn gweddu iddo fel Llywydd doeth a da y byd: *Heb.* ii. 10. Nid yw yn angenrheidiol penderfynu ai ni allasai doethineb Duw gael allan ryw ffordd arall, neu ynte a oedd o angenrheidrwydd wedi ei gyfyngu i hon; ond mai hon yw y ffordd oreu a doethaf i amlygu a hysbysu ei ogoniant sydd sicr.—(*Charnock on the Divine Attributes.*)

DOETHINEB SOLOMON: un o'r llyfrau a elwir yn ail ganonaidd; hyny yw, rhai nad oeddynt yn y canon Iuddewig. Am eu bod yn rhan o'r hen gyfieithiadau Groeg, fe'u darllenid yn yr Eglwys Gristionogol gyntefig. Mae Doethineb Solomon hefyd yn un o'r llyfrau hyny, i ba rai, yn nghyd â'r Diarebion, y Pregethwr, a Doethineb Iesu mab Sirach, y rhoddir yr enw "llyfrau doethineb." Megys yn Llyfr y Pregethwr, o'r hwn y mae Doethineb Solomon yn efelychiad, y mae yr awdwr yn personoli y brenin Solomon, ac yn ei ddwyn ger bron fel yn llefaru ei eiriau ei hun. Oddi wrth y dyfyniadau o brophwydoliaethau Esaiah ac Ieremiah, y rhai a ddilynant gyfieithiad y Deg a Thrigain, gellir casglu nad oedd yr awdwr yn bwriadu rhoddi ar ddeall mai Solomon a ysgrifenodd y llyfr; ond yn unig ddarfod iddo ddilyn arfer gyffredin yn mysg yr ysgrifenwyr Groegaidd, ac ereill, o ddefnyddio enw yr ysgrifenydd breninol. Galwai Athanasius, neu awdwr y *Synopsis*, ac Epiphanius [*De Ponder.*] ef wrth yr enw *Panaretos*, neu "trysorfa o rinwedd." Fe'i rhenir i ddwy, neu, yn ol rhai, i dair rhan. Y mae y pum pennod cyntaf yn gynnwysedig o ganmoliaeth i ddoethineb; cymhellir pawb, yn enwedig breninoedd, i'w cheisio, fel yr unig ddiogelwch rhag drygioni presennol, ac fel yn arwain i ogoniant ac anfarwoldeb yn y dyfodol; tra y mae rhodio llwybr croes i hyny yn dwyn trueni yr awr hon, ac yn arwain i drueni tragwyddol yn y byd a ddaw. Dyma, medd Jahn [*Introd.*], y crybwylliad pendant cyntaf o wobr a chosp. Yn *Doeth. Sol.* vi a vii, dygir Solomon yn mlaen fel yn dysgu pa fodd y ceir doethineb; ac yn *pen.* viii, rhoddir ei weddi am y rhodd anmhrisiadwy hon. Y mae *pen.* x—xix, yn cynnwys esamplau hanesyddol, wedi eu cymmeryd o'r Hen Destament—yn dangos y dedwyddwch sydd yn dilyn ceisio doethineb, a chanlyniadau marwol pechod, yn enwedig y pechod o eilunaddoliaeth. Terfyna y llyfr gydag amryw sylwadau duwiolfrydig ac athronyddol. Sylwa De Wette [*Einleitung*, adr. 312], fod y llyfr hwn yn cynnwys syniadau moesol a chrefyddol yr Iuddewon Alexandriaidd, lle y mae athroniaeth y Groegiaid wedi ei himpio ar Iuddewiaeth. Oddi wrth ymosodiadau llymion yr awdwr ar lywodraethwyr gormesol ac anghyflawn, yn gystal a'r profion eglur o genedlgarwch sydd i'w gweled yn y llyfr, casglwyd ei fod wedi ei gyfansoddi er mwyn rhyw amcan neillduol. Y mae Jahn a De Wette yn amddiffyn unolrwydd y llyfr yn erbyn y rhai hyny sydd wedi ymdrechu dangos, oddi wrth amrywiaeth yr arddull a'r materion, fod mwy nag un wedi bod yn ei gyfansoddi.

Y mae Llyfr Doethineb bob amser "wedi cael ei edmygu o herwydd y syniadau goruchel y mae yn eu cynnwys am berffeithiau Duw, ac o blegid tuedd foesol ragorol ei orchymynion."—[*Horne's Introd.*] Yr esgob Lowth, gan ddilyn Calmet, a sylwa am yr arddull, ei bod yn anghyfartal, yn fynych yn rhwysgfawr a chwyddedig, yn gystal ag yn wasgarog a blinderus i'w darllen, ac yn llawn o ymadroddion croes hollol i'r rhai a arferid gan yr Hebreaid. Y mae, pa fodd bynag, weithiau yn gymmesur, barddonol, ac aruchel. Tybia Calmet fod yr awdwr wedi darllen gweithiau beirdd ac athronwyr Groeg.

Tybiwyd a dadleuwyd gan rai fod y llyfr, neu

Digitized by Google

o leiaf ranau o hono, wedi eu hysgrifenu i ddechreu yn yr Hebraeg; ereill a dybiant mai y Galdaeg, ac ereill, mai y Syriaeg, oedd ei iaith wreiddiol. Ond nid oes dim sail i un o'r tybiau hyn. Y mae y dulliau o ymadroddi priodol i'r Hebraeg a geir ynddo yn gyfryw ag y gellir yn hawdd roddi cyfrif am danynt. Dengys pob peth yn nghyfansoddiad a chymmeriad y llyfr mai yn y Groeg yr ysgrifenwyd ef ar y cyntaf. Y mae Jerome yn dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd na bu y llyfr erioed yn ysgrifenedig yn yr iaith Hebraeg; a dywed fod yr arddull yn dwyn llawer o ddelw a hyawdledd y Groegiaid. Gyda golwg ar awdwr ac amser y llyfr, y mae amryw farnau wedi bod. Priodolai Awstin ef unwaith [*De Doc. Christ.*] i Iesu Sirach; ond wedi hyny efe a ymwrthododd â'r syniad hwnw, ac a'i galwodd yn ol. Hònai J. Faber mai Zerubbabel oedd ei awdwr; a phriodolid ef i Solomon ei hun gan Clemens Alexandrinus, Tertullian, Lactantius, ac ereill o'r tadau; ond nid oedd dim sail i'r tybiau hyn a goleddid ganddynt. Geilw Jerome [*Præf. in Lib. Salom.*] ef yn llyfr ffugysgrifiadol (*pseudographial*) a briodolid yn gyffredin i Solomon. Chwanega efe fod rhai o'r hynafiaid yn ei briodoli i Philo — syniad a gymmeradwyid gan Awstin, ac a fabwysiadwyd gan Nicholas de Lyra a Luther. Ond y mae yr arddull a'r syniadau athronyddol yn milwrio yn hollol yn erbyn y dybiaeth yma. Y mae ereill wedi ei briodoli i Philo hynach, a grybwyllir gan Josephus, yr hwn a flodeuai yn amser yr ail deml, a'r hwn a ysgrifenodd lyfr *De Animâ;* ond pagan oedd y Philo hwn. Nis gellir penderfynu gydag un gradd o sicrwydd ar ddim pellach nag mai Iuddew Alexandriaidd oedd yr awdwr, yr hwn oedd yn byw wedi trosglwyddiad yr athroniaeth Roegaidd i'r Aipht, a'r hwn sydd yn ymddangos fel yn cyfeirio at orthrwm y Ptolemiaid diweddaf. Synia Jahn fod y llyfr wedi ei ysgrifenu ar ddiwedd yr ail ganrif, neu ddechreu y ganrif gyntaf cyn Cred, a bod erlidigaeth "Mab Duw" yn cyfeirio at amser Antiochus Epiphanes. O herwydd y tebygolrwydd tarawiadol sydd rhwng hyn yn y llyfr yma a hanes erlidigaeth Iesu Grist, coleddwyd y camsyniad gan luaws ei fod wedi ei ysgrifenu, neu o leiaf ranau helaeth wedi eu chwanegu ato, gan ffug awduron ar ol y cyfnod Cristionogol.

Dyfynir y llyfr gyda'r parch mwyaf gan Clement o Alexandria, Tertullian, Rufinus, ac ereill. Cyhoeddodd trydydd Cynghorfa Carthage ef yn llyfr canonaidd, gan ei osod yn mhlith pum llyfr Solomon. Pa fodd bynag, fe ddywed Jerome ddarfod iddo ef ymattal rhag diwygio yr hen gyfieithiad Lladinaidd o hono, gan nad oedd yn ei fwriad wella dim ond yr Ysgrythyrau canonaidd. Sylwa Awstin ei fod, o herwydd hen osodiad, a hen ddefod, yn haeddu darlleniad parchus yn Eglwys Crist, ac o blegid hyny y darllenid ef oddi ar ris y darllenyddion. Y mae yr esgob Cusin yn tynu y casgliad fod y geiriau uchod o eiddo Awstin yn cynnwys y syniad o israddoldeb mewn cymhariaeth i'r llyfrau a dderbynid yn gyffredinol, yn gymmaint ag mai swyddog israddol oedd y darllenydd; a thybia efe y darllenid yr Ysgrythyrau a ystyriwyd o radd uwch gan yr offeiriaid a'r esgobion o'r *ambo*, neu y bregethfa. Tybia ereill, mai meddwl Awstin oedd, fod y llyfr, gydag ereill o'r un dosbarth, yn cael yr anrhydedd o'i ddarllen yn yr eglwys o'r un lle, a chan yr un swyddog, a'r Ysgrythyrau canonaidd. Tybiodd rhai fod Llyfr Doethineb yn cael ei ddyfynu yn y Testament Newydd. Cymharer *pen.* iii. 7, â *Mat.* xiii. 43. Ond nid ymddengys fod yma ond tebygrwydd syniadau yn unig.

Y mae tri hen gyfieithiad o'r llyfr hwn eto yn aros—y Syriaidd, yr Arabaidd, a'r Lladin. Ni ddiwygiwyd y Lladin gan Jerome. Gwel APOCRYPHA.—(*Kitto's Bib. Cycl.*)

DOETHION, (*oeth*): call, synwyrol, pwyllog; un yn meddiannu doethineb: *Mat.* vii. 24. "Doethion a ddaethant o'r dwyrain;" *Mat.* ii. 1. Groeg, μάγοι ἀπὸ ἀνατολῶν=*doethion o'r dwyrain.* Y personau a ddynodir yma, fel y bernir yn gyffredin, oeddynt philosophyddion, offeiriaid, neu seryddwyr. Preswylient yn benaf yn Persia ac Arabia; hwy oeddynt ddysgedigion y cenedloedd dwyreiniol, wedi ymgyssegru i fyfyrio seryddiaeth, crefydd, a physygwriaeth. Perchid hwy yn fawr yn llys Persia; derbynid hwy fel cynghorwyr, a chanlynent y gwersylloedd mewn rhyfel i gynghori a chyfarwyddo.

Ar y cyntaf un o'r chwe llwyth, i ba rai y dosberthid cenedl y Mediaid, oedd y doethion, neu y Magiaid [*Herod.* i. 101; *Plin. Hist. Nat.*, v. 29]. Iddynt hwy, yn gyffelyb i'r Lefiaid, dan oruchwyliaeth Moses, yr ymddiriedid pob gofal am grefydd:—swydd yr edrychid arni gyda'r parch mwyaf, a'r hon a ennillwyd ganddynt, y mae yn debygol, drwy gyfres o ymdrechion teilwng i wasanaethu eu gwlad, a thrwy ddangos eu bod yn rhagori ar y gweddill o'u brodyr. Ar ragoriaeth o ryw fath y seilir awdurdod bob amser yn ei gychwyniad; a chan fod yr awdurdod uchaf ar y ddaiar, drwy ei bod yn dwyn perthynas â chrefydd, yn meddiant y doethion, y mae yn sicr eu bod yn rhagori ar eu cydwladwyr yn mhwyntiau uchaf a choethaf nodweddiad. Megys yn mysg cenedloedd hynafol ereill, megys yr Aiphtiaid a'r Hebreaid, er anghraifft, nid yn unig yr oedd crefydd, ond yr oedd y celfyddydau a'r gwyddorau wedi eu hymddiried i ofal yr offeiriaid. Mae eu henw yn y Groeg yn cyfeirio ar unwaith at eu nodwedd offeiriadol (oddi wrth *Mag* neu *Mog*, ystyr yr hwn air yn y Pehloi yw *offeiriad*), naill ai am mai crefydd oedd prif fater eu sylw, neu ynte, fel y mae yn fwyaf tebyg, am fod cyssylltiad mor agos rhwng crefydd a chelfyddyd ar y cyntaf, fel nad oedd y ddau air ond gwahanol ffyrdd i osod allan yr un meddylddrych.

Ychydig a wyddys am y doethion yn ystod bodolaeth annibynol y llywodraeth Fediaidd; wedi i'r Mediaid ymuno â'r Persiaid yr ymddangosant yn eu gogoniant penaf. Y mae y diffyg hwn, yn ddiammheu, i'w briodoli i anmherffeithrwydd y cofnodion hanesyddol a gedwid yn yr amseroedd boreuol hyny. Dan y llywodraeth Fedo-Bersiaidd, ffurfiai y doethion ddosbarth (*caste*) cyssegredig, neu athrofa, yr hon oedd yn dra enwog yn yr hen fyd. Dywed Porphyry [*Abs.* iv. 16], "Doethion (*Magi*) y gelwir y gwŷr dysgedig sydd yn ngwasanaeth y Duwdod yn mysg y Persiaid." A dywed Suidas hefyd, "Yn mhlith y Persiaid, doethion (*Magi*) y gelwir gwasanaethwyr Duw, a'r rhai sydd yn hoffi doethineb." Yn oesoedd boreuol y byd, cynnwysai gwyddor, gan yr adeiledid hi yn gyfangwbl ar ymddangosiadau, gyfeiliornadau yn gystal a gwirioneddau; a phan yr ystyrir ei bod yn cael ei diwyllio mewn cyssylltiad agos â ffurf lygredig o grefydd, nid allasai lai braidd na chynnyrchu cnwd toreithiog o efrau. Y pethau a ddeilliasant oddi wrthi oedd dewiniaeth, astronomyddiaeth, a swyngyfaredd. Yn ol tystiolaethau

Digitized by Google

Strabo, arferai y doethion wahanol ffyrdd i ddewinio:—1. Trwy ymofyn â'r meirw. 2 Trwy gwpanau neu ddysglau (cwpan ddewinol Joseph: *Gen.* xliv. 5). 3. Trwy ddwfr. Trwy y moddion hyn, cymmerai y doethion arnynt ddadguddio y dyfodol, dylanwadu ar y presennol, a galw yr hyn a aeth heibio i'w cynnorthwyo Deonglent hyd yn oed weledigaethau y nos, a hyny yn unol â rheolau manwl [*Strabo*, xvi. td. 762; *Cic. De Divin.*, i. 41]. Trwy lwyddiant ymddangosiadol yn yr ymdrechion hyn i ddylanwadu ar y byd anweledig, a thrwy rinwedd y swydd sanctaidd yn mha un y gwasanaethent, daeth y doethion i safle uchel mewn cymdeithas. a daeth breninoedd a thywysogion i edrych arnynt fel dosbarth o ddynion tra phwysig a dylanwadol [*Diog. Laert.*, ix. 7. 2]. Yr oedd eu dylanwad mor fawr fel y llwyddasant, ar rai amgylchiadau, i ddymchwelyd gorseddfeinciau. —*Herod.* iii. 61, &c.

Yn mhen amser, dirywiodd crefydd y doethion yn fawr, a dygwyd i mewn iddi y llygredigaethau gwrthunaf. Dyma y cyflwr oedd arni pan ymddangosodd Zoroaster, ac y dygodd ddiwygiad mawr oddi amgylch ynddi. Gyda golwg ar amser ei ymddangosiad, yn nghyd â neillduolion ei hanes yn gyffredinol, y mae llawer o wahanol farnau, er yr holl ysgrifenu sydd wedi bod ar y pwnc. Dywed Winer mai yn yr hanner diweddaf o'r seithfed ganrif cyn Crist yr oedd yn byw. Nid sefydlydd cyfundrefn newydd oedd efe; ond adnewyddwr hen gyfundrefn wedi llygru; neu ynte, fel yr awgrymir ganddo ef ei hun [*Zendavesta*, i. 43], adferwr y gair a ddadguddiesid yn flaenorol gan Ormuzd, ond yr hwn a ddiraddiwyd gan Deus nes ei wneyd yn ddewiniaeth gau a thwyllodrus. Gwaith Zoroaster oedd dinystrio y cyfeiliornad hwn, ac adferu cyfraith bur Ormuzd. Wedi goddef hir wrthwynebiad o du amddiffynwyr y cyfeiliornadau, bu yn llwyddiannus yn ei ymdrechion canmoladwy, a mabwysiadwyd ei gyfundrefn. Ni ddiangodd y doethion fel dosbarth rhag myned dan gyfnewidiadau ei law. Ymddengys ddarfod iddo ail drefnu eu sefydliad, gan ei rannu yn dri dosbarth mawr:—1. Herbediaid, neu ddysgyblion. 2. Mobediaid, neu feistriaid. 3. Destur Mobediaid, neu ysgolheigion perffeithiedig [*Zendav.*, ii. 171, 261]. Y doethion yn unig a ganiatäai efe i gyflawnu y defodau crefyddol; yr oeddynt hwy yn meddu ffurfiau gweddi ac addoliad; ac yr oeddynt hwy yn hysbys o'r seremoniau ag oeddynt effeithiol i heddychu Ormuzd, ac i'w harfer yn yr offrymau cyhoeddus [*Herod.* i. 132]. Mewn canlyniad i hyn, daethant yn unig gyfryngau cyfathrach rhwng y Duwdod a'i greaduriaid, a thrwyddynt hwy yn unig y gwnai Ormuzd ei ewyllys yn hysbys; nis gallai neb ond hwy dreiddio i'r dyfodol, ac ni ddadguddient hwythau eu gwybodaeth i neb ond i'r sawl a fyddai mor ffodus ag ennill eu ffafr. Trwy hyn, ennillasant yr awdurdod uchaf mewn materion cyhoeddus, yn gystal ag mewn achosion cyfrinachol. Yn wir, yr oedd y dewin yn swyddog cyhoeddus; yn aelod, os nad yn llywydd, o gyfrin-gynghor y llys Medo-Persiaidd, yr hwn a ofynid er arddangosiad er mwyn dylanwadu ar y bobl, yn gystal ag er mwyn ei wasanaeth i gyfarwyddo y llywodraeth. Gan hyny, amgylchynid person yr ymherawdwr gan offeiriaid; pa rai, yn eu gwahanol raddau, ac mewn gwahanol swyddau, a gydymgynghorent i amddiffyn yr orsedd, i ddal i fyny y grefydd sefydledig, ac i ennill neu fynu ufudd-dod y deiliaid. Chwanegid yn fawr at gymhwysderau a defnyddioldeb y doethion i fod yn aelodau o lys dwyreiniol gan orwychder eu gwisgoedd, ysblander eu seremoniau, yn nghyd â'u nifer a'u graddau. Doeth yr ymddygai Cyrus, wrth uno y Mediaid â'r Persiaid, pan y mabwysiadodd, yn ei holl orwychder, offeiriadaeth a ddylanwadai yn fawr er ei ddwyn i serch ei ddeiliaid gorchfygedig; a'r hon, yn fwy na dim arall, a fyddai yn foddion i'w ddyrchafu ef a'i ymherodraeth. Nid ar achlysuron arbenig ac anghyffredin y byddai y dosbarth cyssegredig hwn o ddynion yn cyflawnu eu seremoniau, ac yn arfer eu dylanwad; ond ar bob achlysur yn mron. Ar doriad y dydd, byddai raid iddynt ganu yr hymnau dwyfol. Wedi i'r gwasanaeth hwn gael ei gyflawnu, yna deuai yr aberthau dyddiol i'w hoffrymu, nid yn ddidrefn, ond i'r duwiau penodol fyddai yn cyfateb i'r dyddiau—swydd nas gallai neb ei chyflawnu ond rhai wedi eu haddysgu. Fel anghraifft o'r parch mawr a delid i'r doethion, gellir crybwyll yr ystyrid, cyn y byddai tywysog wedi derbyn dysgeidiaeth gyflawn, y byddai yn rhaid ei fod yn hyddysg yn nghyfrinion eu hurdd gyssegredig, yr hwn anrhydedd ni chaniateid i neb ond i rai o waed breninol, oddi eithr yn bur anfynych, ac ar achosion tra neillduol. Cymmerai y ddysgeidiaeth yma i mewn bob peth ag oedd yn dwyn perthynas â diwylliad uchaf y genedl; ac adnabyddir hi mewn hanesiaeth dan yr enw, "Cyfraith y Mediaid a'r Persiaid." Cynnwysai y wybodaeth am yr holl ddefodau, yr arferion, a'r cyflawniadau cyssegredig ag oedd yn dwyn perthynas nid yn unig âg addoliad y duwiau, ond â holl fywyd anghyhoedd pob un o addolwyr Ormuzd—y dyledswyddau yr oeddynt fel y cyfryw i'w cyflawnu; a'r cospedigaethau a ddilynai os esgeulusid y cyfryw ddyledswyddau. Gwelir oddi wrth hyn pa mor angenrheidiol oedd gwaith yr offeiriad ar bob achlysur, yn gyhoeddus a chyfrinachol. Ymddengys fod y swydd farnol hefyd yn nwylaw y doethion yn amser Cambyses; canys o'u mysg hwy y dewiswyd y coleg neu y dosbarth o farnwyr breninol y sonir am danynt yn hanes y brenin hwnw [*Herod.* iii. 35; *Esther* i. 13]. Gallasai dynion yn dal y swyddau hyn, yn meddu y ddysgeidiaeth hon, ac yn meddu y dylanwad hwn ar y bobl, fod yn attalfa fawr ar ffordd gormes a thra-arglwyddiaeth, er eu bod yn analluog weithiau i ddiogelu eu bywydau rhag digofaint y brenin [*Herod.*, vii. 194; *Dan.* ii. 12.]

Y mae llyfrau y Beibl yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd. Yn Llyfr Daniel, yn enwedig, canfyddir yn eglur fod y doethion yn ddosbarth o bobl o ddylanwad mawr a bri uchel. Yn *pen.* ii. 1, 2, yr ydym yn cael Nebuchodonosor, yn ei drallod o blegid ei freuddwyd, yn galw am gymhorth y dewiniaid, yr astronomyddion, yr hudolion, a'r Caldeaid: *adn.* 27. Y mae yn anhawdd dyweyd pa beth ydyw ystyr arbenig y gwahanol enwau hyn; ond y mae yn eglur fod yno amrywiol fathau o wŷr doethion, ac y mae yn debygol mai dosbarthiadau oedd y rhai hyn yn perthyn i un urdd fawr, yr hon a gynnwysai, dan yr enw cyffredinol *doethion*, bawb ag oedd yn dwyn cyssylltiad â gwasanaeth crefydd. Yn wir, ni a gawn yr urdd hon yn cael ei gosod allan fel y cyfryw yn *Ier.* xxxix. 3, drwy y gair רבמג, yr hwn a ddefnyddir fel enw priodol yn y Beibl Cymraeg, Rabmag, yr hwn a ddynoda benaeth y doethion, neu yr archoffeiriad—swydd i ba un y dyrchafwyd Daniel am ei fedrusrwydd

yn deongli breuddwyd y brenin, wedi i bawb ereill o'r doethion fethu (*Dan.* ii. 48). Gwasanaetha y gweithredoedd a ddilynent yr appwyntiad hwn er arddangos y parch a'r anrhydedd a delid i'r Doethion; "Yna y syrthiodd Nebuchodonosor y brenin ar ei wyneb, ac a addolodd Daniel; a gorchymynodd hefyd am offrymu iddo offrwm ac arogldarth;" *adn.* 46; gwel *adn.* 48.

Nid yn mysg y Mediaid a'r Persiaid yn unig yr oedd y doethion. Gan y crybwylla Herodotus am danynt fel un o lwythau cyntefig y Mediaid, gall mai offeiriadaeth Fediaidd oeddynt yn wreiddiol. Os felly, ymledasant efallai i wledydd ereill. Pa fodd bynag am hyny, yr oedd gan y Caldeaid hefyd urdd drefnus o ddoethion, neu ddosbarth o ysgolheigion offeiriadol: *Ier.* l. 35; *Dan.* ii. 12. Rhestrir Daniel yn mysg y doethion hyn: *Dan.* ii. 18, 24. Yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, adnabyddid hwy dan yr enw Caldeaid [*Strabo*, xvi. td. 762; *Diog. Laertius, Proœm.*, 1], a Magi hefyd [*Diog. Laert.*, viii. 1, 3]. Preswylient yn wasgaredig ar hyd y wlad mewn gwahanol fanau [*Dan.* ii. 14; *Strabo*, xvi. td. 739], ac yr oedd ganddynt feddiannau o'u heiddo eu hunain. Defnyddient deml Belus at wneyd arsylliadau serydddol; ond yr oedd eu seryddiaeth yn dwyn cyssylltiad â'r cyrff nefol a addolid gan y Babiloniaid. Prif amcan eu hymchwiliadau seryddol, mewn undeb â daroganiaeth, swyngyfaredd, a dewiniaeth, oedd gwneyd ymdrechion ofer i raghysbysu y dyfodol, rhagfynegu tynged personau unigol neu deyrnasoedd, a rheoli y presennol: *Esa.* xlvii. 9, 13; *Dan.* ii.

Er mor uchel ac anrhydeddus a fu dysgeidiaeth y doethion yn nghyfrif y byd, nid ydyw yn anhawdd deall pa fodd y suddodd, os ystyriwn nad oedd yn seiliedig ar wirionedd—nac yn wir pa fodd braidd y gallasai beidio—mewn amser, i ddinodedd a diystyrwch, nes y daeth o'r diwedd yn gyfrwng naill ai i ddychrynu yr anwybodus, neu ynte i gynnorthwyo y twyllwr yn ei ddichellion. Yn raddol, y mae yn wir, y cymmerodd y dadfeiliad le; bu am oesoedd cyn cael ei gwblhau; ond mor fuan ag y collodd gefnogaeth gorseddau galluog Asia, fe ddechreuodd y ddysgeidiaeth hon golli ei hawdurdod, ac attaliwyd hi rhag ei adfeddiannu eilwaith gan gynnydd gwybodaeth ac ymddangosiad Crist. Yr oedd ychydig weddillion, pa fodd bynag, ar gael o gyfundrefn y doethion yn nyddiau diweddaf yr ymherodraeth Rufeinig, ond mewn cyflwr isel a dirywiedig. Yr oedd lliaws dirifedi o ddoethion neu ddewiniaid yn y byd gwareiddiedig; ond nid oeddynt yn nemawr fwy parchus na swynwyr y dyddiau presennol. Hònent eu bod yn meddu gallu i ddeongli iaith y ser, rhagfynegu dygwyddiadau dyfodol, esbonio breuddwydion, ac iachau clefydau wedi i bob moddion ereill ffaelu. Yr Aipht, a'r dwyrain yn gyffredinol, Solomon a Pharaoh, a ystyrid fel y ffynonellau mawrion o ba rai yr oedd y dirgeledigaethau a'r cyfrinion tywyll hyn i'w cael [*Joseph. Rhuf. Iudd.*, ii. 7. 3]. Gellir cymmeryd Simon Magus (*Act.* viii. 9; gwel hefyd *Act.* xiii. 6, &c.) fel anghraifft o'r twyllwyr crwydrol hyn. Gellir meddwl, pa fodd bynag, oddi wrth gyfrifoldeb Simon, yn ol fel y cofnodir yn yr Actau ("rhyw un mawr," &c.), fod dewiniaeth yn meddu gradd lled helaeth eto o ddylanwad ar ddechreu y cyfnod Cristionogol. Ymddengys ei bod y pryd hyny mewn math o gyflwr canolig, ar hanner y ffordd megys rhwng ei gorwychder cyntefig a'i diraddiad dyfodol.

Y mae gan y doethion yn Persia dri o lyfrau, a elwir Zend, Pazend, ac Abesta; pa rai a gynnwysant yr oll o'u crefydd. Priodolant hwy i Abraham. Esboniad ar y ddau arall yw Abesta. Daliant fod dwy egwyddor mewn bod; un o ba rai a alwant yn Ormuzd—awdwr daioni; a galwant yr ail yn Aherman—awdwr drygioni. Tân a addolir ganddynt, a hyny mewn temlau a elwir Atesch-kana neu Atesch-kade; hyny yw, tŷ tân, lle y cedwir tân i losgi yn barhaus. *Bah* ydyw yr enw a roddant ar dân; mewn rhan o blegid eu bod yn cydnabod yr elfen hon fel egwyddor pob peth. Pan yn ymolchi neu yn bwyta, wedi iddynt ddywedyd ychydig o eiriau penodol, ni cheir un gair drachefn dros eu gwefusau; ac i bob mis o'r flwyddyn, i bob diwrnod, seren, mynydd, mwnglawdd, llyn o ddwfr, a choeden, priodolant elfodau (*genii*) penodol—angelion a grewyd o flaen dyn, y rhai a bechasant trwy anffyddlondeb ac anufudd-dod, ac a yrwyd mewn canlyniad i'r lle a alwant hwy yn Wlad yr Elfodau.

Gosodant allan yr egwyddor dda drwy *oleuni*, a'r egwyddor ddrwg drwy *dywyllwch;* cydnabyddant y naill a'r llall yn dduwiau, ac addolant hwy, a gweddïant arnynt; eto, yr oeddynt yn rhanedig yn eu barn—rhai yn tybio fod y naill a'r llall yn bodoli er tragwyddoldeb; ereill yn tybio nad oedd ond yr egwyddor dda er tragwyddoldeb, ac mai un grëedig oedd yr egwyddor ddrwg. Credant fod y ddwy egwyddor hyn mewn ymdrech barhaus â'u gilydd, ac y parhânt felly hyd ddiwedd y byd; pryd y gorchfyga yr egwyddor dda. Wedi hyny, fe gyfyngir y ddwy egwyddor i ddau fyd gwahanol: fe deyrnasa yr egwyddor dda gyda'r bobl rinweddol, a'r egwyddor ddrwg gyda'r bobl ddrygionus.

Y mae egwyddorion dysgeidiaeth y Magiaid boreuaf, er nad ydynt eto yn hysbys ond yn dra anmherffaith, wedi eu trosglwyddo i Ewrop yn ddiweddar mewn amryw gyfieithiadau o weithiau rhai o honynt hwy eu hunain, y rhai a gafwyd yn India. Yn mhlith y rhai hyn, y pwysicaf ydyw y Zend-Avesta, a briodolir i Zoroaster; ac a gyfieithwyd i'r Ffrancaeg gan M. Anquetil Du Perron, 3 cyf. 4plyg, Paris, 1771. Byddai yn anhawdd profi i foddlonrwydd mai gwaith yr hen Zoroaster ei hun ydyw y llyfr hwn; ond y mae yn cynnwys gweddïau, seremonïau, ac arwirebau y rhai a alwant eu hunain yn ddysgyblion iddo yn India. Yn ddiweddarach (1818), cyhoeddwyd yn Bombay, gan Mulla Firuz bin Kaus, archoffeiriad dysgedig y grefydd Barseeaidd yn Bombay, "*Y Desatir*, neu ysgrifeniadau cyssegredig yr hen Brophwydi Persiaidd, gyda chyfieithiad Seisoneg." Y mae un ysgrif yn mhlith y rhai hyn a briodolir i Zoroaster, yr hwn a gyfleir yn drydydd ar ddeg o'r prophwydi. Y diweddaf o honynt ydyw y pummed Sasan, yr hwn a fucheddai yn amser Khosroo Parvez, yr hwn oedd yn gydoeswr â'r ymherawdwr Heraclius; a bu farw naw mlynedd cyn dinystr yr hen lywodraeth Bersiaidd. Ni roddir dim o hanes amseroedd y prophwydi ereill ag y mae eu gwaith yn y llyfr.

Yr athrawiaethau a ddysgir yn yr ysgrifeniadau hyn ydynt—dragwyddoldeb a hunan-fodolaeth y Duwdod Goruchel; yr hwn a greodd fod deallawl arall, yr hwn a wnaeth y bydoedd, yn nghyd âg amryw nefoedd, ac a roddodd enaid a chorff i bob un, a'r hwn a wnaeth y ser hefyd: —bod gan bob un o'r elfenau, &c., eu hangel gwarcheidiol—bod anifeiliaid ysglyfaethus wedi

Digitized by Google

bod yn euog o droseddau mewn cyflwr blaenorol, am yr hyn y dyoddefant gospedigaeth yn eu cyflwr presennol trwy gael eu hela a'u hymlid; ac y cospir dynion a gyflawnant droseddau yn eu cyflwr o ddyndod drwy eu troi yn anifeiliaid, neu yn llysiau, neu yn fwnau, yn ol natur eu troseddau. Telir parch ac addoliad mawr i briodoliaethau annhraethadwy y Duwdod yn yr ysgrifeniadau hyn. Dysgant fod i weddïau gael eu cyflwyno i oleuni, neu i dân, nid am eu bod yn dduwiau eu hunain, ond am eu bod, yn ol eu barn hwy, yn cludo y gweddïau at y duwiau nefol.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Calmet's Dict.; Eadie's Bib. Cycl.*)

DOETHOR, [*doeth*]: teitl athrofaol. Gwel DOCTOR.

DOETHOR ANGELAIDD. Dyma yr enw a roddid yn gyffredin i Thomas Aquinas, ysgolor duwinyddol nodedig, awdurdod yr hwn sydd wedi cael ei ystyried gan y Pabyddion bob amser yn dra uchel. Yr oedd yn disgyn o freninoedd Sicily ac Arragon, a ganwyd ef yn nghastell Aquino, yn Italy, o gylch y flwyddyn 1244; a chafodd elfenau ei addysg yn bur fore gan fynachod mynydd Cassino; ac er gwaethaf y rhwystrau a deflid ar ei ffordd gan ei rieni, a'r moddion a ddefnyddient rhag iddo gyfeillachu â'r Dominiciaid, efe a gynnyddodd yn gyflym dan eu cyfarwyddyd yn nuwinyddiaeth yr oes. Ar ol myfyrio yn Naples, Rhufain, a Cologne, aeth i Paris, lle y darllenodd ddarlithiau, gyda chymmeradwyaeth mawr, ar Lyfr y Brawddegau; a gwnaed ef yn ddoethor duwinyddiaeth yn 1255. O gylch 1260, dychwelodd i Italy, ac appwyntiwyd ef yn ddeffiniwr ei ddosbarth yn nhalaeth Rhufain; ac wedi dysgu ei dduwinyddiaeth yn y rhan fwyaf o brifysgolion Italy, efe a ymsefydlodd yn Naples, lle yr ymroddodd yn hollol i efrydu, i draddodi darlithiau, ac i ymarferion defosiynol. Yr oedd mor rydd oddi wrth ddylanwad dyrchafiadau bydol a chyfoeth, fel y gwrthododd dderbyn archesgobaeth Naples pan y cynnygiwyd hi iddo gan Clement IV. Yr oedd ei graffder uchanianol, treiddioldeb ei amgyffred, a'i sel dros athrawiaethau a llygredigaethau yr eglwys, yn fawr dros ben; ac addefir ei fod yn ddigymhar yn mysg duwinyddion ei oes. Yr oedd ei waith yn ddwy gyfrol ar bymtheg unplyg: cyhoeddwyd ef gyntaf yn Venice, yn 1490, ac argraffwyd ef yn fynych wedi hyny. Cynnwysiad ei waith, gan mwyaf, oedd eshoniadau ar yr Ysgrythyrau, gwaith Aristotle, a Llyfr y Brawddegau; ond ei waith mwyaf gorchestol yw y *Summa Theologiæ*, yr hwn a dderbynid bron yn gyffredinol, a ystyrid yn gyfartal i ysgrifeniadau godidog Lombard, ac a gydnabyddid fel safon gwirionedd, ac yn gynllun i'w efrydu ac i dreiddio iddo. Bu y gwaith hwn yn foddion i gyfodi sect newydd o'r enw Thomistiaid; y rhai, heb law daliadau Thomas Aquinas, a fabwysiadent athroniaeth Aristotle, a ddysgent athrawiaethau Awstin am bechod gwreiddiol, rhad ras, &c., ac a gondemnient y dyb o feichiogiad dihalog —yn groes i Duns Scotus, yr hwn oedd hanner Morganiad, ac a safai i fyny fel gwron dihalogrwydd y Forwyn.

Bu Thomas Aquinas farw yn 1274, a seintiwyd ef gan Ioan XXII, yn 1323. Heb law y teitl o Ddoethor Angelaidd, cafodd ei alw yn Angel yr Ysgolion, Angel y Duwinyddion, a Phummed Doethor yr Eglwys.

DOFYDD, [*dof*]: y Rheolwr, Arglwydd. Un o hen enwau y beirdd Cymreig ar Dduw. Gwel DUW.

"Ni bu, nid oes oes ysbryd
Heb y Dofydd, ni bydd byd."
*Gr. Ll. ab D. ab Ein. Llyglin*

DOGN: mesur, cyfran, swm, digon. "Dogn dydd yn ei ddydd, megys pan oedd gwellt;" *Exod.* v. 13. Yr oedd y meistriaid gwaith oedd dan Pharaoh yn edrych ar ol yr Israeliaid a weithient y priddfeini, yn eu dirgymhell i wneyd yr un swm, neu yr un cyfrif o briddfeini, bob dydd, pan y gorfodid hwynt i gasglu sofl atynt ar hyd y meusydd, ag a wnaent pan y rhoddid gwellt iddynt gan y meistriaid. Yn *Exod.* xvi. 4, sonir am "ddogn dydd yn ei ddydd o fara o'r nefoedd." Gwel MANNA.

DOLEFAIN: tybir na ddefnyddir y gair ond unwaith yn y Beibl, sef yn *Luc* viii. 28; ac yma. y mae yn gyfieithiad o'r gair Groeg ἀνακράζω, yr hwn a ddefnyddir yn gyffredin gan y Deg a Thrigain i ateb i'r gair Hebraeg קרא. Ceir yr un gair Groeg mewn tri lle arall yn y Testament Newydd; sef, yn *Marc* i. 23, lle y cyfieithir ef *llefain*; yn *Luc* iv. 33, *gwaeddi*; ac yn *Luc* xxiii. 18, *llefain*. Yn yr Hen Destament, cyfieithir y gair gwreiddiol *llefain*, *gwaeddi*, *bloeddio*, &c. Yn y fan yma (*Luc* viii. 28), lle y cyfleithir y gair *dolefain*, y mae yn dyfod oddi wrth y dyn y bwriodd yr Arglwydd Iesu gythreuliaid allan o hono yn ngwlad y Gadareniaid. Yn y ddau efengylwr arall, lle y rhoddir yr hanes yma, y gair gwreiddiol a ddefnyddir sydd o'r un gwreiddyn ac arwyddocâd yw κράζω; yr hwn, yn *Mat.* viii. 29, a gyfleithir yn *llefain*, ac yn *Marc* v. 7, a gyfieithir *gwaeddi*.

Ymddengys mai yr ysbrydion aflan oedd yn dolefain yn y dyn, gan ddefnyddio tafod y dyn i'r perwyl, meddai Benson. Yr oedd yr ysbrydion aflan yn adnabod Crist, ac yn ymostwng iddo fel Mab Duw, er na fynai yr Iuddewon, at y rhai y danfonwyd ef, mo hono i deyrnasu arnynt.

DOLUR—IAU, [Ll. *dolor*]: archoll, briw, clwyf, clefyd; gloes, poen; alaeth; ing, tristwch. Dolur yw agoriad a wneir mewn rhyw ran dyner neu feddal o'r corff, gan ryw wrthddrych allanol, ac a bâr golli rhyw swm, mwy neu lai, o waed. Y mae doluriau yn amrywio o ran eu hansawdd, yn ol natur yr offerynau fyddo wedi eu hachosi a maint y grym y caffo y cyfryw offerynau eu cymhwyso âg ef at y corff a oddefo y dolur. Mae meddygon yn ystyried doluriau neu friwiau yn chwe math, neu chwe dosbarth:—doluriau toredig, gwanedig neu frathedig, pwl neu yssig, rhwygedig, gwenwynedig, a dolur ergyd gwn. Y mae doluriau rhanau penodol yn gofyn triniaeth benodol hefyd; megys doluriau y pen, y gwddf y ddwyfron, &c.

Achosir doluriau toredig gan arfau miniog, ac nid oes dim yssigrwydd yn perthyn iddynt. Doluriau neu waniadau brathedig a wneir gan arfau blaenllym, megys bidogau, gwaewffyn, hoelion, drain, &c., yn treiddio yn ddwfn i'r cnawd. Cynnyrchir doluriau yssig a rhwygedig trwy i arfau neu bethau pwl gael eu cymhwyso yn chwyrn at ranau tyner neu feddal y corff; ac yn mysg y rhai hyn y gellir gosod doluriau ergyd gwn. Doluriau gwenwynedig yw y rhai a achosir trwy i wenwyn gael ei roddi mewn rhyw fodd yn y briw. Y mae maint perygl doluriau yn dibynu

Digitized by Google

ar faint y rhanau tyner yr effeithiant arnynt, ac ar sefyllfa iechyd y dyoddefydd. Pan fyddo y doluriau yn fychain, ac heb eu gwenwyno, ni bydd y niwed i'r cyfansoddiad yn gyffredin ond bychan; ond pan niweidir rhan fawr o'r corff, bydd arwyddion twymyn yn ymddangos yn mhen o bedair i ddeng awr ar ugain ar ol derbyn yr archoll neu y dolur; yr hyn a ofyn sylw manylaf y meddyg, gan y gall y dwymyn wahaniaethu yn fawr, a gofyn gwahanol ddulliau o driniad, yn ol natur ac amgylchiadau y dyoddefydd. Gelwir y dwymyn yma yn gyd-ddygwyddol neu argoeliol, a bydd gan mwyaf yn fflamegol.

*Doluriau toredig.* Achosir y gwaed a ddeillia o honynt trwy i lestri gwaed y rhan y byddo y dolur ynddi gael eu tori, a deillia y boen trwy y niwed a gaffo ei wneuthur i'r gewynau. Bydd swm y gwaed a ddeillia o ddolur yn ymddibynu ar natur y rhan a niweidir. Y mae helaethrwydd mawr o waedlestri, ac ychydig o ewynau, mewn rhai rhanau o'r corff, ac yn y gwrthwyneb. Am hyny, nid yw na phoen na gwaediad yn ymddibynu yn wastad ar faint y dolur neu yr archoll. Nid yw perygl doluriau toredig yn ymddibynu cymmaint ar faint y rhanau a agorir ag ar natur a maint y gwaedlestri a niweidir. Fel hyn, gall toriadau mawrion gael eu gwneuthur ar y cefn, a rhanau ereill o'r corff, heb achosi cymmaint o goli gwaed ag a berygla fywyd, pan y gallai gwaniad bychan yn ngwythen y gwddf neu redweli y forddwyd achosi marwolaeth ebrwydd. Y mae cyfander rhai rhanau o'r gyfundrefn ewynol hefyd mor hanfodol i fywyd fel y parai yr archoll lleiaf i weithrediadau y corff sefyll yn y fan. Fel hyn, achosai gwaniad bychan yn yr ymenydd, y gorymenydd, neu fadruddyn y cefn, farwolaeth ddisymmwth. Y mae canlyniadau olaf doluriau yn gwahaniaethu yn ol natur y peiriannau a ddolurir. Y mae doluriau a fyddont agos i'r rhanau symmudol weithiau yn gwbl aniachadwy. Nid yw doluriau gïeuol a gewynol yn iachau mor gyflym a rhai cyhyrol; am hyny, y mae yn bur anhawdd, yn fynych, iachau doluriau y cymmalau.

Mae maint agoriad doluriau yn ymddibynu ar natur y peiriannau y torir trwyddynt. Mae y croen yn adlamol; a phan y torir trwyddo, ymegyr y dolur o herwydd adlamedd y croen. Lle y byddo llawer o gellagwe (*cellular tissue*), nid egyr y dolur gymmaint, am nad yw y cyfansoddiad yma yn adlamol. Y mae doluriau y cyhyrau yn gwahaniaethu. Os bydd y toriad ar hyd y llinion, ni bydd yr agoriad ond bychan; ond os bydd ar draws y llinion, y rhai sydd o natur grebachol, fe egyr y dolur yn fawr. Gellir gwneyd i ddoluriau hefyd agor neu gau yn ol sefyllfa hydynder y cyhyrau a fyddo o danynt.

Mae y llestri a niweidir mewn doluriau toredig yn gwahaniaethu fel y dygwyddont fod, naill ai yn *rhedwelïol* neu yn *wythïenol*, ac y mae rhediad y gwaed o honynt yn gofyn triniaeth wahanol i raddau. Pan archoller rhedweli, cymmer crebachiad le yn ebrwydd yn mhenau yr haenau canol a mewnol sydd o fewn yr haen allanol, a chrebycha yr holl haeniau hefyd, fel ag i leihau ceuedd y rhedweli. Rhed gwaed o ddau ben y rhedweli doredig, ond rhed mwy bob amser o'r agoriad nesaf i'r galon. Mae yn hawdd adnabod gwaed o redweli wrth ei liw coch dysglaer, a thrwy yr ergydiad allan. Pan adawer rhedweli doredig iddi ei hun, rhed llawer o waed o honi, ond daw yn lleilai, fel y llifa dros wyneb garw y wain allanol, oddi wrth yr hon y gwahanwyd y ddwy haen fewnol, ac y glyna gronynau o'r gwaed wrth ei llinion rhyddion. Parha rhif y gronynau hyn i chwanegu, nes o'r diwedd y llenwant yr holl wagle rhwng pen y wain allanol a phenau y ddwy haen wrthneidiol, ac y bydd i'r gwaed ffurfio clamp ceuledig durfing. Ar ol i hwn ymffurfio fel hyn, paid y gwaed a rhedeg o'r rhedweli. Yr enw a roddir i'r clamp yma o waed ceuledig ydyw y *ceuliaa allanol;* ond y mae yr un gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen o fewn haenau gwrthneidiol mewnol y rhedweli doredig, ac ymestyn y ceuliad i fyny hyd y pwynt lle y teifl y rhedweli un o'i changenau allan. Terfyna y ceuliad yma yn flaenfain yn nghanol pibell y rhedweli, a gelwir ef y *ceuliad mewnol.* Mae y gwaed hefyd a red o'r tu allan i'r rhedweli oll yn ceulo, a gall i ryw raddau gynnorthwyo y gweithrediad naturiol o attal y gwaedlifiad. Ond nid yw y ceuliadau yma o'r gwaed yn ddigonol i rwystro gwaedlifiad: y mae gweithrediad arall yn canlyn, yr hwn yn y pen draw a'i hettyl. Hwn ydyw y dyfrnaws a red o ochrau y rhedweli ei hun. Mae y dyfrnaws yma yn cwbl lenwi pen y rhedweli, ac yn ymdyru yn gyntaf rhwng y ceuliadau allanol a mewnol; ond cynnydda hwn nes o'r diwedd y cymmer eu lle, sugnir y ceuliad i fyny, ac ymffurfia y dyfrnaws yn sylwedd o'r gwaedlestri, a daw yn rhan megys o'r rhedweli ei hun, a chyssyllta hi, i raddau mwy neu lai, â'r rhanau amgylchynol.

Pan y torir neu y gwanir rhedweli ond mewn rhan yn unig, cymmer gweithrediad heb fod yn gwbl yr un fath le. Rhed gwaed rhwng y rhedweli a'i gwain, uwch law cystal ag islaw y rhan ddolurus. Mewn canlyniad i hyn ymleda y rhedweli, a chymmer gwahaniaeth yn sefyllfaoedd perthynol yr haenau mewnol a'r wain le, a chyfyngir y gwaed a geula gan y wain dros y rhan ddolurus o'r haenau mewnol. Rhed dyfrnaws, fel yn yr achos arall, a chymmer gwellhâd le yn unig trwy ddilead y rhedweli.

Pan y dolurir y gwythïenau, bydd y gwaed a red allan o liw tywyll; a rhed, nid yn ergydion, ond yn ffrwd unffurf. Nid oes dim cymmaint o berygl oddi wrth rediad gwaed o wythen ag o redweli, ac y mae yn llawer haws ei attal. Pan dorer gwythen drwyddi, cauir y penau cyferbyniol gan waed ac ymffurfiad canlynol dyfrnaws, fel mewn rhedwelïau. Os ysgafn yn unig fydd y gwaniad, ac ar hyd, gwellhâ gwythïenau yn gyflym, fel y gwelir mewn gollyngiad gwaed cyffredin. Pan y torir gwythïenau ar hyttraws neu ar draws, ceuir y dolur gan geuliad gwaed, ac ymgasgla dyfrnaws yn ngwefusau yr archoll, yr hwn o'r diwedd a ymffurfia ac a gau yr holl wythïen i fyny, a sugnir i fyny y ceuliad, fel y dangoswyd o'r blaen. Bydd y gweithrediad ymwellaol yma gyda golwg ar y gwythïenau yn llawer arafach na chyda golwg ar y rhedwelïau.

Wrth drin doluriau toredig, yr amcanion mewn golwg yw, yn gyntaf, attal y gwaedlifiad; yna, symmud pob sylwedd anmhriodol a ddichon fod wedi myned i'r dolur; ac wedi hyny uno neu gyssylltu y rhanau gwahanedig.

Bydd yn hawdd attal gwaedlifiad trwy ddwyn minion yr archoll yn nghyd mewn toriadau arwynebol, a rhai na byddo pibellau rhedwelïol neu wythenol mawrion wedi eu niweidio; ond pan ddygwyddo hyn, bydd yn angenrheidiol defnyddio moddion ereill. Fe allai nad yw meddyginiaeth wedi diwygio cymmaint mewn dim, yn ddiweddar, ag yn y medr i attal gwaedlifiad. Gall y meddyg medrus yn awr anturio tori trwy

Digitized by Google

yr holl waedlestri, oddi gerth prif bibellau rhedweliol a gwythïenol y cyfansoddiad. Pan fyddo y gwaedlifiad yn fawr, y peth cyntaf a ellir ei wneyd er ei attal ydyw gwasgu pibell y rhedweli. Gellir gwneuthur hyn naill ai trwy ddefnyddio y trowasg (offeryn meddygol i'r perwyl), neu amrwym (*bandage*) wedi ei wneyd yn y fath fodd ag i wasgu y rhedweli i lawr. Pa fodd bynag, anfynych y mae gwasgiad yn ddigonol i attal rhediad gwaed am ddigon o amser i wellhau yr archoll; canys, er y gall hyn lwyddo i'w attal i redeg trwy y brif bibell redwelïol, eto nid ettyl i redeg trwy gangenau dyfnach; a thrwy attal dychweliad y gwaed o'r gwythenau, gall, dan rai amgylchiadau, chwanegu y gwaedlifiad.

Y moddion mwyaf pwysig i attal gwaedlifiad o archollion ydyw y rhwymyn. Cymhwysir hwn trwy ymaflyd yn mhenau toredig y rhedweli â gefail meddyg neu deimlor (*tentaculum*), ac yna rhwymo y rhedweli, fel y rhwymir genau sach lawn. Dylid gofalu, tra yn darpar y pethau hyn, am attal y gwaed trwy bwyso ar bibell y rhedweli, neu drwy roddi y bys ar yr agoriad gwaedlyd ei hun. Effaith uniongyrchol y rhwymiad tyn dan sylw ydyw, attal rhediad y gwaed, dosbarthu haenau canol a mewnol rhedweli yn y rhan rwymedig, a chulhau y bibell am beth ffordd uwch law y rhwymyn. Aiff yr un gwellhad yn mlaen wedi hyny a phan y gwella rhedweli o honi ei hun.

Defnyddir moddion ereill i attal gwaed, megys cyffyrïau argoel, ysbwng, seriad, ysolion, &c.; ond anfynych y dylid arfer y rhai hyn at ddoluriau toredig; a chan fod rhagfarn yn y wlad o'u plaid, dylid gwneyd mwy o ymdrech yn eu herbyn, gan fod llawer archoll wedi ei dyfetha ganddynt a fuasai yn gwella pe gadawsid hi yn llonydd, ac felly llawer bywyd wedi ei golli yn ddiachos.

Yr ail orchwyl yn nhriniad doluriau toredig ydyw tynu pethau anmherthynasol o honynt, yr hyn mewn iaith gyffredin a elwir glanhau briwiau. Os na ofelir am wneyd hyn yn effeithiol a thrwyadl, cymmer cornwydydd le, ac fe allai gig marw hefyd. Y mae doluriau a wneir gan ergyd gwn, llestri pridd, gwydr, a phethau cyffelyb, yn gofyn y gofal mwyaf wrth eu glanhau; ac ni ddylid eau hyd yn oed y briwiau a wneir gan arfau min heb eu glanhau, gan y dichon i'r cyfryw arfau fod yn orchuddiedig gan lwch a baw a adewir yn y dolur.

Y trydydd gorchwyl yn nhriniad doluriau toredig, yw dwyn minion yr archoll yn nghyd, a'u cadw yn y fath fodd ag i achosi uniad buan. Er mor amlwg ydyw mai gwella pob dolur cyn gynted byth ag y gellir ydyw y goreu a mwyaf effeithiol, eto ceir rhai meddygon, nid yn unig ar y Cyfandir, ond yn Lloegr hefyd, yn pleidio triniaeth faith ac annyben; a bu yn gred unwaith mai po arafaf y gwellheid archollion, mai goreu oll a fyddai yn y pen draw ar les y dyoddefydd; ond y mae hyn yn dyfod yn fwy anmhoblogaidd yn barhaus.

Pan ddarfo 'r gwaed darddu o ochrau y dolur, cymmer rhediad dyfrnaws o natur ymffurfiol le. Teifl llestri allan i'r dyfrnaws hwn trwy rinwedd y tyfiad o ochrau y briw, a bydd i gyfuniad ymffurfiol o'r holl friw yn fynych gymmeryd lle yn ystod wyth awr a deugain. Er mwyn i ddoluriau ymuno, pan yn newydd, ni ddylid dwyn eu minion i gyssylltiad nes y gorphenont waedu, canys gall y swm lleiaf o waed arafu, ac weithiau lwyr attal yr ymuniad. Pan fyddo ymylon dolur yn barod i'w dwyn yn nghyd, y mae llawer o ffyrdd i'w cadw yn nghyd. Cyn dwyn yr ymylon yn nghyd, gellir cymhwyso dwfr oer at y dolur ar ddarn o liain. Ceidw hyn i lawr bob tuedd i orweithiad neu ennyniad.

Am y gwahanol ffyrdd i gadw ymylon briwiau yn nghyd, y fwyaf cyffredin ydyw cymhwyso y plaster ymlynol atynt, a diau mai hwn ydyw y mwyaf cyfaddas at y rhan fwyaf o ddoluriau toredig. Pa fodd bynag, y mae rhai briwiau yn rhy fawrion i gymhwyso plastr ymlynol atynt, ac yna rhaid defnyddio gwnïad; yr hyn a wneir trwy ddwyn ymylon y dolur yn nghyd, a'u gwnïo i fyny. Pa fodd bynag, ni lwydda y driniaeth oreu bob amser i uno archollion yn y dull a nodwyd; o ganlyniad, rhaid cymmeryd dull arall o wellhau doluriau, sef trwy adael i ronyniad gymmeryd lle. Pan y cymmer hyn le, rhaid rhoddi pob moddion er uno ymylon y briw heibio. Y mae yn rhaid tynu y plasteri, y gwnïadau, a'r rhwymynau; a phan fyddo yr ennyniad yn fawr, dylid defnyddio pob moddion i'w attal. Dylid meithrin crawniad trwy gymhwyso meddaleion (*poultices*) cynhes; ac uwch law pob peth, trwy gymhwyso dwfr clauar at y dolur. Pan y darfyddo ennyniad, ac yr ymffurfio gronyniad, dylid defnyddio gwasgiad graddol, rhag i ormod o ddefnydd newydd ymffurfio yn ystod y crawniad. Y mae rhai yn dra hoff o elion; ond yn gyffredin golchiadau ydyw y goreu. Nid ydyw doluriau yn gyffredin yn gofyn rhyw olchiadau tra mynych, yn ol arfer rhai; ond y prif beth ydyw cadw y briw a'r croen o'i amgylch yn lân ac yn gwbl rydd oddi wrth bob brychau ac anmhuredd.

Y doluriau ereill a grybwyllwyd yw, *doluriau gwanedig*. Perygl y doluriau hyn yw eu dyfnder, a llifiad mewnol o ddyfrwaed a gwaed. O blegid hyn, dilynir y doluriau yma yn fynych gan ennyniad a chrawniad tost. Ymdrechir attal hyn trwy ledu y briw. Gorchwyl tost yw hwn, ac ni ddylid ei arfer ond pan fyddo raid glanhau y dolur yn unig. Dygir y doluriau hyn i gau ar yr un egwyddorion a doluriau toredig neu archollion ergyd.

Y math arall o ddoluriau yw rhai *yssigedig a rhwygedig*, y rhai a achosir trwy i arfau pwl neu ryw bethau celyd ereill gael eu gyru gyda chyflymder a grym yn erbyn rhanau tyner y corff. Er y gall doluriau o'r natur yma ddygwydd yn annibynol ar ergyd gwn, eto dan y cyfryw ddoluriau y ceir yr esamplau goreu o ddoluriau yssig a rhwygedig. Anfynych y mae gwaedlifiad mawr yn dilyn y doluriau hyn, o blegid fod haeniau y rhedwelïau yn crychu ac yn dyblu gan rym eu crebachiad. Y maent yn llawer mwy tueddol o fod yn cynnwys rhyw sylweddau anmhriodol a brychau ynddynt na doluriau toredig. Anaml y mae y fath ddoluriau yn cau ar unwaith; er hyny, dylid cadw golwg ar hyn wrth eu trin, gan y dichon y gellir cael gan ryw ranau o honynt ymuno. Y mae triniad y doluriau hyn yn ystod crawniad a gronyniad i fod yr un a thriniad doluriau toredig yn yr un sefyllfa. Y mae y cyfansoddiad yn gofyn gofal neillduol pan dan effeithiau y doluriau hyn, gan eu bod yn arwain weithiau i'r sefyllfa ewynol ddychrynllyd hono a elwir y dirdynwst (*tetanus*), yr hon yn fynych sydd yn gorthrechu pob math o driniaeth.

Y dosbarth nesaf o ddoluriau ydyw rhai *gwenwynig*. Y prif ddoluriau o'r dosbarth yma yn y wlad hon yw brathiadau creaduriaid cynddeiriog,

y gwaniadau a'r toriadau a geir oddi wrth ddifynu, brathiadau nadroedd, a gwaniadau colynau trychfilod. Fe allai mai y doluriau mwyaf anfeddyginiaethol yn y wlad hon ydyw brathiadau anifeiliaid cynddeiriog; o leiaf, nid oes feddyginiaeth benodol iddynt o fewn cylch y gelfyddyd feddygol. Pan fydd rhai wedi eu brathu gan gwn, cathod, neu fleiddiaid cynddeiriog, dylid tori y dolur yn y fan, a chymhwyso blorawd arian (*nitrate of silver*) at y briw.

Y doluriau nesaf yn y dosbarth yma ydyw y rhai *difyniadol.* Y mae y rhai hyn yn cynnwys, nid y gwaniadau a'r toriadau y mae meddygon yn agored iddynt yn unig wrth archwilio cyrff meirw dynion, ond yr holl ddoluriau y byddo rhyw sudd gwenwynig o gorff arall wedi ei roddi mewn rhyw fodd ynddynt. Y mae yn bwnc o ammheuaeth hyd heddyw gan rai, pa un ai oddi wrth wenwyn neillduol y deillia yr effeithiau a ddilynant y doluriau hyn, ai ynte canlyniadau briwiau mewn cnawd oedd eisoes heb fod yn iachus ydynt. Ond y mae effeithiau niweidiol mynych y doluriau hyn ar feddygon, mewn cymhariaeth i ddosbeirth ereill o ddynion, sydd mor agored i gael eu gwanu a thori eu bysedd a hwythau, yn ddigon i benderfynu o blaid hanfod gwenwyn o'r fath. Pa fodd bynag, nid cyrff madredig, neu rai mewn gradd bell o ddadgyfansoddiad, yw y rhai mwyaf niweidiol, fel y tybir yn fynych; canys canfyddir yn aml fod y canlyniadau gwaethaf i ddoluriau yn dyfod oddi wrth gyrff newydd feirw, yn enwedig rhai wedi meirw o'r ennynfa esgorawl. Cyfyngir y clefyd yma bron yn hollol i'r dosbarth meddygol; ac y mae llawer o ddadleu wedi bod am y dull goreu i'w drin. Yn yr amser gynt, gweinyddid nertholion, gwin, brandi, a chymmerid pethau nerthol i ladd y gwenwyn; ond bernir yn awr mai moddion tyner yw y goreu; ac ni ddefnyddir nertholion a gwin ond pan fyddo arwyddion amlwg fod y cyfansoddiad yn eu gofyn. Y mae gelod, gollwng gwaed, cartheion, cysglyn, a delydraint (*antimoniate*), yn gwneyd i fyny y driniaeth a gymhwysir at y doluriau hyn yn y graddau cynnaraf o'r dolur. Pa foddion bynag a gymhwysir, dibyna ei lwyddiant i raddau mawr ar ei gymhwysiad dioed.

Y rhyw ddiweddaf o'r dosbarth yma o ddoluriau yw *brathiadau seirff gwenwynig.* Y mae y rhai hyn yn farwol yn fynych yn yr hinsoddau poethion. Yr unig sarff y mae achos i'w hofni yn Ynys Prydain ydyw y wiber, a elwir hefyd "y neidr frech." Pa fodd bynag, anfynych y mae ei brathiad hithau yn farwol, os na bydd sefyllfa y cyfansoddiad yn ffafriol i hyny. Yn ebrwydd ar ol y brathiad, teimlir poen a llosgfa yn y rhan ddolurus, yr hyn a ddilynir gan chwydd cyflym a drygliwiad gloew y lle. Fe effeithia hefyd yn gyflym ar y cyfansoddiad; a theimlir pendro, diffyg nerth, iselder ysbryd, llesgedd, llesmair, cyflymder gwaedguriad, chwys oer, pall golwg, cur yn y pen, cyfogiad geriol, poen dirfawr o gylch y bogel, ac ymddengys yr holl groen megys yn melynu. Y mae yr arwyddion hyn yn fwy neu lai yn ol maint gwenwyndra y seirff a frathont. Y mae yn sicr fod brathiad rhai o seirff Affrica ac America yn farwol, a bydd y rhai a frethir feirw yn fuan ar ol derbyn yr archoll.

Wrth drin brathiadau seirff, y peth cyntaf a ddylid ei wneuthur ydyw attal mynediad y gwenwyn i'r cyfansoddiad. Defnyddir amryw ffyrdd i'r dyben yma. Y ffordd fwyaf effeithiol ydyw tori y lle a frethir ymaith yn y fan. Prin y mae hyn yn angenrheidiol ar ol brathiad gwiber Brydeinig, gan mai anfynych y mae brathiad hon yn farwol; ond hyn, braidd bob amser, ydyw yr unig feddyginiaeth gyda golwg ar seirff y gwledydd poethion. Cynghorir ar fod i'r amdrowasg, neu y rhwymyn, gael ei gymhwyso uwch law y lle a frethir; ac annogir ei gypio hefyd. Ond nid ydyw y pethau hyn yn tynu y gwenwyn allan—dim ond attal ei gerddediad a'i effeithiau. Gall cymhwyso ysgolur (*caustic*) weithiau ladd y gwenwyn. Y prif gyfferi a weinyddir yn yr amgylchiad yma yw cynhyrf olion; a'r penaf o'r rhai hyn yw *ammonia.* Yr oedd Mr. Ireland, tra yn feddyg y fyddin yn yr India Ddwyreiniol, yn defnyddio *arsenic* yn ddognau o un gronyn fel meddyginiaeth rhag brathiad y golwiber gigliw (*coluber carinatus*). Yn America Ddeheuol, dywedir fod y llysieuyn a elwir *guaco* yn dra effeithiol; ond wedi i Poepping gasglu pob ffeithiau a'r a allai yn ei gylch, methai efe ganfod fod ei rinweddau yn ateb i'w glod.

Y dosbarth olaf o ddoluriau y dywedir gair arnynt, yw rhai mewn *rhanau neillduol o'r corff.* Pan archollir rhai o ranau dirgel y corff, gofynir holiadau yn fynych nas gellir eu hateb yn ol egwyddorion cyffredinol; am hyny, y mae archollion rhanau neillduol o'r corff yn gofyn ystyriaeth arbenig. Dilynir archollion yn y pen yn fynych gan ysgytfa a chydwasgiad sydd yn gofyn cydweddiad yn y driniaeth. Mae archollion yn y pen hefyd yn cael eu dilyn yn gyffredin gan ennyniad llym; ac nid oes un niwaid a wneir ar y corff yn gofyn mwy o wyliadwriaeth na'r rhai hyn.

Y mae archollion y gwddf hefyd, y rhai a wneir yn rhy fynych gan ymgeiswyr at hunanladdiad, yn gofyn y sylw manylaf. Y peth cyntaf sydd yn gofyn sylw ydyw attal y gwaed, yr hyn a wneir trwy rwymo y rhedweli, fel y dangoswyd gyda golwg ar ddoluriau toredig. Os bydd y bibell wynt wedi ei thori, yr ymdrech benaf a ddylai fod, attal y gwaed i fyned i'r ysgyfaint hyd y bydd ddichonadwy, rhag iddo geulo yno, ac achosi ennyniad yr ysgyfaint. Pan y dygwyddo y dolur fod yn y breuant (*larynx*), uwch law y beudag (*glottis*), dylid gwneyd ymdrech egniol i symmud pob peth a ddichon ennynu y beudag, neu i attal rhyddfynediad yr awyr i'r ysgyfaint. Pan archoller y sefnig neu y geg, dylai ymborth y claf gael ei weinyddu trwy bibell a'i caria heibio i'r dolur, rhag i ddim o'r ymborth lynu ynddo, a pheri ennynfa. Ymdrechir weithiau cau y doluriau hyn trwy eu gwnio; ond pan wneir hyn, bydd y dyoddefydd mewn perygl yn wastad o fygu. Ar ol i'r gwaedlifiad ddarfod, dylid dechreu ymdrechu dwyn y rhanau gwahanedig yn nghyd yn raddol. Y mae trin y doluriau hyn yn ddeheig a llwyddiannus yn gofyn y medr mwyaf yn y meddyg.

Y mae doluriau neu archollion yn y ddwyfron yn beryglus yn ol eu maint a'u sefyllfaoedd; ac felly hefyd y mae archollion yn y bol a'r mordd-wydydd.

Defnyddir y gair *dolur* yn y Beibl yn ffugrol i arwyddo cystudd, poen, neu ofid:—"Mi a wn oddi wrth eu doluriau;" *Exod.* iii. 7. Yr wyf yn ystyried eu trallodion, eu gofidiau, a'u helbulon; ac yr wyf yn tosturio wrthynt, ac mi a'u gwaredaf hwynt. "Doluriau uffern a'm hamgylchynasant;" 2 *Sam.* xxii. 6. Yn *Salm* xviii. 5, cyfieithir yr un gair yn ofidiau:—

Digitized by Google

"Gofidiau uffern a'm cylchynasant." *Rheffynau* ydyw y gair sydd ar ymyl y ddalen yn y ddau le. Wrth uffern yn y lleoedd yma, meddai Poole, y golygir y bedd. Felly, wrth "ddoluriau uffern," y golygai Dafydd, rhwymau neu reffynau y bedd, i'r hwn y credai efe ei fod ar syrthio." "Gŵr gofidus a chynnefin â dolur..... Diau efe a ddug ein doluriau;" *Esa.* liii. 3, 4. Y mae y gair a gyfieithir yma *doluriau* yn cael ei gyfleithu yn *Deut.* vii. 15, a xxviii. 61, yn *glefydau*; ac yn *Esa.* i. 5, *clwyfus*; ond y mae hefyd yn arwyddo, medd Barnes, *gofid*, *trallod*: *Preg.* i. 16; ac yna rhyw drychineb neu adfyd: *Preg.* vi. 2. Y mae llawer o'r hen gyfleithwyr yn ei egluro megys i arwyddo ei fod yn cael ei adnabod neu ei wahaniaethu gan ei ddoluriau; hyny ydyw, yr oedd yn nodedig fel y cyfryw. Cyfieithiad y Deg a Thrigain o'r holl ymadrodd ydyw, "Gŵr mewn gofid a chynnefin â dolur neu glefyd." Ond os ystyr y gair yn y lle hwn ydyw dolur neu glefyd, ystyr ffugrol yn unig ydyw am ddyoddefiadau llymion corff ac enaid. Tybia rhai i'r ffugr gael ei gymmeryd oddi wrth y gwahanglwyf, yr hwn oedd nid yn unig y llymaf o bob dolur, ond a olygid hefyd mewn modd neillduol fel barn ddwyfol. Y syniad yw, ei fod ef yn gynnefin â gofid a blinder. Tybia rhai nad ydyw yn golygu y byddai iddo ef fod yn glaf neu ddolurus, ond y byddai yn agored i amryw fathau o flinderau, ac mai nodwedd ei fywyd fyddai bod yn gynnefin â'r cyfryw bethau. Byddai yn gwybod am danynt yn bersonol, ac yn gwybod am danynt mewn ereill. Byddai yn byw yn nghanol golygfeydd o adfyd, a deuai yn gydnabyddus â'i wahanol ffurfiau a'i ddrygau. Nid oes un prawf fod y Gwaredwr wedi bod un amser yn glaf neu ddolurus ei hun, yr hyn sydd yn dra nodedig; ond y mae digon o brofion ei fod yn gynnefin â phob math o ofidiau, a bod ei fywyd yn fywyd o dristwch.—(*Cooper's Works*; *Liston's Elements of Sur.*; *Penny Cycl.*; *Barnes' Notes*, &c.)

**DOL—YDD, DOLDIR**: gwaen, gweirglodd, gweirlawd, gwyrlawd, porfeldir, gwerddon. Tiroedd gwastad ydyw dolydd, sydd yn gorwedd yn gyffredin ar lanau afonydd neu lynoedd, y rhai a gedwir yn llaith gan y cyfryw, ac weithiau a orlifir; ond y maent gymmaint uwch law y dwfr, fel y mae yn llawer sychach na morfaoedd, ac o ganlyniad cynnyrcha wair a phorfa o ansawdd rhagorol. Y mae rhai dolydd tra eang yn perthyn i gymmydogaeth neu ddosbarth, i'r rhai y bydd gan bob un o'r trigolion hawl, ar ammodau penodol, i anfon ei anifeiliaid i bori. Nid ydyw y cyfryw ddolydd byth yn cael eu lladd yn wair.

Pan fyddo y cyfryw ddolydd heb fod yn bur eang, a'r cyfranogion heb fod yn lluosog iawn, byddant yn cytuno yn gyffredin i beidio pori y dolydd yn ystod y gwanwyn, gan ddosbarthu y dolydd yn rhanau cyfartal, er mwyn i bob un gael lladd ei gyfran yn wair. Ar ol hyn, enfyn pawb eu hanifeiliaid iddynt, blith draphlith, am y gweddill o'r tymmor. Fel hyn, tröir y dolydd cyffredin yn Ddolydd Calan Awst; canys y laf o Awst ydyw yr amser y try pawb eu hanifeiliaid iddynt—yr amser y tybir y bydd yr holl wair wedi ei gael i gyfarchwyl.

Pan y mae y dolydd yn eiddo personol, maent yn dyfod yn llawer gwerthfawrocach. Cefnogir neu attelir y gorlifiadau, yn ol fel y byddo amgylchiadau yn gofyn; ac weithiau, gwneir dyfrhad celfyddydol. Os byddant yn agored i orlifiadau rhy fynych, amddiffynir hwynt âg argaeau a chloddiau.

Y mae glaswellt dolydd isel lleithion yn fwy garw a diffaeth yn gyffredin na glaswellt dolydd a safant ar uwch tir: yna cyfrifir gwair ucheldir, fel y gelwir ef, yn well i anifeiliaid o'r rhyw goreu a mwyaf llednais. Y mae tir glaswellt da, nad ydyw byth yn cael ei orlifo, yn cael ei alw yn fynych yn ddol neu ddoldir, a chedwir ef gan amlaf at wair.

Y mae dolydd ucheldir yn dra gwerthfawr lle y byddo galwad am wair da. Y mae y fath dir yn gofyn cryn ofal er ei wneuthur yn wir gynnyrchiol. Gan nad yw y cyfryw ddolydd yn cael eu hadnewyddu trwy orlifiadau blynyddol, y maent yn dueddol i waethygu yn fuan heb gymmeryd cryn drafferth i'w cadw yn eu ffrwythlondeb naturiol. Gellir gwneuthur hyn mewn amryw ffyrdd: y ffordd fwyaf gyffredin ydyw, eu hadnewyddu yn fynych â thail da anifeiliaid a llysiau; yr hwn, wedi ei daenu ar wyneb y tir pan fyddo y cawodydd yn fynych, sef yn gynnar yn y gwanwyn, neu yn ebrwydd ar ol canol yr haf, a olchir i lawr at wraidd y glaswellt. Pâr hyn dyfiad prysur, yr hyn a ganfyddir yn fuan trwy gymharu ymddangosiad dol a fyddo wedi ei theilo âg ymddangosiad un a adawer yn ei sefyllfa naturiol. Y mae rhai awdwyr amaethyddol yn haeru fod cynnyrch gwair yn fwy pan ei lleddir bob blwyddyn, os caiff ei theilo yn briodol, na phe lleddid ac y porid hi bob yn ail. Ond y mae ffrwythlondeb dol yn ymddibynu yn gwbl ar natur y tir a'i sefyllfa. Os bydd tir dol yn dda, ac yn cael ei gyfaddasu yn briodol i gynnyrchu gwair rhagorol, gellir ei ladd flwyddyn ar ol blwyddyn heb ganfod dim cyfnewidiad yn ansawdd y gwair; tra y gofyn un arall o ansawdd waelach ei thori yn gwta wrth y ddaiar er attal tyfiant y glaswellt bras, a rhoi lle i beth tynerach. Gyda golwg ar ladd y gwair, yn hytrach na'i bori, y mae gwahaniaeth, gan fod pori yn achosi i'r tir gael ei wrteithio yn fynychach gan yr anifeiliaid, ac attelir trwy hyn i'r gwair hadu, yr hyn a dloda y tir. Trwy fod pori yn ei dori yn amlach ac yn ei wrteithio yn fynychach, mae y gwraidd yn ymledu, a'r cnwd yn tewhau. Y mae trwnc yr anifeiliaid hefyd yn lles mawr i gynnydd y tyfiant ar dywydd gwlawog; ond ar dywydd poeth a sych, y mae yn gwneyd mwy o niwed nag o les. Nid ydyw tom anifeiliaid, wrth ddisgyn ar y maes, ond o ychydig les mewn cymhariaeth i'r hyn a fyddai pe cymmysgid ef â gwellt, pridd, neu fwn mawn; gellir hefyd wneyd pwnt (*tank*) i dderbyn eu trwnc. Gorchwyl rhagorol, gan hyny, ydyw rhoddi gŵr ar waith i gasglu biswail ffres mewn dolydd porfelog, a'i gario i bentwr o bridd, lle y gellir ei huddo nes iddo heneiddio.

Y mae yr ymarferiad o *werydu* wedi dyfod yn dra mynych yn ddiweddar; hyny yw, lleddir yr holl borfa, a cherir hi yn las bob dydd i wartheg neu geffylau mewn tai. Trwy hyn, ceir yr holl fantais a ddeillia o ladd y gwair neu y borfa, heb law y ceir cyflenwad helaeth o wrtaith toreithiog i'w gymhwyso at y tir mewn sefyllfa iraidd neu gymmysgedig, a hyny ar yr adeg y byddo yr effaith yn fwyaf grymus a sicr. Ceir cymmaint mwy o borthiant oddi wrth dir trwy y cynllun o werydu, fel y troir tir âr yn fynych yn ddolydd gan amaethwyr y wlad hon er mwyn eu tori yn las neu eu cadw at wair; a phan y dechreuo y borfa waethygu, o blegid natur y tir,

Digitized by Google

erddir y ddol drachefn, a bydd y gwahanol driniad yma yn ei gwellhau yn fawr.

Pan yr esgeuluser dol naturiol, ac y tyfo glaswellt bras, dinodd, ynddi, yn gymmysg â chwyn a mwsogl, bydd yn gofyn llawer o ofal er ei hadferu i'w ffrwythlondeb naturiol. Y dull byraf a goreu yn gyffredin ydyw ei haredig, ei glanhau, a'i theilo yn amser amaethiad, heb gymmeryd cnydau trymion o honi; ac yna, gadael iddi groeni drachefn mewn cyflwr glân a thoreithiog, wedi ei hau â'r had gwair goreu; neu, yr hyn a wneir weithiau, trwy impio neu adblanu ynddi siobynau bychain o laswellt o ryw ddol doreithiog, y rhai a gynnyddant yn fuan, ac a gynnyrcha groen newydd a rhagorol. Ond os clai gwydn fydd y ddaiar, heb ond caenen led deneu o bridd da drosti, bydd cryn berygl tori yr hen groen, gan y cymmer amser maith a llawer o wrtaith i ail gynnyrchu croen priodol i laswellt. Yn yr amgylchiad yma, byddai yn well ysgraffinio y ddol gyda chelfi nad elent yn rhy ddyfnion, ond a gwysent wyneb y tir. Os gwneir hyn yn gynnar yn y gwanwyn, pan y mae y tir yn llaith, a'r holl arwyneb wedi ei ddwyn i fod yn debyg i gae braenar, gellir hau had gwair da yn ddioed. Os caiff tail da, wedi ei gymmysgu â chalch a marm, ei wasgaru dros y tir, a'r cyfan gael ei lyfnu a'i rolio yn drwyadl, bydd i'r hen borfa yn gystal a'r un newydd darddu gyda'u gilydd, a dangos cynnydd rhyfeddol mewn ychydig fisoedd. Byddai yn well lladd y gwair ar y ddol adnewyddedig cyn i had y gwair gael ei gynnyrchu—yn groes i'r syniad cyffredin y dylid gadael i'r gwair addfedu mewn dolydd teneuon er mwyn cynnyddu nifer y planigion. Y mae y syniad yn dda, ond dylid ei gyflawnu trwy hau had wedi ei gynnyrchu ar dir arall; canys y mae addfediad yr had yn tueddu at wanhau y tir. Os torir y borfa cyn i'r blodeuyn wywo, bydd i'r gwraidd ymwasgaru yn fuan, a chynnyrchu glaswellt newydd a grymus.

Rhaid sylwi nad peth dibwys ydyw pa anifeiliaid a droir i'r ddol ar ol y cynauaf gwair. Y mae ceffylau, bob amser, yn cynnyrchu chwyn bras, neu farchwellt, trwy eu tail a'u trwnc; gellir ail droi gwartheg i'r borfa ar ol y cynauaf cyhyd ag y mae yr arwyneb yn sych; ond y mae defaid yn llawer mwy manteisiol, a gellir eu cadw ar y dolydd bob amser, ac ar bob tymmor, os na byddant yn rhy wlybion i iechyd y defaid, a pheidio bod perygl iddynt gael clwyf y madredd. Cyn gynted ag y daw yr arwyneb yn feddal gan wlawogydd Hydref, ni ddylai un math o anifeiliaid trymion gael eu gadael ar y dolydd; y mae sangiad troed pob ceffyl a buwch ar yr adeg hon yn distrywio defnydd porfa dda, ac yn gwneyd twll, yn mha un yr erys y dwfr, gan ladd y glaswellt tyneraf a chynnyrchu brwyn a phlanigion dyfrol.

Dylai y dolydd ag y bwriedir lladd eu gwair gael eu cau i fyny yn gynnar yn y gwanwyn; a'r rhai hyny sydd yn feddal a gwlyb, ni ddylai fod ynddynt un anifail mwy na dafad, o Dachwedd hyd gynauaf gwair y flwyddyn ddyfodol.

Defnyddir y gair *doldir* yn y Beibl yn ffugrol, i arwyddo rhyw adnewyddiad neu ddiwygiad crefyddol:—"Cyfyd drain a mieri ar dir fy mhobl ......hyd oni thywallter arnom yr Ysbryd o'r uchelder, a bod yr anialwch yn *ddoldir*, a chyfrif y *doldir* yn goettir;" *Esa.* xxxii. 13—15. Dichon mai yr ystyr yw hyn: bydd i bobl Dduw, y rhai sydd wedi eu hanrheithio a'u distrywio, gael eu hadnewyddu a'u llwyddo, pan y dygir eu gelynion llwyddiannus i warth ac anrhaith. Fe allai hefyd ei fod yn arwyddo dychweliad y Cenedloedd diffrwyth a dirmygedig, a gwrthodiad yr Iuddewon yn amser y Messïah. Ymddengys fod *Esa.* xxxii. 16, yn ffafrio y golygiad yma; a'i bod hefyd yn cyfeirio at adferiad yr Iuddewon:—"Yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a erys yn y doldir." Hyny yw, gwneir cyfiawnder a barn yn mhob rhan o'r tir, yn y diffeithdir gystal a'r doldir, y rhai a roddir mewn gweithrediad gan fy holl bobl; yr hyn a gytuna â'r addewid yn *Esa.* lx. 21, lle y dywedir, "Dy bobl hefyd a fyddant gyfiawn oll."

DOMINICIAID: mynachod o urdd grefyddol Dominic, a elwir hefyd Mynachod Pregethwrol; yn Lloegr, gelwir hwynt Mynachod Duon; ac yn Ffrainc, Jacobiniaid. Ganwyd eu sylfaenydd, Dominic de Gusman, yn y flwyddyn 1170, yn Calaruega—tref fechan yn esgobaeth Osma, yn Old Castile. Pan yr oedd ei fam yn feichiog arno, breuddwydiodd ei bod yn rhoddi genedigaeth i gi bychan, yr hwn a roddai oleuni i'r holl fyd, gyda ffaglen yn ei enau. Pan yn chwe blwydd oed, dechreuodd astudio yr hen glasuron, dan gyfarwyddyd ei ewythr, archoffeiriad eglwys Gumyel de Ystan. Treuliai yr amser ag oedd ganddo yn weddill mewn cynnorthwyo yn y gwasanaeth dwyfol, canu yn yr eglwysydd, ac mewn addurno yr allorau. Pan yn dair blwydd ar ddeg oed, anfonwyd ef i brifathrofa Palencia yn nheyrnas Leon, lle y treuliodd chwe blynedd i astudio athroniaeth a duwinyddiaeth. O'r amser hwn allan, diofrydodd ei hun i bob math o erwindeb crefyddol; a llafuriodd yn llwyddiannus i droi pechaduriaid a hereticiaid. Dyrchafodd hyn ei enwogrwydd i'r fath raddau fel y darfu i esgob Osma, gan ei fod yn penderfynu diwygio canonwyr ei eglwys, feddwl am gael Dominic at y gorchwyl, yr hwn a wahoddwyd ganddo mewn canlyniad i ymgymmeryd â'r swydd o ganon yn eglwys Osma. Derbyniodd y gwahoddiad; a bu yn foddion, drwy ei ostyngeiddrwydd neillduol, a'i rinweddau ereill, i adeiladu a hyfforddi ei gyd-ganonwyr. Yn mhen ysbaid o amser ar ol hyn, ordeiniwyd ef yn offeiriad gan Osma, a gwnaed ef yn is-brior y glwysgor. Gan na chwennychai yr esgob gyfyngu y fath drysor i'w eglwys ef ei hun, anfonodd Dominic allan i weinidogaethu fel pregethwr efengylaidd. Yn ganlynol, aeth drwy amryw daleithiau, megys Galicia, Castile, ac Arragon, gan argyhoeddi llawer, hyd 1204—pryd y cymmerwyd ef gan esgob Osma i Ffrainc, pan yr anfonwyd yr esgob yn llysgenadwr i'r wlad hono. Yn eu mynediad drwy Languedoc, buont yn dystion o'r anrhaith a achlysurwyd gan yr Albigensiaid, a chawsant ganiatad gan y pab, Innocent III, i aros dros ryw ysbaid o amser yn y wlad hono, i lafurio er tröedigaeth yr hereticiaid hyny. Tra yn y dalaeth hon y penderfynodd ddwyn i weithrediad gynllun ag yr oedd wedi meddwl am dano er ys hir amser o sefydlu urdd grefyddol; amcan penaf pa un fyddai, pregethu yr efengyl, argyhoeddi yr hereticiaid, amddiffyn y ffydd, a lledaenu Cristionogaeth. Yn raddol, casglodd yn nghyd amryw bersonau o'r un benderfyniad ag ef ei hun, nifer pa rai a gynnyddodd cyn hir i un ar bymtheg. Awdurdodwyd y sefydliad hwn gan y pab Innocent III, ar ddymuniad Dominic, yr hwn a aeth i Rufain i'r dyben hwnw. Yna, cytunasant i fabwysiadu rheolau St. Awstin, at ba rai y chwanegasant

Digitized by Google

ddeddfau a ffurfosodiadau a fu yn cael eu cadw yn flaenorol, naill ai gan y Carthusiaid neu gan y Canoniaid Gwynion. Yr oedd y prif erthyglau yn gorchymyn dystawrwydd gwastadol, ymattaliad oddi wrth gigfwyd, gwisgoedd gwlanen, tlodi llym, a gwahanol fathau ereill o hunanymwadiad.

Yn Toulouse y sefydlodd yr urdd hon y cyntaf o'i mynachdai, drwy haelioni esgob Toulouse, a Simon, iarll Montfort. Oddi yno, byddai Dominic yn anfon rhai o'r frawdoliaeth i wahanol barthau i bregethu yr efengyl. Yn y flwyddyn 1218, sefydlodd fynachdy y Dominiciaid yn Paris, yn y Rue St. Jaques, oddi wrth yr hyn y cawsant yr enw Jacobiniaid. Sefydlodd fynachdy arall yn Metz, yn yr Almaen; ac un arall yn fuan drachefn yn Venice. Yn Rhufain, cafodd eglwys St. Sabina at ei wasanaeth gan y pab Honorius III. Erbyn y flwyddyn 1221, yr oedd gan yr urdd drigain o fynachdai, y rhai a ddosberthid yn wyth o daleithiau; sef eiddo Yspaen, Toulouse, Ffrainc, Lombardy, Rhufain, Provence, yr Almaen, a Lloegr. Ar ol sefydlu a helaethu ei urdd yn y modd hwn, bu Dominic farw yn Bologna, Awst 4ydd, 1221; a seintiwyd ef gan y pab Gregory IX, Gorphenaf 13eg, 1234.

Llwyddodd yr urdd i raddau helaeth, ar ol marwolaeth ei sylfaenydd, yn Ewrop, a lleoedd ereill. Gan hyny, gwnaethant bedair o daleithiau newyddion; sef Groeg, Poland, Denmark, a Gwlad Canaan. Wedi hyny, cynnyddodd nifer y mynachdai i'r fath raddau fel y dosberthir yr urdd yn bresennol i bymtheg a deugain o daleithiau, ac y mae y rhai hyny yn mhob parth o'r byd. Y mae wedi cynnyrchu nifer mawr o ferthyron, cyffeswyr, esgobion, a lleianod. Cyfrifir fod wedi deilliaw o'r urdd hon dri o babau, trigain o gardinaliaid, cant a hanner o esgobion, heb law meistriaid y palas cyssegredig, pa rai a gymmerir bob amser o blith y Dominiciaid.

Y mae lleianod yn perthyn i'r urdd hon, yn ol trefniad Dominic ei hunan. Arferent wisgo gŵn gwyn, a mantell wineu, a gorchudd du. Gorfodid hwynt gan eu sylfaenydd i weithio ar oriau penodol bob dydd, ac yn neillduol i nyddu edafedd a llin at wneuthur dillad iddynt eu hunain. Y mae gan leianod yr urdd hon uwch law cant a deg ar ugain o dai yn Italy, pump a deugain yn Ffrainc, hanner cant yn Yspaen, pymtheg yn Portugal, deugain yn yr Almaen, a lluaws yn Poland, Rwssia, a gwledydd ereill. Ni byddant un amser yn bwyta cigfwyd, oddi eithr mewn afiechyd; nid ydynt yn gwisgo lliain, a gorweddant ar welyau gwellt.

Yn y flwyddyn 1221, anfonodd Dominic, Gilbert du Fresney, gyda deuddeg o frodyr, i Loegr; lle y sefydlasant eu mynachdy cyntaf yn Rhydychain, yn yr un flwyddyn; ac un wedi hyny yn fuan yn Llundain. Yn y flwyddyn 1276, rhoddodd maer a henaduriaid dinas Llundain ddwy heol iddynt ger llaw yr afon Thames, lle yr oedd ganddynt fynachdy tra chyfleus; a gelwir y lle hwnw hyd heddyw, Blackfriars. Yr oedd ganddynt fynachdai hefyd yn Warwick, Canterbury, Stamford, Chelmsford, Dunwich, Ipswich, Norwich, Thetford, Exeter, Brecknock, Langley, a Guilford.

Gwnai y Dominiciaid, gan eu bod yn meddu awdurdod o Rufain i bregethu ac i dderbyn cyffesiadau, anrhaith mawr ar iawnderau yr esgobion Seisonig a'r clerigwyr plwyfol, drwy hawlio rhyddid i bregethu lle y dewisent. A byddai lluaws mawr o gyfoethogion, yn enwedig merched, yn encilio oddi wrth y clerigwyr plwyfol, ac yn myned i gyffesu i'r Dominiciaid. Effeithiodd hyn yn niweidiol ar foesau y bobl; o blegid gan nad oeddynt dan un angenrheidrwydd i gyffesu i offeiriad eu plwyf, esgeulusent eu dyledswyddau a chyflawnent bechodau gyda llai o betrusder, mewn gobaith y cyfarfyddent â chyffeswr Dominicaidd, yr hwn ni wyddai ddim am danynt, gan mai teithio yn barhaus y byddai yr offeiriaid hyny o'r naill fan i'r llall.

Cyfododd plaid wrthwynebol iddynt, sef y Francisciaid; ac y mae y ddwy urdd yn parhau yn elynion hyd yn bresennol. Rhanai y ddwy urdd hon rhyngddynt yr anrhydedd o reoli yr eglwys a'r llywodraeth hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, pryd y cyfododd y Jesuitiaid yn raddol i feddu yr awdurdod uchaf yn y llys ac yn yr ysgolion. Ennillasant yn ol yn Neheudir America a'r India Ddwyreiniol, drwy weithgarwch eu cenadon, yr hyn a gollasant yn Ewrop drwy y Diwygiad. Yn y ddeunawfed ganrif, cynnwysai yr urdd dros fil o fynachdai, y rhai a ddosberthid i bump a deugain o daleithiau. Nid ydyw urdd y Dominiciaid yn flodeuog yn awr ond yn unig yn Yspaen, Portugal, Sicily, ac America.—(*Herzog's Real. Encycl; Buck's Theol. Dict.; Rel. Encycl.*)

DONATIAID, [*Donatists*]: hen blaid o sismaticiaid yn Affrica, a ddynodid wrth yr enw oddi wrth enw eu harweinydd, Donatus. Yn y flwyddyn 311 y cyfodasant, pan yr etholwyd Cecilian yn esgob Carthage, ac y cyssegrwyd ef gan esgobion Affrica, heb gydsyniad esgobion Numidia, yn lle Mensurius, yr hwn a fu farw y flwyddyn hono ar ei ddychweliad o Rufain; ond gwrthwynebwyd ei etholiad gan y bobl, a dewisasant Majorinus yn ei le, ac ordeiniwyd yntau gan Donatus, esgob Casæ Nigræ. Condemniwyd hwynt mewn cynghor a gynnaliwyd yn Rhufain yn mhen dwy flynedd ar ol yr ymraniad; ac wedi hyny mewn cynghor yn Arles y flwyddyn ganlynol; a thrachefn yn Milan, o flaen Cystenyn Fawr, yn y flwyddyn 316, yr hwn a'i hamddifadodd o'u heglwysydd, ac a alltudiodd eu hesgobion, ac a gospodd rai o honynt â marwolaeth. Cymmerwyd eu hachos i fyny gan Donatus arall, a gyfenwid y *Mawr*—prif esgob y blaid; yr hwn, gyda nifer o'i ganlynwyr, a alltudiwyd drwy orchymyn Constans. Cafodd llawer o honynt eu cospi yn dra llym. Pa fodd bynag, wedi dyrchafiad Julian i'r orsedd yn 362, caniatawyd iddynt ddychwelyd, ac adferwyd iddynt eu rhyddid. Cyhoeddodd Gratian amryw deyrnarchiadau yn eu herbyn; ac yn y flwyddyn 377, amddifadodd hwynt o'u heglwysydd, a gwarafunodd iddynt ymgasglu at eu gilydd. Ond er yr holl erlidigaeth a ddyoddefasant, ymddengys eu bod yn meddu nifer mawr o eglwysydd tua diwedd y ganrif hon; ond y pryd hyn, dechreuasant ddadfeilio mewn canlyniad i sism a gyfododd yn eu plith, a achlysurwyd gan etholiad dau esgob yn lle Parmenian, olynydd Donatus. Etholwyd Primian gan un blaid, a galwyd hwynt Primianiaid; ac etholwyd Maximian gan blaid arall, a galwyd hwythau Maximianiaid. Prysurwyd eu dadfeiliad drwy wrthwynebiad gwresog Awstin, a thrwy y mesurau llymion a gymmerwyd yn eu herbyn yn ol gorchymyn yr ymherawdwr Honorius, ar ddymuniad dau gynghor a gynnaliwyd yn Carthage —un yn y flwyddyn 404, a'r llall yn 411. Dirwywyd lluaws o honynt, alltudiwyd eu hesgobion,

Digitized by Google

a rhoddwyd rhai i farwolaeth. Adnewyddodd a lluosgodd y blaid hon wedi hyny dan amddiffyniad y Vandaliaid; pa rai a oresgynasant Affrica yn 427, gan gymmeryd meddiant o'r wlad hon; ond suddodd drachefn dan erlidigaeth newydd, pan y dymchwelwyd eu hymherodraeth yn 534. Tua diwedd y ganrif hon, defnyddiodd y pab Gregory amryw ffyrdd er eu darostwng; ac fe lwyddodd i'r fath raddau, fel nad oes ond ychydig o son am danynt ar ol ei amser ef. Adnabyddid hwynt wrth enwau ereill, megys y *Circumcelliaid*, y *Monteniaid* neu *Fynyddwyr*, *Campetiaid*, *Rupetiaid*, &c. Cynnaliasant dri o gynghorau—un yn Cita yn Numidia, a dau yn Carthage.

Haerai y Donatiaid, meddir, fod pob bedydd a weinyddid tu allan i gylch yr eglwys—hyny yw, tu allan i'w plaid hwy—yn ofer; gan hyny, arferent ail fedyddio pawb a ymunai â hwynt o eglwysi ereill; ail ordeinient eu gweinidogion yr un modd. Ymddengys hefyd ddarfod i Donatus fabwysiadu athrawiaeth yr Ariaid; ond sicrha Awstin fod y Donatiaid wedi ymgadw oddi wrth gyfeiliornadau eu harweinydd yn y pwnc hwn. —(*Herzog's Real. Encyl.*; *Buck's Theol. Dict.*)

DONIAU GWYRTHIOL AC YSBRYDOL. Yr oedd y doniau hyn yn dwyn y cyssylltiad agosaf â Christionogaeth yn ei chychwyniad. Fe sefydlwyd Eglwys Crist ar y ddaiar trwy dywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost; ac yr oedd yr Ysbryd yn gwneyd ei weithrediadau ar y galon yn weledig drwy y doniau hyn, yn enwedig trwy ddawn tafodau. O herwydd hyny y mae Pedr yn cyssylltu y cynhyrfiadau ar ddydd y Pentecost â phrophwydoliaeth Ioel, o ba un yr oeddynt yn gyflawniad. Yr oedd prophwydi ereill heb law Ioel wedi llefaru am "y dyddiau diweddaf," fel y cyfnod y byddai i'r eglwys gyfranogi yn helaeth o'r Ysbryd Glân; ond y mae Pedr yn gwneyd defnydd o'i eiriau ef, am eu bod, nid yn unig yn desgrifio y tywalltiad ei hun, ond ei effeithiau hefyd—y ffurf yn mha un y rhoddid ef. Ac y mae geiriau y prophwyd yn cynnwys eglurhâd ar agwedd gynhyrfus a dyeithriol yr apostolion a'r credinwyr ar y pryd. Y mae yn hawdd gweled fod gan yr elfen wyrthiol a berthynai i'r doniau yn nechreuad Cristionogaeth lawer a wnelai â sefydliad a chynnydd yr eglwys. Bob tro y darllenwn am ryw amlygiadau neillduol o'r doniau hyn, yr ydym yn cael fod hyny yn cael ei ddilyn gan raddau o lwyddiant. Chwanegwyd tair mil at yr eglwys ar ol cynnysgaethu yr eglwys â dawn tafodau ar ddydd y Pentecost. Effaith iachâd y dyn cloff gan Pedr oedd i lawer gredu (*Act.* iv. 4). Yr oedd yr apostolion eu hunain yn edrych ar gyfranogiad helaeth o'r doniau gwyrthiol, yn enwedig gallu i iachau, yn angenrheidiol er rhoddi i'r eglwys oruchafiaeth ar ei gelynion (*Act.* iv. 29, 30). Yr oedd gwyrthiau Pedr ar ol dydd y Pentecost yn cael y dylanwad dwysaf ar y bobl; parodd iachâd y dyn cloff, ac yn enwedig marwolaeth Ananias a Sapphira, i "ofn mawr syrthio ar yr holl eglwys, ac ar bawb a glybu am yr hyn a wnaethpwyd" (*Act.* v. 11). Trwy y gwyrthiau a wnaed gan Phylip y cafodd yr eglwys ei sefydlu yn Samaria (*Act.* viii. 6—17). Cynnyddodd yr eglwys yn Iconium trwy weinidogaeth a gwyrthiau Paul a Barnabas (*Act.* xiv. 3). Gwnaeth Duw hefyd "wyrthiau rhagorol trwy ddwylaw Paul" yn Ephesus; canlyniadau y rhai a osodir allan yn y gair, "Mor gadarn y cynnyddodd gair yr Arglwydd, ac y cryfhaodd" (*Act.* xix. 20). Ac y mae yr apostol Paul yn priodoli ei lwyddiant, fe ellid meddwl, yn benaf i'r doniau hyn a weithredid trwyddo; nid yn wir i'r doniau gwyrthiol, ar wahân oddi wrth ei bregethiad o'r efengyl; ond yr oedd ei bregethiad yn derbyn mwy o sylw, yn ennill goruchafiaeth ar feddyliau dynion, a'r gwirioneddau a draddodid yn cael eu cadarnhau a'u gwisgo â mawredd a phwysigrwydd, o herwydd perthynas ei weinidogaeth â'r doniau hyn. Gwnaed "y Cenedloedd yn ufudd ar air a gweithred, trwy nerth arwyddion a rhyfeddodau, gan nerth Ysbryd Duw" (*Rhuf.* xv. 18, 19). Ac fel yr oedd yr eglwys yn cael ei sefydlu a'i hyrwyddo ar ei chychwyniad, felly hefyd yr oedd yn cael ei hamddiffyn yn ngwyneb ymosodiadau ei gwrthwynebwyr, trwy wyrthiau; nid yn unig yr oedd y ddawn wyrthiol yn cael ei throi o'i phlaid hi, ond yr oedd hefyd yn cael ei chyfeirio yn erbyn ei gelynion. Tarawyd Elymas y swynwr â dallineb disymwth am sefyll yn erbyn Cristionogaeth (*Act.* xiii. 8—11). Y mae angel Duw yn agor carcharau yr apostolion (*Act.* v. 19; xii. 16). Ymwelwyd â'r Corinthiaid â chlefydau am eu hymdrin ansanctaidd â Swper yr Arglwydd (1 *Cor.* xi. 30—32). Llefara yr apostol Ioan (1 *Ioan* v. 16) am "y pechod i farwolaeth," wrth yr hwn y meddylia rhai y pechod a ddygai afiechyd marwol ar ei weithredydd. "Ar ddechreuad yr Eglwys Gristionogol, yr oedd y Cristionogion cyntaf yn cael eu ceryddu rai prydiau am bechodau mawrion â chlefydau hynod ac anghyffredin; ond pan oedd y pechodau hyny yn peidio bod yn bechodau i farwolaeth, gallesid eu meddyginiaethu gan y rhai oeddynt yn feddiannol ar y ddawn i iachau, trwy weddi a ffydd" [*Storr a Flatt*]. Yr oedd Paul yn benderfynol, trwy awdurdod yr Arglwydd Iesu, i ddwyn y dyn godinebus oedd yn eglwys Corinth dan glefyd trwm, yr hyn a alwai ef yn "draddodi i Satan, i ddinystr ei gnawd;" a gwnai hyn, er yn absennol, "gyda gallu ein Harglwydd Iesu Grist;" 1 *Cor.* v. 4. Mae yr anghreifftiau hyn yn ddigon i ddangos fod perthynas agos rhwng y doniau gwyrthiol â sefydliad a llwyddiant yr eglwys yn y ganrif gyntaf.

Yr oedd y doniau ysbrydol yn yr oes apostolaidd yn rhai *gwyrthiol* yn gystal ag ysbrydol; yr oeddynt yn ymddangos mewn dulliau gwrthwyneb i ddeddfau cyffredin natur; ac felly yr oeddynt yn llanw meddyliau y rhai oedd yn llygaid-dystion o'u gweithrediadau â syndod ac ofn; yr oedd eu meddyliau ar unwaith yn cyssylltu yr ymddangosiadau rhyfedd a welent â'r geiriau goruchel a glywent, a rhyw gyfryngiad dwyfol, dygent y digred anystyriol i gyflwr o ddeffroad; gorchfygent ef; y mae yn syrthio ar ei wyneb, gan ddywedyd, "Mae Duw yn wir ynoch." Dywed Olshausen, ac amryw ereill, na ddarfyddodd y doniau gwyrthiol o'r eglwys yn llwyr hyd ddiwedd y drydedd ganrif; sef hyd oruchafiaeth yr eglwys ar baganiaeth; ond eu bod o hyd yn lleihau. Ar y llaw arall drachefn, dywed lluaws mawr, iddynt ddiflanu gyda'r oes apostolaidd, ac nad oes genym un hanes dilys am eu hanfodiad mewn llyfrau diweddarach na llyfrau y Testament Newydd: ond cawn sylwi eto yn mhellach ar y pwnc hwn. O'r Ysgrythyrau yn unig gan hyny y cawn unrhyw hysbysiad neu wybodaeth am danynt. Yr ydym yn cael yr olwg gyflawnaf ar y doniau hyn yn yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, *pen.* xii. a xiv. Yr oedd y doniau yn amlygu eu hunain yn fwy yn eu

Digitized by Google

nerth yn mysg y Groegiaid bywiog a chynhyrfus; a gellid meddwl fod yr holl ffurfiau a'r agweddau yn y rhai yr oeddynt yn ymddangos yn yr oes apostolaidd yn cyfarfod yn eglwys Corinth. Ond gan fod lluaws o'r eglwys hon heb brofi erioed rinwedd sancteiddiol yr efengyl, a bod lluaws ereill, mewn ystad anaddfed a barbaraidd, yn parhau o dan ddylanwad eu hen syniadau paganaidd i fesur mawr, nid oedd yn beth rhyfedd fod y doniau ysbrydol yn syrthio yn eu mygs i gamarferiad galarus. Fel hyn yr ydoedd, yn enwedig gyda dawn tafodau. Yr oedd nodwedd ymddangosiadus y ddawn hono—y cymhwysder oedd yn yr arferiad o honi i lanw yr edrychwyr â syndod, yn peri i'r Corinthiaid ei phrisio yn rhy uchel; ac y mae y rhan fwyaf o sylwadau yr apostol yn cael eu gwneyd gyda'r amcan i'w cywiro oddi wrth y cyfeiliornad hwn. "I'r dyben," medd un esboniwr, "i roddi i'r Corinthiaid syniad cywir am le priodol dawn tafodau, yn ei pherthynas â doniau ereill, y mae yr apostol yn gwneyd adolygiad ar y doniau yn gyffredinol, ac oddi wrth gyfatebiaeth yr amrywiol aelodau yn y corff y mae yn dangos fod yn rhaid i wahanol aelodau corff yr eglwys hefyd, er eu bod yn amrywio oddi wrth eu gilydd, gydwasanaethu i'r un amcan, a chael eu bod trwy yr un Ysbryd. Mae yn rhaid i gariad fod yn rheolydd ar yr holl ddoniau ereill." Dyma ydyw cynnwysiad *pen.* xiii; ac yn y bennod ganlynol (xiv.) y mae yr apostol yn ymdrin yn benaf am dafodau dyeithr. Un peth sydd yn gwneyd y pennodau hyn yn anhawdd eu deall ydyw, fod yr elfen wyrthiol wedi pallu o ddoniau yr eglwys er yn fore. Y mae hyd yn oed Ioan Aurenau, yr hwn oedd yn byw yn y bedwaredd ganrif, yn cydnabod ei anallu i drin y pwnc yn foddhaol iddo ei hun, a hyny o herwydd y rheswm hwn.

Mae yn amlwg mai y dull goreu yn yr erthygl hon i gymmeryd golwg ar yr amrywiol ddoniau ybrydol ydyw dilyn trefn yr apostol yn yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid. Ni a gawn ganddo, yn *pen.* xii, dri o wahanol ddulliau o'u dosbarthu. Y cyntaf ydyw y dosbarthiad yn *adn.* 4, 5, a 6. "Ac y mae amryw ddoniau, eithr yr un Ysbryd. Ac y mae amryw weinidogaethau, eithr yr un Arglwydd. Ac y mae amryw weithrediadau, ond yr un yw Duw, yr hwn sydd yn gweithredu pob peth yn mhawb." Y mae yr apostol yn cyssylltu y doniau (*χαρισματα*) â'r Ysbryd; y gweinidogaethau (*διακονιαι*) â'r Arglwydd Iesu; a'r gweithrediadau (*ενεργημαται* = *inworkings*, Dr. Macknight) â Duw y Tad. Gelwid y rhoddion ysbrydol y cynnysgaethid y Cristionogion cyntaf â hwy yn *ddoniau*, am mai o ras penarglwyddiaethol Duw y rhoddid hwynt: yr oedd yr Ysbryd yn "rhanu i bob un o'r neilldu megys yr oedd yn ewyllysio." Ac wrth yr enw hwn y rhagfynegwyd am danynt: "derbyniaist roddion i ddynion" (*Salm* lxviii. 18). Ond mewn rhanau ereill y mae yr un pethau yn cael eu dynodi wrth enwau ereill—enwau sydd yn gosod allan eu hansawdd a'u hamrywiaeth, megys "arwyddion, rhyfeddodau, amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glân" (*Heb.* ii. 4). Yn a thrwy y doniau hyn yr oedd yr Ysbryd, yr hwn oedd yn trigo yn y credinwyr, yn amlygu ei hun. Yr oedd rhai o honynt yn cael eu rhoddi yn uniongyrchol gan yr Ysbryd Glân, megys gwyrthiau, dawn i iachau, tafodau, a phrophwydoliaethau; ac yr oedd sail y doniau ereill yn gorwedd yn eu galluoedd a'u cymhwysderau naturiol, ond yn cael eu sancteiddio, eu dyrchafu, a'u grymuso, trwy ddylanwad yr Ysbryd Glân. Felly yn ddiau yr oedd gyda'r doniau i addysgu, athrawiaethu, a llywodraethu. Yr oedd a wnelai galluoedd a thueddiadau meddyliol pob un â'r doniau ysbrydol oedd ganddo. Mae yn wir y dywed yr apostol fod yr Ysbryd yn gweithredu yn mhawb, ac yn rhanu i bawb megys y mae yn ewyllysio; ond nid yw hyn yn ein gorfodi i feddwl fod y cyfraniad o'r doniau yn gwbl annibynol ar nodweddau naturiol y meddwl. Gwrthwynebu y mae yr apostol, wrth ddyweyd hyn, y duedd oedd yn eglwys Corinth i dra dyrchafu y naill ddawn uwch law y llall. Y mae gwaith yr apostol yn gwneyd defnydd o amrywiol aelodau y corff yn dangos fod y drefn berffeithiaf yn cael ei chadw yn nghyfraniad y doniau. Y mae Neander [*Plant. Tram. of the Christ. Church*] yn gwneyd y sylwadau canlynol ar natur y doniau yn gyffredinol. Nid oedd y ddawn (*charisma*) yn dynodi dim yn amgen na'r cymhwysder neu y gallu cryfaf a mwyaf arbenig yn y dyn; yn yr hwn gymhwysder yr eglurid gallu a gweithrediad yr Ysbryd Glân. Gallai y cymhwysder hwn ymddangos fel rhyw beth newydd ei gyfranu iddo; neu gallai ei fod yn hanfodi yn y person yn flaenorol i'w dröedigaeth; ond wedi ei buro, ei fywhau, a'i sancteiddio gan yr egwyddor newydd o fywyd. Ond yr oedd yn perthyn i'r ddawn, ie, yn hanfodol iddi, yn mha ffurf bynag y byddai, ei bod yn cyfeirio at, ac yn gwasanaethu i, un amcan mawr, sef llwyddiant eglwys Crist. "Nis gellir edrych ar yr hyn sydd fel enaid yr holl fywyd crefyddol, a'r hyn sydd yn cyfansoddi ei undod tufewnol—y ffydd sydd yn gweithio trwy gariad—fel dawn (*charisma*) neillduol; o blegid fel mai hyn (ffydd) sydd yn cyfansoddi hanfod yr holl dueddiadau Cristionogol, felly hefyd hyn raid fod yn rheoli yr holl ddoniau Cristionogol." Wrth "yr amryw weinidogaethau," y meddylir y gwahanol gylchoedd o wasanaeth yn mha rai y gweithredai y doniau. Cyssylltir y doniau â'r Ysbryd, am mai efe oedd eu hawdwr; efe, fel Ysbryd Crist, oedd yn eu rhoddi i'r credinwyr; ynddynt hwy yr oedd "eglurhâd yr Ysbryd" yn dyfod i'r golwg; ac y maent yn cael eu galw yn "ysbrydol" ar gyfrif eu perthynas â'r Ysbryd Glân fel eu hawdwr. Y mae y gweinidogaethau yn cael eu cyssylltu â'r Arglwydd Iesu, am mai ei swydd neillduol ef ydyw sefydlu trefniadau a swyddau yr eglwys. Y mae y gair *gweinidogaethau* yn rhagdybied awdurdod yn y person a'u sefydlodd. Yn awr, y mae holl awdurdod yr eglwys yn trigo yn mherson ei Phen a'i Brenin. Wrth y *gweithrediadau*, y meddylir y doniau hyny yr eglurid gallu yn fwyaf ynddynt, megys doniau i iachau, &c. "Fel hyn," ebe Alford, "yr ydym yma yn gweled Duw y Tad, achos cyntaf pob dylanwad ysbrydol yn mhawb. Duw y Mab, trefnydd yr holl weinidogaethau yn yr eglwys, trwy y rhai y gellir dwyn allan y dylanwad hwn er adeiladaeth. Duw yr Ysbryd Glân, yn trigo ac yn gweithio yn yr eglwys, gan roddi i bob dyn y cyfryw fesur o'i ddoniau ag a welo efe ei hun yn dda."

Heb law y sylwadau cyffredinol blaenorol o eiddo yr apostol ar berthynas doniau ysbrydol â'r Drindod, ac ar eu hamcan, sef "i bob un er llesâd," y mae efe yn rhoddi dau ddosbarthiad o'r doniau hyn:—

I. *Cor.* xii. 8.

1. Ymadrodd doethineb.
2. Ymadrodd gwybodaeth.
3. Ffydd.

Digitized by Google

4. Dawn i iachau.
5. Gwneuthur gwyrthiau.
6. Prophwydoliaeth.
7. Gwahaniaeth ysbrydoedd.
8. Amryw dafodau.
9. Cyfieithiad tafodau.

II. 1 *Cor*. xii. 28.

1. Apostolion.
2. Prophwydi.
3. Athrawon.
4. Gwyrthiau.
5. { 1. Doniau i iachau
   2. Cynnorthwyadau.
   3. Llywodraethau.
   4. Rhywogaethau tafodau. }

Ni a wnawn ychydig o sylwadau ar y ddau ddosbarthiad hyn.

Y mae yn amlwg mai prif amcan y cyfriflad yma o'r gwahanol ddoniau, yr hyn a ymddengys oddi wrth y crybwylliadau mynych a wneir am "yr un Ysbryd," ydyw cadw mewn golwg yr undod sydd yn rhedeg drwy yr holl amrywiaeth sydd ynddynt. Y maent oll yn un yn eu gwreiddyn ac yn eu hamcan; o blegid yr un a'r unrhyw Ysbryd sydd yn eu gweithredu yn mhawb. Nid ydyw y geiriau "i un," ac "i arall," yn arwyddo nad oedd un person yn meddiannu ond un ddawn. Y mae yn debygol fod lluaws yn yr eglwys yn meddu amryw, ac fod yr apostolion yn meddu y rhan fwyaf, os nad yr oll, o honynt. Dywed Olshausen y dylid sylwi ar y ffaith nad ydyw y tair dawn cyntaf o nodwedd wyrthiol, tra y mae y rhai canlynol o'r cyfryw garitor; y mae doethineb, gwybodaeth, a ffydd, yn aros yn yr eglwys; ond y mae doniau i iachau a llefaru â thafodau wedi ymadael o honi. Yr un pryd, y mae eisieu gwneyd gwahaniaeth rhwng y doniau cyntaf fel y cyfryw, *h.y.*, fel *charismata*, â'r pethau hyn fel grasau, sydd yn hanfodol yn mhob oes i wir dduwioldeb. "Nid oes un Cristion yn amddifad o ffydd; ond nid yw pawb yn meddu ffydd fel *charisma*." Y mae yn rhaid mai nid y ffydd gadwedigol yn hollol a feddylir wrth y ffydd hon; pe felly, pa ham na buasai cariad a gobaith yn cael eu cynnwys yn mysg y doniau ysbrydol? Y ffydd hon yw yr un y sonir am dani yn 1 *Cor*. xiii, trwy yr hon y gall ei pherchenog symmud mynyddoedd; a'r hon y lleferir am dani fel yn bossibl i fod ar wahân oddi wrth gariad. Felly, nid yw y ddoethineb, y wybodaeth, a'r ffydd, a grybwyllir, yn hollol o'r un natur a chymhwysderau cyffelyb—mor gyffelyb fel y dynodir hwynt wrth yr un enwau—sydd yn aros yn mhob oes yn yr eglwys. Y maent yn ddoniau gwyrthiol ac anghyffredinol yn gystal a doniau i iachau ac i lefaru â thafodau. Y mae doethineb a gwybodaeth grefyddol cyffredin yn cael eu cyrhaedd mewn llwybr cyffredin: y mae y dyn yn cynnyddu yn raddol ynddynt trwy ymarferiadau sanctaidd; sef trwy air Duw a gweddi: ond y mae y doniau gwyrthiol o ddoethineb a ffydd yn cael eu cyfranu trwy lewyrchiad goleuni anghyffredinol ebrwydd i'r meddwl. "Cyrhaeddir doethineb a gwybodaeth yn awr," ebe Olshausen, "trwy ymarferiad graddol, tra yr oeddynt yn yr oes apostolaidd yn effeithiau uniongyrchol y gweithrediadau dwyfol ar yr enaid." Nid ydyw hyn ar yr un pryd yn gwneyd i ffordd â'r golygiad arall, fod rhyw gyssylltiad rhwng y doniau hyn â theithi a thueddiadau priodol y dyn cyn iddo gael ei wneyd yn feddiannol arnynt.

Ond ni a edrychwn ar y doniau yn y drefn y gosodir hwy ger ein bron gan yr apostol. Efe a enwa, yn gyntaf, "ymadrodd doethineb" ac "ymadrodd gwybodaeth." Pa beth a ddeallir wrth "ymadrodd doethineb?" Y mae Macknight a Whitby yn sylwi fel y canlyn:—"'Ymadrodd doethineb' oedd athrawiaeth yr efengyl, yn cael ei throsglwyddo drwy ysbrydoliaeth mor lwyr, fel yr oedd ei pherchenog yn cael ei alluogi a'i awdurdodi i gyfeirio ffydd a buchedd dynion yn anffaeledig. Y mae yn sefyll yn y lle blaenaf yn rhestr y doniau ysbrydol, am mai hi ydyw y fwyaf o honynt. Perthynai y ddawn hon yn arbenig i'r apostolion; ac addawyd hi iddynt gan Grist fel effaith preswyliad gwastadol yr Ysbryd Glân ynddynt. Y mae athrawiaeth yr efengyl yn cael ei galw yn ddoethineb Duw; a Christ ei hun yn ddoethineb Duw; ac wedi ei wneuthur gan Dduw yn ddoethineb; yn yr hwn hefyd y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig. Dywed Paul hefyd am dano ei hun ei fod 'yn dysgu pob dyn yn mhob doethineb.'" Y mae yr ystyriaethau hyn yn tueddu yr awdwyr crybwylledig i farnu mai "ymadrodd doethineb" oedd y ddawn uchaf yn yr eglwys apostolaidd, a'r ddawn a feddiennid yn unig gan yr apostolion: yr un peth, debygem, a "meddwl Crist," neu goleuni ac arweiniad anffaeledig ei Ysbryd ef yn ngwirioneddau mawrion yr efengyl. Wrth "ymadrodd gwybodaeth," drachefn, y golygant y ddirnadaeth oruchel a'r ymdreiddiad dwfn i gynnwysiad y dadguddiad dwyfol; yr hyn a roddid i amryw o'r dynion ysbrydol yn yr oes apostolaidd. Nid yw y ddawn hon i'w hystyried yr un âg ysbrydoliaeth anffaeledig yr apostolion, nac ychwaith â'r ddirnadaeth ysbrydol y mae Cristionogion o alluoedd cryfion ac astudiaeth ddyfal yn ei hamlygu yn mhob oes. Mae yr "ymadrodd gwybodaeth" yn is na'r naill, ac yn uwch na'r llall. Y mae yn is nag ysbrydoliaeth yr apostolion, o blegid nid yw yn gyfrwng i drosglwyddo dadguddiadau newyddion o feddwl Duw i ddynion; maes yr "ymadrodd gwybodaeth" yw y dadguddiad a wnaed trwy y ddawn arall; ond y mae yn uwch nag amgyffred uchaf y Cristionogion ar ol yr oes apostolaidd, o blegid y mae yn cynnwys elfen wyrthiol. Y ddawn hon a feddai Stephen a phrophwydi Antioch. Heb law fod yr apostolion yn meddu ar y ddawn gyntaf, yr oeddynt yn perchenogi y ddawn hon hefyd yn y graddau uchaf. Yn rhinwedd "ymadrodd gwybodaeth" yr ydoedd Paul yn gallu ymresymu â'r Iuddewon allan o'r Ysgrythyrau, gan brofi iddynt y ffeithiau mawrion am yr Iesu. "Am fod yr apostolion," ebe Macknight, "trwy ymadrodd doethineb," a'r apostolion a'r prophwydi trwy ymadrodd gwybodaeth, wedi eu galluogi i brofi ac i egluro dadguddiad yr efengyl, y dywedir fod yr Eglwys Gristionogol wedi ei hadeiladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi. Y gwahaniaeth a wna Olshausen rhyngddynt ydyw, fod "ymadrodd doethineb" yn golygu y rhan ymarferol, ac "ymadrodd gwybodaeth" y rhan bynciol, yn y ddirnadaeth o bethau Duw. Y mae Bengel yn gwneyd y sylwadau canlynol:—"Y mae doethineb yn amgyffred yr hyd a'r lled, yr uchder a'r dyfnder, yn fwy na gwybodaeth. Y mae gwybodaeth megys golwg neu ganfyddiad; doethineb ydyw golwg wedi ei gyssylltu â chwaeth. Perthyna gwybodaeth i bethau ag y mae eisieu eu gwneuthur—doethineb i bethau tragwyddol; am hyny ni ddywedir fod doethineb i ddiflanu." Y mae golygiad Neander a Billroth yn debyg i'r eiddo

Digitized by Google

Olshausen, ac yn wahanol i Bengel. Medrusrwydd ymarferol ydyw doethineb: ymdreiddiad ac amgyffred dwfn i ddirgelwch yr efengyl—i bynciau mawrion trefn Duw—yw gwybodaeth. Gwna Calvin y gwahaniaethiad canlynol:—"Wrth wybodaeth yr wyf yn golygu cydnabyddiaeth â phethau dwyfol;—doethineb, ar y llaw arall, ydyw perffeithrwydd y gydnabyddiaeth hono. Y mae yr olaf yn cynnwys dadguddiadau o fath mwy dirgelaidd ac aruchel." Y mae eglurhad Dr. Henderson [*Lect. on Divine Inspir.*] yn debyg i'r eiddo Macknight. Wrth ddoethineb y meddylia wirioneddau mawrion yr efengyl, wedi eu dadguddio yn uniongyrchol i'r apostolion, ac "ymadrodd" ydoedd y gallu uchnaturiol i'w trosglwyddo i ereill. Yr "ymadrodd gwybodaeth" oedd y gallu i eglurhau yn anffaeledig yr athrawiaethau oeddynt eisoes wedi eu dadguddio. Tueddir ni i dderbyn y golygiad yma ar y gwahaniaeth rhyngddynt.

Y drydedd ddawn a nodir ydyw *ffydd* (πιστις). "Nid ffydd athrawiaethau ydyw hon, ond ffydd gwyrthiau."—*Chrysostom.* Mae yn debyg, er fod y ffydd hon yn ddawn wyrthiol, nad ydys i edrych arni fel dawn ar ei phen ei hun; hyny yw, fel ar wahân oddi wrth y doniau a enwir ar ei hol—"dawn i iachau, a gwneuthur gwyrthiau," &c.; ond fel ffynnonell a sylfaen y doniau hyn. Y mae yn dwyn yr un berthynas, ebe Henderson, â'r ymarferiad o'r doniau a enwir yn ddilynol, ag y mae "ymadrodd" (*logos*) â'r ddwy ddawn a gyssylltir âg ef—doethineb a gwybodaeth. Heb y ffydd neillduol hon, ni buasai yn bosibl gwneuthur un wyrth, nac iachau un clefyd, na gwahaniaethu yr ysbrydoedd, na chyflawnu un weithred uchnaturiol. Y mae y Testament Newydd yn dangos fod gweithredoedd y ffydd hon, nid yn unig yn rhai mawrion ac anhawdd, ond yn rhai goruchnaturiol (*Marc* xi. 23). Y ffydd hon a feddylir yn y gair "yr arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant;" *Marc* xvi. 17. Nid ydym i feddwl mai credu i fywyd ydyw y credu hwn; ond y credu sydd yn gwneyd y dyn yn gyfrwng i allu Duw ar natur ei amlygu ei hun trwyddo. Y ffydd hon y llefara Paul am dani fel yn symmud mynyddoedd; a'r hon y tybir, yn ei eiriau ef, a ddichon hanfodi ar wahân oddi wrth gariad; tra y lleferir am y ffydd arall yn gyssylltiedig â chariad, ac yn aros yn yr eglwys ar ol i'r doniau gwyrthiol ddiflanu allan o honi. At weithrediadau y ffydd hon mewn iachad gwyrthiol y llefara yr apostol Iago—"A gweddi y ffydd a iachâ y claf;" *Iago* v. 14, 15.

Yn canlyn ffydd, ac yn dwyn perthynas amlwg â hi, y mae y "ddawn i iachau" (*charismata iamatôn*)=*gifts of healings.*—*Cyf. Alford.* Mae y gair yn rhoddi awgrym am wahanol fathau o glefydau, yn gofyn gwahanol fathau o feddyginiaeth. Addawodd yr Iesu y ddawn hon i'r rhai a gredent (*Marc* xvi. 18); ac yr oedd lluaws o'r Cristionogion cyntaf yn ei meddu. Nid oedd un ddawn wyrthiol o duedd mwy gwasanaethgar na hon; o blegid yr oedd nid yn unig yn cadarnhau gwirionedd yr efengyl, ond hefyd yn rhoddi i ddynion ddrychfeddwl am ei chymmeriad haelfrydig, ac am ysbryd cymmwynasgar ei chyhoeddwyr cyntaf: gwasanaethai i ennill hyder ac ewyllys da y dosbarth goreu o'r paganiaid tuag atynt. Y mae tyb Rosenmüller mai medrusrwydd mwy na'r cyffredin yn y wyddiant feddygol oedd y ddawn hon, yn rhy ddisail i geisio ei gwrthbrofi. Yn mha le y cafodd yr apostolion y medrusrwydd hwn? Yn mha ysgol yr addysgwyd pysgodwyr Galilea yn y wyddiant feddygol? Ar anfoniad yr apostolion allan, fe'u cynnysgaethwyd â gallu i iachau pob clefyd ac aflechyd:—"iachewch y cleifion" oedd un rhan o gyngher eu Harglwydd iddynt. Dywed Luc (ix. 6) am yr apostolion, eu bod "yn iachau yn mhob lle." Gorchymynodd yr Iesu i'r deg a thrigain hefyd i wneuthur yr un gorchwyl. Yn y commissiwn olaf, adnewyddwyd yr hawl i'r apostolion; ac yr ydym yn cael yn yr Actau fod yr apostolion yn mhob lle yn arfer y gallu hwn. Diammheu fod dynion ysbrydol ereill heb law yr apostolion wedi derbyn y ddawn hon; ond yr oeddynt hwy yn meddu graddau uwch o honi. Yr oedd cysgod Pedr yn iachau y cleifion ar hyd heolydd Ierusalem; ac yr oedd y napcynau a'r moledau a ddygasid i gyffyrddiad â pherson Paul yn ddigon effeithiol i iachau cleifion yn Ephesus (*Act.* xix. 12). Yr oedd yr ymarferiad o honi yn gyssylltiedig yn gyffredin âg arddodiad dwylaw ac eneiniad âg olew; o blegid yr oedd y pethau hyn yn arwyddocaol o weithrediad neu ymdreiddiad y rhinwedd dwyfol, yr hyn oedd gwir achos y feddyginiaeth a effeithid. Arwyddlun allanol oeddynt hwy o rinwedd anweledig y gallu dwyfol. Nid ymddengys fod neb o'r dynion ysbrydol, hyd yn oed yr apostolion, at eu rhyddid pan y mynent hwy i arfer y gallu hwn: nid oedd yn ddarostyngedig i'w hewyllys hwy eu hunain: cyfarwyddid hwynt am y modd y pryd, y lle, a'r personau tuag at y rhai yr arferent hi, gan ryw argraff a wneid ar eu meddyliau gan Ysbryd Duw. Pe buasai y ddawn yn hollol dan lywodraeth yr apostolion eu hunain, y mae yn anhawdd deall pa fodd y gadawsid Trophimus yn Ephesus yn glaf, a Timotheus yn nychlyd ar hyd ei oes, neu Epaphroditus i fod yn glaf yn agos i angeu. Y mae, efallai, yn hyn ddadl dros anhunangarwch yr apostol; ni wnaeth un wyrth a dueddai i'w wneyd ef ei hunan yn fwy cysurus, fel y mae yn amlwg y gwnaethai gwyrth o iachad yn yr amgylchiadau crybwylledig.

Y ddawn nesaf a nodir ydyw "gwneuthur gwyrthiau" (ενεργηματα δυναμεων). Y mae Macknight yn barnu mai nid y gallu i *wneuthur* gwyrthiau a feddylir yma; ond yr awdurdod i wisgo ereill â'r gallu hwn, yn nghyd âg i gyfranu doniau ysbrydol ereill. Ποιειν ydyw y ferf a arferir i osod allan y gallu i *wneuthur* gwyrthiau. Y mae efe yn dadleu, os nad y ddawn neu yr awdurdod hon a feddylir, nad oes un crybwylliad am dani yn y rhestr hon o'r doniau; a bod yn dra annhebyg y gadawsai allan o honi y benaf o'r doniau; sef y gallu i gynnysgaethu dynion â hwy. Perthynai yr awdurdod hon i'r apostolion yn unig, trwy ba un y dyrchefid hwy uwch law dynion ysbrydol ereill. Ond y mae yn mron yr holl esbonwyr yn gwrthod y dybiaeth yma. Dywed Henderson nad oes genym ddigon o sail dros feddwl fod yr awdurdod hon wedi ei chyfranu i neb; ond mai i'r hwn "sydd yn gweithredu pob peth yn mhawb" y perthynai yn unig ac yn gwbl. Mae yn amlwg fod cyssylltiad rhwng "gwneuthur gwyrthiau" a'r ddwy ddawn flaenorol: yr oedd y ddawn i iachau yn wyrthiol; ond y mae ενεργηματα δυναμεων yn cynnwys, heb law y ddawn hono, yr holl ddoniau gwyrthiol a grybwyllir yn *Marc* xvi. 18; *Act.* v. 12; xiii. 11; xxviii. 3. Gallwn hefyd edrych ar *ffydd* fel y gwreiddyn; a'r doniau i iachau a gwneuthur gwyrthiau fel canghenau oddi arno. Amlygiadau ydynt hwy o nerth



Digitized by Google

ffydd. Y mae y geiriau gwreiddiol am "wneuthur gwyrthiau" yn y lle hwn yn dangos fod yr apostol yn golygu y gallu i wneuthur y rhyfeddodau a chyflawnu y nerthoedd mwyaf. Er fod pob effaith a gynnyrchir gan achos y tu allan i ffiniau natur yn wyrthiol, eto yr ydym yn teimlo fod rhyw wahaniaeth, o ran amgylchiadau a graddau, rhwng gwyrth a gwyrth. Y mae gwahaniaeth rhwng iachau y claf a chyfodi y marw. Gallasai y naill gael ei effeithio mewn amser trwy fedrusrwydd dynol. Nid ydym dan angenrheidrwydd i feddwl am yr holl wyrthiau o iachad a gyflawnwyd gan yr apostolion, fod y clefydau oll yn anfeddyginiaethol i ddyfais feddygol. Yr oedd y wyrth, yn yr amgylchiadau hyn, yn gynnwysedig yn hyn—fod yr iachad yn cael ei effeithio yn ebrwydd, a'i effeithio yn annibynol ar bob moddion. Ond y mae cyfodi y marw yn annhraethol uwch law gallu dynol dan bob amgylchiad. Y mae Marc yn cyfreithloni y gwahaniaeth hwn rhwng gwyrth a gwyrth: "Ac ni allai efe yno wneuthur dim gwyrthiau, ond rhoi ei ddwylaw ar ychydig gleifion, a'u hiachau hwynt." Yr un gair (δυναμις=*gweithred nerthol*) a arferir yno am *wyrth* ag a ddefnyddir yn y geiriau dan ystyriaeth. Y mae y drychfeddwl yma yn dangos y rheswm pa ham y crybwyllir y "ddawn i iachau" a "gwneuthur gwyrthiau" ar wahân. A hyn y mae Calvin yn cydolygu:—"Meddylir yma y dylanwad a weithredir yn erbyn cythreuliaid a rhagrithwyr. Pan yr oedd Crist a'i apostolion yn attal, neu yn bwrw allan gythreuliaid, ενεργημα (*gweithrediad nerthol*) oedd hyny. Esamplau o'r un peth oedd dwyn dallineb ar y swynwr, a tharaw Ananias a Sapphira yn farw âg un gair. Felly yr oedd y 'ddawn i iachau' yn amlygu daioni Duw; ond yr olaf, ei doster." Fe allai nad ydyw Calvin yn gywir yn ei farn fod y gwyrthiau a nodir yn arwyddo nerthoedd i beri dychryn; ond y mae y drychfeddwl eu bod yn arddangosiadau anghyffredinol o allu Duw yn gywir, ac yn gosod allan y gwahaniaeth rhyngddynt a "dawn i iachau." Yr amlygiadau mawrion hyny o gyfryngiad dwyfol ag a orfodent yr edrychwyr i ddywedyd, "Bys Duw yw hyn" oedd y "gwneuthur gwyrthiau."

Y ddawn sydd yn dyfod ger ein bron yn nesaf ydyw *prophwydoliaeth* (προφητεια). Am ystyr a chynnwysiad y gair hwn, gwel dan y gair. Yn yr Epistol at y Corinthiaid, y mae yn cael ei arfer yn yr ystyr eangaf o addysgu yn gyhoeddus, pa un bynag ai trwy egluro Ysgrythyrau yr Hen Destament, athrawiaethu ar ffeithiau a gwirioneddau mawrion yr efengyl, gweinyddu dyddanwch, rhybudd, a cherydd, neu annog a chyfarwyddo i gyflawniad o ddyledswyddau Cristionogaeth. "Prophwydoliaeth," ebe Meyer, "oedd yr ymadrodd neu yr araeth a ddeuai trwy ddadguddiad a chynhyrfiad yr Ysbryd Glân: yr hyn ni pherthynai yn neillduol i un swydd mwy na'u gilydd yn yr eglwys. Dadlenai ddirgelion y galon a dyfnion bethau cynghor Duw; ac felly, yr oedd yn dra effeithiol er goleuo, annog, a chysuro credinwyr, ac er ennill anghredinwyr." Yn iaith y Groegiaid, yr oedd yr hwn a feddai ysbrydoliaeth i fynegu oraclau dwyfol, yn cael ei alw μαντις; tra yr oedd yr hwn a esboniai ymadroddion y *mantis*, y rhai oeddynt yn fynych yn anhawdd eu deall, yn cael ei alw yn brophwyd (προφητης). Y mae yn amlwg oddi wrth yr Hen Destament fod y ddau allu yma yn cyfarfod yn fynych yn yr un person. Yr oedd y prophwyd yn rhagfynegydd y dyfodol, yn gystal ag yn ddeonglydd ar y rhanau o feddwl Duw oedd eisoes wedi eu hamlygu. Y mae y gair *prophwyd* yn y Testament Newydd yn arwyddo yn fynychaf, a phob amser yn yr ymdriniaeth â'r doniau ysbrydol, yr olaf yn unig. Yn *Act.* xi. 27, ac yn Llyfr y Dadguddiad, yn unig y cawn y drychfeddwl arall yn cael ei gyssylltu â'r gair. Amcan mawr ac uniongyrchol y ddawn o brophwydoliaeth oedd adeiladaeth ysbrydol; ac o herwydd hyn y mae yr apostol yn ei mawrhau yn gymmaint, ac yn ei dyrchafu uwch law dawn tafodau. Nid ydyw yn rhoddi ar ddeall trwy y gymhariaeth hon nad oedd llefaru â thafodau yn ddawn angenrheidiol yn ei hamser, ac yn wasanaethgar i Gristionogaeth; ond yr oedd gwaith y Corinthiaid yn ei phrisio yn ormodol, ac yn ei harfer yn rhy fynych yn arwain i eiddigeddau ac annhrefn yn yr eglwys. Llefarai amryw ar unwaith, yr hyn a barai annhrefn, ac a luddiai yr aelodau rhag derbyn adeiladaeth. Dirmygent ddoniau ereill llai dysglaer; yr hyn a gondemnir gan yr apostol yn 1 *Cor.* xiv. Dengys yr apostol ragoriaeth prophwydoliaeth ar lefaru â thafodau, am fod y cyntaf yn adeiladu yr eglwys yn gyffredinol, am fod y prophwyd yn llefaru yn ol angenion yr eglwys neu yr aelod unigol; tra nad yw llefaru â thafodau ond mwynhad ysbrydol i'r dyn ei hun, ac nid i ereill: *adn.* 2, 3, 4.

Y ddawn nesaf ydyw *gwahaniaeth ysbrydoedd* (διακρισεις πνευματων). Y ddawn hon oedd y gallu i wahaniaethu rhwng gweithrediadau yr Ysbryd Glân ac eiddo yr ysbryd aflan, neu deimladau a chynhyrfiadau ysbryd y dyn ei hun. "Gwahaniaeth ysbrydoedd," ebe Calvin, "oedd clirder canfyddiad mewn ffurfio barn gyda golwg ar y rhai a broffesent fod yn rhywbeth: *Act.* v. 36. Nid wyf yn llefaru am y ddoethineb naturiol hono sydd yn ein cyfarwyddo wrth farnu. Goleuni neillduol ydoedd, yn cael ei roddi i rai trwy ddawn Duw. Ei amcan oedd hyn—fel na thwyllid hwynt gan ffug, neu honiadau gwag, ac fel y gallent trwy y farn ysbrydol hon wahaniaethu gwir weinidogion Crist oddi wrth y rhai gau." Y mae yn amlwg fod y ddawn hon yn angenrheidiol ar gychwyniad Cristionogaeth yn y byd. Yr oedd y fath effeithiau yn canlyn gweithrediad y doniau ereill, fel yr oedd llawer, yn gyffelyb i Simon Magus, yn awyddus am eu meddu oddi ar amcanion hunanol—i'r dyben o borthi gwagedd eu meddyliau, a chwanegu eu dylanwad a'u cyfoeth. Y mae yn debygol fod y cynhwrf a'r sylw a barai y doniau hyn yn Corinth yn achlysur i rai i geisio efelychu y dynion ysbrydol. Gwnaeth lluaws hefyd yn ysglyfaeth i benboethni yn y diwygiad apostolaidd, megys yn mhob diwygiad dilynol; y rhai a ddychymygent eu bod, pan yn llefaru o dan gynhyrfiad eu hysbrydoedd eu hunain, yn ddeiliaid cynhyrfiad a dylanwad dwyfol. Felly yr ydoedd yn angenrheidiol i arweinwyr Cristionogaeth wrth wyliadwriaeth a dirnadaeth mwy na'r cyffredin; ac yn amgylchiadau yr eglwys y pryd hyny, yr oedd yn briodol cynnysgaethu y prif swyddogion â'r gallu hwn mewn graddau goruchnaturiol. Trwy y ddawn hon yr oedd yr apostolion yn alluog, megys trwy reddf, i adnabod y twyllwyr a'r hunan-dwylledig. Yr oedd y ddawn hon yn fwy angenrheidiol yn yr oes apostolaidd nag yn yr oesoedd dilynol; o blegid y mae yr apostolion wedi gadael ar eu hol yn yr eglwys gyfarwyddiadau iddi pa fodd i "brofi yr ysbrydion," ac i

Digitized by Google

wahaniaethu y gwir oddi wrth y gau. Yr oedd y rhai a feddent y ddawn hon hefyd yn gallu, ar amseroedd, yn ol barn Macknight, adnabod bwriadau calonau dynion. At hyny y cyfeirir yn 1 *Cor.* xiv. 25; "Ac felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg." Trwy y ddawn hon y gallodd Pedr adnabod rhagrith a thwyll Ananias a Sapphira, a Phaul ganfod drygioni dirgelaidd Elymas, y swynwr.

Y ddawn a nodir yn ddilynol ydyw *amryw dafodau* (*γενη γλωσσων*). Y ddawn hon oedd y gallu i fynegu, mewn math o berlewyg, foliant Duw, ac i weddïo arno, mewn ieithoedd anadnabyddus i'r dyn a wnai hyny; neu, ebe Alford, mewn iaith ysbrydol anadnabyddus i ddyn. Yn y blyneddoedd diweddaf, y mae cryn amrywiaeth yn marnau esbonwyr o barth i natur y ddawn hon; ond yn yr oesoedd boreuaf, yr oeddys yn barnu yn unfrydol mai y gallu i siarad mewn iaith ddyeithr ydoedd. Nid oedd un o'r doniau yn meddu lle mwy arbenig, nac yn ennill cymmaint o sylw, yn yr eglwys apostolaidd, a'r ddawn hon. Yr oedd yn un o'r prif foddion i ledaenu Cristionogaeth yn y byd; o blegid trwyddi hi yr oedd pregethwyr yr efengyl, ar eu dyfodiad i unrhyw wlad, yn alluog yn ebrwydd i lefaru yn iaith y bobl, heb ddysgwyl am yr adeg y byddent wedi meistroli iaith y trigolion. Nid ymddengys fod gan berchenogion y ddawn hon wybodaeth o bob iaith yn ddiwahân; ond yn unig o'r cyfryw ag oedd ar y pryd yn angenrheidiol. Gwelir hyn oddi wrth 1 *Cor.* xiv. 18, lle y dywed yr apostol wrth y Corinthiaid ei "fod yn llefaru â thafodau dyeithr yn fwy na hwynt oll." Ac y mae hefyd yn debygol mai yn ol yr angen y cynnysgaethid hwy â'r gallu rhyfeddol hwn. Ond gan fod y ddawn hon yn gofyn am ymdriniaeth faith, yr ydym yn cyfeirio y darllenydd at yr erthygl, TAFODAU DYEITHR.

Y ddawn nesaf yw *cyfieithiad tafodau* (*ερμηνεια γλωσσων*): y gallu i esbonio yr hyn a ddywedid mewn perlewyg—mewn sefyllfa anymwybodol, gan yr hwn a fydd ei yn llefaru â thafodau dyeithr. Y mae yn amlwg nad oedd y ddawn hon yn cyd-drigo â'r ddawn arall bob amser yn yr un person. Yr oedd un yn feddiannol ar y naill, ac arall yn feddiannol ar y llall. "O herwydd paham, yr hwn sydd yn llefaru â thafod dyeithr, gweddïed ar iddo allu cyfieithu." Dengys hyn fod yn bosibl i'r un dyn feddu ar y ddwy ddawn.

Ond heb law edrych ar yr holl ddoniau hyn ar wahân, dylid cymmeryd golwg arnynt yn eu cyd-berthynas â'u gilydd. Y mae amryw o'r esbonwyr yn barnu fod y cyfrifiad neu y rhestriad uchod o honynt gan yr apostol yn ffrwyth amcan; a'u bod yn cael eu gosod ger bron yn ol eu pwysigrwydd, eu rhagoriaeth, a'u natur. Y mae Meyer yn eu rhestru fel y canlyn. Sail ei ddosbarthiad ef ydyw defnyddiad y geiriau *ἑτερῳ δε*, ac *αλλῳ δε*. Nid yw y gwahaniaeth hwn i'w weled yn y testyn Cymraeg; ond gall y Cymro ei ddeall trwy sylwi fod y cyntaf, yn gyssylltiedig â "ffydd" ac âg "amryw dafodau," yn cael ei gyfieithu "i arall;" ac mai yr olaf a gyfieithir felly yn yr holl fanau ereill. Yn awr, barna Meyer fod *ετερῳ δε* yn cyfeirio at ddosbarthiadau neu fathau gwahanol o ddoniau, y rhai a restrir ganddo yn y drefn ganlynol:—

I. Doniau yn dwyn perthynas â'r *deall.*

(*a*) Ymadrodd doethineb.

(*b*) Ymadrodd gwybodaeth.

II. Doniau yn gorphwys ar *ffydd oruchel.*

(*a*) Ffydd ei hun.

(*b*) Gweithrediad *ymarferol* y ffydd hono yn y "ddawn i iachau," ac mewn "gwneuthur gwyrthiau."

(*c*) Gweithrediad *geiriol* yr unrhyw ffydd, sef mewn "prophwydoliaeth."

(*d*) Gweithrediad *barnol* (*critical*) yr unrhyw, mewn "gwahaniaethu ysbrydoedd."

III. Doniau yn dwyn perthynas â'r "tafodau."

(*a*) Llefaru â thafodau.

(*b*) Cyfieithiad tafodau.

Y mae Dr. Henderson hefyd yn eu dosbarthu yn hollol yr un dull a Meyer. Y mae De Wette, pa fodd bynag, yn gwrthwynebu y dosbarthiad, oddi ar amryw resymau. Yn un peth, nid yw y rhestr yn gyflawn; o blegid crybwyllir yn *adn.* 28 o'r un bennod am ddoniau na enwir hwynt yn y dosbarthiad hwn. Dywed hefyd fod y ddwy ddawn o lefaru â thafodau, a phrophwydo, yn dwyn perthynas agosach â'u gilydd nag y mae prophwydoliaeth â'r ddawn i iachau; ac mewn rhanau dilynol o'r epistol, ymdrinir â phrophwydoliaeth a dawn tafodau yn gyssylltiedig â'u gilydd. Sylwa Pliny hefyd [*Alford's Comment.*] fod "gwahaniaeth ysbrydoedd" a "chyfieithiad tafodau" yn dwyn perthynas â galluoedd y deall, yn gystal ag y mae "ymadrodd doethineb â gwybodaeth." Y mae Alford yn cytuno â De Wette, nad oes yn ngeiriau yr apostol un dosbarthiad manwl; ond fod ynddynt er hyny fath o ddosbarthiad anfwriadol, yn cyfodi oddi ar gyffelybrwydd geiriau, yn hytrach nag oddi ar amcan i drefnu y doniau yn rhestr reolaidd.

Ni a gawn yn yr un doniau restr arall o'r swyddau a'r doniau (1 *Cor.* xii. 28): "A rhai yn wir a osododd Duw yn yr eglwys; yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna gwyrthiau; wedi hyny doniau i iachau, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywogaethau tafodau." Y mae yn amlwg nad yw y ddwy restr yn hollol yr un fath. Y mae cynnorthwyau a llywodraethau yn ol o'r gyntaf, a chyfieithiad tafodau yn ol o'r olaf. Ceisiasom egluro yn y rhestr arall y nifer fwyaf o'r doniau sydd ger ein bron yn y rhestr hon; gwnawn yma yn unig rai sylwadau ar gwestiynau sydd yn cyfodi yn chwanegol oddi ar yr olaf. Meddylir fod y gair *apostolion* yma yn arwyddo, nid y deuddeg yn unig; ond ereill hefyd, y rhai a adnabyddid wrth yr un enw, ac a gynnysgaethwyd â'r un gallu; megys Paul, Barnabas, ac Iago brawd yr Arglwydd [*Alford's Commentary*].[1] Pa beth oedd y gwahaniaeth rhwng yr apostolion, y prophwydi, a'r athrawon? Y mae yn amlwg fod nid yn unig wahaniaeth rhyngddynt, ond fod y naill yn meddu blaenoriaeth ar y llall. Ymddengys hyny oddi wrth y geiriau, yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn yr adran sydd dan ystyriaeth, yn gystal ag oddi wrth restrau cyffelyb yn *Rhuf.* xii. ac *Eph.* iv. Yn y cyntaf o'r lleoedd hyn, y mae prophwydoliaeth yn dyfod o flaen athrawiaeth; ac yn yr ail, saif yr apostolion yn gyntaf, y prophwydi yn ail, a'r athrawon yn bummed. Y mae yn eglur oddi wrth 1 *Cor.* xiv, fod yr apostolion yn ystyried prophwydoliaeth yn un o'r doniau uchaf. Yn y ddawn hon, ebe Olshausen, yr oedd y gallu i ddeffroi yr anghredadyn; ac felly yr oedd yn meddu ar werth arbenig mewn cyssylltiad âg eangiad yr eglwys. Yr oedd yr athrawon, ar y llaw arall, yn meddu

[1] Y mae Olshausen yn barnu i'r gwrthwyneb—y dylid cymmeryd "apostolion" yma yn ei arwyddocâd mwyaf cyfyng, yr hyn sydd yn ymddangos i ni yr eglurhad cywir.

Digitized by Google

ar fwy o gymhwysder i addysgu o fewn cylch yr eglwys ei hun; ac felly yr oedd eu swydd yn dwyn yr un berthynas â'r saint ag a ddygai y ddawn arall â'r byd annuwiol. Nid oedd swydd y prophwyd yn swydd ar ei phen ei hun yn yr eglwys apostolaidd; yr oedd yr apostolion yn brophwydi, ond nid oedd y prophwydi yn apostolion. Yr oedd yr athrawon hefyd yn llywodraethwyr, a'u henwau swyddol oedd esgobion a henuriaid. "Bod yr athrawon yn ddynion ysbrydoledig, a ymddengys oddi wrth *Rhuf.* xii. 7, lle yr enwir addysgu neu athrawiaethu yn mysg y doniau ysbrydol; ac oddi wrth 1 *Cor.* xiv. 6, lle y sonir am athrawiaeth fel dawn yn cael ei rhoddi i'r dynion ysbrydol trwy ysbrydoliaeth. Oddi wrth *Eph.* iv. 11, ymddengys fod tri dosbarth o athrawon yn yr eglwys—efengylwyr, bugeiliaid, ac athrawon. Yr athrawon y lleferir am danynt yma oedd yr efengylwyr, dawn bri-odol y rhai oedd ffydd."—[*Macknight's Commen.*] Nid ydym yn cael yn y rhestr hon un crybwylliad am yr esgobion, yr henuriaid, a'r diaconiaid —swyddogion gwastadol yr eglwys. Fe allai mai y rheswm am hyny ydyw hyn:—nad ydyw yr apostol yn crybwyll ond yn unig am y swyddogion hyny i'r rhai yr oedd y doniau ysbrydol yn angenrheidiol, swyddau y rhai oedd i beidio pan ddiflanai y doniau ysbrydol o'r eglwys. Yn awr, nid oedd y swyddau crybwylledig o'r nodwedd yma. Y maent hwy i barhau yn yr eglwys hyd ddiwedd amser.

Nis gallwn, wrth ddwyn ein sylwadau ar hyn tua'r terfyn, wneyd dim yn well na chrynhoi rhai o sylwadau Neander ar y doniau ysbrydol. Fe ellir, ebe fe, edrych ar y doniau hyn dan ddau ddosbarthiad; sef, y rhai a hyrwyddent achos Crist trwy y gair, a'r rhai a gynnorthwyent i'w sefydliad trwy offerynoliaeth o natur arall. Gellir gwneyd gwahaniaeth arall rhwng y doniau a berthynent i'r dosbarth cyntaf: yr oedd rhai o honynt yn cymmeryd meddiant llwyr o'r natur; nid oedd y dyn yn amgen nag offeryn i'r dylanwadau dwyfol weithio drwyddo. Yr oedd y doniau ereill yn cydweithio gyda'r cyssondeb mwyaf â galluoedd y meddwl; yr oedd ysbrydoldd y prophwydi yn ddarostyngedig i'r prophwydi. Y mae y gwahaniaeth hwn yn rhoddi golwg i ni ar nodweddau y gwahanol ddoniau. Yr oedd yr athrawon yn feddiannol ar y cyfryw wybodaeth o'r efengyl ag a ennillasant trwy gynnorthwy yr Ysbryd Glân, yn yr ymarferiad dyfal o'u galluoedd eu hunain. Yr oedd y prophwyd yn llefaru dan gynhyrfiad uwch na'r athraw—y cynhyrfiad a elwir yn "ddadguddiad," yr hwn a'i dyrchafai am yr adeg hono uwch law iddo ei hun. Yr oedd y prophwyd yn gwybod am lewyrchiadau disymmwth a chryfion ar ei feddwl, tra yr oedd yr athraw yn debycach i swyddogion yr eglwys ar ol diflaniad y doniaû gwyrthiol allan o honi. "Eto," ebe Neander, "nid oedd y ddwy ddawn bob amser ar wahân. Gallasai yr athraw ddyfod, mewn adeg o ysbrydoliaeth, yn brophwyd. Gallasai draddodi araeth effeithiol—i ddeffroi, i annog, i rybuddio, neu i ddyddanu y credinwyr cynnulledig; neu wneuthur appeliadau at y rhai oeddynt eto heb fod yn sefydlog yn y ffydd, a thrwy hyny agor eu calonau i addysg yr athraw." Yr oedd addysg yr athraw yn fwy cymhwys i adeiladu y credinwyr, tra yr oedd annogaethau y prophwyd yn fwy cyfaddas i ddeffroi anghredinwyr. Yr oedd lleferydd yr hwn a feddiannai ddawn tafodau yn wahanol i'r naill a'r llall; gan ei fod yn cael ei gario ymaith gan ei deimladau, nid oedd ei gyfarchiad yn drefnus a chyssylltiadol fel yr eiddo yr athraw; na chwaith yn gyfeiriol at amgylchiadau dynion ereill, fel yr eiddo y prophwyd; am ei fod yn analluog, pan dan gynhyrfiad, i wneuthur sylw o angenrheidiau ysbrydol a chyflyrau dynion ereill, ni chynnwysai ei ymadrodd ond math o fawl i Dduw. "Yr oedd ei enaid yn cael ei lyncu mewn defosiwn a mawl. O herwydd hyny, yr hyn oedd yn perthyn i'r sefyllfa hon oedd gweddi, canu mawl i Dduw, a llefaru am ei weithredoedd nerthol." Yr oedd ganddo iaith briodol iddo ei hun, yn cyfodi oddi ar ei ganfyddiadau a'i deimladau personol; ond yr oedd yn ddiffygiol mewn gallu i wneyd ei hun yn ddealladwy i'r gwrandawyr.

Wedi cymmeryd golwg gyffredinol fel hyn ar natur a dybenion yr amryw ddoniau a gyfrenid gan yr Ysbryd yn yr eglwysi gynt, ac am ddilysrwydd y rhai y mae genym y profion mwyaf pendant ac annadleuadwy, arweinir ni yn awr yn bur naturiol at yr holiad mawr a phwysig yn nghylch *eu parhâd.* Fod y doniau hyn yn awr wedi peidio yn yr eglwys, sydd yn ffaith mor amlwg nad oes neb ond ychydig o'r dynion mwyaf seremoniol ac ofergoelus yn meddwl ei gwadu: ac os yw ein syniad yn yr ysgrif hon am eu dyben yn gywir, fe fuasai y parhâd o honynt, ar lawer o ystyriaethau yn waeth na diles. Yn 1 *Cor.* xiii. y mae Paul yn dywedyd wrth yr eglwys hono, yn y modd mwyaf pendant, fod yr holl ddoniau hyn i beidio. Amcan yr apostol ydyw dangos fod cariad Cristionogol yn rhagori ar yr holl ddoniau, ac hyd yn oed ar "ffydd" a "gobaith;" y rhai ydynt rasusau dysgleiriaf y cymmeriad crefyddol, ac ydynt yn hanfodol angenrheidiol i iachawdwriaeth. Nid yw Paul yn dibrisio y doniau; ond tra y mae yn cymhell y Corinthiaid i'w defnyddio yn ddoeth a gofalus, y mae yn dangos iddynt "ffordd dra rhagorol"—ffordd oedd yn tra rhagori ar y ddawn uchaf; a'r ffordd hono oedd *cariad.* Dengys iddynt, os oeddynt heb y gras tra rhagorol hwn, fod pob dawn oedd ganddynt yn gwbl ddiwerth. "Pe llefarwn â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod genyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio neu symbal yn tincian. A phe byddai genyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth, a phe bai genyf yr holl ffydd, fel y gallwn symmudo mynyddoedd, ac heb gariad genyf, nid wyf fi ddim." Y mae hyn yn cael ei ddilyn â'r dysgrifiad mwyaf prydferth o'r gras hwn; ac yna y mae yr apostol yn dyweyd am dano, "Cariad byth ni chwymp ymaith." Ond am yr holl ddoniau y mae yn dywedyd mewn ychydig eiriau, "Pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflana." Nid oes un ddadl, hyd y gwyddys, gan neb, nad yw Paul yn rhagfynegu tynged y doniau gwyrthiol yn y geiriau hyn. Yr holiad, pa fodd bynag, ydyw, at ba amser y mae y geiriau uchod yn cyfeirio; ac yn nghylch hyn y mae llawer iawn o daeru. Pa bryd y golygai Paul fod y doniau hyn i beidio? Myn Billroth, a'r holl Filenariaid diweddar, mai yn ail ddyfodiad Crist; a myn ereill, mai pan fyddai yr eglwys wedi dyfod i addfedrwydd oedran, a rhoddi heibio bethau bachgenaidd: neu, mewn geiriau ereill, pan fyddai y grefydd Gristionogol, trwy weinidogaeth yr apostolion, wedi ei llawn ddadguddio, a'i chwbl sefydlu yn y byd. Yn awr, tuag at gadarnhau y cyntaf o'r golygiadau hyn, y mae yn angenrheidiol profi ei fod

Digitized by Google

yn rhan o fwriad Duw fod i ddoniau anghyffredin yr Ysbryd Glân barhau yn yr eglwys yn ddifwlch hyd ddiwedd yr oruchwyliaeth efengylaidd. Ond, er chwilio, ni ellir cael un prawf o'r fath yn yr Hen Destament na'r Newydd. Y mae llawer wedi ceisio gan yr awgrym yn *Esa.* xxviii. 11, a chan y brophwydoliaeth yn *Ioel* ii. 28, 29, ddyfod yn mlaen i'w cynnorthwyo; ond yn gwbl aflwyddiannus. Haerir pa fodd bynag gyda mwy o debygolrwydd, fod addewid Crist i'w ddysgyblion yn *Marc* xvi. 17, yn hollol i'r pwynt. Mae ein hesboniad eisoes ar y gair *ffydd* yn ddigon o atebiad i'r haeriad hwn. Yr ydym ni yn hòni mai ffydd trwy yr hon yr oedd ei pherchen yn gallu gwneyd gwyrthiau oedd y "ffydd" hon, ac yr oedd hono yn un o ddoniau anghyffredin yr Ysbryd ei hun. Ffydd i rai ydoedd, ac nid i bawb. Ond os gwrthodir yr esboniad hwn, ac os haerir mai ffydd yn ngwirionedd yr efengyl—y ffydd i fywyd, yr hon sydd yn eiddo yr holl saint—a feddylir; yna, yr ydym yn cyfarfod yr haeriad, trwy ddyweyd, nad oedd "yr arwyddion hyn yn dilyn y rhai a gredent" oll, hyd yn oed yn nyddiau yr apostolion eu hunain. Nid pawb oedd yn bwrw allan gythreuliaid, ac nid pawb oedd yn llefaru â thafodau newyddion. Nid oedd ond ychydig, mewn cymhariaeth, o'r rhai a gredent mewn gwirionedd yn Iesu Grist, hyd yn oed y pryd hyny, yn gallu gwneuthur gwyrthiau yn ei enw. Ar hyn y mae Paul yn gofyn i'r Corinthiaid (*pen.* xii. 29, 30), "Ai apostolion pawb? ai prophwydi pawb? ai athrawon pawb? ai gwneuthurwyr gwyrthiau pawb? a oes gan bawb ddoniau i iachau? a yw pawb yn llefaru â thafodau? a yw pawb yn cyfieithu?" Ac y mae yn deilwng o sylw nad yw yr apostol yn priodoli hyn i ddiffyg ffydd, ond i ewyllys Duw; yr hwn a osododd yn yr eglwys, "yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna gwyrthiau; wedi hyny doniau i iachau, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywogaethau tafodau;" *adn.* 28.

Gan na ellir profi parhad y doniau hyn, y mae yn canlyn yn anocheladwy eu bod ar eu rhoddiad cyntaf yn fuan i fyned heibio. Ond, Pa bryd y peidiasant? sydd yn holiad ag y mae llawer mwy o anhawsderau yn nglŷn ag ef. Haera y Pabyddion nad ydynt erioed wedi peidio, a'u bod yn parhau hyd heddyw. Haera Gibbon, ar y llaw arall, oddi wrth ddystawrwydd hanesyddiaeth am yr adeg y peidiasant, na bu y fath ddoniau erioed yn bod. Y mae y Protestaniaid, yn lled gyffredin, yn hòni eu bod wedi parhau trwy y tri chanrif cyntaf, a'u bod wedi peidio pan ddaeth crefydd Crist i gael ei sefydlu trwy yr awdurdod wladol. Ond os gellir profi dilysrwydd y gwyrthiau yr hònir ddarfod eu gwneuthur yn y drydedd ganrif, gellir profi hefyd ddilysrwydd yr holl wyrthiau yn y bedwaredd ganrif, neu mewn unrhyw ganrif ddilynol Mewn gair, os addefwn y gwyrthiau a wnaed yn amser Chrysostom a Basil, mae yn rhaid i ni addef hefyd mai gwyrthiau ydyw yr holl bethau a gamenwir felly, a hyny hyd yn awr. Gydag argyhoeddiad o geudeb y ffug-wyrthiau hyn, ysgrifenodd y Dr. Conyers Middleton gyfrol yn niwedd y ganrif flaenorol, yn yr hon y mae yn profi nad oes un rheswm dros gredu fod y doniau hyn wedi parhau yn yr eglwys yn hwy na dyddiau yr apostolion. Er fod y Dr. yn anatebadwy gryf ar y pwnc, nid ydyw, pa fodd bynag, wedi llwyddo i nodi yr amser sicr yn mha un y gellir tybied fod y gwyrthiau gwirioneddol wedi peidio, a'r rhai gau wedi dyfod i mewn yn eu lle. Hwyrach fod hyn yn anmhosibl. Y mae yr holiad o leiaf yn aros—Pa un a ellir meddwl fod y doniau wedi peidio yn mhob gwlad ar farwolaeth yr apostol oedd yn llafurio ynddi? neu, A ellir meddwl eu bod wedi parhau yn yr holl eglwysi hyd farwolaeth Ioan —yr olaf o'r apostolion? Yr ydys eisoes wedi crybwyll fod yr apostolion, trwy arddodiad eu dwylaw hwy, wedi cyfranu y doniau hyn i ereill yn eu hoes. Ai nid yw yn rhesymol, gan hyny, i ni dybied fod y doniau i ryw raddau wedi parhau hyd farwolaeth yr olaf o'r personau hyny? Os felly, yr oeddynt yn rhwym o ddarfod yn raddol, ac yr oedd rhyw gymmaint o honynt yn aros yn agos i ddiwedd yr ail ganrif. A chaniatau fod ein tybiaeth yn gywir, ac nis gellir profi nad yw, y mae yr wrthddadl hyderus a gyfodwyd yn eu herbyn gan yr anffyddiwr Gibbon yn hollol ddibwynt. Erbyn hyn, yr oedd y dybenion mewn golwg wrth roddi y doniau wedi eu cyrhaedd. Yr oedd awdurdod yr apostolion wedi ei sefydlu, y gwahanol eglwysi a blanwyd ganddynt wedi eu cadarnhau yn y ffydd, a'r ysgrifeniadau ysbrydoledig, wedi eu casglu yn un llyfr, yn cynnwys y fath gorff o brofion o wirionedd Cristionogaeth, fel nad oedd un angen am unrhyw gyfryngiad goruchnaturiol pellach o'i phlaid.

Y mae yn dra theilwng o sylw fod rhywbeth yn wan yn yr hyn a ysgrifenwyd gan y tadau, tua diwedd yr ail ganrif, ar bwnc y doniau. Y maent fel pe byddent yn awyddus am i'r byd gredu eu bod yn parhau; ond y maent yn cymmeryd y gofal mwyaf i beidio crybwyll am un anghraifft. Y casgliad naturiol ydyw, eu bod erbyn hyny wedi darfod. Os gellir golygu fod un o'r doniau yn fwy pwysig ac yn fwy angenrheidiol i'r eglwys tuag at ledaenu yr efengyl na'u gilydd, y mae yn sicr mai y ddawn i lefaru â thafodau oedd hono; ac felly buasid yn dysgwyl iddi barhau yn hwy na'r lleill. Y mae yn ffaith, pa fodd bynag, mai yr unig gyfeiriad at y ddawn hon sydd i'w chael yn nghroniclau yr hen amseroedd, ydyw yr hyn a geir yn ngwaith Irenæus yn erbyn yr hereticiaid, yn yr hwn y mae yn dywedyd, "Yr ydym yn clywed am lawer yn yr eglwys yn meddu ar ddoniau prophwydol, yn llefaru â thafodau," &c. Yr oedd y dyn da hwn yn pregethu yr efengyl yn mhlith y Celtiaid, a gallesid meddwl y buasai y ddawn hon mor wasanaethgar iddo ef a neb; eto, y mae efe ei hun yn dyweyd "mai nid y lleiaf o'i anfanteision oedd, fod yn rhaid iddo addysgu iaith farbaraidd y bobl yr oedd yn llafurio yn eu mysg, cyn y gallasai fod o ddim lles iddynt." Y mae ysgrifeniadau Awstin a Chrysostom yn dangos yn amlwg fod yr holl ddoniau wedi peidio yn eu hamser hwy. Dywed y blaenaf, yn ei sylwadau ar Efengyl Ioan, "Yr oedd yr Ysbryd yn cael ei roddi i'r credinwyr gynt, ac yr oeddynt yn llefaru â thafodau nad oeddynt erioed wedi eu dysgu, fel y rhoddai yr Ysbryd iddynt ymadrodd. Arwyddion addas i'r amseroedd oeddynt. Yr oeddynt yn angenrheidiol fel tystiolaeth i'r efengyl, yr hon oedd i gael ei phregethu trwy yr holl fyd. Yn awr pan y mae y dystiolaeth hono wedi ei rhoddi, y maent hwythau wedi peidio." Yr olaf hefyd, a ddywed, mewn geiriau byrion, ond arwyddocaol iawn; "Am y doniau gwyrthiol, nid oes gymmaint ag olion un o honynt yn parhau."—*De Sacerd.*, llyfr iv.

Ond prin yr oedd y gwir ddoniau wedi peidio, nad oedd rhai gau yn barod i gymmeryd eu lle. Y mae genym hanesion parhaus am rywrai neu gilydd yn yr eglwys yn mhob oes, o ddyddiau yr

Digitized by Google

apostolion hyd heddyw, wedi hòni yn y modd mwyaf hyderus, a llawer o honynt heb un dyben mewn golwg ond twyll a chelwydd, eu bod hwy yn feddiannol ar allu i wneyd gwyrthiau. Cyn diwedd yr ail ganrif, y mae un, Montanus, o dalaeth Mysia, yn agos i Phrygia, yn arwain plaid o ddynion a'u galwent eu hunain yn Cataphrygiaid, ac a haerent fod y doniau wedi eu rhoddi yn helaethach iddynt hwy nag y rhoddwyd hwynt i'r apostolion eu hunain. Dywedent mai Pepuza a Tymium, y lleoedd yr oeddynt hwy yn cyrchu iddynt, oedd "Ierusalem Newydd" y Dadguddiad. Yr oedd Montanus yn ddyn o duedd bruddglwyfus, ac yn benboethyn hollol. Haerai mai efe oedd y "Dyddanydd" ag oedd wedi ei addaw. Yr oedd yn ddyn o fuchedd bur, yn ddysgyblwr llym, ac o gred uniawn am bob peth arall. Wedi ennill dwy foneddiges o radd uchel, o'r enw Priscilla a Maximilla, y rhai a adawsant eu gwyr i fod yn brophwydesau iddo, efe a ddaeth yn fuan iawn i sylw. Yr oedd rhagfynegiadau ei brophwydesau, ac ereill o'i ddilynwyr, yn hyf a rhyfygus i'r eithaf. Nid oeddynt, meddynt hwy, ond cyfryngau goddefol yn llaw yr Ysbryd—trwy allu yr hwn yr oeddynt, yn eu perlewygon, yn gwbl ddilywodraeth arnynt eu hunain. Cafodd y blaid wallgof hon sylw buan a dylanwad mawr yn Asia, Affrica, ac Ewrop; ac yr oedd gweddillion o honi yn parhau hyd tua diwedd y chweched ganrif. Y mae hanes y dynion hyn yn ddarlun teg o'r eithafion y mae ereill ar eu hol wedi myned iddynt ar ysbrydoliaeth ddwyfol yn athrawiaeth y doniau.

Ni oddef ein terfynau i ni ddilyn hanes gweledigaethau a dadguddiedigaethau dychymygol Leuthard, yn y ddegfed ganrif; Elysabeth a Hildegardis, yn y ddeuddegfed; St. Francis, yn y drydedd ar ddeg; St. Brigitta a'r Dawnswyr Ffrengig, yn y bedwaredd ar ddeg; Elysabeth Barton, neu Forwyn Sanctaidd Kent, a Munser, a Storch, yn nghyd âg ereill o'r Ailfedyddwyr, yn yr unfed ganrif ar bymtheg—y rhai a hònent eu bod yn derbyn dadguddiedigaethau dwyfol, ac a gymmerent arnynt brophwydo a chyhoeddi barnau dwyfol, trwy yr hyn yr oeddynt yn hudo y rhai mwyaf ofergoelus yn mhlith y bobl. Am hyny yr ydym yn symmud yn mlaen i nodi yr hòniadau a wnaed ar y pwnc yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, ac oddi yno i lawr, a hyny yn benaf yn ein gwlad ni.

Ar y Cyfandir, arweiniodd y ddysg am y *goleuni mewnol*, yr hwn a ystyrid yn uwch na'r Beibl, i grediniaeth mewn perlewygon, gweledigaethau, ffug-ysbrydiaeth, prophwydoliaethau, a gwyrthiau. Yr oedd y dynion a gredent y pethau hyn, gan mwyaf, o gymmeriad difrycheulyd; ac yn ol pob ymddangosiad, o dduwioldeb diammheuol. Ymaflodd y pla hwn gyntaf yn y Moraviaid. Cymmerodd Comenius—un o'u hesgobion hwy—ran yn y symmudiad, ac ysgrifenodd hanes ei weithrediadau. Cododd un, Cotter, o Silesia, yn brophwyd hynod yn eu mysg; ac yr oedd y dynion mwyaf duwiol yn ei goelio. Cafodd hwn, pa fodd bynag, wedi hyny ei alltudio o'i wlad, am fod ei brophwydoliaethau wedi profi eu hunain yn ffugiol. Cyfododd un, Christina Poniatovsky, yn fuan ar ei ol; yr hon oedd yn aml mewn perlewygon, yn hòni ei bod yn derbyn gweledigaethau, ac yn gwneuthur llawer o wyrthiau; megys ei bod yn iachau cloffion ac yn cyfodi rhai o feirw. Ennillodd hon gymmaint o sylw a ffafr fel yr ofnwyd, yn y flwyddyn 1629, y buasai yn arwain i rwyg yn yr eglwys. Dilynwyd hon, yn mhen ychydig amser wedi hyny, gan Dabricius—un o weinidogion y Moraviaid—yr hwn oedd yn gwneyd y cyffelyb hòniadau, ac i'r hwn y rhoddwyd y cyffelyb gred. Yn yr Almaen, yn agos i ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg, gwnaeth dwy foneddiges o waedoliaeth uchel, ac o'r enwau Rosamunde Juliana von Asseburg, a Johanna Eleonore von Merlan, yr un hòniadau: a haerent fod y "teyrnasiad am fil o flyneddoedd," a'r "adferiad cyffredinol" ger llaw. Ond nid oedd hyn oll ond ychydig mewn cymhariaeth i weithrediadau y Camisariaid, neu y prophwydi o Cevennes, yn Ffrainc, y rhai, yn amser erlidigaethau 1685, oeddynt yn rhifo eu miloedd. Dywedent fod y doniau yn cael eu rhanu yn eu plith i bersonau yn y ddau ryw, yn mhob oed, ac yn mhob sefyllfa. Yr oedd plant, meddynt hwy, o dair hyd yn ddeuddeng mlwydd oed, a rhai heb fod dros dri neu bedwar mis ar ddeg, yn medru ar ddawn i gynghori: yr oedd rhai yn llefaru â thafodau, rhai yn gwahaniaethu ysbrydoedd, a rhai yn prophwydo, a rhai yn gwneyd gwyrthiau. Yn ystod eu perlewygon, yr oedd eu cyrff yn cael eu hystwytho i bob lluniau, ac yn ymddangos fel pe buasent yn goddef yr arteithiau mwyaf poenus. Haerent eu bod yn yr holl ystranciau hyn yn cael eu gorfodi gan ryw allu dwyfol a goruchnaturiol. Wrth gael eu herlid yn eu gwlad eu hunain, diangodd llawer o honynt i wledydd ereill, a gwnaeth amryw o honynt eu cartref yn y wlad hon. Yn y flwyddyn 1706, llwyddodd eu harweinyddion yma i gael amryw o foneddigion i'w cynnorthwyo i sefydlu yr hyn a alwent hwy "Yr Oruchwyliaeth Newydd;" yr hon oedd i'w dechreu yn Lloegr, ac i fod wedi ymledaenu dros y byd cyn pen tair blynedd. Yr oedd y blaid yn cael ei nodweddu gan yr un pethau yn y wlad hon ag yr ydoedd yn Ffrainc. Yr oeddynt yn siarad mewn llawer o ieithoedd; yn rhagfynegu pethau dyfodol; ac yn ben ar y cwbl, yn gwneyd gwyrthiau. Buont mor ffol, pa fodd bynag, a chytuno i ddwyn y gallu hwn i brawf. Ymrwymasant o honynt eu hunain i gyfodi un Dr. Emms o'i fedd yn fyw. Yr oedd hyn i gael ei wneyd ar y 25ain o Fai, 1708, yn mhen pum mis union ar ol ei gladdu. Bu eu methiant yn hyn yn foddion i ddwyn y dynion drygionus hyn i'r anmharch a haeddent yn y wlad hon. Bu rhai o honynt, pa fodd bynag, yn cyfarfod â'u gilydd wedi hyny yn Boston a Manchester, o ba leoedd yr ymadawodd lluaws o honynt yn y flwyddyn 1774, o dan yr enw "Y Crynwyr," i America, yn cael eu harwain gan un Ann Lee, gwraig i of; yr hon a erlidiwyd wedi hyny am ei golygiadau, ond a berchid mor fawr gan ei chanlynwyr, fel y galwent hi eu mham ysbrydol yn Nghrist; a rhoddasant iddi y teitl, *Y Fam Ann.*

Ond i gadw ein golwg ar yr hòniadau hyn yn y wlad hon:—gyda'r eithriad o Richard Brothers a Johanna Southcott, y rhai a dynasant gryn sylw ar y pryd, nid oes un hòniad o bwys wedi ei wneyd o ddoniau gwyrthiol ar ol hyn hyd y flwyddyn 1830; pryd y cawsant eu hadnewyddu yn Fernicarry a Port Glasgow yn ngorllewin Scotland; o ba le y cawsant eu trosglwyddo yn fuan i un o eglwysi Llundain, lle yr oedd Mr. Edward Irving wedi bod yn parotoi y ffordd iddynt trwy gwrs o esboniadaeth brophwydol ac ysbrydol o'r fath ryfeddaf. Yr oedd Mr. Irving yn cymmeryd llawer o drafferth arno ei hun gydag "arwyddion yr amserau," a helyntion

Digitized by Google

gwladol a chrefyddol yr oes yr oedd yn byw ynddi. Yr ydoedd yn chwilio yn yr holl brophwydi am y geiriau mwyaf cyffrous i ddysgrifio dyfodiad Crist i farnu ei elynion, ac i arwain y mil blyneddoedd i mewn—yr hwn yr haerai efe ei fod y pryd hyny ger llaw. Fel rhagbarotoad, yr oedd yr eglwys i weddïo am adferiad llawn a buan o holl ddoniau anghyffredin yr Ysbryd Glân, fel yn nyddiau yr apostolion. Yr oedd y pethau hyn yn cael eu cyhoeddi gan Mr. Irving, nid yn unig gyda hyawdledd, yr hwn oedd yn mhell uwch law y cyffredin, ond gyda chymmaint o hyder ac awdurdod a phe buasai yn genad anfonedig o'r nef. Nid rhyfedd, gan hyny, i'r ddysg newydd hon ennill sylw a dylanwad mawr yn fuan yn y brif ddinas. Yr oedd y bobl ar flaenau eu traed yn dysgwyl i rywbeth mawr gymmeryd lle; a thrwy hyny wedi eu gweithio i agwedd barod i gredu celwydd. Yn fuan, dechreuasant lefaru â thafodau; weithiau mewn iaith nas gwyddid beth oedd, a phryd arall yn yr iaith Seisoneg; ac yr oedd yr hyn a alwent hwy yn brophwydoliaethau i gael eu credu heb ammheu dim. Gwneid hyn ar y cyntaf yn y cyfarfodydd neillduol; ond yn 1831, dygwyd y cwbl i'r amlwg yn y gynnulleidfa gyhoeddus. Wedi iddynt hwy ei ragflaenu am dair blynedd a hanner, i ddechreu o'r 14eg o Ionawr, 1832, yr oedd Crist i ddyfod yn ei ogoniant, a'r eglwys i gymmeryd ffurf newydd yn y byd. Mor fuan ag y cafodd Mr. Irving ei fwrw allan o'r eglwys yr oedd yn llafurio ynddi, aeth yn nghyd â "gwneyd pob peth o newydd." Ordeiniodd weinidogaethau o angelion, apostolion, colofnau, prophwydi, henuriaid, ac efengylwyr; ac y mae y rhai hyn yn awr dan reolaeth un sydd ynddo ei hun yn "Golofn yr Apostolion," yn "Golofn yr Angelion," ac yn "Angel yr eglwys yn Albury." Nid oedd dim yn perthyn i'r "tabernacl Iuddewig," nad yw mewn rhyw ddull yn cael ei gadw i fyny yn eu plith. Y mae y gyfundrefn ddegymol yn cael ei chadw yn fanwl; a hònir yr un ufudddod i gyfreithiau yr apostolion newyddion hyn ag a hònai Moses gan Israel i'r gyfraith a gyhoeddwyd gynt ar Sinai. Y mae ystranciau y bobl hyn bellach wedi colli eu newydd-deb; ac er pob dyfais a arferant i barhau y cyffro a'r dylanwad, i lawr, fel yr haeddant, y mae y naill a'r llall yn myned. Dywedant eu bod eto yn llefaru â thafodau; ond fel y gallesid dysgwyl, y mae pob cynnyg o'r eiddynt tuag at wneuthur gwyrth wedi troi yn fethiant. Cafwyd y fath brofion o'r twyll a'r dichellion a arferir ganddynt, fel y daeth llawer o ddynion crefyddol, a dueddwyd unwaith i gymmeryd rhan yn eu cyfarfodydd, i'w ffieiddio mor llwyr fel na fynent gredu nad ydynt wedi eu hysbrydoli gan Satan, ac yn offerynau yn ei law ef i gyflawnu pob drwg.

Gellid olrhain hanes yr hòniadau hyn yn helaeth iawn, ond y maent yn rhwym o ddyfod eto dan sylw mewn gwahanol erthyglau yn y gwaith hwn. Y mae yn rhaid myned heibio i'r Swedenborgiaid a'r Cyfeillion, neu fel yr adnabyddir hwy yn fwyaf cyffredin, y Crynwyr, gyda dyweyd, er eu bod yn hòni eu bod hwy yn wastadol, neu ar amserau, yn cael eu cynhyrfu gan ddylanwad anghyffredin yr Ysbryd Glân, nid oes un o honynt, hyd y gwyddys, yn hòni eu bod yn llefaru mewn ieithoedd estronol nac yn gwneuthur gwyrthiau. Y mae y naill a'r llall, pa fodd bynag, yn tra dyrchafu y ddawn ddychymygol ynddynt eu hunain uwch law awdurdod y llyfr a ysgrifenwyd trwy Ysbryd Duw. Y mae hòniadau Joseph Smith a'i ganlynwyr yn adnabyddus i bawb, ac yn ffol-ryfygus tu hwnt i bob peth a fu o'u blaen. Y maent wedi ac yn proffesu eu bod yn gallu gwneyd pob peth; ond hyd yn hyn y maent heb wneyd dim. Nid yw yr holl gyfundrefn ddim yn amgen na chyfundrefn o dwyll, rhyfyg, ac annuwioldeb o'r fath waethaf. Y mae yr ysbryd sydd yn hòni y galluoedd a'r doniau hyn, pa le bynag y mae yn ymddangos, yn cyfateb yn fanwl i'r hyn a ddywedwyd am dano—"Yr hwn y mae ei ddyfodiad yn ol gweithrediad Satan, gyda phob nerth, ac arwyddion, a rhyfeddodau gau, a phob dichell anghyfiawnder yn y rhai colledig; am na dderbyniasant gariad y gwirionedd fel y byddent hwy gadwedig." Gwel GWYRTH; IRVINGIAID; MORMONIAID. — (*Calvin*, *Olshausen*, a *Bengel's Commentaries*; *Henderson on Inspiration*; *Neander's Planting and Training*; *Horsley's Sermons*; *Dr. Owen's Discourse on Spiritual Gifts*; *Alex. Macleod's View of Inspiration*; *Bishop Kaye's Eccles. Hist. of the Second and Third Centuries*, *Dr. Conyers Middleton's Free Inquiry into the Miraculous Powers*, Llund., 1749; *Miall's Basis of Belief*; *Life of St. Paul, by Connybeare and Howson.*)

DOR, [דור neu דאר; Gr., Δῶρα, Δῶρ]: dinas ar ororau Môr y Canoldir, yr hon a esyd Jerome o fewn naw milltir Rufeinig i'r gogledd o Cesarea. Yr oedd yn un o ddinasoedd breiniol y Canaaneaid (*Ios.* xi. 2; xii. 23), ac yn gorwedd o fewn terfynau Aser, er mai i Manasseh y perthynai: *Ios.* xvii. 11; 1 *Cron.* vii. 29. Ni chymmerwyd y ddinas hon yn ebrwydd (*Barn.* i. 27), gan nad ydym yn ei chael yn ddinas Israelaidd hyd yn 1 *Bren.* iv. 11. Yn 1 *Mac.* xv. 11—14, 25 [gwel *Hyn. Joseph.*, xiii. 7, 2; ac *Antioch.*, vii] canfyddir iddi gael ei gwarchae y pryd hyny gan Antiochus Sidetes: difrodwyd hi wedi hyny gan Pompey [*Hyn. Joseph.*, xiv. 4, 4], ac adferwyd hi gan y cadlywydd Rhufeinig Gabianus, yr hwn a wnaeth borthladd iddi. Gwnaed hi yn ddinas esgobol yn fore, ond yn amser Jerome yr oedd yn adfeilion. Rhaid ei bod wedi cael ei hailadeiladu ar ol hyny, canys yn amser y croesgadau yr oedd yn esgobaeth dan archesgob Cesarea. Pan y geilw hen ysgrifenwyr y lle yn dref fechan, cyfeiriant at sefydliad Phœniciaidd bychan porthladd Dor neu Dora, a ddysgrifir gan Stephan Byzant, ar ol Claudius Julius. Y mae Pliny yn ei galw yn Dorum, ac yn ei gosod yn Phœnicia. Y mae awdwr arall yn ei galw yn Thora, ac yn ei gosod 56 milltir o Cesarea. Y mae y lle a elwir yn awr Tantura, yn yr un pellder o Cesarea ag a nododd Jerome, ag a ddarlunir gan Buckingham fel pentref bychan, yn cynnwys rhyw ddeugain neu ddeg a deugain o dai, a thua phum cant o drigolion; ac yn meddu porthladd i longau mawrion, a hen westty (Khan) salw ychydig i'r gogledd oddi yno, lle y canfyddir rhai adeilion henaiol a chanoloesol; ac y mae yn dra sicr mai gweddillion Dor ydynt.

DOR—AU, [Arm. *dor*; Sw. *dör*; Sax. *dora*, *dur*, *dure*; Ir. *doras*; Gr. *θυρα*; Ger. *thür*; Heb. שער]. Y mae rhai parthau o Gymru yn gwneyd gwahaniaeth rhwng *dôr* a *drws*. Wrth ddrws y golygir, yn y parthau hyny, yr agorfa, y fynedfa, neu y dramwyfa i adeilad, ac o honi; ac wrth ddôr y golygir caead y cyfryw agorfa. Yn yr un parthau, dywedir "wedi i chwi fyned drwy'r

Digitized by Google

drws, cauwch y ddôr ar eich ol." Hefyd, "ar y drws acw y mae y ddôr yma i fod." Yn unol â hyn, dywed un hen fardd, ar ffugr:—

"Dros bryd n'ad y drws heb bren,
Dros brenio'r drws â brwynen."

Y mae yr un syniad yn eglurhad y *Penny Cyclopædia*:—"*Door* a *Door-way*; y fynedfa a fo yn arwain i adeilad gyhoeddus neu gyffredin, a'r agoriad neu y ffordd i randy, neu o un rhandy i un arall. Cauir y ffordd yma â dôr, yr hon a wneir yn gyffredin o goed, ac a grogir ar un o ochrau neu ystlysbyst y fynedfa."

Ymddengys hefyd fod cyfieithwyr y Beibl yn gyffredin yn gwneyd y gwahaniaeth a nodwyd rhwng y drws a'r ddôr:—"Yna y daeth Lot atynt hwy allan i'r drws, ac a gauodd y ddôr ar ei ol;" *Gen.* xix. 6. Y mae yn amlwg mai wrth y drws y golygir yma y fynedfa neu yr agorfa i'r tŷ—wrth y ddôr, y cauad ar y drws. Gwelir yr un gwahaniaeth yn *adn.* 10, 11 o'r un bennod. Hefyd yn 1 *Bren.* vi. 31, 32, 33; *Ezec.* xli. 24. Cedwir at y syniad yma yn y Beibl, yn ddieithriad, hyd yr ydym yn cofio, gyda golwg ar ddôr; megys *Exod.* xxi. 6; *Deut.* xv. 17; 1 *Bren.* vi. 34; vii. 50; *Mal.* i. 10.

Yr oedd dorau cestyll a dinasoedd yn rhanau o amddiffynfeydd yr hynafiaid; ac am hyny yr oedd defnyddiau parhaol yn angenrheidiol i'w gwneuthur; felly, crybwylla y Beibl am "ddorau pres," megys yn *Esa.* xlv. 2. Yr un peth a olygir wrth y pyrth pres a haiarn a grybwyllir yn *Salm* cvii. 16, ac *Act.* xii. 10. Mae yn dra thebyg mai wedi eu gwisgo â phres a haiarn yr oedd y rhai hyn, fel y dywed Faber [*Archæol.*, td. 297]; ac y mae yn debyg mai yn yr ystyr yma y mae i ni ddeall am y can porth pres a briodolir i'r hen Fabilon. Dysgrifia Thevenot ddorau chwe phorth Ierusalem fel rhai wedi eu gwisgo â haiarn. Sonir am ddorau ereill wedi eu gwisgo â haiarn gan deithwyr, megys dorau pyrth Algiers [*Pitt's Letter*, viii. td. 10], a dorau tyrau, y peth a elwir pont haiarn yn Antiochia [*Pococke*, cyf. ii. 172]. Mae prif ddorau y deml fawr Dyrcaidd yn Damascus wedi eu gwisgo â phres [*Maundrell*, td. 126]. Sonir hefyd am ddorau haiarn gan Hesiod, Virgil, ac Ovid.

Dywed y *Penny Cycl.* nad oes genym esampl o ffurf a gwneuthuriad y dorau Groegaidd; ond yr ymddengys fod y rhai Rhufeinig yn cael eu gwneyd ar yr un cynllun. Creda yr ysgrifenydd hwnw nad ydyw dôr bres y Pantheon yn Rhufain yn gwbl ar ffurf hynafol; ond fod dôr bres teml Romulus yn Rhufain yn wir hynafol.

Sonir yn Esaiah am "byrth o feini dysglaer" (liv. 12), ac yn Dadguddiad am "byrth perl" (xxi. 21); yr hyn y tybiwyd yn gywir, meddai Kitto, a gyfeiria at ddorau wedi eu tori allan o un lech, y rhai a ganfyddir yn achlysurol mewn hen wledydd. Yr oedd dorau y mynedfeydd i wahanol ystafelloedd, y pethau a elwid "Beddrodau y Breninoedd," yn agos i Ierusalem, wedi eu ffurfio o un maen saith modfedd o drwch, wedi ei gerflo ar lun pedwar panel: yr oedd cerfiadau y colofnau rhwng y panelau, a rhanau ereill, wedi eu tori yn dra chelfydd, yn hollol gyfateb i ddorau a wneir gan seiri yn y dyddiau hyn—y cwbl wedi eu llyfnhau a'u caboli yn dda, ac oll mewn cyfartaledd cywir. Yr oedd y dorau hyn yn troi ar golynau wedi eu naddu o'r un gareg a'r dorau eu hunain, y rhai a roddid mewn morteisiau cyfatebol i fyny ac i lawr. Byddai y tyno isaf, yn wastad, yn bur fyr o angenrheidswydd. Dyma y dull y crogir dorau coed trymion yn awr yn y dwyrain. Yr oedd un o'r dorau hyn yn grogedig yn amser Maundrell, ac "ni chyffyrddai yn nghapan y drws o dair modfedd, o leiaf." Ond dywed Monconys, Thevenot, Pococke, ac ereill, fod yr holl ddorau hyn yn awr wedi eu bwrw i lawr, a'u tori. Dysgrifir dorau cyffelyb gan Dr. Clarke, yn y beddrodau nodedig a gloddiwyd i fyny yn Telmessus, ar oror ddwyreiniol Asia Leiaf; a sylwyd ar ereill cyffelyb gan Irby a Mangles, yn y beddrodau ger llaw Bysan (Bethshan). Y mae dorau meini i'r tai yn yr Haouran, y tu hwnt i'r Iorddonen; a gellir gweled cynddorau (*street doors*) y prif dai, yn fynych, yn Persia, wedi eu gwneyd o un llechfaen. Y mae y ddôr allanol yn yr hen feddrod a ganfyddwyd yn ddiweddar, yn ol dysgrifiad y Dr. Wilde, wedi ei wneyd o un lech, ac yn symmud ar golynau sythion yn rhedeg i forteisiau wedi eu tori yn nhop y pilerau, ar lun crogfach (*swinging hinge*).

Y mae lle i feddwl mai coed oedd drysau (dorau) pyrth Gazah: *Barn.* xvi. 3. Yr oedd y dorau hyn yn gyffredin yn ddau ddarn; yn y rhai, yn ol dysgrifiad Faber, yr oedd dorau llai, neu wicedau, yn gyffredin, i fyned drwyddynt pan fyddai y prif ddorau yn gauad, yr hyn a gymhwysa efe i egluro *Mat.* vii. 13.

Amddiffynid dorau pyrth dinasoedd yn gyffredin gan ryw fath o waith neu furiau, rhag ymgyrch gelynion: *Ier.* xxxix. 4. Byddai dwy ddôr yn cael eu gosod weithiau ar yr un porth, un o'r tu cefn i'r llall, un [allanol a mewnol; neu byddai tyrau ar y ddwy ochr: 2 *Sam.* xviii. 24, 33. Yr oedd dorau yr hynafiaid yn cael eu cadarnhau yn gyffredin â barau cryfion a chloiau pres neu haiarn: *Deut.* iii. 5; 1 *Sam.* xxiii. 7; 1 *Bren.* iv. 13; 2 *Cron.* viii. 5; *Ier.* xiv. 2; xlix. 31; *Salm* cxlvii. 13. Gwneid hyn, y mae yn debyg, er mwyn diogelwch y trefydd, ac i ragflaenu ymosodiadau gelynol. Pren oedd agoriadau dorau pyrth yn gyffredin, cystal a dorau ereill; a dywed Thevenot y gellid eu hagor hyd yn oed â'r bys trwy ei roddi yn nhwll y clo; a chymmer Harmer hyny i egluro yr ymadrodd yn Nghaniad Solomon (v. 4).

Yr oedd dorau pyrth dinasoedd i'w cadw yn agored neu gauad, yn ol yr amgylchiadau. Yn amser rhyfel yr oeddynt yn cael eu cau rhag ymosodiad y gelyn (*Ios.* ii. 5); ond agorid hwy pan orchfygid y gelyn. Teflid hwy yn llydan agored ar y gwyliau—at yr hyn y cyfeirir yn *Salm* xxiv. 7. Yr oedd y dorau hyn yn cael eu hagor a'u cau drwy offerynoliaeth yr agoriadau.

Yr ydym yn darllen fod rhai rhanau o'r gyfraith yn cael eu hysgrifenu ar ddorau pyrth dinasoedd cystal ag ar ddorau tai (*Deut.* vi. 9; xi. 20); ac os ydyw hyn i'w ddeall yn llythyrenol, derbynia eglurhad oddi wrth arfer y Moslemiaid yn rhoddi ymadroddion o'r Coran ar eu dorau cyhoeddus a chyffredin. Yr oedd y Rhufeiniaid yn cerflo amryw luniau ac arysgrifau celfyddydol ar ddorau eu pyrth; fel y dengys Virgil [*Georg.*, iii. 26, &c.].

Yr oedd dorau yn cael eu hystaenio yn fynych yn mysg yr Aiphtiaid, i ddynwared coed tramor. Yr oedd y dorau hyn weithiau yn un darn, ac weithiau yn ddau ddarn, yn troi ar golynau o fetel; a sicrheid hwy oddi mewn gan farau a bolltau. Darganfyddwyd rhai o'r colynau pres yn meddrodau Thebes. Sicrheid hwy wrth y coed â hoelion o'r un defnydd. Mae y capanau meini a'r llawr o'r tu ol i drothwy y beddrodau a'r temlau yn dangos y tyllau fyth lle yr oedd y

Digitized by Google

colvnau yn troi, cystal a thyllau y barau a'r bolltau, a'r gilfan a dderbyniai ddau ddarn y ddor pan yn agored. Yr oedd bolltau i'r dorau plygedig yn y canol, ac weithiau yn y top a'r gwaelod hefyd; ac yr oedd bar yn cael ei osod ar draws o'r naill bared i'r llall; a sicrheid hwy yn fynych gan glo pren ar draws y canol, yn nghyssylltiad darnau y ddor. "Y mae yn anhawdd dywedyd," meddai Syr J. G. Wilkinson, "pa un a agorid y rhai hyn âg agoriad, ai eu llithro y byddid, yn ol ac yn mlaen, fel bollt; ond os oeddynt yn wir gloiau, mae yn debyg eu bod ar yr un egwyddor a'r rhai a ddefnyddir yn awr yn yr Aipht; y rhai sydd o goed, yn cael eu hagor âg agoriad yn cynnwys amryw binau a syrthiant i dafod ceuog symmudol, yn yr hwn y rhoddir yr agoriad wrth gau neu agor y clo." Er mwyn chwaneg o ddiogelwch, sêlir hwy hefyd weithiau â phentwr o glai. Yr oedd hyn hefyd yn arferedig gan yr hen Aiphtiaid, fel yr ymddengys oddi wrth Herodotus [ii. 121], mewn beddrodau oedd wedi eu cau a'u sêlio fel hyn yn Thebes; ac oddi wrth gerfiadau o'r cyfryw ddorau cauedig a seliedig. Y mae cyfeiriad at yr arferiad yma yn Iob. [Gwel Clai.] Mewn amser diweddarach, pan y daeth haiarn i arferiad cyffredin, gwneid yr agoriadau o'r metel hwnw. Mae yn debyg mai o'r math yma yr oedd y clo a'r agoriad a ddiogelai ystafell haf y brenin Eglon: *Barn.* iii. 23, 25. Yn yr amgylchiad yma, clodd Ehwd y ddor, a chymmerodd yr agoriad ymaith; ond pan ddaeth braw ar weision y brenin, agorasant y clo yn rhwydd âg agoriad arall; yr hyn a awgryma nad oedd y clo ddim ond cyffelyb i gloiau henafol yr Aipht, neu rai diweddar y dwyrain; sef bollt pren o wneuthuriad neillduol, at yr hwn y defnyddid agoriad pren neu fetel i'w godi a'i daflu yn ol. Mae rhai esamplau o ddorau henafol yr Aipht i'w gweled yn yr Amgueddfa Brydeinig; ac y maent o ffurfiad cywrain a destlus. Addurnid y rhan uchaf o'r ddôr yn gyffredin â choron (*cornice*) gerfiedig gywrain; yn enwedig dorau dyblyg—y tai fel y temlau. Anfynych y mae dorau yn cael eu paentio trwy holl orllewin Asia a'r Aipht. Nid peth anghyffredin ydyw gweled lleni yn cael eu defnyddio o'r tu mewn i dai yn y dwyrain, yn lle dorau, yn enwedig yn yr haf. Y mae hyn yn help i gadw y gwahanol ystafelloedd yn oerion, heb law y gall gweinidogion ddyfod i mewn a myned allan yn ddidrwst. Cafodd yr arfer yma ei dechreuad oddi wrth waith y dwyreinwyr yn defnyddio pebyll. Yn ol hyn, canfyddwn mai lleni a ddefnyddid yn lle dorau ar holl agorfeydd a mynedfaoedd y tabernacl, er mai coed oedd y cylchwaith (*Exod.* xxvi. 31—33, 36, 37); a hyd yn oed yn y deml, "gwahanlen" a ddefnyddid yn lle dôr "rhwng y cyssegr a'r cyssegr sancteiddiolaf."

Defnyddir y gair *dôr* mewn rhai manau o'r Beibl yn ffugrol; megys yn *Iob* xxxviii. 8; "A phwy a gauodd y môr â dorau, pan ruthrodd efe allan megys pe deuai allan o'r groth?" Ymddengys y defnyddir y gair dorau yma yn ffugrol, i arwyddo y terfynau a osododd yr Hollalluog i'r môr, pan yn dwyn y greadigaeth i drefn, ac y dywedodd, "Casgler y dyfroedd oddi tan y nefoedd i'r un lle, ac ymddangosed y sychdir." Mae cyfieithiad newydd Barnes o'r ddegfed adnod yn cadarnhau y golygiad yma yn nodedig: "Mi a fesurais allan iddo (y môr) fy nherfynau, ac a osodais ei farau a'i ddorau." Dywed Barnes fod yr adnod dan sylw (yr 8fed) yn cyfeirio at y weithred o greu, pan osododd Duw derfynau i'r môr terfysglyd; ac y defnyddir y gair "dorau" i arwyddo y fath ddorau ag a wneir i gau i fyny ddwfr mewn argae. Dywed y cyfeiria y gair Hebraeg, yn briodol, yn ei ffurf dyblyg, fel y defnyddir ef yma, at ddorau dyblyg, neu ddorau plygedig; a chymhwysir ef at ddorau dinas: *Deut.* iii. 5; 1 *Sam.* xxiii. 7; *Esa.* xlv. 1. Y meddwl yw, ebe fe, fod y llifddyfroedd yn rhuthro allan o'r dyfnder mawr, neu o galon y ddaiar, ac yn cael eu rhwystro trwy osod dorau i'w hattal. Pa un ai fel darluniad prydyddol y bwriedid hyn, ai fel gwir ddarluniad o'r hyn a gymmerodd le, nid hawdd yw penderfynu. Nid oes dim yn erbyn y meddylddrych nas gallai rhywbeth tebyg i hyn gymmeryd lle pan oedd y dyfroedd oedd yn y ddaiar yn ymdywallt allan, a phan y rhwystrid hwy gan attalfeydd o osodiad Duw, megys pe gwnaethai ddorau trwy y rhai nis gallent fyned ond pan agorai efe hwynt. Cydsafai y syniad yma yn dda â'r hanes sydd am y dylif yn *Gen.* vii. 11, lle y dywedir "y rhwygwyd holl ffynnonau y dyfnder mawr," megys pe buasai y llifddorau wedi eu hagoryd, neu yr attalfeydd a osodasai Duw wedi eu tori, a'r dyfroedd yn ymruthro o honynt gan orlifo y byd.

Yn *Iob* xli. 14, defnyddir y gair *dorau* i arwyddo safn yr anifail a ddysgrifir yno: "Pwy a egyr ddorau ei wyneb ef? ofnadwy yw amgylchoedd ei ddannedd ef." Defnyddir yr un gair fyth, yn achlysurol, i ddynodi safn, oddi wrth ei thebygrwydd i ddorau, meddai Barnes. Fe allai fod safn y crocodil yn ateb yn well i'r darluniad na safn un creadur adnabyddus arall, nid yn unig o ran mawredd ei hagoriad, ond hefyd o blegid ei bod wedi ei harfogi â'r fath gyfresi erchyll o ddannedd. Gwel Dews; Porth.—(*Faber's Arch.; Rosin. Antiq. Rom.; Thevenot's Voyage; Herod., Hist.; Gräv's Thesaur. Antiq. Rom.; Kitto's Cycl. Bib. Literature; Penny Cyc.; Donaldson on Doors,* &c.)

DORCAS, (Gr., *Δορκας*; Syr., טביתה = *Tabitha, gafrewig*; Seis., *antelope*]. Enw gwraig Gristionogol a breswyliai yn Ioppa; ymddygiad caredig a haelionus yr hon, yn enwedig ei gwaith yn cyfranu gwisgoedd i'r tlodion, oedd wedi ei gwneuthur mor anwyl yn yr eglwys yn y lle hwnw, fel, pan fu farw, y danfonodd y dysgyblion at Pedr, oedd chwe milltir oddi yno—yn Lyda—i ddeisyf arno ddyfod atynt hwy i Ioppa. Ni ddywedir pa ham y danfonasant am dano. Fe allai mai er mwyn iddo fod yn bresennol i'w cysuro a'u dyddanu yn eu trallod. Y mae yn annhebyg eu bod yn dysgwyl iddo ei chyfodi oddi wrth y meirw, gan nad oedd yr apostolion eto wedi cyflawnu un wyrth o'r fath, hyd yn oed adferu Stephan i fywyd. Ond, wedi i'r apostol yru pawb allan o ystafell y marw, am na chwennychai ymddangos, fe allai, yn wagymhongar, neu fel y gallai weddïo yn ddyfalach nag y gallai yn ngŵydd neb ond ei Dduw—ar ol gweddi daer, efe a droes at y corff gan erchi iddo gyfodi; yna, "Tabitha a agorodd ei llygaid; a phan welodd hi Pedr, hi a gododd yn ei heistedd." Yr oedd y wyrth fawr hon, nid yn unig yn weithred o gymmwynasgarwch, ond hefyd yn tueddu i roddi awdurdod i addysg yr apostolion, ac i ddwyn sylw at yr athrawiaethau a bregethent; ac y mae yn amlwg i'r canlyniadau dymunol hyn ddilyn y wyrth; megys ag y dywedir yn benodol—"A hysbys fu trwy holl Ioppa; a llawer a gredasant yn yr Arglwydd;" *Act.* ix. 36—42.

Digitized by Google

DORCAS, CYMDEITHAS. Cymdeithas yw hon a sefydlwyd gan foneddigesau, yn benaf, er dilladu tlodion ac amddifaid; ac a alwyd ar yr enw hwn oddi wrth y Dorcas a gyfododd Pedr o feirw, a nodwyd yn yr erthygl uchod.

DORT, CYMMANFA. Galwyd y gymmanfa nodedig hon yn nghyd trwy awdurdod taleithiau cyffredinol Holland; ac nid dirprwywyr o'r eglwysi Belgiaidd yn unig oedd i fod yno, ond gwnaed appeliad difrifol at holl eglwysi diwygiedig Ewrop i anfon duwinyddion duwiol a dysgedig yno, a rhai yn caru tangnefedd, er cynnorthwyo i adferu trefn ac undeb i eglwysi cynhyrfus Holland. Yr achos o'r anghydfyddiaethau a'r cynhyrfiadau hyn, meddai y Dr. Alexander, oedd lledaeniad yr opiniynau newyddion a gyhoeddwyd gan James Arminius, a'i ddilynwyr. Yr oedd gwahanol bleidiau eglwysyddol, cenedlaethol, a gwladyddol yr Iseldiroedd, o gylch dechreu yr ail ganrif ar bymtheg, wedi ymffurfio yn ddwy blaid—yr Arminiaid a'r Gwrth-Arminiaid. Yr oeddynt wedi trefnu eu gwrthwynebiad yn y fath fodd, fel yr ydoedd y Gwrth-Arminiaid yn cynnrychioli Calviniaeth ragarfaethol a phenderfynol, a'r cynllun o hunanlywodraeth a gallu eglwysyddol; tra yr oedd yr Arminiaid yn cynnrychioli y cynllun o eglwys genedlaethol, heb gydnabod unrhyw gredo ond a osodai allan athrawiaethau mewn symledd Ysgrythyrol, neu rai yn ymddibynu yn uniongyrchol ar brofiad ac ymarferiad crefyddol.

Yr oedd amryw ymdrechiadau am fwy na deng mlynedd wedi cael eu gwneyd i gymmodi y pleidiau ymrysongar, ac i adferu heddwch i'r eglwysi adfydus, ond y cwbl yn ofer. Y rhai a safent yn arweinwyr y blaid Arminaidd oedd Simon Episcopius, John V. Oldenbarneveld, a'r seneddwr dysgedig, Hugo Grotius (neu De Groot)—ynad Rotterdam. Y penaf o'r blaid arall oedd y tywysog Moritz, o Orange. Yr oedd yr ymrafael wladyddol rhwng y pleidiau wedi dechreu pan lwyddodd Oldenbarneveld a Grotius, yn 1609, i gael deuddeng mlynedd o gadoediad â'r Yspaen, yn erbyn ewyllys Moritz. Cyfodwyd gwaedd yn ebrwydd fod y wlad wedi ei bradychu, a chyhuddwyd yr Arminiaid o fod wedi dwyn y cadoediad oddi amgylch. Taenwyd y syniad yn fuan trwy y gwahanol daleithiau, fod yn angenrheidiol darostwng yr Arminiaid, oedd mor beryglus i'r llywodraeth, trwy weithred seneddol y cynghrair; ac er mwyn hyny, fod yn angenrheidiol galw cymmanfa genedlaethol. Yr oedd gan y ddwy blaid gynnulliadau bygythiol yn mhob tref braidd trwy yr holl wlad, yn y rhai y byddai cynhwrf gwyllt; a gwelwyd fod diogelwch y llywodraeth yn gofyn am derfyniad buan ar yr ymryson. Ond gwrthwynebodd Holland, Utrecht, ac Overissel, lle yr oedd yr Arminiaid gryfaf, ddymuniadau y blaid Orangeaidd mor benderfynol fel nas gallai llywodraeth gyffredinol y taleithiau gael cymmanfa genedlaethol ond trwy gymmeryd Oldenbarneveld, Grotius, a Hogerbeets, i fyny. O'r diwedd, Tachwedd 11eg, 1617, penderfynwyd ar gael cymmanfa i drefnu yr anghydfyddiacthau oedd yn cynhyrfu eglwysi yr Iseldiroedd; ac o dan nawdd y tywysog Moritz, dygwyd llythyrau cymmanfaol allan, a dewiswyd pwyllgor wedi eu hethol o bob plaid, meddai y Dr. Alexander, i ragdrefnu yr amser, y lle, &c. Nid cymmanfa gyffredinol ddiwygiadol oedd hon i fod, neu gynghor o holl eglwysi diwygiadol y wlad, ond cymmanfa genedlaethol; hyny yw, cynnulliad o'r holl rai a gynnrychiolent eglwys yr Iseldiroedd; ac nid oedd ei chynnrychiolaeth o'r eglwys ddiwygiadol ond damwain yn unig. Nid oedd llywodraeth gyffredinol y taleithiau yn golygu cael gweithred trwy gyfrwng y gymmanfa hon, a sefydlai ac a reoleiddiai undeb a chyssylltiad eglwysi diwygiedig yr Iseldiroedd. Am hyny gwahoddwyd holl eglwysi diwygiedig yr Almaen (oddi gerth Anhalt, yr hon nid ystyrid yn ddigon uniongred), Switzerland, Scotland, a Lloegr, i fod yn y gymmanfa; fel trwy eu cydgynghor y gellid adferu heddwch. Ni ddanfonodd amryw o'r eglwysi tramor genadon: nid oedd yr un yn bresennol o Brandenburg na Ffrainc: gwaharddodd Louis XIII. i glerigwyr Ffrainc fod yn bresennol. Er hyny, yr oedd Cymmanfa Dort yn un o'r cymmanfaoedd diwygiadol mwyaf a gynnaliwyd erioed. Yr oedd yno wyth ar ugain o dduwinyddion neu gynnrychiolwyr ereill o'r Deyrniarllaeth, a Hesse, Switzerland, Nassau, Dwyrain Friesland, Bremen, Lloegr, a Scotland. Yr oedd llawer mwy o'r Iseldiroedd, wrth gwrs; sef, pump o broffeswriaid, un ar bymtheg ar ugain o glerigwyr, ac ugain o henuriaid.

Agorwyd y gymmanfa Tachwedd 13eg (3ydd?), 1618, am wyth o'r gloch y bore, trwy gynnal addoliad cyhoeddus yn eglwys fawr Dort. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi, a phregethodd y bugail Lydius. Yn yr ail eisteddiad, etholwyd John Bogermann, gweinidog Leuwarden, yn llywydd. Dewiswyd dau glerigwr arall fel cynghorwyr iddo, a dau arall yn ysgrifenwyr iddo. Yn y trydydd eisteddiad, cyflwynodd y dirprwywyr eu tystlythyrau; ac yn y pedwerydd, penderfynwyd ar i Episcopius o Leyden, a deuddeg o Arminiaid ereill o wahanol barthau y wlad, gael eu gwahodd i adrodd ac amddiffyn eu golygiadau o flaen y gymmanfa, yn nghorff pedwar diwrnod ar ddeg ar ol y gwyslythyr; ac yn y cyfamser, dymunwyd ar dduwinyddion y gymmanfa ymbarotoi i wrthwynebu y cyfeiliornadau Arminaidd. Yn y pummed eisteddiad, penderfynwyd ar ffurf y gwyslythyr; ac yn ystod yr ail eisteddiad ar bymtheg canlynol, ymdrinwyd âg amryfal bynciau. Penderfynwyd cael cyfieithiad Hollandaidd newydd o'r Beibl, ac appwyntiwyd pwyllgor i'r pwrpas. Trefnwyd rheolau ar holwyddoriad cysson, a phregethau ar yr holwyddoreg; a rhoddwyd cyfarwyddiadau i genadon Holland yn yr India Ddwyreiniol, yn enwedig gyda golwg ar fedydd plant rhieni paganaidd; ac ymdrinwyd â rheolau er cyfyngu ar ryddid y wasg.

O'r diwedd, yn yr ail eisteddiad ar ugain, ymddangosodd Episcopius a'r lleill a wysiwyd. Cyflwynodd Episcopius amddiffyniad ysgrifenedig helaeth o'i athrawiaeth i'r duwinyddion tramor, ac amddiffynodd hi mor rydd a phenderfynol, fel y darfu i'r gymmanfa, yr hon nad oedd yn gweled dim yn yr ymddygiad yma ond hyfder heretic, ei adgofio y byddai yn weddus i un a wysiwyd fel troseddwr ddangos mwy o gymmedrolдeb. Tramgwyddwyd yn nodedig wrtho am iddo yn hyf alw y gymmanfa yn "gymdeithasfa sismaticaidd." Cymhellwyd yr Arminiaid hefyd i gyflwyno eglurhad cyflawnach ar eu pum pwnc. Fel hyn y dechreuodd ymchwiliad a barhaodd trwy lawer eisteddiad, ac a derfynodd yn niarddeliad yr Arminiaid o'r gymmanfa, fel rhai wedi eu profi yn gelwyddwyr a thwyllwyr, yn yr ail eisteddiad ar bymtheg a deugain, Ionawr 14eg, 1619. Gyda golwg

Digitized by Google

ar hyn, dywed y Dr. Alexander y cwynai yr Arminiaid yn groch ddarfod iddynt gael eu trin yn anghyflawn. Yr oeddynt yn hòni cyn y gymmanfa y dylasai yr Arminiaid a'r Gwrth-Arminiaid gael eu gosod ar yr un tir; ac ymddengys, yn ddiau, mai hyny a fuasai deg a chyflawn: ond yr oedd y gymmanfa wedi penderfynu agos yn unfryd, mai i egluro ac amddiffyn eu hopiniynau penodol yr ydoedd yr Arminiaid i ymddangos o'i blaen, gyda golwg ar y pethau yr oeddynt wedi gwyro oddi wrth gynlluniau yr Eglwys Belgiaidd, ac oddi wrth athrawiaethau yr eglwysi diwygiedig. Ond bu yr holl ymdrechion er dwyn yr Arminiaid i sefyll ar y tir yma yn ofer; ac yn ganlynol, ymadawsant yn un corff o'r gymmanfa, ac ni ddychwelasant yno mwy. Yna penderfynodd y gymmanfa fyned yn mlaen i archwilio y *Pum Pwnc*, a gyhoeddasid gan yr Arminiaid mewn papuryn a elwid *Gwrthfynegiad*, oddi wrth yr hwn y cymmerasant hwythau yr enw Gwrthfynegiaid (*Remonstrants*). Fe gymmerwyd y pynciau hyn dan ystyriaeth o un i un, a dymunwyd ar i'r duwinyddion tramor draddodi eu barn yn gyntaf, yr hyn a wnaethant mewn ysgrifen. Y mae y papyrau hyn a ddarllenwyd o flaen y gymmanfa, ebai Alexander, yn gorff ffrwythlawn o dduwinyddiaeth iachus, ac y maent oll wedi eu cadw yn nyddiadur neu gofnodlyfr y gymmanfa; ac y mae y cyfan wedi ei gyhoeddi. Ar ol i'r duwinyddion tramor fynegu eu syniadau, traddododd cynnrychiolwyr yr Eglwys Belgiaidd eu dedfryd yn olynol ar y *Pum Pwnc*. Y mae y dadleuon a gymmerasant le ar y pryd yn dangos llai o gytundeb yn mysg y duwinyddion uniongred yn eu golygiadau penodol eu hunain, meddai Herzog, nag yn eu gwrthwynebiad i'r Arminiaid. Achlysurodd yr holiad, Ai Crist ydyw sylfaen etholedigaeth (*Eph.* i. 4)? ddadleuon tanbaid: yr oedd aelodau yr eglwys ddiwygiedig Almaenaidd a Seisonig dros y golygiad yna, tra yr oedd ereill yn ei wadu, gan hòni rhagarfaethiad pendant: felly, pan appwyntiwyd amryw ddirprwywyr, yn y trydydd eisteddiad ar ddeg a thrigain, i dynu allan gasgliadau cyffredinol, canfuant fod bron yn anmhosibl cyssoni yr amryw olygiadau ar etholedigaeth, fel ag i ffurfio un reol. Pa fodd bynag, mabwysiadwyd a llawnodwyd canonau y gymmanfa, yn y pymthegfed eisteddiad ar ugain wedi y canfed, heb gymmeradwyo ucharfaethiad, ond yn mawrygu rhagarfaethiad yn bendant.

Gan adael heibio amryw bynciau neillduol, daeth y gymmanfa yn awr i benderfynu cospau yr Arminiaid cyhuddedig. Yma eto cyfryngwyd gan yr Hessiaid a'r Seison, a dadganasant na chydsynient hwy â chospau personol. Cymmeradwyodd yr holl aelodau ereill y cerydd a gynnygiwyd gan y llywydd; sef, fod yr Arminiaid, fel cynhyrfwyr yr eglwys a chablwyr, i gael eu cau allan o bob swydd eglwysig; a bod yr holl gymmanfaoedd, dosbarthau, a henadurfeydd taleithiol, i roddi y ddedfryd yma mewn grym. Yna mynegwyd yn unfrydol fod yr *Holwyddoreg Heidelbergaidd* a'r *Gyffes Belgiaidd* yn uniongred, ac yn gwbl gysson â gair Duw. Yn ystod y pedwerydd eisteddiad a deugain ar ol y canfed, aeth y gymmanfa i'r Eglwys Fawr, lle y darllenwyd y canonau perthynol i'r *Pum Pwnc*, a'r cerydd yn erbyn yr Arminiaid, yn Lladin, ger bron cynnulleidfa ddirfawr. Terfynodd y gymmanfa hirfaith hon gyda'r pedwerydd eisteddiad ar ddeg a deugain ar ol y canfed, Mai 9fed (Ebrill 29ain?), ar ol yr hon gymmanfa y rhoddodd ynadon Dort wledd ardderchog i'r dirprwywyr, a'u cyfeillion.

Pa olygiad bynag a gymmerir ar y mater, canfyddir fod canonau Dort yn meddu yr un arwyddocâd yn eu perthynas â'r eglwys ddiwygiedig Galvinaidd, ag a feddai ffurf y cytundeb âg Eglwys Brotestanaidd yr Almaen. Yn y naill amgylchiad fel y llall, cefnwyd ar undeb cydoddefol; gwnaeth y gymmanfa hyn trwy fabwysiadu penderfyniaeth eithafol a rhagarfaethiad. Yna darfu i dduwinyddion diwygiedig yr Almaen, yn enwedig rhai Bremen a Hesse, nid yn unig ddadgan eu hymwrthodiad âg athrawiaeth etholedigaeth Dort, ond gwrthwynebu awdurdod y gymmanfa ar ol hyny. Ond ni ddylid edrych ar Arminiaeth yn yr eglwys Galvinaidd fel yr un peth a Melanchthoniaeth; yr hon oedd yn eglurhad cywir a chyflawn ar Awstiniaeth (1540), a'i hamrywiadau hefyd (1551); tra nad oedd Arminiaeth ond amlygiad gŵyrgam o'r ffydd ddiwygiedig, fel y gosodir hi allan yn yr ail Gyffes Helvetiaidd; a dirywiodd yn fuan i Hanner Morganiaeth a chyfeiliornadau gwrth-eglwysig ereill. Nis gellir dangos fod y gymmanfa wedi gwir ragweled, nac o ganlyniad wedi condemnio yr holl bethau a ystyrid yn gyfeiliornadau mewn Arminiaeth. Yna, rhaid ystyried mabwysiad y canonau hyny fel y weithred trwy yr hon yr ymwrthododd Eglwys Holland âg undeb efengylaidd y Gyffes Helvetiaidd, ac y cofleidiodd ei rhagarfaethiad uchel a gerwin; canys nid ydynt yn cynnwys darluniad eglur ac awchlym *Calvin's Institutes*, na Chyffes Geneva o ragarfaethiad y cwymp, &c.; ond er fod yr holl ffurfreolau yn seinio yn debyg i hyny, nid dyna ydyw eu hystyr, gan nad ydynt yn meiddio dadgan meddyliau dyfnaf cyfundrefn Calvin. Yr oedd cydnabyddiaeth y gymmanfa o Holwyddoreg Heidelberg, fel credo yr holl eglwys ddiwygiedig, yn weithred ddymunol yn ngolwg y diwygwyr yn gyffredinol. Yr oedd hyn yn ffurfio rhwymyn ceidwadol yn nghanol y sefyllfa unochrog a gymmerodd y gymmanfa gyda golwg ar bethau ereill. Cyhoeddwyd gweithrediadau y gymmanfa yn swyddogol yn Dort, a hefyd gan yr Arminiaid yn Harderwick. yn 1620.

Darlunir ymddygiad y gymmanfa fawr hon yn wahanol gan wahanol ysgrifenwyr, yn ol fel y bydd eu tueddiadau hwy at y naill ochr neu y llall gyda golwg ar y ddadl. Dywed yr esgob Hall, fod y gymdeithas a fwynhaodd ef yno yn debycach i nefoedd ar y ddaiar na dim arall y bu efe yn dyst o hono; a dywed yr esgob Davenant ei bod yn cael ei hynodi gan drefn, urddas, a sel dros y gwirionedd efengylaidd; ond llefai y Dr. Martinius, o Bremen, yn mhen hir amser ar ol y gymmanfa, "O! Dort, Dort! gwyn fyd na buaswn erioed heb dy weled di!"—(*The Acts of the Synod of Dort; Scott's Hist. Syn. of Dort; Alexander's Syn. of Dort; Halesii, Hist. Cons. Dord.; Heppe, Hist. Syn. Nation. Dord.; Herzog's Real Encycl.*, &c.)

DOSITHEAID, [*Dositheans*]: hen blaid grefyddol yn mysg y Samariaid, yn y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol. Gelwid hwynt wrth yr enw hwn oddi wrth Dositheus, yr hwn a ymdrechai ddarbwyllo y Samariaid mai efe oedd y Messiah ag oedd wedi ei raghysbysu gan Moses. Yr oedd ganddo lawer o ddilynwyr, ac yr oedd ei blaid mewn bod yn Alexandria yn amser y

Digitized by Google

patriarch Eulogius, fel yr ymddengys oddi wrth benderfyniad o eiddo y patriarch hwnw a gyhoeddwyd gan Photius. Yn y penderfyniad hwnw, cyhuddir Dositheus gan Eulogius o ymddwyn yn anghyfiawn tuag at yr hen batriarchiaid a'r prophwydi, ac o briodoli iddo ei hun ysbryd prophwydoliaeth. Gwna ef yn gydoeswr â Simon Magus; a chyhuddir ef o lygru Pum Llyfr Moses, ac o gyfansoddi amryw lyfrau hollol wrthwynebol i ddeddf Duw.—(*Buck's Theol. Dict.*)

DOSBARTHIAD LLYFRAU Y BEIBL. Gwel Llyfrau y Beibl.

DOTHAN, [דתין a דתן; Deg a Thrigain, *Δωθαείμ* a *Δωθαΐμ*]: neu Dothaim, lle y cafodd Ioseph ei frodyr, y rhai a wibiasent yno gyda'u praidd o Sichem, a lle y gwerthwyd ef ganddynt yn fradwrus i'r Ismaeliaid: *Gen.* xxxvii. 17. Tybir fod Dothan, gan Eusebius a Jerome, ddeuddeng milltir Rufeinig i'r gogledd o Sebaste neu Samaria; ac y mae yn amlwg ei bod ar ffordd teithwyr o Syria i'r Aipht. Pa fodd bynag, y mae traddodiad yn gosod y ffynnon i'r hon y bwriwyd Ioseph gan ei frodyr—ac o ganlyniad, sefyllfa Dothan—mewn lle tra phellenig, sef yn nghylch tair milltir i'r gogledd-ddwyrain o Safed, lle y mae gwestty (*khan*) a elwir Khan Jubb Yusef (=Gwestty Ffynnon Iacob), am fod y ffynnon gyssylltiedig âg ef wedi cael ei chyfrif er's hir amser, gan Gristionogion a Mahometiaid, fel y ffynnon hono. Cafwyd allan er's talm mai yr un ydyw Bethulia, Iudith, a Safed; a chan y crybwyllir fod Dothan (Dothaim) yn y gymmydogaeth, rhaid fod Dothan yn yr un llanerch. Ond y mae yn amlwg oddi wrth y crybwylliadau yn *Iudith* iv. 6, a vii. 1, 2, fod Bethulia i'r de, ac nid i'r gogledd o Ddyffryn Esdraelon; ac o ganlyniad, yr ydym at ein rhyddid i chwilio am sefyllfa Dothan hefyd mewn rhyw gyfeiriad mwy cydweddol âg awgrymiad Eusebius, ac â'r tebygolrwydd sydd yn yr hanes, na'r lle yn yr hwn y mae yr hyn a elwir ffynnon Ioseph.

DRACHMA, [Gr., *δραχμή*]: bathodyn arian, y mwyaf cyffredin yn mysg y Groegiaid, a'r hwn a ddaeth i arferiad yn mysg yr Iuddewon ar ol y caethgludiad: 2 *Mac.* iv. 19; x. 20; xii. 43; *Luc* xv. 8, 9. Pwysai y drachma Atticaidd foreuol 66.5 o ronynau; ac mewn cymhariaeth i'n swllt ni, buasai yn gyfartal i 9¾*c.* Ond ni phwysa yr esamplau diweddar o'r drachma ond 61 o ronynau, a rhai lai na hyny. Cyfrifid drachma o'r pwysau hwn yn gyfartal i geiniog Rufeinig (*denarius*), yr hon oedd ar y cyntaf yn werth 8½*c.* o'n harian ni; ac wedi hyny, disgynodd ei gwerth i 7½*c.* Gan hyny, y mae yn debygol mai gwerth drachma y Testament Newydd oedd tuag 8*c.* Yn ol hyn, yr oedd y "deg dryll o arian" (*drachmau*) y sonir am danynt yn *Luc* xv. 8, yn gyfartal i 6*s.* 8*c.* o'n harian ni —hyny yw, gwerth mewn enw; canys yr oedd gwerth gwirioneddol arian yn llawer uwch yn amser Crist nag ydyw yn bresennol. Cesglir fod drachma Alexandria yn gyfartal i ddwy drachma Groeg oddi wrth y ffaith fod y Deg a Thrigain yn gwneuthur y sicl Iuddewig yn gyfartal i ddwy drachma.—*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*

DRACMONAU. *Ezra* ii. 69. Y lluosog o *drachma*. Gwel d.g.

DRAENOG, [*Erinaceus Europæus*]: *riccio*, yr Italiaid; *erisso*, yr Yspaeniaid; *herisson*, y Ffrancod; *igel*, yr Ellmyn; *ἐχῖνος*, y Groegiaid; a draenog, neu draen y coed, yr hen Gymry gynt. Cyfarfyddir â'r draenog cyffredin yn y rhan fwyaf o hinsoddau tymmerus Ewrop ac Asia. Er ei fod o ymddangosiad brawychus, y mae yn un o'r creaduriaid mwyaf diniwed yn y byd. Rhestrir ef yn nosbarth y trychfilysogion (*insectivora*), a gellir ei ddysgrifio fel y canlyn:—Y mae am dano fath o groen tew wedi ei orchuddio â math o bigau llymion, o gylch modfedd o hyd, yn yr hwn y mae yn medru ymbellenu yn ddiogel wrth ei angen, trwy gyhyrau cryfion a roddwyd iddo i'r perwyl—trwyn blaenfain, cynffon fer, traed pawenog â phum bys ar bob un, pen hirgrwn, llygaid golygus, clustiau byrion a llydain, corff hir a chrwmog, coesau byrion a noethion, ac o liw llwyd-ddu. Ei hyd sydd yn nghylch deng modfedd, a'i liw allanol yn rhudddywyll, yn cael ei fritho ychydig gan flaenau y pigau sydd ar hyd-ddo. Y mae y croen llac a gwydn, a'r pigau ystwythlym sydd ynddo, yn ei ddiogelu yn ei godymau, y rhai sydd yn fynych yn cymmeryd lle, ac yn amddiffynfa gref a sicr iddo rhag y rhan fwyaf o'i elynion. Pan osodir arno gan ryw greadur arall, y mae yn y fan yn torchi ei hun i fyny yn ei amddiffynfa fel pellen gron, ac nid oes i'w elyn wedi hyny ond saethau llymion o'i flaen o bob cyfeiriad; a pha fwyaf yr aflonyddir arno, tynaf oll y mae yntau yn ei ddiogelu ei hun. Yn y cyflwr hwn y mae yn llechu yn dawel nes yr el y perygl heibio; ac mor ddiogel ydyw, nes y mae y gath, y fronwen, a'r ffured, yn nghyd â llawer o greaduriaid ysglyfaethus ereill, yn troi oddi wrtho wedi hollol anobeithio cael goruchafiaeth arno. Y mae hyd yn oed y daiargi a'r cadnaw hefyd yn fynych yn gorfod gwneyd yr un peth. Y mae yn debyg mai dwfr oer ydyw y moddion mwyaf effeithiol bron o ddim i'w dynu allan; nid trwy ei dywallt arno, ond trwy daflu y draenog i bwll neu lyn.

Y mae y draenog, fel yr awgrymwyd eisoes, yn ymborthi ar bryfaid o bob math. Dywedir ei fod gyda hyny yn difa ffrwythau, gwreiddiau planhigion, yn nghyd âg amryw sylweddau llysieuol ereill; ac ymddengys nad oes ganddo un gwrthwynebiad i gyfranogi o wyau, llyffaint, llygod, a nadroedd. Y mae yn gwneyd ei drigfa mewn gwrychoedd a ffosydd, wedi eu gorchuddio â gwrysg a manwellt, yn y rhai y mae yn gwneyd twll o chwech neu wyth moddfedd o ddyfnder, ac yn ei drwsio â mwsogl, glaswellt, a dail. Yn y drigfa hon y mae yn treulio y dydd, a'r nos y mae efe yn myned allan i'w waith ac i'w orchwyl hyd y bore. Un o greaduriaid y nos ydyw. Y mae gauafiad y draenog hefyd yn ffaith sicr. Nid yw fel rhai creaduriaid yn darparu yr haf erbyn y gauaf, ac nid oes arno ofal am hyny, gan ei fod yn treulio yr holl amser hwn mewn cwsg dwfn a thawel, ac yn ei nyth clyd y mae yn ddiogel rhag pob gerwinder oddi wrth y rhew a'r eira. Y mae y fenyw yn dwyn o ddau i bedwar o rai bychain yn gynnar yn yr haf, y rhai ar y pryd sydd yn hollol ddall, a bron yn noeth. Gwelir arnynt, y mae yn wir, ryw eiliw gwan o'r pigau llymion sydd wedi hyny yn dyfod mor gryfion. Fe ddywedir y byddai cig y draenog yn cael ei arfer fel ymborth yn Mhrydain yn y dyddiau gynt, a'i fod yn cael ei arfer felly mewn llawer o fanau ar y Cyfandir yn y dyddiau hyn. Myn rhai ei fod yn fwyd blasus, y fath y gallai un ei chwennych. Gallwn eu sicr-

Digitized by Google

hau fod yn well genym eu coelio am hyn, nag a fyddai genym wneyd y prawf drosom ein hunain.

Y mae M. Lenz a'r proffeswr Buckland yn sicrhau fod pob gwenwyn yn gwbl ddieffaith ar y draenog, yr hwn sydd yn lladd ac yn bwyta nadroedd a gwiberod. Yr oedd gan M. Lenz yn ei dŷ ddraenog fenyw, yn cael ei chadw mewn cell eang, yr hon a ddaeth yn fuan yn gwbl ddof. Er gwneyd prawf, byddai yn aml yn rhoddi gwiber ati yn y gell, yn yr hon yr ymaflai yn y modd mwyaf digyffro, ac ni byddai yn arswydo dim pan fyddai y wiber yn ymddolenu am ei chorff. Ar un achlysur, yr oedd M. Lenz yn sylwi ar ymdrechfa rhwng draenog a gwiber, ac y mae yn rhoddi y dysgrifiad a ganlyn o honi:—Pan ddaeth y draenog yn mlaen i arogli y neidr, ymaflodd ynddi yn ei phen, a daliodd hi yn dŷn rhwng ei ddannedd, ond fel y tybid heb wneyd llawer o niwaid iddi; o blegid pan gafodd y neidr ei gollwng, gwnaeth hithau yn ei thro ymosodiad ffyrnig, gan chwythu a brathu yn y modd creulonaf. Nid oedd y draenog, pa fodd bynag, yn cilio dim nac yn gofalu ond ychydig. O'r diwedd, wedi i'r neidr flino, ymaflodd ynddi eilwaith yn ei phen, yr hwn a faluriodd rhwng ei ddannedd, ac wedi hyny bwytaodd ei holl gorff. Gwnaeth M. Lenz amryw o brofion cyffelyb, yn ngŵydd llawer o bersonau. Byddai y draenog weithiau wedi derbyn wyth neu ddeg o frathiadau ar ei glustiau, ei drwyn, ac hyd yn oed ei dafod, heb ymddangos ei fod wedi derbyn dim o'r niweidiau sydd yn gyffredin yn dilyn brathiad gwenwynig y wiber. Y mae hyn yn gysson â'r hyn a ddywed Pallas, yr hwn sydd yn sicrhau y gall y draenog fwyta cynnifer a chant o gylion yr Yspaen (*cantharides*) heb dderbyn dim niwaid oddi wrthynt. Y mae meddyg Ellmynaidd enwog hefyd, yr hwn a dalodd lawer o sylw i'r draenog, yn dywedyd iddo ef roddi dognau cryfion o *prussic acid*, *arsenic*, *opium*, &c., iddo, ac nad oedd iddynt un effaith arno.

Nid ychydig o syniadau gwrachïaidd ac ofergoelus sydd ar led am y creadur bychan hwn, ac nid ychydig sydd ganddo i'w ddyoddef yn aml o'u herwydd. Cyhuddir ef gan lawer, ac y mae genym fantais i wybod fod hon yn gred gyffredin yn Nghymru, o fod yn arfer a sugno tethau y gwartheg ar y meusydd yn y nos, a dolurio eu pyrsau â'r pigau llymion sydd ar ei gefn. Y mae y cyhuddiad hwn, pa fodd bynag, mor ddwl ag ydyw o ofergoelus; ac nid dyma yr unig amgylchiad y priodola y werin bethau anghywir, pan y methant roddi cyfrif am danynt. Dywedwyd hefyd ei fod yn dra niweidiol mewn gerddi a pherllanau, trwy ei fod yn dringo y coed, yn curo y ffrwythau i lawr, ac yna yn eu casglu at eu gilydd, a'i fod wrth ymdreiglo arnynt yn gallu cymmeryd peth rhyfedd o honynt ymaith ar y pigau llymion sydd ar ei gefn. Y mae gogwyddiad y pigau hyny eto yn ddigon o brawf fod y cyhuddiad hwn hefyd yn hollol ddychymygol. Yn hytrach na bod yn niweidiol a pheryglus, y mae y draenog yn greadur tra gwasanaethgar. Cedwir ef yn aml mewn tai i ddifa pryfaid a thrychfilod o bob math fydd yn eu blino; a gwyddys yn dda ei fod yn dinystrio llawer o'r cyffelyb bethau sydd yn niweidiol i'r garddwr a'r amaethwr.

Cyfarfyddwn â'r gair *draenog* rai gweithiau yn yr Hen Destament; ond nis gallwn weled fod yr enwau gwreiddiol mewn un modd yn cyfeirio at yr un creadur. Yn *Lef.* xi. 30, y mae draenog yn cael ei arfer am y ffured. Y mae y gair Hebraeg *kippod*, yn cael ei gyfieithu yn *Esa.* xxxiv. 11, yn *draenog;* yn *Esa.* xiv. 23, *aderyn y bwn* (gan y Dr. Morgan, *draenogiaid*); yn *Seph.* ii, 14, *dylluan*. Nid oes un awdurdod ddiweddar, pa fodd bynag, i'w chael dros gyfieithu y gair yn *draenog* o gwbl.

DRAIG, DREIGIAU: cyfetyb y gair hwn, pa un a ddygwydd yn fynych yn y Beibl Cymraeg, yn gyffredin i'r geiriau Hebraeg *than, thanin*, a *thanim*, er y cyfleithir y geiriau hyn weithiau yn *seirff* a *morfilod*. Haera y Parch. J. Hurdis, mewn "Traethawd ar wir ystyr y gair *thaninim*," ei fod, yn ei holl wahanol ffurfiau, yn arwyddo y *crocodil;* ond nid oes resymau digonol dros y fath dybiaeth. Tybia Mr. Taylor, yr hwn a ddadleua yn helaeth dros gyfyngu y gair at anifeiliaid dwyelfenol, fod y gair yn cynnwys y dosbarth o fadfilod, o fadfall y dwfr hyd y crocodil, yn nghyd â'r morlo, y morfuwch, y morfarch, &c. Ond nid ydyw ei resymau yntau yn foddlonol, er mor gywrain ydynt. Y mae y pwnc yn dra dyrus, gan fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn y Beibl am greaduriaid tra gwahanol. Yn *Exod.* vii. 9, &c.; *Deut.* xxxii. 33; a *Ier.* li. 34; ymddengys mai *sarff fawr*, neu *ddraig*, a elwir yn briodol felly, a olygir. Yn *Gen.* i. 21; *Iob* vii. 12; ac *Exod.* xxix. 3; *crocodil*, neu unrhyw *fôr-anifail mawr*, a olygir. Yn *Galar.* vi 3, a *Iob* xxx. 29, rhyw fath o anifail gwyllt, megys cadnaw neu flaidd, y mae yn debygol a olygir, fel y dynoda y gair Arabaidd *teenan*. Cyfyngir y sylwadau hyn at y *ddraig*.

Yr oedd tri math o ddreigiau yn adnabyddus gynt yn India.—1. Dreigiau y bryniau a'r mynyddoedd. 2. Dreigiau y dyffrynoedd a'r ogofeydd. 3. Dreigiau y corsydd a'r morfeydd. Y rhai cyntaf ydyw y rhai mwyaf; ac y maent wedi eu gorchuddio â chèn mor ddysglaer ag aur caboledig. Y mae math o farf yn hongian wrth eu gên isaf, yr olwg arnynt yn ofnadwy, eu gwaedd yn uchel a gwichlyd, eu copa o liw melyn dysglaer, ac y mae cnap ar eu penau fel marworyn tanllyd. 2. Y mae dreigiau y wlad isel o liw arianaidd, a mynychant afonydd; yr hyn ni wna y rhai cyntaf. 3. Y mae dreigiau y corsydd o liw tywyll, yn araf yn eu hysgogiad, ac nid oes iddynt gopa. Nid ydyw eu brathiad yn wenwynig, er fod golwg adgas a dychrynllyd arnynt.

Y mae y dysgrifiad canlynol o'r *boa* wedi ei ddyfynu a'i gyfieithu yn benaf o De La Cepede, gan Mr. Taylor, yr hwn a ystyria mai hi ydyw y ddraig yn briodol. "Y mae y *boa* yn mysg seirff yr hyn ydyw y llew neu yr elephant yn mysg pedwarcarnoliaid. Mesura yn gyffredin ugain troedfedd o hyd; ac i'r dosbarth hwn o seirff y mae yn rhaid priodoli y rhai hyny a ddysgrifir gan deithwyr fel yn mesur deugain neu hanner cant o droedfeddi o hyd. Crybwylla Kircher am sarff yn ddeugain dyrnfedd o hyd; a chyfeiria Job Ludolph at sarff gyffelyb yn Ethiopia. *Draco*, neu draig, y geilw Jerome y gyfryw sarff; a dywed y gelwid hwynt *boas*, o blegid y gallant lyncu gwartheg (*boves*), ac anrheithio taleithiau cyfain. Dywed Bosman, cafwyd dynion lawer gwaith yn eu llawn maintioli yn ngholuddion seirff yn yr arfordir auraidd. Ond y sarff fwyaf y darllenais i am dani ydyw yr un y crybwylla Livy a Pliny am dani, yr hon a ymosododd ar y fyddin Rufeinig dan Regulus, wrth afon Bagrada, yn Affrica. Difaodd amryw o'r milwyr; ac yr oedd ei chèn mor galed

Digitized by Google

fel nas gellid gwneuthur un niwed iddi â saethau na phicellau: o'r diwedd, ymosodwyd arni, a defnyddiwyd y peiriannau milwrol yn ei herbyn, megys yn erbyn dinas gaerog. Yr oedd yn gant ac ugain troedfedd o hyd. Lladdwyd sarff yn Batavia ag oedd wedi llyncu carw o faintioli mawr; ac un arall yn Bunda, ag ydoedd wedi llyncu dynes ddu."

Dywed Lequat, yn ei *Deithiau*, "Y mae seirff hanner cant o droedfeddi o hyd yn ynys Java. Y mae yn ddiammheu mai y dosbarth mwyaf o seirff ydyw y *boas;* gan eu bod yn ddeunaw, yn bedwar ar ugain, ac hyd yn oed yn ddeg ar ugain, o droedfeddi o hyd, ac mor braff a dyn yn eu canol. Gelwir y *boa* gan y Portugiaid *Kobre de hado*, neu yr iwrch-sarff; am y gall lyncu iwrch cyfan, neu unrhyw fath o garw; a chyflawna hyn drwy ei sugno drwy y gwddf, yr hwn sydd yn lled gul, ond y mae ei bol yn fawr iawn. Gwelais un felly ger llaw Paraiba, yr hon oedd yn ddeg troedfedd ar hugain o hyd, ac mor braff a baril. Gwelodd rhai negroaid hi yn ddamweiniol yn llyncu iwrch, mewn canlyniad i'r hyn yr aeth tri ar ddeg o ddynion allan i'w saethu; a thynasant yr iwrch o'i bol. Nid ydyw yn wenwynig. Gan fod y sarff hon yn greadur tra ysglyfaethus, neidia o gloddiau a choedwigoedd, a chan sefyll yn unionsyth ar ei chynffon, ymosoda ar ddynion ac anifeiliaid gwylltion: disgyna yn ddisymmwth weithiau o blith cangenau y coed ar warthaf y teithiwr, a chura ef i farwolaeth â'i chynffon."

Oddi wrth yr hanes hwn am y *boa*, meddylia Mr. Taylor ei bod yn debygol mai hi oedd gan Ioan yn ei olwg, pan y dysgrifia Satan yn ei allu erlidigaethus dan yr arwyddlun o ddraig goch fawr. Sarff o faintioli anferth oedd draig yr hen oesoedd, a'i phrif liw oedd coch; ac y mae draig y Dadguddiad yn gwneyd dinystr mawr â'i chynffon. Y mae yn cyfateb yn hollol yn y pethau hyn i'r *boa*.

"A gwelwyd rhyfeddod arall yn y nef; ac wele ddraig goch fawr, â saith ben iddi, a deg corn; ac ar ei phenau saith goron. A'i chynffon hi a dynodd draian ser y nef, ac a'u bwriodd hwynt i'r ddaiar;" *Dad.* xii. 3, 4, 15—17. Y mae yn ddiammheu mai yn arwyddluniol y mae i ni ddeall y saith ben, y deg corn, a'r saith goron, a briodolir i'r anifail hwn. Ond yn yr holl bethau hyn, fel y sylwa Paxton, golygir fod yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn cyfeirio naill ai at ffeithiau hanesyddol neu at ymddangosiadau naturiol. Y mae yn eithaf gwybyddus fod rhywogaeth o nadrodd â dau ben ganddynt yn ymddangosiadol, ond nid mewn gwirionedd; pa rai a elwir yn amwiboniaid (*amphisbenæ*). Y mae un math o seirff yn bod, a chynnifer o honynt yn meddu dau ben yn tarddu o'r un gwddf, fel y mae rhai yn tybio eu bod yn ffurfio rhywogaeth; ond nid oes resymau digonol dros y dybiaeth. Ac addef, pa fodd bynag, mai cynnyrch annaturiol ydyw sarff â dau ben, gallasai o blegid y rheswm hwn gael ei dewis gan Ysbryd Duw fel rhag-gynllun o'r anghenfil arwyddluniol.

Ymddengys fod y cyrn yn cyfeirio at y sarff gyrnig, gan nad oes gyrn gan y *boa* neu y ddraig briodol. Ond y mae gan y creadur anferth hwn gopa o liw melyn dysglaer, a chnap ar ei ben o liw marworyn tanllyd; yr hyn a gynnyrchai y meddylddrych o goron yn eithaf naturiol. Y mae y neillduolion ereill yn cyfateb i ffeithiau yn hanes y *boa*, neu seirff ereill. *Safodd* y ddraig goch fawr ger bron y wraig, yn barod i ddifa ei phlentyn. Pan y cyferfydd y *boa* â gwrthwynebydd, hi a *saif* yn unionsyth ar ei chynffon, gan ymladd yn greulawn âg ef, pa un bynag fyddo ai dyn ai anifail. Tynodd y ddraig goch fawr â'i chynffon "draian ser y nef, a bwriodd hwynt i'r ddaiar." Bydd y *boa* yn aml yn lladd ei hysglyfaeth trwy ei daraw â'i chynffon; o'r hyn y mae genym amryw anghreifftiau mewn hanesiaeth. Yr unig amgylchiad arall ag sydd yn gofyn eglurhad ydyw y "dwfr megys afon" a fwriodd y sarff allan o'i safn ar ol y wraig. Trwy agoriad yn eu cilddannedd y bydd seirff gwenwynig yn gyffredin yn bwrw eu gwenwyn yn y weithred o frathu. Y mae yn wybyddus, pa fodd bynag, fod rhai seirff yn meddu gallu i fwrw swm o hylif o natur niweidiol allan o'u genau. Y mae y swm a fwrir allan gan y ddraig goch fawr yn cyfateb i'w maintioli aruthrol, nes y mae yn briodol dyweyd ei fod yn ffurfio ffrwd neu afon. Dywed Gregory, cyfaill Ludolph, yn ei lyfr ar hanes Ethiopia, "Y mae genym ni yn ein talaeth fath o sarff, o hyd braich. Y mae o liw coch tanllyd, ond braidd yn wineu. Y mae gan yr anifail hwn arogl ffiaidd, ac y mae yn bwrw allan wenwyn mor wenwynig a drewllyd, fel y bydd dyn neu anifail, os o fewn ei gyrhaedd, yn sicr o drengu yn fuan, os na roddir cymhorth uniongyrchol."

Defnyddir y gair *draig* yn fynych yn yr Ysgrythyr am y diafol (*Dad.* xii.), ar gyfrif ei allu mawr, a'i greulondeb dialgar, y mae yn debygol: ac fe allai gyda chyfeiriad at amgylchiadau cwymp dyn. Gwel SARFF.—*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Calmet's Dict.*)

DRAIN ac YSGALL, Cynnwysa yr erthygl hon amryw fathau o ddrain, a gyfieithir yn y Beibl dan wahanol enwau; megis *mieri, mieyar, drain, ysgall.* Dywed yr ysgrifenwyr Rabbinaidd nad oes dim llai na dau ar ugain o eiriau yn y Beibl yn arwyddo planhigion dreiniog a phigog; a dichon y cyfieithir rhai o honynt felly am eu bod yn anadnabyddus, ac fe allai y dynoda amryw o honynt ryw brysgwydd dibwys yn unig. Sylwir arnynt yma yn egwyddorol, heb honi, bid sicr, y rhoddir llwyr eglurhad ar yr hyn sydd wedi peri cymmaint o ddyryswch i luaws o ymchwilwyr ymofyngar. Nid yr achos o hyn ydyw diffyg o blanhigion dreiniog, at y rhai y gellid cymhwyso yr enwau Ysgrythyrol; ond y diffyg o resymau dros ddewis un planhigyn yn lle un arall.

*Acantha* (ακανθα) a geir yn *Mat.* vii. 16; xiii. 7, 22; xxvii. 29; a hefyd yn yr ymadroddion cyferbyniol yn Marc a Luc; a dyma enw y planigyn oedd yn ffurfio y goron ddrain, yn *Ioan* xix. 2, 5. Defnyddir y gair mewn ystyr cyffredinol, megys "drain" gyda ni; am hyny, nid cywir a fyddai ei gyfyngu at ryw un math o blanigion yn yr holl ymadroddion uchod, er bod yn ddiau mai rhyw blanigyn dreiniog penodol a dyfai yn nghymmydogaeth Ierusalem a ddewiswyd i blethu y goron ddrain o hono. Dywed Hasselquist am y planigyn a elwir yn awr *zizyphus spina Christi*, "Hwn, yn ol pob tebygolrwydd, oedd y pren o'r hwn y gwnaed y goron ddrain a roddwyd ar ben Crist. Mae yn un tra chyffredin yn y dwyrain."

"Y mae y planigyn yma yn un tra chymhwys i'r pwrpas, canys y mae iddo lawer o ddrain bychain pigog, tra chyfaddas i achosi poen: buasai yn bur hawdd gwneyd coron o'r brigau meddal, crynion, ac ystwyth hyn. A'r hyn sydd yn ymddangos i mi yn brawf pellach o hyn yw,

Digitized by Google

fod ei ddail yn dra thebyg i ddail eiddew (eidd-iorwg), gan eu bod o liw gwyrdd dwfn a thywyll. Fe allai y mynai gelynion Crist gael planigyn tebyg i'r un y coronid ymherawdwyr a chadlywyddion âg ef, fel y byddai gwatwareg hyd yn oed yn y gospedigaeth." Barna rhai mai y *paliurus aculeatus* oedd y planigyn, ac ereill mai y *lycium horridum*.



Dar. 239. Dreinen.

*Atad* neu *athad* (אטד), a geir yn *Gen.* l. 10; *Barn.* ix. 14, 15; *Salm* lviii. 9. Yn yr ymadrodd cyntaf, dywedir y "daethant hyd lawrdyrnu," neu le, Atad. Yn y ddammeg yn *Barn.* ix. 14, 15, gelwir *atad*, neu y fieren, i deyrnasu ar y prenau. Mae yn amlwg, oddi wrth *Salm* lviii. 9, fod *atad* yn cael ei ddefnyddio yn danwydd: "Cyn i'ch crochanau glywed (*feel*) y mïeri." Y mae *athad* mor debyg i'r Arabaeg *ausuj*, fel y tybir yn gyffredinol ei fod yn golygu yr un planigyn, sef math o rafnwydden (*buckthorn*). Cadarnheir hyn drwy fod *atadmi* yn un o enwau cyfystyr *rhamnus*, a roddir yn attodiad Dioscorides. Dysgrifir math o *rhamnus* gan Belon a chan Rauwolf fel planigyn cyffredin yn Palestina, a chan yr olaf fel un a geir yn helaeth yn nghymmydogaeth Ierusalem. Darlunir ef gan Prosp. Alpinus, fel un yn meddu cyflawnder o gangenau hirion, ar y rhai y mae llawer o ddrain hirion a phur bigog. Felly hefyd y dywed Rauwolf, "Mae yn bwrw allan wiail hirion, meinion, a cheimion, ar y rhai y mae llawer o bigau hirion, cryfion, a llymion." Fel y crybwyllwyd, tybia amryw mai y rhai hyn yw gwir ddrain Crist, y *rhamnus*, a elwir yn awr *zizyphus spina Christi*.

*Besha* a *beshim*. Ceir y gair yn yr unigol yn *Iob* xxxi. 40, ac yn lluosog yn *Esa.* v. 2. Gwel Bulwg. Os nad ydyw y gair yn enw cyffredin ar chwyn, gellir tybied fod y gair yn dynodi planigyn a dardd o hono ei hun mewn tir diwylliedig. Y mae Celsius yn chwilio yr Arabaeg am enw rhyw blanigyn adwythig tebyg i'r *besha*, ac yn ei gael yn *besh* neu *bish*; yr hwn sydd yn hysbys er ys talm fel un o'r llysiau gwenwynig mwyaf nerthol. Ymddengys i'r enw yma gael ei fabwysiadu gan yr Arabiaid oddi wrth yr Hindwaid, yn mysg pa rai y mae y *bish* yn enwog fel gwenwyn; a dynodir ef fel un o gynnyrchion mynyddoedd yr Himalaya. Y mae Celsius yn ei darddu o'r Heb. באש, ond diau mai o'r Sanscrit *fisha* y mae yn deilliaw, ac yn arwyddo gwenwyn; a'r planigyn ydyw *aconitum ferox* y Dr. Wallich a Royle. Y mae cyfieithwyr Lladin yr *Avicenna* yn ystyried mai y bleidd-dag (*aconite* neu *napellus*) ydyw *bish*; gan brofi y gellir dyfod yn lled agos i'r gwir weithiau gyda golwg ar natur llysiau wrth chwilio y cyfferi llysieuol a ddefnyddid gynt mewn meddyginiaeth. Wedi sicrhau fel hyn mai y bleidd-dag ydyw *bish*, ac mai yr un gair ydyw hwn a *besha*, tybiwyd o ganlyniad fod yr olaf yn arwyddo y rhyw o fleidd-dag a adnabyddir gan y llysieuwyr wrth yr enw *aconitum album*—yr unig fath, fel yr ymddengys, a geir yn Syria. Nid ydyw yn bur gyffredin mewn un man; ond y lleoedd tebycaf i'w gael ydyw ochrau bryniau—y sefyllfaoedd a ddewisir yn gyffredin i winllanoedd.

Ond, fel y sylwyd, mae yn debyg mai o'r Sanscrit *fisha* y tardda *bish*, ac nad yw y cyfatebiad rhwng yr Arabaeg *bish* a'r Hebraeg *bisha* ond damweiniol, heb brofi eu bod yn gyfathrachol. Yn mhellach, nid yw yn dra thebyg y tyfai bleidd-dag yn lle haidd mewn gwinllan yn Palestina; ac annhebycach fyth y gwnai mewn lle mwy gogleddol drachefn—at y lle y rhaid fod yr ymadrodd yn Iob yn cyfeirio; gan y bernir mai yn Idumea y mae golygfa y llyfr hwnw—rhan o Arabia Garegog, ar y tu dwyrain i lwyth Iudah. Yno y chwilir am y planigyn; ac y mae rhai yn meddwl mai *ampelos agria* y Groegiaid, a *labrusca* y Rhufeiniaid, a ystyrir fel rhyw gwyllt o'r winwydden gyffredin. Canfu Rauwolf winwydd gwylltion yn nghymmydogaeth Tripoli, a elwir *labruscæ*, ar y rhai ni thyfai dim ond y blodeuyn.

Ereill, heb foddloni ar yr eglurhad yma, a ymdrechant gael rhyw blanigyn a debyga mewn rhyw bethau i'r winwydden, eto yn gwahaniaethu mewn pethau ereill. Fel hyn, gan mai yr enw Hebraeg ar y grawnwin yw *huneb*, nis gellir ammheu nad yr un gair ydyw a'r Arabaeg *anab*, yr hwn hefyd sydd yn arwyddo grawnwin. Ond yn Arabia, defnyddir y gair yn gyffredinol yn hytrach na neillduol; canys, heb law y grawnwin cyffredin, y mae rhai a elwir *anab-al-salib*= grawnwin yr ych, ac *anab-al-dub*=grawnwin y blaidd. Cymhwysir yr enw blaenaf yn yr India at ryw o'r mochlys (*solanum nigrum*); yr hwn sydd chwyn cyffredin yn Ewrop, a hyd yn oed yn India, yn enwedig mewn tir diwylliedig. Mae y planigyn yma, yr hwn sydd yn tebygu weithiau i'r grawnwin yn ei ffurf fwyarog, yn dra annhebyg yn ei ansoddau, gan ei fod yn gysgiadol a gwenwynig. Y mae Hasselquist yn dyfod bron i'r un penderfyniad; canys gyda golwg ar yr ymadrodd yn Esaiah, efe a ddywed, "Yr wyf yn tueddu i gredu mai y mochlys llwyd (*solanum incanum*) a olyga y prophwyd yma, am ei fod yn gyffredin yn yr Aipht a Phalestina; ac y mae yr enw Arabaidd yn cytuno yn dda âg ef. Geilw yr Arabiaid ef *anib-el-dib*; hyny yw, grawnwin y blaidd. Nis gallasai y prophwyd ganfod planigyn mwy gwrthwynebol i'r winwydden na hwn; canys y mae yn tyfu yn helaeth mewn gwinllanoedd, ac y mae yn dra niweidiol i'r gwinwydd, gan ei fod yn eu dadwreiddio: y mae hefyd yn dra thebyg i'r winwydden o ran ei gallod prysgwyddol." Ymddengys fod hwn yn fwy cymhwys

Digitized by Google

i'w gyferbynu â'r grawnwin na'r bleidd-dag; ac nid annhebyg ydyw fod hwn neu y mochlys *solanum nigrum*) yn llawn mor gyfaddas i'r ymadrodd yn Iob.

*Batos* (Βάτος). Yr enw Hebraeg ar y planigyn hwn yw סנה (*seneh*), a geir yn yr ymadrodd adnabyddus sydd yn *Exod.* iii. 2, lle yr ymddangosodd angel yr Arglwydd i Moses mewn fflam dân o ganol *perth* (*seneh*), a'r berth heb ei difa. Y mae hefyd yn y 3edd a'r 4edd adnod, ac yn *Deut.* xxxiii. 16. Cyfleitha y Deg a Thrigain *seneh* â'r gair Groeg *βάτος*, ac arwydda yn gyffredin y mwyarllwyn (*rubus*) neu y mieri (*brambles*); felly y gair *batos* a ddefnyddir yn y Testament Newydd pan yn cyfeirio at y wyrth uchod am y berth yn llosgi. Y mae gan fynachod monachdŷ St. Catherine, ar Fynydd Sinai, fath ar fwyarllwyn wedi ei blanu yn eu gardd, yn agos i'w capel, a elwir y Berth yn Llosgi; ond nis gellir ystyried hyn fel un prawf ei fod yr un a *seneh*, o blegid na wnaent ond ychydig sylw yn gyffredin o'r fath bethau. Nid ydyw rhywogaeth y mwyarllwyn i'w gael yn gyffredin nac yn Syria nac Arabia. Mae y mwyarllwyn sanctaidd (*rubus sanctus*) i'w gael yn Palestina; a chrybwyllir ef gan y Dr. Russell ei fod yn nghymmydogaeth Aleppo; a chanfu Hasselquist fwyarllwyn yn mysg adfeilion Scanderetta, ac un arall yn nghymmydogaeth Seide. Ceir ef hefyd yn mysg adfeilion Petra (?), meddai Calcott. Y mae Celsius, ac ereill, yn dyfynu awdwyr Hebreig sydd yn dywedyd fod Mynydd Sinai wedi cael ei enw oddi wrth luosogrwydd y perthi (*seneh*) yno. Ond nid ymddengys fod un math o fwyarllwyn wedi ei ganfod mewn sefyllfa wyllt ar y mynydd hwn. Sylwyd ar hyn gan Pococke. Pa fodd bynag, cafodd amryw lwyni drain gwynion ar Fynydd Horeb; a dywed, fod yn debycach mai drain gwynion, ac nid mieri, oedd y berth sanctaidd; ac y mae rhai yn barnu mai hwn oedd y lle y cafwyd y weledigaeth, gan ei fod yn llanerch neillduedig, ac yn cynnyrchu porfa ardderchog, pan nad oes un llysieuyn yn tyfu yn agos i gapel y berth sanctaidd. Dywed Shaw fod *oxyacantha arabica* yn tyfu mewn amryw fanau ar Fynydd St. Catherine. Crybwylla y Dr. Robinson am dano dan yr enw *zarur*; ond y mae yn amlwg nas gellir cael dim fel prawf o blaid y naill blanigyn na'r llall.

*Charul.* Gwel Danadl.

*Chedec* (חדק), a geir ddwywaith yn yr Ysgrythyrau: yn *Diar.* xv. 19; "Ffordd y diog sydd fel cae drain" (*chedec*): ac yn *Mic.* vii. 4; "Y goreu o honynt sydd fel mieren (*chedec*), yr unionaf yn arwach na chae drain." Tybir yn gyffredin fod y *chedec* mor adnabyddus a'r planigion dreiniog a phigog ereill; ond y mae gair Arabaeg, *chadac* neu *hudac*, a gymhwysir yn y dwyrain at fath o fochlys (*solanum*). Tybia Rosenmüller ac ereill nad yw hwn yn gyfaddas at yr ymadroddion uchod; ond y mae rhyw fathau o fochlys yn tyfu i faintioli mawr; ac y mae ereill yn mysg y planigion mwyaf pigog sydd yn y dwyrain, ac yn dra chyffredin mewn tiroedd crin a sych. Ceir y *solanum sanctum*, a elwir *solanum spinosum* gan ereill, yn Palestina. Tybia y Dr. Harris mai y *chedec* ydyw *colutea spinosa* Forskal, a elwir *heddad* yn Arabaeg.

*Choach* (חוח), a geir mewn amryw fanau, ac a gyfleithir yn y Beibl Cymraeg yn *ysgellyn* yn 2 *Bren.* xiv. 9; *ysgall* yn *Iob* xxxi. 40; *mynawyd* (Seis., *thorn*) yn *Iob* xli. 2; *draen* yn *Diar.* xxvi. 9; *drain* yn *Esa.* xxxiv. 13. Mae yn amlwg, oddi wrth gysylltiad amryw o ymadroddion, y rhaid mai rhyw blanigyn diddefnydd, neu chwyn o natur dreiniog yw y *choach*. *Diar.* xxvi. 9; "Fel *draen* (*choach*) yn myned i law dyn meddw," &c. Cyfleithiad y Deg a Thrigain o hwn ydyw *ακανθα* (*acantha*) ac *ακαν* (*acan*), hyny yw, geiriau yn arwyddo planigion dreiniog yn gyffredinol, hefyd *κνίδε*=danadl. Ond y mae yn anhawdd penderfynu yma, fel mewn manau ereill, pa blanigyn penodol a feddylir; a dyma un achos fod *choach* yn cael ei gyfleithu mor amrywiol. Dywed Celsius fod y gair Arabaeg *khokh* yn gyffelyb o ran natur a gwreiddyn i'r gair Hebraeg, ac y defnyddir ef fel gair cyfystyr iddo, ac mai *chucho* yw y cyfleithiad Syriaeg. Cymhwysir *khookh* yn Arabaeg at yr eirin gwlanog (*peach*), a *bur khookh*, o'r hwn y deillia *apricock*, *apricot* y Seison; a dichon ei fod yn gyfathrach i'n *bricyll* ninnau hefyd. Am hyny, gellir ystyried *choach* fel enw cyffredinol ar y tylwyth eirin; ac y mae yn hysbys fod rhai rhywogaethau o'r rhai hyn, megys y drain duon a gwynion, o natur bigog; a dichon fod rhai o'r rhywiau, megys yr ysbyddaid (*cratægus*), yn gwneyd eu lle i fyny yn Syria.

*Dardar* (דרדר), a gyfleithir *ysgall* yn *Gen.* iii. 18; "Drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i ti:" ac yn *Hos.* x. 8, cyfleithir ef yn *mieri*; "Dring drain a mieri ar eu halloraú." Yn y ddau ymadrodd, cysylltir *dardar* â *coz*. Dysgrifia y Rabbiniaid ef fel planigyn dreiniog, a alwant hwy *accobita*. Ysgallen, neu farchysgallen wyllt, ydyw *accub* yr Arabiaid. Pa fodd bynag cyfleitha y Deg a Thrigain *dardar* yn y ddau le i'r gair Groeg *τρίβολος*; ac y mae hwn yn cyfateb cystal ag unrhyw blanigyn dreiniog neu bigog arall.

*Cimosh.* Gwel Danadl.

*Cotz* neu *coz* (קוץ): mae y gair yma mewn amryw ymadroddion Ysgrythyrol; mewn dau o'r rhai y cyssylltir ef â *dardar*, lle y gellir ystyried *coz* a *dardar* yn cyfateb i *drain* ac *ysgall*. Cyfieitha y Deg a Thrigain ef bob amser yn *acantha*, ac fe allai y defnyddid ef gynt mewn ystyr



Dar 240.

cyffredinol i ddynodi planigion dreiniog, diddefnydd, ac arwydd o ddiffyg triniaeth, neu anghyfanedd-dra, yn tyfu yn naturiol mewn lleoedd diffaeth, ac heb fod yn dda i ddim ond tanwydd. Ond os ydyw yn golygu rhyw blanigyn neillduol, gellir dewis yr *ononis spinosa*, neu hwp yr ychain, a grybwyllir gan Hasselquist, fel y cyflawnaf o ansoddau y *cotz*.

*Naazuz* neu *Naatzutz* (נעצוץ), a geir mewn dau ymadrodd yn Esaiah, ac yn y Beibl Cymraeg, cyfieithir ef yn un o'r ddau le yn "ysbyddaid," ac yn y llall "drain." "A bydd yn y dydd hwnw, i'r Arglwydd chwibanu am y gwybedyn sydd yn eithaf afonydd yr Aipht, ac am y wenwynen sydd yn nhir Assyria: a hwy a ddeuant ac a orphwysant oll yn y dyffrynoedd anghyfannedd, ac yn nghromlechydd y creigiau, ac yn yr ysbyddaid (*naazuzim*);" *Esa.* vii. 18, 19. Cyfieithwyd hwn gan rai yn *agenau*; ond mai rhyw fath ar blanigyn ydoedd sydd amlwg oddi wrth *Esa.* lv. 13: "Yn lle drain (*naazuz*) y cyfyd ffynnidwyd, ac yn lle mieri y cyfyd myrtwydd." Mae rhai wedi ei gyfieithu yn gyffredinol, heb geisio dynodi y rhyw; ac ereill wedi cynnyg ei ddarlunio yn fwy neillduol, gan ei gyfieithu mieri, ysbyddaid, &c.; ond nid oes dim pendant wedi ei benderfynu yn ei gylch. Y mae Celsius yn ymdrechu ei olrhain i'r un gwreiddyn a'r gair Arabaeg, *naaz*, yr hwn, medd efe, sydd yn enw llysieuyn, rhisgl yr hwn a ddefnyddir i gyffeithio lledr. Dywed mai ei ystyr yn y Galdaeg yw, "glynu wrth;" ac am hyny, tybia ei fod yn cyfeirio at ryw blanigyn pigog, neu ddreiniog. Dywed R. Ben Melech fod esbonwyr yn egluro *naazuz* â'r gair Arabaeg *sidr*, yr hwn sydd enw tra adnabyddus perth ddreiniog yn y gwledydd dwyreiniol, o rywogaeth draenen Crist gyffredin (*zizyphus*). Dywed Sprengel y ceir y planigyn hwn mewn amryw barthau o Palestina, cystal ag mewn llawer o fanau anniwylliedig yn y gwledydd dwyreiniol. Tybia ereill fod *nabac* yr Arabiaid yn un o'r rhywogaeth, yr hwn a ystyrir yr un a phren lotus yr hynafiaid. Ond ymddengys oddi wrth y cyd-destyn, os draenen Crist ydyw y planigyn, y rhaid mai rhywogaeth waelach ydyw. Yn eu sefyllfa wyllt, mae y rhai hyn yn dra lluosog, perthiog, pigog, a diwerth. Yn Ngeiriadur Arabaeg Freytag, dywedir fod y gair uchod, *naaz*, yn enw ar bren dreiniog, sydd yn gyffredin yn Hedjaz, rhisgl yr hwn a ddefnyddir i gyffeithio crwyn, ac o'r pren ei hun gwneir llwch dannedd. Dichon mai rhywogaeth o ddraenen yr Aipht ydyw, yr hon y gwyddys ei bod yn lluosog yn mharthau sychion a diffrwyth Syria, Arabia, a'r Aipht.

*Sallonim.* Gwel Sillon.

*Serebim*, a gyfieithir yn *Ezec.* ii. 6, yn *drain*, yw cacynau y meirch (*gadfly*), fel y tybir, neu rywbeth o'r fath.

*Seneh.* Gwel Batos.

*Shait* (שית), a geir mewn amryw ymadroddion yn *Esa.* v. 6; vii. 23, 24, 25; ix. 18; x. 17; xxvii. 4, lle y cyssylltir ef bob amser â *shamir*, a chyfieithir y ddau yn *fieri* a *drain* yn y Beibl Cymraeg. Y mae yn amlwg oddi wrth y cyd-destyn yn yr holl ymadroddion mai rhyw fath o chwyn a feddylir, o natur ddreiniog neu bigog; ac y maent yn tarddu mewn tiroedd anniwylliedig, ac yn arwyddion o ddiffaethiad, ac a ddefnyddir weithiau yn danwydd. Pa fodd bynag, nid oes dim wedi ei benderfynu gyda golwg ar y planigyn a elwir *shait*; ac o ganlyniad, cyfieithir ef yn wahanol mewn gwahanol gyfieithiadau o'r Ysgrythyrau.

*Shamir* (שמיר), a geir yn yr holl ymadroddion y ceir *shait* ynddynt, heb law *Esa.* xxxii. 13: "Cyfyd drain (*cozim*) a mieri (*shamir*) ar dir fy mhobl." Gan ei fod yn gyssylltiedig â *coz*, casglwyd y rhaid mai rhyw blanigyn dreiniog ydyw *shamir*. *Samir*, yn yr Arabaeg, yn ol Celsius, o Abulfeda, sydd blanigyn dreiniog, y dywedir ei fod o rywogaeth y *sidri*, yr hwn nid ydyw yn dwyn ffrwyth. *Sidr* sydd enw arall ar *nabca*—rhywogaeth o ddraenen Crist (*zizyphus*). Nid oes planigion mwy cyffredin yn mharthau poethion, sychion, ac anniwylliedig y dwyrain, na rhywogaeth ddreiniog o'r *zizyphus*, y rhai sydd yn cau llwybrau ac yn tagu pob llysiau; y rhai, o blegid hyny, sydd yn dra chyfaddas i egluro yr ymadroddion y ceir *shamir* ynddynt. Dichon mai y rhyw yma o *sidri* anffrwythlawn ydyw *Paliurus aculeatus* y llysieuwyr.



Dar. 241.

*Sillon* (סלון), a geir yn *Ezec.* xxviii. 24; "Ac ni bydd mwy i dŷ Israel *ysbyddaden* (*sillon*) bigog, na *draenen* (*coz*) ofidus." Gan y crybwyllir *sillon* yma mewn cyssylltiad â *coz*, casglwyd y rhaid yr arwydda rywbeth o'r un natur. Y mae amryw eiriau Arabaeg yn tebygu iddo o ran sŵn; megys *seel*, yn arwyddo math ar wermod; *silleh*, y planigyn *zilla myagrum*; *sillah*, τράγος y Groegiaid, yr un, fel y tybir, a *salsola cali* a *salsola tragus*; *sulal* neu *sulalon*, yr hwn a arwydda *ddraenen* o rywogaeth y grawn-balmwydden, tra nad arwydda y gair Caldaeg, *silleta*, ond draen yn unig. Y mae yn debygol, gan hyny, mai rhywbeth o'r un ystyr ydyw *sillon*, a *sallonim* neu *sillonim* hefyd, a geir yn *Ezec.* ii. 6, mewn cyssylltiad â *serebim*; ond yr ydym yn analluog i benderfynu ar un planigyn neillduol yn Syria fel yr un y cyfeirir ato.

*Siccim* (שכים) sydd un arall o'r geiriau a ystyrir yn arwyddo y planigion dreiniog, megys yn *Num.* xxxiii. 55; "Yna y bydd y rhai a weddilliwch o honynt yn *gethri* (*siccim*) yn eich llygaid, ac yn *ddrain* (*zinnim*) yn eich ystlysau." Y mae yn dygwydd yn y ffurf fenywaidd, *syccoth*, yn *Iob* xli. 7, lle y cyfieithir ef "pigau heiyrn." Y mae *siccim* wedi cael ei gyfieithu yn wahanol, ond y mae ei debygrwydd i'r Arabaeg *shoc*—*drain*—yn ddigon i beri fod tebygolrwydd fod ei ystyr yn gyffelyb, er nad ydys wedi penderfynu pa un ai mewn ystyr gyffredinol y defnyddiwyd ef, yr hyn sydd debyg, ai ynte a gymhwysid ef at blanigyn neillduol.

*Sirim* (סירים), a geir mewn amryw ymadroddion, megys yn *Preg.* vii. 6; "Fel clindarddach *drain* (*sirim*) dan grochan:" *Esa.* xxxiv. 13; "Cyfyd hefyd yn ei phalasau ddrain" (*sirim*); *Hos.* ix. 6; *Amos* iv. 2, *Nah.* i. 10. Y mae y Deg a Thrigain ac ereill wedi defnyddio geiriau yn arwyddo



Digitized by Google

*drain*, megys yn cynnwys *sirim*, ond ni ddygwyd dim yn mlaen i'n harwain i ddethol y naill blanigyn mwy na'r llall.

*Sirpad* (סרפד), a grybwyllir unwaith yn unig gan Esaiah (lv. 13); "Yn lle *mieri* (*sirpad*) y cyfyd myrtwydd." Er yr ystyrir yn gyffredin mai planigyn dreiniog a phigog ydyw hwn, eto nis gellir casglu oddi wrth y cyd-destyn mai y cyfryw blanigyn o angenrheidrwydd a feddylir. Yn ol yr ystyr, byddai yn ddigon deall rhyw blanigion diddefnydd; ac y mae digon o'r cyfryw mewn lleoedd diffaeth ac anniwylliedig. Y mae lluaws o fathau wedi cael eu cynnyg fel rhai tebyg, ac yn eu plith *ruscus aculeatus*, neu y "banadl pigog," neu "celyn Mair."

*Tribolos* neu *tribulus* (τρίβολος), a geir yn *Mat.* vii. 16; "A gasgl rhai ffigys oddi ar *ysgall*" (*tribolon*)? ac eto yn *Heb.* vi. 8; "Eithr yr hon sydd yn dwyn drain a *mieri* (*triboloi*), sydd anghymmeradwy." Cymhwysid yr enw gan y Groegiaid at ddau neu dri o blanigion: yr oedd un o honynt, yn ddiau, yn ddyfrol—*trapa natans* ("ysgall y dwfr"); am y lleill, diau fod y *tribulus terrestris* (y "rhafnysgallen") yn un; a thybir mai *fagonia cretica* ("llysiau Ffagon") oedd y llall. Canfyddir y naill a'r llall, neu rywiau cyffelyb, mewn lleoedd sychion a diffrwyth yn y dwyrain; ac y mae pob un o honynt yn bigog, ac yn ymdaenu ar hyd y ddaiar, ac y maent yn dra niweidiol i sathru arnynt. Y mae chwaneg o ddyddordeb yn y gair *tribolos*, am ei fod wedi ei ddefnyddio gan y Deg a Thrigain fel cyfleithiad am *dardar*. Y mae presennoldeb rhywiau o'r rhafnysgallen a llysiau Ffagon yn arwyddo tir sych ac anniwylliedig, wedi ei orchuddio â phlanigion pigog neu ddreiniog.



Dar. 242.

*Zinnim* (צנים), a *Zenenim* (צנינים), a geir mewn amryw ymadroddion o'r Ysgrythyrau, megys yn *Num.* xxxiii. 55; *Ios.* xxiii. 13, lle y crybwyllir am danynt mewn cyssylltiad â *siccim*; hefyd, yn *Iob* v. 5, a *Diar.* xxii. 5. *Tribolos* sydd gan y Deg a Thrigain yn *Diar.* xxii. 5, a *Bolides* yn *Num.* xxxiii. 55, a *Ios.* xxiii. 13. Tybiodd rhai y gallai mai *zinnim* yw y *rhamnus paliurus* (rhafnwydd Crist); ond nid oes dim wedi ei benderfynu gyda golwg ar y planigyn hwn mwy na'r lleill o'r planigion dreiniog.—(*Celsius' Hierobot.*; *Husselquist*, *Iter. Palest.*; *Kitto's Cycl.*, &c.)

DEMOSTHENES [Δημοσθένης]: yr areithiwr Athenaidd mwyaf, a anwyd, fe allai, o gylch 384 neu 385 c.c. [*Ol.* 99. 1.] Mab ydoedd i Demosthenes, dinesydd Athenaidd o'r *demus Pæania*, yr hwn a fasnachai mewn arfau a dodrefn, a Cleobule, merch Gylon, yr hwn a fuasai yn llywodraethwr Nymphæum, sefydliad Athenaidd yn y Tauric Chersonesus, yr hwn sefydliad a draddododd efe i'r Scythiaid trwy frad; ac wedi cymmeryd nawdd ar ol hyny gyda'u penaeth, efe a briododd wraig o Scythiad, yr hon oedd yn nain i Demosthenes o du ei fam. Cymmerodd Æschines y cymmysgedd yma yn y gwaed, a chamymddygiad Gylon, yn achlysur i edliw i Demosthenes.

Bu Demosthenes yr hynaf farw pan nad oedd ei fab ond saith mlwydd oed, gan ei adael ef a'i chwaer, ieuengach nag ef, i ofal tri gwarcheidwaid—Aphobus a Demophon, ei gefnder, a Therippides ei gyfaill. Yr oedd yr eiddo a adawyd ganddo yn bymtheg talent—dros 3,000p. Pa fodd bynag. diystyrodd y gwarcheidwaid holl gyfarwyddiadau y tad, fel y dywed Demosthenes ei hun; ac, nid yn unig esgeulusent wneyd dim er cynnyddu yr eiddo a ymddiriedwyd iddynt, ond ysbeiliasant ef o'r cyfan yn mron. Dywed Plutarch eu bod wedi amddifadu Demosthenes hefyd o athrawon priodol; ond y mae efe ei hun, gan ewyllysio mwyhau pob peth, fel yr ymddengys, a berthynai i'w hanes, yn bostio ei fod wedi derbyn addysg gyfaddas. Dywedid ei fod wedi bod yn myfyrio athroniaeth dan Plato ac Isocrates, ac wedi bod yn ddysgybl i Eubulides o Miletus, yr hyn, meddai y Dr. W. Smith, sydd yn dra annhebyg.

Wedi clywed Callistratus yn dadleu ar un achlysur, taniwyd ei uchelgais yntau gan lwyddiant yr areithiwr hwnw am ddyfod yn areithiwr ei hun; ac i'r dyben hwnw, cafodd addysg gan Isæus yn y gelfyddyd areithyddol. Mae Cicero yn crybwyll am Demosthenes fel un o'r rhai a ddaethant o ysgol Isocrates; tra y dywed Plutarch yn bendant, ar y llaw arall, nad oedd yn ddysgybl Isocrates; ac aiff allan o'i ffordd i chwilio am resymau i brofi pa ham y dewisai Demosthenes hyfforddiadau Isæus. Pa fodd bynag, gellir casglu oddi wrth y gwahanol fywgraffyddion, mai Isæus oedd ei hyfforddwr penaf. Dywedir fod amryw yn tybied mai Isæus a ysgrifenodd yr areithiau yn erbyn ei warcheidwaid, tra y barna ereill na wnaeth ond yn unig eu gwellhau: barnant hyn, yn un peth, am fod Demosthenes mor ieuanc ar y pryd, a hefyd am y tybiant fod arwyddion o arddull Isæus arnynt. Dywedir ei fod wedi cael gwersi mewn ystum (*action*) gan Aristonicus, y chwareuydd.

Y mae yr anfantais naturiol a flinai Demosthenes yn ddigon adnabyddus; ac y mae y dull y dywedir iddo orchfygu yr anfanteision hyny yn cael ei ddwyn yn mlaen yn fynych er annog ereill i ddyfalbarhau. Pa fodd bynag, dylid sylwi nad ydyw yr awdurdod dros amryw o'r chwedlau hyn ond pur fychan, ac yn ymddibynu ar haeriadau ysgrifenwyr diweddar. Yr oedd ei gyfansoddiad wrth natur yn eiddil; ei lais yn wan; ei barabliad heb fod yn groew; ac yr oedd diffyg anadl arno. Dywedir hefyd nas gallai barablu yr *r*, a bod attal dyweyd parhaus arno; ac o blegid yr holl ddiffygion hyn, iddo gael y llysenw *Batalos*=y Benywaidd. Wrth ganfod fod y diffygion hyn yn anmharu effaith ei areithiau, efe a ymroddodd yn benderfynol i'w gorchfygu. Y mae y moddion a ddefnyddiodd i

Digitized by Google

wellhau y diffygion hyn yn edrych yn bur debyg i ddychymygion rhyw ysgrifenydd o'r ysgol areithyddol, er fod Plutarch yn dyfynu Demetrius y Phaleriad, fel un wedi cael yr hyn a adrodda Plutarch o enau yr areithiwr ei hun. Gyda golwg ar y moddion hyn, dywedir y byddai yn dringo bryniau gan adrodd pennillion â mân geryg yn ei enau; yn areithio ar lan y môr, er mwyn arfer ei hun â swn a chynhwrf y gynulleidfa; yn crogi cleddyf yn y fath fodd ag y tarawai ei ysgwydd pan y gwnai ryw ystum afluniaidd; ac yn byw am fisoedd mewn ogof dan y ddaiar, lle yr adysgrifenai yn barhaus hanes Thucydides, er mwyn ffurfio arddull iddo ei hun.

Wedi ymryddhau oddi wrth ei warcheidwaid, ar ol bod dan oed am ddeng mlynedd, dechreuodd erlyniad yn eu herbyn er adferu ei eiddo. Cyfrifai ei golledion yn ddeg talent ar ugain, trwy y llog am ddeng mlynedd, ac felly rhoddodd gyfraith ar Aphobus, ac ennillodd hi, ond heb lwyddo i gael ond rhan fechan o'r arian. Cymmerodd hyn le yn 364 c.c., pan oedd efe yn ugain oed, neu, fel y dywed ef ei hun, pan nad ydoedd ond plentyn. Dywed Smith ei fod wedi dechreu y cwyn yn eu herbyn pan ydoedd yn 18 mlwydd oed, ond iddynt hwy, trwy ddichellion, fedru cael ei oedi am ddwy flynedd. Pa fodd bynag, dywedir fod yn amlwg wrth yr areithiau sydd ar gael yn erbyn ei warcheidwaid, nad ydynt yn gyfansoddiad bachgen o'r oedran hwnw, heb ystyried, fe allai, beth a all meddwl mawr, egniol, wedi rhoddi ei holl fryd ar bwnc, ei gyflawnu rhwng 15 ac 20 mlwydd oed. Ar ol hyn, efe a ymroddodd i'r broffes o ysgrifenu a thraddodi areithiau fel dadleuydd cyflogedig, dros bersonau cyhoeddus a neillduol—ymarferiad a ddilynid yn awr yn gyffredin gan yr areithwyr Groegaidd, ac yr oedd yn un tra ennillfawr. Traddododd ei araeth gyntaf ar achlysur cyhoeddus yn 355 c. c.; ac yn yr un flwyddyn, ysgrifenodd yr araeth yn erbyn Androtion, ac yn y flwyddyn hon hefyd yr ysgrifenodd ac y traddododd ei araeth yn erbyn Leptines. Dygodd ei hyawdledd ef yn fuan i ffafr y bobl; a defnyddiodd yntau y dylanwad a ennillodd er lles ei wlad, ac nid er dyrchafiad personol iddo ei hun. Yr oedd yn gweled yn eglur fod Philip wedi rhoddi ei fryd ar ddarostwng Groeg; ac am hyny, cyflwynodd ei holl alluoedd i wrthsefyll ymosodiad y penaeth Macedoniaidd. Parhaodd yr ymrysonfa yn erbyn Philip am bedair blynedd ar ddeg, ac nis gallasai na bygythion na llwgrwobrwyon ei droi oddi wrth ei amcan. Y mae yn wir iddo fethu; ond nid ei wall ef oedd hyny. Daw hanes ei ymrysonfa yn fwy priodol dan hanes bywyd Philip. Gwel PHILIP. Digon yw dyweyd yma ei bod wedi ei dwyn i derfyniad trwy frwydr Chaeronea (c.c. 338), trwy yr hon y llethwyd annibyniaeth Groeg. Yr oedd Demosthenes yn bresennol yn y frwydr hono, a ffodd fel miloedd ereill. Yr oedd ei elynion yn ei waradwyddo o blegid ei ffoedigaeth, ac yn edliw iddo mai efe ydoedd yr achos o anffawd ei wlad; ond barnai yr Atheniaid yn amgen am ei ymddygiad; deisyfasant arno draddodi yr araeth angladdol ar y rhai a syrthiasant yn Chaeronea; a chynnaliwyd yr wylnos yn ei dŷ ef.

O gylch y pryd hwn, dygwyd amryw gyhuddiadau pwysig yn ei erbyn, yn ngwyneb y rhai, fel y dengys y ffeithiau canlynol, yr amddiffynodd efe ei hun yn odidog, ac, ar y cyfan, yn llwyddiannus hefyd. Gyda golwg ar ei areithiau ar bynciau cyhoeddus, y mae tair yn dwyn perthynas uniongyrchol â'i hanes ef ei hun: ei araeth yn erbyn Midias, un arall yn nghylch camymddygiad yn y genadaeth, a'r llall o blaid Ctesiphon, neu, fel y gelwir hi yn gyffredin, yr "Araeth ar y Goron." Sylwir yn fyr ar y ddwy olaf, mewn cyssylltiad â chyhuddiadau Æschines yn ei erbyn. Gyda golwg ar y flaenaf, dywedir i Demosthenes, yn y flwyddyn 351 c.c., gymmeryd y swydd gostus o *Choragus* arno ei hun yn wirfoddol, ac yn ystod y cyflawniadau yn Dionysia, pan yn cyflawnu ei ddyledswyddau, fod Midias wedi ei sarhau a'i daraw. Dygodd Demosthenes gŵyn cyfraith yn erbyn Midias am ei sarhau tra yn y cyflawniad o'r hyn a ystyrid yn ddyledswydd grefyddol, ac fel hyny, cymmerwyd Midias i mewn am gyssegrhalogiad. Cafodd Demosthenes y ddedfryd o'i blaid. Ysgrifenwyd yr araeth sydd ar gael yn erbyn Midias yn mhen tair blynedd ar ol hyny.

Yr araeth gyntaf ar bwnc cyhoeddus sydd ar gael, a'r gyntaf, fe allai, a gyhoeddodd Demosthenes, ydyw yr un ar *Symmoriæ*, yr hon a draddodwyd yn 354 c.c. Achlysurwyd yr araeth hon gan yr amgylchiadau canlynol:—O gylch deng mlynedd cyn yr araeth hon, yr oedd gallu Sparta wedi ei dori gan Thebes, yr hon yn ei thro a suddodd i wendid ar ol marwolaeth ei chadlywydd mawr Epaminondas yn mrwydr Mantinea, yn y flwyddyn 362 c.c.; ac yn mhen tair blynedd ar ol hyn y dechreuodd Philip o Macedon ei deyrnasiad. Y cam cyntaf a roddodd, ar ol gorchfygu dau o ymhonwyr ereill i'r orsedd, a gorfodi y Pæoniaid a'r Illyriaid i ymostwng, oedd meddiannu amryw drefedigaethau Groegaidd i'r deheu o Macedonia, ac ymyryd yn y rhyfel parhaus oedd yn myned yn mlaen y pryd hyny yn Thessaly. Yr oedd Athen, cyn ymadnewyddu ar ol effeithiau y rhyfel Peloponnesaidd, wedi ymgymmeryd o 357 i 355 c. c. â rhyfel yn erbyn cynghreiriaid Rhodes, Chios, Cos, a Byzantium, yr hon a derfynodd yn eu gwaith hwy yn bwrw ei hiau hi oddi ar eu gwarau; yr hyn a gymmerodd le yn nghylch tair blynedd cyn traddodiad yr araeth ar y *Symmoriæ*. Yr oedd dwy blaid yn Athen, fel arferol. Yr oedd gan Philip gyssylltiad agos âg un o'r rhai hyn, a flaenorid gan Phocion, ac nid oedd y blaid yma yn wrthwynebol i amcanion Philip, naill ai o ddiffyg egni, neu am eu bod yn credu na wnelai ddim niwed i Groeg. Yr oedd y blaid arall, a eilw Mitford "y blaid ryfelgar," yn cael ei blaenori gan gadlywydd diriad a elwid Chares, ac wrtho ef wedi hyny yr ymlynodd Demosthenes. Fe allai mai amgylchiad mwyaf pwysig yr amser yma oedd y rhyfel a achlysurwyd gan waith y Phociaid yn cymmeryd teml Apollo yn Delphi. Yr oedd dadl wedi bod gyda golwg ar y tir cyssegredig, yr hwn oedd wedi bod yn perthyn am hir amser i Phocis, a honai y cynghor Amphictyonaidd ei hawl ynddo, pan y cymmerodd Philomelus y Phociad y deml trwy drais, ac y defnyddiwyd ei thrysorau yn ddibetrus mewn rhyfel a barhaodd hyd 346 c.c. Trwy y rhyfel yma y cynlluniodd Philip i uno ei fanteision ei hun âg eiddo yr Amphictyoniaid yn gyffredinol, fel yr etholwyd ef o'r diwedd i fod yn llywydd iddynt; ac yna rhaid ystyried mai y prif bleidiau yn yr ymryson rhwng Philip a Demosthenes oedd y taleithiau Amphictyonaidd a Macedon ar un ochr, yn erbyn Athen a Phersia ar y llall; tra y rhaid cofio fod yn

Digitized by Google

Thebes—y brif dalaeth Ampictyonaidd—blaid gref yn erbyn Philip, a bod un mor gref yn Athen o'i blaid. Yn yr amgylchiadau hyn y gwnaeth Demosthenes ei araeth ar y Symmoriæ, yr hon a berthyn mewn rhan i bwnc y cyllid, ond yn fwy pendant i gynllun oedd ar droed ar y pryd am anfon Chares gyda byddin i Asia yn erbyn y Persiaid; cynllun cwbl afresymol, gan fod gan Athen ddigon o waith i ddal ei thir yn erbyn y trefedigaethau gwrthnysig a deiliaid y taleithiau, heb ymyryd dim â gorchwylion ereill. Yn erbyn y cynlluniau hyn y cyfeiriodd Demosthenes ei hyawdledd yn llwyddiannus; a gellir ystyried mai hyn oedd dechreu ei ymryson â Philip, canys ennillasai yr achos Macedoniaidd trwy bob colled a oddefasai Athen. Yn nghylch blwyddyn wedi hyny, dechreuodd Philip gymmeryd rhan fywiog yn y rhyfel gyssegredig, fel y gelwir rhyfel Phocis. Gorchfygodd ef y cynghrair Phociaidd, a'r unig achos iddo ymattal, fel yr ymddengys, oedd gochel y fath rwyg rhyngddo ac Athen ag a fuasai yn dileu pob gobaith am ei chael hi yn un o'i gynghreiriaid. Yn yr amgylchiad yma, darfu i Demosthenes, yr hwn oedd wedi bod yn wrthwynebydd i'r rhyfel blaenorol, ymuno â Chares, a thraddodi ei Philippic gyntaf. Y mae amcan y cyfnewidiad barn ymddangosiadol yma yn amlwg: yn yr amgylchiad blaenorol, yr oedd efe yn gweled y buasai rhyfel yn gwasgaru nerth oedd yn angenrheidiol mewn ymrysonfa agosach; ond yn awr, gwelai fod amser yr ymrysonfa wedi dyfod, a gwyddai fod yn rhaid i Athen ei harwain er ei gwneyd yn effeithiol. Ond, pa mor rymus bynag oedd Athen ar ol cael ei chynhyrfu, yr oedd wedi colli llawer o'r ysbryd gwrol personol a'i hynodai yn ei hamser goreu. Methodd annogaethau Demosthenes gynnyrchu yr effaith a ddymunid; ac nid ystyriodd yr Atheniaid, nes yr oedd Philip wedi gorchfygu Kersobleptes y Thraciad, yr hwn yr oedd manteision mwy yn gofyn iddynt ei gynnorthwyo fel cydymgeisydd Philip, fod yn rhaid iddynt ddechreu gweithrediadau milwrol yn ei erbyn. Gwnaed hyn o'r diwedd trwy anfon cadgyrchiadau olynol i Olynthus—tref arforol yn agos i guldir (*isthmus*) Pallene—a thrwy anfon rhyfelgyrch i Eubœa, dan arweiniad Phocion, trwy yr hyn y lleiheid y dylanwad Macedoniaidd yn yr ynys hono. Y cyntaf oedd y mwyaf pwysig, gan fod Olynthus yn lle cadarn, ac edrychid arno gydag eiddigedd mawr gan Philip. Yr oedd Olynthus wedi gwneyd cynghrair âg Athen yn groes i gytundeb â Philip; ac er fod ganddi gyflenwad da o wŷr ac arfau, eto yr oedd yn rhaid iddi wrth gynnorthwy milwyr Athen. Er mwyn darparu ar gyfer y cadgyrchiadau hyn, annogai Demosthenes yn ei areithiau Olynthïaidd, ar i'r arian a dreulid at y cofwyliau gael eu cymhwyso at y cadgyrchiadau, a thrwy hyny yr oedd yn groes i Phocion. Pa fodd bynag, er gwaethaf ymdrechiadau Demosthenes, cymmerwyd Olynthus gan Philip yn ngwanwyn 347 c. c.

Yn gynnar yn y flwyddyn ganlynol, fe aeth Demosthenes, gydag Æschines ac wyth neu naw ereill, ar negeswriaeth at Philip, i gytuno ar ammodau heddwch. Yn ol Æschines, dangosodd Demosthenes ddiffyg mawr mewn meddiannu ei hun ar yr achlysur yma. Os ydyw hyn yn wir, nid gormod ei briodoli i ymwybodaeth ei fod, trwy ofn y perygl a welai wrth y drws, yn gorfod ymadael â'i bwnc mawr o wrthwynebu Philip, yr hwn, hyd yn oed yn ystod yr ymdrafodaeth hon, oedd wedi cymmeryd amryw drefydd yn Thracia. Yr achos i Demosthenes gytuno ar heddwch, mae yn debyg, oedd, fel y dywed Schaumann, ei fod yn gweled nas gallai Athen yn unig, fel yr oedd, wrthsefyll y gelyn yn effeithiol. Beth bynag am hyn, ni laesodd Demosthenes, ac yn 343 c. c. ceir ei fod yn cyhuddo Æschines o gamymddygiad yn y negeswriaeth flaenorol, ac yn gweithredu mewn ail negeswriaeth fel un gwrthwynebol i ddylanwad Philip yn Ambracia a Peloponnesus. Er pan orphenodd y rhyfel Phociaidd, yn 346 c.c., ymddengys i'r dylanwad hwn gynnyddu trwy wanhad dylanwad Sparta a Thebes, cystal a thrwy iddo ef gael dwy bleidlais yn y cynghor Amphictyonaidd; a hyn oedd yr achos o ymdrech adnewyddol Demosthenes a chadgyrchiad Diopeithes i'r Hellespont, er mwyn masnach yd yr Atheniaid.

Tua'r amser yma, daeth Demosthenes i fod yn arweinydd ei blaid mewn ystyr mwy penodol nag o'r blaen, yn lle Chares; ac am y ddwy flynedd ganlynol, efe a ymroddodd i gynnal a chadarnhau y blaid wrth-Facedoniaidd yn Groeg. Ei brif gynllun oedd anfon cenadwriaeth at y Persiaid; cadarnhau y cynghrair â Byzantium a Perinthus er mwyn ffurfio cynghreiriau; ac ar fod i Athen roddi i fyny bob hawl i Eubœa, yn yr hyn y cytunai Phocion. Dechreuodd yr ymrysonfa yn awr o ddifrif. Gwarchaeodd Philip ar Perinthus, ar Selymbria, ac wedi hyny ar Byzantium; a pharotodd lynges i fyned allan. Yn yr adeg yma, traddododd ei bedwaredd araeth Philippic, yn yr hon, yn mysg pethau ereill, yr annogai ar i arian y cofwyliau gael eu defnyddio at eu hamcanion eu hunain, gan grybwyll fel rhesymau fod rhai yn teimlo pryder o blegid eu cymhwyso at achosion milwrol, a bod cynnydd y cyllid yn peri nad oedd y cymhwysiad hwnw mwyach yn angenrheidiol. Yn y flwyddyn 339 c. c., rhoddwyd gwarchae Byzantium a Perinthus i fyny, a dilynodd heddwch byr; ond yn y gwanwyn canlynol, etholwyd Philip yn gadlywydd Amphictyonaidd. Cyfnewidiodd Demosthenes ei amcan yn awr i raddau. Ei amcan o'r blaen oedd gwrthwynebu dylanwad tramor oedd yn ceisio ymwthio i weithrediadau y taleithiau Groegaidd; ond yn awr, wedi cyrhaedd yr amcan hwnw, ei orchwyl oedd trefnu y naill blaid yn erbyn y llall yn ngwahanol ddosbeirth yr un genedl.

O'r pryd hwn hyd frwydr Chaeronea, yr oedd yn cyflafareddu â gwahanol daleithiau didoledig o'r cynghrair Amphictyonaidd. Bu yn berffaith lwyddiannus yn Thebes: cytunwyd ar gynghrair manwl rhwng Thebes ac Athen, a daeth Demosthenes yn weinidog i'r naill bron yn gymmaint ag i'r llall. Trechodd holl ymdrechiadau gwrthwynebol Python—dirprwywr Philip—a llwyddodd i barotoi byddin a llynges i weithredu yn erbyn Philip, yr hwn oedd wedi cymmeryd a chadarnhau Elatea, prif ddinas yn Phocia. Ond dinystriwyd gobeithion Demosthenes drachefn yn mrwydr Chaeronea, yn haf 338 c. c., a gadawyd Philip yn feistr amlwg ar dynged Groeg; a chynnorthwyid ef, fel yr ymddengys, gan ofergoeledd, dan ddylanwad yr hwn yr ystyrid ei achos ef yr un ag achos Apollo—y duw Delphaidd. Gwnaeth plaid Phocion gynnyg gwan at ymosodiad; ond yn ol ei gynllun hynod arferol, rhagflaenodd Philip hwy, trwy ryddhau ei garcharorion Athenaidd, ac arfer ei fuddugoliaethau gyda'r cymmedroldeb mwyaf.

Digitized by Google

Yr oedd Demosthenes yn un, fel yr awgrymwyd eisoes, o'r rhai a ffoisant o Chaeronea; ac y mae rhai yn ceisio ei warthruddo o blegid hyny; ond yr oedd yn debyg o gael mwy o gyfleusdra i wneyd lles i'w wlad felly, na phe buasai yn ymroddi yn garcharor i'w elynion. Nid ydyw yn ymddangos eto hyd amser seremoni angladdol y rhai a gwympasant, pan y traddoda y ddarlith arferol, ac yr ail gymmer ei le fel pen y llywodraeth. Gwnaed ef yn ben goruchwyliwr ar ystordai y ddinas, yn arolygwr ar adgyweiriad ei hamddiffynfeydd, ac yr ydoedd yn myned yn mlaen gyda'r un egni yn ei gynlluniau gwladyddol, pan y daeth y newydd fod Philip wedi cael ei lofruddio, Gorphenaf, 336 c.c. Bu ymddygiad Demosthenes ar yr achos yma, fel yr adroddir ef gan Plutarch ac Æschines, yn achos o anghymmeradwyad gan lawer. Dywedir iddo ymddangos mewn gwisg wen, er nad oedd ond saith niwrnod er pan fu farw ei ferch; a'i fod ef, neu ei gyfeillion, wedi dangos anrhydedd i'r llofrudd. Ond nid yw hyn oll yn dangos dim yn fwy amlwg na bod Demosthenes wedi ei lyncu i fyny mor gyflawn gan achos ac amgylchiadau ei wlad, nes anghofio, i raddau mawr, ei amgylchiadau personol ei hun. Os parodd y gobaith am ryddid ei wlad i Demosthenes anghofio ei hun a'i deulu, ni pharodd iddo anghofio fod bodau uwch nag ef, a phob dyn arall, yn llywyddu y cyfan; canys efe a fynodd offrymu aberthau o ddiolchgarwch i'r duwiau am y newyddion da.

Pan esgynodd Alexander i'r orsedd, ni phallodd Demosthenes ddim yn ei wrthwynebiad pendant i Macedonia. Gorchwyl cyntaf Alexander, ar ol ei etholiad yn llywydd gan y cynghrair Amphictyonaidd, ydoedd darostwng gwrthryfel yn ngogledd a gorllewin taleithiau Macedonia. Tra yr oedd efe yn absennol, ymdaenodd y gair yn Thebes (yr hon oedd wedi gwrthgilio oddi wrth y cynghrair) ei fod wedi marw. Cynneuodd Demosthenes fflam y gwrthryfel hwn, ac ar ymddangosiad disymmwth Alexander o flaen Thebes, appwyntiwyd Demosthenes i gyflafareddu âg ef; ond nid aeth efe ond hyd at ororau Attica yn unig. Gan fod Alexander wedi erchi cael ei berson yn ddioed ar ol distrywio Thebes, cystal a naw o Atheniaid ereill, dan yr esgus o'u profi fel bradwyr, y mae lle i gasâu, pan anfonwyd ef ar y negeswriaeth i Thebes, ei fod wedi cael achos i ofni rhyw niwed pe rhoddasai ei hun dan allu Macedon. Demades—dyn oedd mor nodedig o ran ei alluoedd ag ydoedd o ran iselder ei foesau—a anfonwyd ar y negeswriaeth yn ei le; a thrwy ryw foddion neu gilydd, medrodd gynllunio i achub Demosthenes. Os rhoddwyd gwobr i Demades, fel y mynega Plutarch, er ei berswadio i ymdrechu o blaid Demosthenes, ar y derbyniwr y disgyn y gwarth, ac nid ar Demosthenes.

Tra yr oedd Alexander ar ei gadgyrch Bersiaidd, ymosododd ei hen gydymgeisydd, Æschines, ar Demosthenes. Amgylchiadau yr ymosodiad yma, a'r hyn a arweiniodd iddo, yn fyr, oedd fel y canlyn:—Pan aeth y llysgenadwyr, yn mysg y rhai yr oedd Demosthenes ac Æschines, fel y sylwyd eisoes, ar eu negeswriaeth gyntaf at Philip i ymdrafod am heddwch, yr oedd Demosthenes wedi cyfarfod â rhai caethion Atheniaidd yn Macedonia, ac addawodd ddychwelyd i'w rhyddhau ar ei gost ei hun. Pan anfonwyd ef a'r naw ereill, yn mysg y rhai yr oedd Æschines eto, ar yr ail negeswriaeth at Philip, i'r un perwyl, anogodd Demosthenes i'w gydswyddogion gyfarfod Philip mor fuan ag y medrent, yn ol gorchymyn y werin-lywodraeth. pa le bynag yr ydoedd, tra yr elai yntau i geisio cyflawnu ei addewid i'w gydwladwyr oedd mewn caethiwed, gan addaw eu cyfarfod hwythau a Philip mor fuan ag y gallai. Ond yn lle prysuro, yn ol dymuniad Demosthenes a'u gwlad, aeth y cenadwyr hyn yn araf ar hyd y tir i Macedonia; arosasant yn y wlad hono am dri mis, gan roddi amser i Philip i feddiannu amryw leoedd cedyrn ereill oedd yn perthyn i'r Atheniaid yn Thracia. O'r diwedd, cytunasant ar delerau heddwch â brenin Macedonia; ond efe, yn foddlawn wedi eu suo i gysgu trwy gyfrwng ymdrafodaeth hirfaith, a oedai ei gadarnhau o ddydd i ddydd. Canfu Philip hefyd pa fodd i lygru y cenadon oll, ond Demosthenes, trwy anrhegion, yr hwn, gan nad oedd ond un yn mhen naw, a welodd nad atebai ei wrthwynebiad un dyben. Yn fuan ar ol hyn, dygodd Demosthenes ei gyhuddiad yn mlaen trwy gyfrwng ei gyfaill Timarchus, fel yr ymddengys, yn erbyn Æschines, am gamymddygiad a llygredigaeth yn ei ail genadwriaeth; ond osgôdd Æschines y perygl yma trwy ddwyn gwrth-gyhuddiad yn mlaen yn erbyn Timarchus (345 c.c.), gan ddangos fod ymddygiad moesol ei gyhuddwr y fath, fel nad oedd ganddo hawl i lefaru yn gyhoeddus ger bron y bobl. Y mae araeth ysblenydd Æschines yn erbyn Timarchus ar gael eto. Bu yr araeth hon yn foddion i gondemnio Timarchus, yr hwn, yn ol rhai hanesion, a derfynodd yr ymryson trwy ymgrogi; ac ennillodd Æschines fuddugoliaeth ar dderchog. Parodd erlyniad Timarchus i'r cyhuddiad yn erbyn Æschines gael ei oedi am rai blyneddoedd, yr hyn, yn ddiammheu, ydoedd yn dra manteisiol i'r cyhuddedig, gan y tueddai i ddirymu teimlad y bobl yn ei erbyn. Pa fodd bynag, yn 343 c.c., adnewyddodd Demosthenes ei gyhuddiad yn erbyn Æschines o fradwriaeth yn ystod ei ail negeswriaeth at Philip. Ni thraddodwyd y cyhuddiad yma gan Demosthenes, ond ei gyhoeddi a wnaeth fel cofeb; ac atebodd Æschines ef mewn cofeb gyffelyb ar y negeswriaeth, yr hon hefyd a gyhoeddwyd. Yn fuan ar ol brwydr Chaeronea (338 c.c.), cynnygiodd Ctesiphon ar fod i Demosthenes gael ei wobrwyo â choron aur yn y chwareufa gyffredinol am ei wasanaeth mawr i'r Atheniaid a'u gweriniaeth. Gwrthwynebwyd y cynnygiad gan Æschines, yr hwn a haerai nid yn unig fod cynnygiad Ctesiphon yn cynnwys adranau (*clauses*) croesion i'r gyfraith, ond gwadai hefyd fod gwasanaeth cyhoeddus Demosthenes yn teilyngu y fath gydnabyddiaeth. Ac, wrth gofio am ei lwyddiant gyda Timarchus, trwy ddwyn gwrthgyhuddiad yn ei erbyn, efe a ddygodd gyhuddiad yn erbyn Ctesiphon, yr hwn mewn gwirionedd oedd yn erbyn Demosthenes, ond ei fod yn anuniongyrchol, fel y sylwa Rollin. Pa fodd bynag, ni ddygodd efe Ctesiphon i brawf hyd yn mhen tuag wyth mlynedd ar ol ei gyhuddo, sef yn 330 c.c. Y mae yr araeth a draddododd ef ar yr achlysur ar gael eto, yr hon a atebodd Demosthenes yn ei araeth anghymharol "Ar y Goron," yr hon a lwyr orchfygodd Æschines; a dedfrydwyd ef yn gyflawn i alltudiaeth, meddai Rollin, am ei gyhuddiad annheilwng, gan na chafodd y bummed ran o'r rheithwyr o'i blaid. Awgryma ysgrifenydd yn y *Penny Cyclopædia*, mai ei ddirywio mor drwm a gafodd fel nad oedd yn alluog i dalu y costau; ac mai hyn a barodd

Digitized by Google

iddo adael gwlad ei enedigaeth. Pan yr oedd Æschines yn gadael Athen, er mwyn morio i Rhodes, tir ei alltudiaeth, rhedodd Demosthenes ar ei ol, a gwnaeth iddo dderbyn pwrs o arian ganddo; cynnyg nas gallai lai na bod yn gymmeradwy, gan iddo ddyfod o le nad oedd ganddo un sail i'w ddysgwyl. Tra yr oedd ar y weithred o dderbyn y pwrs o law ei hen gydymgeisydd galluog a gonest, llefodd Æschines allan—"Pa fodd y mae yn bosibl i mi beidio dwys alaru wrth gefnu ar wlad, yn yr hon yr wyf yn gadael gelyn annhraethol fwy cymmwynasgar a haelionus, nag y gallaf ddysgwyl i gyfeillion fod mewn un parth arall o'r byd."

Ar ol i Æschines ymneillduo i ynys Rhodes, efe a sefydlodd ysgol areithyddiaeth yno, clod a gogoniant yr hon a barhaodd, meddai Rollin, am lawer oes. Ar un achlysur, efe a ddarllenodd ei araeth yn erbyn Ctesiphon i'w wrandawyr, pan y llefodd un o'r gynnulleidfa ei fod yn rhyfeddu yn ddirfawr ddarfod iddo erioed gael ei orchfygu, i'r hyn yr atebodd Æschines, "Darfuasai eich rhyfeddod yn y fan pe clywsech Demosthenes."

Yr amgylchiad o bwys nesaf yn ei berthynas â Demosthenes a achlysurwyd gan fradwriaeth Harpalus, un o gadfridogion Alexander, yr hwn a adawsid yn llywodraethwr Babilon tra yr elai Alexander yn mlaen yn ei gadgyrch Indiaidd. Wedi i Harpalus lwyr gamddefnyddio ei ymddiriedaeth, efe a ffodd i Ewrop ar ddychweliad Alexander, gyda 6,000 o filwyr Groegaidd. Daeth i Athen fel ymbiliwr, a rhoddodd yr areithwyr ar waith i'w gefnogi. Cymmerwyd ei achos yn rhwydd ganddynt oll, ond Demosthenes, yr hwn, o'r diwedd, a gydsyniodd, dan yr ammheuaeth o gael ei lwgrwobrwyo, yr hyn, meddai y Dr. Smith, ni phrofwyd erioed yn foddhaol yn ei erbyn. Pa fodd bynag, gwrthododd yr Atheniaid gydsynio â chais Harpalus i ffurfio symmudiad yn erbyn Alexander, ac erlyniwyd Demosthenes am iddo gynnyg cynlluniau heb fod o les i'r llywodraeth. Mewn canlyniad, efe a ddirwywyd i 50 talent gan yr Areopagus, a chan ei fod yn analluog neu yn anewyllysgar i dalu y fath swm aruthrol, efe a ymneillduodd i Ægina a Trœzene, lle yr arosodd o 324 c.c. hyd farwolaeth Alexander, yr hyn a ddygwyddodd y flwyddyn ganlynol. Dywed Smith i Demosthenes gael ei daflu i garchar yn yr amgylchiad yma, o'r lle y diangodd, trwy oddefiad ynadon Athen; a thra yr arosai yn Ægina a Trœzene, y byddai yn edrych bob dydd dros y môr tuag anwyl wlad ei enedigaeth, gan ddyfeisio cynlluniau yn barhaus, hyd yn oed yn nhir ei neillduaeth, pa fodd i'w gwared; ac ni bu ei alltudiad o faith barhad; canys ar farwolaeth Alexander (323), cyfododd y taleithiau Groegaidd oll yn erbyn Macedonia; a galwyd Demosthenes yn ol ar unwaith o dir ei neillduaeth. Anfonwyd llong deir-rhwyf i'w gyrchu; ac yr oedd ei ddyfodiad i'r ddinas yn fuddugoliaeth ogoneddus.

Efe oedd yn llywyddu yn Athen yn ystod y rhyfel Lamiaidd, a phan orchfygodd Antipater y Groegiaid cynghreiriol, ac yr aeth tua'r ddinas, barnodd Demosthenes, fel prif arweinydd y cynghrair, mai doethineb ynddo oedd ymneillduo i Calauria, ynys fechan gyferbyn a Trœzene, lle y cymmerodd nawdd yn nheml Poseidon. Anfonwyd cenadon Macedoniaidd ar ei ol i'w ddarbwyllo i ddyfod gyda hwy at Antipater, ond efe a wrthsafodd eu holl erfyniadau. Dywed Plutarch ei fod wedi myned i barth dirgelaidd o'r deml, dan yr esgus o ysgrifenu llythyr, ac wedi cymmeryd gwenwyn yno, yr hwn a gariai o'i amgylch er ys peth amser, a'i fod wedi marw cyn y gellid ei gael allan o'r deml. Ereill a ddywedant, medd Plutarch, fod ei gyfeillion yn dywedyd, "mai ffafr neillduol rhagluniaeth y duwiau a gafodd, ac iddo gael ei waredu ganddynt hwy fel hyn rhag creulondeb barbaraidd y Macedoniaid;" mewn geiriau ereill, ei fod wedi marw o ryw ymosodiad disyfyd a ddygwyd arno, gan bryder a somedigaethau yr ychydig wythnosau olaf o'i fywyd. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 322 c.c.

Ymddengys fod Demosthenes wedi gweithredu trwy ystod ei holl oes wleidyddol dan ddylanwad awydd cryf i lesau ei dalaeth enedigol; ac os na wnaeth ddim ond oedi ei thynged yn unig, gwnaeth fwy nag a gynnygiodd neb arall ei wneuthur. Y mae yn glod mawr i'w ddoethineb a'i ragwelediad ef, fod ei holl ragfynegiadau gwleidyddol wedi eu gwirio: fel yr oedd efe yn rhagweled yn amlwg, dylanwad Macedon, ac nid anghydfod mewnol, oedd yr hyn a ddinystriodd lywodraeth ac annibyniaeth taleithiau Groeg. Caiff y rhai a ddysgwyliant iaith danbaid gynhyrfus, yn ysgubo dyn ymaith wrth ei deimladau, heb fod dan lywodraeth barn, yn areithiau Demosthenes, eu dirfawr siomi. Dywedir nad oedd efe yn siaradwr rhwydd, a'i fod yn gofyn amser i barotoi. Y mae ei holl areithiau ef yn dwyn arwyddion amlwg o ymdrech i argyhoeddi y dealldwriaeth, yn hytrach nac amcan i weithredu ar nwydau ei wrandawyr. Ac y mae hyn y ganmoliaeth uchaf iddo. Gellir darbwyllo llawer trwy ddychymyg ysblenydd, geiriau detholedig, ac appeliadau tanbaid at eu nwydau; ond peth hollol wahanol yw argyhoeddi trwy anerchiad pwyllog ac eglur, pan na bo gan y siaradwr na pherson nac agwedd fanteisiol, ac heb ddefnyddio unrhyw driciau areithyddol: dyma, yn ol Cicero, oedd areithyddiaeth Demosthenes. Mae y rhan fwyaf o areithiau Demosthenes ar bynciau gwleidyddol, fel y maent wedi dyfod i ni, yn gyfansoddiadau llafurus, y rhai a gynnwysant arwyddion amlwg fod yr awdwr wedi eu gwellhau yn fynych cyn iddo eu dwyn i'r sefyllfa y maent ynddi yn bresennol. Er hyn oll, y mae rhwyddineb esmwyth yr iaith, celfyddyd a diwydrwydd yr areithiwr, i'w gweled bron yn mhob llinell; ac nid ydyw y pethau hyn yn fwy amlwg mewn dim nag yn y medr godidog trwy yr hwn y gwna efe i bob cyfannod gynnyrchu yr effaith ddymunol, ac yn y gwrthosodiadau prydlawn a roddant y fath rym a phwynt i bob ymadrodd, fel yr ymddengys nas gallasai unrhyw eiriau ereill, nac unrhyw drefniad arall ar eiriau, fod mor briodol a'r rhai a ddefnyddir ganddo ef. Y mae arddull llawer o'r areithiau ar bynciau gwladol a draddodwyd ganddo ger bron llysoedd cyfiawnder yn dra gwahanol. Y mae rhyw ddiofalwch esmwyth yn rhedeg drwyddynt, ac nid ydynt yn cynnwys y cywirdeb manwl sydd yn brif ansoddau ei gyfansoddiadau ereill. Nid anhawdd fyddai canfod ymadroddion yn y rhai hyn y gellir dywedyd nad ydynt ramadegol. Ond y mae yr areithiau hyn yn anmhrisiadwy fel esamplau o'r hyn a alwn ni yn awr, gosod cwyn ger bron; ac y maent yn dra theilwng o gael eu myfyrio yn fanwl gan y rhai a ewyllysiont fod yn gydnabyddus â sefyllfa Athen y pryd hwnw.

Dywed Smith fod 65 o areithiau Demosthenes mewn bod yn yr hen amseroedd; ond nad oes ond 61 wedi ein cyrhaedd ni, yn cynnwys llythyr Philip, yr hwn, fel y mae ryfeddaf, a gyfrifir fel

Digitized by Google

araeth. Bernir fod amryw o'r areithiau yn ffugiol, neu, o leiaf, o awdurdod bur ammhëus. Heb law yr areithiau hyn, y mae 56 o ragarweiniadau (*exordia*) i areithiau cyhoeddus, a 6 o lythyrau yn dwyn enw Demosthenes, ond a dybir yn ffugiol.

Gellir rhanu areithiau Demosthenes yn ddau ddosbarth mawr, gwleidyddol a chyfreithiol; a'r olaf eto yn rhai a draddodwyd yn gyhoeddus, ac ereill ar achosion neillduol.

Yr areithiau sydd ar gael o'r dosbarth cyntaf, a draddodwyd yn y drefn ganlynol:—Yr araeth ar y Symmoriæ, yn y flwyddyn 354 c.c.; dros y Megalopolitiaid, 353 c.c.; y Philippic 1af, 352 c.c.; dros drigolion Rhodes, 351 c.c.; y tair Olynthiac, a elwir hefyd yr 2il, y 3edd, a'r 4edd Philippic, 349 c.c.; y 5ed Philippic (yr hon sydd yn ffurfio rhan o'r 1af yn ein copïau presennol ni), 347 c. c.; y 6ed Philippic, a elwir hefyd araeth ar yr Heddwch, 346 c. c.; y 7fed Philippic, 344 c.c.; yr 8fed Philippic, a elwir hefyd yr araeth am Halonnesus, 343 c. c.; y 9fed Philippic, a elwir yr araeth ar y Chersonesus, y 10fed a'r 11eg Philippic (a elwir hefyd y 3edd a'r 4edd), oll yn 341 c. c.; y 12fed Philippic, a elwir hefyd araeth yn erbyn y Llythyr, 339, c. c.; yr araeth Angladdol, 339 c. c.; a'r araeth ar y gylafaredd âg Alexander, ar ol 334 c. c. O barth y rhai hyn am Halonnesus, yr 11eg Philippic, a elwir hefyd y 4edd, a'r un yn erbyn y Llythyr, penderfynir eu bod o awdurdod ammhëus: hefyd, yr araeth ar y cyddrethiad, yr hon sydd o amseriad ammhëus. a'r un ar y gylafaredd âg Alexander, a'r araeth angladdol.

Am yr adran gyntaf o'r ail ddosbarth, ceir yr areithiau yn erbyn Androtion a Leptines, 355 c.c.; yn erbyn Timocrates, 353 c. c.; yn erbyn Aristocrates, 352 c. c.; yn erbyn Midias, 348, c. c.; ar lygredigaeth yn y genadwriaeth, 343 c. c.; yn erbyn Neæra, o gylch 340 c. c.; yn erbyn Theocrines, ar ol 336 c. c.; y ddwy yn erbyn Aristogiton, ar ol 338 c c.; a'r araeth ar y Goron, 330 c. c.—*Clinton's Fasti Hellen.*

O'r ail adran, y mae'r tair yn erbyn Aphobus, y ddwy yn erbyn Onetor, a'r un yn erbyn Callippus, oll yn 364 c.c.; yn erbyn Polycles, ac ar y Goron Lyngesol, ar ol 361 c. c.; yn erbyn Timotheus, cyn 351 c. c.; yn erbyn Euergus a Mnesibulus, ar ol 356 c. c.; yn erbyn Zenothemis, ar ol 355 c. c.; yn erbyn Bœotus, ac o blaid Phormio, 350 c. c.; y ddwy yn erbyn Stephanus, cyn 343 c. c.; yn erbyn Bœotus yn nghylch y gwaddol (*dowry*), 347 c. c.; yn erbyn Pantænetus, ar ol 347 c. c.; yn erbyn Eubulides, ar ol 346, c. c.; yn erbyn Conon, ar ol y flwyddyn 343 c.c.; yn erbyn Olympiodorus, ar ol 343 c. c.; yn achos Phormio, ar ol 336 c.c.; yn erbyn Dionysodorus, ar ol 331 c c. Rhaid chwanegu at y rhai hyn, y rhai sydd heb eu hamseru:—yn erbyn Apaturius; yn achos Lacritus; yn erbyn Nausimachus a Xenopithes; yn erbyn Spudias, Phænippus, Macartatus, Leochares, Nicostratus, a Callicles. O'r rhai hyn, yn yr ail ddosbarth, coleddir ammheuaeth gyda golwg ar awdurdod y rhai yn erbyn Neæra, Theocrines, Aristogiton. Onetor, Timotheus, Euergus, a Mnesibulus, Stephanus, Eubulides, Phænippus, a Nicostratus; ond o'r rhai hyn, penderfyna Schaumann o blaid y rhai yn erbyn Timotheus ac Eubulides.

Cyhoeddwyd areithiau Demosthenes ddeng ngwaith yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, a dwywaith yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Ail gyhoeddwyd hwy wedi hyny gan Taylor, Reiske, Abbé Auger, Schaefer, a Bekker. Y mae testyn Bekker, yr hwn a ystyrir yn awr yn safon, wedi ei seilio ar gymhariad manwl o'r llawysgrifau. Y mae hoffwyr areithiwr mawr yr oesau gynt, a'r mwyaf o bob oes, yn wir, dan rwymau nodedig i'r ieithydd enwog hwn am buro y testyn oddi wrth ddyfaliadau gwylltion Reiske ac ereill, ac am eu cynnysgaethu â gwir ddarlleniad y llawysgrifau goreu.

Mae y rhan fwyaf o areithiau Demosthenes wedi eu cyfieithu i luaws o ieithoedd y Cyfandir, ac i'r Seisoneg, yn gyntaf gan Leland yn nechreu y ddeunawfed ganrif; ond y diweddaf a'r goreu ydyw cyfieithiad C. Rann Kennedy, a gyhoeddwyd gan Bohn.—(*Plutarch's Demosthenes; Life of Dem. by Zosim.; Schaumann's Prol. to Demos.; Taylor's Life of Demosth.; Penny Cycl.; Smith's Class. Dict.*, &c.)

**DIOCLETIAN, CAIUS VALERIUS:** a anwyd yn Dioclea, yn Dalmatia, yn Salona, medd rhai, o gylch B. A. 245, yn ol rhai, tra y gwna ereill ef yn ddeng mlynedd hynach. Ei enw cyntefig oedd Diocles, yr hwn a newidiodd efe wedi hyny i Diocletian, neu yn hytrach Diocletianus. Dywed rhai mai cofnodydd oedd ei dad, ac ereill, mai caethwas rhydd seneddwr o'r enw Anulinus. Aeth i'r fyddin yn ieuanc, a chyfododd yn raddol i urddas. Gwasanaethodd yn Gâl ac yn Mœsia dan Probus; ac yr oedd yn bresennol yn y gwarchae yn erbyn y Persiaid, pan fu Carus farw mewn modd anhysbys. Yr oedd Diocletian yn llywydd y corfflosgordd pan y llofruddiwyd Numerianus ieuanc, mab Carus, yn ddirgel gan ei dad yn nghyfraith Aper, pan yn teithio mewn cerbyd cauad o blegid ei afiechyd, pan yn dychwelyd o'r fyddin o Persia. Pan ganfyddwyd llofruddiaeth Numerianus gan y milwyr yn agos i Chalcedon, yn mhen llawer o ddyddiau ar ol y cyflawniad o hono, cymmerasant Aper i fyny, a chyhoeddasant Diocletian yn ymherawdwr, yr hwn, wrth gyfarch y milwyr oddi ar hawlfainc yn y gwersyll, a dystiolaethodd ei ddiniweidrwydd o farwolaeth Numerianus, a chan edliw y trosedd i Aper, efe a gladdodd ei gleddyf yn ei gorff ef. Sylwodd yr ymherawdwr newydd wrth gyfaill iddo, "ei fod yn awr wedi lladd y baedd," gan wneyd gair mwys o'r enw Aper, yr hwn a arwydda baedd, a chyfeirio at ragfynegiad dewin yn Gâl a ddywedasai wrtho y byddai iddo ddyfod yn ymherawdwr ar ol iddo ladd baedd. Er fod Diocletian o feddwl cryf, ac yn llywodraethwr da arno ei hun, eto yr oedd yn gredadyn diysgog ar hyd ei oes mewn swyngyfaredd; ac y mae yn dra thebyg mai yr ofergoeledd yma a'i harweiniodd i gospi Aper â'i law ei hun. Aeth i Nicomedia gyda rhwysg yn Medi, B. A. 284, a'r ddinas hono a ddewisodd efe ar ol hyny fel ei drigle mwyaf hoffus. Wedi i Carinus, mab arall Carus, yr hwn a drigasai yn Italy, gasglu byddin i ymosod ar Diocletian, cyfarfu y ddwy fyddin yn Margum, yn Mœsia, lle yr oedd milwyr Carinus braidd yn trechu ar y dechreu; ond gan i Carinus gael ei ladd yn ystod y frwydr gan ei swyddogion ei hun, o blegid ei greulondeb a'i anghymmedroldeb, ymunodd y ddwy fyddin i gydnabod Diocletian yn ymherawdwr, yn B. A. 285. Bu Diocletian yn haelfrydig ar ol ei fuddugoliaeth, ac, yn wahanol i'r arfer gyffredin, ni chymmerodd collfarniadau nac attafaeliad meddiannau le; ac hyd yn oed cadwodd y rhan fwyaf o swyddogion Carinus yn eu lleoedd.

Pan gymmerodd Diocletian yr ymherodraeth

Digitized by Google

i'w law ei hun, canfu fod gelynion yn barod i ymosod arni mewn amrywiol fanau, ar y gororau Persiaidd, ar dueddau yr Almaen ac Illyricum, ac yn Mhrydain: heb law hyn, yr oedd gwrthryfel pwysig wedi tori allan yn Gâl yn mysg y werin bobl, dan ddau arweiniwr a gymmerent arnynt y teitl o ymherawdwyr. Er mwyn llethu y cythrwfl yn Gâl, anfonodd Diocletian yno ei hen gyfaill Maximianus (a eilw yr hen Gymry, Macsen), brodor o Pannonia—milwr gwrol, ond garw ac anghoethedig. Gorchfygodd Maximianus y Bagaudi—enw a gymmerodd y gwrthryfelwyr gwerinol arnynt eu hunain. Yn y flwyddyn 286, dewisodd Diocletian Maximianus fel ei gynghreiriwr yn yr ymherodraeth, dan yr enw Marcus Valerius Maximianus Augustus, ac er clod i'r ddau, parhaodd yr olaf yn ffyddlawn byth ar ol hyny i Diocletian, ac yn barod i ddilyn ei gyfarwyddyd. Ymsefydlodd Maximianus yn Gâl, ac ar gyffiniau yr Almaen, er mwyn darostwng rhuthrgyrchoedd; tra yr arosai Diocletian yn benaf yn y dwyrain i wylio y Persiaid, er yr ymddengys iddo ymweled â Rhufain yn fuan ar ol dechreu teyrnasu. O gylch 287, cymmerodd gwrthryfel Carausius (Caron) le. [Gwel PRYDAIN.] Yn y flwyddyn ganlynol, gorchfygodd Maximianus yr Almaeniaid yn agos i Treviri, ac aeth Diocletian ei hun yn erbyn llwythau ereill ar y gororau Rhætiaidd; a'r flwyddyn wedi hyny, efe a orchfygodd y Sarmatiaid ar y Danube isaf. Yn yr un flwyddyn (289), gwnaed heddwch rhwng Carausius a'r ddau ymherawdwr, gan y caniatawyd i Carausius (Caron) gadw meddiant o Brydain. Yn 290, cyfarfu Maximianus â Diocletian yn Milan, i gydymgynghori yn nghylch sefyllfa yr ymherodraeth; ac ar ol hyn, dychwelodd Diocletian i Nicomedia. Ymosododd y Persiaid yn fuan drachefn ar Mesopotamia, gan fygwth Syria hefyd; gwrthryfelodd cynghrair o lwythau hefyd yn y Mauritania Cæsariensis, a chyfododd gwrthryfel arall dan arweiniad un Achillæus yn yr Aipht, ac un arall yn Italy, dan un Julianus. Barnodd Diocletian yn angenrheidiol chwanegu rhif ei gynghreirwyr er mwyn bod yn alluog i wynebu yr ymosodiadau yn yn mhob parth. Ar y 1af o Fawrth, 292, neu 291, yn ol rhai croniclwyr, efe a appwyntiodd Galerius fel Cæsar, ac a'i cyflwynodd i'r milwyr yn Nicomedia. Ar yr un pryd, dewisodd Maximianus Constantius, a elwid Chlorus. Ymwrthodd y ddau Cæsar â'u gwragedd: priododd Galerius Valeria, merch Diocletian, gan chwanegu at ei enw blaenorol yr enw Valerianus; a phriododd Constantius Theodora, merch Maximianus. Brodor ydoedd Galerius o Dacia, a rhyfelwr da, ond tanbaid a chreulawn. Yr oedd wedi bod yn fugail yn ei ieuenctyd, am hyny gelwid ef mewn gwawd yn Armentarius. Yr oedd y ddau Cæsar yn ddarostyngedig i'r ddau Augusti, er yr ymddiriedid llywodraethiad rhan o'r ymherodraeth i bob un o'r pedwar. Cadwodd Diocletian Asia a'r Aipht iddo ei hun; cafodd Maximianus Italy ac Affrica; Galerius, Thrace ac Illyricum; a chafodd Constantius Gâl a'r Yspaen. Ond rhaniad gweinyddol ydoedd yn hytrach na gwladyddol. Yr oedd enw pob un o'r tywysogion yn cael ei roddi ar ddechreu y deddfwriaethau, gan ddechreu gyda Diocletian. Fe allai fod gwladyddiaeth fewnol yr ymherodraeth yn peri i Diocletian gymmeryd y cynllun yma, yn gymmaint a'r allanol. Yr oedd er ys can mlynedd cyn hyn—er amser marwolaeth Commodus—yn arfer gan y milwyr roddi neu werthu y goron ymherodrol, a gallai unrhyw gadlywydd ymgeisio am dani. Yr oedd rhwng deg ar ugain a deugain o ymherawdwyr wedi cael eu gwneyd a'u dadwneyd fel hyn yn olynol, teyrnasiad amryw o'r rhai ni pharhaodd fwy nag ychydig fisoedd. Trwy osod pedwar o gynghreirwyr, un ar bob rhan fawr o'r ymherodraeth, a phob un yn meddu ei fyddin ei hun, ac oll yn gydgyfartal, rhoddodd Diocletian derfyn ar drahausder ac anllywodraeth milwrol. Ni roddid yr ymherodraeth i fyny mwyach ar werth, ac felly meddyginiaethwyd un drwg uniongyrchol ac annyoddefol, er fod perygl arall yn aros, sef dadleuon a rhyfeloedd rhwng gwahanol gyfranau yr ymherodraeth. Y mae ysgrifenwyr wedi bod yn ceryddu Diocletian yn llym am ddosbarthu yr ymherodraeth, fel y dywedant hwy; ond dylasent ystyried mai hyn oedd yr unig gynllun, ar y pryd, i'w chadw rhag myned yn ddarnau. Collodd Italy, a Rhufain yn neillduol, trwy y newidiad: nid oeddynt hwy mwyach yn alluog i fynu holl gyfoeth a gallu y byd i'w dwylaw eu hunain yn unig; ond bu yn ennill mawr i'r taleithiau ereill. Yr oedd yr ymherodraeth yn llawer rhy eang i un dyn, neu i un llywodraeth ganolog, yn enwedig dan ddylanwad diflanol enw Rhufain, ac yn nghanol y lluaws achosion o anghydfod ac anfoddlonrwydd lleol, uchelgais personol, llygredigaeth cymdeithasol, a gelyniaeth tramor oedd wedi ymdyru am dair canrif, er ys amser Augustus.

Daeth y Cæsariaid newyddion i fyny i ddysgwyliadau Diocletian. Darostyngodd Constantius y Ffranciaid a'r Armeniaid; ac yn fuan ar ol hyny, ailorchfygodd Brydain. Darostyngodd Galerius y Carpiaid, ac alltudiodd yr holl lwyth i Pannonia. Yn y flwyddyn 296, ymosododd y Persiaid drachefn, dan dywysiad y brenin Narses, ar Mesopotamia a rhan o Syria. Aeth Galerius yn eu herbyn, ond gan ei fod yn rhy hyderus, trechwyd ef gan fwyafrif, a bu raid iddo gilio yn ol. Pan gyfarfu â Diocletian, dangosodd yr ymherawdwr ei anfoddlonrwydd iddo, trwy adael i Galerius gerdded am filltir, wedi ymwisgo mewn porphor fel yr oedd, wrth ochr ei gerbyd. Y flwyddyn ganlynol, ymosododd Galerius drachefn ar y Persiaid, a llwyr orchfygodd hwy, gan ddwyn anrhaith dirfawr oddi arnynt. Ymddygodd Galerius yn dirion a pharchus at wragedd a phlant Narses, y rhai oedd yn mysg y carcharorion. Anfonodd Narses i geisio ammodau heddwch, yr hyn a ganiatawyd iddo gan Diocletian, dan yr ammod fod i'r Persiaid roddi yr holl diriogaeth ar lanau de neu orllewin y Tigris. Cytunwyd ar yr heddwch yma yn 227, a pharhaodd am ddeugain mlynedd. Aeth Diocletian yr un amser i'r Aipht yn erbyn Achillæus, yr hwn a warchaeodd efe yn Alexandria, a chymmerodd y ddinas ar ol wyth mis o warchaead, pan y rhoddwyd y trawsfeddiannwr a'i brif ymlynwyr i farwolaeth. Dywedir i Diocletian ymddwyn ar yr achlysur yma yn anarferol anhydrin. Distrywiwyd amryw drefydd yn yr Aipht, ac yn eu plith Busiris a Coptos. Yr oedd Constantine, mab Constantius, a gafodd ei addysgu yn Nicomedia, yn canlyn yr ymherawdwr yn y gadgyrch yma. Sefydlodd Diocletian derfynau yr ymherodraeth ar yr ochr hono yn ynys Elephantina, lle yr adeiladodd efe gastell, ac y gwnaeth heddwch â'r llwythau cymmydogol, a elwid gan rai Nubiaid, a chan ereill Nubatiaid, i'r rhai y rhoddodd efe y braich tir a orchfygodd y Rhufeiniaid, sef taith saith niwrnod uwch law

Digitized by Google

y rhaiadr cyntaf, dan yr ammod fod iddynt hwythau rwystro i'r Blemmyeaid a'r Ethiopiaid ymosod ar yr Aipht. Yr oedd Maximianus yn y cyfamser yn ymdrechu darostwng gwrthryfel yn Mauritania, yr hyn a wnaeth efe yn llwyddiannus. Mwynhaodd yr ymherodraeth heddwch ar ol hyn am lawer o flyneddoedd, ac ymroddodd Diocletian a'i gynghreiriaid i ffurfio cyfreithiau a threfniadau gwladyddol, ac i adeiladu amddiffynfeydd ar y cyffiniau. Cadwai Diocletian lys ysblenydd yn Nicomedia, ac addurnodd y dref âg amryw adeiladau. Gorchymynodd hefyd i Maximianus adeiladu baddonau (*thermæ*) godidog yn Rhufain, gweddillion y rhai sydd i'w gweled yno eto yn dwyn enw Diocletian. Heb law ymdrochfeydd, yr oedd y rhai hyn yn cynnwys llyfrgell, amgueddfa, rhodfeydd cyhoeddus, a sefydliadau ereill.

Yn Chwefror, 303, cyhoeddodd Diocletian ddeddfwriaeth yn erbyn y Cristionogion, yn gorchymyn i'w tai addoliad gael eu bwrw i lawr, i'w llyfrau cyssegredig gael eu llosgi, ac i'r holl Gristionogion gael eu troi o'u swyddi gwladol a milwrol, gyda phob cospau ereill braidd, oddi gerth marwolaeth. Priodolir amryw achosion o'r ymosodiad yma. Mae yn hysbys fod Galerius yn elynol bob amser i'r Cristionogion, tra yr oedd Diocletian yn eu ffafrio yn gyhoeddus; a defnyddiai amryw o honynt yn ei fyddinoedd ac o amgylch ei berson; a sonia Eusebius am y llwyddiant a'r nawdd a fwynhäi y Cristionogion dan ei deyrnasiad. Yr oedd ganddynt dai addoli mewn amryw ddinasoedd; ac un yn Nicomedia, dan olwg yr ymherawdwr. Ychydig cyn cyhoeddi y ddeddfwriaeth, yr oedd Galerius wedi bod yn Nicomedia yn dymuno ar yr ymherawdwr roddi attalfa ar y Cristionogion. Yr oedd wedi llenwi meddwl yr ymherawdwr â bradwriaethau a therfysgiadau. Yr oedd y palas breninol wedi cymmeryd tân, oddi wrth fellten meddai Constantine, ond haerai Galerius wrth yr ymherawdwr mai brad y Cristionogion ydoedd. Yr oedd yr offeiriaid paganaidd hefyd yn ymegnïo yr un ffordd ag ef. Dygwyddodd, yn ystod aberthiad difrifol a gymmerodd le yn mhresennoldeb yr ymherawdwr, pan yr oedd yr offeiriaid yn ymgynghori âg ymysgaroedd yr aberthau, i'r swyddogion Cristionogol oedd yn yr osgordd ymherodrol groesi eu hunain; yn wyneb hyn, dywedodd yr offeiriaid fod presennoldeb dynion halogedig yn rhwystro yr argoelion. Gan fod Diocletian yn dra awyddus i chwiliena y dyfodol, gwnaeth hyn ef yn ffromedig, a gorchymynodd i'r holl swyddogion Cristionogol aberthu i'r duwiau, dan boen fflangelliad a diswyddiad, yr hyn a ddyoddefodd amryw o honynt. Rhoddodd amryw oraclau yr ymgynghorodd efe â hwynt atebion anffafriol i'r Cristionogion. Y tŷ addoliad yn Nicomedia oedd y cyntaf a dynwyd i lawr trwy orchymyn yr ymherawdwr. Parodd byrbwylldra un Cristion yn rhwygo y ddeddfwriaeth ymherodrol yn gyhoeddus i Diocletian ymgynddeiriogi yn fwy fyth: rhoddwyd y troseddwr i farwolaeth greulawn. Yna cyhoeddwyd ail ddeddfwriaeth, yn gorchymyn i'r holl ynadon ddal swyddogion yr eglwysi Cristionogol, a'u gorfodi i aberthu i'r duwiau. Yr oedd hyn yn rhoddi awdurdod i'r gelynion ar eu bywydau; a throdd allan mewn gwirionedd yn ddechreu erlidigaeth greulawn, difrodau yr hon oedd yn fwy eang mewn cyfartalwch i ledaeniad mawr Cristionogaeth yn ystod tymmor hir o oddefiad. Hon oedd yr erlidigaeth olaf dan ymherodraeth Rhufain, a chafodd ei galw ar enw Diocletian. Ond nid oedd gan yr ymherawdwr hwnw ond rhan fechan ynddi, heb law cyhoeddi y ddwy ddeddfwriaeth, yr hyn a wnaeth efe trwy anfodd, ac ar ol hir ammheuaeth, fel y cydnebydd Lactantius: aeth Diocletian yn glaf yn mhen ychydig fisoedd ar ol hyn; ac ar ei adferiad o'i hir afiechyd, efe a adawodd yr orsedd. Yr oedd Galerius, yr hwn a gynhyrfodd yr erlidigaeth, y mwyaf gorphwyllog yn ei dygiad yn mlaen, a pharhaodd am amryw flyneddoedd ar ol ymneillduad Diocletian; felly, gellid yn fwy priodol ei galw ar enw Galerius, nag ar enw Diocletian. Y gwledydd oedd dan lywodraeth Constantius a ddyoddefodd leiaf oddi wrthi.

Yn Tachwedd y flwyddyn hono, 303, aeth Diocletian i Rufain, lle y mwynhaodd ef a Maximianus wledd rwysgfawr, yr hon a ddilynwyd gan chwaregampau. Dyma y wledd ymherodrol olaf a welodd Rhufain. Yr oedd poblogaeth y ddinas yn cwyno o blegid cynnildeb Diocletian ar yr achlysur, yr hwn a atebodd fod cymmedroldeb a gweddusrwydd yn fwyaf angenrheidiol pan fyddo y beirniad yn bresennol. Rhoddasant rwysg i'w hanfoddlonrwydd trwy ddannodion a gwatwariadau, a thramgwyddasant Diocletian gymmaint, fel y gadawodd Rufain yn ddisymmwth yn mis Rhagfyr, ac yr aeth i Ravenna, ar dywydd pur oer. Cymmerwyd ef yn glaf ar y daith hon, yr hyn a effeithiodd arno trwy ystod y flwyddyn ganlynol, yr hon a dreuliodd efe yn Nicomedia. Taenid y gair unwaith ei fod wedi marw. Ond pa fodd bynag, ymadnewyddodd yn y gwanwyn, 305, ac ymddangosodd yn gyhoeddus, ond yr oedd ei wedd wedi newid yn ddirfawr. Daeth Galerius ato i Nicomedia yn fuan ar ol hyny; a dywedir iddo ei ddarbwyllo, a braidd ei orfodi, i ymneillduo. Dywed ereill mai Diocletian a wnaeth hyny yn wirfoddol. Ar y laf o Fai, efe a aeth gyda'i osgordd i lanerch, dair milldir o Nicomedia, lle yr oedd efe dair blynedd ar ddeg yn ol wedi cyhoeddi Galerius fel Cæsar; ac yno, gan gyfarch ei swyddogion a'i lys, efe a ddywedodd fod trymder henaint yn ei orfodi ef i ymneillduo o'r llywodraeth, ac i gyflwyno ei weinyddiad i ddwylaw cryfach; yna efe a gyhoeddodd Galerius fel Augustus, a Maximinus Daza, fel y Cæsar newydd. Yr oedd Constantine, yr hwn a roddodd hanes y seremoni—a ddefnyddir gan Eusebius yn hanes bywyd y tywysog hwnw—yn bresennol; ac yr oedd y milwyr yn hyderus ddysgwyl mai efe a fyddai y Cæsar newydd: pan glywsant un arall yn cael ei grybwyll, gofynasant y naill i'r llall, A ddarfu Constantine ddim newid ei enw? Ond ni adawodd Galerius hwy yn hir mewn petrusder: efe a wthiodd Maximinus yn mlaen, ac a'i dangosodd i'r dyrfa; a gwisgodd Diocletian ef â'r wisg borphor; ar ol yr hyn y dychwelodd yr hen ymherawdwr yn ddirgel yn ei gerbyd i Nicomedia, ac yn ebrwydd wedi hyny aeth i Salona, yn Dalmatia; ac yn agos yno, efe a adeiladodd iddo ei hun balas eang wrth lan y môr, yn yr hwn y bu fyw dros y gweddill o'i oes, yn cael ei barchu gan yr ymherawdwyr, heb ofalon, ac heb ofid. Y mae rhan o'r caerau allanol a amgaerent ei breswylfa yn aros hyd y dydd hwn, gyda thri o'r pyrth, cystal a theml, yr hon sydd yn awr yn eglwys yn Spalatro, neu Spalato, yn Dalmatia, tref ddiweddar mewn cymhariaeth, a wnaed o adfeilion yr hen Salona, ac a adeiladwyd, gan mwyaf, o fewn caerau preswylfa Diocletian, oddi wrth enw yr hwn — *Palatium*—y credir fod Spalato yn tarddu. Ar yr un amser

Digitized by Google

ag yr ymneillduodd Diocletian yn Nicomedia, yr oedd Maximianus, yn ol cytundeb rhyngddynt, yn cyfiawnu yr un seremoni yn Milan, gan gyhoeddi Constantius fel Augustus, a Severus fel Cæsar. Dynion eilraddol oedd Severus a Maximinus Daza, ac offerynau Galerius, yr hwn a fynai eu henwi yn hytrach na Maxentius a Constantine, y rhai a gynnygiasai Diocletian ar y dechreu. Ymneillduodd Maximianus i'w breswylfod yn Lucania; ond gan nad oedd ef mor benderfynol a Diocletian, efe a ymdrechodd adferu ei awdurdod yn nhen amser ar ol hyny, ac a ysgrifenodd at ei gydymherawdwr, i'w gymhell i wneuthur yr un peth. "Pe deuech i Salona," meddai Diocletian, "i weled y llysiau a faethaf yn fy ngardd, â'm dwylaw fy hun, ni siaradech mwy wrthyf fi am ymherodraeth." Sylwai yn ei ymneillduad, wrth ei gyfeillion, pa mor anhawdd ydyw i'r dyn gonestaf lywodraethu yn dda, gan nas gall efe weled pob peth â'i lygaid ei hun, ond y rhaid iddo ymddiried i ereill, y rhai a'i twyllant ef yn fynych. Unwaith yn unig y gadawodd efe ei neillduaeth i gyfarfod, Galerius, er mwyn appwyntio Cæsar newydd, Licinius, yn lle Severus, yr hwn a fuasai farw. Pa fodd bynag, nid ymddygodd Licinius yn ddiolchgar; canys ar ol marwolaeth Galerius, B. A. 311, efe a gamdriniodd ei weddw, Valeria, merch Diocletian, yr hon, y pryd hyny, gyda'i mam Prisca, a gymmerasant nawdd yn nhiriogaethau Maximinus Daza. Cynnygiodd yr olaf briodi Valeria, ond pan wrthododd hi, efe a'i halltudiodd hi a'i mham i ddiffeithwch Syria, ac a laddodd amryw o'i gosgordd. Dadleuodd Diocletian ar ran ei ferch a'i wraig, ond yn aflwyddiannus; a bernir i'w ofid o'u plegid hwy brysuro ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn ei breswylfod yn Salona, yn Gorphenaf, 313. Yn y flwyddyn ganlynol, rhoddwyd ei wraig a'i ferch i farwolaeth ar orchymyn Licinius.

Gellir rhestru Diocletian yn mysg ymherawdwyr ardderchocaf Rhufain: yr oedd ei lywodraeth, yr hon a barhaodd ugain mlynedd, ar y cyfan yn llwyddiannus, ac yn anrhydedd i enw Rhufain. Yr oedd efe yn llym, ond nid yn ynfyd greulawn; a dylid cofio nad oedd trugaredd yn rhinwedd Rhufeinig. Dengys ei ymddygiad ar ol ei ymneillduad nad dyn o feddwl cyffredin ydoedd ef. Y prif gyhuddiad yn ei erbyn yw ei drahausder yn dwyn i lys Rhufain y ddefod ddwyreiniol o ymgrymiad hyd lawr. Mae yr ysgrifenwyr Cristionogol, yn enwedig Lactantius, wedi llefaru yn anffafriol am dano; ond nis gellir llwyr ymddiried yn Lactantius. Nid oes dim o waith haneswyr rheolaidd ei deyrnasiad ef wedi ein cyrhaedd ni, heb law nodiadau diffrwyth Eutropius ac Aurelius Victor, gan fod y lleill wedi colli yn awr; ond y mae nodiadau ar fywyd Diocletian yn wasgaredig yn nghyfansoddiadau Libanius, Vopiscus, Eusebius, Julian yn ei *Cæsariaid*, a'r arwreinwyr (*panegyrists*) cyfamserol, Eumenes a Mamertinus. Y mae ei gyfreithiau neu ei ddeddfwriaethau yn y rheithlyfr. Un o'i ddiwygiadau penaf oedd diddymu y *frumentarii*, set achwynwyr cyflogedig, oedd wedi eu sefydlu yn mhob talaeth i hysbysu pan wneid cynnyg at fradwriaeth neu wrthryfel; y rhai a ymgyfoethogent yn ddirfawr trwy osod ofn ar y trigolion.

DODD, WILLIAM, D.D., oedd frodor o Lincolnshire, a anwyd yn Bourne, yn 1729, ac a addysgwyd yn neuadd Clare, Caergrawnt. Tra yn y coleg, ysgrifenodd ei gyfieithiad o Callimachus. Wedi cymmeryd urddau, ymsefydlodd yn Llundain, daeth yn bregethwr poblogaidd, a chafodd ddyrchafiad eglwysig gwerthfawr. Ond yr oedd Dodd yn ddyn ofer a gwastraffus, ac heb fod yn fedrus yn ei gynlluniau er dwyn ei amcanion i ben. Ymdrechodd gael bywoliaeth St. George, Hanover-square, trwy lwgrwobrwyaeth; ac am y cynnyg camweddus hwn, torwyd ef allan o gyfres caplaniaid y brenin. Tra y pwysid arno gan ei angenrheidiau, efe a anturiodd yn nesaf ar lwybr mwy peryglus fyth, yr hyn a drodd allan yn ddinystr iddo. Efe a ffugiodd ysgrifrwym ar ei hen ddysgybl, iarll Chesterfield; ac am y trosedd yma, efe a ddienyddiwyd yn 1777, er yr holl ymdrechiadau mawrion a wnaed gan yr enwog Dr. Johnson, iarll Chesterfield, ac ereill, er ei achub. Yn mysg ei gyfansoddiadau lluosog, gellid crybwyll *Pregethau*, yn bedair cyfrol; *Myfyrdodau yn y Carchar*; *Pregethau i Wyr Ieuainc*, yn dair cyfrol; *Esboniad ar y Beibl*, yn dair cyfrol unplyg; *Adfeddyliau ar Angeu*; a'r *Chwiorydd*—ffugeb.

DODDRIDGE, PHILIP, D.D.: a anwyd yn Llundain, Mehefin 26ain, 1702. Ei dad, Daniel Doddridge, ydoedd werthwr olew yn Llundain; a'i daid oedd John Doddridge, periglor Shepperton, yn Middlesex, a dröwyd o'i berigloriaeth gan Ddeddf yr Unffurfiad, a basiwyd yn 1662, yn fuan ar ol dychweliad Charles II. o'i alltudiad, yn rhagnodi telerau cydymffurfiad gweinidogaethol. Ei fam ydoedd ferch y Parch. John Bauman o Prague, yn Bohemia, yr hwn a ddyoddefodd oddi wrth yr erlidigaeth Babaidd a ddilynodd ddiswyddiad yr etholydd Frederic, ac a adawodd wlad ei enedigaeth mewn canlyniad i'r erlidigaeth greulawn hono; ac ar ol treulio peth amser yn Saxe-Gotha, a rhanau ereill o'r Almaen, daeth i Loegr, lle y cafodd fyned yn athraw ysgol rydd yn Kingston. Philip oedd yr ugeinfed i'w rieni, a'r ieuengaf: yr oedd y plant ereill oll, ond un ferch, wedi marw yn eu babandod. Ac y mae yn nodedig fod cyn lleied o arwyddion bywyd yn Philip pan anwyd ef, fel y rhoddwyd ef o'r neilldu fel plentyn marw; ond dygwyddodd i berson oedd yn yr ystafell sylwi fod rhyw symmudiad ynddo, a chymmerwyd gofal o hono, a thrwy anhawsder mawr yr adferwyd ef; ond glynodd ei wendid wrtho ar hyd ei oes. Yr oedd ei rieni yn nodedig o dduwiol, a chyssegrwyd ei flyneddoedd boreuaf ganddynt i gyfranu gwybodaeth grefyddol iddo. Dysgwyd hanesiaeth yr Hen Destament a'r Newydd iddo gan ei fam cyn iddo ddysgu darllen, trwy gyfrwng rhyw briddlechau Isellmynaidd[1] yn nghornel simnai yr ystafell lle yr oeddynt yn trigo. Anfonwyd ef yn gyntaf i ysgol un Mr. Scott, yr hwn a'i hyfforddiodd yn egwyddorion cyntaf y Groeg a'r Lladin; ond symmudwyd ef o hon pan yn ddeg oed i'r ysgol rydd yn Kingston-upon-Thames, yn yr hon yr oedd ei daid, o ochr ei fam, gynt wedi bod yn athraw. Arosodd yn yr ysgol hon am dair blynedd; ac yr oedd yn hynod am ei dduwioldeb a'i ddiwydrwydd. Yn y flwyddyn 1715, pan yr oedd efe yn dair mlwydd ar ddeg oed, bu farw ei dad; ac yn lled fuan wedi hyny, bu farw ei fam ardderchog hefyd, heb adael ond ychydig at ddwyn traul ei addysg. Llefarai Doddridge

[1] Y mae yn debyg fod rhyw gerfiadau Ysgrythyrol ar y priddlechau hyn, y rhai a ddefnyddiai Mrs. Doddridge i egluro yr hanes Ysgrythyrol i'w phlentyn.

Digitized by Google

bob amser am bob un o'i rieni gyda'r parch a'r serchogrwydd mwyaf. Yn yr un flwyddyn (1715), anfonwyd ef i ysgol Mr. Nathaniel Wood, St. Albans, lle y dechreuodd ddyfod yn gydnabyddus â'r dysgedig a'r enwog Dr Samuel Clarke, yr hwn a fu yn gynghorwr doeth a gweinidog serchiadol, yn gystal ag yn gyfaill diduedd, caredig, a haelionus. Yn yr ysgol hon, cynnyddodd yn fawr mewn gwybodaeth o'r ieithoedd dysgedig; daeth yn feistr perffaith ar iaith ei wlad; ac ymarferodd, nid yn unig i ffurfio meddylddrychau, ond i'w hadrodd hefyd gyda phriodoldeb a theleidrwydd. Cyssegrodd lawer o amser i ddarllen; i wellhau ei chwaeth mewn llenoriaeth goeth; i ddiwyd fyfyrio hanesiaeth wladol ac eglwysig; a threuliai ran fawr o'i amser i fyfyrio duwinyddiaeth. Daeth ei dduwioldeb yn awr yn fwy ymarferol ac amlwg, ac ar y 1af o Chwefror, 1717, derbyniwyd ef yn aelod cyflawn o'r eglwys, dan ofal gweinidogaethol y Dr. Clarke. Yn y flwyddyn hono, gadawodd ysgol St. Albans, ac ymneillduodd i dŷ ei chwaer, gwraig John Nettleton, gweinidog Ymneillduol, er mwyn penderfynu ar ei gynlluniau dyfodol. Yma, penderfynodd gyflwyno ei hun i'r weinidogaeth, ond yr oedd mewn anfantais o ddiffyg moddion. Y pryd hyn, dygwyd ef i sylw duces Bedford trwy ddylanwad ei ewythr, o'r un enw ag ef ei hun—Philip Doddridge—goruchwyliwr y duc Bedford. Cynnygiodd y dduces yn garedig ei ddwyn i fyny yn un o'r ddwy brifysgol, fel gweinidog o Eglwys Loegr; ond er y taniai y cynnygiad ef o ddiolchgarwch, bu raid iddo ei wrthod yn barchus, am nas gallai, o gydwybod, danysgrifio "y namyn un deugain o erthyglau crefydd" yr Eglwys Sefydledig. Yna efe a appeliodd at y Dr. Calamy am gynghor, yr hwn a'i hannogodd i gymmeryd rhyw broffes arall; ac mewn canlyniad i hyn, efe a benderfynodd o'i anfodd i fyfyrio y gyfraith wladol. Tra yr oedd yn nghanol y dyryswch yma, derbyniodd lythyr oddi wrth y Dr. Clarke yn cynnyg ei gymmeryd dan ei ofal ei hun, a'i gynnorthwyo i ymbarotoi ar gyfer yr alwad oedd mor agos at ei galon, sef bod yn weinidog Ymneillduol. Derbyniodd y cynnyg yma yn y fan, yn orlawn o ddiolchgarwch; ac yn Hydref, 1719, rhoddodd y Dr. Clarke ef yn athrofa y dysgedig a'r duwiol Dr. John Jennings, gweinidog Ymneillduol a drigai yn Kibworth, yn Leicestershire. Yno cynnyddodd y Dr. Doddridge yn fawr yn mhob cangen o lenyddiaeth; ac, heb law dilyn ei holl fyfyrdodau athrofaol, efe a ddarllenodd, mewn un hanner blwyddyn, drigain o lyfrau, gan mwyaf ar dduwinyddiaeth, a hyny nid yn frysiog a diofal, ond gyda difrifwch dwys, ac er dirfawr fantais iddo ei hun. Er ei fod yn ieuanc, hoenus, ac ymroddgar am wybodaeth, eto, nid oedd yn anghofio dyledswyddau mwy pwysig crefydd bersonol. Ffurfiodd rai rheolau godidog iddo ei hun y pryd hyn, er rheoleiddio ei ymddygiad a defnyddio ei amser, y rhai nid yn unig a ffurfiodd efe, ond a roddodd hefyd mewn gweithrediad cysson. Dywed un o fywgraffwyr y Dr. Doddridge ddarfod iddo symmud yn 1722 gyda'i athraw—y Dr. Jennings, a'i athrofa fechan—o Kibworth i Hinckley, lle y derbyniwyd ef i'r weinidogaeth ar yr 22ain o Gorphenaf, yr un flwyddyn. Er i'r Dr. Doddridge gael ei dderbyn i'r weinidogaeth yn ystod y flwyddyn hon, gan ei athraw, y mae yn debyg; eto, nid ymddengys iddo ddechreu pregethu hyd y flwyddyn ganlynol, ar ol i'w athraw farw; canys dywedir i'r Dr. Jennings farw yn 1723, yn mhen ychydig amser ar ol symmud o Kibworth i Hinckley; ac yn fuan ar ol ei farwolaeth ef, fod y Dr. Doddridge wedi pregethu ei bregeth gyntaf yn Hinckley, oddi wrth y geiriau, "Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded Anathema, Maranatha;" a bod "dau berson yn priodoli eu tröedigaeth i fendith Duw ar y bregeth hono." Parhaodd i bregethu am fwy na blwyddyn yn Hinckley, a lleoedd cymmydogaethol; pan y cafodd alwad gan y gynnulleidfa yn Kibworth, ac un arall oddi wrth gynnulleidfa yn Coventry; ac o wylder, derbyniodd y flaenaf, o achos ei ieuenctyd, ac fel y caffai fwy o amser i fyfyrio; ac ymsefydlodd yno, yn Kibworth, yn Mehefin, 1723. Nid oedd yn y pentref neillduedig a dinod hwnw unrhyw wrthddrychau i dynu ei sylw oddi wrth ei fyfyrdodau; a darllenodd ei hoff awdwyr—Baxter, Howe, a Tillotson, lawer gwaith drosodd, ac yn hynod o fanwl. Ond nid oedd efe, er hyny, yn ddisylw o'i ddyledswyddau bugeiliol; ond treuliai ran gyfaddas o'i amser gwerthfawr mewn ymddyddan crefyddol, ac ymweliad â'r cleifion, &c. Yr oedd ei bregethiad yn eglur ac ymarferol; a thra yr oedd ei feddwl wedi ei gyfoethogi â gwybodaeth, a'i ddarfelydd (*imagination*) yn fywiog, yr oedd yn gwneyd ei holl dalentau dysglaer yn ddarostyngedig i wellhâd moesol a chrefyddol y bobl oedd dan ei ofal. Arferai godi trwy ystod yr holl flwyddyn am bump o'r gloch y bore; ac felly, fel y dywedai weithiau, cafodd fwy na deng mlynedd o amser na chawsai heb hyny.

Yn 1725, symmudodd y Dr. Doddridge i Harborough, ond parhaodd i fod yn weinidog i'r gynnulleidfa yn Kibworth. Daeth yn gydnabyddus y pryd hyn â'r Dr. Some, gweinidog Ymneillduol yn Harborough, a chafodd lawer o fudd oddi wrth ei ddoethineb a'i dduwioldeb. Yn 1728, derbyniodd wahoddiad i ymsefydlu yn Nottingham; ond gan ofni yr ymyrai hyny â'i lesiad ysbrydol, efe a'i gwrthododd, ac a arosodd yn Harborough; ac yn 1729, efe a ddewiswyd yn gyd-weinidog â'r Dr. Some. Yn yr un flwyddyn, sefydlodd y Dr. Doddridge, mewn cyssylltiad â'r Dr. Watts, y Parch. Mr. Saunders, y Dr. Some, ac ereill, athrofa i barotoi dynion ieuainc i waith y weinidogaeth yn mysg yr Ymneillduwyr; a Dr. Doddridge a appwyntiwyd yn athraw. Nid oedd un dyn addasach i'r swydd hon na Dr. Doddridge, ac ymledaenodd clod y sefydliad yn dra eang. Dywed y *Penny Cyclopædia* fod marwolaeth y Dr. Jennings, a gymmerodd le yn 1723, yn ddygwyddiad pwysig yn hanes y Dr. Doddridge. Yr oedd dysgwyliadau mawrion gan yr Ymneillduwyr wrth lwyddiant y Dr. Jennings yn addysg gweinidogion; ac yr oedd cynnal athrofa o'r natur hyny yn un o'r gwledydd canolog yn bwnc o bwys mawr yn eu golwg. Yr oedd y Dr. Jennings wedi crybwyll ei ddysgybl Doddridge fel un a dybiai efe yn dra chymhwys i ddwyn y gwaith yn mlaen; ac yr oedd llygaid yr Ymneillduwyr arno ef, fel y person addasaf i wneuthur hyny. Pa fodd bynag, gwelir i lawer o flynyddoedd fyned heibio ar ol i Jennings ei nodi, cyn iddo ef ymaflyd yn y gorchwyl; ond yr oedd yn dyfal ymbarotoi at y swydd yn ystod yr holl amser; a phan ymaflodd ynddi, profodd yn fuan nad oedd neb yn ei oes yn gymhwysach iddi. Yn y sefydliad yma yr addysgwyd y rhan fwyaf o weinidogion enwocaf yr hen Ymneillduwyr yn nghanol y ddeunawfed ganrif. Yr oedd

Digitized by Google

efe yn addysgu y myfyrwyr yn mhob cangen o wyddor a llenoriaeth, ac yr oedd yn cyssylltu gwellâd crefyddol yn nglyn â'u holl efrydion. Tua diwedd y flwyddyn 1729, derbyniodd wahoddiad i ymsefydlu yn Cornhill, Northampton, mewn canlyniad i symmudiad Mr. Zingey, y gweinidog Ymneillduol, i Lundain; a thrwy gymhelliad y Dr. Some a'r Dr. Clark, efe a dderbyniodd yr alwad, gan adael Harborough, Rhagfyr 24ain; a dechreuodd yn ddioed ar ei ddyledswyddau llafurus a phwysig. Aeth yn bur sal yn fuan ar ol ei symmudiad; ond ar ei adferiad yn Mawrth, 1730, urddwyd ef i'r swydd fugeiliol. Yr oedd Doddridge yn byw mewn amser pan yr oedd sel y dosbarth y perthynai iddo wedi colli llawer o'i egni cyntefig. Yr oedd efe yn edrych ar hyn gyda galar; ac yr oedd yn dra awyddus am ei adnewyddu. Ymddengys fod hyn yn un o'i brif amcanion, a chadwai ef mewn golwg yn wastadol yn ei lafur gweinidogaethol, ac yn ei ysgrifeniadau cyhoeddedig. Y mae ei bregethau argraffedig yn hynod am eu difrifwch yn cymhell y pwys mawr sydd mewn bywyd crefyddol, a'r niwed o ddifaterwch a chlauarineb ysbrydol, a'r angenrheidrwydd anhebgorol o uno ysbryd duwiol, a pharch dwfn a difrifol at wirioneddau pwysig crefydd, â'r ymarferiad o ddyledswyddau moesol. Mae yn sicr fod ganddo olwg neillduol ar hyn pan y cyhoeddodd ei draethawd cyntaf, yn ystod y flwyddyn hon, a elwir, "Rhydd feddyliau ar y moddion tebycaf o adnewyddu dyddordeb Ymneillduol; wedi ei achlysuro gan yr ymofyniad diweddar i achosion ei ddirywiad; wedi ei gyflwyno i awdwr yr ymofyniad hwnw." Rhoddwyd derbyniad da, ar y cyfan, i'r traethawd hwnw; ac y mae ei ysbryd a'i dymmer yn haeddu clod mawr. Cyflawnodd amrywiol ddyledswyddau gweinidog Ymneillduol gyda diwydrwydd a gofal neillduol. Gwyliai dros ei braidd fel un yn cydnabod fod yn rhaid iddo roddi cyfrif. Gweddïai lawer gyda hwynt a throstynt. Ymwelai â'r claf; gofalai am y tlawd; rhybuddiai y cyfeiliornus; cynghorai yr ansefydlog; cadarnhâi yr anmhenderfynol; a gofalai, yn mhob ystyr, am athrawiaeth, dysgyblaeth, ac ymddygiadau yr eglwys a'r gynnulleidfa. Yn yr un flwyddyn (1730) efe a briododd, pan yn 28 mlwydd oed, un Miss Mercy Maris, o Worcester, boneddiges ddoeth, garedig, a chrefyddol iawn; a bu iddynt naw o blant, o'r rhai y bu farw yr hynaf a'r pedwar ieuangaf yn eu babandod. Yr oedd yn dra gofalus am ddygiad ei blant i fyny, a gwnaeth ef a'i briod addfwyn egni neillduol i ffurfio a gwellhau eu nodwedd moesol a chrefyddol, trwy esampl cystal a gorchymyn.

Bu yn Northampton am ugain mlynedd, sef hyd ei farwolaeth, gan ddal y weinidogaeth yn Cornhill a llywyddiaeth yr athrofa hefyd, i'r hon y dygodd welliadau mawrion a pharhaus. Byddai yn dechreu gorchwylion y dydd yn yr athrofa yn ofalus yn y bore ac yn eu diweddu yr hwyr, trwy weddïo. Yn y bore, darllenid yr Hen Destament, ac yn yr hwyr y Testament Newydd, yn yr ieithoedd gwreiddiol. I'r dosbarthau hynaf, byddai yn traddodi darlithiau ar dduwinyddiaeth athrawiaethol ac ymarferol, ar hanes Anghydffurfwyr, ac ar chwedloniaeth (*mythology*). Yr oedd hefyd yn rhoddi ymarferiadau i'r myfyrwyr mewn llefaru a phregethu. Yn fuan ar ol sefydlu yr athrofa yn y lle hwn, gwysiwyd ef o flaen y llys eglwysig; ond dirymwyd y wys trwy gyfryngiad y brenin. Yr oedd yr athrofa yn cynnyddu yn barhaus dan ei arweiniad galluog mewn pwys ac enwogrwydd, fel y daeth yn fuan, fel y crybwyllwyd eisoes, yn brif athrofa yr Annibynwyr. Rhifedi cyffredin y myfyrwyr oedd o 20 i 30.

Yr oedd y Dr. Doddridge yn ddiflino yn ei lafur, er maint ei wendid corfforol; canys heb law ei ddyledswyddau athrofaol a gweinidogaethol, yn y rhai nid oedd yn ol i neb yn ei oes, yr oedd yn ysgrifenu llawer i'r wasg. Yn 1732, cyhoeddodd rai "Pregethau ar Addysg Plant" tra rhagorol. Yn 1735, rhoddodd brawf pellach o'i ofal am y genedl oedd yn codi, trwy gyhoeddi "Pregethau i Bobl Ieuainc;" a thrachefn, trwy ei "Egwyddorion y Grefydd Gristionogol," ar gân. Yn 1736, cyhoeddodd "Ddeg o Bregethau ar Allu a Gras Crist, a Phroflon (*evidences*) o'r Efengyl;" o'r rhai, cyhoeddwyd y tair olaf, ar "Broflon Cristionogaeth," lawer gwaith drosodd, a chawsant dderbyniad mawr a chlod teilwng. Yn 1741, cyhoeddodd rai "Darlithiau ar Adenedigaeth," y rhai a gawsant dderbyniad da, a chymmeradwyaeth mawr. Yn 1745, cyhoeddodd "Gyfodiad a Chynnydd Crefydd yn yr Enaid," trwy annogaeth y Dr. Watts. Cyfleithiwyd hwn i'r Gymraeg, yr Isdiraeg, yr Almaeneg, y Daenaeg, a'r Ffrancaeg. Ond y gwaith sydd wedi ennill clod mor fawr a theilwng i'r Dr. Doddridge am gyhyd o amser ydyw, "Yr Esboniedydd Teuluaidd," yn cynnwys cyfleithiad ac aralleiriad o'r Testament Newydd, gyda nodiadau beirniadol, a sylwadau ymarferol ar bob dosbarth. Mae y pedair efengyl wedi eu trefnu yn hwn yn un gyfres, mewn cydgordiad â'u gilydd. Mae y gwaith hwn yn brawf amlwg o'i ddysgeidiaeth uchel, cystal a'i dduwioldeb diffuant. Mae y nodiadau yn llawn o sylwadau, wedi eu casglu o wahanol awdwyr, cystal a ffrwyth ei feddwl cyfoethog ef ei hun, ac yn dangos mor gymhwys ydoedd i egluro yr ysgrifenwyr sanctaidd. Am y syniadau athrawiaethol sydd yn yr "Esboniedydd," y mae dysgedigion a duwinyddion, wrth gwra, yn gwahaniaethu, yn ol fel y byddo eu hopiniynau; ond y mae beirniaid, llenorion, a Christionogion o bob sect a phlaid, wedi ei ganmawl gyda rhyddfrydedd sydd yn glod iddynt eu hunain, ac yn fri mawr i enw y Dr. Doddridge. Cyhoeddwyd y gwaith godidog hwn ar wahanol amserau: cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn 1739; yr ail, yn 1740; y drydedd a'r bedwaredd, yn 1748; a'r bummed a'r chweched, yn 1756, dan olygiad Job Orton.

Heb law y cyfansoddiadau blaenorol, cyhoeddodd "Ddwy Bregeth ar Iachawdwriaeth trwy Ras;" traethawd a elwir "Anerch eglur a difrifol i Benteulu, yn nghylch y ddyledswydd bwysfawr o Addoliad Teuluaidd; a Ffurf Weddi i Deulu." Cyfleithwyd y traethawd hwn — y "Ffurf Weddi"—ac amryw o bregethau y Dr. Doddridge, i'r Gymraeg, yn dra destlus a dichlynaidd, yn 1776, gan y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), y rhai a gyhoeddwyd yn ei ddwy gyfrol pregethau—y pregethau cyntaf a gyhoeddwyd yn gyfrolau yn y Gymraeg. Hefyd, cyhoeddodd "Goffadwriaeth am y Milwriad Gardiner;" "Coflant byr o fywyd Mr. Thomas Staffe;" a pharotôdd "Gyfieithiad priodol a newydd o'r Prophwydi Lleiaf, gydag esboniad arnynt;" ond y mae hwn, ac amryw ddarnau cyffelyb a barotodd, byth heb eu cyhoeddi. Yn 1748, arolygodd Esboniad a chyfansoddiadau ereill yr archesgob Leighton; a chyfleithodd ei ddarlithiau Lladin, yn ddwy gyfrol, y rhai a gyhoeddwyd

Digitized by Google

yn ninas Edinburgh. Hefyd, cyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, ei "Gyfres Darlithiau ar brif bynciau Ysbrydoliaeth, Moesddysg, a Duwinyddiaeth, gyda chyfeiriadau at y prif awdwyr." Mae hwn yn werslyfr godidog o dduwinyddiaeth drefniadol, ac yn gyfeiriadur ardderchog ar yr holl wahanol bynciau a drinir ynddo, yn enwedig argraffiad y Dr. Kippis o hono. Ni ddylid anghofio chwaith, fod yr Annibynwyr Seisonig yn ddyledus i'r Dr. Doddridge am rai o'r emynau goreu a gyhoeddir ganddynt yn eu haddoliad cyhoeddus. Yn Rhagfyr, 1750, bu farw y Dr. Samuel Clark, ac aeth y Dr. Doddridge i St. Albans i draddodi ei bregeth angladdol, ac yn anffodus, cafodd anwyd a barhaodd i'w flino hyd ddiwedd y gauaf hwnw. Er fod ei iechyd yn awr yn graddol adfeilio, parhaodd i gyflawnu ei holl ddyledswyddau gweinidogaethol, hyd onid aeth o'r diwedd yn gwbl analluog i'w dilyn, ac y gorfu iddo, yn ystod y gauaf hwnw, fyned ar ymweliad i Bristol; ond ni chafodd ddim lles oddi wrth y daith, ac annogwyd ef i gymmeryd mordaith i Lisbon. Cydsyniodd â'r cynghor; ac ar y 30fed o Fedi, cychwynodd i'r fordaith; a Hydref 13eg, glaniodd yn y lle hwnw. Cafodd beth lles oddi wrth y fordaith hon, a gobeithid y byddai yn foddion i'w adferu; ond yn lle hyny, bu ef farw, Hydref, 26ain, 1751, yn 49 mlwydd oed. Claddwyd ef yn barchus mewn mynwent a berthynai i law-weithfa Seisonig yn Lisbon; a'r Sabbath canlynol, traddododd eu capelwr ei bregeth angladdol. Parodd y newydd galarus hwn ofid cyffredinol yn Lloegr; a chyfododd cynnulleidfa Northampton gofgolofn hardd iddo yn eu capel, er amlygu eu serch ato, a'u galar ar ei ol; ac ysgrifenodd ei gyfaill, Gilbert West, gofargraff briodol i'w cherfio arni.

Yr oedd holl fywyd y Dr. Doddridge yn anrhydedd iddo ef, ac yn fantais i'w deulu ac i'r byd; yn gymmaint felly, fel tra yr oedd yn nesau i'r byd tragwyddol, yr oedd ei lwybr, mewn modd tra nodedig, fel llwybr y cyfiawn, yr hwn sydd fel y goleuni, yn myned rhagddo fwyfwy hyd ganol dydd.—(*Orton's Life of Dr. Doddridge; Dr. Kipps' Life of Dr. Dod.; Bogue and Bennet's Hist. of Dissenters*, &c.)

DROMEDARIAID. Gwel CAMELOD.

DROPSI, DYFRGLWYF, [Lladin, *hydrops*, o'r gair Groeg, *udor*=dwfr, ac *ops*=yr olwg, neu yr agwedd]: *Luc* xiv. 2. Afiechyd a achosir gan grynhoad dwfr mewn amrywiol ranau o'r corff. Pan y chwanegir y gair *codenog* (*encysted*), yr hyn a ddeallir ydyw casgliad o hylif teneu mewn coden, yn gyffredin yn y dirgeloedd. Dosberthir yr afiechyd hwn gan feddygon dan wahanol enwau, i gyfateb i'w wahanol raddau, neu i'r rhanau o'r corff yr effeithir arnynt ganddo. Cyn y byddo wedi ymddadblygu yn gyflawn, gelwir ef lliflant (*cachexy*); pan y byddo yr hylif dyfrllyd wedi ymgasglu yn y bilionen gellawg, dyfrglwyf (*anasarca*) ydyw; pan y byddo yr ymgasgliad yn y ceudod, bolddyfrwst (*ascites*) ydyw; pan yn y ddwyfron, bronddyfrglwyf (*hydrothorax*); pan yn y pen, penddyfrwst (*hydrocephalus*); pan yn y bru, bruddyfrwst (*hydrops uteri*), &c. Y mae amryw achosion rhagarweiniol i'r dropsi, yn mysg pa rai y gellir crybwyll tuedd naturiol, cyfansoddiad dyfrllyd, aros mewn awyr laith, ymosodiad afiechyd llynorol, cymmeryd ymborth annhreuliadwy, yfed gormodedd o hylifau dyfrllyd, neu wirodydd poethion; ffurfiau penodol o ennynfeydd, a chlefydau ereill, megys y dwymyn goch, y clwyf melyn, y gwaedlif, rhyddni, darfodedigaeth, y gymmalwst, pob math o glefydau dysbeidiol hirbarhaol—y cwbl o ba rai a achosant arllwysiad helaeth. Mewn dropsi, yn gyffredin, yr arwydd cyntaf ydyw chwydd yn y traed a'r fferau, yn enwedig tua'r prydnawn; teithia y duedd hon at chwyddo yn raddol tuag i fyny, gan effeithio yn gyntaf ar y cluniau. ac wedi hyny ar yr holl gorff; chwydda y gruddiau a'r amrantau; cyll y llygaid eu dysgleirdeb; ä y croen yn welw ei liw, ffrydia dwfr allan trwy y chwysdyllau, neu fe gyfyd codenau bychain dyfrllyd yn y croen; teimla y claf yn farwaidd, a phoenir ef yn fynych gan beswch, bolrwymder, a syched anniwalladwy; gwna ddwfr yn afreolaidd—weithiau ychydig, ac o liw cryf, a phrydiau ereill yn helaethach, ac o liw goleuach, ond bydd bob amser o'r braidd yn dew a chymmysglyd; a theimla flinder, poethder, a gwendid cyffredinol. Mae triniaeth yr afiechyd yn gynnwysedig mewn carthu yr hylif casgledig allan o'r corff trwy wahanol gyfferiau a duiliau. Dylid gwisgo rhwymynau am y coesau a'r coluddion; ac ymborthi ar fwydydd ysgeifn a maethlawn, yn nghyd â llysiau, megys berw'r dwfr, garllegau, dail mwstard, wynwyn, &c.; cymmeryd ymarferiad cysson, ymdrochi mewn dwfr oer, a defnyddio cyfferiau cryfhaol, megys *cascarilla, cusparia, quassia, quinine*, a haiarn. Ond er pob ymdrech, anaml y gellir meddyginiaethu y claf. Y mae yn wahanol gyda phlant, os mewn canlyniad i'r frech goch, y dwymyn goch, &c., y byddant wedi cael y dropsi. Os mabwysiedir moddion priodol, y mae yn bosibl yn gyffredin eu meddyginiaethu hwy.—(*Encycl. of Dom. Med.*)

DRUDANIAETH, [*drud*]: prinder. Unwaith y mae y gair *drudaniaeth* yn y Beibl, hyd yr ydys yn cofio, sef yn *Ier.* xiv. 1; "Gair yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Ieremïah o achos y *drudaniaeth.*" Ystyr y gair gwreiddiol yma yw *attaliadau.* Fe allai ei fod yn cyfeirio at attaliad y cawodau, fel y dygwyd sychder ar y ddaiar; a'r sychder yn dwyn prinder, yr hyn yn wastad yw yr achos o ddrudaniaeth. *Dearth* ydyw y gair Seisonig yn y lle hwn; a'r gair Cymraeg a ddefnyddir yn gyffredin lle y dygwydd hwnw mewn manau ereill yn y Beibl ydyw newyn; megys yn *Gen.* xli. 54; 2 *Bren.* iv. 38; 2 *Cron.* vi. 28; *Neh.* v. 3; *Act.* vii. 11; xi. 28. Y mae newyn a drudaniaeth yn gymdeithion mor agos fel nad yw yn rhyfedd eu bod yn cael eu cymmysgu fel hyn. Gwel NEWYN.

DRUSIAID, [*Druses*]: plaid hynod o bobl, yn preswylio mewn gwahanol barthau o Libanus ac Anti-Libanus, a pharthau o Syria a Phalestina; ond yn Kesrovan, talaeth yn Mynydd Libanus, yn gwynebu at Fôr y Canoldir, y mae eu prif sefydliad. Hyd tua chanol y ganrif ddiweddaf, yr oeddynt yn ddarostyngedig i saith o dywysogion bychain, neu emiriaid; ond darostyngwyd hwynt i'r fath raddau trwy yr ymrafaelion mynych a gymmerent le rhwng y tywysogion hyn, fel y galwasant yn nghyd, er mwyn diogelu eu rhyddid cenedlaethol, gynnadledd arbenig, yn yr hon y penderfynwyd rhoddi yr awdurdod oruchaf yn nwylaw un prif dywysog, yr hwn oedd i breswylio yn Deir el Kamer, yn y dalaeth fynyddig i'r gogledd o Saida. Y maent o'r bron yn hollol annibynol ar lywodraeth Twrci,

Digitized by Google

gan na ofynir oddi wrthynt ond teyrnged fechan. Y mae rhai wedi eu holrhain i Drusiaid Herodotus; ac ereill, yn neillduol haneswyr Ffrengig, i'r gwrol Iarll de Dreux, yr hwn, gyda dyrnaid o wŷr, a enciliodd i'r parthau hyny o Ierusalem tua'r flwyddyn 1187; ond yn anffodus i'r dybiaeth hon, crybwylla Benjamin o Tudela am danynt, yr hwn a fu yn ymweled â hwy yn 1173. Y mae eu gwir darddiad wedi ei gael yn *Elmacin's History of the Saracens.* Yn y flwyddyn 408 o'r ffoad (B. A. 1016—17), ymddangosodd twyllwr o'r enw Mohammed Ebu Ismal neu Al-drusi, neu Mohammed ben Ismael Darasi, yn llys Hakim, Califf yr Aipht, gan yr hwn y derbyniwyd ef yn groesawgar; ac ymdrechodd yntau berswadio y bobl mai y Califf Hakim oedd y gwir Dduw, creawdwr y byd, fel y dangosir eto. Wedi i ryw Dwrc ladd yr Ismael Darasi hwn, cymmerwyd ei le gan dwyllwr arall o'r enw Hamah Ebu Ahmed Al-badi, mewn canlyniad i ymdrechion yr hwn y darfu i'r Califf, a dim llai nag 16 000 o bobl, yn ystod ychydig flynyddoedd, restru eu henwau fel credinwyr yn yr athrawiaeth newydd, gan esgeuluso Islamiaeth; a sefydlwyd y sect newydd yn weithredol. Wedi cael eu halltudio, yn mhen amser, o'r Aipht, ymsefydlasant ar ororau Syria, yn enwedig yn amddiffynfeydd y mynyddoedd, lle y maent byth ar ol hyny, i raddau mwy neu lai, wedi bod yn alluog i amddiffyn eu hunain yn erbyn eu gelynion. Y mae amryw o'u henuriaid yn enwog mewn hanesyddiaeth am eu gwroldeb a'u talentau cyffredinol; a dynodir rhai o honynt fel dynion caredig a chyfeillgar.

Y mae gwahanol farnau gyda golwg ar eu tarddiad cenedlaethol: ond y farn fwyaf gyffredin ydyw, eu bod hwy, fel eu cymmydogion, y Maroniaid, wedi deilliaw gan mwyaf o'r hen Syriaid, gan gymmysgu yn achlysurol âg estroniaid, yn enwedig yr Arabiaid. Dywed Malte Brun fod eu rhifedi, yn ei amser ef, yn 120,000; ond y mae Mr. Connor, cenadwr lled ddiweddar yn y parthau hyny, yn barnu nad oeddynt yn ei amser ef dros 70,000, o'r rhai yr oedd 10,000 yn Akkaliaid, sef yr urdd gyssegredig. Cynnyddasant yn fawr yn ddiweddar yn Haurân, dwyrain Palestina; a cheir rhai o honynt o amgylch Safed hefyd, yn Palestina briodol. Dywedir hefyd fod rhai o honynt eto i'w cael yn yr Aipht, lle y dechreuodd eu crefydd, sef yn ngororau Cairo: ond gorfodir hwy gan ofn y llywodraeth wladol i gadw eu cred yn y modd mwyaf dirgel. Nid oes goddefiad iddynt fel sect grefyddol hyd yn oed yn Libanus, ond fel y maent, trwy eu hegni a'u gwroldeb, yn gallu cadw eu gelynion draw; canys nid ydynt ond ffug Foslemiaid.

Gyda golwg ar eu henw, y mae rhai o'u hysgrifenwyr hwy eu hunain yn ei darddu o'r ferf Arabaeg *darisa* (gyda *se*), gan ei chyfieithu "a roddwyd mewn meddiant" (o'r ffyrdd), neu priodolant ystyriaethau i'r gair nas ceir mewn un man arall, sef *myned allan, ymostwng;* "am eu bod wedi myned allan oddi wrth yr holl genedloedd, ac wedi ymostwng i ddeddfau yr Arglwydd" (Hamsa, neu Hakim); neu tarddant yr enw o *darisa* (gyda *sin*); felly Druse sydd un "a ddarllen lyfrau Hamsa, fel y mae efe yn rhwym o wneuthur." Galwant eu hunain yn gyffredin, Cyffeswyr yr Undod, Undodiaid (*Muhwahhidun*) a'u hathrawiaeth, Cyffes yr Undod (*Tauhid*), yr hyn yn ddiau sydd yn cyfeirio at syniad syifaenol eu cyfundrefn.

Er eu bod o ran proffes allanol yn Foslemiaid, ac yn cael eu cyfrif felly gan y rhai sydd heb adnabod eu gwir gred, eto nid ydynt mor elynol yn eu calonau at Gristionogaeth ag at Islamiaeth, o'r hon y maent yn gangen anffurfiol. Am hyny, yn un o'u llyfrau athrawiaethol, lle y gofynir, "Beth a ddywedwn am Mohammed?" yr ateb a roddir yw, "Diafol yw, a mab putain;" tra mai yr ateb i'r holiad yma—"Beth a ddywedwn am efengyl y Cristionogion?" ydyw—"Y mae yr efengyl yn wirionedd." Y mae hyn wedi achosi iddynt gael sylw Cristionogion Ewropaidd. Ond er pob ymdrech a wnaed i dreiddio i ddirgelwch eu hopiniynau, y mae yn bur anhawdd darganfod beth ydyw eu gwir gredo. "Gyda golwg ar grefydd y Drusiaid," meddai Wolff, "ni bum i yn alluog yn Hasbeiya —un o'u trigfanau—nac mewn un man yn Libanus, i ganfod dim newydd: y maent yn dra gofalus am gadw eu crefydd yn gyfrinach; ac os gofyn Cristionogion neu Fahometiaid rywbeth iddynt yn ei chylch, yr unig ateb a roddir fydd, nad oes gan y Drusiaid ddim crefydd." Ychydig iawn o gyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle hyd yn hyn yn eu hymddygiadau. Y mae rhai wedi bod yn gobeithio yn ddiweddar y gall y Drusiaid a'r Maroniaid eto ffurfio canolbwnc diwygiad crefyddol yn y dwyrain; ond os cymmer hyny le, yr hyn sydd yn dra annhebyg yn bresennol, nid trwy grefydd y Drusiaid y dygir ef oddi amgylch, ond er ei gwaethaf. Ymddengys mai ffynnonell wreiddiol eu crefydd yw athrawiaeth y Batiniaid neu yr Esotericiaid—cangen o'r Ismaeliaid—un o wahanol ddosbeirth y Shiitiaid (*Shi'ah*, gwrthwynebol i Sunna, Sunnitiaid). Y mae y Batiniaid yn haeru "fod i bob peth allanol ei ystyr mewnol, a bod i bob ymadrodd yn y Coran ystyr mewnol ac allegol." O ganlyniad, trwy ddilyn yr egwyddor yma, gallant gael y peth a fynant yn y Coran. Fel yr holl Shiitiaid, y mae yr Ismaeliaid yn ymlynu yn neillduol wrth Ali, hiliogaeth yr hwn nis gellid eu hamddifadu o'r Imamat (sefyllfa gyntaf ac uchaf y Mahometiaid), a gwahaniaethent eu hunain oddi wrth y Shiitiaid ereill yn hyn, fel y mae eu henw yn arwyddocau; sef, eu bod yn golygu Ismael fel yr iawn Imam, ar ol ei dad Dschafar Zadik. Os ystyrir y Carmathiaid fel y sect o'r hon y tarddodd y Drusiaid, mae y golygiad yn gywir, canys canghen ddiweddarach ydynt hwy o'r Batiniaid. Yr oeddynt hwy, nid yn unig yn cario arallegu i eithafon, ond yn gwneuthur defnydd hefyd o athroniaeth a damcaniad i'r fath raddau ag i fwrw o'r neilldu gyfiawnder a threfn, cystal a phob math o ddadguddiad ac awdurdod ddwyfol; a dysgent atheistiaeth a materolaeth noeth; ond cadwent y pethau hyn fel athrawiaethau cyfriniol rhag y rhan fwyaf o'u haelodau.

Ond aeth y Drusiaid yn mhellach na'r Carmathiaid, trwy gredu fod y Duwdod wedi ymddangos yn mherson gormesydd mympwyol, creulawn, a gorphwyllog, sef chweched Califf y Fatimidiaid (trydydd Califf yr Aipht). Pan yr esgynodd y Califf yma i'r orsedd, cymmerodd yr urddas anrhydeddus o Hakim Biamrillahi ("yr hwn sydd yn barnu trwy orchymyn Duw"), a theyrnasodd o'r flwyddyn 386 hyd 411 o'r ffoad. Cafodd lawer o flinderau i ymryson â hwy, ac o'r diwedd llofruddiwyd ef gan un o'r Tyrciaid, fel y crybwyllwyd eisoes. Ar farwolaeth ei dad, Asis Billah, nid oedd efe yn llawn un mlwydd ar ddeg a hanner oed; ond ymryddhaodd yn fuan oddi wrth y dynion yr oedd ei dad wedi ei osod

Digitized by Google

dan eu gofal. Yr oedd newidiad swyddogion a chyfreithiau yn brif nodwedd ei holl deyrnasiad. Ymddangosai tuedd Shiitaidd mewn llawer o'i weithredoedd. Yn y flwyddyn 391 o'r ffoad, mynodd dori pen dyn o Syria am wrthod cydnabod Ali. Yn 393, yr oedd ei sêl dros Islam ac Ali yn cynnyddu yn nodedig, a dechreuodd erlid y Cristionogion a'r Iuddewon. O hyny hyd 405, dywedir i fwy na 30,000 o eglwysydd a mynachlogydd gael eu distrywio trwy ei orchymyn yn yr Aipht a Syria, ac yn eu plith Eglwys yr Adgyfodiad yn Ierusalem, cystal a lluaws o synagogau Iuddewig. Yn y cyfamser (400 o'r ffoad), ymwrthododd Hakim yn ddifrifol drachefn âg arferion y Shiitiaid, ac ymddangosai yn tueddu at y blaid Sunnitaidd. Pa fodd bynag, nid oedd y newidiad ymddangosiadol hwn ond o fyr barhad, canys dychwelodd yn ddisymmwth, yn 403, i'w hen sefyllfa; ac o 404 hyd ddydd ei farwolaeth, dangosodd ei hun yn elynol i'r Sunnitiaid. Fe gymmerodd ymddygiad penrhydd gwragedd yr Aipht yn esgus dros wahardd iddynt fyned allan na dydd na nos, nac hyd yn oed i edrych trwy y drysau na'r ffenestri; fel y darfu i luaws, am y rhai nad oedd neb yn gofalu, feirw yn eu tai o ddiffyg ymborth a dillad. Ond parodd y weithred greulawn yma ddigofaint cyffredinol ato, ac arweiniodd i gydfradwriaeth yn ei erbyn, gan ei chwaer a gŵr urddasol yn y llywodraeth, yr hyn a derfynodd yn ei lofruddiad.

Y mae y flwyddyn 408 (yn ol ereill 407) o'r ffoad wedi ei sefydlu fel yr un y *dadguddiwyd duwdod Hakim;* yna canfyddir yr hyn a ganlyn yn un o'u catecismau:—

"*Hol.* Pa fodd a pha bryd yr oedd ein Harglwydd Hakim yn weledig?

*At.* Yn y flwyddyn 400 o ffoad Mahomet.

*Hol.* A pha fodd yr oedd efe yn weledig?

*At.* Yr oedd efe yn weledig, a dywedai ei fod o hiliogaeth Mahomet, er mwyn celu ei dduwdod.

*Hol.* A pha ham y celai efe ei dduwdod?

*At.* Am nad oedd ei arosiad ond byr yn unig, ac nid llawer oedd y rhai a'i carent ef.

*Hol.* A pha bryd yr ymddangosodd efe, ac yr amlygodd ei dduwdod?

*At.* Yn y flwyddyn 408.

*Hol.* Ac am ba sawl blwyddyn yr arosodd ei dduwdod ef yn weledig?

*At.* Am wyth mlynedd gyfan, ac efe a gelodd ei hun yn y nawfed flwyddyn, am mai blwyddyn o drallod ac ad-daledigaeth ydoedd."

Daeth cenadwr o sect y Batiniaid—Muhammed ben Ismael Darasi, a elwid Neschtekin gan yr ysgrifenwyr Drusiaidd, yr hwn y dywedid mai Persiad o enedigaeth ydoedd—i'r Aipht, ac aeth i wasanaeth Hakim, gan yr hwn y llwythwyd ef â'r urddau uchaf, am yr hyn y galwodd yntau ar y bobl i gydnabod y Califf fel Duw—Creawdwr y byd; ac ysgrifenodd lyfr i brofi ei hawl. Ond pan ddarllenodd efe allan o'r llyfr hwn mewn teml Fahometaidd yn Cairo, aeth y bobl mor greulawn ato fel mai prin y gallodd ddianc rhagddynt; parhaodd y cythrwfl am dri diwrnod, a lladdwyd llawer o'i blaid. Ni feiddiodd y Califf ei amddiffyn yn gyhoeddus; am hyny cynghorodd ef i ymadael i Syria, lle y gallai, yn mysg pobl ddifoes a syml y mynyddoedd, ledaenu ei athrawiaeth. Gwnaeth Darasi hyn yn llwyddiannus yn Nyffryn Teim Allah, o'r tu gorllewin i Damascus, yn nosbarth Paneas. Llwyddodd trwy gyfranu aur yn helaeth, ac addewidion am oddefiadau penrhydd. Yr oedd y dyb o drawsfudiad yr enaid yn brif bwnc yn ei athrawiaeth; canys dywedai fod enaid Adda wedi ail ymddangos yn Ali ben Abu Taleb, yna yn hynafiaid Hakim, ac yn awr yn Hakim ei hun. Dywed ysgrifenwyr y Drusiaid fod Darasi, a llawer o'i ganlynwyr, wedi eu lladd yn 410 o'r ffoad; ond dywed hanesion ereill ei fod yn rhyfela yn 411 yn erbyn y Tyrciaid, gan y rhai, fe allai, y lladdwyd ef mewn brwydr.

Ar ol ail gynnyg aflwyddiannus gan un Hasan ben Haïdara Fergani, a gyfenwid *Akhram*, er sierhau parch dwyfol i Hakim, cymmerwyd y cynllun i fyny gan ddyn medrus, yr hwn, fe allai, oedd wedi bod yn gynhyrfydd dirgel yr holl symmudiad, ac am hyny a olygir yn gyfiawn gan y Drusiaid hyd heddyw fel sylfaenydd eu cyfundeb crefyddol—twrbanydd (*turban-maker*)—un Hamsa ben Ali ben Ahmed, a gyfenwid Hadi (y llywydd). Persiad ydoedd o genedl; daeth i'r Aipht, a chymmerodd ei breswylfa o'r tu allan i Cairo, yn nheml Bir; ac yn raddol a chyfrwys, ennillodd ganlynwyr, llawer o'r rhai a ddanfonodd efe allan yn genadon i Syria a'r Aipht. Dechreuodd ef bregethu yn gyhoeddus yn y flwyddyn 408 o'r ffoad. Yr oedd yr ieuanc Neschtekin Darasi yn un o'i broselytiaid; a dichon y dymunai roddi prawf ar y farn gyffredin trwyddo ef, ond tebycach yw i'r dysgybl geisio cael y blaen ar ei athraw. O leiaf, y mae Hamsa yn ei gyhuddo o falchder a rhyfyg, a hyd yn oed o ymgeisio am yr Imamat. Yr oedd cyd-ddealltwriaeth, wrth gwrs, rhwng Hamsa a'r Califf, a daeth gwir fwriadau yr olaf yn fwyfwy amlwg. Ymattaliodd oddi wrth ei weddïau arferol yn y deml ar ddyddiau gwylion; anghefnogai bererindodau i Mecca, ac ni anfonodd chwaneg o anrhegion i addurno y Caaba. Fel yr oedd sect y Drusiaid yn cynnyddu dan ei nawdd a'i ffafr ef, yr oedd digofaint y gwir Foslemiaid hefyd yn chwanegu, fel nas gellid gochel cyd-darawiad gelynol. Gan hyny, pan oedd tyrfa o gymdeithion Hamsa, yn 411, wedi ymdyru yn y deml (*mosque*), ac wedi gwysio y Cadi (barnwr Tyrcaidd) yno i gydnabod duwdod Hakim, lladdwyd y llefarydd ac amryw gydag ef. Parodd y Califf i'r llofruddion gael eu cymmeryd i fyny a'u rhoddi i farwolaeth, tra yr ymosodwyd ar breswylfa Hamsa gan y blaid wrthwynebol, yr ysbeiliwyd ei eiddo, ac y dinystriwyd y cwbl yn nghyd â'i holl weision. Diangodd ef ei hun i gastell y Califf, gan yr hwn y cuddiwyd ef. O'r flwyddyn 408, yr oedd Hakim yn ymgeisio am anrhydedd dwyfol, a thrwy gyfundrefn dra eang o ysbeilwriaeth, rhoddodd allan ei fod ef yn sefyll mewn cymundeb neillduol â Duw; ac archai i bob un gyfodi pan grybwyllid ei enw ef mewn gweddi gyhoeddus. Dechreuodd y werin ddall ar y cyntaf gredu, yna, gweithredu; yn wir, aethant yn mhell tu hwnt i'w ddymuniadau ef; a hyd yn oed o'r tu allan i furiau y deml yr oeddynt yn ei addoli, gan lefain, "O! Tydi yr unig un! O! Tydi, yr hwn a roddi fywyd ac angeu!" Yr oedd yr ymadroddion annuwiol hyn yn hollol gymmeradwy ganddo ef, canys atebodd yntau yn yr un ysbryd, "Eiddo fi yw y Nilus, a myfi yw yr hwn a'i creodd hi." Cyfnewidiodd ei deimlad yn awr at yr Iuddewon a'r Cristionogion: peidiodd eu herlid mwyach, a hyd yn oed caniataodd i'r Cristionogion a orfodid cyn hyn i fod yn Fahometaid i broffesu eu crefydd flaenorol yn gyhoeddus: derbyniodd 6,000 o honynt y rhagorfraint hon. Ail agorwyd yr eglwysydd oedd o'r blaen wedi eu cau; ail adeiladwyd y

Digitized by Google

rhai oedd wedi eu distrywio; adferwyd yr etifeddiaethau a attafaelwyd, a diddymwyd y cyfreithiau gorthrymus.

Dywedir i Hakim ddysgu oddi wrth ei enidgoel (*horoscope*) fod perygl mawr yn ei fygwth ar y nos y lladdwyd ef a'r dydd canlynol; am hyny, dymunodd ei fam arno aros yn ei balas hyd nes yr elai yr adeg beryglus heibio, ac addawodd yntau wneuthur hyny; ond dan ddylanwad hen arferion, wedi i'r rhan fwyaf o'r noson basio, marchogodd i Karafa ar ei asyn. Pan ar fynydd Mokattam, â'r hwn yr arferai ymweled, efe a edrychai tua'r wybr ddwyreiniol, a gwelai Mawrth yn esgyn y terfyngylch, a murmurai wrtho ei hun—"Felly, ti a gyfodaist, seren felldigedig, tywalltydd gwaed! Y mae fy awr wedi dyfod." Yn awr, syrthiodd y llofruddion arno, a gyflogasid gan ei chwaer, ac a ymguddient ar y lle i'r perwyl, a lladdasant ef a chaethwas ieuanc, ei unig gydymaith ar y pryd; ac wedi anafu ei asyn, cariasant y corff i'r palas, lle y claddwyd ef. Pan holwyd ei chwaer yn nghylch ei ddiflaniad disymmwth, yn 36 mlwydd a 7 mis oed, dywedodd hithau mai wedi ymguddio yn wirfoddol yr oedd, er mwyn ysgoi y perygl, yr hwn a'i bygythiai am saith niwrnod. Treuliwyd yr wythnos hono ganddi i gyfranu arian a phethau ereill yn helaeth, er mwyn sicrhau olyniad mab Hakim, yr hwn nid oedd eto ond plentyn. Yna lladdodd yr holl rai oedd yn nghyfrinach y gyflafan. Credodd rhai o'r teulu Aiphtaidd nad oedd Hakim wedi marw. Y mae ei addolwyr—y Drusiaid—yn edrych fyth am ei ddychweliad. Haerodd ereill ei fod wedi myned i'r anialwch, a throi yn fynach. Daeth lluaws o dwyllwyr yn mlaen, yn hòni bod yn wir Hakim. Bu un Scherut, Cristion gwrthgiliedig, yr hwn oedd debyg i Hakim o ran llais a ffurf, yn chwareu y rhan yma am ugain mlynedd, dan yr enw Abularab. Mewn canlyniad i gyfansoddiad o waith Hamsa, credodd y Drusiaid fod Hakim wedi myned o'r golwg o blegid pechodau dynion; am hyny, gwaharddodd eu hathraw iddynt wneuthur un ymchwiliad am dano. Prif nodweddau duw y Drusiaid oedd llygaid gleision mawrion, tanllyd, a llais cryf erchyll; ansefydlogrwydd a chreulondeb, hunanolrwydd diderfyn, tuedd at ynfydrwydd, hynodrwydd, ac ofergoeledd, amddifadrwydd o bob egwyddor foesol, yn nghyd â gradd o ddoethineb a chraffder, yn gysylltiedig âg ychydig olion, ar amserau, er yn bur anaml, o deimlad dros gyfiawnder, uniondeb, a boneddigeiddrwydd. Dichon fod ei elynion yn mwyhau ei gamweddau; ond os felly, yr oedd digon yn aros, er hyny, i wneyd ei enw yn felldigedig yn ngolwg dynolryw, canys syrthiodd 18,000 o ddynion yn ebyrth i'w greulondeb. Y mae profion eglur yn hanesion awdurdodol y Drusiaid eu hunain am dduwdod eu harwr, o'i lygredigaeth moesol, ei wammalrwydd barbaraidd, a'i orphwylledd afresymol.

Y mae y Drusiaid yn cyfrif eu prifnod (*era*) o ffug ddadguddiad Hamsa, a elwir blwyddyn Hamsa, yn cyfateb i 408 o'r ffoad. Dysgybl cyntaf Hamsa, hyd yr amser hwn, oedd Abi ben Ahmed Habbal, yr hwn, yn ei dro, a argyhoeddodd Darasi a Mobarek ben Ali. Fe gaůir y flwyddyn 409 allan o brifnod Hamsa, a golygir hi fel blwyddyn o flinder a gofid. Yn y flwyddyn hono yr arosodd Hakim yn guddiedig; ond defnyddiodd ei amser hamddenol i ysgrifenu y llyfrau oedd yn sylfaen cyfundrefn y Drusiaid. Dywed Sacy a Wolff, yr awdurdodau goreu ar y Drusiaid, mai nid dyn cyffredin ydoedd Hamsa, ac nad penboethyn dall ydoedd, na wyddai at ba beth yr oedd yn cyfeirio. Pa fodd bynag, nid ydynt yn rhoddi eglurhad ar ei argyhoeddiadau dirgelaidd; a chan fod yr hanes a rydd ef o'r amgylchiadau, yn y rhai yr oedd efe yn brif weithredydd, yn mhell o fod yn wir, y mae lle i gasglu nad oedd efe yn credu yn ei gyfundrefn gyfeiliornus ei hun. Ond pan y cofiom am y dull allegol gwyllt o ddeongli y Coran oedd mewn arferiad er ys hir amser yn mysg y Mahometiaid, fe ddichon ei fod yn twyllo ei hun. Ac eto y mae yn anhawdd meddwl felly, pan ddarllenir yn ei lyfr, a elwir *Achos yr Achosion*, ddadganiadau fel hyn:—"Myfi yw gwreiddyn creaduriaid; Myfi yw y wir ffordd; Myfi yw yr hwn a ŵyr ei ewyllys ef; Ydwyf; Arglwydd yr adgyfodiad a'r dydd olaf; Myfi yw arglwydd y farn olaf, a chenyf fi y dosberthir pob gwobrau; Myfi yw yr hwn a ddiddyma bob cyfreithiau blaenorol, ac a lwyr ddyfetha ymlynwyr wrth amrydduwiaeth a chelwyddau." Bydded hyn fel ag y byddo, mae yn wir mai un dall ydoedd yn tywys y dall; ond pa un a syrthiodd i'r ffos mor ddwfn ag yr haera ei elynion, fel ag y goddefai ymlosgach â chwiorydd, merched, a mamau, nis gellir penderfynu: nid ydyw ei ysgrifeniadau, cyn belled ag y maent yn adnabyddus, yn cynnwys y fath beth. Yn hytrach, y mae yn gorchymyn moesoldeb a ffyddlondeb priodasol. Os ydyw y Drusiaid diweddar yn peilio priodi y graddau gwaharddedig, canlyniad angenrheidiol ydyw hyny o'u proffes allanol mewn Mahometiaeth, yr hon nid ydyw yn ei ganiatau. Pa fodd bynag, y mae gair drwg iddynt hwy, fel sectau dirgel ereill Syria, gyda golwg ar y mater yma.

Y nesaf ar ol Hamsa a safai yn mysg arweinwyr y Drusiaid oedd Ismael ben Muhammed Temimi, a elwid yr ail gyfryngwr, yr hwn hefyd oedd yn ysgrifenydd medrus, ac o waith yr hwn y benthyca Sacy a Wolff yn helaeth. Ychydig a wyddys am y trydydd a'r pedwerydd cyfryngwr, ond llwyddodd y pummed—Moktana, neu Behaëddin—i gael dylanwad eang a pharhaus. Yr oedd efe yn awdwr pur ffrwythlawn a bywiog; ac ymestyna cyfnod ei ymdrechiadau ef o 411 hyd 430 o'r ffoad. Ar ol i Hamsa ymneillduo, efe a gymmerodd yr arweiniad, a defnyddiodd bob moddion i ledaenu ei sect. Aeth ei lythyrau yn y dwyrain cyn belled a Multan a gororau India; ac yn y gorllewin, hyd Caer Cystenyn. Cyfeiriwyd dau o honynt at yr ymherawdwyr Cystenyn VIII, a Michael y Paphlagoniad. Ymdrechai brofi ynddynt fod y Messiah wedi ail ymddangos yn Hamsa. Nis gallasai Hamsa gael gwell cynnrychiolydd o'i olygiadau—un a allasai eu hamddiffyn gyda mwy o sel a nerth. Ni bu y Drusiaid yn amddifad o ddynion dysgedig a bywiog ar ei ol ef, ond ni chyrhaeddodd neb o honynt gymmaint o sylw a'r arweinwyr boreuaf. Cyfansoddiad diweddar ydyw yr Holwyddoreg, a roddodd Alder ac Eichhorn yn yr iaith wreiddiol, gyda chyfieithiadau Lladin ac Almaeneg, yn eu llyfrau. Pan ymneillduodd Behaëddin, ymddengys i gynnydd y sect sefyll; ac y mae eu hanes o hyny hyd yn awr wedi ei doi â thywyllwch.

Gellir crynhoi eu credo yn fyr o'u hysgrythyrau fel y canlyn:—Un Duw sydd yn unig, ond nis gall neb amgyffred ei natur, ei hanfod, a'i briodoliaethau: nis gall y synwyrau ei ddirnad, na geiriau ei ddarlunio. Eto y mae efe wedi ymddangos i ddynion ar wahanol amseroedd

mewn ffurf ddynol, heb gyfranogi o anmherffeithderau a gwendid y ddynoliaeth. Yn olaf, efe a ymddangosodd yn mherson Hakim Biamrillahi, ac nid oes ymddangosiad eto i'w ddysgwyl. Er mwyn profi ffydd ei ddilynwyr, a gwahanu rhagrithwyr oddi wrth y gwir addolwyr, fe ymguddiodd Hakim, ond efe a ddychwel eto yn fuan mewn mawrhydi, i helaethu ei deyrnas dros yr holl ddaiar, ac i roddi iachawdwriaeth dragywyddol i'w bobl ffyddlawn. Y cyntaf o greaduriaid Duw, ei unig hiliogaeth digyfrwng ef, y tywyniad cyntaf o oleuni y Duwdod a lewyrchodd, yw y *meddwl cyffredinol*: efe a ymddangosodd yn mhob dadguddiad o Dduw, ac yn olaf dan y ffurf o Hamsa ben Ahmed. Gan y cyfryngwr cyntaf yma y dygwyd pob creadur arall i fod; ganddo ef yn unig y mae gwybodaeth o bob gwirionedd, ac allan o'r trysorau o ras a gwybodaeth a roddwyd iddo ef yn unig gan Duw y cyfrana efe, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, i bob cyfryngwr arall, cystal ag i'r credinwyr fel corff, mewn cyfartaledd i nerth eu dealltwriaeth a'u teilyngdod. Ganddo ef yn unig y mae dyfodfa ddigyfrwng at Dduw: y mae ar bawb arall ei angen ef fel cyfryngwr: efe sydd yn derbyn cleddyf Duw er cael buddugoliaeth ar ei elynion, goruchafiaeth gwir grefydd, a dosbarthiad gwobrau a chospedigaethau. Y mae cyfryngwyr o radd is o dano ef, y rhai hefyd sydd ganddynt hawl i ufudd-dod llwyr gan y ffyddloniaid. Y mae rhif y dynion y crewyd eu heneidiau gan y *meddwl cyffredinol* yn para byth yr un; ond y mae eu heneidiau yn myned yn raddol i amryw gyrff. Yn y dull yma, cyrhaeddant i radd uwch, os talant warogaeth briodol i'r gwirionedd; ac yn y gwrthwyneb, os esgeulusant ef.

Gyda golwg ar y cyfryngwr yma a'i olynwyr, dywedant, meddai Buck, mai y bod cyntaf o ran urdd a ddilyn Hakim, yw Hamsa, yr hwn a ymddangosodd yn amser Adda, dan yr enw Shatnil; yn amser Noah, dan yr enw Fitagurus; yn amser Abraham, dan yr enw Dafydd; yn amser Moses, dan yr enw Shoaib; yn amser Iesu, dan yr enw Lazarus; yn amser Mahomet, dan yr enw Soliman; ac yn amser Said, dan yr enw Zalech. Preswylid y saith cyfryngwr, neu y saith deddfroddwr hyn, gan yr un enaid, yr hwn a aeth o'r naill gorff i'r llall, yn ol rheolau trawseneidiad. Er y gallasai Hamsa rwystro i'r Iesu gario ei gyallun i weithrediad, eto, efe a oddefodd iddo sefydlu ei grefydd, mewn rhan, fel y gallai fod yn foddion i ddymchwelyd y grefydd Iuddewig, ac mewn rhan fel y gallai crefydd arall fod yn benaf, yn nghysgod pa un y gallai ef a'i Undodiaid fyw. Efe a gynnygiodd ddysgu Crist, ond o blegid iddo wrthod ei ddysgeidiaeth ef, efe a gynhyrfodd yr Iuddewon yn erbyn Crist, a hwy a'i lladdasant. Gau Fessïah oedd Crist, a Hamsa oedd y cywir. Am Hamsa yr oedd y pedwar efengylwr yn ysgrifenu; felly y mae Cristionogion wedi eu twyllo yn hollol, ac nis gellir eu gwaredu oddi wrth gyfeiliornad a phob drwg ond trwy ddyfod yn Undodiaid. Y maent yn derbyn y pedair efengyl, ond yn unig eu bod yn cymhwyso yr hyn a ddywedir am Grist at Hamsa; ac y maent yn proffesu derbyn y Coran, ond fel cochl yn unig i'w cysgodi rhag y Mahometiaid. Ymddengys i amryw o honynt, yn lled ddiweddar, gofleidio y ffurf allanol o Gristionogaeth, a hyny, y mae yn dra thebyg, am eu bod yn byw yn mysg y Maroniaid. Ar ol i Hakim ddiflanu o'r golwg, yn 409 o'r ffoad, fel y crybwyllwyd eisoes, tybiant nad ymddengys efe eto hyd ddydd y farn, yr hwn amser sydd yn anhysbys; ond un o'i arwyddion fydd, gwaith y Cristionogion yn darostwng y Mahometiaid. Rhoddir barn ar y pedwar dosbarth canlynol:—Y Cristionogion, yr Iuddewon, y Gwrthgilwyr, a'r Undodiaid. At yr Iuddewon y chwanegir y Mahometiaid, a'r Gwrthgilwyr yw y rhai a wadant ffydd Hakim. Yn y farn, gwobrwyir yr Undodiaid âg ymherodraeth ac arglwyddiaeth, â thrysorau o aur ac arian, a dyrchefir hwynt yn emiriaid, pashiaid, a sultaniaid. Bydd cospedigaethau y Gwrthgilwyr yn ddychrynllyd o lymion; ond cospir yr Iuddewon a'r Cristionogion yn dynerach.

Dywedant mai cysgodau yn unig o'r wir grefydd ydyw y crefyddau diweddar, ac mai dammegion yn unig yw eu defodau; gan hyny, ar ol dadguddiad y wir grefydd, rhaid i'r lleill oll gael eu dileu. Prif ddyledswyddau *cyffeswr undeb* ydyw gwirionedd, cariad brawdol, ymostyngiad i ewyllys Duw, ac ymwrthodiad â phob crefyddau ereill.

Ychydig sydd yn hysbys am ddefodau y Drusiaid, medd Hoffmann. Eu dydd cyssegredig ydyw dydd Gwener. Y mae eu temlau yn ddiaddurn, ac wedi eu hadeiladu mewn manau neillduedig. Gwahenir gwrywod y gynnulleidfa oddi wrth y benywod gan gysgodlen. Cyn i'r addoliad ddechreu, ymdrinent â materion o bwys, cyhoeddus a neillduol. Darllenir ymadrodd o'u llyfrau cyssegredig, a chenir emyn; yna bwyteir ffigys, grawnwin sychion, &c., ar draul y cyffredin, ac ymwasgar y gynnulleidfa. Erys y prif ddynion ar ol, yn nheml y Sheik, i eistedd mewn cynghor. Dywedir fod y Drusiaid yn talu parch dwyfol i lo aur, a gadwant mewn cist ddirgel. Meddylir yn gyffredin mai eilun o Hakim ydyw. Rhoddodd Alder ddarlun o hono, yn ol copi sydd yn Amgueddfa Borgianum yn Rhufain. Y mae wedi ei orchuddio â llythyrenau dirgel, cyffelyb mewn rhan i'r Arabaeg. Y mae Venture wedi dadgan y dyb eisoes mai eilun anghywir ydyw, gan fod eu llyfrau crefyddol yn gwahardd addoli eilunod yn bendant; ac y mae Silv. de Sacy yn cadarnhau y golygiad yma. Nid ydyw y llo hwn, yn ol Venture, ond arwydd o grefyddau ereill, y rhai a ddarlunir yn eu llyfrau hwy fel llo neu ych; neu, fe allai, fel y tybia de Sacy, mai arwyddo gelyn Hakim y mae. Y mae yn dra thebyg fod y peth yn gwbl anadnabyddus i'r Drusiaid boreuaf.

Dywed Buck fod y Drusiaid yn ddau ddosbarth:—.

1. *Y Djahals*, sef yr anwybodus neu yr anegwyddorol, ac yn cynnwys y rhan fwyaf o honynt, a hyd yn oed yr emir ei hunan; ac ni oddefir iddynt ymyryd dim â materion crefyddol. Nid ymddengys fod ganddynt unrhyw grefydd benodol, ond y cydymffurfiant â'r hon a ddygwyddo fod yn ffynu yn y lle y byddont, er mwyn celu eu bod yn perthyn i unrhyw sect neillduol. Nid yw y rhai hyn yn ymattal oddi wrth unrhyw fwydydd na diodydd; ac y maent yn priodi gwragedd heb fod yn Drusiaid, ac yn gwisgo dillad brithion.

2. *Yr Akkals*, "meddylgar, egwyddorol," y rhai sydd yn ffurfio yr urdd gyssegredig, neu urddasol, y rhai sydd yn cyflawnu seremoniau eu crefydd yn eu haddoldai, ond gyda'r fath ddirgelwch, fel nad oes neb erioed wedi cael allan eu natur. Pe dygwyddai i rywun o'u deiliaid anegwyddorol fod yn dyst o ryw ran o'u gwasanaeth crefyddol, rhoddid ef i farwolaeth



Digitized by Google

yn y fan. Y maent yn dra llym gyda golwg ar eu crefydd, yn byw yn gymmedrol ar ymborth neillduol iddynt eu hunain, yn peidio bwyta gyda dyeithriaid; yn priodi gwragedd o'u hurdd eu hunain; ac nid ydynt byth yn cymmeryd llw, ond yn cadarnhau pob dadganiad trwy ddyweyd, "Myfi a'i dywedais." O honynt hwy y mae y pen ysbrydol neu eglwysig—Imam y Drusiaid —yn cael ei ddewis ar yr hwn yr edrychir gan yr egwyddorol a'r anegwyddorol gyda pharchedigaeth dirfawr.

Wrth ystyried anhawsder iaith ddansoddoldduwinyddol ysgrifenwyr y Drusiaid, a dyryswch eu dyfaliadau, nid rhyfedd fod ysgolhaig mor enwog a Silv. de Sacy wedi syrthio i rai cyfeiliornadau, hyd yn oed ar ol deugain mlynedd o efrydiaeth. Er hyny, ei lyfr ef ydyw y goreu a feddwn ar y pwnc. Y prif beth sydd yn angenrheidiol gyda golwg ar hyn ydyw argraffiad cyflawn o gyfansoddiadau mwyaf pwysig y Drusiaid. Y mae cyfres o honynt yn ngwaith Sacy. Y mae llawysgrifau o honynt yn Rhufain (yn y Vatican), yn Paris, Vienna, Rhydychain, a Leyden. Hefyd, y mae casgliad cyflawn o honynt wedi cyrhaedd Upsala a Munich. Cafwyd y rhai olaf hyn gan Clotbey, penaeth yr osgordd feddygol Aiphtaidd yn Syria, y rhai a roddodd efe yn anrheg i frenin Bavaria.

Yn y flwyddyn 1859, ymunodd y Drusiaid a'r Mahometiaid, yn Damascus a'r gororau, yn erbyn y Cristionogion, a gwnaethant alanastra dirfawr ac echryslawn. Cyfrifwyd fod o ddeutu 5,500 o ddynion, gwragedd, a phlant, wedi eu llofruddio yn Damascus yn unig, yn ystod y pump neu y chwe diwrnod cyflafan; a bod holl rif y personau a laddwyd mewn gwaed oer gan y Drusiaid a'r Mahometiaid, er pan dorodd y cythrwfl allan, yn nghylch 12,000. Distrywiwyd 163 o bentrefydd, 220 o eglwysydd, a 7 o fynachlogydd, a llofruddiwyd 200 o offeiriaid. Awst 20fed, 1860, parodd Fuad Pasha, y dirprwywr a appwyntiodd y Sultan i lethu y cythrwfl yn Syria, i 167 o bersonau oedd â llaw yn y gyflafan gael eu cymmeryd i fyny, a'u dienyddio yn Damascus; o'r rhai y saethwyd 110 o heddgeidwaid, a chrogwyd 50 o bersonau yn y parth mwyaf cyhoeddus o'r ddinas.—(*Sacy's Expl. T. I.; Graul, Reise nach Ostind. über Palestina; Eichhorn, Repert. d. bibl. u. morgenl. Lit.; Venture's Hist. Mem. on the Drus.; Herzog's Real. Encycl.; Buck's Theol. Dict.*, &c.)

DRUSILA, [Δρυσιλλα = *gwlithog*]: merch ieuengaf Herod Agrippa I, a Cypra, a chwaer Agrippa II, Bernice, a Mariamne. Pan ydoedd yn chwech oed, collodd ei thad, yr hwn a darawyd â barn am ei ryfyg pan ar ganol ei araeth: *Act.* xii. 21—23. Yr oedd yn hynod am ei harddwch a'i phrydferthwch; yn cael ei hystyried y lanaf yr olwg arni yn ei hoes. Yr oedd wedi ei dyweddïo cyn i'w thad farw i Epiphanes, mab Antiochus, brenin Commagene, dan yr ammod iddo gymmeryd ei enwaedu. Edifarhaodd Epiphanes ar ol hyny, a gwrthododd gyflawnu ei addewid, a phriododd hithau Azizas, brenin Emesa. Ond synwyd Felix, rhaglaw Palestina, gymmaint gan ei thegwch, fel yr hudodd hi trwy offerynoliaeth Simon y swynwr i ymadael âg Azizas, a'i briodi ef. Gobeithiai y gallai trwy y weithred anniwair yma osgoi ei chyd-darawiad annymunol â'i chwaer Bernice, yr hon oedd yn eiddigus at degwch Drusila. Lladdwyd ei mab Agrippa, o Felix, mewn ymdoriad o fynydd Vesuvius. Dan raglawiaeth Felix y dygwyd Paul yn rhwym o Ierusalem i Cesarea, lle yr oedd Felix ei hun wedi myned, a hyny, mae yn debyg, drwy annogaeth Drusila, yr hon, fel Iuddewes, a allasai fod yn awyddus am glywed rhywbeth am y Messïah. Cymmerodd Paul achlysur oddi wrth yr amgylchiad i draddodi ei ymresymiad nodedig am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd, pan y dychrynodd y rhaglaw ger ei fron: *Act.* xxiv. Tybir yn gyffredin fod Paul yn cyfeirio yn benodol yn ei ymresymiad at bechod y rhaglaw a'i wraig; pa fodd bynag, ni wrandawsant hwy arno.—(*Ios. Antiq.; Herzog's Real. Encycl.; Kitto's Bibl. Lit.*)

DRWS, DRYSAU, [Ir. *doras*]: porth, tramwyfa, mynedfa, bwlch, dôr. Arferir y gair *drws* fynychaf i ddynodi yr agorfa, y fynedfa, neu y dramwyfa i adeilad, ac i wahanol ystafelloedd mewn adeilad, a *dôr* i ddynodi cauad y drws. Gwel DOR. Oddi wrth hyn, fel y sylwa y Dr. Pughe, y cafodd amryw fynedfeydd rhwng mynyddoedd eu henwau; megys Drws y Coed, Drws y Nant, Drws Ardudwy, a'r cyffelyb. Yn yr ystyr yma y defnyddir y gair mewn rhai parthau o Gymru, a dyma yr ystyr a roddir fynychaf iddo yn y Beibl Cymraeg; megys, "Ac nac aed neb o honoch allan o ddrws ei dŷ hyd y bore;" *Exod.* xii. 22. "Dwg hefyd Aaron a'i feibion i ddrws pabell y cyfarfod;" *Exod.* xxix. 4. "A chlybu Moses y bobl yn wylo trwy eu tylwythau, bob un yn nrws ei babell;" *Num.* xi. 10. "A phan glybu Ahïah drwst ei throed hi yn dyfod i'r drws;" 1 *Bren.* xiv. 6. "Ac... Elias a safodd wrth ddrws yr ogof;" 1 *Bren.* xix 13. "A hi a safodd yn y drws;" 2 *Bren.* iv. 15 "Heb fyned allan o'n drws;" *Iob* xxxi. 34. "Ac os drws yw hi, ni a'i cauwn âg ystyllod cedrwydd;" *Can.* viii. 9. "Ac a dreiglodd faen mawr wrth ddrws y bedd;" *Mat.* xxvii. 60. "Ac a dreiglodd faen ar ddrws y bedd;" *Marc* xv. 46 "Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid;" *Ioan* x. 1.

Ond ni chedwir at y syniad yma yn wastad yn y Beibl gyda golwg ar ddrws; canys ceir fod y gair weithiau yn arwyddo *dôr* hefyd; megys, "Ac a nesaodd at ddrws y tŵr, i'w losgi ef â thân; *Barn.* ix. 52. "Fel drws yn troi ar ei golyn;" *Diar.* xxvi. 14. "A dechreu o honoch sefyll oddi allan, a churo y drws;" *Luc* xiii. 25. "Ac fel yr oedd Pedr yn curo ddrws y porth;" *Act.* xii. 13.

Defnyddir y gair drws yn fynych yn y Beibl yn ffugrol. Y mae y gair weithiau yn arwyddo agosrwydd; megys, "Gwybyddwch ei fod yn agos, wrth y drysau;" *Mat.* xxiv. 33; *Marc* xiii. 29; *Iago* v. 9. Y mae drws agored yn arwyddo cyfleusdra a rhwyddineb i fyned yn mlaen "Canys," meddai yr apostol, "agorwyd i mi ddrws mawr a grymus;" 1 *Cor.* xvi. 9. Hyny yw, rhwyddhawyd y ffordd o flaen yr apostol i gario ei waith yn mlaen yn mysg y Corinthiaid. Arferir y gair yn yr un ystyr yn 2 *Cor.* ii. 12; *Dad.* iii. 8. Wrth "ddrws ymadrodd" (*Col.* iv. 3), y golygai yr apostol, rhyddid i bregethu yr efengyl. Yr oedd efe ar y pryd "mewn rhwymau;" a dymunai ar y Colossiaid weddïo drosto "ar i Dduw agori iddo ddrws ymadrodd;" hyny yw, ar iddo gael ei ryddhau, fel y gallai gario y gwaith mawr a ymddiriedwyd iddo o ledaenu yr efengyl yn mysg y Cenedloedd yn mlaen. "Agorwyd i'r Cenedloedd ddrws y ffydd" (*Act.* xiv. 27), a arwydda wneyd y ffordd yn rhydd,

Digitized by Google

neu roddi cyfleusdra i'r Cenedloedd i gael yr efengyl. Mae Crist yn ei alw ei hun yn "ddrws y defaid;" *Ioan* x. 7. Efe yw y ffordd trwy yr hon y mae y credinwyr yn myned i'r eglwys; a thrwyddo ef—trwy ei haeddiant, ei eiriolaeth, a'i gymhorth ef, y mae myned at y tad: *Ioan* xiv. 16. Gwel DOR; PORTH.

DRYCH, [מראה]: drych ymwisgo, adlewyrcheg, gwydr neu ryw sylwedd gloew caboledig, a ffurfia lun neu ddelw y gwrthddrych cyferbyniol trwy adlewyrchiad pelydrau goleuni. Y mae drychau naill ai gwastad, argrwm, neu argeuol. Drychau gwastad, neu rai yn meddu gwyneb gwastad, a ddangosant wrthddrychau yn eu maint naturiol. Drychau argrwm a wasgarant eu pelydrau, ac o ganlyniad, a leihant ddelwau y gwrthddrychau. Drychau argeuol, neu rai â phant yn eu gwyneb, a gasglant y pelydrau, gan beri iddynt dywynu yn nghanolbwnc wyneb y drych, a thrwy hyny fwyhau y gwrthddrych. Gwneir drychau gwisgo o wydr wedi ei haenu o'r tu cefn âg arian byw, neu o fettel caboledig. O fettel llathraid neu gaboledig y gwneid y drychau dwyreiniol, ac yr oeddynt gan mwyaf yn argrwm. Felly dysgrifia Callimachus Venus megys "yn cymmeryd pres gloew," er mwyn gweled i drefnu ei gwallt. Os gwneid y drychau yn y dull yma yn ngwlad Elihu, ymddengys y ffugr a ddefnyddiodd efe yn dra bywiog. "A daenaist ti gydag ef yr wybren, yr hon a sicrhawyd fel drych (ראי) toddedig;" *Iob* xxxvii. 18. Dywed Shaw fod "drychau yn rhan o wisg benywod yn y Levant.



Dar. 243.—Drychau Aiphtaidd o fettel.

Mae y gwragedd Mwraidd yn Barbary mor hoff o'u haddurniadau, ac yn enwedig eu drychau, y rhai a grogant ar eu dwyfron, fel na roddant hwy heibio hyd yn oed ar ol caledwaith y dydd, pan orfodir hwy i fyned ddwy filltir neu dair gyda'u piserau neu eu crwyn geifr i gyrchu dwfr." Yr oedd gwragedd yr Israeliaid yn arfer cario eu drychau gyda hwy hyd yn oed i'r lleoedd addoliad mwyaf cyssegredig. Mae yn amlwg wrth yr adnod ganlynol mai mettel oedd drychau yr Hebreaid:—"Ac efe a wnaeth noe bres, a'i thraed o bres, o ddrychau gwragedd, y rhai a ymgasglent yn finteioedd at ddrws pabell y cyfarfod;" *Exod.* xxxviii. 8. Mae yn dra sicr am y drychau hyn, oedd gan wragedd yr Hebreaid yn yr anialwch, mai rhai a gymmerasant o'r Aipht oeddynt, a'u bod o'r un defnydd a'r rhai a gafwyd yn meddrodau y wlad hono, llawer o'r rhai sydd mewn bod eto yn ein hamgueddfeydd, a'n casgliadau o hynafiaethau yr Aipht. Metteloedd cymmysgedig ydyw y rhai hyn, copr yn benaf, wedi eu gweithio yn y modd mwyaf gofalus, a'u llathru yn dryloew; ac yr oedd medr yr Aiphtiaid wedi cyrhaedd y fath berffeithrwydd mewn cyfansoddiad metteloedd, fel yr oedd y cynnrychiolydd hwn o'n drychau ni yn ddarostyngedig i'r fath ddysgleirdeb, fel y gallwyd ei adnewyddu hyd yn oed yn ein dyddiau ni i raddau, yn y rhai a gafwyd yn Thebes, er iddynt fod yn gladdedig yn y ddaiar er ys cynnifer o ganrifoedd. Crwn oedd y drych ei hun, yn meddu coes o goed, careg, neu fettel, ffurf yr hon a amrywiai yn ol archwaeth y perchenog.

Cyfleithir gair Hebraeg arall yn ddrychau yn *Esa.* iii. 23; "Y drychau (הגליונים) hefyd." Cyfieitha y Dr. Lowth y gair yn "wisgoedd tryloew" (*transparent garments*). Dillad y gellid gweled trwyddynt, yn ol y Deg a Thrigain, fel dillad y Lacedemoniaid. Math ar wisgoedd meinwe, tryloew, o lin neu sidan, a wisgid gan rai moethus neu anllad yn unig.

Y mae tri gair Groeg a gyfleithir yn y Testament Newydd yn *ddrych.* Un ydyw *εσοπτρον* (*esoptrum*). Defnyddir ef mewn ystyr briodol am ddrych ymwisgo, neu adlewyrcheg, a hwn ydyw y gair priodol am hyny, fel y gwelir oddi wrth y manau canlynol allan o *Anacreon.* "Mi a ddymunwn fod yn ddrych, yr edrychid arno yn wastad genyt ti;" *Awdl* xx. 5. Hefyd, "Cymmer dy ddrych, ac edrych dy wallt gwyn, Och! rhag eu hanamledd;" *Awdl* xi. 3. Nid ydyw y gair yn dygwydd yn y Deg a Thrigain, ond defnyddir ef yn yr Apocrypha, "Er ymostwng o hono, ac ymgrymu, gwylia ar dy enaid, ac ymgadw rhagddo ef; a thi a fyddi iddo ef fel un yn sychu drych; a thi a gei wybod na sychodd efe ei rŵd yn llwyr;" *Eccles.* xii. 11. Gellir cael eglurhad ar hyn, wrth gofio nad gwydr, fel ein drychau ni, oedd yr hen ddrychau dwyreiniol, fel y sylwyd eisoes, ond *pres*, neu ryw fettel arall; ac am hyny, eu bod yn agored i frychau a rhwd.

Heb law yn yr ystyr priodol fel uchod, defnyddir ef yn allegol—(1.) Am yr hyn yr amlygir peth arall drwyddo gyda chywirdeb. Yn yr ystyr hwn hefyd ceir ef yn yr Apocrypha: "Canys dysgleirdeb y goleuni tragwyddol yw hi (doethineb), difrycheulyd ddrych gweithrediad Duw;" *Doeth. Sol.* vii. 26: cymharer *Heb.* i. 3. Cyffelybir gair Duw i ddrych, am ei fod yn meddu y gallu i ddangos dyn iddo ei hun: *Iago* i. 23. (2.) Am yr hyn sydd yn trosglwyddo gwybodaeth anmherffaith o hanfod neu ansawdd peth. "Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych;" 1 *Cor.* xiii. 12. Y mae yr apostol yn dangos fod y dull y mae y saint yn cael eu gwybodaeth yma yn cyfateb i ystad o anmherffeithrwydd, neu ystad fachgenaidd: o herwydd nid ydynt yn cyrhaedd gwybodaeth eglur o ddirgelion teyrnas nefoedd yn y fuchedd hon, nac yn eu canfod megys â golwg uniongyrchol. Y mae gwybodaeth y ddaiar, o'i chymharu â gwybodaeth y nefoedd, yn anmherffaith, ac mewn rhan fel gwybodaeth bachgen; ond hefyd, yn ol y gymhariaeth dan sylw, nid gwybodaeth uniongyrchol, ac o ganlyniad, eglur, ond gwybodaeth megys mewn drych, a thrwy adlewyrchiad. "Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho, mewn gweledigaeth, nid mewn dammegion;" *Num.* xii. 8. Nid ydym i feddwl am ddrych gair Duw, medd Neander, ond am

Digitized by Google

gyfansoddiad presennol meddwl dyn. Nis gallwn adnabod Duw, a phethau dwyfol, yn uniongyrchol trwy ganfyddiad wyneb yn wyneb. Y mae ein holl wybodaeth am y byd arall trwy gyfrwng pethau y byd hwn. Yn ol cymhariaeth Plato, y mae dyn yn y byd hwn yn eistedd megys mewn ogof, i'r hon y mae pelydrau gwanaidd yn disgyn, ac yn dangos ond cysgodion gwrthddrychau allanol. Ar y llaw arall, yn ol Calvin, y mae y gair a gweinidogaeth yr efengyl yn cael eu cymharu i ddrych, nid o herwydd fod y wybodaeth a gawn am Dduw trwyddynt yn ansicr a thwyllodrus, ond o herwydd ei bod yn fwy aneglur. Y mae rhai esbonwyr yn meddwl fod y gymhariaeth wedi ei chymmeryd oddi wrth ffenestri o gorn teneu, neu ryw fath o feini hanner tryloew. Ond yr ateb i hyn ydyw, na ddefnyddir *esoptron* un amser ond am adlewyrcheg [*Alford*]. Am yr anhawsder sydd yn yr ymadrodd "*trwy* ddrych," os "*mewn* drych" ydyw y meddwl, gellir dywedyd fod y goleuni yn ymddangos fel yn dyfod trwy y drych, pan na bydd yn dyfod ond oddi wrtho, neu o'r tu cefn iddo.

Y gair arall a gyfieithir "drych" ydyw *κατοπτρίζομαι* (*catoptrizomai*). 2 *Cor.* iii. 18; "Eithr nyni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych." Y mae esbonwyr wedi deall y gair hwn yn wahanol i'w gilydd. Y mae rhai wedi deall y gair am *ddangos mewn drych*, *gwneuthur adlewyrchiad mewn drych*. Yn ol yr ystyr hwn, deallai Erasmus yr adnod am weinidogion yr efengyl yn unig, am eu bod hwy yn dangos Crist megys mewn drych. Y mae ereill wedi deall y gair yn yr un ystyr, er ei gymhwyso at Gristionogion yn gyffredinol. "Yr ydym ni oll fel drychau yn adlewyrchu gogoniant yr Arglwydd" [*Macknight*]. "Ag wynebau agored, fel drychau, yn adlewyrchu gogoniant yr Arglwydd" [*Locke*]. Yn yr ystyr hwn y deallai Neander y gair pan ddechreuodd ddarlithio ar yr Epistolau at y Corinthiaid "Adlewyrchodd Moses ogoniant yr Arglwydd trwy ddysgleirdeb ei wynebpryd, ond yr oedd gorchudd ar ei wyneb; ond y mae Cristionogion, gan nad oes achos iddynt roddi gorchudd ar eu gwynebau, yn gwneuthur hyny yn ddilen." Ond ystyr arall i'r gair ydyw *edrych mewn drych*—edrych ar unrhyw beth mewn drych. Yr ystyr hwn, yn ol y cyfieithiad cyffredin, a dderbynir fwyaf cyffredinol.

Diog. Laertius a ddefnyddia yr un gair, pan y dywed ei fod yn meddwl "y dylai gŵyr ieuainc edrych eu hunain yn fynych mewn drych." Yn gyffelyb Clement, iaith yr hwn a gyfrifir gan ddynion dysgedig yn dwyn tebygrwydd mawr i iaith yr apostol Paul, a ddefnyddia *ἐνοπτρίζεσθαι* am "edrych megys mewn drych." Gan mai o fettel wedi ei dryloewi y gwneid yr hen ddrychau, rhaid y mawr ddysgleiriai wyneb yr hwn a edrychai ynddynt gan adlewyrchiad y pelydrau oddi ar y cyfryw fettel. At hyn y cyfeiria yr apostol yn yr ymadrodd, "nyni a newidir i'r unrhyw ddelw (ddysglaer), o ogoniant i ogoniant," neu o ddysgleirdeb i ddysgleirdeb. Y mae rhai yn tybied fod yr apostol yn cyfeirio at ddysgleirdeb wyneb Moses: *Exod.* xxxiv. 29—35.

Yn ei argraffiad o'i ddarlithiau, y mae Neander yn cydnabod mai hwn ydyw ystyr y gair, a'i fod hefyd yn fwy cysson â'r cyd-destynau ol a blaen. Yn ol yr adnodau blaenorol, y mae y gorchudd oedd ar wyneb Moses wedi ei symmud ar galon yr Iuddewon; edrych trwy orchudd y maent hwy. "Ond nyni oll âg wyneb agored:" yr ydym ni yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd heb orchudd. Yn gysgodol, anmherffaith, ac o fyr barhad yr oedd Moses yn adlewyrchu gogoniant yr Arglwydd; ond yn Nghrist, y mae yr adlewyrchiad yn berffaith. Yr ydym ninnau, wrth edrych arno, yn cael ein cyfnewid i'r unrhyw ddelw. Nid oedd dysgleirdeb gwyneb Moses yn newid yr Israeliaid i'w ddelw; ond y mae edrych gyda gwyneb agored ar ogoniant Duw yn Nghrist yn tybied cymdeithas âg ef, yr hwn sydd yn taflu ei ddylanwad yn ol ar yr holl fywyd. "O ogoniant i ogoniant;" naill ai o ogoniant i radd uwch o ogoniant; neu, o ogoniant Duw yn Nghrist, yr hwn yr edrychid arno, i ogoniant neu debygolrwydd y Cristion i Grist. Yn debyg i'r olaf y mae Conybeare a Howson yn esbonio dan yr enw cyfieithu, "And the glory which shines upon us is reflected by us even as it proceeds from the Lord the Spirit." "O ogoniant," a ddysgrifia yr achos, sef y gogoniant sydd yn llewyrchu arnom ni; ac "i ogoniant," sef adlewyrchiad y gogoniant hwnw genym ni.

Y gair Groeg arall a gyfieithir drych yn y Testament Newydd yw *θέατρον* (*theatron*)=arddangosfa gyhoeddus, golygfa yn cael ei dangos mewn chwareufa. Bernir mai dyma feddwl yr apostol yn 1 *Cor.* iv. 9: "Canys tybied yr wyf ddarfod i Dduw ein dangos ni, yr apostolion diweddaf, fel rhai wedi ein bwrw i angeu, o blegid nyni a wnaethpwyd yn ddrych (*θέατρον*) i'r byd, ac i'r angelion, ac i ddynion." Dangosid dynion weithiau yn chwareufäau y Groegiaid er mwyn eu diystyru, a rhoddid hwy hyd yn oed i ymladd â bwystfilod gwylltion. Yn *Act.* xix. 29, 31, yr unig fanau ereill lle y dygwydd y gair yn y Testament Newydd, cyfieithir ef yn *orsedd*: "A hwy a ruthrasant yn unfryd i'r orsedd (*theatron*). Y rhai oedd gyfeillion iddo, a yrasant ato, i ddeisyf arno nad ymroddai efe i fyned i'r orsedd."

DRYCHWYDRAU, [Seis., *spectacles*]: *unig.* drychwydr, gwydr golwg, golygwydr, ysbeithell. Y mae yn ddiammheu na ddygodd y gelfyddyd dremyddol (*optical science*) unrhyw fendith sydd o fwy o ddefnydd cyffredinol i ddynoiryw na drychwydrau. Y mae lluaws o offerynau mwy rhyfeddol. Y mae y rhyfeddodau a ddadguddiwyd i'r golwg dynol gan y pellweliadur (*telescope*) a'r mwyadur neu y chwyddwydr, yn hysbys i bawb. Nid oes gan y drychwydrau ddim hawl i'r fath ryfeddodau. Ond i dalu am hyn, y mae eu defnyddioldeb hwy yn mhob man. Y mae eu dylanwad buddiol hwy yn mhalas y tywysog ac yn mwthyn y gwerinwr yn hollol gyfartal. Y maent yn nodedig hefyd, yn anad unrhyw gynnyrch arall o eiddo gwyddor a chelfyddyd, nad ydyw cost yn chwanegu dim at eu perffeithrwydd. Dichon i ddrychwydrau y pendefig gael eu rhoddi mewn ffram aur, a rhai y llafurwr tlawd mewn ffram haiarn; ond rhaid i'r cyfrwng tremyddol, y llygadwydrau, i'r rhai y perthyn eu perffeithrwydd, fod yr un.

Byddai yn dda i offeryn o'r fath ddefnyddioldeb diderfyn gael ei ddeall yn gyffredinol. Po cyflawnaf ac egluraf y dealler yr egwyddorion ar y rhai yr ymddibyna cymhwysder yr offeryn, mwyaf oll fydd eangder y buddioldeb a ddeillia i bawb oddi wrthynt, a bydd yr anghyfleusdra a'r drygau a ddeillia oddi wrth eu camddefnyddio yn anfynychach. Ond cyn y mae yn bosibl iawn-ddeall egwyddor a defnydd priodol drychwydrau, y mae yn annhebgorol angenrheidiol bod yn adnabyddus o gyfansoddiad a swyddi y llygad; a rhaid i ni gyfeirio y rhai y rhaid iddynt

Digitized by Google

wrth y fath wybodaeth ragarweiniol at ein herthygl ar y LLYGAD. Yn awr, rhoddir eglurhad byr ar y llygad, fel y mae yn dal perthynas uniongyrchol â drychwydrau.

Pan y gosodir gwrthddrych mewn pellder penodol oddi wrth y llygad, cynnyrchir delw neu ddarlun bychan, fel y gellir ei alw, ar iswyneb yr haen a amlena y tu mewn i'r gragen argrom, a elwir canwyll llygad. Yr haen yma ar yr hon y ffurfir y darlun fel hyn, a elwir rhwydlen y llygad. Y darlun yma ar y rhwydlen a'n cynnorthwya i weled y gwrthddrych. Os bydd y darlun yma yn dywyll, o liw anmhriodol, neu yn anwahanredol, bydd ein gweledìad ninnau o'r gwrthddrych hefyd yn dywyll, o liw anmhriodol, neu yn anwahanredol. Y mae cyfansoddiad y llygad y fath, yn ei sefyllfa naturiol a iachus, fel y bydd lluniau yr holl wrthddrychau a gyflwynir iddo fel hyn wedi eu ffurfio ar y rhwydlen yn eglur, o liw priodol, ac yn berffaith wahanredo, o ran eu ffurf a'u hamlinelliad.

Os bydd yr haenau a'r gwlybyrau, trwy y rhai y rhaid i belydr goleuni fyned oddi wrth wrthddrychau allanol, yn gwbl annhryloew, ni ffurfir un math o ddarlun ar y rhwydlen, gan hyny bydd y person yn ddall.

Os bydd tryloewder yr haenau a'r gwlybyrau yn anmherffaith, bydd y darlun yn dywyll, heb ei ffurfio gan belydr goleuni a drosglwyddir trwy y gwlybyrau ond o ran yn unig. Fe ddygwydd weithiau fod y gwlybyrau, fel gwydr lliwiedig neu lifnoddau lliwiedig, yn trosglwyddo goleuni o liw penodol yn unig. Yn y fath amgylchiad, camliwir y darlun ar y rhwydlen; a dibyna y dryglliw ar liw y gwlybyrau. Y mae drychwydrau yn gwbl annefnyddiol i'r gwahanol ddosbarthiadau hyn. Pan fyddo y gwlybyrau yn berffaith dryloew a diliw, gall y darlun a ffurfiant beidio syrthio yn uniongyrchol ar y rhwydlen, ond mewn pellder mwy neu lai o'i blaen neu ar ei hol. Yn y fath amgylchiad, bydd y darlun a gynnyrchir ar y rhwydlen yn fwy neu lai aneglur neu anwahanredol. Po bellaf oddi wrth y rhwydlen y byddo y lle ar yr hon y ffurfir y darlun, mwyaf anwahanredol oll a fydd. Os bydd lle y darlun gwahanredol o flaen y rhwydlen, yr achos fydd, fod y llygad yn meddu gormod o allu i wrthdori pelydrau goleuni. Os bydd o'r tu ol i'r rhwydlen, yr achos fydd, fod y gallu gwrthdorol yn rhy fychan. Gelwir y blaenaf yn olwg byr, a'r olaf yn olwg hir neu olwg gwan. Dyma y diffygion mwyaf cyffredin mewn golwg, ac y mae drychwydrau yn feddyginiaeth berffaith i'r naill a'r llall o honynt. Y maent yn gwneyd hyn trwy yr effaith a gynnyrchant ar le y darlun. Os golwg gwan fydd i'r llygad, a'r darlun, o ganlyniad, yn cael ei ffurfio o'r *tu ol* i'r rhwydlen, cymhwysir drychwydrau a ddygant y darlun yn mlaen i'r rhwydlen. Os golwg byr fydd, fel y ffurfir y darlun o'r *tu blaen* i'r rhwydlen, cymhwysir drychwydrau a effeithiant i'w daflu yn ol i'r rhwydlen.

Gwneir drychwydrau o ddarnau hirgrwn o wydr neu risial tryloew, a elwir llygadwydrau (*lenses*), gwyneb y rhai a wneir trwy eu llifo a'u caboli yn argrwm (*convex*) neu argeuol (*concave*). Os gosodir gwydryn argrwm o'r natur yma o flaen y llygad, yr effaith a gaiff fydd dwyn yn mlaen y darlun a ffurfir yn y llygad. Os gosodir gwydryn argeuol yn yr un dull, bydd yr effaith yn wahanol, gan y teifl y darlun yn ol. Y mae yn hawdd i'r neb a fyno argyhoeddi ei hun fod gwydrau yn meddu yr effeithiau hyn.

Gosoder dernyn o wydr, G G, dar. 244, o flaen canwyll C, a gosoder cysgodlen o bapyr gwyn o'r tu ol i G G, gan ei symmud ato ac oddi wrtho, nes y ceir sefyllfa megys S S, pan y gwelir darlun eglur o'r ganwyll ynddi â'i phen i lawr. Os symmudir y gysgodlen yn awr i sefyllfa S′ S′, ychydig yn nes i G G, fel y byddo lle y darlun yn eglur o'r *tu ol* iddo, gwelir darlun aneglur o'r ganwyll ar y gysgodlen. Yn yr amgylchiad yma, gellir tybied fod y gwydryn G G yn cynnrychioli llygad person o olwg gwan, a'r ganwyll C yn cynnrychioli gwrthddrych gweladwy, a'r gysgodlen S′ S′ yn sefyll am y rhwydlen, ar yr hon y gwelir darlun aneglur o'r gwrthddrych, a'r S S a ddynoda y lle o'r tu ol i'r rhwydlen, lle y byddai y darlun yn eglur.




Dar. 244.

Yn awr, os gosodir gwydryn argrwm arall G′ G′ i gynnrychioli llygaid drychwydrau, o flaen G G, effeithia i ddwyn y darlun eglur yn mlaen, a dwg y lle hwnw yn mlaen, yn fwy neu lai, yn ol maint argrymedd G′ G′. Mae yn hawdd dirnad y gall ei argrymedd fod y fath, fel y dygir darlun y ganwyll yn hollol i sefyllfa S′ S′, y gysgodlen. Ymddengys fel hyn, os camosodir y gysgodlen yn ei pherthynas â darlun eglur y ganwyll, fel ag i fod o'i blaen, y byddai i wydryn, G′ G,′ o argrymedd cyfaddas, wedi ei osod o flaen G G, ddwyn y darlun eglur yn mlaen i sefyllfa y gysgodlen, ar yr hon wedi hyny y gwelid ef. Y mae hwn yn brawf syml, y gall y neb a fyno ei wneuthur gyda chanwyll, llen o bapyr gwyn, a dau lygad drychwydrau.

Ond os bydd y gwydryn G′ G′ yn rhy argrwm, dygir y darlun yn rhy bell yn mlaen, a ffurfir ef, nid ar y gysgodlen S′ S′, ond o'i blaen, ac o ganlyniad, bydd yn aneglur. Ac, ar y llaw arall, os na bydd y gwydryn G′ G′ yn ddigon argrwm, ni ddygir y darlun cyn belled a'r gysgodlen S′ S′, a bydd yn aneglur arni. Fel hyn, y mae perthynas benodol rhwng sefyllfaoedd perthynol darlun eglur y ganwyll, sefyllfa S′ S′, y gysgodlen, ac argrymedd y gwydryn G′ G′, y fath, fel mai un gradd benodol yn unig o argrymedd a ddug y darlun yn eglur ar y gysgodlen.

Yn yr un modd, y mae un berthynas benodol sefydlog rhwng sefyllfaoedd perthynol y rhwydlen, y darlun eglur a ffurfir o'r tu ol iddi, ac argrymedd llygaid y drychwydrau—y fath berthynas fel mai gwydrau o argrymedd penodol yn unig a ddygant y darlun yn eglur ar y rhwydlen, a gynnyrchant olwg clir ac eglur.

Tybier yn awr ein bod yn gosod y gysgodlen yn sefyllfa S′ S′, dar. 245, o'r tu ol i'r sefyllfa lle y ffurfir darlun eglur o'r ganwyll. Yn yr am-

Digitized by Google

amgylchiad yma y mae yn angenrheidiol taflu y darlun eglur yn ol; ac megys ag y dygir ef yn mlaen gan wydr argrwm, teflir ef yn ol gan wydr argeuol. Os gosodir gwydryn G′ G′, yn meddu graddau priodol o argeuedd o flaen G G, gwelir y darlun eglur ar y gysgodlen S′ S′. Megys yn yr amgylchiad blaenorol, y mae perthynas benodol rhwng sefyllfaoedd perthynol darlun eglur y ganwyll, y gysgodlen S′ S′, ac argeuedd y gwydryn G′ G′; felly un radd benodol o argeuedd yn unig a deifl y darlun eglur yn ol ar y gysgodlen.



Dar. 245.

Mae y prawf yma hefyd yn egluro amgylchiad llygaid yn meddu golwg byr, ac yn penodi y feddyginiaeth trwy gyfrwng gwydr argeuol. Mae y gwydryn G G yn cynnrychioli y llygad; S′ S′, y rhwydlen; ac S S y lle o'i blaen, lle y ffurfir y darlun eglur pan na ddefnyddir gwydr. Pan y rhoddir G′ G′ rhwng y gwrthddrych a'r llygad, teflir y darlun cywir yn ol i S′ S′, lle y rhwydlen.

Gelwir y lle y ffurfir darlun eglur gwrthddrych pellenig gan lygadwydryn, neu gan ryw gyfrwng tremyddol arall, yn *ffocus* (canolbwynt) y llygadwydryn, a phellder y ffocus oddi wrth y llygadwydryn a elwir *hyd ffocusol* y llygadwydryn. Pan y bydd cyfansoddiad y llygad yn berffaith, bydd ei ffocus ar y rhwydlen, a'i hyd ffocusol fydd tryfesur mewnol canwyll y llygad. Pan fyddo hyd ffocusol y llygad yn fwy na hyn, bydd y ffocus o'r tu ol i'r rhwydlen, a bydd y llygad yn meddu golwg gwan neu olwg hir. Pan fyddo yr hyd ffocusol yn llai, bydd y ffocus o flaen y rhwydlen, a'r llygad yn meddu golwg byr.

Os rhoddir gwrthddrych—canwyll, er esampl—o flaen gwydryn argrwm, gan ei symmud tuag at y gwydryn, bydd y lle y ffurfir darlun cywir o hono, sef ei ffocus, yn symmud oddi wrth y gwydryn, fel mai po agosaf a fyddo gwrthddrych at y gwydryn, pellaf y bydd ei ddarlun oddi wrtho. Mae yn hawdd amrywio hyn trwy gyfrwng y ganwyll, y llygadwydryn, a'r gysgodlen. Fel y symmudir canwyll yn nes nes at y gwydryn, bydd y lle y derbyn y gysgodlen ddarlun eglur o'r fflam yn myned yn mhellach bellach oddi wrth y gwydryn; ac, yn yr un modd, os gosodir y ganwyll yn bur agos i'r gwydryn, gan ei symmud yn mhellach bellach oddi wrtho, bydd y lle y derbyn y gysgodlen ddarlun eglur yn nes nes at y gwydryn. Eglura hyn rai amgylchiadau sydd yn perthyn i bersonau yn meddu golwg byr a golwg gwan, y rhai sydd yn hysbys i bawb.

Pan yr edrych person yn meddu golwg byr ar wrthddrych pell, bydd ei ffocus yn nghanwyll y llygad, o flaen y rhwydlen; ar yr hon, o ganlyniad, y bydd y darlun yn aneglur. Ond os dygir y gwrthddrych yn raddol yn nes nes at y llygad, symmuda y darlun eglur fwyfwy yn ol, fel yr ydys newydd ddangos; a dynesa, o ganlyniad, yn nes nes at y rhwydlen, nes o'r diwedd y dygir y gwrthddrych mor agos at y llygad, fel y disgyn y darlun eglur yn hollol ar y rhwydlen. Yna bydd y golwg yn berffaith. Deallir wrth hyn pa ham nas gall personau, yn meddu golwg byr, weled gwrthddrychau yn eglur ond yn unig pan ddygir hwy o fewn pellder penodol i'r llygad. Po bellaf y byddo ffocus eu llygad yn ol, nesaf oll y rhaid dwyn y gwrthddrych cyn y teflir y darlun yn ol i'r rhwydlen, ac yn ol y graddau hyny y bydd person yn meddu golwg byr. Y mae drychwydrau argeuol, yn yr amgylchiad yma, yn cael yr un effaith, er taflu y darlun yn ol, ag a ga agosrwydd y gwrthddrych; ac, o ganlyniad, gellir gweled gwrthddrychau yn eglur gyda'r cyfryw ddrychwydrau heb eu dwyn yn agos at y llygad. Pan fyddo y drychwydrau ar y wyneb, os dygir y gwrthddrych mor agos i'r llygad ag a fyddai yn angenrheidiol er gweled yn eglur hebddynt, bydd y gweledabout yn aneglur; o blegid effaith y gwydrau, yn yr amgylchiad hwnw, fydd taflu y darlun eglur o'r tu ol i'r rhwydlen, yr hwn, heb y gwydrau, a fyddai arni. Pan na byddo personau yn meddu golwg pur fyr, byddant yn darllen ac yn gweithio yn gyffredin heb ddrychwydrau; ond bydd raid iddynt wrth eu cynnorthwy pan yn teithio allan, neu mewn cymdeithas mewn ystafelloedd eang; o blegid gallant roddi llyfr neu waith, heb ddim anghyfleusdra, mewn pellder cyfaddas oddi wrth eu llygaid, i daflu y ffocus yn ol ar y rhwydlen; ond bydd gwrthddrychau pellach, ar y rhai yr edrychant pan yn cerdded allan, neu mewn ystafelloedd eang, tu hwnt i derfyn priodol y pellder, a rhaid taflu y ffocus, yr hwn a fydd o flaen y rhwydlen, yn ol, trwy gyfrwng drychwydrau argeuol.

Pan roddir gwrthddrych yn agos i lygaid person yn meddu golwg gwan, bydd y ffocus o'r tu blaen i'r rhwydlen; ac am hyny, bydd y darlun yn aneglur ar y rhwydlen. Os symmudir y gwrthddrych yn raddol yn mhellach bellach, bydd i'r ffocus, yn ol yr eglurhad a roddwyd, ddynesu yn nes nes at y rhwydlen; ac os na bydd y golwg yn rhy wan, daw ar y rhwydlen pan y symmudir y gwrthddrych i bellder penodol oddi wrth y llygad. Ond bydd goleuni cryfach yn angenrheidiol yn yr amgylchiad yma, o blegid pellder mwy y gwrthddrych; a chanfyddir, yn ol hyny, pan ddalio personau gwan eu golwg lyfr ar hyd braich oddi wrth y llygaid, gorfodir hwy, ar yr un pryd, i osod goleuni cryfach wrth y ddalen. Y mae gan lygaid sydd heb fod yn bur weiniaid ddigon o allu i ddwyn darlun pob gwrthddrych, y byddo ei bellder dros dair neu bedair troedfedd, ar y rhwydlen. Ond am wrthddrychau nes, gan y bydd eu darlun o'r tu ol i'r rhwydlen, bydd yn angenrheidiol eu dwyn yn mlaen trwy gyfrwng drychwydrau argrwm. Po agosaf yr edrycher ar wrthddrych, mwyaf argrwm oll y dylai y gwydrau fod, ac yna gofyn personau pur wan eu golwg fwy nag un pâr o ddrychwydrau—rhai lled argrwm at wrthddrychau pell, a rhai mwy felly at wrthddrychau agosach. Pan fyddo gwendid golwg wedi ei gyfyngu fel y bydd i ddarlun gwrthddrychau pell ddisgyn ar y rhwydlen, pan y bydd darluniau rhai nes o'r tu ol iddi, dywedir fod i'r llygad *olwg pell*, er ei wahaniaethu oddi wrth y diffyg cyferbyniol, trwy yr hyn yn

Digitized by Google

unig y ceir golwg eglur trwy agosrwydd nes y gwrthddrych.

Gwneir drychwydrau o ddau wydryn wedi eu rhoddi mewn ffram, er mwyn eu cadw yn gyfleus o flaen y llygaid, i wella diffygion golwg llygaid a fyddo yn anmherffaith wrth natur. Pa ddiffyg bynag a fyddo ar y golwg y gellir eu defnyddio i'w symmud, mae yn amlwg y dylid fframio y gwydrau fel y byddo eu pegynau yn gyfredol, ac fel y byddo eu canol yn cyd-daro â chanol canwyll y llygad, pan y gosoder hwy yn briodol ar y gwyneb; hyny yw, pan edrycho y llygaid rhag ei flaen. Er fod y pethau hyn yn wir bwysig, anfynych y sylwir yn briodol arnynt wrth ddewis drychwydrau. Os rhoddir drychwydrau mewn fframiau ysgafn ac ystwyth, bydd y llygadwydrau bron bob amser yn colli eu cyfrediad; ac nid peidio bod yn gyfredol yn unig y bydd eu pegynau, ond byddant yn fynych mewn cyfeiriadau gwahanol. Gan hyny, dylai drychwydrau gael eu rhoddi mewn fframiau digon cryfion i'w cadw rhag yr annhrefn yma ar begynau eu llygadwydrau, a dylid cymmeryd gofal yn eu gwneuthuriad cyntaf ar i begynau y llygadwydrau fod yn berffaith gyfredol. Mae yn angenrheidiol, wrth gyfaddasu drychwydrau, fod y pellder rhwng canol (craidd) y llygadwydrau yn berffaith gyfartal i'r pellder rhwng canol neu graidd canwyll y ddau lygad. Gan fod y golwg cliriaf i'w gael wrth edrych trwy ganol y llygadwydrau, y mae y llygaid yn tueddu yn barhaus i edrych yn y cyfeiriad hwnw. Yn awr, os bydd y pellder rhwng canol y llygadwydrau yn fwy na'r pellder rhwng canol canwyll y ddau lygad, derfydd eu pegynau a bod yn gyfredol, ac aiff y llygaid i ledwyro y naill oddi wrth y llall. Ar y llaw arall, os bydd y pellder rhwng craidd y llygadwydrau yn llai na'r pellder rhwng craidd canwyll y ddau lygad, aiff y llygaid i ledwyro at eu gilydd; ac y mae y naill wyriad mor niweidiol i'r llygaid a'r llall. Gwelwyd rhai personau o olwg diffygiol yn methu bob amser a chael drychwydrau cyfaddas, ac yn penderfynu fod rhyw ddiffyg yn eu llygaid hwy nas gellir ei wella â drychwydrau. Ond y gwir achos o hyn ydyw, y bydd llygaid y cyfryw naill ai yn mhellach oddi wrth eu gilydd neu yn nes at eu gilydd na llygaid dynion yn gyffredin; ac am hyny nis gall drychwydrau a wneir i ddynion cyffredin fod o les i'w llygaid hwy; a byddant yn sicr o gael anghysur a niwed i'w llygaid wrth eu gwisgo. Yn y fath amgylchiad, dylai y drychwydrydd fesur y pellder rhwng craidd canwyll y ddau lygad, a gofalu am fod craidd y llygadwydrau yn cyfateb yn berffaith i graidd y llygaid. Y peth goreu, gan hyny, i rai y rhaid iddynt wrth ddrychwydrau ydyw, mynu mesur y pellder rhwng craidd y ddau lygad yn fanwl, a gofalu am ddrychwydrau yn cwbl gyfateb i'r mesur hwnw.

Y golwg perffeithiaf gyda drychwydrau ydyw yr un a gynnyrchir pan fyddo y llygad yn edrych yn nghyfeiriad pegynau y llygadwydrau; a bydd mwy neu lai o anmherffeithrwydd bob amser yn dilyn edrychiad traws trwyddynt. Gan hyny, y mae y rhai sydd yn arfer y drychwydrau, yn gyffredin, yn troi eu penau, pan na thrydd y rhai na raid iddynt wrth eu cynnorthwy ond y llygad yn unig. Er mwyn lleihau yr anghyfleusdra yma, annogai y diweddar Dr. Wollaston y defnyddiad o lygadwydrau ceugrymol, yn lle rhai dwblargeuol neu ddwblargrymol, o belydrau cyfartal, y rhai a arferasid hyd y pryd hyny yn wastad. Rhoddir gwahanol lygadwydrau o'r natur yma yn dar. 246 a 247. Yn dar. 246, mae yr argrymedd A′ B′ C′, craidd yr hwn yw o′, yn fwy na'r argeuedd A B C, craidd yr hwn yw o, ac y



Dar. 246.

mae effaith y llygadwydr yn gyfartal i lygadwydr argrwm. Gan hyny, cyfaddasir y cyfryw wydrau at olwg gwan. Yn dar. 247, yn y gwrthwyneb, y mae yr argeuedd A B C, craidd yr hwn yw o, yn fwy na'r argrymedd A′ B′ C′, craidd yr hwn yw o′, ac y mae effaith y llygadwydr yr un



Dar. 247.

ag effaith gwydr argeuol. Cymhwysir y cyfryw wydrau, gan hyny, at olwg byr. Effaith y rhai hyn, mewn cymhariaeth i wydrau dwbl argrwm neu ddwbl argeuol, ydyw, nad ydyw y gwrthddrychau a welir ar ŵyr trwyddynt ddim mor ŵyrog; ac o ganlyniad, fod mwy o ryddid i'r golwg trwy droi y llygad heb droi y pen; ac am hyny, gelwir hwy yn *ddrychwydrau amolygol*; hyny yw, rhai yn taflu golwg bob ffordd.

Wrth ddethol a chyfaddasu drychwydrau, cymmerir yn ganiataol, bob amser, fod dau lygad yr un person yn meddu yr un gallu adlewyrchol yn gwbl. Profir gwirionedd hyn gan y ffaith fod y ddau wydryn a roddir yn yr un drychwydrau bob amser yn meddu yr un hyd ffocusol. Yn awr, er fod dau lygad yr un person yn gyffredin yn meddu yr un gallu adlewyrchol, eto nid ydyw felly bob amser; ac am hyny, nis gall fod llygadwydrau o'r un hyd ffocusol yn gyfaddas i'r ddau lygad fel eu gilydd. Pan na byddo y gwahaniaeth rhwng gallu adlewyrchol y ddau lygad yn fawr (ac felly y bydd yn gyffredin, pan ddygwyddo fod gwahaniaeth), ni bydd yr anghyfartaledd yn cael ei amgyffred. Trwy weithred reddfol y meddwl, o'r hon yr ydym ni yn anhysbys, y gwelediad a gawn â'r llygad perffeithiaf a dýn ein sylw gyntaf pan fyddo anghyfartaledd, a bydd yr argraff ar y llygad diffygiol heb ei deimlo. Pa fodd bynag, gellid dysgwyl y deuai yr anghyfartaledd yn deimladwy trwy edrych ar yr un gwrthddrych â phob un o'r ddau lygad bob yn ail, gan gau y llall: ond y mae mor anhawdd cymharu galluoedd gweled y ddau lygad pan na byddont yn bur anghyfartal, trwy edrych ar wrthddrychau bob yn ail, er i hyny gael ei wneyd yn ddioed, y naill ar ol y llall, fel y mae y cynllun yma hefyd wedi ffaelu dwyn rhai i deimlo anghyfartaledd eu dau lygad. Mae y Dr. Lardner wedi dyfeisio offeryn a eilw efe llygadfesurydd (*ophthalmometer*), trwy gyfrwng yr hwn y gellir canfod y

Digitized by Google

gwahaniaeth lleiaf yn ngallu golwg y ddau lygad. Y mae yr offeryn wedi ei ffurfio ar yr un egwyddor a goleufydrau (*photometers*). Y mae yr offeryn wedi ei drefnu fel y byddo dau wrthddrych cyffelyb wedi eu cydgyfleu mewn goleuni cyffelyb, i'w gweled ar unwaith, un gan y llygad deheu, ac yn anweledig i'r llygad chwith; a'r llall gan y llygad chwith, ac yn anweledig i'r llygad deheu. Mae yr offeryn hwn yn gynnwysedig o goffr bychan, A' B' C' D'. dar. 248, o gylch pum modfedd o led, A' D', a deng modfedd o hyd, A' B', a chwe modfedd o uchder. O'i fewn y mae coffr bychan arall. A B C D, wedi ei wneyd bron i'w lenwi, ond a ellir ei lithro ynddo yn ol ac yn mlaen yn rhwydd; ac y mae y tu mewn i'r coffr yma wedi ei leinio â melfed du. Yn y pen, B C, y mae agoriad cywirongl (*rectangular*), o gylch modfed o hyd, M N, a hanner modfedd o uchder; ond gellir mwyhau a lleihau yr hyd â llithrynau (*slides*). Gyferbyn â phen y coffr B' C,' y mae cysgodlen wen, ar yr hon y mae llinell wastad yn gyfredol a chyferbyn âg M N, ac wedi ei marcio a graddeg wedi ei dosbarthu, 0 yr hon sydd gyferbyn â chanol yr agoriad M N, ac y mae y dosbarthiadau arni wedi eu rhifo yn mhob cyfeiriad oddi wrth 0 gan 1, 2, 3, 4, 5, 6, &c.

Tybier fod y llygaid yn cael eu rhoddi ar R' ac L'. Bydded i'r coffr mewnol B C, gael ei symmud yn nes, ar ol cau y llygad chwith, fel y byddo dosbarthiad 0 y raddeg yn cyd-daro âg ymyl M, yr agoriad; ac ar yr un pryd, trwy gau y llygad




Dar. 248.

deheu, y byddo dosbarthiad 0 y raddeg yn cyd-daraw âg ymyl N yr agoriad. Gellir gwneyd y trefniad yma yn wastad, ond i'r llygaid gael eu gosod gyferbyn â chanol yr agoriad M N, yr hyn a ellir ei wneyd yn hawdd trwy dori agoriad yn ymyl y coffr A' D' i dderbyn pont y trwyn. Wedi gwneyd y trefniad yma, y mae yn amlwg, os cauir y llygad chwith, y gwelir y lle ar y raddeg yn cynnwys H N ac H M hyd y gysgodlen R' L'. Tybier fod yr ysbaid yma yn cynnwys chwe chyfran o'r raddeg oddi wrth 0 hyd 6. Os cauir y llygad deheu, gwelir â'r llygad chwith chwe chyfran o'r raddeg, hyd ar y ddeheu i 0. Yn awr, os agorir y ddau lygad, gan edrych yn sefydlog trwy yr agoriad M N, heb roddi mwy o sylw ar y naill ochr na'r llall, gwelir deuddeg cyfran o'r raddeg, chwech i'r ddeheu a chwech i'r chwith oddi wrth 0; y chwech i'r chwith oddi wrth 0 a welir â'r llygad deheu yn unig, a'r chwech i'r ddeheu oddi wrth 0 a welir â'r llygad chwith yn unig.

Fel hyn, ceir dau wrthddrych cyffelyb, mewn goleuni cyffelyb, ac o'r un maint, mewn cydgyflead cywir, un yn cael ei weled gan y llygad deheu, a'r llall gan y llygad chwith; a chanfyddir pob gwahaniaeth yn eu heglurdeb. eu hansawdd, neu eu lliw, mor amlwg ac ebrwydd ag y canfyddir dysgleirdeb cymharol yr ysbeidiau a oleuir gan ddau oleu gwahanol yn y goleufydrydd. Gwnaeth y Dr. Lardner brawf â'r offeryn yma ar ei lygaid ei hun, a'r canlyniad fu, iddo ganfod golwg ei lygad deheu yn llawer mwy na'r chwith. gan fod y rhifnodau ar y chwith i 0 bob amser yn fwy eglur iddo na'r rhai ar y ddeheu; a'r hyn sydd yn fwy nodedig fyth ydyw, iddo ganfod fod tryloewder gwlybyroedd y llygad deheu yn berffeithiach na'r llygad chwith, gan fod yr ysbaid ar y ddeheu i'r 0 yn ymddangos iddo ef bob amser heb fod mor ddysglaer a'r un ar y chwith.

Er mwyn cymhwyso yr offeryn hwn i gyfaddasu llygadwydrau at lygaid o alluoedd anghyfartal, bydd yn angenrheidiol penderfynu, yn gyntaf, fod anghyfartalwch yn bod yn y dull a nodwyd. Yna bydd yn angenrheidiol darparu dwy gysgodlen, ar y rhai y gellir gwneyd graddegau cyffelyb, fel y galler eu gosod mewn gwahanol bellderau oddi wrth yr agoriad M N. Yna penderfyner y pellderau perthynasol, fel y gwelo y ddau lygad y graddegau mewn pellderau cyfartal. Yna bydd i'r pellderau hyn gynnrychioli hydau ffocusol y llygadwydrau gwahanol y dylid eu darparu ar gyfer y llygaid, fel y gallont weled gwahanol wrthddrychau yn gwbl gyfartal ac eglur.

Nis gellir cymhwyso y cynllun yma gyda llygaid gweiniaid. Yn yr amgylchiad yma, bydded i ddwy gysgodlen gael eu gosod yn yr un pellderau oddi wrth yr agoriad M N, a dewiser llygadwydrau i'r ddau lygad ar wahân, gan gau y llall, fel y gweler y graddegau hefyd ar wahân. Yna cymhwyser y ddau lygadwydr ar unwaith at y llygaid, ac edrycher ar y raddeg â'r ddau lygad yn agored. Os bydd y llygadwydrau wedi eu cyfaddasu i wellhau y diffyg golwg, bydd dwy ran y raddeg i'r ddeheu ac i'r chwith oddi wrth 0, a welir ar unwaith gan bob un o'r ddau lygad ar wahân, yn ymddangos yn gyfartal ddysglaer ac eglur. Pe profid diffygion llygaid yn y dull yma, credir y canfyddid fod anghyfartaledd golwg yn llawer mwy cyffredin nag y tybir; ac o ganlyniad, y gwellheid cyfaddasiad drychwydrau i raddau mawr.

Y mae amgylchiadau yn dygwydd. nid yn unig pan y mae galluoedd cymharol golwg y ddau lygad yn gwahaniaethu, ond pan y mae gallu golwg hyd yn oed yr un llygad yn gwahaniaethu, os cymherir ef mewn gwahanol gyfeiriadau. Y mae golwg rhai personau yn fyrach pan yr edrychant ar wrthddrychau pan mewn cyfeiriad syth na phan yr edrychant arnynt mewn cyfeiriad gwastad. Fel hyn byddai uchder gwrthddrychau yn fwy gweladwy iddynt hwy na'u lled, ac yn gyffredinol gwelir maintioli syth yn eglurach na maintioli gwastad. Yr achos o'r gwahaniaeth yma ydyw, fod gallu adlewyrchol y llygaid yn wahanol mewn cyfeiriad syth, i'w allu adlewyrchol mewn cyfeiriad gwastad; ac o ganlyniad, symmudir y diffyg trwy ddefnyddio llygadwydrau y byddo eu hargeuedd yn wahanol, wrth eu mesur mewn cyfeiriad syth. i'w hargeuedd pan eu mesurir mewn cyfeiriad gwastad. Y mae llygadwydrau, mewn gwirionedd, y byddo eu gwyneb yn hirgrwn, yn lle bod yn gyfrgrwn, yn cyfateb yn well i nodweddau gwahanol allu adlewyrchol y llygad. — (*Dr. Lardner.*)

Digitized by Google

**DRYGAIR**, [*drwg — gair*]: gair drwg, gair anmharchus; athrod, enllib. "A Joseph a ddygodd eu drygair hwynt at eu tad;" *Gen.* xxxvii. 2. Ymddengys yr ymddygai meibion Iacob yn anweddus i'w crefydd a'u teulu yn absennoldeb eu tad, yr hyn a archollai deimladau tyner Ioseph; ac er mwyn eu gwella, efe a fynegai i'w dad am eu camymddygiadau, fel y gallai efe eu ceryddu, fel y gwelai yn dda. Felly, wrth *ddrygair* yma y golygir *camymddygiad.*

Yr un ystyr sydd i'r gair yn 1 *Sam.* ii. 23; "Canys clywaf gan yr holl bobl hyn ddrygair i chwi." Yn Saes., "*your evil dealings*" = eich drwg ymddygiadau.

Mae ystyr y gair (*drygair*) yn y Testament Newydd yn wahanol. Yma, athrod ac enllib ydyw. "Gwyn eich byd pan y'ch gwaradwyddant, ac y'ch erlidiant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog;" *Mat.* v. 11. Mae y Groeg yma yr un fath a'r Gymraeg yn gymhwys, πονηρὸν=*drwg;* ῥῆμα=*gair.* "Yr erlidigaeth a grybwyllwyd yn yr adnod flaenorol," meddai Clarke, "a gynnwys bob gweithred allanol o drais—yr hyn oll a all y *llaw* ei wneuthur. Y mae hon yn cynnwys pob athrod, enllib, &c.—yr hyn oll a all y *tafod* ei effeithio."

Y lle arall y mae y gair *drygair* ynddo yn y Testament Newydd ydyw *Marc* ix. 39: "A'r Iesu a ddywedodd, na waherddwch iddo; canys nid oes neb a wna wyrthiau yn fy enw i, ac a all yn y fan roi drygair i mi." Y gair Groeg a ddefnyddir yma ydyw κακολόγεω; ο κακὸς=*drwg*; a λόγος=*gair.* Defnyddir yr un gair yn *Mat.* xv. 4, a *Marc* vii. 10, lle y cyfieithir ef yn "melldithio." Gwel *Diar.* xxi. 17; *Exod.* xxi. 17; 1 *Sam.* iii. 13 "Dywedyd yn ddrwg" y cyfieithir rhangymmeriad yr un gair yn *Act.* xix. 9. Yn yr holl fanau hyn y mae ystyr y gair yn lled gyffelyb, hyny ydyw, enllib, gogan, neu athrod; ac nid ydyw *melldithio*, megys y cyfieithir ef yn *Mat.* xv. 4. a *Marc* vii. 10, ddim yn mhell oddi wrth yr un ystyr.

DRYGANIAETH, [*drwg—aniaeth*]: dryganedd, dryganian, dryganwyd; drygioni. "Ac o bydd y mab drygionus i'w guro, pared y barnwr iddo orwedd, a phared ei guro ef ger ei fron, yn ol ei ddryganiaeth, dan rifedi;" *Deut.* xxv. 2. "*According to his fault,*" ydyw y Seisoneg; hyny yw, yn ol ei fai. Deugain gwialenod oedd y rhifedi mwyaf a roddid i Israeliad, bydded ei ddryganiaeth y maint y byddai; ond gallai y barnwr leihau y rhif yn ol natur y bai, a nerth y dyoddefydd.

DRYGCHWANT, [*drwg—chwant*]: chwant, trachwant; chwennychiad, awydd. "Marwhewch gan hyny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaiar; godineb, aflendid, gwŷn, drygchwant;" *Col.* iii. 5. Y Groeg am y gair yma ydyw ἐπιθυμίαν κακην=*chwant drwg.* Mae y gair επιθυμιὰν yn dygwydd yn y Testament Newydd tua 37 o weithiau, ond ni chyfieithir ef mewn un man arall yn *ddrygchwant.* Mewn lluaws o fanau, megys *Marc* iv. 19; *Rhuf.* vi. 12; *Gal.* v. 24, ac amryw fanau ereill, *chwant*, neu *chwantau* y cyfieithir ef; a *thrachwant*, neu *drachwantau* ydyw mewn llawer o fanau ereill, megys *Ioan* viii. 44; *Rhuf.* vi. 12; vii. 7, 8; *Gal.* v. 16; 1 *Thes.* iv. 5. Mewn dau fan, cyfieithir y gair yn *chwennych*, sef yn *Luc* xxii. 15; *Dad.* xviii. 14. Y meddwl yn gyffredin ydyw, dymuniadau drygionus neu nwydau pechadurus; ond yn 1 *Thes.* ii. 17, cyfieithir ef yn *awydd;* ac yma y mae yn arwyddo dymuniad cryf.

DRYGFYD, [*drwg — byd*]: adfyd, cystudd, trallod, camdriniaeth, gorthrymder. *Act.* vii. 34, ydyw yr unig fan yn y Testament Newydd lle y ceir y gair *drygfyd*, a'r gair Groeg κακώσις a gyfieithir felly: "Gan weled y gwelais ddrygfyd fy mhobl sydd yn yr Aipht;" gan gyfeirio at *Exod.* iii. 7: "A dywedodd yr Arglwydd, gan weled y gwelais gystudd fy mhobl sydd yn yr Aipht."

DRYSOR—ES. [*drws*; Gr., θυρωρός; Seis., *porter*]: porthor. Ceir y gair *drysawr* mewn dau le yn y Testament Newydd, a *drysores* mewn un man. *Porthor* ydyw y gair cyferbyniol yn yr Hen Destament. Gwel PORTHOR. Yn *Marc* xiii. 34, dywedir, "Canys Mab y dyn sydd fel gŵr yn ymdaith i wlad bell, wedi gadael ei dŷ, a rhoi awdurdod i'w weision, ac i bob un ei waith ei hun, a gorchymyn i'r drysawr wylio." Yn mysg gwŷr mawr yn y gwledydd dwyreiniol, yr oedd gofal penaf y tŷ yn cael ei ymddiried i'r drysawr, sef ceidwad y drws, yr hwn ydoedd i ofalu mewn modd arbenig, yn enwedig pan fyddai y perchenog oddi cartref, pwy a ddeuai i mewn i'r tŷ, a phwy a elai allan.

Y lle arall y defnyddir y gair ydyw *Ioan* x. 3; "I hwn y mae y drysor yn agoryd, ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef." Yr arfer gyffredin yn y gwledydd dwyreiniol, yn enwedig yn yr amseroedd boreuaf, oedd i'r bugail wylio ei braidd ddydd a nos; a dyma yr arfer fwyaf cyffredin eto; ond byddai rhai o'r Iuddewon cyfoethog weithiau yn gosod dyn arall i wylied y gorlan liw nos, tra y gofalai y bugail am y praidd liw dydd. Ond byddai achlysuron yn gofyn am i'r bugail fyned at y praidd hyd yn oed yn y nos; a phan y dygwyddai hyny, byddai y drysor yn agoryd y drws iddo ef; ac at yr arfer hon y cyfeiria yr Arglwydd Iesu yn yr adnod yma. Yr oedd yr Iuddewon yn cadw corlanau lawer yn Ierusalem, yn agos i'r deml, er mwyn cyfleusdra i'r aberthwyr, cystal ag er mwyn masnach; a dywed Syr Isaac Newton fod Iesu Grist wedi llefaru amryw ddammegion gyda golwg ar y corlanau hyn, i'r rhai nis gallai y bugail ei hun fyned heb i'r drysor agor iddo.

Drysores ydyw y gair Cymraeg yn y trydydd lle a nodwyd, sef *Ioan* xviii. 17; "Yna y dywedodd y llances oedd ddrysores wrth Pedr, Onid wyt tithau o ddysgyblion yn dyn hwn?" Y mae yn ymddangos mai benywaid a fyddai gan yr Iuddewon yn bur gyffredin yn cadw eu drysau. Gwraig, yn ol y Deg a Thrigain a'r Vulgate, oedd drysores Isboseth: 2 *Sam.* iv. 6. Y mae Aristophanes yn son am y cyfryw dan yr enw σηκίς—gair yn arwyddo *gwasanaethyddes* neu *gaethes.* Mae Euripides hefyd yn dwyn Hecuba i mewn, gan achwyn ei bod hi, yr hon a arferai eistedd ar orsedd, wedi ei darostwng i'r angenrheidrwydd o fod yn ddrysores, neu fammaeth, er mwyn cael tammaid o fara. Felly hefyd Plautus a grybwylla am hen wraig oedd yn cadw y porth. Y mae Cæsarius, ysgrifenydd a ddyfynir yn Calmet, yn dyweyd mai enw y drysores a edliwiai i Pedr ei fod yn ddysgybl i'r Iesu, oedd Ballila.—(*Calmet; Clarke,* &c.)

DU, [דיע]: tywyll, gwrm, pygliw; du ysgrifenu, inc. Er nad yw y dwyreinwyr yn gwisgo du fel galarwisg, eto yr oeddynt hwy, fel yr hen

Digitized by Google

Iuddewon, yn edrych ar y lliw fel arwydd o flinder, trychineb, a diffyg. Mewn gwirionedd, math ar amlygiad gweledig ydyw gwisgo du yn arwydd o alar, yr hyn a olygir yn y dwyrain fel troellymadrodd. Defnyddir *du* yn yr Ysgrythyrau fel arwydd o gyfyngder, yn cael ei achosi gan fallder a newyn: *Iob* xxx. 30; *Ier.* xiv. 2; *Galar.* iv. 8; v. 10. Nid ydys wedi canfod a ydyw hyn wedi ei seilio ar ryw syniad fod y croen yn tywyllu o achos prinder ai peidio; ond sylwyd gan Chardin, ac ereill, fod llawer o'r rhai a gymmerent ran yn seremonïau galar cyfnodol y Persiaid am Hossein, yn ymddangos wedi duo eu cyrff, er mwyn darlunio pellafoedd y syched a'r gwres a ddyoddefodd Hossein, oedd mor fawr, fel yr hònant hwy, ag y trodd efe yn ddu, ac y chwyddodd ei dafod nes yr oedd yn ymestyn allan o'i enau.

Yn *Mal.* iii. 14, yr ydym yn darllen, "A pha lesiant sydd er i ni gadw ei orchymynion ef, ac er i ni rodio yn alarus (Heb., *mewn du*) ger bron Arglwydd y lluoedd;" gan feddwl eu bod wedi ymprydio mewn sachliain a lludw. Y mae *du* ("casglu parddu") yn cael ei ddefnyddio fel arwydd o ofn yn *Joel* ii. 6:—"Pob wyneb a gasgl barddu," neu a ddua gan ofn a chyfyngder. Mae yr un ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn *Nah.* ii. 10, i ddynodi eithafoedd poen a galar:—"Gwag, a gorwag, ac anrheithiedig yw hi, a'r galon yn toddi, a'r gliniau yn taro yn nghyd, ac anhwyl ar bob lwynau, a'u hwynebau oll a gasglant barddu," neu a dduant.

Y mae *düwch* gwallt yn cael ei ddefnyddio yn *Can. Sol.* v. 11, i arwyddo harddwch, ieuenctyd, a hoewder:—"Ei ben fel aur coeth, ei wallt yn grych, yn *ddu* fel y fran."

Mewn cyssylltiad â'r pwnc yma, gellir sylwi fod *du* yn cael ei ochel yn ofalus gan yr holl ddwyreinwyr, oddi gerth mewn gwisgoedd o flew neu wlân, lliw naturiol y rhai ydyw du. Y mae rhai cenedloedd llywodraethol hefyd weithiau yn gorfodi rhai o'u deiliaid, neu y llwythau teyrngedol, i wisgo du, fel arwydd penodol o ddarostyngiad: yr esampl fwyaf cynnefin o hyn oedd yr orfodaeth a osodwyd ar yr Iuddewon yn Twrci i wisgo twrbanau duon.

DUC—IAID: yn yr hen argraffiadau o'r Beibl, ceir *duc* yn unigol, a *dugiaid* yn lluosog; ac yn argraffiadau 1630, *duwc* ydyw yr unigol, a *dûgiaid* a *duwgiaid* yn lluosog. Yn Ngheiriadur y Dr. Davies, megys yn yr eiddo Pughe, dug neu dûg ydyw y gair. Yr un gair ydyw yn ddiau a'r Lladin *dux*, yr hwn a eglura y Dr. Davies â'r geiriau "tywysog llu, blaenor llu; tywysog, pendefig, penaeth, unben; cornor, blaenor, penciwdawd; penaig." Dywed Kitto mai ystyr manwl y gair Lladin, *dux*, ydyw "cadben neu arweinydd," o'r ferf *duco=arwain*; ac fel hyn, cyfetyb yn lled gywir i'r Hebraeg, אלוף=*alluph*, o אלף (*alaph*), *arwain*, *tywys*. Cyfieithir y gair yma yn *llywodraethwr* yn *Diar.* ii. 17; *tywysog* yn *Diar.* xvi. 28; xvii. 9; *Ier.* iii. 4; xiii. 21; *Zech.* xii. 5, 6; *penaeth* yn *Zech.* ix. 7; a *fforddwr* yn *Salm* lv. 13. Yn *Gen.* xxxvi. 15—30; *Exod.* xv. 15; 1 *Cron.* i. 51—54, cyfleithir y gair *alluph* yn *duc* neu *dug*. Diau i'r cyfieithwyr gael eu hudo, medd Kitto, gan debygrwydd yr arwyddocâd, i ddefnyddio teitl diweddar, braidd yn anmhriodol, er nad yn anghywir.

Duc, yn Mhrydain Fawr, ydyw y radd uchaf o'r bendefigaeth. Mewn rhai gwledydd ar y Cyfandir, duc ydyw y tywysog llywodraethol, heb y teitl brenin; megys duc Holstein, duc Savoy, duc Parma, &c.

Rhoddir y teitl yn Mhrydain i'r radd uchaf o'r bendefigaeth. Nid ydyw y radd yn henach yn y deyrnas hon na breniniaeth Edward III. Cyn y teyrnasiad hwnw, yr oedd y rhai a elwir yn awr y bendefigaeth yn gynnwysedig o farwniaid, ychydig o'r rhai oedd yn iarllod. Nid teitl o anrhydedd yn unig oedd na barwn na iarll yn y dyddiau hyny, fel yn awr. Y prif denantiaid mawrion oedd y barwniaid, a swyddi pwysig yn y cyfundeb oedd iarllod. Nid ymddengys fod unrhyw swydd neu ymddiried neillduol wedi eu cyssylltu erioed yn Mhrydain â theitlau ereill y bendefigaeth, megys ìsiarll (*viscount*), ardalydd, a duc. Ymddengys mai arwyddion o anrhydedd yn unig ydynt wedi bod o'r dechreuad. Dygwyd hwy i Brydain mewn dynwarediad o'n cymmydogion ar y Cyfandir. Y mae y teitlau o dduc ac ardalydd yno wedi bod yn arwyddo personau mewn awdurdod wladol uchel, a hyd yn oed llywodraethwyr annibynol. Duc Rwssia neu Muscovy oedd y Czar. Ac heb law y rhai a nodwyd eisoes, yr oedd duciaid Saxony, Burgundy, ac Aquitaine—personau y byddai iarllod y wlad hon yn gydradd â hwy, pe gallent fod mor annibynol ar y llywodraeth ag y gallai duciaid y cynghrair Almaenaidd a Galig fod.

Y cyntaf a wnaed yn dduc yn Mhrydain oedd Edward, Tywysog Cymru, a elwid yn gyffredin y Tywysog Du (*Black Prince*). Gwnaed ef yn dduc Cernyw yn senedd 1335, yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Edward III. Yn 1350, gwnaed Harri, cefnder y brenin, yn dduc Lancaster; a phan y bu efe farw, yn 1361, wedi i'w ferch a'i etifeddes briodi John o Gaunt, mab y brenin, gwnaed yntau yn dduc Lancaster, a gwnaed ei frawd henaf, Lionel, ar yr un pryd, yn dduc Clarence. Ni oddefwyd i ddau fab ieuangaf Edward III. gael y bri uchel yma yn oes eu tad: ond dan deyrnasiad Richard II. gwnaed eu nai Edmund yn dduc York, a Thomas yn dduc Gloucester. Cedwid yr urddas fel hyn ar y dechreu o fewn cylch y rhai oedd o waed a chyfathrach agos i'r brenin, ac nid ydys yn gwybod pa un a oedd gwneyd ffafryn Richard II, Robert Vere, iarll Oxford, yn dduc Ireland ac ardalydd Dublin, i'w olygu yn eithriad ai peidio. Pa un bynag, mewn ystyr briodol, ai urddas Seisonig ai Gwyddelig oedd hwnw, ni bu ond o fyr barhad, canys yn 1388, anurddwyd yr iarll oedd wedi cael ei wneyd yn dduc yn 1385.

Y rhai a dderbyniwyd nesaf i'r urddas uchel yma ydoedd o deulu Holland a Mowbray. Y blaenaf oedd hanner brawd i Richard; a'r llall oedd etifedd Margaret, merch ac etifeddes Thomas de Brotherton, mab ieuanc i Edward I, yr hon Fargaret a wnaed yn dduces Norfolk yn 1358. Hyn oedd dechreuad urddas duc Norfolk, yr hwn sydd yn parhau fyth, er fod amryw fforffedau a diddymiadau amserol wedi bod. Yn nesaf atynt hwy, heb son am frodyr y brenin, rhoddwyd y teitl i un o'r Beauforts, mab orderch i John o Gaunt, yr hwn a wnaed yn dduc Exeter gan Harri V. Gwnaed John Beaufort, un arall o'r teulu hwn, yn dduc Somerset gan Harri VI.

Rhoddid y teitl i gylch eangach dan deyrnasiad Harri VI. Bu deg o dducesau unwaith yn ei lys. Y teuluoedd y caniatawyd yr urddas iddynt yn y teyrnasiad hwn oedd y Staffords, y Beauchamps, a'r De la Poles. Yn 1470, dan deyrnasiad Edward IV, gwnaed George Nevil

Digitized by Google

yn dduc Bedford, ond amddifadwyd ef yn fuan o'r teitl, a gwnaed Jasper Tudor yn dduc Bedford gan ei nai Harri VII, yn mlwyddyn ei esgyniad.

Dau dduc yn unig a wnaed gan Harri VIII, a'r ddau yn geraint agos iddo ef ei hun; un yn fab orddercb iddo, yr hwn a wnaed yn dduc Richmond, a'r llall, Charles Brandon, yr hwn a briodasai frenines Ffrainc, ei chwaer ef, ac a wnaed yn dduc Suffolk ganddo. Fe wnaeth Edward VI. dri; sef ei ewythr, Edward Seymour, yr amddiffynwr, duc Somerset (o'r hwn y mae y duc Somerset presennol yn olrhain ei darddiad, a thrwy wrthddirymiad, ei urddas hefyd); Henry Grey, duc Suffolk; a John Dudley, duc Northumberland. Bu ymrysonau y tri phendefig mawr hyn yn ddinystr i bawb, ac yn ddiddymiad i'w hurddau.

Un duc yn unig a ganfu y frenines Elisabeth ar ei hesgyniad—Thomas Howard, duc Norfolk —gan fod anurddiadau neu ddiffyg meibion wedi diddymu y lleill. Yr oedd efe yn bendefig uchelfrydig, ac yn ymgais am briodi brenines Scotland, a daeth Elisabeth yn eiddugus o hono: cyhuddwyd ef o deyrnfradwriaeth, torwyd ei ben, a diddymwyd ei urddas yn 1572; ac er y pryd hyny bu y bendefigaeth Seisonig heb un duc ond meibion James I, hyd 1623, pan y gwnaed Ludovick Stuart, perthynas agos i'r brenin, yn dduc Richmond, yr hwn anrhydedd a ddiflanodd yn fuan. Yn 1627, gwnaed George Villiers yn dduc Buckingham, ac efe a'i fab oedd yr unig dduciaid oedd yn Mhrydain hyd y rhyfel gartrefol, pan y gwnaed un arall o'r Stuarts yn dduc Richmond, ac y gwnaed nai y brenin, a adnabyddid yn well wrth yr enw y tywysog Rupert, yn dduc Cumberland.

Gwelir fod yr urddas yma yn dra chyfynged hyd deyrnasiad Charles II. Yn y flwyddyn gyntaf ar ol ei ddychweliad ef o alltudiaeth, efe a adferodd y Seymours i'w hurddas o dduciaid Somerset, a gwnaeth Monk, offeryn mawr ei ddychweliad, yn dduc Albemarle. Yn 1663, dechreuodd ddwyn ei hiliogaeth anghyfreithlawn i'r bendefigaeth dan y teitl o dduc, gan y gwnaed ei fab James yn dduc Monmouth yn y flwyddyn hono. Yn 1664, efe a adferodd yr Howards i'r teitl o dduc Norfolk; ac yn 1665 gwnaeth Cavendish, yr hwn a ddaliai swydd filwraidd uchel yn y rhyfel gartrefol, yn dduc Newcastle. Yn 1682, gwnaeth ardalydd Worcester yn dduc Beaufort. Am y lleill, caniateid yr urddas i hiliogaeth y brenin neu i'w mamau. Yr unig dduc a wnaed gan James II. oedd duc Berwick, ei fab ei hun.

Yr unig deuluoedd heb law hiliogaeth Charles II. a olrheinient eu duciaeth er cyn y chwyldroad, pan esgynodd y frenines Victoria i'r orsedd yn 1837, oedd yr Howards, y Seymours, a'r Somersets. Y duciaethau sydd yn awr a roddwyd o'r dechreu gan Charles II. i'w feibion, yw y Grafton, y Richmond, a'r St. Albans. Dan y brenin William a'r frenines Anne, dyrchafwyd amryw deuluoedd oedd yn iarllod cyn hyny i dduciaethau; megys Paulet, duc Bolton; Talbot, duc Shrewsbury; Osborne, duc Leeds; Russell, duc Bedford; Cavendish, duc Devonshire; Holles, duc Newcastle; Churchill, duc Marlborough; Sheffield, duc Buckinghamshire; Manners, duc Rutland; Montagu, duc Montagu; Douglas, duc Dover; Grey, duc Kent; Hamilton, duc Brandon; heb law aelodau o'r teulu breninol a Marshal Schomberg, yr hwn a wnaed yn bendefig Seisonig fel duc Schomberg. Rhoddodd y chwanegiad mawr yma nodwedd cwbl newydd i'r urddas. Dilynodd George I. yr un cynllun gwladyddol, gan wneuthur, heb law ei deulu ei hun, y duciaid canlynol:—Bertie, duc Ancaster; Pierrepoint, duc Kingston; Pelham, duc Newcastle; Bentink, duc Portland; Wharton, duc Wharton; Brydges, duc Chandos; Campbell, duc Greenwich; Montagu, duc Manchester; Sackville, duc Dorset; ac Egerton, duc Bridgewater. Cymmerodd George II. ddull gwahanol —ni wnaeth efe un duc o'r tu allan i'w deulu ei hun, fel mai yr unig chwanegiad y gellir dyweyd ddarfod iddo ef wneuthur at y gangen hon o'r bendefigaeth oedd, trwy eangu duciaeth Pelham Newcastle, fel ag i gynnwys y Clintons, gan y rhai y delir y dduciaeth yn bresennol. Ni wnaed un duc Seisonig o 1720 hyd 1766, ond yn y teulu breninol. Yn y flwyddyn olaf a nodwyd, gwnaed un o gynnrychiolwyr hen deulu Percy yn dduc Northumberland, a derbyniodd y teitl o dduc Montagu, oedd wedi diflanu, gan y Brudenels, yr etifeddion. Parhaodd yr un cynnildeb i gyfranu yr urddas yma hyd ddiwedd y teyrnasiad hwn, ac yn ystod teyrnasiad George IV, ni wnaed un duciaeth o'r tu allan i'r teulu breninol, hyd oni hynododd gwasanaeth ardderchog y duc Wellington ef allan fel un teilwng o anrhydedd y radd uchaf a allai y brenin ei rhoddi. Lluniwyd ei dduciaeth ef yn 1814, saith mlynedd a deugain ar ol gwneuthuriad duc Northumberland. Dyrchafwyd ardalydd Buckingham i radd duc Buckingham a Chandos yn 1822, fel y buwyd dros gan mlynedd, sef o 1720 hyd 1822, heb roddi yr anrhydedd hon ond i bedwar teulu yn unig.

Yn ystod teyrnasiad William IV, dwy dduciaeth a wnaethpwyd—Gower, duc Sutherland; a Vane, duc Cleveland.

Holl nifer y duciaid yn y bendefigaeth Seisonig yn bresennol (1861), ydyw ugain, heb law y rhai o'r teulu breninol. Y mae saith o dduciaid Ysgotaidd—Argyll, Athol, Buccleuch, Hamilton, Lennox, Montrose, a Roxburghe—un o'r rhai (Hamilton) sydd yn dduc Seisonig hefyd. Un duc Gwyddelig yn unig sydd, sef duc Leinster.

Y mae holl dduciaid Prydain wedi eu gwneuthur trwy fraint-ysgrifau, yn y rhai y mae gyrfa yr olyniaeth yn cael ei nodi yn fanwl. Cyfyngir yr urdd yn gyffredin i'r etifeddion gwrywol.

Y mae coron duc wedi ei gwneuthur i fyny o gylch aur wedi ei gerfio yn odidog, ac ar ei ymyl wyth deilen mefus; cap o felfed porphor wedi ei gau yn y top â thasel aur, ei leinio â sarsned, a'i ymylu âg ermin.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Penny Cycl.; Imp. Dict.* &c.)

DRYCHIOLAETH—AU, [*φαντασμα*; Seis., *apparition, spectre, phantom*]: gau ymddangosiad, rhith, lledrith, geurith, ellyll, gwagysbryd, anysbryd. "A phan welodd y dysgyblion ef yn rhodio ar y môr, dychrynasant, gan ddywedyd, Drychiolaeth ydyw. A hwy a waeddasant rhag ofn;" *Mat.* xiv. 26; *Marc* vi. 49; *Ioan* vi. 19. Yr oedd Crist wedi gorchymyn i'w ddysgyblion y waith hon fyned dros y môr o'i flaen ef, ac wedi addaw dyfod ar eu hol heb ddywedyd pa fodd. A oedd efe yn meddwl cerdded o amgylch y llyn yn ystod y nos, yr hyn na byddai neb braidd yn ei wneyd yn ystod y dydd, os byddai llongau i'w cael, neu a oedd efe yn bwriadu eu dilyn yn

Digitized by Google

iolaethau ac ysbrydion, mwy na'u teimlo, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Yn wir, y mae prawf yn nglyn â phob esampl o'r fath a grybwyllir yn y Testament Newydd, fod y fath ddychymyg yn hollol ddisail.

Ceir esampl nodedig o hyn yn hanes y dysgyblion fyth, y rhai a ymgynnullasent yn nhŷ Mair, mam Ioan, a gyfenwid Marc, i weddïo dros Pedr, a daflesid gan Herod i garchar. Pan ryddhawyd ef gan yr angel, cyn gynted ag y daeth ato ei hun, efe a aeth at y dysgyblion i dŷ Mair; ac fel yr oedd efe yn curo wrth ddrws y porth, daeth morwyn a elwid Rhode i wrandaw, "A phan adnabu hi lais Pedr, nid agorodd hi y porth gan lawenydd; eithr hi a redodd i mewn, ac a fynegodd fod Pedr yn sefyll o flaen y porth. Hwythau a ddywedasant wrthi, Yr wyt ti yn ynfydu. Hithau a daerodd mai felly yr oedd. Eithr hwy a ddywedasant, ei angel ef ydyw;" *Act.* xii. 3—15. Yr oedd yr Iuddewon yn credu, yn gyffredinol, fod angel yn cael ei roddi i bob un ar ei enedigaeth, i'w wylio a'i amddiffyn drwy ei fywyd; ac y mae Lightfoot yn meddwl i'r rhai oedd wedi ymgynnull yn nhŷ Mair dybied ddarfod i'r angel gwarcheidiol hwnw gymmeryd llais ac agwedd Pedr, er mwyn dangos iddynt ei fod yn agos i farw, ac i'w cyffroi i weddïo yn daer am iddo gael cymhorth i farw yn wrol dros ei grefydd. Ond pa beth bynag oedd eu tyb hwy, y mae yr holl hanes yma, fel y ddau amgylchiad ysgrythyrol arall a nodasom, yn profi yn ddiammheuol nad oedd i'w tybiau unrhyw sail ond eu dychymyg eu hunain a thraddodiadau yr Iuddewon; ac yr ydym yn hyderu y gallwn roddi cyfrif am y prif achosion o'r dychymygion hyn cyn diwedd yr erthygl hon, a dangos nad oes iddynt unrhyw seiliau mewn rheswm na natur, mwy nag yn yr Ysgrythyrau.

Y mae y dyb fod bodau goruchnaturiol yn ymddangos weithiau, a bod y meirw, ar amserau, yn ail ymweled â'r byw, fel drychiolaethau, yn ffynu agos yn mysg yr holl genedloedd, yn enwedig y rhai mwyaf anwar mewn cymdeithas. Yr oedd y dyb hon yn gref yn mysg yr Iuddewon, fel yr awgrymwyd eisoes, cystal ag yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, fel y gwelir yn yr Ysgrythyrau, ac yn nghaniadau Homer a Virgil. Yr oedd yr Iuddewon, yn wir, yn cael ymddangosiadau nefol mor fynych, fel nad ydyw yn anhawdd egluro gwreiddyn eu cred hwy. Ymddangosodd y Bod dwyfol i bob un o'r patriarchiaid trwy ryw arwydd i'w synwyrau corfforol—yn gyffredin mewn fflam dân, megys i Moses. Dan yr arwyddlun yma yr ymddangosai i'r Israeliaid yn ystod eu harosiad yn yr anialwch, ac ar ol iddynt ymsefydlu yn ngwlad Canaan. Ac nid credu fod bodau nefol yn unig yn ymddangos yr oeddynt hwy, ond credent fod dynion wedi meirw hefyd, fel y crybwyllwyd, weithiau yn ail ymweled â'r byd hwn. Pan aeth Saul i ymgynghori â'r ddewines o Endor, efe a ofynodd iddi ddwyn i fyny iddo ef yr hwn a ddywedai wrthi; prawf yr ystyrai ei gais yn beth digon hawdd, ac y mae yn debyg y gweithredai efe yn hyn dan ddylanwad y farn gyffredin. Yr oedd yr un syniadau wedi bod yn cael eu coleddu yn gyffredinol mewn amseroedd llawer boreuach; canys yr oedd ymofyn â'r meirw (*necromancy*) a dewiniaeth—celfyddydau trwy y rhai y tybid y gellid cyfodi y meirw—wedi cael eu gwahardd tra yr oedd yr Israeliaid yn yr anialwch, cyn iddynt eto gael eu llygru gan bechodau y Canaaneaid. Rhaid, gan hyny, eu bod wedi eu cael yn yr Aipht, cryd ofergoelion, cystal a'r gwybodaethau a'r celfyddydau.

Yr oedd ymddangosiad drychiolaethau ac ellyllon yn gred gyffredinol yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Dywedir fod y duwiau wedi ymddangos i lygaid marwolion ar afrifed achlysuron, ac wedi ymddyddan â hwy, ac ymyryd lawer gwaith ar eu rhan. Dywedir fod ysbrydion y meirw hefyd wedi ymddangos. Pan gollodd Æneas ei wraig, yn nghanol y cyffro a'r dyryswch wrth ffoi o ddinystr Caerdroiau, efe a ddychwelodd i chwilio am dani. Ymddangosodd ei hysbryd iddo (canys yr oedd hi ei hun wedi cael ei lladd) yn yr un agwedd ag o'r blaen, ond ei bod yn ymddangos yn fwy. Ymdrechodd liniaru galar ei gŵr annedwydd, trwy briodoli ei marwolaeth i appwyntiad y duwiau, a thrwy ragddywedyd yr anrhydedd ardderchog oedd yn ei aros. Ond pan gynnygiodd Æneas ei chofleidio, diflanodd y ddrychiolaeth yn y fan i'r awyr. Gellir casglu oddi wrth y chwedl hon, fod yr hynafiaid yn credu fod cysgodau (*umbræ*) neu ysbrydion y meirw yn cadw yr un ffurf ar ol marw a chyn hyny; fod ganddynt gyrff cyn belled ag i'w gwneyd yn alluog i ymddangos yn weladwy i ddynion; ac y gallent feddwl a siarad fel o'r blaen, ond nid bod yn deimladwy. Gellir cymhwyso y dysgrifiad yma gyda'r un priodoldeb at yr ysbrydion a elent trwy yr afon Styx, ac a breswylient yr ardaloedd uffernol. Y cyfryw oedd ysbryd Dido, Deiphobus, a'r holl rai a gyfarfu Æneas ar ei daith trwy y byd tanddaiarol.

Ymddengys oddi wrth ysgrifeniadau teithwyr diweddar sydd wedi ymweled â chenedloedd anwar, nad ydyw y gred mewn ymddangosiad drychiolaethau yn ddim mwy anghyffredin yn eu plith hwythau. Dywed Mr. Bruce fod offeiriad y Nilus yn sicrhau ei fod ef wedi gweled ysbryd yr afon fwy nag unwaith, ar lun hen ddyn â barf wen ganddo. Ymddengys fod athrawiaeth drychiolaethau yn mhlith y Mahometiaid wedi cael ei gwneyd yn gyfundrefn reolaidd, wrth yr hanes a roddant am yr elfodau (*genii*=rhyw fodau dychymygol, da neu ddrwg, rhwng dynion ac angelion, y tybia y Mahometiaid eu bod yn gwarchod pob dyn, tebyg i angelion gwarcheidiol yr Iuddewon). Rhaid fod y rhai a ddarllenasant yr *Arabian Nights Entertainments* (Difyrwch y Nosweithiau Arabaidd) wedi llenwi eu cof â channoedd o'r fath elfodau Ymddengys mai cymmysg llygredig ydyw eu syniadau am yr elfodau o athrawiaethau yr Iuddewon a'r hen Bersiaid. Mewn gwledydd Cristionogol hefyd, er maint o oleuni a ddygodd eu crefydd iddynt, ac er cymmaint y cynnydd mewn gwybodau a chelfyddydau sydd yn eu plith, y mae y grediniaeth mewn ymddangosiad drychiolaethau ac ysbrydion yn dra chyffredin yn eu plith, yn enwedig yn mysg y dosbarth isaf. Credant fod ysbrydion drwg yn ymddangos weithiau, i ddychrynu dynion drygionus, yn enwedig y rhai a fyddont euog o lofruddiaeth. Tybiant fod ysbrydion y meirw yn cymmeryd ymddangosiad corfforol, yn hedfan o amgylch y mynwentydd, neu yn cythryblu y manau y cyflawnwyd llofruddiaeth ynddynt. Credir mewn rhai manau eu bod wedi gweled bodau ysbrydol, ar ddelw berffaith dynion byw.

Y mae yr hyn a elwir lledrithwel (*second sight*) yn cael ei gredu hyd heddyw gan lawer yn Ucheldiroedd Scotland; sef fod dygwyddiadau dyfodol yn cael eu rhagfynegu gan rai personau trwy gyfrwng gweledigaethau drychiolaethol.

Digitized by Google

Y maent yn credu fod y ddawn yma, fel y galwant hi, gan rai yn Ynys Manaw, a'r Iwerddon hefyd. Nid ydyw y ddawn nac yn wirfoddol nac yn barhaus, ac yn gyffredin, y mae yn flinderus ac annymunol i'r perchenog. Dywedid mai argraff ydyw ar y meddwl neu ar y llygaid, neu trwy y llygaid ar y meddwl, trwy yr hyn y gwelir pethau pell, neu ddyfodol, ac y gwelir hwy fel pe byddent bresennol. Pan fyddo dyn ar ei daith, yn mhell oddi cartref, gwel un arall ef, a fydd wrth ei waith, efallai, tua'r tŷ, yn ei waed ar y ddaiar; ac yn gyffredin, gwelir y tir o amgylch y lle y byddo y ddamwain wedi dygwydd. Dychrynir gweledydd arall yn ddisymmwth, a fydd yn gyru ei wartheg adref, neu yn crwydro yn y maes, neu yn ymddifyru yn llygad yr haul, trwy ymddangosiad o briodas neu angladd; a gall gyfrif y rhai fydd yn bresennol; ac os bydd yn eu hadnabod, gall ddywedyd eu henwau, neu ddysgrifio eu gwisgoedd. Dywedir fod yr un peth i'w weled ar brydiau yn esgobaeth Tŷ Ddewi. Gwelir pethau pellenig ar y foment y cymmerant le. Dywed Johnson na wyddai efe am un reol wrth yr hon yr hònent allu i benderfynu yr amser rhwng yr olygfa a'r dygwyddiad; ond dywedai Mr. Grose fod amser y cyflawniad yn gyffredin yn dwyn rhyw berthynas â'r amser o'r dydd y derbynio y gweledydd yr hysbysiad. Fel hyn, os ceir y weledigaeth yn gynnar yn y bore (yr hyn ni ddygwydd ond anfynych), cyflawnir hi yn gynt na'r gweledigaethau a geir yn y prydnawn; a chyflawnir y rhai a geir yn y prydnawn yn gynt na'r rhai a geir yn y nos; cymmer y rhai olaf fwy na blwyddyn weithiau i'w cyflawnu.

Ni chyfyngir y gweledigaethau hyn at ddygwyddiadau difrifol neu bwysig; ac nid gwir yw, fel y dywedir yn gyffredin, nad ydyw y lledrithwel yn canfod dim ond drychiolaethau o ddywyddiadau erchyll.

Y mae ymweliad gwagymhònwr (*mountebank*), neu bibydd; dalfa fawr o bysgod; dychweliad teithiwr adref; neu os oes modd, bethau mwy dibwys fyth, yn cael eu rhagddangos i'r gweledyddion hyn. Dywedodd boneddwr wrth y Dr. Johnson, pan yr aethai efe unwaith oddi cartref, fod un o'i weithwyr wedi rhagfynegu ei ddychweliad adref, a dysgrifio lifrai ei osgordd, nad arferodd erioed gartref, ac a roddasid iddo yn ddamweiniol, heb ddim rhagfwriad.

Gan fod amryw wŷr enwog am eu gwybodaeth a'u celfyddyd yn addef y ddawn yma, sydd mewn cymhariaeth yn gwbl ddiddefnydd, rhoddwn dalfyriad yma o farnau dau o brif ddynion eu hoes —y Dr. Beattie, o Aberdeen, a'r Dr. Johnson.

Gwlad ddarluniadol a phruddglwyfus, meddai y Dr. Beattie, ydyw Ucheldiroedd Scotland: darnau hirion o dir mynyddig diffaeth, wedi eu gorchuddio gan rug, ac yn cael eu tywyllu yn fynych gan dywydd niwliog; dyffrynoedd culion, wedi eu poblogi yn deneu, ac yn cael eu hamgylchynu gan glogwyni serth yn adseinio gan ddisgyniad llifeiriant; tir garw, a hinsawdd mor gethin, fel na cheir mewn llawer parth na difyrwch porfaol na llafur amaethyddol; ymguriad pruddaidd y tonau ar hyd mornentydd a llynau y wlad; y swn alaethus y mae pob cyfnewidiad yn y gwynt, a phob lleihad chwanegol yn y dyfroedd yn tueddu i'w gyfodi mewn ardal unigol, lawn o adseiniau, a chreigiau, ac ogofäau; ac ymddangosiad aruthrol ac anferth y fath diriogaeth wrth oleuni y lloer: y mae gwrthddrychau fel hyn yn taenu prudd-der dros y dychymyg: ac er eu bod yn ddigon cydweddol â difyrwch cymdeithasol ar achlysuron, eto nis gall lai nag effeithio ar feddyliau y brodorion yn eu horiau hamddenol ac unigol. Os ydyw y bobl hyn, er eu gwellhad mewn crefydd, a'u hymgymmysgiad mynychach â dyeithriaid, fyth yn cadw llawer o'u hen ofergoeledd, nid oes achos i ammheu nad oeddynt yn llawer caethach i ddychrynfeydd y darfelydd, pan yn cael eu hamgylchynu gan fwbachod Pabyddiaeth a Phaganiaeth. Y mae y rhan fwyaf o'u hofergoelion o duedd bruddglwyfus. Y maent hwy eu hunain yn ystyried lledrithwel (*second sight*), â'r hyn y tybia rhai eu bod yn cael eu blino yn awr, yn anffawd, o blegid fod y fath ritholygfeydd dychrynllyd, fel y dywedant, yn ymosod ar eu dychymyg. Dywedir fod rhai o drigolion gororau yr Alpau hefyd yn hòni eu bod yn cael math o ledrithwel. Ac nid ydyw yn rhyfedd fod personau o ddychymyg bywiog, wedi eu hamgaeru mewn unigedd dwfn, a'u hamgylchynu gan olygfeydd aruthrol o gymylau, clogwyni, a llifeiriant, yn breuddwydio, hyd yn oed pan yn meddwl eu bod yn effro, am yr ychydig feddylddrychau hynod a amrywiant eu bywyd unigol: am gyrff, angladdau, a phethau dychrynllyd ereill; neu am briodasau, ymweliad dyeithriaid, a phethau cyffelyb, a mwy dymunol i'w dychymyg. Cofier hefyd nad oedd gan hen drigolion Ucheldiroedd Scotland braidd ddim at eu cynnaliaeth heb law hela, pysgota, neu ryfela; gorchwylion sydd yn gwneyd eu dilynwyr yn agored yn barhaus i ddamweiniau marwol. Ac o blegid hyny, yn ddiammheu, yr oedd dychryniadau chwanegol yn cythryblu eu hunigedd, ac yn taflu prudd-der dros ddychymyg hyd yn oed y brodorion caletaf.

Prin y gellir cael prawf digonol dros wirionedd y lledrithwel, o leiaf fel y deallir y peth yn gyffredin. Fe gyhoeddwyd traethawd ar y pwnc amser yn ol; ond y mae yr awdwr hwnw mor hygoel, fel y mae y chwedlau ffol a adroddir ganddo yn tueddu i greu rhagfarn yn erbyn y gyfundrefn, yn hytrach nag o'i phlaid. Hwyrach nas gellir dyweyd fod y gweledyddion hyn yn dueddol i gael eu rheoli gan olygiadau maleisus; ond gellir dyweyd yn hyderus nad oes neb yn hòni eu bod wedi eu donio yn y dull hwn ond personau anwybodus; a dichon nad ydyw yn ddim mwy ynddynt hwythau nag iasau byrion o gwsg neu drymder disymmwth, yn cael ei ddilyn gan freuddwydion bywiog, ac yn cyfodi oddi ar ryw anhwyldeb corfforol, effaith seguryd, iselder ysbryd, neu ddychymyg trymfrydig. Cydnabyddir hyd yn oed gan yr Ucheldirwyr mwyaf hygoelus, fod y lledrithwel yn diflanu mewn cyfartalwch i gynnydd gwybodaeth a diwydrwydd yn eu gwlad. Ac nid ydyw yn beth hynod, mewn un modd, fod un yn ymddangos yn effro, ac yn meddwl ei hun ei fod felly, yn ystod yr iasau yma o hûn—y rhai sydd yn dyfod weithiau yn sydyn, tra y byddo un yn cyflawnu rhyw orchwyl. Y mae yr un peth yn dygwydd i bersonau wedi blino yn fawr, neu rai wedi eu cadw yn hir yn effro, y rhai yn fynych a syrthiant i gwsg am foment, neu am ysbaid lled faith tra yn sefyll, yn cerdded, neu yn marchogaeth. Cyssyllter breuddwyd bywiog â'r hûn yma, a chymmerer ymaith bob ymwybodolrwydd o fod wedi cysgu, yr hyn a ddygwydd yn fynych dan effaith afiechyd, a gall person ofergoelus feddwl yn hawdd ei fod yn cael gweledigaeth, tra na bydd y peth mewn gwirionedd ond breuddwyd; yr hyn a anghofir yn fuan pan na alwo rhyw

Digitized by Google

ddygwyddiad dilynol y peth i gof; ond os meddylir ei fod yn tebygu i ryw ddygwyddiad dyfodol, fe gyfyd y breuddwydiwr druan i sefyllfa prophwyd Ucheldirol. Gwnaiff y dychymyg yma y breuddwydiwr yn fwy meudwyaidd a phruddglwyfus nag erioed; ac felly, portha ei anhwyldeb, a chwanega ei weledigaethau; ac os na rwystrir hwy gan orchwyl neu gymdeithas, gallant ei flino ar hyd ei oes; ac fel y treiglant trwy y gymmydogaeth, chwyddir eu rhyfeddodau, a rhydd pob genau help i'w taenu. Nis gellir caniatau mewn un modd fod y lledrithwel hwn o natur brophwydol. Byddai i'r Duwdod wneuthur gwyrth er mwyn rhagfynegu pethau mor blentynaidd ag a wnant i fyny y chwedlau hyn; megys ymweliad dyeithriaid, hoeliad arch, neu liw pâr o ddillad; a'r pethau hyn yn cael eu rhoddi i ddim pwrpas, ac i'r personau hyny yn unig sydd yn segur neu yn unigol, yn medru siarad Gaeleg, neu yn byw yn mysg mynyddoedd a lleoedd anial—byddai hyn yn groes i bob peth adnabyddus mewn natur a rhagluniaeth: gan hyny, rhaid ei wrthod fel peth ffol ac anghredadwy.

Gellir priodoli y gweledigaethau hyn, o'r fath ag ydynt, i ddychymyg afiachus. A gellir dysgwyl, yn ol deddfau damwain, y dichon i rai o honynt hwy, fel rhai o'r breuddwydion cyffredin, debygu weithiau i rai dygwyddiadau; ac nid ymddengys fod dim rhyfeddach neu fwy goruchnaturiol yn hyn, na phe dygwyddai i barrot, wrth fragaldian, alw dyn a fyddo yn myned heibio wrth ei enw.

Yn ateb i'r gwrthddadleuon hyderus hyn, dywed y Dr. Johnson eu bod, trwy benderfynu beth sydd gymhwys, a pha beth sydd fuddiol, yn rhagdybied mwy o wybodaeth o drefn gyffredinol pethau nag y mae dyn wedi ei gyrhaeddyd; ac am hyny, eu bod yn ymddibynu ar egwyddorion rhy ddyrys ac eang i'n hamgyffred ni; ac nas gall bod y casgliad yn ddiogel pan na byddo y cynseiliau (*premises*) yn ddealladwy; fod y lledrithwel yn rhyfedd yn unig am ei fod yn beth anghyffredin, canys, o'i ystyried ynddo ei hun, nad ydyw yn ddim mwy dyrys na breuddwydion, na dim mwy, fe allai, nag ymarferiad rheolaidd o'r gallu meddyliol; fod cred gyffredin yn ffynu yn mhob cenedl ac oes mewn rhagfynegiadau gweledigaethol; fod rhai esamplau wedi cael eu rhoddi gyda'r fath brawf, fel nad oedd na Bacon na Bayle yn alluog i'w gwrthsefyll; fod dygwyddiadau wedi gwirio mwy o'r rhagweledigaethau hyn nag sydd yn cael eu cydnabod na'u cyhoeddi; nad yw lledrithwel trigolion yr Hebrides ac Ucheldiroedd Scotland yn ddim ond mynychder o allu, sydd heb fod yn gwbl anhysbys mewn un man; a phan y byddom yn analluog i benderfynu trwy reswm blaenorol, y rhaid i ni ymostwng i rym tystiolaethau. Nad ydyw y rhai sydd yn hòni lledrithwel wedi ceisio na chael elw erioed trwyddo. Mai dawn anwirfoddol ydyw, heb fod gan na gobaith nac ofn, hyd yr ydys yn gwybod, ddim dylanwad arni. Nid ydyw y rhai sydd yn hòni y ddawn yn bostio o honi fel rhagorfraint, nac yn cael eu hystyried gan ereill fel yn meddu manteision nodedig. Nid ydynt dan brofedigaeth i ffugio, ac nid oes gan eu gwrandawyr un achos i gefnogi eu twyll. Dyma farn y Dr. Johnson; ond credir mai prin y mae ei resymau yn ddigon cryfion i ysgwyd gosodiadau y Dr. Beattie; ac nas gellir, wedi y cyfan, ystyried lledrithwel trigolion Ucheldiroedd Scotland, a'r ynysoedd gogleddol, ddim amgen na math o ddrychiolaethau.

Y mae y gred mewn drychiolaethau wedi bod mor gyffredin, fel yr awgryma y Dr. Johnson, gyda golwg ar y lledrithwel, fel yr ystyrir hyny yn unig gan rai yn brawf digonol y rhaid fod ei sylfaen yn y natur ddynol, neu y rhaid ei fod yn gorphwys ar ryw brawf rhesymol. Pan fyddo rhyw athrawiaeth wedi bod yn cael ei derbyn yn gyffredinol gan yr holl genedloedd, gan genedlaethau yn byw amryw filoedd o flyneddoedd oddi wrth eu gilydd, a chan bobl o bob rhyw sefyllfa mewn cymdeithas, diau fod lle cryf i gasglu fod i'r cyfryw athrawiaeth sail mewn rheswm a gwirionedd. Ymresymir fel hyn dros hanfod Duw, dros wahaniaeth moesol, a thros yr athrawiaeth am sefyllfa ddyfodol: a chyn belled a hyny, diau yr ymresymir yn gywir. Ond os cymhwysir yr un ymresymiad at eilunaddoliaeth, at aberthau, neu at ddrychiolaethau, canfyddir y caiff ei gamgymhwyso. Yr oedd eilunaddoliaeth yn bur gyffredin yn mysg hen genedloedd; felly yr oedd aberthau, ac felly yr oedd amldduwiaeth: ond nid oeddynt mewn un modd yn gyffredinol. Pe caniateid, er mwyn byrhau yr ymresymiad, fod yr holl hen genedloedd yn amldduwiaid ac yn eilunaddolwyr, ac yn cyflwyno offrymau ac aberthau i'w duwiau dychymygol, y cwbl a ellid benderfynu oddi wrth yr addefiad yma fyddai, eu bod wedi syrthio i'r camsyniadau hyn o ddiffyg gwybodaeth, a diwylliad cymdeithasol, o'r hyn na bu eu gwybodaeth anmherffaith o dduwinyddiaeth ac athroniaeth foesol erioed yn alluog i'w gwaredu. Mae y syniadau cyfeiliornus hyn wedi ffoi o flaen dysgleirdeb y drefn Gristionogol; tra y mae yr athrawiaeth am hanfod Duw, am wahaniaeth moesol, ac am sefyllfa ddyfodol, wedi eu cadarnhau yn fwy trwyadl. Gellir dywedyd yr un peth am y gred mewn drychiolaethau. Pa mor gyffredinol bynag y coleddwyd hi yn ngraddau cyntaf cymdeithas, neu hyd yn oed gan genedloedd gwareiddiedig a wnaethant ond ychydig gynnydd mewn efrydiad o bethau dwyfol, gellir dywedyd ei bod wedi ei gwrthod bron yn gyffredinol lle bynag y mae duwinyddiaeth ac athroniaeth wedi cael derbyniad cyfartal.

Gan fod pob syniadau poblogaidd o hir barhad yn wrthddrychau o gywreinrwydd ac ymchwiliad i'r athronydd, tybir fod y gred mewn drychiolaethau yn deilwng o sylw yn yr ystyr yma. Hyderir, gan hyny, y rhydd foddhad i'r darllenydd athronyddol weled hanes byr o'r ffynnonellau neu yr egwyddorion o'r rhai y mae y gred hon wedi tarddu. Ond gan fod y gred mewn drychiolaethau yn gyssylltiedig âg opiniynau ereill sydd yn ymddangos i ni yn dra niweidiol i grefydd, opiniynau sydd wedi cael eu hamddiffyn gan amryw wyr dysgedig, a'r rhai sydd yn cael eu credu fyth gan rai gwŷr o ddysg; bydd yn briodol, yn y lle cyntaf, ystyried y prawf ar yr hwn y gorphwys y gred hon, a'r hwn a gynnwys y tebygolrwydd a'r grediniaeth.

Yn yr ymchwiliad yma, gadewir heibio yn hollol yr ymddangosiadau nefol a gofnodir yn yr Ysgrythyrau, fel rhai wedi eu seilio ar brawf diammheuol, a pherffaith gyssoni â'r rheolau y gweithreda y Duwdod wrthynt yn nhrefn gyffredinol ei ragluniaeth. Yr oedd yr Israeliaid, yn ystod parhad eu llywodraeth hwy, dan awdurdod uniongyrchol Duw, nid yn unig fel Llywodraethwr moesol y byd, ond fel Brenin Israel. Yn amser boreuaf y byd, tra yr oedd dynion yn ddifoes ac anniwylliedig, ac yn gwbl dan ddy-

Digitized by Google

lanwad eilunaddoliaeth, yr oedd amryw ddadguddiadau yn angenrheidiol i gadw syniadau pur yn eu cof am Dduw, ac am yr addoliad oedd weddus iddo ef. Yr oedd yn angenrheidiol hefyd i barotoi i'r oruchwyliaeth ogoneddus y daeth yr Arglwydd Iesu o'r nef i'w lledaenu yn y byd. Yr oedd pob ymddangosiad nefol a gofnodir yn yr Ysgrythyrau yn cymmeryd lle i ryw ddyben doeth a phwysig, sydd yn amlwg o angenrheidrwydd i bawb a ystyria yr ymddangosiadau hyn yn deilwng. Ond pan yr ysgrifenwyd ac y cyhoeddwyd yr Ysgrythyrau, ac y cyflawn sefydlwyd y grefydd Gristionogol, peidiodd dadguddiad, ac nid oedd gwyrthiau a chenadon nefol mwyach yn angenrheidiol. Pa gred, gan hyny, a deilynga y chwedlau rhyfeddol a draethir gan hen awduron am ryfeddodau yn y nefoedd, ac ymddangosiadau ysbrydion da a drwg? Ni hònir fod un o'r rhyfeddodau ar yr ymddangosiadau hyny wedi cael eu gwneuthur i ddybenion mor fawrion a phwysig a'r rhai a ddysgrifir yn yr Ysgrythyrau. Ac a allwn ni dybied y caniatâ Llywydd doeth y byd i'w angelion ymddangos i bob dyn heb ddim dyben mewn golwg, neu i ddyben a allesid ei gyflawnu yn llawn cystal heb eu cyfryngiad hwy? A fyddai hyn yn gysson â pherffaith ddoethineb, neu a fyddai yn gysson âg ardderchogrwydd a gorucheledd y dealltwriaeth y dysgir ni i'w priodoli i'r bodau goruchel hyny? Y mae holl ewyllys Duw wedi ei ddadguddio i ni yn yr Ysgrythyrau; a pha ddyben bellach a fyddai cyfryngiad gweladwy angelion? Dichon y gwrthddadleuir, trwy ofyn, "Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?" *Heb.* i. 14. Gellir ateb, y dichon angelion gynnorthwyo dynion da trwy gyfryngwriaeth weladwy. Ond tybia rhai mai nad am ysbrydion nefol y mae yr apostol yn llefaru yma. Mae y gair αγγελος (*angelos*) yn arwyddo *cenad*, ac yn cyfeirio yn fynych yn yr Ysgrythyrau at ddynion da; a dywed y rhai sydd o'r syniad yma fod y gair yn y lle hwn yn fwy cymhwys am ddynion nag angelion; o blegid mai adrodd cymhariaeth y mae yr apostol rhwng *y prophwydi*, trwy y rhai y llefarodd Duw lawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau, *a'r Mab*, trwy yr hwn y mae efe wedi llefaru yn y dyddiau diweddaf hyn. Ond, a chymmeryd y gair *angelion* yn ei ystyr cyffredin, yn arwyddo bodau nefol, ni ddywed neb yn sicr fod yn anhebgorol angenrheidiol iddynt ymddangos er mwyn gwasanaethu y saint.

Yn awr, os nad oes prawf digonol fod Duw wedi rhoddi commissiwn i'w angelion i lefaru wrth ddynion ar ol cyhoeddiad y grefydd Gristionogol, a ydyw yn debyg y rhoddai efe unrhyw gommissiwn neu unrhyw drwydded i ysbrydion drwg i wneuthur hyny? Fe allai y dywedir fod yr athrawiaeth hon yn cael ei dysgu yn amlwg yn y Testament Newydd, yn y geiriau sydd yn dywedyd fod y "diafol megys llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyncu;" 1 *Pedr* v. 8. Ni chymmerir mantais o gyfieithiad rhai, sydd yn dywedyd fod y gair *diafol*, sydd yn yr iaith Roeg yn arwyddo *gwrthwynebwr* neu *enllibiwr*, yn cyfeirio yma at ryw berson dynol, oedd yn elyn creulawn i Gristionogaeth. Y cwbl a ellir ei gasglu oddi wrth y geiriau hyn ydyw, ar y dyb eu bod yn cyfeirio at ysbryd drwg, ei fod yn rhodio oddi amgylch er mwyn hudo dynion i ddrygioni. Ond nid yw yn gwneuthur hyny trwy gymmeryd ffurf echryslawn ac ymddangos i deithwyr ganol nos, er mwyn cyflawnu yr amcan hwnw. Mae yn debyg fod gan ysbryd fodd i ymwneyd yn uniongyrchol â'n meddyliau ni heb unrhyw gyfrwng corfforol; a thrwy gynhyrfu ein nwydau, gall ein hudo i ddrygioni, yr hyn yw yr unig amcan, fel y tybir, a all fod gan y diafol. Nid oes yr un o'r chwedlau rhyfeddol a glywir am ymddangosiad ysbrydion drwg yn ein harwain i feddwl eu bod byth yn ymddangos er mwyn llithio dynion i gyflawnu troseddau. Nid ydym byth yn clywed am ysbrydion drwg yn gofyn i ddynion ladrata, treisio, neu lofruddio. Ymddangos y maent hwy i ddychrynu personau gorphwyllog a llwfr, y rhai sydd yn meddu digon o fympwyon a dychymygion i gynhyrfu eu meddyliau, pe na baent byth yn cael unrhyw weledigaeth oruchnaturiol. Gan hyny, nid yw yn gysson â chymmeriad Duw, ac â'r hyn a ddadguddiodd efe yn ei ewyllys, i ni gredu ei fod ef yn gorchymyn i angelion da, nac yn caniatau i angelion drwg, ymddangos i ddynion ar ol sefydlu yr efengyl, nac yn wir ar unrhyw gyfnod blaenorol ar y byd oddi gerth i gyflawnu rhyw ddyben mawr a phwysig. Nid yw yn gysson â'r hyn a wyddom am natur angelion da a drwg i ni dybied, pe byddai caniatâd yn cael ei roddi iddynt ymddangos i ddynion, yr ymddangosent yn y dull a ddarlunir mewn chwedlau.

Y mae yn llawn mor annhebyg hefyd fod ysbrydion y meirw yn cael caniatâd i ail ymweled â'r byd hwn. Y mae dynion, ar eu marwolaeth, yn myned trwy gymmaint, os nad mwy o gyfnewidiad, a phan y daethant gyntaf i oleuni yr haul. Onid ydyw mor annhebyg, gan hyny, y byddai i ddyn ddychwelyd mewn ffurf weladwy ar ol marw, ag y byddai iddo, ar ol cyrhaeddyd oedran gŵr, ddychwelyd i'r sefyllfa yr ydoedd ynddi cyn ei eni? Y mae yn amlwg fod y fath gyfnewidiadau a'r rhai hyn yn cael eu gwneyd yn barhaol gan ddeddfau anghyfnewidiol natur. Ond tybier fod hyn yn bosibl, i ba ddyben y dychwelent yma? Ai i ddysgrifio i ni yr hyn sydd yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y byd arall? Ai i'n cynhyrfu at rinwedd, trwy ein hysbysu am y gwynfyd sydd yn aros y da, neu ein dychrynu trwy ddysgrifio y gosp sydd yn aros y drygionus? Ymddengys y rhai hyn yn rhesymau pwysig. Ond y mae rhagluniaeth ddwyfol wedi taflu llen yn ddoeth dros y dyfodol. Yr ydym yn gwybod pob peth am y byd arall trwy yr Ysgrythyrau sydd yn briodol i ni yn bresennol eu gwybod. Ac am gymhelliadau at rinwedd, yr ydym eisoes wedi ein bendithio â digon o nifer, a rhai digon mawrion a grymus i fodau moesol, y rhai sydd i weithredu oddi ar ddybenion rhesymol, ac nid trwy orfodaeth. "Oni wrandawant ar Moses a'r prophwydi, ni chredent chwaith pe cyfodai un oddi wrth y meirw;" *Luc* xvi. 31.

Y mae un wrthddadl gref yn erbyn y tebygolrwydd o ymddangosiad drychioliaethau, sydd yn ddigon i brofi nad ydynt yn greaduriaid deallus; neu, o leiaf, eu bod yn meddu cyn lleied o ddealltwriaeth, fel nad ydynt yn alluog i weithredu yn ddoeth, fel ag i osod unrhyw amcan iddynt eu hunain, neu i ddefnyddio moddion cyfaddas i gyrhaedd yr amcan hwnw. Y mae drychioliaethau yn ymddangos yn fynych i ddadguddio troseddau a gyflawnwyd: ond nid ydynt byth yn ymddangos i ynad, neu berson mewn awdurdod, ond i ryw werinwr anllythyrenog a ddygwyddo fod yn byw yn agos i'r lle y byddo y trosedd wedi ei gyflawnu, i ryw berson

Digitized by Google

na bydd yn dwyn dim cyssylltiad â'r amgylchiad, a'r mwyaf anghyfaddas yn y byd i wneyd y dadguddiad Er esampl, yn *Glanville's Saducismus triumphatus* (llyfr a ysgrifenwyd gan gaplan Charles II. o blaid y syniadau cyffredin am swyngyfaredd a drychiolaethau), ceir y chwedl ganlynol:—Priododd un James Haddock, tyddynwr, âg un Elen Welsh, i'r rhai y bu un mab. Ar ol marwolaeth Haddock, priododd ei weddw un Davis; a chytunodd y ddau i dwyllo y mab o'r briodas arall o brydles (*lease*) a roddwyd iddo yn llythyr cymyn ei dad. Yn ngwyneb hyn, ymddangosodd ysbryd Haddock i un Francis Taverner, gwas arglwydd Chichester, a dymunodd arno fyned at Elen Welsh—a'i hysbysu mai ewyllys ei gŵr blaenorol oedd i'w mab fwynhau y brydles. Ni chyflawnodd Taverner, ar y cyntaf, ei neges; ond blinid ef yn barhaus gan y drychiolaethau mwyaf echryslawn, gan fygwth hyd yn oed ei dynu yn ddarnau, hyd oni chyflawnodd ei genadwriaeth. Yn awr, pe buasai gan y ddrychiolaeth hon y radd leiaf o synwyr cyffredin, buasai yn ymddangos o'r dechreu i Elen Welsh a'i gŵr Davis, gan eu dychrynu i gydsynio ar unwaith, yn lle cadw Taverner druan mewn anesmwythder parhaus, yr hwn nad oedd yn teimlo dyddordeb yn y mater.

Peth arall pur ryfedd gyda golwg ar ddrychiolaethau yn gyffredinol, na wiw myned heibio iddo, ydyw, nad ydynt yn alluog i siarad nes iddynt gael eu cyfarch. Yn y seithfed ar ugain o adroddiadau Glanville, dywedir fod hen wraig yn ymddangos yn fynych i David Hunter, bugail gwartheg yn nhŷ esgob Down a Conners. Pa bryd bynag yr ymddangosai hi iddo, byddai yn rhaid iddo ei dilyn; ac am dri chwarter blwyddyn, treuliodd David druan y rhan fwyaf o'i nosweithiau i ffritio i fyny ac i lawr drwy y coed ar ol yr hen wrach yma. Y mae yn anmhosibl dyfalu pa hyd y buasai y gorchwyl anhyfryd yma yn parhau, oni buasai i flinder annyoddefol David wneuthur iddo lefain un noswaith, "Rhad Duw arnaf! O na chawn farw!—ni waredir fi byth o'r trueni yma!" Ar hyn, fe atebodd y ddrychiolaeth, "Rhad Duw arnaf finnau hefyd! Dedwydd oedd i chwi siarad yn gyntaf; canys hyd hyny nis gallaswn i siarad, er i mi eich dilyn gyhyd o amser." Yna rhoddodd genadwri iddo at ddau o'i meibion, er i David ddywedyd wrthi nad oedd efe yn cofio dim am dani. Ymddengys i David esgeuluso cyflwyno ei genadwri; o blegid yr hyn y cynhyrfwyd yr hen wrach gymmaint, fel y dychwelodd ac y tarawodd ef yn dost ar ei ysgwydd, nes gwneyd iddo waeddi dros bob man, ac yna llefarodd hithau wrtho. Yn awr, os na allai hi siarad â David nes iddo ef ei chyfarch yn gyntaf, pa ham na buasai hi yn cymhwyso y feddyginiaeth lefarol hon ato y tro cyntaf yr ymddangosodd iddo? Buasai hyny yn arbed llawer taith flinderus iddi hi ac yntau; ac y mae yn ddiau y buasai yn well gan David ddyoddef pwys ei dwrn cygnog hanner dwsin o weithiau na cholli ei gysgu am gynnifer o nosweithiau. I orphen y chwedl, rhaid chwanegu, pan welodd gwraig David nad oedd bosibl ei gadw rhag dilyn yr ymwelydd poenus, ei bod hithau wedi ffullian ar ei ol, ond na chafodd hi erioed yr hyfrydwch o gael cymmaint ag un olwg ar yr hudoles. Yr oedd ci bach David hefyd yn gydymaith ffyddlawn i'w feistr yn ystod ei bererindodau nosol.

Sylwir gan Glanville, fod ysbrydion yn gyffredin yn bur awyddus am gael myned ymaith—yn wir, eu bod yn gymmaint felly fel nad arosant weithiau i orphen eu negesau. Gellir casglu oddi wrth hyn, a'r amgylchiadau ereill a grybwyllwyd, mai y rhai mwyaf dwl a hurt o'r meirw sydd yn ymddangos fel drychiolaethau, os na chredir eglurhad medrus Glanville—"mai peth pur galed a phoenus iddynt hwy ydyw crynhoi eu cyrff teneuon ac eiddil fel ag i fod yn weladwy; y rhaid i'w cyrff gael eu cydwasgu yn ddirfawr; ac am hyny y rhaid eu bod mewn brys mawr am waredigaeth oddi wrth yr ymwasgiad annaturiol hwnw."

Gyda golwg ar y *prawf* o ymddangosiad drychiolaethau, canfyddir ar yr ymchwiliad mwyaf arwynebol ei fod yn dra diffygiol. I un person yn unig y maent yn ymddangos ar unwaith; yn y nos yn unig y maent i'w gweled; i bersonau anwybodus, anllythyrenog, a hygoelus yn unig y maent yn weladwy, ac nid ydynt byth yn ymgyflwyno i wŷr o ddysg a gwybodaeth.

Y mae eu gwaith yn ymddangos i un person ar unwaith yn unig, hyd yn oed pan fyddo chwaneg yn nghyd, yn wrthddadl anorfod yn erbyn eu hymddangosiad. Pa fodd y mae yn bosibl i ddau ddyn yn meddu golwg cystal a'u gilydd, ac yn cyfeirio eu llygaid i'r un llanerch, beidio gweled gwrthddrych cymmaint a dyn neu ddynes mewn ychydig bellder cystal a'u gilydd? Dywed rhai mai niwl sydd yn cael ei fwrw dros olwg un, tra y bydd golwg y llall yn rhydd ddirwystr. Ond pa fodd y profir hyn? ac heb law hyny, pa ddyben a atebai hyny? Anfynych y mae gan ysbrydion unrhyw ddirgelion i'w dadguddio; a gellid gwneyd hyny i luaws gyda'r un priodoldeb ag i un person. A ddywedir wrthym fod gan ysbryd fodd i fod yn weledig i rai, ac aros yn anweledig i ereill? Nis gellir caniatau hyn heb goleddu golygiadau croes i grefydd ddadguddiedig; canys gofynai wyrth: ac nis gellir ein darbwyllo heb brawf, y galluogai Duw fodau israddol i lywodraethu y deddfau doeth a ordeiniodd efe i reoli y byd, wrth eu hewyllys.

Eto, yn y nos yn unig y mae drychiolaethau yn ymddangos. Ond pa ham yr osgoant oleuni yr haul? Gallasai fod gan yr ysbrydion diriaid y sonia Glanville am danynt, yn wir, ryw reswm dros ddewis canol nos i chwareu eu castiau, gan y buasai yn haws canfod eu dyhirwch liw dydd. Y fath ydoedd y tabyrddwr castiog a flinai dŷ Mr. Mompesson, yr hwn a gurai ei dabwrdd trwy gydol y nos, ac a luchiai ddillad yr hen wraig o amgylch yr ystafell, a dynai y dillad oddi ar y gwely, ac a ddifyrai ei hun trwy luchio esgidiau Mr. Mompesson o amgylch. Ond pa ham y byddai raid i ysbryd sobr a difrifol ymddangos ganol nos? Onid allai efe gyflawnu ei neges yn llawer haws, ac yn llawer mwy llwyddiannus, liw dydd? Nid achosai ei ymddangosiad yn y dydd ryw lawer o ofn; rhoddid llawer gwell gwrandawiad iddo; a phe dewisai ymddangos yn ngŵydd amryw dystion, byddai ei gamwri yn debycach o gael ei union yn fuan, gan y cymmerai mwy o bersonau ddyddordeb yn achos yr ysbryd a niweidiwyd, a byddai yn debycach o gael cyfiawnder.

Ond, y mae drychiolaethau, nid yn unig yn dewis yr amser mwyaf anghyfaddas, ond y personau mwyaf anmhriodol. Tuag at i dystiolaeth un fod yn gredadwy, rhaid iddo fod nid yn unig yn ddyn geirwir, ond yn alluog i farnu y pwnc y byddo i ddwyn tystiolaeth yn ei gylch. Nid ar dystiolaeth person anwybodus, annysgedig, sydd

yn meddu mwy o ofn a dychymyg nag o farn, yr ydym i roddi ein cred i orphwys yn nghylch peth goruwchnaturiol. Mae yn deilwng o sylw hefyd, nad ydym erioed wedi clywed fod ysbryd yn ymddangos i neb nad oedd yn credu yn flaenorol yn hanfod drychiolaethau. Rhaid i farn dyn fod yn ffafriol i'r opiniwn yma cyn y gwel efe byth ddrychiolaeth. Ond gŵyr dynion ystyriol nas gall yr hwn sydd wedi arfer gwrandaw ar chwedlau dychrynllyd am ysbrydion a drychiolaethau yn ymlithro trwy fonwentydd, neu yn blino manau neillduol, braidd byth fyned heibio i'r lleoedd hyny heb godi y drychiolaethau erchyll hyny yn eu dychymyg, y rhai yr arferodd bob amser eu cyssylltu â'r cyfryw leoedd. A ydyw yn rhyfedd, gan hyny, fod dyn anwybodus, o feddwl anniwylliedig, a holl ragfarnau chwedlau ei febyd heb eu symmud o'i feddwl, yn dychymygu gweled ysbrydion yn y manau hyny lle y cred eu bod yn llechu o'u hamgylch, yn enwedig yn nyfnder y nos, pan drwy gynnorthwy lleiaf y dychymyg y gellir troi buwch yn ddrychiolaeth aruthrol, ac adlewyrchiad pelydr y lleuad oddi ar ychydig ddwfr yn ysbryd mewn cynfas wen? Ond pa ham y mae drychiolaethau yn gochel dynion o ddeall a dysg? Pa ham y mae dysgeidiaeth mor arswydus yn eu golwg? Nid felly yr oedd gyda'r cenadon nefol y sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau: yr oeddynt hwy yn ymddangos i'r patriarchiaid a'r prophwydi; ac yr oedd y gwyrthiau a grybwyllir yma yn cael eu cyflawnu yn y manau mwyaf cyhoeddus, ger bron llygaid y Rabbiniaid, yr ysgrifenyddion, a'r Phariseaid. Yn wir, y mae yr amgylchiad yma yn ddigon i ddystrywio y dystiolaeth am ymddangosiad drychiolaethau. Ni welwyd hwynt gan neb ond gan rai o feddyliau gweiniaid ac anmharus, neu gan rai yn credu yn eu hymddangosiad yn mlaen llaw.

Wedi ystyried y prawf neu y dystiolaeth o blaid ymddangosiad drychiolaethau, rhoddir byr hanes yn awr am ei sylfaen. Nid yw olrhain bara sydd wedi ffynu mor gyffredinol yn y byd i'w gwreiddyn yn orchwyl annheilwng o'r athronydd, hyd yn oed er i'r farn fod yn anghywir. Y mae chwilio cyfeiliornad i'w ffynnonell weithiau yn ddigon i'w wrthbrofi. Nid yw cyrhaedd dechreuad drychiolaethau yn ddim anhaws na rhoddi cyfrif am eilunaddoliaeth ac amldduwiaeth. Pan fyddo y meddwl yn ei sefyllfa blentynaidd, y mae pob peth yn cael ei ystyried fel yn meddu bywyd a rheswm. Cura y plentyn yr ystol y syrth ar ei thraws mor ffyrnig ag y cura ei gydymaith; sieryd yr eneth fach wrth ei dol fel pe b'ai yn ei deall; y mae y barbariad yn cyfrif pob cyfnewidiad y sylwa arno ar wyneb natur i weithrediad rhyw fod bywiol. Fel y cynnydda gwybodaeth, nodant allan y bodau hyny a ymddengys iddynt hwy yn achosi yr effeithiau mwyaf nodedig, a dosbarthant hwy i ryw fath o drefn, a rhanant lywodraeth y byd rhyngddynt. Heb fod yn alluog i ffurfio syniad cywir am ysbryd pur, meddyliant mai bodau corfforol yw y duwiau hyny. Hyn ydyw sylfaen eilunaddoliaeth. Nid yw y gred mewn drychiolaethau ond cam arall yn yr un cyfeiriad. Bydd eu meddyliau wedi eu rhagbarotoi, fel hyn, i ddysgwyl i'r bodau corfforol hyn, i'r rhai y cyflwynant eu gweddïau, a'r rhai a lywodraethant y byd, ymddangos ar amgylchiadau neillduol yn weladwy i'r llygad. Dyma yr achos o ymddangosiadau afrifed y duwiau paganaidd a'r ellyllon Persiaidd a Mahometaidd. Y mae yn hawdd olrhain y gred am ymddangosiad ysbrydion hefyd i'r opiniynau a goleddir am sefyllfa ddyfodol. Y mae yr opiniynau hyn wedi eu seilio ar athrawiaeth hanfodol crefydd naturiol am fyd arall, yn yr hwn y bydd dynion yn byw ar ol i angeu eu symmud. Mae yr athrawiaeth yma wedi cael ei derbyn yn gyffredinol gan genedloedd barbaraidd a gwareiddiedig; ond, fel y gellid dysgwyl, y mae dynion yn coleddu syniadau tra gwahanol am natur sefyllfa ddyfodol, ac am sefyllfa a gorchwylion ysbrydion ymadawedig, yn ol y graddau o wybodaeth a fyddont yn eu meddiannu. Ond y farn gyffredin a goleddai hen genedloedd anniwylliedig oedd, fod ysbrydion ymadawedig yn cadw yr un ymddangosiad allanol, a'r un nwydau ac egwyddorion ag o'r blaen. Nid oedd dim yn fwy naturiol, gan hyny, na'r farn y gallent ail ymweled â'r byd hwn, oddi ar awydd pryderus am esmwythau dyoddefiadau y cyfeillion a'r perthynasau anwyl a adawsant ar eu hol, neu i'w hysbysu am bethau o bwys iddynt o'r byd anweledig. Ar y fath neges yr ymwelodd Creusa âg Æneas. Ar yr un egwyddor y mae yn bosibl rhoddi cyfrif am ymddangosiad llofruddion. Tybiant fod y loesion a'r adgno meddwl a deimla y llofrudd yn ei flino yn y byd arall, ac yn gwneyd ei sefyllfa yno yn annyoddefol (yn enwedig os bydd y llofruddiaeth erioed heb ei gael allan a'i gospi), hyd oni ddychwel i roddi achwyniad yn ei erbyn ei hun. Fel hyn, y mae yn dra thebyg y cafodd y gred mewn drychiolaethau ei dechreuad. Ond y mae amryw achosion ereill yn tueddu i gadarnhau a pharhau y gred hon, ar y rhai y gwneir ychydig o sylwadau byrion:—

1. Y mae diffyg ac aneglurdeb golwg yn un achos o ymddangosiad drychiolaethau, yn enwedig os bydd y meddwl dan ddylanwad ofn. Y mae yn hysbys nad ydyw y synwyr o weled yn cyfleu meddylddrych cywir am bellder, nes iddo gael ei ddiwyllio gan ymarferiad a sylw. Gwel GWYDDONIAETH; TREMYDDIAETH.

Anfynych yr ydym yn gwneyd camsyniad yn y dydd, o blegid ein bod yn adnabod y gwrthddrych yr edrychwn arno: ond yn y nos, yr ydym yn gweled gwrthddrychau yn aneglur; ac am nas gwyddom beth ydynt, nid oes genym syniadau pendant am na'u pellder na'u maint. Gall perth fyddo yn lled agos atom ymddangos fel pren yn y pellder; neu, os bydd y dychymyg dan ddylanwad ofn, bydd yn hawdd ei droi yn ddrychiolaeth anferth o faint. "Sicrheir," meddai Buffon, "mai yn y dychymyg yn unig y mae y ffurfiau hyn yn bod; eto, gall fod iddynt wir hanfod yn y llygad; canys pan na byddo genym un ffordd i farnu gwrthddrych ond wrth y darlun a ffurfia yn y llygad, cynnydda ei faint yn wastad yn ol cyfartaledd ei agosrwydd. Os ymddengys, pan yn y pellder o ugain neu ddeg cam ar ugain, yn ychydig droedfeddi o uchder, bydd ei uchder pan o fewn dwy neu dair troedfedd i'r llygad yn amryw wrhydau. Y mae yn naturiol i wrthddrych o'r math yma beri dychryn a rhyfeddod i'r edrychydd, nes yr agosao ato ac y teimla ef; canys y foment y delo dyn i adnabod gwrthddrych, lleiha yr ymddangosiad aruthrol a gymmerodd yn y llygad yn y fan, ac ymddengys yn ei wir faint. Ond os bydd i'r edrychydd, yn lle nesau at y fath wrthddrych, ffoi oddi wrtho, nis gall gael un meddylddrych am dano ond oddi wrth y darlun a ymffurfiodd yn ei lygad; a, yn yr amgylchiad yma, gall sicrhau mewn gwirionedd ei fod wedi gweled gwrthddrych aruthrol

Digitized by Google

yr olwg arno, ac o faint dirfawr. Fel hyn y mae y syniadau am ddrychiolaethau yn seiliedig mewn natur, ac nid yn ymddibynu ar y dychymyg yn unig, fel y barna rhai athronyddion."

Yn chwanegol at sylwadau Buffon, gellir sylwi fod gwrthddrychau bob amser yn mwyhau mewn niwl; felly os dygwydd niwl yn y nos, mwyha gwrthddrychau i faintioli anferth. Ond pa un bynag a fyddo niwl ai peidio yn y nos, y mae y fath gyfatebiad rhwng tywyllwch a niwl, fel os twylla yr olaf ni gyda golwg ar faint gwrthddrychau, twyllir ni gan y llall hefyd. Dywed ysgrifenydd yn yr *Encycl. Brit.*, ei fod unwaith yn pasio y Frith of Forth, yn Queen's Ferry, yn agos i Edinburgh, ar fore pur niwliog. Er nad yw lled y dwfr yn y lle ond dwy filltir yn unig, nid oedd y cwch yn dyfod i olwg y lan ddeheuol hyd oni ddaeth yn bur agos ati. Yna gwelai, er ei syndod, graig fawr syth, lle y gwyddai fod y lan yn wastad a braidd yn isel. Fel yr oedd y cwch yn dyfod ychydig yn nes, gwelai y graig yn ymhollti yn wahanol ddarnau sythion, y rhai a ymwahanent i ychydig bellder oddi wrth eu gilydd. Yna gwelai y darnau yn symmud; ond wedi iddo fyned yn nes i'r fan, canfu nad oedd y graig yn ddim ond tyrfa o bobl yn sefyll ar y traeth, yn dysgwyl dyfodiad y cwch.

Ond heb law yr achosion naturiol allanol hyn, a'u cyffelyb, y mae yr achos o weled drychiolaethau weithiau yn y llygad ei hun; a phan y dygwydd hyny, bydd rhyw wall yn y golwg. Y mae y Dr. Abercrombie yn crybwyll dau amgylchiad nodedig i egluro y ffaith yma. Yn un o'r amgylchiadau hyn, gŵr boneddig pedwar ugain oed, tra choethedig ei feddwl, wedi mwynhau iechyd da, ac o arferion pur gymmedrol, oedd y person darostyngedig i'r drychiolaethau. Bu y boneddwr hwn am ddeuddeng mlynedd yn cael ymweliadau dyddiol o ffurfiau drychiolaethol, wedi ymwisgo yn fynych mewn dillad tramor; megys rhai Rhufeinaidd, Tyrcaidd, a Groegaidd, yn meddu pob math o wynebau dynol—o febyd hyd henaint. Gwynebau yn unig a fyddai weithiau yn weladwy iddo, ac ymddangosai gwyneb y boneddwr ei hun yn fynych yn eu plith. Hen foneddiges led guchiog yr olwg arni oedd ei ymwelydd mwyaf cysson, yr hon a fyddai wedi ymwisgo bob amser mewn breithwe, o ddull henafol. Yr oedd y drychiolaethau hyn yn fwy difyrus nag yn y gwrthwyneb, gan eu bod, gan mwyaf, o nodwedd hawddgar. Y mae yr ail amgylchiad a noda y Dr. Abercrombie yn hynotach fyth. "Yr oedd boneddwr o feddwl cadarn, yn mwynhau iechyd da, ac mewn masnach fywiog, wedi bod yn ddigrifwch ar hyd ei oes i ddrychiolaethau i'r fath raddau, fel pan gyfarfyddai â chyfaill ar yr heol, byddai raid iddo yn gyntaf ei deimlo cyn y gallai benderfynu pa un ai drychiolaeth ai person gwirioneddol a fyddai. Gallai ddwyn ffurfiau o flaen ei lygaid wrth ei ewyllys, trwy weithrediad meddyliol sefydlog, a gallai y ffurfiau fod naill ai o bethau adnabyddus o'r blaen, neu o gyfansoddiad ei ddychymyg ei hun." Yr oedd un arall o'r teulu yn ddarostyngedig i'r argraffiadau drychiolaethol. Yn wir, y mae ysgrifenydd yr erthygl hon yn ddarostyngedig, i fath o ddrychiolaethau meddyliol: bu lawer gwaith, ar ol aros yn hwyr yn myfyrio, ysgrifenu, neu ddarllen yn galed, yn gweled llu o wynebau o bob ffurf yn pasio ei lygaid, yn enwedig pan newydd orwedd yn y gwely; a dichon y gŵyr amryw o'n darllenwyr am yr un peth trwy brofiad.

Tybir fod yr anghreifftiau nodedig hyn yn arwyddo diffyg yn rhwydlen y llygad, neu iddi gael gormod o waith nes anmharu ychydig. Ymddengys fod y sefyllfa ddiffygiol yn gynnwysedig mewn gormod o deimladrwydd, nes gwneyd y peiriant yn agored i ddwyn ffurfiau arno trwy gynhyrfiad y dychymyg, megys pcd argreffid arno gan wrthddrychau allanol. Mewn amgylchiadau cyffredin, pan elwir cyfaill i gof yn fywiog, gall un ffurfio yn y meddwl syniad cywir am ddull ei wyneb a'i ffurf yn y modd manylaf. "Dacw fy nhad," meddai Hamlet, "yr wyf yn meddwl y gwelaf ef yn awr!" "Pa le, fy arglwydd?" "Yn *llygad fy meddwl*, Horatio." Yn achos Hamlet, darlunir drychiolaeth fel wedi dilyn y darluniad yma gan y cof, ac felly y gall argraff bywiog o unrhyw ffurf neu wrthddrych gael ei throsglwyddo o'r meddwl i rwydlen y llygad, pan fyddo y peiriant hwnw dan effaith gwendid parhaus neu amserol, neu pan fyddo mewn sefyllfa dra theimladol. Fel hyn, y mae yn amlwg fod y meddwl a'r llygaid yn cynnorthwyo eu gilydd i ffurfio rhyw fath o ddrychiolaethau. Fe ŵyr pawb, os edrychir yn hir ar wrthddrych tra gloew neu ddysglaer, nad ydyw ei ddarlun yn gadael y llygad cyn gynted ag y tynir y golwg oddi arno. Y mae yn hawdd canfod hyn os cauir yr amrantau yn ebrwydd ar ol edrych arno. Gellir cario y gallu daliadol yma sydd yn rhwydlen y llygad mor bell trwy gynnorthwy y dychymyg, mewn cyssylltiad fe allai âg ychydig anhwyldeb corfforol, fel ag i gynnyrchu drychiolaethau gweladwy grymus. Wedi i foneddwr unwaith edrych yn hir a phryderus ar ddarlun bychan prydferth o'r Forwyn a'i phlentyn, dychrynwyd ef pan y trodd yn ddioed oddi ar y darlun trwy weled gwraig a phlentyn yn y pen arall i'r ystafell yn eu llawn faint. Pa fodd bynag, dygwyddodd amgylchiad neillduol a eglurodd achos yr ymddangosiad. Tri chwarter ydoedd y darlun, ac yr oedd y ddrychiolaeth hefyd yn ddiffygiol o'r bedwaredd ran o'r corff, gan ddangos fel hyn mai wedi aros yr oedd ffurfiau y darlun ar rwydlen y llygaid. Ond gall y rhwydlen ddal argraffiad arni yn llawer hwy nag yn yr amgylchiad yma; neu, yn hytrach, gall adalw argraffiad yn mhen cryn amser a fyddo wedi ei wneyd yn bur fywiog arni y tro cyntaf. Yr oedd boneddwr yn ddiweddar yn Llundain yn dyoddef gan argraffiad pur annymunol oedd yn ei lygaid, yr hwn a alwodd am gynnorthwy meddygol. Wedi edrych yr oedd yn ddyfal ar gopi o Weddi yr Arglwydd wedi ei argraffu yn hynod o fân, mewn cylch cymmaint a chwe cheiniog; a byth ar ol hyny, arosodd yr argraff yma o Weddi yr Arglwydd yn ei lygaid nes y cafodd feddyginiaeth. Ar ba wrthddrych bynag yr edrychai, byddai yn gweled y copi bychan crwn yma o'r weddi arno, a bron yn ei orchuddio.

Ymddengys, gan hyny, oddi wrth yr amgylchiadau a nodwyd, y gall y llygad ei hun, naill ai trwy ddiffyg yn rhai o'i ranau, neu trwy allu y rhwydlen i ddal neu adalw argraffiadau bywiog, fod yn brif gyfrwng i gynnyrchu drychiolaethau. Nid yw y drychiolaethau dan sylw, a grybwyllir gan y Dr. Abercrombie, ac ereill, byth yn siarad; yr hyn sydd yn arwyddo nad oedd y synwyr o glywed yn cyfranogi yn y diffyg—yn fyr, mai yn y llygaid yn unig, ac nid yn yr holl synwyrau, neu yr holl gyfansoddiad, yr oedd y diffyg.

Digitized by Google

2. Y mae breuddwydion a chwsgrodiad yn ffynnonellau ffrwythlawn o ddrychiolaethau. Y mae yn hysbys i bawb, pan fyddo y meddwl dan ddylanwad breuddwyd ei fod yn ei ystyried mor wirioneddol ag yr ystyria unrhyw weithred neillduol pan yn effro. Yn awr, pe cai person o feddwl gwan ac ofergoelus freuddwyd pur fywiog, a ddylanwadai ar ei nwydau, yn enwedig y nwyd o ofn, gallai wneyd y fath argraffiad dwfn arno, fel y gallai efe gredu yn gadarn ei fod wedi gweled â'i lygaid yr hyn a basiodd o flaen ei ddychymyg. Pan fyddo y meddwl yn bur drallodus, a phan y cysgo person heb fyned i'r gwely, ac heb dynu am dano, megys pan yr huna yn ei gadair, y mae yn bur anhawdd gwahaniaethu, meddai Hobbes, rhwng breuddwyd a pheth gwirioneddol. Yn y gwrthwyneb, mae yr hwn a fyddo wedi ymbarotoi i gysgu, ac i ryw ddychymyg hynod redeg trwy ei feddwl, yn dueddol i dybied mai breuddwyd oedd. Tra yr ydym heb fod dan lywodraeth benodol rheswm wrth freuddwydio, yr ydym dan yr argraff fod y meddylddrychau a ymlidiant eu gilydd trwy y meddwl yn ddygwyddiadau gwirioneddol: dychymygir fod meddwl anffurfiedig yn weithred. Gan fod meddwl yn dra chyflym, breuddwydir dygwyddiadau mewn ychydig fynydau a gymmerent ddyddiau cyfain, neu amser hwy, i'w cyflawnu. Mor ryfeddol ydyw y gwasgiad yma o luaws o weithrediadau i'r cyfnod byraf o amser, fel, pan ddeffroir ni yn ddamweiniol, fel y sylwa Macnish, o gwsg trwm trwy gnoc mawr ar y ddôr, neu trwy ei hagor yn ddisymmwth, y rhed cyfres o ddygwyddiadau trwy y meddwl weithiau, a gymmerent oriau neu ddyddiau, ac hyd yn oed wythnosau, i'w cyflawnu. Ymddengys amser, mewn gwirionedd, fel wedi ei ddiddymu i fesur mawr. Fe grynhoir cyfnod maith megys i un pwynt, neu yn hytrach gwneir i un pwynt gynnwys amser maith. Yr ydym yn pasio mewn moment trwy luaws o anturiaethau, yn gweled lluaws o olygfeydd dyeithr, ac yn clywed lluaws o seiniau anhysbys. Os deffroir ni gan darawiad uchel, fe allai y dychymygwn y bydd cythrwfl yn cymmeryd lle o'n blaen, ac y byddwn yn adnabod yr holl bersonau a gymmerant ran ynddo—eu hagweddau, a hyd yn oed eu henwau. Os dygir goleuni i'n hystafell, dichon mai y syniad a'n tery a fydd tŷ yn myned ar dân, ac y byddwn yn dystion o'r holl gydlosgiad, o'i ddechreu hyd ei ddiffoddiad. Y mae y meddyliau a gyfodant yn y fath amgylchiad yn afrifed, ac yn cymmeryd pob math o agweddau. Y mae agos i bob dygwyddiad, pa mor anghredadwy, anmhosibl, neu ynfyd bynag y byddo, yn cyfodi yn y meddwl pan yn y sefyllfa dan sylw. Canfyddwn amgylchiadau cwbl groes i ddeddfau natur, ac eto ni ddaw y syniad am eu hanghydweddolrwydd a'u hynodrwydd, fel pethau allan o'r dull cyffredin, byth i'r meddwl. Y mae hyn yn un o'r profion cryfaf a'r a ellir ei ddwyn o blaid sefyllfa gysgedig y galluoedd adfeddyliol. Pe byddai y galluoedd hyn yn effro ac mewn llawn weithrediad, cynnorthwyent ni ar unwaith i ganfod natur anghysson y syniadau a gyfodant yn y dychymyg, ac i ddangos yn gywir i ni nad yw y drychiolaethau a basiant heibio ein llygaid yn ddim ond gauluniau darfelydd cynhyrfiedig—gau rithiau cwsg anmherffaith.

Cyssylltir breuddwydion yn gyffredin âg adgofion carpiog pan yn effro, a chymmerant eu nodwedd oddi wrth orchwylion a theimladau y breuddwydiwr. Mewn breuddwydion cyffredin, rhoddir gradd o ymarferiad, yn achlysurol, i alluoedd y symmudiad gwirfoddol. Rhydd breuddwydiwr, dan yr argraff ei fod mewn ymladdfa fywiog, gernod yn fynych i'w gydymaith yn y gwely. Rhoddir y cyhyrau sydd yn cynnyrchu llais hefyd ar waith yn aml mewn breuddwydion cyffredin, trwy gyfrwng y rhan o'r ymenydd a fyddo heb fod mewn sefyllfa o gwsg; a grymiala y breuddwydiwr, neu sieryd, neu gwaedda yn uchel. Bydd holl gyhyrau y symmudiadau agos ar waith ambell dro, tra y bydd rhan o'r periannau mewn tawelwch; ac yn yr amgylchiad yma ä y breuddwydiwr yn gwsgrodiad (*somnambulist*). "Os breuddwydiwn ein bod yn cerdded," meddai Macnish, "ac i'r weledigaeth feddu y fath radd o fywiogrwydd nes cynhyrfu cyhyrau y symmudiad, yr ydym yn cyfodi yn naturiol o'r gwely, ac yn cerdded. Pe breuddwydiem ein bod yn clywed neu yn gweled, ac i'r argraff fod mor fywiog fel ag i gynhyrfu y llygaid a'r clustiau, neu, a dywedyd yn fwy priodol, y rhanau o'r ymenydd sydd mewn cyssylltiad â phethau gweladwy a chlywadwy, yna bydd i ni weled unrhyw wrthddrychau, neu glywed unrhyw seiniau a ddygwyddo yn gwbl fel pe byddem yn effro. Y cyhyrau yn unig a gynhyrfir mewn rhai amgylchiadau, ac yna ni wneir ond cerdded, heb weled na chlywed." Mewn rhai amgylchiadau, cerddir a gwelir, a phryd arall clywir hefyd. Yn yr un modd, fe ddichon mai y peiriannau llafar yn unig a gynhyrfir, yna ni wna y person ond siarad yn unig trwy ei gwsg; neu, dan ddylanwad amryw gyssylltiadau, fel y nodwyd, gall gerdded, siarad, gweled, a chlywed.

Y mae yr hanesion credadwy sydd genym am gwsgrodiaid bron yn rhyfeddach na chwedlau dyfais. Dichon i rai o'n darllenwyr glywed o'r blaen am y bachgen ar ororau creigiog Scotland a gyfododd ganol nos, ac a dynodd nyth eryr o ben un o'r clogwyni mwyaf serth a pheryglus yn y fro. Yr oedd yn breuddwydio ei fod yn tynu y nyth; ac erbyn y bore, canfu y nyth er ei syndod dan ei wely, yn y lle yr oedd yn meddwl ei fod wedi ei roddi mewn dychymyg yn unig. Rhaid fod peiriannau gweled hwn yn effro, a'i fod i raddau yn gallu gweithredu dan arweiniad rheswm; pe amgen, nis gallasai byth drechu anhawsderau yr esgyniad i'r graig. Sonia Macnish am ddyn arall, ar ororau yr Iwerddon, a ganfuwyd gan y gwylwyr, er eu dychryn, yn ymbleseru trwy nofio yn nghylch can llath oddi wrth y lan, tuag un o'r gloch y bore; a'r peth sydd ryfeddaf fyth ydyw, nad oedd ganddo ddim amgyffred o'i berygl; a chafodd y cychwyr drafferth fawr i'w berswadio nad ydoedd efe yn ei wely. Ond y peth rhyfeddaf oll yn yr anturiaeth yma ydyw, fod y dyn wedi myned o'i dŷ tua hanner nos, ac wedi cerdded dwy filltir o ffordd anhawdd a pheryglus iddo ef, ac wedi nofio milltir a hanner cyn i'r cychwyr ei gymmeryd i fyny.

Dywedodd cadben parchus llong fasnachol y chwedl ganlynol wrth Syr Walter Scott, er egluro drychiolaeth oddi wrth gwsgrodiad. Tra yr oedd ei long ef yn gorwedd yn y Tagus, llofruddiodd Portugïad ddyn a berthynai i'w long, a thaenwyd y chwedl fod ysbryd y dyn yn cythryblu y llestr. Pan wnaeth y cadben ymchwiliad, canfu mai un o'i is-gadbeniaid ef ei hun —Gwyddel gonest a synwyrol—oedd y prif dyst gyda golwg ar yr ysbryd. Yr oedd yr is-gadben

Digitized by Google

yn sicrhau fod y ddrychiolaeth yn ei gymmeryd ef o'r gwely bob nos, yn ei arwain o amgylch y llong; ac, yn fyr, yn gwneyd ei fywyd yn faich. Ni wyddai y cadben beth i'w feddwl o hyn, ond penderfynodd ynddo ei hun wylio yr is-gadben yn y nos. Felly y gwnaeth; ac ar hanner nos, gwelai y dyn yn neidio i fyny, â'i wyneb yn welwlas, ac yn goleu canwyll: wedi hyny, aeth i'r geginfa (*gal'ey*), lle y safodd gan hylldremu yn wyllt am beth amser, fel pe buasai yn gweled rhyw wrthddrych erchyll. Yna cyfododd biser yn llawn dwfr, gan daenellu peth o hono oddi amgylch, a chan ymddangos yn llawer esmwythach arno, efe a aeth yn ddystaw i'w wely. Y bore canlynol, pan ofynwyd iddo a gafodd ei flino yn y nos, dywedodd, "Do; arweiniwyd fi gan yr ysbryd i'r geginfa; ond cefais afael rywsut ar gostrelaid o ddwfr sanctaidd, a rhyddheais fy hun oddi wrth bresennoldeb y ddrychiolaeth arswydus trwy daenellu y dwfr." Yn awr, dywedodd y cadben y gwir wrtho, fel y sylwyd uchod; ac er fod yr is-gadben wedi synu yn aruthr, eto efe a'i credodd. Wedi iddo ganfod twyll ei ddychymyg breuddwydiol, nid ymwelwyd âg ef byth mwyach gan yr "ysbryd."

Adroddir chwedl arall, ar awdurdod ddiammheuol, er egluro drychiolaethau breuddwydiol, sydd yn ymddangos braidd yn fwy dyrus na'r chwedl olaf. Yr oedd gan gadben llong India Ddwyreiniol was ffyddlawn o'r enw John, at yr hwn yr oedd ganddo barch mawr. Bu farw John ar ei fordaith o Loegr i'r India Ddwyreiniol yn ystod y rhyfel â Ffrainc. Fel yr oedd y llong yn dynesu i ben ei mordaith, breuddwydiodd y cadben fod John yn ymddangos iddo, ac yn dymuno arno beidio hwylio i'r porthladd yr oedd efe yn rhwym iddo. gan ei fod yn nwylaw y Ffrancod. Er nad oedd y cadben yn dueddol i ofergoeliaeth, eto meddyliodd yn yr amgylchiad yma mai doeth fyddai iddo gymmeryd y rhybudd; ac ar ol glanio mewn porthladd arall, hysbyswyd ef fod y porthladd y bwriadai fyned iddo, yn ol mynegiad y breuddwyd, wedi ei gymmeryd gan y Ffrancod. Pan ar ei fordaith adref, cafodd y cadben ail freuddwyd, yn yr hwn yr ymddangosodd John iddo eto, gan ei hysbysu y byddai efe farw yn fuan, ac y cymmerid y llong yn ngenau y siannel gan y Ffrancod. Y bore canlynol, galwodd y cadben ei brif is-gadben ato, a dywedodd ei freuddwyd wrtho, yr hwn y credai efe ei fod yn brophwydol, a chyflwynodd iddo ei bapyrau, fel y cymmerai efe ofal priodol am danynt ar ol ei farwolaeth. Dygwyddodd pob peth yn fanwl fel y rhagwelsai yn y breuddwyd: bu y cadben farw, a chymmerwyd y llestr yn ngenau y siannel gan long ryfel Ffrancaidd. Er mor rhyfedd yr ymddengys y breuddwyd hwn, y mae yn hawdd ei egluro. Ar y fordaith i India nid oedd dim yn fwy naturiol nag i'r cadben feddwl, ar amserau, nad oedd dim tebycach yn ystod dygwyddiadau rhyfel, nag i'r porthladd i'r hwn yr oedd efe yn rhwym gael ei gymmeryd: fe allai ei fod yn lle o bwys, yr hwn y gallai y Ffrancod fod yn bur awyddus am ei feddiannu. Trwy fod y cadben yn troi y pethau hyn yn ei feddwl yn ystod y dydd, yr oedd yn naturiol iddynt ddychwelyd i'w feddwl y nos; a gallai fod y gofid a deimlai o herwydd colli gwas ffyddlawn yn ymgymmysgu yn ei feddwl â'r ofnau hyn, ac i'r cyfan achosi y breuddwyd. Fe allai fod y cynghor yn gyffelyb i un a roddasai John pe buasai yn fyw. Y mae yr un mor hawdd egluro achos y breuddwyd pan ar y fordaith adref. Yr oedd y cadben yn bur sal, ac yn meddwl ei fod yn marw ar y pryd y cafodd yr ail freuddwyd, ac am hyny nid oedd yn dysgwyl cyrhaedd Lloegr. Ei feddyliau ef ei hun, gan hyny, oedd y rhan yma o'r breuddwyd, ond yn cael eu cyflwyno, fel y tybiai, gan ei was. Am y rhan arall—y byddai i'r llong gael ei chymmeryd yn ngenau y siannel—dichon fod yn anhawdd rhoddi cyfrif pa fodd y rhagwelodd y lle mor gywir. Ond rhaid cofio mai genau y siannel—gan ei bod yn union gyferbyn a gororau Ffrainc—oedd y lle mwyaf peryglus o lawer yn ystod yr holl fordaith; ac am hyny, fod gan y cadben bob rheswm dros ofni colli ei long yn y fan hono yn anad un lle arall. Pe buasai y cadben yn ddyn o feddwl gwan, buasai yn dra sicr o ystyried y breuddwyd yn beth gwirioneddol; a buasai yn credu, yn lle ei fod wedi breuddwydio am y pethau yr oedd ei ddychymyg yn sefyll arnynt, ei fod wedi gweled ei was yn dychwelyd oddi wrth y meirw ac yn traddodi y genadwri iddo. Ond, ar y llaw arall, er fod y cadben yn credu fod y breuddwyd yn brophwydol, eto adroddai ef heb un arwydd o ofn; ac nid ydyw dyn gwrol a meddylgar byth yn gweled drychiolaeth.

Y mae yr hunllef yn anhwylder breuddwydio arall; a than rai amgylchiadau, y mae yn bur anhawdd perswadio y dyoddefydd mai pethau dychymygol, ac nid gwirioneddol, ydyw y drychiolaethau a wel dan ei heffeithiau. Yr achos cyffredin o'r hunllef ydyw diffyg treuliad bwyd; ond pan fyddo yn dra llym, priodolir yr achos i anhwyldeb yn yr ymenydd. Bu farw boneddwr yn ddiweddar yn Edinburgh a flinwyd am flynyddoedd gan yr hunllef; a hyny i'r fath raddau, o'r diwedd, nes yr oedd ei fywyd wedi myned yn faich iddo. Cyn gynted ag y cysgai, byddai yn gweled tarw yn ei ymlid; ac yn fynych, neidiai o'i wely i'r ochr arall i'r ystafell (yr hyn a'i niweidiodd yn dost unwaith) rhag cael ei luchio ar gyrn yr anifail ffyrnigwyllt. Pan fu farw y boneddwr annedwydd hwn, agorwyd ei ben, a chanfuwyd fod rhan o'i ymenydd wedi ei niweidio gan hen bloryn oedd ynddo.

3. Peth arall sydd yn achosi drychiolaethau, ydyw esgeuluso gollwng gwaed ar ol gwneyd hyny yn arferiad; yr hon arferiad ni ddylai neb ei dilyn ond dan gyfarwyddyd meddyg medrus. Y mae un—Nicolai, llyfrwerthydd o Berlin, yr hwn a ymddengys yn ddyn meddylgar, o ddychymyg bywiog a thymmer gynhyrfus—yn rhoi yr hanes canlynol am dano ei hun yn ngwyneb esgeuluso gollwng gwaed, ar ol ol arfer gwneyd hyny yn rheolaidd ddwywaith yn y flwyddyn:—"Daeth fy ngwraig a pherson arall i'm hystafell un bore er mwyn fy nghysuro, ond yr oeddwn wedi cael fy nghynhyrfu yn ormodol gan gyfres o ddygwyddiadau, y rhai oedd wedi effeithio mor rymus ar fy nheimladau moesol fel nas gallwn wrandaw arnynt. Canfyddais yn ddisymmwth, o fewn ychydig latheni ataf, ffurf dyn marw. Cyfeiriais ato, a gofynais i'm gwraig a oedd hi ddim yn ei weled. Nid ydoedd ond naturiol iddi hi beidio ei weled, am hyny dychrynodd yn ddirfawr, ac anfonodd am feddyg yn y fan. Parhaodd y ddrychiolaeth o'm blaen am o gylch deng mynyd. Daethum o'r diwedd yn fwy pwyllog, ac ymollyngais mewn blinder mawr i gwsg anesmwyth, yr hwn a barhaodd am tua hanner awr. Priodolai y meddyg y ddrychiolaeth i gynhyrfiad llym yn y meddwl, a gobeithiai na ddychwelai mwyach; ond yr

oedd cynhyrfiad tost fy meddwl wedi gwanychu fy ngewynau, yr hyn a gynnyrchodd ganlyniadau teilwng o ddysgrifiad manylach. Am bedwar o'r gloch yn y prydnawn, ail ymddangosodd i mi y ddrychiolaeth a welswn yn y bore. Yr oeddwn heb neb gyda mi pan gymmerodd hyn le; a chan fy mod braidd yn anesmwyth o herwydd y dygwyddiad, aethym i ystafell fy ngwraig, ond erlidiwyd fi yno hefyd gan y ddrychiolaeth, yr hon pa fodd bynag a ddiflanai ar amserau, ac a ymddangosai yn wastad yn ei sefyll. Tua chwech o'r gloch, ymddangosodd amryw ffurfiau—yn cerdded—heb fod yn dal dim perthynas â'r cyntaf. Nid ymddangosodd ffurf y dyn marw i mi ar ol y diwrnod cyntaf; ond llanwyd ei le gan luaws o ddrychiolaethau ereill, yn cynnrychioli rhai a adwaenwn weithiau, ond dyeithriaid gan mwyaf; yn mysg y rhai a adwaenwn, yr oedd rhai byw a meirw, ond ychydig oedd rhif y diweddaf mewn cymhariaeth. Sylwais nad ydoedd y personau y siaradwn bob dydd â hwy ddim yn ymddangos fel drychiolaethau, ond gan mwyaf rhai yn byw gryn bellder oddi wrthyf. Yr oedd y drychiolaethau hyn yn ymddangos i mi yr un mor eglur a gwahanredol bob amser a than bob amgylchiadau, pan wrthyf fy hunan cystal ag mewn cyfeillach, yn y dydd fel yn y nos, yn fy nhŷ fy hun cystal ag allan o hono; ond ni byddent mor fynych pan mewn tŷ cyfaill; ac anfynych yr ymddangosent i mi yn yr heol. Pan gauwn fy llygaid, byddai y drychiolaethau hyn weithiau yn llwyr ddiflanu, er y byddwn ambell dro yn eu gweled â'm llygaid yn y gauad; eto pan ddiflanent ar ol i mi gau fy llygaid, byddent yn ail ymrithio yn gyffredin wedi eu hagor. Byddwn yn ymddyddan weithiau â'm meddyg neu â'm gwraig yn nghylch y drychiolaethau pan y byddent yn fy amgylchynu; byddent yn ymddangos fynychaf yn cerdded, ac nid yn llonydd; ac ni byddent o hyd yn bresennol. Byddent weithiau yn aros cryn amser heb ymddangos; a byddent yn unigol neu gyda'u gilydd, gan mwyaf yn y dull olaf. Byddwn yn gyffredin yn gweled ffurfiau dynol o'r ddau ryw; ond nid ymddangosai y byddent hwy yn gwneyd dim sylw o'u gilydd ond yn anfynych, oddi eithr ymsymmud, megys mewn marchnad, fel pe byddent awyddus am ymwthio trwy y dyrfa; ond weithiau byddent yn ymddangos fel yn gwneyd rhyw fasnach â'u gilydd. Gwelais hefyd gŵn, ac adar, ac amryw bobl ar feirch. Byddai yr holl ddrychiolaethau hyn yn ymddangos i mi yn eu maint naturiol, ac mor wahanredol a phe yn fyw; a byddwn yn gweled lliw eu cnawd yn gwahaniaethu yr un fath yn union ag mewn tyrfa o bobl; ac yn gweled gwahanol liwiau a dulliau eu gwisgoedd, ond fod y lliw radd yn fwy gwelw nag yn naturiol. Ni byddai un o'r drychiolaethau yn ymddangos yn hynod o ddychrynllyd, digrif, nac annymunol:—byddent gan mwyaf mewn dull cyffredin, ond ymddangosai rhai yn dra dymunol. Po hwyaf yr oedd y drychiolaethau hyn yn ymddangos, mynychaf oll yr ymwelent â mi: yr oedd eu rhif hefyd yn cynnyddu mewn cymhariaeth i'r tro cyntaf. Yr oeddwn hefyd o'r diwedd yn dechreu eu clywed yn siarad. Byddent weithiau yn ymddyddan â'u gilydd; ond fynychaf, cyfeirient eu hymadroddion ataf fi. Byddai eu hymddyddanion yn gyffredin yn fyr, ac ni byddent byth yn annymunol. Ymddangosai i mi ar wahanol amserau gyfeillion hoff a synwyrol o'r ddau ryw, cyfarchiadau y rhai a dueddent i leddfu fy ngofid: cysurid fi ganddynt fynychaf pan fyddwn ar fy mhen fy hun; ond cyferchid fi ganddynt weithiau pan mewn cymdeithas; ac nid anfynych pan fyddai gwir bersonau ar y weithred o ymddyddan â mi. Yr oedd y cyfarchiadau cysurus hyn yn gynnwysedig weithiau o ymadroddion hannerog, a phryd arall o rai rheolaidd."

Wedi dyoddef fel hyn am beth amser, dygwyddodd iddo feddwl y gallai yr anhwylder gael ei achosi gan ormod o waed, ac efe a ddechreuodd ail gymhwyso gelod. Pan gymhwyswyd y gelod ato, nid oedd neb ond y meddyg gydag ef; ond yr oedd yr ystafell, yn ystod y cymhwysiad, yn llawn o ddrychiolaethau dynol o bob dysgrifiad. Yn mhen ychydig oriau, gwelai hwy yn symmud o amgylch yr ystafell yn arafach; dechreuodd eu lliw wywo; ac aethant dywyllach dywyllach, nes o'r diwedd y diflanasant yn llwyr o'i olwg, ac ni flinasant ef mwyach.

4. Achosir drychiolaethau weithiau gan anhwyldeb y cylla a diffyg treuliad bwyd. Y mae pob afreoleidd-dra yn y galluoedd treuliadol yn gweithredu ar yr ymenydd; a phan y mae yr anhwyldeb yn fawr, a'r iechyd yn anmharus, effeithia ar y meddwl fel ag i dwyllo y synwyrau, ac i gynnyrchu drychiolaethau. Y mae Syr David Brewster, yn ei *Letters on Natural Magic*, yn adrodd am foneddiges o nodwedd a meddwl diwylliedig, ond o ddychymyg bywiog, yr hon a flinid gan ddrychiolaethau o blegid anhwyldeb y cylla yn unig:—"Y lledrith cyntaf a flinodd Mrs. A. a effeithiodd ar y glust yn unig. Ar y 26ain o Ragfyr, 1830, tua hanner awr wedi pedwar yn y prydnawn, yr oedd hi yn sefyll yn agos i'r tân yn y neuadd, ac ar fin myned i'r llofft i ymwisgo, pan y clywai, fel y tybiai, lais ei gŵr yn galw arni wrth ei henw; '—— dowch yma! dowch ataf fi!' Yr oedd hi yn tybied ei fod yn galw wrth y ddôr, er mwyn iddi gael ei hagor; ond wedi myned ac agor y ddôr, synwyd hi wrth weled nad oedd yno neb. Pan ddychwelodd at y tân, clywai yr un llais yn galw yn amlwg ac yn uchel, '——, dowch; dowch yma!' Yna hi a agorodd ddwy ddôr arall oedd i'r un ystafell; ac wedi gweled nad oedd yno neb, dychwelodd at y tân. Yn mhen ychydig fynydau, clywai yr un llais fyth yn galw, '——, dowch ataf fi! dowch, dowch oddi yna!' mewn tôn uchel, gwynfanus a lled ddiamynedd. Atebodd hithau mor uchel, 'Pa le yr ydych? Ni wn i ddim pa le yr ydych;' gan feddwl o hyd ei fod yn rhywle yn chwilio am dani: ond heb gael ateb, aeth yn fuan wedi hyny i'r llofft. Pan ddychwelodd Mr. A. i'r tŷ, yn mhen tua hanner awr ar ol hyny, gofynodd hi iddo, pa ham yr oedd efe wedi galw mor fynych arni, a pha le yr oedd efe; a synwyd hi yn ddirfawr, wrth gwrs, wrth ddeall nad oedd efe wedi bod yn agos i'r tŷ ar y pryd."

"Yr oedd y ddrychiolaeth nesaf a flinodd Mrs. A. o agwedd fwy dychrynllyd. Ar y 30ain o Dachwedd, tua phedwar o'r gloch yn y prydnawn, aeth o'r llofft i'r ystafell gyfarch (*drawing room*), o'r hon yr oedd wedi myned ychydig fynydau yn ol; ac ar ei dyfodiad i'r ystafell, gwelai ei gŵr yn sefyll â'i gefn at y tân. Gan ei fod wedi myned allan i gerdded tua hanner awr cyn hyny, yr oedd hi yn rhyfeddu ei weled yno; a gofynodd iddo pa ham yr oedd wedi dychwelyd mor fuan. Edrychodd y ddrychiolaeth arni yn sefydlog, gydag agwedd sobr a synfyfyriol ar ei wyneb, ond heb ei hateb. Hithau, gan dybied

Digitized by Google

fod ei feddwl wedi ei lyncu i fyny gan rywbeth, a eisteddodd mewn cadair freichiau yn agos i'r tân, ac o fewn dwy droedfedd o leiaf at y ffurf, yr hwn a welai o hyd yn sefyll o'i blaen. Gan y parhâai i syllu arni, dywedodd wrtho yn mhen ychydig fynydau, 'Pa ham na siaradwch chwi, ——?' Symmudodd y ffurf yn y fan at y ffenestr yn mhen pellaf yr ystafell, â'i lygaid yn barhaus yn syllu arni hi, a phasiodd mor agos ati wrth wneuthur felly fel y sylwodd hi nad oedd yn clywed swn ei droed, nac yn cyffwrdd â'i dillad, nac hyd yn oed unrhyw gyffroad yn yr awyr. Er ei bod yn awr yn sicr nad ei gŵr oedd y ffurf, eto ni feddyliodd am foment ei fod yn ddim goruwchnaturiol, ac argyhoeddwyd hi yn fuan mai drychiolaeth ddychymygol ydoedd. Gwelwyd yr ymddangosiad liw dydd goleu, a pharhaodd am o bedwar i bum mynyd. Pan y safai y ffurf yn agos ati, yr oedd yn cuddio y gwrthddrychau o'r tu ol iddo, ac yr oedd yn ymddangos yn llawn mor fywiog a'r gwir wrthddrych.

"Yr oedd Mrs. A. ar ei phen ei hun ar y ddau amgylchiad hyn; ond pan ymddangosodd y ddrychiolaeth nesaf iddi, yr oedd ei gŵr yn bresennol. Cymmerodd hyn le ar y 4ydd o Ionawr, 1831. Tua deg o'r gloch y nos, pan oedd Mr. a Mrs. A. yn eistedd yn yr ystafell gyfarch, cymmerodd Mr. A. y procr i gynhyrfu y tân; a phan yr oedd efe yn gwneuthur hyn, gwaeddodd Mrs. A., 'Beth, y mae y gath yn yr ystafell!' 'Yn mha le?' meddai Mr. A. 'Yn y fan yna, yn eich ymyl chwi,' meddai hithau. Ail ofynodd yntau, 'Pa le?' 'Beth, ond ar y torsed (*rug*) rhyngoch chwi a'r cafn glo.' Yr oedd y procr eto yn llaw Mr. A., a gwthiodd ef tua'r lle. 'Cymmerwch ofal,' meddai Mrs. A.; 'cymmerwch ofal, rhag ei tharaw â'r procr.' Gofynodd Mr. A. eilwaith am iddi nodi y fan yn fanwl lle yr oedd yn gweled y gath. 'Wel, dyna hi,' meddai Mrs. A., 'yn eistedd yn ymyl eich traed ar y torsed: mae hi yn edrych arnaf fi. Citti ydyw hi:—dowch yma, Citti!' Yr oedd dwy gath yn y tŷ, ac yr oedd un yn dwyn yr enw hwnw; ond anfynych iawn, os byth, y byddent yn yr ystafell gyfarch. Nid oedd gan Mrs. A. un dychymyg y pryd hyn mai drychiolaeth oedd yr olygfa. Pan y gofynwyd iddi gyffwrdd â hi, cyfododd er mwyn gwneyd hyny, ac ymddangosai fel yn dilyn rhywbeth a symmudai ymaith. Aeth yn mlaen ychydig gamrau, ac yna dywedodd, 'Y mae hi wedi myned dan y gadair.' Dywedodd Mr. A. mai rhith ydoedd yn ddiau; ond ni chredai hi. Yna cyfododd ef y gadair, ac ni welodd Mrs. A. ddim mwyach. Yna chwiliwyd yr ystafell drosti oll, ac ni chanfyddwyd dim. Yr oedd ci yn gorwedd ar y torsed, yr hwn a fuasai yn sicr o ddangos anesmwythder mawr pe buasai cath yn yr ystafell; ond yr oedd yn gorwedd yn berffaith dawel. Er mwyn bod yn hollol sicr, canodd Mr. A. y gloch, ac anfonodd am y ddwy gath, a chafwyd allan fod y naill a'r llall yn ystafell ceidwades y tŷ.

"Yn mhen tua mis ar ol hyn, yr oedd Mrs. A., ar ol cymmeryd taith mewn cerbyd yn ystod y dydd nes yr oedd braidd wedi blino, yn ymbarotoi i fyned i'r gwely tuag un ar ddeg o'r gloch y nos, ac yr oedd yn eistedd o flaen drych ymwisgo, ac yn trefnu ei gwallt. Yr oedd ei meddwl dipyn yn farwaidd, ond yr oedd yn berffaith effro. Pan yr oedd wrth y gorchwyl yn brysur, cyffrowyd hi yn ddisymmwth trwy weled llun perthynas agos iddi yn y drych, oedd ar y pryd yn Scotland, ac yn berffaith iach. Ymddangosai y ddrychiolaeth dros ei hysgwydd chwith, a chyfarfu llygaid y ddrychiolaeth â'i llygaid hithau yn y drych. Yn mhen ychydig fynydau, troes i edrych dros ei hysgwydd am y gwrthddrych, ond nid oedd yn weledig, ac yr ydoedd wedi diflanu o'r drych hefyd pan edrychodd eilwaith iddo.

Ni chaniata lle i ni ddifynu yn fanwl yr holl weledigaethau a gafodd y foneddiges hon, megys y cofnodir hwy gan Syr D. Brewster, am hyny dyfynwn y rhai hynotaf:—"Ar y 26ain o Hydref, tua dau o'r gloch y prydnawn, yr oedd Mrs. A. yn eistedd mewn cadair wrth y ffenestr, yn yr un ystafell a'i gŵr. Efe a'i clywai yn gwaeddi, 'Beth a welais!' Ac wedi edrych arni, gwelai olwg ryfedd yn ei llygaid a'i gwyneb. Yr oedd cerbyd pedwar ceffyl wedi ymddangos iddi yn gyru ar hyd y ffordd at y tŷ. Fel yr oedd yn agoshau, teimlai awydd myned i'r llofft er ymbarotoi i dderbyn y cwmpeini, ond yr oedd fel pe buasai wedi ei swyno, ni fedrai symmud na dyweyd gair. Nesaodd y cerbyd, ac wedi cyrhaedd o fewn ychydig latheni i'r ffenestr, gwelai ffurfiau y rhagfarchogwyr (*postilions*) a'r personau oddi mewn yn cymmeryd ymddangosiad dychrynllyd ysgerbydau (*skeletons*), ac agweddau arswydus ereill. Yna diflanodd y cyfan ar unwaith, pryd y rhoddodd hi y floedd a nodwyd.

"Ar fore y 30ain o Hydref, pan oedd Mrs. A. yn eistedd yn ei hystafell ei hun, â'i hoff gi bach ar ei glin, gwelai yr un ci yn ymsymmud o amgylch yr ystafell, am gryn fynyd neu chwaneg.

"Ar y 3ydd o Ragfyr, tua naw o'r gloch yn yr hwyr, pan oedd Mr. a Mrs. A. yn eistedd yn ymyl eu gilydd yn yr ystafell gyfarch, ac yn darllen, clywai Mr. A. ei droed yn cael ei wasgu. Wedi edrych i fyny, sylwai fod llygaid Mrs. A. yn syllu yn sefydlog ac annaturiol ar gadair oedd tua naw troedfedd oddi wrthynt. Ar ol gofyn iddi beth a welai, newidiodd gwedd ei gwyneb; ac wedi ymadferu, dywedodd wrth Mr. A. ei bod wedi gweled ei frawd ef, yr hwn oedd yn fyw ac iach ar y pryd yn Llundain, yn eistedd ar y gadair gyferbyn â hwy, ond mewn amdo, a golwg angeuol ar ei wedd, fel o'r braidd yr ymddangosai yn fyw!

"Yr oedd Mrs. A. a'i gŵr," fel y sylwa Syr David, wrth derfynu, "yn gwybod o'r dechreu mai rhith ymddangosiadau oedd y rhai hyn; a gwyddent yn dda beth oedd eu natur a'u hachos, a sylwodd y naill a'r llall yn y modd manylaf ar yr amgylchiadau oedd yn eu dilyn, nid yn unig er mwyn taflu goleu ar bwnc mor nodedig, ond er mwyn sicrhau eu cyssylltiad â sefyllfa iechyd Mrs. A. pan y byddent yn ymddangos."

5. Drychiolaethau oddi wrth effeithiau meddwdod. Effaith naturiol meddwdod yw anmharu y dealltwriaeth, taflu y dyn oddi ar ei wyliadwriaeth, ac i roddi gormod o rwysg i'w nwydau a'i dueddiadau; ac weithiau y mae yn cynhyrfu nwydau nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw adeg arall. Anfynych y mae y meddwyn yn gweled drychiolaethau nes y dechreua ei afradlonedd niweidio ei alluoedd treuliadol. Cyhyd ag y gallo yr yfwr fwyta, y mae efe yn lled ddiogel oddi wrth ddrychiolaethau y meddwyn, neu fel eu gelwir, y glâs-ellyllon; ond pan y gwrthyd ei gylla gymmeryd maeth cyffredin, ac y parhâo yntau i yfed diodydd meddwol, nid hir y bydd cyn dechreu gweled drychiolaethau, yn enwedig os bydd o gyfansoddiad egwan a gerïog. Mae yr esamplau o hyn braidd yn afrifed, a rhai o

Digitized by Google

honynt yn dra erchyll; ond ni chrybwyllir yma ond un, a noda y Dr. Alderson, meddyg parchus, a alwyd at dafarnwr, yr hwn oedd yn cael ei flino er's amser gan ddrychiolaethau. Dechreuodd y tafarnwr feddwl nad oedd pob peth yn iawn gyda golwg arno ei hun, pan y chwerthodd geneth fechan am ei ben o herwydd iddo ofyn iddi godi crogen wystrysen oddi ar lawr. Ar hyny, plygodd ef ei hun i'w chodi, ond canfu nad oedd yno ddim. Yn fuan ar ol hyny, yn y cyfnos, gwelodd filwr yn dyfod i'r tŷ; a chan nad oedd yn hoffi ei ddull, dymunodd arno fyned ymaith: ond gan nad oedd yn ateb, neidiodd ato i ymaflyd ynddo, pan, er ei ddychryn, y canfu nad oedd ond drychiolaeth. Yr oedd yr ymweliadau drychiolaethol yn cynnyddu ddydd a nos, hyd nas gallai o'r diwedd wahaniaethu rhwng y gwir gwsmeriaid a'r rhai drychiolaethol, gan yr ymddangosai y naill iddo yn gwbl mor amlwg a'r lleill. Byddent yn ymddangos iddo weithiau ar ffurf cyfeillion byw, a phryd arall yn ffurf pobl wedi meirw er's talm. Llwyddodd y Dr. Alderson o'r diwedd i adferu ei beiriannau treuliol, ac yn raddol diflanodd yr holl ddrychiolaethau.

6. Drychiolaethau oddiwrth aflechyd; megys y pruddglwyf, y famwst, gorphwylledd, a'r cyffelyb. Dengys yr hanesyn a rydd y Dr. Hibbert am foneddiges Almaenaidd o feddwl diwylliedig, natur y drychiolaethau hyn yn gyffredinol. Daeth y lledrith cyntaf a gafodd y foneddiges hon ati pan oedd yn bedair blwydd oed, tra yn eistedd â'i dòl ar ei glin; ac, er mwyn bod yn fwy cyfleus i'w gwisgo a'i dadwisgo, yr oedd wedi gosod ei throed ar Feibl unplyg mawr. "Prin yr oeddwn wedi eistedd yn fwy na mynyd," meddai hi, "na chlywn lais wrth fy nghlust yn dywedyd, 'Rhoddwch y llyfr yn y fan y cawsoch ef;' ond gan nad oeddwn yn gweled neb, ni wnaethum felly. Pa fodd bynag, ail roddwyd y gorchymyn i mi wneud hyny yn ddioed; ac, ar yr un pryd, yr oeddwn yn meddwl fod rhywun yn ymaflyd yn fy wyneb. Ufuddheais yn y fan, mewn ofn a dychryn; ond gan nas gallwn godi y llyfr ar y bwrdd, gelwais y forwyn i ddyfod i'm cynnorthwyo yn ebrwydd. Pan ddaeth, a gweled fy mod fy hunan ac yn ddychrynedig, ceryddodd fi, gan nad oedd yno neb." Diau mai effaith cerydd blaenorol ar feddwl tyner a bywiog oedd yr holl ddrychiolaeth hon. Mae y claf, fel y geilw y Dr. Hibbert hi, yn nesaf yn darlunio ei diwydrwydd yn darllen y Beibl, fel yr oedd yn cynnyddu mewn oedran, ddwywaith drosodd, a'r pleser mawr a fwynhäai wrth wneuthur hyn; ac yn neillduol, fel yr ymdrechai ei ddeall yn fwy trwyadl, trwy fynych wrando pregethau a darllen llyfrau crefyddol. Y mae o bwys gwybod pwnc ei hefrydion parhaus a phryderus, er mwyn egluro natur ei gweledigaethau, y rhai, fel y gellid dysgwyl, oeddynt yn wastad o ansawdd grefyddol. Pan ydoedd yn ddwy ar bymtheg oed, ac yn chwareu ar offeryn cerdd, gwelai fflam yn eglur yn myned trwy ddrws yr ystafell, tra y gwelai oleuni disglaer yn ei chanol o faint plentyn chwech oed. Safodd y ddrychiolaeth yn llonydd am gryn hanner awr yn agos i dân yr ystafell, ac aeth allan drachefn trwy ddrws yr ystafell—y goleuni gwyn yn gyntaf, a'r fflam wedi hyny. Nid ydys yn clywed dim ar ol y weledigaeth hon nes i'r foneddiges briodi, pan, yn anffodus, y gwnaed ei bywyd mor chwerw gan ei gŵr, fel nas gallai feddwl am ddim ond angeu. Yr oedd hyn mewn cysylltiad â chynhyrfiadau meddwl bywiog a'i chyfansoddiad egwan, yn achosi drychiolaethau mynych. Fel hyn, ar un achlysur wedi cael camdriniaeth gan ei gwr, penderfynodd ymattal oddi wrth weddi, gan feddwl fod yr Arglwydd wedi ei gadael; ond wedi ystyried yn mhellach, edifarhaodd o blegid y bwriad hwn, ac, ar ol diolch i Dduw, aeth i'w gwely. Deffrôdd tua'r bore, ac yna canfu, er ei syndod, ei bod yn ddydd goleu, a bod ffurf nefol wrth erchwyn ei gwely ar lun dyn tua thrigain oed, mewn gwisg las, â gwallt gloew ganddo, a'i wyneb yn disgleirio fel y grisial coch a gwyn tryloewaf. Edrychodd arni yn y modd tyneraf, heb ddywedyd dim mwy wrthi na, "Dos yn mlaen, dos yn mlaen, dos yn mlaen!" Yr oedd y geiriau hyn yn annealladwy iddi hi, nes yr eglurwyd hwy gan ddrychiolaeth arall, ieuanc a phrydferth fel angel, a ymddangosodd yr ochr arall i'r gwely, ac a chwanegodd yn fwy eglur, "Dos yn mlaen mewn gweddi, dos yn mlaen mewn ffydd, dos yn mlaen mewn profedigaethau." Ar ol y dygwyddiad yma, ymddangosodd goleuni dyeithr, pan y teimlai yn ddioed wallt ei phen yn cael ei dynu, a'i chorph yn cael ei binsio a'i boenydio mewn llawer modd. Gwelodd yn fuan mai y diafol oedd yr achos o'r boenedigaeth hon, yr hwn a wnaeth ei ymosodiad yn y ffurf dychrynllyd arferol dan ba un y personolir ef, hyd oni ymyrodd yr angel o'r diwedd, gan wthio ymaith yr ellyll aflan â'i benelin. "Wedi hyny," meddai y foneddiges hon, "daeth y goleuni drachefn, ac yr oedd y ddau berson yn edrych yn alarus. Yna dywedodd yr ieuanc, 'Arglwydd, y mae hyn yn ddigon;' a dywedodd hyn dair gwaith. Tra yr oedd efe yn eu hail ddywedyd, mi a edrychais arno, a gwelwn ddwy aden wen ar ei ysgwyddau; ac am hyny gwybûm mai angel Duw ydoedd. Aeth y goleuni ymaith yn ddisymmwth, a diflanodd y ddau ffurf, a throdd y dydd yn fuan yn nos. Adferwyd fy nghalon i'w lle priodol, darfu y bore, a chyfodais innau i fyny."

Canfu y Dr. Crichton, awdwr llyfr rhagorol ar orphwylledd, fod y foneddiges anffodus hon bob amser dan effaith yr *aura epileptica* (y chwa fasglwyfus) pan yn gweled drychiolaethau; neu, mewn geiriau ereill, yr oedd yn dioddef dan ymosodiadau ysgeifn o'r llesmeirglwyf. Fel hyn yr eglurwyd yn syml gyfres o ymddangosiadau, y rhai, o blegid cymmeriad uchel y dioddefydd am eirwiredd, a synodd ran fawr o'r Almaen.

7. Drychiolaethau y dychymyg. Y mae personau o feddyliau pruddglwyfus diobaith yn dra thueddol i gymmeryd eu twyllo gan eu dychymyg. Troant bob ymddangosiad dyeithr yn ddrychiolaeth, neu rybydd o ddynesiad angau. Gall dyn dychrynedig, fel y sylwa un ysgrifenydd poblogaidd, ddychymygu unrhyw beth. Y mae chwibaniad y gwynt yn swnio yn ei glustiau fel llefau dynion yn meirw. Fel y bydd ef yn cerdded dan grynu yn y tywyllwch, trydd y cyfeirbost yn gawr—pob pren wrth ysgwyd yn yr awel yn ysbryd—a phob buwch a gyferfydd yn rhyw ddrychiolaeth ofnadwy o wlad yr ellyllon. Mae llawer mwy o allu yn y dychymyg, fel y dywedodd un, nag oedd yn lamp Aladdin. Tybir fod y chwedl ganlynol, a adroddwyd gan Scott, yn eglurhad gwych ar hyn yma:—"Yn fuan ar ol marw bardd diweddar enwog, yr hwn a ystyrid yn ei oes yn uchel gan y cyhoedd, yr oedd cyfaill llenyddol, i'r hwn yr oedd y trancedig yn dra adnabyddus, ar un cyfnos tywyll yn y gauaf yn darllen un o'r cyhoeddiadau a broffesai fanylu ar arferion a barnau y person enwog oedd wedi

Digitized by Google

marw. Gan fod y darllenydd wedi mwynhau gradd helaeth o gyfeillach â'r ymadawedig, yr oedd yn teimlo dyddordeb arbenig yn y cyhoeddiad a gynnwysai ryw neillduolion am dano ef a chyfeillion ereill. Yr oedd ymwelydd yn eistedd yn yr un ystafell, ac yn darllen. Yr oedd eu heisteddfa yn agor i ragneuadd, oedd wedi cael ei dodrefnu braidd yn fympwyol â hen arfogaeth, crwyn anifeiliaid, a'r cyffelyb. Pan oedd newydd roddi ei lyfr o'i law, ac yn myned i'r neuadd hon, trwy yr hon yr oedd y lleuad yn dechreu tywynu, gwelai ffurf cywir o'i gyfaill ymadawedig yn sefyll yn hollol o'i flaen, adgofion o'r hwn oedd wedi ei ddwyn mor fywiog i'w ddychymyg. Safodd am foment, er mwyn sylwi mor berffaith gywir yr oedd dychymyg wedi tynu portread o neillduolion gwisg a dull y bardd ardderchog. Pa fodd bynag, gan ei fod yn hysbys mai ffug ydoedd, ni theimlai ddim ond syndod at gywirdeb nodedig y tebygolrwydd; ac aeth yn mlaen, gam neu ddau, at y ddrychiolaeth, yr hon fel y dynesäai ati, a ymchwalodd yn y fan i'r defnyddiau o'r rhai yr oedd wedi ei chyfansoddi; sef cysgodlen, ar yr hon yr oedd cobau, gwarlenau, brithweoedd, a phethau o'r fath a geir yn gyffredin mewn rhagneuadd yn y wlad. Dychwelodd y gweledydd i'r lle o'r hwn yr oedd yn gweled y ddrychiolaeth, ac ymdrechodd â'i holl rym i adalw i fod y darlun bywiog a welsai; ond methodd er pob ymdrech." Tystiolaethai y gŵr hwn, pe buasai y prydydd ei hunan yn y fan, nas gallasai fod yn ddarlun cywirach o hono ei hun iddo ef, nag a fu yr hen gysgodlen (*screen*) a'r dillad am ryw ysbaid byr o amser. Pe buasai llawer yn yr un amgylchiad, buasent yn tystio, a hyny yn wir yn ol eu tyb hwy, eu bod wedi gweled ysbryd; a chawsent hanner y wlad o bobl i'w credu. Yr oedd boneddiges unwaith, medd y *Scientific Tracts*, yn myned ar noswaith dywyll ystormus trwy goed, i ymweled â chyfeilles iddi oedd yn gwylio plentyn oedd ar farw. Fel yr oedd yn myned, yr oedd y cymylau yn tewychu, y gwlaw yn dechreu disgyn, y tywyllwch yn mwyhau, a'r gwynt yn gruddfan yn gwynfanus drwy y coed. Yr oedd hithau yn teimlo ei chalon bron ag ymollwng, yn enwedig wrth gofio fod ganddi dros filltir eto o'r fath lwybr annymunol i'w gerdded. Ond wrth feddwl am sefyllfa ei chyfeilles, nis goddefai ei charedigrwydd iddi droi yn ol. Nid aeth ond ychydig yn mhellach, na welai ryw wrthddrych tra aneglur yn symmud ar y llwybr o'i blaen. Ymddangosai yn cadw tipyn o bellder oddi wrthi hi; ac fel yr oedd hi yn ymegnïo i'w oddiweddyd er gwybod beth ydoedd, yr oedd yntau yn ymddangos am amser yn ymgadw yn yr un pellder. Dechreuodd y foneddiges deimlo yn dra anhyfryd. Yr oedd yn sicr ei bod yn canfod rhyw wrthddrych gwelwlwyd o'i blaen; ac ymddangosai yn nofio rhagddo, yn yr un pellder, heb ddangos dim egni i symmud. Gwnaeth y foneddiges bob egni i wrthsefyll ei hofn, a llwyddodd yn fuan i nesau at y gwrthddrych cyfriniol, pan y dychrynwyd hi yn arswydus wrth weled gwyneb plentyn ei chyfeilles, yn welw gan angeu, wedi ei rwymo mewn amdo. Edrychodd yn astud, ac yno yr ydoedd, yn amlwg o flaen ei llygaid. Ystyriodd hyn yn rhybydd o farwolaeth ebrwydd y plentyn, a phrysurodd yn mlaen er mwyn cynnorthwyo ei chyfeilles. Ond yno yr oedd y ddrychiolaeth yn union ar ei llwybr. Rhaid iddi ei basio. Cymmerodd frigyn bychan yn ei llaw, a gorfododd ei hun i fyned yn mlaen at y gwrthddrych, ac wele, rhedodd rhyw anifail bychan ymaith. Dyma y peth a drawsffurfiodd ei dychymyg cynhyrfus hi yn gorff plentyn wedi ei rwymo mewn amdo. Yr oedd y weledigaeth o flaen ei llygaid hi, yn ddiammheu, mor eglur ag y gallasai peth gwirioneddol fod. Pe buasai y foneddiges hon, pan welodd hi y corff, yn troi ei chefn mewn dychryn, ac yn ffoi adref, pa reswm a allasai byth ei boddloni hi nad oedd wedi gweled rhywbeth goruwchnaturiol? Pan y gwyddys fod i'r dychymyg y fath nerth a hyn, a ellir rhyfeddu mwyach at unrhyw hanesion a geir am ymddangosiadau annaiarol?

Ond er y gellir rhoddi eglurhad fel hyn ar ddrychiolaethau yn gyffredinol, gall yr ymddengys i rai fod amgylchiadau neillduol nas gellir rhoi cyfrif felly am danynt. O'r natur yma y gall y cyfryw ddarllenwyr feddwl fod y chwedl warantedig am y foneddiges Wyddelig uchelwaed hono, ar ol iddi briodi yr ail waith, yr ymwelwyd â hi yn y nos gan ysbryd ei gŵr cyntaf, gan yr hwn y derbyniodd hysbysiad o amser appwyntiedig ei marwolaeth hi ei hun. Dychrynwyd y foneddiges ar y cyntaf, ond adennillodd ei gwroldeb. "Pa fodd y gwybyddaf fi y bore fory," meddai yn hyf wrth y ddrychiolaeth, "nad ffug y synwyrau ydyw hyn—fod ysbryd mewn gwirionedd yn ymweled â mi?" "Bydded hyn yn arwydd i ti dros dy oes,' meddai yr ymwelydd, a chan wasgu braich y foneddiges dros foment, efe a ddiflanodd. Yn y bore, yr oedd marc du, megys wedi ei wneyd â haiarn poeth, i'w weled ar yr arddwrn, a chadwodd y foneddiges y graith yn orchuddiedig tra y bu fyw. Bu farw ar yr amser a brophwydwyd gan yr ysbryd.

Dywedir y chwedl yma yn dra hyderus gan rai ysgrifenwyr hanesyddol, a dywedir i'r amgylchiadau gael eu cadw yn gyfrinach yn hir gan deulu y foneddiges. Caniataer er mwyn yr ymresymiad fod rhanau mwyaf nodedig y chwedl yn wir. Am amgylchiad ei marwolaeth yn cael ei ragfynegu ar y pryd, y mae nerth mawr dychymyg er cyflawnu y fath ragddywediadau yn hysbys bron i bawb yn awr; ac, nid yw esampl o un cyflawniad fel hyn yn rhyfeddod fawr iawn ym mysg cannoedd sydd heb eu cyflawnu. Ond y marc—beth am dano ef? Dywedwn yn hyf wrth y darllenydd, pe buasem hyd yn oed wedi gweled y graith ar arddwrn y foneddiges, na buasem ddim nes i ganiatau fod dim goruwchnaturiol wedi cymmeryd lle. Pa fodd bynag, tybier fod yno farc wedi ei wneuthur mewn gwirionedd; a ellid dim ei egluro trwy gwsgrodiad? Dichon yn hawdd fod y foneddiges wedi cyfodi yn ei chwsg, wedi llosgi ei garddwrn yn heiyrn y tân; ac wrth deimlo y boen, ond heb ddeffro, wedi ffurfio yr holl chwedl am yr ymweliad goruwchnaturiol, yn gwbl fel ag y gwnaeth yr is-gadben Gwyddelig gyda golwg ar y dwfr sanctaidd. Pan y canfyddom fod y fath eglurhâd o'r mater yn unol â ffeithiau anammheuadwy, byddai yn afresymol pasio heibio iddo, a cheisio yr eglurhad mewn troseddi tybiedig o ddeddfau natur.

Gellid nodi amryw achosion ereill o ddrychiolaethau, a dwyn esamplau a chwedlau yn afrifed i'w hegluro; ond rhaid boddloni gyda nodi un math arall yn unig; sef:—

8. Drychiolaethau yn tarddu o ddichellion a thriciau y diriaid ysmala, neu y drygionus hunangeisiol. Nid ydyw y drychiolaethau a ffurfir trwy ddefnyddio lledrithiaduron (*phan-*

*tasmagorias*), llusernau lledrith (*magic lanterns*), drychau, a moddion ereill a ddefnyddir i dwyllo, yn nglŷn â chastiau hudol proffesedig, ond prin yn werth cyfeirio atynt yn y lle hwn. Y mae drychiolaethau a achosir, fel y dywedir, oddi wrth ymddangosiad ysbrydion, neu gymdeithas â hwy, o natur wahanol; a ffurfiai sylw rheolaidd o'r cyfryw bennod ddu yn hanes ein hofergoelion poblogaidd. Y mae rhai wedi bod yn byw yn mhob oes o'r byd trwy dwyllo y werin, a honi eu bod yn meddu galluoedd goruwchnaturiol. A phrin y mae ereill, o ddyhirwch a direidi, wedi achosi llai o niwed i gymdeithas trwy ddychryn plant a phersonau gweiniaid, trwy adrodd chwedlau am ysbrydion a drychiolaethau, a thrwy gyflawnu triciau ffugiol neu gelfyddydol. Fe allai mai y cast a gofnoda y Dr. Plot, yn ei *Natural History of Oxfordshire*, ydyw y mwyaf dychrynllyd sydd ar gof a chadw. Yn fuan ar ol dienyddio Charles I., trefnwyd dirprwyaeth i archwilio tŷ y brenin yn Woodstock, yn nghyd â'r faenoriaeth, y parc, y coed, a thiroedd perthynol i'r faenoriaeth hono; a chyflogwyd un Collins, dan ffug enw, i fod yn ysgrifenydd y dirprwywyr, y rhai, ar y 13eg o Hydref, 1649, a gyfarfuasant, ac a gymmerasant eu trigfa yn ystafelloedd y brenin ei hunan. Gwnaethant ystafell wely ei fawrhydi yn gegin iddynt; neuadd y cynghor yn gell bwyd; a'r ystafell gyfarch oedd y lle yr eisteddent i wneyd eu gorchwylion. Gwnaethant ystafell ginio y brenin yn ystordy coed, ac a'i llanwasant hi â choed y dderwen freninol enwog o High Park, yr hon, fel na byddai dim yn dwyn yr enw brenin o'i hamgylch, a ddadwreiddiasant, a holltasant, ac a wnaethant yn ffagodau i gynneu eu tân. Wedi parotoi pethau yn y dull yma, yr oeddynt wedi eistedd ar yr 16eg o'r un mis i ddechreu gwneyd eu gorchwyl; a thra yr oeddynt ar ganol y ddadl gyntaf, daeth ci du (fel yr oeddynt hwy yn tybied) anferth ei faint i mewn, yr hwn wedi gwneyd udiad arswydus, a throi dwy neu dair o'r cadeiriau, a ymgripiodd dan wely yno, ac a ddiflanodd. Yr oeddynt yn synu mwy at hyn, am fod y drysau yn cael eu cadw yn gauedig a chloedig, fel nas gallasai gwir gi ddyfod i mewn na myned allan. Chwanegwyd eu syndod y dydd canlynol, pan oeddynt yn eistedd wrth eu ciniaw yn yr ystafell isaf, ac y clywent yn eglur swn rhai yn cerdded uwch eu penau, er y gwyddent yn dda fod yr holl ddrysau wedi eu cloi, ac nas gallasai fod neb yno. Yn ebrwydd ar ol hyny, clywent hefyd holl goed derwen y brenin yn cael eu dwyn wrth y bwrnel o'r ystafell giniaw, a'u taflu gyda nerth aruthrol i'r ystafell gyfarch; a chlywent hefyd yr holl gadeiriau, yr ystolion, y byrddau, a'r holl ddodrefn ereill yn cael eu lluchio yn nerthol o amgylch yr ystafell; rhwygwyd y papyrau oedd yn cynnwys yr adroddiad o'u gweithrediadau, a drylliwyd eu corn du ysgrifenu yn chwilfriw. Pan ddarfu yr holl swn yma, cynnygiodd Giles Sharp, eu hysgrifenydd, fyned yn gyntaf i'r ystafelloedd hyn; ac yn ngŵydd y dirprwywyr, gan y rhai yr oedd efe wedi derbyn yr agoriad, efe a agorodd y drysau, ac a ganfu y coed wedi eu chwalu o amgylch yr ystafell, y cadeiriau wedi eu lluchio o gwmpas, a'u dryllio, y papyrau wedi eu rhwygo, a'r corn du ysgrifenu, fel y dywedwyd, wedi ei dori, ond neb yr arwydd lleiaf fod un creadur dynol wedi bod yno, na'r rheswm lleiaf i ammheu neb, gan fod yr holl ddrysau yn gauad, a'r agoriadau yn cael eu cadw gan y dirprwywyr eu hunain. Cytunwyd, gan hyny, yn unfryd, y rhaid fod y gallu a wnaeth yr holl niwed yma wedi myned i mewn trwy dwll y clo. Y noswaith ganlynol, fel yr oedd Sharp, yr ysgrifenydd, a dau o weision y dirprwywyr yn eu gwelyau yn yr un ystafell, yr hon oedd mewn cyssylltiad â'r ystafell lle yr oedd y dirprwywyr, codwyd traed eu gwely yn gymmaint uwch na'u penau, fel yr oeddynt yn dysgwyl cael tori eu gyddfau; a gollyngwyd ef i syrthio ar unwaith gyda'r fath nerth fel yr ysgydwyd yr holl dŷ, ac y dychrynwyd y dirprwywyr yn fwy nag erioed. Ar y 19eg, fel yr oedd pawb yn y gwely yn yr un ystafell er mwyn chwaneg o ddiogelwch, a goleu yn eu hymyl, diffoddodd y canwyllau oll mewn moment gydag arogl brwmstanaidd, ac ar yr un mynyd, chwyrnellid amryw ddysglau coed o amgylch yr ystafell, y rhai y canfuwyd y bore dranoeth mai yr un oeddynt ag y bwytaodd y boneddigion arnynt y dydd o'r blaen, y rhai a symmudasid oll o'r bwytty, er na chanfyddwyd fod cymmaint a chlo wedi ei agor trwy yr holl dŷ. Ymdarawsant yn waeth fyth y noswaith ganlynol—diffoddodd y canwyllau, fel o'r blaen, rhugldrystiwyd lleni gwelyau y boneddigion gyda nerth mawr, a derbyniodd y boneddigion amryw ddyrnodiau creulawn a briwiau, trwy i wyth o ddysglau ffrantr (*pewter*) mawrion, ac amryw ddysglau coed, gael eu taflu i'w gwelyau, y rhai, wedi eu bwrw ymaith, a glywid yn rholio o amgylch yr ystafell, er nad oedd un o honynt i'w gweled yn y bore. Dychrynwyd hwy y noswaith hono hefyd trwy i amryw ffagodau derw gael eu treiglo o amgylch eu gwelyau, cystal ag amryw seiniau dychrynllyd ereill; ond erbyn y bore, yr oedd pob peth wedi ei glirio, fel pe na buasai dim wedi dygwydd. Y noswaith ganlynol, arosodd ceidwad tŷ y brenin a'i gi yn ystafell y dirprwywyr, ac ni aflonyddwyd arnynt. Ond ar noswaith yr 22ain, er fod y ci yn gorwedd yn yr ystafell, fel o'r blaen, eto diffoddodd y canwyllau, syrthiodd amryw ddarnau o briddfeini o'r simnai i'r ystafell, udai y ci yn druenus, tynwyd eu dillad oddi ar eu gwelyau, a chwanegwyd eu dychryn. Ar y 24ain, meddyliasant fod holl goed y dderwen freninol wedi eu taflu gyda nerth wrth erchwyn eu gwelyau; cyfrifasant fod trigain a phedair o ffagodau wedi syrthio, a rhai wedi taraw ac ysgwyd y gwelyau yr oeddynt ynddynt; ond yn y bore, ni chanfyddwyd dim yno, ac nid ydoedd y ddôr lle y cedwid y ffagodau coed wedi ei hagor. Y noswaith ganlynol, diffoddodd y canwyllau, rhugldrystiwyd y lleni, a chlywyd swn dychrynllyd fel taran; a rhedodd un o weision y dirprwywyr mewn brys, gan feddwl fod ei feistr wedi ei ladd, a chafodd dri dwsin o ddysglau coed wedi eu gosod yn llyfn o dan y cwrlid gydag ef. Ond nid oedd hyn oll yn ddim i'r peth a ganlynodd. Ar y 29ain, tua hanner nos, diffoddodd y canwyllau, cerddai rhywbeth yn fawreddog trwy yr ystafell, gan agor a chau y ffenestri; teflid ceryg yn ffyrnig i'r ystafell, a disgynai rhai ar y gwelyau a'r lleill ar lawr; ac yn nghylch tua chwarter wedi un, clywid swn fel pe buasai deugain o fagnelau yn cael eu tanio ar unwaith, ac yn cael eu hail roddi allan bob rhyw wyth mynyd. Dychrynodd a chyfododd hyn yr holl gymmydogaeth, y rhai a ddaethant i ystafelloedd y dirprwywyr, ac a gasglasant y ceryg mawr oedd wedi eu lluchio yno—pedwar ugain o nifer—ac a'u rhoddasant yn nghornel cae, lle yr oeddynt i'w gweled yn amser y Dr. Plot—yr

Digitized by Google

hwn a gadwodd gof o'r chwedl hon. Clywyd y swn yma, fel ergyd o fagnel, trwy yr holl wlad am un filltir ar bymtheg o amgylchedd. Yn ystod y swn ofnadwy yma, yr hwn ydoedd i'w glywed megys yn y ddwy ystafell ar unwaith, yr oedd y dirprwywyr a'u gweision wedi rhoddi eu hunain i fyny fel rhai i ddarfod am danynt yn y fan, a gwaeddasant am help; a chipiodd Giles Sharp gleddyf, a bu agos iawn iddo ladd un o'r dirprwywyr trwy ei gamgymmeryd am ysbryd, fel yr oedd efe yn rhuthro yn ei grys o'i ystafell ei hun i ystafell y boneddigion. Tra yr oeddynt hwy gyda'u gilydd, yr oedd y swn yn parhau, ac ysgubwyd rhai o briddlechi to y tŷ ymaith, a chymmerwyd holl ffenestri ystafell uchaf y tŷ ymaith gyda hwy. Ar y 30ain, ar hanner nos, daeth rhywbeth i'r ystafell, gan gerdded fel arth; cerddodd lawer gwaith o amgylch, yna taflodd y dwymban yn ffyrnig ar lawr; ac ar yr un pryd, ymdywalltai swm mawr o wydr toredig, ceryg mawrion, ac esgyrn ceffylau, i'r ystafell gyda nerth arswydus. Canfyddwyd y pethau hyn oll yn y bore, er eu syndod a'u dychryn, gan y dirprwywyr, y rhai er hyny a benderfynent fyned yn mlaen gyda'u gorchwyl. Ond ar y laf o Dachwedd y bu yr olygfa fwyaf ofnadwy oll: yr oedd canwyllau wedi eu goleu yn mhob rhan o'r ystafell, a thân mawr wedi ei wneuthur: ar hanner nos, a'r canwyllau oll eto yn llosgi, clywyd sŵn fel ergyd magnel yn yr ystafell, a lluchiwyd y briwydd llosgedig o amgylch ganddo, hyd yn oed i welyau y dirprwywyr; y rhai a alwasant Giles a'i gymdeithion i'w cynnorthwyo, yn amgen buasai y tŷ wedi ei losgi hyd lawr: yn mhen tuag awr ar ol hyny, diffoddodd y canwyllau fel arferol, a chlywyd trwst fel llawer o fagnelau, a thaflwyd celyrneidiau o ddwfr gwyrdd drewedig ar welyau y dirprwywyr: taflwyd ceryg mawr hefyd i mewn fel o'r blaen; drylliwyd lleni a phrenau y gwelyau; gwnaed y ffenestri yn deilchion; a dychrynwyd yr holl gymmydogaeth gan y sŵn mwyaf arswydus; ïe, dychrynwyd hyd yn oed y lladron cwningod oedd allan y noswaith hono yn y gwning-gaer, fel y ffoisant mewn ofn a dychryn gan adael eu ffuredau ar ol. Siaradodd un o'r dirprwywyr y noswaith hon; ac, yn enw yr Hollalluog, gofynodd beth oedd yno, a pha ham yr oedd yn cynhyrfu felly? Ni roddwyd ateb i hyn, ond peidiodd y sŵn dros ennyd, pan y daeth yr ysbryd drachefn; ac, fel y cydsyniai pawb o honynt, dygodd gydag ef saith ysbryd arall gwaeth nag ef ei hun. Yr oedd un o'r gweision yn awr wedi goleu canwyll fawr, ac wedi ei gosod yn y drws rhwng y ddwy ystafell, er gweled beth a ddygwyddai; ac fel yr oedd yn ei gwylio, gwelodd yn amlwg garn yn taraw y ganwyll a'r canwyllbren i ganol yr ystafell, ac wedi gwneyd tri chrafiad ar ben y ganwyll, crafodd ef ymaith. Ar hyn bu yr un person mor hyf a thynu ei gleddyf allan; ond prin yr oedd wedi ei dynu allan pan y clywai law anweledig arall yn gafael ynddo hefyd, ac yn ei dynu oddi arno; ac o'r diwedd, wedi llwyddo, tarawyd ef mor dost ar ei ben â'r carn fel y syrthiodd i lawr fel marw. Ar yr un foment, clywid ymdoriad fel pe buasai holl fagnelau ochr llong rhyfel yn cael eu tanio ar unwaith, ac ni wnaed hyny lai na phedair ar bymtheg o weithiau, heb fod ond o gylch dau fynyd o amser rhwng pob arllwysiad: yr oedd hyn yn ysgwyd y tŷ mor arswydus fel yr oeddynt yn dysgwyl bob moment iddo syrthio ar eu penau. Gan fod y cymmydogion yn ngwyneb hyn, fel y dywedwyd, wedi dychrynu, yr oeddynt yn ymdyru i'r tŷ yn dyrfaoedd, ac ymunasant oll i weddïo a chanu salmau yno. Tra yr oedd hyn yn myned yn mlaen, yr oedd y sŵn yn parhau mewn ystafelloedd ereill, a chlywid taniad magnelau megys o'r tu allan, er nad oedd unrhyw wrthddrych allanol i'w weled yn gwneuthur hyny. Ond y peth mwyaf dychrynllyd o'r cwbl, ac a roddodd derfyn yn effeithiol ar eu gweithrediadau, a ddygwyddodd y dydd canlynol, pan oeddynt oll ar giniaw, pan y darfu i bapyr, yn yr hwn yr oeddynt wedi llawnodi cytundeb rhyngddynt â'u gilydd i gadw rhan o'r lle allan o'r tirfesuriad cyffredinol (yr hwn bapyr a guddiasent dros yr amser presennol dan y ddaiar mewn llestr yn nghornel yr ystafell, yn yr hwn yr oedd pren orains yn tyfu), gael ei ddifa mewn modd rhyfeddol, trwy i'r ddaiar oedd yn llenwi y llestr gymmeryd tân, gan losgi yn ffyrnig yn fygdarth glas, ac o arogl annyoddefol, fel y gyrwyd hwy oll allan o'r tŷ, i'r hwn nis gallwyd byth mwyach eu perswadio i ddychwelyd.

Nid oedd yr holl gyfrwyswaith hwn ddim ond dyfais y nodedig Joseph Collins, o Rydychain, a elwid hefyd yn *Funny Joe*, yr hwn wedi ei gyflogi fel ysgrifenydd, dan yr enw Giles Sharp, ac yn gwybod am yr holl gelloedd dirgel a berthynent i'r tŷ, a thrwy gynnorthwy *pulvis fulminans*, a pharotoadau fferyllol ereill, a chan gymmeryd ei gydweision i mewn i'r cynllun, a gariodd y twyll yn mlaen heb ei ddarganfod hyd y diwedd; ac adroddir yr hanes gan yr hen Dr. Plot fel ffaith wirioneddol.

Yn awr, credir yn benderfynol—yn wir y mae y peth wedi ei brofi gan y meddygon a'r athronwyr penaf—y gellir olrhain pob math o ddrychiolaethau i un neu chwaneg o'r achosion a nodwyd, neu i rai cyffelyb.—(*Encycl. Britannica; Brewster's Let. on Natural Magic; Macnish's Philosophy of Sleep; Scient. Tracts; Plot's Nat. Hist. of Oxford.*)

DUCHOBORTSIAID, neu DUHOBORTSIAID, [*Ymdrechwyr â'r Ysbryd*]: sect Rwssiaidd, a gyfododd o fysg y werin bobl, tua chanol y 18fed ganrif. Tybir iddynt gael yr enw yn 1788, gan archesgob, yr hwn a fwriadai ddynodi, trwy yr enw yma, y cyfeiliornad a gynnwys eu hathrawiaethau; gan mai ystyr yr enw yw "Ymdrechwyr â'r Ysbryd." Y maent hwy yn eu galw eu hunain yn Gristionogion, a phob enwad arall yn "ddynion y byd."

Prif athrawiaeth wahanredol y sect hon yw, "addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd;" ac am hyny y maent nid yn unig yn bwrw holl seremonïau Eglwys Groeg, ond hefyd gwrthodant fedydd a Swper yr Arglwydd. O blegid y pethau hyn a'u cyffelyb, y maent wedi cael eu galw, meddai Buck, yn Grynwyr Rwssiaidd; ac er cymmaint a ddichon fod ganddynt o bethau na chymmeradwyai y rhai mwyaf goleu o Gymdeithas y Cyfeillion, nis gellir gwadu eu bod yn debyg iddynt mewn llawer golygiad. Y mae adenedigaeth a bedydd ysbrydol, yn ol eu barn hwy, yr un peth.

Nid oes ganddynt unrhyw gredo neu gyffes ffydd neillduol, ond dywedant yn unig am danynt eu hunain eu bod hwy o ddeddf Duw, ac o ffydd Iesu. Gyda golwg ar grynodeb ffydd Eglwys Groeg, neu Gredo Nicea, y maent nid yn unig yn ei barchu, ond yn cyffesu fod yr hyn oll sydd ynddo yn wirionedd; ond rhoddant le iddo

Digitized by Google

yn unig yn mysg eu Salmau cyffredin. Nid ydynt yn ei ystyried yn hanfodol i iachawdwriaeth, fod dyn yn aelod o'u cymdeithas hwy: yr unig beth sydd yn angenrheidiol, meddant hwy, ydyw deall ffyrdd yr Arglwydd, a rhodio ynddynt, a chyflawnu ei ewyllys ef; canys hon yw ffordd iachawdwriaeth.

"Oddi gerth egwyddorion eu ffydd," meddai Mr. Pinkerton, "gall y Duchobortsiaid weinyddu fel esampl, o ran eu hymddygiadau teuluaidd a chymdeithasol, i'r holl sectau ereill." Y maent yn byw yn y modd mwyaf dichlynaidd: yn sobr, diwyd, dyfal yn eu gorchwylion, ac o dueddiadau da a thyner. Y mae diogi a meddwdod yn bechodau nas goddefir yn eu plith.

Nid oes ganddynt le penodol wedi ei appwyntio i addoli, gan y cyfrifant bob lle yr un mor gyssegredig a'r llall. Nid ydynt chwaith yn appwyntio un diwrnod neillduol at y gorchwyl yma, gan eu bod yn barnu fod pob diwrnod yn ogyfuwch. Y maent yn cynnal eu cyfarfodydd mewn tai annedd. Yn ystod eu cyfarfodydd, y maent yn gweddïo y naill ar ol y llall, yn canu salmau, ac yn egluro gair Duw. Nid oes ganddynt offeiriad appwyntiedig, ond cyffesant mai Iesu Grist ydyw yr unig offeiriad cyfiawn, pur, a dihalogedig, ac mai efe yw eu hunig athraw. Y mae pob un o hynynt yn llefaru yn ol y gras a roddir iddo, er cynghor a chysur i'w frodyr. Ni waherddir hyn hyd yn oed i'r gwragedd; canys, meddant, "A oes gan wragedd ddim deall goleuedig, cystal a dynion?"

Y rhinwedd sydd yn tywynu gyda'r dysgleirdeb mwyaf yn mysg yr enwad hwn yw *cariad brawdol*. Nid oes ganddynt eiddo personol—ond mae pob peth yn gyffredin. Y maent yn groesawgar wrth ddyeithriaid, yn dosturiol wrth rai mewn caledi, ac yn drugarog wrth eu hanifeiliaid. Nid oes ganddynt un math o gospau yn eu plith, ond diarddeliad o'r gymdeithas; a hyny yn unig am y fath droseddau ag a brofant fod y person wedi colli ysbryd Cristionogaeth. Gall y rhai a ddiarddelir gael eu hadferu trwy roddi prawf o'u hedifeirwch.

Nid oes ganddynt ynadon yn eu cymdeithas, na chyfreithiau na rheolau ysgrifenedig: ond y gymdeithas yn gyffredinol sydd yn ei llywodraethu ei hun, a phob person unigol sydd ynddi. Anfynych y blinir hwy âg ymraniadau ac ymrysonau, er fod dau neu dri o deuluoedd ieuainc yn cydfyw yn yr un tŷ. Y mae eu plant yn ddarostyngedig i'r eithaf i'w rhieni; ac yn gyffredin, y mae y bobl ieuainc yn eu plith yn parchu eu hynafiaid yn y modd mwyaf gwylaidd.

Mae y dull yr addysga yr enwad hwn eu plant yn dra syml a phriodol iddynt hwy eu hunain. Cyn gynted ag y dechreua y plant siarad, mae y rhieni yn dysgu gweddïau a salmau byrion iddynt ar dafod leferydd, ac yn adrodd y fath ranau o'r hanes sanctaidd iddynt ag a dueddant i dynu eu sylw. Yn y dull yma, parhant i ddysgu eu plant yn athrawiaethau yr efengyl nes y cyrhaeddant oedran i fod yn alluog i farnu drostynt eu hunain. Wedi i'r plant gofio amryw salmau a gweddïau fel hyn, ant i'r cyfarfodydd, ac adroddant eu gweddïau, a chanant Salmau gyda'r lleill. Fel hyn, y mae syniadau y rhieni, o fesur ychydig ac ychydig, yn cael eu planu yn meddyliau ieuainc y plant; ae y mae ymddygiadau dichlynaidd y rhieni yn peri iddynt dyfu a ffrwytho yno. O ganlyniad, sylwyd yn fynych fod plant y Duchobortsiaid yn nodedig yn mysg pob plant ereill, "megys tywysenau gwenith yn mysg ceirch." Dyoddefodd yr enwad yma erlidigaeth barhaus o bob parth hyd amser Alexander I. Yn 1801, anfonwyd dau seneddwr i adolygu amgylchiadau y llywodraeth yn yr Ukraine. Hwynthwy oedd y rhai cyntaf a roddasant ddarluniad cywir o'r bobl hyn i'r ymherawdwr. Yr oeddynt cyn hyn yn wasgaredig ar hyd gwahanol daleithiau. Rhoddodd yr ymherawdwr ganiatâd iddynt i ymsefydlu mewn lle a elwir Molishnia Vodi. Yma y sefydlasant ddwy orsaf, yn 1804. yn llywodraeth Tauria.—*(Pinkerton's Greek Church; Will All Rel.; Buck's Theol. Dict.)*

DULCINIAID: canlynwyr un Dulcinus, neu Dolcinus—gwr lleyg yn Novara, yn Lombardy, o gylch dechreuad y bymthegfed ganrif. Gwel APOSTOLIGION.

DULSIMER: (שבכא, neu סבכא, *sabeca*, Seis., *sackbut*): enw offeryn cerdd a geir yn unig yn *Dan*. iii. 5, 7, 10, 15. Yr un offeryn ydyw yn ddiammheu a'r offeryn cerdd tannau a elwir gan y Groegiaid *σαμβυκη. σαμβύκης, σαμβηξ, ζαμβικη*; a chan y Lladinwyr yn *sambuca*. Ymddengys, meddai Kitto, mai math ar delyn oedd; a thybia ereill mai math o nabl ydoedd, yn amrywio yn unig yn ol nifer y tannau. Y mae awdwr galluog yr erthyglau ar gerddoriaeth yn *Smith's Classical Dictionary*, yn meddwl mai math ar delyn Aiphtaidd oedd yr offeryn a gyfieithir genym ni yn *dulsimer*; ac y mae Kitto yn tybied mai offeryn neillduol oedd hwnw, fel yr awgrymwyd eisoes, a adnabyddid wrth yr enw nabl (Heb., נבל, *nabel*; Groeg, *ναβλιον*, *nablion*; Lladin, *nablum*), neu un o'r dosbarth yma o offerynau. Fe allai nad oes un gwrthwynebiad pwysig i ddynodi y rhyw yma o delyn â'r gair *dulsimer*; ond nid ydys yn gwybod fod un prawf wedi cael ei ddwyn o blaid y syniad; a chan mai yn y rhestr Fabilonaidd o offerynau yn unig y mae y gair yn dygwydd, ac heb fod byth yn mysg rhai yr Hebreaid, pe yr un fyddai, tueddai hyny i ddangos *nad* oedd gan yr Hebreaid ddim telyn—casgliad nad oes neb, fe allai, yn barod i'w dderbyn. Gan fod yr awgrymiadau y gellir eu casglu gyda golwg ar y dulsimer yn ein harwain i dybied mai offeryn tannau *mawr* ydoedd, o ddull lled driongl, fe ddichon ei fod yn dwyn rhyw debygolrwydd i'r dosbarth o offerynau a gyfieithir mewn manau ereill o'r Beibl yn *ddegtant*, a'i fod yn gyffelyb i'r offerynau a elwir *khanoon* a *tchenk*, sydd ar arfer gyffredinol hyd heddyw yn Syria, Arabia, yr Aipht, a Phersia; ac y mae yn dwyn graddau o debygolrwydd i'r naill a'r llall.

Am ddulsimer *(sackbut)* yr hen Hebreaid, meddai Busby, y mae dyfaliadau esbonwyr mor wahanol, fel nad yw eu hopiniynau yn rhoddi un hyfforddiad boddhaol i'r ymofynydd ymchwilgar. Yn wir, nid oes odid unrhyw hen offeryn y clywyd son am dano, nad ydyw y *dulsimer* neu'r *psaltring* yn cael ei roi fel enw arno.

Gyda golwg ar y dulsimer diweddar, dywed Busby, mai offer chwyth isalaw ydyw, yn tebygu i'r udgorn *(trumpet)*, wedi ei drefnu yn y fath fodd fel y gellir ei dynu allan i wahanol hydau yn ol uchder neu isder y sain gofynol. Mae y dulsimer yn gyffredin o gylch wyth droedfedd o hyd; a phan yr estynir ef i'w lawn hyd, bydd o gylch pymtheg troedfedd. Ond y mae dulsimerau o wahanol faintioli, at wahanol leisiau yr alaw; yn enwedig un bychan a elwir gan yr Italiaid yn *trombone picciolo*, a chan yr Almaeniaid yn *cleine alt possauno*, addas at y gwrth-

Digitized by Google

**alaw.—(*Kitto's Bibl. Lit.; Smith's Class. Dict.; Busby's Mus. Dict.***

DULL—IAU: mae *dull* yn y Beibl, weithiau, yn arwyddo cynllun, llun, neu ffurf peth: "Dyma waith y canwyllbren: cyfanwaith o aur fydd hyd ei baladr, ie hyd ei flodau cyfanwaith fydd; yn ol y *dull (pattern)* a ddangosodd yr Arglwydd i Moses;" *Num.* viii. 4. Yr un ystyr sydd i'r gair *dull*, yn yr adnod hon, ag sydd i'r gair *portreiad* mewn manau ereill; megys, "A'r brenin Ahaz a anfonodd at Uriah yr offeiriad agwedd yr allor a'i *phortreiad;*" 2 *Bren.* xvi. 10. Hyny yw, efe a ddanfonodd i'r offeiriad gynllun o'r allor a arferai y Syriaid i aberthu i'w heilunod: gwel 2 *Chron.* xxvii. 23. Yr un ystyr sydd i'r gair yn *Ezec.* xliii. 11. "Hysbysa iddynt *ddull* y tŷ;" sef, cynllun o'r adeilad.

Mae y gair *dull* hefyd weithiau yn arwyddo agwedd neu ymddangosiad person: "Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ddull oedd ar y gŵr a ddaeth i fyny i'ch cyfarfod chwi?" 2 *Bren.* i. 7. Hyny yw, "Pa ymmddangosiad oedd iddo? pa olwg a gawsoch arno?" "A hwy a ddywedasant wrtho, gŵr blewog oedd efe, wedi ymwregysu hefyd â gwregys croen am ei lwynau;" *adn.* 8. Dyma yr ystyr hefyd sydd i'r gair *dull* yn *Dan.* iii. 25: "A *dull* y pedwerydd sydd debyg i Fab Duw." Ymddangosiad ei wynebpryd yn ddiau a dynodd sylw penaf Nebuchodonosor; ac yr oedd hwnw yn rhagori cymmaint ar ymddangosiad pob dyn ar a welodd efe o'r blaen, fel nas gallai feddwl am neb llai, wrth edrych arno, na bod dwyfol—"Mab Duw."

Arwydda y gair *dull* ansawdd neu duedd dyn. "A dangos iddynt *ddull* y brenin a deyrnasa arnynt;" 1 *Sam.* viii. 9. Gorchymynir yma i Samuel ddangos dull, anian, neu duedd orthrymus y brenin a ddewisent; fel yr ysbeiliai hwynt *trwy drais*, fel yr arwydda y gair Hebraeg, o'u meibion, eu merched, eu meusydd, a'u gwinllanoedd, &c.: *adn.* 11—18.

Mae y gair *dull* yn arwyddo cyflwr neu sefyllfa hefyd: "A'i gael mewn *dull* fel dyn;" *Phil.* ii. 8. Ystyr priodol y gair Groeg [σχῆμα] a ddefnyddir yma yw ffurf neu agwedd; ond yma, diau ei fod yn arwyddo sefyllfa neu gyflwr. Efe a ymostyngodd i'r un sefyllfa a dyn: yr oedd yn agored fel dyn i newynu, i sychedu, i chwysu, i flino, a marw. Ni wyddai dynion yn gyffredin fod dim gwahaniaeth rhyngddo ef a dyn arall: yr oedd ei sefyllfa, ei ffurf, a'i agwedd y fath, fel nad oedd y byd yn gweled dim gwahaniaeth ynddo.

Dywed Grotius am yr ymadrodd yn 1 *Cor.* vii. 31—"Y mae *dull* y byd hwn yn myned heibio"—fod yr apostol wedi ei fenthyca oddi wrth chwareudy, lle y mae yr *olygfa yn newid*, ac ymddangosiad cwbl newydd yn dyfod i'r golwg. Anhawdd genym beidio meddwl nad yw *dull* yn yr ymadrodd dan sylw yn arwyddo *arfer* hefyd. Dengys yr apostol, yn y bennod, mai *arfer* y byd hwn yn awr ydyw priodi a rhoi i briodas, prynu a gwerthu, &c. Ond, meddai yr apostol, Nid ydyw yr holl arferion hyn ond pethau dros amser, ac i ddifianu yn fuan; canys, "Y mae yn ol, fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megys pe byddent hebddynt; a rhai a wylant, megys heb wylo; a rhai a lawenhânt, megys heb lawenhau; a'r rhai a brynant, megys heb feddu; a'r rhai a arferant y byd hwn, megys heb ei gam-arfer. Canys y mae *dull* neu *arfer* y byd hwn yn myned heibio." Gwel AGWEDDAU.

DUNAWD (FFUR); a elwir hefyd Dunawd neu Dunod Fawr, neu Dunawd Wr. Mab oedd i Pabo Post Prydain. Yn more ei oes, yr oedd yn nodedig fel rhyfelwr yn mysg Prydeiniaid y gogledd. Sonir am dano ef, Gwallawg ab Llenawg, a Chynfelyn Drwsgl, yn y *Trioedd*, fel y tri "phost câd," neu golofnau rhyfel. Gelwid hwy felly o blegid eu bod yn rhagori ar bawb ereill mewn cadofyddiaeth a deddfau rhyfel.—[*Myv. Arch.*, ii. 69.] Deallir hefyd, oddi wrth farwnad Llywarch Hen i Urien Rheged, i Dunawd ymladd yn erbyn meibion Urien. Cafodd ei orfodi o'r diwedd i ymadael o'i wlad, ac i osod ei hun dan nawdd Cyngen ab Cadell, tywysog Powys, yr hwn a roddasai nodda i'w dad. Mabwysiadodd fywyd crefyddol ar ol hyny; a thrwy gymhorth ei feibion—Deiniol, Cynwyl, a Gwarthau—efe a sefydlodd fynachlog enwog Bangor Iscoed, ar lanau y Dyfrdwy, yn sir Fflint. Gwel BANGOR.

Dygodd Cystenyn Fawr,[1] yn ystod ei deyrnasiad, gyfnewidiadau mawrion i mewn i Brydain. Yn y lle cyntaf, dosbarthodd yr ymherodraeth Rufeinig yn bedair rhaglawiaeth; sef rhaglawiaeth y Dwyrain, rhaglawiaeth Illyricum, rhaglawiaeth Italy, a rhaglawiaeth Gâl. Cynnwysai rhaglawiaeth Gâl dair esgobaeth wladol—Gâl, Yspaen, a Phrydain; a llywodraethid y ddwy wlad ddiweddaf gan swyddogion ag oeddynt yn ddarostyngedig i raglaw Gâl. Gwahanodd hefyd am y tro cyntaf y weinyddiaeth filwraidd oddi wrth y weinyddiaeth wladol. Llywodraethid y byddinoedd yn ngwahanol daleithiau yr ymherodraeth gan bymtheg ar ugain o bencadfridogion—tri o ba rai oedd yn Mhrydain. Gelwid y pymtheg ar ugain hyn yn dduciaid; ond ni chafodd ond deg o honynt eu hanrhydeddu â'r teitl o iarll. Gelwid y pencadfridogion Prydeinig, Duc Prydain, Iarll Prydain, ac Iarll y Traeth Saxonaidd. Traeth Saxonaidd y gelwid yr holl arfordir i'r gogledd o'r afon Humber hyd Portsmouth, o blegid ei fod gyferbyn âg arfordir y Cynghrair Mawr Saxonaidd a gyfodai ar y pryd yn yr Almaen.

Cynnaliai ficer Prydain, penaeth y dosbarth gwladol, ei lys, gyda rhwysg mawr a rhestr hirfaith o is-swyddogion, yn Llundain. O dan ei ofal ef yr ymddiriedasid prif weinyddiad cyfiawnder, a chyllidau y wlad. Dan y trefniant newydd, Pacatianus oedd y ficer cyntaf. Preswyliai duc neu gadfridog Prydain yn Nghaerefrog. Yr oedd holl amddiffynfeydd canolbarthol y deyrnas dan arolygiaeth iarll Prydain, yr hwn a breswyliai ar gylch yn Nghaerlleon ar Ddyfrdwy ac yn Nghaerlleon ar Wysg. Yr oedd y tair byddin a gyfansoddent y gallu ymherodrol sefydlog yn Mhrydain wedi eu gosod—yr ugeinfed, neu y fuddugoliaethus, yn Nghaerlleon; yr ail yn Nghaerlleon ar Wysg, a'r chweched yn Nghaerefrog. Chwanegwyd at y byddinoedd i raddau helaeth yn mhlith y Cymry a'r Brigantiaid; ac yn ol ammodau cynghrair Marian (B. A. 120), trwy yr hwn y cydsyniodd Prydain i ymuno âg ymherodraeth Rhufain, nis gellid eu hanfon ar wasanaeth tramor ond yn unig trwy eu cydsyniad hwy eu hunain. Byddinoedd Prydeinig oeddynt yn ngwasanaeth yr ymherodraeth, ond heb ollwng o'u gafael eu hiawnderau a'u rhagorfreintiau gwladol.

Ar farwolaeth Cystenyn Fawr, disgynodd

[1] Y mae yr erthygl hon yn dechreu lle y mae yr erthygl ar Cystenyn Fawr yn diweddu, ac yn dwyn hanes yr Eglwys Brydeinig i lawr hyd y cyfnod yn mha un yr oedd Dunawd yn byw.

Digitized by Google

llywodraethiad ei ymherodraeth eang ar ysgwyddau ei dri mab—Cystenyn, Constantius, a Constans. Yr oedd y cyntaf yn un ar ugain mlwydd oed, yr ail yn ugain, a'r ieuangaf yn ddwy ar bymtheg. Nid oedd un o honynt yn feddiannol ar alluoedd eu tad; a thrwy eu bod wedi eu haddysgu yn nghanol gwenieithwyr y llys, yr oeddynt yn analluog i'w llywodraethu eu hunain, ac ni feddent farn annibynol. Y rhanau o'r ymherodraeth a roddwyd i Gystenyn oedd Gâl, Prydain, Yspaen, a rhan o'r Almaen; y rhanau a roddwyd i Constans ydoedd Italy, Affrica, ac Illyricum; a'r rhanau a roddwyd i Constantius oedd Thrace, a'r Dwyrain. Gan nad oedd Cystenyn yn foddlawn ar y rhaniad, ymosododd ar diriogaethau Constans, a threngodd, yn nghyd â rhan fawr o'i fyddin, yn agos i Aquileia, B A. 340. Trwy hyn, daeth dwy ran o dair o'r ymherodraeth i feddiant Constans. Ymwelodd â Phrydain yn B. A. 343, ac ennillodd ei gadfridog, Magnentius, fuddugoliaethau ar y Pictiaid a'r Scotiaid. Mwynhaodd yr eglwys yn Mhrydain heddwch a thangnefedd yn ystod y blyneddoedd hyn. Ar ol ei ddychweliad o Brydain, fe ymroddodd Constans i foddhau ei chwantau. Yn y cyfamser, cyhoeddwyd Magnentius, yr hwn ar y pryd (B. A. 350) a lywyddai fyddin y Rhine, yn ymherawdwr yn Autun. Ymosododd rhai o'i wŷr yn ddisymmwth ar Constans, gan ei lofruddio, yn agos i Helena—pentref bychan wrth droed y Pyrenees. Cydnabyddwyd Magnentius yn ymherawdwr gan Gâl, Italy, Yspaen, a Phrydain. Efe a appwyntiodd Anicetus yn llywodraethwr ar Rufain. Ymosododd Nepotianus, nai i Cystenyn Fawr, gyda byddin o Italiaid, ar Rufain, a chymmerodd feddiant o honi, gan ladd Anicetus; ond gorchfygwyd a lladdwyd yntau cyn pen y mis gan Marcellinus, rhaglaw Magnentius. Wedi i bob ymdrechion at sefydlu heddwch droi yn aflwyddiannus, gan fod Constantius yn benderfynol am ddial marwolaeth ei frawd, cychwynodd Magnentius, gyda byddin yn gynnwysedig o Gâliaid, Yspaeniaid, Ffrancod, a Saxoniaid, o Italy; ac wedi croesi yr Alpau, cyrhaeddodd i wastadedd Pannonia, lle yr oedd Constantius wedi casglu ei fyddinoedd. Gwahoddodd Magnentius ei wrthwynebwr i benderfynu yr ymrafael i wastadedd Seixia, ar y Save. Derbyniwyd yr herfeiddiad, a gorchfygwyd Constantius, gyda cholled fawr. Cymmerwyd Seixia, a dinystriwyd hi yn hollol. Cynnygiodd Constantius gydnabod teitl Magnentius i ymherodraeth y gorllewin, ond dadganodd Magnentius na foddlonid ef gan ddim llai nag enciliad Constantius o'r orsedd. Enciliodd Sylvanus, llywydd y marchoglu Ffrancaidd, at Constantius, a chymmerodd ail frwydr le yn Mursa (B. A. 351). Ymladdodd y ddwy blaid yn ddewr. Yr oedd gan Constantius ddeng mil ar ugain o wŷr, a'i wrthwynebydd bedair mil ar ugain. Constantius a fu yn fuddugoliaethus, ond yr oedd y golled a gafodd mor fawr fel nas gallodd erlyn ei wrthwynebwr. Ymneillduodd Magnentius, ar ol gorchfygu byddin gref yn Pavia, gyda'i filwyr i Gâl. Cydnabyddwyd llywodraeth Constantius gan Affrica, Sicily, ac Yspaen; ac ar orchfygiad ei raglaw yn mynydd Seleucus, yn yr Alpau Cottoniaidd, gan y canfyddai fod ei sefyllfa yn anobeithiol, a bod ei filwyr yn ei adael, llofruddiodd Magnentius ei holl deulu yn gyntaf â'i ddwylaw ei hun, a lladdodd ei hunan wedi hyny. Ar gwymp ei wrthwynebydd, mabwysiadodd Constantius fesurau creulawn ac annynol. Llusgwyd llawer o bersonau mewn cadwynau, a dedfrydwyd hwynt i farwolaeth gan y brawdlysoedd milwraidd; amddifadwyd ereill o'u hetifeddiaethau, ac alltudiwyd miloedd i ynysoedd anial. Yr oedd Prydain wedi anfon byddin i gynnorthwyo Magnentius; ond gwirfoddolwyr oeddynt, wedi gadael yr ynys yn groes i waharddiad y llywodraeth. Er hyny, anfonwyd Paulus, y mwyaf creulawn o'r chwillyswyr cyhoeddus, i gyflawnu ei orchwyl ofnadwy yn Mhrydain. Trwy ei anghyfiawnder a'i greulondeb, cyffrôdd ddigofaint Martinus, is raglaw yr ynys. Pan yn cyfryngu er gwaredu y diniwed, bygythiodd Paulus ei anfon mewn cadwynau at yr ymherawdwr. Gan y gwyddai pa ganlyniadau a ddilynent ei ymddygiad, dynoethodd Martinus ei gleddyf yn erbyn Paulus, yr hwn, trwy ysgogiad cyflym, ni dderbyniodd ond clwyf ysgafn. Yna, trywanodd Martinus ei gleddyf i'w fynwes ei hun. Wedi marwolaeth Martinus, chwanegodd Paulus at ei greulondeb; ond ni fwynhaodd yr adyn ei fuddugoliaeth ond dros ychydig, o blegid llosgwyd ef yn fyw yn y teyrnasiad dilynol trwy orchymyn yr ymherawdwr Julian.

Y dynion enwocaf yn y cyfnod hwn mewn hanesiaeth eglwysig oedd Athanasius, Hilary, esgob Poitiers, a Martin, archesgob Tours. Nid oes gysylltiad rhwng bywyd Athanasius a hanes Prydain. Ganwyd Hilary yn Aquitaine, yn B. A. 300. Paganiaid oedd ei rieni, ac ni ddychwelwyd ef i'r ffydd Gristionogol hyd nes yr oedd yn mlodau ei ddyddiau, pryd y bedyddiwyd ef, yn nghyd â'i wraig a'i ferch. Daeth wedi hyny yn amddiffynwr penderfynol, gydag Athanasius, i gredo Nicea, ac yn wrthwynebwr i Ariaeth. Yr ydoedd Constantius yn erlidiwr mawr ar wrthwynebwyr Ariaeth. Alltudiwyd Eusebius, esgob Vercellæ—dyn hynod o dduwiol a hunanymwadol—i Palestina; Lucifer, esgob Cagliari, i Syria; a Liberius, esgob Rhufain, i Thrace. Effeithiodd caledi yr amseroedd ar sefydlogrwydd amryw wŷr eglwysig. Plygodd hyd yn oed Horius, yr hwn oedd ar y pryd yn gan mlwydd oed—yr esgob hynaf yn y byd Cristionogol—a llaw yr hwn a ysgrifenodd y credo Niceaidd, i'r fath raddau yn y pen draw fel yr arwyddnododd â'r un llaw y gyffes Ariaidd. I wendid henaint, y mae yn ddiau, y dylid priodoli y weithred hon. Bu fyw ddwy flynedd ar ol ei chyflawnu, a gwrthdystiodd ar ei wely angeu yn erbyn yr orfodaeth a osodwyd arno, ac ymwrthododd â'r heresi ag oedd yn ddianrhydedd i'w Arglwydd a'i Iachawdwr â'i anadl ddiweddaf. Ond nis gallai dim—nac enciliad cyfeillion, na bygythiad gelynion—ysgwyd dim ar sefydlogrwydd anghyffredin Athanasius. Ni chafwyd dim yn ei holl fywyd, yn ol tystiolaeth hanesydd enwog, nad oedd yn briodol i ddyn doeth i'w wneuthur, a dyn cyfiawn i'w ddyoddef. "Dyma ydoedd sefyllfa yr amseroedd—yr holl fyd yn erbyn Athanasius, ac Athanasius yn ei erbyn yntau; eto, ni phetrusodd yn ystod hanner can mlynedd; ac y mae wedi gadael ar ei ol enw anfarwol, pa un, yn ngeiriau Gibbon, yr hwn oedd yn dra phrin o'i glod i Gristionogion, pa mor enwog bynag, ni wahenir yn dragywydd oddi wrth athrawiaeth y Drindod, i amddiffyn pa un y cyssegrodd bob mynyd o'i oes, a phob cynneddf o'i enaid."

Dyrchafwyd Hilary i esgobaeth Poitiers yn B. A. 355. Yr oedd ganddo lawer o rwystrau i'w gwrthwynebu. Ei brif amddiffynwr ydoedd

Eusebius, esgob Vercellæ; a'i brif wrthwynebwr oedd Saturninus, esgob Arles, trwy ddichell yr hwn yr alltudiwyd ef i Phrygia. Bu mewn alltudiaeth am bedair blynedd, ac fe ysgrifenodd dystiolaeth ddyddorol am ymlyniad diysgog yr Eglwys Brydeinig wrth athrawiaeth y Drindod, yn ystod y cynhyrfiadau Ariaidd. Canmola Athanasius hefyd yr Eglwys Brydeinig, mewn llythyr a ysgrifenodd at Jovian, yr ymherawdwr (B. A. 368), am ei hymlyniad diwyrni wrth athrawiaeth apostolaidd y Drindod.

Ymledodd yr heresi Ariaidd, pa fodd bynag, gan yr achlesid ac y cefnogid hi gan Constantius, dros bob rhan o'r ymherodraeth. Wedi cynnal amryw gynnadleddau, yn mha rai yr ennillodd yr Ariaid a'r Hanner-Ariaid, trwy eu dichellion, amryw fanteision ar y blaid uniongred, gwysiodd yr ymherawdwr uwch law 400 o esgobion, yn benaf o'r Eglwys Orllewinol, i gymmanfa yn Rimini neu Ariminum, ar lan y Môr Adriaidd, yn Italy. Dyfynwn a ganlyn o waith Sulpicius Severus:—"Ar hyn, anfonwyd cenadau swyddogol trwy Illyricum, Italy, Affrica, Yspaen, a Gâl, pryd y gwysiwyd neu y gorfodwyd uwch law 400 o esgobion yr Eglwys Orllewinol i ymgasglu i Ariminum, i'r cyfan o ba rai y darparasai yr ymherawdwr ymborth a lletty. Ond gwrthodwyd y ddarpariaeth gan esgobion Prydain, Aquitaine, a Gâl, y rhai a ddewisent yn hytrach fyw ar eu cost eu hunain. Derbyniodd tri o esgobion Prydain, o herwydd eu tlodi, y ddarpariaeth gyhoeddus, gan farnu fod yn well iddynt bwyso ar drysorfa y llywodraeth nag ar bersonau unigol."—[*Sacra Hist.*, llyfr ii, adr. 56.] Y mae yn hyfrydwch meddwl fod yr esampl hon o annibyniaeth wedi ei rhoddi i'r esgobion ereill gan esgobion Prydain a Gâl, rhwng pa rai y ffynai cymundeb cyfeillgar yn wastadol hyd nes y cwympodd y rhai diweddaf dan awdurdod y Babaeth. Yr oedd y rhan fwyaf o lawer o'r esgobion ymgasgledig yn Ariminum yn uniongred, ac yn dra gwrthwynebol i Ariaeth; ond cawsant eu twyllo, neu ynte eu gorfodi, i lawnodi credo y gallai yr Ariaid—y rhai oeddynt wedi melldithio eu cyfeiliornadau eu hunain yn gyntaf er mwyn cael gan yr esgobion i'w arwyddo—roddi esboniad Ariaidd arno. Yr oedd y dylanwad caled a ddygwyd i weithredu ar yr esgobion gan Constantius yn fawr iawn. "Yr ydych yn dodi ein clerigwyr," ebe Hilary, wrth ymddyddan âg ef, "mewn dalfa; yr ydych yn casglu eich byddin yn nghyd i'r amcan penodol o gadw yr eglwys i lawr; yr ydych yn gwysio cynnadleddau eglwysig yn nghyd i ddim dyben oddi eithr i orfodi esgobion y gorllewin i bechu; yr ydych wedi eu cau i fyny mewn un ddinas, ac yna yn eu poenydio ac yn eu brawychu trwy fygythion a thrwy gaethiwed blin; yr ydych yn eu gwanychu trwy newyn, yn eu gosod yn agored i holl galedi gauaf, ac yn eu llygru trwy gyfundrefn o weniaith."—[*Hil.*, *Contra Constant.*, adr. 7.] Gorfodwyd yr esgobion i ymostwng o'r diwedd, llawnodwyd y credo, ac yn ngeiriau Jerome, "canfyddodd y byd, un bore, er ei syndod, ei fod yn Ariaidd." Ni chafodd penderfyniadau y gynnadledd, oddi eithr mewn ychydig eithriadau, un effaith ar yr Eglwys Orllewinol, yr hon a barhaodd i ymlynu yn ddiysgog wrth y ffydd er gwaethaf deniadau a bygythion yr ymherawdwr. "Gwybydd, ymherawdwr, anwylyd Duw (ysgrifena Athanasius, ychydig flyneddoedd yn ddiweddarach), mai athrawiaeth y Drindod, megys yr eglurwyd hi yn Nghynghor Nicea, ydyw yr athrawiaeth a fu yn cael ei phregethu yn mhob oes, ac mai hon ydyw yr athrawiaeth y mae yr eglwysi yn mhob talaeth yn cydolygu am dani—eglwysi Yspaen, Prydain, a Gâl; eglwysi Italy, Campania yn Dalmatia, Mysia, a Macedonia; yr holl eglwysi yn Affrica, Sardinia, Cyprus, Creta, Pamphylia, Lycia, ac Isauria; eglwysi yr Aipht, Libya yn Pontus, Cappadocia, a'r gwledydd cymmydogaethol; a'r eglwysi yn y dwyrain, oddi eithr rhyw ychydig a barhânt i goleddu opiniynau Arius. Gwnaethom ymholiad i'r pwnc, a derbyniasom lythyrau oddi wrthynt yn ein hysbysu o hyn. Yn awr, nis gall yr ychydig a wrthwynebant y gyfryw ffydd feddu digon o ddylanwad i greu rhagfarn yn neb yn erbyn yr holl fyd."—[*Henry's Eccles. Hist.*, llyfr xv. pen. 52.] Ymddengys oddi wrth yr epistol hwn fod yr eglwysi Asiaidd, i raddau mawr, wedi adferu oddi wrth Ariaeth, rhagor yr oeddynt pan yr ysgrifenodd Hilary ei lythyr cymmanfaol. Sylwa Gibbon am haeriad Athanasius mewn perthynas i anamledd y rhai a broffesent Ariaeth, os nad oedd yn wirionedd llythyrenol y pryd yr ysgrifenwyd y llythyr, iddo gael ei gadarnhau yn hollol yn mhen tua deg ar ugain neu ddeugain mlynedd yn ddiweddarach.

Canfu yr esgobion, ar eu dychweliad i Brydain, y parth gogleddol o'r ynys mewn cyflwr cythryblus. Yr oedd y Pictiaid Scotaidd a Gwyddelig wedi glanio ar y tu deheu i Wal Severus. Yr oedd Julian, y Gwrthgiliwr, nai Cystenyn Fawr, a chefnder Constantius, wedi ei gyhoeddi yn Cæsar gan y diweddaf yn Milan, yn B. A. 355, ac wedi ei osod i lywodraethu y rhaglawiaethau gorllewinol. Pan yr hysbyswyd ef o'r ymosodiad ar Brydain, efe a anfonodd Lupicinus, swyddog galluog, i gynnorthwyo er gyru y gelynion yn ol, yr hyn a wnaethpwyd mewn ychydig amser. Yn y tair blynedd dilynol y cymmerodd rhyfelgyrchoedd enwog Julian yn Gâl a'r Almaen le; yn ystod y ddiweddaf o ba rai y derbyniai ei fyddin ef a byddin Gâl eu holl ŷd mewn llongau o Brydain, yr hyn a ddengys fod amaethyddiaeth wedi cyrhaedd gradd uchel o berffeithrwydd yn yr ynys hyd yn oed y pryd hyny. Yr oedd nifer y llestri ag oedd ar waith yn y fasnach hon rhwng Prydain, Ffrainc, a geneuau y Rhine, yn ddau gant. A chyfrif fod pob un o honynt yn alluog i gludo 200 o dynelli, y mae yn rhaid yr anfonid dros 300,000 o chwarteri o ŷd o Brydain. Y mae yn eglur y rhaid fod cyflwr mewnol y wlad, er holl ruthriadau y llwythau Ucheldirol, mewn sefyllfa dawel a boddhaol. Mwynhäai yr eglwysi dangnefedd a heddwch yn eu plith eu hunain. Yr oedd Julian, er ei fod yn wrthgiliwr, yn meddu amryw rinweddau anghyhoedd, a rhoddodd brawt digonol, yn ystod ei deyrnasiad byr o ugain mis, nad ydoedd yn ol i'w ewythr, Cystenyn Fawr, mewn medrusrwydd milwraidd. Dylid cofio fod yr holl fyd Rhufeinig, yn ystod y ganrif hon, yn cael ei lywodraethu gan Brydeiniaid; ac i hyny, y mae yn ddiau, y dylid priodoli y tawelwch a'r boddlonrwydd cyffredinol a ffynai yn yr ynys, yr hwn na bu ei gyffelyb drachefn o B. A. 500 hyd B. A. 1600. Yr unig ddygwyddiad ag y dylid ei grybwyll yn y cyfnod hwn ydyw glaniad byddin gynghreiriol o Scotiaid, Gwyddelod Cochion, a Saxoniaid, ar arfordir Kent, B. A. 364. Cwympodd Tullofandes, duc Prydain, a Nectanabis neu Nectanebus, iarll Saxony, pan yn gwrthwynebu eu glaniad. Dilynasid Julian yn

Digitized by Google

yr ymherodraeth gan Jovian, a Jovian gan Valentinian, yr hwn a anfonodd Severus, yna Jovinus, ac yn ddiweddaf Theodosius, i lywodraethu yn Mhrydain. Gyrodd Theodosius yr holl farbariaid ar encil o'r arfordir; a chan ddarparu llynges, efe a'u herlynodd, ac a'u dinystriodd hwynt yn mron yn llwyr mewn tair brwydr ar y môr—un yn Berwick, y llall yn y Frith of Forth, a'r ddiweddaf yn yr Orkneys. Bu Theodosius yr un mor llwyddiannus yn ei weinyddiaeth gwladwriaethol. Efe a wnaeth y diriogaeth rhwng Gwal Severus a Gwal Antoninus yn dalaeth Rufeinig, gan ei galw yn Valentia, yn ol enw yr ymherawdwr. Yn B. A. 368, sefydlodd athrofa yn Nghaer Worgon, a alwyd wedi hyny Bangor Tewdws—amcan yr hon, yn ol fel y dywed yr *Iolo MSS.* (td. 422), oedd dysgu y celfyddydau a'r gwyddorion. Rhoddodd ei swydd i fyny fel llywodraethwr Prydain yn B. A. 369, a derbyniodd Valentinian ef yn anrhydeddus, fel y teilyngai. Cyflawnodd amryw weithredoedd clodfawr wedi hyny yn yr Almaen ac Affrica. Er ei warth tragwyddol ef, gadawodd Valens, brawd Valentinian, i Theodosius syrthio yn aberth i fradwriaeth, a thorwyd ei ben yn Carthage—B. A. 376. Efe oedd tad yr ymherawdwr Theodosius Fawr, a thaid yr ymherawdwyr Honorius ac Arcadius—teyrnasiad pa rai a'n dug i lawr hyd B. A. 423. Cwympodd Valens yn mrwydr drychinebus Adrianople (B. A. 378), yn erbyn y Gothiaid. Haera Ammianus Marcellinus na wnaeth un frwydr, er brwydr Cannæ, gymmaint o niwed i'r ymherodraeth. Yr oedd ei chanlyniadau, yn wir, yn llawer mwy niweidiol na chanlyniadau y frwydr hono; canys gellir dyddio dechreuad dirywiad yr ymherodraeth Rufeinig oddi wrthi. Dilynwyd Valens gan ei nai, Gratian. Llithiwyd pobl ieuainc y Gothiaid, trwy addewidion am diroedd ac anrhegion, i luaws o ddinasoedd y dwyrain a Thir Groeg, le y llofruddiwyd hwynt gan Julius, y pencadfridog Rhufeinig. Mewn canlyniad i hyn, cyfododd gelyniaeth chwerw rhwng y cenedloedd Gothaidd a Rhufain, yr hwn a barhaodd am flynyddoedd, ac a arweiniodd i ad-daliadau ofnadwy. Ni leddfwyd y gelyniaeth hwn hyd fuddugoliaethau yr Huniaid—gelynion marwol y Gothiaid.

Yn y cyfamser, cyfodai dyn yn Gâl, yr hwn a ddylanwadodd yn fawr ar yr Eglwys Brydeinig, a'r hwn sydd hyd yn hyn heb dderbyn y sylw sydd yn ddyledus iddo; sef, Martin o Tours, Apostol Gâl ddeheuol, fel y gelwid ef. Yn Sabarra, yn Pannonia, y ganwyd Martin. Milwr Prydeinig oedd ei dad, yr hwn a ddilynasai Cystenyn Fawr yn ei anturiaethau. Dyrchafwyd ef i'r gradd o Dribun y milwyr. Addysgwyd Martin ei hunan fel milwr yn un o feirchfinteioedd Constantius. Bu yn gwasanaethu ar ol hyny dan Julian. Dangosodd dueddiad cryf yn fore at fywyd eglwysig. Pan yn ddeng mlwydd oed, ymguddiodd mewn eglwys, gan ddymuno cael aros yno fel côrganiedydd; ond gorfodwyd ef gan ei dad i ddychwelyd adref. Aeth i'r fyddin yn bymtheng mlwydd oed, a bu yn gwasanaethu ynddi am naw mlynedd. Yn ei eilfed flwyddyn ar ugain, ar ol bod o dan addysg grefyddol am dair blynedd, bedyddiwyd ef, a gadawodd ei fywyd milwrol, yn ei bedwaredd flwyddyn ar ugain. Pan y cymhellwyd ef gan Julian i fyned gydag ef i'w ryfel yn erbyn yr Allemaniaid, gwrthododd ufuddhau, gan ddyweyd fod ei egwyddorion yn ei luddias. "Llyfrdra ydyw hyny," ebe yr ymherawdwr, "ac nid crefydd." "Profwch fi," ebe Martin; "myfi a safaf yfory yn ddiarfog o flaen y fyddin, ac yn enw Iesu Grist, ac heb un helm ond arwydd y groes, cerddaf trwy y lluoedd barbaraidd." Rhoddwyd ef mewn dalfa, fel y gallesid ei brofi; ond anfonodd yr Allemaniaid genadwri y noswaith hono eu bod yn ymostwng i'r ymherawdwr. Wedi hyny aeth Martin at Hilary, esgob Poitiers, yr hwn a chwennychai ei ordeinio yn ddiacon iddo ei hun; ond oddi ar deimladau o ostyngeiddrwydd, gwrthododd ymgymmeryd â'r swydd weinidogaethol ar y pryd, gan ddewis yn hytrach gynnorthwyo Hilary fel ymwelydd a chenadwr yn mhlith y cleifion a'r anwybodus. Parhäai ei rieni yn baganiaid, a chroesodd Martin yr Alpau gyda'r amcan o'u dychwelyd. Pan ar ei daith, ymosodwyd arno gan yspeilwyr, ac achubwyd ei fywyd rhag bwyell ddyrchafedig un o'r haid trwy ymyriad eu cadben, yr hwn ar ol hyny a ddychwelwyd yn Gristion, ac a adroddodd yr hanes wrth Sulpicius Severus, bywgraffydd Martin. Rhaid i ni sylwi mai anfynych yr atebai y Cristionogion cyntefig, pan y gofynid iddynt pwy fyddent, "Prydeinwr ydwyf," "Gâliad ydwyf," "Italiad ydwyf;" ond dywedent, "Cristion ydwyf." Ar ol ei ryddhau, aeth i Milan, lle y fflangellwyd ac y gyrwyd ef ymaith gan yr Ariaid. Oddi yno, dychwelodd i Gâl; ond canfu fod Hilary wedi ei alltudio i Thrace. Dychwelodd eilwaith, gan hyny, at ei fam i Milan, yr hon oedd yn Gristion erbyn hyn, o'r hwn le y gyrwyd ef ymaith drachefn gan Auxentius, arweinydd yr Ariaid. Ar hyn, aeth i breswylio gydag un henadur i ynys Gallinaria, gan fyw yn hollol ar lysiau. Bu agos iddo a gwenwyno ei hun ar un achlysur trwy gamgymmeryd crafanc yr arth am lysieuyn arall. Yr oedd yn awr wedi ei ordeinio yn henadur er ys rhai blyneddoedd; a chan i ddirprwyaeth gael ei hanfon ato oddi wrth eglwys Tours, cydsyniodd â'u cais i gymmeryd ei ethol yn esgob iddynt. Wedi ymsefydlu yn Tours, cynnyrchodd ei yni a'i weithgarwch cyn hir effeithiau mawrion a pharhaol. Sefydlodd athrofa, o'r hon yr anfonai genadon, bob yn ddau a dau, trwy Gâl ddeheuol, i ddarostwng eilunaddoliaeth, ac i gymhell y bobl i ddistrywio eu delwau. Ar ol ymdrechfa hirfaith, a dyoddef amryw erlidigaethau, coronwyd ei lafur â llwyddiant. Aeth Martin yn mlaen gyda'i fesurau diwygiadol. Gan sylwi fod esgobaethau yr eglwys, trwy eu bod yn cyfodi mewn gwerth, yn cael eu ceisio a'u llenwi gan ddynion perffaith ddifater i bob ystyriaethau ond arian neu uchelgais, efe a sefydlodd fynachlog ar lan yr afon Loire, yr hon a gafodd ei henwogi wedi hyny fel Mynachlog Montmartier. Ymgasglodd tyrfaoedd o ymgeiswyr am y swydd offeiriadol, o deuluoedd pendefigol, o bob parth, ato i'r lle hwn; ond ni dderbyniodd ef ond pedwar ugain, yn mhlith pa rai yr oedd meibion hynaf dwy o'i chwiorydd, Padrig Sant, apostol yr Iwerddon, a Ninian, apostol y Pictiaid deheuol yn Scotland. Martin oedd John Knox yr oes hono, yn erbyn yr holl demlau a'r seremoniau paganaidd; ac efe a argraffodd ei syniadau ei hun mewn llythyrenau annileadwy ar galonau ei holl ddysgyblion. Ymdaenodd y son am ei arferion meudwyol a'i lafur diflin trwy holl wledydd cred; a phrofodd Gâl yn enwedig gyfnewidiad trwyadl mewn crefydd. "Cyn amser Martin," medd Severus, "nid oedd neb o'r bron yn y parthau hyny yn

Digitized by Google

proffesu Cristionogaeth; ond y mae ein crefydd sanctaidd wedi llwydde i'r fath raddau dano ef fel nad oes yn awr un gymmydogaeth yn mron nad oes ynddi gyflawnder o eglwysydd a mynachlogydd. Yn mha le bynag y dinystriai deml baganaidd, adeiladai eglwys Gristionogol yno yn uniongyrchol, gan ddyweyd, 'Pa les fydd bwrw ymaith geryg Satan. os na roddwn fara Crist i'r bobl yn eu lle?" Yr oedd yr appeliadau am esgobion o'r amrywiol eglwysi at fynachlog Montmartier yn ddibaid. "Pa eglwys neu ddinas sydd," gofyna Severus, "nad ydynt wedi ceisio eu hesgobion o fynachlog Martius?" Y mae yn rhaid dyweyd, er clod Martius, ei fod yn elyn mor anghymmodlawn i erlidigaeth o bob math, a chan ba blaid bynag, ag ydoedd i eilunaddoliaeth. Gwrthdystiodd yn yr iaith lymaf wrth yr ymherawdwr Prydeinig, Maximus, yn erbyn erlidigaeth y llywodraeth ar y Priscillianiaid—golygiadau pa rai a gasäai hyd eigion ei galon; a phan y rhoddwyd dau o'u harweinwyr i farwolaeth gan y gallu gwladol o blegid eu hopiniynau, torodd bob cyssylltiad, mewn dull cyhoeddus a difrifol, rhwng ei eglwysi ef a'r esgobion hyny a gyfeiriasant fater o gydwybod i'w benderfynu gan y llywodraeth, ac a osodasant fraich o gnawd yn lle gallu Duw mewn iachawdwriaeth dynion. Cariodd Padrig Sant, Nunian Sant, Dewi Sant, ac esgobion ereill o ysgol Martius, yr un egwyddorion allan gyda gwroldeb a ffyddlondeb diwyrni.

Yn y cyfamser, yr oedd Maximus, neu Macsen Wledig, wedi myned i wisgo y wisg borphor. Yr oedd efe yn un o deulu breninol Cystenyn; sef mab i Llywelyn, brawd ieuangaf Elen ferch Coel. Trwy ei briodas âg Elen, merch Eudaf, tywysog Gwynedd, daeth yn etifedd i'r rhan fwyaf o Brydain; a chan groesi y siannel gyda byddin gref, hònodd ei deitl i'r ymherodraeth. Y mae hanes dyddorol yn ngwaith Sulpicius Severus am drefniadau teuluaidd yr ymherawdwr Prydeinig, ac yn neillduol am dduwioldeb yr ymherodres. Er bod Macsen wedi cymmeryd ei berswadio gan gynghorwyr drygionus i erlid y Priscillianiaid, eto y mae yr haneswyr cyfnodol yn ei ddysgrifio o gymmeriad cyffredinol tra rhagorol. Gallasai ymffrostio yn yr hyn nas gallasai un ymherawdwr arall yn mron a fu o'i flaen ef; sef, "na chwympodd un gelyn trwy ei law ef ond ar faes y frwydr." Os myner cael hanes cyflawn am dano, edrycher i'r *Decline and Fall of the Roman Empire.* Preswyliai Martin yn ei lys yn wastadol, ac ymddygid tuag ato gyda'r fath barch fel y bu yr ymherodres yn gweini arno wrth y bwrdd ar fwy nag un achlysur. Cafodd Macsen ei ddwyn o'r diwedd, ar ol colli dwy frwydr yn Italy, ger bron Theodosius, lle y llofruddiwyd ef yn mhresennoldeb yr ymherawdwr gan ei wylwyr Hunaidd. Cyfeiria y sylw canlynol am dano yn yr *Iolo MSS.* at ei waith yn gwaddoli yr esgobaethau Prydeinig â thiroedd a meddiannau lawer; canys yr ydoedd yr holl waddoliadau blaenorol yn drosglwyddadwy wrth ewyllys yr orsedd—egwyddor ydyw hon nad oes angenrheidrwydd i ni yma ddadgan ein barn am dani: — "Macsen Wledig ap Llywelyn, Iarll Cernyw, ap Tegfan, ap Deheufraint, ap Tudbwyll, ab Eurben, ap Gradd, ap Rhydeyrn, ab Eurdeyrn, ap Cyndeyrn, ab Euddos, ab Afallach, ab Aflech, ap Lludd, ap Beli Mawr. Macsen Wledig a fu'n Frenin Unben Ynys Prydain, ac Ymherawdwr Rhufain, a'i lys yng Nghaerlleon ar Wysg; ac efe oedd y cyntaf er yn amser Dyfnwal Moelmud a gynnaliawdd Lys Unben yno, a chyntaf oedd ef a ddodes Escyb Dyledogion yn Ynys Prydain, a thiroedd a chyfoetheu iddynt; a phedwar Maib a fu iddo, nid amgen, Gwythyr, Owain Finddu, Cystenyn, Ednyfed." Disgynodd rhestr hirfaith o saint o Macsen Wledig—y rhai enwocaf o ba rai oedd Ednyfed ap Macsen Wledig, Peblig ab Owain Finddu (ei eglwysydd yn Nghaernarfon), Gafran, Cadwr ab Ednyfed, Gwyddno Garanhir, Nudd Hael, Melangell, Ceinwr, Mador, ac Elidir Mwynfawr.

Yn B. A. 406, ymwahanodd Prydain oddi wrth yr ymherodraeth Rufeinig, ac etholodd Cystenyn mab ieuangaf Aldroen, brenin Armorica, i'w gorsedd. Dysgrifia Zosimus y dygwyddiad fel y canlyn:—"Gan fod y barbariaid a breswylient yr ochr uchaf i'r Rhine yn trais-ruthro ar bob lle yn berffaith ddiwrthwynebiad, gorfodwyd trigolion Ynys Prydain, a rhai o'r llwythau Celtaidd, o angenrheidrwydd, i ymgodi yn erbyn llywodraeth y Rhufeiniaid, ac i fyw yn annibynol, heb ufuddhau mwyach i ddeddfau Rhufain: mewn canlyniad, ymarfogodd y Prydeinwyr, a chan wynebu y perygl ar eu cyfrifoldeb eu hunain, gwaredasant eu dinasoedd oddi wrth y barbariaid a'u haflonyddent. Gan ddilyn esampl Prydain, ymryddhaodd holl Armorica, a thaleithiau ereill yn Gâl; a chan fwrw ymaith y llywodraethwyr Rhufeinig, sefydlasant ffurflywodraeth frodorol o'u dewisiad eu hunain. Cymmerodd y gwrthryfel hwn yn Mhrydain, ac yn mhlith y llwythau Celtaidd, le yn ystod trawslywodraeth Cystenyn."—[*Histor.*, llyfr vi. 156.] Y prif weithredydd yn y chwyldroad hwn oedd Owain Finddu, mab hynaf Macsen Wledig. Yr oedd Owain o gymmeriad hynod o anhunangar, o blegid er iddo gael ei ethol yn bendragon, efe a wrthododd—wedi i annibyniaeth Prydain gael ei sefydlu, ac wedi i swyddogion Rhufain gael eu symmud—fyned yn frenin ar yr holl ynys yn gyffredinol, gan ymfoddloni ar Wynedd yn unig; a gwnaeth ei oreu dros etholiad ei gefnder, Cystenyn, i'r swydd anrhydeddus. Yr ydoedd doethineb y cwrs hwn yn llawn mor ganmoladwy a'i wladgarwch; canys bu yn foddion i uno Prydain ac Armorica yn nghyd yn rhwymau agosaf cyfeillgarwch, a'r cymhorth a roddai y naill i'r llall ydyw un o'r prif resymau am na syrthiasant hwy, fel rhanau ereill o'r hen ymherodraeth Rufeinig, yn ysglyfaeth i'r barbariaid. Nid yn unig bwriodd Prydain ac Armorica y Rhufeiniaid o'u gwlad, ond darostyngasant hyd yn oed fuddugoliaethwyr barbaraidd Rhufain ei hun amryw weithiau.

Yr oedd sefyllfa holl gyfandir Ewrop, yn y cyfnod hwn, yn yr annhrefn mwyaf, mewn canlyniad i ruthriadau y ciwdodau gogleddol; yr oedd glanau gorllewinol Prydain yn dryfrith o lyngesau dan arweiniad breninoedd mor-ladradaidd, yn benaf o darddiad Scotaidd a Scandinaviaidd. Wrth y gair *Scot* a *Scotia*, yr hyn a olygid bob amser yn y ganrif hon, ac yn gyffredin mor ddiweddar a'r nawfed ganrif, oedd Gwyddelod ac Iwerddon. Y mae yn rhaid gwahaniaethu y Pictiaid Prydeinig yn ofalus oddi wrth y Pictiaid Gwyddelig neu y Pictiaid Cochion. Yr oedd y Pictiaid Prydeinig yr un mewn llinach, iaith, a thraddodiadau a'r Cymry. Ac nid yn unig byddai priodasau mynych yn cymmeryd lle rhwng tywysogion a thywysogesau y ddwy genedl, ond byddai trefedigaethau cyflawn yn aml yn cael eu gwahodd ar y telerau mwyaf



Digitized by Google

cyfeillgar o'r naill wlad i'r llall. Iaith y Pictiaid Gwyddelig, hynafiaid cyfran helaeth o drigolion presennol Ucheldiroedd Scotland, oedd yr Ers. Iaith y Pictiaid Prydeinig oedd y Gymraeg, sef yr un iaith ag iaith Prydeinwyr Strathclwyd a Chymru. Yr oedd y ddwy iaith yn berffaith wahanol yn eu cystrawen i'w gilydd.

Yn B.A. 407, arweiniodd Cystenyn y llengoedd Prydeinig i adennill Gâl oddi ar y Vandaliaid, yr Huniaid, yr Alaniaid, a'r Burgundiaid; y rhai, i'r nifer o 400,000, oeddynt wedi croesi yr Alpau, Rhagfyr 31ain, B.A. 406, gan ddarostwng Gâl mor bell a throed y Pyrenees. Yr oedd ymadawiad byddin reolaidd Prydain i'r fath anturiaeth anhawdd a pheryglus a hon yn gyfleusdra manteisiol i'r môr-freninoedd Scotaidd (Gwyddelig) a Scandinaviaidd i anfon eu galluoedd i bob llecyn agored ar yr ochr orllewinol i'r ynys y byddai rhyw obaith iddynt am garcharorion neu anrhaith. Y mwyaf ofnadwy o'r môr-ladron hyn oedd Nial y Naw Gwystl—y diweddaf ond un o freninoedd paganaidd yr Iwerddon. Dygodd ei anrheithiadau yn mlaen, gyda llynges o 190 o longau, ar hyd glanau sir Lancaster; yna aeth rhyngddo â Gogledd Cymru, a glaniodd yn Llanilltyd fawr, a adnabyddid y pryd hyny fel Athrofa Theodosius, neu Bangor Tewdws. "Yr oedd Ynys Prydain," medd *Iolo MSS.*, "y pryd hyn fal heb na phen na pherchen, yn agored i bob gormes gelyn ag alltud, a holl arfogion yr ynys draw i'r môr yn ymladd â'r ormes ddu ag oeddynt yn diffeithio pob gwlad cred a bedydd; a'r Gwyddelod yn un a gwŷr Llychlyn yr amser hyny yn cydormesu ar Ynys Prydain, ac un o'u llongau yn medru môr Hafren, eu gwŷr a diriasant, gan ddwyn yspail ddirfawr yn ŷd ag yn wartheg, a phob golud symmudadwy a fedraint arno; a chyda hyny dwyn meibion a merched; a dwyn Padric Sant o Fangor Dewdws i'r Werddon, ag o hyny bu'r fangor yn amddifad o ben ac athraw yspaid mwy na deng mlynedd. A Phadric yn y Werddon yn ymroddi yn gadarn i ddangos a dysgu y ffydd yng Nghrist i'r Gwerddoniaid, y Gwyddelod, a'r Llychlyniaid, a bu hylwydd ei orchwyl."—[td. 69.] Yr oedd Padrig yn ei unfed flwydd ar bymtheg pan y cafodd el gludo fel hyn yn estron ac yn gaethwas i'r Iwerddon. Am hanes ei fywyd, gwel PADRIG SANT. Haera yr haneswyr Prydeinig fod y Rhufeiniaid wrth wraidd yr holl ruthrgyrchoedd hyn; gan olygu, y mae yn debyg, Honorius a'i lys: a phan yr ystyrir fod Cystenyn a Honorius y pryd hyn mewn rhyfel â'u gilydd ar y Cyfandir, gellir tybio yn ddigon naturiol fod yr haeriad yn wirionedd. Ymddengys oddi wrth yr un awdurdod [*Iolo MSS.*] fod newyn wedi ei chwanegu at ddrygau rhyfel:—"B. A. 307, Bu haint mawr achos celaneddau ymladdau, a bu farw anferthrif, yn wyr a gweision, a merched a gwragedd cyflawnoed, gwr a gwraig, a mwy na hanner plant Ynys Prydain, achos hyny y bu y Gwyddyl Ffichti yn y gogledd, a'r Gwyddyl gaflachawg a'r Llychynwys yn Môn ac Arfon a'r cwmmwd. 314, y bu newyn a drudaniaeth sef y llygrwyd yr yttir gan y Gwyddyl a'r Llychynwys ffordd y cerddynt, yn nawdd gwŷr Rhufain, er dial am nas caint brodorion Ynys Prydain yn eu gwyllys. Hefyd, lladd yr anifeiliaid ffordd y ddelai yr ormes."—[td. 41, 42.] Yr oedd Môn a rhanau o Arfon, er B. A. 267, wedi bod yn meddiant teyrnach Don, brenin Llychlyn a Dublin. Yn ganlynol, Gwyddelod oedd ei fyddin yn y parth hwn o Gymru, yn nghyd â'u hiliogaeth. Yr oedd ei fab, Gwdion (B. A. 280), yn dra enwog am ei wybodaeth o'r gwyddorion. Efe a aeth â'r wybodaeth am lythyrenau o Brydain i'r Iwerddon a Scandinavia. Yr oedd y Gwyddelod hyn, wrth gwrs, mewn gwrthdarawiad â'u cydwladwyr dan Nial; ac yr oedd y newyn a'r rhuthrgyrchoedd wedi effeithio i'r fath raddau er diboblogi Gogledd Cymru, fel yr anfonodd Owain Finddu at ei gâr, Cunedda Wledig, tywysog Pictiaid Prydeinig Perth, am gymhorth, gan roddi iddo yr holl daleithiau y gallai eu hennill oddi ar y Gwyddelod, neu y gallai eu poblogi â'i ddeiliaid. Derbyniwyd y gwahoddiad yn uniongyrchol; a daeth Cunedda, gyda'i bedwar mab ar ugain, a 24,000 o'i giwdodwyr, i Gymru. Yr oedd Cunedda o linach Beli Fawr, o du Coel Godebog, merch ieuengaf yr hwn, Gwawl, oedd ei fam. Y ferch hynaf, Elen, yr hon a briodwyd gan Constantius Chlorus, oedd mam Cystenyn Fawr. Gan hyny, yr oedd Cystenyn a Chunedda yn gefndryd. Ond yr oedd y diweddaf yn ieuengach na'r blaenaf o bum mlynedd ar ugain, a bu fyw ar ei ol dair blynedd a phedwar ugain. Yr oedd Cunedda, pan yr ymfudodd ac yr ymsefydlodd yn Nghymru, yn gant a phedair blwydd ar ddeg oed, ac yn meddu gor-orŵyrion, y rhan fwyaf o ba rai a'i dilynent yn ei anturiaeth. Ni ddangosodd Serigi, brenin y Gwyddelod yn Arfon, un diffyg ysbryd mewn amddiffyn y taleithiau a ennillasai; ond aeth yn mlaen i gyfarfod galluoedd unedig Cymru orllewinol a gogleddol i Gwyrfai, yn Arfon. Terfynodd y frwydr yn ei gwymp, a ffodd am noddfa i Fôn. Erlynwyd ef gan Caswallon ab Einion Wrdd ap Cunedda. Cymmerodd ail frwydr le, yn yr hon y lladdwyd Serigi, ac y distrywiwyd ei holl alluoedd. Gwnaed yr ychydig Wyddelod a ddiangasant heb eu lladd yn gaethweision. Adeiladodd Caswallon eglwys ar y man yr ennillwyd y fuddugoliaeth, a galwyd hi Llan y Gwyddyl; ond adnabyddir y lle yn awr wrth yr enw Cerryg y Gwyddyl. Yn y cyfamser, yr oedd Eurnach, tad Serigi, ac Owain Finddu, wedi cwympo mewn ymladdfa enbyd trwy gleddyfau eu gilydd yn Ninas Pharaon, neu Ddinas Emrys, yn y Wyddfa (B.A. 418). Gan fod Madoc a'i fab wedi marw o flaen Owain, a hyny yn ddiblant, disgynodd coron y Dywysogaeth o angenrheidrwydd i Cunedda Wledig, trwy ei fam, Gwawl. Fel gwobr am ei wasanaeth gwerthfawr, rhoddodd Cunedda hi i'w ŵyr, Caswallon Law Hir, yr hwn oedd y brenin cyntaf yn Nghymru o deyrnach Cunedda. Mewn rhan trwy dreftadaeth, ac mewn rhan trwy drosglwyddiad, aeth y taleithiau canlynol, y rhai a alwyd wedi hyny ar eu henwau, i ddwylaw ŵyrion a meibion ereill i'r brenin patriarchaidd hwn—yr Abraham hwn mewn hanesiaeth Gymreig:—Meirion i Meirion, Caer Einion i Einion, Ceredigion i Ceredig, Dunodig i Dunod, Edeyrnion i Edeyrn, Dogfaelin i Dogfail, a Rhufoniog i Rhufon. Yr oedd Dewi Sant yn orŵyr i Cunedda, ac yn ŵyr i Ceredig. Yr oedd Cyndeyrn, sefydlydd Bangor Asaph (Llanelwy), yn gefnder i Dewi Sant, sef yn fab i Arthog ap Ceredig ap Cunedda. Rhed llinach Cunedda i lawr hyd Cadwaladr Fendigaid fel y canlyn:—1. Caswallon Law Hir. 2. Maelgwn Gwynedd. 3. Rhun. 4. Beli. 5. Iago. 6. Cadfan. 7. Cadwallon. 8. Cadwaladr Fendigaid. Ail ddechreua drachefn fel llinach dywysogaidd Gwynedd yn Idwal Iwrch ap Cadwaladr Fendigaid. Yr oedd Caswallon yn ei ddegfed flwydd ar ugain pan yr esgynodd i'r orsedd.

Digitized by Google

hyn, nac am ddwy neu dair canrif ar ol hyn, yn arweinwyr yn y byd Cristionogol; gan hyny, ni chafodd llythyr Zosimus un dylanwad ar ei frawd galluocach, Awstin, amgen na pheri iddo ef, a'r esgobion Affricaidd ereill, lynu yn fwy diysgog wrth eu dyfarniad blaenorol. Gorfodwyd Zosimus i ymostwng, ac efe a wysiodd Celestius i sefyll ei brawf. Gwrthododd Celestius ufuddhau; am hyny, condemniwyd ac esgymunwyd ef a Morgan drachefn. Dilynwyd hyn gan reitharchiadau ereill. Alltudiodd Honorius, yr ymherawdwr, boll ddilynwyr Morgan o Italy. Cwynodd Morgan, yr hwn a barhäai i breswylio yn Palestina, o herwydd iddo gael ei gondemnio heb gael cyfle i'w amddiffyn ei hun; a phan yr holwyd ef ar y pynciau mewn dadl, anfonodd atebion wedi eu hysgrifenu gyda'r fath fedrusrwydd fel y rhyddhawyd ef unwaith drachefn. Ceir meddylddrych tarawiadol iawn am alluoedd ymresymiadol anghyffredin yr heretic Prydeinig hwn, yn nghyd â'r addysg uchel a gyfrenid yn yr oes hono yn ei fynachlog enedigol yn Mangor is Coed, oddi wrth ei ddylanwad personol ar feddyliau pawb a ddeuent i gyfarfyddiad âg ef trwy ystod yr holl ddadleuon hyn. Pan y clywodd Awstin am ryddhad Morgan y tro hwn, efe a gyfansoddodd ddau lyfr yn ei erbyn—un ar y "Pechod Gwreiddiol," a'r llall ar "Ras Crist."

Yn B. A. 420, gyrwyd Celestius o Rufain, lle yr anturiasai ddychwelyd, yr ail waith. Yna aeth i Gymru gyda Morgan. Lledaenodd a gwreiddiodd eu hathrawiaethau mor ddwfn yn y wlad hon, fel yr adnabyddid canolbarth Cymru, prif eisteddle eu gweithrediadau a'u dychweledigion, am ganrifoedd ar ol hyny, wrth yr enw "Gwlad yr Hereticiaid" (*Regio Heretica*). Llygrwyd yr holl eglwys i raddau mwy neu lai; ac yn B. A. 424, aeth dirprwyaeth o esgobion Prydeinig dros y sianel i Bretagne, i ofyn cymhorth Garmon neu Germanus, esgob Auxerre, brawd yn nghyfraith Emrys Llydaw, tywysog yn Armorica, i ddarostwng yr heresi. Am ddaliadau Morgan, a hanes Garmon, gwel dan y geiriau MORGANIAETH, a GARMON.

Nid oedd yr Eglwys Galicaidd eto wedi myned yn ddibynol ar Eglwys Rhufain, ac yr oedd ymrafael rhyngddynt y pryd hyn. Cyhuddai y ddiweddaf y flaenaf o fod yn rhy dyner tuag at Forganiaeth, a'i bod yn hanner Morganaidd ei hun. Effeithiodd y cyhuddiad hwn ar Garmon i'r fath raddau nes peri iddo arfer ei holl ddylanwad er perswadio yr Eglwys Galicaidd i gydsynio â chais yr Eglwys Brydeinig. Yn ganlynol, cynnaliwyd cynnadledd o'r esgobion Galicaidd yn Paris, yn yr hon y penodwyd Garmon a Bleiddian, esgob Troyes, i ymweled â Chymru.

Cynnaliodd y ddau esgob gyfarfod gyda'u pobl tu allan i'r muriau cyn ymadael o Ffrainc. Treuliodd Garmon y noswaith cyn canu yn iach mewn pregethu ar brif wirioneddau iachawdwriaeth. Yn mysg ei wrandawyr, dywed rhai fod morwynig o Brydain, o'r enw Gwenhwyfar, neu Genevieve, merch i swyddog uchel yn y ddinas. Effeithiwyd arni mor ddwfn, trwy hyawdledd a sel yr esgob, fel yr ymbiliodd am ganiatad i gyssegru ei hunan yn gwbl at wasanaeth Duw. Gwrthododd yr esgob ar y cyntaf, gyda phriodoldeb, gydsynio â chais geneth mor ieuanc, gan dybied nad ydoedd wedi ystyried digon ar y pwnc; ond gan iddo ddeall oddi wrth ei rhieni ei bod bob amser wedi arddangos awydd cryf at fywyd crefyddol, dododd hi dan ofal ei chwaer, i gael ei haddysgu yn athrawiaethau a dyledswyddau Cristionogaeth. Cadarnhaodd bywyd dilynol y forwynig hon holl addewidion ei blynyddoedd boreuol. Aeth yn enwog am ei gofal am angenion corfforol ac ysbrydol y dosbarthiadau isaf yn Paris; ac ar ei marwolaeth, canonwyd hi yn sant gwarcheidiol prif ddinas Ffrainc. Y mae ei dydd gŵyl hyd yn bresennol yn cael ei gadw gyda mawreddogrwydd anghyffredin.

Wedi cyrhaedd i Brydain, ni chyfyngodd Garmon a Bleiddian eu hymweliadau i'r eglwysydd a'r adeiladau cyhoeddus. Yr oeddynt yn ddynion o gymmeriadau ymarferol, a defnyddient y moddion agosaf at law i wrthweithio pob drygau. Teithient o'r naill le i'r llall, gan gynnal cyfarfodydd yn yr awyr agored i bob dosbarth o gymdeithas; a chan mai Armoriciaid oedd y ddau, a'u hiaith yn ddealladwy i'r Prydeiniaid, cynnyrchodd eu pregethau gyffro dau cyffredinol. Gwrthododd penaethiaid yr heresi Forganaidd eu cyfarfod am beth amser; ond trwy yr edliwid iddynt yn mhob man, yn ol fel y dywed Bede, eu diffyg o wroldeb moesol, cydsyniasant o'r diwedd i ymddangos mewn cynnadledd eglwysig ag oedd i gael ei chynnal yn St. Albans. Yr oedd lluaws o deuluoedd hynaf a chyfoethocaf yr ynys yn mhlith y Morganiaid; a chan fod eu rheolau yn cefnogi gwychder ac ysplander, daeth eu doctoriaid i'r gynnadledd hon mewn gwisgoedd mawreddog, yn cael eu dilyn gan osgorddion golygus, ar geffylau ac ar draed. "Tynodd enwogrwydd y gynnadledd," ebe Bede, "gynnulleidfa fawr i'w gwrandaw, ac i ffurfio eu barnau ar y materion mewn dadl. Yr oedd y pleidiau dadleuol yn dra gwahanol mewn tymmer, ymddangosiad, ac yn eu dull o ymosod ac amddiffyn eu hunain. Ymddibynai un blaid ar gymhorth dwyfol, y llall ar alluoedd dynol; ymddangosai duwioldeb mewn un, trahausder yn y llall; yr oedd Crist o du y gyntaf, a Morgan o du yr ail. Rhoddodd yr esgobion sanctaidd, Garmon a Bleiddian, ganiatad i'w gwrthwynebwyr i ddadleu eu pwnc yn gyntaf, y rhai a dreuliasant yr amser gan ddifyru y gwrandawyr â chyflawnder o areithyddiaeth, ond ni ddywedasant ddim ag oedd yn wirioneddol gadarn a darbwyllol. Wedi iddynt dewi, dechreuodd yr esgobion sanctaidd ar eu gwrthddadleuon gyda nerth areithyddiaeth, rheswm, a phroflon Ysgrythyrol. Ymresymasant oddi wrth bob gwedd ar y testyn, gan wneuthur eu holl ddysgeidiaeth a'u gwybodaeth ddynol yn iswasanaethgar i'r dadguddiad dwyfol. Darostyngwyd balchder y Morganiaid, a dynoethwyd eu gau ymresymiadau yn hollol; a phan wasgwyd arnynt am ateb, addefasant eu hanallu i wneuthur hyny trwy aros yn fud. Amlygodd y bobl eu dyfarniad trwy ganmawl Garmon a Bleiddian mewn llais uchel; a chydag anhawsder yr attaliwyd hwynt rhag gosod eu dwylaw ar eu gwrthwynebwyr."—[*Eccles. Hist.*] Er mai adroddiad gelyn i Forganiaeth ydyw yr adroddiad hwn, eto y mae pob lle i gredu ei fod yn gywir. Cynnaliwyd y gynnadledd hon yn Hydref, B. A. 429; a phan y terfynodd, aeth y ddau esgob Galicaidd yn mlaen i wneuthur y goreu o'u buddugoliaeth dan nawdd Caswallon Law Hir i ganol Cymru, cryd yr heresi.

Gwrthglawdd Prydain ar y tu gogleddol oedd gwal Severus. Ymosododd rhuthrgych unedig, o Saxoniaid a Phictiaid Gwyddelig, ar eithafedd deheuol (Thirlwall) y mur hwn, gan falurio rhan o hono; yna ymwasgarasant i'r gogledd, nes cyrhaedd i Gaerlleon, prif ddinas gyfoethog

Digitized by Google

teyrnas Gwynedd y pryd hyny; a gwarchaewyd hi ganddynt mewn modd rheolaidd.

Yr oedd Garmon, pan y derbyniwyd hysbysiad am yr ymosodiad ffyrnig hwn o eiddo y Saxoniaid, yn Erging, yn sir Henffordd. Gan ei fod, fel amryw o'r cymmeriadau eglwysig enwocaf yn hanes Cymru, wedi bod, yn more ei oes, yn gadfridog medrus, anfonwyd am dano gan Caswallon Law Hir a'i frawd Ceredig, i'w cynnorthwyo yn yr amgylchiad cyfyng hwn. Ymgasglodd byddin Gwynedd ar lanau yr afon Alun, lle yr ymunodd Garmon â hi. Pan y clywodd y Saxoniaid a'r Pictiaid am agosrwydd y fyddin, codasant i fyny y gwarchae, ac aethant i'w chyfarfod. Daeth y ddwy fyddin i olwg eu gilydd nos y Sulgwyn, neu fel yr haera ereill, Sabbath y Pasc, B. A. 427, neu yn ol cyfrif arall, B. A. 430. Ennillodd y Prydeiniaid fuddugoliaeth lwyr ar eu gelynion, heb golli, fel y dywed rhai, gymmaint ag un dyn. Adnabyddir y lle y cymmerodd y frwydr hon le wrth yr enw Maes Garmon hyd y dydd hwn. Yr arwyddair a arferwyd, trwy cyfarwyddyd Garmon, oedd "Haleluiah." Pan y cyrhaeddodd y fyddin elynol i le penodol, gwaeddwyd yr arwyddair hwn gan yr holl fyddin Brydeinig. Fe effeithiodd y waedd i'r fath raddau ar y gelynion, fel y troisant i ffoi yn yr annhrefn mwyaf cyn dechreu ymladd. Oddi wrth yr amgylchiad hwn, adnabyddir y frwydr hon wrth yr enw, y "Fuddugoliaeth Haleluiaidd."

Dysgrifir Powys, gan Nennius, yn yr adeg hon, fel yn cael ei llywodraethu gan Benlli Gawr, prif amddiffynfa yr hwn oedd ar ben Moel Benlli, un o fynyddoedd Dyffryn Clwyd, ar dueddau sir Fflint. Safai ei balas ar y lle a ddewiswyd gan Walter de Monte Alto, yn y cyfnod Normanaidd, i adeiladu ei gastell, yr hwn a adnabyddir yn awr wrth yr enw Bailey, neu Ballium, yn nhref Wyddgrug. Oddi wrth hanes Nennius, ymddengys mai traislywodraethwr ar Powys oedd Benlli, o linach Eurnach a Serigi—teyrnach Wyddelig Mon ac Arfon. Yr oedd Cadell, etifedd Cymreig Powys, wedi ei amddifadu ganddo o'i orsedd, ac wedi ei ddarostwng i'r swydd o ben ceidwad y diadelloedd breninol. Nid ydyw yn annhebygol ddarfod i amddiffynfa Benlli, ar Foel Benlli, gael ei tharaw a'i dinystrio gan fellt. Yr hyn sydd yn sicr, pa fodd bynag, yw, iddo gael ei ddiorseddu a'i roddi i farwolaeth, a'i gladdu gan Garmon a Chaswallon Law Hir yn uniongyrchol ar ol brwydr Maes Garmon. Ymddengys fod ei gladdedigaeth wedi cael ei ddwyn yn mlaen mewn modd anrhydeddus gan y buddugoliaethwyr, canys dodwyd ef yn ei fedd gyda'i holl arfogaeth freninol am dano; a phan y cauwyd y bwa maen a orchuddiai ei feddrod, bwriodd pob milwr yn y fyddin Gymreig ei gareg arno, yn unol â hen ddefod filwraidd. Arosodd bedd Benlli heb ei gyffwrdd hyd Hydref 11eg, 1838, pryd y darganfyddwyd ef yn ddamweiniol. Cafwyd ynddo ddwyfroneg aur, wedi ei niweidio i raddau trwy bwysau y ceryg — pump neu chwe chant o lwythi—ag oeddynt wedi cwympo trwy fwa toredig y feddgell. Gwerthwyd hi gan y meddiannydd, Mr. Langford, i'r Amgueddfa Brydeinig, lle y mae i'w gweled yn bresennol.

Adferwyd Cadell i'w orsedd; ac erbyn hyn, yr ydoedd holl Wynedd wedi dyfod eilwaith i feddiant y teulu breninol Cymreig. Y mae y fendith a draddododd Garmon ar adeg ei goroniad wedi ei chofnodi gan Nennius:—"Tydi a elwir Cadell Deyrnllwg, ac ni bydd brenin yn eisieu o dy hiliogaeth yn dragywydd." Sylwa Nennius, yr hwn a ysgrifenai yn B. A. 796—"Yr oedd ei holl feibion yn freninoedd; a chan eu hiliogaeth hwy y llywodraethir holl wlad Powys hyd y dydd hwn:" a dywed rhai y gellir chwanegu at hyn, mai disgynyddion uniongyrchol o'r brenin, uwch ben yr hwn, yn ol Nennius, y traddododd Garmon y fendith hon, bedair canrif ar ddeg yn ol, ydyw y frenines Victoria a'i phlant.

Estyna cyfnod Garmon, yn Mhrydain, o B. A. 425 hyd B. A. 447, gan gynnwys fel cydoeswyr Caswallon Law Hir, Constans, Gwrtheyrn, Serigi, Benlli Gawr, Padrig, Morgan, Celestius, Jerome, Zosimus, esgob Rhufain; Zosimus, yr hanesydd paganaidd; Nestorius, patriarch Caer Cystenyn, tad yr opiniynau Nestoraidd; Palladius, yr esgob cenadol cyntaf i'r Iwerddon; Genseric, y Vandaliad, yn Affrica; Attila, yr Huniad, "ffrewyll Duw," yn y Cyfandir; Awstin, esgob Hippo, ysgrifenwr duwinyddol penaf ei oes, yr hwn a fu farw yn ystod gwarchaead Hippo gan Genseric, B. A. 430; Leo, esgob Rhufain, B. A. 440; Athanasius, a Belisarius.

Fel anghraifft o bregethau y cyfnod hwn, dodwn ddyfyniad allan o waith Fastidius (Ffestydd), esgob Prydeinig Llundain yn B. A. 420. Enw y llyfr, yr hwn a gyflwynir i wraig weddw dduwiol o'r enw Fatclis, ydyw "Nodweddiad Bywyd Cristionogol." Ar ol dangos gwagder proffes o dduwioldeb yn unig, ac mai rheol Duw yn wastad yn ei ymwneyd â dyn ydyw caru cyfiawnder a chasau drygioni, ä yn mlaen, a dywed:—

"Ewyllys Duw ydyw ar fod i'w bobl fod yn sanctaidd ac yn lân oddi wrth anghyfiawnder—mor gyfiawn, mor drugarog, mor bur, mor ddilwgr oddi wrth y byd, ac mor ddiddichell, fel na chaiff y paganiaid un bai ynddynt, ond y dywedant mewn syndod, 'Gwyn ei byd y genedl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddi; a'r bobl a ddetholodd efe yn etifeddiaeth iddo ei hun.' Nyni a ddarllenwn yn yr Efengylwyr am ddyn yn myned at y Gwaredwr, gan ofyn iddo pa beth a wnai er caffael bywyd tragwyddol. Yr atebiad a dderbyniodd oedd, 'Os myni fyned i mewn i'r bywyd tragwyddol, cadw y gorchymynion.' Nid 'cadw ffydd yn unig' a ddywedodd ein Harglwydd; canys os ffydd ydyw y cwbl sydd yn eisieu, pa ham y dywedai ein Harglwydd, 'cadw y gorchymynion;' pell fyddom ni oddi wrth dybio bod ein Harglwydd yn dysgu dim yn ddiangenrhaid neu afreidiol. Na fydded i un dyn, gan hyny, dwyllo neu gamarwain ei frawd—os na bydd dyn yn gyfiawn, nis gall fod ganddo fywyd; os na bydd yn cadw gorchymynion Crist, nis gall fod ganddo ran ynddo. Cristion ydyw dyn trugarog wrth bawb, un na chyffröir mo hono gan un niwed, un na oddef i dlodion gael eu gorthrymu gan y byd, un a gynnorthwya y truenus ac a bortha y newynog, un a alara gyda'r galarus ac a deimla ofid arall fel ei eiddo ei hun, un a wyla wrth weled arall yn wylo, un y mae ei dŷ yn agored i bawb, un y mae ei fwrdd wedi ei daenu i'r tlodion, un y mae ei weithredoedd da yn hysbys i bawb, un na theimla un dyn oddi wrth ei anghyfiawnder, un yn gwasanaethu Duw ddydd a nos, ac yn myfyrio bob amser ar ei air; un yn gwneyd ei hun yn dlawd mewn ystyr fydol er mwyn bod yn gyfoethog tuag at Dduw, un yn foddlawn i fod yn anghymmeradwy yn mhlith dynion er mwyn bod yn gymmeradwy ger bron Duw a'i angylion, un nad oes dwyll yn ei galon, un y mae ei enaid yn syml ac anllygredig, a'i gydwybod yn ffyddlawn a phur; un y mae ei holl feddwl yn gorphwys ar Dduw, un y mae ei holl obaith wedi ei sefydlu ar Grist, gan chwennych pethau nefol yn hytrach na phethau daiarol, a chan adael pethau dynol er mwyn cymmeryd gafael mewn pethau dwyfol. Os dylai pawb a alwant eu hunain yn Gristionogion fod yn gyfryw

Digitized by Google

ag a ddysgrifiwyd genyf, ni raid dyweyd wrthych pa fath wraig weddw a ddylech fod, canys os ydych yn weddw i Grist, dylech fod yn esampl i bawb sydd yn dilyn bywyd Cristionogol. Dywed yr apostol wrthych yr hyn a ddylai gweddw i Grist fod—'Eithr yr hon sydd wir weddw ac unig, sydd yn gobeithio yn Nuw, ac yn parhau mewn ymbiliau, a gweddïau, nos a dydd.' Noda yr un apostol, mewn man arall, weithredoedd ac ymddyddanion y wir weddw :—'Dewiser yn weddw un a fo yn dda ei gair am weithredoedd da: os dygodd hi blant i fyny, os bu lettygar, o golchodd hi draed y saint, o chynnorthwyodd hi y rhai cystuddiol, o dilynodd hi bob gorchwyl da.' Byddwch chwi, gan hyny, yn gyfryw esampl ag a osodir allan gan yr apostol. Byddwch yn sanctaidd, yn ostyngedig, yn dawel, ac yn ddiball mewn gweithredoedd o drugaredd a chyfiawnder. Uwch law y cwbl, myfyriwch yn wastadol ar orchymynion eich Arglwydd, ac ymroddwch yn ddifrifol i weddïau a salmau, fel, os bydd yn bosibl, na chenfydd neb chwi ond yn darllen, yn cyflawnu gweithredoedd da, neu yn gweddïo. A phan yn gwneuthur hyny, cofiwch fi."

Os ydoedd bywyd Fastidius yn cyfateb i'w athrawiaeth, y mae yn rhaid ei fod yn esgob rhinweddol mewn gwirionedd.

Y cymmeriad nodedig nesaf mewn hanesiaeth eglwysig Gymreig y dylem sylwi arno ydyw, Maenwyn, neu Padrig Sant. Ganwyd Padrig yn B.A. 387, yn Emptor yn Rhos. Tra yr oedd yn Mangor Tewdws, yn sir Forganwg, cludwyd ef ymaith gan gwmni un o longau Nial y Naw Gwystl. Wedi myned âg ef i'r Iwerddon, prynwyd ef gan benaeth o'r enw Milco, yn nhiriogaeth Antrim, ac appwyntiwyd ef i gymmeryd gofal ei braidd ar fynydd Kieblimis. Tra yn y sefyllfa hon, cyssegrodd ei oriau hamddenol yn ystod ei grwydriadau i fyfyrio a gweddïo. Yn mhen chwe blynedd, cafodd ei ryddhau; ond ail ddaliwyd ef yn uniongyrchol. Ni pharhaodd ei gaethiwed, pa fodd bynag, ond tua thrigain niwrnod, pryd y dychwelodd i le yn sir Benfro. Tra yn y fan hon, dywed iddo gael gweledigaeth, yn yr hon y canfu ddyn o'r Iwerddon, â chanddo nifer mawr o lythyrau, un o ba rai a estynodd iddo ef. Yr arysgrifen arno ydoedd, "Llais y Gwyddelod." Tybiai ei fod yn clywed llawer o leisiau ar yr un pryd yn gwaeddi, "Yr ydym yn erfyn arnat, ŵr ieuanc urddasol, i ddyfod drosodd i'n cynnorthwyo." Wedi hyn, ymadawodd o Brydain, ac aeth yn fyfyriwr i athrofa neu fynachlog St. Martin, ger llaw Tours. Bu yn myfyrio dan yr athraw llym hwn am bedair blynedd, ac yna aeth dan addysg Garmon. Yn B.A. 425, dilynodd Garmon a Bleiddian i Brydain, ac yr oedd yn bresennol yn nghynnadledd St. Alban, ac yn mrwydr Maes Garmon. Dychwelodd gyda Bleiddian at frawd y diweddaf, Vincentius, a threuliodd ddwy flynedd ereill yn y fynachlog ar ynys fechan Lerins. Tra yn y lle hwn, clywodd am fethiant cenadaeth Palladius i'r Iwerddon, a phenderfynodd gymmeryd achos yr ynys hono i'w ddwylaw ei hun. Yn ganlynol, aeth at Amandus, archesgob Bourdeaux, i gael ei ordeinio yn esgob. Arosodd am rai misoedd yn Ynys Afallon, yn Mhrydain, a chyrhaeddodd i Wicklow, yn yr Iwerddon, yn B.A. 432. Canlynid ef gan chwech o offeiriaid a deg o ddiaconiaid. Arosasant yn gyntaf yn yr ynys a alwyd wedi hyny Holm Patrick. Aethant oddi yno at Milco, meistr cyntefig Padrig. Y cyntaf a ddychwelwyd, a'r Gwyddel cyntaf a fedyddiwyd, oedd Sinell mab Finchad; penaeth gogleddol oedd yr un, Dicho, yr hwn a roddodd ei ydlan i'r esgob. Yn y lle hwn yr adeiladodd Padrig ei eglwys gyntaf, olion yr hon sydd i'w gweled eto, yn Saul, yn sir Down. Parhaodd Dicho yn gyfaill ffyddlawn i'r sant trwy ei holl fywyd; a byddai y ddau yn ymneillduo yn aml i Saul oddi wrth eu dyledswyddau cyhoeddus. Parhaodd Milco yn gyndyn yn ei baganiaeth, gan wrthod gwrandaw ar genadwri ei ymwelydd. Gan ddychwelyd at Dicho, parhaodd i bregethu yn Saul hyd Basc 433 yn mron, pryd y newidiodd faes ei lafur, ac yr aeth i Tara neu Temora, yn sir Meath—hen gartref breninoedd yr Iwerddon, yr hwn sydd yn awr yn anialwch diffaith. Ar ei ffordd, dychwelwyd dyn ieuanc yr hwn a fedyddiwyd ganddo, Benignus, a'r hwn a'i dilynodd ar ol hyny fel esgob Armagh. Wedi cyrhaedd yno, y rhai cyntaf y bu Padrig yn offeryn i'w dychwelyd oedd Leogaire, y brenin, a Davnac, yr archdderwydd. Dilynwyd y rhai hyn gan ddychweledigion ereill o radd uchel: yn eu mysg yr oedd chwiorydd Leogaire, Ethnea a Fethlimia. Rhoddodd Conal, brawd y brenin, ei neuadd, fel lle i adeiladu eglwys, a rhoddodd Enda y nawfed ran o'i eiddo tuag at gynnaliaeth y genadaeth. Yn fuan ar ol hyn, trwy bregethu, dychwelodd Padrig dyrfa fawr yn y campau Taltaidd. Gyda'r dychweledigion hyn, aeth i wastadedd a elwid Gwastadedd y Celanedd, oddi wrth arfer llwythau anwar yr Iwerddon o aberthu eu plant i ddelw—Ken-Groith, "Penaeth yr Haul"—ag oedd wedi ei chyfodi yn ei ganol. Moloch yr ynys ydoedd y ddelw hon. Yr oedd Padrig wedi yfed holl adgasrwydd ei athraw (Martin) tuag at eilunaddoliaeth; a thrwy gymhorth ei ddysgyblion, llwyr ddinystriodd y ddelw, a diddymodd yr aberthau creulawn. Bu yr un mor lwyddiannus hefyd yn neheubarth yr Iwerddon, lle yr ennillodd gymhorth y pedwar esgob brodorol. Yn B.A. 455, sefydlodd Padrig esgobaeth Armagh; ac o hyn allan, treuliodd ei amser yn benaf i efengyleiddio parthau ereill o'r ynys, i weddïo yn ddirgelaidd, ac i wneyd canonau i'w eglwys yn Saul. Y mae rhai o'r canonau hyn ar gael eto, ac y maent yn wasanaethgar er egluro llawer o athrawiaethau a defodau yr eglwys gyntefig. Y mae dau ymweliad o'i eiddo â'i wlad enedigol, Cymru, wedi eu cofnodi. Yn ystod y diweddaf o ba rai, arosai efe gyda Calpurnius a Nonn, a dywedir ei fod wedi prophwydo am sancteiddrwydd dyfodol y plentyn ag yr oedd Nonn yn feichiog o hono ar y pryd—Dewi Sant. Ar ol treulio bywyd ymdrechgar i ledaenu yr efengyl, bu farw Padrig, ar Mawrth 17eg, B.A. 465, yn ei neillduaeth yn Saul. Yr oedd holl offeiriaid yr Iwerddon yn ei gladdedigaeth. Bu Armagh ac Ynys Afallon yn ymryson yn mhen blyneddoedd ar ol hyny am yr anrhydedd o gadw ei weddillion. Adeiladwyd creirgelloedd iddo yn y ddau le, â phai rai yr ymwelai miloedd o bererinion bob blwyddyn.

Yn ol Nennius, ysgrifenodd Padrig Sant amryw gannoedd o draethodau ar faterion crefyddol. O'i holl waith, nid oes dim ar gael ond ei Gyffes, neu hanes ei fywyd; ei lythyr at Ceredig, ŵyr Cunedda; yn nghyd âg ychydig o ganonau. Ychydig o esgobion cenadol yr Eglwys Brydeinig sydd yn haeddu, nac wedi derbyn, mwy o barch gan yr oesoedd dilynol na sefydlydd yr eglwys yn yr Iwerddon; ac ychydig hefyd sydd wedi dyoddef cymmaint oddi wrth chwedlau ynfyd ac ofergoelus y mynachod Rhufeinig.

Yr esgob cenadol Prydeinig nesaf, a sefydlodd eglwysydd yn yr oes hon ar gynllun mawr fel hyn,

Digitized by Google

oedd Ninian neu Ninias, brodor o Arfon, yn Ngogledd Cymru. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth (gyda Padrig Sant) dan ei ewythr, Martin, archesgob Tours. Yn B. A. 420, aeth yn genad at y Pictiaid deheuol, ac yr oedd ei esgobaeth (Canobida Casa, Galloway) mor eang a'u teyrnas, yn cyrhaedd o Glasgow hyd i Groes Stanmore, ar gyffiniau Westmoreland. Pan yn ysgrifenu hanes llafur Columba, apostol y Pictiaid gogleddol, tua'r flwyddyn 565, crybwylla Bede fel y canlyn am genadaeth Ninian:—"Yr oedd y Pictiaid deheuol er ys llawer o amser cyn hyn, wedi gadael cyfeiliornadau eilunaddoliaeth, ac wedi mabwysiadu y gwirionedd, trwy offerynoliaeth Ninias, esgob gwir barchedig a sanctaidd o'r genedl Brydeinig. Enwir ei esgobaeth ar ol Martin, yr esgob, ac y mae yn enwog am ei hegiwys fawreddog, yn mha un y gorphwys ef a lluaws o saint ereill yn awr o ran y corff."—[*Eccles. Hist.*, llyfr iii. pen. 4.] Byddai y cenadon Prydeinig hyd yn oed yn myned i ganol Saxony a'r Almaen. "Yr oedd yr Almaen," medd Lappenberg [*Lloegr dan y Breninoedd Anglo-Saxonaidd*, td. 184]. "yn neillduol yn ddyledus i offeiriaid Prydeinig am ei Christionogaeth, yn gystal ag am ei gwareiddiad bore. Y mae yr hen hanesiaeth Daenaidd hefyd yn gymhlethedig o draddodiadau Prydeinig. Yn y cofnodion bychain Almaenaidd hynaf, yn mha rai y dylai pob gair daflu rhyw oleuni ar ddalenau tywyll hynafiaeth, yn lle enwau a hanesion Almaenaidd, enwau annealladwy a hollol wahanol offeiriaid Prydeinig a arferir; ac iddynt hwy y mae yr Almaen yn ddyledus am ddyddiadau cyntaf ei hanesiaeth.

Un o neillduolion penaf yr esgobion Cymreig oedd eu cydnabyddiaeth drwyadl â'r Ysgrythyrau sanctaidd. "Anfonwyd Adamnan," ebe Bede, "gan ei genedl, yn llysgenadwr at Alfred, brenin y Seison. Dyn da a doeth ydoedd, ac yn hynod o hyddysg yn yr Ysgrythyr Lân." — [*Eccles. Hist.*, llyfr v. pen. 15.]

CREFYDD Y SAXONIAID.

Er gwneuthur y rhan hon o hanes crefyddol y Cymry yn fwy cyflawn, ni a wnawn ychydig o sylwadau ar natur y grefydd baganaidd ag yr oeddynt wedi eu galw i'w gwrthwynebu. Crefydd y Saxoniaid—os gellir galw y fath beth yn grefydd—oedd Odiniaeth; a byddai yn anhawdd dychymygu am gymmysgedd mwy gwrthun o gnawdolrwydd a chreulondeb. O'u cymharu âg Odiniaeth, y mae ofergoelion amryw o lwythau mwyaf barbaraidd Asia a Polynesia yn ganmoladwy a dyngarol. Gellir dyweyd, yn fyr, mai dyma oedd Odiniaeth—crefydd y meddwyn a'r llofrudd! ac ni buasem yn gwastraffu dim amser i son am dani ond yn unig er dangos y fath fendithion sydd wedi deilliaw i'r byd oddi wrth Gristionogaeth, trwy ei bod wedi gwaredu cenedloedd o afaelion y fath ofergoelion ffiaidd a chreulawn. Mor bell ag y mae yn bosibl gwybod yn awr, dyma ydoedd amlinellau Odiniaeth:—Yn y Gogledd, yn hir cyn dechreu amser, llywodraethai Ymir, tad cewri. Treiglodd oesoedd heibio. Nid aflonyddai neb ar Ymir a'i blant. O'r diwedd, daeth yn ei erbyn ef o'r dwyrain yr Osir (Arglwyddi y Dwyrain)—Odin, Vili, a Ve. Yn raddol, o fesur ychydig, megis y toddir y rhewyn (*iceberg*) gan yr haul, hwy a'i lladdasant ef. Gwnaeth Odin y ddaiar o'i gorff, y tir o'i gnawd, y moroedd o'i waed, y mynyddoedd a'r creigiau o'i esgyrn a'i asenau, y cymylau o'i anadl, y coedwigoedd o'i wallt, yr haul a'r lleuad o'i lygaid, a'r ffurfafen o'i benglog. Methasant a lladd meibion Ymir—rhwng pa rai a hiliogaeth Odin yr oedd rhyfel dragwyddol. Asgard y gelwid dinas yr Osir, neu hiliogaeth Odin—duwiau y grefydd Scandinaviaidd hon; a Valhalla oedd enw palas Odin, yr hwn oedd yn y ddinas. Yr oedd y Tyngedion, neu Nornir, uwch law Odin a'r duwiau hyn, gan eu llywodraethu hwy a phob peth arall. Yr oedd tri o honynt—yr hynaf a mwyaf nerthol oedd Urthyr; yr ail oedd Werthard; a'r trydydd oedd Skuld. *Weird* y gelwid dedfrydau y tyngedion hyn; a'u dedfryd (*Weird*) ar Odin oedd, y deuai amser pryd y distrywid y duwiau, natur, a dynion, mewn un dinystr cyffredinol. Gan hyny, arddangosir y duwiau hyn o Valhalla fel yn byw yn nghanol yr aflendid ffieiddiaf mewn cyflwr o arswyd parhaus. Satan Odiniaeth oedd Loki. Gwasanaethwr yr Osir oedd Loki ar y cyntaf—wedi hyny eu bradychwr—ac yn ei hiliogaeth eu dinystrydd. Ymddibynai dwyfoldeb (o'r fath ag ydoedd) a gallu yr Osir yn gwbl ar afalau (*Iduna*) math o bren onen a elwid Ygdrasill; canys os amddifedid hwynt o ffrwyth y pren hwn, buan yr aent yn benllwyd, yn wanllyd, ac yn farwol. Am gynllwyn er lladrata yr afalau hyn, condemniwyd Loki i uffern, i gael ei ddodi dan ffynnon o ba un y distyllia gwenwyn o'r math mwyaf poenus i'w ddyoddef. Fe eistedd ei wraig wrth ei ochr gan ddal y dyferion fel y disgynant mewn llestr; er eu hattal rhag disgyn ar ei groen; ond pan y llanwo y llestr, bydd yn rhaid iddi ei waghau, yn y cyfamser, fe syrth dyferyn arno, dan effeithiau pa un yr ymdreigla mewn poen ofnadwy, yr hyn ydyw yr achos o'r daiargrynfâau a ysgydwant y byd. Efe a genedlodd dri o greaduriaid yn Uffern—Hela, brenines uffern; Medgard, sarff, yr hon yn raddol a amgylchodd y ddaiar â'i chorff; a Fenrir, y blaidd. Un o'r nodweddau rhyfeddaf yn y gyfundrefn hynod hon ydyw yr israddoliaeth meddyliol a briodolir i'r duwiau hyn mewn cymhariaeth i hiliogaeth gawraidd Ymir. Mewn arswyd o blegid y *Weird*, a chan eu bod wedi colli gwasanaeth Loki, y maent yn gwneyd cytundeb â chorach (*dwarf*) ymddangosiadol i amddiffyn Asgard rhag pob ymosodiad. Telerau y corach ydyw, os gall efe erbyn y dydd cyntaf o haf, trwy gymhorth ei geffyl, gwblhau y muriau a'r pedwar porth, ei fod i dderbyn, fel ad-daliad, Freya, brenines Odin, yn nghyd â haul a lleuad Asgard. Tri diwrnod cyn yr amser penodedig, bydd y gwaith oddi eithr un porth, wedi ei gwblhau; ond fe gynllwyna y duwiau i dwyllo y corach, ac er ei attal rhag gorphen y gwaith erbyn y diwrnod penodedig, cymmerant ei geffyl. Ar hyn, dechreua y corach weithio ei hunan heb ei geffyl; ac wrth weithio, cynnydda yn raddol i'r hyn ydyw mewn gwirionedd, sef un o feibion cawraidd Ymir. Llwyddodd Thor i fyned tu ol i'r cawr, ac i'w ladd â'i forthwyl; felly, gadewir y porth heb ei gwblhau. Trwy y porth hwn, medd y gyfundrefn wrthun yma, â i mewn hiliogaeth Loki, sef Hela, Fenrir, a'r sarff. Hwy a ymladdant â'r duwiau Odinaidd. Fe ladd Thor a'r sarff y naill y llall. Llyncir Odin gan y blaidd, Fenrir, yr hwn yn ei gylch a gaiff ei ladd gan Vidal, mab Odin. Yna fe losgir Asgard, Valhalla, a'r byd, gan Sutturn, yr ellyll tân; ond allan o lwch y byd, dan Vidar a Vali, gorchfygwyr Hela a Sutturn, cyfyd byd arall, yr hwn fydd Paradwys ddyfodol holl hiliogaeth a dilynwyr Odin; a bydd ei bleserau yr un a phleserau Asgard a Valhalla. Mor bell a hyn, gallem edrych ar y grefydd hon fel

Digitized by Google

ffrwyth meddyliau gorphwyllog; ond cafodd ei dwyn i weithredu yn y modd mwyaf ymarferol ar y cenedloedd gogleddol, nes eu gwneuthur yn greulawn, a'u darostwng i eithafoedd llygredigaeth. Gwneid i fyny bleserau pob un a fyddai yn ffyddlawn i Odiniaeth yn y Valhalla ddyfodol o'r pethau canlynol:—Cerddai Odin, a'r duwiau ereill—canys ymddengys yr adferid hwynt i fywyd dan Vidar a Vali—bob bore o Asgard; ymffurfient yn ddwy blaid wrthwynebol, torent y naill y llall yn ddarnau hyd fachlud haul, yna dychwelent yn ol yn ddianaf i'r Valhalla, a threulient y nos mewn gwledda ar gig moch, a thrwy feddwi ar gwrw:—nid oes un gair o son am win yn y baradwys ogleddol hon. Bob bore hefyd, ymsaethai y Valkiner i lawr o'r gogledd i dramwyo y ddaiar. Y rhai hyn oedd "etholwyr y meirw," y rhai a gyfatebant i Howriaid y Mahometiaid. Detholent bob Saxoniad a Scandinaviad a gwympai mewn brwydr, ac a fyddai wedi lladd tri gelyn â'i ddwylaw ei hun, a chyflwynent ef i Odin, i'r duwiau ereill, ac i bawb o'r hiliogaeth Odinaidd a fyddai wedi eu derbyn o'i flaen ef. Yna gelwid arno i adrodd hanes ei holl weithredoedd gwaedlyd ar y ddaiar; ac am bob gelyn y byddai wedi ei ladd, rhoddid iddo gwpan cwrw o benglog dyn wedi ei haddurno âg aur, a gosodid ef i eistedd mewn lle i gyfateb i'w enwogrwydd bwystfilaidd yn mysg y gorseddfeinciau. O hyny allan, byddai ei baradwys yn gynnwysedig mewn ymladd y dydd, a meddwi y nos:—ac at y bytholiad hwn ar lofruddiaeth a glythineb yr edrychai y cenedloedd gogleddol yn mlaen fel eu sefyllfa o wynfyd yn y byd a ddaw!

Nid yw yn anhawdd dychymygu pa fath gymmeriadau a gynnyrchwyd gan y fath grefydd. Uchelgais penaf y Saxoniad oedd cyfaddasu ei hun, trwy fôr-ladrad, creulondeb, a llofruddiaeth, i fwynhau cymdeithas y duwiau. Mewn canlyniad i'r gyfundrefn ofnadwy hon, y mae yn anmhosibl i ni yn yr oes yma ddychymygu pa mor ddibwys yr edrychai y Saxoniaid ar beryglon a marwolaeth; ac y mae yn anmhosibl rhoddi gormod o ganmoliaeth i'r gwroniaid Prydeinig hyny a wynebent mor dawel, ac a orchfygent mor fynych, genedloedd—crefydd pa rai oedd llofruddiaeth a dinystr eu gelynion. Yn mhlith effeithiau ereill Odiniaeth, gellir crybwyll y ddwy esampl ganlynol, y rhai a gofnodir yn *Mallet's History of the Northern Nations.* Nis galiai dim un o ddilynwyr Odin fyned i mewn i'r Valhalla os na byddai wedi marw o farwolaeth greulawn; gan hyny, elai hen bobl i ben craig yn Norway, a elwid Allor Odin, yn crogi uwch ben y môr, ac yna, er mwyn sicrhau eu derbyniad, bwrient eu hunain i lawr i'r tònau. Ar y nawfed mis o bob blwyddyn, am naw niwrnod, byddai yr offeiriaid Odinaidd yn arfer aberthu naw o ddynion bob dydd, gan ddyweyd uwch ben pob un o honynt wrth drywanu y gyllell i'w fynwes—"Yr wyf yn dy gyssegru i Odin: yr wyf yn dy anfon i Odin." Y mae bodolaeth y fath grefydd a'r fath arferion yn brawf anwrthwynebol o gwymp moesol dyn. Pan yn gwrthwynebu yr athrawiaeth Forganaidd—nad oedd y fath beth a phechod gwreiddiol—nid oedd raid i Garmon wneyd dim ond cyfeirio â'i fys at y paganiaid Saxonaidd er profi y gwrthwyneb.

Yn mhlith y cenedloedd Odinaidd, yn enwedig eiddo yr Almaen, yr oedd y freniniaeth yn gyfyngedig yn hollol i waed Odinaidd. Yr oedd hyn yn gymhwysder anhebgorol. Gan eu bod o waed Odinaidd, ystyrid y teuluoedd hyn o darddiad dwyfol, ac yn hiliogaeth hollol wahanol i'w deiliaid, ac heb fod dan yr un deddfau a rhwymedigaethau moesol a hwy. Oddi wrth hyn y deilliodd y gyfundrefn wrthun o hawl ddwyfol breninoedd—cymmysgedd o baganiaeth, barbariaeth a gorthrwm.

Tra y lledaenid Cristionogaeth fel hyn yn yr Iwerddon, ac yn ngogledd Prydain, peryglid ei phurdeb eto yn Mhrydain. Cyfododd Morganiaeth ei phen eilwaith, a bygythiai Ariaeth gymmeryd meddiant o'r wlad, oni buasai i Padrig ddyfod allan yn brydlawn i'w gwrthwynebu. Daeth Garmon drosodd eilwaith, yn B.A. 447; a chydag ef y tro hwn Severus o Trieres. Dadleuai mor wresog ag erioed dros y ffydd Gristionogol. Mabwysiadodd fesurau ereill er dwyn y gwaith yn mlaen yn fwy effeithiol. Sefydlodd athrofäau yn Caerworgorn (Llanilltyd) a Llancarfan, y rhai a dröwyd wedi hyny yn ysgolion Cristionogol gan Lleufer. Ordeiniodd Dyfrig yn athraw ar y ddiweddaf—yr hwn, ar ei symmudiad i esgobaeth ac athrofa Caerllion, a appwyntiodd Catwg Ddoeth ap Gwynllyw Filwr i gymmeryd ei le. Gwel CATWG. Ond nid oedd llafur Garmon yn gyfyngedig i'r ddarpariaeth hon gogyfer âg addysgiaeth yr offeiriaid. Dygodd i mewn y ffurfwasanaeth Galicaidd i'r Eglwys Brydeinig. Dywed rhai fod pedair ffurfwasanaeth yn yr eglwys gynt:—1. Y ffurfwasanaeth ddwyreiniol; yr hon a ffynai yn yr holl eglwysydd Cristionogol o'r Euphrates hyd yr Hellespont, ac oddi yno i eithafoedd deheuol Tir Groeg: a dywedir mai Iago oedd ei hawdwr. 2. Y ffurfwasanaeth Alexandriaidd; a arferid yn yr Aipht, Abyssinia, a dwyreinbarth Affrica. 3. Y ffurfwasanaeth Rufeinig; a arferid trwy Italy, Sicily, ac Affrica orynysol. 4. Y ffurfwasaneth Galicaidd; a arferid yn Gâl, Yspaen, a Phrydain. Bernir gan y rhai sydd yn dal yr opiniynau hyn fod y ffurfwasanaeth Brydeinig, neu Galicaidd, yn nodedig yn mysg y lleill am ei hamrywiaeth, ei helaethrwydd, a'i rhyddid. Darllenid llyfrau y Beibl yn olynol, gan nad oedd dim salmau a gwersi pennodol wedi eu nodi gogyfer â phob dydd. Ac nid oedd ynddi chwaith hymnau o gyfansoddiad dynol, na chwedlau am ferthyron, na dim tebyg i gyffesu i ddynion, na gweddïo ar fodau crëedig.

Dygwyd y *Te Deum* (Ti Dduw), a Chredo Athanasius, i mewn yn gyntaf i'r ffurfwasanaeth Galicaidd a Phrydeinig—wedi hyny i'r lleill.

Ymestynai cyfnodau amryw wŷr enwog mewn hanesiaeth eglwysig Brydeinig trwy y rhan ddiweddaf o'r bummed a'r rhan gyntaf o'r chweched ganrif; megys Dyfrig Sant, Dewi Sant, ac Illtyd. Am hanes eu bywyd, gwel dan y geiriau. Yn yr adegau hyn hefyd y teyrnasai Uthr Bendragon ac Arthur—yr enwocaf o'r holl ymherawdwyr Prydeinig. Am hanes y rhai hyn hefyd, edryched y darllenydd i'r lleoedd priodol. Ar farwolaeth Arthur, disgynodd y llywodraeth ar ysgwyddau ei gefnder, Cystenyn, iarll Cornwall; yr hwn a ddilynwyd gan y breninoedd canlynol:—Aurelius Conan, B.A. 547; Maelgwn Gwynedd, B.A. 550, yr hwn yn flaenorol (B.A. 512—516) oedd wedi gwaddoli a dyrchafu eglwysydd Llanelwy a Bangor ar y Menai yn eglwysydd cadeiriol; Rhun, B.A. 560; Beli, B.A. 586; Iago, B.A. 592; Cadfan, B.A. 603. Yn ystod teyrnasiad yr holl freninoedd hyn, parhäai y rhyfeloedd rhwng y Cymry a'r ciwdodau a ymosodent ar y wlad o'r Cyfandir a gogledd Ewrop yn ddibaid. Glaniodd Ida, yr Angle, gyda 60 o longau, yn Bamborough. Ymladdwyd llawer o frwydrau

Digitized by Google

mawrion, medd Henry o Huntingdon, rhyngddo ef a'r Prydeiniaid. Ymladdwyd brwydr Gododin, yn mha un y trechwyd y Prydeiniaid gyda cholled ddirfawr, ac y cymmerwyd y bardd Aneurin yn garcharor, yn B. A. 556, yn Catraeth. Peidiodd y rhyfel am ychydig mewn canlyniad i briodas Ida â Besia, merch Culvin, iarll Deifr; ond ail ddechreuodd drachefn, a chwympodd Ida trwy law Owain ap Urien, tywysog Cymru. Efengyleiddiwyd y Pictiaid gorllewinol a'r Scotiaid gan Columba, esgob o'r Eglwys Brydeinig Wyddelig, yn B. A. 565; ac efe hefyd a sefydlodd fynachlog enwog Iona, o'r hon ar ol hyny yr ordeinid ac y cyssegrid holl esgobion eglwys Scotland. Ei ddysgybl, Aidan, yn y ganrif ganlynol, a ddychwelodd Eingl Northumberland.

Yr ydym yn awr wedi cyrhaedd cyfnod Dunawd, abad Bangor, yn amser yr hwn y glaniodd y genadaeth Babaidd gyntaf, i'r dyben o ddychwelyd paganiaid Saxonaidd teyrnas Kent. Y gŵr a gynlluniodd y genadaeth oedd y pab Gregory x—neu Gregory Fawr. Am ei hanes, edrycher i'r lle priodol. Gorphenaf 23ain, 596, anfonodd Gregory Awstin, gyda deg ar ugain o gymdeithion, ar y genadaeth hon i Loegr; a chychwynasant i anturiaeth ag yr oedd holl ddylanwad yr Eglwys Babaidd yn ffafriol iddi. Aethant mor bell ag Aix, yn Provence; ond digalonwyd hwy i'r fath raddau trwy yr hanesion gawsant am annyngarwch a phaganiaeth y Saxoniaid, ac wrth feddwl am eu hanwybodaeth o'u hiaith a pheryglon y fordaith, fel yr anfonwyd Awstin yn ol i Rufain gydag erfyniad taer am i Gregory roddi yr anturiaeth i fyny. Ond ni wrandawai y pab: anfonodd Awstin yn ei ol, gyda llythyr cymhelliadol at ei frodyr. Ysgrifenodd Gregory lythyrau hefyd at Vergilius, archesgob Arles; Etherius, archesgob Lyons; ac at frenin a brenines y Ffranciaid, yn erfyn ar iddynt gynnorthwyo y cenhadon yn mhob dull angenrheidiol ar eu taith, gan eu hysbysu bod y Saxoniaid Seisonig yn awyddus am ddyfod yn Gristionogion. Trwy hyn, ar eu taith trwy Gâl, derbyniasant bob parch dyledus, a darparwyd cyfleithwyr iddynt.

Mordwyodd y cenadon o Boulogne, a glaniasant yn Ebbsfleet, yn ynys Thanet, o'r hwn le yr anfonasant negeswyr at Ethelbert, brenin Kent, i'w hysbysu eu bod wedi dyfod o Rufain, a'u bod yn dymuno cael ymddyddan âg ef. Yn ol cytundeb ei phriodas, yr oedd i Bertha, gwraig Ethelbert, ryddid perffaith i ddilyn ei chrefydd, yr hon ydoedd Cristionogaeth. Trwy ei dylanwad hi, penododd Ethelbert ddiwrnod i Awstin a'i gymdeithion i ymddangos ger ei fron. Yr oedd paganiaeth y brenin wedi ei gymmedroli i raddau trwy ymddyddanion ac esampl ei wraig: ond yr oedd efe eto yn ffafriol i egwyddorion Odiniaeth. Gwrthododd eu derbyn i'w balas, rhag y buasai iddynt ei reibio; ac anfonodd atynt y gwrandawai hwynt ar lechwedd bryn. Trefnwyd eisteddleoedd i'r cenadon ar odre y bryn. Agoshaodd Awstin a'i frodyr yn orymdaith, gan gludo darlun o'r Iachawdwr ar groes arian fawr. Ar orchymyn y brenin, amlygasant ddyben eu cenadaeth. Yr oedd ei atebiad yn wrolwych a synwyrol:—"Y mae eich geiriau a'ch addewidion yn deg; ond gan eu bod yn newydd i ni, ac yn lled aneglur o ran eu tuedd, nis gallaf ymwrthod âg arferion sefydledig fy nghenedl. Ond gan eich bod wedi dyfod o wlad bell i'm teyrnas, a chan eich bod, fel yr wyf yn tybio, yn awyddus i gyfranu i ni y pethau hyny ag yr ydych yn credu eu bod yn wirionedd ac yn llesol, ni aflonyddwn arnoch, ond rhoddwn i chwi dderbyniad croesawgar, a gofalwn am eich cyflenwi â phob angenrheidiau, ac ni waherddir i chwi ennill cymmaint ag a alloch at eich crefydd trwy bregethu." Yr oedd yr atebiad hwn yn fwy ffafriol nag y dysgwylient. Diolchodd Awstin i'r brenin ac i'r frenines; a'r dydd canlynol, aeth i lettya at y Cristionogion Galicaidd, y rhai a addolent yn eglwys St. Martin. Cyfyngid hwynt i'r man hwn hyd nes y dychwelwyd ac y bedyddiwyd y brenin, B. A. 600, pryd y cawsant ganiatad i bregethu yn mhob parth o'i diriogaethau. Dilynwyd esampl Ethelbert gan filoedd o'i ddeiliaid.

Anfonodd Gregory gydag Awstin y llyfrau canlynol:—Beibl, yn ddwy gyfrol; Salmydd; Llyfr yn cynnwys yr Efengylau; Llyfr Merthyrdraith; Hanes Bywydau yr Apostolion, ac esboniadau ar rai o'r Epistolau a'r Efengylau. Dywed Llyfr Caergaint, yr hwn sydd yn Llyfrgell Trinity Hall, Caergrawnt, am yr ychydig lyfrau hyn—"Y rhai hyn ydyw sail llyfrgell yr holl Eglwys Seisonig—B. A. 601."

Fel hyn y dygwyd i mewn ac y sefydlwyd am y tro cyntaf, yn nheyrnas fechan Kent, y ffurf Babaidd o Gristionogaeth. Pa un a oedd, ai nad oedd, Pabyddiaeth yn llygredig y pryd y dygwyd hi i mewn i Brydain, nyni a ddangoswn trwy ychydig ffeithiau. Arddangosir y Cristionogion Prydeinig, yn enwedig y Cymry, gan Bede, ac ysgrifenwyr Pabyddol ereill, fel yn ystyried y Pabyddion heb fod yn nemawr gwell na phaganiaid, ac fel yn edrych ar eu seremoniau fel seremoniau paganaidd. Yn mhen deugain mlynedd ar ol hyn, gwrthododd byddin Gymreig Caswallon, yn ystod ei hymdaith fuddugoliaethus yn Northumberland, ddal cymundeb â'r Cristionogion Saxonaidd; "canys," chwanega Henry o Huntingdon, fel eglurhad ar yr amgylchiad, "nid ystyrir ni (y Pabyddion) gan y Prydeiniaid yn ddim gwell na phaganiaid." Nyni a gawn brofion cedyrn yn y llythyr canlynol o waith Laurentius, olynydd Awstin, nad oedd y golygiad hwn yn gyfyngedig i Gymru yn unig, ond ei fod yn cael ei goleddu hefyd gan yr Eglwys Scotaidd. Nis gall dim yn wir brofi paganiaeth rhai defodau a ddygwyd i mewn gan Awstin yn fwy eglur na'r condemniad a gyhoeddwyd fel hyn yn eu herbyn yn uniongyrchol gan eglwysi cyntefig Prydain:—"At ein hanwyl frodyr, Arglwyddi Esgobion neu Abadau Scotland, y mae Laurentius, Mellitus, a Justus, gwasanaethwyr i wasanaethwyr Duw, yn anfon anerch. Pan anfonwyd ni gan yr esgobaeth apostolaidd, yn unol â'r arfer gyffredinol y mae wedi ei dilyn mewn manau ereill, i'r parthau gorllewinol hyn i bregethu i genedloedd paganaidd, nyni a ddaethom i'r ynys hon a elwir Prydain, heb wybod dim yn flaenorol am ei thrigolion. Coleddem y parch mwyaf tuag at y Prydeiniaid a'r Scotiaid o blegid eu sancteiddrwydd, gan y credem eu bod yn gweithredu yn ol arferion yr Eglwys Gyffredinol. Daethom yn hysbys o gyfeiliornadau y Prydeiniaid, ond tybiem fod y Scotiaid yn well; yr ydym wedi canfod, pa fodd bynag, trwy esampl yr esgob Dagan, nad ydyw y Scotiaid yn gwahaniaethu dim oddi wrth y Prydeiniaid yn eu golygiadau. O blegid pan y daeth yr esgob Dagan atom, gwrthododd, nid yn unig fwyta gyda ni, ond gwrthododd hyd yn oed ymborthi yn y tŷ lle yr arosem." Ond edrych yn fanylach nyni a ganfyddwn fod golygiadau yr Eglwys Brydeinig a'r Eglwys Scotaidd am Babyddiaeth

Digitized by Google

ei fab Iago, B.A. 599, yr hwn a gafodd ei ladd â bwyell gan Cadafael Wyllt, yr hon weithred a elwir yn y *Trioedd*, "Un o dair bwyellawd anfad Ynys Prydain," Dilynwyd Iago gan Cadfan; a thref Caernarfon (*Segontium*) oedd eisteddle ei freniniaeth, yr hon oedd y pryd hyny yn dref fawr a phrydferth. Tywysog Powys ac iarll Caerlleon ar yr un adeg oedd Brochwel Ysgythrog ab Cynan ab Cadell. Efe, yn rhinwedd ei deitl o iarll Caerlleon, oedd amddiffynydd Bangor is Coed, prifysgol Gogledd Cymru, athraw pa un oedd Dunawd ap Pabo Post Prydain. Bu Dunawd, am yr hanner can mlynedd cyntaf o'i oes, yn ei enwogi ei hun trwy ei athrylith filwrol a'i ddewrder ar faes y rhyfel, ac y mae ei glod fel milwr gwladgarol wedi ei drosglwyddo i ni yn nghaniadau ei gydoeswr, y tywysog Llywarch Hen. Pan yn un ar ddeg a deugain mlwydd oed gadawodd y fyddin, ac ymneillduodd i dawelwch crefyddol Bangor, lle yr appwyntiwyd ef yn fuan wedi hyny gan y brenin Rhun i'r swydd uchel o abad neu lywydd y fynachlog. Yn Mangor Illtyd, yn Siluria, yr oedd wedi derbyn ei ddysgeidiaeth; a daeth cyn hir yn dra hysbys, fel y gwŷr eglwysig Prydeinig y sonia Bede am danynt, am ei wybodaeth eang yn yr Ysgrythyrau, ac am ei fedrusrwydd i'w cymhwyso. Un o'r myfyrwyr a fu yn derbyn ei addysg dano ef oedd Tysilio, esgob Llanelwy—awdwr hanesiaeth eglwysig Brydeinig y dywedir ei bod ar gael mewn llawysgrif mor ddiweddar a'r flwyddyn 1600, ond a gollwyd wedi hyny. Sefydlodd amryw eglwysydd. Yr oedd y dosbarth Arthuraidd o esgobion ac ysgolheigion enwog, oddi eithr ychydig eithriadau, wedi pasio heibio; ond yr oedd gwŷr galluog eto yn aros i gadw i fyny anrhydedd eu gwlad ac annibyniaeth eu heglwys. Yr oedd Dyfrig, Dewi, Teilo, Padarn, Cyndeyrn, Asaph, Samson, Illtyd, Catwg, Gildas, Cybi, Beuno, Cawrdaf—enwau pa rai a gyfansoddant oes euraidd yr Eglwys Gymreig—wedi eu casglu at eu tadau. Cynnrychiolid hwynt, pa fodd bynag, yn anrhydeddus gan eu hysgolheigion a'u dilynwyr:—Ceneu, archesgob Caerlleon a Thŷ Ddewi; Oudoceus, esgob Llandaf; Tysilio, esgob Llanelwy; Mygnach, prifathraw Bangor Cybi (Caergybi); Deiniol neu Daniel, esgob Bangor ar y Menai; Cynhaiarn, esgob Llanbadarn; Morgan, esgob Morganwg, ac ereill. Gwrthododd Ceneu, archesgob Caerlleon, gydnabod hawl Awstin hyd yn oed i ofyn caniatad i ymddyddan â'r esgobion Prydeinig; ac ni ymostyngodd i erfyniad Oudoceus dros oddef i'r ail ymddyddan gymmeryd lle nes derbyn sicrwydd na ddeuai Awstin i derfynau ei dalaeth ef. Yna efe a nododd Dunawd, abad Bangor is Coed, fel dirprwywr, i fyned gydag esgobion Llanelwy, Bangor, Padarn, Llandaf, Henffordd, Caerwrangon, a Morganwg, i fyned i gyfarfod Awstin. Ymddengys fod yr esgobion Cymreig yn awyddus am roddi gwrandawiad diduedd i Awstin; ond yr oedd ynddynt ammheuon am rasusau Cristionogol y mynach. Er mwyn cael boddlonrwydd ar y mater hwn, aethant ar ymweliad at Beuno, yr hwn a breswyliai ar y pryd yn Berriew, sir Drefaldwyn, ar lan yr Hafren. Yr oedd i'r gŵr hwn gymmeriad uchel am sancteiddrwydd diragrith a phwyll. Ar ol gwrandaw arnynt yn myned dros yr achos, atebodd Beuno, "Os ydyw Awstin yn ŵr Duw, eich dyledswydd fel esgobion Cristionogol ydyw gwrandaw arno." "Dyna ydyw y cwestiwn," ebe yr esgobion: "pa fodd y mae i ni wybod ei fod mewn gwirionedd yr hyn y mae yn hòni ei fod?" "Dywed yr Arglwydd, (atebodd Beuno) 'Cymmerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf; canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon!' Os ydyw Awstin wedi derbyn dysgeidiaeth gan Grist, y mae yn addfwyn a gostyngedig o galon, ac ni ewyllysia ddodi arnom un iau nad yw yntau ei hun yn ei dwyn. Ond os ydyw yn falch a ffroenuchel, nid ydyw yn was i Grist, ac nid ydym i gymmeryd un sylw o'i eiriau." "Wrth ba safon y mae i ni benderfynu ei ostyngeiddrwydd neu ei falchder?" "Gadewch iddo fyned yn gyntaf gyda'i gyfeillion i'r lle y mae y gynnadledd i gael ei chynnal. Os cyfyd efe ar ei draed wrth i chwi agoshau ato, rhoddwch wrandawiad astud iddo; os na wna, gwrthodwch ei wrandaw ar unwaith." Cyrhaeddodd Awstin i'r man penodedig yn brydlawn. Yr oedd y dull yn mha un y daeth yn dra anghymhwys i ennill serch y Cymry; canys, yn ol tystiolaeth Bede, efe a ddaeth mewn gorymdaith, gyda chroes arian, ac arni ddarlun o'n Hiachawdwr—yr hon a ddilynid gan luaws o greiriau saint, gan gadarnhau trwy hyn yr argraffiadau oedd ar feddyliau y Prydeiniaid mai math o baganiaeth oedd y grefydd newydd. Agoshaodd yr esgobion Prydeinig a Dunawd, ar ol cyrhaedd i'r lle, yn cael eu blaenori gan y tywysog Brochwel Ysgythrog, yr hwn oedd yn awr mewn gwth o oedran, at y gadair yn mha un yr eisteddai Awstin, yn araf; ond ni roddodd y mynach un arwydd ei fod yn ymwybodol o'u presennoldeb. Ni chyfododd ar ei draed i'w cyfarch. Penderfynodd yr esgobion eu barn am gymmeriad personol Awstin ar unwaith oddi wrth yr ymddygiad hwn. "Yr oedd y Prydeiniaid," ebe Bede, "yn dra digllawn, a phenderfynasant wrthwynebu Awstin pa beth bynag a gynnygiai." Y mae yn sicr, pa fodd bynag, ddarfod i'r esgobion wrandaw y cyfan ag oedd gan y mynach i'w ddywedyd wrthynt, cynnwysiad yr hyn a adroddir yn y geiriau canlynol gan Bede:—"Gan weled eich bod yn gweithredu mewn llawer o bethau yn groes i'n harfer ni, ac hyd yn oed i arfer yr Eglwys Gyffredinol; eto os ufuddhewch i mi yn y tri pheth hyn—bod i chwi gadw y Pasc yn ei amser priodol; bod i chwi weinyddu yr ordinhad o fedydd yn ol dull yr Eglwys sanctaidd Rufeinig ac Apostolaidd; a bod i chwi bregethu gair Duw gyda ni i'r Anglo-Saxoniaid —nyni a oddefwn bob peth arall a wneir genych gydag amynedd, er eu bod yn wahanol i'n harferion ni."

Pa ddigofaint bynag a arddangoswyd gan y gwŷr lleyg Prydeinig ar yr achlysur nodedig hwn, ymddygodd yr esgobion yn deilwng o'u proffes Gristionogol. Ymresymai Dunawd, eu lladmerydd, yn helaeth ar bob pwnc a ddygid yn mlaen gan Awstin, gan ddyfynu Ysgrythyrau a hanesiaeth eglwysig yn erbyn eu haddef. Parhaodd y gynnadledd am chwe diwrnod, yn ystod pa un y deuai yn fwy eglur yn barhaus mai y peth a olygai Awstin wrth "undeb catholicaidd" oedd ymostyngiad i'r pab fel penaeth y ffurf newydd o Gristionogaeth ag yr oedd Rhufain ar y pryd yn llithro iddi. Ni sonir un gair, gan hyny, yn atebiad diweddaf a phenderfynol yr esgobion Prydeinig am dri chynnygiad Awstin, ond syrthiant yn uniongyrchol ar wir bwnc y ddadl. Dyma yr atebiad; a darllenwyd ef yn mhresennoldeb y tyrfaoedd ymgynnulledig gan Dunawd:—"Bid hysbys a diogel i chwi ein bod ni oll, un ac arall, yn ufudd ac yn ostyngedig i Eglwys Duw, ac i'r pab o Rufain, ac i bob cywir

fodd bynag, cymmerodd Edwin ei fedyddio, a bedyddiwyd 12,000 o wŷr ar yr un adeg. Os dewisa rhywun wybod pwy a'u bedyddiodd, Rhun ap Urien oedd y neb a wnaeth hyny; a pharhaodd am ddeugain niwrnod i fedyddio holl genedl yr Ambroniaid yn ddibaid, a chredodd lluaws yn Nghrist trwy ei waith yn pregethu." Efengyleiddiwyd Essex a dwyreinbarth Lloegr, ar ol eu gwrthgiliad, yr ail waith—neu yn hytrach y waith gyntaf—yn effeithiol gan Finan; ac ar ol hyny, trwy gymhorth Chad, chwanegwyd Mercia, neu Ganolbarth Lloegr, at faes ei lafur.

Ond nid yn Mhrydain yn unig y parhaodd yr Eglwys Brydeinig i ymeangu; ond ffurfiodd gynllun cenadol, a chariodd ef allan, i efengyleiddio y Cyfandir, ac hyd yn oed Italy; a chynnyrchodd ganlyniadau llawn mor bwysig yn y gwledydd hyny ag a gynnyrchodd cenadaeth Awstin yn mysg y Saxoniaid. Cychwynodd nifer o genadon, yn dwyn gyda hwynt athrawiaethau a dysgyblaeth yr Eglwys Brydeinig Wyddelig, mewn llong o'r Iwerddon. Derbyniodd eu harweinydd, Columban, yr hwn a anwyd yn nhalaeth Leirster—B. A. 560—ei ddysgeidiaeth yn mynachlog Wyddelig fawr Bangor, yr hon a gynnwysai 3,000 o fynachod, dan arweiniad Congal, ei sylfaenydd. Croesodd Columban y môr, gan benderfynu ymwahanu oddi wrth bethau daiarol trwy adael ei wlad, yn ol esampl Abraham, gyda 12 o gymdeithion—B. A. 589. Daeth i Brydain yn gyntaf, yna aeth drosodd i Gâl. Yr oedd wedi bwriadu pregethu yr efengyl i'r cenedloedd paganaidd tu hwnt i derfynau y Ffranciaid; ond gwelodd oddi wrth ansawdd adfeiliedig crefydd a dysgyblaeth yn Gâl, fod yn y wlad hono gyflawnder o waith iddo; ac yn unol â gwahoddiad Gantrum, brenin Burgundy, efe a ymsefydlodd yn Gâl. Gan wrthod cynnygiad y brenin o le gwell, efe a ymsefydlodd yn y Vosges—talaeth oedd wedi bod yn amser y Rhufeiniaid mewn cyflwr amaethyddol rhagorol, ac yn boblogaidd ei phreswylwyr, ond oedd wedi myned eilwaith yn anialwch. Yn y lle hwn efe a sefydlodd, y naill ar ol y llall, dair o fynachlogydd, Anegray, Juxueil, a Fontaines. Dyoddefodd y cenadon galedi mawr am ychydig o amser. Ni byddai ganddynt yn aml am ddyddiau un math o ymborth ond llysiau gwylltion a rhysgl coed. Yn raddol, gwnaeth eu bywyd caled a hunanymwadol argraff ar feddyliau pobl y gymmydogaeth. Edrychid arnynt gyda pharch, a daeth eu hardal yn boblogaidd cyn hir. Llanwyd eu mynachlogydd yn gyflym gan fyfyrwyr, y rhai a dynid yno gan y gwahaniaeth mawr oedd rhwng Columban a'i gymdeithion a'r offeiriaid brodorol. Wedi bod yn Burgundy am ugain mlynedd, symmudodd Columban i Metz, yna i Bregenz, ac yn ddiweddaf i Lombardy, lle y sefydlodd fynachlog enwog Bobbio neu Bovium, yr hon a ddaeth yn eisteddle dysgeidiaeth gogleddbarth Italy. Yma y bu farw, yn B. A. 615. Daeth Juxeuil, yn Burgundy, hefyd yn fam lluaws o fynachlogydd. Sefydlodd St. Gall hefyd, hoff ddysgybl Columban, fynachlog, yr hon a elwir ar ei enw, a'r hon a ddaeth yn dra enwog. Anrhydeddir y sant hwn fel apostol Switzerland. Gwelir oddi wrth hyn mai eglwysi o darddiad Prydeinig ydyw eglwysi Lombardy, Switzerland, a Burgundy.—(*Baronius; Gildas; the Iolo MSS.; Liber Landavensis; Alford; Bede's Eccles. Hist.; Remains of the Arthurian Era; Rees' Welsh Saints; Williams' (Ab Ithel) Ecclesiastical Antiquities of the Cymry; Roman and Greek Menologies and Martyrologies; Josceline's Life of St. Patrick; Sulpicius Severus Vita St. Martini; Cressy; Archbishops Usher and Parker's Works; Armorica Sacra; Neustria Sacra; Life of St. Columban; Letters of St. Gregory; Saxon Chronicle; Joame's Anglo-Saxon Church; Mignet's Patres Ecclesiastici; Nicholas Trivet; History of the Monastery of Bobbio and St. Gall; Collection of Kymric MSS. in the British Museum; Sir Winstone Churchill's Divi Britannici; Works of Bishop Tanner; Stillingfleet; Bargess; Smith's Early Religion of Britain; Monumenta Britannica, published by the Record Commission; Moncæus Regia Domus Britannica,* &c.)

1. **DUMAH**, [דומה]: llwyth a gwlad yr Ismaeliaid yn Arabia: *Gen.* xxv. 14; *Esa.* xxi. 11. Y mae yn ddiammheu mai yr un oedd ag a elwid gan yr Arabiaid yn Dumah Garegog, a Dumah Syriaidd, yr hon a safai ar gyffiniau anialdiroedd Arabia a Syria, gydag amddiffynfa.

2. DUMAH hefyd oedd enw dinas yn llwyth Iudah (*Ios.* xv. 52), yr hon a rydd Eusebius a Jerome ddwy filltir ar bymtheg Rufeinig o Eleutheropolis, yn Daroma.

Tybia Mr. Taylor mai diareb ddwyreiniol a arferid yn fynych sydd yn yr ymadrodd tra thywyll sydd yn *Esa.* xxi. 11, 12, lle y cyfeirir at Dumah, yr hwn a gyfleithir yn y Beibl Cymraeg fel hyn:—"Baich Dumah. Arnaf fi y mae yn galw o Seir, Y gwyliedydd, beth am y nos? y gwyliedydd, beth am y nos? Dywedodd y gwyliedydd, Daeth y bore a'r nos hefyd: os ceisiwch, ceisiwch: dychwelwch, deuwch." Y mae Mr. Taylor yn cynnyg y cyfieithiad canlynol, i iaith gyffredin y dyddiau hyn. Tybier fod rhywun yn gofyn i wyliedydd wrth fyned yn ei gylch—

"Y gwyliedydd, beth ydyw hi o'r gloch?" Yntau a etyb,
"Mae hi yn tynu at y bore; ond pery y nos yn hir eto."
Os gofynwch eilwaith; yn fwy cywir, yn fwy manwl, "Un o'r gloch:—deuwch."

Dichon, eb efe, y gwena yr ysgolor Hebraeg at y cyfieithiad rhyfedd yma; ond gall ymchwiliad i'r ddammeg ddangos ei briodoldeb. Gellid ei gosod allan ar ddull holiad ac ateb; megys,

*Holiad.* "Tydi, sydd ar dy wyliadwriaeth, beth a ragweli di am Dumah?"
*Ateb.* "Tywyllwch parhaus, trueni, gwae."
"Na, meddaf; beth yr wyt ti yn ei ragweled?"
"Yr wyf yn ateb eto, Canol nos!—digon."

Tuag at ddosranu y testyn, rhaid i ni ystyried y dylid tybied mai estron ydyw y llefarydd (neu fod ei briodiaith yn cael ei dynwared), heb fedru cynanu y geiriau Hebraeg yn groew a hylithr; a dyna yr achos o'r amwysedd sydd yn cael ei chwareu ar y geiriau. Felly, yn lle dywedyd בע (*bow*), dywed בעיר (*boiw*); ac yn lle dywedyd שבע (*shebo*), efe a etyb שבו (*shebw*)—dichon mai y cananiad yma oedd gan drigolion Dumah: y mae *shebw* yn arwyddo dychweliad, a *shebo* yn arwyddo saith. O'i ddeall fel hyn, goddefai yr ymadrodd y cyfieithiad canlynol:—

"Baich (*drygfyd*) Dumah.
"Y mae llais yn galw arnaf fi o fynydd Seir: *gan ddywedyd,*
Y gwyliedydd, pa *amser, neu awr,* o'r nos ydyw?
Y gwyliedydd, pa *amser, neu awr,* o'r nos ydyw?
*Yr wyf yn ateb,*
Dynesa y bore; ond *y mae yn awr* YN ENWEDIG *yn ddyfnder* nos.

Digitized by Google

Os gofynwch, gofynwch—*h.y., yn benderfynol, eilwaith, gofynwch pa awr ydyw?*
*Yr wyf yn ateb,*
Y seithfed *awr!*—deuwch."

Y mae y gair גם (*gam*), a gyfieithir yma *yn enwedig*, yn arwyddo digon; yn bendant, &c. Yn awr, ymddengys fod yr ateb garw, byr yma, yn berffaith gydweddol â nodwedd gwyliedydd, yr hwn nid ydyw ond yn anfynych y bod mwyaf moesol a gyfarfyddir; a chan mai y *seithfed* awr o'r nos oedd y nesaf ar ol hanner nos, arwydda y prophwyd fod ganddynt amser hir i ddwyn dyoddefiadau, cyn i fore gwaredigaeth wawrio arnynt. Er hyny, efe a ddeuai: yr oedd canol nos trallod wedi myned heibio; ond nid er's mwy nag awr; a chyda hyn y mae efe yn gadael y mater. Y llais sydd yn ymofyn, gan hyny, yw llais dyoddefydd; ac fe allai mai dyoddefaint oedd sefyllfa Dumah y pryd hwn; neu fe allai mai cam gynaniad (hyny yw, cynaniad estronol) oedd y Dumah yma ei hun, am Idumea, neu Edom. Sylwer ar y diffyg amynedd a amlygir yn ail adroddiad a thaerni yr ymofyniad.

Y mae y cyfieithiad yma yn arwyddo fod *oriau* dydd a nos yn adnabyddus yn amser Esaiah; ond gan mai yn Daniel y cyfarfyddir â'r gair *oriau* gyntaf, ymddengys fod hyny yn ffurfio gwrthwynebiad i'r cyfieithiad yma. Pa fodd bynag, symmudir y gwrthwynebiad yma pan gofir fod deial Ahaz wedi ei rhanu yn oriau, ac yn cael ei defnyddio gan y prophwyd hwn [gwel DEIAL AHAZ]. Sylwer, gan mai y chweched awr o'r dydd bob amser oedd hanner dydd, felly y chweched awr o'r nos oedd hanner nos; o ganlyniad, atebai y seithfed mewn rhan i un o'r gloch gyda ni, pa un bynag ai dydd ai nos. Byddai y dull o sicrhau *gwyliadwriaethau* y nos (yr hyn a geir mor fore ag Exodus) yn ateb y dyben i sicrhau yr oriau hefyd; ond os cymmerir yr ystyr i arwyddo rhyw gyfnod neu raniad o'r nos, cytuna â'r meddylddrych a gynnygiwyd. Yr ydym yn gweled fod gwyliedydd yn myned o amgylch y ddinas yn y nos dan deyrnasaid Solomon, yn mhell cyn amser Esaiah, oddi wrth *Can. Sol.* iii. 3: hefyd, gwel *Salm* cxxvii. 1.

Cyfieitha Mr. Briscoe y geiriau fel hyn:—

"YR YMADRODD YN NGHYLCH DUMAH

Arnaf fi y mae yn galw o Seir,
Gwyliedydd, beth oddi wrth y nos?
Gwyliedydd, beth oddi wrth y nos?
Fe ddywed y gwyliedydd,
Yn dyfod y mae 'r bore, ac hefyd y nos,
Os ceisiwch, ceisiwch; dychwelwch, deuwch."

DUNCERIAID, [*Dunkers*, neu *Tunkers*, set trochyddion, oddi wrth *tuncen* (Alm.), trochi, ymsuddo]: dechreuodd yr enwad neu y sect yma, a elwir gan Buck yn Fedyddwyr y seithfed dydd, o gylch 1724. Sefydlwyd ef gan un Conrad Beissel (Peysel?), Almaenwr, yr hwn a dderbyniodd addysg reolaidd yn Halle, ac a gymmerodd urddau fel gweinidog; ond o blegid iddo gael ei erlid am ei olygiadau ar rai pynciau duwinyddol, efe a adawodd Ewrop, ac a ymsefydlodd mewn lle neillduedig dymunol, o fewn deng milltir a deugain i Philadelphia, yn America, er mwyn cael mwy o ryddid at ymarferiadau a myfyrdodau crefyddol. Tynodd cywreindeb amryw ddilynwyr ato yn fuan; ac effeithiodd ei ddull syml a deniadol i'w gwneyd yn broselytiaid iddo. Sefydlasant drefedigaeth fechan yno yn fuan, a alwyd Euphrata, mewn cyfeiriad at yr Hebreaid y rhai a arferent ganu Salmau ar lan yr afon Euphrates. Mae y ddinas fechan a adeiladwyd yma yn driongl, ac y mae wedi ei hemio o amgylch yn dra rheolaidd, â merwydd a choed afalau. Yn ei chanol yr oedd perllan fawr iawn; a rhwng y berllen a'r rhesi coed allanol, yr oedd tai coed wedi eu hadeiladu, yn y rhai y preswyliai y ddau ryw ar wahân. Nid oedd nifer y trigolion yn 1777 dros 500; ond y maent wedi cynnyddu yn ddirfawr er hyny hyd yn awr. Y maent yn arfer trochiad *triol*, sef trochiad dair gwaith; a chan eu bod yn cyflwyno eu hunain i'r ordinhad mewn dull neillduol, gan grymu eu penau yn mlaen, a phenlinio, fe allai yn y dwfr, fel gweithred o addoliad, a gosod eu cyrff mewn agwedd debyg, pan yn y dwfr, i un am ymdreiglo, galwyd hwy mewn gwawd yn Ymdreiglwyr (*Tumblers*). Y mae hyn yn fwy tebyg, am yr ymddengys y dilynir eu bedydd âg arddodiad dwylaw a gweddi yn y dwfr.

Y mae ganddynt wisg neillduol iddynt eu hunain, sef hugan neu gôb hir, yn cyrhaedd i lawr hyd eu sodlau, a gwregys am eu canol, a chap neu gwcwll yn hongian dros eu hysgwyddau, fel gwisg mynach Dominicaidd. Nid yw y meibion yn eillio eu penau na'u barfau. Y mae i'r meibion a'r merched breswylfeydd ar wahân, a llywodraeth berthynol iddynt eu hunain. Er mwyn hyn y maent wedi codi dau adeilad coed mawr—un i frodyr, a'r llall i chwiorydd y gymdeithas; ac y mae gwledd-ystafell yn mhob un o honynt, a lle at addoliad cyhoeddus; canys nid yw y brodyr a'r chwiorydd yn cydgyfarfod hyd yn oed yn eu haddoliadau. Yr oeddynt yn arfer byw ar wraidd a llysiau yn benaf, gan na chaniatäai rheolau eu cymdeithas iddynt gael cig, oddi gerth ar achlysuron neillduol, megys pan y cymmeront yr hyn a alwant yn gariadwledd: y pryd hyny y bydd y ddau ryw yn ciniawa yn nghyd mewn ystafell eang, ac yn bwyta cig defaid, ond nid unrhyw gig arall. Y maent yn sicrhau mainc yn mhob un o'u celloedd bychain, i wasanaethu fel gwely iddynt, a phlocyn bychan o bren yn obenydd. Nid yw y Dunceriaid yn goddef cyfeillach rhwng y brodyr a'r chwiorydd cyn priodi; a phan y priodant, y maent yn symmud o'r sefydliad, ond yn cadw eu cyfeillach â'r gymdeithas. Y maent yn caniatau priodi, meddai Buck, ac yn cynnorthwyo eu brodyr tlotaf ar eu mynediad i'r sefyllfa briodasol; ond er hyny, y maent yn ystyried fod aros mewn gwyryfdod yn rhinwedd.

Prif bwnc eu cred ydyw, mai trwy benyd a phoenydiau yn y bywyd hwn yn unig y mae dedwyddwch dyfodol yn gyrhaeddadwy; fod Iesu Grist, trwy ei ddioddefiadau teilwng, wedi dyfod yn Waredwr i ddynolryw yn gyffredinol, fel y gall pob un o'r hil ddynol, trwy fywyd o gymmedroldeb ac ymattaliad, "weithio allan ei iachawdwriaeth ei hun." Cyhuddir hwy o ddal yr athrawiaeth o orhaeddiant, gan ddadgan y gall dyn wneuthur mwy nag a ofyn cyfiawnder neu weddusder ganddo, ac y gellir cymhwyso y gormodedd hyn o weithredoedd da a wnelo un tuag at achub ereill. Maent yn gwadu tragywyddol gospedigaeth, ac yn credu fod eneidiau y cyfiawnion yn cael eu rhoi ar waith i bregethu yr efengyl i'r rhai na chawsant ddadguddiad yn y byd hwn. Y maent yn credu am y Sabbath Iuddewig, y flwyddyn Sabbathol, a blwyddyn yr Iwbili, mai cysgod ydynt o gyfnodau ar ol farn ddiweddaf, pan y bydd yr eneidiau a fydd wedi ymostwng mor bell ag i gydnabod Duw a Christ yn cael eu derbyn i ddedwyddwch; tra

Digitized by Google

y bydd y rhai a barhant yn gyndyn yn cael eu cadw mewn cospedigaeth hyd y prif gyfnod a ddynodir gan yr Iwbili, pan y gwneir pawb yn ddedwydd am byth. Maent hefyd yn gwadu cyfrifiad o bechod Adda i'w hiliogaeth. Felly y maent yn Fedyddwyr cyffredinol ac yn Gyffredinolwyr. Y maent yn ymwrthod â thrais hyd yn oed mewn hunanamddiffyniad; a goddefant eu twyllo a'u hysbeilio, yn hytrach na myned i gyfraith; ac y maent yn elynion proffesedig i ryfel a chaethwasanaeth:—o blegid yr hyn y galwyd hwy yn Dduncеriaid *diniweid*. Gwel CYFFREDINOLWYR.

Mae eu llywodraeth a'u dysgyblaeth eglwysig yr un a'r Bedyddwyr Seisonig, oddi gerth y caniateir i bob brawd lefaru yn y gynnulleidfa; ac ordeinir yr ymadroddwr goreu yn gyffredin i fod yn bregethwr. Y mae ganddynt ddiaconiaid a diaconesau, wedi eu dewis o blith eu hynafgwyr a'u hynafwragedd, yn enwedig hen wragedd gweddwon a chynghorwyr, y rhai a oddefir oll i arfer eu dawn yn barhaus neu yn achlysurol. Y mae aelodau y gymdeithas yn awr wedi eu gwasgaru yn fawr, ac nid ydyw yr aelodau sydd yn y gwledydd cymmydogaethol yn gwahaniaethu dim, o ran eu gwisg a'u moesau, oddi wrth eu cymmydogion, er eu bod yn dal ffydd eu tadau, ac yn nodedig o ddichlynaidd eu bywyd a'u hymarweddiad —(*Han. Adam's View; Caspipina's Lett.; Winchester's Dial.; Williams' All Rel.; Evans' Sketch; Buck's Theol. Dict.*, &c.)

DUR, [דוּר]. malaen, balaen, mael. Rhyw deirgwaith neu bedair y ceir y gair *dur* yn y Beibl Cymraeg; sef, yn 2 *Sam.* xxii. 35; *Iob* xx. 24; *Salm* xviii. 34; *Ier.* xv. 12. Yr un gair sydd yn yr Hebraeg am ddur a phres; a phres y cyfieithir ef fynychaf; er esampl, *Deut.* viii. 9; *Iob* xxviii. 2. Yr oedd yr hynafiaid yn gallu tymmeru a chaledu pres yn dra nodedig, nes ei ddwyn bron i'r un ansawdd a'n dur ni, ac o hwn y byddent yn fwyaf cyffredin yn gwneuthur bwäau; a thybia rhai mai at y mettel hwn y cyfeiria y gair mewn tair o'r pedair adnod sydd yn son am ddur. Yr oedd troad haiarn yn ddur hefyd yn hysbys er yn dra bore. Tybia Strabo [llyfr xii.] mai y Chalibiaid—pobl yn byw ar ororau y Môr Du, i'r gogledd o Iudea—a gafodd allan y gelfyddyd o wneuthur dur gyntaf; ac y mae rhai yn meddwl mai at hyn y cyfeiria y geiriau yn *Ier.* xv. 12; "A dyr haiarn yr haiarn o'r gogledd, a'r dur?" Tybia rhai mai wrth "yr haiarn o'r gogledd" yma, y meddylir, haiarn wedi ei barotoi yn y gogledd o Iudea, gan y Chalibiaid.

Haiarn ydyw dur wedi ei gyfuno â chyfran fechan benodol o garbon (*ulyf*). Ei enw mewn fferylliaeth ydyw creisured haiarn (*carburet of iron*). Y mae y swm o haiarn a charbon yn amrywio mewn dur o wahanol ansoddau; ond yn y dur a ddefnyddir i ddybenion cyffredin, prin y mae mwy o garbon ynddo na dwy ran o gant, ac yn gyffredin y mae llai na hyny.

Er mai o haiarn y gwneir dur, eto y mae ynddo ansoddau gwahanol, sydd yn ei wneyd yn werthfawrocach na haiarn. Am ei fod yn galetach, fe oddef ei gaboli yn fwy coeth, a chymmer ei loewi yn ddisgleiriach. Ar ol iddo gael ei dymmeru, y mae yn ystwythach, ac y mae hefyd yn fwy soniarus. Y mae effaith y maen tynu (*loadstone*) yn wanach arno, gan ei fod yn derbyn y nerth tynfaenol (*magnetic*) yn arafach; ond y mae yn ei gadw yn hwy. Pan y rhoddir ef mewn awyr laith, nid ydyw yn casglu rhwd mor fuan a haiarn.

Tröir pob haiarn yn ddur trwy ei boethi i raddau penodol am amser penodol gyda swm o ddylosg (*charcoal*). Cydnabyddir yn gyffredin yn awr mai cyfansawdd ydyw dur o haiarn a dylosg, gan fod haiarn meddal yn cynnwys rhan helaeth o ddylosg, ac nid yw yn sicr mewn un modd fod y swm yn chwanegu trwy y gorchwyl o wneuthur y dur; am hyny rhaid penderfynu fod rhyw undeb agosach yn cymmeryd lle rhyngddynt pan dröir haiarn yn ddur. Heb helaethu ar natur troad haiarn yn ddur, rhoddwn ddarluniad byr o'r dull y gwneir ef yn y sefydliad mwyaf sydd yn y wlad hon, sef yn Sheffield.

Haiarn Sweden a Rwssia sydd wedi cael ei ddefnyddio yn benaf hyd yn hyn i wneuthur y dur goreu. Nid yw yn gwbl hysbys pa ham y mae yr haiarn tramor yn rhagori ar haiarn Prydain at wneyd dur, os nad o blegid fod y blaenaf yn cael ei gymmeryd o fŵn haiarn tynfaenol (*magnetic*), tra y ceir haiarn Prydain gan mwyaf o ulyfaint (*carbonate*) haiarn anmhur, a elwir mŵn haiarn priddgistol (*argillaceous*), yr hwn yw tryegrid haiarn; a gellir lleihau y naill a'r llall trwy ddefnyddio glo neu losglo a ffurfir o hono.

Y mae wyth math o ddur yn cael eu parotoi, a nodir â gwahanol lythyrenau, fel talfyriadau o enwau celfyddydol ar y gwahanol fathau.

Y gweithrediad cyntaf mewn gweithfeydd dur mawrion ydyw tori y bar haiarn yn hydau penodol, gan adael digon o le yn y llestr i ymeangiad yr haiarn, yr hyn a fydd yn chwech ugeinfed ran. Y mae y llestri yn y rhai y rhoddir y barau i'w poethi yn gyffredin yn ddeuddeg troedfedd o hyd, ac yn cael eu rhanu yn ddau bot neu gafn, ar waelod y rhai y taenir dylosg nes y byddo gryn fodfedd o dew, ar hyn gosodir plyg o farau haiarn ar eu gwastad; yna rhoddir plyg arall, tua thri chwarter modfedd, o ddylosg, a phlyg o haiarn ar hyny, &c., nes y llenwir y cafnau: yna gorchuddir hwy â phridd haiarnaidd a geir o'r meini malu (*grinding stones*) i'r trwch o gylch wyth modfedd. Cauir holl agoriadau y ffwrn â phriddfeini rhyddion wedi eu plastro â chlai tân. Yna goleuir y tân, ac yn mhen pedwar diwrnod a phedair nos, bydd y ffwrn yn ei llawn wres, a chedwir hi felly am amryw ddyddiau, yn ol graddau y caledwch a ofynir. Er mwyn bod yn alluog i brofi cynnydd y carboneiddiad, gadewir twll yn un o'r cafnau yn agos i'r canol, a rhoddir tri neu bedwar o fariau yn y ffwrn yn y fath fodd fel y bydd eu penau allan trwy y twll hwn, ac ar ol y chweched dydd tynir un allan. Os na bydd yr haiarn y pryd hyny wedi carboneiddio digon, parheir poethiad y ffwrn am o ddau i bedwar diwrnod yn mhellach; tynir bar allan bob deuddydd; a phan y byddo yr haiarn wedi llwyr newid, rhoddir pentwr o lo mân ar y tân, a gadewir y ffwrn i losgi allan, a gofyn bedwar diwrnod ar ddeg i oeri digon i ddyn fyned i mewn i'w gwaghau o'r dur.

Y mae o'r pwys mwyaf i'r cafnau gael eu cadw yn gwbl awyrdyn (*air-tight*), gan y byddai i'r hollt lleiaf agor pan fyddo y ffwrn yn boeth, a gollwng awyr i mewn: parai hyn rwystr i'r gweithrediad, a rhoddid y dur yr effeithid arno fel hyn heibio i'w ail wneuthur.

Nis gellir rhoddi unrhyw reolau penodol ger bron i gynnorthwyo yr anghyfarwydd i farnu graddau caledwch bar o ddur; ond y mae ym-

Digitized by Google

arferiad yn dysgu y gweithwyr i wahaniaethu graddau caledwch dau ddernyn o ddur yn lled gywir. Mae y wybodaeth hon o'r pwys mwyaf i'r gwneuthurwr dur, er ei gynnorthwyo i wybod pa fath ddur o ran tymmeredd (caledwch) i'w ddefnyddio at wahanol arfau ac offerynau.—(*Penny Cycl.; Encycl. Britannica; The Museum of Science and Art, &c.*)

**DURA**, [דורא; Δειρά]: y gwastadedd ar ba un y gosododd Nebuchodonosor y ddelw aur (*Dan.* iii. 1). Dywed rhai, mai lle ydoedd ger llaw Tekrit, ychydig is i lawr, ar lan aswy yr afon Tigris [*Layard's Nin. & Bab.*, td. 469], lle y mae yr enw *Dur* eto ar gael. Ond, 1. Y mae yn debygol na bu y darn tir hwn erioed yn perthyn i Babilon. 2. O'r hyn lleiaf, y mae yn rhy bell o'r ddinas i fod yr un man a'r lle yn yr hwn y gosodwyd y ddelw; canys yr oedd gwastadedd Dura yn *nhalaeth* Babilon; ac felly, yn nghymmydogaeth y ddinas. 3. Y mae yr enw *Dur*, yn ei ystyr diweddar, yn gymhwysiadwy at unrhyw wastadedd. Rhydd M. Oppert wastadedd Dura ar y tu de-ddwyrain i Babilon, yn nghymmydogaeth bryn Dowair neu Dúair. Darganfyddodd y teithiwr hwn yn y lle yma safle cerfddelw anferth o ran maintioli, ac ystyria mai llygriad ydyw yr enw presennol o'r hen enw —Dura.

**DURSIAID**, neu **DERUZIAID**: pobl ffyrnig oedd gynt yn preswylio diffeithleoedd mynydd Libanus; y rhai, yn yr unfed ganrif ar ddeg, a ymladdent yn y rhyfel sanctaidd. Y mae profion eu bod yn deall rhai o egwyddorion Cristionogaeth, ac fe allai eu bod wedi gwneyd proffes gyffredinol o honi; ond yr oeddynt yn cadw eu daliadau neillduol mor ddirgel, fel nas gellir sicrhau yn awr beth oeddynt. Pa fodd bynag, y mae amryw amgylchiadau yn tueddu rhai i gasglu mai hiliogaeth yr hen Ddrusiaid boreuol ydynt. Cesglir hyn oddi wrth eu henw, eu preswylfod, eu nodwedd cyferbyniol, a'u casineb at y Tyrciaid; yr hyn y mae yn dra thebyg a barodd iddynt ymgymmeryd â'r fath ryfelgyrch, er nas gellir olrhain y peth yn hanesyddol. Tybia y Dr. Mosheim mai Manicheaid ydynt; ond y mae yn debycach iddynt gymmeryd eu syniadau anmherffaith am Gristionogaeth oddi wrth y dallbleidwyr a ymladdent yn eu croesgadau.

**DUW**. Am enwau Duw, gwel ARGLWYDD. Y mae pob crefydd yn seiliedig ar ryw syniad am Dduw; ac yn gyfatebol i natur y syniad hwn y mae natur a nerth ei dylanwad ar y rhai sydd yn ei derbyn. Natur a phriodoliaethau y duw a ddysgir gan unrhyw grefydd sydd yn penderfynu natur y grefydd hono. Ac i'r graddau y mae gwahanol grefyddau y byd yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd y mae eu duwiau yn gwahaniaethu. Er fod cenedloedd y ddaiar wedi colli gwir wybodaeth am Dduw, eto y mae rhyw syniad am fod neu allu uwch law iddynt yn gyffredinol iddynt oll. Pa beth ydyw ffynnonell yr ymsyniad cyffredinol hwn? Pa fodd y mae dyn yn cael y syniad cyntaf am Dduw? I hyn y mae rhai wedi ateb—1. Ei fod yn cael ei drosglwyddo trwy ddadguddiad pendant hanesyddol oddi wrth Dduw ei hunan, sef trwy y Beibl. Ond mewn atebiad i hyn, gellir dyweyd fod y syniad am fod goruchel ac ofnadwy yn fwy cyffredinol na'r Beibl; ac o ganlyniad, nad yw pob ymsyniad am Dduw yn seiliedig ar y Beibl, er fod gwybodaeth wirioneddol am dano felly. 2. Fod y profion naturiol am fod Duw yn rhoddi rhyw syniad am dano i'r rhai na chawsant un dadguddiad ysgrifenedig am dano. I hyn gellir ateb, nad oes un genedl mor isel mewn gwareiddiad nad oes rhyw ymdeimlad am fod goruwch iddynt, a hyny cyn iddynt fod yn alluog i gasglu hyny oddi wrth weithredoedd y greadigaeth trwy ymresymiad. 3. Fod darpariaeth yn nghyfansoddiad naturiol meddwl dyn yn flaenorol i bob addysg allanol, ac fel cymhwysder i dderbyn y cyfryw. Y mae cyffredinolrwydd crefydd o ryw natur yn mhob gwlad ac oes, pa mor anwar ac isel bynag y dichon i genedl fod, yn brawf nas gall dyn ddianc oddi wrth bob teimlad am Dduw yn flaenorol i unrhyw addysg allanol. Yr oedd yr athronwyr hynafol yn galw sylw neillduol at hyn—"Y mae pob dyn yn meddu ymsyniad am y duwiau" (πaντες ανθρωποι περι δεῶν εχουσιν υποληψιν.—*Arist. de Cœleo*, i. 3). "Canfyddodd Epicurus yn gyntaf fod y duwiau yn bod, o herwydd fod natur ei hun wedi argraffu ar feddyliau pawb syniad am danynt. O herwydd pa genedl neu pa bobl sydd nad yw yn meddu rhyw ragwybodaeth, yn annibynol ar addysg, am y duwiau—yr hyn a eilw Epicurus προληψιν; hyny yw, gwybodaeth flaenorol am beth yn y meddwl, heb yr hyn ni allem ddeall, nac ymofyn, na dadleu dim."—*Cic. de Nat. Deorum*, i. 16. Y mae y ffaith hon yn brawf fod rhyw fath o wybodaeth am un uwch law iddynt eu hunain yn etifeddiaeth gyffredinol dynolryw. Y mae syniadau dynion heb y Beibl yn ddiffygiol a chyfeiliornus; ond eto y mae ynddynt gredиniaeth naturiol am lywydd uwch law iddynt. Pe gofynid, Pa beth ydyw yr elfen hanfodol yn y syniad am Dduw sydd yn perthyn i wahanol grefyddau y byd? gellir ateb—Y maent oll yn priodoli iddo allu mawr, ac mai y gallu hwn sydd yn llywodraethu yr holl gyfnewidiadau sydd yn dygwydd i ddyn. Y mae yr eilunaddolwr iselaf wrth offrymu ei rodd yn dysgwyl naill ai llwyddiant yn yr helfa, neu waredigaeth oddi wrth afiechyd. Priodolai y Persiaid bob llwyddiant ac aflwyddiant i Ormutz ac Ahriman. Priodolai yr Indiaid, y Groegiaid, a chenedloedd ereill, y cyffelyb i'w duwiau hwythau.

Er fod ysgrifenwyr yn amrywio o barth i'r priodoldeb o ddweyd fod gan ddyn ddrychfeddwl cynnwynawl (*innate idea*) am Dduw, eto cytunant yn lled gyffredin i ddywedyd fod gan ddyn gyfansoddiad meddwl sydd yn ei arwain yn nghanol yr amlygiadau o Dduw yn y greadigaeth i synied am dano. Cydsynia y duwinyddion a'r athronwyr goreu â geiriau Calvin—"Y mae hadau crefydd wedi eu hau gan Dduw yn y galon, er nad ydynt yn cael mantais i egino, a thyfu, a dwyn ffrwyth fel y dylent." "Y mae y syniad sydd wedi ei argraffu ar feddwl dyn am Dduw yn annileadwy:" a thrachefn, "Y mae syniad am Dduwdod yn argraffedig ar bob meddwl."

Y mae y cwestiwn wedi ei ofyn ac wedi derbyn amrywiol atebion, A ellir olrhain y syniad am Dduw yn fwy neillduol i un rhan neu gynneddf o ysbryd dyn na'u gilydd? Y mae yn ddiau mai yn *nghydwybod* dyn y mae Duw yn dadguddio ei hun fwyaf uniongyrchol. Y mae dyn nid yn unig yn barnu ei weithredoedd yn dda neu yn ddrwg, ond y mae hefyd yn condemnio neu yn cymmeradwyo ei weithredoedd yn ol y farn fydd ganddo am danynt. Ond y mae y cyfryw ddedfryd yn tybied deddf, yn ol yr hon y bernir; a hyn drachefn ddim llai na thybied llywydd sydd

wedi gosod y ddeddf, a'r hwn a rydd ei ddedfryd mewn grym. Y mae dyn yn teimlo yn ei gydwybod fod un sydd uwch law iddo ei hun yn llefaru wrtho. Ni chondemniai ei hun pe gallai beidio; y mae hyn yn oleuni uniongyrchol iddo ei fod yn atebol i un uwch. Y mae *rheswm* dyn, yn enwedig i'r graddau y mae dyn dan lywodraeth ei gydwybod, yn ei arwain, yn unol â'r ymresymiad yn erthygl DUWINYDDIAETH NATURIOL, at Fod sydd uwch law pob peth crëedig. Y mae y *teimlad* o ymddibyniad sydd yn naturiol i ddyn, yn enwedig wrth ei gyssylltu âg ansicrwydd a chyfnewidioldeb pethau gweledig, yn creu syched yn ei enaid am un ag y mae "cadernid tragwyddol" yn eiddo iddo.

Y mae y posiblrwydd o adnabyddiaeth o Dduw yn seiliedig ar y ffaith fod ysbryd dyn yn ddeilliedig oddi wrth Dduw, ac wedi ei greu i Dduw. Y mae cyrhaedd adnabyddiaeth o hanfod Duw, *fel y mae ynddo ei hun*, yn anmhosibl. Y mae hyn yn tarddu, nid yn unig oddi ar anmhuredd moesol dyn, ond oddi ar anmhosiblrwydd naturiol y meddwl i amgyffred yr Anfeidrol. Byddai dyweyd fod dyn yn alluog i gyrhaedd adnabyddiaeth berffaith o hanfod Duw, yr un peth a dweyd ei fod o'r un hanfod a Duw. "Nid edwyn neb y Mab ond y Tad, ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab;" a hyny am fod y Tad a'r Mab o'r un hanfod a'u gilydd. Tystiolaeth y Beibl ydyw y gall dyn adnabod Duw, ond nid ei amgyffred: "Ni welodd neb Dduw erioed;" *Ioan* i. 18. "Yr hwn sydd yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod ato;" 1 *Tim.* vi. 16. Ar y llaw arall, priodolir gallu naturiol i'r paganiaid i'w adnabod (*Rhuf.* i. 19); ac o herwydd nad ydynt yn defnyddio y gallu hwnw, rhoddir hwynt i fyny i resymau ofer, ac i galon anneallus: *Rhuf.* i. 21. Trwy Grist y mae gwybodaeth achubol o Dduw yn gyrhaeddadwy: "Yr uniganedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd;" *Ioan* i. 18. Y mae yr Ysbryd Glân yn chwilio pob peth; ïe, dyfnion bethau Duw. a thrwyddo ef y mae y Cristion yn dyfod i wybodaeth am Dduw uwch law yr hyn sydd yn gyrhaeddadwy trwy ei alluoedd naturiol. Nid yw gwybodaeth eangaf y Cristion yn y fuchedd hon ond mewn rhan: "Yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir;" 1 *Cor.* xiii. 12.

Y mae darnodiad neu ddeffiniad athronyddol o Dduw yn anmhosibl;[1] o herwydd wrth ddeffinio unrhyw beth, yr ydys yn dyweyd ei fod yn perthyn i ryw ddosraniad uwch a mwy cyffredinol; ac hefyd, yr ydys yn nodi allan yr hyn sydd yn gwahaniaethu y gwrthddrych dan sylw oddi wrth y gwrthddrychau ereill sydd yn yr un dosraniad. Megys pan roddir darnodiad o ddyn, trwy ddyweyd ei fod yn greadur rhesymol, yr ydym yn ei osod yn y dosbarth *creadur*, yr hyn sydd yn eangach na dyn; ac yn priodoli iddo reswm, yr hyn sydd yn ei wahaniaethu oddi wrth bob gwrthddrych arall yn y dosbarth: ac y mae yn rhaid i'r dosraniad eangach a'r nôd gwahaniaethol fod yn fwy adnabyddus i ni na'r gwrthddrych yr ydys yn ei ddeffinio. Yn y modd yma y mae rhesymeg yn dyweyd wrthym pa beth ydyw yr hyn y byddys yn ymofyn yn ei gylch. Ond y mae yn anmhosibl gwneyd fel hyn â Duw; o herwydd nis gellir rhoddi y Tragwyddol a'r Anfeidrol dan un syniad neu ddosbarthiad eangach ac uwch. Ond er nad yw yn bosibl i greadur gynnwys Duw yn ei ddeffiniadau a'i resymeg, eto nid yw yn anmhosibl i ni er hyny gyrhaedd gwybodaeth gywir am dano.[2] Edrychwn pa fodd y mae y Beibl yn trosglwyddo i ni wybodaeth am y gwir Dduw, a ni a welwn ei fod yn y drefn hawddaf i ni ei ddeall a'i deimlo. Nid cyfundrefn o athrawiaethau wedi eu ffurfio yn unol â rheolau rhesymeg a gawn ni yn y Beibl; ond hanes cynnyddol am ymddygiadau Duw tuag at ddynion, mewn gwahanol amgylchiadau, yn ngwyneb gwahanol angenion a pheryglon; ac yn yr hanes hwn, ni a gawn holl elfenau yr athrawiaeth am dano. Y mae y Beibl yn dysgu dyn am Dduw trwy alw ei sylw at *y tebygolrwydd* sydd rhyngddo a Duw, ac hefyd trwy osod ar gyfer hyny yr *annhebygolrwydd* sydd rhyngddo a Duw. Y mae rhyw debygolrwydd rhwng dyn a Duw yn ei *ysbrydolrwydd a'i bersonoliaeth*, o herwydd crewyd ef ar ddelw Duw; ond y mae yn annhebygol, o herwydd y mae Duw yn dragwyddol ac yn anfeidrol. Y mae y cyntaf yn dyfod i'r amlwg yn y cymhariaethau dynol a ddefnyddir i osod allan ymddygiadau Duw tuag at ddyn. Y mae yr Arglwydd yn ymddyddan âg ef ei hun, ac â dynion mewn ffordd o ymgynghoriad (*Gen.* i. 26; *Esa.* xiv. 27; xix. 12); o ystyriaeth (*Gen.* xviii. 17—19); ymfoddhad (*Gen.* i. 31); ac o edifeirwch (*Gen.* vi. 6). Ond i ragflaenu pob camgasgliadau a allesid dynu oddi wrth gymhariaethau fel y rhai uchod, dysgir ni

[1] "The conceivable expression of the Divine essence cannot be apprehended in a higher universal—for there is none. In as much as it can only be said God is God, as occurs so many times in Holy Scripture: *Isaiah* xliii. 12; *Exod.* iii. 14. Neither is there any definition of God capable of giving an explanatory idea."—*Nitzsch's System of Christian Doctrine*, td. 141.

"God can certainly be named and distinguished by language from every other object; still *the* name, which absolutely expresses his essence, is not to be found, and is a deep mystery. Further, we are certainly able to determine in thought the essence and life of God known to us over against our consciousness of the world, of nature, or of self; but we are not able adequately and correctly to define the contents of the conception—God. Christian theologians, from the time of Clemens Alexandrinus to the Protestant scholastics, agree in these negations and affirmations. The same is meant when the distinction is made in this case between definition and description, real and nominal definition. Clement already gave the reasons for the impossibility of a more perfect definition in a manner similar to, but more complete, than Gerhard. How is it possible to express or explain in words, what is neither species, nor member of an antithesis, nor quality, nor atom, nor number, and is also nothing contingent, nor subject to accident. Also, 'the all would not be a proper designation; for God is the father' of the all. Just as little is He a part; for the unit is indivisible and again eternal, because it can neither be penetrated nor limited.' —*Herzog.*

"Though man be not identical with the Deity, still he is created in the image of God. It is indeed only through an analogy of the human with the Divine that we are percipient and recipient of the Divinity." "Mind is the object, the only object, through which our unassisted reason can ascend to the knowledge of God." "It is impossible for us to give any adequate definition of God: for in order to define any object, we must be able to refer it to the genus to which it belongs, and to enunciate its characteristic difference from other subjects belonging to the same genus, and both the genus and the characteristic difference must be previously and better known to us than the thing defined [comp. *Aristotle, Top.* 1, c. 5, vi 4]. But there is no genus under which the Infinite and Eternal may be subsumed; even the most abstract category under which we might propose to place Him, that of substance, is inadequate; for we cannot use even this term of Him except by analogy."—*Encycl. Brit.*, erth. *Theology*.

[2] "Y mae Mr. Mansel, yn ei waith gorchestol yn erbyn Rhesymolwyr, wedi myned mor bell a gosod i lawr fel un o'i egwyddorion sylfaenol—Bod yn anmhosibl i'r Anfeidrol, fel y mae ynddo ei hun, fod yn wrthddrych meddwl a gwybodaeth dyn. Amcan yr awdwr hwn ydyw dangos nad ydyw meddwl terfynol dyn yn alluog i eistedd mewn barn ar Dduw, a phethau dwyfol; bod anghymhwysder ac anallu naturiol yn nghyfansoddiad ei feddwl i ffurfio dirnad-



Digitized by Google

ydwr. "Y mae anweledig bethau Duw i'w gweled yn y pethau a wnaed." Ond yr ymofyniad yn bresennol yw, Pa fodd? Onid ydyw y greadigaeth, yn ei holl eangder, yn gyfanwaith o bethau meidrol? Y mae y cyfan yn ymddibynu ar ewyllys uwch, yn ddarostyngedig i ddeddfau amser a lle, yn gyfnewidiol a darfodedig. Pa fodd y mae yn bosibl i ddyn ymgodi at Dduw fel Ysbryd tragwyddol ac anfeidrol berffaith? "Pob tŷ a adeiledir gan ryw un, ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw"—ond gan fod "y pob peth" yn derfynol, pa fodd yr ydym yn casglu fod Duw yn annherfynol—gan fod "y pob peth" yn gyfnewidiol, pa fodd yr ydym yn casglu fod y Creawdwr yn anghyfnewidiol—gan fod yr effaith yn amserol, pa fodd y mae hyny yn ein tywys at y Tragwyddol? A ydyw y casgliad yn deg? Ydyw, yn berffaith deg, ac yn anocheladwy hefyd; ac y mae hyn yn ein harwain at ymadrodd arall o eiddo yr apostol Paul, "Yr hyn a ellir ei wybod am Dduw sydd eglur *ynddynt hwy*, canys Duw a'i heglurodd iddynt." Y mae y Creawdwr wedi rhoddi, nid yn unig amlygiadau o hono ei hun yn y pethau a welir, ond hefyd wedi rhoddi dadguddiad naturiol o hono ei hun i feddwl ac ysbryd dyn, fel y mae yr amlygiadau mewnol ac allanol yn cyfateb i'w gilydd. Heb y mewnol—heb y dadguddiad i ysbryd dyn—nid arweiniai yr allanol at y syniad am Dduw fel un anfeidrol uwch law cyfanswm y cwbl a grewyd. Heb yr allanol, ni byddai y mewnol yn ddigon, mwy nag y mae y llygad heb oleuni: y mae y ddau wedi eu cyfaddasu i'w gilydd. Y mae ysbryd dyn wedi ei greu i orphwys yn y tragwyddol, yr anfeidrol, yr anghyfnewidiol; ac nis gall orphwys ond yn Nuw fel y cyfryw. Y mae dyn, trwy ei gorff, a thrwy syniadau a theimladau cyssylltiedig â'r corff, yn teimlo ei hun yn ddolen yn nghadwen natur, yn ddarostyngedig i'w deddfau, ac yn rhan o honi; ond trwy ei ysbryd, y mae dyn yn meddu yr ymwybyddiaeth o'i fod uwch law y byd, a phethau y byd, a'i fod yn sefyll mewn perthynas uniongyrchol â Duw. Y mae yr ymdeimlad o'r berthynas hon yn reddfol a chynnwynol ynddo. Nid ydyw dyn yn cyrhaedd ymwybyddiaeth gyflawn o hono ei hun ond mewn ymwybyddiaeth o Dduw. I'r graddau y mae yn colli yr ymwybyddiaeth o Dduw, y mae hefyd yn colli y teimlad o urddasolrwydd ei natur ei hun. Y mae dyn yn sefyll mewn amgen perthynas â Duw nag un creadur arall. Y mae creaduriaid ereill yn ymddibynu ar Dduw, nid yn unig am eu tarddiad, ond hefyd am eu parhad; ac felly y mae ei allu dwyfol ef yn treiddio trwyddynt, ac yn eu hamgylchynu; ond am ddyn yn unig yn y byd hwn y gellir dyweyd, "Ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod; canys ei hiliogaeth ef ydym." Yn hanes creadigaeth dyn, ni a gawn weled yn mha ystyr y mae yn hiliogaeth Duw. Gan y mynai Duw weled ei ddelw ei hun yn y greadigaeth, efe a greodd ddyn. Ysbryd yw Duw, ac mewn ysbrydoedd crëedig yn unig y dichon iddo weled ei ddelw. Y mae creaduriaid ereill heb ymwybyddiaeth o honynt eu hunain, ac felly heb ymwybyddiaeth hefyd o Dduw. Ond y mae cymhwysder i hunan-ymwybyddiaeth yn ysbryd dyn; ac i'r graddau y mae yn cyrhaedd hyny, y mae hefyd yn ymdeimlo â phresennoldeb Duw. Y mae natur yn ddadguddiad o Dduw (*Rhuf.* i. 20); ond nid iddi ei hun: ni ŵyr hi ddim am y doethineb, y gallu, a'r daioni, y mae hi yn eu canmawl trwy ei gweithredoedd: y mae hi yn amlygu y Duw sydd yn guddiedig i'w llygad ei hun. Am nad oes ganddi lygad cyfaddas, y mae natur heb adnabod Duw, er yn ei ddadguddio; ond fel y byddai y cyfryw lygad y creodd Duw ddyn, fel y gallai weled delw Duw ynddo ei hun, a darllen yr amlygiadau o hono yn y greadigaeth. Dyn ydyw y creadur uchaf a grewyd, ac felly yr olaf hefyd. Fel y mae y greadigaeth yn terfynu ac yn mwynhau ei Sabbath yn y dyn, felly y mae y dyn yn gorphwys ac yn mwynhau ei Sabbath yn Nuw. Anrhydedd a rhagorfraint uchaf dyn ydyw nas gall ymfoddloni ar lai na Duw fel ei ddaioni penaf. Y mae dyn wedi ei wneyd i ddechreu ac i ddybenu yn Nuw. Nid yn unig i *esgyn* oddi wrth y gweledig at yr anweledig, y terfynol at yr annherfynol, ond hefyd trwy rinwedd ei berthynas ysbrydol â Duw fel ei hiliogaeth, ac o ganlyniad ei uchafiaeth i natur, y mae yn *disgyn* oddi wrth yr anweledig at y gweledig—oddi wrth y Creawdwr at y creadur. Yn ei greadigaeth, yr oedd dyn mewn cymdeithas uniongyrchol â'r Anfeidrol; y mae y gymdeithas hono wedi ei hattal a'i thywyllu trwy bechod, ond eto nid i'r graddau fel nad oes ymsyniad uniongyrchol yn ysbryd dyn am Dduw. Ac heb law hyny, y mae y dadguddiad sydd wedi ei roddi i ni o Dduw yn y Gair, ac yn Nghrist, wedi adferu i'n byd ni y drychfeddwl am Dduw gyda mwy na'i eglurder cyntefig. Y mae dadguddiad natur yn anmherffaith, yn dywyll, ac yn anhawdd gweled ei gyssondeb; ond y mae dadguddiad y gair yn gysson, yn eglur, yn gyflawn, ac yn berffaith. Y casgliad oddi wrth hyn ydyw, nad ydyw gweithredoedd creadigaeth a rhagluniaeth yn ddigonol i'n harwain i wybodaeth o briodoliaethau Duw; ond bod dadguddiad arall yn angenrheidiol, a bod y dadguddiad hwnw wedi ei roddi yn gyntaf oll yn ysbryd dyn ei hun, yr hwn sydd heb ei hollol golli dan effeithiau pechod, eto sydd yn annigonol i'w arwain yn ol at Dduw fel ei ran. Ond yn y Beibl y mae y dadguddiad o Dduw yn gyflawn ac yn effeithiol i ddwyn dyn yn ol ato.

Y mae y sylwadau hyn yn dangos mai trwy *weithredoedd* Duw a'i *air* y mae i ni gyrhaedd gwybodaeth gywir am dano—"*Duo sunt*," medd Awstin, "*quæ in cognitionem Dei ducunt: Creatura et scriptura.*"

Yn nesaf, ni a gyfeiriwn at y gwahanol ddosbarthiadau sydd wedi eu cynnyg o briodoliaethau Duw. Dosbarthwyd hwynt

1. I briodoliaethau mewn ystyr priodol neu llythyrenol (*propria*), ac i briodoliaethau mewn ystyr trawsenwol neu ffugrol (*metaphorica*). Nid oes eisieu prawf fod y dosbarthiad hwn yn ddisail, o herwydd nid yw y rhai ffugrol yn briodoliaethau o gwbl, yn ystyr priodol y gair; a phe gwisgid hwynt mewn iaith heb fod yn ffugrol, yna ni byddai gwahaniaeth rhyngddynt a'r lleill.

2. I briodoliaethau nacaol a chadarnhaol. Ond yn unol â'r sylwadau blaenorol, nis gall y rhai nacaol ddywedyd wrthym pa fath un ydyw Duw, ond yn unig pa fath un nad ydyw. Y mae Thomas Aquinas yn dywedyd fod priodoledd yn Nuw yn hysbysu i ni pa beth nad ydyw Duw, yn hytrach na pha beth ydyw. Yn gyffelyb Luther:—Pa beth ydyw Duw o ran ei natur nis gallwn gael allan; ond yr hyn y gallwn ei gael allan ydyw pa beth nad yw. Er hyn, nid yw gwybodaeth nacaol yn wybodaeth o gwbl ond mewn undeb â gwybodaeth gadarnhaol. Yn y cyssylltiad hwn y mae o werth gwirioneddol.

Digitized by Google

3. **Cyntefig a** deilliedig (*primitiva* a *derivata*); ond y mae pob priodoledd yn Nuw yn amlygu ei *un hanfod anrhanedig ac anrhanadwy.* Ac nid ydynt yn ddeilliedig o'u gilydd, ond o'r hanfod.

4. **Y** dosbarthiad mwyaf adnabyddus ydyw i briodolizethau cyfranogol ac anghyfranogol (*communicabilia* ac *incommunicabilia*). Nid oes dim mwy i'w ddyweyd dros y dosbarthiad hwn na'r rhai blaenorol, o herwydd yn ystyr priodol y gair, nis gall dyn gyfranogi o un briodoledd fel y mae yn Nuw; ac ar y llaw arall, wrth adael allan anfeidroldeb y priodoliaethau, nid oes un nas gall gyfranogi o honi.

5. Y dosbarthiad hynaf ydyw y dosbarthiad sydd yn seiliedig ar y berthynas ddeublyg sydd rhwng Duw ac ef *ei hun*, a rhyngddo a'r *byd*. Ystyrid fod rhai priodoliaethau yn perthyn i Dduw, a'i ystyried ar wahân oddi wrth ei greaduriaid; megys ei ysbrydolrwydd, symlrwydd, tragwyddoldeb, anghyfnewidioldeb, &c.; ac o herwydd eu bod yn aros neu yn gorphwys yn Nuw, ac yn ddysgrifiad o'i hanfod ynddo ei hun, gelwid hwynt yn briodoliaethau arosol neu orphwysol (*immanentia*, *interna*, *quiescentia*). Ystyrid ereill fel yn ddysgrifiad o Dduw yn ei berthynas â'i greaduriaid, a gelwid hwynt yn berthynasol, allanol, a gweithredol (*relativa*, *externa*, *operativa*). Y priodoliaethau hyn ydynt hollalluogrwydd, daioni, cyfiawnder, a doethineb, &c. Y dosbarthiad hwn ydyw yr un a dderbynir yn fwyaf cyffredinol yn bresennol, ond gyda gwahanol enriad gan rai; megys i briodoliaethau cyffredinol (*generalia*), y rhai ydynt yr un a'r priodoliaethau mewnol; a'r rhai neillduol (*specialia*), y rhai a ddosrenir i naturiol a moesol (*physica* a *moralia*), ac ydynt yn cyfateb i'r priodoliaethau allanol neu weithredol.

Fel y canlyn y mae gan Nitzsch:—I briodoliaethau yn eu perthynas â Duw ei hun, ac i briodoliaethau yn eu perthynas â'r byd; adrenir y rhai hyn hefyd dan ddau ben bob un, sef yn eu perthynas â *chreadur yn gyffredinol*, ac yn eu perthynas â *chreaduriaid personol yn neillduol.* Wrth edrych ar Dduw ar wahân oddi wrth y creadur yn gyffredinol, ni a gawn ei anfeidroldeb, tragwyddoldeb, &c.;—yn wrthgyferbyniol i greaduriaid personol, ni gawn hollwybodaeth, sancteiddrwydd, hapusrwydd, a gogoniant. Drachefn, wrth edrych arno yn ei berthynas â'r byd yn gyffredinol, ni gawn ei hollbresennoldeb, ei hollalluogrwydd, a'i hollwybodaeth;—yn ei berthynas â chreaduriaid personol, ni gawn ei gyfiawnder, ei ffyddlondeb, a'i wirionedd. Yr hyn a deimlir gan rai yn anfoddhaol yn y dosbarthiad hwn ydyw, nas gwyddom ddim am Dduw ar wahân oddi wrth bob amlygiadau o hono: mai mwy priodol ydyw edrych ar ei briodoliaethau yr un a'i hanfod, pan ystyrir hwynt ar wahân oddi wrth bob amlygiad o honynt yn ei weithredoedd: nad mor briodol ydyw defnyddio y gair "priodoledd" am hanfod peth ynddo ei hun, ond yn hytrach am berthynas hanfodol y naill beth â pheth arall: fod priodoledd yn amlygiad o hanfod, ond nid o beth fel y mae ynddo ei hun, ond fel y mae yn ei berthynas âg arall: nad yw y gydwybod, yr hon yn ngoleuni y gair sydd yn llefaru egluraf am Dduw, yn dywedyd dim wrthym am yr hyn ydyw yn ei berthynas âg ef ei hun, neu ynddo ei hun, ond am yr hyn ydyw i ni: nas gall dyn wybod dim am Dduw, ond yr hyn y mae efe yn gweled yn dda gyfranu o hono ei hun i ddyn, ac nid ei hanfod mewnol a gyfrenir.

6. Gan fod ysbryd dyn yn deilliaw oddi wrth Dduw, ac wedi ei greu ar ei ddelw, y ffordd fwyaf naturiol, medd rhai, i ddosbarthu priodoliaethau Duw ydyw yn ol cyfatebiaeth ein hysbrydoedd ni. Yr ydym yn gwahaniaethu ynom ein hunain yn *gyntaf*, bod neu hanfod; yn *ail*, gwybodaeth; yn *drydydd*, ewyllys. Felly y mae priodoliaethau Duw yn ymranu, yn *gyntaf*, i briodoliaethau ei fod neu ei hanfod, sef tragwyddoldeb, a hollbresennoldeb. Yn *ail*, perffeithiau ei wybodaeth, sef hollwybodaeth, a doethineb. Yn *drydydd*, priodoliaethau ei ewyllys. Y mae ewyllys Duw, a'i hystyried yn ei rhyddid uchaf, yn hollalluogrwydd—a'i hystyried yn ei hangenrheidrwydd mewnol, yn sancteiddrwydd. Mor bell ag y mae ei ewyllys yn myned, y mae ei allu yn myned; ac mor bell ag y mae ei allu yn myned, fe all gyflawnu y peth y myno. Y mae ei sancteiddrwydd yn gwahardd agoshad pob aflendid; y mae yn casâu y drwg ac yn ewyllysio y da. Mor bell ag y mae Duw yn caru ei hun fel bod sanctaidd, y mae am gyfranu o hono ei hun fel y cyfryw. Hyn yw ei gariad yn ei wahanol amlygiadau. Y mae cariad a sancteiddrwydd Duw yn amlygu eu hunain yn benaf yn ngwaith y prynedigaeth. Ac yn y drefn hon, y mae yn dadguddio ei hun fel cariad sanctaidd, neu trwy belydrau neillduol ei gariad, sef trugaredd, daioni, gras, ffyddlondeb, hirymaros, ac amynedd. Y mae rhai o amddiffynwyr y dosbarthiad hwn yn dal mai deall ac ewyllys sydd yn Nuw; myn ereill mai deall, ewyllys, a theimlad sydd ynddo. Ereill drachefn a ddadleuant—gan fod cydwybod yn hanfodol i ddyn, ond na byddai yn Ysgrythyrol i briodoli cydwybod i Dduw, nas gall y dosbarthiad hwn fod yn gywir Drachefn, nis gall fod yn llai nag ammheus i wneuthur ein gwybodaeth am ddyn yn sail ein gwybodaeth am Dduw.

7. Dan y gair CREFYDD, gwelir fod Schleiermacher, duwinydd a roddodd ysgogiad newydd i ymchwiliadau duwinyddol yn yr hanner can mlynedd diweddaf, yn gosod hanfod crefydd mewn teimlad o ymddibyniad; ac yn unol â hyn, y mae yn gwneuthur dosbarthiad o briodoliaethau Duw, seiliedig ar y teimlad hwn. Pan y bydd y teimlad o ymddibyniad ar Dduw yn bur a hollol, heb gael ei dywyllu na'i gythryblu gan bechod, y mae yn rhoddi i ddyn y syniad am dragwyddoldeb, hollalluogrwydd, hollbresennoldeb, a hollwybodaeth Duw; pan y bydd y teimlad o ymddibyniad wedi ei gythryblu gan euogrwydd a phechod, mae dyn yn derbyn ei syniad am sancteiddrwydd a chyfiawnder; yn y drefn i symmud ymaith bechod trwy y prynedigaeth yn Nghrist, y mae cariad a doethineb yn cael eu hadlewyrchu yn y ffurf o ymddiried, a disgwyliad, a hyder, y mae y teimlad o ymddibyniad yn ei gymmeryd. Y mae yn sicr fod y naill briodoledd yn dyfod o flaen meddwl dyn gyda mwy o eglurder na'r llall mewn gwahanol amgylchiadau. Pan y mae yn teimlo mwyaf oddi wrth ei bechod, y mae yn teimlo gryfaf ei wrthgyferbyniad i sancteiddrwydd a chyfiawnder; ac yn yr olwg ar Grist fel gwrthddrych i ymddiried ynddo am fywyd, y mae ei feddwl yn cael ei lenwi gan deimlad o ras a chariad Duw. Ond er addef hyn, y mae rhesymau cryfion yn erbyn y dosbarthiad hwn. Y cyntaf oll ydyw, ei fod yn seilio priodoliaethau Duw ar berthynas a theimladau dyn tuag at Dduw, ac o ganlyniad yn eu hymddifadu o bob gwirionedd yn annibynol ar deimlad dyn; tra y maent mewn gwirionedd yn cael eu dadguddio

Digitized by Google

berffeithrwydd bod. A hyny yn y lle cyntaf yn wrthgyferbyniol i dduwiau meirw—efe yw y "Duw byw;" ac mewn gwrthgyferbyniad i ffurfiau ereill o fywyd a bod—iddo ef yn unig y perthyn anfarwoldeb. Y mae yn hawdd canfod fod cyssylltiad agos rhwng ysbrydolrwydd natur Duw ac amryw o'i briodoliaethau. Ysbryd, ac nid cnawd neu fater, ydyw ffynnonell nerth. Mewn ysbryd y mae ewyllys, ac ewyllys ydyw yr ysgogydd gwreiddiol mewn dyn. Ffynnonell pob ysgogiad ydyw yr ewyllys dragwyddol:—"Efe a lefarodd, ac felly y bu; efe a orchymynodd a hyny a safodd." Fel ysbryd y mae efe yn bod ar wahân oddi wrth y byd, uwch law y byd, ac eto yn hollbresennol yn y byd, ac yn awdwr, yn gynnaliwr, ac yn llywydd ei holl ysgogiadau. Efe yw tad yr ysbrydoedd, ac iddo ef y mae holl fyd yr ysbrydoedd yn ddarostyngedig. I ysbryd y perthyna gwybodaeth a doethineb, ac i'r Ysbryd tragwyddol y perthyna gwybodaeth a doethineb anfeidrol. Gan ei fod yn ysbryd, y mae yn rhaid ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Mae ysbryd a gwirionedd yn annattodol oddi wrth eu gilydd. Nid oes gwirionedd yn y gweledig ond i'r graddau y mae mewn undeb â'r anweledig, ac yn amlygiad o hono. Gan fod Duw yn ysbryd pur, y mae yn wirionedd pur, ac yn ffynnonell pob gwirionedd. Dangosir i ni trwy y Beibl fod gwirionedd yn tarddu o ysbryd, ac mai ysbryd ydyw egwyddor gwirionedd. Y mae ysbrydolrwydd natur Duw yn arwain hefyd i'w hanfodiad personol. Fel Duw personol, y mae yn perthyn iddo ymwybyddiaeth ac ewyllys, nid yn unig yn wahanol i ymwybyddiaeth ac ewyllys ei greaduriaid, ond y cyfryw ag sydd yn gwneuthur cymdeithas bersonol yn bosibl rhyngddo ef a hwynt. Y mae pob enw Ysgrythyrol a roddir ar Dduw yn dystiolaeth o blaid ei bersonoliaeth; megys Tad, Arglwydd, Gwaredwr; yn nghyd â'r holl briodoliaethau nas gall fod iddynt ystyr ond wrth eu hystyried mewn Bod personol, megys gwybodaeth, doethineb, cyfiawnder, &c.

III. Y mae mwy o unfrydedd yn mhlith duwinyddion i osod hanfod Duw mewn CARIAD nag mewn dim arall. Y mae sail Ysgrythyrol i hyn —"Duw, cariad yw." Sylw cyffredin ydyw fod y Beibl yn llefaru yn wahanol am gariad Duw i'r hyn a wna am ei briodoliaethau ereill. Nid ydyw yn dyweyd fod Duw yn allu, ond yn hollalluog; nac yn wybodaeth, ond yn hollwybodol; nid yn ysbrydol, ond *Ysbryd;* ac nid cariadlawn, ond *cariad.* Y mae hyn yn ein cyfiawnhau i ddyweyd am ei gariad, mai ei hanfod neu ei fywyd ydyw. Felly, nid oes dim yn perthyn i'w briodoliaethau na'i weithredoedd nas gellir ei gasglu oddi wrth ei gariad. Nid ar ei anfeidroldeb fel y cyfryw y mae ei weithredoedd yn seiliedig, ond ar ei gariad fel Bod anfeidrol. Cyfranu hapusrwydd ydyw amcan creadigaeth, cynnaliaeth, a phrynedigaeth. Y mae lluaws o'r hen dduwinyddion yn edrych ar gariad Duw fel darnodiad bywiol, ymarferol, a moesol, o Dduw; yr hyn sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth am dano sydd yn gyrhaeddadwy i ddyn. Fel hyn y dywed Gerhard, un o brif dduwinyddion yr Eglwys Lutheraidd:—"Yn briodol, y mae hanfod Duw y dadguddiad yn cael ei osod allan fel cariad, o herwydd mewn cariad ac o gariad y mae yn gwneuthur pob peth; o gariad y tarddodd ei holl weithredoedd; y Mab a'r Ysbryd yw gwrthddrychau hanfodol cariad y Tad:—o gariad y creodd Duw bob peth mewn amser; o gariad yr anfonodd ei Fab i gwblhau gwaith y prynedigaeth; ac o'i gariad y mae yn rhoddi ei Ysbryd yn nghalonau dynion. Fel y mae darnodiad ymarferol o Dduw yn cael ei gymmeryd oddi wrth ei gariad, felly y mae gwybodaeth ymarferol o Dduw yn gynnwysedig mewn cariad. Nid ydyw o un budd i ddadleu yn athronyddol am Dduw, ac eto fod yr un pryd heb garu yr hwn yw y daioni penaf, a'r hwn sydd yn gariad hanfodol."—*Loci Theol.* Fel y canlyn y dywed un o dduwinyddion presennol yr Almaen: "Duw, cariad yw. Os rhoddir i ddarnodiadau a dysgrifiadau ereill am hanfod a phriodoliaethau Duw y flaenoriaeth ar hon, ysgerir y moesol oddi wrth y naturiol; ac felly, bywyd oddi wrth wirionedd, a gwirionedd oddi wrth fywyd. Rhaid i'r syniad mwyaf ymarferol, ac felly y mwyaf bywiol, am y Duw byw, fod y cywiraf mewn ystyr duwinyddol, ac o gymmaint a hyny yn fwy, o herwydd ei fod yn tarddu o gyfoeth a chyflawnder mewnol ei natur, ac nid yn ffurfiedig o nodau allanol yn unig. Pa beth a ellir ddyweyd am hanfod ysbrydol, anfeidrol, a thragwyddol Duw; am ei hollalluogrwydd, ei hollwybodaeth, ei sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, a'i ffyddlondeb; am ei ddedwyddwch a'i ogoniant hefyd, nad yw yn ddeilliedig o'i gariad annherfynol? Ni ddywedir ond ychydig am Dduw os na ddywedir mwy na'i fod yn Ysbryd —os y cwbl a feddylir wrth hyny yw, yn nacaol, ei fod yn anweledig, ac yn anghorfforol. ac yn gadarnhaol, ei fod yn meddu ar feddwl ac ewyllys, heb hefyd ddyweyd un o ba fath feddwl ac ewyllys ydyw. Y mae CARIAD yn ysbryd, yn fywyd, yn oleuni, yn fywyd personol ymwybodol, ac nid ychwaith yn ymsuddo iddo ei hun, ond yn cyfranu o hono ei hun i arall—yn cyflawnu oll ag ef ei hun, ac yn derbyn yr oll iddo ei hun. Y mae anfeidroldeb a thragwyddoldeb yn eiriau gweigion os na feddylir am danynt wedi eu llenwi â chariad, i'r hwn nid oes dim terfyn, a'r hwn byth ni chwymp ymaith: 1 *Cor.* xiii. 8. Ond o ba le y dichon i'r cariad sydd yn dwyn pob peth i fod, ac yn cynnal pob peth mewn bod, ddeilliaw ond o gariad anfeidrol a thragwyddol? Y cariad hunan-ddeilliedig hwn, gan hyny, yr hwn ydyw hanfod Duw, sydd yn achos cyntaf pob bod arall. A'r cariad, yr hwn a greodd bob peth, a all ef lai na bod yn hollalluog ac yn hollwybodol? Yr un cariad hefyd sydd yn trefnu pob peth mewn prydferthwch a doethineb, gan ddwyn pob peth yn mlaen mewn cydgordiad a chymmesuredd hapus. Pa beth ydyw sancteiddrwydd ond cariad yn ewyllysio y da; hyny yw, yr hyn sydd yn debyg i Dduw; ond yn ddigofus at yr hyn sydd yn groes i Dduw, ac yn ddinystr i ddyn? A pha beth yw cyfiawnder ond trefn neu ddeddf cariad, a gweinyddiad y ddeddf hono. Nis gellir rhoddi dysgrifiad o briodoliaethau Duw heb iddynt gau allan a bod yn wrthwynebol y naill i'r llall, os nad edrychir arnynt oll fel un yn ei gariad—yn rhydd, ac eto yn angenrheidiol yn ei weithrediad; ac nid gymmaint yn briodoledd ag *sydd gan* Dduw, ond yn hytrach ei hanfod, sef yr hyn *ydyw*, o herwydd y mae Duw yn gariad—cariad hollalluog, hollwybodol, sanctaidd, ydyw ei ogoniant, ei hapusrwydd; heb gariad nid oes dim hapusrwydd."—*Sartorius.* Er cytuno â'u gilydd yn y darnodiad hwn o eiddo Ioan am hanfod Duw, y mae duwinyddion ac athronwyr wedi gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd gymmaint ag oedd yn ddichonadwy yn y casgliadau y maent wedi eu tynu oddi wrtho. Addefir o bob ochr fod yn natur cariad i gyfranu o hono ei hun (*bonum est communicatium sui*); ac o ganlyniad, mai natur

Digitized by Google

y cariad perffeithiaf, sef Duw, ydyw cyfranu yn y modd perffeithiaf o hono ei hun. Y mae yn anhebgorol angenrheidiol i gariad fod un i garu ac un i'w garu. Nis gellir eu didoli mwy nag y gellir didoli yr un sydd yn meddwl oddi wrth yrh yn y meddylia am dano. Addefai y rhai sydd wedi tynu y casgliadau mwyaf gwrthgyferbyniol oddi wrth eu haddefiad nas gallwn feddwl am Dduw fel cariad, a'i ystyried ar yr un pryd fel wedi ei amgau ynddo ei hun mewn perffaith unigrwydd, heb un gwrthddrych i'w gariad. Hefyd, gan mai "Duw, cariad yw," a hyny yn hanfodol, ac o ganlyniad yn angenrheidol, rhaid fod gwrthddrych hanfodol, ac felly angenrheidiol, i'w gariad. Beth, gan hyny, yw y gwrthddrych angenrheidiol hwn? Y mae yr ateb yn dra gwahanol. Myntumia rhai fod creadigaeth y byd yn angenrheidiol—fod gwrthddrych cariad Duw allan o hono; ac nas gall fod yn wahanol heb ei ddarostwng i hunan-gariad. Gwadant athrawiaeth y Drindod; ac o ganlyniad, arweinir hwynt yn anocheladwy i'r grediniaeth fod creadigaeth yn seiliedig ar ei hanfod, ac nid ar ei ewyllys: ac mai felly y mae yr Anfeidrol yn cael gwrthddrych ei gariad. Y maent yn teimlo nas gellir gwadu Trindod os caniateir fod Duw yn gariad; ac felly wrth wadu Trindod o bersonau mewn un hanfod, maent yn gosod y byd yn lle Mab Duw fel gwrthddrych digonol cariad y Tad. Yn y modd yma, edrychant ar Dduw fel y Duw byw yn unig yn a thrwy y byd. Fel y mae mab yn angenrheidiol i dad, felly y mae y byd i Dduw: addefir eu bod yn wahanol, ond eto yn hanfodol gyssylltiedig. Hyn ydyw Pantheistiaeth neu Olldduwiaeth; ac y mae yn gynnwysedig mewn rhoddi y byd neu y ddynoliaeth, y rhan bwysicaf o'r byd, yn lle Mab Duw, ac felly yn dwyfoli y byd—yr oll (*παν*). Nid oes dim gwahaniaeth rhwng Olldduwiaeth ac Amldduwiaeth, ond fod y blaenaf yn y rhif unigol, a'r olaf yn y lluosog—y blaenaf yn gwneuthur y greadigaeth yn un duw, a'r olaf yn ei gwneuthur yn llawer. Gwelir i ba le y mae addef un gwirionedd, os gwedir un arall, yn arwain. Yn hanes athrawiaeth y Drindod, y mae Sabeliaeth, a phob ffurf o esbonio gwahaniaeth personau i wahaniaeth enwau neu foddau, yn gogwyddo at Olldduwiaeth; ac Ariaeth yn ei gwahanol ddulliau yn gogwyddo at Amldduwiaeth. Mae ereill nad ydynt yn dewis dweyd fod Duw yn sefyll mewn angen am y greadigaeth, ond yn hytrach ei fod yn hollddigonol iddo ei hun—nad yw yn sefyll mewn angen am neb na dim, ond fod pob peth yn sefyll mewn angen am dano ef; ond er hyny, dan gysgod mawrhau cyfoeth anhysbyddadwy Duw, dadleuant ei fod yn hanfodol i Dduw greu ac i gyfranu o hono ei hun i'w greaduriaid: gan fod ei hanfod yn gariad, fod cyfranu i ereill yn perthyn o angenrheidrwydd i'w natur; ac o ganlyniad, fod dwyn ereill i fod yn hanfodol iddo.[1]

Y mae y rhai sydd yn dal syniadau fel hyn yn iawn yn eu gosodiad sylfaenol, sef fod yn hanfodol i Dduw fel cariad tragwyddol ymhyfrydu mewn gwrthddrych priodol i'w gariad; ond gan nas mynant dderbyn yr athrawiaeth o Drindod o bersonau yn ei hystyr ddiledryw, y maent yn teimlo eu hunain dan rwymau cyssondeb i osod y greadigaeth, yn lle y Mab a'r Ysbryd Glân, yn wrthddrych cariad y Tad. Nis myn rhai o honynt eu bod yn gwadu y Drindod, ond y mae hyd yn oed yr anhawsder y maent yn ei deimlo i wrthsefyll rhag cael eu gyru i fabwysiadu creadigaeth dragwyddol, yn brawf nad ydynt yn deall fod y naill berson dwyfol yn wrthddrych digonol o gariad ac ymhyfrydiad y llall; ac o ganlyniad, nad ydynt mewn gwirionedd yn bersonau gwahaniaethol yn eu duwinyddiaeth hwy. Yn mha le y mae gwrthddrych priodol i gariad Duw ond ynddo ei hunan? Nis gall y greadigaeth, fel y cyfryw, fod felly; o herwydd nis gall ond person fod yn wrthddrych priodol cariad person. Nis gall person na phersonau creadigol fod yn wrthddrychau cyflawn cariad Bod anfeidrol. Heb law hyny, mor bendant ydyw iaith yr Ysgrythyr, mai y Mab ydyw gwrthddrych cyntaf a hollddigonol cariad y Tad. "Y mae y Tad yn caru y Mab;" *Ioan* xvii. 23, 24, 26. "Y mae y Tad yn caru y Mab, ac yn rhoddi pob peth yn ei law ef;" *Ioan* iii. 35. Y Mab ydyw gwrthddrych boddlonrwydd y Tad: *Mat.* iii. 17; xvii. 5, &c. Y mae y Tad yn adnabod y Mab, ac yn dwyn tystiolaeth iddo: *Ioan* v. 32—37. Y mae y Mab yn adnabod y Tad (*Ioan* xvii. 25), ac efe yw yr unig ffordd i adnabyddiaeth o'r Tad: *Ioan* i. 18. "Yr Arglwydd a'm meddiannodd i yn nechreuad ei ffordd;" *Diar.* viii. 22—31. Y mae yr Ysbryd Glân yn chwilio dyfnion bethau Duw: 1 *Cor.* ii. 10. Y mae efe yn undeb y Tad a'r Mab: *Ioan* xvi. 14, 16.

Mor annaturiol gyssylltiedig â'u gilydd y mae y gwirioneddau am hanfod Duw, y Drindod, a chreadigaeth, ac mor bwysig ydynt oll yn eu perthynas â sefyllfa foesol dyn.

IV. Gair arall priodol sydd yn cael ei arfer i osod allan hanfod Duw ydyw—Y Da. Y mae hyn yn deilliaw yn naturiol o'r pethau a enwyd—Bod, Ysbryd, Cariad. Gan ei fod yn anfeidrol Fod, yn anfeidrol Ysbryd, ac yn anfeidrol gariad, nis gall lai na bod yn anfeidrol dda. Ateb yr Arglwydd Iesu i'r ymofyniad "Athraw da, pa beth da a wnaf fel y caffwyf fywyd tragwyddol?" ydyw, "Nid oes neb da ond un, sef Duw." Amcan y Dysgawdwr mawr oedd dangos fod daioni perffaith, neu berffeithrwydd daioni, yn hanfodol i Dduw, ac iddo ef yn unig Nid yw yn gwadu nas gall daioni fod yn y byd, ond nid yw er hyny yn perthyn i *hanfod* creadur. Dichon i greadur golli ei ddaioni heb golli ei fod; ond am Dduw, daioni ydyw ei hanfod—nis gall beidio a bod yn dda ond trwy beidio a bod. *Y Da*, mewn cyferbyniad i'r drwg, ydyw Duw, ac felly y da moesol. Yn yr ystyr hwn y deallir y gair yn yr erfyniad, "Gwared ni rhag y drwg." Yn yr hanes dan sylw, y mae yr Iesu yn dangos i'r neb oedd yn gofyn, fod y ddeddf foesol yn arddangosiad o ddaioni natur Duw. Y mae y gair *daioni* yn myned yn fynych yn yr Ysgrythyrau am yr amlygiadau o ewyllys da Duw tuag at ei greaduriaid; ond ffrydiau ydyw y rhai hyn o ddaioni hanfodol ei natur, ac y mae bod y geiriau *da* a *drwg* yn cael eu defnyddio am dda a drwg *moesol*, ac hefyd am dda a drwg *naturiol*, yn seiliedig ar y gwirionedd mawr fod y perffaith foesol a naturiol yn un yn hanfod Duw. Ac y mae y ddau ddarnodiad—"Nid oes neb da ond Duw," a "Duw cariad yw," i'w canfod yn rhedeg i'w gilydd; cariad yn rhoddi mwy o arbenigrwydd ar y duedd i gyfranu o hono ei hun sydd

[1] Dywed Rothe fod creu yn weithred angenrheidiol o eiddo Duw [*Theol. Ethik*, i. 88]. Y mae yn dadleu hefyd dros y canlyniad angenrheidiol oddi wrth y gosodiad hwn, sef os ydyw creadigaeth yn hanfodol i Dduw, rhaid ei bod mor *ddiddechreu* ag ydyw yn *ddiddiwedd*. Y mae ereill, megys Schenkel, er yn cytuno a Rothe mewn dyweyd fod creadigaeth yn hanfodol i Dduw, eto nid ydynt yn foddlawn i fyned gydag ef yn yr holl gasgliadau a wna oddi wrth hyny.

Digitized by Google

yn y da; a'r da yn rhoddi mwy o arbenigrwydd ar yr elfen foesol sydd hefyd yn y cariad. Fe allai nad yw, "Duw goleuni yw" (1 *Ioan* i. 5), yn gosod allan mor ddiammwys yr hyn ydyw Duw yn ei hanfod ag ydyw "cariad" a "da;" o herwydd fod y gair *goleuni* yn un cymhariaethol, yn gosod allan elfen anianyddol yn y lle cyntaf, ac nid un ysbrydol. Y mae yn gosod allan sancteiddrwydd Duw, fel y deallir ef yn gyffredin, neu ynte y berthynas sydd rhwng y moesol a'r deallawl yn Nuw, yn ol ereill. Darnodiad Oetenger o hanfod Duw ydyw, "Bywyd Perffaith ac Anfeidrol;" ac y mae efe yn adeiladu cyfundrefn o dduwinyddiaeth ar y drychfeddwl hwn am Dduw. "Y mae yn rhaid i feddwl gychwyn gyda'r drychfeddwl o *fywyd*, ac nid gyda *bod;* o herwydd yn ol yr Ysgrythyr y mae bywyd yn gyntaf, yna ysgogiad, ac yna bod; 'canys ynddo ef yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod.'" Ymdrech Oetenger ydoedd cyfodi y drychfeddwl am Dduw uwch law yr angenrheidrwydd marw a ddysgid gan Leibnitz a Spinoza, a galw dynion ato fel y "Duw byw," a sylfaenu duwinyddiaeth ar y drychfeddwl hwn. "Yr ydwyf," meddai, "am gymmeryd meddwl penaf y Beibl, sef *bywyd*, yn feddwl arweiniol mewn duwinyddiaeth." Y mae yr Arglwydd Iesu yn fynych yn llefaru geiriau sydd yn gosod Duw o'n blaen yn y goleu hwn: "Canys megys y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly efe a roddes i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun;" *Ioan* v. 26, &c. "Canys gyda thi y mae ffynnon y bywyd;" *Salm* xxxvi. 9, &c. Mewn atebiad i'r gofyniad, Pa beth ydyw bywyd? neu, Pa fodd y mae i ni gael syniad am fywyd? y mae Oetenger yn dywedyd—"Wrth gymharu priodoliaethau bywyd crëedig â phriodoliaethau bywyd digrëedig y gallwn wybod mai y bywyd uchaf, a bywyd rhydd oddi wrth bob ammherffeithrwydd, ydyw bywyd Duw." Ond nid ydyw yn dangos pa fodd y gallwn olrhain priodoliaethau Duw oddi wrth y drychfeddwl o fywyd. Fe ddichon, ac y mae yn debygol, nad ydyw yn ddichonadwy i ni byth fyned yn nes trwy syniadau a drychfeddyliau at hanfod a ffynnonell pob bywyd, na thrwy y darnodiadau Ysgrythyrol uchod. Duw, fel *Ysbryd* anfeidrol, *cariad* anfeidrol, a *da* anfeidrol, ydyw y Duw byw—*bywyd* perffaith. Y mae pob gwir fywyd yn weithgarwch mewn gorphwysdra, a gorphwysdra mewn gweithgarwch. Fel bywyd annherfynol, y mae Duw yn gorphwys ynddo ei hunan —un yn dri, a thri yn un; ac fel y cyfryw, yn cynnwys pob cyflawnder ynddo ei hun, ac yn ffynnonell pob perffeithrwydd yn ei greaduriaid. Fel y mae yn gorphwys ynddo ei hun, felly y mae yn gweithio o hono ei hun; o herwydd "o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth." Gan fod yr Ysbryd anfeidrol yn gariad anfeidrol, y mae yn fywyd perffaith ynddo ei hun, ac yn ffynnonell bywyd i'w greaduriaid. Y mae yn sail ei fod ei hun, neu hunanfodol, ac hefyd yn sail pob bod arall; ac fel y mae yn dda ei hun, felly efe yw y daioni penaf (*summum bonum*). Gallwn sylwi yn mhellach ar berthynas y golygiadau hyn â natur moesoldeb, fel y mae yn gwreiddio yn Nuw ei hun, ac yn tarddu o hon.

Y mae yr ymofyniad wedi ei wneuthur yn fynych er amser Plato, "A ydyw y da yn dda am fod Duw yn ei ewyllysio; ai ynte, a ydyw Duw yn ei ewyllysio am ei fod yn dda." Yr ymofyniad ydyw, Yn mha le y gosodir sylfaen isaf ac anghyfnewidiol moesoldeb—yn ewyllys ynte yn natur Duw? A ydyw y da yn annibyniaethol angenrheidiol i Dduw, ynte yn achlysurol? Gwahaniaethai prif feddylwyr y canoloesoedd ar hyn. Atebai Duns Scotus mai am fod Duw yn ei ewyllysio yr ydoedd yn dda; dewisai Thomas Aquinas yr ateb gwrthwynebol. Ystyr yr ateb cyntaf ydyw—nid mai trwy ddadguddiad o ewyllys Duw y mae y da yn cael ei wneuthur yn adnabyddus i ni; cytuna pawb ar hyn. Dywedai y ddwy ochr fod gair Duw yn ddadguddiad ac yn safon y da; ond dywedai Scotus yn mhellach, mai yr achos gwreiddiol fod y da yn dda ydyw, nid ei natur mewnol ei hunan, ond ewyllys a phenarglwyddiaeth Duw. Yn ol yr atebiad hwn, hollalluogrwydd Duw ydyw ffynnonell moesoldeb, fel y gallai efe, pe dewisai, ddyrchafu i'r anrhydedd o fod yn dda y gwrthwyneb i'r hyn sydd dda. Nid *y da ynddo ei hun*, ond *nerth*, sydd oruchaf yn ol y golygiad hwn. Yr unig ddaioni sydd yn perthyn i'r moesol yw yr hyn sydd yn tarddu oddi wrth sel ac argraff awdurdod allanol. Er fod yr ateb hwn yn proffesu dyrchafu Duw trwy wneuthur ei ewyllys yn oruchaf, eto y mae yn amlwg mai ei ddarostwng y mae i nerth anianyddol; a chyfyngu rhinwedd yn unig i greadur, a hyny yn y ffurf o ufudd-dod. Nid yw ewyllys hollol ddirwymau ac anmhenderfynol ond mympwy, a damwain yn unig ydyw pa fodd y penderfyna. Yn ol y golygiad hwn, damwain pur ydyw pa beth sydd yn ddrwg a pha beth sydd yn dda; o herwydd diddrwg di-dda ydyw y ddau ynddynt eu hunain. Y mae y ddau fel eu gilydd yn gorwedd yn mynwes dywell hollalluogrwydd. Os dywedir i'r gwrthwyneb—fod Duw yn ewyllysio y da am ei fod yn dda, yna nid peth anmhenderfynol yn gorphwys ar nerth yn unig ydyw *y da*, ond y mae ynddo ei hunan yn hollol ac yn anghyfnewidiol dda. Ond yn ol yr atebiad hwn, gall ymddangos i rai mai peth annibynol ar Dduw yw ei ddaioni—peth tu allan iddo ei hun ac uwch law iddo. Ond pe felly, ni byddai y da yn hanfodol i Dduw, yn hytrach fel peth uwch law iddo, byddai yn ddamweiniol iddo hefyd. Ac felly, disgynem yn ol ar yr un wrthddadl yn erbyn yr ail ateb ag sydd i'r cyntaf. A chan na allwn osod hanfod y da yn ewyllys Duw, nac uwch law iddo, nid oes yn aros ond dyweyd ei fod yn wreiddiol yn Nuw ei hun—nid fel deddf uwch law iddo, nac fel yr hyn sydd wedi derbyn awdurdodiad ei allu yn unig, ond fel peth hanfodol iddo fel Duw. Y da yw y goruchaf yn Nuw—heb yr hyn ni byddai yn Dduw. Nid yn unig y mae i'r da le yn meddwl Duw fel yr hyn a ystyrir ganddo yn wir a sanctaidd, fel y mae gosodiadau mesuronol (*mathematical propositions*) yn meddu ar wirionedd pur a pherffaith yn meddwl neu i ddeall dyn, yn hollol annibynol ar fod iddynt fodolaeth ynddynt eu hunain neu beidio. Nid yw yn hanfodol i gylch perffaith mewn mesuroniaeth feddu ar fodolaeth mewn celfyddyd na natur. Nid yw ei briodoleddau yn llai gwir, er nas gall dyn, ac nas gwelodd natur yn dda, gynnyrchu cylch gweledig perffaith. Nid felly y mae y da yn Nuw—yn *ymddangos* yn unig yn wir ac yn uniawn i'w feddwl. Ond y mae yn hanfodol iddo feddu bodolaeth wirioneddol a sylweddol yn Nuw. Ond nid ydyw hyn eto yn hollol glir; o herwydd y mae yn hanfodol i foesoldeb fod yn ffrwyth ewyllys. Y mae rhinwedd *crëedig*, o'r natur uchaf, ac yn ystyr caethaf y gair, yn anmhosibl. Peth uwch na *natur* dda ydyw rhinwedd. Onid ydyw hyn yn wir hefyd am yr

Digitized by Google

gweinyddu hapusrwydd wrth y pwys a'r mesur. Ond yr ydym yn gweled fod cyfiawnder yn seiliedig ar gariad; ïe, cariad yn ei eiddigedd dros ei burdeb a'i anrhydedd ei hun ydyw cyfiawnder Hanfod cariad ydyw cyfranu, ond ei hanfod hefyd ydyw cyfranu yn unol â'i natur sanctaidd a da. Y mae mor hanfodol iddo fod yn sanctaidd ag ydyw iddo fod o gwbl. Y mae yr holl wirionedd yn ei gyflawnder a'i berffeithrwydd yn cynnwys y ddwy ochr; a byddai unrhyw ymresymiad seiliedig ar y naill heb y llall yn unochrog a chyfeiliornus. Y mae angenrheidrwydd a rhyddid yn Nuw. Angenrheidrwydd, fel nad yw ei ryddid byth yn fympwy; a rhyddid, fel nad yw ei angenrheidrwydd yn dyngedfen. Mae rhyddid yn hanfodol i gariad: y mae angenrheidrwydd hefyd yn hanfodol iddo. Ac angenrheidrwydd cariad i amddiffyn ei anrhydedd ei hun yw cyflawnder. Gan fod tuedd Bantheistaidd yr oes bresennol yn ymdrechu cymylu y gwahaniaeth sydd rhwng Duw a'r byd, ac felly myned dan sylfaeni gwir grefydd, ni a edrychwn eto ar Dduw, nid yn unig yn ei *berthynas* â'r byd, ond hefyd mewn *gwrthgyferbyniad* iddo.[1]

Y mae yr Ysgrythyrau yn ein dysgu i synio am Dduw trwy ddangos ei wahaniaeth oddi wrth y byd, a'i uchafiaeth ar y byd. Y mae y manau canlynol yn dangos fod amser, yn nghyd â'i gynnwysiad, yn effaith ewyllys dragwyddol Duw: *Gen.* i. 1; *Exod.* xx. 11; *Neh.* ix. 6; *Iob* ix. 8; *Salm* xix. 1, &c.; xxxiii. 6; lxxxix. 11, 12; civ. 30; cxv. 3; cxxiv. 8; cxxxv. 6; cxlviii. 5; *Esa.* xl. 26; xliv. 24; xlv. 12, 18; *Ier.* x. 16; *Mal.* ii. 10; *Act.* iv. 24; xiv. 15; xvii. 24; *Dad.* iv. 11. Ond nid yn unig fe greodd Duw y cyfan, ond y mae hefyd yn cynnal yr oll a greodd: *Salm* civ. 27, &c.; *Mat.* vi. 26, &c. Efe ydyw achos cyntaf, a pherffaith, ac annibynol pob peth sydd yn dyfod i fod. Y mae pob peth o *hono* ef, a *thrwyddo* ef, ac *ynddo* ef, ac *iddo* ef: *Rhuf.* xi. 36; 1 *Cor.* viii. 6; *Col.* i. 16; *Heb.* i. 10; iii. 4. Y mae dosbarth o adnodau hefyd yn dangos fod y Drindod fel y cyfryw yn dragwyddol, ac yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad â phob peth amserol; ac nid bod y Tad wedi galw y Mab a'r Ysbryd i fod yn gyntaf, ac yna trwyddynt hwy wedi creu y byd; ond mai un Duw tragwyddol yn Drindod o bersonau sydd wedi creu pob peth: *Ioan* i. 3; 1 *Cor.* viii. 6; *Eph.* iii. 9; *Col.* i. 16; *Heb.* i. 2; xi. 3; *Dad.* iv. 11. Mae yr un meddwl yn cael ei awgrymu yn fwy aneglur yn yr Hen Destament: *Gen.* i. 2; *Iob* xxvi. 13; *Salm* xxxiii. 6; *Diar.* viii. 22. Bod dechreuad i'r greadigaeth, sydd eglur oddi wrth y manau canlynol: *Mat.* xxiv. 21; xxv. 34; *Ioan* xvii. 24; *Eph.* i. 4; 2 *Pedr* iii. 4.

Gellir gosod allan y gwrthgyferbyniad a gynnwysir yn y gwirioneddau hyn rhwng Duw a'r holl gyfanfyd mawr yn y pedwar peth canlynol:—

Mae y byd yn disgyn dan y pedwar pen canlynol: *lle, amser, ffurf,* a *lluosogrwydd;* hyny yw, y mae pob peth sydd yn perthyn i'r byd hwn o angenrheidrwydd mewn *lle* penodol—yn dilyn eu gilydd mewn *amser* penodol—yn meddu ar *derfyniad* neu ffurf penodol—ac yn ymranu yn ffurfiau lluosog. Ond nid oes un o'r nodau hyn yn gymhwysiadwy at Dduw. Mae ei hanfod ef yn annibynol arnynt, ac yn wrthgyferbyniol iddynt. Yn wrthgyferbyniol i bob peth sydd mewn lle penodol, ac felly yn fesuradwy, y mae Duw yn anfesuradwy neu *annherfynol.* Yn wrthgyferbyniol i'r amserol, y mae efe yn *dragwyddol.* Nid yw yn ddarostyngedig i gyfnewidiad ffurfiau fel pethau y byd hwn a duwiau y byd hwn, ond y mae yn *anghyfnewidiol.* Ac yn wrthgyferbyniol i luosogrwydd pethau crëedig, y mae yr Arglwydd ein Duw ni yn *un* Arglwydd.

Trwy ei *annherfynoldeb.* Mae Duw uwch law lle yn yr ystyr o gael ei gynnwys mewn unrhyw le. Nis gall y nefoedd, na nefoedd y nefoedd, ei gynnwys. Y mae y briodoledd hon yn tarddu yn naturiol o ysbrydolrwydd ei natur. Y mae pob ysbryd, fel y cyfryw, yn ol graddau ei berffeithrwydd, yn annibynol ar le: y mae yr Ysbryd perffaith a thragwyddol, gan hyny, yn hollol annibynol ar bob lle. Y mae pob ymdrech i gyfyngu yr Anfeidrol i le yr un a gwadu ysbrydolrwydd ei hanfod. Nid yr un peth yn hollol a feddylir wrth annherfynoldeb Duw a'i hollbresennoldeb. Y mae y cyntaf yn nacaol; ac yn gosod allan y gwahaniaeth sydd rhyngddo a'r byd, o gymmaint ag nad ydyw ei bresennoldeb yn dibynu ar un lle. Y mae yr ail yn gadarnhaol; ac yn dangos, er i ni gael ein cau o fewn ein terfynau bychain mewn lle, eto nas gallwn, yn yr unigrwydd a'r ymneillduaeth mwyaf, ddianc oddi wrth bresennoldeb y Duw anweledig, yr hwn sydd yn annibynol ar amser a lle.

Trwy ei *dragwyddoldeb.* Mae Duw uwch law amser yn yr ystyr o gael ei gynnwys ganddo a'i gyfyngu i un amser penodol. Y dysgrifiad a roddir o dragwyddoldeb Duw yn fynych yn yr Ysgrythyrau ydyw ei fod ef yn parhau yr un yn mhob mynyd o ddylifiad didor amser. "Ti, Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni yn mhob cenedlaeth;" *Salm* xc. 1. Yn fynych hefyd yn nghanol dysgrifiadau o gyfnewidioldeb, terfynolrwydd, a buander amser, y mae yr ysgrifenwyr sanctaidd yn taflu eu golwg yn ol i ddechreuad amser, ac yn mlaen at ddiwedd amser, ac yn ymffrostio yn Nuw fel un cyn ac ar ol amser. "Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaiar, a'r byd; ti hefyd wyt Dduw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb;" *Salm* xc. 2; cii. 26, 27; *Esa.* xli. 4; xliv. 6. Yn unol â hyn, dysgrifir ei dragwyddoldeb trwy ddywedyd nad oes iddo ddechreu na diwedd. Y mae yn anhawdd wrth ddysgrifio tragwyddoldeb fel yr hyn sydd uwch law amser, i wneuthur hyny heb ddefnyddio ymadroddion sydd yn briodol i amser yn unig. Defnyddir ymadroddion weithiau sydd yn awgrymu uchafiaeth i bob ffurfiau amserol; megys pan y dywedir, "Mil o flyneddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe, wedi yr êl heibio, ac fel gwyliadwriaeth nos;" *Salm* xc. 4. "Y mae un dydd gyda'r Arglwydd megys mil o flyneddoedd, a mil o flyneddoedd megys un

[1] Mewn adolygiad yn y *British and Foreign Evangelical Review* (Rhif 36), y mae y paragraph canlynol ar athrawiaeth yr *Essays and Reviews* am Dduw. "Their DOCTRINE OF GOD, merging as it does the distinction between the Creator and the creature, is essentially Pantheistic. Thus Dr. Williams, speaking of Jesus, says (p. 80), in him he finds, brought to perfection, that religious idea which is the thought of the Eternal. Professor Jowett, in like manner, says [*Paul's Epistles,* vol. ii. p. 503], 'Nature we know to be a mere abstraction, by which we really mean, in the language of the idealist philosophy, the projection of the will of God into time and space.' Again (l. c.), 'In our whole spiritual nature we are one with the divine Being, As the soul is hidden within the body, so is this inner life hidden within the frame and actions of the soul. It is the infinite power and wisdom of God not to exclude finite beings, and absorb the world in himself.' This is the well known thought of the Pantheistic philosopher; viz., that God is the absolute idea, and that the Infinite and finite are identical—which necessarily carries with it a denial of the personality of God, and substitutes thought for faith.

Digitized by Google

aethu y cyfan (fel "Brenin tragwyddol, anfarwol, ac anweledig," i'r hwn "y byddo anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. Amen;" 1 *Tim.* i. 17), a hyny, nid oddi ar resymau sydd yn ymddangos i'w feddwl hollwybodol ef yn y dyfodol, ond oddi ar ystyriaethau sydd yn ymgynnyg yn y presennol. Y mae yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun; ac fel un yn gwybod y diwedd o'r dechreu, ac er cynt yr hyn nis gwnaed etto. Y mae y Beibl yn ein dysgu fod teimladau ac ymddygiadau presennol dynion yn rhesymau dros ei ymddygiadau ef tuag atynt; ond yn y cyfan y mae yr Arglwydd yn anghyfnewidiol. Er y dywedir ddwywaith ei fod yn edifarhau (1 *Sam.* xv. 11, 35), o herwydd iddo osod Saul yn frenin ar Israel; eto, yn yr un hanes, dywedir, "Cadernid Israel ni ddywed gelwydd, ac nid edifarha; canys nid dyn yw efe i edifarhau;" *adn.* 29. Y mae yr anghyssondeb ymddangosiadol yn diflanu wrth gofio fod yr Arglwydd, er yn edifarhau o herwydd yr hyn a wnaeth, eto ei fod yn parhau yn ffyddlawn i egwyddorion ei gymmeriad, ac i amcan ei ewyllys trwy y cyfan. Yr un peth a feddylir wrth wirionedd, a ffyddlondeb Duw, ag a feddylir wrth ei anghyfnewidioldeb. Am ei amcan i sylfaenu teyrnas ei ras yn y byd y dywedir, "Yn y nefoedd y sicrheir dy wirionedd;" *Salm* lxxxix. 2; cxix. 89. Er fod Israel yn dwyn cyhuddiad yn erbyn yr Arglwydd ei fod yn ffyddlawn i'r rhai drwg (*Mal.* ii. 17), y mae yr Arglwydd yn eu hateb trwy ddyweyd, "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir; am hyny ni ddyfethwyd chwi, meibion Iacob;" *Mal.* iii. 6. Er fod yr Arglwydd yn ffyddlawn i'w gymmeriad ac i amcanion ei ras, eto gosodir ef allan yn fynych yn edifarhau ac yn newid ei oruchwyliaethau mewn canlyniad i ymddygiadau dynion: *Gen.* vi. 6; *Amos* vii. 3, 6; *Gen.* xviii.; *Exod.* xxxii. 10—14; *Num.* xi. 1, &c.; *Zech.* x. 3; *Ioel* ii. 13; *Ionah* iii. 9, 10; iv. 2; *Salm* cvi. 40; *Ier.* iv. 28; lxxviii. 8, 10; *Esa.* i. 11—15, &c.

Y mae yr holl fanau hyn, yn hytrach na phrofi ei fod yn gyfnewidiol, yn profi i'r gwrthwyneb, mai anghyfnewidiol ydyw. Anghyfnewidioldeb sanctaidd a chyflawn ydyw yr *achos* nad ydyw ei oruchwyliaethau yn wastad yn gyffelyb tuag at ddynion, sydd mor wahanol eu cymmeriadau. Oddi ar ofn dyweyd dim yn anghysson â'r briodoledd hon, yr esboniad a roddir ar yr adnodau hyn a'u cyffelyb yn fynych yw, mai newid ei *ymddygiadau* a'i oruchwyliaethau yn unig y mae y Duw mawr. Ond nid oes dim anghyssondeb rhwng anghyfnewidioldeb yn yr ystyr o ffyddlondeb i'w briodoliaethau moesol, ac i'w amcanion grasol, a dyweyd fod cyfnewidiad nid yn unig yn ymddygiadau yr Arglwydd, ond hefyd yn ei feddwl a'i deimlad tuag at ddynion. Y mae yr Hen Destament a'r Newydd yn dysgu fod pechod, nid yn unig yn peri cyfnewidiad yn meddwl a pherthynas dyn tuag at Dduw, ond hefyd yn meddwl a pherthynas Duw tuag at ddyn. Y mae llawer wedi gwaghau y disgrifiadau sydd yn y Beibl am Dduw a'i berthynas â dyn o bob grym a bywyd, trwy eu hesbonio yn ffugrol neu gymhariaethol; felly yn enwedig y dosbarth o adnodau dan sylw. Y mae hyn yn cael ei wneyd dan rith o eiddigedd dros fawredd Duw; ond y mae wedi dybenu trwy wadu ei Fod mewn unrhyw ystyr sydd yn sail i ffydd ac yn wrthddrych i obaith a chariad. Nis gallwn fod yn rhy eiddigeddus dros anghyfnewidioldeb moesol Duw, ei wirionedd, ei ffyddlondeb, ei gariad, a'i sancteiddrwydd; ac os bydd y rhai hyn yn cael eu credu genym yn ddiledrith, nid oes perygl i ni ddarostwng Duw trwy gredu ei fod ef yn dyfod i gymdeithas bersonol fywiol â dynion. Y mae ei gyflawnder hefyd yn ganolfur gwahaniaeth rhwng syniadau cywir am y Duw byw a phob ffurf o Olldduwiaeth.

Y mae y darnodiad o anghyfnewidioldeb Duw sydd yn seiliedig ar symledd ei hanfod a'i briodoliaethau naturiol wedi cael ei deimlo yn anghysson â rhai o brif ffeithiau ac athrawiaethau y Beibl, neu o'r hyn lleiaf yn cael ei ddefnyddio yn ddadl yn eu herbyn gan rai sydd yn dal fod pob cyfnewidiad ac ysgogiad yn annheilwng o Dduw. Mae syniadau camsyniol am anghyfnewidioldeb Duw wedi bod yn achles i ddynion ymresymu yn erbyn creadigaeth, gwyrthiau, yr iawn, gweddi, ac yn wir yn erbyn pob athrawiaeth yn y Beibl. Nid rhyfedd iddynt deimlo fod *creadigaeth* y byd fel gweithred ddwyfol mewn amser, yn cyflwyno anhawsder anorfod iddynt, ac iddynt ar y tir hwn eto ffoi at greadigaeth dragwyddol. Ond gweithred ydyw creadigaeth, yn tarddu, nid o unrhyw ddiffyg nac anmherffeithrwydd yn Nuw, ond o gyflawnder a hapusrwydd ei gariad, ac o weithrediad rhydd ei ewyllys, trwy yr hwn y mae yn cyfranu o'i gyflawnder i ereill. Yn hyn, nid oes un anghyssondeb â, ond yn hytrach cadarnhad i anghyfnewidioldeb Duw yn ei ystyr Ysgrythyrol. Mor gysson hefyd â'r un briodoledd y mae y gwirionedd nad yw y gweithgarwch creadigol wedi dybenu na'i ddyhysbyddu gyda'r weithred gyntaf o greadigaeth. Nid oes genym un lle i gasglu fod perthynas Duw â'r byd wedi ei ddybenu ar ei orpheniad cyntaf, a'i fod o hyny allan yn ymneillduo, fel Duw y Deistiaid, o bob cyfeillach âg ef; ond yn hytrach y mae yn gysson â'r un cariad tragwyddol i amlygu ei nerth creadigol eilwaith a thrachefn mewn *gwyrthiau*, pan y byddent yn angenrheidiol, yn unol â'i gynllun tuag at y byd. Nid oes dim yn anghyfnewidioldeb moesol Duw yn anghysson â'r hyn a ddysgir i ni yn y Beibl am ei *ddigofaint* yn erbyn pechod. Yn fynych, edrychir ar hyn yn ddim amgen na gwrthwynebiad ei ddeddf i bechod; ac mai mewn ffordd o drawsenwad yn unig y gellir priodoli digofaint i'r Goruchaf. Nid ydyw meddwl na chalon Duw, mwy na'i oruchwyliaethau, yr un tuag at y drwg ag ydyw tuag at y da. Pe felly, byddai yn gyfnewidiol. "Y mae yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg, ac nis gall edrych ar anwiredd;" ac nid mewn iaith gymhariaethol y mae yn ffieiddio pechod ac yn casau y drwg, ond mewn gwirionedd, ac fel cymhelliad i'w gospi. Yn ymgnawdoliad Mab Duw yr oedd "peth newydd ar y ddaear;" a hyny, nid mewn cyssylltiad â dyn yn unig, ond dyfodiad *newydd* o Dduw i'r byd. Yr ydoedd mewn bwriad ac addewid o'r blaen, ond yn nghyflawnder yr amser y daeth i fod mewn gwirionedd. Parhaodd Mab Duw yr hyn ydoedd, a daeth yr hyn nid ydoedd (*Mansit, quod erat, factus est, quod non erat*). Daeth i berthynas newydd â'r byd, ac yn y berthynas hon yr oedd y byd ac ef ei hun yn wrthddrychau newydd ei wybodaeth. Nid cyfnewidioldeb ynddo oedd hyn, ond yr amlygiad cyflawnaf o'i anghyfnewidioldeb.

Gellir gwneyd sylwadau cyffelyb am yr *iawn*, a *chyfiawnhad* pechadur ar sail yr iawn. Y mae Duw wedi ei gymmodi â phechadur trwy yr hyn ydyw, a wnaeth, ac a ddyoddefodd Crist; ac y mae pechadur yn derbyn maddeuant pechod a

Digitized by Google

chyflawnhad bywyd trwy ffydd yn Nghrist. Y mae y rhai oedd yn blant digofaint yn gymmeradwy yn yr Anwylyd. Y mae Duw, trwy "weithred farnol," mewn amser, yn cyhoeddi pechadur yn gyfiawn ar sail iawn. Y mae cyfiawnhad mor bell oddi wrth fod yn effaith naturiol ffydd a sancteiddiad fel mai gweithred wrthddrychol (*objective*) o eiddo Duw ydyw: y mae mor bell oddi wrth fod yr un peth ag arfaeth dragwyddol Duw i gyflawnhau, neu a gwaith Crist ar y ddaiar, a'i dderbyniad gan ei Dad, fel mai gweithred wahanol ydyw, yn derbyn pechadur i'w heddwch, ac yn amlygu iddo gariad maddeuol mewn iawn. Y mae trefn yr efengyl, trwy Gyfryngwr, mor bell oddi wrth fod yn anghysson â phriodoliaethau moesol Duw, fel y mae yn brawf hyd at i'r Arglwydd Iesu Grist farw o'u hanghyfnewidioldeb. "Yn hyn y mae cariad."

Y mae ymdrechiadau wedi eu gwneuthur yn fynych i gyssoni *gweddi* ac anghyfnewidioldeb Duw; ac o herwydd fod hyny yn cael ei deimlo yn anmhosibl, yr oeddid yn gwadu fod i weddi unrhyw ddylanwad ar feddwl ac ewyllys Duw, ac mai ei hunig amcan ydyw effeithio yn ol ar deimlad y gweddïwr. Y mae yn amlwg mai y syniad am anghyfnewidioldeb sydd yn anghysson â gweddi ydyw dideimladrwydd: ond yn He bod yn anghysson âg anghyfnewidioldeb cariad a daioni, y mae yn tarddu yn angenrheidiol o hono. Y mae gweddi, os bydd mewn ffydd, yn seiliedig ar hyder fod yr Anfeidrol o'i ras yn caniatau i ddyn effeithio ar ei feddwl ef ei hun. Y mae y gweddïwr yn dal gafael yn y grediniaeth fod Duw o uchelder ei gyssegr yn caniatau i'w blant lleiaf lefain arno, a chael nerth gydag ef, ac nad oes terfyn i barodrwydd Duw i ateb ond sydd yn ei anghyfnewidioldeb moesol: *Luc* xviii. 1, &c.; *Gen.* xxxii. Trwy weddi, yn yr ystyr uniongyrchol a phriodol hwn, y mae y saint yn cael teyrnasu gyda Christ ar y ddaiar; y mae yn eu gwneuthur yn gyfeillion iddo (*Ioan* xv. 15); ac yn hysbysu iddynt yr hyn y mae yn ei wneuthur: *Gen.* xviii. 17.

Y ddau eithafoedd sydd yn ffynu yn syniadau dynion am Dduw ydynt y syniadau Pantheistaidd (Olldduwiaeth) a Deistaidd. Y mae y cyntaf, trwy geisio ei ddangos fel y Duw byw, ac fel ffynnonell bywyd y greadigaeth, yn raddol wedi ei gyfyngu i'r greadigaeth; ac fel y gris nesaf, wedi ei wneuthur yn un â hi. Trwy ddechreu mewn dangos fod pob peth yn llawn o Dduw, dybenwyd trwy haeru mai yr "oll" (*το παν*) ydyw Duw. Onid yw pob peth yn llawn o Dduw? Onid ynddo yr ydym "yn byw, yn symmud, ac yn bod?" Pa fodd y collwyd ef wrth geisio ei ddwyn yn agos atom? Y mae yr ateb yn eglur: Trwy adael allan ei briodoliaethau moesol. Nis gallwn ei ddwyn yn rhy agos, ond i ni gofio mai "Sanct. Sanct, Sanct, yw Arglwydd Dduw y lluoedd." Y mae yr ail, trwy geisio rhoddi mawredd ar Dduw, wedi ei ddyrchafu uwch law pob cymdeithas â'i greaduriaid, uwch law amser a lle, uwch law cael ei ddigio gan bechod a'i ddyhuddo gan iawn, ac uwch law dadguddio ei ewyllys a gwrandaw gweddi. Cymmerodd hyn le eto trwy anghofio ei briodoliaethau moesol. Nis gallwn ei fawrhau yn ormod na digon yn ei hollalluogrwydd, ei hollwybodaeth, a'i hollbresennoldeb, ond cofio mai "Duw, cariad yw."—(*The Limits of Religious Thought, by Mansel; The Province of Reason, by Dr. Young; First Lines of Christian Theology, by Pye Smith; System of Christian Doctrine, by Nitzsch; Encyclopædia Brit.*, erth. *Theology; Bruch. die Lehre von den göttlichen Eigenschaften; Die Lehre von der heiligen Liebe; Von Sartorius Christliche Dogmatik; Von Ebrard Die Christliche Dogmatik; Von Martensen Die Christliche Dogmatik; Von Dr. D. Schenkel Jahrbucher für Deutsche Theologie; Herzog*, erth. *God.*)

**DUWINYDDIAETH.** [*Theology*: Gr., λογος περι του Θεου=*traethawd am Dduw.*][1] Defnyddir ef yn gyffredin i ddynodi y wyddiant hono sydd yn traethu am Dduw a'i briodoliaethau, y perthynasau sydd yn hanfodi rhwng Duw a'i greaduriaid rhesymol, y dyledswyddau sydd yn gorphwys ar y cyfryw greaduriaid tuag at Dduw, a'r darpariadau y mae yn ei ras wedi eu gwneyd er eu lleshad.[2]

Gan fod llawer o wrthwynebiad anwybodus wedi ei wneyd gan rai y blyneddoedd diweddaf yn erbyn trefniad cysson a rheolaidd o wirioneddau crefydd, neu mewn geiriau ereill, yn erbyn ystyried *duwinyddiaeth yn wyddiant*, ni a edrychwn arni ychydig yn y cyssylltiad hwn.

Y mae gwyddiant unrhyw bwnc yn tybied gwybodaeth am dano, ac yn cynnwys mynegiad o'r ffeithiau a'r egwyddorion sydd yn gorwedd wrth ei sylfeini, cydnabyddiaeth â'u cydberthynas â'u gilydd, yn nghyd âg â'u hamcan eithaf. Y mae yn arwyddo y cyfryw drefniad o'r gwirioneddau sydd yn perthyn i unrhyw gangen o wybodaeth ag a ddangoso eu cyssylltiad â'u gilydd, dibyniad y naill ar y llall, a chydwasanaeth y cyfan i ryw un amcan mawr. Y mae yn bod fel hyn gyda duwinyddiaeth. Nid ydyw gwirioneddau crefydd yn wahanol i wirioneddau ereill yn hyn. Y mae yn angenrheidiol, er mwyn gwneuthur ein gwybodaeth am unrhyw bwnc i fod o ddefnydd ymarferol, dyfod o hyd i'r egwyddorion cyffredinol sydd yn cyssylltu y pethau neillduol

[1] Defnyddid y gair *theologein* (θεολογειν) yn gyntaf oll am y beirdd a'r athronwyr a draethent am darddiad ac achau y duwiau, yn nghyd â dechreuad pob peth (*Cicero de Natura Deorum*). Mabwysiadwyd ef gan ddysgawdwyr yr eglwys gyntefig, y rhai a alwent awdwr Llyfr y Dadguddiad yn *theologos* (ὁ θεολογος), *y duwinydd*; a galwent yr athrawiaeth am berson yr Arglwydd Iesu yn *theologia*, mewn modd arbenig. Defnyddid ef mewn ffordd o anrhydedd wedi hyny ar y rhai a amddiffynent Dduwdod yr Arglwydd Iesu a'r Drindod. Y cyntaf a ddefnyddiodd y gair yn ei ystyr presennol oedd yr enwog Abelard, yr hwn a ysgrifenodd draethawd yn y ddeuddegfed ganrif, yr hwn a elwid *Theologia Christiana*.

[2] A ganlyn sydd rai o'r deffiniadau o dduwinyddiaeth sydd wedi cael eu rhoddi gan rai o'i phrif ddysgawdwyr:—*Gerhard*—"Duwinyddiaeth fel cyfundrefn, a'i hystyried ar wahân, sydd athrawiaeth wedi ei hadeiladu o air Duw, trwy yr hon y mae dynion yn cael eu dysgu yn y wir ffydd, ac mewn bywyd sanctaidd, mewn trefn i fywyd tragwyddol." *Quenstedt*:—"Y mae y gair *duwinyddiaeth* yn cael ei ddefnyddio naill ai mewn ystyr hanfodol, hollawl, ac ymarferol, am wybodaeth yn y meddwl a'r galon; neu mewn ystyr perthynasol a chyfundraethol, y mae yn arwyddo athrawiaeth neu ddysgeidiaeth (*disciplina*) a gynnwysir mewn llyfrau, ac a drosglwyddir trwy addysg." *Buddeus*:—"Duwinyddiaeth ydyw y wyddiant (*scientia*) o bethau dwyfol, angenrheidiol i ddyn fel pechadur eu gwybod, er cyrhaedd iachawdwriaeth, fel y dadguddir hwynt yn yr Ysgrythyrau, ac wedi eu trefnu mewn modd cyfaddas i'w dysgu, a chadarnhau ereill ynddynt, ac i'w hamddiffyn yn ngwyneb ymosodiadau gelynion." *Bretschneider*:—"Amcan duwinyddiaeth ydyw agor athrawiaethau crefydd mewn modd hanfodol, ac yn unol â'r gwirionedd; eu dysgu yn argyhoeddiadol ac yn fuddiol; a dangos pa fodd y gellir eu hamddiffyn: ei nodwedd a ddylai fod gwirionedd, sicrwydd, ac effeithiolrwydd." *De Wette*:—"Y fath arddangosiad o'r ffydd Gristionogol ag sydd yn tarddu o argyhoeddiad deallus o'r gwirionedd, wedi ei drefnu yn gyfnodau, ac mewn cyflawnder cyfundraethol." Ceir chwaneg ar hyn yr yr *Encycl. Brit.*, erth *Theology*; ac yn *Dr. Pye Smith's First Lines.*

Digitized by Google

dirgelion. Felly hefyd y mae defnyddiau duwinyddiaeth yn y Beibl; ond nid oes genym gyfundrefn ffurfiol o honi ynddo. Buasai rhoddi meddwl Duw i ddynion mewn ffurf o gyfundrefn yn anfantais i rydd ymchwiliad dynion. Y wedd yma ar y dadguddiad ydyw y wedd fwyaf cydweddol â dwyfoldeb y Beibl, ac â'r cyfoeth o wirioneddau a gynnwysa. Eto, os ydyw gair Duw i gael ei ddarllen a'i chwilio, y mae yn rhaid i ni addef nas gall dynion wneuthur hyny heb fod dan fath o orfod i gyfleu yr holl addysg a gasglant allan o hono i ffurf cyfundrefn. Y mae cyfundrefnau duwinyddol yn cyfodi o angenrheidrwydd. Y mae ammheuaeth ac anffyddiaeth wedi bod yn achlysur i'w ffurfiad. Y mae eu gwrthddadleuon hwy wedi dwyn athrawon crefydd dan angenrhaid i chwilio y Beibl yn fwy manwl, ac i olrhain perthynas a chyd-ddibyniad ei wahanol ranau. Heb law hyny, y mae yn un o dueddiadau cynhenid y meddwl dynol i amcanu at drefnu ei wybodaeth ar bob pwnc; y mae chwilio am berthynasau y gwirionedd yn angenrheidrwydd arno; nid yw yn foddlawn heb gael yr un yn mysg y lluaws—heb ddyfod o hyd i holl gyssylltiadau y gwirionedd. Ac ni chyfrifir un wybodaeth ond gwybodaeth am yr egwyddorion a'r cyssylltiadau yn deilwng o'r enw. Heb law hyny, y mae gan y rhai sydd yn condemnio cyfundrefnau duwinyddol ryw gyfundrefn o'u heiddo eu hunain. Gan fod y duedd hon yn dwyn perthynas mor agos â natur y meddwl dynol, nid yw yn rhyfedd fod ceisiadau i ffurfio cyfundrefnau duwinyddol wedi ymddangos yn yr eglwys yn bur fore. Pa beth oedd credoau y canrifoedd cyntaf ond hyn? Yr ydoedd yr addysg a roddid i'r dosbarth ieuangaf—i'r *catechumens*—o'r un nodwedd.

Maes y duwinydd ydyw y Beibl. Felly y mae yn briodol i ni wneuthur rhai sylwadau pellach ar berthynas duwinyddiaeth â'r Beibl. Y mae holl ddarllenwyr yr Ysgrythyrau yn gwybod nad yw y gwirioneddau a ddadguddir ynddynt wedi cael eu traddodi mewn ffurf o gyfundrefn. Nid ydynt wedi cael eu cyfleu yn ol eu perthynas â'u gilydd, a'u cyssylltiad â rhyw egwyddorion mawrion cyffredinol; ond i'r gwrthwyneb, y maent yn gorwedd yn wasgaredig trwy yr holl Ysgrythyrau, yn yr amrywiaeth mwyaf. Pa unoliaeth bynag a ellir ei olrhain ynddynt, nid yw yn unoliaeth tebyg i unoliaeth cyffesion ffydd neu gorff o dduwinyddiaeth.

Fe roddwyd yr oraclau bywiol i ddynion "mewn amryw ranau, ac mewn amryw ffyrdd." Yr oedd dadblygiad y gwirionedd yn raddol; chwanegwyd rhan gan y naill, a rhan gan y llall; ac felly, cymmerodd y dadguddiad oesoedd lawer i'w gwblhau. Cafodd y rhanau hanesiol, athrawiaethol, profiadol, a phrophwydol, eu cyhoeddi mewn gwahanol oesoedd a lleoedd, a chan wahanol bersonau; a'r un modd yr oeddynt yn amrywio yn achlysuron ac amcanion eu cyfansoddiad. Ond y mae yr amrywiaeth yma yn ffurfio un cyfanwaith; y mae y casgliad o'r holl Ysgrythyrau yn gwneud i fyny ddadguddiad cyflawn o athrawiaeth a dyledswydd. Ac y mae manteision mawrion, fel yr awgrymwyd eisoes, yn deilliaw oddi wrth y ffurf a gymmerodd y dadguddiad dwyfol i'w hysbysu ei hun i ddynion. Pe buasai y Beibl wedi ei ysgrifenu mewn ffurf o gyfundrefn—pob pwnc wedi ei drefnu yn rheolaidd yn ei gyssylltiad â phynciau ereill—buasai gan bob darllenydd ei hoff ranau o'r Beibl, a buasai y naill ran yn cael ei astudio ar draul esgeuluso rhanau ereill. Y mae gormod o'r duedd hon gyda dosbarth o ddarllenwyr, er nad oes yn ffurf y Beibl ddim i'w chefnogi; ond buasai yn llawer cryfach pe buasai wedi ei drefnu ar ffurf cyfundrefn. Yn y dull y mae y dadguddiad wedi ei roddi, y mae yn angenrheidiol astudio y llyfr yn gyfan; nis gellir olrhain perthynas y gwahanol ranau heb dalu sylw i'r rhanau oll. Ond heb law y fantais hon, gellir nodi manteision ereill llawer mwy pwysig. Y mae egwyddorion mawrion dadguddiad yn cael eu harddangos mewn ymarferiad trwy eu cyssylltu â phersonau; ac yn y dull yma, yr ydym yn eu gweled yn y wedd fwyaf dyddorol ac adeiladol; nid gwirionedd yn unig—nid gwirionedd arddansoddol a gyflwynir ger bron ein deall; ond gwirionedd yn ei berthynas â'r holl ddyn, ac yn ymgyssylltu â materion pwysicaf dynion fel ninnau. Y mae egwyddorion anweledig yn cael eu portreadu mewn esamplau byw. "Y mae yn ddiammheu fod doethineb ddwyfol yn bwriadu ein cadw oddi wrth berygl nas gallasai doethineb ddynol ei ragweled, sef y perygl o gydsynio yn farwaidd âg a dysgu i'n cof "ffurf yr ymadroddion iachus," yr hyn, mewn ychydig amser, a ddaethai yn ddim amgen na ffurf o eiriau, yn cael eu derbyn gyda pharch goddefol, a'u cadw yn fanwl yn y meddwl, gan gadw allan o'r meddwl bob ammheuaeth, ond heb ei dueddu i ymchwiliad gofalus, na gwneuthur un argraff fywiog ar y galon. Yr adeg ag y mae y meddwl yn cael ei gadw ar ei lawn waith gan yr ymchwiliad dyfal, y sylwadaeth wyliadwrus, yr ymresymiad gofalus ag y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi bod iddynt trwy eu dull dygwyddiadol ac amrywiol o drosglwyddo y gwirionedd—yr adeg yma yn unig y mae y teimladau a'r rhan foesol o'n natur yn cael eu cadw mor effro fel ag i dderbyn yr argraff briodol o'r dadguddiad dwyfol. Y mae yn wir fod chwilio yr Ysgrythyrau yn ddiwyd yn fwy blinderus nag appelio at ffurfiau y cyfundrefnau dynol. Ond y mae Duw wedi ordeinio fod i hyny ddwyn i'r Cristion ei wobr ei hun. Caiff y gofal, yr ymroddiad, a'r myfyrdod amyneddus, sydd yn ofynol yn y neb a ymofyno am y gwirionedd allan o'r ffynnonell, eu had-dalu trwy i'r gwirionedd gael ei argraffu ar ei galon yn gystal ag ar ei ddeall. Gwneir ef nid yn unig yn dduwinydd iachus, ond yr hyn sydd yn llawer mwy—yn wir Gristion, ac yn ddyn da, yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu."—[*Whately's Errors of Romanism*, td. 217].

Ond er nad yw y dadguddiad sydd yn y Beibl wedi ei drefnu mewn ffurf o gyfundrefn, eto nid yw yn canlyn nad oes ynddo gyfundrefn. Fel y mae defnyddiau cyfundrefn mewn natur, felly hefyd y mae yn yr Ysgrythyrau. Nid yw y llysiau, y mwnau, a'r anifeiliaid yn nheyrnas natur, yn ymrestru o honynt eu hunain ger ein bron mewn dosbeirth o lwythau, mathau, ac amrywiaethau. Y mae y gwahanol ddosbeirth yn ymddangos yn gymmysg â'u gilydd, heb un drefn; eto, yn nghanol yr annhrefn yma, y mae y drefn berffeithiaf yn teyrnasu. Y mae cydweddiad rhwng yr Ysgrythyrau â natur yn y peth hwn. Y mae y llysiau, a'r anifeiliaid, a'r mwnau oll, am fod trefn yn bod yn eu mysg, wedi cael eu dosbarthu i'w gwahanol lwythau a mathau; ac y mae y cyfryw ddosbarthiad yn achosi y manteision mwyaf i efrydydd anian; a byddai yn anhawdd iddo fyned yn mlaen un cam yn ei ymchwiliadau heb wneuthur hyny. Y gwaith cyntaf sydd ganddo ydyw rhestru y

Digitized by Google

**ar wahân** oddi wrth ffurfiau o ymadroddi wedi eu benthyca oddi wrth gyfundrefnau ac athroniaeth ddynol. Y mae llawer o sylw wedi cael ei dalu yn y blynyddoedd diweddar i hyn yn yr Almaen. Y canlyniad ydyw, fod gwahanol lyfrau y Beibl wedi eu hefrydu yn fwy trwyadl; neillduolion y gwahanol awdwyr wedi cael eu nodi; y gwahaniaethau a'r tebygolrwydd a ganfyddir yn eu dulliau o feddwl ac ymadroddi yn cael eu cymharu â'u gilydd; ac felly, sylfaen yn cael ei gosod i wybodaeth eangach a chyfoethocach o air Duw.

Y gangen gyntaf mewn trefn o dduwinyddiaeth Ysgrythyrol yw hon, er mai yn ddiweddar y daeth i gael ei hystyried yn gangen wahanol, a llyfrau yn cael eu cyhoeddi dan enwau anadnabyddus yn y wlad hon, megys *Duwinyddiaeth Feiblaidd y Testament Newydd* (gan Schmid); *Athrawiaethau y Testament Newydd* (gan Lutterbeck); *Duwinyddiaeth y Testament Newydd* (gan Hahn): yn gyffelyb am wahanol ysgrifenwyr, megys Paul, Pedr, Ioan, &c., fel y ceir anghreifftiau yn Neander [*The Planting of the Christian Churches*]. Y mae y gangen hon o dduwinyddiaeth yn cymmeryd i ystyriaeth hefyd y cynnydd graddol a gymmerodd le yn y dadguddiad a roddes Duw i ddynion o'r dechreu, hyd amser yr apostolion. *Hanes y Prynedigaeth*, gan y President Edwards, ydyw y gwaith tebycaf yn Saesoneg i'r wedd yma ar dduwinyddiaeth Feiblaidd.

Ond wrth dduwinyddiaeth, yn yr ystyr cyffredin, ac fel gwyddoniaeth, y deallir cyfundrefn o dduwinyddiaeth, neu dduwinyddiaeth gyfundrefnol neu athrawiaethol (*systematic theology*, neu *dogmatic theology*, neu *dogmatics*). Yn yr ystyr hwn, Pa beth yw gorchwyl y duwinydd? Yn gyntaf oll, boddloni ei hun am ddilysrwydd ac awdurdod y *Beibl*; yr hyn a gynnwys ymchwiliad i natur *dadguddiad, gwyrthiau, ysbrydoliaeth*, a *chanon yr Ysgrythyrau*. Wedi cael boddlonrwydd i'w feddwl mai dadguddiad Duw am dano ei hun, ac am ddarpariaeth ei ras ar gyfer pechaduriaid, sydd yn y Beibl, yna y mae yn teimlo yn dawel fod perffaith gydgordiad rhwng y dadguddiad a gynnwysir yn llyfr natur a'r hyn a gynnwysir yn yr Ysgrythyrau; fod yr holl Ysgrythyr yn gysson â hi ei hun; a bod ei holl ranau, o'u deongli yn gywir, o ogyfuwch awdurdod. Ei orchwyl nesaf ydyw ymgeisio, mewn ysbryd gonest a diwyd, a thrwy ddysgwyliad am oleuni yr Ysbryd Glân, i ffurfio yn un gyfundrefn gysson â hi ei hun yr holl wirioneddau y mae yn eu cael wedi eu dadguddio am Dduw a phethau dwyfol. A chan fod maes ei ymchwiliad wedi ei roddi iddo yn y Beibl, y mae yn amlwg mai nid dyfeisio cyfundrefn o wirioneddau ydyw ei orchwyl, ond chwilio i gynnwysiad y dadguddiad sydd wedi ei roddi iddo. Y mae tystiolaethau y Beibl iddo ef yn gyffelyb i ffeithiau yn maes natur i'r gwyddonydd naturiol. Yn wir, ffeithiau gan mwyaf ydyw cynnwysiad yr Ysgrythyrau—hanes y ffaith fawr o brynedigaeth, yn nghyd â'r ffeithiau cydberthynasol. Yn awr, y mae y gwahaniaeth mawr rhwng y wyddoniaeth gyssegredig hon a phob gwyddoniaeth arall yn gynnwysedig yn ei *chynnwysiad*, sef y gwirioneddau a'r ffeithiau a ddysgir ganddi. Y mae ymchwiliadau ac ymresymiadau y meddwl, wrth gyfleu a threfnu y gwirioneddau hyn i un gyfundrefn gysson, yr un yn y wyddoniaeth hon ag mewn gwyddonau ereill.

Gorchwyl cyntaf y gwyddonydd, mewn unrhyw gylch o efrydiaeth, ydyw gwneyd ei hun yn berffaith gydnabyddus â'r ffeithiau sydd yn perthyn i faes ei ymchwiliad; casglu ffeithiau cyffelyb at eu gilydd, gan ofalu ar un llaw nad ydyw yn derbyn dim fel ffaith sydd heb fod felly; ac ar y llaw arall, nad yw yn gadael allan un ffaith sydd angenrheidiol i'w chymmeryd i mewn yn y casgliad cyffredinol oddi wrth y cwbl. Gan mai ar y ffeithiau y mae y casgliadau neu y gosodiadau cyffredinol yn seiliedig, nis gellir bod yn sicr o'u cywirdeb ond i'r graddau y byddo pob gofal wedi ei gymmeryd, a phob rheol gymhwysiadwy at yr amgylchiad yn cael cydymffurfiad â hi wrth gasglu a chywiro pob ffeithiau perthynol i'r achos. Ennillodd Bacon ei enwogrwydd fel tad gwyddoniaeth brawfiadol (*inductive* neu *experimental philosophy*), trwy osod i lawr ac egluro y rheolau angenrheidiol i ddwyn y gweithrediadau uchod yn mlaen; ac y mae athronwyr diweddar, megys Syr J. Herschel, Whewell, a J. S. Mill, wedi egluro yn fwy manwl, ac wedi chwanegu at y rheolau hyn.

Mewn duwinyddiaeth, y ffeithiau ydynt dystiolaethau y Beibl; ac y mae yn angenrheidiol yn gyntaf oll i gasglu y cyfan a geir yn y Beibl ar y mater dan sylw, a thrwy esboniadaeth gywir a thrwyadl chwilio i mewn i ystyr priodol pob adran berthynol i'r mater, a hyny yn y cyssylltiad yn mha un y saif. Dylai y duwinydd chwilio i mewn i ystyr cyntefig a gwreiddiol pob adnod a ddefnyddir ganddo yn brawf, ac nid cymmeryd ei lywodraethu gan debygolrwydd geiriau yn unig, heb ymofyn i wir ystyr yr ymadroddion dan sylw. Y mae graddau uchel o gariad at y gwirionedd, ac o onestrwydd penderfynol, yn angenrheidiol yn y duwinydd i ymwrthod âg adnodau nad ydynt mewn gwirionedd, er mewn ymddangosiad, yn profi ei bwnc. Mewn gwyddoniaeth naturiol, rhoddir pwys mawr ar yr hyn a eilw Bacon yn ymwrthodiad âg anghreifftiau (*the rejection of instances*), os na byddant yn meddu yr ansawdd neu briodoledd sydd yn perthyn i'r dosbarth o ffeithiau dan sylw. Yr hyn sydd yn cyfateb mewn duwinyddiaeth i'r ymchwiliad trwyadl a diduedd i ffeithiau natur, cyn rhoddi derbyniad iddynt fel y cyfryw, ydyw esboniadaeth fanwl a deallus.

Ar ol casglu, a phrofi, a didoli y ffeithiau oddi wrth bob peth annberthynasol, y gorchwyl nesaf gan y gwyddonydd ydyw gwneuthur dosbarthiad o honynt yn unol â rhyw nodau neillduol sydd yn perthyn iddynt oll yn gyffredin. Yr amcan mewn golwg ydyw cael allan yr egwyddor gyffredinol sydd yn perthyn i'r holl ffeithiau yn mhob dosbarth, a'r hon sydd yn esboniad ar ffeithiau y dosbarth hwnw, y naill fel y llall.

Mewn trefn i hyn, y mae yn perthyn i wyddoniaeth ddwy ffordd o ymresymu. Y gyntaf ydyw, trwy esgyn oddi wrth ffeithiau unigol at osodiadau uwch, ac uwch drachefn, nes cyrhaedd y gwirioneddau eangaf adnabyddus i ddyn. Yr ail ydyw, trwy ddechreu gyda'r gosodiadau uchaf, ac ymresymu i lawr hyd at yr elfenau neillduol sydd yn cyfansoddi y gwirioneddau cyffredinol. Y mae yr ymresymiad esgyniadol bob amser yn blaenori, ac yn angenrheidiol mewn trefn i'r disgyniadol. Mewn natur, yr unigol, y neillduol, y ffaith, sydd yn ymgynnyg yn gyntaf i sylw dyn; a'r ysgol ar hyd pa un y mae yn ymgodi at y cyffredinol ydyw yr ymresymiad esgyniadol (*inductive reasoning*); ond wedi cyrhaedd un o'r gwirioneddau cyffredinol hyn, fe ddichon, trwy yr ymresymiad disgyniadol (*deductive reasoning*)

Digitized by Google

ymosodiadau allanol a llygriadau tu fewnol, a ffurfio deffiniadau manwl o honynt i gyfarfod yr ymosodiodau hyn, a gwneuthur hyny am bob gwirionedd hanfodol a berthynai iddi; y pryd hyny yn unig y mae hi yn cymmeryd adolygiad cyffredinol ar ei holl diriogaeth. Y mae yn hawdd canfod oddi wrth y cyfundrefnau a gyfansoddwyd gyntaf, megys cyfundrefnau yr Ysgolorwyr (*Scholastics*), eu bod wedi tarddu o dduwinyddiaeth ddadleuol (*polemical*), ac nid o dduwinyddiaeth esboniadol. Gellir deall hyn yn ngoleu yr anghraifft a roddwyd i egluro y gwahaniaeth rhwng ymresymiad esgyniadol a disgyniadol. Y mae y cyntaf yn edrych dros amrywiaeth a chyflawnder yr Ysgrythyrau, ac yn casglu at eu gilydd y cwbl sydd yn perthyn i'r un mater, gan esgyn o ris i ris nes cyrhaedd un gosodiad cyffredinol, neu un athrawiaeth a gynnwys yr holl elfenau a dderbyniwyd o law esboniadaeth fanwl a diduedd. Cyfundrefn wedi ei ffurfio yn y modd hwn yn unig ydyw cyfundrefn yn seiliedig ar dduwinyddiaeth esboniadol. Dechreu y mae cyfundrefn fel hon gyda *lluaws* tystiolaethau y Beibl, a dybenu mewn *un* athrawiaeth sydd yn eu cynnwys oll. Ond i'r gwrthwyneb y mae y dull disgyniadol—yn dechreu mewn *un* gosodiad, ac yn dyfod i lawr at *wahanol* elfenau cyfansoddiadol y gosodiad hwnw. Cesglir oddi wrth y gosodiad am Dduw a'i lywodraeth, brif elfenau meichnïaeth y Cyfryngwr; neu, i newid yr anghraifft, y mae President Edwards yn ymresymu oddi wrth egwyddor athronyddol—angenrheidrwydd yw y gair—at neillduolion Calviniaeth fel cyfundrefn; neu y mae Leibnitz, a Dr. Edward Williams ar ei ol, yn ymresymu oddi wrth yr hyn a alwant yn anmherffeithrwydd hanfodol y creadur, at hanfodiad pechod a'i ganlyniadau. Y mae y dull hwn yn rhagdybied llawer o ddadleuon, heb pa rai nid mor hawdd fuasai cael un drychfeddwl toreithiog a gynnwysai gymmaint. Felly, pan y mae cyfundrefn yn dechreu gydag un gosodiad cynnwysfawr, ac yn ymresymu i lawr oddi wrtho at ei gasgliadau eithaf, y tebygolrwydd, a bron y sicrwydd ydyw, mai o ddadleuon blaenorol y tarddodd y cyfryw.

Ni wnaeth duwinyddion mawr y canrifoedd cyntaf, megys Origen, Athanasius, Gregory o Nyssa, Chrysostom, ac Awstin, nemawr mewn ffordd o ysgrifenu cyfundrefn. Yr oedd eu holl nerth hwy yn cael ei godi allan i amddiffyn y gwirionedd. Eto, ysgrifenodd Awstin yr hyn a ystyrir fel y gyfundrefn gyntaf o dduwinyddiaeth, dan yr enw *De vera Religione* (Am Wir Grefydd), ond yn fwy cyflawn dan yr enw *Enchiridion* (Llawlyfr). Y mae Awstin yn dechreu gyda chrefydd yn yr enaid, fel egwyddor ei gyfundrefn, ac yn rhanu y gwaith i dri phen—ffydd, gobaith, a chariad; ac yn gweithio allan ei gynllun yn unol â hyn. Ond eto, o'r dechreu, y mae yn awgrymu mai y gwirionedd gwrthddrychol sydd yn ganolbwynt undeb y gyfundrefn ydyw *Person Crist.*

Prif dduwinyddion y canoloesoedd, neu yr Ysgolorwyr, fel y gelwir hwynt, oeddynt John Scotus Erigena, Anselm, Abelard, Peter Lombard, Thomas Aquinas, &c.; ac yn eu mysg hwy yr ysgrifenwyd y cyfundrefnau duwinyddol cyntaf gyda manylrwydd athronyddol. Fel y sylwa Guizot yn ei ddarlithiau, hanfodai y pryd hwnw ddau ddull o feddwl—y traddodiadol a'r athronyddol; neu, mewn geiriau ereill, yr ymarferol (*practical*), a'r damcaniadol (*speculative*): ac yr oedd y ddwy duedd hon i'w canfod yn eu duwinyddion. Ar un llaw, fe geir amddiffynwyr yr eglwys—y rhai a gymmerent yn ganiataol fod rhyw egwyddorion yn y Beibl, ond eu bod wedi eu hegluro a'u cadarnhau yn ysgrifeniadau y doctoriaid Lladinaidd, ac yn enwedig yn Awstin, eu prif awdurdod duwinyddol. Ac os aflonyddid hwy gan ddadleuon, teimlent eu hunain yn berffaith ddiogel wrth bwyso ar benderfyniadau y cynghorfäau. Ar y llaw arall, ni gawn Scotus (Gwyddel), yn galw pob gwirionedd a phob athrawiaeth o flaen mainc rheswm, ac yn dybenu mewn Olldduwiaeth addefedig. Ei waith mawr ar dduwinyddiaeth athronyddol, a elwir *De Divisionæ Naturæ*; yr hwn sydd yn rhagori ar holl gyfansoddiadau cyffelyb y canoloesoedd, ac ar gyfrif yr hwn yr ystyrid ef gan rai yn dad duwinyddiaeth yn ystyr priodol (gwyddorol) y gair. Ei amcan ydyw arwain ei ddysgybl (*discipulus*) i holl ddirgeledigaethau *bod*, ac i holl ryfeddodau y greadigaeth. Bydd yn ddigon gan y darllenydd gael ei raniad dechreuol. Y mae bod yn rhanedig i bedwar math o fodau. Y cyntaf ydyw, yr hwn sydd yn creu heb fod yn grëedig. Yr ail yw, yr hwn sydd yn grëedig ac yn creu. Y trydydd, yr hwn sydd yn grëedig, ond nad ydyw yn creu (y gwrthgyferbyniol i'r cyntaf). Y pedwerydd, yr hwn nid yw yn grëedig nac yn creu (y gwrthgyferbyniol i'r ail). Oddi wrth osodiadau sylfaenol fel y rhai hyn, i ba le nad allai wneyd ei ffordd dan arweiniad rhesymeg yn unig? Y mae Anselm yn cymmeryd i fyny y lle canol, ac yn ceisio cyssoni a chymmodi hawliau yr eglwys â rheswm. Amcanai uno ffydd ac athroniaeth; eto nid am fod ffydd yn annigonol heb wybodaeth, ond am fod gwybodaeth yn meddwl y dyn myfyrgar yn ffrwyth ffydd. Y mae ei brawf o'r bod o Dduw—"y drychfeddwl o Dduw yn meddwl dyn ydyw y prawf anatebadwy o'i fod;" yr hwn sydd yn parhau yn destyn dadl, ac a bery,[1]—a hefyd ei esboniad ar yr Iawn, yn dangos mai ymdrech ei feddwl oedd i ddyrchafu gwybodaeth athronyddol o wirioneddau crefydd. Fe allai i Lombard, trwy y gwaith a elwir *Y Pedwar Llyfr o Ymadroddion* (*Sentences*) [*Sententiarum*, cyf. iv.], ddyfod i gymmaint o fri yn y ddeuddegfed ganrif, a'r un ganlynol, a neb o dduwinyddion yr oesoedd hyny. Daeth ei lyfr i gael ei dderbyn fel llawlyfr ar dduwinyddiaeth. Rhaniadau ei lyfr ydynt, am Dduw, y greadigaeth, prynedigaeth, y sacramentau a byd tragwyddol. Ond Aquinas,

[1] "It may appear at first singular, that the thought which suggested itself to the mind of a monk at Bec should still be the problem of metaphysical theology; and theology must, when followed out, become metaphysical, and metaphysics must become theological. This same thought seems, with no knowledge of its mediæval origin, to have forced itself on Descartes, was reasserted by Leibnitz, if not rejected was thought insufficient by Kant, revived in another form by Schelling and by Hegel, latterly has been discussed with singular fulness and ingenuity by M. de Rémusat. Yet will it less surprise the more reflective, who cannot but perceive how soon and how inevitably the mind arrives at the verge of human thought; how it cannot but encounter this same question, which in another form divided, in either avowed or unconscious antagonism, Plato and Aristotle, Anselm and his opponents (for opponents he had of no common subtlety), Leibnitz and Locke; which Kant failed to reconcile; which his followers have perhaps bewildered by a new and intricate phraseology more than elucidated; which modern eclecticism harmonises rather in seeming than in reality; the question of questions; our primary, elemental—it may be innate or instinctive, or acquired and traditional—idea, conception, notion, conviction of God, of the Immaterial, the Eternal, the Infinite."—*Milman's History of Latin Christianity.*

Digitized by Google

fel y mae yn amlwg oddi wrth ei *Summa Theologia*—prif gorff o dduwinyddiaeth y canoloesoedd —a'i Esboniad ar Ymadroddion (*Sentences*) Peter Lombard, oedd tywysog duwinyddion ac Ysgolorwyr yr oesoedd hyny. Y mae y rhan gyntaf o'i *Summa* yn cynnwys bodeg (*ontology*); yr ail, Cristionogaeth ymarferol; y trydydd, athrawiaethau Crist, a'r berthynas eglwysig. Y dull o ymresymu sydd yn rhedeg trwy holl weithiau duwinyddol yr Ysgolorwyr ydyw dechreu gyda y gosodiadau eangaf am fod yn gyffredinol, gan ddefnyddio rhaniadau ac adraniadau rhesymeg ac athroniaeth, a dybenu trwy osod i fynu eu casgliadau eu hunain, yn lle ffeithiau gair Duw; —mewn gair, cymhwyso ymresymiad mesuronol at wirioneddau moesol a ffeithiau hanesyddol.

Y cyfnod nesaf mewn duwinyddiaeth gyfundrefnol ydyw cyfnod y Diwygiad, a phrif dduwinyddion y Diwygiad ydynt Luther, Zuinglius, Calvin, a Melancthon. Mor hollol yr ydoedd Luther wedi ymwrthod â holl gyfundrefn ac ymresymiadau yr Ysgolwyr, sydd amlwg oddi wrth ei ddrychfeddwl syml ef am drefn yr efengyl. Yn y lle cyntaf, athrawiaeth ffydd ydyw, yn gynnwysedig o ddwy ran—pechod a gras; ac yn ail, athrawiaeth cariad; yn cynnwys, ar un llaw, wasanaeth; ac ar y llall, amynedd. Y mae yn rhoddi dyrnod ar ol dyrnod ar lyffetheiriau Ysgoloriaeth, ac yn ymgolli fwy fwy yn nyfnderoedd yr Epistol at y Rhufeiniaid. Ymryddhaodd Zuinglius yn fwy llwyr oddi wrth ormes y Babaeth yn ei thraddodiadau a'i duwinyddiaeth. Y mae y lle a roddir gan y Diwygwyr i'r Ysgrythyrau, o angenrheidrwydd, yn myned dan sylfaeni cyfundrefnau blaenorol. Y maent yn gwrthwynebu y Babaeth, nid yn unig am ei bod yn groes i air Duw, ond hefyd am ei bod yn gosod rheswm uwch law y gair. Y mae Zwingli yn gyflawnach o ddefnyddiau ar hyn, fe allai, nag un o'r Diwygwyr ereill. Y seiliau ar ba rai y mae y Diwygwyr yn derbyn yr Ysgrythyrau fel gwirionedd anffaeledig ydyw, nid ar yr hyn a elwir yn gyffredin "tir y prawfion" (*the ground of the evidences*); hyny yw, y prawfion allanol, ond am eu bod yn canfod ac yn teimlo mai gair Crist, neu yn nes, gair y cymmod trwy Grist, ydyw yr unig lwybr i bechadur gyrhaedd heddwch a sancteiddrwydd. Y cydgyfarfyddiad a'r cyfaddasrwydd sydd yn nhrefn y prynedigaeth i angen pechadur oedd sail eu crediniaeth hwy yn ngwirionedd y prynedigaeth, yn y lle cyntaf; ac yn y lle nesaf, yn ngwirionedd anffaeledig yr Ysgrythyrau fel dadguddiad dwyfol o'r prynedigaeth. Deuent trwy y gair at Grist; ac yna, trwy adnabyddiaeth o Grist, deuent i adnabyddiaeth o awdurdod y gair. Fel y sychedig yn yfed dwfr o lestr, os bydd y dwfr yn bur, yn groew, ac yn tori ei syched, y mae hyny yn ei gyfiawnhau i gasglu yn ddibetrus fod y llestr yn lân. Calvin oedd prif dduwinydd y Diwygiad yn Switzerland a Ffrainc; yn wir, fel duwinydd, y mae efe yn codi uwch law i ddiwygwyr a duwinyddion pob gwlad. Ysgrifenodd gynllun cyntaf ei Gorff o Dduwinyddiaeth (*Institutes*), yn 1535, yr hwn sydd waith, o ran sylweddolrwydd cynnwysiad, perffeithrwydd ffurf, dyfnder a threiddgarwch meddyliau, cyflawnder o ysbryd Cristionogol, a grym ei ymresymiad, nad oes ei gyffelyb yn mhlith cyfansoddiadau o'r un natur; a'r hwn sydd yn destyn syndod hyd heddyw i bawb sydd yn ei astudio yn drwyadl. Mae ei gynllun yn hynod syml, ac yn gynnwysedig mewn pedwar llyfr. Y drychfeddwl neu yr egwyddor sydd yn rhoddi unoliaeth i gyfundrefn Calvin ydyw y *Drindod;* neu yr amlygiadau o Dduw mewn creadigaeth, mewn prynedigaeth, ac yn nghymhwysiad y prynedigaeth, yn nghyd â'r moddion allanol trwy ba rai y gwneir hyny. Y mae y pedwar llyfr yn ymddosbarthu i bedwar ugain o bennodau. Y mae pob pennod yn dechreu gyda'r hyn a ddywed yr Ysgrythyr ar y mater dan sylw; yna y mae yn canlyn brawf helaeth o'r hyn sydd wedi bod mewn dadl, neu ymchwiliad a darnodiad manwl o brif elfenau yr athrawiaeth; ceir ymofyniad hefyd yn gyffredin i gymhwysiad ymarferol y gwirionedd; ac yn ddiweddaf, cymmerir i fyny y gwrthddadleuon yn ei erbyn, ac atebir hwynt bob yn un ac un. Er mwyn dangos mor hollol wrthwynebol i gyfundrefnau yr Ysgolorwyr ydyw cyfundrefn Calvin—ac nid cyfeirio at eu cynnwysiad yr ydym, ond at ysbryd a ffurf wyddonawl ei gyfundrefn—rhoddwn ychydig frawddegau o grynodeb o gynnwysiad y bennod gyntaf o gynllun cyntefig y gwaith. Dechreua gyda dysgrifiad o *ddeddf Duw*, yn yr hon y mae dyn yn gweled, megys mewn drych, yn gyntaf, perffeithrwydd Duw; ac yn ail, anmherffeithrwydd dyn. Y mae y gydwybod fel *deddf fewnol* yr ysbryd yn dwyn dyn i deimlad o'i bechadurusrwydd; y mae y ddeddf allanol ddadguddiedig yn dangos yn amlwg nad oes gan ddyn ddim gallu i gyflawnu ei gorchymynion; felly, nid oes un gobaith i bechadur ond trwy ffoi at drugaredd mewn iawn am faddeuant. Nid oes ond colledigaeth allan o Grist. Nis gall gweithredoedd o un math ddwyn heddwch i gydwybod y pechadur, am nas gallant roddi boddlonrwydd i Dduw. Nis gall pechadur ddim tuag at ei iachawdwriaeth:—mae y cyfan o Dduw. O ganlyniad, nid oes un cysur i bechadur ond sydd yn tarddu o'r *etholedigaeth* yn Nghrist; a hyny nid ar gyfrif ei deilyngdod ef, ond o drugaredd Duw yn unig. Gellir sylwi am gyfundrefn Calvin, yn ei ffurf gyflawn ac olaf, yn yr *Institutes*, nad yw y bennod am *arfaeth ac etholedigaeth* yn ymddangos cyn diwedd y llyfr [iii. 21]—am gymhwysiad yr iachawdwriaeth. Ni nodir y ffaith i ddangos mai ychydig bwys yr oedd Calvin yn ei roddi ar yr athrawiaeth hon; ond yn hytrach i ddangos gwedd ymarferol ei holl gyfundrefn, yn nghyd â'r athrawiaeth hon yn neillduol. Yr oedd y Diwygwyr yn unfrydol eu barn, nad oedd un lle canol rhwng edrych ar iachawdwriaeth fel oll o ras Duw neu o haeddiant dyn. O'r cyfeiliornad, y dichon dyn haeddu neu wneuthur rhywbeth tuag at haeddu ffafr Duw, y tarddodd holl gyfeiliornadau Pabyddiaeth. Yn awr, nid oedd Calvin yn gweled un ffordd i sicrhau y gogoniant o achubiaeth pechadur i ras ond trwy olrhain y cwbl i ewyllys benarglwyddiaethol mewn etholedigaeth. Nid oedd efe yn canfod un gwahaniaeth mewn dyweyd mai "dawn Duw yw bywyd tragwyddol," a dal etholedigaeth gras. Pa un bynag a gydsynia pawb â'r *wedd allanol* yn mha un y dysg Calvin yr athrawiaeth sydd yn cael ei hystyried fel nod gwahaniaethol y gyfundrefn a adnabyddir wrth ei enw, ai ynte y dadleua rhai ei fod ef yn dysgu *mwy* nag achubiaeth trwy ras, a mwy nag a all dyn wybod; etto, fe addef pawb uniongred ei fod yn dysgu *hanfod* gwirionedd yr efengyl yn yr athrawiaeth dan sylw. Bod rhai yn gadwedig ac ereill yn golledig sydd ffaith addefedig ar bob llaw. Yr oedd Calvin yn plygu mewn gwylder yn mhresennoldeb y ffaith ofnadwy hon, fel dirgelwch nas gallai lai na'i olrhain

Digitized by Google

yn yr eithaf i ewyllys Duw. Eto, annogai bob pechadur unigol i beidio byth âg anobeithio am achubiaeth, ond peidio ymddiried ynddo ei hun, a disgwyl am iachawdwriaeth yn unig trwy Iesu Grist.

Melanchthon, o'r diwygwyr, a ysgrifenodd y corff cyntaf o dduwinyddiaeth; ac efe, yn nesaf at Calvin, ydyw prif dduwinydd y diwygiad. Galwai ei waith wrth yr enw *Loci Communes sive Hypotyposes*, oddi wrth yr amgylchiad ei fod yn rhoddi pob mater yn ei *le* (*locus*—*τοπος*=*lle*) priodol, neu mewn pennod ar ei ben ei hun; yn enwedig yr athrawiaethau hyny oedd fwyaf mewn dadl ar y pryd—"*de justificatione, de lege et evangelio*"—am ba rai nid oedd nemawr ddim i'w gael yn ngweithiau yr Ysgolorwyr. Cynllun Melanchthon yn yr argraffiad cyntaf ydoedd yr Epistol at y Rhufeiniaid; ac o'i esboniad ar yr epistol hwn y tarddodd ei *Loci*, yr hyn sydd yn rhoddi nodwedd hollol *Feiblaidd* i'r gwaith. Nid yw Melanchthon, mwy na Chalvin, yn dechreu gydag ymchwiliad i ddirgeledigaethau y Duwdod; ond ei amcan ydyw dangos pa fodd y mae pechadur yn dyfod i fwynhâd o'r iachawdwriaeth sydd yn Nghrist; ac ar y drychfeddwl hwn y mae yn seilio ei gyfundrefn. Y mae yn dechreu trwy ddangos pa beth y mae cyfraith Duw yn ei ofyn gan ddyn. Yna, pa fodd y mae i gydwybod, sydd wedi ei deffro trwy y ddeddf, gael heddwch ar sail dda; ac y mae yr holl draethawd yn ymddadblygu yn syml a naturiol o'r meddwl hwn. Y mae dyn wrth natur yn hollol dan lywodraeth pechod, yn analluog trwy ei gyfiawnder ei hun i orchfygu ei awdurdod, i symmud ymaith ei euogrwydd, ac i roddi ufudddod perffaith i gyfraith Duw. Y mae yn canlyn, gan hyny, nad oes waredigaeth i ddyn ond trwy Grist, yr hwn a ddyoddefodd felldithion y ddeddf ac a roddes ufudd-dod perffaith i'w gorchymynion. Y mae y ddeddf a'r efengyl yn cydweithredu yn achubiaeth pechadur—y naill yn ei ddwyn i adnabod pechod, a'r llall yn symmud ymaith ei rym condemniol, a thrwy hyny ei arglwyddiaeth. Y mae y ddau yn arwain i *gyfiawnhad trwy ffydd yn unig*—yr hyn o ran ei hanfod nid yw amgen nag ymddiried ac ymorphwysiad hollol ar drugaredd Duw yn Nghrist; ac y mae hyny yn ei amlygu ei hun mewn bywyd sanctaidd.

Y mae hyn yn ddigon i ddangos mai nodwedd cyfundrefnau y Diwygiad, o ran eu ffurf fel cyfundrefnau, ydyw, eu bod yn dechreu gyda dyn yn ei angen fel pechadur, ac yn dadblygu trefn yr efengyl yn ei chymmhwysder iddo fel y cyfryw.

Yn fuan ar ol y Diwygiad, ni gawn fod y ffurf yn newid, er fod y gwirioneddau a ddysgir yn parhau yr un. Daethpwyd i deimlo mai mwy rheolaidd a threfnus fyddai dechreu cyfundrefn o dduwinyddiaeth gyda Duw a'i briodoliaethau, y Drindod, yr arfaeth ac etholedigaeth, creadigaeth, rhagluniaeth, dyn yn ei sefyllfa gyntefig, pechod a'i ganlyniadau, ac felly yn mlaen at holl athrawiaethau yr efengyl yn y drefn a dybir fwyaf naturiol. Hwn ydyw y cynllun a geir yn benaf yn nuwinyddion yr oesoedd a ddilynodd y Diwygiad; ac y mae yn ddosbarthedig, gan mwyaf, dan y pedwar pen canlynol:—I. Am Dduw (*Theology*). II. Am ddyn (*Anthropology*). III. Am Grist (*Christology*). IV. Am yr Ysbryd (*Pneumatology*).

Nid oedd i'w ddysgwyl na buasai dynion yn dechreu ymresymu yn fuan ar athrawiaethau y Beibl, a gofyn *pa ham* y maent, yn gystal a *pha beth* ydynt. I'r Diwygwyr eu hunain, ac i'r oes gyntaf o dduwinyddion ar ol y Diwygiad, yr oedd y *teimlad uniongyrchol* o'u gwirioneld yn ddigon o brawf ganddynt drostynt; a'r canlyniad oedd, nad ymboenent nemawr ddim gyda'r prawf anuniongyrchol a darddai o ymresymiad o'u plaid. Ond yn ddiweddarach, pan yr oedd bywiogrwydd y teimlad cyntefig wedi marweiddio, dechreuai duwinyddion amddiffyn gwirioneddau y Beibl trwy ddangos eu *rhesymoldeb*; yr hyn a arweiniodd yn raddol i *Ysgoloriaeth Brotestanaidd*. Mewn trefn i alw duwinyddion yn ol oddi wrth y dull ysgoloraidd ac anfuddiol yr oeddynt wedi syrthio iddo, gwnaeth Coccejus wasanaeth mawr i dduwinyddiaeth Feiblaidd, trwy alw sylw at y drefn y dadguddiodd yr Arglwydd ei feddwl a'i ewyllys, sef mewn ffurf o gyfammodau. Yr oedd hyn yn dwyn elfen hanesyddol i mewn i dduwinyddiaeth, ac yn hôni ei le priodol yn ol i'r Beibl [gwel CYFAMMODAU, HANES YR ATHRAWIAETH]. Gyda'r un bwriad y cynnygiodd Oetenger sylfaenu cyfundrefn ar y drychfeddwl o *Fywyd* [gwel DUW.]

Egwyddor sylfaenol Fuller ydyw, canolbwynt Cristionogaeth ei hun—sef yr *athrawiaeth am y groes*; a hyny am fod yr oll o Gristionogaeth naill ai yn *rhagdybied*, neu yn *cynnwys*, neu yn *tarddu o honi*. Awgrymiadau yn ei lythyrau ar *systematic divinity* ydyw y rhai hyn, yn hytrach na chynllun wedi ei weithio allan mewn cyfundrefn gyflawn. Y mae amryw o brif dduwinyddion presennol yr Almaen wedi cyfansoddi cyrff o dduwinyddiaeth yn unol â'r egwyddor hon, sef, Nitzsch, Ebrard, Martensen, Lange, a Schenkel.

'Fe allai,' medd Dr. Pye Smith, 'mai yr ysgrifeniadau duwinyddol goreu, yn nesaf at yr ysgrifeniadau sanctaidd, ydyw gweithiau Lladinaidd duwinyddion y Cyfandir ar ol y Diwygiad.....Y prif rai ydynt Calvin, Beza, Musculus, Zancheus, y ddau Spanheim, Burman, Rivot Alting, Alsted, Witsius, Turretin, Mastricht, Vitringa Lampe, Stapfer, Venema, Marck, Pictet Storr, a Knapp—yr hwn sydd yn awr yn cael ei ddwyn allan yn Gymraeg.

Rhai o brif dduwinyddion y Lutheriaid ydynt Melanchthon, Chemnitz, Gerard, Hutter, Calovius, Quenstedt, Hollaz.

Y prif dduwinyddion Arminaidd ydynt, Arminius, Episcopius, John G. Vossius, Grotius, Limborch.

Y mae llawer o dduwinyddion enwocaf Lloegr, megys Owen, Howe, Edwards, a Fuller, &c., heb ysgrifenu cyrff rheolaidd o dduwinyddiaeth. Y prif rai ydynt, Ridgley, Dr. Gill, Dwight, Hill, Leonard Wood, Dr. John Dick, Dr. Chalmers, Dr. Wardlaw, Dr. Pye Smith, Richard Watson, a'r Dr. Lewis.

DIWEDD Y DRYDEDD GYFROL.

DINBYCH, ARGRAPHWYD GAN T. GEE A'I FAB.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google